

# STORÏAU

BOBI JONES

1966-2004

Argraffiad 2015

## RHAGAIR

Diwygiad a detholiad yw'r mwyafrif o'r storïau hyn o wyth casgliad a gyhoeddwyd ar ffurf arall eisoes.

Cyhoeddwyd y cyfrolau hynny yn wreiddiol mewn dau gyfnod, y rhan gynta yn ystod y cyfnod 1966-1977 (pum cyfrol). Wedyn, cafwyd bwlch. Ac yna parhawyd mewn ail gyfnod yn ddiweddarach 1990-2004 (tair cyfrol).

Cyhoeddir y storïau hyn yn awr ar y wefan hon wedi'u diwygio a'u dethol yn llym. Ar hyn o bryd, mae Rhan I yn ymddangos i mi'n gyflawn rhwng t. 5 a'r t. 347; a Rhan II yn sefyll am y tro rhwng t. 350 a'r t. 1109.

## CYNNWYS RHAN I

1966-1977

### RHAGAIR

#### *Y Dyn na Ddaeth Adre (1966)*

Y Gêm	5
Y Dyn na Ddaeth Adre	14
Cwdyn	22

#### *Ci wrth y Drws (1968)*

Ufudd-dod	27
Anghofied fy Neheulaw	37
Ci wrth y Drws	60
Bad Achub	68
Chwilio Am Wreiddiau (Hen Deitl – I Indiaid yn Unig)	75

#### *Daw'r Pasg i Bawb (1969)*

Daw'r Pasg i Bawb	143
-------------------	-----

#### *Traed Prydferth (1973)*

Y Ffos Ola	208
Tawelwch os Gwelwch yn Dda	216
Gast	234
Traed Prydferth	241

Yno yr Eisteddasom ac Wylasom	286
Daffodiliau i Charlie	300
<i>Pwy Laddodd Miss Wales (1977)</i>	
Pleidlais – Dros Gymru y Tro Hwn	315
Bro Chwithig	329

## Y GÊM

Deuthum i'r sylweddoliad heno mai gêm yw pob stori, a'r geiriau yw'r chwaraewyr. Acw, mae'r chwaraewyr ar y cae storiol, yn cadw rheolau'r iaith, a'u geiriau nhw'n dymuno cael sbort.

Ar draeth y Borth yr oeddwn pan ddechreuais i ddod i'r casgliad diddanus hwnnw'n gwbl annisgwyl un diwrnod, wyneb yn wyneb â'r Americanwr. Yno, hefyd, y cesglais nad rhywbeth dirmygedig i lenwi amser yw diddanwch, a'i fod wedi'i amcanu'n fwya arbennig, yn wir yn gymhleth weithiau, i garthu'r ysgyfaint, a chochi'r croen, i fod yn lanhad ar lan y môr, i fod (yn fyr) yn rhyfedd o gynlluniedig.

Mae'r digwyddiadau storiol yn ein procio ni, yn cyffwrdd ac archwilio'n bodolaeth, yn arbennig y rheini dŷn nhw ddim *nac* yn pregethu *nac* yn peidio â phregethu. Fe fydda-i'n synied fod yna gyfarfod cyfeillgar neu anghyfeillgar o werthoedd wedi digwydd ar waith, ac wedi cyd-daro. Yn y marn i, methu wna storïau clwc y dwthwn hwn rywsut am eu bod wedi cydymffurfio â gwacter ystyr gormesol, ymyrrol. 'Beth mae'r rhain yn ei wneud,' dŷn ni'n ei ofyn. Pam maen nhw'n gwneud y pethau hyn oll, heb ffrwyno pentyrrau enfawr o'u 'dibwrpas'? A pham mae'r 'dim' hwnnw mor anferth o bwysig iddyn nhw? Mor fethedig yw'r 'dim oll' hwn; ac eto iddyn nhw, mor arwyddocaol! Mae gwir stori yn meddu ar ruddin.

Roedd y gŵr hwn dw i'n mynd i sôn amdano heddiw wedi dod yr holl ffordd o America Fawr i'r Borth Fach mewn gwirionedd er mwyn gwneud datganiad. Dewisodd fan ddiarffordd, bron un anhysbys, a hynny'n fwriadus. Roedd am wneud gosodiad am oferedd yr Ôl-fodern. A dewisodd felly ei wneud drwy gyfrwng coegi swrealidd.

Roedd am fawrygu strwythur Traddodiad hefyd yn erbyn y chwâl sgeptig, a hynny drwy fawrygu'n baradocsaid wrth-drefn o fewn cyd-destun trefnus. Gwyddai'i fod e mewn brwydr go groes felly; a doedd dim esgus dros bleidio'r hen-ffasiwn heb yn gynta fynd drwy dwnnel yr oes sy ohoni. Ymgais oedd i gyfarfod â'r gêm yn blwmp ac yn blaen ar ei thir ei hun.

Gwyddwn wrth y modrwyau rhyfeddol ar ei fysedd ei fod e, o raid, naill ai'n

esgob, yn sipsi, yn swyddog gorseddol neu'n Americanwr. A phan welais ei het Buffalo Bill a llydanrwydd ei gerddediad cyffredinol a chlywed ehangder ei aroglau imperialaidd, gwyddwn mai Americanwr yn wir oedd-e. Ond o'i ledol, neu o leia yng nghornel y cysgod a syrthiai dan ei gesail, fe lechai rhywbeth mab-debyg, diferyn o grwt byr tywyll, allai neb ei ddychmygu'n tyfu'n Americanwr byth; a sleifiai hwnnw hyd y llawr ar ei ôl fel petai'n gleren dan warchae pry copyn. Americanwr Junior.

Rhaid y mod i wedi gorwedd ar y traeth yn y Borth ers oesoedd cyn i'r darn hwn o America gyrraedd yno, gan dorheulo'n ddigwilydd ynghanol y tawelwch cymharol.

Dan yr haul, wnes i ddim ond agor cil un llygad – yn gwbl ddiniwed – , a'i wyllo fe (a'r crwt) yno'n ymsefydlu ar y traeth ryw ddeuddeg llath ymhellach i lawr ar y dde. Wedi iddo dynnu pob pilyn, ond ei drowsus, ymwasgarodd ar y tywod gan estyn ei goesau a'i freichiau i gymaint o gyfeiriadau ag sydd ar gael yn y rhan hon o'r byd bach, a lledu'i bapur newydd eang dros ran ucha'i gorff fel y cysgodid ei wyneb a'i gest i gyd. Anodd gweld beth a ddigwyddodd i'r crwt, ond dw i'n dyfalu iddo yntau wneud rhywbeth cyffelyb.

Deuddeg o'r gloch oedd hi'n union.

Dechreuais, yn ddisylw i'r Americanwr, ac yn gynnwl gyfiawn, gofnodi disgrifiad o'r cwbl yn y meddwl.

Ac felly y bu hi am dair awr. Dw i ddim yn gwybod a oes unrhyw arwyddocâd i'r nifer hyn o oriau. Ond welais i mohono fe (neu mohonyn nhw) yn symud ddim. Fe chwythodd dalen ucha'r papur newydd yn rhydd i lawr dros ran isa'i gorff; a bellach doedd dim ohono i'w weld ond dalennau wedi eu lledu'n ddestlus dros ei aelodau benbwygilydd; a'r unig arwyddion bywyd yno oedd yr anadlu rheolaidd yn lled-godi ac yn lled-ostwng y papur o hyd ac o hyd. Am dair awr. Deliais innau ati i fwynhau'r heulwen, a'r tawelwch cymharol.

Roedd ymyl y papur newydd ganddo yn gorffwys ar flaen bysedd ei draed, ac yn rhyw oglais-siglo o'r naill i'r llall.

Am dri o'r gloch union fe gododd ar ei eistedd ac yna ar ei draed. Cododd y crwt yntau.

Cerddodd am ddeg cam i lawr y traeth. Sylwer, deg. Trodd i'r dde a thynnu pegyn o boced ei drowsus: plygodd a'i wasgu yn y tywod. Tynnodd begyn arall o'i boced arall. Cerddodd am bum cam a gwasgu hwnnw i'r tywod. Tynnu pegyn arall, ac yna fe farciodd amlinelliad pum cylch yn cydgroesi'i gilydd yn ymyl yr ail begyn ar wyneb y traeth. Wedi gorffen y rhain, fe wasgodd hanner dwsin o begiau yn agos iawn i'w gilydd yn y cylch mwya. Yna, trodd; cerdded am ddeg llath i lawr tua'r môr ac ail-ddechrau'r broses i gyd drachefn. Roedd y crwt yn ei ddilyn o hyd, mae'n debyg, fel lleuad giwbig.

Roedd yr Americanwr wedi bod yn ddiolchgar, fel gwyddonydd amatur, am y *rhifau* a oedd mewn bywyd, nid am eu bod yn anghyffredin ond am eu bod mor gyffredin. A doedd yr un ohonyn nhw erioed wedi gofyn am gael bodoli. Lawer tro yn ei wely, liw nos, bu'n rholio rhai o'r rhifau bach hyn o gylch ei daflod, hen bethau bach diddrwg, ond mor annwyl o ddefnyddiol, mor drugarog yn y bôn. Ysgolhaig Llên Gwerin oedd.

Roeddwn innau erbyn hyn â'm dau lygad yn agored led y pen ac yn plygu ymlaen ac yn eistedd i'w wyllo.

Wedi ail-wneud yr holl broses ryw bedair gwaith yn grwn, dyma'r Americanwr yn dod yn ôl at y lle y buasai'n gorweddian ynghynt, ac yn gwisgo'i ddillad i gyd, hyd yn oed ei het gantel lydan. Y crwt hefyd. Dyma i mi wir drefn. Dyma America. Roedd e'n meddwl busnes a gwyddoniaeth: roedd yn drefnus fesuradwy ac yn real. Allasai dim o'r crafwyr-wybren a'r bêl-bâs a'r banciau bras fod wedi digwydd yn ei diriogaeth heb drefn bwrpasol o'r fath.

Dechreuodd redeg, ie, rhedeg o un pegyn i'r llall, a phob tro y byddai'n dod i ymyl y cylch fe neidiai i'r awyr ac yna droi yn ei unfan bum gwaith yn ddigon o ryfeddod. Roedd yn gwbl amhosib imi ddilyn trefn y symudiadau hyn na gwneud rhaith na rheswm ohonyn nhw. Roedd y crwt yntau'n rhedeg fel cath i gythraul ac yn neidio ac yn troi, ond roedd ei batrymau fe beth yn wahanol i rai ei dad, neu felly yr ymddangosen nhw i mi. Gêm oedd hi, ond gêm gymhleth ofnadwy mae'n rhaid. Ac roedd hi'n gofyn egni ac ymroddiad rhyfeddol. Rhedai'r Americanwr nerth ei sodlau am

hydoedd ac roedd ei wyneb yn bwddin o chwys. Fe godwyd yn chwilfrydedd i i'r entrychion.

Cenedl fabolgampus, iach odiaeth yw'r Americanwyr, o leia tan yn ddiweddar. Roedd yr adran hon o'r gêm yn dwyn yr enw 'Codi Penelin'. Clywsai'r Americanwr fod yna ymarfer cyffelyb yng Nghymru gynt, a bod rhai pobl wedi rhoi'r term 'codi pen-lin' arni yn y ddeunawfed ganrif mewn rhai ardaloedd afradlon yng Ngwent. Ond oherwydd pwysau bloneg, ymddangosai mai rhwyddach heddiw iddo fuasai gwneud cymhwysiad llai egniol. 'Rhy syml,' gwaeddai'r junior. Ac arhosodd y tad am eiliad i daro nodyn ar ddarn o bapur a ddaeth i'w law o rywle. Mewn gwirionedd, llunio llyfr o chwaraeon traddodiadol oedd nod yr Americanwr, ac roedd yn awyddus i gadw cofnod o holl nodweddion y gêm ymhob gwlad yr ymwelai â hi, gan fanylu ar bob gweithred neu amrywiad lleol neu saib. 'Mae'n rhy syml yn y fan yna,' meddai'r junior drachefn fel math o droednodyn; a doedd hi ddim yn ddigon Americanaidd. Roedd y tad yn awyddus i ddangos ei fod yn parchu barn y genhedlaeth ifanc, er mwyn ymddangos yn gyfoes.

Mewn gwirionedd, fel y gellid ei ddisgwyl, gan mai banciwr oedd yr oedolyn ei hun wrth ei grefft gartre (er nad dyna pam roedd yn awyddus i godi'i benelin) roedd yn benderfynol o fathu termau gweddus technegol ar gyfer pob datblygiad lleol yn y chwarae, ac er mwyn cydymffurfio â thrwyddedu pob gêm newydd ar Gofrestr Chwaraeon Texas. Rhif [123@Jh.5](#) oedd cofnod y gêm hon. Fe'i cofnodwyd hi hefyd o dan y gyfraith elusennau, rhif [321@1.27](#), am ei bod (yn ôl Llywodraeth y Dalaith) yn gynhorthwy i lenwi'r meddwl pryderus cyfoes â gobaith yn ystod y Gwacter Ariannol ar lawr y gyfnewidfa.

Difrifoldeb oedd hanfod yr holl drefn, wrth gwrs. Yn y pen draw, y bwriad oedd llunio cyfres o lyfrau am chwaraeon brodorol, rhai moesol ac ymarferol ar gyfer pob un o'r deg a thrigain o wledydd ledled y byd lle y cedwid garsiynau ar y pryd gan yr Unol Daleithiau. Math o ddiwydiant oedd casglu a gweithredu amryfal chwaraeon y dyddiau hyn, felly. Anrhydeddid ei chwaraewyr gan y llywodraeth. Eu pwrpas oedd cadw'r ymenyddau'n fyw ymhlith milwyr a dynghedwyd i fywyd go undonog a chyfyngedig yn y gwledydd estron (fel y bydd hen bobl yn ymarfer â chroeseiriau i fywiogi deallusrwydd yng nghyfnod eu hadfeiliad). Dymunai'r Americanwr hefyd foderneiddio'r



gêm hon yn ôl amgylchiadau'r oes, i fod yn yn fwy chwim a chan ysgwyd ei ddyrnau caeedig yn yr awyr. 'Rhy anodd,' gwaeddai'r junior, gan ei wylid yn feirniadol.

Roeddwn yn siŵr rywut fod yno batrwm 'ysbrydol' i'w gael rywle yng nghymhlethdod y symudiadau, a hwnnw'n diduedd. Ceisiwn adeiladu'r rheolau o'r tu allan ar sail yn sylwadaeth i yn hun o'r gêm. Roedd bodiau'r Americanwr mawr fel petaen nhw'n troelli'n fân ac yn fuan delynegol pan gyrhaedden nhw un man neilltuol, a theimlwn yn sicr fod y troad bach yn y fan yna'n arwyddocaol yng nghyfanrwydd y chwarae. Yn wir, mor ffyrnig y gwnâi'r tro hwnnw ambell waith nes iddo sgathru wyneb y croen o'r tu mewn i'w ddwy fawd fawr, a gallwn weld arwyddion gwaed arnyn nhw. Roedd hyn i fi yn symbol, diau. Rhaid ei fod yn diodde ychydig. A bu'n gas gen i erioed hocws-pocws diamcan o'r fath. Ond arwydd oedd hyn o'i ymrwymiad mewn ysgolheictod. Roedd ei drem yn dwyn golwg ddirifol iawn a'i aelïau wedi eu plethu fel pe bai'n crynhoi ei holl feddwl i gofio dryswch anghredadwy y chwarae. Ym mhydedw ei enaid ymysgydwai angerdd. Nid chwarae plant oedd peth fel hyn. Yn sydyn, tan ymestyn o'r gogledd i'r de, syrthiodd dros bob man ryw ymwybod o drefn lawnach.

Wrth graffu'n fwy gofalus, a cheisio cronni yn y mhen y camre a'r cyfeiriadau i gyd, fe sylwais fod dwy fodrwy aur ar fysedd traed yr Americanwr, yn deyrnged i'r merched cynta a chwaraeodd y gêm hon gynt: byddai'r golau ambell dro'n eu dala, a fflachien nhw'n hapus syffrajetaidd.

Yn ddisyfyd, clywais i fe'n gollwng rhyw och ysgafn. Ust! Wyddwn i ddim a oedd i hyn hefyd ac i'r man arbennig lle y daeth, ryw ystyr neu ran drefnol yn y cyfan, a chlustfeiniwn yn hiraethus gan lygadu'r man yn graffach nag arfer rhag ofn ei glywed yn ei ailadrodd. Ac mi wnaeth: Ust! fe ddigwyddodd eto i'r blewyn yn yr union le, ond bod y sŵn beth yn wahanol, a gallwn led adnabod sisial beth bynnag oedd, mewn iaith estron efallai. Ychydig o gamau ar ôl iddo'i ynganu, dyma fe'n siglo'i het ar ei ben mewn ffordd ryfedd ac athronyddol efallai.

Roedd *un* o'i draed wedi gwaethygu ryw faint wrth waedu, a gallwn ganfod ei fod e'n cloffi'r peth lleia; ond rhaid bod y tywod wedi cuddio'r gwaed ar y *llall* gan nadoedd dim byd i'w weld yno mwyach. Ond efallai fod colli'r mymryn lleia o waed fel

hyn yn rhan hanfodol o'r seremoni. Tybiais y gallai'i fod yn ceisio pwyo'r gwaed i mewn i'r tywod â'i draed. Fel gyda phopeth arall o'r math hwn does gan y rhai sy heb ei ddeall ddim amgyffred o werth mân bwyntiau fel hyn; a'r gwir yw bod rhai o'r tu allan yn gallu ymddwyn yn bur ddirmygus ac anwaraidd heb sylweddoli fod o bosib draddodiad hirfaith yn ymgysylltu'n gyfriniol â phethau a ystyrir ar olwg arwynebol yn ddibwrpas ac islaw sylw. Drwy gyfrinachol ffyrdd y mae'r gorffennol yn ei fynegi ei hun, ac y mae haenau o amser yn gallu gorwedd yn flêr dros gyfoeth lawer yn y dyfodol a'i drawsffurfio yn annisgwyl ond i'r sawl sy'n treiddio eisoes i'w gyfaredd. Wrth i bob canrif newid rywffaint a dwyn ei hargraff briodol ei hun ar ymddygiad dyn, fe'i coethir ac fe'i cyflenwir mewn modd y talai i bawb ei ddirnad. Fe'i symleiddir weithiau, a'i reoleiddio wedyn. Hyn, America, yw eich gobaith am gael eich cyfrif yn eich priod le ym mhanorama gwareiddiad Ewrob!

Dw i'n cofio i mi feddwl mai trueni oedd ei fod yn gwastraffu gwaed fel yna: dyna'r Cardi yno-i a'r Ffilistiad.

Gallwn ddychmygu fod yr ymroddiad aruthrol a oedd y tu ôl i ymdrechion diarbed yr Americanwr yn golygu cryn straen arno ac ar ei galon yn arbennig. Pe gofynnid i mi ddyfalu o safbwynt ei olwg yn unig, heb wybod y gwir yn hollol bid si ŵr, fe fyddwn yn bwrw amcan nad oedd yr Americanwr, er gwaetha'i gorffolaeth nerthol a'i ddibenion elusennol rhyfeddol, ddim yn gadarn i gyd, ac y gallai fod yn llai na hoenus, oblegid clefyd y galon. Ac eto, doedd e ddim yn ei arbed ei hun o gwbl. Gallwn dybied y byddai'n barod o bosib i aberthu hyd yr eithaf. Roedd wedi ymgolli fel un a safai dros achos heb gyfri'r gost, mewn modd nad yw'r cyffredin mud yn gallu'i ddilyn na'i ddynward.

Tynnais innau damaid o bapur o mhoced i geisio cofnodi am byth ei fân grwydradau, i geisio'u sianelu nhw i ffurf gadwedig bersonol, ond roedd e'n symud mor fabinogaidd ar lawn garlam igam-ogam yn awr, ac yn gwau cymaint o ddeunydd cywrain ym mrodwaith ei redeg, nes bod rhyfygu nodi hyn oll yn oferedd llwyr. Ond dw i'n credu iddo fe weld y mod i wedi cael y papur yma, a gwgodd arna-i braidd fel pe bai'n amau y mod i'n sbŵr uwchben cwlt dirgel.

Parchwn ei anfodlonrwydd. Ac eto, wrth ifi gydymdeimlo â brwdfrydedd y chwarae a dotio at ei ddyfal-barhad, roeddwn i'n cyffroi'n raddol ac yn gafaelyd yn y papur fel un na allai fe fyw hebdo. Roeddwn innau hefyd o'r tu mewn yn dechrau dawnsio a hyd yn oed ollwng ochenaid i'r awyr.

Wedi bod wrthi yn hun ers blynyddoedd ynghynt yn hel chwaraeon fel hyn, teimlwn i ers tro ei bod hi'n bryd dosbarthu priodoleddau'r egwyddor o 'gêm' fel y gallwn ddod i fwcwl, ynghylch hanfodion y fath ymarfer a'r *pwca* sydd y tu mewn iddo. Ai patrwm o symudiad oedd nad oedd yn mynd i unman, neu a oedd 'ei hanfod yn tarddu yn ei enynnau trefnus'? A oedd y gofal hollol ddiystyr, heb sylwedd, yn ddisgrifiad craff a threiddgar o'r bywyd cyfoes – seciwlariaeth heb bwrpas y tu hwnt iddi; ynteu, ai ymarfer corff unplyg a syml oedd yn unig?

Rhedodd y ddau gyfaill hyn yn ddi-stop am dri chwarter awr, sut bynnag, ac roedd hi'n amlwg fod yr Americanwr mawr wedi ymlâdd. Am bedwar o'r gloch union fe stopiodd, yn stond, a heb yngan un gair eto wrth y llall, cerddodd yn ôl i'r lle y buasai'n gorwedd. Tynnu rhai dillad. Gorwedd. Gwisgodd wedyn. Ond arhosodd yn droednoeth. Lledodd ei bapur newydd drosto unwaith eto i'w gysgodi ei hun rhag llid yr haul. Chwythodd y ddalen ucha eto i lawr dros ei forddwydydd, ei gluniau a'i goesau, a'r myyl yn rhyw oglais-siglo o naill fys ei droed i'r llall. Clywn y meddwl yn hun yn adrodd er y ngwaetha: 'bowden, gwas y fowden, libi labar...' Yn werinol fel yna.

Yn ystod yr awr wedyn fe lamodd yn chwilfrydedd i'n llyffantaidd. Roedd y cyfuniad o dawedogrwydd a dieithrwch y chwarae ynghyd â straen arallfydol yr ynni a ddefnyddiasai yn ddigon i ennyn chwilfrydedd rhywun. Roedd arna-i chwant mynd at yr Americanwr i holi rywfaint, neu o leia i holi'r crwt. Ond oedais i'n amyneddgar.

A oeddwn i wedi dod o hyd i'r 'dim' yna y bûm yn chwilio amdano ar y dechrau, y tu hwnt i ddeallolrwydd ym mwynhad trefn? Ac a fyddwn yn ddigon o ddyn ac yn meddu ar ddigon o ostyngyddrwydd i gydnabod bodolaeth rhywbeth na allwn i ddim ei reoli yn hun? A ddisgwylid i mi gydnabod a derbyn o fewn bodolaeth roddedig ei hun fod y fodolaeth honno ar gael am ddim? A oedd rhai pethau fel 'disgwyl' a 'phlygu' a 'bod' i fod yn rhyfeddodau i narostwng i fel y canai Dafydd y Salmydd am rywrai'n

chwerthin 'Aha! Aha!' am ei ben er mwyn ei waradwyddo? Yn y chwerthin hwnnw mae 'na ddifrifoli mawr. Felly yr oedd yna ddifrifoldeb yng nghoegi'r Americanwr.

Am bump o'r gloch union fe gododd yr Americanwr ar ei eistedd eto ac edrych i lawr at y môr, megis un a'i gwelsai am y tro cynta erioed. Cripiais innau y tu ôl iddo a sibrawd yn ei glust: 'Dwedwch yn garedig, Americanwr. Sut mae'r gêm gywrain a diddorol hon yn dirwyn i ben?' Edrychodd e ddim arna-i o gwbl wrth ateb, ond sibrydodd yntau: 'Dowch yma am ddeuddeg heno, ac fe gewch weld. Gêm i *ddau* chwaraewr yw, hyd yn oed os yw'r ail yn wlyedydd yn unig.' A llyfodd y gair 'dowch' yn felyslwys o gylch ei enau, – a hyd yn oed y gair 'dau.'

Es i'n ôl at y car a nghalon yn pystylad yn yn sanau. W! Sut y gallwn aros i ddatrys y tywyllwch a oedd wedi ymgynnull o nhu mewn? Eisteddais yn y car, os eistedd hefyd, a dechrau darllen er mwyn lladd amser. Eistedd gan sbïo ar frad yn wats i bob hyn a hyn rhag i hanner nos neidio ar y ngwartha'n ddiseremoni. Gobeithiwn na ddôï hi i lawio. Ond rhaid inni wynebu diymenydd-dra eithafol manylrwydd gwyddonol, er gresynu amdano, os ydyn ni'n mynd i ymgodymu â chyfrifoldeb bywyd, beth bynnag fo'r modd a gaiff y dychymyg dynol i'w fynegi.

Roedd hi'n dechrau hel gwyll bellach, ac oeri hefyd. Rhais yn llyfr i lawr, a chan nad oedd côt fawr gen i yn y car, lapiais ychydig o dudalennau o bapur newydd o nghwmpas y tu mewn i'n siaced i nghadw'n dwym. Fe gerddodd yr amser gan bwyll bach, gan–bwyll–bach; ond daeth yn bryd i fi fynd yn ôl i'r traeth dibwys anghysbell hwn yn Sir Aberteifi. Cymerais y mhapur newydd gyda fi. Daeth yr Americanwr o rywle wn i ddim o b'le, ac roedd papur newydd ganddo yntau hefyd (ar gyfer dyddiad y diwrnod wedyn). Roedd hi'n rhy dywyll i sylwi a oedd yna grwt gydag e neu beidio. Wedi cyrraedd yr un lle ag y buasai yn ystod y dydd, tynnodd y tad rai o'i ddillad a gorwedd ar y llawr. Gwneuthum innau yr un ffunud. Roedd yr awyr yn beryglus o oer a'r traeth dan y nghroen tyner yn ysu o oerfel; ond roedd tonnau'r môr yn curo dwylo. Trefnodd e'r papur newydd dros ei wyneb a'i gest. Gwneuthum innau'r un modd. Roeddwn i'n crynu, yn siglo oherwydd gafael yr oerfel. Ofnwn yn y nghalon y byddwn i'n cael llid yr ysgyfaint neu ryw salwch cyfartal oherwydd y lol yma i gyd, a chodais gornel y mhapur i weld sut roedd yr Americanwr yn dygymod â'r sefyllfa. Doedd dim

symudiad i'w weld ganddo fe yn un man heblaw codi a gostwng ei anadlu. Chwythasai dalen ucha'r papur i lawr dros ei goesau drachefn. Dw i ddim yn gwybod beth ddywedai mam amdanon ni'n gorwedd yn y fan honno fel hynny ganol nos, yn enwedig ar ôl iddi ddechrau briwlan.

Canol nos. Gyda *thair* awr arall o grynu gwlyb o'n blaen.

Symudais i mhapur yn hun yn dawel a llithro allan oddi tano mor ddisylw ag y gallwn. Ar flaenau nhraed, fel amrannau'n cerdded dros lygaid, cemais i fyny dros y traeth ac yn ôl at y nghar yn ddistaw ddistaw. Gollyngais y brêc a dechreuais wthio'r car ar hyd yr heol – stopio ychydig i symud dwy garreg fawr – yna ymlaen nes y mod i'n credu y mod y tu hwnt i'w glyw yn lân. Wedyn i ffwrdd â fi adre – mewn ofn – drwy berfedd y noson oer. (O! Anffyddlondeb, gair wyt ti sy'n rhy hir i'w gofio.)

Tebyg gen i fod yr Americanwr wedi aros yn y fan honno dan y papur tan dri o'r gloch y bore yn union, – tan dri o'r gloch, meddyliwch – heb syflyd ddim, a heb fod yn rhy symbolaidd. Bu'n aros i ymroddi i'w ddawns neu i'w gêm neu i beth bynnag oedd, cyn darganfod y mod i wedi ei fradychu fe. Os felly, derbynied hyn o ymddiheurad annheilwng, ac o deyrnged fechan ond didwyll i'w genedl fawr ac i'w garedigrwydd personol e tuag at un Cymro bach digon chwilfrydig. A chyfaddefiad hefyd: y bydda-i yn y Borth ambell waith, yn yr union fan ag y buasai fe, yn ceisio ail-greu mewn modd digon sentimental a blêr fe ddichon, ac yn sicr yn hiraethus, ddirgelwch anniffiniol y noson honno – o ddawns a gwên, o drefn y tu hwnt i symleiddio meidrol, ac o barodrwydd felly i sylweddololi dŷn ni ddim yn gwybod bob amser yr ateb slic i bopeth wrth ei gyfyngu i wyddor naturiolaidd beirniadaeth lenyddol.

Fe'ch clywa-i chi'n gwrthdystio, 'beth sy o'i le ar wyddor naturiolaidd?'

Ac ateba-i chi: 'os dych chi'n mawrygu gwyddor naturiolaidd, a hynny mewn ffordd mor anhunanfeiriadol, mae hynny'n brawf perffaith na wyddoch chi ddim mor anghyfan a gor-ragdybiol yw gwyddoniaeth ei hun heb ei rhoi hi mewn persbectif goruwchnaturiol.'

## Y DYN NA DDAETH ADRE

Roedd Siôn ar y ffordd adre, ond bu bron iddo golli'r trê. Rhuthrodd i blatfform 6 ym mhrif orsaf Caerdydd, a chydio'n ddiniwed yn y drws cynta gyferbyn â phen y grisiau. Caeodd hwnnw'n glep tu ôl iddo, a suddodd yn bwdin ar y sedd.

Pan oedd yn iau, byddai rhyw gwrs bach o redeg fel yna yn gyffro i'w waed. Ond bellach, ac yntau wedi cyrraedd yr ochr firain i'r deugain oed, yr oedd yn benllanw i'w galon ac yn gur i'w ben. Roedd e'n dwll o chwys. Edrychodd braidd yn finiog ar y fenyw a oedd yn gwau'n llyfn ddigyffro ar y sedd gornel gyferbyn ag e: cododd hithau ei phen yn ddifater, yna ymlaen â'i gwau. Yn ddestlus sych.

A dyna'r dull a fynnodd Rhagluniaeth. Roedd byd Siôn wedi stopio.

Hen lanc oedd Siôn, creadur afradlon o swil. Fe fuasai fe bellach yn reit fodlon cyfadde mai balchder diesgus oedd y swildod yma, nodwedd a ddatblygasai rhag ofn i bobl gilchwerthin am ei ben. Erbyn hyn, sut bynnag, cylchynodd y balchder hwn amdano'n dynn a'i wahanu oddi wrth bobl eraill. Roedd wedi mynd yn gasglwr swildod.

Heddiw roedd e wedi bwrw diwrnod rhydd yng Nghaerdydd, wedi prynu crys, ac wedi ymweld â Pharc y Rhath yn y prynhawn, a'r sinema gyda'r nos. Nawr, roedd e ar ei ffordd fach adre i Abertawe, yn ôl, o leia, i'w fflat unig yn 125B Trem Geol – bloc enfawr o fflatiau modern, heb fod ymhell, fel y awgryma'r enw, o garchar y dre.

Menyw tua deugain namyn tair oed oedd ei gyd-deithydd. Hen ferch oedd Siân hithau, un a oedd wedi breuddwydio breuddwydion. Ni wn pa gyfuniad o Owain ab Urien a Richard Burton, Saunders Lewis a Dafydd ap Gwilym oedd yr union gynllun yr oedd ei nosau hi wedi ei ddarparu ar gyfer ei dyfodol wŷr. Rywsut neu'i gilydd, doedd yr un pryfyn dynol erioed wedi llwyddo i ateb y cymwysterau. Ac roedd hi wedi dal ati i freuddwydio breuddwydion.

Gallai hi sôn yn huawdl, bid siŵr, am y mân bysgod a luchiasai'n ôl i'r môr, hen betheuach eiddil roedd yn drueni eu cadw cyn iddyn nhw gael cyfle i brifio, sarhad i gwodyn unrhyw bysgodwraig: y rhai y bu ganddi gyfle arnyn nhw. Hyd yn oed wrth grybwyll y rhain, fe ddeuai rhyw wawl diddorol i'w golygon, rhyw wawr bellennig a

gynhesai orwelion cyffredin ei dychymyg. A theimlai'r sawl a wrandawai arni fod ynddi ryw ymdeimlad o oruchafiaeth uchelgeisiol, goruchafiaeth wneud nid hwyrach, ond rhyw fath o fodlonrwydd hunan-gysurlon hefyd, ei bod hi wedi llwyddo i ymwrthod â'r diangbethau hyn oll, er rhagored, er anwyled, er mor addawol oedden nhw. Eisteddai'n fodlon yn y cerbyd gan wau. Ond swil oedd hithau hefyd.

Dôï llais breuddwydiol fel neidr i glust Siôn yn ffrwydryn o ddychmygion henlancaidd: 'Pwy wyt ti? Dyn anferth, blewog, herfeiddiol. Gelli *di* wneud popeth yn y tipyn tre yma. Gallet *ti* gerdded i berfedd y dyrfa oll a merch ar bob braich hyderus fel merthyr i ganol arena Rhufeinig yn llawn o lewod.' Dewr oedd e yn wyneb y gwacter ystyr, yr anialwch o undonedd Cymreig heb oasis. Dewr oedd e yn wyneb pob coegi.

Ac yna, y cryndod gwenwynllyd, cythryblus hwnnw yn ei glust, mor dwyllodrus oedd y fath ddelwedd ohono'i hun. Nid dyna'r cwbl oedd e, does bosib. Onid oedd ei lwfrdra'n fwy na blodyn ar ymyl clogwyn, blodyn gwyn gwelw mewn gwynt gwyn gwelw, heb fynd i unman? Ai dyma dy elyn, Siôn? A pha fath o elyn yw hwnnw yn dy glust? Yn sicr, nid un i'w drechu fe ar ddydd Sadwrn, ac yntau'n gry iach ar ôl cysgu'n hwyr yn y bore. A phwy yw hon gyferbyn ag e? Pishyn! Rhaid ei bod hi'n fath o seren ffilmiau a aethai i America i wneud ffortiwn, ac nawr roedd hi yma wedi dychwelyd i'w chynefin yn incognito, yn awyddus braf i gasglu'r hen wlad eto o'r newydd i'w chôn am ychydig o ddiwrnodau glân, cyn ailgydio yn ei gyrfa orgyhoeddus a gorffwdanus yn ôl ar draws y môr. Ai rhamantaidd ysblennydd fuasai chwedl o'r oesoedd canol amdani?

Roedd hithau sut bynnag wedi bwrw diwrnod rhydd mewn gwirionedd yng Nghaerdydd, wedi cael perm, ac wedyn treulio ychydig o oriau'n siopa'n ddiddan yng nghwmni ei ffrind Rosalynde. Fe gawsan nhw de gyda'i gilydd yn y Continental, ac yna mynd yn ôl i fflat Rosalynde i sgwrsio am yr amseroedd gynt, ac am eu ffrindiau cyffredin a oedd yn briod bob un – Mair druan gydag wyth o blant, Gwenda druan a'i gŵr wedi ei gadael (a bendith hynny hefyd), Margaret a oedd yn gorfod byw a bod druan gyda rhyw fam-yng-nghyfraith boenus o ddiddychymyg, ac yn y blaen – pob un yn gaeth, pob un yn daeogion di-dâl i'w teuluoedd, pob un yn crebachu'n gynamserol.

Bellach, roedd Siân ar y ffordd adre i Abertawe, yn ôl o leia i glydwch ei fflat bach hen-ferchedaidd, yn 17A Trem Geol, yr un bloc yn union â Siôn, er bod ei mynediad hi i mewn ar yr ochr bella. Doedd y naill ddim wedi gweld y llall erioed o'r blaen, a rhoddai'r cyfarfyddiad digyfarfod hwn ysbaid iddyn nhw i lygadu ei gilydd yn hollol anfwriadol ac yn hollol ddamweiniol, ac yn dra achlysurol wrth gwrs.

O leia ar y dechrau.

Eto, ymhell cyn gweld maesdrefi Abertawe, erbyn cyrraedd Porth Talbot, hen benderfynasai Siôn na welsai erioed cyn hyn y fath fun odidog yn ei fyw. Roedd Siân hithau'n gwybod mai hwn oedd y cyfuniad dirgel hwnnw y buasai mor hir yn chwilio amdano ac nad oedd wedi disgwyl ei ddarganfod byth yn y cnawd, – a sicr oedd y buasen nhw'n prynu tŷ go fawr yn y Mwmbwls maes o law gyda phum ystafell wely, a gardd enfawr, a stablau a thri cheffyl. Mae'n siŵr gen i, meddyliai Siôn, fod troeon fel hyn wedi digwydd lawer gwaith o'r blaen. Mab a merch wedi eistedd yn ymyl ei gilydd mewn tram, dyweder, wedi pasio'i gilydd ar y stryd, wedi cyffwrdd â breichiau'i gilydd yn ddamweiniol wrth ddod allan o gapel, wedi teithio yn yr un llong, wedi cysgu yn yr un gwely gwesty ar amserau gwahanol, y naill yn hiraethu am gymar a'r llall yn hiraethu am gymhares, y ddau'n teimlo'n anghyfan yn feunyddiol ac eto'n methu â llenwi'r bwllch, y naill a'r llall yn dod o fewn hyd braich i'r rhod gron, ac yn ei cholli â chroen eu dannedd. Mae'n rhaid fod hyn o syrffed yn digwydd o hyd.

Angheuol ydyw swildod, anesboniadwy, anfaddeuol. Eto, doedd neb arall wedi dod i mewn i'r cerbyd, ac eisteddai'r ddau, yn hwylus ddiymyraeth: yn wir, roedd y naill bron yn amau meddyliau'r llall, ac eto'n ofni. Wrth i simneiau Abertawe ddod i'r golwg, fe benderfynodd Siân, os na byddai'r dyn yma'n mynd allan o'r cerbyd, yr arhosai hithau hefyd o leia cyn belled â Chaerfyrddin i weld lle byddai fe'n disgyn. Yn yr un modd, Siôn yntau, tybiodd ei bod hi'n ddyletswydd arno, hyd yn oed os oedd e'n ormod o gachgi i dorri gair, aros i weld ym mha dre yr oedd honyma'n byw... O'r tu allan roedd trenau eraill yn mynd heibio, heibio...

Wedi cyrraedd Caerfyrddin, petrusodd Siân ryw fymryn, ac yna, gyda phenderfyniad nas gwelsai neb o'r blaen, casglodd ei gwau at ei gilydd a disgyn o'r trê.



Roedd gormod o falchder yn Siôn. Arhosodd e yn y trêen hyd at Hendy-gwyn, yr orsaf nesa, a disgyn. Daeth hi'n nos arno yno, fel pe na bai dim wedi digwydd. Edrychai Siôn i fyny at y sêr. Ond allai fe ddim amgyffred fel yr oedden nhw i gyd yn eu lle mor gysurus, mor ddisymud, er gwaetha popeth. Daliodd e'r trêen nesa'n ôl i Abertawe.

Roedd eu dyfodiad ill dau ynghyd mor rhyfeddol, mor ddi-amgyffred â'r ffaith ei fod wedi ei eni fel yr oedd, gyda'r holl achau damweiniol ar hyd yr oesoedd wedi genynnu i lawr hyd at ei fam a'i dad, o bawb, ac mewn cyplysiad cwbl unigol wedi rhoi ei siâp Sionllyd unigryw e yn y fan neilltuol lle y'i cafodd ei hun: felly hwy ill dau yma, roedd undod hollol syn eu cyfwynebiad arbennig yn wyrth nad oedd e'n fodlon rywsut ei derbyn, roedd hi'n ddychryn iddo braidd. Pe bai e wedi mynd i gerbyd arall, byddai yna ddim ond gwacter digwmni drwy'r byd, lle bellach roedd meysydd meillionnog eu heistedd ynghyd.

Dydd Sadwrn yw'r amser gwaetha o'r wythnos i bob hen lanc. Doedd fawr o ddim gan Siôn i'w wneud fel arfer, gan ei fod wedi methu'n lân â chodi digon o stêm i allu dilyn timau Abertawe. Ond wedi'r argyfwng anghyffredin hwn, gellid, pe chwilid, ei weld e fel y cloc yn esgyn ar y trêen i Gaerfyrddin bob bore Sadwrn, ac yn dychwelyd ar y trêen ola gyda'r nos-Sadymau satyraidd! Ar ôl tair wythnos o gribo strydoedd Caerfyrddin yng nghanol y celanedd a rodiai o'i ddeutu ym mhobman, fe sylweddolodd e y gallai fod y ferch honno wedi'r cwbl yn trigo mewn unrhyw le arall ar hyd un o'r ffyrdd gogleddol a adeiniai allan o Gaerfyrddin – i Landeilo, i Lanbedr, hyd yn oed i Aberystwyth. O wel! Dyma un dull, beth bynnag, o ddod i nabod y wlad. A daeth gwybodaeth Siôn am gefnwlad Caerfyrddin yn ddi-hafal. Onid oedd Cymru'n lle bach diddorol?

Er hynny, ymhen blwyddyn union, dechreuodd led anobeithio. Doedd dim golwg ohoni. A'r gwir oedd o ran hynny, pe bai e'n gallach, fod y tir hela yna'n awr yn llai addawol nag a fuasai hyd yn oed ynghynt, oherwydd roedd Siân bellach wedi mudo o Abertawe i Gaerdydd. Ac fel pawb yng Nghaerdydd roedd hi wedi cael gwaith gyda'r B.B.C.. Roedd trwyn Siôn wedi bod yn y domen anghywir.

Ymhen y flwyddyn, rhoddwyd diwrnod rhydd eto i Siôn ganol yr wythnos, ac yn

lle cyfeirio'i gamre tua Chaerfyrddin, fe fentrodd, mewn ffit o'r falen, achub y cyfle i droi'n ôl i'r lle y dechreuodd nwyf yr ymchwil, sef i'r brifddinas ei hun. Ailgydiodd yn yr arferiad o dreulio'r Sadyrnau yno. Annirnadwy yw ffyrdd Rhagluniaeth. Do, fe'i gwelodd hi unwaith eto. Do. Yno safai hi, yn olau fel angyles ar y palmant, ac yn syllu i mewn i un o ffenestri Howell's; a doedd neb yn sylwi arni. Neb! Stopiodd yn stond ar y palmant gyferbyn, a sbïo ar ei chefn ac ar y cerddwyr cyffredin a'i pasiai'n ddifalio fel pe na bai hi yno. Aeth hi i mewn i'r siop; ac aeth Siôn i'r unlle. A threuliodd e ddeugain munud difyr yn chwilota'n ddethol ofnadwy, ddeugain llath oddi wrthi hi ond yn ddiarwybod i Siân, yn Adran Dillad Isaf Merched.

Cychwynnodd Siân allan, a chychwynnodd Siôn. Mentron nhw allan i'r dyrfa.

O hyn ymlaen, am ryw hanner awr, fe gafodd Siôn wybod o dipyn i beth mai cyplysiad o afr mynydd a neidr lefn lechgar oedd wedi cynhyrchu'r greadures hon a enillasai ei galon. Pwy a allai fod wedi rhagweld, er enghraifft, y byddai hi'n esgyn ar drofws yn y man a'r modd y gwnaeth hi, heb aros am y peth mewn unlle arbennig, yn wir wrth gerdded i'r cyfeiriad arall? Ofnai Siôn bellach fod ei gestyll oll wedi malurio, ac nad adeiledid fyth mohonyn nhw drachefn. Ond diolch i'r drefn, dyma drofws arall wedi ei gyfeirio i'r un terminws, yn dynn ar sodlau'r llall, a Siôn yn swingio arno a'i waed yn cynganeddu eto ar hyd canghennau ei wythiennau gwanwynol a'i lygaid yn twitian direidi. Roedd e ar y trywydd. A'r byd o'i gwmpas yn annealladwy o farw.

Dringodd Siôn i'r llofft ac eistedd yn y sedd ffrynt gan lygadu'n fanwl bob unigolyn a ddisgynasai o'r trofws o'i flaen. Pan ddisgynnodd Siân hithau o'r bws, fe ddisgynnodd yntau. Roedd hi o fewn ei afael bellach. Trodd hi i gilffordd brydferth, ac yna fel gwenci i mewn i dŷ trillawr modern.

Ond roedd Siôn wedi ei gweld. Ho, ho! Gwyddai ble roedd hi'n byw. Dilynasai'r ysglyfaeth i'r ffau. Roedd hyn wedi bod yn rhwydd. Er bod eu dyfodiad gwreiddiol ynghyd wedi bod yn ddamweiniol, nawr roedd e'n teimlo sicrwydd. Fel nad fe a oedd wedi cael y cyfrifoldeb o dynnu ei fam a'i dad at ei gilydd, ond erbyn hyn nad oedden nhw yn bod ond er ei fwyn e (doedden nhw'n ddim byd os nad oedden nhw'n fam ac yn

dad iddo fe), felly roedd eu dyfodiad nhw ill dau ynghyd yn greadigaeth ystyrllon i bawb: roedd iddyn nhw berthynas mewn rhagluniaeth.

Cerddodd e'n ôl ac ymlaen yn awr ar hyd y stryd ddwsin o weithiau, gan deimlo ei fod wedi cyflawni tipyn o gamp heddiw, ac wedi dod i fwel mewn un diwrnod yng Nghaerdydd drwy ddibennu'r union dasg y buasai wrthi ers blwyddyn yn ceisio'i gorffen yng Nghaerfyrddin. Mae buddugoliaeth o'r fath yn gallu gordwymo'r pen weithiau. Bid a fo am hynny, roedd y penderfyniad nesa a wnaeth Siôn yn rhywbeth na buasai byth wedi dod iddo mewn gwaed oer. Allai byth, wrth reswm, fynd at y drws a churo, a dweud, 'Sut ych chi heddiw? Wnewch chi mhriodi i? Hen beth bach dienaidd ydw i, ond dw i'n dwym ac yn gyfforddus yn y breichiau. Mae gen i dri ar hugain o'm dannedd yn hun. Peth wmbredd o wallt. Dw i'n eitha glân, yn golchi y nhraed ddwywaith yr wythnos. Ac am bres... wel, cariad yw'r peth, ynte?' Allai fe byth fynd at y drws, na, o leia yn y modd arferol. Eto, roedd un dull y gallai ei fabwysiadu. Onid oedd yna ynfytiaid yn dod heibio i'w ddrws e gartre beunydd beunos ac yn gofyn a oedd Mr. Wilberforce Wilbert yn byw yno, neu ryw enw cwbl amhosibl felly? Fe allai yntau roi cynnig ar gais cyffelyb.

Wedi penderfynu nad oedd yna ddim dianc rhagddi, fe'i taflodd ei hun i lygad y tân. Ei dipyn hunan e. Casglodd bob llwchyn o ddewrder a wasgarwyd yn denau dros lawr y blynyddoedd yn ei fywyd. Gallai hyd yn oed e, Siôn, fynd ati nawr. Aeth at y drws. Curo. Hyhi a atebodd.

'Wilbert. Y – y – Mr Wilbert. Ydy e'n byw yma?'

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio roedd hithau wedi dal i freuddwydio, a delwedd y person a oedd nawr o flaen ei llygaid wedi nofio ar hyd ei meddyliau lawer gwaith. Allai hi ddim amgyffred pa wyrth a oedd wedi ei osod e'n barod ac mor dwt nawr fel yma ar drothwy ei drws. 'W – w – ilbert,' petrus gyfarthodd e ei henlanceidd-dra eto. 'Ydy Mr. Wilbert yn byw yma?'

Roedd ei lais fel weiren bigog yn anwylo sosban. Rhythai hi arno fel pe bai e'n hongian yno ac yn disgwyl cwmni.

'Ydy,' meddai hithau'n dawel.

'Beth!' meddai fe.

'Ydy,' meddai hithau drachefn.

Llais fel nant wedi ei gwneud o felfed yn ffrydio ar draws mynydd wedi ei adeiladu o fêl.

'Ydych chi'n siŵr? Mr Wilberforce Wilbert roeddwn i'n feddwl. Dyw e ddim yn byw yma, ydy e?'

'Ydy': rhagor o felfed. Neu o fêl. Neu'r ddau ynghyd.

A fu mewn deusill erioed y fath grynhoad o barlystod?

'Tybed ydyn ni'n meddwl am yr un dyn? Mr. Wilberforce Wilbert sy'n gweithio dros Guest, Keen and Baldwin.'

'Yr union ddyn. Oeddech chi am ei weld e?' roedd hi wedi dechrau canu, neu felly y tybiai Siôn.

'Wel na, wel oeddwn, ar ryw ystyr. Oeddwn. Dyna pam des i. Ydy e i mewn?'

'Gwaetha'r modd, nac ydy. Ddim ar hyn o bryd. Dyw e ddim wedi dod adre eto. Ond fasech chi'n licio dod i mewn i aros amdano?'

'Wel, baswn.' Roedd ei galon yn dweud na, roedd ei ben yn dweud na, roedd ei draed a'i waed a'i glustiau yn unfryd gytûn mai na a ddylsai ateb, ond 'baswn' meddai'i ffrwydrad o wefusau ar eu traws, yn gadarnach y tro hwn.

'Dowch i mewn,' meddai hi.

I mewn! Hedodd enaid Siôn i mewn drwy'r drws fel pluen cyw'n ymladd â thymestl ar y gyhydedd. Ac i mewn y chwyrlïodd ei gorff ar ei ôl.

'Eisteddwch, ' meddai hi; a hwnnw oedd y gair diwetha a ddywedwyd gan y naill neu'r llall ohonyn nhw am awr gron. Distawrwydd oer a dienaid a deyrnasai, er nad oedd yn gyfan gwbl ddiddigwydd gan i'r llais neidr gripian yn sydyn i glust Siôn drachefn, a meddyliai hefyd am y daith ofer i Gaerfyrddin ac i Hendy-gwyn ac i ben draw'r byd. Roedd yn werth y cwbl, serch hynny. Pa ots am y chwilio a'r chwalu seithug? Pa ots am oferedd y gobeithion? Onid rhaid fuasai cael rhywfaint a rhywfath o

ddioddefaint er mwyn cael y wobr hon yn y diwedd? Yna, fe lwyddodd hi i ofyn:  
'Fasech chi'n licio cwpanaid o de?'

'Baswn, debyg.'

Wedi ei yfed, cawsan nhw awr a hanner neu ddwy awr ymhellach o ddistawrwydd awgrymog ond arwyddocaol, yn arbennig gyda'r pumed cwpanaid o de.

'Efallai,' meddai hi o'r diwedd drwy ryw ryfedd wrhydri, 'na fydd e ddim yn dod heno. Mae ganddo fe lot o fusnes, wyddoch chi.'

'Oes, siŵr iawn.'

'Oes rhaid ichi ddal trê'n?'

'Oes, mae yna drê'n.'

Tawelwch eto. Digri yw Rhagluniaeth weithiau, am ei bod hi'n cynnwys popeth.

'Ie, gwell i chi fynd, hefyd.'

'Trueni, te.'

'Roeddech chi wedi gobeithio gweld Mr. Wilberforce Wilbert.'

'Oeddwn. Roeddwn i wedi gosod y mryd ar ei weld e, rywsut.'

'Dim byd rhwyddach.'

'Efallai,' meddyliai fe'n uchel, 'y deua-i'n ôl ddydd ar ôl dydd, wythnos ar ôl wythnos. Gwna-i. O! Gwna-i. Mae'n siŵr, os bydda-i'n ddyfal, y ca-i air gydag e rywbyrd.'

'Yn sicr.'

'Nos yfory, efallai.'

'Wel, ie, efallai'n wir.'

Hynny a fu. Daeth Siôn i chwilio am Wilberforce Wilbert y noson wedyn. A'r noson wedyn. A'r noson wedyn. Ymlaen am fisoedd lawer. Ond ddaeth y dyn fyth adre.

## CWDYN

Ddigwyddodd ddim o hyn mewn unrhyw ganrif yn arbennig.

Roedd y nhad a nhad-cu wedi ymadael ers dau ddiwrnod. Roeddwn innau'n chwarae priodas gyda'n chwaer fach i o flaen y tân. Roedd mami'n gwau yng nghornel y simnai, a mam-gu'n hepian gyferbyn â hi. Gwau'n wyllt wyllt roedd mami fel pe bai'i bywyd yn dibynnu arno. Felly y bydd hi bob amser.

Agorwyd y drws yn ddirybudd. Daeth tri dyn i mewn. Cododd mami ei phen ac yna edrych arnon ninnau'n dau. Dal i hepian a wnâi mam-gu.

'Beirdd,' meddai'r cynta o'r tri dyn. 'Ble mae'r beirdd?'

Symudodd gwefusau mami ddim. Cododd hi a dod aton ni; cymerodd Gwerfyl yn ei chôl a nhynnu i sefyll yn ei hymyl.

'Beirdd,' meddai'r dyn eto.

Roedd llygaid mami'n wag fel porthladd roedd y llanw wedi cilio ohono.

Ymadawodd y ddau ddyn arall; ond arhosodd yr un, a oedd wedi siarad, gyda ni.

Roedd e'n wŷr neis – mawr a chry a gwên ar ei wyneb, gwallt hirfelyn yn cyrlïo yn Nordig ar ei war.

Daeth ymlaen ata i a gosod llaw ar y mhen. Cydiodd braich mami'n dynnach amdana-i, ond ddywedodd hi ddim. Amheuai'n fawr wrywod o'r math hwn.

Tynnodd y gŵr hir gwodyn o'i boced. Ei agor ac estyn pethau da i fi ac i Werfyl. Clywais mami'n sythu fel pe bai hi'n anfodlon, ond rwystrodd hi ddim yr un ohonon ni rhag cymryd rhai.

Anesmwythodd mam-gu; agor ei llygaid yn ddiog, a'u cau; yna dihunodd hi'n sydyn, codi ar ei heistedd, ac edrych mewn braw ar y gŵr dieithr. Yna sylodd ar mami gyda golwg syn.

Trodd y dieithryn ati hi.

'Beirdd,' meddai fe eto. 'Dŷn ni'n chwilio am y beirdd.'

Arhosodd mam-gu mor fud â mami.

'Fe ddown ni o hyd i'r *milwyr* yn burion wedyn,' meddai fe. 'Fe fydd y rheini mewn heidiau bach yma ac acw, yn ymguddio yn y goedwig. Fe ddôn nhw allan. Fe gasglwn ni nhw fel pethau. Ar ôl brwydyr deg.'

Daeth e ymlaen at y tân i gynhesu ei ben ôl. Roedd Gwerfyl a finnau'n cnoi ei bethau da gydag awch ac yn gwranddo'n astud arno, oherwydd roedd ei lais e'n od ond yn ddigon caredig: roedd ei ffordd o ddweud y geiriau'n wahanol i ni'r Cymry.

'Fe nabyddwn ni'r milwyr. Gallwn feddiannu arfau milwyr yn ddigon teg. Gallwn roi arian iddyn nhw. Eu gorfodi nhw.'

Safodd, fel pe bai e'n ansicr sut y dylai fe drafod y sefyllfa ymhellach. Edrychodd o gylch yr ystafell, a sylwodd ar y gwely y tu ôl, yn ymyl y drws.

'Mi gysga-i yma heno, os ca-i.'

Daeth e'n nes aton ni eto, ac estyn ei gwodyn o bethau da: yr eilwaith i Werfyl a finnau. Roedd gwên hoffus ar ei wyneb, fel Ieuan yr heusor; neu o leia roeddwn i'n rhyw deimlo y mod i'n gyfarwydd â'i olwg rywsut.

'Mae yna dri bardd o'r ardal yma dŷn ni'n chwilio amdanyn nhw.'

Aeth e draw at y gwely, ac eistedd arno: tynnodd gwllffyn o fara o'i boced, a'i gnoi. Ar ôl gorffen, daeth draw â rhagor o bethau da i ni. Erbyn hyn, doedd na mami na mam-gu ddim yn sylwi arno: roedd mam-gu'n syllu i'r tân a mami wedi ail-gydio yn ei gwau. Glynodd Gwerfyl a finnau'n daer yn ei gwisg gan synhwyro nad oedd hi ddim yn fodlon fod y dieithryn hwn wedi dod. Roedd hi'n gwau'r dieithryn yn ddyfal rywsut, nid yr edafedd.

Ymestynnodd y gŵr hir ar y gwely, ond symudodd na mami na mam-gu ddim. Ac arhosodd Gwerfyl a finnau yn yr un lle am awr. Erbyn hyn roedd chwyrnu'r gŵr hir yn llenwi'r ystafell fel mwg. Cododd mami a mam-gu heb yngan gair wrth ei gilydd.

Gan fod y gŵr hir yn cysgu yng ngwely mam-gu a thad-cu, aeth mam-gu gyda mami, a ninnau'n dau ar encil i'n gwely ni, pawb mor dawedog â'i gilydd.

Erbyn inni godi'r bore wedyn roedd e wedi ymadael, diflannu, ac roedd Gwerfyl a finnau'n drist ac eto'n obeithiol y caen ni ei weld e drachefn rywdro. Nid yn aml yn tŷ ni y bydd neb yn galw.

Distaw oedd mami a mam-gu drwy gydol y diwrnod yn ymhél â'u gwahanol dasgau. Siaraden nhw ddim am y tywydd hyd yn oed. Ynganodd mam-gu ddim un sill am ei chryd-cymalau, na cheintachan am faint o gwsg a gollasai y noson cynt. Ddaeth nhad na'm tad-cu ddim yn eu hôl heddiw.

Bardd yw nhad; ac fe fydd e'n clera o dro i dro. Cyrchu i ail-hybu'r milwyr a wnâi ar flaen y gad, ddwedai nhad, ac i foli eu gwybodaeth a'u hymateb diwylliedig i'r hen grefft o amddiffyn: rhyw fath o bropaganda. Felly, nid rhyfedd gynnon ni'r plant yw ei weld e'n mynd oddi yma am ddiwrnodau lawer, am wythnosau ar rai adegau, er dŷn ni ddim yn gyfarwydd ag absenoldeb nhad-cu yr un pryd. Mae un ohonyn-nhw'n arfer aros gartre i warchod os bydd y llall i ffwrdd.

Gyda'r hwyr, daeth y gŵr hir yn ei ôl: dyna'r heliwr-beirdd, y swyddog tal, yr un a oedd yn llefaru ar eu rhan nhw. Agorodd y drws yn ddirybudd yr un fath â chynt. Y tro hwn roedd e'n cario arfau heblaw ei arfau'i hun. Aeth e ar ei union i'w wely ei hun, rhoi'r arfau wrth ei erchwyn, ac ymestynnodd ar ei hyd, wedi blino.

Ceisiodd mam-gu a mami beidio â sylwi arno. Ond sylwon ni ar yr arfau dros ben oedd ganddo fe. Closiodd Gwerfyl a finnau atyn nhw. Roedden ni i gyd yn ymwybod â'i fod e yno.

Ymhen rhyw chwarter awr, cododd e ac estyn ei gwdyn o bethau da. Roedd yr un wên garedig yn cripiant o gylch ei lygaid.

Roedd e'n wŷr mawr, hardd, fel cawr, o wlad hud, gyda'i wallt golau-haul.

Trodd at mami, a gofyn eto: 'Beirdd?' Atebodd hi ddim, – fel cynt. Chwarddodd e ryw ychydig bach, yn wawdus yn ei wddwg, ai o ddifri ai o fregedd wn i ddim. Trodd i fynd yn ei ôl i'w wely.



'Dw i am noswyllo.' Closiodd am eiliad i roi rhagor o bethau da i ni, ac aeth yn ei ôl i orwedd. Roedd e'n addfwyn fel y bydd pobl flinedig.

Cyn pen ugain munud roedd ei chwyrnu rhugl yn ein hamgylchu ni i gyd. Roedd hyn fel arwydd, fel rhybudd, i ninnau ei throi hi.

Cyn iddi gysgu aeth mami draw ato. Safodd uwch ei ben. Ac edrychodd hi'n ofalus ar y gyllell ar y llawr wrth ei ochr.

Fore trannoeth, roedd e wedi diflannu drachefn, fe a'i gyllell. Er ein bod ni'n dau'n drist, roedden ni hefyd yn reit ffyddiog y gwelen ni fe eto gyda'r hwyr.

Yn ystod y dydd, chwaraeen ni Glyn Dŵr. Fi oedd Glyn Dŵr bob amser, gan mai fi oedd y mwya. Wrth ei chwarae'n feunyddiol, roedden ni wedi perffeithio'r chwarae hwn erbyn hyn nes ein bod ni'n teimlo cyffro real y frwydyr ei hun ambell dro: cerddai ofn a hwyl yr ymladd hyd ein cyrff bychain yma yn y coed. Acw ar Graig Tudur, yn edrych i lawr ar y fforest odanon ni, dychmygen ni'r digwyddiadau a'r cymeriadau a lechai yn ei dyfnderoedd. Gallai ymddangos fel math rhyfedd o chwarae. Ond cafodd y dychmyg ei ddisodli'n llwyr wrth inni gyfrannu yn y peth ei hun. Nid chwarae roedden ni, mewn gwirionedd; fe ddefnyddien ni eiriau diertth weithiau: Rhuthin, Machynlleth, Dolgellau, Llanbadarn, Harlech, a rhes o enwau eraill. Seiniai'r rhain ar led drwy siarad cyffredin yr ardal; a dyna'r lle y clywen ni'u cofrestr; ac yn ein campio ni'n hun yn y goedwig roedden nhw'n gytgan ac yn cael cadw'r geiriau. Math o gofio roedden ni, mae'n debyg wrth adeiladu hanes yn ein calonnau. Ac roedd geiriau'n ein gwneud ni'n ddewr ar gyfer chwarae bywyd real. Efallai fod y geiriau'n chwarae gyda ni.

Roedd mami'n edrych yn dyner drist arnon pan gyraeddon ni'r tŷ. Doedd hi ddim wedi ein curo ni, er ein holl ddrygioni, ers pedwar diwrnod. A phan welodd hi mai ni oedd yna, aeth ymlaen â'i gwaith; ond aros roedd hi, aros roedd mam-gu hithau, fe wydden ni: roedd yr hwyr acw'n codi'n gyflym.

Pan ddaeth y gŵr dieithr yn ôl, cyn bo hir, roedd ychwaneg o arfau ganddo fe. Ddwedodd ddim oll wrth mami er iddo estyn pethau da i ni.

Cysgodd e'n fuan fel arfer.

Fore trannoeth roedd e'n ein hwynebu ni ar yr aelwyd pan godon ni.

'Wela-i monoch chi eto,' meddai fe. 'Fe gawson ni'r beirdd ddoe.'

Trodd mami'n wyn, wyn, a chlywais gryndod yn disgyn i lawr corff mam-gu o'i chorun i'w sodlau.

Moesymgrymodd y milwr, a chiliodd o'r ystafell. Roedd e wedi mynd o'r diwedd. Torrais i a Gwerfyl i wylo. Tra safai mami a mam-gu'n ddistaw ddychrynedig gan edrych ar lygaid sych ei gilydd, a'u hanwybodaeth ansicr rhyngddyn nhw'n euog, a'u hiraeth yn crino, roeddwn i a Gwerfyl yn llefain yn unsain o golli'r pethau da.

[NODYN: Cyflafan y Beirdd Cymraeg yw testun cerdd enwoca Hwngari, gan János Árány (1817-82), sef 'A Walesi Bardok', sy'n analog ar gyfer yr ymerodraeth Habsbourg. Fe'i cyfieithwyd i'r Gymraeg. Dyma hefyd destun gan Thomas Gray ar gyfer 'The Bard' (1757) yn Saesneg, am Edward I ar ôl iddo oresgyn Cymru. Medd Johnson, 'I do not see that "The Bard" promotes any truth, moral or political.' Medd *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens, 'Ynddi (sef yn y gerdd) y mae'r bardd olaf i oroesi'r gyflafan yn mellithio brenin Lloegr ac yn proffwydo trychineb i'w ddisgynyddion, yn cyflawni darogan Taliesin a dyfodiad teyrnasiad y Tuduriaid.' Ceisiais drafod swyddogaeth wleidyddol a chrefyddol beirdd yr oesoedd canol yn *Ysbryd y Cwlwm* (1998). Lleolwyd y stori hon mewn amser diweddarach nag Edward I; ond y mae yr un mor gywir.]

## UFUDD-DOD

"Dacw Ynys Wmbwmba."

Daeth y cri ag ennaint i'w galon. Gwaith ugain munud oedd yn weddill cyn ei chyrraedd, ac yna wedi'r tro mawr yn yr afon, fe fyddai fe o fewn golwg i Oiono. Roedd ganddo gywilydd am ei sbri fachgennaidd newyddeni.

Tir cyfarwydd welai Lmombe bellach ar bob tu. Er bod porthladd Obesa wedi canu Affrica yn ei ymennydd, roedd y swyddogion cwstwm yn y fan yna – y masnachwyr, y tyrfaoedd, a'r holl iwnifformau yno – dros dro wedi canslo'r union gyfandir ddisgwyliai fe, drwy sgrifennu ac actio yn ei ddychymyg gwareiddiedig yno *Celwydd Swyddogol* mewn llythrennau breision ar ei draws. Doedd e ddim wedi dechrau teimlo gwefr ei gylla a'i goluddion yn ymateb o gwbl nes i'r bad bach lleol hwn (roedd wedi symud iddo yn Obesa) adael gwastadeddau agored y delta a hwylio i fyny'r afon rhwng y llwyni mangrof tywyll, llawer ohonyn nhw'n cyrraedd cyfuwch â rhai o dai clinigol-lân Llundain. Hyn a atrefnai bopeth i Lmombe.

Nawr, gallai weld yn eglur rai o'r llwybrau gwyllt ddirwynai i lawr at yr afon. Adnabyddai leoedd bach unigol. Gwyddai fod crocodeilod yn hepian yn agos acw, a ddi i'r fei yr hipopotomi cynta welsai ar hyd ei daith: mantais yw gwybod ble i edrych.

A dyma Ynys Wmbwmba ddiffaith, neu Ynys Macpherson fel y byddai'r Saeson yn ei galw, gydag adfeilion yr hen gaer Seisnig yn fan gorffwys i fwlturiaid, a hyd yn oed rhai gweddillion magnelau'n rhydu ar ei glannau. Roedd yna dangnefedd iddo nawr am y tro cynta ers glanio, wrth i'r bad basio o fewn canllath iddi. Doedd yna ddim symudiad ar yr ynys, ddim hyd yn oed aderyn, ddim hyd yn oed bwgan.

Ar hynny dyma beiriant y bad yn peswch yn sych, yn carthu gwddw, yn peswch eto, ac yn marw. Aeth y peiriannydd i lawr ato, ac o fewn dwy funud dyma fywyd newydd yn tician yng nghalon y bad drachefn, a phawb yn ymollwng. Ond wrth i'r peiriannydd ddringo allan o'r caban, roedd e'n dal ei law dde i'r awyr, ac roedd stwmpyn gwas y fowden yn gwaedu. Drwy geisio rhoi cychwyn ar y peiriant yn ddiotal roedd e

wedi colli modfedd o'i fys. Gafaelodd nawr yn ochr y bad yn ei sioc a'i wendid. Arno fe roedd y bai. A brysiodd sawl un ato i'w ymgeleddu.

Fe edrychon nhw'n ymholgar tuag at Lmombe. Doedd yna'r un dyn gwyn ar y bad; ond roedd Lmombe newydd ddod yn ôl o'r Brifysgol yn Lloegr ac yn ddyn gwyn i bob pwrpas o dan ei arwyneb du. Ond doedd pedair blynedd o astudio Cymdeithaseg ddim wedi rhoi llawer o fodd i Lmombe drafod sefyllfa fel hyn. Byddai'n burion ar gyfer gwleidyddiaeth y llwyth, ond ar gyfer hyn, roedd yn ddiwerth. Cododd ei ddwylo'n arwydd o'i ddiymadferthedd, ac roedd pawb yn siomedig. Roedd pawb wedi disgwyl cymaint mwy na hynny gan Lmombe ar ôl cynifer o flynyddoedd mewn Prifysgol yn Lloegr, ac yntau'n astudio gwyddorau'r dyn gwyn. Doctor, yn wir!

Roedden nhw i gyd yn pwdu, mewn gwirionedd, heb neb yn fodlon i siarad ag e. Ac roedd yntau, – ar ôl iddo deimlo ei fod e'n dychwelyd i Affrica yn berson arbennig, ac yn fuddugoliaethus o'i antur bell yn nhiroedd dieithr y dyn gwyn ac yn gwybod pob peth, – yn dechrau ymwybod â'i unigrwydd a'i falchder a'i wendid.

Fe awgrymodd rhywun y dylen nhw droi'n ôl i Obesa er mwyn i'r peiriannydd gael triniaeth, yn yr unig ysbyty a oedd yn y wlad, ac yn wir yn yr unig dre lle'r oedd yna feddygon hyfforddedig. Ond cofiodd rhywun arall fod yna ddyn gwyn a allai wneud y gwaith meddyginiaethol yn Oiono, a phenderfynwyd parhau'r daith rhagddyn nhw.

Roedden nhw o fewn golwg i Oiono bellach, a gallai Lmombe weld y llwyth i gyd yn sefyll ac yn dawnsio ac yn bloeddio ar y lan, ac yn lluchio gerlontau o flodau a changhennau i'r awyr. Oni bai fod damwain y peiriannydd wedi'i sobri fe, fe fyddai Lmombe wedi wylo dagrau o gyffro siriol nawr. Canys yng nghanol pawb yr oedd e'n gallu gweld ei dad, y pennaeth, yn sefyll yn ei lawn wisg seremonïol, a lliwiau'i bedair gwraig o'i gwmpas yn eu gwisgoedd gorau. Gwisgai'n weddus ar gyfer croesawu'i fab hyna adre.

Daeth tipyn o chwithdod i lygaid Lmombe wrth weld y pedair gwraig, er bod ei fam yn un ohonyn nhw, yr hoffa un gan ei dad, a'r gynta hefyd. Cofiodd am ei diwtor yn Llundain un diwrnod yn gofyn yn gyfeillgar iddo faint o frodyr a chwiorydd a oedd ganddo, ac yntau'n gorfod cyfadde'n ddwl nad oedd e ddim yn gwybod. Roedd un ar

ddeg o blant gan ei fam e'n sicr, tri mab ac wyth o ferched, ac yntau'n hyna o bawb. Ond pa ddisgwyl a oedd iddo roi cyfri o holl blant y gwagedd eraill?

Neidiodd ei feddwl ar gownt cyswllt y croesawu newydd a'r ffarwelio cynt. Mae'n rhaid bod yna ryw gysylltiad rhwng y funud hon yn awr a'r funud ola cyn iddo ymadael bum mlynedd yn ôl: roedd pawb yma'n ceisio cymeradwyo'r un fath. Roedd holl geidwadaeth y wlad yn sicrwydd o'u cylch nhw. Yr un yn union oedd yr heolydd pridd. Yr un oedd y bythynnod brwyn, ond eu bod wedi eu hatgyweirio efallai. Yr un gwisgoedd fwy neu lai oedd gan bawb. Dyma gartre. Ac eto, wyddai fe ddim beth oedd y newid?... Ond fe'i gwyddai hefyd . . . Fe ei hun oedd wedi newid. Roedd y cwbl ychydig yn chwithig estron erbyn hyn, ac yn aruthrol o henffasiwn, yn frawychus o gyntefig, yn afiach braidd, yn ddrewllyd ac yn frwnt.

Gwaeddaï pawb o orfoledd, yr un fath. A dechreuodd y balchder atgyfodi ynddo, am ei fod e mewn dillad Ewropeaidd destlus ac yn cario blynyddoedd o addysg Prifysgol yn ei ben, ac wedi dod o bell. Ceisiai pawb gyffwrdd ag e. Roedd y dynion ifainc a'r gwryfyn a'r plant yn gwasgu'n gynhyrfus amdano, yn gwasgu'n nerfus amdano. Gallai fe godi ei ben yn eu plith, yn fab hyna i'w Pennaeth, wedi concro tiriogaethau anhysbys dramor ar ei ben ei hun. Ond tynnai fe'n ôl ychydig.

"Pwy yw'r dyn gwyn yn Oion?" gofynnodd e i'w dad, pan gawsan nhw lonydd ac ar ôl ymsefydlu gyda'i gilydd ar eu pen eu hun yn ei dŷ mawr yng nghanol y pentre. Ond sylwodd ei dad ddim ar y cwestiwn am ychydig, gan ei fod wedi ymroi i holi'r mab am y cant a mil o ryfeddodau breiniol roedd hwnnw newydd gefnu arnyn nhw yn Lloegr.

"Pwy yw'r dyn gwyn sy wedi dod yma?" gofynnodd Lmombe yr eilwaith.

Pam roedd e'n gofyn y cwestiwn? Ai er mwyn cael ymrwbio eto â'r gwareiddiad roedd wedi ymadael ag e, ac ai er mwyn gweld wyneb gwyn ac ailafael yn ei safonau, a dianc am ychydig rhag y clebran simpil a'r clindarddach diystyr, rhag yr anwybodaeth a'r twpdra?

"Mae e wedi adeiladu ffatri," meddai'i dad.

"Ffatri! Yma yn Oion! "

"Pam lai? Mae'r wlad yn newid yn gyflym y dyddiau hyn. Dwyt ti ddim wedi sylwi ar y newid yn y llwyth ac yn y pentre er pan ymadewaist ti?"

"Wel ydw, debyg iawn. Ond ffatri beth? Beth yw'r farchnad? Beth yw'r cynnyrch? Pwy yw'r prynwyr?"

"Ffatri ffisig. Mae Oionno yng nghanol yr holl wlad, ac mi fydd e'n gallu gwerthu ffisig i bawb ym mhob parth sy mewn angen."

"Mae e'n rhyw fath o gemist masnachol, felly, mae'n rhaid. Dyna sut y cafodd y bobol yna ar y bad y syniad y gallai hwnnw helpu'r peiriannydd."

Ac mi adroddodd Lmombe wrth ei dad hanes anhapus y ddamwain a ddigwyddodd i'r peiriannydd.

"Dw i'n credu yr a-i i fyny i weld y dyn gwyn," meddai Lmombe ar ôl y wledd groeso.

"Ond pam y brys? Dŷn ni ddim wedi cael digon o gyfle i sgwrsio eto."

"Efallai ei fod e'n nabod Llundain."

"Beth am y dawnsio? Mae pawb yn disgwyl y dawnsio ar unwaith nawr. Mae'n rhaid i ti aros i hwnnw, Lmombe annwyl."

Fe arhosodd. Ac fe fwynhaodd y dawnsio. Doedd dim byd tebyg iddo yn Llundain, na dim byd tebyg i'r merched ifainc tlws o bentre Oionno. Yn ara deg roedd ei orffennol yn ymwthio ymwthio yn nes nes i'w bresennol. A chyn bo hir fe fydden nhw'n cyfarfod â'i gilydd ac yn cydio, ac fe fyddai fe'n gyfan eto. Wrth iddo orwedd ar ei gefn yn ei wely bambw y noson honno, ac arogl gwynt cynnes waliau pridd a brwyn y tŷ, a'r blas cry yn ei geg oherwydd bwydydd ei gartre, roedd e'n synhwyro fod nerth newydd yn hyrddio drwy'i wythiennau ac yntau wedi cael ei gyflawni mewn corff a meddwl, yn ddyn mewn oed, ac yn ddarpar pennaeth i'w lwyth, y mwya gwybodus a'r mwya doeth a fu gan y llwyth hwn erioed.

Yn y bore bach aeth e'n syth i fyny i weld y dyn gwyn a oedd wedi ymsefydlu yn Oionno. Gŵr o'r enw Thomas, un ffraeth ac ysmala o Sir Fynwy. Roedd hwnnw'n hynod

o falch i gael cyfarfod â hanner dyn gwyn ac i gyd-gyfrannu gwybodaeth am y pethau a oedd yn gyffredin.

Cofiodd hwnnw glywed yr enw Lmombe o'r blaen. Roedd yna fachgen o Lyn Ebwy, a hwnnw'n gyfyrder i Thomas, wedi bod yn astudio Cymdeithaseg yn Llundain gyda Lmombe, yn yr un grŵp Seminâr, ac wrth iddo adrodd wrth Thomas am y cydfyfyrywyr, crybwyllodd yr enw Lmombe; ac fe synnen nhw ill dau nawr fod y byd hwn mor fach.

"Beth yw'r ffatri 'na sy gynnoch chi?" holodd Lmombe.

"Ffatri ffisig. Wel ie, neu felly maen nhw'n ei ddweud," meddai Thomas gan wneud llygad bach ar Lmombe, a chyffwrdd â blaen ei drwyn.

Gwenodd Lmombe'n ôl fel pe bai e'n deall y cwbl.

"Wyddoch chi, Lmombe,' meddai Thomas. Roedd Sais o'r enw Carruthers draw yn Obesa am bedair blynedd yn ceisio agor marchnad 'gin'. A dau gant o boteli yn unig werthodd e mewn pedair blynedd... Y sac! Cewch chi fod yn siŵr iddo gael y sac. Ac mi ddwedais i wrth y môs. 'Clywch. Rhowch ddeng mil i fi, ac mi fydd gen i gystal marchnad 'gin' yno ag sydd yng Ngorllewin Rhodesia.' 'Byth,' meddai fe. 'Wnawn ni ddim byd mewn gwlad Foslemaidd. Gwell i ni grynhoi'n hegnïon 'gin' i'r parthau Cristnogol a'r parthau paganaidd.' 'Cewch chi weld,' meddwn i. 'Cyn pen blwyddyn, fe fydd gen i ffatri'n cerdded yn Oiono nerth ei sodlau.' Pan ddwedais i'r gair ffatri wrth y bôs, fe allech chi feddwl y byddai fe'n llyncu'r adeilad i gyd. Ond dim ond sychu ei drwyn â chefn ei law wnaeth e, a chytuno: 'Iawn, Thomas, ymlaen â thi'."

"*Gin!*" edrychodd Lmombe wedi'i syfrdanu. 'Yma yn Oiono!'

Tro Thomas oedd hi i wenu'n wybodus arno.

Ceisiodd Lmombe ymddangos yn wybodus hefyd.

"Ie, machgen i; ond ffatri ffisig o ran *potensial*."

A chwarddodd yn llon ei wala.

Chwarddodd Lmombe yntau.

"Beth feddyliwch chi am y sgrechair newydd hwn?— *Mohamba i iechyd llawn.*  
*Prynwch Fohamba, y dŵr cyfrin.*"

'Mohamba' oedd y gair priodol yn eu hiaith leol am 'ffisig'. A dyma fyddai'r cyfle a'r ddyfais felly i amryw o weiniaid ceidwadol y llwyth brynu moddion cryfder yn unol â'u trachwant, heb dramgwyddo ddim yn erbyn deddfau nac arferion crefyddol eu brodyr. Beth sy mewn enw?

Chwarddodd Lmombe yntau. "Wel, mater o iaith fu diwinyddiaeth erioed," meddai fe, gan siglo llaw â Thomas wrth ganu'n iach. "Cawn weld ein gilydd eto."

Ond yn ôl gyda'i dad yn y pentre, doedd hwnnw ddim mor gwbl fodlon ynghylch y sefyllfa pan esboniodd Lmombe agwedd sinigaidd hwyliog y dyn gwyn iddo. Cnodd hwnnw ryw ychydig ar ei wefus a chwarae â bysedd ei draed, fel y gwnâi bob amser pan oedd e'n ddig. Wedi munud o dawelwch, sut bynnag, cododd ei ben fel pe bai e'n ymwared â'i holl ofidiau: "Mi wn i. Fe ofala i am hynny'n ddiraffferth. Paid â phoeni dim. Mae gynnon ni fusnes hapusach i'w thrafod heddiw. . . Dy briodas."

Disgynnodd y gair fel tafod neidr i enaid Lmombe.

Edrychodd ar ei dad mewn syndod. Mewn braw.

A oedd e o ddifri? Ond darllen Awdurdod a wnaeth e yn llygaid ac yn nhro gwefusau'i dad.

Ac eto, "dy briodas." Dyma'i deulu, a'i lwyth, a'r holl gyfandir yn cau amdano.

Dyma'r Affrica y dychwelasai iddi, felly. Nid yr Affrica ffug a ddychmygwyd yng ngho negroaid America, ac nid y celwydd ecsotig lliwgar a ddyfeisiwyd gan y llenorion Seisnig a Ffrengig — y llyfr plant o gyfandir gyda modrwyau drwy'r trwynau a delwau pagan, nadredd arian, ac adar siaradus, cartŵn y Negroaid noeth yn dawnsio yn y jwngwl gyda Negroesau'n cludo basgedi o berlysiau ar eu pennau, — a Tharsan. Celwydd gwyn gwŷr y gorllewin. Dyma'n hytrach anwareidd-dra hen arferiadau diflas.

Roedd ei dad yn edrych arno fe nawr ac yn disgwyl rhyw ymateb, yn edrych arno'n gariadus ac yn ei grafu ei hun; yn ei grafu ei hun yn rhydd ac yn galed ac yn hwyliog hyd at y corneli, nid yn y modd cudd y buasai rhaid i Lmombe yntau'i wneud



gyda Gwynion Llundain yn fonheddig ddirgel (neu ynte odde'r tipyn cosi anghysurus nes iddo ddarfod). Roedd ei dad yn crafu'n gyhoeddus braf a chydag arddeliad.

Efallai y byddai'n rhaid i Lmombe newid ei syniad am Affrica lawer tro eto, gymaint efallai ag a wnaethai yn ystod y pum mlynedd diwetha. Cofiai eistedd, wythnos cyn ymadael ag Oionio i fynd i Lundain, ar lan afon Nigati gyda'i hoff chwaer a dweud wrthi'n goeg tan chwerthin o ran sbort : "Pan fydda i'n ddyn gwybodus ac wedi bod yn Lloegr, fe ddeua i'n ôl â llond y bad o fwyd ac ysgolion, a dillad, a thai mawr, a theganau, a phontydd, a cheir, ac awyrennau, pan fydda i'n ddyn gwybodus ac wedi bod yn Lloegr." Cofiai'r dydd cynta y cafodd ei wrthod mewn llety yn Llundain am ei fod yn isddyn, ac fel y clywodd am y tro cynta y pryd hynny alwad am ryddid y Negro o blanhigfeydd y Taleithiau, a'i frodyr yn yr Antilles, ac yn Ne Affrig. Roedd e wedi dod i myl seicolegol y gaethwasiaeth a ddaethai i ran rhai o'i gyndadau. Roedd e wedi aroglu mewn atgofion llwythol llafar ac arferion imperialaidd wres llethol yr howldiau afiach wrth iddyn nhw groesi dyfroedd y byd. Ac roedd e wedi dod i gasáu'r gwareiddiad oer a chadarn a chaled a modern lle'r oedd yr adar bron i gyd yn llwyd: ei gasáu a'i ofni fel ffisig. Fe ddaethai iddo bellach alwad arall, ymhen hir a hwyr, sut bynnag, i ddychwelyd i ffynhonnell ddiwylliannol ei Fam Affrica er mwyn adeiladu dyfodol lle doedd dim un dyn yn sbloetio dyn arall, a lle nad oedd yna negroaid yn eu powdro'u hun mewn ymdrech barlysog i fod yn wyn, gan liwio'u gwallt a'i sythu, gan geisio meddiannu pethau ac arferion y Gwynion neu hyd yn oed gael plentyn drwy un o'r brodyr purliw. Gadawodd ei feddwl bellach, ar frys, y dinasoedd annynol gwelw lle yr oedd rhyw Wrth-Fidas yn ymlusgo ac yn troi pob dim yn dlodi fel roedd yn cyffwrdd ag e. A dychwelodd drachefn i gymundod melys ei go am Affrica. Roedd honno, os esgeuluswyd yno fân deganau technegol, wedi'i ddatblygu i'r eitha mewn moes a llên, celfyddyd a bywyd teuluol, cyfraith a chrefydd a gwleidyddiaeth, cymundod a wareiddiwyd hyd flaenau blew ei amrannau, cymundod cartrefol lle'r oedd dyn yn ddyn. Roedd hi hefyd wedi'i diwyllio'i hun yn frodorol chwaethus. Dysgodd hynny wrth astudio Cymdeithaseg. Dychwelodd i wlad fodern Affricanaidd (yn sgil ei hiraeth, os nad i'w feddwl ymwybodol) yn barod i bopeth.

Ac yna, dihunodd i graidd y realiti chwithig yma.

"Wyt ti o ddiffri 'nhad?"

"Ydw, debyg iawn."

"Ond fe dybiais i, ar ôl ifi fod yn Llundain, y cawn i ddewis drosto i yn hun y wraig roeddwn i am ei phriodi, oherwydd dim ond *un* wraig fydd ei heisiau arna i."

"A ngwaith i — a mhleser i — fydd dewis honno."

"Ond dw i am briodi rhywun dw i'n ei charu."

"Beth yw ystyr y 'wedi bod yn Llundain' yna? Ydy hyn yn mynd i fod yn gytgan reolaidd, machgen i?"

"Nac ydy, ddim o gwbl."

"Ac wyt ti'n meddwl na bydd yna ddim perthynas cariad mwyach yn bosibl fan yma, ar ôl iti fod yn Llundain? Wyt ti'n credu fyddi di ddim yn gallu ymserchu yn dy wraig, fel pob un arall o'n llwyth ni ers canrifoedd, er i ti fod yn Llundain?"

"Nage; nid dyna hi. Gwranda nhad. Dyma y meddwl i. Un waith yn ystod y mywyd, ac unwaith yn unig y gwna i briodi. Fe hoffwn i ddewis yn ystyriol wraig fydd wrth y modd i dreulio oes gyda fi. Un y galla-i'i pharchu."

"Parch! A beth am dy bobol? Does gen ti ddim meddwl amdany'n nhw a'u tir a'u diogelwch? Does gen ti ddim cyfrifoldeb? Nid chwiw llanc yw priodas. Pe bai priodi'n dilyn chwit-chwat ar ôl rhyw nwydau arwynebol, fe allai cannoedd o'n cyd-ddynion gael eu llwgu."

"Ond mae cariad gŵr a gwraig yn beth arbennig."

"Fe all fod."

"Yn beth cyfareddol."

"Yn *beth* ddwedaist ti?"

"Yn rhyfeddol. Yn hud. Yn gymdeithas gyfrin. Yn rhamantaidd. Yn . . . O ddeelli di fyth."

"Clyw, Lmombe. Merch y Pennaeth Abdwlaia, Nso Abdwlaia, yw'r un dw i wedi'i dewis ar dy gyfer di. Mae tir Abdwlaia, fel y gwyddost ti, yn ffinio ar ein tir ni am bum milltir, a does dim priodas wedi bod rhwng ein teuluoedd ni ers cenedlaethau. Y peth cywir a'r peth diogel, felly, yw cyd-briodas."

"Ond nhad."

"Dim rhagor. Fe fydd hi yma gyda'i thad yfory."

Drwy gydol y noson honno bu Lmombe yn troi a throsi. Roedd e bron yn gallu deall dirmyg y dyn gwyn. Llifodd Llundain yn ôl drosto. Roedd arno gywilydd o'i liw, a phopeth yn gysylltiedig ag e. Cywilyddiai am waseidd-dra at arferion cyndadau, a chenfigennai at estroniaid. Amgylchid ef nawr gan gyntefigrwydd ofergoelus a diddychymyg: dyma'i dreftadaeth orfodol. Roedd un byd yn ymladd â byd arall. Derbyniai'r un anifeilaidd y briwsion o'r bwrdd ucha, cŵn llyfu, cadwyni, y cefn dan fflangell arferiadau cyntefig, dyna fe. Yn yr hen Oiono. Oiono ddi-Lundain.

Dihunodd yn wyllt yn y bore wrth glywed gweiddi a chyffro yn y pentre. Llygadodd yn llechwyr drwy gil drws ei dŷ, ac roedd pawb arall yn y pentre ar ddi-hun ac yn rhedeg i sawl cyfeiriad, gan chwerthin neu gan grio'n ofnus. Gwae ni, y dyrfa hynafol hon, hanner gwallgo. Roedd eu bragaldian nhw fel llwyth o fwncïod mewn fforest. Ych-â-fi. Ond roedd yna elfen o arswyd hefyd yng nghlegar cecrus y menywod. Doedd dim dianc.

"Beth sy'n bod, Amidw?" gwaeddodd e ar un o'i frodyr oedd tu allan.

"Ffatri'r dyn gwyn ar dân! Wedi'i llosgi i'r llawr! Y ffatri ffisig, y ffatri *gin* yn gyflafan!"

Cododd Lmombe, a rheddodd at ei dad. Chwarddodd y pennaeth mwyn hwnnw yng nghefn ei wddw. 'Gwers i gall.' Dychwelodd Lmombe yn ddryslyd i fod ar ei ben ei hun. Dyma siom frawychus yn gafael yn ei amynedd Llundainig. Dyma ffordd Affrica o ymateb: anwareidd-dra hen ddialedd. Roedd ei dad wedi trefnu cosb.

Eisteddodd e'n ôl ar ei wely, a phwyso'i ben ar ei liniau. Dyma oedd ffordd ei dad, felly, o drafod y sefyllfa. Dyma fu ei ffordd o ddatrys pob anhawster. Dychwelyd at

ddull y jwngwl o gyfarfod â gelyn. Os oedd maen tramgwydd, chwalu. Os oedd bywyd yn ei erbyn e, lladd. Dyma safonau'r bobl hynafol roedd e wedi troi'n ôl atyn nhw: dinistr cynddeiriog y gwylliaid. Gallai fe grio; neu o leia, gallai fe ddeall rhywun call yn crio. Roedd yn gas ganddo'i dad yn awr, ac allai fe ddim parchu'r fath egwyddorion. Roedd hyn hyd yn oed yn waeth na'i briodas orfod e. Roedd arno gywilydd am ei amgylchfyd ei hun. Dirmygai Affrica.

Gorweddodd yn ôl ar ei gefn, a meddwl am Lundain. Pendroni'n freuddwydiol fel plentyn. Am drefn y strydoedd, am effeithiolrwydd pob peth, am gydweithrediad y cymhlethdod mawr, am gwrteisi gwrth-heintiol y bobl, am y glendid a'r destlusrwydd achlysurol, ... ond am anfoneddigeiddrwydd diarhebol goeg yr heddlu tuag at y duon.

O'r tu allan clywodd waedd newydd. Roedd trychineb arall ffres wedi digwydd, mae'n rhaid. Roedd y trwst yn fwrlwm drwy'r awyr. Roedd y preblan yn uwch, yn sgrech go iawn y tro hwn. Pa wallgofrwydd afreolaidd a gwaeth a lythai'r amgylchfyd? Roedd rhyw sŵn anwar ar gerdded rownd-y-rîl. Allai fe ddim deall ei deimladau. Ond rywsut roedd mwy o drefn a mydr ar y waedd hon yn awr, a siantio, a chanu, cyfarch hefyd a llafar-ganu rhythmig, rheolaidd, yn wahanol i reiat tân y ffatri.

Cododd eto a hwp'o'i ben yn chwilfrydig ofalus allan drwy'r drws. Ym mhen draw'r heol a oedd yn arwain i mewn i'r pentre roedd yna orymdaith yn cerdded. Ar ei blaen yr oedd y Pennaeth Abdwlaia yn ei holl blu ac yn cario paladr addurnedig. Roedd carnifâl ei wisgoedd rhwysgfawr yn hwylio tua sgwâr y pentre. Ac wrth ei ymyl roedd llances ryfeddol o hardd yn rhodio, anghyffredin o osgeiddig, a'i phen yn sefyll yn gadarn ar ei hysgwyddau, a'i gwddf syth yn frenhinol esmwyth fel elain. Hon oedd yn corffori syfrdandod crand y dydd. Hon oedd rhyfeddod Affrica. Hon, felly, oedd ei ddarpar-wraig. Gwenodd Lmombe yn wrol, a throdd (gyda phenderfyniad etifedd i bennaeth) i chwilio am ei blu a'i benwisg wellt llawn a lliwgar. Chwarddodd yn hir ac yn felys, ac yn llai caeedig nag a wnaethai ers talwm, yng nghefn ei wddw. Yr hyn a gariai'r orymdaith hon yn ôl iddo fe oedd yr Affrica go iawn ei hunan. Ymsythodd yn fawreddog yn ei ystafell fechan am foment ac yntau heb yr un amheuaeth, wedi dod, hyd fêr ei esgyrn, yn genedlaetholwr Affricanaidd unwaith eto.

## ANGHOFIED FY NEHEULAW

Daeth cnoc ysgafn ar y drws.

Edrychodd Ruth yn ymofyngar ar ei mam, a hithau ar ei gŵr. Nodiodd Théodore Montefiore yn gadarnhaol, a chododd Ruth i'w agor.

Ond wedi ei agor, safodd yn ôl yn syn fel pe bai'r un a ddisgwyliai y byddai yno wedi cael ei weddnewid yn sydyn.

"Merch sy yma."

"Merch!" adleisiodd ei mam.

"Gofyn iddi ddod i mewn." Roedd ei thad bob amser yn atebol.

"Ond mae hi'n llaid i gyd."

"Gwahodd hi i mewn."

Cododd e, ychydig yn ddiamynedd, i weithredu drosto'i hun; ond erbyn hyn, roedd yr un ddiarth wedi dod i mewn ac yn sefyll yng ngolwg pawb, gan gysgodi ei llygaid ryw ychydig rhag golau'r ystafell.

"Théodore Montefiore?" gofynnodd hi.

"Ie. Croeso i chi. Dyma y ngwraig, Jeanette, a'm merch Ruth."

Moesymgrymodd yr ymwelydd i'r triawd yn null pobl wledig, ac aeth Montefiore yn glipa ati i'w helpu i dynnu'i chot.

"Mae'n dda gen i gwrdd â chi, frawd Théodore," meddai hi. "Dŷn ni, sy yn y ganolfan, yn ymwybodol iawn o'n dyled ichi."

Ysgubodd e'r weniaith i'r naill ochr ag ystum o'i law dde groesawgar.

"Dw i'n dweud y gwir. Oni bai am eich trefniadau chi yn y gornel hon o'r Almaen, mae'n bosib y byddai miloedd o'n cydwladwyr wedi eu lladd."

"Ond gwryw roeddwn i wedi'i ddisgwyl ei weld heno."

"Oeddech. Mi wn. Moses Zvi oedd e. Mi ddaw e yma, a hynny cyn bo hir. O'i herwydd e dw i wedi gorfod dod â neges arbennig."

"Oes rhywbeth o'i le?"

"Eisteddwch, yn chwaer," meddai Ruth Montefiore yn ffurfiol, gan sylwi fod y ferch ddierth wedi ymlâdd.

"Does gen i fawr o amser ar gyfer eistedd," meddai'r dieithryn. "Mae'r neges sy gen i yn un fer, ac mae'n un y mae angen gweithredu arni yn union syth. Dyw Moses Zvi ddim yr un fath â'r person dych chi'n ei ddisgwyl."

"Ond fe gymrwch chi fwyd."

"Dim. Dim briwsionyn. Mi fydd Moses Zvi yn cyrraedd cyn bo hir. Ac nid yn unig dw i am ddiflannu, yn hun, cyn bod hynny'n digwydd: dw i'n mawr obeithio y bydd pob un ohonoch chi cyn hynny wedi hen ymadael."

"Ni!" ebychodd Montefiore, "ond sut y gallwn ni . . . ?"

"Y Moses Zvi yna," meddai hi. "Wyddoch chi rywbeth amdano?"

"Gwyddon," atebodd ei ferch yn lle Montefiore. "Fe wyddon ni ddigon i ddeall ei fod e'n Iddew ar ffo, ac arno angen cynhorthwy. Mae hynny'n ddigon."

"Fe wyddon ni fwy na hynny Ruth annwyl, ac mae'n deg i'n chwaer gael gwybod. Ond cyn inni fynd ymhellach, fe ddylen ni gael rhyw arwydd fod ein hymwelydd ... "

"Wrth gwrs, wrth gwrs." A dyma'r fenyw ddierth yn tynnu o'i phoced bapur melyn a'i estyn i'r gŵr. Bwriodd e olwg brysiog drosto a'i gynnig yn ôl gyda chwestiwn.

"Wyddoch chi am Moses Zvi rywbeth sy'n newydd i ni?"

"Nid ffoadur dilys mohono. Un ohonyn nhw yw e."

"Byth!" meddai Ruth.

"Ond dw i wedi derbyn y wybodaeth amdano i gyd drwy'r sianelau arferol," protestiai Théodore Montefiore.

"Mae hynny'n bosib iawn," meddai'r dieithryn. "Ac wrth gwrs, roedd ganddo fe fodd i ddefnyddio'r sianelau yna. Ond wy clwc yw e. Ac nid yn unig hynny. Mae e'n rhan o hen gynllun Nazi'aid sy'n ceisio dymchwelyd y cwbl o'n trefniadaeth yn y rhan yma o'r wlad. Dyna fyrdwn y nghanadwri heddiw."

"Ond ni! Yn ffoi?" ebychai Montefiore.

"Mae'n rhaid i chi fynd. A hynny ar unwaith. Maen nhw ar eich trywydd."

"Ond ar ei gyfer e dw i wedi aros, ar hyd y flwyddyn hon. Er bod yna gannoedd o rai eraill wedi mynd y ffordd yma, hwn yw'r un pwysig y bues i'n disgwyl amdano."

"Wel, dyna ddisgwyl seithug. Peryg yw enw hwn, o'i gorun i'w sawdl."

"All e ddim bod," mynnodd Montefiore.

"Fe wyddon ni'n burion mai felly y mae hi."

"Wyddoch chi pwy oedd ei dad e?"

"Ei dad? Er ei fod e'n hanu o deulu Jacob, run fath â ni i gyd, mae hwn yn fradwr hyd flaenau'i flew."

Cododd Théodore Montefiore yn drwsogl ar ei draed, a chlofffi'n ofalus i'r bwrdd yn y gornel. Ac yntau'n Iddew rhyddfrydol, tywalltodd wydraid o botel winau yn y fan yna, ac edrych yn ôl tua'r ymwelydd.

"Dim diolch," meddai honno.

"Chymerwch chi ddim seidr?"

"Dim diferyn."

Ymlwybrodd yn ôl tua'i sedd, a'r gwydr yn ei law.

"Fe welwch y mod i'n hen. Does dim a fyddai'n fwy wrth y modd i na gweld Israel fendigaid. Mynd oddi yma a gadael i'n llygaid i orffwys ar wlad y nhadau, cyn bod rhaid ifi glwydo'n derfynol. Ac yn wir, mae yna elfen o frys. Dych chi yn eich lle. Mi wn i fod yr awdurdodau wedi dechrau clywed sïon am ein tipyn gêm, ac am ymuno ryw ychydig yn ein chwarae. Mae'n weddus i'r deml fwy godidog ymddatod, yn hwyr neu'n hwyrach. Ac er y mod i'n falch o'r gyfundrefn fach hon sy gen i yma, dw i wedi

gwybod erioed y byddai'n rhaid iddi ddadfeilio ryw fore du. Eto, roedd gen i resymau arbennig dros aros i hwn."

"Ein gobaith ni i gyd, frawd Théodore, yw gweld gwlad yr addewid," meddai'r ymwelydd.

"Ond pobl yw Israel i fi, fwya, nid darn o ddaear."

"Ac un person yn arbennig. Dywed y gwir, nhad," anogodd Ruth.

"Ie, un person yn anad neb."

"Moses Zvi?"

"Hwnnw, yn union. Mae'n fab i dad arbennig."

"Ond pam mae'r bradwr hwn wedi eich cadw chi yn y fan hon?"

"Am ei fod e'n fab i'w dad," meddai Théodore Montefiore.

"Dw innau wedi erfyn ar y ngŵr," meddai ei wraig, "erfyn ac erfyn. Mae e'n wirion i aros. Ers misoedd dw i wedi taeru."

"Mae gen i resymau Jeanette. Rhesymau nad yw'n hawdd i mi eu hesbonio yn gryno wrth ddieithryn. Mae'n hen stori."

"Beth bynnag yw'r rhesymau, y ngŵr," ymyrrodd ei wraig drachefn, "mae eich byd yn y fantol. Nid y mab yw'r tad. Ac mae gynnoch chi fân bethach fel gwraig a phlentyn, heblaw hynny," ychwanegai'r wraig.

"Paid â malio amdana i, nhad," meddai'i ferch. "Fel y gwyddoch chi, dw innau'n mwynhau pob bidyn o'n gwasanaeth."

"Rwyd ti, Jeanette," meddai'r gŵr, gan droi'n ddisyfyd at ei wraig, "rwyd ti, weli di, yn Gristion o ran tarddiad. Y gwir yw dy fod di wedi newid dy gred, a'i newid hi'n llawn ac yn lân er mwyn bod yn Iddewes, dw i'n cyfadde. Ond nid Iddew fuost ti o'r groth, o hil cerdd, fel Ruth a finnau."

"Dw i'n crefyddu'n ddi-fai fel ti."

"Wyt, rwyd ti'n crefyddu. Yn well na ni, yn ddiaw."



"Ac yn hiraethu am Israel."

"Wyt, rwyd ti'n fwy Pabyddol na'r Pab."

"Ac mi wn i fwy am fudiad Sïon na'r un ohonoch chi."

"Dyna ti, y ngwraig. Rwyd ti'n ddarllenreg fawr, dw i'n cyfadde. Rwyd ti'n gwybod y theori i gyd. Mae Moses Mendelssohn a Theodor Herzl, a'r bois arloesol oll ar flaenau dy fysedd. Ond fyddi di fyth yn Iddewes."

"Does a wnelo i ddim â materion teuluol fel y rhain, y brawd Théodore," ymyrrodd y ferch ddiarth. Dw i wedi rhoi y neges. Mynd sy raid i fi nawr."

"Ac dw innau'n ddiolchgar, yn dra diolchgar, ac yn gwybod am y fentr a fu ar eich rhan chi i'n cyrraedd ni'n ddiogel."

"Yna, mae'n rhaid i fi fynd ymlaen,' meddai'r ferch ddieithr. 'A dyna sy orau i chithau. Mynd, heb din-droi na dychwelyd byth. Does dim mwy na dwy awr ar ôl.' Safodd hi ar ei thraed, ac estyn ei llaw galed i Jeanette Montefiore, wedyn i Ruth; ac yna, estynnodd ei dwy law i'r gŵr: "Beth bynnag fydd eich dewis, y mrawd, ai aros ynte dianc er mwyn gweithio drachefn, y niolch i chi. Y niolch a'm dymuniadau cywira. Dw i wedi rhoi yn rhybudd. Alla i ddim eich gorfodi chi." A mynd fynnodd hi.

Moesymgrymodd eto, fel roedd hi wedi'i wneud wrth ddod i mewn. Ac yna, fe ddiflannodd i'r gwyll megis ystlum. Rywfodd, doedd hi ddim wedi bod.

Eisteddodd y ddwy fenyw gan edrych ar y gŵr mewn mudandod. Ac roedd e'n hoelio'i lygaid ar y llawr o flaen ei draed heb yngan sill.

Ochneidiodd yr hyna o'r ddwy. A chododd y llall: mynd at ei thad, a rhoi un fraich am ei ysgwydd, a gorffwys ei phen cyrliog yn erbyn glendid ei ben e.

"Wel, wel," ebychai Montefiore.

"Dw i'n d'edmygu di nhad," meddai Ruth.

"Nac wyt, Ruth," ymyrrodd y fam. "Mwynhau'r sbort rwyd ti."

"Tynerwch, Jeanette. Bydd yn dirion heddiw."

"Ond mae Ruth yn wirion ac yn anghyfrifol fel pob person ifanc."

"All hi ddim bod yn anghyfrifol. All yr un ohonon ni fod felly yng ngwaith Israel; thâl dim ond pwyll a charc. Dyw'r ymwelydd yna ddim yn gwneud dim gwahaniaeth i fi."

"Mi geisiodd Ruth erioed dy wthio di ymlaen. Mae hon yn dy annog di o hyd, ac yn gwneud arwr ohonot ti. Fel pe baet ti'n rhyw Wilym Tel dychweledig."

"Does dim lle i gwafers arwriaeth yn y gwaith hwn. Dim ond meddwl rhew, diwydrwydd distaw a dalatrwydd oer."

"Dalatrwydd, wir! Ystyfnigrwydd. Felly y bu hi drwy gydol y flwyddyn hon."

Aeth e draw at ei silff lyfrau, a dethol llyfr tew du, — un da ar gyfer dal ffenest yn agored — a mynd yn ôl i'w gadair i'w ddarllen.

"Yn y blynyddoedd cynt roedd hi'n wahanol. Ond nawr, Théodore, dwyt ti ddim yn meddwl o ddifri am aros."

"Does dim rhaid i ti, y ngwraig, fod yma gyda fi. Fe alla i drefnu i tithau fynd yr unffordd â phob un arall, a dilyn wedyn."

"A'th adael di."

"Mae gen ti ryw ddwy awr lawn."

"Llai na dwy awr," ychwanegodd y ferch.

"Digon i'th fam ddianc yn ddestlus."

"Ond fe wyddost ti, Théodore, na wnawn i fyth freuddwydio am dy adael di."

"Dyled bersonol yw'r aros yma, Jeanette, rhyngddo i yn unig a Hans Zvi, tad teilwng y Moses sy'n dod yma heno. Ac mi ga innau gyfle i'w hatalu drwy law ei fab."

"Mae'n ymddangos fod y mab dipyn yn wahanol i'r tad."

"All e ddim bod mor wahanol â hynny. Mi ofala-i ei fod yn derbyn parch diogelwch fel pobun sy'n troi aton ni am swewr a secwndid."

Syllu'n fyfyr gar i lygad y tân wnaeth Montefiore, yn hunanfeddiannol ac yn llonydd ei ysbryd. Dynwared ei hunan-ddisgyblaeth e wnaeth y ferch hithau drwy gydio

mewn llyfr a darllen yn hamddenol. Ond symud yn anhrefnus fel iâr o gwmpas yr ystafell wnaeth y fam, gafael mewn dwster a sychu'r chwys oer oddi ar wyneb ambell ddodrefnyn, tacluso hwn ac ailosod y llall.

"Mae dwy awr wedi mynd," meddai hi'n gwta o'r diwedd pan oedd bys y cloc o fewn pum munud i gyrraedd y ddwyawr.

"Oes, Jeanette, nid hwyrach y bydd e'n hwyr. Mi fyddai prydlondeb yn beth go ddiarth yn ein masnach ni."

Aeth Jeanette draw at y cloc i'w lygadu'n geryddgar.

"Does arnat *ti* ddim dyled mwyach i Hans Zvi, Théodore. Pob cam wnest ti yn ei erbyn e, rwyt ti wedi'i dalu'n ddigonol. Rwyt ti hyd yn oed wedi dyblu'i weithgarwch. Os oedd e'n gyfrifol am achub mil o Iddewon bob blwyddyn, rwyt ti'n gwaredu dwy fil."

"Braint yw achub bywydau, yn anwylyd i. Yn hyn o beth dw i ddim yn fwy na dyn."

"Mae'n waith purion i ddyn ifanc."

"Mae'n waith purion."

"Ar y ngwir, Théodore, dw i'n meddwl weithiau dy fod di'n cael blas ar yr ymdeimlad o antur, yr un fath â Ruth."

"Digon tebyg."

"Y llanc glas."

"Dw i wedi mwynhau'r cryndod disgybledig hwnnw y mae ofn yn dod ag e i'r sawl sy'n ei ddewis. Ond mwynhau'r diben dw-i."

"Dŷn ni i gyd yn ofni. O flaen yr Arglwydd! Mae 'na ofn."

"Oes, Jeanette, dw i'n cytuno."

"A beth wyt ti'n mynd i'w wneud?"

"Yr Arglwydd a'm gosododd i yng nghanol dyffryn."

"Ond yn achos mab Hans, fachgen, mae'n hawdd deall ei fod e am ddial."

"Efallai."

"All e ddim amgyffred y rheswm pam roeddet ti'n gorfod bradychu'i dad. Un achlysur. Dyw e ddim yn gwybod dim oll am y newid yn dy fuchedd oddi ar hynny. Gad y fentr fach yn y fan yna, Théodore. Gad i'r cwbl oeri nawr. Roeddet ti'n gwybod fod rhaid iddi ddod i ben rywdro."

"Ruth! Beth wna i â gwraig fel hon?"

"Wel, mae ysgariad heb odineb yn groes i'r Ddeddf nhad," gwenodd.

"Does gen ti ddim awgrym ymarferol."

"Gofyn iddi weithio tipyn o goffi i ni," gan gynnwys yr ymwelydd disgwylidig.

"Dyna'r ateb. Beth amdani, Jeanette, yn anwylyd i? Coffi . . . i bedwar."

Aeth ei wraig ato'n dyner, a'i gusanu ar ei wallt, ac yna cerdded i'r gegin i wneud coffi. Aeth awr arall heibio, a hanner awr wedyn, cyn iddyn nhw glywed yr un sŵn dieithr o'r tu allan. Roedd rhywun yno. Roedd hi fel pe bai'r waliau'n crynu'n nerfus.

Théodore Montefiore a gododd i agor y drws y tro hwn; ac yno, ar y trothwy, yn dyheu fel bytheiad, roedd gŵr ifanc blêr wedi'i glwyfo. Os esgus ffoadur oedd hwn, doedd dim cogio ar y gwaed oedd yn dylifo'n annirwestol o'i law ddeau ac o'r toriadau ar ei fraich. Roedd ei gôt wedi'i rhwygo'n yfflon, ac un ochr yn ddu wlyb o waed.

Gafaelodd Montefiore am ei ysgwydd a'i lusgo i mewn i'r tŷ, ond roedd y gŵr ifanc yn rhy drwm iddo, a suddodd mewn llewyg i'r llawr. Meddiannodd bob llygad.

Brysiodd Ruth at gwpwrdd i nôl fffisig ac eli a brandi. Yn drefnus, fe dynnodd hi ei gôt yn rhydd, golchi'r clwy yn hydeiml a gosod y gŵr ifanc yn gyfforddus ar glustogau, bron heb dorri gair. Helpodd Montefiore hi.

Yn y man, agorodd y gŵr ifanc ei lygaid, ac edrych ar Montefiore, a gwenu wrth ebychu'n goeg: "A fydd byw yr esgyrn hyn?"

"Byddan. Cewch weld, gyfaill, mae gynnon ni garej go dda yn y fan yma i drwsio pob hen gerbyd ... "

"Peidiwch â siarad, ffrind," ymyrodd Ruth.

".. . A pheiriannydd o'r radd flaena hefyd," meddai Montefiore,"hyd yn oed os yw hi'n anafodlon i'r un peiriannydd arall gynghori ddim."

Gwenodd y gŵr ifanc, ac edrych ym myw llygad Montefiore. Edrychodd yntau'n ôl yn ddisigl gan ddweud yn addfwyn: "Gïau hefyd a roddaf arnoch, gwisgaf chwi hefyd â chroen, a rhoddaf anadl ynoch."

Ar hyn suddodd y gŵr ifanc yn hollol anymwybodol, ac aeth y tad a'i ferch ymlaen i'w ymgeleddu ymhellach fel rhai'n gyfarwydd â thrafferthion felly.

Roedd y fam wedi diflannu o'r ystafell, ond daeth hi'n ôl ar fyr o amser a dweud fod yr ystafell wely'n barod, ac aethan-nhw ill tri, y tad a'r fam a'r ferch, i lusgo'r gŵr ifanc i'w wely. Ond un gweddol drwm oedd-e; ac ar ôl ei ddichell-droi heibio i gymhlethdod y drws, dyma nhw'n ei osod i lawr yn garpedog ofalus ar y llawr. Ymddangosai'n anymwybodol.

"Théodore," meddai'r wraig yn erfyniol. "Oes rhaid i ni?"

"Beth wyt ti'n feddwl?" meddai Montefiore yn llai amyneddgar na chynt.

"Ond edrych arno fe. Rwyd ti'n gwybod yn iawn pam mae e yma."

"Paid â siarad mwy am y peth."

"Mae e'n ddinerth nawr. Does neb call am ymgeleddu llew gwyllt newynog os clwyfedig er mwyn cael ei fwyta ganddo ar ôl iddo gryfhau."

"Gawn ni geisio'i godi fe eto."

"Ond Théodore, gwranda."

"Mae gynnon ni waith i'w wneud."

"Edrych arno fe, mam. Mae e mor ifanc, mor ifanc â'r Israel newydd."

"Dw-i'n gweld dim heblaw'r felltith sy'n gorwedd arnon ni ers cenedlaethau. Moses Zvi yw hwn. Bradwr i ni."

"Gwaith, ferched, gwaith. Cewch glebran wedyn."

Ducpwyd y crwt gan bwyll bach i'r gwely, a'i roi i orwedd, ac i gysgu am oriau. Pan ddihunodd, roedd wedi ymadfer rywffaint, ond yn dal yn rhy wan i sefyll ar ei draed. "Fydd yn rhaid i chi aros gyda ni am dri diwrnod," meddai Montefiore wrtho. "Aech chi ddim ymhell yn eich cyflwr presennol. Cewch chi ddiogelwch yma a phorthiant a chroeso."

"Diolch lawer, Théodore Montefiore. Mae hyn o'ch rhan chi yn gymwynas beryglus i ddieithryn."

"Dych chi ddim yn ddieithryn, Moses Zvi. Fe wyddon ni lawer amdanoch chi. Roeddwn i'n nabod eich tad, Hans. Ac mae hyn yn beth bach iawn i'w wneud i anrhydeddu ei go fe."

"Roedd y nhad yn ddyn da."

"Roedd e'n fwy na dyn da. Roedd e'n Iddew cywir."

"Roedd e'n ddyn glân tuag at ei gyd-ddyn."

"Roedd Jerwsalem yn tanio'i galon. Mae hynny'n ddigon."

Daeth Ruth i mewn. Syllodd Moses Zvi arni'n syn.

"Oes merch gynnoch chi?"

"Oes. Dych chi ddim yn ei chofio hi pan gyrhaeddoch chi neithiwr?"

"Dw-i'n cofio dim yw dim. Ddigwyddodd neithiwr ddim."

"Mae hon mor frwd yn achos ei thad hi â chi yn achos eich tad chithau," meddai Montefiore gyda balchder, "ac yn barod i fforffedu'i bywyd."

"Wyddwn i ddim fod gynnoch chi ferch."

"Hi yw un o'r manylion atodol. Ruth. Un o'r moethau. Ond fel pob moeth mae hi'n mynd yn hanfodol. Os cewch chi gwllwm yn y perfedd, fe all hi ei ddatod yn bert. Os torrwyd asgwrn eich bys bach, mi ddodith chi mewn plastr o'ch bodiau hyd eich corun."

"Wel, yn unig drafferth ar hyn o bryd yw tipyn o gen yn y ngwallt."

"Dw-i'n siŵr fod ganddi hi rywbeth ar gyfer diflastod felly hefyd."

"Dod ag ychydig o gynhaliaeth faldodus, dyna y neges i," meddai Ruth gan osod yr hambwrdd ar y ford fach wrth erchwyn y gwely. "Ellwch chi fwyta rhywbeth, bellach?"

"Galla, mi alla i fwyta ceffyl."

"Wel, os mai ceffyl dych chi'n gyfarwydd ag e mewn mannau eraill, cig llo plaen Bafaria, dyna gewch chi yn Bad Tolz."

Ciliodd y tad; a gadawyd y ferch i sgwrsio'n ysgyfala gyda Moses Zvi. Ceisiodd e'i holi hi'n ysgafn ynghylch y canolfannau eraill yn yr ardal, ac ynglŷn â'u cyfeillion yn Rosenheim, Landshut a Deggendorf. Ond llwyddodd hi i drafod ei holl ymholiadau braidd yn wamal, weithiau drwy or-actio'n gyfrinachol amhosibl, a thro arall drwy ddadlennu rhyw system tra rhamantus o gudd seleri tywyll. Er ei bod, fel ei thad, – yn fwy na'i thad, – yn dal yn optimistig ynghylch gwir fwriadau'r bachgen, yn wahanol i'w mam, roedd maith brofiad wedi dysgu iddi, hyd yn oed gyda chyfeillion, i beidio ag ymddiried dim mwy o wybodaeth i neb nag a oedd yn gwbl angenrheidiol.

Bwytaï e ei ginio'n awchus, fel llanc oedd wedi cael ei atal rhag bwyta ers dau neu dri diwrnod. Ac wrth iddo fwyta dychwelai llewyrch i'w lygaid. Llewyrch a direidi. Allai fe ddim rhoi digon ohono yn ei geg yr un pryd. A chwarddodd Ruth wrth ei weld yn gorlenwi'n lwth.

Gwenodd yntau yn llydan yn ôl, a thrwy drwch y bwyd, mwmiodd yn ysmala: "Bu sŵn, ac wele gynnwrf, a'r esgyrn a ddaethant ynghyd, asgwrn at ei asgwrn . . ."

"Felly y bydd Israel," meddai Ruth tan chwerthin. "Pan gawn ni gyfle, fe fyddwn ni i gyd yn stwffio'n boliau, mewn gwlad yn llifeirio o laeth a mêl."

Dododd e ddarn arall o gig yn ei geg, a dechrau hela ar ôl y tatws.

\*

\*

\*

Roedd Ruth yn benffol hapus, ond yn ofalus. Eithr pan ddechreuodd Moses Zvi holi ei mam hi ynghylch y systemwaith dianc, fe synhwyrodd e ar unwaith fod yna

wrthwynebiad ar ei rhan hi. Roedd yna wir ofn hyd yn oed. Caeodd hi'n glep arno a chilio, a dychryn yn ei llygaid, er o ran ei haniaeth ei hun ei bod hi'n gynhenid haelfrydig.

Daeth Ruth yn ei hôl yn fuan i helpu Moses Zvi i gloffi i'r ardd: gardd wedi'i chau i mewn gan waliau llwydchel o gerrig yr ardal. Ac yno y cafodd ymestyn ar wely pabell, a sgwrsio'n dawel gyda Ruth wrth fod ei law felltgedig (meddai fe) a'i fraich yn mendio, a'i nerth yn ymadfer. Roedd ei nyrs e'n fwy na digonol. Merch ddeallus oedd Ruth, heb fod yn dra golygus; ond roedd ei hwyneb yn goleuo bob tro y gwenai, yn goleuo'n rhydd ddiotal, fel gwlad baganaidd wedi cael efengyl.

"Dyw y nhad, wyddoch, ddim am fynd adre i Israel. Iddew rhyddfrydol yw e."

"Mae e'n taeru ei fod o blaid y daith," meddai Moses Zvi.

"Ydy. Ond gwasgwch e. Gofynnwch am ddyddiad gan Théodore Montefiore, clymwch e wrth ryw daith arbennig; ac yna fe fydd e'n gwyro'r testun, ac ambell waith yn ebychu'n ddifyfyr — does dim rhaid bod gartre: yma (gan daro ei fogail) mae Israel yn y fan yma. Mae crefydd yn bwysicach nag Economeg."

"Mae e'n iawn. Oni theimlwch chi weithiau mai haniaeth yw Israel? Ewropeaid ydyn ni i gyd mwyach," meddai Moses Zvi, "ers canrifoedd."

"Na. Nid dyna mae e'n ei feddwl."

"Ond, on'd ydy'r peth yn wir? Efallai fod cyfeiriad yr holl ymfudiad yn artiffisial. Peth mewn llyfr yw Gwlad Addewid," meddai Moses Zvi.

"I nhad i, peth mewn calon yw hi. Ond mae'n barod i'w chadw yn y galon. Wnaiff e fyth dderbyn yr un amgylchfyd arall ond un wedi'i leoli yn Jerwsalem."

"Pobl gydwladol ydyn ni, hil y Gaethglud..."

"A'n llygaid tua'r dwyrain," meddai hi.

"Pobl gosmopolitaidd eang. Mae'n burion i'n llygaid fod lle mynnon nhw."

"Dŷn ni'n alltudion llawn-amser, Moses Zvi, mae hynny'n wir. Dyna'r diffiniad swyddogol o Iddewon. Pobl hen-brofiadol o fod ar wasgar. Ond estroniaid – go iawn – oedd biau'r awyr i'w llyncu gynnon ni. I rai eraill fe fyddai hynny'n golygu peidio â bod.



Ond oni fuon ni'n byw ers canrifoedd ar drugaredd y Cenhedloedd, heb anadlu dim o'n hawyr ein hunain, a heb fyw bywyd cyhoeddus? Meddylwch mewn difri am y cywilydd hwnnw, y gwarth o fod yn genedl breifat fel petai o'r golwg, y gwarth o fforffedu'n cyrff a'n tir i'r paganiaid. Ond yn ddwfn i lawr yng nghilfachau'n hysbryd, mewn hen ogo yn Sbaen, mewn gwlad ym mhen draw'r ddaear, mae yna Feseia wedi aros yn ein calonnau. Mab Darogan. Ac fe fydd hwnnw'n deffro ryw ben bore. A chaiff yr ysbryd mawr feddiannu'r corff bach hwn drachefn, a'n harwain i Wlad yr Addewid. Peth felly yw Israel i nhad." Caeodd Moses Zvi ei lygaid. Roedd y boen yn ei fraich wedi dychwelyd ac yn tynnu i fyny i'w ysgwydd a'i wddw. Roedd e wedi blino gwrando, siarad, meddwl a dadlau, ddim wedi blino ar Ruth Montefiore yn gymaint â blino ar y straen o fod ymhlith Iddewon go iawn drachefn, ac o glywed yr un math o glegar ag a glywsai mor fynych gan ei dad... Ei dad: fel roedd e wedi ymhoffi yn ei dad. Peth felly oedd Israel iddo, efallai. Gŵr yn ymestyn i gampau amhosibl, i beryglon mwy a mwy, oedd ei dad. A hwnnw'n dal yn dad ac yn medru siarad â chi, a hel storïau, a bod yn gynnes, yn agos, yn un cnawd. Peth felly oedd Israel: tad, nid lle: person yn cario calon, a'r galon honno'n llawn o bethau rhyfedd i'w hetifeddu, a heb lawer o amser o'r herwydd i roi sylw i'r tasgau domestig. Ac eto, roedd y teulu'n sanctaidd a'r genedl yn sanctaidd, yn deulu o deuluoedd bach.

Sancteiddrwydd y teulu! Roedd yn un o'r egwyddorion a ddysgasai mor ddefosiynol wrth lin ei dad: y modd y mae ysbryd y Duw byw yn medru trigo mewn pobl sy'n cyfathrachu â'i gilydd mewn cartre, y modd yr oedd E wedi ordeinio teuluoedd i'w ogoniant E'i hun. Peth dychrynlyd mewn unman fuasai dryllio sefydliad y teulu Iddewig felly... Mor gymhleth oedd cenedl etholedig o bechaduriaid.

Roedd Ruth yn preblan o hyd â Moses Zvi, ac yn dweud rhywbeth – yn ei ffordd drofaus a benywaidd gromfachog ei hun, am ei theulu, ac — am ei thad. Adroddai hanes bywyd ei thad, ac am y modd roedd e wedi gadael ei ffatri watsys, gan roi'r gorau i fywoliaeth eitha bras er mwyn ymroi'n gyfan gwbl i'r dasg o gynorthwyo ffoaduriaid ei gyd-genedl. Roedd hi'n amlwg fod ei thad heddychlon hwn, Théodore Montefiore, wedi gorfod ffrwyno'i hen natur ei hun, a'i sianelu i amcanion cwbl ryfedd dan orfodaeth y gyfundrefn Nazïaidd. Gadawodd yr hen gysur dihangus o fod yn ŵr busnes dosbarth-

canol, meddal, ffwrdd-â-hi, yn sipian te, heb ei drafferthu gan yr un trachwant anwedus na'i drechu gan yr un argyhoeddiad caled, daeth e'n arwr. Am ei fod e hefyd yn ŵr beirniadol, o ran anian, roedd arno dipyn bach o gywilydd weithiau ei fod yn Iddew, mae'n wir. Ond wedi'i glymu wrth unigolion eraill gan ffaith mor gymhleth â Duw cenedl, roedd Théodore Montefiore wedi troi o fod yn ŵr busnes taclus i fod yn arwr cudd, yn wynebu angau, ac yn dal ei lygaid yn ddisyfl yn nannedd y siamberau nwy potensial. Daeth yn un o'r prif offer i hwyluso dihangfa i'w gyd-genedl. Roedd ei thad hi wedi'i mentro hi, yn ddiamau. Ond wrth frolio'i hanes wrth y gŵr ifanc, roedd y ferch wrth gwrs wedi esgeuluso crybwyll wrth y dieithryn hwn un mân ddigwyddiad a dorrodd ar draws ei rawd. Hanes dethol oedd ganddi yn ei chalon am hynny: chwedl sensoredig. Gwyddai hi beth roedd hi'n dewis ei ddweud. A gwyddai fe y gallai yntau lenwi rhai o'r bylchau yn ei hadroddiad, er na fynnai fe wneud hynny'n awr.

Wedi bod yn ymddiddan â Moses Zvi, aeth y fam, Jeanette druan, yn union at ei gŵr. Roedd hi mewn cyffro ac yn amlwg yn dechrau synhwyro fod muriau ffawd yn dechrau cau amdani. Gwraig Théodore oedd hi, wedi'r cwbl, yn gynta ac yn ola; yn wir, gwarchodwraig. "Mae'n rhaid i ti gael gwared ag e . . ." meddai hi. "Théodore Montefiore, rwy'ti o'th go. Mae'n amlwg beth yw pwrpas y bachgen yma, a dyw sentiment ddim yn mynd i gyfrannu dim. Os na laddi di fe, yna fe fydd e wedi dy ladd di. Mae'r gêm leol bellach wedi'i cholli. Mae'n amlwg fod dy elynion bellach yn gwybod dy holl gynlluniau di. Ac maen nhw'n defnyddio'r llanc hwn, – Moses Zvi, – yn offeryn i glymu eu cynllwyn. Bydd dithau yr un mor ddoeth."

"Nawr, nawr, Jeanette, y nghariad i. Paid â gwylltu. Rwy'ti'n meddwl fod ofn arna i ac arnat ti."

"Dw i'n meddwl dy fod di'n wallgo."

"Rwy'ti'n tybied nghariad i, oherwydd fod y gath wedi'i heglu hi o'r cwd efallai, dy fod di mewn braw a dychryn, ac na elli di ddim dal yr argyfwng. Ond rwy'ti'n camgymryd."

"All neb ohonon ni ddal."

"Gallwn, gallwn. Nid ofn sy arnat ti, Jeanette. Ond gofal, gofal sanctaidd."

"Sanctaid, myn gafr i."

"Fe elli di lisenwi'r pethau pura. Fe elli di fod â thipyn bach o gywilydd ohonyn nhw hyd yn oed. Ond yr un yw eu hanfod nhw o hyd i ti."

"Lol botes maip, Théodore annwyl, griff o flaen trowynt yw nghylla i heddiw. A'th gylla dithau'r un fath. Dŷn ni i gyd yn ofni nawr. Rwyt tithau'n ofni. Mae Ruth yn ofni. Fe ddylen ni barchu'n hofn. Ceidwad bywyd yw ofn. Mae marwolaeth a'i hwyneb yn cuchio o flaen ein trwynau ni bob un. Ffo, Théodore, ffo, tra bo'r synnwyr gynnon ni i feddwl sut y gallwn ni ffoi. Lladda'r bachgen yma, ac achub dy deulu dy hun."

"Gan bwyll nawr, gan bwyll, Jeanette."

"Os na laddi di fe, mi wna i. Sbiwr a bradwr yw e."

"Dos, nawr, â'th orchestion canibalaidd. Fe wyddost ti na allwn ni ddim lladd mor rhwydd â hyn."

"Pam?"

"Nid dyna'n *forte*."

"Yn enw rheswm, pam?"

"Ond mab Hans Zvi yw e. Ac mae gwaed ei dad, gwaed diniwed Hans Zvi, ar y nwylo i eisoes fel cyllell yn y nghalon."

"Théodore, y nghariad i. Mae e wedi dod i ddial marwolaeth ei dad. Fe fu rhaid inni'i wneud yr hyn wnaethon ni yn yr amgylchfyd eithriadol yna. Mae e am dalu'r pwyth yn ôl. Elli *di* fyth atalu peth fel 'na o fewn cylch y bywyd hwn."

Llithrodd Ruth i mewn drwy'r drws, a sibrdw y newydd fod Moses Zvi yn cysgu eto.

"Peidiwch â chodi'ch lleisiau. Fe allwn i glywed bron popeth o'r ardd."

"Defnyddia di dy ddylanwad, Ruth. Ceisia ddarbwylllo dy dad nawr fod y llwybr presennol yn ei arwain i ddifancoll."

"Dos di ychydig o gwmpas dy bethau Jeanette," meddai'r gŵr. "Dos i ddwsto. Rwyt ti bob amser yn achwyn am oruchafiaeth llwch yn yr hen fywyd yma. Dos di i

ymsod arno am dipyn â'th fagnelau frwshys. Ac mi ga i drafod y mater hwn gyda Ruth."

"Yna, addawa y gwnei di roi ystyriaeth gall i'r hyn ddwedais i."

"Mae llawer o wirionedd ym mhob dim ddwedaist ti erioed, nghariad i. Wnawn ni ddim ei drin yn ysgafn, wir-yr. Gofal piau hi."

Ciliodd hi'n anfodlon, wrth i'w merch gymryd ei lle, fel yr oedd hi bob amser yn cymryd ei lle.

"Beth wnawn ni?" meddai'r tad.

Ond doedd gan Ruth ddim ateb parod. Allen nhw ddim lladd y llanc mewn gwaed oer, ac eto roedd hi'n hollol sicr ei fod yntau mewn gwaed oer yn arofn eu bywydau nhw. Wrth iddo gael ei achlesu, ar ei gefn yn y fan yna, wrth dderbyn eu nodedd a'u tynerwch, bob munud, roedd e'n archwilio'r gwendid yn eu hamddiffynfeydd, roedd e'n byseddu adeiladwaith eu dihangfa. Eu defnyddio nhw roedd e, a hynny heb yn wybod iddo fe, drwy gamddeall. Mab ei dad oedd e, ac am ddial. Ac eto, allen nhw ddim ei ladd. Doedden nhw ddim yn gyfarwydd â lladd. Mwy cynefin iddyn nhw oedd y broses wrthwyneb. Roedd caledi lladd yn wrthun, yn anghyfreithlon. Beth bynnag oedd y perygl o adael iddo fyw, roedd y perygl o farw gyda'i waed e ar eu dwylo'n ddengwaith gwaeth, ac yntau'n fab i Hans Zvi. Gymaint o'u gwaith a oedd yn cymysgu egwyddor lân a sentiment cynnes nes ei bod hi'n anodd weithiau ddioli'r naill a'r llall.

"Mae eisiau i ni fod yn oer ymarferol ynglŷn â hyn," meddai'r tad.

Gwenodd hi: "Arferiad go newydd fyddai hynny nhad."

"Mewn achosion da, fe ddaw'r gwaith mwya diflas yn dderbyniol."

"Mae'r grefft fach a ddysgon ni eisoes yn rhwyddach lawer."

"Roedd hi'n rhwyddach ar ôl y tro cynta, mae'n siŵr. Felly y bydd hyn hefyd."

"Ond nhad, allwn ni ddim. Fe wyddost ti hynny."

"Sut hwyl sy ar y crwt, felly, y bore 'ma?"

"Gwell."

"Faint?"

"Yn ddigon gwell i eistedd yn yr ardd."

"Ond ddim i gerdded."

"Fydd e ddim yn ddigon da i symud o'r tŷ am ddau ddiwrnod arall, os dyna sy yn dy feddwl di."

"Da iawn. Gohirio," meddai'i thad. "Cawn ni ddweud wrth dy fam ein bod ni'n mynd i'w gadw fe lle y mae-e, am ddeuddydd arall."

Roedd y cynllun hwn yn taro Moses Zvi i'r dim. Am y tro. Roedd y ddau ohonyn nhw'n fodlon arno. Yn wir, roedd hyn fel pe bai'n ateb pob problem a gafodd y ddynoliaeth erioed. Ac felly roedden nhw'n eistedd yn fyfyr gar foddhaus ac yn lledwenu yn eu calonnau pan dywyllwyd y golau a ddeuai drwy'r drws o'r ardd gan lun Moses Zvi ei hun. Roedd e'n sefyll ar ei ben ei hun, roedd e'n medru cerdded, yn boenus, gydag anhawster. Ond taw waeth am hynny, roedd e'n medru symud yn gymharol ddeheuig dan ei stêm ei hun.

Safodd yn stond ac edrych arnyn nhw. "Fel y gwelwch chi, dw i'n well."

"Faint o boen sy'n aros?" holodd Ruth i guddio'i syndod.

"Mae yna ddigon o boen ar ôl. Ond mae gen i ddigon o nerth bellach i symud ymlaen. Dyna sy orau."

"Gwell i chi aros ddiwrnod neu ddau eto," meddai'r tad.

"Na, newidiais i 'meddwl. Mynd ymlaen, un cam arall, dyna y nyletswydd, a hynny *nawr*. Mae'n rhaid ichi esbonio'r cam nesa, a'r ddolen nesa yn y gadwyn."

"Os na fyddwch chi'n ddigon cry, fe all yr un cam hwnnw fod yn ddigon am eich bywyd chi," meddai Ruth.

"Dw i fel cawr," meddai fe gan ymestyn.

Ac ar y gair, llesmeiriodd e unwaith eto wrth eu traed, a'i ben ifanc at y ddaear, a'i ddwy law wedi estyn ymlaen uwch ei ben fel nofiwr adeiniog wedi deifio o'r nefoedd.

Drannoeth roedd twymyn uchel eto ar Foses y ffoadur; a thywysoges wen oedd Ruth a lithrai'n felfedaidd drwy'r gwyll o'i gwmpas. Llais addfwyn oedd hi'n lleddfu'i wres croenfyw. Clwtyn llaith, mwynaid oedd hi yn lliniaru'r cling-clong diderfyn yn ei glustiau. Angyles ei uffern oedd hi felly yn ei hunllef. Ambell waith tybiai Moses yn ei lesgedd isel a'i dwymyn ei bod hi'n ei gyhuddo, ei bod hi'n llefaru'n dawel yn ei glust, ac eto efallai mai hyn a ddwedai'n wir: "Dy dad di yw hwn, Moses. Hans ei hun. Nid Théodore Montefiore, all e ddim bod. Mae nhad yn yr un achos yn gymwys â'th dad di. Wele dy dad di yma: ei egni fe sy'n gyrru hwn. Ei weledigaeth e. Yn yr un gwaith. Hen ddyn bach diwerth diflas oedd Montefiore ar yr wyneb, sy'n berchen ffatri watshys. Mae hwn yn wahanol. Cymer dy *dad* nawr. Mae e yma. Coledda fe drachefn, Moses. Fe fuodd y tad hwnnw ei hun farw. Am genedlaethau erioed buodd ei ysbryd e'n crwydro gwledydd diffaith yn ei bobl hynafol; ac yn awr o'r diwedd mae ei ysbryd e'n cordeddu yn ein plith *ni*. Mae dy dad yn ifanc drachefn, yn ifanc o hyd, ac yn d'arwain di allan i ryddid." Roedd gwres Moses yn troi ei ben yn y munudau hyn, ac yntau wedi dod i bwysleisio'i fabolaeth iddo'i hun o flaen popeth.

Sychodd hi dwymyn ei dalcen, a rhoi dŵr oer ar ei wefusau crach: "O anadl, tyrd oddi wrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw."

Y tro hwn roedd Moses Zvi yn wirioneddol wael. Roedd yn rhwyfus ac yn chwil. Roedd rhyw amhurdeb mwy na ffoi chwerw wedi mynd i'w waed; ond roedd Ruth wrth ei ymyl yn wastad. Hi oedd ei gynheilydd cyndyn e. Hi oedd y goleudy gobaith a fflachiai'n rheolaidd uwchben y dyfroedd gorffwyll: fflach, bwlech o dair eiliad, fflach, eiliad, ac ymlaen yn ddiymatal, yr un patrwm bob amser yno, yn y nos ddua'n pigo o hyd, yn oer mewn gwres ac yn gynnes mewn oerfel. Trodd Moses, yn ei dwymyn, fad ei fywyd tuag at y ferch garedig hon, a hwylio'n ddibynnol yn ei chyfeiriad, gan wybod y deuai fe heibio i'r storm ac y câi gyfarwyddyd gan ei bodolaeth hi sut i gyrraedd heulog ddyddiau hirion. Hi oedd golchwraig obeithiol ei hunllef. Allai fe ddim llofruddio tad hon. Ac eto, fe allai. Gan fod rhaid.

Wrth iddo honcian yn bŵl allan o'r nudden, fe wyddai fe fod yr hylï a gwrsiai ar hyd ei dymer afiach oll wedi newid. Dechreuai gryfhau eto. Roedd ei ewyllys wedi'i ystwytho mwyach, a'i emosiynau wedi'u troi'n hyblyg. Allai fe ddim mwy edrych ar y ferch hon na'i thad hyd yn oed fel pe baen nhw'n elynion. Doedd e ddim yn teimlo serch tuag ati, wrth gwrs, – nid serch yn hollol, – ond rhyw garedigrwydd edmygus, rhyw fodlonrwydd melys a ymylai ar serch... Roedd e mewn cyfyng gyngor.

Ei dyletswydd anianol hi yn unig, dyna a wnâi hon wahaniaeth iddo drwy ryw ryfedd ffordd. Yn betrus, nid hwyrach y gwyddai hi ei bod hi, er ei gwaetha'i hun, yn y gymwynas hon iddo fe'n dodï at ei gilydd ddarnau'r peiriant o drefn a fyddai'n ei lladd hi a'i theulu. Ond roedd hi'n hen gyfarwydd â nyrsio mewn ansicrwydd. Dyna oedd e: hen ailadrodd trasiedi Israel. A dim ond ambell waith y byddai hi'n pwysu'n ôl pan oedd e'n cysgu, ac edrych ar ei wyneb cyffredin, normal, a cheisio dyfalu sut y gallai hwn fod mor wahanol o'u safbwynt nhw, sut y gallai fe fod yn negydd i'w cadarnhaol nhw, sut y gallai fe fod yn farwolaeth yn eu bywyd. Pan ddihunodd e, roedd rhywbeth arall ynddo fe hefyd wedi dihuño. Glendid newydd oedd hwnnw. Ddï ei lled anobaith hi yn obaith iddo fe, yn ddigon i'w gyffesu i'w thad.

Wedi i'w feddwl e glirio ac oeri i'r diwedd, galwodd Moses Zvi am Théodore Montefiore. Roedd ei gyffes e nawr yn sioc. Roedd daioni'r croeso roddwyd iddo wedi'i ddrysu. Dechreuodd, yn benderfynol ara glinigol nawr, gyfadde i'w ffrindiau newydd beth oedd holl gymhellion afreolaidd ei daith a'i gais yno, sut y bu iddo, ar ôl deall y cam a gawsai'i dad gynt, gefnu'n llwyr ar Iddewiaeth Feseianaidd ac yn wir ddod i gasâu'i genedl ei hun. Daethai fe, Zvi, ei hun yn fodlon hyd yn oed i helpu'r Nazïaid i ddifetha'i gyd-Iddewon bellach, ac yn anad dim daeth i awyddu am ddial ar gyfundrefn dianc Montefiore. Aeth yn gas ganddo'r ffaith o fod yn Iddew Israelaidd. "Welwch chi, down i ddim yn gallu derbyn yn y nghalon ddim o'r hyn wnaethoch chi, Montefiore. Chwerwais oherwydd eich ffeidd-dra tuag at y nhad. Beth wnaeth i chi fod mor annynol? Bod yn barod i ladd *un* o'ch cenedl er mwyn diogelu'ch croen pitw eich hun ynghyd â rhyw gant o Iddewon ar ffo. Nid Iddewiaeth yw hynny, does bosib. Dyw Iddewiaeth ddim yn bargeinio gyda bywyd Iddewon. Rhagluniaeth biau beth fuasai'n

digwydd. Mae lladd un person yn debyg i ladd yr holl fyd. Ond mae'n wrthun. Fedrwech chi ddim ystyried aberthu neb."

Ond cyd-gyffes mewn gwirionedd oedd yr ymddiddan hwn: a bu rhaid i Montefiore yntau yn ei dro gyfadde sut y bu iddo fe hefyd newid ei fuchedd yn llwyr, a hynny wedi pasio canol-oed. Yn Iddew, ond heb erioed fynd dros ben llestri felly, yn fasnachwr cysurus ond defnyddiol yn ei swydd, ymddangosai bywyd yn ystafell dawel a thwym, a'r ffenestri'n ymagor ar fae darluniadol Riferaidd o fywyd. Ond yn awr, O! Arglwydd, pe câi... pe câi ail gyfle, buasai wedi dilyn ei reddf a'i mentro hi o hyd. "Nid ni sy'n byw, ond yr Israel sy'n byw ynon-ni." Daeth cyffes i Montefiore yn rhwyddach nawr... Gynt, un diwrnod, un diwrnod ofnus, buasai Montefiore mewn sgwrs ag un o blaid y Nazïaid, a chafodd her ynglŷn â'i Iddewiaeth ei hun. Er mwyn achub ei groen ei hun a chroen cydweithwyr lawer, fe draws-lywiodd Montefiore y sgwrs (mewn anwybodaeth) i gyfeiriad un yn unig o'i weithwyr, Hans Zvi, er mwyn esbonio beth oedd ar gerdded ac achub y lleill. Wyddai fe ddim o gwbl ar y pryd beth oedd holl weithgareddau cudd Zvi y tu allan i'r ffatri. Sylweddolodd fod y Nazïaid â'u bryd ar ladd pawb o Iddewon y ffatri, a cholli'r gwaith arbenigol a hanfodol i'r Almaen. Penderfynodd feio un yn unig. A thaeru bod pawb arall yn ddiniwed. Wyddai Montefiore ddim beth oedd canlyniad ei sylwadau. Bu sylweddoli'i frad yn brofiad trawmatig enbyd iddo. Damwain oedd, yn sicr. Doedd ganddo ddim clem am swyddogaeth na phwysigrwydd Hans Zvi. Cwmpodd y cen oddi ar ei lygaid, a gwelodd i waelod y ffug oer a oedd yn cynnal yr holl gysur a fu o'i gwmpas. Gwelodd nawr lygredd ei galon wyneb yn wyneb. Edifarhaodd hyd waelod ei stumog. Mynnai ddadwneud ei fywyd oll er budd i Israel. "Fe welwch chi, felly, pam y bu'n rhaid imi ymgymryd â'r tasgau hyn i wneud iawn," meddai Montefiore wrth Moses Zvi, "pam treulio'r blynyddoedd fan hyn, yn cyflawni'r oruchwyliaeth ddihangol bresennol. Dim ond edifeirwch rhonc a chreulon a gwithiol. Pan laddwyd eich tad drwy gamddeall ofnadwy fel yna, fe deimlais i ddrychiolaeth yn disgyn o'r awyr arna i ac yn meddiannu yn aelodau i gyd. Drychiolaeth dyn mewn cyfyng gyngor. Pethau nad oedden nhw erioed wedi bod yn y ngallu na'm hamgyffred i o'r blaen, yn awr fe ddaethan nhw'n



naturiol, fel pe bawn i'n rhywun arall. Alla-i byth edifaru ddigon." Edifarhaodd hyd at wadnau ei draed. Teimlai fod achub un dyn yn gyfrifoldeb i bob dyn.

"Dw i'n deall yn iawn," meddai Moses Zvi. "Er y galar. Mae troi pen i waered yn brofiad y gwn i'n burion amdano. Mi wnaethoch chi dalu iawn bellach am eich amryfusedd. Dw innau'n sylweddoli mai damwain oedd hi. Na," meddai. "Na. Does dim eisiau i'ch cynllwyn orffen, o raid. Dŷn ni'n bedwar bellach. A dyw'r Nazïaid ddim yn sylweddoli mod i wedi newid y nghôt am yr ail waith."

"Fe allen ni ddianc gyda'n gilydd ar hyd y llwybrau arferol. Dyna yw'ch meddwl chi?" meddai Montefiore.

"Pam lai? Mi wna-i'ch helpu chi. Mi wn i nawr beth wnelai nhad."

"Dyw pethau ddim mor rhwydd â hynyna. Mae yna rwydwaith o gelloedd dianc y tu ôl i ni yn ogystal ag o'n blaen. Alla i ddim gadael y rheini'n ddiymgeledd."

"Ond mae'r Nazïaid yn gwybod am y rhai tu ôl i gyd. Y rhai o'ch blaen chi oedd y rhai oedd yn aros yn ddirgelwch, a'r rheina sy o'n blaen *ni* i'w defnyddio nawr."

"Bydd rhaid i fi roi rhybudd digonol. Alla i ddim cefnu ar yn ffrindiau i o'r tu cefn mwyach, hyd yn oed yn yr argyfwng mwya di-gefn," meddai Théodore.

"Does dim gobaith iddyn nhw. Maen nhw ar ben, beth bynnag."

"Fe drefnwn i chi'ch tri bydru yn eich blaen. Arhosa i fan hyn. Mae'n deg i'r hen ledi'n arbennig fynd gyda chi. Mae hi wedi bod yn afresymol o ddewr. Dyw ei chalon hi ddim wedi bod yn agos i'r gwaith," meddai Montefiore. "Cristion yw hi o'i geni, druan; ac mae ofn wedi bod arni drwy'r amser. Does dim dewrder sy'n dristach na dewrder yr anfodlon. Teg iddi fynd yn awr. Aros 'wna i." Felly y clywid y Montefiore newydd.

"A'ch merch? Mae hi mor garedig."

"A! Ruth. Hi yw'r Israel newydd. Caiff hi hefyd fynd gyda chi. Mae y nyddiau i wedi hwyrhau. Ond o'i blaen hi mae bywyd o adeiladu."

"Wela i ddim bod rhaid iddi hi nac i chi aros. Fi sy wedi dod ar war y tŷ hwn. Fi sy wedi bradychu Israel, ddim chi. On'd oes rhywbeth y medra i wneud yn eich lle?"

"Dych chi'n ifanc."

"Ydw," meddai Moses. "A mantais yw bod yn ifanc, ac iach bellach, i dwyllo'r Nazïaid am ychydig eto a rhedeg wedyn. Dw i'n dal eu hymddiriedaeth nhw. Dwi'n bwriadu dianc nawr. Fe alla i eu camarwain nhw. Fe alla i dynnu'ch teulu ar oleddf, y tri ohonoch chi heibio i'r ddawns o hyd drwy adael negeseuon gau."

"Na, na. aros wna i," mynnai Montefiore. "Fi yw'r unig un sy'n nabod pob un yn y rhwydwaith. Gen innau'n unig y mae'r cyfle i waredu'r nifer fwya posib o'r rhai sy ar ôl. Fe ddaw pobl eto. Maen nhw'n dibynnu arna i . . . Cwlwm yw cwlwm."

"Dw-i'n dal i ddweud mai'ch dyletswydd chi yw dod gyda ni nawr," meddai Moses.

"Gawn ni ymgynghori â Ruth. Fe fydd ganddi hi feddwl oer ac awgrymiadau ymarferol mewn helbul fel hyn."

Ond doedd gan Ruth ddim gwell cynnig na'r un ohonyn nhw. Gwyddai yn ei chalon mai derbyn merthyrdod oedd nwyd ei thad, ac eto fynnai hi ddim ei ddarbwylllo fe fel arall am ei bod hi'n siŵr mai dyna fyddai'i dewis hithau yn yr un lle. Ac o nabod ei thad, synnai hi ddim pe bai yna gynllwyn arall ychwanegol. Gwingai hi yn wyneb eglurder y rheidrwydd. "Fe ddilynwn ni dy gyngor di, nhad," meddai hi'n dyner. "Mae gynnon ni un erfyn cudd yn erbyn y Nazïaid wyddon nhw ddim oll amdano. Heblaw ni'n pedwar, mae yna gwlwm rhyngon ni, y cariad cudd, mwyn, dynol, cenedlaethol, sy'n treblu'n holl arfogaeth ni. Teulu o genedl. Ymddiriedaeth yn ein gilydd mwyach."

"Ac Israel oll hefyd erioed, y merch i. Mae hi gyda ni. Wnawn ni ddim methu."

"Dyma'n dirgelwch." Doedd ei meddwl hi ddim yn oer o gwbl. Ei thad oedd y wir graig dan ei thraed. Fe oedd yr arweinydd, a phob gair o'i eiddo fe oedd ei hawdurdod moesol ers oesoedd. Allai hi ddim amau'i ddoethineb nawr. Ac eto, gwyddai, wrth dderbyn y tro hwn ei gyngor tlawd, ei fod e hefyd yn cynnig celwydd i geisio cynrychioli'i obaith.

Fe wnaethan nhw'u paratoadau ar gyfer ymadael, sut bynnag, ac addawodd Théodore Montefiore y gwnâi ymuno â nhw o fewn dau ddiwrnod pe bai yna fodd.

Arhoson nhw ill tri tan y cyfnos, y ddwy fenyw, ac yntau Moses Zvi hefyd, yn gymysglyd eu penderfyniad, cyn llithro o lech i lwyn drwy ddrws isel cyfrinachol y tu ôl i'r perthi yng ngwaelod yr ardd, ill pedwar, llithro allan yn eu dau-ddwbl hyderus, gan gychwyn ar hyd yr un ffordd drugarog ag yr anfonon nhw gannoedd lawer o Iddewon o'u blaen.

Plygon nhw i ymwithio drwy dwnnel bychan ym mhen draw'r ardd ac wedyn allan i'r awyr iach ... ac i mewn i ddwylo hir, hir, hir ... O! Y dwylo! A'r anwybodaeth a fu'n obaith i bobl eu cenedl ddiodefus erioed! Roedd hyn o elyn, a oedd wedi dilyn eu llwyth ers cenedlaethau, wedi'u dal nhw i gyd eto, wedi lled-amau Moses Zvi hefyd. Roedd lled-amau'n ddigon...

Nid llawer o gamp yw i neb borthi'r siamberau nwy â phedwar o Iddewon ychwanegol – y cwbl lot o'r criw bach yma. Gwaith pwysicach o lawer oedd sicrhau fod y llwybr ymwared arbennig hwn i ryddid yn y gornel hon o'r Almaen wedi ei chwalu hefyd a'i gau'n derfynol. Canys cipiwyd y gyfrinach honno hefyd gan y gallu gau. Arweiniodd y cyrch cyfrin Iddewig bychan hwn i hen dric gan y Gestapo profiadol: twyll o fewn twyll, defnyddio'r llanc Moses yn fradwr o fewn bradwyr Iddewig. Ac mi all heddlu cudd, mae'n ddiau, fod yn seremonïol theatrig hyd yn oed ar achlysur fel hwn. . .

Trechir trefnusrwydd gan drefnusrwydd sy well... Cwlwm yw cwlwm. Dialwyd ar Hans Zvi druan hyd yn oed. A mwy. Rhan fach o gwllwm hir Israel oll fu helbul fel hyn, drwy ddirgel ffyrdd y canrifoedd hir yn tynnu ei gobaith i dwll. Onid 'bradwr' oedd ystyr 'Jacob'?

## CI WRTH Y DRWS

'Ga-i ddod i mewn, Mr Leyshon.'

Clywais grafu fel ci y tu allan i'r drws. Crafu, crafu. Mae'n rhaid mai ci oedd yno, oherwydd yr anadlu dwfn cyflym. Gadewais iddo fod am ychydig, ond fe ddaliodd ati gyda'r un dygnwch undonog nes imi godi a'i agor. Roedd dallineb niwl trwm anghyffredin ym mhobman tu allan, rholiau a rholiau ohono. Phrofais i erioed y fath aneglurder yn llwytho pob modfedd o'r awyr.

Yna, fe welais i Willie. Er nad oedd ffurf na gofod i'w gorff, gallwn weld ei wyneb heb ddim odano, yn ymwithio i fyny allan o'r gwynder, gan nofio arno'n ysgafn, fel castell canol-oesol, mewn llyn o arswyd. Prin bod ei wyneb, hyd yn oed, yn eglur ifi. Ceisiai'i lygaid llaith dreiglo drwy'r niwl ata-i. Roedd byddardod y niwl yn mygu o'i amgylch, fel pe bai cysgod (yn gymysg â Willie) wedi ei ddilladu mewn gynau hir a'i orchuddio mewn llenni brau, ac wedi cerdded i mewn i'n llygaid ymchwilgar i a thaenu'n llywodraethol ar orsedd yn holl synhwyrddau i.

"Ga-i ddod i mewn."

"Wel cei, debyg iawn. Cei. Cei."

Roedd ei lais wedi dod allan o'r cwmwl. A chydiais o dan y llais nes ifi ddod o hyd i damaid o'i gorff, a'i dynnu i mewn.

Roedd golwg ryfedd arno, fel sy'n briodol i un sy newydd ddod allan o dir y bwganod; ac roedd e'n crynu yn y fan yna ac yn dal darn o raff yn ei law. Roedd e'n anadlu hefyd yn hynod o drwm, ac yn ochneidio. Yng ngolau'r tŷ roedd lliw ei groen i'w weld yn greulon o welw, bron yn felynwyrdd.

"Ga-i eistedd, Mr. Leyshon?"

"Wel cei, Willie. Y fan yma."

Eisteddodd yn anwastad, a thybiais am ennyd ei fod e'n mynd i gysgu'n union, pan sythodd e'n ddisyfyd a rhwbio'i arddwrn. Yna, am y tro cynta y sylwais i fod ei arddwrn yn gwaedu fel pe bai chwip wedi ei ddal e yn y fan yna.

"Beth sy'n bod, Willie? Gwypaist ti ar y ffordd?"

Wnaeth e ddim ond gwenu'n wag yn ôl. Gallesid clywed ei wên yn rhuglo ar waelod y bwced.

"Sut mae dy fam, Willie?"

Nodiodd . . . mewn cytundeb. "Ydy."

"Dyw hi ddim wedi dod gyda thi?"

Nodiodd eto am fod ei ben e ar echel.

"Dyna ni, fe wna-i banaid o de i ti." Roedd angen egwyl arna-i er mwyn pwyso'r sefyllfa. Yna, sylwais i ar rywbeth. Mi ddylwn fod wedi sylwi'n syth. "Ond dywed, oes eisiau rhywbeth ar yr arddwrn yna'n gynta?"

"Oes, oes, rhwymyn...plaster," meddai fe'n awchus, gan erfyn am yr addurn.

"Wel, rho'r rhaff yna i lawr. A dere ma's i'r gegin imi chwilio am ddiferyn o ïodin."

Dw i'n nabol Willie a'i fam er y dydd y deuthum i'r Alban; ac ychydig iawn o bobl y bydd Willie'n fodlon mynd atyn nhw i siarad â nhw, neb arall efallai ar wahân i'w fam hynod ddeallus, a'i fodryb Mary sy'n galw heibio bob Sadwrn. A fi. Fe geisiais i ddangos iddo lawer tro sut roedd dal brws a phaentio, ond ofer yw ceisio dysgu fawr o ddim i Willie. A rhyfeddod i mi yw bod ei fam wedi llwyddo gystal. A mwy o ryfeddod yw ei hamynedd — wedi naw a deugain mlynedd o gymdeithas yr hurtyn yma, deugain mlynedd a naw o falu ffenestri, o wlychu'r gwely, o roi'r tŷ ar dân, o adael y tapiau dŵr ymlaen i lifo dros y carpedi, o dynnu'r llenni i'r llawr, o ffolineb ynfyd ac annealladwy yn feunyddiol.

Ardal ddieithr yw hon yn ystod y rhan fwya o'r flwyddyn. Yn ystod y gwyliau yn unig y bydda i'n dod yma i ucheldiroedd yr Alban; a chan mai'n dau dŷ ni yw'r unig

rai ar yr ochr hon i'r mynydd o Aberdwee, fi yw eu hunig gymydog.

Dw i wedi bod yn dod yma bob gwyliau i baentio er pan oeddwn i'n fyfyrwr, er mwyn cael paentio mewn tawelwch ysbryd ac unigedd. Mi wn bellach, sut bynnag, nad mater o ymadael â lle prysur yw tawelwch ysbryd, gan fod y nghydwbybod a'm heuogrwydd personol ynghylch cant a mil o fanion diffygiol a mawrion yn trigo gyda fi'n wastadol. Does dim gwyliau rhag yr hunan. Does dim llonydd rhag cydwybod. Mi wn hefyd fod yr arwahanrwydd hwnnw sy'n anhepgorol i'r artist yn bosib hyd yn oed drwyn yn nhrwyn â rhywun, ynghanol ymddiddan, ymhlith cwmni; ac mai peth a gynhyrcha'r dyn ei hun neu a roddir iddo yn foeth yw ei unigrwydd. Ond, bydda i'n dal i ddod yma i baentio, efallai am mai'r Alban yw hi, ac am fod cyffro ysbrydol ei mynyddoedd a chwmpeni ei niwloedd yn caniatáu i fi ddod o hyd i fi yn hun mewn gwirionedd, ac wrth wneud hynny, mewn dyfnder, ddarganfod hefyd bob person arall yr un pryd.

Fe ges i afael ar yr iodin, ac yna wrth gydio ym mraich Willie, sylwais i ar yr aroglau. Yn ddigamsyniol, roedd aroglau nwy arno. Gadewais i'w fraich syrthio.

"Beth sy wedi digwydd, Willie? Ydy dy fam yn iach?"

"Llythyr, Mr. Leyshon. Edrychwch."

Tynnodd allan o'i boced ddernyn o bapur yr oedd wedi'i wthio yno, ac arno'r geiriau canlynol:

*Y rhai sy ar ôl yw'r rhai unig, nid y rhai sy'n marw. Yn ystod y ddwy flynedd diwetha, er pan gladdwyd ei dad, y mae Willie wedi sylweddoli fwyfwy y byddai fe, pan fydda i'n marw, ar ei ben ei hun yn llwyr. Ac y mae wedi ymateb i'r wybodaeth o amddifadrwydd gyda gorffwylledd anifail. Wedi y marw i, fe fyddai fe ar goll, heb gysylltiad â dim na neb, yn llychyn mewn gofod heb ddolen, yn bryfyn heb orffennol yn sgrafellu ar wyneb y ddaear yn ddigariad. Ac mi wn i ei fod yn ei le: does dim croeso i'w siort e. Fe gaiff ei hela gan glercod a ffurflenni, achos dyma anterth deallusion y byd. Ar y gorau, rhywbeth i dosturio wrtho fyddai fe, nid rhywbeth i fyw gydag e. Peth i'w neilltuo, baich esgymun... Ble'r wyt ti, Mami? Dyna'i alwad reolaidd.*

*...Dyna pam dw i wedi dilyn y llwybr presennol, nid mewn unrhyw angerdd o anobaith a digalondid, nid fel protest, ac nid yn sydyn gan fwrw y mhen yn erbyn caledrwydd y byd; ond er mwyn agor bywyd arall iddo fe, ac fel y caiff e'i ryddhau a'i ddiogelu. Cyflawniad yw e i fi i'r broses o fod yn fam. Mae bod yn fam yn anodd i bawb: rhaid i fenywod fwrw'u prentisiaeth drwy wallau a phryderon lawer. Anos byth yn ddi-os yw bod yn fam i hurtyn; ac arafach lawer yw hynt y brentisiaeth. I fi, fydda i ddim yn graddio ynddi nes bydd y gwaith hwn drosodd. Hoffwn i pe bawn i wedi cael cyfle i drafod hyn oll gyda rhywun. Unigrwydd mawr yw cwmpeini Willie.*

*Fu ei fywyd e ddim yn anhapus, dw i'n gobeithio. Myfi sy wedi cronni'r troeon aflafar a thrwstan a'u chwyddo'n epigau. Myfi a sylwodd, wrth gwrs, ar ei arafwch wrth ddysgu cerdded a siarad, fel pe bai ei gorff mawr yn wag, megis arian nad yw'n dderbyniol i neb, neu air heb ystyr. Myfi a griodd oherwydd ei anawsterau ysgol a'i fethiant i chwarae gyda phlant eraill am na allai ddysgu cydweithrediad gwareiddiol. Roedd ei ddyddiau unig fel Stadiwm Rygbi heb gyhoedd, heb chwaraewyr yno, hynny yw lle y disgwyliid llawer o gyffro, ond heb sŵn o gwbl,... heb gêm. Ymfalchïai fe yn y fraint o gael llyfrau fel pawb arall, ond ddysgodd e erioed pa ffordd i'w dal nhw. Ac yna, maes o law, fe fethodd e'n lân â bod yn llawn-dwf. Doedd e, allai fe ddim bod yn gymeradwy, gan neb. A rhaid oedd iddo fodloni ar hunan-bwysigrwydd yr allanolion — a'i lordian hi mewn trowsusau hirion, gan wybod perlewyg ei oes pan gafodd e ellyn trydan yn anrheg Nadolig.*

*...Fe fyddai rhai menywod o dro i dro yn cynnig eu cydymdeimlad â fi, yn hollol ddiangen. Tybien nhw fod y mywyd i wedi'i drymhau a'i gyfyngu gan Willie. Dim o'r fath beth. Mae Willie wedi lledu y ngorwelion a phorthi y mhrofiad a ngwybodaeth mewn modd all dynion ddim ei fesur. Medra-i ddeall o'r tu mewn filoedd o broblemau, hyd yn oed problemau astrus pellennig sy'n dwllwch i ferched eraill. Oherwydd Willie.*

*Mae agwedd pobol dan ormes er enghraifft, delfrydwyr erlidiedig, dioddefwyr y ddaear, yn golygu rhywbeth byw iawn i fi mwyach ac yn cerdded ar y nghroen. Byd amryfal yw y nghartre ifi, a finnau'n medru rhodio'n ddinesydd ynddo drwy gymorth Willie. Medra-i deimlo safbwynt pobloedd dieithr mewn cenedloedd fues i erioed yn agos atyn nhw, ac ymwybod â chymhlethdod eu hanghenion, am mai'r un ydyn nhw â*

*rhai o reidiau Willie. Dw i'n clywed ynddo fe y ffoadur a'r un sy'n amddifad ac yn llesgáu, yn Affrica neu yn yr Unol Daleithiau. Dw i'n clywed, ynddo fe, y gelyn sy yn y newyddiadur yng ngêm gwleidyddiaeth – heddiw China, yfory pwy a wŷr, am fod yr hurtyn yn ein cymdeithas bob amser yn elyn ffasiynol. Dw i'n clywed ynddo fe yr un sy'n ochain: nid yn unig er mwyn ymwared â thlodi neu afiechyd, ond hefyd y rhai sy'n diodde'n ddiwylliannol neu â'u cymdeithas wedi'u difeddiannu'n seicolegol. Fe ddaeth y rheini i gyd yn wir, yn hollol wir i fi, am y mod i'n clywed, ynddyn nhw, fe — Willie, a'i gorff mawr a'i wên brydlon a'i ddwylo anfedrus, cawliog; agosrwydd ei berson gwirion, a'i foroedd o gariad.. Yn sicr, cwbl ddieisiau oedd cydymdeimlo â fi. Fe fu gen i bwrpas. Roeddwn i'n ddysgedig mewn gwendid.*

*Dw i ddim yn amau nad oes eisiau cydymdeimlad deallus ar Willie; ond ychydig sy a chanddyn nhw ddychymyg neu fedr digonol i hynny. Ceir y duedd mewn achosion fel hyn i fod yn nawddogol neu'n danbaid ymgyrchol. A chodwyd bellach, drwy gydol y wlad a'r gwledydd, far-lliw melltigaid, rhwng y clemiog a'r di-glem. Daeth ag uchelwriaeth newydd; a phres a thai, a chysuron yn cael eu hatrefnu gan y rhai call a'u rhannu yn ôl medr meddyliol. Afiechyd ein gwlad oll yw afiechyd Willie. Afiechyd gwahaniaethau mewn medr a lliw ac arholiadau.*

*Suddodd hyn i gyd fel glaw taranau i mewn drwy dyllau cnawd y machgen diffygiol ar hyd ei oes, ac i lawr i wreiddiau duon ei esgidiau, nes iddo fe ddihuno'n weddol lawn, ryw ddwy flynedd yn ôl. Aeth yn fwyfwy anhapus, nes i'w iseldra ysbryd bron ei dagu. A drylliwyd e un diwrnod. Dyma sut y digwyddodd ei drobwynt . . .*

*Fe fuodd e i lawr am dro yn y dre ychydig wedi claddu ei dad. Roedd tipyn o gyffro yno ar y pryd am ei bod hi'n adeg etholiad, a thyrrau o blant yn rhodianna o gwmpas gan alw 'Macdonald yn Gynghorydd', 'Stewart yn Gynghorydd' ac yn y blaen. Plant oedden nhw a oedd yn cael sbort, a doedd yr un fel pe bai o ddifri. Gêm oedd hi. A dyma Willie yng ngwlith ei ddiniweidrwydd yn dringo i fyny – heb ddeall – ar risiau Neuadd y Dre ac yn bloeddio ledled y wlad 'Willie yn Gynghorydd.' ... Os do fe!*

*Ei gwneud fel plentyn roedd Willie, fel y bydd plentyn ar lan y môr yn torsythu ar ben castell ac yn cyhoeddi mai Fe yw Brenin y Castell. Ei ddangos ei hun, neu ei*



*fwynhau ei hun. Neu ymuno â hwyl pobl eraill. Ond roedd nifer o lanciau difater a lled feddw yn ymdroi ar bwys, a dyma nhw'n cymeradwyo ac yn ymuno yn y waedd, gan weld cyfle am hwyl: 'Willie yn Gynghorydd.' Yna, fe gydion nhw ynddo fe, a'i ddyrchafu mewn gwawd a hwyl ar eu hysgwyddau, a chylchu'r sgwâr. Bwlio oedd y cymhelliad.*

*Ar y dechrau roedd Willie'n gwenu fel cacen ben-blwydd ac wrth fodd ei glustiau gan gyfrannu yn yr hwyl, ac yn teimlo'n bwysigyn ei wala. 'Willie yn Gynghorydd.' Wedyn, fe ymrestrodd ychydig o'r dorf o'i gwmpas a dechrau corganu. 'Willie'n Brifweinidog'. A chilchwerthin, a phwyntio ato a thaflu hetiau, ac agorodd Willie ei geg yn fawr ei wên hyd at ei fryst. Ymledodd y gri, ac ymffurfiodd cynulliad sylweddol ar sgwâr y dre, a phawb yn crochlefain sgrecheiriau: 'Allan â Wilson: Willie'n Brifweinidog. I'r Rhyfel Nesa yng nghwmni Willie. Willie am Addysg. Willie'n Wylwr y Waled.' Dyma sbort ardderchog, dybien nhw.*

*Roedd Willie'n synhwyro nawr mewn ffordd ddiiddeall fod yna gryn lawer o wawd dirmygus yn gymysg â hyn, ac wedi dechrau aflonyddu. Anesmwythai fwyfwy bob munud. Fel plant ac anifeiliaid, er nad oedd e'n medru deall ystyr pob gair, roedd e'n gallu ffroeni awyrgylch neu ergyd deimladol oslef: roedd e'n nabod pob ebychair megis brawd. Ei fychanu roedden nhw. Ceisiodd ddisgyn o'r ysgwyddau a'i daliai, ond methodd e yn hynny o dasg. Ac yna, mewn cynnwrf, ac yn ei gaethiwed unig, torrodd i grio'n hidl; ac roedd hyn yn fwy byth o sbort i'r llanciau. 'I mewn i'r Farchnad Gyffredin yng nghwmni Willie,' bloeddion nhw gan ddal y crwt i'r entrych yn ei gwmwl ddagrau. Pan gafodd ddisgyn o'r diwedd yr oedd wedi'i gynhyrfu'n frawychus ac yn crynu o gywilydd a dicter, yn furum o chwys a thrallod, yn sâl mewn gwirionedd. Ymlusgodd i ffwrdd fel cenau briwedig, a lled redeg adre ar hyd cantel sigledig y bydysawd tan gwympo lawer tro yn ôl i'r tŷ; ac yna, wedi bwrw'i freichiau am y ngwddw i, fe lewygodd. Druan o'r deillion a'r byddariaid a'r duon a'r merched treisiedig ledled y byd.*

*Aeth e byth wedyn i lawr i'r dre. Prin y byddai'n mentro hyd yn oed i'r ardd.*

*Un diwrnod, sythodd e. Oerodd fel colofn iâ, ac aeth i'r ardd i edrych yn unswydd ar y pridd.*

*"Beth wna'i pan fyddi di'n marw, Mami?" gofynnodd e. Roedden ni'n caru'n gilydd mewn serch afradlon. Fi a fe, a'r holl gymylau, a'r haul, a'r adar, a phopeth yn yr awyr, am ein bod ni wedi ymgysylltu yn y dyfnderoedd. A dywedais i wrtho fe na fyddai 'na ddim ymwahanu, mai ymadael yng nghwmni'n gilydd a wnaen ni, wedi'n clymu wrth ein gilydd am byth. 'Ond beth fydda-i'n wneud wedyn?'*

*Yn yr ystum o gyd-farw, fe gaen ni roi gerbron 'tynged', ein barn ohoni hi ei hun druan. Ynghyd. Fe wnaen ni'r peth gyda'n gilydd. Dodi'n dwy ffidil yn yr un to. Ynghyd y gwnaethon ni bopeth ers blynyddoedd. Dyna'r adduned i dynged ei gyflwr. Ac ynghyd yr aen ni, gwnaen, wedi'n clymu drwy raff yn ein marwolaeth gyda'i gilydd fel y'i clymwyd e ynghynt wrtho-i yn y nghroth. Dyna fyddai'i ddiogelwch mwyach, mewn cyfwng diddianc.*

*Mi wn i fod lladd yn anghywir bob amser, wrth gwrs, a hunanladdiad gynddrwg â dim, am y byddwn i'n ceisio cymryd rheolaeth bywyd yn y nwylo yn hun fel y gwna dyn yn ei falchder bob amser. Ond nid mewn balchder y gwna-i hyn. Nid yn her i'r gosb a ddêl, oherwydd y mae hynny o'r pwys mwya i mi. Eto, fe fydda i'n ddigon bodlon diodde gwarth y Purdan, a holl gosb yn hunanoldeb gwrthryfelgar i, fel y caiff Willie chwarae teg gan fywyd. A thrugaredd gen i. Nid yn ateb personol i yw hyn yn hollol, felly. Bues i'n gweddio lawer, a dw i'n teimlo mai dyma'r unig ateb i ngweddi. Dyma'r unig sibrwd a ddeuai i fi. Fe aen ni gyda'n gilydd, tra bo gen i beth cyfrifoldeb, i'w arbed e. Fe barhaen ni fel yr yn ni ar hyn o bryd cyn belled ag yr oedd marwolaeth synnwyr yn gadael llonydd i ni. Yn addewid i i Willie erioed oedd y byddai fe'n ddiogel bob amser gen i.*

*Bues i'n siarad â Willie am y weithred derfynol hon felly orau y gallwn, beth a ddigwyddai inni'n dau, ac esbonio, a'i ddweud yn ara ara, ac mae e — yn ei ffordd fach ei hun — yn gytûn, a hyd yn oed yn deall rhywbeth. Mae e'n derbyn yr esboniadwy ac mae'n gweld does dim ffordd arall ond plygu. Mae e hyd yn oed yn edrych ymlaen at y diwedd. Dw i wedi gwneud popeth o bwys drosto erioed. Doedd e ddim yn gallu gwneud dim drosto'i hun yn daclus. Felly y bydd hi: rhaid i fi ofalu eto y caiff ei gorff farw'n daclus gyflym. Pwy wŷyr pa ddioddefaint a ddeuai i'w ran e heb i fi drefnu hyn eto drosto? Dyma felly, ymhlith yn rhoddion aml a digon syml i, yn cyflwyno'r rhodd*

*ola iddo, a'm heuogrwydd beius mawr yn hun. Ac o'r cwbl ohonyn-nhw, dyma'r un weithred roddwyd gyda mwya o ystyriaeth a rhagofal, gyda mwy o betruster a phryder, gyda mwy o weddiau nag i bob un weithred arall. Derbynied e hyn mewn cariad fel y'i rhoddwyd.*

Edrychai'r hurtyn ata-i nawr wrth ifi ddal y llythyr a'r tamaid rhaff i'w clymu nhw yn y nwylo, a'i ben ar osgo a'i geg yn agored, fel ci'n ymofyn gwybod gan feistr beth oedd y symudiad nesa. Roedd dwy ffrwd o boer yn llithro'n llariaidd i lawr dros ên Willie o gorneli'i geg. Plygais i, a'i gusanu fe ar ei ên.

Fan yna, sut bynnag, roedd e gyda'r unigrwydd yn rholio fel cymylau niwl o'i gwmpas.

Roedd y fam wedi methu. Chawsan nhw ddim ymadael yn daclus, â'i gilydd. Ac roeddwn innau wedi dod i adnabod y fam yn well nag yr adwaenwn i Willie.

Brysiais i allan o nhŷ, ac ymbalfalu drwy'r niwl, draw tuag at eu tŷ nhw. Fe wyddwn i beth gawn i yno. Drylliais ffenestri'r gegin, a hyrddio'r drws yn agored. Yn y bwtri ar y llawr roedd y fam yn gorwedd fel dwster sych yn gelain gorn, a thri chynhwysydd o nwy Calor wedi gollwng eu henaidd iddi. Roedd hi'n wyrdd ei hwyneb, ac roedd ysgathrad coch megis breichled emog am ei harddwrn chwith lle roedd y rhaff wedi'i chlymu hi wrth ei arddwrn de fe, cyn iddo fe ymryddhau ar ôl iddi hi lesmeirio.

Safai Willie yno, gan lygadrythu arni nawr â phelau mawr mawr ei olwg, fel pe bai'n ei gweld hi am y tro cynta erioed. Rhuthrais i'r cyntedd i ffonio'r heddlu. Ac wrth ifi wrando ar fwr-wr-wr y ffôn, gwthiodd e'i wyneb arna-i a datgan: "Ddim fi 'wnaeth-e."...

A suddodd yn ôl i'w unigrwydd.

## BAD ACHUB

Roedd cannoedd o flodau menyn o gylch y mhen. Suddwn i'n lled gysglyd i mewn i'w heulwen betallog ar un o'r bronnydd bach yna sy'n ymylu bae Ceredigion, a chlywn awel gynnes o bobman yn sychu y mochau a nhalcen. "Fel hyn mae byw!"

Diogwn i yn y mwynhad melyn. Yn ddisymwth daeth clec fechan o ben y bryncyn, ac agorais yn llygaid i weld hen ŵr bach yn syllu drwy sbienddrych allan i'r bae. Edrychai'n ofalus i bob cyfeiriad, a sisialodd ychydig o eiriau wrtho'i hun cyn cau'r sbienddrych a disgyn drwy bant i gyfeiriad y môr.

Feddyliais i ddim mwy am y peth; ond pan ddaeth hi'n bryd ifi godi, a chan nad oedd gen i gynlluniau pendant a faint fynnid o amser i'w cyflawni nhw, dilynais y pant i lawr i'r un cyfeiriad. Ar ôl cerdded am ryw ganllath, fe welais i bostyn a hysbysfwrdd bach gerllaw gyda'r geiriau uniaith BAD ACHUB arno. Mewn cilfach, ryw ddwsin o lathenni ymhellach ymlaen, roedd yna gwt urddasol neu fwthyn anurddasol; ac wrth imi nesáu, daeth hen ŵr bach i'r trothwy a nghyfarch: dywedodd ei bod hi'n braf, ac fe gytunais innau yn ôl yn arfer.

Gallwn sbio i mewn i'r bwthyn y tu ôl iddo, a gweld fod y wal ar y dde a'r wal gefn hefyd wedi'u cuddio gan silffoedd llyfrau hyd y nenfwd, a'r rheini'n gyfrolau go sylweddol.

Dywedais wrtho y mod i wedi synnu gweld hysbysfwrdd Cymraeg ar y llwybr gynnau. Dywedwn fod hyn yn dangos cynhesrwydd cymeradwy at yr iaith, gan mai mewn Saesneg hyd yn hyn roedd pobl yn achub ei gilydd ym mhobman arall yng Nghymru. A gwenodd e a gofyn a oeddwn i'n aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Pan gyfaddefais y mod i'n ddydd bach oedd yn hoffi cuddio'i ben yn y tywod, dywedodd e'i fod yntau yn un hefyd a garai'r encilion, ond ei fod e'n gobeithio rywsut nad oedd ei waith e'n gwbl ofer chwaith. "Ond fyddai y mad i fawr o help i achub iaith."

"Ond beth yw'ch gwaith go iawn chi?"

"Ddarllensoch chi ddim o'r hysbysfwrdd?"

"Do. Ond dyw gweithio ar fad achub ddim yn swydd lawn amser," meddwn.

"Mae bob amser angen bad achub."

"Achlysurol iawn yw'r galwadau arnoch chi, does bosib."

"Wyddoch chi fyth pryd daw'r alwad. Rhaid bod yn barod o hyd, nos a dydd."

"Ond y gwŷr eraill sy gyda chi yn y bad, dydyn nhw ddim wrthi nerth eu breichiau fel chi drwy gydol yr amser?"

"Does dim gwŷr eraill. Fi yw'r unig un. Bad achub bach yw hwn. Bad achub preifat."

Edrychais braidd yn ddiargyhoeddiad, ac fe ngwahoddodd i lawr i weld y bad.

"Welwch chi. Dyw hwn ddim yn fad ar gyfer trychinebau mawr ffotogenig achlysurol. Ceisio trafod yr argyfyngau pitw sydyn dw i. Argyfyngau personol a neilltuol bach, dyna sy'n dod i ran cychod-hwyllo-undyn o dro i dro. A dyna bwrpas y mad i. Mae gen i genadwri arbennig. Dyna pam y mae e'n fad achub preifat."

"Felly, rhyw fath o hobi wedi ymddeol yw hyn."

Daeth cysgod dolur dros ei wyneb.

"Na. Nid hobi yw achub bywyd byth."

"Wel, na, yn hollol. Nid hobi. Ond dyma'r ffordd y byddwch chi'n gwneud lles ar ôl ymddiswyddo?"

"Fu erioed ymddiswyddo i fi. Dyma y ngwaith i ers hanner can mlynedd bron."

"Gwyllo diogelwch y mân gychod hwyllo?" A gwenais.

"Diogelwch pob peth a all fod o fewn cyrraedd y bad bach hwn. Fe fydda i'n mynd i ben y bryncyn acw bob hanner awr, o wawr hyd fachlud bob dydd, er mwyn sicrhau bod y bae yn dwt yn ei le. Does dim yn digwydd yn y rhan yma o'r bae dw i ddim yn gwybod popeth amdano, ac yn barod amdano. Dw i fel goleudy heb olau."

"Ond chewch chi ddim llawer o gwsmeriaid, does bosib?"

"Llwyddiant yw hynny yn y ngwaith i. A mantais. Nid chwilio am ddamweiniau yw ngobaith, eithr ceisio sicrhau diogelwch."

"Prin felly yw'r cynhaea?"

"Fel arall, fe fu'n gynhaea ysblennydd. Mewn hanner can mlynedd does dim un ddamwain wedi digwydd o fewn cylch yn sbïenddrych. Dair gwaith yn unig y bues i allan ar y môr i geisio achub bywydau; a'r tair gwaith yna, rhyw wrthrychau nawf amwys yn y dŵr, dyna'r cwbl welais i, yn debyg i bennau pobl, ond yn troi i fod yn foncyffion pren, neu'n rhywbeth felly."

"Dyna'r cwbl gawsoch chi mewn hanner can mlynedd?"

"Cofiwch chi, fe fydda i'n mynd allan yn y bad ddwywaith bob dydd i'w brofi. Rhaid i'r bad fod bob amser mewn cyflwr newydd sbon, ac yn barod i bob argyfwng, yn gadarn fel y ne. Bydda-i'n licio mynd yn ôl ac ymlaen ynddo ar hyd y rhan yma o'r bae a dweud wrtho-i yn hun: Wel, mae hyn yn ddiogel." Chwarddodd e bron. "Dyma gyfran o ddyfroedd y ddaear lle nad oes yna ddim peryg." Roedd rhyw urddas yn y dyn, hyd yn oed os oedd e braidd yn or-ffurfiol ac ychydig yn ecsentrig. "Mae hyn yn ddarn o ddaear wedi'i arddu, ynghanol rhedyn a brwyn sur y distrych diffaith, i fod yn brydferth. Ac yn y fan yma yr a-i'n ôl ac ymlaen ag aradr y nghwch gan obeithio y bydd eraill yn dilyn, a holl foroedd y ddaear rywdro wedi'u troi'n las wrteithiedig."

"Fe enillwyd hyn yn ôl oddi wrth y gwylliaid te," meddwn i, gydag ychydig o goegi, a chysgod o wên, ond hefyd gyda mymryn o barch.

"Ac fe ddichon y cawn ni weld ryw ddiwrnod yr un sglein iach yn llygaid pob ton ledled y byd ag a welwch chi gan y rhai acw," meddai fe. "Diolch i'r ne, fu dim rhaid ifi weld yr un drasiedi eto drwy gydol y ngoruchwyliaeth. A ngobaith i yw mai felly y bydd hi hyd y medd."

Roedden ni wedi gadael ei fad, bellach, ac yn troi'n ôl tuag at y bwthyn. Fe ngwahoddodd i mewn, a chan mod i'n wŵr hamddenol derbyniais i ei wahoddiad yn llawen.

"O leia, fyddwch chi ddim yn gwastraffu'ch amser rhydd," meddwn i wrth sylwi o'r newydd ar ei lyfrau.

"A! sylwi ar yn ffrindiau llenyddol i dych chi."

“Dw innau'n gallu clywed llyfrau yn canu ar silffoedd cyn mynd i ystafell, os bydda-i o fewn decllath iddyn nhw,” meddwn i gan chwerthin.

“Dyn wrth fodd y nghalon i, te. Mae'n rhaid cadw'r meddwl mewn cywair yr un fath â'r bad. Wnaiff hi ddim o'r tro i'r bad fod ar ddi-hun a'r morwr ynghwsg." Sythodd mewn modd athletig. "Dyna chi. Tîm ydyn ni, gŵr a bad a llyfrau. Ffrindiau. Teulu hyd yn oed, os mynnwch chi, o'r un cyff. Gardd lysiau, ieir, gafr hefyd, potsian o gwmpas yr ardd; rhagor o nhîm i; dipyn o hobi felly, ddwedech chi,” meddai fe gan wenu.

“A! Garddwr dych chi mewn gwirionedd.”

“Na! Gwyliwr y glannau dw-i. Dyna i gyd. Er bod gen i ardd fel pawb arall.”

Eisteddon ni, a chefais i gyfle i lygadu'n fwy manwl wyneb y gŵr od hwn oedd wedi rhoi ei fywyd yn ofer i gadw rhyw fath o fad achub seithug doedd ar neb ei eisiau. Roedd y cwbl mor druenus ddigri.

"Dych chi'n siŵr o fod yn ceisio dyfalu sut ges i ymgymryd â'r oruchwyliaeth hon. Wel, os oes gynnoch chi amser i wrando, fe ddweda i wrthoch chi hanes y mywyd." Ac aeth rhagddo heb ddisgwyl gwahoddiad.

"Un o Batagonia dw i, fel y gwelwch chi, yn ddiau. Ond fe ddes i drosodd i Gymru i'r Brifysgol gan fod yn rhieni'n Gymry brwd yn wreiddiol o'r Rhymni ac yn awyddus i fi gael yr addysg orau. Pan oeddwn i'n cael peth addysg ym Mangor ychydig cyn y Rhyfel Byd cynta, fe gwrddais i â merch ifanc o Gaerfyrddin. Merch dlisa'r byd. Roedd hi'n astudio'r Celfyddydau, Hanes yn benna, a minnau'n efrydu Mathemateg. Fe fuon ni'n canlyn am ddwy flynedd, ac roedd y ddau ohonon ni'n gwybod mai cyplysiad a ddychmygwyd gan yr angylion oedd ein heiddo ni. Fe fydden ni'n mynd am dro hir gyda'n gilydd ar ddydd Sadwrn, i Benmon, i Ddinas Dinlle, i Landdwyn, i Feddgelert, – darganfod Cymru, i chwilio am y fan ddelfrydol, y nefoedd fechan lle y caen ni'n dau ymgartrefu gyda'n gilydd. Rhyw ramant annhebygol à la Omar Khayyam oedd hyn oll, fel y gwelwch chi. Ac wrth i mi edrych yn ôl yn awr, o'r pellter hwn, mae arna i gwilydd cyfadde fod y cyfan yn ymddangos yn afreal, yn weledigaethol. Erbyn hyn, hyd yn oed gydag Anna ei hun, mae hi wedi mynd yn llai-lai o berson bob blwyddyn ac wedi troi bron yn ffigur fytholegol ifi.

"Mae'n wir fod y boen sy'n dychwelyd i'n asennau i weithiau yn ddigon real. Ond weithiau, dw i'n amau. Wrth geisio clymu'r boen yna wrth ddigwyddiadau a phersonau clir a'u lleoli nhw yn y mhrofiad yn hun, ... dw i'n teimlo mod i'n crwydro i mewn i ryw Annwfn wedi ei boblogi gan gymeriadau lledrithiol. A hyd yn oed yn achos Anna fach, alla i ddim cael gafael arni hi'n llwyr mwyach. Dyw hi ddim yn bod. Dyna'r gwir ofnadwy. Wrth gwrs, mae hyn yn mynd yn ôl yn bell iawn.

"Ond roedd y garwriaeth yn ddigon diriaethol. Pe bai ffawd wedi bod yn garedig, neu hyd yn oed yn normal, os oes yna'r fath beth â ffawd normal, fe fydden ni wedi priodi yn ddi-os. Ond nid dyna oedd ar ein hagenda ni ar y pryd, gwaetha'r modd. Fe ddaeth y Rhyfel yn sydyn i hollti drwy ganol pob mymryn o'n hud. Cwmpodd ein gobeithion yn jibidêrs.

"Roeddwn *innau* am briodi cyn ymadael i fynd i'r fyddin, a hithau'r un fath. Ond ei rhieni hi a bwysodd arnon ni i beidio, ac a ddwedodd mai dyna oedd deca i bawb. A phlygu i'w hewyllys nhw wnaethon ni, ysywaeth. Wnaethon ni ddim ond dyweddïo, a thyngu ffyddlondeb bythol i'n gilydd. Ac mewn eigion o ddagrau gadewais hi ar blatfform Caerfyrddin un diwrnod ym Mehefin – mis creulon gaeafol – a finnau ar y trêen i Lundain.

"Un waith yn unig wedyn y gwelais hi. Cyn mynd i Ffrainc fe ges i ddau ddiwrnod o ryddhad i ymweld â mherthnasau, a chan mai hi oedd yn holl fyd i ym Mhrydain ar wahân i nhad-cu ffaeledig yn y Rhymni, ati hi yr es i'n naturiol i dreulio deugain awr mewn heddwch, y neugain awr ola, o ddeliriwm swynol o ddi-gwsg. Yna, ymadael eto. Am byth. I'r rhyfel pell.

"Fe fydden ni'n sgwennu at ein gilydd, wrth gwrs. Gwelwch ei llythyrau i gyd."

A dangosodd i mi bentwr bach o lythyrau treuliedig ar y bwrdd ochr yn ochr â dau lun ohoni — yr unig bethau a oedd ar y bwrdd. Merch ddeunaw oed hynod o blaen, ond hynod o fwyaidd ei golwg, oedd hi, wedi'i gwisgo yn nillad rhyfedd dognedig y cyfnod hwnnw. Y cwbl wedi'i fyseddu nes ei dreulio bron. Cydiodd e ynddyn nhw'n garcus fel pe bai e'n gafael mewn wyau.



"Welwch chi. Does dim o hyn yn fyw i mi mwy. Dw i'n medru syllu arni nawr heb grio. Roedd yna amser bum mlynedd yn ôl, ie hyd at bum mlynedd yn ôl, pryd roeddwn i'n methu ag edrych ar y lluniau, dim ond darllen y llythyrau. Erbyn hyn, dw i wedi oeri'n llwyr. Dyna sy'n digwydd, wrth reswm. Wedi oeri'n oer."

Ymddangosodd deigrin embaraslyd ar ei fochgern a britho'i amrannau.

"Dyw hi'n ddim byd i fi nawr. Dŷn ni'n ddieithriad. Ond fe fydda i'n cadw ei lluniau, wyddoch, a'r llythyrau, fan hyn, gan mai hi yw yn unig berthynas yng Nghymru, yn wir yn unig berthynas ar y ddaear erbyn hyn.

"Roedd ganddi hi ewyrth yn byw yma yn Sir Aberteifi, yn y ffarm yna, welwch chi, ryw filltir i fyny'r dyffryn. Mae yntau wedi marw erbyn hyn. Mae'r cwbl wedi'i wasgaru.

"Ato fe roedd hi'n arfer dod am wyliau. Yn wir, at ei hewyrth y daeth hithau am egwyl, yn union ar ôl gorffen ei gradd. Ac oddi wrth y fferm yna y sgrifennodd hi ei llythyr ola."

Roedd y dagrau'n llifo'n rhugl erbyn hyn.

"Dowch gyda mi. Fe ddangosa i chi'r lle." Ond i lawr at y môr yr aeth e â fi, nid i fyny'r dyffryn.

"Welwch chi'r penrhyn bach yna, draw fan yna. Wel, ryw dri chanllath allan i'r môr, dyna lle y digwyddodd y peth. Yr union le yna, yn ôl fel y dywedwyd yr hanes wrtho i. Roedd hi allan mewn cwch hwylio o eiddo cymydog i'w hewyrth. Does neb yn gwybod beth ddigwyddodd. Doeddwn i ddim yma. Ryw chwarter milltir o'r lan fe gododd rhyw anhawster, ac fe geisiodd hi hwylio i mewn at y traeth bach yma. Ac fe lwyddodd hi i ddod ryw gyfran o'r ffordd. Terfysglyd oedd y môr ar y pryd, yn annisgwyl o gythryblus, ond dim storm cofiwch, dim byd tebyg i storm, rhywbeth cymharol sydyn. Buodd hi'n brwydro â'r anhawster am ryw hanner awr, ac fe lwyddodd hi gan bwyll bach i ddod â'r cwch yn nes nes i'r lan. Ac yna ryw dri chanllath i ffwrdd, yn y fan yna'n hollol, ie, lle dw i'n dangos â'm bys nawr fe suddodd y bad yn ddireswm fel taranfollt bron. Cododd rhyw don hollol abnormal. Fe all wneud weithiau. Amdani hi does neb yn gwybod. Neb. Ar ôl hynny y cafwyd y storm ar ei gwaetha, a symudodd

bob ôl ohoni hi oherwydd hynny. Ffeindiwyd ddim o'i chorff na philyn o'i dillad hyd yn oed. Neb . . . Gwacter.

"Roedd rhai llafurwyr o'r cae pella fan yna'n dystion i'r cyfan, ac wedi rhedeg i lawr i'r lan i geisio gwneud rhywbeth. Rhywbeth. Ond roedden nhw'n methu â gwneud dim oll, wrth reswm, heb fad. Ac fe ddwedon nhw ei bod hi wedi diflannu fel petai drwy hud a lledrith, yn ddisyfyd,.. mor ddisyfyd. Wyddoch chi fel yr oedd pobol y wlad mor ofergoelus yn yr amser yna. Nhw adroddodd yr hanes wrtho i.

"A dyna hi. Welwch chi, dw i'n medru siarad am y peth yn hollol ddigyffro. Dyw'r peth yn ddim byd i fi mwy. Dw i'n ddihidio. Yn y fan yna yr aeth hi o'r golwg yn union, a'i chwch am ei phen. Fe fuodd rhai yn deifio i chwilio amdani. Dw i wedi bod i lawr ddwsinau o weithiau, yn hun. Ac fe a i eto, mae'n debyg, i blymio am yr anweledig. Mae darnau o'r bad yno o hyd, wrth gwrs, er bod y rhan fwya wedi ei golchi i'r lan. Ond does dim ohoni hi ar ôl, y nghariad Anna. Oni bai am y bad yma welwch chi, byddwn i erbyn heddiw wedi mynd yn wallgo. Y bad yma sy wedi achub y mywyd i ... Mae'n ddrwg gen i'ch diflasu chi. Stori sentimental hen wŷr gwywedig am ddyddiau ei febyd gwirion coll, dyna'r cwbl yw hi nawr. Sentimental. Dw i'n dechrau anghofio llawer. Fel y dwedais i wrthoch chi, dw i'n dechrau anghofio Anna ei hunan erbyn hyn ryw ychydig hyd yn oed. Dw i'n teimlo dim nawr. Braidd dim. Breuddwyd yw hi. Peidiwch â sylwi arna i," meddai fe gan sychu ei dalcen â'i hances, a rhwbio'i drwyn yn angerddol. "Ydw, dw i'n darllen dipyn. Dyna yn wir sy'n llenwi'r rhan fwya o'r amser. A! Mae llyfrau'n gwrteithio byd rhywun, fel potsian yn yr ardd. Maen nhw'n ffrindiau dibynnol... oherwydd cysur dychymyg eu celwyddau, efallai, a rhediad eu rhythmau. Does dim rhaid i'w delweddu nhw o fywyd fod gant y cant yr un ffunud er mwyn bod yn gysur ac yn wir."

Edrychodd ar ei watsh. "Mae'n bryd i fi gael golwg arall ar y bae."

Diolchais iddo am ei groeso gan ymgyrnu, a dymuno y byddai i'w daith i ben y bryncyn fod yr un mor ddi-alw-amdani â'r rhai cynt.

"Dw innau'n gobeithio'r un fath, machgen i. Ond wyddoch chi byth, gwaetha'r modd. Cul ac ansicr yw'r ffordd dros y môr."

## CHWILIO AM WREIDDIAU: DYDDIADUR TAITH

MEHEFIN 16,1963. Dacw nhw. Coed Canada. Neu Labradôr o leia. Cronfa o wyrddlesni'n ymestyn i lawr y llechweddau nes ymchwilio gyda'u dyfrlliw ar gynfas Sain Lawren islaw. A hithau hen dduwies yr Indiaid, afon Lawren, yn gorymdeithio mor orseddol rhwng banllefau lliwiau'r glannau coediog hyn nes ein bod ni, sy'n gorfod bod ar long, yn distewi'n barchus, heb wneud dim ond syllu-ddelwi'n undonog ar y dyrfa las hyd yr ymylon, a'r milltiroedd o afon wen o'n tu ôl... Mae'n hi'n argoeli cyrraedd yn fuan.

Taith ddiddos sâl gawson-ni ar draws Iwerydd. Er na fu hi'n stormus o gwbl, fe fu Beti (y ngwraig) a Lowri (ein merch bum mlwydd oed) a finnau, bob twll chwys ohonon ni, yn sâl dan y dec ucha. Sâl môr? Fydd Môr Iwerydd fyth yn lân eto. Cysurodd y Stiward un o nghyfeillion ar y llong nad oedd yna neb yn marw o sâl môr. 'Peidiwch â dweud hynny,' meddai y nghyfaill, 'y gobaith am farw yw'r unig beth sy'n ynghadw i'n fyw.'

Rhodri (ein mab unmlwydd) yw'r unig un ohonon ni a ddaliodd heb chwydu ar hyd y daith. Dw i ddim yn gwybod ymhle y cafodd e'r gwytnwch hwn, onid yn ei enw. 'Rhodri!' meddai unwaith un Rhyddfrydwraig selog o berfeddwlad Ceredigion ym 1962. 'How nice! Calling him after our M. P. ' \*

Ond fu'r mab ddim yn gwbl ddifefl ychwaith. Un ystyriaeth allweddol ynglŷn â hwyllo i'r byd newydd yw bod dyn yn cael cymwynas awr ychwanegol yn ei wely bob bore o'r daith. Pe bai'r mater mor syml â hynyna, mae'n bosib y byddai hynny ynddo'i hun wedi bod yn ddigon i nghymell innau i droi tua'r ffordd yma ers tro. I un mor angerddol hoff o'i wely â fi, mae'r orfodaeth garedig o gael awr dros ben, bob dydd am wythnos, bron yn ddigon o abwyd i ymadael â Chymru a'i swynion am byth. Ond mae gen i fabi hynod o anwybodus fel nad oes dim modd dehongli dim o'r cyfrin bethau hyn iddo fe, un a oedd yn deffro eisoes am chwech bob bore cyn cychwyn. A chan iddo fe ddihuno'r bore cynta am bump, yna am bedwar, yna am dri ac yn y blaen, gyda

[\*1968: *Bu newid yn enw'r A.S., Roderic Bowen, ond nid yn ei wleidyddiaeth.*]

chysondeb mathemategol creulon a mwya rhyddieithol, ac yn effro fywiog am ei fod e'n barod i hwyl y diwrnod, alla i ddim cymeradwyo'r ddihangfa hon i'r neb y mae ganddo deulu.

Echdoe fe welodd Lowri a Beti forfilod yn saethu dŵr i'r awyr yn y modd clasurol. Welais i mohony'n nhw gan y mod i'n gwarchod Rhodri ar ddec arall mor bell ag y gellid oddi wrth reilen ymyl y llong sy'n dal rhyw swynion rhyfeddol i blant os yr oedran yma. Ddoe fe welson ni laweroedd o fynyddoedd iâ sy'n torri'n rhydd ac yn llifo i lawr drwy ogledd cefnfor Iwerydd yr amser yma o'r flwyddyn. Daethon ni hefyd i olwg moelni Labrador a gweld tipyn o eira yma ac acw mewn cilfachau a heriai wres yr ha.

Yna neithiwr, och neithiwr . . .

Roedd y ngwraig i lawr yn ein caban ni'n gwarchod y plant, a minnau wedi dianc i'r dec ucha i chwilio am lonydd. Mae'r llongau hyn sy'n croesi'r cefnfor yn gallu syfrdanu a llethu'r newyddian oherwydd eu moethau a'u difyrbethau; ond buan y gwelir mai rhyw fath o Butlin's ar nawf yw'r cwbl, gydag ymdrech i lenwi bywyd y teithiwr â sinema, bingo, dawnsfeydd, carnifalau, bwyd gorddrud ac ati. Allwn i ddim ond hiraethu am dawelwch orig. Ac fe ges i'n hun cyn bo hir yn y cyfryw gyflwr yn prowlan hyd y dec ucha ac yn pendroni am y wlad a oedd o mlaen.

Dyw Québec ddim yn gwbl amherthnasol i Gymro. Y Ffrangeg fel y Gymraeg yw Italo-Gelteg yr ugeinfed ganrif: maen nhw'n perthyn i'w gilydd yn gynnes yn y dyfnderoedd cyn-hanesyddol. Hefyd, cyn i'r Rhufeiniaid ddod i Ffrainc, Galiaid, wrth gwrs, a oedd yno, a drodd wedyn yn ddwyieithog; a maes o law aethan nhw'n uniaith Ladaidd. Mewn oesoedd diweddarach yn hanes Ffrainc fe fu gan Gymru, drwy Chrétien de Troyes, gryn ddylanwad ar dw ei llenyddiaeth hi. Ond ar wahân i'r ffeithiau hyn sy'n ein clymu ni wrth Ffrangegrwydd Québec, mae'r dalaith ei hun yn gwybod am gysylltiadau eraill o bwys. Llydäwr oedd darganfyddwr Québec; a Llydawiaid oedd rhai

o'r ymsefydlwyr cynta. Oherwydd bod Canada a Chymru yn perthyn i'r un Gymanwlad, fe fu'n llwybrau ni'n croesi'n fynych. Ymunodd Hywel Harris, y diwygiwr, â Milisia, a bu rhai o'i wladfa o Drefeca yn ymladd dan arweiniad Wolfe, fel crwsâd yn erbyn Pabyddiaeth. Mwgwd o grefydd oedd hyn dros wyneb rhyfel imperialaidd a masnachol. Mae un o ieithyddwyr amlycaf Québec heddiw, sef Monsieur Vinay o Brifysgol Montréal, wedi cydweithredu â pherson arall, i sgrifennu un o'r llyfrau mwya diddorol sy ar gael ar ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Fe siaredir o hyd iaith Geltaidd arall (Gwyddeleg Sgotland) yn Newfoundland, ac yno mae'n bwnc Prifysgol. Ac wrth gwrs, yn Québec ac yng Nghymru, mae gynnon ni sefyllfa ddwyieithog, gyda Saesneg ac iaith arall yn ein poeni ni'n feunyddiol. Chwiorydd yw'r ddwy wlad, ac nid rhai mabwysiedig.

Rhyw fyfyrion fel hyn a chwifiai drwy y mhen i ar y pryd. Crwydrais i bron heb sylwi o'r dec ucha ac roeddwn i'n gynhesach bellach o dan do unwaith eto. Trois i'r neuadd ddawnsio, braidd yn ddamweiniol. Gan mai'r noson ola oedd hi, roedd honno'n orlawn. Ond hyd yn oed yng nghanol cymaint â hynny o dyrfa, ellid ddim llai na sylwi ar un person. Roedd hi'n greadures drawiadol o osgeiddig, yn dal ac yn llyfn fel ewig, tua'r hanner cant oed. Roedd y ngwraig, fel y dwedais i, lawr yn ein caban; a chyn pen fawr o dro, er nad oeddwn innau ond yn eistedd yn ddiniwed wrth yr ochr, yn ystod un o'r gwedd-ddawnsiau cyfnewidiol yna sy'n weddus efallai ar gyfer pobol ifancach na nghymalau i, fe ges i yn hun yn rowndio'r llawr gyda hon. Tua diwedd y ddawns achwynodd ei bod hi'n teimlo braidd yn bethma — ychydig o bendro dybia-i — a dywedodd y byddai'n well iddi esgyn i fwrdd y llong. Gallwn weld ei bod ar lewygu, a theimlwn i fod rhaid ei hebrwng hi . . .

Un o amcanion llong sy'n croesi'r cefnfor yw peri i ddyn sylweddoli ei fychander yn y Cread. Mae'r sêr tywodlyd yn ymestyn nid yn unig o gwmpas ei glustiau, ond yn ewn ac yn bigog i mewn i'r môr tywyll diderfyn hefyd ar bob ochr, hyd yn oed at ymylon y llong, efallai o dan y llong hefyd, nes bod dyn yn tybied ei fod yn hwylio'n ddiddig allan i'r gwagle. Wn i ddim ydy'r hogiau yna sy'n saethu yr un mor ewn i'r gofod yn ymddiddan â'u bychander afresymol eu hun ymhlith y sêr, ac yn holi unigrwydd y

pellterau. Sut bynnag, wrth gerdded allan o wasgfa'r neuadd dan-sang i'r awyr iach ddiymylon, neidiodd yr unigrwydd a'r bychander arnon ni a'n dychryn ein dau, y fenyw luniaidd anhysbys yma a daerai ei bod ar lewygu a finnau'r Calfinydd ar nawf. Chwarddodd y ddau ohonon ni braidd yn nerfus fel petai'r un meddwl wedi codi ynon ni yr un pryd. Roedd yr anferthedd wedi'n tynnu rywffaint at ein gilydd:

'Mae hyn yn well,' meddai hi.

Pwysais ar y rheilen, a myfyrio'n briodol uwchben symud y môr.

'Taith ddiddorol?' gofynnodd hi'n annelwig.

Roeddwn innau wedi ei gweld hi'n gwbl fel arall, ac atebais i ddim.

'Fyddwch chi'n falch i gyrraedd?'

Amneidiais i mhen i gydsynied, heb ddweud dim.

'Dych chi'n mynd i aros yn hir yng Nghanada?'

Mor gyson oedd ei gofyn hi, roedd hi'n amlwg ei bod hi'n falch i fwynhau sgwrsio: oni bai am ei hacen Ffrangeg gellid tyngu ei bod hi'n Gymraes.

'Dych chi ddim yn bwriadu ymsefydlu acw te?' meddai hi eto.

'Nac dw,' meddwn, efallai'n rhy bendant. 'Ydych chithau'n mynd yno — am byth?'

'Wel,' meddai hi, yn dra balch mae'n debyg i gael y fath wahoddiad diniwed i arllwys ei chwd. 'Mae yn stori i'n gymhleth braidd.'

Mae'n rhaid mod i wedi gwneud camgymeriad. Doeddwn i ddim wedi gofyn dim oll am ei stori, er bod rhaid cyfadde y mod i'n lled chwilfrydig, a hithau'n wraig mor ddeniadol ei golwg, yn teithio ar ei phen ei hun, ryw ychydig yn hŷn na fi, ac yn Ffrances a deithiai o Lerpwl (gan fod y rhan fwya o'r Ffrancwyr yn teithio'n unionsyth o Ffrainc). Ond mae'n debyg mod i wedi gofyn amdani.

'Mae'n gas gen i fynd,' meddai hi. 'Dw i'n caru Ffrainc gymaint. Ond, mynd dw i – am byth.'

Ochneidiodd hi'n ysgafn. A gofynnais innau: 'O ba ran o Ffrainc dych chi'n dod?'

'O Rennes.'

'Llydawes dych chi te?' meddwn i braidd yn frwdfrydig.

'Nage.' Fflachiodd ei llygaid. 'Ffrainc yw ngwlad i.'

Fe ges i wybod, felly, dipyn o'i hanes, am y modd y gweithiasai'n erbyn cenedlaetholwyr Llydewig amser rhyfel, am y ffordd y bu farw ei gŵr hi'n ifanc dros ben ychydig o fisoedd cyn heddwch, a rhai ffeithiau eraill, am ei thŷ, a lliw'r llenni; ac roeddwn i'n dechrau amau beth oedd ei chymhellion wrth fynd i le Ffrengig-wyllt fel Québec. Ond wnaeth hi ddim esbonio dim er inni siarad am awr a rhagor.

O'r diwedd, fe ymesgusodais i, a'i harwain hi'n ôl i'w chaban, a throi i noswylio, yn sicr lonydd yn y meddwl na byswn i byth yn ei gweld hi 'to.

MEHEFIN 17, 1963

Dihunais i'n gynnar y bore yma, tua thri o'r gloch. Distawrwydd oedd y troseddwr a nihunodd i. Yr oedd yr injin arferol wedi torri. A disgynnodd absenoldeb y curo isymwybodol hwnnw ar ei bywyd normal. Gan fod pawb arall yn huno'n braf, codais i ac esgyn i'r dec. Yno, wrth y rheilen roedd Thérèse (dyna'i henw), yn syllu draw at y tir.

Dacw Labradôr, ryw ddwy filltir i ffwrdd.

'Dyma'r lle dw i'n ei gyrchu yn y pen draw,' meddai Thérèse. 'Gofynnais i'r capten,' meddai hi wedyn, 'a oedd rhaid inni oedi? Tybed a allwn i bicio yno i'r tir mewn bad bach ifi gael osgoi'r holl daith yn ôl yma o Québec. Ond pallu wnaethon nhw. "Siwrans. Sefydlu Cynsail." Rhes o esgusodion ganddo fe. A dyma fi'n ddiymadferth yn gorfod diodde edrych ar y diriogaeth draw fan yna, a siwrnai hir yn ôl i'r unfan yn syml oherwydd tâp coch.'

'Ych chi wedi bod yma o'r blaen?' gofynnais.

'Erioed. Ond buodd mam 'ma, a nhad, a nau frawd hyna 'ma. Fe'n gadawyd i gartre yn blentyn am y tro yn Rennes gyda mam-gu, gydag addewid y cawn i ymuno â'r gweddill o'r teulu ar ôl iddyn nhw adeiladu cartre a sefydlu gwaith cynhaliol, a sicrhau trefn i'n addysg i. Ond ddaeth yr un o'r rheina i ben... Dod dw i nawr i weld lle buon nhw.

'Meddwl amdanyn nhw nawr roeddech chi? Dych chi'n eu dychmygu nhw fan yna fel roedden nhw. Pa fath o hanes gawsan nhw ar ôl dod i le diffaith fel hyn?'

'Wel, amdanyn nhw rown i'n pendroni, yn wir,' meddai hi. 'Rown i'n gallu gweld mam yn y nychymyg: Marcelle. Mae hi... draw fan 'na. Maen nhw i gyd wedi bod o flaen yn llygaid i ers awr. Yn wir, dw i wedi bod yn ymdroi gyda nhw ar hyd y nhaith; a bod yn onest, eu dilyn nhw dw i wedi'i wneud ar eu taith hwythau â nychymyg i bob cam, draw yna i'r gorllewin ac ymlaen i Québec, croesi'r afon yno ac olrhain eu camre yn y meddwl i'n ôl ar hyd yr arfordir yn llawn gobeithion i'r dwyrain, i ymweld tua'r fan acw â'r tir draw. Meddwl dw i y funud yma amdanyn nhw a'r union fan welwn nhw ni acw, fel petawn i'n gallu cofio'n ôl rywbeth welais i erioed mono-fe o'r blaen. Dw i'n gallu gweld y cwbl yno. Ac fel breuddwyd dw i'n glynu wrthyn nhw.' Syllai hi allan i'r nos fel pe bai hi mewn mymryn o drans. Ac felly y llefarai hi. Adroddai fath o freuddwyd. Ac allwn i ddim llai na themlo'n anesmwyth wrth i'r Amser Presennol feddiannu'i hadroddiad hi.

'Dŷn ni mewn storm. Mae'r plu'n blonegu. Mae rhywbeth aflan ac anghymedrol yn gafael yn eu bochau llawn. O'r naill ochr i'r llall mae'r plu'n chwil ac yn chwalu o'u deutu, yn swrth ac yn syrthio. Mae'r plu o'u co o gylch pawb yn awr...Baglu ar draws ei gilydd, neu ymgasglu yng nghornel pob cilfach: dyna'r eira.' Dychmygu roedd hi. Doedd yna ddim plu. Doedd 'na ddim llong draw acw chwaith. Ond roedd ei ffansi hi'n fyw.

'Ar draws y tir glas y tu ôl mae diwydiant hydre eisoës yn dod â'i sŵn caled i'r fro. Sŵn sgriwdreifars oerni'n tynhau. Sŵn pinsieri iâ. Sŵn allweddi rhydlyd yn clic-gloi. Sŵn tymor newydd yn gafael yn y byd.' Siaradai hi'n od. 'Mae yna siomedigaeth yn ymledu dros y lle i'r teulu bach. Rhag ofn bod Marcelle, y mam i, yn sbio'n rhy



ffroenuchel gysurus dros ei stad unffurf, helaeth, mae'r niwl yn dod wedyn, ac yn cau am ddiffraithdra'r cwbl. Okkak drist. Roedd hi'n bryderus o gaeth yng ngafael yr hin.

'Ar fap, fe ddichon ei bod hi'n braf ar y pryd. Mor ychydig a ddadlennir gan fapiau: dim unigrwydd, dim tywydd, dim hiraeth, dim prinder. Dyma arfordir Labradôr ym mryd y mam yn ymestyn yn wryfol atyniadol ar bob ochr, ac yn cynnig i anturwyr obeithion di-gystadleuaeth. Ond ar y ddaear fyw ei hun mae tlodi'n agor eisoes ei geg bwdr i mam. Does ar neb chwant cystadlu am dlodi; ac mae'r teulu hwn wedi dod yma, ychydig i'r gogledd-ddwyrain o Okkak, i lond gorwel o unigedd tlawd. Fe ngadawyd innau ar y pryd yn Ffrainc. Dyna a ddigwyddodd. Dw i'n gallu gweld y cwbl nawr.

Roedd Marcelle, y mam i, wedi casáu cystadleuaeth pan oedd hi gartre yn Ffrainc. Mewn dinas fach fel Rennes doedd dim lle i ddwy siop offer arlunio o'r radd flaena. A phan ddaeth Maison de Malo i'w herio nhw o fewn canllath, doedd dim lle i Marcelle Roy y mam i, a'i gŵr Jean, a'r ddau fachgen ifanc, ond cyfadde'u bod nhw a'u siop ar ôl yr oes, mewn dyled, ac nad oedd iddyn nhw a'u math ond cilio. Teimlai hi'r rheidrwydd i ffoi.

Fe fu cilio i Labradôr yn wirioneddol ynfyd. Ond felly y gwnaethon nhw; a bu Jean yn nhad yn ceisio hel bywoliaeth drwy osod maglau a hela ar hyd glannau moel Labradôr, er mwyn anfon crwyn yn ôl i'r siopau y gwyddai fe amdanyn nhw draw yn Ffrainc a Llydaw. Yna, mewn cyfyng gyngor, trodd y nhad a mrodyr yn ei ôl at grefft eu cyndadau Llydewig, a physgota; a chael mwy o foddion byw am flynyddoedd drwy hela'r môr na thrwy hela tir... Dw i'n gallu'u gweld nhw nawr.' [Parablaï Thérèse o hyd yn ei thrans pell.]

'Un tro, ar ôl ymsefydlu yma yn hen grefft pysgota, bu Marcelle (mam) yn disgwyl am y nhad ers diwrnodau. Dw i'n gallu'i dychmygu hi'r funud yma. Heddiw eto dw i'n ei dychmygu hi'n syllu allan i'r bae yna'n gyndyn, gan fynnu iddo gyrraedd adre, fe a'r ddau fab. Mae'r talpau bach iâ fel llynges o wyddau wedi gor-fridio dros y dŵr, llongau bwganaid peryglus yn bwhwman yn gythreulig wyn, yn ôl ac ymlaen, i fyny ac i lawr, a'u deciau'n dowcio.' [Doedd dim pall ar barablu nac ar ddwystrans trans y ferch nawr wrth adrodd yr hanes. Crynodd hi]. 'Ew! Mae hi'n gafael. Mae'r oerfel yn

bwyta twll cul drwy ymennydd mam ac yn pigo nodwyddau eirias yn ei llygaid wrth iddi sbio'n hiraethus tuag at y môr.

'Y gwynt yn codi. Os na ddôn nhw'n ôl cyn hir fe fydd y bae wedi'i gau, ac fe fydd hi'n amhosib i Jean a'r ddau fab symud. Ond dyma'r storm waetha a brofai mam yma, yn ystod yr holl dair blynedd, yn disgyn arnyn nhw ac ar yr holl ddaear. Storm i ddileu enaid oedd hon.

'Nawr mae hi'n tywyllu. Mae Marcelle druan ei hun, ym mlinder yr oerfel, yn cilio i mewn i lendid y tŷ i daflu boncyff ar y tân ac i wasgu'i thrwyn yn erbyn y ffenest. Storm hir fydd hon, sy'n siarad â hi drwy'r gwacter. Ac mae mam wedi cario llwyth o'r gaea didrugaredd gyda hi ar draws ei hysgwyddau i mewn i'r tŷ.

'Yn sydyn, ynghanol y bae ryw filltir o'r lan dyma mam yn gweld fflach o olau.

'Nhw sy'n dod. Ei gŵr a'i meibion.

'Nhw sy yno, diolch am hynny.

'Maen nhw yn y bae, yn ymladd yn erbyn yr iâ, ac yn troi a throsi yn y gwynt eiraog. Ond mae'n anodd eu gweld. Mae'n anodd gweld dim.

'Does dim golau mwy. Ond mae hi'n siŵr ei bod hi wedi eu gweld nhw unwaith. Roedd hynny'n ddigon. Un golau pendant yn glir am eiliad.

'Yn awr, does dim ond dŵch niwlog, a'r talpau iâ oer yn chwipio o amgylch. Fe redodd hi allan o ddiogelwch y tŷ i lan y dŵr, i syllu'n feinach ac i geisio symud ychydig o'r gwyll rywsut. Mam druan. Ond yn y fan yna, does dim y gall hi ei wneud ond sefyll, yn ddiymadferth. Bellach, mae'r tywyllwch yn hollol farw, yn farw uffernol. Gwacter di-ateb. Ond rywle, ryw filltir o'r lan mae ei gŵr a'i dau fab yn ymladd yn erbyn y cyfan er mwyn dod tua thre ... Os eu llewyrch nhw oedd yr un a welsai draw, os golau dynol oedd 'na, os oedd 'na olau o gwbl; ac mae hi'n siŵr iddi weld rhywbeth ... rhywun ... (Pam roedd hi wedi dod yma o gwbl i'r diffeithwch? Fe allai hi fod wedi aros gartre i ymladd yn burion yn erbyn cystadleuaeth fasnachol agos yn Rennes, ond yma doedd ei natur hydeiml hi ddim yn gallu ymladd yn erbyn rhamant anfasnachol bell yn y fan hon chwaith. Doedd dim trechu er hynny ar y breuddwydion a'r dychmygion a

addurnai nawr fel perlau ei munudau llwyd gartre yn Ffrainc. Roedd pob peth oddi acw ar fap o Ganada yn farw ddof yn y lle yma! Ar fap does dim talpau iâ miniog yn byw, na dim niwl, na dim gaea sydyn. Dydyn nhw ddim yn rhoi dim cas ar fap o'r cefndir celain. Ofer yw pob dychymyg llerciog.)

'Cydia mam mewn fflagl o'r tân, o reddf, ac allan â hi i ddangos i'r bad y cyfeiriad, ac fe'i hyrddiodd ei hun draw at y lan a'i dal i fyny ac i fyny i arwain y dynion, yn arwydd, yn olau. Ond welan nhw ddim. Mae eisiau mwyfwy o olau. Ond mae'r blanced o blu yn rhy drwchus, mor dew â'r ofn; ac er i'w fflam hi losgi'n ddewr ac yn gymharol hir, mae yna ormod o eira yn awr i'w golau hi dreiddio ymhell iawn. Ysgythra'n ôl yn wyllt i gynefin y tŷ i afaelyd mewn fflagl arall, ond mae hi'n teimlo'i bod hi'n ceisio dal y gwynt yn ôl â'i dwylo noeth. Lluch mewn lluch yw fflaglau eira. Dal lluch y mae hi'n ceisio'i wneud, colofn o lwch gwyn uwch ei phen. Mae'r byd mor wallgo wag ac yn fach.

'Ei bai hi oedd hyn i gyd. Roedd Jean ei gŵr wedi dymuno aros yn Rennes; ond O! ddim hi. Doedd e, y creadur, erioed wedi bod ymhellach na Paris. Ac un diwrnod yn unig gafodd e yn Paris mewn oes gyfan, a balch rhyfeddol oedd e i ddod adre i Rennes ar ei ddiwedd. Hyhi oedd am ddod yma, nid fe. Ei bai hi oedd hyn. Er mai anian aros yn yr unfan oedd ganddo fe, dan ei pherswâd hi, fe elai fe i bobman: dan ei pherswâd ara a thyner hi, fe wnâi bopeth. Hi a'i tynnodd e. Fel roedd hi'n ei garu fe nawr! Eto, hyhi sy'n methu symud erbyn hyn. Mae hi fel petai hi'n glaf ac yn hen wedi ei chlymu'n dynn yn ei chadair barlysog mewn cornel yn y tŷ stormus, a'r holl fyd yn digwydd o'i blaen. A'i phriod acw, yn bell, ac eto mor agos nawr. Fel y byddai hi'n hoffi ei bryfocio fe gartre am fod dim natur arloesi ynddo fe, efô yn awr a oedd yn ymaflyd â'r elfennau gyda'r ddau fab annwyl annwyl, ar eu pennau'u hunain. A hithau'n ddiymadferth ac yn aneffeithiol, heb *wneud* digon.

'Allan â hi. Mae'r ail fflagl yn ei dwylo hi'n awr; ac wrth iddi ei siglo'n rhyfelgar uwch ei phen, mae'r gwreichion yn disgyn yn rhaedr o flaen ei hwyneb a thros ei hysgwyddau fel conffeti... neu ddagrau coch. Does dim ymateb gan y dynion yn y gwynt. Allan nhw ddim ei gweld hi. Mae llais ei fflam hi'n ymestyn i'r gwyll i glustiau byddar ei meibion. Druan ohonyn nhw. Fel roedden nhw, drueiniaid bach, wedi tristáu

wrth ymadael â'u cynefin yn Llydaw! Fel roedden nhw wedi digalonni wrth ffarwelio â'u ffrindiau! Yr hen bethau bach diniwed pell yn methu â dod i'r lan oherwydd prinder gweld. Hi oedd wedi gwneud hyn iddyn-nhw, a'u tynnu nhw oll. Ond mentro er mwyn ennill wnâi hi, meddai hi. Mentro wnaeth hi er mwyn lladd gwagedd, ar y llaw arall, meddai ffawd a bywoliaeth. A dyna ffawd hithau o'r diwedd yn dangos heddiw ei hannoethineb gwaglaw ofer hi mewn beichiau o storm aflednais. Teifl hi'r fflagl fud yn grac i'r traeth; ac wrth iddi droi'n ôl tua'r tŷ, mae hi'n llithro'n drwsogl, a'i phen yn bwrw i mewn i'r ddaear. Mae mam nawr ar ei gwastad ar y llawr. Y tu mewn iddi hi, mae hi'n crio: mae ei hanadl edifar yn ubain i'r ddaear. Mae'n codi ac mae'n rhedeg i mewn i galon y tŷ, wedi ei rhewi hyd ei madruddyn, a chlosio at farwor y tân fel at fron ei mam ei hunan. Ow! Mae hi'n wag. Yno mae hi fel petai hi yn ei dychymyg, er mwyn dychwelyd i'w hendir cyfarwydd, eisoes o ran ffansi yn ymadael â'r wlad ddieithr hon ar ganol y gawdel hon: O! mae hi wedi cael hen ddigon. Mae'n mynd yn wallgo. Ow! Mam, all y bechgyn ddim gweld cyfeiriad y tir. Yna mae hi'n cael fflach o syniad, fflagl o syniad. Syrffed a'i gyasai hi i'r wlad yma yn gynta. Neu genfigen pobl. Ddim ofn cystadleuaeth: ddim rhamant hyd yn oed. Syrffed personol. Pobol!

'Am ei bod hi wedi priodi Jean, – y pishyn – am ei fod yn meddwl ei bod hi'n bert, ac am ei bod hi'n wirion bost ei snobyddiaeth, roedd holl ferched y gymdogaeth yn Rennes yn ei chasáu bellach, a doedd neb yno'n dymuno cymdeithasu â hi. Doedd pobl y gymdogaeth gartre ddim wedi closio ati. Ym mhob math o ffyrdd, yn aml heb eu bod nhw'n sylweddoli mai eiddigedd a'u cyffrôl nhw, roedd merched y gymdogaeth yn llwyddo i'w brifo, yn ei hanwybyddu, yn cario cleps i ddial arni. Syrffed a'i gyrodd hi, ac a'i gyrodd yma, a syrffed eto oedd am ei gyrru hi'n ôl. O! fel yr hoffai fynd â'i gŵr hardd a'i dau fab, ar gefn ei hiraeth, i'r wlad gynnes y daethan nhw ohoni... Ei bai hi oedd y cwbl. Elai hi'n ôl â nhw nawr pe gallai'u ffeindio.

'Sut y gall hi eu helpu nhw y funud yma? Mae hi'n plygu uwchben ei mymryn tân, ac yn teimlo'n euog ei bod hi yn y fan yma o gwbl, ar goll, mewn cysur, a'i gŵr a'r meibion yn ymgodymu â'i hing hi a'i ffolineb hi ar y môr rhewllyd. Mae'n bwrw golwg llechwraidd yn ôl tua'r ffenest, a phlygu'n glosiach at y gwres. Ydy, mae hi'n orffwyll. Dyma hi yn clyd gwtsio'n dynn yng nghysur ei ffau yn y tŷ, a'r teulu ymhell oddi wrthi

fel anifeiliaid gwyllt anfodlon wedi ceisio ymladd i dorri allan o'u cawell iâ o storm. Roedd hi fel pe bai hi'n gafaelyd yn waliau'r lle ac yn eu tynnu'n gynhesach gynhesach amdani, – O! Fel y chwiliai hi am gysur nawr – ac wedyn suddodd i mewn i'r clydwch yn y tŷ er mwyn blasu ei nodded i'r eitha, er mwyn anadlu'i thwymdra anifeilaid ei hun, er mwyn synhwyro'r bywyd cynnes yn cwrsio drwy ei haelodau ac yn y meddyliau o'i chwmpas, y tu fewn i'r ddiddosfa hyfryd hyfryd hon a'i balchder hi yno, er mwyn peidio â mynd atyn nhw, neu ynteu fynd â'r holl gysur hwn ganddi hi atyn nhw. Sut y gallai hi chwyldroi eu ffawd a'u tynnu nhw'n ôl ? Sut y gallai hi glirio'i bai? Sut y gallai helpu'r bechgyn? Ond roedd y syniad yn ei herlid hi nawr, a hithau'n dalp o ofn hyd ei thraed. Y cabin boncyffion yma a luniodd hi ei hun, gyda'r bechgyn, y fangre hon o'i dewis hi ei hun — ei nefoedd ddirgel, — sut y gallai hi fwynhau dim ohoni mwyach a'r rheini allan y fan yna heb fedru treiddio drwy'r peryglon? Rhaid eu bod nhw'n troi'n ofer ac yn ddall yno heb wybod na gweld pa ffordd mae achubiaeth, a heb fedru symud ymlaen i'w cynorthwyo, dim ond mewn un bendro seithug o niwl plufigo dall.

'Rhedeg allan eto i ymyl y dŵr, i syllu, syllu, i'r wal wen o eira trwchus. Beth gallai hi 'i wneud? Ond doedd yna ddim golau eto, ddim o gwbl ar ôl y fflach gynta yna a welodd hi o'r blaen. A doedd honno ond rhimyn gwyn o amheuaeth ar hyd ei meddwl hi bellach. Doedd dim modd rhoi dim arweiniad iddyn nhw.

'Arhosai am oriau. Oriau afrifed. Ond dim bywyd bellach. Dim gwreichionen. Rhaid eu bod nhw yno o hyd, ei gŵr a'r bechgyn, ond sut y gallai hi eu helpu *nawr*? Dyna fflach eto. Do. Tua'r un lle â'r un gynta, neu ychydig ymhellach i ffwrdd efallai; fflach gan anwyliaid. Maen nhw yno o hyd, hyd yma; ond mor golledig ag erioed, heb wybod i ba gyfeiriad y dylen nhw hwylio. Mae hi'n troi tua gwardigaeth y tŷ, a gwên drist yn ymledu dros ei hwyneb. Mae hi wedi dyfeisio ffordd hurt nawr: rhedeg i mewn yn ysgafn yn ôl at y tân, a cheisio gafael yn y pentwyn ola sy'n llosgi ynddo. Dyma gydio ynddo fe, a'i ddal yn wallgo dan y bwrdd nes bod y fflam yn cynnau yno, wrth y cadeiriau, dan y llenni, ac yna ei osod wrth waelod un o'r waliau pren. Mae'n mynd i losgi'r lle. Wedyn allan â hi i weld yr effaith.Ydy. Erbyn hyn mae'r tŷ oll yn goelcerth orffwyll ac yn cydio yn un fflam ysol gyffredinol sy'n goleuo'r holl amgylchedd. Mae'r holl dŷ fel goleudy. Mae'i chysuron bydol hi i gyd wedi mynd. Fe all y bechgyn weld

hyn yn eglur. Mae'r cwbl yn un ffagl anferth o oleuni rhybuddiol ac arweiniol yn y storm, a honno'n arweiniad helpfawr ddiogel adre i'r bad sy yn y bae. Achubwyd pawb.'

\*

\*

\*

'Storm enbyd', meddwn i. Bu'r adroddiad rhyfedd hwn yn fath o hunlle hollol ddieithr.

'Stori y mywyd i,' meddai Thérèse. 'Mae wedi bod yn dân i gyd.'

'Wedyn hefyd! Pam? Chi? Sut? Beth wnaethan nhw wedyn ar ôl yr achubiaeth fawr? Eich mam, a'ch tad, a'r bechgyn.'

'Dim ar ryw olwg. Dim ond llithro adre mor dawel â llygod eglwys; adre, adre i Ffrainc; do, *ata-i*, yn Ffrainc – pawb: y nhad, mam a'r bechgyn, ac *ata-i*, a finnau'n un bach neilltuedig diogel gartre, y peth bach a adawyd ar yr aelwyd, tin y nyth, – a'u cynffonnau rhwng eu gaflau, wedi'u darostwng, yn dawel fel pe na bai dim wedi digwydd. *Ata i*, y plentyn a adawon nhw dros dro yn ôl yn yr henwlad. Yn ôl i ddiogelwch. *Ata-i* a mamgu. Yn ôl i fyw, lled fyw, am ychydig nes eu bod nhw ar eu traed drachefn, medden nhw, gyda mam-gu a fi, cyn mynd yn ôl i Labradôr gyda gwell cyfarpar, medden nhw. Ond o fewn pythefnos, yn ôl yn Ffrainc – credwch neu beidio – bu'r tri gwryw, y nhad a nau frawd – meddyliwch wedi'r holl beryglon – farw mewn damwain car ar lôn wledig unig ddof lipa ddiddim ddeng milltir tu allan i Rennes.'

'Na ddo! Erioed. Druan ohonyn nhw. Druan druan o'ch mam. Ar ôl y ddihangfa wyrthiol yn Labradôr!'

'Do. Wedi'r wyrth. Torrodd hi ei chalon. Buodd hi fyw am ychydig, am flwyddyn brin, yn ôl yn niogelwch Ffrainc, gyda fi a mam-gu. Ond marwodd hithau hefyd, y mam i; marw o iselder-ysbryd enbyd enbyd. Gofynnodd hi ifi'n daer, cyn darfod, i ymweld â Labradôr eto ar eu rhan. Un waith, i ddod yma. "Cer draw unwaith i weld y lludw lle bu'r aelwyd, meddai mam. I goffâu'r tŷ ar y llawr. I anrhydeddu'r blynyddoedd coll ac ofer..." A dyma fi, – wedi bod gartre gyda mam-gu o hyd am flynyddoedd, – yn siarad â chi amdanyn nhw, wedi codi pac i gyrchu yma. Pam? Dw i wedi dod. At beth! Gadael mam-gu fel y'i gadaw-wyd gan mam, a theithio'n ôl i fawrygu eu ffolineb gwyllt nhw. I beth, dw i ddim yn gwybod. A dyna'r stori.'

## DIWRNOD GLANIO

Fe welson ni Thérèse Berthou heddiw drachefn am rai munudau, amser brecwast; ac fe fuodd hi'n siarad â Beti rywfaint. Dw i'n credu i'r naill a'r llall gyfnewid cyfeiriad â'i gilydd, gan obeithio y byddai eu teithiau yng Nghanada yn croesi'i gilydd, a chan addo galw hefyd i weld ei gilydd pe baen nhw rywle'n agos. Ond wrth lwc, wnes i ddim torri llawer o eiriau gyda hi y pryd hynny. Doeddwn i ddim yn siŵr o'i dibenion rywsut, efallai am nad oedd hi ddim yn siŵr ohono i. Doedd hi ddim yn siŵr o neb arall yn y byd chwaith. Un peth oedd yn sicr: bu'i thaith hi dros y môr yn wahanol i'n taith ni. Gwelai hi fwy o bethau o'i chwmpas nas gwelso ni. Ac yn ei meddwl, yn ddiwyll roedd hi wedi gweld popeth eisoes.

Roedd y daith yn y tacsî wedyn o borthladd Québec i fyny i'r dre yn llawdriniaeth ddiddorol i lygaid ein teulu ni, yn doriad ar hyd hollt yn ein bywyd. Roedd yna ddwy dre yn cyfansoddi dinas Québec heb raniad rhyngddyn nhw yn arddulliol ddaeryddol, y naill yn ymosodol Ffrengig a'r llall yn fach ond yn orthrymus Americanaidd. Dwy dre yn neidio at y ddau lygad o'r un cyfeiriad yr un pryd, a finnau'n syllu arnyn nhw'n un yno drwy storm newydd o ddieithrwch. Heblaw teulu o Americanaid a oedd am foduro ymlaen i Maine, ny ni oedd yr unig rai a laniodd yn Québec: mae bron pawb o Brydain yn hwylio ymlaen i Montréal a'r tu hwnt.

Gwyddwn fod 94 y cant o boblogaeth dinas Québec yn parhau Ffrangeg a'r mwyafrif llethol yn uniaith. Yr iaith hon oedd i'w gweld bellach ar bob llaw, ynghyd â rhai arwyddion swyddogol dwyieithog achlysurol. Eto, Americanaid oedd cyfoeth y tai gwahanedig helaeth, a phyllau ymdrochi yn y gerddi, strydoedd coediog, a'r ceir anferth anochel. Roedd yna ymgais hefyd i oglais tafnod y twrist Americanaidd, er gwaetha'r ymwybod cenedaethol, drwy fod yn greirgar fel y gallai hwnnw ddychwelyd i'w daleithiau call 'ifainc', yn ddiwylliedig o'r diwedd ar ôl gweld ambell stryd gul, ambell geffyl a gambo twristaidd, ac ambell atgo o hen Ewrob. Dyna'r amgueddfa o wlad sy'n llunio talaith Québec.

Dw i ddim am dreulio gofod i ddisgrifio cysuron materol y wlad, braster llaeth y tai a mêl y ceir. At ei gilydd, go arwynebol yw'r manteision hyn. Fel y dywedodd rhywun: 'Ai arwydd o gynnydd yw hi fod canibál yn dechrau defnyddio cyllell a fforc?' Ond mae'n amlwg fod America, yn economaidd ac yn ieithyddol, yn pwysu yma.

Dyma ni wedi cyrraedd o ddifri, sut bynnag. Agoron ni ddrws y fflat; ac yno yn ein haros wedi ei gyfeirio'n ddestlus at Monsieur Robert Jones, roedd llythyr. Rhwygais yr amlen yn agored; ac wedi eu sgrifennu'n flêr ar draws un tudalen cyfan, mewn inc coch 'brwnt' — neu felly y tybiais i'n reit ddiniwed ar y dechrau — roedd y geiriau syml hyn: 'GO HOME ENGLISH.' Odanyn nhw, mewn coch eto, llun cyllell aflan, lai neis o lawer na chyllell fara. Roedd rhywun yn gwybod eisoes cyn inni lanio ein bod ni ar ddod i'r wlad anSeisnig hon.

MEHEFIN 19,1963.

Celwyddgwn, fel arfer, yw argraffiadau cynta. Peidiwch â gwranddo arnyn nhw.

Dw i'n cofio, pan es i fyw i Aberystwyth, y pnawn cynta ar ôl cyrraedd fe ngyrrwyd allan gan y ngwraig i brynu bara. Fe gribais i'r dre, a cheisiodd ei masnachwyr hynaws werthu pob math o betheuach i mi. 'Balŵn syr?' 'Na, dim diolch.' 'Hufen iâ?' 'Na, dim ond bara.' 'Het wair? Bwced a rhaw? Union Jack bach?' — Petrusais. — 'Siwt nofio?' Wedi hyn, fe ges i wybod fod Aberystwyth mewn gwirionedd yn dre sobor o ddiwylliedig — onid oes yno fyfyrwyr? — a bod yna ar werth nid yn unig fara — mewn sawl siop — ond llyfrau hefyd. Felly gyda Québec. Pan gyrhaeddais i, yr argraff ges i oedd fod popeth yn costio dair neu bedair gwaith cymaint ag yng Nghymru. Ac mae'n wir, bid siŵr, fod yna rai pethau,— amryw bethau gwaetha'r modd,— sy'n gofyn y fath grocbris. Ond mae yr un mor wir fod modd byw bywyd yn Québec, gweddol asetig efallai, heb dalu llawer mwy na dwywaith pris Cymru am bopeth; ac mae'r cyflogau, yn gwrtais iawn i'r Canadiaid yn cyfateb. Yr unig gyngor a fentrwn, felly, yw i chi beidio â dod yma (dyweder am wyliau hir) ar gyflog Cymru, heb i chi chwilio'n gynta am swydd yn ôl eu graddfa nhw. Y dydd y deuthum i, fe allwn i ddatgan gerbron y Cwstwm fod



gen i amryw grysau, hyn a hyn o sanau, ac yn y blaen. Wrth ddychwelyd, alla i ddim datgan ond — hyn a hyn o ddannedd, hyn a hyn o glustiau, dau drwyn a holltwyd gan oerfel — heb ddim gwallt. Bu rhai Cymry'n dod y ffordd yma gynt i baentio'r byd yn goch: os dôn-nhw heddiw, wnân nhw ddim ond paentio'u banc yn goch. Buan y dysgir yma mor analluog, yr ochr hon i Iwerydd beth bynnag, yw'r hollalluog ddolar.

MEHEFIN 20, 1963

Roeddwn i wedi clywed sut mae'r drafnidiaeth yn Efrog Newydd, ac am y gyrwyr mewn rhengoedd wrth y goleuadau yn plygu uwchben eu llywiau, yn ysu am gychwyn, fel jocos ar gychwyn ras. Cyn gynted ag y newidia'r golau, neidian nhw yn eu blaenau a melltennu'n wyllt at y golau nesa ymhen rhyw ganllath. Gwichia'u teiars wrth frecio, ac erys y gyrwyr ymhlyg dros eu llywiau yn dyhefod, mewn rheng o hyd, a'u llygaid yn tasgu tuag at y golau coch, gan ddisgwyl yn hiraethus am y cwrs nesa.

Ar hyd heolydd Québec, sut bynnag, gyrrir yn jocôs hamddenol heb sylwi ddim ar yr arwyddion dwyieithog gwrthun 'Arrêt: Stop' sy'n addurno pob cornel, bob rhyw hanner canllath, megis hysbysiadau cwrw yng Nghymru. Os digwydd i chi arafu'n anfwriadol wrth un ohonyn-nhw am eiliad, fel y sylwais i ar un estronwr diniwed o'r Taleithiau Unedig yn ei wneud, fe fydd cynn fil yn ubain protest a cherydd awtomatig am y fath anghwrteisi tuag at ddefnyddwyr eraill yr heol, fel petaech chi'n fuwch o'r wlad yn ymlwybro drwy warineb y dre ac yn ddisymwth wedi penderfynu gorwedd yn dwp yn y canol. Amlhawyd posibiliadau torri'r gyfraith yma, nes bod cadw'r gyfraith yn brinnach nag y bu ei thorri hi gynt. Mae rhywbeth bron yn ddieflig yn nhraffig Québec. 'Pabyddiaeth, mae'n rhaid!' meddai'r Piwritaniaid.

Mae hyn yn debyg i'r hysbysiad sy'n amlwg iawn ar wal llyfrgell ieithyddol Laval: Défense de fumer, lle mae'r awdurdodau, yn gall iawn, wedi doddi dysglau llwch i'r ysmygwyr ar bob bwrdd. Hwyrach y mod i'n camsynied, ond yr atgof sy gen i am Gymru yw bod 'na ddim hysbysiad ar waliau'r llyfrgell yn y Brifysgol, ond bysai neb yn breuddwydio am smocio yno sut bynnag (ond Wil, wrth gwrs).

MEHEFIN 21, 1963

Pwy sy'n gweld y gwir i gyd yn unman? Y gwir wir, dw i'n ei feddwl, – am bobol, am bridd, am awyr ddi-fwg. On'd ydyn ni bawb yn teithio fel pe baen ni ar hyd corridor o ddrychau chwyddedig; a'r holl amgylchfyd yn taflu'n ôl i ni ffurfiau anffurfiedig ohonon ni'n hunain? Allwn ni ddim, gwae ni, ond cwrdd â ni'n hunain ymhob lle; ac i ambell un ohonon-ni mae hyn yn brofiad mwy diflas nag i eraill. Siarad drosto-i yn hun a wna-i. Ac eto, rywsut, o edrych yn ddigon hir, mae pob drych yn troi'n ffenest.

Heddiw gwelais gyfeiriad llachar, ar gerdyn mewn ffenest siop, at gyfarfod gwleidyddol a gynhelir gan genedlaetholwyr cymedrol yr wythnos nesa. Er mod i heb fawr o amynedd gyda chymedroldeb (lle bo egwyddorion), mae arna i flys mynd i glywed y cymedrolion hyn. Dyna un drych (o fywyd) o leia y bues i'n chwilio amdano; ond tybed a ga-i yno ffenest? Wedi'r cwbl, drych o Gymru a wela-i'n ffenest weithiau wrth edrych ar Ganada. Ac dŷn ni'n cyd-adnabod y gwrthwynebwyr cyffredin.

MEHEFIN 23, 1963

Rhyfedd braidd yw glanio mewn gwlad gwbl estron, a bod ar unwaith ynghlwm yn y sefyllfa wleidyddol, bron cyn clywed dim o fanylion yr ymrafael politicaidd. Ac nid mater yw hyn o ddeall yn fras brif benawdau'r frwydr — gwybod y sloganau fel petai; ond mater o ymdeimlo o'r tu mewn ag angerddau'r sefyllfa, anadlu'i naws hi, treulio'i meddwl hi. Ac o ganlyniad, mae rhai o gysgodion manwl y gwahaniaethau personol sydd yma yn gyfarwydd eisoes. Dw i'n hen gynefin â safbwyntiau'r eithafwyr ar y ddwy ochr, a hefyd â'r ymbleidwyr amryliw yn y canol, y gwladgarwyr parlyraidd, y swyddaddolwyr diplomataidd, y ffensgarwyr tactegol a'r rhyngenedlaetholwyr statig. Maen nhw yma i gyd, yn breffu ac yn bustachu, yn cynllwynio ac yn crafu, yn union fel petaen nhw'n Gymry glân gloyw truan. Lle bynnag yr elo'r Cymro drwy'r byd, caiff adnabod brodyr profiad. Mae yna gadwyn o berthnasau. Ond Cymru, wrth gwrs, fel arfer yw'n hallwedd ni i'r rhan fwya o'r byd.

Felly, nid sylwedydd oer allanol mohono i gyda'r perthnasedd yna. Y nefoedd a ngwaredo i rhag y fath safle uwch bwysig. Dylai teithio ddyfnhau cydymdeimlad. Dw i lawr yn yr arena, yn gweiddi nerth esgyrn yn enaid o blaid yr ochr sy am hyrwyddo creu cenedl yn Québec. Oherwydd dyna sy'n digwydd yma fel gyda ni. Mae yna ddadleuon economaidd yma fel yng Nghymru, dadleuon diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol. Gwae ni! Ond ar draws y cwbl y mae yna gadwyn seicolegol genedlaethol yn ymestyn ac yn cydio. Mae yna hiraeth am gydymddyrchafu'n hunaniaeth. Mae yna ysfa am ymglymu'n genedl yn ddiogel ar gyfnas hanes, a'r ysfa anwel honno mor wyrthiol greadigol â dim a fu yn awen y celfyddydau. Beth bynnag yw'r anghyfiawnder economaidd, (ac mae hwnnw yma fel y mae gyda ni yng Nghymru) beth bynnag yw'r peryglon diwylliannol, yr hyn sy'n cysylltu dyn â dyn yw unigrywiaeth ei genedligrwydd ym mosëig patrwm y ddaear, wyneb yn wyneb â'r diffyg cymeriad a'r diffyg lliw a'r diffyg cyfoeth sy mor barod i orthrech pawb drwy'r byd os byddan nhw'n ymfodloni ar beidio â bod yn genedl gyfartal. Teulu yw o deuluoedd. Yn erbyn yr undonedd sy'n sgrechian ei amlygrwydd ar y cyfandir trist hwn, mae yna freuddwyd am genedl yn y fan hon sy'n wahanol-unol. Mae Québec fel Cymru yn syniad crwydrol sy'n sychedu am fynegiant gwrthrych ac am ddelfryd mae arni angen ei sylweddoli.

Tybed a oes rhywbeth diddorol arall, yng ngogledd mapiol tebygrwydd-stampiau-post y cyfandir hwn, heblaw Québec a negroaid yr Unol Daleithiau? Os mynnwch ddeall rhai o'r Canadiaid Saesneg, cymerwch fap o dalaith Saskatchewan. Mae i'r dalaith honno bedair cornel a phedair ochr. Yn wir, daearyddiaeth gyfleus tudalen sy ganddi, a ddylai hi ddim bod yn or-anodd i'r plant yno ddysgu eu daearyddiaeth leol, a throi'r tudalen yn weddol gyflym. Ond anodd iawn iddyn nhw ei darllen hi heb gysgu, er ceisio ymhoffi yn ei ffurf hi. Mae eu gwladgarwch yn debyg, dybiwn i, i fynd i'r gwely gyda dyn eira. Fe welais un tro ddrama lle'r oedd mam, a oedd wedi gwallgofi ar ôl colli ei phlentyn ei hun, yn magu doli gŵyr yng nghymysgfa'i cholled; ŵyr pobl Saskatchewan ddim, gwaetha'r modd, a chân-nhw ddim gwybod byth, na maint eu colled na dyfnder eu cymysgfa, heb ysgytiad newydd pellach i'r plentyn bach hwn yn eu breichiau.

Y peth mwya diddorol gen i yr wythnos diwetha oedd mynd i gyfarfod a gynhaliwyd gan yr RIN (Rassemblement pour l'indépendance nationale), mudiad cymedrol teirblwydd oed sy'n flaengar wrth bleidio hunan-lywodraeth yn Québec. Mae hwn mewn safle od. Pleidiau cenedlaethol yw pob un o'r pleidiau yn Québec; er enghraifft, Plaid Sosialaidd Québec, 'fel y mae yn erbyn i un dosbarth niweidio neu elwa ar ddosbarth arall, felly y mae yn erbyn i un genedl niweidio neu elwa ar genedl arall.' Ond rhan o'r gêm wleidyddol yw hyn, dw i'n ofni. Mae'r Blaid Ryddfrydol yr un mor genedlaethol wamal: ymreolaeth yw'r nod, fel yng Nghymru. Ond tybio dw i, oni bai fod yr RIN, a mudiadau ffyrnicach megis yr FLQ (Front de Libération du Québec) yn gweithio'n unplyg ac yn corddi'n ddyfnach, mai chwalu wnaethai'r ymdeimlad cenedlgarol, heb gyfeiriad yn y byd. Nhw sy'n diogelu'r adnabyddiaeth o imperialaeth.

Ches i ddim llawer o flas ar siaradwyr yr RIN. Deallusion sbwng-wasgedig yn ceisio rhesymoli gwirionedd profiadol, fel y gwna pob chwaraewr gwleidyddol da, dyna oedden nhw. Ond yng nghefn yr ystafell, fe ddechreuais sgwrsio gyda J-P-. Roedd e'n gweld mod i heb ddim gwreiddiau yn yr ardal, ac fe ddechreuon ni drafod cenedlaetholdeb yn gyffredinol, hynny yw, cynnal ein cil-gyfarfod cyfrinachol ond cydwladol ein hun ar ymyl y cyfarfod 'mawr.' Trafodem seicoleg seml yr imperialwr, a seicoleg amryfal, isel, ond cymhleth y gorchfygedig. Sylweddolwn i ddim ar y pryd ei fod e'n yn amau i o fod yn sbiwr.

Fe welais yn fuan mai ffrwydrgarwyr yr FLQ oedd priod gynefin J-P-. Dw i ddim yn gwybod pam roedd e am siarad â fi am y peth, gan y mod i'n cyfadde mai trempyn dros dro oeddwn innau yn y wlad. Ond mae'n rhaid ei fod wedi synhwyro yng nghanol cymhlethdod yn adwaith personol i i'w achos, fod yna wreichionen o gydymdeimlad. Beth bynnag, fe wahoddodd fi i ddod (megis gohebydd tramor) i gyfarfod o eithafwyr yr FLQ a gynhelid cyn bo hir mewn seler tŷ yn yr hen dre. Cydgyfarfod rhwng cangen Montréal a changen Québec oedd yr achlysur, a dwedais innau'n ddigon gonest y byddwn i'n falch iawn o'r cyfle i ddod. Mae'n rhaid imi gofio J-P-. ... Ddoe, derbyniais nodyn drwy'r post yn rhoi manylion am amser a lle'r cyfarfod, gan ofyn hefyd yn y modd arferol i mi losgi'r llythyr. Roedd J-P- yn y nghofio i. Heno fe gyrrhaeddais y seler yn brydlon. Roedd y lle'n o dywyll, ond roedd rhyw ddwsin eisoes

wedi cyrraedd o mlaen i. Ymhlith y garfan fach o Montreal a oedd yn eistedd gyda'i gilydd fe welais i wyneb a oedd yn un cyfarwydd. Thérèse Berthou, y Ffrances hanner cant oed honno y cwrddais â hi ar y llong! Neb llai. Ond roedd hi'n welwach beth nag y buasai hi y pryd hynny, er ei bod yr un mor brydferth; ac yn ei llygaid hi fe allwn ganfod — gallwn — ofn, gwir ofn, yn llechu fel cwningen yng nghornel cae. Amneidiodd yn betrus ddirgel ei hadnabyddiaeth, ac yna crychodd ei haeliau fel petai hi am i fi beidio â dangos dim adnabyddiaeth ohoni. Trodd ei phen i ffwrdd, ac edrychodd hi ddim arna-i weddill y noson.

Pwy yw Thérèse Berthou? A oedd hi'n dweud y gwir pan ddwedodd ei bod hi'n dod yn enedigol o Rennes? Neu a oedd hi'n Ganadiad wedi bod draw yn Ffrainc, yn negesa ar ran Byddin Ryddid Québec? Ai cuddliw oedd hanes hirfaith ei rhieni? Ai dychymyg nerfus oedd ei stori gynhyrfus a damhegol am roi'r tŷ ar dân?

Dyma hi, beth bynnag, yn gwbl dderbyniol ac yn gartrefol gyda changhennau Montréal a dinas Québec. Ac mi wn i ei bod hi'n un ohonyn nhw, oherwydd ar ddiwedd rhan gynta'r cyfarfod, hynny yw ar ôl iddyn nhw ddarllen y cofnodion ac arolygu gwaith yr wythnosau diwetha yn greulon o hunan-feirniadol, fe ofynnwyd i fi ymadael â'r cyfarfod, cyn mynd ymlaen i gyd-drafod cynlluniau'r dyfodol. Gwnaeth J-P- lygad bach wrth ifi godi (A! A! J-P); ond arhosodd Thérèse Berthou yn gwbl lonydd, heb amneidio na chydabod dim mwy. Yn nhywyllwch cyffredinol y seler, roedd ei llygaid hi'n sibrawd ac yn chwilio'n ddyfal am dywyllwch mwy pendant a dealladwy. Pwy oedd hi? Mae ei dirgelwch newydd yn cydio yno-i, a'r tristwch yna sy'n gorwedd yn yr awyr o'i chwmpas yn gyfaredd ifi.

MEHEFIN 24, 1963

Ces i yn nihuno heddiw gan sŵn plant yn chwarae, ac roedd gwichian tlws eu llefain yn yn atgoffa i am y llu adar a fyddai'n ein diuno ni fel teulu gynt ym Mhlas Ystrad, Caerfyrddin. Mae'r wlad yn byrlymu o blant. Yn hyn o beth mae ei Chatholigrwydd yn rhoi iechyd iddi, yn ddiau. Yn yr helaethrwydd o leisiau ifainc sy ymhobman mae yna ryw haelioni agored. Yng Nghymru, dŷn ni braidd yn gynnill, yn

gybyddlyd yn ein hepil, yn adar a phlant, fel pe baen nhw'n faich neu'n gwilydd. Dŷn ni mor aml yn eu cwtogi nhw nes bod y tir yn fud o'n cwmpas. Mae diniweidrwydd lluosrwydd yn cael ei ddogni. Ac eithrio mewn ambell stad o dai cyngor, mae plant Cymru'n chwarae mewn anialwch unig o bobl mewn oed, yn ddieithriaid gleision ymhlith henwyr. Ond yn y fan hon mae clychau'u tafodau a dawns eu hosanau yn llenwi pob man, hyd yn oed y perci di-ben-draw o dai'r bourgeoisie.

Sefydliad annwyl a chanolog i'r Québécois erioed fu'r aelwyd deuluol. Pan fyddai ei deulu 'ar ei ben ei hun' meddai un cyfaill o'r dalaith wrtho-i, 'fe fydden ni bob amser yn 24 neu'n 26, weithiau'n 30 neu'n 32. Y dydd o'r blaen, fe fu farw yn y mhlwy i, yn Saint-Michel de Vaudreuil,' meddai fe ymhellach, 'hen wraig Madame Brasseur, yn 99 mlwydd oed; ac roedd gan honno 222 o ddisgynyddion.' A dyma brif ddodrefn y cartre Québecaidd o hyd, y prif gyfoeth. Nhw hefyd yw prif flodau gardd a maesdrefi. Mae yna lai o flodau go iawn yma a llai o ddiddordeb mewn garddio nag sy yng Nghymru, debyg gen i, er bod y coed ar hyd ymylon yr heolydd yn amlach. Ond pa eisiau blodau sy pan fo cynifer o blant? Mae yna lai o gŵn hefyd yn rhedeg yn rhydd ac yn gadael eu budreddi dan draed ym mhobman fel y gwnân nhw yng Nghymru. Tybed ydy'r diddordeb Prydeinig mewn blodau gardd yn gwneud iawn — megis cadw cathod a chŵn — am beidio â magu digon o blant? Dw i'n gweld y mod i'n dechrau codi cymariaethau rhwng Cymru a Québec. Peth anochel yw hynny i deithiwr, yn ddilys ddiamau, ond arferiad sy'n cynnwys llu o beryglon. Ceir amryw dueddiadau isymwybodol sy'n debyg o wenwyno agwedd pob sylwedydd brwd ynglŷn â'r naill wlad a'r llall, a'i arwain e'n hwyr neu'n hwyrach i orfoli neu i orfeio. Ac eto, Cymru yw yn llinyn mesur naturiol i, o ran diwylliant megis o ran hinsawdd. Dw i'n gallu gweld y bydda i, yr un pryd ag dw i'n sôn am Québec, yn paldaruo o hyd am Gymru, megis jwglwr mewn syrcau sy'n ceisio cadw dwy bêl fawr yn yr awyr yr un pryd; ac o'r golwg megis, y tu ôl i nghefn, mae yna ddwy bêl arall sy'n cael eu trafod yn hynod ddirgel acrobataidd debyg eto, sef Lloegr a Thaleithiau Unedig America. Â nhraed dw i'n trin y rheina, gan y mod i'n mentro jwnglo o hyd — ond gyda phob dyledus barch.

Ar fater y plant, un feirniadaeth a godwyd gan gyfaill oedd hyn: 'Pe baen ni'n datblygu celfyddyd ymddiddan, fe ostyngen ni raddfa'r genedigaethau.' Bron y gellid

honni fod graddfa'r genedigaethau yn Québec yn fater o bolisi. Yn ystod y deng mlynedd cynta ar ôl iddyn nhw gael eu concro, roedd lefel genedigaethau'r Ffrancwyr Canadaidd yn uwch na'r lefel ucha a gofnodwyd ar gyfer unrhyw bobl wynion erioed. Mae eu penderfyniad i oroesi drwy blant bron yn anweddus o ffyrnig.

Y prynhawn yma ar y ffordd i'r Brifysgol fe ges i yn syfrdanu gan orymdaith aruthrol liwgar o blant a phobl ifainc yn darlunio'n hynod broffesyddol ac yn gaboledig bob math o agweddau ar fywyd Québec, gorymdaith hir o lorïau wedi'u cuddio'n addurnedig, gyda nifer o fandiau plant yn chwythu cyrn ac yn taro symbalau'n fwya gorfoleddus. Gofynnais i un ymhlith y cynulliad ar ymyl y ffordd beth oedd yr achos. 'Mais le Saint Jean-Baptiste, bien sûr,' meddai hwnnw. Dydd Gŵyl eu nawdd sant, wrth gwrs, a'r plant yn darlunio cymeriad eu gwlad, ac yn ymfalchïo yn nhreftadaeth eu diwydiannau, eu harferion, eu campau, a'u hanes. A'u bodolaeth. Dathliad hapus a grymus, ond heb urddas gorseddol, canol-oed, a dibwynt ein ciniawau gŵyl Ddewi ni.

Ar ôl dod adre, fe ges i Beti'n welw ac yn bryderus yn eistedd yn dawedog yn y gegin. Roedd rhywun wedi gollwng tân yn ein blwch llythyrau ac wedi llosgi'r ohebiaeth oll yn ulw mân. Dwedodd cymdoges wrthi fod hyn wedi digwydd droeon o'r blaen gyda swyddogion o'r Llynges Ganadaidd a oedd yn lletya ar bwys, a bod Saeson newydd gyrraedd yn gorfod wynebu'r math hwn o anhwylystod ambell dro. O na ddeuen ni o rywle arall, heblaw o Angleterre.

MEHEFIN 25, 1963.

Heno, a hi'n gefn trymedd y nos, a minnau ar ddechrau sgrifennu yn y dyddiadur hwn cyn noswyllo, fe ddaeth J-P- heibio i ymddiheuro am y mod i wedi gorfod cilio o'r cyfarfod neithiwr ar ei hanner. J-P-! Fe wyddwn y deuai'n ei ôl. Roedd e'n addfwynach nag dw i wedi'i weld e o'r blaen, ac fe'i ces i fe yn fwy hoffus na'r troeon cynt. Siaradai'n fwy hamddenol, ac er mai Québec a hawliau'r Ffrangeg oedd ei sgwrs o hyd gwaetha'r

modd, fe deimlwn fod ei draethu undonog yn llai cras ac yn fwy cariadus, yn llai ffyrnig ac yn fwy tirion.

Yma mae'r Ffrancwr ar ei orau, efallai. Yn Llydaw, yn nhir y Basques, neu yn yr Antilles, dyw e ddim bob amser yn berson dymunol. Hyd yn oed yn y sefydliadau academaidd hynny ym Mharis sy'n ceisio darparu ar gyfer lledu'r Ffrangeg ledled y ddaear, anodd ymhoffi ynddo weithiau. Yma, mae'n fwy gwylaidd. Mae'n llai o froliwr. Mae'r Ffrangeg mewn peryg yn Québec, meddan nhw – er bod yr ofn yn amheus. Er bod gen i gariad mawr at iaith, llenyddiaeth, a gwareiddiad y Ffrancwr, alla-i ddim ond amau cymhellion y bobl yna sy am ddisodli ffyrdd pobl eraill o fyw gan y meddiannau hyn. Ond yn Québec mae'r Ffrancwr yn ei amddiffyn ei hun; ac o'r herwydd, mae'n gallu adnabod y profiad o golli, o gilio. Adeg colli a chilio, mae llawer peth yn wir fyw, yn ei holl ostyngaidrwydd bychan a'i holl angerdd hoff. Dyma'r pryd y mae pobl yn gallu adnabod y gwerthfawr a bod yn annwyl.

Mae concwest bob amser yn esgor ar bob math o gyflyrau seicolegol cyfoethog: dyma un o'r pethau sy'n gwneud Cymru mor sobr o ddiddorol. Taeogrwydd a llwfrdra, wrth reswm; gwrthryfel a menter hefyd. A hunan-dwyll cawraidd. Fel y bydd isymwybod y Cymry gwladgarol yn caru tybied eu bod nhw heb eu concro erioed mewn gwirionedd gan y Saeson, ond i Harri'r VIIfed chwarae tric coegaidd arnynt ar Faes Bosworth, felly fe fydd y Canadiaid hwythau'n hoffi defnyddio'r term 'cession' yn hytrach na 'conquête,' gan dybied i Ffrainc eu gollwng yn hytrach nag i Loegr eu cymryd.

Bid siŵr mae yna wirionedd ynglŷn â'r diffyg perthynas rhyngddi a Ffrainc. Ar ôl cael ei threchu ym 1760, chafodd y drefedigaeth Ffrengig ddim rhagor o ddyfodiaid o Ffrainc. Fe'i hynyswyd. Ond cynyddodd ei phoblogaeth dan ei phwysau ei hun: 1765—65,000; 1851—670,000; 1901—1,322,000; 1960—dros 4,000,000 (heblaw hanner miliwn o Saeson). Yn 1851 roedd 24 o bob cant o'r boblogaeth yn Seisnig; yn 1901—17.5 y cant; yn 1951—12.1 y cant. Fel yn achos De Affrica, melys yw gweld yr iaith Saesneg ar gil yn amwys. Mae gormod ohoni ymhobman er ei hiechyd ei hun, ac yn sicr er iechyd y byd, yn arbennig ar y cyfandir hwn. Ym Montréal y ceir y mwyafrif o'r bobl ddi-Ffrangeg, sef 480,000; ond y tu allan i'r trefydd, Ffrancwyr uniaith a geir ar bob



llaw. Eto, er gwaetha'r egni annibynnol a gafwyd yn Québec, mae yna ddibyniaeth fawr yn ddiwylliannol ar yr hyn sy ar gerdded yn Ffrainc. Yn ieithyddol, safonau Ffrainc yw safonau Québec: siarad megis Ffrancwr addysgedig Parisiaidd yw nod pob Québécois. Does dim tebyg ym mherthynas yr Unol Daleithiau a Lloegr: nid Saesneg De Lloegr yw'r patrwm i'r gŵr o Michigan nac i'r gŵr o Texas, o ran geirfa, cystrawen, nac acen. Mae'r Unol Daleithiau yn ddigon hen a helaeth i fod yn geidwadol, a Lloegr o'i mewn ei hun yn fewnblyg oherwydd henaint, ac yn fwy canoledig, fel na thyfodd y taeogrwydd diwylliannol anystwyth hwn. Ond yn Québec, gyda phellter Ffrainc mae mwy o awydd i fod yn fwy unol neu unedig â nhw fel pe bai'r safon unffurf ieithyddol acw'n rhan hefyd o drefn sefydledig i famwlad yma. Dyw Ffrainc ddim yn berygl i Québec.

Wrth gymharu cenedlaetholdeb Québec â Chymru (neu â'r gwledydd newydd sy'n ennill eu rhyddid yn Affrica) y gwahaniaeth sylfaenol hwn yn anad dim sy'n dod i'r amlwg. Mae Québec yn barod ddigon i ymgysylltu'n nes â gwlad y tu allan iddi. Mae hi am glosio'n fwy at Ffrainc nag a ganiateir ar hyn o bryd. Dyw peth tebyg ddim yn wir i Gymru. Does gan yr un wlad o'r tu allan i Gymru yr un math o berthynas gyffelyb allanol ar ein cyfer ni. Mae ein cenedligrwydd iach yn hynny o beth, yn fwy ynysig.

Bid siŵr, gwlad wahân Ffrangeg Ganadaidd yw Québec, ac nid estyniad o Ffrainc mwyach, gwlad gwbl arall. Byddai hyd yn oed cymharu â hi berthynas gwledydd megis Cyprus â Groeg yn wir ŵydröedig. Ond erys ffaith Ffrainc (a'i chyn-drefedigaethau) yn hollbwysig yn nerth cenedligrwydd Québec. Mae'n gefnogaeth ddiwylliannol i'w Ffrangeg, heb ymyrryd ag annibyniaeth yr hunaniaeth. Yn ystod y can mlynedd diwetha, er cael y tueddiadau wrban Americanaidd arferol yma, llwyddwyd i wrbaneiddio Québec i fod yn rhan o fyd Ffrangeg helaethach, sy eisoes wrthi'n cael ei hwrbaneiddio. O ganlyniad, iach o Ffrangeg i raddau helaeth yw iaith diwydiant a masnach a diddanwch cyfoes. Mae modd gwerthu amrywiaeth aruthrol o lyfrau poblogaidd clawr-papur ac o gyfresi deallusol rhad, am fod masnach Ffrainc a'r Belg a'r Swistir yn gymorth ac yn gefn, ac am fod dim angen i Québec ddibynnu ar ei hadnoddau ynysig ei hun. Mae yma ganeuon pop ar recordiau hirbara yn gyffredin yn ogystal â masnach ryngwladol i ffilmiau yn Ffrangeg i'r teledu a'r Sinema. Mae yna gyfathrach agos rhwng y prifysgolion yma a rhai Ffrainc. O'r gwledydd sy'n ceisio'u

rhyddid, dw i ddim yn gwybod am yr un yn y byd sy'n helaethach ei hadnoddau diwylliannol potensial (er yn gyfyngedig o ran rhif y boblogaeth gymharol) — nac (am resymau eraill, bid sicr) yn llawnach ei phosibiliadau economaidd.

Y bobl hyn hefyd yw'r rhai mwya diddorol yng Ngogledd America, nhw a'r duon efallai. Dyw 'Canada' – o arfordir i arfordir – fel y cyfryw ddim yn golygu fawr o ddim i amryw yma. Alla i ddim gweld pam na all Canada Saesneg ymuno â'r Unol Daleithiau i helaethu ffiniau'u haniaeth cyfoethgar tlawd. Mae llawer llai o wahaniaeth, i mryd i, rhwng Michigan ac Ontario nag sy rhwng Texas a Massachusetts. I fi, Québec yw'r unig genedl ddifri yn ei chais am hunaniaeth genedlaethol newydd yng Ngogledd America,— er y mod i'n anghofio, dw i'n ofni, yr Esgimos, a rhai Indiaid di-obaith. Uned yw Québec ei hun. Mae'n gymhleth. Mae'n arbennig ffiniedig. Mae'n ddigon bach ac yn ddigon mawr i ffurfio rhyw fath o wrthglawdd anweledig yn erbyn llifogydd masnachol yr America ganoledig. Ac y mae, yn ei ffordd, yn diodde'n seicolegol.

Cyn iddo gadw'r gerdd yn y god, heno, fe roddodd J-P- wahoddiad i Beti a minnau giniawa gydag e nos yfory. Roedd arna i chwant holi ychydig ynghylch Thérèse; ond ymateliais, a rhaid disgwyl amgenach cyfle.

MEHEFIN 26, 1963.

Cinio ardderchog heno gyda J-P-, er mai fi sy'n dweud. Nid bwyd-garwr mohono i. Yn hynny o fyd, anwariad croenbeintiedig dw i. Mae yna rai a all ymroi am oriau afieithus i ddeintio neu i folera, ac sy wedi meithrin tafodau tenau a all nabod terfynau manwl mân o wahaniaeth rhwng brithyll a brithyll, rhwng 'gwin' a 'gwin'. Dyma, medden nhw i mi, etifeddion yr hen uchelwyr. Connoisseur dŵr ydw i, yn y nhlodi cyflog, mewn ymweliad â gwlad sy'n arfaethu bod yn ddrud.

Sonnir am drefniadaeth y 'Michelin' yn Ffrainc, fod ganddyn nhw dîm o ddyinion dewr sy'n rowndio'r wlad yn feunyddiol yn unswydd er mwyn blasu a mantoli bwyd y gwahanol westai, gan eu safoni a'u cymeradwyo. Rhad arnyn nhw! Mae'r fath orcheststumogol yn codi cyflawn gyfog arna i. Byddai y ngair i am safon gwesty ddim o werth i neb. A chymryd bod y mhoced yn ddigonol i'r pethau hyn, glendid y ddarpariaeth a

naturioldeb syml y paratoad yw dwy o'r nodweddion pwysica a fynnwn. Am y mod i'n bwyta popeth yn llon ei wala — ond tarten eirin Mair,— chawn i ddim siom pe bai'r dewis yn gyfyngedig ac yn ddiffygiol mewn uchelgais. Ond fe ddiflaswn ar garlam ped amheuwn, fel dw i'n ofni weithiau, fod prifiant y cyw iâr wedi'i fforsio'n ormodol a'i gig yn yn atgoffa i am bwlp papur newydd a lapiesid gan genhedlaeth cynt o gylch sglodion tatws.

Ar un peth yn unig dw i'n yn sefyll yn gadarn, neu'n gymharol gadarn. Ceir rhai a hoffai weld ym mhewgwn y gogledd fwrdd wedi'i arlwyio *à la* Efrog Newydd â 'phitsa' neu 'fwrgrar'; a phed aen nhw i'r Gyhydedd, yno drachefn fydden nhw ddim yn ddiiddig oni chaen nhw'n feunyddiol brydau pysgod a sglodion. Ond y nodwedd chwaethus gynta, gen i, sy'n weddus i'r gwestai blaena, yw eu bod nhw'u hunain yn ateb eu cefndir, o leia o fewn ffiniau rheswm. Hynny yw, ped âi Cymro i Baris, dylai fod yn siomedig oni all, yn y gwesty gorau, fwyta malwod neu goesau brogaod, neu oni chynigid y cyfle iddo o leia. Megis y daw ysgolhaig Arthuraidd o America i Gymru gan ddisgwyl swrn o awdurdodau ar y maes hwnnw; neu ym maes themateg 'ddiweddar', syniadau ein hemynyddiaeth, felly y dylen ni oll gael yr amrywiaeth mwya o brydau reis mewn tshili ped ymwelen ni â gwesty parchus yn China, neu gyrru yn yr India. Hysbys y dangoso y bola...

Rhaid bod yn garcus gyda phob egwyddor yn yr oes oleuedig hon, oherwydd mae'r seigiau cenedlaethol fel arfer yn fwydydd hynafol cyn-Ddilywaidd a braidd yn afresymol ar gyfer stumogau anhyfforddedig y dyddiau tun-garol hyn. Creiriau neu ddyfeisiau yw llawer o'r prydau cenedlaethol (megis y gwisgoedd) a warchedwir er mwyn yr ymwelwyr tra bo'r brodorion yn llyncu'r seigiau cydwladol arferol. Felly, mae'r rhan fwya o'r gwestai yn eistedd ar glawdd rhyddfrydol rhwng y bol cenedlaethol a'r cylla cydwladol.

GORFFENNAF 3, 1963.

O fynd i'r Byd Newydd dw i'n hynod o falch fod Québec wedi gwneud y tro. Dw i ddim yn credu y gallwn i fod wedi godde Toronto na Washington. Dw i'n rhy hen o

lawer ar gyfer lleoedd felly, mor hen â'r Indiaid o leia. Yn wir, roedd hwylio i mewn i Québec ar un o fadau modern y cefnfor yn weithred braidd yn aflednais. Mi ddylwn i fod wedi dod mewn canŵ. Ar y bad roedd yna lu o Americanaid yn anelu at leoedd fel Michigan a Detroit; ac O! mi'r oeddwn i, y Cymro bach, yn teimlo mor hen, gyda Thaliesin yn y marf ac Aneirin yn plygu bwa y nghefn.

Welais i ddim J-P- ers wythnos, a dw i'n lled feddwl ei fod e wedi cilio o mywyd am byth; a dw i ddim yn edifar. Fe ges i gyfle bellach i ymaflyd o ddifri yn y ngwaith, heb yr un ymyriad teimladol. Ac yn hen bryd.

GORFFENNAF 4, 1963.

Daeth J-P- heibio heno a threulio tri chwarter awr gyda fi. Y bytholwyrdd J-P-.

Fe ddadlennodd i mi gynllun o eiddo'r FLQ i ymosod ar gronfa arfau swyddogol, a dwyn dau gant o ddrylliau Canadaidd o feintiau gwahanol heblaw peth wmbredd o amiwnisiwn. Gofyn roedd e a fyddwn i'n fodlon i ymuno yn y cyrch arbennig hwn. Ar ôl iddo fynd, ddwedais i ddim gair wrth Beti ynglŷn â natur y gwaith arfaethedig, ond roedd hi, yn ôl y reddf ddihafal yna a roddwyd iddi, yn medru synhwyro'r peth. Ceisiodd hi y narbwyllo mai'r dull gorau imi dreulio yn amser yn Québec fyddai ymglyfyngu i ngwaith a pheidio ag ymyrryd mewn unrhyw fodd â gwleidyddiaeth fewnol gwlad estron. Ond i mi, ffug a thwyllodrus yw'r ffiniau sy rhwng gwladwriaethau, ac un frwydr ysbrydol yw'r frwydr gydwladol hon ar ran cenedloedd amrywiol y byd benbwgilydd.

GORFFENNAF 5, 1963.

Ar ôl noson o gwsg dw i'n fwy argoeddedig byth mai y mhriod ddyletswydd, a minnau'n genedlaetholwr, wrth ymweld â gwlad arall, yw ymfwrw i ymdrechion cywir y wlad honno am ryddid. Nid gwisg i'w diosg wrth groesi ffin yw cenedlgarwch, ond sylweddoliad o ffaith seicolegol a diwylliannol yn adeiladwaith y byd. Cysgod yw i

gorff imperialaeth. Gwaith syml fydd gen i dradwy, sef gyrru'r lorri gynta o'r gronfa arfau ym Montréal, i fyny trwy'r mynyddoedd fforestog am ryw dri chan milltir, lle y bydd yna ail lorri yn cyfarfod â ni, ac yno helpu i ddadlwytho wedi cyrraedd. Yn unig bryder i (a phryder taer yw) yw beth ddigwyddith i ngwraig a mhlant os delir fi. Ond mi greda i fod Beti'n ddigon cry ac yn ddigon ewyllysgar i fentro'r siawns yna.

GORFFENNAF 6, 1963.

Swynol wrth gerdded oddi amgylch dinas Québec yw amllder y cerfluniau, a welir yma ac acw, i ddynion o bwys yn hanes Canada. Mae yma ddiwydiant coffâu. Rhydd liw i'r ddinas a gwna daith i mi o'i chwmpas yn ymwybodol ddiddorol. Mor wahanol i Gaerdydd lle y codwyd cerfluniau i genfaint o dirfeddianwyr byr-eu-coffa a thros-dro-eu-gwerth, a lle mae dyn yn profi tipyn o swildod gwadnau-traed pan fydd estron yn syllu i fyny ar ambell gofgolofn ac yn gofyn 'beth wnaeth hwn?'

Efallai fod tipyn ar y mwya hefyd o blaciau pres ar waliau adeiladau Québec i goffâu'r goris-ddigwyddiadau, a dw i ddim yn siŵr nad oes yna un: — *Yma y bu Samuel Champlain yn crafu ei drwyn ar Ionawr 3, 1616*. Tybio dw i fod pobl yma'n crafu mân lwech at ei gilydd. Ond roedd trwyn Samuel Champlain, yn sicr, yn werth ei grafu.

Ymhobman maen nhw'n taeru, yn protestio eich bod chi yn yr HEN Québec, yr HEN brifddinas. Dyma Québec gyntefig, cartre'r creiriau, bro hanes, lle mae'r oesau'n dylyfu gêm a'r blynyddoedd barfog yn chwyrru. A rhyw dair canrif o hanes Ffrangeg sydd i'r hen le! I Gymro mae'r peth yn chwerthinllyd. Ni'r genedl sy'n gallu fforddio taflu ambell grair i'r gwter, megis tŷ'r Ficer Prisiart, dweder, a ganai mor wych cyn bod yna Québec — a hynny er mwyn lledu'r hewl. Ni'r genedl sy'n gallu fforddio lluchio hen iaith a thraddodiad, ... unwaith eto mae'n bosib ... er mwyn lledu'r hewl. I Gymro mae clywed yr hiraethu hanesyddol yma braidd yn naif ac amherthnasol, a dweud y lleia.

Mae creu traddodiad yn fater dyrys. Yn waith caled, hir. Ac eto, mae'n digwydd yma, hyd yn oed yma. Yr arwydd cynta sy'n dangos llwyddiant ymwreiddio yw bod y boblogaeth yn teimlo iddi fod yna erioed. Cael gwared â'r ymdeimlad o newydd gyrraedd. Cymorth i'r perwyl yna hefyd yw adeiladu myth yr Oes Arwrol. Fe

wnaethpwyd yr un peth yma ag yn yr Unol Daleithiau. Gwneud gwreiddiau wrth chwilio amdanyn nhw. Fel y byddai pobloedd go gyntefig gynt yn adeiladu bob amser fyth am ryw oes aur a fuasai yn y gorffennol, gan boblogi'r cyfnod hwnnw â phersonau go iawn ond hynod o chwyddedig eu galluoedd, felly yn Amerig, yn y ganrif ddiwetha, fe adeiladwyd mytholeg flodeuog o gwmpas y sefydlwyr arwrol cynta, y Cowbois Saesneg, yr anturiaethwyr a'r cenhadon Ffrangeg. Gwnaethpwyd nhw'n ffigurau clasurol, ac ychwanegwyd cymrodyr dychmygol at eu rhengoedd. Wedi dyfod yr ymchwilwyr 'gwyddonol' modern neu'r rhai poblogaidd, collwyd angen a gwerthoedd gwreiddiol yr Hanes – fel y bu e ar lafar – o gynnal morâl i'r gymdeithas; a chynnal ei hen wasanaeth bellach gan ramant y ffilmiau a chan lenorion poenus o ddelweddgar.

Gellid crynhoi syniad y Québécois (megis gan haneswyr mawr fel Garneau a Groulx) am eu hanes eu hun mewn ychydig eiriau: oes aur y drefn Ffrengig ar y naill law, ac ar y llall anfodlonrwydd ar y drefn Seisnig — y gwyn a'r du; a rhyngddyn nhw y rhwyg chwerw, dwfn. Wrth gwrs, ceir sawl ffordd o sgrifennu hanes. Os dewisir sgrifennu hanes yn ôl *uned* y genedl, allwn ni ddim dianc rhag y dehongliad cenedlaethol, oherwydd ymwneud â thwf natur pobl arbennig a'r digwyddiadau arwyddocaol yn natblygiad eu mamwlad yr ydys. Penigamp yw haneswyr Québec oherwydd eu bod nhw wedi ymaflyd yn y ffaith ragdybiol hon: *cariad yw sail Hanes*. Yng Nghymru, oblegid yr hyn a ystyrir yn wrthrycholdeb cytbwys (sy'n gwbl amhosibl i hanesydd, os yw heb fod yn labrwr anarchaidd yn hel ffeithiau tameidiog yn anfeirniadol), daeth 'hanes Cymru' i'r rhelyw o'n hysgolheigion yn atodiad i hanes Lloegr, y colli a'r ennill, gan gynnwys ein hanes crefyddol (a aeth yn ymgyrch seciwlar i lawer). Wedi osgoi gweld arwyddocâd cenedligrwydd Cymreig ein hanes, un llwybr yn unig oedd yn flaenaf, sef gweld ei arwyddocâd mewn imperialaeth Seisnig, rhyfeloedd a diwydiant. Dyna pam y rhoddir cymaint o bwys yn ein llyfrau hanes a llenyddiaeth Saesneg ar y Dadeni Dysg a rhamantiaeth y ddwy ganrif ganrif ddiwetha, dwy oes fawr hanes Lloegr, ac yr esgeulusir, ar y naill law, Oes Arthur a Dewi, ac ar y llall gyfnod meddwl a diwylliant yr oes Fethodistaidd a blodeuad diwydiant Cymreigaidd, sef dwy oes fawr hanes Cymru. Fe glywais i fwy o sôn am Gymru Oes Arthur a Dewi pan dreuliais i flwyddyn yng ngwlad Padrig nag a glywais i erioed gan athrawon Cymru; ac

yma yn Québec lle y gwerthfawrogir chwedlau Chrétien de Troyes, sonnir mwy am y dylanwadau Cymreig hynny ar hanes Ewrob nag a grybwyllir byth gan ysgolion a cholegau'n gwlad ni. Derbyniwn ein Hanes gan olygwedd pobl sy heb wybod fawr am ein Hanes cydlynol fel uned amryfal ei hunaniaeth, a'r anwybodaeth honno ysywaeth ar egwyddor. Oherwydd derbyn ohonon ni hanes y Cymry yn atodiad i hanes cenedl arall, fe ymbesgwn yn ein hatodiadaeth seicolegol. Ychydig o ddehongli annibynnol a geir ar y defnyddiau hanesyddol gyda ni. Gadewir y dehongliad a'i bwysleisio i'r haneswyr Seisnig 'rhydd'. O ganlyniad, sgrifennu Saesneg (wrth gwrs) a Saesneg pedestraidd a wna'r rhan fwy o'n haneswyr, heb nac egni meddyliol na sbonc gweledigaeth. Un agwedd hynod o bwysig a drafodwyd gan haneswyr Québec (neu gymdeithasegwyr megis Fernand Dumont) yw hanes twf seicoleg y syniad am genedl Ffrengig Ganadaidd ac am undod ei delfrydoleg. Nid drwy gofnodi rhes o ddyfyniadau a'u clymu wrth ei gilydd y gwnaethan nhw hyn, ond drwy fyfyrto a thrwy ddadansoddi'n athronyddol arwyddocâd a llawnder a swyddogaeth ac adeiladwaith pob delfrydoleg. Bid siŵr, dydyn nhw ddim mor naif â dal bod trafod yr 'idéologies' hyn yn adlewyrchu'r wlad ei hun. Ond mewn modd dwfn y mae'n gyfredol i'w seicoleg i raddau, ac yn rhoi allwedd i ddadansoddiad ffeithiol o ffrâm y gymdeithas. Rywsut, wrth ifi yma sylwi ar genedl arall yn ffurfio'i gwreiddiau, dw innau ar yn ennill wrth chwilio y ngwreiddiau yn hun.

GORFFENNAF 8, 1963.

Ches i ddim cyfle i gofnodi digwyddiadau doe neithiwr. Erbyn i mi gyrraedd Lac T... roedd yr amser wedi cerdded yn rhy bell, a minnau wedi ymlâdd.

Mae'n rhyfedd mor gyflym y deuir o hyd i ffrindiau, yn arbennig mewn argyfwng. Echdoe, J-P- oedd yr unig un o'r fintai a adwaenwn i, ond prin i fi ei weld e ddoe, heblaw y tu allan i'r gronfa arfau gychwynnol, gan ei fod e'n un o'r rhai a oedd i fod i aros ar ôl ym Montréal. Gyda fi yng nghaban y lorri roedd Jules a Gérard, y tri ohonon ni'n fwndel cynnes, chwyslyd, amheraroglus. Roedd yna bedair lorri y tu allan i'r gronfa — un yn unig ar gyfer yr arfau, a'r lleill i gamarwain yr heddlu a'u tynnu i bedwar ban y byd, pe seinid yr alarwm. Roedd y rhagfintai wedi tirioni'r gwarcheidwaid

ac wedi gofalu bod rhwydd hynt i'n cynllwyn; ac o hynny ymlaen, esmwyth oedd ein cyrch ni a'n dianc ninnau i'r gwagle. Y fi oedd yn gyrru 'lorri'r camarwain'.

GORFFENNAF 14, 1963.

Mae arna-i ofn. Pam y gwnes i hyn? Beth sy arna i? Wrth geisio egluro'r ofn, dw i ddim yn hollol siŵr beth yw'r ateb. Dw i'n ofni Jules, yr hen Jules annwyl sy'n medru rhegi'n ddi-baid am bum munud heb ei ailadrodd ei hun yr un waith. Erbyn hyn, mae Jules yn y nghyfri i'n 'un ohonyn nhw'. Gall e 'ymddiried ei enaid' i fi, meddai fe; ac mae e'n sôn byth a hefyd am y cam nesa, a'r cam wedyn, a'r cam wedyn. Gwrthryfelwr llawn amser yw Jules, ac fe all e fforddio hoelio ei ymennydd ar un peth. Ond i berwyl arall y deuthum i i Québec. Pam dw i'n ymyrryd? Pam dw i yma? Ai dyma yw'r ofn? Yr ofn o suddo'n ddyfnach, a theimlo y mod i'n colli gafael ar briod bwrpas yn oriau yn hun. Ai ofn felly sy'n y nilyn i fel cysgod wrth imi gerdded i'r Brifysgol yn y bore? Dilyn hobi, a cholli galwedigaeth. Ynte a oes ofn y gweithredu ei hun? Ydy'r perygl yn crynu rhwng y mysedd? Roedd y cyrch diwetha mor rhwydd, ond mae Jules yn anesmwyth o hyd ac am ddringo i uchelderau mwy.

GORFFENNAF 15, 1963.

Dw i'n gallu cymeradwyo 'dwyn' arfau mewn 'gwrthryfel' fel hyn, ac efallai ar unrhyw achlysur arall. Hawl foesol yw lladrata arfau, neu ddistrywio arfau, ym myd dynion, hawl y gellid ei chyfiawnhau bob amser. Mae gen i deimlad hefyd fod niweidio eiddo'r gelyn, gwneud difrod i'w 'bethau', yn weithred y mae modd ei hesgusodi ar rai achlysuron, er y mod i'n fwy petrus ynglŷn â'r dulliau presennol. Ond peryglu bywyd pobl, dyna fydd cwbl wahanol. Dw i ddim yn siŵr y mod i am gael yn llyncu gan anghenfil sy'n ceisio ennill nerth i ladd dynion, beth bynnag fo'r rheswm a'r safbwynt milwriaethus.

GORFFENNAF 16, 1963.

Mae'r papurau'n sôn o'r newydd am y tipyn cyrch ym Montréal oherwydd bod yr heddlu



wedi dod o hyd i'n lorri. Mae yna sôn eu bod nhw wedi dod o hyd i olion bysedd ar y llyw ac mewn mannau eraill, ond wnaiff hynny fawr o les iddyn nhw gan fod neb ohonon ni wedi bod yn y carchar o'r blaen. Ond nerfus yw Beti; ac fe fydda innau'n reit falch i anghofio'r cyfan.

Daeth Jules heibio heno eto a sôn am 'well' gwaith.

GORFFENNAF 17, 1963.

Wyneb yn wyneb a Québec, anodd i Gymro beidio â bod yn snob hanesyddol. Dyma bobl ar diriogaeth America heb fawr o hanes, medd rhai. Rhyw ddyrnaid o ganrifoedd gafwyd yma: rhyw arian poced o hanes llenyddol. Ond wrth astudio llenyddiaeth Ffrangeg Québec, yr hyn sy'n y nharo i yw mai'r prif lenorion arwyddocaol yw, gwarchod pawb, yr *haneswyr* — Ferland, Garneau, Chapais, Groulx, a Marie-Victorin. Hwyl sy'n creu'r hunaniaeth. Mae'n ymddangos yn ecsentrig i fi mai prif lenddull eu llenyddiaeth yw, nid y Nofel na'r Farddoniaeth, ond Hanes. Rhyfedd i efrydwyr yw corneli cudd yr hanes hwnnw. Mae'n sylfaen i adnabod gwlad o'r tu mewn. Hanes yw'r stori sy'n adrodd am dyfiant corff ac ysbryd heb gynllunio ymwybodol o reidrwydd.

A hoffwn i'n burion pe gallwn gynllunio yn hanes i yn hun fel y gallwn anghofio enw Jules, a chofio yn hytrach enw'r dyn a luniodd *Récits laurentiens*, 1919 (cyfrol a ddarllenais cyn cychwyn am Québec), er mwyn cael gafael ynddo a'i ddarllen un tro arall. Soniai'r llyfr hwnnw am yr arglwydd Durham yn mynd i gysgu un gyda'r nos wrth baratoi adroddiad i'r llywodraeth Seisnig ynglŷn â'r Canadiaid Ffrengig, a'i frawddeg ola oedd: '*Dyma bobl heb hanes*'. Pan oedd e'n cysgu, daeth ei forwyn, Thérèse fach, i mewn. Fe ganfu hi'r frawddeg ola honno. A hithau'n Ganades Ffrengig dyma hi'n sgrifennu'n ffyrnig odani: '*Thou liest, Durham*', ac yna'n arwyddo '*Madeleine de Verchères*'. Y bore wedyn, a Durham yn ôl yn ei ystafell, dyma fe'n clywed curo ar bren y drws .... dri churiad cwrtais.

—Dowch i mewn. A! chi sy na, y merch fach. Dw i'n falch iawn i'ch gweld chi. Ffrances ydych chi, ynte? Mi fyddwch chi'n gallu yn helpu i... Oes na rywun yn yr ardal

hon a chanddi'r enw Madeleine de Verchères? [Fe welwodd y fechan ychydig, ond ddychrynodd hi ddim.]

— Oes. Fe fu'r person sy'n dwyn yr enw yna, syr, farw ganrif yn ôl. Er iddi gael bywyd hir, fe fyddwn ni'r Ffrancwyr yn cofio am arwres Verchères yn bedair ar ddeg oed.

—Yn wir. Dywedwch yr hanes i gyd, y merch i. Dw i'n hoff iawn o'ch... hanesion am y dyddiau gynt!

[Fe grynodd hi ychydig, Thérèse fach druan. Eto, yn gwbl gefnsyth, ac yn wyn fel yr hances a osodwyd ar ei gwallt du, llwyddodd hi i'w ateb; ac ailgreodd gerbron yr estronwr y darlun rhyfeddol...]

—Ddwy ganrif yn ôl, Excellence, fe sgrifennodd un ferch ifanc Arwriaeth yr hanes hwn ar lannau Sain Lawren. Roedd merch Monsieur a Madame de Verchères yn byw gyda'i rhieni yn un o'r ceirydd cyntefig yna, a chledrau syml yn amgylchu'r eglwys a'r tai annedd, a geid yn nechrau'r gwareiddiad Ffrengig ar y cyfandir hwn. Dyma'r amser pryd roedd yr Iroquois yn ysbeilio ymhobman, pryd y gallai pob prysgwydd guddio blaidd a chanddo wyneb dynol: rhaid oedd i bob trefedigaethwr fod yn filwr...

Yna un diwrnod, pan oedd Monsieur a Madame de Verchères i ffwrdd, y naill ym Montréal a'r llall yn Québec, torrodd gwaedd yr Iroquois ar ymylon y coed. Cyn pen fawr o dro, fe lofruddiwyd a diwalltwyd ugain o fedelwyr, y tu allan i'r gaer fechan, wedi eu dal yn ddisymwth wrth eu gwaith. Roedd Madeleine ar y traeth. Gwaeddwyd arni: 'Achubwch eich hunan.' Gan godi ei phen, fe ganfu ganllath i ffwrdd wynebau hyll wedi'u tatwio. Heb golli ei phwyll, fe drodd a rhuthrodd yn ôl i mewn i'r gaer drwy'i phorth agored.

— Ac yn y fan yna, Excellence, y dechreua mewn gwirionedd yr anturiaeth anhygoel hon, sydd mor hardd â chwedl glasurol. Roedd y gaer heb ei hiawn amddiffyn. Yr unig

garsiw'n a geid yno oedd henwyr musgrell, menywod crynedig, plant sgrechlyd, a dau filwr hanner-marw o'u dychryn a soniai am chwythu'r powdr. Ond roedd Madeleine de Verchères o hil ardderchog, a doedd hi ddim yn nabod ofn. O reddf, fe gymerodd hi arweiniad y gweiniaid hyn i gyd. 'Cofiwch chi,' meddai hi wrth ei dau frawd bach, dau grwt yr oedd hi newydd roi bob o ddryll iddyn nhw, 'cofiwch chi fod meibion boneddigion wedi cael eu geni er mwyn colli eu gwaed dros Dduw a thros y brenin!' Ac ar hynny, Excellence, dyma'r groten hon o bedair ar ddeg oed, a hithau'n gwisgo het ffelt bluog, yn ymddangos ar y bastiwn.

—Dyw'r anturiaeth ddim yn hollol ddi-liw! . . . Ewch ymlaen, y merch i.

—Dyma Madeleine, gyda phenderfyniad a deallusrwydd canmoladwy, yn trefnu'r garsiw'n, gan roi arfau i rai, cysur i eraill, a hyder i bawb. A hithau ymhobman yr un pryd, a chan saethu yn awr ac eilwaith i daro ambell Iroquois mwy mentrus na'i gilydd, llwyddodd i argyhoeddi'r Indiaid fod ganddyn nhw wrthwynebwy'r go niferus. Ddydd a nos, roedd hi wrth ei safle, ac anodd synied heb ias am y groten ryfeddol, ar ei phen ei hun yn y gornel hon o'r byd newydd, ugain milltir o bob cynhorthwy dynol, yn bwrw'r nos ar y gwrthglawdd gan arwylio'r gorwel, a'i dwylo gwyn yn gorffwys ar faril y fagnel fawr yn barod i saethu, gan glustfeinio ar furmur nosweithiol y fforest, ac ar gân y don, a chan godi ei henaid pur yr un pryd tuag at y Wryy a oedd yn ei bryd hi newydd achub Québec . . .

- Fel yr âi yn ei blaen, roedd Thérèse yn bywiogi, a'i llygaid yn disgleirio o falchder a'i llais yn crynu o deimlad. Ym mryd Durham, yn haelfrydig a Phrotestannaidd, fe ddaeth hi'n fwyfwy amlwg y gallai hon, pe bai hi'n dymuno, ei oleuo'n berffaith ynghylch yr ymwelydd dirgel a adawsai nodyn y noson cynt. Ond heb gyfeirio ddim at hynny, meddai fe: 'A sut y dibennodd y cwbl yna? . . .'

O'r diwedd, (meddai Madeleine) ar ôl i wyth awr a deugain fynd heibio heb na bwyd na chwsg, ac ar ôl gwrthwynebu, – am gyfanswm o wyth diwrnod, fwy neu lai ar ei phen ei hun, – eitha byddin fach o Indiaid, dyma Madeleine yn gweld help yn dod i'r golwg ar y gorwel! . . . Roedd y Llywodraethwr, a oedd wedi cael ei hysbysu am y newyddion hyn rywsut neu'i gilydd, wedi anfon M. de la Monnerie i achub y gaer. Dyma Madeleine, o hyd yn nillad y *mousquetaire*, yn cerdded unwaith eto at y traeth i gwrdd ag e, ac fel y neidiodd y comandánt ar y tywod, fe gododd hi ei het iddo, moesymgrymodd, a dywedodd hi wrtho-fe gyda'r moesgarwch hollol Ffrengig yna sy'n gweddu gystal i'r rhai dewr: "Monsieur! trefnwch rai newydd yn lle'r gwylwyr; dydyn nhw ddim wedi gadael y bastiwn ers wyth diwrnod. Ar yr amodau yna, dw i'n gollwng yn rheolaeth i chi, ac fe rodda-i i chi y swydd gymerais i yn hun. . ."

—Yn wir, y merch i, gellid credu i ni glywed caniad o'r Iliad! ... ymyrrodd Durham.

—Mae'n fwy na chaniad o'r Iliad, Excellence, mae'n dudalen o hanes Canada, Canada Ffrengig!... meddai Thérèse.

Doedd gan Durham ddim amheuaeth mwyach. Fe wyddai'n burion mai'r llaw fach honno a chwaraeai'n wyllt yn lês ei ffedog oedd yr un yn union ag a sgrifenasai *Thou liest, Durham!* Ond roedd hi mor ysbrydlon, y Ffrances fach Ganadaidd yma, ac mor amlwg ddiffuant, fel na allai ei chosbi. Ar wahân i'r ffaith ei fod e'n foneddwr a barchai fenyw, ac a barchai'r weithred wnaethai hon hefyd, roedd ganddo dynernwch y dyn o'i gyfnod a wyddai sut roedd maddau. Felly, gan godi ei ben hardd patriarchaidd, ychwanegodd: 'Dw i'n diolch i chi, y merch i, am y stori ddeniadol dych newydd ei hadrodd, sy wedi cyffwrdd â fi gymaint. Wyddwn i ddim fod y fath draddodiadau godidog eisoes wedi gwreiddio yn y wlad newydd hon . . . Roeddech chi'n ei hadrodd gyda chymaint o wres, nes y mod i'n ymholi ai disgrifio digwyddiad roeddech chi . . . ynte dadlau achos!' [A dadlau achos y bydd pob hanes.]

– Ar y geiriau ola, dyma Durham yn codi. Rhoddodd Thérèse un cam yn ei blaen, a chan grynu: 'Roeddwn i'n dadlau *achos* mewn gwirionedd, Excellence, – *achos* y mhobl yn hun, arwriaeth y Ffrancwyr, a'u hawl i barch, i gael lle i fyw, i oroesi, ac i ryddid! . . . !

– Gan gynnig i'r ferch ifanc y papur a ddaliai o hyd yn ei law: 'Goddefwch i fi, y merch i, ddychwelyd hwnna i chi heb ofyn dim esboniad.' Ac yna gan wenu: 'Dw i'n deall bellach sut y mae caer Verchères o hyd yn Ffrengig, ac, er gwaetha'r ganrif a aeth heibio, mae cysgod y Fadeleine fechan yn dychwelyd ambell dro gyda'r nos, i'r Castell hwnnw i gadw gwyliadwriaeth!'

Ni ellid sefydlu cenedl newydd heb greu Hanes.

GORFFENNAF 20, 1963.

Mae Jules wedi'i ddal. Fe fu'n brolio wrth un o'i gydnabod mor hawdd oedd dymchwel yr awdurdodau, ac mor esmwyth fu'n tipyn anturiaeth ni ym Montréal, ac roedd yr un a glywai'i ymffrost yn gefnder i un o'r gwarcheidwaid o'r gronfa arfau a gafodd ei frifo ryw fymryn ar ddechrau'r gyfranc.

Heddiw, mae Jules yng ngharchar Montréal, a ninnau'n deulu bach, heb hyder na gwrhydi'r forwyn Thérèse i gripiant allan liw nos. Does dim tebygrwydd y bydd Jules yn cyfadde dim oll nac yn bradychu neb. Ond mae e mor enbydus o ddiniwed, a nhwythau mor sobor o glyfar. Rhyfedd fel dŷn ni'n derbyn y gall y drwg fod yn bosibl neu'n naturiol mewn pobl heb inni chwilio am reswm drosto.

Ceisiodd Beti y narbwylllo i heno eto mai i Gymru yr oedd yn ymlyniad cynta. Mae ganddi bwynt! Ond mae yna fiwsig deniadol mewn hiraethu am hunaniaeth mewn cenedl ac mewn delfrydu celfydd, nes hudo'r meddwl i ffwrdd megis Pibydd.

AWST 1, 1963.

Arwyddair Québec yw 'Cofiaf', a theitl llyfr gan hanesydd mwya poblogaidd y genedl yw *Ein meistr, y gorffennol*. Ac eto, tiriogaeth heb fawr o dreftadaeth lenyddol arall fu hi ynghynt. Gwlad a chanddi orffennol a chefnidir o anturiaethau materol. Ond all arian ddim prynu beirdd ar ei chyfer. All pŵer ac eangderau ddim cynhyrchu storiwyr. Gwlad yw hi oedd heb gael dim o'r amser na'r cyfle na'r awydd gafaelgar i'w gwareiddio'i hun yn llenyddol hyd yn dra diweddar. Mi wn i am amryw byd o Ganadwyr a roddai ffortiwn pe gallen-nhw, drwy bryniant, asio cefndir cenedlaethol o lenyddiaeth hanner cystal â'r hyn sy gan Gymru (o'r chweched ganrif ymlaen drwy'r Gynghanedd a Dafydd ap Gwilym, drwy'r Mabinogion a Phantycelyn) wrth lenyddiaeth Canada. Mi wn i, yn ogystal, ysywaeth am amryw byd o Gymry a daflai eu hetifeddiaeth lenyddol mor ddifeddwl ac mor ddihidans â phe na bai'n bod o gwbl.

Sut bynnag: mae'n hen bryd i *fi* gofio ngwaith beunyddiol. Ac mae'n bryd i Beti gael ei ffordd i nhynnu'n seicolegol yn ôl i Gymru.

AWST 3, 1963.

Daeth J-P- yma heno. Mae e'n benderfynol o ryddhau Jules. Mae ganddo gynllun tra chymhleth, a gwn y bydd e am i fi yrru un o'r ceir. Ond daw e heibio eto, meddai fe, cyn pen wythnos i roi manylion y cynllun. Mae hi'n gwbl eglur nad yw e am adael yr un aelod o'r FLQ yn nwylo'r heddlu, yn enwedig os yw e mor ddiniwed siaradus â Jules. Pawb at y peth y bo.

Cymeriad oer a chymhleth yw J-P-. Mae ei genedlaetholdeb e'n adeilad a godwyd fesul bricsen. Ffôl yw cyffredinoli ynghylch seicoleg y mudiad hwn ynddo fe. Mae'n wir fod cynnwrf dan y croen, a wiw i neb gyffwrdd ag e heb fysedd hydeiml; ond mae'r un mor wir fod yna welediad llym a chaled a dadansoddol hefyd ym mhen a phastwn ambell un. Gwladgarwch felly sy gan J-P-.

Eto, cyffredinoli'n ormodol a wnawn i. Dywedodd Syr Wilfrid Laurier, un o'r enwoca o'r Canadiaid Ffrengig (wrth ateb Henri Bourassa un tro, os cofia-i yn iawn): 'Does dim beirniadaeth ymenyddol gan Québec, dim ond teimladau.' Ac mae gen i ryw

gof (mor dyllog ag ehangder Iwerydd efallai) fod S.L. wedi dweud unwaith nad oedd yn pryderu fawr am galon Cymru, gofidio roedd e am ei phen. Gofidio dw innau am ei pharodrwydd ceidwadol a'i chalon i osgoi'r ffordd amlwg ymlaen.

Dŷn ni yn y byd gorllewinol wedi tueddu fwyfwy ym maes Hanes i ymwadu â phendantrwydd gwerthoedd. Does dim modd gwybod yn derfynol am ddim; dim ond cywiro ychydig ar y gwrthrychau a wnawn; a'r un modd yn y dethol o Hanes am fod yn rhaid cael rhyw fath o ddehongliad seciwlar. Erbyn hyn, peth prin iawn yw arddel egwyddorion neu werthoedd cyson fel rhaid rhagdybiol. Mae sgeptigrwydd wedi mynd yn unbennaeth tra chwmpasog. A dw innau wedi tueddu i ateb y gogwydd hwn drwy fod yn sgeptig ynghylch sgeptigrwydd.

AWST 4, 1963.

A ninnau ar glwydo heno tua'r hanner nos, dyma guriad ysgafn ar y drws. Tybiais ar unwaith mai J-P- oedd yno gyda'i gynlluniau gorffenedig, ac o bosib awgrym y byddai'n rhaid, yn erbyn yn ewyllys i, ifi fynd allan ar herw'n ddiymdroi. Edrychodd Beti'n bryderus ddig tuag ata-i, a chododd i agor y drws. Ond na! Cyn gynted ag yr agorwyd y drws, ymdaflodd corff drwyddo, a lluchiwyd breichiau am wddw Beti, a suddodd y corff a'r breichiau a'r cwbl i'r llawr yn domen o ddagrau ac ochneidiau. Thérèse Berthou oedd yno. Roedd hi wedi bod yn rhedeg. Roedd ei hanadl yn brin fel aur. Heblaw hynny roedd cleisiau ar un fochgern a'r un llygad wedi chwyddo. Ond y tu fewn iddi, yn ei chalon, roedd y cleisiau dyfna, gellid meddwl. Roedd y cyffro'n fwy na rhyw gynnwrf ar y pryd. Roedd dyfnder ei golygon a chryndod pob aelod yn dweud wrthon-ni ei bod hi wedi cerdded allan o ryw argyfwng difrifol. Beth oedd hyn?

Brysiodd Beti'n syth i hwylio cwpanaid o de, yr ateb bythol hwnnw i bob anesmwythyd bach, megis i bob cyfyngder cosmig. Cyn pen dim, roedd Thérèse Berthou yn eistedd yn ein hunig gadair freichiau o dan bentwr o huganau cynnes ac yn sipian y cyffur glastwraidd hwnnw. Roeddwn i mor annoeth â gofyn y cwestiwn, beth oedd wedi digwydd? Beth oedd yn bod? Cuchiodd Beti tuag ata-i, a sylweddolais i y nghamgymeriad yn rhy hwyr. Rhoddodd Thérèse Berthou ei chwpan i lawr, ac yna

pwysodd ei phen i lawr dros ei phenliniau a beichiodd wylo. Byddai'i naratif hunan-gofiannol yn brinnach o dipyn y tro hwn. Cyfaill gorau 'tocio-stori' yw ofn. Wedi i'r pwl hwnnw ddarfod, fe eisteddodd yn gefnsyth gan syllu i'r gwacterau o'i blaen. Fe godais i er mwyn atrefnu'r glwth fel y câi hi le i aros heno. Ond doedd hi ddim ar frys i noswyllo. Erbyn iddi gydsynied, roedd hi tua thri o'r gloch. Hyd yn oed y pryd hynny, wrth inni geisio ymollwng i gwsg fe allen ni'i chlywed hi yn yr ystafell nesa'n wylo'n chwerw faith i mewn i'r gobennydd.

AWST 5, 1963.

Dyw Thérèse Berthou ddim wedi torri gair gyda fi drwy'r dydd. Am ran o'r diwrnod roedd hi fel pe bai mewn perlewyg. Ond bu hi'n siarad â Beti, er na ddwedodd ryw lawer am ei helynt. O leia, roedd ganddi do dros ei phen. Mae Beti a minnau'n dyfalu'i bod hi wedi ceisio ymadael â'r FLQ. Nid Québécoise mohoni: mae'r disgrifiad a wnaeth hi ohoni'i hun fel merch o Rennes yn dal o hyd. Mae'r rhan honno o'r stori'n wir o leia. Wnaiff hi ddim teimlo'n Québécoise byth.

Merch arswydus o deimladol yw Thérèse. Byddwn i'n tybied ei bod hi'n byw ynghanol eithafion, a'i chwiwiau mynych yn ei chludo ar garped hud bob yn ail awr i ryw dymheredd newydd annisgwyl. Mae hi am fynd oddi yma ar unwaith gan ei bod hi'n ofni y bydd J-P- yn galw, ac am chwilio'r tŷ amdani. Dyw yn nadleuon i ynghylch ei diogelwch ddim yn ei hargyhoeddi yr un mymryn. Mae hi'n benderfynol o ymadael yn gynnar y bore fory er ei bod heb yr un nod eglur mewn golwg. Mae hi ar ffo.

AWST 6, 1963.

Dywed Beti y dylen ninnau fudo i ddiogelwch, er mwyn Thérèse. Mae Thérèse mewn cyflwr ofnadwy, ac mae arni angen ymgeledd cyfeillion. Ond mae hyn wedi codi cymhlethodau yn y meddwl i. A ydw innau am ffoi rhag J-P-? A ydw i'n gachgi, yn cefnu ar gyfeillion? Yn gadael Jules druan, ac yntau yn y carchar . . . ac yn bradychu achos . . . ac yn ceisio rhesymoli yn esgusion i mor dwt ag y bydd ambell un yn ymadael â'i Gymreictod er mwyn hyrwyddo plaid estron. Ai llen yw Thérèse i ymguddio y tu ôl



iddi? Hoffwn pe bai mwy o amser i fyfyrion uwchben y cwestiwn hwn. Mae gen i eisoes drywydd diderfyn o edifeirwch yn ystod yn oes, ac fe ofnwn i fod rhaid i hyn eto fod yn nam ychwanegol ar lwybr y nghydwybod? *Dichon fod Thérèse, – a Madeleine, – a hyd yn oed ninnau'n ceisio'r un gwreiddiau.*

AWST 7, 1963.

Diwrnod o fudo oherwydd ofnau Thérèse y byddai rhywrai'n chwilenna amdani. Ychydig o bethau sy gynnwys ni yma, ac roedden-ni wedi ymadael â'n hen lety cyn canol dydd. A fydda-i byth eto'n gallu edrych ar wyneb brynau Cymru gyda chariad glân?

Dyma ni yn ein llety newydd, a'r plant eisoes wedi dod o hyd i ffrindiau bach cyfagos. Mor rhwydd maen nhw'n ymgymhwysu.

Ond yn ei hystafell mae Thérèse yn ddiogel ar hyd y dydd ar ei gliniau'n cyfri'i phaderau gerbron y grog. Dyma'r grog a luniodd Lowri ei hun. Roedd hi wedi bod yn ymweld â ffrindiau yn eu cartrefi ac wedi sylwi ar grog yn hongian ymhob ystafell. 'Pam does dim un 'da ni?' gofynnodd hi. 'Dŷn-ni'n Gristnogion, ond ŷn ni?' 'Wel, gwna un te,' meddwn i wrth y plentyn bach, yn gwbl amhriodol gableddus. Aeth hi ati i dynnu'r llun yn gynta ar ddarn o bapur. Ar ôl darlunio'r Iesu wedi'i hoelio ar bren, dyma hi'n sefyll yn ôl yn feirniadol ac yn sylwi: 'Na, so i'n meddwl arhosith e lan fel na. Gwell rhoi hoelen drwy ei dalcen 'fyd.' A dyma hi'n mynd ati i ddarlunio'r hoelen ychwanegol, a ninnau — dan ddylanwad 'Seicoleg' — mor ofalus dyner bob amser yn ein storïau wrth y plant rhag i ormod o waed neu ddychryn niweidio'u diniweidrwydd.

AWST 9, 1963.

Mae Thérèse wrth ei gweddïau heddiw eto. Pur annhebyg yw hi i Ffrances seciwlar yn hyn o beth. Tybed a oes yna waed Québecaidd yn ei gwythiennau rywle wedi'r cwbl?

Mae hwn hefyd yn ddiwrnod o synfyfyrion dirgel i ninnau.

Ym mywyd Québec mae'r eglwys yn cyfri o hyd, ac y mae hyd yn oed mynychu eglwys yn beth arferol frwd. Oni bai'u bod nhw'n Babyddion fe ellid coelio ein bod —

yn grefyddol – ynghanol Cymry ddiwedd y bedwaredd ganrif ar hugain. Ar bapur-lapio'n torth fara bob dydd y mae yna ddarlun o eglwys, ac uwch ei ben y sgrechair 'Allons à l'église le dimanche'. (Awn i'r eglwys ar y Suliau). All neb geisio dweud rhywbeth o sylwedd am Québec heb sôn am ei chrefydd. Roedd cenhadaeth grefyddol ym mlaen meddwl y brenhinoedd Ffrengig lle bynnag y ceisien nhw drefedigaethu. O wŷs Francois I at Jacques Cartier hyd at wŷs Louis XV at de Vaudreuil-Cavagnal ym 1755, yr un fu'r bwriad blaena erioed: 'Galw'r pobloedd di-dröedigaeth, drwy'r dulliau mwyna posib, at adnabyddiaeth o Dduw ac o oleuni'r grefydd gatholig, apostolaidd a Rhufeinig.' Profiad iachus yw bod ymhlith pobl grediniol, sy heb greulondeb yn eu sicrwydd. Rhy barod fuon ni i synied am Ffrainc fel gwlad seciwlar cyn y cyfnod diweddar.

Mae'r hanesydd Canadaidd Groulx yn cyferbynnu, â'r Ffrancwyr, agwedd y Saeson a'r Almaenwyr yn hyn o beth, heb fawr gan y ddwy wlad ola fel arfer ond chwant masnachol diwair, a dymuniad pur i goncro er mwyn troi'r brodorion yn gaethweision neu'n feddwon. Gwasgarog a phrin, yn gymharol, fu cenhadon glew y ddwy genedl yna. Ond yr hyn a geisiai llawer o'r ymsefydlwyr cynnar o Ffrainc oedd, yn syml, adeiladu Eglwys. Yma y daeth llawer a ffoai rhag yr hereticiaid a ddifethai harddwch yr Eglwys gartre; a thyrrai offeiriaid lawer i estyn eu hefengyl i'r Indiaid. (Eto, yn yr hyn a gawd gan y dyrnaid o genhadon o Brydeinwyr hefyd *cyn* y Rhyfel Byd Cynta, ddwedwn i, chwarae teg, fe gaed cryn dipyn o'r awydd didwyll i ledu Efengyl.)

Dw i wedi clywed cenedlaetholwyr yma o Québec yn dweud mai camgymeriad fyddai cymysgu gwleidyddiaeth â chrefydd, gwladgarwch a Chatholigiaeth. Dyma dacteg anghywir, meddan nhw. Beth bynnag am 'dacteg', dyma'r gwir gwaelodol am y Ffrancwyr, dyma hanfod eu cenedligrwydd nhw yma; a does dim modd deall dim am Québec ar hyn o bryd heb barchu'i chrefydd hi. Ymerodraeth grefyddol oedd ac yw. Yng Nghymru, swil yw haneswyr i olrhain twf meddwl a gwareiddiad yng ngoleuni diwylliant Cristnogol difri. Does dim clem gan seicolegwyr pa 'werth' a allai fod gan ddyfnder crefydd. Ond Catholigrwydd yw sy'n parchu credoau difri eraill.

Ym 1910 fe ddaeth yr Archesgob Bourne drosodd gyda llawer o uchel swyddogion eraill o'r Eglwys Gatholig i'r Ugeinfed Gyngres Ewcaristig ym Montréal, gyda holl rym rhagdyb Ewrob ymerodrol y tu ôl iddo, a dyma hwnnw'n syfrdanu pawb drwy honni y dylai'r Eglwys, wrth fod Canada yn ymledu a chynyddu yn ei phoblogaeth Saesneg, fabwysiadu fwyfwy yr iaith honno, a pheidio â chyflwyno'r ddelwedd fod Catholigiaeth ynghlwm wrth yr iaith Ffrangeg. Ychydig o funudau ar ôl ei araith fe ofynnwyd i Bourassa siarad. Anodd dyfynnu darn ohoni a rhoi argraff deg o ansawdd ei araith fyrfyfyr. Beth bynnag, addawodd y byddai offeiriaid Canadaidd yn y dyfodol, fel yn y gorffennol, yn darpar cysuron yr Efengyl i alltudion o Loegr ac o Iwerddon yn eu hiaith hwythau . . . *'Ond yr un pryd caniatewch i fi fynnu yr un hawl ar gyfer y nghydwladwyr, ar gyfer y rheini sy'n siarad ein hiaith ni, nid yn unig yn y dalaiith hon, ond ble bynnag y bo grwpiau Ffrengig yn byw, boed o dan gysgod y faner Brydeinig neu o dan y faner serenog odidog, canys yn anad dim y maen nhw o dan adain famol yr Eglwys Gatholig — Eglwys y Crist a fu farw dros ddynion oll heb orfodi neb i wadu ei hil er mwyn cadw'n ffyddlon iddo.*

*'Fynnwn ni ddim dweud am resymau cul genedlaethol — a byddai hynny'n groes i'm barn — ac na ddywedwch chithau y nghydwladwyr, mai Ffrengig ddylai'r Eglwys Gatholig fod yng Nghanada. Na; ond dywedwch gyda mi mai diogelydd gorau'r ffydd ymhlith tair miliwn o Gatholigion, disgynyddion i apostolion cynta Cristnogaeth yn America, yw cadwraeth yr iaith y buon nhw, drwyddi hi, yn ystod tri chan mlynedd, yn addoli'r Crist.*

*'Ie, pan ymosodwyd ar Grist gan yr Iroquois, pan wadwyd Crist gan y Saeson, pan ymladdwyd yn erbyn Crist gan bawb, buon ni'n ei gyffesu Fe a'i gyffesu yn ein hiaith.*

*'All tynged tair miliwn o Gatholigion, dw i'n siŵr, lai na phwyso ar galon Pius X, ddim llai nag ar galon y Cardinal enwog sy'n ei gynrychioli yma . . .*

*'O dalaith Québec, o'r fân drefedigaeth Ffrangeg hon lle y dywedir fod yn rhaid i'w hiaith ddiflannu, mae tri chwarter offeiriaid gogledd Amerig yn dod ...*

*'Éminence, dych chi wedi ymweld â'n cymunedau crefyddol, ac wedi chwilio yng nghwfeiniau, ysbytyau a cholegau Montréal am brawf o ffydd a gweithredoedd y genedl Ganadaidd Ffrengig. Ond er mwyn pwyso'n iawn, byddai'n rhaid i chi aros am ddwy flynedd yn grwn yn yr Amerig a chroesi pum mil o filltiroedd o'r wlad, o'r Cap Breton hyd at Golwmbia Prydeinig, ac ymweld â hanner gweriniaeth odidog yr Unol Daleithiau i olrhain y sefydliadau o bob math — yn golegau, yn gwfeiniau, yn ysbytyau, yn 'asiles' – plant i'r tad – sefydliadau dych chi wedi ymweld â nhw yma . . .*

*'A oes rhaid i ni gasglu fod Catholigion Québec wedi bod yn fwy selog, yn fwy apostolig nag eraill? Nac oes, ond mynnodd Rhagluniaeth mai nhw fyddai'r apostolion i Ogledd America.*

*Bydded yn ofalus, yn wir, bydded yn dra gofalus na ddiffoddir mo'r aelwyd danllyd hon o oleuni, a oleuodd gyfandir cyfan ers tair canrif.*

*'Ond, meddir, dyrnaid ohonoch sy, wedi'ch tyngedu i ddiflannu am byth; pam ystyfnigo yn y frwydr? Gwir nad dŷn ni ond dyrnaid; ond yn ysgol Crist ddysgais i erioed gyfri hawliau a grymusterau moesol yn ôl ystadegau a chyfoeth. Dyrnaid yn unig dŷn ni; ond mae cynifer â hynny yn cyfri, ac mae gynnon ni hawl i fyw . . .*

*'Dringwn eto'n uwch, dringwn hyd at Galfaria, ac yno ar y bryn hwnnw yn Jwdea, nad oedd fawr o beth yn ôl uchder y byd hwn, dysgwn ni wers goddefgarwch a gwir gariad Cristnogol.'*

[Y rhexreg ddiniwed yna gan Bourassa yn ei huniongyrchedd gloyw oedd un o ddogfennau tyngedfennol hanes Québec yn yr ugeinfed ganrif. Fe'i cafwyd cyn sefydlu cywair o feddwl coeg a sgeptig a wnaeth y math yna o ymagweddu'n amhosib. Ac mae dyn yn gofyn iddo'i hun ai ennill wedyn oedd y diniweidrwydd negyddol hwnnw a dyfodd, a'r dadrith diddychymyg a'i disodlodd mor anhunanfeirniadol.]

AWST 10, 1963.

A chofio Iwerddon, dyma'r ail flwyddyn i fi ei threulio ar ei hyd mewn gwlad Babyddol; ac eto, dw i'n gwybod y mod i'n ddigon pell o gredo'r Eglwys honno, yn wir yn gadarn wrthwynebus. A phell iawn fydda i, bellach weddill yn oes. Ond dw i'n sefyll yn gadarn o blaid rhyddid llafar ac i'r Wasg. Calfinydd rhonc dw i yn y niwinyddiaeth oherwydd athrawiaeth a bodolaeth Gras uniongyrchol, er gwanned o ran Cristnogaeth ymroddgar aberthol. Ond nid 'uchel' Galfinydd mohono i chwaith, os yw hynny'n esgeuluso cyfrifoldeb yr unigolyn. Ac eto, bydda i'n gweld llawer iawn o'r gwir Babyddion, yr hen Babyddion (cyn i Ryddfrydiaeth bellach estyn ei chrafangau, hyd yn oed dros yr Eglwys honno druan), yn nes o lawer at Galfin ac Awstin a Phawl a Christ na rhai o uchel swyddogion cyfoes yn enwad i yn hun, y Methodistiaid Calfinaidd. Rhwystr fu rhyddfrydiaeth gymryd-yn-ganiataol mor aml. Rhwystr fu hi i gredu cyfan cryf. Mae Babyddion yn cydnabod y Drindod ar ei phen, y personau, y goruwchnaturiol, y cwmp, y geni gwyrthiol a'r holl wyrthiau eraill: pan siarada-i â Phabydd am Dduw, mi wn y bydd e'n gallu y neall i o ddifri, beth bynnag am yr anghytundebau. Ond pan siarada-i â rhai o'r Methodistiaid Calfinaidd, bellach, y Rhyddfrydwyr à la Tillich, does gwybod yn y byd pa fath o haniaeth amheronol neu gôd moesol neu ego-ganolrwydd mewn awdurdod sy ganddyn nhw yn eu meddwl yn lle Duw, na phwy y maen nhw'n ei addoli, a phwy a ddyry'n uniongyrchol awdurdodol iddyn nhw Ei awdurdod geiriol.

Mor agos at yr Eglwys Babyddol dw i, ac eto mor bell, mor anadferadwy o bell. Mae'r agosrwydd, wrth gwrs, yn caniatáu rhyw fath o gydymdeimlad a chariad. Megis y tuedda'r Americanaid ichi wneud cartŵn o'r Comiwynyddion heb ddeall dim ohonyn

nhw, felly y tuedda rhai Protestaniaid i gredu cnewyllyn eithafol o bwyntiau ynghylch Pabyddiaeth (a Chalfiniaeth). Ped adwaenai rhai o nghyd-efengylwyr ambell sant o Babydd, ac y mae amryw byd ohonyn nhw sy wedi achub teuluoedd o ddifancoll godineb, neu o feddwdod, neu o ysgariad, neu o dlodi neu o ddifaterwch, ac wedi cyflwyno Mab Duw iddyn nhw, yr union Un a garwn ninnau, dw i ddim yn credu y plygen nhw mor rhwydd dan afaelion rhagfarn a phropaganda a thraddodiad. Dyw ambell bwynt yn eu credoau ddim yn ddigon i ddamnio credadun didwyll. Yn fynych, dyw hi ddim yn fwy o heresi nag oedd llwyr ymwrthodiad fel amod aelodaeth yng Nghymru gynt. A dychmygion yw tybiaeth llawer o Brotestaniaid am seiliau ambell argyhoeddiad. Gwir heresi'r Pabyddion yw eu cred ynglŷn â hanfod anffaeledig a diffiniad yr Eglwys ddaearol. Gwahaniaethan nhw ynglŷn â 'dod yn Gristion' (a dyna egwyddor ganolog), a swyddogaeth swyddogion. Eto, allan o Eglwys o'r fath, fe gododd saint gwirioneddol o Awstin ymlaen, ac addoliad Crist-ganolog, a myfyrdodau cyfoethog, er gwaetha cyfeiliornad yr Eglwys am ei swydd hi ei hun. Pothell yw dyn, mae arna-i ofn, hyd yn oed pan fydd yn cysgodi dan deitl Eglwys; eto, pwysig yw dyn, offeryn Duw i gyflawni Ei bwrpas hyd yn oed dan deitl Eglwys. Ond wiw ifi lai nag edmygu enwad sy'n gweld Cristnogaeth yn efengyl ar gyfer pobman, mewn ysbytyau megis mewn ysgolion. Pan wela-i offeiriad yn Québec yn bendithio cronfa faw-a-sbwriel neu bwill-nofio (amser ei agoriad), neu faner yr Eglwys yn cyhwfan uwchben cae chwarae'r plant, neu mewn banciau, neu siop-ddillad, dw i'n sylweddoli llawnder iach yr Eglwys hon, er gwaetha'i syniad allweddol o gyfeiliornus ynghylch 'aelodaeth'—oni dw i'n ei haeru'n chwyslyd? — amdani hi ei hun.

Un o'r beirniadaethau pitw a anelir at wledydd Pabyddol gan Gymry cyfoes yw eu bod nhw'n dlawd ac yn fudr, fel petai hynny'n rhan o ansawdd y grefydd. Mae hi hefyd weithiau fel petai rhyw reidrwydd mewn Pabyddiaeth i orfodi gwlad i fyw mewn cors o ofergoeledd a phrinder. Da, felly, yw ymweld â gwlad sy'n anhraethol lanach na Chymru a Lloegr ac sy'n anghymarol gyfoethocach yn faterol.

Mae Pabyddiaeth yn holl esgryn Québec. Gwelir baner y Pab yn amlach yma nag yn Rhufain. Tywysog esgobion Québec oedd Mgr. de Laval, a sefydlodd le Séminaire de Québec yn 1663, y Brifysgol a fynycha-i yma. O dan ei reolaeth e, ac oherwydd ei athrylith drefniadol a'i bersonoliaeth egniol, fe godwyd yr Eglwys i safle yn y wladwriaeth nas colodd o'r braidd fyth wedyn. Yr hyn fu Frontenac ymysg llywodraethwyr Québec, hynny fu Laval ymysg y gwŷr eglwysig. Mae ôl concwest Rhufain yn drymach yma nag ôl concwest Lloegr. Yn y Brifysgol a enwyd ar ei ôl e y bydda-i'n treulio blwyddyn.

Mor amlochrog yw fframwaith yr Eglwys. Dw i'n hoffi lleianod yr Eglwys Gatholig. Dw i'n dwlu arnyn nhw. Dyma'n colled ni'r Protestaniaid: dŷn ni'n rhy wrywaidd yn ein swyddogion... At ei gilydd, dw i'n gallu crynhoi yn ymateb i'r cyferbyniad rhwng dwy garfan hanesyddol y ffydd drwy ddweud: gwell gen i gatholigion unigol na'r Gatholigiaeth amryfal a dogmatig sy'n ceisio'i chyflwyno'i hun; a'r un modd, gwell gen i efengyleiddwyr unigol na'r Efengylyddiaeth amryfal a dogmatig achlysurol sy'n ceisio'i chyflwyno'i hun heb ei gweld yng nghyd-destun anghenion pwysig gras cyffredinol yn y gymuned.

Bu Thérèse Berthou ar ei gliniau drwy'r bore. Pan ddaeth hi allan i ginio canol-dydd roedd hi wedi gwelwi lawer a'i llygaid yn osgoi edrych arnon ni. Ond y prynhawn yma bodlonodd ar fynd allan i dorri'i gwallt a'i liwio; a heno mae golwg hollol wahanol a mwy normal arni. Mae hi'n ddiogelach felly, wedi cerdded drwy weddnewidiad y dyfroedd lliw. Roedd hi'n barotach i sgwrsio heno; ac wedi i'r plant fynd i'r gwely, fe gawson ni orig hynod o ddifyr gyda'n gilydd a chyfle i wenu'n rhydd ac ymlacio i storïa am y tro cynta ers... wel, ers faint? Mentrwyd chwerthin ychydig.

Yfory, meddai Beti, mae hi'n mynd i chwilio am waith i Thérèse, ac y mae hithau wedi bodloni ar y bwriad. Diau ein bod ni'n deall ein gilydd yn well mwyach...

Gyda llaw, esgeulusais i sôn am y tywydd yn y dyddiadur hwn yn ddiweddar. Peth anwar yw'i esgeuluso mewn dyddiadur. Diolch i'r drefn, does dim tywydd heddiw.

AWST 11, 1963.

Cafodd Beti swydd ar gyfer Thérèse. Bydd hi'n gweithio mewn meithrinfa gwarchod babanod; a hynny mewn gwlad lle mae'r mamau mor aml yn mynd allan i weithio yn ystod y dydd a lle na bydd rhieni yn ymdrafferthu i aros gartre fwy nag sy'n rheidiol i ddisgwyl llefau'u plant. Mae gwaith o'r natur hon yn cael digon o alwadau am helpyddion. Mae Thérèse yn fodlon, mi greda-i, ac fe roddith hyn gyfle iddi adennill ei chyfrifoldeb ei hun dros ei bywyd.

AWST 29, 1963.

Rhaid i minnau fodloni ar flwyddyn dawel yma. Blwyddyn o waith fydd hon dros Gymreictod, a bydd eisiau i mi osgoi ymgolli'n ormodol yn Québec a'n rhwymo yn hun mewn busnes sy heb fod yn eiddo i fi. Ac eto, dw i'n gweld Cymru a Québec mor debyg, a dw i'n cael yn atgoffa'n feunyddiol fod ffaith cenedligrwydd ymhobman yn adeiladwaith seicolegol a diwylliannol fel na all dyn ddianc rhagddo ond drwy ddistrywio dyn ei hun. Dyma eto'r drych a ddefnyddia-i wrth weld Cymru yn Québec.

Mae problemau dwyieithedd yn canu yn y glust yn barhaus yr ochr hon i Fôr Iwerydd, a'r rheini'n eithaf Cymreig. Ond yma y mae'r sefyllfa'n fwy gobeithiol, a'r Ffrangeg ar gynnydd pendant ar hyn o bryd. Yn nhair prif dre'r dalaith, mae cyfartaledd y siaradwyr Ffrangeg wedi codi'n gyson a hyd yn oed yn syfrdanol yn ystod y can mlynedd diwetha. Yn ninas Québec o 58.3 i 93.8 y cant, ym Montréal o 45.1 i 67.6 ac yn Sherbrooke o 16.3 i 85.4. Yn y dalaith gyfan, er bod y boblogaeth wedi cynyddu, cododd y siaradwyr Ffrangeg o 75.2 i 82.3 y cant. Yn y dalaith gyfagos, sef Brunswick Newydd, fe fu'r cynnydd yn fwy syfrdanol byth gan godi o 15.7 ym 1871 i 38.3 ym 1951. Yn ôl y raddfa ddatblygol, sy heb fod yn debyg o ddal, fe ellid codi o fewn Canada ddwy dalaith Ffrangeg eu hiaith, yn lle un, os na ddaw mewnfudo arall ar eu pennau, yn annaturiol, neu gynnydd anghyffredin yn y pwysau o'r Unol Daleithiau. Ond



cafodd dwyieithedd effaith dra niweidiol ar ansawdd y Ffrangeg Llafar, er bod yna lawer o ddigrifwch yn yr adfeilio dwyieithog hwnnw'n ymarferol. Un enghraifft eithafol o ddwyieithedd 'swyddogol' welais tu allan i garej oedd:

fiction

LUBRI

fiction

A'r tu allan i un siop barbwr fe welais hefyd yr arwydd ystyriol: 'Yma y torrir gwallt yn Ffrangeg neu yn Saesneg — neu mewn tawelwch.'

Yn sicr, fe fanteisir yn llawn ar Ffrangegrwydd y dalaith ar gyfer denu ymwelwyr. Dyma arbenigrwydd nas cynigia unman arall i'r Americanwyr agos. Yng Nghymru gartre, wnaethpwyd ddim o'r un ymdrech debyg i ecsbloetio ein Cymreigrwydd: ddangosir dim diwylliant Cymraeg hanesyddol i'r ymwelwyr, a chân nhw ddim dysgu dim oll am ein cenedl. Dywed yr Athro Blanchard yn ei lyfr ar ddaeryddiaeth y dalaith hon: "Y pleser mwya deniadol yng ngolwg miliynau o ymwelwyr estron yw dod i gysylltiad â'r bobl Ffrengig Ganadaidd, gweld eu harferion a'u ffordd o fyw a thystio i bresenoldeb eu hanes." Nid drwg o beth, ddwedwn i, fyddai daearu'r byd oll mewn meddwl daeryddol, yn neilltuol yn yr hyn a elwir yn ddaeryddiaeth ddynol, a daeryddiaeth ddiwylliannol... Fe ddysgen ni dipyn am amlochredd y ddaear.

Gallai Québec ddysgu peth neu ddau am dwristiaeth i'n tref-wyliau fach ni gartre. Yn Aberystwyth fe all ymwelydd brynu cyfieithiad Saesneg o waith un o feirdd mwya'r byd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, heb sylweddoli bod ei fan geni o fewn ychydig filltiroedd i'w westy. Ble mae Arthur yn nhwristiaeth Cymru? Y Mabinogion? Y Seintiau? A thra bo dynion busnes Cymru'n cael eu magu yn ysgolion Cymru, a thra methan nhw â meddwl yn gyfrifol, yn deyrngar i'w gwlad ond yn ddynwaredol (tuag at Loegr), allwn ni ddim disgwyl amgenach na'u bod yn gor-ganoli eu cyflogau ar gynnydd

Llundain. Tybed a all myfyrwyr Cymru arwain a rhoi esiampl yn hyn o beth? Yma, ym Mhrifysgol Laval, mae nifer helaeth o fyfyrwyr dwyieithog sy'n gwybod ac yn ymfalchïo yn hanes eu cenedl yn gweithredu'n gyfarwyddiaid i ymwelwyr ac wedi codi trefniadaeth arbennig iddyn nhw'u hun yn ystod yr ha i arddangos llefydd diwylliannol o bwys yn yr ardal. Nhw sy'n gosod y safon i'r diwydiant ac yn mynnu arwain ymwelwyr i bob man hanesyddol yn y cylch. Maen nhw'n eu trefnu eu hunain yn weddus i ymwelwyr chwilfrydig. Digon tebyg y byddai myfyrwyr Aberystwyth yn cywilyddio wrth fynd ag ymwelydd i weld man cartref Dafydd ap Gwilym; ond caen nhw hwyl wrth adrodd hanes y bychan tlawd o hofel ym Mhonterwyd a gododd maes o law i fod yn bennaeth ar Goleg yr Iesu ac yn arweinydd i ddeffroad ysgolheictod Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Caen nhw adrodd y chwedl honno amdano pan ofynnwyd iddo gan grŵp o fyfyrwyr taclus, newydd ymadael â'u hysgolion bonedd Seisnig, ac yntau'n dangos y Coleg iddyn nhw, ble'r oedd yr ystafelloedd ymolchi: 'Foneddigion, foneddigion,' meddai Syr John, 'ystafelloedd ymolchi? Cofiwch, dim ond naw wythnos sy i bob tymor y byddwch chi yma.' Roedd e'n hoff iawn o wrthgyferbynnu garwder ei gefndir ei hun â'r math o amgylchfyd maldodus a adwaenai'i fyfyrwyr. Pan holodd un myfyriwr pryd y gallai fe fynd â phentwr o sanau i'r lawndri, meddai Syr John Rhys: 'Dim ond tair hosan fu gen i erioed yn fyfyriwr. Ddiwedd pob wythnos fe fyddwn i'n sefyll un pen i'r stafell ac yn eu taflu nhw at y wal gyferbyn. Petai un ohonyn nhw'n sticio, honno y byddwn i'n ei golchi.' Y fath hwyl a gâi cyfarwyddiaid Aberystwyth, ped aen nhw ati i drefnu'n iawn 'deithiau dethol', – gymaint o hwyl bob dim â rhai Laval, dw i'n siŵr, wrth dadlennu'n Hanes 'seicolegol' fel gwlad. Dyw diwydiant ymwelwyr Aberystwyth yn yr ystyr Gymreig ddim yn bod hyd yn hyn: Québec yw'r hen fyd yn hynny o beth, a ninnau yn ôl gartre yn gyfandir newydd, heb fod estroniaid yn gwybod dim amdanon ni. Dysgwn i genhedloedd wybod am ei gilydd beth bynnag y bo'u maintioli materol: dysgwn negyddolrwydd a cholled imperialaeth anhunanfeirniadol.

MEDI 2, 1963.

Fe gododd tipyn o gyffro yn y nghalon y bore yma wrth weld, yn y papur, hanes am Jules yn dianc. Felly, châi dim rwystro cynllun J-P-. Rhyw synied dw-i y gall y bydd Jules yn curo ar ein drws cyn bo hir. Ond chaiff hyn, na dim arall, chwaith, ddim

gwyrddroi y mhenderfyniad innau bellach i ymatal. Gwaith academiaidd amdani! Eistedd ar ben clawdd amdani! A fu'r fath le anurddasol erioed yn hanes Canadiad? Ond rhaid cofio mai Cymro oddi cartre dw i. Mae'n bryd imi dyfu'n oedolyn.

Gwaith amdani! Cofia, meddai Beti, dwyt ti ddim wedi dod 'ma er mwyn achub y byd i gyd; dim ond Cymru. Mae ganddi bwynt. Mae'n hen bryd canolbwyntio ar y ngwaith swyddogol. Cymro ar wasgar! Ych a fi! Ond cyflwr dros dro yw hyn, mi obeithia-i, a chyfle i wneud rhywbeth dros Gymru. Mae mynd yn bell, yn bell o Loegr hefyd, ac aros yn bell dros gyfnod digon effeithiol, yn gwednewid arwyddocâd llawer peth yng Nghymru, yn enwedig i rywun academiaidd sy'n ei deimlo'i hun yn ddigon cymhleth glwm yn niwylliant Cymru i weld ei phosibiliadau o **adfywiad yn ôl natur adeiladwaith ei hiaith ei hun**, a dysgu sut mae graddio iaith yn gynyddol, dysgu patrymau datblygol, dosbarthu geirfa'n grwpïol, trefnu dysgu proffesiynol yn ôl anghenion Cymru'i hun. Mae'n bryd efrydu cyfundrefnau *cydlynol* iaith a meddwl. Y meicrosgôp mewn meicrocosm. Efallai mai achub y byd yw gwaith pawb wedi'r cwbl, a finnau'n y ngosod yn hun ynghudd i ddadansoddi adenilliad a chynllun un iaith yn unig. Mae'n bryd gweithio. Mae'n bryd troi o ddisgrifio Québec, at ei chysylltu â gweledigaeth ymarferol a gwir hyddysg.

O leia, yr hyn a geisiwn i nawr oedd disgyblu cyfundrefnau a graddio dysgu ail iaith yn ôl gweledigaeth fwy proffesiynol nag a wnes i o'r blaen. Yma, ymhell o Gymru, gall gwedd a goleuni newydd amgylchu llawer peth, heddiw a doe. Eto, yr un pryd, er gwaetha'r diffygion, mae rhai hen arferion sy'n ysgogiad ac yn gywreiniad o enaid y Cymry yn mynd i ymddangos yn dlysach beth fan yma, yn fwy o ryfeddod. Mae'r gwleidyddion hynny sy'n cefnu ar arbenigrwydd eu cenedl er mwyn budd eu llwyddiant symleiddiol yn mynd yn llai pwysig, yn fwy diflas bitw. Yma mae byw mewn iaith arall, megis Ffrangeg, yn ymbellhad ychwanegol, yn lanhad, ac yn doriad. Nid odrwydd a dieithrwch y rhyfeddod sy mewn awyrgylch estron, nid dyna yw. Gallai hwnnw, debyg gen i, fod yn beth sy'n perthyn i fyd y twrist, ac yn beth diddorol diddan, ond ar y cyfan yn arwynebol ac yn denau. Eithr y mae rhywbeth mwy sylfaenol, megis rhywrai'n gwrthod derbyn diwylliant sy'n marw heb feddyginiaeth broffesiynol, – neu'r sefyllfa

geidwadol o gilio. Myn y didactegwyr yma beidio â gadael i gilio difeddwl ddigwydd yma, a cheisian nhw achub y cyfle i edrych yn ffres fyw ar yr hyn sy'n hen gyfarwydd. Mae optimistiaeth yn angenrheidiol bosibl yng Nghymru hefyd os dŷn ni am droi'n fwy ymarferol.

Eto, ynglŷn â 'dwyieithedd,' fe fu ychydig o newid yn y meddwl i ynghylch y modd y dylid adfer ac adnewyddu'r genedl Gymraeg. Cyn dod yma, sylweddolwn i dipyn *am y polisi gwirfoddol ewyllsiol gorau, a'r cynllunio cyfundrefnus y mae ei angen*. Ond dw i wedi *ymwared â'r rhagfarnau rhamantaidd yn erbyn dwyieithedd* ac ynghylch realiti bywyd iaith fechan ar gyfyl iaith fwya ymledol y byd. Dw i'n gweld *oferedd protestio sy heb wirfoddoli*, a dw i'n gweld yn fwyfwy ddwyieithrwydd fel rheidrwydd addysgol Cymreig i bawb. Yn hyn o feddylfryd dw i wedi diwygio rhai o'm safbwyntiau sylfaenol, oherwydd yng Nghanada mae sefyllfa'r ddau ddiwylliant yn bwysicach na braidd dim arall i'r llywodraeth yn Québec, mewn modd a fyddai'n anghredadwy yng Nghymru. Gall llywodraeth godi uwchlaw gwleidyddiaeth drwy **ewylllys** gweddnewidiedig. A gellir drwy fyfyrdd adennill iaith drwy ystyried egni hunaniaeth.

Dw i'n sgrifennu hyn yng nghyd-destun dadl frwd rhai o'r Cymry iaith-gar mwya (fel S.L., G.J.W., ac I.C.P.) ar hyn o bryd *yn erbyn derbyn* dwyieithrwydd fel delfryd neu ffenomen gymdeithasol barhaol yn y dyfodol. Ond o safbwynt ymarferoldeb adferiad, rhaid dygymod â phroblem sefydlogi dwyieithrwydd cenedlaethol. Sefyllfa beryglus iawn, wrth gwrs, yw dwyieithrwydd am nad yw'n arferol sefydlog. Ac mae'n rhaid cynllunio'n atebol. Hyd yn hyn, bu'n ei ddileu ei hun yn barhaus ac yn ceisio troi'n rhywbeth arall. Yn Québec ei hun fe ddefnyddir dwyieithrwydd ar hyn o bryd i ledu'r Ffrangeg nid i ledu'r Saesneg. Fe ellir defnyddio dwyieithedd nawr i ledu'r Gymraeg ym Morgannwg; yn Sir Gâr, a chyn bo hir ym Mynwy. Yr ardaloedd yna yw'r allwedd i ddyfodol Cymru: hebddyn nhw mae ar ben ar Fôn (a Llanbryn-mair), nid yn unig o ran statws, ond o ran ymarfer yn wirfoddol â'i ddefnydd. Diog yw'r **ewylllys** ymroddedig ar hyn o bryd i adennill y parthau Cymreicia: fe'u cymerir yn ganiataol. Ffolineb! Os ydyn ni am adfer y Gymraeg, rhaid i'r ardaloedd hyn gael cynnig *cyfnod o ddwyieithrwydd sefydlog yn yr ewylllys, dealltwriaeth o ystyr taeogrwydd, a thrwy'r ewylllys adennill y*

*dysgwyr mewn oed.* Y cyflwr o adfer parhaol yw'r unig gyfle i'r Gymraeg, a rhaid iddi ei ennill yn awr, gan nad oes 'na obaith am sbel iddi oroesi heb iddi gynyddu dipyn yn ei chylchrediad cymdeithasol. Yn ogystal ag ewyllys yn adeiladu gwaith, mae gwaith doeth yn adeiladu ewyllys. Yn y diwedd, dysgwyr ac ysbryd cadarnhaol dysgwyr ledled ein gwlad fydd yn arwain yr adennill yng Nghymru, a'r rheini'n procio'r siaradwyr brodorol drwy annog bodolaeth helpwyr Cymraeg rhugl rhag aros ym mhwill protest. *Drwy adennill iaith i'r dysgwyr, yr adenillir brodorion.* Does dim i'w ofni mewn dwyieithrwydd optimistaidd, o safbwynt galluoedd meddyliol yr unigolyn, os cedwir sefyllfa gyfansawdd seicolegol o hybu cyson y cynnydd gwirfoddol; a meithrin ewyllys yn broffesiynol gadarnhaol ac uniongyrchol. O safbwynt llên hefyd, mae dwyieithedd yn gallu bod yn ffactor ffrwythlon, fel y dengys llenorion ail iaith o ddyddiau Fyrsil hyd ddyddiau Gogol, o ddyddiau llyfr Daniel hyd ddyddiau Horas, o ddyddiau Cicero hyd ddyddiau Montaigne; ac a oes angen ymhelaethu drwy enwi rhagor megis Daudet, Maeterlinck, Conrad, Iolo Morganwg, Islwyn, a Waldo Williams?

Er mwyn i Gymru fyw rhaid i'r rhan fwy o'n poblogaeth ewyllysio, drwy boblogeiddio, gyfnod o ddwyieithedd posibl. Drwy gynllunio yn ôl y rhaid hwn, a myfyrio'n drefnus ynghylch y modd teca a mwya deallus i'w harwain at gynnydd a chadwraeth y Gymraeg, felly'n unig bellach y mae wynebu dyfodol gwareiddiedig yng Nghymru. Ennill cydymdeimlad gwâr brwdfrydedd y corff hwn o oedolion fydd yn arwain i'r Gymru wir Gymraeg, – i drefi Cymraeg a swyddfeydd Cymraeg, i ffatrioedd a llysoedd Cymraeg. Heb sylweddoli hyn, arwynebol yw dadansoddiad y rhai sy'n galw am unieithedd swyddogol Cymraeg, er bod eu safbwynt teimladol yn un cadarnhaol, a'u nod yn burion. Ond peryglus yw tybied y gellid 'deddfu' iaith i adferiad. Wna pwll o deimladrwydd egwyddorol deddfol mo'r tro, serch hynny, pan fo angen cefnogaeth a manyldeb ymarferol mewn polisi cyfansawdd ac mewn technegau cyflwyno. Dw i ddim yn gwybod am well blaenoriaeth bellach i feithrin ewyllys cenedl chwâl na *chynllunio gwirfoddoldeb helaeth o adennill mewn cyfarfodydd ymarfer Cyd-siaradwyr rhugl eu Cymraeg a Dysgwyr*, nid drwy roi blaenoriaeth i 'gosb' neu 'waharddiad' neu 'gywiriad' negyddol ym myd gwleidyddiaeth. Adenillir iaith drwy gariad dysgwyr, yn gynta, a'r cariad sy'n gweithredu.

MEDI 9, 1963.

Mae Beti a Thérèse wedi dod yn ddwy chwaer. Does dim a'u gwahana: gyda'i gilydd maen nhw'n mynd i bobman. A dŷn ni wedi dod i ddeall Thérèse ei hun yn well, oherwydd y tu ôl i'r haen soffistigedig a chanol-oed, deuir o hyd i'r plentyn arferol. Chwilio am nyth y mae hi fel pobun arall, a chredwn iddi gael lle felly bellach wrth ei bodd. Mae hi hyd yn oed yn dechrau llefaru ychydig yn Gymraeg wrth chwarae gyda Rhodri, er ei bod yn swil ynglŷn a'r peth wrth siarad â ni.

MEDI 29, 1963.

Wrth gerdded ar hyd prif heol Québec heddiw a throi i mewn i siop lyfrau, fe ddes i wyneb yn wyneb, yn wir drwyn-yn-nhrwyn, â J-P-. Y fath ddaeargryn! 'Bore da, Gymro,' meddai fe, heb aros, ac allan ag e i ymgolli yn y dyrfa ar y stryd. Roedd e'n camu'n ara benderfynol, a wnaeth e ddim symud ei ben fodfedd i edrych yn ôl. Suddais innau i mewn i'r siop, a'i amheuaeth e ohono-i'n hongian o gylch y nghlustiau megis gerlont.

HYDREF 6, 1963.

Roedd J-P- yn llygad ei le ynghylch ein gwreiddiau. Y gwreiddiau sy'n tanio. Mae'r byd i gyd yn Goed ac yn dibynnu ar ei wreiddiau. Fe'u hadeiladwyd nhw mor amlwg yn Québec, efallai, er mwyn pwysleisio gwerth eu gwreiddiau. Daeth yr Hydre heb ddim arall. Tipyn o fraw oedd gweld waliau'r byd yn cwmpo i mewn. Ar ôl digon o fisoedd i'n galluogi i deimlo ein bod ni mewn gwirionedd yma, a bod y tir yn soddigryndod danon ni, yna'n ddisymwth, dyma'r holl goed o'n deutu yn ein dadrithio — ac ar ryw ystyr yn fiolegol does dim ond coed yn y wlad hon — fel brenhines Alis a'i llys yn troi'n gardiau papur ac yn syrthio'n dwyllodrus mewn chwerthiniad cochliw o gylch ein harleisiau, gan ein taflu ni i bob man. Roedd dail tanllyd Canada wedi syrthio am ein pennau er mwyn pwysleisio'i bodolaeth. Roedd coed Canada yn bygwth diwedd.

Yng Nghymru pan blennir 'fforest', (sef coedwig fach), rhyw binwydd bytholwyrdd sy'n cael eu doddi'n rhesi llythrennol i'r un cyfeiriad, fel parêd ychydig bach yn dwp yn disgwyl ymweliad arolygol rhyw is-swyddog o'r Weinyddiaeth yn Llundain. Am fforestydd Canada, er y gellid colli Ewrob sawl gwaith ynddyn nhw, welais i ddim yma nemor un binwydden, er mai cyfyngedig fu y ngrwydro i. Nid coed cwyr artiffisial heb-doddi-fyth a ddarganfyddir yma, ond byd poblliw sy'n ddychryn yn ei naturioldeb deilgoll tymhorol. Digon o ddychryn, oherwydd wynebaw'r goeden, yw ei dail. Ac mae'r rhai brodorol mor amrywiol eu gwedd a'u hagwedd ag wynebaw dynol — ambell un yn gwgu, llawer un yn gynnill ffurfiol, rhai'n flêr, yn llawn gwenau, eraill ar ryw ystyr yn ddauwynebog. Fe welir cymeriad pob coeden yn ei dail. Fe welir hefyd heneiddio'r goeden, y dail yn crychu fel hen wragedd, yn dwysfelynu; ac yna'r diwedd; ond eto, nid y diwedd. Oherwydd yno y safan nhw o hyd, y coed, y gwir goed eu hun, ond heb wynebaw, fel bwganod rhai a ddienyddiwyd drwy dorri'u pennau i ffwrdd. Fe'n gorfodir bellach drwy gydol y gaea wedyn i fod wyneb-yn-wyneb, nage i fod gorff-yng-nghorff, â'r bodau anffurfiedig hyn wedi'n hamgylchu. Ceir yr argraff o ddwylo cnotiog yn siglo braidd yn ddiymadferth ac yn ddall mewn gwacter. Rhaid cerdded yn ofalus rhag iddyn nhw gyffwrdd â ni, er na dw i'n meddwl rywsut y digwyddai mwy nag achosi ychydig o oerni mewn asgwrn cefn, ond allwn ni ddim bod yn siŵr. Allwn ni ddim bod yn siŵr o gwbl.

HYDREF 15, 1963.

Mae Thérèse wedi diflannu. Diflannodd yn ddisyfyd heb adael nodyn na'r un esboniad (mor wahanol i goed Hydre), wedi troi'n ddiddim. Allwn ni ddim deall y peth. Tybed a oedd hi wedi penderfynu dychwelyd i Rennes, a chychwyn ar gam pellach yn ei bywyd? Mae rhyw ddiffyg yno-i y mod i wedi methu â'i choleddu hi'n ddigonol, ac wedi pallu rhoi iddi'r cynhesrwydd seicolegol a fyddai wedi ei diogelu hi. Ble y gallai hi fod? Y greadures! Pa unigrwydd a oedd yn ei henaid fel y gallai'r dirgel ofnau a'r cyfrinachau'i gyrru hi allan o'n gwyddfod ni? Pa hunanoldeb sy yn y natur i yn hun fel na allwn i ddeall ynghynt y cymhellion a oedd yn ei chorddi? Ai melyster anghofio fydd yn gosod gwastadedd o eira Gaea ar draws y digwyddiadau hyn? Mor dew yw croen angho.

Ai cilio wnaeth hi er mwyn rhoi rhwydd hynt i fi beidio â bod yn ymwelydd arwynebol yn unig, a gwisgo o'r diwedd gnawd y gweithiwr brodorol? A geisiai hi roi unplygrwydd academiaidd yn ôl i'n harhosiad fel y dymunai Beti yn atgoffa i beunydd? Ai dychwelyd i Rennes wnaeth Thérèse? A chwilio am dristwch o fath arall yno? A dod o hyd i'w gwreiddiau?

HYDREF 27, 1963.

Yn iaith yr Esgimos, y mae 17 o enwau ar gyfer gwahanol fathau o eira — am resymau amlwg: yn y Gymraeg, mae gynnon ni 17 o enwau ar gyfer gwahanol fathau o dristwch. A deg enw ar gyfer gwahanol lawenydd. I wella hynny yng Nghymru, cystal ag y gallwn, y des i yma. Dyna'r rheswm hefyd dros yr holl ddwli gyda chymhlethodau Thérèse.

HYDREF 28, 1963.

Cerddodd yr eira fel cawr mawr ar draws y tai a'r hewlydd: y fath gerdded brenhinol sy gan eira!

Ers tro, bu'r bobl o'n cwmpas yn paratoi ar gyfer y gaea, yn doddi pyst ar gonglau'r heolydd, lle y bo ymylon porfa, fel y bydd modd gweld cyfeiriad yr heol pan gyfyd yr eira drosti. Mynnai ambell un adeiladu twnelau drwy'r eira dros-dro, o bob garej hyd at yr heol; a chodi sgwâr o gledrau pren yn iard yr ysgol lle y saethir dŵr i'w ganol i wneud sglefrfa am bum mis i blant yr ardal. Yn awr fe welir gwerth y ffenestri trebl a'r drysau dwbl ym mhob tŷ. Dechreuodd y gaea'n flêr ac yn ddirfniadaeth fel pe bai yna ddiffyg cytundeb ymhlith y penaethiaid ynghylch y cawodydd eirlaw chwit-chwat a'r pigiaidau rhacsog o eira... Ond cyrhaeddodd y tywydd mwyach; amlhaodd y gwaith; a lleihaodd y dyddiadur.

RHAGFYR 10, 1963.

*Wrth aros am y bws yn Québec*

Am awr cas plant-awelon



F'adeiladu ar y gongl hon  
Yn ddyn eira. Yn araf  
Ces dyfu'n atlas bras braf;  
Ond cludaf fyd, fel capan,  
Ar ysgwyddau hyblyg gwan.  
Planasant drwyn yn fy mhen  
O siâp a lliw caretsien.  
Felly mae plant o hyd sbo  
Yn cael sbort am nerco.  
Symuda lluwchfeydd plu pla  
Drwy fysgyfaint a'm cylla  
O'r dde i'r chwith, o'r chwith i'r dde  
Pan chwyth y cwthwm adre.  
Ceidw'r dyn eira fawrffws  
Nes diflanna'n bwll ar sêt bws.

RHAGFYR 19, 1963.

Bydda-i'n ceisio meddwl sut mae hi ar y bobl sy'n byw mewn gwledydd gwir oer. Rhewodd afon Sain Lawren ar ei thraws yn gynnwys yn Rhagfyr, ac mae'r badau wedi'u stopio. Wrth gerdded i'r Brifysgol yn y bore mae yn llygaid i'n dyfrhau gan boen yr oerfel a'r dagrau'n ymgaledu'n grwstyn o rew o'u cwmpas nes na ellir cau'r amrannau. Wedi cyrraedd gwres y Brifysgol a cheisio cau yn llygaid o'r newydd, mae'r rhew'n pigo'r croen. Fe gwrddais i â ffrind a oedd wedi tyfu, yn ddiymwybod anfwriadus iddo, bid siŵr, ddau glöyn iâ hynod o bert o'i anadl, y naill a'r llall yn hongian o'i ddwy ffroen, gan roi golwg eitha tebyg i ddau ysgithr môr-farch. Heno mae'r oerni'n 11 gradd islaw zero. Ond yn ôl Swyddfa'r Tywydd yn Québec mae'r gwyntoedd ffyrnig (35

milltir yr awr) yn peri ei bod hi'n cael yr un effaith â rhwng 35 a 40 gradd islaw zero. Dyma'r hanes, fwy neu lai, ers wythnos, a does dim golwg fod llacio am dipyn eto.

RHAGFYR 27, 1963.

Galwodd tri swyddog o'r heddlu yma heno. Roedden nhw wedi dod o hyd i gorff menyw yn yr eira ryw drigain milltir i'r gogledd o ddinas Québec, wedi rhewi'n gorn, ac yn un o'i phocedau roedden nhw wedi cael cerdyn swyddogol am ei gwaith beunyddiol, ac arno ein cyfeiriad ni. Thérèse oedd hi. Fe fues i gyda nhw i dystio ynghylch adnabyddiaeth. Wedyn, fe ges i ddwy awr o holi pwy oedd hi, beth oedd hi'n ei wneud, beth oedd ei chefnidir hi. Dadlennais i gymaint ag y gallwn heb ddweud dim a oedd o wir bwys. Ond dw i'n tybied i fi eu bodloni, er dw i ddim yn credu chwaith 'mod i na Beti wedi cau'r llyfr ar fuchedd Thérèse Berthou, eto beth bynnag. Druan, druan o Thérèse. Pwy oedd hi? Ai hi oedd ein cydwybod ni? ... Bod yn gydwybod fydd ei swydd barhaol hi'n awr.

IONAWR 9, 1964

Claddwyd Thérèse er gwaetha'r eira. Ond erys y cymylau. Aeth hi ddim â'r oerni.

CHWEFROR 29, 1964.

Does dim o'r un golwg â chynt ar yr eira sy'n disgyn bellach, dim o'r un afael rywsut, dim o'r un caledi a her 'dw i yma am byth' fel oedd ar eira ddechrau'r gaea. Mae'n debycach i eira Cymru, a rhyw sensitifrwydd egwan a thymhorol iawn ynglŷn ag e. Mae'n mynnu tosturi. Galwn hyn yn eira Cymreig.

Hawdd tosturio wrth eira'r gwanwyn. Erbyn hynny dŷn ni'n hen ffrindiau. Ac fe'i gwelwn yn cael ei anffurfio a'i ddifwyno. Ar ddechrau'r gaea, roedden ni'n ei weld e'n groyw megis purdeb y cread gwreiddiol; ond gan bwyll, daeth y purdeb mor gynefin nes

iddo ddod mor amhur â ni'n hun. Yna ar draws y cynefindra oll mae hagrwrch gwres mân ac anweledig yn torri.

Thérèse druan. Yn ei hamser, fe'i lladdwyd gan hiraeth.

Dyw'r gwanwyn ddim yn ddymunol yn Québec.

#### MAWRTH 1, 1964 – MEHEFIN 1964

[Yn y fan hon, ceir bwlech yn y dyddiadur. Dw i'n ceisio yma esbonio'r bwlech hwnnw o fisoedd rhwng bachau petryal fel hyn. Yr hyn a ddigwyddodd oedd gweithio a gweithio, fel y'i disgwyliwn. Digwyddasai tipyn o chwyldro deallol o fath eisoes yn y misoedd cyn Mawrth, ac yn fwyfwy wedyn. Gwell i fi oedi efallai ychydig gyda hyn er mwyn esbonio ychydig o'r hunan-gofiant academaidd hwn.

Yn y ngwaith ymchwil academaidd, dyma'r gweddnewidiad 'seciwlar' mwya yn feddyliol a ges i erioed yn y myw. Roeddwn i wedi dewis Québec oherwydd mai'r Adran Ieithyddiaeth Gymwysedig a Didactig yno oedd y ganolfan fwya blaengar ar y pryd yn y byd. Ac eto, fe ddes i yno'n ddiniwed braf, heb ddisgwyl ond hynny. Y mwriad i oedd astudio'r ffyrdd gyda'r Athro W.F. Mackey, dros flwyddyn o amser, i wella wedyn mewn tymor-hir (a thymor-byr) yr hyfforddiant o drefnu a graddio ail iaith ymhlith rhywrai yng Nghymru, ac yn yr astudiaeth o ddadansoddi a 'gwerthfawrogi' gwersi'n systematig. Rown i'n astudio mewn dyfnder felly y dulliau i gaboli cyrsiau, a'r dulliau o'u cyflwyno a'u hadeiladu'n fwy proffesiynol, mewn strwythur a driliau ac ymarferion a chwaraeon a chaneuon dosbarthedig strwythuredig. Dyletswydd aruchel fu hyn i mi; ac eto, o'r herwydd, doedd hi ddim yn syml. Fe ges i fath o chwyldro ymenyddol; fe ymagorodd yn llygaid i fel pe buasen nhw wedi bod mewn cell.

Ond mae cymhwyso profiad un wlad i wlad arall yn gofyn am gymhwyso ymarferol pellach. Dw i'n cofio un tro yn Gambia fel roedd gwyddonwyr wedi mynd ati

i geisio gwella amaethyddiaeth yn y wlad. Fe gawsan nhw na allen nhw gyflwyno'r dulliau modern mwya cyfoes yn syth. Byddai'r ffermwyr yno'n methu â deall y datblygiad yn sydyn ar y pryd. Rhaid oedd dechrau gyda'r aradr yn y llaw, yna gyda'r bustach, cyn mynd rhagddi at y tractor. Deallen nhw'n burion wrth arafu ychydig ar y camre, ac yn ôl trefn bylchu eu perthynas fel pe baen nhw'n cywasgu'r canrifoedd yn olyniaeth gryno, heb ddisgwyl gormod o naid ar y tro. Ac felly hefyd gyda'r gwrteithio'n gyffredinol yn y wlad... (Fe gymer amser mawr i athrawon iaith ceidwadol yng Nghymru barchu dulliau newydd o adfer iaith wrth systemateiddio gwersi.)

Cyflymder amheus deddfu oedd y llwybr tarw i genedl amaturaidd a di-wmff.

Ac fe wyddwn i fod yna gartre, ym maes polisi a methodoleg, Gymry heb feddwl yn gyfundrefnol, nac am resymu trefniant dosbarthiadau gwirfoddol o fewn cyddestun siaradwyr cynorthwyol. Ac fe fethen nhw â gwneud y naid yna. Rown i'n credu erbyn diwedd yn arhosiad i yn Québec y byddwn i'n deall ychydig beth oedd y naid honno, a sut i wneud gwahaniaeth yn y sefyllfa yng Nghymru. Ond fe gredwn i y cymerai o leia hanner can mlynedd arall o ddatblygu a sefydlu hyn mewn gwlad mor eithriadol geidwadol â hi. Yn y nylni, roeddwn i ar ormod o frys. Doedd neb am newid, nac ymchwilio, nac ymroi i fentro caled. Y wir broblem oedd deall ac esbonio maint y broblem, **nid deddfu dieneiniad**.

*Dw i am bwysleisio, drwy italeiddio, y ffactorau penna y des-i fwy i ganfod eu gwreiddiad dwfn yn y polisi yng Nghymru.*

*Ar lefel newyddiadurol gartre, roedd pawb yn synied mai statws a gwleidyddiaeth a **phrotestio** a beio'r awdurdodau oedd y broblem gyflym. Ac ar lefel addysgu ail iaith ac adennill yn uniongyrchol, synnwyr bawd amdani oedd y drefn. Cynlluniau ar unwaith ar frys ffwrdd-â-hi, dim amser i'w wastraffu ar baratoadau graddedig a dosbarthedig. Gwleidyddion o ewyllys da heb glem yn gefndirol, a heb barodrwydd i ddod o hyd i'r allwedd. Dyna sy'n taro'r tipyn henwlad, felly, bawb drosto'i hun, flwyddyn neu ddwy o ymchwil ar y mwya, heb ddim yn broffesiynol, na neb yn barod i gymryd pwyll a gofal hirfaith i feddwl am raddio cyrsiau, geirfa, patrymau, cynllun rhediadau didactig, heb ddim safoni, heb strwythurau tw, dim cyrsiau*

teledu mewn Cymraeg llafar safonol cyson, popeth ar garlam, neb oll a chanddo'r cyfle na'r modd i chwilio'r dyfnderoedd yn ystyrion fanwl ac yn ofalus o gam i gam, o fricsen i fricsen. Mae gormod o falchder mewn anwybodaeth, heb yr un Ganolfan Ymchwil drwy Gymru i baratoi defnyddiau crai: – *myth mawr yr ateb parod dros nos. Llond y lle o ewyllys da, felly, o fewn rheswm, ond heb gefndir proffesiynol digonol mewn cydlyniad gan lunwyr cyrsiau. Mewn un gair: 'gwleidyddiaeth' gyflym.* Eithr heb feddwl am **amlochredd cyfansawdd polisi adfywio cyson** yn y gweddau amryfal cydlynol... a'r alwad am gydadeiladu holl sectorau'r maes, doedd dim modd symud. Fe greden nhw mai troi popeth yn wleidyddol symleiddiol oedd yr ateb diog trwm-weinyddol. Ychydig o amynedd oedd ar gael ar gyfer y 'ffidlan' ag adfer gwirfoddol gwyddonol adeileddol fel sy yn nychmygion 'academyddion tŵr-ifori'. Ychydig o brofiad ac o amser ac o weledigaeth a oedd ar gael i wneud y gorchwyl cyfansawdd heriol hwnnw yn iawn. Beth oedd y pwynt? Wedi'r cwbl pwy a groesawai'r fath ffidlan?

Roedd llawer o'n ffrindiau i gartre yng Nghymru wedi cael cryn 'brofiad' ar y ffâs, a rhai wedi cael hyfforddiant da am gyfnodau byr, ond *heb ymroi i'r ochrau theoretig na thechnegol, am nad oedd yna gefnogaeth i'r math yna o gyfeiriad. Cyn aros yn Québec roeddwn i eisoes wedi cael ymchwilio am flynyddoedd gartre, a gweld y geidwadaeth ddidactig gyffredinol ar frys.* Es i'n sgeptig ynghylch y llwybr hwnnw yno eisoes yn addysg geidwadol Cymru. Gobeithiaswn gael ateb a fyddai'n gymorth ar ôl dychwelyd. Bellach, dyma wynebu dychwelyd. Ddylwn i ddim tin-droi oddi cartre fan hyn, er cael cynnig pellach i aros yng Nghanada. (Wedi dod adre, fe ga-i ymroi eto, gobeithio, am rai blynyddoedd yn y maes. Fe ga-i i agoriad o'r newydd i'r cydlyniad, i gynllunio ac i adeiladu cyrsiol bellach, a llwybr hir o'm blaen, am weddill yn oes, dybiwn, i fod yn broffesiynol yn yn erw i'n hun, er y byddai hynny'n golygu bwrw pen yn erbyn wal.)

Ond... digwyddodd dau beth go newydd i fi eto, yn academiaidd, a ddrysodd y dyfodol. Yn gynta, rhywbeth cwbl annisgwyl a grybwyllais eisoes yn Québec. A digwyddodd megis gormes ymenyddol. Meddiannwyd fi'n ddeallol y flwyddyn honno gan ysgol o ieithyddwyr rhyfeddol a dieithr na wyddwn i ddim oll amdany'n nhw cyn

imi ddod yma. Dyma Ysgol Gustave Guillaume – Seico-gyfundrefnaeth (*Psychosystématique*), yr wyddor o ddatrys problemau ac adeiladwaith gorfodol y meddwl drwy ddysgu strwythurau datblygu iaith yn feddyliol. Arbenigai ar y modd y mae'r meddwl yn gorfod tyfu'n ffurfiol mewn cymdeithas yn ôl trefn systematig **isymwybodol**. Dadlennodd ganologrwydd **Systemwaith** bywyd ym mhobman, ac yn neilltuol mewn strwythurau iaith. Dyma weld cyfundrefnau mewn ffyrdd newydd.

Ond fe ddechreuais i weld posibiladau yn awr, wrth gwrs, yn natblygiad y deall yn gyffredinol, mewn cynllunio gwyddonol ieithyddol, yn ôl strwythur cydlynol pob iaith unigol, y gwir wreiddiau i adeiladwaith ymarferol i hon – y Gymraeg – mewn systemau creadigol craidd hefyd. Fe gododd awydd i ddilyn ac i olrhain y trywydd hwn.

Hynny yw, fe'm denwyd oddi ar y briffordd oherwydd academrwydd mewn cyfeiriad tra phenodol.

Cododd ail broblem, wedi dod adre. Yn hen ffrind (neu elyn) llenyddiaeth. Ymyrodd hen hiraeth am 'sgwennu' a throï'n ysfa fwy peryglus. Fe dyfodd awch i feddwl mwy am **seiliau beirniadaeth lenyddol**, ond unwaith eto erbyn hyn yn ôl adeiladwaith egwyddorion llenyddol. Goleuwyd y rhain yn ymateb i Ôl-foderniaeth hap-a-damwain. Dyma'r abwyd a'r gwyrad, hefyd yn sgil dealltwriaeth o weithgareddau meddwl ieithyddol – i astudio ffurfioldeb sylfaenol a phwrpas mewn llenyddiaeth, – pob llenyddiaeth. Llên fu y nghariad cynnes cynta gynt, wedi'r cwbl. Am gynlluniau dysgu iaith newydd, a ddisgwyliai ymchwilio amser-ysol, mae'n bur debyg wrth gwrs na byddai neb yn yr awyrgylch gwrth-drefn cyfoes yn gwrando yn y fan yna chwaith.

Dyma'r ddau lwybr ymyrrol. Oherwydd y ddau ddigwyddiad hyn, fe ges i ddargyfeiriad annisgwyl i mywyd academiaidd. Fe dyfodd ar y naill law ddadrithiad yng nghylch gwirfoddoldeb Cymru i ymostwng i gynorthwyo'r dysgwyr adferol. Byddai'n ormod o drafferth ac yn rhy ddieithr i draddodiad beirniadol a fodlonai ar y tra amaturaidd. Dichon mai ofer fyddai ceisio newid y sefyllfa ar lefel ddofn mewn lle mor gyndyn dymor-byr o fewnblyg â Chymru gyfoes. Dechreuwn amau a fyddai unrhyw

dderbyniad ffrwythlon yng Nghymru i ddysgu iaith ar seiliau ymchwil byth. Os oeddwn i'n mynd i fod yn ddefnyddiol, a pheidio â gwastraffu amser, byddai'n well ifi ailddechrau, a throi at hen gariad. Sef at lenyddiaeth (a thân). Gwaith mwy annibynnol a ffrwythlon efallai fyddai meddwl o'r newydd am **hanfodion ystyr beirniadaeth lenyddol**. Gwaith oedd llenyddiaeth o leia a gydiai yn yn obsesiynau preifat i, erbyn hyn o batrymu beirniadaeth. Gwaith cariad personol oedd hyn y gallwn i ddal ati i'w wneud yn breifat gyda bodlonrwydd i fi yn hun, ac i rai ffrindiau. Roedd yna orfodaeth mewn trefn iaith a oedd yn anochel yn trefnu mewn llenyddiaeth hefyd. Roedd hyn hefyd yn goelcerth. Anodd imi esbonio efallai i bobl eraill y fath afael a oedd gan 'weledigaeth' neu 'chwiw' neu 'hiraeth' llenyddol preifat o'r fath arna-i a'r un pryd, ac mor beryglus yw hi i neb brocio'r ystyr sydd i 'ffurf' esthetig mewn celfyddyd... Sut bynnag, fe ddes i'n fwyfwy ymwybodol o 'ddeddfwriaeth' yn ffrwydrol yn y meddwl dynol ac ieithyddol. Ysgydwyd y nghynlluniau gwreiddiol. Fe ges i drwy feirniadaeth weledigaeth fwyfwy eang a mwyfwy catholig felly o Adfywiad Iaith hefyd. Arweiniais hyn at bwyo Ôl-foderniaeth.

Yn y meddwl, caed trefn cydlynid rhwng ffurfiau a gwerthoedd iaith a llên. I fi, roeddwn i wedi cyrraedd byd newydd. Hiraethwn i erioed yn yrfaol ac yn hunanol greadigol am ddilyn hud *y forwyn lenyddol dawel hon* yn y Gymraeg. Ffurfiâu hardd a phatrymog y meddwl: dyma lwybr y gallwn i'i ddilyn, a ffrwytho'n dawel danddaearol efallai, yn lle ieithyddu cynamserol ymarferol mewn cyd-destun cyhoeddus a phropagandeiddiol na'm ganwyd i iddo. Ond ym maes beirniadaeth lenyddol, gallwn rannu myfyrdod o'r neilltu gyda rhai a fentrau wynebu syniadau o'r fath, heb deimlo angen i droi'r peth yn ymgyrch gyhoeddus neu'n symudiad torfol – fel yr oedd angen ei wneud ym maes adennill yr iaith, a hynny'n debygol seithug. Beth bynnag, fe afaelwyd yno-i'n feddyliol mewn ffordd ddieithr iawn. Roedd arwyddocâd newydd yn academiaeth beirniadaeth, oherwydd grym (dros dro) Ôl-foderniaeth. A phriododd y myfyrio ieithyddol â'n hegnïon llenyddol i. Fe'n heriwyd i gan arwyddocâd systemateg iaith ei hun i droi at lenyddiaeth. A dechreuwn i ddadadeiladu rhagdybiau Ôl-fodernaidd anhunanfeirniadol. Newidiodd bywyd oll i fi. Fe giliais i i'n nyth ecsentrig.

A dyna sut y carlamodd y nodiadau personol hyn, o Ddyddiadur cymharol anghonfensiynol am deithio, allan drwy'r ffenest wedi'r cwbl acw ac i fyny 'mewn cerbyd euraid i'r wybren'. Fe dyfais i er hynny yn fath o oedolyn diwygiedig rywsut wrth gydio mewn gwaith strwythuredig. Fe es i fwyfwy i chwilio am ddeddfau gorfodol ystwyth iaith. Ac ymsefydlais i yn y rhan ola o'n hymweliad â Québec mewn gwell dealltwriaeth o arwyddocâd y ffenomen ddynol hon.]

## EPILOG

*(Bedwar Mis Wedyn)*

MEHEFIN 5, 1964.

Ar y llong dŷn ni, wrth ddychwelyd i Gymru.

Yno dros y môr, ym mhellterau Québec, wedi hwylio o'r dwyrain i'r gorllewin, rown i wedi narganfod i yn hun, o ran y modolaeth ddeallol academaidd (a chofio bod y deallol yn sythweliadol hefyd). Down i ddim wedi rhag-weld y llwybr anwel hwnnw. Yn awr dw i'n dychwelyd. Darganfod yr annisgwyl fu'r llwybr i arddeliad.

Am y mod i wedi gwneud rhywbeth dieithr yn y mywyd, fe benderfynwyd, am y tro a thros dro, ond ar sail nodiadau dyddiadurol a wnaethwn i yng Nghanaada, lunio rhywbeth tebyg i ddyddiadur. Ond bellach, daeth angen i'r newyddiadura pytiog hwnnw ddirwyn i ben. Bellach, yn y mywyd academaidd, fe fyddwn yn ceisio myfyrdod hirdymor ac ara.

Bu Québec yn genedl yn gwisgo gyda'r Taleithiau Unedig yr ieuangrwydd ysbryd sy mor amlwg ar y cyfandir hwn. Fe anwyd talaith Québec adeg y Dadeni Dysg, yn fath o Ddadeni ei hun, yn un arwedd ar yr holl broses ferw honno pryd y darganfu Copernig wybren newydd, a Luther nefoedd newydd, a Jacques Cartier briffordd newydd drwy fyd newydd ar hyd llydanrwydd cain Sain Lawren. A ddaw honno i'r aeddfedrwydd gwleidyddol a haedda yn Québec, megis mewn gwledydd eraill yn y byd? Bu Dadeni o ryw fath ym mêr esgyrn Québec. Dadeni diweddar fu'r grym hefyd a yrrodd ei diwydiant, yr ias sy'n dal i gynnal ei holl feddwl. Fe ffrwydrodd Ewrob yng



Nghyfnod rhyfedd y Dadeni Dysg; a Québec oedd un o'i hysgyrion mwya annirnad. Eto, yma o hyd, drwyddi draw, – a rhaid cofio'r dwyochredd dynol – fe geir gwanc imperialaeth negyddol o sawl math o'r tu allan hefyd. Yma hefyd, y tyf cysgodion Seciwlariaeth, imperialaeth hanner-llygadog Naturiolaeth negyddol: y gwir gyda'r cam.

Bu'r profiad trawmatig o ymadael ag amgylchfyd Cymreig am flwyddyn yn fuddiol. Dichon na cha-i byth wybod beth yn union a ddigwyddodd yn yn isymwybod i yn bersonol. Mae'n debyg nad oedd yn ddim byd i neb arall. Ond i fi roedd e fel chwyldro, a dw i'n sylweddoli bod i hyn oll wedd dra beirniadol yn gymdeithasol.

Bu darganfod sythwelediad Québec yn hyfrydwch a arweiniodd at ddadrithiad mwyfwy ynghylch yr ewyllys Cymreig. Ond rhaid ar hyn o bryd ymhyfrydu yn yr optimistiaeth.

Yr un anadl mewn ffordd fach yno-i oedd ag a gafwyd gan y fforwyr gynt, a ddarganfu wyddoniaeth newydd, ac a ddarganfu fodolaeth a phosibilrwydd Québec hefyd. Ysol oedd chwilfrydedd y dynion hynny a fynnodd groesi diderfynolrwydd Môr Iwerydd er mwyn ei chyrraedd yma yn Québec heb sylweddoli'r cwbl wnaethan nhw ar y pryd. Ac ychydig o ganrifoedd wedyn — eto mor ychydig yn wir — mae'r un chwilfrydedd egniol hwnnw'n cwrso bellach drwy wythiennau a llwybrau ymenyddol Sain Lawrennaidd eu disgynyddion. Yr ysbryd fforio hwnnw efallai a ddysgodd i rywrai ym Mhrifysgol Laval i anturio ym maes Seico-gyfundrefnaeth.

Cynrychiolydd teilwng o'r Dadeni Dysg gwreiddiol oedd Samuel Champlain; a fe, er mai Jacques Cartier a ddarganfuasai Québec ddeng mlynedd a thrigain ynghynt, oedd gwir sylfaenydd y Canada Ffrengig. Yn filwr, yn forwr, yn ddaearyddwr, yn ddarganfyddwr, yn fasnachwr ffwr, yn hanesydd, yn artist, yn bensaer, yn ddiplomat, yn llywodraethwr, yn fotanegwr ac yn arddwr, mae'n ein hatgoffa am amlochredd Dyneiddwyr Cymreig megis Wiliam Middleton. A phe bawn i'n ceisio gwneud darlun o'r wlad amlochrog hon y bu Cartier yn brif sylfaenydd iddi, byddai angen cyffelyb amlochredd arna i. Yr un amlochredd sy'n dod i'r golwg cyn gynted ag y bydd y gwyddonydd a'r ieithydd ystyriol yn dechrau archwilio cyfundrefnau meddwl ei gilydd.

MEHEFIN 20, 1964

Mae yna un wedd ganolog ar y mywyd a dyfodd hefyd ac nas crybwyllais i o gwbl yn y dyddiadur am ei fod mor gymhleth o ddirgel, datblygiad na sylwais i arno lawer ar y pryd. Yng nghanol dwyster y Gatholiciaeth yno, fe dyfodd (ond nid drwy adwaith) y Nghalfiniaeth i hefyd, yn rhyfedd iawn. Lledodd a dyfnhaodd yn rhwymedigaeth efengylaidd. Sôn dw i'n awr am ddatblygiad mwy diffiniol eglur yn y mywyd ysbrydol. Fe garwn gael cyfle i helaethu ar hynny ar achlysur arall, oherwydd bu hyn hefyd yn gymhleth. Bu un o nghyfeillion Calfinaidd hoff yn y meirniadu am ifi dreulio blwyddyn gron gynnar yng nghanol Pabyddiaeth Dulyn a blwyddyn arall yng nghanol Pabyddiaeth Laval. Ond yn Nulyn dilyn y ngyrfa academaidd roeddwn i, a dw i ddim yn gwybod ymhle y cawn i well hyfforddiant ar y pryd mewn Chwedloniaeth Ganoloesol Iwerddon nag yno, na lle wedyn y cawn ar y pryd well hyfforddiant mewn Seico-Gyfundrefneg yn ddiweddarach nag ym Mhrifysgol Laval. Dyw dewis aros mewn gwlad Gatholig ddim yn waharddedig i Brotestant o brotestiwr. Glaniais i mewn tir annisgwyl yno, mewn tir a luniwyd ac a fendithiwyd drwy Ras Cyffredinol.

Yn gyfredol â'r datblygiadau academaidd chwyldroadol hynny i fi, ond ynghlwm ac nid ar wahân, fe ddigwyddodd dyfnhau cyflwr a dealltwriaeth a phrofiad ysbrydol arall, a bues i'n cadw dyddiadur ychwanegol, dyddiadur ysbrydol yn null y Piwritaniaid felly, i gofnodi gwydnhau deallol a theimladol hunan-ymholiad, a lledu ar yr Ymwybod o Ras Cyffredinol. Mae hyn hefyd yn wedd ar y cyfanrwydd a fynnai'r ewyllys nawr.

Felly, heblaw cau'r dyddiadur hwn drwy fyfyrion am y datblygiadau academaidd annisgwyl mewn atgofion hunangofiannol a wna i, fe garwn i ymdroi ychydig gyda rhai datblygiadau ysbrydol.

Tarddodd y sylwadau canlynol o mhrofiad o ystyried *difrifwch dwys y Gatholigiaeth yn Québec*. Priodol yw ei thrafod hefyd ochr yn ochr â'r Seciwlariaeth gynyddol yn y wlad honno oedd eisoes yn brigo i'r golwg mor gynnar â'r chwedegau,

fffenomen adfeiliol sy'n ymddangos ei bod yn bodoli mewn tawelwch heb ddifrifwch dwys. Dw i'n credu mod i bellach wedi amlygu i fi yn hun grefyddolder pwysig y Gatholigiaeth yn y dalaith honno er ei dechrau. Ond yr hyn a fynnodd yn sylw i wrth gloi y nghanasgliadau oedd grym cynyddol y Seciwlariaeth, ac argoelion hynny ar gyfer diwedd yr ugeinfed ganrif ac i mewn i'r ganrif nesa. Hynny yw, y bygythiad nid i unrhyw grefydd neilltuol, ond i *ddifrifoldeb* ysbrydol fel y cyfryw, ac a raddol danseiliai'r enaid cymdeithasol oll.

Fel y mae'n digwydd, fe ges i ganfod diffygion a gwendidau deallol ac ysbrydol Seciwlariaeth yn well wrth ymdroi gyda'r byd Ffrengig. Mae Ffrainc ers y Chwyldro wedi ymffrostio yn y berthynas rhwng 'Seciwlariaeth a'r meddwl rhydd'. Ac ystyr rhyddid llafar a rhyddid barn yw'r hawl i sarhau neu i ddychanu a bychanu unrhyw greddo dan yr haul, heb eu caethiwo. Llacwydd credo, meddir, yw arwydd 'gwlad rydd'.

Ond i fi, pan ddaw Seciwlariaeth yn ffasiwn gormesol yn y gymdeithas ac yn wedd ar y 'Sefydliad', yr hyn a geir yw *bychanu difrifoldeb* fel amgylchfyd deallol caeth. Aeth Seciwlariaeth i arddel diffyg difrifoldeb o unrhyw fath fel rhaid, a gwgid yn ddogmatig ar ymrwymiad llawn i greddo, heb sylweddoli bod Seciwlariaeth hithau'n greddo. Cymerwyd yn ganiataol ysywaeth (tric pob difaterwch) fod pawb soffistigedig yn gorfod cydymffurfio â gwendid egwyddor a ffydd.

Mae'r gymuned Ffrangeg yn fyd sy'n undod felly (yn gynta) lle y mae rhyddid barn a rhyddid llafar yn ganolog yn gyfreithiol. Ond gwaherddir gofyn i neb yn agored (ar y stryd dyweder) beth yw'i grefydd. Nid anghysondeb y ddau bwynt yna sy'n ddiddorol efallai, ac nid y gwrthddywediad yn y cyfryw sefyllfa. Ond y ffaith ddeallol hynod yw bod y seciwlar heb yn ymwybod o gwbl ei fod e'n hyrwyddo'r fath anghysondeb. Mae'n ddiegni o ddiniwed ac yn anhunanfeirniadol ynghylch rhagdybiau di-oruwchnaturiol.

Oherwydd y cysylltiad â gwledydd yng ngogledd Affrica, mae Islâm yn ffactor o bwys yn y Ffrainc Ewropeaidd. Ond oherwydd tueddiadau treisiol, dienyddiol, gwrthffeminyddol, ac unbenaethol Moslemiaeth yn y cyfnod diweddar, mae'r Moslem

normal yn Ffrainc, yn y cyfnod modern, yn gwneud ei orau glas i fod yn '*Ffrancwr cyn bod yn Foslemiad*'. Mae-e am aros o fewn y cyd-destun Ewropeaidd democrataidd. Nid rhyddid rhwydd iddo yw ymaflyd yn y disgrifiad hwnnw o gyd-barch. Mae Islâm bellach ym mryd y seciwlaryn 'diduedd' yn cael ei ddisodli, oherwydd nodweddion mewnlol parod, gan drais o gred. Dyma sefyllfa gyfoes yn feddyliol ac yn emosiynol, yn hytrach, sy'n mynd yn groes bellach i ryddid llafar. Dyma adlewyrchiad o wthiad seicolegol ffasiwn mewn chwaeth ac awyrgylch cymdeithasol i gyfeiriad caethiwed teimladol. Caethiwed yw sy wedi'i drwytho mewn syniadaeth o fath negyddol, *heb allu cynnwys goddefgarwch at ddifrifoldeb croes (fel seciwlariaeth yn y gorllewin, ond yn ddi-arf gan amla)*. Methiant petrus yw i ddiffinio rhyddid deall a rhyddid gwelediad mewn sefyllfa lle y gall pendantsrwydd gwrth-sgeptig fod yn realiti.

Mewn gwirionedd, methodd Seciwlariaeth yn ddeallol ddeifiol oherwydd rhagdybiau gwanllyd. Eto, gŵyr y Moslemiad cyfoes democrataidd a deallus fod yna beryglon pan wydroir ei gred gan yr elfennau treisiol, anhunanfeirniadol, annynol. Ond tueddodd anghrediniaeth seciwlar i droi'n wrth-gredu (yn yr ystyr Gristnogol), ac i hynny *orfodi* gwendid crediniaeth ar rywrai yn ymenyddwaith y gymdeithas, a gwendid deallusol!

Yr hyn sydd ei angen ar Seciwlariaeth yw cryfhau ymenyddwaith ynghylch rhyddfrydigrwydd fel y bo rhyddid a pharch yn cyd-fyw, a gwrth-seciwlariaeth a goddefgarwch hefyd yn cyd-fyw. Mae angen ailfeddwl yn ystwythach am y Goruwchnaturiol. Bydd y cyfryw fyfyrddod yn hyrwyddo archwilio yn natur y rhagdybiau dogmatig ynghylch credo. Bydd hefyd yn datblygu Cristnogion cryf i archwilio'n ddyfnach sut y mae gwreiddiau gwirionedd dyngarol yn ymgysylltu â 'deddfau natur' gras cyffredinol. Dyma hefyd berthynas yr Ymoleuo (Seciwlar) a'r Oleuedigaeth (Gristnogol) a lle rhagdybiaeth mewn amgyffrediad. Eisoës, wrth gwrs, aeth gwrth-hiliaeth (yn arbennig yn erbyn y duon ac yn erbyn 'hil' yr Iddewon – er nad yn erbyn eu crefydd – neu yn erbyn y *gair* 'Niggers') i dderbyn ymataliad iach a deallol go gyffredin. At ei gilydd aeth atheistiaeth yn eithafol oherwydd mynd yn afresymol. Ni ellir bod yn eithafol mewn 'rhinwedd'. Cymorth i 'ddeal' a 'derbyn' eithafiaeth grefyddol hefyd yw'r ffaith bod y 'duon' yn gallu bod yn 'eithafol' o ran lliw, ac yn fythol felly, fel y

gellir ymdrin yn feddyliol ag ystyr goddefgarwch ar lefel ysbrydol sy'n mynd ymhellach na chwiw ar y pryd, a bod *lliw* i rai gwynion hefyd yn 'egwyddor' i'w cham-drin.

Nid sôn dw i am wahaniaeth mewn credo yn unig, ond am seciwlariaeth lawer mwy cymhleth: tw'r orfodaeth i dderbyn difaterwch, ac i ddiberfeddu gwelediad o'r goruwchnaturiol, yn syml oherwydd rhyddfrydigrwydd gwlyb anhunanfeirniadol.

Bydd rhaid imi ddychwelyd i hynny hefyd mewn man arall, gan ei fod yn meddu ar arwyddocâd mwy diamser. Ond er bod credu naturiol yn gyffredinol i ddynolryw, mae credu Cristnogol uwch-faterol o ran hanfod yn gynhwysfawr, yn wyddonol naturiol a goruwchnaturiol, ac yn amodi pob undod meddwl gwir. Ceir gweithio ym myd naturiolaeth deddfau cyffredinol; eithr yn y diwedd, y mae i'r wybodaeth ei hun *ffiniau* dirgel gonest eraill, o fewn cyd-destun serchiadau a'r ffydd, y gwirioneddau cyfan goruwchnaturiol a'r perthnasoedd â'r tragwyddol, fframwaith sy'n rhoi pob dim mewn persbectif tân. Mae'n lledu hefyd y ddealltwriaeth amrywiol a pheryglus o sancteiddhad.

Crwydrais oddi ar gyfyngderau Québec am fod Québec wedi crwydro ar hyd ac ar led drwy y meddwl i hefyd. Fe ges i gymorth yno i ymladd yn erbyn imperialaeth meddwl.

Eto, ceir cyfyngiadau didda-diddrwyg mewn rheidrwydd. Nid dyn sy'n dewis ei rieni, na'i fagwraeth, na'r cyfleoedd gyrfaol, na'r bobl y cyferfydd â nhw yn ei oes, *na'i ragluniaeth*. Nid dyn sy'n dewis y Gwirionedd. Nid imperialaeth yw'r rheini: maen nhw'n gynhenid. Ces innau ddarganfod math o newydd-deb naturiol annisgwyl i fi yn hun yn ystod y flwyddyn bersonol bwysig hon, felly. Fe dderbyniais ei hadau er na thyf llawer ohonyn nhw, mae'n debyg. 'Fe ges i' gyfandir newydd, nad oedd yn allanol i gyd. Ond yn wir, efallai i mhrofiad ysbrydol yno hefyd fod yn debyg i'r hyn sy wedi digwydd ifi'n academiaidd yma gartre, lle nad Cymreictod yw'r prif beth a roddodd Cymru i fi, ac felly, nid Québecrwydd yw prif rodd Québec, wedi'r cwbl, ond rhywbeth cwbl gyfredol. Rhywbeth oedd a gafwyd o'r golwg, ymhell o'i golygfeydd a'i gaea a'i phobl, ar y ngliniau yn sicr, yn y gadair freichiau gartre yn fynych, amherthnasol i'r daith fel petai,

– yng nghadair symudol myfyrdod lle y mae rhai o brif bethau bywyd wedi digwydd, a hyd yn oed lle y bo angerdd a thân ei hun yn cael eu meithrin a'r lle y ces i eleni olwg newydd ar berthynas gwyddoniaeth ac iaith ac athroniaeth, a thân, peth mor academiaidd ofnadwy ond dynol â hynny: rhywbeth tebyg oedd i Adnewyddiad deall, a darganfod cyfandir mewnol. Bu'r annisgwyliedig dynol yn fath o drosiad i'r annisgwyliedig dwyfol. A dyw'r ffaith honno ddim yn gabledd o gwbl.

Ac fe ddes i adre o raid.

Des i adre â chyfrol o gerddi o dan y nghesail, *Man Gwyn*. Ces i hefyd 'mewn rhyddiaith' yr annisgwyl (sy mor hanfodol i ymchwilio) a'r awydd i ddarganfod. O ran cwmnïaeth academiaidd, des i 'nabod' o bell y gwyddonydd ieithyddol rhyfedd, Gustave Guillaume, heb gyfarfod ag e erioed, ac yntau wedi byw a marw ymhell yn Ffrainc. Hynny yw, mi es i y tu hwnt i sgeptigrwydd a dadrith yr Ôl-fodern drwy ymwybod â deddfau iaith a thân. Fe gefais i gylch-syllu ar fywyd a oedd yn botensial ôl-feirniadol ynghylch yr Ôl-fodern. Ceisiais i felly sefyll ar groesffordd rhwng gwyddorau a'r dyniaethau (neu'r celfyddydau), sef y groesffordd newydd rhwng cyfundrefneg a sythwelediad. Ond pwy a faidd byth ddweud yn helaeth am ddigwyddiadau 'sych' felly mewn dyddiadur? A phwy a fedr rag-weld sut y gallan nhw gyfoethogi'r sylweddoliaethau dyfna mewn bywyd?

Nid myfi, yn sicr. Peth cudd yw dyddiadur, a dirgel. A llwfr dw i.

## DAW'R PASG I BAWB

*(astudiaeth mewn cabledd)*

### I

Roedd tameidiau nos yn chwythu uwchben Ysgol Enda y tu allan i Ddulyn. Y tu fewn wrth ei ddesg roedd Padrig Pearse ymhlyg dros ei bapurau, a'r amser iddo fel pe bai'n petruso rhwng bod yn nos Iau, Ebrill 20fed, neu'n fore Gwener wedyn, yn y flwyddyn 1916.

Roedd ei frawd Wili newydd godi o'i gadair, a'i gynffon rhwng ei aflau wedi ymlusgo'n llesg allan drwy'r drws. Allai fe ddim cystadlu â'i frawd, hyd yn oed o ran eistedd. Cododd y fam yn reddfol ofalus i'w ddilyn, ond wedi cyrraedd y drws stopiodd hi a'i wylion freuddwydiol yn dringo'r grisiau blinedig i'r llofft.

Gwaeddodd ar ei ôl.

'Nos da, Wili. Nos da.'

Atebodd e ddim.

'Nos da, boio,' ategodd Padrig yntau.

Cripiodd y fam yn ei hôl: 'Rhyfedd iawn. Wnest ti ddim ond crybwyll enw Mac Neill, ac fe gododd Wili.'

'Dyna ti; rhag bwrstio.'

'Ddwedaist ti ddim amdano.'

'Na, na. Doedd dim eisiau dweud.'

'Roedd yr enw'n ddigon.'

'Un felly yw Wili, mam. Fe all e odde rhagrithwyr. Fe all odde celwyddgwn. Lladron. Llofruddion efallai. Ond all e ddim godde ysgolheigion.'

Eisteddodd y fam a chydio yn ei gwau: 'Mae'r frwydr wedi ei chynllunio felly.'

'Ydy,' yn gynnwl, dawedog.

'Dydd Sul ... Y Pasg.'

'Oes unrhyw amser addasach?'

'Mae pob un – Wili a phawb – i mewn yn y bwndel?'

'Ydyn; mae Wili wrth gwrs ... mae pawb, fwy neu lai, gyda ni.'

'Oes rhaid iddi fod?'

'Oes... Rhaid.'

'Wyt ti'n siŵr ynot ti dy hun? Weli di ddim dianc?'

'Ddim yr ochr yma i foesoldeb.'

'Mae nghalon i'n gwasgu, Padrig; ond dw i mor falch. Dw i'n teimlo'r anrhydedd.'

Bowiodd e'i ben yn chwareus: 'Fe fu'n rhaid cael gwaed yr Oen i achub ein tipyn byd unwaith am byth; ond rhaid i feibion Iwerddon, Mam, gario croes ein hoes ni yn lleol. Dw i ddim yn cablu, Mam. Does dim dynwared duwioldeb: rhodd yw. Ond mae ysbryd y moesoldeb cyffredin hwn hefyd yn llechu yn nhir y wlad. Mae'r ysbryd hwnnw'n symud i wneud corff-ac-ysbryd yn un.'

'Faint o obaith sy am lwyddiant?'

'Llwyddo?... Wel ... Cael a chael fydd hi. Mae gynnon ni gynllun da. Cynllun Joseff-Mair Plunkett. Cynllun sy wedi bod yn barod ganddo fe ers hydoedd.'

'Joseff-Mair Plunkett.' Yn freuddwydiol eto. 'Enw Nadolig sy 'dag e, ar gyfer Pasg!'

'Y clown mwya bendigedig ddyfeisiwyd gan barti Nadolig erioed.'

'Mae'r dyn yn athrylith drwy drugaredd, Padrig.'

'Mae e'n ffŵl melodramatig ar lawer ystyr, ond mae ganddo fe grebwyll fel gilotîn. Mae ei amlinelliad e o ymosodiad ar brif gadarnleoedd Dulyn yn feistrolgar. Gydag ychydig o filoedd o ddynion fe fyddwn ni'n gallu meddiannu gwe o ganolfannau allweddol, ac fe fydd hi'n amhosib i'r gelyn ein disodli ni.'

'Amhosib?'



'Fwy neu lai,... gobeithio. Cawn weld. Mae'r cynllun wedi ei dynnu hyd at y blewyn lleia. Allwn ni ddim methu.'

'Allwch chi ddim?'

'Wel, mae'n anodd gen i weld llawer o dyllau.'

'Beiddgarwch y dyn! Ond beth yw llwyddiant?'

'Beiddgarwch yn unig sy'n cadw cenedl. Pwy arall fysai wedi darganfod y ffug ddogfen yna y dydd o'r blaen i erlid y Gwyddelod – ffug ddogfen filitaraidd Seisnig, a'r holl fanylion pwysig, awdurdodol?'

'Fe! Y ddogfen yna hefyd! *Fe* yw'r un gwciodd y ddogfen yna 'ffeindiwyd gan ein pobol ni ddydd Llun dwetha?'

'Pwy arall?'

'Doedd hi ddim yn ddogfen ddilys, te?'

'Go brin. Er nad oes neb yn gallu cael y gwir gan Joseff-Mair. Ond pwy arall fysai'n dychmygu am amlinellu mesurau argyfwng nawr mor awdurdodol ar ran yr awdurdodau Seisnig?' Dyma Badrig yn chwethin-adrodd yn ffug swyddogol: 'Dyma orchymyn i ddodi clamp ar y Gwirfoddolwyr Gwyddelig, Sinn Fein, Undeb yr Wyddeleg, Gwirfoddolwyr Cenedlaethol Redmond, ar un waith...'

'A hyd yn oed dodi clamp ar Archesgob Dulyn druan,' ychwanegodd y fam.

Chwarddodd Padrig. 'Ie, y parchedig Arch ei hunan. Ar yr union amser iawn. Roedd pobol y dre i gyd yn wenfflam yn erbyn y Saeson pan glyw-wyd am y cynllun.'

'Amser i athrylith yw. Y cadno ag e.'

'Fe boethwyd tymheredd y cyhoedd yn hwylusach nag a barai ugain o gyfarfodydd politicaidd.'

'Fe boethais i, beth bynnag.'

'Fe enillwyd cydymdeimlad pob Jac-enaïd mewn byr amser o blaid Iwerddon.'

'Roedd y bobl yn coelio fod mesurau eithafol o'r math yna'n gwneud cam aflednais â chi.'

'Fe gawd sôn am feddiannu'r holl ganolfannau Gwyddelig... Rhestru rhai creaduriaid diniwed ... Anfon eraill o'r wlad. Eu cyhuddo nhw o frad.'

'A'r cwbl wedi ei lunio yn y jargon swyddogol mwya tebygol i ysgogi tafodau Gwyddelig: dyna gamp Plunkett.'

Parhaodd Padrig â'i adroddiad swyddogol: 'Rhaid amgylchu'n ddiymdroi y lleoedd a farciwyd ar fapiau tri a phedwar, a rhestio'r rhai a enwir ar restr A3 ac A4 a rhestr atodol A2.'

'Joseff-Mair Plunkett.'

'A chan fod y cyhoedd eu hunain ddim yn credu y byddai'r Cenedlaetholwyr yn gwrthryfela o gwbl, allen ni ddim llai nag ennill ffafr pawb.'

'Ond roedd yna oglau gwirionedd yn y ffug fesurau hyn, i raddau. Hynny oedd yn allweddol.'

'Dyna, eto, athrylith y dyn. Fe wyddai'n burion fod yr awdurdodau'n bwriadu gwneud *rhywbeth*.'

'A bod Mac Neill a'i griw yn glaeat tuag atoch chithau – yr eithafwyr.'

'O! Roedd Mac Neill, yn union ar ôl clywed, wedi digio'n arw wrth yr awdurdodau Seisnig.'

Chwarddodd y fam: 'Roedd e, druan, o fewn y dim lleia, dw i'n siŵr, i fynd i ryfel ei hun i amddiffyn hawliau'r Gwyddelod.'

Gwenodd Padrig: 'Druan o Mac Neill. Ddaw e byth at ei goed.'

'Y rebel mewn pais, Padrig?'

'Fe'i claddwyd e gan lyfrgell!... Mewn catalog! Ond o ddifri calon, mam, mae'r cynllun am y chwyldro – ac anwybyddu Mac Neill am foment – yn gwbl ysgubol!'

'Allwch chi anwybyddu Mac Neill?'

'Mae'n rhaid i ni.'

'*Fe* yw'r unig sbôc sy'n gallu ymyrryd yn yr olwyn. Gair oddi wrtho fe, ac fe ddrysai'r cwbl. Wedi'r cyfan, *fe* yw'r awdurdod, ddim ti.'

'Ond chlywith e ddim si am y cynllwyn.'

'Eto, fe a berchir fwy o bawb. *Os*, Padrig, *os* clywith e'r gair am dy wir gynllun... Ie, *os* ydy'r gair.'

'Os clywith e, fe allwn ni lwyddo o hyd.'

'Ond pam gweithio tu ôl i'w gefn?'

'Fe wyddost ti, mam, sut fath o ddyn yw e. Rhyddfrydwr. Gŵr ar y ffens dan esgus doethineb. Yn y bôn, dyw e ddim ond tomen o sentiment ynglŷn ag Iwerddon.'

'Ie, ond mae ei air e mor bwysig, a'i gydweithrediad e'n allweddol, dybiwn i.'

'Ddim o angenrheidrwydd. Ac yntau ar y pen, mae ei glaeawch yn fud ac yn fwgwd i guddio'n gweithgareddau ni. Tu ôl i gysgod y fuwch ddiymadferth yna mae'n lloi bach ni'n creu pob math o ddireidi.'

'Tarw fydd y fuwch os clywith e am hyn i gyd.'

'Mae ei ysgolheictod wedi'i ddisbaddu fe am byth. Fedr e ddim bod yn darw mwy, beth bynnag. Gall fod yn fantais inni mai fe yn swyddogol yw'r prif arweinydd.'

'Mae gen ti ffydd, ffydd ddi-ben-draw mewn ysgolheictod fel sedatif.'

Y tu faes ar y pryd, ebychodd y nos ryw fath o beswch myglyd ar y sylw hwnnw.

'Glywaist ti ryw sŵn y pryd hynny, mam, o'r tu allan i'r tŷ?'

'Na ddo i.'

'Fi oedd yn dychmygu, mae'n debyg.'

'Gwynt y nos yn profi'r dail newydd, mae'n siŵr.'

'Traed ysgafn ar y llwybr.'

'Tylwyth teg, yn sicr ei wala,' meddai hithau gan gilwenu.

'Debyg iawn, mam... Na, does dim o'r meistr yn Mac Neill. Gwas yw e mewn ysgolheictod, a gwas yw e mewn bywyd ymarferol. Ond y meistr sy'n gorfod creu.'

'Cerdd yw'r frwydr yma i ti, Padrig, dw i'n meddwl. Creadigaeth gelfydd.'

'I raddau... Mae'n amherffaith fel pob celfyddyd, o leia, ac yn jôc i Joseff-Mair.'

'Os bydd hon gyn dlysed â'th gerddi eraill...'

'Cofia di, mam. Bardd eilradd dw i. Mae rhaid i fi fod yn chwyldroadwr o'r radd flaena. Fe allai cam ffôl o hyd ddryllio Iwerddon o'r brig i'r bôn. Gweddïwn y caiff y cynlluniau gyfle i aeddfedu...*Cyfiawnder a wna genedl.*'

'Nid dy fath di o gyfiawnder oedd mewn golwg, Badrig bach, yn yr ysgrythur.'

'Na. Rwyd ti'n iawn. Rhyw *ogla* o wir gyfiawnder yw hyn. Cyfiawnder cyffredinol sy gynnon ni mewn golwg: y ddaear greedig yn ymaflyd â ni. '

'Hy! Wnaiff hynny ddim *enedl*.'

'Na. Rhyw hanner cenedl wnaiff, mae'n debyg.'

'Ai dyna rwyd ti eisiau?'

'Mae'n well na dim cenedl o gwbl. Nid etholiad yw hyn, mam. Mae'n fath o refferendwm am un achos. Mae refferendwm yn hollol wahanol i etholiad, sy'n gallu bod yn amlochrog. Un cwestiwn sy gan y refferendwm hwn... Rhyddid... Dŷn ni ddim yn gofyn am ethol dyn ffaeledig, nac unrhyw blaid ffaeledig. Fe all y rheini gefnogi pob math o achosion amheus. Mae'r bleidlais y tro hwn yn y frwydr hon yn syml. Mae'n lân... Un peth! "Cyfiawnder mewn Rhyddid, – Ie neu Na." Dyna wir ddemocratiaeth. Nid er ein mwyn ni. Nid er mwyn arian. Nid er mwyn materoliaeth. Nid er mwyn llai o waith. Nid er mwyn ymerodraeth a sioe i genhedloedd dros y môr. Etholiad i ddewis egwyddor ag un gair, a phawb yn cael cyfle i'w ddweud. Er mwyn Rhagluniaeth.'

Yn glep ar draws ei eiriau clywyd taranau bach ar ddrws y tu allan.

'Y drws?'

'Ie. Mae'n awr od.'

'Mae hi wedi hanner nos.' Cododd hi'n drwsogl. 'O, cri'r cymalau yma!'

'Nid un o'r bechgyn sy 'na, gobeithio. Mae'r bechgyn i gyd i mewn, does bosib.'

Gan rwbio'i chlun henaidd, cloffodd y fam tuag at y curo. '*Heno* ni ddaw ei *hunan*.' Stopiodd er mwyn adennill ei phenderfyniad. 'O!' ochneidiodd. 'Y coesau Gwyddelig yma! A! Henaint!'

Galwodd Padrig ar ei hôl: 'A'r dannedd yn cwympo allan, a'r gwallt yn chwalu ar draws y carped, a'r blew'n pipian drwy'r gên benywaidd 'na fel llanc yn glasu whisgers.'

Ymegniodd y curo eto.

'Aros,' gwaeddodd e wedyn. Safodd a thynnu pistol o ddrôr yn ei ddesg. 'Gwell i fi fynd yn hun. Fe all fod... Duw wŷyr pwy sy yna.'

'Bydd yn ofalus, Padrig.'

'Cadw di'n ôl. Mae'n bosib nad oes 'na ddim byd.'

Camodd i'r cyntedd yn hyderus; a dychwelodd i'r ystafell bron ar ei union, ac Iwan Mac Neill o'i ledol. Cyhoeddodd y dyfodiad i'w fam, 'Yr Athro Mac Neill.'

Moesymgrymodd hi, a dweud yn raslon: 'Sut dych chi heno, Athro Mac Neill? Fe a-i allan i roi llonydd i chi.'

Cydnabu Mac Neill ei chwarteisi ag amnaid; a chiliodd hi'n llithrig o'r golwg.

## II

Ac yna, dechreuodd Mac Neill arni yn ddiymdroi heb flewyn ar ei dafod.

'Dw i wedi clywed.'

'Do?'

'Am eich gorchmynion diweddera i rai o swyddogion y Gwirfoddolwyr.'

'Do?'

Bu tawelwch disgwylgar rhyngddyn nhw. Anesmwythyd carlamus.

'Heb y nghaniatâd i! Dyw'r peth ddim yn wir, gobeithio... Gawn ni gael y gwir i gyd... Dych chi ddim yn gwadu hynny, fod gwrthryfel wedi'i arfaethu ar gyfer y Sul... Dych chi wedi nhwyllo i.'

'Roedd hynny'n angenrheidiol. Fel gwanwyn. Daw'r gwanwyn i bawb.'

'Angenrheidiol!'

Aeth Padrig draw at y ffenest i chwilio am yr haul oedd heb fod y tu allan: 'Fe wyddoch chi *pa adeg* o'r flwyddyn yw hi. Dych chi, Syr, wedi sylwi ar y blodau? Pair Dadeni yw Iwerddon, a'r awyr yn taflu cyrff yr hen flwyddyn i mewn ...'

Gwaeddodd Mac Neill ar ei draws yn ddi-amynedd, a'i ysgolheictod yn taranu'n erbyn y barddonllyd gan Pearse: ... 'Ust ddyn, a'r holl gyntefigrwydd yna, a'r cabledd, a'r ffug grefydda. Gŵr syml dw i. Nid amser i fardd yw hyn. Mae'n rhaid i Iwerddon fod yn unol. Dych chi'n mynd i hyrddio'n holl baratoadau carcus ni, ein holl waith caled y blynyddoedd diwetha ar un ymgyrch hurt a fydd yn troi'n mudiad ni'n gocyn hitio am flynyddoedd eto, ac atal rhyddid ein gwlad ni am weddill y ganrif? Dych chi'n aberthu ugeiniau lawer er mwyn naddu *niche* taclus a gwaedlyd i chi'ch hun mewn hanes. Does gynnoch chi ddim pluen o siawns yn erbyn Lloegr, ddyn. Fe fydd y cyrch yn gyrbibion ulw cyn cyrraedd y papurau newydd. Fydd y cyfan yn ddim ond esgus i ddistrywio'n mudiad. Meddwl sy angen arnon ni ar hyn o bryd, Pearse, nid sioe.'

Cuddiodd Padrig, yn gynnwl, ond heb fod yn rhy gynnwl, y ffaith ei fod yn dylyfu gên: 'Gŵr syml dw innau, syr. Ac fe wn i fod yna godi'n mynd i fod yr wythnos nesa. Buon ni'n meddwl yn ddigon hir.'

'Codi! Dyna ni. Dyna ddwedais i: ffolineb.'

'Codi o'r bedd. O waelod bedd marw hanes. A'r nefoedd wŷr mor farw mae marw'n gallu bod.'

'Mae'n rhaid i hyn stopio, Pearse. Ac fe ofala i y bydd hi'n stopio.'

'Mae'n rhy hwyr, syr.'

'Os gallwn ni ennill ein hawliau ni i Iwerddon heb ymladd, yna'n dyletswydd elfennol ni yw peidio ag ymladd.'

'Rhesymoli esgus, syr.'

'Amddiffyn yw pwrpas ein byddin ni.'

'Ymosod yw'r unig amddiffyn effeithiol. Yr unig synnwyr ymarferol.'

'Sefydlwyd erioed mo'r fyddin ar gyfer ymosod. Amddiffyn yw'i hunig nod erioed. Felly'r iaith hefyd: cadwedigol yw hithau, yn cael ei choledd yn nistawrwydd arferiad. Mi wn i rywbeth am yr iaith, Pearse.'

'Nage'n wir. Ymosodol yw'r iaith, wyllt a chyfnewidiol. Yn mynnu adennill.'

'Dim ond os bydd y llywodraeth yn ceisio diarfogi'r Gwirfoddolwyr y byddwn innau'n barod i ganiatáu iddyn nhw frwydro.'

'Mae pethau wedi mynd yn rhy bell, syr, mae arna i ofn.'

'Llofruddiaeth yw hyn, Pearse. Brad, bradychu Iwerddon.'

'Nage, byth.'

'Teimladrwydd arwynebol. Greddfau anifeilaidd.'

'Galw enwau yw hyn.'

'Mae hyn, Pearse, yn fater i'w drafod yn drefnus.'

'Yn academiaidd? Oes eisiau ambell lyfr arnoch chi?'

'Dyw hi ddim yn iawn i ni ymladd mewn afreswm. Dyw hyn gynnoch chi ddim yn weithred filitaraidd. Milwyr dŷn ni, nid merthyron, cofiwch. Ar gyfer yr argyfwng ola, pe bai Iwerddon ar y dibyn a'i chenedligrwydd hi ar gwympo drosodd, y pryd hynny'n unig y byddai'n weddus i ni daflu'n bywydau'n anystyriol. Tan hynny...'

'Ar y dibyn? Mae Iwerddon, bobol annwyl, wedi hen ffarwelio â'r dibyn hwnnw.'

'A dych chi, ffrind, am i'r dibyn hefyd gwympo ar ei phen hi.'

'Dw innau am sgwaro.'

'Sgwaro?' meddai Mac Neill mor grwn ag y gallai.

'Sgwaro!' ebychai Pearse.

'A gadael traddodiad disglair ysbrydoledig o fethiant gwirion arall?'

'Mae'n egwyddor erioed gynnon ni mai awr wan Lloegr yw cyfle cry Iwerddon. Os nad achubwn ni mo'r cyfle mawr cyn diwedd y rhyfel hwn rhwng Lloegr a'r Almaen, yna mae hi ar ben arnon ni am flynyddoedd.'

'Mae hi ar ben arnoch chi cyn dechrau. Ydych chi wedi ystyried, Pearse, y *gallech* chi fod yn anghywir?'

'Os dw i'n anghywir, alla i ddim troi'n ôl nawr.'

'Cyfaddefiad llofrudd.'

'Welwch chi ddim ond y rhesymol. Hanner dynolrwydd yw hynny.'

Ymestynnodd Mac Neill i'w lawn hyd. 'Mae y mys i ar guriad gwaed Iwerddon, Pearse. Dw i'n nabod gwaseidd-dra'r werin Wyddelig. Mae eisiau hir berswâd arni hi. Mae eisiau esbonio'n dadleuon. Mae eisiau adeiladu ffrâm meddwl newydd.'

'Mae eisiau'i bedyddio hi.'

'Bedyddio Gwyddelod! Cabledd! Ychydig wyddoch *chi* amdanyn nhw. Pobl barchus uniongred yw'r Gwyddelod yn byw yn yr ugeinfed ganrif. Fe fysai'r anarferol neu'r od yn peri iddyn nhw dybied mai lot o grancod sy wrthi. Heb ddim mwy.'

'A chithau'n tybied y bysai dulliau mwy cyfansoddiadol yn cadw eu cap nhw'n gywir?'

'O leia, fe argyhoedden nhw bawb fod dynion busnes cyfrifol yn ceisio'u cefnogaeth nhw.'

'Na. Aberthu yn unig.'

'Cabledd. Dych chi'n cablu o'r dechrau i'r diwedd. *Chwarae* Meseia, Pearse. Y fath warth! Y fath iseldra!'



'Mewn rhai cymdeithasau cyntefig, mae ganddyn nhw arfer o efelychu campau'r duwiau. Wrth wisgo mwgwd rhyw dduw, neu wrth ddynwared ei weithredoedd e, maen nhw'n gallu dwyn i lawr rin ei wyrthiau uwchnaturiol. Dyw'r chwarae gen i fawr gwell.'

'Chwarae â chrefydd. Cabledd o hyd, ddyn. Y ffurf waetha o sarhau Duw.'

'Does dim byd ond crefydd ym mhobman. Dameg am yr hyn sy'n iawn, ysbryd yn chwilio am gorff. Drych yw tymor y flwyddyn hyd yn oed, yn ein gwneud ni i gyd yn hiraethus am wanwyn gweledig. Mae'r Crëwr bob amser ar waith yn anrhydedd ei greadigaeth.'

Stopiodd parabl y ddau. Drwy ganol cymylau'r storm sleifiodd y fam yn ôl yn haul bach o wenu naturiol, clên i'r ystafell, gan gario hambwrdd, a chan dynnu'r siaradwyr yn ôl i feunyddioldeb bodolaeth.

'Gymrwch chi goffi?' Dim ateb. 'Yr Athro Mac Neill. Sut dych chi'n licio fe? Yn wyn neu'n ddu?'

Rhochiodd Mac Neill yn aneglur.

'Yn wyn?' gofynnodd y fam drachefn.

'Yn ddu, gyda'r diferyn lleia o laeth.'

Arlwysodd hi'r coffi yn anferth o ara a'i estyn iddo.

'A thithau'n reit wyn, Padrig – fel arfer.' Estynnodd y gwahoddiad iddo yntau.

Meddai Mac Neill fel pe bai'n siarad ag e'i hun: 'Does yna'r un ohonon ni'n gwbl ddu – nac yn wyn i gyd chwaith... Dych chi ddim am ymuno â ni i'r coffi, Mrs Pearse?'

'Na, na, ewch chi ymlaen gyda'ch siarad. Fe a innau at y ngwaith.'

### III

Cripiodd hi allan mor hoyw ag y daeth.

Ailgydiodd Mac Neill mor dangnefeddus ag y gallai yn ei storm. 'Welwch chi ddim mor ymarferol yw hyn i gyd?' Dim; dim ateb. 'Dych chi, a chithau'n wŷr deallus,

Pearse, ddim yn gwir gredu'r cabledd amaturaidd yna ynglŷn â golchi pechodau Iwerddon yng ngwaed ei merthyron hi? Dych chi, Pearse, ddim yn ffansio am funud fod rhyw hurtrwydd sagrafennaidd ar eich rhan chi yn mynd i orfodi ynni creadigol ar y gymdeithas segur sy ohoni, ydych chi?'

'Ffydd *a* gweithredodd piau hi.'

'Dych chi wedi profi digon o'r byd yma erbyn hyn, does bosib, i sylweddoli nad oes gan yr iaith Wyddeleg ddim llisywen o siawns i gael ei hatgyfodi ond drwy waith caled safonol. Dyw tro ffôl ffanatig ar awr wan ddim yn mynd i gyflawni'r wyrth yn lle hynny. Yn wir, gwiriondeb yw breuddwydio felly, a ninnau dan grafangau bwystfil y dylanwadau rhyngwladol. Mae'n gamarweiniol.'

'Ydy, mae'n hollol wirion.'

'Ac yn gwbl ffantastig. Llafur proffesiynol piau hi, nid amaturiaeth ramantaidd protest wyllt.'

'Cawn weld.'

'Na chawn,' gwaeddodd Mac Neill yn ffyrnig. 'Mae'n rhaid i'r ffolineb hyn orffen nawr. Ac fe orffennith nawr, y funud yma. Fe fydd y ngorchymyn i at Wirfoddolwyr ym mhobman i ddileu'ch gorchmynion chi yn mynd allan yfory.'

'Mae'n rhy hwyr. Wnâi'ch gorchmynion chi ond creu anarchiaeth fewnol. Codi dryswch annatod. Ac fe fysai rhywbeth yn sicr o ddigwydd er eich gwaetha chi, a hynny o bosib, oherwydd eich geiriau chi, yn fwy aflwyddiannus byth.'

'Mae'r holl blot yn ffiائد. Pam y ngadael i yn y twllwch ynglŷn â hyn? Y mhlentyn i yw'r fyddin.'

'Chi yw'r tad efallai. Efallai. Ond Iwerddon yw'r fam. Hen fam y pryderon, hi esgorodd ar y fyddin, nid chi.'

'Ond y fi ... a'r fam...'

'Na, does yr un tad byth yn siŵr,' meddai Pearse.

'All neb yn amddifadu i o'n eiddo i yn hun. Mae hi mor bwysig â dim gael unplygrwydd yn yr arweiniad.'

'Mae'r plentyn wedi bod yn ei chroth hi er pan gafwyd amser gan ddyn. Allwch hi honni ichi fod yno yn y fan yna gyda hi ar drothwy amser?' holodd Pearse. 'Na allwch, na chi na fi. Plentyn brenhinol yw'r fyddin Wyddelig, delfryd, a dych chi a fi'n ddim ond gweision tila'n dala'i chadachau hi.'

'Y mhlentyn i oedd hon, plentyn y nghanol oed, Pearse. Amdani hi byddwn i'n hiraethu ym mlynnyddoedd yn ieuenctid i.'

'Felly bydd llawer *gwas* yn tybied wrth faldodi plentyn yn hir. Wrth redeg i weini arno fe, fe aiff ei gyfrifoldeb e dros ben llestri, ac fe aiff i gredu mai fe ei hun biau'r baban. Nid yr un peth yw ci gwylio â pherchen tŷ.'

'Pwy, felly, yw tad y plentyn?'

'Gwry fendigaid yw Iwerddon,' meddai Pearse yn ei lais offeiriadol ysgafn.

'Cabledd! Dw i ddim yn mynd i odde hyn. Dych chi'n wallgo, ddyn. Cabledd dro a thrachefn. Dych chi'n chwarae â tân. Does gynnoch chi ddim clem am y tragwyddol.'

'Dyna'r ffaith amdani. Hi yn ystod gwyll blin ei diffwythdra hir, ohoni ei hun, ddygodd y wyrth 'ma i'r golwg. Yn Iwerddon. Nid yn Israel; dw i erioed wedi bod yn Israel, ond am y twll bach hwn, mi wn i rywbeth byw. Yn y gwanwyn hwn. Yn y lleol.'

Ebychodd Mac Neill ei wawd, heb lwyddo i chwerthin yn hollol: 'Dy blentyn di! Plentyn siawns te.'

'Y dilynwyr i waredwr ddaeth ag e liw nos.'

'Yn y gwyll blin, Pearse. Dych chi a fi wedi gweld digon o'r gwyll blin hwnnw.'

'Gawn ni beidio â thafu'r siawns yma i ffwrdd, te, i'w chwalu unwaith am byth. Y fyddin yw'r arf orau o'i defnyddio hi yn y modd iawn.'

'Nid nawr. Rywdro arall. Pan fydd yr amserau'n aeddfetach.'

'Fydd y fyddin ddim gyda ni, efallai, y pryd 'ny.'

'Wnaiff hi ddim heneiddio. All hi ddim. Mae'n dod o genhedlaeth i genhedlaeth.'

'Stori gwaredu yw hyn hefyd, syr,' meddai Pearse.

Trodd Mac Neill ar flaenau'i draed fel chwyrligwgan a phendro'i ddiymadferthedd yn syrffed iddo. 'Dw *i* wedi arwain y Gwirfoddolwyr o'r dechrau hyd eitha ngallu. Mudiad amddiffynnol yw e. Pam y nhaflu *i* i'r neilltu gyda'r cynllun hwn?'

'Ond nid dyna wnaethon ni. Chi'ch hun a aeth i'r neilltu. Dŷn ni wedi'ch sowndio chi droeon lawer o'r blaen a'ch cael chi'n fyddar. Sefyll erioed yn erbyn gwrthryfel arfog gweithredol wnaethoch chi.'

'Dyw hynny ddim yn wir.'

'Mae'n wir bob llythyren.'

'Pe bai'n wir, fyswn i ddim wedi cychwyn y Gwirfoddolwyr.'

'Ysgolhaig yn chwarae sowldiwr, syr. Gyda phob parch...' Ac yna'n haerllug, erfyniodd: 'Ond dych chi ddim yn gweld y meirwon yn neidio o'r ddaear? Dych chi ddim yn gweld cloeon y canrifoedd yn rhwygo?'

'Nac dw.'

'Mae llaw ddu wedi cau am eich calon chi, te.'

'Y cyfan dw i'n ei weld yw bag papur yn cael ei chwythu i fyny, ac yn gwneud clec; a'r cwbl sy ar ôl yw gwynt poeth a rhecsyn papur.'

'Dyna hanes ambell un mae'n wir.'

'Mae'r glec o fethiant yn bosibl i chi Pearse.'

'Hwyrach. Dyna hanes pob methiant ysbrydol. Dyw'r ewyllys neu'r corff (neu rywbeth) sy ddim yn ddigon cry i ddal chwythiadau'r ysbryd.'

'A bang!'

'Ie.'

'A dych am i Iwerddon fod gyda chi ynghanol y bang.'

'Ydw.'

'Fe gaiff y rhecsyn papur fydd ar ôl ei daflu i Liffey.'

'Fe'i cafodd eisoes. I afon lwgr difaterwch a bychander, do, i lif amhur y gymdeithas.'

'Tr fan yna y caiff y papur ei fwrw.'

'Mae hi eisoes yno.'

'A dyna'ch uchelgais chi? Lluchio Iwerddon i afon angau difaterwch?'

'Ond Mac Neill, oni ddeallwch chi? Mae hi eisoes yn yr afon. Ei thynnu hi o'r fan yna dros dro a'i sychu hi yng ngwyndra'r haul am funud, un funud fawr, i weld ellid rhywbeth ohoni hi. Ei dal hi yno am funud, yn aberth a allai lwyddo.'

'Un funud syfrdan o wallgofrwydd.'

'Un funud gyflawn o ogoniant.'

'Medd-dod.'

'Os ych chi am air o ddirmyg, Mac Neill, balchder yw hwnnw. Un funud deg o falchder. Balchder anrhydeddus gan y lleiafrif unplyg. Y bwgan sy'n ceisio ymresymu.'

'Ymresymu! Does dim ynddo o Reswm yr Ymoleuo Ysgolheigaidd.'

'Mae balchder bob amser yn chwilio am reswm dros beidio â bod yn falch.'

'A'ch balchder chi fersws difaterwch y gorllewin: dyna'r frwydr, iefe?'

'Mae pob gwlad a phob crefydd yn cael y difaterwch maen nhw'n ei haeddu. Fe fynna i fod yn falch gydag Iwerddon yn erbyn hynny.'

'Fe fydd eich balchder chi, Pearse, yn llusgo Iwerddon i gywilydd ac unigedd.'

'Ac yn yr unigedd a'r cywilydd bydd hi'n teimlo dechreuadau bywyd.'

'Dowch lawr o'r bocs sebon. Gallwch hi chwythu cynulleidfa lle mynnoch chi. Amdana i, fi sy yma nawr, dw i'n fwy cyfarwydd â dadansoddi sefyllfa â thystiolaeth heb wres gwaed. Sgrechwch ymlaen o flaen y cyhoedd; ond gyda fi, mae'r angen yn wahanol.'

Stopion nhw, ac edrych ar ei gilydd. Mewn unrhyw amgylchiad cyffelyb arall, efallai y bydden nhw wedi torri i chwerthin; a chydio yn ei gilydd, a'r naill a'r llall yn cyfadde'i ffolineb ei hun. Ond doedd eu dynoliaeth rywsut ddim yn rhydd i ymateb felly yn awr. Cododd casineb Pearse o'r tu fewn iddo, nes iddo ddweud yn anghwrtais: 'Fe wnâi les i chi gael bath, athro.'

'Beth?'

'Bath oer. Bath oer ar ganol stryd O'Connell.'

'Adolesent ych chi, Pearse, adolesent ym mhopeth.'

'Ond eich syniad chi o fywyd! Te, a chacen, a llyfr, a thei a pharlwr, a choleg, a gwraig, a phib. Ac uffern ysgolheictod.'

'O leia, dw i'n ddyn mewn oed.'

'Siarad, a cherdded, a siarad, ac eistedd, a siarad, a sefyll, a...'

'Siarad – synnwyr.'

'Ond gwneud. *Wnewch* chi ddim byd byth.'

'Yr hyn sy'n dyngedfennol ar hyn o bryd yw eich bod chi ynghanol eich *gwneud* ffanatig yn cario cenedl gyfan gyda chi.'

'Gobeithio hynny'n wir,' meddai Pearse.

'Ble mae'ch synnwyr cyffredin a'ch doethineb, ddyn?'

'Cymedroldeb?'

'Ie, cymedroldeb os mynnwch chi,' atebodd Mac Neill yn gadarn.

'Dych chi am i fi fod yn gymedrol. Pawb yn glên wrth ei gilydd. Dim eithafion. Dim nefoedd – dim uffern. Dim Duw – dim Satan. Dim ond Parc Sain Steffan, a'r elyrch yn goglais y llyn, a'r blodau tiwlip led y lawntiau, a thawelwch yr awel yn deidi ym Mehefin. Dyna wir gabledd. A'r byd yn pydru'n ddididig ddymunol rhwng difri a chwarae, heb sioc gweledigaeth a heb grafiad creu. Yr hyn ych chi'n gweld yw

malwoden hunangyfiawn a gwên ar ei hwyneb fel ymgeisydd mewn lecsiwn. Y sefydliad...'

'Does dim pwynt i fi aros i gael yn...' Trodd Mac Neill i gilio, heb fwriadu mynd mewn gwirionedd. Ond trowyd e'n ôl drachefn gan eiriau Pearse.

'Syr. Athro Mac Neill. Dw i'n ddiolchgar i chi am eich ymweliad. Wela i ddim bod unrhyw ddiben i ni bara i ddadlau mewn cylch seithug. Dw i'n cytuno bod eich safbwynt yn rhesymegol, ond mae y mherfedd i'n ymwybod mai fi sy'n iawn... Mae gen i dipyn o waith i'w wneud. Mae hi wedi hanner nos. Heblaw gwaith yr ysgol, mae 'na amryw bwyntiau'n aros i gael sylw ar gyfer y rhyfel.'

Ymgrynhodd Mac Neill i saethu ei fagnelaid olaf: 'Dw i wedi dod yma heno er mwyn dau beth, yn gynta i ofyn i chi, ac yn ail i ddweud wrthoch chi. Yn gynta i ofyn yn ffurfiol i chi dynnu'ch cynlluniau'n ôl, ac yn ail i ddweud os na wnewch chi hynny, yna does 'na ddim eithafion – heblaw mynd at y Saeson eu hunain – tu hwnt i mwriad i. Fe wna i bopeth fedra-i i stopio'r ffolineb 'ma.'

'Mae hi eisoes wedi mynd yn rhy bell.'

'Mae gen i awdurdod o hyd. Bydd y rhan fwya o'r fyddin, os oes 'na hollt, yn derbyn mai fi sy ben. Fe ddôn-nhw gyda fi. Y ngorchmynion i fydd yn cyfri. Fedra i chwalu'ch breuddwydion gwrrach i gyd.' Cerddodd megis yn feddw at y drws.

Roedd y ddau ohonyn nhw ar ddiwedd ulw eu bywydau heb yn wybod, yn pwyso a mesur y blynyddoedd hynny... Beth oedd hyn i gyd? Beth wnes i? Ac i beth?

'Feiddiech chi ddim bradychu Iwerddon fel yna,' galwodd Padrig ar ei ôl. 'Feiddiech chi byth.'

'Dw i'n addo mewn gwaed oer, Pearse, y bydda i'n dadwneud drwy orchymyn bob symudiad o'ch eiddo chi. Fydd gan y fyddin ddim clust i'ch dymuniadau chi. Ac wyddan nhw ddim am unrhyw anghytundeb ymhlith y penaethiaid.'

'Tynnu i lawr yw'ch uchelgais chi, te, oherwydd na fedrwch chi ddim adeiladu.'

'Pa lwybr arall sy'n agored i fi ddyn?'

'Fe allech chi ymddeol, symud o'r ffordd, os na allwch chi ddim ein cefnogi ni.'

'Byth! Mae gen innau ngweledigaeth am well dyfodol i Iwerddon.'

'Mae pethau wedi mynd yn rhy bell, erbyn hyn,' meddai Pearse.

'Yna, gofala i na fydd eich gweledigaeth chithau ddim yn cael ei chyflawni. Fe wna i unrhyw beth... Unrhyw beth heblaw mynd at y Saeson, i danseilio'ch bwriadau chi. Dyna y mygythiad. A sylwch, dw i'n ddigon o ŵr bonheddig, Pearse, i ddod atoch chi'n agored liw nos i'w ddweud o flaen llaw. Nos da.'

#### IV

Diflannodd. Cyn hyn roedd y ddau wedi bod yn cystadlu â'i gilydd o fewn cydestun Iwerddon drwy bobl eraill. Dibynnen nhw rywsut ar y dyfodol nas gwydden nhw. Ymholen nhw'n daer. A fuon nhw'n iawn? Beth fu ystyr eu bywydau? A oedd dim? Ynddyn nhw bu dwy ran un wlad hollt yn ymryson â'i gilydd am roi pwrpas iddyn nhw mewn lle yr oedd pwrpas wedi cael ei drechu gan rywbeth arall na chawsan nhw afael arno rywsut. Ysgolheictod a Gwleidyddiaeth. Traddodiad a Chabledd. Y Gorffennol a'r Dyfodol. Yr Ymarferol a'r Delfrydol... Ond yn awr...

Aeth Padrig Pearse yn ôl at ei ddesg yn syfrdan ac yn unig. Dychwelodd ei fam. Sleifiodd hi i mewn fel creadur clwyfedig. Hyhi oedd wedi'i brifo fwya am ei bod hi'n fam. Ond roedd yr holl ystafell wedi'i chlwyfo.

'Oes rhywbeth yn bod, Padrig?'

'Dim. Dim byd. Ychydig o drafferth gyda Mac Neill. Fe ddaw i'w le'n iawn.'

'Mae e wedi dy siglo di.'

'Na, does dim siglo arna i.'

'Ond rwyt ti'n crynu.'

'Ydw i? Efallai mod i. Mae hynny'n digwydd ar y ngwaetha i. Fel gydag oerfel.'

'Mae hi'n noson oer. Oer.'



'Ydy. Mae hi'n eitha oer. Ond dyw hi ddim yn ddigon oer i ladd dim byd.'

'Ga i wneud cwpanaid bach o de i ni?'

'Te?' Gwenodd. 'Na, mae'n eitha reit, mam. Wyt ti wedi sylwi ambell dro mam fod bywyd i gyd yn gallu rhuthro ar dy ben yr un pryd?'

'Rhywbeth arall heblaw te?'

'Na, na... Dim. Mae dyn yn cymryd gormod o fwyd a diod ar ambell adeg.'

Eisteddodd hi; eisteddodd e ddim.

'Oes gen ti dipyn o waith ar ôl heno eto?' gofynnodd hi.

'Oes... rhywfaint.'

'Mae dy fywyd di'n dun o sardîns, Padrig.'

'Fe licsiwn i pe bai'n dun o forfilod.'

'Byddai'n braf pe baen ni'n gallu benthycu bywydau gan y rhai sy'n eu hafradu nhw'n ddi-ddrwg ddi-dda.'

'Ond chwarae teg iddyn *nhw*, yr un peth wnawn i â'r morfilod ag dw i'n wneud nawr â'r sardîns,' meddai fe.

'Eu cyflwyno nhw. Eu taflu nhw'n ôl i'r môr.'

'Hawdd gweld ar ochr pwy rwyd ti, Mam ... Taflu yn unig fydd yn gwaredu'r byd. Dyna ddigwyddodd yn y gorffennol. A does ar neb eisiau taflu. Mae pawb yn hoff o'i gorff ei hun, y cyfarwydd di-friw. Does yr un ohonon ni am wneud dim ond eistedd yn epiciwraidd yn ein tun bach a darllen, a darllen fel na all ond sardîns; darllen storïau neu wyllo dramâu. Ac anghofio holl beryg yr oriau.'

'Ond does dim diodde da yn ofer.'

'Mewn theori,' meddai Padrig yn chwareus.

'Mae haelioni dy weithredoedd di'n sicr o fyw. Fe fydd dy waith di, nghyw bach i, yn gofadail i ti yn Iwerddon nawr.'

'Hyd yn oed gan y nghyfeillion, fydd gen i ddim cymeriad parhaol. Beth yw rhan fechan? Nid 'Padrig' fydda i. Nid enw, ond awel a chwythodd heibio. *Padrig* wir! Dim ond symbol o sant yw enw, yn aml iawn. Dim ond egwyddor chwiwus un wythnos fydda i: rhywun arall. Fydda i ddim yn berson. Chwythad bach dw i yn llwybr y gwynt. Bydd pawb yn anghofio amdana i, amdana *i fel fi*. Ond taw waeth am hynny...'

'Rhaid i ti ddiolch fod dy fywyd di wedi bod mor gyforiog o wasanaeth.'

'Ambell dro dw i'n gwybod, os na dw i yng Nghrist, mam, does yna ddim. Os na dw i'n plygu, mae'n wag i gyd. Dim o Iwerddon, dim o'r iaith, dim ohonot ti mam, na neb. Mae gwybod hwnnw'n y nychryn i. A dw i'n ei siglo i ffwrdd.'

'O dere nawr, dŷn ni'n siarad fel petaen ni mewn gwasanaeth claddu.'

'Fe ddaw'r dydd yn fuan, mam, pan na fydd dim o hyn i fi. Dim o'r pysgod yn afonydd mân Rathffarnam, na'r gwiwerod yn prancio dros y canghennau, na phlant troednoeth yn sbortian yng nghorsydd Connacht.'

'A Wili, beth ddaw o'r dyn bach yna?'

'Cael ei saethu fel pob un ohonon ni. Fe gawn ni i gyd ein saethu.'

Tynnodd y pistol o'i boced a'i ddodi'n ôl yn y drôr.

'O! Padrig.'

'Dyna yw'r dyfodol,' meddai fe bron yn anhyglyw.

'Meddylia am y nod.'

'Wn i ddim. Fel arfer, dw i'n teimlo mor sicr o bopeth. Ond weithiau... druan o Mac Neill. Mae yntau'n caru Iwerddon hefyd.'

'Hwyrach y daw popeth gystal ag roeddet ti'n gobeithio cyn gweld Mac Neill.'

'Beth yn hollol yw'n gobeithion ni? Allwn ni fyth drechu'r ymerodraeth Seisnig.'

'Ond efallai y ceir math o fyw. Byw ar ôl y gyflafan i gyd,' meddai hi.

'Byw? Heb y Bywyd. Dwn i ddim.'

'Ennill drwy golli, dyna bydda-i'n credu yw dy fformiwla di, Padrig.'

'Pe bawn i'n byw'n gorfforol, efallai, ar y diwedd, pe byddwn i'n marw yn y ngwely, wedi cael yn rhigoli gan afiechyd, a heintiau hwnt ac yma'n tyllu y nwydau i i gyd... efallai y deawn i'n debyg, mam, ... i Mac Neill.'

'Mac Neill?... Rhyfedd! Roeddwn wedi anghofio am hanner eiliad fod Mac Neill i'w gael. Dw i ddim yn deall dim am dy helbulon di, Padrig. Ond mi wn i'r blewyn pan fydd pryderon yn hollt drwy dy galon di.'

'Fe gei di wybod y cwbl...'

'Ca. Mi wn i hynny. Dw i ddim y ceisio holi dim. Fe ddaw popeth i'r golwg pan farni di hynny'n briodol. Ond mae gen i gais arall. Cais arbennig, Padrig.'

Roedd hyn yn annisgwyl, ond gwenodd Padrig yn oddefgar drwy lygaid ei straen, ac yn gymharol nawddogol. 'Cais? Ti, mam? Nid gofyn am ferch yng nghyfraith, gobeithio, nac wyresau.'

Gallai hithau wenu. 'Na, nid y tro hwn... Gwrandda, Badrig...'

Edrychodd e arni'n chwilfrydig am ei bod hi'n fwy o ddifri wrth iddi barhau: 'Wnei di.. os byth byddi di'n dod i drwbwl mawr, wnei di lunio ... lunio cerdd drosto i?'

'Cerdd?'

'Ie, cerdd,' meddai hi. 'Drosto i, ie, a mamau eraill Iwerddon. Bardd wyt ti'n gynta, Padrig, a hynny hoffwn i ti fod yn ola, a hynny mae'n rhaid i ti fod am byth. Wnei di gymaint â hyn drosto-i. Nid milwr wyt ti, ond bardd, a mab.'

'Gwna, ond... Amser, mam, sy'n brin.'

'Cerdd *drosto-i*, a'r mamau eraill, nid cerdd *i* fi, ond cerdd i fynegi'r pethau dw i'n methu'u dweud, gan na dw i ddim yn fardd. Fe fydd y gerdd yna'n dweud rhywbeth drosto i bob amser wedyn.'

'Gwna, wrth gwrs, mam. Ond...'

'Dyna ni, Padrig,' yn derfynol. 'Rown i'n gwybod y byddet ti'n gallu deall cwirciau dwl hen wraig, dy fam, yn y diwedd, ac yn maddau'r cwbl.'

Taclusodd ei phethau, a Phadrig yn eistedd wrth bentwr ei bapurau yntau. Cododd hi tuag at y drws.

'Mae'n un o'r gloch ac yn bryd noswylio.'

'Mae'n rhaid i finnau weithio ymlaen. Mae 'na lawer o bethau ar ôl.'

'Dwyt ti ddim yn mynd i ofidio lawer, Padrig?'

'Na. Ddim llawer, mam. Ddim llawer iawn.'

'Fe a i ymlaen, te. Nos da, machgen glân i.'

Cododd e botel fach a oedd ar y ddesg. 'Tabledi dy gryd cymalau.'

'O, ie, 'gwenodd hi, 'rown i'n anghofio.' Cymerodd hi un. 'Nos da...' Aeth hi'n ôl ato drachefn, a phecian ei chusan ar ei arlais.

## V

Teipiodd peirianddryll gan y gelyn ei neges aflednais a rhugl-galed ar draws un o'r waliau. Neges mewn hanes oedd hi: rhan o ddameg.

Siel helaeth fel blotyn inc anferth wedyn yn rhwygo tir a thawelwch; yn clwyfo'r naill a'r llall gan adael ymylon yn arw ac yn afreolaidd. Roedd y stryd wedi tyfu llwyni o fwg yma ac acw, gydag ambell flodeuyn tân yn siglo ar y brig. Rhedai cwningod arfog i'w tyllau fel ebychnodau heb gynffonnau na chlustiau wedi'u codi yn neges o golli. Natur yn wyllt. Roedd y rhyfel wedi dechrau o blaid Iwerddon Rydd.

Pop-pop-pop-pop, meddai'r drylliau ysmala a thwyllodrus. Pop-pop-pop-pop. Chwarae milwyr.

Opera digrif. Anhrefn hurt...

Anrhydedd cenedl.

Roedd hi'n ddydd Gwener, Ebrill 28ain, 1916. Gorweddaid Dilyn yn ysbytyaidd o noeth mewn rhyw ddadrithiad corfforol mawr na phrofwyd mo'i debyg yno ers saith can mlynedd, a'i chreithiau a'i chlwyfau hen, hen wedi dod i'r golwg yn y Four Courts,

Melinau Boland, wrth bont Mount Street, yn North King Street, wrth Sefydliad y Mendicity, Undeb De Dilyn, a ffatri Jacob.

Ac mewn cornel o un ystafell ar lofft yn y Swyddfa Bost, Stryd O'Connell, Dilyn, roedd Jâms Connolly'n gorwedd wedi ei niweidio gan hen, hen ergyd. O'i gwmpas roedd pentwr o sachau a allai fod yn llawn o lythyrau neu o dywod amddiffynnol neu o dynged. Wrth bob un o'r ffenestri roedd yna ddau neu dri o ddynion yn gwyllo. Bob hyn a hyn bydden nhw'n saethu allan tuag at yr aflonyddwch y tu hwnt.

Clustfeiniau Connolly ar y rhai agosa ato, ac yntau'i hun yn bur ddiymadferth bellach yn ei glwyfau.

Rhegodd y milwr tala o'r grŵp: 'Edrycha.'

'Ble?' gofynnodd yr un bach wrth ei ochr.

'I lawr fan yna.'

'Beth sy?'

'Mae 'na rai'n symud drwy'r siopau'r ochr arall.'

'Eisiau prynu het, mae'n siŵr.' Anelodd, a saethu.

'Fe gwmpodd un het o'r stondin gynnau.'

'Menywod mewn arwerthiant. Does dim byd llai rhamantus.'

Ymyrodd Connolly o ddifri iawn: 'Mae ofn arnyn nhw. Maen nhw wrthi fraich ac ysgwydd yn taflu popeth at y lle yma'n hytrach nag ymosod ar ein canolfannau eraill yn y ddinas.'

Saethodd y milwr bach drachefn: 'Mae honna wedi cael bargaen, beth bynnag.'

'Fe ostynga i bris yr het acw hefyd,' meddai'r hir yntau gan saethu.

Cododd y bychan: 'Dowch i'n siop ni. Chi'r Mac Neills, yr Hobsons a'r O'Connells. Dowch i brynu nwyddau wnaethpwyd yn Iwerddon. Cefnogwch ddiwydiannau brodorol.'

'Dyna ddigon,' protestiodd yr hir. 'Maen nhw'n rhuthro tua'r stryd yma nawr. Fydd dim digon o stwff ar ôl i bawb.'

'Dyna gwstwm! Dim ond gwlad gyfa sy 'ma! Mae'n braf gweld *mynd* ar bethau.'

'Parêd y Pasg.'

'Maen nhw'n tyllu drwy'r tai. Yn torri'r waliau cefn i lawr. Fu erioed y fath frwdfrydedd dinistriol.'

'Ofni,' ymyrrodd Connolly. 'Mae'u hymdrech nhw'n arwydd o ofn.'

'Ofn? Myn cebyst i,' meddai'r bychan.

'Fydden nhw ddim mor barod i ddistrywio adeiladu cyfalafwyr oni bai eu bod nhw'n ofni bydd hi'n mynd yn waeth arnyn nhw,' esboniodd Connolly. Un llythrennol a chonfensiynol ei rethreg fu Connolly erioed fel pob Sosialydd da.

'Diawch!' chwibanodd yr hir. Roedd y bwled yna'n crynu o ofn, syr. Glywsoch chi ei ddannedd e?'

Saethodd y bychan a'r hir gyda'i gilydd, a phwyso'n ôl wedyn. 'Faint o'r gloch yw hi?' gofynnodd yr hir.

Edrychodd y bychan ar ei wats. 'Dw i ddim yn gwybod. Amser cau?'

'Does gen ti ddim wats te?'

'Oes. Ond dyw hi ddim yn cerdded.'

'Ddim yn be?'

'Paid â becsan, dyw hi ddim yn rhedeg chwaith. A dyw hi ddim yn Sais o'r gloch eto dw i'n falch i'w ddweud.'

Edrychon nhw ill dau gyda'i gilydd ar y trydydd, y tew a safai gan dynnu gwllân cotwm o'i glustiau. 'Beth ddwedaist ti?'

'Oes gen ti,' meddai'r hir yn uwch, 'ryw glem faint o'r gloch yw hi?'

'Ôl reit. Ôl reit. Paid â gweiddi. Dw i'n deall popeth.'

'Faint yw'r...?'

'Amser..? Wedi mynd.' Siglodd y tew ei wats. 'Na! Mae yn wats i wedi stopio.'

'Beth yfflon sy'n bod ar bawb?' taerodd yr hir. 'Does neb yn gwybod beth o'r gloch yw hi?'

'Beth gythraul wyt ti'n ddisgwyl was?' gofynnodd y tew. 'Trên?' Ail-wisgodd y gwlan cotwm. Ac edrychodd y tri allan eto tuag at y stryd.

'Wel, pa ddiwrnod yw hi?' gofynnodd yr hir yn ddygn. Ymunodd y tew yn y saethu tenau.

'Dydd Iau,' atebodd y bychan. Saethai.

'Dydd Iau y lob,' gwawdiodd yr hir. 'Dydd Gwener yw hi. Dwyt ti ddim yn cofio ymladd drwy'r nos neithiwr?'

'Ydw, ydw. Nos Fercher oedd hi.'

'Nos Fercher! Sawl noson dŷn ni wedi bod fan hyn?'

'Duw a wŷr.' Saethai.

'Tragwyddoldeb.'

'Ie, dyna ti. Dyna beth sy'n bod. Dŷn ni'n casglu nosweithiau heb ddim oriau. Dyw'r watsis ddim yn mynd. Neb yn siŵr o'r diwrnod. Peth felly yw byw yn nhragwyddoldeb.'

'Cadwa dy lygaid ar led am angyles, ngwas i.'

Saethodd y bychan drachefn: 'Nid angyles oedd hwnna, beth bynnag.'

'Dŷn ni ddim yn y lle arall, ond am ambell eiliad.'

'Mae 'na ryw oglau digon amheus yma'n siŵr.' Saethodd yr hir, a throdd at y tew, 'Bil!' Tynnodd hwnnw'r gwlan cotwm o'i glustiau, 'Pa ddiwrnod yw hi?'

'Beth aflwydd sy'n bod arnoch chi bois?' gofynnodd y tew.

'Pa ddiwrnod yw hi?'

'Diwrnod pae am wn i,' a gwisgodd y gwllân cotwm yn ôl. Saethai drachefn.

'Nirfana efallai! Dyw e ddim yn sylweddoli,' meddai'r hir. 'Mae'r dre 'ma'n gwaethygu bob dydd. Cloc y Swyddfa Post ddim yn cerdded. Dim calendr ar y cownter.'

'Meddylwch,' meddai'r bychan yn bropor iawn. 'Roedd 'na golomen farw ar y palmant tu allan i'r lle y bore yma. Bydd yn rhaid achwyn wrth gyngor y ddinas.'

Ar hynny daeth Padrig Pearse i mewn, mewn iwnniform. Safai heb wên. 'Ust, dyma'r maer ei hun!' sibrydodd yr hir wrth ei bartner.

Aeth Pearse heb wên at y ffenestr yn gynta, lle'r oedd y milwyr, wrth fod y bychan yn anelu a saethu.

'A! Dyna chi. Rych chi wedi eu gweld nhw,' meddai fe. 'Mae nythaid ohonyn nhw acw, ac fe fyddan nhw'n twitian cyn bo hir.' Trodd wedyn at Jâms Connolly. 'Sut mae'r droed Jâms?'

'Ddim yn ffôl.'

'A'r ystlys?'

'Rhywbeth yn debyg. Ddim yn ffôl. Cyflog rhinwedd.'

Eisteddodd Pearse ar sach wrth ei ymyl: 'Yr aflwydd yw bod y bwyd a'r amiwnisiwn wedi mynd yn beryglus o brin. Dw i ddim yn credu byddwn ni'n gallu para lawer yn hwy.'

'Melltith uffern ar enaid Mac Neill!... atebai Connolly, 'ddim hyd nes daw atgyfnerthiad o'r wlad, dych chi'n feddwl?'

'Ddim nes daw Brenin Lloegr mewn drwy'r drws acw a dweud, "ôl reit lats annwyl, chi sy wedi ennill."'

'Faint gwnawn ni bara?' Saethai.

'Hanner awr, awr, ddiwrnod,' meddai Pearse. 'Wn i ar glawr daear. Maen nhw'n gwasgu'n galed nawr. Fe allai bwlch yn yr amddiffynfa olygu'r diwedd.' A phlygodd ychydig yn ddi-weld i ddychwelyd clec am glec yn gyfartal. 'Fe ddiplannodd amser.'



'Rwyt ti'n besimistaidd, felly.'

'Beth ar y ddaear wyt ti'n feddwl?'

'Dwyt ti ddim yn rhyw obeithiol ynglŷn â rhagor o atgyfnerthiad.' Saethai.

'O! Dw i ddim yn credu fod gynnon ni siawns caneri i wneud braidd dim mwy nag aros i gael ein saethu', ebychodd Pearse.

'Felly rown innau'n amau.'

'Ond dyw hynny ddim yn golygu mod i'n besimistaidd.'

'Na.' Clec!

'Fe ddaethon ni i mewn i'r frwydr yma, Jâms,' meddai Pearse yn bwyllog, 'nid gyda'r bwriad o gynilo'r blynyddoedd fel hen wŷr yn ei gadair gornel yn ofni mai'r nesa fydd yr ola. Fe ddaethon ni yma i'w gwario'n llawen, i'w taflu nhw bant oddi wrthon ni er mwyn ennill y pethau amhosib. Fe ddaethon ni yma â'n hieuenctid hefyd i'w luchio fe ar yr allor, ac i ddweud: "Cymer e, Iwerddon. Cymer yr had sy ynnon ni. A gwranda ar ein cân wallgo ni." Y fath gân gaiff ei chanu am byth.' Saethai.

'Ond efallai daw rhagor o'r wlad... Efallai bydd y pwl yma o saethu gan y Saeson yn lleddfu yn y diwedd.'

'Ddim yn ein hoes ni, Jâms.'

'Mac Neill oedd y drwg,' gwgodd Connolly.

'Chwarae teg.'

'Oni bai ei fod e, ar ôl dy weld di, wedi cyhoeddi gorchymyn i'r Gwirfoddolwyr i beidio â derbyn ein gorchmynion ni, fe fyddai miloedd o rai eraill wedi'n cefnogi ni. Iddo fe, dwli oedd y cwbl.'

'Byddai, ond ... dwli *oedd* y cwbl, cofia.' Clec! 'Beth oedden ni'n ei feddwl?' meddai Pearse. *Dwli?* Ie. Ond nid fod yna wacter ystyr yn y dwli hwnnw. Dwli'r afradlon oedd. Heb golli doedd dim ennill. Amhosib oedd curo'r ymerodraeth ag arfau; ond fe allen ni eu curo nhw â marwolaethau. Colli hynny fyddai gwir besimistiaeth.'

'Fe oedd y twll cynta yn y llong i'r dŵr drwyno i mewn.'

'Mae yntau'n ymhyfrydu yn Iwerddon fel pob un ohonon ni,' addefai Pearse. Saethai.

'Doedd dim esgus, Padrig, does byth esgus dros fradwr. Mae bradwr yn amhuro'r dŵr.'

'Mae yntau am ddilyn ei olau ei hun, er na welith e ddim o'n golau ni.'

'Fe oedd y twll cynta, dyna'i ffraint,' ochodd Connolly.

Ffrwydrodd siel yn y pellter fel atalnod llawn ar ddiwedd y frawddeg.

'Oddi ar ddydd Mercher,' meddai Pearse, 'mae'r bad yna ar afon Liffey wedi bwrw mwy o dyllau yn ein gobeithion ni na holl ysgolheictod Mac Neill. Adfeilion yw ochr arall Stryd O'Connell benbwgilydd.'

'Mae'n llong ninnau'n suddo, Padrig. Ac i lawr gyda hi dw i am weld y llygod hefyd yn mynd.'

'Efallai mai doeth fyddai cilio o'r Swyddfa Bost am dro.'

'Na. Byth... I lawr â ni gyda hi, a ninnau'n canu'r *Last Post* mor amwys ag y gallwn ni mewn Swyddfa Bost.' Roedd wyneb Connolly'n fur yn erbyn y peth, ac yn erbyn bod yn amwys.

'Caled yw cilio,' anwylai Pearse y gyffes.

'Cwilydd yw cilio. Colli ysbryd y tu fewn.'

'Fe all fod yn dacteg dda.'

'Y troseddau gyflawnwyd yn enw tacteg!...'

'Ie. Efallai nad oes yna ddim llawer o les o gilio. Cawn weld.' Saethu eto wnaeth Pearse.

'I lawr gyda'r llong, Padrig, i lawr i'r dyfnder.'

'Efallai mai dyna fyddai rhaid.'

'Dyna fyddai orau.'

'Does dim modd dianc yn iawn beth bynnag. Mae'r clo wedi'i drefnu.'

'Dianc! Na!' taerodd Connolly.

'Mae'r Saeson wedi'n hynysu ni'n llwyr yn Nulyn oddi ar neithiwr. Fe losgon nhw flociau o dai i'r llawr er mwyn rhoi rhwydd hynt i'r magnelau. Allwn ni ddim hwylio i ffwrdd heibio i'r rheini. Gyda phob ymdrech ar ein rhan ni i gadw'r cyfathrebau'n agored, roedden ni'n cael chwythwm o fwledi mor dew â drudws yn ein hwynebau ni. Mae eu nerth nhw'n anhygoel. Yn wir, Jâms, y syndod yw ein bod ni wedi para cyhyd: ychydig o gannoedd yn herio miloedd o filwyr hyfforddedig am bum niwrnod gogoneddus. Mae symud i safle saethu arall yn amhosib.'

'Mae'n rhaid i ni bara hyd y Sul.' Saethai.

'Cael wythnos gron o ryddid i'w chyflwyno i hanes Iwerddon.'

'Fe fyddai popeth wedi mynd yn burion,' meddai Connolly, 'oni bai am y *bourgeois* dienwaededig yna, Mac Neill.'

'Anghofia Mac Neill. Dyw e ddim yn cyfri. Yn ôl y negeseuon gawson ni o'r y tu allan, mae Mac Neill wedi bod yn erfyn ar yr awdurdodau i beidio ag ymosod a lladd a llosgi cynifer o'n milwyr ni.'

'Beth mae e'n feddwl yw hyn? Te parti? Neu wledd briodas?' Saethai.

'Awgrymu gwarchae a newynu mae e yn hytrach na lladd. Mae e am arbed bywyd.' Clec! 'Drysu'r gorchmynion nawr mae ei orchmynion e.'

'Dyw Mac Neill ddim yn deall dim ohonon ni.'

'Mae ei galon e'n iawn, Jâms.'

'Mae calon ci'n iawn hefyd ... a chachgi.'

'Mae peryg inni ei gamddeall e gymaint ag mae yntau wedi'n camddeall ni.'

'Clwtyn o barchusrwydd dosbarth canol yw e, Padrig. Sefydliad.'

'Anghofia amdano fe, te ...' atebodd Padrig.

'Oes. Mae gynnon ni ddigon o bresennol heb gorddi'r gorffennol.'

'A cilio yw cwestiwn mawr y presennol.'

'Cilio yw ateb. Ond dyfodol yw'r unig gwestiwn byw bob amser i Iwerddon. Cadwa di'r *cwestiwn* i ni'n dau, gyda'n gilydd, Padrig.'

'Pe bai cilio'n bosib, byddai'n estyn yr ateb o fyw.'

'Popeth ond cilio.' Roedd croen Connolly yn ddigyfaddawd.

'Drwy gilio cawn un wythnos o'r dyfodol, yn arwydd.' Saethai Pearse heb anelu.

'Drwy gilio chawn ni ddim byd ond cilio. Cilio yw plentyn cilio.'

'Oes yna *gynllun i gilio* tybed, os bydd rhaid cilio, gan Joseff-Mair?'

'Dyw e na neb arall ddim wedi meddwl un eiliad am y peth,' meddai Connolly'n derfynol hyderus wirion.

'Ond petaen ni'n symud i adeilad arall heb gael ei losgi gymaint, fe allen ni, efallai...' meddai Padrig, yn fythol optimistaidd.

'Dw i ddim *am* feddwl am y peth.'

'Mae'n bosib fod Joseff-Mair...'

'Fod Plunkett wedi ystyried encilio hefyd fel rhan o'i gynllun mawr? Mae'n amhosib, Padrig.'

'Mae'r Saeson o'n cwmpas ni fel rhwyd o anneall, yn cau'n ara. Ambell dro fe dorrwn ni drwy rai o'r cortynnau, a meddwl am funud ein bod ni wedi torri'n rhydd, a'u bod nhw wedi deall ein holl driciau am gyfnod; ond mae 'na ragor o'r rhwyd ar ôl. A'r bad yn tynnu i mewn tua'r lan i'n taflu ni i'n casglu ar y traeth.'

'Oes rhaid inni ffarwelio â'r môr heddiw?' gofynnai Connolly.

'Y môr yma?' Arwyddodd Pearse y gofod o'i gwmpas â'i law. Saethai.

'Te, Padrig, miri y môr mawr yma o anneall.'

'Dim ond neidio te. Neidio uwchben y rhwyd i ryw ryddid uwch,' rhamantai Pearse. Roedd e heb ddychwelyd i synnwyr amser eto.

'Dw i'n teimlo'n ormod o sardîn. Mae'r bad yna ar afon Liffey'n cau'n enbyd.'

'Ond mae neidio'n sbort o hyd, yn...' Clec!

'Wyt ti'n difaru iti ddewis y neidio hyd yma?' ymyrrai Connolly'n sydyn. 'Yn wahanol i ni fe allet ti fod wedi aros ar dy ben ôl a throi'n ysgolhaig, heb wybod dim.'

'Byddwn, efallai. Fel rhyw Gadfridog academiaidd y mae pawb yn ei gydnabod yn bwysigyn ... Mewn theori, fe fu gen i ddewis erioed. Ar y naill law roedd y llyfrgell lle gallwn i fod wedi cilio ac ymddifyrru'n ddiwylliedig mewn darllen, a'n twyllo yn hun fod y tipyn creu a'r chwilota wnaen ni yn y fan yna o les i ryw greadur. Ac ar y llaw arall, roedd yna fywyd byr yn galw fysai'n genfigen i'r cenedlaethau, byw ar ymyl cyllell, a ngweithred i yn y fan yma, mewn munud o ing, yn weithred o wir greu rhoddedig.' Clyw-wyd siel yn ffrwydro rhwng ei frawddegau. 'Dŷn ni i gyd yn gwybod am fomiau defnyddiol sy'n dinistrio ehangder braf mewn eiliad; ond mae 'na fomiau egwyddorol sy'n ffrwydro yr un mor sydyn ac yn *dodi'n ôl at ei gilydd* yr holl ddarnau gwasgaredig. Yn uchelgais i, er pan own i'n fachgen, oedd bod yn fom felly.'

'Fe ddewisaist ti'n syml, yn rhy syml, ond yn iawn.' Saethai.

'Fe ges i newis: dyna'r drefn, dw i'n credu,' datganai Pearse.

Trodd y milwr bychan tuag at y ddau arweinydd, a gofyn i Pearse, gan ochain yn ysgafn-flinedig: 'Faint mae'n rhaid i ni aros yma, syr?'

'Dych chi wedi bod 'ma eisoes dros fil o flynyddoedd. Wnaiff mil arall ddim drwg i chi.' Ac wedi'r sialens yna, trodd Pearse ar ei sawdl ac ymadael â nhw'n urddasol.

'Dim,' meddai'r bychan, 'dim clem am undebau llafur... a finnau'n teimlo mor gysglyd â chydwybod Cromwell.'

## VI

Dihunwyd e'n ddisymwth, sut bynnag, wrth i Joseff-Mair Plunkett ddod i'r golwg. Carnifal o ddyn: heddiw yn gwisgo breichledau aur, modrwyau mawr, clustdlysau, a chleddyf hir; ac yn cario dryll addurnedig. Chwythodd ychydig o lwch oddi ar ei lawes er mwyn perffeithio'r darlun. Roedd hyn oll yn hwyl.

Cynhyrfwyd sibrydion ymhlith y milwyr wrth y ffenest.

'Dowch i weld hyn bois bach. Plunkett ei hun.'

'Joseff-Mair!' Clec!

'Sut d-dw i'n edrych?' gofynnai Plunkett i Connolly, ag ychydig o'i atal-dweud.

'Fel y gŵr drwg ei hun.'

'Ond sut? Sut?'

'Ble'r wyt ti'n mynd?' meddai Connolly. 'I ddawns gwisgoedd ffansi?'

'Dwyt ti ddim yn g-gwerthfawrogi difrifoldeb y sefyllfa,' meddai Plunkett yn ei friw, gyda pheth atal-dweud o hyd.

'Fi!' ebychai Connolly. 'Difrif? Ond pa iws fydd y cleddyf?'

'Does gen ti ddim syniad am y rhamantaidd.'

'Ond pam cleddyf? Ydy hwnna ar gyfer morâl neu rywbeth?'

Trodd Plunkett fel dawnsiwr *ballet* a'r cleddyf yn yr awyr, ac ebych-ch-chodd yn fuddugoliaethus: 'Dw i'n mynd i briodi.'

'Priodi!'

'Priodi?'

'Priodi!' gwaeddodd un ar ôl y llall drwy'r ystafell.

'Gwyn dy fyd di,' meddai Connolly'n sychlyd. 'Pryd mae'r dyddiad hapus?'

'Heddiw.'

'Heddiw! Ble?'

'Yma,' gan gyfeirio â'i gleddyf at yr union le ar y llawr. Chwarddodd Connolly'n sarrug. Ond roedd Plunkett yn ei afiaith: 'Yn y Swyddfa Bost, mewn gwely dwbl o ryfel, ac Iwerddon newydd yn egino dan ein cefnau ni.'

'Priodi!' gwawdiodd Connolly.

'Beth arall?

'Ond ddyn...'

'Mae'n arwydd o ffrwydro amser, ac yn rhan o'n dameg ni.'

'Ydy, ond ... dŷn cael ein hamgylchu gan arwyddion.'

'Geni byd newydd... Wyddoch chi ddim am y merched yna yn ynsoedd Môr y De fydd yn gwisgo blodau a dail er mwyn gorfodi i'r ha ddod yn ôl?'

'Ac ydy'r Tad Jâms Connolly'n mynd i weinyddu'r sagrafen?' gofynnodd Connolly'n goeg.

'Gawn ni daflu conffeti, syr?' gwaeddodd y milwr hir, gan agor un o'r sacheidiau o lythrau.

'Ie stampiau post o Swyddfa'r Post yn lle conffeti!' meddai milwr arall.' Clec!

'Gwell i chi,' meddai Connolly wrthynt, 'beidio â mynd i gyd gyda'ch gilydd i'r rhialtwch.'

'Fe ges i dipyn o drafferth ar y ffordd,' meddai Plunkett, 'gyda'r cofrestrydd genedigaethau, marwolaethau a phriodasau. Ond ar ôl i fi esbonio iddo-fe nad own i ddim am gael y ngeni yma, dim ond priodi – neu farw, roedd e'n eitha bodlon. Mae ei lyfr genedigaethau'n rhy drwm i'w gario hyd yma: un o feichiau byw yn Iwerddon.'

'Ond beth am offeiriad i'r ordinhad?' gofynnodd y bychan.

'Dw i ar y ffordd nawr i gwrdd â hwnnw.'

'Dwyt ti ddim o ddifri,' meddai Connolly'n syfrdan.

'Mae e'n dod i mewn hyd Moore St., Henry St., a Moore Lane.'

'Ydy'r briodferch wedi cyrraedd? Rhyw fanylyn felly?'

'Grace! Na. Dyna ngofid i, er nad oes neb arall rywsut yn hidio. Dŷn ni'n methu ffeindio'r briodferch ar hyn o bryd, a'r byd yn achwyn oherwydd gorboblogaeth. Ond "Manyllyn! Manyllyn!" medd y Cadfridog Connolly a phawb arall: yr hyn sy'n bwysig

yw scandal y peth.' Gan sibrwd yn awr: 'meddyliwch amdanyn nhw: priodi ar frys, hyd yn oed ar ganol rhyfel. Twt, twt, y cenedlaetholwyr poethwaed yna!' Clec!

'Mae 'na ryw fflam acw, syr,' awgrymodd y bychan.

'Dyna ffrwydrad y Gwaith-Nwy fachgen,' atebodd yr hir.

Camodd Plunkett draw at y ffenest. 'Nage. Gras yw hi, mae'n siŵr. Y briodferch! Mae hi'n arfer llosgi mewn bysedd hir o freichiau'r ddaear, heb ddim mwg.' Trodd. 'Dim ond fflam noeth nefogleisiol sy'n toddi calonnau plwm â'i gwres. Gras! Fe ddwedai'r Gwyddelod gynt mai un llygad oedd gan yr haul. Ho! Ho! Mae dau gan hon. Y ngras i.'

'Neu ti sy'n gweld yn ddwbl wedi meddwi arni,' sych boerodd Connolly.

'Dim gair am y mhriodas wrth y Comandánt Padrig Pearse. Dw i am beri syndod iddo fe.' Ac yntau wedi dychwelyd i'w gornel saethu, codai Pearse ei aelïau heb yngan dim.

'Fydd e'n synnu dim,' meddai Connolly'n syrffedus.

Ciliodd y priodfab potensial. Chwarddodd y milwyr yn ysgafn.

'Wel,' sylwodd yr hir, 'mae 'na afaïth, beth bynnag, yn y rhyfel yma.'

'Ond mae yna amser i bob peth dan yr haul,' meddai'r bychan yn sobrach, 'ac amser i ryfel yw hyn.'

'Ew. Dw i wedi bod yn disgwyl rhywbeth fel hyn.'

'Wrth gwrs, mae e wedi ymladd o ddifri ar hyd yr wythnos. Ambell jôc am ben y gwragedd sy'n glanhau'r Swyddfa Bost...'

'Mae 'na ddewrder yn y dyn, dw i ddim yn dweud llai.'

Tynnodd y tew ei wllân cotwm a holi 'Beth?'

'Mae yna ddewrder yn y dyn, dw i ddim yn dweud llai,' meddai'r hir drachefn.

'Ddim yn beth?' Clec.

'Dw i ddim yn dweud llai.'

'Wel, dywed lai.' Ailwisgodd y gwlân cotwm.



'Ar Wener y Groglith,' ychwanegodd yr hir, 'roedd Joseff-Mair mewn ysbyty yn ymadfer ar ôl triniaeth lawfeddygol. Mae e o hyd yn gorfod trechu gwendid corff.'

'Eto, dyw hynny ddim yn esgus,' meddai'r bychan, yn sobr o hyd.

'Mae e'n fardd wyt ti'n gweld. Ac mae'r briodas hithau'n ddameg anymwybodol.'

Wedi deall yn llawn, siglodd y bychan ei ben; 'O! – Bardd arall. Druan o Iwerddon!'

Saethodd yr hir yn ofalus at y siopau gyferbyn ac meddai'r bychan mewn rhyfeddod: 'Ail eni cenedl gyfan!... ac mae **Joseff-Mair** yma ... Rwythnos diwetha, cyn dechrau'r frwydr, fe ddaeth e ata i â neges roedd e am imi ei chario i ben draw'r dre. Gredech chi byth? "Dowch 'ma," meddai fe (gan arwyddo â'i fys). "Dw i am ichi fynd i Clontarf i'r fan a'r fan." "O", meddwn i'n reit bethma. "Ac yn y fan yna," meddai fe, "fe welwch chi ddyn yn glanhau'i gar. Fe fydd e'n gwisgo rhwymyn o gwmpas ei ben, ac yn rhwbio'r ffenestri â phapur-newydd. Cerwch ato fe, a dwedwch – Mae'r Arglwydd Faer yn dweud fod y gadwyn yn barod."

"Fod y gadwyn yn barod?" meddai'r byr gan droi.

"Fod y gadwyn yn barod: dyna i gyd. Ac fe fydd y dyn yn dweud – Hir oes i wartheg Connemara."

'Gwartheg Connemara, A!' ailadroddodd y byr.

"Ac yna: dowch yn ôl."

'Taw. Oedd arnat ti ofn?'

'Synnwn i ddim,' meddai'r hir gan ledchwerthin, 'os daw ei briodferch e i mewn yn gwisgo'r golwg mwya annhebygol.'

'Efallai daw hi dan gochl a golwg Lloyd George.' Smwddiodd ei wallt yn ôl.

'Synnwn i ddim,' meddai'r hir.

'Meddylwch am yr hwyl yma – Plunkett yn priodi Lloyd George.' Meimion nhw yn hwyliog gyda'i gilydd.

'Y sgandal yn Sir Gaernarfon. Celwyddau i gyd!'

'Eto! Y wledd i'r papurau Sul.'

Tawsan nhw'n awr mewn rhyw fath o foddhad tawel wrth synfyfyrion ynghylch y breuddwydion hyn a safai rhyngddyn nhw a'r ffwdan y tu allan. Yna, adnewyddodd y saethu ryw ychydig, ond yn fwy blinedig na chynt. Ymadawodd Pearse yn ddisylw eto.

'Mae un o faracs y gelyn ar dân,' meddai'r bychan. 'Welaist ti erioed y fath ddawnsio gan fflamau.'

'Dawns Werin Wyddelig.'

'Y tro cynta i brifddinas losgi gystal er dyddiau Moscow.'

'A'r fyddin Seisnig yn y canol,' chwarddodd y bychan.

'Maen nhw yno rywle, siŵr o fod. Mae eu hoglau nhw i'w clywed, beth bynnag.'

Clywsan nhw ergyd drom yn ymddatod yn agos.

'A'u sŵn,' ychwanegodd y bychan. 'Pobl besychlyd ar y naw.'

'Epidemic,' meddai'r hir gan saethu tair ergyd yn olynol i lawr tuag at yr adfeilion ar y dde gerllaw. Yna, gorffwysodd yn ôl a syllu ar y tew a oedd wedi doddi i ddryll i lawr wrth ei ochr ac wedi estyn ei wddwg allan drwy dwll ffenest i arolygu'r wlad. Cripiodd y bychan y tu ôl iddo a gweiddi: 'Stamp tair ceiniog os gwelwch yn dda.'

'Beth?' meddai'r tew yn syfrdan.

'Telegramau wyt ti. Sylwais i ddim. Cownter arall yn Swyddfa'r Post, debyg.'

Doedd dim un cownter arall ar ôl. Gogwyddodd y tew yn ôl wedi pwdu, ond wedi eiliad trodd drachefn, a chan anwybyddu ei ddau gymrawd, dywedodd wrth Connolly: 'Mae 'na amryw, syr, yn llithro o lech i lwyn yn yr adeiladau acw.'

'Gwylwch nhw'n ofalus. Gwell i chi fod yn barod i gilio cyn pen hanner awr. Efallai bydd rhaid i ni symud i le arall.'

'Glywaist ti,' gofynnodd y bychan i'r tew, 'beth ddwedodd Comandánt Connolly?'

'Y? Beth?' Tynnodd y gwllân cotwm o'i glustiau.

Ond gwaeddodd y bychan yn uwch: 'Efallai bydd rhaid cilio oddi yma.'

'Does dim eisiau cywilyddio dim ynghylch ein brwydr ni yn y lle 'ma,' meddai Connolly'n barchus o arwrol. 'Dŷn ni wedi adnewyddu ieuenctid y genedl hynafol hon.'

'Meddyliwch am gorff,' meddai'r bychan yn arwrol tost, 'sy heb anadlu ers cenedlaethau; ac yna, yn sydyn ddisyfyd, mae'r ysgyfaint yn syflyd, ac yn dechrau pwrffian.'

'Ac ar hyd y gwythiennau mae gwaed swil petrus yn crynu wrth gychwyn ar ei gwrs,' ychwanegodd yr hir.

'Bobl annwyl!' meddai'r bychan. 'Dyna symudiad diddorol!'

'A'r llygaid yn dechrau agor gan bwyll.'

'A'r bysedd a'r dwylo'n anesmwytho'n raddol.'

'A'r corff ... yn codi.'

'Wawch!' gwaeddodd y tew yn ddisymwth, 'bois, dych chi'n hala ofn arna i,' gan stwffio'r gwllân yn bellach i mewn i'w glustiau.

'Pam wyt ti'n gwasgu'r stwff 'na yn dy glustiau?'

'Y? O! ddim eisiau clywed y bwled fydd yn yn lladd i. Dyna'r cwbl. Rhyw boen bola felly.' Fe'i gwasgodd yn dynnach.

'Tybed fydd Plunkett mewn pryd?' ymholai'r bychan.

'Â'i briodas?' meddai'r hir.

'Ie.'

'Efallai fod gan yr Eglwys wasanaeth priodas frys debyg i'r eneniad ola brys os bydd dyn ar farw'n sydyn.'

'Chlywais i erioed am yr un.'

'Dyw hi ddim yn amhosib. Maen nhw'n ddyfeisgar iawn.'

'Ond dyw'r offeiriad ddim wedi cyrraedd eto.'

'O mi ddaw, fel lleidr yn y nos.'

Ac ar hynny llanwyd yr ystafell oll â sain ergyd. Cwmpodd y tew yn ei ôl.

'O! Maen nhw wedi nghael i.' Roedd yn dal ei ysgwydd. 'Clywais i honna.'

'Cerwch ato fe, wnewch chi,' gwaeddodd Connolly. A brysiodd yr hir ato i'w ymgeleddu.

'Mae e wedi mynd yn ddwfn,' meddai'r tew.

'Eistedda,' meddai'r hir, 'i ni gael syllu i'r dyfnderoedd.'

Dechreuodd agor côt y tew. Aeth ar ei gwrcwd o'i flaen. 'Eistedda'n ôl,' meddai eto. Clec! 'Ac fe glywais i honna'n dod.'

'Paid siarad nawr.'

'Roedd y belen fach wlân wedi cwmpo allan cyn pryd. Ac fe glywais i'r cythraul.'

Tynnodd y milwr yntau damaid o rwymyn o wadin ac eli o gwdyn bach.

'Gawn ni weld,' meddai fe wrth y tew. 'Dyw e ddim wedi mynd i unman pwysig.'

'Mae'n syndod cymaint o lefydd dibwys sy,' sylwodd y bychan wrth y ffenest. 'Dw i'n eu casglu nhw fan hyn.'

'Ac efallai,' meddai'r hir uwchben ei ddyletswydd feddygol, 'fod gan y tew 'ma fwy na'r gweddill ohonon ni.'

'Ac fe glywais hi.' Allai'r tew ddim deall haerllugrwydd y peth.

'Felly mae hi bob amser,' meddai'r bychan. 'Mae gan bob un gynlluniau mawreddog. Ac efallai mai saliwrt priodas frenhinol oedd honno.' Clec!

'Wel, dyna anfon anrheg priodas at rywun,' meddai'r bychan.

'Eamonn, dere 'ma am funud bachan,' gwaeddodd y bychan yn sydyn. 'Mae sawl un gyda'i gilydd 'na nawr.' Aeth yr hir at y ffenest i saethu gydag e.

'Dw i'n teimlo'n well eisoes,' meddai'r tew gan sefyll. 'Man dibwys. Wel! Dyna od. Ac fe glywais i fe y tro 'ma.'

'A ninnau i gyd ar ganol y priodi,' meddai'r bychan gan saethu. Dychwelodd y tew i'w le wrth eu hochr, a lithrodd Pearse i mewn. Aeth at y ffenest, ac yna at Connolly.

'Mae 'na dân ymhob cyfeiriad,' meddai braidd yn gyffrous ac yn borffor ei wyneb. 'Fyddet ti byth yn dyfalu mai'r gwanwyn yw hi. Mae'r lliwiau'n debycach i'r ha. A haul mawr moesoldeb Iwerddon yn ei anterth.'

'Does dim rhaid cilio, te,' sibrydai Connolly yn llai arwrol.

'Ddim eto. Efallai na bydd dim rhaid o gwbl,' haerai Pearse.

'Pryderu am y carcharorion dw i. Ble maen nhw?' holodd Connolly.

'Yn y seler.'

'Fe fyddai'n fendith pe bai'r rheina o'r ffordd os bydd rhaid inni gilio.'

'Rwy'ti'n iawn. Mae'n rhaid bod yn fanwl iawn yn ein gofal ni o'r rheini. Dynion ydyn nhw.'

'Wel', meddai Connolly, 'os wyt ti'n gytûn, fe anfona i neges i drefnu eu rhyddhau nhw.'

'Popeth yn iawn o'n rhan i. Wnaiff hynny ddim drwg.' Sgrifennodd Connolly ar sypyn o bapur; fe'i pasiodd ymlaen at Pearse; trodd Pearse at filwr. 'Mae'r Comandant Connolly am i chi fynd â hyn at y swyddog sy'n goruchwylio'r carcharorion yn y seler.' Fe'i rhoddodd yn ôl i Connolly.

Estynnodd Connolly'r nodyn i'r bychan.

'Syr!' meddai'r bychan gan saliwio drachefn, a chilio.

'Fe gân nhw eu harwain i le diogel tu hwnt i ffiniau'r ymladd,' meddai Connolly. 'Mi all hyn fod yn drugaredd briodasol.'

'Wyt ti'n gwybod, Jâms: dw i ddim yn teimlo dim digalondid ynglŷn â cholli'r rhyfel yma.'

'Rhegi Mac Neill dw i.'

'Teimlo petruster dw i ynghylch y camre nesa.'

'Nid ni fydd yn dewis y rheini.'

Arwyddodd Connolly â llaw am ei wddf, gan symud i fyny, y crogi a dybiai fe.

'Gobeithio hynny'n wir,' meddai Pearse.

'Ddaw fyth ddyddiau newyn Padrig, fyth eto i Iwerddon ar ôl hyn.'

'Dŷn ni ddim yn marw er mwyn bara, Jâms. Dŷn ni ddim yn marw i dlodion Dulyn gael jam neu gacennau neu gadeiriau esmwyth.'

'Ond fe gân nhw.'

'Dŷn ni ddim yn rhoi'n bywyd er mwyn codi'r safon byw dros ychydig o bwyntiau. Dŷn ni'n marw er mwyn bod yn Wyddelod. Cyfrifoldeb yw hanfod bywyd gerbron y byd.'

'Ond fe fyddwn ni'n ddefnyddiol hefyd.'

'Defnyddioldeb fu'r rheswm ffeindiwyd dros wthio'r Saesneg lawr corn gyddfau'r Gwyddelod. Defnyddioldeb fu'r esgus dros gollu'n pobl o'r cefn gwlad, dros ddifetha'r ireidd-dra oedd yn ein pentrefi ni. Dim ond er mwyn i rywun brynu côt yn rhatach o ychydig sylltau. Dyna gaethiwed Iwerddon. Caethweision y defnyddioldeb pitw: caethweision y ddameg anymwybodol.'

## VII

Camodd Pearse at y ffenest i edrych allan heb saethu. Daeth Plunkett ei hun i mewn y tu ôl iddo gyda'r offeiriad, heb sylwi ddim arno gan Badrig Pearse, ychydig o'r neilltu. Aethan nhw at Connolly.

'Jâms, y machgen i, mae'r Tad O'Flanagan wedi cyrraedd. Y clymwr priodasol ei hunan. Dyma Gomandánt Jâms Connolly, Tad. Dwyt ti ddim wedi dweud dim wrth Badrig gobeithio.'

'Dim gair.'

'Dim sill?'

'Dim.' Trodd Padrig o'r tu ôl (o'r golwg o ryw ychydig), ac edrych arnyn nhw gan wenu.

'Ho, ho,' parhâi Plunkett, yn dal yn ddiwybod amdano, 'dyna ni. Dw i am roi sioc ei fywyd iddo fe. Nawr te, Jâms, ti fydd y gwas priodas, rwyt ti'n deall.'

'Ond alla i ddim sefyll.'

'Dim ots. Dim ots. Priodas *horizontal* fydd hon.' Daeth y tew i mewn o'r ystafell nesa ar frys, heb i braidd neb sylwi arno. Aeth at Badrig Pearse.

'Mae'n rhaid cilio ar unwaith. Mae yna belen dân wedi taro'r to, a tân ar garlam ulw drwy'r Swyddfa.'

'Ond nid cilio!' criodd Connolly o'i gornel.

'Does dim amser i'w afradu,' meddai'r negesydd.

'Pa les yw cig rhost mewn iwnniform?' meddai Pearse. Ac yna, trodd at ddau o'r milwyr. 'Chi'ch dau. Gofalwch am stretsier y Comandant Connolly. Eich cyfrifoldeb chi fydd gofalu am ei ddiogelwch yn ystod y cilio.'

'Sant Padrig ei hunan!' ebychodd Plunkett, o'i weld. 'Roedd e yno drwy'r amser.'

'Rwyt ti wedi clywed y neges,' meddai Pearse.

'Mae gen i gynllun cilio hefyd. Edrycha.' Tynnodd bapur o'i boced. Edrychon nhw, gyda'i gilydd. Roedd Plunkett o ddifri bellach. 'Fe fyddwn ni,' esboniodd Plunkett, 'yn rhannu pob uned fesul saith. Fe fydd y saith ola'n aros wrth y ffenestri'r ochr hyn ac yn saethu fel fflamiau o bob llawr drwy gydol y cilio o wahanol ffenestri fel na bydd neb am amau fod dim byd yn digwydd tu ôl. Fe fydd un o'r seithoedd eraill yn ymgynnull wrth y drws cefn yma. Allan â nhw fesul saith wedyn i lawr fan yma ar hyd llwybr profedig hyd Moore Lane a Henry St..' Ac ymlaen ag e o fanylyn i fanylyn yn llon. Soddodd meddyliau Pearse, Connolly a Plunkett gyda'i gilydd i mewn i gymhlethodau'r cynllun. Ac roedd hi'n amlwg fod llawer o'r anawsterau wedi'u rhagweld a'r dihangfeydd wedi'u rhag-ddarparu. Roedden nhw'n profi cyd-foddhad pan gyhoeddodd Plunkett ar ddiwedd ei amlinelliad: 'Dyna'r gorau gallwn ni wneud, mae arna i ofn. Gall y rhyfel bara wedyn. Ac ymledu.'

'Campus! Dyna'r ffordd amdani,' cytunodd Pearse. Edrychon nhw ar yr Offeiriad.

'Dim gwin priodas heddiw Tad,' meddai Plunkett wrtho. 'Rhaid ei ohirio fymryn. Dyna Amser i'r dim.'

'Dirwestwr yw Amser, y mab i.'

'Cybydd, Tad. Wnaiff e ddim sbario hyd yn oed diferyn dathliadol o funud. Fe allech chi dyngu'n bod ni'n gofyn i'r llwyr-ymwrthodwr hwnnw am ddigon i fagu llond tŷ o blant... Epig fawr yw hyn, Padrig. Cei di ei chlywed hi ym Moore St..'

Trodd y Tad O'Flanagan at Pearse: 'Comandánt Pearse, mae gen innau neges hefyd rywle yn y nghwdyn.'

Tynnodd lythyr i'r golwg.

'I fi?' holodd Pearse.

'Ie.' Estynnodd y llythyr i Pearse, a'i torrodd yn agored.

Roedd y ddau filwr ar fynd â Connolly allan.

'Jâms...' meddai Pearse. 'Mae 'na neges fan yma oddi wrth Mac Neill.'

'Beth mae'r pŵr dab yn ddweud?'

'Pum gair... Chi a'ch pobl biau Iwerddon.'

Tawodd pawb yn yr ystafell. Tawodd y saethu o'r tu allan am hanner munud.

'Mae na rai wedi colli'n waeth na ni, rawron...' meddai Connolly. 'Ymlaen â ni, gymrodyr.'

Ochneidiodd wrth i'r milwyr ei gario fe o'r ystafell.

'Ewch gydag e Tad,' meddai Plunkett. 'Efallai bydd eisiau'ch cysur chi.'

Ar ôl iddyn nhw ymadael, trodd Plunkett at Pearse a'r milwr bychan. 'Fe a-innau i drefnu'r seithoedd. Os gallwch chi, Comandánt Pearse a Phreifat Doyle, aros gyda'r saith ola fydd yn amddiffyn o'r ffenestri hyn dros Stryd O'Connell, fe a innau i'r cefn i drefnu'r seithoedd fydd yn ymadael drwy ddrws seler y cefn. I fyny bo'r nod.'



A chan arwyddo (â'i law am ei lwnc) y crogi a dybiai, camodd yn urddasol o'r ystafell.

'Dych chi ddim yn rhy siomedig syr?' gofynnodd y milwr bach i Pearse.

'Rhyfedd i ni ddal cyhyd, gyfaill,' atebodd hwnnw.

'Dim ond mil o ddynion.'

'Pe baen ni wedi cael dwy fil, a rhagor yn codi yn y wlad, fe fydden ni wedi ennill, yn sicr, syr.'

'Oni bai am Iwan Mac Neill...' sibrydai Pearse.

'Oni...oni...oni... bai...bai... bai.'

'Allwn ni ddim beio Mac Neill yn ormodol. Dilyn ei gydwybod roedd e. Tynged, neu ragluniaeth, nid cydwybod oedd yn ein herbyn ni.'

'Mae hi bron yn Sais o'r gloch... Ond mae na ryw bwrpas i ymladd heb golli,' meddai'r milwr bach yn chwithig.

'Fe olchwyd Dulyn yn lân rhag olion llawer cwilydd, ac fe wnaethpwyd ei henw hi'n ysblennydd ymhlith enwau dinasoedd. Ond mae'n chwith gen i ymadael â'r llecyn bach yma... y di-wely neithior.'

'Pwy fysai'n meddwl y gallen ni ddod mor hoff anfeidrol o Swyddfa Bost, ynte syr?'

'Mewn ychydig funudau fe fydd y Saeson yn pystylad hyd y lloriau sanctaidd yma.'

'Heb ddeall dim.'

'Yr unig bryder sy gen i yw beth 'wnân nhw â ni.'

'Onid oes rhyw rithyn o obaith y daw atgyfnerthiad i ni o'r wlad o gwmpas? ... Neu o'r canolfannau eraill yn y ddinas?'

'Oes. Ond... pan ddown at wir *ddiwedd* y gân, beth wnân nhw?'

'Faint o gosb dych chi'n feddwl?'

'Yr ofn arna i yw byddan nhw am ein trin ni'n ysgafn. Tampio effaith y gwrthryfel drwy'n trafod ni'n ddirmygus o ddihidans. Ac yn drugarog.'

'Peidio â'n crogi ni dych chi'n feddwl?'

'Dyna sy arna'i ofn. Os na dŷn nhw'n ystyried ein bod ni'n haeddu marw, fe fydd y cwbl yn ofer. Fe dawlith y wlad.'

'Maen nhw'n siŵr o grogi rhai ohonon ni.'

'Os na wnân nhw ... disgrifiad Mac Neill o hyn i gyd oedd bag papur. ...Clec! Fel bag papur.'

'O! Allan nhw ddim llai, syr.'

'Maen nhw'n gyfrwys. Mae ganddyn nhw hir brofiad o ladd cenhedloedd. Buon nhw ers canrifoedd yn hel cenhedloedd fel hel stampiau post. Maen nhw'n deall mai diystyrwch yw'r lludw neisa yn y byd i fygu tân. Dyna'r ofn sy arna i.'

'Ofn y cawn i fyw. O! syr. Ar ôl hyn i gyd. Heb ymwarded ag amser.'

'Iwerddon!' meddai Pearse, gan droi oddi wrtho. 'Un foment mae nghalon i'n botsh wrth weld y difa i gyd; a'r foment nesa dw i'n teimlo mwy o barch, mwy o wir gariad at yr Iwerddon na allen nhw byth ei diystyru.'

Edrychon nhw gyda'i gilydd tuag at y goelcerth o ddinas y tu allan.

'Llogi'r aberth, syr.'

'Edrychwch arni. Y fath groeso i'r priodfab!'

Gyrrai'r fflamau i'r entrych fel rhyw hydre o addoliad, tanau offeiriadol yn dawnsio mewn cylch o'u cwmpas; a dychwelai llifogydd o waed porffor mewn cawodydd o wreichion gwlyb dros y ddinas, gan olchi ar eu traws a'u trawsffurfio nhw'n llwyr. Gyrrai'r fflamau i'r entrych.

Onid Paganiaeth oedd hyn oll? Onid dyfnder cabledd oedd hefyd? Oni fuon nhw'n chwarae â thanau mwy ofnadwy na'r rhai a gyneuwyd gan Saeson? Ymaflai Pearse â dirdyniadau'i gydwybod ac â'i ddehongliad ohono fe'i hun.

A oedd e tybed wedi troi Iwerddon ddaearol yn wrthrych i'w addoliad? Onid oedd hyn yn ei wthio i lawr i ryw bydew gau o ddiافolaeth faterol ac allanol. Doedd dim un genedl heb ei bod yn llawn o hunan-addoliad pwdr. Roedd y Feseianaeth y darllensai amdani yn y Beibl ac y pendron'sai gymaint amdani fel rhan real o fywyd wedi cyfarfod ar faes y gad â rhyw hunaniaeth annigonol ac annynol ffaidd ynddo fe a'i wlad, ac yn awr yn ei enaid e roedd yn gweiddi am ateb dilys i hyn oll. Maes y gad oedd ei gydwybod ofer, yn troi'n gabledd. Yna'n raddol, roedd y tân yn llosgi'n dywyllach, yn peswch, ac yn methu â charthu'i wddf, yn disgyn ac yn pallu, ac yn diflannu'n dawel. Fe gafwyd aberth. Roedden nhw wedi'i gwneud hi – i'r dim. Ac roedd arno fe gywilydd.

## VIII

Cell yn Kilmainham: yn gynnar fore Mai 3ydd, 1916. Matras ar y llawr. Bwrdd a chadair. Dŵr mewn jwg wen ar y bwrdd; mwgaid o ddŵr eillio. Crog ar y wal. O flaen y grog roedd Offeiriad a Phadrig Pearse yn penlinio. Cannwyll yn llosgi. Cododd yr Offeiriad, ymgroesi, a mynd allan gyda'r Warder. Arhosodd Padrig ar ei liniau am ennyd, yna cododd a mynd i eistedd ar y matras...

Dychwelodd y Warder a sefyll a'i geg yn llond bol o wawd gan edrych ar ddifaterwch Padrig.

'Ydych chi'n teimlo'n well?' gwawdiai'r Warder. 'Ydych chi'n teimlo'n lân? Fel pe na bai dim byd o'i le wedi digwydd?'

Ymataliodd Padrig y tu fewn i'w urddas. Os oedd rhaid, bodlonai ar fod yn gocyn hitio i ddartiau acen Saesneg Dwyrain-Dulyn y Warder.

'Y trueni yw y byddwch chi'n marw mor gyflym. Fe fysai'n dda gen i petaech chi'n cael eich crogi'n ara. Er mwyn i chi fwynhau yn y munudau ola basiant eich ynfydrwydd,' meddai'r Warder.

'Waeth gen i. Fe liciwn i'n iawn petawn i'n cymryd amser maith i farw, er mwyn sugno'r cwpan i'r gwaelod, a chnoi pob diferyn,' meddai Pearse.

'Wrth eich saethu, dych chi'n cael eich maldodi.'

'Yn unig gŵyn i yw na cha i ddim dawnsio pan fyddan nhw'n saethu.'

'Ydych chi wedi meddwl lle y bydd y bwled yn eich taro chi, tybed? Yn eich wyneb efallai. Yn eich llygad.'

'Tybed, wir.'

'Yn eich stumog.'

'Ydy daearyddiaeth y busnes o bwys?'

'Bydd eich daearyddiaeth chi'n weddol ynysog, beth bynnag; a moroedd coch o gwmpas pob ynys anial dan eich traed.'

'Dw i'n cael yn lladd ar gyfer cinio Meseia-o-ddameg.'

'Y fi fawr! Y Cablwr.'

'Dim byd arall.'

'Cinio go ddiflas fyddwch chi mae arna i ofn, a'r calch fel saws drosoch chi wedyn,' meddai'r Warder, un o'r Gwyddelod naturiol a ddwedasai 'Na' wrth ryddid.

'Gwasgerir pob blas hynaws dros goginiad hwnnw gan yr Un sy'n paratoi.'

'Chewch chi ddim cyfle i suro'r tir, ddyn bach. Bydd melyster calch, fel cymdeithas ei hun, yn llyncu'r breuddwydion creulon i gyd.'

'Gorwedda i yn y calch fel mab yn ei wely priodas. Ac fe droith y calch amdana-i, a'm derbyn i i'w lieiniau terfynol.'

'Does dim byd tebyg i galch am ddileu pethau,' ebychodd y Warder mor falch i ddweud ei ddweud.

'Gwas yw'r calch: yr hyn sy'n od yw cyn gynted ag y caewch chi fedd, mae pethau'n dechrau tyfu ynddo.'

'Fydd dim caretsen yn tyfu yn y bedd bach hyn, cewch fentro. Ydych chi wedi gweld calch wrthi'n blasu aelodau? Yn tynnu gwe'r esgyrn ar wahân, yn agor y gewynnau, yn pydru'r organau rhywiol, yn gafael at y mêr. Dyna'ch Iwerddon, dyna'ch dramateiddio, yn cau amdanoch chi'n glyd.' Trodd y Warder at y dŵr yn y jwg a'i

dywallt yn ara ar y llawr. 'Trueni nad oes dim gwin yma inni gael yfed iechyd i'r Farwolaeth hon.' Cododd a chyhoeddi llwnc-destun: 'Marwolaeth!' Yfodd. 'Mae hi'n cyflawni'i chymwynas orau ers tro byd heddiw.'

Clyw-wyd o bell gamre milwyr o'r tu allan; ac yna gorchymyn megis 'wad, wam'; yna'r camre eto.

'Cyn marw, dw i wedi pluo marwolaeth,' meddai Padrig.

'Chymrith hi ddim o'i phluo, ffrind. Ffŵl yw'r sawl sy'n marw mewn ffansi felly.'

'Does dim o'i hofn arna i. Teclyn yw hi yn y nghynlluniau i.'

'Ceisio mherswadio i dych chi, neu'ch perswadio'ch hunan?'

'Cewch chithau fynd allan, oddi yma, os mynnwch.'

'*Nhw* sy'n gorfodi i fi fod yma ochr yn ochr â chi.'

'Fi sy'n eich gorfodi chi.'

'Fyddwn i'n gwrando dim arnoch *chi*. Celwydd.'

'Y gwir yw...,' datganai Pearse yng ngharpiau'i falchder.

'... Celwydd! Wyddoch chi ddim oll am y *gwir*. Anwiredd oedd y gwrthryfel. Anwiredd oedd eich ysgol afiach chi yn Sant Enda. Anwiredd oedd eich syniadau chi am Iwerddon newydd. Calch fydd y gwirionedd cynta i chi drafod ers tro byd. Anwiredd, anwiredd. Bara menyn yw'r Iwerddon go iawn. Bara ac incwm.'

'Croeso, galch.'

'Frenhines melodrama'n marw er mwyn celwydd.'

'Dw i'n marw er mwyn y byw, a'r bara go iawn.'

'Dych chi'n amharchu angau, yn ceisio'i gamddefnyddio ar gyfer amcanion propaganda, fel pe bai marwolaeth yn rhyw boster bach i hysbysebu plaid boliticaidd.'

Trodd Pearse oddi wrtho mewn ffit o beswch: 'Gadewch lonydd, ddyn.'

'Llonydd! Beth wyddoch chi? Gadewch lonydd i Wyddelod go iawn,' gwaeddodd y Warder. 'Does arnyn *nhw* ddim eisiau'r Wyddeleg a rhyw hynafiaeth

grancaidd fel yna. Mae hi wedi canu ar y stwff yna unwaith am byth. Teclyn defnyddiol oedd yr Wyddeleg ar un cyfnod fel arad bren; ac erbyn hyn does dim lle iddi.'

'Mae hi'n beryglus, 'nghyfaill i. Mae hi'n anadlu. Yn fywyd i genedl.'

'Fel megin mewn amgueddfa.'

'Mae hi'n fyw fel hunaniaeth yng ngardd dynion.' Glynai Pearse wrth y carpiâu.

'Byw! Beth yw byw? Term haniaethol i feddwl gwag,' poerai'r Warder. 'Wyddoch chi beth yw *byw*? Babi bach yw bywyd yn cael ei fathio gan ei fam o flaen y tân. Hen fam-gu annwyl yw bywyd yn rholio toes ar fwrdd pren wrth wneud bara. Tyddynnwr yw bywyd ar ei liniau'n chwynnu yng nghanol yr erfin. Gwyddelod iach fel 'na. Cnawd a gwaed yw bywyd a chroen yn eu lapio nhw; a dych chi wedi dod â'ch drylliau llym a'ch iaith a morthwylio tyllau yn y croen glân a gadael i'r aur oll bistyllu allan dros y tir. Ond mae pobl Iwerddon yn mynd i chwerthin yn wyneb eich iaith a'ch diwylliant. Rhy gall fyddan nhw i ddilyn ffwl fel chi i wlad y Tylwyth Teg.'

Atebodd Pearse ddim eithr syllu'n fyfyrar ar ei draed, ac adleisio'r geiriau: 'Rhy gall.'

Parhaodd y Warder gan ennill mwyfwy o hwyl: 'roedd *rhaid* ichi *ladd*. Marwolaeth oedd eich priod chi, yr hen lanc. Roedd rhaid ei pharedio ar hyd strydoedd-cefn Dulyn i'w harddangos hi i'r tyrfaoedd. Roedd rhaid ichi ei llusgo hi drwy gartrefi pobl.'

'Nac oedd. Doedd dim rhaid cymryd y llwybr yna. Fe allwn i fod wedi datblygu'r chwyldro'n ddof heddychlon.'

'Byth,' ebychodd y Warder.

'Gallwn. A chlywai neb ddim wedyn. Fyddai neb wedi difrifoli.'

Clyw-wyd camre milwyr drachefn o'r tu allan. Ond mynnai Pearse ei amddiffyn ei hun gerbron hwn. 'Gallwn i fod wedi ymladd etholiadau lleol a seneddol neis, cyhoeddi propaganda rhesymegol neis, protestio'n drefnus neis, dwyn perswâd nes bod pawb yn gytûn braf, y Saeson a ni, a datgan i bawb fod yn rhaid i'r hen wlad gael ei rhyddid wedi'r cwbl. Roedd 'na lwybrau eraill.'

'Rhyddid,' poera'r Warder yn ddirmygus.

'Ond nid dyna ffordd-droi go iawn. Mae tröedigaeth fywydol yn disgyn ar eich gwar fel lleidr o'r gwyll,' meddai Pearse. Mae'n heidio ar eich cefn, yn annisgwyl, mae'n taro'r talcen yn ei gnewyllyn a duo pob gardd fach dwt. Nid angen perswâd oedd ar Iwerddon; ond angen *bod* yn Iwerddon. Mae gynnon ni Dduw sy o blaid bywyd.'

'Nid ceisio adfywio Iwerddon roeddech chi, y ffŵl,' meddai'r Warder. 'Ond ceisio marwolaeth i chi'ch hun. Ceisio calch. Mae 'na ddynion ifainc eraill o ddilynwyr lliw calch heddiw yn eu marwolaeth yn union *o'ch herwydd chi*. Ac mae rhyw freuddwyd hunanladdgar yn eu meddiannu nhw oll. Rhamantwyr ffansiöol cableddus.'

\*

\*

\*

Clyw-wyd cnocio o'r tu allan i'r gell. Aeth y Warder allan gan ddefnyddio'i allweddi. Daeth yn ôl â Mam Pearse gyda e, a hithau'n cario handbag.

'Padrig.'

'Mam.' Cofleidion nhw ei gilydd.

'O Padrig.' Ymollyngodd yn ddjarwybod i ochain cyn ymadfer. 'Mae'n ddrwg gen i Padrig. Down i ddim wedi bwriadu crio. Wna-i ddim eto.'

'Cogia dy fod yn graig yn nhir Connemara. Dyna fel dw i'n meddwl amdanat ti.'

'Mi wna i. Dyma y mrwydr i nawr, Padrig.'

'Ac mae'n waeth na mrwydr i, mi wn i hynny mam... Wyt ti wedi gweld Wili?'

'Ydw. Mae Wili'n iawn.'

'Wnân nhw ddim saethu Wili,' meddai Padrig.

'Tybed, yn wir?'

'Na wnân. Dw i ddim yn meddwl... Oedd ganddo fe neges?'

'Nac oedd, am wn i.. O oedd. Roedd e am i fi ddweud un peth. "Fe ddaw'r Pasg i bawb," meddai fe. Dyna'r cwbl.'

'Rhyfeddod yw Wili.'

'Mam rhyfeddodau fues i, Padrig.'

'Iwerddon fuost ti i fi. Ac mae'n dipyn o straen, mam.'

'Ydy.'

'Mae eisiau mwy nag un galon feddal ar fam: mae eisiau calon galed Connemara ymhlith pethau eraill hefyd.'

'Ac ysgwyddau lliw concrit, Padrig.'

'Rwyf tithau yn y frwydr yma gymaint â'r un ohonon ni, mam. Neu'n fwy.'

'Fe welais i'r Offeiriad yn dod oddi yma pan own i yn yr ystafell aros tu allan. Mae e wedi bod gyda thi felly.'

'Wyddost ti ble roedd e'n mynd?'

'Ble?'

'I weinyddu priodas Joseff-Mair Plunkett.'

'Felly: mae'r deryn hwnnw'n cael uno â'i briod wedi'r cwbl.'

'Maen nhw yn ei chanol hi y funud yma.'

'Dw i mor falch.'

'Rwyf ti'n gwenu, mam.'

'Fe alla i gasglu un wên ar gyfer priodas Plunkett.'

'Mae hyn yn rhan o'r ddameg sy'n chwythu drwy garcharau Dulyn y dyddiau yma.'

'Pwy fysai'n meddwl?'

'Ysbryd o ffrwythlondeb a gorfoledd. Pwy fysai'n meddwl mai ni sy wedi colli?'



'Pwy fysai'n meddwl? Nid pawb syn mynd i'r nefoedd am ei fis mêl. Ond dyna ddisgwyliech chi, debyg, gan Joseff-Mair.'

'Saethan nhw ddim ohono.'

'Gwnân, mae arna i ofn.'

'Fe fydd un neu ddau ohonon ni'n ddigon,' meddai Padrig Pearse yn bwylllog.

'Pob un, Padrig, pob un o'r arweinwyr.'

'Joseff-Mair hefyd?'

'A'i briodas e.'

'Y cymysgedd rhyfedda o greadur welais i yn y myw: merchedaidd ac arwrol, sipsi a brenin, cythraul a sant, milwr a phlentyn, gŵr a gwraig.'

'Bardd a gwyddonydd. Ie, Iwerddon i gyd, a neb.'

'Ie, wel, efô a gynlluniodd y gwrthryfel i gyd, bob manylyn, o ran tacteg. Cynllun arwrol. Ac nid arno fe mae'r bai nad aethpwyd ddim â'r maen i'r wal a ddymunodd – sef buddugoliaeth amhosib, mewn priodas.'

'Druan ohonyn nhw ill dau!'

'Druan? Ond welith ddim o'r pâr hwnnw fyth ddadrithiad. Tragwyddol fydd breuddwydion y funud yma. Heneiddian nhw ddim yng nghwmni ei gilydd. Ddôn nhw fyth yn orgyfarwydd â chyfaredd y naill a'r llall. Pâr o golomennod yn fflirtian ac yn fflyrtian rhwng y cymylau fyddan nhw nawr, y pâr bach hwn, yn oes oesoedd.'

'Ond chân nhw ddim plant.'

'Na chân. Na dim pryderon.'

'Ond dim plant, Padrig.'

'Y gwrthryfel tragywydd oedd uniganedig Joseff-Mair,' meddai Pearse â'i gabledd coeg. Roedd yr enw bedydd hwnnw hefyd yn gabledd ynddo'i hun, os yn ddameg anfwriadus.

'Chân nhw ddim cydeistedd yn y gaea a rhannu cyfrinachau.'

'Na chân.'

'Chân nhw ddim toddi i'w gilydd yn deulu.'

'A chân nhw ddim o chwerwder uchelgais y canol oed, a chywilydd siomedig yr hen. Weli di ddim, mam? Chaiff yr un ohonon ni yma wybod plygu cefn a cholli cyneddfau. Fydd gynnwys ni yma ddim oedran mwy. Yr oedran yma heddiw fydd gynnwys ni am byth... Oes rhyw newyddion am Jâms?'

'Connolly? Mae yntau yn yr ysbyty bellach, yn gwella ddigon o'i glwyfau iddyn nhw gael ei saethu. Aiff e ma's fel cricsyn o iach, bron.'

'Saethan nhw ddim ohono.'

'Gwnân, dw i'n ofni.'

'Dw i wedi ceisio esbonio i'r awdurdodau mai fi etholwyd yn Arlywydd dros dro i Iwerddon Rydd. Fi oedd yr arweinydd. Ac fe fyddai yn lladd i'n cyflawni eu pwrpas nhw'n llawn. Un dyn. Does dim lles o saethu mwy na mwy – fyddai dim modd tynnu llinell derfyn. Dw i'n gobeithio y bydd 'na bardwn i'r lleill.'

## IX

Yna'n sydyn gwaeddodd y warder yn watwarus ar eu traws: 'Y Meseia, yr un Dyn a'i gwnaeth ei hun yn Dduw! Fe sy am gael y clod ei hun. Edrychwch Hanes! I gyd ar y mhen bach yn hun. Ac Iwerddon a'r byd i gyd yn cael eu hachub i nefoedd faterol... Dim hôps o beryg. Nid peth felly yw Cristnogaeth, ddyn! Nid y naturiol yw'r goruwchnaturiol! Nid hunan y byd hwn yw hunaniaeth y nef! Nid cawdel y pridd yw cynllun Duw!... Y ffŵl dyn-ganolog, ble ei di ag Anwiredd cableddus fel yna?'

'Paid â sylwi dim arno...' meddai Pearse wrth ei fam, ond roedd e wedi cael ei siglo.

'Mae yntau wedi'i glwyfo hefyd, dw i'n siŵr,' meddai'i fam.

'Glywaist ti'r newydd am Mac Neill, mae'n debyg, mam.'

'Do, druan. Yntau wedi cael ei gondemnio dros ei oes. Rhyfel i'r byd i gyd yw hyn, hyd yn oed iddo fe. Mae pob teulu-o-wlad yn hiraethu am gyfrifoldeb yn y microcosm hwn.'

'Ydyn; ond maen nhw'n crafu gwaelod y sach, mae arna-i ofn,' meddai Pearse. 'Am mai Mac Neill oedd Llywydd swyddogol y Gwirfoddolwyr, debyg.'

'Fe wnaethon ni i gyd gam â Mac Neill. Ac fe wnaeth gam â ni. A cham mae yntau'n ei gael nawr... Gwlad ar gam. Cam, cam o wlad.' Trodd y geiriau'n ffit o beswch i Pearse yn ei wddw.

'Dw i ddim yn licio'r peswch na, Padrig,' meddai hi'n anghofus.

Pesychodd drachefn.

'Gwell iti ofalu am hwnna, neu...'

'Bydda i'n methu mynd am wyliau'r mis nesa?' meddai Padrig.

'O! Padrig.' Estynnodd y Warder freichiau trwm ato'n faldodus wawdus.

'Beth yw barn y bobol am hyn i gyd, mam?' holodd Pearse.

'Yr un farn â finnau,' ymyrrodd y Warder. 'Gwyddel dw-i.'

'Mae hynny'n wir,' cyfaddefodd hi.

'Dyw Iwerddon ddim am fod yn "rhydd",' meddai'r Warder. 'Crechwen sy yn y strydoedd. Dirmyg casineb am y methiant gwyllt ymhlith gwerin y ddinas. Neu ddieter, llid tuag at y gwastraff i gyd, gwastraff bywydau ac adeiladau.'

'Yn arbennig adeiladau.'

'Mae breuddwydiwr anghyfrifol yn burion mewn mynachdy,' meddai'r Warder yn llawn ei fochau o wawd, 'ond rhowch chi wn iddo fe...'

'Rown i'n ddwl i ofyn y cwestiwn. Hanner y stori ddwedwyd hyd yma. Heddiw y byddwn ni'n dweud y gweddill ... Gobeithio.'

'Gwamal yw pobl,' meddai'r fam yn gysurlon. 'Paid â phoeni amdanyn nhw.'

'Ond nhw sy'n bwysig,' meddai Pearse. 'Nhw yw Iwerddon. Nhw yw diwyllio. Allwch ddim rhyddhau neb heb ei fod yntau'n gwybod ei fod yn gaeth gynta, a beth yw gwerth rhyddid wedyn.'

'Does dim dal ar bobl. Cnawd ydyn nhw wrth raid.'

'Ond mae'n rhaid eu bod nhw'n bwysicach na phleidleisiau. Mae rhyddid drwy aberth yn rhodd i'r genhedlaeth nesaf. Mewn hanner can mlynedd bydd pob un wan ohonyn nhw'n siarad yr Wyddeleg.'

'Ond yn dewis siarad Saesneg.'

'Ar allorau'n cyrff ni, bydd diwylliant newydd yn cael ei weinyddu.'

'Paid â marw ar gyfer hynny, machgen i. All di ddim dwyn cyfrifoldeb y cenedlaethau-i-ddod oddi arnyn nhw.'

'Heb hynny bydd y cyfan yn seithug.'

'Byth Padrig.'

'Dyna ffrwyth ein beddau ni.'

'Y mab annwyl i, byddi di farw am fod marw'n gywir lân, er y mwyn i, er mwyn dy ffrindiau, er mwyn d'elynion, ar gyfer ein dydd ni, ac er mwyn cyfiawnder. Mae'n dweud y gwir. Mae'r mamau heddiw'n lanach o'th herwydd di. A'n dydd ni fydd dy dragwyddoldeb di... yn hollol ar wahân i farn y lliaws. Ar wahân i anwadalwch y dyfodol. Ym mhurdeb dy weithred dy hun, mae hynny'n ddigon.'

'Na. Mae 'na orfodaeth ar y wlad yn ein marwolaeth ni. Dŷn ni'n gwasgu deffroad arni hi. Mi gaiff effaith.' (Try Pearse yn awr i ddweud ei baderau wrth grog.)

'Wel, i fi, Padrig, mae gen i falchder yng nghalon gwylltineb y ngofid, balchder dy fod di a Wili a'r lleill wedi cerdded yr un llwybr caled, heb gyfri'r gost i chi'ch hun, i fi, nac i neb. Dim ond y gwerth. Wyneb yn wyneb â'r farwolaeth sy mewn bywyd ar bob llaw dych chi wedi dyrchafu'r mamau. Wedi dyfrhau blodau bywyd â'ch gwaed eich hun. Mae hynny'n ddigon. Mae yna werthoedd yn y fan yna, ffaeledig, ond yn rhan o drefn.'

'Dw i'n falchach ohonot ti, mam, nag y gelli di fyth fod ohono i.'

'Dibynna ar wneud y peth iawn.'

'Dw i'n dibynnu ar lwyddo,' meddai Pearse. 'All y mamau mwyach ddim llai nag esgor ar genhedlaeth fydd yn caru'n hiaith ac yn dwlu am hanes ein traddodiadau ni.'

'Gallwn, gwae ni Padrig, gallwn,' meddai'i fam.

'Heb hynny, fydd na ddim llwyddiant.'

'Bydd, Padrig, bydd.'

'Ein lladd ni yw'r llwyddiant.'

'A'ch byw. Er gwaetha'r pydredd i gyd. Y ffaith eich bod chi wedi edrych i lawr drwy'r dyfroedd lleidiog pan oedd pob un arall yn syllu ar y smotiau baw'n nofio ar yr wyneb.'

'Fe fydd hynny'n ysbrydiaeth i rywrai,' meddai fe.

'Na. Allwn ni ddim rhag-weld dim. Pe bai'r byd yn gorffen yfory nesa dych chi eisoes wedi cadw darn o Iwerddon yn loyw ar gyfer y ne. Dw i'n ffyddiog.'

Poerodd y Warder rhyngddyn nhw: 'Mae e wedi ei ddamnio.'

'Y mhlentyn i!'

'Ydy. Ei falchder e yw ei ddamnedigaeth. Dyw e ddim yn ddigon gostyngedig i fod yn fyw.'

'Balchder?' meddai'r fam. 'Hwn?'

'Llofrudd! Bysai fe'n hoffi pe bai'n cael carchar fel carcharor rhyfel, mae'n siŵr. Ond marwolaeth bradwr gaiff e. Dyna mae'n ei haeddu.'

'Gerbron Duw mae'r truan yn ddiniwed,' hawliai hi.

'Ond beth am yr angau sy wedi mynd â'i gart drwy strydoedd Dulyn yr wythnos diwetha 'ma? Ei waith e.'

'Dynion yn amddiffyn eu gwlad,' meddai hithau.

'Mae pethau fel hyn wedi digwydd o'r blaen,' ychwanegodd Pearse, 'ugeiniau o weithiau lle bynnag bydd dynion ac asgwrn cefn ganddyn nhw, ac eraill am ddwyn eu gwlad oddi arnyn nhw.'

Gwaeddodd y Warder o'i go: 'Gwlad! Does gynnw ni ddim gwlad ond y byd. Rhyngwladwr dw i. Carcharorion brad ych chi, nid carcharorion rhyfel.'

'Beth wyddoch chi am y byd? Mae'r genedl hon – yr un real dŷn ni'n gyfrifol am ei gwaed – wedi cael ei ffresáu yn ein gwaed ni,' mynnodd Padrig. 'Mae ieuencid byw yn llamu o'n beddau ni.'

'Ho! Ho! Gwaed merthyron sy'n golchi Iwerddon dan ein traed, ie-fe?'

'Ie.'

'Sy'n tynnu Iwerddon o'r baw?'

'Yn hollol.'

'A chi! Dych chi am fod yn ferthyr... “Hylô machgen i, beth ych chi am fod ar ôl tyfu'n ddyn, yn yrrwr trê neu'n yrrwr lorri?” “Yn ferthyr, mami.” “Merthyr machgen i?” “Ie, merthyr, run fath â'r Meseia.” “Chwarae teg, machgen glân i. Fe fyddwch yn siŵr o fynd i'r nefoedd wedyn... Gwynfyd pob merthyr.” Ond nid merthyr ych chi. Dim ond actio merthyr. “Edrychwch arna i bobol. Yr arwr sy'n rhoi ei fywyd dros Iwerddon. Yma dw i'n sefyll, er mwyn yr iaith, i gael yn saethu. Y llofrudd! Ydych chi wedi ystyried yr ugeiniau o gartrefi hiraethus heno? Ydych chi wedi cofio am y bylchau na chân nhw fyth mo'u clytio ?...” Roedd gen i **frawd**,' meddai'r Warder. 'Roedd e'n henach na fi. Dw i'n cofio, pan own i'n fachgen, feddwl y byd ohono fe. Roedd e'n gry ac yn chwareus. Gwyddel oedd e, run fath â chi a fi. Ac fe chwythwyd hanner ei wyneb i ffwrdd gan eich rhyfel chi. Do. Pe bawn i wedi bod yn farnwr drosoch chi, byddwn i wedi cyfri eich saethu'n foeth... A'r calch fydd yn ysu pob briwsionyn o'ch cnawd chi ac yn toddi pob asgwrn – O na bai'n gallu bwyta'ch enaid hefyd bob sleisen ohono... Diolch fod y gwir Feseia'n fwy na merthyr.'

Roedd y fam wedi cael ei dal yn ddryslyd nawr gan y rhethreg ddiotal hon. Aeth tuag at y Warder a dal ei dwylo'n erfyniol tuag ato, 'Machgen annwyl i, dych chithau'n rhan o'r buredigaeth hefyd.'

Ciliodd y Warder yn reddfodol o'i blaen hi, a gweiddi'n ôl: 'Cerwch. Does arna i ddim eisiau dim o'ch tosturi chi. Ei fywyd e, dyna sy eisiau arna i. Dych chi wedi diffodd y goleuadau ar y dyn cyffredin... Doeddech chi ddim yn nabod y mrawd. Un o'r lliaws oedd e. Un o'r giwed. A saethu i berfedd y giwed wnaethoch chi ddoe, heb ddethol, heb hidio pwy oedd ar ffordd. Roeddech chi wedi colli'ch nerf. Saethu i'r niwl.'

'Roeddwn i'n ofni fod Iwerddon ar gael ei thagu,' protestiodd Pearse yn daer.

'Lladd rhywun rywun yn gwbl anghyfrifol. Doedd dim enwau ar neb, dim teuluoedd, dim plant gartre'n disgwyl cael eu hymgeledd. Mae yna Iwerddon arall, Iwerddon ddilys a chyfeillgar. Iwerddon naturiol iach sy'n dweud Na wrth eich "rhyddid" chi.'

'Lladd i amddiffyn. Roedd gen i gyfraith aruchel a moesol tu ôl.'

'Does bosib!' yn ddirmygus. 'Cyfraith!'

'Oedd, gerbron rhagluniaeth, roedd yna reswm. Roedd yna raid.'

'Y mab i,' ebychodd y fam, 'gad iddo fod.'

'A'ch dwylo'n ddifrycheulyd,' parhaodd y Warder, 'oherwydd eich lladdfa foesol.'

'Dw i'n difaru dim. Dim.' Mor drist o gyffes i bechadur.

\*

\*

\*

Clyw-wyd ergyd o'r tu allan. Ymgroesodd y tri, ac aeth y Warder allan gan ddefnydio'i allwedd, ond heb gloi ar ei ôl.

'Tom Clarke, mae'n siŵr,' casglodd Pearse. 'Fe oedd y cynta felly.'

Croesodd y fam ei hun eto. 'Boed i oleuni tragwyddol dywynnu arno fe.'

'Rhyfedd mai fe oedd y cynta.'

'Tom Clarke oedd yr hyna,' meddai Padrig. Pesychodd drachefn. 'Roedd gynnon ni i gyd barch ato fe. Dyn bach diymhongar unplyg, caredig a disymud. Roedd e'n gallu cofio'i dad yn dweud wrtho pan oedd e'n ifanc: 'Ffŵl wyt ti, Tom, yn ceisio dymchwel rheolaeth Lloegr yn Iwerddon. Bwrw dy ben yn erbyn wal rwyt ti.' A blynyddoedd o dlodi ac o galedi gafodd e oherwydd ei greddo rhamantaidd. Tlodi a chaledi nes iddo fe gael ei luchio i gornel carchar rai blynyddoedd yn ôl yn bump ar hugain oed. Carchariad oes. Un ar bymtheg o flynyddoedd mud a bas ac absennol. Er mwyn i'r Deyrnas Unedig fwydo De-ddwyrain Lloegr yn ôl y ffrâm. Ac fe ddaeth Tom allan a'i ewyllys yn pefrio'n fflam o hyd tu ôl i'w sbectol, a'i benderfyniad wedi suddo'n ddwfn yn ei fochau tyn.'

'Wyddwn i ddim mai yn y carchar yma roedd e nawr. Faint ohonoch chi sy yma?' holai'r fam.

Dychwelodd y Warder; ond ddaeth e ddim ymhellach na'r drws. 'Nage, un o'r milwyr 'wnaeth y sŵn, yn fwy nerfus na'i gilydd y bore 'ma. Peidiwch â becsan. Chi Pearse gaiff yr anrhydedd o *arwain* yr orymdaith hon pan fyddan nhw'n barod. Mi gawsoch chi'ch cyfri felly yn *arweinydd* yn ôl eich dymuniad.'

Aeth allan drachefn.

## X

Estynnodd y fam ei dwylo tua'i mab: 'O Padrig.'

'Does dim achos llefain,' murmurodd Pearse. 'Dim achos torri calon. Dw i'n mynd at y muddugoliaeth. Pe bawn i wedi marw cyn wythnos y Pasg, yna fe allet ti fod wedi taflu dagrau, a gadael i wendid drwytho a throchi pob aelod.'

'Fel arall mae hi wedi bod,' meddai hi.

'Rhaid diolch nawr mod i wedi cael y fraint o gyflawni nhipyn breuddwyd, o fyw tan y funud hon. Fe a i allan bellach i herio'r meirwon: bydd yn ysbryd i'n poeri at y drylliau.' Dychwelodd y Warder. Ond ddaeth e ddim ymhellach na'r drws. Roedd yn gyffrous braidd ac wrth ei fodd.

'Maen nhw'n edrych yn fendigedig. A'u drylliau wedi'u caboli ac yn disgleirio'n



ffres yn y bore. Pob un mewn iwnniform newydd.' Ciliodd eto gan gloi'r drws.

'Wna i ddim dweud celwydd wrthot ti, mam,' meddai Pearse. 'Dw i'n ofni methiant.'

'All hyn ddim bod yn ofer.'

'Yn holl fraw i yw...'

'...methu nawr, gwn i.'

'Nawr? Roedd 'na adeg gynt pan fyddwn i'n gweld dynion ifainc yn y mreuddwyd yn llamu o medd. Llanciau hardd a'r Wyddeleg yn gesair o afiaith o'u gwefusau. Yn llawn o awydd cyffelyb am ferthyrdod... Ond nawr fydda i'n breuddwydio dim am hynny. Mae gen i hunlle. Dim ond celanedd sy'n codi, breichiau esgyrnog, gwallt carpiog, heb neb yn siarad yr Wyddeleg, neb oll yn yngan yr un iaith o gwbl... ond ystadegau economaidd.'

'Paid chwilio am ganlyniadau ac ymhlygion. Symleiddia dy feddwl, Padrig. Roeddet ti ...am *farw*. Mae'n fath o gysur chwithig, coeg.'

'Am farw i bwrpas ac i ddilyn egwyddor.'

'Ti oedd am farw.' Roedd ei llais yn galed: 'Mae llawer, heb ddymuno marw, yn gorfod marw mewn rhyfel heb gredu ynddo. A rhai eraill am farw sy'n methu marw.'

'Ond roeddwn innau *am farw*,' mynnai yntau ei argyhoeddi'i hun.

'Dy ladd yw dy lwyddiant,' meddai llais meddal y fam yn ceisio bod yn galed.

'Dw i am fod yn siŵr na dw i ddim yn marw'n ofer.'

'Alli di ddim bod yn hollol siŵr.'

'Mae'n rhaid.'

'Nid ti yw'r barnwr. Chei di ddim sicrwydd dynol. Nid ti sy'n penderfynu dy ddiwedd eitha.'

'Ond dw i am weld ystyr yn y peth.'

'Na.'

'Dw i...'

'Na, na, na...' Ac yna tynerodd. 'Ow Padrig!' Taflodd freichiau amdano, ac ochain.

'Mam, weithiau rwy'ti'n gyrru ias 'lawr y nghefn i, bron fel petaet ti am i fi farw.'

'Dw i ddim yn gwybod beth dw i eisiau'i gael. Y machgen annwyl, annwyl. Mae hi'n rhy hwyr nawr. Tydi oedd am farw mewn ffydd. Bod gyda thi oedd y ngwaith i, a hynny yw y ngwaith i nawr, yr unig waith, wrth dy ochr. Nid i ddweud celwyddau. Ond dy garu, a bod yn gwmni. Paid synied ymhellach na hynny. Wna innau ddim chwaith.'

'Rown i am farw.'

'Dyna ti.'

'Rown i am farw, a cholli pethau melys byd byw. Hynny oedd y nhynged.'

'Dy ragluniaeth. Paid â glynu wrth ddim ond hynny, y nghariad i.'

'Dw i wedi meddwl am hyn i gyd o'r blaen. Wedi cofio hwyl hyfryd y bechgyn ifainc yn yr ysgol, a'u gwerthfawrogiad a'u hymddiried tawel. Wedi pwysu llawenydd Connemara, a ffresni diwrnod croyw o wanwyn. Ac ochr yn ochr â'r cyfan wedi gweld nod; ac wedi penderfynu yn y mriw fod taflu'r cwbl er mwyn hynny yn iawn.'

'Heb fargeinio ddim, y mab i.'

'Diarddel y mywyd oll fel 'na.'

'Yn ddiamod.'

'Felly...a bydded felly.'

'Ow Padrig, mae'n rhaid iti lwyddo felly. Alli di ddim ond dal ati.'

'Ond ar y ngwely yma yn y carchar, dw i wedi amau... dw i wedi bod yn darllen y Beibl... a chael sicrwydd ac ansicrwydd... darllen hyd waelod y mhechod yw hyn.'

'Dyna ti, darllena... darllena, y mab i, darllena i beidio ag amau... darllena i geisio a chael...'

'Dw i wedi dychmygu mai hunlle oedd bywyd. Aflendid hyd yn oed. Gwyrdroi. Sianelu gwirioneddau eraill y bues i'n chwarae â nhw i mewn i mhwill bach i yn hun.'

'Yna gwrandawa ar dy gydwybod newydd sbon. Ond gwrandawo sy orau nawr, Padrig.'

'All hyn oll ddim bod.'

'Gwranda'r gwir. Mae hynny wedi bod ar waith drwy'r amser, yn dy geisio di.'

'Dw i'n ofni methiant. Ond dw i ddim yn gwybod.'

'Ond os wyt ti'n chwilio'r golau... efallai mai paratoi oedd y cyfan arall hwnnw... y ffolineb... yr anwybodaeth...Gad i'th anwybodaeth, machgen annwyl annwyl i, d'yrro di i guro ar y drws mewn ymostyngiad... i ti geisio'r Gwir.'

Clyw-wyd camre milwyr o'r tu allan fel curo ar ddrws. Aeth y fam at y drws i edrych trwy'r barrau, a throdd drachefn: 'Paid dechrau bargeinio nawr. Wnest ti ddim o hynny o'r blaen. Fe ddewisaist ti dy ddyletswydd heb amodau. Wnest ti ddim dweud: "fe a i allan i farw ar yr amod bydd yr Wyddeleg yn fyw." Na. Yr hyn ddwedaist ti oedd: "Rheidrwydd yw arllwys gwaed." Ac roedd hynny'n wir hefyd.'

'Ond nid y ngwaed i oedd yn bwysig. Ac nid yr Wyddeleg oedd yr hyn oedd yn bwysig; ond y Gair a'r Gwir. Hynny sy'n damnio i, mam mi wn, y nghabledd i. Ac yn y ngoleuo i fwyfwy mwyach yn y munudau ola hyn.'

'Mae hynny'n galed, Padrig. Ond os yw e'n wir...'

'Mae'r cwbl oedd gen i... doedd e ddim... ond rhyw hocws pocws cyntefig. Dw i'n bhwman ym myd gwaed llifeiriol ac aberthau. A heb feddwl am y gwaed go iawn, fe ellid cablu. Y mhechod mawr i.'

'Mae modd *maddau* cabledd hyd yn oed. Efallai mai symlder derbyn y Meseia oedd nod y gwyrdroi i gyd i ti yn y diwedd, y nghariad. Does dim eisiau ei ddadansoddi y tu hwnt i'r ffaith honno. Cydia yn dy unplygrwydd plentyn o'r newydd ac yn Ei symlder E heb i ti gynnig dim oll ond edifeirwch ac ymddiried.'

'Dw i fel petawn i wedi ei golli fe. Y peth sylfaenol.'

'Anghofia di am dalu'r iawn *dy hun* dros Iwerddon. Nid Duw wyt ti. Y symlder yw ... na elli di ddim gwneud hynny *dy hun* o gwbl. Pwy wyt ti, Padrig? Pwy dw *i*? Dwyt ti ddim yn ddigon. Anghofia'r angen am lwyddiant ynot ti *dy hun*. Pechadur wyt ti. Anghofia bopeth, ond am yr Un sy'n cynnig popeth. Rhaid i ti fethu, iddo Fe lwyddo.'

'Ond anghofio cyfiawnder?'

'Anghofio cael cyfiawnhad gen ti *dy hun*. Anghofio canlyniadau ohonot ti *dy hun*, yn ôl dy ddeall bach *dy hun*. Duw biau'r Cyfiawnder yn y diwedd. Ei Gyfiawnder E a ddyrchafa genedl. Dim ond ffigur mewn dameg wyt ti.'

'Dyw yn hen syniadau i yn *hun* bellach yn ddim heddiw ond ffolineb. Cymerais i Dduw yn llawer rhy ysgafn.'

'Dos yn d'ôl at ymgyflwyniad syml y plentyn, Padrig. Mae'r heddiw newydd hwn wedi dod i ti am byth. Paid â hawlio dim arall. Fe gei di obeithio yng ngwaelodion d'enaid, ond derbynia'r hyn sy'n cael ei gynnig iti fan hyn. Dim ond gofyn: 'Planna fi, Arglwydd, planna fi ar fynydd uchel. Planna yn lludw i fel had ar fynydd. Atat ti Arglwydd dw i am ddod.'

'Ond mae'r syml yn cymhlethu bywyd fel yn eiddo i.' Arhosodd e am foment, un o'r enydau ara yna lle y mae popeth fel pe bai'n digwydd yn dawel yr un pryd. 'Dw i, mam, ... dw i'n ei gweld hi nawr... Dw i'n ei weld E eto nawr. Ow mam, ceisio modloni i yn *hun* dw i wedi'i wneud yma yn y gell fel ar faes y gad. Yr hen ego pechadurus sy wedi bod wrthi eto.'

'Dyna ti, y mab i. Gwyn ei byd y genedl honno y mae'r Arglwydd yn Dduw iddi.'

'Ceisio amddiffyniad wnes i. Ceisio gwobr i mywyd yn *hun*, y ffŵl dall. Fi yn *hun* ddaeth yn wlad i fi, nid Iwerddon hyd yn oed, na chyfiawnder chwaith. Cael yn ngogoniant yn *hun* oedd y nod. Un peth da sy wedi clirio'r cymysgedd i gyd: fan hyn yn llwnc angau, dw i wedi bod yn corddi meddyliau drwy'r pethau ddarllenais i'n blentyn. Dw i wedi bod yn gwrando. Neithiwr... Nawr... Roedd y cwbl fan hyn yn baratoad. Cofiais lawer tro ddarllen am Feseia'r Testament Newydd, heb sylweddoli beth oedd ei ystyr e. Derbyn nawr y Person sy wedi dod aton ni, i mewn, o'r tu allan, dyna fwyfwy yw'r hyn sy'n digwydd i fi. Dyna sy'n syndod. Ar un llaw, Iwerddon a'r cyfiawnder

ddylai fod ynnddi hi, ac ar y llaw arall, hwnnw'r Crist a'i Gyfiawnder dwyfol y tu hwnt i'r cyfyngiadau deall. A'r marw glân anhunanol hwnnw yn Nuw. Feddyliais i erioed y deuai hi i hyn, Mam. Pob peth roedd Iwerddon wedi'i olygu i mi, methu â deall oedd y cwbl hwnnw erioed, methu â gweld. Methu. Ac ar y llaw arall, Hwn, dyma'r Un, yn fwy nag Iwerddon, a gynhwysai'r bydysawd i gyd. Roedd y methu'n baratoad rheidiol. Gweld hwnnw, ei adnabod E hyd yn oed fel y sgrifennwyd amdano, a'i ddewis, a'i gredu. Beth sy'n digwydd i fi, dywed?'

'Edrych ar dy lwybr gwirion plentyn, a cherdded hyd-ddo'n syml.'

'Symlder yw hi nawr. Y camgymeriad wnes i oedd ceisio pob math o esboniadau dirgel dros fynd y ffordd yna. Dw i'n ei gweld hi eto'n well. Dwylo mawr yn ymestyn.'

'Ofnadwy syml yw marw ei hun, Padrig. Rhaid marw yn y da am ei fod e'n dda. Rhaid marw o gariad am ei fod e'n gariad, ac i Grist am mai Crist yw E.'

'Dw i wedi bod yn bwdwr mewn bywyd, mam. Dyna oedd y nghymhlethdod i ar hyd yr amser. Ac wyneb yn wyneb dw i'n derbyn Crist nawr am Ei fod E'n dweud hynny.'

'Dyna ni: nid Duw wyt ti.'

'Mor hunanol, mor fochaidd o hunanol dw i, mam.'

'Ie: pechadur wyt ti, wedi'r cyfan... sy'n marw nawr o gariad a rhyfeddod.'

'Diolch am hynny.'

'Dyna i gyd... Wedi edifarhau, mi obeithia i, am dy gabledd di.'

'Fe alla i ffarwelio â hyd yn oed Iwerddon nawr. A ffarwelio wedi'i gweld hi'n gliriach.'

'Galli...Ow Padrig, dw i'n teimlo mor ddiymadferth.' Cydanweson nhw ei gilydd. Ac yna safodd hi'n ôl: 'Mor bell dw i oddi wrthot ti, rywsut. Bedd yw'r safle-gwylio i fam, heb allu gwneud dim.'

'Nawr, nawr, mam,' meddai fe'n chwareus. 'Paid â nhroi i'n syffra-jet ym munudau ola y mywyd. Mae bod yn Gristion yn ddigon o droi am heddiw.'

Daeth yr Offeiriad gyda'r Warder yn ôl.

'Y ddau hyn, mam,' meddai Pearse, 'Offeiriad a Warder, maen nhw'n cydweithredu â'r gwanwyn er mwyn bod yn ha ifi.' Pesychodd, ac ychwanegu: 'Cofia gymryd y tabledi'n rheolaidd ar gyfer dy gryd cymalau ... bob nos.' Aeth y fam ato a'i gusanu. 'Y Mhadrig i... Fe fyddan nhw fel cymundeb.'

Cyfarchodd Padrig yr Offeiriad: 'Dwy oedfa mewn awr, Tad: dych chi wrthi fel lladd nadroedd y bore ma.' Estynnodd Padrig lythyr i'r Offeiriad a sibrwd yng nghlust hwnnw, 'I'm Mam i: rho hyn iddi hi wedyn.' A chil-sisialodd, 'ac yna y Deyrnas fydd.' A throdd at y Warder: 'Does arnoch chi ddim chwant dod gyda fi?'

Aethan nhw allan, Padrig a'r Offeiriad. Dilynodd y Warder nhw hyd y tu allan i'r drws, ac yna ddychwelyd.

Sylwodd y fam ddim arno. Drwy ei hymennydd gallai hi weld y baban a gafodd, ddim arall. Dyma'r mab a feithrinodd, y gŵr ifanc a addolodd yn ormodol: 'Y nghyntafanedig: mae e'n mynd allan ar ei ben ei hun i gael ei ddifa. Cha i ddim o'i weld e'n gorwedd yn ddwfn yn ei galch, a cha i ddim gweld ei gorff marw hyd yn oed... Yn ôl at lanhau'r tŷ nawr. Rhyfedd sut gymaint o ddwst sy ar y ddaear, yn disgyn ar bopeth, ar freichiau, ar freichiau cadeiriau, ar goesau, ar lyfrau, ar bob dyn ac anifail. Dwst, dwst, dwst. Dwstio a chysgu. Dwst cwsg. A chysgu, ond byth i freuddwydio hen freuddwydion eto. Er bydda i'n ceisio consurio'r rheini'n ôl at ei gilydd, ddôn-nhw fyth fel yna eto. Dwi i'n cenfigennu wrthot ti, Padrig, ac wrthot ti, Wili, ddau fab annwyl y mreichiau. Fe fyddwch chi'ch dau'n cysgu, ond *fi* fydd yn profi'r breuddwydion newydd yna'n mynd yn awr hyrddi-gyrddi amgylch-ogylch uwchben eich dwst yn oes oesoedd.'

Eisteddodd hi wrth y bwrdd. Dychwelodd yr Offeiriad, ac estyn y llythyr a sgrifenasai Padrig iddi, y gerdd a luniasai Padrig drosti. 'Y gerdd... ei gerdd e drosto i,' murmurodd hi. Dechreuodd hi ei darllen o'r llythyr yn herciog, ond heb ei themlo bron:

*Dw i'n gwarafun dim: arglwydd, gwarafun dim*

*O'm dau fab cry welais i'n mynd allan*

*I dorri eu cryfder ac i farw, gyda'r ychydig,*

*Mewn protest waedlyd dros beth sy'n ogoneddus.*

*Fe fydd siarad amdanyn-nhw ymysg eu pobl,*

*Fe gofia'r cenedlaethau amdanyn-nhw*

*A'u galw nhw'n fendigaid;*

*Ond fe ddweda innau eu henwau wrth y nghalon yn hun*

*Yn y nosweithiau hir,*

*Yr enwau bach oedd yn gynefin unwaith*

*O gylch yn aelwyd enfawr i.*

*Arglwydd, rwyt ti'n galed wrth famau:*

*Fe ddiodefw'n ni gyda'u dyfodiad a'u mynediad;*

*Ac er na dw i'n gwarafun dim, dw i'n blino*

*Oherwydd y galar hir – Ac eto mae i mi lawenydd:*

*Roedd y meibion i'n ffyddlon ac ymladdson nhw.*

*Clyw-wyd ergyd o'r tu allan.*

Fel pe bai'r llythyr wedi'i saethu o'i llaw, cwmpodd y papur. Pwysodd ei phen ar un llaw ond heb grio: 'Mae Iwerddon wedi diffodd y golau meidrol mwya a dywynnodd arni hi erioed. O fab i fab fe gariwyd y gannwyll fach hyd at ein dyddiau ni: erioed, ac nawr, wedi'i hollti'n sbennydd yn un goelcerth anferth, fe'i mygwyd hi. Mae Iwerddon wedi colli ei golau naturiol i gyd, y golau annwyl ola; a finnau wedi colli mhlentyn.' Yn chwerw, wedi anadl hir, siglodd ei phen. 'Y fraint! Yn frwnt.' Braidd ar goll. 'Yr handbag? Iwerddon, ble ei di?' Gan geisio codi. 'Yr anrhydedd.' Methu â chodi. Pwysodd ei thalcen ymlaen ar un llaw. 'Mae'r gwanwyn wedi dod.' Yna, rhoddodd ei breichiau ar y bwrdd a'i phen yn pwysu i lawr arnyn nhw – heb sŵn, mewn gweddi. 'Cadwer fi rhag chwerwi.' Daeth y Warder ati a rhoi un fraich yn gysurlon am ei hysgwydd.

## Y FFOS OLA

'Mae e'n edrych yn debyg i bob pentre gwledig arall i mryd i.'

'Felly y mae, wrth gwrs. Ond mae yna un peth dw i am ei ddangos i chi.'

Agorodd Dr. Joël Lefèvre ddrws y car, a disgynnais innau o'm hochr i. Gŵr a wnaethai'i ddoethuriaeth ar ddiwylliant brodorol Canada oedd Lefèvre.

'Fuoch chi i fyny yma wrth astudio'r arferion coginio yn y parthau hyn?' gofynnais.

'Do; ac yn cofnodi geirfa hela yr Ati-tofa.'

'Oedd rhywun rhugl ar ôl mor agos â hyn i Montreal?'

'Un, a bod yn fanwl. Hen fachgen. Matama. Hwnnw dw i am i chi ei weld.'

Gadawson ni'r car, a mynd i fyny'r unig stryd yn y pentre. Tai cyffelyb i'r patrwm welson ni ym mhobman arall oedden nhw, ond eu bod rywfaint yn fwy tloidaidd. Tua chanol y pentre, ar bwys siop lle y gwerthid cerfluniau pren o'r Wryy Fair, dyma ni'n stopio ac yn edrych o gwmpas.

'Fan yma rywle roedd hi. Dowch ar yn ôl i.' Trodd y tu ôl i un o'r tai cyfagos, ac yn y cefn ar ei phen ei hun roedd yna sied do-sinc, adeiledd hynod amrwd, fel crwban cyn-hanesyddol, a'r ystyllod a ffurfiai'i chragen yn suddo i mewn: y to a'r muriau'n cynnal cystadleuaeth fygythiol pa un a ymollyngai'n gynta.

'Cymeriad yw hwn. Hen ryfelwr digymrodedd. Wyneb callestr. Mae e'n gwrthod pob grant gan y llywodraeth i adeiladu ei dŷ gwareiddiedig ei hun; yn gwrthod pob cymorth-dâl a phensiwn. Gwrthod yw craidd ei natur. Dyna'r gwir, mae'n gwrthod popeth.'

'Fe yw'r unig un sy'n dal i siarad yr iaith yn rhugl yn yr adran hon o'r llwyth?'

'Ie, heblaw am un ddynes sy'n medru dyrnaid o eiriau. Eto myn hwn ei siarad hi â phawb, os siaradith o gwbl. Does dim ots ydyn nhw ei deall neu beidio. Ac mae ei



eirfa'n eithriadol bur. Mae e'n llunio cyfansoddeiriau newydd ac ati, er mwyn mynegi syniadau technegol diertth.'

'Ond sut mae e'n gallu dal ati os nad oes neb arall yn ei ddeall?'

'Styfnigrwydd. Dyw e'n hidio dim oes yna ymateb. Mae ei ymennydd, wrth fyw mor unig, yn parhau ag e'i hun wrth feddwl. Mi wrthodith dorri gair o Ffrangeg â neb. Os na ddeallwn ni mohono, ein hanlwc ni yw hynny.'

'A'i anlwc yntau.'

'Dyw *hwn* ddim yn byw mewn byd o lwc. Fe ddewisodd gyfanfyd o anlwc lawn ar y cychwyn cynta fel petai, a'r tu fewn i'r amodau yna mae e'n symud ac yn bod.'

Roedden ni ar drothwy'r drws erbyn hyn, ac wrth i Joël godi ei law i guro, fe'i hagarwyd gan ŵr ifanc duwallt, perthynas fe dybiwn i'r hen Indiad, ond un heb fedru'r hen iaith, heblaw am ambell air. Cododd hwnnw'i law, ac yna sibrawd o'r neilltu, 'Mae e'n bur wael.'

'Ers pryd?'

'Ers tair wythnos. Mae e'n marw.'

'Beth sy'n bod arno?'

'Y clwy arferol. Styfnigrwydd.'

'Ydy'r meddyg wedi'i weld e?'

Edrychodd y gŵr ifanc yn ddiymadferth a thynhau ei wefusau yn ateb inni. 'Dyw e ddim yn deintio briwsionyn erbyn hyn. Mae e'n edrych ar y wal ac yn marw. Dowch i mewn i'w weld.'

Llithron ni i mewn i'r sied dywyll. Ar wellt yn ymyl y wal bella, gallwn weld ffurf orweiddiog yn llwydo o dan flancedi, a thas o wallt gwyn yn gwasgaru tuag i lawr i ymgymysgu â'r farf o gylch ei wyneb.

'O lach, olama di,' meddai Dr Joël gan ei gyfarch, yn falch fod ganddo ar go ddyrnaid o'r ymadroddion blêr a gasglasai yn sgil ei ysgolheictod.

Symudodd y corff, a chrynodd y farf fymryn, a daeth rhwnc distaw o'i chanol, ond yn gwbl annealladwy i Joël megis i minnau. Aeth Joël ymlaen yn herciog, fel yr esboniodd i fi wedyn, i ddweud wrth yr hen Indiad ei fod e wedi dod â chyfaill o Gymru i'w weld e, ac yna gofynnodd ifi ddweud rhywbeth yn Gymraeg, gan gyfieithu drosto-i i'r bwndel ar y llawr.

'Math o Indiaid yw'r Cymry,' meddwn i. 'Maen nhwythau wedi cael eu hamddifadu o'u cyfreithiau a'u hawliau cenedlaethol. Mae eu hiaith nhw, y Gymraeg, yn cael ei herydu gan wasgfydd estron. Maen nhwythau'n ceisio bod yn gyndyn hefyd, yn bathu termau technegol ac yn y blaen. Yr un pryd dŷn ni'n gobeithio ennill yn ôl y fraint o'n rheoli'n hunain. Yn wir, y dyddiau hyn mae seicoleg y genedl yn dechrau cryfhau, a hyder newydd, urddas newydd yn dychwelyd.'

Drwy gydol yn araith, ddaethai dim smic o gyfeiriad y llun cudd. Roedd ei ddistawrwydd e'n ddiosturi.

'Ydy e wedi nghlywed i?'

'Ydy, ac wedi deall.'

'O!' meddwn braidd yn siomedig oherwydd prinder cythlwnng yr ymateb.

'Mae'n disgwyl y meddyg eto,' meddai'r Indiad ifanc.

'Oes pwrpas?'

'Nac oes, ond y meddyg ei hun sy'n mynnu dod.'

'Bellach, roedd y ffurf yn gwbl lonydd a di-sŵn heblaw am ei hanadlu.'

'Matama,' meddai Joël yn Ffrangeg, 'dw i wedi cyhoeddi'ch rhestr ddiwetha o dermau pysgota ac enwau nentydd ym Mwletin y Brifysgol, yn yr un cylchgrawn ag y bu'ch termau hela ac enwau peuoedd coedwigol.'

Doedd dim adwaith. Fe glywon ni ymsymud wrth y drws, a daeth pen coch y meddyg ifanc lleol drwodd a gwenu fel giât ar bawb. 'A sut mae'r hen barablydd diddan y bore yma?' holai gan glosio at y claf.

Doedd dim ateb. Trodd y meddyg aton ni, gan ofyn yn Ffrangeg: 'Ydych chi'n ddieithriaid yn y parthau hyn?'

'Dw i wedi bod yma sawl gwaith,' meddai Joël, 'ond o Gymru mae nghyfaill i'n dod.'

Ar hyn, dyma'r pentwr wrth y wal yn ymysgwyd ac yn troi tuag ato, yn ymgodi'n llafurus ar un penelin ac yn edrych fel eryr tuag aton ni'n pedwar. Safon ni'n syn. 'Ralach Galsdi amarat,' meddai fe'n ffyrnig, a phoeri – ei eiriau ola, ac yna suddodd yn ôl drachefn, a'i anadl yn awr yn fwy ysbeidiol wyllt. Cylchodd ei gorff o'i benliniau hyd ei gorun yn dynn fel pelen. Phrotestiodd e ddim pan aeth y meddyg ato gyda'i stethosgôp i'w brofi. Trodd hwnnw yn ôl aton ni.

'Pum munud,' meddai'n gwta broffwydol.

Safon ni'n rhes gan ddisgwyl. Ond ddaeth yr un sŵn drachefn o ganol y bwndel afluniaidd. Ymhen pum munud peidiodd yr anadlu, peidiodd yn gwbl ddigyffro, heb ochenaid. Un eiliad roedd e gyda ni, a'r nesa doedd e ddim ar gael; yr un sŵn iawn, dim ond llonyddwch pur. Aeth byd cyfan heibio.

Trois i at Joël, 'Beth oedd hynny i gyd ar y diwedd, – y ffrwydrad?'

'Melltith ar eich hen Gymru chi,' meddai.

\*

\*

\*

Yn ystod y daith yn ôl i ddinas Québec roedd Joël yn dawedog am gryn amser. Ond pan gyraeddod ni Trois-Rivières, dechreuodd sgysio ynghylch Matama.

'Rown i'n ei nabod e ers ugain mlynedd, chi'n gwybod. Fan yma yn Trois-Rivières y gwelais i fe'n gynta, mewn ffair. Roedd e wedi cael hanes brith am fflynyddoedd cyn i fi daro wrtho.

'Am y rhan gynta o'i fywyd, paffiwr proffesiynol fuodd e, ac roedd y gwaith yn ei daro i'r dim, gan ei fod yn cael mynegi'r ysfa yna weloch chi i ddial neu i gasáu neu i ffeiddio'r estroniaid sy wedi dwyn y cyfandir hwn oddi ar yr Indiaid. Ond fel llawer o'i hil, fe ddaeth y whisgi bach ar ei wartha a'i ddal e yn ei grafangau. Fe aeth yntau'n dew ac yn flonegog. Tuag wyth ar hugain oed oedd e, yn methu â chael brwydrau wedi'u

trefnu mwyach. Ym mhen hir a hwyr fe adawodd e'i gyfarwyddwr paffio a chrwydro ar ei ben ei hun draw i'r gorllewin, ac yna aeth e i fyny i Alasca, meddan nhw. Doedd e ddim yn torri'i wallt. Roedd yn cysgu lle y gallai ac yn cardota pres a whisgi; yn crwydro o bant i bentan o israddoldeb i israddoldeb. Ac eto'n falch.

'Erbyn cyrraedd deugain oed, roedd e'n hen ŵr, a'i wallt a'i farf flêr yn gwbl wyn; a'i dalcen a'i fochau'n rhychiog a'i ysgwyddau'n hongian dros ei fola.'

'Dilyn ffeiriau'r oedd e'n caru'i wneud. Yn y rheini fe fyddai fe'n cwrdd â meddwon newydd o ardaloedd diarth o hyd ac yn medru drwy'i iaith ei hun eu perswadio nhw yn eu cwrw i estyn peth elusen iddo fe. Roedd bywyd crwydrol y ffair hefyd yn atyniad iddo.

'Yn Trois-Rivières y noson honno – hynny yw, y noson y gwelais i fe – roedd yna gylch paffio wedi cael ei osod, a rhyw Americanwr Buck Wallace yn herio pawb pwy bynnag i fentro dair rownd gydag e. Eisoes roedd pump o fechgyn praffa Trois-Rivières wedi'u lefelu ganddo. Er bod gen i ddigon o lygad at baffio i wybod na byddai'r Wallace yma'n fawr o giamster yn erbyn gwrthwynebydd go lew, roedd e'n ddigon diogel yn erbyn amaturiaid yr ardal hon – a phob ardal arall y byddai'r ffair yn debyg o ymweld â hi.

'Rhaid bod Matama wedi'i fesur e'n gyffelyb hefyd, a rhaid bod y wobr o hanner can doler wedi cosi'i dafnod a'i lwnc, oherwydd ar ôl i Wallace lorio'r pumed gwrthwynebydd, dyma'r hen Indiad druan – ynghanol chwerthin pur wawdus – yn ymlwybro tua'r cylch drwy'r dyrfa. Pan welodd Wallace y penwyn crwm yn dringo i'r cylch, dyma fe'n arwyddo â'i ddwrn na chymerai fe ddim o'r fath ornest.

'Dere'r cachgi, yr ianci brwnt,' gwaeddai'r Indiad yn iaith yr Ati-tofa o ganol ei fudreddi. A mynnodd i'r eilwyr strapio'r menig ar frys am ei ddyrnau. Roedd e'n ymddangos yn ŵr ymhell dros ei drigain oed, nid yn unig oherwydd lliw ei wallt a golwg oedrannus ei wyneb, eithr hefyd roedd ei goesau'n ddi-gig a'i fol yn hyll o godiog. Roedd e'n ganrifoedd oed. Ond buan y gwelodd pawb wrth ei safiad a'i arddull, – yn ôl y modd y daliai'i freichiau ac y symudai o gwmpas y cylch – nad yn ei wisgi y daethai ac nad dyma'r fentr gynta iddo i'r fath amgylchfyd.

'Dawnsiodd Wallace yn hyderus o'i gornel, a rhoddodd Matama gernod iddo a'i sobrodd yn ddisyfyd. Arhosodd e ddim i'r Americanwr ymadfer, a dilynodd gydag ergyd destlus i'w ganol ac yna ddau ddyrnod glân i'w fryst – bam-bam – nes bod y gŵr a oedd wedi bod yn arglwydd Trois-Rivières funud ynghynt yn awr yn gwingo'n erbyn y rhaffau. Roedd y dyrfa'n syfrdan ac yn ubain nerth eu hetiau wrth i'r henwr farchogaeth i mewn ar ôl ei ysbail, pobun wedi mopio'n lân ar yr hen bensinydd wedi troi'n farchog o'r Ford Gron. Cynrychiolydd oedd ar ran holl weiniaid y byd. Clatsien chwith wedyn tuag at arlais Wallace, ond roedd hwnnw wedi medru dowcio, a defnyddio'i draed chwim i symud yn ôl allan o gyrraedd yr henwr enbydus hwn a oedd yn ei sarhau e gyda phob eiliad a âi heibio. Cafodd gyfle hefyd i saethu'n ôl, ond symudodd Matama ei ben ryw fymryn, a chwifiodd y trawiad yn ofer yn yr awyr. Clowten wedyn i glust dde Wallace, a bonclust didrugaredd i'r un lle drachefn. Roedd yr hen fachgen, er bod ei draed yn symud yn ara ddigon, a'i ben yn isel, yn medru gwau ei freichiau'n gynnil ar draws y cylch. Erbyn hyn roedd Wallace yn fwy gwyliadwrus; llechodd yn ôl rywfaint, ac yna pranciodd yn betrus ymlaen gan estyn chwith at lygad Matama: methodd hwnnw â'i osgoi, a chododd chwydd ar ei ael. Un, dau, tri dyrnod wedyn – ta-ta-ta – ar ei gorff, a cholodd yr hen ŵr dipyn o'i stêm dan yr ymosodiad. Roedd y naill a'r llall yn fwy gofalus bellach, yr ifanc yn esgud a'r hen yn fwy pendant ei ddyrnodiau. Pwniodd Wallace fogail Matama, a chiliodd hwnnw lathen neu ddwy. Roedd tipyn o ffusto'r Americanwr yn melino'r awyr erbyn hyn wrth i'r hen Indiad wyro a gochelyd. Canodd cloch diwedd-y-rownd, wrth i'r hen ŵr ail-gyrchu a phwyo bryst ei wrthwynebydd.

'Dechreuodd yr ail rownd yn dawel. Ac yn ystod yr hanner munud cynta fe rowndien nhw fel pe bai'r naill yn aros i'r llall ymagor. Yna'n ddisymwth, wedi colli'i amynedd, hyrddiodd Wallace i mewn i'r hen Indiad, gan ddyrnodio chwith-chwith a cheisio â'r dde gyrraedd clicied ei ên. Ond aroglodd Matama gochni; tynnodd yn ôl yn gyflym, gan ddychwelyd gyda churiad cadarn i lygad ei wrthwynebydd. Agorodd hwnnw fel pabi, a ffrydiodd y gwaed yn felys hyd y cynfas. Ceisiodd Wallace godi'i ddeuddwrn o flaen ei wyneb i'w amddiffyn ei hun, ond roedd yr hen lwynog wedi aroglu ager buddugoliaeth. Dilynodd gyda slasiad i'r trwyn a chwalodd ddyrnau'r amddiffynnydd. Yna disgynnodd cenllysg ei fenig ar wyneb Wallace druan, a hwnnw'n

cilio i gornel heb allu cysgodi. Suddodd ar un pen-lin, a dechreodd y canolwr gyfri. Doedd Wallace ddim yn anymwybodol nac wedi colli dim o'i gyneddfau, ond roedd wedi derbyn curfa dost enbyd, ac roedd cig ei wyneb yn gors hagr. Bŵiodd ychydig o'r giwed o gwmpas y cylch, gwatwarodd eraill, tra oedd eraill yn ei annog yn obeithiol. Ond roedd hi wedi canu arno.

'Ar ôl y ddedfryd, cwrcydodd yr Indiad ar ganol y cylch ac yna llamodd i'r awyr gan godi ei law dde a gweiddi "Ocwllw", yn null ei lwyth. Roedd yr hen gwilydd wedi ymguddio drachefn o'r golwg o flaen sgil ei ddyrnau.

'Wedi hyn fe'i huriwyd e gan gyfarwyddwr y ffair i deithio gyda nhw; a chyda'i wallt gwyn a'i olwg hynafol, roedd yr Hen Indiad yn atyniad neilltuol, yn herio pob paffiwr i dair rownd gydag e yn y cylch. Felly y bu e'n crwydro'n rheolaidd ar hyd a lled Canada ac yn y Taleithiau gogleddol am bum mlynedd o leia, hyd nes cyrraedd Vancouver un ha. Ac yno, fe gafodd ei falu gan wŕ a oedd ddeunaw mlynedd yn iau nag e ac wedi paffio'n broffesiynol dros rai blynyddoedd. Derbyniodd ei lygad de y tro hwn y fath driniaeth gïaidd nes iddo gollu'i olwg, a holltiwyd cig y llygad yn ddwy.

'Cripiodd o'r frwydr ar y diwedd, a'i amrant ynghau. A heb gŵyn nac esboniad llechodd i'r gwyll, ac ymlwybrodd yn ôl yn ara tua thiriogaeth ei lwyth.

'Doedd e ddim wedi rhoi'r gorau i'w botio, a daliodd i suddo'n gorfforol gan bwyll bach. Roedd e'n gynhenid gry, wrth gwrs; a da hynny, oherwydd bu'n rhaid i'w gorff ddal gaeafau creulon a maeth alaethus o brin am flynyddoedd.

'Erbyn i fi ei weld e yr ail waith, ryw bedair blynedd yn ôl, roedd e fwy neu lai fel y gwelsoch chi fe ar ei wely angau. Ches i ddim croeso gydag e am fisoedd, hyd nes iddo ddeall mai gwybodaeth bur ynghylch iaith ac arferion yr Indiaid lleol oedd yn unig gymhelliad i wrth ei boeni, a'm bod i'n edmygydd mawr o'u gwareiddiad cain. Ond hyd yn oed wedyn doedd e ddim yn rhyw barod iawn i ateb namyn yn ffurfiol ac yn gryno. Wnâi e byth ymagor yn llawn. Caeai ei ysbryd a'i iaith amdano fel y caeasai'i ddyrnau o flaen ei gorff gynt. Doedd e ddim yn ymddiried yn iawn yn ei gymdogion Indiaidd hyd yn oed, a dirmygai eu dull lled Americanaidd o fyw.

'Eithr wyddoch chi, roedd yr hen baffiwr hwn yn gwybod ar ei go gannoedd o hwiangerddi, miloedd o ddjarhebion, hen benillion cynhaeaf, caneuon cynhebrwng a phriodas, a pheth wmbredd am arferion hela a physgota, coginio a mesur amser, a hanes ei lwyth dros genedlaethau lawer. Roedd ei gerfiadau pren yn amrywio'n lluniaidd o'r garw fygythiol i'r benywaidd lyfn. Ar yr wyneb, meddwyn diwerth ydoedd, broc môr wedi'i luchio o'r neilltu gan anffawd afradlon pwr. Ond wrth astudio'i ddiwylliant o bell megis, fe ddes i o fewn clyw i ryw urddas a harddwch anhygoel, a llwyddais ryw faint i dorri drwy'i amddiffyniad, hyd yn oed os oedd hynny ychydig ar yr ochr negyddol.'

I fi, efallai mai tipyn o chwithdod dieithr ac anghytwys fu'r disgrifiad yn hyn o adroddiad amdano ar seiliau go denau o brofiad ein hymweliad ag e, ac er iddo wneud sylw digon craff am Gymru.

\*

\*

\*

Yr oedd Joël yn awyddus i fynd i'w angladd, ac felly fe es i gydag e, o chwilfrydedd yn anad dim, y Sadwrn wedyn. Ond roeddwn i'n siomedig, oherwydd doedd neb o'r llwyth yn hyddysg yn yr hen ddull a oedd gan yr Ati-Tofa o hebrwng eu meirwon. Fe'i claddwyd e yn ôl dull mwya tlodaidd yr Americanaid.

Wedi'r gwasanaeth, fe es i gyda Joël i dŷ un o'r cymdogion i gloncian ychydig cyn dychwelyd. Roedd yna ryw hanner dwsin ohonon ni yno wedi ymgynnull. 'Cofiwch chi,' meddai un cymydog yn findlws wrtho-i, 'doedd e ddim yn un ohonon ni. Dŷn ni ddim yn byw fel yna. Doedd e ddim yn Ati-tofa go iawn. Dod yma wnaeth e o'r gorllewin rywle. Dyn od, a budr wyddoch. Roedd e'n gwrthod siarad â ni rywsut, heblaw cadw sŵn.'

## TAWELWCH OS GWELWCH YN DDA

Mae hi'n dywyll o gwmpas y porth a'r cyntedd. Wrth edrych i fyny drwy ganol yr eglwys fe ddechreuau oleuo – , neu o leia ddad-dywyllu, – nes cyrraedd y gangell ac yn arbennig yr allor, o dan olau mawr y ffenest yn y to, lle y mae hi'n fellten fain sefydlog o wynder iach. Ar hyd yr ystlysau ceir amryfal wamaliadau rhwng tywyll a golau; a rhwng dwy ffenest hirgul ar un o'r muriau gwelir hysbysiad treuliedig, hysbysiad oesol, yn datgan yn Saesneg '*Tawelwch os gwelwch yn dda.*' Islaw'r hysbysiad hwn y mae yna feddrod, tŵm, yr unig un yn yr eglwys; ac ymddengys yn amhriodol rywsut gan ei fod yn amlwg, o ran addurniadau, yn efelychiad Fictoriaidd o dŵm canol-oesol; ond rhyfedd mor briodol oedd hefyd gan fod yr eglwys ei hun benbwygilydd yn ddynwarediad gafodd ei adeiladu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn null pum canrif cynt.

O'r tu fewn i'r cysgod mawr o gwmpas y porth, mae yna ddau gysgod manach a mwy pendant yn ymsymud. Dyna fe, y gwryw. Dyw e ddim wedi sylwi'n uniongyrchol fod yna gysgod yn unman o'i amgylch o gwbl, am ei fod yn ddall. Mae e'n grwm ac yn hen, er mai fe sy'n cynnal pwysau'i llesgedd hi, y wraig ifanc feichiog, sy bellach mor agos at ei thymp. Ond oherwydd yr erlid yn yr ardal, mae'r ddau'n awyddus i ddod o hyd i le i ymguddio, i'r wraig feichiog o leia.

'Ynghynt Dafydd, ynghynt,' murmura hi. Alla i ddim dal yn hwy.'

'Fi sy'n dy dynnu *di*, y merch i. Dere di.'

'Mae'n gwasgu i lawr yno-i'n ddigon o beryg. Mae hi ar ddod, dw i'n gwybod.'

'Dere di, 'mechan i. Cam bach sy nawr.'

'O Dafydd. Alla i fyth.'

'Weli di'r beddrod?'

'Gwela. Ond na...'

'Dyma'r lle. Rwy'ti wedi dod mor bell: does bosib...'



'Na, Dafydd.'

'Aros di. Dal hi'n ôl am un funud fach eto.'

Ymdrech fydd pob cerdded iddi mwyach; ac eto, ymdreiglan nhw'n nesnes rywsut at y beddrod wrth y mur.

'Dwyt *ti* ddim yn deall,' medd hi braidd yn ddiamynedd wrth yr hen wŷr.

'Na,' cytuna fe.

'Alli di ddim gwybod... W! Dyna boen arall...W, yr un fwya. Ynghynt Dafydd.'

Ond maen nhw wedi cyrraedd y tŵm, ac mae hi'n sefyll i syllu'n ddiystyr ac eto'n frawychus ar yr adeiladwaith llonydd hwn o'u blaen.

Saif e a'i ben yn syth, heb syllu i unman am ei fod e'n ddall. 'Un eiliad,' medd e gan agor y clawr. 'Fawr o dro. Nawr te, un wên fach wrth y mod i'n nôl sedd iti ddringo i mewn.' Mae'n ymbalfalu am sedd gerllaw; ac yna mae'n aros: 'Gwên, Mari?'

'Ond *weli* di ddim... Dyw dynion ddim yn amgyffred. Does fawr o le i wrywod mewn geni.' Yna, mae hi'n hybu rywfaint. Ac mae hi hyd yn oed yn gwenu ychydig.

'Does dim rhaid *gweld* popeth. Mae gwên yn golchi drosto-i i gyd. Dw i'n gwybod bob amser pan fydd llais yn gwenu arna-i.'

Ac fe gaiff e ei gwên hi'n ôl; am eiliad brin anesmwyth; ac yna daw'r boen drosti eto. 'Yn gyflym, Dafydd.'

Mae e'n gosod y sedd mewn lle ar bwys y tŵm iddo'i hun; ac yna wedi i'w fysedd deimlo o'i gwmpas i'r chwith, i'r dde, mae e'n cydio mewn ychydig o lyfrau a deimla ar y llawr a'u gosod ar bwys y tŵm er mwyn iddi hi ddringo arnyn-nhw i mewn yn ofalus. Ond ymsythu wna hi'n reddfól, a thynnu'n ôl. 'Dringo? Oes rhaid ifi?'

'Does dim dewis.'

'Mae hi'n dywyll.'

'Does dim unlle arall ar ôl.'

'Mae arna-i ofn, Dafydd.'

'Dere di.'

'Ofn mynd i mewn, ac ofn bod allan.'

'Mi wna-i dy helpu di.'

'Dyw hi ddim yn iawn.'

'Wrth gwrs nad yw hi ddim yn iawn. Ond ddim ond am ychydig bach i ymguddio.'

'Gormod. Mae'r ychydig yn ormod,' medd Mari. 'Mae'n wacter: edrych.' Ond all e fyth, wrth gwrs, oherwydd ei ddallineb. 'Alla-i ddim, Dafydd.' Yna, daw'r boen drachefn.

'Dwyt ti ddim ar dy ben dy hun,' medd e'n gysurlon; ond mae hi'n dal i oedi.

'Alla-i byth. Mae'n annaturiol. Unrhyw le arall, Dafydd, ond ddim mewn bedd.'

'Fe fyddan *nhw'n* dod os na ddoi di. Ar unwaith.'

'Alla i ddim wynebu'r tywyllwch.'

'Y meddwl am y tywyllwch, dyna'r hyn rwyt ti'n methu â'i wynebu.'

'Na... Na.. Gwell gen i fod allan. Ac allan o'r eglwys. Ynghanol anialwch. Galla i guddio yn y fan yna.'

'Gwranda...Ust...Mae'n dod, Mari.'

'Na...Na... O Dafydd.'

'Mi arhosa i wrth d'ochr di.'

A bodlona hi felly. Mae hi'n dechrau dringo i fyny ac i mewn i'r tŵm, yn dra ara ac yn drwsogl, a fe yn ei hannog i'r tywyllwch ei hun. 'Fe fyddi di'n ddiogel yn y fan yma.' Wrth ei bod hi'n disgyn wedyn i eistedd y tu fewn am foment, fe glywir camre caled a lleisiau uchel o'r tu allan. Mae hi mewn pryd.

'Gwranda,' medd e, yn feinach ei glust i bob smicyn.

'Nhw?'

'Rwyt ti mewn pryd. I lawr â dy ben.'

'Ddôn nhw i mewn?'

'Ddim atat ti, beth bynnag. Bydd di'n dawel nawr.'

'O Dafydd, y boen.'

'Does dim ots am hynny nawr.'

'Ond alla i ddim bod yn dawel.'

'Mae pawb yn gallu bod yn dawel mewn beddrod: i lawr â dy ben. O'r golwg am bum munud. Dal dy anadl...Nawr, merch i.'

'Wna i ddim mygu?'

'Na, na. Nos da, nawr. Dos. Cysga di.'

'Cysgu'n wir!'

Mae hi'n gorwedd, a fe'n cau'r clawr amdani. Mae'r lleisiau wedi cynyddu, a daw dau blismon i mewn i'r eglwys yn uchel eu cloch. Try'r hen ŵr i'w ceryddu nhw: 'Ust!' Ond rhingyll yw'r blaena, ac nid yn rhwydd y distewir gŵr mewn safle felly.

'Wel, bloryn? Glywson ni ryw siarad pan oedden ni'n dod i mewn?'

'Siarad? Pa siarad?' medd yr henwr.

'Rhyw leisiau.'

'Fi oedd yn gweddïo. Mewn tawelwch. Welwch chi ddim arferiad y lle yma?' gofyn yr henwr i'r ddau yn ddisigl ei lais. Ac edrychan nhw'r swyddogion o'u hamgylch, gan sylwi braidd yn dosturiol ar yr hysbysiad pitw am dawelwch ar y mur.

'Arferiad wir. Ni yw pob arferiad yn y wlad hon,' hysbysa'r rhingyll yn hyderus. 'Ni yw'r drefn. Ni yw'r awdurdod. Ni sy'n hyrwyddo Cynllun yr Economi.'

'Ni yw'r gorchmynion sy'n trechu arferion,' medd yr ail blismon er mwyn ei borthi.

'Mae hon yn eglwys,' pledia'r henwr. 'A thawelwch yw arfer priodol lle felly.'

'Ni yw'r offeiriaid.'

'Ni yw'r proffwydi.' A gafaela'r rhingyll yn nillad yr hen ŵr wrth ei wddw: 'wyt ti wedi gweld menyw yma, bryfyn?'

'Eisiau menyw sy arnoch chi?' gofyn yr henwr yn ddi-ofn.

'Mae hwn yn glown, Charles,' medd y rhingyll o flaen y cysgod. 'Menyw *arbennig*,' pwysleisia'r rhingyll. 'Dŷn ni'n chwilio am un fenyw.'

Ond dyw'r henwr ddim wedi ildio: 'Ond mae pob menyw'n ...'

A gwena...nes i'r rhingyll ei syfrdanu â thrawiad creulon ar draws ei gern: 'Gwrandda lysnafedd. Does gynnon ni ddim amser i smalio. Menyw feichiog. Rwyd ti'n gwybod y gyfraith ... Mae hi wedi cael ei gweld yn agos i'r pentre,' atega.

'Yn yr ardal hon,' adleisia'r cysgod plismonaidd o'r tu ôl.

A chlosia'r rhingyll yn awdurdodol am yr henwr, fel tywyllwch mwy a ddymuna brocio ei ddallineb cynhenid e: 'Tafla i fyny, boi bach. Rhaid inni sicio pob menyw.'

'Ond dw i'n hen. Dw-i wedi colli cysylltiad. Beth sy o'i le? Dw i'n ddall. Mae'r byd newydd yn ddiarth...Menyw? Beth sy o'i le ar beth felly?'

'Ie, ngharthion i. Menyw a all fod yn feichiog; yn llond ei bol o drwbwl hyd yr ymyl. Yn rhan o'r gorlifo poblogaeth... Archwilio cyflwr menywod sy raid y dyddiau hyn.'

'Menywod sy'n torri'r gyfraith,' cyfranna'r cysgod.

'Y gyfraith? Hola'r henwr yn ei ddryswch, 'Pa gyfraith?'

'Ein cyfraith ni. Cyfraith y wlad.'

'Sut?' meddai'r henwr drachefn.

'Am fod yn feichiog.'

'A sut cawsoch chi'ch cynhyrchu, syr?'

Ond dyw'r awdurdodau ddim yn gwerthfawrogi rhyw gyffyrddiadau felly; a gafaela'r rhingyll yn yr henwr nawr a'i ysgwyd hyd ei sodlau ac yna'i luchio'n ffaidd gadarn i'r llawr.

'Rwyd ti wedi bod yn torri cyfraith arall hefyd, cofia,' cyhoedda'r cysgod yn gynnil atodol. 'Yn dianrhydeddu awdurdod y wlad fan hyn. Yn gweddio 'wir!'

Ond wna'r hen ŵr ddim namyn crynu, yn ddiymadferth ar ei hyd ar lawr: 'Dw-i ddim yn gwybod y gyfraith, mae'n rhaid.'

'Dyw anwybodaeth o'r gyfraith ddim yn gyfreithiol,' medd y rhingyll awdurdodol.

'Mae egwyddor y gyfraith yn hysbys ac yn olau ym mhob man,' ychwanega'r cysgod cynta, tan borthi'i gymrawd.

Ac yna, megis o bellterau athronyddol sylfeini'r gyfundrefn i gyd, dyma lais uwch y rhingyll yn cadarnhau: 'dyw'r gyfraith yn ddim mwy na'r hyn sy eisoes yn naturiol. Ac felly gweddio hefyd: mae'n weithred uwchnaturiol.'

'Ond menyw? Does dim yn fwy naturiol na menyw,' gwrthdystia'r hen ŵr.

'Nid *menyw...*' Mae'r hen ŵr yn codi'n syn wrth glywed hyn. 'Menyw arbennig. Menyw *feichiog*, Dyna sy'n annaturiol.'

'Ond sut mae cyflwr mor naturiol â beichiogrwydd yn annaturiol?'

'Ble mae hwn wedi bod?' grwgnacha'r cysgod yn wawdus.

A chais y rhingyll, yn ddeddfol iawn, bron yn bwyllgorol o ddifri, esbonio: 'Cynllun newydd yr economi, machgen i. Gorboblogi'r byd. Dych chi ddim yn byw ar y lleuad? Mae yna angen i docio rhai sectorau.'

Does dim ymateb gan yr hen ŵr... Ŵyr e ddim byd o gwbl. Mae'n gyfleus ddall.

Try'r cysgod bach mewn ffydd at ei ringyll: 'Geiriau un sillaf, Charles.'

Ac ymestynna hwnnw i'w lawn hyd iwnifformaidd: 'Un sillaf... rwyd ti'n gallu cyfri hyd at un...Rwyd ti'n cofio'r gyfraith am erth-yl-u?'

'Erthylu?'

'Ie, y *cyfle i esgusodi* dileu ambell un byw efallai, yn ôl cyfraith gwlad ... ond y *caniatâd* bellach gan y llywodraeth i ymwarded â babanod yn y groth wedi eu geni. Estyniad o ddeddf erthylu yw tocio babanod yn syth ar ôl eu geni. Gweithio mewn pryd.

Maen nhw'n weddol oddefgar ynglŷn â manylion. Ond nid lladd yw hynny: mae'r llywodraeth yn dweud mai *dileu* yw hynny. Dŷn nhw ddim yn fabanod go iawn, yn arbennig os oes plant eraill eisoes yn y teulu.'

'Exactli,' medd y cysgod.

'Gweithred greadigol gyfreithiol oruwch-unol yw atal geni, i atal gorboblogi'r ddaear. Dyna'r cwbl. Mudiad gwyrdd i atal amlhau deuocsid carbonad,' medd y rhingyll.

Crŷn y cysgod, y tu ôl, yn ollyngedig lawen: 'Mi ddaw, Charles..'

'Yn hollol,' medd y rhingyll. 'Does dim ôl o faban nes iddo ddod i'r fei. Dyna hwnna'n glir.'

'Un marc, Charles?'

'Un marc... Nawr... Yr ail gyfraith... Cyfraith erthylu yw'r gynta. Cyfraith lefaru yw'r ail, yr un ddiweddara.'

'Llefaru?' medd yr henwr dall, ac anwyla'r gair.

'Symudwyd y diffiniad ryw fymryn bach. Dim llawer. Mater o fanylder llac oedd hyn. Doedd dim baban i'w gael, medd Llundain, yn briodol ddigon, nes iddo siarad: hynny yw, dyw e ddim yn Llundain-ysbrydol-ieithyddol o leia. Iaith yw'r un peth sy'n nodweddu dyn. Dyma fan ucha ei feddwl, a'r hyn sy'n gwahaniaethu rhyngddo a'r anifail. Yr offeryn i ddadansoddi'r ddaear. Y teclyn i gelfyddyd syniadaeth. Cyfrwng addoli... Mater difrifol. Mae popeth sy ynglŷn ag iaith yn broblem.' Mae e'n aros ennud i'r athrawiaeth hon dreiddio. Wedi'r cwbl, roedd rhaid i iaith ddatod iaith.

'Bol ar draed yw'r *anifail*,' medd ei gysgod, er mwyn llenwi'r saib, 'dyna oedd union eiriau gwerinol y prif weinidog. Dŷn ni'n perthyn i'r anifail "dynol" Dyna'r peryg.'

'Ie, ie; dyna'i eiriau. Yr hyn sy'n gwneud anifail yn berson anifeilaidd llawn ddatblygedig yw *siarad*. Felly... er mwyn ein harbed rhag carbon deuocsid.'

'Felly,' medd yr hen ŵr, 'mae angen newid y diffiniad o faban. Sut hynny?'

Y cysgod sy'n rhoi ymateb orau i'r gyffes hon, gyda'i 'yn hollol.'

'Felly,' â'r rhingyll yn ei flaen: 'fe ellir estyn y ddeddf erthylu, dyna'r cwbl, i gynnwys babanod sydd y tu allan i'r groth ond *cyn* iddyn nhw ddechrau siarad. Estyn rhyw damaid. Deddf erthylu Marc II.'

'Mae hynny'n rhesymol,' cytuna'r hen wr yn goegaidd.

'Dyma ffrind, Charles,' gwena'r cysgod.

'Goleuni o'r diwedd i'r dall,' medd y rhingyll.

'A dyna yw'r diwedd?' ymhola'r hen wr.

Nage,' yn gas, ac yn ddiddeall, ac yn flinderus.

'Ond un peth arall. Marc III. Y trydydd cam. Sefyllfa arbennig rhai ardaloedd datblygu.'

'Cymru?'

'Lle bynnag y bydd yna ddwy iaith.'

'Mae dwy yn *fwy* peryglus nag un,' ychwanega'r cysgod, sef yr un mathemategol. 'Mae'n dyblu'r boblogaeth ieithyddol. A rhaid lladd un o'r ddwy hynny.'

Mae'r rhingyll yntau ar ei fwyaf ffurfiol bellach: 'Mewn rhai ardaloedd, – medd y ddeddf, – mi fydd yn angenrheidiol i'r caniatâd droi gorchymyn yn orfodaeth.'

'Yma?'

'Yma! Mewn cyfnod o gynildeb.'

'Ond does neb yma,' pledia'r henwr. 'Mae cefn gwlad wedi colli'i boblogaeth, ac eithrio'r gwehilion a'r mewnfudwyr.'

'Y drafferth yw'r *iaith arall* sy wedi chwythu i blith y creigiau a gwreiddio ac sy'n hawntio'r fforestydd a'r brynau o hyd,' esbonia'r rhingyll, gydag aroglau Llundain yn cylchdroi yn ei eiriau. 'Unrhyw iaith dros fil a hanner oed.'

'Am bob person, dwy iaith,' medd y cysgod. 'Heblaw Saesneg, felly, mae 'na erthyl arall. Iaith anghymwys. Yr iaith ychwanegol honno dŷn ni'n blino amdani.'

'Mae'n hollti prydfferthwch undod.' Ond peidiodd â dweud ei henw.

Saif yr hen wŷr fel petai'n treulio'r gwirionedd anochel hwn; a manteisia'r rhingyll ar ei sylw fe i glymu'r ddadl: 'Mae Llundain, yn ei doethineb, a De-ddwyrain Lloegr, wedi gweld ein sefyllfa arbennig ni, a rhaid i Gymru gael triniaeth arbennig. Ardal ddifreintiedig.' Rhyfedda at gywreinrwydd y gyfraith.

'Dyna pam,' medd y cysgod,' y mae yna swyddfa Gymreig. Llais Llundain. Dyma'i phrif waith hi. Rhoi neges y Canol.'

'*Gorchymyn* yw hi yma felly,' ebe'r hen wŷr.

'Dŷn ni'n chwilio am fenyw. Heddiw... maen nhw wedi'i gweld hi. Roedd bugail wedi'i gweld hi ryw chwarter milltir oddi yma ar y Mynydd Du ugain munud yn ôl. Menyw feichiog. Ac roedd hi'n murmur hwiangerdd.'

'Wel, chwarae teg,' cydsynia'r hen wŷr. 'Cyfraith yw cyfraith. Mae'n rhaid cael trefn. Dw-i'n gwerthfawrogi hynny. Mae tlysnï'r hen hwiangerddi yn beryg bywyd.'

'Gwneud ein dyletswydd wrth-ddiwyllyannol dŷn ni,' medd y cysgod, yn ostyngedig. 'Mae iaith sy'n meithrin llên gwerin yn erchyll.'

'Dyw honno ddim yma, beth bynnag,' medd y rhingyll yn dawel benderfynol ac yn amheus wrth syllu ymhobman o'i ddeutu.

'Dw i ddim wedi gweld neb,' medd yr hen wŷr.

Edrycha'r plismyn ar ei gilydd. 'Dere, Charles. Dyw hi ddim yn werth oedi mwy. Mae yna dafarn fach ddel ar waelod y fynwent.'

'Does dim brys... Rwy'ti'n deall y gosb am guddio menyw feichiog,' medd y rhingyll.

'Crogi?'

'“Datbobloger y rhai sy am boblogi”, medd y prifweinidog. 'Deryn yw hwnnw.'

'Athronydd yw pob prif weinidog, Charles,' ebe'r cysgod yn athronyddol. 'Co ffraeth...' medd y cysgod ymhellach, ac yna braidd yn ymddiheurol, 'Gwneud ein dyletswydd dŷn ni, cofia.'



Mae'r hen ŵr yn gyfforddus, ac mae'n estyn llaw tuag at y plismyn yn garedig:  
'Hwyl fawr i Lundain, medda i.'

'Ffarwelio rwyd ti?' medd y rhingyll yn amheus ei wala, 'ynte, dymuno'n dda?'

'Dw i'n gweld lygad yn llygad â nhw. Mae'n rhaid cael trefn.'

'Cofia di barchu'r gyfraith.' Rhwng ei ddannedd.

'Hyd at y nhraed.' A moesyngryma'r henwr. 'Mae yna drefn i fod ymhobman, on'd oes, o'r atom a'r gell i'r galaethau. Gweld neu beidio. O ble mae honno wedi dod?'

'Dere, Charles.'

Ond dyw hwnnw ddim yn gwbl fodlon, a nesâ at yr hen ŵr dall a chydio yn nillad ei wddw. 'Dwyt ti ddim yn ein twyllo ni, wyt ti? Dwyt ti dim wedi gweld neb?'

'Neb. Pwy dw-i? Ydw innau'n feichiog?'

'Fe allwn dy ladd di, cofia – yn gwbl gyfreithiol.'

'Tr bedd â phob babi medda i,' ebe'r hen ŵr yn selog.

'Fe allwn wasgu'r anadl allan ohonot ti'r funud yma os wyt ti am wawdio.'

'Cynllun yr economi am byth,' medd yr henwr gwladgarol.

'Gad e, Charles.'

Ond dyw Charles ddim yn barod i gilio. 'Dw i ddim yn licio hwn.' Mae'n poeri'n ffaidd i'w wyneb. 'Dw i'n amau pawb sy'n anwybodus o'r gyfraith.'

'Peint, Charles. Peint.'

'O'r gorau. Ond cofia di, bryfyn. Os wyt ti'n celwydda, os wyt ti'n ceisio cadw rhywbeth neu rywun, mae'r oes wedi newid. Trefn yw trefn nawr. Ac mi liciwn i dy dacluso di dipyn bach.' Mae'n gafaelyd yn ei wallt gwyn ac yn symud ei ben ar un ochr. 'Tacluso, ti'n deall. Gwneud dy asgwrn cefn di a chorn d'wddw di'n fwy destlus, yn undod heddychlon.'

Mae e'n ei ryddhau drwy ei wthio'n ôl yn sydyn; ond dyw'r hen wŵr ddim yn syrthio. Edrychan nhw'n dawel gas arno, ond dall yw e i hynny hefyd, ac y mae hynny'n lleddfu'r casineb. Yna, trôn nhw, a milwrol fartsian nhw allan o'r eglwys.

\*

\*

\*

Ryw fymryn wedyn clywir ymystwyrion arall, o'r beddrod y tro hwn.

'Agor, Dafydd, agor.'

Ac mae'n troi yn ddi-oed i'w agor, gan rybuddio ar unwaith: 'Ust!'

'Does dim ots amdanyn nhw,' ebycha'r wraig. 'Yn gyflym. Mae hi'n dod...W... Rho dy law dan y mhen...W... Aros...W...'

Mae hi'n gorwedd yn ôl yn ddiymadferth; ac y mae distawrwydd rhwydd yn tonni i lawr oddi wrth oleuni'r allor i'r gangell drwy'r canol a hyd yr ystlysau nes eu hamgylchu nhw wrth y tŵm... Yna, dyma wich. Er gwaetha'r hysbysiad uwchben, gwich baban. Try'r wich yn sgrech. Y torrwr cyfraith. Mae'r hen wŵr ei hun am wawchio hefyd. Mae'n mynd yn ofnus â'i ddwylo i waelod y beddrod i godi'r sgrechian disyfyd i'w freichiau; ac mae'n rhoi'r siôl, sy gan y fam, yn dirion am gorff y sgrech.

'Dyma wych, Mari. Merch sy 'na. Mam arall yn botensial!'

'O, Dafydd.'

Protestio a wna'r babi yn erbyn oerni'r byd. Ymdawela'r fam. Ymdawela Dafydd. Ymdawela'r baban yng ngŵydd y fath dawelwch dwbl.

'Dyna ti, Mari. Paid â gofidio mwy.'

Mae e'n magu'r baban ar unwaith: 'Dyna'r cwbl drosodd nawr.' Ac mae e'n mynd â'r fechan i'w dangos i'r fam ymladdedig.

'O Dafydd.'

'Paid â dweud dim.'

'Ga i chael hi.'

Mae e'n rhoi'r newydd-anedig i orwedd ym mreichiau'r fam: 'Dyna ti. Tawelwch nawr, tawelwch.'

'Dw-i'n fodlon.'

'Paid â siarad.'

'Dim siarad,' medd hi gan anwylo'r geiriau. A mwynhân nhw'r llonyddwch. Llonyddwch hir-ymarhous eglwysig. 'Druan o'r un fach,' ebe hi'n fyfyrgar ymhen ennyd.

'Wel ydy: y mae hi'n lle braidd yn anghonfensiynol. Nid pawb sy'n dod i fywyd yn y fath le â hyn. Yr hen beth bach.'

'Ond y dyfodol, Dafydd.'

'Bydd di'n dawel, nawr. Paid â phryderu. Y dydd a dâl am ei ddrwg ei hun.'

'Ond beth am yr awdurdodau? Ufuddhau i'r awdurdodau!'

'Cuddia dy geg, Mari fach. Paid di â becsan amdanyn nhw. Mi ddaw'r un fach hon drwy bob helbul nawr, a dysgu maddau. Mae hi'n wydn ac yn swllyd!' Ond gollynga hi'r fam och bach pryderus.

'Rwyt ti'n *fodlon*. Bodlon, Mari.'

'Dafydd!' Mae'r cwbl wedi bod yn ormod iddi.

'Aros di'n fodlon, yn dawel fodlon nawr. Pan fyddi di'n gryfach, fe awn i Loegr am ryw ychydig rhag yr awdurdodau... Bydd hi'n ddiogel yno. Dyna ti, Mari,' Ac mae'n gosod ei law yn lleddf ar ei thalcen. 'Gorffwys, 'mechan i. Mae'r nefoedd wedi ymagor nawr. Does dim tywyllwch mwy. Maga di'r un fach hon. Aros di'n dawel, ac mi a-i mewn munud i chwilio am fwyd i ti. Bydd rhaid i'r un fach yma gael nerth i ddysgu caru gelynion.'

'Does dim eisiau bwyd arna-i... Dw-i'n fodlon... wrth y modd...'

'Ac eto'n pryderu?'

'Na; ddim mwy. Fe awn i Loegr. Fe fydd hi'n ddiogel. Mae'r deddfau'n wahanol.'

'Dyna ti; tawelwch nawr, mechan i.' A sugna'r sillafau i'w chalon: 'I Loegr,' mor fodlon. Y sillafau hyn yw ei gobaith hi nawr, ac mae'n gadael iddyn nhw hedfan fel colomennod uwch ei phen. Yna, clywan nhw fath o ganu, canu uchel ychydig yn gras o lwnc gwrywaidd, mae'n amlwg, a chamre plismon o fath drachefn, plismon arall, un arall yn dod o'r tu allan i eglwys. Mae ei phryder yn llamu'n ôl, ac edrycha hi tua'r hen wŵr, sy'n ymddangos yn hyderus, ac a blyg i'w chysuro: 'mynd heibio y mae e.' Estynna ei glustiau dall: 'Mae e wedi stopio canu. Does dim sŵn. Mae e wedi mynd. Gobeithio.'

Ond mae ganddi hithau lygaid; ac ymgyfyd ryw ychydig allan o'r beddrod; a sibryda, 'Mae yna gysgod yn aros draw wrth y porth. Ydy e wedi'n gweld ni?' Mae'r baban yn murmur grio. 'Ust! Cau'r clawr arnon ni'n glou, Dafydd. Yn glou. Mae e wedi'n clywed, dw i'n ofni.' Cyfyd murmur grio gan y baban eto wrth iddo gau'r clawr.

Ar ôl ei gau, mae Dafydd yn penlinio yn ymyl, ac yn gweddïo neu'n ceisio gweddïo o'r galon mewn argyfwng fel hyn. Ond mae'n ymdeimlo yn ei ddallineb â phresenoldeb plismon o'i gwmpas, ym mhob man.

Tindroi a wna'r plismon wrth y porth. Mae e wedi sylwi ar yr hen wŵr, ac efallai fwy; ond ddaw e ddim yn syth uniongyrchol ato. Ac wedi dod, codi'n arafaidd a wna'r hen wŵr. Mae'n aroglu gwres y plismon.

'Lle swnllyd!' ebycha'r plismon newydd yn gyfeillgar.

'Beth dych chi'n feddwl?'

'Hwnna!' arwydda'r plismon newydd â'i ben tua'r hysbysiad ynghylch Tawelwch.

'Dw i'n methu gweld.'

'Mae'n ddrwg gen i...Hysbysebu "Tawelwch" mae'r lle. Ceisio *gwerthu*'r hen ddefnydd "tawelwch" os dwi'n nabod eglwysi. Wnes i dorri ar draws eich gweddi?'

'Na ddo. Rown i wedi gorffen.'

Tery'r plismon glawr y beddrod: 'Bedd pwy yw hwn? Oeddech chi'n *nabod* hwn?'

'Nac oeddwn.'

'Ychydig o flaen eich amser *chi* hyd yn oed.'

'Oedd. Wedi bod yn astudio hanes pobl leol dw i,' medd yr hen ŵr. Rhwbiai ymylon y garreg yn synhwyrus ymchwilgar. 'Dwi'n hanesydd lleol o ran hobi. Dwi'n sancteiddio'r gorffennol ... er mod i'n byw mewn plwy arall.'

'A! Eitha peth. Cronni hanes mewn pethau. Mae hen fechgyn o'r gorffennol fel hwn yn y tŵm, yn cadw'ch llygaid ar ddi-hun hyd berfeddion nos, siŵr o fod.'

'Does dim rhaid llosgi'r gannwyll yn y deupen i'm llygaid i.'

'Na,' gan sylwi ar lygaid yr hen ŵr dall, 'dw i'n deall. Mae'n ddrwg gen i.'

'Ydych chi'n hanu o'r parthau hyn?' gofyn yr hen ŵr wedyn gan ei fod yntau'n fymryn o ddieithryn, o'r plwyf nesa.

'Heddwas dw i. Yn gweithio ar job arbennig sy'n angenrheidiol ym mhobman.'

O! Gwas Hedd,' meddai'r henwr. ... a chydysynia'u cyd-ddistawrwydd ill dau yn fwyn. Magnedir sylw'r plismon, serch hynny, gan holl nodweddion y beddrod, a saif yn ôl yn feirniadol, a syllu arno'n brudd ac eto'n smala rywsut. Ymhen tipyn, nawf ei feddwl i'r wyneb: 'Beth yw ystyr hyn i rywun plaen fel fi sy heb fod yn hanesydd?'

'Sut?'

'Y beddrod. Lle diflas. Ych-â-fi! Ble dych chi'n teithio o'r fan yma?'

'Y corff a'r enaid dych chi'n feddwl?'

'Dw i erioed wedi meddwl,' cyfaddefa'r heddwes. 'Oes eisiau cerbyd crand fel hyn tybed?'

'Dyw hi ddim yn rhan o'ch gwaith, mae'n debyg, i ofidio am feddau, nac am beth sy'n mynd ymlaen tu fewn. Cyfraith yw'ch byd chi,' medd yr henwr.

Tery'r plismon y beddrod drachefn fel pe bai'n mwynhau'r ymarferiad: 'Cymrwch chi hwn: dyma ddiwedd cyfraith hyd yn oed, mae'n debyg,' medd e'n baradocsaidd. 'Mae'r un sy dan hwn yn hollol ddiogel. All yr un *enaid* ddim dianc o'r carchar yma.' Winciodd ar yr henwr; ond welodd hwnnw ddim wrth gwrs.

'Synnech chi,' medd y gŵr dall. 'Dyw gweld ddim bob amser yn fantais. Mae'r enaid yn anweledig. y ngwas i. Dyw llygaid ddim yn gweld popeth.'

'Allan o olwg, allan o feddwl – dyna yn arwyddair innau,' medd yr heddwas.

'Arwyddair purion i heddwas.'

'Dw i'n ddyn hefyd cofiwch,' brolia'r heddwas.

'Yn ddyn? Oes rhywun sy'n ddyn ... oes *dyn* ar ôl yn y dyddiau annynol hyn?'

'Triwch fi,' medd yr heddwas. Mae'n gwenu ac yn wincio'n wyllt.

'Os felly, mae gynnoch chithau hefyd *enaid*, y peth bach anweledig hwnnw.'

'Dw i'n gwybod fawr am hwnnw wrth gwrs. I fi, beth bynnag y bydda i'n ei weld â'n *llygaid* i, hwnnw sy'n cyfri. Oherwydd yr anweledig, dw innau'n medru *gweld* mewn ffordd o siarad. Dw i'n ôl-fodern, os liciwch chi. '

'Dyna'ch mantais chi.'

'Wel, ydy,' yn anghysurus; 'mae'n ddrwg gen i... Ond sylwch chi ar hwn. Mae'n solet. Dyma 'myd i. Hwn.' Mae'n taro'r clawr eto, drachefn a thrachefn. 'Pethau pendant fel hwn. Positifiaeth. Dyna dw i'n licio. Dych chi'n gwybod ble dych chi'n sefyll gyda hyn. Pethau gweledig. Am yr enaid, a'r busnes yna, nid dyna yn lein i fel plismon. Gyda phob parch i chi, syr, ar yn llygaid dw i'n dibynnu.'

'Ydych. Ydych.'

'Ac dw i'n gweld mwy nag dych chi'n ei dybied yn y dyddiau difaban hyn.'

Synnwyd yr henwr yn sydyn. 'Synnwn i fawr.'

'Hwn er enghraifft.' A saif yn ôl i syllu ar arddull Fictoriaidd y tŵm fel pe bai hwnnw'n tyfu'n gorfforol ryfeddol gerbron syndod ei lygaid ac yn ei gyfareddu'n ddynol: 'Ych! Ffug!'

'Ie?' gofyn yr hen ŵr yn chwilfrydig.

'Ffug hynafol yw hwn. Efelychu'r gorffennol. Dyw e ddim yn dweud y gwir.'

'Dych chi'n gywir.'

'Dynwarediad annilys o'r hyn a fu... Yr hen oesoedd heddiw... Dw i ddim yn licio'r math yna o beth. Mae'n ddi-chwaeth. Mae'n gelwydd. Troi amser ben i waered.'

'Nid dyna fyd heddwat.'

'Wel, mae gynnwng ni ein safonau,' medd y plismon, ac ymddangosai i'r henwr yn fwy diwylliedig na'r ddau arall a fu gydag e gynnau.

'Nid pob un ohonoch chi.'

'Wel, o'r gorau, nid pob un. Ond maen nhw gan rai ohonon ni.'

'Ac ydy'r safonau hynny'n gallu caniatáu i chi ddweud celwydd hyd yn oed os bydd hi'n foesol gywir i chi wneud?'

'Dyna 'mhroblem i ar hyn o bryd.'

'Sut?'

'Gyda'r beddrod yma. Mae yn chwaeth i'n dweud y dylai pob beddrod fod yn addas i'w amser ei hun.'

'Ond eich calon?'

'Mae nghalon esthetig i'n dweud: mae yna rywbeth urddasol ynglŷn â'r beddrod yma, efelychiad neu beidio. Mae e'n dlws hyd yn oed. Ac y mae tlysnï'n iawn. Dw i'n ddigon o bechadur i roi harddwch uwchlaw...'

'Uwchlaw beth?'

'Wn i ddim. Uwchlaw gwir amheus efallai. Uwchlaw amser beth bynnag.'

'Gwrandewch ar eich canol, y nghyfaill i,' mentrodd yr henwr.

'Ar y nghalon?'

'Ar eich canol llonydd.'

'Dyna yn arfer i, mae arna-i ofn... wel, o'r gorau.. Duw'n rhwydd i chi, hen ŵr. Mi wna i'ch gadael nawr. Mi ffeindia-i'r bechgyn eraill yn y dafarn mae'n siŵr. Ond gweddiwch dros yn enaid i. Pan benliniwch eto wrth y beddrod hwn, cofiwch yn enaid claf i. A Duw'n rhwydd ichi ....i gyd.'

Mae e'n cilio, yn dawelach nag y daeth i mewn; ac y mae'r porth wedi dechrau goleuo mwyach. Mae'r hen ŵr yn agor y clawr. Mae'r wraig a'r baban yno'n ddiogel.

'Ydy e wedi mynd... Ga i ddod nawr? Allwn ni ddim aros yma. Does gwybod pwy ddaw nesa. O Dafydd, gad i ni fynd....'

'Dere di, mechan i.'

'Dw i bron,' ebycha hi, 'wedi mygu... Pwy oedd 'na?'

'Angel,' medd yr hen ŵr.

'Oedd e ...' medd hi'n daglyd... 'wedi sylweddoli ein bod ninnau'n cuddio yma?'

Ond palfalu y mae'r gŵr dall am y fechan wrth ei hochr. Does dim sŵn yn un man. Does dim smic na gwich gan y baban. 'Sut ... mae'r... un fach?' hola'r henwr. Mae'r mudandod yn dryllio'u clustiau. Mae'n tybied efallai fod y baban wedi peidio ag anadlu.

Mae hi'r fam yn deffro'n daer: 'Dafydd;' yn gweiddi, 'Dafydd! Edrycha, dyw hi ddim...' Mae hi'n siŵr fod rhywbeth wedi digwydd iddi, rywbeth angeuol.

'Gad imi ei chael hi!' medd Dafydd, 'yn glou.'

'Na,' anifail yw'r fam newydd nawr sy'n chwyrlïo, mae'n gwasgu siglo blygu'r plentyn. 'Mae'r un bach wedi...'

'Anadla di i mewn iddi.' Mae'r ffenest yn tywyllu uwchben yr allor wrth fod cwmwl yn pasio heb yn wybod iddo.

'O! Y maban i. Dafydd, beth sy wedi digwydd? Y maban bach i. Yn y bedd yma.'

Mae hi'n chwythu ei bywyd oll i geg y plentyn. All hi ddim chwythu rhagor.

'Rho hi i mi.'

'Dafydd. Mae hi wedi marw. Dŷn ni wedi'i lladd hi. Y bedd 'na wnaeth hyn. A'r ddeddf. Y maban i. Paid â mynd. Ddim nawr. Maban annwyl annwyl i. O! Dafydd.' Mae hi'n dirdroi'r baban o hyd. Cydia'r henwr yn yr un fach, a'i bwrw'n sydyn ar y bryst. Yna clywir gwich, ac y mae'r fechan o'r diwedd yn murmur ei hen grio oesol. 'Nid..., 'ochneidia'r fam: 'nid...!' Mae'r cwmwl wedi pasio, a'r allor wedi goleuo.



'Haleliwia,' gwaedda'r henwr yn sydyn.

'Beth! Ydy hi'n fyw, Dafydd?'

'Mae hi'n fyw. Diolch i Dduw.'

'Dw-i am ei galw hi'n "Ddafydd" te', medd y fam. 'Gan fod yr enw hwnnw eisoes wedi'i gofrestru gan y Wladwriaeth fel enw cyfreithiol swyddogol, caiff hon fod yn swyddogol, o leia.'

'Ond mae hynny'n ddwl. Merch yw hi. Mae "Dafydd" yn amhosibl,' medd e.

'Mae'n ddiogelach. Mae'n rhaid ei chadw'n fyw. Gallwn dorri'i gwallt hi maes o law. Mam arall fydd hon pan dyfith hi, cei fentro. Ond nid am ychydig.' Mae'r fam yn crio o lawenydd nawr, ac yntau'n penlinio. 'Dafydd,' medd hi'n fodlon. 'Dafydd!'

Gwena'r hen wŷr led yr eglwys, a gofyn, 'Aros funud, wyt ti'n gweddïo?'

'Beth arall sy?' medd hi.

Cymdogion oedd Dafydd a Mari. Ac oherwydd ei ddallineb, bu Mari ers tro yn barod iawn i helpu'r gŵr dall gyda llawer o fân dasgau sy'n anodd i rywun felly eu cyflawni heb gymorth. Ond yn awr, daethai'n bryd iddo yntau'i helpu hi, y fam, a'r plentyn.

'Ga-i ddiolch gyda thi?' medd hi.

'Amdani hi, Mari? Hi, ein Dafydd newydd ni felly. Ni'n tri gyda'n gilydd.'

'A diolch amdano fe hefyd...ynte-fe?' medd y fam, gan droi'i phen tua'r drws lle y bu'r pedwerydd gynnau. 'Am bedwar,' medd hi.

'Mi gei di weddïo gyda fi'n sicr nawr...' medd yr hen wŷr, 'a bydd angen cofio hefyd... am o leia un enaid mewn iwniform.'

'Am bob un ohonyn nhw, Dafydd.'

'Ie, druan ohonyn nhw oll, bob un, y tri.'

## GAST

Allai hi ddim deall y teimlad.

Wedi colli'i gŵr.

Coeden wedi'i blingo o'i rhisglen. Mellten wedi saethu ati, a thynnu'i chnawd yn ôl hyd at yr asgwrn ei hun hefyd, hyd at y mêr, y mêr byw a losgai'n goch pe baech chi'n cyffwrdd ag e... Gwell peidio.

Allai hi ddim deall cymhlethdod y teimlad. Edrychai hi drwy'r ffenest. Ac allai hi ddim gweld yn glir. Allai hi ddim profi ond ei meddyliau, fel storm acw ar y gorwel. Roedd hi wedi cael ei darostwng benbwygilydd. Roedd egni ei galar hi wedi'i hysigo, perfedd ei blynyddoedd wedi'i wacáu. Gwasgwyd ei dagrau allan o glwtyn ei chorff nes ei fod e'n sych ac yn ddiymadferth wedi'i luchio i gornel y byd, yn wastad, hyd y llawr. Roedd yr holl fyd wedi newid.

Safai wrth y ffenestr yn ei fflat yn awr yn stad y tai cyngor, gan edrych ar goll i lawr tuag at afon Rheidol islaw. Wedi colli'i gŵr... A heb allu chwilio amdano.

Yma ac acw ar hyd y cae roedd rhacs o ddail pwdr yn fflawntio. Tynnid ei llygaid hi am foment gan ddau foncyff maluriedig a ymlygrai yn y clawdd. Pa hawl oedd gan y farwolaeth hon i ymwthio yma i bob rhan o'i meysydd gweddw hi, a'i dilyn hi o hyd? Ymrithiai'r ffenomen honno yma ac acw ar ei hól er mwyn sugno'i gwaed allan ohoni. Sarnai'r peth ar ei thiriogaeth deimladol fel pe gallai anwybyddu'i hawliau hi, ac fel pe na allai gael lle mwy naturiol ar gyfer *bod* yn farw. Yn wir, mynnid mai marwolaeth oedd y byd i gyd. Ym mha wlad bynnag y teithiai, hyd yn oed bröydd cwsg, dealltwriaeth gwlad y meirwon a glywai hi nawr; ym mha gwr bynnag o'i gwlad ei hun y crwydrai, mynnid mai fe, angau, oedd y gwir lywodraethwr, yr unig areithiwr o blaid bodoli, yr unig un cymwys i ofalu am fuddiannau'r lle. Dyna'i theimlad: y teimlad wedi'i yrru mor bell nes troi bron yn ddiffyg teimlad ystyrlon. Ie: coeden wedi'i blingo oedd y weddw hon. Ond chái hi ddim llonydd i amgyffred y peth. Gan gymaint y fferrodd ei phoen, doedd dim teimlad i alaru... Wedi colli'i gŵr.

Mae llond pob stad-tai-cyngor o blant. Yn sydyn, yn y fan hon, deffrôdd hi i'r rheina. I lawr ar waelod y cae gallai hi weld criw o fechgyn tuag un ar ddeg oed yn erlid ci. Ymestynnai hi'n ofer i weld y ci. Buon nhw'n ei labyddio am hydoedd wrth y clawdd, yn ei daflu i'r afon ac yna'n taflu cerrig ato drachefn. Druan o'r hen greadur. Nawr roedden nhw wedi'i ddal ac roedd un ohonyn nhw – â siswrn – yn torri'i flew, a'r lleill yn pwnio'n greulon ac yn hwyliog ar ei drwyn er mwyn ei yrru'n fwyfwy cynddeiriog.

Agorodd hi'r ffenest a gweiddi arnyn nhw; ond roedd hi'n rhy bell. Roedden nhw y tu hwnt i'r clyw, yn estron, heb wybod dim am ei herfyniadau, am ei cherydd, am ei dagrau hi. Roedden nhw ar blaned arall, ac yn pwnio ac yn torri. Fel pe bai wal o annealltwriaeth rhyngddyn nhw, roedd ei chri yn toddi yn y pellter ac ar sigl tirion y gwynt.

Nawr roedd bechgyn draw ar waelod y cae yn eistedd ar y ci bychan druan ac yn ceisio gwasgu'r anadl allan ohono. Chwardden nhw'n sgrechlyd fel ffair. Ac allai Marged o bell ddim dylanwadu ar yr hyn a oedd yn digwydd. Roedd hi'n sgrechian ac yn curo'r ffenest ac yn ysgwyd ei dyrnau'n ffôl; a theimlai fod ei hanadl ei hun yn cael ei raddol dynnu allan ohoni, ei dynnu dynnu ar draws y cae, gyda'i llygaid, i lawr y cae, i lawr i'r afon ac i'w gwaelod hi ei hun ar ôl y ci.

Roedden nhw nawr yn dal y ci i fyny gerfydd ei gynffon a'i draed ôl a'i chwifio'n anurddasol ac yn ddwl, ac yna'n ei daflu'n erbyn coeden. Gallai hi weld y ci o hyd nawr. Roedden nhw'n ddirugaredd. Gwyddai hi am oedolion fel hyn, ac am afiechydon: heb dosturi, heb gydymdeimlad, heb barchu rhai bach diymadferth.

Coeden wedi'i blingo o'i rhisglen oedd hi.

Bechgyn bach oedd yno wedi tyfu'n gewri gyda'i gilydd yn erbyn y tamaid ci ac yn defnyddio'u nwydau cyntefig i'w ddifetha. Pa reolaeth oedd gan y weddw yn erbyn y fath ymosodiad a fu ar ei hunaniaeth ddi-help beunydd? Sut y gallai hi ddal ei gwaed ei hun yn ôl wrth rythu drwy'r ffenest, a'i atal rhag llifo i ffwrdd, yn goch yn ffrwd i lawr y cae a chyda'r afon? Roedd y byd bach yn gwasgu amdani fel nad oedd modd iddi weld y goleuni tu hwnt i'r cysgod anferth a orwedda'i arni. Roedd rhywbeth wedi ymadael â hi.

Maen nhw wedi diffodd y goleuadau ar yr awydd i fyw.

'Dwed yn llythrennol uchel: *mae wedi marw.*' *Mae Wedi Marw.*

Roedd rhaid iddi fynd i lawr nawr atyn nhw. Chwiliodd am ei chôt a'i tharo amdani; ac yna, rhedodd i lawr y grisiau, ac ar draws y ffordd i'r cae. Roedd rhywbeth yn ei gyrru. Dringodd y gamfa; ond erbyn cyrraedd y lle y buasen nhw, roedden nhw wedi mynd. Y ci a'r bechgyn. Doedd neb ar ôl. Galwodd. Roedden nhw y tu hwnt i'r clyw. Chwiliodd ar bob tu amdanyn nhw; rhedodd tuag at y bont. Ond roedd y bechgyn yn chwilio am ragor o hwyl newydd yn y fan yna. Roedd ei hesgryn hi wedi'u plisgo hyd at y mêr, y mêr byw a losgai'n goch pe baech chi'n cyffwrdd ag e. Safodd, wedi blino, a'i dwylo ym mhocedi'i throwsus, a'i phen yn teimlo heb ddigon o ddymuniad i ddringo na'r cae na'r grisiau'n ôl i'w fflat.

Criodd hi. Beichiogodd grio o fewn ei llwnc. Yn ddisymwth, syrthiodd cawod fach o gesair yn gymysg â glaw fel drain ar hoelion, am ei phen a'i dwylo, ac i mewn i'w gwar. Ymysgydwodd hi, fel pe bai hi'n dihuo. Roedd cieidd-dra'r gawod mor greulon iach rywsut, wedi puro'r awyr ac yn ymuno â'r gwynt rhew, wedi poethi'i chroen, wedi bywiocáu ei meddwl. Roedd y boen yn clirio'i gwythiennau. Doedd hi ddim am fynd yn ôl yn syth i'r fflat, a cherddodd drwy'r gawod yn heriol hamddenol. A oedd dioddefaint yn ceisio'i phuro hi fel hyn? Roedd hi'n amau... nad dyna a ddigwyddasai i'r ci, beth bynnag.

Arhosodd nawr wrth llwyn anferth o fieri, a sefyll wedi anghofio am y ci, am ei gweddwdod, ac am y bechgyn. Syrthiasai rhyw ddistawrwydd gwyn gwag am bob peth gyda'r gawod honno o gesair, a theimlai ei bod hi am ddal hwnnw o'r tu mewn iddi am ychydig, eto am ychydig funudau, fel math o dangnefedd: dal rhithyn o'r munudau hyn.

O ganol y llwyn, sut bynnag, clywai rwgnach isel a chwynfannus – nid grwgnach – ond peswch bach – megis gan ryw iaith gladdedig. Ond grwgnach creulon ac o ddifri oedd. Ceisodd syllu i mewn drwy'r brigau tew tuag at ei ffynhonnell, ond roedd y brigau hyn wedi'u plethu'n glos fel pe baen nhw am dagu pob ymdrech i gyfathrachu. Aeth hi ar ei gliniau yn y fan yna yn y llaid am nad oedd y brigau mor drwchus ar y gwaelod. Gallai weld yr ast yno yn y canol; ie, gast, canys gast oedd hon,

yn gorwedd ac yn griddfan, wedi'i rhwymo gan lynnau neilon. Roedd y bechgyn wedi'i rhwymo hi'n dynn a'i hyrddio'n ddihidans i ganol y drysi lle y clafychai'n awr heb ymdrechu a heb obaith mwy i ymryddhau rhag gorthrwm y bechgyn. Ond roedd y peth bach yn glynu wrth fywyd. Ymlusgodd Marged yno i mewn ar ei phedwar, bron ar ei bol weithiau, gan faeddu'i chôt yn y llutrod a chan grafu'i hwyneb a thorri ei dwylo ar y drain heb wylo. Gwasgai'i hewinedd i mewn i'r llaid i'w thynnu'i hun yn nes at yr ast ddolefus. Roedd honno'n llonydd ac yn ddiegni pan gyrhaeddodd. Wrth iddi geisio'n llafurus ddatod y clymau er mwyn ei rhyddhau, chynigiodd y greadures fechan yr un gwrthwynebiad – dim ond ochain yn fabiaidd ac yn oddefol, heb ddigon o hunaniaeth i allu gwrthryfela.

Roedd y clymau'n rhy dynn, sut bynnag, ac allai Marged ddim datod na gwneud dim â nhw. Ond roedd yr ast mor ingol o druenus fel y teimlai'r weddw'n benderfynol na allai ddim ei gadael fel hyn yn y fan yma. Ymlusgodd Marged yn ei gwrthol allan, ymhellach yn ôl allan, drwy'r mieri, a lled-redodd adre'n ôl dros y cae tuag at ei fflat. Ac er bod rhai o'i chymdogion yn pipian arni, yn ei baw a'i gwaed, wrthi'n brysio'n flêr anniben unig yn ôl i chwilio am y siswrn mawr, faliai hi ddim. Cafodd hyd i'r siswrn ar unwaith, a gwylltiodd yn ôl at yr ast fudr. Wedi cyrraedd y llwyn, ymdaflodd ar ei hyd i mewn heb hidio am bigiadau'r drain, i ymestyn at yr ast a chynnig ei gwaredigaeth.

Yno roedd yr ast o hyd yn belen brudd o gwynfan gwichlyd. Llwyddodd Marged i dorri'r llinynnau amdani fesul un yn fanwl ofalus, a'r ast fel pe bai heb sylwi arni. Ar ôl iddi ymwarded â'r llinyn ola, sut bynnag, dyma'r ast yn ddisymwth yn ymysgwyd ac yn codi ar ei thraed a thro'i dannedd yn ffaidd ati gan chwyrnu'n ymosodol, y chwyrnad cadarnhaol cynta o ewyllys anhyblyg a glywsai ganddi hyd yn hyn.

'Dere di,' meddai Marged. Ond doedd yr ast ddim am chwarae dim â'i dere-di yna. Llamodd ati gan ysgyrnygu ewyn a chan ymaflyd yn ddirmygus ynddi. Rhwygodd ei chôt, a gafaelodd yn ei gwallt gan ei thynnu'n orffwyll. Gwaedodd y dannedd hirion at ei hwyneb. Sgrechodd hi mewn dychryn. Ac roedd ei chri'n gynhyrfiad pellach i'r ast a bawennai am ei hysgwyddau ac am ei gwddf. Ymladdai'r ast â'i dwylo meddal a dieffaith hi. Roedd yn cnoi ac yn malu ac yn rhwygo ac yn ffyrnigo. Ymgymysgai chwys a blew a dagrau a sgrechian a chyfarth: rholien nhw ymhlith ei gilydd yn

waedlyd, nes bod Marged druan wedi cael ei chlwyfo'n ddifrifol ddigon mewn sawl lle, ar ei hwyneb a'i dwylo a'i breichiau. Gan grio iddi'i hun, ciliodd hi mewn cywilydd allan o'r llwyn. Roedd y peth fel cosb. A hiraethai hi am Hywel.

Ac yna, sylwodd am y tro cynta, y tu ôl i'r ast, ar y torllwyth twt o genawon bach, dau fwndel bach gwyn diniwed ar lawr yr oedd yr ast wedi esgor arnyn nhw er iddi fod yn rhwymedig. Roedd gan yr ast gwmpeini. A doedd Marged ddim yn syn felly i'r ast gael adnewyddiad o benderfyniad ac o egni i'w hamddiffyn ei hun a'i phlant pan ddaethai hithau i'w rhyddhau.

Dyna, felly, pam roedd y bechgyn wedi bod yn ei herlid hi, am fod yna dorllwyth ar ddod.

Yn glwyfedig ac yn hapus, criiodd Marged ar ogwydd allan ac yn ôl i fyny'r cae drachefn. Drwy gil eu llenni fe wyliai cynulleidfa o'i chymdogion hi, a'i balchder bawlyd hi'n cloffi'n ôl i'w fflat, heb ddeall pam. Ond roedd hi wedi gweld popeth. Roedd y dydd wedi'i ryddhau ychydig. Mor hyfryd oedd y bywyd hwn iddi heddiw.

Ond y bore wedyn gyda glasiad y wawr, a phob bore a phob hwyrnos gyda'r cyflichwyr, am rai wythnosau bellach, fe âi Marged yn llechwraidd i lawr at y llwyn. Byddai hi'n prynu llond tun o'r cig-cŵn gorau. Arbedai esgryn o'i phrydau bwyd ei hun hefyd a thameitiach o fisgedi. Âi hi â'r maeth hwn nawr at y fam a'i theulu bach newydd, a hyfryd ganddi oedd clywed llawenydd y cenawon bach yn drydar ac yn ielpian i gyd pan ddôi hi ar gyfyl y lle. Fentren nhw ddim allan o'r gaer fierog, o leia pan oedd hi'n gefn dydd golau. Ond wrth i Marged ymgripian i mewn ychydig dan y brigau er mwyn estyn y bwyd iddyn nhw, phrotestiai'r ast ddim o gwbl mwyach. Daeth y teulu bach oll gan bwyll i'w hadnabod hi ac i dderbyn ei hymweliadau beunyddiol. Daethen nhw'n gydnabod i'w gilydd.

Er y gallai'r rhain fod yn ddigon hy i gyrchu allan ar ôl i'r tywyllwch gau am y llwyn a'i amgylchoedd, arhosai'r cenawon yn awr fel arfer yn gryno ynghanol y drysi o'r golwg drwy'r dydd a phob dydd. Mae'n wir fod rhai o'r bechgyn yna'n dod heibio ambell waith o hyd, a'u bod wedi ceisio lluchio cerrig i mewn drwy'r brigau rai troeon a phrocio'r cenawon â ffyn; ond heb fawr o lwyddiant. Doedd dim llawer o obaith

cyrraedd at y creaduriaid bach yn ddiogel am fod y brigau allanol mor hynod drwchus, er bod yna fwy o le rhydd o'r tu fewn yn nes at y boncyff. Blinodd y plant ar eu gêm rywfaint. Ac roedd yr ast felly'n gallu symud yn ystwythach. Deuai hi'n fwy bygythiol hefyd yn y fan yna pe bai'r plant yn ymlusgo fymryn yn nes i'r canol. Dysgodd mwy nag un o'r bechgyn drwy chwerw ddolur eu bod nhw fel pysgod ar dir sych wrth geisio brwydro â'r ast hithau a ymgartrefasai mor fanteisiol yn y fath amddiffynfa. Ymhen wythnos neu ddwy, ymddangosai fod yr ast yn mynd i gael llonydd yno ganddyn nhw. Dim ond Marged a ddôl heibio; ac roedd ei charedigrwydd hi'n cynyddu beunydd. Roedd y bechgyn yn chwilio am gêm newydd. Ar y dechrau, deuai Marged ag eli a rhwymau i leddfau clwyfau'r ast o'r golwg. Ond â'r amser ymlaen iddi hi ac iddyn nhw yn heddychlon, heb gyffro mwyach. Ac wedyn, pan ddeuai'r nosweithiau'n arwach, ac yr agoshâ'r gaeaf, fe ddeuai hi ag ystyllod i adeiladu cwt bach blêr cysgodol o'r tu fewn i'r llwyn, a chlytiau blancedi i'w ddiddosi'n ddiddan. Cheisiai hi ddim eu denu nhw allan iddi hi'u meddiannu a'u hatynnu'n ôl i'w fflat hi: yn hytrach parchai'u harwahanrwydd a'u hannibyniaeth. Cŵn oedden nhw wedi'r cyfan, a chanddyn nhw eu lle a'u ffordd eu hun, a fynnai hi ddim eu darostwng, er ei bod hi'n awyddus i'w caru.

Ond pan ddaeth yr ha – a ha sych drybeilig oedd – un gyda'r nos pan oedd Marged ar gyrchu i lawr â'u swper at y teulu bach, synhwyrodd fod yna fwy o stŵr nag arfer y tu allan. Aeth ar ffrwst at y ffenest, a chanfu goelcerth ar waelod y cae, a bechgyn yn dawnsio o amgylch y llwyn tra oedd hwnnw'n llosgi'n rhuddgoch. Brysiodd hi i lawr i'w gyrru i ffwrdd, a phiciodd hi i mewn drwy'r lludw a'r fflamau i chwilota am ei chyfeillion bychain. Doedd dim ôl ohonyn nhw yn unman, dim ond aroglau a llwch y tân, a math o gols diffaith.

'Ble maen nhw?' Gwaeddodd hi ar ôl y bechgyn. Llosgodd ei dwylo.

Ond wnaethan nhw ddim namyn chwerthin oddi draw a throi i ffwrdd. Roedd Marged ar goll. Doedd bosib na fyddai rhyw ôl o'r creaduriaid bach diflanedig rywsut pe baen nhw wedi'u llosgi'n farw'n fyw. Gwyddai Marged ei bod hi wedi colli dolen enfawr ym mhatrwm ei bywyd.

'Ble maen nhw?' holodd hi'n daer wrth y llwch. Oedden nhw wedi ffoi mewn pryd? Neu ai gwell oedd ganddyn nhw aros a darfod yn yr unig le a gynigiasai ddiogelwch iddyn nhw, heb fentro at y bechgyn a'u ffyn didrugaredd? A oedd unrhyw bosibilrwydd arall?

Crafai Marged ymhlith yr ystyllod llosgedig yn y canol, crafai'n daer, a chiciai'r colts hanner-marw yn ddiflas er mwyn cael ateb. Crafai eto. Ciciai hi eu fflwcs i'r awyr, a throellen nhw fel plu gwely, fel eira brwnt, fel petalau syrthiedig. Ac fe'i ciciai ei hun o ddifrif. A oedd y bywyd hwn i gyd yn ddiogel bellach, ynteu'r tameidiau o fywyd mân yn unig a oedd heb gefnu arni?... Wyddai hi ddim. Craffai hi'n ddolurus i'r sgerbwd lwyn... Dim.

Gymaint yr oeddwn yn dy garu di, Hywel. Alla-i fyth ddweud wrthot ti mwyach y fath wynder oedd mewn tro bach drwy'r caeau gyda thi. A thithau'n wyn, sut galla-i adrodd nawr dy gorff ifanc ddechrau'r ha pan redet i lawr ar draws traeth y Borth i dderbyn anwes y tonnau? Mor awchus y byddai newyn y tonnau'n hiraethu am gyfarfod â thi. Gwydden nhw yng ngorfoledd i, Hywel: gwydden nhw am dy dawelwch hefyd, y ffordd y llithrai hynny mor ddisylw olau ata-i drwy'r awyr a ganai o'th gwmpas di. Mor felys oedd cofio'r symlder hwnnw yng nghanol byd mor gymhleth a dryslyd. Dyw hi ddim yn syndod fod dy bersawr di'n oedi yma yng ngwaelod y cae heddiw lle y dwedaist ti gymaint dy gariad wrtho-i. Sut galla-i ei ddweud yn ôl wrthot ti yn awr?

Roedd y tân wedi distewi mwyach. Dim ond mewn ambell bentwr gwasgaredig y daliai rhai o'r pentewynion i wreichioni.



## TRAED PRYDFERTH

### I

#### *Dyddiadur David Jones*

*Medi 18, 1814*

Drwy gydol yr wythnos hon bu Breuddwyd yn y nghanlyn. Bob nos yn y ngwely fe ffois i o flaen ei lais. Fe heliai i lawr drwy flancedi y nghwsg ac i fyny drwy lieiniau tenau y nihuno. Doedd dim llonydd rhagddo. Droeon fe naliai i, a'n amgylchu yn ei freichiau ifainc, gan osod ei awdurdod o neutu. Yna, fe ddihangwn i, a dechreuai'r helfa eto. Dygnai fe ar yn ôl. Ond pan ddaliai fi, pan orffwyswn yn ara yn ei freichiau, a finnau'n wrthryfelgar ac yn gwrthod ei anwes, i ganol yn anufudd-dod brwnt yno a'n ffeiddio cnawdol i, fe ddiferai ffrwd o felyster, oerffrwd o chwa ysgafn. Fe'm hoerai. Yna, am ennyd, câi'r weledigaeth lonyddu ychydig. Cawn edrych o amgylch, a meddwl am ei hystyr, a phendroni.

Y fan yna yn y nghwsg bues i dros y môr wrth yr hen waith o bregethu. O neutu gwrandawai tyrfaoedd o baganiaid. Tuag ata-i a thuag at y ngeiriau i fe droai miloedd o lygaid i ddisgleirio o dywyllwch caboledig wynebau duon. O! eu hyfrydwch tywyll! Tu ôl iddyn nhw, gorweddai eu heilunod megis dolennau toredig o gadwyni'r canrifoedd – y pethau a wnaeth dyn anwybodus ei hun, ei syniadau fe; ond nawr, yn y genhadaeth yna heddiw, caen nhw gyfle i ymestyn at y pyrth tragwyddol. Ciliodd pob caethiwed. Bellach caen nhw gyfle gwrthrychol yn y farn derfynol i bledio'r Iesu; er eu noethni gorweiddiog a'u heuogrwydd, roedd Un a'u gwnâi nhw'n weddus ac yn gymeradwy i'r Duw difrycheulyd, wedi y nanfon i. Er mor wan y bregeth, mor gryf oedd E.

O Dad, y Nhad effro, yr Un sy goruwch ein holl ffolineb, yr Un sy'n ein caru ni i lawr ynghanol ein hunan, ein Tad ni, gad i ni weld ein natur feddrod ni ein hun. Gad i ni gael cipolwg byr ar Dy loywder sanctaidd Di a chanfod yr Iesu yn Ei dlynsni ac yn nafnau coch Ei aberth, ac ymestyn ato fel y byddwn ni'n mynnu plygu'n calon oll iddo Fe. Tosturia wrth y rhai di-ffydd sy yn nhywyllwch balchder paganaidd, a chrwyn tew'r pellter sy rhwng dyn a Duw yn eu hamgylchu – y cnawd sy'n eu mygu nhw megis bedd.

Drwy'r Breuddwyd hwn, fe ges i'n herio i holi. Pa fodd y credan nhw yn yr Hwn na chlywsan nhw amdano? A pha fodd y clywan nhw, heb bregethwyr? A pha fodd y pregethan nhw onis danfonir nhw? Megis y mae yn ysgrifenedig, Mor brydferth yw traed y rhai sy'n efengylu pethau daionus. Wele, mae'r paganiaid yn dal i sefyll acw a'u breichiau'n denau estynedig. Clyw'u crygni brogaog yn galw o'r corsydd: 'Tyred trosodd, a chymorth ni.' Pa beth yw'r crawcian a'r sgrechian hwn?

Pwy sy'n galw arna-i yn y Mreuddwyd? Pwy sy'n siglo y nychmygion ac yn arswydo y nghwsg? *Tyred trosodd. Tyred trosodd a chymorth ni.*

A hwn sy'n ateb, ai yn llais i yw? Ie. Yn llais i sy'n ateb, gyda hyder ac mewn bodlonrwydd: *'Wele fi, anfon fi.'* Arglwydd nefol, ai ti sy'n ateb drwy ngwendid i?

*Medi 20, 1814*

Amheuwch bob Breuddwyd, dyna fu gyngor doeth Thomas Phillips erioed. Mae'r ffansi'n cael ei arwain chwit-chwat yn rhwydd ei wala yn ôl dymuniadau cudd y cnawd. Onid dyma ddiffyg y crynwyr a'u goleuni mewnlol cyfleus? Onid dyna fu gwiriondeb Howell Harris? Ac onid dyma pam y rhoddwyd y Gair yn graig i ni: yr hyn na allai dyn ei feddwl oherwydd cadno ei ddeall a blaidd ei deimlad, hynny a ddatguddiodd Duw. Bu'n rhaid cyflwyno rhodd y gwirionedd, fel y caen ni'n harbed rhag tramgwydd cyfyngedig ein tipyn rhesymau'n hun. Gair gwrthrychol a manwl yw Gair Duw, sy'n hanes, ac eto mae'n cael ei eni ynon ni. Yr Ysbryd oddi uchod sy'n rhoi'r Gair. A'r Ysbryd hwnnw hefyd sy'n ei fywhau yn ein deall ni.

Gocheler pob Breuddwyd sy'n rhoi cyfle i ddyn 'ddehongli', canys ystyr dehongliad mor aml yw cam-ddehongli a throir meddwl i lwybr rhagdybiaeth. Esgus yw dros Hunanoldeb. Mor hawdd y gwela-i ddameg yn y Mreuddwyd, a'i wyro i ateb yn yn nhybiaeth breifat innau. Ond prawf amgen yw'r gwir ysgrifenedig yn yr Ysbryd a'i briodolrwydd i bechaduriaid. Dyna pam y'i rhoddwyd e. Cysgod bach ar y gorau yw Breuddwyd ar lenni'r meddwl, ond mae yna elyn a thrangwydd sy eisoes yn sylwedd ac a gamddeallwyd yn rhemp o nghwmpas ym mhentrefi a threfi Cymru. Mae yna waith arall yn y fan yma. O! Y Nghymru i yn hun.

A'r un ofn sy yn y gwledydd pell: ofn dyn yn dilyn ei chwiwiau personol ym mhobman. Yn eglurder golau dydd, oes, mae yna ofnau sy'n cnoi, ofnau sy'n llarpio gan lamu o'r tu ôl i goed. Pa welliant y gallwn innau'i wneud? Nid arwr yn sicr mohono-i, nid anturiaethwr yn bendant. Pa beth a wn i am farbariaid a pha fodd i'w ddysgu? Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?

Nid Breuddwyd, mae hynny'n sicr.

O Arglwydd, bydd yn Arglwydd arna innau. Dw i ddim am i'n ofn i fod yn gyfarwyddyd nac i ngwendid freniniaethu.

*Ion. 15, 1815*

Dawnsia'r galaethau o flaen allor Duw. Sdim arall. Darlun yw hyn o Ogoneddu.

Pan anghofiwn E, pan wadwn, pan fradychwn, does dim arall o bwys yn digwydd ond yn ein perthynas ni. Eithr, ar y llaw arall, pan gofiwn amdano... ar gornel y stryd, yn y tŷ, mewn cae chwarae, dawnsia'r bydysawd ynon ni; a Duw yw noddwr y dawnsiwr fel roedd i Ddafydd. Dawns anrhydedd yw oherwydd gwaed y Brenin.

Ym man canol yn enaid i y mae E'n bresennol. Does neb ond Fe yn ddigon bach i fynd i lawr fel gwreiddyn tenau i lawr i'r gwaelod, i'r gronfa bwynt, i osod yr hedyn mân mân, hedyn diddim y diderfyn. Gair o'r Beibl yw'r hedyn mwstard hwnnw.

Ryw ddydd, drwy help Duw, fe ddo-i i le pryd na bydda i'n meddwl mwyach amdana-i yn hun: bydda-i yn meddwl am ddim ond am Dduw, Duw yn nhlynsni trefn Ei gread a Duw yn y dynion a wnaeth â bysedd Ei ddwylo. Does neb ond Fe'n ddigon mawr; ond Duw yw sy'n Arglwydd a minnau'n gyfangwbl ufudd. Duw, yn orlawn a minnau'n hollol wag. Minnau'n anhysbys ac Yntau'n unig yn gweld. Fe yn gallu y myw i, a minnau'n was iddo Fe.

*Ion.17, 1815*

Does dim eiliad i oedi mwyach. Dŷn ni bob amser ar farw. Wrth inni redeg drwy'r bywyd hwn mewn fflach, fe welwn ar lan yr afon las-y-dorlan yn saethu â'i ogoniant, a'r un angen cyflym ynon ninnau nawr. Diolch, O Dduw, am d'ykestyniad mor amserol tuag aton ni. Diolch, O Arglwydd, am beidio â gadael dim llychyn o'r 'ni' ynon-ni inni ei gynnig iti, dim ond ein pechod ynddo Fe, a'n haddoliad. O na chaen ni wneud rhagor i'th foli di heddiw.

Darllen y Salm fawr. Glynu wrthi fel dyn wedi'i longddryllio, wrth Ei gyfiawnder dosturi.

Dw-innau am groesi môr. Ond mae E'n gwneud mwy na hynny. Mae Yntau'n golchi drosto-i, yn estyn Ei donnau uchel ar draws yn wyneb, gan gau amdana-i hyd nes imi suddo, suddo y tu fewn i'r gwyndra sy'n dallu'r llygaid. Fe sy'n y moddi. Mae Ei eiriau yn y ngwthio'n nerthol: yn y meddwl i, maen nhw yn yn llyncu i: dw i yn sadio ar lawr – a does dim ond llawr – ar lawr Ei afon E, ar lawr Ei berfedd; bydd E ddim yn fodlon hyd nes iddo yn llenwi i mwyach ag ysfa Ninefe. Bues i'n ymladd gynt yn erbyn y llif, ond y mae yn ysgwyddau, a chyhyrau y mreichiau i, wedi'u treulio; a does gen i nawr ond yr anadl a rydd E yn Jona, y Jona gysgod a fu yng nghrombil y bedd. Ei ysfa fywydol E sy'n y miniogi i y tu mewn i'r guddfan hon. Mae'n chwythu. A choda-i y nwylo i'n dawel yn yr awel ddiniwed. Mor ysgafn. Mor bersawrus.

*Chwef. 9, 1816*

Ar ddechrau'r gwasanaeth heddiw, soniodd Thomas Phillips iddo ddarllen yn ddiweddar am gyrchoedd caethweision ym Madagascar: am bobl yn cael eu marchnata. Roedd e'n tybied mai dyma'r hen elyn, yr un a geisiai bob amser ladd yr ystyr ddwyfol i fywyd dyn, hwnnw'n codi'i ben unwaith eto. Roedd moderniaid heddiw am honni fod dyn yn perthyn i'r anifail, yn beth corfforol i'w ddefnyddio mewn fforest er hwylustod; ond yr oedd y Tragwyddol am inni ganfod pob dyn mewn cyfrifoldeb yn dod yn ôl ei berthynas ag E. Perthynas dyn ag E: dyna'r datguddiad. Does dim arall mewn 'bywyd' i gyd.

Fe ddarllenodd Mr Phillips o'r 16eg bennod o lyfr yr Actau: gweledigaeth Paul yn Nhroas. Ac yna, wedi gosod y Beibl i lawr, fe ddwedodd: 'Dw innau wedi cael Breuddwyd.' – Thomas Phillips, amheuwyr pob Breuddwyd, beirniad popeth goddrychol, y gŵr uniongred diddychymyg – 'Neithiwr mewn Breuddwyd fe welais i ddyn o Fadagascar yn sefyll ar y traeth ac yn galw, "Tyred trosodd a chymorth ni." Beth amser yn ôl roedd yna Ddoctor Vanderkemp a oedd am arloesi ym Madagascar, ond roedd gwaith ymhlith Hotentotiaid De Affrig wedi'i gadw'n rhy hir. Ac felly y mae'r truan bach o eilwad Malagasaidd o'r traeth o hyd yn gweiddi, "Tyred trosodd." Pwy a â? Pwy a edy ei wlad a'i rieni, ei frodyr a'i chwiorydd, ei gyfeillion a'i gymdogion er y mwyn i?'

Dyna'r pryd y sefais i, y cachgi hwn, David Jones, ar y nhraed, yng nghanol y gynulleidfa: 'Mi a-i!'... Ai balchder oedd hyn?

Yna, megis o'r ogo o'r tu ôl i fi, Tomos Bifan fel pe bai'n gefn i fi: 'A-innau hefyd.' Mae eisiau dau o leia.

*Chwef. 10, 1816*

Dw i'n gwneud cyfri o ddim, ac nid gwerthfawr gen i yn einioes yn hun, os galla-i orffen y ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais i gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu i efengyl Duw.

Goruwchnaturiol yw'r Greadigaeth mewn Gras Arbennig a Gras Cyffredinol: y cwbl, o'r Greadigaeth a'r Waredigaeth. Maen nhw'n ein bwydo ni mewn llawer ffordd, mewn llawer dawn. Rhoddion ydyn nhw i'r bobl a syrth mewn pechod, ac i'r edifeiriol a sarhaodd y Maddeuwr anweledig. Pan dybiwn-ni ar dro ein bod ni wedi'n cau ein hun o fewn byd arall a dinasyddiaeth arall, y pryd hynny o hyd mae ystyr pob dim ynon-ni ac o'n cwmpas ni'n ymestyn allan o'r ystyr sydd ynddo Fe. Mor naturiol yw'r goruwchnaturiol.

I ba gyfeiriad yn nheyrnas y Goruwchnaturiol hwn yr a-i mwych?

Mor brydferth yw gwaith yr Ysbryd Glân bob amser. Mor rasol yw'r Drindod.

*Awst 20 a 21, 1817*

Cael yn ordeinio ynghyd â Tomos Bifan yn Neuadd-lwyd o flaen 50 o bregethwyr a 5000 o wrandawyr.

Gofynnodd un i fi: 'Oes arnat ti ofn?'

Oes, oes, dw i'n anobeithiol o ofnus. Fe fydd yr iaith newydd, y byd dieithr, yr anifeiliaid yn llarpio yn y goedwig, y barbariaid yn ymosod yn y nos, fe fydd y cwbl yn ormod. Sut y dylwn i fynd ati ar y dechrau heb yr iaith? Mae arna i ofn a dychryn ac anobaith a gwendid fel baban. A'r rhain dw i yn eu cynnig i Dduw – y niymadferthedd, y nhwpdra, y mraw, y nibyniaeth lwyr arno Fe. Ac mae E drwy Ei Ysbryd yn ateb: 'Digon i ti y ngras i; canys y nerth i a berffeithir mewn gwendid.' Dyma gyfarfod hyfryd iawn: myfi yn llwm a'r Iesu'n llawn. Anfantais mewn lle felly fyddai nerth a hyder yno-i yn hun.

*Chwef. 10, 1818*

Cychwynnon ni ddoe ar y llong *Swallow*.

Mae arna i ofn ifi wneud cam â Louisa... Pan es i Athrofa Gosport i gael yn hyfforddi ar gyfer y genhadaeth, roeddwn yn eithafwr, heb weld dim o mlaen ond rhesi o baganiaid dros y môr yn mynd i dragwyddoldeb bob dydd, ac yn gorfod ymddangos yn y farn yn noeth ac yn euog heb glywed am Grist yn Waredwr. Roeddwn i'n wyllt o unplyg. Pan es i eglwys Dr. David Brogue yn Gosport, gwyddwn fod y merched duwiol yno oll yn gymdeithion posibl a gweddus ifi ar gyfer y ngenhadaeth. A dw i'n ofni y mod wedi defnyddio Louisa, druan, yn hwylustod i ddatrys problem.

Iddi hi, cyplysiad serchog a llawen oedd priodas. A finnau, fe deimlwn yn gynnes yn ei chylch. Ond am ei bod hi'n Gristion gloyw ac yn hiraethu am ddilyn cyfarwyddiadau Ysbryd Duw ar y maes cenhadol, roedd hi'n medru cyfuno'r genadwri honno'n sydyn â phrydferthwch ein priodas. Priodas oedd y drws i wasanaeth gynt. Mae arna-i ofn y mod i wedi gwneud harddwch y briodas hon yn beth hyll am ei bod yn gam ymlaen yn y nghynlluniau. Gwir mai undod yw'r byd; ond fe ddylwn i fynd at bob

blodyn yn yr ardd, yn gartrefol ac yn ysbrydol, ac ymhyfrydu yn ei bersawr oherwydd hud ei aroglau hardd ei hun ar y pryd, – o'i herwydd hi, fel y mae, heb ei defnyddio ar gyfer y patrwm cyflawn sy yn y ngolwg yn unig. Onid cabledd yno-i oedd priodi bach ar gyfer defnyddioldeb mawr? Bwriadodd Duw i briodas fod yn ordinhad.

Bu Tomos yn gallach, yn bachu'i gariad Mari Jones o Ben-yr-allt Wen. Alla i fyth gydderdded yn unplyg â Louisa o Gosport – cyd-fyw a chyd-farw mewn priodas, – fel y gwna'r ddeuddyn hir-gynefin yna. Gwasanaeth nid serch yw mhriodas i.

Mae yn angerdd i am Dduw i gyd yn rhedeg drwy gulnant ddofn, i ffwrdd, gan hyrddio'i sicrwydd yn ei flaen; ac all neb na dim nad yw'n ymsefydlu yn y llif fyth gadw'i le. Galla-i sylwi ar y glannau; galla-i sylwi arnat ti, Louisa, yn eistedd yn y fan yna mor ddestlus ac mor dlws ac mor syml weddaidd ar y garreg yn y ffrwd. Ond alla-i ddim stopio: ymlaen y mae yn angerdd cenhadol i'n mynd tuag at Un arall a gara-i.

'Oni bai i Dduw d'alw di'n genhadwr, fydden ni'n dau fyth wedi cyfarfod, David,' meddai hi, druan, wrtho-i. Dylai'r ddau beth – priodas â Duw a phriodas â gwraig gydfodoli. Fe'n gelwir ni i briodas ddaearol yn ogystal ag i briodas nefol.

Ie, truan ohonot, Louisa: gorsaf wyt ti ar y ffordd i Fadagascar; ewyn ar frig y don, cam llugoer. Pan dw i'n syllu arnat ti, ymddengys dy groen yn dduach, a'th galon bagan yn sychedu am gael gwybod rhyw dameityn am yr ymostwng sy'n fan cychwyn ar y llwybr tua'r Groes, a thithau wedyn yn Gristion. Mae'r un yna'n edrych drwot ti arna-i. Rwy'thau ar y llaw arall yn gallu sefyll ar y traeth yn neilltuedig symbolaidd a galw arna-i mor ufudd, 'Tyred trosodd.' Ond a ddo-i fyth go iawn atat ti yn *w'r* o Gristion, Louisa Darby fach?

*Gorff. 3, 1818*

O'r diwedd, cyrraedd Porth Louis, Mawrisiws. Chwe mis rhyngon ni a Chymru. Chwe mis o beryglon sy'n wal ddiadlam. Dw i bellach yn marw i'n hen fywyd.

Roedd Mr. John Le Brun, ar y cei yn cwrdd â ni. Mae e wedi bod yn genhadwr ar yr ynys fach ers pedair blynedd. Roeddwn i am fynd gydag e at y Cadfridog Robert

Farquhar, Llywodraethwr Prydeinig Mawrisiws, i gyflwyno llythyrau a dderbynais gan swyddfa'r trefedigaethau; ond roedd Farquhar wedi ymadael ers deufis i fwynhau ei wyliau hirfaith. Ymddengys fod dirprwy Farquhar, sef y Cadfridog Hall, nid yn unig yn wrthwynebus i ni'r cenhadon, ond hefyd yn cydweithio â'r fasnach-gaethweision. Pan soniais wrtho heno am fynd ymlaen i Fadagascar cyn bo hir, roedd e'n gwrthod yn blwmp ac yn blaen roi trwydded i mi. Fe yw'r sefydliad ymerodrol, meddai fe.

'Tipyn o "bôr" yw Radama, wyddoch, eu brenin,' meddai Hall. 'Plwyfol, wyddoch, cul. Codi yfflon o swae am yr Ewropeaid sy'n cipio caethion. Gall fod yn beryg i chi.'

'Ond fydd e ddim yn camgymryd ein cymhellion ni.'

'Twp yw hwnnw, wyddoch. Mae'r Malagasi i gyd yn dwp. Ddim yn medru Saesneg wyddoch.'

'Wel, fe allwn ddysgu eu hiaith nhw.'

'Does dim iaith ganddyn nhw, wyddoch. Dim ond stumiau a sŵn.'

'Fe allwn eu helpu nhw.'

'Bobol bach. A'n helpo ni. Arnon ni mae angen yr help.'

Ond llyncodd ei wisgi cyn ymhuodli am dywydd dychrynlyd Madagascar, ac am dwymyn y Malagasi a bôrs felly. Diwylliant Lloegr, a lles yr Ymerodraeth. Dw i wedi dod i blith ymerodraeth hunanol y masnachwyr ynghyd ag eglwys ddiunan y cenhadon. Mae yna frwydr anwel rhwng cenhadon ac imperialwyr.

O'n rhan i, does dim anhawster mawr i wybod yn llwybr: os gall masnachwyr ymweld â Madagascar, mi alla-innau. Dichon y bydd eisiau gadael y gwagedd dros dro, ond fe awn ni i fforio'r diriogaeth megis sgowtiaid ar ran Israel am y tro; a cheisiwn gael gwybod rhywbeth am y bôr di-iaith yna, Radama, cyn dychwelyd i nôl y gwagedd.



*Awst 18, 1818*

'Ydych chi'n ei gweld hi'n wlad gochlyd, Mr. Jones?' gofynnodd y capten i fi wrth inni agosáu.

'Y pridd dych chi'n feddwl? Na. Nid dyna sy'n y nharo. Yn hytrach, mae'r goleuni noeth sy'n hongian drosti yn ei gwneud hi...wel... yn wryfol. Dw i'n gweld hi'n trydanu drosti yn y dyfodol o wynder fel croen eirllys. Y gwyndra disgwylgar yw ei phrydferthwch hi, ddwedwn i. Mae ei fflam hi'n codi yna, yn gryf, yn anystwyth; yna mae hi'n aros i'r dyfodol. Beth arall yw'r gwyndra rhyfedd a disgwylgar hwn i genhadwr, dwedwch?'

'Mae popeth gwryfol yn beryglus, Mr. Jones,' meddai'r Capten, fel morwr profiadol. 'Gwylwch y merched er hynny.' Ar ôl glanio, daethon-ni wyneb yn wyneb â'r ddau elyn. Fe'n cyflwynwyd ar unwaith i'r ddau gan y capten, – Jean René a James Bragg. Tywysog brodorol yw Jean René, mab i dywysoges Falagasi a briodasai fasnachwr Ffrengig. Yn nesa at Radama, efô yw'r mwya grymus o benaethiaid y Malagasi: fe'i hapwyntiwyd yn llywodraethwr Tama-tafi gan y Prydeinwyr ar ôl iddo goncro dau lwyth o'i gyd-frodorion o'r arfordir, – y Betsi-misâr-aca a'r Bet-ani-mena. Fe yw'r un a unodd yr holl ynys. Ond bradwr yw e i bob pwrpas i'w bobl ei hun, ac mae'n ceisio cydweithredu â'r Saeson drwy werthu'r dreftadaeth frodorol ddynol iddyn nhw'n gaethweision. Wyddwn i ddim am yr imperialaeth yma.

James Bragg yw'r ail. Roeddwn wedi cael yn rhybuddio am hwn cyn ymadael â Mawrisiws. Ymsefydlwr o Sais imperialaidd, mor unplyg â fi: chaiff e byth ddigon o eiddo'r ynys i'w ddwylo. Mae e mor lwth ag yw e o ysglyfaethus. Teip cyfarwydd i'r byd benbaladr; claf sefydlog gwancus yr hil. Y ddau hyn yw'r prif elynion: nid afiechyd corff, nid tywydd, nid iaith, ond pobl – y gelyn o'r tu mewn a'r gelyn tu allan, y trefedigaethwr a'r trefedigaethedig. Dwy ochr i'r un geiniog: mae arna i ofn fod yr haint ysbrydol a gynrychiolir ganddyn nhw yn un na chaiff y byd wared â hi ar chwarae bach. Gyda Bragg, y trefedigaethwr, dŷn ni'n aros, gwaetha'r modd. Fe'n gwahoddodd ni i aros yn ei gartre ryw filltir i'r gorllewin o Dama-tafi.

*Awst 19, 1818*

Mae Bragg wedi ymuno yn y corws cynefin: 'Ewch yn ôl i Mawrisiws.' Rhaid i minnau gyfansoddi cân ddychan ar y thema yna pan ga-i gyfle.

*Awst 20, 1818*

Mae Bragg wedi newid peth ar ei gân ei hun erbyn heddiw. Ar ôl sylweddoli ein penderfyniad i beidio â dychwelyd, mae'n ein hannog i fynd yn syth yn ein blaenau i weld llwyth yr Hofas, gwlad Radama. Ond mi gredai fod ei gymhellion e'n ddigon clir. Ar y naill law, y mae e am inni beidio ag aros yn Nhama-tafi gan fod ganddo fe gêm fach broffidiol yno, ac mae e'n tybied y bydd cenhadon bach diniwed a sychdduwiol, sy'n siŵr o fod heb ei amau fe hyd yn hyn, yn debyg o'i darganfod hi maes o law os arhosan nhw'n ddigon hir. Ac ar y llaw arall, fe ŵyr e nad yw'r Hofas ddim mor gyfarwydd â gweld dieithriaid ag yw pobl yr arfordir, ac na fydd eu croeso nhw ddim yn debyg o fod mor ddof o ddi-waed. *Nhw* fydd y rhai gorau i ymwared â *ni*, yn ei farn e.

Mae yntau, y brenin Radama, wedi caledu tuag at bob Ewropead bellach. Mae e'n drwgdybio ni'r cenhadon hyd yn oed, oherwydd drwg-weithredoedd y masnachwyr caethion. A galla-i barchu'i agwedd e. Gwell gen i elyn sy'n caru ei wlad a'i bobl na'r mwydon ffiائد sy'n wên-deg ac yn gwerthu eu gwlad i'r tryma ei bwrs er mwyn caethiwo. Ond os llongdryllia-i ar y graig elyniaethus frodorol, bydd yn well gen i suddo fan yna maes o law na bod heb fentro ymlaen o gwbl.

Ond fan hyn yr arhoswn ni, o raid, nes inni gael ein traed danon-ni. Mi fydd yn dda inni ennill hyder a cholli peth o'n hygoledd anwybodus ynghylch y wlad ei hun yn gynta oll, a hynny ger yr arfordir.

*Awst 21, 1818*

Yn ystod ein hymddiddan â phobl yr ardal, fe glywson ni sawl cyfeiriad at frawd Jean René, sef Ffisatra, pennaeth yr Hi-fondro-na, ac y mae'r hyn a glywson ni wedi bod yn ddigon i wlychu'n chwit. Holais Bragg yn benodol amdano fe heddiw, a siaradodd

e'n bur wawdus pan awgrymais mai gwiw fyddai inni gyfarfod â'r pennaeth hwn. Roedd y gwawd yn fodd i ennyn ein harchwaeth yn amgenach; ac addawodd Bragg y caen ni fynd draw i gwrdd ag e yfory.

*Awst 22, 1818*

Hoffais Ffisatra, gŵr ffeindiach o lawer na'i frawd. Mae e'n yn atgoffa i am un o ffermwyr rhadlon Dyffryn Aeron: agored, chwerthinog, ond â pharch ganddo fe at berson pawb diarth hyd nes iddo wybod yn wahanol. Ces i gyfle i sgwrsio ag e ar ei ben ei hun, ac awgrymais iddo mai mantais fawr i'w bobl fyddai hyfforddiant ysgol. 'Arahaba; croeso machgen i,' meddai fe. 'Arhoswch chi ac agorwch eich ysgol. Ac mi gaiff y mab i, Berora, fod yn un o'r disgyblion. Dowch inni gyfarfod â'r llwyth i esbonio'r cynllun.' A thrwy ei ddehongliad cynnes e, fe geisiais i osod y posibiladau gerbron cynulliad o'r llwyth.

'Tsara be. Tsara be,' gwaeddodd pawb. (Da iawn). Ac yna, cyd-eisteddon ni ar lawr mewn cylch a chyd-swpera. Dw i wedi cyrraedd Madagascar o ddifri. Dyma yw y ngwir briodas. Haleliwia i ti, Dduw, am Dy fod yn caru dynion ymhob man, er inni dy wadu a'th fradychu, a chwarae â thi, hyd yn oed yn y cartrefi lle'r wyt Ti o ddifri.

*Medi 8, 1818*

Agor yr ysgol. Mae'r plant wrth eu bodd, a'u rhieni mor frwd nes eu bod hwythau am ymuno yn yr hwyl; ac ar y ngwir, gan mai yn yr awyr agored mae'r gwersi, does dim modd eu hatal nhw pe bawn i'n dymuno. Dyma lawenydd. Mae yna glychau ffigurol yn atseinio uwch y ngwallt i, a finnau'n golchi yn wyneb i heddiw yng ngwenau'r plant.

Yn awr o'r diwedd, dw i'n gweld eisiau Louisa. Pe bai'r gwragedd yn ymuno â ni yn y fan yma, fe allen ni rannu oedran y dosbarthiadau ac efallai ddechrau adeiladu ysgoldy.

Ai dyna yw Louisa i mi? Athrawes ychwanegol? Ai llaw arall yw i'r adeiladu?

Ydw i'n ei pharchu fel person, ynteu'n creu tyndra rhwng Gras Cyffredinol y teulu a Gras Arbennig yr efengyl?

*Hydref 28, 1818*

Nage: mae bywyd yn symud. Cyhoeddod ni'n awr ein bod yn dychwelyd i Mawrisiws i nôl y gwagedd, a chynigiodd Bragg yn beryglus o hael y byddai fe'n barod i gadw'r ysgol yn ein habsen. Erbyn cyrraedd yn ôl yr oedd Louisa wedi ymddwyn ar ferch. Mae Louisa yn fam, a ninnau bellach yn deulu sy'n cyd-ddeall o bosib nawr.

Y fath ferch. Ein merch ni. Yn hon, un ydyn ni, mewn gwirionedd, Louisa. Cest ti dy briodas lawn er y ngwaetha. Heddiw ym Mawrisiws mi ddylwn i fod yn fardd: byddai'r geiriau ar bapur o dan y mysedd fel ffosfforws yn gwawlio, yn anadlu fel llygaid mwyalchen. Mi alla-i ganu i ddathlu mod i wedi ymhoffi yn Louisa – fel dyn. Fydd dau o ngeiriau unigol ddim yn cyfarfod bellach heb iddyn nhw ymserchu yn ei gilydd... Ac o leia, fe fedra-i weddïo mewn rhyddiaith a diolch am wraig. A dw i'n dysgu Malagaseg bob dydd.

*Hydref 29, 1818*

Dangosais i lawysgrifau yn iaith y Malagasi i'r Cadfridog Hall, ac roedd e'n methu'n lân â gwrthod caniatâd mwyach i sefydlu cenhadaeth. Dyma'i fodloni fe fod ganddyn nhw iaith. Gallen ni yn awr weithio'n llythrennog mewn Malagaseg. Estyniad o'r ddynoliaeth hyd yn oed i Hall oedd y Malagasi mwyach.

Ces i lythyr heddiw oddi wrth gyd-fyfyriwr yn Neuadd Lwyd. Roedd hwnnw'n sôn am y newidiadau dirywiol ym myd diwinyddiaeth ym Mhrydain ac yn yr Almaen. Mae yna droi'n ôl tua chyfnod cyntefig paganaidd pryd roedd dyn yn gwneud ei gredoau ei hun. Fe osodai farn dyn a safbwynt dyn yn y canol. Mae meddyliau dynion yma ar y maes cenhadol mewn cyfandir newydd yn goleuo'n ddiwygiol drwy feddwl Duw, tra bôn nhw yng Ngheredigion yn paratoi ar gyfer tywyllwch. O leia dyna'r awgrym rhwng llinellau'r cyd-fyfyriwr o'r Neuadd Lwyd yn ei lythyr. Tybed a fydd yna sigl o'r fath yn

fydeang? Her hunan-ganolrwydd 'moderniaeth' yw, meddan nhw'r cyntefigion Cymreig, er mwyn hunan-gyfiawnhau mwyach. Tybed a fydd yna adfywiad i'w dwyn nhw ymlaen o'u gwrthgiliad bydol i wynebu o'r newydd efengyl sy'n ddigyfnewid dragwyddol yn ei gwraidd? Mae Madagascar yn galw ar y Cymry 'Tyred Allan'.

Yn y mryd i, does yr un broblem ddiwinyddol *newydd* byth yn codi. Yr un oedd dryswch Adda â dryswch Pelagius ac Armin, a'r diwinyddion Undodaidd diweddera. Chwilien nhw am ffordd i roi dyn yn flaena. Fe fu Adda'n anfodlon derbyn Gair goruwchnaturiol Duw â'r holl berson. Ac o'r herwydd, doedd dim ystyr i'r ddaear nac i Eden, na mawredd hardd brawychus i'r Duw byw, oherwydd balchder dynol moderniaeth; nac angen gorthrechol y credadun i blygu'n llwyr. Mae'r hen ddiwinyddion 'newydd' yn anfodlon o hyd i ymwacáu i'r derbyn mawr. Nid newydd yw ceisio dynoli Duw.

*Tach.7,1818*

Buon ni'n sâl dost, ni'n pedwar. Mae Louisa a fi wedi gwella ryw faint, ond y mae Tomos a Mari'n dal yn wachul. Ond oedi dŷn ni o hyd ym Mawrisiws. Mae gwynt hyll yn chwythu drwy dyllau yn amynedd i. Allwn i ddim oedi'n hwy, a does dim rheswm dros ohirio hyd nes i bawb ddod yn holliach a dychwelyd ynghyd. A-i'n ôl yn awr gyda Louisa, a chaiff Tomos a Mari ein dilyn ymhellach ymlaen.

Glanio yn Nhama-tafi. 'Arahaba, Arahaba,' (croeso) ymhob man. Arahaba i Ti'r Ysbryd Glân i lafurio drwon ni yn Dy winllan hyfryd ym Madagascar.

Yfory cawn ddechrau adeiladu'r ysgoldy, yma ym Madagascar.

*Tach. 20, 1818*

Dŷn ni ynghanol anturiaeth gyffrous. Weithiau pan fydda-i ar ben y mynydd, fe fydda-i'n gweld ein gwaith yn agor cyfnod newydd yn hanes yr Eglwys bron mor bwysig â chenhadaeth Paul. Parhad yw. Fe fuodd e yn gyfrwng i gario'r Efengyl o'r hen Israel drosodd i'r Israel newydd fyd-eang: o'r llwyth etholedigion yng Nghanaan i'r

etholedigion nad oedd ganddyn nhw ddim ffiniau na gwaed nac iaith na thir yn gyffredin. Ac felly y cariwyd y genadwri genhadol heddiw i'r gwacter hwn o'n pedwaredd ganrif ar bymtheg ni yn y Neuadd-lwyd, i Fadagasgar, fel i wledydd eraill.

Mae'n un o ddigwyddiadau mawr Cristnogaeth y byd. Caiff newid gwareiddiad.

Dyma ni'n awr yn ceisio torri'r terfynau artiffisial a gaeodd amdani hi yn Oesoedd Tywyll Ewrob a'i gwareiddiad, a'i thraddodiad gwanc a'i chaethiwed, a'i 'Christnogaeth' mewn enw. Priododd Duw â'r pridd; ond erbyn hyn caledodd y pridd. Fe geulodd Ewrob yn ormodol am y syniad o genadwri *heb* Benarglwyddiaeth ar fywyd i gyd, ac fe gamliwiwyd y genadwri wreiddiol honno. Cefnodd rhai eglwysi'n rhwydd arni. Cefnodd rhywrai ar ffrwyth y greadigaeth. Cafodd Paul yntau weld camdriniaeth i'r ddysgeidiaeth honno mewn mannau a'i profasai eisoes. A allwn yn y dwthwn hwn ymddihatru o'r plisgyn a wenwynwyd? Roedd gan Paul fanteision daearol: roedd yn ddinesydd Rhufeinig yn ogystal â bod yn Iddew. Roedd yn hyddysg yn nhraddodiad Groeg ac yn sefyll yn hanes Israel, a Duw wedi paratoi'r byd oll iddo-Fe'i hun ar gyfer lledu'r efengyl drwy ffyrdd a chyfryngau iaith. Cafodd Paul ei ddewis yn benodol i esbonio arwyddocâd y Croeshoeliad corfforol yn yr ysbryd. Tybed, a aethon ni i ymgyfyngu yn Ewrob bellach, yn ddiwylliannol? Gall hynny fod hefyd yn felltith. Aethon ni'n gul ac yn ddall. Blaenorwyd y Waredigaeth heb y Greadigaeth. Ond yr un Ysbryd Glân sy'n cynhesu calonnau Ei negeseuwyr am Iesu, ac Efô yw ein nerth a'n harweinydd o hyd yn ymarferol bob dydd. I genhadu'n gyfan, rhaid i Ras Cyffredinol a Gras Arbennig gydweithio: rhaid gofalu am gorff ac ysbryd gan Ras cyflawn.

*Rhag. 29, 1818*

Bu heddiw yn Wyl i'r Diafol. O Dduw! Y merch fach i'n gynta: lladratawyd ein perl cenhadol gan Angau'r Diafol. Gyda'r glawogydd trymion a'r awyr laith fe ddaeth twymyn. Yr oedd bad yn yr harbwr, a llwyddais i gael ffishig ganddyn nhw. Ond ofer fu. Bu farw ein babi bach bach. Mae hi'n gorff. Daeth creulondeb marwolaeth i'n tŷ ni.

Nid malaria oedd hyn. All Bragg ddim yn argyhoeddi i o hynny. Mae yna waith ysgeler arall ar gerdded. Mae yna symptomau eraill. Chwiliais y tŷ a dod o hyd i

'tangena', gwenwyn pur adnabyddus ar yr ynys hon. Ond pam roedd Bragg mor enbyd o awyddus inni gredu mai malaria ydoedd yn hytrach na blerwch ganddo fe?

A heddiw, colled enbyd enbyd arall, Louisa ddiniwed: y wraig ddirgel a ddarganfues i'n rhy ddiweddar. Bu farw. Hon y bues i'n annheg tuag ati, y wraig driw a nilynodd i ac a nilynai i megis mul ffyddlon i bob man. Hon na fynnai y mhriodi ond er mwyn bod yn gymorth glân, ym mhob cyhydedd, ar bob tywydd. Mor ddiymhongar, a heb ofyn dim gan fywyd daearol. Hon y bues i mor annheilwng ohoni. Wedi marw. Hithau hefyd, wedi ymadael mor ddisyfyd. Chwap wedi imi ddechrau dysgu caru, a darganfod rhyfeddod teulu. O! Dduw. O! Louisa. O! Elyniaeth gan y Diafol.

'Roedd hi'n braf, ein bywyd gyda'n gilydd, on'd oedd David?'

'Oedd, yn anwylyd i. Buon ni'n deulu diniwed o ddau.'

'Dyna ystyr “yr hyn a unodd Duw,” ynte, nghariad i?'

'Debyg iawn.'

'Oni wahaner ni gan angau – ffarwel David.'

Pala di, Ffisatra, pala di fedd yn ddwfn iddi. A chladda yn egni i a ngobeithion daearol i, a llawer o'n darganfyddiadau teuluol gyda hi.

*Ion 24, 1819*

Ai ti, Bragg, biau'r gelain hon hefyd? A phwy fydd y gelain nesa?

Fe gyrhaeddodd Tomos a Mari a'u baban hwythau yn nechrau Ionor. Ond doedden ni ddim wedi bod yma nemor ddim amser cyn i grafangau Madagascar gau amdanyhau hwythau hefyd. A heddiw bu farw'u babi nhw. Ai cyflafan yw hyn? Ai hyn yw cenhadu? Pwy ohonon ni fydd ar ôl? Yn Nuw mae y nibyniaeth. Dw i'n dechrau gweld sut yr oedd y Captan yn gweld hon yn wlad gochlyd.

*Ion. 31, 1819*

Tomos annwyl ei hunan, o bawb, bellach wedi mynd dan y bladur greulon.

'Fe fydda i farw, Dai; ond fe gei di wella a bwrw ymlaen gyda'r gwaith. Ac yn y pen draw, bydd yr had a gleddir yn dwyn cynhaea mawr.'

Un arall i'th sgôr di, Bragg. Dydd arall i'r Diafol. Tragwyddol ddydd sy gan y Gwaredwr.

Bellach, does neb ond Mari a fi. Mari, Pen-yr-allt Wen, gweddw Tomos, a fi: ai dyma'r drefn a fwriadwyd o'r cychwyn? Ai dyma Dy dîm di, Dduw?

*Chwef. 11, 1819*

Hithau hefyd, Mari... wedi marw.

Alla-i ddim bod yn hir ar eu hôl. Aeth pump o'r chwech o fewn dim i'w gilydd. Mae yn gyflafan yn wir. Dw i'n barod. Yn wan, yn ddigalon, yn siomedig, ac yn amddifad o'r holl anwyliaid, mi a-i yn y nhro yn ôl Ei ewyllys yn fuddugoliaethus ac yn ddiolchgar at y Nghrewr a Ngheidwad. Dichon na ddaeth yn amser eto i Fadagascar dderbyn yr efengyl. Yn Dy amser di, O Arglwydd. Cymer gynnw ni nawr had dy genhadaeth. Ai dyma gyfraniad Cymru i'r byd?

*Gorff. 4, 1819*

Ond gwella dw i yn ei wneud bob dydd, neu o leia ryw lun o wella. Dyma James Bragg heibio â'i athrawiaeth: 'Oni ddwedais i? Dyw'r wlad hon ddim yn addas i genhadon. Mae'n rhaid i'n siort ni, pobl wydn y byd hwn, ei hystwytho hi ychydig yn gynta. Rhaid ei mowldio hi yn ôl yr ymerodraeth cyn i bobl y genhadaeth ddod aton ni.'

Fe ddaeth Bragg ei hun yn ei ôl felly, i ymweld, a'i ffrindiau gydag e. 'Ychydig o oleuadau Ewropeaidd wedi dod i weld sut hwyl sy arnoch chi, Jones bach, ym Madagascar. Tipyn o gonsárn, gan ein bod ni i gyd yn perthyn i'r un ffyrm – Gwareiddiad. "Dowch, Jones, machgen i: cymerwch ddiferyn o wisgi. Dyma'r stwff ar gyfer malaria".' Roedden nhw'n dod i fwyta y nwyddau i, a lladrata, a'm dad-ddirwesta i; a doedd gen i mo'r ynni i'w gwrthwynebu a'u taflu nhw allan. Dw i'n ofni'r ysbryd imperialaidd.



Dal i wella wnes i, serch hynny. Ac ychydig o ddiwrnodau'n ôl ces gymorth rhai Malagasiaid caredig i nghario i lawr i'r arfordir. A ddoe, roedd yna long wartheg wrth y cei yn barod i hwylio'n ôl i Borth Louis. Dyma gyfle i ymlonyddu ym Mawrisiws rhag y straen a'r strach. Wedi'r heth a'r newyn a'r prinder bwyd, dyma newydd gwella, a derbyn nwyddau maethlon. Do, fe fu Madagascar yn wlad gochlyd. Roedd ei thraethau fel gweflau coch yn ymledu i ddangos dannedd coch ei cherrig. Roedd croen y machlud a'i waed yn llosgi'n friw yno fel teigres a oedd wedi cael ei cham-drin. Ond yn awr daeth tro ar fyd mewn llong i chwilio am ymgeledd am gyfnod, ac ychydig o obaith gyda hi, a mymryn o lawenydd i nghorff. Fe roliais innau ynnddi yn eiddilwch mewn bwndelau o borfa sych ar fwrdd y llong, yn agos i'r ych. Ymlusgwn dan haenau o faw melys. A chysgu'n sownd yno, fel mwydyn coch mewn bedd.

Rhaid ifi gilio drachefn rhag hon i Fawrisiws er mwyn adennill nerth i'r dasg yr eilwaith. Ces i felly fad i ddianc ac i adnewyddu am y tro, yn ôl i Fawrisiws, a llonydd. Yma ymorffwysaf i gryfhau, – er mwyn dychwelyd chwap i'r rhyfel.

## II

### *Drama David Jones*

#### *Golygfa 1*

Tŷ trefedigaethol ar Fawrisiws: dillad ysgafn, ambell het drofannol, crwyn anifeiliaid ar y llawr a'r waliau; a drylliau.

Yn y cwmni ceir Charles Telfair – ysgrifennydd preifat i'r Cadfridog Farquhar (Llywodraethwr Prydeinig Mawrisiws) – tua 30 oed, a'i wraig; hefyd athrawes ifanc ar yr Ynys (Mary), tua 25 oed; a David Jones, tua 25 oed.

Mae Telfair, Mrs. Telfair, a Mary yn eistedd. Saif David Jones draw tu allan ar y feranda, ychydig ar wahân. Mae morwyn ddu'n arlwyo'r ford. Ystafell ginio. Medi 1, 1821. Dyma bobl yn mwynhau cysuron cornel o'r Ymerodraeth.

MARY: (tan sgysio â Telfair a Mrs Telfair). Dyw e ddim yn galaru, rywsut.

MRS. TELFAIR: Mae yna sbel hir hir bellach.

TELFAIR: Dw i'n nabod ei symptomau, chi'n gwybod. Euogrwydd.

MARY: Gyda ni mae e'n smala. Prin bydd e byth yn cyfeirio ati.

TELFAIR: Dyna sy'n bod. Fe fyddai'n well pe bai'n siarad ychydig mwy amdani.

MARY: Ac eto, wnaiff e ddim *bwyta* fawr. O'r braidd ei fod wedi cyffwrdd â dim er pan mae e'n gweithio gyda ni. (Mae'r forwyn yn dod â'r seigiau).

MRS. TELFAIR: Mae cinio'n barod inni eto.

TELFAIR: Edifeirwch personol iawn yw'r boen.

MARY: Os yw hi mor glir â hynny hefyd.

MRS. TELFAIR: Mae'n well inni ei alw fe, mae'n debyg, i ginio.

TELFAIR: Mae yna ryw chwilen yn ei ben, a'i galon mewn man arall.

MARY: Ynglŷn â'i gyfrifoldeb ei hun dros ei marwolaeth hi efallai?

TELFAIR: Efallai... ac eto mae e wedi siarad am ei marwolaeth yn ddigon agored unwaith neu ddwy.

MARY: Mae yna rywbeth arall, dybiwch?

MRS. TELFAIR: Ddeallwn ni byth, Mary.

TELFAIR: Gwell inni ddweud wrtho am y bwyd.

(Mae David Jones yn dod o'r feranda, heb ei alw, i ymuno â nhw.)

DAVID: Rhagor o fwyd eto! Fel hyn yr oedd hi ar y gwyddau gartre ychydig cyn y Dolig. Dw i'n siŵr eich bod chi, bobl Mawrisiws, am y mharatoi i fynd yn ôl at ganibaliaid Madagascar. Bwyd, cnawd o fwyd o hyd i bawb... Wel, dych chi yn eich lle.

MRS. TELFAIR: Fe gân nhw siom acw te, o'r braster fydd am eich esgyrn *chi*.

### *Golygfa 3*

(Pawb yn eistedd mewn cadeiriau)

TELFAIR: Oes ganddyn nhw ryw glem, tybed, yn Lloegr am y bywyd gwyllt sy ar ynys fel hon?

MRS.TELFAIR: Dw i'n cofio'r ofn oedd ar mam pan glywodd hi mod i'n dod yma.

TELFAIR: (a'i ddwylo'n estynedig) Ac eto... Mae'n werth y cwbl... Ni... yr Ymerodraeth. Dyma benllanw gwareiddiad a dysg a chynnydd. Mae gynnon ni fraith a rhodd Imperialaeth. Cyfraniad Prydain i'r byd, a digon o wynfyd i ni.

MARY: Mae hi'n rhy gysurus bron, yn baradwys i segurwyr.

TELFAIR: Beth feddyliwch chi David?

DAVID: Am beth? Mae'n ddrwg gen i. Roedd y meddwl i ymhell.

TELFAIR: Oedd pobl gartre yn Neuadd-lwyd yn dychmygu y byddech chi'n hamddena fel hyn yn nhes cyfforddus y cyhydedd? Mae moethau Mawrisiws dipyn gwell na Lloegr.

DAVID: (*yn synfyfyriol*) Roeddwn i'n dychmygu digon cyn dod... Roedden ni i gyd yn naif ryfeddol... yn cael gweledigaethau'r nos a phethau felly... Y gobeithion a'r ofnau. Fe ddaeth yr ofnau'n fwy gwir na'r gobeithion. (Dan ei anadl) O leia, gartre, yng Nghymru ac ym Madagascar, doedd 'na ddim cysuron...na segura chwaith.

TELFAIR: Wel, nac oedd. Mae'n ddrwg gen i. Wnes i ddim ystyried. Meddwl am y bywyd braf yma ar Mawrisiws roeddwn i, nid am eich helbulon trist draw ym Madagascar.

DAVID: Dychmygu am yr anifeiliaid gwyllt yn llarpio y byddwn i weithiau cyn dod. Rhai bach anweledig oedd y rheini, mewn gwirionedd. O leia, ar ôl dod yma, y meicrosgôp fydd yr offeryn gorau i'w gweld nhw ar waith. Mi fu yna larpio mawr... gan y rheini'n ddiâu er eu lleied.

TELFAIR: Do, mae'n ddrwg ... gen i.

DAVID: (*yn fyfyrgar bell, ac i'r llawr*) Digon i ti y ngras i, canys y nerth i a berffeithir mewn gwendid. Felly y mae hi.

(*Tawelwch*)

MRS. TELFAIR:

Fyddai hi ddim yn well gynnoch chi aros yma Mr. Jones, yn niogelwch Mawrisiws?

TELFAIR: Mae yna ddigon o waith da yn yr ysgol fan hyn.

MARY: Fyddai David ddim yn gysurus mewn cysur.

MRS. TELFAIR: Ond mae'r sefyllfa'n amhosib ar hyn o bryd ym Madagascar ar ôl i'r masnachwyr-caethweision fudro'r dŵr.

TELFAIR: Fe fyddai hi'n well aros yma iddi gael tawelu acw.

MARY: Wnaiff ei galon e ddim tawelu, dyna'r drwg.

DAVID: (gan ddihuno fel petai) Wnaiff yn...beth?

MARY: Eich calon.

DAVID: O! ... honno ...A! Smaldod!

#### *Golygfa 4*

*(Mary a David yn eistedd yn yr ardd)*

MARY: Siaradwch â fi amdani.

DAVID: Am Louisa?... Does fawr i'w ddweud. Doedd hi ddim yn dlws yn yr ystyr arferol. Ac eto, roedd yna rywbeth disglair o'i chwmpas. Roedd hi'n Gristion selog.

MARY: Dych chi'n dal i brofi'r boen o bresenoldeb ei chariad hi?

DAVID: Rown i mor anesmwyth amdana-i'n hun, a'r holl gyflwr o fod yn ŵr iddi hi... yn wir o'i charu hi. Doedd y cwestiwn ddim yn codi, rywsut. Mae'n rhaid ein bod ni wedi dod yn gysurus hoff o'n gilydd, yn arbennig erbyn y diwedd.

MARY: Beth wnewch chi nawr?

DAVID: Chwilio am wraig arall, dych chi'n feddwl? Na, fe ga i fyw heb yr un yn awr. Byddai'n decach.

MARY: Fe fydd hi'n anodd.

DAVID: Mae hi i fod yn anodd. Dyna ran o'r dryswch. Mae'n ormod o ddryswch. Duw biau'r nerth i bawb eiddil.

MARY: On'd yw gwraig yn angenrheidiol? ... Onid cael gwraig a wneir er mwyn cefnogi... er mwyn hwyluso'r gwaith... er mwyn cynnal morâl... er mwyn helpu gyda'r merched a'r menywod yn yr ysgol... a phan fyddwch chi'n mynd ar ambell daith genhadol o bosib? On'd oes rhyw bwrpas i rywun felly?

DAVID: Does neb na dim yn anhepgor.

MARY: Na...yn hollol... Mae'n siŵr y byddwn innau a phawb arall yn dysgu'n well pe baen ni'n colli mwy.

DAVID: Roedd Louisa druan wedi dysgu'r rheidrwydd o fod yn isradd. Wrth y mhriodi i, ei dewis hi ei hun fu gwasanaethu. Ond y gwir yw iddi wneud mwy o lawer na hynny, a chamu allan o'i hannibyniaeth angenrheidiol, i ragori mewn gwasanaeth.

MARY: Nid priodas oedd hi rhyngoch chi'ch dau, mewn gwirionedd, yn yr ystyr gonfensiynol.

DAVID: Nage: cynghrair. Cytundeb yn y cymylau. Cydweithredu-gweithwyr oedd e. Peth hollol annheg.

MARY: Efallai mai dyna'r priodasau gorau. Dyna'r rhai sy'n tyfu'n briodasau call yn sgil gwaith arall, ynghudd dan adain bwriadau eraill, ac yna'n neidio allan yn annisgwyl fel darganfyddiadau braf, dyna'r rhai ymarferol calla efallai. Darganfod y rhyfeddod.

DAVID: Efallai. Chafodd ein priodas ni erioed gyfle i dyfu'n llawn. Roedd hi'n annheg iddi hi. Rhyw briodas gall fu hi bant-â-hi.

MARY: Ydych chi'n teimlo'n well siarad amdani fel hyn?

DAVID: Nac ydw: dw i ddim yn credu 'ny...na.

### *Golygfa 5*

TELFAIR: David.

DAVID: Beth sy?

TELFAIR: Llythyr o Fadagascar. Dw i heb ei agor eto... ddiwedd Gorffennaf.

DAVID: Prin y bydd dim newydd.

TELFAIR: Na... (gan ei agor yn awr) Na ... Oddi wrth Hastie mae wedi dod. Dweud mae e fod y cytundeb i ddifodi caethwasiaeth yn mynd rhagddo.

DAVID: Gwych! Mae yna hadau ar waith.

TELFAIR: Mae'r ysgol gynta wedi'i hagog yn y brifddinas hefyd i addysgu plant y teulu brenhinol. Dim byd newydd.

DAVID: Gwych!

TELFAIR: Wedyn, cyffro mawr oherwydd fod David Griffiths, y trydydd cenhadwr o Gymru, wedi cyrraedd gyda thri saer a dynion gwynion eraill... Arhoswch, gadewch i mi ddarllen geiriau Hastie... “Ddisgwyliais i erioed weld rhinwedd mewn caethwasiaeth, hynny yw, mewn unrhyw wedd arni. Ond deffroais i. Pan edrycha-i ar wyneb ambell gaethwas ifanc y torrwyd ei ysbryd e, bydda-i'n cenfigennu am ei fod wedi dysgu bod yn gaethwas *cyn* ei ryddhau'n ysbrydol. Gwyn ei fyd e eisoes yn ei dlodi, ei ddioddefaint, ...a'i wybodaeth. Gymaint nes yw e at Grist weithiau na'r gwynion yn eu gwanc a'u balchder. Mae'n fan cychwyn digonol. Mae arna-i hiraeth am gadwyni'r Iesu...” Hastie, cofiwch. Dyna'i ddatganiad e. Dyna siarad dierth. Mae Hastie'n newid, machgen i. Eich gwaith chi yw hyn. Meddyliwch – deall rhinwedd caethwas.

DAVID: Fe fuodd e bob amser yn ŵr a chanddo gydymdeimlad a gweledigaeth.

TELFAIR: Do. Fuodd e'n ddyngarol erioed.

DAVID: Mae'r llythyr yn codi archwaeth arna i, ta beth, blys am fynd yn ôl i'r tir mawr.

TELFAIR: Newydd gyrraedd dych chi, fachgen. Gorffwyswch o ddifri nawr.

DAVID: Defod yw gwyliau, chi'n gwybod.

TELFAIR: Bwyd gorffwys ydyn nhw i'r corff. Dyw gwaith di-dor ddim yn orfodol i gario'r ysbryd yma o frwydr i frwydr. Does dim rhaid i chi yrru siarot cryf diorffwys, hyd yn oed ar ôl newyddion fel hyn am wahardd caethwasiaeth. Math o Sul ymarferol yw gwyliau.

DAVID: Iawn. Ond mae gwaith yn fwyd mwy llesol na segurdod. Wrth gwrs, mae'r llythyr yna'n arogl'n awchus, yn yn ffroenau, yn tynnu sudd oddi tan y nhafod, ac yn godro'r blagur blasu. Ydy... ond na... dyw hi ddim yn rhy fuan i fynd yn ôl.

TELFAIR: Os oes eisiau gwaith arnon ni, mae'n ddigon rhwydd dod o hyd i hwnnw ym mhob man ac ym mhob oes dan ein trwynau.

DAVID: Eisiau Madagascar sy arna i: dyna'r trwyn sy'n arogl ar yn rhan i.

### *Golygfa 6*

(Tro trwy'r coed rhamantus: David a Mary)

DAVID: Dw i am fynd yn ôl i'r Ynys Fawr mewn pythefnos.

MARY: Mor fuan. Ar ôl cael y fath hwyl ar yr ysgol yma ym Mawrisiws!

DAVID: Fe gymerith wythnos i ddirwyn y gwaith yma i ben a rhoi to ar y das; yna, wythnos arall, i ymbaratoi ar gyfer Madagascar. O'r fan 'na y daeth y waedd ata-i'n wreiddiol.

MARY: Gymaint o'n hamser sy'n cael ei dreulio ar orffen neu ar ddechrau pethau; ac mor ychydig sy yn y canol.

DAVID: Ar ôl ein sgwrs ddwetha y dydd o'r blaen, fe barodd ifi ddeffro ychydig; dw i wedi bod yn corddi'r meddwl.

MARY: Am beth?

DAVID: Am wragedd. Mor od ydyn nhw.

MARY: Yn eu defnyddioldeb?

DAVID: (gan wenu) Ie, mor hwylus ydyn nhw hefyd.

MARY: Ac isradd?

DAVID: Ie, (gan wenu eto) wrth gwrs.

MARY: Dw i'n gwybod yn union beth dych chi am ei ofyn.

DAVID: Dych chi'n gwybod mwy nag a wn innau, te. Mae'n gais hollol annheg.

MARY: Meddwl roeddech chi am *gydymaith* y tro yma. Nid am wraig, ond am gydweithreg.

DAVID: Wow! Dych chi'n dyfalu'n dda. Byddai cais am 'briodas' gonfensiynol yn dric brwnt ac annynol, mae arna-i ofn. Ar ôl y mhrofedigaeth fawr gynta, dryswyd holl natur priodas yn ddwys.

MARY: Meddwl y byddai hi'n annheg priodi'n ffurfiol arferol, ar ôl profi un ergyd ofnadwy?

DAVID: Yn hollol. Hunanol fu profiad priodas i fi. Ac nid fel yna y dylai pethau fod.

MARY: A gwell fyddai cydymaith. Yr un mor ddefnyddiol. A bod yn onest y tro hwn.

DAVID: Ie.

MARY: Ac yn llai o gyfrifoldeb rywfodd i bawb.

DAVID: Dyna chi.

MARY: Mae yn syniad, beth bynnag.

DAVID: Ydych *chi'n* cytuno te? Ddowch chi'n gydymaith benywaidd, gyda fi.

MARY: (ar frys) Na wna ddim. Byth! Mae yn syniad iawn – i chi roeddwn i'n feddwl.

DAVID: Ac i chi?

MARY: Ddim i fi. Mae yn amhosib.

DAVID: Yn wrthun?

MARY: Priodas sy heb fod yn briodas go iawn! Yn hollol amhosib. Yn rhy anghonfensiynol. Mae'n sarhad ar briodas.

DAVID: Dych chi yn eich lle. Mae cwilydd arna i. Heb fod yna hefyd gynnig cariadus cywir call o'n rhan i, mae'n annheg. Dyna fi eto, yn hollol annheg, mi wn, wrth gwrs. Creadur felly dw i, mae'n debyg. Fyddai'r berthynas ddim yn normal. Fyddai 'na ddim dyfodol iddi... Ond fe fydden ni'n fath o dîm, yr un fath.



MARY: Does gynnoch chi ddim ond un peth mewn golwg. Y gwaith. Cael un peth mewn bywyd ymarferol, mae hynny'n beth glân. Chwarae teg i chi. Cadwch e felly. Dych chi'n methu'n lân â deall sut y gall dyn meidrol fod yn genhadwr ac yn ŵr priod gyda'i gilydd. Nid priodas yw hynny! Ond cofiwch, fe all rhywrai *gydweithio* yn Nuw.

DAVID: Allwn ni ddim priodi'n ŵr a gwraig go iawn, felly. Fe fues i'n rhy annheg gyda Louisa. Ond ... felly y mae hi. I chi mae bod yn gydweithiwr yn annerbyniol?

MARY: Nid felly o gwbl. Nid dyna sy'n annerbyniol. Bod yn *gydymaith* i chi mewn 'priodas' sy'n wrthun i fi, – fel creadur, fel dodrefnyn neu declyn gwaith. Defnyddiol fydden ni'n dau mewn deuawd disgwylgar; ond mae yna fwy na defnyddioldeb yn y genhadaeth.

DAVID: Yma dych chi am aros, felly weddill eich oes, yn rhedeg ysgol drefedigaethol ac yn disgwyl pensiwn ym Mawrisiws.

MARY: Ddim o gwbl. Nid dyna ddywedais i. Dw i ddim yn gwarafun *cydweithio*. Mae hyd yn oed hen ferch fel fi'n blino ar fod yn ddiuchelgais. Dw i'n teimlo awch cenhadu.

DAVID: Beth yw'ch uchelgais, te?

MARY: Ydych chi'n gofyn gan ddisgwyl ateb, ynte gofyn i fi fod yn boléit?

DAVID: Dim ond gofyn.

MARY: (yn betrus) Gwasanaethu Madagascar yw'r ateb; mae'n gyd-ateb ac yn her. Fe ddeua-i gyda chi. Mi allwn wasanaethu er clod i Dduw. Ond...

DAVID: Ond...

MARY: *Nid* yn gydymaith, serch hynny.

DAVID: Beth yn ...?

MARY: Nid yn gydweithreg hwylus arferol chwaith, yn hollol. Eto, fe garwn i fod yn ddefnyddiol, cofiwch. Dw i ddim yn dirmygu hynny'n llwyr.

DAVID: Wel, pam na dderbyniwch y nghynnig i, te?

MARY: Mae yn nod *i* beth yn wahanol i'ch nod chi. Menyw dw i, a menyw fydda i. Gofyn am y ngwir uchel-gais dych chi nawr?

DAVID: Dw i'n methu, efallai.

MARY: Fe liciwn i ddod atoch chi.... ond yn ôl yn amodau i yn hun.

DAVID: Mae rhyw ystyr hud yn y fan yma.

MARY: Dych chi ddim yn fodlon ar y dirgel, felly.

DAVID: Wel dwedwch, da chi. Yr amodau.

MARY: (heb edrych arno) Ein bod ni'n *priodi mewn gobaith*.

DAVID: Ni! Sut? Mewn modd seciwlar? Yn priodi!

MARY: Nid fel gŵr a gwraig arferol. Nid wrth gwrs o serch; ond er mwyn bod yn ddidwyll ddefnyddiol gan ddisgwyl yn obeithiol; ac yn hoffi'n gilydd. *Heb rannu gwely*. Ond priodi, yr un fath; *ymrwymo*. Llunio cytundeb cyd-wasanaethu. A mynd ymlaen o'r fan yna, ond yn ysbryd a delfryd priodas, mewn ymrwymiad gweddigar.

DAVID: Pam hynny? Er mwyn yr achos fel petai? Mae hynny'n hawdd i'w ddeall, ond yn chwithig.

MARY: Na: does dim byd hawdd i'w ddeall! Dyma hefyd y traddodiad cenhadol gweithgar erioed. Priodi yng ngwasanaeth Duw yn gynta, i'r gwaith. Mae'n onest. Priodi'n gynta, cydweithio wedyn, heb rannu gwely o raid, ac os cawn ni fwy na blwyddyn o fis mêl, efallai y cawn ni wedyn ddysgu rhywbeth am briodas go iawn.

DAVID: Efallai'n wir. Efallai'n au. Eto, dw i ar goll.

MARY: Dyna'r amodau... Cytuno, ddyn?.. Â'r amodau dw i'n feddwl. Mynd o gam i gam. Mynd o wybodaeth i adnabyddiaeth. Ac o briodas at dyfiant.

DAVID: Y...Ond... Dw i ddim wedi amgyffred yr amodau'n iawn. Mae'n rhy debyg i briodas normal.

MARY: Ond cytuno?

DAVID: Och! Na! Mae hyn yn wirion. Fe allwn fod yn gymdeithion ffurfiol mewn gwaith, does bosib.

MARY: Cytuno? Cenhadon ydyn ni, cofiwch. O ddifri. Pobl fusnes o genhadon. Gweithwyr potensial fel ein gilydd. Yn cytuno gan feddwl busnes, ond yn ymrwymedig.

DAVID: *(yn isel ac yn aruthr o swil)* Rhyw fath o gytuno... am y tro... *(Cyddian-nhw yn nwylo'i gilydd...ac edrych yn chwilfrydig ar ei gilydd, a chwerthin, heb gusanu).*

MARY: Madagascar amdani te... Am y tro, ac efallai am bob tro. Mi ddysgwch chi.

*(Chwarddan nhw'n ddrygionus.)*

*Golygfa 7*

*(Madagascar)*

*Ionawr 1822*

*(Tabyrddau; gweiddi; adlewyrchiad fflamau a chysgodion ar waliau ystafell wely Mary, sy'n diuno'n ara. Yna, mae hi'n codi'n sydyn ar ei heistedd.)*

MARY: *(gan weiddi)* David!...David!...(Cwyd – a gwisg hi ŵn amdani. Â hi at y ffenestr a syllu allan. Yna, â'n ôl i'r drws a gweiddi drachefn ar ei gŵr, a dychwelyd i'r ffenestr. Daw David i mewn o'i ystafell wely e.) Yn gyflym!

DAVID: Beth sy'n bod?

MARY: Edrychwch, David ... gwragedd.

DAVID: Gwragedd?

MARY: Oes; miloedd ohonyn nhw.

DAVID: *(gan chwerthin)* Hyfryd! Hyfryd! Maen nhw fel gemau.

MARY: Nid jôc yw hyn. Edrychwch: mae gwyn eu llygaid a gwyn eu dannedd fel cyllyll yn y tywyllwch.

DAVID: Rhyw fath o ŵyl fenywaidd, mae'n siŵr. Cymdeithas weithredol dros hawliau'r fenyw. Y fath gleber!

MARY: Maen nhw'n ceisio torri'r clawdd o gwmpas y palas. Maen nhw'n chwennych distrywio.

DAVID: (*wedi sobri*) Dych chi'n dweud y gwir. (*yn troi i ffwrdd*) Gwallt yw'r gwraidd!  
Cred di fi, Mary.

MARY: O David, synnwyr!

DAVID: Yn wir, gwallt sy'n eu huno nhw. Beth arall ddisgwyliech chi gan ferched?

MARY: Ond maen nhw'n wallgo. Edrychwch, maen nhw'n dechrau llosgi pethau. Maen nhw'n gwbl wyllt. (*Fe'u gwêl nhw'n beryglus, a hynny'n gwaethygu bob munud.*)

DAVID: Wel, dw i'n dweud y gwir glân gonest. Clywais i sôn am y pwysigrwydd sy yn eu diwylliant i wallt. *Gwallt* yw eu dolur heddiw, dyna'r cwbl. Dyna ferched i ti, yn arbennig y 'Wraig' ym Madagascar: ffasiwn gwallt. Clywais i sôn am y peth gan un o'r gweision.

MARY: Beth bynnag yw'r dolur, mae yna rywbeth dychrynlyd ar gerdded.

DAVID: (*yn eistedd*) Achwyn y maen nhw heddiw am *wallt*, nid am eu gwallt eu hunain – ond am wallt y dynion: Radama a swyddogion y fyddin. Maen nhw wedi dynwared gwallt yr Ewropeaid.

MARY: Mae yna ysbryd lladd wedi cydio ynddyn nhw, dw i'n siŵr.

DAVID: Fe fues i'n cynghori fel arall o'r cychwyn. Mae yna rywbeth hardd ryfeddol yn y dull gwrywaidd brodorol o gadw'r gwallt yn hir. Ond mynnu ei dorri yn y dull Ewropeaidd a wnâi Radama. Imperialaeth gwallt oedd ei arwydd a'i symbol e dros wareiddiad allanol. Wel, chân nhw ddim cenhadaeth gwallt gen i.

MARY: Brwydr rhwng yr hen a'r oes newydd yw hi. A cheisio ennyn gwrthryfel yn erbyn y newid arbennig hwn mae'r rhain. Ceisio cynhyrfu'r gwŷr ceidwadol mae'r merched. Ceisio pwyso ar y dynion i beidio â dilyn ffasiwn Ewropeaidd mewn gwallt.

DAVID: Ffasiwn cymdeithasol felly! Ond gwallt, mae'r peth yn ynyd.

MARY: Welwch chi ddim peryg?

DAVID: Gwela.

MARY: Ond beth allwn *ni* ei wneud?

DAVID: Dw i wedi llwyr gredu erioed mai ffolineb yw i gadw'r allanolion Ewropeaidd. Fe fyddai'n well o lawer petaen ni, genhadon, bob blewyn, wedi tyfu'n gwallt yr un fath â nhw. Dŷn ni'n cymysgu imperialaeth â chenhadaeth, diwylliant Ewrob a Duw.

[*Â'r ddau draw at yr ystafell waith gyffredin lle y mae Guto'n gweithio eisoes, mewn côt weithiol wen, wrthi'n cysodi llythrennau yng nghyfieithiad y Beibl. Cenhadwr diweddar arall o Gymru (Guto) yw David Griffiths, gyda baich arbennig i gyfieithu'r Beibl.*]

DAVID JONES: Welsoch chi'r creulondeb?

GUTO: Do. Ar adeg fel hon, yr un ateb sy gen i – sef dal ati – ymlaen – gweithio ar y Beibl.

MARY: Beth wnaiff Radama, Guto?

GUTO: Dwn i ddim. Mae hi'n dibynnu faint o ofn gwallt sy arno fe.

MARY: Edrychwch. Mae e'n codi ei law.

GUTO: Mae e am siarad. (*Tawelir gan bwyll bach.*)

MARY: Beth mae'n ddweud?

DAVID: Mae'r menywod yn pallu bod yn dawel.

GUTO: Rhybuddio y mae e. Condemnio. Gobeithio na wnaiff e ddim byd anghall.

MARY: Mae'r merched yn hollol ddistaw nawr.

GUTO: Bygwth y mae e. Mae ei eiriau fe'n gledddyfau. Dw i erioed wedi'i glywed e fel hyn.

MARY: Ust, mae hanner dwsin o'r milwyr yn nesáu at y gwragedd.

GUTO: Mae'r gwragedd yna yn y canol yn cilio. (*Maen nhw'n ffurfio cylch.*)

MARY: Maen nhw'n gwthio'n ôl yn erbyn y dorf, a'r dorf yn eu gwthio nhw'n wrth-ôl drachefn.

GUTO: Welwch chi'r rhythm ffurfiol sy yn y gwthio a'r cilio? Rhyw fath o ddawns baganaidd yw casineb.

MARY: Mae ofn ar y merched nawr. Mae'r tywysog yn cymryd pethau'n rhy ddifrifol.

GUTO: Maen nhw'n mynd i...na, ... wnaiff e ddim o hynny... Ydy, ar yn enaid i... maen nhw'n mynd i'w picellu nhw... Y gwrywod yn picellu'r benywod!

MARY: Maen nhw yn picellu. O David, mae hyn yn farbaraidd. Mae'n hurt Anghristnogol. (*Mae hi'n cydio ynddo, ac yn troi oddi wrth yr olygfa.*) Gwallt! A marwolaeth!

DAVID: Merched! Picellu merched! A ni yw gwraidd y weithred. Ein tipyn gwallt ni'r Cristnogion. Beth yw'r ots am arddull a ffasiwn a diwylliant lleol dwedwch?

GUTO: Gormod o hyn sy mewn ceidwadaeth gan rai ceidwadwyr. Maen nhw wedi picellu'r tair arweinyddes. Y rheina oedd yn gweiddi am fywyd pob dyn yn y brifddinas.

MARY: Ych, roedd hi'n giaidd, yn frwnt. O David.

DAVID: Mae pawb yn fud yn awr. Dim un ferch-y-delyn yn agor ei cheg.

GUTO: Cyflawni'r addewid o ddiogelwch i ni roedd e, efallai. Diogelu diwylliant yr ysgoldy.

MARY: Dw i ddim yn ei ddeall. Ond pan fydd e'n ymweld â'r ysgol, mae'r dyn mor eithafol syber. A'i blant, maen nhw mor fonheddig... Fel ŵyn bonheddig i'r lladd-dy.

DAVID: Roedd e, Radama, yn cymryd y menywod o ddifri, beth bynnag, lle bynnag mae'i foneddigeiddrwydd bellach.

### *Golygfa 8*

(Yn ddiweddarach. Ystafell i argraffwasg ym Madagascar: David wrthi'n cyfieithu; Mary yn darllen.)

MARY: (gan godi'i phen) Ar ôl y pethau ysgeler hyn, does dim hiraeth arnoch chi am synnwyr cyffredin Mawrisiws?

DAVID: Na.

MARY: Na fi chwaith, ddim felly. (Saib) Beth oedd yn bod ar Mawrisiws?

DAVID: Yn syml, absenoldeb Madagascar. Lle braf oedd acw, ond dyma'r lle penodedig i ngwaith i. Lle rhy braf i ffitio nghalon i yw'r man acw. Byw'n gymedrol. Blas trefedigaethol chi'n gwybod oedd bywyd y fan yna. Gormod o ddiogelwch.

MARY: Byddai'n well gynnoch chi gael Madagascar wedi'i throsglwyddo fan hyn.

DAVID: Mae Madagascar yn hyfryd-y-cythraul, yn gymysg ysbrydol, ond yn onestach.

MARY: Dych chi'n iawn. Mae'r cythraul amlwg yn sicr ar waith yn y gwledydd hyn. Beth am Gymru mwyach? ... Oeddech chi'n hoff o Gymru?

DAVID: Mae'n well gen i beidio â meddwl amdani. Roedd hi fel mam wen feunyddiol i fi yn y nghyfnod cynnar. Roeddwn i'n caru ymrwbio yn ei chwmmi. Roeddwn i'n cael y nhynnu at ei chaeau a'i choed a'i bryniau mewn modd corfforol. Ond mam bell yw Cymru oddi wrth y Weledigaeth ges i'n benodol ar gyfer y nyfodol. Hyn yn unig fydd yn y modloni i mwyach, byth.

MARY: Dych chi ddim yn credu fod yna waith cenhadu i'w gael yng Nghymru, yn nes adre?

DAVID: Oes, debyg iawn. Peth wmbredd. Ond fel y gwelwch chi, mae yna waith arall fan yma.

MARY: Mae yna ddigon o *beryclon* yng Nghymru – o fath gwahanol – i'r efengyl heddiw fan yna mewn gwlad hynafol ddatblygedig. Mae yna falchder caled hefyd. A thwpdra'r ychydig ddysg. Mi aeth anghredu acw'n ffasiwn dieflig – fel gwallt fan hyn.

DAVID: Fan hyn y'n dodwyd i gan Dduw. Fe glywais i lais yn galw unwaith gynt. Fe ddaw yna amser – cyn bo hir efallai – pryd y bydd Cymru hithau'n ôl yn llawn o baganiaid ... a'r rheini o bosib yn mynnu dwyn yr enw 'Cristnogion'. Y pryd hynny...

MARY: Sut hynny?

DAVID: Dw i ddim yn bychanu melltith materoliaeth. Fe fydd y Cymry'n ufudd i feddwl ac i ysbryd y byd, ac eto fe fydd 'na ddyrnaid ohonyn nhw'n teimladol aros gyda'r teitl 'Cridnogion'. Yr un pryd fe fydd Cristnogion mewn enw trachwantu yn y bôn, neu rai ohonyn nhw, am fod *gyda'r byd*, ysywaeth. Ac fe fyddan nhw am newid o hyd gyda'r hyn a alwan nhw'n amseroedd, o hyd ac o hyd.

MARY: Newid? Mewn enw hefyd.

DAVID: Ie, newid, fel ffasiwn cymdeithasol. Mae'n gallu bod yn wagedd mewn llawer o ffyrdd. Fe ddôn nhw i gredu bod 'newid' rywsut rywsut yn hanfod i'r gwirionedd ac i fywyd. Ond mae 'newid' heb gyfeiriad, newid er mwyn llygru a dianc rhag y gwir heb bwrpas, yn chwyrligwgan.

MARY: Chawn ni byth newid moel! Yn arbennig ymhlith y pethau di-newid.

DAVID: Cawn. Y pryd hynny, bydd hi'n dda wedyn fod Cristnogion go iawn i'w cael yma fan hyn o hyd ym Madagascar, ac yng ngwledydd y genhadaeth i gyd. Bydd yn braf gweld cenhadon o'r maes tramor yn dychwelyd i Gymru er mwyn rhoi cyfle arall iddi hi.

MARY: On'd dych chi ddim yn meddwl felly mai ail-adeiladu Cymru fyddai orau nawr? Heddiw? Gartre? Cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

DAVID: Ddim i fi. Fe ges i ngalw.

MARY: Ond i bawb yng Nghymru?

DAVID: Fe ges i 'newis ar gyfer Madagascar. Duw oedd biau'r penderfyniad cychwynnol, yn Ei amser e. Ei ddewis e yw 'newis i, ac fe'm dododd i i wasanaethu lle penodol.

MARY: Ac felly...

DAVID: Ac felly, does dim angen trafod mwy. (Saib.) Dych chithau'n fodlon ar Fadagascar?

MARY: Ydw, ydw, debyg iawn.

DAVID: Dim difaru.

MARY: Ddim o gwbl.

DAVID: Pam yn wir y priodsoch chi *fi* o gwbl Mary? ... Mae'n flin gen i. Roedd hi'n gwestiwn twp.



MARY: Dych chi ddim yn cofio. Y fargen. Ces innau 'ngalw. Dw i'n credu mai Duw biau'r penderfyniad hefyd. (Saib a gwên.) Ie, hyd yn oed i ni'r gwagedd. Ymrwymo. A chamu ymlaen, gan wneud popeth yn ei amser.

DAVID: Mary... dw i'n meddwl mai gwell i ni beidio â chodi'r mater hwn y buon ni'n siarad amdano fyth eto. Mae 'na rai pethau – fel priodas, a Madagascar – na dŷn nhw ddim yn perthyn i ddadansoddiad rhyddieithol. Maen nhw tu hwnt i'n deall. Maen nhw'n dirgelu'n sylweddoliad o fywyd, a rhaid inni eu gadael nhw i Dduw.

MARY: O'r gorau, David. Mae gobaith hefyd yn dal, ac yn ddirgelwch purion tu hwnt i amgyffred.

### *Golygfa 9*

*Gorff. 27, 1828*

*(Gwasg argraffu gyntefig: David wrth y wasg; Guto [David Griffiths, y Cenhadwr o Wynfe: pregethwr, athro, cyfieithydd dawnus] yn eistedd a darllen proflen; neb arall.)*

DAVID: Wyt ti wedi gorffen y rheina, Guto?

GUTO: Bron. Tudalen sy ar ôl. Mae'r gwaith diwetha wedi mynd mor hwylus. Gyda help merched.

DAVID: (Oeda, a saif yn ôl mewn distawrwydd.) Mae'r merched yn gweithio mor dawel, mor gyson, bron yn anweledig. Dw i mor ddiolchgar i ti, hefyd, Guto, am gydweithio mor hapus. Mae dynion yn deall ei gilydd yn o lew... Ac felly, y bydd merched a dynion yn cydweithio. Ond rywfodd, mae cydweithrediad y merched wedi bod mewn ffordd ddirgel yn ... Ga-i ofyn cwestiwn angyhysurus o bersonol i ti? Theimli di ddim angen weithiau, Guto, i wybod pam a sut mae dy wraig yn dy garu di? Dw i'n deall dim ohonyn nhw.

GUTO: (gyda chwerthiniad bach) Wel am gydweithiwr hŷn, rwy't ti'n gofyn cwestiwn amhosibl. Gwell gen i beidio â gwybod rhywbeth fel 'na.

DAVID: Oes rhaid i ddeuddyn fod yn unig yn hyn hefyd, hyd yn oed mewn partneriaeth briodasol? Hynny yw, yn unig yn yr annealltwriaeth, yn y gwahaniaeth, yn y dirgelwch.

GUTO: Derbyn y dirgelwch sy orau, heb fustachan ynghylch pob dim, dyna'r ffordd.

DAVID: Wel, roeddwn i'n meddwl mai fel hyn y mae hi gyda Mary y dyddiau hyn o leia ... Dirgelwch cytûn. Efallai mai'r berthynas ffydd yw hi. Pan fydda-i gyda hi yn wastad, bydda-i'n teimlo fod y berthynas yn un sanctaidd, rywsut. Dw i'n gwybod fod gŵr a gwraig yn arferol yn berthynas gymdeithasol o fath gwahanol i bopeth arall, heb fod yn ddealladwy, rhwng dau ryw, ar gyfer codi teulu, ond bod yna duedd hefyd ar gael yn y corff – tuedd a all fod yn arbennig o ryfedd – a all fod yn ddefosiynol o gariadus yn ogystal. Ond weithiau, dw i'n gwybod bod cwmni ngwraig yn eithafol annealladwy, ond yn wahanol. ...

GUTO: Mae'r annealladwy yn beth llesol.

DAVID: Dŷn ni'n debyg hefyd, yn debyg iawn i'n gilydd, oherwydd ein bod ni'n dau *am* fod yn debyg i Grist. Ac mi welodd Solomon – yng nghanol ei holl bechod – gymaint â hyn... Ond dŷn ni'n wahanol i'n gilydd hefyd wrth gwrs. Eto, mawrygwn y modd y mae Duw yn gallu bod yn ymwybodol o bresennol inni pan fyddwn ni gyda'n gilydd gydag E, yn undod o Un-ac-un, a ninnau'n wŷr a gwraig gydag E, adeg gweddi, neu adegau myfyrdod, yn y gymdeithas, mae E yno gyda ni'n dau. Dw i ddim yn ei ddeall, ond mi wn i fod hyn yn Ras Arbennig wedi dod yn ben ar Ras Cyffredinol. Dw i'n gwybod mod i wedi ymuno â hi'n gynta *er clod i Dduw*. Efô yn ein cyfarfyddiad oedd ein cariad ni mewn ffordd: diwedd y stori...

GUTO: Ie. Diwedd un stori o leia.

DAVID: Eto, fe wyddwn hefyd ei bod *hithau*, Mary, am garu'n wahanol, â chariad mwy meddiannol nag sy o fewn y nirnad i. Roedd hi am y ngharu i er y mwyn yn hun yr un pryd, oherwydd mai fi dw i o bobl y byd, yn greadur. Ac roedd y cymhlethdod yna yn yn anesmwytho i. Roeddwn i, er cwilydd i fi, am iddi *hi* newid fel person. Roeddwn am iddi newid y serch dynol yna'n ysbrydol i gyd, gan roi popeth arall o'r neilltu fel petai, inni fod yn gyfartal rhyngon ni rywfodd yn Nuw... Ond erbyn hyn, dw i ddim mor siŵr... Mae hi'n gallu'i wneud mewn ffordd arall. Dw i'n credu bod Duw ei hun, am ei fod yn

gallu pob peth, wedi sefydlu mewn priodas gyswllt lle y mae Yntau'i hun wedi medru creu dolen unigryw o fewn Ei drefn hefyd. Efô sy yn y canol, yn cynnwys popeth, gorff ac enaid. Creadigaeth yw priodas sy'n wahanol i bob un o'r ddau ar wahân. Triawd dŷn ni, yn cyd-ganu'r un gân. Ac roedd *hi Mary'n* gwybod am hyn o mlaen i. Dw i'n tybied fod yna ddealltwriaeth gan ferched sy y tu hwnt i ni.

GUTO: Paid ag ymyrryd te. Gad e yn y fan yna. Paid â ffidlan gyda phethau dwyt ti'n deall dim oll amdany'n nhw: rwy'ti'n siŵr o wneud cawl ohoni.

DAVID: Gwell iddi bob amser aros yn annisgwyl, mae'n debyg.

GUTO: Dyna'r gyfrinach, dybia i. Derbyn y rhodd, yn ostyngedig, mewn syndod tawel.

DAVID: Bob tro y daw hi i mewn erbyn hyn, y mae hi'n fath o sioc. (*Aiff ef ymlaen gyda chywiros'r teip. Ac yna, saif yn ôl. Edrycha'n ddifri ar y teip o'i flaen fel pe bai am y tro cynta erioed, a chyfyd ei fraich i'r awyr.*) Mae hyn o waith hefyd yn foment hanesyddol.

GUTO: (*Saif yntau'n ôl hefyd, ac edrych tuag at y teip.*) Beth? Y diwedd?

DAVID: Diwedd ar gysodi'r *efengylau*.

GUTO: Diwedd arbennig iawn.

DAVID: Mae pob symudiad a wnawn ni'n ddiwedd; ond gydag ambell ddiwedd, dŷn ni'n profi'r cyswllt â gwaedd 'Gorffennwyd'. Mae Duw yn hyn, fel y myn fod gyda phawb sy'n Ei geisio. Fe sy'n diweddu.

GUTO: Mae'r diwedd i hyn yn ddechrau mor aruthrol, mor rhwygol yn rhediad amser ein cynlluniau, ym Madagascar, nes ... wel...

DAVID: Nes dy fod di'n teimlo dy fod wedi tynnu dy hunan i derfyn mewn gorsaf, ac wedi dod allan i fyd newydd. (*Sudda'r ddau gyda'i gilydd ar eu gliniau.*) Diolch i Ti Arglwydd nefol i Ti'n cadw ni'n dau i fyw i hyn. Diolch i Ti gadw dau bechadur yn iach fel y caen ni weld y gwaith hwn yn gyfan. Bendithia Dy Air, Arglwydd, i genedlaethau o'th blant ym Madagascar i ddarllen Dy eiriau tangnefeddus am byth. (*Codant.*)

GUTO: Dyna fe, Dafydd, dere i ni ddangos hyn i Radama, athrylith yr Ynys.

DAVID: Na, ddim eto.

GUTO: Ie: ar unwaith. Mae Radama'n ei ddisgwyl fwy na ni hyd yn oed.

DAVID: Un foment yn unig. Mae yna un arall sy'n haeddu ei weld e o'i flaen e. Yn arbennig yn wyneb yr hyn y buon ni'n ei ddweud am y merched.

GUTO: Oes. Ond dyw'r flaenoriaeth ddim yn bwysig. Caiff Mary weld y cwbl pan ddaw hi adre o'r ysgol. Radama, – yn ôl awdurdod ei safle, yw'r cynta a ddylai weld y rhain.

DAVID: Hebddi hi a'i morâl, fe fyddai'r gwaith hwn yn hollol anymarferol, o'n rhan i.

GUTO: Ond *aros*, Dafydd? Mae Radama'n wael. Fe fydd hyn yn codi'i galon.

DAVID: Mi all *e* aros, Guto, ychydig bach cyn derbyn diwedd yr efengylau. Mary sy'n haeddu rhannu hyn gyda ni.

GUTO: Does gwybod pryd y daw Mary adre. Mae hi eisoes wedi rhoi darnau i'w dosbarthiadau.

DAVID: Un foment o ddisgwyl yn unig. Gwael neu beidio, mae gan Radama gorff cadarn iawn. Mae yna ysbryd para ynddo. A chlywais i ddim bod y gwaeledd sy arno fe'n fwy peryglus nag sy'n gyffredin mewn gwlad sy wedi'i gwneud o beryglon. Mae'r dyn yn wydn, heb fod yn fwy na thrideg chwech oed.

GUTO: Dyna henaint teg yn y wlad hon. Dw i ddim yn dadlau y bydd e'n marw'n fuan. Mae'n wael. Ond o leia fe fydd gweld y cyfieithiad hwn drosto'i hun yn donic iddo'n awr. Mae'r gwaith yn barod, ac mae e'n disgwyl amdano.

DAVID: Wyddost ti, Guto, dŷn ni'n ymgolli gymaint yn y cyfieithu a'r argraffu nes ein bod ni'n anghofio'n aml beth y mae Mary wedi'i wneud wrth baratoi'r *darllenwyr* inni ers rhai blynyddoedd. Mae hi wedi cyfannu cylch y cyfieithu drwy'r gwaith ysgol, yn ymarferol.

GUTO: Ydy, yn sicr. Ond fe fyddai'r cwbl yn ddiwerth heb Radama hefyd. Rhaid ei gofio fe heddiw, gyda Mary. Holli blew yw pob dim arall.

DAVID: Mae dros dri chant o blant gan Mary heddiw yn ysgol y brifddinas yn aros y gwaith.

GUTO: Oes, ond Radama apeliodd am yr ysgol honno'n gynta. Efô hefyd oedd y cynta i anfon ei blentyn. Cofia di hynny. Fe hefyd yw arweinydd y bobl i gyd.

DAVID: Fe fu'r ysgol yn bwysicach na hyd yn oed Radama. A does dim ysgol heb athrawon: gellid hepgor adeilad. Ac nid hon yw'r unig ysgol erbyn hyn. Mae yna filoedd o blant ledled yr ynys yn mynd i ysgolion oherwydd bod Mary wedi dal ati i genhadu gyda ni fel yna tra oedden ni'n gwneud y gwaith arall. Yr athrawes biau'r clod yna.

GUTO: Gwranda Dafydd. Dyw hyn ddim yn fater i anghytundeb rhyngon ni. Dw i ddim am fychanu gwaith neb, na chystadlu y naill yn blentynnaidd yn erbyn y llall. Ond dw i'n siŵr y byddai Mary a phawb ohonon ni'n cytuno mai Rhagluniaeth drefnodd ein bod ni wedi cael pennaeth rhyfeddol mor ddoeth ac mor aeddfed, yn frenin ym Madagascar ar yr union adeg pan oedden ni'n dechrau'n cenhadaeth. Rhagluniaeth amlwg.

DAVID: Rwyt ti yn dy le, Guto. Mae e'n dipyn o foi. Dw i'n barod i ildio ar hyn.

GUTO: Gŵr rhyfeddol yw Radama.

DAVID: Pan arogleuodd e'r efengyl o bell yn gynta hyd yn oed, cyn inni ddod, fe fu'r hyn y gellir ei wybod am Dduw yn amlwg iddo yn y greadigaeth. Dw i'n cydnabod hynny. Haerllug efallai yw'i gofio'n debyg i Paul, 'Er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig e, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld gan y deall yn y pethau a greodd.' Gwir nad oedd Radama'n gwybod dim yn llawn cyn inni ddod â'r efengyl achubol. Ond fe blannwyd y *disgwyl* yna ynddo fe ac yn y greadigaeth rywfodd. A phan ddaethon ni, roedd e'n barod i roi croeso. Fe welsai'r bydysawd ei hun yn ymffurfio o'i flaen, nid drwy'r Greadigaeth yn unig, ond drwy obaith gwardigaeth anochel hefyd mewn rhagluniaeth greedig, mewn math o gysgod, a gwyrddlesni Madagascar yn troi'n felyn yn yr haul. Fe welodd e o bell dragwyddoldeb o gynhaea yn ei hiraeth ymlaen llaw. Ac roedd e'n cydnabod *Duw* eisoes yn *oruwchnaturiol* ac yn *bersonol*, yn *hollalluog* ac yn *Dduw a oedd yn cynnig Ei fab yn Iawn*, mewn amser, o bell. Duw felly wnaeth Radama yn offeryn iddo. Heb weld y cwbl, wrth gwrs, heb weld y sicrwydd, fe welodd e'r sylfaen o bell drwy bethau creedig Duw.

GUTO: Rwyt ti'n cydnabod felly mor ganolog yw e. Allwn ni ddim byw yma hebdo.

DAVID: Mae'n wŷr hyfryd. Mae e fel torth o fara ffres, yn bwydo'n hymdrechion, rhaid cyfadde.

GUTO: Mae ein cenhadaeth wedi pesgi arno. Gawn ni ddweud mai Radama yw cyfrwng mwya nerthol Duw ym Madagascar i hyrwyddo'r efengyl. Fe yw'r cyfrwng mwya dylanwadol drwy Ras Cyffredinol mae'r ynys fawr hon erioed wedi'i gael. Pe bai e'n diflannu, dw i'n ofni mai diflannu wnâi'r efengyl hithau, a suddo yng nghors y goedwig. Mae Duw ar waith ers talwm yn Radama.

DAVID: Ydy, mae'n siŵr. (*Daw Mary i mewn.*) Mary! Dere i weld. Y diwedd. (*Mae hi'n sefyll yn benisel wrth y drws.*) Be sy'n bod? Mae gynnon ni heddiw newyddion mawr. (*Ond mae hi'n pallu symud. Ac mae ei saftiad difri yn anesmwytho'r ddau ddyn.*)

MARY: (*Â at y bwrdd i sylwi ar y cyfieithiad.*) Diwedd am y tro yw hwn. Ydy. Diolch am y fuddugoliaeth hon, wrth gwrs. Ond mae pethau eraill ar gerdded. (*Ymataliodd hi.*) Newyddion trist. ... Dw i ddim yn gwybod sut y gallwn-i ddweud hyn. Mae e wedi marw.

DAVID: Pwy? Beth wyt ti'n feddwl?

MARY: Radama. Mae e wedi marw. Y prynhawn yma.

GUTO: Na!... Rown i wedi cael yn anesmwytho o bell. Ond... Rown i'n gwybod yn yn esgyrn y gallai hyn ddigwydd.

MARY: Gallai.

DAVID: Marw? Ond all hyn ddim bod. Na.

MARY: Mae yn bod. Mae llond y lle o'i farwolaeth. Mae galar ac mae... mae cynllunio eisoes ar gerdded i ddadwneud ei waith.

GUTO: Y diwedd, Dafydd. Diwedd ar ein cyfieithiad ni.

DAVID: (*gan edrych ar yr argraffu*) Y diwedd i hyn o leia.

GUTO: Fe gawn ni'n tri ein gyrru oddi yma.

MARY: Ranafalona fydd y frenhines yn awr.

GUTO: Bydd hi'n edfryd yr eilunod.

MARY: Bydd hi'n cau'r ysgolion.

GUTO: Bydd yr holl fyd yn cael ei gladdu. Lladdedigaeth fydd hoff gyfrwng Ranafalona.

DAVID: A bydd maen melin anghrediniaeth yn cael ei wthio o flaen bedd yr efengyl. (*Edrychan nhw tuag ato.*)

GUTO: Weli di unrhyw obaith?

DAVID: Dim ond hwnna draw fan yna wela i (*gan gyfeirio at y Wasg*). A Hwnnw (*gan gyfeirio at y ne.*) Ein gwendid arswydus ni yw popeth arall.

MARY: Mae e'n iawn, Guto. Fan yna y dylen ni edrych pan fydd hi'n ddu. (*Gesydd ei llaw yn dyner ar y Cyfieithiad.*) Ar y Gair oddi wrtho Fe. Fydd y Gair byth yn darfod.

GUTO: Mae'n rhaid i fi gael ychydig o ddiwrnodau i ailgodi'n egni ar ôl hyn. Ar hyn o bryd, dw i yn y bedd yn hun. (*Â allan yn ddigalon.*)

MARY: Menyw sy'n cymryd lle Radama, menyw wedi'i lapio mewn mytholeg.

DAVID: Ie.

MARY: A'i hewinedd yn hir a'i chenfigen yn angerddol.

DAVID: Tebyg iawn.

MARY: Rwyt ti'n cael trafferth gyda'th fenywod, David.

DAVID: Wyt ti'n feddwl?

MARY: (*gan ei gusanu'n ysgafn, a doddi ei llyfrau ar y bwrdd*) Ond mae ambell un yn gallu bod yn reit ddefnyddiol ar awr ddu.

DAVID: Maen nhw'n gwneud morynion godidog eu doniau, ond breninesau sâl drybeilig... Bellach, bydd rhaid i Dduw ein harwain ni ar lwybr *heb* Radama. Eto, bydd eisiau cofio gyda'r gelynion newydd hyn, drueiniaid bach, mai crio am dosturi ac ysgolion y bydd y rheina hwythau o hyd mewn ffordd chwithig. Bwyd ysbrydol yw'r ateb o hyd i'w newyn nhw a'n newyn ni. Calonnau gweigion sy ganddyn nhw. Symbolau

yh'u mytholeg nhw sy'n udo ar hyd yr hewlydd am y dyn-ganolog; ond chwilio y maen nhw am ddatguddiad.

*Golygfa 10*

*Gorff. 9, 11840; 5 p.m.*

*(Bwthyn tlodaidd heb ddodrefn: David yn gorwedd ar sachau yn ymyl wal. Drws yn agor, a Mary yn cael ei thafllu i mewn ato yn ei rhacs. Mae golwg ychydig yn sâl ar wyneb David.)*

MARY: O! Roedd hi'n ofnadwy.

DAVID: Dw i ddim eisiau clywed.

MARY: Roedd hi'n fudr ac yn anifeilaidd. Naw o'r Cristnogion brodorol glana. Tri brawd a chwe chwaer wedi'u picellu yr un pryd; credinwyr grasol.

DAVID: Ein cynhaea ni. Cynhaea Duw.

MARY: Llusgwyd nhw i Ambohipotsi.

DAVID: Do, fe glywais i'r fagnel. Ceisio diogelwch i'w llwyth hi ei hun roedd y Frenhines.

MARY: Paid â cheisio'i hesbonio hi... Fe gafodd dy wraig a'th deulu yr holl salwch o'r blaen, ac fe gawson ninnau ein tipyn gwaith ... i hyn.

DAVID: Rwy'ti'n gwybod ein bod ni'n gallu'i hesbonio hi'n burion. Rwy'ti'n gwybod beth oedd cyfryngau budr y salwch difaol ymhlith ein pobl. Rwy'ti'n gwybod hefyd beth oedd y pla moesol a gwreiddiol a ysai'r Malagasi yn eu hawydd i ladd neges Iesu. Mae yna reswm dros bopeth, hyd yn oed barbariad. Ond does dim esgus.

MARY: Alla i ddim dal rhagor.. Rown i'n methu â deall dy salwch gartre... *ond* fel cynllun Duw.

DAVID: Dyna oedd e. Dyna dw i'n *credu'n* fodlon. Ond roedd y cynllun ei hun mor fawr. A finnau mor fach. Ac rown i'n teimlo'n fwy ffaidd o farnedigaethol yn y ngwendid. A'r fan hyn nawr, mae'r ymguddfa hon yn fradwriaeth i'n gwaith balch rywsut... a'r tri brawd a chwe chwaer yn bicellau yn y nghydwbybod i.



MARY: Roedd eu gwaed nhw a'n chwŷs ni dros y ddaear yn smotiau ac yn staenau ym mhobman.

DAVID: Hadau i'n hen obaith. Mae'n rhaid inni chwilio am ragor o hadau Duw.

MARY: Coed gwaed y gelyn nawr a ddaw â hadau gwaed i'n gwaith ni, a therfyn ar Fadagascar Iesu Grist am y tro.

DAVID: Maen nhw'n hadau a ddaeth i gyd o Bren y Bywyd. Does dim terfyn i hynny.

MARY: Fedrwn ni ddim mynd ymlaen mwyach am y tro. Dŷn ni wedi methu'n lân, David. (*saib*)

DAVID: Yn lân? Do... A'r heuwr a aeth allan i hau...

MARY: Dyw hi ddim yn deg inni ddal ati ar hyn o bryd. Mae'n rhaid ffitio'r amgylchiadau, a ffoi am y tro.

DAVID: Ti'n gwybod beth oedd yn mynd drwy y meddwl i y pnawn yma pan glywais i'r fagnel? Un mlynedd ar hugain yn ôl eleni... Chwech ddaeth i Tama-tafi. O fewn mis a hanner roedd pump wedi'u claddu. Chwech ddaeth i lannau Tama-tafi. O fewn mis a hanner, un a oedd yn aros. Un mlynedd ar hugain yn ôl roedd dawns greulon angau'n fawr ei ffrwst yn Tama-tafi, a ninnau'n dal ei sgyrtiau. Roedd gwenwyn yn was ffyddlon iddo yng ngwythiennau'r pump yn Tama-tafi, Thomas Bevan, a'i wraig Mary, y ngwraig i Louisa, eu plentyn nhw a'n plentyn ni. A dyma ni nawr un mlynedd ar hugain wedyn yn dilyn golau yr un llywodraethwr. Fedri di, Mary, wadu'r un mlynedd ar hugain yma? A fuon nhw'n ofer? Yr eneidiau ddaeth aton ni'n gofyn am fara, yn lle hen grefydd eu caethiwed, yn lle'r dynion hysbys a'u lliwiau llwgr. Cafwyd bara bywyd i'r rheina yn ddigonedd. A fedri di gredu nad oedd yn y frwydr honno lygedyn o bwrpas?

MARY: David, y rhai diniwed oll y prynhawn yma, y rheina sy'n gweiddi heddiw. Y naw glân. Digon i heddiw ei ddrwg ei hun.

DAVID: Rhai diniwed o naïf ydyn ni i gyd, Mary. Drwy golli dŷn ni'n ennill. On'd dŷn ni'n dau wedi ennill cymaint yn ddihaeddiant yn ystod yr un mlynedd ar hugain? On'd dŷn ni wedi tyfu fodfedd yn nes at ein Duw?

MARY: Diolch.... Dw i yn cofio, David. Dw i, beth bynnag, yn llawnach person yn Nuw drwy glwyfau. Mae pob enaid bach ddaeth o fewn cylch y goleuni'n dweud diolch iddo Fe. Ac i Dduw y bo'r clod am Ei ddaioni, ac am Ei naw glân e.

DAVID: (*gan gydio yn ei dwylo*) Dw innau wedi dysgu llawer, Mary.

MARY: Fe gawson ni dyfu'n nes at ei gilydd.

DAVID: Mae tyfu'n nes at Dduw yn tynnu pawb, gyda'i gilydd, at Ei wybodaeth.

MARY: (*gan wenu*) Fe fues i'n ddefnyddiol, on'd wyt ti'n feddwl?

DAVID: Do...do... Fe ddysgon ni, ti a fi, hynny, gyda'n gilydd.

MARY: Ac fe ddysgaist tithau rywbeth am briodas?

DAVID: Na ddo... Na. Mae honno'n aros yn rhywbeth i'w ddysgu.

MARY: Dwyt ti ddim yn deall bywyd priodasol ychydig yn well?

DAVID: Nac dw, ddim mymryn... byth! Heblaw dysgu bodloni ar dy ddirgelwch di. (*Cusana hi'n ysgafn ar ei boch.*)

MARY: (*gan roi clwtyn ar ei dalcen*) Dere, mae ychydig o dwymyn arnat ti. Mi ddysgaist ti hynny ta beth.

DAVID: Do. Lle bynnag y bo teimladau'n sigledig mae Duw'n bresennol, yr Un sy'n ein caru ni i lawr ynghanol ein hunan. Ym man canol yr enaid, does dim ond Fe yn ddigon bach i fynd i lawr drwy'r siafft, i ymwthio ar hyd y ffordd i lawr fel gwreiddyn tenau i lawr i'r gwaelod, i'r gronfa bwynt i osod ei hedyn mân, mân; hedyn diddim y diderfyn. Un hedyn mân. Y Gair. A does neb tebyg yn ddigon mawr i gynnwys Ei dragwyddoldeb yn ein heneidiau ni chwaith. Dyna'n priodas ni, Mary, drwy'r blynyddoedd creulon, Fe a'i hasiodd hi'n gadarn. Mae ein priodas wedi tyfu'n anweledig, ac Yntau'n unig sydd i'w weld ynddi... Fe sy'n gallu byw ein byw ni... hynny sy ar ôl ym Madagascar. Duw heb Radama bellach fydd hi yma. Ond Duw ynion ni sy'n rhoi popeth. Gymaint y mae Duw'n ei roi o hyd. Dyna'r hyn sy y tu hwnt i'n deall ni.

(*Agorir drws yr ystafell, a gwthir Guto i mewn.*)

GUTO: Neges oddi wrth y frenhines. Heb rybudd. Rhaid inni i gyd ymadael â Madagascar ar unwaith. (*Maen nhw oll yn fud.*)

DAVID: Dyma'r diwedd eitha i'r genhadaeth.

MARY: Y gwaelod. Ond pwy wŷyr? Dirgel yw'r dyfodol hwn hefyd.

GUTO: Rhaid gorffen cyn inni gau pen y mwdwl am y tro, felly, a mynd, heb oedi.

MARY: David! Y fath ddirgelwch.

DAVID: Does dim amodau, dim dihangfa am y tro?

GUTO: Dim. Dim dyfodol o fewn golwg efallai.

MARY: Ar ôl cychwyn degau o ysgolion a chynnull miloedd o blant! Mae'r rheina eisoes yn obaith i'r dyfodol.

DAVID: Mynd. Ie. Mynd.

GUTO: Madagascar!

DAVID: Un peth creulon da dw i wedi'i ddysgu. Un peth sy'n ddwfn yno-i. Mae profedigaeth yn gallu stripio'r enaid. Mae'n ysigo hyder dyn, mae'n darostwng fel hyn, nes ein bod ni heb ddim byd, nes ein bod ni'n dod â llwch ein cyrff gerbron Duw, yn wag ac yn dlawd. Dŷn ni'n dysgu estyn dwylo. Ac y mae E'n gallu glanhau. Mae'n ddiau gen i, ym mhrofiad dyn, mai dyma fan *cychwyn* pob buddugoliaeth ysbrydol.

GUTO: Dwyt ti ddim yn digalonni?

MARY: Na, na. Dyw'r merched 'ma ddim yn ddiwedd, does bosib.

DAVID: Dyma fath o ddiwedd arnon ni, mae'n wir. Math o waelod eitha yw. Ac eto, Mary, rwyt ti yn llygad dy le. Yng nghanol y diwedd, fan yna mae'r gyfrinach. Mae Duw o dan y gwaelod. Os ydyn ni wedi dod i'r fan lle byddwn ni'n bwrw'n hun yn ddiymatal ar drugaredd Duw, yna bydd hynny'n fath o buredigaeth, a Madagascar hithau yn ei thro yn cael ei phuro. A welwn ni hyn mwy? Dw i ddim ond yn ffyddlon.

MARY: Wêl neb y cwbl oll, wrth gwrs, tan ddiwedd amser. Cychwyn braf yn y diwedd gawn ni eto, *am y tro* efallai. A phob methiant wedi'i lanhau. Mae Duw'n defnyddio'r gwaelod a'r methu er mwyn cyflwyno pen y mynydd a'r llwyddo terfynol.

GUTO: Bois bach! Mi fyddwn ni'n anhygoel o lân te.

DAVID: Yn ein tlodi trylwyr, bydd Duw yn gweithio. Os felly, dyma obaith Madagascar hefyd: Duw heb Radama. A'r hadau yma'n tyfu o'r golwg. Y Cristnogion ym meddwl Duw ar eu gliniau.

GUTO: Dŷn ni fel unrhyw wlad sy wedi'i choncro gan wendid ers canrifoedd, sy wedi mynd yn isradd ei hysbryd a meddwl, ac yn sydyn ryw ddiwrnod y mae dynion yn doddi eu llygaid ar y Goleuni. Mae'r Gras Cyffredinol yn cael ei gyfoethogi gan Ras Arbennig. Maen nhw'n gweld, y tu hwnt i ddirmyg eu marwolaeth, yr Un sy'n llywodraethu Amser, maen nhw'n ymwybod â'u heuogrwydd a'u dallineb a'u byddardod a'u mudandod, ac mae'r ffordd fach ddynol yn glir i rymusterau byw lifo allan. Mae synhwyrâu'r ddaear yn agor eto i Ysbryd y ne ac i'w bwrpas E.

*(Mae'n ymadael â'r ystafell; ac y mae'r ddau yn troi at ei gilydd, ac yn estyn dwylo at ei gilydd.)*

MARY: Beth wyt ti'n feddwl?

DAVID: Allwn ni ddim ymddiried mewn dim oll yn awr ond yng ngallu'r Ysbryd. Dim byd arall. Un hedyn. Duw heb Radama... Mae'n swnio'n dda iawn i mi. *(Maen nhw'n dechrau tacluso i bacio pethau.)* Mae gostyngiad yn codi'n dwylo ni fwyfwy ato Fe. *(Maen nhw'n sefyll, ac yn gwranddo ar y distawrwydd sy'n eu toi.)*

MARY: Mae hi'n dawel ryfeddol yma, David... Aros... a gwranddo.. Nid ein tawelwch ni... Glywaist ti?

DAVID: Do. *(Safant yn syn.)* Dyna lân yw bod yn gyfan gwbl dawel.

MARY: Dyma'r pryd mae E yn fynych yn dewis llefaru, David. Mae'n siarad â ni gyda'n gilydd.

DAVID: Ie. Cawn glywed rhywbeth distaw main, gyda churo ysgafn. Sŵn camre traed.

MARY: Ti'n gwybod, David, sŵn traed prydferth yw hyn. A sylwaist ti ein bod ni hyd yn oed wedi mynd yn ddigon ewn i alw 'ti' ar ein gilydd?

DAVID: (*tan wenu*) Na ddo! Am hyfdra!

MARY: Dw i'n credu'i bod hi'n bryd rywsut i ni'n dau, David, fentro rhannu gwely gyda'n gilydd o hyn ymlaen. Mae E wedi gwneud gwaith uno mawr gyda ni. Mae wedi'n defnyddio ni gyda'n gilydd.

DAVID: Mi fyddai'n gyfleus. (*Mae e'n gwenu.*) Mentro.

MARY: (*gan wenu'n araul*) Mae Duw am inni fod yn grwn ynddo yn ein priodas. Mae E wedi cyflawni ngobaith i. Bydd anawsterau yn atrefnu byd, wrth gwrs. Mae bywyd yn aeddfedu rhywun, ac mae'n bryd i ni'n dau ei mentro hi nawr. Lle bynnag y bydd y dyfodol a'r presennol mwyach, sut bynnag, fe awn gyda'n gilydd, David. Ac mi fydd yna Rywun arall yno yr un pryd yn disgwyl, wedi paratoi cartre triol i ni o'r diwedd.

## YNO YR EISTEDDASOM AC WYLASOM

Sangodd Rhiannedd yn droednoeth ar draws y penrhyn o greigiau, a disgyn yn drwstan y tu ôl i glogfeini go fawr ar yr ochr ddwyreiniol i draeth Aberdesach nes ei bod hi'n gyfangwbl ynghudd rhag y bobl. Roedd ychydig o wragedd a phlant yno ar y traeth: nid ar gyfer gwŷr y bydd glan y môr o ran cyfartaledd presenoldeb.

Cafodd Rhiannedd graig weddol wastad yn union o flaen unigrwydd bychan Maen Dylan lle y gallai hi eistedd yn ddirgel neilltuedig a hongian ei thraed yn y dŵr. Y tu ôl iddi yr oedd pwll bach, megis dinas gragennog lle y plannwyd hwnt ac yma, – o syllu i mewn iddo, – barciau gwymonog glas. Gosododd hi becyn o siocledi wrth un ochr, a'u pigo'n freuddwydiol o dro i dro. Gosododd ei sandalau ar y llawr yr ochr arall. Roedd hi'n dew, rhaid cyfadde, a bellach fysai neb yn ei chyfri hi ond braidd yn anatyniadol. Dyw'r rhai nas blinir gan yr ysfa honno ddim yn gallu amgyffred mor feddiannol yw'r hiraeth a lanwa rai fel hi sy am fwynhau rhyw damaid o fwyd dethol. Câi bleser gartre yn ei chegin wrth baratoi ychydig o ymborth, er mai iddi hi'i hun yn unig y gwnâi'r cwbl. Ac erbyn hyn, doedd dim ots am na'i phwysau na'i ffurf. Pe cyfrifai rhywrai fod teneuo bellach yn grefydd, yna pagan rhonc iddyn nhw oedd Rhiannedd.

Wrth ei hochr, gosodasai ffon-gerdded hefyd, hen gyfaill mynd am dro.

Doedd hi ddim am wneud dim mwy mentrus heddiw na throchi'i thraed; ac eto, roedd hi am gael llonydd perffaith ac ara i wneud hynny. Roedd am i'r darn hwn o fôr fod yn eiddo iddi hi am fwy nag ychydig o funudau. Heddiw roedd hi am freuddwydio.

Roedd deng mlynedd wedi chwalu llawer iawn iddi hi. Un peth roedden nhw wedi'i wneud oedd meithrin ango, ac amwyso eglurder ymylon ei chofion am ieuentid, fel toddi halen yn y môr. O fwriad mewn gwirionedd, aethai pethau'n annelwig a breuddwydiol. Roedd hyd yn oed y cymylau uwchben heddiw yn cael eu dal yn y tonnau ac yna'n ymgolli ac yn ymgymysgu nes bod dim ond rhyw argraff o lwydni tawdd yn ymwasgaru o fewn y dyfnder. Ond yna, wrth syllu ychwaneg i mewn i'r dŵr roedd hi'n medru gweld mân greaduriaid, mân bilcod, efallai, yn gwibio'n ffrwt yma ac acw yn o eglur tan yr ewyn, fel atgofion, ynghyd â swigod a thameitiach gwyrddlesni.

Ond symudai'r llwydni cyffredinol yn ôl wedyn, heb egluro dim o'r manylion. Lliw plu llychlyd oedd brig y tonnau pellach draw, a'i hamgylchai hi acw; megis yn wir y cysgodion amlinell o'r plant a'r gwragedd ar wasgar ar y traeth gerllaw.

Delwi roedd hi, neu ddelweddu yn y meddwl. Yna, – ar ganol y delweddu amhendant hwn – sylwodd hi ar rywun. Roedd yr aneglurder yn sydyn wedi deffro.

Rhaid ei fod wedi bod yno gydol yr amser, ryw bymtheg llath oddi wrthi, yn gwneud yr un peth â hi, sef dal ei draed yn y dŵr, heb sylwi arni, a throï ei ben bob yn awr ac eilwaith allan tua'r môr mawr. Gŵr gwallt-tywyll, ryw dair blynedd neu bedair yn iau na hi. Ac roedd e'n ysgrifennu: roedd yn cynnal llyfr-nodiadau yn ei gôl ac yn sgrifennu'n astud, gan siglo ei goesau'n ôl ac ymlaen bob yn awr ac eilwaith yn yr heli mwyn, heb hidio am ddim o'i gwmpas.

Ceisiodd hi ymddistewi. Doedd hi ddim am dynnu ei sylw fe mewn modd yn y byd. Roedd hi'n teimlo'i fod e rywfodd wedi ymosod ar ei neilltuedd hi, ac roedd hi'n gobeithio y gallai hi rywsut ymaflyd yn hwnnw eilchwyl. Ond roedd y peth yn amhosibl. Er iddi geisio edrych i gyfeiriad arall, ac er nad oedd e'n ymwybodol ohoni o gwbl, roedd hi'n cael ei llygatynnu yn ôl ato o hyd. Arhosodd hi'n gwbl ddi-syfl, fel pe bai e wedi'i hoelio hi yn y lle, fel cwningen fach ddiymadferth wedi'i dal yng ngoleuadau blaen car, a'i mesmereiddio ... ag eithrio nad oedd ei lygaid golau fe'n ymwneud â hi o gwbl, rhaid cyfadde. Yn wir, allai dim byd fod yn fwy difraw na'r modd roedd e'n sgrifennu yn ei flaen yn y fan honno, gyda rhyw led wên yn treiglo o amgylch corneli'i ên heb sylwi ar neb. Chrynodd hi ddim, symudodd hi ddim o'i phen. Ceisiodd syllu drachefn i mewn i'r môr ar ei choesau di-bant. Ond roedd ei bresenoldeb e fel petai wedi llenwi'i môr hi i gyd erbyn hyn, megis cwmwl tywyll a thymhestlog.

Yna, cododd ei ben.

Roedd yn anochel. Roedd ei nerfau hi fel mellt anwel yn cuddio'r awyr ar unwaith. Ac yn ara ddigyffro, dyma fe'n gogwyddo'i ben, ac yn edrych yn syfrdan draw ati hi. Gostyngodd hi ei golwg. Bobol bach. Nid un i gyrchu ar draws traeth a phenrhyn o greigiau er mwyn eistedd ar bwys llanc oedd hi. A doedd hi ddim yn chwilfrydig nac am wneud y dim lleia ag e.

Bu hi'n craffu i mewn i'r môr drachefn ac allan i'r môr, a chan bwyll bach adenillodd y tawelwch ysbryd a oedd ganddi ynghynt. Fe wyddai hi ei fod e yno. Roedd e wedi peidio ag ysgrifennu, ac roedd e'n gwneud yr un peth yn union â hi; ond waeth ganddi hi am hynny. Er ei bod hi'n ymwybodol ohono, roedd hi'n gallu bod gydag e heb i hynny darfu arni.

Ac yn wir (er ei bod hi'n amhosibl) yr oedd hi bron yn teimlo'i fod e ar yr un perwyl â hi. Yno roedd e yn hel llonyddwch y lan fel petai, ac atgofion. Roedd y rheini wedi toddi o'r newydd i mewn fel cysgodion i lwydni'r tawelwch cytûn yn y fan hon, a'u hanner yn y creigiau a'u hanner yn y môr. Doedd y naill na'r llall ohonyn nhw wedi ceisio pysgota.

\* \* \*

'Dych chi ddim wedi dal dim, mwy na fi mae'n debyg.' Fe ddwedodd e hyn reit ffwr-bwt, gan wenu ychydig, heb edrych arni.

'Un neu ddau sgadenyn wedi mynd ar draws yn llwybr, dyna'r cwbl,' meddai hi.

'Fe adawsoch iddyn nhw fod.'

'Do.'

'Minnau hefyd.'

Pam roedd e wedi dod yno? Beth roedd e'n ei sgrifennu? Pam agor ei geg? Sut roedd hi'n gallu teimlo rhywfaint o gytgord, o gynghanedd annisgwyl, ag e? Ai am ei fod yntau'n brudd? Ac a oedd wedi dod yma o'r golwg i arllwys ei gwd i mewn i'r môr? I facio fel lorri ar draws y creigiau a thywallt ei dristwch amherthnasol i'r dyfnder?

'Dych chi wedi bod yma o'r blaen,' meddai fe.

'Ydw.'

'Rhyw draeth digon blêr sy 'ma.'

'Ydy, mae'n debyg.'

'Fyswn i ddim yn hoffi dod yma'n fynych.'

'Na finnau chwaith. Ond dw i'n dod,' meddai hi.



Bu saib rhyngddyn nhw.

'Pam?' holodd e wedyn. Daeth y fath gwestiwn ffwr-bwt o haerllug mor sydyn am ei fod yn y bôn yn ei ofyn iddo fe'i hun.

Roedd hi'n ddig wrtho fe am iddo fusnesa; ond atebodd hi'n hunan-feddiannol, 'I synfyfyrio. I *gofio*. Dyna i gyd.'

'A finnau hefyd, mae'n debyg, ac i sgrifennu,' meddai fe. 'Ac i osgoi pobl chwilfrydig, mae'n siŵr.'

Chwarddodd hi. 'Hynny hefyd.'

'*Touché*,' meddai fe.

'I fi ... mae hyn... yn fath o ben-blwydd.' Eithr wnaeth ei chyffes hi ddim argraff arno fe. Efallai nad oedd e'n ymddiddori ynnddi o gwbl.

Yna, dyma fe'n ymateb: 'Efallai mai mynd o'r neilltu yw'r ffordd ddoetha i ddathlu pen-blwydd ar ôl pasio llencyndod.'

Arhosodd hi a chil-sbio'n syn braidd tuag ato. Hedodd ei golwg drosto fel gwyfyn ac yna i ffwrdd â hi tua Chaer Arianrhod. Ond roedd e'n anfodlon i barhau ar y trywydd yna, fel pe bai e wedi edifarhau ei fod wedi dechrau arno o gwbl. Buon nhw'n ddistaw am ryw ychydig. Roedd hi'n teimlo'n annifyr oherwydd ei hatgofion.

'Roeddech chi'n ddiwyd iawn yn sgrifennu,' meddai hi. 'Ydw i wedi wedi ymyrryd â chi?'

'Na. Ddim o gwbl. Roedd hi'n bryd ifi stopio.'

'Mae hyn yn lle braf tawel ichi sgrifennu.'

' Mae'n lle braf ichi gofio hefyd.'

Gwenodd hi, bron iddi chwerthin; ac amneidiodd â'i phen mewn cytundeb.

'Ac felly nid dyma'r tro cynta ichi ddod yma,' meddai fe.

'Na.'

'Mae'n eitha lle i bendroni.'

'Dyma un o'n hoff leoedd i, er dw i ddim yn dod yn aml, yn rhyfedd iawn. Mae ambell le yn gafael mewn rhywun, on'd yw e?' meddai hi.

'Fe fydda i'n dod yn bur reolaidd. Ond welais i erioed monoch chi o'r blaen.'

'Na, mae'n debyg, ddim ers deng mlynedd, mae'n siŵr. Ac eto, dyma efallai, yn hoff le i.'

'Ers 1943?'

'Yn union. I'r diwrnod, yn wir. Awst y seithfed ddeng mlynedd yn ôl. Y tro diwetha y bues i yma. Yr ola mewn cyfres.'

'Dw i'n deall.'

'Tybed.'

A chaeodd ei distawrwydd yn ystyfnig amdani. Roedd sôn fel hyn am ddeng mlynedd yn ôl, yn yr awyr yn agored fel y gallai'r gwyntoedd gipio'i geiriau a'u cludo hyd y gorwel, fel petasai hi'n chwifio'i harchollion o flaen tyrfa ac yn eu lledu nhw ar draws yr wybren. Rhuthrodd hi'n ôl yn ddiogel i dwll ei hunigrwydd fel gwahadden.

Cofiai'n rhy eglur, mai'r tro diwetha, ers amser rhyfel, oedd y deng mlynedd yn ôl; dyna'r gwyliau cynta ar ôl Siôn; yma lle y buasen nhw mor fynych ynghynt. Dyna'r tro diwetha iddi edrych yn graff ar yr un gŵr ifanc. Heddiw, roedd y gŵr hwn yn awr yn edrych arni hi. Daliai hi i rythu i'r môr, yn drwm edifeiriol. Ond roedd e'n ddiarddangos yn ei harchwilio hi, fel y bydd awdur gyda'i gymeriadau, yn tyrchu pob modfedd o'r teimladau, gan nodi siâp ei gwallt, a'r modd yr oedd ei gwar a'i hysgwyddau yn uno'n noeth dew ac yn llipa yn y dŵr, a hynny i gyd heb fod yn amlwg i neb arall.

Cofiai hi, ychydig yn chwerw, yr union ddydd: dyna'r pryd gwirion ynghynt pryd yr ymataliodd hi rhag ymrwymo i Siôn: methodd hi â dweud 'Ie'. Bellach, roedd hi'n hollol ddiotal amdani'i hun; ac er bod rhai yn y banc lle y gweithiai yn tosturio wrthi, faliai hi ddim – doedd eu huwchraddoldeb nhw ddim yn mennu dim arni hi. Yn y bôn roedd hi'n boblogaidd gyda'i chymrodyr, am ei bod hi, meddylien nhw, yn ddiuchelgais, ond mewn gwirionedd am y gallen nhw deimlo'n ffodusach na hi, yn ysgafnach ac yn iachach eu ffurf. Chwyddai'i haelodau di-asgwrn hi gartre yn anghymedrol ar draws

breichiau-cadeiriau, ac o'r tu mewn i'w gwisgoedd fel golch ar ddiwrnod gwyntog. Fel y bydd pob dyn tal yn gorfod mesur uchder drws cyn mynd trwyddo, roedd hi'n tueddu i swmpan yn reddfod nerth cadair cyn gadael i honno odde'i phwysau annisgwyl. Roedd hi'n saff, sut bynnag, ar y cerrig. Hoffai Rhiannedd gyfrif bod pwysau cymedrol ddisylw yn gallu bod yn anferth o heulog annwyl.

Y funud yma, sut bynnag, roedd ei choesau hi'n jôc ysgafn yn y dŵr.

'Ewch ymlaen i sgrifennu,' meddai hi. 'Mae'n ddrwg gen i.'

'Na; dyna'r diwedd am heddiw.'

'Fe a-i i roi llonydd ichi.' Ond symudodd hi ddim.

'Rown i wedi gorffen.' Caeodd e'i lyfr yn glep a doddi'i bin yn ei boced.

'Yma y byddwch chi'n dod i sgrifennu'n rheolaidd?' holodd hi.

'Ie.'

'Bob dydd?'

'Bob hwyr, os bydd hi'n sych. Ar ôl y gwaith, yn yr ha, am ryw awr neu ddwy. Fel hyn o'r golwg. Mae hi'n ddistaw yma.'

'Ydy: yn dawel iawn. Ac yn drist,' meddai hi.

'Dych chi'n meddwl 'ny?' meddai fe.

'Mae hi yn drist.' Mewn gwirionedd, fe geisiai hi gladdu'r tristwch a oedd yn ei hysu hi.

'Gwarchod pawb, na... Wiw i'm sgrifennu i fod felly o leia.'

'Pam chi'n arbennig?'

'Mi ga i fod yn ddagreuol, ychydig bach ar dro, ond byth yn wirioneddol drist. Mewn gwirionedd, dw i'n sgrifennu er mwyn difa tristwch.'

'Ydy hyn yn argyhoeddiad neu'n bolisi?'

'Y gynulleidfa, y cwsmeriaid, y mhlant – adawen-nhw byth i fi'i wneud. I blant dw i'n sgrifennu, welwch chi.'

'Beth? Storiâu i blant?'

'Ie. Yn yr un iaith yn union ag y bu nhadau'n ei defnyddio yn y Beibl dros ddwy neu dair mil o flynyddoedd yn ôl.'

'Sut? Nid Cymro dych chi?'

'Na, nid mewn gwirionedd. Iddew. Rhyw fath o Iddew.'

'Yma yn Sir Gaernarfon! Wel am syndod.'

'Dŷn-ni ym mhob man, wyddoch chi. Pla a bendith y ddaear.'

'Ac yn Hebraeg byddwch chi'n sgrifennu?'

'Ie... Dim byd o bwys. Dim ond pethau plant.'

'Ond mae hynny'n ddiddorol, ac yn ddawn anghyffredin.'

'Does dim byd hyn ynddyn nhw. Dim byd hyn.'

'Peidiwch â dweud hynny. Ac yn Hebraeg. Mae hynny'n od.'

'Ydy.'

'Dych chi'n glyfar iawn.'

'Na. Yr Hebraeg sy'n glyfar.'

'Yn Hebraeg! Meddyliwch!'

'Hi sy'n alluog ac yn amryddawn. Rhyfeddod i fi yw sgrifennu'r rhain yn yr un priod-ddulliau fwy neu lai ag y bu nhadau'n eu defnyddio yn yr anialwch gartre filoedd o flynyddoedd yn ôl.'

'Wel, ydy, mae hynny'n rhyfeddod,' sylwodd hi.

'Ble mae'r holl gymdogion o'r amser yna, y Babyloniaid, yr Hithiaid, y Ffilistiaid? I gyd wedi toddi yng nghrochan y bobloedd, a'u hieithoedd oll wedi darford amdany'n, wedi'u hanghofio. Ond llunio storiâu i blant y dwthwn hwn dw i, plant yn parhau yn Jerwsalem mewn iaith doedd neb braidd yn ei defnyddio yn ei gartre ar gyfer bywyd beunyddiol a llafar cyffredin erbyn y chweched ganrif cyn Crist.'

'Bywyd yn ei sylweddoli'i hunan efallai. Mynnodd bywyd ei adfer ei hunan.'

'Sut?'

'Rhyw feddwl wnes i,' meddai Rhiannedd, 'mor braf yw gwneud cam mor adeiladol mewn byd fel hyn. Mor gadarnhaol yw trechu'r holl gasineb sy'n lladd pobloedd y byd. Mor arwrol yw wynebu'r grym negyddol sy'n dileu ieithoedd mewn modd mor greadigol. Mor gynnes yw gwasanaethu cenedl mor nodedig ag Israel.'

'Gyda storïau plant Hebraeg?'

'Pam lai? Arwrol yw hi.'

'Nage, ddim yn arwrol. Does dim byd arwrol yno i. Mae'r weithred hon mor nodweddiadol ohono i. Ddeng mlynedd yn ôl roedd y mrodyr yn llosgi yn Auschwitz, yn chwiorydd i hefyd mewn pogrom yn Rwsia, a finnau'n tasgu y nhraed fan hyn bant â hi yn y dŵr, ffwrdd-â-hi, ac yn sgriblan storïau-plant Hebraeg yng Nghymru.'

'Yma y buoch chi drwy'r rhyfel?'

'Ie, bob dydd. Gyda'r dŵr fan hyn.'

'Roedd hynny'n galed.'

'Darfodedigaeth. Doedd dim byd yn haws,' meddai fe. 'Roedd arna-i gywilydd.'

'Dyw hi byth yn hawdd bod yn Iddew, goeliwn i.'

'Pa fath o Iddew yw hyn?' meddai fe mewn syrffed. Ciciodd yr ewyn â'i draed. Roedd adfyd y môr mawr yn llifo rhwng ei fodiau wrth iddo sarnu adlewyrchiad y cymylau. 'Dw i erioed wedi bod yn Jerwsalem hyd yn oed,' meddai fe.

'Ond dych chi wedi canu cerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr.'

'Crawc neu ddau, efallai.'

'Mae crawc neu ddau yn wyrth, yn arbennig ganrif ar ôl canrif.' Snwffiodd e'i ddifaterwch gwneud. 'Ymhell o Israel, ac ymhell o Belsen.'

'Ond cymharwch chi'r Iddewon â ni'r Cymry', meddai hi. 'Ar un adeg fe fuodd rhai o'r Cymry'n ffrostio'u perthynas â Gomer mab Japheth mab Noa. Ond anfonwch fintai weddol sylweddol o Gymry heddiw i Batagonia, ac o fewn can mlynedd fe fyddan

nhw bron i gyd yn Sbaenwyr, yn Archentwyr. Ymhen dau gan mlynedd arall, fydd yna'r un yno ar ôl yn un man yn Gymro ... drwy drugaredd.'

'Peidiwch â bod mor ddiobaith... Mae hynny'n wahanol.'

'Sut? Os aiff Cymro, ac yn enwedig Cymraes, i Birmingham, fe fyddan nhw wedi anghofio'u gwreiddiau o fewn trimis.' Roedd hi'n chwervw.

'Ond mae Israel yn genedl etholedig,' meddai fe.

'Cystadleuaeth annheg, felly. Fe fyddai hynny'n esgus braf i ni'r Cymry.'

'Dych chi'n chwervw.' Distawodd e am ei fod heb chwenychu cystadlu â dynes mewn sgwrs ynghylch ei gwilydd. A dihangodd ei olwg i'r môr dano.

'Ond fe ddylech chi fynd i Jerwsalem,' meddai hi. 'Dyw hi ddim yn ddrud iawn erbyn hyn. Ac mae eich brodyr yn atgyfodi'ch cenedl mewn modd anghyffredin.'

'Jerwsalem – dwn i ddim. Fe ddisgrifiodd Heinrich Heine y Talmud ei hun fel “mamwlad gludadwy.” Fe wnaiff hynny'r tro i mi. Waeth gen i frwynen am gyrchu yno.'

'Pam sôn am y lle felly?' gofynnodd hi'n chwilfrydig.

'Arfer.'

'Neu oeddech chi'n teimlo'r bwlch yn eich buchedd?'

'Prin.'

'Fe ddylech fynd yno i'w gweld hi.'

'Dych *chi*'n gweld Cymru bob dydd,' meddai fe. 'Faint gwell dych *chi*? Dyw *gweld* ddim yn gwneud dim gwahaniaeth.' Ymosod oedd ei amddiffyniad hwylusa.

'Ond *Cymru* yw hon,' meddai hi. 'Dim ond Cymru.' Roedd hi'n yngan y gair 'Cymru' fel pe bai'n datgan Ichabod – pa le y mae y gogoniant? Roedd y gŵr hwn ger ei bron hi nawr yn perthyn i wlad a oedd wedi ymgrisialu allan o ddim byd, wedi tynnu at ei gilydd linyddau iaith a ddatodwyd dros bum canrif ar hugain yn ôl, wedi ail-wau'r llafariaid llwfr a'r cytseiniaid cwsg yn un greadigaeth newydd, wedi dod â ffeithiau i ddiffeithwch a lliwiau i lwydni. A'r cwbl yn gwbl etholedig, medden nhw.

'Fyddwch *chithau* ddim yn sgrifennu?' gofynnodd e.

'O! Na!' Crinodd hi gerbron cwlwm ei ymosodiad.

'Dim ond myfyrio.'

'Dim ond cofio.'

'Mae cofio'n sylfaen i bob ysgrifennu... ac i bob cenedligrwydd o ran hynny.'

'Chwithdod sy'n y mlino i. Chwithdod am amser. Chwithdod am dir a'i farweidd-dra,' meddai hi'n brudd.

'Am y wlad hon?'

'Na, nid yn hollol. Nid yn union. Nid Cymru, er bod eisiau bod yn chwithig am honno.'

Onid Cymru oedd y tir hwn o dan ei chorff? Onid rhan o Gymru roedd hi? Ond yr hyn a oedd am groen llac ei choesau, yr hyn a ddenai'i bryd yn awr oedd y dŵr diddal hwn a grychai o gwmpas ei breichiau a'i sodlau a'i gwadnau, y llwydni hallt a chwerw hwn a gofleidiai'i chrimog ac a finiogai gelloedd ei gwaed. 'Fe fu farw y nyweddi,' meddai hi, 'yn y rhyfel. Ym 1943 yn sydyn y daethon ni yma y tro diwetha, ddeng mlynedd yn ôl i heddiw.'

Dywedodd y brawddegau fel pe bai'n chwydu'n syfrdan. Fe'u dwedai hi nhw'n ffwr-bwt, ac yn embaras i'r Iddew. Roedd yn edifar gan ei gwrandawr, yr Iddew-Gymro, am ei fusnesa.

'Mae'n flin gen i,' meddai fe wrth y môr. Ond roedd y môr yn fyddar ac yn ymestyn at y gorwel.

'Doedd dim angen ifi sôn am y peth,' meddai Rhiannedd.

'Oedd, oedd. Roeddech chi yn eich lle. Roedd e ar eich meddwl.'

Oedd, oedd, roedd yn wir. Roedd ei dyweddi ddeng mlynedd yn ôl, yn yr union le hwn, wedi saethu un cwestiwn tyngedfennol ati. Un cwestiwn tawel, syml. Fe'i cofiai mor farwaidd nawr. Ac roedd hi wedi dod yn ôl yn unswydd er mwyn cofio hynny. 'Gawn ni briodi cyn mynd?' gofynnai Siôn iddi hi y pryd hynny. Ond petrusodd hi.

Collodd hi gyfle. Roedden nhw'n ddigon ifanc, meddyliasai, roedd digon o amser, gallen nhw gael rywdro eto fis mêl taclus a hir, mis mêl go iawn fel pawb. Byddai'r rhyfel drosodd chwap. A modd i briodi'n iawn. Heddiw roedd hwnnw ar ei meddwl, ac nid ar ei meddwl yn unig, eithr ar ei chorff, ar ei hysbryd, a bellach ar ei thewder.

Cofiai hi nawr am yr amser yna, a wrthodwyd ganddi, yn union cyn i Siôn fynd i Ffrainc. Dyna'r amser na ddôï byth yn ôl. Doedd dim brwydr ar ôl o'i mewn hi heddiw ar y pryd, eithr cysur-fwyta. Ond gyda'i 'gwrthodiad' y pryd hynny – ei gohiriad – , bu farw'i hieuenctid hi a'i gobaith. Gobaith o fath oedd y peth ar y pryd. ... Gobaith am weithredu ac am ddyfodol. Ac o ganlyniad, roedd y brys diangen i beidio â brysio wedi clymu'n galed amdani. Bid siŵr, roedd hi wedi bod yn barod ddigon i ddal ati, ar hyd y blynyddoedd wedyn i gyflawni'i dyletswyddau, hyd yn oed i edrych ymlaen ychydig at gael hwyl yn y dyfodol. Ond wedi colli'i hunig gariad, aeth hi'n dew: do, ac yn dewach. Roedd yna ymwybod tawel ganddi mai ar lethr tuag i waered roedd ei golwg hi, a bod disgyrchiant yn sicr o'i thynnu'n is; nid heb ymysgwyd cymedrol efallai rhwng bodd ac anfodd, ynghylch ei chyflwr, ond i lawr yn blwm tua'r diwedd diarffordd. Roedd ei meddwl heddiw wedi'i osod mewn fframwaith newydd ac arhosol a'i cyfeiriai'n fythol is. A chwyldro, chwyldro llwyr fyddai gobaith ystyrion mwyach. Methai hi â bod yn wir lawen mwyach.

Roedd hi'n wag, neu beth ohoni, yn fwy gwag nag unrhyw fae yr ymadawodd y môr ag e am y tro diwetha, wedi suddo o lefel dyfroedd y byd. Gymaint o bobl oedd yn wag!

'Efallai yr a-i i Israel ryw ddiwrnod, wedi'r cwbl,' meddai fe.

'Ble yn Israel?' meddai hi fel pe bai hi heb glywed ei osodiad annisgwyl.

'Dim ond i *wlad* y nhadau y byddai 'nhaith, – yn gyffredinol, heb unrhyw ardal benodol.'

'Byddai'n ysbrydoliaeth i chi. Ac fe gaech weld y plant sy'n darllen eich llyfrau.'

'I briodi byswn innau'n mynd yno. I chwilio am wraig, nid i chwilio am gwsmeriaid.'



'Does dim digon mae'n debyg o Iddewesau yng Nghymru.'

'Ychydig iawn sy ffordd 'ma. Dw i ddim yn dweud fod *rhaid* priodi Iddewes. Ond mae'n fantais.'

'Dych chi ddim yn draddodiadwr deddfol.'

'Ddim yn hollol. Rhyw *fath* o Iddew dw i. Iddew-Gymro.'

'Ddeuech chi'n ôl â hi wedyn?'

'Rhywun o'r un ysbryd,' meddai fe, gan anwybyddu'i chwestiwn. Dyna sy eisiau. Mae trigo rywle rywle am dro yn Israel yn bwysicach na'r gwaed. Lle seciwlwr yw Cymru. O leia o ran credu dim o ddifri. Allwn i ddim godde seciwlariaeth.'

'Yr un delfrydau sy'n waelodol mae'n debyg,' ochneidiodd hi.

'Yr un gobeithion petrus,' meddai fe gan godi ar ei draed, 'ond bod Cymru fel plwm,' ychwanegodd e; a sticiodd y gair yn ei bryst hi. Fe edifarhaodd e'n syth am yngan y fath sarhad di-angen. 'Sut hwyl sy arnoch *chi* am y dyfodol ar ôl yr hen siom bersonol?' gofynnodd e er mwyn newid y testun.

'Gwell,' addefodd hi.

'Mae awel amser yn golchi dyn,' meddai fe gan godi'i drwyn i'r awyr, fel pe bai'n chwilio am iechyd. 'Ac mae'r osôn...'

Chwarddodd hi bron: 'Felly maen nhw'n ddweud.' Roedd ei llais hi mor chwithig o fain ac mor anwedus o bitw, fel pe bai dwbl-bas mewn cerddorfa yn sydyn yn gollwng gwich llygoden. 'Mae 'na rywbeth mor rhamantus ynglŷn â'r awel,' meddai hi ymhellach.

'Fel yna dych chi'n teimlo ar ôl dod i bensynnu ar lan y dŵr?'

'Does gen i ddim arall i'w wneud,' meddai hi. 'Dych chi mewn sefyllfa bur wahanol... Cyrchu ar draws môr a thir, croesi cyfandiroedd wnewch chi, i fro bell, bell, fel un o farchogion yr oesoedd canol i geisio meinwen yn Israel,' meddai hi.

'Efallai. Awyren siarter i'r Wlad sanctaidd ga innau, mae'n debyg. Gyda mintai o deithwyr cytûn hedonistaidd.'

'Rhai hanesgarol gobeithio. Taw waeth, y cyrch i'r anwybod goruchel fydd y wefr, y naid i'r caddug – y fath fentr fyddai hi,' meddai Rhiannedd.

'Dwn i ddim.'

'O bydd, yn anturiaeth,' meddai hi'n selog, gan edrych ar ei hwyneb ei hun yn y dŵr. Roedd y colli cynnar hwnnw gynt wedi'i malu hi'n gandryll yn awr. Ond beth oedd wedi digwydd yn ystod y deng mlynedd hynny ar ôl Siôn? Ei cho hi wedi rhydu a phlisgo, dyna'r cwbl, a philion wedi gwasgar hwnt a thraw, mewn strydoedd a swyddfeydd, mewn eisteddfodau ac ar aelwydydd, ym maw amser. Roedd pla o locustiaid wedi disgyn ar ei meddwl hi, a thynnu brigau'r planhigion yn ei gardd heb adael ond conion swrth ar ôl, fel main feddfeini. Hedai'r atgofion o'i deutu hi nawr yn anialwch ei hymennydd. Nid parhau wnaeth y golled gynta honno, nid aros yn ystyrllon chwaith. Roedd bylchau'r co'n gwneud y patrwm rhwng hynny a'r pryd hwn yn awr braidd yn afrosgo: roedd pethau'n gallu bod mor anarchaidd chwâl mewn co – sbwriel amser: tomatos ar lawr a llond lorri o lechi'n ymyrryd mewn damwain ffordd, rhes o beisiau ar lein mewn ffenest siop yng Nghaernarfon a phlentyn gan ffrind mewn gwely, oll yn nofio, drwy'i phen hi, cwpanaid o goffi du, a ffrog las ar gefn cadair, popeth fel addurniadau Nadolig ar ei cho cymysg rhyngddi a'r cysgod du hwnnw lle'r oedd ei galar creulon cynta wedi bod. Ac o'r diwedd, y llu rhyfedd anesmwyth hwn nawr o gofion atgyfodedig yn Aberdesach hefyd. A rhwng y delweddau hyn oll doedd fawr ond bylchau maith a llwyd. Byddai'n fwy gweddus, meddyliai, petai'r colli cynta hwnnw wedi bod yn gyfres drefnus o fân golliadau gwasgaredig ar hyd y deng mlynedd, yn golliadau clir ac unffurf ar wahân yn lle dod at ei gilydd i gyd heddiw a bod yna un balŵn mawr gwirion ar y dechrau wedi hedfan o gwmwl i gwmwl a gostwng a gostwng a chrino a chywasgu ac yna dod yn lwmpyn caled a arhosai'n unig naill ai yn ei gwddf neu yn ei chylla a disgyn, yn ôl y galw fan yma yn Aberdesach... Aethai ei hanhrefnusrwydd cysurus yn un lwmpyn clwm..

'Does dim mentr ynddo-i,' meddai fe'n waraidd ostyngedig. 'Dyna pam dw i'n ymguddio fan hyn mae'n debyg y tu ôl i'r creigiau, ymhell o Auschwitz.'

'Wel, mentrwch nawr te. Ewch i Jerwsalem. Mentrwch, at y plant cudd o ddarllenwyr. Nhw yw'r dyfodol.'

'Llais profiad sy'n cynghori?'

Chwarddodd hi. Pwy a allai fod yn fwy diddychymyg a cheidwadol a di-sbonc na hi? A thrwm hefyd, a chysglyd, ac wedi oeri ryw ychydig gyda diwedd y prynhawn. Roedd yr amser wedi cerdded, ac roedd hi'n dechrau blino ar chwalu chwaldod â'r dyn ifanc, arswydus o ifanc yma... Ac eto...('Mentrwch! Wir,' meddai hi wrthi'i hunan.) Hi oedd yr ola i wneud y fath beth; a dyma hi'n ei gynghori fe! Oni ddylai ddeffroi'i bywyd hi ei hun i gyd?

Wrth iddi godi, a chodi'i ffon gerdded ddiiddefnydd, sylwodd hi ar y blychaid hanner llawn o siocledi ar silff o'r graig yn ei hymyl. Cil-syllodd yn ôl ar y crwt lluniaidd tenau drachefn, a symudodd ei llaw hi at y blwch. Dyna gam cynta, o leia. Fe'i gwthiodd â chefn ei llaw, braidd yn anfelys, ac eto'n hwyliog ddi-barch, ac yn ddewr, dros yr ochr, nes y llithrodd yn blwmp i'r môr islaw. Ai ei gwthio hi ei hun roedd hi? Dechrau oedd hyn, gwaith buddiol un prynhawn.

Codai, ond gwyddai mai fel hyn y byddai hi arni o hyd, er hynny, heb newid. Gwyddai hi hefyd am y gŵr dieithr hwn hefyd, na byddai yntau byth yn newid nac yn mentro chwaith. Ond roedden nhw wedi rhannu'r gwacter hir am orig. A diau y byddai Aberdesach yn disgwyl iddyn nhw ddychwelyd yr un modd i wneud yr un pethau, efallai, â'u traed yn y môr, ymhen deng mlynedd arall, efallai.

A chadwodd hi'i ffon-gerdded ar gyfer hynny.

## DAFFODILIAU I CHARLIE

Gan eistedd yn ôl nawr i sipian ei ryddid i gefn ei daflod, edrychodd Charlie ar y pedair wal, ar yr un gwely, yr un bwrdd, yr un atgynhyrchiad o ddarlun tragywydd gan Rembrandt, yr un gadair, un llawr, un nenfwd, un ffenest fach ym mogail y nenfwd yn syllu allan yn undonog i'r un cwmwl. Mor felys rydd oedd y cwbl. Gynt fe fu ansicrwydd yn chwalu pethau. Ond ddim yn awr. Ymdeimlai fe'n hytrach ag undod diogelwch. Undod rhyddid. Ac yn wir, yr oedd yn amser cyffrous.

O'r diwedd, yma roedd ganddo ryddid llwyr. Meddwol, diderfyn, anhygoel ryddid.

Y tu allan, roedd yr Almaenwyr a'u carcharau fyrdd. A'r tu fewn, diolch, rhyddid – ynys o ryddid di-glwyf heddychlon mewn cyfandir o ddrylliau. Y pedair wal hyn a gadwai'r rhyddid hwnnw i mewn a'r Almaenwyr allan.

Dychmygodd yr olygfa y tu allan o gylch y Markt. Yn y pen draw, yr eglwys. Pe bai'r ffenest fach hon yn y to yn caniatáu iddo weld rhywbeth o gwbl, prin y gallai weld dim ohoni hi o'r safle yma, beth bynnag. O'r golwg hefyd ar y chwith y byddai'r ffynnon gydag wrn cerfiedig mewn maen a'r geiriau Fetze Fontein 1712 arno. Efallai y gallasai weld ar y dde Neuadd Verbouwd, ac o'i flaen Hotel de Beurs, ac yna ar y dde y bythynnod unllawr. Ond ar hyn o bryd roedd diymadferthedd y ffenest fach fythol amhosibl honno yn y to yn ei wawdio ac yn ei yrru i ymdroi yn ei ddychymyg fan hyn yn unig o amgylch y gofgolofn hyll goch, os coch hefyd, yn yr olygfa honno a gofiai ynghanol y Markt.

Cofiodd e am ddiwrnod neu ddau'n ôl a'r sydynrwydd a'r oedi hirfaith a ymunodd i'w ddwyn e i'r lle hwn. Bu'n siwrnai gyfeiliorn. Y parasiwt. Y môr llonydd a chwerw, a'r nofio blinderus i'r cob. Y gorffwys a'r ymguddio gwyllt pan glywodd leisiau Almaenig. Ymguddio ofnus wedyn am ddiwrnod a noson, cyn mentro ymlusgo ar draws y caeau, ymlusgo ac ymlusgo am byth. O ble y daeth yr holl laid yna? Ac i ble yr âi hynny wedyn?

Bu'n cripiant drwy'r llaid ar ei fol, yn isel mor anweledig ag y gallai, a'i drwyn yn anghyfforddus o agos i'r ddaear. Roedd fel pe bai wedi baddoni'n synhwyrus yn y llaid;

a llyfodd y trwch brown yn wlyb am ei goesau, am ei war, ym mlew'i amrannau. Carai fe sefyll dro yn y fan hon ac ymestyn, ond gwyddai fe mai iselder yn y llaid oedd ei fan priodol a'i waredigaeth. Ymlusgiad bach oedd e bellach, a'r rychau pridd hyn a anwesai'i ffroenau oedd ei gynefin. Ymlusgodd e drwyddo, filltir ar ôl milltir feddal, heb fawr o glem am gyfeiriad, ac o bosib gan ymweld o'r newydd fwy nag unwaith â'r un dalar, gan mor debyg oedd pobman o'i gwmpas, yn un gwastadedd hurt o laid awchus yn mynd mewn cylch o'i gwmpas ar lefel esgidiau.

A gorwedd.

Cyfarfu â broga. Hen froga bach melyn. Brawd. Edrychodd hwnnw'n hynafol ddiroidus arno, i'w groesawu i'w diriogaeth, heb ofn. 'Wyt ti'n hoffi'r stwff yma?' gofynnai hwnnw. 'Wyt ti'n coelio llaid? Mae'n wely anllad, afradlon, iach, ac yn gwahodd reis neu rywbeth felly; ond wyt ti'n dwlu arno? Ydy e'n flasus iti?' Dyna her iddo ennill cymar yn hwn.

Ymlusgodd yn ei feddwl yn awr gyda'r cymar drwy'r llaid eto ar ei fol, fel erioed, heb ateb, er mwyn chwilio i newid y cwmni, ac roedd y diwrnod cynt fel y diwrnod wedyn. *Plus ça change...* Caeai'r milltiroedd o laid fel cawell amdano, ac yntau'n ymwithio'n ôl ac ymlaen o un pen i'r llall, mewn rhigolau o frownder cletsig dros y tir. Glynai'n agos i'r llawr rhag i neb ei weld, a glynu yno mor hir ddi-antur nes iddo deimlo mai dyna ei briod le, ar ei fol, ar ei wyneb.

Un tro heddiw, yn ddiarwybod, fe'i cafodd ei hun yn ddisymwth ar bwys y ffordd; ac fe glywodd leisiau o'r newydd. Lleisiau Almaenig. Ddeallai ddim oll, ond roedd eu lleferydd nhw'n ddychryn iddo, wrth iddo ymwingo'n isel, isel.

'Manche freilich müssen drunten sterben,' meddai un, neu sibrydiad i'r perwyl yna.

'Wo die schweren Ruder der Schiffe streifen,' atebai'r llall.

Roedd yn ofni i'r llaid hwn lithro i ffwrdd unrhywbryd fel mwydyn o'i ddwrn. Gorweddodd â'i ben yn y llaid yn awr, ac aros yn ddisyfl am hanner awr ar ôl i'r lleisiau ddiflannu. Ac yna, cripiodd drwy'r llaid ymlaen ac ymlaen drachefn.

Bob hyn a hyn, nofiai lleisiau eraill, rhai crasach a mwy arwrol, dros y gwastadedd, ond allai fe ddim dirnad pa iaith a siaraden nhw. Roedd ei fraw e hefyd yn awr yn dwys-lepian fel llaid am ei glustiau. Âi dros hyn oll yn awr yn fyw yn ei feddwl.

Gwyddai – o leia roedd ganddo ryw faint o syniad – am ei leoliad. Ryw ddwy filltir i'r dwyrain fe fyddai tre fach Dokkum, a'r tu hwnt i honno roedd camlesi a llynnoedd a llaid Ffrislan, gwlad y ducpwyd oddi arni bob mynydd, heb roi dim oll yn eu lle ond llaid. Fe'u lladratawyd gan rywrai nad da ganddyn nhw ucheldir, ac yn awr, doedd yna ddim, ddim ffurf uwch gwastad môr, ddim pridd gwirioneddol, ddim byd ond gwagle llaid. Roedd yna ddiffyg Pumlumon, a diffyg Cader Idris, a diffyg Pryselau, fel pe bai trigolion y wlad ac yntau, yntau druan, wedi cael eu dwyn gerbron a'u dyfarnu o'r diwedd i beidio â chael mynyddoedd mor gaeth â nhw'u hunain; am nad oedden nhw yn eu haeddu, dylid eu rhoi i rywun arall gan adael y diriogaeth a fyddai ar ôl yno ar y gwaelod yn isel, yn drist, wedi'i hamddifadu o'i chyrrff, mewn llaid, yn Ffrislan lwyd dan afael yr Almaen.

Ymlusgai'n ara drwy'r llaid tuag at y dre, gan ofni mynd yn gyflym rhag iddo gyrraedd ymylon y dre heb allu mentro i mewn a heb wybod ychwaith beth arall y gallai'i wneud.

Cyn meiddio codi o'r llaid, sut bynnag, a cheisio treiddio i ansicrwydd y lle, gorweddodd yn nes i mewn iddo ychydig am awr er mwyn mwynhau clydwch y ddaear a'r munudau hyn o ryddid priddlyd dan y nen. Pryd y câi e afael yn y diogelwch hwnnw fyth drachefn? Ai caethiwed fyddai'i ran?

Ychydig tua'r de o'r dre roedd yna lond cae o ddaffodiliau, un cae hir hapus heb ddim ond melynwch yn siglo ynddo. Roedd hi'n anghredadwy. Dyma'r holl fydysawd o'u hamgylch nhw yma mewn rhyfel, a'r wlad hon hithau o dan ormes yr ymosodwyr; ac eto roedd gan rywun yr haerllugrwydd i dyfu daffodiliau – nid hanner dwsin ohonyn nhw, ond llond cae difyr diofal. Melynwch digywilydd, diddefnydd, diddim ar ganol Rhyfel Blodau! Tyfu harddwch!

Gwelodd Charlie fenyw fechan ganol oed anhysbys yn cerdded yn bwylllog allan o'r dre tua'i gyfeiriad e. Roedd hi'n hwyr, a gwawl ola'r haul ar drengi ynddi hi.

Dyma roi cynnig arni. Doedd yna ddim ond llaid i'w golli – rhyddid llaid, a newyn efallai, ac unigrwydd; ac ansicrwydd. Cododd ar ei draed fel bwgan o'i blaen hi.

Sgrechodd hi yn ei braw.

'Peidiwch ag ofni. Sais dw i, o Gymru.'

'Mi ges i sioc.'

'Wedi yn saethu i lawr i'r heli.'

'Eich awyren chi oedd wedi disgyn?'

'Ydyn nhw wedi bod yn chwilio?'

'Roedden nhw'n meddwl efallai fod yna rywun.'

'Eisiau bwyd sy arna i.' Craffodd hi i mewn iddo.

'A dillad sych,' meddai hi. 'A gwres. Diar annwyl! Be wnawn ni?'

'Ellwch chi helpu?'

'Mae'n rhaid. Arhoswch chi. Bydd yn rhaid ichi ddod adre. Gwell ifi beidio ag aros yn rhy hir fan hyn. Mae nhŷ i yn y dre. Mi gerdda i ymlaen nawr. Ymhen hanner awr bydd hi'n dywyll. Deua-i'n ôl i'ch hebrwng. A chewch chi y nilyn i o bell ar y ffordd yn ôl.'

Ac felly y daeth Maria Hamstra i'w fywyd â'i thŷ a'i rhyddid.

Y tu allan yn awr ar frics coch llawr y Markt roedd e'n gallu clywed o dŷ Maria Hamstra yr Almaenwyr yn drilio, a phob hyn a hyn saethai sillaf rhyw ringyll neu'i gilydd yn uwch na chlepieu'r sodlau dur. Ond Maria Hamstra a'i cyflwynodd i'r ystafell.

Roedd yr ystafell hon o'i amgylch yn awr yn mynd yn wacach wrth iddo ddod yn gyfarwydd â hi. Roedd yn syndod mor ofnadwy o wag yw cysondeb gwacter, ac effaith amserau hir o absenoldeb. Yno roedd yn grynodedeb a chasgliad o ddiffyg pobl. Teimlai mai hawdd fuasai gwallgofi mewn ystafell fel hon. Rhaid bod holl bobl yr ystafell hon wedi'u lladd yr un pryd gan danchwa trychinebus amser. Meddyliai am yr oriau y tu allan lle y'i cafodd ei hun yn union ar ôl disgyn i'r llaid. Breuddwydiai'r dŵr o'i gwmpas yn y llaid am ddarnau'r awyren. Breuddwydiai yntau mor bwysig am sbel oedd cuddio a

llyncu pob arwydd o ryddid mwy a lithrai i mewn i'w ymwybod. Yma ac acw gallai hefyd, oherwydd rhyfel a'r cwmp, bensynnu sut y cafodd ei awyren, a rhai penliniau, arddyrnau, a thameitiach o wallt gwaedlyd, efallai, ac olion eraill o drigolion ymhellach draw, egino yn y tir.

Ond doedd dim person i'w weld yn unman. Efô, mae'n sicr, oedd yr unig un ddaethai i'r lan. Lladdwyd y lleill, mae'n siŵr. Allan o'r dilyw roedd e wedi criplan, wedi i'r weilgi olchi'r holl lygredd i ffwrdd, ac âi i mewn i'r llaid yno, ac roedd yn gallu anadlu yn awr unigrwydd delfrydol rhyw fyd arwrol newydd.

Anodd iddo yn y lloches newydd hon yn awr oedd cymryd amser o ddifri.

Gwell fyddai iddo beidio ag aros yno'n rhy hir dan bwysau'r unigrwydd gwallgo hwn.

Ar ôl iddo fod – a bodoli yn unig wnâi e – yn yr ystafell am ddau fis yr oedd wedi troi wyneb yr atgynhyrchiad o Rembrandt at y wal; ond yn awr, dri mis yn ddiweddarach byth, roedd yn ysu am ei droi'n ôl oherwydd yr unigrwydd. Ac wedi'i droi, roedd e wyneb yn wyneb unwaith eto â llygaid duon y ferch honno ar y wal gyda'i ysgubell.

Onid oedd yr holl amser hwn (fel Almaenwyr) yn barod i'w ysgubo fe i ffwrdd? Yng nghefn ei ymennydd e fe wnaeth hon ei chartre. Ambell dro fe ymgordeddai'i sylw fe yn ei gwefusau clwm hi a ymddangosai fel petaen nhw'n chwibanu neu newydd boeri arno neu am sibrawd rhywbeth.

Ceisai fe droi'i sylw a syllu ar nodweddion yr atgynhyrchiad o Rembrandt bob cornel ohono: y bwced, neu'r fasedg a'i phen i waered, ar y gwaelod de; y cledrau dirgel brown roedd y ferch yn pwyso drostyn nhw; y llawr, neu'r silff, y gorffwysai'r ysgubell arni, sut roedden nhw'n perthyn i'w gilydd. Y brownder dirgel lleidiog a oedd yno. Ond y llygaid yn anad dim, y rheini, y llygaid duon hynny o hyd fel milwyr Almaenig, dyna a'i dilynai fe'n ôl i gefn yr ystafell, ac a arhosai ar ei wegil hefyd os trôi e ymaith, gyda'r llaid ysbrydol dan flanced ei wely. Roedd ei chwmni hi'n ormod. Byddai'n rhaid ei throi hi'n ôl at y wal drachefn, mae'n ddrwg gen i, neu byddai fe'n mynd yn gwbl wallgo.



A'r blodau. Y daffodiliau ledled y wlad, dychmygai'r rheini y tu allan, yn hollol annefnyddiol ac anymarferol ar ganol rhyfel. Pam roedd pobl yn gwneud sylwadau fel hyn gyda marwolaeth mor agos? Tyfai'r fath brydferthwch mewn cyflafan, gyda'r holl oriau'n ymlusgo'n waedlyd o'u cwmpas yr un pryd.

Roedd yr unigrwydd hwn yn ymosod ar ei ddeall mor rhydd. Byddai'n rhaid iddo fe frwydro bellach i gael byw'n gall mewn ystafell fel hon. Roedd hi fel pe bai llonyddwch ailadroddol yr un lle hwn yn cau gymaint amdano, fel math o gwsg, ac yntau'n ymdrechu'n fythol i aros ar ddi-hun. Siglai'i ben ambell waith yn erbyn yr awyr, a tharo'i grimogau'n hallt.

Ei feddwl e'i hun wrthi oedd byd yr ystafell, ac roedd hi'n bwysig iddo symud o'i chwmpas hi a pheidio ag aros yn rhy hir yn yr unfan. Gwnâi e ymarferion corff ambell dro, cerdded ar ei benliniau oddi amgylch, sefyll yn hir ar un goes, ceisio cyfri cant namyn un wrth sefyll ar ei ben. Wrth iddo ddal ei ddwylo yn yr awyr, a'u siglo o amgylch yn gyflym ac yn wyllt o gwmpas, ac o gwmpas, fe gâi e fod yr awyr ei hun fel pe bai'n tewychu ac yn ceulo o ran trwch yn ei gledrau. Rhaid iddo heddiw oedd siarad, neu areithio, o flaen y waliau, am ychydig o funudau, a'u perswadio nhw rywfodd i wrando. Roedd yn rhaid iddo wneud ymarferion meddwl hefyd: dyfalu efallai.

Ydw i'n edrych fel dyn unig i chi? Ydw. Ai gyda rhywbeth fel hyn y mae colledigaeth yn ymdroi ym mhen draw'r ddaear? Wel, gyda waliau o leia: dych chi'n gwir edrych fel waliau sydd eisiau cwmni. Waliau amddifaid, wedi dechrau oeri oherwydd does neb yn eich caru chi, neb oll wedi edrych arnoch chi erioed, mi wna i edrych, ffrindiau, gwna, – dyma gymwynas gen i ar gyfer y diwrnod o leia – mi wna i oedi yn llygaid i'n hir arnoch chi, a rhwbio'n eich erbyn weithiau, hen waliau twp, unig. Mi ddeua-i'n gyfarwydd â chi, fel arwydd o gyfeillgarwch. Dyma addewid.

Pwy wyt ti'n feddwl wyt ti Charlie boi? Pennaeth y bydysawd bach hwn o leia? Edrycha. Dwyt ti ddim oll ond gwahan-glwy anghofrestredig, wedi colli dy hunaniaeth. Yn wahân ac yn glwyfus. Wnaiff yr ystafell hon ddim dy arddel di. Wnaiff neb anadlu'r un awyr hon â thi fyth, wahan-glwyf powdr.

Dywed di un peth, un peth sy'n werth ei glywed, Charlie. Llunia un frawddeg dwyt ti ddim wedi hen ymgynefino â hi. Rwyt ti'n hollol ddiwerth, y twpsyn, heb dy barchu gan neb, yn ceisio tynnu sylw waliau twp, eisiau i'r nenfwd feddwl dy fod di'n dipyn o hogyn, yn chwilio am glod gan y llawr. Beth wyt ti, Charlie boi? Dim ond llais heb ymennydd, llais ar goll yn crwydro'n rhwystredig o gwmpas waliau, dan un gwely, un gadair, un drws. Dychmygu. Y gwahân-glwy.

Roedd y distawrwydd annynol hwn ar ambell ddiwrnod yn haearnaidd hollol am ben Charlie. Ar ambell ddiwrnod arall yr oedd yn meddalu. Dôï e'n connoisseur mewn distawrwydd, fel y byddai eraill gyda gwinoedd. 'Rhaid ifi ddweud brawddeg heddiw, hyd yn oed pe na ddwedwn ond 'b'. B-b-b-b. Mae'n braf. Mae'n bwrw glaw. Sut mae'r buchod, Mrs Jenkins? Wedi mynd adre, ficar, achos eu bod nhw'n boncars. Mor gynnar? Ie, oherwydd mai brownder yw'r byd, nid brownder Rembrandt, ond brownder go iawn, mae arna-i ychydig o ofn brownder. Ofn llaid Ffrislan, ofn brownder y daffodiliau yn crino ar ddiwedd eu hoes. Ofn ofn b-b-b.'

Tybiodd – a allai hi fod yn ddifyr iddo gadw dyddiadur, yn gofnod i'r dyfodol o'i brofiad e yn y rhyfel? 'Sut ryfel gest ti?' gofynnai'r llaid y tu allan. A dechreuodd arni'n gydwytbodol ac yn amrywiol er mwyn cadw i'r dyfodol ychydig o'r cyffro a fu.

Ebrill 29: Dim byd heddiw.

Ebrill 30: Dim.

Ebrill 31: Dim byd.

Ebrill 32: Dim eto.

Ebrill 33: .

Rhoes y gorau iddi.

Croth gyfrin yw'r ystafell hon. Dyna hi. Seler yn y to, lle nad oes dim sŵn i fod. Byd beniwaered. Roedd yn cofio'r groth gan ei fam yn burion heddiw, broliai: y misoedd hir o aros mewn seler heb olau, a'i ben wedi plygu, ac yntau a'i goesau'n dewis cywasgu o dan ei ên, bron heb allu ymsyflyd o gwbl. Lle fel hyn oedd hi. Roedd e wedi teimlo weithiau ei fod ar dagu. Weithiau, roedd e'n teimlo mai gefeilliaid disiarad oedd

e'i hun yn y groth, fe a Maria Hamstra. Ond i'r groth honno yr oedd yna ddiwedd heb fynedfa allan. Yng nghroth yr ystafell hon ysywaeth roedd y cyhyrau'n hollol ddiffaith, y waliau'n gwbl sad, heb obaith iddo gael ei wthio byth i'r goleuni. Croth farw gwlad farw a llaid Rembrandt.

Byddai mesur yr amser gyda manylder efallai'n ddefnydd pwrpasol ohono. Cydia yn y cyfle. Gallai glymu'i ben wrth gynffon amser, a gweld ble'r oedd yn mynd. A beth wnelai'r hen fyd ohono fe wedyn?

Un peth y cofiai'i fod amser yn ei wneud gynt yn ei ieuenctid fyddai peri tyfiant. Penderfynodd sefyll yn erbyn y wal a'i fesur ei hun i weld faint a dyfai fe o hyd. Rhoddodd farc ar y wal. Bum munud yn ddiweddarach, roedd e'n ôl yn mesur y cynnydd. Ond fel y gŵyr pob gwyddonydd (pan oedd e'n cymryd yr arbraw o ddifri), doedd dim llawer o fudd yn y gwahaniaeth corfforol hwnnw mor fuan â hyn, efallai. A syniai fod yna dyfiant meddyliol yn lle hynny, o bosib, neu o leia dyfiant profiadol. Dyna a gawsai fe heddiw, fe ddichon, i'w fesur wedi i'r corff beidio ag ymuno yn y tw. Dichon, pe bai e'n bwrw golwg yn ôl dros ei brofiadau ar hyd y blynyddoedd, y ddi o hyd i fesurydd profiad go iawn ac ymarferol. Hyn fyddai'r cam nesa, yn ddiau.

Waeth iddo aros yn y gwely ddim. Dwli oedd codi bob dydd gyda'r wawr fel hyn, fel pe bai'n mynd i rywle, gwisgo'n gymen, torri'i farf, ac aros ar ei eistedd nes ei bod hi'n bryd tynnu'i ddillad a chythru'n ôl i'r gwely, a myfyrio yno. Roedd yr holl ymarferiad yn anfeidrol seithug. Gadawai i bopeth fod. Ac arhosodd.

Arhosodd yn y gwely, felly, am wythnosau maith a chwarae bod yn sâl, a dychmygodd o ran hwyl y meddyg yn galw heibio.

'Y galon yw hi, Charlie. Mae'r ymennydd yn gweithio'n burion, wel yn ddigonol... a'r ysgyfaint.'

'A'r dwylo?'

'Ydyn, mae'r dwylo'n iawn.'

'Y galon?'

'Dwn i ddim: mae hi yno o leia. Mae yna sŵn. Ond nid sŵn gweithio. Mae'n debycach i sŵn chwerthin.'

'Dowch i mewn, ficar.'

'Y chwiorydd oedd yn holi. Mrs. Pw, pwyllgor y blodau. Mrs. Be, Cymorth Cristnogol.'

'Mae pawb yn garedig iawn, ficar. Pawb yn cynnig te. Diolch i chi, Mrs Pw. Llond llwy o de Eryri os gwelwch yn dda y tro nesa byddwch chi'n galw.'

'A chloc?'

'Dim cloc. Ansawdd yw'r peth sy'n cyfri, nid yn ôl mesur llwyeidiau.'

'Byd yw'r ystafell, go iawn, ficar, wedi colli profiad o ansawdd. Mae rhyw Gardi wedi dod â Rembrandt yn ei lle efallai, o'r seler, ac mae'r gwely'n fodern epiciwraidd, a gwydr y ffenest yn wyddonol dryloyw, ac mae "cynnydd" ar gael wrth ymweld yn flinedig â'r gadair acw. Ystum hiwmanistaidd gan rywun oedd gadael bord. Mae'n dynoli popeth. Heb hynny, mae'r gofod mor anferth a does neb meidrol yn gwybod, ficar, neb ond amser, taw pa mor ddwfn yw'r gwagle pan fo'r blynyddoedd goleuni yn gwatwar drwy'r ffenest fach unig honno yn y to.'

Edrychai Charlie i fyny drwyddi. I fyny fan yna, drwy ffenest y ne – y treiddia'r heulwen drwyddi – oedd e'n mynd i fynd fymryn yn wallgo? Dyna un peth y gallai fe'i wneud tra oedd e yma yn Ffrislan efallai: sef sefydlu Cymdeithas er Diogelu'r Haul. Fe ymunai Maria Hamstra. Pwy wyddai fel y byddai'r cenedlaethau gwyrdd yn y dyfodol yn gwerthfawrogi iddo arloesi fel yna?

Ond ni wnâi'r haul namyn chwerthin am ben y syniad noeth – chwerthin yng nghonglau'i wddwg, fel dŵr, yn diflannu drwy bibell.

Ar Nos Sadwrn ar y sgwâr y tu allan, yn ôl Maria Hamstra, mewn un o'i brawddegau prin, byddai'r milwyr meddw yn ymgynnull i weiddi, ac roedd e'n gallu eu clywed. Peidiwch ag ofni. Ymladd-feddwi oedd y gweiddi hwnnw, yn ôl pob tebyg. Rhyfedd mai ymladd oedd gweiddi hefyd. Arwydd o oferedd yr amseroedd.

Ynghymysg ag e roedd rhai o'r trigolion yn petrus brotestio am brinder bwyd.

Fore Gwener yn ddi-eithriad byddai'r un Almaenwyr gwaedd-lawn yn drilio'n drefnus.

A phob dydd, gyda'r llaeth, a'r bara menyn, a'r darn o gig, a rhai pethau eraill, bob dydd – Maria Hamstra, ac eiliad hyfryd o oleuni drwy fflap-i-gath y drws, goleuni gwahanol. Dychmygai honno. Dychmygai bopeth amdani.

Nos Iau tua chwech hefyd roedd e'n *dychmygu* fod yna ferch dal wallt-golau a ddeuai i sefyll y tu allan i Gaffe Haarsma gerllaw. Bob nos Iau. Ychydig cyn iddi ddod bob tro fe glywai hwter neu chwiban hir yn seinio ddwywaith. Arhosai hi yno wedyn am bum munud ar hugain. Yna, deuai nodyn eto ar yr hwter. A diflannai hi. Dychmyg yn unig. Rhyfeddai ei fod e'n rhoi sut gred i'r fath eneth.

Felly y dychmygai fe, bob nos Iau. Ni fyddai hi'n torri gair â neb. Doedd hi ddim yn ferch o'r dre. Ddeuai neb fyth bythoedd i gwrdd â hon. Yn ei llaw, daliai dusw anferth o ddaffodiliau. Neu felly y'i dychmygai.

Doedd hi ddim fel petai hi'n ymddiddori yn y sgwâr ei hun. Yn wir, am y rhan fwya o'r amser, fe gadwai'i llygaid i rythu freuddwydio ar y llawr o flaen ei thraed, er ei bod ambell waith, ambell waith yn unig, yn hollol anfwriadol efallai, yn bwrw'i threm tuag at y tŷ lle yr arhosai Charlie yn ei ystafell ddiflas yn yr atig, ymhell o'i golwg hi. A heb ei gweld hi ychwaith. Gwnâi hi hyn oll heb dynnu sylw ati'i hun. Dôi â'r daffodiliau yn unsydd iddo fe, fe dybiai, i gynnal ei Gymreictod efallai... Hyn oll a lanwai'i ddychymyg.

Dyma a ddychmygai fe Nos Iau. *Bob* Nos Iau. A byddai'i dirgelwch hi'n ei ganlyn e'n ffyddlon-brudd am oriau bwygilydd weddill yr wythnos.

Brynhawn Mercher byddai llawer o bobl o'r ffermydd amgylchynol neu eu sŵn nhw'n tyrru i'r dre, a llaid ac aroglau'r wlad dros eu dillad. Dyma'r pryd y carai fe fwya gael cipolwg drwy'r ffenest pe bai modd yn y byd. Ond roedd hi'n hollol amhosib, a doedd dim o flaen ei olwg e fyth ond yr un cymylau uwchben ffenest y to, – y diffyg haul, – ac roedd yn rhaid iddo ddibynnu'n llwyr ar ei ddychymyg. Ond teimlai'n ddiolchgar am ddychmygu'u llaid. Roedd hynny'n eu crisialu nhw rywsut mewn realedd.

Ei ddychymyg yn awr oedd yr unig beth a'i cysylltai fe â Chymru. Roedd fel pe bai bwllch wedi disgyn rhyngddo fe a'i fywyd ei hun. Trwy'r pellter gorffennol cynyddol afrealiaidd gwelai'i fywyd yn codi llaw arno, yn ysgwyd hances yn daer yn yr awyr, a hwyliai fe'i hun ymlaen heibio iddo. Da bo, Charlie. Fan acw gyda'r ffigur ffôl unig yna o ferch y daffodiliau yn siglo'n wyllt ar yr ynys-draffig yn y sgwâr roedd pwrpas; ond y fan yma y byddai yntau heb gyswllt synhwyrdd erbyn hyn, ar goll, yn hyrddio ogylch amgylch ei ddychymyg ei hun, gan droi ar y ffordd anghywir bob tro heb fedr i lanio yn un man.

Dim ond dychymyg oedd honno, wrth gwrs. Fe'i cysurai'i hun am hynny. Onid fe'i hun a esgorodd ar y ferch? Roedd hi wedi'i hawntio mor gyson ac mor eidetig, nes iddo ddechrau synied bod rhaid bod yna ryw sail sylwedd iddi go iawn.

Yr wythnos hon eto, – O! wythnos lân! – roedd y ferch ddirgel wedi dod yn ôl ei harfer i sefyll yn ei ddychymyg y tu allan i Gaffe Haarsma, ac yn ei llaw roedd hi'n dal yr un tusw o ddafodiliau.

*Y fenyw* ym mywyd Charlie. Dechreuai weddio amdani neithiwr.

Ond nid hi, wedyn, oedd yr *unig* fenyw yn ei fywyd. Charlie a'i fenywod! Creadures od ar y naw oedd Maria Hamstra hithau, ychydig bach yn ddychmygol eto. Doedd hi Maria Hamstra ddim wedi gwrthwynebu iddo ddod i'r tŷ, mae'n wir; ond byth oddi ar hynny, doedd hi ddim wedi siarad ag e chwaith un waith fwy nag un frawddeg ar y tro – a honno ar y Nos Sadwrn. Galwai fe hyn yn Wledd Nos Sadwrn. Roedd drws ei ystafell e ynghlo o'r tu allan drwy'r amser; ond yng ngwaelod y drws hwnnw fel fflap-i-gath yr oedd yna ystyllen symudol y gallai fe'i llithro'n ôl. Y tu ôl i'r ystyllen roedd yna flwch helaeth caeedig, ac yn hwn bob dydd y gadawai Maria Hamstra ei brydau fe, heb ddweud gair, yn rheolaidd dair gwaith: am naw, am un, ac am saith (ond am yr un ychwanegol Nos Sadwrn). Roedd y bwyd hwnnw'n gwbl syml, yn gynnil, yn undonog, ond yn gymharol ddigonol.

Rhaid mai fel hyn y byddai hi yn nyddiau'r hen saint yn eu mynachdai.

Charlie Sant.

Ond ar ôl naw mis roedd yr holl beth mor rhwydd iddo rywsut; ac anniddorol.

Roedd angen iddo ddyfeisio rhwystrau neu rai anawsterau o leia i beri i'r proses hwn o gael bwyd amrywiol, fel y byddai'n golygu ychydig bach mwy o ymdrech iddo. Rhaid oedd iddo ddefnyddio'i ymennydd er mwyn cadw rhyw fath o synnwyr. Trodd y gwely ar ei ochr a'i wthio'n erbyn y drws: rhyngddo a'r gwely fe osododd y ford, hithau hefyd ar ei hochr. Yna fe ymwithodd o dan y gadair, a chlymu mwgwd ar draws ei lygaid. Wedyn, fe geisiodd ei droi ei hun dair gwaith yng nghornel yr ystafell cyn ymlwybro lwrw ei din, a'r gadair am ei ben, yn ôl tuag at y drws i nôl y bwyd. Fel hyn, yn fynachaid, fel pe bai'n ei gosbi'i hun, y dôi i gymryd ei brydau.

Fel hyn yn wir y byddai'n bwyta'i fwyd yn ffyddlon bob dydd yn ei gell. Ceisiodd hepgor ei ddwylo a'i freichiau, gan ddefnyddio'i draed i ddodi pethau yn ei geg. Ond fe ddaeth e mor ddeheuig â'i draed, nes iddo benderfynu y byddai'n rhaid iddo dynnu'r ystyllen yn y drws yn ôl â'i ddannedd, ac yna arbedai hyd yn oed ddefnyddio'i ddannedd ar gyfer bwyta'i brydau.

Rywsut drwy'r cwbl roedd mor falch ei fod yn rhydd o hyd; ac yma yn yr ystafell wahan-glwffus hon, ag un ffenest yn y to, roedd rhaid iddo rywfodd fynegi'r balchder a'r diolch hwnnw yn ostyngedig. Dyna'i lawenydd. Neu'i ddychymyg am lawenydd.

Dechreuodd ddyfeisio chwaraeon dyrys a chymhleth er mwyn bwrw'r amser, ond doedd yr un gêm fyth yn dod i ben. A phenderfynodd mai gwiw fyddai paentio'n fân yn ei ddychymyg hanes gwareddiad o gyfnod y pyramidiau ymlaen drwy'r Parthenon ar waliau'r ystafell; murlun er co amdano'i hun. Er iddo fynnu ymgyfyngu i symbolau haniaethol ac i anifeiliaid, fe ymddangosai hi, o hyd, yn ei ddychymyg, y ferch ddirgel honno o'r sgwâr, i mewn i'r lluniau bob nos Iau tua chwech, i lechu rywle ynghornel pob un o'i ddarluniau dychmyglon, ac roedd yn rhaid iddo ddechrau eto, ynghyd â'r fam natur hon (os dyna oedd hi) gyda'i daffodiliau. Weithiau byddai hi bron yn noethlymun (yn hollol ddiniwed) fel pe bai am nofio ac yn cyrlio mewn blodyn gyda gwenynen, megis duwies Roegaid. Dro arall roedd hi'n ymrithio yn yr wybren a'i chorff yn bluog, a'i hadenydd angel yn cysgodi dros y wlad, ond roedd ei hwyneb yr un fath, yr un mor anniffiniol ag erioed.

Y tu allan, rholiai'r milwyr Almaenig o gwmpas y sgwâr yn undonog.

Ceisiai fe sgrifennu stori wahanol yno ambell dro am ei hen ardal yng Nghymru, er mwyn ei charthu hi o'i system. Ond o fewn y tri thudalen cyntaf, roedd rhyw ferch – a hon oedd hi fe wyddai fe'n burion, heb ddweud wrth neb, – wedi'i ddilyn a mynnu rhan yn y gweithgareddau. A dychymyg oedd ei Gymru hefyd, erbyn hyn.

Gŵr go ddihidans ac anniddorol a chyffredin fuasai Charlie erioed cyn y rhyfel. Yn wir, doedd dim disgwyl, ac yntau mewn amgylchiadau mor gyffredin yn Llanbadarn, iddo fod byth yn fwy deniadol na'r cyffredin. Ynghynt, yn y llu awyr yn wirfoddol yrfaol, llanc digon ysgyfala oedd e hefyd cyn y cyrch awyren diwetha yma. Ac eto, arhosai'n debyg wedyn hyd heddiw, – ac yn waeth. Dyma fe wedi'i ysigo'n ôl i'w hen hunan, ei ffraethinebau diddychymyg i gyd wedi'u sychu, a'i chwerthiniad hwyliog wedi'i hollti, a'i gymeriad wedi'i anialeiddio benbwygilydd. Roedd gwacter yr ystafell wedi ennill tir yn ei fyfyrion e. Ac roedd y llaid anochel a hir-yमारhous wedi stwffio'r ffynnon.

Sut yn y byd gallai fe ddianc o'r lle yma? O'r Arswyd! Ar y llaw arall, beth wnâi e, pe bai e'n dianc? Dichon mai dod i'w helpu i ddianc roedd y ferch ddirgel hithau, a bod Maria Hamstra dwyllgar yn y fan yma yn cyflawni rhyw swyddogaeth gudd dros yr Almaenwyr. Dyna un wedd ar ei hanes posibl. Ond beth wedi'r cwbl oedd ystyr 'dianc' ac ailymuno yn y rhyfel mwyach, a hwnnw siŵr o fod yn tynnu i ben?

Pe bai e, nos Iau nesa, tua phum munud i chwech, yn medru sefyll ar y gadair, gyda'r gadair ar ben y ford, a thorri'r ffenest fach uwchben, yna beth wnâi e wedyn? Âi e byth bythoedd allan drwy'r bwlch hwnnw, i ddechrau. A hyd yn oed pe bai hynny'n bosib, beth ar glawr daear a wnâi e ar ben to, a phawb ar y sgwâr, gan gynnwys rhai milwyr Almaenig yn ddiau yn syllu'n ddwl arno cyn mynd ag e dow-dow i wersyll carchar? Pa werth fyddai honacw, wedyn, hyhi mor lluniaidd draw acw wrth Gaffe Haarsma, a'i rhyddid annealladwy ffansiol?

Pwy oedd Maria Hamstra ei hun hefyd? Pam nad oedd e am feddwl fawr amdani hi o gwbl? Pan oedd e yn grwt yn Llanbadarn roedd profiadau fel hyn yn weddol ddidrafferth. Cofiodd un tro pan gaewyd e yn ei ystafell gan ei dad am iddo godi rhyw bryderon ym mynwes ei fam ynghylch ei waith cartre: ymhen deng munud



roedd e wedi dringo allan drwy'r ffenest ac i lawr piben y draen ac i ffwrdd ag e am un noson fawr o hwyl anfarwol. Dyna'r ffordd i setlo problemau.

Châi e ddim llawer o hwyl felly heno. Ond disgyrchodd yn ddyfnach i anialwch yr atgofion go iawn hyn.

Ei dad... Edrychai ar ei ddwylo ei hun, a gwelai nawr am y tro cynta, mor debyg oedd lliw golau'i groen e i liw croen ei dad: fel roedd ei ddwylo fe hefyd wedi tyfu'n sgwâr ac yn wrywaidd fel rhai ei dad, ac eto'r bysedd yn gerddorol ddigon main ac yn fonheddig, a'r ewinedd mor ddelfrydol o lân. Gallai fod yn falch o'i ddwylo.

Nos Iau a ddaeth. Neu'n hytrach 'Y' Nos Iau a ddaeth. Un Nos Iau hanesyddol cofiadwy.

Tua phum munud wedi chwech oedd hi, clywodd gnocio cadarn ar ddrws y tŷ islaw. Clywodd leisiau, a llais Maria Hamstra yn eu plith yn dadlau ac yn taeru ac yn codi'n ymchwydd. Na! Na! Doedd hi ddim yn fodlon i neb ddod i'r tŷ. Gwraig weddw oedd hi, ar ei phen ei hun. Enillai ychydig drwy weithio cogau a chacennau mân. A dywedai rhai Almaenwyr mai Neb, Neb oedd hi. Doedd Neb yn debyg iddi, mae'n siŵr.

Dô'r lleisiau'n uwch, sut bynnag, fel petaen nhw am brynu rhywbeth. Roedd y rhain yn lleisiau go iawn.

Meddyliodd Charlie tybed a oedd y dinbendrawdod hwnnw a'r rhyddid i gyd, a gawsai fe yn Ffrislan, o'r diwedd ar ddod i ben. A oedd e mwyach yn mynd i gael ei waredu o bosib? A oedd y rhyfel wedi dirwyn i derfyn? Edrychodd unwaith eto ar unigrwydd caredig y waliau, yn awr mor llipa ac ar suddo o flaen ei olygon yn glytiau lleidiog i'r llawr. Mantais dibendrawdod yr aros efallai oedd ei fod e heb orfod erioed wynebu dim byd ond ei ddychymyg. Ond, pe bai'n gorfod ymadael nawr, byddai fe'n cofio am y waliau annwyl hyn. Roedd y straen o gyfarfod â phobl eraill go iawn yn awr, ac o orfod magu rhyw fath o berthynas real â nhw, yn ymddangos yn drais cynllwyniog i flodeurwydd ei nerfau melyn. Roedd bywyd ar newid. Clywai'r camre ar y grisiau.

Hyrddiwyd y drws yn agored.

Y tu ôl i'r milwyr gwelai gysgod bach Maria Hamstra'n crynu'n welw. Doedd e erioed wedi'i hadnabod hi'n iawn. Edrychai arni'n graff yn awr am y tro cynta. Gwraig fach hollol gyffredin oedd hi. Er iddi hi ei achub e a'i ddiogelu gyhyd, roedd hi wedi aros mor amhersonol rywfodd a doedd e erioed wedi ceisio closio ati. Y fan yna roedd hi bellach; ac arni hi yr edrychai fe ac nid ar y cyrff mawr milwrol hyn a gaeai amdano.

Cydion nhw ynddo fe. Clymon nhw hi.

Roedd hi'n wylo hefyd. A'i hwyneb mor binc. 'Maria,' murmurai Charlie. 'Mam!'

Llusgwyd e o'r tŷ. O'r tu allan, ger trothwy'r drws, roedd y ferch ddirgel ifanc a ddisgwyliai yn sefyll yn dal ac yn wallt-golau, yn yr union fan lle y dychmygasai fe y byddai hi. Roedd hi'n bod. Roedd fel pe bai'n cadw'i haddewid yno. Roedd hi'n oer. Nodiodd hi ar y ddau filwr Almaenig a gwenu. Un ohonyn *nhw* felly oedd hi. Roedd torch o eirlisiau yn ei llaw, ddim daffodiliau.

Eirlisiau oedd ganddi, wedi'r cwbl, i Charlie.

Wrth iddo gael ei wthio nawr fel anifail i gefn y fan hir gan y milwyr, ac wrth iddo swatio'n isel mewn tywyllwch caeth a myglyd a llaid yno, clywodd Charlie hwter yn seinio un nodyn hir yn glir ar draws y sgwâr. Ceisiodd e godi ar ei draed i edrych yn ôl allan o gefn y fan. Ymlusgodd ychydig tua'r agoriad neu'r drws ôl yn y fan, a thybiodd un milwr yn gwbl gyfeiliornus ei fod e am ddianc. Charlie o bawb! Saethodd e Charlie yn y fan a'r lle, bron yn ddifeddwl, bron fel damwain. Troes wedyn yn unionsyth at Maria Hamstra, a'i saethu hithau hefyd; y ddau mwya diniwed a oedd ar gael mwyach, – Charlie a Maria Hamstra gyda'i gilydd, – yn gymdeithion mewn marwolaeth.

'Claddwch nhw nawr,' gwaeddai'r Swyddog, a oedd yno gyda nhw, heb ddweud ble i'w claddu. A chyda'r geiriau hynny, cerddodd y ferch wallt-golau honno draw yn ara a gosod ei heirlisiau ar y llawr yng nghefn y fan, wrth draed corff Charlie.

## PLEIDLAIS – DROS GYMRU Y TRO HWN

Yr unig nodwedd amlwg ddeniadol ynglŷn â ngwraig Basilisa Antonia Angelita o Dregaron yw ei henw. Roedd hi wedi'i chenhedlu gan ei mam pan oedd honno a'i gŵr ar daith baced gyda Cooks yn Barcelona, ac wedi'i henwi er co am yr achlysur iach-lesol hwnnw. Cymraes Gymraeg eithafol oedd hi serch hynny er gwaetha'i henw, a'i hachau Cymreig yn plymio'n ôl yn ffurfiol i'r canrifoedd a fu.

Yr orchest fwya ym mryd rhai yw ymserchu mewn menyw mae ei ffisioleg yn brin mewn rhyw gyfeiriad. Beth bynnag, er mai digon cyffredin oedd golwg allanol Basilisa, nid ymorchestu felly a barodd y cyswllt a gododd rhyngon ni'n dau – ar y dechrau o leia – er i'w ffisioleg gyrraedd eithafion prinder cyn pen fawr o dro. Arall oedd y nghymhelliad cychwynnol i. Roedd ei thad, ar ôl y llithrad yn Barcelona, a dychwelyd i ryddieitholdeb Tregaron, wedi edmygu'r bargeinio hwyliog a'r egwyddor wiw o waddol ac o drefnu priodasol i'r merched. Clywsai fe fod hyn yn ffynnu o hyd mewn corneli gwasgaredig, ond yn ddigon gwâr a diorfodaeth yn yr hen Gatalonia, (dan ddylanwad y traddodiadau Arabaidd a arhosai yn y parthau yna, yn ôl y sôn). A phan ddaeth yn bryd i fi (a finnau'n nabod hen ŵr ei thad ers talwm) i chwilio am rywun hylaw wrth gefn i goginio y mwyd ac i lanhau y nhŷ ac ati, rhywun i gyflawni'r tasgau distadlaf bodolaethol ar gyfer creadur ffanatig o anymarferol, fe awgrymodd e, yn gymwynasgar ddigon i fi, gytundeb teg cyffelyb ar gownt Basilisa, a tharawyd bargaen resymol heb nemor ddim trafferth yn y fan a'r lle heb fod rhaid ifi nodi yma ei manylion arianyddol. Ond ym mryd gofalus pobl Tregaron, roedd yn dipyn o fargen.

Y noson cyn ein priodas, sut bynnag, daeth Basilisa ata-i fel gafr swil ar daranau a gofyn a gaen ni fynd o'r neilltu i sgwrsio'n gyfrinachol: 'mae gen i gyffes i'w gwneud,' meddai hi.

Lle bynnag y bydda-i'n mynd y mae menywod am gyffesu ifi. Dw i ddim yn gwybod oes gen i wyneb sy'n ymagweddu'n groesawus, neu ben y mae ei goegi fel pe bai'n gwahodd ei lenwi â chyfaddefiadau. (Cyn belled ag y dywedir 'fi' mewn stori fel hon, dw i'n brysio i nodi mai ffuglen yw'r awdur, un o'r cymeriadau yn y stori. Yn

bendant, dyw'r awdur ddim yn ei uniaethu'i hun â neb oll yn y stori hon.) Bid a fo am hynny, roedd arna-i ofn mai cychwyn gyrfa newydd sbon o dderbyn cyffesion teuluol fyddai yn rhan i, wrth fentro i rwymau llawen briodas gyda Basilisa. '*Mae hi'n stori hir,*' meddai hi.

Dyma'r frawddeg ragarweiniol gyfarwydd eto i storïwr, mi wn; ac mae'n hen gred ddirgel gen i, – dw i heb sibrwd dim amdani wrth neb, a dw i'n teimlo braidd yn chwithig ynghylch yn adweithioldeb i, – y dylid sefydlu dewis testunau yn ein hysgolion uwchradd cymysg fel y bo'r disgyblion mwya byrlymus (benywaidd felly wrth gwrs) yn dilyn gwersi (digon cynnil) mewn cynildeb... tra bo'r bechgyn yn ymhel â gwaith coed. Bid a fo am hynny, fe fynnodd hi arllwys ei chwd.

'Fe ddechreuodd yn ddirybudd dair blynedd a phum mis yn ôl ar y ngwefus ucha,' meddai hi. 'Dafadennau. Creithiau oedden nhw o ran golwg oedd yn mynd ar led wrth ymwneud â defaid go iawn. Yna ar y nghlustiau ac ar y nhrwyn, nid un, na dwy, na thair: dwsinau ohonyn nhw. Preiddiau yn brefu ar draws y mronnau. Es i at y meddyg, ac i'r ysbyty yn Aberystwyth, ac yna ymlaen i Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Llwyddwyd i ymwarded â rhai hwnt ac yma, drwy ddefnyddio math o asid, ond roedd rhai newydd o hyd yn cymryd eu lle. Ar gyfartaledd fe ddeuai dafaden newydd sbon danlli grai rywle neu'i gilydd bob hanner wythnos. O'r diwedd colodd y nhad ei amynedd, a phenderfynodd y dylen ni ymweld â dyn hysbys, Cadwaladr Siencyn, yn Llangurig.'

Parhaodd hi gyda'r adroddiad mewn llais undonog ond awgrymus, ac allwn i ddim llai na gwrando arni: 'Nawr dw i'n gwybod y byddai arbenigwyr sy'n cymryd y maes hwn o ddifri yn cyfri y mod i'n anghyfrifol. Ac mae arna-i ofn mod i'n tueddu i fod mor rhyddieithol nes gweld y cwbl yn ddwli – dw i'n gwybod mod i'n ferch lai na soffistigedig. Beth bynnag, aethon ni yno liw nos tua Nadolig dair blynedd yn ôl i'r Nadolig nesa, ac wedi chwilmantan drwy'i lyfrau, chafodd hwnnw fawr o helbul i ddod o hyd i'r ateb. Roedd yn rhaid i fi weithio trwyth. Sgrifennodd e'r cyfarwyddyd yn ddestlus ar ddarn o femrwn oeliog, gan roi'r rhybudd i fi beidio â defnyddio ond y diferyn lleia ohono fe ar flaen ewin. Felly y gwnes i, ac roedd yn gwbl lwyddiannus. Gyda'r cyffyrddiad ysgafna o'r trwyth fe ddiplannai dafaden, a ddeuai hi byth yn ei hôl

yn yr un lle. Ond diflannai'r cnawd hefyd gyda diflaniad y ddafaden. Yr unig ddrwg oedd, fe ddechreuai dafadennau newydd dyfu ynghynt mewn mannau eraill ac yn amlach. Deuai un ffres gyda phob bore gwyn, ac yna chwech bob dydd, yna un bob awr, bob un mewn man ychydig bach yn wahanol. A dechreuodd yn holl gorff ymddangos yn grach ac yn galed oherwydd y dafadennau. "Does dim amdani," meddai nhad, "ond llenwi badd â'r trwyth yma, ac i ti dy drochi dy hun yn llwyr ynddo. Ond rwy'ti'n cofio rhybudd taer Cadwaladr Siencyn," meddai, "i ddefnyddio'r trwyth yn ddarbodus. Doedd e," ychwanegai nhad, "ddim wedi dirnad eithafrwydd dy gyflwr di. I mewn â thi i'r badd." Ac felly y bu hi. Mi lanwyd badd, ac ymolchais yn ddwys ac yn hir ynddo.'

'Beth oedd y canlyniad?' gofynnais i.

'Mi ddiflannais.'

'Na! Diflannu!'

'Do.'

'Rwy'ti wedi bod yn darllen gormod o H.G. Wells,' meddwn yn geryddgar. 'Mi fedra i faddau llawer o ddiffygion mewn menyw – sawr anhapus, wyneb anniddorol, dillad amhriodol, peidio â chymryd Cadwaladr Siencyn o ddifri. Ond alla i fyth odde diffyg chwaeth mewn darllen.'

'Ddarllenas i erioed Wells,' meddai Basilisa yn wryfol hyfryd. 'Byswn i byth yn gwneud peth felly. Dw i'n dweud y gwir.'

'Beth a ddigwyddodd wedyn?' meddwn yn faddeugar.

'Rhuthro'n ôl at Gadwaladr Siencyn.'

'Wnaeth e ymddiheuro?'

'Na.'

'Oedd e'n mentro gwneud rhywbeth arall?'

'Dim. Roedd e'n dal ei bod hi'n gyfangwbl amhosibl ifi adfer yn ffurf gynhwynol. Roedd effeithiau'r trwyth yn derfynol.'

'Sut felly?' gofynnwn i braidd yn fusneslyd.

“Un ateb yn unig sy”, meddai fe. Roedd y nghorff yn aros yma, – yn ddiogel braf, er gwaethaf ymosodiad diflandod. Roedd ar gael, yr un fath o hyd: doeddwn i ddim yn medru cerdded drwy waliau na dim byd gwirion nac ychydig yn anghredadwy fel yna. Ond doedd neb yn medru *gweld* y mod i 'na. Dyna'r cwbl. Dim ots. Roedd e'n gallu rhoi eli i fi – paent arbennig i fi wedi'i drwytho, meddai fe, o ddeunydd llysnafedd malwod, paent lliw-croen. Dim traferth. Ond dim mwy.'

'Na!' ebychwn i'n ddiniwed.

'Byddai'n ofynnol imi felly baentio pob tamaid o nghorff yn fanylfryd, bob dydd, er mwyn aros yn weledig eglur. Ond oherwydd bod yr eli'n sticlyd ac yn llosgi ychydig, ac yn gallu colli'i nerth drwy orddefnyddio, roedd e'n cynghori ei olchi i ffwrdd yn garcus bob nos.'

'Felly, rwyf ti'n gwisgo paent ar hyn o bryd.'

'Ydw,' meddai hi yn sobr ond yn gafalir-hunanddangosol, gan gamu at y tap agosa a gosod ei llaw o dan li'r dŵr pryd y diflannodd yr atodiad pêr hwnnw i'w chorff ar ei hunion, er mawr ddychryn i fi, ac er dychryn i ddwy gleren hollol amherthnasol oedd ar y ffenest. 'Dau beth y bu rhaid i fi eu haddo i Gadwaladr Siencyn oedd – yn gynta, peidio byth â gwneud hyn yn hysbys ledled gwlad: hynny yw, cyfrinach deuluol gaeth oedd hi. Ac yn ail, fyddwn i byth yn *manteisio* ar y niflanrwydd – hynny yw, nid yn unig fyddwn i byth yn gwneud rhywbeth annheg, hyd yn oed mor ddiddrwg â chwarae triciau o fewn cylch y teulu ar sail y ddawn anweledol, neu glustfeinio'n anweledig ar eu cyfrinachau. Addewais hyn oll gan dyngu ffyddlondeb digymrodedd. Eto, er mor gyfrinachol yw'r sefyllfa hon i fod, ac er dwyt *ti* eto ddim yn un o'r teulu, roeddwn i'n tybied fod y cam mawr dŷn ni'n dau'n ei gymryd yfory – priodi – yn ddigon o fentr newydd i ganiatáu ifi ddadlennu hyn o hanes i ti heno.'

Diolchais i Basilisa, gan adde nad oedd y paent – er mor sticlyd felys oedd e iddi hi – ddim wedi peri dim anghyfleustra o gwbl i ni'n dau hyd yn hyn, ac welwn i ddim pam y dylen ni gael dim traferth mwy gan y peth, gan ei bod hi eisoes wedi tyngu llw i beidio â manteisio ar ei safle. Fel arall, (i'm bryd i) fe allai roi ychydig o arbenigrwydd gwreiddiol i'n cyplysiad, efallai.

Y noson wedyn – sef noson gynta ein priodas – dechreuais led sylweddoli gwir arwyddocâd cyflwr y ngwraig. Ymolchodd hi'n lân ac yn loyw yn y trwyth yn ôl ei harfer ar derfyn y dydd. A daeth hi i mewn i'r ystafell wely mewn ystad gyflawn o ddiflanrwydd. Alla-i ddim cymharu, wrth gwrs; a dw i ddim yn gwybod sut mae hi ar ddeuoedd eraill ar eu noson briodasol. Un noson o'r fath ges i brofiad ohoni erioed. Ond diau fod yna beth gwreiddioldeb o leia yn yn noson gynta hon. Dringodd hi i mewn i'r gwely yn gwbl absennol fel petai, ond yn bert o absennol, mor absennol ag unrhyw fenyw synhwyrol pe bai'n cael ei ffordd; a gorweddodd yn ddiarwybod yn yn ymyl.

Pan lasodd y bore arna-i, clywais gnoc morwyn y gwesty lle'r oedden ni'n aros.

'Dewch i mewn.'

'Eich te, syr. Ga'i dynnu'r llenni'n ôl? Mae'n fore bendigedig... O! Madam wedi codi?'

Gallwn glywed ei hanadlu ysgafn a dihidans hi wrth yn ochr, a gobeithiwn na byddai hi ddim yn chwyrnu.

'Ydy,' meddwn. 'Roedd hi am gael tro bach cyn brecwast... i nôl y papur.'

'Fydd dim eisiau paned arni hi, felly,' meddai hi.

'Na, dim,' meddwn i gan farnu mai dyna'r ateb doetha yn yr amgylchiad, nes teimlo pwriad swta yn yn asennau i. 'Dwn i ddim chwaith,' ychwanegais. 'Efallai y daw hi'n ôl chwap. Gwell gadael cwpan iddi.'

Dw i eisoes wedi lled awgrymu nad oedd, gan y Basilisa weledig, fawr o swynion cynhenid gor-drawiadol. Dw i ddim am fod yn anfonheddig nac yn anwerthfawrogol mewn unrhyw fodd, ond mae'n ddigon priodol – rhwng dyn a dyn – ifi adde'n blwmp ac yn blaen fel hyn – mai braidd yn blwmp ac yn blaen oedd hi hefyd. Sut bynnag, wrth imi ymgyfarwyddo â'r duedd anarferol hon o'i heiddo o ymdoddi o'r golwg fel petai bob gyda'r nos, does dim amheuaeth am ryw hud a lledrith a diddordebaeth yn dechrau ymglymu wrthi hi, o leia o gwmpas y syniad ohoni.

Fel y gŵyr pawb, byddwn i byth yn ymhonni'n fardd dros y nghrogi. Eithr rywsut, fel bollt un noson, bu'r profiad hwn o'i gweld hi'n anweledig fel hyn yn ddigon

i'm hysgytio'n chwyrn o bob rhyddieitholdeb. Dechreuais lunio cân serch i'w hesgus bodolaeth hi, pryddest bron:

*Mae gan y nghariad i Frad glân ac anweledig  
a'i sylwedd yn wawn fel trosiad lond yr haul  
a'i phrydferthwch gwedd mor betrus ansylweddol  
all hi ddim godde i hagrwach-weld ei bygwth  
mewn sgidiau. Fel awdur sy yn ei waith ac eto  
sy'n dlws o anwel, yn ei golli'i hun, daw hi  
yn ysbrydoliaeth gudd. Trwm fyddai plu wrth loywder  
ewyn hir cyfrinach glir ei chnawd mewn ffuglen lân.  
Ac arallfydol braidd ei gwallt fel sy'n ei gweddu  
a mwy awelog mwyach nag awelon ar y waun,  
neu ar gefn môr yn rhythm o gerdd i gerdd, yn wynt  
sy'n fwy soniarus nag unrhyw wynt arferol.  
Nawr, mae hi'n nodyn, yn nodyn byth o ddewr  
o gerddoriaeth i fyny acw. Dywed ymhwylio 'ymheulio'  
yn yr awyr ac ar grwydr rhwng pob rhyw fwlch,  
yn fwlch ei hun a'i hadlais ymhlith y dodrefn caled  
llychlyd a lanwa'r lle sy heb wethfarwogi hyn  
o anwel heddiw. Gyfaill, gwêl di Syndod – whiw –  
pan ddaw anfodolaeth i guddio yn dy galon.*

Rhaid ifi ymddiheuro am ddechrau colli arna-i yn hun yn y fel 'na, bid siŵr; eithr llenwais bedair cyfrol-ysgrifen â cherddi o'r naws yna i'm bun na fun. Y cwbl mewn un prynhawn. Wna-i ddim eu dyfynnu nhw nawr. Pethau cwbl ansafonol ydyn



nhw, yn ddiau ddiamau, a fyddwn i byth yn breuddwydio am eu cystadlu mewn Steddfod, na hyd yn oed eu gosod gerbron Cyngor y Celfyddydau, dyweder. Rhyw fath o brydyddiaeth wrth-goncrit, yn llythrennol, yw. Ond i fi, fel y mae camddealltwriaeth erioed yn un o'r egnïon mwyaf dygn i borthi serch, gymaint mwy o gynhyrriad i fi oedd y gamddealltwriaeth riniol hon a ysgogid gan ddiffyg canfod.

Sut bynnag, nid gardd o flodionos difrycheulyd oedd y myfyrdodau i ynghylch Basilisa. Yn y dirgel, byddwn i'n tueddu i bensynnu ynglŷn â pha anawsterau seicolegol a allai godi o'n sefyllfa i fel hyn, problemau rhywiol o bosibl, yn enwedig wrth gysgu bob nos gyda gwraig heb ddim modd ei llygadu hi o gwbl. Y mae digon o helbulon eisoes, meddan nhw i mi, yn medru ymesgor pan fydd gwraig ddiriaethol o'ch blaen, er mod i heb wybod dim am hynny. Mae i'r wyneb dynol, yn arbennig ymarweddiadau'r fenyw, bwysigrwydd neilltuol yn y grefft garwriaethol. Yn wir, mae golwg emosiynol yr wyneb, o'r cyfnod cynharaf yn ein bywyd ymlaen, yn dra dylanwadol. Mewn arbrofion gyda mwncïod, er enghraifft, pan barlwyd cyhyrau wynebau mam a baban drwy ymyrryd â'r nerfau, fe beidiai'r fam a'r baban ag edrych ar wynebau'i gilydd, gan fod wynebau di-wedd a difyngiant yn arwyddo gwrthodiad. Ac o ganlyniad hefyd, datblygai ymddygiad anghymdeithasol ym mywyd y ddau... Hawdd gweld posibiliadau gyrfa wyddonol i Basilisa ym maes addawol newydd Diflaneg. Ond mwy am hynny ymhellach ymlaen.

Nawr, doeddwn i ddim yn ofni mai dyna'r math o ansyberwyd a ddigwyddai yn achos Basilisa a fi, bid siŵr. Ond ofnwn y gallwn i (a hi o bosib) dyfu'n fwyfwy rhwystredig bob nos.

Fel arall yn hollol y bu. Fe'm gosodwyd i'n bendant mewn sefyllfa lle roedd yn holl feddwl i'n cael ei sianelu i ryw fath o serch cyfriniol a di-gorff, cwbl unigolyddol. Roedd y mraint annisgwyl, ar gyfer datblygu'r serch Platonaid hwn, wedi tyfu'n gyfryw fel y gallwn i ddychmygu fod modd i fi bellach gyrraedd lefelau o synfyfyrdod ecstatig, o bosib, yn uwch na neb arall o mlaen. Oherwydd tw yn ansylweddaeth ddiwinyddol yr amseroedd, aeth y myfyrdod i'n ôl at bregethu a glywswn yn y mebyd i gan athrawon o'r Coleg Diwinyddol ynghylch rhyw *agape* niwlog a goddrychol seciwlar a ehedai mewn tuswau o des di-berson y tu hwnt i hanes, y tu hwnt i ffeithiau, y tu hwnt i awdurdod ac

yn sicr y tu hwnt i grediniaeth; a hiraethwn yn chwithig am ymaflyd – drwy gyfrwng Basilisa – yn y fath brofiadau bwganaidd o waelod bod. Tybed a fyddai lle i Basilisa yn y weinidogaeth fodern? Welais i neb mor eciwmeniaidd â hi. Fe allwn i'i dychmygu hi'n dod yn eicon i eciwmeniaeth.

Dichon, hefyd, y gallai yn sylwadaeth i ar berthynas corff ac enaid yn yr helynt yma fod yn gyfraniad o ryw fath hyd yn oed i fioleg. Ac wedyn ym myd estheteg roedd amddifadu'r bersonoliaeth o wrthrych – heb ei hamddifadu o'r gynneddf i ganfod y gwrthrych hwnnw – yn dra addawol, debygwn i, ar gyfer ein hamgyffrediad newydd o natur seicolegol ôl-fodernaidd prydferthwch. Rhyfeddwn i at ei pherson adwyedig, heb fod dim mwy ohoni'n adwyadwy. Gwelwn y gallai yn sefyllfa annisgwylidig i roi cyfleustra i fi gasglu gwybodaeth bur wreiddiol, mae'n debyg, ynghylch y byd a'r betws. Dichon y buasai'r ffenomen hon yn arwain gwyddorau cymdeithasol hefyd i bob math o ffrwythlondeb. Dechreuais, felly, gadw dyddiadur cyfrinachol.

Rhyw fath o grynoded, felly, yw'r rhan nesa sy'n canlyn, o'r dyddiadur dadlennol hwnnw.

### *Ionawr 1*

Dw i ddim yn y fan yma wedi awgrymu ond cyfran fechan dila o swynion anwel Basilisa. Gwyddys, er enghraifft, fod y fenyw ymhob rhywogaeth yn defnyddio'i golwg allanol i ddenu ac i gynhyrfu'r gwryw, a bod merched o ganlyniad yn rhoi cryn sylw i dwtio a phincio; eithr nid dibwys i'r agwedd weledig ar ymgaru yw'r harddwch deinamig a ddadlennir gan symudiadau hardd ac erotig. Dyna pam y tyfodd dawnsio hefyd i fod, yn gyffredinol, yn ffactor mor sylfaenol mewn serch confensiynol ac yn rhagarweiniad mor hanfodol i lawer o symudiadau rhythmig ystrydebol megis llawer undeb serchiadol ar y cyfryngau.

Sut, felly, y galla-i gyfleu'r lledrith a amgylchai symudiadau rhythmig ac anhywel Basilisa? Nid rhyw ddiflanrwydd statig a digyffro ffwrdd-â-hi a oedd ganddi, sylwer, yn y gogwyddiadau unigryw hyn. Ac o ran hynny, dawnsiai hi o bryd i'w gilydd gan hepgor rhai o'i haelodau a chan amrywio pa rai, gan gario rhai clychau bychain.

Dyma ddarganfod math o serch rhamantaidd unigryw, dybiwn i. Roedd y cariad hwn yn medru anwybyddu ystyriaethau materol ac arwynebol. Yr unig anhawster, efallai (er na dw i am wneud môr a mynydd o hyn) oedd gwybod yn union ymhle'r oedd hi weithiau. Ond datryswyd y dryswch hwnnw un hwyrnos mewn dull braidd yn ddramatig.

Roedden ni'n dau yn gwylid ffilm ddogfennol ddigon diniwed ar 'Ddŵr-ddewiniaeth' o bethau'r byd – myfi yn y nghadair yn hun, a hithau yn ôl pob tebyg yn llond ei chadair gyferbyn.

Doedd hi ddim yno ar y pryd, er hynny; er na sylwais i ddim am dipyn o amser. Es i allan i'r ardd i chwilio amdani, a beglais ar frigyn. Gwyddoch chi am swyddogaeth cario brigyn wrth hela dŵr o dan y tir. Gwawriodd gweledigaeth arna-i yng ngoleuni'r ffilm ddogfennol honno. Codais i frigyn o'r lawnt, felly, a meddyliwn o ran hwyl fachgennaidd y gallwn roi cynnig ar arbrawf i chwilio am ddŵr o fewn ein libart ni. Feddyliais i ddim am y cysylltiad wrth gwrs â Basilisa, ar y pryd. Dychwelais i'r tŷ â hyn, y brigyn detholedig, yn yn llaw. Ond wrth imi ddod i mewn i'r ystafell, dyma fe'n siglo braidd yn ysgytwol i gyfeiriad cadair Basilisa, neu o leia i gyfeiriad ei pherfeddion hi. Awgrymai hyn wrtho-i felly ei bod hi wedi dychwelyd. Roedd gen i offeryn bellach a allai yn arwain i gyfeiriad y ngwraig, yn arbennig ar ôl iddi yfed, a hyd yn oed pan oedd hi'n huno yn ei chadair. Dyma declyn cwbl anhepgor debyga-i, ac un dw i'n gallu'i gymeradwyo'n ewyllysgar ar gyfer pob gŵr y mae ei wraig yn anweledig.

Beth bynnag, ddydd Calan eleni (fel y gŵyr pawb), fe ddechreuodd y B.B.C. Cenedlaethol, hynny yw yr un yn Llundain, gystadleuaeth i chwilio am Gymraes y flwyddyn, ac yn y *Radio Times* fe gyhoeddwyd holwyddoreg Gymreigaidd yn gofyn cwestiynau perthnasol megis – Dych chi'n pobi'ch bara'ch hun? Pa mor fynych y byddwch chi'n bwyta bara lawr? Fyddwch chi'n gwisgo fest gwlan ym mis Hydre? Dych chi'n aelod o gôr? Sawl gwaith y byddwch chi'n mynd i'r capel ar ddydd Sul? Fyddwch chi'n cymysgu dŵr yn eich llaeth? Faint o hiraeth sy arnoch chi? Beth yw'r gair Cymraeg am domato? Ac yn y blaen.

### *Chwefror 1*

Gan fod Basilisa yn hoffi ateb croeseiriau a phob holwyddoreg yn y cylchgronau merched a llenwi pob cwpon ar gefn paceidiau o greision yd, dyma hi'n ateb y cwestiynau hyn yn ddiymdroi ac anfon y tudalen yn ôl i'r ganolfan briodol yn Llundain. Tipyn o syndod i ni'n dau oedd derbyn llythyr drwy'r post ryw fis yn ddiweddarach i gyhoeddi i ni fod Basilisa wedi cael ei hethol i fod yn Gymraes Ceredigion ar sail ei hatebion, ac y byddai hi felly'n cael cynrychioli'r hen sir annwyl yn y rownd nesa.

### *Chwefror 7*

Wythnos ar ôl hyn, tua hanner awr wedi deg un nos, er mawr fraw i fi, pan own i'n gorwedd yn reit dawedog yn y ngwely, a Basilisa yn ôl pob tebyg wrth yn ochr, dyma gnoc annhymig ar ddrws y ffrynt. Es i lawr; a phwy oedd yno ond rhyw ddeg o ddyinion wedi dod i dynnu llun Basilisa ar gyfer y B.B.C., ac wedi tybied y byddai hanner awr wedi deg – hynny yw, ar ôl stop-tap – yn amser tra phriodol i'w dal hi yn ei fest gwlan. Gwahoddais i nhw i mewn i'r parlwr a gofyn iddyn nhw eistedd.

'Ble mae Basilisa Antonia Angelita?' gofynnodd y cynhyrhydd, mewn Saesneg wrth gwrs.

Pe bawn i'n hollol effro fe fyddwn i wedi dweud yn syml ei bod hi wedi mynd i aros gyda'i mam neu rywbeth, ond fe ddechreuais i mewn euogrwydd ar ryw fath o esboniad celwyddog mytholegol anhygoel o gymhleth i esbonio'i habsenoldeb. Cychwynnais drwy sôn am flodau, ac am y modd y maen nhw'n ymagor ac yn blodeuo gyda'r wawr, ond gyda'r cyflychwyr yn cau ac yn suddo i mewn iddyn nhw eu hunain. Soniais wedyn am fythau'r bobloedd gyntefig yng Ngogledd Ceredigion ynghylch duw'r haul yn ffynnu pan fyddai'r cyfddydd yn glasu, amdano'n blonegu ac yn cryfhau fel yr elai'r dydd yn ei flaen, eithr wrth i'r gwyll ymaflyd yng ngwreiddiau'r ddaear, byddai fe'n llesgáu ac yn crino ac yn cloffi, ac yn ymguddio yn y man o'r neilltu. Doedd yr un o'r criw wedi clywed am ddim tebyg i'r chwedloniaeth werin hon. Darluniais i frwydrau milain rhwng duw'r nos a duw'r dydd uwchben Bae Ceredigion, ac adroddais am yr ymwarded a ddeuai, ac fel y syrthiai'r cadwyni ymaith mewn rhyw ailenedigaeth

wyrthiol, pan fyddai dydd newydd yn ymddangos. Roedd hyn efallai yn fwy cyfarwydd iddyn nhw.

Dechreuwn i, sut bynnag, godi ychydig o hwyl am ddirgeliuon rhamnt twristiol Cymru. Disgrifiais beryglon y nosau, yn ôl fel y mae eu harfer nhw yng Ngogledd Ceredigion. Hydeimledd brau biau'r nosau rhithiol Cymreig hyn fel arfer heb fod ganddyn nhw'r wyneb (yn llythrennol) i fentro i ddannedd fwlgariaeth ger y tafarnau. Ond mae'r nos – o leia'r nos sy'n dod heibio i Geredigion – fel rhyw gawr trachwantus yn awchus am lyncu'r trychfilyn lleia ac yn gwbl ymerodrol ddifalio ynghylch manylion pitw'r greadigaeth. Does dim namyn y ffurfiau mwya amrwd a all oresgyn y fath ymosodiad, greda i, a goroesi i'r dyfodol. All y rhai bach del ddim ond gwthio'u trwynau i'r golwg yn y dydd, cyn ei chythru hi i ffwrdd pan ddaw'r tywyllwch.

Gobeithio eich bod yn y nilyn i, nawr, gan mai dyma'r union esboniad sy'n egluro problem unigryw Basilisa. Yma yn ymylon gorllewin Cymru, lle mae'r haul yn caru machlud, dŷn ni fel petaen ni wedi'n tynghedu i 'adnabod' yn amgenach nag odid neb y profiad dwys hwn o ddiflanrwydd. 'Welsoch chi'r Cymry mwya brodorol o gwbl y ffordd hyn ar Nos Wener?' gofynnwn yn fwya heriol. 'Nos Wener yw pob nos o'r wythnos i ni,' medden nhw.

Gwrandawen nhw'n astud arna-i yn ceisio esbonio yn null cefn gwlad y rhiniau tabŵ ym mherfedd Ceredigion, ond braidd yn anneallgar. Ac ar ôl awr a hanner, meddai un ohonyn nhw yn Saesneg – gŵr camera, dw i'n casglu – 'Gwell inni'i heglu hi eto. Dyma Gymru i'r blewyn. Digon o wynt, a dim sylwedd. Kinnock a'i griw.'

'Dyna chi,' meddwn; 'does dim byd arall amdani.' Ac yna, teimlais i'r pwniad cyfarwydd yn yn asennau – yr un lle bob tro, cewch fentro – a sibrydodd Basilisa yn y nghlust, 'Gofyn iddyn nhw dynnu llun o'r ystafell.'

Ac ychwanegais, 'Yn hytrach na'ch bod yn cael siwrnai gwbl ofer, man a man ichi dynnu llun o'r ystafell cyn ichi ymadael. Ystafell Cymraes y Flwyddyn. Mae hynny'n rhywbeth, does bosib.'

'Cymraes *Ceredigion* y flwyddyn efallai,' cywirodd y cynhyrchydd fi.

'Cymraes botensial y Flwyddyn,' ychwanegais yn obeithiol.

'O! O'r gorau,' meddai fe. 'Gwell tynnu rhyw hanner dwsin ohoni, Jake.'

A dechreuodd y tynnwr-lluniau-llonydd ar ei waith, gan symud o gylch y lle. Gyda phob llun, i ba gyfeiriad bynnag yr edrychai yn yr ystafell, gofalodd Basilisa ei bod hi yn union gyferbyn â llygad y camera. Felly, heb ymwybod i'r un o'r ymwelwyr diniwed hyn, fe lwyddodd hi i ymddangos – yn anweledig o leia – ym mhob un llun, yn union fel yr oedd mewn realiti, go iawn.

### *Chwefror 21*

Bythefnos wedyn, ar dudalen pedwar o'r *Radio Times* yr oedd tri ar ddeg o luniau o 'Gymraes y sir', un ar gyfer pob un o hen siroedd ein pur hoff bau. Yn achos Ceredigion, bid siŵr, llun o'r ystafell yn unig a ddangosid, ynghyd ag ymddiheuriad cynnil yn sôn hefyd am 'anawsterau technegol' yn ymddangosiad y llun (oherwydd 'tywydd'). Dangosid llun yng Ngheredigion, sut bynnag, a ymddangosai yr un ffunud yn union â'r 'Ystafell Wag' gan Adran Arlunio, Cyngor y Celfyddydau yng Nghaerdydd; ond gwydden ni'n dau, ac ymfalchiai'r teulu oll, fod Basilisa yno yn y canol yn deg, ac mor beraidd effeithiol bob dim yn ein golwg ni â Chymraes berta yr un o'r siroedd eraill.

### *Chwefror 28*

Ar ôl yr holwyddoreg gychwynnol a grybwyllais, caed ail rownd pryd roedd y siroedd eu hunain bellach yn cael pleidleisio am eu cynrychiolydd eu hunain i fynd ymlaen at y rownd terfynol cenedlaethol. Y tro hwn, pleidleisio a wneid dros “y Gymraes a edrychai yn *fwyaf Cymreig*” o bob un yn oriel lluniau'r *Radio Times*. Yr oedd hyn rywsut yn gofyn tipyn o wahaniaethu athronyddol neu wareiddiol haniaethol. Gan fod Ceredigion yn adnabod ei phobl, a hefyd teulu Basilisa yn niferus, ac yn gwybod am ei champau hi, hyhi a enillodd ar ran y sir o bum pleidlais. Basilisa felly a gynrychiolai'r hen sir.

*Mawrth 28*

Bellach, wynebai hi'r 'naid uchel' yn y rownd nesa. Efallai mod i beth yn rhagfarnllyd, yn wir dw i'n siŵr mod i. Efallai mod i'n caru Basilisa gymaint, ac yn chwannog i amau ei bod hi'n cael cam gan bobl eraill yn rhy fynych; ond dw i'n teimlo'n argyhoeddedig gyda chystadlaethau o'r math hwn fod pobl yn rhuthro i bleidleisio'n rhy ddifeddwl, a heb ystyried o ddifri ymhlygiadau'r hyn a ymfynnir ganddyn nhw, nes ifi droi'n besimistaidd odiaeth ynghylch canlyniad y bleidlais fawr. Wedi'r cwbl, nid peth bach yw treiddio i wir '*olwg' a 'chymeriad'* Cymru, er bod Basilisa yn tywynnu'n ddigon teilwng yn y fan yna ar galon llun o'n hystafell gysurus.

Ond mae'r hen wlad, chwarae teg iddi, yn medru bod weithiau yn ystyriol ac yn pwysu a mesur Cymreigrwydd i'r botwm. Beth bynnag, 'Yr Ystafell Wag' yng Ngheredigion a enillodd ym mryd y mwyafrif llethol – am resymau esthetig Ôl-fodern; Basilisa a gafodd, yn awgrymus ac yn wyddonol, y wobr gynta am 99% o bleidlais y genedl, gyda Chymraes Môn yn ail gydag 1%. Ac mae hyd yn oed dilysrwydd yr ail safle yn cael ei herio gan bobl Môn ei hun – rhywbeth ynghylch priodoldeb preswylid mewn tŷ ha i'r pleidleiswyr. Ddyweda-i ddim rhagor am hynny, gan fod yr achos yn mynd drwy'r llysoedd ar hyn o bryd. Gŵyr pawb am Fôn.

*Mai 28*

Ewrob fu'n nesa. Mewn gwirionedd, rhagbrofion oedd y cystadleuthau oll hyd yn hyn. Ond gan ein bod yn gorfod mynd yn ôl i Barcelona (mewn gwlad mor filwriaethus â Chatalonia) i gymryd y farnedigaeth derfynol yno, dw i'n teimlo na ellir ond bod yn gwbl hyderus y bydd hi'n dwyn anrhydedd ar ein gwlad yn y fan yna. Ceir un anhawster trwblus, mae arna i ofn. Oherwydd swildod neu undonedd neu ddiffyg argyhoeddiad neu gollu tocyn y trê, penderfynodd Basilisa ffoi o'r lle y funud ola, a chododd ei hasiant masnachol (cwmni a arbenigai mewn creu'r canol gwag mewn wyau Pasg) y *rhwystr 'technegol' cyfarwydd* o fethu â dod o hyd iddi am y tro: – rhagor o

'dywydd' oedd y rheswm drachefn. Eithr os dw i'n adnabod Basilisa, mi ffeindith hi ffordd i ennill, hyd yn oed *heb* ddod i'r rownd terfynol.

Erbyn y dyddiau diweddar hyn, fel y gŵyr pawb, fe ddaeth Diflanneg yn bwnc academaidd mewn gradd Prifysgol. Mae'n cynnwys sawl Modiwl, fel yr astudiaeth o athrawiaeth ddiwylliannol yng ngwaith unbennaeth Gogledd Corea, arfau niwclear Iraq, sylwedd areithiau Neil Kinnock, y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, y dystiolaeth o euogrwydd llawer o garcharorion Bae Gwantanamo, a'r bwlech uchelgeisiol mewn Ffiseg rhwng Dim a Bywyd. Mae wedi dod yn wyddor hollol academaidd a ffasiynol ym Mhrifysgolion newydd y to diweddar. Gwiw ifi o'r herwydd ddyfynnu adroddiad am Ddiflanneg yn ystod y tair blynedd diwetha, pan oedd pynciau fel Ffiseg, Bywydeg, Cerddoriaeth, Cemeg, a hyd yn oed Marchogaeth Ceffylau, a'r Gymraeg ar i lawr, a dangos bod y nifer a gymerai Ddiflanneg wedi treblu. Nid pawb o Dregaron sy'n sefydlu pwnc academaidd mor boblogaidd ymarferol ac mor Ôl-fodern.

Beth bynnag, hyderaf y bydd hyn o adroddiad yn taflu ychydig o oleuni – neu o dywyllwch – ar gyfraniad Basilisa i hyn o astudiaeth.



## BRO CHWITHIG

*(cyfraniad i Dafodieitheg)*

Deffrôdd Dr Offis. Roedd curo uchel a thaer ar ei ddrws. Switsiodd y golau ymlaen. Roedd hi'n bedwar o'r gloch.

Dyma fe wedi dod ar ei wyliau i Aberystwyth o Lundain. Y noson gynta hon yng ngwesty Trem-y-traeth, dyma aflonyddu arno yn ei gwsg. Dau heddwes oedd yno – cwnstabl a gŵr mwy medalog, arolygwr efallai.

'Dr. Offis?'

'Ie.'

'Dych chi'n seiciatrydd o Lundain?'

'Dyna chi, ond beth...?'

'Mae'n ddrwg gynnon ni, ddoctor. Oni bai fod yna elfen o frys, fydden ni ddim wedi ymyrryd â'ch cwsg fel hyn.'

'Beth sy'n bod?'

'Mae yna ardal rhwng Pont-ar-fynach (Pont-y-gŵr-drwg wyddoch) a Phont-rhyd-y-groes sy'n rhoi trafferth i ni.'

'Nifer o bobl yr un pryd?'

'Nid yn hollol, syr. Mae hi'n diodde o anhwylder seicolegol. Yr ardal ei hun sy'n wael. Ac mae'n ymledu.'

'Yr ardal?'

'Ie.'

'Y bobl felly?'

'Efallai, ryw ychydig. Ond na, nid y bobl.'

'Wel, beth te?'

'Mae'n anodd esbonio... y diriogaeth ei hun.'

'Nid y tir dych chi'n feddwl?'

'Wel ie, dyna chi... Ond nid y tir yn unig.'

'Yr afon?'

'Ie. Ond mwy na hynny.'

'Y coed? Y planhigion?'

'Dyna chi. Dych chi'n deall, syr. Efallai. Ond mwy na hynny hefyd.'

'Yr anifeiliaid?'

'Yr anifeiliad a'r awyr hyd yn oed.'

'Edrychwch. Gwell i chi esbonio i mi beth yw'r symptomau. Pwy sy'n achwyn?'

'Yr ardal, yr ardalwyr eu hun.'

'Beth maen nhw wedi sylwi arno o ran gwendid cyffredinol?'

'Llawer o bethau, syr. Gwell ichi ddod i fyny ar unwaith, i'w holi nhw eich hunan. Mae'r cyflwr wedi gwaethygu yn ystod y nos.'

Aeth Dr. Offis gyda'r ddau heddwys yn eu car. Hanner milltir yr ochr hon i Bont-ar-fynach, roedd rhes o bobl ar draws y ffordd fel cadwyn o lygaid-y-dydd yn cyfarfod â nhw. Cyflwynwyd y seiciatrydd iddyn nhw yn Saesneg: nid oedd lle i farddoniaeth y noson honno. [Gwell i fi esbonio fod yr holl stori hon wedi digwydd mewn tafodiaith o'r Saesneg, er ei bod wedi'i chofnodi yn ddwyieithog gan yr awdurdodau oherwydd Comisiynydd yr Iaith.]

'Dr. Offis. Dyma Mr Brown. Efô oedd y cynta yn y gymdogaeth i gael ei flino heno. Mae'n nawdeg oed.'

'Hm! Un o ble dych chi, Mr. Brown?'

'O Birmingham. Dw i'n aros yma gyda nheulu yn ein tŷ ha.'

'Beth oedd y peth cynta sylwoch chi arno Mr. Brown?'

'Mae hi'n stori hir. Mae'r peth wedi bod ar gerdded ers wythnosau.'

'Beth oedd yr union achos heno?'

'Ochneidiau.'

'Pwy oedd yn ochneidio?'

'Neb yn arbennig. Pob man.'

'Pob *man*?'

'Ie.'

'Pa fath o ochneidio?'

'Mae'n anodd ei ddisgrifio. Rhyw sŵn dwfn treiddiol ynghyd â thagu. Megis mochyn dwyflwydd yn trigo.'

'Oes rhywun arall yma wedi sylwi ar yr ochneidio?'

'Oes,' medden nhw oll mewn corws, eithr fel pe na allen nhw yngan y sill yna'n naturiol.

'Rhywbeth arall?'

'Fawr o ddim arall heno. Yr ochneidio oedd waetha. Fe gawd ambell gryndod bach o'r ddaear hefyd,' meddai un.

'Ddim cymaint ag arfer heno,' meddai un arall.

'Dych chi wedi cael daeargrynfeydd fel hyn o'r blaen?'

'Mae'r rhai gwaetha yn dilyn noson o ochneidio go egr fel arfer. Mae hynny'n digwydd ryw ddeg awr wedyn.'

'Diddorol iawn... a brawychus hefyd.'

'Dych chi'n gyfarwydd â'r math yma o anhwylder, doctor?' gofynnodd yr arolygwr. Atebodd Dr. Offis ddim gair, fel pe bai'r gair '*Ydw*' yn peri tramgwydd iddo yntau hefyd. Ac roedd distawrwydd meddygol yn bolisi weithiau er mwyn creu argraff ar bobl.

Roedd e (yn gyfrinachol) yn fwy pryderus am yr achos yma nag yr oedd yn barod i'w gyfadde wrth yr arolygwr. Byddai sylwedydd tra gofalus bellach yn nodi'r mân

grychau ychwanegol a ymsefydlasai ar ei dalcen. Roedd perlau chwys yn petrus gyfoethogi'i arleisiau, a'i wefusau'n sych ac yn ddiffaith o galed. Efallai mai'r rheswm oedd fod y cyfrifoldeb hwn yn ormod iddo. Yn sicr, roedd e'i hun yn suddo yn ddigon diarwybod eithr yn eitha rheolaidd-gyson o dan y straen, ac roedd yn edifarhau iddo erioed wân ei ben i galon y fath daclau â'r rhain.

'Pobl ar eu gwyliau yw'r rhain i gyd?'

'Na, doctor. Dyma Mr. Brown. Mae e'n ffermio yn yr ardal. Mae'n nawdeg oed.'

'Dych chi'n perthyn i'r Mr. Brown cynta?'

'Ddim o gwbl,' braidd yn chwyrn, ond yn gwrtais.

'Yr un stori sy gynnoch chi?'

'*Ie*. Ond nid o Birmingham. Ond o Gaer Llŷr.' (Dyna hwn yn cael anhawster eto i ddweud y gair '*Ie*'. Sylwodd Dr. Offis ar hyn yn neilltuol. Roedd yna batrwm fel petai yn ymffurfio. *Oes, Ydw, Ie* mewn llythrennau italaidd sydd yn y cofnod dwyieithog: eto, pryd bynnag y digwyddai'r geiriau yn nogfen wreiddiol yr adroddiad, roedden nhw fel pe baen nhw'n peri tramgwydd ac yn cael eu hosgoi.)

'Dim ond yn y nos y byddwch chi'n cael eich trwblu?'

'Y nos sy waetha. Ond mae yna ddigon o bethau o'u lle yn ystod y dydd hefyd. Dw i'n sylwi'n arbennig ar y fferm. Dw i'n gwybod dim am ffermio wrth gwrs.'

'Pa bethau?'

'Y defaid Cymreig. Maen nhw'n edrych yn ofnog.'

'Mae defaid Cymreig i fod i edrych yn ofnog. Dyna'u natur nhw.'

'Nid y math o ofn sy ar y rhain. Does dim blas ganddyn nhw at y borfa. Maen nhw'n crynu o hyd.'

'Rhywbeth arall?'

'Yr afon.'

'Beth sy'n bod ar yr afon?'

'Mae hi'n sych.'

'Pryd?'

'Heno. A hynny bob amser, hyd yn oed ar ôl glaw gochel. Does dim lli ynddi hi rywsut. Mae hi fel ceg wedi sychu a chrasu. Dyw hi ddim yn iawn.'

'Rhywbeth arall?'

'*Nac oes*, dw i ddim yn credu.' (Hoffodd y geiriau '*Nac oes*!')

'Dyna ni. Yn awr ...' a chododd ei lais i annerch y dyrfa i gyd. 'Oes yna rywun wedi sylwi ar ryw arwydd arall yn yr afiechyd dw i ddim wedi clywed amdano?'

'*Oes*,' gwaeddai llais main o'r cefn, 'does neb yma wedi sôn am y gwllith.'

'Pa wlith?'

'Mae yna wlith ar y llawr bob awr o bob dydd a nos. Ac mae e'n arogl.'

'Pa fath o aroglau?'

'Rhyw sawr tebyg i chwys.'

'Diolch,' meddai Dr. Offis, gan nodi'r cwbl yn ei lyfr bach. 'A beth yw'ch enw chi?'

'Brown. Dw i'n nawdeg oed.'

'Dych chi'n perthyn i'r Browniaid eraill, Mr. Brown?'

'Ddim o gwbl. Cyd-ddigwyddiad, dyna i gyd.' Yn chwyrn eto. 'Brown o Reading.'

'Iawn. Popeth yn iawn. Yn awr, a oes gan rywun arall rywbeth ychwaneg i'w ddweud wrtho i?'

Doedd dim ateb, fel pe baen nhw am osgoi'r ateb '*Oes*.'

'Os yw'ch atebion yn negyddol, gwell i chi gyd brysuro'n ôl i'ch cartrefi neu'ch dirprwy-gartrefi, a cheisio cysgu.'

Symudodd neb.

'Oes gynnoch chi syniad beth sy'n bod?' gofynnodd yr arolygwr i'r meddyg.

'Mae'n dipyn o ddirgelwch, gyfaill,' atebodd y meddyg. 'Dw i'n canfod rhyw gymysgedd o symptomau pryder ynghyd ag iselder.'

'Oes rhywbeth y gallwn ei wneud i'w wella?'

'Ydyn ni wedi gweld yr holl ardalwyr? Ydy pawb wedi dod ynghyd i'r cynulliad bach yma, pawb yn yr ardal effeithiedig?'

'*Nac ydyn*. Ddim pawb. Mae yna un gŵr sy braidd yn anghydweithredol.' (Dywedodd yr arolygydd yr ymadrodd '*Nac ydyn*' gyda math o arogl melys. Hoffodd e sŵn y geiriau hynny.)

'O! Sut felly?'

'Fe yw'r unig un yn yr ardal sy'n gwadu'r cwbl.'

'Gwadu beth?'

'John Roberts yw ei enw fe.'

'Cymro?'

'Ie.'

'A phobl ddŵad yw'r lleill...Dieithriaid.'

'Bob un ac eithrio, mae'n bosib, rai teuluodd bach Cymraeg ynghudd nad oes neb wedi'u gweld nhw ers blynyddoedd.'

'Nhw yw'r unig rai, felly, sy wedi sylwi ar yr helbul?'

'NA.' Dyna air neis oedd hwnnw. 'Dŷn *ni* wedi sylwi hefyd – yr heddlu, amryw ohonon *ni*. Mae ein tystiolaeth *ni*'n union yr un fath â'r dieithriaid, y mwyafri.' (Roedd 'ni' yn swnio'n negyddol braf.)

'Gwell inni holi hwn decini,... y Roberts 'ma.'

'Gŵr braidd yn chwithig yw e, doctor.'

'Sut felly? Ydy e'n ddrwgdybus, fel y bydd y gwladwyr eraill yma?'

'Na, nid hynny. Dyw e ddim yn rhwydd dod ymlaen gydag e. Dyw e ddim yn cydweithredu â'r awdurdodau.'

'Gwn i... O wel, mae pawb yn hoffi gwrthryfelwr. Ha! Ha! Chwarae teg, roeddwn i'n ddigon o gythraul yn hun, arolygwr, pan oeddwn yn fyfyrwr, ynte. Beth amdanoch chi?'

A thrawodd Dr. Offis yr arolygwr ar ei gefn yn gyfeillgar, ond doedd dim croeso hynaws gan yr heddwes ar y pryd, mae'n rhaid.

Aethan nhw gyda'i gilydd ar hyd llwybr lleidiog ac anghroesawgar – gwaith ugain munud – at dyddyn Ty'n-y-benglog, cartre John Roberts, man ucha'r gymdogaeth. Fe'u dilynwyd gan y gwrthdystwyr, y tro cynta iddyn nhw ddringo mor uchel.

Rhedodd y trydydd Mr. Brown ar eu hôl nhw, a golwg gwyllt yn ei lygaid. Roedd yn crynu druan.

'Oes rhyw obaith, doctor?' erfyniodd.

'Peidiwch â becsan, gyfaill.'

'Ond oes rhyw waredigaeth yn bosib, dybiwch chi?'

'Mae gwyddoniaeth fodern, wyddoch, yn gallu gwneud llawer o bethau.'

'Ydy, mi wn i, mi wn i, yn arbennig ymhlith y galaethau defnyddiol sy yn y nen, medd y seryddwyr. Mae gen i ffydd, doctor.'

'Yn aml iawn, serch hynny, y dulliau syml a hen ffasiwn yw'r rhai mwya effeithlon,' meddai'r meddyg. 'O leia, y rheini fel arfer y bydda i'n licio'u gweld ar waith cyn mynd at ddulliau mwy soffistigedig... Mi fyddai'n braf pe bai modd datrys hyn yn fuan. Wrth gwrs, mae'r peth yn swnio'n wirion...'

'Beth doctor?'

'Wel, yn syml, mi fyddai'n fuddiol, greda i, pe bai modd trefnu i'r fro hon fynd i ffwrdd am gyfnod i amgylchfyd hollol newydd, ymhell o Gymru dyweder.'

'Ond dŷn *ni* i gyd bob amser ar ein gwyliau, os gwyliau sy eisiau arni hi.'

'Ydych: dyna'r pwynt,' meddai'n drwsgl. 'Dych *chi'n* cael gwyliau, ond *chi* yw'r ymwelwyr. Does dim gwyliau, serch hynny, iddi hi, y fro frodorol fan hyn, nac i'r sŵn. ... Beth bynnag, peidiwch â digalonni. Fe ddaw haul ar fryn.' Ceisiai'n calonogi.

'Diolch, doctor. Diolch.'

Diolchodd pob un. Yr oedd hyder y seiciatrydd, er gwanned oedd ei eiriau, rywfodd yn halwynol o galonogol, yn obaith i bawb, a bron yn sicrwydd. Onid atal-dywediad gan sicrwydd yw gobaith?

'Ewch adre, Mr Brown, i'ch gwely nawr. A gadewch y cwbl i'r gwasanaeth Iechyd.'

Roedden nhw wedi cyrraedd y tyddyn. Curodd Dr. Offis ei hun ar bren y drws.

'Mr. Roberts?'

'*John* Roberts.' Daeth yr ateb fel eco anghydweithredol o'r tu mewn.

'Oes Mr *John* Roberts 'ma?' gofynnodd y meddyg.

'Nac oes... John Roberts sy 'ma.' Agorodd y drws i gwrdd â nhw.

'Felly...wel... dw i am ofyn ychydig o gwestiynau i chi, John Roberts. Fydd dim ots gynnoch chi os gofynna i yn Saesneg?'

'Dim Saesneg.'

'Welwch chi... dw i wedi cael hyfforddiant yn Saesneg, ac mae'n anodd ifi ofyn y cwestiynau yn Gymraeg.'

'Ydy. Ac mae'n anodd i mi'ch credu chi hefyd.'

'Wrth gwrs.' Gwenodd yr arolygwr a'r seiciatrydd yn ddeallgar ar ei gilydd. 'Wel nawr, John Roberts. Ydych chi wedi clywed rhyw seiniau od yn y gymdogaeth yn ddiweddar?'

'Mae'r heddlu eisoes wedi gofyn y cwestiwn hwnnw.'

'Ydyn, ond dw i am ofyn yr un peth yn yn ffordd yn hun yn awr.'

'Ond dych chi'n gofyn yn yr un ffordd yn gymwys â nhw.'



'Efallai... o'r gorau... popeth yn iawn. Wel, dywedwch, Mr...y... John Roberts... beth am y sŵn?'

'Yr un yw'r ateb i chi, ac yn yr un ffordd.'

'Sut felly?'

'NA i chi hefyd.'

'Dych chi wedi clywed achwyniadau'ch cymdogion, wrth reswm?'

'Mae'r heddlu wedi sôn amdanyn nhw. Ond mae pobol y dre bob amser yn ceintachu am rywbeth. Maen nhw'n meddwl fod tylluan, hyd yn oed, yn fwgan a bod gylfinir yn ellyll. Pethau felly yw pobol tre, wyddoch.'

'Yn union, yn union,' meddai'r arolygydd. 'Beth yw'ch ateb chi, ddyn?'

'Wedi'r cwbl, mae'r Cyngor Tre yn dweud...,' meddai'r meddyg.

'Ho! Ho! Mae'r Cyngor Tre yn rhaffu celwyddau o hyd. Dych chi wedi ceisio parcio'ch car am chwarter awr mewn stryd yn Aberystwyth? Triwch chi rywbryd.' meddai John Roberts.

'Eich barn chi yw mai chwedl yw'r cwbl?'

'Lol botes maip a bresych. Mae'r bobol ddŵad hyn, neu'r wlad oll bellach, yn cael anhawster i ddweud be yw be wrth ddefaid.'

'Clywch, John Roberts,' ymyrrodd yr arolygwr, 'Os nad ych chi'n barod i gydweithredu...'

'Arhoswch chi funud, arolygwr,' meddai Dr Offis. 'Mae'n deg i John Roberts gymryd arno, neu'n hytrach, mae'n briodol iddo adrodd, ei stori yn ei ffordd fach ei hun.'

'Fel hyn, dŷn ni'r brodorion yn deall y gwraidd,' meddai'r Cymro. 'Dyma'r wybodaeth a arhosodd ar lafar gwlad. *Roedd y brodorion hynafol o'r wlad hon mor awyddus i ddweud "Ie" wrth fywyd, roedden nhw'n chwilio am ffyrdd amryfal o bob math i'w gyfleu. Allen nhw ddim cael digon o ffyrdd i ymhyfrydu yng nghadarnhad byw. Doedd unman yn Ewrob yn debyg i Gymru o ran yr arfer "Ie". Astudiwch Ieithyddiaeth. Roedd fel pe bai'r unffurfiaeth a'r undonedd a oedd am wthio arny'n nhw*

o'r tu allan yn eu gorfodi nhw i gael eu ffrwydro'n amrywiaeth ffrwythlon a mewnlol o fynegi cadarnhad. Lle bynnag yr aen nhw a sut bynnag y gweithreden nhw drwy ferfau o bob math, deuen nhw'n ôl i amllder o "Ie", "Ie" o bob math. Casglen nhw "Ie – Oes, Do" a geiriau fel "Ydw, Ydy, Oedden, Byddwn, Gwnawn, Cawn, Rhedan, Dylen" ac yn y blaen. 'Yes' i gyd, bob wan jac. Welwch chi'r duedd?'

'Gwela, gwela.'

'Dyna'n syml ran o'r lluosogrwydd "Yes",' meddai John Roberts. 'Ymhob man, felly, fe ddeuen nhw o hyd i lawer troad i ddweud Ie wrth Fywyd. "Ie" oedd y bydysawd oll iddyn nhw hyd y lleuad. Ac fe welen nhw'r "Ie" ffrwythlon yna a oedd yn gynhenid yng Nghymru, yn pwmpio'r amrywiaeth i mewn i waed a mewnlolrwydd cyflawn y boblogaeth heb sylweddoli'n allanol. A chorddai'r peth yno. Diogelu'r meddylfryd amlfurf i Ie, yn undod, oedd y gyfrinach a gawsen nhw i wneud iawn am y mewnlifiad, yn gyfrinach ar gyfer byw. Fe aeth hyn oll yn rhan o'r tir a'r gobraith. Gwlad fel 'na yw Cymru yn y bôn.'

'Diolch Mr...y... John Roberts,' gwenodd y meddyg. 'Dw i'n credu ein bod ni'n gwybod popeth nawr.' Cerddodd y Seiciatrydd gyda'r ddau heddwes yn arafaidd gyda'i gilydd yn ôl i'r briffordd.

'Welwch chi'n union, doctor, sut un yw e. Dŷn ni, hynny yw'r awdurdodau, yn tybied, ei fod e'n gwybod mwy nag y mae'n ei adde. Dim byd na fysai noson mewn cell yn methu â'i wella.'

'Ddim o gwbl, arolygwr. Mae'n alluog.'

'Ond twp yw e o alluog. Dwl o wybodus. Diwylliant pridd cefn gwlad. Doeddech chi ddim yn sylwi ar ei lygaid ac ar gornel ei geg. Cynnyrch mewnofidid plwyfol ar hyd y canrifoedd. Wedyn diboblogi yn symud arweinwyr y gymdeithas, a'r gwehilion yn mewnofidid drachefn. Mae'n ffenomen eitha cyffredin mewn bioleg. Dych chi, Seiciatryddion, yn gyfarwydd odiaeth â'r teip yna, dw i'n siŵr. Does gynnoch chi ddim i'w ofni ganddo fe?'

'Nac oes. Ond fyswn i ddim yn cytuno â'ch disgrifiad ohono.'

'Dych chi'n meddwl ei fod e, yn ei ffordd ei hun, yn dweud y gwir, felly doctor, ac efallai nad oedd e ddim wedi sylwi ar ddim?'

'Yn hollol, mewn ffordd ddychmygol. Mae'n tynnu'n coes ni. Mae'n rhaid ifi edrych ar y nodiadau.'

Wrth iddyn nhw gyrraedd y briffordd, cododd math o wylo tew o'r ddaear o dan eu traed. Roedd y ddaear wrthi eto, wedi dychwelyd i'w gwiriondeb syrthiedig.

'Dyna chi, doctor. Rown i'n disgwyl hynny. Dyma chithau'n cael cyfle i'w glywed nawr.'

'Wel, wir. Mi ges i sioc fawr, sioc erchyll.'

'Dych *chi* yn dyst yn awr.'

'Sŵn brawychol, arolygwr.'

'Boncers, doctor, os gwnewch chi esgusodi'r fath briod-ddull gwerinol. Annhebygol, ddwedwn i. Mae'n gas gen i annhebygolrwydd. Ar ddeddf tebygolrwydd y seiliaf fy siawns.'

'Dw i'n nabod y sŵn yn iawn, serch hynny. Mae'r fro hon yn diodde, arolygwr, yn diodde'n enbyd. Mae'n rhaid bod yn wylidwrus rhag iddi gyflawni hunan-laddiad.'

'Ond pam hon, doctor? Mae yna ddigon o ardaloedd tebyg. Pam ni?'

'Mae yna rywbeth neu'i gilydd yn ei hisymwybod hi'n ei phoeni yn yr ardal hon, arolygwr. Rhywbeth yng ngorffennol yr ardal, o bosib. Fel roedd Roberts yn ei awgrymu... Tybed. Does dim llofruddiaeth wedi bod yma?'

'Ddim erioed, syr, ddim o leia o fewn tiriogaeth yr union ardal sy'n cael ei phoeni nawr. Ddim eich math chi o lofruddiaeth.'

'Beth a all fod yn ei phoeni hi, te?'

'Dim oll, syr. Hyd yn ddiweddar, mae hi wedi bod yn hapus braf yma, a phawb yn mynd yn eu blaenau'n ddiiddig hamddenol. Trot hwch a galop clacwydd, ys dywed yr hen fuarth. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'r Saeson wedi meddiannu'r rhan fwya o'r tai yn dai ha, neu'n dai ha-ha, iddyn nhw eu hun. Ond mae hynny wedi digwydd ymhobman

arall hefyd y tu allan i Geredigion. Dyw'r ardaloedd eraill ddim yn gofidio nac yn codi gwrthdystiad.'

'Na, yn hollol...os nad yw'r ardal hon, rywsut, am ryw reswm, yn fwy croen-denau a hydeiml.'

'Sut felly?'

'Yn methu â dysgu dygymod. Yn methu ag ymgaledu i'r sefyllfa.... Y marn ystyriol i yw bod yna hollt yn ddaearegol, yn danddaearol yn y tir cyn hyn. Rhywbeth hanesyddol. Dw i wedi sylwi bod ardaloedd eraill yn gallu bod ychydig yn chwithig ar raddfa lai neu mewn ffyrdd eraill. Dichon fod y dyn Roberts yna yn llygad ei le, fod yr ychwanegiad o hollt ieithyddol 'Cymraeg/Saesneg' ar wyneb y tir bellach yn arwain dieithriaid i glywed pethau o fewn cyffiniau'r ardal hon yn anad yr un. Iaith piau'r fro, wrth gwrs. Dyma'r mynyddoedd, cofiwch. Ni fedr ond un iaith eu codi.'

'Mae'n rhaid gwneud rhywbeth, serch hynny, syr.'

'Wrth gwrs. Yn arbennig gan fod yr ardalwyr newydd yn cwyno.'

'Mae ganddyn nhw hawl i gwyno.'

'Oes, debyg iawn.'

'Beth wnewch chi, doctor? Beth yw'r driniaeth?'

'Arafwch piau hi. Mae angen ystyried a chymharu a helaethu'r diagnosis ychydig bach. Meddwl, arolygwr, meddwl.'

'Yng Nghymru? Allwch chi ddibynnu arnyn nhw?'

'Yn wyneb awgrymiadau Mr Roberts, fel hyn dw i'n dechrau gweld pethau.'

Ac yna, cafwyd saib a oedd yn llawn o feddwl i seiciatrydd.

'Beth wnawn ni, te?'

'Mae'n rhaid inni weithredu drwy symud i'r un cyfeiriadau, mynd gydag athrylith yr iaith, dilyn ei darganfyddiad isymwybodol hi.'

'Beth yw ystyr hynny?'

'Wel, cymerwn y peth gan bwyll. Mae'r anhwylder braidd yn ddiarth, a gwell i ni beidio â rhuthro i ryw ddulliau eithafol.'

'Mae eisiau peidio â gwneud rhywbeth yn rhy fuan, ys dywed Llundain,' meddai'r arolygwr.

'Popeth yn iawn, arolygwr. Peidiwch â gwylltu: fe awn i'r afael â'r broblem rhag blaen. A'r ateb cynta, y ffordd Gymreig, a gynigiwn ni yw sedatif. Fe wnawn ni dywallt rhyw ddwy dunnell o sedatif i'r afon acw i ddechrau, a gwylied yn ofalus am y ddau ddiwrnod canlynol a oes yna ryw effeithiau llesol ar y fro.'

Felly yr arllwyswyd yno dunelli o 'Demazepan gyda Lactos', a rhybudd i'r tir beidio â gyrru'n gyflym. Felly yr ymddygyd; a neilltuwyd ugain o aelodau craff o heddlu Dyfed ynghyd â Dr. Offis ei hun i archwilio a goruchwylio'r ardal yn ystod y ddau ddiwrnod wedyn. Ond ofer fu. Doedd hi ddim yn well.

'Beth wnawn ni'n nesa, doctor?'

'Dw i'n amheus iawn ynghylch hypnoteiddio.'

'Hypnosis, dyna syniad, syr; ac awgrymu i'r wlad ei bod yn iach.'

'Dyna chi. Ond ymhellach na hynny. Ei bod yno o gwbl. Ei thwylllo hi drwy ddefnydd o'r iaith. Ond amheus dw i. Dw i erioed wedi rhoi cynnig ar beth felly mewn amgylchiadau fel y rhain, a wyddoch chi byth beth fydd pen draw'r peth. Mae'n well gen i fod braidd yn geidwadol a pheidio â mentro dros ben llestri.'

'Beth nesa te, syr?'

'MANWEB, arolygwr. Ffyrn Albanaidd.'

'MANWEB syr? Trydan !'

'Ie, dw i'n ofni y bydd yn rhaid i ni roi sioc drydan i'r tir i gyd. Ond y peth cynta yw gofyn i bawb ymadael. Dw i'n hollol siŵr o hynny. Mae 'na gynsail. Maen nhw'n mynd eisoes yn y gae, ond does dim gwella ar raddfa achlysurol... Ond efallai y gwnaiff sioc drydanol fwy cyffredinol a chyd-drawiadol fwy o les. Syniad campus, doctor.'

'Wnewch chi drefnu i bawb symud, felly, arolygwr.'

'Pawb, doctor, yr un pryd.... y ... beth am John Roberts?'

'Wel ie,...mae hynny'n gwneud pethau ychydig yn anodd. Oes modd cael gwarant neu orchymyn neu rywbeth cyfreithiol i'w orfodi fe i symud?'

'Mi allwn ni wneud rhywbeth, syr. Mae digon o gorneli yn y ddeddf, wyddoch.'

'Oes, oes, arolygwr. Gwn i. Ewch chi ymlaen. Mae gen i ffydd yn eich doethineb.'

Ond methiant drachefn fu'r sioc drydanol. Yn wir, roedd yr ochneidiau a'r mân ddaeargrynfeydd wedi amlhau os rhywbeth ryw ychydig. Dechreuodd pawb amau cymwysterau Dr. Offis. Wedi'r cwbl, digwydd bod yn y gymdogaeth roedd e ar ei wyliau pan ddechreuodd yr ochneidio. A chydag achos mor eithriadol â thrydaneiddio tir yr ardal oll, fe ddylid cyrchu, nid y dyn cyfleus neu'r seiciatrydd agosa, eithr y dyn gorau yn y *wlad* am achosion o'r math hwn – hynny yw yn y deyrnas.

'Beth sy ar ôl, doctor?' gofynnodd yr arolygwr yn ddiymadferth.

'Does gen i ddim un awgrym pendant. Roeddwn i'n ofni y gallai hi droi fel hyn.'

'Triniaeth eithafol, doctor?'

'Ar ryw olwg, mae'n fentrus, gyda *thir* o leia. Yn ôl y mhrofiad i gyda chwedeg y cant o enghreifftiau o'r clefyd mewn gwledydd eraill, fel arfer, – hynny yw gyda phobl, – does dim gor-astrus yn y peth: mater digon arferol yw. Ond mae cymdogaeth fel hon yn fwy chwithig... a'r John Roberts yna yn pallu torri sill o Saesneg...wel, wyddoch chi ... arolygwr... dyw hi ddim yn helpu cydweithrediad rhyngwladol...'

'Mi wn i'n burion Dr Offis. On'd oes rhywbeth y galla *i*'i wneud i'ch helpu? Sut ffurf sy ar y driniaeth?'

'Bydd eisiau cymorth hogiau'r Cyngor Sir.'

'Bois yr hewl, dych chi'n feddwl, syr, gyda'u nerth a'u rheoleidd-dra a'u gweledigaeth a'u hunplygrwydd ymroddol, a'u brechdanau?'

'Tr dim. Arafwch cydwybodol. Bydd eu hedd nhw hefyd, dyweder wrth fwyta brechdanau, yn lleddfu ac yn heddychu'r awyrgylch. Eu gwaith nhw wedyn fydd gweithredu newrolawdriniaeth o fath wedyn i newid adeiledd ffisegol ymennydd yr ardal.'

'Yr hogiau! Sut hynny?'

'Cyfuniad yw o lawdriniaeth ar yr ymennydd, hyfforddi seicolegol i dderbyn normaliaeth imperialaidd, ac athroniaeth ynghylch hyfforddi ieithyddol uniongyrchol.'

'Mae hynny'n swnio'n gymhleth i'n bois ni.'

'Ddim yn hollol. Drwy dorri'r ffibrau nerfol rhwng y lobau blaen a gweddill ymennydd y tir, mae yna doriad go elfennol. Dw i'n awgrymu inni hel giang o'r hogiau mwya cyhyrog at ei gilydd, a gofyn iddyn nhw dorri ffos go ddwfn yn ara i fyny o'r rhiw acw y tu ôl i'r fferm yna, ar draws y tu blaen i'r gelli fach yna o goed, ymlaen o fewn canllath i Dy'n-y-benglog, ac efallai y gallwn ni felly balu twll nerfol go ddwfn gyda ffrwydrad draw i'r de: dros y bryn wedyn ac ymlaen i Bont-rhyd-y-groes. Digon syml. Os ceir hollt yn gyfredol felly, fel dw i'n ei synied, y tu yma i'r tir, a hynny'n cael ei adlewyrchu uwchben y tir, yna fe ellir defnyddio moddion-torri-ffosydd go hir ar wyneb y tir weithredu yn ôl yr un egwyddor â chowpog, arolygwr. Ydy hynny'n glir?'

'Ydy. Mae'n fath o fuchfrechiad di-fuwch o imiwneiddiad, doctor, os dw i'n deall yn iawn. Dw i'n deall yr egwyddor yn union,' meddai'r Arolygydd. 'Dych chi'n gweithredu tamaid, ar yr wyneb, gan ddechrau gyda'r tebyg sydd o'r golwg. Dw i'n deall yn burion doctor. Dŷn ni yn yr ardaloedd gwledig yn gorffod amgyffred pob math o wyddoniaeth, wyddoch chi... Cewch chi fod bois y Cyngor yn gwbl atebol, a'r heddlu at eich gwasanaeth yn sicr, i wneud y gwaith trwm. Does dim disgwyl i'r dieithriaid nawdeg-oed 'na balu'r tir. Mi wnawn ni bopeth gallwn ni i fod yn gefn i chi.'

'Mi gostith dipyn,' meddai'r meddyg.

'A yw hi'n ormod? A oes yna unrhyw beth, syr, yn ormod i synnwyr y tir?'

'Wel, mae 'na bobol ddylanwadol iawn ymysg perchnogion y tai ha-ha. Synnwn i ddim y cân nhw grant naill ai'n anuniongyrchol gan y Cynulliad neu drwy'r Cyngor Sir.'

Ac felly y bu. Haeddai'r Cyngor Sir bob clod. A'r heddlu. Pob clod i'r Llywodraeth a'r Blaid Lafur yng Nghaerdydd, beth bynnag am Ewrob. Roedd yna gyfeillion cefnogol gan y gwrth-Gymraeg yn y manau ucha. Ond doedd dim oll yn tycio. Doedd dim gwahaniaeth ysywaeth. Roedd hi fel pe na bai dim byd wedi digwydd i ddim.

'Mae hi ar ben arnon ni, Dr Offis,' meddai'r Arolygydd wedi troi'n fwy digalon nag arfer. 'Tybed ai presenoldeb John Roberts a'r dyrnaid o frodorion sy'n dal i ddweud 'Ie yw'r drwg? Dichon fod angen cael gwared â nhw'n llwyr. Yn gyfreithlon wrth gwrs. Mae popeth arall, a geisiwn, yn awgrymu ei bod ar ben arnon ni.'

'Ydy, arolygwr. Dŷn ni wedi gwneud ein gorau glas, ein golau gwyrdd, yn wir.'

'Eto, cofier, dyna yw ein gwaith ni, syr. Bod yn barod i bopeth. Gwasanaethu'r cyhoedd, ys dywed y Sais. A dŷn wedi gwneud a allen ni. Does dim arall.'

'Eto, cofier, mae 'na un pwynt difyr ar ôl sy'n codi allan o ddiagnosis John Roberts. Sef y nod o hyfforddiant ieithyddol uniongyrchol. Gwasgu'r Na i mewn i'r tir. Help yw e wrth geisio dyfeisio'r gwrthwynebiad iddo fe a'i siort. Mae a wnelo hefyd â'r hyn a ddwedodd e ynghylch dweud 'Ie' wrth fywyd, a'r diagnosis *Cymreig*. Os yw John Roberts wedi canfod y peryg, mae yna baradocs negyddol i'w ystyried. Rhaid inni ddatod amrywiaeth cadarnhaol drwy gefnogi'r Unffurfiaeth y mae e'n sôn amdani, fwyfwy, a chydabod yr un pryd yr ateb negyddol mae e am ei gynnig yn ein herbyn. Unplygrwydd ffrwythlon Na. Y ddwy ochr.'

'Dych chi'n siarad uwch y mhen i nawr, syr.'

'Mae'n ddigon elfennol. Roedd cyndadau Roberts, oesoedd lawer yn ôl, mor awyddus i ddweud 'Ie' wrth fywyd, nes iddyn nhw chwilio am ffyrdd amryfal iawn o bob math i'w gyfleu. Amrywiaeth sŵn mewn undod ystyr oedd yn diogelu athrylith yr iaith a challineb. Roedd hi hefyd fel pe bai'r unffurfiaeth ystyr (iach o negyddol os ca-i'i ddweud, heb fynd yn ddadleuol) a oedd am wthio arnyn nhw o'r tu mewn yn cael ei wrthwynebu ganddyn nhw drwy ffrwydro'n amrywiaeth ffrwythlon tu allan.'

'Nawr dych chi'n siarad. Dw in dechrau gweld y tu hwnt i'r corneli.'



'Lle bynnag yr aen-nhw a sut bynnag y gweithreden-nhw drwy ferfau o bob math, deuen-nhw o hyd i amlhau rhyw 'Ie' arall. Casglen nhw'r brodorion Ie, Oes, a Do i ddechrau, ac atyn-nhw ychwanegen-nhw Ydw, Ydy, Gwnawn, Rhedan, Dylen, ac yn y blaen ac yn y blaen, ddwsinau ohonyn-nhw fel madarch. Ymhob man fe fabwysiadennhw bopeth i gadarnhau IE drwy amrywiaeth. IE oedd bywyd oll ar bob ffurf rywsut.'

'Ond sut y gallen-nhw ddiogelu'r datblygiad hwnnw yn yr unfed ganrif ar hugain?'

'Fe wyneben nhw broblem enfawr unffurfiaeth y byd hefyd: gofynnai am chwyldro seicolegol ac ieithyddol yn weddol danseiliol i wynebu'r Gwanc Mawr ledled y glôb. Dyma'r mewnfudwyr imperialaidd ac unffurfiol o Lundain yn fforio drwy'r wlad ers talwm, a hel pob 'Oes' cadarnhaol y gallen nhw'i ddarganfod dan y cerrig, a'u pentyrru nhw ar bapur yn un twmpath anferth, a llosgi'r cwbl. Siarad yn archaeolegol dw i nawr. Fe welen nhw'r 'Ie' cynnes ac amlochrog gynt yn rhwystr gerbron eu bygythiad marwol undonog, unffurf, ac anniddorol nhw. Fe fu hefyd yn rhy amldonog. Galwen nhw'r ateb negyddol i hyn yn 'Ddeddf Uno Iaith'. Diogelu meddylfryd anffrwythlon ac unffurf o 'Yes' oedd y ddihangfa ma's: dyna iddyn nhw gyfrinach y Dadeni ar gyfer byw.'

'Ond beth am y werin bobl, y siaradwyr tatws? Nhw?'

'Y Werin oedd yr adweithwyr mwya peryglus. Os ydyn ni'n mynd i gyffwrdd â nhw nawr, fe fydd rhaid i ni weithio'n dyner. A rhaid inni'u symud nhw'n isymwybodol, yn dirion heb iddyn nhw sylwi. Dechreuwn ni drwy ffug edmygu pob amrywiaeth o fewn undod. Ar gyfer byw, mae'n rhaid inni symud drwy'r un cyfeiriad â'r iaith ei hun. Mynd gydag athrylith yr iaith: dilyn ei darganfyddiad hi: casglu'r 'Ie' amlffurf wrth Fywyd, bid siŵr, lle bynnag y bo. Ond mynd hyd yn oed ymhellach na hynny. Rhy barod, yn enw gostyngaidrwydd, y buodd y Cymry'n ildio pan â'r datod yn rhy amlwg. Llwyth gwirion oedd y Cymry gynt a fynnai eu twyllo'u hunain fod iaith i fod rywsut yn gadarnhaol yn unig, heb iddyn nhw sylwi'n ddigonol fod y negyddol hyfryd yn erfyn hylaw amddiffynnol yr un mor wydn i bob amheuw'r. Symud o'r Amrywiaeth i'r Undod.'

'Diniwed, braidd, doctor.'

'Gwall diwinyddol, wrth gwrs.'

'Gwn i. Aethan nhw dros ben llestri. Ond beth am Loegr a'r mewnfudwyr?'

'Nid arnyn nhw y mae'r bai. Mae Cymry'n rhy barod i roi'r bai arnyn nhw. Ond mynd gydag ysbryd y byd roedd yr "Ie", ac felly'r brodorion taeog hefyd. Y drafferth yw mai'r Browniaid unffurf biau'r tir fwyfwy. Buwyd yn ystyried rhoi'r Browniaid unffurf yn un goelcerth yn ôl fformiwla neu theorem Guto Ffowc, a gwared eu trefn nhw fel yna. Ond chafodd ddim o Fadagascar hyd yn oed yr un dylanwad ar Ddyffryn Aeron ag a dybiwyd gan rai o'i genhadon. Dyw popeth ddim yn digwydd fel dŷn ei dybied. Roedden ni, – yr heddlu, – wedi rhoi cynnig ar hynny adeg llosgi'r tai haf.'

'Yr heddlu?'

Roedd pawb yn amau'r heddlu ar y pryd. Fe fu'r heddlu sut bynnag yn datrys y broblem drwy baradocs cau-llygad ar y llosgwyr er mwyn cael gwared â'r llosgedig. Gŵyr yr heddlu pryd i dewi lle bynnag y bo Tai Ha-ha.

'Ie, ie, ie,' meddai'r arolygwr. 'Peidiwch â dweud wrth neb pwy ŷn ni go iawn: dyna sy'n esbonio sut y gwnaethon ni fethu â ffeindio'r troseddwyr.'

'Wel, yn sicr, mae eisiau hel y Browniaid i'r un lle am wyliau. Dyna gychwyn hunan-feirniadaeth iddyn nhw. Nhw sy wedi budro'r dŵr a'r tir. Gallan nhw eistedd yn ddiddig ar ganol y llawr yn nyffryn Ystrad Fflur, dyweder, a gallwn hurio ychydig o ddronau Aber-porth, a thywallt dros eu pennau fwceidiau o *Do*, *Oes*, *Gwnawn*, ac yn y blaen, yn amryfath, er mwyn eu cyfnewid nhw rywsut, a thrwytho'u hystyfnigrwydd aliwn ac anneniadol o unffurfio'u "Yes". Dangos ein nerth yn unig fydd yn ennill yn y pen draw.'

Hynny a wnaethpwyd. Dyma'r ymgyrch ieithyddol helaetha a mwya datblygedig gafwyd erioed yng Nghymru. Fe gafwyd grant gan y Swyddfa Gymreig yn Llundain. Mae a wnelo hyn, wedi'r cwbl, ag undod y Deyrnas Unedig a masnach Ewrob.

Fe lwyddodd cyn belled ag roedd y nod yn broffesiynol. Am y tro. Ond mae yna un atodiad anghyfleus. Mi fu hyd yn oed yr ateb gwyddonol hwn yn ormod o symleiddiad. Fe aethpwyd yn rhy bell fel y bydd amaturiaid, fel pe bai ymyrraeth â

pheirianwaith yr iaith yn allwedd i fuddugoliaeth. Fe ddigwyddodd un peth nas rhagwelwyd o gwbl. Fe effeithiwyd ar rai o siaradwyr yr ardal ei hun hefyd yr un pryd, hynny yw rhywrai o'r brodorion cyfrwysaf hwythau ymhlith ystyfnigwyr a oedd wedi ymguddio hyd yn hyn. Ac aeth y rheini dros ben llestri nawr, yn arbennig wrth drin 'Oes'.

Dyma'r esboniad hanesyddol syml a dilys sy, sut y cafwyd rhai yn dweud 'ôs' ac 'wês' yn rhan ddeheuol y sir, 'oes' yn y gogledd, er mwyn amlhau ymhellach. Y rhychau newrolegol a dorwyd gynt gan gynllun Dr. Offis a gynhyrfodd y gwahaniad cynyddol hwnnw: aethan nhw ar sgiw-wiff.

A nhw oedd ar fai. Neu'n lwcus. Sut bynnag, oni bai i ryw dafodieithgwn gor-blwyfol anymwybodol-gymwynasgar ymagor *o fewn* yr iaith, byddai'r cynllwyn hwn oll wedi llwyddo. Eto, cafwyd peth llwyddiant yn nannedd popeth. Dyma dafodieithoedd cadarn a diddorol yn ymflaguro, o fewn yr iaith, gan amlhau 'Oes' a'i amryfoldeb seiniol ymhellach am ben yr iaith lafar safonol yn flodeuog, a hynny er gwaetha'r ymdrech adweithiol i rwystro dad-amlhad drwy sefydlu Iaith Lafar Safonol unol. Aethpwyd o amllder i amllder. Ond yn chwithig iawn, os deheuol hefyd, oherwydd y toriad newrolegol digon diniwed ar draws ymennydd yr ardal, o'r gogledd hyd y de ac yna drosodd i'r môr i Iwerddon, y mae'r ffiniau amrywiol heddiw wedi aros, ac oherwydd y ffurfiau gwahanol hyn gellir dilyn llwybrau go benodol ond ffrwythlon gadarnhaol.

O safbwynt tafodieitheg dyma ddarganfyddiad cwbl chwyldroadol i Academia nas rhagwelwyd o gwbl ar lefel ryngwladol, greda-i, ac nas dehonglwyd chwaith yn Rhydychen, ac nas cyhoeddwyd chwaith mewn Bwletin ieithyddol hyd yn hyn... Ond mi ddaw.

## CYNNWYS RHAN II

1996-2004

### *Dawn Gweddwon (1992)*

Crwban	Ni chynhwyswyd y storïau o'r gyfrol
Pam	hon yn yr argraffiad hwn ar y Wefan y tro hwn.
Nofio'r Don	
Rhyfel Cartref	
Yr Etifedd Llwyd	
Sgrin y Teledydd	
Argraff Ddu a Gwyn	

### *Crio Chwerthin (1996)*

Crio Chwerthin	350
Tri yn Ddigon	390
Y Bradwr Da	472
Pwll o Syched	563
Merch y Sgweier	612
Gwaed Gwyn	689

### *Rhy Iach (2004)*

(Perthyn y ddwy stori nesaf i'r un cyfnod â'r gweddill o'r Storïau yn *Rhy Iach*, ond nis cyhoeddwyd hwy ar y pryd.)

Canlyn y Wraig	775
----------------	-----

Llwyddo	854
Hanes Cydwybod Nedw Dolwar Fach	918
Rhan y Rhieni	950
Ymserchu yn y Gofod	1023
Cyngor Lleol ('Y Plat' oedd yr hen deitl.)	
Yr Ymholydd Didwyll	1057

[Bwriedir cyhoeddi fersiwn diwygiedig o'r stori 'Cyngor Lleol' yn yr argraffiad nesaf]

## CRIO CHWERTHIN

### I

Heddiw dw i'n fachgen bach.

Dw i mewn gweirglodd ddofn yn Llanedeyrn y tu allan i Gaerdydd lle mae milltiroedd o gaeau glas. Mae'r awyr yn ddisglair bur uwchben. Ac o gylch y gorwel, gellwch bron glywed yr heulwen yn tasgu drwy'r awel.

O'r ffarm hon y mae ein dyn llaeth ni'n dod.

Dw i'n rhedeg at mam a thaflu y mreichiau o amgylch ei gwddwg. Does gen i ddim gorffennol na dyfodol. Bydd bachgen bach wrth gwrs byth yn priodi. Bydd e byth yn cael na phlant nac wyrion, na byth yn mynd yn hen. Ond mae'n gallu rhedeg, ac yn gallu taflu'i freichiau i'r awyr.

Dw i'n derbyn llawenydd y presennol i gyd i'm hysgyfaint y funud yma.

Pan dw i'n carlamu drwy'r borfa, does dim diwedd i borfa hir. Pan dw i'n cofleidio mam, does unman gwell i fynd iddo. Hi yw nghartref tragywydd y foment honno.

A gwn yn y mynwes – os gwn unrhyw beth yn ymwybodol – fod anadlu a chwerthin a chanu a rhedeg yn golygu popeth, a mam yw'r fam hardda a chariadusa a chynhesa yn yr holl greadigaeth.

Heddiw dw i'n hapus, heb feddwl am y peth. Ac fel hyn y dylai fod. Heddiw mae rhyw barhad rhyngo i a mam a'r glaswellt a'm brawd bach a'r cloddiau a'r llwybr ar draws y cae. Ellir byth sefyll ar wahân i ddim o'r pethau hyn, na'u pwysu na'u mesur. Mae'r cwbl wedi'i rowlio'n un, yn fân ac yn gyfan yn y nwylo.

Heddiw, rhagfur yw y nghroen i gyd rhag i'r pellterau sy tu hwnt i'r cae wasgu arna i, rhag y gwledydd pell a'u rhyfeloedd. Rhagfur yw bywyd Caerdydd yn erbyn yfory, ac y mae doe wedi'i hen hen anghofio.

Rywfodd, ddyfeisiwyd ddim o wleidyddiaeth eto. Y mae llenyddiaeth heb ei dechrau chwaith. Hapus, hapus yw'r rhegod yn yr yd, yng nghnewyllyn y cyfanfyd.

Mae gen i frawd drygionus. Dyw e ddim llawer o beth ac yn sicr dyw e ddim yn bwysig, ond cyn belled ag y mae popeth yn bwysig. Rhan o'r drefn yw e. Dywedir ei fod yn dair oed, ac felly'n ddwy flynedd yn iau na fi. Dw i ddim yn cofio awr heb ei fod e'n gwneud drygioni. Mae e'n hoffi crwydro. Mae e'n hoffi rhoi ei ddwylo mewn lleoedd gwaharddedig. Torri pethau gwerthfawr yw ei hoff chwarae heb amheuaeth, yn arbennig os bydd hynny'n cadw sŵn.

Un tro fe roddodd ein tŷ ni ar dân drwy daflu papur newydd i'r grât. Ynteu fi wnaeth hynny? Roedd mam wedi dychryn, ta beth.

Heddiw mae e wedi dechrau crwydro. Ond mae popeth mor ddiogel yn y wlad. Does dim traffig. A chyn belled ag y gellir troi'r llygad, does dim ond prydfferthwch. Mae'r heulwen yn hongian fel cadwyn llygaid-y-dydd o gwmpas gwddwg y cae. Mae adar bach yn taflu'u gyddfau newydd sbon ledled y cyfandiroedd meillionnog fel swigod yn bwrstio'n oleuadau bach direidus. Mae popeth mor bert yn y wlad hon.

Dyw mam ddim wedi sylwi eto ar y pwll dŵr ar bwys yr ydlan. Pwll yw sy'n llawn o ferddwr du neu frownddu neu frownwyrdd. Pwll bychan afiach. Biswail. Ond mae y mrawd wedi cael ei lygatynnu'n lân a'i ddenu rywsut gan y dieithruch sgleindywyll pwdinfrs rhyfedd hwn... Beth yw hyn?

Yn sydyn mae ei gerdded difeddwl wedi peidio â bod, fel sŵn anadl uwchben y ngwely mewn cwsg yn y nos. Does dim Keith i'w glywed, ac y mae hynny'n beth dieithr.

Mae mam yn rhedeg at y pwll. Mae hi'n wyllt jibidêrs. Yn ei dillad, a heb hidio am y dyfnder, mae hi'n neidio whiw i'r biswail ar ôl y mrawd. Dyw'r dŵr hwn ddim yn rhyw ddwfn iawn amdani, er ei fod yn dod yn uwch arni na'i gwasg. Mae hi'n ymbalfalu ym mhob man am y nhipyn brawd. A dw innau'n chwerthin. Mam yn y dŵr. Yn y budreddi. Yn ei dillad. Dyna sioe!

Mae Keith yn ymguddio rhywle yn y canol rywle, wedi cyflawni drygioni eto.

Mae hi'n gweiddi, yn sgrechian. A dw innau'n dechrau chwerthin yn awr mewn ofn oherwydd y trydan yn yr awyr. Ond doedd dim arall yn y cae yn chwerthin gyda fi.

Caiff mam afael yng ngholer y mrawd, a thyn e i'r golwg. Mae hithau'n crio bellach. Tyn hi Keith allan, a rhydd e i orwedd ar ymyl y pwll. Chwerthin a chrio dw i yr un pryd. A dw i ddim yn deall dim o hyn, ond yn ddychrynus.

Mae y mrawd a myd i'n ddiogel eto. Mae e'n fyw. Mae mam yn ddiogel ac yn fyw. Ond dw innau'n mynnu crio, yn crio ac yn chwerthin bendramwnwgl heb reolaeth. Rown i wedi gwylid y mrawd yn crwydro'n agos i'r pwll, wedi'i wylid e fel y bydd ci yn gwylid pen nadreddog crwban, yn stond, heb ddweud dim, wedi y nghyfareddu gan ei berygl, heb yngan rhybudd. Ac yna, – wedi chwerthin, a chamddeall, a rhyfeddu – gollyngdod. Cyn crio. Y fi sy ar fai. Rown i wedi'i wylid e, heb wneud dim byd.

Mae mam nawr wedi'i gorchuddio oll gan addurniadau brwnt o'r pwll. Ond mae hi'n gynnes. Mae hi'n gwenu. Mae hi'n y nhynnu i ati. A'm brawd ati. Dyw hi ddim yn grac. Mae hi'n chwerthin hefyd, yn chwerthin ac yn crio yr un pryd, ac yn ein caru ni.

Mae mam mor hardd, a'r glaswellt mor hir a chysurus. Dal i chwythu wna'r heulwen ar y cloddiau a'r awel, yn duswau deiliog. Fel malwod llysnafeddog y rhodia'r cil o gylch geneuau'r buchod gorweiddiog acw yn y cae yn ara braf. Diwrnod rhyfedd yw heddiw yn dawel o'n cwmpas ym mhob man. Dyma'r diwrnod cynta erioed imi weld chwerthin a chrio yr un pryd. A dw innau wedi gwneud hyn hefyd yn hun, heb ddeall pam. Chwerthin yng nghanol crio, a chrio yng nghanol chwerthin.

Ond mae y mrawd bach yn fyw, a mam yn y nghofleidio i a'm brawd am oriau ac oriau yn gynnes yng nghanol y cae, er nad fi oedd ar foddi. A cherddwn adre, yn dri, gyda'n gilydd. Fi yw'r unig un sy'n lân. Yr holl ffordd adre o bryd i'w gilydd, bydd mam a fi yn stopio i chwerthin a chrio. Bydd hi'n cydio yno-i ac yn gwasgu yno-i gan grio. A dw i ddim yn deall pam yn hollol, oherwydd doeddwn i ddim wedi gwneud dim byd, dim ond peidio â gwylid. Ond am y mrawd, pan na bydd mam yn ei gario, chwilio y bydd Keith am ryw fodd i gyflawni drygioni arall o hyd, heb na chwerthin na chrio. Fel yna y mae bob amser, er nad yw e'n neb mewn ffordd o siarad. Ac fel yna y dylai fe-a-fi fod.

Heddiw, dw i'n fachgen ifanc ac yn anaeddfed. Ond yn hen hefyd. A dw i wedi darganfod nad rhywun-rywun yw y mrawd. Mae e'n Rhywun.



## II

Caerdydd yw'r lle gorau yn y byd. Dw i ddim yn dweud gair o gelwydd.

Mae gynnon ni lyn lle gallwn daflu cerrig at yr elyrch. A bwystfilod caregog ar hyd y wal o gwmpas y castell. A chamlas i ddal penbyliaid. A siglenni. A Phwll Nofio. Ac amgueddfa lle gallwch fynd i sglefrio ar y lloriau pren. A Phwll Nofio. Ond – dyna fe – dw i wedi sôn am y Pwll Nofio. Ac nid am y Pwll Nofio roeddwn i am siarad mewn gwirionedd.

Y lle pwysica yng Nghaerdydd yw Ffau-yr-eryr. Ein Ffau ni'n dau, Josh a fi, dyna yw Ffau-yr-eryr. Ni a fedyddiodd y lle â'r enw 'na. Mae'n gyfrinachol. Ond dw i'n eitha bodlon dweud wrthoch chi ymhle mae hi, ond ichi beidio ag yngan gair wrth y mrawd. Os dwedwch wrth y mrawd, man a man ichi'i roi e yn yr Eco. Mae'n sefyll rhwng y barics a phwll sych y Maendy. Does dim uchder i'r Ffau, a dw i ddim yn deall pam y rhoeson ni erioed yr eryr yna yn ei enw. Ond Ffau yw hi yn sicr oherwydd ei bod hi'n hollol gyfrinachol.

Yr wythnos diwetha roedd y nghefnder Josh yn aros gyda ni. Mae Josh yn naw mlwydd oed a finnau'n saith a thri-chwarter. A'r cyfle cynta gawson ni, ar ôl i mam gribo ngwallt, aethon ni draw i Ffau-yr-eryr, a gadael y mrawd bach Keith gartre. Wrth y mod i'n ymlwybro at y ffau, rown i'n dechrau gwneud sŵn fel porthor rheilffordd yn gwthio trolaid o boteli yn yr orsaf oherwydd bod y mhocedi'n llawn o farblys ac allweddi a chnau a chyllell a chregyn a darnau o gwm-cnoi. Dw innau am fod yn borthor rheilffordd ar ôl tyfu ychydig bach, er mwyn casglu enwau injins bob dydd.

Roedd hi'n bwrw hen wragedd a ffyn. Roedd hi wedi bod yn sych am fis crwn. Ac yna, y diwrnod ar ôl i Josh gyrraedd, wrth inni'n dau gyrchu mewn dirgelwch a'n pennau i lawr fel ditectifs gan edrych ar bawb ar sgiw-wiff drwy gil ein llygaid hanner-cau, gerllaw Ffau-yr-eryr dechreuodd hi fwrw o ddifri, a thresio bwrw wnaeth hi drwy gydol y bore yn gwbl ddiflas. Wrth inni gicio gerdded drwy bwdelau heibio i'r Pwll Nofio ar y ffordd adre goleuodd hi drachefn. Ciliodd y glaw gan laschwerthin, a gadawodd bobman yn ffres ac yn iach ac yn heulog fel angylion. Ond roedd hi'n rhy

hwyr. Roeddwn i'n siomedig tost. Roedd hi'n amser-mynd-adre a dechreuais daflu cerrig a thuniau at waliau'r Pwll Nofio o ddialedd. Doeddwn i dim yn taflu'n galed iawn, a doedd y cerrig (feddyliwn) ddim yn galed chwaith nac yn gadael dim ôl o gwbl ar y waliau. Ymollwng fûm innau'n naturiol, dyna'r cwbl. Ond yn hollol ddamweiniol, aeth un garreg ychydig bach ar gyfeiliorn. Trawodd un o'r ffenestri anferth a drud sy'n ymestyn yn un chwarel enfawr o'r to i'r llawr; a chraciwyd hi'n syth. Rhewais i. Gallwn dyngu bod y ffenest wedi symud y mymryn lleia ar ffordd y ngharreg. Thorrodd hi ddim o ddifri. Ond roedd y crac a ymestynnai fel hollt denau uwchben lafa adeg daeargryn (a rhaid bod hynny wedi digwydd) yn ddigon o leia i ddigio Gofalwr y Pwll, er nad own i'n gweld fawr o ddim o'i le ar y peth hwnnw yn hun. Daeargryn o ddyn oedd y Gofalwr.

Rhuthrodd y dyn cas hwnnw allan, yn lle aros i reoli'r Pwll. A daeth yn syth amdana i. Roedd e'n mynd i mwrw i, does dim dwywaith am hynny. Dyw dicter ddim yn hoff iawn o ddadleuon. Welais i erioed yn y myw neb a oedd wedi'i gynddeiriogi gymaint â hwn. Roedd e wedi colli'i limpyn yn lân. Ac am beth dw i'n ei ofyn.

'Ddim Dic wnaeth e,' gwaeddodd Josh ar draws ei ruthr. 'Fi 'torrodd e.'

Celwydd noeth.

Rown i wedi yn syfrdanu.

Dw i ddim yn cofio Josh erioed o'r blaen yn dweud celwydd. Rown i'n arswydo ac yn siomedig rywsut. I fi roedd Josh, am ei fod ychydig yn hŷn na fi, yn dipyn o arwr. Ac am foment, heb feddwl am y ffordd roedd e yn y nghysgodi, synnais i ato'n palu'r fath anwiredd. Rown i wedi nadrithio. Edrychais i â'n llygaid i led pen ar agor tuag at Josh, heb allu yngan sill. Ond wrth i'r dyn cas wyro'i ruthr a disgyn ar Josh, fe sylweddolais dipyn o'r hyn roedd wedi'i wneud.

Pistyllodd yr ergydion ar ben Josh, yn ei wyneb, ar ei ysgwyddau, yn ei fol. Roedd y dyn o'i go'n lân. Roedd yn gwbl ddidrugaredd. Curodd a churodd. A gweiddi hefyd yr un pryd fygythion a chelanedd, a'i wyneb fel wal brics goch. Roedd e'n rhy real.

Yna, gan addo holl rym y gyfraith, a chan hawlio'i fod yn gwybod yn burion ble'r oedden ni'n byw, a phwy oedd ein tad, a beth oedd ein hachau i gyd, a phwy oedd

ein hathrawon yn yr ysgol, a phle'r oedden ni'n mynd i'r Ysgol Sul, ciliodd y brics coch o ddyn tan regi, yn ôl i'r Pwll Nofio fel rhyw greadur cynoesol yn ailchwilio am ei gors.

Roedd trwyn Josh yn gwaedu'n ffrwd, a doedd e ddim yn fodlon mynd adre'n syth. Rhaid oedd i'r gwaedlif gael ei wala. Ond golchi neu beidio, allai fe ddim ymwared â'r cleisiau gleision a oedd ar draws ei fochau.

'Ble'r ych chi wedi bod, fechgyn?' holodd nhad wrth weld cyflwr ei drwyn a'i foch. 'Be wnest ti, Josh?'

'Cwmpo yn Ffau-yr-eryr.'

Celwydd arall. Caeodd nhad ei lygaid ychydig bach, fel y bydd sbiwyr mewn ffilmiau.

Gallwn weld nad oedd Josh yn hapus wrth raffu'r celwyddau hyn er y mwyn i. Ac roedd un yn arwain at y llall. Roedd e'n ei wneud ei hun yn glamp o gelwyddgi. Ddwedais i ddim oll amdano'n dweud celwydd, serch hynny. Fynnwn i ddim ei fradychu. Cadw'n dawel oedd orau. Peidio â chario cleps, er mod i'n teimlo cywilydd drosto, – cywilydd yn gymysg â rhyw fath o ddiolchgarwch.

A chadw'n dawel wnes i tan y diwedd. Ddiwrnod cyn bod rhaid i Josh fynd adre at ei fam, fe gyrrhaeddodd bil aruthrol y ffenestr. Ac roedd rhaid i Josh balu'r un celwyddau drachefn. Cors yw celwydda nad yw'n orgaredig tuag at esgidiau mewn glaw. Mae suddo un waith yn arwain at suddo ddwywaith. Wnes i ddim dweud dim o gwbl.

Doedd dad ddim yn grac. 'Fel 'na roedd hi i fod, Josh bach.' Dyna'r cwbl. Nid dyna'r ffordd gyfiawn, sbo. Ond rown i'n rhyfeddu at y nhad. Mae dad yn gallu gwneud rhai pethau amhriodol ac eithafol o garedig. Sylwasai fod Josh heb ennill dim iddo'i hun o raffu'i gelwyddau; a dad fyddai'n gorfod talu am y ffenest ta beth, achos does dim tad ar dir y byw gan Josh. Rhyw fath o ffigur tadol fu nhad i iddo. 'Mae Cariad yn cyflenwi Cyfiawnder,' esboniai nhad i mam mewn geiriau nas deallwn i. Efallai fod dad yn gwybod y gwir, ta beth. Beth bynnag am y berthynas a'r ddyletswydd, roedd dad yn hoff iawn o Josh a (tha beth) yn maddau'n hael i bawb o hyd.

Ond alla i byth anghofio wedyn beth wnaeth Josh. Crio! A dw i ddim yn cofio Josh erioed yn crio o'r blaen. Crio achos bod dad wedi talu am y ffenest, a heb roi cweir iddo. Crio am garedigrwydd.

Ond oherwydd celwyddau Josh, ches i ddim y nghuro gan ddyn yr wyneb-brics-coch, ches i ddim cosb gan dad chwaith, doedd dim rhaid i fi ddweud celwyddau hyd yn oed. Ar y ngliniau y noson honno ar ôl i Josh fynd adre at ei fam, diolchais i Dduw am y nghefnder, a gofyn i Dduw faddau iddo fe'i gelwyddau, a hefyd i finnau am beidio â dweud dim.

A nawr dw i ar y nghefn yn y gwely ar y mhen yn hun gyda mrawd, ac yn gwrando ar y tramiau'n cloncian i lawr Heol yr Eglwys Newydd ganllath a hanner i ffwrdd. Maen nhw'n cadw sŵn yfflon o ruadwy yn y nos weithiau ac yn yn atgoffa i am ofalwr y Pwll Nofio a'i wyneb rheglyd. Dw i'n methu â chysgu oherwydd yr ofn euog sy'n cripan o gwmpas y gwely. Mae mrawd i'n cysgu. Dw i'n clustfeinio ar y tylluanod yn y fynwent ar bwys sy'n cyhuddo'r gwynt â'u tw-ill tw-ill tw-ill. Maen nhw'n gweiddi, dw i'n sbecto, oherwydd mod i heb ddweud y gwir wrth dad. A dw innau'n tynnu'r garthen dros y mhen rhag ofn. Y tu allan yn y stryd mae yna ddyn meddw'n chwifio gerdded ar ei ffordd adre o'r Woodville. Mae e'n canu ac yn rhegi ac yn ubain. Mae gen i, drwy help blancedi, ffau ddiogel i mewn yn y ngwely serch hynny; ac yn y fan yma dw i'n dechrau meddwl am Josh eto. Josh daionus. Josh cariadus. Fyddai Josh byth yn ofni tramiau na thylluanod na rhegfeydd nac unigrwydd y nos na dim.

Dw i'n closio at y mrawd, ond dyw e ddim yn rhoi dim sylw. Mae e'n rhy ifanc ar hyn o bryd i ddeall dim, gan gynnwys ofn.

Beth bynnag, heblaw Josh, does dim llawer o bobl y galla-i ymddiried ynddyn nhw, yn sicr ddim dynion ag wynebau coch. Dyna'r hyn sy'n esbonio pam nad a i byth eto ar gyfyl y Pwll Nofio. A pham na dw i fawr o nofiwr hyd y dydd heddiw.

### III

'Ble mae Wncwl Olfer?'

'Ar y llofft gyda'r dodrefn.'

Dw i'n meddwl fod hwnnw'n ateb od achos siop ddodrefn sy gan yn ewythr ym Mhontypridd. Mewn lle felly dych chi'n methu'n lân â *pheidio* â bod ond 'gyda'r dodrefn', gan mai dyna sy ym mhob man. Dw innau, gan y mod i'n naw oed bron, yn atebol i fynd ar y mhen yn hun bellach i lefydd dieithr, ac wedi cael y ngosod ar lwyfan yr orsaf allan o'r trê, ar ôl i mam gribo ngwallt, yn unswydd i ymweld ag Wncwl Olfer. Pan fyddwn i'n cael egwyl fel hyn ambell waith ar y siwrnai o Gaerdydd i Ferthyr, mae mam a nhad a Keith y mrawd yn mynd yn eu blaenau i Ferthyr, a ngadael i ar orsaf Pontypridd lle mae un o staff yn Wncwl yn cwrdd â fi.

Un o'r bobl yna nad yw pawb ddim yn gwirioni yr un fath ag e yw Wncwl Olfer. Welais i erioed mohono fe'n gwneud dim byd call. Dyw e ddim fel ni. Ac os treuliwch hanner awr yn ei gwmi, dych chi'n siŵr o gael gwybod ar unwaith ei fod e'n mynd i wneud rhywbeth braidd yn anghybwys. Ysgol fetel dal sy ganddo, yn arwain i fyny i'r stordy ar y trydydd llawr ym mhen draw'r adeilad, a dw innau'n dringo i fyny i chwilio am yn ewythr felly. Ac wele, dacw fe 'yng nghwmni'r dodrefn', yn y gornel bella, ar ei eistedd, ac yn syllu – yn delwi yn wir – ar ddresel. Dyma, iddo fe, yw 'bod gyda'r dodrefn.' Ar bob llaw iddo ar y llawr mae 'na sefyllfa debyg i olion 'rhyfel' saernïol ddi-drugaredd. Waterloo o le. Byrddau ac ambell goes wedi'i chwythu i ffwrdd; cadeiriau breichiau yn gorwedd ar eu boliau wedi'u diberfeddu gan fagnelau wedi'u hanelu ar gam; aelodau tociedig o ddodrefn hwnt ac yma yng nghanol gwaed a dagrau melyn y brawd-llif yn llif dros y deciau; a hen gloch di-wyneb a desgiau yn ochain yn glwyfus ar yr ymylon, ond wedi'u gwaredu rhywfaint rhag y gyflafan oherwydd eu safle heb fod ar ganol maes y gad... Waterloo o le. Ac mae Wncwl Olfer yn eistedd yn y canol ac yn edrych.

'Hylô Wncwl Olfer,' ddweda-i yn heddychlon i gyd.

Ond mud yw e: ddywed y wal ddim byd wrth Wil.

'Dw i wedi dod,' gyhoedda-i mor ddiplomatig ag y galla-i.

Deil i sylu'n feddylgar fud ar y dodrefnyn o'i flaen. Mae'r dresel wedi'i lyncu fe.

Wedi ymgolli mae e, neu mae ymdrechion mall y frwydr fu yn y lle (efallai) wedi bwrw'r sylw normal oddi ar y byd byw real allan ohono fe, a'i adael i fyfyrto. Ond alla i ddim llai nag aros a sbio'n stond gydag e ar y dodrefnyn digon cyffredin sydd wedi hoelio'i sylw. Dresel Gymreig o'r math a welais i ddegau o weithiau sy 'na, ac a welsai yntau yn ei waith beunyddiol gannoedd o weithiau, mae'n siŵr. Ond gweld dodrefnyn a wnaethwn innau erioed yn ôl amllder arferol, fel roedd pob golwg gen i ohono yn marweiddio'i gilydd: i'm hewythr ar y llaw arall, roedd pob dodrefnyn yn ei fywiogi o'r newydd ac yn codi cymariaethau ac yn dyfnhau edmygedd a datblygu barn. Mae 'na oleuni mwynaidd newydd yn ymddangos yn ei lygaid heddiw, wrth i'r rheina symud yn ei ben fel dwylo, yn feddal ar hyd aelodau'r celficyn.

Mae'n sylwi'n sydyn mod i yno hefyd. 'Diar, diar, Dic bach, ond yw e'n aruthrol?'

'Beth?'

'Hyn! Dere gyda fi.'

Cyfyd, a chydio yn yn llaw, a'i harwain at y dresel. Yna, ledia yn llaw i ar draws y pren. 'Teimla', medd e. Mae hi fel pe bai cledr yn llaw i nawr yn llyfu'r wyneb yn synhwyrus, yn ara, ara. 'Teimla. Wyt ti'n sylwi?'

Dw i'n falch iawn fod yn ffrind Twm ddim yma i ngweld i y funud yma, neu byddai fe'n cael y sbort rhyfedda ar y mhen i. Byddwn i'n destun sbri am wythnos gyfan gyda'r dosbarth. Fe wnes i ufuddhau iddo fe.

'Rhed dy fysedd ar y blodau pren fan hyn, Dic bach, yn ysgafn cofia, rhag eu lladd nhw. Edrych fel mae'r drorau'n dod ma's.' Dw i'n cyffwrdd â'r blodau pren: maen nhw'n esmwyth. Tyn e un drôr allan yn anwesol a'i droi ben i waered. 'Edrych sut mae'n rhedeg.' A gwthia'r drôr i mewn yn ôl yn dyner ac yn seremonïol wyneb i waered. 'Dyna'r prawf. Yn hollol lyfn ac yn ffitio. Edrych, Dic, fel roedd merched Cymru, chwaeth merched Cymru, wedi mynnu cael yr ardduniadau telynegol hyn. Roedd gyda nhw lygaid i'w horhain, Dic, yn yr amser 'na, ... a dwylo i'w teimlo. Teimla.'

Yna, saif e'n ôl. 'Rwyd ti'n gweld y drefn i gyd yn y fan yna. Mae hon yn eglwys gadeiriol o ddresel. Y wraig yn ei chegin a'r saer yn deall ei meddwl hi gyda'i gilydd wnaeth hyn er gogoniant i Dduw. Wyt ti'n gwybod, Dic bach: maen nhw'n dod o America draw i bwrcasu'r rhain. Maen nhw'n nabod gwerth ein crefftwyr ni fan 'na. Rho dy wyneb yn erbyn y pren, fachgen. Yn y fan yna roedd y saer a'r wraig-tŷ yn cwrdd â'i gilydd o ran deall dodrefn.' A dyma fe'n rhwbio'i fochau blewog yn ysgafn ar y pren fel pe bai e'n anwylo rhywun o'r teulu. Mae e'n anadlu'n ddwfn, a chroen brown y dresel yn felys hyfryd yn ei ffroenau. Nid yn unig ei drwyn a'i fochau ond ei wddwg a'i ysgwyddau hefyd, y mae'r cwbl ohono rywsut yn agos ac yn dynn wrth y dresel. Ac o'r tu mewn i'r celficyd cyfyd rhyw gynhesrwydd maswaidd a hynafol, a chwythu'n erbyn ei gorff gan ddeffro ynddo'i hun awydd i gadw'r dresel hwn yn fyw ar ei bwys e am byth. Alla i ddim llai na chwerthin. 'Gwynta fe.' Ond wnes i ddim. Mae rheswm ym mhopeth. 'Gwynta'. Ond yr hyn a'm synnai i oedd y modd roedd e'n dangos ei barch at yr hen seiri a oedd wedi crefftwra'r dodrefn i gyd yno. Dw i ddim yn nabod tebyg i Wncwl Olfer.

\*

\*

\*

Y tro hwn fe fydda i'n cael aros gydag Wncwl Olfer am wythnos gron, a chael mynd gydag e ddwywaith ar hyd y mynydd 'i godi archwaeth at fwyd', meddai Anti Magi. Ond y drydedd noson, dw i'n troi adre gydag e ar ôl y cwrdd gweddi. Dw i'n mwynhau cerdded gydag e. Mae e'n cario llusern, gan fod ei gartre fe ac Anti Magi ar ochr y mynydd y tu ôl i Bontypridd. Dyma'r pryd y mae'r peth yn digwydd sy'n profi beth ddwedais i gynnu amboiti fe'n gwirioni. Ar ôl dringo ar hyd y llwybr am ryw hanner milltir mae'n cerdded yn jôcos ddireswm i mewn i gae ac yn eistedd ar fencyn. Mae e'n gorffwys neu'n rhoi cyfle i fi orffwys. Mae'r dre i gyd islaw fel tân mawn pell lle y mae'r gwreichion achlysurol hwnt ac yma'n dangos yn y nos ei fod ynghyn o hyd; ond o'n blaenau ni yn y pellter ac uwch ein pennau ni hefyd y mae hi'n noson serenog iawn. Pe baech chi'n gallu gwerthu'r sêr yna i gyd am ddimai'r un, fe allech chi ymddeol yn gynnar. Mae e'n dechrau dweud wrtho i nawr rywbeth dw i'n ei wybod eisoes, sef bod y sêr pella welwn ni heno filoedd o filltiroedd goleuni i ffwrdd. Miliynau, ddywed e, ond mae e'n stretsio wrth gwrs... Ac yna, mae'n pwyntio â'i law.

'Meddylia, Dic. Ar ôl cyrraedd fan yna yn y pen draw, pwy sy 'na?'

'Duw?' holwn i, gan ddisgwyl mai dyna'r hyn roeddwn i fod i'w ddweud.

'Ie, Dic. Mae e fan 'na'n sicr. Ond mae E fan hyn hefyd. Nawr, plyg di lawr fan hyn, Dic bach, gyda fi.'

Ac mae e'n mynd ar ei liniau gyda'r llusern, ac mae'n rhaid i fi wneud yn gymwys yr un peth. Mae e'n symud coesau'r borfa fe o'i flaen yn ofalus dirion â'i fysedd. Iddo fe, y mae fel pe bai'n ymwthio i mewn i balas cyfrin ar y llawr. Neu i nyth; i nyth byw, gwlyb, lle'r oedd yna wyau i fod efallai; ond doedd yna ddim. Mae e'n rhoi ei galon i ganol y cymhlethdod manwl ac fel petai'n cynhesu'i fysedd yn feddal ynddo. 'Edrycha i mewn fan hyn. Rhwng y borfa, lawr fan hyn, i lawr i ganol y pethau mân, mân, rho dy fysedd, Dic. Mae 'na blanhigion bach bach 'mewn fan 'na a phryfed. Edrych, Dic. Ond dŷn nhw'n wych? Mae yna fyd cyfan 'na. Bydysawd. Dan dy fysedd bach di, Dic. Pob math o ryfeddodau o'r golwg. Elli di ddim eu gweld nhw i gyd, y rhan fwy, beth bynnag, maen nhw mor bitw mân fân; ac eto, mae Duw fan yna hefyd, yn gwybod y cyfan.' Sigla'i ben yn ôl ac ymlaen fel se fe'n ffael credu'r fath beth ei hun. Does ganddo ddim meicrosgôp, ond mae ei lygaid yn treiddio i mewn i'r smotyn bach fel se fe'n fforest anferth. Fel se fe'n gwybod.

Yna, cyfyd. Ac un stop arall gawn ni, ar y ffordd adre. Yng ngoleuni'r lleuad erbyn hyn a llusern Wncwl Olfer yn ei law, dyma fe'n aros, y tro hwn o flaen coeden. 'Rwy'ti wedi clywed am y Goeden deuluol, Dic.' Mae'n syllu ar y goeden. Dw i ddim yn gwybod pa fath o goeden yw hon, ond mae'r un fath â choeden gyffredin arall cyn belled ag y gwela i. Mae e'n edrych i fyny ati. 'Gawn ni ddychmygu. Ti yw'r ddeilen fechan yna, Dic. Ti'n gweld draw, heb fod yn bell oddi wrthot ti – fi, dyna fi, y ddeilen 'na. Ac mae'r brigau a'r ceinciau fan yna ar led y goeden yn ein cysylltu ni. Popeth ar wahân; a phopeth gyda'i gilydd. Mae'n teulu ni i gyd yn perthyn ar y Goeden Deuluol, Dic, debyg iawn. Mae hon yr un fath. Edrycha mor glòs yw cymuned y goeden fawr hon. Mae'n fath o fyd bach, gyda'r ceinciau a'r brigau mân. Dyna'n teulu ni gyda'i gilydd ar bwys coed eraill.'



'Ie! A'r dail eraill hyn ar ein pwys ni,' meddwn innau, 'yw'n teulu ni, iefe Wncwl, ac yn ein cysylltu ni â'r teuluoedd i gyd drwy goeden bywyd?'

'Ie, Dic, dyna hi. Ac mae'r dail hyn fel tafodau bach yn dweud wrthon ni, Dic, rywbeth am y Greadigaeth. Maen nhw'n siarad am yr undod, ac yn datgan, "Gwranda".'

'Ydych chi'n gwir gredu, Wncwl Olfer, 'mod innau 'na hefyd,' meddwn i, 'rywle yn y canol, fel gair bach ar ddeilen fechan, lan yn y goeden?'

'Wyt. Y pethau hyn yn y golwg, bob un, sy'n dweud rhywbeth am y pethau o'r golwg,' meddai Wncwl Olfer.

Dyn fel yna yw Nwnawl Olfer ichi. Gwirionyn, ym mryd llawer, tipyn o ecsentrig efallai. Ond i fi, yn Wncwl rhyfedd i yn unig yw-e, a dw i'n dwlu gwranddo arno fe.

\*

\*

\*

Gadewch ifi sôn am un digwyddiad arall oedd a wnelo ag Wncwl Olfer.

Wrth imi ddod fel hyn ar y mhen yn hun allan o'r trê'n ym Mhontypridd, mae yn rhieni i a Keith wedi mynd ymlaen yn yr un trê'n i Ferthyr i ymweld â'r gweddill o'r tylwyth. Roeddwn i'n cael y fraint o aros eto gydag Wncwl Olfer, Bopa Magi, a'u merch Sinthia. Fel rhodd amheuthun. Ond heno, mae tri o 'ddynion' ein teulu wedi dod 'lawr ar y chweched noson i'n hebrwng i, ac i weld Wncwl Olfer, sef yw'r rheini – y nhad-cu wrth gwrs, yn ewyrth Harri, a nhad. Yn fuan ar ôl cael pryd gyda Bopa Magi, dŷn ni, y pum 'dyn', yn cael ein hel allan. 'Ma's. Dyna ddigon. Rhyw dro bach gyda'ch gilydd tra bydd Sinthia a fi'n golchi llestri heb eich bod chi i gyd dan draed.'

Dŷn ni bob un yn camu'n fras nawr, gydag Wncwl Olfer rai llathenni ar y blaen i bawb arall ar hyd ymyl y cloddiau fel llwynog, yn gosod y cyflymder i ni'r bytheiaid, a nhad-cu wedyn yn dyhyfod yn dynn ei fryst ychydig o'r tu ôl. Ar ôl milltir chwythedig iawn mae'r llwynog o ewyrth yn sefyll yn ddelw yn ei unfan ar ganol diofal gam, fel y bydd llwynog sy wedi cael rhyw fath o syndod. Mae e'n syllu ar draws y dyffryn yn ei hyd a'i led, 'Foneddigion, edrychwch,' medd e yn ei ffordd ffurfiol ond mewn rhyfeddod fel pe bai e'n annerch cyfarfod cyhoeddus, 'foneddigion, on'd yw hi'n fawreddog?

Edrychwch y ffordd yna, a'r ffordd yna. Edrychwch.' Ac mae ei lygaid yn llyncu panorama'r dyffryn. 'Mae hyn, foneddigion, yn hawlio gair o weddi gynnon ni.'

Dŷn ni'n bump yn sefyll, mewn lledgylch. Mae Wncwl Olfer yn tynnu'i het fel pe bai e'n mynd i foesymgrymu yn llys anweledig y brenin wrth gael ei urddo'n farchog. Ac mae y nhad-cu yntau, ar y mhwys i, er mawr embaras iddo'i hun yn gorfod tynnu ei gap ef hefyd, er mai tipyn o seciwlaryn Marcsaidd yw e o ran hygoledd a natur. Disgynna'n harweinydd ni nawr ar un pen-glin. Mae e'n codi un llaw o'n blaen at y nen, a ninnau oll yn sobri.

Ac mae hyn yn yn atgoffa i am stori ynghylch cynhadledd garismatig lle y daeth trefnydd y gynhadledd i mewn a gofyn, 'Pwy bynnag sy am gael coffi, wnewch chi roi'ch llaw i lawr os gwelwch yn dda?'

'Arglwydd Greawdwr!' Wncwl Olfer sy'n siarad yn awr, a 'Greawdwr a Gwardwr...! Mae nhad a'm hewythr Harri wedi cau eu llygaid yn reit sobor, a ni'r ddau arall wedi plygu'u pennau'n barchus. Ond mae y nhad-cu yn wincio arna-i. Dw i'n cnoi y ngwefusau. Mae nhad-cu bron â bwrsto. Fe yw'r tebyca i fi o bawb yn y teulu, ac yn cael sbort lle na ddylai fe byth gael sbort. 'Radical' y'i galwai ei hun. 'Tipyn o glown yw Olfer,' dyna'i farn e wrth y mam-gu am ei brawd. A dyw e ddim yn gwrandio dim oll ar y weddi hon, efallai, ddim mwy na fi mae arna-i ofn. Ond allwn ni'n pump ond sefyll yn stond ac yn barchus. Cyd-ryfeddu dŷn ni, efallai, cyd-wenu am fod y fath grair anhygoel tynnu-anadl a'r fath hoffusyn annirnadwy ag Wncwl Olfer yn cael para fel hyn yn rhydd ar hyd y lle mewn un o encilion Cymru. Ond un peth am Wncwl Olfer, dim ond ichi gael hanner awr yn ei gwmmi, mae e'n rhoi deunydd sgwrs i chi am awr wedyn.

Neu y mae'n gallu cael yr effaith a ddigwyddodd y diwrnod hwn. Dŷn ni i gyd yn sefyll fan yna fel pedwar llo (heblaw Wncwl Olfer wrth gwrs sy'n dal i bwysu ar un pen-glin) ar ochr y mynydd ymhell o bobman, heb neb o'n cwmpas ond yr unigeddau. Ac o'n hamgylch ni yma nawr mae yna filiynau o filltiroedd-goleuni, a miloedd ar filoedd o sêr, a than ein traed y manyldra anghredadwy y sylwodd Wncwl Olfer arno, a'r credu hwn ar ei ben-lin gerllaw yn awr. Draw fan yna hefyd, dacw brysurdeb Pontypridd. A ninnau'n bedwar rhyfeddwr distaw fan hyn. Ac yn sydyn dw i'n teimlo ar

hyd yn asgwrn cefn (ac efallai fod pawb wedi teimlo'r un fath) mor ofnadwy o lân yw popeth. Mor feichiog o bur yw'r awyr. Alla i ddim esbonio pam. Mor gryndodus o sanctaidd yw'r milltiroedd-goleuni eu hun. Mae'r noson mor dawel ac mor llawn o atebion. A finnau'n peidio â glaschwerthin mwyach am ben dim byd. Mae llais Wncwl Olfer ei hun wedi peidio. Ac mae'r distawrwydd hir hyd y gorwel yn berffaith yn awr gan orfoleddu wasgaru'n hael wanwyn a dawnsiau lleithder yr awyr i dasgu'r traed ynddyn nhw fel balwnau lliwgar am ein clustiau ar bob llaw. Rhyw fath o Ust o beidio a dathlu peidio yw'r drefn. Mae nhad a'm hewythr Harri yn awr yn pipian yn betrus ofnus allan o dan eu hamrannau. Mae'r tawelwch o'n hamgylch oll yn peri i bawb eu holi eu hun, 'Oes peryg o hyd? Beth a ddaw yn nesa? Ust!'

'Foneddigion, adre nawr,' cyhoedda Wncwl Olfer, a 'Bach bois! Y Cantata Coffi.'

A dŷn ni'n falch i gyd i gyrraedd yn ôl mor saff rywsut. Fe doddon ni i mewn i'r tŷ yn normal. Mae'r ymweliad hwn yn tynnu i ben.

Awr wedyn yng nghornel y trê'n ar y ffordd yn ôl i Ferthyr, roedd pawb mor ddistaw. Gofynnais innau'n ddiniwed i nhad-cu pam roedd Wncwl Olfer mor anghyffredin, pam roedd e mor dros ben llestri o ddwys. 'O! Mae e'n credu, ti'n gwybod, mewn pethau sy'n ddieithr i ni. Collodd ei fam pan oedd e'n llencyn, ac mae e wedi cael ei orfodi i wynebu pethau dŷn ni'n llwyddo i gogio nad ŷn nhw ddim yn bod. Dŷn ni'n gohirio meddwl rhai pethau mewn bywyd: os gallwn ni, byddwn ni ddim yn dilyn ambell drywydd rhy ddifri. Ond dyw e ddim yn gwneud hynny: mae'n gwybod sut mae eu dilyn nhw i'r pen. Sylwa di ar fam-gu.' (Chwaer Olfer yw mam-gu.) 'Wrth gwrs, cafodd hi'r un brofedigaeth enbyd ar y cyd gydag Wncwl Olfer, colli mam yn gynnar. Mae rhywbeth fel 'na'n gyrru plant i fyfyrion. Iddi hi, mae ei phlant ei hun yn wrthrychau iddi deimlo'r angen taer i'w tynnu nhw'n gyflym o dan adain diogelwch credu. Mae hi'n anghyffredin yn ei hanwesiad llygadog o'r teulu. Mae hi'n cwtsio pobun. Ond mae *Olfer*, pan fydd e'n cyfarfod â phobl, yn siŵr o sôn am y sêr a'r caeau a'r dodrefn a'i waith a'r teulu hefyd wrth gwrs, ond am Dduw o hyd. Mae e'n gweld rhyw bictiwr *mawr* o'r cyfan. Ond sylwa di ar mam-gu hefyd, Dic. Mae hi'n chwaer iddo fe. Sylwa di ar y ffordd mae hi'n canu ynddi'i hun weithiau. A dw i'n siŵr ei bod hi'r pryd hynny'n cofio'i mam sy wedi marw. Sylwa di ar yr emynau tawel mae hi'n eu pyncio ar hyd y

dydd, sut mae ei thraed yn ysgafnhau gyda hyn, ac ystwythder ei llun yn swingio pan fydd hi'n gwneud rhywbeth yn uniongyrchol dros un o'i phlant. Y pryd hynny, iddi hi, dyna sy'n digwydd, – mae ei mam hi (a mam Wncwl Olfer) yn dod yn ôl i'r co atyn nhw rywsut, ac mae Duw yn ei hymyl hi y pryd hynny.'

Ac felly y byddai Wncwl Olfer yn dirion yn lledwenu yn ein co, ond yn wylaidd. A sylwais i ar y pryd ar ryw ryfeddod yn acen lleferydd y nhad-cu ei hun hyd yn oed, y seciwlaryn mewnblyg hwnnw sy'n briod â'm mam-gu anhunanol a thawel, – nad own i ddim wedi sylwi arni o'r blaen, – fel pe bai e, – fe o bawb, – wedi canfod rhywbeth mawr y tu allan, oedd y tu hwnt i'w ddeall.

#### IV

Ga-i sôn am un noson. Fe geir ambell noson neu ambell ddydd golau pryd y mae bywyd yn newid popeth byth wedyn.

O'r diwedd roedd hi'n bedwar o'r gloch y bore, ac yn bryd i'r awyrennau Almaenig swnllyd uwchben fynd.

Drwy'r nos, er y mod i'n un ar ddeg oed bellach ac yn dipyn o lanc, rown i wedi crynu, fel fflam kannwyll ar fin diffodd. Doedd yr un o'n teulu ni wedi cael cyfle i gyrraedd ein noddfa Anderson danddaearol yn yr ardd mewn pryd y noson honno, gan mor ddiweddar y daeth y larwm i ddiuno pawb. Ac roedden ni'n tri – mam, y mrawd, fi – wedi swatio fel cwningod, a chrynu yn y twll dan y grisiau am oriau.

Ar y pryd, roedd y nhad wedi mynd allan o'r tŷ oherwydd bod galwad wedi dod i drafod rhyw danau bach gerllaw yn ystod cyrch gan awyrennau Almaenig.

Dw i ddim yn gallu cofio'r fath ofn erioed, na chofio erioed chwaith ddirgrynu mor fabiaidd, y tu hwnt i bob rheolaeth. Hyd yn oed yn awr y mae yna chwys rhewllyd hyll drosto-i wrth feddwl am y peth. Mor rhewllyd oedd yr awyr nes dileu pob peth yn y meddwl i ar y pryd, ond un peth yn unig: cryndod.

Wedyn, roedd hi'n ymddangos fod popeth wedi gorffen. Mae'r seiren bopeth-yn-glir wedi seinio'i hundon oediog ers hanner awr, a phawb o bobl y gymdogaeth wedi

cripian allan i sbecian ar ei gilydd yn anghrediniol. Maen nhw'n sibrwd ac yn dal i grynu, a'u llygaid yn dal i bopian yn eu pennau. Hyd yn oed pan fyddan nhw'n gweiddi mewn egwyl 'Popeth yn iawn?' ar draws y ffordd at ei gilydd, rhyw sibrwd gweiddi y maen nhw, fel pe baen nhw wedi bod yn bresennol ar ganol digwyddiad dwys ac arallfydol, nad oedd i fod ar y ddaear hon. Doedd neb yn chwerthin rhag cadw sŵn. Roedd pob wyneb yn llwyd. Roedd yna liw rhyfedd ledled yr awyr hefyd.

Ond yn ara deg mae'r hyder yn tyfu. Ymwthia bywyd ac ychydig o lonyddwch allan o'i guddfa: rhyw wthio tafod bach fel deilen allan i ddechrau fel sarhad meddyliol i'r cwbl, ac yna ei ffurfio'n flagur, ac wedyn blodeuo'n hwyliog ddidderbyn. Ac mae ambell un yn lled chwerthin ychydig bach yn uwch, ond yn nerfus; hynny eto fel pe baen nhw'n ofni cael eu dal, rhag ofn y byddai'r bomwyr Almaenig yn debyg o droi'n sydyn ac ymlusgo'n ôl a mynd yn grac wrth feddwl ein bod ni'n eu gwatwar nhw. Bydden nhw'n troi'n ôl mewn dicter i'n lladd ni i gyd, pe caen nhw gyfle. Doedd bywyd ddim yn normal.

Mae Mrs Banwell dros y wal drws nesa bob amser yn arfer clebran yn gyflym, wrth gwrs, fel pe bai corgi wrth ei chynffon hi; ond heno y mae ei llais hi'n rhedeg-siarad yn rhy gyflym i neb ohonon ni feddwl ei dal hi byth.

Dw i ddim yn siŵr beth oedd y peth gwaetha ynglŷn â'r cyrch yna heno, o leia yn rhan gynta'r nos. Doedd dim amser gynnon ni i gyrraedd yr Anderson yn yr ardd mewn pryd. Eistedden-ni yn y cwtsh dan y stâr gan ddal yr ystlysau'n dynn, mae'n debyg, a disgwyl wedyn ar hyd llinyn tenau tenau o chwiban hir yn ein clustiau am bob bom... am y ffrwydrad a ddôl y tu hwnt i'n rheolaeth, am bellter neu agosrwydd y ffrwydrad, ac yna hwnnw'n dod yn sydyn a datod y nerfau disgwylgar i gyd yn y pen draw. Na, na, nid hynny'n unig, ond y Cysgodion tywyll yna'n croesi llawr y stryd mor ddu dan olau'r lleuad, efallai. Roedd nhad wedi dod yn ôl un tro i sicio bod pawb yn iawn ac wedi gadael drws y ffrynt led pen yn agored wrth iddo redeg allan gyda Mr Banwell i ddiffodd y tanau bach a oedd wedi dechrau o gwmpas y byrddau hysbysebu uchel sy rhwng tŷ ni a'r ffordd fawr ar ben yr heol. Ac wrth i ninnau, y mrawd a fi, gwrcydu yn y fan yna, a phipian allan y mymryn lleia o'r cwtsh i'r stryd, ar hyd y coridór, drwy ddrws y ffrynt agored, gwelem Gysgodion enfawr yr Almaen yn hercian

uwch ein pennau ar draws y stryd y tu allan, fel rhes o nosau bach o fewn Nos fawr hyd y llawr; un noson swnllyd dywyllach ar ôl y llall. Dyna'r peth gwaetha. Fe'u cofiwn o hyd: y Cysgodion. Saif ein tŷ ni ar yr union linell o'r de i farics-y-ddinas a oedd hanner canllath i'r gogledd. Mae'n rhaid i'r bomwyr ymosodol basio uwch ein pennau ni yn union i gyrraedd y barics ac anelu ato. Ar draws llawr diniwed ein stryd roedden nhw'n tynnu'u Cysgodion hir yn ddu bitsh ac yn ddychryn. Fel bwystfilod blewog tywyll agos a thew yn ymgripian yn benderfynol ac yn isel dros yr heol, fel yna y gwelen ni nhw oll ar eu hald wrth iddyn nhw nesáu at eu hysglyfaeth fud yng ngolau'r lleuad. Nhw oedd y peth mwya bwystfilaidd welson ni erioed, y plant yn ystod y rhyfel.

Ond beth... beth pe bai un o'r Cysgodion blewog hynny, hanner ffordd ar draws yr heol, wedi troi ei ben a'n gweld ni'n tri yn gwafr i gyd yn y twll dan y grisiau, a chripian i mewn aton ni i gadw'n dwym? Cysgodion ysglyfaethus oedd y rhain, a gwaed du'r nod a oedd yn eu meddyliau, yn rhedeg o'u cegau. Wedyn, clywen ni'r Cysgodion hynny'n ubain: yr ubain main maith yna sy gan adenydd-y-bomiau, mae'n debyg, ubain ara sy'n ei ddal ei hun yn ei ôl am ychydig, fel pe bai'n eistedd ar ei goesau ôl am ryw ennyd cyn llamu'n llym ar y tai ag un rhuad dirfawr terfynol. Dw i'n clywed ac yn ailgwywed ac yn trydydd clywed hwn byth, ac mae'n dod â gwyll dwfn a dirgel y fforestydd o rywle yn ôl i'n cartre ni bob cynnig. Myn rhai pethau beidio â mynd.

Yna, wrth gwrs, clywen ni'r drylliau bach Cymreig. Ni'r Cymry, meddyliwch. Ni'r bychain sy wrthi o'r diwedd, yn ceisio malu'r Cysgodion mawr. Bob amser ar ffurf peswch ffwdanus pwysig hwyr cwta, bob amser yn methu â charthu'r gwddwg, bob amser yn ymddiheuro am gadw sŵn, a'r mwg hallt wedyn yn ein ffroenau a'n llygaid, trymder tew a thriaglog yr awyr a'r Cysgodion, a'r distawrwydd ysol, llydan, a marw yna fel petai ar ôl pob bom... A mam ar ein pwys ni'n dau.

Yn y twll dan y grisiau roedden ni'n dri alltud bach – mam, Keith, a fi. Er ein bod yn ein cartre ein hun, roedden ni'n alltudion dieithr hefyd ar ynys dywyll, nage, ar long sigledig, heb sadrwydd i'r llawr dan ein traed, ar damaid o ystyllen; ac o'n cwmpas ni hyd at orwel nas cyrhaeddai'n llygaid byth, yr oedd yna fôr du diderfyn o nos, môr ara o nos sigledig yn y gwagle. Ac ar draws y môr hwnnw, oddi wrth y môr hwnnw yn wir,

yn gyson lac ac yn drymllyd, roedd 'na Gysgodion bygythiol braw yn suddo amdanon ni ac am y barics.

Ond os oes peth ansicrwydd ynghylch pa un o'r holl daran-seiniau brawychus oedd y dychryn penna unigol yn rhan gynta'r nos honno, does yr un amheuaeth ynghylch un uchafbwynt atseiniol yn y cyrch i gyd. Digwyddodd tua hanner awr wedi tri. Cawr-o-fom (land-mine) oedd yno a siglodd bopeth. Yn gynta, clywson ni un ffrwydrad brawychus ac aruthr ar bwys, ryw ddau ganllath a hanner i ffwrdd. Rywsut fe'n clymwyd ni'n tri ar unwaith yn un belen o ddirdyniad yn ein gilydd. Ar y llawr o'n blaen ac o'n cwmpas roedd gwydr wedi ymddangos o bobman fel conffeti megis o'r ddaear. Chwythwyd y ffenestri i gyd allan. Doedd dim un llygad gan y tŷ: fe'i dallwyd e oll. Yna, cafwyd tawelwch diffenest. Neb yn symud. Y tŷ ei hun yn ofnus. Y waliau i gyd yn disgwyl eu tro... disgwyl... A allai gwaeth ddod arnon ni? Disgwyl..' Gallai. A daeth: ffrwydrad dirfawr arall, ergyd aruthr megis gyferbyn â ni, er nad oedd mor hollol agos â hynny. Sbiais allan o'r twll dan y grisiau, a gweld – o bethau'r byd – garreg fedd. Carreg fedd wen yn tŷ ni! Wedi cael ei chario gan y blast drosodd o'r fynwent gyfagos, drwy'r to ac i lawr i'r ystafell-orau fel dant creadur cynhanesyddol enfawr! Carreg fedd o ddieithryn ofnadwy wedi ymsefydlu 'na yn yr ystafell ffrynt fel pe mai hi oedd biau'r lle. Roedd hi yno fel pe bai wedi bod yno erioed, wedi'i hanfon gan y fynwent sy ganllath i ffwrdd.

A hi wrth gwrs bellach oedd biau'r lle heno. Daethai drwy'r awyr o hen fynwent y ddinas i'n tŷ ni. Ar y pryd, doedd dim modd syflyd o'r twll dan y grisiau. Disgwyl eto. Disgwyl. Dim byd arall yn dod. Dim. Dim. Dim. Fel marwolaeth.

Yna, bum munud arall, a daeth llais hyfryd. Roedd dad wedi dychwelyd, a gwên ar ei wyneb. 'Dic! Ti sy wedi bod yn casglu cerrig-beddau? Rown i'n meddwl mai casglu stampiau oedd dy hobi di. Wel, allwn ni ddim... symud hwn tan y bore.' Ac allen ni ddim ein hunain, heb help swyddogol, symud dim oll o'r anghenfil hwn am ddyddiau. Ceisio gwneud jôc roedd nhad. Drwy gydol y rhyfel, os oedd smicyn o chwerthin weithiau, fel sy'n gorfod bod yn ystod blynyddoedd o dristwch, chwerthin nerfus oedd. A llais dad oedd hyn, yn llefaru efallai o ran nerfusrwydd o fewn yr adfeilion. A gallen ei weld e wedi cydio yn y garreg fedd honno ac yn anobeithiol geisio ei syflyd fodfedd.

Codon ni'n tri ac ymuno ag e. Syllon ni'n tri ar y difrod eithafol yn yr ystafell. Druan o mam, a'i dwstio i gyd!

Ac yna, cusanu'n gilydd yn wyllt wnaeth y bwndel oll. Roedden ni'n fwndel crynedig o gusanau.

Aethon ni allan wedyn i'r stryd i weld sut oedd pawb arall yn ymdopi ac i ymwarded â chyfyngiadau clawstroffobig ein ffau ein hunan. Roedd pawb yno yn od iawn eisiau cyffwrdd â'i gilydd. Ac yna roedd rhywrai chwilfrydig yn dod draw i'n tŷ ni i weld y garreg.

Ond gan mor arswydus oedd y pwysau yn yr awyr erbyn hyn, meddwl roedden ni'n tri wedi'i wneud, drwy'r nos, am un peth, heb ei ddweud wrth ein gilydd, un gair syml – heddwch, he-ddwch, hedd-wch. Meddwi am y gair cudd ac annwyl hwnnw. O! Gallen ni flasur gair hwnnw, un gair unig ansicr, a phrudd o fewn yr iaith.

Roedd caethiwed hiraeth ofn wedi disgyn arnon-ni, yn ystod y cyrch hwnnw yn anad yr holl gyrhoedd a fu yn ystod y rhyfel, a phawb yn gynnwl ond yn benderfynol yn cusanu'i gilydd yn achlysurol wedyn. Roedd rhyfel wedi tynnu pawb at ei gilydd. Yn y gwyll diderfyn, i ni'n tri yn y cwtsh yr oedd hyn wedi digwydd y noson honno. Wedyn, dyma dad o'r diwedd yn dod i'r tŷ, ac roedd pawb yn ddiogel. Nid yn ein tŷ ni yn unig yr oedd y rhyfel wrth gwrs wedi dod yn agos iawn y noson honno. Cawson ni bawb ar hyd y stryd brofi neithiwr, yng nghornel pob tŷ, beth oedd arswyd anifeilaidd: y peth hwnnw ar ryw olwg a barodd i'r blynyddoedd hyn beidio â gadael i ni'r ddau frawd gael plentyndod go iawn o gwbl.

Ac yn awr mae hi'n chwech o'r gloch y bore, yn bum munud wedi chwech mewn gwirionedd erbyn hyn. Noson ddi-gwsg hollol fyddai hon ar ei hyd. A phwy a wela-i'n rhodianna ar hyd yr heol yn jôcos i gyd aton ni ac yn cicio pêl fel pe bai hi'n ganol dydd golau ym Mharc y Rhath, ond Twmi. Twmi anghyfrifol, dwl, bychan, blêr. Y nghefnder a'n ffrind i.

Mae e'n gofyn i mam a ga i fynd gydag e i wylled y dynion-tân yn symud yn y tai a'r siopau a'r sinema a oedd wedi cael eu taro, adeiladau heb fod yn bell iawn oddi wrthon ni. Pe bawn innau'n ei ofyn iddi yn blwmp ac yn blaen fel yna, bysai hi'n ebychu



'Na' ar ei phen: 'Dw i eisiau iti fod yn saff.' Ond Twmi oedd Twmi, ac yn drwm ei berswâd. 'Wel, peidiwch â bod yn hir,' meddai mam yn ffwndrus fentrus gan fod yr holl gymdogaeth erbyn hyn yn cerddetian yn ôl ac ymlaen lond yr heol yn hy ac yn siaradus ac yn gyffrous ac yn methu â chysgu, heb fod neb yn gallu ailymaflyd mewn diwrnod byw arall eto. 'Ac er mwyn dyn, Dic a Twmi, byddwch yn garcus. Peidiwch ag anturio'n rhy agos i unrhyw beryg. A pheidiwch â mynd yn bell.'

'Ga innau fynd hefyd?' gofyn y mrawd.

'Na chei.'

Dw i'n dianc yn ddiymdroi i ffwrdd, ar ôl i mam gribo ngwallt, rhag ofn iddi newid ei meddwl. 'Diolch mam!'... Mae mam yn gallu bod mor haelfrydig a chydymdeimladus a chall ambell waith.

Dŷn ni'n ymadael â'n stryd ni ac yn mynd allan i'r lôn fawr. Yn ein hannibyniaeth, dŷn ni'n rhodio'n benuchel ddewr gan syllu ar liw pinc y cymylau uwch ein pennau, ac uwch y tanau, a chan anadlu mwg llym swlffuraidd main. Mae yna bobl ym mhobman fel pe baen nhw ar gyrch siopa Nadolig ond bod y siopau i gyd ynghau a llawer wedi colli'r ffenestri. Cyn bo hir, dŷn ni'n cyrraedd tyrfa sy wedi ymgasglu i sbio'n gynhyrfus ar goelcerth o dai. Mae siâp y bobl a siâp y tai i gyd yn gliriach yn y fflamau nag y buon nhw erioed o'r blaen, ac ymylon caled golau achlysurol gan bopeth.

Mae pawb yma'n llawn edmygedd cegagored o'r dynion tân i fyny acw. 'Edrych ar hwnco, draw fan 'na ar ben yr ysgol, yn hwylio fel angel dros ben y tŷ.'

'Edrych ar y rheina te, fel petaen nhw'n neidio i mewn i ddannedd y fflamau.'

Roedden nhw oll fel dynion syrcau. Mae'r nos i gyd yn olau, amser blacowt.

A allai peth fel hyn ddigwydd mewn lle cyffredin fel Caerdydd?

Mae'r cwbl yn debyg odiaeth i ddiwrnod Guto Ffowc, diwrnod sy bob amser yn rhoi'r argraff mai dathlu buddugoliaeth y gŵr bonheddig hwnnw gynt a wna wrth iddo fe lwyddo yn ei gais ystyriol i losgi peth o'r Senedd, a hynny'n syml chwerthinog er mwyn y fraint gyffrous o'n diddanu ni un diwrnod bob blwyddyn. Mae Twmi a fi heno, o leia, yn teimlo ein bod ni ar ganol anturiaeth aruchel anhysbys. Ac o'n cwmpas ni mae

tipyn o rialtwch straenllyd, a hwyl pobl sy wedi ymgynnull i wylid, yn nerfus, y rhyfeddod anghyffredin ofnadwy hwn o noson.

Mae un plismon tew wedi ymlwybro draw aton ni'r dyrfa dynn, ni sydd wedi'n parlysu ryw ganllath a hanner o'r llogfa, ac mae e'n siarad â hen wr yn y rhes flaen. Dweud y mae e y dylen ni i gyd sefyll ymhellach yn ôl. Dw i'n sylwi'n awr, ochr yn ochr â thair injin dân, fod yna ambiwlans ar bwys. Llithra rhyw fath o su bellach yn gymysglyd o glust o glust ac o galon i galon o gyfeiriad y plismon... fod holl deulu'r Doyliaid wedi'u difa. Y Doyliaid! Byth! Y teulu cyfan!

Dw i'n cofio unwaith gael yng nghosbi'n dost oherwydd Hannah Doyle. Roeddwn i'n bump a hanner oed ar y pryd ac yn torri papur lliw â siswrn yn y dosbarth, ychydig cyn Nadolig. Gorffennais i'r dasg osodedig yn gyflym. Ac yn awr, chwiliwn am rywbeth amgenach i'w wneud â'r siswrn. O mlaen eisteddai Hannah deg, a'i dwy bleth hirolau yn gorffwys yn hardd ddeniadol ar y ddesg, fel meddwl meddal yn sribyn ar y nesg i o leoedd y byd. Cydiais yn dyner ysgafn yn y llywethau cyfrin hyn a thorri un i ffwrdd yn ddistaw ddeheuig chwim. Gallai hi sbario un bleth doedd bosib. Yn sydyn, sylwodd Hannah'n wyllt orffwyll ar y ngweithred, a rhedeg â'i chalon a'i llygaid gwlyb a'i siom i freichiau'r athrawes, ond yn rhy hwyr. Yn rhy hwyr.

Drannoeth troediodd y tad anferth, y cigydd cyhyrog, i'r ysgol. Ac o ganlyniad ces i ngwysio'n ddi-lol gerbron y brifathrawes, – nid am y tro cynta ac nid am y tro ola – a nghuro'n sadistig ganddi nes mod i'n wylo'n hidl o flaen yr ergyd.

Dyna y ngho, y mhrif go, yr unig go am Hannah Doyle. Hyd at y digwyddiad hwnnw, hi fu y nghariad i, o leia fel y bydd cariadon yn bump a hanner. Ond erbyn hyn, yn ddiweddarach, noson y cyrch awyr, nis gwelwn ers blynyddoedd, gan imi symud ysgol ryw filltir i ffwrdd chwap ar ôl y ddamwain gyda'r gwallt. A heno, mae yna gyrch awyr eithriadol o ddistrywiol wedi ymweld â Chaerdydd. A heddiw mae'r cigydd mawr ofnadwy hwnnw a'i wraig a Hannah hardd, ill tri, yn farw gorn. Ie, a'r gwallt melyn yna, trwchus fel cwstard gynt, y breichiau bach tew cochlyd, a'r llais (melys fel gwefus), y cwbl oll yn gwbl wenfflam, a'r bochau cochion esmwyth yn lludw mân mân.

Chawson ni'r plant ar y pryd ddim plentyndod go iawn am chwe mlynedd.

Ara a naturiol yw tyfiant plant mewn heddwch cymharol; ond cyflym alaethus yw gweithredoedd a thw'r un plant mewn rhyfel. Mae rhyfel yn eu meddiannu nhw.

Ac yn arbennig y noson honno. Dw i a Twmi yn syllu'n syn ddiddeall ar ein gilydd noson y cyrch. 'Hannah!' Mae wynebau hir a dagreuol gan bawb o flaen tŷ'r Doyliaid. 'Gwell i fi fynd adre at mam,' medd Twmi'n ddifri.

'A fi,' medda-i. 'Mae'n ddrwg 'da fi,' meddwn i'n dwp wrth atgo cydwybod yn yr awyr a hedai'n obsesiynol o amgylch y mhen, ac wrth y cerrig syrthiedig o'n blaen lle bu tŷ'r Doyliaid. Mae rhyfel wedi gafael yn ein gyddfau ni heno. Mae fel pe bai'n llwyddo ynon ni.

Dŷn ni'n ffarwelio â'n gilydd yn awr heb ddweud un gair mwy. Mae Twmi'n edrych yn gyhuddgar arna i, a finnau'n gwgu'n ôl arno fe. A dŷn ni'n cerdded adre a'n pennau'n isel fel ditectifs, a'r miri i gyd wedi'i sbwyllo. Ddylen ni ddim bod wedi dod. Nid ein lle ni oedd sbio ar noethni'r fflamau a noethni'r cerrig yn syrthio ar noethni'r tywyllwch y tu ôl i farwolaeth pobl eraill. A'r tu ôl i ni, roedd ofn yn dilyn, fel ci Annwfn.

Fe welon ni fod rhywun wedi paentio sgrechair mewn coch ar y palmant hanner ffordd i fyny'r rhiw: 'HEDDWCH AR UNWAITH.' Ceisien ni osgoi sarnu ar y llythrennau diystyr. Llifai drosto fôr diwrthdro o hiraeth. Hiraeth gwallgo ac anghyraeddadwy. Hiraeth naif a llidiog. Hiraeth amhosibl. Pam roedd rhaid i rai pobl sgrifennu pethau di-glem fel yna? Ac eto, alla-i ddim meddwl nawr am ddim ond am yr hiraeth aruthr hwn am heddwch. Mae yna ormes afreolus o hiraeth arna i y dydd hwn, – fel ar bobl eraill, – yn yn llethu i yn yn llwnc, yn y moddi. A dw i wedi cael y nghau i mewn heb ganfod yr un ffordd allan o'r ogo hon. Wrth ddringo'r rhiw a'r hewlydd wylofus yn ôl tua thre, dw i'n yngan yr un gair o gwestiwn drosodd a throsodd: 'Pryd?' 'Heddwch?'

Mae pawb yn ymddwyn yn wahanol i'r naturiol mewn rhyfel.

Hawdd yw gofyn bendith o fewn rhyfel fel o flaen cinio, ond mae'r pryd caled sy o'n blaen yn awr yn sticio yn y llwnc. Y funud yma dyw heddwch ddim yn bod yn y nychymyg ond fel peth tywyll mewn bocs clöedig; neu fel llyn mawr tawel mewn twll

rhy fach lle dw i'n cyrchu am wyliau amhosibl nawr, yn wastadedd o ddŵr solet enfawr gyda'r heulwen yn ddi-baid o'i amgylch a'r diwrnodau tal a digyfri yn ddawns rithiol yn ei ganol, mewn twll tywyll. Mae popeth yn abnormal. Nid absenoldeb rhyfel yn unig yw peth fel heddwch yn y meddwl i bellach. Aderyn euraid afreal ei blu gwyn ac annwyl yw, ond twyllodrus ar gangen o olud y byd. Mae yna gân gan yr aderyn hwn, wrth gwrs, ond heb fiwsig. A hynny i gyd yn ddiogel ddwfn nawr mewn twll. Ac felly mae'n hollol ddigyrraedd a heb ystyr. Yn farw. Yn guddiedig, yn anhygoel, yn gwbl amhosibl, fel pob dim arall yn y byd. Yn debyg i Hannah fach druan.

Dw i ddim yn hoffi anturiaethau. Dw i'n ysol awyddus nawr i gyrraedd adre heb anturiaethau... A mam.

Cyrhaedda-i'r gegin. A'r fan yna cydiwn ni'n bedwar yn nwylo'n gilydd, nid am y tro cynta, a chrio chwerthin, chwerthin grio hyd at ddaagrau mawr nes nad oes dim o'r chwerthin na chrio ar ôl, i neb. Ond does neb yn gallu cysgu.

## V

Er bod gen i lot fawr o ffrindiau – Gwyn, Twmi, Rhisiart, Josh, (a mrawd Keith mewn ffordd o siarad), – ac er ein bod ni oll yn cael hwyl gyda'n gilydd, mae yna un peth arbennig dw i'n hoffi'i wneud ar y mhen yn hun. A hynny yw cerdded ar hyd glan y gamlas yn ddi-gwmni. Dw i ddim yn gwybod pam, ond mae'n lle da i weld ac i wrando ar adar. Mae'n lle diddig, ac yn dipyn o ryfeddod. Yn y fan yna hefyd mae'r meddyliau'n cael crwydro'n rhydd, a dw i'n hoffi gadael iddyn nhw fynd ac ymdroi gyda'r dychmygion. Dw i'n hoffi eistedd ar lan y gamlas a phendroni, a darllen llyfr weithiau.

Bydda i'n hoffi i'n meddwl i gerdded yn rhydd o gwmpas pob math o bosibiliadau. Gan amla, mae'r rheini'n hyfryd ac yn hapus. Ac maen nhw'n cyrchu i bobman. Yn fynych fynych dw i'n meddwl mor dda yw byw. Ac am na fydda i'n mynd am dro fel arfer yn y glaw, mae'r atgofion sy gen i am y troeon hamddenol a'r crwydradau addfwyn hyn yn ddi-fai o braf. Mor llawn a chofleidiol yw bywyd. Weithiau ar y mhen yn hun. Yma dw i'n dydd-freuddwydio.

Ac un peth y bydda-i'n hoffi meddwl amdano, yn wastad. Mae'n fath o freuddwyd ar ddi-hun. Dw i'n gofyn i fi yn hunan – 'beth wyt ti'n meddwl yw'r peth gorau yn y byd a allai ddigwydd?' Gêm yw hyn, wrth gwrs; ond mae'n bleser i'r dychymyg. Gall gynnwys hedfan mewn awyren, neu ddringo Eferest. Pob math o ddwli.

Ond nid bob amser. Ambell waith, gall pethau droi o chwith, hyd yn oed i'r dychmygion mwya di-drefn. Fel yr un ges i Ddydd Llun diwetha. Dechreuais i feddwl beth oedd y pethau *drwg* allai ddigwydd i fi. Fe adewais i i bendramwnwgl o ddychmygion gripian i mewn i'n meddwl i. Roeddwn i felly ymhell iawn o realiti, mewn lleoedd nad oeddwn i wedi bod ynddyn nhw o'r blaen, ... yn crwydro o gwmpas y nychymyg. Wrth gerdded, bydda-i weithiau'n yn ngweld yn hun a phawb arall o'r teulu yn byw bywyd arall mewn stori fach: 'beth petai...?' Lled freuddwydio felly, am y rhai agosa ata-i, ganol dydd golau, beth allai ddigwydd iddyn nhw. A dŷn ni fel petaen ni'n ymweld â'r lleoedd mwya anghyffredin ledled y wlad a'r byd, mewn sribyn o ddychymyg.

Ond y Dydd Llun diwetha wrth ymweld â glannau'r gamlas, y cwestiwn a ofynnais i fi yn hun – o ran direidi neu ddrygioni yn unig: nid beth oedd y peth gorau a allai ddigwydd i fi, ond *beth oedd y peth gwaetha oll a allai ddigwydd?* Wrth eistedd fan yna ar lan y gamlas leol, doedd neb arall i'w weld yn unman y diwrnod hwn. Ac rown i eisoes yn drist ac yn ddigalon am ryw reswm. Wedyn, rown i'n ceisio meddwl beth oedd y trychineb mwya diflas allai ddod i'n rhan i. A heddiw, y dychymyg ar lan y gamlas ddychrynlyd ddaeth i mi oedd – mam a nhad yn marw... ac ar ôl hanner awr arall, olygfa arall wahanol o dristwch, mam a nhad yn gwahanu.

Ac felly y bues i'n dilyn y nhrempyn o ddychymyg o gornel i gornel ar hyd camlas y Waun, drwy byliau o brudd-der. Pa fath o olygfa oedd hyn? Beth wnelwn i?

Y gwir yw na allai nhad a mam byth wahanu. Does neb yn y byd mor hapus â nhw. A hyn oedd y freuddwyd drista felly ges i erioed yn y myw. Pam? Beth wnaeth i nychymyg fynd i'r cyfeiriad yna? Chafodd nhad a mam byth un cweryl. Dim un gair croes.

Dyma mewn gwirionedd ddylai fod wedi bod yn ddiwrnod hapusa i mywyd. Nid yn unig mae'n wyliau, mae'n ben-blwydd hefyd; a finnau'n ddeuddeg oed bellach.

Rhwng cwsg a di-hun, sut bynnag, wrth syllu i mewn i ddŵr y gamlas, ces i fod y nychymyg i'n y nghario ar y lan i bwll na alla-i fyth ei ddisgrifio heddiw ond fel pwll tywyll seicolegol. Dyna'r dychymyg enbyd. Roedden nhw wedi'u gwahanu, yn rhieni i.

Y diwrnod rhyfedd hwn o dychymyg, addawodd mam y caen-ni fynd i weld ein tad. Y peth cynta wnes i yn y nychymyg cyn brecwast oedd sleifio allan i'r alai sy ar bwys tŷ ni, dringo drwy'r sietyrn pren o gwmpas tir wast yr eglwys, a smocio a smocio heb fod neb yn gwybod. Wedyn, sugno mintysen. Hyn oll yn y nychymyg.

Bues i'n edrych ymlaen at y diwrnod hwn ers tri mis, byth er pan ddwedodd mam fod dad wedi mynd i Stoke-on-Trent a doedd e ddim yn mynd i ddod yn ôl. Esboniodd hi bopeth i ni. Eglurodd eu bod nhw ill dau wedi cytuno'n heddychlon rhyngddyn nhw a'i gilydd i fod ar wahân. Doedd dim cweryla. Ond doedden nhw ddim yn caru'i gilydd mwyach yn y freuddwyd effro hon. Dyma gyfnod pryd roedden ni'n dau, y meibion, yn cael byw gartre gyda mam, wrth gwrs, ond caen ni hefyd fynd yn ein tro i Stoke weld y nhad bob trimis. Fe oedd yn talu am ein magwraeth gyda mam, ddwedodd hi. Byddai fe hefyd yn cynorthwyo mam gyda pheth tâl iddi'i hun. Gwnaethon nhw hyd yn oed gusanu'i gilydd wrth ymwahanu. Doedd dim sterics na dim gweiddi na dim amlwg rhwng mam a nhad yn y nychymyg i. Ond roedden nhw hefyd wedi cyd-sefyll fel dau asgwrn caled gyferbyn â'i gilydd, ac edrych yn galed. Dyma fi heddiw felly wedi dychmygu'r peth gwaetha allai ddigwydd i fi. Dychymyg oedd y cwbl. Ond unwaith rown i wedi cael y dychymyg drwg hwn, fe aeth y meddyliau i ar ei ôl o hyd fel helwyr ar ôl llwynog.

Ar y pryd, pan ddigwyddodd, fe es i'n stafell wely, a gwrthodais i ddod oddi yno am dri diwrnod. Nid fel hyn y buodd hi gyda mam a nhad erioed o gwbl pan oedden i'n iau. Ar y dechrau, dw i'n cofio, roedden nhw wedi dotio at ei gilydd gymaint. Adwaenid nhw gan bobl y naill yn ôl enw'r llall weithiau. Gŵr Elsi Abercannaid oedd y nhad. A Mrs Henri V. Jones oedd mam.

Roedd y mrawd i'n haeru y mod wedi crio a chrio. Ond does gen i ddim co am ddim ar y pryd, ond am eistedd yn stond yn y gwely a chyfri'r blodau ar y papur wal. Er na allwn eirio'r peth, roedd problemau lawer yn y nirdynnu. Pam na allai pobl fod yn ffyddlon i'w gilydd? Pam na allen nhw gymryd priodas o ddifri? Faint o hyn oedd yn digwydd? Beth yw cweryl go iawn ond ogfaen i hogi cusan arno, a dod yn ôl? Pam na allai priodas fod yn gyplysiad parhaol glân y gellid dibynnu arno'n wrthrychol mewn harddwch a gostyngeddwydd, mewn meddwl a maddau? Pam roedd pawb mor falch? Ond ddwedais i ddim byd wrth mam... Roedd hyn oll yn drysu 'nychymyg.

Po fwya y byddwn i'n dychmygu hyn o stori, dyfnach a dyfnach y byddwn i'n suddo o'r tu fewn iddi. Dw i ddim yn hoffi storïau.

Methu â charu'i gilydd roedden nhw erbyn hyn, meddai mam. Dyna'r cwbl. Roedd y peth yn hollol naturiol ac yn gyffredin, on'd oedd? Doedd dim disgwyl i mami a dadi fyw'n anhapus yng nghwmni'i gilydd, nac oedd Dic bach? Roedd hi'n hollol syml. Ar y pryd, mi fyddai mam yn hoffi parablu'n braf ac yn hwyliog drwy'r dydd, ond pan ddôi dad adre o'r gwaith nawr roedd ei cheg wedi cau'n glep. Roedden nhw fel pe na baen nhw ddim yn nabod ei gilydd o gwbl. Eto, dau asgwrn diarth oedden nhw yn gwybod gormod am ei gilydd. Dychymyg a dychymyg.

'Does dim pwynt i mami a dadi fynd ymlaen fel hyn, nac oes?'

Mami a dadi wir! Mam a dad oedden nhw bob amser erioed i mi. Beth oedd y maldod yma? Penderfynais i na byddwn i byth yn priodi. Doedd y ffilmiau ddim yn wir. Yn hanesion dychmyglon yr actorion hynny yn y sinema roedd un ac un yn jocan bod yn ffyddlon bob amser ac yn gyflawn i'w gilydd, gant y cant; ond roedd pawb yn gwybod doedd hi ddim yn wir, go iawn. Roedd pawb yn gwybod bod y merched pert yna bob un wedi priodi ryw bedair neu bump o weithiau, a doedd y dynion cyhyrog chwaith ddim mymryn yn well. Actorion ffug ac anwir oedd pawb arall yn y byd real. Na, down i ddim yn mynd i briodi. Tipyn mwy o hwyl fyddai byw ar y mhen yn hun, a mynd allan i'r pictiwr's pryd y mynnwn, a phrynu siocled heb ddim cweryla â neb.

Fuodd mam a dad, dybiwn, erioed mor gytûn â phan oedden nhw ar wahân.

Felly yr ymddygai creulondeb y nychymyg i nawr. Daethai celwydd yn

ddirfodol.

Eto, mae'n siŵr fod dad heddiw yn y nisgwyl i yr un mor frwd ag dw i'n disgwyl amdano fe. Dyma ni ar y daith i Stoke. Dw i'n edrych ar yn wats bob hanner munud ac yn sbio allan drwy'r ffenest er mwyn chwilio am ffin Lloegr. Mae'r mynyddoedd wedi diflannu nawr, ac mae hynny'n arwydd da. Alla-i byth ddweud wrtho fel dw i wedi gweld ei eisiau, ond bydd e'n deall, mi wn. Rhyw ddrych ifi fydd e, a'i hiraeth mor glwyfus ac mor gyson ac mor gras â'n hiraeth i.

Dacw fe ar lwyfan Stoke yn disgwyl am i'n trêni ni gyrraedd. Na, nid fe yw e, ond dyn yr un ffunud ag e. Yr un siwt yn union. Yr un taldra. Yr un traed mawr. Roedd hi'n hawdd gwneud camgymeriad. Doedd e ddim ar y llwyfan o gwbl. Doedd dad ddim yno.

Na; yn ei dŷ y byddai dad, os dw i'n ei nabod, yn 147 Wolverhaptan Crescent, Stoke on Trent. Bues i'n dychmygu lawer tro sut le oedd hwnnw. Yn y fan yna y byddai dad, siŵr i chi. Bydd e'n paratoi pryd i ni, ac yn edrych allan drwy'r ffenest bob munud. Doeddwn i ddim wedi disgwyl tŷ mor helaeth a chrand â'r un welais.

Cura mam yn gynnwl ar y drws, ond does neb yn dod am ychydig gan fod dad wrthi'n palu'r ardd yn y cefn. Dyw mam ddim wedi curo hanner digon. Gad i fi ei wneud e. Mae hi'n rhy wan. Dw i'n credu, a dweud y gwir, ei bod hi ychydig bach yn swil neu'n ofnus.

Ond mae e'n gwenu'n braf pan egyr y drws. Rown i'n gwybod y byddai fe'n falch i ngweld i. Dad oedd 'na.

'Dic bach. Rwyt ti wedi prifio'n afradlon.'

Dw i mor falch ei fod wedi sylwi ar hynny.

Dyma ni'n mynd i mewn.

Dyw e ddim yn edrych ryw lawer ar mam. Â fi y bydd e'n siarad. Ond dw i'n methu'n lân ag ateb. Mam sy'n dweud pob peth yn yn lle i. Does neb arall yn y tŷ, cyn belled ag y galla-i weld. Ac mae'n sefyllfa braidd yn lletchwith yno: dad heb dorri gair â mam o gwbl, a mam yn rhoi ateb iddo fe o hyd ar yn rhan i. Dad yn preblan fel melin



bupur wrtho i, a finnau'n dawedog, ar ôl cronni llond y mhen o storïau i'w hadrodd iddo ers wythnosau lawer, yn methu'n lân â dweud bo. Roedd hyn wedi troi'n fath o hunlle.

Dw i'n sylwi bod mam a dad weithiau, wrth arlwyo'r ford heddiw neu wrth symud o gwmpas yr ystafell, yn cyffwrdd yn ddamweiniol â'i gilydd. Dyw hynny'n ddim byd, mae'n siŵr. Mae'r ford fawr yn y canol a'r cadeiriau derw o'i chwmpas hi a'r dodrefn o gwmpas yr ymylon bron yn llenwi'r gofod fel does dim llawer o le i symud yn rhydd. Ond alla-i ddim llai na chyfadde bod yn llygaid i wedi bod yn chwilio ac yn gobeithio am rywbeth fel hyn, ac y bydden nhw'n closio at ei gilydd ychydig, llawer efallai, er dyw mam na dad ddim yn ymwybodol o gwbl o'r fath gyffyrddiadau dibwys. Ac o ran edrych yn union ar ei gilydd, fe wnân-nhw hynny gyda'r ansicrwydd hwnnw o gyfeiriad a brofir gan bobl ddall. Ta beth am hynny, dw i'n ceisio peri iddyn nhw fod yn agos, a gwybod eu bod nhw'n agos. Buon ni, dad a fi, yn chwarae Nadredd ac Ysgolion am hanner awr.

Does dim sylwedd i'r gêm, wrth gwrs, na dim hwyl. Ac erbyn hyn mae'n bump o'r gloch. Roedd hi wedi bod yn brynhawn rhyfedd. Ac aeth e rywsut yn gyflym fel y bydd gêm.

Yn wir, roedd y cwbl fel hunlle hollol wirion – yn rhieni i ar wahân, yn yr un lle, yr ymweliad â nhad, popeth. 'Da bo, dad.'

'Rown i'n meddwl na byddai pump o'r gloch byth yn dod,' meddai mam ar y ffordd yn ôl.

Prynhawn rhyfedd ei wala: prynhawn o ladrata drylliau mân, mân o lawenydd trist heb fod neb yn ei weld. Ond dw i'n falch ein bod ni wedi dod 'na. Pan fydd pobl yn gweld ei gilydd yn agos ac yn gwrando ar ei gilydd, maen nhw ambell waith yn gallu hoffi'i gilydd. Dim ond agosrwydd sy'n gallu clymu pobl, go iawn. Dw i'n falch hefyd inni chwarae Nadredd ac Ysgolion, er na dwi'n arfer hoffi'r gêm.

Dyma ni'n disgwyl am y bws i'n cludo ni o'r tŷ i orsaf Stoke.

Prynhawn rhyfedd, on'd oedd mam? Eli o brynhawn, obeithiwn i, efallai; ond roedd yna glwy. Mae yna rywbeth ynon ni sy'n ein gyrru ni i glwyfo eraill. Mor aml dw i wedi clwyfo mam. Ac fe glwyfodd hi fi hefyd pan geisiodd hi egluro ymadawiad dad y

tro cynta, a chrybwyll y ffordd roedd dad wedi cau'n ei herbyn hi, a'i holl fodolaeth hi wedi sgrechian am dynerwch. Ond nawr, wedi'r ymweliad hwn, mae pob peth yn bosibl. Dŷn ni wedi cael prynhawn o ymdroi yn agos at ein gilydd, yn driawd cyflawn parablus drachefn. Mae'r byd yn gwenu.

Dyma'r bws i ymadael wedi cyrraedd. I fyny i lofft y bws. Un naid bron. Dŷn ni'n mynd yn ôl tua gorsaf y rheilffordd heibio i dŷ dad. Heibio'n ara. Dyw e ddim yn y ffenest serch hynny... Ydy. Dacw fe. Mae wedi tynnu'r llenni'n ôl, mae e'n chwerthin, mae e'n codi llaw, a finnau'n chwerthin yn ôl... Ond mae yna fenyw ddiert hyl ofnadwy ar y llwybr i'r tŷ. Brysia, fws. Dw i'n ei chasáu. Dw i eisiau mynd adre...

Dyna bwll isa yn holl ddychymyg i – yr holl gymysgedd ofnadwy am y triawd fuon ni – fi ychydig yn ôl gyda nhw – ill dau – yn y tŷ diert. Ac yna, mae y meddyliau i wedi dod yn ôl i'w trefn o'r diwedd. Dw i gartre go iawn, neu'n ôl o leia ar lan y gamlas, gyda'r adar yn y coed ar y mhwys. Doedd dim gwirionedd. Doedd dim Stoke. Doedd dim mor oer â Lloegr. Doedd dim wedi digwydd. Dw i'n cerdded fel arfer. Dychmygu wnes i'r cwbl bob iot, ar lan y gamlas, beth oedd y peth gwaetha allai ddigwydd i mi. Dw i'n grac wrtho-i yn hun yn awr am feddwl pethau mor ofnadwy. Yn sydyn, O! yn sydyn ddychrynus, dw i'n deffro allan o'r hunlle ar lan y gamlas. Mae y meddyliau i wedi carlamu hyd y ffordd-a'r-ffordd arall heibio i bethau sy'n bod, a phethau – drwy drugaredd – sy heb fod. Ond dw i'n ôl yn y byd go iawn. Dyma lwybr y gamlas drachefn; yn hoff lwybr i yn y gorffennol. A dechreuais gerdded adre. Dw i wedi stopio am foment i edrych yn ôl ar y llaid islaw. Yna, yn bendrwm, cerddwn i adre i'r tŷ heb ddeall pam roeddwn i wedi pendroni am bethau fel hyn mor ddiflas hir y prynhawn 'ma, ac mor llesmeiriol falch oeddwn nawr i weld y nhad o'r diwedd a'm mam yno gyda'i gilydd, go iawn, ac mor hyfryd hapus, ac wedi aros ill dau felly – gyda'u caredigrwydd arferol – drwy gydol yr amser yn y prynhawn 'rhydd' y bues i allan.

Dw i'n sboncio ac yn byrlymu ac yn llifo'n afresymol o hapus, yn wyllt braidd: gallwn i neidio i'r awyr a chwerthin fel eitha ffrwd fach. Dychymyg a dychymyg fu hyn i gyd. Dw i'n casáu'r gamlas.

Ymholwn yno-i yn hun: 'Pam roeddwn i wedi meddwl fel hyn heddiw? Mae yn rhieni i mor eithriadol o ddiddig gyda'i gilydd. Welais i neb mor bentyrrol hapus. Weithiau, pan fydda-i'n ymweld â ffrindiau, lle y mae yna gweryla, yn gas weithiau rhwng rhieni eraill, bydd yn llygaid i yn synnu, a galla-i fynd i ddychmygu ar y pryd – beth petai mam a nhad fel yna? Beth wnelwn i? A bydda-i'n ei gwibio hi adre.

Fe ddes i adre y tro hwn a rhuthro at y mam a nhad a thaflu mreichiau amdanyn nhw; dw i'n chwerthin ac yn crio, ac yn methu â dweud beth oedd yn bod. Dw i'n cusanu'r naill a'r llall, fel pe bai hynny wedi bod yn waharddedig ynghynt i bob cowboi gwydn fel fi.

Dw i erioed wedi gweld, yn nhai yn ffrindiau i, yr un fam a thad sy mor annwyl agos gyda'i gilydd. Bydd nhad, heb sylweddoli hynny o gwbl, bob dydd yn rhoi ei freichiau o gylch ysgwyddau mam, neu o gylch gwasg mam, ac mae e'n ei chusanu hi wrth ddychwelyd o'i waith ac wrth ymadael y bore wedyn; ac felly am wn i bob ugain munud drwy'r amser rhwng y ddau begwn yna; all e ddim cael digon ohoni. Maen nhw bob amser fel cariadon ifainc er eu bod yn ganol-oed bron. Gwn y mod i a mrawd wedi cael rhodd mor felys wrth fwynhau cartre mor llawn o ddiddigrwydd. Mae hynny wedi'i daenu o'n deutu ni'r plant fel math o ardd yn y tŷ... Dyna fu'r cyd-destun, mewn gwirionedd, i fynd ati ar ôl dod adre i ddweud y stori am 'y peth gwaetha' wrth mam.

'Pam, mam? Pam roeddwn i'n gallu cael y fath feddyliau? O ble maen nhw'n dod?'

'Does arnat ti ddim ofn go iawn oherwydd tipyn o freuddwyd fach fel 'na does bosib? Dychymyg oedd y cyfan. Dim byd.'

'Oes.'

'Ofn. Beth wyt ti'n ei feddwl, ofn? Ofni beth?'

Roedd mam heddiw'n gwisgo mwclis glas golau a brown ysgafn, y rhai dwi'n eu hoffi fwy. Rown i'n edrych yn galed arni.

'Wel, gwranda, Dic bach, mae meddyliau anhapus yn cael eu rhoi weithiau i'n helpu ni. Mae hyn – y diddigrwydd gartre – mor bwysig. Mae hyn oll yn rhodd. Rwynt

ti'n gwybod fel y bydd Keith a thi'n dod gyda Dad a fi ar ddiwedd pob prynhawn Mercher i weld ffilmiau yn y Plaza. Maen nhw i gyd yn gorffen yn hapus. Ond rhwng y dechrau a'r diwedd mae 'na ofid o ryw fath fel arfer. Wel, fel 'na mae'r dychmygion hyn yn digwydd i ti. Maen nhw'n gallu bod 'na, yn ofid am y tro, er mwyn i ti wybod mewn dychmygion fel 'na amdanyn nhw, er mwyn inni wynebu rhai gweddau ar fywyd y byd, ac am i ni'n pedwar ddweud diolch ein bod ni'n gallu mwynhau'r oriau real hyn gyda'n gilydd. Roet ti'n dysgu bod yn ddiolchgar. Dyna'r cwbl. Nid pawb sy fel 'na. A phan fydda-innau'n mynd i'r gwely bob nos Dic, o flaen llaw bydd dy dad a fi'n darllen storiâu'r Beibl, a bydda-i'n suddo'n flinedig ar y ngliniau o flaen Duw, ac yn diolch iddo Fe am hanes Hosea, sy'n ffyddlon hyd yn oed pan oedd ei wraig yn anffyddlon, neu'r hanes am anfon Iesu Grist at bobl a oedd yn ei erbyn e, ac am roi'i fywyd mewn modd mor eithafol o gariadus inni. A gofynnwn hefyd iddo wedyn roi i fwy o bobl eraill yn eu tro wybod am yr harmoni mawr sy ar gael gyda ni.'

A rhywbeth fel yna a wna-innau y noson hon, heno cyn dringo i'r gwely, ac yn fwy nag erioed o'r blaen. Dw i'n gweddio y byddai'n holl ffrindiau i, – Gwyn, Twmi, Rhisiart a Josh, – yn cael mynd yn ôl i'w cartrefi nhw, ac inni oll yn ein ffyrdd ein hunain gael mam a thad tebyg yn y diwedd i fi, mor gariadus, mor hardd, mor real, yng nghanol byd sy, mae'n siŵr, mor dreisiol o'n hamgylch. Ond a-i byth yn ôl wedyn i gerdded eto ar lan y gamlas honno; ac o ran myfyrio'n dychmyglon am hyn a'r llall, yn wir am unrhyw fath o fyfyrio rhydd, a-i ddim ar gyfyl hynny chwaith, hyd yn oed os bydda-i'n cael y nhalu.

## VI

Ond chedwais i mo'r adduned honno, ddim mwy na'r cannoedd o addunedau eraill a wnes i wedi hynny. Alla-i ddim llai na breuddwydio er y ngwaetha. Ac mae dychmygu storiâu yn dal i ddod pan fydda-i'n mynd am dro ar y mhen yn hun, ond yn gymysg nawr, weithiau'n llawen, ond weithiau nawr yn dristach nag y buon nhw *cyn* dyddiau Stoke-on-Trent.

A minnau'n un ar bymtheg oed, ac yn berson mewn oed, dw i'n eistedd ar

y Wennallt gan edrych i lawr ar y nhre i yn hun: Caerdydd.

Dw i'n adnabod pob cornel o hon. Dw i wedi crwydro'i strydoedd ar y meic o Gyncoed i'r Dociau, o Drecanna i Sblot, o Laneurwg i Drelái. Dw i wedi chwarae ynddi a gweithio ynddi. Lawer tro dw i wedi mynd ar goll ynddi; a does neb yn nabod neb arall yn iawn nes iddyn nhw fynd ar goll yn ei gilydd. Droeon dw i wedi cludo'r post o dŷ i dŷ amser Nadolig yng Nghaerdydd, ac wedi siarad â channoedd o'i thrigolion. Dw i wedi gwasgu'r sudd allan o bob rhan ohoni fel y bydd perchen gwinwydd yn gwasgu gwin o'r grawnwin. Dw i mor falch o'r ddinas hon. Acw mewn un o'i thai tlawd hi y ces i ngeni a niddyfnu. A dw i wedi'i hamgylchu hi rywfodd drwy'r blynyddoedd gan dreiddio i mewn i'r fro ac i'r cymoedd a'i creodd hi ac i'r pentrefi a'r trefi sy'n blodeuo o'i chwmpas nes nad oes modd ifi amgyffred amser pryd nad oeddwn i'n blethwaith drwyddi. Ar gefn y meic ffyddlon, dw i wedi ymadael â hi ac wedi cyrchu lawer tro allan ohoni hi hyd at Dindyrn ac i gilfachau Llancarfan, – am yn ail ddiwrnod weithiau yn ystod y gwyliau, – ond gan ddychwelyd bob amser i hon.

Dw i'n ddigon balch o'r ddinas. Dw i'n cofio ar orsaf Amwythig glywed un porthor diamynedd un tro yn sgrechain ar un arall: 'Any more Swansea down there, Bill?' ac yna'n troi ata i a herio, 'Abertawe wyt ti?' A finnau'n ymestyn i'n llawn hyd ac yn datgan yn groyw falch: 'Na. Caerdydd dw i.' Er nad fi o bosib sy wedi adeiladu Caerdydd nac unrhyw ran ohoni, dw i'n meddwl yn aml amdani fel sen i'n meddwl amdana i yn hun, am mai hi efallai sy wedi yn adeiladu i. Fi yw hi.

A dw i yn ei chasáu hi hefyd. Bob modfedd.

Ei chasáu hi yn syml am ei bod mor aml wedi dymuno bod yn rhywle arall, am ei bod o hyd yn ceisio dynwared lleoedd yn Lloegr. Does ganddi hi ddim balchder go iawn yn ei hunigrywiaeth ei hun o gwbl nac ychwaith yn y wlad y mae hi'n brifddinas iddi. Ychydig o'r Ddraig Goch wela-i hi'n ei chwifio ynddi. Does ganddi fawr o wybodaeth am ei gwlad ei hun. Taleithiol ddiwreiddiau yw hi heb hanner digon o gyswllt â'i gorffennol nac â phresennol y Gymru Gymraeg. Collodd ei Chymraeg yn lân, er bod ei Saesneg wedi cadw 'e' galed a chul Cymraeg y de-ddwyrain ar gyfer 'a': *Kediff Êms Péc*. Na. Dyw hi ddim yn lle go iawn o gwbl, a dyw hi ddim yn ddinas lawn-dw

sy'n barod i arddel ei pherthynas â'r rhannau eraill o'r wlad. Dyma un o'i negeseuon amla i fi yn ystod dyddiau llencyndod. Ac felly, a finnau bron yn ddyn erbyn hyn, dw i'n ei chasáu hi yng nghanol yn hoffter. Ond dw i'n y nghasáu i yn hun hefyd heddiw am y mod i'n ei chasáu hi. Ers tair blynedd yn awr dw i wedi ymlafnio o ddifri i geisio dod yn Gymro. Yn Gymro llawn yng Nghaerdydd. Gwyddwn rywfodd fod hyn yn bwysig, fod yr iaith hon yn un o'r allweddi i mewn i hunaniaeth ddirgel y modolaeth mewn amser, fel y mae ei henwau lleoedd hynafol a'i seicoleg israddol wedi treiddio i mewn i fodolaeth y bobl. Mae'r iaith yn perthyn i ryw haenen, o'r golwg, yn ei hunaniaeth a'i chymeriad cymhleth hi. Dylai Caerdydd adnabod Cymru'n well; ond dylwn innau hefyd. A dw i wedi pydru arni'n feunyddiol yng nghanol yn swildod i er mwyn meddiannu'i gwreiddiau hi, ond wedi methu o hyd wrth ddysgu'r iaith. Baglwn ar y treigladau sy'n clymu cyd-berthynas y geiriau i mewn i rythmau'i gilydd wrth geisio'u defnyddio nhw'n rhy ymwybodol. Cafwyd yr un ymwybod gyda'r ffordd y mae'r rhagenwau wedi adeiladu 'Yes' amrywiol ym mhob math o safle. Ymdeimlais i â'r gwrthdrawiad rhwng cywilydd israddoldeb a gwyleidd-dra didwyll gan gynifer o'r bobl sy'n ei siarad. A'r un pryd dathlwn i'r llenyddiaeth ryfeddol sy wedi cwmpasu trefn yr iaith, ac na wŷr y Cymry Saesneg ond megis dim amdani. A gwn fod ei phresenoldeb uchelwrol hi yn y tir rhad ac afradlon hwn i fi'n gyfareddol.

I mryd i, bydda i byth yn Gymro nes bydda i'n cael breuddwydio bant-â-hi yn y Gymraeg, nes bod y nhuedd ddigymell yn y mreuddwydion cyffredin yn isymwybodol wedi troi i ddilyn ac i ddefnyddio'r iaith Gymraeg heb wybod, ac i fodoli o fewn llyfnder yr iaith, a disodli pob penderfyniad sy'n ymwybodol ac yn ewyllysgar. Mae'r ewyllys yna wedi tyfu. Dw i'n credu, bid siŵr, o safbwynt adennill y Gymraeg i'r wlad, fod ewyllys – yr ewyllys cariadus ei hun – wedi adnewyddu'r Gymraeg ychydig nes bod rhai heb eisiau defnyddio ewyllys mwyach. Ar ryw olwg, drwy'r ewyllys yn gynta ac yn benna y gall ein gwlad fod yn hi ei hun unwaith eto. Ond dyw'r ewyllys yna ddim yn ddigon eto. Dw i wedi ewyllysio'n gry ddigon ers tro gael bod yn Gymro, a phe na bawn i'n dibynnu ond ar yr ewyllys yna, byddwn i'n gysurus braf yn y Nghymreictod ers dwy flynedd. Ond *bod yn Gymro*: na, peth diewyllys, naturiol, cyflawn, anymwybodol yn y diwedd yw hyn, fel yr awyr dw i yn ei hanadlu. O! Gaerdydd: a fydd hyn byth yn

digwydd i ti ac i fi? 'Dic, cer ma's am dro. Rwy'ti wedi tin-droi uwchben y llyfrau 'na ddigon am heddiw.' A fydda-i yn llwyddo i feddiannu'r cyflwr hwnnw o Gymro Cymraeg byth, tybed? Y cyflwr hwnnw sy'n rhwydd i lawer. Heddiw dw i yn ei amau'n fawr.

'Cer ma's, Dic. Mae eisiau iti gael bywyd normal.'

'Normal? Normal! Yng Nghaerdydd?'

Dw i wedi dringo heddiw i ben y Wennallt yn brudd. Rywsut y mae pen bryn, unrhyw fryn go iawn, wedi dal erioed ryw atyniad anghysurus i fi, ac i lawer un arall, am wn i. Peryg yw i bob meddwl ddringo i ben bryn. Oddi yma galla-i graffu heddiw hyd at y môr mwyn acw, a'r ddinas i gyd fel tai-tegan o mlaen.

Mae'r rhedyn yn hirdal o nghwmpas i nawr yn y gornel hon o'i chyffiniau rhwng y wlad a'r dre; ac os gorwedda-i yn y fan yma dw i yn gwbl gudd rhag y byd benbwygilydd, ac eto dw i'n gallu pensynnu amdano yr un pryd. Gall yr heulwen, efallai, dreiddio i lawr yn ysgyrion clwyfus o neutu, ond dim byd arall, heblaw sŵn ambell geiliog-y-rhedyn yn clochdar yn wawdus. Dyma'r distawrwydd sy'n amgylchu'r ddinas.

Fan acw o'r golwg nawr mae holl drwst y ddinas ddihenydd wedi cael ei fodd'i'n ddim byd ym môr y pellter y tu hwnt, yn ddim, yn llonydd anhysbys. Mae dinas dawel o'r fath fel llewes, y tynnwyd ei horganau llafar, yn gorwedd yn anghyfforddus ond yn fygythiol yn y glaswellt sy ar draws y ddaear. Er bod pob math o sŵn a swae allanol ar gerdded draw acw, rhwng cymydog a chymydog, rhwng car a char, does dim ohoni'n cyrraedd at y fan yma a'r llonyddwch ar yr Allt Lân hon. Distawrwydd hir sidanog amlblyg sy; a hynny sy'n y meddiannu i, bob bidyn y tu ôl i'm hamrannau. Mor astrus dawel y mae tlysnï'r greadigaeth pan fo'r llygaid ynghau! A gorfodaeth y di-sŵn yn gallu plethu drwy'i gilydd i ganiatáu presenoldeb dwyster! Y Crëwr ei hun sy'n awr yn amlwg hyd yn oed i greadur o gig a gwaed tlawd nas ceisiodd E ar y pryd. Mae E yma, wrth gwrs, yn lledu'i ras cyffredinol yng nghlustiau byddar y llanc.

Mis Gorffennaf o ddifri yw hyn. 'Gorffen haf' yn wir! All cyfoeth yr ha hwn byth orffen o ran ysbryd y fan hyn. A'r gwres yn gymedrol gall. Mae'r glaswellt yn ddiog.

Glesni'r wybren yn puro'r trwyn. A Chaerdydd wedi diflannu'n grwn mewn mwynder pell gynhenid. Roedd-hi wedi bod eisiau bwrw glaw ers diwrnodau ac yn ffaelu. Roedd hi wedi anghofio sut. Bellach ildiodd yr hin i fod yn ddi-law, a daeth yr haul yn ei ôl i'w ddangos ei hun yn llawn ac i barablu'i afiaith ar draws y Wennallt.

Dw i'n ymestyn yn brudd yn awr yng nghanol y cwbl; a chan gau yn amrannau trist i, dw i'n gadael i'r haul ochain cochni y ngwythiennau i fel edafedd ar y llenni croen tenau yn yr awyr o flaen yn llygaid caeedig. Mae'r golau'n para er bod yr amrannau'n cau, a finnu wedi cau yn llygaid fel pe bawn i'n hwylio i ffwrdd.

Does gan y mynyddoedd, hyd yn oed, ddim cymaint o lygaid ag sy gen i ar hyn o bryd ar lethr y Wennallt. Wrth gau'r rhain, maen nhw'n tueddu i droi pob haul yn adar, yn farciau yn y nen, drwy groen yr amrannau drygionus dros yn llygaid! Dw i fel pe bawn i'n cael y ngyrru i, y tu ôl i'r amrannau i ddychmygu rhyfeddodau. Mae'r nentydd yn y parth bach hwn wedi lleihau a sychu ychydig. Er mai ysgafn yw bysedd traed y nentydd gobeithiol wrth redeg dros y gro i gusanu'r merched yn y coed, does dim gobaith iddyn nhw wybod mai gwell yw cariad nag unrhyw fath arall o flodyn cynta. Haleliwia i'r mwydon ac i'r ysgall newydd. Dw i erioed wedi clywed chwerthin mor anghymedrol. 'Ble cawsoch chi'r fath beth, nentydd, o'r blaen, hyd at fetel y môr?' 'Gan y glaw', ateban nhw'n hamddenol braf. Ac mae hwn yn ddiwrnod da iawn i bopeth, ac yntau heb law. Dw i'n lled gysgu. Dyma ddiwrnod mawrhydig i arddel pob cwsg i Gymro sy'n dyheu am fod yn Gymro.

Nid yn aml y bydd peth fel hynny'n digwydd i fi liw dydd golau. Cysgu'n wir! Mae gormod o bethau o lawer gen i i'w byw, yn effro. Mae pob dim yn rhy ddiddorol i adael ifi byth ffoi felly. Mae'n ddyletsydd ar bawb synhwyrol beidio â cholli dim byd drwy ormod o 'gwsg', yn arbennig pan dych chi'n ifanc. Ac eto, dw i'n cau yn 'llygaid' i'n gyfforddus. A heddiw dw i'n cysgu yn ddiymyraeth effro yn y 'glaswellt' distaw. Mae gen i gwmni difyr yn y nghwsg, a'u geiriau'n anesmwyth ymhlith y rhedyn. Gwasgaran nhw fel ysgwarnogod ar flaenau'u traed a'u trwynau'n anfwriadol drwy'r borfa, fel cyfrinach. Geiriau bychain Cymraeg o nghwmpas ar hyd a lled y glaswellt liw cwsg!



Fe guddiwyd ambell gyfrinach rhag dyn, gan ddyn. Mae natur gor-hoffter dyn ohono'i hunan yn ei ddal rhag iddo'i gweld hi weithiau, nes iddo beidio â'i nabod ei hun. Rhaid ymollwng os dymunir breuddwydion fel yr ymollyngir mewn math o gwsg, heb ormod o'r hunan. Ac er ifi gael cipolwg arno, deil y Gwir fel haul cyfrinachol i ngheisio i hyd at y fan yma. Does dim rheidrwydd i'r dellni rhwystrol y nghuddio i fel hyn am byth, nac i'r farwolaeth ysbrydol hon y nghelu i a nghadw'n gaeth. Er mai hunan-dwyll fu hyn hyd yma wrth geisio amgyffred sobrwydd y tlysni sy'n addurn, mae'r hiraeth dwfn hefyd am y nychmygu i i gyd yn llawnach byth ac yn ceisio dethol 'geiriau' gen i i'w mynegi a'u disgwyl nhw yn y deall: geiriau cwsg.

Mae cymaint o'r storïau yn ein llenyddiaeth am fynyddoedd neu ellydd yn wir yn eu ffordd eu hun. Does dim unrhyw sail wyddonol seicolegol i'r hen gred hollol ffansiol fod cysgu ar ben bryn fel hyn yn gwneud neb yn fardd. Wrth gwrs, defnyddiodd Duw bennau gwahanol fryniau ar hyd y blynyddoedd ar gyfer cyflwyno amryw o'i weithredoedd mawr. Ond yn y fan yma yn awr, heddiw, er y ngwaetha yn hun y mae rhyw eiriau bach direidus yn plethu drwy freuddwyd yr ymennydd.

Beth mae'r rhain yn ceisio'u dweud? Fel gorymdaith o fodau mân mewn ffrogiau cwta fe ddawnsia'r geiriau bychain hyn o glust i glust yn ysgafn ysgyfala ac yn awchus am wireddu'r goel. Dyma'r Gymraeg ei hun yn ei thlysni yn ddiwahoddiad heddiw wedi dod ata i ac arna i'n gariadus yn y borfa. Breuddwydio yn Gymraeg yw'r hyn sy'n dechrau digwydd nawr. A geiriau Cymraeg go iawn ydyn-nhw oll, er na dw i'n sylweddoli hynny ar y pryd. Geiriau hen yn llwyth i, geiriau distadl y modolaeth oll. Mewn gofod ac amser maen nhw'n prancio'n ôl drwy nghwsg: maen nhw'n colli'u hewyllys fwriadus am y tro cynta erioed, ac yn canu'n gyffredin ddigymell ymlaciol anfwriadus fan yma yn y mhen. Y Gymraeg hon sy ar waith yn y mreuddwyd, heb wahoddiad. Dw i'n cysgu ac yn breuddwydio mewn iaith newydd hen, heddiw, am y tro cynta erioed yn y myw, bron heb feddwl. Am y tro cynta erioed yn y hanes i, cyn ifi siarad Cymraeg â phobl ddi-hun, mae hyn wedi digwydd i fi mewn breuddwyd: nid yn Saesneg, ond am y tro cynta yn ddigymell mewn math o Gymraeg –

*Angau rwyt ti'n f'ofni i*

*Am fy mod yn fardd...*

Taw! Mae hyn yn anodd ifi ei gredu. Ymlunia'r gân hon yn y meddwl i nawr, o bennill i bennill, yn ara ddigon mae'n siarad yn y nghwsg, er bod pawb gwybodus yn y narbwyllo i fod y breuddwydion hyn oll yn digwydd yn ddisyfyd gwta... fan hyn yn y glaswellt... does bosib... mewn eiliadau, a byddai'r un dysgwr Cymraeg byth yn dechrau siarad iaith mewn breuddwyd. A dyma fi, yn Gymro llawn, isymwybodol yng Nghymru.

Gan bwyll, dw i'n dihuno'n raddol o redynen i redynen, o lygad i lygad. Dw i'n ymadael â'r cyflwr od hwnnw, er bod y geiriau bychain hyn wedi mynnu oedi yn y co o hyd. A dw i'n sylweddoli beth sy wedi digwydd. Nid fi sy wedi arwain yr iaith, ond hyhi sy wedi yn arwain i. Hyhi a ddaeth ata i â'i bysedd main gwynion. Dw i wedi breuddwydio yn iaith y nghyndadau heb ei fwriadu. Mae hi wedi cael ei hewylllys 'da fi.

Felly mae'r dysgwr wedi colli'i swildod ymhlith pobl ac wedi siarad ag e'i hun.

Heb ei chwilio'n fwriadus, fe ddaeth hi ata-i – a dweud. Doeddwn i ddim wedi disgwyl gwneud hyn.

Mae yna gân wedi codi a thyfu o'r tu mewn i'r iaith hefyd, wedi ymestyn, wedi ymasio, wedi gorffwys i fod yn rhan ohono-i. Dw i'n codi, dw-i'n edrych i lawr tuag at Gaerdydd yn awr, a gwenu fel giât. Cyn siarad Cymraeg yn iawn, heb fod yn swil o flaen neb, dyma fi wedi'i breuddwydio hi drwy gwsg. Yma yng Nghaerdydd.

Ac yn ddiarwybod, dw i'n dechrau teimlo dyfnach serch tuag ati, at y ddinas dw i'n feddwl. Dinas annwyl ryfedd yw hi a'i thad yn golier a'i mam yn siopreg. Dinas ddiymadferth yw hon na chafodd gyfle seicolegol erioed i ymagor, dinas daeog hefyd druan, dinas betrus ac ara. Ond dinas garedig a hoffus odiaeth, dyna a'i cefais i erioed.

A dw i bron yn ddyn ac yn gallu ei chofio ym mhob math o ffurfiau.

Dw i'n gwenu wedi bod ar y Wennallt. Dw i'n gwenu ar y grug, yn gwenu'n arbennig o gynnes ar y rhedyn sy'n fath o chwyn ond yn gallu bod yn drwsgl o brydferth yr un pryd. Twpsyn hapus mursennaidd dw i, mae'n rhaid.

Dw i'n cerdded i lawr y bryn yn bwylllog. Dw i'n mynd heibio i ddau bensinydd sy'n ymlusgo'n ara tuag i fyny, er gwaetha eu cluniau; a gwena-i arnyn nhw'n dyner.

Maen nhw'n edrych braidd yn ddiamynedd yn ôl tuag ata-i. Maen-nhw'n gywir wrth gwrs.

Drachefn ar y ffordd i lawr yn agos i'r gwaelod, mae yna lanc a llances yn gorweddian ochr yn ochr â'i gilydd ar y borfa. Llonydd ydyn nhw, a digyffro. Ond edrychan nhw i lygaid ei gilydd yn ymrwymedig syn. Dw i'n codi yn llaw i'n llawen reit, ond o'r braidd y gwerthfawrogon nhw'r cyfarchiad.

Mae'r rhyfel yn Ewrob, ac yn erbyn Japan, drosodd. Na: a-i ddim adre yn y bws yn awr. Dim ond tair neu bedair milltir sy ar ôl i'w cerdded. Fe'u cerdda nhw'n heddychlon. Ac mae pawb yn hoffus, pawb a basia-i ar y stryd yn bobl dw-i'n awyddu i'w cyfarch nhw'n hwyliog, ac yn ei wneud hefyd.

Byddai llawer am ddweud, 'Gorau po gynta yr anghofiwn ni am y rhyfel. Dw i ddim am siarad am y peth. Y dyfodol sy'n bwysig.' Ac eto, fe aeth y rhyfel i mewn i bawb ohonon ni, hyd yn oed y plant, heb wybod yn union pam na sut fel arfer, ac nid yn ddistrywiol yn unig ambell waith. Mi aeth i mewn i'n breuddwydion.

Symudodd y lle yn ei flaen. Mae llawer peth wedi digwydd i Gaerdydd er y rhyfel. Un peth a ddigwyddodd i fi ynnddi oedd dysgu'r Gymraeg. Ac un peth y mae dysgu'r Gymraeg yn ei wneud yw dysgu rhywbeth am berthnasoedd; ac y mae hynny'n goleuo llawer o fywyd. Mae perthnasoedd o ryw fath yn bwnc mawr, nid yn unig perthnasoedd rhwng pethau a'i gilydd; ond rhwng pobl hefyd, a phobloedd; rhwng amser y presennol a'r gorffennol, ac i'r dyfodol dw i'n gobeithio, sy'n ffurfio undod crwn.

Ac ar hyn o bryd yng Nghaerdydd, mae hynny'n beth od, hyd yn oed i 'bobl tre' a chanddyn nhw 'arwahanrwydd dinesig', ond hefyd i bobl a chanddyn nhw gefndir gwledig, ac a brofodd gynefin a chanddo 'gysylltiadau mwy personol' â'i gilydd.

Ar ddechrau y nhaith ar droed adre, ar ôl bod ar ben y bryn, bu'r bobl ar y stryd yn edrych yn ôl braidd yn wgus ar y ngwenau mursennaidd diystyr parhaol. A dw i'n gweld dim bai arnyn-nhw. Ond dw i'n dal i wenu'n gyndyn o hyd yn eu llygaid. Fe ddechreuan nhw ddala y ngwenau i yn eu dwylo, a'u lluchio nhw'n galed yn eu hól, yn gwbl ddirmygus i ddechrau. Eithr am y filltir ola rywfodd, bob cam, mae pethau'n

dechrau newid. A gwella. Mae darnau o Gaerdydd yn dechrau adeiladu cartrefolrwydd newyddeni ifi. Alla-i ddim ond gwenu'n aflywodraethus braidd, o hyd, ond maen nhwythau o'r diwedd yn gwenu'n ôl. Tybed ydw i'n gwneud y jòb o wenu'n well? Tybed ydyn nhw'n dechrau teimlo mod i a nhw ar yr un ochr â'n gilydd? Tybed ydyn ni oll yn fath o brofi hoffter at ein gilydd? Meddyliwch, dw i'n gallu clywed eu gwenau'n rhyw dinclan fel tameitiach arian, fel caneuon noeth a thryloyw, caneuon clir heb wyro i'r dde nac i'r aswy, caneuon heb gysgodion drostyn nhw, gyda'r un motiff geiriol â'i gilydd yn y bôn: 'Fan yma dŷn ni'n perthyn.' Pam – os ydyn nhw hefyd – pam y mae pobl ddinesig yn ymateb fel arfer yn ôl confensiwn sydd i fod o ran natur yn ar-wahanus wrban – ond nawr yn ymateb i'w gilydd fel hyn? Tybed a fydd y ngwenau mawr i'n dechrau sobri ar yr wyneb cyn bo hir?

'Dic, Dic, ble'r wyt ti wedi bod? ... O leia, rwyt ti 'ma o'r diwedd.'

Beth gallwn i'i ddweud? Ble dw i wedi bod? Ble gallwn i ddechrau? Heddiw roeddwn i wedi dringo dros fath o sticyll mewn penillion i mewn i hen wlad, ac wedi dechrau bywyd ifanc arall eisoes, yn Gymro yng Nghaerdydd.

[Roedd yna beth wmbredd yn mynd i ddigwydd yn ystod y blynyddoedd lawer nesa. Roedd yna flaguryn-gerddi'n ymagor. Byddwn i'n sylwi fwyfwy o'r herwydd fel y cawn ni ein hamgylchu'n hanfodol gan harddwch a throsiadau, a phroblemau, gan oleuni gwyddonol ynghylch iaith, ac yn anad dim gan brofi dimensiwn goruwchnaturiol a esboniai beth o ruddin bywyd, drwy ddeddfau creedig ac anghreedig, ac ystyr synhwyrau. Byddwn i'n adnabod tyndra awchus a chaethiwed y byd hefyd rhag ymagor ymhellach i'r rhain oll: cawn i y mywhau gan obeithion gau.

'Bu'n stori hir, hir' bersonol fel y cyfaddefai'r crwt hwnnw yn nyfnder ei anneall byrbwyll.

Ar ddechrau'r nodiadau hyn, pan oeddwn i'n bum blwydd oed, doedd gen i fawr o go. Doedd *doe* rywsut ddim yn arwyddocaol, a byddwn i byth yn meddwl amdano. 'Heddiw' oedd popeth am ychydig. Ond erbyn hyn, mae gen i *atgofion* rif y gwllith yn y nghorddi i yn yn henaint presennol, ac mewn iaith, ac mae'r rheina'n bwysig mewn

ffordd mor feddiannol. Drylliau o 'ddyddiau' ydyn nhw hefyd erbyn heddiw. Ar ryw olwg, nhw sy wedi yn ffurfio i a'r crychau ar y nghroen gan bwyll bach, fel y maen nhw'n mynnu llunio pawb. At ei gilydd, cofio ydyn nhw – cofion diddan a chyffrous yw'r rhai sy'n sticio ar yr ymennydd, ond mae'r lleill yn ymuno hefyd. Dw i'n cofio nawr fod yn fachgen bach pum mlwydd oed, a'm brawd bron â boddi. Dw i'n cofio mai'r cymoedd sy wedi gwneud Caerdydd, ac wncwl Olfer a'r ffordd y dangosodd e ifi ryfeddod y pethau bach yn y borfa. Dw i'n ei gofio fe'n dangos prydfferthwch hen ddodrefn i fi. Dw i'n cofio'r rhyfel creulon. Cofio amryliw wedyn sy wedi gwneud Caerdydd ei hun er ei gwaetha'i hun. Amser yw Caerdydd. Oriau, a dyddiau, a blynyddoedd; a bues i'n eu casglu nhw ffwrdd â hi, fel stampiau, ond bydda-i'n eu hel nhw'n fwy gofalus o hyn ymlaen, megis co y mhobl i.

O leia, dw i wedi dod adre. Ac dw i o hyd yn mwynhau cerdded ar balmentydd euraidd y ddinas unigryw hon, yn syml er mwyn amgylchfyd y palmentydd eu hunain mwyach. Caerdydd! Bues i'n casglu palmentydd eraill, mae'n wir, ar sawl cyfandir weithiau, ac mewn llawer o gyfnodau, a thrwy garedigrwydd difesur llawer ffrind. Ond profiad unigryw yw dod yn ôl i Gaerdydd. Mi ddaeth llawer syndod i'm rhan. Mewn cyfnod pan oeddwn i'n dal yn ŵr ifanc, mi ges i ddarostyngiad penodol ysbrydol sydyn, ac agorwyd dimensiwn newydd ifi nas disgwyliwyd o gwbl ac yn sicr nas haeddwyd. Stori arall yw honno. Yn sgil y datguddiad a'r dystiolaeth honno, y dysgais i sibrwd hwn yn syml, i lawr ymhlith rhedyn y mywyd:

Crea galon lân ynof, O Dduw,  
rho ysbryd newydd cadarn ynof.  
Paid â'm bwrw ymaith oddi wrthyt,  
na chymryd dy ysbryd sanctaidd oddi wrthyf.]

## TRI YN DDIGON

### *1. Naomi*

Allai hi ddim peidio â rhythu arno. Roedd y gŵr a frysiai ryw ganllath ar y blaen iddi ar y palmant gyferbyn yn ei chyfareddu. Synied yr oedd Naomi i ddechrau ei fod e'n perthyn iddi. Nid yn gorfforol o anghenraid, ond ei fod wedi cyfrannu o bosib mewn rhyw ffordd od yn ei gorffennol hi. Tybed ai un o'i ffrindiau ieuenctid fu e, yn y dyddiau pryd roedd hi'n byw yn Llanelli?

Roedd e'n prysuro nawr, ac roedd hithau'n prysuro. Prysuro roedd hi, nid oherwydd ei bod hi'n hwyr i'r trê: roedd digon o bethau felly ar gael y dyddiau hyn: trafaelwyr oedd yn brin. Nid ceisio dianc roedd hi chwaith rhag neb na dim: yn wir, doedd dim a fuasai'n ei phlesio'n fwy y foment honno nag oedi yma, a chofleidio Llanelli, ailgydio yn ei gwreiddiau, ei hen fro, a derbyn y dre honno o'r newydd i fod yn gynefin beunyddiol i'w chalon. Na: roedd rhyw angerdd arall wedi ymaflyd ynddi: adnabyddiaeth o ryw fath. Rhedai'i hadrenalin drwyddi heb ei dal hi'n ôl. Ond profai hi hefyd gywilydd am ei bod hi'n cael ei hanesmwytho ynghylch y dyn arbennig hwn. A hithau ymhell ddigon ar ei chanol-oed ac yn weddw anhapus, un oedd na allai hi ddim bodloni ar ei chyflwr mwyach ac ymlonyddu. Roedd ganddi nwydau o hyd a hiraeth, nid am neb unigol, yn benna, ond am yr atgofion yn hytrach a oedd yn ei chysylltu hi â'r lle, wedi diodde absenoldeb hir mewn gwlad estron. Hiraeth a'i carcharai, yn wir, ac a'i fflangellai hi, hiraeth na weddai i wraig aeddfed a digon blinderus; a hynny yn syml hefyd oherwydd hen lawenydd a gollasai, gyda marwolaeth drallodus ei gŵr. A dyna pam y nofiai'i llygaid dros hwn nawr wrth iddi brysuero tua'r orsaf. Gwryw oedd hwnacw, aeddfed, diddorol ei olwg, bonheddig o werinol hefyd, ac wedi llawer o flynyddoedd treuliol yn ddiau, yn wryw annelwig o gyfarwydd rywsut iddi hi.

Eto, nid dyna'r unig reswm am afaelyd yn y busnesa hwn ynddo fe nawr. Roedd yna rywbeth od ynglŷn â'i gerddediad. Ceisiai hi ddyfalu beth. Ond beth oedd y duedd hon a oedd wedi tyfu ynddi i beri iddi, yn ddiweddar, 'ddychmygu' am bobl? Daliai hi o hyd, hyd yn oed yn ei galar, i fod yn chwilfrydig o fusneslyd, yn arbennig yma yn

Llanelli: dychmygai ynddi ei hun beth oedd gwaith y bobl a welai ar y stryd. Dyfalai beth oedd eu problemau. Roedd rhyw fwlch seicolegol aneglur yn ei dilyn hi ar hyd y ffordd. Brysio'n ddall a wnâi hwn yn ei flaen nawr. Yna, dechreuai fe arafu. Er ei fod wedi bod yn cerdded yn gyflym, doedd e ddim yn ddigon sicr ar ei draed. Bob hyn a hyn, heb iddo stopio am un eiliad ar ei hynt, siglai fe ychydig, bron fel pe bai'n mynd i droi yn yr unfan. Roedd y dyn wedi bod yn yfed, mae'n rhaid, neu roedd ei galon yn bethma. Roedd e'n chwil. Neu'n sâl. Tybed? Na! Glynai'i llygaid hi fel llygaid maharen wrth ei war. Bu bron iddi fwrw'n erbyn postyn golau o'r herwydd. Arafodd e'n awr, ac aros, a phlygu. Roedd hi ar fedr ei basio fe ar y foment, a gallai hi weld ei wyneb e mor welw â chwmwl. Dros un llygad roedd 'na batsien ddu'n cael ei dal yn ei lle gan lastig. Od hefyd. Ceisiai hi fwrw cipolwg diofal ac anamlwg yn ôl tuag ato heb ddangos ei chwilfrydedd. Ac roedd hi'n sicr nawr fod rhywbeth yn bod ar y dyn.

Oedd, roedd hi'n ei nabod e. Wyddai hi ddim ym mha le, wyddai hi ddim pa bryd. A hithau wedi bod mor greulon bell ac mor farwol hir i ffwrdd mewn gwlad arall, ac ar wahân i holl fywyd Llanelli, doedd dim hanner digon o'r hen gydnabod yn adnabyddus iddi mwyach, gan fod pawb yn newid cymaint. Ond er na allai'i leoli fe, roedd a wnelai fe rywsut â hi. Roedd e'n un o'r 'hen genhedlaeth' gynt, un o'r rhai a arhosodd yn ôl yn yr hen le. Ac yna, ar ôl iddi basio heibio iddo, digwyddodd rhywbeth ofnadwy iddo y tu ôl iddi. Daethan nhw at groesffordd Heol yr Orsaf a Heol Murray. Roedd y gŵr newydd-ymadael â'r palmant. Roedd e'n gwegian ar draws y ffordd pan syrthiodd. Suddo ar ei liniau, a chwympo, a gorwedd. Trodd Naomi yn ôl ato, a rhedodd i'w helpu. Roedd llanc deunaw oed wedi cyrraedd o'i blaen, ond yn ddiymadferth, heb wybod beth i'w wneud.

Plygodd y llanc uwchben wyneb y dyn.

'Mae e'n farw. Dyw e ddim yn anadlu.'

'Cydia ynddo,' meddai hi. 'Gwell ei dynnu fe i le diogel.' Llusgon nhw'r dyn gerfydd ei gôt drom yn ôl ar y palmant, ac edrychodd Naomi arno mewn dychryn. Gŵr heb fawr o anadl oedd, yn ymddangosiadol heb fawr o einioes.

'Cer i ffonio'r ambiwlans,' meddai hi'n siarp.

'Allwn ni ddim bwrw'i fryst?' holodd y llanc fel y'i gwna llanciau. Yn hoffus anymarferol, dybiai hi. 'Ambiwlans! Ie!' gwaeddodd Naomi'n ôl ato'n daer.

Erbyn hyn roedd rhyw hanner dwsin o bobl wedi ymgynnull yn gwmni syn o'u hamgylch. Allai hi ddim ei glywed e'n anadlu. Allai hi ddim teimlo curiad ei galon chwaith. Syllai hi arno, ac yr oedd e'n gyfan gwbl ddisymud. Pwy oedd e? Gwasgodd hi'i drwyn. Plygodd, ymledodd hi drosto'n nerfus, a gosod ei gwefusau'n ofalus am ei wefusau fe. A chwythu. Chwythodd yn rheolaidd, a'i hanadl hi'n procio cilfachau'i gorff i gyd. Chwilio, chwilio roedd ei hanadl am ei anadl e.

Yn ddisyfyd llifodd ton o drydan bywydol o'i sawdl hi hyd ei chorun. Llanwyd ei breichiau a'i dwylo gan gefnfor o gynhesrwydd. Cochodd hi. Ond nid ymataliai hi yno am eiliad. Anadlodd hi'n gyson i'w geg. Anadlodd ac anadlodd fel pe bai hi'n ei rhoi ei hun iddo. A'i gwefusau hi ar ei wefusau fe. Pwy oedd e?

Nerfus oedd hi. Dyna pam roedd hi'n crynu. Anghofiodd yn awr ei gŵr marw ei hun am y tro cynta ers ei farwolaeth. Ni cheisiodd chwaith dacluso'i sgyrt a lithrasai ymhell uwchben ei phen-lin wrth iddi ymledu dros y dyn. Curodd hi'n benodol ar ei fryst wedyn. A hynny a weithiodd, nid yr anadlu. Dadebrai fe'n awr. Agorai gil ei lygaid. Roedd e'n anadlu drachefn. Syllai fe allan drwy'i un llygad iach. Gwelai fe hi megis drwy niwl.

Menyw oedd yno uwch ei ben. Menyw hawddgar. Wyneb cyfarwydd. Wyneb o'i febyd.

Drwy gil pŵl ei lygad tonnai'i ddyddiau gleision yn ôl drosto a thwymo'i ysgwyddau a'i freichau a'i fynwes wan, heb fod yn glir. Sibrydai'i feddwl e: 'Naomi'.

Caeodd ei amrant drachefn. Roedd e wedi bod yn ffŵl y bore hwnnw, yn ceisio symud y bocsys tryma gyda dau o'r dynion. Ond dyna hi. Torchi llawes dyna fu ei ffordd e erioed. Gor-weithio.

Roedd yr ambiwlans wedi cyrraedd o'r diwedd. Yn awr, roedd y gwŷr yn eu hiwnifformau yn meddiannu'r olygfa oll ac yn symud fel peiriannau wrth ymgeleddu. Wrth gario'r dyn, wrth gau drysau, roedd y cwbl mewn trefn a'r cwbl yn ddiogel.



Sleifiodd Naomi i ffwrdd yn ddisylw. Chwiliodd hi o'r newydd am ei bywyd beunyddiol ei hun, ceisiodd ysgwyd i ffwrdd y dyletswyddau diweddar helpfawr, ac ailalw ei brys, ac ymlaen â hi, felly, yn ôl yn y trê'n i Birmingham, wedi gwneud ei gwaith. Roedd hi hefyd wedi cofio nawr pwy oedd e.

## 2. *Mal a Gil*

Gartre yn Birmingham gwyrodd Rwth ei phen wrth glywed y ffôn. Roedd hi'n sleisio shibwns ar ford y gegin.

'Wnei di ateb?'

Syllu'n jôcos ar y teledu roedd Orpa ar y pryd, ei chwaer yng nghyfraith. Braidd yn anfoddog y cododd honno. Cyn pen hanner munud, sut bynnag, roedd Orpa wedi dod ag ateb annerbyniol at ei chwaer yng nghyfraith. Roedd yn ateb byd-newidiol.

Roedd hi'n crynu'n llwyd o'i phen i'w sawdl.

'Plismon. Neges. O'r ysbyty.'

'Pam? Na!'

'Mal a Gil.'

'Damwain? O! Na!'

'Ar y draffordd.'

'Na! Ydyn nhw'n fyw?'

'Ydyn. Ond mae'n rhaid inni fynd ar unwaith.'

Roedd meddyliau'r ddwy wraig yn cydio yn wynebau'r bechgyn eisoes yn ddiymatal, fel cylchoedd-achub yn y môr, a'u coluddion benywaidd yn udo arnyn nhw i beidio â throi'n rhithgofion, a'u drysni'n anadlu'n wyllt, a'r carwriaethau a'r cyd-anadlu fu ganddyn nhw mor dyner ddoe, nawr yn nyrnau rhyw leidr llithrig yn gorchymyn iddyn nhw ymladd i gadw'u hwynebaw uwchlaw lefel dyfroedd amser am ychydig.

Cyn pen munud roedd y ddwy wraig mewn car yn hyrddio drwy strydoedd Birmingham.

'Ond sut? Sut?'

'Ddwedwyd dim mwy.'

'Doedd dim awgrym?'

Brysien nhw drwy ddrysau'r ysbyty. Holi wrth y ddesg. Rhedeg ar hyd y coridor. Wedi cyrraedd ward neilltuedig, chwilio am feddyg, am nyrs: daeth nyrs i gyfarfod â nhw. Mwmiodd hi'n gwbl annealladwy aneglur ar wahân i un gair. 'Marw.' Fe blymiodd eu calonnau yn y môr. Ymdaflodd Rwth ac Orpa i freichiau'i gilydd gan feichio wylo. 'Na!' Eu gwŷr!

Y ddau ŵr ifanc hardd yna! Eu ffrindiau o gariadon. Wedi'u malu! Y ddau hynny y buon nhw'n rhannu brawddegau serchog â nhw lawer tro ac wedi nythu yn eu gwefusau cynnes, wedi ymgolli yn eu mynwesau, y ddau a oedd wedi cordeddu am eu breichiau a'u calonnau a bysedd eu traed a'u llygaid, y ddau y buon nhw'n eu hanwylo ychydig o oriau'n ôl, yn awr wedi'u briwio oll, a'u darnio, mor ddisyfyd mewn car. Archollion dwys dwfn ar draws cyrff y ddau, ac archollion eraill wedi chwalu hefyd fodolaeth eu gwragedd nhw am byth. 'O! na.'

Wrth y gwelyau roedd yna feddyg wedi dod, ac yn aros. Aros roedd e heb obaith.

Roedd y ddau ŵr yn farw i bob pwrpas pan gyrhaeddon nhw'r ysbyty. 'Niweidiau i'w pennau. Allen nhw ddim bod wedi teimlo dim byd. Un o'u teiars oedd wedi chwalu. Doedd 'na neb arall...'

Teiar. Mal a Gil. Heb deimlo dim byd. Neb arall. Roedd e'n parablu ymlaen ac ymlaen. Pacistani caredig o feddyg. Yn edrych yn glên. Ac yma roedd eu gwŷr hwy ill dau ym mlodau eu dyddiau. Teimlo dim byd. Neb arall. Storm o gelanedd yn awr oedd erchwyn y gwely. Fu dim cymaint o sŵn mewn calonnau yn yr un lle erioed. Fu dim cymaint o wacter erioed chwaith mewn dau ben mor agos.

Chofiai'r un o'r ddwy wraig wedyn y weithred o gerdded allan o'r ward.

Chofien nhw ddim ymlusgo ar hyd y coridor i lawr y grisiau ac i'r car. 'Druan o Naomi hefyd,' meddai Rwth am ei mam yng nghyfraith. Chofien nhw ddim o'r weithred o yrru'n ôl tuag adre.

'Naomi! Beth amdanon ni?'

'Druan ohoni hi.'

'Sut ddwedwn i wrthi?' holai Orpa.

'Ei bywyd i gyd. Yr unig feibion. Neb arall. Chwap ar ôl colli'i gŵr ei hun. Y cwbl. A hithau newydd golli El! Heb wybod ble mwyach i droi. A'r ddau fachgen tlws nawr! Colli pawb. Mae 'nghalon i wedi dryllio. Alla i ddim godde dweud wrthi.'

Roedd Rwth hithau'n wylo. Ac Orpa fel clwtyn brwnt. 'Addawson ni fynd i gwrdd â'i thrên yn ôl o Lanelli ,' meddai Rwth.

'Oes rhaid inni?'

'Ei thrysor hi oedden nhw.'

'Ein trysor ni'n fwy,' mynnodd Orpa.

'Ond Naomi!' Siaradai Rwth heb amgyffred. 'Does ganddi hi neb arall.'

Hanner awr a oedd ar ôl cyn bod trên Naomi i fod i gyrraedd yn ôl, a throdd Rwth y Renault tuag at yr orsaf.

'Does gen innau neb arall chwaith,' ebychai Orpa'n chwerw.

'Wrth gwrs. Ond mae gynnon ni'r blynyddoedd. Mae gynnon ni iechyd a chyfle am ddyfodol.'

'Sut gelli di ddweud hynny, Rwth? Iechyd? Hyn! Fi! Beth yw'r ots am iechyd?'

'Mae Naomi eisoes yn *torri*. Mi dorrodd hi ar ôl colli'i gŵr. Does ganddi hi neb mor agos mwyach, nac amser i aildechrau byw. Na dim cryfder.'

'Dw innau, Rwth, wedi torri... Mor ddewr wyt ti! ... Dw i wedi torri'n yfflon.' Sut y gallai Rwth fod mor galed? Roedd y bechgyn, eu bechgyn nhw, wedi mynd.

Pa ailddechrau oedd i weddw? Fe deimlai Orpa'u bod nhw ill dwy'n ymbellhau yn eu cyd-deimlad cyfarwydd oddi wrth ei gilydd am y tro cynta fel chwiorydd-yng-nghyfraith.

### 3. *Gwefusau El*

Yn ei cherbyd-trên gwenai Naomi rhyngddi a hi ei hun, yn gymysg ei hiraeth a'i hiselder am y tro cynta'n awr er pan fu farw'i gŵr. Roedd hi wedi ymsefydlu yn ei sedd ar gyfer siwrnai o rai oriau yn ôl tua chanolbarth Lloegr. Ond nofiai ei myfyrdodau o hyd yn Llanelli, a'i hen fro. Daliwyd ei gwên lydan hi yn sydyn nawr gan fyfyrwr a oedd yn eistedd gyferbyn â hi yn y cerbyd; a gwenodd hwnnw'n ôl ati, ac yna ailgydio yn ei lyfr. Aeth hithau'n ôl i fwynhau'i meddyliau. Beth oedd wedi digwydd yn Llanelli?

Roedd hi wedi rhoi *cusan* bywyd i'r dyn ac wedi'i achub e. Dyna'r cymysgu yn ei myfyron yn awr. Roedd hynny'n rhywbeth efallai i fod yn falch iawn ohono. Un geg arall i'w bwydo o hyd yn Llanelli, meddai hi wrthi'i hun yn gwbl anghyfrifol, gan wenu eto ond heb i'r myfyriwr sylwi. Ond dyma hi, fwya'i chywilydd, yn dechrau chwarae â'i myfyron, peth arall nas gwnaethai ers cyfnod hir. Ac roedd hi wedi nabod y dyn yna yn Llanelli, roedd hynny'n sicr. Hen fflam efallai. Cywilydd, Naomi, a thithau newydd droi'n weddw. Ond roedd hi'n gwbl naturiol ei bod hi'n chwilfrydig amdano. Oni fu hi'n gyfrifol amdano yno ac ar y llawr rywsut? Cafwyd math o berthynas a bywyd adferol yn y cyfarfyddiad hwnnw.

Paid â bod mor annioddefol o ymhongar Naomi fach. Pe na baet ti wedi'i wneud, byddai rhywun arall wedi achub y cyfle. Roedd hi'n falch iawn, iawn yn awr, serch hynny, mai hi oedd wedi cyrraedd yn gynta a bod ei gwefusau hi wedi amgáu o gwmpas ei wefusau fe, ac anadlu bywyd iddyn nhw, a'i hanadlu hi ei hunan i mewn i'w ysgyfaint e. Hi oedd wedi diogelu'i fywyd e. Pwy oedd e?

O! na bai hi wedi gallu achub El, ei gŵr, fel yna.

Cusan bywyd. Roedd hi wedi breuddwydio o'r blaen droeon am achlysur posibl fel hyn, beth petai'r angen byth yn codi, a fyddai'n atebol? Ac yn awr, yn sydyn, (ond yn

sydyn y byddai'n rhaid disgwyl i bethau fel hyn ddigwydd), fe'i daliwyd hi. Gan beth? Gwefusau'r gŵr pell hwnnw ei hun yn y gorffennol, y cariad a gollasai gynt, yma am foment, yn lle'r un arall a ddô'i'n ôl mor daer o gymysg i'w cho, El, ei gŵr marw, a'i wefusau pwl-pog llawn a chysurus ac awchus, ei wefusau oediog a llawen e. Gallai hi ar un adeg aros ynghladd yng ngwefusau cyfarwydd El, am byth. Hedodd prudd-der drosti o'r newydd. Ond pwy oedd y dyn yn Llanelli?

Cydiodd y prudd-der ynddi, ac fe'i siglodd ei hun yn fewnol er mwyn ymwared â'r hunlle. Sychedai am wefusau o *unrhyw* fath.

Wnâi hyn ddim o'r tro. A hithau'n ganol oed, roedd ganddi hi bwrpas o hyd. Ac yna, yn ddisymwth cofiodd pwy yn fwy penodol oedd y dyn hwnnw yn Llanelli. Dyna pwy oedd e: nid ei gŵr wedi dychwelyd mewn breuddwyd hiraethus, ond hen gydnabod annelwig. Dychwelodd chwerwder yn ei hiraeth am wefusau El. Ie... chwarddodd yn swta chwerw ac yn uchel bron am ei phen ei hun. Cododd y myfyriwr gyferbyn ei ben a wincio arni drachefn. A chuddiodd hi ei hwyneb â'i dwylo mewn gwên chwithig oherwydd y sibrydion mewnol o frad.

#### 4. Newyddion

Chwiliai llygaid Rwth ac Orpa amdani drwy'r dyrfa. Ar ryw olwg, roedden nhw'n falch nad oedd Naomi draw yn unman i'w gweld yn yr orsaf.

'Ble gall hi druan fod? Nid dyma'i harddull hi,' meddai Rwth. 'Os oedd hi wedi dweud hanner awr wedi dau...'

'Fe oeddod hi. Cael peth hwyl gyda'r perthnasau, a gohirio efallai...,' meddai Orpa yn ei hiselder.

'Dw i'n mynd i ffonio Wncwl Eic.'

'Paid â dweud dim wrth Eic am y bechgyn. Ddylai neb cael gwybod y newydd drwg o flaen Naomi.'

Doedd dim ofn y gwnâi Rwth y fath beth, serch hynny, felly, na datgelu'r fath newyddion i neb: rhy drwm oedd ei chalon hithau. Eisiau encilio oedd arni y foment

honno i ryw ogof dywyll, dywyll, a'i chuddio'i hun am flwyddyn. Roedd ei llwnc hi'n brifo. Pan gyrhaeddodd y bwth teleffon, sylweddolodd Rwth ei bod ar ei phen ei hun am y tro cynta er pan glywsai'r newydd am y bechgyn. Drylliodd ei chalon, a thywalltodd ei galar i'w hances.

'Beth ddwedodd Wncwl Eic?' holai Orpa wedyn.

'Fod Naomi a'r trên wedi cychwyn yn brydlon fel arfer. Doedd e ddim yn gwybod dim wedyn.'

'Ddwedaist ti ddim am y bechgyn?'

'Dim.'

'Dim ots. Bydd y trên nesa'n cyrraedd yn rhy fuan beth bynnag.'

Roedd y trên hwnnw, y trên gwreiddiol, wedi cael ei atal sut bynnag gan gyweiriadau ar y lein; a rhywsut roedden nhw ill dwy'n falch. Yn gorfforol roedd eu penderfyniad nhw'n cael cyfle i ymnerthu. Doedd eu lleferydd ddim yn dal mor annaturiol o daer bellach. Yn raddol rywfodd roedd math o ddychryn wedi'i chwalu, heb ddim ond ysictod ar ôl. Ond wrth iddyn nhw ymbaratoi am aros yn amyneddgar ymhellach, dyma'r trên o Gymru yn cyrraedd ychydig o funudau'n ddiweddar, ond wedi adennill ei amser rywfaint, tan lithro'n llysnafeddog o falwodaidd yn awr tuag atyn nhw, a ffenestri'r gyrrwr yn delwi'n arnyn nhw'n farwaidd, a'r neidr o drên anochel yn barod i'w brathu. Edrychai'r ddwy chwaer yng nghyfraith, y naill ar y llall, yn ddiymadferth a chydio ym mreichiau'i gilydd yn hiraethus. Ac ymsythu. Ac allan o'r cerbyd, gwelon nhw hi draw ar y platfform, hi fel brenhines Sheba yn wenau i gyd ac yn chwifio'i breichiau gorfoleddus fel pili-pala am y tro cynta ers misoedd, dacw Naomi.

## 5. *Y Bòs*

Yn ôl yn Llanelli, roedd Bòs wedi ymadfer. A daethai rhywrai o'i weithwyr i ymweld ag e.

'Fe glywson ni ichi gael cusan bywyd gan fenyw, Bòs.' Edrychai'r tri – Twm, Cris a Watcyn – ar eu pennaeth Mr Salmon. Eistedden nhw ger y gwely ysbyty gan wenu i lawr tuag ato'n bryfoclyd.

'Do, do, dyna oedd prif gymhelliad y perfformiad wrth gwrs.'

'Miss Wales, meddan nhw.'

'Felly rown i'n ddeall.'

'Oedd hyn yn glymiad parhaol o ddifri, Bòs?'

'Wel, dych chi'n yn nabod i, bois. Bob amser yn barod am her newydd.'

Torrodd nyrs ar eu traws. 'Mae'n rhaid iddo fe gael llonydd nawr.'

Diolch am ambell nyrs: cafodd Salmon lonydd, a chyfle i bensynnu yn ei go.

Naomi oedd y fenyw yna ar y stryd a'i helpodd e, roedd Salmon yn siŵr, neu o leia yn niwlog o siŵr, fel y'n gwneir gan ddrysfar blynyddoedd rywfodd. Roedd Naomi gynt a fe wedi bod yn ffrindiau o fath, ar un adeg, yn eu hieuenctid, fel y bydd pobl ifainc; ond pellhau wnaethan nhw ar ôl iddi fynd i'r ysgol uwchradd dair blynedd o'i flaen e. Na, doedden nhw erioed wedi datblygu unrhyw fath o gyfeillgarwch aeddfed. Roedd e wedi lled syllu arni ambell dro o'r ochr arall i'r oriel yn y capel. Ac efallai fod ei llygaid hi wedi'i ddala fe ambell waith. Ond gwrthdrawiad damwain oedd peth felly. Dim byd arall. Siaraden nhw â'i gilydd yn achlysurol yng nghwmni pobl ifainc eraill, byth mwy na hynny.

Yn awr, cyn y pwl ar y stryd, clywsai fe sôn gan ffrindiau fod Naomi, yn ddiweddar, wedi ailddechrau ymweld â Llanelli. Gwelsai fe hi un tro am ychydig o eiliadau yn ddiweddar yn y capel a fynychai fe ar hyd y blynyddoedd, ar ddiwedd y gwasanaeth pan oedd e'n ymadael. Roedd ei gwallt hi wedi britho o gwmpas ei chlustiau; ond roedd hynny'n naturiol. Roedd gan ganol-oed ei aeddfedrwydd hawddgar. Mewn oes pryd roedd cymaint o bwyslais ar flaengarwch adolesens, a defodau ieuenctid, a ffasiynoldeb llancaidd miwsig a bwyd a dawnsio, yn ei fryd e gallai gwallt brith fod yn ddeniadol dawel ar gyfer byd wedi'i ormesu gan anaeddfedrwydd. Onid oedd ei wallt yntau, gymaint ag a oedd ar ôl, yn gwbl wyn, yn anrhydeddus drawiadol o

wyn? Dim byd mwy na hynny. Ond gŵr prysur oedd-e. Wrth reddf. Aeth e ddim ati hi i siarad ar y pryd. Angofiasai am ei olwg ei hun ers tro. Roedd e'n ddyn diwyd iawn. Yn gorfforol, gallai fod yn ddigon o ffŵl mentrus – 'diofal o'i iechyd', a heb syniad am loywyder dillad. Efallai nawr, gyda'r trawiad annisgwyl hwn, y medrai fe syn-sylweddoli o ddifri mai ffŵl gwir wirion oedd, heb ofalu amdano'i hun yn elfennol, heb ddim math o ddeiet dihalen a di-siwgr, heb ymgais i osgoi strès. Chawsai fe ddim digon o ymarfer corff rheolaidd. Bu e'n cario bocsys trwm y bore hwnnw. On'd oedd e wedi cael rhybudd prydlon o'r blaen ynglŷn â'r gwasgedd gwaed? Ai ceisio'i ddangos ei hun i'r bechgyn roedd e, ei fod yn dal yn nerthol gystal â nhw? Ddysgai fe byth mwyach.

Eithr bwriwyd e'n ddisymwth y tro hwn. Fel gan don. Ton oedd erbyn hyn wedi chwalu ac wedi suddo o'r golwg, ond wedi gadael ei hôl arno. Roedd e fel pe bai ar lan y môr wedi cael ei erydu dros gyfnod o amser gan hen guriadau; roedd hi'n hen bryd iddo sylweddoli ei gyflwr a'i oed. Roedd e wedi cael ei dreulio bob cwr ohono, dyna'r gwir, a'i fysedd a'i wefusau sych wedi'u chwalu'n swnt mân mân. Ond dichon hefyd, gobeithiai, ei fod e ei hun ryw ychydig mwyach wedi cael ei olchi o'r newydd yn y broses gan ychydig o synnwyr cyffredin. Byddai bywyd yn wahanol ar ôl iddo wella. Ond y fenyw 'na. Rhaid fyddai iddo gael ei chyfeiriad, anfon blodau, a diolch iddi am ei mawr garedigrwydd.

## 6. *Rwth ac Orpa*

Rhedodd Orpa ganllath ar y blaen ar hyd y platfform i gyfarfod â Naomi, a'r newyddion ofnadwy'n llosg yn ei phen. Ond ychydig o lathenni cyn ei chyrraedd, stopiodd. Ac edrychodd ar ei mam-yng-nghyfraith yn orffwyll.

Yn yr eiliad yna, deallodd ychydig am y math o alar fyddai gan Naomi.

Yna, trodd Orpa fel pe bai am gael dihangfa yn ôl. Allai hi byth ddweud wrthi. Trodd felly fel pe bai am gilio, a thorrodd i wylo. Daeth Naomi ati, doddi ei chês ar y llawr a gosod braich am ysgwydd Orpa.

'Beth sy, cariad?' Cododd Orpa ei hwyneb dagreuol. 'Beth sy Rwth? Y bechgyn? Mae 'na rywbeth wedi digwydd? Mal a Gil. Beth sy?'



'Y ddau,' pesychodd Rwth. Ond allai hi ddim mynd ymlaen. Roedd cyrff y bechgyn glân wrthi'n tagu yn ei llwnc.

'Y ddau! Beth wyt ti'n feddwl? Y ddau!'

Arafodd Rwth. Roedd yn rhaid ei ddweud, ac allai hi ddim ei wneud. O'r braidd fod y geiriau'n gallu cloffi allan. 'Ar y draffordd!' ebychodd hi.

'Damwain! Na!'

'Damwain, do.'

'Byth Mal a Gil. Na.' Gwthiodd hi Orpa yn chwyrn oddi wrthi. 'Na, nid y mechgyn hardd i. Na, na. Cerwch.' Ailgydiodd yn y cês bach a'i daflu at y merched. Trodd hi o gwmpas y lle fel pe bai hi ei hun wedi'i dienyddio – heb gopa. Teimlai fod cigfran yn cnoi croen ei bron yn ara. Wedi'r storm, allai hi ddim clywed mwyach ond y diferion bach o waed coch yn syrthio o gafnau'r to.

'Peidiwch, Naomi,' erfyniodd Rwth.

'Na. Allan nhw ddim lladd y mechgyn annwyl i. Nid y rhain. Nid El o'r blaen, a'r rhai bach hyn nawr.' Tafloodd ei bag llaw at y merched. Roedd rhai plant a oedd wedi disgyn o'r trê'n wedi stopio i syllu ar y cythrwbl.

'Naomi. Gadewch inni siarad,' meddai Rwth.

'O! Dŷn ni'n mynd i ddiode Madam Synnwyr Cyffredin nawr ydyn ni, wedi dod i'n goleuo ni,' meddai Naomi'n galed isel.

'Dŷn ni'n eich caru chi, Naomi.' Nesaodd Rwth at ei mam-yng-nghyfraith. A cheisiodd Naomi ddim gwrthdystio mwyach, na gwrthwynebu wrth i Rwth osod ei braich yn dyner am ei hysgwydd. Roedd hi wedi'i dofi. Yn doredig ac yn ddarostyngedig, dan gesail Rwth fel petai, baglodd hi ar hyd y platfform. Chwerwder oedd piau hi bellach. I'r car wedyn, fel pe bai'n ymbalfalu eisoes yn ei dychymyg i gar-angladd y bechgyn. Yn ôl wedyn yng nghegin ei chartre'i hun, eisteddai, eisteddai'n hir tan ochain, a'i phen yn ddwfn yn ei dyrnau ar y bwrdd anneallol. Roedd y ddwy ferch-yng-nghyfraith ar goll o'i blaen. Gadawsan nhw iddi fod wedyn, i bendroni am ei sefyllfa. Yn y lolfa o'r neilltu aeth Orpa i eistedd a gwau yn fud, gan sbio'n bryderus bob

yn awr ac eilwaith tuag at gefn Rwth. Safai Naomi a'i hwyneb tua'r ffenest ond heb edrych allan i'r gegin, ac eto heb siarad, roedd hi'n teimlo y byddai pob gair yn debyg i'w gilydd, ac felly'n rhy debyg i gyllell. Chwerwder!

Naomi, o'r tair, a lefarodd yn gynta. Siaradai'n ara. Roedd y ddau fab wedi 'marw' iddi ymhell cyn hyn. 'Chi'ch dwy, heb fwriadu drwg efallai, roeddech chi wedi'u dwyn nhw ers tro. Wedi sefyll rhyngddo i a nhw. Wedi meddiannu'r cwbl, heb adael un gronyn ar ôl.'

'Naomi. Gadewch inni siarad.'

'Ches i ddim cysylltiad normal mam a'i meibion.' Yna clywodd hi wahoddiad Rwth. 'Beth yw siarad?' danododd y fam-yng-nghyfraith i Rwth.

'Mae'n calonnau i gyd yn drwm, yn rhy drwm i siarad eto efallai,' meddai Rwth.

'Wyddoch chi ddim. Wyddoch chi ddim oll amdani.'

'Roedden ni i gyd yn eu caru nhw,' meddai Rwth.

'Anghofia i byth. Y ffordd ffiaidd honno y cymerwyd y meibion i oddi-wrtho-i gynnoch chi!'

'Dyw hynny ddim yn wir, Naomi. Thâl hi ddim siarad fel hyn.'

'Y mhortreadu i fel teyrn! I'm meibion i yn hun. Teyrn! Heb ichi'i fwriadu efallai. Ond fel yna roeddech chi'n y mhaentio i. A finnau wedi'u caru nhw, wedi bod yn gaethforwyn iddyn nhw erioed.'

'Wnaethon ni ddim negyddol fel 'na. Nid ni.'

'Do, do: eu troi nhw yn yn erbyn i, yn dawel, dyna wnaethoch chi. Heb yn wybod efallai, – y ddwy ohonoch chi. A thithau'n anad neb Rwth.'

'Fi!'

'Ti. Fedra i ddim anghofio.'

Dychwelodd Rwth yn benisel i'r lolfa, ac eistedd wedi torri'i chalon. 'Doedd hi ddim yn wir,' meddai hi drosodd a throsodd. Cododd Orpa, a llithro yn lle Rwth i'r gegin at ei mam-yng-nghyfraith, a gosod ei braich am ysgwyddau caled a chwerw

Naomi. Doedd dim ymateb. Roedd y tair menyw yn bodoli yn yr un tŷ nawr, ond doedd yna'r un ddolen gynnes rhyngddyn nhw mwyach. Roedd y distawrwydd yn ormod: roedd pobun yn amddifad.

Yna, diflannodd Naomi rywsut o'u golwg, ill dwy. Ymlusgodd hi allan draw at fedd El, ei chyn-wŵr, fel pe bai am rannu'i baich gydag e. Safodd hi'n ddifywyd o'i flaen. I'r fan honno'n union, ac yn ddiau, y dôl'r bechgyn hwythau cyn bo hir i'w claddu.

## 7. *El*

Hyd yn oed yn Birmingham y mae'r gwanwyn yn orfoleddus. Heddiw yr oedd fel diwrnod o haf diweddar a'r haul yn curo'n hyderus ar y galarwyr ar lan y bedd du dwfn heb ei rwystro gan un rhithyn o gwmwl. Tywydd ac awyrgylch chwit-chwat oedd 'na, ond braf am y tro y bore 'na. Yfory, dôl'r glaw drachefn. Lle felly oedd Birmingham, rywsut, i Naomi. Doedd yna ddim trugaredd na thrigfa barhaol iddi ynnddi ar ôl Llanelli. Doedd Naomi ddim wedi llwyddo erioed i ddiode undonedd Birmingham. Yn wir, dim ond er mwyn El, a'i waith e, y daethai hi yno o gwbl. Dilynodd ei gŵr. Ac roedd y lle yn fythol wrthun iddi, yn gasgliad o frics masnachol, yn anghenfil di-siâp economaidd, yn estyniad o ddiddymdra'r gofod mawr ei hun, heb fryniau. Fuodd hi erioed yn hapus 'na.

Hyd yn oed ym mryd Rwth hithau roedd y cwbl yn seithug heddiw. Er mai'r ddinas hon fu ei chynefin erioed, allai hi ddim llai na theimlo yma fel Naomi fod yna rywbeth o'i le yno nawr, ac nad fel hyn y dylai pethau fod. Lle i farw oedd. Ac roedd y marw hwnnw eisoes wedi ymgrisialu iddi o'r union le hwn. 'Dw i yma o hyd,' meddai'r undonedd trwm o'i deutu.

A heddiw yng nghlai'r ddinas, roedd y darnau pridd bachgennaidd a undoniwyd gan Birmingham, ond a ragflaenwyd gan eu tad yng nghyfraith, yn mynd i'w cuddio hwythau'u hunain. Clyw-wyd parabl arferol gan y gweinidog. 'Dyn a aned o wraig, sydd â byr amser i fyw, ac sydd yn llawn trueni. Y mae efe yn blaguro fel llysiuyn, ac a dorrir i lawr; ac a ddiffanna fel cysgod, ac ni saif.' Wrandawai Naomi ddim ar ddim. Pa wrando oedd ei eisiau? A phe gwrandawai, doedd hi ddim yn alluog y funud yna i amgyffred dim oll.

'Ynghanol ein bywyd yr ydym mewn angau.' Symudai'r gwirionedd hwnnw drwy'r awyr. Safai'r tair menyw, bob un ar wahân, bob un ar bwys ei gilydd, ar lan y bedd.

Gwyddai Rwth fod hynny'n wir. Roedd hi ei hun newydd golli cyfran helaeth o'i bywyd wrth gyfrgollu'i chariadfab mwyn, a'i dad clên. Dechreuai'r tair cerdded i ffwrdd yn fud. Edrychasai Naomi gydag atgasedd i lawr i'r twll llwm. Mewn du hyd at ei thalcen, y tu mewn a'r tu allan, ymguddiai hi yn ei llawn aeddfedrwydd o fewn y noswyllo anghysbell dwfn hwn gan herio unrhyw leuad i sibrwd unrhyw argoel o normalrwydd. Wrth feddiannu galar am y tair colled fel hyn roedd hi wedi mynnu rhwyfo i ganol llyn enfawr a thaflu'r rhwyfau i ffwrdd, gan fodloni ar ei chwch yn trosi a throi yn yr un sgwaryn o ddŵr llwydlas hurt yn gyfan gwbl, heb freuddwydio am yr un traeth cynnes ar unrhyw orwel arall lle y gallai lanio. Ac yn awr, gwyliai'r rhwyfau, yr ystyllod cynhaliol, hwythau'n bobian ar y tonnau ymaith, a'r bad odani hi'n suddo. O'r braidd y gallai Naomi feiddio meddwl am enwau'r bechgyn bellach rhag troi i lefain drachefn. Wrth gerdded oddi wrth y bedd, mynnai aros ar wahân yno ac ar y blaen i'r lleill. Chwiliai am ei ffydd golledig. Ond nawr, pan oedd eisiau honno arni, doedd hi ddim yn ddigonol. Cerddai Naomi mewn unigrwydd o'r bedd ar goll. Cerddai Rwth ac Orpa ychydig o lathenni y tu ôl iddi heb ymyrryd. Ond lle, ym mryd Rwth, y bu'r fath ymwahanu yn greulon iddyn nhw ill dwy, i Naomi, caledrwydd chwerw oedd. 'Alla i ddim ei gadael hi'n unig,' meddai Rwth.

'Cer di ati,' anogodd Orpa iddi.

'Gyda'n gilydd, dere.'

Fe frysion-nhw gyda'i gilydd, y naill ar un ochr i Naomi a'r llall, ar yr ochr arall, gan gynnig eu breichiau iddi, ond mynnai hi ymryddhau'n anfoddog, wrth gerdded yn ôl tua llidiart y fynwent.

'Fe ddwedodd y gweinidog air da,' meddai Rwth. 'Gair gobaith.'

'Da! Alla i ddim o'ch deall chi,' atebai Naomi'n siarp. Ceision nhw glosio ati, ond fynnai hi ddim o'r fath beth.

Ymhen ychydig trodd hi at y ddwy ferch. 'Beth wnewch chi'n awr? Mynd, ie mynd, debyg.'

'Na wnawn,' protestiodd Orpa.

'Gwnewch. Does gen i mo'ch eisiau chi. A does gynnoch chi ddim o'n eisiau i.'

'Chi yw'n teulu ni nawr,' mynnodd Rwth.

'Does gen i ddim peth felly. Birmingham 'wir! Dw i'n casáu'r lle.'

'Chi yw'n cyfan ni,' mentrodd Orpa.

'Y nghwmni i,' gwawdiodd Naomi. 'Does 'na ddim diddanwch yn y fan yma.'

'Dych chi byth wedi ystyried... Na,' ebychai Rwth.

'Beth?'

'Dim.'

'Do, do, beth?'

'Fyddech chi ddim,' meddai Rwth.

'Beth?'

'Fyddech chi ddim wedi ystyried y gallai fod arnon ni eisiau'n gilydd nawr? A bod gyda'n gilydd?'

'Py!' poerodd Naomi mewn dirmyg. A dechreuodd hi bellhau oddi wrthyn nhw drachefn. Derbyniodd y merched y gwrthodiad hwn yn drist. Cheisien nhw ddim ei herlid.

'Does ganddi hi,' sibrydai Orpa wrth Rwth, 'ddim clem sut dŷn *ni'n* teimlo.'

'Mae galar yn ddall i alar.'

'Ond fe ddylai hi allu dychmygu fod 'na ryw fymryn o berthynas rhyngon ni'n dwy a'i meibion hi... All hi ar hyn o bryd ddim cyd-deimlo â neb.'

'Mae perthnasau'n gallu bod yn fwy o dramgwydd na neb,' meddai Orpa. 'Cyfleus iawn yw pwynt rhewi ar adeg fel hyn.'

Cydiodd Rwth yn rhan ucha braich Naomi. Petrusodd y fam-yng-nghyfraith, gyda'r cerrig beddau gwyn a llwyd yn ymestyn yn agos o'u cwmpas ar bob llaw, a'r rheini megis cae gwenith heb anadl awel yn unman, neu fel cerrig sarn ar draws afon lonydd ddofn heb gyrraedd byth mo'r lan arall. Erbyn hyn, bron yn ddiarwybod, roedd Naomi hithau wedi arafu; a cherddai hi o'r fynwent ar goll. 'Pam dych chi'n ein dirmygu ni, Naomi?', meddai Rwth. 'Doeddech chi ddim yn arfer gwneud hyn.'...

A hynny a dorrodd leferydd y fam-yng-nghyfraith. 'Dw i'n dirmygu popeth... Charodd e erioed mono i,' ebychai Naomi'n ffyrnig.

'Pwy?' holodd Rwth wedi'i drysu.

'Y ngŵr, – El. Gadewais i ngwlad. Cefnais i ar Gymru, Llanelli, popeth er ei fwyn e. Allwn i ddim godde dod o'na. Ond fe ddes i. Bob cam i Birmingham. Do. Gadewais i nheulu. Gadewais i'r gymdogaeth, a glan y môr, a'n ffrindiau i. Werthfawrogodd e erioed sut rown i'n teimlo. A dod i Loegr, i ganolbarth Lloegr o bobman. Gadewais i bopeth.'

Roedd hi wedi sefyll nawr, a nifer o'r tramwywyr eraill wedi'i goddiweddyd ac yn gwrando ar ei thaeru. 'Dod ymlaen oedd ei bethau fe, ynghanol Saeson. Neb yn deall ein pethau ni. Ein gwerthoedd ni. Ein hiaith. Roedden ni ar ynys fach. Y cartre. Y capel. Y gymdeithas ddiwylliannol. Ffug i gyd. Ond doedd *e* ddim am yn ystyried i. A beth wnaeth *e* ar y diwedd? Marw.'

Allai Orpa ddim godde gwrando ar y fath ddwli: roedd Naomi'n ormod iddi, yn embaras.

'A dyna chi'ch dwy wedyn. O mi wn i. Mi wn eich bod chi wedi dysgu'r Gymraeg. A rhaid imi adde ar y pryd allwn i ddim dirnad pam. Pan aethoch chi gyda'ch gilydd i'r cwrs 'na yn Llambod, rown i'n rhyfeddu. Ond dw i'n deall pam nawr. Er mwyn eu dwyn nhw'r bechgyn yn llwyrach oddi arna-i. Yn ddigon diniwed. Ond dyna pam. Ond doeddech *chi* ddim am eu nabod nhw'n iawn. Doeddech chi byth yn ymddiddori o ddifri yn eu pethau nhw ar y teledu. Beth wyddoch chi am y tîm cenedlaethol? Ydych chi'n gwybod enw'r wythwr? Wyddoch chi pwy yw'r cefnwr yng Nghastell Nedd?

Ydych chi'n gwybod beth yw camgymeriadau'r dewiswyr? Na, na. Ond fan yna roeddwn i'n gwybod cymaint am y timau â'r un o'r bechgyn.'

Tawodd hi. Roedd hi wedi blino. Roedd yr heulwen yn ei mygu. Roedd honno fel pe bai'n gwatwar y ddafaden wen, wen a lynai wrth ei harlais chwith fel eira. 'Dowch adre, mam,' murmurai Rwth. Edrychai Naomi arni'n wyllt anneallus; ac yna suddodd o'i mewn ei hun, a bodlonodd ar gael ei harwain i ffwrdd wrth i'r galarwyr ymwasgaru o'i hamgylch... Tair oedden nhw, tair ar ôl, tair yn cyfateb i'w gilydd, mewn ffyrdd gwahanol yn un heddiw. 'Mam! Dowch,' meddai Rwth drachefn.

### *8. Y Bòs yn Ymddeol*

Ymddeol fuasai orau iddo. Gwisgodd e'n ara yn y ward. Cymhwyso ychydig o'r batsien ddu dros ei lygad. Roedd e wedi gwella, ac roedd y Nyrs wedi galw am dacsigan nad oedd neb arall oll wedi dod i'r ysbyty i gyfarfod ag e. Bu'r gweithwyr yn eu tro oll yn galw i'w weld e ers rhai dyddiau; ond heddiw, gwnâi'r tacsï'r tro ymarferol iddo. Eisteddai'n gyfforddus. Gallai fe fforddio hamddena nawr wrth wella. Roedd e wedi adeiladu'r busnes yn llwyddiannus iawn. Ac yn awr roedd e'n 56 oed. Gwell o ran sentiment, dichon (meddyliai am foment) fyddai peidio am ychydig â gwerthu'r busnes ar frys, er doedd ganddo'r un teulu agos iawn i'w etifeddu. Ond roedd e am ymwared â'r pwysau. Gwell yn ymarferol fyddai cael tipyn o ryddid ymddeol tra oedd mymryn o wynt ar ôl yn y teiars. Oedd, roedd e wedi gwella. Yn y dyfodol, gallai ddod yn 'berchen' (o ran swydd) heb ymyrryd yn ymarferol yn y busnes o-ddydd-i-ddydd.

Ac eto, beth yn y byd oedd ar ôl i'r Bòs ar wahân i'w ffatri fan hyn yn Llanelli? Ac a allai fe drosglwyddo'r awenau i ddwylo unrhyw oruchwyliwr effeithiol arall? Onid oedd yn rhy fentrus ymddiried yn ymarferol mewn pobl? Heblaw ein rhieni – a hynny dim ond os dŷn ni'n ffodus iawn – dysgwn yn bur gynnar mai ychydig o bobl y gallwn ddibynnu arny'n nhw mewn bywyd. O bwyllon ofalus, anodd yw hyd yn oed ymddiried ynnon ni'n hunain. Amau pawb oll, pwy bynnag, yw'r peth call ac effeithiol a chyfeillgar ar y dechrau. Hyn fu ddiogela iddo yntau erioed. Hyn sy'n realistig. Ond bod yn wyliadwrus oedd hyn.

Yn naturiol, ac i'r sawl sy'n effro ac yn glustdenau, hyfrydwch pur yw ymddiried go iawn o unrhyw fath weithiau. Fe ddysgir y grefft o ddibynnu ar ei gilydd gan rai gwŷr a gwragedd yn burion. Fe'i ceir ar siawns drwy ambell gyfaill amheuthun. Fe'i dysgir yn gadarn gan Gristnogion â'i gilydd, ac yn sicr yn achos eu Duw. Ac eto, tra annoeth fyddai iddyn nhw ollwng eu hymddiriedaeth yr un fodfedd y tu allan i'r cylch cyfrin hwnnw. Pwyllo oedd orau nawr. Pwyllo gyda phopeth. Peidio â'i straenio'i hun yn yr ardd. Fe gâi e help llaw yn yr ardd gan ei gymydog Dic Saer. Rhedeg yn ôl ac ymlaen gyda'r lladdwr gwair, bu hynny'n burion iddo fe bum mlynedd yn ôl, flwyddyn yn ôl; ond roedd i bob aderyn ei dymor. Pwyllo ac arafu a mwynhau'r awyr oedd y nod i'w galon wan yn awr, mwynhau diferu cynnes ei waed ei hun o gylch ei gyfansoddiad, dyna'i ran e bellach. Ond câi e ganu yn y côr lleol o hyd. Gweithredai fel trysorydd i'r Ysgol Feithrin yn y pentre... A disgwyl yn oddefgar er ei waetha agosâd ymosodiad arall... Na, na, doedd bosib nad oedd 'na rywbeth amgen na phara fel yr oedd.

'Wel,' meddai fe, 'bydd yn rhaid i'r ardd fodloni ar y ngweld i'n amlach. Ond gan bwyll.' Oedd, roedd e wedi dechrau meddwl mwy o ddifri ynghylch patrwm ac ystyr ei fyw iach mewn cymdeithas bellach.

'Bore da, Mr Salmon syr. Gobeithio'ch bod chi'n well.' Dyna gyfarchiad gan gymydog wrth i'r bôs ei basio. Doedd y dyn lled ddieithr yna basiodd e ar yr heol ddim yn gobeithio dim o'r fath beth, wrth gwrs; ond peth digon clên oedd cyfarch. Yn y gwaelod, go brin oedd hi fod dyn fel hwnnw wedi cofio fawr amdano cyn iddo ddod i'r golwg yn y fan yna. Dyw hen lanc ddim yn bod o ddifri i bobl eraill ond pan welwch chi e. Unigrwydd anrhydeddus yw'r drefn anochel i hen lanc gartre. Ac roedd wedi'i gael ei hun yn pendroni am ei wendidau hen ei hun, ac am sylweddoli'u bodolaeth nhw'n blwmp ac yn blaen. Beth felly yw'r balchder yna a oedd ynddo fe? Onid oedd yn gyfaill i bawb heb fod yn gyfaill i neb? Onid ei gamp fwya fu cadw cefnogaeth ei staff mor ddiidig?

Erbyn cyrraedd y tŷ, roedd e wedi'i baratoi'i hun ar gyfer absenoldeb nyrsys. Ar gyfer gwacter disgwylidig, gwacter creulon. Gwacter distawrwydd mynd adre. Neb ond unigrwydd yn y gegin. Neb yn y parlwr. Gŵr cymedrol glaf fyddai fe mwyach. Gŵr



unig mewn gwely. Gŵr anghysurus gyda phobl eraill. Gŵr ffôl, hunanol, hen ym mhobman, sy'n methu â thrin ei ardd bellach... Hen lanc.

### 9. *Tair Gwedd*

Drwy gydol y ddau fis wedi'r angladd, prin fod Naomi wedi codi droedfedd o'i gwâl. Roedd hi mewn cyflwr amhlymiadwy o bwd dealladwy gwae. Welai hi ddim ond waliau brics di-ddrws o'i deutu ym mhob man. Anesmwythai'r ddwy ferch-yng-nghyfraith oherwydd dyfnder ystyfnig y galar. Roedd Rwth ac Orpa yn y gegin yn paratoi cinio iddi un dydd yn niwedd Mehefin, pan ofynnodd Orpa'n sydyn: 'beth yn y byd sy'n bod ar honno?'

'Diffeithwch.'

'Dyw hyn ddim yn debyg i'r hen Naomi,' meddai Orpa.

'Mae hi'n dywod i gyd.'

'Ond fe allai hi geisio meddwl amdanon ni. Ydy hi'n meddwl aros yn ei gwely weddill ei hoes?'

Methodd â chodi byth ar ôl marwolaeth y tri. 'Dw i'n meddwl ei bod hi'n llesg. Roedd hi wedi gofalu am El am ddeng mlynedd maith ... O strôc i strôc,' meddai Rwth.

'Ni'n dwy ddioddefodd y rhan fwya ar ôl y diwedd,' meddai Orpa, 'wrth etifeddu ei galaru hir hi yn ogystal â'n gwae ni ein hun.'

'Na, na', meddai Rwth, 'hi gariodd y trymder mwya. Y baich o gyd-suddo bob troedfedd gyda gwendid El ar hyd y blynyddoedd. Ac yna, hi fagodd ein dau ŵr ni, dau fab digon anhydrin yn ogystal, a'u colli nhw ar ôl El.'

'Ond hi a ni sy'n weddill nawr. Hi yw'r baich cwynfannus heddiw. Hi yw'r baich mawr.'

'Roedd hi wedi gadael Llanelli yn erbyn ei hewyllys hi, a'i serchiadau. Dod yma, dyna'r drwg, i Loegr, gadael ei phobl,' meddai Rwth. 'Ac aeth hi'n rhan ddofn o fywyd tri gwryw meddiannol.'

'Ond dyna'r arfer i'r rhelyw: gyda'i gŵr y bydd y wraig yn arfer mynd wrth briodi, ac yn disgwyl mynd... Dyna a ddigwyddodd iddi hi, yn wraig lawn-amser, heb ennill cyflog, ac ymgyfyngu i fagu plant, yn fwy felly nag i'n cenhedlaeth ni'n dwy.'

'*Gorfod* dod. *Gorfod* aros yn y tŷ. A hithau'n fath wrthryfelreg. Mae'n caru rhyddid fel petai'n fab arall iddi. Ac roedd y caethiwed hir o fagu plant ac o ofal am ei gŵr yn ormod iddi. Bysai'r orfodaeth honno efallai yn y traddodiad benywaidd yn sbleddach o orfodaeth dyletswydd i rywrai. Ond iddi hi roedd y gweini diderfyn wrth erchwyn gwely claf El yn dân ar ei chroen hi... Do, mi gollodd serch at ei gŵr rywfaint, gan bwyll, does dim dwywaith. Mi oerodd hi, ac aeth ei hanadl hi'n dywod,' meddai Rwth.

'A dyna'r ddau fab wedyn, hwythau yn eu gwaith yma, popeth yn ei rhwymo hi wrth Loegr. A'u dau hi'n ein priodi *ni*,' meddai Orpa. 'Roedden *ni*, mae'n debyg, yn rhan o'i chaethiwed hi.'

Gwenodd Rwth yn garedig: 'Oedden.'

'Beth wnei *di* nawr?' holai Orpa. 'Allwn ni ddim mynd ymlaen fel hyn.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Ifanc wyt ti. Dw innau'n ifanc. Beth wnawn *ni*?'

'Beth wnaiff hithau, tybed?' mynnodd Rwth.

'O! Dw i'n gwybod beth wnaiff *hi* yn y pen draw,' meddai Orpa.

'Mynd yn ôl i Lanelli?'

'Dyna fyddwn i'n ddisgwyl. Llenwi twll yr hiraeth 'na rywsut sy'n ei hysu hi. Does dim amheuaeth 'da fi,' haerai Orpa'n oeraidd. 'Mae arni hen chwant ymadael, a mynd wnaiff hi yn ei hamser ei hun. A rhaid i ninnau ddechrau ymorol yn ein bywydau'n hunain.'

'Ie, ond hi, yn mynd yn ôl i beth? A beth wnei di te?'

'Rwyt ti'n well am gynllunio na fi.'

'Mae gynnon ni'r blynyddoedd. Mae hi'n *rhwyddach* i ni, o ran gwaith.'

'Rhwydd Rwth?'

'Wel rhwyddach. Mae 'na bwrpas i'n hiechyd a'n hieuenctid ni o hyd.'

'A digon o awch i wneud pethau ymarferol efallai. Dal ati i weithio.'

'Eto, mae hi'n salach nag rwyf ti'n feddwl... dere 'lan i'w gweld hi. Dere.' Roedd Rwth, ryw awr ynghynt, wedi bod yn helpu ei mam-yng-nghyfraith yn ei gwely i ymolchi. Y pryd hynny roedd Naomi wedi bod yn geintachlyd, yn awdurdodol ddifanners ond yn fywiog. Roedd hi wedi bod yn gymharol iach yn ddiweddar, a dweud y gwir. Felly, braidd yn euog o annisgwyl wedyn oedd ei chanfod hi heddiw yng nghanol twymyn sydyn. Daeth Orpa i fyny i'r llofft i weld beth oedd yn digwydd. Aeth draw at y basn ymolchi er mwyn cael clwtyn gwlyb i'w ddodi ar dalcen ei mam-yng-nghyfraith. Ac eisteddodd Rwth hithau ar erchwyn y gwely i ddal ei llaw.

Salwch hir yw profedigaeth fel hyn. Mae'n ysigo egni, ac yn gweddnewid bywyd oll, er y gall ambell anhwylder daro ar y pryd yn gymharol rwydd. Cymorth i'r ddwy weddw ifanc fu'r rheidrwydd ymostyngol hwn i weini ac i ddygymod â gofalu ar eu mam-yng-nghyfraith. Golchi'r llestri iddi. Glanhau'r tŷ iddi. Cario hambwrdd i'r llofft i'r fenyw hon a oedd yn fud o dawedog nawr. Brysio i siopa drosti. Cario hambwrdd i'r llofft. Twtio'r ardd. Roedd bywyd yn hwrlu-bwrlu. Ac yn annheg. Cario gardd i'r llofft. Coginio'r tŷ. Bellach, dyma'u trefn o hyn ymlaen, neu hanhrefn gyda'r dwymyn hon yn ddisgyrchiant i'w bywyd.

'Ond... dych chi'n well,' ebychodd Orpa un bore. Edrychai Naomi yn ôl arni yn amharod i gyfadde hynny. 'Rown i'n sbecto y byddech chi'n well heddiw. Mae'r tywydd yn well, ac dych chi yn well hefyd.'

Petrusodd Naomi wrth gyfadde'n warafunus: 'Dw i yn well.'

'Bydd popeth yn well nawr,' meddai Orpa.

Closiodd Rwth at erchwyn y gwely a chydio'n dyner yn llaw ei mam-yng-nghyfraith. 'Maen nhw wedi bod yn gweddio drosoch yn y cwrdd.'

'Py!' eithaf dirmygus o du'r glaf wrth iddi dynnu'i llaw yn ôl yn wyllt.

'A dw innau wedi bod yn gweddio drosoch, hwyr a bore,' ychwanegodd Rwth.

'Dw i yn well,' cyfaddefodd y glaf yn sicrach.

'Row'n i'n gwybod y byddech chi,' meddai Orpa.

'Ac... dw i'n *ddiolchgar*,' meddai Naomi. Dweud mawr iddi, a gair anghyffredin yn ei geirfa. Estynnodd ei dwylo edifeiriol tuag atyn nhw. A dyna'r weithred garedica a wnaethai ers ei salwch, ers colli'r 'tri'; a gweithred o ymostwng ydoedd, gweithred o gyffes a gwerthfawrogiad. Chwarddodd y merched yn hapus wrth y fath addefiad annisgwyl o ddiwyll, ac ymunodd y fam-yng-nghyfraith yn y rhialtwch. Cofleidiodd y merched ei gilydd, ac yna troi i anwesu Naomi.

'I chi mae'r diolch,' meddai Rwth, 'ac i'r Arglwydd.'

'Pan fydd rhywun yn teimlo'n well,' meddai'r fam-yng-nghyfraith, 'mae hi'n barod i rywbeth. Dw innau'n teimlo'n ddigon da o'r diwedd i feddwl.'

'I feddwl beth?' holodd Orpa.

'Dim ond i feddwl. Am awyr Llanelli yn benna. Pendroni row'n i pan own i'n sâl. Hyrddi-gyrdi o syniadau yn chwyldroi drwy nhipyn pen. Ond heddiw...'

Na, roedd hi wedi dweud digon; petrusodd rhag camu ymhellach i'r gors. A gwelai'r merched hwythau'i bod yn petruso. 'Wel?' holodd Rwth.

'Heddiw dw i'n meddwl i bwrpas.' Gafaelasai chwilfydedd ynddyn nhw yn awr. 'Clywch ferched. Dw i wedi gwella. Dw i'n iach ac yn gry yn y bôn, fel cricsyn. Mi goda i heddiw. Gan bwyll fe ga i nerth yn ôl.'

'Am ysbaid fer yn unig heddiw te,' meddai Rwth.

'Dw i'n well. Mi goda i nawr. Ac yfory...'

'Wel?' holodd Orpa.

'Yfory. Ewch chi'ch dwy adre. Mae gynnoch chi'ch bywydau. Ewch yn ôl at eich tylwyth eich hun.'

'Na, ddim eto,' ystyfnigodd Orpa fel merch fach a oedd yn cael ei hanfon i'r gwely'n gynnar.

'Cer... cer, Orpa,' meddai Naomi ymhellach ymlaen. 'Mae dy fam yn hŷn na fi. Mae d'eisiau di arni hi... A thithau Rwth... Boed i'r Arglwydd fod mor garedig wrthoch chi'ch dwy ag buoch chi wrth y rhai a fu farw, ac wrtho innau. Mi gewch chi gartrefi hapus ac iechyd a hir oes... Mae'n *bryd* i chi fynd.'

Cusanodd hi'r ddwy. A llanwyd eu llygaid â dagrau. Ac wrth iddyn nhw gusanu, roedd eu llygaid ill tair fel petaen nhw'n cael eu cymysgu â'i gilydd: y gallestr wedi'i chracio.

'Dŷn ni am ddychwelyd gyda chi at eich pobl,' meddai Rwth yn benderfynol.

'Na, byth. I Lanelli? I Felin-foel?'

'Dŷn ni wedi bod yn sgysio am y peth.'

'Beth sy arnoch chi, ferched?'

'Down ni'n dwy gyda chi. Chi yw'r unig gysylltiad nawr rhyngon ni a'n gwŷr,' ymyrrodd Orpa. Ond gwyddai Orpa nad oedd hi ddim yn amgyffred dim o Lanelli. Wyddai hi ddim am y bobl a oedd yn gwau fel serchiadau drwy nerfau'r fath strydoedd. Wyddai hi ddim oll am y geiriau ysmala tirion a oedd yn gallu anwesu'u bochau ambell waith. Wyddai hi fawr chwaith am y tafarnau a'r capeli a oedd yn dal i anadlu hwyl dawel pobl Naomi. Wyddai hi ddim am y tîm rygbi. 'Paid â siarad dwli nawr. Mae dy fam dy hun yn dihoeni, Orpa fach. Cer di'n ôl, a chofia fi'n gynnes ati. Mae hi'n fenyw dda. A thithau, Rwth, merch o'r Canolbarth 'ma wyt ti. Dyma dy wlad di.'

'Na. Dŷn ni am ddod gyda chi,' meddai Rwth.

'Ydyn,' ategodd Orpa. Ond yn llai pendant nag o'r blaen.

'Beth sy wedi dod dros eich pennau chi?' meddai Naomi. 'Wnewch ddim gwranddo?'

'Dych chi'n gwybod yn iawn,' meddai Rwth.

'Gwybod! Fi! Does gen i ddim math o syniad beth dych chi'n swnio amdano.'

'Mae'ch eisiau chi arnon ni,' meddai Orpa.

'Orpa Meleck. Dyna ddigon. Cer di adre at dy fam. Ac ymddiheura iddi drosto i, iti fod mor hir yn gwastraffu amser uwchben hen wreigen ddiffrwyth a chrintachlyd.' Protestiodd Orpa. 'Na, na, cer draw i'w gweld hi heddiw,' parhaodd Naomi. 'Ewch chi'ch dwy. Pam y dewch chi gyda fi? Oes gen i ragor o feibion yn y nghroth, iddyn nhw ddod yn wŷr i chi?'

'Peidiwch, mam, â dweud y fath beth creulon,' meddai Rwth. 'Peidiwch â meddwl y fath beth.'

'Ewch chi'n ôl, y merched i. Dw i'n ormod o racsen i gael gŵr, tawn i eisiau un. Tawn i'n dweud bod gen i obaith cael gŵr newydd sbon o Lanelli heno, ac yna geni meibion, fyddech chi'n disgwyl nes iddyn nhw dyfu i ailbriodi'n hil i?'

'Peidiwch â siarad yn ddwl fel 'ny,' mynnodd Orpa.

'Fyddech chi'n ymgadw rhag ailbriodi tan hynny? Na, y merched i, mae 'na gyfle am fywyd newydd i chi. Mae'n chwerwach i fi nag i chi. Mae llaw yr Arglwydd yn yn erbyn i.'

'Peidiwch â siarad mor hyll,' mynnodd Orpa eto. Wylodd y ddwy ferch o'r newydd yn chwerw tost, yn arbennig Orpa.

'Orpa, diolch iti mechan i. Cofia fi at dy fam. Dwed wrthi y do-i draw i'w gweld hi cyn ymadael.'

'Na.'

'Cer nawr y merch i.'

Cofleidiodd y ddwy ei gilydd ar frys, a Rwth yn syllu arny'n nhw'n fud.

'Wna i byth eich anghofio chi,' meddai Orpa. 'Na thithau, Rwth. Byth.' Roedd Naomi wedi sylwi ar ogwydd gwahanol ymarweddiad Orpa yn ddiweddar, ac wedi ildio.

Hebryngodd Rwth ei chwaer-yng-nghyfraith yn awr i ymhel â'r pacio a'r symud, yn ymarferol. Gallai hi ddeall Orpa yn burion: nid gwan oedd honno. Roedd mam Orpa yn wir anghenus; dyna'r rheswm, meddai Orpa. Ond ynddi hi'i hun dadleuai'i phen,

'Pam y dylwn i ymadael â ngwaed yn hun, a Rwth eisoes wedi ymrwymo fel hyn i Naomi? Pa angen byddin o ddilynwyr sy ar Naomi?' meddyliai. Doedd dim bai arni hi, Orpa, am gyflawni'i dyletswydd naturiol, yn awr, ar unwaith. Fe allai geisio a chwilio yn adfeilion ei hen fywyd am fywyd newydd. Fe allai Rwth, a hyd yn oed Naomi, gydymdeimlo â hynny. 'Synnwyr cyffredin yw synnwyr cyffredin,' meddai Orpa ynddi hi ei hun. Ond fel arall hefyd: yng nghilfachau'i mynwes teimlai Orpa o hyd bigyn wrth iddi ddewis y rhan rwydd a thro'i'n bendrwm tua'i chynefin a'i chysuron ei hun, a gwarchod ei thylwyth cyfarwydd cynnes. Gwyddai fod cyfnod newydd wedi'i chyrraedd.

Dychwelodd Rwth hithau i'r llofft at ei mam-yng-nghyfraith yn ara. Roedd honno wedi codi o'r gwely ac wedi gwisgo. Edrychai arni ei hun yn graff yn y drych, a chribo'i gwallt. 'Dyna ni, Rwth Meleck. Dyna dipyn o synnwyr gan Orpa o'r diwedd. Nawr te. Beth amdanat ti?'

'Mae gynnoch chi syniad go lew, on'd oes.'

'Dim lol. Edrych: mae dy chwaer-yng-nghyfraith wedi dychwelyd at ei phobl, yn ôl at ei chydabod, yn ôl at eu gwerthoedd nhw. Cer di'n ôl gyda hi. Dyma dy gynefin. Un o'r llu o fewnfudwyr fyddet ti yng Nghymru. Pysgodyn allan o'i ddŵr. Estron yn cael croeso.'

'Peidiwch, mam. Peidiwch â'm hannog i i'ch gadael chi. Peidiwch â'm troi i'n ôl oddi wrthoch chi nawr, achos... i ble bynnag yr ewch chi, fe arhosa innau; eich pobl chi fydd y mhobl i, a'ch Duw chi y Nuw innau. Lle y byddoch farw, y bydda innau farw, ac yno y ca i ngladdu. Fel yna dw i am i'r Arglwydd wneud â fi, a rhagor, os bydd unrhyw beth ond angau yn ein gwahanu ni.'

Edrychodd Naomi yn syfrdan ar ei merch-yng-nghyfraith fel pe na bai hi erioed wedi'i gweld hi o'r blaen. Pwy ohonon ni, tybed, sy'n adnabod ein gilydd? Crynodd Naomi'n ddiarwybod. Diolch fod yr Un, a'r unig Un sy'n ein hadnabod yn dal yn ddibynnol ymhlith byd o bechaduriaid digariad a didrugaredd ac anwybodus. Diolch mai Fe yw'r union Un a wŷr y cwbl amdanon ni. A diolch Ei fod en gweithio drwy bobl. 'Rwth fach!' murmurodd Naomi. A chofleidion nhw'i gilydd mewn annealltwriaeth.

## 10. Brenda

Tri oedd yng ngherbyd y trê a ymlwybrai ar draws milltiroedd a milltiroedd hir canolbarth Lloegr. Penrhyn o drwyn bwaog a oedd gan y gŵr a eisteddai gyferbyn â'r ddwy fenyw. Fe oedd unig berchen y bwa hwn. Neb arall. Wrth edrych allan, symudai fe'r atodiad o'r naill ochr i'r llall, a chraffai drosto fel eryr balch uwchben dibyn, ac fel pe galwai ar hyd blaen y trwyn 'gwyliwch, bawb.' Arweiniai holl linellau ei gorff yn anochel tuag at y canolbwynt ymwithiol a mawrhydig hwn. Fe wyddai yntau hyn, gyda'r bodlonrwydd hwnnw nas ceid ond gan y sawl a feddiannai'r fath gaffaeliad o drysor mawr bob amser yn y golwg.

Darllenai'r *Jewish Times*.

'Iddew!' sibrydai Naomi yn Gymraeg. 'Petaet ti, Ruth, yn gallu bod yn genfigennus, pa ran o anatomi'r cyfaill doniedig acw y byddet ti'n ei chwennyh?'

'Ust!' meddai Rwth, gan anesmwytho. 'Hiliaeth Ddickensaidd.'

'Paid â nghanmddeall i. Iddewon yw yn arwyr i.'

'Dda gen i mo'r bobl sy'n torri'r Gymraeg ar draws pennau rhywrai yn eu gŵydd os nad yn nhw ddim yn gallu'u deall nhw,' protestiai Rwth. 'Rown i'n meddwl mai dim ond ym mytholeg y Wasg, roedd Cymry tybiedig yn siarad Cymraeg am Saeson yn eu gŵydd.'

'Rwyt ti'n gwybod yn well nawr.'

Winciodd Naomi'n amhriodol. Roedd perchennog y dywededig drysor yn gwbl ddisylw o'r disgrifiad hiliol hwn.

'Cymry *llwyddiannus* yw'r Iddewon,' meddai Naomi ymhellach.

'Ust,' meddai Rwth drachefn.

'Er eu bod nhw wedi'u gwasgaru oherwydd y trais arnyn nhw, mae *ewyllys* Iddewon wedi'u diogelu nhw. Dŷn *nhw* ddim wedi cyfaddawdu gormod fel ni... nac anghofio.'

Ceisiai Rwth newid pwnc yr ymddiddan. 'Cymru!' ebychodd hi'n hapus wrth



iddyn nhw weld bryncyn gwahanol, – un cynta'r wlad, – ac yn falch bod hwnnw wedi dod i wyro'r sgwrs rywfaint oddi wrth yr Iddew difater gyferbyn.

Gwibio a wnâi'r golygfeydd heibio fel cerdiau post... fel epistolau... ar daith i ble? Ble bynnag oedden nhw, roedd newyddion yr epistolau hyn yn gwbl dda.

'Lle braf i fagu plant fu Lloegr,' meddai Rwth yn ddifeddwl.

'Ac oedolion ambell waith. O fath.'

'Fe gafodd eich dau fachgen chi fagwraeth gofiadwy.'

'Angylion oedd y ddau pan oen nhw'n fach.'

'Cythraul oedd barn Mal am Gil,' meddai Rwth, gan wenu.

'Hm! Mal... Parchus ei farn dyner bob amser.'

'Cythreuliaid parchus efallai.'

'O leia, fe allwn i fynd â nhw i rywle, heb ofni iddyn nhw darfu ar yr ymddiddan.'

'I ble wedyn?'

Ymataliodd y fam. 'Rwyt ti'n iawn,' meddai. 'Aethon ni erioed i unman â'r bechgyn. Gŵr felly oedd El. Ond roedden ni'n hapus. Ar y pryd. Dw i byth yn hapus y dyddiau hyn ond pan fydda i'n drist. Liciwn i ffilm y blynyddoedd hynny rolïo'n ôl. Dadrolïo fel y co ei hun, er mwyn ailgynnig; ond mae'n ffael... Bysedd blewog sy gan ffilmiau fel bysedd cloc, yn ddiddychymyg ddethol ynghylch cyfeiriad.'

Roedd y trwyn gyferbyn yn dal i gyfareddu Naomi. Ond drwy ffenest y trênn roedd tai cynta Caerdydd wedi ennill bryd Rwth. Aroglau Cymru! meddyliai hi, – gwlad Naomi. Rywfodd roedd hi'n newynu am serch bodlon Naomi. Roedd gwybod bod Naomi wrth ei hymyl, pa mor ddieithr bynnag oedd y byd, yn ysbrydiaeth gynnes iddi. Roedden nhw wedi dod yn fwyfwy o gwmni i'w gilydd, a'r profiad hwnnw wedi peri bod Naomi'n berson mwyfwy diddorol. Ond dyma nhw'n sylweddoli bod bywyd yn camu ymlaen er eu gwaetha... Doedd dim angen dyfalu mwy. Cyraeddason nhw Lanelli. Cododd yr 'Iddew' ac estyn am ei gês oddi ar y rac uwchben.

'Pchynhawn da, foneddigesau,' meddai fe yng Nghymraeg persain Cochwen (Corwen). 'Pchynhawn diddochol odiaeth. Pchynhawn i'w ddeintio a'i dcheulio.' A disgynnodd yn fuddugoliaethus wên deg o'r cerbyd. Ar ôl iddo gael ei drin fel yna gan y rhain, nid martsio i ffwrdd â'i faneri'n wincio ar y cymylau a wnâi e nawr, ond toddi'n ara wlybyrog ar y llawr o ran cartrefolrwydd i mewn i'r dre, ac estyn y toddeidrwydd ymhellach nag a ddisgwyliai neb, o droedfedd i droedfedd, nes nad oedd ar ôl ohono ond ychydig o ddiferion hynod wydn a gyrhaeddai'r corneli dan draed y merched, a chysgodion gwelw o'i wên. Ond roedd honno'n ddigon byth i foddî'r ddwy fenyw.

'Nid Iddew i gyd; tipyn *bach* o Gymro,' sylwodd Rwth. Agorai Naomi ei cheg syn fel pysgodyn; ac yno y'i cadwai ar agor sbel, mewn syndod anochel fel pe bai'n disgwyl coch-a-bonddu. 'Beth ddwedson ni? Mae arna-i gywilydd.' Yna, tynnodd holl Lanelli gymhleth nhw a'i siopau a'i phalmentydd a'i meysydd parcio i mewn ar draws eu pennau syn. Chwarddodd y ddwy yn galonnog nerfus, fel y bydd merched ifainc newydd ddarganfod cariadon newydd. 'Beth ddwedson ni o flaen y dyn yna?'...

'Dyna siop Smiths. A siop Pugh's y dodrefn,' meddai Rwth, gan newid y testun.

'Mae popeth bob tro yn edrych mor wahanol,' meddai Naomi. Ac yna'n ddisymwth doedd hi ddim mor sicr. Gwelai hi fenyw yn cerdded ar hyd yr heol, a oedd newydd rodio allan o lwyfan ei gorffennol hi ei hun ar draws ei phresennol. Fe'i hadwaenai, wrth gwrs. Edrychai honno draw atyn nhw am ychydig o eiliadau heb adael i'w llygaid orffwys arnyn nhw o gwbl yn y cyd-destun hwn. 'Brenda!' ebychodd Naomi.

'Ie?'

'Brenda Thomas!'

'Brenda Davies nawr, ac ers ugain mlynedd.'

'Brenda fach. Dwyt ti ddim yn y nghofio i?'

'Ddylwn i?'

'Dylet. Roeddet ti'n byw o fewn canllath i ni.'

'Byth. Naomi? Naomi. Na. Nid Naomi. Wel, am newid!'

'Ydw i wedi torri gymaint?'

'Dŷn i gyd yn heneiddio.'

'Ambell un ohonon ni gyda mwy o arddeliad na'i gilydd.'

'Na, na.'

'Dere di, Brenda Thomas. Dwyt ti'n nabod dim ohono i. A dwyt *ti* ddim wedi newid dim.'

'Ble'r ych chi'n aros?' gofynnai Brenda.

'Gydag Wncwl Eic gobeithio,' meddai Naomi, 'nes inni gael fflat fach. Fe ddwedodd e, "os byth y bydd eisiau arnat ti ddod yn ôl i Lanelli, dere i aros gyda ni, i chwilota am le, gyda'n gilydd." Mae Rwth 'ma – dyma Rwth ym merch-yn-nghyfraith o Birmingham. Gweddw Mel, – mae Rwth 'ma'n chwilio am waith. Teipio os gall hi neu rywbeth. Cawn ni fflat i ni'n dwy os bydd hi'n llwyddiannus. Dw innau'n ofni mod i'n rhy hen i ailddechrau. Ond mi wna-i rywbeth. Ffeindia-i rywbeth yn y gegin ac yn yr ardd ac ar y staerau a'r stafelloedd gwely i'w wneud â'r amser.'

'Mae newydd drwg 'da fi iti te. Newydd chwith iawn. Mae d'Wncwl Eic wedi'i gladdu ers dau ddiwrnod.'

'Wncwl Eic wedi'i gladdu ers dau ddiwrnod!'

'Wncwl Eic ni!'

'Ond dewch draw aton ni am heno.'

'Nid Wncwl Eic! Chlywais ddim ei fod e'n ddi-hwyl,' meddai Naomi.

'Roedd e'n bymtheg a thrigain.'

'Pam na ddwedwyd wrthon ni?'

'Mae'i hen gartre fe'n wag, wedi'i gloi i gyd. Doedd neb yn gwybod eich cyfeiriad chi.'

'Wncwl Eic, druan. A'r plant?'

'I gyd wedi cyrchu'n ôl i Loegr ar ôl yr angladd. Does dim gwaith ffordd hyn. Dim ceiniog.'

'Dim gwaith?' ymyrrodd Rwth. Stopiodd. A theimlai, gydag ymadawriad Wncwl Eic, fod rhagor o farwolaeth yn sydyn o'i chwmpas ym mhobman.

'Dewch draw, chi'ch dwy, am noson i Felin-foel i aros am y tro, nes ichi gael eich traed danoch chi.'

'Alla-i ddim o'i gredu,' meddai Naomi yn llwm. 'Dim gwaith!'

'Wedyn, serch hynny... credwch neu beidio mae 'na dŷ ar rent – y funud 'ma – drws nesa i ni yn Felin-foel. Awn ni ma's i holi amdano fe yfory,' cynigiodd Brenda.

Syllai Rwth ym mhobman gyda rhyfeddod wrth iddyn nhw yrru ar hyd y strydoedd hollol gyffredin. Synhwyrarai fod car Brenda'n anwylo'r strydoedd hynny gyda pheth synwyrusrwydd wrth gyrchu i fyny tua'r Felin-foel. Pasio'r arwydd 'Llangennech', arwydd llwyd od nas rhoddwyd yno ond yn unswydd fel rhybudd difrifol i bobl (meddai un cynghorydd lleol llai caredig na'i gilydd, eithr oedd wedi colli'i sedd bellach) – os oedden nhw am osgoi cyrchu i'r lle hwnnw heblaw drwy gamgymeriad, gwell fuasai mynd yn o glau o'r tu arall heibio i'r lle llwydwisg honno. Gyrrwr araf a thaclus oedd Brenda, ac arafodd hi'r car i stopio gyda rhyw dynerwch gwareiddiedig y tu allan i'r tŷ. Helpodd hi'r ddwy arall i gario'r cesys o'r gist-gefn. A gwaeddodd wrth roi ei hallwedd yn y clo, 'Catrin! Dere i weld pwy sy 'ma.' Ffwdanodd Catrin i'r golwg, ond doedd hi ddim yn nabod Naomi. 'Rwyt ti'n ei nabod hi'n net.'

'Rhywun o Felin-foel gynt?'

'Cyn y Dilyw.'

'Perthynas drwy briodas i Neli?'

'Rwyt ti'n twymo.'

'Na... does gen i ddim clem.'

'Mae'n dechrau ag En...'

Cywirwyd hi gan Naomi: 'Ag Ech. Ddim N.'

'Sut?'

'Chwerw! Galwch fi'n "Chwerw". Achos mae'r Arglwydd wedi bod yn chwerw iawn wrtho i.'

Gwyddai Brenda mai'i phrif ddyletswydd yn y bydysawd yr wythnos honno wedi'r fath ddatganiad oedd dod o hyd i ddihangfa ddibetrus rhag hyn o ymwelydd chwithig. Druan o Naomi. Tybed pa mor hir y byddai rhywun fel 'na'n aros?'

'Peidiwch â dweud shwt beth,' meddai Catrin mewn sioc, o waelod ei chonfensiynoldeb sad.

'Ust! Digon o hynny! Dysglaid i bawb o bobl y byd,' meddai Brenda fel pe na allai neb siarad am ddim arall ar ddydd o ha. 'Rwth yw hon y tu ôl iddi, merch Naomi.'

'Merch-yng-nghyfraith,' meddai Naomi. 'Gweddw un o'm meibion marw i. Mae'r ddau wedi'u lladd. Nhw a'm gŵr i. Triawd. Dyna'n chwerwder i.'

'Naomi fach,' ebychodd Catrin, 'ddim i gyd?'

'A Rwth wedi dod yn ôl gyda chi i Lanelli!' ategodd Brenda. 'Wel, wel, Naomi fach!'

'Peidiwch â galw Naomi arna i. Dw i eisoes wedi esbonio. Wyddoch chi beth yw ystyr Naomi?'

'Beth?' holodd Catrin.

'Hyfryd. Hy! Fi! Hyfryd!' meddai Naomi'n chwerw.

'Wel, rwyt ti gartre nawr, Naomi fach,' hawliodd Catrin. 'Ac mae'r *lle'n* hyfryd o leia. Beth sy'n well na'r Felin-foel, dwedwch? Gwaith neu beidio. Cewch chithau fod yn hyfryd hefyd.'

Pendronodd Brenda gyda difrifoldeb annisgwyl. 'Ie. Hyfryd,' sibrydodd hi. Disgynnodd hyfrydwch yr aelwyd arnyn nhw i gyd am funud. A hyfrydwch yr aelwyd hen-ffasiwn a'r tân glo mawr, ond hefyd yr olygfa drwy'r ffenest a aethai â bryd Rwth. 'Hyfryd,' adleisiodd hithau'n ddidwyll.

'Te nawr. Clecs wedyn,' datganodd Catrin. 'Wedyn, ym mhen hir a hwyr, siarad am waith.' Tywalltodd hi'r te. Ond nid dyna'r lle yr oedd blaenoriaethau Rwth. Cododd hi ac edrych allan drachefn drwy'r ffenest ar y rhes o dai anniddorol gyferbyn. 'Naomi,' sibrydodd hi. Trodd yn gyfeillgar a derbyn y cwpan. 'Hyfryd!... diolch. Lle braf i *weithio*.'

Yfodd pawb mewn tawelwch. Ac nid ymataliodd llwnc Naomi nes cyrraedd y gwaelod. 'Hyfryd,' meddai hithau'n dawel dawel, gan roi'r cwpan i lawr ar ford fechan.

Gefeilliaid oedd Brenda a Chatrin, gefeilliaid union-debyg. Ac mewn gwirionedd, gan mor awyddus oedden nhw i beidio ag ymwahanu am fwy nag awr neu ddwy, tybiodd pawb ystyriol na chât'r un gŵr potensial yr un ohonyn nhw ar ei phen ei hun yn ddigon hirfaith i ddod â'r cwestiwn i'r berw. Roedd eu meddyliau mor glymedig â gefeilliaid Siamaidd sy'n gydiedig wrth eu cluniau. Ond ychydig a wyddai'r sgeptigiaid am ddyfeisgarwch Wil. Buodd Wil yn caru'r ddwy'n ddiwahân ac yn union-debyg yn ei ffordd gwrtais flêr ei hun am ddwy flynedd Siamaidd, er y gwyddai'n burion mai un yn unig yn y pen-draw a gâi gyrchu i'r cwlwm gydag e. Ac yn y diwedd ulw, damwain yn hytrach nag unrhyw benderfyniad difri a bennodd mai Brenda a ddigwyddai fod yno, ar yr union bryd ag y syniodd Wil mai'r orig union-debyg honno oedd yr un tro y cyrhaeddwyd math o aeddfedrwydd pwylllog. A phriodi a wnaethan nhw, neu 'drosi'i gais' fel y dywedai Wil yn frwd, gan nad oedd wedi sgorio cais go iawn ers tro. Daeth Catrin i rannu'r tŷ gyda'r ddau – Brenda a Wil – yn anghymhleth ddiraffferth. A chafwyd i ryw raddau gartre trionglog.. Ac yn y tŷ, digon oedd tri.

'A *gwaith*? holodd Rwth. 'Oes 'na rai pobl yn gwneud peth felly tua'r Felin-foel 'ma?'

'Mae *rhai'n* ymhel rhywfaint â'r fath beth. Y snobiaid. Hynny yw, snobiaid yng nghyd-destun diweithdra. Bydd Wil y gŵr yn gwybod orau pan ddaw e adre,' meddai Brenda. 'Mae ei glust e... Fallai fod gan y Bòs rywbeth.... Beth mae Rwth yn gallu'i wneud?'

'Unrhywbeth, rhywbeth rywbeth, i ddal pen llinyn ynghyd,' meddai Rwth.

'Dyw hi ddim wedi gweithio ers blynyddoedd,' sylwodd Naomi. 'Ond mae 'na waith ynnddi.'

'Mae ganddi benderfyniad,' ychwanegodd Rwth amdani'i hun, 'gawn ni ddweud fel 'na.'

'Mae'r Gymraeg yn net gyda hi taw beth,' murmurodd Brenda fel pe bai wrthi yn ei marchnata. 'O bwy bart ych chi'n dod?'

'O'r Canolbarth.'

'Drenewydd?'

'Canolbarth Lloegr.'

'Saesnes yw hi o'i geni,' ategodd Naomi.

'Mae hi wedi dysgu un peth o leia,' meddai Catrin. 'Fe ellwch glywed hynny.'

'Un o'ch mewnfudwyr crafangus,' cyffesodd Rwth gan wenu. 'Dysgwraig.'

'Ond ddim gwaeth oherwydd 'ny,' meddai Naomi.

'Mae Wil bob amser yn mynnu,' dywedodd Brenda wedyn, 'taw'r Saeson fydd yn achub yr iaith yn y diwedd.'

'Wil ni sy o hyd yn dweud pethau fel 'na,' meddai Catrin.

'Bydd yn rhaid cael rhywrai heblaw'r Cymry Cymraeg i wneud hynny bellach,' aeth Brenda yn ei blaen. 'Fe werthith y brodoron eu genedigaeth-fraint,' medd Wil, 'am gawl o fresych cochion. Protest yw eu *forte* nhw i gyd nawr.'

'Am lwyth o dom, ddwedai Wil,' meddai Catrin.

'Fe esgusodwch chi'r dywediad. Ond mae Wil ni bob amser yn mynd dros ben llestri.'

'Does dim digon o groeso i fewnfudwyr yn yr ardal hon dw i'n ofni, achos fod gwaith mor brin,' meddai Catrin.

'Dyw pethau ddim yn newid,' meddai Naomi.

'Ond mae'r ffaith eich bod chi'n Gymraes... o leia dych chi'n *medru'r* iaith ...dych chi fel un ohonon ni.'

'Cer di gyda Wil fory, merch i,' ychwanegodd Brenda. 'Tria di'r Bòs yn gynta. 'Os na bydd e'n gallu rhoi rhywbeth i ti, hen foi iawn yw e, fe ffonith e rownd, a bydd rhywbeth yn siŵr o ddod i'r golwg.'

'Pa fath o beth yw 'mewnfudo' yn yr ardal hon?' meddyliai Rwth yn ei stafell wely amdani hi ei hun, gan gorddi uwchben ei chyflwr newydd a'r diwrnod llawn gawsai hi eisoes, a'r un a oedd ei blaen. 'Dyma fi'n ddieithryn chwithig.' Oedd, roedd ei mewnfudo hi yn fath o oresgyniad Saesneg, mae'n debyg, yn ymyrraeth anfwriadus a allai fod yn orthrwm diofal i ardal, yn ddisodliad digroeso hyd yn oed, i rywrai. Pan ddôi rhywbeth o fath 'mewnfudiad' yn sydyn ar raddfa fawr ar draws gwlad fechan, roedd fel cwmp yn y pwll, siŵr o fod, a chuddiai'r llwch a'r cerrig a'r tywyllwch bob anadl a phob gobaith, heb fod gan y dyfodwyr yr un argoel. Fe ddoen nhw gyda'u hiaith heb wybod. Ond o leia, roedd hithau, Rwth, yn fath o drigolyn brodorol mabwysiedig ar ôl cael ei denu gan gwrs carlam Cymraeg Llambled. Roedd hi i lawr gyda'r brodorion enciliol hyn yn ieithyddol, yn barod i gyd-dynnu â nhw, efallai. Gallai dyfod felly ambell waith fod yn weithred gariadus a gostyngedig hyd yn oed, os oedd yna ymgais go iawn i ddeall ac i goleddu, yn rheitiach na'r Cymry Cymraeg.

Pobl Naomi oedd Llanelli oll, teimlai. Ac roedd hi ei hun, Rwth, eisoes yn un o bobl Naomi, yn wir cyn dod, eisoes yn ei theimlad a'i chydymdeimlad wedi'i huniaethu ei hun â theulu'i mam yng nghyfraith. Gellid ymuno â thylwyth o'r rhai ychwanegol hyn hefyd a oedd o'i deutu nawr yn y tŷ, pe bodlonai'r naill a'r llall, a phe bai hithau hefyd yn barod i doddi a chofleidio. Gallai Llanelli'i mabwysiadu. Ond ai naif oedd hi yn hynny o obaith felly? A oedd hi wedi methu â mesur y gwrthwynebiad, y rhwystrau anwel, grym y gwahaniaethau a'r sarff yn y glaswellt hyd yn oed? Tybed a oedd ganddi hi dylwyth go iawn o fath yn unlle yn y byd?

### *11. Mr Salmon*

Roedd Mr Salmon, y Bòs, yn ôl yn y tresi ar ôl ei salwch, a'i benderfyniadau gloyw ynghylch lled ymddeol yn gynnar, ac 'ysgafnhau'r beichiau', wedi hen hedfan



allan drwy'r 'fffenest', – pe bai ganddo 'fffenest' go iawn yn y swyddfa ddiramant gyfyng honno yng nghefn y ffatri. Ond heddiw gwednewidiwyd bywyd a rhamanteiddiwyd y swyddfa hon oll yn sydyn a llawer o bethau eraill pan ddaeth Wil i mewn i'r fan a'r lle â menyw ddieithr yn ei sgil. Rwth hardd a lluniaidd. Rwth syfrdan a chynhesol, wedi dod i chwilio am waith. Gyda Wil o bawb!

Codai Mr Salmon ei lygad gorau. Wrth gwrs, mae 'na reswm ym mhopeth. Caniateir i ŵr hanner cant a chwech oed, sydd heb fod yn llawn asbri'n ddiweddar, beidio â gwirioni a sionci am ychydig o eiliadau mân os yw'n ŵr llafargar. Ond nid gŵr aruthr o lafargar oedd Mr Salmon, gan mai un oedd a briodasai'i waith. Diffyg amser oedd ei *forte* ym maes cymdeithasu. Hen lanc oedd e. Os oeddech chi'n chwilio am lond côl o waith caled, roeddech chi, fel arfer, wedi dod i'r lle iawn. Felly hefyd pe baech chi'n chwilio fel arfer am gywirdeb cwrtais. Ddisgwyliai neb i Mr Salmon gael gormod o anhawster i ymunioni a dod yn ôl ar ei echel mewn amgylchiadau cymharol feunyddiol. Gallai ddygymod ag ymwelwyr, wrth gwrs, pe na baen nhw'n aros yn hir.

'Wel?' meddai Bòs yn gwrtais o ddiamynedd.

Siâp pêl rygbi oedd ar Wil, gŵr Brenda, fel y gwyddon ni. Nid un o'r pelau diddychymyg yna sydd braidd yn grwn ac yn sarhad i unrhyw gae cydwybodol (sef y 'gêm hardd', medd propagandwyr ac arianwyr). Roedd lleddf gromlin y tro rygbïaidd ar bêl yn rhan o gyfansoddiad corfforol Wil ers cyn iddo gael ei eni, a hynny a feithrinodd e drwy bopeth. Nid cwbl amhriodol, nid cwbl annerbyniol chwaith fuasai ei ddisgrifio fel pêl rygbi gynhenid. Y diwrnod hwnnw, ciciwyd e'n drosiadol i swyddfa'r Bòs gan Brenda, a glaniodd e'n ddeheuig gyda Rwth o flaen desg ei gyfaill, Bòs, yn barod i sgrym. Yr unig beth a oedd ar goll oedd cael sosban ar ei ben moel. Ond ped edrychid ar ei gorun o un ongl, fe ellid canfod ynddo ryw fath o ffurf a oedd yn anghysurus o foel ac o debyg i sosban fach. Pan laniodd e, serch hynny, o flaen gair cynta Bòs gyda Rwth, y chwant cynta wedi'r 'Wel' marwaidd a gododd yng nghalon Wil oedd am anelu ei droed at ben-ôl y Bòs yn ddiymdroi, a'i gicio at y llinell gwsg. 'Dim, dw i'n ofni,' meddai'r Bòs i'r cais am waith i Rwth. 'Dim oll. Dych chi'ch dau wedi'n taro ni ar yr amser mwya sefydlog ac amhosib ers sawl blwyddyn. Does dim *un* lle gwag.'

Gwacaodd wyneb Rwth.

'Dim un!'

Sylweddolai fe, hyd yn oed hwn, fod y gwynt yn dod o gyfeiriad gwahanol heddiw, ac ers tro ym myd diweithdra – ar ffurf awyrgylch o leia.

'Ond mi dria i un neu ddau o'n ffrindiau.' Cododd y ffôn. 'Cerwch gyda Wil i rowndio tipyn o'r ffatri. Fe ddeua i ma's atoch chi ar ôl ifi gael ateb.'

Crwydrodd Rwth a Wil drwy'r ffatri benbwygilydd. Doedd dim un ffigur fenywaidd i'w gweld yno yn unman. Ond roedd yr holl wryweidd-dra'n gartrefol ddiwyd. Cododd y gwaith fel persawr i ffroenau Rwth. Chwys gwaith! Tybed? Roedd hi'n bryd iddi ymaflyd mewn *rhyw* weithgaredd neu'i gilydd. Teimlai fod segurdod wedi tyfu'n fath o felltith ar ei chorff yn ystod y dyddiau – y blynyddoedd – diwetha.

Yma gallai hi fod yn hapus, ond wrth gwrs gwelai: doedd dim un gornel wast ar gael yn y lle.

'Ond mae'n gwbl wir,' meddai hi wrth Wil. 'Mae'r holl ardal yn ddiffaith oherwydd y slymp.'

Chafodd Bòs ddim ateb cadarnhaol gan neb o'i gyfeillion busnes; a diflas oedd ganddo fe ddweud yn blwmp wrth Rwth (gyda Wil) nad oedd yna swydd wag o fath yn y byd ledled Llanelli i weithiwr arall, nid yn unig ganddo fe, eithr gan neb yn y gymdogaeth chwaith. Rywsut roedd hi'n ei ddrysu fe.

Disgwyliodd Bòs yn bryderus nawr i Rwth a Wil ddychwelyd o'u taith o gylch y ffatri.

'Wel?' meddai Wil wrth y wal, gyda bwriad gwahanol i 'Wel' Bòs.

'Dim,' meddai'r wal wrth Wil.

Siomwyd y ddau ymwelydd. 'Sdim ots,' meddai Rwth. 'Fe ga i rywbeth, rywle yn yr ardal.'

'Eich diffyg profiad chi. Dych chi'n deall 'ny. A dych chi wedi taro'r ardal ar adeg wael.'

'Mae hi bob amser yn adeg wael,' meddai Wil.

'Dim gwaith yn un man ar hyn o bryd,' ychwanegodd y Bòs. 'Pawb yn torri ar y nifer o weithwyr.'

'Ac mae peth rhagfarn ar gael, dwedwch y gwir,' meddai hi'n ewn.

'Rhagfarn?'

'Yn erbyn mewnddyfodiaid, sy'n chwalu'r gymdeithas.'

'Oes... Calon y gwir... Ond y mae hynny'n naturiol.'

'A merched.'

Syllodd Bòs gyda chwilfrydedd â'i lygad de llosg. 'Mae'n wir ddrwg 'da fi.'

'Diolch lawer am eich help, ta beth. Fe ga-i rywbeth.'

'Cewch. Bob amser mae gweithreg dda...' meddai Bòs.

'A phrydweddol,' ymyrrodd Wil, 'ac yn medru'r Gymraeg.'

'Ond estron,' meddai Rwth.

'... Bob amser ar gael yn hwylus i lenwi bwlch,' meddai Wil. Troeson nhw i ffwrdd. 'Byswn i wedi mawr hoffi 'tawn i wedi sgorio'n well,' meddai. 'Ond efallai y daw 'na rywbeth 'to.'

Hynny a gredodd Rwth; ond profodd yn wahanol. Cyndyn iawn wedyn oedd unrhyw swydd na ffatri yn Llanelli, nac mewn unrhyw un o'i maesbentrefi, i ildio'r posibiladau ffrwythlon. Doedd dim cynhaea o fath yn y byd i'w gael yn unman. Popeth yn fynydd o 'Na'. Teithiodd hi'r ardal o'r naill sefydliad i'r llall fel pe bai'n chwilota am ei nodwydd ddyfal mewn tas; a pho bella yr âi, dyfna oedd ei methiant a'i siomedigaeth. Ble âi hi yfory? Caerfyrddin? Abertawe? 'Birmingham?' meddai hi'n goeg. Daeth yn ei hôl i lolfa Brenda a Chatrin, fel gast wedi'i fflangellu.

'Bòs sy'n yn siomi i,' meddai Naomi.

'All e ddim rhithio gwaith ma's o ddim,' meddai Brenda.

'Wrth gwrs y gall e, ' atebodd Naomi, 'a fyntau mor gefnog. Mae e'n dod o dylwyth El hefyd. Fe allai fod wedi gwneud yn well na 'na.'

'Yr un fath yw hi ym mhob man yn yr ardal. A dichon nad oedd e'n gwybod am berthynas Rwth...' meddai Brenda wrth Naomi. 'Ddwedaist ti wrtho, Wil? A'i atgoffa am y tro diwetha y buodd Naomi'i hun yn helpu Bòs.'

'Thriodd e ddim,' cwynai Naomi'n ddiamynedd.

'Efallai y daw e 'to,' meddai Wil.

'Roedd Bòs un waith wedi ceisio perswadio El i aros gartre yng Nghymru gynt, ac anufuddhau wnaeth El wrth gwrs,' addefodd Naomi. 'Pwedd Bòs. Cwerylon nhw. Wnaiff e ddim oll i'n helpu ni nawr. Hyd yn oed pe bai e'n gwybod am y berthynas. El druan! Hen anghytundeb rhwng y ddau gynt, ac fe dyfodd hi'n gweryl rhyngddynt nhw.'

'Fyddai fe byth yn dal dig, ta beth,' meddai Wil. 'Mae e'n ddyn cyfiawn iawn, yn ddyn teg.'

'Saeson dŷn *ni* iddo fe,' ychwanegodd Naomi.

'Na. Cer *di* ato,' awgrymodd Wil i Naomi.

'Na,' protestiodd Rwth. 'Peidiwch â chardota.'

'Beth wnawn ni?' meddai Naomi, gan deimlo'r angen i beidio â chwilio elusen.

'Mae 'da ti gystal perswâd â phob menyw arall,' meddai Wil wrth Naomi, 'cred di fi.'

'Tawn i, yn hun, yn ymweld ag e, mi fyddai hynny'n golygu 'mod i'n manteisio arno fe,' meddai Naomi o'r diwedd. 'Mi fydd e'n y nghofio i.'

'Wel, manteisia.'

'Mae'n well i Rwth ddychwelyd i Loegr,' meddai Naomi.

'Byth,' gwrthdystiodd Rwth yn ddigon croyw.

'Gad i'r groten fod,' ebychodd Brenda. 'Fe gaiff hi rywbeth.'

'Mae hi wedi llwyddo i 'madael â hir ddiffeithwch tiriogaeth y bêl gron,' sylwodd Wil. 'Mae yna rywbeth terfynol iach ynglŷn ag ymadawiad fel 'na.'

'Mae Wil ni'n gwisgo crys coch i fynd *i'r gwely*,' meddai Brenda, tan danlinellu ystrydebedd hapus ei gŵr.

'Seremoni yw seremoni,' meddai Wil, 'hyd yn oed yn y gwely.'

'Na? Ddim yn y gwely?' meddai Rwth yn ddiniwed syn. 'Ddim mewn gwirionedd?'

'Gwisgo i'r achlysur. Bob nos,' chwaddodd hwnnw.

A dyma Brenda yn codi llaw fel pe bai'n mynd ar ei llw ei bod yn traethu'r holl wirionedd am deyrngarwch Wil: 'Yn wir, ... ar feddau tîm Cymru.'

'Beddau?' ebychai Wil. 'Seland Newydd biau'r rheina.'

Ac yna, meddai Wil yn gwbl sobr wrth Rwth: 'Mae crys yn gwbl angenrheidiol ar gyfer y sgarmesoedd.'

'Ust Wil!' meddai Brenda.

'Paid â gwrando arno fe,' ategodd Catrin.

Gwenai Rwth yn ddiymwrthod. 'Dw i ddim am ymadael â Llanelli os galla-i beidio. *Yma*,' meddai Rwth yn dawel wrth Naomi o'r diwedd, 'yma dw i'n perthyn.'

'Bydd di'n deg Naomi,' meddai Brenda. 'All Bòs ddim rhithio swydd o ddim.'

'Ond sut meiddiwn i fanteisio arno fe? Mi wn y byddai fe'n teimlo yn y nyled i cyn gynted ag y gwelith e fi,' ystyfnigodd Naomi. 'Ac eto, alla i byth fynd ato i erfyn. Mae gen innau yn anrhydedd.'

'Mae 'da ti anrhydedd hefyd at Rwth o leia,' mynnodd Brenda.

'Oes wrth gwrs. Fe ddaeth hi yma gyda fi. Yr holl ffordd o Ing-land. A mhobl i yw ei phobl hi.'

'Alla i byth fynd yn ôl,' ebychodd Rwth. 'Yma dw i'n perthyn mwyach.'

'Os oes 'da ti fantais gymwynasol o fath yn y byd,' ychwanegodd Catrin wrth Naomi, 'defnyddia hi hyd yr eitha. Dyna hawl dy ryw. Cofia di: absennol dŷn ni, ferched, os na fanteisiwn ni.'

'Paid â theimlo'r holl ddyledion 'ma ar yn rhan i. Nid i fi,' meddai Rwth.

'Fe a-i i weld Bòs,' casglodd Naomi, ond yn awyddus i beidio yr un pryd.

'Dyna dipyn o synnwyr o'r diwedd,' meddai Wil. 'Efallai y cawn ni ychydig bach o swper nawr gan fod Naomi'n gallu rhoi'i meddwl ar bethau nes adre mwyach.'

Gwenodd Rwth, o bosib oherwydd fod y fath ffwdan personol gan bawb, amdani hi o bawb, yn profi'i bod wedi ei derbyn fan hyn o leia. A rhywfodd roedd hi mewn gwirionedd go iawn wedi dechrau perthyn hyd yn oed i gynefin y Felin Foel ac i Lanelli. Perthynas ymwybod oedd hwn i ddechrau. Yna, perthynas iaith. Ac roedd honno wedyn wedi treiglo i ymddolennu drwy'i chlustiau ac o gylch ei phen a'i chalon a'i hunaniaeth nes ei chlymu wrth y bobl a'u tynged, yn un ohonyn *nhw*, yn berthynas uniaethu, heb fod yn fewnfudwraig go iawn o gwbl.

## 12. Dyled

Nid ofn manteisio'n haerllug ar ddyled Bòs yn unig oedd ar Naomi wrth guro ar ddrws ei swyddfa. Roedd yna chwilfrydedd cudd arall, chwilfrydedd ynghylch ei chymeriad hi ei hun. Chwythodd yr atgo digri'n ôl o'i swildod gweddw, yn enwedig am oleuni y diwrnod hwnnw gynt pryd y bu iddi 'orwedd' arno, am hyd ei gorff e, am ei wefusau, ac am anadlu i mewn iddo. Gwenai eto. Doedd hi ddim yn fodlon o gwbl fod hynny wedi ennyn erbyn hyn ryw gynhesrwydd annhymig yn ei mynwes.

Cododd Bòs yn gwrtais ffurfiol pan ddaeth hi i'r ystafell, heb ei hadnabod am ychydig o eiliadau.

'Eisteddwch,' ebychodd e heb o'r braidd godi'i lygaid.

'Na,' atebodd hithau'n syth. Sythodd yntau. A syllodd e arni'n syn cyn eistedd ei hun. Syllodd hi'n eofn yn ôl. Ond yn ei thalcen o'i flaen e, gallai fe synhwyro fod yna fath o gochni ffyrnig. Ceisiai hi guddio hyn â'i llaw. Ond roedd e wedi sylwi arno yr un fath.

Oedd, roedd yn ddyn hardd fel y tybiasai hi. Ryw bedair blynedd yn iau na hi; ond allai hi ddim llai nag ymhyfrydu yn ei olwg, fe a'i fochgernau cadarn a'r gwallt yn

lledfritho o gylch ei arleisiau a'r ysgwyddau llydain. A'r un batsien ddu ddirgel yna fel tarian o'i flaen. Roedd e wedi gostwng ei unllygad drachefn, a doedd Naomi ddim yn sicr a oedd e wedi'i hadnabod neu beidio ar ôl eu cyfarfod diwetha. Roedd e'n wryw. 'Dw i wedi dod i siarad am Rwth,' meddai Naomi wrtho.

'Un peth dw i byth yn ei wneud yw ildio i 'ganfasio' gan *fenywod*,' meddai fe tan wenu, wrth i'r adnabyddiaeth ddechrau lled ddadmer. Na, doedd e ddim yn ei chofio hi am ychydig o funudau, roedd Naomi'n siŵr.

'Dim ond *un* fenyw dw i. Ddim "menywod". Ac un fenyw sy byth yn canfasio. Dweud dw i'n wneud, nid eistedd; gyda phenderfyniad.'

'Dw i wedi cael hen ddigon o brofiad gan ganfaswyr, dw i'n ofni. Bydd rhaid ichi esgusodi amheuan gonest,' meddai fe gan wenu eto. Roedd ei gwenu'n hedfan o gwmpas yn afradlon.

'Dw i'n deall hynny i gyd.'

'Pan dw i'n dweud does dim gwaith...' Yna, petrusodd e...Oedd e'n adnabod hon yn benodol? Siglwyd e ychydig. On'd oedd hi wedi bod yn rhan o'i fodolaeth e rywbryd yn ddiweddar? Doedd hon ddim gant-y-cant yn anghynefin rywsut: roedd y cyd-destun yn dechrau ymddangos yn od o glir drwy niwl.

'... Dych chi'n ffael creu gwaith. Does 'da chi ddim o'r cynhoredd i *ddyfeisio* gwaith,' meddai Naomi. 'Ac felly, does dim gobaith na dychymyg i'w gael. Dŷn ni i gyd yn deall hynny.'

'Arhoswch. Ydw i'n eich *nabod* chi? Ddylech chi fod yn Birmingham efallai.'

'Ydych, siŵr iawn. Naomi Meleck, gweddw El.'

'El ... Wrth gwrs...' petrusodd e'n chwithig. 'Hen ffrind; ac mae arna-i ddyled arall hefyd... fwy diweddar. Oes!' Cododd ar ei draed.

'Does dim dyled arnoch chi nawr ond i synnwyr cyffredin.'

'Pe bawn i heb ond parchu coffâd El, mi fyddai 'na ddigon...'

'Ond dych chi *yn* ei barchu.'

'Wrth gwrs. Ond alla i ddim anghofio, alla i byth anghofio ... dw i'n cofio nawr, ein cyfarfyddiad diwetha, yn fwy diweddar. Down i ddim yn ddigon effro ar y pryd, i gofio popeth. Mae gen i faich o ddyled i chi, onid oes?'

'Dim o'r fath beth.'

'Oes. Oes!'

Roedd gruddiau Naomi'n goelcerth. Roedd hi'n difaru iddi erioed gytuno i ddod. Roedd hyn yn annheg i'r Bòs. Ac yn fwy annheg byth iddi hi.

'Eisteddwch. Na. Wnewch chi ddod i gael cinio gyda fi? Wedi'r cyfan, dŷn ni'n perthyn mewn ffordd o siarad.'

'Na wna. Mi ddes i yma i chwilio am swydd i Rwth, y merch-yng-nghyfraith hollol haeddiannol ynddi'i hun... Ddim i loddesta.'

'Gwn i. Dim problem. Wedi'r cyfan, drwoch chi mae honno'n perthyn hefyd i finnau wedyn mewn ffordd.'

Eisteddodd Naomi, ac yntau hefyd ar ei hôl hi.

'Fe ellwch gwccian swydd iddi, does bosib,' meddai hi. 'Dyna'r prawf creadigol. Dych chi'n rhoio yn eich elw, ar ôl yr holl flynyddoedd hyn.'

'Y gwir yw, Naomi, mod i bob amser yn cyflogi mwy o weithwyr yr ardal nag y dylwn i, er mwyn peidio â gorfod hyfforddi rhai newydd yn rhy sydyn, a'r rheina heb gael eu paratoi. Gobaith am ddyddiau gwell sy'n darparu cynhaliath i'r gweithwyr. Ond dyw'r dyddiau gwell byth yn dod. Does fawr o elw.'

'Beth yw un bach arall ymysg cynifer?'

'Fe allwn i greu gwaith... dros dro o leia... ychydig o deipio yn y swyddfa... am bythefnos, nes iddi ddod o hyd i ryweth parhaol yn yr ardal, rywle gwell.'

'Pythefnos!'

'Dair wythnos. Fe fydda i ar y ngholled os a-i ar ôl hynny,' chwarddodd e.

Doedd Naomi ddim yn chwerthin. 'Ar eich colled, ddynd! Dych chi'n rhoio mewn arian. Rholio.'



Gwenodd Bòs. Allai fe ddim ond teimlo rhyw fath o hoffter edmygus tuag at y fenyw ryfedd ac ewn hon, a fu yn y lle iawn un tro ar y funud iawn, ac yn awr a ddwedai'r peth croes, – croes iawn. 'Rown i wedi *clywed* fod El wedi priodi menyw gre. Ond...'

'Mwydyn yw menyw sy heb fod yn ewn mewn angen.'

'Gadewch i finnau fod yn ewn te. Fe ddowch i ginio.'

Methodd Naomi â gwrthod hyn eto, a chododd e'n frwdfrydig allan gyda hi o dan drem syrfdan holl weithwyr y ffatri.

'Ydy hi'r ferch 'na, eich merch-yng-nghyfraith dych chi'n sôn amdani, ydy hi'n gry?' gofynnodd e yn y man, wrth ei hebrwng hi tuag allanfa'r ffatri.

'Rwth? ... Fel y mhenderfyniad i.'

'Yn ddigon cry i gario dysglaid o de?'

'*Macho!*' meddai hi.

'Ac yn ddeallus?'

'Mor ddeallus â newyddiadurwr!'

'Dych chi'n tynnu 'nghoes i.'

'Ac yn hirhoedlog... fel gwyfyn,' chwarddodd hi. 'Ac yn dod â thywydd braf. Drwy'r gaea... Ellwch chi ddim colli. Ond yn rhy ddeallus yn y mryd i i beidio â gwneud dim mwy na gweithio-te.'

'Wel,' meddai Bòs yn feddal ac yn amhendant gytûn gan ildio gerbron yr anocheledd amhosibl a ddaeth mor dyngedfennol yn ei hanes e'r tro hwn. 'Mis iddi te. Tra bydd hi'n chwilio am well swydd yn yr ardal.'

'Mentro dych chi. Fe ddylwn i'ch rhybuddio chi,' gwenai Naomi, 'mai *mewnfudo* y mae hi fel Cymraes fabwysiedig.'

'Wel, pam lai? Dim ots! I Lanelli, fel lle, mae'n dod, nid i mewn i'n holl fywyd cenedlaethol ni. Dw i'n gyfarwydd â'r achwyn am fewnfudwyr i Gymru.'

'Does ganddi hi ddim felly o'r israddoldeb Cymreig hoffus, na'r un barchedig ymddiriedaeth yn y meddwl newyddiadurol sy gan y Cymry,' meddai Naomi.

'*Wel?*' meddai Bòs, fel pe bai'n gorfod wynebu dadleuon gwawdus chwareus.

'Na dim o'r esgusodi taeog ynghylch hawliau cenedl.'

'*Wel?*'

'Dim o'r cyfaddawdu cafalîr a'r ildio cyfeillgar a'r diffyg ewyllys. "Cymraes" yw hi nawr a chefnidir Lloegr gyda hi. Dyna'r math o fewnfudwr a allai roi tân tlws yng nghalon Cymru a ffatri ddi-fentr.' Roedd hi'n gobeithio na wnâi e'r un "Welio" ymhellach.

'*Wel* te? Dych chi wedi nghuro i eto. Os dw i'n cofio iawn, y nghuro'n wyllt ar y mryst i y buoch *chi* y tro diwetha y cyfarfyddon ni. A churo'n *garedig* fu hynny.'

'Eich rhybuddio dw i am Rwth yn y cyfarfod hwn heddiw nawr – cyn ichi gael eich dychryn, a chyn ichi gael eich concro ganddi yn eich cyfarfod nesa. Mae hi'n dipyn o ferch. *Wel!* Beth amdani? Mi wnes i ddweud mod i'n ei hystyried.'

'Styrio wnaiff hi, cewch weld.'

### 13. *Asesu*

Roedd Brenda a Chatrin wrthi'n ddiwyd gyda'i gilydd yn tacluso'r parlwr. O'r gegin daeth gwaedd ddisyfyd gan Rwth, a brysiodd hi i mewn a'i llaw yn gwaedu.

'Cyllell! Llithrodd hi'n ddamweiniol! Alla i byth deipio nawr.'

'Gad ifi edrych arni,' meddai Brenda'n dirion.

'Sut gallwn i hwylio i'r gwaith fel hyn y bore 'ma?'

'Ga-i weld pa mor ddifrifol...'

'Ar ôl yr holl aros, yr holl chwilio... yr holl anhunedd.'

'Gad imi weld, ferch.' Archwiliodd Brenda'r briw. 'Mae'n ddwfn.'

'Gwell iddi ymweld â'r meddyg,' meddai Catrin.

'Ie. Mae'n well cymryd hyn o ddifri. Synnwyr, Rwth,' ebychodd Brenda i ategu'i chwaer.

'Ac ar ôl mynd i'r ffatri yn hwyr, beth wna i?' Roedd Rwth wedi'i gorchfygu.

Pan gyrhaeddodd hi swyddfa Bòs maes o law roedd ei llaw hi mewn rhwymau. Pendronai Bòs sut y gallai esgus gosod gwaith i hon. Ond roedd hi wedi rhodio i mewn i'w swyddfa fel gwawr heriol hwyr mewn ffordd chwithig. Edrychodd e arni'n ddiymadferth.

Ofnai Bòs yr ymyrraeth lleia â'i fywyd beunyddiol. Pan fo teimladaeth yn chwarae o gwmpas llwnc y llanc ifanc plorynnog, mae e'n gynnes ac yn bendrwm, yn cadw stŵr ac yn chwythu ager. Ond pan fo'n ymaflyd yng ngwar y gŵr canol-oed, y mae'n diurddasoli rywsut. Mae'n ei anghyfaddasu fe, er mor barod y bo i ymdawelu. Er na ddaw ond megis awel ysgafn i bryfocio'i ddeilios e ac i ysgwyd ychydig ambell gelynnen aeafol wyrddlas gudd yn ei goedwig, y mae'n gallu dod o hyd i nyth blêr a thrwsgl yno, ac ymsefydlu, a chanu, a phenderfynu ymorffwys yn feddal, cyn cyrraedd y gwastadeddau agored y tu draw...Hei ho!

'Mae gen i syniad,' meddai Bòs. '*Gwneud arolwg o awgrymiadau gwella cynnyrch gan y gweithwyr.* Dyna'r gwaith dw i'n ei gynnig i ddechrau, holi'r staff, – er mwyn ymgysgu ymgyfarwyddo â nhw,' meddai fe. 'Mi allwch symud ymlaen i gadw cofnodion wedyn wrth fynd o'r naill i'r llall, ac yna fynd ati i roi trefn amgenach gyda'r holl lyfrau yn y swyddfa ar ôl hynny. Ond arolwg llafar cyffredinol i ddechrau.'

'Dw i ddim yn deall,' meddai Rwth.

'Wel, ellwch chi ddim teipio.'

'Na alla. Ond mi alla i ddysgu am waith y ffatri.'

'Dyna pam dw i'n cynnig y gwaith *yma*. Mae'n un gorchwyl ymarferol roedd arna i eisiau'i wneud ers tro. Ond roedd popeth arall bob amser yn ennill y blaen.'

'Pa fath o orchwyl yw hyn? Beth dych chi'n ddisgwyl?'

'Holi'r gweithwyr. Mynd o gwmpas llawr y ffatri i holi pawb a hel awgrymiadau sut y gellid gwella hwylustod cynnyrch, ... y peth lleia does dim ots, sut y gellid cynyddu effeithiolrwydd. Mae'n hen angen... Holwch nhw am bopeth. Ie, os mynnwch chi, holwch beth yw eu barn bersonol nhw am wella'r weinyddiaeth, am y rheoli. Hel awgrymiadau amryfal i wella cynhyrchu'n gyffredinol. Arolwg dros dro. Asesiad.'

'Gwella'r weinyddiaeth hefyd?'

'Ie. Efallai y dwedan nhw hynny wrthoch *chi*... Sut y gallwn ni *oll* wella?'

'Allwn i byth wneud hynny. Dw i'n rhy ddiarth.'

'Mantais yw hynny... Beth bynnag, ar hyn o bryd...'

'Ar hyn o bryd alla i wneud fawr o ddim oll arall,' meddai Rwth. 'Dyna dych chi'n ddweud.'

'Mae yna rai rhinweddau gan y ffatri hon eisoes. Gellid gweithio ar sail y rheina. Cyfeillgarwch yw un rhagoriaeth: cydweithrediad y staff. Mantais yw “absenoldeb y diwyneb” mewn ffatri. Mae'r person anhysbys yn absennol yn y ffatri hon, gobeithio. Mae pawb yn nabod ei gilydd fan hyn. Nid martsio milwyr anfeiriadol yw'r drefn sy'n cydweithredu. A dw i'n credu y gallech chi fwyhau hynny mewn Cynlluniau newydd, drwy ddatblygu strwythur y cydweithredu. Byddwch chi'n defnyddio'r awyrgylch cytûn yna fwyfwy, o fewn trefn batrymog.... Nid esgus o swydd yw hyn. Mae hyn yn waith pwysig a defnyddiol roedd eisiau'i wneud ers tro. Asesu hydeiml. Fe allai hyn newid llawer ar y lle, er lles. Chwyldroi hyd yn oed. Dysgu mentro yn y ffatri drwy wella trefn, gwella cymhelliad, gwella gweledigaeth, marchnata a hysbysebu. Rhoi asgwrn cefn newydd a mwy ymwybodol i'r ffatri. Mae pawb yn gallu awgrymu rhywbeth bach, dw i'n siŵr. A dylid ceisio a pharchu barn y gweithwyr bob un. Dylwn i fod wedi archwilio hynny o'r blaen bob hyn a hyn ers tro. Beth amdani?' Roedd e'n crafu am waith iddi.

'Estron dw i. Ond dw i'n gallu dysgu'n gyflym.'

'Mae angen rhywun o'r tu allan arnon-ni, a llygaid ffres. Ewch ati'n hyderus, ac ewch yn chwilfrydig. Byddwch fel Betsi Cadwaladr yn symud yn iachâus drwy'r ward.'

Cyrchodd Rwth i'w thasg heb gael ei llawn argyhoeddi. Ond croeso gafodd hi ar bob llaw. Braff i'r gweithwyr oedd ymwybod â ffigur delynegol ysgafn yn ymsymud yn eu plith.

Pan oedd hi ar ganol sgwrs ddifyr a defnyddiol, sut bynnag, gyda Cris, gwaeddodd Watcyn o'r ochr arall, 'Fe ddwedwn ni'r *gwirionedd* i gyd – am gusan.' Gwrywod, gwrywod ewn oedd 'na ar bob llaw, dyna dybiodd hi oedd ei hofn, a dichon y dôir gor-wryweidd-dra hwnnw â'r “awgrym” cynta i wella.

Yna, ymunodd llais arall yn y miri. 'Oes 'na ragor o goesau fel 'na yn Lloegr?'

'Does dim syndod ein bod ni'n eu maeddu nhw mewn rygbi.'

'Na,' meddai rhywun mwy pwylllog na'i gilydd. 'Does dim corff “prop” gyda hi ta beth.'

'Ond *mae* corff propor.'

Aeth Rwth hithau draw i sgwrsio gyda Watcyn a sobrodd e ar ei union deg.

'A beth am y weinyddiaeth?' gofynnodd hi iddo, hefyd yn sobor.

'Bòs? Neb gwell... Teg; cryf... Mae'n ein licio ni; mae e ar ein hochor ni; ac eto does dim nonsens. Beth allai fod yn well?'

'Mae'n sant felly? Does dim beiau?'

'Dw i ddim yn dweud hynny. Mae'n gweithio'n anwedus o galed. Wedi priodi'r gwaith. Ac yn aros 'ma tan berfeddion. 'Wnaiff hynny ddim lles i neb. Ond gofynnwch i'r bechgyn: “Oes 'na unrhyw ffatri arall yn Llanelli, yn Abertawe, yng Nghymru lle y celen nhw fòs fel hwn?”... '

O'r cornel pellaf treiddiodd udo blaidd – gan Aled – i glustiau Rwth.

'Ydyn nhw i gyd fel 'na?' holodd hi Watcyn gan ogwyddo'i phen draw mewn siom i gyfeiriad sŵn Aled. 'Wel, chwarae teg. Dŷn nhw ddim i gyd fel chi chwaith.' Brysiodd Rwth draw at y blaidd... a drawsffurfiwyd yn fyn yn y fan... ond myn

go ansefydlog; blaidd o fath yng nghroen myn. Dyna un wedd ar y berthynas rhwng gweithwyr yn y ffatri y gellid ei gwella. Y diffyg presenoldeb benywaidd. Dyna oedd un anfantais y dylid ei chywiro os oedden nhw'n ceisio gwasanaethu'r gymdeithas yn gyffredinol.

'Mae gynnoch chi awgrymiadau felly?' meddai hi wrth Aled.

'Oes. Hanner dwsin arall fel chi, a dyna fyddai ysbrydoliaeth yn y ffatri.'

'Credwch fi. Mae y meddwl i'n unplyg ar wella'r gwaith drwy gasglu awgrymiadau unigol hollol ddiuedd.'

'Mae morâl yn bwysig hefyd. Mae'r lle'n rhy wrywaidd,' meddai Aled. Gwelai hi, yn y blaidd hwn, ategydd i'w hargyhoeddiad cynta hi.

'Ond oes gynnoch *chi* awgrym ar gyfer cyflymu'r cynnyrch?'

'Cyflymu? Oes. Gwelwch chi siâp y llaw 'ma. Cydiwch ynddi.' A dyna a wnaeth hi, yn anesmwyth iawn nes i Aled ddal ei llaw'n dynn. 'Nawr te, gawn ni siarad – ddyn wrth ddyn.' Cydiodd e yn ei llaw arall hi hefyd. 'Does dim byd tebyg i gydweithio os ydyn ni'n mynd i wella cynnyrch. Harmoni. Gyda'n gilydd.' Ymlusgodd Watcyn wedyn, yntau o'r tu ôl iddi, a rhoi'i ddwylo ar ei hysgwyddau. Roedd rhywbeth yn digwydd yn y gwaith – heblaw siom. Chwyrliodd Rwth. Ymryddhau. Roedd hi'n grac.

'Rhannu'r elw,' meddai Watcyn. 'Dyna awgrym arall. Ambell fonws ystyrllon a theg. Pawb â rhan yn y pethau da.'

Ymladdai hi i ymryddhau ymhellach. Doedd neb yn arw iawn. Ond teimlai hi'n wryfol anghyfforddus ac o dan fygythiad. Mewn perygl hyd yn oed.

'Neb yn gwrthwynebu'i gilydd,' parhaodd Aled.

Ymryddhaodd hi'n ffyrnig rhag eu presenoldeb, a ffoi tua'r swyddfa. Allai hi byth fynd ymlaen fel hyn yn y fan hon.

#### 14. Swydd Newydd

A'r noson honno gartre roedd hi'n o dawedog yn ei chadair, fel pe bai hi'n

pensynnu am ei thynged. Teimlai fod ei phenderfyniad i weithio yn gwanhau. Syniai, tybed ai doeth fu ceisio gwaith o'r math hwn mewn amgylchfyd a oedd yn rhy lethol o wrywaidd? A ddylai fod wedi chwilio am gynefin ymhlith ei rhyw ei hun a hithau mor anghynefin â'r ardal, sut bynnag? Ond pam y dylai'i gwaith hi gael ei gyfyngu o ran amrediad gan gamddygiad gwrywaidd garw? Bwlio oedd hyn. Neu... Pe deuai merched eraill i ymuno yng ngwaith y ffatri, byddai angen polisi 'bwlio' i gyfateb. Yn wir, dyma sialens arall yn ei gwaith hi nawr. Dylai gynnwys hynny hefyd yn ei hadroddiad.

Naomi yn unig oedd gyda hi ar y pryd. 'Dw i'n deall nad oet ti ddim am siarad yn syth ar ôl dod adre. Roet ti wedi blino.'

'Dw i'n flinedig o hyd,' atebodd Rwth yn arafaid.

'Swydd newydd,' meddai Naomi'n sionc. 'Rhythm newydd. Y diwrnod cynta.'

Bu ysbaid. Ceisiai Rwth arafu tempo'r sgwrs. 'Mae'n fwy na hynny.'

'O?'

'Dim byd,' meddai Rwth yn gwta naïf.

'Mae *dim byd* yn lot weithiau.'

'Mae'n well 'da fi beidio â siarad amdani.'

'O! roedd hi gynddrwg â hynny, oedd hi?'

'Nac oedd.'

'Dim byd?'

'Dim llawer.'

'Popeth yn iawn. Does dim rhaid dweud wrth hen wreigen.'

Arafodd Rwth drachefn. 'Naomi, mae rhai pethau mor ddibwys... Bechgyn yw bechgyn.'

'*O-O-O!* Bechgyn!'

'Doedd dim *O!* fawr hyd yn oed. Na! Ond roedd 'na o! fach, a'r "o" yna,' meddai Rwth, 'yn gota awgrymus.'

'Wel, roedd 'na fechgyn wrthi te,' meddai Naomi.

'Swydd newydd ... Iawn! Fe dderbynia-i'ch diagnosis. Roedd yna fechgyn.'

'Un yn unig oedd yn dy boeni di? Dau? Faint? Llawer?'

'Rhythm newydd... Diwrnod cynta.'

'Popeth newydd. I bawb,' awgrymai Naomi.

'Doeddwn i ddim yn gyfarwydd â'r wedd gymdeithasol, dyna'r cwbl.'

'Ddwedaist ti wrth Bòs?'

'Wel na ddo, wrth gwrs. Doedd dim byd o bwys wedi digwydd.'

'Dim byd llawer?' Oeddodd Naomi. 'Mae hi'n naturiol, Rwth, fod merch brydferth fel ti...'

'Pe bai achos achwyn, fe ddwedwn i wrthoch chi.'

'Doedd neb...?'

'Nac oedd.'

'Neb wedi ymserchu ynot ti'r mymryn lleia?'

'Wel nac oedd. Nid serch wrth gwrs.'

'O bell? Rhyw damaid bach?'

'Wrth gwrs nad oedd. Tipyn o ddwli crwts dyna'r cwbl.'

'Dim cyffwrdd? Neb yn dy ddilyn di? Neb yn bygwth?'

'Neb. Dim llawer.'

'Peth?'

Roedd Rwth yn colli'i hamynedd. 'O! Naomi. Gadewch inni siarad am rywbeth arall. Yn lle y mod i'n asesu pawb: roedd pawb yn y gwaith yn yn asesu i. Hynny oedd yn naturiol.'

'Os bydd 'na rywun, Rwth, rhywun sy'n ddigon dwl i fynd dros ben llestri...!'



'Fe alwa i am y frigâd dân... Ac O, mi ddweda i wrthoch chi, wrthoch chi yn gynta oll.'

'Dwed di wrth *Bôs*,' meddai Naomi. 'Mae e'n ddyn pwylllog. Chollai fe ddim o'i ben. Ond mae'n brofiadol. Mae'n nabod bechgyn. Nid cario cleps yw hawliau merched.'

'Fe ddweda-i wrthoch *chi*.'

### 15. *Yr Amddiffynnwr*

Bedair noson wedyn, wrth ddychwelyd tuag adre, fe gafodd Rwth achos dychryn arall. Rhwng y ffatri ac un o'r cil-strydoedd sy'n arwain i'r briffordd, roedd yna dwnnel nas defnyddid, yn weddill diwydiannol o drafnidiaeth yr hen weithiau: dau ganllath a hanner cyfan o dwnnel a'r awyr yn drom ynddo. Tociai'r twnnel hwn ychydig bach ar hyd siwrnai Rwth. Byddai rhai'n barnu ei bod hi'n gafalîr. Rhyw fath o weddilyn hen weithfa anghyfannedd a adawyd, a hynny'n gymharol agos at dai annedd. Ond roedd y tir gwastraff cyn-ddiwydiannol hwn o'i ddeutu yn golygu fod y briffordd gyhoeddus – heb dramwyo'n weddol unionsyth – yn gorfod ei gylchynu am filltir y tu allan. Ar hyd un ochr i'r twnnel unionsyth hon fe gaed 'drysau' a gwe pry-cop drostyn nhw yn sefyll fel hen ddynion adfeiliedig bob deg llath, yn ddisymud yn y wal. Brics ar ôl brics o'i deutu, a chan y rheini lwch trwm a chen drostyn nhw. Ar y llawr, o flaen y 'drysau' ceid ffwng a llygod ffrengig trancedig ac aroglau adfeiliedig: lle cwbl ryfedd ac annisgwyl. Gwaharddwyd pob smicyn o oleuni rhag tarfu ar yr oerfel. Ond twnnel adnabyddus yn yr ardal oedd, lle y gadaw-wyd cryn dipyn o sbwriel, heb i neb wneud dim byd ag e. Mewn un lle roedd yna bentwr o hen datws pwdr a gwlyb, a llu o boteli toredig a gwe pry-cop drostyn nhw o bob llun a maintioli, brown gan mwya. Ci marw – o bethau'r byd – mewn un lle. Ffrâm wedi'i dryllio mewn lle arall. A hen gôt drom. Trowyd y lle yn domen sbwriel fechan. Ar hyd adfeilion achlysurol y twnnel hwn y brysiat Rwth ar ei ffordd adre, wedi tybied – ond wedi edifarhau erbyn hyn – iddi gael modd i fyrhau ychydig ar hyd ei siwrnai. Ond daeth yn ymwybodol fod yna gysgod ryw ddeg llath ar hugain o'r agorfa yn stelcian y tu ôl iddi, ac yn hwyhau. Roedd yn brysio hefyd, efallai ychydig ynghynt na hi. Cysgod braidd yn debyg i Watcyn o'r ffatri. Arbedai hi hanner

milltir o gerdded drwy bicio drwy'r twnnel hwn, ond ofnai y gallai hi drwy arbed o'r math yna ychwanegu hyd annhymig o drafferth. Teimlai Rwth yn awr mai'r ffordd hon a gerddasai hi, er mwyn gwibio drwy lôn-fer y twnnel hwn, oedd yr hanner milltir mwya annymunol a allai fod ar gael y noson honno. Cyflymodd hi. Cyflymodd e. Ac yna ychydig cyn cyrraedd y pen draw, fe faglodd hi a syrthio. Roedd hyn fel pe bai'n ddigon i'w ddychrynu fe oherwydd trodd e ar ei sawdl a rhedeg ar hyd y twnnel yn ôl i'r pen arall a diflannu. Daeth Rwth allan yn gleisiog iawn ei meddyliau. Dim byd arall. Dim ond braw. Ac amheuaeth. A chywilydd am ei hofn. Ac ansicrwydd. A hiraeth amwys anodd am dangnefedd. Soniodd wrth Naomi am y ffolineb ar ôl cyrraedd adre.

Y tro hwn rhaid fu i Naomi hithau weithredu.

Aethai Naomi ar ei hunion 'yn gyfrinachol', heb yn wybod i Rwth, i chwilio am Bòs yn ei swyddfa y tu allan i oriau-gwaith, o leia pan oedd e'i hun yn gweithio'n hwyr. Heb gyfadde hynny iddi'i hun roedd hi bron yn falch i gael esgus. Roedd y gŵr a'i batsien ddu wedi bod yn ymdroi'n anghyfforddus yn ei myfyrdodau hi; ac er gwaetha'i thrigain mlynedd hi o siomedigaeth a chwerwder, gallodd ei chorff ymsionci drwyddo wrth iddi ail-fyw rhai o'r brawddegau roedd hi wedi'u torri gydag e ynghynt. Ar ei ben ei hun roedd Bòs yn y ffatri, yn hwyr, ymhlyg uwchben ei gyfrifon ac yn paratoi ambell gais am gyfrannau newydd. Roedd Naomi'n benderfynol o siarad heb flewyn ar ei thafod. Tywalltodd hi'i hofn a'i chwyn drosto yn un bwrlwm, heb enwi neb o'r dynion gan nad oedd Rwth hithau am achosi trafferth. Ac eto, esboniodd Naomi'r sefyllfa yr un fath i Bòs: 'Wrth iddi gerdded adre y digwyddodd y peth, dim byd llawer. Doedd hi'n fawr o beth... Dw i ddim am godi stŵr. Dw i ddim wedi dweud gair wrthi hi. Dŷn i gyd wedi bod yn ifanc. Ond mae hon yn haeddu aros yn Llanelli, er ei bod hi'n ferch brydferth, ... ac mae bechgyn...'

'Dw i'n deall. Dw i'n gallu sylweddoli'ch cyhuddiad a'ch ofn. Os oedd Olwen,' meddai Bòs, 'yn llusgo meillion lle bynnag roedd hi'n mynd, mae hon yn llusgo chwibanau ar ei hôl. A thrafferthion.'

'Ydy ei golwg hi'n mynd i fod yn anfantais iddi? Ydy hynny'n deg? Mae hi'n ferch sy'n ymddwyn yn garedig, ac yn gymwynasgar,' atebai Naomi.

'O!'

'Dyw hi ddim yn gyfarwydd â gweithio ynghanol criw o lanciau hoenus.'

'Dw i'n deall yn burion.'

'Ond a *ydych* chi'n *gwir* ddeall? Chi efallai sy ar fai am benodi pawb yn rhy gyfyngedig wrywaidd ar hyd y blynyddoedd.'

'Crwts cymharol ddiniwed yw'r rhain ddwedwn i.'

'Pwy sy'n ddiniwed?' heriodd hi.

'Pawb nes eu profi nhw'n euog.'

'Gweithwyr da, a dych chi ddim am eu colli nhw,' meddai Naomi.

'Nid hynny,' meddai fe.

'Does neb am dramgwyddo cydweithwyr glew.'

'Nac oes, na thramgwyddo neb arall chwaith; ond fe wyddost ti Naomi na fyddwn i ddim yn llwfr pe bai 'na...'

'Gwn i.'

'Os bydd eisiau pryd o dafod...'

'Fe drechi di dy lwfrdra,' meddai Naomi.

'Nid llwfrdra'n hollol yw synnwyr cyffredin... Dealla di, Naomi, y peth ola rown i eisiau'i gael yn y lle 'ma oedd gweddw bert.'

'Ti!' ebychodd hi. 'Yn ofni gweddw bert!'

'Mae gan bawb lygaid... wel, llygad.'

'Ond mae hi'n bert i *ti*.'

'Os wyt ti'n ceisio bod yn awgrymus, dw i'n rhy hen i ddiddordebau llencynnaidd, Naomi... Dw i'n rhy hyll a hen o'r hanner.'

'Nawr, nawr, Bòs. Does dim angen y nhwylo i. Dylai ffatri fel hwn *allu* trafod y presenoldeb benywaidd. Dyna'r cwbl dw *i'n* ei awgrymu.'

'Cer nawr, Naomi. Mae 'da fi waith i'w wneud.'

Ciliodd hi tuag at y drws, fel pe bai'r cen wedi'i garthu oddi ar ei llygaid. Stopiodd hi wrth y drws. Mor wirion roedd hi wedi bod. Ond roedd hi wedi dysgu'i gwrs. Os nad oedd hi'n camgymryd, roedd yr hen hen lanc hwn wedi cael ei denu gan Rwth, yn ei benyweidd-dra syml. Ac yn awr, roedd hi, Naomi hyd yn oed, yn fwy byw i ystyr economaidd y 'presenoldeb benywaidd'. Gyda benyw fel Rwth yn 'presenoli', roedd hi fel cainc ar goeden sy'n cyfarfod â magwyr: os tociwch hi'n flêr, thyf hi ddim yn union syth. Mi gais ymwithio'n ôl i'r un llwybr am ychydig efallai; ond buan y gwyr a i'r ffordd a ddymunwyd gan y tociwr, gyda pheth ar ogwydd yn ceisio ffordd newydd i ffynnu. Eto, mi all ddwyn dail ddigonedd o hyd, a chrosawu gwanwyn, ac estyn ambell flaguryn gwirion i wres cymedrol y prynhawn... Gall wneud gwaith a bywyd yn fwy hynaws. Well!... Roedd y wers gymhleth honno heddiw i Naomi yn glir.

'Dim amser 'da ti, felly, i fod yn fôs ac i daclo problem ddilys?' meddai hi.

'Dim i'w wastraffu ar ffolinebau yr adeg yma ar yr hwyr.'

'Peth blinderus yw bod heb amser.'

'Cer nawr, Naomi.'

'Ateba'n onest.'

'Fe ofala i fod popeth yn deg ac yn gwrtais.'

'Dyna'r cwbl?'

'Ac mi a-i'n amddiffynnwr os lici di. Cer nawr, Naomi. Bydd yn rhaid bod yn rhesymol: byddai'n rhaid i fi, pe baet ti'n cael dy ffordd, adeiladu wal frics o gylch pob menyw a ddaw i'r ffatri. Mi ofala-i amdani hi'n gydwybodol.'

Cydiodd Naomi ym mwlyn y drws. 'O'r gorau, mi a-i. Ond cofia di, Mr Salmon bach: bôs ein byd bach ni wyt ti: fel y môr gyda'r pysgodyn. Mae yna foroedd eraill. Byddai'n drueni colli hon. Fe allai hi ddod â lles i ffatri sy'n rhy wrywaidd.'

Beth oedd hi'n ei feddwl? 'I fi'n bersonol, môr oedd y nheulu i o weithwyr yn y ffatri i nofio ynddo fe'n gysurus,' ychwanegodd e.

'Mi wn i am hynny hefyd,' meddai Naomi. Agorodd hi'r drws. 'Ond mi alla i gymeradwyo un pysgodyn llithrig yn y môr hwnnw.'

'Cer,' gwaeddodd Bòs. 'Mi a-i'n amddiffynnwr.'

A llithrodd hi allan gyda mwy ar ei meddwl na phan ddaethai hi i mewn. Roedd hwn, 'yr amddiffynnwr', mae'n amlwg, wedi ymhoffi rhywfaint yn Rwth, beth bynnag am y gwahaniaethau rhyngddyn nhw. Doedd e ddim wedi dweud dim o bwys, wrth gwrs; ond roedd greddf Naomi'n datgan, fod y ffordd roedd ei lygad e – ei hen ffrind hi – wedi osgoi ei llygaid hi, wedi cilchwerthin yn nerfus, a'i oslef wrth arddel y gair “amddiffynnwr”, oll wedi pwysleisio mai gwryw canol-oed effro oedd hwn er gwaetha'i hen swildod. Ynteu ai hi ei hun oedd yn amau ac yn ofni ac yn unig? Ai hi oedd yn ddihyder? A oedd hyn oll wedi'i chorddi hi mewn rhyw ffordd? A oedd hi'n ceisio bod yn ddirprwyol agos ato yn lle Rwth? Dim o'r fath beth. Roedd hi'n barod ddigon i gilio o'r neilltu pe bai rhaid. Ac efallai y byddai 'na raid go fuan. Beth oedd yr holl wiriondeb yma iddi hi? Doedd hi ei hun yn ddim iddo fe, yn llai na dim, yn ymhel yn feddyliol â rhyw faterion nad oedd ganddo fe na hi'i hun na neb arall ddim diddordeb o fath yn y byd ynddyn nhw. Ond yn amlwg roedd Rwth ei hun, eisoes, yn cyfri... Gwenodd hi.

### *16. Deuddyn*

A gwir oedd y gair. Llithrodd pythefnos heibio heb i ddim oll ddigwydd. Âi Rwth adre'n feunyddiol ddi-rwystr bellach heb fynd yn agos at y twnnel. Canlynai'r gweithwyr eu gwaith a throi tua thre heb wyro oddi ar y ffordd union ond i gasglu ambell beint. A threfn ddigynnwrf a dyfal arferol oedd i weithgareddau Salmon y Bòs wrth iddo yntau lywio'r ffatri, a Rwth hithau drwy'i hamryfal ddyletswyddau. Roedd hi wedi dod yn rhan o'r lle bellach. Ac roedd 'na atrefnu tawel yn dechrau ymffurfio yn y ffatri. Ystyriai Bòs y tebygrwydd o benodi rhagor o fenywod yn y dyfodol.

Am fod y dynion yn gweithio mewn timau ers tro, i raddau, ac eto'n cydweithredu â'i gilydd mewn un gyfundrefn gwmpasol, atrefnodd Rwth y gydberthynas rhwng y timau, a llediad y cnewyll hynny, yn fwy ystwyth, hynny yw – awgrymodd drwco gwaith rhwng y gweithwyr â'i gilydd o'r gwahanol adrannau ambell

dro. Manion oedd y rhain, ond gweithiai pawb yn fwy llithrig o'r herwydd o ddeall beth oedd y lleill wedi bod yn ei wneud. Roedd yna lai o symud pytiog i fenthyca help rhwng y grwpiau ar gyfer rhai gweddau ar y cynhyrchu, gan fod dolen fwy parhaol ar gael yn awr a allai fod yn gyswllt symudol esmwyth, a chan iddyn nhw hefyd feistroli a dod yn feirniadol am weddau a fu'n ddieithr iddyn nhw o'r blaen. Roedd mwy o gyflymder bellach wrth ddod â'u cyd-gynorthwyo i fwcwl. Adeg salwch gan un neu ddau neu dri, fwriwyd dim o'r gwaith cyfan drosodd oherwydd absenoldeb unigolion penodol, gan fod yna allu newydd bellach i gael eilyddion hwylus a allai lenwi bwlch. Roedden nhw'n fwy cyfarwydd â gwaith ei gilydd oherwydd hylifedd symud swydd. Roedd pawb wrth eu bodd ac yn fwy cytûn.

Un diwrnod derbyniodd Rwth wÿs i swyddfa'r bôs cyn iddi fynd adre.

'Pawb wedi mynd?'

'Pawb wedi gorffen.'

'Fe ofynnais ichi ddod ata i heddiw ar ddiwedd y dydd, gan feddwl efallai y gallwn i'ch hebrwng adre.'

'Does dim angen,' meddai Rwth yn ofalus.

'Ond mae yna fechgyn "drygionus"...'

'Dw i'n gallu cerdded ar hyd y briffordd.'

'Fe gerdda i gyda chi ar hyd y briffordd te.'

'Mae'r briffordd yn hir.'

'Gorau i gyd. Rown i am gael amser i dipyn o sgwrs.'

'Does dim angen bod mor garedig... Dw i'n gwybod eich bod chi'n licio aros yn y gwaith am sbel ar ôl i bawb ymadael.'

Roedd e'n ymwybodol o'i batsien ddu, yn fwy felly heddiw nag ers blynyddoedd. Roedd e hefyd yn ymwybodol ei bod hi'n ymateb i'w gynigion trwsgl mewn modd braidd yn ddifrwdfrydedd. Roedd hi'n arswydus o ifanc, yn rhy ifanc i rywun ar gyfyl ei drigeinmlwydd-agos e i anadlu drosti.

'Mae *rhaglen gytbwys* yn gofyn am gau'r siop yn brydlon weithiau,' meddai fe.

'Peth mawr yw *rhaglen gytbwys*.'

'Does dim angen ei hofni hi.'

'Na. Dyw hen drefn ddim bob amser yn esmwyth. Mae eisiau newid weithiau. Mae rhyw hen arferiad poenus gan hanes o newid drwy gael rhyw “Oleuedigaeth”, neu ryw “Fudiad Rhamantaidd”, a hyd yn oed tipyn o “Ugeinfed Ganrif” ddi-foes ysywaeth,' awgrymai Rwth, 'i dorri ar ein traws. Dyna ngwaith i yn y gornel fechan hon o'n gwareiddiad,' chwarddodd hi.

Cerdden-nhw gyda'i gilydd ar hyd Ffordd Llethri. Roedd Bòs yn anarferol o siaradus-gyffrous, hithau yn annaturiol o araul at ei gilydd. Teimlai fe fwyfwy yn amddiffynnwr drwy'r cwbl. 'A dych chi'n hoffi Llanelli?' gofynnodd e.

'Felin-foel yn arbennig.'

'Hen bobl neis sy 'ma.'

'Pobl Naomi,' meddai hi'n deyrngar.

'Dych chithau'n dod ymlaen yn anghyffredin o dda gyda'ch mam-yng-nghyfraith.'

'Hi yw nheulu i.'

'Ac yn ffrind i chi?'

'Camp o ffrind.'

'Er gwaetha'r blaengarwch i gyd ar ei rhan hi.'

'Och! Does dim byd o'i le arni hi. Gormod o argyhoeddiad, dyna i gyd.'

'Oes na'r fath beth? Mai hi sy'n iawn, efallai?' roedd e'n annaturiol o fusneslyd.

'Efallai. Mae hi'n ffrind annwyl.'

'Gwn i. Dw innau wedi'i nabod hi,' meddai fe, 'ers tro. Mae hi'n *fôr* o deulu ynddi'i hun, debygwn i.'

'Os felly, mae hi'n lle braf i nofio.'

'A dych chi'n hapus gartre felly?' holai fe'n swil.

'Wel ydw, siŵr iawn.'

'Hapus er gwaetha'r ymfudo? Er gwaetha colli gwreiddiau?'

'Doedd dim gwreiddiau. Ddim gwreiddiau yn Lloegr.'

'Hapus wrth fagu gwreiddiau newydd?'

'Wel ydw, wrth gwrs... A *chithau*, dych *chi'n* hapus?' holodd hi'n ewn.

'Fi?' Bwriodd y cwestiwn hwn e yn ei dalcen.

'Ie, yn llywodraethwr ffatri...', meddai hi. 'Beth mae hynny'n ei olygu i chi? – ymlwybro adre... yn ôl i'r gwaith drachefn... heb berthnasau... Dych chi'n teimlo'ch bod chi wedi cyflawni'ch doniau mewn lle fel hyn?'

'Dw i ddim yn gwybod,' atebodd e'n synfyfyriol. 'Fan hyn dw i. Dw i ddim erioed wedi ystyried unrhyw ddoniau eraill na gwaith arall. Ymdreiglo ymlaen mae pethau wedi'i wneud drwy'r blynyddoedd. Dw i'n hoffi ngwaith yn fawr. Ac yn hoffi'r gweithwyr. Nhw yw mherthnasau i a nheulu.'

'Mae'n fywyd trwm. Y pendroni am gyfrifoldeb yn y gymdeithas, a gofalu am eich cartre a'r siopa, ac aros wrth y ddesg tan berfeddion lawer nos, gyda phroblemau ariannol cymhleth, heb fawr o wyliau.'

Roedd ei cherddediad wedi arafu am fod y gŵr yn pensynnu ynddo'i hun ychydig. 'Mae 'da fi gymdoges sy'n glanhau'r tŷ,' meddai fe.

'Ond mae'r tŷ'n dipyn o faich yr un fath.' Mor llesg oedd y cerdded bellach nes eu bod bron wedi sefyll.

'Mae 'na batrwm, rwtîn, dyna'r cwbl... Dw i'n cymryd y cwbl yn ganiataol, ac yn reit hapus.'

'Hapus? Fu gynnoch uchelgais arall erioed?'

'Peidiwch â chwerthin. Meddiannu cornel fechan fach bitw o'r ddaear fel pawb arall, – fel y ngwaith presennol nawr – os caniateir hynny gan fywyd, – ac yna ei droi'n fath o wasanaeth lleol i bobl. Dyna, yn ddiniwed iawn, yn uchelgais i.'



'Mewn lle bach fel Llanelli!'

'I mi, clamp o le yw Llanelli; ond does dim un lle'n fach pan ewch chi'n agos ato,' meddai fe'n synfyfyriol. Roedd hynny'n wir i Rwth. Ac roedd hi'n dechrau teimlo cydymdeimlad yn awr... Peth rhyfedd yw lle. Doedd hi ddim wedi sylwi cyn hyn, ond y mae pawb ohonon ni'n estyniad o leoedd rywsut. Lleoedd sy nid yn unig yn penderfynu ein gwaith a'n lleoliad daearyddol, nid yn unig yn trefnu'r pwyntiau i grynhoi poblogaeth ac yn lleddfu ein gwerthfawrogiad o olygfeydd: maen nhw'n lliwio'n serchiadau tan ysgogi'n dychymyg. Nhw sy'n rhoi diogelwch i ni ac yn ein hamddiffyn rhag y gwagle. Roedd Bòs yn dipyn o estyniad i'r lle hwn.

Erbyn hyn, roedd e wedi stopio, ac edrych roedd e arni hi gyda pheth chwilfrydedd. Safai gyferbyn â hi. Dim ond sefyll, ychydig bach yn syn efallai. Wrth eu pasio roedd rhai pobl yn gallu llygadu'r ddeuddyn gyda thipyn o ddifyrrwch ysgafn. Safai'r ddau hyn, bron yn anymwybodol o'r byd a'r betws, yn uned o syllu llonydd ar ei gilydd ar ganol y palmant am foment. 'Dewch, dewch,' meddai Rwth. 'Nid pawb yn Llanelli sy'n stopio ar yr hewl i edrych ar ei gilydd.'

### *17. Ofn*

Datblygai pethau'n ddisylw. Doedd Rwth efallai ddim yn sylweddoli unrhyw grynfeidd daearol gan y platiau tectonig a anesmwythai yn ei chalon, ar garlam, y dyddiau hyn. Ond roedd rhywbeth yn digwydd, a gwyddai greddf Naomi hithau'n burion beth oedd ar gerdded. Gwyddai hefyd na byddai'r newid diweddar hwn heb effeithio arni hi hefyd. Roedd unigrwydd ara a dwfn yn ffrwydro o'r tu mewn i Naomi. Roedd hyn yn drobwynt eto yn ei bywyd hi. Storm o fath oedd yn ei holl aelodau ambell waith, yn trosiadol dorri ffenestri'i chalon ac yn di-doi'r gwellt oddi arni. Roedd hi ar fedr 'colli' ffrind ieuengach ond aeddfetach na hi. Mae'n wir fod yna gannoedd o filoedd o bobl sengl unig a oedd yn dygymod â bod heb gwmni dros y blynyddoedd diffaith, ac yn dod i ben yn gall ac yn hwylus â buchedd na ddibynnai'n ormodol ar yr un cydymaith; ond fe wyddai Naomi'n amgenach. Roedd hi wedi profi cwmni melys, a doedd y fath loddest o unigrwydd annisgwyl newydd ddim wedi gallu setlo yng nghartre'i mynwes o gwbl o'r blaen. Wrth gwrs, roedd ganddi ffrindiau sicr eraill erbyn

hyn, a llawer o'r sefyllfa newydd wedi'i hailgydio yn y gymdogaeth. Fe geid cymdogion tebyg iddi hi ei hun yn bwhtman o'i chwmpas o hyd. Ceid Merched y Wawr, a'r côr. Roedd yna filoedd o gymdogion a chartrefi unig, wrth gwrs. Fe geid rhywrai a oedd yn ddigon parod i dorri rhyw fath o eiriau gyda hi yn wastad. Ond teimlai Naomi rywfodd fod ei sefyllfa ar hyn o bryd mor frau, fel pe bai hi'n sefyll ar ymyl dibyn eto yn ei hanes: nid dibyn syrthio a pheryg yn unig oedd, ond dibyn-gwahanu drachefn oedd. Beth oedd y cymdeithasu arwynebol hwn rhwng merched yn y tŷ, – fel rhyngddi hi a Rwth – pan fo hynny'n bygwth datod yn ddigon caredig ond yn ddi-ddal? Doedd hi ddim yn gallu preswyllo byth mewn sefyllfa felly fel y gwnaethai gyda chwmmi El yn nyddiau'i chryfder ifanc. A! El gynt. Doedd neb bellach yn rhedeg ati hi a'r goleuadau'n fflachio a'r seirennau'n chwythu fel y gwnâi e cyn ei salwch. Doedd dim baneri'n chwifio yn eu clustiau nhw na tân gwyllt yn taranu yn eu dwylo nhw am mai hi oedd y canolbwynt llawenydd i rywun penodol. Safle o faintioli mesuradwy oedd y bwlch yn ei chalon, a ffurf 'dyn' arno o hyd. Mewn gwirionedd, efallai mai cyfeilles wibiog cyfnod-byr oedd Rwth wedi'r cwbl a ddaethai'n fwyfwy angenrheidiol iddi hi yn ystod y misoedd diwetha. Ond ymweld a wnaethai Naomi dros dro â Rwth, a mynd: dyna fyddai'u hanes mwyach ym maes y perthyn hyn nawr. Taro cis arni. Ei 'defnyddio' hi hyd yn oed am gyfnod datblygol yn ei phrofiad. Ac yna, ymadael mor ddiddig ag y gallai ac anghofio a bodoli mewn man arall pe gellid dod o hyd i rywle priodol amgen. Ond o fewn Naomi ei hun, – yn ei phenglog ac yn ei gwegil ac yn ei phenliniau anystwyth ac yn ei hafu – yn y manau yna oll ac eraill, roedd ei chyn-wr El wedi bodoli iddi, gynt, yn sefydlog barhaol, er na ddangosai hynny i neb. Bu hi'n bopeth i El. Pwy arall a ddeallai hynny ond e? Arhosai'i phriodas yn graith heddiw. Bodolai El o hyd yn ei breuddwydion. Fynnai fe ddim syflyd oddi yno yn ei bryd hi. Ac iddo fe, palas fu hi. O'i chwmpas hi, iddo fe roedd y gwarchodlu'n sefyll, ac yntau yn eu plith. Buodd yntau'n amddiffynnydd. Bu'n saliwrtio, yn martsio, ac yn ddewr, yn ei iwnifform gloyw fel petai. Hi hefyd oedd canolbwynt caer El o hyd. Cannwyll llygad oedd El i freuddwydion Naomi amdano mewn atgof. Palas oedd hi iddo fe fyw ynddi, a'r pileri'n wych urddasol a'r grisiau niferus yn arwain ynddi gan ysgubo i fyny'n gynganeddus fel cordiau cerddorfa, a'r ystafelloedd oll wedi'u dodrefnu a'u caboli mor fawrfrydig i'w anrhydeddu. O! Y fath briodas fythol a boblogai'i cho nawr, a hithau wedi bod yn

ganolbwynt. Ond bu farw'r brenin. Ac yn awr, plas gwag oedd hi hefyd a aethai'n adfail. A sylweddolai hi hynny'n rhy hwyr. Adfail oedd hi a gâi ei bywiocáu ychydig ambell dro, pan ddôi tylluan ar ei rhawd i bibo'i galar gyda'r nos yn y gwely ar ôl iddi wylid llawenydd y parau priod yn y dydd o'i hamgylch, adfail a glywai ysgythrad ambell gwningen ymhlith ei cherrig ac ambell ddraenog yn chwilota am ddant-y-llew. Ond palas darfodedig oedd hi bob modfedd a ddefnyddid gan amser i ysgarthu a chan ysgall i fridio. Palas wedi bod oedd hi, ac wedi'i anghyfaneddu. Ac yn awr roedd unigrwydd ychwanegol a newydd yn ei bygwth. Roedd Naomi yn sylweddoli'n glir ei bod hithau'n dechrau cyfnod newydd yn ei bywyd. Bu'r blynyddoedd hir yn Birmingham yn gymysg o ddieithrwech ymfudo o Gymru, ac yna oherwydd salwch El, yn rhai chwerwon. Ac eto, roedd ganddi gymdeithion agos hiramser acw. Yn Birmingham roedd hi wedi cael elfen o sefydlogrwydd a chysondeb cwmni. Roedd hi wedi ymgymhwyso yn y gymdogaeth er ei gwaetha. Hen fyd, i deulu personol ymlunio ynddo, a lle y tyfasai hi mewn cyfnod hir yn ei bywyd oedd Birmingham, a hithau'n frenhines ar ei haelwyd hithau. Ond erbyn hyn roedd hi wedi cael rhaid i ailgyfeirio ac atrefnu. Dyna'r cwbl. Allan o'r pentwr o glai hwn yma yn awr gafodd hi yn ôl yn Llanelli roedd hi ar fowldio cerflun newydd ohoni'i hun. Ac os felly, gorau po leia o rithwelediadau ffals a fwganai o gwmpas ei hymennydd. Hen wraig adfeiliedig oedd hi bellach, yn blwmp ac y blaen, yn blaen yn sicr, ac nid ei rhan hi oedd cystadlu â'i merch-yng-nghyfraith na'i fflawntio'i hun ym marchnadoedd llencynnaidd y byd. Cafodd gwmnïaeth gan ferch-yn-nghyfraith, a honno'n bont *dros dro* ac yn gymorth i'w chynnal hi dros gyfnod o unigrwydd. 'Ei phobl hi fyddai pobl ei merch-yng-nghyfraith, yn wir!' Roedd yna amser i bob galar o dan yr haul. Ond efallai y gallai hi ymladd o'r newydd a dod o hyd i fowld gwahanol: ffrind arall lai benywaidd yn awr, nid perthynas... Nid Bòs chwaith...

Picio roedd Naomi y dydd arbennig hwn o gylch yr archfarchnad leol, ac wedi mynd ar goll yng nghanol y creision a'r cyffraith. Roedd ei meddwl ar y pryd yn ymdrybaeddu drwy'r grawnfwydydd a'r powdwr golchi, yr un pryd ag y crwydrai'i hiraeth ymhlith pobl. A'i hemosiynau'n sleifio ar draws y sebonau a'r sawsiau a'r nwyddau crasu ac aroglau bricyll ac afalau gwlanog, rhwng y troliau metel a'r celloedd

rhew... pan ddaeth yn ddisyfyd wyneb yn wyneb â Bòs, yntau newydd ymryddhau rhag y papur tŷ-bach – dau becyn o roliau am bris un.

'Bòs! A! Yr *amddiffynnwr!*' meddai hi'n llawen wrtho.

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Yr amddiffynnwr i'r weddw a'r amddifad.'

'Cer o na.'

'Mae Rwth wedi setlo'n net gyda thi yn y ffatri.'

'Ydy. Dw i'n credu ei bod hi. Ac mae hi'n dra defnyddiol ac ymarferol.'

'Diolch i ti.'

'Diolch i bawb.'

'Ac mae pawb wedi ymserchu ynddi?'

'Mae hi'n eitha poblogaidd.'

Cododd Naomi ei haeliau'n chwareus. 'Pawb?'

'Edrych 'ma, Naomi Meleck. Dw i'n rhy hen i ryw gampau fel hyn.'

'Crair o Oes Fictoria.'

'Rhy hen a rhy hyll,' meddai fe'n onest.

'A rhy *llwfr*,' meddai hi.

'Mae llwfrdra'n obsesiwn 'da ti... Hen wŷr dw i. Hen lanc. Yn sefydledig felly. Dyw hi ddim yn golled i fi gyfadde'r gwir.'

'Ac yn llwfr. Mae gen i lygaid yn y nhipyn pen,' meddai Naomi heb fod mor sur ag y gallai fod. 'Wrth ddod yn ôl o Loegr i Gymru, mae menyw'n sylwi ar rai o nodweddion y brodorion hynafol sy yma hefyd, ... rhyw nodweddion wyddwn i ynghynt ddim oll amdany'n nhw.'

'Sylwa di fel y mynni di, mae 'da fi siopa i'w wneud.'

'Does dim diwedd ar waith gwraig tŷ.'

'Mae *gŵr* tŷ yn tueddu i fod yn fwy bishi byth.'

'Ond heb *wraig*, bôs. Gwraig. Meddylia... a thithau mor hen! Ac mor ifanc!'

Chwarddodd e mor llon â llanc oherwydd y pryfocio. Ond gwyddai hi nad oedd iddi hi unlle personol mwyach yn ei fuchedd e. Eto, rywfodd roedd hi'n falch ar ran Rwth, sef ei dirprwy hi. Doedd hi ddim am i genfigen ddod rhyngddyn nhw. Bysai hynny mor chwerthinllyd. Peth ysol a difaol yw cenfigen. Dyw hi ddim yn gadael i dangnefedd letya yn unman gyda hi. Gall cenfigen ddilyn person i'w waith ac yn ôl i'w wely. Gall eistedd wrth ei ochr wrth y ford ginio. Gall grafu fel cysgod dros lawenydd tan ganu yn ei glustiau yn y car, ac ymledu fel carped dan draed wrth rodio'r strydoedd. Mewn rhithwisg y daw cenfigen bron yn ddieithriad, gan ymddwyn yn gwbl resymol a chyfiawn. Di-dwll fu'i dadleuon hi oll, yn ddiau. Ond yn y diwedd ulw, pan gawn ymatal a myfyrio'n hamddenol, dadlau â phawb ohonon ni a wna cenfigen nes inni suddo'n flinedig ddiymadferth i'w breichiau, gan ildio ac ufuddhau i'w chasineb posibl.

Ond nid felly: roedd yr hoffter a dyfasai bellach rhwng Rwth a Naomi wedi newid llawer ar gymeriad Naomi. Roedd hi wedi dod yn fwy ystyriol o bobl eraill. Gwenodd Naomi yn ei chalon. Jôc oedd cenfigen. Roedd ei dadansoddiad o'r sefyllfa newydd yn awr wedi bod yn fodd iddi drechu'r hen beth. Gwenodd yn ara fwyn am ei phen ei hun. Ac yna, gwenodd hi am ben Bôs, heb chwerwder. Llanc oedd hwn o hyd hefyd.

'Rwyt ti'n meddwl dy fod di'n wirion,' cyhuddodd hi.

'Ydw.'

'Ac rwyt ti'n teimlo'n hen hen ŵr.'

'Ydw.'

'Ac mae pawb yn glaschwerthin am dy ben di mewn corneli.'

'Efallai. Ond maen nhw'n anghywir.'

'Mae arnat ti lond ffatri o gywilydd?'

'Oes.'

'Ofn?'

'Oes. Ofn... ofni Rwth, mae hynny'n wir,' meddai fe yn anfwriadol. 'Ac dw i yn ofni yn hun yn fwy... ydw, dw i'n wirion. Dw i'n hen wŷr gwirion, Naomi.'

'A hithau'n wraig irlas hysgerch.'

'Ydy. Yn rhy irlas o'r hanner.'

'Mae hi'n wraig ifanc dda.'

Trodd Bòs i ffwrdd mewn penbleth. 'Dw i'n mynd, Naomi.'

'Ffoi, Bòs? Ond cofia. Mae hi'n dda.'

'Mynd,' meddai fe.

'Ond ystyria, y nghyfaill i.'

'Gorau po gynta: mynd,' meddai fe yn llai pendant.

'Meddylia. Paid â meddwl yn rhy bendronus o hyd, ddyn. Mynd, iawn, – o ryw fath, – i ryw gyfeiriad. Ac eto, elli di ddim d'atal dy hun rhag teimlo'n rhy *hen* lle bynnag yr ei di... oedrannus, Bòs. Yn amgueddfaol o *oedrannus* felly. Wel (yn hen ddeinosawr i), does dim amdani ond hunandosturio ac edifarhau am dy ganrifoedd coll. Pyramidiau haul-olrheiniol yr Aiffyt wyt ti, hen gyfaill. Cedwaist yr oedran yna ar hyd dy oesoedd wedyn. Y ddrama a gaed yng Ngroeg. Byddinoedd o ddeddfau Rhufain wedyn. Y Dadeni... Ie, dyna dy air amgen a'th angen: hanes! Rhan o hanes hen hen wyt ti. Rwyd ti'n ddogfen hanesyddol. Mae hynny hefyd yn wir, ond yn wir digon gwirion. Oherwydd mae yna “fynd” hefyd mewn hanes.' Roedd hi'n chwerthin am ei ben e, ac am ei phen ei hun yr un pryd. 'Mae yna ieuencid yn gallu crwydro ymhell iawn o'i le ambell waith.'

'Teimlo'n ddigon hen, a chripian i'r bedd yn dawel drwy ffydd, dyna yn hen angen i,' meddai fe gan wenu. 'A'th angen di, dw i ddim yn amau.'

'Da ti, paid â *chripian*, ddyn. Rhodia, rhed ddyn, a'th ben yn uchel uchel. Nawr. Cripian os bydd rhaid, medd synnwyr, dyna'r hyn mae'r bedd bob amser yn ceisio'i wneud i ti. Mae rhai ohonon ni'n ieuangach nag dŷn ni'n ei sylweddoli. Ond *rhed* di... *rhag yr hen*. Mae yna fywyd y tu hwnt i'r bedd. Nawr.'

'Oes, efallai, ... yn real ac yn drosiadol,' atebodd e'n ansicr. Roedd yn rhy ansicr.

### 18. *Dihangfa*

Un o ddyletswyddau Rwth, bob amser, ar y dechrau yn y gweithdy – ymhlith yr adolygu gwelliannau – oedd gwneud arolwg wrth law o 'adnoddau sbâr' a 'chyfarpar angenrheidiol dros dro' drwy'r ffatri ar gyfer 'argyfyngau'. Bellach roedd hi wedi cwtdogi'r gwaith hwnnw i arolwg wythnosol. Crwydrai o'r naill stondin gwaith i'r llall i holi'r dynion am eu hanghenion a pha ddarn o beirianwaith a oedd ar fod yn dreuliedig neu'n llai gweithredol na'i gilydd. Roedd eisiau sicrhau llif o'r *cydrannau* yn ddi-dor, ac adnewyddu cyson ar y stoc, gan fod rhai o'r darparwyr masnachol yn cymryd tair wythnos i anfon yr union nwydd. A bu Rwth yn fwy defnyddiol nag yr ystyriai neb gan ddwyn awgrymiadau ffres o hyd i'r fei. Câl hi fath o batrwm ac olyniaeth yn nhrefn a rwtîn arolygu'r treulio peiriannol a chyfle i archebu ar gyfer y bylchau. Wrth gyflawni'r gwaith hwn fe gâl'i phryfocio'n ddiau gan rywrai; ond hwyl oedd hynny i bawb bellach, ac roedd hi erbyn hyn yn gwbl ddifater ynghylch prociadau ffraethineb o'r fath, gan ei bod yn medru anelu ei saethau hithau'n ôl yr un mor ddeheuig.

Y prynhawn hwn, serch hynny, wrth grwydro o amgylch y ffatri, gafaelwyd ynddi o'r tu cefn, a'i thynnu'n ôl gan Watcyn, yn gymharol ddiniwed a chwareus bid siŵr, ac eto'n arw braidd ac yn ddisyfyd nes iddi ymsiglo'n rhydd o wyllt, a throi'n gynddeiriog braidd wedi cael sioc fwy na dim arall. Rhedodd hi gan grynu i noddfa swyddfa Mr Salmon. Ond erbyn cyrraedd o flaen ei ddesg roedd hi wedi dechrau ymadfer, ac edifarhâi am ei bod wedi cynhyrfu cymaint. Edrychodd hwnnw i fyny ati, a chodi ar ei draed yn syth wrth ei gweld hi'n ymddangos mor gyffrous.

'Beth sy?' Pallodd hi ateb. 'Eisteddwch da chi.' Roedd hi'n anadlu'n drwm ac yn ymddangos yn bryderus. 'Ddigwyddodd rhywbeth? Do? Pwy?'

'Dim. Neb. Fi sy'n ddwl.'

'Mi a-i i ffeindio'r gwalch.'

'Na.'

Roedd e'n ysu mynd ar ôl y troseddwr, yn ysu gweithredu'n amddiffynnydd.

'Na.'

Trodd e i'r cwpwrdd y tu ôl, cydio mewn potel fechan, a thywallt diferyn o chwisgi i Rwth. 'Cymerwch ychydig o hyn.' Ond erbyn hyn roedd y wawr ar ei wyneb e'n rhuddach na'r cynhyrriad ar ei hwyneb hi. Plygodd e drosti'n fugeiliol.

'Peth sioc; dim byd,' protestiodd hi.

'Peidiwch â siarad.' Roedd e bron mor benboeth â hi bellach. 'Dych chi'n well eisoes.' Ac yn wir, roedd e'i hun yn dechrau teimlo'n well.

'Mae'n pellhau'n gyflym,' atebodd hi.

'Ydy, pellhau. Mae cythrybliad yn lleihau, mae popeth yn *lleihau* wrth bellhau.'

'Pobl?'

'Ie, hyd yn oed pobl.'

'Popeth ond Un,' meddai Rwth yn ddiarwybod o ddwys, fel pe bai'r sioc wedi gwasgaru rhyw ddifrifoldeb newydd drosti. Rhyfedd fel yr oedd ei gwedd fewnol wedi cynyddu ar hyd yr amser ar ôl colli'i gŵr.

'Dych chi'n well?'

'Mae yn bell bellach. Diolch i Dduw...' meddai hi.

'Ac yn *well*?'

'... A diolch i chi.' Roedd hi'n tawelu. Roedd yntau'n tawelu gyda hi. Arafai'r byd. Roedd popeth wedi arafu. Erbyn hyn roedd e'n anymwybodol wedi dal ei dwylo; ac er ei bod hithau'n ddigon ymwybodol o hyn, fynnai hi ddim am foment dynnu ei dwylo'n ôl. 'At ei gilydd, mae'r swyddfa hon yn lle braf. Mae dyn yn teimlo'n ddiogel i mewn yn y fan yma... er gwaetha'r dwli,' meddai Bòs gan syllu o gwmpas ei swyddfa breifat ac yna drwy'r ffenest fach a edrychai allan i lawr y ffatri. Swyddfa oedd ei eiddo fe a ddiodefai (serch hynny) o dipyn o ddiffyg gofal yr hen lanc. 'Sylwais i ddim o'r blaen... Dw i'n eitha hoffi yn ystafell bersonol i. Dyma gaer fewnol y galon,' murmurodd e. 'Yn arbennig yn y nos ar ôl i bawb fynd.'



'Sut?'

'Y tawelwch. Mae e 'ma. Yn enwedig yn union yng nghynffon y sŵn, ar ôl i'r staff ymadael: y tu ôl i un wal mae 'na wal arall. A'r tu ôl i honno, wal arall eto. Nes cyrraedd y canol yn deg. Dyna'r gaer fewnol. Dw i'n cael hynny o bryd i'w gilydd yn yr ystafell hon.'

'A beth sy yn y gaer fwya mewnol?' holodd hi'n chwilfrydig.

'Yr Un sy'n pallu mynd yn llai, mae'n sicr, yr Un roeddech chi'n sôn amdano. Dw i'n cael cyfle fel chi i ddiolch i Dduw, ych chi'n gwybod, a hyd yn oed mewn lle fel hyn i weddio.'

'Dych chi'n ddyn od i fod yn bennaeth ffatri.'

'Dyna'r peth neisa mae neb wedi'i ddweud wrtho i ers blynyddoedd.'

'Ond yr *ych* chi.'

'Sut?'

Pwysodd hi. 'Dych chi'n maddau cymaint. Mae hyd yn oed Cristnogion da o bechaduriaid yn cael anhawster i faddau.'

Chwarddodd e. 'Ydy hynny'n od? Liciwn i petai pobl yn maddau i *fi*. Mae mawr angen. Mae gormod o waith yn hyn o angen, mae arna-i ofn.'

'A dych chi'n hoffi'ch dynion gymaint?'

'Mae hynny'n rhwydd,' meddai fe. 'Mi ga-i air bach cyn bo hir gyda'r gwirionyn wnaeth darfu arnoch chi heddiw... ond nid ar unwaith... Mae eisiau i fi, ac iddo fe, sobri ychydig...'

'Dych chi'n eu hoffi nhw i gyd. A dych chi'n hydeiml iddyn nhw. Maen nhw wedi'u cael eu hunain mewn cyfnod heriol o newid mewn perthynas gyda'r newidiadau yn y ffatri. Ac maen nhw'n ymbalfalu am barch dierth.'

Chwarddodd e eto.

'Na, na, na,' protestiodd hi: 'Mae'n wir. Dych ddim yn farnedigaethol fel y bydd cynifer o grefyddwyr. Mae'ch genau chi'n hydeiml, eich dwylo'n hydeiml, mae'ch llygaid yn hydeiml ... ac eto'n gry, oherwydd eich bod chi eich hun yn ymostwng.'

'A chithau?' Ac nawr sylweddolodd hi o ddifri iawn fod ei dwylo llac hi yn ei ddwylo fe o hyd, a thynnodd nhw'n ôl yn gyflym. 'Wel?' holodd e.

'Wel?' atebodd hi.

'Beth amdanoch *chi*? Dych chithau ddim yn “hydeiml”?’

'Nid fi sy i'w ddweud,' meddai hi.

'Mae pawb yn hydeiml am rywbeth.'

'Merch gyffredin *iawn* dw i. Merch weddol dlawd a chyffredin.'

'Does neb yn gyffredin. Mae hyd yn oed y person mwya cyffredin yn unigryw.'

'Ond dych *chi*'n hydeiml am bopeth. “Diyfadferthedd”: dyna yn *forte* i,' meddai hi.

'A'ch harddwch.'

'Prin,' ebychodd hi'n syn. Roedd hwn yn gallu siocio rhywun.

'Fel roc Mwmbwls, gyda'r llythrennau mewdol hardd hardd yn treiddio i lawr o'r brig i'r bôn. Drwy'r canol yn deg. I lawr i gaer fewdol y galon.' Daeth y brawddegau hyn allan ganddo cyn iddo'u gweld nhw'n dod.

'*Dyna* sy'n treiddio i lawr drwy'r canol: rhyw fath o dlodi mewdol,' meddai hi.

Roedd y wên wedi cilio o'i wyneb e nawr. 'Wyddoch chi, bob tro y dowch chi i'n swyddfa i, Rwth, fe rowch chi fywhad â'ch gwenau croyw i sgyfaint sych. A'ch gwallt yn llewyrchu benbaladr, – fel pelydryn. Dyna'r gwir.'

Fe edrychen nhw nawr ar ei gilydd o'r newydd. Heddiw, gallen nhw ill dau yfed y moroedd i gyd.

Ei thro oedd hi i chwerthin yn nerfus, ac roedd hi'n falch i glywed cloch y ffatri'n seinio drwy'r awyr fel pe bai ar ddiwedd rownd mewn gornest baffio. Clywsan

nhw'r ymsymud trwstiog a'r trafferthu ffwndrus y tu allan i'r swyddfa gan y gweithwyr a ddynodai derfyn y dydd. Roedd hyn yn atgoffa'r ddau braidd yn annhymig eu bod nhw'n rhan o fyd mwy cymhleth ac ychydig yn fwy poblog o'u hamgylch.

'Dyna'r diwedd eto,' cyhoeddodd Rwth.

'Dych chi'n teimlo'n well nawr... Yn dawelach eich ysbryd?'

'Ydw,' meddai hi. Fe glywson nhw'r gweithwyr y tu allan i'r swyddfa'n ymadael.

'Mi ga-i air rywdro eto gydag un neu ddau ohonyn nhw.'

Roedd yntau wedi dod yn sydyn anesmwyth ymwybodol fod ei batsien ddu yn rhwbio'i foch tan ei gosi'n grafog; a chynigiodd hithau'n ddigymell, 'Gadewch ifi dynnu'r batsien yna.' Yn dyner ac yn ddi-nonsens ond yn feiddgar iawn symudodd hi'r batsien oddi ar ei lygad, heb iddo wrthdystio o gwbl. Y tu ôl i'r batsien roedd yr amrant wedi'i gau ac yn goch, ond doedd e ddim yn wrthun mewn unrhyw fodd. 'Does dim angen cywilydd,' sibrydodd Rwth. 'Dyna ni... Mae'n well fel yna... Gwell ifi fynd nawr.'

'Mi wna-i'ch hebrwng chi,' meddai fe'n dyner. 'Fe ga i chwarae triwant o'm rwtîn defodol heno 'to' a gorffen yn gynnar.'

Cilchwarddodd Rwth yn fwy hwyliog iach. '*Allan* o'r gaer hon nawr te,' ychwanegodd hi. 'Gyda'n gilydd?'

Fe gerdden nhw gyda'i gilydd allan, ac ar hyd y stryd, a'r dyn yn fwy effro nag erioed i'r ffaith ei fod yn ymyl gwraig ifanc harddach na'r rhelyw. Roedd yn ymwybodol hefyd ei fod yn cerdded yn gyhoeddus heb ei batsien, yn noeth fel petai.

Dwysâi e'n dawel, oherwydd yn raddol roedd e'n synied fod bywyd oll wedi dal i'w fygwth e. Roedd newidiadau hollol anghyfaddas yn cau amdano. Ac allai fe ddim cymryd hyn oll yn ysgafn. Heb chwilota am unrhyw seiliau gwrthrychol, gwyddai pawb erbyn cyrraedd canol oed eu bod nhw wedi casglu cyfrifoldeb am ryw dywyllwch anhysbys ynddyn nhw'n ymryson. Fe wyddan nhw rywbeth, os ydyn nhw'n normal, am fethiant ac am ymosodiadau sy ar bob cymeriad delfrydgar. Teimlan nhw, heb finfanylu, iddyn nhw gyflawni rhyw gam yn erbyn rhywun, efallai, a hynny lawer tro. Ac wna'r amwyster ynghylch pa gam yn hollol fyddai hwnnw ddim namyn dyfnhau'r ymwybod

fod hyn oll braidd yn sobr o sobreiddiol. Heno, fe deimlai fe'n annheilwng. Roedd e hefyd wedi pasio'i ganol-oed. Wnâi'r ffaith oer a diriaethol, fod hyn oll braidd yn afresymegol, ddim ond cadarnhau gwirionedd cras ei gyflwr o gyfrifoldeb erchyll o ryw fath. Ac wedyn, fe allai fe gael ha a heddwch dros dro gan drwst neu dristwch ei ddyletswyddau beunyddiol, a chan y grŵn amddiffynnol a oedd yn ei warchod mewn ambell gyfwng gwag, ac yna... 'Dyw ffatri fel hyn,' meddai fe, 'gwrywod i gyd, bechgyn ifainc dwl llawer ohonyn nhw, dyw hyn ddim yn gweddu i chi, Rwth, rywsut.'

'Nac i'r oes yn Llanelli chwaith: beth am hawliau menywod?'

'O! Mi wn i ormod am bethau felly. Dw i'n cytuno bod angen cracio problem benyweidd-dra 'ma. Ond... '

'Dw innau'n *hoffi* gweithio 'ma, ta beth,' haerodd hi. 'Ac erbyn ein dyddiau ni, mae yna hiraeth ar lawer o ferched am ennill bywoliaeth drwy weithio, a pheidio â segura, mewn oes pryd mae cynorthwyon glanhau a choginio mor hylaw gartre ymhobman.'

Newidiodd e'r pwnc yn ddisymwth. 'Mae 'da fi nai...' Ei dro fe'n awr oedd ffoi i'r oerfel rhag y siarad gorbersonol hwn. Wedi colli'i ben, roedd hi'n bryd iddo ddod o hyd i'w wir hunan doeth drachefn... 'Gŵr ifanc prydwedol.'

Syllodd e ar ei ieuenctid pellennig ei hun wedi cilio'n awr. Onid cywir bellach oedd sobri ychydig cyn brwysgo'n rhy orffwyll?... 'Mae e'n diwtor yn y Brifysgol... Adran Cymdeithaseg Gymharol.' Ei enciliad e oedd hyn nawr. Doedd e ddim yn gweld fawr o ddyfodol iddo'i hun nac i'w fath e o faldod ym mywyd hon... 'Mi garwn ichi gwrdd ag e.'

'Beth yw ystyr hyn?'

'Mae e'n ifanc, ac yn byw'n weddol agos.'

'A'r cymhelliad?'

'Peidiwch â bod yn rhy ddrwgdybus. Mae e'n rhywun o'ch oedran chi.'

'Cyfeillgarwch felly?'

'Wel ie. Mae'n fachgen glân, yn grwt diddorol, yn gwmni hoffus, yn gyfaill call. Mi wnâi e ffrind da. Fe hoffwn i chi gwrdd ag e.'

'Prin! Allai fe ddim yn fforddio i,' meddai hi'n ddireidus ewn. 'Dw i'n gyfeilles ry ddrud. Dw i'n fenyw halfawr. Felly y bydd y tlodion, wyddoch chi. Yn dwlu ar fynd am dro mewn ceir mawr, yn licio ymweld â'r theatr a chyngerddau a bwytai moethus. Dw i'n gymdeithes ry gostus i dipyn o diwtor fel 'na. Gwelwch chi: dw i'n chwilio am gwmni cefnog. Dyna sy eisiau arna-i. Cyfreithiwr o leia. Neu ddeintydd. Neu gyhoeddwr newyddion ar y teledu. Neu bennaeth ffatri hyd yn oed. Ond yn Sosialydd hefyd wrth gwrs.' Gwenai hi.

'Dw i'n credu y byddech chi'n hoffi hwn. Mae'n debyg i chi mewn llawer o ffyrdd.'

Hedodd pen Bòs ymaith i freuddwyd awgrymus o ansylweddol. 'Flynyddoedd lawer yn ôl...' meddai fe.

'Flynyddoedd *lawer* yn ôl?'

'Roedd 'na amser... Croeswn ni fan hyn.'

Croeswyd y ffordd. Roedd hi'n gwenu am ei ben. Roedd y dyn yn rhy ymwybodol o'i oedran.

'Tiwtor felly?' ailadroddodd hithau'r gair yn ffug freuddwydiol wrth groesi'r hewl. 'Un o'r Marcsiaid theoretig persawrus yna, mae'n debyg, – dosbarth-canol o flêr, – sy'n credu mewn theorïau radicalaidd – tipyn yn artistig – sy'n credu bod cyfoesedd diwreiddiau yn eich gosod chi ar y blaen, yn barod i sefydlu Iwtopia Newydd – chwith ofnadwy o boliticaidd a heb genedl wrth gwrs, un o'r darllenwyr 'na sy am fod yn ddosbarth gweithiol o ran delwedd – wedi'i hyfforddi'i hun i regi fel offeiriad ac i botio cwrw rhad...' Yna ffrwydrodd hi'n gymedrol ddigon. 'Hwn dych chi am ei osod o gylch y ngwddwg i efallai, Bòs?'

'Na, na, na.'

'Dych chi'n meddwl y byddai fe'n gwneud lles i fi. Cyfaill cyfoes.'

Roedd ei hymosodiad hi mor annisgwyl ewn iddo fe, ac iddi hi. Pam roedd hi'n lled daranu fel hyn? Roedden nhw fel dau drên yn rhedeg at ei gilydd ar hyd yr un lein o gyfeiriadau gwahanol, ac yn chwalu'n erbyn ei gilydd yn y canol.

'Ond efallai,' parhaodd hi'n ewn, 'efallai y dylwn i fynychu dosbarth-nos yn hun cyn mynd allan gyda pharagón clustdlysog tatwog o'r fath. Pan fydd e eisiau sôn yn hamddenol am y dosbarth gweithiol, bydd hi'n fanteisiol os bydda i wedi darllen y *Penguin* diweddera sy'n sôn amdanon ni, dlodion y dosbarth hwnnw.'

Roedd hi mewn gwirionedd wedi hen ymhel yn ystod ei hieuenctid yn Birmingham, fel pawb, â phobl a hoffai daflu'u syrffed theoretig a hiwmanistig ati, llawer o'r dosbarth canol 'deallol' yn fflyrtian gyda dyngarwch materol hollol edmyglon i lawr cyn setlo mewn swyddi moethus neilltuedig eu hunain; a deallai hi nhw'n burion. Ffrindiau da, llawer ohonyn nhw. Gwerthfawrogai beth oedd sefyllfa'r rhai o'r fath. Ond, yn ddeallol nawr, roedd y profiad dyneiddiol cyffredin hwnnw braidd yn annigonol iddi, a braidd yn dymhorol, yn Llanelli megis yn Birmingham. Ac iddi hi, roedd synied am gael ei llusgo gerfydd ei chlustiau o'r newydd drwy'r ysgol brofiad honno yn fraw iddi, wedi'i phrofiadau real yn ddiweddar, a chaledrwydd ei magwraeth dlawd, a'r galaru real. Roedd bywyd wedi mynd ymlaen, bellach, a'i hymwybod mewnol yn chwilio am gwmni.

'Dim diolch,' meddai hi. 'Fe fydd y crwt yma wedi ymrwymo'n ddatganiadol wrth bostyn y rhagdybiau confensiynol oedd 'da fi yn yn llencyndod gynt,' ebychai hi; 'ac ychydig o glem fydd 'dag e am y profiad o mlynnyddoedd diweddar. Dw i wedi newid. Anghymharus fyddai hwn. Peidiwch, da chi, â meddwl *trefnu* dim diwygiadau hen ffasiwn i mywyd ifanc i.'

Trist oedd hi yn wir fod Bòs wedi ystyried am ymwarded â hi fel hyn, beth bynnag oedd y rheswm da. Anesmwyth a diflas oedd hwyl y sgwrs am y fath gynllwyn erbyn hyn. Ac eto, dyma'r haul yr union funud yna yn penderfynu tywynnu acw ar ffenestri Llanelli, ac yr oedd Bòs o'i blaen hi yma wedi bod yn sôn am ei doddi hi'n dwt ar ben pentwr o goed derw dienyddiol, a'i haberthu hi i Adran Cymdeithaseg Gymharol y Brifysgol, yn enw ei ryddhau e'i hun. Y gwir yw, – a gwir a wyddai hi oedd e – roedd

hi wedi dechrau ymhoffi yn y Bòs – beth bynnag am y gwahaniaeth oedran a chloffni'i sgwrs ambell waith.

'Mae'n ddrwg gen i,' meddai fe. Tybed a oedd e'n ei hofni hi? Druan ohono.

'Eto, dw i wedi mwynhau ein tro gyda'n gilydd,' meddai hi. 'Fe gawson ni hindda ardderchog gan yr haul i fwynhau'r greadigaeth erbyn y diwedd. Mae'n chwithig synfyfyrion fod yr haul acw'n cael y fath wyliau siglen-adenydd rhydd ar lan y môr. Edrychwch. A chithau'n w'r iach heb fynd allan ers tro wedi bod yn aros yn ddi-baid fel yna mewn ffatri, on'd yw hi'n bryd i chi barchu'ch blynyddoedd hir eich hun? Tybed – allwn ni ddim mynd gyda'n gilydd am dro hamddenol rywbryd i lan y môr i ddweud hylô wrth y môr ifanc?'

'A!' meddylodd Bòs yn ymarferol – 'Glan y môr! Gallwn, mae yna rywbeth i'w ddweud o blaid anghofio henaint.' Trodd ei ben, mewn mwy nag un ffordd.

\*

\*

\*

Ac wele! Roedd yna Ddydd Sadwrn newydd wedi cyrraedd. Mi ddaeth hwnnw mewn car mawr sgleiniog, gyda'r top yn agored.

Ar garlam y cyrhaeddodd hithau Rwth hefyd i'r golwg ac i lawr y grisiau o'r tŷ. Cododd Bòs o'i sedd yn seremonïol i agor y drws iddi, ond safodd Rwth yn ôl mewn syndod tylwyth-tegaidd llygad-agored o flaen y car.

'Ydy e'n ddigon mawr i chi?' gofynnodd e. Ffŵl o 'lanc' oedd e erbyn hyn, yn ei ddangos ei hun, ond yn hen lanc ac yn llanc hen, yr un pryd. Ac roedd e wedi cymryd rhai o'i geiriau mwya anghyfrifol hi'n rhy lythrennog. Doedd e ddim yn ei nabod hi.

'Rhy fawr i fi,' meddai hi. 'Dw i'n teimlo'i fod e'n mynd i'n llyncu i.'

A'i llyncu hi wnaeth y car yn grwn wrth iddi droedio i'w enau, nes i'r cerbyd droi Rwth ei hun am ryw funud o amgylch ei gilddannedd a'r blagur-blasu, a'i malu hi'n arafaidd fyfyrion a chylchu'r tafod o gwmpas ei hysgwyddau a'i breichiau a'i choesau hir llyfn a'i meddwl cynhyrfus aflonydd. Roedd y car hwn yn sioc anghydnaws iddi. Ai ceisio'i phrynu hi roedd Bòs?

Roedd e wedi derbyn ei smalio a'i phryfocio hi'n rhy ddifri.

Wedi cyrraedd Cefn Sidan, er nad oedd dim cerddoriaeth gefndirol, roedd Rwth yn anesmwytho am ei bod yn teimlo'n od o Hollywoodaidd heddiw. Nid fel hyn roedd byw go iawn i rywun fel hi yn y Gymru a oedd ohoni. Nid dyma'r byd chwaith roedd Brenda a Chatrin a Naomi a Wil, ie a Watcyn, yn rhan ohono, mwy nag roedden nhw chwaith yn rhan o'r byd newyddiadurol hunan-hysbysebol arall a fynnai weithiau ddosrannu'r cwbl o'r werin yn ôl categorïau cymdeithasol gan y Brifysgol. Nid dyma fyd Rwth na Bòs chwaith. Roedd y car wedi bod yn bysgodyn allan o ddŵr. Roedd hyn oll yn annaturiol, a'r wibdaith yn dipyn o 'dynnu coes' ar ei rhan hi mewn ymddiddan gynt. Roedd hi allan o'i chynefin, mewn gwirionedd. Roedd y dyn wedi colli'i ben. Eto, roedd hi wedi dod hyd at y fan yma mewn car crand, yr un fath.

Fe eistedden nhw ar y tywyn nawr gan edrych ar y môr. Cododd Rwth a chrwydro i lawr at y dŵr ar ei phen ei hun gan sylwi ar y glannau yn amgáu'n glyd o'u cwmpas. Yr oedd Bòs yn ansicr, wrth ei gwylid, a oedd e wedi gwneud camgymeriad drwy geisio datblygu'r berthynas anghyfartal hon ar frys gyda rhywun mor arswydus ifanc. Byw roedd e, yn sydyn embaraslyd, mewn math o Afallon eithafol hyfryd ond hollol afreal ac anghyffredin mewn oes arall. Doedd ganddo fe ddim busnes bod yma. Wedi colli'i ben roedd e mewn hiraeth swil oherwydd ofni cyfle coll. Syllodd drwy'i unllygad iach ar ôl y ffigur eiddil ac ysgafn a'i chefn ato, wedi cerdded i lawr at y dŵr. Roedd arno awydd neidio ar ei draed a'i heglu hi ymaith, encilio i'r ucheldiroedd, dod o hyd i ryw ogo agos i Lyn Llech Owain a phreswyllo yno am sbel, allan o olwg pawb am flwyddyn neu ddwy amhosib o leia, nes iddo ddod yn ei ôl i'w synnwyr cyffredin. Nid y fuchedd ddychmyglon afreal hon yn y fan yma, a'r clychau'n canu yn y prysg a'r baneri'n hedfan ynghanol gwylanod, a'r cwningod yn dawnsio yn y gweirgloddiau heddiw, a channoedd o blant yn cael parti-penblwydd gyda'r gwynt, nid dyma'i gynefin e – yr hen wŷr – , os oedd yn gynefin yn y byd go iawn caled i neb lle'r oedd miliynau'n newynu a daeargrynfeydd diamau'n ysgyrygu dannedd a phentrefi'n llosgi'u gwallt mewn gwrthryfeloedd yn Affrica, a merched ifainc yn dihoeni mewn seleri yn yr Iseldiroedd wedi'u hecsbloetio gan gyfalafwyr a werthai ryw a chyffuriau. Roedd hi'n bryd iddo sobri ac ystyried ei le ei hun yng nghyd-destun y byd real. Wedi'r cyfan, hen a hyll oedd



e, hen lanc wedi darfod, yn adfeiliol ac wedi meithrin ymarweddiad rhy annibynnol ddigyffro bellach i neb rannu dim yn ystyrllon gydag e yn ei ganol-oed diweddar.

A beth a wnâi Rwth acw? Beth oedd ei meddyliau hi, wedi ymwahanu, ac yn cerdded i lawr tua'r dŵr? Dim ond breuddwydion amhosib gweddw ifanc hoenus.

A Chefn Sidan! Hon, y fro hon, dyma'r fro roedd Rwth erbyn hyn wedi dod i'w charu. Ac iddi hi roedd caru'n golygu anrhydeddu, ymostwng, a gwasanaethu. Dyna'r theori. Ac eto, roedd hi'n estron i'r cwbl. Roedd hi'n un ystadegyn arall yn y mewnlifiad tlawd i mewn i'r wlad fabwysiedig hon. Roedd hi'n teimlo'n ddieithryn o hyd, ymhell o Birmingham. Mewnlifiad unigol oedd hi ei hun; mor anghysurus iddi feddwl o hyd amdani'i hun yn bod fan yma mewn bywyd hollol wahanol, wedi'i thrawsblannu'n anghymharus i fyd newydd.

Ond roedd Bòs wedi dod mewn palas ar olwynion erddi hi heddiw, i gwrdd â hi yn hollol o ddifri, a hithau wedi mewnfudo'n rhagluniaethol ato fe ar ffurf tynnu coes. Estron oedd hi iddo yntau, wedi glanio'n anghymharus ar ganol ei fywyd, a doedd na hi nac e'n barod i'r fath gythrwbl. Ceisiai hi sobri... Ceisiai feddwl am yr hyn a ddigwyddasai iddi hi wedi ymadael â Birmingham. Roedd amser wedi cyflymu.

Roedd yna dair ffordd o fewnfudo, ac mae tair yn ddigon. Prin y dylai hi feddwl am funud am y ffordd imperialaidd haerllug ac eofn gynta fel ffordd go iawn o gwbl gan fod y ffordd honno gynt mor edwinol o ddarfodedig bellach a chymaint o gywilydd ynghlwm wrthi. Ac eto, honno yno, o hyd mewn dillad tywyll ac yn uchel ei gloch, ym mryd rhywrai, yng nghefn yr ymwybod, yn gwybod popeth, ond yn llechu'n ddisgwylgar y tu ôl i ffugliw, honno oedd y mewnlifo ewn, croendew, a gormesol o Loegr lle y perthynai cynifer: ar ffurf mewnlifo dileuol hyderus oedd yn fwgan i'r gwladgarwyr difri, ac yn fwgan iddi hi, go iawn. Doedd odid neb a arddelai'r ffordd honno yn agored heddiw yn y fan hon, gyda rhai eithriadau a enillai sylw. Doedd hi ddim yn fewnfudydd o'r calibr hwnnw.

Ond roedd hi o hyd ynghudd, efallai, y tu ôl i'r ail ffordd. Sef y mewnfudo difater ac anymwybodol digon gostyngedig, y symud corff, y cymryd yn ganiataol mai Lloegr wrth gwrs oedd pobman, y diogi seicolegol ysgafn a diofal am barhau'n

ymerodrol naturiol. Dyna'r ffordd ddisylw a feddiannai'r rhelyw'n anwel, heb fymryn o haerllugrwydd uwchraddol. Dibynnai honno ar y niferoedd poblog plwm yn gweddnewid gwlad, ar bwysau anorchfygol yr amllder cnawd arferol. Doedd a wnelo hynny ddim â chreulondeb ymosod eithr â thrymder normalrwydd tyner. Pylni democratiaeth a orthrechai'r bobl gyffredin, dyna, yno'n rhydd, a'i nodwedddai. Eithr nid dyna'r union ffordd a nodwedddai Rwth chwaith, yn bendant.

Roedd Rwth yn siŵr ei bod hi'n dechrau dygymod â'i gwlad newydd drwy ddrws amgen. Gellid ffordd arall doedd bosib: – y mewnfudo iach a chreadigol. Doedd hyn ddim yn golygu croesawu'i gilydd gant y cant, drwy fod y dyfodwyr yn arddel hen iaith a ffordd yr ardal bron yn ddiarwybod. Ddô'i'r un o'r mewnfudwyr deallus efallai i ddisodli ond i ddysgu rhyddid hunaniaeth i bobl. Roedd hyn yn golygu cynneddf gan y rhain i garu'r llall ac i gadw'r arall; yn wir, roedd hon yn gallu llercian eisoes yng nghalon llawer mewnfudwr gwâr a charedig. 'Caru...' gwridai hi. Dod â rhodd ymostyngiad creadigol. Dyma'r ddelwedd o fewnfudydd cadarnhaol a chwenychai hi fod. Ac i'r sawl sy'n cyflwyno calon yn afradlon fel yna, posibl oedd iddi gael ei derbyn yn helpfawr ddfygywth. Dyma'r un a oedd yn ennill gwlad, heb ddisodli'i thrysor. Gwyliai Bòs nawr Rwth yn dychwelyd o'r dŵr ac yn cerdded yn ôl ato. Dychwelai hi'n bresennol fel llanw tawel myfyriol y môr ei hun. Rholiai'i phresenoldeb tuag ato fe i fyny'r traeth yn lân ac yn dawel, yn nes ac yn nes bŵerus. A fyddai dyfroedd ei phresenoldeb hi'n llepian felly am ei galon e?

'Mae'r môr,' meddai hi, a hithau'n swil yn awr, 'yn "mewnfudo" erbyn hyn, mae arna-i ofn.'

Chwarddodd Bòs: 'beth!'

'Môr Cefn Sidan. Yng Nghefn Sidan mae'r môr ambell waith,' meddai hi, 'oherwydd ymestyniad cylch y traeth, yn rhoi'r argraff o fod yn ddieithryn wedi cael ei gaethiwo gan y tir ond yn fodlon. Y môr mawr yn mewnfudo! A'r tir yn mynd o'i gwmpas.'

'Byth!' Edrychodd e arni mor rhydd yn fan yna... 'Fel arall y mae hi hefyd,' ychwanegodd e. 'Mae perthynas môr a thir yn gallu bod yn od gyda'i gilydd, yn unol er

eu bod nhw ar wahân.'

'Ni sy'n fyr ein golwg, mae'n wir,' meddai hi. 'Dŷn ni'n gwybod yn y gwaelod mai'r môr sy'n cau o gylch y tiroedd. A'r môr ei hun yw'r amgylchwr. Yr amddiffynnydd. Ond dŷn ni ddim yn gweld hynny o hyd oherwydd eu perthynas.'

"Dyna chi te. Dyna'r ateb. Nyni sy'n fach, mae'n siŵr. Dw i'n fach ta beth,' meddai fe. Ond mae yna Un sy'n fwy na ni. Mae'r Iôr ei hun yn fwy o lawer na'r môr yn y pen draw. Fe ei hun yw'r unig amddiffynnydd go iawn. Methiant o amddiffynnydd dw i.'

'Ie. *Fe*, wrth gwrs, bob tro yw'r amddiffynnydd da. Diolch fod yna gau amdanon ni.' Roedd y ddau ohonyn nhw wedi llithro'n ddifri gartrefol i rannu sgwrs ysbrydol o'r diwedd, ac yn gytûn. Fe deimlen nhw ill dau eu bod wedi symud i rannau o'u meddwl nhw'u hunain a oedd yn fwy real, ac eto'n eu tynnu nhw'n ddieithr i synied yn fwy clir.

Chwarddodd hi ychydig, o lawenydd. Roedden nhw'n cerdded yn hamddenol ar hyd y traeth. Roedd hi braidd yn freuddwydiol. 'Dych chi'n meddwl ei bod hi'n bosib o hyd...'

'Beth?' ebychodd e.

'I bobl heddiw yn niwedd yr ugeinfed ganrif...?'

'Beth?'

'Adeiladu cartrefi glân o fewn cyd-destun ysbrydol?'

'Efallai... dim ond iddyn nhw guddio yn ei gilydd,' meddai fe, 'a bod yn wylriadwrus o anhydeimledd y byd mawr. Dim ond iddyn nhw guddio *rhag* y dylanwadau gormesol seciwlar, fe allen *nhw* hefyd fod yn real, ac yn llawnach pobl,' meddai fe. 'Fe allen nhw oroesi hefyd. Ond bydd eisiau cyfrwystra. A gwydnwch. A ffyddlondeb. Mae'n gofyn tipyn. Gormod efallai.'

'Fe fyddai'n wych.' Fe estynnodd hi law ato, ond llwyddodd e i beidio â sylwi.

'Dw i'n rhy hen bellach,' ychwanegodd e, 'i fyw hyd well sefyllfa arall.' Yn sydyn, deffrôdd hen ddiffyg hyder i fod yn fwy atebol i fywyd. Protestiai hi'n seithug at

y fath sylw blinderog undonog. Ond roedd e o ddifri. 'Peidiwch â'ch gwastraffu'ch hun ar henaint,' meddai fe ymhellach. 'Beth allai fod yn ddeniadol mewn hen grair adfeiliedig? Cerwch yn ôl i ganol eich prydfferthwch, Rwth, at yr ŵyn a'r titwod a'r rhedyn a'r ... Does 'da fi ddim digon o flynyddoedd i fod yn amddiffynnydd go iawn i chi nac i neb, nac i roi diolch digonol, yn sicr, yn ôl i chi, Rwth, am eich rhoddion. Fe aeth y mlynyddoedd i gyda ngwallt.'

Roen nhw'n esgyn o'r traeth i'r cae bellach. 'A chithau'n fath o hen adfail mae'n amlwg,' gwenodd Rwth yn ddrygionus, 'wedi'ch cofrestru gan y comisiwn henebion, er mawr syndod i gapelwyr dwyrain Sir Gaerfyrddin, ac yn syrthio dros eich barf o hyd.' Roedd hi ar bwys y car. 'Dych chi'n meddwl eich bod yn ddigon ffït ac ifanc i yrru'n ôl heno i Felin-foel? Gwell i mi gymryd y llyw.'

A gwthiodd hi fe yn addfwyn ac yn bryfociol i'r naill ochr ac ymsefydlu'n benderfynol y tu ôl i'r olwyn. Bodlonodd e am y tro. Gyrodd hi. Teimlai fe'n annisgwyl gartrefol. Mynd yn wyn a wnaethai'i wallt, mae'n wir, ond nid mynd ar goll.

### *19. Rhagor o Sidan*

Drannoeth fe gerdden nhw allan o'r ffatri yr un pryd â'r gweithwyr eraill. Cerdden nhw gyda'i gilydd yn dawel nawr heb dorri'r un gair, ond heb deimlo angen ymddiddan chwaith gan fod cyd-ddealltwriaeth yn dileu pob anghenraid i ladd y bylchau mud a allasai ar un adeg ymddangos yn gefnforoedd o wacter rhyngddyn nhw. I lawr tua'r dre y cerdden nhw heno, gyda'i gilydd, gan bwyll. Roedden nhw'n cerdded yn agos at groesfa Heol yr Orsaf a Heol Murray yn nawr lle'r oedd Bòs wedi pango gynt a lle yr achubwyd ei fywyd un tro gan Naomi. Yno gan ddisgwyl i'r drafnidiaeth fynd heibio, er mwyn iddi groesi, fe safai mam ifanc yn gwthio coets a baban ynddi. Ciledrychodd Bòs i mewn wrth basio a sylwi ar y bychan yn huno a'i fawd yn gyfforddus o guddiedig yn ei geg. A chwarddodd y ddau gyda'i gilydd, Rwth a Bòs, a chwerthin yn gyd-ifanc.

'Mae'n ddychryn ambell waith mor fach mae babi'n gallu bod,' meddai fe, 'a'r dwylo 'na!' Ond bach, feddyliai, oedd pawb yn y pen draw. Dichon mai dyna a oedd yn

gwneud bywyd yn oddefadwy. Cerdden nhw ymlaen... am ganllath yn ddi-sgwrs. 'Ac mor ddibynnol mae babi'n gorfod bod,' ychwanegodd e.

'Ac eto, mae'n hyderus o gartrefol,' meddai Rwth. 'Dyw babi sy'n cael ei drin yn normal ddim yn teimlo'n ddieithryn yn unman.'

'Na,' atebodd Bòs, fel pe bai ei feddwl yn crwydro, yn bell rywle, ar ryw eigion. 'Hwnnw sy'n meddiannu'r lle gan bwyll bach. Mae'n fewnfodwr doeth o ddibynnol.'

'Pe bawn i'n priodi eto,' meddai Rwth yn bwylllog, 'fe hoffwn i gadw enw Mal ar gyfer y plentyn cynta; yn wir enwau'r ddau frawd – *Mal* a *Gil*, os ca i ddau blentyn; ac enwau tad y ddau frawd yna gyda nhw – *El* hefyd, – os ca i dri.' Roedd hi'n chwerthin am ei ben e. Ac roedd e'n fodlon, mor fodlon.

'Ac os cewch chi bedwar?'

'Bydd tri yn ddigon.'

Roedd Bòs yn chwerthin yn awr fel pe bai o'r tu mewn i'w gôt. 'Tri!' Jig-so oedd ei deimladau. Pôs i'w gasglu a'i atrefnu oedd jig-so'r dyddiau hyn; ac mewn ffordd go ddirgel roedd e wedi darganfod un dernyn coll wrth weld y fam a'r baban a'i fawd yn ei geg. 'Tri! Beth amdani felly?' gofynnodd e.

'Sut?'

'Y tri... nyni'n...dechrau arni o'r newydd cyn diwedd yr ugeinfed ganrif.' Chwarddodd e.

'Beth yn hollol dych chi'n *ddweud*, Bòs?'

'Er gwaetha pawb a phopeth, gyda realiti'r newyn a'r cyffuriau a llygru'r môr a'r tir, a'r lladd yn enw cyfiawnder, y pethau disymlder cymysglyd dŷn ni'n eu hofni yn yr ugeinfed ganrif, yr anobaith a'r creulonderau ledled y ddaear, gwneud un peth syml – gwneud tri.'

'Rhy syml i fi. Dw i ddim yn deall.'

'Mae gynnon ni ddoniau. Dw i'n *hydeiml*, cofiwch,' chwarddodd e.

'Dych chi'n pryfocio nawr.'

'Ac eto'n gry. Yn ddieithryn cry,' meddai fe, 'yn ôl un asesiad.'

'Ddylwn i ddim bod wedi dweud y fath beth,' meddai hi. Ei thro hi nawr oedd bod yn swil eto.

'Ac yn *maddau* hefyd...' meddai fe. 'On'd oes 'da fi gymwysterau swyddogol addas, er mod i'n hen ac yn hyll, yn adfeiliedig, a chithau'n ferch gyffredin *iawn*? On'd oes rhyw fath o obaith inni'n dau gyrchu o hyd i ambell gyngerdd, a chwilio'r waled am bres drama, a hwylio yn y car mawr sgleiniog ar ddydd Sadwrn i ben draw Cefn Sidan ichi orwedd yn glyd wrth y nhraed, wedi gweithio'n galed am bum diwrnod chwyslyd, ac yna ar y seithfed, aros, peidio, a diolch gyda'n gilydd, ac addoli'r Un sy wedi peri'r cyfan? Tybed?' Yna, stopiodd y ddau ac edrych ar ei gilydd, a chwerthin drachefn.

'Rown i'n meddwl na fyddech chi byth yn ei ofyn,' meddai hi'n wên i gyd.

'Dw i'n gofyn nawr... Tri... wel, yn *nod* o leia.'

'Bòs!' meddai Rwth mewn syndod. 'Mae'n rhaid ichi werthu'r car yn gynta. Nid y math i o gar yw hwn. Pan soniais i am gar mawr sgleiniog, paldaruo rown i a thynnu coes. Pryfocio y ngwell. Siarad am ddelwedd papur-newydd own i, siarad yn ddireidus wrth sôn am gar drud.' (Un peth roedd yn rhaid i Bòs ymgyfarwyddo ag e fyddai ei dull trosiadol hi o gyfeirio at fywyd real. Heb hynny, gŵr fyddai ganddi hi heb ddeall ond hanner bywyd. Ond roedden nhw wedi mynd ymhellach o lawer na hynny. Ac wrth ddysgu siarad â'i gilydd am ddimensiwn yr ysbryd, roedden nhw wedi cael agor perthynas gyfforddus fywydol rhyngddyn nhw.)

'Wel, os felly, mae'n rhaid cael enw arall hefyd arna i does bosib. "Bòs" wir!...', meddai fe.

'Dw i'n hoffi'r enw yna,' protestiodd hi. 'Allai hi ddim datgysylltu nawr yr enw Bòs oddi wrth ei ddoniau cynhenid e fwy nag y gallai haul y bore atal y nos rhag machlud.

'O'r gorau, mi gogiwn ni mai fi yw,... yn fath o "fòs". Dyna wasanaeth traddodiadol yn enw i, mae'n debyg, gwaetha'r modd, ond dw innau wedi dod i

swyddogaeth newydd yn awr, ac efallai mewn ffordd newydd. Cewch chi y ngalw i'n "fôs" o ran sbort. A dysgwn mewn gras gyda'n gilydd.'

'Ac wedyn ffurfio cwmni cydweithredol rhyngon ni? Ni'n dau, felly'n gyfartal mewn gostyngiad,' meddai hi y tu ôl i'w gwên enigmatig fenywaidd. 'Dyna'r nod amdani gan y ffatri.'

'Dau! Mwy na dau yn fuan, does bosib.'

'Yn gwmni llawn cyfartal!' meddai hi. 'Mi *allen* ni ... gydweithredu'n ymarferol.'

'Yn gwmni ffrwythlon newydd? Mal a Gil... ac El efallai,' mentrodd e ymhellach. 'Ond bydd yn rhaid i'r pen bob amser fod yn bont, ac i'r bôs ei hun wasanaethu.'

'Bydd tri yn ddigon,' meddai hi'n orddifrifol: 'I ble bynnag yr ewch chi fe arhosa innau: fe wnawn ni hyn y rheol euraid – eich pobl chi fydd y mhobl i, a'ch Duw chi y Nuw innau. Lle y byddwch farw, y bydda innau farw, ac yno y ca i nghladdu.'

Ganwyd nhw ill dau nawr felly yn Llanelli gyda'i gilydd i'w perthynas newydd, – yn ddeuawd dechreuol o leia, yn ddeuawd caredig cariadus hefyd, wrth fynd am dro. Cydiodd e ynddi a'i chofleidio'n dynn. Cusanon nhw yn y fan a'r lle, do, – fan yna ar ganol y palmant, – a phobl Llanelli benbwygilydd, wrth basio, yn gwenu ac o bosib yn rhyfeddu.

## Y BRADWR DA

(Stori am wlad bell)

1.

Rhythai hi ar y set radio fel pe bai hwnnw'n elyn, tra oedd cefn ei gŵr astud a difater fel pe bai'n dirmygu holl drychineb losgfynyddig y sefyllfa, ac am barhau ar ei waith, beth bynnag a ddigwyddai.

Pam roedd e mor anonest o dawel? Dylai yntau y funud honno hefyd fod yn ffrwydrol. Dylai gorddi a chynddeiriogi a gorffwyllo. Eisteddai Maria Aesling yno ar myl ei sedd gan ymwybod â'r chwys a wlithai'i gên ac o gylch ei gwddwg.

Un o'r lleisiau hyderus yna o'r de-ddwyrain a ddenai'i llygaid hi at y set: 'Y bore 'ma am 7.00 o'r gloch fe groesodd y fyddin Almaenig y ffin i mewn i Hethlan gyda rhyw ddau gant o danciau a chan mil o filwyr. Mae Hethlan eisoes...' Ciliodd y llais i ben draw ystafell ei meddwl. A chiliodd hi gydag e. Myfyriai hi am dranc ei gwlad.

Am un eiliad, ped edrychid arno'n graff, gellid sylwi fod Vidkun Aesling yntau wedi codi un amrant, y mymryn lleia, fel pe bai gwyfyn wedi dod rhyngddo a'r golau; ond rhithwelediad oedd hynny. Parhaodd y cyhoeddwr i lefaru: 'fod y marwolaethau ymhlith dinasyddion cyffredin yn bur drwm. Ddinasyddion Hethlan, dyma lais eich brenin.'

Yna, clywai hi lais lleddf yn cyflwyno trychineb gwareiddiad mewn cywair brenhinol.

Pam yn enw rheswm roedd lleisiau brenhinol bob amser mor gwbl ddieneiniad? Pam roedd eu personoliaethau fel petaen nhw am lynu wrth lwydni niwlog? Pam roedd eu bodolaeth mor hunanaberthol o ddi-ddim? Y tu ôl i'r diffyg llewyrch hwn gallai hi glywed math o angerdd cudd yn eglur ddigon. Ond geiriau clai yn unig a syrthiai yno'n awr ar ei gwisg ddu hi, ar y pysgod aur a gylchai'r bowlen fawr yng nghanol yr ystafell, ac ar y clogyn ystafell-wely amryliw a wisgai'i gŵr o hyd pan oedd e wrthi uwchben ei lyfrau.

'Dyma ddydd prawf. Dydd prawf pobl Hethlan. Yn ystod dyddiau normal does



dim llawer o gyfle i anrhydedd ddangos ei dannedd. Ond pan glywch chi fod y gelyn yn cipio'ch tir, yn difa'ch iaith, yn lladd eich hunaniaeth... '

Ceisiai Vidkun ymbellhau yn ei gyfrol, neu beri iddo'i hun synied yn ddwysach mai ysgolhaig o'r golwg oedd e, yn gyfrifol (yn siŵr), yn ymroddgar, ac nad oedd a wnelo fe â'r byd mawr hwn o'i amgylch. Dyma'i ddewis e. Pwy a fyddai am fod yn frenin? A bod yn seremoni lawn-amser o unigolyn ynddo'i hun.

Teimlai Marïa Aesling am ennyd y gallai hyd yn oed hyn o ysgolhaig ddiuno i fywyd, ac yn wir fod ei gŵr eisoes am godi'i ben; ond seithug pob gobaith felly. '... Dyma'r pryd y mae gwenithfaen yn brigo i'r golwg,' meddai'r brenin ymhellach. 'Dw i'n ffyddiog...' Yn ffyddiog! Fe! Yn ffyddiog! Rhywun ar glawr daear yn ffyddiog yn hyn o gyfanfyd syrthiedig... 'na bydd pobl Hethlan – yn weithwyr cyffredin, yn filwyr, yn wragedd tŷ, yn ysgolheigion, yn swyddogion o bob math – ddim yn gorffwys nes bydd y bygythiad hwn i'n bodolaeth fel gwlad yn cael...' Doedd hi ddim am glywed rhagor. Rhuthrodd hi at y bwlyn bach a diffodd y radio'n ingol.

'Y fath dristwch! Vidkun!' gwaeddai hi o ben draw ogo'i hanobaith. Ond beth bynnag oedd ei wir deimladau, doedd ei gŵr ddim fel pe bai'n sylwi ddim. 'Beth, Vidkun? Wyt ti'n clywed?' holai hi'n feddalach, ond yr un mor heriol. Ymledai'r saib rhyngddyn nhw serch hynny. Wyddai hi ddim sut roedd ei gŵr yn corddi o'r tu mewn, os o gwbl. Arhosai hi yno amdano y tu ôl i'w len seicolegol e, fel cath wrth dwll llygoden. Llygoden hamddenol odiaeth. A oedd y dyn o bosib yn diodde y tu ôl i'w olwg allanol?

'... Ddwedaist ti rywbeth y nghariad i?'

'Beth wnei *di*? meddai hi ar bigau'r drain.

'Gwneud? Oes 'na awgrymiadau? ... Ail gyfrol ddwedwn i.' Cododd e'n ara a mynd yn bwylllog galed at y silffoedd llyfrau, a thynnu un. 'Y sagâu cynnar diweddar. Dim byd mwy perthnasol. Dyma'r ffordd i *wareiddiad* ymladd yn ôl. Dw i'n un o'r creaduriaid dychrynlyd o grotesg yn y celfyddydau sy'n credu bod ei waith yn gywrain o berthnasol i ddiwylliant dynol. Mae yna ystyr iddo mewn amser fel hyn. Nid gwleidyddiaeth yn sicr. Ac nid arfau a chwythu bygythion a rhuthro i ffolineb. Nid rhethreg economaidd na pheirianyddiaeth. Ond yr hunaniaeth fewnol seml ym meddwl

y bobl drwy'r traddodiad, arwriaeth ein delfrydau. Dyna'r trywydd i'w ddilyn pan fydd dyn normal yn colli'i ben. Dyma yn y bôn sy'n wir ymarferol: y gyfrinach sy'n para.'

Roedd y fath rwtsh yn ormod iddi. 'Ydy ail gyfrol fel yna'n sôn am yr entrychion yn hollti am ben dy genedl dy hun? Glywaist ti am y lladd?'

'Do, Marïa, ym mhob stori yn y corpws, ac ym mhob dehongliad o stori. A'r gwenithfaen yn brigo i'r golwg drwy'r chwedlau, yn sicr.'

'Glywaist ti am y lladd heddiw, fan hyn?'

'Do. Dilyn anturiaeth diwylliant, dyna yw'r alwad i ddyn ofnus neu i filwr encilgar ar adeg fel hyn...' Nid ysgolhaig di-gyfeiriad a digalon oedd Vidkun Aesling, ac nid chwaraewr ysgafn chwaith, a faethwyd drwy gnoi beddrodau i frechwast. Na.

'A'n hunaniaeth ni'n pallu? A'r cachgwn yn ffoi?'

'Ydyn: ail gyfrol ddwedwn i ar adeg fel hyn, Marïa. Bob cynnig. Dyna sy orau ar ôl y gynta, debyg. Beth ddwedi di? Gwell na dechrau'r drydedd gyfrol yn syth.'

Cadwodd e'i lygad yn garedig dosturiol ar ei wraig wrth iddi godi. Ymlwybrodd hi tuag at y bowlen bysgod, a chymryd pinsiad o fwyd a'i wasgaru ar wyneb y dŵr. 'Sylwa, Marïa, sylwa yn y bowlen honno fel y mae'r pysgod ambell waith yn gallu oedi'n gwbl lonydd yn yr unfan ynghanol y dŵr, yn hollol ddisyfl ac ymataliol. Mae'n siŵr fod hynny'n fath o foeswers i'w bywyd!... Roedd e'n caru'i wraig; ond allai hi byth ei ddeall e.

## 2.

'Pwy?' oedd cwestiwn mawr Swyddfa Ganolog Natsïaid Hethlan. Nid sut, na pham, na pha bryd. Ac un enw o hyd a ddychwelai yno i'r cynllwynwyr yn unfryd. Fe fethen nhw'n lân, er ceisio'n ddiwyd, ag ymaflyd codwm â phob posibilrwydd arall. Un person a lamai i'w meddyliau yn ateb.

Yn y Swyddfa Ganolog honno, er nad oedd yna ddim gorfoleddu, nid anodd fyddai ymdeimlo nawr â'r trydan balch. Roedd yna dri ar ganol yr ystafell: menyw (Ysgrifennydd Canolog y Mudiad), a gwryw (ei Dirprwy), ynghyd â Chlerc Ymgynghorol. O dan yr arwydd Swastika mwya – 'mwya' gan fod sawl un i'w cael hwnt

ac yma yn brechu'r ystafell yn addurniadol, – fe geisiai'r Ysgrifennydd Cyffredinol, gwraig gymharol ifanc ddi-fron, feistrolï'i gorfoledd ei hun mor haearnaidd byth ag y gallai. Gwisgai Neegaard Ystbi braidd yn ymosodol o wrywaidd fel pe bai hynny'n gymorth i'w swydd, a chododd ei hwyneb yn ara, yn wyn ac yn olau, tuag at lun Adolf Hitler. Yn wir, gwell ganddi bob amser oedd syllu ar lun felly nag edrych i fyw llygaid y bobl y siaradai â nhw. Ond nid enw Hitler na neb estron oedd yn ymwthio i'w meddwl hi ar hynny o bryd.

'Vidkun!' oedd yr “un person” priodol. 'Fe yw'r un y funud hon,' meddai hi, 'rhywun anwleidyddol, ond yn atynnu pobl fel ffigur a delwedd, i'n cadw ni oll, rhag ychwaneg o gyflafan. Mae'n enw rhyngwladol. Mae hyd oed *Almaenwyr* addysgedig yn gwybod amdano. Mae pawb oll yn Academia Hethlan yn ei barchu. Does dim dewis.'

'Fysai hi ddim yn well gynnoch chi gael menyw?' holodd Harald Knudsen yn barchus ddireidus. Ond chanfu Neegaard ddim o'r direidi.

'Bysai.' Edrychodd hi ddim arno. 'Ond dw i'n realydd. A fe yw'r unig un a chanddo ddigon o barch o du pawb. Eraill fydd yn gweithredu'n ymarferol. Delwedd fydd e: enw. Gŵr i lenwi bwlch, heb dramgwyddo neb.'

'Beth ŵyr e am wleidyddiaeth?'

'Gorau po leia. Nid dyna'i fusnes. Nid dyna fynnen ni. Ei fusnes e fydd rhoi undod i'r wlad. Efô fyddai'r cynrychiolydd symbolaidd ar ôl i'r brenin fynd. Mae ei gariad e at Hethlan uwchlaw amheuaeth.'

'Sut y gwyddoch chi y byddai fe'n barod i'w wneud?'

'I rywrai, byddai hyn yn uchafbwynt ar yrfa, yn uchelgais oes,' mynnai Neegaard. 'Bydd rhaid iddo. Os yw Hethlan yn galw...'

Roedd Harald Knudsen yn hwyrfrydig ei ymateb i'r dewis hwn, ac eto gwnaeth hynny yn raslon ddigon: 'Wel, yn wir, mae ganddo fe *enw*.'

'Oes,' ebychodd Neegaard Ystbi, fel petai hynny'n glo ar bob gwefus.

'Bu Grieg Garborg, eu Clerc ymgynghorol, yntau yn fud drwy gydol y sgwrs hon. Ond doedd e ddim am i'r fath benderfyniad chwyldroadol ddianc drwodd yn ddiher: 'Ond ysgolhaig, o bopeth, Neegaard! Beth am y Werin?'

'Enw yw e! Ein *prif* awdurdod ar *brif* drysor diwylliannol y genedl. Enaid y traddodiad. Drych i ewyllys y genedl. Ac yn ffigur anwleidyddol niwtral.'

'Allwn ni ddim cael pêl-droediwr neu actor?'

'Mae gan ambell ysgolhaig beth crebwyll. Mi wnaiff Vidkun gadw'i ben.'

'A'i galon, gobeithio.'

'Gwnaiff. Mae'n caru'n chwedlau ac yn canfod eu harwyddocâd yn hunaniaeth y genedl. Dyna brif gamp ryngwladol ein gwlad. '

Gwenodd Garborg: 'Mae diwylliant mewn llywodraethwr yn peri i'r werin-bobl deimlo ar goll.'

'Allwch chi byth y mherswadio i,' ategodd Harald Knudsen, 'fod ysgolhaig symbolaidd yn mynd i roi undod i genedl pan fydd y nenfwd yn cracio.' Teimlai Knudsen yn bwyllog fod angen llawer mwy o bwysu a mesur cyn dod i gasgliad mor dyngedfennol i'r wlad. (Gall hyd yn oed swyddogion darddu o blith rhai mwya tadol yr hil. Un felly oedd Harald Knudsen. Arth dadol – tedi bêr – fyddai'r disgrifiad manyla ohono, yn benna oherwydd y ffordd y daliai'i freichiau trwchus, a hefyd ei ddiffyg gwar, a'r modd y rhoddai'r argraff ei fod ef yn anwesadwy i blant, tra oedd Grieg ar y llaw arall yn llawer mwy di-waed.) 'Ddaw arweiniad cenedl byth o'r cyfeiriad yna,' meddai Knudsen.

'Pam lai? Y Vidkun Aesling yw hwn. Symbolydd hyd fysedd ei draed.' Roedd hi'n sylweddoli brys ac nad oedd amser i ogordroi ynghylch manion anghytûn.

'Byth, Neegaard!'

Nid dawn fenywaidd yn unig, ond dawn llawer swyddog llawn-amser o ba ryw bynnag, yw ymdawelu. Ymdawelu'n ddiwyro uwchraddol a wnâi Neegaard yn wyneb trafodaethau amaturiaid, er mwyn peidio â chodi cyndynrwydd. Ac yna'n ddeheuig, symudai'r darnau yn ddi-sylw, llywio'i geiriau, tan achub y cyfle mewn bwlch

strategaidd yn y sefyllfa: fe'i disgyblai hi ei hun yn amyneddgar i ennill.

\*

\*

\*

Yn ôl draw yn ei astudfa roedd gwrthrych ei huchelgais hi – yr Athro Vidkun Aesling – yn gwybod yn union beth roedd e am ei wneud. Ail gyfrol! Mil o dudalennau.

Roedd ei wraig, Mariā Aesling, hithau'n dal yn llidiog. Teigres o wraig oedd hi ambell waith. Ond roedd elfen wedi sleifio i mewn i'w golwg hi'r funud yma; a phryder oedd honno. Pryder am ddiogelwch ei gŵr di-gic. Roedd hi wedi'i herio fe, mae'n wir, bron wedi sarhau ei lwfrdra fe wrth siarad ag e gynnu; ond doedd hi ddim wedi bod yn ddigon o ddifri. Eisiau ei ddihuno fe oedd arni, a chael cysur a chwmni mewn cyfwng ofnadwy. Ei hewyllys wyllt yn unig a godai wrthwynebiad i'w ymneilltuedd e, nid ei chalon hi. Roedd honno'n nerfus ac yn betrus. Oherwydd bod Hethlan yn bod, roedd ei theulu hi ei hun yn bod hefyd. Ac roedd Vidkun yn bod, a'i serch hi bob amser yn bod, a'i hofn drosto oherwydd ei safle yn Hethlan yn bod.

Hwylodd hi bob o gwpanaid o de iddyn nhw ill dau, er mwyn setlo'u nerfau.

'Gelynion Hethlan yw'r Natsiaid bellach, – pob Natsi, nawr,' sibrydodd hi'n floesg ond yn dawel angerddol. 'Hyd yn oed Cyn-Natsi. Cyn i fyddin yr Almaen dorri i mewn, beth bynnag oedd dy chwaraeon bach plentynnaidd politicaidd di cyn iti dyfu'n ysgolhaig, mae'r sefyllfa wedi hen newid i bawb.'

'Yr Almaenwyr, nid Natsiaid lleol, yw gelynion Hethlan bellach yn eglur ddigon,' haerodd Vidkun gan godi'i ben yn warafunus tuag at ei wraig, 'neb arall.'

'Cyfri pob Natsi run fath â'i gilydd wnaiff pawb o hyn ymlaen.'

'Dyw pawb ddim mor wirion â'i gilydd.'

'Natsi fuost *ti*,' meddai hi. 'A Chyn-Natsi wyt ti.'

Dyweddodd hi'r peth fel cawod o eira. Arafodd Vidkun. Ac fe oerodd ei anadl yntau wrth ei hateb: 'Myfyriwr own i hefyd, ers talwm tatws; mae pawb yn potsian gyda gwleidyddiaeth pan fyddan nhw'n ifanc os bydd edefyn o ddeffro yn eu gwythiennau.'

'Ond roeddet ti'n *gallu* bod yn Natsi. Mae dy enw di ar glawr rywle. Unwaith yn Natsi, bob amser yn Natsi. Bydd rhywun ar dy drywydd di, i ddial mor sicr â bod

Mawrth yn y Grawys.'

'Bydd pawb wedi anghofio. Does neb yn gwneud cofgolofn i wiriondeb llanc.'

'Ond ti, fe fuost ti'n Natsi!'

'Yn hen Natsi, ie, ac yn Ewropead – yn nyddiau rhyw lanc anhysbys plorynnog gynt. Dw i ddim yn nabod hwnnw.'

Roedd y cwbl yn awr a ddigwyddodd i'w gwlad heddiw yn peri i Maria Aesling grynu, a chiliai ychydig i'w chragen wrth glywed y geiriau hynny gan ei gŵr. Sibrydai: 'Wyt ti ddim yn teimlo rhyw nerfuswydd Vidkun? Mae hyd yn oed Natsi mewn encil yn beryglus. Efallai fod yna rywrai y funud yma mewn rhyw swyddfa yn y ddinas hon yn cynllwynio dy dranc di.'

'Mae arna i ofn 'mod i'n llai pwysig nag a dybi di Maria.'

'Dwyt ti ddim yn teimlo rhyw fath o dristwch?'

'Debyg iawn. Ond tristwch ynghylch planed arall, byd arall.'

'Hethlan efallai?' Suddai hi'n ddirmygus ar ei chadair.

'Pwy yw'r Natsïaid Hethlannaid erbyn hyn?' meddai fe. 'Byd darfodedig i gyd. Y goresgyniad *Almaenig* yw'n busnes heddiw, nid eu Natsïaeth. Mae gen *i* waith amgenach i'w wneud nawr na gwrthryfela amrwd yn erbyn ein pobl ein hun. Mae gen i ddyletswydd i weithio yn yn ffordd yn hun o blaid diwylliant Hethlan. Dyna 'nyletswydd yn ystod y rhyfel.' Nerfuswydd a'i gyrodd e nawr i ddychwelyd at y bowlen bysgod, a hau ychydig o friwsion drostyn nhw eto. Ond gallai roi gormod o'r stwff i'r tipyn pysgod hyn.

'Liciwn i'n wir pe bawn innau'n gallu synied am y sefyllfa fel pe bai'n digwydd ar blaned arall,' murmurodd Maria.

Ond roedd hyn *wedi* digwydd, beth bynnag oedd eu dychymyg ill dau. Arhosodd e ychydig o eiliadau heb ei hateb hi: 'Mae bwrw oes ym myd y sagâu yn estyn y persbectif ryw ychydig,' meddai fe wedyn.

Closiodd Marïa at ei eiriau'n awr, a threiddio wthio'i bysedd hir yn ofalus ac yn dirion drwy'i wallt. Ceisiai hi'i gorau i weld ei ochr e. 'Mae hi'n dawel fan hyn. Ac mae'r ffaith iti gael gwreiddiau mewn hen fro fel Ffyres-dâl efallai yn dy gadw yng nghanol chwedlau...'

'A... physgod...,' meddai fe, 'gan edrych ar y bowlen. 'Dyna galon dawel yr ystafell hon.'

'Ie, a thangnefedd disgybledig gobeithio...,' meddai hi. 'Mae pethau felly'n rhoi sadrwydd i rywun.' Roedd hithau bellach felly'n edrych o'r newydd ar y bowlen bysgod a'r cylch a'r canol llonydd fel pe bai hynny'n rhan gadarnhaol eto o'r byd.

'... Ac yn rhoi awydd i weithio a gweithio, i fynd yn ein blaen, y tu ôl i'r gwallgofrwydd i gyd. Dyna'n rhan i nawr,' meddai'i gŵr.

'Dyna ti. Efallai fod gorffennol rhywun yn help... Ffyres-dâl, ie Sgien. Dy fan geni. Dy orffennol personol. A'r chwedlau oll ... gallai'r rhain dy gadw di... Tro'r radio ymlaen eto, Vidkun, inni gael ychwaneg o newyddion.'

Yr un llais diduedd hyderus gan y cyhoeddwr oedd wrthi: 'Mae'r newydd yn cyrraedd aton ni fod yna gyflafan enfawr yn Ffyres-dâl yn Neheubarth y wlad. Arhoswch yn ymyl eich radio, ac fe rown y manylion pan fyddan nhw'n eglurach. Mae pobl Hethlan yn cael eu lladd.'

Rhewodd y ddau. Cododd Vidkun Aesling mewn arswyd oddi ar ei gadair. Deffroesai fe gan enw'i henfro. Roedd ei fwyneidd-dra cyfforddus tybiedig oll yn sydyn wedi'i chwalu. Edrychodd tuag at y drws drwy lygaid rhwth.

'Ffyres-dâl, ein hen lwybrau, y gymdogaeth hoff, calon Hethlan,' meddai fe yn chwerw... 'A'n gwaredo!'

'Dy fam... Dy frawd! Pobl. Anwyliaid. Allwn ni ddim aros ar wahân nawr.'

Roedd niwl caled o'r tu allan, fel pe bai wedi treiddio a llenwi'r ystafell i gyd, neu'n llenwi'r ymennydd. Ni ellid mwyach weld y bowlen bysgod.

3.

Cerddodd enw 'Ffyres-dâl' fel fflam gydiol gan bwyll drwy goedwig strydoedd y Brifddinas gan daro drwy bren sych pob drws. Rywsut, i drigolion Hethlan i gyd, roedd hyn yn fwy real na'r goresgyniad ei hun. Golygai Ffyres-dâl enw rywbeth arwrol hyd yn oed i'r plant lleia. Ffyres-dâl oedd mam Hethlan oll o ran diwylliant, ysbrydoliaeth yr hil Nordig. A hon yr anelwyd ati gan yr Almaenwyr, yn fwriadus. Roedden nhw wedi darllen cyfieithiadau o'r chwedlau. Roedden nhw wedi ymhoffi yn yr arwriaeth galed. Fe wydden nhw arwyddocâd Ffyres-dâl, ac arwyddocâd yr ymosodiad arni hi. Ar chwedlau Ffyres-dâl y magwyd plant Hethlan oll, a phlant gogledd Ewrob. Dyna'r lle y caen nhw'u delfrydaeth. Arhosai prif swyddogion hen blaid Natsïaidd Hethlan yn gylch o gwmpas y ffôn gan ddisgwyl newyddion. Gadawodd y clerc Grieg Garborg y Swyddfa Ganolog am y tro er mwyn hel rhagor o newyddion am y digwyddiad diweddera; ac eisteddai Neegaard Ystbi y gwleidydd a Harald Knudsen y dirprwy yn eu seddau difri gan wyro'n achlysurol ysgafn, fel palmwydd anghyfaddas dros ben, i'r gerddoriaeth filwrol a seiniai'n wresog o'r radio o hyd. 'Yn sydyn, mae gynnon *ni* bwysigrwydd bellach,' sibrydodd Neegaard Ystbi. 'Fe ddaeth ein hawr *ni*. Caiff y dirmygedig dyfu'n edmygedig.'

'Maen nhw'n hir ar y naw,' cwynodd Knudsen, 'yn dod o hyd i fanylion.'

'Ddwedan nhw ddim oll nes bod peth sicrwydd,' meddai hi.

'Mae Ffyres-dâl mor boenus arwyddocaol i ni bawb, yn symbolaidd felly,' meddai Harald Knudsen. Nid yn unig oherwydd mai dyna ganolfan naturiol orau'r hen chwedlau er pan glywen ni oll storïau'n cael eu hadrodd ar golau'n mamau. Ond oherwydd y diwylliant *heddiw*. Y corau, y cwmnïoedd drama. Heddiw.'

'Gobeithio nad yw hi fawr o drychineb yno,' ceisiai Neegaard swnio'n obeithiol.

'Tai hi ddim yn *dipyn* o beth, fyddai 'na ddim sôn wedi bod,' meddai Knudsen.

Pystylodd y clerc Grieg Garborg ar eu traws nhw drwy'r drws, a'i wynt yn ei ddwrn: 'Mae'n ddychrynlyd ... Pawb yn y dre fach. Wyth mil. Drueiniaid. Wedi'u difa. A'r rheina wedi ceisio gwrthwynebu.'



Syfrdanwyd Neegaard Ystbi a Harald Knudsen. Allai'r peth ddim bod yn wir. Ond roedd wyneb taer Grieg Garborg yn cyhoeddi'r diwedd gydag argyhoeddiad.

'Y ffyliaid bach,' ebychodd Knudsen dan ei anadl.

'Men'wod, plant, pob copa gwalltog,' ategodd Garborg. Fe ddringodd ei ofid ar ei ysgwydd fel cath. 'Fel pe bai'r Almaenwyr am wneud rhyw ystum rhybuddiol,' meddai ymhellach.

Troes Knudsen y dirprwy at Neegaard Ystbi gyda sicrwydd y sawl sy'n gwybod rhywbeth newydd bellach: 'Bydd dy awgrym di o Vidkun Aesling fel Arlywydd mewn enw byth yn gweithredu nawr.'

'Mae hyn yn fwy o reswm byth iddo. Bydd hyn oll yn ei dynnu fe o'i ferddwr difater,' meddai Neegaard Ystbi. 'Bydd e'n symbol niwtral.'

'Bydd,' meddai Knudsen. 'Ond fe dröith y bobl i ochri'n *erbyn* y Natsïaid mwyach. Peth peryg. Mae hyn yn fwy o reswm iddo fe gilio'n ôl i'w gragen i ffwrdd o'n pleidgarwch ni, a chadw'i draddodiadau yn gynnes o'r golwg i gyfnod arall.'

'Ond Natsïaeth Hethlan fydd cyswllt gweinyddol potensial yr Almaenwyr â'r bobl mwyach. Nyni'r brodorion mewn Natsïaeth sy'n deall peth o hen athrawiaeth y Natsïaid, a'r un pryd nid Almaenwyr mohonon ni. Nyni fydd yn dderbyniol i'r Almaenwyr, ac yn medru cydweithredu â nhw; ond cydweithredu heb fynd yn eiddo iddyn nhw. Os gallwn ni gael gan Vidkun i ochri o'r newydd â'i Natsïaeth gynnar, mae'n fwy o reswm iddo, dybiwn i, dros ennill cefnogaeth y bobl...fod rhywun yn ei safle fe... ac yntau'i hun a'i deulu wedi colli cymaint yn Ffyrës-dâl o bosib... yntau'r penna ysgolhaig ar hanes diwylliant ein cenedl yn galw nawr ar y wlad i ildio i Natsïaeth, Natsïaeth frodorol heddychlon, i achub bywydau pobl.'

'Y wlad yn ildio i ni yn hytrach nag i'r Almaenwyr yn uniongyrchol?'

'O leia, mae'n plaid fechan ni bellach,' ymyrrodd y clerc Garborg, 'wedi meddiannu'r orsaf radio tu allan i'r Brifddinas. A neuadd y ddinas ei hun erbyn hyn. A gorsaf yr heddlu. Y cwbl lot.'

'Ond dyrnaid ohonon ni sy 'ma nawr yn dal i feddwl yn ymarferol. Paralytig yw pawb arall.'

'Ni sy'n barod i weithredu'n ymarferol ac yn realistig, a manteisio ar yr amseroedd gyda'r Almaenwyr. Mae'n rhaid inni ennill cefnogaeth Vidkun er mwyn perswadio'r Natsïaidd traddodiadol fod gynnon ni fodd i dyneru.'

Lledodd peth esmwythyd bellach dros wyneb Harald Knudsen: 'Fe ddylai dyfodiad y fyddin Almaenig fod yn llai gwaedlyd o hyn ymlaen. Eithafirwydd – tacteg gyfarwydd – oedd y cyrch distrywiol cynta er mwyn sobri'r bobl, a dychrynu unrhyw awgrym effeithiol o wrthwynebiad.'

Cododd Neegaard Ystbi ar ei thraed yn benderfynol, 'Mae'r Almaenwyr yn gwybod beth maen nhw'n wneud. Hyn yw'r amser, felly, foneddigion, inni gyrchu Vidkun Aesling.'

#### 4.

Tyfodd tynged yr hen Hethlan a'i delfrydaeth arwrol yn gysur i rai o'r bobl, mae'n wir, yn enwedig i'r hen wleidyddion o'r adain dde. Gwelai Vidkun fel yr oedd gwaith ei ieuencid nawr yn ysbrydiaeth i'w ganol-oed ei hun. Roedd ei ddamcaniaethau ynghylch athrylith ac anrhydedd Hethlan fel cenedl unigryw, yn cael bywyd newydd ym meddylfryd Vidkun bellach. Fe'i gwelai hi'n gymuned leol ddisglair hynafol yng nghanol Natsiaeth a Hanes Ewrob. Ymledodd ei falchder wrth bendroni ynghylch y teulu personol agosa ato. A chlymmodd ei bryderon cymunedol wrth wreiddiau'i waed diriaethol ei hun. Bu'n ceisio cysylltu heddiw drwy'r ffôn ag ysgolheigion cyfeillgar yn ardal Ffyres-dâl. Tyrchai am y newyddion diweddara am ei dylwyth.

'Maen nhw'n pallu dweud mwy,' cwynodd e wrth osod y ffôn yn ôl yn ei nyth.

'Beth ddwedon nhw?' holodd ei wraig Marïa.

Cyrchodd Vidkun at ddrws yr ystafell. Ar gefn hwnnw roedd ei gôt fawr. Tynnodd e honno i lawr. 'Fe ddodwyd rhestr ddechreuol o'r rhai a arbedwyd ar borth Neuadd y Dre, meddan nhw.' Diosgodd ei glogyn ystafell-wely a gwisgo'i got fawr bob-

dydd. 'Nodwyd hefyd enwau'r rhai o Ffynes-dâl sy'n dal yn fyw oherwydd eu bod nhw wedi picio i'r farchnad yn Sgien. Rhyw ugain sy 'na.'

Ond protestiai Mariā. 'Aros di yma. Gwell i *fi* fynd draw, Vidkun.'

'Pam?'

'Gwell i ti aros yn llwyr o'r golwg. Rwyt ti'n rhy adnabyddus. Cuddia dy ben yn ystod y cythrwbl hwn. Mae'n debyg fod teimladau'n rhedeg yn gas, ac wyddon ni ddim beth wnaiff pobl mewn sefyllfa fel hon.'

'Ond byddet *ti* hefyd mewn peryg,' meddai fe.

'Ddim cymaint. Does neb yn nabod gwraig ysgolhaig.'

Chwalwyd y petruso hwn sut bynnag gan guro sydyn ar y drws. Gallasai mai gelynyion oedd yno. Gallasai fod peryg nawr. Rhagor o guro. Gallasai ar y llaw arall mai masnachwr hollol gyffredin a ddaethai ar ei dro defodol. Ond troes Vidkun at y drws yn ddall ddiystyriaeth, a brysio i droi'r bwlyn yn ddi-ots; ac i mewn i'r ystafell yn un llif du heibio iddo fe yn eu gwisgoedd gwleidyddol ffurfiol daeth Neegaard Ystbi y gwleidydd, a'i Dirprwy Harald Knudsen a Greg Garborg, y Clerc Ymgynghorol. Heb edrych i fyw llygad neb, gofynnodd Neegaard yn chwyn: 'Glywsoch chi'r newyddion?'

'Ddim i gyd.'

'Ga-i gyflwyno ... Harald Knudsen, Ysgrifennydd y Brifddinas o'r Blaid Natsïaidd.' Moesymgrymodd hwnnw ei ben ryw ychydig. 'A Grieg Garborg, Dirprwygadeirydd cenedlaethol i'r Blaid Natsïaidd.' Hyn oll er mwyn eu cyflwyno yn ôl eu teitlau lleia hysbys ymhlith y werin-wrthwynebol.

'Mae'n rhaid i chi'n hesgusodi ni nawr, Neegaard Ystbi,' ymddiheurodd Vidkun Aesling: 'roedden ni ar gychwyn y funud yma.'

'I Neuadd y Ddinas?'

'Ie.'

'Mae'r newydd roech chi'n chwilio amdano, Athro, gynnon ni. Mae'ch mam yn ddiogel, a'ch brawd yn ddiogel. Roedd y ddau draw yn Sgien yn y farchnad. Ond mae'ch

dau gefnder Heiberg ac Uppdal a'u teuluoedd oll wedi'u difa.'

Cododd Vidkun ei law at ei dalcen: 'Mae hyn yn sicr?'

'Yn gwbl sicr,' cadarnhaodd Garborg yn awdurdodol. 'Fe wnaethon ni ymholiad unswydd.'

'Dychrynlyd.'

'Roedd eich cefndryd yn rhan o'r gwrthwynebiad,' meddai Garborg mor ddiduedd ag y gallai.

'Ffyliaid! Ffyliaid!' Troes Vidkun at ei wraig, a chofleidion nhw'i gilydd yn ddigymell. Yna, wedi sobri ychydig, troes Vidkun yn ôl at y gwleidydd Neegaard Ystbi: 'Pam dych chi wedi dod yn unswydd i ngweld i?'

'Mae gan bob Hethlannwr gwlatgar *ei ran* yn y cyfwng hwn. Mae'n rhaid glynu wrth fywyd.'

Rhagwelodd Marïa ar unwaith fod yna rywbeth ar gerdded rhwng y llinellau. Roedd ffurfioldeb syber gosodiad cyffredinol Neegaard Ystbi yn ddigon i ollwng pob alarwm. Allai hi ddim dyfalu eto i ba gyfeiriad yr âi'r wraig hon; ond gwyddai ddigon i sylweddoli fod yna beryglon yn yr awel o'i chwmpas. 'Paid â gwrando arni, Vidkun.'

'Oes, mae gan bawb ei ran, rhai yn y golwg, rhai o'r golwg, rhai'n gyhoeddus, eraill yn breifat,' meddai Vidkun wrth Neegaard Ystbi gan geisio sefydlogi'i drem yn ei llygaid symudol hi; 'ond beth sy a wnelo hyn â'r ymweliad hwn?'

'Mae gan rywrai ohonon ni fwy o ran na'n gilydd.'

'Dywed wrthi hi am fynd oddi yma, Vidkun.' Trodd Marïa at Neegaard: 'tybed wnewch chi'n gadael ni nawr yn ein galar?'

'Fy unig nod i yw achub bywyd,' meddai Neegaard, yn llawn diniweidrwydd clandredig.

'Bywyd pwy?' heriodd Maria.

'Bywyd Hethlan. Cyrff Hethlan.'

Ymlwybrodd Vidkun at y lle tân. Plygodd, a chodi pocer anfygythiol: 'Mae hyn gynnon ni... haearn...yn ein gwaed. Ac mi fydd e gynnon ni ar ôl i'r tân ddiffodd dros dro. Mae hyn yn gyfwng mawr yn hanes ein gwlad.'

'*Chi* yw'r dyn, Athro, i fod yn Arlywydd i'n cenedl,' meddai Neegaard yn sobr ara, 'yr unig ddyn ar y funud hon yn hanes Hethlan i'n cadw oll rhag rhagor o gyflafan. I warchod ac i uno eich gwlad, i gynghori gofal gan bawb. Nid swydd ag awdurdod yw hi, ond swydd symbolaidd hollol reidiol ar gyfnod o argyfwng enfawr.'

Arhosodd hi gan ddisgwyl ymateb. 'Wnaiff yr Almaenwyr holi yn ein Swyddfa ni am enw addas i'r safle hwn, yn ein barn ni.' Wnaeth Vidkun ddim ond gwro'n feddylgar, a cherdded draw at y bowlen bysgod. Syllai'n edmyglon ar y pysgod. Byseddodd ychydig o friwsion fel pe bai'n mynd i roi bywyd drachefn i'r creaduriaid tawel hyn, ond fe'i rhoddodd yn ôl. Yna, trodd yn ddigynnwrf at Neegaard a oedd yn dal i'w osgoi e â'i llygaid; ac meddai mor arafaidd byth ag y gallai'i air pur gwta: 'Lol.'

'Nid lol,' brathodd Neegaard yn chwyrn. 'Does dim mwy tyngedfennol y funud hon na gwleidyddiaeth bragmataidd.'

'Gadawer gwleidyddiaeth i wleidyddion, ddweda i.'

'Pwy yw gwleidyddion heddiw felly? Gwleidydd yw pob dinesydd. Gwleidyddion dŷn ni ... Mae gynnoch chi *enw* yn ein gwlad. Dyna sy'n bwysig.'

'Ble?'

'Mae yna barch atoch chi ymysg pawb mewn safle dylanwadol yn Hethlan. Mae yna ryw fath o ysgolheigion newyddiadurol sy'n ceisio poblogeiddio'r hunaniaeth mewn hanesion. Ond y tu ôl i *chi*, yn gadarn ac yn ostyngedig, mae eich safonau a'ch gwerthoedd a dyfnder gwybodaeth am *enaid* Hethlan yn ddihafal. Does neb yn drwgdybio'ch gwladgarwch. 'Dyna'ch cadernid.'

'Ydyn nhw'n eich drwgdybio *chi*?' gofynnodd Vidkun i'r ymwelwyr.

'Hefyd, dych chi'n aelod llawn o'r Blaid Natsiaidd.'

'Mi roeddwn i.'

'Unwaith ... ac am byth.'

'Chwarter canrif yn ôl. Mae'n genhedlaeth gyfan.'

'Symudwyd ddim o'r enw oddi ar y llyfrau.'

'Sothach. Does dim hawl gen i.'

'Hawl Oesoedd Hethlan,' meddai Neegaard.

'Does dim safle politicaidd gen i yng ngolwg neb.'

'Yn hollol. Mae llyfrau'r Swyddfa yn nwylo'r Almaenwyr mwyach. Mae angen un llais yn awr, – llais Arlywydd, – sy y tu hwnt i wleidyddiaeth. Y tu hwnt i blaid. Y tu hwnt i “hanes” heddiw fel petai, os oes modd. Hethlannwr o'r iawn ryw. Hethlannwr y mae iddo barch am ei fod e'n syml yn Hethlannwr. Bydd e'n symbol o oleuni cyson yn y tywyllwch.'

'Dych chi'n byw mewn castell yn yr awyr, ffrind,' meddai Vidkun. 'Dyn caled sy eisiau arnon ni nawr.'

'Dyna'r union beth does dim o'i eisiau ar hyn o bryd.'

## 5.

Dau, mewn fflat ar diriogaeth y Brifysgol Genedlaethol. Posteri ar y waliau. Rhyw hanner cant o ganiau cwrw gwag ar y llawr mewn un gornel: gweddillion wythnos. Llyfrau agored ar y sofffa. Bord, ac ychydig o gwpanau staeniedig a di-soser arni. Dysgl lwch frown yn llawn dop o stympiau sigarennau. Cadair hynafol wedi'i thorri ac yn gorwedd ar ei hochr. Ystafell nodweddiadol gonfensiynol mewn fflat gan fyfyrwyr. Beth arall? Ar y ford hefyd wrth ochr y cwpanau roedd yna ddryll. Ac ar ei bwys roedd Bojer Dunn wrthi'n ceisio rhoi bom bach wrth ei gilydd gan ddilyn cyfarwyddyd llyfr, newydd ddod yn ôl o'r gwynt a'r glaw. Gŵr ifanc tuag ugain oed. A thua'r un oedran roedd yr eneth a ddaethai i mewn y tu ôl iddo. Greta Bremer.

Edrychodd Bojer i fyny ati gan wenu: 'Mae'r gwaith hwn a'n delfrydaeth ni ychydig yn well na chlustymwrando ar yr hen Aesling gynt yn paladaruo'n frwd am fotiffau berfol. A theipiau cymeriadol. A thraddodiad llafar, a threftadaeth yr hil.'

'Byw'r sagâu dŷn ni'n wneud mwyach, ddywedwn i heddiw,' meddai Greta.

'Peth a ddofwyd am byth gan ambell ysgolhaig, druan... Gest ti ryw newydd?'

'Na ddo, ddim eto. Dim ond bod Neegaard Ystbi, Ysgrifennydd Cenedlaethol y Blaid Natsïaidd, ynghyd â rhai o'i giang, yn chwilio'n ddyfal am rywun-rywun i fod yn *Arlywydd* newydd.'

'Ac mae pawb addas yn pallu chwarae cefnogi'r Natsïaid?'

'Ydyn, pawb oll. Neb ar gael. Neb yn barod i gyfaddawdu,' meddai Greta.

'Ar hyn o bryd!'

'Mae dy geg di'n diferu, Bojer, o sudd awyddu gwrthryfel.'

'Rhaid bod yn b-barod.'

'Oes rhaid bod yn gynamserol barod?'

'Oes. Bydd rhyw athrylith yn siŵr o syrthio i'w magl hi, yn hwyr neu'n hwyrach.'

'Os gallwn ni ddangos bod yna ryw ruddin ar ôl ... '

*'P-pan wnawn ni!'* gwaeddodd e.

'Os bydd 'na Arlywydd newydd, rwyt ti yn dy le, bydd yn rhaid i ninnau fod yn barod ar unwaith. Bydd yn rhaid dangos bod rhywrai'n cynrychioli Hethlan Rydd. Does 'na ddim byd roddith fwy o asgwrn cefn i'n pobl ni na gweithred genedlgarol... Symbol.'

Byseddodd Bojer y bom yn gariadus. Rhedodd cleidr ei law o dan ei waelod yn dyner synhwyrus. 'Asgwrn cefn i *rai* o'n pobl ni yn unig, Greta. Ychydig. Bydd di'n realydd. Bydd bob amser fwyafrif sy'n ddi-ffrwt.' Er mor bwylllog y dywedsai fe hyn, gallai Greta ymwybod â'r fuddugoliaeth yn ei lais am ei fod newydd orffen ei fom cynta.

'Rwyt ti wedi'i orffen e, felly.'

'Dwn i ddim. D-dw i wedi dilyn y llyfr.'

'A! Da was. Bysai'r hen Aesling, yntau hyd yn oed, yn falch dy fod wedi dilyn *llyfr*.'

6.

Yn ôl yn nhŷ Vidkun Aesling, roedd y gwleidydd Neegaard Ystbi, Ysgrifennydd Cyffredinol y Natsïaid, yn ddyfal yn ei pherswâd: 'Ymweliad cwrteisi yw hyn heddiw yn benna oll. Ein cymhelliad cynta yw rhoi gwybodaeth i chi ynghylch yr ymosodiad ar Hethlan, ac ymateb ein plaid Natsïaidd ni.'

Wedyn, aeth hi ati yn fanwl ofalus i amlinellu adeiladwaith y llywodraeth newydd i'r cwmni bach – y berthynas â'r Almaenwyr, y cydweithrediad rhwng y gwasanaeth suful a'r Blaid Natsïaidd, y rôl ganolog a oedd gan yr heddlu, a swyddogaeth gydlynol yr heddlu cudd, yr angen am sefydlu hefyd uned filwrol *gyflogedig* i Hethlanwyr ffurfio sylfaen i fyddin newydd i gydweithredu â'r heddlu suful a'r fyddin Almaenig (yn arbennig i ddynion ifainc allan-o-waith). Disgrifiodd hi sut y byddai'r orsaf radio'n cael ei defnyddio, a phwy y gellid ei benodi'n bennaeth arni, a pha fath o ddatblygiadau chwyldroadol modern a geid yn rhaglen addysg yr ysgolion a'r Prifysgolion, o dan arolygiaeth ddiwygiedig lem... 'Sefydlogrwydd yw'r nod.' Gwrandawai pob clust yno arni mewn rhyfeddod. Roedd hi wedi rhag-weld pob dim arwyddocaol, ac wedi meistrolï'r cwbl.

'Dyna'n cynllun ni.'

'Ni?' holodd Vidkun.

'Plaid Natsïaid Hethlan.'

'*Hethlan?* Faint o le sydd i beth felly mwyach dan reolaeth yr Almaen?'

'Heddiw, – lle yn y *canol*. Fe ddaeth ein hamser ni, Athro. Mae'n rhaid inni fod yn ddigonol i'r amseroedd. Er mwyn Hethlan.'

'A dych chi'n coelio fod y cynllun yma'n fanna inni wedi disgyn o'r ne?'

'Bu'r cynllun yn disgwyl amdanon ni ers tro. Ers rhai canrifoedd. Ni sy wedi dod i dderbyn yr alwad.'

'A beth, ddwedech chi, gipith bentewyn Hethlan o goelcerth hyn o ganrif, er mwyn ei rhoi hi'n dwt o fewn cynllun fel hwn i ganrif arall?'



'Wel, fel y gwelwch chi, ... *chi!*'

'Fi!' Sgrechodd e'r gair fel pe bai'n gri am gymorth. Roedd Neegaard Ystbi wedi'i syfrdanu fod yna gymaint o angerdd ar ôl yn yr hen wŷr. Gwenodd hi. 'Dw i'n ormod o Hethlannwr i ymhel â'r Almaenwyr,' meddai fe.

'Nid chi fyddai'n gorfod ymwneud â nhw. Gadewch hynny i'r biwrocratiaid. Clywch. Dŷn ni am i chi ddod gyda ni *nawr* draw i'r Tŷ Darlledu ... Mae yna beirianwyr gan Blaid Natsïaidd Hethlan eisoes wedi cipio ac yn gofalu am y lle ... Dyma'r genadwri dŷn ni am ichi'i darllen. Siarad â'r wlad am heddwch i'r dyfodol. Fel cynrychiolydd parhad.'

Tynnodd hi sgript o'i bag a'i ledu yn barchus gerbron Vidkun. Bwriodd ef olwg arno'n ddi-barch.

'Brad yw peth fel hyn, Neegaard. Cydweithrediad.'

'Gair anfanwl yw "brad",' enodd hi'n ôl. 'Term emosiynol...'

Llwybreiddiodd Vidkun draw at y cwpwrdd diod a ffidlan ychydig gyda'r poteli. 'Beth gymrwch chi?'

'Sudd buwch,' brathodd hi.

Nid hel lol oedd ei chynneddf hi. Gadawodd Vidkun y cwpwrdd diod yn amddifad felly. Roedd e bellach wedi ymgolli yn ei feddyliau.

'Peth anniddorol... hyd yn oed i ysgolhaig ... yw "brad",' meddai fe maes o law.

Ond amharod oedd Neegaard i ildio mor deimladol. Yn ei llais mwya swyddogol, trodd yn ôl at Vidkun: 'Mae yna ddau beth mae eisiau'i gwneud ynglŷn â brad. Yn gynta, ei wneud e'n ddeallol dderbynol. Dadwneud y storm.'

'A!' Gwenodd Vidkun. 'Braidd yn uchelgeisiol... Ewch yn eich blaen.'

'Gwneud y weithred yn barchedig gyda hynny, yn wir, hyd yn oed yn ddoeth...'

'Del o ddelfryd.'

'Dyna'r peth cynta, y cam cymdeithasol, y ddelwedd genedlaethol.'

'Oes rhywbeth arall yn *eilio* hynyna felly?' gwawdiodd Vidkun.

'Gwneud i bobl anghofio'u bod nhw'n fradwyr wedyn, yn ail gam.'

'A! Anghofio. Y cam seicolegol. Gwasgu'r hen beth i'r is-ymwybod. Arfer.'

'Claddu'r term. Darlledu gwladgarwch. Er mwyn achub anadl y wlad.'

'Eitha reit hefyd,' porthodd Vidkun yn ddiereidus.

'Palu'r helbulon i'r pridd. Mae'n fath o reddf i fyw. Dyna'r cwbl.'

'Ac yn drydydd?' holodd e.

'Does dim trydydd.'

'Oes, oes. Y cam moesegol. Gwybod pa ochr dych chi'n ei bradychu fwya.'

'Wrth gwrs. Rown i'n cymryd hynny'n ganiataol. Dŷn ni ar ochr ein gwlad ein hun, brad neu beidio.'

'Peidiwch â gwneud y fath sarhad byth gyda brad. Math o “fotiff” academiaidd ystyrllon yw “Brad” ym maes Themateg. Cymhelliad storiol negyddol. Mae'n perthyn i bob gwareiddiad hynafol. Ac er na dw i'n Gristion, fe fydda i'n synied bod Cristnogaeth wedi cyflwyno llawnach a dyfnach ateb i ddeall ysbryd thema Brad na dim a ddyfeisiodd dyn. Brad yw pob pechod i Gristion. Brad yn erbyn Duw. Roedd Pedr a Jwdas, y ddau, yn fradwyr. Ond roedd Adda ei hun wedi bod yn fradwr i'r cyfamod a wnaeth Duw ag e. Y tad daearol cynta, y gwrthwynebydd i Grist. A finnau, mi wn i am hyn yn bersonol: er bod pwysau atheistiaeth mor dreiddgar nes boddi y meddwl i'n daclus ddigon, mae yna air i'w gael yn Luc 22 sy'n y nghrafu i o hyd ar adeg fel heddiw. Y mrad i yn hun yw gwelediad ysbrydol a chyrrhaeddbell Crist: “Wele law yr hwn sy'n y mradychu i gyda mi ar y bwrdd.” Ofni dw i mai fi biau'r llaw goch yna heddiw os dw i'n dilyn eich moeseg chi.'

'Na, na, na. Mae'n llawer rhwyddach na hynny.'

'Sut felly?'

'Yr hyn a wnâi cyfreithiwr go ddechre yn yr amgylchiadau hyn: newid ystyr y gair *enedl*,' meddai Neegaard. 'Ewrob yw hon, Vidkun.'

'O! Felly,' atebai Vidkun yn goeg.

'Cydnabod mai Ewrob yw'n cenedl fawr bellach. Wedi'r cyfan, Ewrob yw'r cyfansawdd, y macrocosm, y cyfaddawdol, yr amhenodol, a'r amhenderfyniadol ariannol. Bydd gan Ewrob, dan warchodaeth Hitler, farchnad gyffredin gydwladol. A ffederaliaeth.'

'A phawb yn siarad Ewrobeg?' holodd e'n bryfoclyd. 'Iaith fawr gwareiddiad.'

'Maen nhw eisoes yn clebran am ddiwylliant Ewrob, am garu Ewrob, am athrylith Ewrob. Yn y bôn, er eu gwaetha nhw, maen nhw'n sefyll yn erbyn pob gwlad wahân. A pham lai? Taleithiau Unedig Ewrob dŷn ni i'r Almaenwyr,' meddai Neegaard.

'Gormod o boendod yw bywyd "lleol" efallai, a'r hen drafferth ddiflas o fyw mewn lle penodol, a bodoli'n ddiriaethol, yn gyfrifol, bob un yn ei groen cenedlaethol ei hun gerbron Duw. Gadewch inni fod yn gytûn ynghylch canoli gwrth-amrywiaeth.'

'Mae yna ddelfrydaeth o hyd mewn imperialaeth, wyddoch chi. Agor y drysau i Hitler,' meddai hi.

'Yr unffurfiaeth heb yr amrywiaeth. Mi allech chi synnu pawb a llwyddo ryw fore braf. Gwae ni.'

'Dŷn ni yn ein lle, Athro Aesling. Datganolir egwyddor ymerodraeth drwy syndecetiau. Ni'n cyfri'r cyfandir yn lleol, a Hitler yn cyfri'r lleol yn gyfandirol. Mater o bersbectif yw hi.'

Nesaodd Vidkun at y bowlen bysgod a dilyn â'i fys un pysgodyn aur yn cylchu o'r tu mewn yn seithug ac yn amyneddgar araul, gan holi'r gwydr tragywydd gaeth a chrwn a oedd hwnnw'n fath o allanfa gaeedig?

'Ewrob yw Hethlan ei hun,' parhaodd Neegaard, 'Llenyddiaeth Ewrob. Hanes Ewrob. I sefyll yn erbyn tyfiant Islâm a'r Iddewon: yr alwad anwar o'r Dwyrain Canol. Ac Ewrob fydd yr unig ateb i hwnnw. Ewrob fydd y farchnad unol fwya yn y byd.'

'Bowlen bysgod Ewrob?'

'Mae Ewrob yn real, Athro. Nid chwarae fydd hyn.'

'Ydy, ydy, yn ddigon real. Os cynhwyswch Israel ynnddi hefyd, efallai,' meddai fe'n ofalus.

Roedd hi bron â phoeri nawr: 'Ba! Israel.'

'A Gogledd America. Mae hwnnw braidd yn Ewropeaidd.'

'Nid dadl yw gwawd.'

'A De America.'

Roedd hi (serch yr ymyriadau hyn oll) o ddifri o hyd. 'Wel, pam lai?'

'A'r Haul, Gwener, Mawrth, a'r galaethau oll o fewn y cwbl... *Ewrob*. Cynhwyswch ddigon o amrywiaeth yn yr unffurfiaeth, ac fe gewch gawl braf. Amrywiaeth mewn *Undod* yw'r greadigaeth o ran natur. Undod nid unffurfiaeth, Ewrob i gyd. Mae yna rywbeth i'w ddweud o blaid y syniad cyfansoddiadol bydysawdol uchelgeisiol 'na o Ewrob. Fel athrawiaeth ac arddull yn y pen draw.' Coegai fe'r cwbl.

'Beth bynnag a ddywedwch, mi ellid derbyn “uno” fel rhinwedd. Ei gymryd yn ganiataol. Ar ôl cyrraedd pwynt arbennig yn y proses o boblogeiddio “brad”, fe fydd pawb – heb eithriad –,' meddai hi.

'Heb eithriad?' meddai fe.

'Bron heb eithriad – yn barod – i fod –, 'petrusodd hi.

'Yn Ewropeaid. O! Hethlan hapus, unol!' Roedd gwawd ei lais yn melltennu; ond doedd a wnelo hi ddim oll â phlentyneiddiwch gwawd.

'Byddwn. Fe fyddwn yn un,' meddai hi.

'Gallwn farchnata'r “brad”, does dim dwywaith; ac elwa. Allforio, nes bod pawb yn ei ddymuno ledled y bydysawd.'

'Pam lai? Bydd y papurau i gyd yn ein dwylo nawr, cyn pen fawr o dro,' meddai hi. 'Drwy drethu.'

'Marchnata “brad” ledled y cyfandir. Allforio, pam lai?' meddai Vidkun. 'Fe allwn beri i bobl y byd ddymuno brad: perswâd... Purion. Math o feddfaen ar

ddeallusrwydd fu papur newydd erioed. Tabwrdd gwag erioed yw llywodraethu gwlad; a newyddiadurwyr sy'n ei guro fe. Codwn gerflun i'n bradwr cynta.'

'Ystyr democratiaeth yn y Gorllewin,' meddai Neegaard yn hunan-feddiannol, 'yw rheolaeth gan dri neu bedwar papur newydd, a'r rheini yn nwylo masnachwyr, hysbysebwyr, a chyfalafwyr ar y dde. Trefniant twt hefyd yw i'r bancwyr. Bydd y rheini gyda ni.' Iddi hi roedd bywyd go iawn yn syml, yn arbennig wrth drin gwerin wancus neu newynog.

'Dw i'n barod i gyfadde bod dewis "brad" yn ymddangos yn anochel. Mewn pechod does dim dianc rhag y dyn-ganolog. Ar hyn o bryd,' meddai fe, 'mentro sy raid, heb ddewis. Trueni fod "brad" yn air bach mor llwythog o emosiwn. Mae hi bron fel gêm.'

'Beth wnaiff y call yn gallach te, Athro?'

## 7.

Chwarae â'i ffa-pob, yn reit jôcos, a wnâi Bojer Dunn, o flaen sêt wag, wedi mynd allan i ginio mewn coffe lleol i gyfarfod ag un o genedlaetholwyr mwya gwrth-imperialaidd yr ardal. Rhoddai ambell fforciad yn ei geg. Ond gan amla, eu symud o amgylch y plât, eu codi a'u doddi'n ôl, eu gwrthio ychydig, ac yna edrych i fyny tua'r ffordd i weld a oedd perchen y sêt wag gyferbyn ag e yn y coffe mewn unman yn y golwg.

Prin ei fod wedi bwyta dim o'i bryd pan gyrhaeddodd Greta Bremer yn annisgwyl, ar ôl iddi gael gafael ar damaid o newyddion. Llefaru mewn sillafau mygedig a wnâi Greta fel y bydd gangsteri yn y ffilmiau. 'Elli di ddim o'i wneud e.'

'B-beth wyt ti'n feddwl?'

'Maen nhw wedi cyhoeddi'i enw.'

'Pwy? Pam lai?'

'Ti'n cofio'r hanes ddwedaist ti wrtho-i'n gyfrinachol?'

'Am b-beth?'

'Am dy dad a'th fam yn gwahanu. Pan wrthodon nhw dalu dy ffis di i fynd i'r Brifysgol.'

'Wel?'

'A hynny cyn i'r awdurdodau roi grant i ti. A thithau heb gefnogaeth ariannol gartre.'

'Wrth gwrs mod i'n cofio. Wel?'

'Rwyt ti'n cofio beth wnaeth Vidkun. Ie, Vidkun Aesling, cofia.'

'Ydw, wrth gwrs, cofia-i, b-bob munud. Fe fynnodd y boi, chwarae teg iddo...'

'Yn gwbl *gyfrinachol*, on'd do..., 'ebychai hi'n ddifri, er holl gwirciau Bojer.

'Do. Rhag y byddai rhieni anystywallt i fyfyrwyr eraill yn p-peidio â helpu'u plant, ac iddo fe gael ei foddi dan raeadr o brotest ... roedd yn rhaid i'r peth fod yn gyfrinachol...'

Yn awr roedd yn dechrau gwawrio arno beth roedd hi'n anelu ato, 'yn ffis i gynt i'r Brifysgol...'

'Do, ffis.'

'Nid fe yw'r Arlywydd does bosib.'

'A ga-i gyflwyno iti felly, ein Harlywydd Newydd,' cyhoeddai Greta'n chwareus.

Oedodd Bojer. 'Na! Byth!' Safodd ar ei draed. 'Mae'n ormod o academydd. Byddai'n anobeithiol. Allen nhw ddim gwneud hyn i fi. Nac iddo fe.'

'Yr Athro Vidkun Aesling, neb llai. Yr Arlywydd swyddogol ar Hethlan heddiw, yn symbol wrth gwrs fel sy'n gweddu i'w fawrhydi, o frad daionus.'

'Vidkun Aesling! Mae hyn yn newid y darlun i gyd.' Eisteddodd hi drachefn.

'Elli di ddim o'i wneud e mwyach.'

'Yr hen Vidkun cysglyd. Yr hen wladgarwr ei hun. Wel! Wel!'

'Mae'n rhaid disgwyl eto, Bojer. Chwilio am symbol arall i'w ddiennyddio heblaw'r Arlywydd. Cael rhywun arall yn o fuan i'w ladd. Ond mae hwn yn awr allan ohoni...'

'Na! Nid yn erbyn p-pobl y buon ni,' meddai fe'n hunan-gysurlon anghysurus. 'Nid yn erbyn un person. Nid yn erbyn bod dynol chwaith. C-cynrychiolydd haniaethol yw e. Egwyddor oedd ein busnes ni o'r cychwyn. Doedd e ddim yn ei esgusodi'i hun.'

'Ond does dim egwyddorion heb bobl.'

'Dw i am fynd yn y mlaen. Pan fydda-i'n lladd, nid Vidkun Aesling gaiff farw, ond Natsïaeth... O! Sut galla-i wneud hyn?' *Na* oedd yr ateb na allai'i gladdu.

'Paid â siarad dwli. Elli di ddim o'i wneud e o gwbl,' heriodd Greta'n sych. 'Byddet ti'n annynol.'

'Mae hi mor rhwydd dod o hyd i esgusodion i osgoi gweithred eithafol. Mae'n rhaid codi uwchlaw pob esgus. Mi alla-i ymosod ar Natsïaeth, a meddwl *hynny*. Does dim gwrthryfel heb aberth gwaed y dyddiau hyn.' Ond byddai fe'n bradychu'i ddyfnoliaeth, a gwyddai hynny. Sut y gallai ddifa'i gymwynaswr penna?

'Byddet ti'n aberthu anrhydedd yr un pryd.'

'Eto'n cadw unplygrwydd.'

'Beth wyt ti'n ddweud, Bojer? Elli di ddim o'i wneud e: dy ffis! Y caredigrwydd!'

'G-galla.' Ond gwyddai na allai'i wneud.

'Paid â bod yn wirion. Does gen ti ddim parch.' Roedd Greta'n cefnogi enciliad.

'Nid cysur ein teimladau personol ni sy'n cyfri,' meddai fe.

'Alla i ddim credu hyn. Nid ti sy'n siarad,' meddai hi.

'Galla. Mi fynna-i amddiffyn Hethlan.'

'Amddiffyn! Nid amddiffyn yw ymosod.'

'Ie! Nid bod yn annynol yw hyn. Ond bod yn oerwaed fel sy'n gweddu mewn trais beth bynnag. Pe baen *nhw* wedi dewis Arlywydd arall, bysai anhawster gyda

hwinnw wedyn. Symbol yw e, pwy bynnag yw e'i hun.'

'Rwyd ti'n siarad yn wallgo. Pobl yw Hethlan.'

'Yn y meddwl i, dw i eisoes wedi'i wneud e. Dw i'n mynd ymlaen.'

'Na! Pe baet ti am eiliad hyd yn oed yn ystyried gwneud y fath beth, allwn ni ddim dy gefnogi di mwyach.'

'Ychydig iawn o stormydd gawson ni erioed yn ein carwriaeth, Greta!'

'Allwn i ddim dy garu di.'

'Wyt ti'n sylweddoli, Greta, beth rwyd ti'n ddweud. Holli perthynas! Gwahanu! Fi neu Vidkun Aesling,' heriai fe hi. 'Cenedlaetholwyr yn ni. Ti a fi.'

'Dyma'r diwedd. Allwn i ddim aros gyda thi. Nid ti fyddet ti.'

'Paid â dweud pethau fel hyn ar frys.'

'Byddi'n di'n dilyn dy lwybr dy hun.' Trodd hi at y drws.

'Mae'n rhaid i mi'i wneud e.'

'Dyna dy ddewis.' Nid dicter oedd yn ei llygaid clwyfus. 'Dyna ddiwedd hyll ein perthynas hardd te. Nid ystyfnigrwydd yn unig fydd yn ein gwahanu ni, Bojer. Ond cariad, cariad at fywyd moesol.'

Ond ystyfnigrwydd a'i meddiannai yntau'n awr: 'Mae'n rhaid ei wneud e ar frys.'

Cododd hi a symud yn ara tua drws y caffe. 'Ffarwél te, Bojer Dunn.'

'Paid, G-greta, â bod yn wirion.'

Lled-drodd hi yn ôl tuag ato am ennyd: 'Down i ddim yn d'adnabod di.' Ymadawodd, a'r funud yna, cyrhaeddodd y gŵr a ddisgwyliasai Bojer.

## 8.

Yn astudfa Vidkun Aesling gellid tybied mai rhwng yr Athro a'i gynfyfyrwreg (ond Ysgrifennydd Cyffredinol y Natsïaid yn awr), Neegaard Ystbi, yr oedd tyndra. Ond yr oedd yna ferw pwysicach ar gerdded dan yr wyneb, er na wyddent beth ydoedd.



'Does dim pellach i'w wneud ond cyhoeddi'r apwyntiad, a gosod gerbron y genedl ar y radio nod achubol y wladwriaeth yn ystod yr argyfwng.'

Byddai gwyliedydd amheronol yn casglu'n dalog mai gwraig swil arall ymhlith y gwragedd yn unig oedd Maria Aesling, ac wnâi hi ddim namyn eistedd yn llonydd ddiymyrraeth yno wrth law. Eithr gwyliedydd clòs pob crych ar wyneb ei gŵr oedd hi, yn glosiach o lawer nag oedd Neegaard. Ac yna, ailsyllai ar bob symudiad cyhyrog a phob symudiad llygadog ar wyneb Neegaard hithau. Gwelai hi elyn personol. Gwelai berson o blaned arall.

Ar ei sefyll, a chan botsian o gwmpas y bowlen bysgod o hyd, ceisiai Vidkun ymddangos yn bwyllog: 'Erbyn pryd y mae'n rhaid penderfynu?'

'Mewn dwy funud.'

'Dipyn yn anturus i ysgolhaig. Deng mlynedd yw hyd arferol y mhenderfyniadau academaidd i,' meddai fe.

'Dych chi'n ddyn hefyd, credu neu beidio. Fe fyddai deng mlynedd braidd yn foethus,' meddai Neegaard.

'Pam y carlam?'

'Mae apêl radio'r Brenin yn golygu fod yna drefn neilltuedig yn cael ei sefydlu a ffrynt gwrthwynebu'n cael ei ffurfio, nid yn unig gan ein byddin ni, eithr gan y lluoedd suful hefyd.'

'Eisoes? Ffyliaid!'

'Oes. Mi fyddwn ni'n ymuno, os gweithredwn ni, â chalonnau cudd Ewrob o blaid Natsïaeth. Ond mae yna garfanau gwirfoddol gwrthwynebus o ddinasyddion ymhobman yn cael eu ffurfio ledled Hethlan, a rhagor o gyflafan.'

'Hunanladdwyr hurt.'

Eisteddodd Vidkun yn fud. Roedd popeth yn symud yn rhy gyflym i academydd o'i fath e. Peth i lanciau difeddwl ac i bobl broffesiynol uchelgeisiol oedd gwleidyddiaeth, erbyn yr etholiad nesa, nid i efrydydd diwyd mewn maes traddodiadol

cymhleth. I Vidkun, erbyn hyn, arwydd o bobl flêr, lancaidd, ac arwynebol oedd rhuthro i ateb problem.

Dilynai Neegaard e'n ôl i ffau ei synfyfyrdod: 'dych chi'n gwybod beth mae hynny'n ei olygu?'

'Bryswyr mân, mynwent fras.'

Cododd e'n anhapus a chamu draw'n ofalus dros y frawddeg honno at y ffenestr.

Dewisodd e brynu'r hen dŷ hwn chwarter canrif ynghynt yn syml oherwydd yr olygfa o'r ffenestr hon. Gwelid y goedwig naturiol a'i dail amryliw yn wisg drom nawr am gefnau'r bryniau. A'r bryniau'n ymwithio'n arafaid amryliw i fyny acw, y naill yn uwch na'r llall, i mewn i'r pellter, pob haenen o'r olygfa'n frownach ac yn gyfoethacach na'i gilydd, fel ped awgrymen nhw fod treiddio ymhellach i'r annwyl Hethlan yn golygu, wrth raid, gam llawnach i mewn i'r mwynhad synhwyrus hwn. Hethlan annwyl!

'Os gallwn ni,' meddai Neegaard, 'fe ddylen ni arbed ein henwlad rhag cigyddiaeth annynol.'

'Os,' adleisiodd e, heb droi'n ôl. ... ' Mae'n rhaid inni ystyried, ac ail-ystyried, a thrydydd-ystyried. Yna, fe allwn sicrhau rhyw fath o berthynas gall rhyngon ni a Hitler... Maria?'

Amneidiodd tuag at ei wraig. Ond dymuniad Neegaard oedd iddyn nhw anwybyddu honno: 'Yn union.'

'Ga i siarad â ngwraig – â Maria – yn gynta?' meddai Vidkun.

'Na chewch,' brathodd Neegaard.

Ond eisteddodd Vidkun. Braidd yn amharchedig ddihidio oedd e ynghylch taerineb ei gyn-ddisgybl. 'Maria,' meddai'n fwyn wrth ei wraig.

'Beth?' atebodd honno, yn ddifrwdfrydedd... 'Pwy yw hon?' ychwanegodd hi.

O'r diwedd, yn y diffyg brwdfrydedd hwnnw, roedd y ddau wedi ailffurfio rhyw fath o berthynas. Gan anwybyddu pawb arall yn yr ystafell, trodd Vidkun ei ben yn gyfeiriol benodol nawr i dremu'n ddifri garedig i lygaid ei wraig.

'Beth...?' sibrydodd hi ymhellach: 'Beth yw ystyr "Marïa" i ti?'

'Gwranda'n ofalus... y nghariad i.' Doedd e ddim am wamalu mwyach. 'Dw i am fynd draw i'r Tŷ Darlledu nawr i weithredu fel dyn cyfoes sy o blaid heddwch a pharhad er mwyn diogelu bywyd Hethlan.'

'Ac fel Hethlannwr dy hun,' ymyrrodd Neegaard.

Ond i Marïa bellach, – am ychydig o funudau o leia, – doedd honno ddim yn bod. Ei gŵr hi'n unig a gâi fodoli. 'Beth rwyt ti'n ddweud ddyn?'

'Am un tro yn y mywyd dw i'n mynd i weithredu. Dw i am godi'n uwch nag anymarferoldeb ysgolheictod.'

'Beth yw dy feddwl di?'

Torrwyd ar eu traws. 'Er mwyn Hethlan,' ymyrrodd Neegaard yn gras drachefn.

Ond nid 'byw' pobl go iawn oedd hyn i Marïa. Dywedodd hi wrth ei gŵr; 'ac rwyt ti'n synied y bydd darllen llên gwerin a rheoli'r heddlu'n dygymod â'i gilydd yn reit ddel o hyn ymlaen? Pa fath o beth yw hyn? Beth yw dy ddyfodol di, Vidkun?'

'Gweithred drugarog yw hi,' ymyrrodd Neegaard eto. 'Dyna'r cwbl.'

'Mae'n weithred sy'n berthnasol *heddiw*,' meddai Vidkun.

'Nid dyna'r priod safle i ŵr synfyfyrgar o'th siort di ...' heriodd Marïa. 'Nid ar flaen y fyddin? Yn symbol? Yn dal dryll? Yn saliwtio? Yn chwarae sowldiwr?' Disgynnodd distawrwydd arnyn nhw i gyd. Ar Marïa. Ar Neegaard. Pawb, gyda'r gwrywod yn y cefndir hefyd. Nid un oedd Harald Knudsen i geisio cyflwyno'i ddadleuon ar draws rhyw ymddiddan fel hyn, er cymaint gwell oedden nhw nag undim a glywai gan ei feddwl ei hun. Fynnai Grieg Garborg chwaith ddim bod yn rhan o'r sgwrs; ac eto, roedd e rywfodd yn dechrau colli'i amynedd yn wyneb academeidd-dra diberfedd.

'Yr academydd gwleidyddol!' gwawdiodd Marïa am ei gŵr. 'Fe yw'r Mab Darogan, felly: Marchog y llyfryddiaethau, cadfridog y mynegeion. Mater o drefn gategoriol yw'r cwbl.'

'Llais y bobl yw e. Dyna'r unig reswm,' haerau Garborg. "Bradwr" achubol.'

'Dwyt ti, nghariad i,' meddai Maria wrth Vidkun, 'ddim yn ddigon anniddorol i fod yn wleidydd.'

'Mi ddo-i.'

'Na: rwyd ti'n methu'n lân â meddwl mewn sloganau.'

'Mae'n grefft a ddaw o'i meithrin.'

'Ond fe holi di ormod o gwestiynau.'

'Gêm y gŵr academaidd yw hynny hefyd.'

Nid dyma'r math o ddadl wamal nawr yr oedd hi am ei barhau'n ddiderfyn ynddi. Roedd e bellach wedi ymrwymo i'w dynged. A doedd dim oll y gallai hi'i ddweud na'i wneud.

'Un ffling ymarferol efallai... Na, Maria, nid bod yn wleidydd yw mwriad. Ond mae'n bosib fod yna un peth pitw pragmatig y galla-i wneud heddiw, am un tro byr, yn well na neb arall o bosib, yn deyrnged gen i i draddodiad byw Hethlan a heddwch yfory.'

'Paid â'th dwyllo dy hun.'

'Un peth *bach* i mi a all fod yn beth gweddol o faint i ngwlad... Dwn i ddim.'

'A gwneud *beth*, os gweli di'n dda?'

'Erfyn am heddwch. Pontio rhwng academyddion dwy wlad. Does dim oll o'i le yn sylfaenol ar gynnig felly, oes 'na?' meddai fe mor wladweinyddol ag y medrai.

'Heddwch lle nad oes heddwch,' atebai'i wraig.

'Ond hunanladdiad fyddai gwrthwynebu'r Almaen fel arall.'

'Dw i'n gymysglyd i gyd, Vidkun. Bysai llywodraeth *gyfreithlon* Hethlan a'r werin-bobl *am* ei gwrthwynebu hi. Mae hynny'n reddfol ac yn ddigon i mi. Gad iddi.'

\*

\*

\*

Bu Neegaard yn gwylid y ddau yn amyneddgar ers tro, ond canfyddai nad oedd dim dihangfa o'r llwybr dreiniog a ddilynen nhw. Realydd oedd hi, ac o'r herwydd symud ymlaen gam a cham oedd ei hawydd heb ond cydnabyddiaeth gwrtais o hawl gan neb i bendroni dim: 'Dyw llywodraeth gyfreithlon Hethlan ddim yn bod ar hyn o bryd.'

'Mae'r peth sy ddim yn bod,' brathodd Mariā'n ôl ati, 'yn mynd i'w gwrthwynebu hi hyd yr eitha. Dyna fraint cenedl.'

'Mae'r cwbl er mwyn Hethlan,' meddai Vidkun.

'Dyna'r gwladgarwch eitha,' mynnodd Neegaard.

Berwodd atgasedd Mariā tuag ati: 'Ewch o' ma.'

'Bydd Vidkun Aesling yn arwain llywodraeth dros dro,' atebodd Neegaard, 'nes bod hen hwlc ein gwlad ni'n cyrraedd y porthladd, a'r rhaffau wedi'u clymu'n ddechau.'

'Ewch o' ma fenyw,' brathodd Mariā.

'Gwaredwr fydd e,' taerodd Neegaard. 'Arlywydd i'n gwlad yn ei chyfwng dwysa.'

'Ai gweddillion Natsïaid dof fydd dy lywodraeth di felly, Vidkun?' holodd Mariā.

'Fe all unrhyw un fod yn gapten ar long,' meddai Neegaard, 'pan na fydd y môr yn ei morio hi.'

'Ond dim ond Natsïaid bradwrus Hethlan heddiw,' stiliodd Mariā drachefn, 'a all ddarparu llywodraeth "gyfan"?''

'Mi ddaw 'na ambell bysgodyn arall,' meddai Neegaard yn obeithiol.

'Weli di, Vidkun: nid ti sy'n ateb. Eisoes nid ti biau dy *enau* dy hun. Wedi colli dy enau, aiff dy glustiau cyn bo hir. D'ymennydd wedyn... Pwy yw hon sy'n dy gipio di? Welais i erioed moni o'r blaen.'

'Hen fyfyrwreg hen i fi yw hi, Mariā... Neegaard Ystbi. Mae hi hefyd yn digwydd bod yn Ysgrifennydd Cenedlaethol i Blaid Natsïaid Hethlan.'

'A'th fyfyrwreg di sy'n rheoli dy fywyd di bellach?' heriodd Mariā.

'Tynged pob athro.'

'Mae hi'n wenwyn. Negydd yw hi. D'adael di yw'r unig ddewis rwy'ti'n ei adael ifi bellach.'

'Y ngwraig wyt ti, yn angor i, Marïa. Mae person felly'n mynd y tu hwnt i wleidyddiaeth, a'r tu hwnt i ysgolheictod.'

Trodd Marïa. Ffyrnigodd rhywbeth y tu mewn iddi. Dechreuodd hi ei ffusto'n wanllyd, ac yn drwsgl. 'Chei di ddim.' Gorddiai'i hergydion yn lletchwith yn erbyn ei fryst. 'I ddistryw, dyna lle mae hi'n mynd â thi.' Taflai'i holl enaid yn ei erbyn e nawr. O! Na allai'i gyrraedd e. 'Absenoldeb, dyna reddf y Neegaard hon, Vidkun. Y llwydni sy'n lladd... Uffern! Uffern!' Suddodd hi i'w chadair wedi ymlâdd, a'r clustdlysau chwys yn disgleirio yn y goleuni pŵl.

'Dw i wedi cael yn argyhoeddi, Marïa.' Swniai fe'n bwysig braidd, ac roedd hynny ymhell o'i fwriad.

'Rwy'ti heddiw, Vidkun, yn llofnodi gorchymyn dy ddiennyddiad dy hun: yr Ysgolhaig a droes yn Wleidydd!' meddai hi'n galed.

'Lol botes!' brathodd Neegaard.

'Dw i,' meddai Marïa gan droi arni, 'ddim yn orgyfarwydd â'r priod-ddull Hethlanneg hwnnw.'

'Mae hi yn llygad ei lle,' ategodd Vidkun ei wraig, gan droi ar Neegaard.

'Sothach oll,' meddai Neegaard wedyn.

'Os ei di ...' meddai Marïa gan fygwth ei gŵr, a chan godi o'i sedd.

'Marïa annwyl.'

'Paid di â'm "hanwylo" i, yn enwedig o flaen hon.'

'Dowch, Neegaard... fydda i ddim yn hir, Marïa.' Ymbaratôï Vidkun ar gyfer ymadael.

'Pa mor hir yw darn o gortyn?' meddai Marïa gan sefyll rhyngddo a'r drws. 'Ymadael â fi rwy'ti'n wneud nawr, Vidkun. Cefnu ar Hethlan fel dŷn ni'n ei hadnabod

hi. Sathru ar ei chariad. Darfod wnei di.'

Daeth Vidkun ati'n ara, ac yn dyner iawn, dododd un llaw ar ei braich heb brin gydio ynddi, a'i thywys yn ysgafn ac yn gydymdeimladus i'r naill ochr, a'i chusanu.

9.

Drwy sbienddrych y syllai Bojer Dunn tuag at bob ffenest yn ei thro.

Ac yntau'n hen fyfyrwr a ymhyfrydai yn hanes arwyr ei wlad, cymysg iawn oedd ei deimladau heddiw. Ond diamynedd oedd ei benderfyniad hefyd: roedd e o leia'n gweithredu. Gwenai ynddo'i hun yn arwrol nerfus.

Roedd arno ofn y pennawd ar fordyn o flaen y tŷ mawreddog hwn: 'Tŷ Darlledu Canolog Hethlan'. Dyma hen symbol awdurdodol o lais y wlad.

Nid ofni argyhoeddiadau Vidkun Aesling, yn sicr. Roedd cynefindra oriau o seminarau wedi gwneud Bojer yn orhyderus ynghylch y diniweidrwydd heulog hwnnw nad oedd nac yn boliticaidd nac yn gyfreithiol arwyddocaol. Lled hoffter sentimental a feddalai Bojer tuag at Vidkun, wrth gwrs, ond trech oedd ei eithafrwydd egwyddorol ei hun. Gweithred yn erbyn hen gymwynaswr annwyl fyddai'r prawf arno fe. Nid ofn Neegaard Ystbi yn sicr, na Harald Knudsen, na Grieg Gerborg chwaith, er eu bod ill tri hefyd yn bresennol gyda'i gilydd ar yr achlysur hwn yn y Tŷ Darlledu ac yn gefn i Vidkun, nid dyna a darfai ar feddwl Bojer. Roedd yn lled gyfarwydd â'u hwynebau oll, o weld eu lluniau o bryd i'w gilydd yn y papurau diweddar. Pwysigion pothell bob un.

Ac nid ofn yr heddlu hwythau. Roedd y goresgyniad Almaenig wedi peri bod rhai o'r plismyn mwya effeithiol, effro a thrwyadl wedi llithrig ymadael â'r llu hwnnw eisoes, ac wedi toddi i mewn i'r cefndir llwyd. Na: ei ofni ei hun a wnâi Bojer, ac ofni'r ofn ynghylch agosrwydd yr adeilad y funud yna. Mawdra'r lle, miniogrwydd y corneli, amhersonolrwydd y ffenestri a'r simneiau a'r to. Ofn hanes hefyd a'i gyfrifoldeb e yn yr hanes hwnnw. Ac ofni dicter Greta Bremer roedd e heblaw hynny. Roedd ffaith y lle a'r achlysur anferth i Bojer fel rhyw furgyn anferth cennog ynghanol y coed yn chwilio dwrio yn ei deimladau. Ciliai'i ben y mymryn lleia i mewn i'w wegil wrth iddo weld yr adeilad yn ddisymud ac yn ysgwyddo ddisgwyl amdano yn oerfel y bore. Ofni roedd yr hyn roedd yr holl achlysur yn ei arwyddocáu. Doedd y bom bach a oedd ganddo ddim

yn fawr o beth. Digion oedd (yn ôl y cyfarwyddiadau yn y llyfr) i niweidio ychydig, digon i ddychryn. A digon i fod yn symbol i'r wlad o'i gwmpas fod ieuenctid Hethlan ar gael o hyd. Gwyliai Bojer drwy'r sbienddrych, neu fe wyliai darnau o'i wyneb (rhwng y llwyni), bob peth a oedd yn digwydd acw. Yn y dreif, gydag ychydig o geir bach, safai un car mawr yn neilltuedig wrth yr ochr. Hwn oedd yr un.

Amaturaidd a dibrofiad o ddiniwed oedd y wyliaidwriaeth gan y porthorion yno ac un giard o'r tu arall. Closiai Bojer yn ofalus at ffenest fach yn y wal y tu ôl i'r car. Y tu mewn i'r Tÿ, gwelai drwy un o'r ffenestri fel y codai Vidkun Aesling o'r meic, ac ar ddiwedd ei eiriau cryno a dethol, symudai Neegaard Ystbi i'w longyfarch e. Yn llaw Bojer y tu allan roedd y bom yn oer. Gwyliai fe Vidkun a Neegaard a'r ystafell oll ynghyd â Harald Knudsen a Grieg Garborg y tu ôl iddyn nhw. Symudai a phlygai Bojer yn llechwraidd o'i safle neilltuedig i osod y bom yn gyflym o dan ran ôl y car.

Clywai y giard yn symud ar bwys drws y Tÿ Darlledu wrth i hwnnw sylwi fod Vidkun a'i gwmni yn dechrau cerdded ar hyd y coridôr hir allan tuag at y porth. Llechai Bojer, ac ymbwyllo'n synhwyrol am ennyd heb symud. Codai'i ben, a sylweddolai fod y giard yn ddiotal a heb sylwi arno fe o hyd, a phlygai yn ôl drachefn er mwyn gwthio'r bom ymhellach o'r golwg y tu blaen i olwyn cefn y car. Doedd Vidkun a'i gwmni ddim wedi cyrraedd yr allanfa eto, a llithrai Bojer yn ôl i'r llwyni. Roedd wedi llwyddo i osod y bom. Roedd yn crynu drosto. Bellach, roedd yr Arlywydd newydd gyrraedd drws ffrynt yr adeilad. Daeth drwyddo, a sefyll ar ben y grisiau carreg i sbio ar y coed. Edrychai yn y fan yna bron fel un a oruchwyliai'i deyrnas newydd – Arglwydd ar Hethlan i gyd. Diolch fod y dechrau drosodd. Ciliai Bojer yn awr ymhellach yn ôl er mwyn gwylid yr effaith. Roedd Vidkun bron yn barod i ddisgyn ac un droed oediog yn hofran uwchben y gris uchaf ond un. Gwyliai Bojer ei ysglyfaeth. Ond cyn i Vidkun ddodi un cam yn nes, agorodd ei yrrwr ddrws y car, yr oedd bwlyn y drws hwnnw'n anystwyth, fe'i tynnodd yn galed, siglai'r car ychydig, a ffrwydrodd y bom. Ar unwaith gwthiai Garborg ei bennaeth, yr Arlywydd, yn ôl o'r drws. Ceisiodd Harald Knudsen ei amddiffyn yno. Ond doedd dim angen. Doedd neb ond y gyrrwr wedi cael niwed.

Cwrcydai pawb arall fel pe baen nhw'n ofni ffrwydrad arall. Ond ddôï ddim. Roedd y cwbl yn fethiant. Ffodd Bojer nerth ei sodlau o'r lle heb i neb ei weld.



Gartre yn ei fflat hi dychrynodd Greta wrth glywed y pwnio ffyrnig ar ei drws.  
Wedi petruso ennyd, rhuthrodd i'w agor.

Hyrddiodd Bojer heibio iddi.

'Ti Bojer, paid â dod yma.'

'B-beth arall?' atal-ddwedodd e.

'Fe ddwedais i o'r blaen. Dw i wedi gorffen cyboli gyda thi.'

'Glywaist ti beth ddigwyddodd?'

'Na ddo, beth?' holodd hi.

'Maen nhw wedi mynd i chwilio yn yn fflat i.'

'Pam? Beth sy wedi digwydd? Dwyt ti ddim...'

'Na ddo,' meddai fe'n bendant.

'Beth sy te?'

'Methiant.'

'Rwyt ti'n crynu.'

'Wnei di 'nghuddio i?'

'Beth wnest ti?' holodd hi eto.

'Methu. Troi'r chwarae'n chwerw, dyna'r cwbl. Wnei di nghuddio i?'

'Na wna. Dw i wedi'i ddweud wrthot ti.'

'Chwythais i g-gar Aesling.'

Oerodd hi. 'Na! Ei ladd e? Yn hen athro annwyl i? Ei ladd!'

'Na ddo. Mi laddais i'r car. Mae'r llall yn dal i redeg, ysywaeth.'

'Diolch i Dduw!'

'Ga i loches gen ti? Mae'n bosib mod wedi niweidio'r gyrrwr druan.'

'Rwyt ti'n ffŵl llipa, Bojer.'

'D-dw i'n ffoadur o leia.'

'Yn blentyn dwl. Yn amatur wrth fomio, drwy drugaredd. Ac yn fwy byth o fethiant pe baet ti wedi llwyddo.'

'Ga i gartre?'

'Bydd pawb ar dy ôl di nawr.'

'Mae un arall eisoes wedi 'nala i.'

'Pwy?'

'B-braw.'

'A chywilydd gobeithio.'

Plentyn dwl oedd e. Plentyn bach dwl. Gwryw nodweddiadol. Gwthiodd Greta raeadr o dosturi tuag at Bojer i fyny drwy'i chorff. Anghofiodd Greta bob gwrthdrawiad a fuasai rhyngddyn nhw. Closiodd hi ato. Cofleidiodd hi fe'n anghymedrol. A gwingodd hi mewn dagrau yr un pryd. Doedd neb am gyfri'r nifer o ddagrau yn ei gwddf na'r rhai a oedd yn tywallt o glwyfau'r gwynt. Plant bach mewn ofn annealladwy oedd y ddau. Ond oherwydd ei ffynnon ddiagramgyffred hi o hoffter tuag ato, mi fynnai hithau beidio â bod yn gyfeilles tywydd teg iddo'n unig. Fe'i coleddodd e.

11.

Roedd Bojer yn saff. Roedd Vidkun yn saff. Ac roedd Hethlan hithau'n rhyw fath o saff am ychydig o oriau.

I mewn i'r awyrgylch, am ychydig, symudodd bwlch i arafu'r meddwl i bawb ledled y deyrnas. Bu'r holl wlad yn dawel am ennyd. Roedd yna ofn newydd, bid siŵr: arhosai braw cymedrol yn llond y lle. Ond o'r braidd bod dim oll wedi digwydd.

Bellach, o gylch cartre swyddogol yr Arlywydd, yn rhan o'r tywydd hydrefol cymedrol, syrthiai gwryfodod y coed fesul ceiniog goeg am glustiau'r Arlywydd Vidkun Aesling a Neegaard Ystbi, ei hen fyfyrwraig ac Ysgrifennydd y Natsïaid, wrth iddyn nhw ymlwybro i lawr am dro drwy drysorfa'r allt yn awr y tu ôl i blasty'r Arlywydd y

bore hwn wedi'r ffwdan ffôl ar ôl y darllediad. Ond mor daeog o hardd oedd y cwmp dail i gyd, mor synhwyrus o oludog! Roedd hydref yn cael ei gorfflogi ar domen o fachlud sgarlad, gwyn, ac arian, a oedd yn ffrwydrad hefyd o galon drist.

'Roedd y ffigurau gwrandawriad a'r darllediad yn well na'n haeddiant i, yn ôl y sôn,' cyfaddefodd Vidkun wrth Neegaard wrth iddyn nhw rodianna ar hyd y llwybr gwledig coediog ychydig uwchben plasty swyddogol yr Arlywydd.

'Roedd yn well na'r disgwyl,' cydnabu hi.

'Gêm felly, debyg, yw gwleidyddiaeth. Ychydig o bobl yn cipio'r label "pŵer" ac yn ymddwyn fel pe baen nhw'n ben.'

'A phen ydyn nhw.'

'Ac mae pawb arall – o bell fel petai – yn dod yn aelodau iddo... i'r pen hwnnw, "pŵer"... am ei fod yn addo diogelwch.'

'Mae gwneud hyn yn *drefn* yn bwysig. Mae pobl yn hiraethu amdani. Y drefn, nid y bobl, yw'r awdurdod.'

'Sgeptig nerfus yw Maria, wrth gwrs,' meddai fe.

'Dim ond Marïa? Na: mae yna bobl eraill, heblaw Marïa, y mae angen eu hennill nhw... Y cam nesa – ymwarded â'r pleidiau yn y senedd, gwahardd streiciau, symleiddio.'

'Fe dybiwch chi y bydd yna ben draw i beth felly.'

'O! gwn ... cytundeb! Mae yna hiraeth ar bobl am osgoi ffrwgwd.'

'Unbennaeth naïf mewn trefn farw,' sibrydodd e'n galed. 'Dim dadlau. A dyna yw diwedd trefn fyw, mae'n siŵr.'

'Dyna un dehongliad.' Roedd y ddau'n ansicr.

Ymatal wnaeth y ddau am ennyd. Fe synhwyrarai Neegaard fod gwatwar Vidkun a'i faetio a'i amheuon cyfleus yn ymwasgaru. Syllai hi'n daer arno'n awr, ac anesmwythodd e o'r herwydd. 'Clywch, Neegaard: man a man ifi ddweud y gwirionedd fel dw i'n ei weld e. Nid fi, Neegaard, sy'n taro i'r swydd hon. Fe alla i redeg ambell ras. Ond hon, ...na. Mae'n ras rhy hir. Does 'da fi ddim o'r sgyfaint. Fe arhosa-i ychydig o

fisoedd. Ond yna'n ôl at y sagâu. Fe gymerais i eisoes ormod o ran yn y peth arall 'ma. Llenwi bwlch brys efallai. Ac yna, tewi sy orau. A rhoi cyfle i rywun mwy gweddus.'

'Dych chi'n rhy glustdenau. Mae hynny'n rhinwedd ddynol, wrth gwrs.'

'Gormod yw digon. Dw i'n greadur hollol anaddas.'

'A'r Achos? Yr Achos sy y tu mewn i ni oll?'

'Dw i'n rhy hen i chwifio baner; nac i weinyddu dros dro. Fe fu'r dadleuon cychwynnol yn burion, wrth gwrs. Pleidiol dw i ... i'r dosbarth canol yn erbyn undebau'r gweithwyr. Ydw. Ac o blaid y Werin yn erbyn y dosbarth proletaraidd. Ond...'

'Yr Achos. Yr Achos sy'n sylfaenol mewn argyfwng.'

'Mae gen i hen hen ddymuniadau eraill,' meddai Vidkun. 'Os mai dyna yw ystyr yr "Achos"... Creu Sefydliad... Hen uchelgais yw mewn gwleidyddiaeth ystafell gefn. Eisiau dileu'r rhyfel dosbarth sy ... iawn... Uno'r genedl. Ond ...'

'Y fyddin yw undod y wlad. Onid dyna ddyhead pob gwir Natsi?'

'Ond ... ond mae'r cwbl... mae'r Sefydliad syniadol mor enbyd o anniddorol.'

Tybiai hi mai gwneud sylw personol amdani hi roedd e, ac ymsythodd hi braidd yn gyndyn. Cerddon nhw i lawr y llethr am ychydig heb barhau'u hymddiddan. Wyneb yn wyneb â nhw, rhodiannai pâr ifanc dieithr ar i fyny i'r cyfeiriad arall gan ddal dwylo. Adwaenai Vidkun ddim ohonyn nhw – er y dylai – o'i brofiad Prifysgol. Ar dro yn y wlad, byddai Vidkun Aesling fel arfer wedi bod yn barod ddigon i'w cyfarch mewn lle felly, yn unigedd y llwybr gwledig, eu cydnabod yn serchog cyn cerdded yn ei flaen. Ond anwybyddu oedd awydd anymwybodol neu ymwybodol yr ifainc hwythau, efallai mewn ystum o ddirmyg. Dyma ddwy genhedlaeth yn croesi llwybrau'i gilydd.

Roedd y fath ymddygiad croes yn ei frifo. Ond prin bod Neegaard wedi sylwi ar y peth, neu fe fynnodd hi ymatal rhag sylwi: 'Beth ddwedsoc chi? "Anniddorol"?''

'Mae'n burion i bapurau newydd, debyg.'

'Ein gwlad yn wynebu tranc, ac fe alwch hynny'n "Anniddorol"! Mae'n pistyllu tywyllwch y tu allan, a'r cwbl wnewch chi...! Tynnodd hi amlen o'i phoced gan betruso

ychedig. 'Arhoswch, Vidkun. Mae gen i rywbeth arall, mae rhyw newydd arall wedi codi, newydd rhy newydd i'r papurau newydd.'

'Dyna pam roeddech chi eisiau dod allan o'r tŷ?'

'Mi dderbyniais i rai manylion newydd hanner awr yn ôl. Neges frys. Mae 'na wrthryfel arall ysywaeth. Eto.'

'Digon naturiol. Diolch fod 'na beth calon gan y wlad.'

'Yn y gogledd y tro hwn. Amrywiaeth.'

'Yng Ngotsffjord. Plant hyna'r ysgol leol wedi rhoi gorsaf yr heddlu ar dân, ar ôl achosi damwain rheilffordd.'

'Fe alla i ngweld i yn hun yn ifanc mewn pethau felly, Neegaard.'

'Does gynnwys ni ddim dewis mwyach.'

'Beth dych chi'n feddwl?'

'Cosbi. Cosbi'n llym. Dethol ambell un o'r arweinwyr. Dyma'i unig lwybr. Er mwyn diogelu'r diogelwch.'

'Beth dych chi'n feddwl – yn llym? Plant?'

'Mae cosbi hefyd yn weithred glasurol, a hynny'n llym. Y gosb eitha. Eitha, Vidkun.'

'Saethu! ... Plant! Byth.'

'Peth felly yw rheoli gwlad. Dyna ran o gyfrifoldeb gwleidyddiaeth. Dyna wedd ar lywio drwy ddyfroedd stormus. Mae gen i lythyr gorchymyn ichi'i lofnodi.'

'Nid plant, dych chi'n 'ddeall, nid y tro hwn, ac nid fi, na.'

'Nid hobi yw gwleidyddiaeth y dyddiau hyn, Vidkun. “Brad” ymarferol yw hyn.'

'Mi wn i hynny'n weddol dda.'

'Mae'r arwydd lleia o wendid a'r wreichionen leia yn gwahodd cyflafan ar raddfa anhygoel. Mae Arlywydd yn amhersonol. Trefn y drefn.'

'Mi wn i hynny hefyd,' ebychai Vidkun.

'Wel?'

'Dyna pam y daeth hi'n bryd i fi fynd o'r neilltu. Y cam nesa fydd diogelu'r diogelwch i'r diogelwch, a marw er mwyn biwrocratiaeth. Does gen i ddim o'r dewrder.'

'Mae'r ateb yna yn dangos mai chi yw'r union berson i wneud y gwaith dramatig hwn. Fe wŷyr pawb am eich dynoliaeth niwtral chi, ac am eich gwladgarwch naturiol hefyd, ac am eich caredigrwydd. Weithiau, mae cosbi didrugaredd yn argyhoeddi gwlad o ddifrifoldeb. A difrifoldeb yn unig sy'n sicrhau sefydlogrwydd a thrugaredd yn y pen draw. Dyna yw hapusrwydd gwladgarwch. Hydeimledd achos.'

Daeth y cwthwm lleia o wynt, a chwyrlïodd bagad o ddail crin am eu pennau nhw. Roedden nhw wedi dod i olwg tŷ'r Arlywydd yn awr. Fe welen nhw ddau filwr yn sefyll y tu allan i warchod y drws erbyn hyn. Ymhellach draw i lawr y dreif yn sefyll yn llai ffurfiol, ond gan warchod i'r un perwyl, roedd yna ddau filwr arall. Roedd yr amddiffyn wedi diuno o'r diwedd.

'Mewn rhyfel,' meddai Neegaard, 'does 'na ddim unman i fynd o'r neilltu. Rhaid wynebu'r amrywiaeth heriol yn aml.'

'Cawn weld. Cawn ysbaid i bendroni... Gofynnwn am banaid o de, i reddfau Maria gael eu setlo,' meddai Vidkun yn fwyn. 'Gofynna-i wedyn iddi hi am ei barn.'

'Hynny ddwedwch chi, pryd bynnag dych eisiau dweud Na.'

'Mae gen i barch at ei greddfau hi.'

'Dyw'r math yna o reddf ddim o unrhyw werth mwyach,' meddai Neegaard.

'Mae greddf merch yn fynych yn anelu fel gwenynen am ei chwch pan chwilia am synnwyr cyffredin iach hefyd,' meddai Vidkun, gan ddyfynnu o'r sagâu.

'Merch dw innau – yn *ail* beth o leia.'

'Ond deddf sy gynnoch chi. Nid greddf,' cyhoeddodd e.

'Nid y neddf i, Vidkun... Deddf Hethlan. Y wlad sy'n eich gorfodi chi y funud yma i reoli. Y genedl ei hun. Beth dw i? Beth dych chi?'

'*Pobl* does bosib.'

Siom iddi hi oedd y fath ateb gordeimladus. Siglodd ei phen yn negyddol. Gobeithiasai hi rywfodd y byddai hwn wedi bod yn Arlywydd mwy ffurfiol, mwy deallol, mwy seremonïol: 'O! Vidkun.'

12.

Wyddai'r wlad eto ddim pa ffordd i fynd: mentro gwrthryfela'n ofer, ynteu cadw'r pennau i lawr ar gyfer diwrnod arall. Roedd y farn gyhoeddus wedi briwsioni.

Gwag a di-hydref oedd strydoedd y brifddinas y tu allan, ar wahân i ychydig o eithriadau rhodiannus tywyll ac unig yma ac acw, a bwysleisiai, yn eglurach nag undim, noethni'r amgylchfyd. Crynai'r palmentydd hwythau yn wag heb anwyldeb traed i gyffwrdd â'u cefnau. Gwag oedd y sgwarau hefyd. Arswydus o wag oedd y pontydd. Doedd 'na yn unman fawr heblaw rhyw adlais o ysbrydoedd tybiedig yn cyniwair yn ddi-enw drwy holl faestrefi'r ddinas. Gwacter oedd wedi adennill ei deyrnas gynhenid a gwaelodol ei hun ledled y lle, gan weiddi'i ddistawrwydd gau a phell yn fuddugoliaethus ar draws pob to. Roedd yr hydref mor amhendant, a'r wlad am beidio â meddwl amdani hi'i hun. Roedd y glaw wedi dod i chwerthin yn bytiog wrth daro'r palmentydd, ac i ddowcio yn y cwteri.

Y tu mewn i fflat Greta, sut bynnag, roedd y lle'n llawn. Bocsys Bojer ym mhobman, a rhai o'i ddillad wedi'u pentyrru ar draws y cadeiriau a'r ford, ac esgidiau anghymharus wedi'u lledu'n ddi-drefn dros y llawr: gwynfyd myfyrwyr. Ar y llawr wrth droed un o'r cadeiriau, gan nad oedd yna unman digonol arall iddo eistedd yn ddechau, roedd Bojer yn hepian yn gyfforddus, wedi ymlâdd. Dim ond fe oedd yn yr ystafell. Ond wrth glywed seiren heddlu yn ubain chwyrenllu heibio mewn stryd gyfagos, agorodd e gyfran o'i amrannau. Tagwyd seiren yr heddlu ar ganol ei sgrech. Cododd Bojer ar frys, a nôl ei rifolfer. Safodd â'i gefn yn erbyn y wal y tu ôl i'r drws. Clywsai smic o'r tu allan, ac estynnodd ei law yn barod i saethu. Ond roedd e ar goll.

Daeth Greta i mewn.

'T-ti!' ebychodd Bojer.

'Yn hunan fach.'

'Clywais i seiren c-car-heddlu.'

'Roen nhw ar y ffordd i'r dociau.'

'Ond stopiodd y seiren,' protestiodd Bojer.

'Mae hynny'n digwydd weithiau,' meddai Greta, 'hyd yn oed i seiren heddlu.'

'Ond stopio y tu allan i'r d-drws.'

'Mae hynny hefyd yn digwydd y dyddiau hyn. Paid ag ofni, Bojer.' Ceisiodd hi beidio ag ymddangos yn nawddogol.

Chwifiai fe ei ddryll o hyd, gan ei anwylo ambell waith â'i law arall. 'Alla i ddim aros yma,' ebychodd Bojer.

'Mae'n dda dy fod di wedi dirnad cymaint â hynny o'r diwedd.'

'Maen nhw wedi bod draw yn chwilio yn fflat i'r ail waith. Mi ddôn nhw i gael achlust amdanat ti yma.'

'Mater o amser fydd hynny,' meddai hi. 'Da dy fod di wedi ffeindio dy fod di ar goll.'

'P-prin, prin yw deunydd felly.'

'Nid yn nymuniad i yw iti ei gloywi hi, Bojer. Ond pe bawn i yn dy le di mi ffown i i eithafoedd glas y ddaear.'

'Mi ddechreuais i ar y cam nesa eisoes yma. Mae'n rhaid ifi orffen y jòb benna ddechreuais eisoes.'

"'Rhaid" wir!' gwawdiodd Greta. 'Clebran ffilmiau cowboi plentynnaidd!'

'A'r tro *nesa* wedyn ... wyneb yn wyneb â Vidkun ... dim oedi, dim b-bom clwc, Greta... dim petruso y tro *nesa* ...'

'Bojer, amatur wyt ti mewn pethau fel hyn. Y tro *diwetha* mi fuost ti'n ffodus. Cest ti chwarae dy gêm a diflannu. Ond y tro nesa...'

'Mi glywaist ti'r newyddion am y llanciau ifainc yna yng Ngotsffiord?'

'Do.'



'I fi – arwyr sagâu yn nhw: Arwyr!'

'Plant! Ffyliaid! Gwrywod ddwedwn i,' meddai hi.

'P-plant yn gweithredu, ac rwyd ti am ifi ei gwadnu hi! Greta!'

'Fe elli di ddeall plant.'

'Ond dw i *am* ffoi bellach, dyna'r drwg. Cyn hynny, serch hynny, mae gen i un tamaid o waith ffurfiol ar ôl, un job.' Anwylodd ei ddryll ychydig. Glynai wrth rywbeth.

'Y nghowboi bach!' gwawdiodd Greta. 'Y ngwryw!' Ac yna, diflannodd y gwawd: 'Alla i byth ddirnad pam ar y ddaear hon mae y nhu mewn i'n wylofain am y fath wirionyn.'

### 13.

Ym mhlasty swyddogol yr Arlywydd roedd Vidkun Aesling wedi atrefnu'i astudfa. Gwthiwyd y llyfrau i'r naill ochr.

Erbyn hyn, triawd oedd yno. Daethai Vidkun a Neegaard i mewn ar ôl eu 'tro ymddiddan' arferol drwy'r goedwig, ac wyneben nhw'r Fariā fythol yn drydydd. Roedd honno'n canfod y berthynas rhwng synnwyr cyffredin a gweithred eithafol o annerbyniol â dienyddio plant mewn unrhyw amgylchiadau. Os oedd Vidkun bob amser yn gallu amgyffred y ddwy ochr mewn dadl, a gweithredu wedyn, roedd Mariā'n ddigon gwrol i weithredu'n ddiymdroi ymlaen llaw, o leia wedi ymwrthod â Neegaard. Tyfasai Neegaard yn fwgan dybryd iddi. A phetrusai Mariā, gwraig yr Arlywydd, ddim, er mwyn rhyw gytgord hoffus, rhag taeru'n blwmp ac yn blaen wrth ei gŵr: 'Na, paid ag arwyddo'u cosb. Gad blant, o bopeth, yn llonydd.'

Edrychai Vidkun yn ddiymadferth ac yn anesmwyth tuag at Neegaard. Roedd Neegaard wedi dod â dogfen ddedfryd ar rai o lanciau a llancesi Gotsffiord i Vidkun ei harwyddo.

'Gwell ifi'ch gadael chi'ch dau am eiliad?' holai Neegaard. Adnabyddai'r negyddol mewn sefyllfa'n bur dda hyd yn oed un fel hon heb fod yn weinyddol.

Ond syllai Vidkun tuag at ei wraig fel pe bai yntau'n gofyn am ganiatâd: 'Efallai? Marïa?' Ond doedd honno ddim yn barod i ateb. 'Am funud te, Neegaard,' ychwanegodd Vidkun yn ymddiheurol. Ac ymadawodd Neegaard yn hydeiml. Doedd dim cysgod o gynhesrwydd ar wyneb yr un o'r ddau oedd ar ôl. Trodd Marïa at ei gŵr.

'Oedd *rhaid* iddi hi symud i mewn i'n tŷ ni? Tŷ swyddogol yr Arlywydd,' chwyrnodd Marïa.

'Dyw hi ddim *yn* y tŷ yn hollol, Marïa. Mae hi yn yr adain ddeheuol.'

'Pa eisiau oedd bod mor llythrennol, a hithau ar ein pennau ni, te? Hi yw'r drwg yn y caws, Vidkun. Mae hi'n dy ddefnyddio di.'

'Hi nawr yw'r Gweinidog Hysbysrwydd a Phropaganda. Hynny yw, Cysylltiadau Cyhoeddus. Mae'n gydweithreg agos yn y sefyllfa. Mae hi'n mynnu...'

'Dw i'n gwybod beth mae hi'n fynnu. Mae hi'n haeru na bydd hi byth yn sathru ar gyrn neb yn y fath swydd ddiplomataidd. Mae'n honni bod yn rhaid bod yn bwylllog, yn gyfleus o bwylllog, yn ystod argyfwng. Ac mae hi'n hawlio hefyd dair o'm stafelloedd hyfryta i yn yr adain ddeheuol. Hynny dw i'n 'wybod.'

'Dros dro, Marïa, am fis neu ddau, tra bo'r storm yn igian droson ni.'

'Alla i ddim o'i godde hi. Mae hi'n sathru ar y nghyrn i.'

'Swyddog yw hi.'

'Menyw. Mae hi'n fenyw,' ebychodd Marïa

'Prin.'

Tro Marïa yn awr oedd cyrchu draw at y bowlen bysgod ac estyn bwyd myfyriol iddyn nhw: 'On'd wyt ti'n cofio Vidkun... fel y bydden ni ers talwm... *ni'n dau* ... cyn i'r cythrwbl hwn ... yn sleifio'n hapus drwy fywyd?'

'Debyg iawn, Marïa.'

'Na. *Ni'n dau*.'

'Cofio... wrth gwrs.'

'Does gen ti ddim o'r amser i'w gofio,' meddai Marïa.

'Mae diwedd byd yn gwneud peth gwahaniaeth i bawb yn Hethlan.'

'Na, does gen ti mo'r amser. Mae'n rhaid cael amser i fodoli, ac i *garu*.'

'Mae'n rhaid i bawb aberthu rhywbeth i gyd-fyw,' meddai Vidkun.

'Hyhi sy'n meddiannu dy sylw di. Hi a'i phethau. Ei ffolinebau hi.'

'Lles Hethlan yn unig yw ei...'

'Y fenyw 'na yw dy Hethlan di.'

'Caru'i gwlad y mae hi,' mynnai Vidkun.

'A'th les *di* yw ngwlad i. Rwyt *ti* yn *bod*. Syniad noeth i'r dychymyg yw ei Hethlan hi.'

'Annheg braidd, Marïa. Dwyt ti ddim yn aruthr hoff o'r fenyw.'

'Mae hi wedi dy luchio di ar goelcerth ei brad.'

'Ac rwyt ti'n meddwl y bydda-i'n llosgi 'mysedd efallai.'

'Dy fysedd.. a'th wallt hefyd, byddi, a'th draed, a'th enaid. Fydd 'na ddim colsyn ar ôl ohonot ti, Vidkun. Chei di ddim arwyddo'r gorchymyn 'na.'

'Hynny fyddai orau i Hethlan,' meddai fe'n ara.

'Dros y nghrogi i.'

'Fe all rhywrai *trefnu* hynny,' meddai Vidkun yn bwylllog gan wenu.

'Na, Vidkun.'

'Heb rym aiff y wlad hon i gyd yn ffradach, mae arna-i ofn.'

'Na!' gwaeddodd hi.

'Dw i wedi gwrthod Neegaard, ta beth ddigwyddith.'

'Y ffŵl!' Doedd hi ddim yn ei gredu. 'Beth wyt ti'n feddwl – gwrthod? Gwlad pwy?'

'Ydw, wedi gwrthod ... yn y nghanon. Wedi gwrthod Neegaard. A gwrthod mynd i'r eitha gyda'r plant. Mae eisiau delwedd o drugaredd i bobl hefyd, – gyda nerth. Mi drefna-i ffordd arall. A dyw Neegaard ddim yn amgyffred pethau felly. Mi alla-i rasio at y weiren, ond yna estyn pardwn.'

'Dw i'n credu dim ohonot ti. Chwarae rwyd ti. Celwydda. Bydd hon, Neegaard, yn dy siecio di. Bydd ei rhwyd hi yn hongian am y cwbl. Hegla hi.'

'Bydd y wlad hon,' meddai Vidkun yn ara ac yn dawel, 'yn ymadfer gan bwyll bach. Mae angen gwyrto'r wlad tuag at wareiddiad wedi'i ail-adeiladu. Ac mae gen i feddwl ac ewyllys ac awdurdod sy'n dal yn annibynnol ar Neegaard. Fi sy'n “siecio” – yn cadarnhau ac yn atal – yn y wlad hon o dan egwyddorion sefydlog. Fe osgowyd min y gyflafan waetha eisoes. Mae gen i gyfle newydd o hyd i weinyddu trugaredd, i blant, ac i bawb. Ac yna, gwleidydda. Adfer arwyddocâd amaethyddiaeth yng nghanol yr economi. Seilio'r economi ar gydbwysedd cynnyrch y tir a'r môr. Cychwyn busnesau cydweithredol. Yn Ewrob Unedig y Natsïaid, sicrhau cyd-hawliau cyfartal y cenhedlodd bychain o fewn yr Undeb. Bob un yn gyfartal gerbron y Wladwriaeth Ewropeaidd; gwahardd trais; meithrin rhyddid ymadrodd; tan hyrwyddo yr un pryd bob hunan-feirniadaeth i'r unigolyn ac i'r gymdeithas gerbron Duw.'

'A chwarae â deinameit felly – mewn gemau etholiadol bob pum mlynedd.'

'Dyma goflaid o gyfle, María, cred di fi.' Lledai fe'r papur o'i blaen hi ar y ddesg.

'Ond dyma'i llawysgrifen hi, ddyn. Ie, ei chymryd-mantais hi, Neegaard... Gŵr tawel wyt ti, Vidkun, neilltuedig, yn caru myfyrio ac yn ymhyfrydu mewn encil. Nid mewn fwlgariaeth o fath hon: fel arall mae bywyd gwâr yn mynd rhagddi. Dyna her i ti. Meddylia am barch dy hen fyfyrwyr.'

'Dyna wnes i.'

'Chest ti ddim o'th eni i fod yn ddim mwy na synfyfyriwr dy hun mewn cilfach.'

Ebychodd e ei dipyn ffeidd-dod tuag at ei dadl-ddihangfa hi, ond aeth hithau yn ei blaen yn fuddugoliaethus... 'A dyna lle mae popeth pwysig yn digwydd. Pob theori

arwyddocaol, pob darganfyddiad mawr wnest ti erioed ym maes dehongli llenyddiaeth. Gartre, yn y nghadair i y buost ti'n myfyrio.'

'Cadair freichiau go dywyll y dyddiau hyn fu'n eistedd o flaen y papur yma.'

'A *dyma'r* amser felly i dynnu'n ôl yn derfynol chwim ar unwaith,' sgrechodd Mariā. 'Gwrthoda. Gwrthoda nawr.'

'Hynny yw 'ngobaith i. Ond rhaid ifi weithredu'n garcus.'

'Wyddost ti Vidkun ... ddoe diwetha ... rown i'n mynd allan yn y car ... roedd hi'n erchyll ... rown i yn y car...' Crwydrai'i meddwl oddi wrtho nawr, a dychmygai Mariā yn ei cho blinedig ei hun...

*Wrth iddi'i ddisgrifio iddo nawr, gallai Mariā ei gweld ei hun o'r newydd mewn car moethus swyddogol yn y sêd gefn, a'r chauffeur yn ei iwniform yn gyrru'r car. Pasien nhw adeiladau. Pasien nhw ambell unigolyn yn ei dro a geisiai syllu'n llygadrwth i mewn i'r car i gael cipolwg ar wraig yr Arlywydd, y Fones Gyntaf, ac yna droi i boeri ar y llawr, hen wŷr, gŵr ifanc, gwraig ganol oed, gwraig yn cario baban – pob un yn cyflawni'r un ystum hunllefus. Gyrrwyd ymlaen a daeth eu car wyneb yn wyneb â wal tŷ ac arni'r geiriau: VIDKUN AESLING – BRENIN BRAD. Âi'r car yn ei flaen, a daethai Mariā wyneb yn wyneb â wal arall lle yr oedd swyddog mewn siwt werdd yn ceisio dileu'r paent: VIDKUN AESLING + NEEGAARD YSTBI = MARWOLAETH. 'Cerwch ymlaen,' gwaeddai hi ar frys ar y gyrrwr. Bron ar ei union fe ymddangosodd sgrechair arall i'w bygwth hi: BWLED I AESLING. Roedd hi wedi dod allan, am newid, am dro bach o gwmpas y ddinas. Ac roedd y sefyllfa werinol yn gwawrio arni mwyach. Sleifiodd hi'n llwfr adre.*

Dadebrodd hi o'i hatgof yn ôl i'r astudfa yn ddisymwth yn awr, a'i thafu ei hun ym mreichiau'i gŵr. 'Roedd hi'n ofnadwy. Mae ofn arna-i Vidkun.'

'Mariā,' cysurodd e hi.

Ac wrth iddo ei dal hi'n dynn, llithrodd Neegaard yn ei hól i'r ystafell ac wynebu'r ddau drachefn. 'Dw i wedi bod mewn cysylltiad â'r Llys-genhadaeth Almaenig ynghylch yr *unbenaethod hunan-etholedig*,' meddai hithau.

'Beth yw ystyr hyn?' llefodd Marïa.

'Mae'r Almaenwyr yn cytuno â'n trefniadau ac â'n dibenion,' meddai Neegaard.  
'Bydd Hethlan yn rhydd o fewn yr Undeb, yn genedl o fewn y genedl.'

Syfrdanwyd Marïa: 'Ti, Vidkun, yn unbennaeth! Na!'

'Mae'ch esgidiau'n rhy esgud, Neegaard,' meddai fe.

'Fe'i dwedais i fel y byddai hi,' cyhuddodd Marïa fe.

'Maen nhw'n gytûn,' meddai Neegaard, 'ac yn mynd i...'

'Gan bwyll,' cynghorodd Vidkun.

'Ac mae'r gwasanaeth suful Hethlannaidd yn ymgysylltu â Herr Hitler. Y gwasanaeth suful sy bwysica. Nhw fydd yn cario'r dyletswyddau'n ei blaen, o ddydd i ddydd. Peidiwch â phoeni. A bydd yna atgyfnerthu ar y giard gwarcheidiol.'

I Neegaard mater o drefnu oedd popeth. Tynnodd ei phin o'i phoced. Aeth hi at y y ddesg, a doddi'r papur ar wyneb y ddesg o'i blaen, ac estyn y pin yn drefnus i gyfeiriad Vidkun. Ond ei reddf e oedd hamddena: 'Pam na rowch chi lonydd i'r *hen* bleidiau i fynd yn eu blaenau am ychydig? Didrafferth ddigon oedden nhw. Diddrwyg didda. Mae'n barod i gydweithredu.' Eithr synhwyrar fe bellach ei bod hi'n ddiamynedd tuag at y mân ddadlau hwn oll. 'Efallai,' meddai fe eto, ond efallai wyddai fe ddim. Nesu a wnâi e at y ddesg, bron dan ryw fath o anocheledd. 'Dÿn ni ddim,' protestiai fe o hyd, 'wedi cael llawer o wrthwynebiad o du'r Senedd, mae'n wir. Tipyn o stŵr ambell waith. Ambell wrthdystiad diddylanwad. Peth felly yw senedd i fod. Chwarae. Mynd drwy fosiwns ymgynghori. Ymddangos fel pe baen nhw'n gweithredu'n gyflym; ac yna, ei ailgyhoeddi, a'i ailgyhoeddi eto fel pe bai'r aileirio newydd hwnnw'n wahanol, heb fod felly, cyn peidio â gwneud dim cadarnhaol yn y diwedd,' meddai fe'n ddiymadferth.

'Na, na,' taerodd Neegaard. 'Llywodraeth *gref* ddinonsens gyson yw'n hangen ni y funud hon. Mae amlhau pleidiau yn esgus i ddiogwyr heb gyfrifoldeb i weithredu-wrthryfela. Bydd yn rhaid gwario mwy ar amddiffyn.'

'Llywodraeth gre? Fi felly! O bethau'r byd. Neegaard, beth sy arnoch chi fenyw.'

'A *golwg* llywodraeth gre,' ychwanegodd hi gan estyn y pin ato.

Ac yntau'n ei dderbyn, bron yn ddigwestiwn mwyach. 'Prin mai dyna nghynneddf i, Neegaard. Cryfder? Pawb at y peth y bo.'

'Beth bynnag am eich cynneddfau, mae *golwg* llywodraeth gre yn gweithio. A thadolrwydd. Chi yw Tad y genedl o fewn y genedl. Mae'n syml.'

Plygodd e sut bynnag i lofnodi; a sgrechodd Maria ar ei draws: 'Na! Rwy'ti'n llofnodi dedfryd dy farwolaeth.'

Ond wnâi e ddim namyn sbio'n ddiymadferth tuag ati, ac yna droi'n ôl, ac arwyddo. Yn y cefndir roedd y pysgod aur yn cylchynu'r bowlen fel edafedd rhythmig addurniedig goludog.

'Arwydd yw hyn,' meddai fe, 'ei bod hi'n bryd i *fi* fynd o'r neilltu, ac i'r *golwg* yna o lywodraeth gre go iawn gymryd yn lle i.'

Doedd Maria ddim am wrando mwy: ffodd hi allan o'r ystafell. Ac am y tro cynta yn ei go, dyma Neegaard yn edrych ym myw llygaid Vidkun: 'Fe ddaethoch chi ar awr fwya cythreulig hanes Hethlan, Vidkun ... Diolch fydd yn briodol ar ran y cenedlaethau i ddod.'

'Nid dyna yn ffordd i... I mi, babi'iaidd yw gwleidydda... Yr ymosodiad dyfna heddiw ar y gelyn yn y marn ddiwylliannol i fysai'r *sagâu*. Fe guddiwyd ein hegwyddorion a'n delfrydau yn y rheina. Dyna'n baradocsaidd ein gwir gryfder.'

Ond prin bod Neegaard wedi sylwi iddo yngan sill o'r frawddeg ddiwetha. 'Mae'ch enw bellach,' meddai hi gan roi'r llythyr yn ei phoced mewnol,... 'ymhlith dogfennau hanes, ac ymhlith...'

'Gadewch hi yn y fan yna Neegaard... Gadewch bopeth.'

'Gwn i. Dyw Maria yn hidio fawr am y peth.'

'Nac yw... Er nad dyna...' meddai fe.

'Na... Dyw'r hen wraig ddim yn un o forynion mwya gwrol y *sagâu*.'

'Phriodais i moni ar gyfer estyn yn astudiaeth i o'r *sagâu*,' meddai Vidkun.

'Nac er mwyn ei hysbrydoliaeth chwaith mewn cyfeiriadau politicaidd. Mae'ch priodas... '

'... yn ddirgelwch,' cyfaddefodd e'n ara. 'Mae'n gymhleth ac yn syml. Yn ddigon cymhleth inni fethu â'i hamgyffred. Diolch am hynny.'

'Ac yn simplistig.'

'Yn ddigon syml i roi sylfaen i'r greadigaeth oll, ydy. Priodais i hi am fod gan Fariā'r ddawn anghyffredin a brawychus o ddweud y gwir. A ngharu ynghanol hynny.'

\* \* \*

Tra oedd y sgwrs led hunllefus hon ar waith roedd Bojer wedi llwyddo i gyrraedd wal ddeheuol y tŷ, a rifolfer yn ei law. Cododd ffenest a dringo i mewn. Chwarae â marwolaeth roedd yntau hefyd: chwarae bod yn ddirfodwr modern.

\* \* \*

I Neegaard roedd y trefniadau bellach wedi dod i fwcwl. Doedd dim gofyn iddi hi i bwysu mor ffurfiol bellach. Ac ymlaciodd ryw ychydig.

Camgymeriad, wrth gwrs... 'Dw i'n deall Mariā,' meddai hi.

Llwybreiddiodd hi o'r tu ôl i gadair Vidkun a gosod ei dwylo'n ysgafn ar ei ysgwyddau. Chwarae roedd hithau ychydig. 'I fi,' meddai hi, 'diogelwch rhy undonog yw pob perthynas ddomestig. Gwneud, dw i'n gallu amgyffred peth felly.'

'Ie, ie; ond mae'r hen ugeinfed ganrif empirig hon bron ar ei hanner eisoes.'

'Beth yw ystyr dweud peth o'r fath?'

'Mae hi eisoes wedi colli llawer o ystyr. Digon i anwesu gwylltineb trais.'

'Dw i'n deall chwant munud awr,' meddai Neegaard yn gelwyddog. 'Pethau diriaethol megis llam ar wely-diddanwch noson lawen felly, mae hynny'n apelio'n burion ata-i.'

'Taldra priodas yw plygu, Neegaard... Gorfoledd yw estyn dwylo, a pheidio â gwneud fawr heblaw gadael i'r galon garu.'

'I fi,' meddai hi, 'perthyn i'r oesoedd a fu y mae myth celwyddog priodas.'



'Rhan o saga gwlad, yn sicr. Caru cywir. Chwaer trugaredd hefyd.'

14.

Mewn ystafell ar un ochr i Blasty'r Arlywydd, lle'r oedd Bojer wedi dringo drwy'r ffenestr, prin iawn oedd y dodrefn. Clywai fe leisiau estron Almaenig o'r tu allan yn siarad yn awdurdodol ond braidd yn anhyglyw: 'Yes, all right... That's it. Let's go.' Clywai Bojer y martsio ar hyd y coridôr, a phenderfynodd mai'r peth calla i'w wneud oedd llechu yno o'r golwg am ychydig o funudau. Clywai fe leisiau eraill ymhellach draw, er na wyddai beth ddyweden-nhw, hefyd yn llefaru mewn goslefau Almaenig.

O'r tu mewn clywai Bojer leisiau mwy cyfarwydd. Ie; Vidkun oedd yno. Siarad roedd e am “briodas” o bethau'r byd. 'Meddiannu'r safle isa, Neegaard, credwch fi...' meddai llais Vidkun, 'megis plant bach. Dyna sy'n porthi priodas rywsut: dyrchafu urddas priodi. Hynny hefyd sy'n ei hanrhydeddu hi. Un o fotiffau cyffredin Chwedloneg Hethlan fu “priodas” o'r dechrau. Wnaiff hynny ddim drwg i Hethlan am dro eto. Ac i fi, peidio â gwneud drwg yw, megis gwaith meddyg.'

Clustfeiniau Bojer, ond annelwig iddo fe oedd llawer o'r sgysio hwn.

'Beth yw anrhydedd peidio â gwneud drwg yn yr oes hon, o safbwynt gweithredol a chadarnhaol?' holodd Neegaard yn rhethregol.

'Awydd cyson i wasanaethu, megis gwasanaethu gorffennol gwlad, megis peidio â chwilio am elyniaeth, megis cydnabod gwerth.'

'Gwerth!' poerodd hi.

'Gwerthoedd. Maen nhw i'w cael o hyd.'

'Mewn siop hen greiriau. Gyda'r dosbarth canol.'

Yna, bwriwyd y drws yn agored ar draws ymadrodd Neegaard, ac ymddangosodd Mariā o'u blaen ill dau. 'Vidkun, mae 'na ymwelwyr swyddogol yn holi amdanat ti... Almaenwyr.'

Fe'i dilynwyd hi'n ddiymdroi gan ddau ddyn yn iwniffórm yr S.S.. Daethan nhw i mewn yn reit ffurfiol, a saliwtio ag un llaw ymlaen.

'Heil Hitler!' gwaeddon-nhw yn unllais. Roedd pawb yn syfrdan. Roedd ganddyn nhw'r hyder a fysai gan rai a oedd yn meddiannu'r byd.

'Herr Aesling,' meddai'r tala o'r ddau, ag acen dde-ddwyrain ei henwlad.

'Yes?' meddai Vidkun yntau mewn Almaeneg.

'The Comandánt wishes to see you.'

'Immediately?'

'I'm afraid we know of little except “immediately”, sir.'

'Then I shall do my best.'

'At the Embassy.'

'Thank you.'

'Excuse our intrusion, Herr President': trodd un gan foesyngrymu i Mariä, 'Herrein.'

Saliwtiodd y ddau drachefn, a chilio.

Tros Mariä yn gwrtais tuag at Neegaard: 'Dyma ychwaneg o'ch cynllunio chi, dichon.'

'Mae hyn hefyd,' meddai Neegaard wrth Vidkun, 'yn angenrheidiol.'

'Hyhi. Hon,' meddai Mariä, 'sy'n esbonio iti mwyach beth sy'n angenrheidiol.'

O'r tu allan, daethai Bojer (bellach mewn rhan arall o'r tŷ) o'i ystafell i mewn i'r coridôr. Tynnai'r Balaclafa a wisgai ar draws ei wyneb i'w guddio. Ond roedd e am i'r Arlywydd weld pwy oedd yn ei saethu fe. A chripiodd ar hyd y coridôr yn awr gan glustfeinio wrth ddrws pob ystafell. Cyrhaeddodd ben draw'r coridôr hwn heb glywed yr un smic tu mewn i'r un ystafell.

'Cofiwch,' meddai Neegaard wrth Vidkun, 'cofiwch ofyn i'r Almaenwyr am *bres* ar raddfa uchelgeisiol. Biliynau. Bydd y pres iawn yn sicrhau bod y papurau newydd yn cydweithredu'n effeithiol lawn. Mae hysbysrwydd yn dri-chwarter o'r broblem. A

hysbysrwydd fydd yn rhoi'r boblogaeth i ni. Arferiad wedyn a sefydlogrwydd ac amser, a dyna ei setlo hi.'

'Hethlan wedi'i setlo! Fel yna y mae Vidkun wedi'i setlo!' gwawdiai Marïa'n chwerw. 'Pawb, yr heddlu, y gwasanaeth suful, yr ysgolion, yr arwyddion ffyrdd, llysoedd, ffurflenni, cloriau pacedi creision yd, newyddion y radio, clybiau nos, y gwasanaeth iechyd, y fyddin, pob peth yn anadlu iaith brad, ac wedi'u setlo. Mae'n hela'r ysgryd, ar neb sy'n gall, wedi setlo.' Chwerwach-chwerwach oedd ei gwawd.

'Dowch, Vidkun,' meddai Neegaard gan estyn ei gôt i'r Arlywydd llipa. Gwisgodd e hi'n freuddwydiol. Ond roedd y weithred fechan hon gan Neegaard yn ystum i gyfeiriad Marïa fel pe bai am ei hargyhoeddi mor wirfoddol roedd Vidkun yn derbyn ei gôt ganddi hi.

'Mae Vidkun wedi suddo ddigon,' meddai Marïa, yn drist dros ei gŵr.

'Dros Hethlan y suddodd e.'

'Does dim gofyn i neb suddo mwy na mwy. Dych chi ddim yn sylweddoli sut mae gŵr fel hwn, a chanddo'i urddas gudd ei hun, a chroendeneurwydd ei welediad ei hun fel fflam, a'i barch, sut mae gŵr fel hwn yn ochain suddo.'

'Dros Hethlan... gwn.'

I Vidkun ei hun roedd y fath sgwrs braidd yn theoretig neu'n freuddwyd dost. 'Fydda i ddim yn *hir*,' meddai fe wrth Marïa, er ei fod yn teimlo ychydig ar goll.

'Mor *hir* â thamaid o gortyn,' brathodd Marïa.

'Dim llai na deg biliwn pffunt,' cododd Neegaard ei llais wrth i Vidkun gyrraedd y drws. A diflannodd e.

Troes Marïa yn dawel ffyrnig at Neegaard: 'A buoch chi'n cogio bod yn dipyn o wladgarwraig unplyg. Nid gwladgarwch yw peth fel hyn.'

'Llawforwyn i Hethlan, ac i Ewrob.'

'Ac i Vidkun?'

'Dw i ymhell o chwenychu'r hyn dybiwch chi.'

'Na,.. dw i bron â meddwl eich bod yn dweud y gwir.'

'Gwraig i *Hethlan* ei hun dw i,' broliodd Neegaard.

'Tybed? ... Na, nid gwraig; gweddw.'

'A'ch Vidkun chi?'

'Vidkun? Och,' sibrydodd Marïa, 'rhaid i finnau hefyd, mae arna i ofn ymbrentisio i fod yn weddw.'

Erbyn hyn, roedd Bojer, wedi tynnu'i fwgwd, ac wedi llithro'n sydyn i'r ystafell. Roedd dryll yn ei law chwith, ac fe'i hanelai at Marïa. 'Ble mae e?' Symudai fe o gwmpas yn nerfus, a'i lygaid yn sgwrio'r corneli mewn ymgais i ddadlennu Vidkun.

'Ble mae e?' gwaeddodd e'n uwch ddiriolaeth.

'Dw i ddim yn eich nabod chi,' meddai Marïa'n dawel.

'Nac dych. Fi yw'ch gwlad, Hethlan! Ble mae e? Vidkun.' Daliai i chwilenna â llygaid nerfus. 'Chi yw ei wragedd?'

'Pwy ych chi, ddyn?' holai Neegaard yn ddirmygus.

Trodd Bojer y dryll i'w chyfeiriad hi: 'Neb. Dim ond y brynïau a'r fforddau a'r pentrefi bach diarffordd dw i. Sentimentaliaeth ronc.'

'Pa hawl sy gynnoch chi i fod yma?' ebychodd Neegaard.

'Hawl pawb sy'n lladd yn gyfiawn.' Daliai fe i graffu ym mhob cornel. 'Ble mae'i fawrhydi?'

'Wedi cyrchu,' gwaeddai Neegaard yn ddisyfyd. 'I blygu i'w wlad.'

Araul oedd y ddwy fenyw. Troes Bojer at Marïa fel pe bai e'n disgwyl bod honno'n mynd i ymosod arno'n annisgwyl, ac yna'n ôl at Neegaard. Yna'n ddamweiniol, yn gwbl anfwriadus, er mawr fraw i Bojer, ac i bawb arall, saethodd y dryll ohono'i hun. Chwifiai corff Neegaard yn ddiriolaeth fel chwyrlligwgan, a syrthiodd. Edrychodd Bojer tuag ati mewn syfrdandod. Roedd hi'n gorwedd yno'n bentwr afluniaidd a gwinglyd ddistaw ar y llawr. Yna, peidiodd ei hymwingo. Troes Bojer ei wyneb yn erfyniol ddiymadferth tuag at Marïa fel pe bai'n gofyn beth a wnâi e nawr. 'Wnes i ddim.' Ond

roedd honno fel carreg: 'Y ffŵl!' meddai hi. Yna, gan chwilenna â'i lygaid am y tro ola o amgylch yr ystafell, ffodd Bojer drwy'r drws. Ffodd a'i ofn yn sathru'r ddaear.

Brysiodd Mariā i ymgeleddu Neegaard. Cwrcydodd wrth ei hymyl a chymryd ei phen yn ei chôl. Symudodd ei llaw yn dyner dros wyneb Neegaard. Wedi'i chlwyfo yr oedd Neegaard, ar ei hysgwydd, heb fod yn rhy ddrwg. Sioc oedd arni fwya.

'Dw i'n iawn,' murmurai Neegaard...

'Does neb ohonon ni'n iawn,' meddai Mariā.

'Hwnnw oedd Hethlan felly,' meddai Neegaard.

15.

Digwyddodd hynny oll yn nechrau 1941. Bwlch oedd popeth wedyn. Bwlch o flynyddoedd gwelw. Bellach roedd hi'n noson ym 1944 ar y bowlen bysgod, a physgod newydd yn ei rowndio hi, yn yr un cyfeiriad, mewn dŵr yr un mor llonydd, a'r golau'n dal eu hesgyll ambell waith, a Hethlan wedi bwyta'r blynyddoedd heb eu treulio.

Ymhell bell o dangnefedd ffug y bowlen honno, ond o fewn yr un wlad, fyddai dim rhaid bod yn graff iawn i glywed dryll peiriannol heddiw yn fflachio ar draws y tywyllwch y tu allan. Dychwelodd y rhyfel i'r genedl, er bod yr amddiffynwyr i raddau'n yn wahanol y tro hwn. O'r awyr hefyd chwibanai adenydd bomiau wrth saethu tuag at gysuron gweddillio y ddaear. Syrthiai rhai adeiladau hynafol diniwed a oedd wedi hen arfer â'u lle, ac wedi cyflawni'u tasgau diramant ers cenedlaethau lawer.

Wrth draed Vidkun yn ei Blasty, ffurflenni a memoranda, mapiau a chynlluniau a llythyrau a oedd ar wasgar ar y llawr. Mewnfudwyr fwlgar ac anwybodus oedd y rheini a oedd wedi disodli'r sagâu yn ystod y blynyddoedd bwlch; newydd-ddyfodiaid arwynebol, caled ond imperialaidd hollol yn ei gartre a oedd wedi meddiannu'i oriau a'i diriogaeth hydeiml e. Mewnfudon nhw'r cysgod ar draws ei ddiwylliant. Allai fe ddim anadlu ond yr un awyr â'r rhain bellach. Os oedd e'n mynd i fyw, byw rhwng cromfachau'r rhain oedd raid iddo mwyach. Roedd Vidkun wedi rhoi'r blynyddoedd i'w wlad.

Cnoc ar y drws. Cnoc hyll ar draws y bwlch. Daeth negesydd i mewn â phapur, heb fod Neegaard o'r braidd yn codi'i phen. Saliwtiodd hwnnw'n Almaenig â'i fraich ymlaen o flaen Vidkun, 'one message from headquarters Sir,' estyn y papur iddo, saliwtio eto, ac yna ymadael.

Edrychodd Vidkun ar y papur yn syfrdan. Synhwyrodd Neegaard ei drydan corff e'n llenwi'r ystafell, a chododd ei phen pryderus tuag ato. 'Beth?'

'Wedi glanio.'

'Y Marsiaid?'

'Saeson.'

'Wel?'

'Byddin o ddengmil ar hugain, yn Nogroffiord.'

'Dyna'r cwbl?'

'Y dechrau.... Rhai o'r fyddin wedi cyrraedd Kardoff.'

'Ble mae honno?'

'Pentre bach ar afon Doff.'

'Gobaith fo'n rhan ni felly,' meddai Neegaard.

'Gobaith?' holodd Vidkun yn anobeithiol.

'Esgus gobeithio o leia, fel ein cyndadau yn y Sagâu yn cyfathrachu'n rhywiol yn y meysydd er mwyn annog y gwanwyn. Actio ffrwythlondeb er mwyn denu natur i weithredu. Doedd neb yn coelio'r fath arferiad. Doedd neb yn llyncu'r fath rin. Ond roedd hi'n ffordd braf o dreulio pnawn Sul mewn gwlad seciwlar.'

\*

\*

\*

Trannoeth yn yr un ystafell, Vidkun a'i wraig Mariā oedd yn eistedd gyda'i gilydd. Roedd yntau'n cyflawni'r un hen orchwyl astud di-fudd, a hithau'n gwau siwmpwr iddo'n ara yn y gadair gyferbyn, â'i gweill fel ieir yn rhedeg o gylch yr un buarth, wedi i rywun dorri'u pennau i ffwrdd.

Dychwelodd yr un negesydd ag o'r blaen â phapur cyffelyb. Saliwtiodd e'n gyffelyb. Ac estyn y papur yn yr un ffordd, 'another message from headquarters Sir.' Derbyniodd Vidkun e'n ddideimlad eto, gwasgu'r papur yn ei ddwrn, a'i daflu tuag at y fased heb edrych arno. Methwyd â chyrraedd y fased, serch hynny, a chododd Mariā i'w ddodi'n daclus yn y lle yr anelwyd ato. Ymadawodd y negesydd.

'Mae'r Saeson wedi cyrraedd Treioksci, mae'n debyg,' meddai Vidkun.

'Mae hi ar ben felly.'

'Rwy'ti, Mariā .. a finnau yn un fath... yn bobl mewn traddodiad sy'n cydnabod dimensiwn gwyrthiau. A'u cyflawniad o funud i funud. Ond y wyrth sylfaenol yw'r fframwaith i'r anadl nesa gynnon ni. Mae pob aros bach yn obaith.'

Cerddodd e draw at y bowlen bysgod, a saethodd ysgryd ysgafn drwy gydol ei gorff. Sythodd e i'w odde. A thybiodd mai diffyg traul oedd. Ar wyneb y dŵr arnofiai cyrff saith o bysgod aur. 'Mi rois i ormod o fwyd i'r rhain.' Trodd mewn ffeidd-dra i ffwrdd o'r bowlen.

'Does fawr o ystyr i obaith heb bosibilrwydd,' meddai Mariā yn isel o oer.

'Gobaith clyd yw'r gobaith sy ar sail posibilrwydd,' meddai Vidkun: 'ond y gobaith creadigol yw'r un lle nad oes 'na ddim siawns.'

Y prynhawn hwnnw roedd Neegaard wedi dychwelyd i'w thasg, a Vidkun mewn anobaith yn ymdrybaeddu drwy'i bapurau fel pe bai hynny'n ffordd o anadlu.

Dychwelodd y negesydd.

Saliwtiodd. 'One message from... '

Estyn ei bapur.

Edrychodd Vidkun ar y papur. A chwerthin yn ei wyneb.

Ymadawodd y negesydd.

Edrychodd Vidkun ar y papur drachefn.

'Pum mil?' holodd Neegaard.

'Pum cant,' meddai Vidkun. Pum cant o barasiwtwyr hwyliog wedi disgyn yn Kamâthin.' Estynnodd y papur i Neegaard. 'Doedd dim ond pum cant.'

'Beth sy ar ôl felly?' gofynnodd Neegaard. 'Bydd pethau'n digwydd yn sydyn nawr.'

'Anadl efallai. Gwin optimistiaeth.' Cododd e a cherdded yn dosturiol tuag at Neegaard gan estyn ei ddwylo a chydio yn ei dwylo estynedig hi. 'Rhyw fath o anadl.'

'Ond faint o gyrch felly sy?'

'Dim llawer.'

16.

Cawsai Bojer ei restio a'i garcharu yn y cyfamser cyn i'r goresgyniad llawn ddigwydd. Yn fuan ar ôl ei ddal gan heddlu Hethlan, nid o ganlyniad i ymladd yn gymhleth dros ei henwlad, ond am ei ymgais syml i lofruddio, fe'i cadwyd e'n ddiogel am chwe mis yng ngharchar y Brifddinas, yn ôl trefn hunan-gynhyrchiol ac yna ei drosglwyddo i garchar bychan Oslan ddeugain milltir i'r gogledd. Oddi yno y dihangodd e gan leied oedd y penderfyniad o du'r Warderiaid i warchod y carcharorion politicaidd.

Daethai fe o hyd i Greta drwy holi ffrindiau, a hithau wedi ymsefydlu mewn pentre yng ngogledd eitha'r wlad. O'r fan yna, yn ddiymyrraeth, gwylion nhw ymrolio ara ond penderfynol y gweddill o ddigwyddiadau'r rhyfel arbennig hwn. Disgwyl a wnaen nhw o'r tu allan yno a gorfoleddu yn anghymedrol pan glywsan nhw am laniad pŵerus y Saeson.

Un bore crasoer yn fuan wedyn felly daeth Greta i mewn at Bojer gan ddawnsio. 'Pedwar cant a hanner eto o barasiwtwyr yn Kamâthin.'

'Ers f-faint dŷn ni wedi oedi yn y llety bach 'ma, Greta?'

'Dim ond aeon neu ddau.'

'Dw i am fynd yn ôl. Yn ôl i'r eitha: dechrau o'r newydd yn y man eitha.'

'Yfory?'

'Heddiw,' meddai Bojer gyda phendantwydd.



'Yn ôl i'r Brifysgol?'

'Ie, – b-beth sy'n well? – i'r fynwent genedlaethol honno.'

'Taw, Bojer. Pam mor ddifrifol yn sydyn?'

'D-dw i am g-gynnal seremoni hefyd.'

'Ti!'

'Dw i am gladdu nryll a'r llyfr cloff 'na sy'n disgrifio sut mae gweithio bomiau gan blant bach. A'r holl annibendod. A dw i'n mynd i roi to ar y ngradd. Dw i'n mynd yn ôl at y sagâu traddodiadol. Mae llenyddiaeth yn ddoethach na'r cynnwys, ti'n gwybod. Dw i'n mynd i ddechrau bywyd newydd, ac wynebu'r byd real. Ffarwél i lencyndod, a chaethiwed. Dw i am anghofio ac ail-fyw.'

'Y swot!'

'A chladdu ambell un o'r ofnau cenedlaethol. Ofn Celfyddyd er enghraifft, ac ofn dychymyg.'

'A chladdu Hitler.'

'A chladdu pob Empirydd. Claddu pawb ohonyn nhw drueiniaid.'

'Taw. Dyna hurtrwydd call. A rhoi siawns i'r dyfodol wedyn, Bojer,' meddai Greta, gan rwbio'i bol. 'Beth am ailddechrau?'

'O bosib, Greta...! Ac yna, ychwanegodd yn gryptig, wrth syllu ar ei gwallt hi, a gwenu, a chan smwdddio'i wallt ei hun... 'Dechreuwn ffasiwn gyda gwallt melyn neu coch. Gwallt coch Celtaidd, i ni'n dau, yw'r dyfodol i Hethlan!'

'Rwy'ti'n mynd yn Natsi wedi'r cwbl, os nad wyt ti'n ofalus.'

'Beth am gochni'n bochau ifainc hefyd?' meddai Greta.

'O na! Nid cochni Comiwnyddiaeth. Nid dyna fydd gen i. Nid Comiwnyddiaeth y canoli cenedlaethol a'i hunbenaethdod gwladwriaethol o leia. Nid dyna'r cwbl fydd yn y tŷ hwn, Bojer. Ond y teulu dynol – y ngwallt coch i a'th wallt coch creadigol Celtaidd di.'

'Y dyfodol amdani... yn sicr... a'r clytiau.' Crynodd bron mewn dadrithiad. Roedd e'n ceisio deall beth yn y blaen oedd yn eu haros. Ac ofnai hynny hefyd.

17.

Roedd Neegaard o hyd wrth y ddesg. Roedd Marïa yn ei chadair yn gwau. A Vidkun yntau'n gartrefol yng nghanol ei bapurau yn ôl ei hen arfer, papurau dros ei draed: papurau yn ei gôl, papurau ar y naill ochr a phapurau ar y llall, a'i lygaid llwydion e drwy'r cwbl ynghau, fel pe bai'r storm bapurach hon wedi lluwchio gan bwyll yn ei erbyn a throsto a'i gladdu'n raddol o'r golwg o'r diwedd a'i adael yn ddifater ddifudo fud ar fin y ffordd, i'r diwedd. Yn y diwedd hwnnw, papurau swyddogaethol creulon a gor-swyddogaethol oll fyddai'n toi popeth fel diwedd pob blwyddyn ac yn tynnu'r drefn i ben drwy'r byd i gyd.

Cododd Marïa ei phen, a syllu gyda difrifoldeb effro tuag at Vidkun: 'Fe ddôn ...dôn... a gwneud cinio Nadolig ohonoch chi.'

'O'r braidd.'

A dyma Neegaard yn gweiddi'n groch o'i lle, 'Na.' Ac edrychai Marïa ati'n syn, yn fwy syn byth oherwydd bod Neegaard Ystbi bellach yn edrych ym myw ei llygaid hi'n ôl.

Roedd Vidkun mewn breuddwyd.

'Mi ddaw Hitler i'n hachub ni debyg,' meddai fe gan wenu braidd yn sgeptig.

'Hitler!' ebychodd Marïa. 'Nawr? Pwy yw hwnnw?'

'Mae e'n reit hoff o'r hen bridd yn y rhan hon o'r byd. Mae e wedi mabwysiadu Hethlan ddyliwn i fel math o ail famwlad. Buodd e yma am wyliâu eleni. Ac wedi dwlu ar ein llygaid gleision ni, a'r gwallt coch, a'r sagâu. "I love Hethlan", meddai Hitler yn ôl y papurau.'

'Ie,' porthodd Neegaard. 'Efô yw gwir dad ein Natsïaeth ni.'

'Tewch,' chwyrnodd Marïa arni'n wawdus.

'Mae e'n credu'n hapus braf,' meddai Vidkun, 'ein bod ni o'r un waed. Norddwyr oll... fel y Celtiaid.'

'Mae ganddo fe fymryn bach o gonsérn am yr Almaen hefyd, o bosib,' mentrodd Marïa. 'Ac ychydig bach bach am yr hunan hefyd. Os digwydd i Hethlan ac i waed Hethlan gyda hynny fod yn gyfleus, – purion. Os aiff hi'n sgrech ar yr Almaen, serch hynny, fe gei di brofi mai dŵr yw'i waed e.'

'Dwyt ti ddim yn deall ystyr gwaed, Marïa,' meddai Vidkun. 'Sagrafen yw e.'

'Dw i'n deall theori “dŵr oer”, a thaflith e ddigon o hwnnw ar ein hawliau os bydd arno'i awydd i'w wneud. Mae dŵr Hethlan hefyd wedi cael digon o groeso ar brydiau yn ystod y blynyddoedd diweddar i dorri syched gormod o Almaenwyr.'

'Dych chi ddim yn deall dŵr nac anrhydedd,' ychwanegodd Neegaard.

Cododd Marïa a cherdded draw at y ffenestr a syllu ar y llun hardd a grewyd gan yr oerfel ar y gwydr. Mynnai'i chalon hawlio buddugoliaeth yr hardd: 'On'd oes rhywbeth bach yn nwf n eich llengig chi'n cyhoeddi fod y gloch wedi canu arnoch chi'ch dau? Wedi tinclan rywfaint? Ac yn awr mae'r paentiad mawr a arfaethodd y paentiwr bach, Adolf, yn dirwyn i derfyn.'

'Ydy, mae'n dechrau tinclan efallai,' meddai Vidkun.

'Dyw Hethlan ddim yn bod mwyach yn yr Almaen,' taerodd Marïa. '*Hethlan*: gweler yr *Almaen*. Ystyr “Norddwyr” yw *Almaenwyr*. Tric ysgyfala yw'r term hiliol “Norddwyr” i'n huno ni mewn angau maes o law. A hynny'n unig. Buwch i'w godro fu Hethlan am gyfnod hir: yn awr, hesb yw hi.'

'Mor ychydig fu dy ffydd yno i,' meddai Vidkun wrth ei wraig.

'Sut gall fod gan neb ffydd ynot ti, Vidkun?' meddai Marïa. 'Dw i'n dal i'th garu di, mwya ffŵl fi, er gwaetha popeth. Dyna fu yn unig ffydd i'n rhy aml. Ac wrth gwrs, dw i'n dal i'th garu di yn dy gwmp, ac yn ffyddlon i'th angen. Ond...'

'Os felly, dyma'r amser i ddangos eich cariad,' ymyrrodd Neegaard. Daliai i ystyried bod ganddi le yn y pictiwr.

'Byddwch *chi'n* dawl, fenyw. Nid dweud celwydd wrth y ngŵr yw mod i'n ei garu fe.'

'Mrs Aesling, does dim uchelgais *amhriodol* gen i, credwch chi fi.'

'Dim ond bod yn drydydd mewn triongl?' holodd Maria.

'Yn gynghorydd didwyll ar y gorau. Yn sylwedydd cwbl wrthrychol, o'r tu allan, credwch fi.'

'Dw i'n eich credu chi... eich bod yn ddiniwed braf...' atebodd Maria. 'Fe hoffwn innau fod yn ddiniwed braf.'

'Dyma'r amser i ni oll,' cododd Vidkun ei lais, 'roddi'n cariad i ddynoliaeth.' Suddodd yn ôl i'w freuddwyd, ac estynnodd a chodi ei law ac ymdrybaeddu yn ddiarwybod ychydig o'i flaen, heb wybod ble'r oedd ei fysedd. 'Mae'n rhaid bod yna ryw beth ar ôl.' Gallai weld rhyw fath o Hethlan yn bracsan allan o'r niwl hwn, yn annelwig ac yn araf freuddwydiol maes o law; ond rhyw fath.

'Weli di ryw ynys bellennig yna i lanio arni, megis Arthur rhamantaidd,' holodd Maria mewn llais niwtral fel na wyddai Vidkun ai cytuno ynteu gwawdio roedd hi, 'neu'r traethau trythyll, ...y palmwydd.'

Cododd Vidkun i estyn pinsiad o fwyd i'r pysgod fel pe bai heb sylwi neu gofio eu bod nhw wedi trigo yno oll. Doedd neb wedi symud eu cyrff bychain eto. 'Mi wela-i'r *llonydd* acw o leia,' meddai Vidkun.

Trodd Maria oddi wrtho mewn ffeidd-dod. 'Rwyt ti'n mynd yn debycach i wleidydd bob cynnig.'

'Mi wela-i le i adeiladu acw. Lle diffaith, ond lle.'

'Adeiladu fu ein gwaith ni erioed,' meddai Neegaard.

'Mi fysai gronyn bach o sment doethineb yn gaffaeliad,' atebodd Maria gan gerdded i gyfeiriad drws y gegin. 'Oes rhywun am goffi?' Cydsyniodd Vidkun â'i ben.

'Dim llaeth i fi,' meddai Neegaard.

Ac ymysgydwodd Mariā yn rhydd, allan i'r gegin, a'u gadael nhw, gan sibrwd wrth gilio, 'Does dim llaeth ar gael, beth bynnag: mae'r drafnidiaeth wedi torri lawr.'

Cododd Neegaard o'r ddesg a dod tu ôl i gadair Vidkun. Rhoddodd ei breichiau yn annaturiol o dyner am ei wddf, a murmur yn ymholgar o'r tu cefn: 'Fydd y dyfodol yn amgyffred hyn, gredwch chi, yr ymdrech hon i gyd? Y cynnig hwn i fod yn bur?'

'Gwneud storïau y bydd y dyfodol, a galw'r peth yn Hanes,' meddai Vidkun ... 'Rhithio cymeriadau cartwnaidd mewn Sagâu wnân nhw. Coelio celwyddau'r presennol yn ein herbyn ni, y bobl genfigennus sy'n palu anwireddau ac yn sibrwd amdana i ac amdanoch chi mewn llythyrau. Dyna'r deunydd i'r Hanes: yr enillwyr sy'n dod.'

'Dych *chi*, Vidkun, byth yn digalonni.' Roedd Neegaard yn chwarae â'i wallt tenau.

'Dyw digalondid llwyr ddim yn gallu digalonni ymhellach.'

Daeth cnoc ar y drws.

'Dowch.'

A daeth un o'r porthorion i mewn. 'Barchus Arlywydd, mae 'na wŷr ifanc wedi'i ddal, ym mynwent y ddinas, y fynwent ganolog, yn ceisio claddu defnyddiau ffrwydrol, a dryll. Mae'r heddlu'n tybied mai hwn yw'r gŵr ifanc geisiodd ladd y Fones Neegaard Ystbi beth amser yn ôl. Ydych chi am ei gyfweld e?'

Tros Vidkun at Neegaard yn ymholgar. Ymatebodd hi fel pe bai'n rhoi'i chaniatâd â'i phen. Ymatebodd Vidkun yntau i'r newydd â'i ben yntau'n gadarnhaol. A chiliodd y porthor.

'Gwerin Hethlan, mae'n debyg,' meddai Neegaard.

Llusgwyd y llanc, Bojer, i mewn gan ddau filwr. Safai gerbron Vidkun, a'i ben tuag i lawr.

'A thi yw'r cawr geisiodd saethu'r Fones Neegaard Ystbi?' meddai'r Arlywydd.

'Ch-chwilio amd-danoch chi rown i,' meddai Bojer, gyda pheth cywilydd ataldweudus arno.

'Yn y ddrama hon, chwaraewraig hwylus wrth law oeddech chi, Neegaard,' meddai Vidkun gan wenu ar Neegaard: 'atyniad yr ymylon.'

'Gwobr letchwith i fi, felly, oedd y fwled,' meddai Neegaard.

'Ti, felly,' meddai Vidkun wrth Bojer, 'yw ein byddin ryddid ni.'

'D-dw i'n caru ngwlad,' ebychodd y crwt.

'Beth 'wnawn ni â'r gwladgarwr hwn, Neegaard?'

'Wel, mae e wedi dewis y patrwm a'r dull. Mae wedi enwi'i gywair a'r siampl.'

'Oes gen ti,' gofynnodd Vidkun i Bojer, 'awgrym o gosb gyfatebol?'

'D-dw i'n barod i farw dros y ngwlad.'

'Tipyn o foeth fyddai'i saethu fe, debyg,' meddai Vidkun.

'D-does dim angen dim o'ch trugaredd arna i,' ebychodd Bojer.

'Hynny gei di efallai, o bledio.'

'Na. Dw i'n ei wrthod,' rhuthrodd ateb y crwt, heb yr un atal-dweud.

'Dwyt ti ddim mewn safle digon hwylus i wrthod fawr o ddim, yn arbennig sarhad trugaredd. Ewch ag e gyfeillion. Ond nid i'r fynwent anrhydeddus,' meddai Vidkun wrth y milwyr. 'Rhowch e mewn carchar am y tro.'

Ciliodd y milwyr, gyda'r arwr bach. 'Ydw i wedi gweld hwnnw o'r blaen,' gofynnai Vidkun. Trodd at Neegaard: 'fyddech chi'n fodlon ifi'i ryddhau e'n ddiamod?'

'Ydych chi'n mynd o'ch co?'

'Rown i'n gallu ngweld yn hun ynddo fe.'

'Ydy hyn yn rhan o'ch digalondid dwedwch?'

'Fe ddigalonnais i'r diwrnod y cerddodd yr Almaen i mewn i Hethlan.'

'Ond Vidkun, dyw'ch calon chi ddim yn ildio *yn awr* ag un ergyd dila.'

'Un?... na, hwyrach... Pam gwastraffu bwled? Dw i'n tybied y down ni drwy hyn eto. Ond nid drwy fwled.'

Aeth hi'n dawel, a sefyll y tu ôl iddo. 'Down. Fe ddown allan o hyn... gyda'n gilydd, Vidkun.' Rhoddodd Neegaard ei boch i lawr ar ei wallt gwyn.

'Felly,' holodd Vidkun, 'fe adawn i'r tipyn crwt yma fynd â'i draed yn rhydd.'

Ymataliodd Neegaard am eiliad, ond am eiliad yn unig: 'O'r gorau, haelfrydedd amdani. Chi yw'r bôs.'

'Wna-i ddim ei ryddhau heb eich caniatâd chi.'

'Faint o gyfle – faint yn onest – o gyfle go iawn sy ar ôl i unrhyw fath o fuddugoliaeth yn Hethlan? Hyd yn oed y futra. Allwn ni... all y wlad gadw...?' Roedd hi'n ymdrechu i eirio'r peth fel pe bai wedi meddalu'n fetel tawdd.

'Tr pessimist, dim... Ond pan fues i ym Merlin, chwemis yn ôl, roedd 'na isel sôn ymhlith y swyddogaeth ucha am fath o arf cyfrinachol newydd. Ffrwydryn gwyrthiol bron a allai ddifa rhanbarthau cyfain.'

'Breuddwyd *gwrach* arferol gwyddoniaeth.'

'Dyna'r union wrach a oedd gen i mewn golwg. Un o aml fythau gwyddoniaeth.'

Cerddodd Neegaard o flaen Vidkun yn awr, ac eistedd yn gwtsiog wrth ei draed. 'Dych chi, Vidkun, felly, ddim wedi colli'r ewyllys i fyw?'

'Pam?... oherwydd i fi sôn am arf mor enbyd?'

'A dal i freuddwydio... hyd yn oed rhai *gwrach*.'

'Unpeth ddysgais i gan y gorffennol: does dim parhad... hyd yn oed i fuddugoliaethau'r gelyn yn Ewrob.'

'Fe ellid dychmygu hynny. Fe ellid dychmygu Almaen drechedig hyd yn oed yn atgyfodi ac yn concro masnach Ewrob i gyd,' gwenodd Vidkun yn raslon. 'Bydd yna Unol Daleithiau Ewrob. A'r Almaen yn arwain. Ond efallai nid yn ein hamser ni.'

'Os felly, bydd yna fath o fuddugoliaeth...'

'Os felly, fe adawn i'r crwt 'na i fynd. Yn hyder ein buddugoliaeth, – trugaredd.'

'Heddwch fu'ch *forte* chi, druan ohonoch erioed, Vidkun.'

'Mae 'na ddewis. Heddwch drwy rym ar hyn o bryd, neu drwy wendid cry.'

'Ar ôl ein dydd ni, am heddwch y bydd y dyfodol, yn ein cofio ni,' meddai Neegaard, 'ac am y cyfnod hwn. Nid am eich gwaith neilltuedig ar y sagâu, ond am y miloedd gafodd fyw o'n herwydd ni ym mwllch heddwch. Ac yn y diwedd, drwy fyth felly y daw marchnad i Ewrob, gyda'r Almaen yn ben, o Roeg i Iwerddon.'

'Mi gawn ninnau heddwch felly o ryw fath.'

Ar hynny dychwelodd Mariā gan gario hambwrdd. Cododd Neegaard ac aeth i eistedd mewn cadair freichiau. Cynigiodd Mariā goffi iddi. Cymerodd Neegaard ei choffi: 'Bydd rhaid ifi gyrchu'r Swyddfa ar ôl hyn. Mae 'na ambell ddatganiad mae'n rhaid ei lofnodi'n ddiymdroi.'

'Fyddwch chi'n eu darllen nhw i gyd?' holodd Mariā yn fipslyd.

'Hwnt ac yma,' meddai Neegaard gan sipian ei choffi. 'Dwyn *perswâd*, dyna ngwaith i bellach, Mrs. Aesling, 'dyna ngwaith am weddill y diwrnod. Gweithred ddigon ffrwythlon.'

'Ffrwyth? A'r tincod ar y dannedd? Dda gen i mo'r benthyciadau Almaeneg geiriol 'na fel "perswâd",' atebodd Mariā. 'Mae 'na sill bach cefn gwlad yn Hethlan wnaiff y tro yn burion i bawb ohonon ni – "brad".'

'Gair pwysig,' meddai Vidkun, 'o'r sagâu. Nid gair cyfoes.'

'Mae yna ambell berson cyfoes oedd yn arfer astudio sagâu mewn dyddiau callach.'

Rhoddodd Neegaard ei chwpan-a-soser i lawr ar ford fechan yn ymyl. Trodd at Vidkun. 'Esgusodwch fi, mae'n bryd ifi'i throi hi. Dw i'n credu mod i'n deall beth yw'ch ewylls chi, syr. Ac os hoffech chi ifi drosglwyddo'r gorchymyn i ryddhau'r crwt ffaidd 'na, hynny wrth gwrs yw'r hyn a wneir.'

'Ie,' meddai Vidkun. 'Trugaredd sy'n gweddu.'

'Trugaredd: tra gwrol,' gwawdiodd Mariā. Ac yna i gyfeiriad Neegaard, ond heb edrych ym myw llygaid honno, brathodd amdani: 'Fe fradychech chithau'ch gwlad



mewn rhwyddineb. Ac yna,' poerodd ymhellach, 'bysech chi'n troi ata-i, a mradychu innau hefyd. Dodi'ch dwylo blewog ar aelwyd ddiertth. Wrth beidio ag arddel anrhydedd eich gwlad fan hyn ar aelwyd ddiertth, dych chi wedi peidio ag arddel *pob* anrhydedd, hyd yn oed mewn caru. A heb anrhydedd does na fawr o gariad rhwng pobl.'

Ddywedwyd dim mwy. Ymadawodd Neegaard mor syber ag y gallai'i wneud.

18.

Ciciodd Bojer â'i holl nerth at yr awyr o flaen Warder y carchar.

Wrth y drws, gwyliai Neegaard yr ymdrech anurddasol rhwng y ddau, Bojer a'i Warder. Roedd yna beth digrifwch yn y sefyllfa. Hyhi, (a ddaethai â'r faddeueb yn bersonol), oedd yr un na ddymunai Bojer ei gweld, ond mewn chwilfrydedd hi a fynnai weld y troseddwr drachefn a'i adwaith. Fynnai Bojer ddim cydymffurfio o gwbl. Fynnai fe ddim rhyddid diymdrech. 'Dyw maddeueb ddim yn gweithio os nad yw'n cael ei derbyn,' meddai fe. 'Dw i'n aros fan hyn.'

'*Rhaid* i chi, y snob Colegol, fynd oddi yma,' meddai'r Warder wrth Bojer. 'Mae'n orchymyn uniongyrchol gan yr Arlywydd. Dyna sy'n gweithio yn y lle 'ma,' meddai wrth ei garcharor.

'Mae gen i hawl i aros.'

'Pa hawl?'

'Hawl p-pawb sy'n troseddu.'

'Na. Ni biau'r llety 'ma. A does 'na ddim gwely 'ma i chi heno,' meddai'r Warder.

'Fi sy wedi tannu'r gwely hwnnw.'

'Chewch chi ddim cysgu ynddo.'

'Y noson gynta o gwsg ges i ers tro.'

'Na. Allan ag e, Warder,' meddai Neegaard, gan droi ar draws y gwrthsiarad.

Hyrddiodd y warder ei hun ar y llanc, gyda phrofiad un sy'n gwybod ei bethau a ymarferwyd wrth drafod miloedd o garcharorion anhydrin. Hethlannwr oedd yntau hefyd. Clymodd un fraich y truan yn boenus y tu ôl i'w gefn, a gwthiodd Bojer Dunn. A

phe creffid ar Bojer, gellid canfod rhywbeth tebyg i olion dagrau ar ei fochau, er doedd yno ddim dagrau go iawn o gwbl. Ym mynwes Neegaard hithau cododd o'r newydd y teimlad dilys cynta ers tro o'r fuddugoliaeth nas profasai hi ers rhai blynyddoedd.

19.

'Does dim byd rhyngon ni, Marïa,' protestiodd Vidkun, gan gyfeirio at ei berthynas dybiedig e a Neegaard.

'O?' meddai Marïa'n ymholgar, fel pe bai'r pwnc dan sylw'n rhyw fath o ddirgelwch pur.

'Dw i'n *gwybod* beth sy yn dy feddwl di... Neegaard.'

'Bod yn ddyn *gwybodus* yw dy swyddogaeth di,' meddai Marïa. 'Heb berygl creadigol anwybodaeth ym myd bach priodas.'

'Heddiw mae'r gymdeithas ei hun yn difa pob cariad, Marïa... Pan gawson ni'n geni gynt roedd gwyfyn eisoes yn dodwy yn ein llygaid ni... Welai'r llygaid yna byth yn syth wedyn.'

'Druan ohonot ti, Vidkun, a'th esgusodion. Druan ohoni hi hefyd... Beth *wyt* ti bellach dywed?... Dw i'n gwybod beth *oeddet* ti? Ond beth wyt ti 'nawr? Beth sy ar ôl? Pwy?' meddai Marïa.

'Hethlan dw i.'

'Na, Vidkun, na. Fe gydweithredaist ti ormod â'r gwenwyn.'

'Peth felly yw Hethlan hefyd.'

'Maldodyn wyt ti yn cofleidio gelyn', meddai hi.

'Cymysg ydyn ni i gyd. Seren wib oeddwn i. Fel Hethlan. Fel pob hanes,' cyfaddefai Vidkun. 'Yn nos ei chasineb mawr, fe deflais i ddyrnaid o wreichion bach ledled ei ffurfafen hi, ac yna sleifio'n ôl i unigedd y gwyll i wylled.'

'Unigedd y "brad", Vidkun, dyna dy fwynhad, gyda Neegaard. Cymdeithion mewn trosedd. A beth nawr wyt ti i *fi*? Beth sy ar ôl? Hi a thi. Mae honyma'n dod, y

fenyw dywyll yma, yn llithro i mewn i lychwino'n tŷ ni. Ac i'th lychwino di. Beth wyt i *fi* wedyn?'

'Yr un fath ag a fues i erioed.'

'Beth, Vidkun?'

'Popeth.'

'Dim byd... Dim oll. Edrych, Vidkun. *Edrych* arna i.'

Ond cododd e ar ei sefyll, heb sbio arni hi o gwbl. Aeth draw at y bowlen lle'r oedd y pysgod marw o hyd. Cododd y blychyn bwyd a'i siglo drostyn nhw. Ond roedd y blychyn yn wag. 'Y gwaelod,' meddai Vidkun yn bwylllog.

'Dw i ddim yn gofyn, dw i erioed wedi *gofyn* iti ngharu i,' meddai fe. 'Dw i ddim am iti dderbyn yr hyn dw i am ei ddweud. Ond gwranda, Marïa. Dyw Hethlan ddim yn mynd i golli'r rhyfel 'ma. Mae gan Hitler arf cyfrinachol. Nid arf bach. Fu dim tebyg erioed o'r blaen. Arf sy'n gwneud cawl moch o gannoedd o erwau yr un pryd, dyna sy ganddo ar y gweill.'

Safodd Marïa yn ôl wedi'i harswydo. Roedd y dyn yn wallgo. 'Na! Chlywais i ddim o'r fath beth o'r blaen.'

'Do.'

'Dwyt ti ddim yn gall.'

'Bron yn barod. Mae'n waredigaeth anghyffredin.'

'Vidkun, nid ti sy'n dweud hyn.'

'Fe gawn ni'n dau fyw eto Marïa.'

'Byw?'

'Mae hi mor gyffrous.'

'Nid ti sy'n dweud hyn. Dwyt ti ddim yn credu'r dyn yna.'

'Mater o siawns yw pwy sy'n ennill nawr. Bydd y cwbl drosodd gyda'r datblygiad hwn. Awn ni ar ein gwyliau eto gyda'n gilydd i Roeg: cei weld: goleuadau yn y dre, opera, sliperi gyda'r hwyr, cusanau.'

'Na.'

'Tangnefedd wrth y tân. Ymddiriedaeth.'

Roedd y cyfan yn ormod. Teimlai hi ei fod e, er taweled ei leferydd, yn sgrechian yn wallgo feddw o'r tu mewn iddo'i hun. A sgrechodd hithau'n ei hôl, 'Na, Vidkun.'

'Y sagâu; Sibelius, Marïa.' Âi Vidkun yn ei flaen fel bore gwlyb cyfarwydd, fel pe bai'r papur newydd y funud yna wedi glanio yn ôl yr arfer ar y mat y tu mewn i'r drws, fel pe bai'r dynion-casglu-sbwriel newydd fynd heibio, a hithau wedi dod yn ei hôl, newydd fod am dro gyda'r cŵn cyn belled â'r eglwys. Popeth dibwys pwysig. Fel llonyddwch. Ond iddi hi bellach roedd math o fom enfawr newydd ei effeithiau wedi syrthio i ganol y llonyddwch hwnnw a'i hachub hi'n gwbl ofer, mor amherthnasol nes iddi ffrwydro. Troes hi arno. Dechreuodd hi mewn gorffwylledd ymosod yn gorfforol ar ei gŵr, gan fwrw'i dyrnau gwyn yn erbyn ei fryst. Ceisiodd e feistrolï'i breichiau hi, a'i pherswadio hi i bwylo, a'i chysuro hi, a chodi'i chalon. Ond dechreuodd ei drwyn e waedu. 'Paid byth â cholli d'ewylllys i fyw,' gwichiodd e.

'Paid di â thaflu petalau trwm ar gelain ein cariad.'

'Ond dyna fywyd, Marïa. Ie. Hyn. Nid gwaed, nid rhascsio babanod, ond petalau trwm.' Bwriai hi'n galetach yn ei erbyn. Taflodd bob owns o'i chywilydd ato. Roedd hi'n dechrau chwythu'i phlwc. Roedd ei chorff yn dechrau ymdeimlo â'r oferedd. 'Gobeithia eto, Marïa fach,' clywai lais ei gŵr yn undonog gyfoglyd ym mhen draw rhyw goridór clinigol. 'Gobeithia fel dw *i'n* gobeithio.'

Efô oedd y nod hurt a'r patrwm hurt iddi hi felly. Allai hi ddim credu'i chlustiau. Dechreuodd hithau lefaru'n glinigol: 'Ac rwyt ti'n tybied y byddai rhywun yn ddigon annynol i ollwng bryntni fel rwyt ti'n ei ddisgrifio.'

'Arf, dyna'r cwbl...Heddwch yw'i gymhelliad. Amddiffyniad,' meddan nhw.

'Ie; a gwladgarwch weithiau yw *Brad* dynoliaeth mewn meicrocosm,' meddai hi.

'Paid â defnyddio'r geiryn yna, *Marïa*. *Brad* yn wir. Mae e mor syrffedus o blentynnaidd.'

'*Symlder* anymwybodol plantos; dim arall.'

'Gair yw *Brâd* ar gyfer sloganau wedi'u paentio ar waliau liw nos... heb ei sillafu'n gywir,' meddai Vidkun.

'A'r arf hyfryd yna y soni di mor orfoleddus amdano, ... pryd, pryd y bydd e'n barod? Mewn pryd i'r Nadolig gyda'r twrci?' Petrusodd e ychydig am ei bod hi'n gofyn gormod, os mai gofyn yr oedd hi. 'Pryd y cawn ni weld Hethlan yn fuddugoliaethus felly? Ai ar sail y fath fonedd a siawns?'

'Alla-i ddim datgelu hynny.'

'Fe'i gwyddost ti felly.'

'Mae'r cwbl ar y gweill,' meddai Vidkun.

'Ond fe *gaiff* ei ollwng?' Atebodd e ddim. Trodd hi oddi wrtho'n ddirmygus chwyrn. Aeth hi draw at y bowlen bysgod, cydio ynddi, a'i gwthio. Chwalodd y cwbl yn deilchion ar y llawr, a'r pysgod mân yn gorwedd fel cyllyll hyblyg bach pŵl ar garreg fedd. Doedd Vidkun ddim yn deall beth roedd hi'n ei wneud. Na hithau chwaith...

Wrth gwrs, chyrhaeddodd ddim o'r bom mewn pryd.

## 20.

Oer iawn i Greta, y tu allan i ddrws y carchar, oedd y disgwyl mud am Bojer. Prin bod yna ddim mor foel â drws carchar. Dim mor uchel. Dim mor anghroesgar. Dim chwaith mor llwyd. O'r diwedd, a bwndel dan ei gesail, dyma fe; a daeth gwên orweliog dros ei chariad. Rhedodd llawenydd Greta tuag ato. A throdd e i'w chofleidio hi'n wallgo. Anweson nhw ac ymhyfrydu a thaflu'u calonnau i'r awyr. Allen nhw ddim gweld dim arall. A cherdded wedyn, neu gogio cerdded law yn llaw ar hyd carlam yr hewl heb fod yna neb arall yn bodoli yn yr holl fyd. 'B-ble dŷn ni'n mynd?' meddai hi.

'Mynd i gael ein geni, gobeithio.'

Cerdden nhw am ddwy filltir gron heb fynd i unman, wedi anghofio am gartre, wedi anghofio am Hethlan. Ochain heb siarad, ond ochain hapus hapus. A gwallgo wrth fwynhau'r fath beth â strydoedd. 'Wedi'r cyfan, wedi'r brad, wedi'r camgymeriadau, mae e'n ddyn da,' cyhoeddodd Bojer yn ara o'r diwedd.

Chwarddodd Greta. 'Vidkun? Felly y mae'r Natsïaid, ti'n gwybod. Dyw e ddim wedi newid,' meddai hi. Dim oll.' Chwarddodd hi drachefn yn ffôl: 'Y b-bradwr!'

'Ni sy wedi newid, Greta.'

'Does dim chwant arnat *ti* erbyn hyn, does bosib, i fod yn Natsi dy hun am ddiwrnod neu ddau, yn fradwr?'

'Mae'n ddyn da, druan. Mi drugarhaodd, Greta.'

'Wyt ti'n synnu mai “dyn” yw e?... Neu fod yna beth â “daioni” yn gallu bod mewn unrhyw un, ac yntau ar waelod argyfwng?'

'Ond mae bradwyr yn gallu bod yn bobl,' meddai Bojer.

'Ydyn; ac maen nhw'n gallu lladrata llawenydd oddi wrth ambell un am wythnosau...! Stopiodd hi, ac edrych ar Bojer heb fod neb arall yn bodoli yn yr holl fyd. 'Dw *i* ddim wedi newid chwaith cofia!'

Chwarddodd y ddau gyda'i gilydd, yna cofio eto, a cherddetian ymlaen yn hapus gyd-wallgof.

'Dw i'n gallu'i ddeall e nawr,' meddai Bojer.

'Prin.'

'Pragmatydd yw e, Greta, y tu ôl i'r holl theorïau academaidd. Fe werthodd e'i werthoedd, fe afradodd ei anrhydedd, ond er mwyn i'r c-corff oroesi, i gorff Hethlan oroesi, Greta. Fe...'

'Ac rwyf ti'n gallu deall *hynny*?'

Edrychen nhw'n chwilfrydig ar ei gilydd. Roedd hi o ddifri, ond roedd y ddau ohonyn nhw'n clebran ar ddaear arall, ac fe chwarddodd e drachefn.

'Dw *i* ddim yn gwybod chwaith ble dŷn ni'n mynd yn nesa chwaith,' meddai hi.

'Na finnau,' cyffesodd e. A chofleidion nhw'i gilydd o'r newydd yn chwil ddiymadferth ddi-atal-ddweud ar ryw fath o ddaear.

21.

Enciliodd Vidkun yn awr am orig fechan i neilltuedd llwyd Eglwys Gadeiriol Sain Pedr mewn Cadwyni. Yr hyn a'i denodd e yno y prynhawn hwnnw oedd y gwacter.

Gwyddys fod eglwys yn gallu bod yn fwy tywyll na chell carchar. Ond fel pe bai adeilad yn gallu chwilio mewn caddug am y peth hwnnw sy'n gallu dileu fflachiadau duon a mynych y byd prysur y tu allan, mae unrhyw eglwys gadeiriol yn gallu hefyd feddiannu'n awchus areuedd hir o wyll a'i oleuo am ben yr edifeiriol.

Buasai gormod o bentyrrau o bethau ac amseroedd wedi pwyso ar ei fywyd cyhyd, ac roedd yn hen hen bryd iddo beidio, a phendroni ac ymdawelu am flynyddoedd newydd tangnefeddus y tu hwnt i'r cyfnod diweddar. Roedd yn bryd iddo ddyrchafu'i lygaid goruwch bydolrwydd. Doedd yno neb yn yr Eglwys ond Vidkun Aesling ei hun yn ffigur bach pitw yn awr o dan yr yr uchder tawel, yn ceisio dod o hyd iddo'i hun, yn ceisio'i feirniadu'i hun yn y gwyll. Archwiliai'i hun gyda manylder. Côt wag yn hongian ar adenydd-dillad oedd e ei hun yn y sedd flaen; cysgod rhy ddiystyr a rhy ddi-wyneb oedd e; cefn crwm o ddilledyn llwyd oedd e pe safai o'r tu ôl ac edrych arno'i hun, ymhlyg ac yn ddisgwylgar anobeithiol ar ei liniau, yn llawn o feiau. Ceisiai archwilio'i egwyddorion gorau, y troeon creadigol yn ei fywyd, i adnabod eu diffygion yn awr, a'r amheuan di-ri. Dyma'r her iddo, dod o hyd i'r tyllau lawer, ie, a dod o hyd i'r Vidkun unig a gwirion a chloff hwnnw a oedd yn disgwyl am atgno, ac roedd adeiladwaith yr Eglwys Gadeiriol yn atgo newydd a brawychus iddo fe. 'Arglwydd mawr, mawr, mawr.'

Dros ei ben e hongiai uchderau gwag a llydain lwyd nenfwd yr Eglwys Gadeiriol.

'Arglwydd aruthr fawr,

Wnei di ganu tôn fechan ar yn ffliwt i,

Arglwydd; un dôn bur?

Os yw gwlad yn marw, pa mor oer yw maddau?

Pa mor *dywyll* yw hi cyn y goleuni?'

Roedd e'n anadlu'i lais i mewn i bren yr estyll o'i flaen. Ceisiai dynnu'r Drindod anwel i arbenigo ar ei boen e yn y man yna. Ond nid fel yna roedd pethau'n gweithio. Ac roedd yr holl ofod o amgylch ei ben yn llwyd ac yn drwm ac yn erchyll o dawel. Dyma'r union dawelwch y chwenychai Vidkun ei feddiannu. Cododd e ddwylo i'r awyr i ymaflyd yn ddiogel ynddi. Ond y tu mewn iddo'i hun roedd fel pe bai'n gallu clywed dryll peiriannol a bom yn syrthio, ac roedd ei ddwylo llaith fel pe baen-nhw'n cydio mewn mân fomiau'n dryllio, ac ymosodiadau awyr ac adeiladau'n cwmpo a gwifren bigog a milwyr yn ymlwybro rhwng y ffosydd gan gario drylliau a bidogau arnynt. 'Mae'r drwg ei hun yn oruwchnaturiol, y tu hwnt i gyrraedd y naturiol syrthiedig; ac felly'r da goruwchlywodraethol. A thrwy'r Goruwchnaturiol y mae eu chwilio nhw. Bendigedig fo'r gwir Arglwydd!'

Cododd Vidkun yn ddisymwth ar ei draed, ac yna wedi bwrw un olwg wyllt tuag at yr allor, a'i bechod, rhuthrodd allan o'r eglwys lwyd fel pe bai rhyw fytheiad yn ei hela. Ai hyn, y bwystfil creulon hwn o ffieidd-dra, oedd heddwch? A'r rhyfel – ie, ei ryfel e – wedi mynd heibio iddo fel gwynt, fel gwynt heb sylwedd, mewn byd politicaidd gywir.

22.

Medi 12, 1945.

Roedd Vidkun yn ôl yn yr un hen le yn ei astudfa o hyd. Dim ond Marïa oedd gydag e. Eisteddai'r ddau yn eu cadeiriau heb wneud dim, dim ond crymu'u pennau'n ddifyfyrdod tuag at y ddaear, yn disgwyl. Ac o bosib ambell waith bob rhyw bum munud fe goden nhw'u eu pennau'n sydyn er mwyn bwrw'u golwg tua'r drws... yn aros, fel pe clywen nhw awgrym o sŵn pŵl, ac yna adfeddiannu'r syllu mawr tua'r llawr.

Cododd Vidkun o'i gadair ymhen y rhawg a chlosio at Marïa. Ond wrth iddo wneud hyn, beth bynnag a fu ganddo fe mewn golwg, daeth cnoc ar y drws. Edrychodd y ddau tuag at y sŵn, ond heb wneud yr un ystum i'w ateb nac i symud yn ei gyfeiriad. Daeth dau ddyn yn nillad arferol yr heddlu – Hethlanwyr – i mewn a sefyll y naill a'r llall bob ochr i'r drws.



'Wel?' holodd Vidkun.  
'Yr Athro Aesling.'  
'Ie?'  
'Dŷn ni *wedi* dod.'  
Cerddodd Vidkun ddau gam tuag atyn nhw. 'Dw i wedi bod yn eich disgwyl.'  
'Ninnau hefyd,' meddai'r plismon cynta, 'ac yn argoeli hyn.'  
'Ers pedair blynedd,' ategodd yr ail.  
'A finnau ers amser y sagâu,' meddai Vidkun.  
'Mae gynnon ni wŷs ichi ddod gyda ni,' meddai'r plismon cynta.  
'Pwy sy wedi'i llofnodi?'  
'Chi syr. Un o'r ffurflenni arferol ffurfiol gyda'ch llofnod wedi'i amlhau yw.' Ac fe'i hestynnodd i gyfeiriad Vidkun.  
'Does dim angen ei dangos. Dw i'n gallu darllen print mân yr amseroedd.'  
Moesymgrymodd tuag at ei wraig. 'Marïa.' Edrychodd hi'n hiraethus tuag ato.  
Ac aeth e gyda'r ddau blismon yn gysurus ddigwestiwn allan i gar Heddlu Hethlan.

23

Amneidiodd y Cyfreithiwr Berg yn gwrtais mewn cytundeb â'r warder wrth iddyn nhw gerdded heibio i ddegau o gelloedd ar hyd coridôr llwyd hir tuag at gell Vidkun Aesling. Berg oedd yn cynrychioli'r wedd gyfreithiol ar weithredu swyddogol ola Vidkun. Yna, ugain llath o'r pen draw, safodd y Warder yn stond.

'Dyma fe.' Â'i allwedd anferth a swnllyd agorodd ddrws y gell i'r Cyfreithiwr.

Bwrdd bychan, sinc, comôd, cadair, tri llyfr, a gwely oedd yr unig ddodrefn; ac ar y gwely o dan flanced ymguddiai Vidkun Aesling yn gyfan gwbl rhagddo fe'i hun. Na; roedd yna gwprdd bychan hefyd, yr un pen â drws y gell, ar y chwith; yn

anweledig ar y dechrau, a Beibl ar ei ben. Silff fechan o lyfrau yn y fan yna hefyd. A'r tu ôl i ben Vidkun yr ochr arall yn uchel ar y wal yr oedd yna ffenest fechan faredig.

'Eich Cyfreithiwr, syr,' cyhoeddodd y Warder. A chlapiwyd y drws o'r tu ôl i'r Warder wrth iddo ymadael.

Edrychodd Vidkun yn chwilfrydig tuag at Berg. Eisteddodd hwnnw ar y gadair, heb ddweud dim, ond gan gadw ei fag du yn ei gôl. Edrychen nhw ill dau ar ei gilydd am ennyd heb yngan yr un sill.

Lled-wenodd Vidkun. 'Felly, mae gen i gyfreithiwr bellach...'

'Na, nid eich cyfreithiwr chi, syr, mae arna-i ofn, ond eu cyfreithiwr *nhw* i siarad â chi.'

'Pwy yw'r Prif Farnwr te?' gofynnodd Vidkun. 'Erik Solen? Rown i'n meddwl mai felly y byddai hi.'

'Gadewch ifi esbonio'r holl sefyllfa, syr.'

'Na. Mi wn i'n burion beth maen nhw am ei wneud,' meddai Vidkun. 'Byddan nhw'n awyddus dros ben i osgoi gwleidyddiaeth. Achos *troseddol* yw'r gêm bob tro. Does dim egwyddorion. Na dim dadl. Dw i'n gyfarwydd â'r drefn.'

'Na,' ategodd Berg yn hyderus.

'Mi wn i. Pan fydd 'na erlyn sy'n amlwg "wleidyddol" i'r byd a'r betws rhyngwladol, y ddyfais o hyd yw gwadu hynny. Dadlau'n wryfol wnewch chi mai trosedd cyffredin sy 'ma fel pob trosedd tatws....'

'Na.'

Gwylltiodd Vidkun. 'Dw i'n mynd i ymosod o'r cychwyn cynta ar hynny, Berg. Ac i larpio'r Barnwr ei hun.'

'Na.'

'Hen gystadleuydd carwriaethol yw Erik; ac mi wna-i brofi hynny. Hen sboner Maria. Fe brofa-i hefyd nad oes 'na ddim gwahaniaeth rhwng yn euogrwydd i a

channoedd – cannoedd lawer – o rai eraill, heblaw am y gwahaniaeth statws mewn swydd. Dyna, yn anochel, yw'r norm ystrydebol dan oresgyniad gan fyddin.'

'Na, Athro Aesling.'

'Gwahaniaeth statws oedd 'na, yn syml, ond doedd dim gwahaniaeth ansawdd mewn gweithredoedd, dim gwahaniaeth safbwynt o fath yn y byd. Fel mae dyn yn gorfod ufuddhau i drefn y gyfraith yn ystod heddwch, felly yng nghyfnod rhyfel, y drefn gywir yw dal i gydymffurfio. Mae miloedd yn ei wneud. Brad daionus dw i'n ei alw fe.'

'Ond...'

'O! Mi wn i: byddan nhw'n ceisio dwyn yn yn erbyn i achosion pawb a ddiennyddiwyd yn ystod y cyfnod Almaenig. Dwli! Yn erchyllter enwog *i* fydd Gotsfford. Ond mi driaais i weithredu trugaredd helaeth yno. Mi alla i brofi ifi fod yn haelfrydig, do, dro ar ôl tro. Fe gafodd cannoedd eu traed yn rhydd, – yn llofruddion, yn lladron, yn droseddwyr glân ddilys o bob math yn ystod y cyfnod – am eu bod nhw'n Hethlanwyr... Nid *fi* fy hun benderfynodd wneud yr un drwg i neb. Llofnodwr ar ran yn swydd own i, dyna'r cwbl. Fe gymerais i gyngor yr heddlu lleol, a phob cyfreithiwr ymhlith goreuon y rhanbarth. A gwneud y nyletswydd i ddiogelu'r drefn ar adeg o ryfel. Mae gen i ddigon o achos i nghlirio i. Dyw bod yn Arlywydd ddim yn gosod neb uwchlaw cyfraith a threfn.'

'Arhoswch.'

'Does gen i ddim byd i'w guddio. Fe alla-i brofi ifi fod yn wladgarwr. Fydd ganddyn nhw ddim o'r wyneb i niennyddio i. Petaen nhw'n ceisio'i wneud, fe fyddwn i'n marw'n ferthyr yng ngolwg pawb. Ond na, pan ddaw'r profion ffeithiol i'r fei, bydd y wladwriaeth newydd heddiw (neu maes o law) am y ngwobrwyo i am y ngwladgarwch i. Cewch weld. Dw i am i bawb ddilyn y gyfraith.'

Ac arhosodd i ailgydio yn ei anadl. Ymyrrodd Berg wedyn yn ara bwyllog: 'Ond Athro Aesling, mae'r sefyllfa wedi newid yn gyfan gwbl.'

'Fe ges i genni,' dechreuodd Vidkun drachefn, ond yntau wedi arafu bellach er bod y llif heb ballu, 'ar Orffennaf y deunawfed, penblwydd brwydr Hwlffordd: y man

tyngedfennol lle yr enillwyd rhyddid Hethlan. Fe nghysylltwyd i â gwladgarwch hyd yn oed yn y ngeni. Ac mae'r dynged honno arna-i hyd heddiw. I fi yr ymddiriedwyd yn ddiweddar y dasg o garthu'r llygredd o ngwlad. Swydd orfodol oedd hyn. Roedd ar y wlad angen arweiniad oddi uchod, a threfn, fel roedd ar yr Almaen a'r Eidal, a hynny ar ganol Anobaith. Ar y ffin safai'r undeb Sofietaidd a'i garcharau Siberaidd diderfyn, a'i wladwriaeth fiwrocraidd lethol. A'r clercod diderfyn. Y byd o glercod. (O Arglwydd, achub ni rhag clercod.) Pob etholiad yn dibynnu ar arian a hysbysebu a llwgrwobrwyo. Dyna lle yr oedd hi felly, y ngwlad fach ddiniwed Hethlan, yn disgwyl disgwyl i rywun bach heddiw chwythu corn rhyddid. A dyna fi'n dod. Y dyn iawn yn yr amser iawn.'

'Arhoswch Athro... Dyw'r llywodraeth heddiw *ddim* am gael Treial.'

Sobrodd Vidkun mewn saib annioddefol... 'Beth! Beth dych chi'n 'feddwl?'

'Dim Treial. Dŷn ni wedi cael gorchymyn oddi uchod i adael ichi *ddianc*.'

'Dianc!'

'Rhyw fath o *ddianc* cywilyddus.'

Rhedodd ysgryd hyd asgwrn cefn Vidkun. 'Dw i *ddim* yn deall.'

Gostyngodd Berg ei lais ryw ychydig: 'Mae'r llywodraeth, yn *gyfrinachol*, am i chi wneud rhywbeth anghyffredin iawn, syr, ac arwrol. Er mwyn rhwystro unrhyw ymgais i wrthryfela'n erbyn y gyfraith a'r drefn, a rhag awgrymu unrhyw fath o ferthyrddod i'r cyhoedd. Gweithred *gwladgarwr anghyffredin*. Er mwyn diogelu llonyddwch heddychlon y boblogaeth, rhaid i chi *beidio* â bod yn arwr. Ac inni'ch saethu chi yn sgil hynny... Er mwyn diogelu heddwch, er mwyn lles a budd eich henwlad annwyl yn y bôn, er mwyn peidio â gwneud yr un esboniad o'ch gweithredoedd chi fel petaech chi'n ferthyr, ac er mwyn i'r gweddillion Natsiaidd ymhlith ein pobl beidio â'ch cymryd chi'n symbol o wrthryfel dinistriol parhaol ofer i gynnal y gynnen, fe ddyfeisiwyd symlder yn lle hau unrhyw gymhlethdod arswydlon o wrthryfel di-gyfeiriad posibl. Yn lle tynnu'ch enw drwy'r baw yn amlwg gyhoeddus yn eich gŵydd, y rheidrwydd nawr yw sicrhau rhoi cywilydd di-arwriaeth ar eich enw da heb eich bod yn bresennol, ac anghofio. Ond dw i *ddim* yn bychanu'r weithred. Yn y bôn, Athro, mae gweithred fel hyn, mewn gwirionedd, mor ffiiaidd â phetaech chi'n peidio â bod yn

barod i farw dros eich gwlad, heb anrhydedd, heb yr un rhithyn o arwriaeth, eithr mewn cywilydd, yn gwneud yr heddwch glân yn bosibl. Dŷn ni am ffugio cynllun dihangfa i Dde America, cynllun personol hunanol, gyda stoc o arian wrth law, gyda chysylltiadau *en route*, gyda chartre hefyd yno a chysuron, golud yn y banc yno, a merched pert i weini arnoch chi weddill eich oes. Ond dyna a glywith y bobl mewn llythyr ffug at gydweithredwr ffug: fe saethir chi cyn cyflawni'ch uchelgais fel yna. Cywilydd mewn marwolaeth yw'r aberth ucha y gall unrhyw arwr ei wneud dros Hethlan. Dim ond cariad aruthr dros ei wlad fyddai'n caniatáu i ddyn fel chi gynorthwyo tangnefedd drwy ddwyn gwarth arno'i hun. Dŷn ni'n dymuno ichi gael y cyfle i aberthu'ch anrhydedd a'ch enw da, eich bri dynol, eich geirwiredd, a'ch enwogrwydd er mwyn diogelu sefydlogrwydd heddychol Hethlan. Byddwch chi'n cadw'ch henwlad rhag dal ati i'w hysglyfaethu'i hun mewn gwrthryfel. Fe geisir trefnu rhywbeth sy yn y gwraidd ac yn eich bryd chi yn wir aberth eitha dros y genedl, yn fwy na dim tebyg, a pheidio â gadael i Hethlan wedyn wybod am y gwir, na chwalu'n ddrylliau anarchaidd cyd-laddol. Fe fyddwch chi'n gadael eich enw da mewn carpiâu er mwyn diogelu'ch gwlad rhag pob protest a gwrthryfel. Bydd eich enw chi'n faw. Dim ond arwr, dim ond gwladgarwr eithafol, dim ond ymostyngwr pur o'r radd flaena er mwyn gwynfyd y werin a'u trallodion, a fysai'n medru cynnig a gwirfoddoli i fod yn dreisiwr ... Cyn fyrred ag sy'n bosib fydd y co amdanoch chi. Gwaherddir sôn am eich enw. Ymhen blwyddyn neu ddwy, bydd pobl am anghofio amdanoch chi. Bydd newyddiadurwyr ddim yn meddwl bod eich sgandal chi'n werthadwy. Bydd y diwedd yn dwt ei wala. Dŷn ni wedi teipio llythyr ichi arwyddo at eich dilynwyr, yn nodi'ch cymhellion israddol a chywilyddus o blaid diflannu'n llwyr yn hytrach na dianc i arwain gwrthryfel. Yr hyn fydd yn amlwg fydd eich troseddau personol a'r llygredd o ddwyn arian oddi ar y wladwriaeth.'

'Syber iawn yw dyfais ac awgrym a chynllun mor dwt,' meddai Vidkun yn watwarus.

'Mae'r cynllun yn feistrolgar. Anrhydedd Hethlan sy mewn golwg. Eich anrhydedd chi'n toddi ac yn mynd, er mwyn i dangnefedd Hethlan ddod. Dim llai.'

'Ond mae gen innau hawl i beth anrhydedd. Dw i'n barod ddigon, fel arall, i wynebu her y Treial a'n amddiffyn yn hun, a chydabod cyfreithlonrwydd y llywodraeth newydd ac i fi wneud camgymeriad twp.'

'Does neb yn amau hynny am funud. Fe fu hynny o dan ystyriaeth yn faith iawn. Bod yn dryloyw onest. Nid ar frys dŷn ni wedi dodwy'r cynllun hwn. Does gynnon ni ddim amheuaeth na allai'r fath gynllun hefyd ofyn rhai ffeithiau cefnogol gwneud. Ond rhyw 4.5 % o siawns fyddai y gallai hynny arwain i ryw fath o gytundeb ymarferol o flaen rheithgor. Gwell, sut bynnag, yw sicrhau eich gwarth eithafol, er mwyn y bobl. Cytundeb, ango, a dileu dryswch er mwyn diogelwch sy orau. Heddwch sefydlog Hethlan a symud ymlaen. Heb hynny, mae'r siawns arall o dywallt gwaed arwrol ymhlith y bobl yn anfeidrol fwy chwithig. Hyn, ar y llwybr cywilydd, yw'r llwybr doetha o ddigon. Er mwyn Hethlan.'

Sobrwyd Vidkun. Bu'n eistedd mewn syfrdandod oer.

'Ond i bob pwrpas dw i'n ddiniwed. *Amgylchiadau* oedd y cwbl,' meddai fe.

'Dych chi'n awgrymu y dylen ni roi *amgylchiadau* yn y doc, syr? Does gynnon ni ddim doc digon mawr.'

'Mae gen i achos.'

'Fyddai gynnoch chi fawr o anrhydedd erbyn diwedd y Treial mae arna i ofn, syr. Mae'r Fones Neegaard Ystbi eisoes wedi cydsynied...'

'Neegaard!'

'Mae hi'n barod i dystio'n eich erbyn chi ar bapur, a'i arwyddo, i brofi'ch bod chi'n gelwyddgi heb eich ail.'

'Byth! Yn yn erbyn i!'

'Ar yr amod ei bod hi ei hun yn cael dedfryd oes yn lle dienyddiad.'

'Mae byw am oes yn fath o ddedfryd eitha i rywrai.'

'Dych chi'n feddwl?'

'Neegaard druan. Syniadau a nwydau a phlygu rheolau fu ei *forte* hi erioed, nid pobol.'

'Menyw ymarferol iawn, ddwedwn i. Yn eich ahos chi, dedfryd eitha go iawn i droseddwr, i bob pwrpas, fysai diwedd cofio'r gorffennol, pwy bynnag sy'n tystio.'

'Ond alla i ddim credu...'

'Wyddoch chi ddim oll eto am yr heddlu'n plannu tystiolaeth.'

'Amheuthun.'

'Fe gawson nhw res flodeuog o buteiniaid o'r Brifddinas a fyddai'n sôn amdanoch chi a'ch cywreindeb gyda phleser mewn gwledd o gyffesion gwneud ffaidd. Chi a'ch gwraig. Mae'n ugeinfed ganrif arnon ni, ddyn. Mae cildwrn yn gwneud gwyrthiau. Nid "oes aur" anrhydedd y sagâu yw hon. Os yw'r bobl yn dymuno ichi fod yn euog, does neb oll yn mynd i gyhuddo neb o gelwydda. Mae'r farn gyhoeddus – er mwyn Hethlan – yn ystyried bod moesoldeb pur yn gofyn iddyn nhw beidio â gadael ichi fynd yn rhydd. Bydden nhw'n dod â llond lorïau o fudreddi, a phawb yn falch.'

'Symbol gwarth fydda i, felly, beth bynnag fydd yn digwydd; un dyn i gynrychioli holl fradwyr y wlad. Tric hwylus. Ond er mwyn y dyfodol, ac i wneud y dyfodol o galibr newydd.'

'Yn union.'

Pwysodd Vidkun yn ôl yn fyfyrgar. 'Rhyw fath o arwriaeth anhysbys er mwyn Hethlan. Marw eitha dros y ngwlad.' Rywsut does dim ofn marw arna i.'

'Gwarth er hynny.'

'Rhyw fath o gyfrinach arwrol i fod yn hysbys i ddyrnaid ohonoch chi.'

'Ac yn mynd yn llai lai fel yr êl y blynyddoedd yn eu blaen. Cymwynas ddofn, syr, i bawb fyddai inni gladdu'r Treial, cael dargyfeiriad heibio iddo, anghofio am y fath warth gwir, dewis gwarth amgen, a dianc yn ffurfiol gyfrwys... Cymwynas i'r henwlad, Athro, fyddai'ch cydweithrediad chi.'

'Ond tipyn o anghymwynas i fi, fel y gwelwch chi. Cha i ddim cyfle i *esbonio*.'

'Fuoch *chi* erioed yn amharod i wasanaethu Hethlan, Syr. Dyma, Athro, efallai eich cymwynas benna dros eich gwlad. Bydd yn lanach nag esboniad.'

'A gadael bellach, ar yn ôl, yn enw i mewn baw.'

'Aeth amser “dweud” heibio. Gweithredu piau hi nawr. Ac anghofio. Heddwch Hethlan sy'n cyfri.'

'Dedwydd yw dweud.'

'*Nhw* fydd yn gwneud y dweud yn y diwedd. Y wasg am wythnos, gyda lluniau o Dde America â'i swynion. Dyna brif loches a phrif noddfa fwriadedig y Natsïaid. *Nhw*. Yna'n ôl at y bêl-droed, a chwpan y byd.'

'Drwy faw ci y ca-i wasanaethu y mrad felly.'

'A rhoi cyfle i'r henwlad godi yn ei hôl o'r herwydd... o'r diwedd.'

'Dyna fydd pawb yn ei gofio amdana i am byth felly? Baw cynnil.'

'Ond baw glân fydd e yn y bôn. Y baw fydd yn achub eich pobl. *Heb* wneud hynny, bydd rhai o ddoniau disgleiria ein gwlad yn cael eu henllibio ac yn colli'u swyddi. A *heb* fawr o brofiad gan neb arall yn y wlad mewn gweinyddiaeth, bydd rhai o arweinwyr Hethlan ein cyfnod newydd nesa o heddwch yn cael eu gwastraffu'n drist, y gwasanaeth suful gorau yng ngogledd Ewrob. Yn gwbl anghyfiawn felly, a'r dyfodol gymaint â hynny'n fwy bawlyd.'

'A ha! Dyma hi nawr,' gwenodd Vidkun yn chwerw.

'Dyna hi.'

'Dych chi ddim wedi ystyried dulliau eraill i'r cwlwm terfynol eitha,' roedd Vidkun am chwarae ychydig ymhellach â'r posibiladau, – 'megis gwenwyno mwyd er enghraifft, heb yn wybod i fi?'

'Byddai'n rhaid cael *post mortem* wedyn. Popeth yn dryloyw.'

Gwenodd Vidkun. 'Neu beth am ddamwain mewn cwch? Neu syrthio oddi ar dŵr ucha Eglwys Gadeiriol Sain Pedr mewn Cadwyni?'



'Ydyn. Dŷn ni wedi pwyso a mesur diweddau afrifed posibl eraill o'r fath, rhai diddorol a rhai anniddorol. Rhai'n chwerthinllyd. Ond yr elfen y mae'n rhaid ei diogelu yw osgoi'r elfen o ferthyrddod pur ... dim y gallai rhyw gofiannydd ryw ddydd ei chodi i ddadlau o'ch plaid oherwydd y diffyg *cyfle* nawr (y bwriadwyd peidio â'i roi i chi). Rhaid cael hunanoldeb a baw ac anfoesoldeb a ffeidd-dra o'r dechrau hyd y diwedd, heb fymryn o amheuaeth. Does dim angen unrhyw ôl arwrol hysbys na chreu myth o annhegwch yn y lladdedigaeth. Does dim angen cynnen wedyn rhwng y creulondeb a'r terfynoldeb anghyhoeddus, y mawredd ond y bychander hefyd. Dŷn ni ddim eisiau tindroi gyda diymadferthedd amwys yn y marw, fel y byddai 'na bosibilrwydd o gyhuddo neu o feio neb cyhoeddus, nac o ddial ar neb. Dŷn ni ddim am gael hunanladdiad herfeiddiol â dryll. Llawer gwell na sgwad o ddryllwyr swyddogol hefyd fyddai ysgubo'r peth fel baw cwbl ddisylw dan y carped. Marw'n annelwig anhysbys, yn hytrach, ond gyda'r llythyr hunan-gondemniol o gachgieidd-dra, yn gyflym. Helpwch ni, Vidkun. Dŷn ni am ichi lunio math o lythyr cyffes ar oleddf neu o awgrymiadau hunanlesol at gyd-gynllwynwr yn rhoi cyfarwyddiadau ffug a di-anrhydedd. Dyna a roir yn yr adroddiad swyddogol yn union ar ôl eich marwolaeth. A hynny er mwyn heddwch Hethlan, ac undod. Buasai'r cysylltiad dewr yn y 'dryll', o ddelwedd-ymladd, yn aros ym meddwl rhai gwrthryfelwyr potensial. Dŷn ni wedi paratoi llu o ddogfennau cywilyddgar o'r dechrau i'r diwedd, i'w llofnodi gynnoch chi, yn amlinellu dyfnder gwael eich gwarth, ond yn arddangos synwyr iach a siarp yng nghyfrwystra'ch ymennydd. Dŷn ni am ichi adeiladu argraff o ewyllys rhydd i'r farn gyhoeddus: pawb yn rhydd i leisio barn ystrydebol am y sut. Agor yr holl dystiolaeth wedyn i'ch amddiffynwyr ffyddlona beidio â gallu gwrthddweud y dystiolaeth. Mae'n rhaid inni adael i'r ochr arall, wrth gwrs, gael y cyfle i ddatgelu pob rhinwedd dybiedig, a rhithio rhywrai i gynrychioli'ch condemnwyr yn y dyfodol sy'n dadlau'n erbyn eich trafod fel merthyr pur hefyd. Ond, fel y gwelwch, dianc elwgar hollol hunanol yw'r dewis anochel i chi yn y bôn. Yr hyn wnawn ni ar eich cyfer yw cael gwn syml, a saethwr anwleidyddol i'ch dal chi yn ei annel wrth y lle dianc wedyn er mwyn difa pob dystiolaeth am arwriaeth. Buon ni'n ricriwtio yn ddoeth ddirgel rywun i dynnu'r trigger cudd terfynol, rhywun a fyddai'n barod i'ch lladd, ac a gâi, *yntau neu hithau*, ei ladd wedyn, a'i gyfri yn ferthyr o fath, wrth ei ladd ei hun wedyn dros undod Hethlan. Dyna'r

amod i gymryd y fath waith “diganlyniadau”. Hynny sy'n gyfiawn. Bob o “ferthyr” *methedig* fyddai'r naill safbwynt a'r llall, y saethwr a'r saethedig. Bydd dau gywilydd yn canslo'i gilydd yng nghydwylbod y llywodraeth. Cafwyd rhestr hir iawn o wirfoddolwyr brwd gwrth-Vidkunaidd o'r fyddin i wneud hynny, mae arna-i ofn, Moslemiaid mewnfudol i gyd. Roedden nhw'n ymlusgo allan oddi tan y cerrig o bob cyfeiriad. Ar ôl dienyddiad ji-hadaidd o fath hynny y tu hwnt i safonau dyn-garwyr y gorllewin, fyddai dim gormod o amau'ch cymhellion gwael o du'r werin na chwyddo'r ffeithiau am eich diwedd. Fyddai dim angen defnyddio cyflafan o gwerylwyr mân ac o ddilynwyr llai blaenllaw i godi stŵr wedyn. Fyddai dim cais i ddienyddio Neegaard, na'ch gwraig chwaith, nac amau pennaeth aneffeitholrwydd blêr brad-gydweithredol yr heddlu, na chyfrifoldeb maer y brifddinas a'i weinyddwyr suful yntau. Byddai trugaredd, trugaredd glên i gynifer byth ag sy'n bosibl oherwydd bod y cyn-bennaeth wedi'i garthu. Gellid symud ymlaen wedyn – mewn trefn ôl-ryfel, gyda'r hen arweinwyr profiadol gweinyddol oll yn ôl yn eu lle, i ddyfodol gwyn.'

'Ofni'r oeddech chi graidd eich problem oll: ailymddangosiad y parchedig arweinwyr Natsïaidd,' cydnabyddai Vidkun.

'Wel?'

'Dŷn ni i gyd yn ddynol, Berg. Yn garlamus o ddynol.'

'Chi biau'r penderfyniad, gyfaill annwyl. Mae'r cynllun – heb ronyn swrealiaidd o wiriondeb ynddo, – siŵr o fod yn agos ato,' meddai Berg.

'A sut dych chi'n bwriadu cynllunio achlysur weithredol i nihangfa ffug i?'

'Yr un mor synhwyrol. Dim trafferth.'

'Dim?'

'Fe ddigwydd yn ystod yr hanner-awr hamdden. Bydd un coridôr sy'n arwain o'r iard-gerdded heb giard yno. Cewch chi gyfle i sgythru i mewn yno ac ar ei hyd.'

'Sgythru? Difyr iawn.'

'Mae 'na ddrws yn y pen draw. Bydd hwnnw heb ei gloi. Ewch drwy hwnnw, ac ymhen canllath arall, ac fe ddowch i borth arall.'

'Hwnnw *hefyd* heb ei gloi?'

'Hwnnw sy'n cysylltu â'r tu allan. Bydd 'na dipyn o ddisgyblu ffurfiol wrth gwrs wedyn ar y gwarchodwyr clwc, a thipyn go lew o sôn am ddisgyblaeth unigolion a chosb lem a chyflym *ar ôl* eich dihangfa. Pennau'n rholio, mewn ffordd o siarad, heb rollo'n rhy chwyrn. Pennaeth yr Heddlu'n taranu.'

'Dihangfa... pennau'n rholio... ac yna maddau ac esgusodi i bawb o bobl y byd. A phle bydd y digwyddiad bach atodol arbennig ei hun? Yr uchafbwynt twt i hyn oll?' holodd Vidkun. 'A'r pen penodol hwn gen i yn rholio.'

'Tu allan i'r carchar. Ryw ddecllath o'r allanfa ar y dde, fe welwch chi ddrws bach sy'n arwain drwy'r cwtsh glo. Allan o hwnnw i gwrdd â chi y daw'ch dienyddiwr, heb fod yn rhy agos i'r ffordd gyhoeddus, ond lle y bydd yn rhaid i chi fynd drwy dwlc mochyn y tu allan i diriogaeth swyddogol y carchar. Dyna'r cynllun. Yn eich poced, yn eich llawysgrifen chi eich hun, fe fydd yna fap a nodiadau cynllun yr holl ffordd igamogam strim-stram-strellach i Dde America drwy Azerbaijan.'

Cafwyd saib. Yna dechreuodd Vidkun symud ei ben i fyny ac i lawr, ryw fymryn bach, bron rhy ychydig i sylwi arno, bron am gytuno mewn mudandod diddeall â gwleidyddiaeth mor nodweddiadol ymarferol.

'Cyntefig syml. Iawn i fechgyn, gwlei.'

'Chi biau'r dewis,' meddai Berg gan sefyll. 'Ga-i siglo'ch llaw, syr? Chi yw'r bradwr gorau y gwn i amdano.'

'Debyg iawn. Cewch. Mae'n ymddangos yn gymwynas i rywrai ar hyn o bryd. Tipyn o rin saga neu ramant yw dianc seithug a sydyn o'r fath, ddwedwn i, efallai – heb ormod o argyhoeddiad.'

Fe siglon nhw law, Vidkun yn llipa, Berg yn gymedrol. Moesyngrymodd Berg. A mynd, gan adael Vidkun yn dawel ei gorff fel pe bai wedi'i fwrw i lawr gan gerbyd eitha amheus.

24.

Yn fuan ar ôl hyn maes o law, eisteddai Vidkun yn llonydd ar ei wely, a'i lygaid

yn syth o'i flaen. Clywai ddrws yn agor yn y pellter, ond drws agos ei gell ei hun ydoedd, neu ddrws ei ben. Clywai hefyd o'r pellter y Warder agos yn dod â Maria i mewn. Yng nghil ei lygad, sylwodd o bell ei bod hi yno wedi'i gwisgo mewn gwyn. Cariai hefyd rosynnau cochion. Eto, o'r pellter, clywai lais y Warder.

'Eich gwraig, Athro Aesling.'

Symudodd Vidkun ddim o'i ben syfrdan, ac ymadawodd y Warder. Safodd Maria yn stond o'i flaen heb ddweud dim oll am ychydig. 'Rwyt ti'n fyw, Vidkun annwyl. Vidkun truan.' Roedd hi'n sefyll yn agos ato.

'Felly maen nhw'n ddweud... Beth oeddet ti'n ddisgwyl?'

'Disgwyl dim.' Daeth hi'n nes byth. 'Vidkun da.'

'Ac eto'n syn.'

'Mae pob yfory'n gegagored i fi y dyddiau hyn,' meddai hi. Roedd hi ar bwys. Fe gusanon nhw. Ac ymryddhaodd hi, a rhoi'r blodau ar ben y cwpwrdd. Eisteddodd hi ar y gadair. Roedd fel pe bai'n barlysedig. 'Ydyn nhw'n dy fwydo'n iawn?' holodd hi.

'Fel gŵydd cyn Nadolig.'

'Rwyt ti'n welw.'

'Heb ormod o dorheulo yn Ne America, debyg,' meddai fe.

'Craffai hi arno. 'Dwi i'n gallu gweld yn ôl d'olwg di fel rwyt ti'n diodde. Paid â dweud "na"!'

'Na. Nid diodde yw'r gair. Edifeirwch efallai, ie... Penyd, ie... Gest ti bysgod newydd i'r bowlen?... A phowlen newydd?'

'Dw i'n gallu gweld *i mewn* i ti, Vidkun.'

'Nid i'r meddwl, gobeithio. I'r bol – popeth yn iawn.'

'Dwed y gwir. Ydyn nhw'n dy drin di'n fonheddig?'

'Mae pawb yn syfrdanol... syfrdanol o fonheddig, yn hollol tu hwnt i bob rheswm, fel pe baen nhw'n ddynol, yn feiddgar ddynol... Glywaist ti'r Warder 'na, *Athro Aesling*. Nid rhif dw i. Ond ambell waith “syr”!’

'O! Vidkun. Pa mor hir fydd hyn?’

'Pa mor hir yw darn o gortyn?’

'Nid cortyn; na, Vidkun. Nid dyna sy'n mynd i ddigwydd.'

'Na, na; fi sy'n pryfocio. Nid dyna fydd yn digwydd,' chwarddodd Vidkun yn ysgafn. Mae hynny'n sicr.'

'Dw i'n gwybod hynny. Ond pryd gei di dy bardwn. Dw *i'n* hollol hyderus, beth bynnag. Y nghariad i...Fe wyddost ti mai *realydd* dw i,' meddai hi'n dyner dyner. 'Pan gest ti dy ddyrchafu'n unbennaeth, fi oedd yr unig un a ganfu'r peryg.'

'Do.'

'Rown i'n realydd eto pan ddechreuodd tanciau'r Almaenwyr rollo allan o'r wlad, yn ôl adre tua Phrwsia.'

'Oeddet, Maria. Mae gen i ddyled.'

'Rown i'n amheus o bob ffug obaith er mwyn bod yn garedig... Pan ymdaflodd bomwyr America yn isel dros y Brifddinas, roeddet ti a'r Neegaard 'na'n eich twyllo'ch hun y ddi popeth yn ôl i'w le. Wel, Realydd sy'n siarad â thi heddiw, Vidkun. Pardwn fydd dull calla'r awdurdodau i beidio â chreu cythrwbl. Ac mae hyn o realydd yn dal y bydd dy ble di nawr – achub bywyd Hethlanwyr wrth sefydlu llywodraeth glymblaid, cynllwyn cydweithredus yn clymu pob carfan – bydd hwnnw'n syrthio ar rai clustiau digon hygoelus o'r diwedd. Fe all ddod. Realydd sy'n dweud. Fi sy'n dweud *cyn* y weithred. Ond bydd di'n ofalus. Ymhlith y lliaws, ychydig sy'n gallu cyd-fynd pan fo mân garfanau'n drefn. Cyn bo hir, *ar ôl* dechrau'r heddwch yn drefnus, bydd pawb yn canu dy glodydd, cei weld, a'r anghytunwyr yn cydnabod, mai dyna oedd un ffordd o wneud pethau yn ystod y goresgyniad. Bydd pobl yn *deall* dy gymhelliad di o fewn rheswm. Fi yn unig sy'n deall dy gymhelliad di drwy'r amser. Mae eisiau i ti dynnu allan

o wleidyddiaeth yn syth. Delfrydwr o ysgolhaig wyt ti erioed, wedi achub cyfle pan oedd rhaid, fel fi. Ac mae'r realydd yna'n dal, Vidkun, ac fe gei di ddianc. A dod yn ôl.'

'Dianc?'

'Dianc rhag crogi, dw i'n feddwl. Fydd Hethlan ddim *am* dy grogi di. Ac fe gawn ni'r Farchnad Ewropeaidd yn eu dannedd nhw er gwaetha'r cwbl.'

'Na bydd, efallai. Cawn ni osgoi anurddas crogi. Mae'n rhaid fod pobl yn ystyried dyn yn bwysig iawn os ydyn nhw am ei ladd e felly.'

'Dw i'n ffyddiog, Vidkun,' meddai Maria'n ansicr. Gwenodd hi drwy'r siom a oedd yn ei chynnal hi.

'Rwyt ti wedi dod i mewn ata-i, Maria, ag anadl mynyddoedd llwyd Hethlan.' Agosaodd e ati, ac yr oedd bron yn ei ffroeni. 'Dest ti i mewn â phersawr y coedwigoedd dyfnlas a'r ffiordau.'

'Do.'

'Tyner, tyner yw'r holl storm erbyn hyn,' meddai fe'n gysurlon.

'Buon ni'n dau – yn rhyfedd iawn – buon ni'n dau ar yr uchelderau lawer gwaith,' meddai Maria. 'Buon ninnau'n dau'n goed Hethlannaidd tal ein hunain, yn fawr ein styfnigrwydd yn nannedd y dymestl, yn plygu heb dorri, a'r gwynt yn goch yn ein gwallt yr Hydref... wyt ti'n coelio, Vidkun, ein bod ni...' Stopiodd hi ac edrych i ffwrdd yn swil. Gafaelodd ei olwg e ynddi hi yn syth.

'Beth?'

'Ein bod ni wedi dod yn wir briod drwy hyn i gyd? O'r diwedd?'

'Ond dŷn ni wedi bod erioed...'

'Tybed Vidkun? Ydyn ni...? Neu ydyn ni'n hytrach wedi ymddiried yn llawnach nag erioed bellach, nes ein bod yn undod yn *teimlo* meddyliau'n gilydd cyn eu mynegi nhw? Ydyn ni hyd yn oed yn byw mwy yn lle ein gilydd nawr?'

'Rwyt ti yn dy le, Maria. Yn ôl d'arfer. Oherwydd fod y boncyffion hyn wedi cyd-blygu rywsut, fe ddaethon ni'n llawer nes at ein gilydd.'

'Do. Oherwydd ein bod ni bob amser wedi dweud y gwir wrth ein gilydd.'

'Do, paid ag ymddiried yng ngair neb arall. Fe gawson ni bartneriaeth hardd; ac mi fu'r dail yn dawnsio neithiwr... Ond dy dangnefedd di sy'n apelio ata i heddiw Marïa. Mae hi'n hyfryd fod gen ti ddail a blagur a sudd o hyd wrth gwrs. Ond A! dy fwynder yn y gwynt! Marïa, dyna sy'n mynd â 'ngwynt i y munudau rhyfedd hyn.' Safodd ac edrych yn freuddwydiol tuag at y ffenest fechan yn ei feddwl: 'pan chwythith cysgod cryfa'r gaea i mewn drwy'r ffenest yna, wyddost ti beth fydd yn dal y coed?' meddai Vidkun.

'Gwn i... gwreiddiau,' meddai hi.'

'Does dim angen dweud wrthot ti.'

'Nid y Cysgod fydd drecha.'

'Yn union... na: y gwreiddiau. Mwynder cryf y gwreiddiau. Dyna drechith y cwbl, i ti ac i fi. Perthynas ynys dŷn ni'n dau i'n gilydd. Does gen i fawr o awydd i feddwl am ddim arall.'

'Dw i'n nabod hynny oll yn yn esgyrn real yn hunan, Vidkun.' Roedden nhw mewn tangnefedd llwyr o'r diwedd, y gŵr a'r wraig. 'Dyna a nghynhaliodd i yn ystod y dyddiau diwetha hyn, Vidkun. Y peth hwnnw sy'n drech nag anawsterau,' meddai hi.

'Yn drech na'r Fones Neegaard Ystbi?' gwenodd e wrth ddweud.

'Yn drech na phopeth,' atebodd hi, gan lwyddo i wenu'n wan. 'Pawb a phopeth.'

'A dyna fi,' meddai fe gan syllu o gwmpas ei gell. 'Wyddwn i ddim o ystyr pechod *gwreiddiol* nes dod i'r fan yma... Lle od yw hyn i wreiddiau *gryfhau* hefyd.'

Edrychodd Marïa ar ei wats, a sefyll. 'Oes rhywbeth, Vidkun, y galla i ddod ag e i ti? Rhyw lyfr?'

'Nid llyfr cyfraith, mae hynny'n siŵr. Mae gen i lond silff o'r rheini. Dw i wedi cael yn arfogi hyd at y nghlustiau. Wyddost ti, mae gan garcharorion Sgien un o'r llyfrgelloedd cyfraith gorau yn y bydysawd.'

'Oes rhywbeth y galla-i'i wneud drosot ti, Vidkun?'

'Heblaw bodoli? Dyna ddigon, cariad. Nac oes...Oes... ar y nesg gartre mae yna fynegai slipiau. Sylfaen y ngwaith ar y sagâu. Cymwynas fyddai iti losgi'r cwbl lot. Hel sothach y bues i.'

'Eu llosgi nhw! Na, nghariad i. Yr holl lafur? ... Na.'

'Fydd neb yn ei werthfawrogi mwyach. Ambell ddamcaniaeth ar ganol cael ei datblygu. Ond mae gen i olwg newydd a choeg ar bopeth bellach.'

'Na,' taerodd hi. 'Na, Vidkun.'

'Nodiadau gwasgar o lu o lyfrau ddarllenais i. Mae llwybr pob ysgolhaig mor bersonol ag ôl ei fysedd. Mae'r ymennydd yn cysylltu pethau â'i gilydd mewn ffyrdd gwahanol, yn arbennig yn y dyniaethau, gan fod gwybodaeth a mawl yn y fan yna yn ddiderfyn. Aiff neb yn union ar ôl neb arall, er bod pawb yn ddyledus i'w gilydd.'

'Dy gymeriad di sy yn y fan yna, nghariad i, dy lafur, dy gefn crwm.'

'Gwell clirio'r bwrdd,' meddai fe, yn dawel ei galon. 'Clirio'r gorffennol.'

'Allwn i byth,' taerodd hi.

'Gwna. Diala.'

'A chyflwyno d'ymennydd di felly i'r fflamau? Ond os doi di... *pan* ddoi di, Vidkun, allan... neu hyd yn oed yma...'

'Yma'n arbennig fe fydd 'na gysur o bell ifi wybod am y fflamau glân,' meddai fe, 'a chyfiawnder a barn... a haeddiant... a gwres i gledrau'r dwylo yn oerni'r gell. Llosga nhw oll. Bydd 'na lai ohono i ar ôl. Ac fe gei dithau ddiogelwch yn iawndal.'

Ar y gair, bwriwyd drws y gell yn benagored, a daeth y Warder i mewn. Rhuthrodd Vidkun a Marïa yn ôl at ei gilydd y funud ola a chusanu. Estynnodd y warder ei ddwylo'n dyner, a'u gosod ar ysgwyddau Marïa. Ond tynnodd Vidkun hi yr un mor dyner yn nes ato'i hun ac ychydig allan o afael y Warder.

Ymddiheurodd y Warder: 'Mae'n wir ddrwg gen i, Mrs Aesling.'

'Popeth yn iawn... Mi losga i'r cwbl, Vidkun.'



Trodd hi'n sydyn. A heb air arall, heb olwg arall, cerddodd hi allan o'r gell, a'r Warder yn cerdded gyda hi gan gloi'r drws ar ei hôl. Fe gerddon nhw'n ddi-sgwrs, hyhi a'r Warder ar hyd y coridôr yn ddeuawd nes cyrraedd y pen. Ac yna, bwriadodd y Warder ddweud, 'Fydd neb *call* yn ei gredu fe, wyddoch chi, Mrs Aesling.' Ond ymataliodd.

25.

Weithiau, serch hynny, y mae'n bosibl: mae popeth yn bosibl. Gellir carthu pob teimlad allan o'r corff. Nid drwy'r ewyllys ac nid drwy'r meddwl chwaith, ond y teimladau eu hun sy'n gallu'u lladd eu hunain. Ac felly y bu hi gyda Marïa. Llwyddodd hi i'w gwacáu'i hun bron o bob realedd a phob iselder am ychydig. Gwasgwyd pob diferyn o atgo ac o gydymdeimlad allan o'i gwddwg a'i llygaid a'i breichiau. Gwasgwyd hefyd ei holl gelwyddau'i hun allan ohoni. Dyna ar ryw olwg y llwyddodd Marïa i'w wneud wrth ddychwelyd adre. Byddai hi o hyn ymlaen, gwyddai, yn bodoli yn ei hatgofion hir a'i hunllefau yn farw'n fyw weddill ei hoes. Heb gael dedfryd oes gan Gyfraith a Threfn, fe gafodd hi ddedfryd oes gan farwolaeth hiraeth.

Hynny efallai a ganiataodd iddi gerdded fel robot tuag at slipiau-ymchwil ei gŵr fel pe baen nhw'n eiddo amherthnasol i rywun arall, fel pe baen nhw'n ddiifywyd, a'u hel nhw at ei gilydd fesul basgedaid, a'u cario nhw i'r tân. Er mwyn ufuddhau i'w ewyllys anghywir. A ffarwelio. Rhyfedd mor farw y mae rhywun byw yn gallu bod.

Yn ôl yn y carchar, roedd cell Vidkun yn wag. Cafodd ystafell breifat. Bu Vidkun wrthi am wythnos gyfan yn sgrifennu'n ddiwyd y dogfennau a awgrymwyd gan yr awdurdodau. Lluniai'r amlinelliad o enwau côd a chyfeiriadau noddfeydd côd a ddangosai yn ddiamheuaeth beth oedd ei lwybr dihangfa i baradwys. Newidiodd odid yr un frawddeg o eiddo'r awdurdodau yn cyflwyno gwaelodion ei warth a'i hunanoldeb mawreddog, – ar wahân weithiau i wella'r arddull yma ac acw, ac ychwanegu ychydig o ansoddeiriau blodeuog rhamantaidd priodol amleiriog. 'Achlysur preifat' oedd hyn oll mwyach. Bu Vidkun, fel y'i bwriadwyd gan y Sefydliad newydd, yn fradwr gwirioneddol dda. Ond ohiriwyd dim. Erbyn diwedd yr wythnos roedd y rhosynnau y daeth ei wraig â nhw yng nghanol y llawr bron fel blodeudorch y dylid sefyll wrtho a

phlygu pen. Yno'n ddiau, cafwyd dweud rhyw bader uwch eu pen a choffâu rhywrai a fu yno gynt ond a saethwyd rywle neu'i gilydd gan ddryll bychan bach; ac a orwedda'i'n flêr rywle, a'r petalau fel pysgod bychain, marw, gwywedig ar y llawr, yn ddiau.

\*

\*

\*

Roedd cell Vidkun yn Hethlan yn eithafol o wag, hyd y gorwel. Pe buasai unrhyw garcharor arall, gerllaw, wedi gwranddo'n annynol o ofalus ychydig o funudau wedi iddo'i gwacáu, diau y byddai wedi clywed cerddediad ysgafn ond pendant Vidkun ar hyd y coridôr, yn cyrraedd yr iard wag, ac yna fe âi sŵn y camre mân drwy'r drws i goridôr arall; ar hyd hwnnw eto; a thrachefn ar hyd...

Yna, ergyd dryll. Hollol gyfrinachol.

Saethwyd Vidkun Aesling wrth geisio dianc o garchar Sgien, Hydref 24, 1945.

Bu farw Maria Aesling drwy fodd, Hydref 26, 1945. Barnwyd mai damwain oedd.

Dyfarnwyd cadair bersonol mewn Llên Gwerin ym Mhrifysgol Sgien ym 1968 i Bojer Dunn, bymtheng mlynedd ar ôl iddo ysgaru'i wraig gynta, Greta Bremer.

Bu farw Neegaard Ystbi yn hen wraig 75 oed 1980 yng ngharchar Sgien. Hi oedd llyfrgellydd y carchar. Cyn marw ysgrifennodd lyfr i blant yn symleiddio sagâu Hethlan.

## PWLL O SYCHED

*(Gorffennaf 2, 1970: Glynystwyth)*

Rhwng y briffordd a phlasty Glynystwyth roedd yna lwybr tarmac, digon o bosib i un car. Ac fel arfer, car y Fonesig Anna Jenkins fyddai hwnnw. Heb fod yn bell o ymyl y llwybr, a hyd at y plasty, yr oedd yna hanner milltir o goed ffawydd mewn rhes; a'r tu ôl iddynt – caeau agored a golygfeydd llydain. Ac yna, ar ben y llwybr, safai'r plasty ei hun yn ei orffwysfa uchelwrol wedi casglu'r canrifoedd ynghyd a'u bwydo hwy'n helaeth wrth ei fwrdd solet. Caed braster ymarhous a hyder yno ar bob llaw.

Yn lolfa'r plasty, y set teledu. Ac arno, y newyddion dirdynnol parhaol am y cardota a'r marw o newyn yn yr India, a'r cynorthwywyr brys yno, a'r claddedigaethau, a'r mamau llawn artaith yn dal yn eu breichiau fabanod ar eu cythlwng. Pawb oll yn denau. Pawb yn ddwys. Pawb yn bell oddi wrthon ni, a ninnau yn safle'r gwylwyr-teledu cysurus, fel na wydden ni am fodolaeth y cyfryw erchylltra ond drwy'r newyddion ffurfiol hyn.

Cododd Gwilym a'i switsio i ffwrdd. Siglai'i ben. 'Alla i ddim o'i ddiode.'

Roedd ei chwaer, Mari, wedi ymgolli yn y brodio fel pe bai heb sylwi ar na'i brawd na'r newyddion.

'Sut y gall y fath beth fod yn bosib yn yr ugeinfed ganrif?' gofynnodd e (iddo'i hun mae'n siŵr) a sgythru allan.

Cododd Mari ei haeliau, ac edrych o gwmpas: 'Fel 'na heddiw, iefe? ... Awn ni ddim yn bell heb groen tew yn y dyddiau ysgeler hyn.' Ond deffrowyd ysbryd Gwilym am y tro cynta yn ei fywyd i'r graddau yma; a ffoi oedd ei ymateb ar y pryd.

*(Gorffennaf 3, 1970: Glynystwyth)*

Drannoeth, roedd Mari o hyd yn brodio'n fonheddig yn yr ystafell gerdd. Daeth ffrâm ei brawd Gwilym i lenwi'r drws.

'Alla i ddim eistedd ar y nhin fan hyn,' meddai fe. 'Dw i wedi gwneud

penderfyniad, beth bynnag y bydd y gweddill o'r teulu'n ei feddwl amdano.'

'Ynghylch beth?'

'Ynghylch newyniaid truenus yr India, debyg iawn.'

'Beth amdany'n nhw? Beth gelli di'i wneud?'

'Galla i *beidio* â gwneud dim byd.'

'Mae digon o fwyd i bawb,' meddai Mari. 'Canlyniad gwleidyddiaeth brodorion yr India eu hunain yw'r cawl i gyd.'

'Canlyniad ein cyndadau ni: imperialaeth fel pob gormes.'

'A sut rwy'ti fan hyn yn mynd i ddatod y cymhlethdod gwleidyddol a chrefyddol a hinsoddol a gorboblogi aruthrol cyfandir fel India?'

'Dw i ddim yn sôn am ddatrys unrhyw gymhlethdod. Sôn dw i am rywbeth llawer mwy elfennol: am ymateb fel bod dynol sy'n medru teimlo gradd o siom gerbron trychineb plant a benywod; am drugarhau yn nyfnder y mola, ac am ufuddhau i dosturi. Ymateb yn syml uniongyrchol i ddigwyddiadau. Hynny i ddechrau.'

'Nid trugaredd maen nhw'i eisiau. Beth y gallet *tithau* a'th ddiffyg awdurdod anferth a'th ddiffyg ymchwil a diffyg dealltwriaeth affwysol ei wneud?'

'Dw i ddim wedi meddwl digon am y peth hyd yn hyn. Ond mae eisiau gweithredu mor uchelgeisiol o'r galon ag sy'n bosib. Rhoi Glynystwyth ar osod yw'r math o raddfa dw i'n synied amdano. Ei rentu. Darparu modd i wneud un gymwynas fechan fel yna. Estyn cymorth bychan cadarnhaol.'

'Paid â siarad yn wirion. Rhamantu gwallgo. Brensiach y brain! Gadael Glynystwyth! Beth sy'n bod arnat ti, fachgen? Chlywais i erioed shwt beth.'

'Gellir rhoi bywyd i'w helpu nhw. Fe ellir ein rhoi'n hunain.'

'Ust, Gwilym. Cer ma's am dro gyda'r breuddwydio 'na, ac oera dy ben. Does gen ti ddim o'r hawl na'r gallu i wneud y fath dro angharedig a gwirion.' Roedd hi wedi'i chaledu, ond ceisiodd beidio â dangos hynny gan fod Gwilym yn fynych yn dymuno creu argraff, a'r unig ffordd gall a di-goll i'w drin e ar amseroedd felly oedd ymddwyn

yn jocôs. 'Fel yna?' meddai hi gan glecian ei bys a'i bawd. 'Rwyt ti'n gwbl wallgo. Cer i wneud rhywbeth defnyddiol yn yr ardd.'

'Mi wna-i nghyfraniad pitw i rywsut. Ond mae angen peth *aberth*.'

'Rwyt ti wedi colli arnat dy hun. Rwyt ti fel llencyn a'i ben yn y gwynt yn symleiddio materion astrus fel pe na bai ond yn fater o gyfri bysedd. "Peth aberth" 'wir! Rwyt ti wedi colli arnat dy hun. Yn achos Glynystwyth does gen ti ddim hawl foesol i osod dy aberth ar gefn y gweddill o'r teulu.'

'Fe adawodd dad y cartre oll i fi. Fe oedd yr unig un oedd yn y neall i. Roedd e ar yr un donfedd â fi. Dyw mam erioed wedi neall i na ngharu i. Doedd hi ddim yn deall nac yn deall dad. A dyna pam roedd e'n ymddiried yr holl stad i fi ar ôl yn un ar hugain oed.'

'Rwyt ti wedi gwallgofi.'

'Mae'n ymarferol.'

'A beth amdanon ni? Rhentu Glynystwyth o bethau'r byd. Beth am gysuron mam? Beth am gartre iddi hi? Beth am bopeth? Ble ei di â'i holl gyfoeth hi ar ôl ei ddwyn e fel 'na?'

'Ca-i ddigon o gyfarwyddyd gan Gymorth Cristnogol efallai, i fynd i'r India. A dyna ni. Cyfle i wasanaethu.'

'A ninnau fan hyn, a'n traed ar y ddaear, awn i ble? Ti sy'n trefnu'n haberth ni. Tra byddi di'n galifantan o gwmpas dy weithredodd da ledled y byd, ble bydd dy fam dy hun? Wyt ti wedi meddwl am hynny? Paid â siarad yn boncers, crwt! Fel pob moesolwr rhamantaidd, ti sy'n trefnu'n haberth a'n gwerthoedd ni a phobl eraill, heb edrych tuag i mewn i ni'n hunain yn feirniadol.'

'Dw i wedi meddwl am hynny. Sawl ystafell sy eisiau ar mam?'

'Nid ystafelloedd yw Glynystwyth i'r un ohonon ni. Glynystwyth yw'r byd i gyd i mam. Dyna'i hetifeddiaeth foesol a diwylliannol. Does gen ti ddim hawl i'w chicio hi o gwmpas.'

'Glynystwyth yw yn hawl i, i'w gosod hi ac i godi arian ohoni hi. Dyna oedd ewylllys y nhad wedi'r cwbl. Roedd e'n gallu ymddiried yno i.'

'Beth pe bai pawb yn y byd yn taflu'u cartrefi i ffwrdd er mwyn pobl India, gan gynnwys y rhai gartre sy'n cael eu galw eu hunain yn ddosbarth gweithiol, gyda'u teledu a'u hoergelloedd a'u ceir. Yna, fyddai hi ddim yn ddigon. Faint gwell wedyn fydden *ni*? Sut bynnag y byddai dad wedi trafod mam, fysai fe byth bythoedd yn ei thafu i'r stryd. Roedd e hyd yn oed yn parchu "cyfrifoldeb" bondigrybwyll mam, uchelwriaeth a thraddodiad mam, a'i hanrhydedd uwchgymylog.'

'A! Ie! Dyna'i siarad Saundersaidd hithau nawr.

'Plentyn y Fro Gymraeg oedd Gwilym hyd flaenau cnöedig ei ewinedd. Fe'i cynhyrfwyd i'r eitha gan y mewnlifiad negyddol a diddeall a diobaith o bobl ddi-Gymraeg yn y blynnyddoedd diwetha. Protestiai yn erbyn y defnydd uniaith gan y llywodraethau lleol a chanolog o'r Saesneg. Roedd o blaid CND a Chymorth Cristnogol. Hynny yw, yr oedd yn gynheilydd i ystrydeb ieuencid a radicaliaeth flinedig a oedd yn llawn o sŵn heb ymroi i'r gwaith unionsyth aberthol o adfer ac atgyfodi cadarnhaol ei hunan. Dichon iddo eisoes ildio i arferion o gydymffurfiaid a oedd yn drech nag e. Yn hyn o beth, gwrthryfelai bellach yn ei erbyn e'i hun; ac roedd yn greadigol felly. Meddai ar wreiddioldeb tipyn o hunan-feirniadaeth. Blêr braidd, heb fawr o hunan-ddisgyblaeth fu e'n rhy aml hyd yn hyn mae'n wir; ond roedd, fel y dywedir, â'i 'galon yn y lle iawn', heb fod ei feddwl yn unman. Ond roedd wedi dechrau yn ddiweddar fynd yn ystyriol feirniadol o'i oes. Ac roedd hynny'n ddechreuad. Gallai achub bywydau nawr drwy rent y Plas.

Fel cynifer o'i gyfoeswyr, fe'i cyfansoddwyd e'n wreiddiol yn ddiobaith ac yn besimistaidd nihilistig; ac anesmwythai oherwydd hynny. Dechreuai'i sgwrs ddatblygu'n fwyfwy lleol ac yn fwyfwy cadarnhaol. Roedd yn caru'r fro benbwygilydd heb fod yn siŵr sut y gallai droi'i deimladau annelwig i ddwyn ffrwyth parhaol. Roedd e'i hun, ac yntau ar y chwith yn wleidyddol, wedi ymddwyn fel uchelwr-dosbarth-gweithiol mor hir, a'i glefyd mor ddwfn, a'i ysbrydoedd dyngarol mor dreuliedig, nes bod angen therapi go drwyadl arno. Efallai fod India wedi cyrraedd mewn pryd. Fe ganfu e'r capel

bychan lleol bron-yn-wag gerllaw, a'r dafarn gymharol hwyliog a'r clwb-ffermwyr ffug brysur hwythau'n wacter ystyr; a phenderfynodd luchio'r holl gyfrifoldebau dan ei drwyn i gyd heddiw, i'r un gwynt er daioni tramor. Teithio draw oedd yr ateb gwareiddiol. 'Dw i ddim yn gwerthu Glynystwyth mewn gwirionedd,' meddai fe, a'i ben yn yr awyr, wrth ei deulu a'i gymdogion a'i gyd-genedl; 'dw i'n mynd i'w rentu i angenogion', fel pe bai e'n trugarhau ychydig bach ynghylch lleoleiddrwydd hefyd yn nannedd ei haelfrydedd mwy rhyngwladol. 'Roedd yr hawl gen i i'w werthu. Ond dw i ddim yn mynd i wneud hynny ar y nghyfer: rhentu yw'r peth priodol, fesul tamaid ar y tro.'

Sobrodd Mari. 'Gwilym, rwyt ti'n annwyl wirion. Meddyliaist ti efallai am y peth fwy nag a dybiwn i. Ond beth am mam?'

*(Gorffennaf 3, 1970)*

Tacluso, twtio, trwsio beunyddiol ychydig o fanion Glynystwyth fel arfer ar hyd a lled ei stad oedd gwaith penna Gwilym, megis heddiw. Roedd drws yr ardd wedi chwyddo, ac o ganlyniad roedd hwnnw'n pallu cau'n gymwys. Â phlaen ac â chŷn yr oedd Gwilym wrthi'n ceisio'i gyweirio ychydig pan ddaeth ei fam i'r golwg, a Mari gyda hi. Roedd yn amlwg, wrth wres eu hymddiddan, fod 'na rywbeth yn eu corddi nhw. Erbyn hyn, yn y jòb fach ar y pryd, roedd diffyg meistrolaeth gyweirio ymarferol Gwilym wedi dirwyn at dorri gormod o'r pren i ffwrdd fel na ellid cau'r drws o gwbl yn ddechau. 'Bydd yn ofalus, fachgen. Beth sy yn dy feddwl di?' gwaeddodd y fam yn gas arno. Roedd hi wedi clywed am sgwrs Gwilym gyda Mari. 'Nid ti biau fe. Nid ti biau dim o olion o'r eiddo 'ma.'

'O!' meddai fe, fel pe bai'n gofyn yn heriol. 'A beth mae hynny'n ei olygu?'

'Cynrychiolydd wyt ti. Dros dro. Un mewn rhes hirfaith o bobl well na thi ar hyd yr achau. Pob cenhedlaeth yn ei thro sy'n gyfrifol am y lle 'ma.'

'Felly!'

'Yr un breintiedig am y tro sy'n digwydd etifeddu yn y genhedlaeth hon, i'w throsglwyddo i'r plant, ac i blant ei blant. Ond y teulu benbwygilydd – y drefn wladol –

ie, y byd ystyrllon oll biau'r cartre hwn oll, er mwyn ffrwythloni. Dyna ystyr trefn fel 'na: y gwareiddiad bonheddig.'

'Mi wna i nghawl i'n hun, a gwnewch chithau'ch cig eidion chi,' meddai fe'n oeraidd. 'Yn yn *enw* diflas i y mae e nawr, sut bynnag, ar ôl dyddiau Tada. Dyna'r ewyllys. Dyna sy'n alaethus swyddogol... i wneud a fynna-i gyda'r lle, hyd yn oed i wneud camgymeriadau.'

Ceisiodd hi ymdawelu: 'Ewyllys 'wir!... Ac rwyf ti am ddangos inni y ffordd euraidd sy'n arwain i'r tai cyngor ddod yn ein lle ni, wyt ti. Dyna dy dipyn *ewyllys* di.'

'Os nad wyt ti'n hapus mod i'n gosod rhan fechan o nhŷ yn rhad, ac os na wna bwthyn Glanystwyth, sy ar diriogaeth stad Glynystwyth, mo'r tro, ac os nad wyt ti'n hoffi cymdogion newydd, yna mi bryna i dŷ addas i ti. Chei di ddim dy ddianrhydeddu, mam, dw i'n addo. Ond Glynystwyth – a'r rhentu – fydd yn y pen draw yn dodwyr wyau. Ac ychydig iawn iawn sy o bellter i symud.'

'Tŷ addas i fi? Glanystwyth draw fan yna!'

'Digon o faint i ti. Ac i Mari gyda thi. O'r Glyn i'r Lan. Does dim angen rhywbeth o faintioli Glynystwyth ar gyfran mor fechan o'r ddynoliaeth.'

'Ac rwyf ti'n plicio gwallt yr ach, felly; y cynta ers deuddeg cenhedlaeth. Ond bu dy dad o'th flaen di yr un mor groes-graen wrth adael yr eiddo i gyd i'r un anghywir.'

'Roedd hi'n bryd newid. Mae'r oes hon wedi dod â synnwyr sad ac ymarferol gan rywrai i'r rhyfel dosbarth tybiedig. Dyna'r cwbl. Roedd nhad yn y neall i. Cofgolofn i gyfalafiaeth hyll y presennol yw Glynystwyth fel y mae hi.'

'Mae yna wareidd-dra ers talwm wedi bod yma, o bryd i'w gilydd, yn nod ac yn batrwm, ac yn ddelfryd i bob dosbarth,' meddai'r fam, 'ac i'r India hefyd. Tynnu pawb ledled y byd i fyny gyda'n gilydd yw'r gobaith teilwng i'n hoes ni. Nid afradu mewn pwll diwaelod lleol. Bu gwareidd-dra a chanu Mawl esboniol yn y tŷ hwn mewn oes arall. Does dim yn ein hatal ni heddiw, ond ni ein hunain, rhag inni oll – y tlodion a phawb – fod yn uchelwyr.'

'Ni'n hunain a thrais a hunanoldeb dynoliaeth, dyna'r gweilch,' meddai Gwilym.



'Paid di â threisio mam, te, nawr, Gwilym. Mae hi o ddifri, ac yn deall yr anffasiynol hefyd,' meddai Mari. 'Nid y politicaidd gywir yn unig.'

'Cofgolofn yw'r cwbl. Eiddo, a dim arall,' meddai Gwilym.

'Dyna'r cwbl weli di, y cwbl!' gwaeddodd ei fam. 'Rwyt ti'n ddall bost. Ddylet ti ddim byw, Gwilym... Pe bawn i'n ddyn... oherwydd iti wneud rhywbeth fel hyn... byddwn i'n dy..., atebodd hi'n ansicr. 'Os oedd dy dad yn dy ddeall di, dw i ddim.'

'Paid â chyffroi, mam,' erfyniodd ei merch ar y fam ddiellon. 'Rwyt ti'n gwybod am dy galon.'

'Ond mae Gwilym mor ... hunanddigonol,' meddai'r fam. 'Mae'r cwbl o'r genhedlaeth hon yr un fath...' Cyffredinolodd hi'n fentrus â'i llygaid ar y gorwel, ond doedd y gorwel hwnnw ddim yn ddigon llydan i roi dyledus sylw iddi hi. Trodd hi'n ei hôl, a'i gwasgedd gwaed ar dân. Roedd hi'n ynfyd o ddig am na allai hi daflu'i phen drwy'r ffenestr, yn ddiymdroi. Ond erbyn hyn, roedd Gwilym wedi ffoi.

'Dyw e ddim yn ceisio dim iddo'i hun,' meddai Mari, gan ddangos ei bod hithau'n deall, o leia. 'Pobl eraill sy bob amser, 'dag e, ar y blaen.'

'Wel. Ar y ngwir!' meddai'r fam, heb ddeall neb.

*(Gorff. 3, 1970)*

Wedi ychydig o waith, ac yna loncian redeg am filltir, a dychwelyd i orffwys gartre, trodd Gwilym ar ei ochr ar ei lwth ar ganol y prynhawn i sbio drwy'i lygad de wrth i'w fam agor drws ei ystafell yn wyllt a rhuthro i mewn. Methai fe â deall ei fam gymaint ag y methai hi â'i ddeall e. Ar ôl ei mam ymrithiai cysgod Mari, yn betrus ei llygaid, ac yn ysu am ddal ei mam yn ei hôl.

'Gwilym! Os rhoddi di dy etifeddiaeth i'r *cŵn*...' Stopiodd y fam. 'Doedd dy dad erioed wedi rhag-weld y gallai peth fel hyn...' Roedd hi'n siglo'n ynfyd o'r naill ochr i'r llall, ond yn ceisio rheoli'i thymmer o'r bore cynt.

'Etifeddiaeth i ba *gŵn*?...' sibrydodd Gwilym. 'Mae'r "nhw" 'na rwyt ti'n cyfeirio atyn nhw, nhw yw gwir etifeddion y ddaear... tlodion yr India.'

'Os afredi di dy etifeddiaeth fel yna, y gwirionyn ffaidd...!' Roedd yr ymgais at wareidd-dra wedi pallu bellach ynddi.

'Yna?'

'Yna, dw i byth am dy *weld* di eto. Dw i ddim am dorri'r un sill gyda thi byth mwyach. Dw i ddim am gofio dy fod di wedi byw erioed. Dwyt ti erioed wedi cael d'eni. Paid â dod yn agos ata i. Ac os bydd rhywun yn ddigon gwirion neu anwybodus i holi am dy iechyd, bydda i'n gwadu mod i erioed wedi dy nabod i.'

'Mam, allet ti ddim gwneud peth felly i neb,' taerodd Mari.

'Galla. Os gwnaiff e hyn, a darnio holl werthoedd y tylwyth, dyw e ddim yn un o'r tylwyth. Mae hi mor syml â hynyna. Myth fyddi di, Gwilym. Celwydd stori tylwyth teg. Nid mab i fi. Nid mab i neb.'

'All neb wneud peth felly,' meddai Mari, yn synnwyr cyffredin i gyd.

'Mae'r dewis yn glir felly,' sibrydai Gwilym fel un doedd ddim am ddefnyddio'i lais, gan godi ar ei eistedd ar ei lwth.

'Rwyt ti naill ai'n perthyn i fi, a'th gyfrifoldeb yn y fan yma. Neu rwyt ti'n perthyn i sbwriel yr India.'

'Does 'na ddim llwybr arall yn y canol?' holai Gwilym yn syn.

'Dim.'

'A thi, Mari?' holodd Gwilym.

'Dim,' meddai'r fam yn galed isel ar ran ei merch. 'Yn rhagdybiaeth i fydd mod i a nheulu'n negyddu dy fywyd bondigrybwyll di. Rwyt ti wedi gorffen yn yn hanes i.' Nesaodd hi ato. Hiraethai hi am ei ddeffroi e i'r gwirionedd; a gwaeddai drachefn arno.

'Dim.' Ond yn ofer.

'Paid mam,' erfyniai Mari.

Ond roedd y fam bellach yn benderfynol. Cydiodd yn ei ysgwydd e, a sgrechian dro a thrachefn, 'Dim, dim.'

Ond di-drugaredd ar goll oedd Gwilym. Roedd e'n gwybod pwy oedd ei berthnasau ... yn ei ddychymyg o leia... Roedd y rheini yn crafu bodolaeth ar gyfandir pell. A doedd ganddo ddim i'w ddweud wrth y ddwy hyn gartre.

Ymadawodd y ddwy fenyw yn awr gyda Mari'n dweud yn dawel: 'Wel, mam, efallai na fyddwn innau ddim wedi geirio'r peth yn union fel y gwnest ti. Ond o leia mae e'n gwybod ble rwyt ti'n sefyll.'

*(Glynystwyth: Awst 20, 1970)*

'Y Fonesig Jenkins!'

'Ficer, dowch i mewn.'

'Diwrnod braf.'

Sylwodd e ddim arni'n dirmygu'i gyfarchiad syml, gan ei fod am lygadu'n ôl ei arfer olwg y celfi a'r llawr pren yn yr ystafelloedd y tu mewn. Doedd y cyntedd, i ddechrau, ddim yn foethus. Ond fysai neb yn haeru nad oedd e'n chwaethus, a phob tro yr âi'r Ficer i Lynystwyth, fe wyddai ar unwaith ei fod wedi cyrraedd rhywle a haeddai'i siwt orau. Bob tro y ddi, gwyddai fod hyn yn ddigwyddiad.

Syml oedd y lolfa hefyd, awdurdodol o syml. Roedd Anna Jenkins yn hofran uwchben y Ficer yno fel boda dros Bumlumon.

'Llwyaid o siwgr?'

'Un.'

'Diolch, dim llaeth.'

'Dw i'n cofio.'

Gwraig tua 43 oedd Anna Jenkins, a'i gwallt yn ddyfal ddu. Cymen a chefnysyth oedd ei hirwisg dywyll, dilledyn digon nodweddiadol o'r 19eg ganrif er mor bell ymlaen oedd hi ar yr 20fed; ac fe wisgai hi honno bob amser pan fyddai gartre yn 'teyrnasu' (fel y dywedai'n hoffus) yn y tŷ.

Dyletswydd y Ficer o'i blaen hi heddiw oedd disgwyl yn chwilfrydig am yr

esboniad i'r gwahoddiad a gawsai i ddod yno. Ond fu dim rhaid iddo ddisgwyl ond am ychydig o eiliadau.

'Fe ofynnais ichi ddod ar berwyl go beryg.'

'O!'

'Mae'n bosib mai dyma'r tro cynta i neb wneud y cais yma.' Gwenodd e'n amyneddgar.

'Mae llwybr Ficer yn ei arwain i borfeydd digon dreiniog.'

'Mae hyn yn wahanol.'

'Pleser, y Fonesig Jenkins, credwch fi. A budd.'

'Dw i ddim yn siŵr hyd yn oed a yw hi'n gyfreithiol.'

'O, siŵr o fod,' gwenodd e'n hyderus ddiamheuaeth.

'Oes rhywun erioed o'r blaen wedi gofyn ichi ddileu enw oddi ar eich cofrestr genedigaethau a bedyddiadau?'

'*Dileu?*'

'Ie. Tynnu'r enw i ffwrdd o'r rhestr.'

'Yr enw?'

'Ie.'

'Na, erioed. Ddim ifi'i gofio. Erioed. Na byth yn y dyfodol chwaith mi obeithia.' Chwarddodd e ychydig, fel pe bai'n cael ei fygu.

'Dyna dw i am ichi'i wneud. Byddai 'na gyfraniad go uchelgeisiol at gronfa adfer y tŵr.'

Cododd e o'i sedd, o ddifri. Roedd e'n sylweddoli ei bod hi'n edrych yn ddiwyro arno. 'Ond nid dyna'r broblem.'

'Mi alla i ei gwneud hi'n werth...'

'Na, na, nawr, nawr y Fonesig Jenkins. Pe bai'n dibynnu arna i yn unig, fel y gwyddoch chi'n dda, hynny yw pe na bai 'na gofrestr arall, heblaw'r un dŷn i'n ei chadw

yn Llanystwyth, yna... Ond clywch: nid dyna'r sefyllfa; mae'r sefyllfa'n fwy ystwyth na hynny; ac yn gyffredinol i bob plwy. *Copi* sy gynnwys ni'n lleol. Dyna'r un safonol. Na, mae'n amhosib. Mae y tu hwnt i nhipyn awdurdod i.'

'Does dim byd yn amhosibl yn nhŷ Duw, Ficer. Ga i *fenthyg* eich cofrestr, te, eich *copi* chi felly am ddiwrnod? Ni raid i chi wneud dim o'i le wedyn.'

'Wel, na chewch, y Fonesig Jenkins, wrth gwrs na chewch. Os mai dileu rhyw enw drosoch eich hunan fyddai'ch bwriad wedyn... Mae'n rhaid i fi gadw'r gofrestr yn y saff. Does dim modd...'

'Ficer! Er cywilydd!'

'Na, na. Fel y gwyddoch chi, y Fonesig Jenkins bach, mi wnawn i lawer iawn. Mae gen i barch eithriadol atoch chi a'ch teulu. Ond... ' Cerddodd tuag at y drws.

'Ficer!'

'Ond pam?'

'Mae 'na *gamgymeriad* wedi bod,' meddai hi gyda rhyw ddifrifoldeb anghysurus. Dyw'r gofrestr...'

'*Camgymeriad?* Pryd?' Daeth yn ei ôl o'i bensynnu.

'Yn ein teulu ni, yn y gwraidd. Ddwy flynedd ar hugain yn ôl, fe wnaethpwyd cam gwag. Dyw'r gofrestr...'

'*Camgymeriad?* Dw i ddim yn deall. Sut?'

'Gwilym. Anwyd erioed mohono.'

Roedd y Ficer wedi'i ddrysu, nid am y tro cynta. Erioed beth?

(*Awst 22, 1970*)

Weithiau, wrth geisio newid y gwirionedd hanesyddol, mae'r gorau ohonon ni yn cael peth anhawster: felly hyd yn oed yn achos y Fonesig Anna Jenkins, a hyd yn oed o fewn cylch cyfrin ei theulu ei hun. Dymunai Mari bleidio'i mam, a'i chynnal hi, drwy'r helbul hwn. Ond mwyach roedd ei mam wedi sôn am 'ddiarddel ei brawd'; a byddai'r gwrthdrawiad rhwng yr absennol a'r presennol mewn unrhyw ffordd od yn sylfaen i

ddrysu deall confensiynol eu bywyd oll. Ac yn fynych eisoes, roedd *cofi*o am yr absennol yn crisialu pethau'n fwy brawychus o lawer nag a wnâi'r presennol. Yn sicr, roedd y bygythiad presennol o 'absenoli Gwilym' gan ei mam yn peri i'w brawd ddod yn fwy presennol nag y bu erioed... Neu felly y tybiai Mari. Er gwaetha bygythion ei mam, allai Mari ddim gollwng ei brawd heb wrthdystiad rhesymol ar ei ran.

'Paid â sôn amdano fe byth mwy,' siarsiai'i mam.

'Mam!'

'Nid dy frawd yw e. Nid y mab i. Dieithryn yw e. Byt dy ginio.' Wrth eu cinio roedd Anna Jenkins yn chwarae â'r brithyll ar ei phlat, a Mari'n llowcio'r sglodion yno gyda pheth awch. Bwyta yn y gegin roedd y ddwy, ar wahân i Gwilym.

'Dieithryn! I bwy? I ti, mam?'

Roedd y fam wedi ymgaledu. 'Ymosodwr estron.'

'Elli di ddim ymwarded ag un o'th blant fel yna.'

'Galla. Fe'i gwnes.'

'Dy gyff di yw e am byth.'

'Sut y gallwn *i* fod wedi esgor ar beth mor ddiwreiddiau heb sylwi?'

'Ond mae'n rhaid inni *sôn* amdano.'

'Lleidr! Llofrudd!'

'Ffôl yw e, ond buodd e ers tro â'i ben yn y cymylau... yn y sêr hefyd.'

'Lleiddiad y gorffennol yw e!' Anna Jenkins oedd holl awen ac awyrgylch Ceredigion heddiw, yr holl gymdogaeth a'i thraddodiad, dybiai Mari. A thosturiai ati, a'r byd o gwmpas Ceredigion, y dyddiau hyn, ar ei goesau ola.

'Daw e at ei goed, mam, yn y man,' meddai hi. 'A down ninnau.'

'Dwi innau wedi dod at y nghoed ers talwm,' meddai Anna Jenkins. 'Coed di-ddail dw i'n eu gweld hefyd ym mhobman. Mae ei goed e a'i feini a'i laswellt a'i bopeth wedi'u hafradu. Dyw e ddim yn bod.'

'Mae amser yn afradu popeth, mam.'

'Mae *e* wedi cael gwared â phwrpas *amser*.'

'Elli di ddim gwadu amser dy fab.'

'Pwy?' gwawdiodd hi. 'Pwy, ddwedaist ti? Mab!'

'Brawd ifanc bucheddol i fi yw *e*. Mab gwirion i ti, wrth gwrs, sy'n meddwl ei fod *e* wedi gweld rhai pethau. Ond mae'n *rhaid* ei fod yn haeddu cydymdeimlad.'

'Dyw *e* erioed wedi anadlu.'

'Mae'n rhaid ei fod.'

'Ddim i mi'i glywed.' Cododd ei llais yn annaturiol chwil o sydyn. Pe bai'r tŷ'n gallu ofni, byddai wedi dychrynu'r funud yna.

(*Awst 24, 1970*)

Ar Awst 24 roedd Dr Charles Rolant yn syllu dros y bont ar hyd taith yr afon. Cripiai Gwilym o'r tu ôl iddo'n chwareus, ac ymosod yn llechwraidd fuddugoliaethus arno. Ag un llaw tynnai Gwilym fraich dde'r meddyg y tu ôl iddo, ac yna ymosodai'n drwsgl ar y fraich arall. Rhoddai'i fraich chwith ei hun i gydio o gwmpas gwddwg y meddyg, ac allai hwnnw ddim symud. Hen ffrindiau!

'Dw i eisiau pumpunt.'

Chwarddai'r meddyg: 'Gwilym!... At beth?'

'I achub holl dlodion yr India.'

'Ond pumpunt! Bachgen! On'd yw hynny'n ormod? Yn gofyn i feddyg tlawd!'

'Dyna'r peth lleia. Bargaen! Dim ond dechrau dw i.'

'Beth wyt ti'n feddwl? Beth arall?'

'Dw i eisiau Cadeirydd hefyd.'

'Sut? Ar beth?'

'Cadeirydd Cymorth Cristnogol yr ardal.'

'Ond dw i ddim hyd yn oed yn Gristion.'

'Mae Gras Cyffredinol yn caniatáu ambell weithred sy'n ymddangos yn eithriad: ond *gras* yw. Y gwaith sy'n Gristnogol, nid y bobl o anghenraid. Y rhoi heb ddisgwyl dim yn ôl. Y gwasanaeth yw'r hyn sy'n Gristnogol, nid y gweision eu hunain, o raid.'

'Ti yw lleidr penffordd Cymorth Cristnogol felly?'

'Os mynni di. I ateb India.'

'Y Cristion confensiynol wedi troi'n ysbeiliwr ar gyfer pellafoedd y byd.'

'A pham lai?'

'A beth am dy gyfrifoldeb enwog cynta di? Gartre.'

'Does gen ti ddim diddordeb yn argyfwng India?' heriodd Gwilym.

'Oes, a'r Swdan, ac Ethiopia, a Brasil, a'r Gambia. Mae'r cwbl yn bwl o syched. Ac mae'r gwledydd yna gyda thipyn o atrefnu mewnol yn bwl o botensial.'

'Un ar y tro. Mi wnawn ni'r lleill wedyn.'

'Beth am y gwraidd gartre yn imperialwyr y wlad hon?' meddai'r meddyg. 'Mae gen ti fwy o glem am wendidau ar dy bwys. Rwyt ti'n nabod y rhain. Y gwir yw bod pwrs y wlad yn cyfeirio at yr achosion sala. Y bobl aruchel mewn llywodraeth – rwyt ti'n gyfarwydd â'u prinder synnwyr nhw, dyna'r bobl gartre a allai wneud lles ar raddfa sylweddol i'r Trydydd Byd, wrth newid polisi ariannol y bancwyr yn ein tŷ'n hunan. Wrth aros gartre i ddiwygio trefn y rheina, fe ellir newid yr awdurdodau'n rhyngwladol, a gwneud gwaith gwirfoddol yma yn y slymiau agos Cymreig mewn amgylchiadau dŷn ni'n gyfarwydd â nhw. Felly y gall Cymro wneud y gwaith dyngarol i'r byd yn llawer mwy effeithiol heb groesi gwledydd.'

'Esgus yw'r dadleuon yna, i symud y baich amlwg oddi ar bobl eraill o hyd. Allwn ni ddim aros. Y byd *i gyd* yw ngwendid i, i'w flaenoriaethu, i'w wynebu, a hynny ar y ffâs, nid yn ail-law.' Taflodd Gwilym ei fraich dewglyd i'r awyr megis calon. 'Nid "busnes" yw hi. Mae'n gyfrifoldeb personol.'

'Plentyn wyt ti, Gwilym.'



'Dyna'r holl bwynt. Gadewch i'r plant ddod ataf i, a pheidiwch â'u rhwystro.'

Edrychodd y meddyg canol-oed-cynnar yn ôl ar y gŵr ifanc gyda hoffter, a gwelai ynddo greadur ystrydebol ei ddeall, ond un a ddaethai o ran ei ewyllys yn annisgwyl o fyw, er pan welodd y crwt y tro diwetha.

Ond i Gwilym, doedd sylfaenu grŵp o gefnogwyr bach lleol i fudiad elusenol fel Cymorth Cristnogol ddim ond dechreuad i'w ddyheadau. Roedd ganddo uchelgais lawer mwy ymrwymedig a phersonol ac annibynnol mwyach. A doedd e ddim eto am ddatguddio'i fwriadau i neb arall.

(*Awst 24, 1970*)

[Roedd y sgwrs hon oll yn Saesneg yn wreiddiol.]

Rhyw hanner llwyaid o goffi a yfai Mrs Steffani Williams ar y tro, tra llyncai Mrs Tracey Garnett hanner y cwpanaid ar ei ben. Edrychai'r Fonesig Anna Jenkins arnyn nhw fel brenhines oddi ar ei gorsedd, neu fel garddwraig amaturaidd mewn sioe flodau. Allai hi byth gymryd coffi.

'Cacen?'

'Dwy; hon, a hon, i arbed iti gynnig eto.'

'Un yn unig i mi; er mwyn bod yn esiampl i Tracey.'

'Dych chi'n dirnad pam dw i wedi gofyn i chi ddod y bore 'ma?' gofynnodd Anna.

'Mae gynnon ni syniad.'

'Tybed?'

'Nid oherwydd mai ni yw gwragedd mwya tawedog y plwy.'

'Nid oherwydd unrhyw fedr i gladdu cyfrinach.'

'Na! Beth? Pwy? Y tro hwn. Oes rhywun... neb *agos*... i fod yn destun clecs?'

'Clecs? Oes. Dyna sy ar y rhaglen... – fel arfer – a rhannu gofidiau difri.'

Tywalltodd Anna wisgi iddi'i hun yn ara ond yn feddylol: 'Alla i ddim cymryd dim ond dŵr,' meddai hi. 'Mae Charles yn taeru wrtho-i fod hyd yn oed te yn rhy gry i fi.'

'O! Charles.'

'Ond beth yw'r clecs?' holai Steffani.

'Mae'n fwy difrifol na chlecs,' meddai'r Fonesig.

'Does dim yn fwy difrifol na chlecs, Anna,' meddai Steffani.

'Mae yna ddarn o glonc dw i am ei rannu a'i ledu drwy'r ardal mor gyflym fel na alla i byth ei wasgaru heb gymorth arbenigwyr fel chi'ch dwy.'

'Am bwy?'

Safodd Anna: 'Neb *agos*, na...' meddai'n floesg. 'Dim ond Gwilym... Mae'r crwt ar ben!'

'Ond Anna! Beth yw ystyr dweud peth felly?'

'Gwilym! Ei gladdedigaeth glau e sy'n digwydd! Ei foddi yn y dŵr yma o'n safbwynt i,' taerodd hi gan godi'i gwydraid o wisgi.

'Ydy... ydy e...? Na, Anna, beth sy? Dyw *e* erioed wedi cyffwrdd â wisgi unwaith yn rhy fynych, ydy e?... Nac wedi priodi'n ddisymwth?.. Nac wedi troseddu yn ei gar oedd yn pallu mynd yn ara?' meddai Tracey gan rowndio'r posibiladau. 'Nac wedi ymuno â'r Blaid Lafur?'

'Y *syniad* ohono fe, dyna sy wedi boddi.'

'Y *syniad*?' meddai Steffani. 'Does gen i ddim *syniad* beth yw *syniad* ohono.'

'Y ddelwedd o'r hyn oedd e, o'r hyn allai fe fod,' meddai Anna yn ei lledfeddwod, gan ei bod wedi yfed ychydig eisoes cyn i'r ddwy hyn gyrraedd.

'Beth sy arnat ti? Oes gen ti “*syniad*”, Tracey, o'r hyn yw “*syniad*”?’

'Dw i'n dileu olion ei draed ar y llwybr i Lynystwyth. Dw i'n mynd o gwmpas y tŷ hwn heddiw gan bwyll, ac yn sychu olion ei fysedd a'i DNA oddi ar y dodrefn.'

'Amhosib,' meddai Tracey.

'Brensiach y brain, fenyw! Beth sy'n bod? meddai Steffani. "Dileu Gwilym!" Dy unig fab! Mae'r syniad yn gyfan gwbl wallgo. Chlywais i erioed y fath beth. Mae'n amhosibl. Beth mae e wedi'i wneud iti sôn fel hyn amdano fe?' meddai Steffani.

'Beth am y *cariad* yna sy'n gêl yng nghilfachau dy galon di ato, Anna? Bydd yn bwylllog.'

'Mae hwnnw wedi mynd...' meddai Anna, 'oddi ar wyneb y ddaear, gyda'r march uncorn a'r creaduriaid tylwyth-tegaid eraill. Lle bynnag y gwela i ei enw fe o hyn ymlaen, dw i'n ei rwbio i ffwrdd.'

'Ond Anna fach rwyt ti'n gwbl wirion. All neb gymryd dwli fel hyn o ddifri.'

'Os bydd rhywun yn ei weld e'n croesi'r caeau yfory,' meddai Anna Jenkins, 'bydd e ddim 'na. Celwydd fydd e.'

'A'r lluniau ohono?'

'Dw i wedi eu casglu nhw, gymaint ag y medra i, a'u llosgi nhw'n ulw. Dw i a'r byd i gyd yn ddi-Wilym: dyna ein sefyllfa ni nawr.'

Saethodd Anna y tri gair ar ddeg ola fel magnel canoloesol rhydlyd yn gollwng ei seithugrwydd yn erbyn y ddwy guddfan danddaearol, fodern o'i blaen: Tracey a Steffani. Fe sbion nhwythau ill dwy'n ôl arni mewn syfrdandod cytûn, mewn trueni syn, mewn tristwch.

Tywalltodd hi wisgi arall iddi ei hun. Roedd hi'n bwll o syched... Ac yna, un arall ymhen pum munud.

\*

\*

\*

Ac ymlaen yr âi'n llawen yn ei thristwch am bum munud arall nes iddi ddod yn bryd i'r ddwy goffiwraig ymadael. 'Diolch Anna.' Trodd Steffani Williams a Tracey Garnett, gyda llond gwniadur o wenau moesgar, at eu car, gan adael y Fonesig Jenkins ar drothwy drws Glynystwyth. Ffarweliai hithau yr un mor gynnil.

'Doedd dim rhaid iti ei phryfocio hi mor syrffedus o anhylaw,' sibrydodd Steffani. 'Roedd hi'n amlwg feddw cyn inni gyrraedd. Nid fel 'na roedd hi'r tro diwetha y buon ni 'ma.'

'Un ddrygionus fues i erioed,' gwenai Tracey.

'Dw i ddim yn cofio'i gweld hi na neb arall fel 'na erioed o'r blaen serch hynny,' meddai Steffani. 'Roedd ti'n ei herwa hi o'r funud y cyrhaeddon ni'r tŷ. Mae hi mor drist.'

'Ond fyddet ti... does neb....fyddai'n ymddwyn fel 'na... hyd yn oed yn ei diod.'

'Cythreules wyt ti Tracey.'

'Mae rhyw rethreg fawreddog fel yna ganddi hi o hyd. Mae hi'n ceisio creu argraff o fod yn Rhywun, yn feddylreg fawr, yn trafod bodolaeth a thraddodiad a gwreiddiau a rhyw bethau dwl felly o hyd.'

'Crachach! Mae hi'n ewyllysio peidio â chredu'r gwir amlwg, synhwyrol, yn ei diod. Mae'n ffwdanu am y ficer; ond dyw hi'n credu dim yn ei grefydd e. "Beth yw'r ots?" yw ei ffydd hi.'

'Sgeptig yw hi. Rhyw fath o ffydd iddi hi yw ymatal rhag credu dim. Mae'r Ficer yn sôn am rai diwinyddion o'r un ach... Dyna'r un ffordd y gallwn gredu y dyddiau hyn, medd e – drwy beidio â chredu. Does dim byd arall yn onest. Efallai mai dyna sy ganddi hi wrth geisio dileu bodolaeth Gwilym. Mae eisiau gwneud gwacter ystyr. Pob gwirionyn at y peth y bo. Dyna'i ffansi.'

'Mae hi am daflu moesoldeb synhwyrol nawr,' meddai Steffani. 'Mae'n ei chau ei hun mewn rhyw wacter ewyllysgar yn erbyn Gwilym.'

'Glywaist ti'r fath sothach erioed. Myth yr "absenoldeb" yw ei myth hi nawr, druan, glywaist ti?'

'Dyna'i hamddiffynfa. Ei diogelwch hefyd.'

'Dw i'n gallu dychmygu'r ystyr i hynny wrth weld y ngŵr acw pan fydda-i'n sôn am help o gwmpas y tŷ: mae'n dipyn o giamster gyda gwacter ystyr ar y pryd.'

'Yr absenoldeb go iawn hwnnw sy'n trin y ngardd i hefyd gartre, mae arna i ofn.'

'Ac yn golchi yn llestri innau,' meddai Tracey. Ac yna'n sydyn, bu bron iddyn nhw gael damwain.

'Gwylia, Tracey!' Bu bron iddyn nhw fwrw Mari a rhyw lanc anhysbys i'r llawr wrth droi cornel, gymaint roedd y profiad gwirion newydd wedi cydio ynddyn nhw.

'Bu bron ifi fytholegu'i merch hi y pryd hynny.'

'Mari oedd honno?' gofynnodd Steffani'n gyffrous. 'Brensiach y brain. Pwy oedd gyda hi?'

'Neb. Bachan enwog o'r enw "Anhysbys", siŵr o fod,' meddai Tracey, yn ei hanwybodaeth gyffrous.

'Rhyw fachan mytholegol o "wacter" wedi dod i drigo yng Nglynystwyth ar ôl Anna. Fe gaiff e dipyn bach o gwmi yn y fan yna. Unigrwydd yr ugeinfed ganrif, ddwedwn i.'

'Wel, dw innau'n sgeptig hefyd. Dw i ddim yn gallu dirnad sut mae person *rhesymol* yn gallu credu *dim* yng ngormes yr ugeinfed ganrif. Wyt *ti'n* gallu profi dy fod di wedi cael coffi gydag Anna Jenkins y bore 'ma?' gofynnodd Tracey.

'O! Ust Tracey. Galla i brofi drwy dystion na chafodd Madam ddim coffi.'

'Eto, dwed y gwir, Steffani Williams. A wyt ti'n gallu credu – taw beth – dim oll mae Anna'n ei ddweud wrthon ni byth? On'd yw'r gwacter "am wacter" yn wacter i gyd?'

'Mae gen ti bwynt.'

(*Medi 3, 1970*)

Rai nosweithiau wedyn, deffrowyd Mari yn ei gwely gan sŵn rhywbeth trwm yn syrthio. Roedd hi tua chwarter i hanner nos. Yna ddi trwst gwydr yn chwalu. Cododd hi a chlywai ragor o sŵn, pethau'n cwmpo. Yn ofnus, chwiliai am ei chot nos. Clywai drwst taflu wedyn. Yna, gwydr yn dryllio unwaith eto. Petrusai Mari, ond i lawr y

grisiau â hi, a gochelgar ddod i'r lolfa. Âi i mewn yn ara. Ac ymddangosai fel pe bai'r ystafell honno oll wedi syrthio drwy'r nenfwd. Roedd y llenni wedi'u rhwygo, ac roedd hi fel petai twrch trwyth go giarni wedi pori'n greadigol ar hyd y bedlam. Roedd y dodrefn oll wedi cael ofn, a llyfrau wedi disgyn fel ieir-bach-yr-haf mygedig a'u hesgyll fel addurniadau Nadolig wedi'u ffrwydro ar led ac ar draws y llawr.

Ar y carped y tu ôl i'r setî, a'i choesau ar led, fel bwgan brain, a'i golygon yn sythu-rythu o'i blaen, yn ei choban – ei mam drist, ar y llawr, yn feddw dwll.

'Beth wyt ti'n wneud fan yma?'

'Cynnal parti, wrth gwrs. Sut mae'n ymddangos i ti?'

'Parti?'

'Parti ffarwél. Ffarwelio ag Obsesiwn. Dyma'r noson ola.'

'A beth oedd yr Obsesiwn?'

'Bodolaeth Glynystwyth. Dw i'n ffarwelio â hi.'

'Ar dy ben dy hun?'

'Oll yn gytûn.'

'Gad i fi...'

'Dw i wedi anghofio yn araith barti i.'

'Gad i fi dy helpu di i godi. Druan ohonot ti, mam fach a'n anwylyd i.'

'At beth?' Ond codai'r fam yr un fath – gyda pheth anhawster, eithr drwy gymorth ei merch. 'Gad ifi eu teimlo nhw.' Rhedai bysedd y fam yn wirion deimladus ar draws y waliau. 'On'd yn nhw'n addfwyn?' Âi at y ffenest, a rhedai'i dwylo'n gariadus synhwyrus ar hyd y paen, â'i chledrau ac â'r cefnau. 'Mae e wedi'i glwyfo. Allen ni ddim aros 'ma mwyach.'

'Pam?' gofynnai'i merch.

'Dy frawd...Yr hen blas. Y drysau. Y waliau. Y llawr annwyl, annwyl. Mae'i feddwl oll wedi'i ddrysu. Dw i'n gallu teimlo'r peth.' Roedd hi'n feddw eto. 'Dw i'n distrywio'r cwbl cyn i'r barbariaid ddisgyn.'

'Mam annwyl. Dere'n ôl i'r gwely.'

'Mae'r plasty bach wedi syrthio allan o'r gwely. Mae arno gywilydd.'

'Dere, mam. Mae'n hwyr. Dylet ti fod yn cysgu 'nawr.'

'Mae ei hen galon e'n drwm.'

'Cei di annwyd fan hyn.'

'Nid y rhai sy'n dod i mewn i feddwl y tŷ sy'n ei ddolurio, ond y rhai sy'n ymadael.'

'Dere di. Gymeri di banaid gyda fi cyn mynd yn ôl? Oes yna ragor i'r Obsesiwn rwyd ti'n sôn am ffarwelio ag e?'

'Yr Obsesiwn oedd wedi tyfu'n farw o feddwl am Gwilym, byth ar ôl marwolaeth ei dad.' Codai Anna Jenkins ei phen, ac ubain: 'Gwilym, Gwilym, brenin y tylwyth teg, rwyd ti'n peidio â bod yma,' siglai'i phen yn drist, 'Yr ymwadu, mewn annheyrngarwch!'

'Dere gyda fi i'r gegin inni gael...'

'Na.'

'... bob o banaid cyn clwydo. Dere inni ymdawelu gyda'n gilydd.'

'Nid y gormes oddi allan, Mari, ond yr ildio a'r trawma oddi fewn.'

'Cymer di 'nghot nos i, mam. Byddi di'n oer.'

'Dw i'n *amddifad*, ydw, ond – brensiach brain – dw i ddim yn *oer*.'

'Dere di. A phaid â siarad yn wirion.'

'Na! Na!' sgrechai'r fam. 'Dw i'n iawn. Fi yw'r unig un sy'n gwybod beth mae'r tŷ yma'n ei ddiodde. Fi yn unig sy'n cadw'i enw'n gynnes. Dim cot i fi. Rho fe i Glynystwyth. Dw i ddim am dderbyn dim gan yr un ewyllys.'

'Mam!'

'Chymera i ddim byd gan y genhedlaeth hon. Cenhedlaeth yw hi sy wedi colli'i moesau.'

Roedd hi wedi ymryddhau ychydig. Ymsiglai'n rhydd wrth gyrraedd y gegin. Yna, dechreuai gydio mewn cwpanau a soseri a dysglau o bob math, a'u taflu nhw at y wal. Y tu ôl i'r wal, ac eto'r tu hwnt i'r tŷ hefyd, roedd y gelyn anwel yn ei danciau'n nesáu ati, a hithau'n peledu'i gorffennol hi ei hun ato, hyhi a'i harfogaeth rydlyd ganoloesol.

'Paid, mam, paid. Rwyt ti wedi bod yn yfed. Rwyt ti'n tywallt dy holl gynilion i'r botel. Dwyt ti ddim yn gyfarwydd...'

Roedd ei mam mewn pwll o syched.

'Os dw i wedi llwyr ymwrthod yn wryfol ar hyd yn oes, Mari, mae achlysur fel hyn yn haeddu dathliad. Ymuna â fi, ferch.'

'Paid,' erfyniai Mari; a cheisiai atal ei mam.

'Paid di â'm peidio i. Deinosawr dw i.'

Suddai'n ddiymadferth i'r llawr yn awr yn llipa o dan ei phwysau a'u haroglau deinosawrus eu hun. 'Mae popeth wedi bod yn yfed. Ac mae'r cartre wedi cael ac wedi dymuno cael trawma mewn diod.'

\*

\*

\*

Fe ddychwelson nhw i'w hystafelloedd gwely. Erbyn hyn roedd hi tua thri o'r gloch y bore: yr un noson, felly. Ond nid dyna'r diwedd. Deffrowyd Mari o'i thrymgwsg drachefn. Clywai weiddi o'r tu allan nawr, ac ymbalfalai at y ffenestr. Syllodd allan i ddeall y sŵn. Ar ymyl y lawnt roedd pâm lle y buwyd yn tyfu ychydig o lysiau. Roedd yna ffigur annelwig yn y fan yna yn gweiddi ac yn plygu. Ei mam oedd, wrth gwrs. Roedd ganddi bâl ac roedd hi'n ceisio claddu llyfrau unigol yma ac acw. 'Mae ei lofnod e ar y llyfrau.' Byddai hi wedi hoffi rhoi'r byd yn grwn ynghyd â lluniau personol o Gwilym mewn un o'r tyllau. Rhedai Mari i lawr ati i weiddi arni: 'Mama, dere i mewn.' Uwchben roedd y lleuad yn llawn ac yn noeth: 'Dere o'r oerni.' Rhedai at ei mam a



cheisiai ei thynnu. Ond tynnai hithau'n ôl, 'Mam, mam.' Roedd y ddwy'n crio, a'r fam yn feddw gaib. Ac roedd meddwdod ei chaib hithau'i hun yn feddw.

Protestiai'r fam, 'Na, na. Mae'r cythraul eisoes wedi peidio â bod yn bresennol.' Ac roedden nhw bellach yn gafaelyd yn ei gilydd. Ymryddhâi'r fam a cheisio mynd yn ei blaen i balu. 'Cyn i'r fandaliaid ddod yma...' Yna, roedd y fam fel pe bai'n udo i'r lleuad, udo fel gast mewn poen. A thorrai Mari i feichio crio. Syrthiai'r fam wedyn i'r llawr yn ei dolur, a chodi'i phen oddi yno, ac udo drachefn. '... Rhaid imi'u claddu nhw oll.'

'Dere i mewn, mam. Bydd popeth yn edrych yn wahanol yng ngolau dydd.'

Caniatâi y fam i'w merch ei thywys hi tuag at y tŷ. Ond tynnai hi'n rhydd drachefn, a theimlo'r llawr, rhwbio cledrau'i dwylo dros y llawr fel pe bai am fod yn sicr ei bod yno o hyd, a chodi ychydig o dalpau o bridd, a'u dyrchafu nhw tuag at y lleuad.

'Arna i roedd y bai. Rown i mor falch ohonot ti, Glynystwyth, Glynystwyth, Gwilym, Glynystwyth bach, bach. Fi sy ar fai. Rhy falch fues i erioed. Ac mae cenhedlaeth, – mewn un genhedlaeth, – am dy anghofio di a'th hunaniaeth, Glynystwyth, ac am droi'r ddaear hon oll yn niwtral fel pe bai heb ei chreu.' Daliai Anna i ogordroi yn ei meddwdod trwm. Ond methai Mari ag ymuno â hi a dal ati i brotestio.

\* \* \*

*(Ddeng mlynedd wedyn – Awst 15, 1980: Glanystwyth, nid Glynystwyth yn awr.)*

'Mam – dyma Siôn. Siôn – Mam.'

'Diolch i chi am eich croeso.'

Moesymgrymodd Siôn o flaen ei mawrhydi syber, Anna Jenkins. Roedd o leia ugain mlynedd o draul anghynnil wedi ymlusgo dros y Fonesig Ann Jenkins rhwng 1970 a 1980. Heblaw'r llywethau llwyd ar ei phen, roedd lawnt ei hwyneb yn raddol wedi troi'n domen sbwriel (frenhinol o hyd, wrth gwrs, er gwaetha'r cwbl).

'O! Nid fi yn unig sy'n eich croesawu chi. Mari yw'n *hunig* blentyn ni. Felly, wrth ichi ddod i'r fan yma,' gwenodd, 'mae'r ach i gyd yn rhoi croeso, credwch chi fi!'

Moesymgrymodd Siôn eto, heb fod yn wawdlyd, gan iddo gael ei rybuddio gan Mari ymlaen llaw beth oedd i'w ddisgwyl. Er gwaetha'r paratoad, – efallai o'i herwydd – arhosai'n nerfus wrth iddo gyfarfod â'i fam-yng-nghyfraith botensial ar lawnt o flaen Glanystwyth, ac yng nghornel stad Glynystwyth.

'Mae cartre braf gynnoch chi 'ma.'

'Oes. Ond nid dyma'n cartre iawn.'

'*Glanystwyth* yw hyn,' meddai Mari.

'*Glynystwyth* yw'r tŷ teuluol,' ategodd ei mam.

'O'r glyn y rhedodd y dŵr,' esboniodd Mari yn hwyliog. Prin bod y deng mlynedd diwetha wedi mennu dim ar olwg Mari, heblaw gosod sbectol ar ei thrwyn a rhoi ychydig mwy o awydd carwriaethol yn ei llwnc sychedig. Roedd hithau'n bwll o syched bellach fel ei mam, ond bod cynnwys ei syched beth yn wahanol. Blodyn oedd hi a gadwyd drwy'i wasgu rhwng gormod o dudalennau rhamant.

'Ond mi wnaiff y lle bach yma'r tro...' eglurodd y fam yn ddewr. 'Mari, ewch i ddweud wrth Meg y gallwn ni gael cinio 'nawr.'

Ar ôl i Mari rolïo'n dawel allan, llithrodd y Fonesig Jenkins fel rhith draw i fwrdd yn y gornel ar bwys, a chodi potel wisgi. 'Gymrwch chi rywbeth?'

'Dim diolch.' Roedd hyn hefyd yn rhan o'r rhybudd a gawsai fe gan Mari.

Tywalltodd y wraig iddi'i hun, a'i yfed ar ei ben.

'Moddion. Ar gyfer yn ffigur,' broliodd hi. Ac yna, cymerodd un arall.

Cafwyd saib. 'Roedd yr hin yn syfrdanol o braf wrth deithio drwy'r wlad heddiw,' awgrymodd Siôn. Ond chydiodd Anna ddim yn y tywydd nac mewn dim mor gyfnewidiol.

'Aiff Mari â chi i gael golwg ar *Lynystwyth* ar ôl cinio, ...y tŷ teuluol. Dyna i chi fynd am dro syfrdanol... Dych chi ddim yn gyfarwydd â'r encilion digyfnewid hyn?'

'Dw i'n reit gyfarwydd ag Aberystwyth, wrth gwrs. Ond ddim cymaint â'r lonydd bach cefn yma.'

'A!... Fan yma mae'r trysorau, wyddoch. Mi fyddwn ni'n dangos rhyw addurniadau bach ystrydebol i'r twristiaid: rhodfa'r môr, ac yn y blaen. Ond fan yma yn y cypyrddau y tu cefn y mae'r gwir drysorau... Dych chi'n siŵr?' cynigiodd hi'r wisgi eto gan dywallt gwydraid arall iddi'i hun.

'Arhosa i i'r coffi neu i'r te.'

'Te Sina sy gynnon ni, wyddoch.'

\*

\*

\*

Ar y ffordd tuag at Llynystwyth roedd Siôn a Mari yn rhodianna law yn llaw. Ymddangosai iddyn nhw fod cariad yn toi'r bydysawd. Roedd y tawelwech, wrth daranu i lawr ynghynt drwy'r dyffryn tuag at blasty Glynystwyth, wedi adleisio o un allt oruchel i'r llall. 'Dacw hi, Glynystwyth. Wyt ti'n ei gweld hi?' arwyddai Mari. Safen nhw ill dau mor llonydd â'r plasty ei hun.

'Ydy, mae'n frenhinol. Dyna'r gair,' meddai Siôn.

'Rhyw fwthyn o le yw *Glanystwyth*.'

'Mae'n dŷ cynhwysfawr twt, ddwedwn i,' meddai Siôn. 'Ond plasty yw hwn, i alw "chi" arno.... A hefyd...'

'Beth?'

'Mae 'na rywbeth ar goll, yn ôl yng Nglanystwyth. Roeddwn i'n synhwyro bod eich mam yn disgwyl rhyw *beth* o hyd, nid yn unig y tu mewn, rhyngon ni, ond – rywffordd od – o'r tu allan i'r lle hefyd. Neu ryw *un*, efallai.' Doedd Siôn ddim eto wedi clywed y stori i gyd.

'Sut felly?'

'Ambell waith yn y ffordd roedd hi'n dweud rhai pethau enigmatig.'

'Pa bethau?'

'Y pwyslais brwd yna ar *unig* blentyn, ac yna edrych tuag at y ffenest.'

'Dyna'i hygoledd hi.'

'Roedd hi *mor* daer am *y ffenest*.'

'Mae hi'n hiraethu am gredu nad oes 'na *neb arall* a allai fod yna.'

'Gollodd hi blentyn ar enedigaeth erioed?'

'Do, a na ddo. Mae mam rywsut yn anghyfan. Er ei bod hi'n geidwadwraig mor rhonc, mae hi'n llwyddo i beidio â chadw rhai pethau'n barhaol.

(*Glanystwyth: Awst 17, 1980*)

Ar siglen yng ngerddi Glanystwyth roedd Mari, y bore 'ma. Roedd ei phen hi wedi'i godi ychydig, fel pe bai hi am anadlu'n felys fyfyrddod o'r wybren. Stopiai hi'r siglen am foment.

'Ambell waith erbyn hyn, dw i'n rhyw amau ... efallai fod mam rywsut yn derbyn o ddifri mai fi *oedd* yr unig blentyn erioed ... ac na chafwyd 'na ddim Gwilym. Mae hi fel pe bai hi wedi *llwyddo* i ddifa'r gorffennol.'

'Sut un *oedd* Gwilym felly?' gofynnodd Siôn.

'Pryd?'

'Pan oedd e'n fach.'

'Crwt oedd e yn llawn direidi, ond un hurt o hael, yn rhoi popeth. Pan fyddai fe'n derbyn losinau, fe rannai fe'r cwbl oll, ac yna fe ddarganfyddai'n sydyn nad oedd 'na ddim un tameityn ar ôl iddo fe'i hun. A'i deganau yr un modd.'

'Megis y plentyn, felly'r dyn.'

Cododd hi o'r siglen. A dechreuen nhw gerdded tua'r tŷ.

'Weithiau, pan oedd e'n blentyn, mi roddai Gwilym bethau *o'r tŷ* hefyd i'w ffrindiau. Ambell addurn. Ambell declyn o'r sied. Doedd neb yn rhyw "sylwi" ar y pryd. Fel 'na roedd Gwilym i fod, dyna i gyd. Yn ddifeddwl braidd, ac yn garedig ei wala. Yn hoffus gariadus. Roeddwn *i'n* dwlu arno fe.'

'A dy fam?'

'A nhad. Roedd *hi*, wrth gwrs, yn coelio nad oedd neb tebyg. Roedd Gwilym mor gyflym ei feddwl.'

'Ond roedd hi'n anfodlon ar y rhoddi dwl yna mae'n siŵr.'

'Efallai... Oedd...'

Erbyn hyn cyraeddod nhw'r lle yr oedd Anna Jenkins wedi ymguddio dan gysgod rhag trymder yr heulwen, ac yn lled gysgu o'r golwg nes iddi led glywed y bobl ifainc yn llefaru. Welon nhw ddim ohoni hi.

'Un tro,' meddai Mari, 'dw i'n ei chofio'n ceryddu Siôn yn ei llais mawr dugesaidd: "Nid dy betheuach di i'w rhoi *yw'r* teganau hyn. Anrhegion fu'r pethau hyn i *ti*. Fe gest ti nhw gan bobl oedd yn parchu'n teulu ni. Doedd dy berthnasau a'th ffrindiau ddim yn cynilo ar gyfer y rhain er mwyn iti gynnal tloty'r gymdogaeth. Os oedden nhw am fod yn elusennol, fe allen *nhw* ddewis eu rhannu nhw'u hunain, yn uniongyrchol. Pan wyt ti'n cael rhodd, mae gen ti gyfrifoldeb i'r rhoddwr i'w chadw."

Clustfeiniau Ann Jenkins gerllaw ar y dynwarediad fel pe na bai hi yno, yn wir fel pe bai am fod yn fyddar.

'Ac erbyn hyn mae hi'n casáu'i mab,' meddai Mari. 'Yn orffwyll, ac wedi troi at y ddiod, fel cariadferch wedi'i siomi. Mae hi'n ffoi rhag pob sôn amdano.'

A heb yn wybod i'r ddau a ymgollasai yn eu sgwrs, sleifiodd y fam o'i 'chuddfan' gerllaw yn ôl i'r tŷ, wedi'i llethu gan ofid ei chorff ei hun: yn ddolur i gyd, ac am beidio â'i ddangos i'r byd. Âi'n ôl yn awr i Lanystwyth heb fod neb wedi sylweddoli ei bod wedi bodoli mewn unlle arall.

'Tybed ydy hi'n ei ddisgwyl e'n ôl?' holai Siôn, 'er gwaetha pob tebygrwydd.'

'Na... os nad yw hi wedi clywed rhywbeth heb ddweud wrthon ni.'

Âi Mari yn ei blaen wrth iddyn nhw sefyll am foment; 'Pe baet ti, Siôn, yn gweld Gwilym, a'i lygadu, fe gaet ti anhawster i ganfod yr un bai arno fe. A byddwn i'n ceisio o hyd ddyfalu beth oedd hyn a oedd yn ei yrru fe. Beth oedd gwraidd ei wahaniaeth ac yn ei wneud e'n ots i bawb? Cymwynasau di-ri, mae'n debyg. Ymatal rhag geiriau angharedig. Heb arddangos hyn, roedd e'n ymguddio gyda'i rinweddau yn

yr encilion, os gallai. Roedd e'n gymeriad ar ei ben ei hun. Heb chwilio'n bell, roedd e, yn ddiwyd yn estyn cynhorthwy i'r anghenus, ac yn cuddio'r cwbl rhag y cyhoedd. Roedd ganddo ryw gwrteisi mewnol, heb ei wisgo yn y golwg. Rhyw fath o lendid disglair, yn dallu sylw. Mae'n annheg ifi geisio'i esbonio: gallen ni fwynhau ei gwmni heb iddo wybod am y peth o gwbl. Dyna oedd ei arbenigrwydd. Dw i wedi cwrdd ag ambell un arall sy'n hynod gymwynasgar, yn dduwiol hefyd, ac O! yn ddaionus. Mae cwrdd â rhai fel yna'n fraint aruthr, ond mae'n gallu digwydd. Ond roedd Gwilym – dw i ddim yn honni wrth gwrs ei fod e y tu hwnt i'r dynol – ond rhaid i mi gyfadde'r anhawster, yn wir y methiant i'w ddiffinio; mae yna fath o wedd gyfannol sy'n ei ddal e a hynny oll wrth ei gilydd. Mae hyn oll yn ei wneud e'n anghyfarwydd. Ond mae yna un nam: methodd e â byw gyda'i fam, a chyfathrebu'n ystyrlon gyda hi; ac mae hynny, mae'n debyg, yn wendid solet ynddo fe.'

*(Glanystwyth: Awst 17, 1980)*

Roedd Anna Jenkins yn awyddus, erbyn hyn, i adnabod yn well ei darpar fab-yng-nghyfraith, Siôn: yr un newydd yn ei theyrnas. Gwyliai hi fe drwy gil un llygad, wrth iddo ddod yn ôl i Lanystwyth gyda Mari. Rhoddodd e record ymlaen yn ysgafn yng nghornel lolfâ Glanystwyth, rhywbeth mursennaidd ynghylch caru rhywun yn angerddol byth bythoedd, a daeth e draw i sgysio gyda Mari. Roedd ganddyn nhw ill dau un peth yn bendant o gyffredin, sef parch at sefydliad y 'teulu' yn ddidwyll ddwfn.

Hynny a drosglwyddwyd gan Anna i'w merch Mari. 'Chwarae "teuluoedd", dyna hoff gêm Mari pan oedd hi'n ferch fach,' meddai Anna wrth Siôn. Ac fe flodeuodd y gêm hon wrth iddi droi'n oedolyn. 'Fe ddychmygai'i byd ei hun. Wrth gwrs, unig blentyn oedd hi. Ac roedd hi'n weddol unig ar y stad.'

'Roedd gen i ddau frawd bach,' meddai Siôn.

'Dim ond cymdogion oedd gan Mari a chanddyn nhw achau ffug chwareus.'

'Doeddech chi byth yn dymuno gwneud "iawn" am hynny yn ei bywyd hi, am lenwi'r bwch mewn unrhyw fodd?' gofynnai Siôn yn ewnach byth.

'Dw i'n ei chofio yn mynd am dro untro. A'r teulu dychmygol wrth ei chwt, yn frodyr ac yn chwiorydd.'

'Faint?'

'Roedd 'na saith o frodyr rhithiol o leia, yn ei dychymyg, a dwy chwaer fel arfer.'

'Ac roedd hi'n hebrwng y rheina i bob man?'

'Oedd. Os oedd hi'n mynd drwy'r giât, mi fyddai hi'n sefyll naill ochr er mwyn iddyn nhw basio'n gynta.'

'Roedd hi'n chwaer hyna iddyn nhw felly.'

'Yn fam-gu, ddwedwn i. Nid ar frys y bydden nhw'n mynd am dro.' Cododd hithau, heb fod ar frys, a mynd draw at fwrdd cornel y ddiod.

'Gymrwch chi gegaid?'

'Dim diolch.'

Tywalltodd iddi'i hun yn ddifrys, a'i hyfed ar ei phen.

'Dw i'n siŵr fod 'na gryn syllu arni gan bobl eraill ar yr hewl.'

'Edrych ar Mari? Oedd; a gwranddo hefyd. Achos merch oedd hi yn licio rhoi gorchymyn i bawb, a chadw trefn.'

'Ond *Gwilym* anweledig oedd y ffeffryn?' holai Siôn. Wow! Llithrodd y gair allan. Ac oerodd. Oerodd y wlad i gyd. Roedd yr enw wedi sleifio o'i geg yn anfwriadus flêr. Doedd e ddim wedi meddwl dweud y fath beth. A chrinodd hyd fysedd ei draed.

'Dw i wedi sylwi ar nerth ei dychymyg hi,' meddai Siôn yn gyflym.

Cydiodd y ddeusill yn ystyllod corff Anna wrth iddi hi rewi. Ond erbyn hyn yr oedd ffrydiad y dŵr mor genllifol o'r enw colledig melltigaid hwnnw fel na allai hi gydio yng ngwellt y glannau atgofus. Llifodd popeth, popeth, yn ei herbyn. Fe'i carwyd hi gan atgofion. Llifodd y gorffennol, a'r India, a Chymru ac yfory oddi wrtho, o'r tu ôl i'w chefn. Ac ambell waith fe deimlai'i bod yn sefyll yn y lli yma, a phwysau'r dŵr yn ysgubo, yn ysgubo yn erbyn crothau'i choesau. Rhewodd hi'n dawedog yn ei lle.

'Ie,' meddai Siôn yn gyflym, 'dychymyg', mae'n bwysig cael hwnnw, wrth geisio'i achub ei hun rhag boddi yn "Gwilym". 'Un o'i saith brawd,' meddai fe, 'wel ie, un o dîm hael ei dychymyg hi efallai.'

Ond rhy hwyr oedd Siôn. Boddwyd Anna ar y pryd gan ddamwain tafod Siôn, un o'r damweiniau diflas ac achlysurol yna a ddaw i bawb oll ohonon ni yn ein tro, wrth ymaflyd codwm â dychymyg realwyr ffantasiol. Mae pethau felly'n anochel, mae'n debyg, ac yn lladd sgwrs.

*(Awst 18, 1980: Meddygfa Dr Charles Rolant)*

Buasai Anna Jenkins yn disgwyl ei thro yn arhosfa'r feddygfa. Hen gyfaill teuluol oedd y meddyg. Galwodd y dderbynwraig, 'Y Fonesig Jenkins', ac aeth hithau yn ddiymdroi i ystafell y Dr Charles Rolant.

'Charles, mae gen i broblem fach.'

'Anna! Eisteddwch. Problem fawr efallai?'

'Oes... syched.'

'A! ... rown i wedi sylwi,... ac wedi clywed amdani, Anna.' Gwenodd e.

'A dw i'n ofni ei fod e'n heintus. Dw i'n ofni bod Mari am y nilyn i.'

Edrychai hi o gwmpas ei ystafell yn y feddygfa braidd yn ddiymadferth... Gwibiai'i llygaid hi... fel y gwnaen nhw pryd bynnag yr âi hi i le a oedd ychydig yn wahanol i'r arfer beunyddiol... Ymhlith y gwahanol wrthrychau ar ddesg y meddyg... gerllaw'r glorian lle y câi phwyso'i hun fel arfer.. tua'r fainc... roedd hi'n chwilio am rywbeth, ... am botel... amdani hi ei hun. 'Un cam ymlaen mae'n siŵr yw cydnabod fod 'na'r fath beth â phroblem,' meddai hi.

'Afiechyd yw e, Anna. Cam ymlaen yn sicr yw cydnabod hynny. A gallwn ni wneud llawer.'

'Yfed cyfrinachol yw e gan mwya gen i. Yfed dan y cownter, fel petai.'

'Gwn i.'

'Dw i'n cuddio poteli ym mhobman erbyn hyn. Bydd archaeolegwyr ymhen pum canrif yn cael tipyn o farc cwestiwn pan ddôn nhw o hyd i'r celciau ledled y stad acw: dw i'n anghofio ymhle y maen nhw.'

'Bydd ganddyn nhw waeth problemau erbyn hynny, mae arna-i ofn.'



'Mae hi fel gêm-barti i blant. Ac mae gen i gywilydd.'

'Mae'r raddfa o lwyddiant gyda'r achosion hyn yn uchel iawn, Anna. Ond mae'n rhaid ichi gydweithredu. Dim un diferyn fydd hi yn y pen draw.'

'Rhan o'r cydweithredu fu bodloni i ddod yma.'

'Yn sicr. Dowch imi roi enw a chyfeiriad arbenigwr i drafod y busnes. Dw i'n synied nad alcoholiaeth yn unig yw'ch problem.'

'Ond rown i'n meddwl...'

'Meddwl y byddwn i'n gallu yn y feddygfa hon ddatrys pob ...'

'Wel oeddwn. Dw i'n rhoi yn hun yn eich dwylo chi...' meddai hi'n ddiymadferth.

Trawodd e ychydig o ysgrifen fras ar nodyn. Roedd am ei chyfeirio at arbenigwr.

'Nid cyfeiriad neb estron, gobeithio. Eich dwylo *chi* Charles...' ategodd hi. 'Cymro dw i eisiau. Rown i'n gobeithio mai yn eich dwylo dihafal chi... Un o'm hoff safleoedd...'

'Rhaid cael y gorau ar eich arfer, Anna. Mae angen ystyried heddiw y berthynas rhwng rhai mathau o alcoholiaeth a'r bersonoliaeth obsesiynol. Mae'r meddyg hwn dw i wedi'i nodi yn arbenigo,' meddai fe gan estyn y nodyn. 'Yn arbenigwr go iawn. Ewch ato. Mae'r cyfaill hwn yn gwybod cymhlethdodau'r maes.'

'Dych chi'n gwybod mor hoff dw i ohonoch chi, Charles. Dw i'n eich nabod chi er pan oeddech chi'n grwt bach direidus.'

'Arbenigwyr yn unig wnaiff y tro erbyn hyn, Anna. Ac mae'n mynd fwyfwy i'r cyfeiriad yna o hyd,' meddai. Roedd ei lais wedi caledu'n bendant.

Closiodd hi ato, a chydio yn ei ddwylo. 'Dw i'n meddwi ar bopeth, Charles.' Yna, camodd hi'n ôl allan i'r stryd; a chan rolïo'r nodyn a roddasai fe iddi yn lwmpyn bach pitw, fe'i hanelodd yn ofalus at y gwter.

(*Awst 20, 1980: ar lan afon Ystwyth*)

Mae pawb yn eu tro yn ymweld ag afon. Heddiw, penderfynodd Mari fynd â Siôn i dalu'u teyrnged esthetig i'r ffenomen honno. Stori yw afon nad oes clo iddi.

'Ble oedd Gwilym y tro diwetha y clywaist ti ganddo?' holai Siôn, wrth eistedd ar y lan, gan symud ei draed yn ôl ac ymlaen yn y dŵr. Roedd Mari'n eistedd yn freuddwydiol wrth ei ochr, gan wylid gwas-y-neidr yn drydanog o lonydd yn yr awyr.

'Tawelwch sy'n taranu yn yr India. Y tro diwetha y clywais i am Siôn, roedd e yng ngogledd y wlad. Dw i ddim wedi yngan sill wrth Mam wrth reswm.'

'Dy fam druan. Pan welais i hi'n edrych drwy'r ffenest un tro, rown i'n synied efallai'i bod hi wedi clywed amdano'n troi tuag yn ôl am dro.'

'Roedd malaria yn ei falurio fe, pan glywais i'r newydd diwetha. Ond roedd e'n gwella'n *bwylllog*.'

'Diolch ei fod e'n gwneud rhywbeth *pwylllog*.'

'Petai hi'n gwybod am ei hanes diweddar, fysai mam ddim ond yn cyhoeddi'r rhestr arferol o briodoleddau damnedigaeth iddo, ac yna'n cyhoeddi ei anfodolaeth i'r byd a'r betws. Mae'r ddwy yn gyfuniad grymus.'

Gerllaw, y tu ôl i'r ddau, ar y lawnt roedd yna isl yn sefyll, lle y buasai Mari wedi bod yn paentio y bore hwnnw. Tirluniau oedd ei hoffter hi. Ond un o'r nodweddau cyson yn ei gwaith pryd bynnag y ddi i ben â phaentiad oedd gosod mewn rhyw fan o'r neilltu o fewn y cynfas lun gŵr ifanc. Dywedai hi fod hyn yn dyneiddio neu'n bywioli teimlad y llun. Dyfais gelfyddydol i roi ffocws yn y darlun, dyna'r cwbl. Rhoddai ddimensiwn bywyd, maint a chanolbwynt iddo. Ond amheuai Siôn beth ydoedd: presenoldeb atgofus pigog i Mari oedd, a dihangfa rhag delfryd y bwlch. Trôï meddylfryd y teulu oll o gylch yr absenolyn. Roedd obsesiwn Anna'n ymledol. Codai Mari y funud yna ar ei thraed, a chlosio at y cynfas, er mwyn ychwanegu hwnnw.

'Druan o mam,' meddai Mari ymhellach. Ac yna, dynwardai ddatganiad ei mam yn ffurfiol pan sylwodd ar yr arferiad anghysurus hwn gan ei merch: "Paid â gwneud hynny fel 'na. Na dim bysedd traed ohono. Wyt ti'n clywed, Mari?" Ydw, mam. "Wyneb

hir heb gnawd, heb esgyrn. Tal, tenau, corff cyfan o ddiddymdra. Neb.” A'i llais yno – heb ddweud dim, yn falch anghlywadwy, yn llusgo sibrwd sillafau heb lafariaid. “Os mynni di ei baentio, fel yna y dylet ti'i wneud. Wyt ti wedi cydio yn ei ddwylo erioed?” – Erioed! “Dim ond niwl. Dim ond adleisiau o groen. Dim ond Dim. Wyt ti'n deall, Mari.” Ydw, mam. Ac yna, fe waeddith ar ucha'i llais ei gwadiad ffenedig terfynol: “bwgan gwacter.” Yn uchel ar y gwynt, ac eto mae'n rhaid bod rhai yn y gymdogaeth hon yn ddigon ystyfnig o fyddar i ddal i synied bod ei mab hi gynt wedi bod yn *berson*, er iddi wneud ei gorau glas ers blynnyddoedd i'w cywiro. “Dyna'u diffyg addysg nhw, eu diffyg rheswm: dylanwad y Ficer,” meddai hi am y diffyg-glemwyr hyn.'

Safodd Siôn gan ysgwyd ei ben: 'Druan o'r Ficer. O bob creadur naif o ddi-glem yn y wlad, y Ficer hwn sy'n cael y bai. Hwnnw, a'r cwbl y mae e druan yn ceisio'i wneud mewn bywyd yw adfer tŵr yr eglwys. Ei grefydd i gyd yw casglu cronfa ar gyfer sment. Ac mae'ch mam yn coelio mai dyna yn gymwys yw pwrpas siwrnai Siôn yntau yn y byd. Hyrwyddo gwacter ystyr drwy adael cofnod o'i enw mewn llyfr.'

*(Awst 22, 1980: Traeth y De, Aberystwyth)*

Eisteddai Siôn a Mari ochr yn ochr â'i gilydd ar y tywod, yn gymdeithion diddig i'r ha carwriaethol hwn.

'Tybed, a weli dy frawd byth eto?' holai Siôn tra chyfeiriai ei lygaid at wylan y penwaig, a oedd yn cynnal yr heulwen acw o'r braidd, draw uwch ei ben.

'Dw i'n amau'n fawr,' cyfaddefai Mari, a hithau bellach yn ddyweddi i Siôn, ac yn bwrw prynhawn yn ei dillad nofio gydag e ar Draeth y De yn Aberystwyth. 'Mae e'n rhy dlawd nawr byth i ddod yn ôl adre'n hwylus, ac yn gwrthod derbyn “cardod”. Gwrthododd e'n ddiweddar gydymffurfio â rheolau'r elusennau sefydledig drwy fynnu mynd i weithio'n annibynnol i'r ardaloedd tlawd a farnwyd yn rhy beryglus i'r mudiadau swyddogol.

'Mae e'n llunio problem ddiddatrys iddo'i hun,' meddai hi ymhellach. 'Mae'n gwrthod derbyn cynhaliaeth gan elusennau sefydledig oherwydd ei fod am geisio'i gynnal ei hun fel y brodorion, heb help gan neb arall. Ac mae'n gwrthod ei gefnogwyr yng Nghymru, nes ein bod ninnau'n cael problem ddiddatrys i'w helpu. Mae'n naturiol i

fi a'i ffrindiau fe ein huniaethu'n hunain ag e. Yr unig lwybr arall yw hyrwyddo gwaith tebyg, heb obaith o elw uniongyrchol iddo fe. Fe ddylen ni godi cronfa arall, mae'n debyg, i gefnogi gweithwyr cyffelyb iddo fe.'

'Ie. Ac wedyn fe welai fe y byddai fe, ac yn ei sgil ei ffrindiau, yn derbyn cynhaliaeth sy eto heb fod yn debyg i'r brodorion eraill. Mae e mor obsesiynol â'th fam.'

'Beth bynnag yw diffyg cyd-deimlad ei fam, fe fydd e ei hun ar ei gythlwg, dybiwn i. Mynnith e fynd yn brin. Fe dybiais i y gallen ninnau hyrwyddo "cronfa benodedig i weithwyr gwirfoddol annibynnol", ar gyfer argyfyngau teuluol, nid i'r brodorion y tro hwn eithr i'r rhai sy'n eu gwasanaethu, i'r cynorthwywyr unigol eu hunain. Gallai fe gael budd o hynny. Hyd yn oed os bydd effaith wrthddywedol a pharadocsaidd yn yr amaturiaeth gynhaliol a gweinyddol. Beth wyt ti'n feddwl, a Dr Charles Rolant yn gadeirydd? Mae Gwilym yn hoffi'n gadael ni mewn penbleth.'

'Gweithio mewn slym yng Nghalcwta roedd e y tro diwetha y clywais i sôn amdano. Ces i'r hanes gan un o weithwyr Cymorth Cristnogol yn Bow Street. "Mae'n un â'r tlota o bawb sy 'na", meddai hwnnw. Tin y sach. Mae'n pallu bwyta ac yfed yn well na'r bobl dlota leol. Ond mae'r rheina'n gorfforol gyfarwydd â'r fath lymder, ac yn arfer bwyta peth o'r sbarion sbwriel.'

'Ers pryd y mae e fan yna?'

'Yng Nghalcwta? Ers pum mlynedd.'

'Mae e'n deall nad oes dim croeso gartre.'

'Ydy. Ddaw e byth yn ôl,' ochneidiodd Mari'n brudd. 'Mae e mor eithafol â mam.'

'O safbwynt Cymru mae fel pe na bai erioed wedi bod.'

'Dyna mae mam yn ddweud. Dyna'i dymuniad.'

'A! Mam!'

'Rhyfedd, rhyfedd. Hi oedd Cymraes wlatgar y teulu. Hi oedd yn creu'r teulu. A dyna'r holl flynyddoedd di-ystyr yn gwibio heibio nawr hebdo! Hi nawr yw'r awdurdod

penna ar rywun sy heb erioed wedi bod! A bydd cenhedlaeth newydd yn tyfu mwyach yn yr ardal hon heb wybod dim oll am Gwilym, heb wybod am ei le yn ein teulu ni, er ei fod e'n dal ar dir y byw mewn man arall yn y byd.'

'Diolch i'r drefn serch hynny: mae'n gysur iti wybod ei fod e'n fyw, beth bynnag.'

'Ond heb ei fod e'n fyw i ni yma, dyw ei fywyd yn ddim ond marw i ni.'

'Tybed ydy dy fam wedi dechrau cyrraedd y man lle y gallai hi ollwng peth o'r hen ddialedd tuag ato? A newidith hi rywfaint, byth? Neu o leia, ewyllysio mymryn o faddeuant i'w mab?'

'Byth.'

'Dwyt ti ddim yn gallu dychmygu y byddai rhyw berswâd yn bosib, pe baen ni'n mynd ati hi... a fyddai...! Ac yna, bu yna saib.'

'Byth.'

'... Pe baen ni'n siarad yn ofalus, yn ceisio creu breuddwyd o ddyfodol i'w gobaith hi, a siarad yn naturiol gariadus am anwyldeb teuluol, am ein hawydd ni'n dau i fagu plantos yng Nghymru, am "berthyn", a allen ni hwyrach ei lled berswadio hi i'w groesawu fe'n ôl am "gyfnod gorffwys"? Gallen ni ei symud hi'n emosiynol ychydig.'

'Mae Gwilym wedi cael ei ddifodi'n lân, o'i safbwynt hi, fel cyfeiriadur ffôn o'r ganrif ddiwetha sy wedi dyddio. Mene Tecel. Fel iaith goll.'

I Anna'r fam, serch hynny, un o frwydrau mwya diflas ei bywyd bellach oedd peidio â meddwl am 'India' bob tro y byddai rhywun yn defnyddio'r gair 'Cymru', a pheidio â meddwl am 'Gymru' bob tro y dywedai rhywun y gair 'India'. Meddyliai hi'n obsesiynol mewn byd o barau. Presenoldeb ac absenoldeb. Gwyn a du. O hyd yn ei hymennydd, teimlai ddwy ochr ymhob undod ymhobman, rywsut, a'r ddwy yn wir, ac eto y ddwy'n ddigon gwahân, ymhell ar wahân i'w gilydd, – yn cyfarfod â'i gilydd yn anghyfforddus, ac yna'n ymateb – heb gyflafareddu. Heb dawelu yn y meddwl. Dau wrthrych pell oedden nhw a oedd hefyd rywsut wedi'u clymu'n chwyrn, wedi'u toddi. Gwlad a gwlad, gwlyb a sych, yn un wlad. Cwmpai amser yn ddrylliau ar wahân bellach o'i deutu hi; dyna a achosai'r storm honno weithiau yn ei meddwl, yr

anghydbwysedd chwarennol hwnnw a'i drysai hi ac a'i poenai'n ddirugaredd, y toddi delweddol erlidigol hwn. Roedd hi ei hun yn faes i'w cad nhw; ac eto, roedd hi'n groesffordd iddyn nhw. Doedd hi byth yn fodlon nes iddyn nhw ymgyfarfod, a pheidio ag aros yn ynysedig ynddi. Allai hi ddim mynd ymlaen lawer pellach fel hyn mewn hyder. Roedd yn ormod o straen. Ow! Gwilym.

Ac yn ei hunigrwydd, ymffurfiai hi yno'n llwybr rhwng y parau hyn oll mor ddwfn ac mor bendant ag un o ddeddfau natur: y deuoedd sathredig hyn oedd y parau mwych iddi hi, dyna oedd daearyddiaeth seml ei nerfau tyn.

*(Medi 28, 1980: llwybr at Llynystwyth)*

Roedd y Fonesig Anna Jenkins yn cerdded yn fân faglog yn yr hwyr mewn glaw ar ei phen ei hun ar hyd y llwybr a arweinai i fyny tuag at Llynystwyth. Stopiai hi bob hyn a hyn, a thynnai botel fechan o'i bag llaw. Yfai ohoni: y diferyn angenrheidiol ar gyfer y pwll. Dyma'i helusen hi iddi'i hun. Ac yna ychydig yn chwil eisoes, caeai'i llygaid yn dynn benderfynol. Ceisiai, er gwaetha'r breuddwydio, gerdded o hyd ar ei phererindod beunyddiol yn ddall, i chwilio am rywun rhithiol nas dymunai, â'i llygaid llwm dibwys ynghau. Roedd hi'n cloffi ar ymyl y ffos. Ond tynnai hi ei hun yn ei hôl mewn pryd. Stopiai a syllu'n niwlog o'r newydd at y plasty. Diog oedd y glaw wrth sgubo'r caeau. Llithrai'i throed hi ryw ychydig ar y llawr gwlyb, ac fe'i hunionai'i hun yn urddasol, tan gerdded ymlaen eto heb fod yn sicr iawn o drefn ei chamre. O'r diwedd, syrthiodd hi'n ddiymadferth ar ei hyd. Ymbalfalai'n reddfol am ei bag llaw, a rholiai wedyn drosodd o'r diwedd i'r ffos. Codai oddi yno; ac mewn ennyd o ffug sobrwydd gweledigaethol daeth o hyd i'w bag. Tynnai'r botel fechan ohono drachefn, a thaflu'r bag wysg ei chefn yn grac at y llawr: roedd y botel yn wag. 'Dim yfflonyn ynddo,' meddai hi amdani wedi mynd ar ei hôl. 'Fel fi. Pa iws yw peth felly?'

Roedd hi'n edrych i fyny braidd yn annelwig tuag at Llynystwyth. Anelai, a thaflu'r botel yn ei thro drachefn braidd yn annelwig tuag at Llynystwyth, mor wanllyd bell ag y gallai hi. Chyrhaeddodd y peth ddim o'r adeilad wrth reswm.

'Gwag benbwygilydd, ddwedwn i. A finnau'n teimlo fel pe bawn i'n botel lawn braf yn hun.'

*(Hydref 1, 1980)*

Erbyn hyn, roedd Siôn a Mari yn deall ei gilydd yn well nag erioed. Ond roedden nhw hefyd bellach yn profi peth o obsesiwn mewnol Anna Jenkins. Mor aml y trôï'u trafodaeth am gymeriad ac ystyr bywyd Gwilym yn destun unol fel yr eglurai'u perthynas nhw iddyn nhw'u hunain yn amgenach. Daethai'r sgwrs arferol yn bont gyfleus i sefyll arni. Weithiau, roedd eu clebr cartrefol yn gyfryw fel roedd ei enw yn fodd iddyn nhw gyfarfod â'i gilydd yn fwy effeithiol, bron yn eu llunio nhw'n un person mewn cyd-syniad ac mewn modd o berthyn na allai fod ar gael gyda dim byd arall. A dyma nhw, ochr yn ochr â'i gilydd, yn gorwedd heddiw eto ar eu cefnau dan yr heulwen, yn dychwelyd i'r hen destun hwn o'r newydd.

'Wyddost ti, Mari,' meddai Siôn, 'mae cysgod dy frawd ym mhobman yma.'

Rholiodd hi oddi ar ei chefn ar ei hochr i'w wynebu fe ar y borfa gynnes. 'Ydy. Fe aeth y crwt; ac eto, fe fethodd â mynd. Ac mae e'n fwy real yn ei absenoldeb nag y buodd erioed pan oedd e'n cerdded y tiroedd hyn. Mae'r atgo'n llenwi'i fwll yn ormod weithiau.'

'Ydy hynny'n ddirgelwch i ti. Neu wyt ti'n dechrau cyfarwyddo?'

Meddyliodd hi. Doedd hi ddim yn cyffwrdd yn unswydd â Siôn yno: doedd e ddim yn cyffwrdd â hi; ond roedd eu sgwrs yn eu tynnu nhw'n nes at ei gilydd. 'Ydy; ac mae ein perthynas ni'n dau felly'n gysur hefyd.'

Ac yna cododd hi gasgliad yn ara â'i llaw dde, fel petai, – fel pe bai'n codi cwningen o het consuriwr: 'Mae 'na un peth. Ar ôl inni briodi, Siôn, dw innau'n awyddus ... er gwaetha'r arferiad ... i gadw yn enw priod i, enw'r teulu, Jenkins ... o barch a thrueni at mam... Dyna'r cwbl.'

'Dim problem.'

'Dw i'n benderfynol ein bod ninnau'n dau yn gwbl unol yr un pryd wrth gwrs. Ond...'

Doedd Siôn ddim yn gwbl effro i hyn ar y pryd: 'Dw i'n cytuno. Ond ddim am y cymhellion sy gen ti. Byddai hynny fel pe bai Siôn yn y fan yma yn parhau. Fe eisoes yw'r ffigur canolog i'th fam. Ei enw e sy 'ma. Ai ceisio byw ychydig o'i fywyd e fyddai hynny? Dw i ddim am i'w absenoldeb e ymyrryd â'n bywyd ni.'

'Yn ymyrryd â ni? Na.' Closiodd hi ychydig ato, eto heb darfu arno.

'Ddaw e fyth yn ôl; ac mae'n rhaid inni gadw'n synnwyr annibynnol ni wrth ymwneud â'th fam.'

'Na, hwyrach,' meddai Mari. 'Ond weithiau, mae bwlch absenoldeb yn procio chwilfrydedd amheuson. Ches i ddim ateb gan Gwilym i'n llythyr diwetha i ato ynglŷn â dirywiad mam. Ac mae hynny'n mynd yn ôl ychydig o fisoedd.'

'Ddaw e byth yn ôl,' meddai Siôn. 'India sy'n mynd â'i fryd. A'r tebyg yw ei fod e'n pendroni amdanon ni dipyn llai nag dŷn ni'n wneud amdano fe. Eto, dŷn ni'n fath o rydd, Mari. Rhaid inni ddiogelu'n rhyddid i fodoli. Dy fam di sy'n gaeth, druan. Mae'n rhaid i ni gadw'n synnwyr ninnau yn wyneb hynny. Mae dy fam yn ymgaledu o fewn ei byd bach ei hun. Ac mae hi'n styfnig yn ei rhagdybiau negyddol obsesiynol am Gwilym. Mae ganddi wanc cyson rywfodd am wadu'i realiti e, ac mae'n mynnu'i droi e'n ddychymyg iddi'i hun. Gobeithiwn na byddwn ni ddim yn dilyn dy fam.'

'Na. Druan ohoni – mor gaeth... Iawn te Siôn, daliwn ninnau'n rhydd.' Rholiodd hi'n agos ato, a rhoi'i breichiau amdano. Closiodd yntau ati hi, a diolch am ei phresenoldeb. A'r funud yna, cododd cariad yn llif o wiriondeb cynnil drosto, y cariad di-baid a'i cynhaliai fe. Pan wyliai fe hi'n gwneud y gweithgareddau mwya anniddorol, fel dal cwpanaid o de mewn ffordd gynefin, byddai bwrlwm o serch yn ysu drwy gyhyrau gwddwg Siôn rywfodd ac i fyny i'w glustiau. Pan sylwai fe arni'n dod dillad ar y lein i'w sychu, phrofafe Siôn ddim ond rhyfeddod yn ffrydio ar draws y cyffredinedd a ddylai, ar bob tir rhesymol, fod yn llywodraethu ei ymateb. Roedd yna syndod ffyddlon yn ei fola fe, ac edmygedd hyd yn oed o'i hanghenion a'i phryderon hi. Ddylsai fe ddim rhyfeddu mai fel hyn roedd serch yn dewis dod o hyd i wrthrychau ymhudo'n



obsesiynol. Roedd hyn yn wir ymhlith pobl enwog ac athrylithgar hwythau... oherwydd roedd Rembrandt gynt, wrth ddedol lliwiau llusern neu gysgodion dillad, neu Beethoven, wrth gyfuno seiniau mewn man neilltuol yn ei gynghanedd, – symlder y nodau mewn cord, – wedi gallu dangos fod yna elfenoldeb anochel a phresenoldeb byw yn y ffurfiau elfennol lleol hyn, a oedd yn gyfystyr ag edmygu harddwch y bydysawd i gyd. Ac felly hithau iddo fe. Ac yntau, Siôn iddi hi. Roedd Siôn yn ei charu hi'n ôl yn yr un modd, am ei bod hi iddo'n ollyngfa i'r perffeithrwydd serch cudd a sianelwyd gan y greadigaeth drwy ofod a gwres a symudiad er gwaetha'r cwmp drwy ras cyffredinol ar hyd ei breichiau yn y fan yna hyd y pryd hynny. Gallai hyn o ras lenwi'r greadigaeth oll o ran potensial.

'Ac os cawn ni fab, fe hoffwn i'i alw fe'n "Glyn", os wyt ti'n fodlon.'

Closiodd hithau'n nes-nes ato fe.

\* \* \*

Eithr heb fod yn bell iawn oddi wrthi hi a Siôn, ac yn anymwybodol iddyn nhw ill dau, heb rybudd, a heb sylwi ar eu bodolaeth nhw ei hun ar y pryd, roedd yna ffigur arall. Un oedd a fuasai'n angor anfwriadol i'w sgwrs, yn cerdded o'r golwg ar y pryd linc-di-lonc flinedig ac yn debyg yn fuan o ddod ar eu traws yn fuan yn gorwedd ynghyd yn y borfa. Cerddai'r ffigur hwn yn fyfyrion ara tuag atyn nhw. Ac yn sydyn dihunodd e i'w presenoldeb. Roedd e bron ar eu pennau pan ddeffrôdd llygaid Gwilym.

Roedd y dychweledig hwn yno, yn cerddetian yn ddwys ar hyd y llwybr yn eu hymyl, yr afradlon wedi dychwelyd. O leia, caed fersiwn mwstasiog ohono, bron â sarnu arnyn nhw, ac yntau mor wir awyddus i gwrdd â'i fam yn gynta cyn gweld neb arall. Stopiodd. Sylweddolai e mewn pryd pwy oedd y ferch. Ei chwaer, Mari. Stopiodd. Doedden nhw ddim wedi'i weld e. Rhaid esbonio'i sefyllfa i'w fam yn gynta. Troes Gwilym a phellhau yn gyflym i'w hosgoi. Welsan nhw ddim ohono fe. Ond sylweddolen nhwythau fod *rhywun* ar bwys, rhywun a oedd wedi'u gweld nhw yn ôl pob tebyg. Ac ymbellon nhwythau hefyd yn swil oddi wrth ei gilydd yn gyflym.

Hiraeth am ei fam, wedi derbyn llythyr Mari, a oedd wedi gyrru Gwilym nawr yn ôl hyd at y fan yma. Mynnodd fenthyca'r modd gan ffrindiau elusengar. Daeth

euogrwydd gwahanol drosto, a throdd ar frys tuag adre wedi cael achlust o wendid ei fam. Ond yn awr, wedi cyrraedd, roedd yr hiraeth diamynedd hwnnw wedi chwythu'i blwc. Cawsai bàs gan fan plymer o Aberystwyth hyd at ben y lôn. Ond bellach, roedd yn rhaid i'w gorff bregus ymdopi heb gymorth neb. Roedd e mewn penbleth. Ar dir Glynystwyth hongiai'i freichiau a chwifio ychydig wrth hercian ar y lôn gul tuag at Lanystwyth. Doedd e ddim am gwrdd â neb nawr cyn gweld ei fam. Paratoesai'i fryd a'i gyfansoddiad yn unswydd yn ei betruster i'r un peth ar hyn o bryd, i'w chofleidio hi. Doedd dim ots am y diffyg croeso chwaith nac am y condemnio ffaidd tebygol o'i thu hi. Digon fyddai cyfarfod yn llawn ac yn syml, heb ystyr, – a darfod os oedd rhaid.

Mewn gwirionedd roedd y Gwilym dychweledig hwn wedi gweld y ddau gariad gyda'i gilydd yn ddigon clir, yn gliriach nag y bysai wedi'i gyfadde. Ond fynnai fe ddim ei gyflwyno'i hun yn sydyn mewn amgylchiad mor bersonol. Gwell ganddo gyrraedd yn fwy ffurfiol ddi-emosiwn, efallai, mewn cyfarfod wyneb-yn-wyneb â phen ei daith, a'i fam. Roedd e wedi cynllunio a phenderfynu cyfarfyddiad cadarnach rywsut. Brysiai fe felly, draw heibio i'w golwg nhw tuag at dŷ gweddol sylweddol Glanystwyth.

Atebwyd y drws gan Meg. Gwraig tua thrigain oed oedd hi, – yn blaen, ond yn anfwriadol blaen fel na ellid dal dig yn ei herbyn. Rhyw fath o gartŵn ystrydebol o ofalwraig gonfensiynol oedd hi i Anna Jenkins. 'Meg,' ebychodd Gwilym, gan ollwng y sill wrth ei thraed: symudodd hi ei thraed yn gyflym. Doedd hi ddim i fod i adnabod hwn. Petrusai hi: 'Arhoswch fan yma.' Troes Meg yn gerflun o ddiymadferthedd. Ceisiai hi guddio'r ysgytwad a gafodd hi o'i weld. 'Fe a-i i ddweud wrth y Fonesig.'

'Ond Meg.'

A oedd rhywbeth ynnddi hi a oedd am wrthod ei gofio fe? Oedd Meg mor ofnus? A oedd ei meistres uwchben yn gwrando o'r llofft? Ynteu'r co oedd, yn fynych, yn gwrthod dihunio ar adegau anghysurus fel hyn? Oedd y co wedi'i syfrdanu hi? ... Gan bwyll, wrth gyfathrebu â'r cyneddfau eraill, bydd y co'n llenwi'i fylchau ara, fel y bydd ein meddwl naturiol wrth weld rhywun yn codi pen uwchlaw crib y mur yn cymryd yn ganiataol fod y pen hwnnw a ganfyddwn yn gysylltiedig rywfodd â'r hyn a erys o'r

golwg odano. Felly y bydd y co'n creu presennol mwy solet drwy ymuno â'r gorffennol cudd ... Ond y tro hwn teimlai Gwilym ei fod wedi camu i fyd-co-gymysglyd.

Wedi i Meg redeg i fyny'r grisiau i'r llofft, arhosai Gwilym fel cês gwag yn y cyntedd ar y gwaelod. Eithr dychwelodd y forwyn ato'n fuan.

'Mae'r Fonesig Jenkins yn dweud "Na".'

'Ond Meg ... Meg annwyl.'

'Na. Dyw hi ddim 'na. Mae hi'n absennol.'

'Dyna'r cwbl?'

'Dyna ddwedodd hi.'

'Ar ôl ifi hedfan yn ôl yr holl ffordd o India, dywedwch, cha-i ddim un awgrym o sillaf arall hyd yn oed?'

'Dim byd arall.'

'Dw i ddim yn bod iddi, mae'n debyg.'

'Na. Mae'n ddrwg gen i, Gwilym. Dyw hi ddim eisiau cofio.'

'Ond dwedwch wrthi mod i'n barod i arwyddo cyffes na dw i erioed wedi byw... Allech chi ofyn iddi a ga-i aros hefyd i gael gair personol gyda Mari.'

Diflannodd Meg drachefn; ond ddi hi'n ôl eto gyda'r un "Na" yn union. Syllai Gwilym drwy'r ffenestr ar y bryn y tu ôl i'w gartre, ac ar y gwartheg acw'n dawel hwnt ac yma arno, 'heb na sw na mw' meddyliai gan wenu ynddo'i hun, yr un ag erioed. Dacw'r hen gartre, ac eto roedd hefyd fel yna fel pe bai'n wag. Ond cofiai bopeth ynddo. Yna, sylweddolai beth roedd yntau wedi'i wneud ymlaen llaw ar y ffordd adre: roedd wedi paentio'r lle ar ei go yn ddelwedd nad oedd yno'n bod i gyd, fel pe bai wedi defnyddio'r un cynfas cynt i baentio drosto ei ddymuniad ar gyfer y funud hon. Yr oedd wedi arosod felly, dros hen baentiad real, baentiad o olygfa'n batrwm o'i hiraeth presennol ei hun, dull traddodiadol i arlunwyr tlawd.

Trôi Gwilym yn ei ôl i ymadael. Ond wrth droi'n drwm fe ganfyddai Mari a Siôn ill dau yn rhodio law yn llaw yn awr ar y llwybr a arweiniai at y tŷ. 'Dyma nhw ar y ngair... Mi arhosa-i,' meddai wrth Meg.

Yna, gwelodd Mari fe o bell. A rhedodd. Rhedodd hi'n gyffrous i'w groesawu. Croesawai hi fe drwy gydio ynddo. Cofleidien nhw. 'O! Gwilym, o'r diwedd. Yn wir. Na! Nid ti!.. Siôn, Siôn, edrych. Dŷn ni wedi bod yn siarad amdanat ti. Edrych, Siôn, dyma'r anenwog Gwilym. Wedi ymgorffori.'

'Gwilym felly,' meddai Siôn. 'Wel! A thi yw'r enwog *neb!*'

Siglen nhw law. Ac yna ychwanegai Mari at ei chyflwyniad, 'Gwilym, dyma Siôn, – yn Siôn i. Pryd cyrhaeddaist ti?'

'Y funud yma.'

'Ydy'r ffoadures bondigrybwyll oddi uchod wedi dy ddarganfod di?' gofynnai Mari.

'Nac ydy... Dyw hi ddim yma, medd hi,' meddai Meg.

'Dyw hi ddim yn trio. Mae yna synnwyr ym mhopeth,' ebychai Mari. 'A blynyddoedd hefyd. Aros di.' Aeth hi at waelod y grisiau, a gweiddi: 'Mam... Mam fach. Mae 'na gonsuriwr wedi tynnu cwningen o'r het.' Cerddai i fyny ychydig o risiau. 'Mam! Wyt ti'n clywed? Ffenics wedi codi o'r llwch a'r lludw. Myth wedi'i ddiriaethu.'

Doedd dim ateb.

'A-i lan i'w nôl hi,' meddai hi'n frwd wrth Gwilym. Rhedai i fyny'r grisiau, ac i mewn i ystafell wely'i mam. Roedd honno wedi ymestyn ar ei gwely a'i llygaid ar led yn agored, a'i gwefusau ychydig ar wahân mewn braw, ar siâp 'Na!'; a'i holl wyneb fel pe gwelsai fwgan. Roedd ei llaw dde hi'n dal yn ei chalon. Ar y llawr roedd poteli di-rif. Brawychodd Mari, 'Y greadures!' Dros y llawr caed hefyd lwyth o dabledi cysgu fel conffeti. Ac roedd Anna Jenkins fel priodferch wen gerllaw ar ei gwely.

'Ffonia Dr Rolant,' gwaeddai Mari. Rhuthrai Siôn i fyny ati; gwelai yn y fan beth oedd wedi digwydd, a brysiat i lawr at y ffôn. Ofnai Gwilym symud cam o'i le, fel un wedi'i barlysu. Hyd yn oed yn awr, roedd ei fam yn ei gadw fe'n ddisymud.

Âi Mari'n ôl at ei mam dlawd a phenlinio wrth ochr y gwely. Teimlai hi guriad gwaed ei mam. Cafodd fraw. Murmurai'n ddengar wrthi: 'Na, mam, na.' Siglai y ferch ei phen dros ei mam yn drymaidd o'r naill ochr i'r llall. Ac yna fe gladdai'i thalcen nerfus ym mynwes ei mam, a gweiddi, 'Na! Na!'

Daeth Siôn yn ei ôl hefyd. Sibrydai Mari drachefn wrth ei mam. 'Na: paid â gwneud hyn i ni.' Disgwylien nhw. 'Ofer oedd ffonio.' Ac yna codai Mari'n ara: 'Ffurfioldeb fydd Dr Rolant bellach, mae arna-i ofn Siôn.'

A'r un pryd, pan oedd y rhuthro hwn a'r ffonio a'r gweiddi a'r taerineb hwn ar gerdded yn bentyrrau o wacter, crymai Gwilym o hyd yn fwndel llipa ar waelod y grisiau gan ofni na fuasai'i bresenoldeb croes-graen e ond yn gwneud drwg pe bai'n mynd o fewn golwg i'w fam. Gostyngai'i ben yn isel isel. Gwyddai beth oedd wedi digwydd. Roedd ei fam wedi'i siocio. Ysigwyd hi gan ei bosibilrwydd e, ac yn awr ysigwyd e. Udai yntau'n awr hyd at ei benliniau. Fe oedd wedi gwneud hyn. Ymlusgai'n felltigaid ddall yn awr i fyny ac i fyny i'r ystafell yn ofnus gan amau beth oedd wedi digwydd. Edrychai draw'n ddiymadferth at ei fam.

Edrychai, fel pe bai o bell, ar bentwr llonydd ei fam, yn y fan yna. Roedd y newyddion am ei ddyfodiad e wedi profi'n ormod iddi. Fe oedd y gwelltyn ola a dorrodd ei chefn. Roedd e'n ofni mynd yn nes ati. Syllai o gwmpas yr ystafell ar y sbwriel alcoholaidd ledled y llawr, tan siglo plwm ei ben. Yna âi at y ffenest, o'r lle y gwelai Lynystwyth yn y pellter. 'Mam! Mam, pam?' sibrydai'n drymaidd ac yn floesg. 'Paid â gwneud hyn.' Trodd. Roedd yn ei hofni hi. Llonydd iawn oedd Glynystwyth i gyd acw, a llonydd Glanystwyth yma: roedd eu brwydr â'i gilydd drosodd. Treiddiai llonydd arall yn awr drwy esgyrn pawb. Doedd mam ddim hyd yn oed wedi cael yr hawl i farw yng Nglynystwyth. Yng Nglanystwyth, llonydd oedd y llawr a'r nenfwd. 'Mam fach! Mae angau'r India'n ymestyn yn rhy bell i'r un ohonon ni. Fi wnaeth hyn.'

Roedd e wedi gwneud rhywbeth i'w deulu yn fwy nag y dychmygasai neb.

Edrychai'n ôl yn ôl ar ei fam yn anhygoelus. Safai fe mewn mudandod pellennig yno gerbron sydynrwyd a maint distawrwydd yr ystafell yn awr. Ceisiai fe dreiddio i'r atgo penna ohoni er mwyn ei chadw yn ei feddwl; ond yn ofer. Roedd terfynoldeb wedi

goresgyn ei hymdrech ola mwyach. Y fath etifeddiaeth o greulondeb oedd iddo yntau fan hyn. Y fath ymadawiad a wnaethai fe wrth gefnu arni hi i fynd i'r India. A'r fath drosedd oedd iddo ddod yn ei ôl o gwbl. Closiodd ati, coleddodd ac anwylodd hi, yn ofer. Gafaelodd ynnddi fel cylch-achub yn y môr. Ac wylodd y môr.

*(Hydref 4, 1980)*

Y Ficer a weinyddai'r gladdedigaeth. Ychydig o bobl a hysbyswyd yn ffurfiol amdani, a thila oedd y cynulliad a ddaethai ynghyd o gwmpas y bedd agored. Prin bod neb o newydd-ddyfodiaid yr ardal, y mewnfudwyr, wedi dod i'r angladd. Neb. Prin yr aethai allan ymhellach na'r tir agos ers deng mlynedd. Roedd y grŵp clòs hwn wedi cael peth amser bellach i wylofain, i sobri, i atgoffa, ac i ddifrifoli, yn wir i ymadfer rywfaint ar ôl ffradach y diwedd. Ond casglu meddyliau at ei gilydd oedd y dasg dryma i bawb, a datrys y croes-yrru ar draws y drychineb gywilyddus y buon nhw oll yn rhan ohoni.

Ar y ffordd yn ôl tua lliadiart y fynwent, cerddai'r Ficer gyda Gwilym; a sgysien nhw'n dawel ddifri. 'Gan yn chwaer, Mari, dw i'n deall – ac eto mor chwithig o falch,' – meddai Gwilym – 'iddi hi gyflwyno swm go barchus tuag at Gronfa'r Tŵr yn ddiweddar. Fe fuoch chi Ficer yn gyfaill triw iawn iddi ers blynyddoedd.'

'Roeddwn i'n hoff iawn ohoni.'

'Dywedodd hi wrtho-i iddi ddod unwaith atoch chi am sgwrs go ryfedd...' meddai Gwilym.

'Do. Mi wnaeth.'

'Gyda chais go brydyddol debygwn i.'

'Do. Ond mae 'na ragor i'r hanes rhyfedd yna na hynyna, Gwilym: soniais i ddim amdano wrth neb.'

'Beth?'

'Mae 'na atodiad. Ac mae'n briodol ichi glywed am y clymiad atodol hwn i'w hymdrechion ola.'

'Sut?'

'Mae'n rhaid ei bod hi wedi dod o hyd i'n hallweddi i, rywsut, wedi'r cyfan. Roeddwn i bob amser yn eu cadw nhw yn yr un lle yn y festri. Rhaid mod i wedi bod yn flêr, wedi gadael cwpwrdd yn agored, wedi'u gadael nhw yn y golwg. Ond roedd hi rywsut wedi dod i'r eglwys a'u dwyn nhw, er ei bod wedi'u dychwelyd nhw heb ddweud dim wedyn.'

'Eich allwedd bersonol?'

'Yr allwedd i saff yr eglwys. Roedd drws yr eglwys ei hun yn agored o hyd, wrth gwrs. Rhaid y mod i wedi bod yn flêr. Y mai i oedd e. Dw i'n eu hongian nhw mewn cwpwrdd.'

'A'r cofnodion – genedigaethau ac ati?'

'Ie. Dyna oedd arni'u heisiau.'

'Wnaeth hi ymyrryd? Wnaeth hi gyflawni beth oedd hi'n ddymuno felly?'

'Diweddar oedd hyn, ryw fis yn ôl.'

'Rhyfedd. Fel yr oedd hi mor gyndyn.'

'Do, mi gafodd afael ar y llyfr. Roedd y ddiod yn ei drysu hi wrth gwrs druan tan y diwedd.'

'Felly, dw i heb gael y ngeni'n swyddogol... Druan ohoni. Y fath ymgais i nileu i. Mae'n teimlo ychydig yn od wrth feddwl am y peth.'

'Na, na; dych chi yno'n ddiogel o hyd. Dyna'r peth cynta y chwiliais i amdano fe ar ôl ifi sylwi beth oedd wedi digwydd.'

'Mae hynny'n gysur, mae'n debyg.' A gwenodd Gwilym fymryn. 'Hoffwn i ddim i neb synied mod i yma heb fodoli'n swyddogol.' Cytunodd y Ficer â'i ben yn ddiddig. 'Wedi dod drwy ddrws y cefn megis,' ychwanegodd Gwilym. 'Dw i yma o hyd.'

'Ond *roedd* hi wedi dileu un enw.'

'Sut?'

'Ei henw ei hun. Roedd y cofnod, – yno ers hanner cant a thair o flynyddoedd yn ôl, druan, – wedi'i lwyr ddileu. Llinellau trwm drwyddo. Ac uwch ei ben roedd hi wedi sgrifennu mewn llythrennau bras a phendant – “GWALL”. Dyna'r cwbl.'

'Uwch ei henw ei hun felly?'

'Roedd ei *henw'n* bwysig, yn od o bwysig iddi druan,' meddai'r Ficer. 'Dw i'n cofio iddi ddatgan un tro fel y daeth yr obsesiwn hwnnw'n rhan o'i hymwybod hi... “Mae'n hen chwiw ers plentyndod,” meddai hi wrtho-i un tro. “Enw yw'r cofnod cynta sy yno ar y nghalon i. Yn enw i, enw'r teulu; enw'r wlad, enw'r cartre. Dyddiad efallai. Bron bob tro y byddwn i'n pasio coeden,” meddai hi, “roeddwn i'n teimlo awydd i ddodi yn enw arni hi. Dwli yw hi. Dim ond enw fel arfer. Ond mi wn i fod lot o bobl yn hoffi gadael eu hôl, yn blentynnaidd, drwy dorri llythrennau cynta'u henw – fel AJ ar y rhisgl – neu rywbeth. Ond roedd hyn, yno i, yn waeth rywsut. Rywsut, bydd y goeden a'n enw arni hi fel pe bai'n y ngalw i wrth yn *enw*. Dw i'n clywed yr hen beth. Weithiau, – *nid* yn ffug baganaidd, cofiwch – mae'r llofnodi fel 'na am ifi gofnodi rhywbeth ar y rhisgl, ddim oherwydd i'r enw gostrelu o'i mewn fodolaeth o'm heiddo i a gaethiwyd gynt, ac a fu'n aros byth wedi hynny, tan y funud hon pryd y byddwn i'n dod ar ei phwys”, meddai hi. “Fel yna y bydd rhai paganiaid yn coelio. Ond oherwydd i hyn gydnabod *yn adnabyddiaeth i,*” meddai hi, “roedd gen i enw *yn* y goeden, yn rhan o'i bywyd. Roedd yn enw yno i beri i bobl yn nabod i. Roedd y llais wedi dod ata-i, a galw arna i. Rown i 'ma, oherwydd fod rhyw gynneddf yn y natur i sy'n mynnu cofnod, – cofnod ar y lle, y lle dw i'n perthyn iddo fe,” meddai hi. “Dych chi wedi clywed am y goeden deuluol – y cart achau. Roedd hyn yn yr un traddodiad yn gwmws i bobl eraill. Ymwybod â *pherthynas* fel dathliad. Doedd e ddim yn y ngalw i'n gyffröedig fel y bydd y coed weithiau, eithr murmur yn enw i'n dawel, bron yn anhyglyw, siffrwd, torri'u sillafau nhw'n fwynnaidd ddiymhongar yn y lle,” meddai hi, “fel pe bai'n beth hollol naturiol i'w wneud, ac nad oedd e ddim am dynnu sylw at y peth...” meddai hi, “yn enw twp i....” meddai hi. “Dw i wedi cerfio'r llythrennau A.J. ar filoedd o goed o bryd i'w gilydd mae'n debyg ar hyd yn oes,” meddai hi. “... Bues i'n meddwl lawer tro mai cyfleustra'n unig, label hollol ddamweiniol oedd yn enw i,” meddai hi, “rhywbeth y digwyddodd i'n rhieni i'n gymharol ddi-feddwl ei daro ar y mherson i,” meddai hi, “ac mai dyna oedd y



peth lleia pwysig amdana-i,” meddai hi. “Mae'n fusnes mor wirion. Ond mor aml y bu i hwnnw a'i ystyr hefyd aros a goroesi yn y meddwl i, a dim ond hwnnw, ar ei ben ei hun. Doedd e ddim yn bwysig. A down i ddim yn bwysig. Ond fe fues i'n meddwl y byddai fe ryw ddydd ar feddfaen, mewn traddodiad rhwng aelodau'r teulu, mewn clebr, drwy ddyddiadur, ac yn anad unlle ar gofnodion yr Eglwys: enw, dim ond enw, ac eto *nid* dim-ond enw,” meddai hi. “Eithr dyna yw e, y rhan wytna ohonon ni, dw i'n credu, ein cynrychiolydd, weithiau ein hamddiffynnydd materol yn erbyn amser,” meddai hi. Enw hefyd oedd “Glyn Ystwyth”... , balchder o enw yn y ngho. Rhaid bod enw fel yna'n medru tynnu ato'i hun ryw nerthoedd cudd, a thrydanu o fewn ei gynaniad ryw rin anystywallt. Mae enw ar berson – fel 'Glyn' – yn dod yn rhan o'i bersonoliaeth, ac felly, enw ar le... Ac i'r gwrthwyneb mae dileu enw o'r fath wedyn yn rhyddhau rhywun neu rywle rhag hynny i gyd. Ond,” meddai hi gyda rhyw ddwyster difrifolach. Mae gen i fwriadau gwahanol ar gyfer y dyfodol i'n enw i erbyn hyn.” Dyna fu'i phregeth.'

'Ddwedodd hi hynny bob gair?' gofynnai Gwilym.

'Do, fwy neu lai. Rhywbeth i'r perwyl yna.'

'Druan ohoni. Oes 'na unrhyw ystyr i hynny i gyd?'

'Dyna pam roedd yr holl le yn golygu cymaint iddi.'

'Roedd hi'n Gymraes i'r carn, ficer. Ei thipyn eiddo hi oedd popeth Cymreig o'i chwmpas. *Cariad* o ryw fath oedd yn ei chymell, dw i'n gwybod hynny. Doedd ganddi fawr o ddiddordeb mewn unman arall nac yn yr un wlad arall. Yn yr India er enghraifft.'

'India'n arbennig,' ychwanegodd y ficer, 'Doedd India, iddi hi, erioed wedi bod.'

'Mae'n galed wedyn... iddi hi ac i bawb.'

'Ydy... Pryd ewch chi'n ôl?' gofynnai'r ficer.

'Efallai nad a-i ddim yn ôl mwyach, ficer. Mae 'na faich fan yma yng Nghymru nawr rywsut. Mae'n wahanol efallai, wrth gwrs. Dyw hi ddim fel yr India, er bod India'n wahanol mewn dimensiwn arall... Ond mae yna wacter alaethus yno-i,' meddai Gwilym yn groyw, 'am y lle bach hwn yn awr. Baich o fwllch am ei hunigrywiaeth, a'i gwerthoedd. Mae hynny'n Gymreig iawn, mae'n debyg. Teg edrych tuag adre.'

'Ydy.'

'A syched... am fodolaeth ac ymlyniad Mam, wrth gwrs.'

'Oes, hyd yn oed yn y fan yma, yng Nghymru. Meddyliwch. Mae Cymru'n sychedu hefyd am gael rhywrai fel eich mam. Mwy felly nawr nag erioed.' Stopien nhw, ac edrych yn ôl i fyny tua'r bedd a adawsan nhw y tu ôl. 'Druan ohoni.'

'Dw i wedi edifarhau'n enbyd am hyn oll, ficer.'

'Na, na. Mi wnaethoch chi'n iawn. Mi wnaethoch chi'n union yn ôl eich goleuni chi ar y pryd. Ac roedd yn oleuni da.'

'Fe orffennodd popeth mor euog.'

'Na ddo. Fe fu dy fam yn un a deimlai ran o *un* gwirionedd syml. Bydd eich euogrwydd yn agor drws lletach i hynny. Mi fydd yn fendith hefyd i eraill. Gadewch iddo gymryd ei gwrs.'

'Cha-i ddim maddeuant gan Mam mwyach. Dych chi'n credu Ficer fod yna led faddeuant arall o fath yn bosib ar y ddaear. Fydd yr atgo amdani'n ein gadael ni'n llonydd byth?'

'Bydd, wrth gwrs,' meddai'r ficer drachefn. 'Ac yn well na hynny. Os bydd rhywun yn teimlo'n daer fod angen arno am faddeuant i'w bechod ac yn galw mewn ffydd ar Dduw, mae'n ei gael. Mae prydferthwch y ddaear bob amser yn datgan bod Duw ar gael ymhellach na'r eithafion gweledig. Drwy ragluniaeth y greadigaeth, hyd y caeau hyn, a'r caeau sy ar ôl y caeau, ac afon ystwyth acw, mae'r cynllun yn llawn o ddaioni Duw, a does dim terfyn i hynny. A phan fo Duw ar gael, hyd yn oed mewn darn o anialwch dynol, fe allwn ninnau ddyhefod fel yr hydd am ei ddyfroedd e. Edrycha i fyny, fachgen. Mae'r India ei hun yn teithio'n bell, Gwilym; ond mae syched yn teithio'n bellach. Peth ofnadwy yw syched mawr. A dŷn i gyd yn sychedu am yr ysbrydol. Os byddi di'n profi'r syched hwnnw, ac yn galw o'th galon am y dŵr bywiol, fe'i cei. Cei, yn sicr.'

'Mae 'na syched arnon ni i gyd mae'n debyg am ein gilydd, ac am fwy. Mae'n bwll go fawr. Beth bynnag,' meddai'r Ficer, yn weddol betrus y tro hwn, rown i am ofyn

eich caniatâd, – chi yw etifedd y teulu – yn syml i *ddileu*'r gair “GWALL” bellach yn yr hen gofnodion, a doddi 'Stet' fel mater o ffurfioldeb.' Pesychodd yn gynnwl.

'Gwell peidio, Ficer, os nad oes llawer o ots. Na. Gadawn y peth fel y mae, fel hanesyn ecsentrwg, efallai ... o barch at air penodol mewn lle penodol gan Mam, ... ac o'n tu meidrol ni, o drugaredd neu o gariad ati , ... ac o ystyr.'

## MERCH Y SGWEIER

(cyflwynedig i Wil Rees)

I

1737

Gydag enw megis Marmaduke Gwynne ar sgweier y Garth, allai afon Irfon ddim llai nag ymbincio ryw ychydig wrth orymdeithio heibio. Allai'r coed achlysurol hwythau ar elltydd Epynt gyferbyn ddim llai nag ymsythu ryw ychydig wrth iddyn hwythau rodianna i lawr tua'r afon islaw. Ac allai yntau'r sgweier ddim llai na theimlo mor addas oedd hi fod pob dim yn yr ardal yn talu gwrogaeth gynnil i'w ddoethineb a'i rym e a'i deulu a'i achau hamddenol a'i ddyfodol yn y gongl hon o'r ddeunawfed ganrif wareiddiedig, lle na ddôï fawr rwd i lygru namyn ymylon deilios diofal yr Hydref ar y garth y tu ôl a chefnau gwiwerod ym machludoedd Awst wrth i'r pethau bach hurt hynny dalu eu llawenydd coch o deyrnged i lannau'r afonig fradwrus honno o Abergwesyn drwy Lanwrtyd a Llangamarch heibio i'r Garth, ar eu ffordd igam-ogam i ymuno ym mhen hir a hwyr â'u chwirydd mawrhydig yn nyffryn Gwy.

Eisteddai Theophilus Evans ar lawnt o flaen y plasty. Er gwaetha'r heulwen gymedrol, fe wisgai fe got fawr drom. Gwisgai het ddu. Daliai ar ei lin forden ac arni bapur sgrifennu. Wrth ei ochr ar gadair arall roedd yna stondin-inc. Codai ei bluen sgrifennu bob yn awr ac eilwaith i'w chwifio yn yr awyr lefn cyn ei dowcio yn nhywyllwch y stondin-inc. Weithiau fe blygai fe i godi un o'r llyfrau a orweddai'n afradlon ar y llawr. Ac weithiau syllai ar draws dyffryn Irfon i gyfeiriad unigrwydd Epynt, fel pe bai'n ei herio'n chwareus, ai yr harddwch hwn neu ei dipyn llyfrau hanes e oedd yn mynd i ddarfod yn gynta.

Daeth Sarah Gwynne gan ddawnsio-redeg tuag ato allan o'r plasty. Edrychodd e i fyny tuag ati cyn iddi gyrraedd; a gwenu. Ond trodd e'n ôl yn benderfynol i sgrifennu. Nesaodd hi nawr gan bwyll fel pe na bai am ymyrryd yn hollol, er nad oedd yn gwbl argyhoeddedig felly chwaith... Plentyn oedd hi.

Roedd Theophilus Evans yn gyfarwydd â'r math hwn o ymweliad gan y ferch hon o ddisgybl; a doedd e ddim am iddi atal ei lif geiriol e mor gynnar â hyn ar y dydd. Roedd ganddi ogwydd at dynnu coes.

'Ie?' meddai fe.

'Neges!'

Nesaodd hi'n gynnes ato a chydio yn ei fraich gan ymostwng wrth ei ochr ar un ben-lin i sbio ar yr hyn a sgrifennai. Pwysodd Theophilus Evans yn ôl ryw ychydig, ond ollyngodd e ddim o'i bin.

'Wel?'

Fynnai hi ddim datguddio'i chenadwri hithau'n rhy rwydd.

'Ddim eto.'

'Nid neges daer felly.'

'Dw i ddim am ddweud dim. Ddim eto.'

'Oes a wnelo'r neges â'th Waith Cartref, dy gyfieithiad o Fyrsil?'

'Ych â Lladin!' A hithau'n llawn un ar ddeg oed, doedd hi ddim am gael ei phryfocio felly. Cododd a phellhaodd ryw fymryn er mwyn cyfleu hynny.

'Nid dy ddewis di yw cwestiyna,' meddai fe. Roedd ei led gerydd yn dyner wrth ei chywiro yn ôl ei arfer. 'Ai dod rwyd ti i glebran, neu i drafod problem? Oes a wnelo'r neges hon â'th wers di?' gofynnodd e ymhellach. Fe oedd tiwtor swyddogol Sarah a chaplan y Garth; ond fe hefyd oedd offeiriad eglwys Llanllywenfel. Roedd ei swyddi'n lluosog.

'Ddim hyd y gwn i.' Closiodd hi ato.

'Dyw hi ddim yn bwysig felly,' meddai fe.

'Nid dyna ddywedais i.'

'Gwell iti ddweud ar dy union te.'

'Ddim nes ifi glywed ychydig o *Drych y Prif Oesoedd*, os gwelwch yn dda.' Beth oedd hyn? Ai tipyn o weniaith faldodus? Ai ymhonni henaidd? Roedd ei llygaid llwyd hi'n sibrwd rhywbeth roedd e'n ei amau a oedd braidd yn faldodus.

'Fe gei di ddarllen y cwbl ar y diwedd.'

'Dim neges te. Dw i eisoes wedi cael mwynhau cymaint ag a glywais i.'

'Gwranda Sara.'

'Sali!'

'Gwranda “Sali” te. Ai dy dad di sy wedi anfon y neges? Ai ceisio pryfocio hen guraid geriatrig Llanllywenfel rwyt ti?' gofynnai o drymder ei dair a deugain oed.

'Nage, ceisio clywed ychydig o'i storïau *anhygoel* gan gaplan y Garth.'

'*Hanes* – nid storïau anhygoel.'

'O'r gorau, hanes anhygoel.'

'Fe ddarllena i dair brawddeg te, dim ond tair...'

Eisteddodd hi ar y lawnt, a'i choesau wedi'u plygu odani'n amyneddgar. Syllai hi arno a gwên braidd yn goeg ar ei hwyneb deallus, ond gyda hoffter mawr hefyd.

'Pwy sy wrthi y tro hwn?'

'Y Rhufeiniaid o hyd, a'n hen gyndadau braf y Brutaniaid.'

Carthodd beth o'i lwnc. Beth bynnag oedd ei barn hi, roedd e'n meddwl cryn dipyn o'i Ddrych. Carthai'i lwnc er mwyn datgan hyn yn fwy haeddiannol.

'Does dim eisiau ichi sefyll,' ebychodd hi'n bryfociol. Merch fach hy oedd hi, yn sicr. Petrusodd e'n fygythiol; ond na, fe fynnai fe ddarllen yn uchel.

'Ac yno, fel y gwelwch *Darw* yn taflu ac yn gwylltio ar ôl bod *dau* neu *dri* o *Waed-gŵn* wrtho un hanner-awr: Felly *Gwŷr Rufain* hwythau a chwerwasant oddi mewn, gan ergydio eu Saethau cyn amled â chenllysc at y *Brutaniaid*.'

Ymataliodd ychydig. Roedd yn teimlo'i fod yn perfformio braidd ar y mwya.

'Ie?'

'A lladdwyd y fath nifer o bob ochr, nes oedd y môr *agos yn wridog* gan waed y Lladdedigion, a chyrrff y meirw a'r clwyfus cyn dewed yn gorwedd ar fin y môr â Defaid mewn Corlan.'

'Brafo'r Brutaniaid!'

Plentyn oedd hi wedi'r cyfan, a'i chymeradwyaeth yn ddigymell. Gwenodd e ac ailgydio yn ei rythmau gyda mwy o hyder.

'A phe buasai Elw i *Iwl-Caisar* osod ei Draed ar dir *Brydain*, hynny a gâs efe; etto pe ni buasai efe a'i wŷr redeg [yn] gyflym i gael Diogelwch yn eu *Llongau* (fel y gwelwch chwi *Haid o Wenyn* yn taro i'r *Cwch o flaen Tymhestl*) hwy a larpiasid yn Dammeidiau â Chleddyf y Brutaniaid dewrion...'

Roedd hi bron yn rhwbio'i dwylo ynghyd. 'Llarpio yn Dameidiau, ie?'

Atebodd Theophilus Evans yn chwareus geryddol: 'Nawr Sali... dy neges.'

'Ardderchog!... Hanes yw peth felly?'

'Dyna yn hanes *i*.'

'Mae'n llawn o waed.'

'Felly y dylai fod... Gwaed yr hanesydd o leia... Beth am dy neges di te?'

'Dych chi ddim yn rhewi, wrth sgrifennu allan fan yma?'

'Ddylwn i fod yn oer?'

'Heddiw o leia,' meddai Sali.

'Dw i ddim yn oer. Mae sgrifennu'n cadw rhywun yn dwym. Mae hanes hefyd yn cysgodi fel plasty.'... (Edrychodd y ddau bron yn ddiarwybod yn ôl tuag at y plas). 'Mae dyn yn ymhoffi yn y naill dasg a'r llall oherwydd ymdrech cadwraeth. Fe all dyn ymgolli yn yr amser ac yn y gwaith. Ac mae'i go'n ei amddiffyn rhag ambell wynt heddiw. Mae'n dodrefnu gorffennol y bywyd heddiw ... â chynhesrwydd y bobl a fu.'

'A chi sy'n adeiladu'r plasty yma?' holodd hi gan bwyntio at ei lawysgrif, 'ar gyfer deallusion y Cymry?'

'Fi sy'n rhoi adroddiad bach bob hyn a hyn, Sali, wrth y Meistr fry sut mae'r gwaith o adeiladu'n dod yn ei flaen 'lawr yma ym marn un pechadur – pam y dylen ni ei foliannu fe, a sut y dylen ni edifarhau... Ond beth am dy neges di nawr?'

'Dim ond,' meddai hi'n jocôs, 'bod nhad am eich gweld chi *nawr*. “Ar frys”, meddai fe.'

'Ar frys?' Cythryblai'r tiwtor-caplan, a chodi yn y fan. 'Pam na ddwedaist ti ynghynt?'

'Chi oedd yn y nghadw i drwy fynnu darllen y cwblwl o'ch campwaith.'

'Y rhoces ddrygionus! Ar frys?'

'Brys! Brys fel chwys, meddai nhad.'

Dechreuodd y caplan brysuro tuag at y tŷ. Cyflymai a rhedeg wedyn, gan siglo'i ben yn ôl ac ymlaen yn ei rwystredigaeth. Ocheneidiai o dan ei anadl, '*Hwy a larpiasid yn dameidiau!*'

Galwai Sali, gan chwerthin yn dyner ar ei ôl: 'Yn dameidiau, cofiwch.'

\*

\*

\*

Eisteddai sgweier y Garth yn hamddenol yn ei lyfrgell, gan sipian te a deintio teisen a chan ddarllen llythyr newydd-gyrraedd, pan frysiodd Theophilus Evans i mewn. Tipyn yn sychlyd oedd ei gyfarchiad i gurad Llanllywenfel.

'A! Gaplan.'

'Theophilus Evans at eich gwasanaeth, sgweier.'

'Diwrnod braf i led weithio ar y lawnt.'

'Roeddech chi am y ngweld i, syr?'

'Y fi?'

'Roedd gynnoch chi neges?... Sali... '

'Neges?' Beth oedd gan y gŵr parchedig y tro hwn? 'O! Ie, mi wn i. Beth sy arna i? Eisteddwch gaplan. Te?'



'Dim diolch.'

'Fydd dim gwahaniaeth gynnoch chi os cymera i ddiferyn?'

'Na, na, wrth gwrs.'

Ysu'r deisen oedd prif ddiben Marmaduke Gwynne, gan lenwi'i geg fel pe bai am stwffio'i fochau rhag iddo chwerthin, er nad chwerthin oedd ei fwriad o gwbl. Nid te oedd ganddo serch hynny. Roedd ganddo fater mwy difrif yn ei boeni. Ond gallai wneud dau beth yr un pryd. Wrth iddo fwyta, deuai'r llanw i mewn i harbwr ei siaced, a dechreuai'r botymau ar ei hyd, a'r hances yn ei boced ucha, fownsio i fyny ac i lawr. Dechreuai'r chwibanau o'r golwg yn howld ei gylla ubain fel Bae Ceredigion, nes bod y môr yn ei wahodd e i gyrchu allan tua gorwel digonedd, fel y llanwai'r deisen honno eto hwyliau dillad chwyddedig y Sgweier yn urddasol gyfforddus.

Crwn yw sgwieriaid i fod, ond roedd Marmaduke Gwynne yn eithafol grwn. Di-arffed o wŷr bonheddig oedd, a chanddo res aruthr o dwyni'n ymestyn o amgych ei belfis, y naill yn hyrddio uwchben y llall ac yn cysgodi dros bawb a phopeth a ddôi i mewn i Blasty'r Garth. Anodd i neb fentro i'r un ystafell ag e heb sathru rywle ar draws un o'i stumogau. Stwffien-nhw i'r ffroenau. Tagen-nhw dalcennau. Rholien-nhw dros ben Theophilus Evans yntau er nad gŵr byr mohono, nes peri iddo deimlo fod y môr mawr di-orwel hwn wedi cau amdano. Pan eisteddai fe, roedd gan y Sgweier ddigon o arffed o'i flaen fel y gellid doddi Beibl Teuluaid arno yn gadarn ddiogel.

'Wel nawr, gaplan, beth sy gynnon ni?... O, ie... Dych chi'n casáu'r eglwyswyr enthiwsiastig 'ma gymaint ag ydw i, Mr Evans?'

'Ydw, llawn cymaint.'

'Maen nhw'n cynhyrfu chwyldro... gyda'u sôn am Gristnogion yn etholedig ddiwahân ymhlith pob dosbarth a rhyw, heb yr un gwahaniaeth rhwng cenedl a chenedl, gwryw a benyw, tlawd a chyfoethog, meistr a gwas, gerbron Duw.'

'Ydy, syr, mae'n warth. Maen nhw'n gywilydd i'r Eglwys.'

'Yn union.

'Gymaint ag mae'n gas gen i'r senters radicalaid.'

'Debyg iawn. Maen nhw'n mynd ryw fymryn tu hwnt i reswm, ddywedwn i. Gyda'u rhochian am gael rheswm am eu ffydd...'

'Fel hychod torrog.'

'... Ac am ryw *Ysbryd*.'

'Dyw pawb ddim yn gwirioni'r un fath.'

'Sylw gwiw, gaplan. Addawol... Mae'n rhaid ifi gofio'r llinell yna. Na, nid gwiriondeb fel yna sy gan y wir Eglwys.'

'Ac maen nhw'n pregethu mewn teios!'

'Fel pe bai llannau'n brin.'

'Ac yn gadael i wŷr lleyg hefyd bregethu!' ychwanegodd Theophilus Evans yn gydwybodol yn cyrraedd ei uchelderau bron. 'Yr awydd bythol i godi scism. Mae 'na rywbeth felly yn y natur ddynol, goeliwn i.'

'Yn sicr, Evans... Myn asgwrn i. Gwŷr lleyg hefyd. Mae hynny'n treisio diffiniad ac awdurdod yr Eglwys.'

'Maen nhw'n peryglu trefn y *wlad*.'

'Ddaw dim byd ohonyn nhw.'

'Gobeithio.'

'Ddim yn y cylch cyfreithiol hwn, beth bynnag, diolch i Dduw.'

'A diolch i chithau, syr.'

'Wel... wel, efallai.'

'Dw i wedi clywed fod yna rai cynulleidfaoedd, syr, yn dal eu bod nhw eu hunain yn saint.'

'Mae yna si fod 'na enthiwsiastiaid tebyg wedi codi hyd yn oed yn Lloegr.'

'A'n gwaredo rhag enthiwsiastiaid o'r fath wedi cael codi yn y wlad gymedrol honno.'

'O bobman. Gwae dyn byw! A Lloegr – o bell o leia – yn ymddangos mor gall.'

'Peidiwch â becsan, syr. Ddaw Sacsoniaid felly ddim i faeddu'r ffyrdd hyn.'

'Na ddôn, mi fentra.'

'Dyma narogan i, ta beth,' meddai Theophilus Evans.

'Ond mae 'na hen ddigon o beryg dan ein ffroenau ni heb inni drwyno ymhellach... Roedd gen i fwy o feddwl o Loegr.'

'Peidiwch â meddwl yn rhy uchel am *neb*, syr.'

'Wel, dw i am i ni'n dau roi'n pennau at ei gilydd i feddwl am un peth o ddifri. Sut mae cael gwared â nhw cyn iddyn nhw faeddu'r parthau hyn. Dw i am droi'r Garth – gyda'ch help chi – yn *gaer* yn eu herbyn nhw, beth bynnag.'

'Sut felly? Y Garth?'

'Dw i am ei throi hi'n amddiffynfa ranbarthol yn nannedd pob sêl wyllt.'

'Wel, digon dymunol. Ond sut?'

'Mae'n gadarn, on'd yw hi?'

'Ydy. Mae'n dŷ nerthol ei wala,' addefai Theophilus Evans.

'Os trywanwch e, fydd e ddim yn gwaedu ar chwarae bach, fydd e?'

'Ddim ar chwarae bach.'

'Ddim ar chwarae mawr, ddwedwn i. Cewch *chi*, Theophilus Evans, fod yn gadfridog i ni'r Brutaniaid. Cewch chi droi'ch llyfr hanes o hyn ymlaen yn ymarferol.'

'*Fi*, syr!'

'Eich cynllwyn *chi* fydd yn ein gwared ni. Ar waith yn ymarferol.'

'Ond sut? Y *fi*, yn gadfridog!'

'Mae gen i bron ugain o weision yn gefn i chi. A chithau'n *bropagandydd* dihafal i ni. Eich prif swyddogaeth o hyn ymlaen fydd trefnu'r ymosodiad. Taro'r holl wrthuni ar ei ben, mewn ffordd o siarad,' meddai'r Sgweier yn ei ffurfioldeb Ynad Heddwch.

'*Fi*! Ond beth am y ngwaith i yn hyfforddi plant?'

'Eilradd ar hyn o bryd.'

'Ond Lladin Sali!'

'Os yw hi'n draed moch ar ddyfodol yr eglwys... a dych chi'n cytuno ei bod hi...'

'Wel, nid moch yn hollol!'

'Ydy. Hychod torrog ddyn!... Os felly, ac os yw'r lluoedd anllythrennog yn ceisio'i meddiannu hi, yna, rhaid i ddysg ymorol am dasgau amgenach.'

'Ond beth y galla *i* ei wneud? Dysg yn ymladd?'

'Gall byddin y Garth darfu ar eu cyfarfodydd hefyd. Pregethu yn eu herbyn nhw. Crwydro o gylch y ffermydd i rybuddio'r praidd.'

'Fi!'

'Lluchio'r gelyn i'r ffosydd!'

'Ond sgweier.'

'Tr rhychau bresych, i'r domen esgryn. Myn asgwrn i. I rywle, ond fan hyn.'

'Trais! Fi!'

'Eu llabyddio nhw am eu cabledd, mewn ffordd o siarad.'

'Ond sgweier... beth am urddas yr eglwys... tybed, ga i orffen yn llyfr hanes i yn gynta?'

'Hanes! Llyfr!'

'Mae hynny hefyd yn rhan o dasg gwareiddio. Rhan o dasg yr Eglwys Gyffredinol.'

'Gwareiddio? Pwy sy'n sôn am wareiddio? Cyfraith a threfn yw hyn.'

'Wel, mae hanes yn sôn am drais dynoliaeth hefyd, credwch chi fi.'

'Edrychwch, gaplan. Dyma bobl y llam-a'r-bloedd yn ceisio difetha'r Llyfr Gweddi, yn dweud nad oes dim eisiau llyfr i weddïo, yn paldaruo am y goruwchnaturiol personol, heb ddim trefn...'

'Dw i'n cytuno â chi, sgweier.'

'Mi fentra'ch bod chi...'

'Ond a ga i ddisgwyl nes...?' plediodd Theophilus Evans.

'Trefn?...Chwaer Lladin yw trefnu... Mam yr Ymoleuo, ynte fe Mr Evans.'

'Yn enw rheswm, sgweier... Ac fel caplan Llanllywenfel ...'

'Cadfridog Llanllywenfel nawr.'

'Cadfridog? Ond mae gen i braidd.'

'Fe'u galwn nhw'n *fyddin* nawr.'

'Y gweision bach? Yma? Yr ugain ohonyn nhw?'

'Pawb!... Fi a'r fyddin: fe gewch sgrifennu peth o'ch gwaith o hyd wrth gwrs. O blaid synnwyr cyffredin. Yn erbyn Enthiwsiaistiaid efallai. Dyna'ch dawn chi.'

'A!'

'Yn erbyn cyntefigrwydd teimladol. Dw i ddim am odde gweld un cysgod o'r selogion yma o fewn tiriogaeth Brycheiniog. Ddim o dan y ngwyliadwriaeth i.'

Difrifolodd Theophilus Evans dipyn mwy wrth beidio â chanfod hyd yn oed pelydryn o ysmaldod yng nghornel llygad y sgweier. 'Dw i'n deall. Mi geisia-i heddi, syr, ... rywsut...'

'Ydych chi'n gwir sylweddoli'r cyfrifoldeb?'

'Mi geisia-i gyflawni'ch dymuniadau chi, syr.'

'Does dim byd pwysicach ar hyn o bryd. Galwch y gweision ynghyd... y gweision a'r morynion.' Petrusodd Theophilus Evans. 'Canwch gnùl y gelyn, ddyn...'

Cododd y caplan i dynnu'r rhaff-ar-gyfer-canu'r-gloch i'r gegin; a swniai'n hynod o debyg i gloch eglwys adeg claddedigaeth.

Mynnodd Marmaduke Gwynne sefyll nawr yn bur debyg i gapten ar bont ei long yn gorchymyn i'w lynges fynd ati: 'Fe gân nhw, ein brwydrwyr cyffredin ni, daflu'n cerrig cynta ni i'r môr gwyllt. Y cyw-frwydrwyr lleol i ddechrau. A'r magnelau mawr o'r sir wedyn. Fe holltith y môr fel gwydr, cewch weld...'. Gwenodd yn fodlon, a thrawodd

Theophilus Evans yn reit gyfeillgar ar ei ysgwydd, yn garedig, os ychydig bach yn Gwicsotaidd. Profai hwnnw ryfel sanctaidd yn y gwynt.

\*

\*

\*

Ond roedd gan Theophilus ei urddas. Ac er nad ei le fe oedd ymryson â'r Sgweier, yn neilltuedd ei gartref ei hun o fewn yr un adeilad, allai fe ddim llai nag ebychu'i rwystredigaeth. O'i ran e'i hun, gwell fyddai corffori'i helbulon bob dydd yn drosiadau ac yn ddychmygion yn ei sgrifeniadau. Gallai ymgolli yn y fan 'na, heb wynebu unrhyw ddiflastod agored, fwlgar, beirniadol. Yn eu parlwr preifat yn y Garth, roedd Alis Evans yn gwnïo ac yn ceisio magu'r baban yr un pryd, gan fwrw golwg achlysurol a phiwus tuag at ei gŵr, Theophilus, a ddarllenai'n hamddenol braf yn ei gadair. Bob hyn a hyn, serch hynny, gosodai fe'i lyfr ar ei arffed, ac edrych i fyny tuag at y ffenest, ac ebychu gyda rhyw fath o ddifrifwch yn gymysg â direidi. 'Sŵn yw e. Trwst!' Roedd maint corfforol y Sgweier yn peri i Theophilus chwysu wrth feddwl amdano.

'Gwranda di arno fe, beth bynnag,' meddai'i wraig.

'Taran ddi-fflach.'

'Gwell i tithau glustfeinio arno-fe, Theo. Taran botel neu beidio. Fe yw ein bara menyn.'

'Pwff! Welais i erioed neb mor awyddus i droi pob sgarmes rhwng morgrug cloff yn rhyfel rhyngwladol,' meddai Theophilus Evans ymhellach. 'Felly y bydd bonedd, ti'n gwybod.'

'Ond rwyt ti'n cytuno ag e.'

'Am selogion crefyddol 'ma, ydw debyg. Ond ffrwtian dŵr ar waelod sosban wag, dyna'r cwbl yw e'i hun.'

'Sosban weddol o faint, Theo.'

'Mi wna-i hyn yn yn ffordd lenyddol i yn hun. Dyw ei ffrwtian e ddim yn apelio'n gry iawn at ffroenau y neall i mae arna-i ofn.'

'Fe yw dy noddwr, cofia.'

'Gwell gen i ymladd y brwydrau hyn yn y null sgrifennu i yn hun. Pwyll piau hi.  
Tymor-hir.'

'Nid yn unig y mae e'n cynnal dy dipyn teulu di, Theo, ond meddylia, yn y pen draw, fe sy'n cynnal Drych y Prif Oesoedd.' Rhoddodd ei gwaith gwnïo i lawr ar ei chôl, ac edrych ar ei gŵr gan wenu. 'Oes gen ti amser i ddal y baban?'

Chlywodd e ddim o'r cwestiwn, i bob golwg. Ac aeth hithau yn ei blaen yn gynhennus. 'Pe baet ti'n lladd ar y ferch henaidd ac ewn yna, mi fyddwn i'n deall. Ond...'

'Rho fe i fi te,' meddai Theophilus yn swta, gan ymestyn am y baban.

Cododd ei wraig yn dyner; a heb fod yn wawdus iawn cynigiodd hi'r baban iddo fe. 'Wyt ti'n siŵr fod gen ti amser?'

Derbyniodd e'r baban yn ddiamynedd. 'On'd ydw i'n cynnig?' Eithr y sgweier, nid y rhain, nid ei wraig na'i faban ychwaith, na merch y sgweier oedd ar ei feddwl e. Breuddwydio roedd-e eisoes fod y sgweier yn fath o Arthur, neu Gadwallon yn y fro. A'r enthiwsiastiaid hyn oedd y Saeson.

Roedd ei wraig wedi ymlwybro bellach at y blwch gwnïo. 'Y criw gwyllt yna yn cau dwrn ar y wir eglwys yw'r drafferth, Theo, ar dy siort di a fi. Nid y sgweier. Sylweddola mai'r enthiwsiastiaid yw'r gelyn.' Roedd ei gwrthwynebiad hi i'r sectyddion hyn mor styfnig â'i gŵr. 'Ond gwell gen i ysbryd syml ac uniongyrchol a garw'r sgweier wrth ymladd, yn hytrach na cheisio dy lwybr mwy blodeuog trosiadol di.'

'Gwirion eccentrig yw e... Dw i ddim yn gweld pam y dylwn i wastraffu...'

'Does gen ti fawr o ddewis. Ond sut y gwnei di, dw i ddim yn gwybod. Rwyt ti bob amser yn ymladd fel bagaid o blu. Beth bynnag oedd cleddyfau'r Brutaniaid gynt yn ei wneud, dyw sŵn dy gleddyf di'n atseinio drwy'r pen ddim yn eithriadol o annhebyg i anadlu pry copyn wedi cael bronceitis.'

'Alis! Y fath glebr plentynnaidd.'

'A thithau'n ddyn y mae ofn plant bach arno. Pa asgwrn cefn sy gen ti i wynebu'r gwrthryfelwyr cyfoes? Os wyt ti'n elyn i enthiwsiastiaid, ymladda. Yn y bôn, dyw'r sgweier ddim yn mynd i fynd ar groes i'th ddaliadau di dy hun. Ond mae'r hen ferch ewn 'na sy gydag e, honno sy'n dân cyson ar y nghroen i. Rhyw chwarae mae honno o hyd, ac mor uchel-ei-chloch. Dysg iddi ei lle, dyna dy waith tryma di... Plentyn yw hi.'

'Cymer y baban yn ôl, te. Fel y gweli, mae gen i waith, gwir waith ar y gweill.'

'Oes, oes. Ac os nad oes gen ti ddigon o iau i wynebu'r gad heddiw yn uniongyrchol, cer di'n ôl i ddisgrifio'r brwydrau a fu...' Erbyn hyn roedd y gŵr bron wedi cyrraedd y drws yn ei ddiymadferthedd. 'Pwd, iefe?' gwaeddodd hi ar ei ôl. 'Pwda di. Ond pe bai gen ti hanner tewdra croen yr hen Frutaniaid yna, wnaet ti ddim cloch ac eglwys o ambell gic drws gl gan hen sgweier fel hyn. Bydd di'n llwynog yn y maes. Chwarae ei gêm e. Dyna dw i'n ei ddweud.'

\*

\*

\*

Ymhen diwrnod roedd peth o'r rhyfel wedi'i gynllunio. Eistedd roedd Theophilus yn ôl yn y llyfrgell, ac yn pendroni am y dyfodol anturus.

Doedd dim bwlech rhwng y cannoedd o lyfrau a safai'n dynn i'w warchod e yn ei lyfrgell lawn. Fe safen nhw fel milwyr. Efyrdiau diwinyddol, prydyddiaeth Ladin, llyfrau hanes, cyfieithiadau, cylchgronau, ym mhob man. Yr oedd y rhain i'r caplan yn eu ffyrdd eu hunain yn rhan o'r fyddin. Pob un yn ymddal yn syth ddisgybledig, yn ddiildio. Wrth ei ddesg yn ddiogel rhyngddydd nhw roedd Theophilus Evans yn eistedd pan fartsiodd pump o'r gweision i mewn a sefyll o'i flaen, y detholiad a âi allan i frwydro.

Edrychodd e, megis Gideon, ar y pump yn graff, ond nid yn feirniadol. Roedd buddugoliaethau glew mewn hanes wedi'u cyflawni gyda byddinoedd llai boddhaus eu hansawdd na hon. 'Hardd iawn!' meddai fe'n bwyllog. 'Pawb yn brydlon braf.'

'Pawb ond... Wil, syr.' Roedd Wil a phawb arall yn gorfod parhau i wneud trymder gwaith y gegin a'r stad.

'Ond Wil: o'r gorau. Wel, dyma ddechreuad. Dych chi'n deall eich cyfarwyddiadau'n burion. Mi ewch oll i gyfarfodydd yr enthiwsiastiaid gyda'ch gilydd. Ond gŵr gwahanol fydd yn lluchio'r cerrig bach bob tro. Andras, chi yn Nhrefeca ar



Fedi'r pymthegfed; Tomos, chi yn Sgrin ar Fedi'r unfed ar bymtheg; Dafi, chi yn Llannerch ar Fedi'r ail ar bymtheg; a chithau Twm yng Nghwm-iou ar Fedi'r deunawfed. Chi Cynog ar Fedi'r pedwerydd ar bymtheg yn Nhrefeca eto. Anelwch am y coesau. Dŷn ni ddim am niweidio neb yn gas. Cymedrol ym mhob peth. Ydych chi'n deall? Ymosod cymedrol. Ydy hynna'n glir? A llond y lle o weiddi.'

Fe blygon nhw eu pennau mewn cytundeb, ac aeth e'n freuddwydiol at y ffenest a'i gefn atyn nhw, er mwyn gweld awyr y nen, i'w hanadlu. Rywsut, er mor fathemategol ddigrif oedd sefyllfa ei gatrawd ynghyd â'r Sgweier, roedd yn synhwyro'n falch fod math o hwyl dorfol yn dechrau cerdded yn ei wythiennau'i hun. Daethai bellach yn rhan o gydsymudiad gweithredol i wrthdystio'n erbyn y newid anghyfrifol yn hanes Cymru. Gyda chynulliad o galonnau ychwanegol ato fe, fel eiddo'r gweision hyn, roedd ei galon yn cyd-weiddi'n gythryblus bellach, gan rwbio'n erbyn emosiynau pur luosog. Er mwyn poblogi caer o gyd-ymhladdwyr uchel eu cloch yn erbyn 'newid', poethai'i ymennydd e gyda nhw, poethai'i groen. Meddyliai: megis y gwelai darw yn taflu ac yn gwylltio ar ôl i bump o fuchod alltudiedig fentro i gae, felly y gyrrai ei wythiennau fe yn awr ar ôl y rhain. Roedd ei aeliau'n fflam. Tybed onid oedd e o'r diwedd yn cyflawni'i hanes e'i hun, nas profasai ynghynt ond wrth sgrifennu gwahân yn ei gell? Hanes-grëwr oedd e, wedi'r cyfan, efallai. Rywfodd, doedd e ddim yn gyfan gwbl sicr.

## 2.

Doedd neb wedi ystyried gwerthoedd esthetig pan godwyd y cwt pren a safai ychydig o lathenni i'r dwyrain o blasty'r Garth. Fe'i codwyd yn sydyn. Ond defnyddiol oedd ar y pryd. Lle ydoedd hyn i gadw ychydig o offer fferm a choed tân. Eithr man chwarae oedd hefyd i Sali ar ddiwrnodau gwlyb yn benna. Chwarae priodas roedd Sali ar ei phen ei hun wrth ei ddrws y diwrnod hwn. Gwisgai benwisg wen ddigon amrwd, ac fe'i daliai ei hun yn ôl urddas a ragorai ar yr urddas braidd yn arw a welai mor fynych yn ymddygiad ei thad. Heddiw, Etifeddes y Plas oedd hi yn priodi uchelwriaeth. Chwarae ei mam ei hun roedd hi, Sarah o Ffynnon Bedr. Y tu mewn i'r cwt, yn y cefn ac ar ychydig o wellt ond yn gwbl ddjarwybod iddi hi roedd Wiliam Kendrick, crwt

tlodaidd ei olwg tua'i hoedran hi, yn myfyriol orwedd. Wyr i un o'r gweision oedd Wiliam, ac roedd yn ddall o'i eni. Roedd Sali newydd gyrraedd y cwt pren gyda'i 'phriod' dychmygol, ac estynnai'i llaw dde'n seremonïol tuag ato. Roedd hi'n gyfarwydd â chwarae ar ei phen ei hun wrth 'chwarae priodas.' Plentyn oedd hi.

'Dyma'n caer, Gaswallon,' meddai wrth ei darpar-wr anweledig. Safodd hi'n ôl, gan estyn ei llaw i ddangos y cwt. 'Beth wyt ti'n ei feddwl am ein cartre ni?... Oes, mae angen ychydig o baent. Ond ar wahân i hynny... digonol.' Dywedodd y gair gydag arddeliad mewn-oed. 'Dyna ddwedodd nhad-cu, a'i dad-cu yntau, a thad-cu hwnnw. Yr achau i gyd. Yr etifeddiaeth ddigonol. Wel, wyt ti'n mynd i nghario i dros y trothwy neu beidio, nghariad i? Dere nawr, does neb yn edrych ac yn dy weld yn gwneud ffwl ohonot dy hun.'

Yng nghefn y cwt hwnnw, heb weld dim, ond yn y cysgod, roedd Wiliam Kendrick yn gwrando arni. Erbyn hyn roedd bron ar dorri i chwerthin yn aflywodraethus. Roedd Sali'n dawel wrth iddi roi'i chorff mewn safle addas i'w chario dros y trothwy. Wedi aros ychydig o eiliadau dyma hi'n neidio i mewn i'r cwt. Trodd ac eistedd ar y llawr wedi cyrraedd ei phen-llad o'r diwedd. Ymdawelodd yn y fan yna am ennyd, gan edrych allan i'r goleuni. 'Ein cartre ni!' Ond y tu ôl iddi (o'r golwg) allai Wiliam ddim ei reoli'i hun ddim mwy. Holltodd argaeau ei chwerthin.

Ymgaledodd Sali ar unwaith, safodd yn ei hurddas, a throdd i gyfeiriad y stwr anwedus hwn, mor hawdd ei adnabod. 'Wiliam Kendrick! Y cwilydd! Sbio arna-i!' danododd. Ceisiai Wiliam ddifrifoli. 'Nid dyna ymarweddiad pobl syber,' ychwanegodd hi mor or-syber ag y gallai.

'Esgusodwch fi, Miss Sali.'

'Nid bonheddig chwaith yw sbio'n llechwraidd ar faterion preifat.'

'Welais i ddim.' Roedd e bron â'i reoli'i hun bellach. 'Sbio â'm clustiau yr own i.'

'Ac yn waeth,' meddai hi, 'nid bonheddig yw chwerthin am ben rhywun wedyn.'

Er ei fod e wedi gwneud ei orau tan hynny, methodd e'n lân ag ymatal, a ffrwydrodd ei chwerthin drachefn. 'Hen arfer bach afreolus sy gen i Miss Sali.'

'Yr achlod i ti.'

'Ond wyddwn i ddim fod y digwyddiad mawr yn mynd i gael ei gynnal mor breifat.'

'Fe wyddost ti beth rown i'n feddwl.'

'Pwy oedd y gŵr ffodus, Miss Sali?'

'Cau dy ben.'

'Un o ieirll Lloegr? Nid Cymro bach taeogaidd, mi fentra.'

'Nid Sais chwaith, cei fentro, neu fyswn byth yn gallu wynebu'r caplan eto.'

'Na, Miss Sali. Chlywith e ddim smic am y briodas hon gen i. Dw i'n addo.'

Cododd hi'n ara ac yn urddasol gan graffu arno drwy'r amser yn geryddol. Roedd llywodraeth berffaith gan Wiliam dros ei organau llafar bellach, o leia nes ei bod hi ryw ganllath a hanner i ffwrdd; ond yna, – Wow! ymollyngodd Wiliam gyda rhyddhad enfawr drachefn nes bod y dyffryn oll yn diasbedain wrth ei firi am foment: tagai wedyn wrth furmur i'w ddwrn, 'Y dywysoges Semolina Sali.' Plentyn oedd yntau hefyd.

\*

\*

\*

Yn ei gadair arferol ar y lawnt, ond yn llai hapus ei wedd nag o'r blaen, roedd Theophilus Evans yn sgrifennu yn ôl ei arfer. Ffigur sobr a difri oedd e yno.

Er na chofiai hi fawr am y peth roedd penwisg wen Sali Gwynne yn ei lle o hyd yn gymwys wrth iddi gerdded yn benisel yn ôl tuag at ei hathro. Eithr chododd e ddim o'i ben pan gyrhaeddodd hi er mwyn dechrau parablu. Roedd e wedi digio'n dawel wrth fywyd yn gyffredinol.

'Drych y Prif Oesoedd o hyd?' holodd hi, ond chododd e ddim o'i lygaid arni. 'Y Drych?' gofynnodd hi eto.

'Ddim pellach, dw i'n ofni. Gormod o heyrn.'

'O!' ebychai hi, gan deimlo bod siom wedi mynd yn dipyn o haint y dyddiau hyn.

'Propaganda dros drefn yw hyn o lith,' meddai fe, heb edrych arni o hyd.

'Ond pam? Nid yn lle'r Drych.'

'Gorchymyn oddi uchod yn hierarci'r rhanbarth.'

'Beth sy'n bwysicach propaganda na Hanes Cymru?'

'*Dyfodol* Cymru,' meddai'r haneydd yn isel ac yn gwbl ddiargyhoeddiad.

Nesaodd hi ato, a chyffwrdd â'i ysgwydd yn garuaidd, fel pe bai'n synhwyro nad hi oedd yr unig un glwyfedig yn nyffryn Irfon. 'Ond mae'r dyfodol mor anniddorol,' sibrydai hi yn ei diymadferthedd. 'Pam na wnewch chi ddysgu Hanes Cymru yn lle Lladin i fi heddiw? Mae'r ddau yn dod aton ni o'r gorffennol.'

'Nid dyna yn siars i. Y ngwaith arferol i yw'r addysg glasurol gydnabyddedig, yn ôl nod y Sgweier: y ngwaith dewisol i yw cyhoeddi gwareiddiad a gwirionedd.' Cydiodd hi yn ei law, ac edrych yn daer arno. Roedd e bellach yn syllu'n llawn a chyda pheth rhyfeddod at y ferch feddylgar hon.

'Ewch yn eich blaen, gaplan. Ond os byddwch chi'n gadael Hanes Cymru i'r Saeson ac i'r Cymry Seisnig, fe fydd ein Hanes ni'n estron yn ei wlad ei hun,' meddai hi.

Chwarddodd e ychydig wrth y fath ddoethineb. '*Touché*, Sali.'

'Ac os ych-chi'n mynd i iacháu Cymru...' a methodd hi â mynd yn ei blaen.

'Ie?' holai fe'n ddisgwylgar.

'Wel, bydd yn rhaid i'r wlad o'r diwedd weld ei bod yn bosib... i ffurfio *meddwl* gwlad yn Gymraeg...' A beth arall? Doedd hi ddim yn siŵr. 'Does dim deddf gwlad yn dad-wneud blynyddoedd o ddiffyg deddf,' meddai hi gan efelychu'i thad.

'Dy dad sy'n gwybod, Sali. Mae yna ymosod heddiw ar Gymru, ar yr hen Gymru resymol, y Gymru naturiol, Sali, ie, ar y Garth hyd yn oed.'

'Y Garth!'

'Oes, siŵr iawn. Yr hen dŷ cadarn. Mae'n *edrych* yn gadarn ta beth. Ond weli di, Sali, mae'r tŷ yn gallu cael ei drywanu. Mae'n cynrychioli'r hen oesoedd uchelwrol.'

'Na, nid tŷ mawr nerthol fel hyn, – ei drywanu?'

'Hen dŷ cerrig a fu'n gwthio'i drwyn i wynt y blynyddoedd grymus: maen nhw'n gallu tynnu'r cwbl i lawr, garreg wrth garreg. Ac maen *nhw* ar ein pwys ni, mae arna-i ofn. Fe ddôn nhw ar ôl y Garth ryw ddiwrnod.'

'O! Gaplan.'

'Mae dynion yn gallu bod yn ffaidd wrth dŷ felly.'

'Alla i ddim credu hynny. Ddim wrth dŷ.'

'Gallan.'

'Mae'n edrych mor gadarn,' meddai Sali.

'Mae'r selogion crefyddol 'ma wrthi: fe dynnan nhw seiliau'r plastai i gyd i lawr; eithafwyr, radicaliaid, treiswyr, y cyffredin mud.'

'Ond enthiwsiastiaid *Cymru* ydyn nhw.'

'Nid pob un.'

'Pobl *ddwad* ydyn nhw, lawer, sy'n cymryd rhai pethau gormod o ddifri, Sali, materion politicaidd rhonc fel bod pob enaid Cristnogol yn gyfartal.'

Heb yn wybod iddyn nhw, y funud honno y daeth Marmaduke Gwynne i'r golwg o'r tŷ, a'u gwylid nhw gyda pheth chwilfrydedd. Gwyliai'i ferch yn arbennig. 'Dw innau'n cymryd yr *hen* Gymry o ddifri ta beth,' cyffesodd Sali.

'Gormod, Sali,' meddai'i thiwtor yn ildiol.

'A chithau'r un ffunud, gaplan.'

'Crefydda *heddiw* yw y ngwaith cyflogedig i. Plygu i ysbryd y gwir nawr.'

Safodd ar ei draed fel pe bai'n barod i fwrw ymlaen â'r ymgyrch yn y fan. Gwylodd Marmaduke Gwynne e'n chwilfrydig.

'Dw i,' taerai'r ferch yn ara, 'ddim yn credu mai “gwaith ysbrydol” fydd y ngwaith i, byth. Na. Amddiffyn corff Cymru'n syml, dyna dw i am 'wneud. Pan fydda i'n oedolyn dw i am *nrysio* pobol yn rhyfeloedd Lloegr, dyna fydd y ngyrfa i.'

'Nyrzio! Wrth gwrs, mae'r corff hefyd yn bwysig.'

'Ac nid yn unig y rhai sy'n amlwg glwyfus: puro'r clwyfau. Ond rhag clefydon eraill sy'n dod i mewn o Loegr: rhag priodasau cymysg, a rhag gwendid Cymru'i hun.'

'Beth yw hynny? Rhag y grefydd frwd yma, efallai?'

'Hynny hefyd os bydd 'na Saeson am ein clwyfo ni.'

'Mae ngwraig i'n iawn: rwyt ti'n rhy henaidd, Sali.'

'Ddywedodd hi hynny?' meddai Sali, a hithau'n dechrau'i hamau'i hun.

'Do.'

'Wel, chwarae teg iddi.' Synfyfyriodd rhyngddi a hi ei hun, beth yn union a feddyliai oedolion fel Theophilus Evans a'i wraig amdani hi a'i huchelgais.

'Saf di am funud,' dywedodd Theophilus wrthi. Roedd e wedi sylweddoli nawr, gyda'r anghraffter ara hwnnw sy gan wrywod o bob rhyw, pam, yn arbennig ynghylch dillad, roedd hi'n edrych mor enbyd o wahanol heddiw. 'Beth yn union yw hyn?'

'Beth?'

'Y benwisg wen yna.'

'O!' ebychodd hi'n bert, gan ei thynnu'n ddisymwth. 'Fe'i hanghofiais i. Dw i wedi bod yn cogio priodi, wrth chwarae ar y mhen yn hun: does neb arall i'w gael.'

'Ti hefyd? Yn teimlo'n unig? Wel, mae chwarae ac actio hefyd yn addysg.'

'Yn gwisgo peth o ogoniant mam. Chwarae priodas gyda chwmni dychmygol. Mae hi'n cwyno, cewch fentro. Fe ddylsw'n i fod yn rhy *hen* i bethau felly erbyn hyn.'

'Mae merched yn gwisgo 'lan bob oedran. Ac mewn *tre*, mi allset ymddangos yn henaidd (i ferch ifanc), yn fwy felly nag yma yn y *wlad*. Ond mewn tre ffasiynol y dyddiau hyn, mater o wisgo 'lan yw pob priodi bron, – a gêm, yn fynych.'

'Gêm!' dechreuodd y gair gan Sali yn y cywair isa a chyrraedd yr ucha mewn tair eiliad. 'Nid gêm yn unig yw hi pan dw i'n anghofio mod i'n gwisgo'r hen beth hwn.'

Yn ddiogel heb fod yn ymwybodol o'i weithred, gosododd Theophilus Evans ei law ar ei gwallt yn dirion ysgafn, megis bendithio; a chydiodd hi mewn syniad, – 'ga-i ddangos sut dw i'n edrych fel priod-ferch?' meddai hi. Cydiodd hi yn ei law arall e. Drwy gydol y chwarae hwn gan y ddau, syllai Marmaduke Gwynne gyda gwên arnyn nhw, gyda diddordeb braidd yn ddryslyd o ddrws y Plas, ac yntau y tu hwnt i'w clyw.

'Does gen i ddim amser i chwaraeon merched heddiw. Mae'ch tad am i fi ymgymryd ag amgenach tasg.'

'Fe allen ni ei wahodd yntau hefyd... Ac i'r ddawns wedyn,' chwarddodd Sali. A dawnsiodd hi'n hapus ger ei fron, 'mor feddw â gweddw.' Plentyn oedd hi.

\*

\*

\*

Roedd Marmaduke Gwynne wedi cael digon ar y gwiriondeb hwn; a dechreuodd gerdded tuag atyn nhw. Sylwon nhw ddim arno.

'Na, Sali,' protestiai Theophilus Evans: 'Dw i'n ormod o Gymro ac o werinwr hyd yn oed i actio seremoni i ti. Fe fyddi di'n priodi rhywun pwysig: Sais.'

'Byth!'

'Byddi. Merch Sgweier o'r Garth â rhyw fonheddwr o Lundain. Gei di weld. Dyna sy'n gweddu i ti. Dyn pwysfawr,' meddai'r caplan.

'Syniad gwasaid.'

'Realaid, ddwedwn i.'

'Pagan anferth o'r brifddinas felly?'

'Wrth gwrs, a finnau'n gweinyddu wrth gwrs.'

'Na... Wnawn ni ddim derbyn dim o'r fath. Sais? I fi!'

'Na?'

'Hyd yn oed pe bai'n ymlusgo mewn llwch a lludw yr holl ffordd o Lundain.'

'Go brin y gwnaiff e ymostwng fel yna.'

Erbyn hyn roedd y sgweier wedi cyrraedd. 'Gaplan,' ymyrrodd e'n gras. Ac oherwydd sydynrwydd ei ymddangosiad roedd Theophilus Evans wedi'i ddrysu'n lân.

'Syr?'

'Mae gen i newyddion i chi gaplan,' meddai'r sgweier â llais uchel y bwli. 'Mae'r chwarae drosodd. Dw i wedi'i ddal e. Eu harweinydd nhw.'

'Pwy?'

'Hywel Harris.'

'A! Harris. Gwn i amdano, syr. Mae'n wŵr peryg.'

'Mae e wrthi yfory. Amser inni baratoi. Hen gythraul yw e,' meddai'r Sgweier.

Rywfodd yn ôl dull pwysfawr Marmaduke Gwynne o lefaru, roedd Theophilus Evans wedi disgwyl iddo dynnu Hywel Harris o'r tu ôl i'w gefn yn y fan a'r lle a'i roi ar blât. 'Gŵr rhyfeddol o ifanc yw hwnnw, os cofia-i'n iawn.' Doedd e ddim am ddilyn llwybr llafar ymosodol y Sgweier. Ond chymerodd ddim arno iddo gamddeall chwaith.

'Mi gofiwch yn burion, Theophilus Evans.'

'Rhyw dair ar hugain yw oedran Harris, onid e?'

'Adolesent cythreulig, gaplan. Gwirionyn o adolesent. Ond mi wna-i ddal e. Mi a-i ddarllen y Gyfraith Reiat iddo. Yfory. Carchar sy o'i flaen e. Mi wna-i ei Harrisio fe. Cewch weld. Ac fe gân nhw bawb weld nad colwyn i chwarae ag e ar bnawn Sul yw Sgweier y Garth a Llanelwedd, – yn fyfyrwr Rhydychen yn un-ar-bymtheg oed, – ac o Lincoln's Inn. Nac â'i is-gadfridog chwaith, ei gaplan, chi; nac â Sir Frycheiniog, nac â'n byddin, nac â'n deddf.'

'Ac mae gynnoch chithau gynllun da, Sgweier. Oes! Trymp yw'r Gyfraith Reiat.'

Rywfodd, gan mor deimladol oedd y Sgweier, roedd datgan y bygythion hyn wedi'i godi i wastad o falchder newydd. Chwarddodd ychydig, ac yna troi; a cherddodd ei ffrâm anferth fawreddog yn ôl tuag at y tŷ.

'Nhad ar ei fwya cyfreithiol bwysig!' chwarddodd Sali.

'Cwilydd, Sali! Gwneud sbort!'



Chwarddodd Sali drachefn. Ond haerodd Theophilus Evans: 'Chwarae teg i Sgweier Gwynne, ddwedwn i. Dyna ddiwedd erch ar eithafiaeth a barbareiddiwch crefyddol ym Mrycheiniog ...'

'A hynny gydag un ergyd..., ' meddai Sali. 'Ond... ydych chi'n sicr y gweithith?'

'Mor sicr, Sali, â bod Hanes gan Gymru. Does gan greaduriaid fel Harris ddim lle mewn Hanes propor, yn nhiriogaethau cyfreithiol Sgweier y Garth.'

\*

\*

\*

Drannoeth, fe fu'r Sgweier draw, sut bynnag, yn dyst i genadwri ddiert h a syn. A throes e tuag adre yn berson gwahanol. I wyliedydd cyffredin gerllaw doedd dim i'w weld yn unman ond Marmaduke Gwynne yn marchogaeth yn wyllt ac yn daer yn ôl tua'r Garth. Ond roedd y gŵr a grymai uwch mwng ei farch, a'i lygaid wedi'u claddu mewn syndod, yn greadur newydd. Brensiach brain! Roedd ei warthaflau'n llawn dop o gwestiynau, a'i gynlluniau'n jibidêrs ar hyd y ffordd. Roedd ei fydysawd oll wedi'i newid. Bu'r her, a gafodd, yn gur hollol annisgwyl. Yna, ryw hanner milltir o'r tŷ, wrth droi i'r dde ar hyd y feidr a arweiniai o'r briffordd rhwng Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd, stopiodd e'n stond. Allai fe ddim ei ddeall ei hun. Roedd rhywbeth wedi digwydd. Sobrodd ychydig. Beth oedd arno? Doedd hi ddim yn arfer ymddwyn fel hyn. Ar grwydr yn ei feddyliau, ac yn boeth ei deimladau, arhosodd e yno am dair munud ar gefn ei geffyl gan edrych at y plasty llwyd a'r wal lwyd agos o'i gwmpas, a'r bryn coediog – y garth y tu ôl. Edrychodd wedyn ar y llawr ansicr dan ei draed. Sychodd y chwys oddi ar ei dalcen â chefn ei law. Yn arafach yn awr, yn fwy cyfrifol, anogodd ei geffyl yn bwylllog am y rhan ola o'i daith. Doedd ei gefndir na'i fagwraeth na'i gyfrifoldebau presennol ddim wedi'i gymhwyso ar gyfer chwyldro fel hyn. Arferiad wythnosol fu Cristnogaeth hyd yn hyn, gwedd ar ymddygiad. Ond roedd yr hyn a glywsai heddiw yn y llais distaw diflas acw yn y cyfarfod wedi gweddnewid ystyr ei fywyd oll. Roedd ei serchiadau bellach wedi'u gwyrddroi. Siglwyd e. Ac fe'i clwyfwyd.

Yn bendifaddau, gwyddai fe nawr fod yna ddimensiwn arall wedi sarnu ar ei gonfensiynoldeb credu disylw. Ac roedd e'n bwdel o chwys oer. 'Pam fi?' Beth ar glawr daear las oedd y ffydd annifyr hon? Ei roi'i hun i'r Gŵr estron? Roedd rhywbeth wedi

symud yn ei galon ar funud annisgwyl, yn ddwfn. Derbyn Gair mewn symlder noeth, fel y gweision! Clywed y gair hwnnw 'Iesu, mab y saer.' Ond yn awr roedd e, Sgweier y Garth, yn pensynnu'n dlawd ac yn anfodlon fod angen plygu arno. Roedd wedi credu'r cyhuddiad o fod yn bechadur yn erbyn yr Un a oedd ar y groes, a bod galwad arno i'w roi ei hun yn gyfan iddo. Roedd y gwirionedd yn ei rwymo fe ac yn ei ryddhau'r un pryd. Roedd wedi cael cipolwg ar y Duw a oedd yn ei garu. Fe, Sgweier y Garth, yn ymostwng mor isel, yn bechadur di-urddas wedi'i faddau. Roedd wedi ceisio ymatal rhag ei roi ei hun, fe Sgweier y Garth, i neb na dim o'r fath, a'r gair yn lluchio sen arno, a'r mawr ar y llawr yn fach. 'Sut y llwyddais i nghael yn hun ar gleidr Ei law fel hyn? Ac aros yno, a'i gyfrif Fe'n oll yn oll. Ffydd oedd Ei weld E yn Arglwydd ifi am foment, ei weld mor groyw â llygad yn enaid i. Ond yn ddiymadferth, fi, wedi mynd yno i ddarllen y Ddeddf Reiat. Rhaid fu estyn y mreichiau ato, a nwylo'n gwbl wag. Efô yn cydio'n dynn yn y rheina. Dw i'n dlawd, mi wn, hyd yn oed fi Sgweier y Garth... Does neb oll yn gyffelyb iddo.' Yna carlamodd drachefn ar y ceffyl fel pe bai am ddianc y funud yna. Roedd ei fyd yno wedi mynd yn bendramwnwgl ac eisoes yn dod ar ei ôl e. Yna, arafodd. Stopiodd drachefn. Disgynnodd o'r cyfrwy. Disgynnodd yn ara ar ei liniau ar y llwybr. Disgynnodd ei holl hanes, ei holl amgylchoedd naturiol, a'i holl obeithion bydol yr un pryd. Cododd ei ddwylo gyda'i gilydd i'r awyr yn ara. Ac arhosodd yno yn syn ar ei liniau. Fe'i gwelwyd e o bell mewn rhyfeddod gan Sali. Beth oedd yn bod arno? Rhedodd hi i lawr y llwybr i gyfarfod ag e. Cododd e ohono'i hun a cherddodd e wrth ochr y ceffyl mewn sobrwydd tawel i gyfarfod â hi. Doedd e erioed wedi gweld dim o'i natur e'i hun o'r blaen fel hyn. Rholiai dagrau i lawr ei fochau. Gymaint o ffŵl pwysig fu e erioed. Balchderyn boldew, pothell truenus, gwirionyn haerllug.

Roedd Sali'n codi'i llaw a'i siglo'n gyffrous groesawgar i'w gyfarch e o bell. Ond ymatebai fe ddim iddi, am dipyn.

'Welsoch chi'r Harris 'na?' holai hi.

'Do.'

'A rhoi diwedd ar ei giamocs?'

'Na ddo.'

'Ddaliwyd neb?'

'Do. Mi ddaliwyd rhywun. Fi.'

'Beth ddigwyddodd nhad?'

'Carchar.'

Roedd ei wyneb e wedi newid hefyd. Beth oedd yn bod arno? Mor welw oedd llawnder ei fochau cochion arferol. Sut y gallai esbonio i eraill yr hyn a ddigwyddasai i droseddwr fel oedd e? Gwenai hithau nawr mewn annealltwriaeth.

'Er mai dim ond tair a deugain ych chi, nhad, mae gynnoch chi wyneb fel hen eglwys adfeiliedig.'

'Sali, rwyd ti'n dweud pethau od weithiau.'

'Ond beth sy? Oes rhywun wedi marw?'

'Oes.'

'Ond pwy?'

'Marmaduke Gwynne. A doedd hwnnw ddim yn barod amdano.'

'Ddim yn barod am Hywel Harris?'

'Na. Amdano *Fe*.' Cil-edrychai tuag at y cymylau'n reit nerfus. *Fe*.'

'Beth wnaeth e?'

'Prin dim ar ryw olwg.'

'Wel, beth sy wedi digwydd te?'

'Popeth.'

'Dw i ddim yn deall.'

'Na fi chwaith, yn hollol. Syniad oedd e ynghynt. Syniad a sôn. Bodolaeth oedd yn rhan i. Digwyddodd E cyn ifi gael y ngeni. Hanes marw oedd e. Hanes sy wedi darfod. Ond hanes sy'n berthynas â fi heddiw. Yn fyw.'

'Beth felly sy wedi newid?'

'Fi. A'n hanes arall i.'

'Beth ddwedodd e?'

'Ychydig iawn, ond digon. Tawel oedd e drwy'r amser. Meddylia. Gŵr yn siarad yn dawel oedd Harris – ond ei lais fel corn fel pe bai'n cyrraedd y tu mewn. Dim byd tebyg i'r sôn amdano'n annerch yn yr awyr agored... Darllen ... sibrwd... oedd e, Harris, ie, dyna i gyd. '*Paham yr wyt yn fy erlid i?*' meddai fe, yn dawel. Yn llethol o dawel.'

'Oedd e'n siarad â chi fel 'na? Chi yn ei erlid e? Yn erlid *pwyl*?

'Bob dydd, bob eiliad. Duw.'

'Dych chi'n gwneud popeth mor *bersonol* nawr, nhad, ac arallfydol.'

'Personol yw'r cwbl, Sali. Ond fe all y nhynnu i allan o bopeth, *allan o'r Garth* efallai.'

'Ond y Garth... ni i gyd... a'r gweision? Mae gynnon ni stad ffermio. Allwch chi ddim troi'ch cefn ar y Garth fel yna. Beth dŷn ni i gyd yn mynd i'w wneud?'

'Mi dorrais i lawr rywfodd. Do. Tant wedi holhti. Ond roedd rhywbeth yr un pryd wedi deffro, o'r golwg. Y tu mewn i fi, wedi marw'n fyw.'

'Beth fydd yn digwydd i *ni*?'

'Roedd Harris wedi diflannu ar y foment yna,' cyffesodd e. 'A Marmaduke Gwynne hefyd. Pobl newydd sy wedi dod.'

'Ond ... y gweision... a Mam... Ni...Y caplan. Eich cadfridog chi nhad. Beth ddwedith e? Beth wnaiff e, ein caplan ni? Mae'r byd i gyd yn newid.'

'Ydy, i Theophilus Evans, a'i Ymoleuo druan, a'i Reswm, a'i Hanes. Gwell iddo fe fynd yn ôl i fonclustio'r hen Rufeiniaid 'na efallai. Mae'n hen fyddin bondigrybwyll *ni* heddiw wedi'i chwalu, Sali. Mae'r frwydr ddigri honno heddiw ar ben. Efô, y Gwardwr, fydd yn Goncwerwr i fi, ac yn Briod mwy.'

'Peidiwch â dweud gair am hyn wrth y caplan, nhad.'

'Bydd di yn gall mechan i. Does dim dewis. Bydd yn rhaid dweud wrth bawb. Dw i wedi cerdded i mewn i Deyrnas a chyfarfod â method y Duw byw.'

'Ond chi sy wedi'i yrru fe, ein caplan ni, yn erbyn y Methodistiaid.'

'Dw i am ddweud wrth bawb mwyach am eu method nhw.'

'Chi a orchynnodd iddo fe erlid y selogion.'

'Dw i wedi cael prawf yn awr o Grist, a hwnnw'n erlid y Sgeptigrwydd a'r Rheswm cyfyng twp a fu'n ffordd o fyw i fi.'

'Dw i'n ofni'i weld e. Alla-i ddim wynebu y nhiwtor i yn hun.'

'O! Fe'i dweda-i wrth y caplan, paid ag ofni. Mae'r holl sefyllfa wedi newid.'

'Ond ddwedwch chi ddim wrtho fe fel 'na'? Heb rybudd, nhad?'

'Ches innau ddim rhybudd.'

'Dych chi ddim yn deg.'

*'Y nghnawd i ... a brofodd edifeirwch.'*

'Edi ... pwy nhad?' Plentyn oedd hi.

'Edi... feiriad i feirwon.'

'Ond beth ar y ddaear nhad yw nwydd felly yng nghefn gwlad Cymru?'

3

1738

Drwy gydol y bregeth yn yr eglwys heddiw gallai Sali Gwynne synhwyro'i thad yn gwingo yn ei sedd. Anadlai'n ddwfn o boenus. Yn Gristion ailanedig newydd neu beidio, allai'i gnawd sgweieraidd ddim diodde'n hir glywed ei gaplan yn sarhau'r ffydd ffres hon a gawsai. Ac er gwaetha'r newidiadau mawr a ddigwyddasai i'r Sgweier, nid yn rhwydd y collasai'i amynedd anianol. Ond fe'i gwnaeth.

Ofnai Sali ei anfodlonrwydd e, a gwyddai pe bai'r corddi hwn yn parhau funud yn hwy, mai chwythu a wnâi'r caead ar bopeth.

Dyma wrthdrawiad dau fyd. Dyma dro mewn hanes eglwysig. Roedd hi fel pe bai'r Sgweier wedi cydio mewn rhyfel newydd. Doedd hi erioed wedi'i weld e fel hyn.

Nid un o'r rhai i gadw blewyn ar ei dafod oedd Theophilus Evans chwaith. Er nad oedd ganddo namyn rhyw ddwsin o gynulleidfa yn eglwys Llanllywenfel y bore hwnnw, y rhan fwya ohonyn nhw yn weision o'r Garth, fe ellid tybied, yn ôl y dull milwriaethus y chwifiai'r ficer ei ddyrnau yn llwydni'r awyr, ei fod yn wynebu byddinoedd enfawr lluoedd y Fall. Onid oedd ganddo wŷs hyd yn ddiweddar i filwrio'n erbyn Methodistaeth, a throi'i ddisgrifiadau personol llenyddol ynghylch brwydr hanes yn ymarfer personol a gweithredol, ganddo fe'i hun?... Ond clywsai ryw achlust am y Sgweier. 'Dych chi,' gwaeddai Theophilus Evans, dros bennau'r gynulleidfa, gan ledgyfeirio at y côr lle yr eisteddai corpws Marmaduke Gwynne, 'wedi clywed rhai pobl anghyfrifol yn pwysu ar *un* profiad, ie ar un *gair* o brofiad. Gwylwch dwyll gwyll y galon, y mhobl i. Peidiwch â gwamalu ynghylch eich aelodaeth o'r Eglwys Wladol. Mewn bedydd Esgob, mi wnaethpwyd cytundeb rhyngoch chi â'r Eglwys sefydledig. Ac mae arna-i ofn fod bygythiad y dyddiau hyn i gefnu ar yr Hen Ffydd. "*Estynnodd fy nghydymaith ei law yn erbyn ei gyfeillion, torrodd ei gyfamod.*" Mae yna rai sy'n cael gweledigaethau, ac eraill y mae eu gwaed nhw'n eplesu. Gwylwch ffansi'r meddwl, frodyr. Gwae chwi'r emosiynau. I ni, gyfeillion, yr Eglwys sefydledig yw Cristnogaeth. A hi sy'n esgor ar Gristnogion newydd-hen drwy fedydd.'

Cydiodd Marmaduke Gwynne yn ei Feibl a dechrau'i ddarllen, ac arddangos i'w ferch a'i weision hefyd, ei fod e wedi cael llond bol o'r fath faldorrdi rhagdybus.

'Ymdrechwch i fod yn syber, yn bur, yn lân, y mhobol i,' taranai Theophilus Evans. 'A glynwch wrth draddodiad syml Eglwys Loegr. Esgus yw gras Duw yn fynych i rywrai fod yn ddiog. Ymdrechwch chi i ddilyn *ewyllys* yr Iesu. Ymgysegrwch chi. A pheidiwch â dibynnu ar Dduw *yn unig*. Peidiwch â bod yn ddiogwyr ffydd. Cyfrennwch chithau at eich Sancteiddhad.'

Yna, digwyddodd rhywbeth ofnadwy.

Allai Marmaduke Gwynne ddim ymatal yn hwy rhag condemnio'r awgrymu lletraws. Safodd ar ei draed. 'Pa ysbryd yw hyn?' sgrechodd e'n uchel.' A chwiliai yn ei Feibl er mwyn dangos yr ail Epistol at y Corinthiaid, yr unfed bennod ar ddeg, adnod undeg pedwar, i'w gyhoeddi i'w deulu a'r gweision a oedd yn bresennol.

Chwarddai'r gynulleidfa fach ryw ychydig o ran cwrteisi taeg i'w pennaeth, ac yna tawsan nhw'n sydyn fel petaen nhw wedi'u synnu'u hunain. Doedd neb yno yn deall beth oedd ar gerdded. Yn ei bwlpudd caeth roedd Theophilus Evans wedi'i ddrysu, a throdd i wynebu'r allor, ymgroesi, a murmur y tu hwnt i glyw ei gynulleidfa a'r tu hwnt i'w glyw e'i hun: 'Ynenw'rTada'rMaba'rYsbrydGlânAmen.' Roedd tro mawr yn bresennol nawr yn Nrych yr oesoedd eu hun.

\*

\*

\*

Mewn distawrwydd brawychedig llithrai'r gynulleidfa allan o'r eglwys, heb sylweddoli iddyn nhwythau, heddiw, fod mewn un o'r oedfaon mwya nodedig a chynrychioliadol groesfforddol a gafwyd erioed yng Nghymru. Yr hen ffydd a'r ffydd newydd yn cwrdd â'i gilydd. Ar eu blaen nhw, yn ddidderbynwyneb ac yn hy, roedd eu sgweier. Ac yn ola, yn benisel, ac yn ddrylliedig tost, Theophilus Evans, gan sefyll o fewn fframin y porth i'w gwylid nhw'n cilio oddi wrtho, yn ddeuoedd clòs, yn ruban byr o ddynoliaeth syfrdan. Dau symbol.

Meistrolai'r gynulleidfa fach yn weddol y cilchwerthin a'r ciledrych yn ôl tuag at yr offeiriad, pethau a'u poenai nhw yn weddol ddisgybledig tra oedden nhw o fewn golwg iddo. Ond allai Sali hithau ddim gadael y sefyllfa ar hynyna, a throdd at ei thad i'w hesgusodi'i hun, a rhedodd yn ôl at Theophilus Evans – ei thiwtor annwyl – yn ei unigedd acw yn nhywyllwch y porth.

Estynnodd Sali'i dwylo'n syml ac yn ostyngedig tuag at ei hathro hoff lle y safai'n ddryslud. Derbyniodd e nhw bron yn ddiarwybod iddo. Edrychai hi mor daer i'w lygaid e.

'Dw i'n eich caru chi. Fwy nag dw i'n caru mam a thad,' meddai hi'n annisgwyl.

'Paid â dweud hynny.'

'Ydw, ydw.'

'Paid byth â dweud hynny eto.'

'Roedd e'n annheg.'

'Na, na, Sali.'

'Ac yn greulon.'

'Yn anghywir, efallai, dybiwn-i.'

'Roedd e'n farnedigaethol,' mentrodd hi.

'Na, na: mae Cristnogaeth yn mynnu inni ddweud “na” hefyd,' addefodd e'n ostyngedig.

'Nid ei ddweud e'n anghwrtais, fel yna. Nid heb gariad. Nid yn sarhaus.'

'Ond yn glir ac yn ddigymrodedd. Fel 'na dw innau'n ceisio amddiffyn yr Eglwys sefydledig. Yn onest.'

Doedd hi ddim yn fodlon ar ei ymgais i'w lleddfu hi. 'Dw i'n gallu casáu 'nhad ambell waith.'

'Paid â gwneud hynny.'

'Mi wna-i.'

'Gŵr da yw e... ond ecentrig.'

'Bydda i byth yn maddau iddo.'

'Byth? Sali! Rwy'ti'n ifanc; ac mae maddau yn rhinwedd sy wrth fodd Iesu Grist.'

'Byth!'

'Dw innau'n gallu ergydio'n galed,' meddai fe. 'Ac mae pethau dirfawr ar gerdded y dyddiau hyn, fel yr ymosodiad ar Reswm, ac ar falchderau un-dimensiwn gwyddoniaeth yn yr Ymoleuo. Dw i'n credu bod angen gosod y cwbl o fewn Dimensiwn Hanes a Thragwyddoldeb. Methu â deall y gwrthwynebwyr yw anhawster mawr pob cyfnod o newid. Mi all hanes ymyrryd i amddiffyn hanes.'

Gwenodd hi. 'Hen Frython dych chi, gaplan. Hen Frython hael.'

'Yn hollol. Dros dro fydd hyn oll.' Amneidiai'i ben ryw hyder mewnlol a oedd yn anorchfygol ond hefyd yn cynnwys elfen o hunan-ymholi bellach. 'Ym mhen hir a hwyr bydd gwaed yr enthiwsiastiaid hyn oll yn oeri.' Fe gerddodd Sali ac yntau law yn llaw



nawr... 'Ond gwrandau. Mae'n rhaid deall yr hyn sydd y tu ôl i'r wyneb, a'r ysbryd rhesymol sy mewn iaith. Celwydd yw bod yn rhy lythrennol weithiau... Gwrandau dithau Sali ar dy dad o hyd, rwyt tithau'n dal yn anochel ym myddin dy dad naturiol nawr. Ond chwilia di hefyd am yr hyn y mae'n ei ddweud sy'n unol â'r Llyfr Gweddi. Rhaid bod gwreiddyn y mater ar ôl gydag e rywle.'

'Byth.' Edrychai hi'n ddychrynlyd o ddiffuant bellach. 'Alla i byth ddilyn y nhad!'

'Gair diddorol yw hwnnw i hanesydd, Sali. Gair uchelgeisiol braidd – “byth,” o bosib, gair ychydig yn estynedig, ynte fe? Beth wyt ti'n feddwl?'

\*

\*

\*

Roedd Marmaduke Gwynne bellach wedi cael ei newid mewn rhai ffyrdd dyfnion o ysbrydol, er nad oedd ei anianawd dyneiddiol naturiol wedi'i newid ddim onid i raddau. Ychwanegwyd ato, a newidiwyd ei ragdybiau. Aeth ei siglad mewnol e, sut bynnag, i ymamlygu'n dystiolaethol i'r gymdogaeth. Yn raddol, roedd y newid ysbrydol hwn wedi dysgu iddo fod yn fwy hunanfeirniadol, ac i leddfu ar ei wylltineb heb siglo'i ffydd newyddeni. Dechreuai hefyd amgyffred rhai o ddyfna gwendidau'r hen ddaliadau confensiynol dyn-ganolog. Roedd math o dawelwch go ddieithr yn dechrau tyfu ynddo fe o bawb, a chwestiynau rif y gwllith. Er mor rhwysgfawr y gallai gwrthdystiadau a gorymdeithiau teimlad a ffws a ffair a'r helyntion lleia atyniadol mewn dynion ymddangos, cyn bo hir gallai rhyw fath o areuledd o'r tu allan i'r hunan orchfygu. Gŵr wedi'i drechu oedd e, yn hanfodol. Ond gŵr a ddeallai'i amseroedd ei hun yn well. Gogwyddai'r sgweier i gyfeiriad dieithr. Felly, o'r cefndir newydd hwnnw, heb wrthgilio oddi wrth y sylweddoliad newydd, fe ddôi awelon o areuledd anghyfarwydd i ran Marmaduke Gwynne i gipio'r hen ffwdan sgweieraidd, a'i ddwyn ymlaen o fewn gostyngeiddrwydd gafael ei ddarganfyddiad newydd. Gallai hyn o geidwadaeth ac o resymu rywsut ddigwydd heb i gryfder cred gyfaddawdu. A heb i'w anian weddnewid.

Yr hyn yr oedd ei angen yn awr yn ei berthynas â'r caplan oedd ymddiheurad iddo. Ond roedd hynny i'r Sgweier ar hyn o bryd yn ormod o gam.

Distawodd calon larpiedig y Sgweier. A'i ddymuniad cynyddol oedd i'w natur newydd gael ei sancteiddio a'i ddiwyllio, er bod ei hen anian yn ei alw'n ôl, fel y gwnaiff yr hen beth o hyd. Fe wyddai fod tipyn o ffordd o'i flaen yn hyn o chwyldro.

Roedd Theophilus Evans wedi dychwelyd yn ei dro i lonyddwch mewnol llyfrgell y Garth, ac wedi troi i sgrifennu'n ddiwyd ddisgybledig o'r newydd.

O'r tu ôl heddiw, ar flaenau'i thraed, daeth Sali Gwynne i sefyll yn ddisgwylgar am ei sylw heb fod yn bell oddi wrtho. Ond sylwodd e ddim. Roedd calon Sali'n poeni drosto. Dynesodd hi. Rhoddodd hi'i breichiau yn dyner ara am ei wddf o'r tu ôl iddo, eithr chyffrôdd e ddim. Cymerodd arno nad oedd dim wedi digwydd ac mai'r peth mwya naturiol yn y byd oedd mynd ymlaen yng nghanol ei chwrs addysg, yng nghanol storm eneidiol. Ofnai hi, er hynny, fod yr hen berthynas o gyfeillgarwch wedi'i siglo.

Gwasgodd hi ychydig yn galetach am ei wddwg, a chododd e'i ben o'r diwedd, a siffrwd wrthi: 'A sut mae'r hen Fyrsil?' gofynnodd ei thiwtor.

Digiodd hi wrth y fath gwestiwn, a gollyngodd ei breichiau er mwyn dod ymlaen i'w wynebu fe. 'Weithiau, y Parchedig Theophilus Evans, dych chi'n gallu bod yn anniddorol.'

'Weithiau?'

'Dych chi'n dda iawn yn bonclustio'r hen Rufeiniaid.'

'Hen Rufeiniaid? Mae yna rai newydd heddiw. Dw i'n ofni. Cyfoeswyr.'

'A cheryddu merched bach diniwed am eu gwaith.'

'Ond ddim cystal gyda'r selogion crefyddol newydd?'

'Yn union.'

"'Rhufeiniaid' cudd yw'r rheina. Yr un ymerodraeth, Sali. Deddfroddwyr diddychymyg oedd Rhufeiniaid, ond wedi'u seilio ar feddwl Groeg. Ond mae'r selogion hyn, a'u dychymyg direswm, heb glasuraeth Groeg! Heddiw! Nhw! Dim ond llythrenogwyr di-ddysg cul yw'r bobl hyn. Dŷn nhw ddim yn deall celfyddyd a sbort

bob dydd a rhyfela a choginio a chwarae priodasau, na Fyrsil, na'r bywyd cyfan o fewn Teyrnas Dduw.'

'Dych chi'n gweld Rhufeiniaid deddfol y tu ôl i bob llwyn.'

'Wyddost ti, Sali, yr unig ddymuniad sy gen i yw gwarineb. Tawelwch araul a hen Eglwys Loegr, a threfn gynhwysfawr ar galendr eglwysig sy'n amgau Gras Cyffredinol a Gras Arbennig yn ei gilydd. Gras Arbennig mewn bedydd, a Gras Cyffredinol mewn moeseg. Dy dad di a'n gyrodd i gynt i fonclustio'r Methodistiaid. Roedd hynny'n groes i'r graen, ac yn annoeth. Sgrifennu Hanes oedd yn y mryd i. Dyna yw'r craidd i fi, er mod i'n cydnabod bod cadw llygad ar y praidd yn bwysig hefyd.'

'Dyna'ch hen synnwyr cyffredin chi.'

'Ond y mhrif uchelgais syml oedd paratoi ail argraffiad o Ddrych y Prif Oesoedd.'

'Wel, gwych, i fi.'

'Ie, gwych. Casglu gorffennol Cymru, gyda'i phresennol yn undod. Does dim yn well.'

'Dyna yw bod yn Gymro?'

'Ie, Sali, felly y mae hi, i fi, mewn oes sy'n prysur golli'i synnwyr o gydbwysedd. Mae hanes yn barod ddigon i gydnabod tw gwareiddiad yng Nghymru.'

'Ac yn colli'i Chymreictod hefyd ... yn Sir Faesyfed.'

'Mae hynny i fi yn bwysig o drist. Mae'n adlewyrchu colli parch at hunaniaeth isymwybodol. Ac mae unrhyw niwed i'r hen ffydd a'i llawenydd naturiol hefyd yn golygu colli hen safonau a hen arferion.'

'Sylwch ar y nhad ei hun,' meddai Sali. 'Ar ôl ei dröedigaeth, mae e'n cerdded o gwmpas y tŷ, a'i wên mor sur fel y gallech ei defnyddio hi ar dships yn lle finegr.'

Gwenodd Theophilus Evans. 'Dyna i rywrai yw bod yn gadwedig.'

Ar hynny, cyrhaeddodd Marmaduke Gwynne ar ganol eu sgwrs. Daeth i mewn yn sarrug. A chan synhwyro cythrwbl o bell, cododd Theophilus Evans a

moesyngrymu'n nerfus tuag ato.

Edrychodd y Sgweier o'r naill i'r llall yn amheus, fel pe bai'n drwgdybio rhyw fath o gynllwyn ar waith rhyngddyn nhw. Amneidiodd yn rhybuddiol o awgrymus tuag at Sali i fynd allan. Ond am ychydig o eiliadau symudodd hi ddim, fel pe bai hi'n ymofyn aros i gymryd ei rhan briodol yn y frwydr. Eithr ni oddefai'r sgweier ddim o'r fath ymyrraeth.

'Sali!' sgrechodd e'n ddiamynedd nes diasbedain. 'Allan!'

Ciliodd hi'n grinedig o'r ystafell cyn belled â'r cyntedd, ac yna aros i gilwrando o'r tu allan i'r drws agored.

'All hyn dim mynd yn ei flaen, Evans.'

'Dw i'n cytuno.'

'Yn yr eglwys, dw i'n meddwl, fe fuoch chi ar gam.'

'Sut? Fi?... Oeddwn,' addefodd y caplan. 'Mae 'na ddigon o destunau i bregethu arnyn nhw yn y Flwyddyn Eglwysig. Peth gwael yw peidio â bod yn hydeiml i deimladau rhywun penodol mewn cynulleidfa.'

'Na, na, mwy o lawer na hynny. Nid y cynnwys yn unig.'

'Gweddill yr addoli? Dw i'n pwysu, Sgweier, ar y Llyfr Gweddi.'

'Na, nid hynny. Mae 'na rywbeth arall... Credu!'

'Credu? Dw i'n credu'r cwbl.'

'O'r gwddwg i fyny.'

'Sgweier! Beth dych chi'n feddwl?'

'Ie, ac mae'n annigonol.'

'Drwy'r deall y *mae* credu,' meddai'r caplan.

'Nid heb dân,' meddai'r sgweier. 'Drwy'r person cyflawn mae credu – drwy'r clustiau, drwy'r gwallt, drwy bopeth. Rheswm ar dân yw'r efengyl. A rheswm i bopeth.'

'All dyn ddim ond dilyn y drefn,' plediodd Theophilus Evans.

'Dyna dwi'n feddwl. Trefn. Bu cenedlaethau'n dibynnu ar honno. "Trefn."' Roedd y fath ddysgeidiaeth bellach yn wrthun i ffroenau Marmaduke Gwynne: 'Trefn ddynol, allanol. Ddim o'r drefn iawn.'

'A dynion duwiol wedi'i llunio hi.'

'Ail law. Naturiol.'

'Dynion da. Dynion mawr.'

'Dych chi'n gwneud eich gorau, gaplan.'

'Yn hollol.'

'A dw i'n eich edmygu chi.'

'Diolch.'

'Dw i'n eich hoffi'n fawr fel person. Ond mae 'na fwy na'r naturiol yn galw am newid.' Arafodd y Sgweier. 'A bydd yn rhaid o'r herwydd ichi fynd.' Oerwyd y tŷ. Oerwyd Sali yn ei hencil. Oerwyd y sgweier ei hun a'i gaplan. Parlyswyd Theophilus Evans. Roedd e wedi disgwyl pryd o dafod. Cynnen. Cerydd. Sarhad. Stŵr. Ond hyn...'Mynd!' protestiodd e.

'Mae'n rhaid ifi gael curad yn Llanllywenfel sy'n credu ac yn addoli o ddifri.'

'Yn yn lle i?'

'Mae llond y lle o Dduw, Mr Evans, a dw i am Ei glywed e'n cael ei foliannu o'r galon, a'i rasmusau arbennig yn cael eu datgan gyda gorfoledd. Deall neges oruwchnaturiol. Codi allan o'r cnawd-ganolrwydd. Dw innau am dyfu allan o'r sarugrwydd 'ma. A dw i am dderbyn sancteiddhad.'

'Ond mynd!'

'Mae llond y lle ... a'r amser... o Dduw. A dych chi'n darllen y drefn wasanaeth fel rhes o ferfau Lladin.'

'Mynd ddwedsoch chi?' Allai Theophilus Evans ddim credu'i glustiau.

'Mi wna-i weddio drosoch chi. Ond o ran eich cael chi yma'n arwain y ngweision i o'r Garth... ddim ar hyn o bryd, Mr Evans.'

'Ond cefnu ar bawb a phopeth!'

'Mi drefna-i ichi symud eich cartre i Langamarch. Dyna'ch prif eglwys.'

'Pryd?... Yn fuan?'

'Bydd y bwlch o filltiroedd rhyngon ni'n rhoi llonyddwch gweddus i chi. Bydd yn gyfle i fi ac i chi bwysu a mesur, a dysgu mwy am y Ffydd, ac yn gyfle i chithau unioni'ch meddwl am rym yr efengylu newydd. Neu fwrw ymlaen â'ch sgrifennu.'

'Ond gadael y Garth!'

Ac i Sali nawr, hithau o'r tu allan mor agos, yn clustymwrando, roedd y syniad hwnnw'n frawychus, mor greulon.

'Mi fydd yn fath o ddyrchafiad, gyda Llanwrtyd, Dewi, a Llanfaes,' ychwanegodd y Sgweier. 'Mi ga-i air gyda'r Esgob.'

'Dyrchafiad? Ac ymadael!'

'Bydd. Cewch aelwyd yn Llangamarch.'

Allai Sali ddim ymgynnal yn hwy. Rhedodd i mewn, a chydiodd yn ei thad, gan bledio arno: 'Na, nhad. Nid ei droi e allan o'r tŷ!'

'Sali... Beth wyt ti'n feddwl?'

'Mae e'n rhan o'r adeilad, gyda'r perllannoedd a'r gerddi.'

'Y fath anghwrteisi, ferch! Yn gwrando arnon ni fel hyn. Ac yn ymyrryd. Pwy sy wedi dysgu'r moesau hyn i ti?'

'Ond tada.'

'Dw i wedi penderfynu.'

'Dyw e ddim ...'

'Sali!'

'Ond dyw e erioed wedi gwneud dim o'i le.'

'Y pethau mae'n *peidio* â'u gwneud ac yn *peidio* â dweud yw'r tramgwydd.'

'Mae'n *ffrind*.'

'Ffrind! Wrth gwrs.'

'Nid athro'n unig yw e i ni. Ffrind yw e i bawb, nhad.'

'Dyw e ddim yn *frawd*.'

'Ond nhad, ellwch chi ddim bod mor...'

'Galla ... Fe, a'i deulu, (dw i' ofni,) yn mynd. Popeth.'

'Nhad, dw i'n erfyn.'

'Dw i am wneud y Garth yn gaer newydd.' Dyma weledigaeth bellach i'r sgweier yn nrych ei oes.

'Dyna geisiais innau'i wneud,' sibrydai'r caplan. Rhoddodd Sali'i braich yn dirion ar fraich Theophilus Evans. Roedden nhw oll wedi colli'u cymhendod a'u lleisiau yn ystod y sgwrs.

Gostyngodd Marmaduke Gwynne ei leferydd yn awr, eithr yn oer ac yn benderfynol, dywedodd yn ara: 'Ond yn awr mi fydd y lle hwn yn gaer i gredu ac i sêl grefyddol. Mi ofala-i y byddwch chi a'ch teulu'n gysurus.'

'Dw i'n teimlo'ch bod chi wedi mradychu i, syr,' meddai Theophilus Evans. Mi roesoch chi waith neilltuol ifi'i wneud. Mi fuais i'n ffyddlon, ac yn falch i fod yn ffyddlon. A'i wneud e.' Teimlo'r oedd y caplan annhegwch cysondeb amser. Ac yntau wedi llunio cynifer o hanesion am ryfeloedd, – a sôn mor odidog ac mor ddyfal am arwriaeth rhyfeloedd, – doedd dim ond yn gyfiawn ei fod wedi cael ei freintiau yn y Garth yn awr; ac yna, 'fe ges i nghondemnio am wneud y ngwaith. Dw i'n teimlo...'

'Mi gewch gyfle i *deimlo* yn eich plwy newydd, yn ddiamau. Mi welwch chi'r enthiwsiastiaid bythwyrdd, ie acw yn Llangamarch hyd yn oed, a'u teimlad bondigrybwyll. A dysgu gobaith.'

'Gwna-i, yn ddiau... Ac eto, dw i'n teimlo mod i wedi cael y nhwylllo yn y fan yma... yn y gaer i'r oesoedd.'

'Y ni, gaplan ... y credinwyr rhyfedd, y plant afradlon fydd o hyn ymlaen yn llenwi pob llan yng Nghymru gan bwyll, cewch weld.'

'Digon posib...' meddai'r caplan. 'Yn wir, dw i'n deall fod hyd yn oed Mr Hywel Harris yn taro heibio i blwyf Llangamarch ambell dro. Fe gawn sgwrs.'

Isel oedd pen Sali erbyn hyn. Roedd arni gywilydd ohoni'i hun ac o'i thylwyth. Os hyn oedd Cristnogaeth efengylaidd, allai hi ddim gweld ond tywyllwch bob bore o flaen ei gwlad. Rhyddhaodd ei braich, a daeth i sefyll o flaen ei thad yn ddi-ofn.

'Nhad!... Dyw hyn ddim yn Gristnogol, ydy-e?'

'Nid ti Sali yw'r un i hyfforddi dy dad yn y fuchedd honno.'

'Ond nhad...'

'Cer *di* o ngolwg yn awr.'

'Mae bwrw rhywun allan o dŷ... mae'n clwyfo'r tŷ.'

'Glywaist ti?'

'Ellwch chi ddim. Mae'n greulon i'r holl adeilad. Mae'r gorffennol yn gwaedu.'

'Gwell iti fynd, Sali,' ategodd Marmaduke Gwynne yn dawel.

'Na, ellwch chi ddim sarhau un garreg heb fod y tŷ i gyd yn cael ei ysigo.'

'Galla... Cyn i mi golli yn natur i, cer at dy fam.'

Ciliodd hi mewn cymysgedd o bwd ac o ufudd-dod ofnus. Gwyliodd Theophilus Evans hi'n cilio, fel rhith, allan drwy'r drws, y fechan o ffrind. Ychydig o eiliadau'n ddiweddarach, fe'i gwelai hi'n mynd heibio i'r ffenest ac yn llithro ar draws y lawnt. Roedd ei feddwl e'n ei dilyn hi. Roedd hi'n ddernyn o felyn acw. Sylwodd e'n awr: roedd ei ffrog hi'n felyn a'i gwallt yn felyn. A disgynnai ei chorff yn felyn i gyd i'r daffodiliau a ymdaflai o ymylon y llwybr gerllaw. Ymgasglai'r holl le amdani y munudau hyn gan ddisgleirio yn fath o aur golau. Hyd yn oed y glaswellt a oedd yn las dan yr haul, a dail y coed a oedd hefyd yn lasach, ymddihatren nhw o'r tywyllwch difrifol yma; ac yn anghyfrifol dost cydien nhw ym mhelydrau'r haul hwnnw er mwyn



pwysleisio hynny o felynwch a oedd yn elfennu ynndyn nhw benbwygilydd. Roedd e wedi colli ffrind annwyl.

Druan ohoni.

Trodd Theophilus Evans yn ei ôl at y Sgweier: 'A wnewch chi y ngoleuo *i* te, syr yn y grefft hon? Ai dyna yw bod yn Gristion – credu unplyg ac addoli dwfn, ac yna lluchio offeiriad a'i wraig a'r plant allan i'r gwynt a'r glaw?'

'Gall y Farn fod yn waeth na hynny.'

'A thrugaredd Sali fach?'

'Y musnes *i* yw Sali,' meddai'i thad.

'Fe all plentyn ddysgu llawer i ni, bawb.'

'A pheth arall. Dda gen i mo'r berthynas ryfedd 'na sy rhyngoch chi a'm merch.'

'Beth yw'ch awgrym, syr?'

'Dim awgrym.'

'Yna, mae'r berthynas yn bur.'

'Mae hi'n rhy hoff ohonoch chi.'

'Alla i ddim ymddiheuro am hynny.'

'Mae'n rhy hoff o'ch ffolinebau am le bach fel Cymru a'i Hanes bondigrybwyll.'

'Dw i'n parchu glendid ac ieuenctid Sali.'

'A'i thlysni hi, yn ddiau.'

'A'i safle a'i deallusrwydd.'

'Digon am hynny nawr. Dw i ddim am siarad am y peth. Digon yw sôn am gyfeillgarwch anghyfartal.'

'Does gynnoch chi'r un achos i amau unrhyw...'

'Clywch Evans. Clywch Mr Evans bach, Mr Theophilus Evans, y nghyfaill caredig. Ewch yn eich blaen i Langamarch, da chi, i'r dyrchafiad. Fe gewch bregethu'ch

Arminiaeth a'ch Uchel-Eglwysyddiaeth yn y fan yna heb fod neb yn gwybod. Cewch ddilyn y drefn, yr ordinhadau a'r sagrafennau. Cewch hyrwyddo Synnwyr Cyffredin. Ond gadewch Sali a Llanllywenfel a fi a Chymru newydd yn y bywyd newydd yng Nghrist Iesu. Mae yna fyd cyfan newydd wedi dod i'r golwg yn y fan hyn.'

Dyweddodd Marmaduke Gwynne y cyngor hwn yn ara ac yn anghynefin o waraidd. Roedd gwerthoedd ei ach ffurfiol wedi ailgydio yn ei leferydd, a gallodd ddatgan ei ddedfryd nawr gyda mwy o syberwyd. Allai dim fod yn decach na 'na. Teimlai'i fod yn ailafael bellach mewn gwarineb a chwarteisi. Teimlai awydd i gydio hyd yn oed mewn caredigrwydd. Roedd Theophilus Evans yntau'i hun wedi hoffi'r gwerthoedd yna: bonedd, chwaeth, a thir. Ie, yn sicr, un o'r gwerthoedd oedd tir hefyd: caniatâi'r tir hamdden; a diwyllio'r tir oedd diwyllio sgwrs. Moesymgrymodd y caplan gyda pharch i gyfeiriad y Sgweier a'i holl awdurdod wrth iddo deimlo'r diriogaeth bresennol hithau'n llithro ychydig oddi tan ei draed.

'Fe wna tir Llangamarch y tro yn burion, syr, gystal ag unlle. Gŵr neilltuedig fydda i yn y fan yna hefyd... a dyna nymuniad.'

'Wel, dw i'n dymuno dim drwg i chi. Dych chi'n ddyn rhesymol. Ond ofni dw i na fydd dim ymneilltuo *llawn* i chi mwyach, ddim hyd yn oed yn Llangamarch.'

'Na fydd, dw i'n deall.'

'Fydd dim ffoi chwaith. Mae'r tystion yn amlhau, Mr Evans. Mae Duw wrthi'n gwneud rhywbeth arbennig yng Nghymru. Does dim cuddio.'

'Felly y dwedsoch chi o'r blaen.'

'Dyna ngobaith... ' Ac yna, ymataliodd, ac edrych yn feddylgar ar ei gaplan canol-oed. 'A! Ie, fe welwch y nghyfaill newydd rywdro yn amlach o hyn ymlaen, – Mr Harris...'

'Pwy?'

'Yn hen erlidiwr erlidiedig i. Mae hwnnw hefyd yn galw heibio i Langamarch yn bur gyson.'

'Ie?'

'Tybed wnewch chi gymwynas ola i fi, Theophilus Evans?'

'Gwna-i, siŵr iawn.'

'Gwasanaeth dibwys...' Chwiliodd yn ei bwrs. 'Tybed, wnewch chi fod yn bostmon i fi? Pan welwch chi Mr Hywel Harris, – mae'n siŵr o ddod heibio acw rywbyrd – wnewch chi roi'r gini hon iddo fe wrtho i, yn arwydd.'

'Rhoi hyn iddo!'

'Yn gymwynas i fi. Yn gefnogaeth iddo fe.'

Lled-estynnodd Theophilus Evans ei law yn ufudd, a chilio ychydig yr un pryd. 'Ond! Oni all un o'ch gweision...?'

'Na, gan eich bod chi wedi caniatáu'r cyfarfod cynta rhwng Mr Harris a fi felly, tybed oni wnewch *chi* weithredu'n bont rhyngon ni y tro hwn hefyd, Mr Evans?'

Doedd Theophilus ddim yn ceisio gwerthfawrogi'r hiwmor sâl, os hiwmor oedd, na'r coegi, os coegi oedd: roedd e'n syml yn siomedig, a chyda'r siom honno wedi'i ddigalonni ychydig. Gŵr crwn, coch a chreulon braidd oedd Marmaduke Gwynne. I Theophilus Evans roedd e bob amser wedi ymdebygu i lusern annaturiol, a fflamau'i fochau a fflam gyfoethog ei drwyn yn goleuo gwareiddiad caled na fyddai byth yn diffodd. A doedd dim claddu ar ei anian. Ond oedai o hyd, yn ei anian, yr hen natur unbenaethol imperialaidd.

#### 4.

Roedd y tywydd yn angharedig iawn.

Llifai'r glaw i lawr wyneb ac ar draws gwegil Theophilus Evans wrth iddo gario dodrefn i'r cert y tu allan i'r Garth. Pwyllog oedd ei symudiadau, serch hynny, er gwaetha hyrddiadau'r gawod drom a'r gwynt trymach. Er bod rhai o'r gweision yn ei gynorthwyo, gwibio'n sydyn a wnaen nhw o'r tŷ i'r cert, ac o'r cert i'r tŷ fel pe baen nhw'n ceisio rhuthro rhwng y diferion didrugaredd. Cyrhaeddodd diwrnod mudo.

Daeth Alis, gwraig Theophilus, i'r drws, a chrynu mewn siom wrth weld y fath storm. Yr oedd celficy'n bychan yn ei llaw, ac oeddod hi am ychydig gan obeithio y

gostyngai dicter y tywydd ryw faint, ond doedd dim sôn am y fath beth. Teimlai hi, i'r byw, y sarhad a roddwyd i'w gŵr.

Derbyn y storm ar ei wyneb yn stoïcaidd a wnâi Theophilus Evans yntau, nid yn gymaint fel pe bai'n ei mwynhau, ond o leia fel pe bai'n dygymod â hi. A hithau'n rhan o'r drefn, roedd yntau yn rhan ohoni hi mwyach. Ceisiai fe dacluso ychydig ar y dodrefn ar gefn y cert, er mwyn rhoi lle i ychwaneg o betheuach. Gwaeddodd ei wraig arno, 'Theophilus'; ond chlywodd e ddim. Prysuro roedd e wrth y dasg ddiflas annifyr hon.

Un peth a leddfai ysbryd Theophilus o ran anianawd mwyach, heblaw'i weddïau personol, oedd y wlad o'i gwmpas. Cofiai'r tywydd braf yma. Fe'i clymai yn y dychymyg rhoddedig a oedd ar gael iddo, y crwydradau crebwyll a'i hamgylchai fe ac a allai ddargyfeirio'i feddyliau oddi ar y presennol ansicr, a'i gario i fannau eraill. Dangosai'i ddychymyg iddo mor lliwgar fu'r creu, mor amlhaenog oedd ystyr mewn llenyddda. Pryd bynnag y gwrandawai fe ar wynt y dwyrain, fel heddiw, yn beichio taflu drwy'r goedwig ar noson aeafol, fe redai'i ddychymyg ar ôl cynffon hwnnw draw i'r môr efallai, i'r eangderau di-long o fôr, y môr di-dŷ, lle nad oedd dim byd ond tonnau chwipiedig diffaith islaw yn ymhel â fawr ddim ond y gwynt diamcan uwchben yn hyrddio'n anferth, y ffordd yma a'r ffordd acw, – gwynt, gwynt ar bob llaw, heb unlle arall i fynd ond i eangderau gwag, gwag: llond yr wybren o wynt felly heddiw, mynyddoedd o awyr unig yn afalansio i lawr ac ar draws, heb drigfan, yn ochneidio'n aruthr eu cyfrinachau trwm a neilltuedig, heddiw, cyfrinachau nas clywid i sylwi arny'n nhw'n benodol oherwydd sŵn y glaw am gannoedd o filltiroedd, fel pe na bai'r tir yn gwybod fod y peth yn digwydd, ond heb ddim un cwch efallai chwaith nad oedd yn cael ei siglo a'i ddychryn a'i suddo gan ymdrechion egnïol pentyrrau o wynt. Parai i Theophilus Evans ymsynio tybed ai fel hyn y gwnâi'r Ysbryd hwnnw ei hun y byddai'r Enthiwsiaistiaid yn sôn amdano ac y bu e'n rhedeg mor gyflym rhagddo?

'Theophilus, glywaist ti? Mae Sali'n wael,' meddai'i wraig wrth y caplan.

'Sut?'

'Yn wan iawn.'

'Sali'n wan?'

'Mae 'na ryw dwymyn arni,' meddai hi.

'Na!'

'Oes, Theophilus, yn sydyn. Dy Sali di, druan.'

'Pryderu gormod y mae hi,' meddai fe wrth frysio o afael y glaw at y cysgodle ar bwys ei wraig, 'ac amdanon ni.'

'Maen nhw'n methu â ffeindio'r meddyg yn unlle. Mae hi'n ddifrifol, meddan nhw.'

'Mi a-i ati.'

'Fe anfonodd gwraig Dr Jones neges yn ôl fod y meddyg ei hun wedi cyrchu allan i Fynydd Epynt at ryw wraig feichiog anghysbell sy wedi cyrraedd ei thymp,' meddai Alis Evans yn benisel. 'Ddaw e ddim yn ôl am sbel.'

'A-i i weld Sali nawr. Ei gwres hi wedi codi, ddwedi?'

Draw ar y llwybr tua'r Garth, sut bynnag, heb yn wybod i neb, â'i ben yntau'n isel yn erbyn y glaw, ond gyda gwên ar ei wyneb uwch mwng ei geffyl, a chân yn ei galon, roedd yna ŵr ifanc tuag un ar hugain oed oedd yn marchogaeth yn amyneddgar drwy'r storm tuag at y tŷ. Cyn i Theophilus Evans symud o'r cysgodle i fynd yn ôl i mewn drwy'r drws, roedd William Williams wedi disgyn oddi ar ei farch ac yn sefyll ychydig o bellter o'r tŷ. Prin bod Theophilus Evans wedi sylwi arno o gwbl. Roedd ei feddwl am ennyd mewn man arall. Gwelai fe'n hytrach lun enfawr Marmaduke Gwynne yn llenwi'r drws, a cherddodd y caplan Evans ar y blaen i Williams yn frysio heb sylwi arno at y Sgweier i holi am Sali.

'Ydy Sali'n wael iawn?' holai'r caplan yn bryderus wrth y Sgweier.

'Yn eithaf cwla. Dw i ddim yn deall.'

'Mi wanychodd hi'n ddisymwth, do.'

'Do.'

'Ga i fynd i'w gweld hi?'

'Gwell peidio. Eisiau llonydd sy arni hi.'

'Ond ga i ganu'n iach iddi... cyn mynd â'r dodrefn?' gofynnai Theophilus Evans.

'Mae'n rhy wanllyd, mae arna-i ofn.'

'Ond...'

'Na.'

Syr?'

'Na.'

Roedd pendantrwydd a chwtogrwydd yr ateb yn rhy derfynol. Troes Theophilus Evans yn ôl tuag at ei wraig, wedi moesyngrymu'n ddiymadferth i'r Sgweier. Aeth Marmaduke Gwynne yntau'n ôl i'r tŷ. Ond erbyn hyn roedd William Williams ei hun wedi cyrraedd a'i lygaid yn llawn ymholiadau. Trodd at Theophilus Evans.

'Mr Theophilus Evans?'

'Ie.'

'Gofynnodd yr esgob ifi ddod atoch, i'ch gweld chi'n fuan.'

'Fi? Pam?'

'Chi, syr, yw ficer newydd Llangamarch, ynte fe?'

'Ie.'

'Wel, mae arna-i ofn mai fi yw'r curad,' meddai Williams.

'Y curad? Wel, wel.' Ceisiai bwyso a mesur y gŵr ifanc bochgoch hwn, a oedd yn fwy tebyg i ffermwr defaid nag i ysgolhaig o fath yn y byd. 'On'd dw i'n eich nabod chi?'

'Digon tebyg.'

'Pan own i'n offeiriad yn Nhir Abad gyda Llanynys wrth gwrs.'

'Dyna chi. Dw i'n wahanol y ngolwg pan fydda-i'n sych.'

'Mae'r enw'n gyfarwydd, wrth gwrs.'

'Williams.'

'Wrth gwrs... o Bentre-tŷ-gwyn,' meddai Theophilus Evans.

'Wil Williams o Bantycelyn.'

'Dych chi ddim yn un o'r enthiwsiastiaid crefyddol sy'n bla yma erbyn hyn, gobeithio?'

'Drwy ras Duw, fe ges innau *brawf* bywiol a real o Iesu Grist.'

'O'r argian! Ble'r awn ni? O'r ffrimpan i'r tân! Does dim llonydd o fath yn y byd.'

Cododd Alis Evans ei llais uwchben rhyferthwy'r glaw, ond yn groyw ei thôn:  
'Wel, dych chi wedi cyrraedd braidd yn hwyr i helpu gyda'r pacio, Mr Williams bach.'

'Ond nid yn rhy ddiweddar i'r storm,' ychwanegodd ei gŵr.

*'Fe'm tynnodd trwy Ddŵr a Thân...*

*O'r dywyll Aiffi i ma's,*' atebodd Williams gan chwerthin.

'Cawn ni sgwrs eto,' meddai Theophilus, 'sgwrs fwy gofalus, pan na fydd y cartre newydd yn galw. Mae hi braidd yn flêr arnon ni nawr, fel y gwelwch chi. Rhowch ddiwrnod neu ddau inni ymgartrefu yn y tŷ newydd. Fe fydd Alis...'

Ond ail-ymddangosodd Marmaduke Gwynne yn y drws erbyn hyn, ac edrychodd yn graff ar wallt ac wyneb gwlyb diferol William Williams. Gostyngodd Theophilus Evans ei lais wrth groesawu'r dieithryn: 'Cawn ni sgwrs dradwy. Wyddoch chi rywbeth am Hanes a Lladin?'

'Dim, dim oll am Hanes. Mae gen i smotyn o Ladin. Ond mae gen i beth medr meddygol. Mi all fod yn gaffaeliad.'

'Nodweddiadol', meddyliai Theophilus Evans drachefn.

'Ond mi gymera-i arholiad Lladin gyda'r gorau,' chwarddodd Wil, 'os byddwch chi'n gwasgu.'

'Nodweddiadol,' murmurodd Theophilus Evans wrth ddychwelyd at ei wraig. 'Cwbl nodweddiadol o'r enthiwsiastiaid newydd. Dim Hanes. A'r Lladin yn anhysbys.'

Estynnai Marmaduke Gwynne ei ddwy law i groesawu'r curad ifanc wrth y drws, a gwyliai Alis Evans nhw drwy gil llygaid gyda gwên drist ar ei hwyneb.

'Un o'r selogion felly,' meddai honno wrth ei gŵr.

'Ie, mae arna i ofn,' atebai Theophilus Evans. 'Ond un eitha diniwed.'

'Maen nhw i gyd yn ddiniwed nes iddyn nhw agor eu cegau. Diniwed oedd golwg y sarff yn Eden. Ond mi agorodd honno'i phen.'

'Dw i ddim yn rhag-weld y cawn ni lawer o drafferth gyda hwn.'

'Ti fydd ei bennaeth, cofia. Byddi'n ei gadw yn ei le. A thrwy gadw eu cynrychiolydd yn Llangamarch yn ei le, cei di well siâp ym mhobman arall, fesul un.'

Dan y porth yr oedd Williams bellach yn cael ei anrhydeddu gan groeso blonegog llaw Marmaduke Gwynne, a hynny am fwy nag un rheswm. Roedd y sgweier wedi'i adnabod e'n gynta oherwydd y disgrifiadau lawer a glywsai amdano.

'Mr Williams?'

'Ie.'

'Rown i'n meddwl mod i'n eich nabod chi. Dych chi'n Gristion, dw i'n deall,' ychwanegodd y sgweier yn bwyllog.

'Diolch i'r Arglwydd.'

'Mi glywais beth o'ch hanes.'

'Do?'

'Yr hen hanes cynnar efallai. Chi fyddai'n canu yn y nosweithiau llawen yn ardal Llanddyfri, on'd oeddech chi?'

'Ryw ychydig, hen hen stwff yr Hen Ficer Prichard.'

'Mae gynnoch chi beth profiad meddygol hefyd, meddan nhw i mi.'

'Oes. Rhyw led ddiddordeb felly, beth bynnag.'

'Dyna'r ail reswm dros eich croesawu. Tybed, wnewch chi ddod gyda fi ar unwaith i'r llofft? Mae y merch i'n eitha di-hwyl.'



'Os galla-i gynghori, yna, fe fydda i'n falch dros ben.'

'Dowch i fyny te i'w gweld hi.'

Diflannodd y ddau i dywyllwch y tŷ, gyda William Williams wrth ddilyn y Sgweier yn cil-syllu braidd yn swil i gyfeiriad Theophilus Evans. Syllai Theophilus Evans yn ôl ar y ddau yn syfrdan, ond yn ddifynegiant. Edrychai'i wraig, Alis, at ei gilydd, yn ddigyffro gyfarwydd fel pe bai wedi gweld y cwbl rywle o'r blaen mewn rhyw fodolaeth ragflaenol. 'Y cyw blwydd yn lladd y cyw dwyflwydd,' mynte hi.

1738

Rai wythnosau wedyn, roedd Sali, newydd wella, yn yr ardd ac yn sgysio gyda Wiliam Kendrick. Doedd fawr ddim na allai llanc dall, penderfynol, dwy ar bymtheg oed ei wneud ar yr ystâd, er gwaetha'i anabledd; ac roedd Wiliam wrthi ar y pryd yn tocio tipyn ar y gwrych gwyros o bethau'r byd, diolch i garedigrwydd y Sgweier.

'Ychydig, ac yn aml. Dyna'r gyfrinach i drin y clawdd hwn,' meddai'n hyderus wrth Sali. 'Teimlwch y trwch. Mae fel wal. Mae yna ddyfnder 'na.' Gwasgai fe ar y brigau, a chydio ynddyn nhw fel pe baen nhw'n gnawd. 'Os torrwch chi'n ôl yn rhy bell, dych chi'n colli cyfoeth y dail, ac mae'r brigau cras yn dod i'r golwg fel sgerbwd.'

Fe glywsan nhw ar eu traws besychiad yn dod o gyfeiriad y feidr, ond allai Sali ddim gweld pwy yn union oedd wedi marchogaeth i fyny at y tŷ, oherwydd uchder cysgod y wal a amgylchai'r ardd. 'Edward Phillips,' meddai Wiliam Kendrick.

'Roeddet ti'n nabod y pesychiad,' meddai Sali'n syn.

'Mae yna dôn i bob pesychiad, fel sy i bob llais. Ac mae Mr Phillips am siarad â thi'n benodol, dw i'n meddwl.'

Ac yn sicr ddigon, dyma'r Parchedig Edward Phillips yn dod i'w golwg hi. Ychydig i lawr y dyffryn mewn plwy bach diarffordd o'r enw Maesmynys, roedd y gŵr ifanc dieithr hwn wedi ymgartrefu'n rheithor. Nid un o wŷr mwyaf prydwedol y byd hwn oedd Edward Phillips, ond roedd yn hynod gwrtais ei ymddygiad, a hefyd, yn bwysicach byth, yn Fethodist. Oherwydd hynny byddai'i groeso fe ar aelwyd y Garth yn

selog ddigon ac yn gyson bellach, a phiciai draw mor fynych ag y mentrai, oherwydd fod yna atyniad yno nad oedd e'i hun yn barod iawn i'w ddiffinio. Roedd gwrid ysgafn ar ei wyneb, eithr sylwai Sali ddim ar hynny, mwy nag y gwnâi Wiliam Kendrick. Gan mai ymweld â Sali roedd Mr Phillips, ciliodd Wiliam, ond nid y tu hwnt i'w glyw main e.

'Roedd rhaid ifi ddod ar unwaith. Mae gen i newydd cyffrous.'

'Cyffrous, Mr Phillips?' meddai Sali. 'Wel, ar y ngwir, dw i'n meddwl eich bod wedi'ch cynhyrfu rywfaint. Beth sy wedi digwydd?'

'Mae gen i newydd anghyffredin. Mae'r gŵr mawr ei hun yn dod.'

'Gŵr mawr, Mr Phillips? Dw i ddim yn eich deall chi. Oes 'na ŵr mwy na Mr Harris neu Mr William Williams, dwedwch?'

'Wel, nac oes ddim ar ryw olwg.'

'O'r gorau te. A phwy yw'r gŵr mawr hwn felly?'

'Sais o Lundain. Neb llai na Mr John Wesley. Mi fydd yn cyrraedd yma ymhen wythnos. Mae e wedi cytuno i ddod i'r ardal hon, ac i bregethu. Fi sy wedi'i wahodd e.'

'Chi, Mr Phillips? Ydych *chi'n* nabod Mr Wesley?'

'Ydw, Miss Gwynne. Ac mae e'n dod i aros gyda fi.'

'Wel wir, Mr Phillips, dych *chi'n* symud mewn cylchoedd esoterig.'

Ymbluodd e wrth ei geiriau chwareus. Ymsythodd fymryn. Edrychodd ychydig bach o gwmpas gan led-ddisgwyl y gallai fod rhagor o gynulleidfa rywle a fyddai am ategu'r gymeradwyaeth honno. Ond doedd yna neb ond Wiliam Kendrick, ac roedd hwnnw'n mynd yn ei flaen i docio'r clawdd fel pe bai heb sylweddoli fod yr un rheithor newydd-gyrraedd yno, na dim sôn yn unman am newyddion tyngedfennol a gorfoleddus, na hyd yn oed wybod chwaith fod y dyn mawr, y Parchedig John Wesley, ar ddod yn fuan.

'Dyna'r cwbl o'r newyddion, Miss Gwynne.' Roedd Edward Phillips fel pe bai, yn foesgar odiaeth, yn ceisio ymesgusodi ac yn barod i gilio, ac eto rywfodd yn dymuno oedi yr un pryd.

'Fe fyddwn i'n meddwl fod hynny'n gryn dipyn, Mr Phillips. Wedi'r cwbl, mae'n un o ddynion enwoca'r wlad.'

'Wel, ydy. Mi adawa i *chi* felly ddweud wrth eich tad,' meddai fe wrthi.

'Ond mae hyn yn newydd mor nodedig. Chi ddylai ddatgelu hyn iddo.'

'O! na... Ydy, mae'n bwysig: dyna pam rown i'n synied mai chi, Miss Sali, chi o bawb, ddylai hysbysu'ch tad.'

'Dych chi'n *garedig* dros ben Mr Phillips. Ond wedi'r cwbl...'

'Yn *garedig*, Miss Sali? Fi? Na, na.'

Edrychai Sali'n graff arno fel pe bai'n ceisio dirnad beth oedd yn poeni'r dyn druan gan ei fod e mor ffwdanus; ond camgymerodd e'r craffu ymchwilgar hwn, a thybied bod gan hon rywfodd ryw ddiddordeb ynddo. Ynddo fe! O! Berlewyg rhyfeddol. O'r gog lwydilas yn canu yn ei galon! Gwenodd hi arno, o ddigrifwch yn hytrach nag o'r un cymhelliad arall; ond chwythodd ei gwên serchog hi ar draws ei dalcen a'i gernau a'i arleisiau megis awel heulog, addfwyn drwy frigau'r Garth y tu ôl. Roedd ei gwên hi'n dyfnhau ynddo bob eiliad, ac yntau'n gadael i groen ei wyneb cynnes fwynhau'r chwaon hyfryd hyn.

Yr hyn a'i gwirionai oedd y gallai un o'r chwaon hynny efallai ei hoffi. Fe! Yn cael ei hoffi! Doedd e erioed wedi'i ystyried ei hun fel yna, nac wedi synied chwaith am 'hoffi' fel y cyfryw. Roedd e wedi tybied y gallai fe edmygu merch o bell iawn. Ond iddo fe rywsut, rhywbeth a wnâi e i rywun arall oedd 'hoffi', nid rhywbeth a wnâi rhywun arall tuag ato fe. Bod rhywun arall – yr un hardd hon efallai – yn gallu cael ynddo fe rywbeth i'w hoffi a'i ystyried yn *garedig*, roedd hyn yn ei ddrysu braidd.

'Mae ganddo frawd, on'd oes, Mr Phillips?

'Brawd? Pwy?'

'Wel, Mr Wesley bid siŵr. On'd oes brawd ganddo fe?'

'Na. Wel, oes. Charles. Ond dyw e ddim o'r un pwys â John.'

'Mi glywais sôn ei fod e'n ŵr teimladol, ac yn llunio emynau.'

'Ydy, ydy. Mae'n ddigon dawnus. Ond John yw'r pregethwr mawr. Cysgod o'i frawd yw Charles. Dw i'n ei nabod e hefyd. Ond John yw'r dyn. Efô fydd yn cyflwyno'r efengyl i'ch calon chi. Dw i ddim yn siŵr er hynny ynghylch y ffasiwn hwn o ganu emynau sy ganddyn nhw. Canu salmau, yr ysgrythur ei hun, dyna rywbeth dw i'n tueddu i'w bleidio. Ond maen nhw'n bâr pwysig i achos efenglyddiaeth.'

'O'r gorau. Fe ddweda i'r newyddion braf wrth y nhad. Dw i'n siŵr y bydd e'n falch iawn fod gynnon ni reithor ym Maesmynys a chanddo'r fath gysylltiadau.'

Roedd hynny'n ddigon. Roedd y geiriau cynnil hyn yn hen ddigon i awgrymu'n derfynol i unrhyw un a chanddo hanner clust (ac roedd gan Mr Phillips ddwy glust o leia) beth oedd ei theimladau caredig hi ato.

Wrth iddo farchogaeth yn ôl i lawr y feidr, yr oedd pili-pala'i sillafau mân ac awgrymus hi yn ei ddilyn e fel petaen nhw'n chwilio am le i lanio. 'Cys-yllt-iad-au. Fi!... Fod gynnon *ni* reithor...Dw i'n siŵr, yn siŵr... Dyna'i geiriau.' Roedd petalau'i hadenydd pili-pala yn troi yn awr o amgylch ei ben yn ara ara, o gylch ac amgylch o fewn ei ben, nes peri iddo deimlo ychydig bach yn frwysg.

Yn ôl yn y tŷ, yn llai brwd na'r disgwyl o bosib, roedd Marmaduke Gwynne. Golygai ymweliad fel hyn iddo fe dipyn o ffwdan, a doedd e ddim am gael ei darfu ar hyn o bryd. 'At beth? Saeson? Dyna beth dw i'n ei ofyn. Mae gynnon ni fechgyn ardderchog yn nes adre, does bosib.'

'Eisiau dod ag e i'r ardal er mwyn lledu'n gorwelion oedd y nod debygwn i,' meddai'i wraig.

'Twt, twt. Mae'r gorwelion yn burion.'

'Ond gŵr addysgedig yw John Wesley, a'i frawd.'

'Mi wn i'n iawn am John. Ond, on'd ydy Harris a Williams hefyd yn addysgedig? Ac yn Galfiniaid Duw-ganolog cyson hefyd,' meddai'r Sgweier.

'Fel Mr Phillips Maesmynys, yntau'i hun hefyd efallai,' ychwanegodd Sali gan wenu.

'Na, y fath ymweliad gwirion,' meddai'i thad. 'Does dim angen gormod o Saeson ffordd hyn... Ond dau arall yn dod. Brensiach brain! Dw i ddim yn glir iawn am y brawd, Charles, 'na.

“Dyw hwnnw”, meddai Mr Phillips, “ddim yn cyfri.”

'Dyna ddwedodd Phillips, do? Wel, mae'n rhaid inni gredu'i air, mae'n debyg.'

5

1745 (ac felly, saith mlynedd wedyn)

Mwyneiddiodd Marmaduke Gwynne gyda'r blynyddoedd. Tyfodd ychydig mewn doethineb ysbrydol. Aeddfedodd Sali hithau, a dyfnhau mewn profiad a dealltwriaeth, diolch i raddau i ymweliadau go gyson Edward Phillips.

Bellach, roedd hi'n hŷn o saith mlynedd. Er mor nerthol yw cyfnewidiadau amser, roedd afiaith y ferch yn aeddfetach yn awr heb ei difwyno gan y blynyddoedd diofal. A'r diwrnod hwn, safai Sali wrth ffenest y llyfrgell yn syllu allan yn ymchwilgar. Symudai hi o'r naill gelficyn at y llall fel pe bai am wneud rhywbeth iddyn nhw: eu tacluso nhw fe ddichon, ac eto, gadael llonydd i'r cwbl a wnâi yn y diwedd. Roedd hi'n dddeunaw oed bellach, yn dal ac yn osgeiddig, a chanddi newyddion berw heddiw a oedd yn hollti'i phen a'i mynwes o eisiau eu rhannu gyda'i hen athro. Anfonasai air at yr hen gaplan, heb ddatgelu baich ei neges, a heddiw roedd e ar ddod. Ac allai hi ddim dirnad pam yn y byd roedd Theophilus Evans yn oedi, a pha beth a allai fod wedi'i rwystro rhag cyrraedd yn brydlon daclus.

Ond doedd dim rhaid iddi ddisgwyl lawer yn hwy, cyn cyflwyno'r neges yn llawn. Dacw Theophilus Evans.

Dawnsiodd hi i gyfarfod ag e wrth iddo nesáu at y drws. Estynnai hi ei dwy law ato, a chydio'n dynn dynn yn ei ddwylo fe. Ymddangosai fe'n hŷn o lawer. Doedd e ddim ond hanner cant a dwy oed, ac eto fe allai fod yn drigain, yn bump a thrigain. Crymai'r hen gaplan ychydig fel pe bai'r cyhyrau'n gysylltiedig â'i asgwrn cefn yn rhy ddiog neu'n rhy bwdr i ddal fframwaith ei gorff yn dynn wrth ei gilydd. Neu roedd y blynyddoedd yn dechrau o bosib adael eu hól arno.

'Diolch i chi am fentro'n ôl i'r Garth.'

'Allwn i ddim llai,' meddai fe. 'Ond menter oedd hi, er bod eich tad ... wedi maddau.'

'Gwn i. Ond dw i'n gwerthfawrogi eich bod chi wedi dod, yr un fath.'

'Rwy'ti, Sali, fel petaet ti'n ferch i fi. Allwn i ddim llai na dod heddiw.'

'Fi berswadiodd nhad i'ch gwahodd chi'n ôl, hynny yw, i ddychwelyd aton ni ac i ailgydio yn y gwaith o hyfforddi plant y stad pe baech chi'n ei ddymuno.'

'Rown i'n amau felly. Mae e wedi sylwi does dim digon o athrawon yn dod i'r parthau hyn.' Yn sicr, roedd yna 'fwyneiddio'.

'Croeso'n ôl hefyd i'r hen gaer 'ma, a'i hanes, – fel ysgolfeistr yn benna, yn ôl fel dw i'n ei ddeall.' Gwedd ar y 'mwyneiddio' oedd y gwahoddiad hwn o du'r sgweier.

'Rhan o'r hanes dw innau at ei gilydd bellach,' meddai Theophilus Evans.

'Ond mae'n rhaid ifi leisio rhybudd,' meddai hi. 'Mae gen i newydd arall a fydd yn od i chi.' Rhewodd y frawddeg rhyngddyn nhw ychydig fel pibonwy yn yr awyr wrth iddi ddweud hynny.

'Mae dy dad yn dal dig o hyd?'

'Na, ddim felly. Mwy difrifol na hynny.'

'Does dim syniad gen i.'

'Edrychwch arna i.' Ger ei fron, nid y ferch fach henaidd un-ar-ddeg a welai Theophilus Evans yno o hyd. Ond dyma hi'n annisgwyl ac yn ddigynnwrf yn awr, ond

gyda difrifoldeb annodweddiadol, yn wraig ifanc brydferth lawen, yn estyn ei dwy law ymlaen ac yn eu gwthio nhw i fyny at y nefoedd.

'Na?'

'Ie,' meddai hi. 'Dw i wedi dod i'w adnabod E.'

'Dwyt tithau ddim wedi troi'n Fethodist hefyd?' Suddodd ei galon.

'Clod i'r Arglwydd, gaplan, ydw: drwy gyfrwng geiriau a thystiolaeth Edward Phillips yn anad neb, a darllen yr ysgrythur dan fendith yr Ysbryd Glân.' Dawnsiodd hi o'i amgylch fel oen gwanwynol.

'Do? Na?'

'Yr Arglwydd ei hun yw yn athro i benbwygilydd bellach!'

'Alla-i ddim deall. Dw i'n rhy hen.'

'*Credwch*, y nghaplan annwyl, ac fe gewch chithau ddeall gyda fi.'

'Ti, o bawb byw bedyddiol, wedi ymuno â'r giwed yna.'

'Wel, roedd y ddawns gen i'n barod,' meddai hi gan brancio. 'Nid pawb oedd am gofio bod Dafydd Frenin wedi dawnsio: roedd Michal merch Saul yn eitha crac. Ond fe barodd y gwirionedd am Dduw iddo fe, ac i finnau, orfoleddu.'

'Ond ti!'

'Roedd yn rhaid ifi rannu'r newydd hwn â chi. Bawb yn ôl ei ddawn.'

'Mae Cymru, Sali, i gyd yn chwalu. Mae'r hyn y byddai'r wlad yn ei gredu'n hen goel sgrythurol ers talwm yn cael ei ddiraddio i fod yn fyth *profiadol*. Mae yna ryw esboniadau mwy bydol ar bethau mwyach, syniadau wedi dod o Loegr.'

'Ond mae'r deall yn tanio yn fwy personol mwyach, hefyd, ac mae hynny'n gwneud iawn am y seciwlarïaeth gyfredol.'

'Mae'n goleuo hefyd, oherwydd y Fethodistiaeth gynyddol. Ac mae hynny'n newid perthynas mewn teuluoedd, a rhwng ffrindiau.'

'Ddim ar y nheimpladau atoch *chi*.'

'Tipyn o faldod plentyn oedd hynny, Sali. Fe ddylet ti ystyried mod i'n greadur go bell oddi wrth bawb arall 'ma bellach.'

'Ddim mor bell fel na ellid eich gwneud chi'n agos.'

'Wnei di ddim ohono-i'n agos, ddim y ffordd yna, mae hynny'n sicr.'

'Wna *i* ddim, yn sicr. Ond... does neb mewn angen sy'n bell ym mhob ystyr oddi wrtho Fe,.. ond galw.'

Ond dw i'n sylfaenol bell oddi wrthot *ti*, yn ôl dy syniadaeth dragwyddol di, mae hynny'n sicr,' cyffesodd ei hen gyfaill.

'Mae'r Llyfr Gweddi gyda ni'n gyffredin.'

'Allanolion arferiadol.'

'Yr Erthyglau. Y Sagrafennau. Ac yn anad dim y Beibl.... A'r gobaith a gyflwynna hwnnw am aileni. Mae 'na bont botensial gan yr Ysbryd y gellir ei chroesi o ran deall.'

'Wnei di ddim cracio hen geidwadwr caled fel fi, Sali.'

Closiodd hi ato, a rhoi'i braich am ei ysgwydd; ac arhosodd y ddau am ennyd heb ddweud dim, heb wneud dim, dim ond mwynhau tiriondeb naturiol yr agosrwydd daearol cyfeillgar. Edrychodd hi i fyny at ei lygaid trist. 'Ond dw i'n *hoffi'ch* cael chi "hyd y lle" fel heddiw,' addefodd hi. 'Hen gyfeillion!'

Doedd ganddo ddim i'w ddweud. Ymryddhaodd yn ara; a cherddodd draw at y ffenest i edrych allan ar yr ardd. A daeth Marmaduke Gwynne yntau i mewn. Trodd Theophilus Evans a moesyngrymu'n ffwdanus.

'Evans, croeso'n ôl.'

Gogwyddodd y Sgweier tuag at ei ferch gan ddisgwyl iddi ymadael yn ddiymdroi er mwyn iddo fe gael sgwrs bersonol gyda'i gaplan. Ond ysgogodd hi ddim. 'Sali!' Ciliodd hi'n gwrtais.

'Nawr, Evans. Gadewch inni ddeall tipyn ar ein gilydd.'

'Egwyddor ragorol.'



'Mae Sali'n dweud y gallech ddod yn ôl 'ma, ond ichi ddilyn datguddiad canllawiau'r Beibl. Dw i ddim yn disgwyl ichi gyfaddawdu ar ddim arall,' meddai'r sgweier yn anarferol o wylaidd, 'mwy nag y byddech chi'n disgwyl i finnau wneud hynny. Ond gwell ichi wybod nawr: Sali sy, gerfydd y ngwallt, wedi mynnu'ch bod chi'n dod yn ôl aton ni i'r Garth i ofalu am blant y gweision, ac i sgrifennu'ch llyfrau. A dw i'n tueddu i'w sbwylio hi'n ormodol fel y gwyddoch chi.'

'Mi wn i.'

'Gallwn ni fod yn gyfeillion, gobeithio,' meddai'r Sgweier yn anarferol fwynaid. 'Gadewch inni aros felly. 'Sticiwch *chi* at y Beibl. A'r Llyfr Gweddi. A'r Deugain Erthygl Namyn Un.' Gwenodd Theophilus Evans gan sylweddoli dryswch yr hen Sgweier.

'A Hanes Cymru efallai?'

'Purion, mae'r Cymry'n ddigon diogel yn edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd... Ewch ymlaen â'ch hobi. A rhagor o Ladin os liciwch chi. Mae gen i wir barch at eich galluoedd. Ac ysgolfeistr i blant yr ardal fyddwch chi, I blant y stad yn benna.'

'Mae yna fwy mewn Lladin na geiriau a gramadeg. Gofynnwch i'r canrifoedd.'

'Iawn; ond i bawb ddeall ei gilydd.'

Amneidiodd Theophilus Evans ei gytundeb. Ond doedd neb yn deall ei gilydd.

\*

\*

\*

Felly y daeth y teulu o gyn-breswylwyr alltud yn ei ôl, ac ailymsefydlu mewn ystafelloedd neilltuedig yn y plasty: y caplan, gwraig y caplan, a'u plant. 'Hoffais i erioed mo'r syniad, Theo,' meddai'r wraig, 'o ddod yn ôl fel hyn. Dŷn *ni'n* wahanol. Maen *nhw'n* wahanol. Mae ambell un o'r gweision wedi ymadael. A'r Edward Phillips yna o Faesmynys yn galw mor aml, pwy yw hwnnw liciwn i wybod. Beth mae'r cyw yna yn ei wneud yn clochdar y ffordd yma o hyd? Dim daioni, fentra i. Mae at ddant y Sgweier, mae hynny'n siŵr ei wala. Ond disodlwr yw e.'

'Maen *nhw'n deall ei gilydd*,' meddai Theophilus Evans. 'Pawb at y peth y bo.'

'Ffansïo'r ferch Sali y mae Edward Phillips, digon tebyg. Dw i'n nabod yr olwg ddwl yna yng nghornel ei lygaid.'

'Ond edrychai *hi* byth arno *fe*. Dim ond rheithor ym Maesmynys yw e, wedi'r cwbl. Mae hi... Cofia di fwlch yr oedran, a'r dosbarth cymdeithasol.'

'Wyddost ti ddim. Mae'r Methodistiaid 'na'n boeth eu gwaed, ac wrthi'n ceisio gwastatáu pawb benbwygilydd.'

'Ond all Methodist hyd yn oed ddim...'

'Pwy wŷr beth *na* all Methodist ei wneud y dyddiau hyn, Theo? Mae'r gymdogaeth i gyd yn ymddatod, a dyw geiriau bach syml fel tân a phriodas ac ofn ac eglwys a'r gair a'r ysbryd, hen sillafau bach cartrefol fel yna, ddim un ohonyn nhw'n saff yn eu dwylo nhw nac yn golygu'r un peth, mwyach, â'r hyn fuon nhw, cyn i'r Methodistiaid lanio yn ein mysg.'

'Paid â becsan, Alis fach. Fe ddaw pawb call yn ôl at eu coed rywbyrd. Ond nid hawdd yw gwneud dim â Methodist.'

Ond roedd gwraig yr hen hanesydd yn amau hynny, ac yn wir yn ei amau'n *fawr* hefyd. Doedd dim clem gan ei gŵr yr hanesydd beth y gallai'r *dyfodol* ei wneud.

1749 (ac felly, bedair blynedd *arall* yn ddiweddarach)

Ymgollasai Theophilus Evans yn ei waith sgrifennu wrth y ddesg yn y llyfrgell. Treiglasai'r blynyddoedd cyflym cyflym drosto fel tonnau ango. A rywfodd neu'i gilydd, er gwaethaf anesmwythyd ymddangosiadol y sefyllfa yno, roedd y pedair blynedd diweddar, dychweledig iddo fe yn y Garth, wedi bod yn fwy diddig o lawer na'r disgwyl. A diolch byth i Sali am hynny.

Bu heddwch a chwarteisi cymharol ddiddig rhyngddo a'r Sgweier.

Roedd Sali'n gallu trafod ei thad, a'i chyn-athro, yn hwylus gymrodeddol. Ond ei huchelgais eithaf cyson hi, yn gwbl groes i uchelgais ei thad, fuasai bod yn Nyrs pan ddôi hi i oed addas. A gwyddai eisoes yn drosiadol sut oedd gosod gair bach fel

'rhwymyn' mwyn am glwyf cymdeithasol, hyd yn oed cyn i neb achosi archoll. Ac felly, pan fyddai'r adrenalin yn gwresogi, a'r ffolinebau yn codi'u pennau crintachlyd yn y tŷ, yna fe ddôi hi ac ailsianelu'r ymddiddan, ailgyfansoddi'r cyfathrebu; a chaen nhw gyfle yno oll i anadlu rhywfaint, a chwerthin a sôn am yr ardd, a chlebran ynghylch troeon trwstan plant y gweision, trafod hanes hyd yn oed. Felly yr ailgenhedlwyd y gymdeithas gynnes â'i gilydd lawer tro yn y cyfnod newydd. O'i hamgylch hi, haws oedd bod yn ffrindiau hynaws ac annicllon, er eu bod yn taro wrth ei gilydd mor fynych ar hyd y tŷ a'r tiroedd, a sathru bron ar gyrn ei gilydd pe gallen nhw wneud hynny'n ddisywlw.

Heddiw daeth hi o'r tu ôl i'r hen gaplan wrth ei ddesg, a rhoi'i breichiau am ei wddwg yn yr hen ffordd hoffus. 'Mae hyn yn yn atgoffa i am yr hen ddyddiau,' meddai fe'n rhadlon braf.

'Mae gen i *newydd* mawr heddiw,' ebychodd hi.

Trodd e i'w hwynebu hi. 'Newydd sbon?' gofynnai fe'n amheus, fel pe bai'n gwybod popeth newydd cyffredin.

'Dyfalwch ... Mae'n newyddion go newydd a go sbon.'

'Dy dad wedi rhoi pryd o dafod i'r Methodistiaid am siarad gormod.'

'Na! Diwinyddol amhosib!'

'Y Methodistiaid wedi rhoi pryd o dafod i'th dad.'

'Ddim eto o leia. Fe ddaw.'

Edrychodd e'n arafaid arni, ar y cytserau pefriog a chynnes yn ei llygaid, ar yr awgrym lleia o gochni mwy nag arfer ar dor ei bochgernau, ar y mymryn tro hapusach yna nas gwelsai o'r blaen yng nghorneli'i gwefusau, ac ar ei hymddaliad tal a balch. Dyfalai'n ofalus. A disgynnodd y sylweddoliad difri fel pluen ysgafn yn chwyrlio i lawr, ar y caplan, mai menyw lawn dwf oedd hon.

'Priodi! Gwn i. Rwyt ti, Sali Gwynne, yn ystyried priodas. Dyna hi.'

Roedd hi wedi'i syfrdanu. 'Ydy hi mor amlwg â hynny?'

'Fe'i gwyddwn o'th flaen di: hen ddoethineb y blynyddoedd, mae arna-i ofn. Gweld y peth yn dod o bell. O bell. Ac yn gryfach beunydd.'

'Ond,' meddai hi, a hithau ei hun yn orchfygedig gan y gwir hwn, 'a ydw i'n haeddu priodi? A ydw i'n gallu haeddu hapusrwydd daearol mor fawr?'

'Nac wyt, does neb yn priodi'n go iawn drwy haeddiant. Does neb yn ei *hennill* hi chwaith. Rhodd yw.'

'Dw i'n ei hofni. Mae'n rhaid bod mor ofnadwy o siŵr.'

'Peth i'w fwynhau yw. Fel Hanes.'

'Fel canu salmau?'

'Hynny hefyd.'

'Allwch chi *ddyfalu* pwy fydd y gŵr a ragluniwyd?'

'... Brensiach brain, Sali, nid Methodist.'

'Neb anghymharus, cewch fentro.'

'Dw i'n ofni'r gwaetha...'

'Wel, *rhyw fath* o Fethodist,' meddai hi gan wenu, 'Llund llygad deryn o Fethodist.'

'Pwy? Beth yw ystyr hynny? ... Nid Edward Phillips?'

'Edward Phillips! Mr Theophilus Evans bach, tewch. Dych chi eisoes wedi awgrymu *nad* cosb sydd i fod.' Gostyngodd ei llais. Petrusodd hi ychydig. 'Charles!'

'Na!'

'Ie... Wesley.'

Ducpwyd gwynt Theophilus Evans. Yn fwy na hynny, roedd ei galon yn ymbalfalu am waelod ei sgidiau.

'Y goruwch Fethodist,' ychwanegodd hi'n gellweirus.

'Ie. A'r goruwch...'

'Y goruwch Sais,' meddai hi eto cyn iddo fe gael cyfle i ynganu'r peth.

'Ond pam... pam mynd mor bell?'

'Does unman yn bell i Dduw, yr un a blannodd yr hedyn, hen hen hedyn hoffi,' meddai hi.

'Ond hoffi *beth*?'

'A! ha! Mae ganddo glustiau hyfryd.' Chwarddodd hi. Roedd hi wedi troi at ei harferol chwiw o dynnu coes pryd bynnag y teimlai'n hapus gyda phobl.

'Ond dwyt ti ddim yn mynd i briodi pâr o glustiau, does bosib!'

'A thrwyn.'

'Roedd yn gyfuniad go angenrheidiol.'

'Dw i'n hoffi bod gydag e. A hyn yn anad dim oedd y prawf.'

'Gyda'r clustiau felly?'

'A'r trwyn yn enwedig.' Chwarddodd yn llon.

'A hyn, Sali, yw dy wyn a'th wala.'

'Mae'n sail reit effeithiol ar gyfer dau, sydd eisoes yn briod yn y ffydd, i fyw gyda'i gilydd, gyda hoffter hefyd.'

'Ond wyt ti'n ei garu fe, merch i?'

Cydsyniodd Sali drwy gytuno ag amnaid â'i phen mewn rhyfeddod a difrifwch. 'Yn ddifrys ac yn ystyriol.'

'A fe yw kannwyll dy lygad di?'

'Ie, ie, dim llai, a choron y nghorun. Ac anwes y mynwes. Ond yn anad dim, mae'n frawd yng Nghrist, a'n hoffter i ohono, a'i hoffter e ohono-i wedi'u bendithio'n helaeth helaeth helaeth gan y Gair.'

'Mi fydd Edward Phillips, Maesmynys yn llyncu sawl mul, mae arna-i ofn.'

'Edward Phillips? Dych chi ddim yn coelio'i fod e ...'

'Yn ffoli arnat ti? Does dim byd sicrach, dybiwn i.'

'Druan bach...'

'Synnwn i ddim y bydd e'n difaru o'i galon ei fod e erioed wedi clywed am y Wesleaid, ac erioed wedi'u gwahodd nhw i'r ardal. Mi fydd yn ddigon i'w droi e oddi wrth Fethodistiaeth am weddill ei oes.'

'Yr hen Anglican sy'n siarad nawr drwoch chi.'

'Wel, bydd yn dda gen i gael cymrawd gwrthodedig arall yn y gymdogaeth.'

Agorwyd y drws gan Marmaduke Gwynne. A gwelodd e'r ddau yn cydwenu arno. 'Fe glywsoch chi?' gofynnodd e i'r caplan.

'Do,' meddai Theophilus Evans. 'Mae'n newydd at eich dant, syr.'

'Ydy...!' atebodd y sgweier braidd yn sychlyd. 'Ond Mr Evans,' meddai'n ddisymwth ddifri.

'Ie, sgweier.'

'Hoffwn i ddim ichi goleddu rhyw obeithion gwynfydedig ynghylch gweinyddu'r gwasanaeth.'

Rhewodd y caplan. Tawelodd Theophilus Evans fel carreg. Rhewodd Sali. Yna, troes e'n ddiymadferth tuag at Sali. 'Fyddech chi, Sali, ddim am yn rhwystro i rhag y fraint hon?'

'Nhad.'

'Yn yn eglwys i yn hun!' Roedd Theophilus Evans yn stond o flaen y Sgweier a'i ferch, yn ei ddillad duon, fel brân glwyfedig, a daeth crawc atseiniol a chreulon o'i lwnc o fewn cyfyngder yr ystafell honno. Ei galon wnaeth y sŵn.

'Na!... Byth.' Roedd y Sgweier yn bendant. 'Dw *i* wedi gwahodd brawd y priodfab i gyflawni'r gwaith yn eglwys y Garth.'

'Cha i ddim llais yn hyn o beth?' holodd Sali'n wylaidd, 'ynghylch *personae*'r gwasanaeth.'

'Ond brensiach brain! A finnau heb weinyddu! Priodas Sali o bawb!' criodd Theophilus Evans.

Roedd y Sgweier yn ddielifar: 'Byddai'n ddiystyr, dych chi'n deall.'

'Nhad.'

'Yn gabledd o fath.'

'Mae hi fel merch i fi,' meddai Theophilus Evans.

'I fi,' meddai'r sgweier, 'fe fyddai fel pe bai anghredadun yn eu priodi nhw.'

'Anghredadun?' Allai Theophilus ddim dirnad beth oedd ar y dyn.

'I fi, anghredadun yw rhywun sy heb nabod Iesu'n bersonol. Allai Mr Charles Wesley byth ganiatáu'r fath beth,' ychwanegai'r Sgweier.

'Ga i ei berswadio fe?' gofynnodd Sali. 'Dw i'n siŵr y byddai Charles yn y modloni i. Gwaith ffurfiol yw gwasanaeth fel hyn. Deunydd llyfr yw e.'

'Byth,' meddai'i thad. 'Dwi'n nabod dy ddarpar-ŵr yn well na thi.'

'Dyma i fi, syr,' meddai Theophilus Evans, 'fyddai uchafbwynt y ngwaith offeiriadol. Erioed o'r blaen...'

'Mae'r caplan yn fwy na chlerigwr i ni, nhad. Mae'n fwy na llais a dwylo. Mae'n ffrind. Mae'n damaid o'r Garth ei hun.'

'Ydy. Ond eglwys i'r plas a'i weision yw Llanllywenfel i bob pwrpas,' meddai'i thad, 'Eglwys i'n pobl *ni*. Dw i'n deall eich teimladau chi. Ond deallwch y nheimladau i. Ordinhad Duw yw priodas. Gwaith y Crëwr goruwchnaturiol, Arglwydd Caniad Solomon y Beibl, Arweinydd Boas a Rwth, a'r Iesu anffaeledig, ac nid gêm eglwyswyr. Fe sy'n gwneud hyn.' Roedd y Sgweier yn ddiwyro.

'Ond gwasanaeth “Eglwys Loegr” yw hyn nhad, nid gwasanaeth o wneuthuriad Mr Evans. Fyddai dim byd y tu allan i drefniant y “Llyfr Gweddi”. Rhwng Charles a fi y derbynnir hyn, nid i weision y plas.'

Teimlai Theophilus Evans yntau fod y dadleuon yn ei erbyn heb fod yn wrthwynebiad effeithiol a theg. Ond roedd yna anesmwythyd arall yn ei galon. Roedd y

blynyddoedd diweddar wedi gwasgu arno fe barodrwydd cydymffurfiol i gyfaddawdu â'r Sgweier pryd bynnag y gallai'i wneud. Gan gymaint oedd gwrthwynebiad y Sgweier, a'r gwahoddiad wedi ei estyn eisoes o du'r teulu i arweinydd eglwysig mor nodedig â John Wesley, diau fod yna ddadl o *gwртеisi* moesgarol iddo fe fodloni ar ildio eto ar y mater hwn. Onid e, fel arall, fe âi'n stŵr ac yn sgandal. Ond wrth gwrs, ildio y byddai'r caplan ar sail cwrteisi moesgarol i ŵr mor eithafol a diarhebol anghwrteisïol ac anfoesgar â Marmaduke Gwynne. Dyma goegi chwerw yn wir! Roedd ei gryfder wedi'i anafu, a'i benderfyniad wedi'i ysigo.

'Ga i o leia *ddod* i'r gwasanaeth,' gofynnodd y caplan yn wylaidd. Dyma ddechrau ildio o ddifri.

'Byddai'n wagedd.'

'Does dim modd ichi, syr, yn rhwystro i rhag *dod* does bosib.'

'Fydd 'na ddim *gwahoddiad*. Fyddai hi ddim yn briodol. Fe allai dorri ar yr awyrgylch.'

'Yn ôl y gyfraith – anodd fyddai yn atal i rhag *dod* i'n eglwys i yn hun, – oni fyddai, er na dwi'n cynhenna ar sail cyfraith. Dw i ddim yn gofyn nawr am yr *hawl* i atal y peth pan ddêl yr ymholiad yn y gwasanaeth i alw a oes 'na rwystr cyfreithiol rhag y briodas hon. Dw i ddim yn gofyn ond am fod yno fel ffrind.'

'Oes, mae yna rwystr i chi. Fi yw'r gyfraith yn y parthau hyn. Fi sy'n penderfynu. Ac i fi'n ddiwinyddol, cabledd fyddai. Mae holl foesgarwch a diwylliant y canrifoedd yn llefain yn erbyn y fath sgandal yn achos Sali. Yn llythrennol, wrth gwrs, mae gwrthdystio'n bosibl. Mae'n gorfforol bosibl. Ond yn ymarferol, nid anodd yw atal y fath ymddygiad â phresenoldeb yn rhesymegol ac yn gwrteisïol.'

Dyma felly oedd llond baddon o gwrteisi cymhleth a chymysglyd ac annealedig o du Gwynne. 'Dyw e ddim ... yn *cael* *dod*?' gofynnodd Sali'n syfrdan.

'Na. Ddim ar gyfyl y lle. Bydd y porthorion yn derbyn siars gen i.'

'Yna, fydda innau ddim yn *dod* chwaith,' meddai hi â holl ddiacter disyfyd a gwyllt ei llygaid hi a'i natur deimladus. 'Fe awn i eglwys arall.'



Chwarddodd ei thad, fel pe bai hi wedi llunio jôc yn fwriadol: 'Byddai hynny'n ychydig bach o broblem, merch i. Gofynnwch i Charles. Weli di, Sali, mae gen innau broblem.'

'Dych chi'n ei sarhau e. Mae'n greulon.'

'Ddim o gwbl. Paid â nghanmddeall i'n fwriadol,' meddai'i thad. 'Dw innau'n reit hoff ohono fe, fel mae'n wybod.'

'Dych chi'n tynnu'r tir oddi tan ei draed.'

'Tria di weld yn safle i.'

'Dw i'n gwybod beth sy'n eich corddi chi nhad. Ond dw i'n brofiadol o'r un Gwaredwr yn gwmws â chi. Dw i'n nabod yr un Gwaredwr a'r un llawenydd. Dw i'n gwybod fod Mr Evans yn gwrthod ein profiad ni, heb ei ddeall na'i flasau, debygwn i. Ond gwasanaeth defodol yw gwasanaeth priodas gan yr Eglwys a'r Llyfr Cyffredin.'

'Mae'n llawer mwy na hynny, ac rwy'ti'n gwybod hynny. Mae gwrthod tröedigaeth annealladwy'r galon yn anghymhwys dyn.'

'Yn y Beibl mae'r cwbl nhad. Dyna'n syml.'

'Clyw Sali, mae gen i feddwl reit uchel o Mr Evans fel hanesydd. Mae e'n Gymro da. Dw i'n hoffi fe hefyd. Ydw. Mae e'n gyfaill annwyl. Does gen i ddim rhagfarn bersonol yn ei erbyn e o fath yn y byd. Cred di fi. Ond dyma inni briodas credinwyr, Cristnogion wedi'u haileni. Mae e'n deall hynny hefyd. Mae hynny'n syml.'

'Gweini y byddai fe, dyna'r cwbl.'

'Nid un o'th chwaraeon plant yn hyn. Clyw, a thria ddeall am funud, Sali. Mae Duw yn *meddwl* rhywbeth inni, ti a fi a Charles. Bydd E'n bresennol hefyd y diwrnod hwnnw, nid fel gair yn unig mewn Llyfr Gweddi.'

'Ond os na cha i wneud hyn o waith, Sgweier,' meddai'r caplan lled fud ar yr ymyl, 'a finnau'n gaplan mewn enw i'r Garth, does gen i fawr o ddewis...'

'Allwn ni ddim caniatáu'r peth.'

'Dych chi'n gwneud pethau'n ddyrys... yn amhosib i fi.'

'Mae'n rhaid cael gwasanaeth profiadol.'

Trodd Theophilus yn flinedig ac yn ddwys at Sali: 'Y tro o'r blaen, eich teulu *chi* a'm hanfonodd i o'r tŷ hwn, Sali. Y tro hwn, *fi* sy'n mynd. Dw i'n *ffarwelio* am byth.'

'*Chi* sy'n ein diarddel *ni*.'

'Ie. Bydd rhaid ifi ymadael â'r Garth yr eilwaith,' meddai'r caplan.

'Does dim angen hynny o gwbl,' ymyrodd Marmaduke Gwynne.

'Rhaid, syr.'

'Os felly...'

'Dyna fyddai orau, o bob safbwynt,' meddai'r caplan clwyfedig.

'Os felly, wel, o'r gorau, gwell gwneud hyn efallai yn ddiymdroi... os dyna yn *wir* yw'ch dewis.'

'Mewn chwinciad chwannen, syr.'

Gwgodd Marmaduke Gwynne at yr ymadrodd gorliwgar ac anfoesgar hwn, ond parhaodd yn dawel: 'Deallwch hyn, Mr Evans. Chi'ch hun sy'n mynd. Nid *fi* sy'n eich alltudio *chi*.'

Ar Sali roedd Theophilus Evans yn edrych yn awr. Roedd yn ei gweld hi mewn pellter yn llun bychan eiddil. 'Bendith y ne arnat ti, Sali, ac ar dy briodas ragluniedig.'

'Nhad!' plediodd hi.

'Nid y nymuniad i yw *ichi fynd*,' meddai Marmaduke Gwynne.

'Nhad!'

Gwyrodd Theophilus Evans tuag at y sgweier heb ei wynebu'n blwmp ac yn blaen: 'byddai'n anodd *ichi* y ngwahardd i, rhag rhoi mendith, o leia, sgweier.'

'Dych *chi*'n amgyffred yr anhawster, Evans.'

Moesymgrymodd Theophilus Evans fel pe bai yn ei ddeall, ac yna troes am y tro diwetha at Sali: 'Y mendith, Sali, yn helaeth arnoch *chi*'ch dau.'

'Mae'n ddrwg gen i, gaplan,' sibrydodd Marmaduke Gwynne yn isel. 'Mae'n wir flin gen i.'

Ciliodd Theophilus Evans.

Ac yr oedd Sali a'i thad ar eu pen eu hunain gyda'i gilydd. Edrychon nhw ym myw llygaid ei gilydd, yn sobr ac yn fud ac yn hir. Ac yna, rhedodd Sali at ei thad, a'i thaflu'i hun ar ei ysgwyddau: 'Pam? Pam bod mor greulon?'

'Rwyf ti'n gwybod pam. Mewn priodas lle y mae'r ddau frawd yn offeiriaid, brawd y priodfab fydd yn arfer gweinyddu i achlysur teuluol. Mae'r cwbl yn fater o gwrteisi. Ar achlysur o'r fath, mae'n gonfensiwn nid anghyffredin i'r brawd gael y fraint hon.'

'Wel, pam na ddwedsoch hynny wrth y caplan?'

'Fe'i gwyddai'n burion.'

'Mae e mor addfwyn... Does neb yn ei ddeall. Mae e mor garedig, mor urddasol... mor unig.'

## 6.

Daeth yn bryd ymloywi ac ymdwtio, a thrwsio o'r newydd ar olwg y Garth, ar gyfer yr achlysur mawr, ac ymweliad diau gwahoddedigion bonheddig y sir.

Roedd pawb am filltiroedd yn paratoi.

Safai Marmaduke Gwynne a'i goesau ar led fel capten llong, a'i ddyrnau ar ei wasg, yn arolygu gwaith dau o'i weision yn datgymalu'r cwt pren blêr a safai yn y dwyrain i blasty'r Garth. Dyma'r cwt lle y byddai Sali, yn ferch ifanc, gydag un o'r ddau was hynny heddiw, sef Wiliam Kendrick, wedi hoffi chwarae pob math o ddychmygion diniwed. Roedd hynny ddeuddeng mlynedd ynghynt: fel yr oedd yr amser wedi saethu heibio. Heddiw safai ei thad yn awdurdodol felly fel pe bai am gadw'i sadrwydd traed ar ddec rhyw long hwyliau go ansicr ohoni'i hun yn y gwynt annhymig. Oni bai nad oedd ganddo chwip, ac oni bai fod y ddau was hyn yn hollol wyn eu croen, fe ellid tyngu mai

un o'r perchnogion caethweision o Unol Daleithiau America oedd y Sgweier hwn, wrth iddo weiddi a tharanu'i orchmynion i'r gweision oll y bore hwn. Diau fod gwleidyddiaeth y sefyllfa'n ddigon cyffelyb.

'Tomos!' Ilefodd Sali'n siomedig wrth yr hyna o'r ddau was wrth law. 'Beth yn y byd ych chi'n wneud?'

A rhedodd hi i ddal ei fraich yn ôl, wrth iddo godi ar y cyd gyda'r gwas arall, (y gŵr ifanc, hylaw, dall), dulath weddol drom a oedd wedi bod yn cynnal to'r cwt.

'Meistr ddwedodd. Tacluso, meddai fe.'

'Doedd e ddim wedi sôn wrtho-*i*. Ond y nhŷ *i* yw'r lle bach hwn,' meddai hi â llais eitha mursennaidd. A throes at Wiliam. 'Ein ffau ni'n dau.' Roedd e wedi rhoi ei ran e o'r dulath ar y llawr tra oedd gwleidyddiaeth y gorchwyl yn cael ei phenderfynu. 'Wiliam Kendrick, rown i'n meddwl ein bod *ni*'n ffrindiau, ac yn deall ein gilydd.'

Crychodd e'i dalcen yn ymddiheurol. 'Dim ond ufuddhau i orchmynion dŷn ni.'

'Rwy'ti'n gwybod beth yw arwyddocâd y lle 'ma i fi. Dyma ngorffennol i.'

Roedd Marmaduke Gwynne, a safai'n ôl ychydig yn bell oddi wrth y gorchwyl, wedi gwylid yr ymyrraeth hy hwn, a'i wyneb yn dal cymysgedd o ddifyrrwch ac o ddiffyg amynedd. Maldod a mursendod oedd hyn. 'Beth sy, Tomos?' gofynnodd y Sgweier.

Troes Sali tuag ato, fel pe bai'n gwbl anymwybodol ohono ynghynt, oherwydd iddi roi'i bryd yn gyfan gwbl ar y dasg ysgeler hon a oedd wedi'i syfrdanu hi ar y pryd. 'Nhad!'

'Does gen i mo'r amser nawr.'

'Ond pam dych chi'n tynnu nhŷ i lawr? Mae'r cwt 'ma'n rhan o mywyd i.'

'Rhan o hanes fydd hi o fewn yr awr... Mae 'na briodi ar waith. Ac eisiau twtio sy ymlaen llaw, a chymennu hollol drwyadl. Mae'r Garth yn cynnal priodas o gryn bwys.'

Roedd Wiliam Kendrick bellach wedi gollwng ei ben e o'r dulath yn gyfan gwbl. A gofynnai'r gwas hŷn iddo: 'ydy e gyda chi, Wiliam?'

Doedd gan Marmaduke Gwynne na'r amser na'r goddefgarwch i ymdroi gyda'r ferch y bore 'ma nac i ddal pen rheswm â neb. Gwaeddai ar y ddau was drachefn: 'Pentyrrwch nhw i gyd fan hyn.' Ac ailddechreuodd y ddau ar eu gwaith, gan gludo ychydig o ystyllod i'r lle a ddangosai.

'Allech chi ddim aros?' plediai Sali. 'Ychydig o wythnosau sy cyn ifi fynd o'ma.'

'Nid nawr, Sali. Nid nawr.' Fe allai Sali, yn ei fryd e, ramantu'r gorffennol ambell waith fel pe bai'n gyfnod presennol a deimlai'i bod yn haeddu'i orsedd mewn hanes.

'Pam dych chi'n y mrifo i?' holodd hi.

'Paid â siarad yn wirion. Paratoi i'r briodas yw hyn, dyna'r cyfan.'

'Pam y mhoeni i, nhad?'

'Roedd hi'n bryd ei dynnu fe 'lawr. Chwaraei di ddim 'ma mwyach.'

'Ond dyna ngorffennol i oll. Atgo yw-e.'

'Roedd y cwt 'ma'n peri i'r tŷ i gyd edrych yn siabi, erbyn y diwrnod mawr a'r orymdaith o ymwelwyr.'

'Dych chi'n mynd i ddiennyddio mhлentyndod.'

'Twt, twt. Roedd hi'n bryd ei dynnu fe 'lawr.'

'Fi sy'n priodi. Ambell waith, nhad, dych chi'n gallu bod mor anfonheddig. Dych chi eisiau creu argraff, yn lle'ch bod yn ymlacio'n hyderus gyda'ch cyfeillion o fewn eich awdurdod sirol chi, a'ch dylanwad ar eich cymdogion a'u hamgylchfyd. Dych chi'n colli'r cartrefolrwydd ymlaciol o fod yn gafalŷr. Does dim eisiau poeni, nhad, am farn neb o'r ymwelwyr.'

Plentyn oedd hi iddo fe o hyd, plentyn annibynnol ond ystyfnig. Ar achlysur arall fe fuasai fe'n barod ddigon i oedi a thrafod y mater gyda hi, ac i geisio dwyn perswâd mewn modd ychydig yn addfwynach. Eithr roedd yna amser i bob peth. Roedd

e'i hun wedi bod yn rhy oddefgar tuag at y cwt chwarae hwn am gyfnod rhy hir; ac wedi iddo godi digon o benderfyniad i'w ddileu a'i lanhau unwaith am byth oddi ar wyneb y ddaear, doedd e ddim am i ddim ei rwystro bellach rhag dwyn y maen hwnnw i'r wal. 'Cywilydd!' meddai fe dan ei anadl wrth syllu ar yr annibendod a oedd ar ôl. 'Mae'n bryd i'r wlad i gyd chwarae oedolion mwyach.'

'Ac wedyn, mi wnaethoch chi losgi llawer,' murmurodd Sali'n isel fel pe bai'r sbonc wedi diflannu o'i gwrthdystiad. Roedd hithau wedi gorfod plygu'n anochel i chwiwiau patriarcaidd eithafol bondigrybwyll ei thad... 'Dinistrîo â thân!'

'Beth arall?' meddai fe.

'Y peth cyflym dros-dro 'na sy'n difa pob peth ara arhosol.'

'Dw i'n difa peth hollol ddychmygol, Sali, dyna'r cwbl: mae gadael blerwch dieisiau fel hyn yn dianrhydeddu gwahoddedigion.'

Roedd hi wedi cyrraedd trobwynt newydd yn ei bywyd. Ar ryw olwg, bu symud hyn fel sarhau ieuencid. Ar y naill begwn – roedd hi'n camu ymlaen i briodi, ymadael, cefnu ar fam a thad, ennill oedran aeddfed gwraig yn ôl ei hawl ei hun. Ac ar y pegwn arall – roedd ei newidiad hi yn newidiad i'w rhieni, a oedd yn clywed symudiad tectonig o fewn perthnasedd y teulu hwn.

I Marmaduke Gwynne, y Sgweier uchel ei gloch, dim ond cynllunio ar gyfer dyfodol gwahanol syml roedd e; ond roedd yntau'n dawel bach yn pendroni am yr atrefnu mewnol teuluol na allai fe'i hun lai na'i gamddeall.

Ond roedd Sali mewn hiraeth mwy awenyddol nag y gallai fe byth obeithio ei gyrraedd: 'Y cynnwrf gwyllt yn difetha'r myfyrdod tawel,' meddai hi. Roedd ei phen hi'n isel, a siffrwd y sillafau hyn a wnâi hi rhyngddi a hi ei hun, tra âi Marmaduke Gwynne yn ddiamynedd bellach at y gweision i'w helpu nhw gydag un ystyllen drymach na'i gilydd. Roedd y gwaith islaw ei urddas e; ac eto teimlai'r brys, yr angen ysol i orffen y gorchwyl ar unwaith er gwaetha pob ymyrraeth. 'Nid nawr, Sali, nid nawr.' A phrysurodd e i ymaflyd mewn ystyllen drom arall, gan gael rhyw fath o hwyl ar y gwaith corfforol.

'Y cwt hwn oll oedd y nhŷ i, ' ochneidiodd Sali'n ysgafn. 'Y mhlasty i. Dyma'r lle roedd nheulu i wedi preswyllo ers cenedlaethau.' Gwelai hi'r gyfnewidiaeth fechan hon yn nhermau ffrwydrad teimladol mawr yn yr holl stad.

'Cer â dy ffansïon gwirion,' meddai'i thad. 'Mi ddaw cymdogion i ymweld â'n tŷ yn fynych dros gyfnod y briodas; ac mae disgwyl trefn.'

'Roedd e'n hardd ac yn gadarn o'r blaen, yn y mhlentyndod i,' meddai hi.

'Paganiaeth! Pethau! Creirio'r arferion a fu!' Roedd y Cristion hwn newydd ddarganfod egwyddorion dieithr. 'Chwarae gyda phetheuach ailbwys,' meddai'r Sgweier.

Yn llygad ei chrebwyll hi, canfyddai hi orchudd o eiddew ar y waliau pren hefyd megis am waliau cerrig y plasty ei hun, yn syrthio'n haenen am ben haenen fel oes am ben oes, gydag ymylon yr haenau'n hongian fel ymylon pais ffriolog glân am wraig urddasol, fawreddog gynt; amdani hi ei hun hyd yn oed. Mor rhwydd i rywun-rywun fuasai difa'r gorffennol. Roedd 'na chwerthin gynt yn canu clychau Ebrill drwy'r ystafelloedd hyn, ac atgofion fel rosmari'n cylchu'r coridorau. Nid paganiaeth byth oedd rhamantu hanes oes fonedd a fu yn y fan hon fel hyn.

Peth cyfangwbl ddiystyr a di-bwys oedd ei phlentyndod, oherwydd hyn.

Roedd hyd yn oed y gweision erbyn hyn yn dechrau synied ei bod hi ychydig yn fursennaidd. Fynnai neb ei dilyn mewn sentimentaliaeth wirion.

'Ble byddwch am inni roi'r coed, Sgweier?' gofynnodd Wiliam yn y diwedd.

'Gyda'r coed-tân yng nghefn y Plas.'

Trodd Sali'i chefn atyn nhw. Ceisiai guddio min ei surni, eithr yn aflwyddiannus: 'Does gynnoch chi ddim parch at y mhlentyndod? Does gynnoch chi ddim parch chwaith at yr henaint sydd i ddod. Dim.'

Chwarddodd y tri gŵr, – Marmaduke Gwynne yn uchel, a'r ddau was yn gwrtais gynnwl. Ond dyna oedd y gwir dychmyglon iddi hi. A dyna sut y teimlai Sali yng ngwaelod cyfrinachol ei pherfeddion. Roedd hi'n synied fod yna rywbeth mawr gwyn, a oedd yn cael ei chwythu i ffwrdd oddi wrthi, yn ffiiaidd gan ei thad heb yr un sylw i'w werth nac i'w gymeriad, a doedd hi ddim yn fodlon, nac yn deall.

Ym mrys y gwaith, baglodd Marmaduke Gwynne yn ddamweiniol yn erbyn Sali, ond prin iddo sylwi dim ar hynny: 'O! Sali,' ceintachodd e, am ei bod ar y ffordd.

'Pam bod mor ddiamynedd? Ymwared â'r cwbl. Dyna wnewch chi.'

Âi'r sgweier ati nawr i drefnu tynnu rhai gwrychoedd anghymharus gerllaw. Symudai ymlaen at gyfran arall o'r gwaith. Tacluso, trefnu o hyd, ar hyd ac ar led, dan gochl paratoi ar gyfer ymwelwyr. Pam lai nag ymwared â llawer o nodweddion 'blêr' a fuasai yno ers rhai blynyddoedd? Cwestiwn oedd o adfeddiannu ei annibyniaeth e hefyd, wedi cyfnod hir pryd roedd ei ferch wedi meddu ar ganolbwynt disgyrchiant y cartre.

Beth oedd y waliau pren brau iddi hi? Ystyllod oedden nhw a ddaliai gyfrinachau. Roedd hi wedi'u meddiannu nhw unwaith yn ei dychymyg. Bellach, gwynt i gyd. Roedden ni wedi bod yn waliau i drysorfa oesol o hen fywyd. A'i hen hen deidiau a neiniau, a'u teidiau a'u neiniau hwythau wedi dweud eu dirgeledigaethau wrth ei gilydd ac wrthi hi o hyd drwy bethau fel hyn. Ond ddadlennai'r parwydydd hyn ddim oll i neb arall. Hi yn anad neb a gadwai'r gyfrinach yn ffyddlon yn yr oes hon. Ac eto, fe ddyweden nhw lawer wrthi hi. Fe adrodden nhw am yr ymddiried a'r dyfnder, y ffrwythlondeb a'r cydblethu diffwdan a sicr gynt. Dyna'r byd i gyd o'i chwmpas a'r darlun o hen hwyl y byddai hi'n cefnu arni mwyach wrth briodi... Mor ysigol fu'r newid.

'Gan bwyll, fechgyn!' gwaeddai'r Sgweier.

'A'r caplan, nhad?' meddai Sali wrtho fe'n awr. 'Y caplan a'r gorffennol.'

Trodd ef ati'n ddig wedi iddi ofyn y fath gwestiwn amherthnasol. 'Sali!'

'Allech chi ddim.'

'Sali, gad lonydd i ni. Mae gynnon ni waith. Mae'n rhaid ei wneud e cyn daw'r glaw. Dyna ddigon. Dim ond tacluso dŷn ni. Bydd hyn yn hanes newydd.'

'Ond ga i siarad?'

'Nawr?' Doedd e ddim mewn hwyl i oddef dim mwy. 'Na.'



Doedd John Wesley na'i frawd Charles ddim wedi aros y tro hwn, nac ers rhai troeon erbyn hyn, ar aelwyd Maesmynys, cartre'r Parchedig Edward Phillips, eithr yn y Garth. Ac yno, ar Ebrill 8ed cododd y ddau ynghyd â Sali a'i chwaer Beci am bedwar o'r gloch y bore, gan dreulio pedair awr ar weddi ac yn canu emynau, rhai o'r emynau wedi'u cyfansoddi'n arbennig i'r achlysur gan y priodfab.

Gwnaen nhw hyn wrth gwrs heb gwmni Theophilus Evans.

Cododd yntau am saith. Roedd hi'n fore gloyw. A dyrchafodd e, yn ôl ei arfer, weddi o ddiolch am fore mor lân ei awyr ac am lendid pefriol yr Un a greodd yr awyr.

Lawer gwaith, cyrchasai Theophilus yn y bore bach i eglwys Llanllywenfel yn y gorffennol, ac yn ei galon roedd 'na lawer teimlad gwahanol wedi ymnythu; ond erioed o'r blaen mor drwm, erioed mor ara â heddiw. Chafodd e ddim o'r un blas bellach ar gyrchu yno – i ddisgwyl wrth y porth am ddyfodiad y cymdogion a'r ymwelwyr nac i syllu yn syml o'r tu allan ar y tŵr. Yr unig waredigaeth i Theophilus Evans efallai y bore hwn oedd harddwch y wlad wrth iddo gerdded yno tua'r llan, harddwch a'i tynnai fe heddiw'n fwy nag erioed ac a'i cysurai fe mewn modd annisgwyl rywsut. Diolchodd Theophilus am gyfoeth y bore.

Closiodd at y Creawdwr yn ei holl fawrhydi, yn ysbryd o lawnder myfyrdod cyfoethog, yn yr amgylchfyd manwl. Bore oedd o odidowgrwydd y ddaear naturiol yn ymestyn ar bob llaw i lygaid a thrwyn a chroen y ficer.

Ond prudd oedd e nad fe a gâi weinyddu'r gwasanaeth a'r diolch heddiw.

Gorweddai defaid fel meini gwynion llonydd yno hyd y caeau. Doedd hyd yn oed dail y coed ddim yn syflyd, o leia cyn belled ag y gwelai fe. Roedd ambell gae a'i bridd yn goch fel ffwr llwynog, yn gynhesach ei olwg na'r borfa yn y caeau eraill. Twt oedd amrywiaeth y meysydd hyn oll, serch hynny, wedi torri'u gwallt gwyrdd a'u heillio'n weddus yn barod fel petai i fynd i wledd yr ha a ddeuai ar ei hald ymhen mis neu ddau. A chanfyddai Theophilus Evans yn y pellter ar yr ucheldir wythïen ffordd yn dirwyn drwy'r rhosydd dyrchafedig gerllaw gan ddod ag ynni iach ffrwythlon i'r tyddynnod diarffordd acw.

Ond châi e ddim mynd i'r Eglwys y tro hwn. Penderfynodd na adawai fe i'r siom honno ei feddiannu, a chreadigaeth Duw mor frenhinol yn ei hyfrydu o'i ddeutu.

Mewn rhai o'r caeau acw, closiai clwstwr o goed yn gynnes at ei gilydd. Gwyddai Theophilus Evans pam, wrth gwrs. Yr oedd y naill goeden wedi esgor ar y llall, dyna'r cwbl, wedi bwrw had rhyddieithol, ac wedi rhoi cychwyn i fywyd y tyfiant cyfagos, cymdogol. Ac felly yr ymledon nhw'n drefnus mewn clystyrau tebyg. Ond eu gweld nhw'n aros ar bwys ei gilydd yn syml fel hyn a wnâi'r clerigwr, am eu bod nhw'n licio cwmni'i gilydd. Yna, wrth i'w galon rodianna linc-di-lonc fel hyn drwy'r wlad, ac yntau'n symud ei lygaid hamddenol yn ddidramgwydd o'r naill gae i'r llall a chan fwynhau'r glesni golau, yn sydyn dyma weld ar ganol yr areuledd un cae (a oedd wedi'i gyflwyno'n unswydd i'r eglwys fel mynwent gan ei berchen) fel pe bai yn ei annisgwylrwydd hardd gwahanol am haerllug gyhoeddi'n orfoleddus i'r byd fod eu prennau bychain hwy'n gyd-debygol: 'Dÿn ninnau yma o hyd, paid ag anghofio, paid â bod yn rhy jocôs.' Mor ysblennydd, ac mor dragywydd oedd natur y bore.

Mor agos at ei gilydd yn aml y byddai pobl yn plannu eglwys a mynwent o hyd, y marw a'r byw, megis y gweithredu a'r hanes. Fel cymdeithas. Âi'r munudau dyfal yn eu blaen, a'r blodau'n hongian ar bwys ei gilydd yn y gweirgloddiau fel milwyr mân. Pleser gloyw digymysg oedd hyn serch hynny i lygaid blinedig Theophilus a grwydrai fel hyn ymhellach na'i draed heddiw, cyn belled ag y mynnai'i ddychymyg ei gludo, i'r cyrrau lleia oll ar y gorwel sefydlog. Er bod dynion syrthiedig yn ganolbwynt mor sarhaus i raslonrwydd prydferth y Crëwr, roedd E wedi diogelu digon o rinweddau gras cyffredinol i'n hatgoffa bod ei Ragluniaeth E wedi'i hangori'n ogoneddus ddiwahân. Roedd y cloddiau'n gadwyni addurniadol ac yn gymorth i ddal yr holl olygfa yn ei lle ar dir mor ddisymud. Ymddangosai fel fframin cadwynog i ddal yr holl banorama'n ddiogel.

Rhaid fod Theophilus Evans heddiw wedi crwydro ar hyd rhai o'r caeau hyn, heb ei gyfeirio'i hun at yr eglwys am sawl awr. Allai fe ddim llai na theimlo, oherwydd y cyffro cudd a'r rhyfeddod yn ei galon, fod pob peth yn y fan yma mor eithriadol o ddistaw; yn ddistaw eithafol, ac eto'n fanwl eplesol. Ymunai pob dim mewn perthynas wahanol. Teimlai Theophilus fod 'perthynas' yn rhodd rhwng pob peth yn y greadigaeth.

Hyd yn oed ambell dro, pan welai fe yn awr ddau gae, dwy ffordd, dau glawdd a ymddangosai'n debyg, yn nesa at ei gilydd, roedd y tebygrwydd unol hwnnw mor annisgwyl o wahanol i bopeth arall. Gwyddai fod ei lygaid ei hun er hynny yn chwilio am ryw amherffeithrwydd bach cysylltiol, – yn ymateb ym mhob cornel; ond roedd y cwbl iddo o hyd yn gwbl lân. Rhaid bod gofidiau dyn oll fel hyn hefyd, ond iddo geisio cysur Duw. Roedd hwnnw oll yn drefn berffaith ac annwyl o hyd yn bendithio'r munudau tawel hyn.

Erbyn hyn, wedi i'r hen gaplan orffen ei dro dihangol drwy'r wlad, roedd y gwasanaeth drosodd.

Y tu allan i eglwys Llanllywenfel erbyn hyn, roedd yna dyrfa fach yn disgwyl, yn weision a morynion, a chymdogion. Roedd pawb yn ddistaw; ac ymunodd Theophilus Evans – yn y cefndir – â'r distawrwydd hwnnw.

Disgwyl roedden nhw oll am wahoddedigion y briodas i ddod allan o'r eglwys.

Ymhen hir a hwyr daeth Charles Wesley a'i wraig Sali i'r golwg. A ffrwydrodd y dyrfa'n floedd o gyfarchion a miri. Ar eu hôl nhw daeth John Wesley, ac yna Marmaduke Gwynne ac eraill o'r teulu. Gŵr byr oedd Charles, fel ei frawd; ond roedd Charles ychydig yn llawnach ei gorff, ac yn llai miniog ei brydwedd. Ond tlysnï mwynnaidd Sali a dynnai sylw pawb, a phan welwyd hi yn ymddangos torrodd yr holl dyrfa fach i guro dwylo. Ymatebodd hithau'n gynnes iddyn nhw â'i gwên, a thrwy godi'i llaw. Ac yna, gwelodd hi ei hen athro Theophilus Evans yn sefyll ychydig ar wahân iddyn nhw, braidd yn neilltuedig ar bwys y ffordd, fel na allai dynnu sylw. Pe bai'i llygaid wedi chwilio'n fwy diwyd, bydden nhw wedi gweld y Parchedig Edward Phillips hefyd ar yr ochr arall, yn fwy neilltuedig, ac yn llai amlwg byth.

Ond pan ganfu hi'i hen gaplan, trodd Sali at John Wesley, gwneud cyrtsi, 'John'; yna at Charles Wesley, 'Charles'; a gadawodd nhw gan frysio i lawr y llwybr i siarad â Theophilus Evans. Estynnodd hi'i dwy law tuag ato wrth nesáu. A chymerodd e ei dwylo hi yn ei ddwylo fe.

Sylwodd pawb.

'Mae'n ddrwg gen i mod i ddim wedi bod yn bresennol', meddai fe, mewn ymddiheurad diniwed a diystyr. Fwriadai fe ddim achwyn.

'O! Mae'n greulon,' meddai hi.

'Ond dw i mor llawen gyda thi,' meddai fe. Gwenodd e mewn didwylledd llawn, ond gan ledu'i ddwylo'n ddiymadferth.

Ond iddi hi, fe'i dodwyd e'n annheg ar ymylon bywyd y presennol, heb ddod i mewn. 'Da boch chi nghaplan i. Mae'n ddrwg 'da fi am y sefyllfa ryfedd hon. Gobeithio y bydd hyn yn cael ei hunioni ryw ddiwrnod.'

'Rwyd ti'n edrych yn grand iawn.'

'Peidiwch â dweud wrth y ngŵr.' A chwaddodd yn swil. 'Pethau fel 'na dŷn ni'r Methodistiaid, wyddoch.'

'Rwyd ti fel tywysoges yn dy wisg briodas.'

'Tywysoges lawen yw nghalon i heddiw, mae'n wir hefyd. Ond tywysoges drom gymysglyd o ran hwyl yr un pryd mewn un cyfeiriad.'

'Welais i erioed monot ti fel 'na. Yn drom?'

'Fi sy 'ma, serch 'ny.'

'Fyddwn i prin yn eich nabod ni mor dywysogesaidd.'

Chwarddodd Sali; 'dych chi'n nabod yn llais i, does bosib.'

'Ydw. A'th ddrygioni ... diolch am hwnnw... a dych chithau'n yn y neall i.'

'Gaplan!' A gostyngodd ei lleferydd: 'Dŷn ni'n deall ein gilydd yn well o lawer nag y mae nhad yn ei sylweddoli.'

'Ydyn, ydyn,' meddai fe. 'Rwyd ti'n gyfarwydd â merfau Lladin i, ond yn deall eu gwerthoedd hefyd, a sut y mae gwareiddiad yn estyniad iddyn nhw; a'r troeon yn y wlad yn gyfle inni ddysgu enwau cnocell y coed a llygaid Ebrill.... Ac eto, a wyt ti yn yn nabod i?'

'Pwy sy, gaplan?' meddai hi'n ddwys gan ledu eto'i dwylo'n ddiymadferth o'i flaen; ac yna, gan oleuo, trodd ei phen tuag i fyny ryw fymryn, ... 'On'd E?'

Gwenodd e, a lledodd yntau'i ddwylo'n ddiymadferth. Yna, a'i lais wedi colli pob grym, sibrydodd: 'Da bôt ti, Sali.'

'Da boch chi nghaplan annwyl i... Efallai'n bod ni mewn bydoedd pur wahanol bellach, mae'n debyg.'

'Ydyn.'

'Hollol wahanol efallai. Chwyldroadol.'

'Ond bod rhyw fath o ysgolion pry cop o'r gorffennol yn cydio'r bydoedd wrth ei gilydd mewn fframwaith potensial.'

'Ddim yn ddigon gwydn i ddal ein pwysau ni'n dau heddiw, mae'n flin 'da fi,' meddai hi. Wrth sylweddoli hynny syrthiodd rhyw ysgryd drwy gorff y naill a'r llall yr un pryd: gwahanu'n derfynol roedden nhw.

Roedd e wedi'i dwyllo'i hun o fewn Gras Cyffredinol. 'Wyt ti'n hapus, Sali?' Edrychodd ei hathro yn ddwys i gefn ei llygaid, lle yr oedd ei dirnadaeth yn llechu. A chydiodd e yn ei dwylo hi eto.

'Ydw, yn nefol o hapus... Ydy hynny'n air gweddus? ... Dw i'n cael rhyw ragflas o leia. Bydd eisiau gweddi pawb arna i, yn enwedig eich gweddi chi. Ac mi wna innau weddio y bydd rhai o'r pethau 'na wyddoch chi â'ch pen, yn dod yn realiti i chi.'

'Mae 'na ragluniaeth Sali annwyl. Mae yna Sgweier arall fry... Mae'r rhod yn troi, fel y dengys y gwanwyn.'

'Mae'r blagur yn agor eisoes,' meddai hi. 'A gwn eich bod wedi maddau i nhad.'

'A thithau hefyd wedi maddau iddo fe,' meddai fe. 'Byddwch chithau, fel fi, yn cael eich rhyddhau rhag cylch cryfder ei gymeriad e gyda'r blynyddoedd i ddod. Mi alla innau ddychwelyd at y ngwir waith wedyn hefyd. Mae'r rhod yn troi i bawb.'

'Bydd eisiau Hanes hefyd arnon ni'n dau o hyd,' meddai Sali. 'Bydd angen o hyd, ac am ganrifoedd i ddod, rywrai sy'n barod i arddangos ei hisraddoldeb hanesyddol

cynhenid i Gymru,' meddai Sali. 'Yr israddoldeb sy'n gwenwyno gwyleidd-dra ac yn cuddio gostyngeiddrwydd. Chi, yn anad neb, yw'r un sy'n gallu plymio i'r hen lyfrau angenrheidiol, a dod i fyny o'u dyfnderoedd, a llewyrch eu trysor a'u trais yn eich dwylo. Peidiwch â gadael eich Hanes.

'Mae gen ti ormod o ymddiriedaeth yno i, Sali.'

'Daliwch ati i sgrifennu er mwyn ein goleuo ni i gyd.' Tawelodd hi. Roedd rywsut yn gallu canfod rhyw amhosibilrwydd a oedd yn eu cylchynu nhw ill dau er eu gwaetha.

Tynnwyd ei sylw hi gan grŵp pwysig a oedd yn clebran yn ddifater gyda'i gilydd wrth borth yr eglwys. 'Da bo 'nghaplan i... ' meddai Sali nawr, ar frys. 'Ond gweddiwch hefyd drosoch eich hun.'

'Diolch dy fod mor ddiffuant drwy'r cwbl, Sali.'

'Wrth gwrs,' meddai hi.

'A finnau yn yn ffordd swnllyd i yn hun hefyd yn ddiffuant. Ond mewn byd rhyfelgar sy'n chwilio am y Gwirionedd, dyw bod yn ddiffuant yn unig ddim yn ddigon.'

Ciliodd hi'n dawel oddi wrtho, ac aeth yn ôl i ymuno, bron yn ddiymwybod i neb bellach, â'r fintai siaradus a oedd wedi ymgasglu'n gylch bellach wrth borth yr eglwys. Gwyliodd Theophilus ei chefn hi'n mynd, a gwenodd e'n dyner. Roedd ei cherddediad yn drymaidd, er iddi ymsionci dipyn wrth ailymuno â'r grŵp priodasol.

Trodd Theophilus Evans yntau i gerdded ymaith ac o gwmpas yr eglwys o'r tu allan. Doedd e ddim yn chwerw, yn wir; nac yn eithriadol o brudd. Mewn cae cyfagos, wrth edrych dros y clawdd, beth a welai yn ymestyn ar y ddaear ond trempyn di-esgidiau, barfog, yn cysgu'n ddiotal, a'i gorff yn agos agos i'r ddaear fel pe bai'n ceisio rhannu cwsg y ddaear honno, gan lyncu hen hun y tir i'w lun drwy ymestyn yn agos ac yn unol â'r siâp odano? Wrth ei weld, canodd Theophilus Evans yn ei galon: 'Diotal yw'r aderyn, / Ni hau ni fed un gronyn; / Heb ddim gofal yn y byd, / Ond canu hyd y flwyddyn.'

Eto, roedd Theophilus Evans bron â chwerthin am ei ben ei hun wrth weld y trempyn yno. 'Fe allwn i orwedd i lawr fan yna gydag e, yn ddigon taclus. Gallwn orwedd i lawr yn y tir dwfn yn hun, a myfyrio'n ddistaw, a gadael i'n hanes personol i rollo dros y meddwl i, heb fwydro y mhen am yr hen Gymru, na dim ond gwrando ar y si annealladwy ymhlith y gwreiddiau sy gan yng ngwlad i yn hun heddiw. A byddai ar neb eisiau sylwi arna-i yno, neb oll. Gallwn; ac fe allen nhw bawb anghofio amdana i fan hyn, yn ddigon teg.'

Edrychodd yn ôl yn awr tuag at yr Eglwys ac at Sali, a oedd bron fel pe bai wedi anghofio amdano fe eisoes. 'Dyna wirionen fach yw Sali. Wel, mae hi'n ifanc. Maen nhw i gyd yn ifainc. Dechrau y maen nhw, mae'n debyg... Ond ar gyfer dechrau, mae'r lle y maen nhw nawr yn lle rhyfedd, ddywedwn i.'

Roedd Sali bellach wedi cyrraedd ochr ei gŵr. A chydiodd yn ei law e gan ebychu'n ecstatig: 'Charles!' Ond roedd hwnnw wedi suddo i ddwystr rhyw sgwrs gyda'i frawd ynghylch diwinyddiaeth perffeithedd, a doedd dim amser ar y pryd i roi sylw priodol iddi hi. Siaradai fe'n fân ac yn fuan â'i frawd, tra oedd ei wraig newydd yn ceisio rhywfaint bach bach o'i sylw. 'Charles!' sibrydai hi'n awyddus, ond yn ofer, ar y pryd.

Roedd yna ddau lygad arall, serch hynny, a sylwai'n fanwl dros ben arni hi, ac a wyliai ddifaterwch ei gŵr gydag anfodlonrwyd cynyddol. Yn y cysgodion o hyd, yn sylwedydd pendrist ar y cwbl, roedd y Parchedig Edward Phillips yntau. Bu bron iddo fynd at Theophilus Evans yr eiliad y ciliodd Sali yn ôl at ei gŵr, a chyflafareddu rhyngddo'i hun ac e. Ond ymataliodd. Arhosodd Edward Phillips yno yn y cysgodion, fel pe bai yn rhinwedd ei safle, neu'i ddiffyg safle. Pe bai e wedi mynd at Theophilus Evans, dybiai, dichon y gallen nhw gyd-ymgysuro a chyd-felltithio'n chwareus, a sgysio am y dasg anferth o ail-adeiladu bywyd y byd modern, mewn Gras Cyffredinol ac mewn Gras Arbennig, a hwythau ill dau ar ganol chwyldro cyrhaeddbell yn hanes Cymru. Ond aeth e ddim. Bwriodd olwg hiraethus eto at Sali, ac wedyn at oerni ymateb ei gŵr Charles iddi. Ac yna, llithrodd, yn hollol ddisylw ei hun, i ffwrdd i'r caeau a'u tawelwch.

[*Ôl-nodyn i'r stori:*

Charles Wesley, awdur dros chwe mil o emynau, a luniodd y casgliad helaetha o emynau gwir angerddol yn yr iaith Saesneg. A bu ei ddylanwad ar dw barddoniaeth Saesneg yn anfesuradwy.

Yn ystod ei garwriaeth gyda Sali (Sarah), ym 1747, fe gyhoeddodd Charles ei emyn mwya o bosib, sef 'Love divine, all loves excelling / Joy of heaven, to earth come down.' Dichon fod hyn yn un o'r emynau hefyd a ganodd e a'i frawd John, Sali a Beci, ar Ebrill 8fed 1749 yn y Garth. Er mai clod i Gariad Gras Arbennig oedd yr emyn hwn, mae'n amlwg nad un oedd Charles i beidio â mawrygu mai 'gras' (rhodd oddi wrth Dduw) oedd Cariad Gras Cyffredinol rhyfedd hefyd, y cariad creedig rhwng gŵr a gwraig, a phresenoldeb parhaol gwaith Duw ym mhob gwedd ar y greadigaeth raslon hon, holl banorama Creadigaeth a Rhagluniaeth.

Ym mlwyddyn ei briodas, 1749, cyhoeddodd *Hymns and Sacred Poems*, lle y cynhwysir y llinell: 'And my heart it doth dance at the sound of his name.' Mae dawnsio yn symbol ac yn ddelwedd Feiblaidd; ond mi greda-i y byddai Charles yntau erbyn hynny'n gwybod bellach am y ddirwedd mewn priodas ddaearol ei hun hefyd, ac yng nghymeriad ei wraig.

Ymsefydlodd Charles Wesley a'i wraig Sali o 1756 ymlaen ym Mryste, lle yr ymgartrefon nhw am flynyddoedd lawer, nes symud i Lundain ym 1771. Yno, yn rhif 1 Chesterfield St., Marleybone, fe ddarparwyd tŷ helaeth a moethus, gydag ugain mlynedd o brydles ar ôl, ynghyd â seleri a stociwyd 'â gwin a helaethrwydd o gwrw,' drwy haelfrydedd Mrs Gumley, modryb y Fonesig Robert Manners. Cynyddodd y serch rhyngddyn nhw'n feunyddiol fel nad oedd Charles o'r braidd yn cael blas ar deithio i bregethu i unlle oddi cartre hebddi hi, gan gymaint oedd ei hiraeth am ei chwmpeni yn y tŷ, cartrefle a oedd ynghlwm wrth ei emynau mawr.]



## GWAED GWYN

*Ganwyd Rhisiart Gwyn mewn cartre Protestant diwylliedig a chysurus ym 1537. Ni welid yn y cartrefle cynnes a hamddenol hwnnw odid ddim a barai i neb synied y gallai'r cynta o ferthyron Catholig Cymru godi oddi yno. Pan oedd yn blentyn, câi addysg eangfrydig yn y saith gwyddor ryddfrydig ynghyd â diwinyddiaeth. Ond anodd fysai i neb o'i gyfeillion cyfoes ar y pryd synied ei fod e'n arddel unrhyw gredoau eithafol, na hyd yn oed syniadau cyffredin, megis cydnabod Duw fel unig lywiwr pob gwybodaeth, heb sôn am ddod o hyd ynddyn nhw i rym diwinyddol a'i gyrrai fe ar lwybr ymrwymiad ysbrydol anghonfensiynol i Grist.*

*Dan ysgogiad ei dad, aeth e'n gynta i Brifysgol Rhydychen. Ond oherwydd gormod o gythrwbl crefyddol yn y fan honno, troes yn fuan i Brifysgol Caergrawnt lle y dechreuai'i galon yn gwbl annisgwyl synied ei fod yn clywed llais rhyw Ysbryd yn pwyso ar ei gydwylbod. Daeth o dan ddylanwad Dr Bullock. Ond oherwydd cryn betruster ac ofnusrwydd ar ei ran e ar y dechrau, chlywodd Gwyn fawr o orfodaeth gan ei fentor a rhai o'i gyd-fyfyrwyr i'w dilyn nhw'n unionsyth ar lwybr Pabyddiaeth. Er gwaetha'r hwyrfrydigrwydd hwnnw, daeth y llais ofnadwy'n uwch-uwch. Gyrrwyd e drwy efrydu'r Beibl a thadau'r Eglwys a thrwy'i Gydwybod i ailystyried yr hen Ffydd Gatholig draddodiadol ym Mhrydain, a sylweddoli mai gwleidyddiaeth i bob pwrpas fu gwir ysgogiad llawer o'n pobl i droi at Brotestaniaeth Brydeinig. Gwelai yn y Sefydliad hefyd ormod o 'wleidydda' Protestannaidd.*

*Ar ddiwedd ei gwrs addysgol, fe'i perswadiwyd e gan gyfeillion ifainc i droi'n ôl i Gymru a chymryd cymdogaeth Maelor ac ardal Wrecsam yn dir i'w egnion egwyddorol newydd. Ond nid yr offeiriadaeth Babyddol gudd a brofodd yn atynfa ysbrydol i Rhisiart Gwyn yno. Dichon mai cymysgedd o ofn ac o annigonolrwydd a barodd iddo lithro i swydd a galwedigaeth ysgolfeistr mewn amryfal ardaloedd yn y rhanbarth hwn, yn hytrach na mentro bod yn offeiriad Pabyddol ar grwydr. Cyfarfu yno, sut bynnag, ym 1565 â merch: cariad 'dynol' ei fywyd. Cafodd dri o blant ganddi (a thri arall a fu farw'n gynnar).*

*Tyfai'i ffydd o'r newydd yn awr, yn gymaint felly nes iddo anesmwytho ynghylch derbyn bwrdd y cymun Protestannaidd. Yn dawel, fe'i gwrthodai'n gyson am gyfnod, dan sen a sarhad ac erledigaeth o du rhai cymdogion. Oherwydd yr arferiad ecentrig hwn, cariwyd cleps at Esgob Downam o Gaer. Ceisiodd hwnnw drwy'r Ustus Rhosier Pwlston, bonheddwr tiriog a dylanwadol a phwysig odiaeth yn y rhanbarth, ymyrryd yn y duedd hon gan 'hereticiaid' a geid yma ac acw yn y gymdogaeth. Dan berswâd a bygythion grymus hwnnw, aeth Gwyn yn betrus ac yn ofnus ynghylch ei ddiogelwch. A phlygodd e o'r herwydd i'r gwaelod drwy gymryd cymun. Ond bu'n ddwys ei gywilydd.*

*Yn sgil yr euogrwydd hwn a'r ffeidd-dra llwfr tuag ato'i hun, fe'i deffröwyd e. Fe'i concrwyd e'n ysbrydol a gwasgwyd e'n ysbrydol i'r llawr. Daeth yn Babydd crwn croyw. Gwyddai mwyach, hyd yn oed mewn oes mor wrthwynebus, fod ganddo bellach, yn fewnol gyflawn, yr alwad ddieithr i ddilyn Ei Geidwad mewn modd penodol. Ac fe wnâi hynny, yn ddiarffordd neilltuedig mewn swydd ddistadl y daethai'n hoff iawn ohoni bellach, sef yn y gwaith hyfryd o feithrin plant (Marc 9:35 yml.; 10:13 yml.)*

1.

#### Ysgubor yn Erbistog 1578

'Dychmygwch lyffant.'

O'r tu allan byddai neb wedi dyfalu bod yr ysgubor y bore hwnnw yn debyg i ymennydd mawr. Ysgol oedd yr ysgubor wrth gwrs. Y tu mewn roedd rhyw dri dwsin o newronau bach hynod effeithiol yn gwibio heb symud o'u lleoedd, o'r naill orsaf i'r llall. Gosodwyd problem fechan iddyn nhw, a chaen nhw ddim llonydd o fewn goleuni llwyd yr ysgubor nes i honno gael ei datrys ar unwaith. Ceisiai'r athro ysgogi dychymyg a doniau ysgrifennu'i ddisgyblion bywiog.

'Caewch eich llygaid...'

Fe ufuddson nhw.

'Dych chi'n gweld y llyffant nawr?'

'Ydyn.'

Os ysgubor go iawn oedd y lle o'r tu allan, doedd fawr o ôl ysgubor o'r tu mewn i ddychymyg y plant. Os ganwyd yr adeilad hwn rywbryd erioed yn ysgubor, fel roedd hi'n bur debyg yn gronolegol, roedd magwraeth ac addysg faethlon wedi bod mor garedig tuag ati nes ei bod bellach yn barod i ymrithio'n bob math o leoedd cyfareddol yn ôl galwad y dewin athro. Yn wir, weithiau fe fyddai'n llong. Weithiau'n goedwig.

Stôl drithroed ddigon tlodaidd oedd gan bob un o'r plant, ac roedd hynny'n dangos efallai mai beudy diddychymyg oedd realiti hwn wedi'r cwbl yn barod i'r godro. Ond, a llechi yng ngholau'r plant, a thameidiau o sialc i ysgrifennu arnyn nhw, roedd hynny eto ynddo'i hun yn pendant awgrymu mai ymylu roedd ar fod yn fath o ysgol mewn gwirionedd.

Ond y bore hwn, un ymennydd oedd yno, hynny'n syml. Roedd pawb yn dawel unol ac yn ddwys gryno o'r tu mewn yn canolbwyntio ar yr un broblem fechan. 'Mae'r llyffant bach yma'n llamu o fan i fan. Mae'r llam cynta'n mesur un droedfedd. Faint, blant?'

'Un droedfedd!'

'Ond ar ôl *hanner* yr un yna y mae'r ail lam yn ei fesur ei hun. Faint?'

'Hanner troedfedd!'

'Ac yn y blaen, *hanner* yr un cynt bob tro, Ac felly *am byth*. Yn awr, pryd y bydd yn cyrraedd y pen draw?'

Roedd Timothy bach wedi'i frawychu: 'Am byth?'

'Ie, byth!'

'Esgusodwch fi, Meistr Gwyn.' Doedd chwilfrydedd Siôn ddim yn cael ei fodloni gan ddatganiad mor ddigymrodedd. 'Oes rhywbeth yn bod ar y llyffant?'

'Dw i ddim yn gwybod. Hwyrach ei fod e wedi'i glwyfo. Neu'n syml efallai mai byw y mae-e ym mro ryfeddol Math.'

'Fab Mathonwy?' holai Mair.

'Na,' gwenai'r athro, yn garedig nawddogol. 'Mathemateg; byd digon rhyfeddol arall. Beth bynnag, fan yna y mae-e, yn cloffi o naid i *hanner* naid am byth. A'r cwestiwn yw: pa mor bell yr aiff y llyffant?' Dylai'r fath gwestiwn fod wedi'u tawelu nhw'n berffaith am o leia ddwy funud, ond roedd Gwilym â'i law i fyny. 'Wel?

'Ychydig llai na dwy droedfedd, syr.'

'Cwbl gywir, Gwilym. Peth fel yna yw gobaith weithiau. Chyrhaeddith e byth ddwy droedfedd drwy'i ymdrechion ei hun, druan. Ond gall fod yn weddol agos.'

Cydochneidiodd y plant yn gydymdeimladus.

'Syr!'

'Rhys!'

'Efallai, ar ôl marw, syr, y bydd y clwy'n gwella. Ac efallai'r pryd hynny y bydd e'n pasio'r ddwy droedfedd yn hawdd.'

'Digon tebyg, Rys... Cawn weld.'

Ac yn ddigymell, torrodd y plant i guro dwylo. Roedden nhw wedi'u bodloni rywsut, a'r dewin athro wedi digoni eu dyheadau, ynghyd â'u chwilfrydedd. 'Efallai y bydd e'n marw'n hapus,' meddai Rhys.

Bodlonodd yr athro ar eu hwyl.

Roedd Rhisiart Gwyn wedi dysgu crefft addysgu gan ddulliau a drosglwyddwyd oddi wrth yr Abades Hroswitha, a luniodd chwaraeon yn Lladin ar gyfer adeiladu iaith ei disgyblion gynt. Disgynnodd y dulliau hynny drwy fynachod yr Oesoedd Canol a luniai ddramâu miragl proselytig i'w perfformio mewn mynwentydd. Ond fe gymhwysai Gwyn y dulliau hyn ymhellach am reswm pwysicach – sef ei fawr hoffter o addysg plant. Roedd y cariad hwnnw'n heintus. Eithr gwyddai fe ei fod hefyd yn beryglus.

\*

\*

\*

Drylliwyd boddhad yr athro a mwynhad y plant, sut bynnag, gan guriad cwta ar y drws. Yna, curiad arall. Ceulodd y dosbarth benbwygilydd. Efallai'u bod wedi hanner disgwyl ceulo felly ers tro. Efallai, yn encilfeydd eu meddyliau, wrth iddyn nhw ddysgu

darllen a chlandro symiau a chanu a gwrando storïau, efallai drwy'r amser fod y curiad yna wedi hofran yn barod dywyll, yn y cudd, i'w ceulo'n sydyn ysgeler ar draws yr undod distaw.

Ar ôl saib, agorodd y drws yn betrus, ac ymwithodd pennaid o wallt coch blêr i'r golwg.

'Aled!' rholiodd ebychiad o ollyngdod ac o adnabyddiaeth o naill ben yr ysgubor i'r llall. Chwarddodd rhai. Camodd Aled yntau ymlaen at ei athro gyda'r pwysigrwydd hwnnw sy'n tarddu o wybod fod pawb yn disgwyl ganddo a phob llygad wedi'i lynu wrtho.

'Bore da, Aled. Oes neges?'

'Oes syr, sbiwyr. Y tu allan, ar bwys.'

'Eto?'

Llithrodd Rhisiart Gwyn yn esmwyth draw tuag at y ffenest, ac edrych allan. Ac yn wir ei wala, ryw ganllath o'r ysgol, gallai weld tri dyn digon parchus eu golwg – y sbiwyr bondigrybwyll – yn gwylied, ac yn disgwyl yno'n llechwraidd.

'Maen nhw'n agosáu bob hyn a hyn, ac yn osio gwrando.'

'O'r gorau, Aled. Fe fentrwn ni eu helpu nhw. Fe bynciwn ni'r ddau bennill sy'n dechrau, 'Fel y treulia'... Gadewch inni floeddio canu, fel y mae'r mynyddoedd a'r coed i fod i'w wneud pan fyddan nhw'n cofio am ogoniant Duw.' A dyma'r plant oll ar eu traed, a Rhisiart Gwyn gyda nhw'n gweiddi nerth eu penglogau:

*Fel y treulia'r tân gan bwyll*

*Gŵyr y gannwyll gynnydd,*

*Felly d'eiioes dan y rhod*

*Sydd yn darfod beunydd.*

*N'ad i'th lygaid fynd ynghyd*

*I roi dy fryd ar gysgu,  
Nes it wneuthur union raith  
Am dy waith yn pechu.*

Os prudd drybeilig oedd y geiriau, ... llon, afradlon o lon oedd y canu. Dyna gyffes galon y pechadur mewn nodau 'diniwed'. Rhan bwysig o'u dysg oedd mawl.

'Digon melys,' sylwodd Rhisiart Gwyn, 'ond doedd dim eitha digon o floeddio. Dw i'n lled amau fod yna gyffyrddiad o glefyd parchusrwydd yn y gân ar hyn o bryd. Y tro hwn, dw i am i chi ...'

Eithr, cyn gorffen y frawddeg, er nad yn annisgwyl, dyna guro taer ar y drws, yn ddisymwth ymyrrog. Doedd dim rhaid oedi cyn i wŷr dieithr ddod i'r golwg mewn gwisg hirllaes ddu, a cholera wen, a thwffyn o wallt du yn troi tuag i fyny ar ei gorun. 'Rhosier Pwlston,' meddai gan ei gyflwyno'i hun. Roedd ei lygaid yn greddfól chwilio ym mhob cornel o'r ysgubor wrth iddo droedio yn ei flaen tuag at Risiart Gwyn.

'Croeso Ustus Pwlston.

'Risiart Gwyn, dw i am dorri gair gyda chi.'

'Mae'r adeilad hwn yn adeilad rhydd ar hyn o bryd. Ac ar hyn o bryd, gallwn siarad yn rhydd. Ewch yn eich blaen i dorri faint fynnoch o eiriau. Ond dowch o'r neilltu fymryn os nad ych chi am i'r plant glustfeinio.... Blant! Tynnwch lun llyffant ar eich llechau tra bydda-i'n siarad â'r gŵr bonheddig.'

'Cymwynas yw hyn gen i,' meddai Rhosier Pwlston, 'neges o garedigrwydd... ar ran Doctor Wiliam Downam, Esgob Caer...'

'Gwn i am y gŵr bonheddig wrth gwrs.'

Ofnus oedd golygon Rhosier Pwlston, yn gwbl ddiachos, fel pe baen nhw felly'n gynhenid; a chwilien nhw'n ôl tua'r drws yr oedd newydd ddod drwyddo. 'Mae e'n eich cyhuddo chi o wrthod cymryd cymun... Oes gynnoch chi rywbeth i'w ddweud?'

'Diolch am y neges.'

'Dyna'r cyfan?'

'Am wn i. Ydych chi'n disgwyl rhagor?'

'Crynu... i ddechrau. Dyn penderfynol yw'r Esgob.'

'Peth amheuthun yw bod yn benderfynol, Ustus Pwlston.'

'Nid peth amheuthun yw bod yn Ynad Heddwch mewn dyddiau afreolus.'

'Na, dw i'n gwerthfawrogi hynny, ac yn cydymdeimlo â chi, syr.' Teimlai Rhisiart Gwyn fod y Sgweier hwn, Rhosier Pwlston, yn ŵr bonheddig a gipiwyd gan amgylchiadau. Yn y bôn, bu'n ŵr cytbwys a theg. Doedd ganddo ddim argyhoeddiad am ddim byd i darfu ar ei egwyddorion eithr yr hyn sy'n rhesymol ddisgwyliedig gan ŵr o'i safle. Pe bai gwleidyddiaeth grefyddol Cymru'n llai cythryblus, gallasai fod wedi mwynhau'r ffaith ei fod yn Ynad Heddwch ac yn ffigur o bwys yn y gymdogaeth.

'Mae bod yn berchen tir ac yn Ynad Heddwch mewn dyddiau pryd mae gwleidyddiaeth yn ponsio efo'r gyfraith yn... '

'Dw i'n deall y tramgwydd cyfoes, syr. A dw i'n wir ddiolchgar i chi.'

'Gair i gall, Gwyn. Mae 'na bobol... Ac mae'n mynd yn waeth. Ond dyna ni.'

'Gair o'r gwyll, mae'n debyg.'

Sleifiodd Rhosier Pwlston, fel y daethai, yn llygadog ac yn dywyll, i ffwrdd. Ac edrychodd Rhisiart Gwyn ar wacter y drws caeedig ar ei ôl gyda thosturi a thristwch ... Ond ai caeedig oedd y drws mewn gwirionedd? Roedd y dyn wedi'i adael ychydig yn rhydd, a gwneud hynny'n fwriadol.

\*

\*

\*

Yn ôl yn ei gartre y noson honno, adroddodd Rhisiart Gwyn yr hanes wrth ei wraig; ac ymollyngodd e'n gyfrinachol gyda hi i ddigalondid. 'Nid ein Cymru ni fydd hon, Gathryn. Nid yr hen Gymru. Y Gymru hardd a hapus. Rhyw bocedi bach sy'n aros.'

'Allai'r hen Gymru honno fyth bara.'

'Mi allasai bara, pe bai wedi cadw'i hallor a'i hofferen. Ar yr allor buon ni'n offrymu ein calonnau, fel llysiâu'r Forwyn (nid llysiâu'r forwyn gydag f fach), a briallu

Mair (nid briallu mair gydag m fach). Ond heb Fair, nid tir Cymru fydd tir Cymru: mae 'na ryw leidr yn ceisio dwyn ein calonnau.'

'Wel, gad i dir Cymru fynd, Risiart. Nid dy gyfrifoldeb di ...'

'Heb draws-sylweddïad bara a gwin, fydd 'na ddim ysbryd yn y tir, na gwyrth. Bydd y tir yn wleidyddiaeth allanol i gyd. Yr Ysbryd Glân drwy etifeddion Pedr oedd yn tystio i'r *hen* Gymru. Felly mae tir ac enw *Llanbedr* yn tystio o hyd, ac yn llefaru am le y bu gwirionedd dwfn yn troedio, ac yn troedio o ddifri.'

'Wel, gad iddi fod, dw i'n ddweud.'

'Mae 'na raff.' Caeodd ei freichiau, yn dyner ond yn dynn, am wddwg Cathryn.

'Rhaff?' gofynnodd hi.

'Oes, rhaff, yn ein clymu ni hefyd wrth y nefoedd, ac wrth ein gilydd. Rhaff ein cariad at ein gilydd. Rhaff dy ffydd di yn Nuw. Rhaff yn ystyfnigrwydd i. Rhaff y rhaid.'

Ymryddhaodd ei wraig, a chiliodd oddi wrtho fymryn er mwyn siglo ychydig o'r crud yn y cornel, a syllu ar y baban, a sibrd yn daer wrth hwnnw: 'Dw i'n deall rhaff fel ti mychan i... a'r hyn sy'n ein clymu ni drwy gariad mewn ffydd. Ond pam roedd rhaid inni gael ein *geni* ar amser naturiol mor ddi-raff, dywed? Neu gyda rhaff lai annwyl? Dyna dw i'n methu â'i ddeall.'

Cheisiodd ei gŵr ar y pryd ddim ei dilyn hi yn hyn o fyfyrddod. Roedd ei feddwl e'n llawn o bob math o annibendod – diwinyddiaeth, rhywfaint; gwleidyddiaeth, tamaid bach; ei deulu, hwnnw hefyd yn un pentwr sylweddol; a Chymru ei dipyn gwlad, roedd honno hefyd yno rywle, yn y cefndir efallai; ond yn ei wasgu, ei wasgu.

Eisteddodd wrth y ffenest, ond ar y llawr y llygadrythai, yn drwm.

'Cyfraniad mawr Protestaniaeth i wareiddiad yw tynnu'r perfedd allan o'r llawenydd gynt. Mae hi wedi colli'r sbri o flaen yr allor... Nid fel paganiaid dŷn ni'n synied am Brotestaniaid. Dŷn ni'n meddwl amdany'n nhw fel Pabyddion wedi colli'u tystysgrif geni.'

'Thâl hi ddim, Risiart, iti ddirmygu Protestaniaeth mor rhwydd â hynny.'



'Peth sy'n perthyn i lencyndod rhywun yw protestio. Peth eilradd wrth raid. Peth sy'n ceisio rhoi'r bai ar rywun arall. Mae gynnon ni *hen* grefydd.'

'Hen grefydd boenus,' achwynai Cathryn.

'Does dim byd haws na phrotestio. Ond hen grefydd y greadigaeth sy gynnon ni. Hanfod protestio yw ymddeol o gyfrifoldeb. Dyna ystyr y gair. Mi fynna-i anrhydeddu daear Duw yn ddibrottest.'

'Dy beryg di yw dod yn brotestant ail-law.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Bod yn brotestiwr yn erbyn protestwyr sy heb fodloni ar fod yn dyst i'r cadarnhaol parhaol.' Dweud y gwir oedd mentr a chariad gwraig o Gristion.

'Ond alla-i ddim "bodloni" mewn gwlad sy'n mynd mor negyddol. Alla-i ddim bodloni ar dorri'r rhaff o ffydd, Gathryn fach. Mae honno yng Nghymru o hyd, yn yn rhwymo i'n dynn wrth y tameityn yma o ddaear. Bodloni Duw yw yn ofn i. '

'Geiriau caethwas yw'r rheina, Risiart Gwyn. Nid geiriau ysgolfeistr. Nid geiriau dyn rhydd. Os wyt ti eisiau bod yn ddyn rhydd, bydd yn ddyn cadarn.'

Cytunodd e â'i ben i gyd heb ddweud dim mwy. Roedd hi bob amser yn ei lle. Roedd yntau hefyd yn ei le. Ddymunai fe ddim dadlau â'i wraig. Onid oedd ei ddadl ar wastad ei chefn eisoes drwy'i feirniadu'i hun? Ond sut y gallai wireddu'r gweithredu?

Roedd un rhan ohono yn gwbl bendant fod yna'r fath beth â'r gwirionedd a delfrydau Duw mawr hollalluog, a fynnai'i galon i gyd, mewn pechod ac edifeirwch. Roedd honno wedi'i thystio iddo gan yr Eglwys fydeang. Ond roedd yna ran arall a ymestynnai drwy'r greadigaeth, ac a alwai arno i'w chynnwys – y rhan a ymhoffai yn ei gartre, a hiraethai am y plantos bach yna gynt a fu farw'n ifanc (ac roedd e gyda'i wraig yn eu galar gyda'i gilydd gynt wedi ceisio'u hanghofio ac wedi methu), y rhan a ymlawenhâi'n ddynol yr un pryd yn y plantos byw, ar ôl chwarae acw yn y gelltydd gwinau a'r caeau gwenith, y rhan a gâi flas hefyd ar esbonio a chyd-ryfeddu am ryw wirionedd bychan gyda disgyblion bychain yr ysgol, ac ar ganfod syndod llydan eu

llygaid mawr. Dyma'r hyn a roddai hefyd iddo boenau o hiraeth pan fygythid e gan bobl megis Rhosier Pwlston, ac a waeddai arno beunydd: 'Hegla hi.'

\*

\*

\*

Ei ystyfnigrwydd i aros gyda phob gwirionedd a orfu.

A'i dâl oedd bod yn ffoadur am dalm o amser. Yn Llanidloes ddoe, yn Erbistog yfory. Prin bod yna glawdd yn Sir Fflint nac yn Sir Ddinbych na ddaeth e'n gyfarwydd ag e eisoes: connoisseur ffosydd. Prin bod yna ydian wag ac amddifad na ddaeth e'n hoff ohoni. Âi e o'r naill i'r llall fel pe bai'n casglu darnau o jig-so alltudiaeth: darnau bychain bach a gwerthfawr o bethau cyffredin yma ac acw; medalau bach o ambell gilfach, creiriau i'r cyfan o'i fywyd mewn cilfach arall. Ar ffo ymhlith y werin.

Ddiwrnod ar ôl i Rosier Pwlston alw, ailddechreuodd Rhisiart Gwyn ar y crwydradau unig hyn – yn drempyn o ysgolfeistr. Trodd y dyddiau'n wythnosau a'r wythnosau'n fisoedd. Aeth un flwyddyn yn ddwy. Gweld y wleidyddiaeth yn newid oedd ei obaith. Ambell waith fe wibiai'n ôl yn ddirgel i Erbistog er mwyn cael un cipolwg ffôl ac anghyfrifol, yng nghanol y peryglon Piwritannaidd, ar ei wraig Cathryn a'i blant ei hun a phlant y gymdogaeth oll yn tyrru o hyd i rith o ysgol, gan fod ei wraig bellach wedi ceisio etifeddu'i ddyletswydd o hyfforddi-darllen.

Un adeg, methodd yn lân â'i guddio'i hun. Allai fe ddim ymatal rhag chwibanu arnyn nhw o'r draenllwyn hwnnw a dyfai ryw ganllath o'r ysgubor. Ac adwaenai Cathryn ei sŵn yn union deg ac yn well nag yr adwaenai Rhisiart y gwahaniaeth rhwng un fwyalchen a mwyalchen arall pan wrandawai'n astud arnyn nhw y tu ôl i'w ffenest yn Llanidloes gynt, ac yntau'n grwtyn rhydd mewn plentyndod digyffro. 'Risiart!' sibrydodd hi un diwrnod pan sleifiodd y tipyn gŵr i'r golwg yn Erbistog.

'Meistr Gwyn,' gwaeddai'r plant, a oedd dan hyfforddiant ei wraig nawr.

'Ust, blant. Mae Meistr Gwyn yn dymuno inni oll fod yn dawel.' Ac yna ochneidiodd drachefn, yn ddiymadferth ond yn ollyngus: 'Rhisiart!'

'Gathryn, alla-i ddim byw fel hyn. Ydy'r teulu bach...' holodd e gan lygadu ym mhob cyfeiriad ...'i gyd yn ffynnu'n rasol?'

'Risiart, elli-di ddim *byw* fel arall o gwbl.

'Ond y segurddod yn y llwyni, y gwastraff amser! Dyw'r peryg ddim mor ferw ag y buodd e.'

'Maen nhw'n dal i i chwilio amdanat ti'n achlysurol.'

'Alla-i ddim tystio dros yr Hen Ffydd a finnau ar ffo.'

'Amser disgwyl yw hyn. Mae llawer o blant y praidd yn glynu wrth yr Hen Ffydd i gyd yn y bôn. Mae'n rhaid dal i ddisgwyl gwell a charedicach gwleidyddiaeth.'

'Ond mae eisiau maeth arnyn nhw. Heb gefnogaeth bara beunyddiol mae'r dyn naturiol yn gwyro i lawr tua phaganiaeth. Mae Cristion i fod i ennill bara i'w deulu.'

'Anghofia dy bwysigrwydd dy hun am fis neu ddau eto. Er mwyn dy deulu.'

'Gathryn!'

'Bydd ar goll, wyt ti'n clywed. A bydd yn gall.' Ond dyna un peth nas ganwyd e erioed i'w gyflawni. Fu moethusrwydd callineb erioed yn gynhysgaeth fanwl iawn yn ei fywyd ffôl. Aeth ar ffo am ychydig drachefn, gan symud o'r newydd o'r naill ydian i'r llall liw nos. Eithr drwy'r amser roedd e'n ennill mwyfwy o hyder, a hyd yn oed haerllugrwydd a balchder.

\*

\*

\*

Roedd hi'n gefn dydd golau nawr. Y flwyddyn: 1579. Y lle, ie a lle agored, – marchnad Wrecsam. Roedd y fangre dan sang fel pentwr o bysgod mewn rhwyd. Bychan oedd amynedd Rhisiart Gwyn bellach i guddio'i wyneb. Yn ddiarwybod iddo y funud yna, roedd yn cael ei wylled gan Huw Sontli, ficer Protestannaidd Wrecsam. Bob hyn a hyn symudai Rhisiart Gwyn i ganol y dorf er mwyn cyflwyno tract i rywun. Ond doedd yna'r un o'i symudiadau na sylwyd yn benodol arno gan y gwyliedydd tywyll. Pan ymddiddanai un o famau'r fro ag e, byddai Gwyn yn tyner fendithio'i phlentyn â chroes ar ei dalcen; ac yna, âi o'r golwg drachefn. Gwibiai'n ôl ac ymlaen wedyn, gan gyfarch rhai o'i hen gydnabod weithiau. Roedd pawb yn ddi-eithriad yn llawen o'i weld, ac yn teimlo ychydig yn rhyfygus, ac yn sicr yn falch wrth sylweddoli y gellid gwrthwynebu Lloegr mewn modd mor llwyddiannus. Erbyn hyn, daethai Gwyn yn ymwybodol o

wyliadwriaeth Huw Sontli. Ond doedd e ddim am ildio un gronyn iddo. Wrth sylweddoli hyn, gostyngodd Sontli ei olwg, a chilio ychydig. Ymhen deng munud, sut bynnag, roedd e wedi dychwelyd yn ei ôl, a chydag e bedwar o filwyr gwrol.

'Risiart Gwyn, dw i'n dy restio di yn enw ei mawrhydi'r frenhines.'

Doedd pawb ddim wedi clywed. Rhyw ddyrnaid o bobl yn union ar bwys Gwyn yn unig a wyddai beth oedd ar gerdded. Eithr o fewn munud fer roedd y genadwri wedi saethu o un cwr i'r farchnad i'r llall.

Rhisiart Gwyn wedi'i restio. Gan Huw Sontli!

'Mi wyddost pam, Risiart Gwyn.'

'Gwn; ac eto, wn i ddim chwaith enw'r siars yn ôl y term swyddogol.'

'Brad! Cymerwch e, wŷr. Nid geiriau fydd yn esbonio hyn orau.'

'Ond ble bydd hyn yn arwain?' holai fe'r Ficer-arweinydd.

'Duw sy'n arwain... Ymaith ag e.'

Trodd Gwyn, a cherdded yn frysiog ddiymddiheurad i ffwrdd, gyda'r milwyr yn gwneud eu gorau glas i'w ddilyn e'n agos ac yn urddasol. 'Ie, Duw,' murmurodd e rhyngddo ac e'i hun.

Gwaeddai Sontli ar eu hôl: 'Carcharwch e'n sownd. Yng ngharchar Wrecsam mae 'na gwtsh bach reit foethus – y Siambr Ddu. Mae hi wedi'i haddurno'n chwaethus mewn motiff braidd yn an-wyn. Dyna gartre priodol iddo.'

Prin bod Rhisiart Gwyn o fewn clyw bellach. Ond roedd Huw Sontli'n dal i weiddi, yn rhannol er budd y gynulleidfa aflawen, yn rhannol er mwyn cynnal ei forâl ei hun.

'Fe ddarparith aelwyd go gysurus i ti am sbel, y Mhabydd hanner-pob i,' gwaeddai fe. 'Ac ystafell ddosbarth iti ddysgu ac ymarfer dy grefft ynddi, a thithau'n dy ddysgu dy hun gobeithio.'

O fewn llai na phum munud roedd Rhisiart Gwyn wedi disgyn ar ei ben i wyll y Siambr Ddu. Clepwyd y ddôr ar ei ôl. Doedd ei gwymp ar ei wyneb yno, sut bynnag,

ddim wedi gwneud fawr o niwed iddo a chododd ei ben ar unwaith yn y gell, i syllu drwy'r caddug. Ond ar y pryd, roedd ei lygaid heb ymgyfarwyddo â'r dŵch hwnnw, ac roedd yn barod i ddychmygu y gallai'r diffyg goleuni ymestyn am filltiroedd lawer, er y gallai ar y llaw arall fod yn ddigon tyn amdano, fel arch.

'Oes 'na rywun 'na?' Doedd dim ateb; ond erbyn hyn roedd ei lygaid yn gallu olrhain amlinell bwndel yn y gornel. 'Oes 'ma bobol?' Cododd ac ymbalfalu draw at y bwndel ond clytiau gwlyb oedd yno, dim arall. 'Dim byd: rown i'n ei amau. Neb!' Dechreuai balfalu'r waliau, yn ara ond yn fanwl. Yna, stopio. Syllu o gwmpas. Dyrchafai'i ben yn hamddenol ac yn anymwybodol, bron tan chwerthin am ben y bwndeli trist. 'Och, ie! Rown i'n synhwyro rhyw hyfrydwch o fath. Ie!' Suddo ar ei liniau, a thawelwch dwyfol yn disgyn ar draws ei ysgwyddau nas profodd e ers misoedd lawer, os erioed o'r blaen. 'Ti oedd yma o flaen llaw, fe'i gwyddwn. Rwyt Ti'n hoffi llefydd fel hyn... Diolch am ddod. Diolch i Ti am *fod*, ac am fod yma.' Siglai'i ben i fyny ac i lawr fel petai'n cytuno. 'Un rhyfedd wyt Ti. Uchel yw Dy isel di.' Codai ar ei draed eto. 'Llawn yw'r gwag. A rhydd – nefol o rydd – yw'r caethwas.' Cerddai o amgylch ei gell yn awr, 'yn rhydd' gyda'r rhyddid hwnnw nas prawf ond y sawl a fuasai'n garcharedig mewn ffydd, ac yn gâr caredig mewn ffydd. Suddai eto ar ei liniau, ac roedd ei ben yn plygu mewn defosiwn. Ymgroesai, a chodai ei ddwylo ynghyd o'i flaen. Eithr, cyn iddo diwnio'i bader, cyn iddo suddo eto i mewn i'r distawrwydd cariadus a oedd yn ei amgylchu bellach, bwriwyd y drws led pen yn agored, a daeth Ceidwad y carchar i mewn. Daeth i ymyl Rhisiart Gwyn a sefyll uwch ei ben am rai eiliadau. Yna, curodd e'n ddiymdroi ar draws ei gefn a'i fraich nes bod Gwyn wedi'i lorio'n lân. Yna, ciciodd y ceidwad e yn ei stumog. Ochneiodd Gwyn, ond ynganai fe ddim gair. Arhosodd y ceidwad am foment; yna, fe'i ciciodd drachefn, a thrachefn, ac ymadael. Yn raddol, cododd Gwyn ar ei benliniau, gan ochain yn aflan a siglo'i ben. 'A charu gelyn!' ebychai mewn petruster yn unionsyth at y nenfwd. 'Rwyt Ti'n Un rhyfedd erioed, Arglwydd.'

Agorwyd y drws y tu ôl i Gwyn, yn dawelach y tro hwn, a daeth Rhosier Pwlston a'i gydwbybod i mewn, yn syber ac yn wylaidd.

'Rhisiart Gwyn... Rhisiart Gwyn.'

'Sgweier Pwlston... chi sy 'na?'

Cododd ar ei draed – er yn drwsgl boenus – er mwyn wynebu'r ymwelydd. Ond 'allai'r naill ddim gweld y llall yn gwbl eglur, er bod llygaid Gwyn wedi cynefino ychydig bellach â'r tywyllwch.

'Ydych chi'n gyfforddus yma, Gwyn? Ydych chi'n cael popeth at eich dant?'

'Mwy na'n haeddiant, mae'n siŵr.'

'Nid yn ewylllys i oedd ichi ddod 'ma.'

'Na, na, dw i'n deall hynny, syr.'

'Yn ôl fel dw i'n clywed, fe gewch chi'ch rhyddhau os dowch chi i gymuno.'

'Felly'n wir.'

'Gwnewch e felly, ddyn,' cyngorodd yn dawel. 'Mi ellwch wneud yr efelychiad o gymuno'n allanol; ond rhyngoch chi a Duw – yn breifat – dyna'ch busnes chi. Fydd neb arall yn cael gwybod gwir gredoau'r galon.'

'Na fydd.'

'Dyw hi'n fawr o beth.'

'Beth?'

'Y weithred ddefosiynol...'

'Na?'

'Y *galon sy'n cyfri*.'

'Dw i'n un o'r Pabyddion od yna sy am i'r gweledig gorffori'r anweledig.'

'Peidiwch â bod yn ffŵl, Gwyn. Chwarae â geiriau. Mae gynnoch chi deulu.'

'Oes, meddan nhw.'

'Mewn blwyddyn neu ddwy, bydd y gwleidyddion wedi newid 'to. Cadwch afael ar eich pen, ddyn, yn y cyfamser. Cadwch afael ar eich teulu, yn nannedd y diwinyddion.'

'Mae 'na gortyn sy'n y nghlymu i wrth yr Hen Eglwys.'

'A beth yw hwnnw, dywed?'

'Canrif neu ddwy.'

'Eich plantos chi gartre yw'r canrifoedd, Gwyn.'

'Munudau mwyn.'

'Eich plant chi a mhlant i. Ystyriwch.'

'Dw i'n canfod hynny, ac yn gwerthfawrogi. Ond...'

“Ond” y gwirionyn yw'r “ond” yna.'

'Gwirion a gwan dw i, Meistr Pwlston. Gwamal ac eiddil dros ben llestri. Peth hawdd yw chwythu'n erbyn hwyl y meddyliau i.'

'Wel, chwythed te. Gwelwch eich ffolineb, ddyn. Er mwyn eich gwraig a'ch plant, Gwyn, er mwyn eich einioes eich hun a'ch gwasanaeth yng Nghymru i'r plant dan eich gofal ... ac er mwyn clywed bywyd bronfreithod ac arogl cawl cennin ac er mwyn wŷn ar y mynydd, er mwyn pob peth call ac afieithus a phob peth rhydd, ymunwch â phobl eich gwlad, ddyn, am y tro. Nofiwch i'r un hen Lan â nhw fel dyn normal. Dowch aton ni heddiw. Dowch. Bydd yr awyrgylch gwleidyddol yn dad-galedu yn y man.'

Ychydig o sgwrs a fu rhwng y ddau wedyn. Ciliodd Rhosier Pwlston i'w fuchedd normal gan deimlo iddo wneud ei orau, ond mai seithug ac ofer fu ei ymweliad. Ffŵl ystyfnig oedd Gwyn, ac wnâi geiriau denu o berswâd dynol ddim oll o wahaniaeth i ddyn fel hwn. Ond roedd Pwlston rywsut wedi hau ei hadau, a chredai Gwyn nad oedd ynddo'i hun fawr o ddefnydd arwr mewn amgylchiadau fel y rhain, na defnydd merthyr gwaedlyd. Roedd gormod o fân amheuan yr ysgolfeistr eisoes yn llechu yn ei fynwes iddo sefyll yn rhy unplyg ar fanylion diwinyddol. Clywai Gwyn alwad hynod ei deulu. Gwrandawai ar yr awelon a chwythai oddi ar wastadeddau'r bywyd normal. Fe doddasai'r sicrwydd mawr cynta hwnnw a brofodd ar y dechrau pan daflywyd e i'r llawr gwan ac unig hwn yn y gell. Ond gan bwyll, cododd y nos o'i ddeutu yno fel dyfroedd digalondid ac iselder, o gwmpas ei wasg i ddechrau, ac yna'n uwch byth at ei geg ac i mewn i'w geg, ac i'w glustiau, ac yna i'w lygaid a thros ei gopa, yn

uchel uchel dros ei wallt, dyfroedd lleidiog trwm o ddigalondid llwyd yn pwysu arno, yn llethu ei obeithion, ac yn difodi pob dyhead a fu ynddo erioed am fod yn gywir ac yn ffyddlon i'w Arglwydd...

'Fy Arglwydd i a'm Duw.'

Yna, sisialodd rhyngddo a fe ei hun: 'Peth bach, pitw bach does bosib yw ildio i fanylyn. Pwy dw i? Beth yw ystum ola o arwriaeth gnawdol? Dyw gweithred gan un dyn bychan ddim yn werth sylwi arno.'

## 2

Craciodd y gangen. Wrth i Gurig syrthio oddi arni, clywodd e chwerthiniad merchetaidd.

'Down i ddim wedi meddwl chwerthin.'

Edrychodd Curig yn ôl tuag ati'n reddfal ddi. Y fan yna roedd hi'n methu â'i rheoli'i hun, a'r fan yma roedd yntau nawr a'i grysbaes yn diferu wrth iddo ddringo allan o'r afon.

Doedd hi ddim wedi sefyll i'w wylled e o gwbl. Ac wyddai hi ddim ar y cynta ei fod e yno, yn gorwedd yn fentrus ar foncyff a ymwithiai allan yn isel uwchben afon Dyfrdwy. Tybiodd hi yn wir ar y cynta mai symudiad dyfrgi oedd yno, a'r unig ffordd i sicrhau ai cywir oedd hynny neu beidio oedd cripiant yn dawel ddiarwybod ar hyd y lan. Ond clywodd ryw smic arall. A phan welodd Gurig Gwyn ar fin syrthio oddi ar y boncyff anghytbwys, roedd hynny'n hud ar Ddyfed iddi. Roedd wedi'i mesmereiddio gan chwilfrydedd. Roedd ei llygaid wedi dychrynu. Roedd hi am ddianc yn gwrtais ddi-sŵn, ond nis gallai. Clywsai yntau y trwst bach tu ôl, ac wele roedd ei chwilfrydedd hi wedi'i faglu fe.

PLOP!

'Mae'n ddrwg gen i,' sibrydodd hi'n ddiwyll wrth iddo gripiant allan o'r dŵr. Ond roedd hynny'n waeth byth. I lefnyn deuddeg a thri chwarter oed, urddas yw urddas wedi'r cwbl. A phan fo geneth ifanc dlos mewn gwisg gymen yn dy wylled di, mae urddas yn gallu bod yn fwy nag urddas ambell waith. Gall fod yn anadl einioes am y tro.



Adwaenai fe ddim ohoni. Ac os dyma'r math o amgylchiadau roedd hi'n chwenychu ymddangos ynddyn nhw, doedd e ddim am ei hadnabod hi ryw lawer chwaith. Teimlai fe, yn ei wlybaniaeth syfrdan, na allai fe fod yn llawer nes na hyn at fod yn borcyn o flaen geneth brydweddol bymtheg oed.

'Mae'n flin gen i,' meddai hi eto, yn fwy edifar byth, ac yn ddiplannol-hiraethus. Ac yna, chwarddodd e'n galonnog ei wala am ei ben ei hun. Fe'i gwelodd ei hun fel rhyw fath o greadur enfawr, dieithr, cyntefig ddiferog yn ymlusgo allan o'r afon, a chawn pigog yn ei wallt, yn barod i ysu'r forwyn hon yn sydyn ar y lan; ac allai yntau ddim llai na bwrw'i fogail o chwerthin, am ei ben ei hun.

'Ta waeth!' ebychai fe'n dra gostyngedig, wrth ddringo o'r afon. 'Paid ag ofni.'

Gwenodd hi. Nid gwawd na sbri fuasai'i chwerthin hi ynghynt, eithr nerfusrwydd syml. Llithrodd hi i lawr tuag ato nawr; a thoddodd ei galon. 'Wyt ti'n siŵr na chest ti ddim niwed?' holodd hi.

'O na,' broliodd e'n ddyn i gyd.

Gwenai hi eto un o'i gwenau mwya hufennog, ac roedd honno megis rhwymyn am bob clwy seicolegol a gawsai'i wrhydri erioed. Oni bai'i fod yn crynu ychydig, gallasai fod wedi anghofio eisoes ei orchest plymiol.

'Fe fuais i bron â'i ddal e,' awgrymodd e'n hunan-gyfiawn.

'Beth?'

'Y brithyll, debyg.'

Eisteddodd hi wrth ei ochr ar y lan, yn gartrefol, fel pe bai hi'n ei adnabod ers blynyddoedd. 'Mae'n lle da,' murmurodd hi.

Roedd clwstwr o helyg yn bwrw eu ceinciau yn osgeiddig dros ben y dŵr garw. Yn yr hwyr cynnar, ymddangosen nhw fel dawnswyr dwyreiniol yn lledu eu breichiau, gan ogwyddo'u gyddfau'n lluniaidd, ond bob un wedi peidio am ysbaid ar ganol diofal gam oherwydd fod y golau'n dechrau pallu.

'Mae 'na frithyllod, ti'n gwybod,' meddai hi.

'Wrth gwrs fod 'na frithyllod.' Roedd e bron â cholli'i amynedd, a synhwyrodd hi hynny. Penderfynodd hi y byddai'n well ailddechrau, a chyfeirio'u camre i weirgloddiau llai mierog.

'Beth yw d'enw di?'

'Curig Gwyn.'

'Hyló Curig Gwyn. Lisa Thelwel dw i. Dw i'n bymtheg oed.'

Syrthiodd ei wep drachefn.

'Deuddeg a thri chwarter dw i. Bron tair ar ddeg.'

'Dwyt ti ddim yn dod o'r parthau hyn.'

'Na... O Erbistog,' meddai fe.

'Erbistog! Rwyd ti'n fforio'n anturus, on'd wyt ti? I'r pellterau hyn?'

Edmygedd oedd ei chymhelliad: darllenodd yntau (yn anghywir) wawd yn ei geiriau. Gorau po gynta y gallai fe gael gwared â hon a dianc adre, a chael dillad llai gwlyb.

Doedd e ddim am ddweud wrth hon na neb ei fod wedi ffoi o'r neilltu yn unswydd er mwyn pendroni. Ac yn sicr, doedd e ddim am yngan gair am y ffaith, yn ôl yr hyn a ddwedodd ei fam y bore 'ma, y byddai'i dad yn mynd i'r Eglwys Brotestannaidd heddiw. Doedd Curig ddim am addef, iddo'i hunan hyd yn oed, y gallai mai ildio a wnaethai'i dad i gymuno yn y dull Protestannaidd. On'd oedd hyn yn gywilydd, a'i dad wedi cydsynied a phlygu o'r diwedd? Dod i chwilio am lonydd roedd Curig wedi'i wneud ar ôl y newydd. Chwiliai yma am absenoldeb pob copa gwalltog. Yn sicr, ddaethai fe ddim i ddal pen rheswm ar goedd gwlad gydag unrhyw hoeden siaradus.

Pwy allai feio'i dad? Ildiodd pob un arall. Roedd pawb oll wedi plygu, ie i'r llwch ulw. Doedd neb wedi gwneud y safiad cyhoeddus na'r safiad hir a digyfaddawd a wnaethai'i dad. Ond roedd teimladau Curig wedi'u drysu.

'Fe elli di gerdded gyda fi os wyt ti'n dymuno,' meddai hi.

'Ydy dy gartre di'n bell?'

'Dacw fe.'

Dilynodd Curig ei bys, a chafodd beth braw wrth ganfod plasty dirfawr gwyn ym mhen draw rhodfa coed. Yn ymyl bwth to-gwellt llwydaidd a mwsoglyd ei rieni fe, buasai hwnacw'n darw yn ymyl broga. Roedd hon i'r byd yn grachach.

'Mae'n lle braf,' cyfaddefodd e.

'Diolch i ti am ddod gyda fi. Roedd hi'n tywyllu.'

Roedd adenydd iâr-fach-yr ha rywsut wedi chwifio ar flodyn ei galon e. Allai fe ddim deall y peth. Yna, o'r tu ôl i lwyn, gerbron y ddau blentyn yn ddisyfyd, ymddangosodd gŵr enfawr a chyhyrog, a magl-llwynog yn ei freichiau. Safodd ar lwybr y ddau yn herfeiddiol gawraidd.

'Dyma Gurig Gwyn, tada. Pysgotwr mawr o Erbistog.' Doedd ei gwatwareg ysgafn hi bellach ddim yn ei boeni o gwbl, er ei fod yn anfodlon ddigon fod ei anhysbysrwydd preifat wedi cael ei ddatguddio mor anneheug.

'O Erbistog, ai e? Gwyn? Dwyt ti, machgen i, ddim yn epil i'r Pabydd Rhisiart Gwyn, gobeithio.'

Myngial wnaeth Curig, heb ateb yn blwmp ac yn blaen, ac roedd yn grac tuag ato'i hun yn syth wedyn nad oedd e wedi poeri'r ateb cywir yn lwmpyn i wyneb y bonheddwr, gyda balchder.

'Wel, mychan i, rown i'n falch odiaeth i glywed heddiw fod dy dad wedi cytuno i ddod at ei goed. Nid pawb sy'n disgyn o'r ucheldiroedd mor glau.' Yna, ychwanegodd yn ystyrol wrth ganfod cwpsau'r crwt: 'Na, na, roedd angen dewrder a gwyleidd-dra i syrthio ar ei fai yng ngŵydd gwerin gwlad, a chydabod cyfeiliornad.'

Roedd y newyddion ffiadd wedi cyrraedd hyd at y fan yma. Doedd dim un man i droi. Roedd y newydd am ei dad wedi llamu fel gwiwer o gangen i gangen nes cyrraedd y plasty diarffordd hwn.

'Mae tada'n ymfalchïo,' taerodd Lisa, 'ei fod e'n gwybod am holl droseddwyr y Sir cyn iddyn nhw gyrraedd y llysoedd. Dyna, ym marn tada, sy'n gwneud erlynydd doeth ar ran y Goron.'

'Doeth ar ran pa Goron?' meddyliai Curig. Ond trodd heb yngan namyn 'Nos da' swta wrth y ddau am na wyddai ddim sut y gallai byth gynnal ymddiddan am funud yn hwy gyda'r ferch swynol o anghyffredin hon a'i bwystfil doeth o dad.

'Fe fuest tithau'n Babydd unwaith nhad,' meddai Lisa'n ddiniwed wrth Seimon Thelwal wrth i'r ddau rodio'n ôl tua'u cartre.

'Do, do, fe fues i'n Babydd, reit ei wala. Fel pawb. Mae pawb yn dysgu maes o law mai gwirion yw ffolinebau cynnar.'

'Oeddet ti'n haeddu cosb am fod yn wirion y pryd hynny?'

'Byddwn i'n haeddu cosb amlwg petawn i'n *aros* yn wirion.'

'Oedd Cymru i gyd yn wirion te ar y pryd?'

'Oedd, Lisa, mae arna-i ofn ei bod hi, yn weddol wirion.'

'Gwirion oedd dy dad di?'

'Clyw, Lisa, beth yw'r holl holi-a-stilio gwirion 'ma? Gwleidyddiaeth yw crefydd i ddyn fel fi.'

'Dim ond holi.'

Ebychodd Seimon Thelwel drwy'i ffroenau, fel march porthiannus, ond ceisiodd edrych yn wŷr yn ei oed a'i amser, ac yn ddoeth i'w ryfeddu yr un pryd.

'Weithiau y mae pobl, rhai pobl, yn cymryd blynyddoedd i dyfu, Lisa. Weithiau, mae'n dod yn gyflym naturiol. Weithiau mae hyd yn oed gwlad gyfan yn cymryd amser i dyfu.'

'Cymru?'

'Ie, Cymru efallai... A'r pryd hynny, Lisa, mae eisiau estyn cymorth. Gwers fach ddefnyddiol.'

'Fel mewn ysgol?' meddai hi. 'Pa mor galed fydd y wers tada?'

'Wel, mae'r gwersi sy'n cael eu darparu y dyddiau hyn yn weddol galed, ddwedwn i.'

'Carchar?'

'O leia carchar, Lisa.'

\*

\*

\*

Ceisiai Rhisiart Gwyn ddychmygu mai dros dro y byddai hyn oll, a gwleidyddiaeth yn newid cyn bo hir. Rywsut ceisiai gofio yno yn yr Eglwys amdano'i hun fel Jacob. Roedd hwnnw gynt wedi bod yn ymaflyd codwm â math o angel yn hir, hir; a chyffyrddodd yr angel â'i gymal. Cafodd yntau'i ddifrifoli. Cloff fu e wedyn. Cloff fyddai yntau'i hun, Rhisiart Gwyn, mwyach. Roedd e wedi cael ei ddofi. Ac o leia, doedd ganddo ddim asgwrn cefn ar ôl, wedi'r difrifoli. Roedd e ynghrwm. Doedd dim modd cerdded yn hyderus. Gŵr gorchfygedig oedd. Pe dad-ddryllid ei asgwrn cefn byth, buasai'n rhaid i rywun roi rhywbeth arall yn ei le, er mwyn iddo gerdded yn weddol union.

Ac eto, na, ddim o gwbl. Nid fel hynyna yr oedd hi o gwbl. Doedd dim byd ysbrydol dyrchafedig ynglŷn â'i dröedigaeth e erbyn hyn. Nid argyhoeddiad, nid gweledigaeth neu ddatguddiad mwyach a'i harweiniodd e i gyfeiriad eglwys Wrecsam. Ond cyfaddawd cnawdol, llwfrdra o gam i gam. Cachgieidd-dra rhonc oedd hyn o flaen gwleidyddiaeth. Bychander calon. Ciliodd angel Jacob gynt. Ciliodd bwlch-yr-argyhoeddiad. Conyn yn awr a holltwyd gan y gwynt oedd Rhisiart Gwyn mwyach. Llygad y dydd oedd a gaewyd gan y nos. Yn ei racs, herciodd e i eglwys Wrecsam, a chadwyn am un arddwrn a'i clymai fe wrth filwr. Ym mhen draw'r eglwys gallai weld gwên uwchraddol Huw Sontli, gwên ddirmygus braf yn llenwi'r allor. Allai fe dim clywed dim o'i eiriau. Roedd yna lais bid siŵr. Ond yn ei ben nawr, tabyrddau'i hunllef o fywyd yn unig a oedd yno'n seinio, atseinio.

Roedd e wedi'i orchfygu.

Ymlusgo'n nes at fur yr eglwys wnaeth-e, a sefyll yno gyda'r milwr yn y cefn i ddisgwyl y cymun. Hedodd geiriau'r bregeth heibio i'w glustiau fel suo chwilenod; ac roedd e'n disgwyl, yn disgwyl o hyd i fynd ymlaen i dderbyn y cymun. Drwy gydol yr amser, siglai'i ben yn ôl ac ymlaen yn negyddol ond yn anochel. Roedd e wedi bodloni o ran ewyllysio, roedd ei feddwl wedi derbyn y sefyllfa, ac wedi cydymffurfio, ond roedd

ei gorff o hyd yn gwrthwynebu rywsut: y ffŵl hwn yma o gorff. Ac yn y diwedd ulw, nid ei ewyllys e, nid ei benderfyniad oer ac ymwybodol a dewr ei hun ychwaith a wrthdystiodd yn erbyn y ffaith ei fod e yno. Eithr ei dlotyn o gorff. Hwn. Yn ddilywodraeth, ymwithodd ei stumog i fyny drwy'i lengig i'w ysgyfaint. Cododd pob modfedd o'i gylla. Udodd ei berfeddion. Chwydodd a chwydodd a chwydodd. Galwodd ei goluddion am ryddhad. 'Dw i'n sâl,' gwaeddai. Doedd dim rhaid egluro i neb: roedd hynny'n amlwg. 'Ewch â fi oddi yma.' Ceisiodd y milwr ei anwybyddu. 'Alla-i ddim aros un eiliad yn fwy.'

'Bydd dawel ddyn. Rwyt ti yn nhŷ Dduw,' ebychai'r milwr.

'Dw i'n sâl. Yn sâl anobeithiol. Helpwch fi oddi yma,' plediodd Gwyn.

'Cau dy ben, y cythraul dwl.'

'Beth yw'r pwynt? Alla-i ddim. Na. Na.' Roedd ei holl gorff bach yn galw am ffoi. Roedd pob modfedd o'i fodolaeth yn dyheu am awyr. 'Alla-i ddim anadlu.' A llewygodd.

Fe'i llusgwyd e gerfydd ei wallt nawr o'r eglwys, ac yn ôl i gaethiwed neu i ryddid annealladwy y Siambr Ddu. Yno fe'i taflwyd e i mewn fel clwtyn budr a gollasai bob defnydd erbyn hyn.

'Dyna dy le di, y ffŵl. Does dim ond olwynion Cyfiawnder bellach ar dy gyfer,' gwaeddodd y milwr ar ei ôl. 'Bydd y rheina'n troi ac yn malu, yn fuan ac yn fanwl. Dyna dy le di'n gelain ffôl.'

Fe'i gadawyd e. Ac roedd y tywyllwch adnewyddol yno'n hynod o felys. Roedd yr unigrwydd hwn yn falm iddo, bron yn eli adferol.

'Byth, na byth! Gwan neu beidio, byth eto. Maddau i fi, Arglwydd,' wylai i mewn i'r llawr. 'Byth eto. Maddau i fi, Ngheidwad. Byth.' Câl e gyfle i igian wylo'i edifeirwch i'r gwellt. Beth bynnag oedd y rheswm, pa mor wanlyd bynnag fuasai'i ysbryd, roedd ei gorff gwan wedi'i gadw fe ar dir y byw am y tro. Na. Nid ei gorff e, nid ei fodolaeth ei hun, ond rhywbeth arall, rhywun amgen a oedd wedi bod yn trin ac yn diogelu'i gorff, a'i ddiogelu drwy wendid.

'Diolch i ti, y Ngwylwr.'

Agorodd y drws trwm yn dawel y tu ôl iddo, a sleifodd Rhosier Pwlston i mewn i'r gell. Aeth e at Risiart Gwyn yn gyflym, a phlygu drosto. Cododd e'n dyner ac yn addfwyn ar ei eistedd.

'Sgweier Pwlston.'

'Peidiwch â chythryblu.'

'Fe ildiais i.'

'Na, na.'

'Do. Ond rown i'n sâl, Sgweier.'

'Dyna chi. Mae'n gallu dod i bawb. Mynd gyda'r llu sy orau, a bod yr un fath â phawb arall.'

'Does dim esgus.'

'Wnaethoch chi ddim ildio'n llawn.'

'Roedd y nerfau i a mherfeddion a'n ymennydd a modolaeth i gyd yn gwrthryfela. Ond yn asgwrn cefn i oedd yn wan.'

'Daethoch chi drwyddi'n lew.'

'Fe wadais i'r ffydd.'

'Na, wnaethoch chi ddim o'r fath beth.'

'Do, am ychydig, fe'i gwnes.'

'Y fi, gyfaill, oedd ar fai.' Roedd y Sgweier ei hun yn fwndel o gywilydd, ac yn fwynach nag o'r blaen, wedi'i siglo gan y sefyllfa.

'Fi wadodd. Fi fradychodd,' addefai Gwyn.

'Ddim o gwbl.'

'Rown i'n gwybod beth rown i'n wneud. Ac mewn gwybodaeth oer fe wadais i.'

'Ond aethoch chi ddim i'r pen.'

'Does dim diolch i fi. Rown i'n barod i wadu'r bara a'r gwin. I wadu Mair a'r seintiau. I wadu'r Eglwys lân gatholig.'

'Felly y gwnawn ni i gyd yn ein tro.'

'Ac eto mi fynnai Duw yn helpu i fel erioed mewn modd od rywffodd.'

'Druan ohonoch chi... Do. Ac fe'ch helpodd chi hyd y diwedd y tro hwn. Pob bendith arnoch chi, Risiart Gwyn bach. Gweddïwch drosto-i hefyd.'

Rhoddodd y Sgweier ei law oer ar dalcen y gŵr gwan, ac yna ei godi e ar ei draed. Ond mynnodd Gwyn suddo eto ar ei liniau. 'Cofiwch ddyn, un wers seml sydd y dyddiau hyn,' meddai Rhosier Pwlston ymhellach. 'Gwleidyddiaeth yw crefydd. Ac os dych chi am oroesi, mae'n rhaid bod yn llwynog.' Allai Rhosier Pwlston rywffodd wneud dim namyn cilio nawr. Ond yn fwriadol, wrth gilio, fe betrusodd, ac edrych yn ôl yn gariadus at y gŵr llegach. Gadawodd y drws yn gilagored ar ei ôl, yn ofalus gilagored, yn wahoddus o agored; a brysiodd allan ac i ffwrdd o'r carchar.

Ymhen ychydig iawn cododd Rhisiart Gwyn yntau'i ben, a sylweddolodd yn y fan a'r lle beth yn hollol oedd wedi digwydd, beth yr oedd Rhosier Pwlston wedi'i wneud drosto. Cododd yn chwilfrydig i gyffwrdd â'r drws. Oedd, roedd yn agored. Yn gwbl agored. Doedd yna neb y tu allan, neb oll. Doedd yna ddim cynllwyn yn ei erbyn. Gwthiodd yn ysgafn – ychydig bach bach. Gallai ffoi felly. Gallai ddianc nawr. Gallai rodianna allan i'r wlad, ac i ffwrdd, ar wahân i wleidyddiaeth. Roedd Duw wedi bod yn gwylied drosto hyd at y funud hon. A gwylied drosto a wnâi hyd at y diwedd ulw pryd bynnag y dôi hwnnw. Symudodd yn ddryslyd drwy'r drws. Doedd dim ceidwad yno. Neb. Roedd dyngarwch a chywybod Rhosier Pwlston wedi trechu ei ofn gwleidyddol.

'Rhyddid! Pa fath o beth yw hyn?' Byseddodd ei drwyn yr awyr. Fe deimlai'r rhyddid rhwng ei wefusau, yn stribedi'i wallt. 'Stwff od!' Syllodd y naill ffordd a'r llall. Roedd iard yno. Ond doedd neb oll yno chwaith. Roedd hyn yn fwy amhosibl byth. 'Rhosier Pwlston! Ti wnaeth hyn,' cil-sibrydodd e'n edmygus. 'Rhosier Pwlston! Y ffŵl caredig; y ffŵl.'

\*

\*

\*



Disgwyliai gwraig Rhisiart, yn ofnus o obeithiol, y gallai syndod ei gŵr sleifio'n ei ôl rywfodd.

'Na! Paid â dod i'r golwg.'

'Ie, Gathryn. Fi.'

'Byth, byth, y gwirionyn annwyl.'

'Mae hi wedi gweithio hyd yma.'

'Beth wnest ti? Sut dest ti yma? Ydyn nhw wedi dy ryddhau di?'

'Dw i yma, on'd dw i?'

'Ond sut? O! Yn anwylyd i.' A chusanon nhw drachefn a thrachefn. 'Dwyt ti ddim wedi dianc?'

'Mae yna Awdurdod ac awdurdodau. Dw i yma.'

'Byth Risiart! Beth wnaeth yr awdurdodau?'

'Paid â chythryblu, Gathryn fach. Mae yna ddigon o gythrwbl yn y byd heb ein bod ni'n dau'n ychwanegu yr un gronyn ato.'

'Ond, wyt ti'n ddiogel? Dyw rhyddid am y *tro* ddim yn ddigon, Risiart. Ddaw'r milwyr ddim ar d'ôl di?'

'Mae ambell geidwad carchar yn fwy dall nag sy'n llesol iddo fe. Lle peryg yw'r byd benbwygilydd i bob Cristion. Ond rywfodd dw i'n credu y bydden *nhw'n* hoffi anghofio amdana i nawr.'

'O Risiart. Dw i wedi bod yn hiraethu gymaint am y funud hon. Ond wyddwn i ddim y byddai hi'n funud mor enbyd o ofnus.'

'Taw piau hi, 'nghariad i. Peidiwn â bod yn rhy amlwg am fis neu ddau.'

'Mis neu ddau?'

'Wel, tri efallai.'

'Mae'r eliffantod yn y Sefydliad, acw'n cofio dros ganrifoedd, Risiart, y ffŵl dwl; ti connoisseur ffolinebau.'

'On'd dwed, y mhrenhines i, sut mae nhywysogion a thywysogesau bach? Does gen i ddim plant? Roedd ambell un yn arfer bod...'

'O oedd. Oes. Mi a-i i'w nôl nhw. Byddan nhw wedi'u syfrdanu.'

Carlamu i mewn wnaeth y bychain ar ôl eu mam. Ac yna, yn bwyllog, yn llawen ond yn methu â chredu, yntau'r hyna, Curig. Glynodd y bychain wrth benliniau eu tad wrth iddo blygu drostyn nhw, a gwasgen nhw eu bysedd yn ei wallt. 'Tada, tada.'

Dyfnach ei groeso, a thawelach oedd Curig, ond yr un mor gynnes. Llawn iawn oedd ei lygaid e o ddagrau bodlonrwydd.

'Nhad.'

'Curig bach, diolch i Dduw amdanat ti.'

'Diolch iddo Fe am dy ryddid di, nhad.'

'Phlygais i ddim drwy drugaredd, Curig, yn y diwedd. Ces i nghadw gan wendid.'

'Na?'

Rywfodd, wedi'r cyfan bellach, doedd Curig ddim yn hidio gymaint am hynny ag y tybiasai. Roedd canfod a theimlo'i dad yn ôl fan yma yn y cartre'n ddigon o orfoledd.

'Diolch i Mair, Tada.'

'Nid i fi, Gurig. Nid i fi. Diolch iddo Fe yn y diwedd bob tro. O'n rhan i, gwan drybeilig dw i, fel clwtyn. Un tro, rown i'n barod ddigon i'w wadu Fe.'

'T'w wadu Fe? Na.'

'Oeddwn. Ildiais i demtasiwn brad, a hercian i'r eglwys.'

Chwarddodd Cathryn hithau, ond heb fod yn wawdus: 'Hynny bach. I'r eglwys!'

'Peth mawr,' meddai'i gŵr.

'Peth mawr, Risiart? Go brin.'

'Maen *nhw'n* credu hynny. A dw innau'n credu hynny.'

'Rwyt ti ar dir cadarn.'

'Ar dir o leia. Fan yna rywsut, rown i'n crogi uwchben dibyn, yn ôl ac ymlaen, yn ansicr, yn wamal,' addefai Rhisiart.

'Nid crogi fel baban mewn crud ar raff wrth gangen, yn sicr,' meddai Cathryn yn ddig at y cwbl a ddigwyddasai. 'Roedd 'na raff arall yn dy ddala, Risiart. Glŷn wrth y rhaff honno. ... O! Risiart, anghofia'r peth bas arall am y tro,' ymyrrodd. 'Mae 'na faddeuant. Rhaff achub yw maddeuant. Rwyt ti'n gryfach na'r un ohonon ni. Ti yw'r cryfa o'r Cymry, ddyn.'

'Ac felly mor enbyd o wan.'

'Dw innau mor falch ohonot,' meddai hi wedyn mewn dogn o sibrydiad. Cusanodd hi fe, yn ysgafn y tro hwn, ond yn dirion ac yn dlws: 'Rwyt ti'n ôl gyda ni. Mae'n rhaid aros felly. Allen ni ddim diodde ysbaid fel yna eto.'

Sibrydodd Curig: 'Ofni pob drws bach y bydda i, nhad, a'r cysgod dan y fedwen, a gwich y canghennau, a symudiad llwfr y defaid.'

'Ryw ddiwrnod, Gurig,' meddai'i dad gan droi eto at ei fab a datgan fel pe bai bellach wedi gwneud penderfyniad mawr er mwyn ei hogyn hyna, 'ryw ddydd glân, Gurig, dw i'n mynd i fyw bywyd anniddorol. Dw i wedi ffansio'r profiad o'r anniddorol ers tro byd.'

'Sut felly, tada?'

'Dw i'n mynd i ddod adre, a siarad am y dwymyn doben.'

'Ie?'

'Ac yna, fe a-i i bysgota.'

'Ond dyw hynna ddim yn fywyd anniddorol.'

'Yna,' sibrydodd ei wraig, 'os nad arhosi'n gall, fe fynni di wedyn ar ganol y cwbl ddweud rhywbeth dieithr o ddiddorol wrth yr awdurdodau. Ac fe gei di weld carchar diderfyn o ddiddorol ar dy wartha di, a barnwr mwy diddorol am byth, y

nghariad i. Wnei di, er mwyn dy deulu, ie, yn gyfan-gwbl ddianturiaeth, aros yn gyfan-gwbl anniddorol, er mwyn diddanwch byw. Cadwa dy ben ynghau, dy holl ben.'

\* \* \*

### 3.

Ddeunaw mis yn ddiweddarach yr oedd Curig Gwyn ar ei ben ei hun eto, ar grwydr drwy sŵn a swae marchnad Wrecsam. Llencyn goleuwallt, tal am ei oed, tenau, a chraith ysgafn ar ei ael chwith. Crwt pedair ar ddeg oed oedd erbyn hyn a garai bensynnu lle bynnag yr elai. Rhodiannai heddiw ymhlith y stondinau tyrfus dan sang heddiw – ffrwythau a llysiau o Ruthun, cig eidion o Owrtyn, pysgod o afon Dyfrdwy, offer fferm o Yswyd, – ac eto welai fe neb.

Cyn iddo ymadael â'r tŷ yn ddiotal y bore hwnnw, preblai'i dad am yr ysfâ am ryddid y tu allan i'r tŷ yr hiraethai o hyd amdano. 'Fydd pawb wedi anghofio am y modolaeth i erbyn hyn.'

Pleidio dadleuon pwylllog ei fam y buasai Curig y bore hwnnw cyn dod o gartre. Yn wir, pleidio ochr ei fam y byddai fe o hyd. Eto, roedd e hyd yn oed yn dirgel gytuno â'i dad hefyd. Ond sadrwydd ei fam oedd orau ganddo. Roedd 'na ddyfodol yn hynny o beth. Tybed a benderfynasai yntau efallai gryn wyth mis cyn ei eni, mai hyhi o bobman fyddai'i breswylfa mwyach, ac y byddai fe yn nes at ei fam nag y byddai hi byth at ei dad? Y bore hwn yn awr, amenu dadleuon ei fam a wnaethai yn allanol bob anadl... Roedd ei ben yn llawn o ddadleuon adolesens. Dichon y byddai'n rhaid iddyn nhw ffoi'n bell. 'Beth ddaw ohonon ni wedyn?' synfyfyriai Curig wrth symud o stonidin i stonidin. 'I ba wlad y buasai nhad yn perthyn? Pwy fyddwn i yn hun felly? Prydeiniwr? Ynte Ewropead o'r Almaen? Neu beth?'

'Ond i ble y ffof i?' datganai'i dad y bore wedyn uwch brechwast. 'Un lle yn unig a all y nghyhuddo i'n iawn. Ac mae hwnnw beth yn uwch na'r haul gwyn acw.'

'Ffo o gartre, y maldodyn gwirion,' meddai'i wraig. 'Paid â dadlau mwy.'

'Ond i ble?'

'I nghalon i,' meddai hi wrth ei gŵr. 'Fi yw'r ola i ddymuno hynny. Ond...'

'Ond ble mae honno, dywed?'

'Lle bynnag y bo diogelwch.'

'Gathryn, Gathryn, ai rhedeg yw caru?'

'Rhedeg rhag peryg y bydd pob cariadfab o ddifri.'

\*

\*

\*

Yn y farchnad yn y prynhawn roedd Lisa Thelwel hithau ar grwydr ymhlith y stondinau. Hyd yn oed wyneb yn wyneb â hi, sylwai Curig ddim arni am foment: roedd ei feddwl yn orlawn o helbulon o bob math. Bodolai Lisa ar ei bwys, heb ei fod e rywsut ar ei phwys hi. 'Does dim syndod iti gwympto i'r afon, Gurig Gwyn,' meddai hi. A chyda'i llais y disgynnai'r farchnad i gyd am ei glustiau yr un pryd – y Saeson o Gaer, y ffermwyr o'r bryniau, y cŵn, y plant bach ar goll, – pawb oll yn llond ei feddwl, yn gymysgedd effro.

A gwenai fe ar ei hannisgwylrwydd hi. 'Dw i wedi clywed hanes dy dad,' addefai hi, 'i gyd.'

'Do?' Ddiflannodd ddim o dynerwch ei wên, serch hynny. Roedd e'n ddigon bodlon, a gorau po fwy a gwyddai hi amdano. Roedd e wedi pendroni amdani sawl gwaith wedi'u cyfarfyddiad cynta. Hyhi, mae'n bosib, oedd y ferch gynta erioed a osodasai ddelwedd merch ar ei feddwl – ei lliw hi, ei hysgafnder, ei thlysni oer.

'Ddoi di am dro drwy'r Farchnad?' holodd hi ymhellach.

'Na,' atebodd e. 'Dw i wedi cael hen ddigon o'r ffwdan fan yma. Gawn ni chwilio am afon.'

Rhodianna wnaethon nhw wedyn i ffwrdd i geisio afon, dow dow gyda'i gilydd ar y ffordd allan o Wrecsam i gyfeiriad Owrtyn. Ac eisteddon nhw, am ychydig, ar glawdd uwchben y ffordd. 'Mor symudol yw afon. Mor lân,' meddai hi.

Menyw ifanc hardd, ddwy-ar-bymtheg oed oedd hi mwyach. Crwt oedd e o hyd.

'Mae hon hefyd, yr hewl 'ma, fel afon,' meddai Curig oddi ar y clawdd uwchben y llif gan syllu ar hyd y lôn fel y rhedai rhagddi megis amser; a chan ymdroi felly, synfyfyriai'n freuddwydiol fodlon yno am bum munud rhwng y ddwy ochr.

'Paid â chwympo i mewn te,' chwarddodd hi.

'Ond edrycha di arni, a meddylia am yr holl bobl yn llifo ar hyd y ffordd wrth fynd adre o'r farchnad, fel tonnau bach heddiw.' Mor rhwydd mae'r llif yn gallu troi.

Roedden nhw mewn lle cyfarwydd.

'Ydw, dw i'n gallu'u dychmygu nhw nawr, fan hyn yn fwrlwm sy'n symud tua'u cartrefi gan ymchwyddo bob cam.' Chwarddodd hi ychydig drachefn. A chwarddodd yntau.

'Yn nes ymlaen heddiw, bydd y llif yma'n gwylltu ychydig, ac yn cythryblu dros y geirw,' meddai fe, wedi'i feddiannu gan y ddelwedd. 'Mae'n dawel fan hyn yn awr, ac yn troi'n llyn bach. Ond os byddi di'n lansio i mewn i'w ffrwd, fe elli di ar ambell adeg ar ôl y farchnad gael dy gario gyda'r holl bobl. Fe elli fynd gyda'r llw.'

'Dyna sy'n digwydd? Gwell iti garco te,' gwenodd hi. Ond roedd ei ddychymyg e wedi cydio ynddo fe, a'i gludo fe'n anghymedrol i ffrwd, ac wedi mynd ag e bron yn erbyn ei ewyllys ymlaen oddi cartre, yno dros ambell raeadr, yno eto lle'r oedd y llif yn chwalu'r glannau. Gallai hynny hefyd ddigwydd. Gwyddai fe nad âi neb gyda'r llif heb dalu. 'Gad inni fynd yn ôl te,' meddai hi'n sydyn. Doedd hi ddim tan y funud hon wedi sylwi mor bell roedden nhw ill dau wedi nofio yn eu dychymyg. A chodon nhw nawr i gerdded tuag yn ôl. Ar ôl milltir o rodianna tawel, a ymddangosai'n hwy nag o'r blaen, wrth ddychwelyd, dyma aros i edrych gyda'i gilydd ar gae o'u blaen a oedd yn gyforiog o babïod gwaedlyd coch.

'Dyma fôr o fath nawr,' meddai Curig. 'Ddôï di gyda fi i dasgu ychydig bach ymhlith y rhain, o ran sbort?'

'I beth?' Am eiliad roedd hi'n nerfus ynghylch ei gais. Ond roedd golwg mor ddiniwed arno yn y fan yna: er na ddeallai hi beth allai fod yn gymhelliad iddo, fe gydsyniodd hi.

'Dere,' gwahoddodd e.

Dringon nhw dros y gamfa law yn llaw i gae, a cherdded, ac yna rhedeg gan sathru'r pabïod yn orfoleddus dan eu traed mewn cylch: y môr coch. Am ychydig o funudau dychmygus, roedden nhw ill dau wedi dianc rhag eu rhieni a rhag y byd... Er ei waetha, daeth hyn i Gurig yn foment o lawenydd pur. Cydnabyddai ynddo'i hun fod ei dad mor egwyddorol, mor aberthol, mor unplyg; ond am ychydig o funudau, teimlai'n anghyfrifol fath o ollyngdod i fod yno, oddi cartre. Disgynnon nhw ill dau, ac eistedd ochr y ochr yn y cae coch, a syllu yno ar ei gilydd, a chwerthin. Ac roedd hynny'n selio rhywbeth yn ddisylw, yn gwneud y cwbl o'r diwrnod yn ddigonol. Gallai fe synhwyro'i hoffter hi ohono yn gynnes o'i mewn yn awr, fel goleuadau bychain yn gwasgaru o fewn diamwnt.

Cofiai fe, yn ei dipyn co, y tro cynta erioed iddo weld eog. Pelydrai'r haul yn ffrwydr ar ei adenydd, a'r corff gosgeiddig llonydd yn crynhoi pob prydfferthwch yn nhryloywder yr afon, a ffrâm arwyneb y dŵr tawel diniwed o gwmpas yn gwneud y creadur bach yn un darlun perffaith o dangnefedd angerddol. A'r pryd hynny, mor hardd oedd, fel na ddymunai i hwnnw byth ei ddal. Dyna sut y teimlai Curig yn awr am ennyd. Byddai'i dad, debyg, wedi ceisio gwneud symbol crefyddol, o bob pysgodyn. Ond heddiw, harddwch bodolaeth, a'r rhyddid a roddwyd i aroglau'r awyr drostyn nhw ill dau, oedd y rhyddid syml a gafodd e am ysbaid yno.

\*

\*

\*

Bedair awr yn ddiweddarach, roedd Curig a Lisa wedi hen ymadael â'r lle hwnnw, ac wedi gadael yno y distawrwydd ar ei ben ei hun. Roedd yr hwyr wedi cynyddu. Fe sylweddolen nhw'u bod nhw wedi cyrraedd ardal oedd yn hoff gan bobl o Wrecsam a ddewisai fynd am dro. Ond yn yr un fangre hon, wrth yr un gamfa hon, ar ei ben ei hun, yntau'n chwilio am lonyddwch, lle roedden nhw ill dau wedi dringo i'r cae, dôi Rhisiart Gwyn ar ffo mor ddistaw â chysgod yn ei dro ymhellach ymlaen ac edrych i mewn ar y pabïod. Roedd e'n cario ffon dan ei gesail. Roedd yntau ar grwydr hefyd. Ceisiai Rhisiart Gwyn ysbaid o ryddid. Craffai drwy'r cyflychwyr ar y blodau sathredig

ar lawr lle y buasai'r bobl ifainc. Yno, lle y gwasgwyd nhw gan yr eisteddwyr diniwed o'i flaen ymddangosai'r pabiod yn awr fel gwaed du sych.

Gyferbyn â Rhisiart Gwyn nawr yr un pryd o dan dderwen gam, yn gwbl ddiarwybod hefyd, ychydig o'r golwg yn y cysgod, safai synfyfyrwr distaw arall – sef Dafydd Edwards y dilledydd, a'r Piwritan rhonc. Clywsai hwnnw fod Rhisiart Gwyn yn y cyffiniau. Bu Edwards yn stelcian yno yn ddistaw yn yr un fan felly, ac roedd yn benderfynol o ddal y Pabydd. Syniai am yr ysglyfaeth fel defnyn o wenwyn cymdeithasol a oedd yn ceisio o hyd lithro drwy wythien y wlad. Wrth iddo ganfod Rhisiart Gwyn y funud hon yn y fan a'r lle, tynnodd ei ddagr yn ara ac yn ddigyffro o'r wain. Bu ffawd yn garedicach iddo na'i haeddiant. Neu'n hytrach roedd rhagluniaeth wedi dod â'r ysglyfaeth Babyddol hon yn union gyferbyn ag e, y cwbl i ryw ddiben dirgel, mae'n rhaid. Buasai'n stelcian chwilio am Risiart Gwyn, ers tro, wedi clywed gan un o'i weision ei fod yn y cyffiniau y prynhawn hwn. Neidiodd yn sydyn a rhedodd tuag at Risiart Gwyn, tan sgrechian mewn dicter coch. 'Ildia, y cythraul bagan. Ildia y pabydd bradychus.'

'Pwy?... Ddafydd Edwards... ti?'

Llwyddodd Rhisiart Gwyn i osgoi'r ymosodiad cynta. Gwaeddai'r ymosodwr am help; ond prin bod amharodrzydd ysmala Rhisiart Gwyn i ymladd o ddifri yn haeddu'r fath amddiffyn deheuig. Chwarae, chwarae roedd e am foment gyda'r Piwritan hwn. 'Fe ddysga i ti wneud sbort am y mhen i,' criodd Dafydd Edwards. 'Mae d'ystyfnigrwyd di'n dwll yn y cob... Dim ond diferyn wyt *ti* drwy'r twll yna, ond... ;' a gwaeddai'r ymosodwr i'r awyr, 'Help.' Erbyn hyn, roedd dau o weision Dafydd Edwards wedi cyrraedd. Gan ddod o wahanol gyfeiriadau, llwyddon nhw i orchfygu Gwyn. Gafaelwyd yn ei wegil e. Plygwyd ei ben yn egr i lawr at y pridd. Doedd Gwyn ddim am ddefnyddio'i ffon i'w amddiffyn ei hun. A throesan nhw'i fraich dde y tu ôl i'w gefn wrth dynnu'r ffon o'i law.

'Un peth sy'n fwy di-urddas na Christian yn cael ei erlid,' meddai Rhisiart Gwyn, a'i drwyn bron â chyrraedd y ddaear, 'a hwnnw yw Cristion sy heb gael ei erlid.'

Fe'i daliwyd e o ddifri y tro 'ma.



Cyn pen nemor o dro roedd ceidwad y Siambr Ddu eto yn diolchgar-osod y Gwyn anniolchgar hwn yn ôl mewn cadwynau drachefn. 'Croeso'n ôl!' curodd y Gwarcheidwad yn filain ar draws ei wyneb, a'i gicio wrth iddo ddisgyn yn glwt. Yna, daeth â ffrewyll ato, a'i chwipio'n ddefodol ar draws ei lygaid nes bod ei olwg am y tro yn pallu o dan y cleisiau. Roedd yn ôl yn ei briodol gartre.

'Dod dw i, i'ch gwahodd chi, Gwyn,' meddai Huw Sontli, ficer Wrecsam, yn y bore bach drannoeth, 'i gymun. Ydy e'n y nghlywed i, geidwad?'

Rhoddodd y ceidwad gic yn ystlys Gwyn, a symudodd hwnnw ryw ychydig yn ei boenau heb furmur. 'Ydy, mae'n eich clywed chi'n burion.'

'Mae drysau Eglwys Dduw led pen yn agored Gwyn.' Ond doedd dim ymateb gan hwnnw. 'Ydy e'n cael digon i'w yfed?'

'Yfed, yfed y mae e wir, – dych chi'n nabod y Pabyddion 'ma – o fore gwyn tan nos.'

'Fe fu ichi ildio unwaith ddyn. Bore gwyn fydd hi, Risiart Gwyn, os dewch chi'n ôl i fynwes y ffydd.'

'Wnaiff e ddim, mae arna i ofn, syr,' meddai'r Ceidwad. 'Un du yw'r Gwyn yma.'

Gŵr oedd y ficer Sontli a oedd yn byw'n daclus er mwyn enw da, yn ddyn dymunol i bawb. Dymunai glywed beunydd mewn gwenau pobl eraill adleisiau o'i uchelgais bersonol gymdeithasol e'i hun. Ond yng ngŵydd y Pabydd hwn fe ddeuai dryswch rywfodd ar draws ei ddelwedd glên. Trodd Huw Sontli i ffwrdd mewn dirmyg: 'Dim rhagor iddo i'w yfed, am bedair awr ar hugain.'

'Syniad purion, os ca-i ddweud,' meddai'r Ceidwad.

'Fe gawsoch chi'ch cyfle, ŵr: fe gewch ymddangos gerbron Rhosier Pwlston, yr Ynad Heddwch, ymhen dau ddiwrnod.'

Dadebrodd Rhisiart Gwyn rywfaint wrth glywed enw Pwlston. A allai fod wedi clywed yn gywir? A allai fod yn wir? 'Pwy?' gofynnodd e gan symud ei ben ychydig.

'O!' ebychai Sontli gyda boddhad, 'Felly: mae 'na ronyn o fywyd ar ôl yn yr hen furgyn.'

'Gerbron pwy?' holai Gwyn drachefn heb gredu'i glustiau.

'Yr Ynad Rhosier Pwlston.'

'A!' o foddhad hael.

'Mae'r cythraul yn swnio'n falch ei wala, syr.'

'Gŵr bonheddig yw Pwlston o hil gerdd, perchen tir, ffigur goruchel yn Wrecsam a'i chyffiniau – yn y golwg o leia,' meddai Sontli, 'ond calon gywir Protestant sy ganddo. Cewch weld. Calon lân sy'n ysu am y gwirionedd.'

'Calon, syr?' gwawdiodd y Ceidwad. 'Oes ganddo fe beth felly?'

A phrin y gallai Rhisiart Gwyn ymhen dau ddiwrnod yn Llys yr Ynadon, wrth graffu ar wyneb Rhosier Pwlston ar y fainc, ddirnad fod hwn erioed wedi ymddwyn yn glên tuag ato o'r galon. Yma, swyddog oedd. Hanfodwyd e.

Bu i Rosier Pwlston wneud tro da unwaith, yn y dirgel o leia. Angel pen-tân, diafol ben-hewl. Yn y fan hon nawr, roedden nhw ill dau fel ei gilydd ar brawf. Roedd yna filwyr yno. Roedd yna gynulliad bach o Biwritaniaid yn eu gwylid. Ac mewn cornel, wyneb gwelw Cathryn Gwyn, gyda Churig yn gryndod, wrth ei hochr. 'Dw i wedi bod yn amyneddgar, Risiart Gwyn. Fe wnes i ngorau: fe wyddoch chi hynny.'

'Syr, byddwch yn drugarog,' criodd Cathryn Gwyn ar draws y llys.

'Symudwch y fenyw 'na, filwyr. Nawr Gwyn, fe wyddoch chi'n burion dw i ddim yn ŵr creulon. Ond mae'r amseroedd yn cau amdanon ni. Mae osgoi'r gwirionedd yn mynd yn fwy anodd bob dydd. Ofergoelion yw hanner eich ffydd. Eilunaddoliaeth yw chwarter y gweddill. Ac yna'r offeren – canibaliaeth yn bedwerydd chwarter, Gwyn.'

'Ond dych chi'n cymryd yr ysgrythur o ddifri meddwch chi, pam na wnewch chi ddim yn yr offeren?'

'Debyg iawn, eithr heb ei chymysgu â thraddodiad,' meddai'r Ynad. 'Symbol yw symbol. Mae'n rhaid dehongli'n ôl y bwriad.' Roedd yntau fel pe bai'n ei amddiffyn ei hun. Daliai yntau i obeithio y dad-galedai gwleidyddiaeth.

'Pan ddywed y Gair "Hwn yw fy nghorff", pam felly dych chi'n nogio? Gair yw gair, a chanddo ystyr lythrennol yn y bôn,' heriai Gwyn fel pe bai ganddo hawl i arholi.

'Oherwydd dehongli teg a synhwyrol.'

'Un o hogiau rhyddfrydol y dehongliad dych chi! Sleifio rownd cornel yw bwriad pob dehongli hwylus, er mwyn peidio ag wynebu "fy nghorff" yn blwmp ac yn blaen.'

'Ust! Dehongli yw pob deall ddyn,' ebychai'r Sgweier. Teimlai fod y rheolaeth dros y llys yn llithro allan o'i ddwylo. A syniai efallai mai dyma'r amser i dynnu'r gweithrediadau i ben.

'Deall!' ebychodd Gwyn gan fwrw yn ei flaen. 'Pa ddeall yw Protestaniaeth? Gyda phob parch, Sgweier Pwlston, mae tröedigaeth Lloegr wedi digwydd i gyd o fewn pedwar postyn gwely, fel y gwyddoch chi'n dda. Ailanwyd Lloegr yng ngwâl Harri'r Wythfed. Gwleidyddiaeth yw ei chrefydd benbwgylydd. Dyna sut mae ei deall hi. Elsbeth yw crefydd: – gwleidyddiaeth bellach. Brenhines Lloegr, a Phen d'Eglwys.'

Atebodd Pwlston yn wyllt o sarrug: 'Iesu Grist yw'r unig bost, ddyn, a'r unig fost sy gynnon ni. Mae'r cyhuddiadau'n eglur i'w gweld ac yn rhai difrifol. Dych chi'n euog o sarhau'r frenhines, o wadu'i hawdurdod cyfreithiol hi, o geisio tanseilio'r wladwriaeth a'i swyddogion. Brad yw hyn.'

'Ei *swyddogion* o bosib; ond y frenhines, na. Hi yw pen dilys y *wladwriaeth*.'

'Dych chi dan amheuaeth serch hynny, o frad. Ac yn rhinwedd yr awdurdod a neilltuwyd i mi, dw i'n dyfarnu ichi gael eich cadw am ddeng mis fel bradwr dan amheuaeth yng ngharchar Rhuthun. Fe gewch Farnwyr go siarp y pryd hynny.'

Syllodd Curig ar ei dad yn cael ei lusgo i ffwrdd. Hwn oedd y tad yr oedd i'w edmygu gymaint, ac eto allai fe ddim heddiw – heddiw o bob dydd – ond teimlo anesmwythyd llencynnaidd yn ei erbyn yn gymysg â'i gariad. Teimlai fod y credu

Protestannaidd gofynnol yn gorfod bod yn rhwyddach ar yr wyneb fel na ddylai undyn byw mewn cornel ddefnyddio gwrthryfel i danseilio cartre. Ac eto, ffeiddiai ei amheuon ofnus ei hun wedyn ynghylch dewrder ei dad ei hun.

Cawsai Rhisiart ei siomi felly yn Rhosier Pwlston. Os oedd cyfleustra'n creu bradwr, yna roedd Rhosier Pwlston wedi dysgu'r ffordd ddechre i gerdded o gylch nodweddion y cymeriad hwnnw. Wedi iddo ymostwng mor ystyriol ac mor ddynol ar un adeg, roedd y gweddnewidiad cyhoeddus hwn, er yn ddealladwy, eto'n perthyn i ryw dywyllwch dwfn. Roedd y proses o annynoli, roedd Pwlston yn rhan ohono, yn arwydd o'r ffordd roedd y caledu miniog ar gynnydd gwyllt drwy'r wlad. Pefformiwr yn ôl galwad yr amseroedd oedd Pwlston: dyna'r cwbl. Pan waeddid gorfodaeth swyddogol arno, dawnsio a wnâi e i'r dôn honno.

Goleuach oedd y gell hon yng ngharchar Rhuthun na'r hyn a brofasai Gwyn yn y Siambr Ddu, eithr mwy ceidwadol y Warder yma. Dôl hwnnw, o ran hwyl fel petai, bob gyda'r nos, cyn y gallai Gwyn gysgu, i ymosod arno, a dau o filwyr gydag e. Pwnien nhw fe'n ffyrnig ar ei asennau a'i ysgwyddau. Poeren nhw arno fe. Fe ddirdroen nhw ei freichiau. Ac yna, fe ymatalion nhw ychydig. Dyna'u tipyn hwyl cyn noswyllo.

'Ie, ie, gwaedda, yn un dewr i. Dyna'r ffordd. Sgrecha di'r arwr pitw,' gwawdien nhw.

Safodd dau ohonyn nhw ar ei fol, wrth iddo orwedd yn ddiymadferth ar y llawr cerrig. 'Beth yw hyn?' holodd Gwyn yn ei bendro.

'Tyfino blawd, machgen i. Gweithio torth.' Chwardden nhw'n arw.

'Paratoi i offeren?' holai Gwyn. Ac ar y gair, disgynnen nhwythau fel afalans ar ei wyneb, ar ei fryst, ac ar ei freichiau tenau.

Fore drannoeth, fe'i tynnwyd drachefn, yn ei racs, gan un o'r milwyr hyd y ffordd i'r eglwys leol. Hyd yn oed pe na allen nhw ei orfodi fe i dderbyn o'r cymun, o leia gallen nhw ei orfodi i sefyll o fewn clyw'r bregeth. Roedd y pregethwr, Ithel Thelwel, eisoes wrthi pan gyraeddsen nhw, ac ar ei anterth yn cletsio'r Eglwys Babyddol yn dost drwy ddifrio Pedr. Ceisiodd Rhisiart Gwyn agor ei geg i wrthdystio, ond fe figwyd ei leferydd gan glwtyn tryncedig yn llaw'r milwr.

'Bydd yn gwbl dawel,' meddai hwnnw.

'Pwy yw hwn?' sibrydai Rhisiart Gwyn o'r diwedd.

'Wyddost ti ddim?'

'Beëlsewbw?' mentrai Gwyn.

'Gŵr Duw – Ithel Thelwel – yn cyhoeddi'r Gwir.'

'Oes,' taerai Ithel Thelwel o'r pulpud pell, ac yntau heb sylwi am foment ar y newydd ddyfodiad cyfarwydd yn nhu draw'r gangell. 'Mae 'na sôn bedair gwaith yn y Testament Newydd mai gŵr priod oedd Pedr. Fe gyffesodd Sant Pedr mai offeiriad oedd ei daid yntau. Ac meddai Paul yn ei lythyr at Timotheus: '*Rhaid* gan hynny i esgob fod yn ddiargyhoedd, yn ŵr un wraig.' Rhyw arferiad a darddodd yn neheubarth yr Aifft oedd yr ymneilltuo yma y mae ein cyfeillion Pabyddol mor hoff ohono, yr ymneilltuo oddi wrth gymdeithas a'r difrïo 'ma am y stad briodasol drwy wahardd y gŵr priod rhag bod yn henuriad.'

Yna, fe sylwodd e ar wyneb Rhisiart Gwyn, a rhewodd Thelwel. Ceisiai siarad drachefn, ond ddô'r un sill. Symudai ei wefusau, ond roedd yn gwbl fud. 'Wyt ti'n bwrw hud arno fe?' gofynnai'r milwr yn wyllt i Risiart Gwyn. Syllodd ei gynulleidfa ar Ithel Thelwel, yn gwingo yn ei fochau, yn gwasgu wrth ei lwnc, ac yn cael ei ddirdynnu gan ei ymdrechion ei hun i yngan un geiryn arall. Fe'i trawyd yn fud. Yna, fe droesan nhw i weld Rhisiart Gwyn, yno ar lawr bellach, a'r milwr yn sefyll yn fygythiol uwch ei ben. 'Tyrd oddi yma ddyn. Beth wyt ti'n wneud? Beth gythraul wyt ti? Pwy?'

Roedd pawb o'r gynulleidfa, sut bynnag, hwythau'r un ffunud wedi'u taro'n fud, ac fe wylion nhw mewn tawelwch llethol wrth i Risiart Gwyn gael ei lusgo gerfydd ei draed allan o'r eglwys. Bwriwyd e'n ôl yn gadwedig felly ar lawr ei gell. Taflwyd bwcedaid o ddŵr drosto, a'i adael yn rhescyn gwlyb yn gwingo ar y llawr. Caeodd Rhisiart Gwyn ei olygon. Rywsut roedd yn well ganddo dywyllwch fel hyn. Rhyddid rhag erledigaeth, rhag y gwasgu a'r sen, rhag yr amheuon a'i plagiai fe bob awr.

'O na chawn i ryddid. Pa mor bwysig oedd ymwrthod, wedi'r cyfan?' Melys yn awr oedd y mudandod o'i amgylch, sicrwydd byddar y llawr. Cododd ei ddwy law i

guddio'i amrannau er mwyn i'r tywyllwch fod yn fwy tywyll. Gwasgai'i ben i lawr i'w frest, gan chwilio am ollyngdod du. Yn sydyn, synhwyrodd Rhisiart Gwyn ryw bresenoldeb. Teimlai fe fod rhywun ar bwys. Cawsai'r profiad hwn o'r blaen yn ei galon, ac ymlaciodd gan hyderu mai ymweliad goruwchnaturiol oedd hwn eto. Hedodd rhyw fath o ysgafnder addfwyn drosto oherwydd y gobaith nawr a oedd yn ymweld â'i galon. Agorodd ei lygaid yn ara. Ryw lathen oddi wrtho roedd geneth ifanc mewn gwisg wen tua dwy ar bymtheg oed. Gwenai a gwenai. Teimlai fe'n sâl ger ei bron. Merch raslon ei golwg oedd hi, yn sefyll uwch ei ben ac yn gwenu. Estynnai hi ei dwy law tuag ato ar ystum gwahoddiad, fel pe bai'n dymuno iddo godi a dod ati a gwrando.

'Pwy? Pwy wyt ti,' ebychodd e.

'Lisa... Lisa Thelwel, ffrind Curig.'

'Ond beth wyt ti'n wneud fan yma?'

'Fe lwyddodd y nhad i gael caniatâd i fi,' meddai Lisa Thelwel. 'Dw i'n gallu perswadio nhad ynghylch popeth. Dyw e erioed, erioed, wedi yn siomi i.'

'Ond pam rwyt ti yma?'

'Dim ond i gyfarch. Fe addewais i Gurig y down i draw i weld a oeddech chi'n iach. Doedd e, wrth gwrs, ddim yn credu y gallwn i. Ond dyma fi.'

'Theatr yw hyn felly? Rhyngot ti a Churig.'

'Mae'r plant ... mae pob un ... yn cofio atoch chi.'

'Gwell iddyn nhw anghofio.'

'Roedd eich gwraig – meistres Gwyn, am ddweud un neges fach.'

'Beth?'

'Dim ond,' meddai hi, 'dim ond dweud wrtho fod y byd yn dlws.'

'Byd arall y mae hi'n sôn amdano, mechan i.'

'Mae hi'n meddwl, ac mae Curig yn meddwl ichi fod yn wrol iawn. Ond mae gormod o ddewrder, meddai hi, yn troi'n falchder. Gwleidyddiaeth, nid crefydd, yw'r

grefydd dych chi'n ymladd yn ei herbyn. Ac yn Lloegr, imperialaeth yw calon pob gwedd ar wleidyddiaeth. Creadur o *dan* awdurdod yw awdurdod y nhad.'

'Wel, dywed di wrth y meistres Gwyn iti weld y llipryn balch hwn, ac mai llond gwniadur o ddewrder yn unig sy ar ôl ganddo bellach. Fe fu iddo wadu unwaith... Do, ond..'

'Fel Pedr gobeithio.'

'Ond', ac yna gostyngodd Gwyn ei lais, 'dŷn ni i gyd dan awdurdod: fel Pedr. Ac ar y Pedr hwn yr adeiledir yr Eglwys..., a'n tipyn chwarae ni yn ystod ein dwthwn twp. Ar y ngwendid eithafol i. Ie, ar y nibyniaeth fregus i. Elli di gofio'r neges yna?'

'Galla. Fe alla i wneud llawer iawn o bethau.'

'Dw i'n dy gredu mechan i. Os gellaist ti dorri drwy'r waliau trwchus hyn mor hwylus...'

'Fe alla i gofio'r neges yn sicr. Fe allwn i... hyd yn oed..' a gostyngodd ei llais, 'geisio dwyn mwy o berswâd ar y nhad... Pwy a wŷr?' meddai hi.

Pwy yn wir? Roedd calon Rhisiart Gwyn *am* daeru, yn awr yn ei hwyneb... 'Gwna hynny. Ie, gwna hynny gynted byth ag y gelli di. Gofyn i'r Ynad yntau ddwyn pwysau ar yr awdurdodau. Ond gollynga fi o'r uffern hon rywffordd. Pedr o ddyn, wir, i adeiladu! Jacob, ie Jacob yw'n enw i.' Ond tawodd e: clensiodd ei ddannedd isa o flaen ei ddannedd ucha.

Caeodd ei lygaid drachefn er mwyn atal ei dafod ymhellach; a phlygodd ei ben am eiliad mewn saethweddi wan. Pan agorodd nhw, roedd hi wedi mynd. Roedd hi wedi cilio â'i charedigrwydd. Caredigrwydd yw lleiafswm cariad. Gellir angerdd; ond heb garedigrwydd, ysgyfaint yw'r cwbl. Heb wth, gwynt yw sy'n megino ofn.

4.

1581

Fis Mai, 1581, safai Rhisart Gwyn o flaen y Barnwr Bromli yn Llys y Goron, Wrecsam. Wrth ochr y Barnwr yr oedd Clerc y Llys. Ar hyd yr ystlysau, milwyr arfog. Ac yna, ar eu sefyll ar lawr y llys gan nad oedd 'na ond ychydig o feinciau i'r uchelwyr

lleol, yr oedd y werin, llawer ohonyn nhw'n gefnogol i achos y Goron, gydag ambell wyneb aneglur ar hyd yr ymylon – gwraig Rhisiart Gwyn, ei fab Curig mewn dagrau, a rhai ffrindiau agos – yn adlewyrchu pryder dros achos Gwyn, am ei fod yntau mor brennaidd amharod rywsut i'w amddiffyn ei hun yn ddeheuig. Achubai Gwyn bob cyfle yn awr i ysmalio. Atebai bob cwestiwn cyn i'r holwr ei orffen. Ceisiai droi'r cwbl i fod yn gyfle i watwar ac i luchio sylwadau bachog a beirniadol yn ôl yng ngholau'i erlidwyr.

'Gwendid dy eglwys di oedd..., ' meddai'r Barnwr Bromli'n bwylllog. Roedd Rhisiart Gwyn yn chwenychu gorffen y frawddeg ag un o'r gwirioneddau – 'iddi geisio bod yn gry.' Ond ymataliodd y tro hwn. Ychydig o ddiwrnodau ynghynt roedd e wedi cael ei gario gan chwech o filwyr y siryf i eglwys Wrecsam, a'i sodlau i fyny yn yr awyr, a'i gludo o gwmpas y fedyddfa sawl tro er difyrwrch llebanog i'r gynulleidfa. Ei sennu fe oedd y bwriad; ond roedd e – yntau – bron wedi mwynhau'r perfformiad benbwygilydd. Rywfodd roedd tipyn o elfen y digrifwr ynddo yntau o hyd. Dyna'i anianawd. Ac wrth iddo gofio nawr y clownio anffodus hwnnw, roedd yn teimlo'n gymysglyd. Er bod tystio i'r efengyl yn gorfod bod yn ddifyr ochr yn ochr â'r difri, nid difyrru oedd gwaith efengyla. Mor anfonlon oedd fod ei egwyddorion yn troi fel hyn yn chwarae mor bitw; a'r un pryd, rhyw ddiawlineb yn ei anian a fynnai beidio â gadael i brudd-der naturiol y pridd feddiannu'i fywyd i gyd. Ac nid rheg ysgafn amdano'i hun oedd 'diawlineb' ond llythrenoldeb, yn arbennig ynghylch trawsylweddiad y bara.

'Euog!' gwaeddai'r Barnwr dros y llys. 'Oes gen ti un gair byr ar ôl cyn ifi roi y nyfarniad?'

'Oes, syr... Ustus Bromli... Oes! “Byr” yw'r union air am y Treial hwn. Syrthio'n fyr y bu.'

'Dim “gair” felly! Digon. Os dod yma i'n sarhau i'n bersonol rwy'ti... ' A throdd at y Clerc: 'Darllenwch union eiriad y cyhuddiad unwaith eto.'

Cododd y Clerc y papur, gyda phwysigrwyd y còg allweddol. Ond sylweddolodd yn ddisymwth a chyda rhyfeddod anferth iddo gael ei daro'n annaturiol ddall. Roedd niwl tewlwyd fel terfynoldeb wedi chwythu i mewn oddi ar rosydd moel ei ymennydd ar draws ei retina; ac yna rhagor o'r stwff wedi'i ddilyn yn isel dros ei olwg. Rhoddodd



ei law dros ei lygaid, a syllodd drachefn. Doedd dim golau dydd yn unman. Trodd y Clerc ei ben tuag at y Barnwr, eithr doedd neb yn y cyfeiriad hwnnw chwaith. 'Alla i ddim gweld rywfodd,' sibrydai'r Clerc yn ddiymadferth. 'Mae 'na rywbeth bach wedi digwydd i'n llygaid i.' Nerfuswydd oedd hyn, dybiai'r Barnwr.

'Peidiwch â chodi'ch llais ddyn.'

'Ond dw i wedi colli ngolwg.'

Yn galed rhwng ei ddannedd, ac eto'n ceisio gostwng ei lais, poerodd y Barnwr ei orchymyn: 'Yn dawel, ddyn, neu fe fydd y bobl yn tybied fod 'na wyrth wedi digwydd. Rhowch y papur i fi.' A chipiodd y papur o ddwylo crynedig y Clerc. 'Fe'th gyhuddir di o darfu'n anweddus ar wasanaeth crefyddol.' Glaswenodd e'n ffiائد at y cyhuddedig. 'Trosedd wrthun, ddyn. Cabledd mewn gwirionedd... Rhisiart Gwyn, dw i am osod dirwy o £800 arnat ti.'

Gwenodd Gwyn.

'Ac o fethu â thalu yn y fan – carchar.'

Gwenai Gwyn yn ehangach byth.

'Ond dw i am weithredu trugaredd,' meddai'r Barnwr. 'Fe gedwir cyfle i ti yn ystod dy garchariad i ymweld â'r eglwys. Onid trugaredd Duw yw peth felly?'

'Nid gan y Nuw i.'

'Mor siŵr ohonot ti dy hun rwy'ti, Gwyn. Onid oes mymryn bach o amheuaeth yn tarfu arnat ti ambell waith?'

'Bob dydd. Drwy'r dydd. Yn hoff gêm i yw amau. Thomas yw yn Nawdd Sant i. Llwfdrda ei hun yw yn enw i syr, yn cogio'i fod e'n Ddewrder.'

'Ac yn amau heddiw felly?'

'Bob cyfle gwyn, diogelwch yw amau.'

'Diogelwch?'

'Rhag syrthio yn nwylo celwyddau'r Diafol dyfal a diofal sy ar sgawt yn chwilio am y ngwendidau i ym mhob cwr. Dw i'n ei amau *fe* hyd yr eitha.'

\*

\*

\*

Yn y dyddiau hyn, âi Curig a Lisa, y naill a'r llall ar ei ben ei hun, i grwydro cyn belled ag y caniatâi'u traed blinderog. Heb yn wybod i'w gilydd, roedd y ddau ifanc yn greddfol chwilio, yn eu hoff le, am ei gilydd ac am gysur cwmpeini. Ac yn anochel, rywdro deuen nhw ar draws llwybrau'i gilydd. Felly, heddiw. Roedd Curig wedi mynd yn bur bell. Ac roedd Lisa hithau'n gorffwys drachefn.

'Dw i'n ei gasáu e.' Gallai Lisa glywed geiriau Curig yn siarad â fe'i hun rywle, ond allai hi ddim gweld y llefarydd. Daethai hi'n ôl i'r un fangre ar lan Dyfrdwy lle y cyfarfuon nhw'n gynta, ond doedd neb i'w weld yn unman yno.

Cuddio roedd Curig truan. Nid ymguddio a wnâi e o ran hwyl a sbort, eithr ymguddio fel y gwnaethai Adda gynt, o gywilydd, cuddio oherwydd bod dangos ei wyneb yn dân ar ei groen. Roedd ei arddangos ei hun yn rhy amlwg i'r planhigion a'r adar a'r gwybed, yn brofiad rhy friw i ddim. Roedd yntau rywsut heb yr un hawl noeth ar ddim.

'Alla i ddim llai na'i gasáu e,' sibrydai fe wrtho'i hun. 'Mae e wedi pentyrru gofid am ben gofid ar mam,' ebychai. 'A'r cwbl er mwyn cael sylw'r wlad. Clod gwerin.'

Yn awr roedd Lisa wedi lleoli'i lais e. Roedd e wedi dringo derwen ar bwys (yn ôl ei anian, a heb feddwl bron), ac wedi ymwithio gan bwyll ar hyd un o'r canghennau. Yn y fan yna roedd e'n gorwedd ar ei hyd a'i wyneb yn agos at y rhisglen, fel petai am withio'i drwyn i mewn i arwder mwsoglog y rhisgl. Doedd hi ddim yn gwbl sicr ai smwds llefain a oedd wedi'i sychu oddi ar ei foch neu beidio.

Torrodd Lisa ar ei draws: 'Dere di i lawr o'r fan yna, neu syrthio fydd dy hanes di eto.'

Dihunodd e i'w phresenoldeb mewn ychydig o embaras: 'Ond mae'r boen – poen yr oes – yn para mor hir. O bant i bentan. Mae nhad mor wirion o styfnig.'

'Dere Gurig.'

'Cael enw merthyr yw ei nod e. Ond a fyddai Duw'n caniatáu i dad aberthu gwynfyd ei deulu er mwyn hynny?'

'Dw i ddim am ddal pen rheswm gyda thi fan yna.'

'Dw i'n ei gasáu e.' Roedd e'n taflu'i frawddegau caled i lawr o'r gangen, fel gwiwer yn ei pheledu hi â mes.'

'Fe gwympi di.'

'Dw i am *aros* yma.'

'Ond am faint? Tydi sy'n styfnig nawr. Dere. Paid â bod yn wirion.'

'Sut mae e'n gallu bod mor sicr mai fe sy'n iawn? A phawb mewn awdurdod ar gyfeiliorn? Y frenhines, y milwyr, y barnwyr, pawb oll ond e, y nhad, yn wallgo.'

'Dw i ddim yn mynd i siarad â thi fan yna. Dere i lawr.'

'Mae e'n condemnio pawb. Mae e wedi'i osod ei hun goruwch pawb, a dyw e ddim yn barod i wrando.'

'Dyw'r gangen 'na ddim yn ddiogel. Dere i lawr.'

'Na.'

'Os doi di i lawr, fe wna i rywbeth beiddgar i'th blesio di.'

Stopiodd e. Cynheuwyd ei chwilfrydedd fymryn, a chododd ei ben ryw ychydig. Syllodd e i lawr ar ei hwyneb petalog o ran ansawdd ei chroen a oedd yn blodeuo'n dlws uwchben coesyn ei chorff yn binc i gyd. 'Beth?'

'Ddweda i ddim nes dy fod di wedi disgyn i lawr yma. Ond mae'n rhywbeth y byddi di'n falch ohono.'

Edrychai hi arno. Er nad oedd e namyn dwy flynedd a chwarter yn iau na hi, ceisiai hi synio amdano ar gudd fan yna yn nail y goeden, fel pe bai hi'n fam iddo, yn fam frenhines, yn Elsbeth fechan, ac yntau felly yn ddinesydd clwyfus yn ei theyrnas hi.

'Dywed di, ac fe ddringa-i i lawr wedyn,' meddai fe.

'Wyt ti'n addo?'

'Ydw,' meddai fe gan godi'i ben a'i ysgwyddau'n uwch er mwyn ei gweld. 'Addo!'

Thorrodd e ddim o'r gangen; ond ansicr odiaeth oedd gafael Curig arni. Doedd e ddim yn ddigon effro'i feddwl. Yna syrthiodd oherwydd llesgedd ei afael, bron yn ddiarwybod, fel adenydd melin wynt a amddifadwyd o'i hadeilad canol cynhaliol, yn gylchfa chwyrliog o goesau a breichiau protestiol, gan droelli'n hedyn unig nes bron pwio'r llawr islaw a'i sadrwydd sydyn. A chwaddodd hi fymryn. Allai hi ddim llai. Oherwydd tyndra'i dychymyg roedd hi bob amser bellach yn chwerthin yn nerfus gynnwl. Clustogwyd ei gwmp e gan y llaid, sut bynnag; ond roedd e wedi cracio asgwrn yn ei fraich. 'Mae hyn yn mynd yn arferiad,' meddai fe yn ei boen.

Roedd ei wyneb e'n welw. Fe gnôï e'i ddannedd yn ffyrnig rhag llefain. Rywfodd, roedd e'n falch ei fod mewn poen. Crynai yn ei ymdrech i beidio â sgrechain.

'Beth wyt ti am inni'i wneud nawr, dywed?' gofynnai fe'n styfnig.

'Ond rwyd ti wedi cael anaf,' meddai hi gan redeg ato. 'Wyt ti wedi torri rhywbeth?'

Eisteddodd e, wedi cael sioc, ond yn hollol amharod i gyfadde dim. 'Beth wnei dithau felly?' mynnodd e.

'Ond, Curig, rwyd ti wedi cael niwed.'

Daliai fe'i fraich yn erbyn ei fryst, ac roedd yna beth chwys ar ei dalcen. Bu hithau bron â'i rhoi'i breichiau ei hun am ei ysgwyddau yn y fan a'r lle i'w gysuro fe, ond ymataliodd yn ei swildod a rhag peri mwy o loes iddo.

'Wyt ti'n siŵr dy fod di'n iawn?' gofynnodd hi.

'Beth yw dy gynllun di dw i'n ei ofyn?'

'Mae'n rhaid ei stopio *fe*,' meddai hi.

'Pwy? Y nhad? Byth.'

'Na, nid dy dad di. Mân us yw e, a nhad i. Y byd gwleidyddol. Mae olwyn Gwleidyddiaeth yn malu, malu, Curig. Ac fe gaiff dy dad ei dynnu ymhellach bellach i mewn. A nhad i i'r cyfeiriad arall.'

'Oes stopio ar honno? Onid gwleidyddiaeth sy'n ben?' meddai Curig. 'Sut?'

'Dw i'n siŵr y gallwn i berswadio nhad i anfon llythyr. At yr Esgob. Dw i'n gwybod does neb tebyg iddo fe am lythyr. Cyn hynny, mi wna innau addo iddo bractisio'r delyn am dair awr bob dydd – am fis. Fe frysia fe i anfon llythyr wedyn dw i'n siŵr, at ryw bobl ddylanwadol. Ond Curig, rwyt ti mewn poen.'

'Nac dw. A diwerth fyddai llythyr mae arna-i ofn. Wrandawen nhw fyth arnat ti nac ar dy dad.'

'Gwnân. Dw i'n gwybod beth ddwedith nhad.'

'Beth?... Wrthyn nhw neu wrthot ti?'

Dynwardodd hi nawr bwysfawredd pwylllog ei thad gydag arddeliad a blas: yn bwylllog foliog – 'O! O'r gorau merch i, os oes rhaid, – os wyt ti'n addo – practisio ar y delyn bob dydd, – efallai y bydda i'n gallu perswadio rhywun yn rhywle. Eisiau gwneud siampl maen nhw. Taro ar un Cymro. Ond dyna ti... os wyt ti'n addo: dair awr bob dydd.... Mae yn llythyr i'n gwneud gwyrthiau weithiau.'

Eisteddodd hi nawr wrth ochr Curig. 'Os llwydda-i gyda nhad, efallai y derbynni dithau, hefyd, Gurig, dy dad di'n ôl i'r gorlan wedyn,' ysmaliodd hi.

'Tr gorlan yn ôl? I gorlan y nghallineb twp? Pam lai?'

'Wel, da iawn. Rown i'n meddwl dy fod di wedi'i alltudio fe i'r Môr Tawch.'

'Gŵr gor-fentrus yw nhad,' meddai Curig. 'Mae yn ymennydd i yn gwaedu drosto.'

'Paid â siarad yn amharchus amdano fe te.'

'Ydy, yn or-fentrus i'w iechyd. Ydy. Ac mae mam hefyd yn rhy fentrus weithiau.'

Ust, Gurig.'

'Ydy, ydy, ac mae gan y nhad sawl gwraig,' broliodd Curig.

'Sawl un!' meddai Lisa yn weddol amheus.

'Oes!' Roedd Curig yn siarad yn dynerach amdano nawr, fel pe bai'r pwl o ladd arno a gawsai gynnu wedi mynd yn ansicr ac yn annidwyll bron, er yn ollyngdod i'w anfodlonrwydd, fel pe bai yntau am ysmalio.

'Na?'

'Oes. Heblaw y mam i, fe briododd e wraig weddw yr un pryd: yr arglwyddes Tlodi. Mae e'n dwlu ar honno. Mae hi'n dod ato'n ffyddlon ambell fore, a'r hyn y mae'n ei wneud yw tywallt ei sgrepan a'i logellau i gyd o'i blaen hi. Ond yn gyfredol hefyd, mae e'n paratoi ail ŵr i'm mam: Ffransis fydd hwnnw, oherwydd y dawnsio.' Ac yna, daliodd ei anadl a sobri: 'Mae rhieni o'r fath yn her i gallineb eu plant.'

'Gurig, gad ifi weld y fraich 'na.'

'Does dim byd na bydd clensio dannedd ddim yn gallu'i wella.'

'Afradlon wyt ti fel dy dad, Gurig. Dw i'n credu y byddet ti'n gallu diodde unrhyw beth, pe baet ti'n synied y byddai'r awdurdodau Llundainig yn llai canolog eu teyrnasiad ar fywyd Cymru: torri dy esgyrn, cael dy chwipio hyd yn oed, popeth.'

'Na allwn. Alla i byth ddilyn y nhad.'

'Pe bai'r milwyr yn dod i'th nôl di, fe fyddet ti'n sicr o ddal dy dir.'

'Na fyddwn.'

'Byddet.' Roedd ei chrebwyll yn ormod i'w hygoledd. 'Ac fe ddeuwn innau gyda thi, wrth gwrs.' Yn awr, roedd ei difrifoldeb wedi diflannu'n llwyr. Gwenodd hi. 'Caet ti nghladdu i fan hyn wedyn.' A symudodd gysgod ei braich uwchben ac ar draws y cylch o dir o'i hamgylch.

Ac o'r diwedd, gwenodd yntau. Gwenon nhw gyda'i gilydd, am eiliad betrus, o leia nes i Gurig rewi... Bob amser y tu ôl iddo, beth bynnag am y golwg, caed rywfodd ddifrifwch ei dad. Doedd dim neilltuol o'i le ar feddylfryd Curig. Ond roedd rhyw ffrwd yng ngwythiennau Curig yn ei wthio fe bob amser yn ôl i anesmwytho am ei dad. Hwnnw. Pam yn y byd na rôl'i dad lonydd iddo? Oni allai oedi i wleidyddiaeth aeddfedu?

'Gobeithia Gurig,' ebychai Lisa. 'A gweddïa drosto.'

\*

\*

\*

Treiglodd amser dros bawb. Yn y dyddiau hynny, fe'i cymerai Amser ei hun o ddifri iawn, yn ffactor Hanes. Yn ein dyddiau ni, dyw Amser ddim mor siŵr ohono'i hun. Ym Medi 1582, ar ôl i Risiart Gwyn gael ei lusgo unwaith eto o flaen llys Syr Siôr Bromli, a chynnig pishyn chwech tuag at ddirwy o ganpunt a deugain a osodwyd arno am beidio â mynd i'r eglwys, fe gafodd e lawenydd cymysglyd wrth ddychwelyd i'w gell o weld dau gydymaith cyd-deimladus ar lawr yn y fan honno yn disgwyl amdano.

Siôn ap Huw a Robert Morys; hwythau hefyd wedi'u cadwyno. Cadwynwyd yntau hefyd wrth eu hochr yn y man. Ond cysur, os cysur pryderus, iddo fe oedd eu gweld nhw yno.

'Maen nhw'n darparu popeth 'ma, Siôn,' meddai fe. 'Cwmnïaeth a diddanwch o'r radd flaena.'

'Sut wyt ti, Risiart bach?'

'Ar wahân i ambell asen sy heb fod yn siŵr iawn o'i lle, yn od o dda. A chithau'ch dau?'

Ynghrwm roedd gwar Robert Morys, a syflai fe ddim mymryn. Ond roedd hi'n amwys pa un, ai Rhisiart Gwyn (a gladdai'i bryder mewn jolihoeitio croengaled) neu ynteu Robert Morys wrth ymollwng yn dawel i'w ful, a ddiodefai waetha.

'Eu hanfantais nhw yw nad oes ganddyn nhw fawr o un comóditi bach pleserus – sef prawf o drosedd,' haerodd Siôn ap Huw.

'Manyl yn pitw i'r byd hwn. Dibwys i unrhyw gyfreithiwr gwerth ei halen,' atebodd Rhisiart Gwyn.

'Allan nhw ddim ond palu celwydd.'

'A phlannu heddwedyn. Na allan, fydd dim digon o'r wmf i blannu bedd go iawn gan rai felly. Beth ddwedet tithau Robert Morys?' ategodd Gwyn.

Chododd hwnnw ddim o'i ben, dim ond mwmlal: 'Bydd dy angen di arnon ni'r flwyddyn nesa, Risiart Gwyn, a'r flwyddyn wedyn, yn dyst i'n "cymeriad da". Cadwa dy

geg ynghau y tro 'ma a'th draed yn gyfaddawdus o rydd nes bod y chwiwiau hyn oll wedi'u dadchwiwio. Ac yna, fe elli ddod allan mor ddigymrodedd ag erioed. Arhosa'n ddiniwed nes bod y llysoedd oll wedi mynd i'r gwellt. Dim jôcs!

“Y flwyddyn nesa”, ie: cysyniad diddorol bob amser. A'r flwyddyn wedyn, yn fwy diddorol byth,' ebychai Gwyn, ac yna gwenai, a lluchio'i law i'r awyr: ymdrechai'n smala ffug i ddawnsio'n smala gwta er gwaethai'i gloffni a'r rhwymau anghyfiaith. Ond bu'r ddawns yn rhy afrosgo: wals heb olau kannwyll oedd, ac anodd i gadw amser gyda hi. Wals cwta ac achlysurol o fis i fis yn y gell ddrewllyd ddi-amser hon.

Aeth yr hydre heibio eto. Treiglodd amser yn ddŵr oer dros gefn pawb a thros y lle fel pe na allai wneud dim yn well. Ar Dachwedd 27, 1583 yn ddirybudd hollol, dadfolltwyd y drws, a daeth y Ceidwad i mewn i gyhoeddi 'taith fach gota heddiw... Y gorucha Meistr Atkins sy'n cael yr anrhydedd o gyfarfod â Meistr Gwyn! Twrnai'r Frenhines yn cael wynebu bardd go iawn!

Ond ar ei ffordd tuag at ystafell Mr Atkins, yng ngolau llachar dydd normal, roedd rhai o'r werin wedi adnabod Rhisiart Gwyn yn ei gadwyni, a gwaedden nhw: 'Duw a'th gadwo.' 'Duw a safo gyda thi.'

Fe daflwyd Gwyn ar y llawr o flaen desg y twrnai, er nad edrychodd hwnnw i fyny i weld pwy oedd yno am ychydig.

'Dyma achos Gwyn, ai e? Bore da, Mr Gwyn.'

'Dydd da, syr.'

'Dw i ddim yn gweld eich ffeil yn unman ... sut bynnag...Dych chi wedi'ch gosod eich hun o fewn olwyn, mae arna i ofn, olwyn barnedigaeth Cyfraith Lloegr, sy'n malu'n fân. Olwyn sy wedi troi hyd at fan yma; a throi wnaiff, peidiwch ag ofni.' Daeth clerch bach â ffeil, a'i gosod ger ei fron. 'A! Llythyr ffurfiol oddi wrth yn hen gyfaill Seimon Thelwel. Mae hyn yn haeddu sylw teg, debygwn i.' Bwriodd olwg yn frysiog drosto. 'Welwch chi Mr Gwyn. Ein llysoedd barn *ni* yw'r rhain. Pur wahanol i lys barn eich cell gyffes chi. Llys barn gwleidyddiaeth yw hyn. Un goleuedig.'

'Ie, syr.'



'Cyfiawnder yw'r bôs fan hyn. Ond dŷn ninnau'n dymuno clywed cyffes hefyd: cyffes wleidyddol, yn erbyn y frenhines. Dych chi wedi cyffesu mewn man arall yn ddiweddar, mae'n debyg, heb fod fan hyn.'

Atebodd Rhisiart Gwyn ddim. Ymwthiodd y clerwr bach ymlaen a mentro holi Twrnai'r Frenhines. 'Oes 'na ateb, Mr Atkins, i Mr Thelwel?'

'Nac oes, glwrwr, mae arna i ofn. Mae Mr Thelwel am inni fod yn drugarog. Ond... wel... mae'r olwynion wedi troi'n rhy bell. Dowch ymlaen Mr Gwyn, dych chi wedi cyffesu, – pryd? Dwedwch. Ai o flaen y dyn, John Benet, tybed?'

'Peth Cristnogol cywir yw cyffes, syr, ond rhaid iddi fod yn y dirgel. Mae'n rhwymedigaeth arna i, felly, i beidio ag ateb eich cwestiwn.'

'Rhowch y ffeil i gadw,' meddai Mr Atkins wrth y clerwr. 'Mi garwn wneud rhywbeth i fodloni Seimon Thelwel, siŵr; ond mae'n rhy hwyr.' Trodd yn ôl at Rhisiart Gwyn. 'Llys barn hollol anghyfreithlon yw'r gell gyffes, credwch fi, Gwyn,' meddai fe. 'Gwleidyddol anghyfreithlon. Bydd yr offeiriad Pabyddol ei hun yn y gell gyffes yn ymhoni'n farnwr.'

'Na.'

'Efô sy'n pennu cosb onid e? Ond wela-i ddim lle i beth felly yn yr ysgrythur, na hyd yn oed yn ysgrifeniadau'r tadau cynnar, fod yna le i gyffes i neb ond i Dduw. Cell garchar i Gwyn yw'r gell go iawn.'

'Offeryn i Dduw yw'r offeiriad.'

'Glywsoch chi hynyna, gyfeillion? Offeryn yw offeiriad! Pwy all faddau pechod digynghanedd ond Duw yn unig? Marc dau, adnod saith.'

'Cywir,' meddai Gwyn. 'I Dduw, drwy offeiriad.'

Roedd y clerwr a aethai â ffeil Rhisiart Gwyn newydd ddychwelyd. 'Mae Mr Thelwel wrth y drws.'

'Bobol bach. Mae e'n gyndyn, on'd yw e,' meddai Mr Atkins. 'Fe ddeua i allan i'w weld e ymhen munud. Ond mae'r sgwrs yma'n rhy bwysig ar hyn o bryd. Welwch

chi, Gwyn: peth arall. Pechod marwol yw *pob* pechod. Dyw ymprydio, neu weddi, neu weithredoedd da ddim yn ennill iachawdwriaeth i neb, Gwyn, – byth oddi wrth sarhad yn erbyn Duw. Cyflog pob pechod yw marw. Dyna'r gosb. Efô yw'r Barnwr mawr.'

'Nid gweithredu ar ei awdurdod i hun y bydd offeiriad wrth faddau pechod,' meddai Gwyn. 'Gallu a roddwyd gan Grist iddo yw hyn: Ioan ugain, adnod dau-ddeg tri. Gwaith.'

Torrodd Mr Atkins i chwerthin: 'Dyfynnu'r Beibl, ai e? Chi? Fe glywsoch gyfeillion. Pabydd dan awdurdod y Beibl. Braff ynte, yng nghanol cyfraith gwlad.'

Roedd y Twrnai yn gyfarwydd ddigon ag wynebu troseddwy'r 'confensiynol'. Teimlai'n gartrefol braff gyda'r cyfryw goethni gan ei fod yn gallu gweld adlewyrchiad posibl ohono'i hun yn eu llygaid nhw. Ond am garcharorion gwleidyddol fel hwn! Roedden nhw fel petaen nhw'n ei faetio fe'n fwy, – nid yn baetio o ran hwyl, ond yn baetio o ran eu tynged. Gweithwyr go ddealladwy a diwyd ym maes anonestrwydd ar y llaw arall oedd lladron cyffredin y slymiau yn ei dyb e. Bu bron â meddwl 'troseddwy'r gonest', pobl a gosbid oherwydd eu gwaith, gwaith caled a pheryglus yn fynych o droseddu, ond gwaith, serch hynny. Ac fe'u dodwyd nhw mewn carchar yn unswydd i'w hatal nhw rhag y gwaith hwnnw. Ond nid gweithwyr felly fyddai carcharorion gwleidyddol fel Gwyn. Yn wir, eu 'gwaith' allanol a'u gweithred benna nhw oedd peidio â gweithio, math o segura, er mwyn mynd i garchar ambell waith. Yno, yn y lle aruthr ddi-waith hwnnw y cyflwynen nhw eu gorchwyl llawna. Dieithriaid o'r fath oedd y Pabyddion bob amser felly, yn cael eu cosbi am gredu.

Eithr yn y bôn, cynhaea ysgafn eu llafar, ac o'r un gymdeithas â'i gilydd, oedd twrneiod a'r troseddwy'r go iawn arferol. Cynnyrch cyffelyb dywydd, cyffelyb gyd-destun, yr un busnes: yn rhan o'r un Ddeddf.

'Yn ôl eich cyfundrefn chi, Gwyn, yr offeiriad sy bob amser yn ceisio dod *rhwng* y pechadur a'i Dduw. Ond mewn gwirionedd rhwygwyd llen y deml bellach. Caiff pob pechadur gyrchu'n union at ei Dduw drwy'r unig gyfryngwr, Iesu Grist.'

'Rhai a anfonodd Crist ei hun yw offeiriaid neilltuedig,' atebodd Gwyn, 'megis y danfonodd y Tad fi, dw innau yn eich danfon chi.'

'Ond offeiriad yw pob Cristion, does bosib,' meddai'r Twrnai, 'pawb a ailanwyd yn oruwchnaturiol, ac sy'n eiddo personol i Dduw drwy ras.' Eithr bellach yr oedd y Twrnai'n colli'i amynedd â'r hen holli blew gorgyfarwydd hwn. Gwyddai fod Seimon Thelwel yntau yn disgwyl amdano ar bwys: 'Yn ôl ag e i'r gell, Geidwad. A gofalweh amdano'n fonheddig... Mr Gwyn, cawn sgwrs ddifyr rywbyrd eto.'

\*

\*

\*

Roedd Curig a Lisa wedi anfon nodyn at ei gilydd, a'r ddau wedi trefnu cyfarfod drachefn yn eu hoff fangre ar lan Dyfrdwy. Yno, roedd Curig yn ddewr o brudd. Hithau, pan ddaeth hi ato, roedd hi'n crio'n fewnol. Eisteddodd hi ar y llawr, a rhoi ei phen ar ei phenliniau. Doedd hi ddim yn llefain yn uchel, ond roedd ei gofid hi'n chwerw.

Roedd y ddau yn drist. Er bod Curig yn awr mor ddiflas, a chan nad oedd angen iddi hi esbonio'r dagrau ddim, wylai hi'n rhydd ond yn dawel. Nesaodd e ati, a chyffyrddai â'i hysgwydd. Yna, pwysodd e ymlaen, a'i chusanu ar ei gwar. Dyna'r tro cynta a'r agosa roedd Curig wedi bod erioed i gyfadde unrhyw fath o gynhesrwydd amlwg tuag ati. Roedd y peth yn anhygoel iddo. Tybiai fe'i bod hi wedi dod ato o fyd arall. Roedd rhyw wawl o'i galon amdani bob amser, yn goleuo'i gwallt ac yn syrthio dros ei dillad. Yn awr, roedd hi wedi mynnu ymgrisialu'n ffurf weddol ddiriaethol er ei bod hi ymhlith ei elynion go iawn mewn ffordd, er mwyn bod yn agos ato.

'Fyddet ti ddim yn hoffi, Lisa, pe *na* bai gynnon ddim rhieni?'

'Fel Adda ac Efa rwyt ti'n feddwl?'

'Dim ond ni, yn cael ein bywydau *ni* yn Eden: pysgota yn yr afon, crwydro drwy'r pabïod, canu'r delyn pryd y mynnen ni, ond heb neb yno i osod rhwystrau, heb rieni i wthio'u ffordd nhw o fyw arnon ni.'

'Byddai'n sefyllfa ddwl,' meddai Lisa. 'Nid dyna'r byd syrthiedig.'

'Ond dw i'n rhyw dybied, pe na bai rhieni, a phe baen ni heb ddyletswyddau teuluol, na fydden ni byth yn crio.'

'Heb gredu dim? Heb ddyletswyddau. Heb neb yn gorchymyn? Amhosib. Anymarferol.'

'Ond wyt ti'n licio'r syniad? Dw i'n credu y gallen ni orwedd ar lawr fan yma, a chau ein llygaid, a bydden ni'n cael gwared â nhw i gyd, mewn dwy funud.'

'Mae yna drefn dda ar gael ymhobman, ond bod pobl yn y fan yma eisiau ei disodli hi. Bydol yw'r byd mwyach, meddan nhw, ysywaeth.'

'Rwyt ti'n iawn. Ond liciwn i gau yn llygaid i'n iawn. Ond dw i'n gwybod yn burion, pe gwnelwn i hynny fan hyn,' (ac wrth iddo brotestio felly, dyma fe'n cau'i lygaid o'r diwedd), 'yr hyn welen i o hyd fyddai tri milwr, heb fod yn bell o'r fan hyn, yn sefyll uwch pennau tri charcharor, sy'n dlawd, wrth eu hochrau nhw – Siôn ap Huw a Robert Morys a nhad, – yn cael eu dirdynnu. Dyna fyddai yn llygaid y meddwl i. Dw i'n gallu clywed y milwyr nawr, y funud 'ma yn herio: “Enwau sy eisiau arnon ni. Enwau offeiriad. Ble maen nhw? Pwy sy'n eu helpu nhw? Pwy sy'n annog pobl i beidio â mynd i'r eglwys Anglicanaidd? Pwy sy'n difrïo'r frenhines?”'

'Paid â dweud dim mwy, Curig. Agor dy lygaid. Nid fel 'na mae hi.'

'Mae'n ddrwg gen i. Ond roedden nhw... *maen* nhw'n mynnu dod i mewn i'n bywydau ni.'

A'r union eiliad yna yn y carchar nepell oddi wrthyn nhw, roedd Robert Morys yn ildio o dan bwysau dirdyniadau. Cyn hyn buasai'r tri milwr wedi ymgynghori uwch ei ben e gan dybied mai efô o'r tri hyn oedd y tebyca i gracio o dan bwysau poen, am fod yna eisoes yn ei gydwybod e ryw led amheuaeth nad oedd y safiad annynol hwn ar yr union adeg hon yn yr oes hon ond megis mân lwch y cloriannau. 'Dyw Duw ddim yn disgwyl inni farw fel hyn,' murmurai Robert Morys. 'Ddim fel hyn ... am resymau gwleidyddol.'

'Na hidier,' gwaeddai Rhisiart Gwyn yn ôl ato. 'Mae'r afresymol sydd yn y fan hon hefyd yn gornel fach ar ymyl *rheswm* Duw.'

Erbyn hyn roedd Robert Morys wedi gwanychu'n ddirfawr, ac yn barod i sibrwd enwau John Benet a Harri Puw, a phwy bynnag arall y gallai'i grafu oddi ar waelod ei sach.

'Arhoswch fechgyn, mae'n yngan rhywbeth,' meddai'r mwya blonegog o'r tri milwr, a phwysodd dros Robert Morys i wrando. Roedd y gell yn farwaidd o dawel. Anadlai neb. Yna, unionodd y milwr wedi'i fodloni: 'Fechgyn! Peint!'

Roedd Pabyddiaeth wedi dechrau gwybod ei lle. Roedd Protestaniaeth wleidyddol yn gweithio, am y tro. Dau beth nad oes dim dianc rhagddyn nhw yw unigrwydd a methiant. Ac y mae'r naill a'r llall yn tarddu o'r ffaith nad oes yr un ohonon ni'n gweld namyn modfedd fach o'n blaen. Beth sy y tu ôl i'r gornel, wyddon ni odid ddim. Mewn gwirionedd, wyddai dirdynwyr Robert Morys ddim am y tristwch a oedd yn fwrlwm ym mhob llwyddiant. Ac wyddai Robert Morys, yntau wrth gyffesu druan yn y fan honno, ddim bod ildio gerbron un ymosodiad yn feicrocosm o'r ildio cyffredinol. Dyma'r byd syrthiedig a'r diffyg tynerwch, y brad sy'n erbyn ymddiriedaeth.

Clywai Rhisiart Gwyn ddirdynwyr Robert Morys yn agor y gell gyfagos, gyda chwerthin llon yn eu buddugoliaeth, a chlywai fe hefyd sgrechiadau Robert yntau'n codi ac yn peidio. Daethpwyd yn ôl ag e a'i daflu'n ôl i gell Rhisiart a Siôn.

Distawrwydd gwynias a lethai'r gell am ddwy awr ar ôl i'r tri milwr ymadael. Ac yna, torrodd Rhisiart Gwyn ar draws y mudandod. 'Er dy fwyn di y daeth *E*, Robert. Doedd dim o'i angen *E* ar y rhai cry. Roedd y rhai pwerus yn gallu ymdopi'n burion, y rhai cyfiawn a pherfffaith. Roedd y rheina i gyd yn wyn eu byd. Ond ti.. A fi, Robert, fi yn y nghloffni, fi yn yn niffyg cariad, fi yn methu â chyrraedd o hyd... ni'n dau, a Siôn yma hefyd: dyna dri rheswm go lew pam y daeth *E*. A dod i'th gysuro di yw'n swydd innau.'

'O! Ie, Rhisiart,' sibrydai Robert, 'ie-ie-ie, tri rheswm da, droson ni'n tri y daeth e, dw i'n gwybod. Yn enw Iesu Grist, fe hoffwn i heddiw petai yna damaid o'r afreswm rhyfedd hwnnw hefyd yng nghornel pella'r rhesymau rhyfedd yn y fan yma.' Ac yna, dyma lais dieithr ar draws Robert, llais oddi uchod acw, yn eu calonnau yn sibrdw y rheswm, heb neb yn ei ddeall. Gymaint oedd camddealltwriaeth y byd o'r llais yna.

A phallodd eto'n fuan.

Treiglodd Amser dros bawb.

'Henffych well, frodyr. Y mhraidd bychan.'

Wrth adnabod y llais bas cyfoethog, llawenhaodd Rhisart Gwyn a Siôn ap Huw drwyddynt.

'John Benet! Croeso.'

Lluchiwyd Benet a Harri Puw i mewn atyn nhw fel dau grwstyn sych at frain.

'Ai Harri Puw, tithau? Hyfrydwch!'

Yn nhywyllwch ei euogrwydd cyfeillgar, allai Robert Morys yntau ddim yngan sill wrthyn nhw. Troes ei ben i ffwrdd. Roedd yn crynu.

'Robert Morys, y mhlentyn i,' meddai John Benet, gan edrych yn dirion tuag ato, 'onid oes gen tithau air o gyfarch i ni?'

Eisteddai Robert Morys yno, a'i ben tuag i lawr, a'i deimladau wedi'u crynhoi a'u tynnu, yn dannau ar dorri oherwydd dyfodiad y ddau. Cododd ei aelïau yn ara deg, ac roedd holl ofid yr amseroedd wedi'i ysgythru ar ei wyneb. Ymlusgodd at John Benet ar ei linïau, a'i ben tuag i lawr, ac aros yno wrth ei draed.

'Maddau. Maddau nhad. Dw i wedi syrthio. Dw i wedi sarhau Duw. Dw i wedi cosbi y mrodyr yn y ffydd. Maddau nhad.'

Rhoddodd John Benet ei law ar gorun Robert Morys, a gwneud arwydd y groes yn dyner drosto.

'Fe gei di d'ollwng, y mab i.'

'Ond byth y nhad. Mae y mhechodau i'n ormod.'

'Cei... Plu'r gweunydd i'r Ysbryd yw gwendid dan ormes, y mab afradlon i. Brain cas dibwys. Mi gân nhw eu dychryn bant. A hynny gan fwgan brain fel fi. Fe ddeua i atoch chi'ch pedwar bob un yn ei gornel, ac mi gawn glywed eich cyffes yn drefnus. Tydi, Robert Morys yn gynta.'

Roedd Harri Puw yntau, sut bynnag, yn fwrlwm hurt o galonogrwydd wedi cael golwg ar ei gyd-garcharorion o'r diwedd. Goleuai'i wyneb wrth sgwrsio gyda Rhisiart Gwyn, a phob hyn a hyn trawai fe Siôn ap Huw yn ysgafn ar ei fraich fel pe bai cyffwrdd fel yna yn ddigon i'w hunoli nhw. Awyddus oedd e, hynod awyddus, i ddadlennu'r sefyllfa ddiweddar iddyn nhw ill dau, ac roedd ei lais yn gyffro wrth siarad.

'Maen nhw wrthi nerth eu hewinedd yn paratoi ar gyfer Llys y Sesiwn Fawr, ac yn chwilio pobman i gael tystion.'

'Rown i'n credu,' meddai Rhisiart Gwyn, 'fod ganddyn nhw weithdy bach ar gyfer cynhyrchu'r rheina.'

'Neb.'

'Does neb yn barod i dystio?'

'Neb yn fodlon mynd dan lw.'

'Rown i'n gwybod mai fel hyn y byddai hi,' meddai Siôn ap Huw yn orfoleddus.

Gwenodd Harri Puw yn llydan ar ei gyfeillion: 'Dyw popeth ddim wedi'i gollu eto.'

Ac yn ei gornel wrth ei gyffes, dyna rywfodd bellach oedd barn gynyddol Robert Morys yntau bellach. Drwy wadu'i gyfeillion a thrwy ymostwng llwyr, roedd e hefyd yn awr wedi ennill a phrofi maddeuant – sef calon pob cyd-fyw – a chynhesrwydd tosturi na wyddai ddim oll amdanyn nhw ynghynt.

Roedd yn dda ganddo sisial y cyfan yn fwrlwm siomedig yn awr wrth John Benet. John Benet y cyhuddwr cariadus, y barnwr mwyn, pechadur wedi troi'n swyddog i'r Eglwys yn y gyffes.

Cydiai John Benet yn ara yn nwylo'r truan. A thynhaodd ei afael yn sydyn pan luchiwyd y drws yn agored drachefn. Dyma nawr y gelyn: Dafydd Edwards a Huw Sontli, nhw oedd yno ar eu gwng yn rhythu arnyn nhw yn y lled-dywyllwch.

'Fe'n penodwyd ni'n dau i sicrhau nad oes dim math o ffug dynerwch.'

'Tynerwch!' ebychodd Rhisiart Gwyn heb ddeall beth oedd ganddyn nhw.

'Pan fydd ymwelwyr, does 'na ddim caniatâd i ryw faldod meddal.'

Ac yna yr eglurwyd eu swyddogaeth am y tro pan ymddangosodd y tu ôl iddyn nhw ddau filwr ynghyd â Cathryn Gwyn yn cario baban.

'Cathryn!' ebychodd Rhisiart Gwyn mewn anhygoledd diniwed.

'Safwch chi'r carcharorion,' gorchmynnodd Dafydd Edwards, 'y pen arall i'r ystafell. Seimon Thelwel sy wedi trefnu'r ymweliad hwn, nid ni.' Ac ufuddhaodd Siôn ap Huw a Harri Puw yn ddiymdroi, ond clymwyd Rhisiart Gwyn gan ryfeddod ei lygaid ei hun. Closiodd i gydio yn ei faban.

'Na chei wir. Yn ôl, ddyn.' Bwriodd Dafydd Edwards Rhisiart Gwyn, ac ymroddodd y milwyr hwythau i'w guro fe, gan ei daflu'n ddiseremoni i'r pen arall i'r gell.

'Fe weli di nawr,' meddai Huw Sontli, 'beth sy'n digwydd os bydd unrhyw ffug dynerwch. Mae dynolrwydd rhesymol yn ganiatâus. Ond does dim maldod i fod.' A thynnodd e'r baban o freichiau'r fam.

'Na!' sgrechodd Cathryn Gwyn, gan geisio ymaflyd o'r newydd yn y plentyn.  
'Na! Na!'

'Saf yn ôl fenyw,' gwaeddodd y ficer Huw Sontli, a lluchiodd fwndel y baban i'r llawr gwellt-a-llaid.

'Trugaredd, ddyn,' criodd Rhisiart Gwyn. 'Na! O na!' Gwyddai pa fath o greulondeb a oedd yn brigo i'r golwg pan gefnai dynion crefyddol ar ofynion gras cyffredinol, er gwaetha bendithion gras arbennig di-sancteiddhad. Mor ddiberfedd oedd ymroddiad a difrifoldeb unplyg!

'Mae'n rhaid inni gael ufudd-dod ar ei eitha,' taerodd Dafydd Edwards.

Roedd Cathryn Gwyn yn un bwndel o dagrau ac o gryndod: 'O mhlentyn i, y mhlentyn annwyl i. Wyt ti'n iawn, dywed? Wyt ti'n fyw? Yn un bach i, beth maen nhw wedi'i wneud?'



Sgrechai'r baban mewn artaith. 'Y cythreuliaid dienwaededig,' ebychodd Gwyn yn dawel. Ond teimlai Dafydd Edwards fod y trefniant hwn a'r ymweliad hwn, oll bellach wedi troi o chwith. Nid clais i'r Pabyddion oedd hyn, ond cywilydd i Brotestaniaeth.

'Arhosed y carcharorion y pen arall. Ydych chi'n clywed? Os oes gynnoch chi rywbeth i'w ddweud, fenyw, dywedded hynny heb glosio'n nes.'

Edrychai Rhisiart Gwyn a Cathryn Gwyn ar ei gilydd mewn tawelwch llwyr, mewn galar, mewn cariad, mewn anobaith, ... ac mewn pellter.

'Cewch siarad, os dymunwch,' gwaeddodd Dafydd Edwards, 'siaradwch... O'r argian. Beth sy'n bod ar y bobol 'ma?' ... Newidiodd ei dôn i gywair mwy normal. 'Filwyr, allan â hi. Dim rhagor o hyn.' Cydiwyd ynddi. Cydiwyd hefyd yn y babi. A llusgwyd nhw yn wyllt allan o'r gell yn fud, gan adael y pum carcharor, fel eu pum synnwyr eu hunain, mewn diymadferthedd.

\*

\*

\*

Wyddai Seimon Thelwel ddim sut yr oedd esbonio i'w ferch ystyr creulondeb bywyd ym myd syrthiedig Cristnogion. Byw mewn jwngwl roedden nhw oll, ar y ddaear hon, a hithau yn ei hieuenctid cymysg ond difyr wedi tybied erioed mai gardd oedd ei hanfod. 'Mae'r ffaith fod yr olwynion mawr yn troi,' meddai'i thad, 'yn golygu mwy na'i bod hi'n amhosib tynnu Rhisiart Gwyn allan o ffordd eu malu nhw mwyach. Dw innau ynghlwm wrth yr olwynion hyn hefyd. Dw innau'n cael yn chwyrlïo amgylch ogyrch.'

Eisteddai hi ar y pryd yn eu lolfa yn y plasty moethus, yn dawedog, gan fagu ci anwes. Roedd hi'n tybied ei bod hi'n deall sefyllfa'i thad. Ac eto doedd hi ddim yn gysurus chwaith. Doedd bosib na allasai fod yn gryfach. Allai hi ddim deall ei gaethiwed.

'Dw i am iti amgyffred y gelyn, Lisa. Allwn ni ddim eu hennill nhw, heb ein bod ni'n sylweddoli beth yw eu rhwystrau nhw. Ymerodraeth yw Pabyddiaeth hithau, cofia, hyd yn oed ar yr ymylon gwelw fan hyn yng Nghymru. Ac mae ganddi holl dwpdra pob ymerodraeth. A hyd yn oed yn yr hadau bach yna, gyda rhywun fel Gwyn, fe geir holl

ffieidd-dra chwennych ymerodraeth. Ac mae'n bwysig i ti hefyd amgyffred yn rhwystrau ni. Mae y mywoliaeth i, mae dy fywoliaeth di, ein bywyd ni i gyd, yn y cartrefle hwn, ynghlwm wrth y "Sefydliad" gwleidyddol Anglicanaidd. Mae yna drefn. Ac mae trefn yn gwbl hanfodol i fywyd gwâr. Ac yn y drefn haearnnaidd ond hyfryd honno ar hyn o bryd, mae i fi yn rhan fel ag sy i tithau. Does dim dianc, Lisa. Mae hi fel awyr y ddaear. Nid mater o ddewis yw pethau fel awyr.'

Llifai lleferydd oll ei thad heibio i'w chlustiau hi yn ddirwyrstr, ac yn ddieffraith, ac yn wirion. 'Ac mae hynny'n golygu swydd. Yn y diwedd, arian sy'n canu cloch cysur. Mae gen i waith gwleidyddol, fel tirlfeddiannwr. Mae gen i swyddogaeth i'w chyflwyno. Dw i ddim *am* wneud dim yn erbyn neb: un llithrad, ac mae hi drosodd; ond felly y mae hi. Mi ddaw Llys y Sesiwn Fawr ar ei hald i Wrecsam cyn bo hir, a bydd *rhaid* i fi fod yno. Ac fel rwy'ti'n gwybod ... Pawb â'i waith.'

'Na!' gwaeddai hi. Roedd hi wedi dirnad o'r diwedd beth oedd amcan ei hir ymddiheurad e. 'Na,' gwaeddodd hi eto.

'Mae'n ddrwg gen i, Lisa. Gwas i'r goron dw i.'

'Na.'

'Dyna yn lle i yn y gymdeithas. Dyw hi ddim yn swydd ddymunol. Ond mae'n angenrheidiol, a rhaid i rywun ei chyflawni hi. Mae'n rhoi bwyd ar y bwrdd i'n teulu ni.'

'Na. Nid ti.'

'Pwy arall? Os daw Rhisiart Gwyn gerbron y Sesiwn Fawr, mae yna drefn swyddogol: allan nhw ddim rhedeg ar ôl Siôn Saer neu Wil Crydd i gynrychioli'r Goron. Does dim dianc. Mae'r peth yn ddealledig. Fi sy'n gwneud y gwaith anffodus yna. Mae pawb gwâr yn cydnabod hynny. Dyna sy'n rhoi bywoliaeth i fi. Dyna sut rwy'ti'n cael gwersi ar y delyn. Dyna sy'n addurno'r tŷ. Dyna sy'n rhoi gwin ar y ford a blancedi ar y gwely. Dyna yw dy fywyd, Lisa. Ti biau hyn o fyd, fel fi.'

\*

\*

\*

Treiglodd Amser dros bawb, er nad oedd arno awydd i'w wneud.

Rhaid cael Llys. Rhaid oedd cael Swyddogion. Rhaid cael Trefn.

Mae'n bwysig i'r sefyllfa fod yn glir. Llesol i iechyd y byd yw gweithredu cyfiawnder. Thâl gorfeddalwch ddim. Dibynna holl ddisgyblaeth y gymdeithas ar y fframwaith absoliwt a roddir o'r tu allan iddi. Pan wyddys pa beth sy'n dda a pha beth sy'n ddrwg, yna fe fydd pobl yn parchu'i gilydd; y mae bywyd teuluol yn ffynnu, ac mae trais yn lleihau, a dynion yn syber, at ei gilydd. Beth bynnag ein cred, gwiw yw trefn.

Edrychai Rhisiart Gwyn ar y swyddogion yn un rhes o'i flaen. Ymddangosen nhw oll mor bell, draw wrth eu bainc, fel pe na allen nhw byth fod yn yr un ystafell ag e. Gwelai fe nhw fel smotiau bychain duon o glêr draw yn nythu ar fryniau anghyraeddadwy. Ymsyniai tybed a fyddai fe nawr yn gorfod gweiddi i'w deffro nhw? A hyd yn oed pe gwaeddai fe, a wrandawen nhw arno fe o gwbl? Mor bell: mor agos.

Nhw oedd y wlad normal yn yr ystafell fawr hon, yr amgylchfyd bryniog o gylch ei feddwl. Roedd e bellach yn sefyll ar lawr dyffryn ac yn symud ei drem dros y tirlun i'r bryn pella draw tua llygad y dyffryn hwn, sef Dafydd Edwards, yna ar gopa moel Huw Sontli, chwydd taclus Atkins, codiad garw Thomas Jones, Mr Leighton o'r Plash, Mr Sherrer, Mr Thomas Evans y dirprwy gyfreithiwr; wedyn yn y canol yn helaeth ac yn her i unrhyw ddringwr – Syr Siôr Bromli ei hun; wedyn, bryncyn pitw Clerc y Llys, a rhiwiau serth Ithel Thelwel; ac ar ôl hynny bryn neilltuedig a swil Rhosier Pwlston, yr euoga o bawb, a'r tu ôl iddo fe, lifrai anghysbell milwr wrth y drws. Bryniau o bob math ar bob ochr: cysgodion i'w dringo. Yn sydyn, sylweddolodd Rhisiart Gwyn eu bod nhw i gyd yno'n bodoli neu'n sefyll a'u cefnau tuag ato fe'n ysbrydol. Dim ond llechweddau arifyny eu cefnau y gallai eu gweld yn culhau ychydig wrth fôn eu gyddfau nes cyrraedd y pennau caled, sgleiniog.

'Dduw pob daioni,' sibrydodd ynddo'i hun, 'paid â gadael ifi gasáu neb. O gasáu, casáu'r pechod sy yno-i yn hun. Paid â ngollwng i i elyniaeth yn y munudau hyn. Trugarha yn dy nefoedd. Helpa fi i ddringo.'

Carthodd Syr Siôr Bromli lwnc ei dagellau amlblyg, a throes at Seimon Thelwel yr erlynydd: 'Ewch yn eich blaen, Meistr Thelwel. Dw i'n barod i ddechrau.'

Ymyrrodd y Clerc: 'Mae yna un anhawster bach, syr. Y Rheithgor?'

Tynnodd Bromli ei olygon yn ara ar draws y meinciau gwag: 'Cwmni mwy prenaidd yw gwacter, hyd yn oed nag arfer.'

'Mae'r rhain wedi gwrthod gweithredu, syr.'

'Pob un?'

'Pawb oll wnaethon ni'u tynnu o'r stryd.'

'Manyl, manyl. Meistr Thelwel, wnewch chi'n garedig rithio rheithgor priodol? A rhowch beth pres iddyn nhw y tro hwn.'

Wrth ddrws y llys safai criw bach o wrthwynebwy'r trefnedig a waedai tuag at y carcharorion bob hyn a hyn, 'Cablwyr, Bradwyr.' Disgynnodd Seimon Thelwel ar y brodyr taledig hynny, a dethol o'u plith y rhai lleia athrylithgar eu golwg, a'u chwifio i symud i'r tu blaen.

'Rhagorol, Meistr Thelwel. Ymlaen, heb din-droi,' meddai Bromli.

'Dw i am alw'r tyst cynta,' meddai Thelwel. 'Robert Clarke.' Lledodd Rhisiart Gwyn ei lygaid mewn syndod.

Adleisiodd milwr wrth y drws yr alwad yn uwch, 'Robert Clarke!' Eithr prin bod angen iddo godi'i lais gan nad oedd Clarke ymhellach na phumllath o'r drws. Rhoddwyd ei law ar y Beibl.

'A dyngi di,' gofynnodd y Clerc, 'ar dy lw, i ddweud y gwir, yr holl wir, heb ddweud ond y gwir, drwy gymorth Duw?'

'Gwna-i.'

'Chi yw Robert Clarke,' holodd Seimon Thelwel. 'Gweinidog Calfinaidd yn y dre hon?'

'Ie, syr.'

'Wnewch chi ddweud beth glywsoch chi gan y cyhuddedig? Yr union eiriau.'

'Fe glywais i fod y carcharor wedi cyfeirio at eglwys y plwyf fel "tŷ'r diafol" – domun diaboli.'

'Mewn Lladin felly?' Gwenodd y Barnwr mewn gwawd: 'Lladin!'

Ymatebodd Rhisiart Gwyn yn syber, 'Pan oedd Lladin gyda ni, roedd y Gymraeg yn ddigon hoff ohoni, syr. Ond am Saesneg ... pan ddaeth honno, roedd pen y Gymraeg wedi'i wasgu dan glustog taeogrwydd ac yn methu â dweud hyd yn oed sut mae? Pan gawson ni yn yr ysgol – neu yn yr Eglwys gynt – Ladin, roedd pawb drwy wledydd Cred yn teimlo bod Cristnogaeth ar gyfer y byd i gyd.'

'Fydda i,' datganodd Thelwel, 'ddim yn gallu holi'n gywir, os bydd y cyhuddedig yn ymyrryd, syr.'

'Mae'n rhaid iti dy ddisgyblu dy hun, garcharor,' taerodd y Barnwr.

'Chi'ch hun glywodd hyn?' gofynnodd Thelwel i Clarke.

Rywfodd, nid oedd brys ar hwnnw i ateb. 'Ddim yn hollol.'

'Un arall a'i clywodd e?'

'Ie.'

'Pwy?'

Roedd y diffyg brys yn y llys bellach yn fwy diffygiol byth. 'Cyfaill i fi, a brawd. Un o mhraidd,... John Roberts.'

Troes Thelwel yn ddiamynedd at Glerc y Llys: 'Rhaid chwilio am y John Roberts 'ma ar unwaith.'

Bu'n rhaid disgwyl eto am hanner awr cyn y gellid mynd ymlaen ymhellach.

'Chi yw John Roberts?'

'Ie, syr.'

'Mi welwch y cyhuddedig? Dych chi'n gwybod pwy yw e?'

'Ydw. Rhisiart Gwyn y Pabydd yw hwnnw.'

'Glywsoch chi fe rywbyrd yn cyfeirio at eglwys y plwyf fel *domun diaboli*?'

'Naddo syr ... erioed.'

Chwipiodd sibrydiad cynhyrfus drwy'r llys.

'Erioed? Triwch gofio. Ar eich llw?'

'Naddo. Ar yn llw.'

Roedd y sibrydiad yn storm.

'Wnaiff hyn ddim o'r tro,' protestiodd Bromli.

Ymddiheurodd Thelwel.

'Mi wnaiff Aesop y chwedlonwr dyst go lew i chi,' ymyrrodd Gwyn.

'Rhaid i chi wneud yn well na hyn, Meistr Thelwel,' cwynodd y Barnwr, 'A rhaid i ti, Gwyn, ymddifrifoli. Rwyd ti'n dadlau achos dy fywyd yn y lle 'ma heddiw, wyddost ti. Yn y pen draw...'

'Syr, yn y pen draw, fe fydd eich corff chi'n weddol agos i'r lle y bydd y nghorff innau. Mi gawn ni gyd-ddysgu crefft tawelwch.'

Sobrwyd y Llys. Roedd haerllugrwydd Gwyn yn ddychryn i bawb o'r werin, i'w gefnogwyr e ac i'w elynion fel ei gilydd. Ond roedd yna ymwybod yn cynyddu, eu bod oll yn dystion yno i chwyldro yn seicoleg eu pobl.

'Dw i am alw Lewis Gronw, y carcharor, yn brif dyst,' datganodd Seimon Thelwel.

'Lewis Gronw!' atseiniodd y Clerc.

'Adweini di'r carcharorion i gyd, Glerc?'

'Adwaen yn dda.'

'A ninnau', meddai Rhisiart Gwyn, 'a'th adwaenwn dithau yn ddrwg.'

Chwarddodd bron pawb: ni allai Bromli ei hun lai na chilwenu'n goeg. Chwyldro oedd hyn yn erbyn israddoldeb.

'A elli di dystio,' holodd Thelwel, 'fod Rhisiart Gwyn wedi ceisio dy droi di'n Babydd?'

'Galla. Mi driodd droeon.'

'Celwydd!' ymyrrodd Gwyn. 'Mi driaais i ei droi'n Gristion.'

'Rhywbeth arall?' holodd Thelwel.

'Fe'i clywais i fe'n dweud hefyd nad pennaeth dilys ar yr eglwys yw'r frenhines.'

'Crist yw pen yr eglwys,' datganodd Gwyn.

'Gwyn!' taranodd Bromli yn geryddgar, 'Dim triciau.'

Troes y carcharor bychan Gwyn at y Barnwr mawr Bromli gan wenu am ben tystiolaeth wan ei gyd-garcharor. 'Peidiwch â bod yn rhy galed, syr, ar wr fel hwn sy'n rhaffu celwyddau. Fel y bydd dysg yn dangos i “ddyn” gymaint o anwybodusrwyd yw e, felly y mae mymryn o ymrwbio yn y gwirionedd yn dangos i “ddyn” gymaint o'n buchedd bob un sy'n gelwydd golau.'

Ac felly, benbwygilydd y llusgodd yr achos rhyfedd hwn yn ei flaen: ambell funud yn croywi fel glöyn, o bant i bentan, ond gan amla yn llesgáu pawb gan fanylder ailadrodd. Yn y diwedd, tociwyd yn swta y gweithredoedd gan orchymyn i bennaeth y rheithgor dynnu eu dedfryd gwelw i gwlwm.

'Tybed, syr,' holodd hwnnw, 'a allech chi'n cyfarwyddo ni ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng y tri chyhuddedig?'

'Mae'r achos yn ddigon clir,' meddai'r Barnwr yn ei lais mwyaf athronyddol. Yna, troes yn obeithiol at Risiart Gwyn: 'Yn yr eiliadau ola hyn, wnei di ailystyried?'

Tawelwch o du Gwyn.

'Yn y marn i,' parhaodd y Barnwr, 'rhaid ichi gael Rhisiart Gwyn a Siôn ap Huw yn euog, ond Robert Morys yn ddiheuog.'

'Na, na, na!' gwingodd Robert Morys.

'Robert Morys!' gwaeddodd Bromli yn geryddus. Yna, gan droi at Glere y Llys yn ei eiddilwch du, gorchmynnodd: 'Rhowch daw ar y gwalch anwar 'na.'

Dechreuodd Robert Morys gicio a strancio, tra oedd y rheithgor yn clebran gyda'i gilydd heb ymadael â'r ystafell. Yna, cyfododd pen y rheithgor yn bwysig odiaeth ar ei draed meddylgar: 'Ein dedfryd unfrydol yw, syr: Rhisiart Gwyn a Siôn ap Huw yn euog, a Robert Morys yn ddiheuog.'

\*

\*

\*

Treiglodd amser dros bawb benbwygilydd. Bu'n hawdd cydymdeimlo â Syr Siôr Bromli. Wrth heneiddio, dŷn ni oll yn pydru-ddysgu'n ddyfal gelfyddyd anhunedd. Weithiau, diogwn; a llithrwn yn ôl i gael ambell noson o gwsg mwy penodol na'i gilydd. Ond os cyfyd yr awel aflonydd leia ar draws merddwr ein bodolaeth, mae'r noson a ddaw wedyn yn tueddu i waedu ac i wynio o'r newydd, wedi dod o hyd i'w gymal priodol. A noson felly a ddaeth i ran Syr Siôr Bromli, wedi ymdroi'n ddiflas gyda'r tri Phabydd diderfyn a di-droi'n-ôl, ar hyd y diwrnod cynt yn Llys y Goron, Wrecsam: bu'r noson honno yn storm iddo mewn blancedi.

Fore trannoeth, teimlai o hyd yn ddi-gwsg o ddi-hwyl. Roedd Seimon Thelwel wrth ei erchwyn. A throes Bromli ato: 'Arhoswch: rywsut, dw i'n methu. Mae 'na ryw wendid corfforol annaturiol heddiw fel rhaff yn clymu yn aelodau i, gyfaill. Bydd rhaid i chi, Seimon Thelwel, fynd yn yn lle i am y tro. Fe ddaeth yn bryd cyhoeddi dedfryd.'

'Fi? Ond...'

'Ie, chi. Digon syml yw'r gwaith. Mater o ddarllen fydd e. Mae'n ddiflas, ac o'r herwydd fe fyddai'n dda gen i tawn i'n gwneud y nyletswydd i'r pen. Ond mae'n gwbl amhosib... Does dim cymhlethdod, dim ansicrwydd. Mae'r dyfarniad yn unol â'r cyhuddiad. Byddai'n anghywir inni ohirio ymhellach.' Anesmwythai Thelwel yn enbyd, ond roedd y Barnwr yn gwbl bendant. 'Drwg iawn gen i, Thelwel. Nid gwaith pleserus; ond yn ein proffesiwn ni...'

Difrifolodd Thelwel. 'Yn hollol, syr.' A chiliodd y Barnwr Bromli.

A dyna sut y'i cafodd Simon Thelwel ei hun y bore gwyn hwnnw, o dan wylriadwriaeth llygaid gleision ei ferch Lisa a llygaid gwinau ei chyfaill hi Curig, yn lle'r Barnwr yn wynebu'r tri charcharor.

'Robert Morys,' gwaeddai'r dirprwy barnwr ar y cynta a safodd yn ufudd o'i flaen. 'Er i'r rheithgor dy gael di'n ddiuog, fe erys ychydig o amheuaeth am hynny. A dw i am dy ddirwyo o bum cant o bunnoedd am beidio â mynd i'r eglwys.' Protestiai Robert Morys yn orffwyll, 'Na! Na!' Ond nid am y ffortiwn yna o ddirwy y protestiai, ond o gywilydd ac edifeirwch am adael ei gymdeithion fel y gwnaeth.



'Allan ag e,' gorchmynnodd Thelwel yn gwta. A chcludwyd y truan allan: gwaeddai hwnnw o hyd, 'Na! Rhowch fi gyda'r lleill.'

'Siôn ap Huw,' galwodd Thelwel ar y nesa. Ond roedd hwnnw fel oen: doedd 'na ddim twrw na chyffro ar na'i wyneb na'i galon.

Doedd Seimon Thelwel yntau ddim yn barod o gwbl i hyn. Ond datganodd yn groyw: 'Mae dy achos di'n gwbl glir. A dw i'n dyfarnu iti gael dy grogi nes iti farw. Ond fe ohiriwn ni ddydd y crogi'n amhenodol.'

Amneidiodd Siôn ap Huw yn bwylllog mewn cytundeb, ac ymgroesi. Yna, ychwanegodd Thelwel: 'Sylwer, chi'r cyhoedd, nid fel unigolyn dw i'n eistedd fan hyn heddiw. Cynrychiolydd y Goron dw i. A geiriau'i gwladwriaeth ddiledryw hi yw ngeiriau i.'

Bellach, roedd y Llys yn disgwyl y gwaetha. Troes Simon Thelwel yn hamddenol tuag at Risiart Gwyn. A heb godi'i lais, parablodd yn undonog ddideimlad. Ond wrth iddo ddechrau, yn gyfredol â'i frawddeg gynta, clywid Rhisiart Gwyn yntau'n siffrwd: 'Dw i'n sefyll o flaen rhes o wynebaw, Arglwydd, a anghofiwyd gan fywyd.'

'Rhisiart Gwyn, fe gest ti dy gyhuddo o frad. Mae'r wlad oll wedi dy gael di'n euog drwy'i chyfraith gyffredinol hi. Cas gen i am lawer o resymau, dy gondemnio di â'r gosb waetha. Dw i'n meddwl y gallet ti fod yn ddyn defnyddiol. Gwyllt o bosib, balch yn sicr, ond yn y bôn, defnyddiol. Ffŵl defnyddiol. Athro da hefyd. Ond nid fi na'r wlad yn unig sy'n dy gondemnio di. Ti sy'n y ngorfodi i heddiw. Mynnu bod yn euog rwyd ti. Dw i am roi un cyfle ola iti ysgafnhau'r gosb. Rwyd ti eisoes *wedi* gwneud dy safiad. Dŷn ni'n parchu hynny. Gest ti sylw dyladwy ac effeithiol gan bawb. Sioe dros dro yw llawer merthyrdod wedyn. Mae pawb eisiau mynd adre i ginio. Mae 'na ymladd ceiliogod yn Wrecsam heno. Mae yna hau a medi. Mae'r wyrion yn cael eu geni. Mae yna bâs ar y baban. Allwn ni ddim cofio merthyrdod o fath hyn bob munud, oherwydd mae'r sosban yn berwi... Mae gen ti o leia ryddid i leddfu'r poenau ola serch hynny.'

Bu saib.

'Ewch yn eich blaen, ddyn. Cofiwch am y sosban 'na yn ferw i'ch swper,' meddai Gwyn.

'Marw sy raid. *Un* ffordd sy i leihau'r dirdyniad rywffaint, Gwyn, a gohirio ychydig ar y diwedd: cyn marw, bydd rhaid iti *gymuno*.' Petrusodd e ychydig er mwyn rhoi cyfle i'r carcharor, ond roedd hwnnw'n ddiamynedd.

'Gwyliwch y sosban, syr.'

'A oes, felly, unrhyw reswm pam na ddylet ti farw yn ôl doethineb a deddfau'r deyrnas?'

'Dim ond un. Yr un rheswm ag a oedd gan eich tad. A'ch taid. A chynnoch chithau hefyd yn amser y Frenhines Mari.'

'Felly,' meddai Seimon Thelwel, gan gyhoeddi'n ffurfiol yn awr, 'pared dod â'r carcharor ar ddydd Iau nesa wedi'i estyn ar drestel i'r lle dienyddio, ac yna croged e nes bydd e'n *hanner* marw; wedyn, torred e i lawr yn fyw; rhwyger e'n ofalus agored o'i fol hyd ei fryst; tynner ei berfedd yn ara, ei iau, ei ysgyfaint a'i galon, a thorred y gweddill o'i gorff yn chwarteri, gan gadw'r rheini fel y mae'n bodloni'r Frenhines.'

'Beth yw hyn i gyd? Oes rhaid marw mwy nag unwaith?'

'Dyna'r terfyn.'

Cododd Rhisiart Gwyn ei ben yn uchel. Syllodd Rhisiart Gwyn yn ddisyfl drugarog ar ei gondemniwr. Doedd dim rhithyn o ofn nac o chwerwder ar ei wyneb. Doedd e ddim hyd yn oed yn plygu'i ben. Yn wir, roedd bron yn gwenu'n dyner, a'i lygaid mawr yn dawnsio ychydig. 'Rown i bob amser wedi ystyried fod y mherfeddion i'n fater mor breifat,' meddai fe'n chwareus. 'Yn awr, caiff pawb weld y gawdel i gyd ... Rown i'n creu steics pan ges i ngeni: fe wna i steics newydd wrth farw. Rhwng y ddau ben dichon i mi gael rhy ychydig o flynyddoedd taclus.'

## 6.

Doedd dim disgwyl y byddai ar gof a chadw yr un ddogfen *bersonol a bwriadus* gan wyliedydd a gofnodai dreial Rhisiart Gwyn. Ond yn yr un blwch â chasgliad bach o rai o gyfieithiadau Morgan Llwyd cafwyd y dryll canlynol o ddyddiadur Piwritan anhysbys. Drwy gymharu'r llawysgrif hon â rhai cofnodion eglwysig o'r cyfnod galleisid

damcaniaethu, gyda chryn radd o sicrwydd mai Rhosier Pwlston ei hun oedd yr awdur. Rhoddir y pedwar paragraff byr yn y fan hon, heb newid fawr o ddim heblaw'r atalnodi a'r orgraff: cyfieithwyd rhyw wyth o frawddegau gan fod peth o'r dyddiadur yn Saesneg. (Tybir mai'r un person oedd awdur y tameityn papur hwn ag a gadwodd y nodiadau eraill a gofnodai'r digwyddiadau eraill uchod yn yr hanes presennol.)

*'... i gyfeiriad Lloegr. Dod i gae i orffwys. Cefais y meddiannu gan ddelwedd a ganfûm yno. Gweld hen foncyff derw yn gorwedd fel corff ar y ddaear ar ei gefn a phedair coes drwsgl, fel petai, yn yr awyr. Eisteddais arni i sgrifennu'r nodiadau hyn. Marw yw'r boncyff. Mae'n hyll, fel bwystfil yn disgwyl plisgo'i gnawd, yn disgwyl i'r clêr a'r cynrhon ddod i nythu yn ei berfedd a dodwy wyau bach afiach yno. Meddwl tybed a fyddai'i fol estynedig yn gwingo pe byddid yn ei oglais? Tybed a syflai'r coesau yna ryw ychydig? Prin; a hynny am fod y boncyff benbwygilydd, a fu unwaith yn droelleg gan boen, bellach yn bydredig gan amser.*

*Pam roedden ni heddiw yn Llys y Sesiwn Fawr mor falch i deimlo bod y gweithrediadau yno'n tynnu i ben? Roedd llawer ohonon ni'n dychrynu wrth gwrs, yn drist hyd yn oed. Ond roedd yna ollyngdod hefyd, fel pe baen ni'n cael gwared â rhywbeth a oedd yn annifyrru'n horganau corfforol. Beth oedd? Ai yr hen oesoedd? Ai ein heuogrwydd ein hun? A oedden ni'n cyfiawnhau ein gweithredoedd ein hun? A oedden ninnau'n plisgo'r hen amser i ffwrdd? Ac a oedden ni am wneud hyn mewn modd eithafol, fel pe baen ni'n puro'n hunain, gan garthu pob tameidyn o'r hen ddyn?*

*Esgus ar ein rhan oedd dweud mai gwleidyddiaeth yn unig oedd hyn.*

*Heb ryw fath o erchylltod, fyddai'r wlad ddim yn cael ei glanhau. Mae cyflawn iachâd yn dibynnu yn y pen draw ar dorri aelod, ar daflu i dân, nid twtio gwleidyddol yn unig. Pan ddeuthum allan o'r llys heddiw, yr oedd pob nerf a phob giewyn yn y nghorff er y ngwaetha yn canu, ac nid o lawenydd syml. Roedd yr ofn a'r cywilydd, sioc yr holl weiddi, yr hagrwach ffaidd a'r cablu a'r atgasedd ymhlith y dyrfa wedi llwyr ymosod ar y nghorff yn y fath fodd nes y mod i'n teimlo rhyw fath o garthiad, ac yn tangnefeddu wrth ymadael â'r lle. Trodd y trwst yn fud. Ciliai'r cymylau fesul tusw, y cymylau llawn a thrwm yna. Ac yr oedd rhyw fath o negydd helpfawr wedi ymddangos:*

*y gwrthwyneb i storm. Dyma'r absenoldeb gwrthodus i'r cyfan a oedd wedi digwydd: eco bach i'r Arglwydd Mawr.*

*Rywfodd yng nghanol hyn oll roedd cysgod Rhisiart Gwyn yn ein dilyn ni. Roedd y diwrnodau diwetha wedi dod i aros, ac i'n hawntio i. Sylweddolais i ar ôl y treial a'r dedfrydu y byddai Rhisiart Gwyn yntau yn gwneud rhywbeth bellach felly ar gyhoedd ymhen ychydig o ddyddiau, er ein mwyn ni i gyd. Hyd yn oed os oedd rhai ohonon ni'n ddidwyll yn anghytuno ag e, canlynwr oedd e o hyn ymlaen i Un a oedd yn fwy na'r cwbl.'*

\*

\*

\*

Treiglodd yr amser ola dros bawb. Ond roedd yr anochel ar ei ffordd.

Bwriwyd drws eu cell yn agored gerbron Rhisiart Gwyn a Siôn ap Huw. Ymddangosodd y Ceidwad yn ei lifrai swyddogol. Codon nhw'u pennau'n flinedig iawn. Beth sy'n digwydd? Pwy oedd? Sut? 'Datganwyd heddiw fod Siôn ap Huw yn cael ei ryddhau rhag dienyddiad, ac mai dirwy yn unig fyddai ar ei ben.'

'Siôn! Ydy pethau fel hyn yn bosibl?'

Wedyn, ymddangosodd Cathryn Gwyn o'r tu ôl i'r Ceidwad, gan wenu yn ei dagrau. Er iddo'i gweld hi, troes Rhisiart Gwyn yn gynta at ei gyd-garcharor mewn syfrdandod melys: 'Siôn y nghyfaill annwyl... Cathryn glywaist ti?'

'O Risiart,' atebodd Siôn. 'Chwithig o chwerw yw triciau gwleidyddol.'

'Na hidier, gyfaill bach.'

'Chwerw a chwithig.'

'I bobl ymhen ychydig o ganrifoedd,' meddai Gwyn, 'fydda i ddim yn fwy marw na phe bawn i'n byw nes mod i'n gant.'

Diflannodd gwên Cathryn wrth glywed hyn; a dagrau yn unig a oedd yn aros ganddi hi.

'Risiart,' protestiodd Siôn yn ymddiheurol, 'mae'n flin... mae'n enbyd o ddrwg gen i.'

'Ffordd gyfrwys a chwithig, ddirgel a rhad yw merthyrdod,' taerodd Gwyn, 'o wneud dyn dibwys yn enwog. Gathryn bach!... Dyma Gathryn, Siôn, fel pe bai wedi dod i'th nôl di. Gathryn, beth yw'r holl ddifrifoldeb ystrydebol 'ma sy'n dy drethu di?'

'Risiart! Risiart!'

Tawelodd y tri yn awr. Doedden nhw ddim fel pe baen nhw'n gallu treulio'r newyddion chwyldroadol. Troesen nhw oll i mewn iddyn nhw eu hunain fel pe baen nhw rywsut yn cnoi cil ac yn malu briwsion heb yngan dim uwchben pryd o fwyd. A throdd Rhisart Gwyn mewn sobrwydd at ei gyfaill Siôn.

'Bendith arnat ti, Siôn.'

'Gras a bendith arnat tithau, Risiart.'

'Paid â *phryderu* amdana i,' meddai Gwyn. 'Celwydd yw tad pryder bob amser. Tawn i wedi ngeni'n Seimon Thelwel, dw i'n credu'n siŵr y byddwn i'n ystyried fod gan ragluniaeth rywbeth yn yn erbyn i.'

'Bendith, Gathryn Gwyn,' murmurodd Siôn.

'Dos, dos, y nghyfaill,' anogodd Rhisiart. 'Ca-i dy weld di fry ymhen ychydig bach, bach.'

Hebryngwyd Siôn ap Huw yn dawedog anfodlon allan o'r gell gan y Ceidwad mewn ffarwel euog; a throes y ddau a oedd ar ôl, y gŵr a'r wraig, i gofleidio'i gilydd.

'Y nghariad gwirion i,' ebychodd Rhisiart wrth ei wraig.

'Maen nhw'n rhoi peth llonydd i ni.'

'Peth.'

'Ac amser.'

'Gyda thi yng Nghrist yr arhosith y meddyliau i *bob amser*, ac wedyn.'

'O! Y ngŵr gwirion i.'

'Taith ddi-ben-draw a maith o gwmpas y byd yw galar. Dim ond neidio'r hewl yw marw. Yr hyn sy'n mynd drwy y meddwl i nawr yw'r merthyru Protestaniaid y buon

ninnau'n gyfrifol amdano fe yn ein dyddiau cynnar drwy'n crefydd ni gynt. Dŷn ni'n synied y dylai'r Protestaniaid sobri a chymryd y gweithredoedd hyn heddiw yn llawer mwy difri; ond ychydig sy er pan fuon ni wrthi'r un modd. Mor greulon yw ffyrdd dynion i gyd, a'r awydd i droi pob crefydd yn wleidyddiaeth. Mor anhygoel o greulon. Ceir unrhyw esgus i bechu.'

'Duw fyddo gyda thi bob eiliad ... hyd at y crocbren, yn anwylyd i.'

'Ac *wedyn* ... Tad yw hwnnw. Mae yna wedyn.'

'Tad!'

'Uwch yr holl ferthyru. Dyw e ddim yn y ngharu i oherwydd y mod i'n alluog neu'n rhinweddol, Gathryn, ond oherwydd y mod i'n blentyn iddo, ac mewn angen. Efô roddodd imi ffydd mewn pryd.'

'Risiart, nghariad i.' Ac yna, torrodd hi i wylo'n ddwfn o dawel: 'Mae'n ddrwg gen i.'

'Gathryn, llechen yw pob *awr*; i bawb, yn y palmant sy'n arwain at fynwent. Cyffredin odiaeth meddan nhw i mi – yw marw. Llauer yw'r bobl sy'n trengi; ond ychydig iawn sy'n byw.'

'O leia, fe gawson ni'n dau... lond nef a daear o fyw,' sibrydai hi.

Agorwyd drws y gell eto gan y Ceidwad.

'Mae yna ddatganiad arall.'

'Risiart!' sgrechodd Cathryn yn obeithiol.

'Fe gaiff y carcharor Rhisiart Gwyn bardwn...'

'O! Pardwn,' sgrechodd Cathryn drachefn gyda rhyw fath o ollyngdod gorffwyll.

'... ar yr amod ei fod e'n cydnabod y Frenhines yn bennaeth ar yr holl Eglwys.'

Parlwyd y ddau ar unwaith gan eu siom. Disgynnon nhw yn ei gilydd ill dau heb ynni.

'Beth arall?' murmurodd Rhisiart.

Roedd y Ceidwad yn sefyll wrth y drws gan ddisgwyl am ryw ateb neu'i gilydd gan y carcharor.

'Disgwyl yr wyt ti?' gofynnodd Rhisiart. 'Dyma waith fydd yn gofyn amynedd.'

\* \* \*

Treiglodd amynedd hefyd dros bawb; a dydd Iau yn Hydref, 1584 yn ddiwrnod trymach nag arfer.

Tynasid Rhisiart Gwyn allan i iard y carchar i ddechrau. Yn y fan honno roedd mwy o fynd a dod nag a welsai ers tro. Eisteddai ambell garcharor hyd yr ymylon gan wylid y gŵr rhyfedd hwn mewn gweddi ar ei liniau tua'r canol. O'r tu cefn, clywid o ran arall o'r carchar un arall o'r carcharorion yn gweiddi'n lled-wallgo. Daeth y ceidwad yn herciog at Risiart Gwyn, ac roedd yn awr yn llawer mwy parchus ohono. Cyffyrddodd e'n ysgafn ar ei ysgwydd, gan betruso rhag tarfu ar ei weddi.

'Mae popeth yn barod acw i'r dienyddio, syr.'

'Heblaw cyfiawnder!' ymatebodd Rhisiart Gwyn bron yn goegaidd.

'Ond fe ganiateir i'th wraig dreulio peth amser gyda thi.'

Cododd Rhisiart Gwyn gan ymgroesi pan gyrhaeddodd ei wraig. Edrychodd hi arno mewn syndod ac ymholiad. A galar.

'Risiart!' Rholiodd y gair yn ei llwnc.

'Rwyd ti braidd yn hoff o'r gair bach yna.'

'Ydw, gwleï. Enw yw e sy'n hoffi glynu wrth y tafod. Gyda'r dagrau.'

Lled-wenodd ei gŵr gan roi prawf ar y gair: 'Rhisiart! Na. Dyw e fawr o beth.'

'Digon i lynu wrth fywyd Cymru.'

'Aros di mechan i. Paid ag ymddiried ynnddi *hi*.'

'Paid â chwerwi, Risiart.'

'Lle bynnag y bo dyn sy'n adeiladu, fe geir dau i'w dynnu i lawr: nid chwerwi yw dweud hynny, Gathryn bach. Dw i'n wynebu ffeithiau'r byd heddiw.'

'Beth bynnag am lynu wrth Gymru, fe lynith d'enw di wrth galon Duw.'

'Gwnaiiff. Fe gollais i mhen am Hwnnw rywsut pan own i'n ddim o beth.'

Sobrodd hi, ac estyn ei dwy law i ddal ei wddwg e: 'Colli dy *ben* annwyl di, Risiart?'

'Ac nawr mae'r gwleidyddion truain yn ceisio ffurfioli'r ffaith. Nid aelodau o Eglwys yr Ysbryd Glân sy'n gwneud hyn.'

Ar draws cornel bella'r iard, ar bwys y drws allanol, roedd cysgod Dafydd Edwards wedi ymddangos. Allai fe ddim trechu'r chwilfrydedd a'i tynnai fe'n anochel i'r fan hon. Cerddai yn ei dywyllwch ei hun gan sbio ar y ddau. Ond doedd ei lechu fe ddim wedi digwydd heb i Risiart a Chathryn Gwyn sylwi arno.

'Weli ein cyfaill ni oll – Dafydd Edwards – wedi hedfan acw i grawcian beth, Gathryn?'

'Y cythraul truan.' (Nid rheg: fe'i golygai'n llythrennol.)

'Gellir maddau popeth i ddiennyddwyr ... ond eu methiant i garu.'

Methodd Cathryn ag ymatal rhag gweiddi arno: 'Duw a farno'n gyfiawn rhyngon ni a thi, Dafydd Edwards.'

'Maddau, Gathryn, iddyn nhw ac i fi,' ymyrodd Rhisiart.

'Rown i'n rhy wan rywfodd,' cyffesodd hi.

'Dyna ti.'

'Roedd rhaid.'

'Maddau, Gathryn,' mynnodd Rhisiart. 'Clindarddach brain yw diodde y nioddefaint i a'th ddioddefaint di os na allwn ni faddau'n raslon i bawb.'

'Ga i wneud Dafydd Edwards yn eithriad?' meddai hi.

'Na, na. Dafydd hefyd.'

'Ond hwnnw yw'r union ddihiryn a'th ddaliodd di yn Wrecsam gynt ac yn ei lygredd fe roddodd di ar y rhod a drodd hyd at y fan yma.'



'Arna i roedd llawer o'r bai.'

'Byth.'

'Ffŵl Ebrill o Babydd dw i, diolch i'r drefn.'

'Na.'

'Ond,' ychwanegodd Rhisiart gyda'i hen amwysedd arferol, 'yn niwedd pob Ebrill, dw i'n dechrau pob ha nerthol drwy gwmpo ar y Mai.'

Torrwyd ar eu sgwrs gan ubain chwerw o'r tu allan. Edrychon nhw ar ei gilydd mewn anneall. Roedd yr wylo yn ddwfn ac yn ddiymatal, ac yn dod o ystafell gyfagos. 'Beth sy?' holodd Cathryn un o'r carcharorion gerllaw.

'Gwraig ceidwad y carchar.'

'Yn crio?'

'Ie. Mae hi'n gwybod yn burion fod Meistr Gwyn yn ddiniwed. All hi ddim llai.'

Roedd yr udo'n cynyddu, ac yn fwy gwyllt bellach. 'Dos ati hi, Gathryn.'

'Yn awr?'

'Cysura hi.'

'Ond,' allai hi ddim ei adael e am eiliad, 'Risiart, y nghariad hardd, glân a diniwed i.'

'Diniwed, Gathryn, na! Diniwed a syml fyddai y ngwrthdystio cynnar i ers talwm. Ond dw i wedi colli pob diniweidrwydd drwy wau a gwingo drwy bob cymhlethdod ers tro.'

'Ond mae amser mor brin,' protestiodd y wraig mewn taerineb.

'Dos, yn anwylyd i, at wraig y Ceidwad.' Mae Cathryn yn ei gusanu, ac yn gafael yn ei law yn hiraethus ac yn warafunus wrth ffarwelio. Ufuddhaodd hi.

Cyn bo hir a hwyr wedyn, cafodd Rhisiart Gwyn ei rwymo wrth drestl, a rhaff am ei wddf, a chadwyni'n llac am ei draed. Arweiniwyd e allan o'r iard. Cafodd ei lusgo ar hyd y stryd a oedd yn llawn dop o bobl, tlodion lawer ohonyn-nhw, a llu o blant

hefyd a'r rheini bron yn ddieithriad yn wylo'n dawel. Doedd dim o'r rhialtwch arferol a fyddai'n cyfeilio i gosbedigaeth gyhoeddus, na dim chwaith o eithafrwydd angladd Foslemaidd. Roedd hyd yn oed brygowthwyr brwnt, a oedd yn arfer arddangos eu hunan-gyfiawnder pitw gyda thrwst buddugoliaethus, yn euog o ddistaw.

Defnyddiai Rhisiart Gwyn y rhaff am ei wddwg yn lle paderau, a sibrydai'i weddïau isel. Yn y dyrfa gynnes o'i amgylch, sylwodd yn ddisyfyd ar ei blentyn hyna, Curig, a chydag e, a hithau'n wylo'n dawel, Lisa Thelwel.

'Y nhad gwyn,' meddai Curig.

Stopiodd yr orymdaith am ychydig o eiliadau iddo.

'Paid ag wylo machgen i. Talu'r rhent ychydig bach cyn diwrnod rhent, dyna'r cwbl dw i'n wneud. O ddewis rhwng rhyddid yn nhragwyddoldeb a chaethiwed ar y ddaear, doedd dim dewis.'

Ar bwys safai Robert Morys, yntau'n dawedog, gan ofni tarfu ar draws y munudau cysgredig hyn. Trodd Rhisiart Gwyn ato: 'Doedd gen i ddim o'r nerth i ymladd yn erbyn yn ystyfnigrwydd i, Robert Morys.'

'Bendith arnat ti, angel Duw.'

'Fydd dim angen adenydd arna-i, Robert. Dw i'n y nghymryd yn hun yn rhy ysgafn eisoes.'

Symudodd yr orymdaith yn bwyllog nes i Rhisiart Gwyn a Siôn ap Huw ddod gyfarwyneb â Rhosier Pwlston. Estynnodd hwnnw ei law at y gŵr condemniedig. Ac ymateb yn gadarnhaol dirion a wnaeth Rhisiart Gwyn iddo: 'dyma fe, ryw fath o ddiwedd felly, Meistr Pwlston.' Roedd hwnnw a'i ben ynghrwm. 'Cwyd dy ben, gyfaill,' meddai Gwyn. 'Nid fi yw'r cynta na'r ola i ruthro drwy'r egwyl yma o fywyd er mwyn llenwi twll yn y diwedd. Ond wele'r union eiliad yna wedi cyrraedd nawr. Yr un yna y disgwyliwn i'n chwilfrydig ddigon amdano, yr unig un y bues i'n hollol unplyg o'r cychwyn cynta ynglŷn ag e, yn carlamu ata-i. Baglai yn ei flaen gydag ymdrech wrth lusgo'r drestl a'r cadwyni. Trôï Gwyn yn ôl i lefaru wrth Rosier Pwlston. 'Ryw chwarter awr yn ôl pan own i'n ddeng mlwydd oed, roedd pob peth yn bosib. Ond nawr, wedi'r

methu cyson, dyma fi'n ymddeol. Ymddeol o beth? Beth wnes i? Cân efallai. Wel, rhyw wich ambell waith. Aeth y pwt hwnnw i gyd i'r clwt, beth bynnag....Ar ddiwrnod arall, gallen ni'n dau fod wedi cwrdd ar yr hewl, ac oedi am sgwrs – trafod prisiau'r ŵyn, sôn am brynhawn braf o bysgota, neu hyd yn oed ymdroi gydag elfennau diwinyddol heb eu troi nhw'n destun ffrwgwd....'

Ymostyngodd Rhosier Pwlston ar ei liniau gerbron Rhisiart Gwyn. Ond chwipiwyd y dyn drwy'i gadwyni: ni chafwyd amser i estyn bendith. Chwipiwyd Gwyn eto. Anogwyd ei lusgwyr e i dynnu'r drestl yn ei blaen. Yna, wrth waelod y sgaffald, safai ei wraig yn urddasol. Yn ei breichiau, baban. Roedd Curig a Lisa hwythau hefyd wedi symud yn gyflym rhag blaen. Yn awr roedden nhw yn ymwthio ymlaen yn y fan honno er mwyn bod yn nesa at Gathryn Gwyn. Wrth ei hymyl hi hefyd ymgasglai rhai o blant yr ysgol. Dyma Risiart Gwyn yn gwacáu'i bocedi o ychydig sylltau o dan wyladwriaeth farcud Huw Sontli. Edrychai Gwyn yn ddiymadferth yn awr tuag at ei wraig, gan siglo'r rhaff.

'Weli di fel y mae'r cortyn hwn yn baderau i mi. Y peth gorau i ddyn sy'n mynd i'w grogi yw troi'r rhaff hefyd yn baderau... Bendith arnat ti, ngwraig fach. A chofiwch – blant – y wers fathemateg hon hefyd pan fyddwch chi'n hen: (ddeallwch chi ddim ohoni'n awr:) ... *er mwyn codi'n fertigol, does dim eisiau i ddyn ond bod yn llorwedd.*'

'Paratöer i farw,' cyhoeddodd y dienyddiwr fel corn.

Cofleidiodd Rhisiart Gwyn ei wraig yn y fan drwy bob rhwystr, cusanodd ei faban wedyn, gwenodd yn gariadus ar Gurig a'r plant eraill. A throes i ddringo'r sgaffald. Gwaeddodd Cathryn ar ei ôl gan estyn ei dwylo: 'Edrycha. Cipia dy ddiniweidrwydd yn ôl drachefn, Risiart, cyn ymadael.'

Wrth i Risiart Gwyn gyrraedd pen y sgaffald, dyma'r dienyddiwr yntau'n penlinio o'i flaen: 'Dw i'n gofyn eich pardwn, syr. Dyma y ngwaith i.'

'Gerbron Duw,' meddai Gwyn, gan estyn ddarn o bres iddo. 'Dw i'n maddau i ti, a dw i ddim yn dymuno mwy o niwed i ti nag y'i dymunwn i nghalon i yn hun.'

Bwridd Gwyn olwg gariadus ola ar draws creadigaeth Duw. Mor llawn o wynebaw roedd y byd hwn. Yng nghanol y dail a'r blodau ar ymyl y ffordd, caed cae o

wynebau glân a chrwn. Wynebau gwylidwrus meddal, wynebau gwlyb a chariadus, a chymaint o gochni drostyn nhw i gyd ag y gallai llygaid Gwyn eu derbyn ar y pryd. Fel roedd Duw wedi llenwi'r ddaear hon oll ag wynebau hardd! Hardd. Ei wraig hefyd: ei hwyneb hyfryd hi yn nofio draw, yn eu canol nhw, yn dowcio foment, yna'n nofio i'r golwg drachefn. A Churig bach, dy wyneb dithau hefyd. Holl greadigaeth y Gair.

Ac yna, fel wyneb gwag a hyll yn yr ymyl, ar y llawr, wyneb agored a disgwylgar... crochan. Crochan! 'Ar gyfer y pen hwn, mae'n debyg?' Methodd â gwenu. Yna, sylwodd ar y tanau enigmatig gerllaw'r crochan, a hwythau'n disgwyl hefyd. 'Tanau! Ai ar gyfer coluddion wedi'u ffrio, a phen berw à la carte? Ddeua i ddim allan o'r paratodau hyn, ond drwy gymorth y Mhrif Goginydd.'

'Wyt ti am weld offeiriad?' holodd y dienyddiwr.

'Ydw. Offeiriad, ond nid gweinidog.'

'Gweinidog te.'

'Ddim byth.'

Symudodd Huw Sontli, Ficer Wrecsam, a dringo ychydig o risiau'r sgaffald er mwyn annerch y dorf a oedd, rai taledig ohonyn nhw, erbyn hyn yn gweiddi arno, 'Bradwr, llofrudd.'

'Er mwyn amddiffyn ein brenhines,' datganodd Huw Sontli, 'mae'n rhaid i bob gelyn ildio. Clywch y mhobol i.'

'Cywilydd! Bydd dawel!' gwaeddodd wyneb o'r dorf.

'Ambell waith mae amddiffyn y deyrnas yn golygu gwneud rhai pethau diflas. Ond y frenhines, cofier, yw'n pen ni,' meddai Huw Sontli.

Ond roedd llawer o'r gweiddi'n parhau'n arbennig yn erbyn Huw Sontli erbyn hyn.

'Y frenhines am byth! Ac mae pawb sy'n gwadu hynny'n gorfod marw,' meddai fe.

'Byddwch chi'n ofalus, ddyn,' gwaeddodd Rhisiart Gwyn yn ôl. 'Dw i *erioed* wedi gwadu nad hi yw brenhines Lloegr. Ac ar ôl y marw i, gwylwch chi na fyddwch chi'n palu celwyddau amdana i. O wneud triciau gwleidyddol, gwna nhw'n fedrus.'

Erbyn hyn roedd y rhan fwy o'r dorf ar eu gliniau yn gweddio. Troes Huw Sontli'n ôl felly at Rhisiart Gwyn. 'Ydych chi'n maddau, te, i Ddafydd Edwards? Yr un a'ch daliodd chi yma yn Wrecsam.'

'Bendith arno. Bendith arno â'm holl galon.'

A dyma Huw Sontli'r Ficer yn gorchymyn i'r dienyddiwr: 'Dim rhagor felly. Bant â'i ben.' Dyma'r dienyddiwr felly'n tynhau'r rhaff yn ofalus ac yn gadarn am ei wddf.

'Paid â chrogi'n wyllt rhag iddo farw'n gyflym,' meddai Huw Sontli.

'Dduw, trugarha wrtho-i bechadur,' gwaeddai Gwyn.

'Arglwydd trugarha wrthym,' llafarganodd y dorf.

Doedd gan Gurig ddim digon o ddewrder i wylid y weithred, a chladdodd ei lygaid yn ei ddwylo. Glynai rywsut wrth Lisa. 'Beth sy'n digwydd? Beth sy'n digwydd?'

'Mae'r dienyddiwr,' sibrydodd honno wrtho, 'wedi sicrhau fod y rhaff yn hollol sownd. Yn awr, mae'n gollwng dy dad, yn ara, rhag iddo farw'n syth. Mae'n ei wthio ychydig. Fel pendil. Ac mae dy dad a'i ben ar un ochr yn gwingo.'

Ubodd Ficer Wrecsam ar y dorf, 'Gwaeddwch, gyfeillion; gwaeddwch, gorfoleddwch hwrê.' Ond er bod yna garfan o'r dorf, mewn un safle ar y ffordd, lle y caed llawer o Biwritaniaid cywir a arddelai athrawiaethau gras y Protestaniaid, roedden nhw hefyd, o leia yn ymddangosiadol wahanol i'w Ficer, wedi profi cariad at gyd-ddyn. Taw oedd eu rhan bellach. 'Gwaeddwch,' ubai'r Ficer drachefn, 'nes bod yr Esgob Downam yn ein clywed ni oll, draw yng Nghaer. Gwaeddwch.' Ond penlinio mewn distawrwydd ysol wnâi'r dyrfa, oll ac un, erbyn hyn.

Doedd neb ond y Ficer Sontli bellach o blith y dyrfa a oedd heb fod ar ei liniau yn gweddio.

'Beth sy nawr?' holai Curig.

'Dim byd, dim byd, dim ond hongian,' meddai mam Curig.

'Ydy e'n farw?'

'Na. Dim ond hongian yn yr awyr, a syflyd ei goesau ychydig.'

'Beth sy nawr?'

Gweddïai Cathryn hithau i fwndel y baban bach a hepiiai ar ei hysgwydd:

'O Dduw, yr Oen a waedodd yn dy hoen, sy'n gwaedu o hyd,

Canfyddwn nawr dy gochni newydd wrthi'n clytio'r byd.

Bydd gyda Rhisiart yn ei ufudd loes

Yn Un. O boed ei boen ef, Oen, yn gysgod bach o'th groes.

Oherwydd mai Un wyt ti â'r blodyn llwm, yr un

Yw dy waed di ynddo, yr ysbryd gwyn a droist dros ddyn.

Derbynia'r Tad bob marw yng Nghrist bob tristwech er Ei fwyn;

Ac er d'ogoniant boed pob nâd a'r carpiâu cri yn fwyn.'

Stopiodd hi am fod rhwnc a rhithiau ochneidiol ysgafn yn llithro o chwyth Rhisiart.

Wedi colli arno'i hun dyma Huw Sontli yn ei wg yn dringo i ben y sgaffald ac yn sgrechian ar y dienyddiwr: 'Tyn e i lawr cyn iddo farw, yn ofalus. Mae'n rhaid ei ddiberfeddu fe nawr, yn fyw os gallwn.'

Tynnwyd Rhisiart Gwyn o'i grocbren, a'i osod bron yn farw ar y llawr oer. Ac yna, gyda rhyw dynerwch annaturiol wrth ystyried beth yn hollol a oedd yn digwydd, torrwyd yn glinigol ofalus groen ei fol, a thynnu peth o'i berfedd allan yn dyner.

'O Dduw gwyn,' ochneiodd Rhisiart Gwyn, yn fyw o hyd, 'pa beth yw hyn?'

'Dienyddiad yn enw ei mawrhydi'r frenhines,' cyhoeddodd Huw Sontli.

'Iesu, trugarha wrtho-i.' Ac ymadawodd enaid Rhisiart Gwyn.

'Tor ei ben e, nawr,' gorchmynnodd Huw Sontli.

Roedd y dyrfa oll yn wyllo'n hidl. O'r cefn rhedodd Lewis Gronw at y sgaffald, megis gŵr allan o'i bwyll, a throi at y dyrfa wylofus. 'Fi ddwedodd y celwydd,' gwaeddodd e. Ond doedd prin neb yn edrych arno. 'Roedd yn holl dystiolaeth i'n ei erbyn e yn ffals.' Amherthnasol i bawb bellach oedd ei ddatganiad tlawd. Doedd neb eisiau'i glywed. Wydden nhw ddim pwy oedd e. 'Dw i'n edifarhau. Ydych chi'n deall?' Edrychai Lewis yn daer i wynebau'r bobl, ond wnaen nhw ddim edrych yn ôl arno fe. 'Wyt ti'n clywed?' gwaeddai fe ar hwn a'r llall, ac yna droi'i olygon tuag at y nefoedd. 'Dywed, Arglwydd. Rwyt Tithau'n clywed. Fe ddes i â cham dystiolaeth.' Ond doedd neb oll yn sylwi arno. 'Gwyn! Gwyn! Wyt tithau'n clywed?'

7.

Methai Curig yn awr ag amgyffred sut y gallai fe'i hun fod yma ar wyneb y ddaear ac yn fyw o hyd, a'i dad wedi brasgamu yn y fath fodd drwy'r porth golau. Roedd delwedd marwolaeth ei dad yn ei lenwi fe, gorff ac ysbryd, i'r ymylon. Er bod Lisa gydag e ar ei bwys ac yn taeru rhywbeth, methai fe â'i chlywed. Roedd hi fel petai hi'n clebran yn ara yn y fan yna drwy'r amser, yn ceisio'i dynnu'n ôl i'w byd hi. I'w byd hi! Yn ôl i Wrecsam, yn ôl i Erbistog, yn ôl i rywle nad oedd iddo yntau gartre ynddo mwyach. Ond pam? Byth! Pam roedd hi'n siarad cymaint? Oni allai hi ei adael bellach yn ei fudandod? Fynnai Curig byth mwyach dorri gair â hi nac â neb arall.

Crwt Rhisiart Gwyn y merthyr fyddai fe nawr i bawb. Roedd ei dad wedi'i ladd. Roedd pob creulondeb a allai'r Satan sy mewn dyn ei ddyfeisio wedi cael ei daflu at ei dad yn y fan yna. Sut y gellir yn awr droi'n ôl at y byd hwn? Sut y gallai fe ymddwyn drachefn yn daclus ystyrlon, megis yn rhan ddiddrwyg-ddidda o'r fath fyd? Roedd ei dad gwyn oll wedi marw i bopeth, ac iddo fe.

Yna, llwyddodd Curig i dynnu, – allan o'r adnoddau a oedd ganddo rywle, – un gair. Yr oedd un ymdrech lwyr wedi'i alluogi fe i yngan un sill o'r diwedd a oedd yn air cyfan, ac fe'i gwthiodd allan â'i holl nerth i'r golwg...

'Na.'

Dyma fyd o air. Ond 'na' beth, doedd e ddim yn ei wybod. Na bopeth, na ei fam, na Lisa yn sicr, na ei ffrindiau i gyd, na fywyd, na farwolaeth, na ei dad. Na. Na oedd ystyr i gyd. Na oedd yn amgylchu'r sêr a'r haul a'r lleuad. Na oedd yn llefaru'r distawrwydd yn awr ym môn y greadigaeth. Na! Roedd yn rhaid gwrthod rhywbeth cyn derbyn rhywbeth: dyma batrwm ara pechod.

Yn awr y sylweddolai Curig yn glir y pethau oedd o'u lle ar ddynion 'duwiol' heb gael eu sancteiddio, beth oedd o'i le ar gredu difrif heb weithredoedd cydlynol: eu barnedigaeth hunan gyfiawnhaol.

Nawr y sylweddolai'n glir y pethau y dylai fe fod wedi'u dweud wrth ei dad pan oedd hwnnw'n fyw. O na châi e awr fechan fach gydag e'n awr; awr ychwanegol bitw iddyn nhw ill dau, yn y fan hon, fel y câi esbonio iddo gymaint roedd e am aros gydag e bob amser a mwynhau ei gwmni. Doedd 'na fawr o lewyrch iddo ar gwmpeini neb oll felly'n awr os na châi ymbleseru yng nglendid ei dad.

Nawr yr ymwybyddai'n llawnach nag erioed beth oedd wedi digwydd i gyfanfyd cynhwynol y Crëwr, – y gwacáu enbyd – a pham y bu'n rhaid cael marwolaeth ddiledryw Iesu Grist i weddnewid pob potensial: y gegin, y cae chwarae, y farchnad, y gymdogaeth, y teulu, o fewn undod.

'Na,' meddai, 'i bob dim. Roedd y byd hwn yn berwi o bechod.'

Ac eto, a oedd e tybed wedi adnabod ei dad? Mwyach ddeuai fe byth i'w adnabod. Erbyn hyn, atgo drylliedig a gâi e yn unig am y math o ddyn chwerthinog oedd e. Gwylasai Curig ei dad yn llithro'n fwyfwy haniaethol oddi wrtho yn y cyfnod diweddar, rywfodd, yn fath o ddelfryd iddo, yn adwaith yn erbyn grymsterau annynol. Ciliai realiti'i dad ar garlam rhagddo fwyfwy. Aberthai'i atgo amdano wrth iddo'i goleddu a'i wneud yn arwr yn hytrach nag yn wîr o gorff ac ysbryd; yn sgrechair diystyr yn hytrach nag yn dad i fab.

Bu farw'i dad o dan sodlau brwnt gwleidyddol crefyddu. Ond nid fe oedd e mwyach. Pan ddechreuodd y drefn wleidyddol ei hymgyrch ffaidd a'i chelwydd yn ei erbyn, dyna'r pryd y bu e farw. Yn y diwedd eitha yn ôl pob golwg, y dybiaeth ffyddlon



a ymddangosai amdano i bobl eraill, dyna'r hyn a gafodd ei ferthyru ar y sgaffald, lawn atgo a gwirionedd. Roedd gwleidyddiaeth dynoliaeth mor hyll, meddyliai Curig.

\*

\*

\*

Sylweddolai Lisa na allai hi ddim cyrraedd hyd at Gurig mwyach. Math o atgno enciliol oedd e. Math o negydd oedd e iddi. Iddi hi roedd rhyw len ar draws ei wyneb. Fe'u gwahanwyd nhw'n greulon. Rhyw lesni marw a lifai drosto, nid yn unig i'w gadw fe ar wahân, eithr i'w gwrthod hi, a'i gwthio hi i ffwrdd. Teimlai hi fod bwlch ei ofod rywfodd am ei sarhau hi ac am fod yn ffaidd tuag ati, er na ddwedai fe ddim oll. Teimlai hi fod ei ddistawrwydd yn ergydio, yn bwrw'n erbyn ei halcen, a'i bochgernau, a'i bryst, a'i hysgwyddau. Ymosodai fe'n ddiellon arni, heb symud, a heb ddweud dim wrthi. Ciliai hi oddi wrtho. Wyddai hi ddim ai hi, ynteu fe, oedd y gwahanglwyf. Ill dau, yn ddiamau. Edrychai hi'n ôl ato nawr wrth symud o'r neilltu wrth i'w perthynas wahanu fwyfwy. Tybed a fyddai hi byth yn ei weld e eto? Tybed a oedd hithau hefyd wedi marw rywfaint drwy hyn i gyd? Yn sicr, tuag at ei thad, a thuag at Gurig. Ond a oedd 'na hefyd ryw fath o bylni arall yn awr yng ngwaelod ei chylla y tu mewn, a oedd yn tynnu'i holl egnïon tuag at yr un smotyn?

Roedd hi'n gallu lled-ddeall Curig, ond allai hi ddim closio ato mwyach. Roedd hi'n methu â chlosio, yn syml am fod closio'n golygu dealltwriaeth ry rwydd. Roedd gwir ddeall nawr yn golygu'r pellhau hwn. Ymadael. Mynd. Methu. Ei weld o flaen panorama amlochrog. Dyna'r hyn a rannen nhw rhwng ei gilydd bellach. Eu hunigrwydd oer.

Peth rhyfedd hefyd. Yr hyn a oedd yn eu huno nhw ac yn eu clymu nhw nawr oedd eu diffyg cwmni. Y myfyrdod unig dieithr hwn i'w gilydd. Y peth a'u rhwymai wrth ei gilydd oedd yr arwahanrwydd hwn. Dyna'u man cyswllt. Eu negyddiaeth gyfun. Eu dealltwriaeth absennol o'i gilydd. Wrth iddi hi encilio nawr, roedd hi'n canfod ei fod e hefyd yn diodde'r un peth yn gymwys, yn fwy efallai, ond yr un peth ag roedd hi'n ei ddiodde: unigrwydd. A doedden nhw ddim felly yn gallu dweud dim wrth ei gilydd, oherwydd byddai'r dweud yn distrywio'r cwbl. Beth allai hi'i wneud? Doedd ganddi ddim.

Nawr, byddai'n rhaid iddi hi wynebu'i thad. Y tad hwnnw, fe, oedd wedi (na, allai hi ddim coelio'r peth, ac eto dyna'n syml a wnaethai) ... wedi condemnio Rhisiart Gwyn mewn modd mor eithafol. Y tad hwnnw, a'i chnawd hi, a oedd hefyd wedi cronni ynddo'i hun ar ran pawb arall y farwolaeth ddychrynlyd a oedd yn bosibl oherwydd bod Uffern yn bod, fel cysgod pechod yng nghalonau pobl. Y tad gwrthodedig ganddi, y tad-elyn, y tad-ddiafol.

Ac felly y cerddodd hi a'i hieuentid yn benderfynol fyddar i ffwrdd. Roedd y byd yn ormod iddi.

Ar ymylon ei ymwybyddiaeth, sylweddolai Curig fod rhywun pwysig wedi ymadael ag e, wedi peidio ynddo. Trodd ei gamre trymaidd yn ôl drachefn i gyfeiriad y lle hwnnw ar lan afon Dyfrdwy a oedd wedi dod yn ymguddfa reddfol iddo fe ac iddyn nhw ill dau. Oedd, roedd hi wedi mynd.

Edrychai Curig am ychydig i mewn i'r afon ara gerllaw. Llifai honno'n gyson. Yn bwylllog, heb yn wybod iddo bron, roedd symudiad y dŵr yn falm ar ei alar llesg. Trodd yn awr â'i gefn yn bendant tuag at yr afon, a'i wyneb tuag at goedwig fechan gerllaw. Craffai fe i mewn i'r coed wedi cynnull tywyllwch o fewn eu gafael fel gwres na charen nhw ddim ei ollwng. Roedd fel pe bai e wedi dod o hyd yn y lle hwn i'r tristwch sy'n tanseilio popeth, y tristwch sy'n aros ar ôl i bopeth arall ffoi. Rhaid oedd iddo dderbyn hyn: roedd hi wedi mynd.

Roedd Curig yn teimlo'i fod yn crwydro'n rhwyfus. Beth roedd y goedwig brydferth hon, tybed, wedi bod yn myfyrio amdano cyn iddo fe ddod yno â'i ofid? Efallai fod yr awyr a'r adar o'i gwmpas a'r glaswellt odano i gyd bellach yn dechrau dod yn ôl yn normal drachefn; yn ddistaw gadarnhaol galed hyd yn oed. Tynnodd Curig i mewn i'w ffroenau, a llanwyd ei gorff â holl arogleuon coed.

Na! 'Na' i'r bydol oedd.

Doedd e ddim am ymwrthod â phob ymgais i'w dynnu'n ôl mewn amser serch hynny. Doedd e ddim am lithro'n syml yn ôl i fod yn rhan arferol o bopeth. Roedd e wedi gwrthwynebu'r cwbl, a gwrthwynebu oedd ei fwriad o hyd. Ac eto, roedd ei sefyllfa wedi dod yn llawer mwy ymwybodol iddo yn awr. Roedd e'n gwybod bellach

beth roedd yn ei wneud. Fe benderfynodd e felly, ar ôl iddo ddod yn hŷn, ac yntau'n ddyn yn ei oed a'i amser, na wnâi-e byth mwyach gredu dim gwleidyddol. Tan hynny, fe ganiatâi iddo'i hun ryw fymryn bach o gredu 'ysbrydol', y tamaid bach lleia yn unig, efallai; digon i blesio'i fam. Ond yn nes ymlaen, dim. Beiai bawb am hyn, ac yn anad dim, fe'i beiai e'i hun. Hyn oedd y cysgod ddisgynnodd nawr amdano.

\*

\*

\*

Gellir deall pam roedd Piwritaniaid mwya eithafol Wrecsam ar ben eu digon.

Gallen nhw olchi'u dwylo nawr.

'Ni sy'n iawn,' meddai Dafydd Edwards wrth iddo gerdded yn bwylllog iawn i ffwrdd gyda Huw Sontli. Cytunai Huw Sontli yn bŵl, heb gyuno o ddifri: doedd e ddim yn hoff o Ddafydd Edwards, ond roedd y ffaith ei fod e'n 'gwmni' ar gyfnod trist, ac yn gyrru unigedd myfyrdod i ffwrdd, yn gwneud iawn am anhoffuster ei bersonoliaeth yn awr yn y cyfnod anodd.

'Gyda ni mae'r gwirionedd,' meddai Dafydd Edwards yn allanol falch ond yn fewnol symlaidd. 'Ie'n wir. Ni sy'n gwybod y ffordd. Mae athrawiaeth Cred yn gyflawn ac yn aeddfed gyda ni. Nyni hefyd sy'n addoli'n gywir. Does 'na ddim addoli byth heb fod yna ymwybod trwm o ffeidd-dod pechod yn bresennol hefyd. Ond does dim addoli heb fod Iesu Grist yn groyw eglur i berson. Dim oll heb fod undod yr Ysbryd Glân a sanctaidd ac ufudd yn treiddio'r cwbl. Dim... Ie, nyni sy'n iawn.' Roedd mor hyderus symlaidd fel yr ebychodd: 'Wrth ein gweithredoedd cyfiawn ni y cawn ni'n barnu.'

Troes Huw Sontli yn filain gwrtais ato wrth glywed hyn. Roedd yr araith brotestiol yma bron wedi perswadio Huw Sontli bellach na allen *nhw* byth fod yn gwbl iawn. Tybed, tybed. Treiglai'i gydwybod gerbron y cydymaith gwrthun hwn. 'Ie, ie, ond mi fydda i'n coelio weithiau, fod un trempyn bach os yw'n ymdroi yn symler ei ddwyster gerbron y Duw byw, – yn y plygu pur ac elfennol, – siŵr o fod yn addoli'n gywirach na'r theori a'r taeru arferiadol i gyd sy gan Esgobion y frenhines. Mae dyrchafu calon un tro mewn unplygrwydd isel yn gallu bod yn fwy gwerthfawr na holl “aeddfedrwydd” cytbwys honedig y ddysgeidiaeth fwya honedig “dreiddgar”. Cân orfoledd sydyn yw yn yr enaid newydd: dyna sy'n lân. Corff digymell yr ysbryd a deflir

ar y llawr gerbron Duw, hwnnw a dderbynnir. O! Hwnnw. Ac allan o hwnnw y daw'r Cristion di-hunan.'

'Ond gwirionedd fu gwirionedd erioed,' taerai Dafydd Edwards, heb brofi'r fath beth â chydwybod.

'Beth yw holl gywirdeb manwl y ddysgeidiaeth ddiwygiedig os nad yw'n meddu ar y trydan byw?' sibrydai Huw Sontli. 'Dw i wedi clywed gormod erioed am gydbwysedd y ffydd gysáct, ac yna wedi gweld y galon ifanc, ddiurddas yn ei blerwch, yn rhagori lawer iawn oherwydd iddi droi mewn ofn mor ofnadwy at Dduw. A heddiw, dw i wedi gweld un ymestyn syfrdan: ymgrymu gan un o blant Duw a oedd y tu hwnt i neall i.'

'Paid â siarad dwli ddyn,' meddai Dafydd Edwards.

\*

\*

\*

Doedd dim pawb yn maeddu nac yn medru siarad.

Lisa Thelwel a ddioddefodd ddyfna o bawb. Allai ei chyfansoddiad a'i dealltwriaeth ifanc hi ddim dal y straen o 'berthyn' i ormod o bobl. Cawsai berthynas o fath ac fe gollodd y cwbl. A'r funud yna, fe fynnodd golli'r cwbl.

Cafwyd ei chorff gan fugail ifanc ddwy awr wedyn yn arnofio ar wyneb afon Dyfrdwy heb fod nepell o'i chartre, yn y fan lle y byddai hi'n hoffi mynd i gyfarfod â Churig Gwyn. Roedd ei chorff yn glwm mewn hesg yn ymyl y lan, a'i hwyneb tlws tuag i lawr, wedi gwrthddweud bywyd. O gwmpas ei dau arddwrn roedd hi wedi clymu cerrig trymion, ac roedd carreg drom wedi'i chlymu wrth ei gwddwg. Roedd hi wedi'i suddo gan ei storm ei hun. 'Ti biau hyn i gyd,' meddai'i chalon hi yn y diwedd wrth lithro i'r gwaelod.

Damwain oedd hi, damwain oedd y cwbl, medden nhw. Roedd hi wedi bod yn pysgota, wedi bod yn pwyso dros y lan mewn lle roedd pwll go ddwfn, ac wedi syrthio drosodd. Doedd yna ddim esboniad arall yn bosibl. Ond wrth rythu arni hi, ac ar y cerrig trwm hynny, dau air a oedd ar ymyl gwefusau briw ei thad Seimon Thelwel: dau

air a syllai'n ôl arno fel dau lygad o wyneb gwelw ei ferch. Cydiodd yn y fechan honno, gwingodd amdani, fel pe bai'n ymaflyd codwm â'i marwolaeth hi.

'Gwaed ... Gwyn.'

Ymfyddinai'r blynyddoedd o'i deutu hi yno, fel yr ymfyddinen nhw o gylch pawb marwol. Ond yn ystod y gwenau gwenith a ganai ar ei hwyneb yn awr yno, roedd ei hymryddhad creulon. Dyma'r ymryddhad gafodd hi ar ôl y dirdyniad a deimlai gan ei thad. Nhw oedd y tangnefedd nas cafodd hi ar y ddaear, ac nas câi yntau mwyach yno. Tonau tyner a oedd gan y gwenau tangnefeddus hyn yn awr yng nghanol y byddinoedd di-fudd. Nhw oedd y tanau da a gyfoethogai'r tonnau â'u tiriondeb. Y cyfoethogiad hwnnw oedd y wreichionen dlos ola wedi'i thafllu allan gan dân y galon ac a losgwyd ym mynwes Rhisiart Gwyn.

Chwech wythnos hir yn ddiweddarach dychwelodd Curig Gwyn yntau i'r un lle mewn trallod ofnadwy. Doedd e ddim wedi llwyddo i ailymaflyd mewn bywyd normal er gwaetha'r addewid a wnaethai i'w dad. Disgynasai'r felan yn ddiymollwng arno, ac roedd e'n byw ac yn bod o hyd mewn hanner llewyg. Gan fod ei fam hefyd wedi'i chlwyo mor ddwfn a thawel ei galar, doedd gan neb fawr o amser i sylwi arno fe. Roedd Curig yn orffwyll o ddig ac yn ddolurus ei galon fod ei Lisa fe hefyd wedi gorfod diodde i'r eitha fel hyn. Roedd yn ddig tuag at y gallu hwnnw sy'n dolurio perfedd y ddaear: troesai'i alar ingol e'n ferw ac yn gasineb penderfynol yn ei galon.

Ebychai'n ddrislyd yn ei feddwl 'Lisa, nid ti oedd i fod... Lisa, Lisa, nid ti sy i fod yn y lle hwn, ond yr afon ddi-ferw hon ei hun, a'r pysgodyn.'

Camodd e i lawr dow-dow at yr afon. Mewn pwll, ger ei glan, sylwodd ar y cysgod lleia o symudiad, rhyw esgyll wedi dal y sglent ysgafn, yr ysgafna a sancteiddia o heulwen. Yn y pwll roedd yna bysgodyn go fawr yno felly. Allai hyn ddim bod yn eog, roedd e'n gwybod hynny'n burion. Ond roedd yn bysgodyn byw reit nobl yr un fath: dyna'r peth tebyca i eog welsai fe erioed heb fod yn eog. Roedd y pysgodyn yn gwbl ddisyfl yn awr ac yn gorwedd yn ddistaw yn y fan honno heb fod ymhell o dan wyneb y dŵr gan fwynhau symudiad tawel yr afon o'i gwmpas, ond yn hawdd i'w ddala. Ysgogwyd Curig i griplan yn nes. Cododd garreg lem, carreg ganolig o faint ond un

lem; a llithrodd yn nes eto ychydig at ei ysglyfaeth. Roedd y pysgodyn fel pe bai'n disgwyl amdano. Nesaodd Curig ato. A dyrchafodd ei law yn awr yn raddol dirion fel na sylwai dim oll o'i amgylch fod yna symudiad yno o gwbl. A doedd dim symudiad. Ymataliodd Curig. Peidiodd. Yna, fe osododd y garreg filain fwriadedig hon, heb ei thaflu, yn ôl yn union lonydd ar y llawr o flaen ei droed.

[Nodyn all-storiol:

Rhag ofn y bydd darllynydd yn ceisio gwybodaeth bellach am Risiart Gwyn, sylwer: yn yr hen Fywgraffiadur 1953, Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru 1997, a'r Bywgraffiadur ar-lein 2014, nodir dyddiad geni Rhisiart Gwyn yn anghywir fel 'c.1557', yn lle c.1537. Heb ei gywiro, fe'i ceid yn cael ei addysg yng Nghaergrawnt yn bump oed! Gweler *Carolau Richard White*, T.H. Parry-Williams, 1931, t.4.

Dw i ddim yn gwybod beth oedd y cysylltiad rhwng y Rhosier Pwlston a grybwyllir yn y stori hon (cf. *Carolau Richard White*, tt.69, 76.) a Robert Pwlston, Piwritan arall o Wrecsam, (ibid 70: 'this gentleman was a continual enemy to the prisoner'). Ond y mae'n nodedig fod yna hefyd Rowland Puleston o'r Bers a'i draethawd Cymraeg hir (a gwallau difrifol o ran iaith) yn ymosod ar Babyddiaeth ac yn amddiffyn safbwynt y Piwritaniaid ar fater disgyblaeth eglwysig'. Fe'i crybwyllir gan Geraint Gruffydd yn ei gyfrol *Y Ffordd Gadarn*, 2008, tt. 185-188. Ymddengys y Pwlstoniaid yn deulu pur glòs yn yr ardal. Mewn gwirionedd roedd rhai o Biwritaniaid Wrecsam yn 1583 yn debyg ar raddfa leol iawn i 'Isis' Islamiaid y Dwyrain Canol yn ail ddegawd y ganrif hon. Diolch am Morgan Llwyd, Walter Cradoc, Vavasor Powell, William Erbery, William Wroth, ac eraill a gyfrifir yn Biwritaniaid o'r radd braffaf, i'n hatgoffa'n fendithiol am fudiad a hyrwyddai sancteiddhad a chariad dynol ac a fu'n sail i Fethodistiaid, Bedyddwyr, ac Annibynwyr yr Adfywiad Mawr.]

## CANLYN Y WRAIG

### 1.

Het Jim-Cro, a chot racsog ddu, ac esgidiau gogor; hyn o gysgod hir mewn rhith o wisg a ymlwybrai – er bod y term hwnnw'n fwy beiddgar na'r sylwedd – heibio i Lanfihangel-y-Creuddyn a Llanafan.

Y cwestiwn chwithig iddo fe oedd – a gyrhaeddai byth? Nid ar y siwrnai hon, ond ar bob siwrnai alcoholig. A ddôï e byth i ben â phob breuddwyd a chynllun ac uchelgais a'i corddai erioed? Symudai'r cloddiau gwamal o un ochr o'r lôn i'r llall, rhai er mwyn cadw o'i ffordd, rhai o arferiad, rhai er mwyn darparu cynhafiaeth i'r sawl a wegiai. Roedd waliau tafarnau'r ardal yn crynu eisoes wrth glywed ei gamre a'i aroglau swnllyd yn nesáu, a pherthi yn drafferthus ar bob llaw. Doedd dim ots beth wnelai'r lleuad, gwyddai fe mai distyll fyddai ar hylifau honno heno, a hynny o fewn orig ar ôl iddo gyrraedd. Yn ei flaen yr ymsiglai'n llon. Roedd Ceredigion wrth ei groesawu o bell wedi cyrraedd 5 ar raddfa Richter. Twitiai'r adar o'r herwydd yn ymwybodol nerfus, a llithrai'r cwingod 'lan i wyneb y ddaear i weld yr Wyddfa acw a chorneli Sir y Fflint fan yma yn treiglo braidd yn ansicr heibio i'w gilydd. Roedd byd Ieuan, yn ôl ei arfer, yn siglad benbwgilydd.

Ar y draenllwyni o'i ddeutu gallai fe, megis ambell un arall, synhwyro cwrw – nid surni cwrw sych yn y bore bach ar ôl noson fawr – ond cynhesrwydd cwrw melys Cymru i'r sawl a fagwyd arno, cwrw mwyn ar y dail, cwrw miniog yn yr awyr groyw o ddeutu'r llwyni. Llanwyd yr ardal oll yn fras ac yn farus ag atgofion persawrus cwrw, peth ohono'n ymwasgaru'n drwchus ar yr awel ac yn troelli dros y teios, a pheth yn fwrlwm awgrymog brown i lawr yng nghlais y clawdd nes bod hwnnw'n dechrau igian; ond cwrw gwinau di-haul Ceredigion yn anad dim a ymdroellai'n byllau mawn ger traed trwm y derw, wrth i'r potiwr pitw Ieuan anelu'n anhydrin am y Gynhawdre.

Y tu mewn i'r Gynhawdre, ac yn disgwyl iddo gyrraedd unrhyw bryd, uwchben ei thoes ac yn wynfelyn ei bysedd hirion, roedd ei fam. Roedd hi fel pe bai'n meddu ar bendantrwydd newydd heddiw. Hi a ddarparai'r porthladd i Ieuan anelu amdano.

'Dw i'n credu taw priodi yw'r ateb.'

Y datrysiad oera fyddai'r datrysiad ira iddi hi. Roedd hi wedi becsan digon am y mab. A phendroni a wnâi yn awr sut ar glawr daear y gellid sicrhau sefydlogrwydd iddo yn ei fuchedd fochaid fyth, a sut yn wir y gellid ei dwtio'n ddeietegol. Hir y bu hi'n ymdrechu i chwilio sut y ceffid byth ofal dros beth fel hyn o'i weld yn encilio i sobrach aelwyd. Ei briodi, bant â hi, dyna fyddai'r unig ateb: yr ateb a honnai'i hanhunedd hi bellach bob nos, a'i chysgadigrwydd bob bore.

'Ie, meistres.'

Siani oedd unig forwyn y Gynhawdre. A morwyn fechan annwyl oedd hi. Ei lle hi oedd cydsynied yn olau â phawb, pa mor naif bynnag y mynnai'r sylwadaeth fod.

'Ond sut cebyst y caiff neb ei ddarbwylllo fe mai dyna yw'r ffordd?' pendronai'r fam.

'Sut, yn wir, meistres?'

'Hyd yn oed os cytunith e, does dim y galla i ei gynllwynio i'w ddenu wedyn i baru gyda merch fach deidi.'

'Na.'

'Os dw i'n nabod y nhipyn fab hopysgar, Siani, dewis chwil wnaiff hwnnw bob cynnig.'

'Ie.'

'Dewis yr "*esoterig*" yn syml er mwyn erlid hen wraig ei fam.'

'Yr "*hysterics*", meistres?' Allai'r forwyn ddim llai na chynnig sillafau ymholgar amgen wrth glywed y cyfraniad casgliadol hwn i fyd diagnosis.

Collasai'r mab ei angor ers tro. Sut yn wir y gellid atynnu'r fath hwlc hwyldwp bellach yn ôl i'w harbwr? Syniai hi amdano yn awr ar grwydr linc di lonc ar fôr mawnoglyd o gwrw, wedi stocio'i howld yn gydwybodol, cau'r hatsys, a cheisio marchogaeth y tonnau gyda hyder stond bwi mewn storm. Ond mor uchel oedd y môr hwnnw heddiw ar droeon fel roedd yn ddigon i suddo'r llong braffa.



A hyhi, ei fam, hi yn unig oedd ei oleudy. Hi a ddymunai bŵeru'r golau yn y pen draw iddo anelu amdano ar ei daith sigledig. Hiraethai hi am anfon pelydryn o awel olau a wyrai'i hwyliâu fe gan ei dynnu'n dyner yn ôl tua phorthladd. Ond ofnai mai suddo a wnâi e ymhell bell cyn hynny. Chwalai fe wedi'i longddryllio'n yfflon. Wrth bensynnu amdano nawr, gwelai hi ei lygaid yn rhuthro'n wyllt i bob cyfeiriad fel teithwyr yn chwilio am fywydfad neu ddryll o froc. Llawysgrif, llyfr, rhywbeth rywbeth a nofiai er mwyn diogelu'i hunaniaeth ysgolheigaidd. Roedd ei lwnc ysywaeth yn anianol daflu'r cargo. Cydai'i freichiau mewn ambell styllen nawf go annigonol gerllaw gan afael ynddi heb fawr o hyder. Saethai'i lais e un roced rybuddiol i'r cefnfor eang. Ond pell iawn oedd oddi wrth lannau'r Gymru y dyheai ei fam iddo'i chyrraedd. Roedd blaenbren ei fad yn cyfeirio nid at y porthladd fel y gobeithasai'r fam – eithr tuag allan, ymhellach bellach i'r môr mawr.

Tybed ai ceisio llongddryllio'r byd oll oedd ei fwriad calla?

Bod yn oleudy iddo fe fu uchelgais y forwyn Siani hithau hefyd, ond un bach dibrofiad di-werth. Nid da ganddi weld Ieuan yn ymbalfalu drwy storm fel hyn o hyd, a tharfu ar ei fam. Hoffai hi'r meistr ifanc hwn yn angerddol, er gwaetha'i botio hirwyntog a llawer o'i bryfôc dolurus.

Platonaid wrth gwrs oedd y fath ymagweddu serchog. Roedd ganddi 'gariad' go iawn o fath eisoes acw, sef macwy parchus o deulu tlawd cyfagos. Roedd y meistr, ar y llaw arall, Ieuan, fab y feistres, yn rhy uchel iddi, wrth gwrs. Cymhwysodd hi ychydig ar ei golygon o'r herwydd. A Jac Pwll-yr-Onnen oedd yr un a oddefai'i huchelgais. Oherwydd ellid ddim llai na sylwi mai Ieuan o hyd oedd gwir ddiben ei llygaid gwirion. Ond roedd galluoedd deallol (os chwil) Ieuan yn ormod o beth wmbredd i'w hamgyffrediad hi. A sut bynnag, ta pa mor dlawd bynnag oedd y tyddyn, morwyn oedd morwyn. Llafur caled yn y pen draw oedd yr unig ŵr cyfreithlon i forwyn. Doedd fawr o le i amgenach chwarae wrth gydwybodol garthu twlc y moch a godro, nac wrth droi'r fuddai a bwydo ieir. A beth bynnag, cyn gynted ag yr âi e allan o'r tŷ, toddai pob atgo ganddo amdani hi, fel llwyaid o siwgr mewn peint o gwrw.

Iddi hi arhosai Jac efallai yn beth cysur i'w diffyg llwyddiant.

'Fyddai-i'n coelio ambell waith, Siani, ei fod-e am ei sgytlo'i hun yng nghanol y cwrw,' meddai mam Ieuan.

'Ie, meistres.'

A dyna'r pryd y llwyddodd Ieuan Fardd i hwylio i'r fei, er syndod annisgwyl i bawb, yn dal o dalent, er ei fod wedi'i dalfyrru beth ar ei sythder yn ddiweddar. Siani a'i canfu ar y gorwel. O bell drwy'r ffenest ymddangosai'n hwylus o debyg i hwylbren hir a thenau. Yna, wrth iddo lwyddo i nesáu, gwelid hwyliâu duon blêr yn hongian yn llac amdano o hyd wedi timestl. Plygai. Uwchben ymchwydd y twyni roedd ei ddeciau'n llif eu gwala, a'r llestr ohono'n bwhwman o'r naill don i'r llall yn anhwylyd o lwyddiannus.

'Dw i'n tybied, meistres, fod y bad hwn wedi galw heibio i ambell ynys ar y ffordd.'

Gŵr ifanc tua deg ar hugain oed oedd hwn mewn gwisg glerigol amhriodol o flêr, a phentwr o lyfrau dan ei gesail. Tyfasai fymryn o drawswech lliw-cwrw yn ddiweddar, ond roedd hwnnw heb wreiddio'n gadarn oherwydd y llanw brown a gurai mor aml hyd at y gors dano a thrwyddo.

Dowciodd e drwy ddrws ei gartre yn grwm heibio i'w fam tuag at ffyddlondeb y cwpwrdd cornel. Gwyddai hithau'n burion beth oedd yr ysglyfaeth yn y fan yna, ac aeth yn ei blaen i weithio picau ar y maen. Tynnodd e gyda pheth buddugoliaeth botel o'i gwtsh y tu ôl i'r llyfrau yno. Ac fe'i cariodd yn bêr ac yn syber â'i law rydd at y bwrdd lle yr eisteddai i'w hastudio.

'Sut roedd yr hen Lewys?' holodd y fam â llais a fyddai wedi rhewi Rheidol.

'Tew.'

'Fuest ti'n yfed?' gofynnodd hi mor ddiniwed ag y medrai. 'Gad imi wyntu.'

'Moddion yw pob bwyd a diod i'r rhai sy'n newynog a sychedig. Fyddai hyd yn oed ti mam ddim yn gwarafun moddion i fi.' Ciliodd e rhag ei chais i ddod ar ei gyfyl, a lledodd ei eisteddiad cysurus ar y llawr. Tynnodd y corcyn o'r botel â'i ddannedd, a sugno'n freuddwydiol. Syllai ar y cwrw yn gybyddlyd. Pe nad âi ati i'w yfed yn glau, byddai hwn yn ddiamau yn ei yfed e.

'Y fath dirlun ysbrydoledig!' ebychai'r fam. 'Meddwl hardd yn cael ei ddifetha... Ieuan, dywed, pa mor wirion fuest ti gyda Lewys Morys?'

'Digon i ddathlu Cymru a'i hanes. Cymerodd amser.'

'Do, greda i... Canlyn y botel, dw i ddim yn amau, dyna oedd dy hen hanes canolog y fan 'na.'

'Hen hanes yr arth a'r blaidd.'

'Dw i wedi erfyn arnat ti, y mlaidd di-glem i. Fydd neb am gynnig bywoliaeth werth-chweil i ti. Chei di byth ffureta ar hyd yr un plwy call.'

'Roedd Lewys am gofio at y werin.'

'Wfft! Mi all gadw'i gofion,' wfftai'r fam. 'Dyna un arall nad yw-e ddim wedi darganfod... fod ganddo enaid,' ac aeth hi at ei mab er mwyn tynnu'r botel oddi wrtho.

'Gad hi, y Methodist,' rhegodd e. Nid 'Methodist' mohoni, ond gwnâi'r sarhad y tro.

'Ieuan, rwyt ti eisoes wedi cael llond dy groen.'

'Gad iddi fod, fenyw. Hi yw ngwraig.'

'Ond Ieuan.'

'Y mhriod ffyddlon ffrwythlon,' murmurai fe wrth y botel annwyl. 'Na foed dim ymyrraeth i ti gan dy hen fam-yng-nghyfraith genfigennus.'

'Gast yw hi!' ebychai'r fam wrth y botel wrth-annwyl. Anwylodd Ieuan y botel, a'i gosod orau y gallai yn dwt o'i flaen.

'Edrych arni. Y fath dlysnï tywysogol.'

'Canlyn honno!' gwawdiai'i fam.

'Paid di â gwrando arni, mechan i,' meddai fe'n garedig wrth y botel gyda gwên fel cwstard mewn twymyn. 'Felly y bydd ambell fam yng nghyfraith yn atgnoi'n beryglus. Saf di'n ddiogel dy droed fan 'na.' Edrychai fe'n smala tuag at ei fam, a

hithau'n brudd yn ôl ato fe. Codai'i ddwylo'n wacter o'i blaen ac o flaen y botel: 'Wyt ti'n gweld druan? Mae hi'n pwdu o'th herwydd di. Edrycha be wnest ti.'

'Druan ohonoch chi'ch dau,' meddai'r fam.

'Mae hi'n ddiogel fan 'na.'

'Chei di byth ddyrchafiad eglwysig. Ffŵl wyt ti. Ynfytn,' ebychai'r fam. 'Ti a dy fordaith ddwl yn nofio ar goll mewn hylï rhy gythryblus.'

'Ond ambell waith,' broliai fe, 'yn mentro dowcio dan eples y tonnau. Ambell waith yn plymio i waddod y dyfnderoedd, a dod o hyd i berl. Elli di ddim gwadu hynny, mam. Dod o hyd i ogo ar hyd y glannau hir ewynnog.' A dechreuodd annerch y botel yn serchog. 'Ogo wyt tithau dy hun, nghariad ffein i. Ogo tylwyth eithaf teg lle mae'n wir fod yna ysbryd, onid llond dy wirod o ysbrydion. Dw i'n swagran i mewn drwy dy agorfa i fyd lledrithiol saff. A'r fan yna mae'r tipyn rhecsyn rhigymgar o forwr hwn, medden nhw, yr un y mae pawb yn ei ddiffrïo, yn llwyddo i'th ddi-ddanu di mewn cynulliad fel un o feirdd yr uchelwyr.'

'Rwy'ti'n troi arna i.' Er ei chariad, roedd ei fam yn ei ffeiddio.

'Dw i'n dy feddiannu di, ogo'r oesoedd,' cyfarchai'r botel. 'Nid Ifans Gynhawdref dw i mwyach. Allan ohonot ti y genir Ieuan Brydydd Hir!' Chwythai gorn ei fochau fel pe bai'n aea.

'Druan, druan o'r fath rwtsh,' meddai'r fam. Gwir ffræe oedd hyn rhyngddyn nhw, y tro hwn. Ond 'ogo'r oesoedd,' nid y mab, oedd y gelyn yn ei bryd hi; y botel ddiwaelod ysgogol.

Symudai Ieuan ei ben yn awr fel pe bai'n gwneud arolwg o furiau'r ogo. 'Ie,' meddai'n fyfyrgar, gan syllu o'r naill drawst i'r llall, a chan ledu'i freichiau, 'cartre bach dibwys, ond lle i brydydd. Lle distadl, ond mae'n rhoi dimensiwn amgen i filltiroedd o fyw.' Ac yna, syrthiai'i olwg yn wahaniaethol o'r newydd ar y botel, dan wg ei fam.

'Tŵr yw hi, Ieuan, edrych: carchardwr,' meddai hi.

'Choeliwn i byth!'

'Tŵr yw i wylled y carcharor rhag iddo ddianc. Mae'n dy wylled di, y penbwl, 'fan 'na yn gorwedd ar y gwaelod gerllaw. Ddihengi di byth.'

'Na, na: goleudy yw hi,' taerodd e. 'Edrych. Mae'n sefyll fel goleudy. Ac allan ohoni mae 'na hen hud heulog yn tywynnu.'

Clustfeiniau Siani gerllaw ar bob un o eiriau Ieuan fel pe bai e'n dodwy aur. Roedd hi'n hen gyfarwydd ag e a'i eiriau; ond yr un pryd, roedden nhw'n ei hudo hi'n gynnes. Onid oedd yntau wedi anwylo'r geiriau hyn oll â'i wefusau tenau? Roedd pobl eraill wedi cicio'r geiriau hyn o gwmpas ers oesoedd. Yna, cafodd e afael arnyn nhw. Geiriau oedden nhw wedi cwmpo oddi ar ei ford yn ddiweddar; rhai ar y gadair lle yr eisteddwyd arnyn nhw heb ei fod yn malio dim; rhai ar y llawr lle y cymysgwyd nhw â hen sgidiau, briwsion, ac ambell garreg fân; a rhai wedi mynd ar goll yn gyfan gwbl. Ac yna, i'w canol, o flaen llygaid Siani ambell dro, fel hedyn dant-y-llew tan hwylio ar gefn diferyn o awel, ddi Ieuan ei hun a gafael mewn ambell air. Ie; eu Meistr oll. Ie, a'i Meistr mwstwrog hi.

Cododd e ambell un, a'i ddodi ar ben y ford. Twtiau ychydig arno. Roedd hwnnw wedyn yn dechrau sgleinio ac ymblyuo'n falch, yn canu, ac yn gwenu ar yr un nesa ato, yn barod i gerdd. Estynnen nhw ddwylo a chydio yn ei gilydd, a dechrau syflyd, yn ara i gychwyn; wedyn fe ddawnsien nhw, yn ddewr, yn llawen dost, yn llawn golau, ac yn frawddegau cytûn. Yr oedd eu hwynebau gloyw, yn ffeiriau hynafol hael. Ei eiriau annwyl e wedi dod yn fydr. *Graean, offeiriad, awyr, blasus, amrwd, moronen, agos, Agos, AGOS*. Geiriau glwysfin cyfareddol swmpus cyffredin fel 'na ar wefus. Coleddai'i ddannedd yn awr y sillafau cyfrin hyn oll yn synhwyrus seiniol yn erbyn taflod ei enau. Y fath sillafwydd gwydn ac ymrwblyd oedd wedi dod ar draws y bardd hwn.

*'Penbwl!'* gwaeddai'r fam ei gair hithau.

Chwarddodd e nes ei fod e'n goch ei wyneb fel moronen, wrth glywed y sillafau hyn yn tanio yn ei ddwylo. Chwarddai drwy'r trwyn gan dasgu dafnau o'r hyn y gwnaed 'cerddi' a 'phenbwl' ohonyn nhw. Dyna eiriau byw. O! Fel roedd e wedi disgwyl amdanyn nhw. Hiraethai'i dafod amdanyn nhw nawr. Gwyddai fe'n burion fod pawb, ei fam, ei gyfeillion, ei elynion, pawb byw bedyddiol ond Siani, wedi llunio trosiadau

trahaus amdano yn y gorffennol, a'r rheini tuag i waered. *Penbwl* fyddai fe, yn anochel, yn enwedig pan oedd ei fam mewn un o'i hwyliau hylifol. *Ci* hefyd weithiau o dan y bwrdd. *Mwydyn*. *Chwilen* benbwygilydd yn sicr. Y fath eiriau cletsiog teimladus! Digon prin bod prinder dewis. Rholiai yn y geiriau caled a meddal fel ei gilydd. Gwyddai fod ambell ficer y bu'n gweithio gydag e'n ystyried nad oedd annhebygrwydd rhy fawr rhyngddo a *dinosawr* di-naws a sawrog yn ymwithio allan o Gors Goch Glan Teifi, gan mor hynafol afradlon oedd ei galon yn trin *cerddi*. Mwynhâi'r geiriau. Geiriau mwyn. *Siani'n* unig am y foment, a'r enw *Siani* 'na'n hyfryd felys, hi yn unig a syllai drwy'i sain tuag i fyny ati hi, yn arbennig pan ehedai fe yng nghwmni'r awen. Bid siŵr, canfyddai hi ei adenydd wedi eu tocio. Roedd hi'n barod ddigon i gydnabod ei fod bellach ychydig yn is na'r angylion. *Angylion*, deintiai sillafau meddal a thrwynol yr iaith wrth hedfan dros yr ystafell o'i gwmpas. Gwrandawai hi arnyn nhw. Ond gyda'r sillafau hynny, roedd yna ddigon i'w wneud yn fardd angylaidd hirfelyn tywysogaidd am ganrifoedd, yn diferu o lafariaid croesawgar ac ymhell o gyrraedd y cyffuriau brown a'i meddwai. Y bardd oedd yr un biau'r geiriau.

O fewn y digri, ymguddiai'r difri.

Hyd yn hyn, byddai'n rhaid iddo fodloni'n unig ar y geuddrychau o angylion a ddeuai o du ei arferion drwg. Tuag i lawr yr âi gan mwyaf o'r herwydd. Teimlai'n fwy pysgodaidd wlyb yn hytrach heddiw, ac ychydig o dan ryw don neu'i gilydd. Ond hiraethai am amgen. Ac o gael cyfle, fe gyrhaeddai fe amgen.

'Breuddwydiwr gwrach wyt ti,' meddai'i fam. 'Dyna braf fyddai pe baet ti'n glanio'n saff wrth ddod o hyd i lodes fach deidi lân.'

'Ac *angori*?' Cododd ei ben yn chwilfrydig wrth fentro'r gair.

'Ie, *angori*.'

'Gydag *wyrion*?'

'Pam *lai*?'

'A! tynfadau bach swci swci... Oes, mam fach. Mae eisiau porthladd arna-i reit ei wala.'

'Oes.'

'*Hafan* siapus fel hyn, efallai,' meddai fe gan ymestyn am y botel, 'A chwch bach y galla-i wthio i'r tonnau i fforio arno am ynys hud.'

'Ddim yn yr hafan yna, beth bynnag,' meddai'r fam gan wawdio'r botel.

Gadawodd ei fam ei gwaith am foment; ac mewn gollyngdod nerfol, symudodd ychydig oddi wrth y ford lle'r oedd hi'n gweithio.

Wrth wneud hynny, bwriodd hi olwg drwy'r ffenest, a dal sylw disymwth ar ffigur Edward Richard yr ysgolfeistr, neb llai, yn araf ymlwybro'n dechnegol fedrus at y tŷ, draw, er gwaetha'i dewder, fel pe bai'n rasio'n erbyn milgi marw. 'Brensiach annwyl! Mae Ned o'r Dre ar ei ffordd yma,' cyhoeddodd hi gan ei thwtio'i hun.

Y tew o'r Ystrad? Ymdrechodd Ieuan i godi, ond yn ofer. A disgwyliodd e'r ymwelydd oddi ar y llawr felly yn ôl ei arfer. Wele hwnnw, yr ysgolfeistr, ei hen ysgolfeistr o Ystrad Meurig, o'i wirfodd yn llenwi corneli'r ystafell bron wrth ddod i mewn ac yn cyfarch pawb yn hapus wrth fordwyo i'r canol.

## 2.

Caed cyfarchiad llon ond ffurfiol gan Edward Richard: 'Meistres Ifans!... Siani Ifan!... a thithau Ifan, yn dy hen gadair farddol, dw i'n gweld.'

'Gymrwch chi ddysglaid, Edward Richard?' Sylwodd hwnnw'n fanylach ar gyflwr Ieuan yn bentwr prudd uwch ei lyfr ar y llawr, a'r botel wag o'i flaen.

'Te ddwedsoch chi, Meistres Ifans?'

'Pam lai Mr. Richard?'

'Does dim byd cryfach gynnoch chi ... fel dŵr ...i'w gynnig?' meddai Edward Richard. A throes at y forwyn. 'Bob tro dw i'n dod i'r cyfeiriad hwn, Siani, mae yna lafn llyfndew, Jac Pwll-yr-onnen, y tu fa's yn edrych ar y sêr. Ond gofyn y mae Jac am dy weld *di*.' Camodd Siani'n gynhyrfus drwy'r drws heb geisio'i ateb, a diflannodd. 'Aeth honno'n orfoleddus o glou, on'd do fe? Beth oedd arni?...'

'Canlyn, Mr. Richard. Canlyn. Wyddoch chi ddim am gampau felly.'

'Na wn, drwy drugaredd.'

'Oes rhyw bwt o newydd wedi dod â chi cyn belled â hyn, Edward Richard?'  
holodd yr hen wraig. 'Newyddion goruwch helbulon morwyn.'

'Oes, ar ryw olwg, oes: yn union y peth i Ieuan. Dim byd pendant cofiwch. Rhyw si. Ond si yw si.' Dywedodd y frawddeg ola honno gyda phwysigrwydd cytbwys clasurol. Gŵr bach sylweddol a thaclus, tua saith a deugain oed oedd-e, a chanddo ychydig o lyfrau dan ei gesail. Roedd yr ymatal datganiadol hwn yn awr, wrth ddatgelu'i wybodaeth amhendant, yn ychwanegu'n hynaws at ei bwysigrwydd crwn. Felly y bydd ansicrwydd. 'Mae yna sôn ... dim ond sôn cofiwch...'

'Ie?'

'Newyddion am le bach teidi o'r enw Llanfair Talhaearn.'

'O?'

'Dim ond si ar hyn o bryd!' Winciai. 'Neb wedi clywed amdano ffordd yma. Ond ail gyfle.'

'Ail!' Cododd Ieuan ei ben fymryn: 'Llanfair Haeearn, ddwedsoch chi? I hyn o weddillyn offeiriadol? Haeearn a hoga haeearn,' meddai ymhen tipyn.

'Talhaearn a hoga'n bardd ni, meistres Ifans,' meddai Edward Richard. Maes o law, efallai. A chyn bo hir, o bosib.'

Siglodd ei fam ei phen.

'Digon da,' meddai Ieuan.

Plygodd ei ben mewn cywilydd.

'Dim byd pendant, sylwch,' meddai Edward Richard yn ddoeth. 'Ond cyfle.'

'Na, dim pendant,' cytunodd y fam. 'Cyfle rhy ansicr. Byddai *pendantrwydd* mewn bywoliaeth yn rhy bell oddi wrth grwt fel hwn.'

'Eto, mae 'na sôn eu bod nhw'n cael anhawster i gael curad...Sôn.'

'Ond...' ac amneidiai hi'n ddiobaith tuag at ei mab.



'Wrth gwrs, dŷn ni'n ddigon pell fan yma. Does neb wedi clywed...,' a throdd ei ben yn arwyddocaol at Ieuan, 'wyddoch chi...'

'Gwn. Does neb wedi clywed gormod efallai,' meddai hi.

'Llanfair yw plwy Twm o'r Nant hefyd, dw i'n clywed: – bachan yr anterliwt.'

Cododd Ieuan ei ben eto. 'Dyw hwnnw ddim at y Nant i, ta beth,' sibrydai, a gostyngodd yn ôl.

'Potiwr arall, fentra-i,' sylwodd y fam, 'ond clasurol fel Ieuan efallai.'

'Heb fod yn fonheddig wlyb,' meddai Edward Richard. 'Mae'r ddiod yn gafael ymhob dosbarth. Mae 'na ragor rhwng bonheddig wlyb a gwerinol wlyb mewn dylanwad. A gwerinol wlyb yw'r spesimen acw, Twm o'r Nant, gwaetha'r modd.'

Roedd y ddau bellach yn dwys-edrych gyda'i gilydd tuag at Ieuan a oedd yn hapus anymwybodol o'u sylw. 'Druan,' meddai'r fam.

'Ydy e'n ... iawn, heddiw?' sibrydai Edward Richard.

'Newydd fod draw ym Mhen-bryn.'

Cododd Edward Richard ei lais tan awgrymu peth tosturi: 'Fe fu Ieuan gyda'n hybarch sobor bonheddig wlyb Lewys Morys, felly, do? A sut roedd yr hen sglaig llysti?'

'Purion, mynte fe,' atebodd y fam.

'Tew!' ebychodd Ieuan.

'A! tew,' gwenai Edward Richard yn gryptig gydymdeimladus, 'greda i... felly, meistres Ifans!' A derbyniodd ei ddysglaid o de. 'Braf yw peth tenau fel hyn, ynte fe.'

'Felly y bydd rhai cyrff anffodus,' gwawdiodd Ieuan tenau, gan gyfeirio at Lewys Morys – 'tew ... a gwych sychedig.' Ond fe feddai Edward Richard yntau ar fol fel cwyp-eira heb lithro, a gallai sefyll ei dir ei hun gyda'r gorau heb ddadmer yn gynamserol.

Gwenodd yr hen ysgolfeistr drachefn: 'Wyddost ti, Ieuan, o ble y daeth y ddiod dew sy'n denau ynot *ti*? Rhan o gyfundrefn ryngwladol yw'r ddiod. Fe ddaeth o drefedigaeth sy'n chwaer i Gymru.'

'Beth dych chi'n feddwl?'

'Mae'n dew drwy bob trefedigaeth ledled y rhod, beth bynnag, – India'r Gorllewin, Iwerddon, yr Alban,' meddai'r ysgolfeistr. 'Mae'r bobl gollodd eu nerf – yr israddolion ynghylch eu hunaniaeth eu hun – ie fel y Cymry. Maen nhw oll yn ceisio'r ddihangfa feddal hon. Dyna dy ffynhonnell di.'

'Felly'n wir, 'r hen Dew.'

'Mae'n galon i diroedd Prydain dros y byd.'

'Mae ar gael yng nghalon y rhanbarth acw ta beth,' myntai'r fam gan amneidio'i phen tua'i mab.

'Boddfa yw hi ynddo fe,' ategai Edward Richard. 'Weli di nhw led y llawr yn slymiau Dulyn a Glasgow, Ieuan. Ac yn ymdrybaeddu ar lawr dociau Jamaica. Mae'n eu huno nhw i gyd mewn math o hunanladdiad melys ymerodrol. Boddfa gyffredinol.'

Gydag ymdrech a thrwy niwl sawl trefedigaeth goedwigaid, ymlafniodd Ieuan i godi oddi ar ei ben-ôl. Camodd wedyn droedfedd neu ddwy yn chwilfrydig tuag at Edward Richard, o'r India i'r Bahamas. Ac edrychai hwnnw yn ôl arno'n gyhuddgar: 'Tincer!' Llidiodd Ieuan ar ei sefyll, 'Y cig trwm... cer i'r grafi.' Ceisiodd sarhau ei hen ysgolfeistr yn ôl. Ond buan yr ymdawelodd: 'Ie, wel, mi fynna-i drempio ar y mhen yn hun... o lawysgrif i lawysgrif ... tincera â'n diwylliant. Mi wna-i, hwyrach... Ond... oni welwch chi ddim o'r urddas eurych yn y cawdel tenau?' A pherfformiodd yn ei hwyliau ar ganol y gegin brudd rodiad eithriadol o urddasol ar gyfer cynulleidfa ddigon diwerthfawrogiad. Ond chwilio roedd e drwy'r awyr am Ddysg.

'Wnest ti erioed,' sylwodd Edward Richard, 'ystyried y gallet ti, ie ti, fod yn Esgob rywdro? Rwy'ti'n taranu ddigon yn eu herbyn nhw. Ond mae gen ti allu. Yr esgob Evan Evans.' Ymbluai Ieuan yn wawdus. 'Gallet, mae gen ti hen ddigon o glem,' ychwanegai'i hen athro.

'No Inglis...' ymatebodd yr hen ddisgybl: 'yr Esgob cyntaf o *Gymro* er y Dilyw.'

'Byddai angen dilyw esgobol i orseddu hwn,' ychwanegai'r fam.

'Gallet ei wneud e pe baet ti'n sobri,' ychwanegodd ei hen athro.

'Meddylwch...! Daliodd Ieuan ei anadl. 'Wyt ti'n clywed, mam?'

'Beth?' holai'r fam.

'Yn enwedig taen nhw'n clywed tipyn o'th Ladin di,' datganodd Edward Richard.

'Yn rheitiach taen nhw'n clywed bedydd-escob yn y parthau hyn yn Gymraeg.'

'Cabledd, ddyn. Gwneud yn ysgafn o grefydd ddysgedig,' meddai Edward Richard. 'Cofiwch: ysgolheictod sefydlodd y Diwygiad Protestanaidd. Fe allet ti wneud yn rhy ysgafn o esgobion a fu'n ddiwyd iawn yn gwau ffydd drwy Academia ein traddodiad eglwysig ni. O na baet tithau'n gwneud ambell beth call... fel llunio ambell bill yn Lladin er enghraifft! Mi allet ti'n burion. Dyna'r llwybr union i esgobolrwydd, ac i'th ddyrchafiad di. Mae dysg a llenyddiaeth yn gymorth i'n credoau ni.'

'Fel y ngherddi mawl o bosib, yr hen Dew caredig,' ychwanegodd Ieuan yn ddisymwth, ac yna gan ddynwared ei fam yn ei geryddu, – 'Ust! Ieuan. Ust!'

'Wel ie,' meddai Edward Richard yntau yn ystyriol.

'Tr esgobion presennol eu hunain, o bosib?' meddai'i gyn-ddisgybl.

'Na, na, rwyf ti'n gwawdio nawr. Dw i o ddifri.'

'Dw innau o ddifri.'

'Mae yna ddigon o ddawn academiaidd ynot ti – pe baet ti'n sobr – i arwain diwylliant yng Nghymru.'

'Y ddawn a'r ddiod yn dawnsio gyda'i gilydd,' broliai Ieuan, 'meddylwch.'

'Wedi dod yn esgob, gallet ti ddefnyddio dy statws er lles diwylliant ein gwlad,' taerai Edward Richard.

'Ac er mwyn y ffydd heddiw hefyd,' meddai'r fam gan deimlo ychydig yn amherthnasol yn y sgwrs hon.

'Ust mam! A dych chi'n credu, Edward Richard, mai fi fyddwn i .... ar ôl dod yn esgob?'

'Pam lai?'

'Y dwylo hyn? A'r gwallt hwn?'

'Wrth gwrs,' meddai Edward Richard.

'Ond heb y bol angenrheidiol?'

'A heb ffydd go iawn?' atebodd y fam heb wenu.

'A'r llwnc yn cael peth llonydd,' ychwanegai Edward Richard.

'Wel...ie, yr anfarwol lwnc.'

'Gwell gen i ddiogelu'r gonestrwydd bach, y sylweddoliad glân mai trefedigaeth dw i, fod yna ddiwylliant unigryw gan Gymru o ryw fath. Dyna i gyd. Er yn drefedigaethol o hyd; peidiwn â'n twyllo'n hunain. Mae diogelu hynny o hunaniaeth mewn sylweddoliad o israddoldeb gonest hefyd yn fymryn o ddyrchafiad.'

'Dwyt ti ddim yn deg, Ieuan, i'r Esgyb Eingl,' ymyrodd y fam. 'Maen nhw'n pregethu'r efengyl weithiau.'

'Ydyn nhw'n wir, mam? Fod yna seren wedi codi yn y Dwyrain?'

'Ydyn,' taerodd hi.

'Ydyn nhw'n wir, mam? Ac yn estyn eu hymerodraeth droston ni. O fan heb fod yn rhy bell i'r dwyrain, yn ddiau. Ond yn sarnu'n hiaith fan hyn yr un pryd.'

'Ydyn.'

'Yn difa traddodiad, myn diân i, o'u dwyrain cyfyngedig.'

'Efallai.'

'Ond yn pregethu'r Erthyglau ambell waith... yn glir.' Ac yna, trodd e'n esgusodol tuag at Edward Richard. 'Mae mam, Edward Richard, yn Fethodist *manqué*. Nid y ngharu i y mae hi, ond hiraethu am y ngweld i ar y ffordd union. Gyda rhyw fath o obaith am ddyfodol na ddaw.'

'Ieuan!' ebychodd hithau mewn cywilydd, 'beth wyt ti'n feddwl?'

'Trwbl crefydd wladol yw ei bod hi'n ffwdanu ynghylch "perthynas" unffurf.'

Ond dichon y deallai Ieuan fymryn mwy am 'berthynas' llenyddiaeth y meddwl cyfoes a thraddodiad dysg Cymru nag odid neb ers canrifoedd. I'r Saeson roedd Ieuan yn llai na dim, ond i'r werin seciwlar gartre – i hyder llysnafeddol Cymreig y ddeunawfed ganrif, – roedd yn sobr o anhepgor yn ei fryd ei hun, ac yng nghyfri Hanes.

Doedd ei fam, na, doedd hyd yn oed Edward Richard a'i holl Ladin, ddim wedi gweld yr hyn a welsai'r meddwyn hwn. Fe welodd hwn y Gymru a allai fod. Dirwasgwyd hanes ei wlad bron allan o fodolaeth, ym mryd ei phobl yn y canrifoedd ynghynt: amddifadwyd y bobl gan wleidyddiaeth rhag gwybod pwy oedden-nhw. Bu'r werin heb Brifysgol (na chlywed am y fath le). Doedd gan y wlad ei hun ddim hunan-gofiant dysgedig. Efallai doedd hi ddim yn bod, ac wyddai neb beth oedd y pwynt i'r fath absenoldeb. Ac yna, daeth y rhecsyn hwn, a chrwydrai fe drwy'i habsenoldeb hi. A'i waith e oedd ei gwneud hi. Galw arni – Gymru! – o'r dyfnderoedd i ddod i fyny, i fodoli; i siglo'i gwallt, a'r dafnau'n llyfo ohoni ar draws ei bochau cwrw, i lawr ei hesgeiriau lluniaidd. Teimlai fod ei fam ei hun yn ei isbrizio'n ddisylweddoliad.

'Mae mam,' meddai fe, 'yn y mhwyso i a'n mesur i fel sen i'n ast – drwy yn arogl. Cyn gynted ag y deua-i i mewn i stafell, dyw hi ddim yn edrych ar yn wyneb i – oes rhywun wedi ymosod arna i, dwedwch? – dyw hi ddim yn gwrando ar yn llais i chwaith, er mwyn dyfalu dyweder oes 'na annwyd arna i. Mae hi'n picio â'i ffroenau manwl dan y ngenau, i'n arogl i. A dyna, iddi hi, yw bod yn fam.' Dynwardodd y weithred, a snwffian, yn hydeiml wrth gwrs. 'Tomen dw i, myn diaist i, o bob aroglau posib. Mae hi'n connoisseur sy'n nabod y flwyddyn. "A!" medd hi o'r diwedd, "gwin y gwan – Llangeitho mil-saith-tri-pump," i wirioni'r parchusion, medd hi... I'r botwm. Wedyn bydd mam yn chwilio am yn enaid i hefyd, ac yn methu ... Methodist *manqué*.'

Prin y cafodd e gyfle i anadlu er mwyn datgan hyn pan ruthrodd Siani'r forwyn yn ôl i mewn drwy'r drws, yn flêr drybeilig, a'i hwyneb yn llinynnog o ddagrau pigog a'r rheini fel y drylliau gwydr a ddodir ar ben waliau i gadw cathod allan. Safodd hi'n gollnod o'u blaen. Roedd rhywbeth wedi digwydd iddi. Roedd dychryn wedi llyfo drosti.

Safodd yn stond mewn parlys.

'Siani fach!' meddai Ieuan, hanner o ran ymholiad a hanner o gydymdeimlad. Rhedodd hi ato gan anwybyddu'r ddau arall, a chydio ynddo gan ddodi'i phen ar ei ysgwydd a llefain. Roedd hi'n buddsoddi'i symler ynddo. 'Ac fe aeth yr hen gythraul, do?' meddai fe'n feddal. 'Gwn i.' Ymollwng roedd hi heb ateb. 'Gwynt teg ar ei ôl e, merch i, ar ôl y gwynt diweddar. Mae'r sawl sy'n ddigon dwl i droi'n Fethodist yn haeddu tipyn o wynt. Mi glywais i am ei dröedigaeth. A dwyt ti felly ddim yn "gymharus" iddo fe bellach, Siani fach. Paid â phryderu. Fe ddaw gwynt arall.'

'Gwynt traed y meirw,' ubai Siani.

'Dere, mechan wyllt i.'

'Ond rown i'n ei garu fe.'

'Wnei di gymryd dysglaid fach o de, Siani?' holodd yr hen wraig. Disgwyl am ateb a wnâi hi na ddôi. Arwyddodd Ieuan yn gadarnhaol â'i ben gan annog ei fam i'w gwneud iddi.

'Dere Siani,' cysurodd e hi gan lofio'i gwallt yn dirion. 'Mae 'da ti wallt pert ei wala. Ac wyneb annwyl, Siani. A chorff lluniaidd. A hwyl helaeth yn dy galon. A llygaid a'u llond o gychod pysgota. Pan glywith y gymdogaeth dy fod di'n rhydd 'to, cei di ddigon o gwmi heblaw Jac Pwll-yr Onnen...'

Ac roedd hynny'n ddigon iddi feichio crio drachefn.

'Rown i'n caru pob munud ohono-fe,' sibrydodd hi.

'Mae'n siŵr o ddod yn ôl,' ceisiai fe'i chysuro'n garedig. 'Gobeithia, ferch. Does neb yn canlyn gŵr heb fod y gŵr yn ei chanlyn hi. Yr un modd gyda'r siom. Yr un modd gydag egwyddor, neu wlad, neu draddodiad. A chyda gobaith. Mae 'na olion ohono fe 'na o hyd. Ddim ti sy wedi'i fethu fe. Methodistiaeth bietistig ddiwreiddiau sy wedi'i gamarwain e, dyna sy wedi'i fethu fe, ac mae'n methu â'i annog e'n gall nawr. Ond does gan Fethodistiaeth druan ddim clem am y Greadigaeth a'i Diwylliant. Ac yn yr hen fyd musgrell hwn, rhaid i ti ddysgu canlyn cariad yn ôl ei hanfod cynhenid os wyt ti'n mynd i ddeall y gobaith yn gyfansawdd, a chanlyn gobaith yn ddall weithiau heb i'r gobaith

ganlyn dy wybodaeth am dy gymeriad dy hun am ychydig.' Dechreuai Siani geisio gwenu ychydig heb ei gredu.

'...Fe ddaw llu o'r hogiau,' parhaodd Ieuan, 'i gyfarth ac i ffroeni wrth y drws.' Gwenai Siani'n uwch fyth. 'Bydd hen udo lond y nos, Siani... Pa ots? Pa fath o greadur yw dwrgi fel Jac?... Y gorwel amdani Siani. Mae yna fwy o bysgod yn y môr.'

'Diolch, meistr.'

Erbyn hyn roedd y te'n barod ac yn cyflawni'i ddefnyddioldeb perseiniol cysurlon. Roedd Siani bron â chanu grwndi. Bron. Mewn byr amser, roedd hi wedi mynd drwy gyfnewid triphlyg. Ymhlith Ieuan a'r cwmni, yma gynt cyn y siom, roedd ei gwên wedi arfer bod yn gylch o liw, yn llachar lawen, yn rholyn o ddisgleirio heulog, fel rhyw ddant-y-llew gorfoleddus.

Yna, am foment, cwmpodd ei hwyliau hi drachefn. Fe'i clowyd hi mewn crinder, fe'i claddwyd hi mewn tywyllwch lapiog eto. Wedyn, dychwelodd eto: bu Ieuan yn fath o gysur iddi o'r newydd nes iddi ymagor yn ddiddig drachefn, yn fwrlwm tawelach o wynder pluog, yn oleuni tynerach crwn ac ysgafn, a'i phen unwaith eto yn ffrwydrad gwâr yn y gwynt hapus: rhacsen o ddant-y-llew ar y cae oedd hi wedi dod yn aur pur.

'Synnech chi, Meistr Richard,' meddai'r fam o'r neilltu wrth Edward Richard gyda pheth balchder am ei mab oherwydd ei diriondeb llwyddiannus gyda'r forwyn. 'Ambell noson uwchben ei lawysgrifau, mae'n anghofio'r ddiod yn lân. Mae'r ysgolheictod yn ei draflyncu a'i sobri am oriau: mae'n dod yn fwy hynaws.'

'Amhosib: ble mae'i gynhaea fe te?' holai Edward Richard.

'Mae e'n disgwyl amdano. Dysg sy ganddo fe,' atebodd ei fam Edward Richard. 'Ond mae'r Esgobion Eingl wedi cefnu ar y cymhwyster hwnnw, meddan nhw.'

Gwyddai'n burion beth oedd argoel ei mab. Gwyddai na werthfawrogid byth mohono yn yr amgylchfyd sefydliadol presennol, a chymerai hithau hefyd weithiau ei chyflyru gan ei wrth-esgobolrwydd marwol ryw faint. Doedd neb wedi'i helpu fe.

'Wnaiff yr esgobion presennol byth mo'r tro. Dylid condemnio pob gwarchodwr offeiriadol nad yw'n teilo'r tir yn effeithiol,' meddai hi'n gryptig am ei druenusrwydd.

Hiraethu roedd hi am gaffael deng munud o sobrwydd trafod gyda'i mab, fel y gellid rhoi rhyw fath o oleuni iddo ar ei gyflwr.

'Ddaw e byth, Meistres Ifans, mae arna i ofn,' gwawdiai Edward Richard. 'Mae e tu hwnt i bob cymorth. Esgusodion sy ganddo fe. Ddim synnwyr. Ddim cywyddau.'

'Na byth, Edward Richard.'

'Hanner pannwr,' porthodd Ieuan e'n wawdus. 'Prin chwarter pannwr, ddwedwn i. Tun pan.'

'Na!' protestiodd Siani hithau'n wyllt sgrechlyd o'i blaid, ond yn arch-synhwyrol. 'Byth!'

Ymryddhaodd Ieuan. A chwarddodd i'r unig gyfeiriad lle roedd yn teimlo mymryn o gydymdeimlad. 'I'r "baracêds" Siani!'

A gadawodd e Siani yn y fan lle roedd. Fel pe bai e mewn lled lewyg trodd ei gefn ar bawb, a chan nesáu at y ffenest er mwyn edrych allan at y buarth, trodd drachefn at ei ffrindiau, a'i gefn at y wal. 'Gad imi fynd ymlaen â ngwaith,' meddai'n seithug benderfynol, er nad oedd dim gwaith yn unman i'w ganfod drwy'r ffenest, nac yn yr ystafell hon, ar wahân i'r llyfr bach llipa a oedd yn dal i dorheulo o hyd ar y llawr.

'Gwaith!' gwawdiodd Edward Richard. Mae angen disgyblaeth ar waith. 'Ddim curad wyt ti, Ieuan. Ddim hyd yn oed darpar curad. Ond trempyn, bob cam o'r ffordd, yn llusgo o fywoliaeth i fywoliaeth. Ychydig o wythnosau fyddi di yn unlle cyn iddyn nhw sylweddoli beth wnaethan nhw. Ac wedyn, allan nhw ddim cael gwared â thi'n ddigon clou. Manafon. Caint. Llanafan fawr. Llanllechid. Trefriw. Rwyt ti fel porthmon, ddyn.'

'Ydw. Ond yn methu â dod o hyd i'r praidd,' meddai Ieuan.

'O! na chaet tithau gorlan i ti dy hun rywbyrd,' plediodd ei fam yn deimladol. 'Neu lofft stabal. A chysgu nes iti sobri hyd fysedd dy draed.'



'Mae 'da fi gorlan tu mewn i fi yn hun i'r holl ddefaid colledig gyd-frefu. Mae nghalon i'n hiraethu am gorff, yn syml. Mewn byd meddw, rhaid i ddysg chwilio am sobrwydd dysg o fewn ei galon ei hun.'

Ond teimlai'i fam mai angen gwraig oedd arno – un i'w warchod, a'i goleddu, a'i amddiffyn rhagddo'i hun. Dyna'r ateb. 'Oes 'na gorlan i wraig 'fan yna, dywed? I wraig go iawn?' ac ychwanegodd hi'r cwestiwn ola wrth weld ei lygaid crwydr e'n gwyro eto tuag at y botel.

'Mi synnet ti,' meddai Ieuan.

'Putain yw potel,' ebychai'i fam o ganfod cyfeiriad ei drem. 'Hwren heriol, nid brenhines ar aelwyd.'

Ond roedd ei lygaid e wedi cael eu hatynnu bellach gan amgenach syndod arall. Y tu allan i'r buarth drwy aneglurder y ffenest gwelai Ieuan hen wreigen rhwng pedwar ugain a deg-ar-bedwar-ugain oed, mewn carpiau duon a baich ar ei chefn, yn pwysu ar ffon ac yn hercian heibio. Welsai fe neb mor firain â hon erioed o'r blaen.

Fel hyn y dylai dysg edrych. Trodd ei olygon mewn dychryn at ei fam: 'Mam!' A llygadrythodd e'n ôl wedyn ar y wraig mewn syfrdandod glas. Syllodd ei fam allan i geisio gweld beth a dynasai'i sylw fe, ond doedd dim yno. Trodd e wedyn yn orffwyll at Siani: 'Siani.' Roedd hithau hefyd yn chwilfrydig odiaeth. Ond welai hithau ddim sylwedd yno ychwaith.

Hiraethai llygaid Ieuan ar ôl yr hen wraig rithiol.

Nid goddrych yw dysg. Nid gwrthrych chwaith. Ond cerdd a ddychmygir a chyfarfyddiad â rhywun fel hon. Iddo fe roedd yna olau ar bwys yr henwraig honno. Ond ymddangosai hwnnw iddo fe fel llygad. Syllai'r golau o bell arno fe. Sobrai fe wrth iddi edrych. Rhwbiodd ei drwyn fel pe bai hynny'n llusern hud a rithiai weledigaeth ynddo. Ers ugain mlynedd, dyma'r praw cynta o ymrithio yn ei uchelgais: y gwahoddiad pêr gan hon. Gobeithiai y byddai'i goesau'n goroesi hyn rywfodd. Ond am ryw reswm od roedd ei drwyn yn goglais. Roedd hi draw 'na o hyd, ond yn cilio, yn cilio. Hoeliai fe'i lygaid arni drwy'i ddiod am na fynnai iddi ymryddhau byth. Roedd hi fel cerdd, meddyliai, wedi cerdded yn bowld i lyfr ei fuchedd. Bywyd fu ei fywyd e hyd yn hyn yn

llawn o gambrintiadau, wedi'i rwymo'n flêr nes bod llawer o'r tudalennau'n dod yn rhydd, ac yn darllen yn rhy drymaidd. Fe gaed gormod o ddyfyniadau clasurol drostyn nhw yn yr ieithoedd gwreiddiol efallai; a byddai pobl yn edrych ar ei wyneb Lladin yn rhy aml tan ebychu, 'Iaith farw! Iaith farw!' Ond cerdd fach fyrlymus oedd Dysg iddo, cerdd dawel, fyfyrion, greadigol. Cerdd yn Gymraeg; nid yn cerdded, ond yn gorymdeithio. Cerdd fel hon. Edrychodd e'n gynddeiriog ar ei fam: 'Ble mae'r angor?!... Hon yw'r angor, mam. Hyhi i fi sy'n darparu'r porthladd.'

Doedd ei fam ddim yn ei ddeall, ond chofiai hi ddim chwaith, ddim tebyg i'r olwg wallgo yn ei lygaid e o'r blaen. Erbyn hyn roedd yr hen wreigen ddirgel honno'n diflannu drwy doddi o'i flaen. Roedd yn ymwasgaru'n denau, yn niwlio ac yn cael ei chwythu ymaith.

'Welaist ti moni?' holodd Ieuan.

'Pwy?' holodd ei fam.

'Hyhi. Yr hen wraig 'na. Dysg.'

'Na. Beth amdani?'

'Roedd hi mewn du,' meddai Ieuan â'i iaith oer.

'Felly dŷn ni i gyd. Galaru yw swydd gwragedd.'

'Welaist ti mo'i hwyneb hi?'

'Na. Sut gallwn i?'

'Hen wyneb. Hen.'

'Dyna arfer arall gan hen wragedd,' meddai'r fam. 'Ond mae gan yr hen wraig welaist ti yr anfantais ychwanegol – dyw hi ddim yn bod.'

'Mae'n rhaid ifi fynd.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Dyna sy'n rhaid.' Roedd yn rhaid iddo gael gwell golwg arni. Allai fe ddim oedi ennyd. Sut y gallai, a'r trachwant annirnad hwn yn ei dynnu acw? Roedd hon yn

feddwdod newydd i'w anian ac yn foddfa dywyll. Teimlai'n fwy marwol nag arfer heddiw.

Edrychai'n ddig tuag ei fam. Craffai'n ffaidd ofer wedyn ar Edward Richard.

'Rhaid!'

Edrychai Siani'n genfigennus at y ffenest.

'Bydd eisiau mwy o sylwedd arnat ti, Ieuan, os wyt ti am gael gafael ar y gwir,' meddai'i fam.

Ymlwybrodd Ieuan at y drws, wedi ymgolli yn ei benderfyniad newydd. Agorodd ei freichiau, fel pe bai'n dadorchuddio'r greadigaeth. Doedd ei fam ddim yn gyfarwydd â'r fath ymroi ffenedig ag a gaed yn ei gerddediad heddiw. Roedd e y tu hwnt iddi. A gwaeddodd hithau'n reddfól ar ei ôl, 'Na, Ieuan, aros.'

'Oes. Rhaid.' Rhaid oedd canlyn hon.

'Na, Ieuan. Beth sy'n bod arnat ti? Eisiau bod yn wyrdröedig rwyt ti. Eisiau bod yn drofaus. Er mwyn tarfu arnon *ni*. Er mwyn ein trechu *ni*.'

'Gadewch iddo fod Meistres Ifans, ' plediodd Edward Richard. Doedd dim o'i angen na'i gyngor na'i ganiatâd na'i ddoethineb anheintus e'n gallu menu dim ar Ieuan. Roedd Ieuan eisoes wedi symud fel grym anianol anorchfygol oddi wrthyn nhw.

'Ieuan!' gwaeddai'i fam ar ei ôl ond yn ddiymadferth. 'Beth ddaw ohono?' Aeth Siani i'w chysuro hi'n dangnefeddus.

'Mi welsoch chi'i dynerwch e, feistres? Fe welsoch chi mor addfwyn oedd e wrtho-i, mor dirion mae'n gallu bod.'

'Do. Dyna'r trueni.'

'Y dyfnderoedd 'na o diriondeb.'

'Do.'

'Fe allwn *i* ddilyn e i ben draw'r byd, gallwn.'

'Pam? Dilyn hwnnw! Paid â siarad mor dwp.'

'Gallwn. Fe allwn i chwilio amdano, a glynu wrtho, a'i addoli o bell. Mae e mor garedig, er gwaetha'r ddiod.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Mae e'n ddyn mor fawr.'

'Mawr? Ieuan? Ein Ieuan ni? Mi welaist ti e'n mynd fel trywydd ar ôl yr hen wraig ddychmygol 'na?'

'Hoffwn innau'n rhwydd fod yn drywydd iddo-fe ta beth.'

'Trywydd go igam-ogam 'merch i.'

'Ond ei dynerwch difesur ... mae e'n ddychryn. Fe allwn i ei ddilyn e hefyd, meistres, drwy ffos a thros ffridd, drwy'r hesg a'r ysgall.'

'Byddai hi'n lanach dipyn iti aros gyda charthu'r cwt-moch, merch i, dw i'n dweud calon y gwir wrthot ti.' Ac yna daliodd hi sglein y botel befreiddiol yna ar y llawr yng nghil ei llygad, a ffrwydrodd hi'n ddiamynedd mewn dirmyg: 'Ie, edrycha, tynerwch 'wir, tynerwch yn rhwym tan eira ddwedwn i, bob plufyn.'

### 3.

A chyrhaeddodd Ieuan ymhen hir a hwyr ben draw argoel newyddion Edward Richard... ar ffurf pentre bach Llanfair Talhaearn... ond yn sigledig ac yn wlyb.

Yno, drachefn, bu un cyfaill yn disgwyl amdano: hopysrwydd ei hun a ddô i'r fei. A! hwnnw a deyrnasai'n briodol ac yn briodasol yn yr Harp. Dan lywodraeth fwyn hopysrwydd, tonciai rhyw fath o dannau telyn yng nghlust fewnol Ieuan yn fwy nag a oedd yn gall. Beth a ddô i ohono mewn lle fel hyn?

Priodas!

Ai hopys tybed a dynghedwyd i feddiannu'i nerfau drachefn yno mewn brag am byth? Neu a allai fe ryw ddiwrnod, yma yn Llanfair, yfory o bosib, drechu'r ecentrigrwydd gwlyb hwnnw a darfai gymaint o hyd ar ei ymroddiad i ddiwylliant anddywedadwy odidog ei wlad?

'Un gwydraid i ddathlu hunanddisgyblaeth Llanfair,' meddai fe, a'r byd yn ymledu o'i flaen.

Roedd bron pawb yn dawnsio ond Ieuan.

'Ieuan, yr afradwr mydrau,' meddai fe wrtho'i hun. 'Mae wedi canu arnat ti. A gorau po gynta. Thyfi di byth, na. Does gen ti ddim hunan-barch. Does dim drws i mewn i ti dy hun. Rwyt ti wedi dy dynghedu i aros y tu allan. Ar ryw olwg, rwyt ti bob amser y tu allan i'r llif. Rwyt ti'n ceisio tynnu dy ddawn a dawn dy wlad i fyny o'r llwyn cyfogrwydd lle mae'n hongian ganllath i lawr ar ymyl y dibyn. Ond bob amser, methu rwyt ti.'

Yng nghanol y llawr yn yr Harp ymdrôi Twm o'r Nant y bardd gwlad ac Elizabeth Hughes, wedi ymgolli yn ei gilydd ac yn y ddawns. Nhw oedd y ddeuddyn newydd briodi. Roedden nhw am argraffu'u cyplysiad newydd ag olion traed dwfn ar y ddaear sigledig. Gyda'u gwallt nhw roedd sgertiau a breichiau a phenliniau hanner dwsin o'u gwesteion yn chwyrllïo'n ddiargyhoeddiad. Wrth y tân, Robert Thomas y clochydd yn canu'i bib. Gerllaw, Dafydd Siôn Pirs mab y dafarn ac ysgolfeistr y pentre yn tiwnio'n ffidl-di-di ar ei ffidl ddu-frown; a Siôn delynor hefyd yn cyfeilio o leia hyd y nenbren. Ac Ieuan, mewn mudandod yn y gornel, wedi cyrraedd o'r diwedd mewn pryd i'r briodas.

Chwefror 19, 1763 oedd hi. Dyma nhw yn Nhafarn yr Harp, Llanfair Talhaearn, ac Ieuan Fardd yn ei ful gwyrdd mewn cornel. Fel yna y byddai hi arno o hyd yn ddiweddar mewn priodasau pobl eraill, meddai fe, fel pe bai wedi gweinyddu ei angladd ei hun.

Teimlai'i fod wedi dod at y fan yma i chwilio amdani hi – ei briod bwriadedig hen – ac nad oedd hi ddim yn bod wedi'r cwbl. Twyll oedd hi. Roedd hi fel pe bai hi wedi bacio i seidin rywle. Roedd delfryd ei fam, fel arfer, yn llygad ei lle. Roedd delfrydau Edward Richard a'r gwawdwyr hwythau yr un mor daclus eu cywirdeb. Onid dychymyg amherthnasol oedd yr hen wraig gyfrin ddirgel? Twyll annelwig oedd hi. A dyna fu ei fywyd yntau oll felly: gwacter a boblogwyd gan rithiau cwrw, a'r cyfan yn ddu-iselfryd. Doedd dim hen wreigen hardd na dim persawr na dim tangnefedd

symudol hudol wedi'i ddenu i'r ymchwil hir hon. Doedd hi ddim yn bod; na dim Dysg chwaith. Dim ond gwacter mewn sgert dywyll annealladwy, a symudiad gosgeiddig yr un mor annealladwy ag atgo a anghofiwyd, ar lun gwacter o hen wraig.

Rhith oedd hi. A'i dyneru fe rywsut a wnâi hi, er ei waetha'i hun.

'I ffwrdd â'r dychymyg!' tyngodd e. Cododd ar ei sefyll ychydig gyda thrwst trwstan trist. 'Synnwyr Cyffredin amdani?' meddai fe'n huawdl. Simsanodd tua chanol y llawr at Dwm a'i briod. Amgenach colli pen na cholli traed. Doedd e erioed wedi datrys problem ei draed. Safodd yn y fan yna, a chodi'i fraich am dawelwch. Yna, gydag urddas amheus, datganodd ei gasgliad am y cwbl gan glecian ei gytseiniaid yn ffyrnig:

*Gorffwyllo, dawnsio mae dyn,*

*A'r diawl yn canu'r delyn.*

Yn y dafarn, roedd cyfran uchel o hufen diwylliant gwerin Sir Ddinbych wedi ymgynnull i ddathlu priodas un o'u doniau disgleiria. Twm o'r Nant.

Roedd y ddiriaeth hon heddiw yn nwylo'r werin wirion yn Llanfair.

Chwarddai pawb. Edrychai Ieuan ar goll ar eu golygon i gyd. Doedden nhw ddim yn amgyffred odid ddim ohono. Doedd dim amdani mwyach iddo fe ond ymlwybro'n dechnegol yn ôl i'w gornel i goleddu mymryn o dywyllwch. Tonnai'r ddaear heibio iddo mewn syrffed. Chwaraeai Sir Ddinbych sigl adenydd gyda Sir Fôn o gylch ei glustiau. Tipyn bach o'r wybren, tipyn bach o'r ddaear. Wrth gyrraedd ei sedd, roedd yn gallu credu – yn well na neb – fod yna ddiabol wedi'i feddiannu fe. Gymru lân i fi!

'Tonc arall hogiau,' gwaeddai Twm. A llaciwyd yr awyrgylch gan chwyrligwgan o orffwyllo rhythmig. Suddai Ieuan yn ôl ar waredigaeth sefydlog o sedd. Heb yn wybod iddo roedd Siani, morwyn y Gynhawdref, o'r pellterau ac o'r amhosibilrwydd wedi llithro i mewn nawr drwy'r drws ar ganol y rhialtwch, ac roedd hi'n closio ato. Canlynasai hi fe hyd yr eitha ulw i Lanfair, er gwaetha'i holl esgeulustod e ohoni. Penderfynodd fynd hyd eithafoedd y ddaear, – yn gymedrol, meddai hi – er mwyn ei meistr, Ieuan. Edrychai fe tuag ati mor graff ag y gallai. Iddo fe, doedd yr edrych hwnnw ddim namyn chwilfrydedd: iddi hi, edrych meddiannol oedd, ond edrych

cymryd-yn-ganiataol sy'n eiddo i bobl y mae cwmni'i gilydd mor naturiol ag anadl ei hun. Morwyn ddiriaethol o realistig oedd hi, a'i thraed ar y ddaear.

Mam Ieuan oedd wedi anfon Siani, wrth gwrs. Cydiwyd yn y fam gan y frech wen yn fuan ar ôl i Ieuan ymadael, a bu'n isel ei hwyliau. Erbyn hyn roedd hi'n gwella beth. Ond yn nyfnder ei gwaelod roedd hi wedi hiraethu am ei mab na fab. Chwenychai beunydd am anfon i'w nôl e cyn iddi farw. Ond wnaeth hi ddim, serch hynny, – nac anfon amdano na marw. Ac eto, nawr, wrth iddi sicr wella, pan nad oedd angen presenoldeb Ieuan i'w chysuro yn nyfnder ei chlefyd, ail-ddechreuai hi bryderu o'r newydd. Sut roedd e, tybed, Ieuan, yn ymdopi yn y wlad afradlon? Oedd ei ffolinebau fe wedi'i yrru hyd at gibau'r moch? Oedd e wedi cyflawni rhyw alanastra yn ei anwybodolrwydd llon? Beth oedd wedi digwydd i'w chrwt hi, ys gwn i? Cyn iddi ymadael â'r hen fyd hwn, wrth iddi wella, hiraethai i'r fath raddau nes gyrru Siani ar ei ôl. O na allai hi ei gynghori fe heddiw a siarad yn dawel ag e am ei gobeithion seithug.

Fu fawr o alw am ysgogiad o'r fath ar Siani.

Edrychai Ieuan draw ati hi nawr fel pe bai'r cwbl yn hollol ddisgwylidig. Pa weld oedd yn fwy greddfoll naturiol i'w weld na chanfod morwyn y Gynhawdref wrth ei draed fan yna yn Llanfair Talhaearn?

Ynganai Siani ei neges anghynnes wrthi am salwch ei fam. Wnâi Ieuan ond ymgynhesu ynndi'n ddiamcan ddisynnwyr. Roedd y gerddoriaeth yn chwyrlio o gylch eu clustiau oll. Ynghymysg â hi roedd mwg ac aroglau cwrw a sbladdro rhegfeydd brown. Suddai Ieuan yn ôl i'w brudd-der anochel, gan ddychmygu pob math o ffansiön amdano'i hun. Ond Siani wrth gwrs oedd Siani.

Eto, nid Siani oedd yr hen wreigen ddyfal a geisiai fe, yn bendifaddau. Ac nid hi druan oedd nod ei ymholiad. Amgylchid e gan fenywod erlidiol.

'Mae hi'n glaf o hiraeth amdano chi,' meddai Siân.

'Hi?' ac yna datododd Ieuan ychydig ar ei gamddeall, a sylweddoli pwy oedd yr 'hi' honno gan hon. 'O! Mam!' meddai'n siomedig. Nid yr hen wrach, ysywaeth. Nid dysg. Ebychai ei ddiffyg amynedd yn frwnt. A! 'Hi-hi,' chwarddai fe.

'Ac yn sâl,' ychwanegodd y forwyn.

Ac roedd hynny'n cynhyrfu peth ar ei anesmwythyd ymhellach. 'Mae hi'n hiraethu amdanoch chi,' meddai Siani. Yn wir, enynnai euogrwydd ynddo. Dichon y gallai fe... tybed oni allai – oni ddylai – fe fynd am un tro i weld hen weddw ei fam? Doedd bosib na allai offrymu un mis i ymweld. Un mis tila.

Gallai estyn ei wddw a bracsan allan o'r cefnfor cwrw hwn lle y buasai'n pysgota cyhyd fan hyn, ac ymbalfalu â'i ddwylo yn yr hylif i chwilio am ddelweddau'i febyd; padlan allan am un tro doedd bosib i ddod o hyd i ddelwedd o'i hen gartre. Er mwyn yr hen hen wraig, ei fam, gynt.

Trodd ei lygaid gwythi tuag at Siani. 'Efallai Siani.' A gwenai hi, heb obaith. 'Efallai yr awn ni'n ôl.'

Roedd y miwsig erbyn hyn yn codi i'w anterth eitha yn y briodas, ac aeth Ieuan gyda Siani – O! ei pherlewyg – i ganol y llawr i ymuno yn y ddawns. Ar draws eu miri, a braidd yn swnllyd ddramatig efallai, bwriwyd y drws led y pen yn agored, syrthiodd y llawr o'u cwmpas oll i'w le. A dyma syfrdandod y Ficer lleol ei hun yn camu i mewn, a phe cyn dan ei gesail. Stopiodd y miwsig yn ddibetrus. Edrychodd Ieuan y curad newydd at y cerddorion yn syn. Roedden hwythau i gyd yn syllu o fyd arall tuag at y lledrith offeiriadol a ddaethai i mewn i'r ystafell. Sefyll yn stond 'wnâi hwnnw. Roedd ei edrychiad fel pe bai'n ddigon i bawb oll; namyn Ieuan efallai. 'Y Ficer!' cyhoeddai Dafydd Siôn Pirs, er mor safadwy amlwg oedd ei hysbysrwydd. A thawodd pawb.

Ond ar y curad roedd y Ficer yntau'n syllu. Llosgi hanfod y curad a fynnai'i lygaid e. Cheisiai'r Ficer ddim, serch hynny, gamu i ganol yr ystafell. Digon oedd sefyll y fan yna ar yr ymyl tu mewn i'r drws, a'i lordian hi yn awdurdodol o'r fan 'na, a chadw pawb o fewn cylch pyg ei lygaid. Gwgai arnyn nhw oll. 'Eich hen arferion Cardiaidd, Mr Evans?' meddai fe'n sobr. Fel pe bai ganddo asgwrn cefn i'w grafu.

'Croeso i'n diddanwch, syr,' ebychai Ieuan.

'Nid un o guradiaid sobra teyrnas Anglicana, dw i'n deall.'

'A chithau wedi dod i ymrestru yn ein llawenydd, o bosib, yn eich plwy eich



hunan, syr? Mae'r farn feddygol ddiweddera yn dysgu mai'r hylif hyn yw'r gwrth-heintydd gorau yn erbyn unigedd ac anhunedd,' meddai Ieuan, fel teithiwr masnachol.

'A hyn yw'ch cenadwri heddiw felly i'r parthau yma?' gwgodd y Ficer.

'Hogiau, genod,' galwai Ieuan. 'Be sy arnoch chi i gyd? Gwydraid o win y gwan i'n Ficer ni. Llawenydd i holl fro Llanfair Talhaearn.'

Taranodd y Ficer, 'Na.'

Ond tawel lwybreiddiodd araith Ieuan yn ei flaen fel hysbyseb efallai: 'Na i'r Ficer ar un waith. Peint o Na. Heb fod mor gry â chic Cana Galilea o bosib. Ond yn gwneud y tro i ni'r un fath. A dyna chi, syr, wedi mentro aton ni – yn bublicanod ac yn bechaduriaid go iawn – a chithau yn Na i gyd ac yn gynrychiolydd i'r grefydd fwya amharchus fedyddiol dan haul Iôr, ac yn mynnu eich peint o Na. Modern iawn, ficer, modern ei wala ar ganol yr Oleuedigaeth.' Roedd y curad yn reit ansicr ar ei draed, a'r Ficer yn ei lygadu gyda dirmyg llwyr.

'Gwin, Siôn,' gorchynnodd Ieuan drachefn. A chydiodd mewn gwydraid llawn. Syllodd pawb ar y prif actorion yn y ddrama.

'Yfwch chi ddiferyn arall o hwnnw 'ngwas i,' bygythiodd y Ficer, 'a dyna chi'n dominô yn y plwyf hwn. Bydd hi ar ben arnoch. Bydd hi'n hunanladdiad swydd. Welwch chi ddim? Rych chi wedi cael hen ddigon, ddyn. Digon ddoe. Digon yfory. A ninnau hefyd i gyd, digon hyd at ein clustiau bob dydd.'

Petrusai Ieuan, ac yna ag un llwnc yfodd y gwydraid ar ei dalcen. Am ddeg eiliad gron syfrdanwyd pawb. Chlyw-wyd dim smic gan neb. Taranwyd tawelwch diwaelod. Ac yna fel anifail a ollyngwyd o'i loc, dechreuodd y miwsig drachefn ynghyd â'r dawnsio. Allai'r Ficer ddim namyn gwylio'n galed.

'Taflwch e allan, Ficer,' cynghorodd Robert Thomas o ran hwyl.

'Dylanwad sgeler ar y dathliad,' pynciodd Elizabeth Hughes. Ond parlyswyd pob goddefgarwch a fuasai erioed gan y Ficer; ac allai fe ddim namyn ei gau ei hun rhag unrhyw fath o gydymdeimlad â'r nihilistiaeth uchel-ei-chloch isel hon. Peidiodd y sŵn, a pheidiodd y dawnsio drachefn.

'Wel, nid er mwyn ymuno â'r swae 'ma des i heddiw,' meddai'r ficer yn groen-galed. 'Ond mae'r post newydd alw. Gadawyd y pecyn – For the Reverend Evan Evans, Llanfair Talhaearn, Denbighshire.'

Cerddodd Ieuan, bron fel pe bai wedi'i sobri'n sydyn neu wedi anghofio actio'i afradlonedd cynt, draw at y Ficer, cymryd y pecyn yn hamddenol o'i law, a'i agor. Tynnodd gyfrol *quarto* i'r golwg, a honno mewn proflen. Fe'i daliodd yn yr awyr fel pe bai'n ceisio edrych drwyddi. Trodd yr un mor sobr at y ficer. 'Y mhechod diweddara i,' meddai fe gydag acen dra Seisnig, yn arbennig ar y ddeusain yn y gair "poetry", '*Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards.*'

'Dych chi'n gwario ar lyfrau â'ch ceiniogau prin!' ebychai'r Ficer.

'Y mywyd cudd i yn hun yw hyn, Ficer.'

'Ga i weld?'

'Y fi a luniodd y gyfrol hon. Y muchedd danddaearol.'

'A!...Lladin... Saesneg! Cymraeg yw hyn, Evans? Chi! Chi yw'r awdur! Am beth?'

'Tybed?' meddai Ieuan yn chwareus.

'Chi wnaeth hyn!'

'Siŵr o fod.'

Darllenai'r Ficer yn ddiniwed: 'Er mwyn dangos ansawdd ein Prydyddiaeth i wŷr cywraint, dysgedig, anghyfaith.' Cyfogodd awgrym o chwerthiniad gwawdus: 'Pwy yw'r rheina, sgwn i?'

'Esgobion yn ddiau, syr.'

Chwarddai pawb ond y Ficer.

'Fydd rhywun yn y byd mawr yn darllen hyn, deudwch?' parhaodd y Ficer; ac roedd ambell un yn barod i led chwerthin gyda hyn.

'Mae Thomas Gray...!' meddai Ieuan.

'Gray! Awdur yr "Elegy written in a Country Church-yard!"

'Ie. Y bardd lled adnabyddus o Gaergrawnt: mae eisoes wedi bwrw cip drosto mewn llawysgrif... Cyfaill i fi.'

'Taflwch e allan, Ficer,' mynnodd Robert Thomas.

'Dylanwad di-lun,' atseiniodd Elizabeth Hughes.

'Wnaiff gollwng enwau fawr o les yn y nghlustiau i, Evans. Fe glywais i am eich gallu cyn ichi gyrraedd. Dw i erioed wedi amau'ch gwybodaeth. Dw i wedi clywed am eich campau yng Ngheredigion o bellterau Llanfair. Eich callineb fu dan amheuaeth: afradu'ch talentau mewn llymeitian llwm.'

'Canlyniad astudio gorgaled mewn mebyd ffôl meddan nhw i fi,' meddai Ieuan, a gwên lond ei wep.

'Nhw?' ebychodd y Ficer.

'Pan own i'n gyw-ysgol i Edward Richard.'

'Yn Ystrad Meurig enwog! Ai dyna'r esgus? Ac ai dyma'r canlyniad?'

'Rhybudd i bawb ohonon ni am beryglon dysg,' chwarddai Elizabeth Hughes, a phorthodd pawb hi.

'Rhybudd i chithau, Ficer,' ychwanegai Robert Thomas.

Roedd Twm o'r Nant wedi ymwithio i'r blaen erbyn hyn, a safai o fewn llathen i wyneb y Ficer a'i annerch yn hy drwy'i anadlau chwithig: 'Wyddoch chi, Ficer, wyddoch chi beth fydd yma ymhen dau gan mlynedd?'

'Na wn i. A does arna i fawr eisiau gwybod chwaith.'

'Ddim llawer,' parhaodd Twm. 'Ond... fe fydd rhyw fymryn o awel yn cylchu Tafarn yr Harp 'ma, yn cylchu hefyd Eglwys Llanfair ambell dro. Ac fe fydd hi'n sibrwd: "Mi wn i *hyn*." A throes yn awr, wedi chwythu ddwywaith, i efelychu sibrydiad yr awel. Llefarai'n ffug-ddwys: 'Fe fu Ieuan Fardd yn llipryn tlawd yn y fan hon.' Closiodd Siani at Ieuan drachefn, a phlethu'i braich yn dynn drwy'i fraich e, fel cwlwm Celtaidd. 'Ieuan

y sglraig, Ieuan y Prydydd Hir, adyn a fu'n harddu Cymru ac yn mynnu bod yn driw i'r oesoedd oll. Un o Wyddelod cefn gwlad ffosydd Cymru fu Ieuan. Anrhydeddwch e.'

Doedd Ieuan ddim yn gwrando ar Dwm. Sylwai fe fawr ar Siani ychwaith. Roedd ei lygaid bellach ynghlwm wrth gysgod cyfareddol arall a oedd newydd sleifio fel iâr i ddodwy i'w plith. Clepiodd a chlensiodd ei amrannau er mwyn craffu'n well ar y peth. Hi oedd 'na, doedd dim dwywaith, wedi dychwelyd... Yr hen wraig, Dysg.

Oedd; ac fe wyddai fe druan, ac fe wyddai ambell un arall, fel Twm, fod ganddyn nhw yn eu mysg, ŵr ac ynddo fe weledigaeth. Er gwaetha'i fywyd o ogordroi diwreiddiau, a'r llaca y bu'n bracsan drwyddo, tybiai rhywrai yno fod gan y dieithryn hwn chwaeth o ddifri at lenyddiaeth a blas at brydferthwch meddwl. Roedd y rhinweddau yna wedi'u meithrin yn yr undyn-o-dywyllwch hwnnw, fel pe bai holl ddryswch synhwyrus Rhamantiaeth newydd rywfodd wedi'i wrteithio ynddo y tu hwnt i'r cyffredin. Ac roedd labyrinth ei grwydro wedi miniogi'i hydeimledd effro. Roedd e wedi cael golwg ar y ffordd y dylai'r awen arwain yng Nghymru. Datgelwyd delwedd ac esiampl drwyddo felly i eraill o Gymru gudd a adwaenai fe mewn gofod ac mewn amser, yn gymaint felly nes adeiladu byd cyflawn yn ei ysbryd. Erbyn hyn, roedd cymaint o amser-a-lle prydfarth yng Nghymru wedi'u cyfansoddi o'i fewn e nes bod rhywrai a siaradai ag e weithiau, ac a wrandawai ar ei fforiadau i wahanol fannau a chanrifoedd, ynghyd ag arafwch cariadus ei esboniadau manwl, wedi'u synnu'n enbyd. Nid arferoldeb arwynebol a ganfu rhai o'r plasau a'i derbyniai fe. Nid twpdra diddiwylliant chwaith a breswyliai mewn rhai o'r plasau hyn. Tyfai gallu annisgwyl gan rywrai mwy hyddysg na'i gilydd i barchu'r dyn oherwydd dyfnder gweledigaeth am draddodiad meddwl; ac aen nhw ar goll gydag e ar rai o'r llwybrau hir-droeog hyn a gyd-blethwyd drwy'i ymennydd datblygedig.

Roedd y rhan fwya o'r bai ar Ieuan. Buasai Ieuan yntau ei hun yn barod i gwympto ar ei fai ac adde'i fod, er ei waetha, ar ambell noson fwy niwlog na'i gilydd wedi baglu'n bur aml, wrth gwrs. Parwyd iddo fynd ar goll, yn annisgybledig ynddo'i hun, gystal bob dim ag unrhyw gymydog di-ddysg. Ond roedd yna gorddi didwyll o'i fewn, o hyd, am Ddysg. Ie, yr hen wreigen oedd yno. Yn ei hôl felly, ac yn ei ymyl. O'r diwedd. Yr hen wraig grom hon yn troi ac yn gwenu arno. Gwraig ei ddychymyg.

Crynai Ieuan. Bu bron iddo ag estyn ei ddwylo tuag ati i geisio'i chyffwrdd. Gallai synhwyro drwy gil ei lygaid nad oedd neb arall wedi sylwi arni. Pwy oedd hi? Doedd hi ddim yn bod yn gyflawn ond iddo fe. Ac eto roedd hi mor ddifri ac mor galed ei ffurf ag undyn arall yno. Onid y ddiod, tybed, oedd hyn? Ai hi oedd yr awen efallai – dawn dysg, chwaer y diferyn? Pwy yn y byd oedd hon?

Na, na, dirgelwch bach fyddai dysg: dirgelwch mawr adferol oedd hon.

Ar y pryd, ar Dwm ac nid ar y wreigen, roedd pawb arall o'r cwmni yn craffu drwy drugaredd. Ar eirida'r Ficer i Ieuan, roedd y cynulliad yn gwranddo. Ac roedd Twm wrth ei fodd yn parhau i annerch y Ficer yn ei wyneb, gyda hwnnw'n parhau i foli Ieuan. Anerchai Twm yno fel bardd bol clawdd – oddi ar ben y mynydd, ar ben y dafarn, a'r eglwys fel ei gilydd. Ffŵl hoffus oedd Twm, ond yntau hefyd wedi mynd yn gaethwas i fforestydd meddwl meddwol yr Awen.

Ac yn y dafarn hanesyddol honno, y dydd hwnnw, fe gafwyd rywffodd groesffordd yn nychymyg Cymru: o'r clasurol i'r gwerinol. 'Gŵr dwys oedd Ieuan, Ieuan hen dafarn yr Harp!' meddai hen awel Dysg yn anadl yr hen Wraig. Y tro hwn roedd hi'n llefaru, sut bynnag, drwy lais Twm. A throes hwnnw ei ben i gyfeiriad yr eglwys. 'Gŵr real oedd Ieuan, eglwysi'r oesoedd!' meddai Twm. 'Bu Ieuan yn isel ei ysbryd yn fynych, ac yn aml o'r herwydd dihangai fel dwrgi i lawr twll mewn potel. Ond roedd y geuddrych ohono'n gwybod A! yn gwybod rhywbeth gyfeillion, ynglŷn â phob rhan o'r gwrtaiith diwylliannol yn y ddaear hon. Gallai ffrwythloni'r hen dir anwir hwn â hen gynhaea traddodiad Dysg. Ac yn llowcio pawb a phopeth o'i gwmpas. Dyna pam roedd e mor arswydus o unig... Ond, ddau gan mlynedd ar ôl ei ddyddiau fe, byddai rhywrai'n diolch am y ffŵl hir hwn. Bydd diolch am ei anhapusrwydd, am y dagrau a afradodd e, am ei glwyfau, am ei wastraff. Swyddogaeth Dysg, a hithau'n awel fach drist, fydd hoffi anwylo'i Gymru fe y pryd hynny. Bydd e'n cylchu Eglwys Llanfair ac yn cylchu Tafarn yr Harp ymhen dau gan mlynedd eto a'u hatgoffa nhw'n gynnill y pryd hynny am gyfanrwydd o fath ym mhobl heddiw hyd yn oed, yn gyrff ac yn eneidiau drylliedig, a hynny oherwydd un ciwrad bach ffôl, godidog. Un ciwrad bach oedd a fethodd ond a wyddai am lawnder ein gwlad ac eto a ganlynai'r ddiod mor ffyddlon ag y canlynai unrhyw wlad od a ymhoffai ym medd-dod digartref y drefedigaeth.'

Disgynnai awel Twm o'r Nant wedyn yn ara o gopa'r mynydd... a dychwelyd i'w fywyd beunyddiol. Eto, diymwybod oedd hyn oll i brif destun yr araith, – Ieuan, – yn ei ddiymadferthedd. Wnâi hwnnw ddim hyd yn oed alw am gasgliad. Roedd yn dal i lygadrythu ar hen wreigen rithiol, yr hen wraig oesol yr oedd yn ei chanlyn bron yn ddiarwybod iddo'i hun.

'O ble dest ti?' sibrydai fe o'r diwedd.

Roedd hi erbyn hyn wedi symud ymlaen at gownter y dafarn i ymuno ag e. Anwybyddai hi fe. Ac eisteddai hi'r fan yna tan smygu cetyn bob hyn a hyn, a phoeri ar y llawr siafins ambell dro fel milwr. Dechreuai hi grisialu'n gliriach yn llygaid Ieuan. Llanwai fe wydr â chwrw iddi hi, a dechreuai hi ddrachtio hwnnw gyda chryn fwynhad.

Dyna pam roedd e wedi dod i barthau Twm o'r Nant, felly. Roedd e wedi bod mor siŵr, pe bai'n fforio'n ddigon difri amdani, y deuai o hyd iddi rywle fan hyn. Ond yn wir, wedi'r cyrchu, hi a ddaethai o hyd iddo fe.

'Ble? Pam? Wyddet ti mod i'n gurad yn y fan 'ma?'

Atebai hi ddim. Er iddo ymysgwyd yn rhydd oddi wrth Siani a throi oddi wrthi hi, a chlosio at yr hen wreigen, edrych tuag ato a wnâi'r forwyn fach o hyd, braidd yn swrth ystyfnig gan geisio dyfalu beth yn union roedd e yn ei weld o flaen ei lygaid.

'Dw i'n dy ffansïo di,' meddai Ieuan wrth yr hen wreigen.

'Wyt ti nawr?'

'Beth?'

'Yn yn ffansïo i nawr?'

'Ydw. Licio dy wallt di.'

'Y ngwallt i? Dyna'r atyniad, ai e?'

'Mae'n yn atgoffa i am adenydd alarch.'

'Bardd ai e? A'n llygaid i? Wyt ti'n ffansïo'r rheina nawr?'

'Ydw. Maen nhw fel...'

'Tatws?'

'Na, na, na. Titws. Titws Tomos, yn las ac yn twitian.'

'Ydyn nhw wir? Yn llygaid i. Wel, a bryni di ragor o gwrw Cymru heddiw i serennu llygaid hen wreigen sy'n meddu ar y fath adardy digri? Efallai bydd ei llygaid hi'n canu'n well wedyn.'

'Gwna.'

'Ond a bryni'r gwallt gwyn ar ben y cwrw hefyd, yr ewyn sy'n d'atgoffa am adenydd alarch?'

'Prynu? Gwna. Iawn. Bob amser, faint fynni di.' Chwiliai'r curad ei sgrepan am arian, ond braidd yn seithug. 'Gwydraid o win y gwan, Dafydd,' archebai. 'Ar y llechen.'

'Does dim mwy o le ar y tipyn llechen yma mae arna i ofn, giwrad,' meddai Dafydd Siôn Pirs wrth Ieuan. 'Mae 'na ben draw i honno, fel sy i bob casgen.'

Disgwyl a wnâi'r hen wreigen. Ond roedd hi'n amlwg na fyddai ei adnoddau fe byth yn ddigon atebol i'w disgwyliadau drachtiol hi.

'Hei ho!' meddai Ieuan. 'Hei ho!'

'Druan ohonot ti,' meddai hithau.

Roedd e wedi cyrraedd hyd ymylon ei feddwl, ac yn y fan honno dros ffin ei fyfyr roedd ei obeithion wedi cau arno. Trechwyd e. Hi oedd y dychymyg obsesiynol a oedd yn canlyn pob uchelgais. Hi a ffugiai'i ystyr. Eithr doedd dim rhuddin yn mynd i'w fywyd e, oni châi Wirionedd hefyd. Ac fe'i rhwystrid e gan ddeniadau diod rhag ymaflyd yng nghalon y waredigaeth honno. Synhwyrâi'r curad fod hynny rywfodd wedi bod dan ei drwyn di-glem, ond bod yna gyllell y tu mewn iddo a'i cadwai rhag ymryddhau.

Syllai'r hen wraig ar Ieuan.

'Ond rwy'ti (hen wraig),' – meddyliai'r awel yng nghalon Ieuan y soniai Twm o'r Nant mor hapus amdani – 'yn methu â thynnu dy lygaid oddi ar y marc a oedd neu a ddylai fod o gwmpas y ngwddwg i. Coler lledr yn narostyngiad i. Coler y ci. Coler y

Cymro. Caethwas dw i. Dw i'n gaethwas i Ddysg, neu i awen ddioid, neu i rywbeth. Y myfyrdod tywyll a ddaw i galon weithiau.' Yr un pryd fe fynnai fe orfodi'i lygaid i chwilio'i llygaid hi. At ei llygaid hi y rhedai pob croeso gan ei galon e. Ond wedyn, yn ôl at ei wddwg e, a'r un graith lydan ledrithiol honno o gylch ei wddwg yn ei gaethiwo, dyna oedd yn tynnu'i llygaid hi ato nawr.

Pwy oedd hi? Un oedd hon roedd yn rhaid i Ieuan ei chymryd o ddiFri.

'Tydi, y wraig hen ac oesol hurt, a dail y gwinwydd yn dy wallt, hawdd y gelli heddiw olchi dy ddwylo a honni bod y cyfrifoldeb am Gymru yn eiddo i bawb ledled y gymdeithas. Y nghyfrifoldeb i yn hun yw hyn mwyach.' Taerai, taerai; ond nid yn ddiraffferth yr ymddihatrai hi byth rhag ei pherthynas ddirgel hi â'r graith.

'Ddoi di gyda fi dros y rhosydd?' gofynnodd hi i Ieuan, fel pe bai'n ei wahodd i'w chanlyn.

'Gwna, ddydd a nos.'

'Fydd fawr o gysur i ti.'

'Na fydd, hwyrach. Ond gyda thi y bydda i.'

'O bant i bentan. O Sir Ddinbych i Sussex. I'r Dwyrain Agos-Agos anhysbys. Nid y Dwyrain Canol. I ddifancoll Lloegr.'

'I bobman. Mi wna-i dy ganlyn hyd eithafoedd y ddaear.'

'Dros y dibyn? Na chei. Druan ohonot ti... Na! Chei di *ddim*.'

Pellhaodd hi ychydig. Er bod Ieuan yn dymuno'i dilyn hi, roedd ei feddwl neu ei gorff neu Siani ddigwestiwn neu Twm o'r Nant neu Dwm Barlys, neu rywun, yn ei dynnu fe'n annelwig yn ei hôl. Oedd hi'n eu cynnwys nhw i gyd? A fentrai fe i'r Dwyrain Agos-Agos yn unig allan o'r parthau hyn yn hytrach nag i'r Dwyrain Canol? Allan, i ddianc rhag ei enw drwg? A lynai fe wrth y llwybr a oedd yn claddu pob Cymro?

'Dw i'n ymwrthod â thi,' meddai hi'n syml ond yn ddeniadol hen. 'Dyna pam y des i. I ddweud hynny wrthot ti. Ac i'th deffro di cyn iti foddi yn dy wendid.'

Iddo fe, nid hen wrach hagr mohoni o gwbl. Doedd dim o'i blynyddoedd hir hi'n



gorwedd rhyngddyn nhw. Estynnai fe'i galon tuag ati fel pennill telyn. 'Dim mwy,' meddai hi. Tu mewn iddi hi roedd ei bump oed e, pymtheg oed, pump ar hugain oed, pump a deugain oed: ei fywyd oll. Cylchodd y rhuddin coeden a wisgai hi y tu mewn iddo fel oedran coeden. Casgliad oedd ei oedran e o gadwyn o orsafoedd byw nawr tu mewn iddi hi, wrth iddi'i ddilyn e a'i adeiladu fe. Awen ei fywyd oedd hi. Neb llai.

'Ddihengi di ddim mwyach,' meddai'r hen awen hon.

'Dw i'n dy ganlyn di nawr.'

Roedd ei gyfeillion i gyd wedi tyrru o'i gwmpas bellach, a Siani'n sychu'r chwys bwrlwm a frithai'i dalcen crwn. Doedd gan Siani druan ddim oll i'w gynnig iddo ond llawnder ei chariad bach syml. Beth oedd yn bod arno fe?

'Gadewch i fi fynd ar ôl y llall,' mynnodd e wrth y forwyn.

Wrth gwrs, ym mryd naif y cyfeillion hyn, doedd neb arall yno o gwbl. Doedd yna'r un hen wreigen rhwng pedwar ugain mlwydd oed a phedwar ugain a deg ar gael. Doedd dim o'i chefn yn grwm, na'i dillad yn flêr. Dim awen na dawn. Dim harddwch na dysg. Dim traddodiad. Doedd hi ddim yno, iddyn nhw. Wedi'r cyfan, synnwyr cyffredin oedd synnwyr cyffredin: gwydraid o gwrw oedd gwydraid o gwrw. Dyna farn y lliaws.

'Nawr,' sgrechodd Ieuan yn uwch. A chyda'r waedd honno, dechreuai'i rhith chwil hi chwalu. Ymddatodai. Ond roedd holl deimladau Ieuan fel ceffylau awyddus o flaen cerbyd yn cael eu fflangellu'n ddirugaredd ganddi. Beth bynnag oedd barn y byd, fe wyddai fe doedd ganddo'r un dewis bellach. Doedd dim digon o gorff ganddo fe i'w gadw rhag y wrach hon. Rhaid oedd ei chanlyn. Rhaid oedd meddiannu'r hen wraig hen. Bobiai fe'n stormus i'w chyrru yn ei cherbyd ar draws heli ddiodydd fel mynydd iâ. Cydiai mewn ambell gerdd yn ei go, fel cragen, yn syml am fod hwn yn llefaru am lwybrau'r môr mawr hwnnw. Na; nid gwydraid o gwrw oedd gwydraid o gwrw mwyach, ond Dysg lenyddol! A Lloegr a'i dysg drefedigaethol, a'i hadnoddau cyhoeddi, a'i Phrifysgolion, dyna oedd y cam nesa yn ei gyrch. Dyma'r dyfodol agos.

'Paid â'n rhwystro i,' ubai fe. 'Dw i'n erfyn arnat ti.'

Syllai Twm o'r Nant yntau ar yr enaid cytûn hoffus, druan, hwn. Allai fe nac odid neb arall lai na chynhesu at gurad ifanc mor wyllt drybeilig o ddiwylliedig, er bod hwnnw yn rhecsyn yn ei ing a'i angen a'i gwrw, mor debyg i feirdd bol clawdd Iwerddon.

Tybiai Elizabeth Hughes hithau ei fod yn drysu yn ei ddysg, ac mai mantais wedi'r cyfan oedd y bywyd syml.

'O'r ffordd! O'r ffordd!!' ubai Ieuan.

Teimlai'n garcharor rywsut, nid am y tro cynta. Roedd y waliau yn y dafarn yn niferus, a lluosogen nhw wrth iddo geisio palfalu allan. Wastraffai fe ddim gormod o amser ar anadlu rhag i'r waliau hyn sylwi ar hynny a'i dagu fe. "Ni hogai Talhaearn haearn."

Ailddechreuwyd y ddawns wedi'r siom.

Symudai Robert Thomas ei ben i fyny ac i lawr: ie, hwyl oedd hyn hefyd. Roedd hyd yn oed y deallusion, er mor od oedden nhw, yn gallu cyfrannu rhyw amrywiaeth difyr i gwmnïaeth hwyliog y neithior.

Gresynai Dafydd Siôn Pirs yntau. Cyfaill digon piwr, os blêr ac afradlon oedd ei ffrind y curad, Ieuan. Prudd oedd ei weld e ar chwâl fel hyn, heb allu disgyblu'i ddoniau'n llawn, ac eto... Wedi'r cyfan, dawns gelfydd oedd dawns yn y bôn. Gwylasai'r cyfaill hwn yn mynd, yn mynd nawr – yn ymadael. Ond roedd Dafydd eisoes yn hiraethu am ei ddychweliad.

'O! O!' grwgnachai Ieuan. Yn ddigri o boenus. Synnai'r cymdeithion am y fath wae a godai o berfedd y bardd. O waelod cylla Ieuan codai ochenaid hir hael na chlywyd erioed mo'i thebyg yn Llanfair Talhaearn. Ochenaid hir hiraethus ei ddysg. Chwerthin i'w ddwrn a wnâi Siôn Delynor. Doedd e ddim am ddeall o gwbl. Ymadawai. Doedd e ddim am ddadansoddi'r sefyllfa. Roedd hyn oll, diolch i'r drefn, tu hwnt iddo fe.

Ac wylo'n dawel ac yn annwyl a wnâi Siani'r forwyn. Hi yn unig o'r criw a garai'r rhan fach sobr o synnwyr Ieuan a oedd yn dal i bensynnu drwy'r cwbl. Dawn

fechan gyfoethog oedd hyn. Er gwaetha baich nid bychan yr aeonau, fe wyddai'r forwyn fechan gelfyddyd hirfaith cariad: gallai wau ei pharch yno yn ddeheuig drwy'i gwefusau synhwylawn. Ciliai hen ddawn ei chalon i gefn ei hiraeth ei hun. Loliai'i bronnau pomgranadaidd uwch dyfroedd o garedigrwydd ac aeddfedrwydd tirion. Tynerwech hyddysg oedd cyhyrau'i choesau bob cam. A chroen ei hysgwyddau a ymostyngai er mwyn ei ganlyn yn ei flaen. Gwyddai Siani'n fanwl rywbeth am adnoddau personol eraill Ieuan, am y silffoedd yn llyfrgell addfwynder Ieuan. Allai anffydlondeb byth ffynnu yng ngorfodaeth y fath edmygedd ag a feddiannai'i llygaid hi. Ond ym Mhrifysgol arisel Synnwyr Cyffredin, diau mai amgenach oedd ei dysg ddiarwybod hi o beth wmbredd nag eiddo Ieuan. Rywsut, roedd e, iddi hi, yn cynrychioli strach dyn: 'Nid oes neb cyfiawn, nid oes un, neb sydd yn deall, neb yn ceisio Duw. Y mae pawb wedi gwyro, yn ddi-fudd ynghyd; nid oes un a wna ddaioni, nac oes, dim un.' Lle bynnag yr elai fe, fe âi hi, er hynny.

'Ymlaen â'r ddawns!' gwaeddai'r Ficer yn ddisymwth: edrychai pawb arno'n syfrdan. 'A ffarwél i chithau, Mr Ifans, meddai wedyn. 'Ffarwél i'ch bywyd. Ffarwél i'ch bywoliaeth o gylch sŵn y delyn hon. Ffarwél.'

#### 4.

Ymlusgai Ieuan yn glaf o'r dafarn, a chripiodd darnau o Siani ar ei ôl.

Trodd e ei ben ati. Agorodd ei geg, ac yna, fel pe bai heb sylwi, torrodd wynt yn ei hwyneb. Gwynt y traddodiad uchelwrol urddasol oedd yn gorfod wynebu ymddatodiad creulon yr oesoedd. Ac yn y gwynt sur hwinnw, clywai Siani nodau pêr hen hen alaw wrywaidd ei lais e: 'Siani fach, aiff yr awel honno ddim: a fedri di ddim ymwarded â fi chwaith drwy waith caled uwchben dy olch. Faint o lanhau sy yn y breichiau 'na sy gen ti? Wyt ti'n coelio dy fod di, hyd dy geseiliau mewn dŵr sebonllyd, yn gallu dad-ddrachtio'r ciwrad bach hwn, drwyn, glustiau, a'r cwbl? Wyt ti'n credu y bydd unrhyw eiriau glân o'r eiddot ti'n mynd i'w oleuo fe?'

Ymlaen ag e. Ffroenai Ieuan awyr addawol Dysg o'r pellter. Ond roedd arno uwch awch am dawch gwin y gwan. Pan na châi groeso i dŷ tafarn, o leia gallai bob

amser grwydro'n agos o'r tu allan heibio gan obeithio y byddai hinsawdd y lle'n cario peth gwlybanaeth oddi ar y cownter i'w ffroenau.

Ceisiai Ieuan bwysu ar Siani yn awr. Hen, hen ffrindiau. Roedd hi wedi cael ei magu gydag e erioed, wedi cyd-anadlu, nes bod y sarhad bach hwn gâi ganddo'n awr yn ddigon ymylog. A hithau'n forwyn gegin, ac yn ferch i fam ei phlentyndod– y fam a fu hithau'n forwyn gegin o'i blaen, ac yn ôl cyn hynny at ei mam hithau, ac yn ôl eto – roedd hi – a merched eraill – wedi dysgu ymostwng dros y cenedlaethau yn gymharol ddiwarafun i bawb. Cyflyrwyd nhw'n werin. Ddisgwyliai hi ddim derbyn odid ddim yn ei ôl. Taenai oesau benyweidd-dra drosti. A hyd yn oed ei serch a'i dyhead, gallai estyn y rheina ato heb chwenychu onid y mymryn lleia o ymateb yn ôl.

Ac eto, ddôï ddim hyd yn oed ei benyweidd-dra nawr i'w chynorthwyo. Siglai Ieuan yn rhydd oddi wrthi, a therfysg cyson yn tician yn ei fron.

'Does dim angen rhyw *warchod* benywaidd ffaeledig arnoch chi meist'r, ...ond rhyw hoffi efallai! Fyddech chi ddim yn hoffi cael eich hoffi rywfaint?'

Ebychai Ieuan ei ddiffyg ystyr; ac roedd hynny'n wir. Os oedd unrhywbeth yn llosgi ym mryst Ieuan heddiw, hen dân oedd hynny: tân am ysgolheictod mawr y beirdd uchelwrol a gollasai'i wlad erbyn hyn; tân am y wlad a gollasid.

'Dw i'n fodlon rhoi popeth i chi,' meddai'r forwyn fach yn gwbl anymarferol. Nid felly, Ieuan. Roedd ei gwyleidd-dra hi'n estron iddo. O'r braidd y gwyddai hi'i bod hi ei hun yn bodoli. Anfodolaeth oedd hi wrth ei ochr – fel derwen fach ddigysgod a oedd yn tywallt ei chariad fel mes drosto ar ymyl y cae, ac yntau'n mocha'r cwbl heb sylwi. Roedd yna fwllch diadlam rhyngddyn nhw ill dau na ddymunai fe godi'r un bont drosto byth. Ac eto, Ieuan oedd e. Trodd e'n dosturiol tuag ati, ac estyn cusan ar ei boch ysgafn yn ddideimlad fel mwydyn ar streic.

O'r cymylau uwchben, roedd y tywydd wedi bod yn bwrw cwrw hir ara, plu brown o gwrw'n curo yn ei feddwl. Bu'r cwbl yn drech nag e. Roedd y lluwchfeydd ffroth ar hyd yr hewl wedi ymgasglu o gylch ei ysgwyddau bellach. Pentyrren nhw hefyd dros rai o'r pontydd lleia. Doedd dim ohonyn nhw'n rhedeg ar hyd yr hewl. Roedd

y twmpathau cwrw wedi cau am ei wddwg yn awr, am ei glustiau, ac yn dawel wedi llwydrewi dros ei ben. Bwriai'r glaw brown hwn fel pe bai'n meddwl busnes.

Ond gan bwyll hefyd, wedi ymadael ohonyn nhw â'r dafarn, ar hyd ymylon y ffosydd, fraich ym mraich â Siani, dow-dow yn y glaw, dechreuai'r afonydd meddyliol ailgydio yn Ieuan fel ystyr, golchai'r dyfroedd e â'u synhwyrâu, a diferu, symud, llifo dros y ffordd. Efallai y gallai hyn fod yn beryglus i'r rhai a'u gwyliai oddi ar y glannau maes o law. Gwae'r rhai a safai ar y ffordd. Ond nawr, edrychai fe i lawr o'r neilltu tua'r ffos. Y ffos oedd ei briod gartre, ... lle y teflid pethau. Heddiw, am ychydig, roedd popeth yn rhedeg mor fwyn. Roedd y ffos yn ddigon agos pe gellid ymestyn ati. Ond methai fe rywsut â chyrraedd hyd yn oed y ffos hon oherwydd pwysau'r plu ara hwnnw ar draws ei swch. Maglai beth yn awr wrth gerdded. Roedd e wedi ceisio gwneud cam di-gam o'r dafarn. A syrthiai'n sydyn bendramwnwgl. Gorweddai yn y fan a'r lle, fel pe bai am herio Siani, ac am gynhyrfu'i dicter, neu yn syml am ddangos ei wrthodiad ohoni. Roedd fel pe bai rhyw wrach wedi'i wthio i'r ffos. Doedd neb wedi gwneud hynny, wrth gwrs. Ond allai fe ddim llai na theimlo fod pawb o'r hen gymdogaeth – o Fronnant, o Lanilar, o Ledrod – wedi cyrchu am ei ben i Lanfair Talhaearn bell, a'i wthio'n benderfynol i'r ffos edifeiriol hon. 'Dyma'u siom. Dyma dy drigfan genedlaethol, Hen Wlad y Ffosydd Gwynion.' Ac nid yn unig ei wthio yno, eithr yn awr ei atal rhag dod oddi yno chwaith, ei rwystro rhag dringo allan na hyd yn oed godi'i ben am fwy nag ychydig o eiliadau uwchben yr ymyl.

'Maen nhw wedi mhlannu i fan hyn,' ebychai fe, 'ym Mabilon, ar lan afonydd cwrw, ac maen nhw'n disgwyl imi dyfu. Ynghanol y cwrw a'r brogaod a'r llaid, yn disgwyl blodau yn y wlad bell. Wel, efallai y cân nhw fwy o flodau nag y disgwyliau-nhw gan ddyfnder y pridd.'

Edrychai'n bŵl ar hyd y ffos seicolegol lle y gorweddai. A dechreuai deimlo ei fod yn perthyn yno, mai i'r alltudiaeth hon y cawsai ei eni, iddo'n wir fod yn y fan yma erioed. Roedd pob bardd yn alltud. Daethai i ddeall mai'r norm cytbwys oedd tywyllwch yma, ac mai'r Dydd eiddil ei hun a geisiai bob amser ac yn aflwyddiannus ymosod ar y Nos, er na fedrai hwnnw byth wneud yr un ôl sylweddol arni hi. Efô oedd unig gynrychiolydd yr hen Gymru glasurol, ar ôl fan yna: y gwreiddyn eginol mewn oes

hyderus. Ei swydd e oedd dwyn Clasuraeth i mewn i'r chwyldro Rhamantaidd.

*Gwyddai fe fod yna gân y tu mewn iddo a oedd yn udo am gael dod allan: 'Yr wyf fel pelican mewn anialwch,/ ac fel tylluan mewn adfeilion./ Yr wyf yn methu cysgu,/ ac fel aderyn unig ar do./ Y mae fy ngelynion yn fy ngwawdio drwy'r amser,/ a'm gwatwarwyr yn defnyddio fy enw fel melltith./ Yr wyf yn bwyta lludw fel bara,/ ac yn cymysgu fy niod â dagrau/ o achos dy lid a'th ddigofaint.'*

Ar y llawr yn y fan yna roedd e, a nesaodd Siani ato. Wedi diffygio roedd e, druan. Cwrcydodd hi i graffu'n nes. Roedd e'n anadlu'n drwm. Bob hyn a hyn, lled agorai'i lygaid, ond nid i edrych ar ddim byd. Cafodd un cipolwg pitw ar gwmwl bach a herciai ar draws yr wybren fel pe bai tipyn o anhwylder ar ei galon. Er na sylwodd e, ac o'r braidd iddi hithau chwaith sylwi, hepiodd e ychydig. Cysgai fel eira ysgafn. Eira mân, eira mawr. A pho fwya y chwyrnai, mwya y lluchiai'r gwyndra tawel am ei glustiau. Ar ôl rhyw ugain munud fe ddihunodd yn ddisyfyd fel larwm. A theimlai ychydig yn well.

'Welaist ti hi,' murmurai fe drwy'i gwsg, a rholiai'i amrannau fel badau yn ystyfnig o hyd mewn harbwr tymhestlog. Allai fe ddim hwylio oddi yno, ac roedd trymder ei gnawd wrth iddi gydio yn rhan ucha'i fraich megis mwmi. 'Chlywaist ti ddim o'i hanadl?' sisialai fe ymhellach ar y llawr. Crynai Siani ychydig fel pe bai hi'n dal yn weddw: roedd ei holl lwnc hi'n dyheu amdano fe'n fyw, ond yn dyheu'n ddisylw ac yn fud yn ei wŷydd.

Ar y ffordd o Lanfair i Loegr roedd y meist. 'Dowch, meist,' meddai hi. 'Mi wnaeth y mymryn cwsg les ichi; does dim rhaid anwylo'r ddaear, ddim yn y fan hon.' Ei llais ansicr hi oedd yn parhau. Wrth iddi geisio'i hargyhoeddi'i hun o'r fath ffaith, tonnai math o gryndod ar hyd gleiniau'i chefn. Chwiliai'i bysedd am ei wallt blêr. Roedd ei ddisymudrwydd e'n ei dynnu fe ati.

Wrth iddo ddihuno wedyn, doedd e ddim yn hidio digon i'w holi'i hun, bellach, a oedd e'n sobr neu beidio.

Closiasai Siani ato'n newynog o'r newydd. Hud, iddi hi, fu ei ganlyn, fel gŵr y siaced fraith. Maged yw llais y meist, yn ddiau. Os pery am flynyddoedd, nid chwiw

mohono na hobi, ond gwedd ar obaith. Edrychai hi arno'n llawn tosturi. Crwydrai'i bysedd yn ddiarwybod dros ei dalcen nes tyneru'i arleisiau.

'Edrychwch arna i, meistr,' meddai hi. Curai'r gwaed drwy'i harddyrnau. Cynhesai'i bochgernau ato. 'Peidiwch â chau'ch llygaid.' Cylchai'i braich werinol o gwmpas ei war er mwyn cau ei ben o fewn ei chesail. 'Ydy hynny'n well?' Teimlai hi ei ruddiau'n galed yn erbyn ochr pwlp ei bronnau. Ond theimlai fe ddim: caesai'i lygaid. Yn erbyn ei wal gyndyn e y bwriai'i serch brau hi'n awr. Ond hyhi'i hun oedd yn chwalu; hyhi'i hun oedd yn ymddatod ac yn plisgo. 'Dyma le ichi orffwys nawr. On'd ych chi'n aroglu nghroeso i? Dewch i mewn i nhipyn cesail.'

Ei galedrwydd, ei waliau tra anesgynedig e, ie, yn erbyn hynny roedd Siani'n ymosod o hyd, yn erbyn yr oerni, yn erbyn yr uchder, yn erbyn ochr ei fola cwrw caled. Yn ofer. Ac eto, wrth gau'i theimladau amdano fe fel hyn, fe gâi ryw foddhad llosg yn nesa ato. Taniai a ffaglai hi yn ei agosrwydd bonheddig e, ac yntau'n anfwriadus hollol bellach ac yn ddideimlad ddigon yn nythu ynddi'n ôl.

'Nos da, Guto'r Glyn, yr henwr *connoisseur*,' meddai fe'n dawel od wrtho'i hun o'r diwedd. Roedd ganddo arferiad o gyfarch y meirwon fel hyn. Ambell ddiwrnod, nhw efallai oedd yr unig rai ar ôl a ddeallai'i acen. Nhw fyddai'r unig boen o golled yn y gorfennol ped âi-e i Loegr. Ac eto, syniai fod cyfnod newydd yn dechrau yn ei feddwl wrth ymadael â Chymru.

## 5.

Roedd gan Ieuan ryfel o'i flaen; wel, brwydr fach o leia, brwydr unig dros ei Gymru Ramantaidd, ac yntau'r unig un o'i genhedlaeth bellach a wyddai am ddyfnder y colledion a gawsai hi. Ond ar y pryd doedd e ddim cant y cant yn sicr sut roedd ei hmyladd hi. Dyna ni! Brwydr oedd bywyd, fel y dywedai'r hen gytseiniaid.

Dysgu am ddyfnder y colledion a wnaethai. Ond y gwir ddyfnder diwylliannol elyniaethus hwnnw oedd yr 'Eingl' yn yr Esgobion Eingl, y dieithriaid nad adwaenen nhw'u pobl. Bron y teimlai fod yr Eglwys Anglicanaidd, a lywodraethai'i waith, wedi mynd mor eithriadol o wasaidd bellach yng Nghymru nes ei bod hi'n amhosibl dianc rhag y taeogrwydd hwnnw heb iddo'i guddio'i hun yn Lloegr, y llywodraethwr ei hun.

Sut y gallai fe, y gwladgarwr, ddianc rhag dolur y golled ddiwylliannol fwriadol honno? Onid amgenach oedd difaterwch y llywodraethwr nag ymgreinio gyda'r sawl a lywodraethid? Hiraethai am beidio ag anadlu am ysbaid yr un awyr â'r Cymry israddol. Onid gwell Lloegr wydn na Chymru wan?

Rhedai ei galon heddiw rhag Cymru. Bellach roedd ganddo blwyf yn Newick.

A dyma fe, wedi mynd â'i gorff i'r Dwyrain Agos-Agos (Lloegr) i'w gynnig ei hun i ddifodiant yr hyn a lywodraethai dros ei enaid. Yn lle'r Dwyrain Canol-Ganol pell a Beiblaidd a ddylai fod ynddo'n agos, dyma fe o'r ffrimpan i'r tân. Roedd e wedi bod yn gwbl sobr nawr ers teirawr, er y gwyddai nad oedd dim un ddiod a allai gystadlu â'i syched yn y pen draw. Crymai uwchben ei lyfrau. Dylai'i blwyfolion yn Newick Sussex – y rhai a oedd eisoes yn cynllwynio i ymwarded ag e – ei weld e yn ystod yr amser hwn. Roedd ei feddwl yn glir fel dŵr ffynnon, ac yn ddiflas fel hedd. Dichon fod ei wisg yn heneiddio beth ynghynt nag o'r blaen. Yn un-ar-bymtheg-ar-hugain oed, fel yr oedd, edrychai'n hŷn o gryn dipyn. Ond o'i flaen heddiw roedd yna yn ei sgrepan dair gwahanol lawysgrif yn iaith y Brythoniaid, ac roedd wrthi'n ceisio gwneud golygiad beirniadol ohonyn nhw drwy gymharu'r tair â'i gilydd. Crwydrai'i feddwl yn ôl i'r hen lysoedd a'r hen fynachlogydd pryd y caed balchder llinach a pharch at safon. Yr un pryd cofnodai eiriau dieithr ar slipiau papur, gan ymgynghori o bryd i'w gilydd â geiriaduron go swmpus ar hyd ei ddesg yn nhŷ'r curad.

Onid ffordd oedd hyn i amddiffyn gwareiddiad?

O! dylen nhw oll ei weld e nawr, ei holl elynion. Efallai mai dianc i'r llawysgrifau – Eryri Dysg – oedd ei wir awydd ers tipyn rhag rhyw amddifadrwydd sych, oherwydd bod drws pob tafarn yn y cyffiniau bellach ynghau iddo. Ei unig obaith oedd ei ddau gyfaill yfed, Stanley a Cuthbert, a doedd yr un o'r rheini wedi mentro ar ei gyfyl ers dau ddiwrnod. Diau y deuen nhw pan ddoen nhw. Hiraethai am iddyn nhw frysio i'w achub rhag-blaen. Carchar wedi'i amgylchu gan ddŵr (gelyn gwirod) oedd Syched, ac roedd e'n teimlo bron yn dreisiol tuag ato. Cythreulig o ormeswr digymwynas oedd ambell bnawn. Byddai angen cryn arfogaeth a chryn nerth braich i'w ryddhau rhag byddin hwn.



Yma yn y Dwyrain, yn Lloegr, ar ambell egwyl, codai lawysgrif racsog yn ei law tua'r nenfwd, a datganai, 'Hyn dw i'n ei gredu.' A dim ond casgliad tila o dermau am fathau o goed afalau oedd 'na. Ond roedd y dyn yn gyfrinydd ambell brynhawn sych fel hyn, yn profi gwareiddiad potensial yn ei wythiennau. Llawenhâi yn athrylith y traddodiad.

Roedd gan y ddau gyfaill Cuthbert a Stanley eu cynlluniau'u hun. Yn nhafarn yr 'Ashdown', cynllwynio sbort roedden nhw uwchben eu gwydrau, a'u pennau bron â chyffwrdd â'i gilydd wrth iddyn nhw rannu'u meddylfryd medd digri. 'Fe wnâi les iddo, siŵr,' meddai Stanley'n elusenol chwareus. 'Welais i erioed neb nad oedd blwyddyn neu ddwy yng ngwasanaeth ei fawrhydi wedi rhoi 'chydig o flew ar ei fryst. Gwnaiff... fyd o les. Ymrestrer felly!' Cynllwynio sbri roedd y ddau i listio'u hybarch gyfaill yn rhengoedd byddin y Sais – drwy rinwedd ei fedd-dod.

Chwarddon nhw eu hochrau. Dyma'u hwyl.

'Meddylia am ddychryn y gelyn,' chwarddodd Cuthbert. A'r funud yna roedd tro yn ei lygad chwith fel chwyrligwgan.

'Meddylia am dwf yr ymerodraeth.'

'Dim gwell disgyblaeh ar glawr glôb i lefnyn ifanc.'

'Listio yng ngwasanaeth ei genedl.'

Hyn heddiw oedd eu cenadwri ddisgybledig i Ieuan am y tro, er mai anodd fel arfer yw ymadael ag ymrestru: haws *mewn* na *ma's*.

Maes o law, a chyda phenderfyniad cigfrain, hedeg at Ieuan a wnaen nhw ill dau yn rhith crât – a llond eu breichiau o boteli. Jôc oedd y cwbl.

Cwmnïaeth ddifyr oedden nhw yn y bôn. Caredigion oedden nhw i'w ailgynhesu heb yr un awgrym fod ganddyn nhw yr un bwriad mwy gwllithgar na chydswpera. Caredigion di-Geredigion. Fe ddoen nhw ato'n hwyliog helaeth a'u sgwrs yn gaglog o straeon a'u corn gyddfau'n orfoledd o chwerthin. Cyn bo hir roedd e'n marchogaeth ar eu cwrw fel un o'r ford gron yn barod i drechu heddiw unrhyw Syched Seisnig a ddôi ar ei gyfyl. Heddiw, brestblad oedd sglein ei lygaid. Roedd e'n barod i rywbeth.

Don Cichote oedd e mwyach, gydag anrhydedd filwrol hwnnw, ychydig bach o'i groen môr-y-canoldir hefyd, gan iddo ymgynilo rhag ymolchi ers tro. Fe a gynrychiolai hen Brydain y marchogion Arthuraidd yn erbyn newydd-ddyfodiaid barbaraidd Sacsonaidd, yn erbyn yr Esgyb-Eingl whisgi: yr anwybodusion aliwn o'r dwyrain Agos-Agos na wydden nhw ddim oll am na Thaliesin nac Aneirin nac Ieuan Fardd. Os oedd anrhydedd yn gymhelliad cywir, doedd dim oll a'i hataliai heddiw rhag perlewyr o gymhelliad Anrhydedd ac ABC Ewrob. O sglafio pum peint, fe ei hun, Ieuan Fardd, oedd traddodiad Cymru.

'Nid curad adfeiliedig bol clawdd yw y muchedd i, treuliedig ei lewys; nid Ifan Cynhawdre dw i, eithr Ieuan Brydydd Hir.'

Curodd ei fol. Roedd ei feddwl yn glir. Cofiodd yn sydyn am un botel guddiedig, y tu ôl i Eiriadur John Dafis. Ac roedd ar ben ei ddigon am fod gweddill ffyddlon felly wrth law. Câl ddyrchafu i'w hunlle arferol.

Pe deuai Cai fab Cynyr yn ei ôl heddiw, onid creadur tebyg iddo-fe fuasai hwnnw, yn ymlusgo mewn ffosydd, o laid i laid, i chwilio am anturiaeth ar lefel dysg? Onid fe a gynrychiolai'r hen oes sifalrïaidd Glasurol? Syber fel marchog, heriol fel arwr, amharod i gyfaddawdu, fel milwr y delfrydau hurt yn nannedd pob cilchwerthin. Onid gwron felly fyddai – er nad yn gorfforol arfog, – yn mynnu gorchfygu Gwrthgymreictod, ac Anwybodaeth, Ffilistiaeth, Taeogrwydd a Syched swrth?

Tybed? Doedd e ddim cant-y-cant yn siŵr weithiau ai marchog oedd, ynteu mawnog gwlyb i faglu? Efallai mai dyma gymwynas fwya'r ddiod iddo, yn wir; ei bod hi'n darparu am ychydig ryw fath o sifalri amwys o gyfrin iddo. Heb y ddiod honno câl gipolwg ar hunan nad oedd e'n hollol gysurus gydag e. Gyda hi dan ei wregys, sut bynnag, ymagorai'r posibiliadau i bob math o ganrifoedd amgenach. Y pryd hynny, digon tebyg oedd goleuni'r haul i'r hyn a brofasai Gruffudd Llwyd gynt. Roedd e'n llewyrch wedyn – o leia am ychydig. A chyfle i dorheulo gyda hen wreigen o botel hardd. Nid fe oedd y Cymro cynta y tynnwyd e gan yrfa i berfedd Lloegr.

Yn bêr y breuddwydiai.

Ond roedd ei lygaid crwn fan yma am hongian eu grawnwin aeddfed y funud yma uwchben y llawysgrifau. Gellid eu tynnu'n dwt o'r goeden a gadael iddyn nhw syrthio ar bridd y myfyrdodau hen. Gellid anelu'r llawysgrifau at y gelyn wedyn. Safodd Stanley a Cuthbert o flaen Ieuan yn sydyn a'i ysgwyd ychydig.

'Deffra. Edrych arnon ni.' Beth oedd yr ymyrraeth hwn heddiw? 'Ni!'

Nid yn awtomatig y sobrai fe, ond gallai, pe codai eisiau, syllu gyda pheth pendantrwydd hyd yn oed ar y lluniau cymysglyd hyn yn ei hunlle o fywyd.

'Y Parchedig Evan Evans, wele ni,' cyhoeddai Stanley yn eangfrydig braf.

'Wedi dod i'th ricriwtio di, coelia neu beidio,' meddai Cuthbert yn haelfrydig hefyd, 'ym myddin frenhinol dy deyrnas.'

'Dŷn ni'n dod...!' meddai Stanley.

'Heddiw.'

'... i'th anrhydeddu di.'

'I roi tipyn o sglein ar dy drwyn.'

'T'th gyflwyno'n grwn i'r Brenin Siôr.'

'Gwneud arwr ohonot ti dros yr hen Brydain.'

'Rhoi asgwrn cefn i ti ac i'th wlad.'

Ymsythai Ieuan ryw ychydig. Codai'n drwsgl ar ei draed. Bu rhyw hen anian milwr ynddo erioed. Roedd angen gwarchod hyn o draddodiad. Ond roedd rhywbeth wedi digwydd i hynny, bron fel pe bai wedi'i ddynoli'n seciwlar. Onid oedd wedi ystyried y bore 'ma beth oedd bywyd? Ei drafferth sylfaenol oedd na wyddai ble'r oedd yn dechrau.

'Dyw dyn ddim yn Sais go iawn os nad yw e wedi bod yn y fyddin.'

'Cydbwysedd sy eisiau – Beibl a dryll.'

'Oll yn eu gynau duon er hyrwyddo dealltwriaeth ryngwladol a'r ymerodraeth.'

'Rhyfel ataliol.'

'Amddiffyn.'

'A bri cyfiawn dros yr hen Brydain.'

'Ac ABC Ewrop.'

'A threthi gwerth-chweil.'

'Pa hedd gwell na bedd?'

Beth a barai iddo listio erioed ym myddin yr Oen?

Llusgwyd Ieuan yn awr tua'r Swyddfa Ricriwtio allan o eglwys ei fywyd.

Llusgwyd e yno nawr gan y ddau Sais drwy gawod alaethus o leithiog o law De Lloegr, y dwyrain Agos-Agos, y Dwyrain Materol, y ddihangfa, unrhyw beth ond y “peth Iesu”. Teimlai Ieuan ei fod yn cablu yn ei galon. Methodd â mawrygu'r Un a'i ceisiai, ffôï dan gochl Dysg, a boddai mewn gwacter cred. Roedd ei ragdybiau dyn-ganolog fel cylch o boteli o gwmpas y lle y gorweddaï. Daeth gosgorddion o'r cyfryw wlybaniaeth i gau amdano'n filwriaethus mewn unwisgoedd duon a chapiau sgleiniog. Saethwyd ato gan anobeithion tamp allan o guddfeydd eu llwyni, a charlamwyd am ei ben gan gesair. Ac yntau'n ildio gan bwyll galarus carlamus, ymgrymai heb gytuno i gymrodeddu. Wyddai fe ddim beth oedd. Ymladdai i ddiogelu'i sobrwydd; ond yn ofer.

'Wyt ti, Stanley, yn medru dweud,' meddai Cuthbert, 'fod rhywun erioed wedi *profi'r* Goruwchnaturiol? Dyna i ti her.'

'Ond fel arall hefyd. Oes rhywun, Cuthbert, yn dweud eu bod wedi profi does *dim* Goruwchnaturiol.'

'Nac oes, byth.'

'Dyna ti, te.' Roedd y ddau'n ffugio bod yn academwyr, yn eu diod, fel ffordd i ddychanu ysgolhaig a meddyliwr fel Ieuan, yn wawd arno yn ei wendid. Efallai fod cael eich gorchfygu fel hyn yn Newick bell yn gwneud lles i rywun goleuedig ym moderniaeth y ddeunawfed ganrif hon. Onid oedd angen ei yrru yn ôl efallai at yr hanfodion yn ddiymdroi, at y gwir fi, hwnnw, yr eiddil o dan y bwrdd? Gyda hwnnw byddai hi'n 'ti' a 'thithau' o hyn ymlaen, a bant â hi. Ond doedd e ddim yn ei adnabod ei

hun. Dychmygai nawr weld ei fam yn sbio dros ei ysgwydd, 'Harddwch, Ieuan, dy harddwch di hefyd... gwir ddychymyg, ... gwir ddeall.'

'Cer o'na, fenyw.'

'Dere'n ôl mychan i. A bydd yn barchus.'

'Byth!'

'Ble'r wyt ti ar grwydr?' crefai hi. 'Llanfihangel Crucornau... Llanystumdwy... Llandecwyn...Llanberis...? Pedwar ban y pwll.'

'Lloegr!'

Erbyn hyn roedd Stanley a Cuthbert gyda'u baich brwysg a pharchedig wedi cyrraedd y Swyddfa Ricriwtio. Prin y gallasai'r swyddog a eisteddai yno sylweddoli fod atgyfnerthiad mor ogoneddus ar ei bwys i fyddin ei fawrhydi pan faglodd y tri i mewn i'r ystafell. Roedd gan y swyddog wyneb dienyddiwr, onglog a llym, wedi'i docio yma ac acw gan fateroliaeth, yn drwyn a bochgernau cymharol naturiol, fel pe bai rhai corneli wedi'u hychwanegu eisoes, ac eraill wedi'u dileu, yn slentiog anghybwys, yn glonciog gyntefig, o dan frws peintio paentio Picasso. 'M? M?' holai'r swyddog yn ddeallus.

'Evan Evans, syr,' meddai Cuthbert.

'M?'

'O Geredigion,' ychwanegai Stanley.

'M?'

'Cymru.'

'Y!'

'Wedi dod i foddio'r fyddin, syr. Ricriwtio ym myddin y Sais!'

'Am ddeng mlynedd, syr.'

'M?'

'Iach... dim cyfnasaf?'

'Dim rhwystrau.'

'Di-briod.'

'M?'

'Eglwys Lwgr, syr.'

'M?'

Agorai Ieuan ei lygaid led y pen a gwenu efallai ar y cysgod mawr o'i flaen. 'Euog,' addefai fe wrth y swyddog.

'M! Euog o beth?' holai'r swyddog hwnnw, gan wneud tri chopi o bob dim a ddywedid.

'Popeth,' meddai Ieuan yn onest yn ei hunlle.

'Ellwch chi fod yn fwy penodol?'

'Cyflwr cynhenid naturiol i ddyn yw bod yn y fyddin, hyd yn oed mewn dysg.'

'Cyflwr? Hynny yw, beth bynnag wnewch chi?'

'Beth bynnag wna-i.'

A gawsai fe weledigaeth o hanfod ei brinder, wrth ganfod y tu ôl i'r swyddog ar y llawr yn y cornel ddau filwr bach arall yn gorwedd wedi ceisio dianc rhag y fyddin ac wedi'u dal a'u hailgorlannu eto gan eu halcoholiaeth ddiogel, yn haws eu cofrestriad yn y gwasanaeth na'u datod, yn ddiau?

'Beth yw'r cyhuddiad yn yn erbyn i?' holai Ieuan.

'Mae yna gyhuddiad yn erbyn pawb,' meddai'r Swyddog Ricriwtio. 'Dych chi eisoes wedi cyfadde hynny ar goedd o flaen y llys.'

'Os oes rhyw fath o sylw, gorgyffredinol yw hynny: dyma gyflwr ein gwareiddiad. Ond beth am y fi y tu ôl i'r mwgwd?'

'Popeth,' meddai'r swyddog gan sylly ar ei nodiadau.

'A!' meddai Ieuan, 'dw i wedi clywed hynny o'r blaen. Mae'n dôn gron. Dw i'n teimlo mod i'n cael yn ailgylchu ... rhag gwastraffu dim un diffyg...' Tybiai Ieuan yn ôl

ateb y swyddog fod hwnnw'n gwybod mwy o fanylion personol amdano fe nag a farnai fe drosto'i hun.

'Byddai'n drueni i'r fyddin eich gwastraffu chi,' meddai'r swyddog, 'a'ch adnoddau a'ch athrylith oleuedig.'

Caeodd Ieuan ei amrannau'n ara. Ddeallai fe ddim. 'Beth bynnag ddywedwch chi,' murmurai'n ufudd, 'dyna wna-i.' Doedd e ddim ar ddi-hun mwyach: doedd e ddim ynghwsg ychwaith. Ond roedd hi'n noswyllo'n bur afradlon arno. Ac yn y nos hynod honno, mewn seler gan ei fawrhydi ar waelod grisiau hir treuliedig ei feddwl, caed dŵr tywyll a braidd yn ddrewllyd. A gwydr toredig. A baw. Pwy oedd e? Beth oedd ei werth? Yma am byth y gorwedda fel gwlad.

'Dw i'n barod i ymaflyd â chewri a marchogion duon a byddinoedd o wrachod os ca-i rywbyrd ei meddiannu *hi*,' meddai Ieuan wrtho'i hun, gydag arddeliad, drwy'i gwsg effro. Sychai ei drawswch yn ei lawes: sychedai o hyd yn yr amgylchiadau hyn am Ddysg. Tyfasai drawswch bellach nid yn annhebyg i eiddo Atila. Caer Rufeinig oedd yr hen wreigen bellach i'w gorchfygu. Allt o fwynfeydd oedd hi i ymelwa arni. Roedd e wedi croesi'r cyfandir er ei mwyn hi, a doedd-e ddim yn mynd i gael ei rwystro gan dipyn o fyddin Seisnig nawr. Syllai arni o bell gan glandro sut y gellid ymosod ar ei hunanddiffynfaoedd breuddwydiol ei hun. Teimlai iddo fwrw ei fyllt yn rhy hir efallai yn ei herbyn; ac yn ofer o safbwynt chwalu'r waliau. O! Ddysg Ramantaidd. O! Uchelgais.

Hen wraig hardd. Hen wraig nas deallai. Hen wraig na allai fe rywsut byth feithrin perthynas foddhaol â hi. A'r berthynas rhwng gŵr a gwraig yw'r brif ryfeddod rhwng deuddyn; sef cymhlethdod y ddolen arian drostyn-nhw. Croesi'r ffin gyfrin honno a wnaed rhwng bod ar wahân a bod yn eiddo annaeorol i rywun aruchel.

'Un sgarmes ola!' meddai fe wrtho'i hun. Rhaid oedd i bob cenhedlaeth o Gymry yn ei thro frwydro dros amdiffyn etifeddiaeth eu gwareiddiad am y tro diwetha. Ac efô oedd ceidwad hardd y to hwn yn y rhyfel bythol mwyach. Dyna pwy oedd e.

'Ond Ieuan! Ymrestru ym myddin Lloegr wnest ti.' Llais Siani oedd yn ei geryddu. Llais ifanc, iach fel meillionen newydd. Llais cariadus ac annwyl lân yn

dweud y drefn wrtho. Y Drefn arall. Roedd hi wedi'i ddilyn hyd at y fan yma. 'Rwyt ti wedi dy golli dy hun mewn byddin aliwn.' Cyraeddasai'r terfyn.

'Beth!'

'Byddin yr anghyfiaith yw hon,' edliwiai hi fel Methodist propor o bell. 'Byddin gaeth sefydliad yr Esgyb-Eingl.' Nid dyna'i le. Ei ddysg wreiddiedig oedd angen y meistr.

Syrthiodd gwefus isa Ieuan ryw lathen: 'Ta waeth, rhaid dechrau rywle. Rhaid bwrw prentisiaeth,' meddai fe.

'Eisiau cael ei ddeall sy ar hwn. Nid iwniform arall,' meddai Siani wrth y Swyddog. Hyhi a'i llais clychau'r gog yn awr a lwyddai i berswadio'r awdurdod i'w ryddhau o fewn dau ddiwrnod. Roedd hi wedi dod. Hyhi a argyhoeddai'r Swyddog nad enillasai hwnnw ryw ddeunydd addawol iawn ar gyfer byddin yn hyn o greadur. Yfai fe'n fwy nag yr ymladdai. Byddai'i absenoldeb yn fwy manteisiol na'i bresenoldeb. Hyhi a ddangosodd mai math o gymeriad cloff oedd hwn o Wylltir y Gorllewin y byddai'n well gadael iddo rywfodd ymlusgo yn ôl yn ei ffordd ei hun drwy'r priffyrdd lleidiog a'r caeau, adre. Byddai'n fwy o elyn y tu mewn i'r Fyddin na'r tu allan.

Cafodd Siani'i ffordd. A dychwelodd Ieuan ar flaenau'i fodiau i'w lwybrau troellog chwil, gydag addewid, meddai Siani, o ryw fath o gartre yn y pen draw.

Hyd yn oed i Ramantydd doedd dim gormod o hwyl mewn gorwedd mewn llaid, o leia ar ôl iddo fod wrthi am wythnos neu ddwy. Ar y dechrau fe all fod yna beth newydd-deb yn y peth, dyma berl o syniad gwreiddiol, dyma arloesi safle ffres a modern! Ond mae'r ceffylau a'r certiau sy'n dod ar hyd yr hewl hon ymhen hir a hwyr yn stopio bob un tan sibrwd, 'Gwylir y tasgiadau, Ieuan! Hen arferiad annifyr yw ymdrybaeddu. A welsoch rywbeth tebyg erioed – heblaw gan hwyaid?' Roedd arno gryn awydd i ddal pen-rheswm â'r hwyaid yna.

'Gwalia yw'r gwyliau gorau, Ieuan Fardd,' meddai Siani. 'Cymerwch y mraich. Pwyswch ar yn ysgwydd i. Ac awn.'

'Na Siani. Dw i ddim eisiau dy help.'



'Ga i'ch helpu am ganllath.'

'Na.' Ac yna, drwy gil ei lygaid, fe ganfu ei hen gyfeillion cu Stanley a Cuthbert. 'Gyfeillion,' gwaeddodd. 'Arhoswch. Mae gen i neges. Dych chi ddim wedi clywed ystyr hyn oll.' Edrychon nhw arno'n syn. 'Mae gen i genadwri brydyddol hir.' Daethan nhw ato gan wenu ar eu hen gydnabod. Bonheddwr mewn carpiâu meddw oedd e, dyna'r cwbl. Math o Wyddel bol clawdd o'r corsydd. Cerddai ag osgo uchelwr syrthiedig swrth. Fel dafnau mellt aristocrataidd dychweledig, trawai, ar draws ei wyneb ac ar ystum ei ddwylo, atgofion ysgafn am draddodiad Taliesin. Ond roedd e'n gysurus fudr, roedd ei aelïau'n fudr, a'i ewinedd yn fudr, ei ffroenau a'i glustïau'n curo mydr budr y canrifoedd. Doedd dim ohono'n deilwng o odid un genedl, hyd yn oed y tipyn dwyllreg gartre.

Storm, hen storm wedi tewi oedd e. Crwydrai fel gwynt y tynnwyd ei berfedd. Allai fe ddim mwyach ffyrnigo'n erbyn neb. Os oedd wedi brwydro ar un adeg, ac wedi gallu codi rhyw gyfiawnder taer yn erbyn anwedduster aflednais yr Esgyb Eingl, bellach fe'i dofwyd e. Fe'i torrwyd. Roedd marwolaeth yn gyhyren ar goll yng ngherddediad Ieuan Brydydd Hir mwyach. Ei ddymuniad nawr oedd ymguddio o'r golwg drwy gydol y dydd, a mentro allan os oedd rhaid gyda'r hwyr. Cerddetian wnâi ar hyd cloddïau Celtaidd, o amgylch mynwentydd, gan ildio pob gwerthoedd y bu'n sefyll drostyn nhw erioed. Fynnai fe ddim dial ar neb ond arno'i hun. Chwilio am hunanladdiad roedd e. 'Gwrandewch. Dw i'n siarad yn awr fel cyn-filwr.' Ymestynnai i'w lawn hyd. 'Ac maen nhw – nhw cofiwch – yn llygad eu lle wrth ystyried does neb yn fwy eithafol hoff o drefnusrwydd hardd na hen filwr... Ac fel hen filwr mae gen i gyffes.' Ymestynnodd i'w lawn hyd, 'Mae gen i chwedlau hefyd wrth gwrs; cyfranau yw'n term technegol ni yng nghefn gwlad Ceredigion. Ond cyffes yn benna ydyn nhw... Blinder trwm yw rhyfel, gyfeillion.'

'Ie, ie,' porthai'r ffrindïau-diota.

'Nid golygfa ramantus yw gwrtaith gwaed rhwng coedwigoedd dryllïau.'

'Beth am dro bach i'r Ashdown te, hen sowldiwr?' Safai'r maged hwnnw, gan amyneddgar gadw lle i dri gwas anghenus arall. Safai'r dafarn yno fel swyddog llym i rannu'r dynion mewn oed oddi wrth y bechgyn.

'Na,' sgrechai Siani.

'Tyrd am un diferyn pitw i ddathlu heddwch.'

'Heddwch-ysbryd yw'r gelyn o hyd,' meddai Ieuan, 'meddan nhw.'

'Na. Mae e'n dod yn ôl i Gymru gyda fi,' protestiai Siani wrth y ddau Sais.

'Tyrd yr hen warior,' meddai'r temtwyr.

Ymsythodd Ieuan wrth glywed y gair 'Na!' gan Siani; ond yn y diwedd gwyddai hi'n burion mai ei ben dysgedig e fuasai ar ben y bicell. 'Un hen frwydr fach eto efallai, Siani,' meddai fe.

'Tyrd, boio,' plediai'r ffrindiau-yfed gan dynnu i'r cyfeiriad arall, 'i sôn am sgarmesoedd anturus Cymru, uwchben dram.' Ond roedd ewyllys Ieuan yn rhy gry o'r diwedd ynghylch rhywbeth, yn weddol gry o leia efallai. Ac fe fynnai ymrestru – nid gyda'r ddau hyn – ac nid gyda Siani – ond gyda deniadau'r hen wreigen hud. Oherwydd ei habsenoldeb hi, teimlo a wnaethai Ieuan i'w fyddin o ddyheadau gyrchu'n ofer i gad fwy amwys a cholli'i ffordd. Temlai iddo chwilio'r ffosydd, iddo gyrchu dros feysydd Cataeth, ond doedd e ddim wedi dod o hyd i'r un hen wreigen fwyn yn ddiweddar. A hi oedd y cwmpawd pwysig a arweiniai at galon y gwir. Roedd yr hen wraig honno wedi aros y tu hwnt i'w hymgyrch hiliol nhw, yn anghyraeddadwy, yn ddirgel: Lilith, Cleopatra, Buddug. Mynnai hi lynu wrtho drwy'r cwbl o'i hanes, a lledu'i hud o beryg.

'Na!' taerodd e'n sydyn drachefn. Cymru ei hun oedd yn galw, yn ei pherson hi.

'Gadewch iddo fod,' gwaeddai Siani ar ei gyfeillion.

Os coedwig anhydrin oedd Ieuan, yn allanol rywle mewn un gornel o leia, yn y lle yr alltudiwyd e ohono, gwâr oedd ei ardd. Afonydd yr haf yn burlan ar raeon ro. Yno roedd yna lecyn neilltuedig hollol dangnefeddus, a pherthi graslon a goleuni ar wenith. Awelon tyner a siglai flaen ambell flodyn hwnt ac yma. ... Gwnaen. Roedd gan yr hen filwr fangre ddarparedig mewn atgofion felly am ei fro. Atgofion oedden nhw am hanesion a glywsai ar ben-lin ei fam. Yma ac acw yno, mewn amgylchfyd felly, gwibiai robinod fel siafins haul.

Ac un o'r blodau distadla a'i cynrychiolai nawr oedd Siani. Eisteddai yno fel

tywysoges. Roedd hi'n fath o ddolen sobr rhyngddo a'r Wrach. 'Dowch,' murmurai, mor ffyddlon ag erioed.

'Dw i'n canlyn y wraig!' cyhoeddodd Ieuan gyda hyder newydd.

'A finnau bellach gyda thi hefyd!' murmurai Siani gan siglo'i phen. Pan ysgydwai Siani ei phen, gwasgarai arogleuon drwy'i feddwl e. Ambell dro cerddai Ieuan i lawr hyd y llwybr i ymweld â'i phersawr, i'w hadnewyddu yn benodol yn ei go, a'i atgoffa'i hun... am Geredigion deg a synhwyrâu'i ieuencid gweili, a'r wrach. Tybed a allai rywbyrd stwffio'i drwyn i lawr yn ddwfn rhwng y petalau heddychlon hyn, – ymhell o bob ymosodiad ar ddiwylliant – ei rwbio yn y paill, a theimlo'r blodeurwydd cyfoethog yn ymollwng dros ei fochgernau gwelw? Tybed a allai fe racio tir Ceredigion o'i chwmpas a gosod tail wrth ei bôn fel y câi hi lewyrchu'n llawnach yn ei galon eto?

Cydiwyd yn ei goler e gan y ddau Sais, a llusgwyd e'n ôl i'r Ashdown.

'Na,' protestiai Ieuan yn gwbl ddiargyhoeddiad, newydd ddianc rhagddyn nhw i bob golwg, a rhag y fyddin.

Sgrechian a gweiddi'i chalon wnâi Siani ar eu hôl, ond doedd dim oll yn tycio. Rhedai hi ar eu hôl, ond wnâi Ieuan ddim ond troi gwên gyfogleyd ddirmygus tuag ati, a bytheirio rhywbeth am Daliesin. Anesmwythai'i ffrindiau gorau.

Diflannodd e'n gymen i bwll du'r dafarn drachefn, megis i seler ysgeler. Ar y cownter draw, roedd gwydraid o gwrw eisoes yn teimlo'n fethiant annigonol diymadferth wrth sylu arno, a'i herio i fynd i'w waelod.

'Os ewch chi i'r fan yna...!' bygythiodd Siani o'r tu allan wedyn ond yn rhy hwyr, rhy hwyr. Roedd e eisoes wedi'i sodri'n soeglyd wrth y bar ac yn llymeitian yn llwm. Yno hefyd, drwy ryw ryfedd dro, y caed Stanley a Cuthbert. Cyn gynted ag roedd Ieuan gyda'r ddau yna y tu mewn i'r dafarn, dyma fe'n wylaidd betrus yn awgrymu'i fod wedi'i siomi ynddyn nhw. Doedd eu 'cyfeillgarwch' ddim fel y buodd e. Doedd hynny ddim wedi cydymffurfio â'r syniadau defodol gwledig am y sefydliad hynafol o gyfeillgarwch. Yn fyr, roedd e, wedi cael ei fradychu...

Os do! Roedd e wedi cyffwrdd â sensitifrwydd rhyw friw bach, a rhoi ei fys ar hunaniaeth ddianrhydedd; sarhau'u bodolaeth. Yn ddiymdroi rhoddwyd gan un ohonyn nhw (heb fod yn eglur pa un) â dwrn awdurdodol ergyd ym mola Ieuan, nes iddo lithro i'r llawr yn llipryn didrafferth. Gwaedai peth o'i ffroen fel mochyn. Dyna wedyn gic. Ac un arall. 'Dyma ti – y ffŵl – yn sarhau byddin y Sais.' A dirywiodd yr oed i fod bron yn anurddasol efallai. Ni raid yw manylu ar y ffeidd-dra a'r cieidd-dra a gafwyd wedyn. [Gadewir amlder o fanylion o'r fath i'r fersiwn mwy poblogaidd ar y stori hon.]

Sbiai Siani i mewn drwy'r ffenestr i'r bar anwar lle nad âi ond gwrywod. Roedd ychydig o fyrddau gwrywaidd yno ar y llawr gwrywaidd, a gwydrau gwrywaidd yn stond: llanwyd yr awyr ag aroglau gwrywaidd, a chytseiniaid gwrywaidd caled a amgaeai'r rhegfeydd a grwydrai allan i'w threisio hi ped arhosai lawer yn hwy. Ni welai hi Ieuan yn unman. Penderfynodd Siani yn ddoeth oedi, am dipyn, yn fenyw anghymhleth genfigennus y tu allan. Er bod arni awydd mentro i mewn, ei hewyllys oer fu drecha.

Ceisiai'i chalon ganddi nawr dorri'n rhydd a'i bwrw'i hun yn onest wrth ei draed. Ceisiai hi draethu, ond methu â'i ddweud. 'Dw i'n cusanu'r llawr rwyd ti'n 'droedio, Ieuan,' meddyliai hi. 'Fuost ti ymhlith y tymhestloedd llym gynt, yn d'unigrwydd, fel pe na bai dim un Cymro arall ond ti ar gael. A thithau'n ein cynrychioli ni i gyd, Ieuan, ar goll, roet ti'n sefyll yn noeth ac yn hyll yn wyneb ango'r canrifoedd. A'r cymylau'n dy guro di, heb dosturi. Ond yfory! Y nghydwladwr hoff, fe gei adeiladu gardd goediog yfory eto lle bydd tonnau llwyd ar y llyn. ('Ddoe!' ebychai fe. 'Ddoe'.) Yfory: mae Arthur wedi addo. Yfory y byddi'n canu. Byddi. Dim ond mewn awdlau y byddi'n gallu digwydd. A'r holl amrannau yfory yn crio drosot ti mewn llawenydd.'

Dyna'r geiriau rhy garedig nas llefarai hi wrtho ond yn ei meddwl byth. 'Dere gyda fi i yfory.' Dyna'i hawydd. Dyna rethreg ei hymennydd. Ond ar draws ei thrachwant distaw bach fel pe bai'n cadarnhau'i phenderfyniad, cerddai yn y fan yna ar ei phwys, yr un ochr allanol i'r ffenest â hi, hen hen wreigen gyfarwydd: honno oedd ei wir lywodraethwraig e, yn bendifaddau, Siani fel y byddai hi yn y dyfodol.

Roedd hi wedi dychwelyd.

Allai Siani ddim gweld honno'n awr yn dynesu at Ieuan i mewn i'r dafarn. Ond gwawriodd arni. I Siân, ei chystadleuydd, ei chysgod hi oedd. Roedd hi wedi'i chanlyn hi hyd at y fan yma ym mherfeddion Lloegr, a hithau wedi canlyn Ieuan hyd yn oed i mewn i'r dafarn. Dim ond dychmygu amdani y bu Siân. 'Alla i byth gystadlu â honno,' murmurai hi. 'Pwy dw i yn ymyl Dysg?'

Gallai Siani hefyd fod yn ddigalon. Wrth feddwl am hon, doedd dim posibiliddd fod yn ddim ond yn ddigalon. Roedd ei hoffter o Ieuan wedi'i maglu. Craffai Siani o hyd drwy'r ffenest fel pe chwiliai am blaned goll yn y ffurfafen. Ac yn wir, roedd yr hen wreigen bellach wedi ymwithio i mewn i'r dafarn. 'Hon acw oedd yr unig un a'i tynnai'n ôl i Gymru,' meddyliai'r forwyn fach.

Craffai Siani ymhellach. Ie, heb ei chanfod, gwyddai mai *hi*, y wreigen ddirgel, oedd yno unwaith eto. *Honno* yn y dafarn yng nghanol y gwrywod bochgoch. 'Ond rown i'n meddwl mai dim ond gwrywod (heblaw am y morynion a'r hwrod) a fynychai lle fel hyn... Beth oedd *hon* yn ei wneud yno?... Dyma'r hen fenyw, ei hathrawes hi, a gâi ddilyn gwrywod i bobman. Roedd Ieuan wedi mwydro'i ben arni.

Daliai Ieuan i orwedd yn anweddaidd lonydd ar y llawr eto, wedi triniaeth Stanley a Cuthbert. Sbiai i fyny at ffigur rithiol yr hen hen wreigen.

Gorweddai yno, ac roedd ei feddwl pŵl yn ei hela hi.

Geuddrych oedd hi. Geuddrych hefyd fu'r llawysgrifau yn y plastai a'r cerddi yn y coed, geuddrych Dysg. Geuddrych erbyn hyn oedd ei gymdeithion-diota. Hela ar eu hôl nhw oll y buasai fe. Ond cilien nhw, todden nhw. Twyll oedd bywyd. Yr hyn a brofen nhw oll iddo oedd nad oedd e'i hun ddim yn bod, fel ysgolhaig, neu o leia mai fe – yn ogystal â nhw – oedd yn toddi, yn cilio; mai fe yn ei wendid a gaed yn y diwedd yn eu lle, – rhith o'i ystyr, ei bwrpas, yn ei berson crwn cyfa, yn llewyrch egwan, simsan i Gymru a'i llên. Y sylwedd parhaol sigledig i'w wlad. Yr encilwyr. Hunlle Arthur.

Ac yna, yn ddisymwth ciliodd hi: ffarweliodd y rhith ohoni mor annealladwy ag y daethai. Heb rybudd, yn ddirugaredd, cododd yr hen wreigen ei chwt, a bant â hi. Un felly oedd hi. Doedd dim dal arni. Ar hyd y traddodiad yn y llysoedd, felly y diflannai hi, i rywle arall. Gwaeddai Siani hithau ar ôl yr hen wreigen wamal, 'Paid â mynd yn

syth. Paid â'i ladd e am ychydig.' Estynnai Siani ei dwylo allan tuag at yr awyr faith, fel pe bai honno rywfodd yn gwybod rhywbeth pellach am yr hen wraig.

Doedd dim o Stanley na Cuthbert yn dirnad beth oedd wedi digwydd. Siani yn unig a allai gydymdeimlo ag Ieuan, ac roedd Siani fel menyw'n wrthodedig, mor wrthodedig ag Ieuan Hir ei hun. Roedd hyd yn oed Siani'n ofni'r weithred o wrthod bellach. Neu o leia, dyna a wnâi hi eisoes nawr ym mêr ei hesgyrn. Gallai hi roi un cyfle ola iddo heddiw, hwyrach. Ond wedyn...

Daeth e allan o'r dafarn yn grwn. Roedd annwyd arno a'i drwyn yn griddfan o gwrw. Dynesodd Siani ato i'w sychu a'i goleddu. Ond roedd e wedi dod, a mynd.

Baglai fe'n undonog ymlaen ar ei wyneb o'i blaen. Edrychai fe ar hynny o ddaear a gaed odano gyda chryn chwilfrydedd. 'Llongyfarchiadau, ddaear, iti gyrraedd fan yma'n saff, ar ôl i ddyn gael cymaint o golli arnat ti. *Connoisseur* mewn gwagle wyt ti debyg. Rwy'ti'n cymryd rhyw ddiferyn o wacter pridd mewn gwydr, yn ei siglo o gwmpas y bydysawd yn ofalus, yn ei arogl, ac yna'n ei flasun ara ar dy daflod, cyn ei boeri allan. Cymru! Mae digon o ddewis du yn seler dy fedd.'

Drwy wefusau llesg llwyd a thrwy'i hysgyfaint tenau, plediai Siani arno am y tro ola. Erfyniai arno, a'i chalon ddimai ym mhob sillaf: 'Clywch Meistr, Ieuan. Dowch yn ôl i hen deyrnas synnwyr. Does dim hanner ffordd: does dim purdan.' Sibrydai deniadau'i llais. 'Dowch gyda fi o frig i frig hyd rodfeydd Ceredigion. Dowch gyda fi i'th wlad. Neu ynteu *os mynnwch ...*' (a chodai'i llais fel barcud), 'arhoswch yma yn dy ful. Ie, arhoswch yn eich Uffern fach estron yn deg; ond does dim eistedd i fod ar ben llidiart o burdan. Gwyddoch chi hynny, o brofiad. Does dim un fangre fwngrel.' Diymadferth oedd hi, bron mor ddiymadferth ag e.

Aeth e ati. Druan bach o Siani fechan. Roedd rhywun wedi'i blingo a'i phlicio hi hyd ei henaid. Doedd dim un lle iddi aros ganddo fe. Ond roedd hi'n gwro ato o hyd; ac yn y gwro gwylaidd hwnnw roedd hi fel pe bai wedi'i cholli'i hun ynddo fe. Beth oedd hi ynddo fe? Edrychai fe gyda thosturi ar ei chorffyn llipa, dirmygedig, lluniaidd. 'Na,' gwaeddai arni gyda'r ffyrnigrwydd mwya gwrthun a brofodd hi erioed. Dychrynai

hi o'i chroen. 'Na,' a chwydodd e yn ei feddwdod ar ei phwyll a'i chydbwysedd prydfferth. A Na diweddol oer oedd hyn yn ei gawdel i gyd.

Yn gloff y ciliai hi ymaith yn drist, a gwaeddai fe arni drachefn: 'Na... Yn ôl! I'r gad.' Ac felly ymlaen ac ymlaen, o bum llath i bum llath, nes iddi gilio'n grwn o'r golwg ac am a wyddai i'r blynyddoedd hefyd. 'Na, na, na ... I'r gad,' ubai fe'n ddiymgeledd o hyd. Gwaeddai drachefn ond gyda llai o argyhoeddiad. Gwyddai Siani bellach, heddiw, ei fod e iddi hi yn gwbl anadferadwy.

## 6.

Gartre, roedd ei hen fam yn rhodio ger afon Wyre, ac yn crio iddi, heb wybod dim am helynt ei mab. Roedd yr afon hithau yn crio drwyddi hi hefyd. Wyddai'r fam ddim am helynt ei mab. A'r absenoldeb yna oedd pwnc ei myfyrdod.

Teimlai hi ei bod wedi methu. Doedd hi erioed wedi gallu cynnig iddo ddigon o'r profiad o fam. Doedd ei bodolaeth fenywaidd hi ddim yno. Roedd hi wedi cynnig ceryddon, cynghorion, tristwch, esiampl, caredigrwydd; ond heb gyflwyno'i bodolaeth o fam, – ei holl fodolaeth, roedd y bwlch yn enbyd. Doedd hi ddim wedi llwyddo i'w ddeall. Dymunai hi arosod peth o'i symllder crisial hi ar ei ing e.

Dymunen nhw, Siani a hithau, ill dwy, fod ar wahân iddo ac eto'n agos. Ond arhosen nhw ill dwy y tu allan i bopeth heb ei ddeall. Cyd-hiraethen nhw am adennill ei fywyd e'n ôl fel y'i camddeallen nhw.

Wyddai'r hen fam ddim mwyach pa ffordd i droi. Ac eto, fe wyddai rywsut am ing newydd. Oni welsai hi, un tro, gath yn rhedeg o flaen ceffyl-a-cherbyd tan ruthro yn syth i'r fan beryg yn ddifeddwl, ac yna'n rhewi'n garreg gerfiedig fyw yn y fan a'r lle? Gwelai'r gath honno ryw enbydrwydd yn taranu amdani am eiliad, ac yr oedd hynny'n ei mesmereiddio, fel pe bai'n cael ei cheulo a'i dal yn y braw, wedi gwasgu arni hi yn awr gwestiwn dychrynus pa ffordd i droi, ai ymlaen ynteu'n ôl nes bod cryndod y dewis disymud dinistriol wedi meddiannu'i ffwr. Felly Ieuan. Felly hi nawr, y fam ddiiddefnydd hon, gydag Ieuan.

Gwraig oedd hi a syfrdenid yn feunyddiol gan ei mab, gymaint yn wir bellach nes iddo bylu min ei hymateb. Llethid hi nid yn unig gan ei allu, eithr gan ei hanallu

difesur hithau hefyd. Gwraig orfoleddus o gyffredin oedd hi. Ni phoenid mam Ieuan byth gan ing gwreiddioldeb na myfyrdod hanes. Gweithwraig oedd hi o'i brig i'w bôn. A cheisiai solas eneidol mewn dihareb cefn gwlad: roedd elfenoldeb beunyddiol ei buchedd mor gyffredinol ei naws nes bod diarhebion yn gweddu rywsut fel doethineb a deall ym mhobman iddi. Roedd holl osgo anochel ei hymddygiad wedi'i sianelu i gyfiawnhau'r hyn a oedd ymhobman yn amlwg: 'Gwell yw'r heddwch gwaetha na'r rhyfel gorau.' Crynai.

Ymdynnai'i chymeriad hi o fewn fframwaith syml y disgwylidig claeaf. Ei hangerdd, ie a'i hunig angerdd bron, oedd ei mymryn mab. Yn fam ddiderfyn iddo, fe'i treuliwyd hi ganddo heb ddod yn rhan ohono. Nid yn unig roedd e wedi goruwchlywodraethu drosti; ond roedd wedi ei malu hi hefyd, fel pe buasai am ladd hynny o allu creadigol a oedd ynddi. Hyd yn oed ar ei sobra, roedd e'n ffyddlon chwil yn y dasg negyddol honno. Diffodd ei gwres hi oedd ei holl swyddogaeth. Gan bwyll roedd e wedi'i mygu; yn gynta, ei chroen; ac yna ei gwythiennau, ac yna ei horganau mewnlol, a'i gewynnau oll hyd at fêr yr esgyrn; ac yna ymhellach byth i mewn iddi, ei hunigrywiaeth, a'i hunigolyddiaeth bêr. Sychwyd y cwbl ohoni yn ddi-ddim, ac yn arbennig yr hyn a oedd yn befriog ohoni. Roedd e wedi lladd cymaint o fam ag a geid ynddi, fel roedd ei theimladau hi bellach tuag ato mor brin dybiai ag esgyrn mwydyn.

Swatai'r fam nawr yng ngwrthuni cymedrol-hirfaith y Gynhawdre.

Teimlai Siani, ei morwyn, hithau'r un disgyrchiant yn union nawr mewn modd llai uniongyrchol yn wahanol, ond yr un mor daer. Chwiliai, chwiliai, am ollyngdod a thangnefedd – ar wahân i Ieuan. O! Na châi hi lonydd mewn rhywle. Un fangre yn unig ym mryd Siani oedd yn gymharol ddiogel ar ôl; ac roedd hi wedi disgyrchu i'r fan honno gyda'i meistres. Un fan oedd ar wyneb y ddaear las lle na ddôi Ieuan yntau yn ei warth byth ar ei chyfyl am ychydig. Un modd syml a oedd i deimladau Siani hithau mwyach gael dianc am dro, ac iddi hi geisio unwaith eto ailblethu'i bywyd. A dyna pam y dychwelodd hi'n benisel ond yn bendant at ei meistres i hen dyddyn y Gynhawdre. Gwyddai na feiddiai Ieuan byth yn awr wynebu cyhuddiad trwm ei hen gynefin. Yn y fan yna byddai'n rhaid iddo wynebu'r gwacter roedd wedi'i wneud o'i fywyd, a'r angau a



wnaeth y gwacter ohono yntau ym mryd ei fam,... a beth oedd e. Ddôï Ieuan byth yn ôl yno i'w hen hafan am sbel. Roedd ofn ar Siani ei weld e byth eto.

Ac oherwydd hyn, pan roliodd e dow-dow acw – syndod y byd! – y tu ôl iddi rywfodd ar y cae top, doedd Siani ddim yn barod o gwbl i Ieuan. Tybiai onid oedd ei holl amgylchfyd terfynol e mwyach draw, draw yn y pellterau o hyd mewn cywilydd? Ond yma roedd e, yn llond y lle. Onid cywilydd oedd ei enw yma hefyd, ym mhobman? Cywilydd oedd ei *forte*, ac roedd yn barod bellach i wynebu'r canlyniadau. 'Ble mae hi?' criodd e acw fel pe na bai erioed wedi mynd oddi yno, ac fel pe na allai edrych ar ddim ond ar ei feddylfryd ei hun. 'Hi,' meddai fe eto, 'hi-hi', a'i grio mor ddigri ag erioed. Rhewodd Siani yn ei lle wrth glywed ei alwad. Gwyddai Siani'n burion pwy oedd yr 'hi' yna. Gwyddai 'hi' i'r dim. Dim ond Siani ac Ieuan a wyddai hynny efallai. Ond ystyfnigai hi. 'Pwy?' gofynnai hi fel pe na ddeallai mo'i ymholiad e'n union. 'Beth?'

'Ble?' heriodd e eto, a'i lygaid yn groch. Welsai fe ddim o'r wreigen yn sobr ac o ddifri ers tair blynedd.

'Wedi mynd i'w hateb,' meddai Siani. Crynhodd hi'r cwbl mewn un frawddeg ddrylliedig falch. Disgynnai'i sillafau hi arno fe fel cil-ddannedd. Cnöon nhw ei feddwl. Malon nhw ei serchiadau. Er nad oedd hi'n eu credu, ac er iddo sylweddoli rywsut ei bod hi'n taflu dychmygion fel hyn ato er mwyn ei chysuro'i hun, roedd ei datganiad syml hi'n gnül ar ei holl obeithion.

Penderfynodd e yn nirgel-leoedd ei fynwes mai aberth i'r wraig arall honno – yr hen frenhines – fyddai yntau mwyach. Byddai: cyflwynai'i awen a'i ysgolheictod a'i dryblith seicolegol yn wylaidd oll ar ei hallor, er co amdani. Chredai hi byth y gallai hi ymadael ag e heb ddweud dim, na'i adael fel hyn yn amddifad heb gyfle i egluro'u perthynas.

Roedd eraill wedi'i wrthod lawer tro. Do: fe gafodd wrthodiad chwerw gan lawer bonheddwr. O blasty i blasty pan fforiai am lawysgrifau, roedd 'na rai pethau dirgel nas nodasai erioed monyn nhw yn ei ddyddiadur, rhai o'r profiadau cas a gawsai hwnt ac yma er mwyn parhau'i aruchel alwedigaeth o ysgolhaig... Cafodd fywyd trempyn ar lawer ystyr am fisoedd er mwyn copïo llawysgrifau. Bu'n galed ei drampio.

Oerni coeg oedd yr ysguboriau, cael ei ddal a'i daflu i gwt moch, erfyn lle am ddimai a derbyn gwerth punt o chwain, drewi gystal â neb arall yn y llofft stabal, cael ei glatsio a'i gicio am ei fod yn dod o Geredigion. Gwybu holl urddas llau. Mewn un cyntedd, lledasai'i fethiannau ar fat o flaen y sgweier – mwydon, carpiâu, poer a'i gydwybod losg. Anwylai Ieuan ei unlle a'i hunlle hynod.

Hunlle i ddau am ben dau oedd. O gyfeiriad y tŷ heddiw yr oedd dau bellach yn gwylio'r ddau. Drwy ffenest y gegin syllai mam Ieuan ynghyd ag Edward Richard ar y ddau ifanc, Ieuan a Siani, yn dal pen rheswm draw yn y cae.

'Dw i wedi gwastraffu yn amser i,' sibrydai Edward Richard.

'Na, nid gwastraffu,' taerai'i fam.

'Ydw, tywallt afon y nysg i i'r môr,' meddai'r ysgolhaig, 'a hwnnw'n fôr o wirodydd.'

'Mae ganddo fe broblem,' cyffesai'r fam gan lygadu'i hepil yn wylofus gynnil.

'Iddo fe mae'r gair “dŵr” yn air brwnt. Mae'n gyfaddefiad o fethiant, neu'n rheg,' meddai Edward Richard. 'Mae'n ofni'i flas gwenwynllyd. Beth oedd y pwrpas i athro geisio meithrin ei ymennydd hardd?'

'Oedd, roedd e'n hardd pan oedd e mewn môr o'r fath,' meddai'i fam.

'Pam gwrteithio'i ddeallusrwydd te?... Ac yntau, wedyn, yn taflu'r cwbl oll i'r domen;' meddai'i hen athro.

'Pôs seicolegol yw y mab i, mae arna i ofn, Edward Richard.'

'Oes, mae ganddo fe broblem. Bob tro mae'n profi mymryn o felan, bydd e'n yfed chwart: bob tro mae'n yfed chwart arall bydd yn profi'r felan.' Gwyddai hi fod 'na fwy o lawer na thipyn o broblem ddiod. Roedd yna ddedfryd arni hi. Gwyliasai hi'r marwolaethau bach hynny sy'n reddf tu mewn i bob un ohonon ni'n cynyddu y tu mewn i'w mab fel petaen nhw am fridio ynddo. Roedden nhw'n ychwanegu beunydd atyn nhw'u hun, yn ymledu, yn amlhau ei wendidau cymeriad. Fe oedd Cymru ynddyn nhw. Grym gwleidyddol o fath oedden nhw. A mwy na grym. Iddo fe, roedd eu gweld nhw fel hyn yn codi chwant arno. Câi ei yrru beunydd i'w meddiannu.

'Mae arno'i ofn e. Mae e'n bygwth, Edward Richard, y bydd e'n rhoi'r gorau iddi cyn bo hir.'

'Rhoi'r gorau i beth?'

'I bopeth. I'r eglwys. I'w waith... i fywyd.'

'Fyddai hynny'n fawr o newid.'

'Ond ei feddwl, mae'n mynnu'i bylu â diod ar ei waetha'i hun.'

'Mae'n bodoli mewn math o gwsg. Fe gysgai o hyd, ddwedwn i,' meddai Edward Richard yn gryptig, 'ar ganol unrhyw ymgais gorfforol i wneud niwed iddo'i hun.'

'Ust Edward Richard! Dweud y fath beth!'

'Wel, dw i wedi gwastraffu yn amser i ers talwm ar unioni'i ymennydd. Mae'r negyddiaeth y mae'n ei gweld ymhobman yn rhan o'i uchel broffesiwn diwrthdro fel meddwyn. Mae e wedi meddwi ar israddoldeb. *Israddoli* pêr.' A dyma'r union negyddiaeth eiriol honno o ferf yn canlyn Siani wrth iddi gilio'n ôl i'r tŷ atyn nhw. Ymlwybrodd Ieuan felly yn ei sgil, a chanfuon nhw ill dau y ddau – ei fam a'i hen ysgolfeistr – yn sefyll bron yn seremonïol yn disgwyl amdanyn nhw.

'Y nau ddiwygiwr synhwyrol syn!' chwyrnodd Ieuan. 'Dw i'n sobri, dim ond o'ch gweld chi yn un.'

'Eich dau *an-obeithiwr!*' atebodd Edward Richard.

'Na, does gynnoch chi ddim clem ymhle mae dechrau arni hi yn nheyrnas *Ann,*' mynnai Ieuan.

'Anffortunus, anhyfryd, annibendod: dw i'n eu casglu nhw,' meddai Edward Richard. 'Dŷn ni'n bwrw prentisiaeth go solet wrth eich gweld chi.'

'Ond fuoch chi 'lawr yn y Môr Marw? Islaw lefel y môr go iawn hwnnw? Yn trochi'ch clwyfau yn ei halen? Fuoch chi?' holai Ieuan. 'Gorwel yw Ann yn y fan yna sy ar ôl ei chyrraedd yn esgor ar orwel arall. Yr An y tu hwnt i'r An.' Feiddiai fe ddim dweud y gair 'pechod' na hyd yn oed 'hunanfeirniadaeth'. Dim ond chwarae.

'Pam?' ymyrrodd y fam yn amherthnasol. 'O pam yn y byd, Ieuan, wyt ti mor negyddol i briodas? Pam na wnei di briodi?'

'A chael rhywun i roi trefn ar eich bywyd,' meddai Edward Richard.

'Y prynhawn 'ma?' holodd Ieuan yn ôl.

'Rhywun deidi.'

'Lodes fach gyda'r cyfenw Trefnus,' meddai Ieuan. 'Ond heb y frenhines Anhrefnus go iawn yn agos efallai,' mynnai yntau. 'Heb y frenhines Negyddiaeth chwaith.'

'Fel yna y caet ti dipyn o sefydlogrwydd,' taerodd y fam. 'Ar hyn o bryd dw i'n dy weld di ar hyd ac ar led – Lloegr, Gwent, Sir Drefaldwyn, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd.'

'Y sipsi gwybodaeth!' atodai Edward Richard. 'Marchog crwydr y traddodiad! Ond mor aruthr ddi-drefn dy Feistres. Bod ar goll yw bywyd crwydrol. Ac mae Ieuan yn fyd cyfan ar grwydr.'

'Trefn, myn cebyst i: mae gen i ofn, mam, mai un o'r Trefnyddion wyt tithau yn y bôn,' meddai Ieuan, gan dybied iddo o'r diwedd ddod o hyd i hunaniaeth anffodus y gelyn, yn y Methodistiaid.

'Ac mae gen ti ymennydd mor hardd,' meddai hi.

'O, cer i grafu gyda'r hardd yna, mam. Dw i'n gwneud y ngorau i ddiflannu.'

'Ond roedd gen ti gymaint o addewid.'

'Y peth cynta ddwedais i pan ddes i'r byd 'ma oedd – wel, dyma fi, gyfeillion. Dw i'n addo dim. Dim... Dych chi'n y nghlywed i, fyd? Dim addewid ond pridd yn ôl i'r pridd! Fi dw i. Cymerwch fi fel ydw i, Hen Frython... Dim! Negyddiaeth.'

'Ac roeddet ti'n blentyn hardd hefyd ... A beth am dy afu heddiw?'

'O'r annwyl! Afu... a fu.'

Craffai'i fam yn bryderus siomedig ar Ieuan. Nid person oedd y fam, ond canolfan i amodau, sefyllfa i'w datrys, amgylchfyd teimladol. Sensor.

Closiodd Edward a sefyll rhwng Ieuan a'i fam. Syllai'n ddirmygus i fyny at ei hen ddisgybl tal.

'Meistroli hunan yw trefn. Ond *methwr* ych chi, Evans.' 'Chi' oedd e o hyd o ran argyhoeddiad.

'Dyna'r gair,' cytunodd Ieuan, 'le mot juste: “methwr”,' a phwffian chwerthin.

'Fe gawsoch chi'ch addysg yn deg,' parhaodd Edward Richard, yr hen lanc. 'Ond ble mae hi wedi mynd â chi?'

'Dyw'r hyn a alwch chi'n ddoethineb yn ddim ond ffolineb ienctid wedi heneiddio,' atebodd Ieuan. 'Cydwytod fyw dw i'n ei chwenychu.'

'Dych chi wedi derbyn gan eich teulu daldra corff ac wyneb atyniadol. Ond ble gebyst mae'ch gwraig a'ch angor, a phle mae parabl eich plant a'ch wyrion a'r llyfrau lu? Ble mae'r hen Glasuraeth?'

I Siani, bron ar ei chwrcwd yn ysbrydol, yng nghornel y gegin roedd y cwestiynau hyn gan hen lanc yn ysgryd ac yn ormes.

'Hysb ych chi,' ebychodd Edward Richard. 'Dych chi'n mwynhau crwydro i gael eich croesawu o blwy i blwy megis esgob... A hyn o wastraff bywyd yn ddi-stop yw'ch efengyl!'

'O glwy i glwy...'

'Ond methwr ych chi ymhobman. Allwch chi byth ddwyn dim ffrwyth. Methwr.'

'Does gen i ddim cweryl â'r dyfarniad yna. Chwilotwr methodig dw i.'

'Methwr di-sbonc rhonc ar egwyddor.'

'Ie. I'r dim! Ond mae methiant mewn byd o wrth-lwyddiant yn llwyddiant. Beth yw barddoniaeth? Dwedwch? Llaidd. Beth yw ngwybodaeth glasurol a'm hymhel celfyddydol a'm hymroddiad i grwydro bydysawd y llawysgrifau Cymraeg?'

'Dywed di.'

'Llestri pridd,' meddai Ieuan, gan gwympto ar ei fai.

'Ie. A llwch a chwys Ystrad Meurig,' meddai Edward Richard.

'Ieuan!' ebychai'i fam.

'Dw i'n cerdded i'r plastai, a beth dw i'n ei weld 'fan 'na, – fan 'na lle y dylai nawdd ac uchelwriaeth fod? Llygod a llwydni'n llowcio'r llawysgrifau,' meddai Ieuan.

'Ieuan!'

'Dw i'n treiddio drwy'r llythrennau a'r llinellau ac yn dadansoddi'r eirfa a'r ffurfiau, a beth dw i'n ei ganfod? Dim croeso, dim ystyr, dim iot o'r hen beth, ond hiraeth am ango iaith yn yr ymddatod adfeiliol. Israddoldeb i gyd. Fan yna dw i'n sefyll.'

'Ieuan, yn Ieuan bach i.'

'Awch i fod yn ddarostyngedig sy'n addysgu Cymru, awydd i beidio â bod, i ddiflannu i mewn i gywilydd ac i israddoldeb seicolegol ac i gwrw. Dyna un o'r nodweddion sy'n ei diffinio hi. Gymru! dw i'n mynd. Des i i mewn i ti, yn ddieithryn, y tu allan i'n amser i.' Ond symudodd Ieuan ddim. Roedd pawb yn dawel, pawb yn disgwyl iddo wneud rhywbeth, pawb yn gobeithio i'w lifeiriant sillafau barhau ac arwain i rywle, pawb yn disgwyl i'r cwbl ddod i gwlwm penodol o ryw fath. Ond hongian wnâi ei ddistawrwydd nawr yn yr awyr uwch eu pennau fel barcud. Roedd e, fel pob un sy ar ei ben ei hun, wedi methu.

Yna, meddai Ieuan bron yn anhyglyw, ac yn ôl yn ei lwnc fel pe na ddymunai ond i'w ddannedd glustfeinio. 'Fe grwydrais i'r tir o'i frig i'w fôn. Ac yna, fe'n alltudiwyd i'n gelain gorn y tu allan. O'r gorau, Gymru, dw i'n mynd, ond mi welais i rywbeth nad oedd 'run bardd arall wedi'i weld o'r blaen. Rhamantiaeth dysg.' Tybiai fe y byddai rhywun ymhlith ei gynulleidfa yn ddigon chwilfrydig i holi, 'beth? beth?' Ond doedd neb oll wedi gofyn dim. Dim oll. 'Gweld bywyd cyfan yw *gweld* gwlad a *theimlo* gwlad: boed yn isel neu'n is. Ac mae yna le i'r edifeiriol fan yna. Fe ges i weld hynny. Treiddiodd yn llygaid i i mewn i'w pherfedd hi.'

'Ieuan, dŷn ni'n dy garu di,' taerodd y fam.

'Fe grwydrais i'r ffosydd...'

'Ac mae'r ffosydd yn dy garu di, Ieuan: ffosydd Cymru ydyn nhw.'

'Fe grwydrais i'r *hen, hen, ffosydd*, ac fe welais i beth digon od yn y fan yna; lleidiog a charpiog, eithr yn bendant grwn.'

'Beth oedd hwnnw, Ieuan?' holodd y fam yn ddiniwed reit.

'Y tipyn *Gorffennol*. Fe gaiff y ganrif nesaf ddarganfod y *Presennol*, a'r ganrif *wedyn* ddarganfod y *Dyfodol*. Ond fe ddes i o hyd yng ngwaelod ffos, yn ddagreuol braidd ac mewn rhacs, i **dad** y cwbl, i'r tipyn *Gorffennol* cain: gwaed y peth sy bob amser gyda ni, y peth hwnnw y mae'r Presennol a Dyfodol yn ceisio'u huchelgais, ein nod ni oll. Y lle dŷn ni i gyd wedi cael ei sgythru ynon-ni. Y traddodiad hwnnw dŷn ni'n erfyn ei fyw o hyd.'

'Beth ddaw ohonot ti, Ieuan?' holai'r fam yn athrist. 'Mae angen iti weld y Tragwyddol.'

'Gorffennol,' siglodd ei ben yn amwys.

'Rwy'ti'n gwybod dy fod di'n yn lladd i, Ieuan bach. Down i ddim am i'r bywyd bach yna y bues i'n ei warchod yn y groth, ac yn dod â'n addoliad i ger ei fron-e wedyn, down i ddim am i hwnnw ei sarhau ei hun.'

Sythodd e'i gefn wrth ei chlywed. 'Wyt ti'n tybied nad dw i ddim yn edifar? Nad oes dim munud o'r dydd, na'r nos chwaith, pryd nad dw i'n gwingo oherwydd atgno? Beth sy arnat ti, mam? Rwy'ti'n siarad â llofrudd amlgamp, un sy'n lladd pawb annwyl y mae e'n cwrdd â nhw. Lladd eu horiau'n anad dim. Un dw i sy'n byw a bod ar wastad ei gefn, fel gwlad. Ai diddanwch i ti yw rhoi cic felly i recsyn?'

Edrychodd hi arno mewn cywilydd a chariad hir. 'Mab!' ebychodd hi; a chraffodd hi arno mewn siom a hiraeth. 'Mab, wir!'

'Beth pe bawn i wedi bod yn efeilliaid?'

'Dw i'n meddwl weithiau mai byddin ohonot ti sy 'na.'

'Un mab sy... a hwnnw'n gliper am ffwsan mewn ffosydd.' Edrychai o'i amgylch yn wyllt. 'Dowch 'lawr, gyfeillion, gyda fi i'r llawr. Yn is. Gadewch imi ddatgelu ichi'r

ffosydd go iawn.' Gwthiodd y Prydydd Hir yn fud heibio i Edward Richard a oedd yn dal i sefyll yn syfrdan a'i law ar glicied y drws. Ac allan ag e i'r byd mawr yn ôl ei anian.

'Ieuan!' gwaeddai'r fam ar ei ôl. Ond yn ofer. Roedd e wedi ymadael drachefn. 'Ieuan,' daliodd i ubain. Closiai Edward Richard yn ôl ati, fel pe bai'n dymuno'i chysuro. Roedd Ieuan wedi encilio bellach; a dim ond eco oedd yn y tŷ. Eco i eco.

'Unig yw e,' meddai'r fam.

'Peidiwch â cheisio'i esgusodi fe, meistres Ifans,' cyngorai Edward Richard.

'Mae e mor wahanol. Ar hyd a lled y ddaear, mae 'na ugeiniau o filoedd o bobl o'n hamgylch yn... yn magu moch, yn mabsanta, yn magu moch, yn cyrchu i dwmpathau, yn magu moch, yn hel gwacterau anghreadigol. A'r fan yna y mae *hwn*. Yn ysgolhaig gwrthodedig nad oes dim deall arno, ac ar ei ben ei hun.'

'Y mochyn meddylgar ei hun,' meddai Edward Richard. 'Na, dych chi bob amser yn hel esgusodion drosto.'

'Unig yw e,' plediai hi.

'Anwar yw e.'

'Fan yna mae e,' meddai hi, 'yn yr anialwch i gyd, yn gaeedig i ni, yn ddernyn bach ei hun o wareiddiad anial, – yn unig, heb neb oll yng Nghymru yn gwybod cymaint am Gymru. Neb yn ei amgyffred e. Neb chwaith yn ei werthfawrogi. Hunlle: mae e mor enbyd.' Ac yna troes hi at ei morwyn a oedd yn dal yn benisel fud yn ei chornel. 'Druan o hon hefyd.'

Gostyngodd honno ei phen yn fwy byth. 'Druan o Gymru.'

'Mae e fel gwydraid gwag,' haerai Edward Richard. 'Sobor! Sobor! Ac yn synied mai'r unig iachâd i sobrwydd yw gwydraid gwag arall. O wydr i wydr.'

'Ie, gwydr a'r staeniau wedi sychu drosto o'i ben i'w draed, ac yn disgwyl y byrlymu digalon nesa o rywle.'

'Gwydr crac hollol; bawlyd. Ble mae e wedi mynd?' grwgnachodd Edward Richard: 'A ble dw innau wedi mynd? Ar hyd yn oes ... ymhell cyn ifi agor yn ysgol yn



Ystrad Meurig... hyd yr awr siomedig hon rown i wedi gobeithio, wedi gobeithio'n dost, y byddai *un* o'n disgyblion disgleiria ... rywbyrd ...'

'A finnau wedi breuddwydio hefyd gyda chi, Edward Richard. Peth anwedus yw breuddwyd.'

'Ie, Meistres Ifans.'

'Mae gen i o hyd un freuddwyd, serch hynny.'

'Oes, Meistres Ifans?'

'Breuddwyd sy'n y nhrwblu i o hyd mewn modd dirgel ... ac eto, dyw hi ddim yn y nhrwblu i chwaith... y byddai Ieuan y bardd ryw ddiwrnod ... sut galla-i ddweud? ... y byddai fe ryw ddiwrnod yn estyn ei adenydd yn lân; y byddai'n datod y llyffetheiriau.'

'Ei adenydd?'

'Byddai ei adenydd e'n ymagor, a'r awen ddirmygedig honno, Edward Richard, y wir awen yn hedfan, yn esgyn... fel barcud uwch Ceredigion, Ystrad Fflur, Bro Gynin a'r cwbl... a'i freuddwyd yn cael ei gwireddu.'

'Breuddwyd, Meistres Ifans, breuddwyd gwrach go wachul. Po fwya sobor y bo'i feddwl, mwya y mae'n chwenychu ei ddileu.'

'Ond dw i wedi teimlo erioed, rywfodd, Edward Richard, ei fod e ymhell uwch ein pennau ni, ei fod e'n perthyn i sffêr arall. Mae'n hedfan mewn gwlad arall. Mae'r awen yn gallu gwneud hynny on'd yw e?'

'Beth?'

'Mae'n gallu symud dyn i lefel arall, a'i ddyrchafu. On'd oes modd codi dyn i iechyd? On'd yw hynny'n wir? Dwedwch, Edward Richard: mae hynny'n wir.'

Ond taw oedd piau hi i ysgolhaig fel Edward Richard.

7

Y tu allan erbyn hyn, ac yn ddjarwybod i'r rhai a bryderai yn ei gylch, roedd Ieuan Fardd draw yn y cae yn reit hamddenol wedi dod o hyd i raff. Cafodd ysgol yn yr ysgubor, ac fe'i cariodd yn ara benderfynol tuag at goeden dderw heb fod nepell o'r tŷ.

Doedd neb yn ei weld. Gwyddai fe beth roedd e'n ei wneud.

'Dywedwch fod yr awen, rywsut,' murmurai'i fam y tu mewn i'r tŷ, a hithau heb weld dim o hyn, ac ymhell iawn bellach o realiti neb, 'yn codi dyn, Edward Richard, nes ei fod e'n hedfan, fel ysbryd. Byddai'n unig iawn fan yna.'

Clymai Ieuan ddolen yn y rhaff, a dringai'r ysgol yno'n ofalus, er mwyn ei rhwymo'n gadarn wrth gangen braff. Roedd e fel pe na wyddai beth a wnâi. 'Dw i'n gwrthod bod yn syber,' ebychai fe'n beiriannol. 'Sgrech yw nghyfenw i.'

Llygadai Ieuan yn hamddenol y bryniau o'i gwmpas. Llygadai'r cloddiau hoff. Ond nid ceisio casglu i'w ymennydd yr olwg ola ar ei henwlad roedd e. Nid ceisio ymhyfrydu am y tro ola chwaith drwy wefusau'i go yn y gwyrddlesni gwlyb a'r llaid caredig a'r llechweddau benywaidd addfwyn. Chwilio'r oedd e yn hytrach am argoel o'r hen wreigdda honno nad oedd hi yn unman i'w chanfod. A ddôi hi i ffarwelio ag e tybed? A ddôi hi i weld hyn yn awr?

'Dw i'n gwrthod bod yn ddelfryd i mam, nac i neb.' Sylweddolai fe ddim bod yr hen Wreigen arall honno hefyd yn ei gynnwys e yn ei delfryd. Felly, doedd e ddim nepell ohoni. Gwelai Ieuan yn y pellter, o frig yr ysgol, ambell nant. Ond trôï ymaith mewn dirmyg gan farnu mai halogi gwefusau wnâi peth fel dŵr. 'Nid caru angau dw i,' sibrydai fe'n hunangysurlon ac yn gryg, 'ond dy garu di. Yn rhodd i, i ti, fydd hyn o farw.' A oedd e felly'n ceisio meddiannu esgyrn ei hynafiaid? Ai ymuno y byddai fe â meirwon y clai? A oedd e rywsut fel Rhamantydd cynnar am gyfathrachu'n well ag oesoedd eraill yn yr un trafferthion, drwy gyflwyno hyn oll i'r Awen? A oedd awen Harddwch ei hun ers tro wedi'i arwain rhag dilyn awen uwch y Gwirionedd?

Nawr, rhoddai ei fryd ar roi'i gorun rhwng dolennau ystyr. Crynhô'i sylw ar hyn o bryd gyflawni'r weithred drwyadl dreiddgar hon. Doedd e ddim am i ddim fynd o'i le.

'Wrth y nileu yn hun dw i'n haeru fod gen i hawliau hefyd; fi sy'n penderfynu ac yn y canol; hen hawl hwylus i ddweud hylô wrth dristwch, hawl i ddweud bod yr hil wedi'i chreu i rywbeth amgenach na drifftio. Ond o'n rhan i, taeru wna-i yn dawel: roedd gen i hawl i liwiau, cwmni plantos, tawelwch llyfr, cenedl fyw. Fe all eraill ymgymhwyso a dweud – "Purion: fe awn ninnau ymlaen mewn llwydni." Ond roedd

gen i Ramant. Roedd gen i Glasur. Roedd gen i ryw fath o hawl i'r dewisiadau hyn. Dw i'n datgan "Na" wrth ildio, "Na" wrth ddarostyngiad, "Na, na, na," wrth ango. Mae hynny oll yn berthnasol. Mae bywyd wedi sefyll ar y gornel a gwthio'i dafod allan ata-i wrth i fi basio. Ond dw i'n honni drachefn fod gen i hawl fach i dipyn urddas hefyd. Beth oedd meddwdod a thlodi ac afiechyd ond sarhad ar fodolaeth, trais ar gariad? Roedd gen i fath o hawl fechan i gadw yn ymennydd i'n ddynol yn wyneb pob ymosodiad ar y nysg. Roedd gen i hawl hefyd i dila-gyhoeddi "Na" wrth adfeilio ... Y peth mwya cadarnhaol ar hyn o bryd yn yr holl fyd crwn yw y "Na" yna i fi yn hun.'

Rhethreg er mwyn rhethreg oedd hyn oll i fod, mae'n debyg, ar ben tomen heb gynulleidfa. A chymeradwywyd e'n gynnes yn ei fodd arferol gan y gwacter. Ond doedd y gwacter ddim yn gyfan gwbl ar ei ben ei hun. Pe bai e wedi peidio â gwrando ar ei lais ei hun, ac wedi codi'i ben o'r newydd, pe bai e wedi syllu o'r newydd ar y tirlun o'i ddeutu, ei Gymru, gwelsai'n ddigon eglur lun yr hen wreigen acw, ei ganlynydd, yn bell ond yn ddigamsyniol, yn llwybreiddio i'r golwg ryw chwarter milltir i ffwrdd. Roedd hi wedi dychwelyd. Roedd ei Hawen hi am fod yn driw i dristwch dysg Cymru.

Hi bellach oedd yn ei erlid e. Allai dim fod yn gliriach. Allai hi ddim symud yn gyflym, ond roedd yn amlwg ei bod hi'n brasgamu cyn gynted byth ag y gallai. Erbyn hyn yr oedd Ieuan a'i ben yn ddigon diogel tu mewn i'r ddolen. Roedd yn barod i gicio'r ysgol i ffwrdd.

'Ieuan, na, Ieuan,' gwaeddai'r hen wreigen y tu hwnt i'w glyw. 'Na!' Wrth ei weld, roedd ei dagrau'n powlio o'i llygaid llwyd. Dechreuai o'r diwedd dosturio wrtho. Cyflymai'i choesau cloff. 'Nid dyna rwy'ti i fod i'w wneud.' Estynnai'i dwylo i'r gwagle. Gwyddai ddyfnder ei chariad ato. 'Y nghariad ffôl, Ieuan,' criai ato. Wylai'n hidl. Roedd hi'n gwbl edifar.

Erbyn hyn, yn anhysbys i Ieuan yng nghanol ei dasg enfawr, roedd hi wedi cyrraedd y cae, ac yn brysio orau y gallai tuag at y dderwen. Ond roedd Ieuan bellach ar ganol rhythm ymroi i'r crogi. Megis y bydd holl brif hydred a chynnwys bywyd yn fflachio o flaen llygaid y meddwl i cyn darfod, yn achos Ieuan y funud yna gorymdeithiai panorama dysg oll. Fe basiodd holl draddodiad llenyddol Cymru o flaen

llygaid ei feddwl. Dyma'i orffennol e. Ond yna, aeth ei feddwl yn bŵl yn ddisyfyd. 'Dyled swydd' i'w wlad fu'i fywyd ar ei hyd.

Ond fuodd e erioed yn ddigon o ddifri ynglŷn â hi. Cloffwyd e gan y gwirod. Mynd ar ôl yr hyn a oedd yn ddarfodedig wnaeth e, mynd ar ôl yr allanolion, esgeuluso rhuddin y mawl, y gwerth, yr anrhydedd, y gogoneddu. A'r funud yma roedd hi'n rhy hwyr. Collodd ei ymwybod nawr, wedi colli'i gyfle.

'Er mwyn y Gorffennol,' meddai fe fel llwnc-destun tawel wrth yr awyr ar eiliad y suddo i lewyg. 'A Chariad at a fu!' Taflai fe'r ysgol oddi wrtho, mor felodramatig ag y medrai, ond crogodd heb syrthio odid ddim fel pren dan y pren oherwydd i'w wisg gydio mewn cangen a'i ddal e gerfydd ei ddillad. Crogai'n ara, a'i ddychmygion a'i ddyheadau oll yn fyddin ar gil drwy'i ymennydd. Cafwyd gorymdaith chwim yn ei ymwybod er hynny, mae'n wir: Stanley, Cuthbert, Edward Richard, Twm o'r Nant: nid y panorama a arfaethai fe. Dyma'r dyn bawdd yn derbyn y boddi. Ond cythryblai breuddwydion blithdraphlith drwy'i galon. Roedd e wedi rhamantu yn y ffordd dlawd; roedd e wedi ceisio amrywio heb undod; teimlai heb ystyron; roedd ei Ramantiaeth wedi atrefnu serch; roedd ei fywyd personol diffirwyth yn ei ddirdynnu.

'Roeddwn yn gwrthryfela'n erbyn y cysyniad o "ddyled swydd", yn y berthynas rhwng gŵr i'w wraig a gwraig i'w gŵr. Roedd yn ddyletswydd arna-i briodi'r hen wreigen, mae'n siŵr. Onid hi oedd yn Awen i? Ac roeddwn am i'r "ddyled swydd" fod yn egwyddor brydferth.' Fan hyn yng nghanol ei weithred, roedd dychmygion Ieuan fel pe baen nhw'n ymyrryd, a'r berthynas amhosibl rhwng gwryw a benyw yn ei arteithio. Saethai'i serch i ganol yr uniad. 'Mae'r ddyled honno sydd ar ŵr i'w wraig a gwraig i'w gŵr mor anferth nes na all bardd hyd yn oed ei hamgyffred. Roedd mam yn iawn. Mae yna gefnfor diderfyn o ddyled arna-i. A dwfn mewn dyled yw'r cyflwr iach, a gwybod hynny.' Parhâi'r orymdaith o'r newydd: Siani, Mam. A'i Fam yn hiraethu am drefnu gwraig gywir iddo. Dyna oedd tarddiad angerddau'r cefnfor gwyllt – y gyd-ddyled honno sy gan y sawl sy'n gwybod am brofi dyled cyd-ymostwng, ond heb fod yn ymwybodol am eiliad o beri'r ddyled honno i neb, fwy na'r fronfraith sy'n pyncio ar un o frigau'r bore. Wyddai fe ddim sut y gallai dalu'r ddyled honno. Collodd y fraint oherwydd ei holl hunanoldeb.

Roedd yr hen wreigen wedi'i gyrraedd erbyn hyn. Brysiai hi. Edrychai hi i fyny ato. Dodai'r ysgol yn benderfynol yn erbyn y goeden. Yn llafurus, ond yn ddiymdroi, dringai'i henaint hi i fyny ato. Torrai'r rhaff a ddefnyddiodd e. Datodai'r cwlwm dillad yn benderfynol. Pysurrai, prysurrai. Cyn gynted byth ag y gallai, syrthiai corff Ieuan yn llipa i'r llawr fel gollyngdod, fel hen draddodiad wedi darfod. Gorwedda'i yno'n ddigyffro brydferth megis o ddyletswydd, ond yn llawn addewid newydd.

Dringai'r Hen Wraig i lawr ato. Roedd hi'n ddu edifeiriol fel pe bai bellach am ddatad-wneud y cwbl o'i hesgeulustod. Dechreuai gusanu'i hwyneb, ei wallt, ei arleisiau, ei glustiau, ei wddwg. Roedd hi'n wyllt yn ei blastro. Allai hi ddim ymatal. Roedd hi'n deintio'i ysgwyddau, a'i wyneb, ei fynwes, a'i wyneb drachefn. A fu hi mewn pryd? 'Ieuan, Ieuan. Fe oedd yr holl Orffennol hwnnw. Ac mae'r holl boen wedi dod i hyn. Y blynyddoedd llawn a ffrwythlon wedi'u crebachu'n ddim,' murmurai hi. 'Wedi mynd.' Roedd hi'n ei chladdu'i hun ynddo fe, ei thrwyn, ei haeliau, a'i thalcen, yn ei wallt caglog. Ei chariad gorau hi ei hun oedd hwn: boneddigeiddrwydd y gorffennol oll. 'Pam?' ebychai hi. 'Pam? Na, na, dw i'n gwybod pam. Mae'n rhaid nawr iddo ddod yn ôl i fywyd normal. Mae gynnon ni lawer i'w wneud gyda'n gilydd.'

Teimlai fe, sut bynnag, fel pe bai wedi marw. Gorwedda'i fe fel petai heb anadl. Roedd yn rhydd bellach rhag cythrwbl, yn rhydd wedi'i iacháu. Ddeuai awydd cwrw byth ar ei gyfyl mwyach na'r un trachwant i astudio llawysgrif. Dirwynai'r holl orymdaith i ben. Roedd yr Esgobion Eingl oll wedi ymddeol a'i adael e wedi'i wisgo mewn gruddiau gwelw. Newidiai. Gorwedda'i yno mewn talcen cannaid arswydus, gan led-anadlu drwy wddwg cleisiog hen. Roedd yn fyw. Rhoddai rhagluniaeth gyfle newydd iddo. Ymroliai'i edifeirwch ger ei fron.

Dyma ond odid ynddo fe draddodiad uchelwrol Barddas ar ei hyd, ynddo fe'n oer ar borfa. Ar ei bwys roedd dwy fronfraith yn ffwdanu heb sylwi arno. Ac er gwaetha'u gallu didrafferth i gyrraedd y nodau ucha gydag amrywiaeth ac arddeliad gloyw, hidien nhw fawr am y ddawn honno y funud yna. Tybed onid yma ar eu pwys, ynddo fe, roedd meistr yr adar oll? Yma yr oedd ei dwitian pryderus yn ddiotal, wedi'i adael – fel y gadaw-wyd e mor fynych yn ystod ei oes – yn ddistadl ddisylw gan awdurdodau'r byd hwn. Erbyn hyn, er nad oedd e'n agor ei lygaid, sylwai'r hen wreigen

ei fod yn dadebru'n flêr ond yn amlwg yn newid. Na. Oedd. Am gyfnod byr, ychydig o waed ei Orffennol oedd wedi dal i sleifio drwy'i wegil. O'i berfedd, yn ara nawr, sleifiai ochenaïd yn anghysurus rydd.

Roedd e wedi methu eto.

Ond fe sibrydodd yr hen Wreigen yn ystyfnig, yn raslon.

'Rown i'n gwybod... Fe elli di... Ieuan... Fe elli di ddechrau drachefn...' Cusanai hi fe'n awr ar ei ddeurudd. Doedd ei Bresennol ddim yn hollol siŵr a oedd e am ailddechrau byw fel hyn; ond fe sisialai'r Gorffennol wrtho, yn ôl ei arfer, ei awydd hurt. Meddai'r Wreigen ffyddlon: 'Mae hynyna drosodd, Ieuan. Nid dechrau drachefn sydd ar ôl. Anwiredd oedd y cwbl oll hwn, ac fe sylweddoli di hynny, yn ddiâu, os byddi di'n mynd i Langeitho.. Fe elli ddisodli'r cwbl hwnnw... Dw i wedi dy gadw di. Rwyt ti'n fyw. Mi wnes i ngwaith.'

Lledagorodd Ieuan ei lygaid. Mor waraidd oedd hi fan yna, a'i henaint hi'n llifio amdani. Yr hyn a atynnai'i sylw mewn amrantiad oedd caboleidd-dra ei bochgernau. Denen nhw'i lygaid e fel goleuni mewn crisial. 'Wel?' murmurai fe. Edrychai fe o'i amgylch gyda chrym ddadrithiad. Os hyn oedd marw, gallai gael ei well.

Anadlai'r hen wreigen uwch ei ben e'n ara dros ei lygaid. Dôl'r Dyfodol y funud yma ar oleddf draw tuag ato yn gyflym dros ben Pumlumon. A throi'n Bresennol yn y fan a'r lle, ac yna ar ei bwys, trôl'n Orffennol diogel drachefn, fel yr oedd i fod i'w wneud.

Ond ymddangosai mai ychydig o Bresennol a ddigwyddasai erioed: doedd prin dim wedi bod. Dichon mai'r esboniad oedd y gallasai fod yn lled-farw eisoes yn ei fuchedd ynghynt ymhell cyn ceisio'i grogi'i hunan. Cyn y weithred hon, onid oedd tameitiach mân o angau – a feiddiai fe ddweud 'pechod'? Eisoes ar nawf fel broc môr ym mhob un ohonon-ni drwy'r amser, os clyw-wyd erioed damaid o'r gwirionedd, onid oedd ambell un ohonon-ni yn fwy na'i gilydd? Bytheiriai'n dyner. Ych! Roedd cymaint o wlybaniaeth frown ar waelod ei stumog, gallech lawnsio llynges o hwyaid arni pe plygech chi'n ofalus.

Ac eto, na, roedd e wedi methu drachefn... Dyna oedd wedi digwydd. Methodd â'i grogi ei hun. Hen, hen stori. Doedd marw ddim fel y bu. Roedd e wedi ffaelu... A byddai aflwyddo i farw, o bob dim, fel hyn – byw o hyd o bob peth ar glawr daear – yn fwy byth o fethiant. Cwestiwn dirgel diateb o fath iddo fe felly oedd hunanladdiad o hyd, nid ateb. Ymholiad oedd. Doedd y peth ddim yn egluro odid ddim.

Eto, roedd yna fymryn pitw o ateb ar ei bwys e o bosib. Roedd yntau, y Cymro tlawd hwn, wedi'r ymgais yna i'w ladd ei hun, rywsut yn gymaint â hynny yn fwy o fethiant. Roedd e yn hyn wedi tra rhagori mewn oferedd. Llwyddodd i fethu ychydig. Dysgasai ymwacáu hyd at y gwaelod. Caeai ei lygaid drachefn yn awr, a suddo'n ôl i anymwybod perffaith, yn noeth ei angen.

Erbyn hyn roedd tri bach wedi dod i'r golwg allan o'r tŷ, gyda'r fam yn bryderus ar y blaen, Siani'n isel ei hysbryd yn ei sgil, ac Edward Richard yn bwyllog o'r tu ôl. Ni welsai'r un ohonyn nhw'r grogfa seithug.

'Dacw'r ffŵl!' meddai'r fam, gan frysio draw at gorff Ieuan yn gorweddian ar y llawr gwlyb-domen, ar ei lawn hyd, o dan y goeden. Gorweddai'n sadistaidd o sad.

'Ieuan bach! Dyma lle'r wyt ti drwy'r amser, y pwdryn. Yn pendwmpian eto ar y llawr!' Roedd yr Hen Wreigen hithau wedi diflannu'n ymddangosiadol fel gwlyb, megis oes a fu. Gadawodd hi wrthrych ei serch yn ddirugaredd ar y tir yn wlyb i gael annwyd os dyna oedd ei ddewis. Troesai fe ar ei fol gwlyb tua'r ddaear. Y ddaear sefydlog.

Ai yno'r oedd y Wrach? Ei cheisio hi y bu e, yntau, a diflannu a wnâi hi bob tro. Doedd *hi* ddim wedi newid. Bu e'n barod i rodio ar draws gweunydd gwlyb diderfyn ar ei hôl hi. Cafwyd cymaint o hwyl. Bracsaï yn ei feddwl hyd ei gluniau drwy afonydd er ei mwyn hi, dringo a dringo mynyddoedd gwlyb, ymlaen ac ymlaen, ar hyd llwybrau labyrinthaid gwlyb, er mwyn ei chyrraedd hi. Dichon ei fod cyn cychwyn yn gwybod ei bod hi'n anghyraeddadwy. Ond rhwystr arall, rhwystr bach, oedd tybiaeth felly. Ymlaen y bu'n rhaid i Ieuan gyrchu erioed yn swp swp swga drwy'i hunlle hir.

A'i cholli hi a wnâi o hyd, wrth gwrs. Doedd hi ddim yno, – dyna'r gwir, – er ei fod yn gwybod ei bod yno. Ond o leia, roedd yn amgyffred beth roedd wedi'i geisio. Hi oedd yr Hiraeth ei hun. Ddim unrhyw beth yr hiraethai amdano. Ond yr Hiraeth ei hun

a'i rhagflaenai. Yr Hiraeth a geisiai ddysg, er bod honno; nid yr Hiraeth am deulu a chariad; nid yr Hiraeth am gredu; ond yr Hiraeth a adeiladai'r annog a oedd yn sail i'r Greadigaeth a'r Arglwyddiaeth a'r Maddeuant. Hi oedd yr un ffyddlon a'i canlynai. Oni cheisiai llawer o bobl hi o bob man, heb wybod beth a geisien nhw? Ond pan oedd hi wedi'i geisio fe, ffordd oedd hon i'r miliynau ar draws tiriogaeth affwysol, gyda'r pontydd i gyd wedi'u tynnu oddi yno. A ffydd yn unig o ryw fath oedd ganddo am ystyr elfennaidd yn ei gylla ar hyd y ffordd hir honno heb obaith. Dadebrai Ieuan yn ara gyda phwyll. Aethai'n rhy bell bron, y tro hwn. Ond fe'i gwyddai hynny.

'Dere o'na, 'machgen bach drwg i,' meddai'i fam. 'Cei di annwyd nawr, mor siŵr â bod Mawrth yn y Grawys.'

Doedd ganddi hi na chan Edward Richard chwaith yr un clem beth a ddigwyddasai. Y rhai a'i carai fe i'r gwaelod, allen nhw ddim ei ddeall. Ei fam yn anad neb. Lle'r oedd llawnder teimlad, arhosai dim namyn gwacter meddwl.

A phwy oedd y wrach anweledig honno hefyd a'r forwyn fach acw ond dwy a estynnai freichiau cysurlon ato yn ddigwestiwn a'r breichiau hynny'n gorffwys yn gariadlon ddi-dddeall ar y gwagle? Yr hen oedd y gwrth-ddifaterwch mawr, a'r ifanc oedd y ddynoliaeth fechan naturiol. Cydymdeimlen hwythau, a mynnen nhw gynorthwyo; ond suddo ar eu gliniau a wnaen nhw mewn diymadferthedd. Doedden nhw ddim wedi'i ganlyn e ymhellach na phen draw'r byd.

Allai'i fam ddim mynd gydag e yn ôl i'r bywyd a ddaethai ag e i'r fan hon. Safai hi yno; ac roedd rhyw loywyder yn ei chlustiau wrth syllu tuag ato.

Allai Siani ddim mynd gydag e ond i'r symlder a oedd yn esgeuluso cymhlethdod.

A dysg? A'r traddodiad? Ble'r oedd beirdd profiadol Cymru pan oedd eu heisiau nhw? Oni allen hwythau nawr hefyd estyn cymorth iddo? Ble'r chwedleuwyr gwerin, a'r cyfarwyddiaid aristocrataidd di-ri? Ble'r diarhebion a'r hen benillion? Ble'r llawysgrifau? Nhw oll, a'u gwareiddiad encilgar nhw, oedd ym mhen draw'r twnnel, dybiai fe. Yr awdlau, yr englynion? Nhw oedd y cywilydd o aros-heb-newid ac o



newid-heb-aros. Doedd neb ohonyn nhw yn ei ddeall. Ddeuen nhw ddim pan oedd eu heisiau. Gorwedden nhw oll yn ddiddadl nawr ar y glaswellt gwlyb yno. Ond i beth?

Lledrod hithau, y lle real yng nghefn gwlad, a estynnai'i chrafangau amdano lle bynnag yr âi. Ac eto, doedd hi ddim yno. Alltudiwyd e rhag y werin datws yn llawysgrifau'i wlad ei hun, gan ei wlad ei hun. Lledrod.

'Nawr dw i'n sylweddoli, meistres,' meddai Siani'n betrus, 'gymaint rown i'n ei garu.'

'Twt, Siani. Does gen ti ddim syniad.'

'Sut?'

'Dim syniad beth yw cariad... Rwyd ti'n llawer rhy ifanc.'

'Ifanc! Ond yr Ifainc dybiwn i erioed yw'r arbenigwyr mewn caru,' meddai Siani. 'Yr ifanc a wŷr: yr hen a dybia.'

'Nid peth sy'n perthyn i un genhedlaeth yw caru,' meddai'r fam. 'Mewn cloffi ac mewn ango, mae cariad, fel caws ara a gwin arafach, yn cryfhau. Dyw cariad ddim yn gallu dod i'w oed ond ar ôl blynyddoedd o waedu.'

'Ond sut, meistres? Sut heddiw? Dw innau'n barod i waedu.'

'Dyw cariad byth yn bodloni ar wylltineb dros dro. Oherwydd caredigrwydd mam yw. Mae 'na haenen dawel, drwchus, gudd, glwyfus ddiddig mewn caredigrwydd yn dygnu. Dyw caredigrwydd byth yn blino. Does dim llenwi ar ei fol, er bwyta dros yr ymyl. Nid gwirion yw caredigrwydd chwaith fel tonnau'n torri ar graig. Casglu'r gwydrau fesul un yn yr ysgubor yw caredigrwydd: yn yr ystafell wely, yn y beudy, a'u golchi a'u codi i'r gwefusau a'u cusanu cyn eu rhoi nhw i'w cadw o'r golwg. Caredigrwydd yw'r staeniau caru sy'n aros ar y galon ar ôl iddo yfed pob defnyn sy yno- i allan ohono-i. Cardotyn yw caredigrwydd sy'n barod i guro ar ddrws nas agorir. Mewn anghysur dŷn ni'n caru fan hyn mewn caredigrwydd fel sen ni eisoes yn byw mewn byd arall.'

Ond roedd hi'n anghywir.

'Dych chi'n swnio fel symbal yn tincian, meistres,' meddai Siani.

Ond roedd y gwrthrych gwrywaidd cariadus ei hun eisoes a phob amser mewn math o fyd arall. Sobrai fe, sut bynnag, fel pe bai yna Ieuan cudd arall ganddo wedi'i wasgu o'r diwedd – ei fanglo yn wir – a'i dynnu allan o'r dŵr yn wytnach. Roedd e wedi newid, doedd dim dwywaith amdani.

Aethai Ieuan ar ei sgowt drachefn yn ei ddychymyg hen, ond yn ddyfnach y tro hwn nag erioed. Wrth basio rhai o'r mwynfeydd yng ngogledd Ceredigion yn y gorffennol, hoffasai Ieuan ers tro yn dawel bach y syniad o deithio'n danddaearol, megis nhw. Bu ei holl archwilio yn fodd i ddyfnhau'n lanach. O leia, o'r golwg yn isel buasai'n ysgafnhau'r profiad effro o drafaelio ar wyneb y tir drwy ddileu'r rheidrwydd o weld ei fethiant yn wyneb haul. Trafaelio drwy fwynfeydd Lewis y Tew. 'Dyna'r dechneg amdani. Ond beth yw'r nod?' Yn feunyddiol, fe'i plagiwyd e yno fel arfer uwch daear gan rwystredigaeth, fe'i herlynid ef gan ddifrawder, fe'i cyhuddai'i hun, ofnai, casglai euogrwydd; a normaliaeth bywyd, priodas, magu plant, chwerthin, chwarae, pethau uwch daear, doedd dim o hynny iddo namyn plu'r gweunydd yn y gwynt gwantan. Ie, o hyn ymlaen, fyddai dim ond trafaelio tanddaearol amdani, fel pe bai'n twrio drwy fwynfeydd Pumlumon allan tuag at y bywyd gwir. Dôi hynny allan i'r golwg wrth ddringo o'r hunlle.

Roedd e'n gwybod nawr ei fod wedi ffoi erioed rhag un lefel mewn Dysg, a ddatodai'r lefelau eraill i gyd. Dechreusai'i deall yn well. Roedd y da a oedd ynddi wedi bod yn erbyn ei hunan ei hun. Ond yr oedd y gwir ddrwg nas cydnabu yn erbyn y craidd, yn erbyn ei Grëwr. Dyma'r lefel dan ddaear Ceredigion a osgoasai, lle yr oedd iaith, a llên mewn iaith, yn llefaru yn nychryn y Ddeddf waelod. Dysg oedd wedi'i hiacháu gan y Gwir a fframiai'r Cread.

Trodd Siani 'bant mewn siom am ychydig. Roedd hi'n gweld Ieuan fan yna ar y llawr wedi'i galedu gan ei dreialon. 'Tynerwch, dyna oedd eisiau arnat ti,' sibrydai hi i'r gwynt amdano wrth gilio heibio. 'Nid crwydro o beint i beint, nac ymlusgo o lawysgrif i lawysgrif, nac o ddadl i ddadl, gan gau pobl eraill allan o'r galon. Un hawdd oeddet ti i'w garu, Ieuan, yn sefydlog ond cest ti dy galedu'n grimp grachen. Doeddet ti ddim yn

gwybod yr un ffordd arall i garu heblaw mynd yn wyllt o gwr i gwr, o Esgob-Eingl i Esgob-Eingl, yn galedrwydd cras i gyd... Ac eto, yng ngwyll dy ddychymyg, rhwng y brigau a'r canghennau i gyd, fe gest ti un tynerwch bach cudd, hyhi yr hen Wrach gas honno. Alla-i ddim gwadu hynny. Dw i'n sylweddoli hynny nawr.'

Atebodd ddim o'r gwrthrych dadebrol blinedig. Ai dyna i gyd oedd y cwbl a amgyffredai hi ohono fe o hyd? A oedd hi wedi yngan ei angen? Roedd e wedi suddo drwy gydol ei oes y tu hwnt i waredigaeth, ac aethai'i sylweddoliad fel mellten oer drwy asgwrn cefn Ieuan. Chododd e erioed cyn hyn allan o'r cyflwr hwnnw ddigon i gwmpasu Siani na'r Hen Wreigen gymhleth a'i twyllasai fe. Ond yn awr, wedi'r oeri, wedi'r sychu ara, wedi'r pellterau, ar y gair a gododd e oddi yno, do, fel y gwnâi ambell hen geffyl trwsogl, bron fel petai'n maglu ar ei draws ei hun ar ddwy goes yn gynta ac yna'r pedair coes wedyn, a'i glustiau'n felin wynt, a'i ysgwyddau'n cario'r cymylau, cododd Ieuan i feddiannu o'r newydd, fel trysor amhosibl, beth o'i sobrwydd cynnil, ofer. Clensiodd ei ddannedd, ac meddai wrtho'i hun, ac wrth unrhyw un arall a glywai'i ysbryd dihunedig: 'Dw i'n mynd i Langeitho.' Dyna'r cwbl. Dim mwy.

Gwelsai gan bwyll nad oedd yr hyn oll a welsai ac a sylweddolasai ynghynt namyn dihangfa. Yr hyn y gwrthodasai'i weld oedd nad oedd Dysg heb ei galon buredig e ddim yn gyfan gwbl annysgedig. Profodd ragdyb goruwch rhagdyb yr Ymoleuo. Roedd Cynllun Cosmoleg y Gair yn barod i gynnwys gwerthoedd ystyrion. Mynnodd dogma'r Ymoleuo – *sola scientia* – ar y llaw arall, mai dim ond *mater* a fodolai, heb ddiben, heb reswm. Doedd bodau oedd yn gallu amgyffred rhywbeth uwchben prosesau “naturiol” ddim yn dderbyniedig gan yr Ymoleuo; ac fe alltudid yr enaid, heb hawl, gan y dyn-ganolog. Profodd nawr anwybodaeth calon. Fe wybu ddieter, ond nid dieter hunanol dialgar cnawdol, eithr y sylweddoliad anghyfarwydd o'r sarhad o berson Duw. Fe wybu hefyd y dieter angeuol gariadus ei hun yn erbyn dieter y byd. Dyma lid glân y Tad. Nid brwydr rhwng dyn a dyn oedd y drwg. Nid brwydr naturiol chwaith rhwng dyn a'r ddaear. Nid moesolrwydd. Ond golwg ofnadwy'r Tad ar ei Ddeddf e yn Ieuan. Dyma'r ofn nad oedd a wnâi ag elfenolrwydd cnawd, ond ofn y sanctaidd. Drwy weld hyn yn unig y câi'r buredigaeth, ym marw aberthol y Mab yn sefyll yn ei le fe yng nghyfarfod mawr y Farn, yr un cwbl gyfiawn yn lle'r cwbl anghyfiawn. Hyn, yr

amhosibl ynghynt, a'i glanhâi, yr hyn a wnâi Duw ohono fe yn Ei holl allu drosto fe. Ond sut?

Llangeitho? Beth oedd yn digwydd fan yna? Roedd yr enw'n canu hen gloch loyw.

Gyda'r penderfyniad hwn, twmblodd ffiriliau dysg a ffiriliau cwrw oddi wrtho ac oddi arno. Plisgon nhw i'r llawr. Collasai bopeth arall: oni châi goll'i'r rhain hefyd? Roedd yr hen Wreigen Ddysg honno bellach ei hun wedi cefnu arno, i'r tir ac o dan y tir am byth; roedd yr hen wreigen ei fam hefyd wedi'i goll'i fe, a hithau mewn anneall syml nas gwaredai wedi ymadael ag ef. Collasai holl hyd ei fywyd, ei bopeth. Collasai unigrwydd Siani. Aethai pawb, ond y newid. Ond murmurodd Ieuan drachefn yn ddisigl ac yn annisgwyl ei lais: 'I Langeitho.'

Atseiniai'r ne: 'I Langeitho!'

A galwai Ieuan drachefn: 'Rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonau dynion.' 'Ysgrifenna hyn mewn llyfr yn goffadwriaeth.' 'Ysgrifenna, oherwydd dyma eiriau ffyddlon a gwir.' 'Mae'r rhain wedi'u cofnodi er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw.'

Cerddai nawr gyda mwy o afael nag a wnaethai ers degawdau. Dinoethwyd ei ymennydd yn grisial fel nas gwnaethpwyd e erioed o'r blaen. Ychydig o'i led-ôl roedd Siani yn dilyn, ac yn benderfynol o ddilyn Ieuan, doed a ddelo. Yn ei sylmlder, roedd Siani'n sicrach *am* y ffordd ac *ar* y ffordd nag e. Er mor ddarostyngedig oedd hi yno, yr hyn a oedd ganddi oedd hen brofiad o uniondeb elfennol cariad, a sylweddoliad od o dlawd nad ynddi hi roedd yr hyn yr hiraethai fe na hi amdano fe. Roedd Siani – er gwaetha syfrdandod ei phlygiant – yn yr union un cyflwr hiraethus am glywed a gweled cartre tragwyddol ag a oedd arno fe. Dau dderbynnydd oedden nhw i gerdded gyda'i gilydd. Gwnaethpwyd hi'n barod. Nid anghyffredin ei dryswch hi. Chafodd hi ddim, fel Ieuan, gymhlethrwydd o adnoddau. Lwyddasai hi erioed i ganlyn ei Ddysg na'i Awen e; ond o leia, gallai hi wneud hyn o siwrnai gystal ag e. Buon nhw am gyfnod gyda'i gilydd mewn math o garchar, y carchar lle y pydrai pawb nas sylweddolassen nhw. Teimlodd hi iddyn nhw fod heb ddim modd i fynd allan. Digrifwch trist oedd weithiau.

Ond nawr roedd Ieuan yn barod i ddweud sut roedd arnyn nhw, a sut roedd e. Roedd yn barod i glirio'i ben. Ychydig a ddatguddiwyd iddo, yn ddiau, heblaw'r cyfeiriad y dylai ganlyn. Fe âi hithau hefyd o dan yr un datguddiad ag e, ond heb ofyn cwestiynau, eithr yn barod gydag e i dderbyn yr atebion mwyach. Mor ychydig yn wir a wydden nhw.

'Gwn yn dda am Langeitho,' meddai hi fel un a gawsai rodd. 'Fe fues i yno un tro gyda Jac Pwll-yr-Onnen. Cawn wybod mwy ar ôl cyrraedd. Cawn wybod y Ddysg a'r Ddawn, y Rheswm a'r Tân. Awn ni'n dau i lawr yno.'

'Diau nad oes dim modd mynd yno mewn cryfder,' meddai Ieuan. 'Fe guddiwyd yn llygaid i hyd yn hyn,' meddai fe'n fwy gwylaidd na'i arfer. 'Ond mi ges innau weld y lleiafswm craidd.'

'Ac roedd hynny'n ddigon,' meddai Siani o ryw waelod a fu'n gudd.

'Oedd,' meddai fe, 'orffennir dim o'r gwybod hwnnw am Dduw byth. Rhyw fymryn a gawn ni wybod ar y dechrau. Yn Llangeitho, mi gawn glywed arucheledd sy'n berffeithrwydd, rhyw arallrwydd sy'n ddifedur. A hynny i gyd er mwyn ein tlodi ni a'n gwacter. Ond y sioc fwya a gawn yno fydd gwybod y Cariad maddeugar ei hun, ei ddirgelwch hunanddatguddiol, ei sancteiddrwydd, a'i gael i gyd mewn un Person. Cawn wybod digon. Byddwn yn methu'n lân yno â deall pob dim, ac eto'n deall pam na fydd pawb yn y byd yno yn cuddio'u llygaid rhag gweld purdeb y Duw hwn, na phawb oll yn rhuthro'n ddihunan i syrthio o'i flaen.' Ac yna, oddi ar ei go, cyfieithai Ieuan yn dawel o'r Lladin: 'Ac yno, trwy ddychrynfeydd trist, y gelwi'n brudd ar Iesu Grist; yr Hwn, pan oeddit yn dy wynfyd, ni chofiaist unwaith yn dy fywyd.' Bywyd!

Bu'r cyrraedd hwnnw'n eithriadol o wyn.

## Y LLWYDDO

### 1

Nid cynghori roedd ei thad, ond gorchymyn. 'Cer,' criodd e. Roedd ei waedd gre yn cael ei rhwygo o'i ystlys. 'A thowla'r hen gaethiwed 'ma ... unwaith am byth.' Syllai Siân arno fe'n syn. 'Cer yn yn lle i,' gwaeddai fe. Roedd-e yn llygad ei le wrth gwrs, druan. Roedd ei meddwl hithau'n cytuno, – er bod ei chalon yn dweud fel arall. Dymuno'r gorau roedd e. 'Bant â ti, ferch, yn awr, ti'n clywed, heb ragor o ffidlan!'

'Paid â gwrando arno fe, Siân,' sibrydai'r fam yn gynnil. Gwelai Siân y cartre'n cau'n ôl amdani'n rhanedig. 'Paid â gwrando arno fe, Siân.' Gwasgai'r papur-wal serog, y celfi a'r teulu yn glawstroffobig am Siân. Gofynnai iddi'i hun a oedd ganddi hi unrhyw ddewis. 'Paid,' murmurai'r fam drachefn.

'Rhed,' gwaeddai'i thad yn gyflym ymhellach. 'Achub dy gyfle. Yn glou. Rwyt ti'n fyw ferch. Ar hyn o bryd ta beth. Mae yna urddas menyw 'da ti,... ac i fod felly. Paid â gadael iddyn nhw dy glymu di yn y lle 'ma.'

'Na,' cytunai Siân â'i thad, a'i thalcen yn wresog.

Beth bynnag am ei ymddygiad, roedd geiriau arwrol yr hen ddyn yn gywir. 'Mae pawb am yfed dy waed di hyd y diferyn ola. Rhed, yn rhydd,' meddai fe.

'Ydyn,' cydsyniai hithau'n freuddwydiol. Ond symudodd hi ddim. Roedd cysgod cartre'n hofran ar y gorwel o hyd, ac yn ei bygwth. Ceisiai'i thad alltudio pob delfryd a oedd ganddi am ei chartre. Cynigiai fe geiniog iddi unwaith am bob breuddwyd y llwyddai hi i'w thagu, nes iddo sylweddoli y byddai'n rhaid iddo forgeisio'r tŷ.

'Mae'n bryd i ferched hawlio'u lle, ac achub eu hawliau, on'd yw hi? Paid â gadael i ti dy hun gael dy gau mewn gobeithion seithug.'

'Dad!' Ymddangosodd Hywel yn sydyn ar ganol y gegin. 'Mae dyn wrth y drws.'

'Beth mae e'i eisiau?'

'Eisiau dy saethu di.'

'Dyna'r cwbl?' Annifyrrai'r tad yn ddig, gan adnabod diffyg hiwmor ei fab hyna.

'Ie – a saethu Siân hefyd, wrth gwrs.'

'Dwed wrtho fe am ddod 'nôl fory.'

'Pam?'

'Fi sy wrthi yn hun nawr yn saethu Siân.' Ciliodd Hywel. Teimlai bob amser, pan ymyrrai â sgwrs ddifri rhwng ei dad a'i chwaer, mai tarfu ar gyfarfod o ddiaconiaid roedd-e.

'Pwylla, Siân fach,' meddai'r fam yn or-gariadus drachefn, gan adnabod bachyn llym yn nofio dan wyneb y dŵr pan welai'r crych lleia.

'Paid â gwrandu ar honno,' mynnodd y tad eto,... 'ddim pan fydd hi'n defnyddio'r llais yna. Gwrandu wnes innau'n llawer rhy hir. Ces i lond tagell o wrando.'

Roedd meddwl y tad y funud yna'n uchel ac yn gras, efallai oherwydd ei fod e wedi arfer bod mor ddychrynlyd o dawel erioed. Deuai'n ôl o'r ganolfan bysys bob dydd wedi ymlâdd, a suddo i'r gadair a chloi'i lygaid, eu bolltio fel cell, a'i wallt trwm dros ei glustiau, a'i atgofion trwm yn sefyll fel bws wedi'i dorri i lawr o'i fewn. Ac yno'r arhosai'n gwbl lonydd. Arhosai'r tad yn drwm fel arfer heb syflyd am ugain munud yn union nes estyn yn ddall am lyfr, a phori drwy'r llythrennau yn ara fel glasier, heb ond odid godi ond i swper. Wedyn, tan amser noswyllo arhosai'r un fath, heb droi'r tudalen cynta ambell waith am awr gyfa. Fel pe bai wedi'i lyffetheirio wrth y llawr, doedd ganddo fe ddim o'r nerth na'r chwant i anadlu...

Heddiw, sut bynnag, gyrrwr-bws gwahanol oedd e. Roedd rhyw nwyd anhyblyg wedi cydio ynddo fe a chodi'i lais. Roedd breuddwydion ei ferch wedi'i newid e.

'Gwilym, dal sownd. Rwyt ti'n ei throi hi ma's o'r tŷ,' meddai'r fam wrth ei gŵr. Pwyllodd y gŵr ychydig. 'Wel!' meddai'n heriol, fel pe bai'n gofyn i'w wraig pam lai; ond llyncodd ei boer. Oedd, roedd e bron â thaflu ei ferch o'r tŷ.

'Rwyt ti'n ceisio'i throi hi'n ferch amddifad dros nos,' meddai'r fam ymhellach.

'Efallai mai dyna fysai orau i bawb ohonon ni.'

'Heb neb oll yn perthyn iddi? Heb yr un fam na thad na neb?'

'Dw i'n gwneud dim o'r fath beth,' protestiodd ei gŵr yn swrth ymataliol o'r diwedd. 'Dw i wedi dysgu ngwers. Dyna'r cwbl.'

Roedd y fam wedi agoshau at eu merch yn awr ac yn ei chyfarch yn gynnes drwy gyffwrdd â rhan ucha'i breichiau, fel pe bai am ddadrewi'r oergell. Roedd y dwylo'n ymsymud yn ôl ac ymlaen fel mwclis oer ar gadwyni bychain hyd ysgwyddau Siân a'i gwegil. Ym mhob man roedd y fam nawr yn ceisio mesur a hawlio'i thriogaeth a gadael ei haroglau daearyddol fel rhyw fwystfil yn y goedwig yn rhwbio'n erbyn y colfenni.

Fe sylwodd ei gŵr ar hyn, a threiglodd yr ysfa drosto o'r newydd i ollwng ei ferch yn rhydd. Trodd at ei wraig drachefn, a siarad yn dawel garedig.

'Gad iddi fod, Morwen. Allwn ni ddim ei sodro hi yn y llawr 'ma am byth. Allwn ni ddim dweud – “ni biau hon”, hyd ddiwedd amser.' Roedd griddfan cudd ei wraig yn galw. Treiglai i lawr drwy'r cymoedd. 'Chawn ni ddim, Morwen fach,' meddai'r gŵr ymhellach yn dirion. 'Mae'n rhaid inni ildio. Lles Siân sy flaena.'

'Ond rwyt ti'n rhagfarnllyd,' gwaeddai'r fam. Codai'i llais yn sgrech bron. 'Rwyt ti'n rhy awdurdodol, hyd yn oed heb ddweud dim. Weli di ddim? Sbecian ar bopeth drwy wydr crac, dyna rwyt ti wedi'i wneud. Erioed.'

Ac roedd hynny'n wir. Methiant oedd y tad. Ofer oedd ei dynerwch pwylllog. Doedd dim dwywaith nad oedd e'n meddu ar fath o ddeallusrwydd a doniau; ond roedd e wedi claddu'r cwbl er mwyn gofalu am rieni ffaeledig, er mwyn peidio â'u rhoi nhw mewn cartre, a glynu wrth yrru bws. Aberthodd ei ymennydd, aberthodd ei fodolaeth o'r diwedd. 'Dwyt ti ddim yn deall,' meddai fe. Aberthodd ei flynyddoedd er mwyn perthyn. Doedd e ddim am feddwl gormod am y peth mwyach. Roedd am beidio â chwerwi. Ar ôl gwneud y peth hwnnw gynt dros rieni, doedd dim diben pendroni mwyach. Fe'i gwnaeth ei hun yn bŵl drwy waith beunyddiol wedyn yn y golwg, a'i gladdu'i hun o'r golwg mewn darllen gyda'r nos. 'Dwyt ti ddim yn deall.' Roedd hi'n rhy hwyr. Roedd perthyn wedi'i ladd. Daethai'r rhyfel yn ei dro ac afradu'r blynyddoedd. Gwastraff, gwastraff, gwastraff. Bu'i wraig wedyn yn ceisio'i annog e i fentro allan. Roedd yntau



wedi tynnu'n ôl o hyd; ond bellach roedd e'n ymlwybran yn bwyllog tua'r diwedd, yn nesnes at oed ymdeol, ac yn ei holi'i hun a oedd e wedi gweithredu'n ystyriol.

Pa fath o beth fu bywyd iddo?

Roedd ganddo fe gartre diddig; roedd yn dad i bump o blant; roedd ganddo gyflog reolaidd. Roedd y cymoedd mytholegol wresog, cymdeithasgar ffraeth, yn got gynnes hirllaes amdano fe ac wedi adeiladu sefydlogrwydd iddo, ar ôl ei fagwraeth ansicr yng ngwasgaredigaeth parthau o dyddynnod poblog Canolbarth Cymru. Ac eto, roedd ynddo fe'r un pryd siom ddi-droi'n-ôl. Ac nid yn ei fryd e'i hun yn unig. Sylweddolai pawb o'i amgylch gartre mai methiant purion oedd y tad, ac roedden hwythau yn siomedig o'r herwydd. Doedd e ddim wedi cyflawni cyfran o'i botensial druan. Ac er ei waetha'i hun, fe'i gwyddai yntau hefyd hyn i'r eitha.

Bellach roedd ei ferch, Siân, – fel pe bai'n ddirprwyol ac yn ei le – yn lled awgrymu y gallai hithau daflu'r gefynnau pe câi gyfle. Meddai hi ar allu tebyg i'w allu fe, a mynnai hi nawr roi llwybr rhydd i'w doniau, dianc rhag ei hamgylchiadau ysigol, ffoi rhag y perthyn troetrwm gartre, mentro allan chwap i fyd masnach lle y dangosai eisoes fod ganddi hi gryn addewid; ac felly y câi'r arian i ganiatáu bopeth iddo. Ac ynddi hi y byddai fe'n cael ail gyfle.

Ymddangosodd Hywel eto. Edrychodd ei dad yn dosturiol tuag ato: 'Y dyn llaeth?'

'Ie,' addefodd Hywel.

'Beth mae e'i eisiau y tro hwn?'

'Holi y mae e a wyt ti'n cytuno â Hegel ein bod ni'n dod o hyd i egwyddorion y byd allanol wrth fyfyrion ar egwyddorion y meddwl sy wrthi'n rhesymu.'

'Ac mae e eisiau ateb heddiw, dydd Iau?'

'Neu bnawn Gwener,' meddai Hywel. 'Y dosbarth-nos oedd wedi dyrchafu Hywel am foment, ac roedd e am ei ddangos ei hun, a bod yn boendod i dorri ar draws y cecran.'

'Gwed wrtho “bnawn Sadwrn”: dyna “gyfosodiad” gweddus i Hegel,' atebai'i dad yn yr un cywair. 'A gwell iddo ailfeddwl am sail ei ragdybiau cyn hynny.'

Ciliodd Hywel drachefn.

'Bydd arnat ti hiraeth, cofia, os bydd Siân yn ymadael,' addawai'r fam i'w gŵr, er mwyn dwyn synnwyr cyffredin i'r ystafell.

'Dyw Caerdydd ddim yn bell,' haerau Siân, â'i golwg ar y cyfle.

'Mae pob arwahanrwydd yn bell. A heblaw hynny,' meddai'r fam, does dim rhaid iti aros i lawr 'na. Gelli di deithio'n ôl ac ymlaen, a byw gartre. Maestre i'r ddinas yw Pontypridd erbyn hyn.'

'Ond felly, os bydda-i'n byw yng Nghaerdydd, fydd dim oll yn rhwystro ymweliadau *achlysurol*,' meddai Siân, 'â'r Cymoedd... Na!'

Eto, gwyddai'i bod hi'n teimlo'n euog – roedd ei brodyr a'i rhieni, roedd pawb yn marw o ran eu hwyliau o'i chwmpas – ac roedd hi fel pe bai'n ystyried codi'i phac nawr a hwylio'n ddideimlad i barti mawr Caerdydd hebbyn nhw... mewn pryd. Hi oedd i fodoli ar eu rhan.

'Ymweliadau *mynych* te,' ychwanegodd y fam.

'Na, mam! Ddim yn rhy fynych.' Ddim yn anaml y ceid peth tyndra rhwng y fam a'r ferch.

Ond nid yn aml y byddai'r fam, Morwen, yn croesi cleddyfau â'i gŵr Gwilym chwaith. Twmpath o flinder oedd hwnnw heddiw. Pwy a gwerylai â pheth felly? A sut bynnag, ychydig a ddywedai fe byth ddim â neb. Eithr heno doedd dim atal ar y wraig yn hyn o helbul. Ei merch hi oedd mewn peryg. Ac roedd y fam yn deigres. Bu hi – fel gwraig draddodiadol – fel arfer yn weddol ddarostyngedig i'r gwryw druan. Efô oedd yr enillydd-cyflog canolog. Roedd ei ddeall ymarferol yn llymach, er bod ei dychymyg a'i chwaeth hi'n rhagori. Roedd e bob amser yn lluddedig ac roedd angen gweini arno fe o ran darparu prydau bwyd. Roedd angen pwytho'i ddillad, golchi'i bilynnau, sicrhau bod yr aelwyd yn glyd-loyw ac yn barod iddo.

Derbyniai fe'r cwbl hyn yn ddiemosiwn ac yn ddigynnwrf, fel perchen caethforwyn. Gweithiai fe oriau hir. O'r braidd y byddai fe ers blynyddoedd yn troi ati hi â'i anghenion rhywiol, gan ei fod bob amser fel pe bai'n llethol o ymladdedig. Yn nerfol roedd e wedi chwythu cymaint o blwc ag a fu ganddo. A throes ei flinder diwetydd yn hunanddigionedd llesg. Bodlonai Morwen rywfodd ar y beichiau hyn oll.

Ond nawr roedd y gŵr fel petai'n bygwth eu merch. Miniogai'r fam ei dannedd. Gwyliai hi fe'n arafaid drwy gil ei llygaid: fe a'i amrannau cochion trwm, yr aelïau blêr, ei ên wedi'i eillio'n frysiog gydag ambell doriad mân hwnt ac yma, y geg denau ddirmyglon yna: y dieithryn. Thorrai fe ddim gair anghwrtais go iawn â hi odid byth; ond roedd arni ofn y gallai fe rywbyrd droi'n sydyn a'i thraflyncu pe codid ei wrychyn. Doedd ganddi hi ddim math o esgus dros y fath amheuon; ond roedd e yno fel llosgfynydd trymaid, disgwylgar, hunan-gynhaliol, llwyd o fewn ei gadair, llond yr ystafell fyw o Etna, a'r dicter at fywyd yn eplesu'n ara gyson o fewn ei lafa o'r golwg.

Daliai breichiau'r gadair yr hylï poeth yn gadarn o fewn terfynau; ond dim ond breichiau oedden-nhw, wedi'r cwbl.

Oherwydd ei hetifeddiaeth gorfforol a daearyddol, roedd yna frwydr o fewn Siân rhwng mynd a dod, rhwng y cwm a'r ddinas, rhwng y gorffennol a'r dyfodol, a rhwng y fam a'r tad... Ac felly hefyd roedd brwydr yn yr holl bau hwn i'r teulu.

Pam y bu'n rhaid iddo fe erioed godi'r mater o alltudïo'u merch? Yn ôl y fam, roedd y tad yn dal ei bod hithau am i'r ferch lewyrchu'n *gelfyddydol* gartre er ei mwyn hi. A'r un pryd roedd e'n gwarafun iddi lwyddiant mewn masnach faterol gwaith bob dydd, oherwydd y methu i lwyddo a fu yn ei hanes yntau. Mynnai fe'n wir lwyddo drwyddi hi bellach beth bynnag oedd y gost, a beth bynnag oedd y canlyniadau i bawb arall. Roedd ganddo fe feddwl praff o hyd. Cydnabyddai'r wraig hynny. Bu e'n un o selogion dosbarth nos y Brifysgol ar un adeg, a fe gyda Hywel yn ddau o'r rhai mwya llafar o hyd mewn grŵp athroniaeth yn y pentre. Ond bellach roedd e wedi pydru rywfaint yn ei benglog er bod yna wehilion petrus yn dal i eplesu.

A doedd hithau chwaith ddim yn gwbl analluog o bell ffordd. Roedd eu merch nhw'n gyfuniad o'u hamryfal ddonïau potensial, ill dau, gydag ychydig bach mwy efallai

o linach ei mam. Yn wir, efallai nad oedd y tad wedi cydnabod bob amser wir gyfraniad a phosibiliadau Morwen, ei wraig. Mewn cerddoriaeth, ganddi hi, caed math o ddisgleirdeb yn pefrio drwy'i chlust a thrwy'i sgwrs, a rhoesai hi hyfforddiant medrus i bob un o'i phlant, a hynny gyda mwy nag un offeryn; yn enwedig y ferch, yn ddiaw, a adwaenai orau berfedd y gerddoriaeth honno. Cyffredin oedd medr y bechgyn ac eithrio Hywel efallai, ond roedd Siân yn ddisglair o ddawnus... fel ei mam.

Eto, boed yn gyffredin neu beidio yn y canlyniadau technegol, llwyddasai'r fam i drosglwyddo i bob un o'i meibion yn ddiethriad y cariad ysol a fflamiai ynddi tuag at 'gerdd'. Lluniai hi grŵp cerddorol o'i phlant. Mynnai'r fam mai cyfrinach meithrin gwir gelfyddyd oedd nid perfformio cyhoeddus na gwneud gyrfa ohoni na rhagori mewn arholiadau; ond mewn perfformio preifat, pan ymunai'r chwech â'i gilydd i ganu'u hoffer, gyda'r hwyr, o'r golwg, dyna wir ddiddanwch. Gogoniant y gerddoriaeth er ei mwyn ei hun oedd yma pan dodden nhw i'w gilydd mewn ymgolli cywrain. Y pryd hynny, ciliai'r tad Gwilym yn dawel gynffonlipa o'r ystafell, fel ci a daflesid i afon Taf, yr aelod od o'r teulu. Roedd y 'gerdd' wedi uno'r fyddin oll yn ei erbyn e. Er y gellid tybied y byddai rhai o gil-lwybrau'r traddodiad cerddorol clasurol yn anathema i fechgyn hylciog fel y rhain, nid felly roedd hi: roedd Morwen wedi'u llenwi nhw i gyd â'r rhythmau teimladol a chelfyddydol a lythai'i chwaeth a'i dyheadau hi ei hun.

A dyma Gwilym, ei gŵr yn barod heno, yn achos Siân; yn barod i ddistrywio hyn benbwygilydd. Dymunai fe yrru un o'u teulu allan o'i grŵp cerddorol hoff. Ac nid unrhyw un. Ei ferch! Yr echel yn yr olwyn. Datodai'r cwbl yn syml ddadansoddol er mwyn uchelgais ddirprwyol, er mwyn cyflawni'r hyn a gollasai fe, er mwyn datrys ei fethiant tlawd e rywfaint drwy'i llwyddiant hi.

Rhythai'i wraig arno fel llofrudd.

'Dw i'n mynd i lwyddo,' meddai Siân, 'aros neu beidio.'

'Ti yw'r *unig* ferch,' danodai'i mam. 'Unig ferch y cartre.'

Atebodd y tad ddim o'i wraig yn y ddadl rifyddol honno. Suddodd e'n ôl i'r distawrwydd cynefin. Ac enciliodd y wraig fel llygoden gloff i'r gegin. Arhosodd y ddau, y tad a'r ferch, yn dawedog am gryn bum munud. Roedd yr awydd am gyrchu i'r

ddinas fawr i breswyllo yno yn llosgi yn y ferch yn anniffoddadwy, bellach, gwyddai hi hynny. 'Fe lwyddi di,' meddai fe. Gwyddai fe mai'r fan yna'n unig y câi hi ymestyn i'w llawn faintioli.

Gloywodd llygaid y ferch. 'Dŷn ni mor debyg, Siân, ti a fi. Rwyd ti'n tybied wrth y ngweld i'n pendwmpian ar yn hyd, yn y nghadair fan hyn, nad oes 'na ddim yn y fan hon ond esgyrn a mymryn o gnawd wedi madru.'

'Na dw, nhad.'

'Wyt. A dw i ddim yn dy feio. Rwyd ti'n tybied, achos fod yn ysbryd i wedi'i dorri, a phob uchelgais a phob gobaith yn farw gorn, rwyd ti'n tybied mai fel 'na y bues i erioed. Ond y tu mewn i fi, mae 'na fywyd am ddianc o'r carchar.'

'Na, na. Dw i'n gwybod mai un fel 'na oeddet ti.'

'Does 'da ti ddim syniad, cariad, sut mae'r pen draw, ar ôl gwneud un cam gwag, yn ymddangos o le fel hyn. Allet ti ddim dychmygu am eiliad o'r gwaelod fan yma yr hyn yw bywyd wrth edrych oddi ar farwolaeth ymosodol.'

'Fel ti nawr?'

'Yn union. Sillaf gota allan o'r bedd dw i. Wyt ti erioed wedi sylweddoli mor farw yw marw? Mae'r persbectif yn od o lydan o'r fan yna. Meddylia pe bai rhyw ymennydd di-gorff ac amhersonol wedi glanio ar y ddaear hon cyn i ddim oll esblygu. Cyn i'r amoeba ddod, cyn yr hydra. Lafa oer a nwyon ym mhob man. Dim smic o fywyd. Dim ond llwch du marw o'i ddeutu. Dim modd hyd yn oed i ofyn cwestiynau. Meddylia pe bai cyfle i aildechrau bywyd eto. A meddylia petai'r sialens wedi dod, Siân, i'r ymennydd oer di-gorff hwnnw, yn y llaid twym, ddychmygu bywyd yn ei lawnder ffrwythlon afieithus. Meddylia pe bai'r llaid hwnnw wedi ymestyn wedyn, nid i yrru bysys, ond wedi cymryd y llwybr esblygol tuag at y creadigol, a heb bechod. Y fath fywyd llawn, erbyn y diwedd, dychmyga, hwnnw, y bywyd byrlymus a ddôi yn y diwedd eitha allan o'r smic anobeithiol. Meddylia.' Cydiodd e yn ei hysgwyddau. 'Meddylia am yr her, ferch, i rithio'r diwedd anhysbys a rhyfeddol hwn ar y pryd, heb wybod dim oll ymlaen llaw, – ble y bysai'r llaid wedi mynd? Meddylia am fywyd fel y

dylsai cyfle arall ei gymryd.'... Ond yn ei fywyd e, dim oll, ond y caledrwydd cwbl ddifywyd, a gafodd fod.

'Byddai'r presennol anghelfydd yn amhosib. Dyna rwyt ti'n 'ddweud?'

'Byddai. A does 'da ti, merch i, ddim o'r clem lleia, wrth syllu ar yn anegni negyddol i fan hyn, y fath fywyd allsai fod yma chwaith. Roedd 'na bosibilrwydd gen i gynt.'

'Nhad,' sibrydodd hi, ac roedd ei llwnc hi'n ubain o dosturi, 'doeddwn i ddim yn gwybod.' Nesaodd hi ato. 'Rwyt ti wedi bod yn pendroni am hyn ers amser.' Pwysai'i ben ymlaen ar ei hysgwydd. Roedd hyn yn ddiarth iddi. Roedd y caledrwydd hwn ynghynt yn lledwyo'n sych.

'Dyna pam dw i'n galw mor daer arnat ti, o waelod hyn o fedd: cer, ferch. Paid ag aros funud mewn tŷ fel hyn, a'r holl ardal yn marw. A phawb bron ma's o'r gwaith dan ein trwynau. Cer o ngolwg i ac o olwg y cwm; o olwg dy fam a'r strydoedd, o olwg y capeli cythraul a'r siopau llwyd. Cer ar unwaith Siân mor bell byth ag y gelli di. Nawr.'

'Dim ond i Gaerdydd,' meddai hi. 'Ddim i ben draw'r byd.'

'Cer i ben draw tragwyddoldeb os gelli di.'

Cododd e ddagreuldeb i'w hwyneb. Ond gwenodd e. 'Mae honno – dy fam – yn gwbl wirion. Dyw hi ddim yn deall methiant go iawn.'

Lled wenodd Siân drwy'i gwlybaniaeth. Gwenodd yn llesg ar ei thad. A daliodd ei thad yntau y wên honno yn ei lygad fel petai'n dala eirinen yn ei geg wrth iddi ddisgyn o'r pren. 'Mae hi wedi llwyddo'n llawn yn ei gwaith *hi*,' meddai fe 'rhoi gwersi cerddoriaeth.' Rhyngddyn nhw, Siân ac e, roedd yna rwymyn. Roedden nhw'n rhy debyg i'w gilydd. Ond pe cedwid y rhwymyn fel hyn yn agos glòs, a hithau'n oedi gartre a'i phen o fewn clymau'r cartre, byddai hi'n cael ei thynnu i lawr gydag e ac o dan lywodraeth y fam, ac wedyn i'r gadair a'r blinder. Eu llygaid a'u clymai nawr wrth ei gilydd mor onest, yn dad ac yn ferch, heb iddyn nhw lefaru dim. 'Dŷn ni gyda'n gilydd,' murmurai fe tan ochain yn obeithiol o'r diwedd. Deallai'u golygon fod yna ddrych gan y

llall a fwriai'r glesni'n ei ôl rhyngddyn nhw. Rhaid, meddai hi wrthi'i hunan, fyddai iddi luchio'r llygaid swynol hyn yn ddiymdroi o'r neilltu, taflu'r rhwymyn, a dianc cyn bod neb oll yn sylwi, cuddio'r trywydd, a llechian ymaith i fro faith y digonedd a'r goleuadau caled a'r cysuron. Suddodd hi'n ôl i'w sedd, fel taflu dillad i fasedd i'w golchi – rywbyrd arall, pan ddôï eu tro.

'Mynd sy orau,' meddai fe, a hynny heb oedi. Dechrau o'r newydd.'

Roedd meddwl y tad wedi ymlâdd, erbyn hyn. Gorweddai'i nerfau ar lawr ei ymennydd fel mwydon wedi bwrw'u plwc. 'Ni biau'r bai ein bod ni'n llechu yma o dan y tomennydd, mewn terasau tai heb yr un bwlch i anadlu. Nid ar y Sais mae'r cywilydd ei fod e'n sathru, nac yn dwyn, nac yn manteisio arnon-ni. Dŷn ni ein hunain wedi taflu'r drws eisoes led y pen yn agored. Ni 'lawr yma rhwng ei draed, yn gwau i mewn ac allan, yn codi cap, yn llyfu bodiau, ymhlyg. Ond er mwyn cael llwyddiant allan o hyn, rhaid cael uchelgais.'

Ymddangosodd Hywel yn y drws o'r newydd. Bod yn amherthnasol oedd ei *forte* fe.

'Eto fyth?' meddai'i dad.

Syllai Hywel o'r naill i'r llall, gan graffu'n arbennig ar Siân fel pe teimlai'i bod hi'n cael eu herlid y tu hwnt i bob rheswm heddiw. Doedd yna ddim dadl yn y fan 'na.

'Wel?' meddai'i dad.

Atebodd Hywel ddim.

'Wel?' meddai'i dad drachefn.

'Dim byd,' addefodd y mab.

'Dyna oedd 'da ti tro dwetha,' meddai'i dad. 'A'r tro cynt.'

'Dyna mywyd i,' meddai Hywel. Ond doedd ei dad ddim wedi sylwi'n llawn. 'A bywyd y bechgyn i gyd. Man gwyn, man draw. Heb draed.' Ciliodd Hywel eto, gyda llygaid erfyniol tuag at Siân. Ac edrychai'r tad yn euog yn ôl ar ei ferch.

Theimlai'r tad ddim ei fod fel pe bai'n gyrru Siân yn unig, nac wedi esgeuluso'r

bechgyn. Cytuno â'i huchelgais cywir hi'n unig wnâi e. Roedd e'n awyddus iddi fynd ymhellach nag y dymunai hi'i ddychmygu, allan o gylch cwmniaeth ei brodyr a'i rhieni, ymhell o gerddoriaeth y cartre, y tu hwnt i grafanc wresog y cwm. Efallai fod Caerdydd ei hun yn rhy agos. Roedd rhyw ysfa ynddo iddi doddi a pheidio â bod gartre, yn gymaint felly nes iddo beri ofn iddi. Teimlai hi fygythiad nawr oherwydd bod ei theimpladau'n dechrau ymadael ynghynt nag y dymunai ac yn llifo gyda'i ddymuniadau fe. Roedd ei led wrthodiad ohoni, fel hyn, yn ei chludo ar li ei angerdd cas. Collai'i thraed odani, a nofiai gyda'i breichiau'n ddiymadferth, a'i foddhad e'n golchi drosti. Ysgydwai hi o don i don yn daer. Siaradai hi'n awr yn dawel, heb gyfarch ei thad, heb gyfarch neb ond yr ystafell, ac eto fel pe bai hi'n llenwi'r ystafell honno â'i chariad: 'Pan fydd uchelgais yn pallu, mae'n bryd i rywun ballu. Dylwn i wynebu hynny. Mae yna nod mae'n rhaid ifi'i gadw yno, i fi godi yn y bore.' Torrai'i llais ychydig. 'Gwanc am ystyr yw'r unig uchelgais dilys.'

Fu'r tad ddim mor agos at ei ferch ers blynyddoedd lawer ag roedd e'r funud hon. Uniaethai fe'i hun â hi. Onid cyflawni'i ddiffyg e roedd hi? Byddai'i cholli a'i hanfon ymaith fel hyn yn aberth i'r teulu oll, wrth gwrs. Ond allai fe ddim mwyach goleddu'r 'egwyddor o aberth', ar ôl yr hyn a ddigwyddasai iddo fe yn ei fywyd. Trychinebus fu'i ymgais ifanc e i aberthu dros eraill. Fe'i distrywiwyd e gan aberth i'w rieni yntau: gwenwynwyd ei fywyd ganddyn nhw; oferwyd ei obaith oll. Ac i beth? Doedd ei rieni erioed wedi gwerthfawrogi'r mymryn lleia o'i holl boen.

## 2

Ciliodd Siân yn isel falch. Aeth hi allan i'r ardd i dacluso, i'r ardd honno lle roedd hi wedi meddiannu'i hanner, ers rhai blynyddoedd, er mwyn plannu'r blodau annefnyddiol a oedd yn anadl einioes iddi. Fe fu'r ardd yn ollyngfa gyfleus iddi ers blynyddoedd. Bob tro, wrth gilio i'r ardd, hiraethai am weld blodau 'dibwrpas', fel angylion yn hedfan o'i chwmpas. 'Llysiau' yn unig oedd hoffter a hawl y bechgyn; a nhw a'u mam oedd biau'r gweddill o'r ardd. Edrychai Gwilym yntau, y tad, ddim ar yr un fodfedd o'r lle, ac anwybyddai fe ardd Siân. Pan fyddai Siân yn picio i'r sied i nôl morthwyl neu rywbeth, chodai fe ddim o'i olygon un fodfedd i gael cipolwg ar yr hyn a dyfid ar bwys ei gardd hi gan y bechgyn. Coleddai hi'i harwahanrwydd blodeuog.



Lle i bendroni oedd yr ardd i Siân. A lle oedd i'w chyfoedion, y lleill, adolygu'u buchedd brin, a meithrin eu gobeithion tyfiant, ac i'r tad godi tatws pan fyddai ganddo'r egni a'r amser prin. I Siân, teimlai'i bod, – ymhlith y blodau annefyddiol, – mewn cwmni cymen a gwerthfawr.

Weithiau fe âi Siân allan am dro yn y car i fyny i Gwm Rhondda Fach. Dyna wnaeth hi heddiw. Rhyw dro difeddwl nawr oedd peth felly. Mynd ymaith o'r tŷ wnâi hi oherwydd chwenychu bodoli. Ac fe wnâi hi hyn hefyd fel gollyngfa achlysurol. Lle oedd ei chartre doedd hi byth yn mynd iddo pan oedd hi'n trachwantu gorwelion. Mae'n wir nad oedd y gwibdeithiau hyn fawr gwell ganddi nag anadlu'n rhydd. Ond am ychydig o funudau rywsut yn uchder y Cymoedd dôi ystyr ei chartre a diwydrwydd ac undonedd ei gwaith yn un. Gallai synied weithiau cyn cychwyn, 'beth am y Bannau?' Ond rywsut, er gwaetha pob gwrthuni, disgyrchai fel arfer tua'r cwm cyfagos clyd.

Yn y Cwm arall hwnnw roedd Clem yn byw. Ond cyd-ddigwyddiad oedd hynny. Fuodd e erioed yn sboner iddi. Clem oedd sylfaenydd y ffatri llyfraduron lle y gweithiai ar yr ochr weinyddol a masnachu. Cyfrifiaduron bychain seiniol i ddeillion, ynghyd â rhai eraill, i gymuned rhyngwladol y deillion ar ffurf tudalen llyfr *braille* ynghyd ag allweddell o lythrennau amryfal teimladwy, dyma oedd y llyfraduron hyn ar y pryd. Dyfais newydd i'r oes – cynnyrch y lle hwn – oedd hyn: ar y pryd roedd yn gyfangwbl ar flaen ei gyfnod. Fe gynhyrchid y ddyfais yn unswydd ar gyfer lleisiau 'darllen' llyfrau gwybodaeth. Ceid sianel yn unig ar gyfer llais hygryw, ac fe'i cysylltid â'r We fydeang o safbwynt llawer o bynciau llafar. Dim arall; ond eisoes cynhyrchwyd llyfrgell o sglodion (micro-chips) i'r lleisiau. Ryw ddydd, fe weithiai hyn i'r bysedd oddi ar y We. Babi Clem oedd hyn, yn gynnar yn hanes cyfrifiaduraeth. Ond symudai fe ddim o ran lleoliad, ddim dros ei grogi, o leia ddim o'r Cwm bach, i Gaerdydd, er mai yn y fan yna y byddai'r ddelwedd orau i godi cyfalaf; a byddai'n arbed ar gludiant a theithio hwylus.

Roedd gan Clem obsesiwn ynghylch datblygu'r Cymoedd. Dyma'i deyrngarwch a'i gariad, a doedd dim oll a allai'i wyro fe oddi wrth ei amcan. Ceisiai Siân ei berswadio i ymestyn i agor canolfan ym Mryste ac i ddatblygu cyfrifiaduron eraill o fath arbenigol – i fyddariaid ac i ddeillion mewn amryfal ieithoedd eraill. Ond fynnai fe ddim gwrodd oddi ar ei weledigaeth gychwynol unplyg ynghylch lleoliad y gweithdy.

Meicrocosm realaidd o'r byd oedd y Cymoedd iddo fe: dyma'i gynefin e, a chynefin ei feddwl a'i fywoliaeth. Yn wir, cafwyd lled gweryl ar yr union fater hwnnw rhwng Siân ac yntau. Seithug o'r herwydd fuasai unrhyw garwriaeth rhyngddyn nhw, ac yntau mor unplyg yn ei ymlyniad serchog wrth le annerbyniol. Roedd hithau'n rhy debyg i'w thad, ac yn ysol o ymfudol, yn botensial ddinesig, heb synied am addewid ei hamgylchfyd agos i'w ddatblygu ganddi'i hun. Chododd y posibiladau carwriaethol rhyngddyn nhw ddim felly, – ddim o'r tarmac.

Pan oedd Clem yn Ysgol Gyfun y Porth, fu ganddo fawr o ddiddordeb yn ei dasgau academiaidd. 'Dim Clem' oedd ei ffugenw, nes iddo ymaflyd mewn cyfrifiaduron. A dyna'r pryd y dechreuodd eu datod nhw a lleibio pob peth arall i'w gyfansoddiad yn sgil yr un darganfyddiad llwybr hwnnw. Hynny a rygbi, a physgota efallai. Llanc brwdfrydig o gul felly fu e erioed: cynnyrch y Cwm. Ac ar ôl ceisio cyffwrdd â'i ddychymyg neu sgeintio ar draws ei sylw yn weddol aflwyddiannus, allai Siân ddim ond cilio'n ôl i'w hystafell yn y Swyddfa gan sibrwd wrthi'i hunan, 'dim Clem o hyd.'

Trueni hefyd. Er gwaetha hynny oll, yn wir efallai oherwydd hynny, roedd gan y crwt ryw atyniad annifyr iddi fel pe bai e'n gyfandir anhysbys. Rhyfedd fel y mae'r hysbys gyffredin yn gallu bod mor ddirgel weithiau. Rhyfedd bod ei meddwl hi wedi crwydro gynnu i'w gyfeiriad e, wrth iddi hithau geisio meddwl am Gaerdydd.

Troes ei llyw nawr tuag yn ôl adre. Efallai mai'r swyddogaeth aruchel a gâi hi ar dro y tu allan i'r cartre fyddai'n llofruddio'r cartre hwnnw. Yn wir, pan ddechreuodd ei swydd hi gystadlu â'i hannedd, sef cartre'i mam i bob pwrpas, fe'i cymhellwyd hi i fod yn fwy ymwybodol o ddiffyg egni di-waith y cwm. Ildio addfwyn fyddai effaith hyn arni efallai, ond dysgodd ei mam y rhaid hefyd iddi hi osgoi hynny pe gallai.

Wedi cyrraedd yn ôl o'i gwibdaith heddiw, aeth Siân yn syth eto i'r ardd, fel pe bai'n ceisio cynghreiriaid i ymgynghori â nhw ymhlith y planhigion. Ymdreiglai hi'n fyfyrion yn eu plith. Pan lithrodd hi'n ôl i'r tŷ o'r ardd, ymhen hir a hwyr roedd y bechgyn i gyd wedi ymgynnull heb y tad ac yn trafod hynt y tîm rygbi lleol. Edrychodd hi ar ei brodyr yno ar goll.

Tawsan nhw â sôn fel pe bai'i phresenoldeb hi wedi ymosod arnyn nhw. Safodd hi o'u blaen. Troesan nhw'u pennau'r un pryd yn chwilfrydig ati.

'Ydych *chi*'n meddwl y dylwn i fynd o'ma?' holodd hi bawb yn annisgwyl.

Roedd y cwestiwn wedi'u dal nhw oll yn ddirybudd, ac wedi anelu at eu cynulliad o gyrff yn gyffredinol. Syllodd eu llygaid syml oll yn ôl arni mewn penbleth. Nid eu cyfrifoldeb nhw oedd peth fel hyn. Sbiodd hi o'r naill i'r llall.

'Fysech chi'n dadlau y dylwn i *aros* te?... Hywel?... Idris?... Llew?... Gwyn? ... Hywel.'

Roedd hi'n eu dilyn nhw, fel pe bai, yn ôl i'r wal, ac yn eu gwasgu yn erbyn y wal. Pa hawl oedd ganddi i fynnu'r fath ateb ganddyn nhw? Gwydden nhw ers tro am ei hawydd cudd a diymod, ac am deyrngarwch ei phetruster. Teimlen nhw oll barch ati. Rywfodd, drostyn nhw fel teulu roedd hi'n gwneud y ddihangfa hon. Creadures uwchradd oedd hi, a thros y blynyddoedd, oherwydd ei gwahaniaeth-rhyw, a'i neilltuolrwydd gallu hi a Hywel, a'u deallusrwydd, roedd hi wedi ennill pwysigrwydd bron fel symbol yn eu plith ymhell y tu hwnt i'w hoedran.

'Ydych *chi*'n dymuno i fi aros?'

'Pam lai?' meddai Hywel yn sydyn, ond yn betrus ddiargyhoeddiad hefyd, gan edrych ar y lleill. Ac yna, ychwanegodd e ar ôl bwlch o dawelwch anesmwyth – 'dŷn ni i gyd yr un peth.' Allai fe ddim datgan yn blwmp wrthi sut yr oedd hi'n perthyn iddyn nhw mewn ffordd gwbl wahanol i'r ffordd roedden nhw'n perthyn i'w gilydd. Allai fe ddim esbonio iddi chwaith fel roedd arnyn nhw angen amdani hi gartre.

'Wel, *bechgyn* dych chi,' dyna'r cwbl ddwedai hi, heb ddeall, a chyda pheth gwawd. Ond doedd hi ddim yn un ohonyn nhw mewn llawer ffordd arall, dyna'r gwir. Doedd ei greddfau na'i gallu achlysurol – wedi gwaith caled – i ymlacio, a doedd ei mewnblygrwydd, a'i siarad gorofalus gorddethol a'i synnwyr cerddorol a'i dychymyg ddim yn cyfrannu o'r un egni â'u hwyliau diataliad corfforol nhw.

'Wel?' holodd hi'n ansicr ac yn seithug. Atebodd neb ddim. Mynnai hi eu hoelio nhw yn y gornel. Craffodd o'r naill i'r llall drachefn. Ebilliai'i golygon hi i mewn i'w

hymenyddau. Roedd ei difrifoldeb taer yn eu dychryn ychydig. 'Ydych chi'n argyhoeddedig, yr un fath â dad te, y dylen i fynd?' sialensai hi. 'Ydych chi ar ei ochr e? Beth dw-i i fod i'w wneud? Mynd? Hywel?'

'Wyt *ti* am aros gyda ni te?' sibrydodd Llew.

Chwarddodd y lleill. 'Paid â gwranddo ar dad!' meddai Hywel.

Tremiai hi arnyn nhw'n drist, a llithrodd dros ei chorff i gyd y sylweddoliad tosturiol nad oedd hi ddim yn gallu *siarad* â nhw o gwbl. Nac â nhw, nac â neb. Ac yn sicr, nid â Hywel. Roedden nhw'n parablu iaith hollol estron â'i gilydd. Byddai'n rhaid iddi fynd, ond roedd Hywel ar ei chydwybod. Gallen nhw ebychu rhyw fath o gyfarchion allanol wrth ei gilydd, ac addurno'r rheini a'u hestyn i fod yn fformiwlâu cyfathrebu; ond doedd yna ddim cyfnewid ystyr. Roedd Hywel yn debyg iddi hi, ond doedd yna ddim cyd-ddealltwriaeth bersonol. Roedd e'n fwy galluog na'r lleill, ond claddai'i allu – oherwydd rhwystredigaeth ac arferiad – o dan ysmaldod chwerw. Codai hi'n fygythiol o'u blaen. Teimlen nhw oll, gyda'r si amdani yn awr yn sôn am ymadael, fod diwrnod chwyldroadol wedi cyrraedd yn hanes y teulu. 'Cwm cadarnhaol yw'r Cwm hwn,' meddai Hywel. 'Crud. Fyddet ti ddim yn cefnu arno heb lefain. Fe welet ti eisiau crud.'

'Pam y dylwn i deimlo unrhyw gyfrifoldeb at gwm?' brathodd hi. 'Os yw'r lle 'ma yn bodloni ar israddoldeb, allwn ni ddim gobeithio newid ei *psyche*. Moeth yw gwneud dyletswydd tuag at bobl sy'n gwrthod bod yn bobl. Gellwch garu'ch pobl eich hun yn ormodol. Fe ellwch orwedd gyda nhw yn eu cywilydd, ac esgeuluso'r gwaith elfennol o anadlu'ch hunan.'

'Ond ffoi!' ebychodd Hywel.

'Yn y diwedd, roedd Thatsier yn iawn, does dim cymdeithas, dim ond hunan,' meddai hi.

'A gelli golli dy ddynoliaeth wedyn,' atebodd Hywel. 'A mynd â'r hunan i le arall, i ddinas: yr hunan gwag i'r ddinas lawn. A gelli nabod y llwyddiant materol sy'n lladd yn y fan yna, ac fe golli di'r cyfaill cywir sy'n dy gyfarch mewn cwm.'

Roedd hynny'n beth od i'w ddweud. Ymataliodd Siân am foment. Edrychodd o gylch yr ystafell mewn syndod... 'Na,' meddai hi gan gelwydda'n sydyn, a symud yn sydyn yr un pryd un cam yn nes at y drws. 'O'r gorau... dw i'n aros.' Arhosodd am eiliad i gyffwrdd â phren ffrâm y piano, bron fel pe bai'n symudiad digymell a dall. Siân yn benna oedd biau'r piano oll bellach. Roedd y fam yn fodlon. Nes ei bod hi'n chwech oed, rhannai'r ferch gyda'i mam yr anrhydedd o eistedd ar y sedd honno. Ar ôl ei chwech oed, âi ei mam odid byth yn agos at yr allweddell. Siân oedd biau'r fraint a'r cyfrifoldeb oll mwyach. Cymerai'r fam offeryn arall, ac roedd y dewis yn agored eang iddi gan ei bod hi'n arfer fflwiwt ac obo, fiola a dwbl-bas, ac amryw offerynnau eraill. Pan âi Siân at y piano, sut bynnag, gwyddai pawb y gellid yn awr ystyried ymuno o ddifri. Hi, yn ei haeddfedrwydd, fyddai fel petai'n cael cynnau'r goelcerth i bawb, gwasgarai'r nodau fel y blodau o'i gardd, yn angylion; ac ymgasglen nhw o'i chwmpas yn deyrngar fel cwrtwyr o amgylch gorsedd. Roedd hi wedi gwneud un cam tuag at y drws; ond edrychai hi'n chwithig ar y piano'n awr. Estyniad o'r ardd oedd y blodyn anferth hwn o bianco iddi hi ac i'r blodau eraill a ymdaenai o'i chwmpas yn yr offer cerdd. Ffarwelio â'r offeryn hwn a wnâi o raid, pe bai hi'n ymadael â'i chartre. Allai hi byth fynd â hwnnw i Gaerdydd heb y bechgyn. A'r fan hyn, roedd ei gwreiddyn er ei gwaetha yng nghanol miwsig y teulu.

Wedi pob perfformiad, gartre neu'n gyhoeddus, arfer y bechgyn fuasai dod i'u hoffer hwythau i'w cadw nhw yn y cwtsh-dan-staer, pob dim ac eithrio'r piano wrth gwrs. Arhosai hwnnw o raid yn ei le, fel anghenfil anwes, a thrwy aros fe ddaeth yn ffocws anrhydedd i'r ystafell. Hyd yn oed pan nad oedd neb yn ei ganu, roedd y peth yno'n atgoffa pawb o'i botensial ac o arwyddocâd a phresenoldeb Siân. Hwn ynghyd â chadair y tad oedd y ddau wrthrych ansymudol yn yr ystafell. Nhw hefyd oedd celfi mwya sylweddol y lle. Safen nhw, y piano mewn un cwr a'r gadair freichiau wedyn yn weddol agos i'r canol, fel petaen nhw yn ddwy golofn sefydlog adeiladol a gynhaliai'r cartre i gyd. Dau wrthwynebydd yn barod i frwydr os oedd rhaid.

Dechreuai Siân yn awr droi eto at y drws i fynd allan, a rhedai cryndod ar hyd gwallt y bechgyn pan ddaeth eu mam yn ddisymwth o'r gegin.

'Siân,' murmurodd hi, ond gyda chadernid oedd yn rhwymo'i merch.

'Beth, mam?'

Gwywodd tafod y fam. 'Dim,' meddai.

'Fyddet ti, mam, am yn rhwystro i?'

Saethodd hanner munud o dawelwch rhyngddyn nhw, ac yna dywedodd ei mam gyda'r math o argyhoeddiad ara nad adnabuasai erioed o'r blaen: 'Byddwn pe gallwn.'

Ymadawodd y ferch, a safodd y fam mewn distawrwydd. Thorrai'r un o'r meibion sill. Daeth y tad i mewn wedyn o'r sied y tu fa's, a synhwyrodd fod rhywbeth arwyddocaol wedi digwydd. Roedd yntau'n fud dawedog. Edrychodd ar ei wraig yn dosturiol. Edrychodd o'r naill i'r llall, ac ymatal rhag agor ei geg. Eisteddodd yn syrthni'r gadair, ac yna rhwng ei ddannedd sisialodd yn herciog ansicr: 'Elli di ddim bod yn siŵr gydag aberth. Elli di ddim dibynnu arni. Rwyt ti'n taflu dy fywyd fan hyn. Rwyt ti'n tybied y gallet ti ymwadu â phopeth sy 'da ti er mwyn rhoi bywyd i rywun neu rywrai eraill. Ond dyw hi ddim yn gweithio fel 'na. Does 'da ti ddim sicrwydd. Elli di ddim bod yn gwbl siŵr y bydd dy fethiant di'n troi'n llwyddiant ym mywyd neb arall.'

'Na,' meddai'r wraig a mynd i wisgo'i chôt fel pe bwriadasai fynd allan.

'Ga-i nôl rhywbeth i ti o'r Co-op,' meddai Siân. Aeth ar y blaen i'w mam.

'Na: dim diolch. Mynd i chwilio am gôt newydd dw-i,' meddai'r fam.

Achubodd Siân y blaen arni. Roedd Siân wedi mynd allan yn gwbl ddibwrpas. Doedd ganddi hi ddim neges benodol. Negyddu'r 'bod gartre' roedd hi. Mynd am dro roedd hi draw i Barc Angharad er mwyn peidio â chlywed sŵn ac aroglau ei brodyr, ac er mwyn adnewyddu'i gafael yn feirniadol ym meddalwch y fro orgyfarwydd hon, a pheidio ag arogl'r pryd o fwyd y bysai'i mam yn ei weithio yn nes ymlaen yn y gegin. Roedd hi'n peidio â pherthyn. Erbyn cyrraedd y parc, roedd ei chlustiau'n llosgi.

Meddyliai efallai y gallai hi gyrchu eto am dro yn y car am chwarter awr i fyny Cwm Rhondda Fach. Rhywbeth ond peidio â mynd adre. Ond penderfynodd ymatal.

'Mi fynna-i fynd o'ma,' meddai wrthi'i hun, 'er y ngwaetha yn hun. Chaiff dim

sefyll ar draws yn llwybr. Dad sy'n iawn. Mae'n rhaid ifi ymward â'r lle yma. Fan hyn dw-i'n cael y ngwasgu bob dydd i lawr, yn is is. Mi fynna-i awyr felys. Rhaid cael seiniau heblaw seiniau'r cartre. Rhaid ifi gael ymestyn, gollwng y ngallu rywfodd. Carchar yw Cwm. Does dim oll fan hyn yn y carchar yma, ond bara a dŵr, gwely pren, bwced, a barrau yn lle ffenest. Pwy yn y byd sy eisiau gwneud ei fusnes mewn bwced?'

Ddeallai'r brodyr mo'i hanesmwythyd seithug byth. Bodlonon nhw ar waith anniddorol a diymhongar yn lleol. Roedd pawb yr un fath.

Ond tyfai y tu mewn iddi ymwybod o'i phwysigrwydd dawnus yn barod. Siân oedd bellach y brif gyfarwyddwraig fasnachol mewn ffyrn go sylweddol a chanddo dair ffatri ar stad ddiwydiannol Trefforest. Cymudai hi i'r brif swyddfa yng Nghaerdydd bron bob dydd. Doedd hi ddim yn cael ei chyfyngu felly i ganol Morgannwg. Y byd oedd ei phlwy eisoes. Y byd oedd ei bryd. Nid siarad am swydd geiniog-a-dimai dŷn ni. O fewn galwadau'i swydd, ryw wyth gwaith bob blwyddyn, fe'i câi hi ei hun yn hedfan i leoedd a ffyrniau cyn belled â Chicago a Tocio, Nairobi ac Adelaide.

'Pwy sy eisiau mynd ymhellach na 'ny?' oedd her ei mam falch. Gweithiai Siân yn galed, ond adre y dôi hi bob tro i Bontypridd. Dyma'i gwraidd. Ac yn y tŷ roedd yna groeso llethol a dynoliaeth ormesol a phiano a gardd a chymdeithas – o fath. Câi ei chynnal gan ei mam yn emosiynol. Ac fe'i hamgylchid gan sŵn anifeilaidd y bechgyn. Roedd hyd yn oed presenoldeb llonydd a swrth ei thad yn y gadair yn ddiogelwch disyflyd. Roedd e 'na. Gallai hi, mae'n wir, wneud peth o'i gwaith o gartre. Roedd y We yn hylaw. Ond byddai'n rhaid iddi felly wynebu'r anfanteision. O'r braidd bod ganddi yn unman ddim amser na chyfle chwaith yng nghanol ei phrysurdeb swydd i atyniadau serch nac i feddwl am ddim mor amherthnasol â phriodas. Tu ôl i'w swydd, gorweddai cysgod ei chartre a ddarparai gau arni. A cheisiai gadw'r gwaith dan ffrwyn. 'Os daw'r swydd yn orthrechol, mi fynna-i greu'r amser,' meddai hi'n ddamcaniaethol. Ond ddaeth mo'r archebion byth yn ddigon o ormes yn y ffordd yna. Profai'r cartre a Phontypridd a'r cymoedd o'i deutu yn lloches iddi lle y câi fwrw'i phryderon a'i straen o'r neilltu ac ymuno mewn sonata neu agorawd, fel pe bai wedi cael ei dyrchafu i ardd gymen o bartneriaeth lle y tyfid seiniau yn lle planhigion a lle yr oedd yr holl bridd yno'n

ffrwythlon liwus. Eto, ei gwir gartre meddyliol hi oedd Caerdydd mwyach, gyda'r atodiad cynhyrchiol yn Nhrefforest.

Y drefn arferol hon iddi oedd gweithio o hanner-awr wedi wyth yn y bore tan saith o'r gloch y nos, a mynnai beidio â dod â rhai o'r papurau tryma yn ôl i'r tŷ ym Mhontypridd. Os oedd gwaith ar ôl fe arhosai fel arfer yn y swyddfa nes ei gwblhau, weithiau tan berfedd nos. Ond ifanc oedd hi. A thra oedd amser o'i phlaid roedd am ddefnyddio'i hieuenctid. Llwyddiant masnachol gafodd hi'n gynnar yn ffatrïoedd Trefforest felly. Ac roedd hi am roi cynnig arni i weld pa mor bell y gallai'i deall a'i dychymyg ei chludo bellach na hynny yng Nghaerdydd.

Ac eto, roedd hi'n ceisio dyfalu pam roedd ei holl ragfarnau'n gogwyddo o hyd o blaid y dosbarth gweithiol hwn a'i caethiwai. Onid oedd wedi symud oddi wrth y cyddestun hwnnw? Onid callach i bawb oedd yr economi cystadleuol? Onid y dosbarth-canol oedd y dyfeiswyr a'r arloeswyr?

Ei mam oedd y rheswm. Meithrin chwaeth oedd uchelgais anfwriadus honno. Doedd hi ddim wedi cael addysg ffurfiol uwch, er nad oedd yn analluog. Doedd hi chwaith ddim yn meddu ar foesau soffistigedig. Ac yn sicr, roedd y siboletau ynghylch dosbarth-gweithiol yn gadael rhywun fel mam yn oer. Ond yn emosiynol – am ei bod hi'n aelod dilys a dwfn o'r dosbarth llwythol hwn yn y cwm, a chanddi hithau ddeallusrwydd a chwaeth diwylliedig – roedd ganddi aeddfedrwydd dadansoddol o fath. Roedd ei hymddygiad yn gymhleth. Gallai fod yn onglog, ond aeddfed onglog oedd hi. Drwy labyrinth garwder y gwrywod, dirwynai y fam ei ffordd wareiddiol. Heb chwenychu buchedd goethach, gwnâi'r gegin ei hun yn goeth. Celfydd oedd hi ym mhopeth. Hi a gynrychiolai'r dosbarth gweithiol ar ei fwya teimladus: y dosbarth gweithiol hwnnw sy'n medru hedfan i'r gwynt ambell waith. Blodeuyn oedd hi.

Ond rywsut gwyddai'i chartref sut oedd crino'r blodyn yna. Tatws plaen oedd y bechgyn. Neu'n well, moron: moron moronig, ac eithrio Hywel, a oedd yn fath o genhinen wlatgar yn gorwedd ar ei gefn. Gwnâi Siân ei gorau i fod yn flodyn bach yn llawn hadau addewid, yn estyn ei phetalau trythyll anefnyddiol achlysurol i ddrachtio'r pelydrau trwm. Blodyn ei mam oedd hi felly, mewn gwirionedd, bob peillen. Ac eto,



doedd dim eisiau ond edrych yn ei llygaid i sylweddoli mai blodyn go unigryw dan fygythiad oedd hi hefyd. Yn sgil anesmwythyd ynghylch dylanwad y fam, trôl llygaid y bechgyn ambell waith oddi wrth y piano, ac oddi wrth glawstroffobia'r tad. Casglent eu holl ddiffyg afiaith gan y pridd dan eu traed, a chyrcu allan i anadlu.

Pan ddaeth Siân yn ôl i'r tŷ y tro hwn, roedd dau o'r bechgyn wedi mynd allan i chwarae snwcer, a dau ar ôl. Ond oherwydd ei phrysurdeb, a'r drafodaeth agored a gafwyd ynghynt am rinweddau'r byd mawr, aethai hi'n ychydig o ddieithryn i bawb. 'A hon yw'n llysgennad ni?' gwawdiodd Hywel yn gynnil genfigennus. 'Hon fydd yn dwyn contractau diwydiannol yn ôl i'n cenedl Gymreig fel ysglyfaeth ar gefn ei cheffyl, i gynnig gwaith newydd i dlodion Rhiwbeina a Chyncoed a Radyr, contractau a allai'n cyrraedd ni fan hyn. Hon fydd negesydd ein diwylliant. Hon fydd yn cyfieithu llenyddiaeth lafar ac arferion gwerin Pontypridd i'r brodorion anghyfiaith. Hon.' Aeth Siân at y piano, a'i chwarae yn ddihidans er gwaetha'r tynnu coes 'ma. Doedd hi ddim wedi bod yno ers tro. Yn ei gwrthryfel, roedd hi wedi cefnu ychydig ar ei gorsedd.

'Mam!' gwaeddai Idris yn anesmwyth ar ei fam yn y gegin, fel pe bai e am brotestio ac eto yn ofni'i wneud. Synien nhw erbyn hyn fod Siân yn hyn o gyfwng am adfer pethau ac am fynnu'i hen le yng nghanol yr ansicrwydd a lanwai'r tŷ. Daeth Morwen i'r drws a sylu ar gefn ei merch. Hi oedd y fam frenhines o hyd. Hi oedd arweinydd go iawn y gerddoriaeth, hyd yn oed yn awr. Ac roedd ei hymhyfrydu hi mewn perseinedd fel arfer yn pelydru allan ohoni. Safai a rhythu yn awr yn stond arny'n nhw. 'Llew a Gwyn wedi mynd allan!' Closiai'r plant oll ati fel arfer fel at wres, a chynhesu'u hwynebau a'u dwylo yn ei greddfau celfyddydol, heb wir sylweddoli'r fath ddylanwad a oedd ganddi hi drostyn nhw. Y tro hwn, sut bynnag, aeth y fam ddim ymlaen i gymryd ei lle arferol yn y canol. Gwenai ychydig. Plygodd y bechgyn eu pennau. Siân a berfformiai yno ar ei phen ei hun. Gwrandawai'i fam. Rhodiai cordiau pruddaidd Siân drwy'r tŷ yn ara, ac allan i'r ardd, ar hyd y llwybr, ac ymdorri'n flodeuog ymhlith y planhigion cynefin.

Pan ddychwelodd Llew a Gwyn, cynhesodd yr ystafell.

'Tôn, mam?' gwaeddai Idris, 'gyda'n gilydd!' Bob hyn a hyn, bwriai un o'r

bechgyn ryw gipolwg llechwrus i gyfeiriad Siân. Feiddiai neb yno yngan gair ar ei thraws. Roedd arnyn nhw oll ofn ei hymadawiad â'i chartre.

Ciliai'r tad fel arfer allan o'r ystafell, ar frys o flaen y gerddoriaeth. Byddai fe fel arfer fel pe bai'n cael ei erlid gan gŵn yn cyfarth ar ei sodlau, wrth i'r ferch dynnu ychydig o nodau rhybuddiol, braidd yn Eidalaidd operatig, felly dros ei thannau. Disgwylien nhw oll yn ddefodol i'r tad fynd; ac weithiau os oedai ryw ychydig, llusgai Llew yntau ei fwa wedyn ar draws tannau fiolin awgrymus, nes cyflymu traed yr hen ŵr o'r golwg. Fel arfer, pan nad oedd Siân yno, roedd soledrwydd disymud yr hen ŵr a'i bwd a'i syrthni'n peri bod pob dim yn isymwybodol droi o'i amgylch e. Dôi e'n echel achlysurol isymwybodol felly i'r cartre heb ddweud dim; ac er bod y fam yn gweiddi ambell gyngor neu gais, y tad llonydd a thrwm a ddarparai'r cysgod ymataliol tywyll yn y canol. Efô oedd y pwynt distaw disyflyd, yn bresenoldeb trwm, yng nghanol eu hymwybod oll, nes dôi'r gerddoriaeth a'r fföedigaeth. Efô druan oedd y twll du. Troen nhw ychydig yn ofnus o'i gwmpas yn ddiwedd anymwybodol ac yn amyneddgar. Ond pan dorrai'r awydd achlysurol am ryddid a goferu dan egnion y fam drwy esgyrn y plant, a phan drôï Siân i mewn gyda math o benderfyniad anarferol, yna at gerddoriaeth y troen nhw oll (ac eithrio'r tad) yn bobl newydd. Ffôï'r tad o'r neilltu ar frys. Roedd cerddoriaeth yn fwganus.

Ond heno roedd pethau'n wahanol. Edrychai'r bechgyn at eu mam gan ddisgwyl iddi hi adfer ei rheolaeth briod ei hun. Beth amdani? Ac onid mam yn frenhines, heno efallai – iddyn nhw – oedd biau'r amser mwya heriol?

Ond 'ddim heno' meddai'r fam wrth y bechgyn. 'Pen tost.'

'O! Mam,' gwaeddodd Hywel, 'hen geffyl yw hwnnw: dwyt ti byth yn pwdu.' Hynny oedd priod swydd y tad: pwd o fywyd oedd ganddo fe, fel y gwyddai'r byd. Y gerdd a'u hunai nhw, y fam a'r plant. Ac o'r newydd fel arfer, gweithredai fel balm ar unrhyw siom. Gallai'r sbort hon fod yn waedd o blaid anadl weithiau. Roedd yna ymgynnull ysbrydol yn gallu digwydd, pan drôï'r fam at yr uchelderau. Pumawd Schubert yn A fwya, Pumawd Llinynnol Dvorak yn G gyda dwbl bas, ac ail sonata Fauré o Bianco a Fiolin, dyna'r ffefrynnau diweddara. Dyna'r lle y caen nhw fod yn ei

gilydd yn ymgolli ac yn ymuno. Dim ond pan fydden nhw'n ymuno felly mewn un o'r darnau cerddorol hyn roedd yr ysfa honno am ymatal ac agor ar y lefel orau y dyddiau hyn yn gallu llwyr gronni yng nghorff Siân. Gallai ymosod ar ei hiraeth am ffoi y pryd hynny, dim ond i Dvorak neu i Schubert guro yn ystyrion ar ei drws a galw nawr 'dowch i mewn'. Dyma hefyd deyrnas ddihangol ei mam.

Heno, serch hynny, sicrhâi siom i'r fam mai canu ffarwel yn drist roedd y ferch. A doedd hi ddim am fod yn dyst i hynny. Eisteddai Siân yn frenhinol wrth ei hofferyn hi'n amwys ddigon. Roedd hi wedi galw ar bawb i ddod ynghyd yn unswydd – er mwyn canu'n iach gyda thonc. Ymunai'r fam ddim. Fe'i deallai beth oedd ar gerdded. Roedd Siân a'r fam wedi profi'u hundod o'r newydd, ond yn betrus, am ychydig o funudau. Ac er mwyn sicrhau hynny o egwyl, bu'r fam yn barod i ildio peth o'i theyrnas. Ond roedd rhywbeth dwfn wedi mynd ar goll. Roedd hi bron fel gwasanaeth angladd i sawl un.

A'r pryd hynny ar ei ben ei hun, o'r neilltu, yn yr ystafell-ffrynt y chwerwai'r tad. Dyna'r union ystafell, ym mhob tŷ yn y stryd, lle yr oedd yna draddodiad i osod y corff, adeg profedigaeth. A phan giliai'r tad yno, byddai pawb yn gostwng llais ac yn teimlo bod corff bellach yn yr ystafell. Yno yr eisteddai fe a'i lygaid ynghau. Yn fethiant.

Bysai'r tad, oni bai iddo gymryd y cam gwag o ymgyfyngu, wedi gallu dod yn gynhenid yn berchen ar ffyrn fawr yn Nhrefforest. Neu fynd i'r Brifysgol a dod yn fargyfreithiwr neu'n llawfeddyg. Bysai wedi dod yn beiriannydd efallai a chynllunio pontydd, ac yn bensaer ysbyty neu'n gynrychiolydd banciau Ewropeaidd. Bysai, bysai pob cyfle wedi ymledu o'i flaen e. Ond beth wnaeth e? Dal llyw bysys ar hyd ei oes, dim i'w dim. Ildio'n fuan i'w fethiant gyrfaoel heb frwydr. Ildio i deulu. Bod o fewn cyrraedd i ofalu am ei rieni. A pham? Doedd e ddim yn barod i fentro'r cwbl, dyna pam. Cuddiai yn ei gadair a gadawai i'r oriau gerddetian drosto. Yng nghanol bysys buodd ei sbonc farw, wedi ymdrochi mewn methiant coch a gwyrdd ac ambell lwyd.

Ac unig oedd e yn ei gartre ei hun ar ôl cael teulu newydd. Âi e am ddiogelwch i 'ystafell y corff.' Galarwyr iddo yn yr ystafell arall oedd Morwen a'i feibion. Cwerylen nhw, bloeddien nhw, canen nhw; ac ar adegau cymharol reolaidd, eisteddai Siân yn ffug dywysogesaid wrth y piano a disgynnai math o rin amdanyn nhw ac ymunen nhw oll

yn ôl eu rhannau mewn agorawd araul, mewn emyn neu mewn sonata er co am yr hyn fu'u tad. Ond unig oedd e yn ei drueni. 'Stŵr': dyna farn bwyllog y tad am y cydchwarae chwerw gerddorol. A phe gallai, beth bynnag a feddyliai'r wraig, na beth bynnag a feddyliai Siân, hidiai fe ddim pe bai'n e'n gyfrifol am ei ddifetha oll. Claddai bob perseinedd pe câi gyfle. Hiraethai am realiti'r awydd pragmatig. Efô a goleddai'r distawrwydd myfyrgar Cymreig, meddai. Fe a synfyfyriai fwya hefyd.

Nid ceisio cael ei hoffi roedd e, felly. Nid ennill hoffter gan neb oedd ei awydd e. Yn wir, ar hyn o bryd, roedd e'n fodlon i Siân fod yn elyn iddo. Ei chas hi tuag ato, a thuag at bob dim a gynrychiolai fe, fyddai'i wobr gytûn. Roedd e am iddi hi yn ei thro sylweddoli'i fethiant e, a gwrthod y methiant hwnnw, a ffarwelio ag e a'i siort, y math o bobl na wnaen ddim. Chwipiai'i hun ag unrhyw fodlonrwydd a ddangosai hi tuag ato. 'Cer, ferch.' Y gwastraffu ymennydd, y llarieiddio ar ei ddawn, y darfodedigaeth harddwch: sylweddoli mai'r rhain fyddai'i glendid hi ped arhosai hi yn ei gysgod e.

A hyhi, hon o bawb, oedd unig obaith y teulu i dyfu mewn dinas.

Doedd y meibion yn ddim i'r tad. Nid ceidwadaeth yn unig a'u cadwai-nhw yn feibion clyd yn eu bro: roedd amyn nhw ofn yr anhysbys fel pe bai ofn yr orfodaeth o fynd i drên, a chael eu chwydu ohono yn y pen draw; a 'gorwedden nhw' yno yn y pen hwnnw ar lawr y plattform dieithr (fel petai) wrth i bedestriaid y dre rodio heibio iddyn nhw a throstyn nhw a thrwyddyn nhw yn ddiadnabod. Roedden nhw'n deall i'r botwm farchnad Pontypridd, wrth gwrs. Roedd Parc Angharad yn golygu cylch o brofiad amgyffredadwy iddyn nhw. Cysur oedd mwg y dafarn, a lleisiau'r côr yn gymdeithas achlesol a chynnes a dwfn, a'r cae rygbi. Chaen nhw ddim tebyg byth mewn unman arall i'r cynefindra goddefol a difeddwl hwn a chwythai ar hyd y brif stryd yn y cynefin, yn y dosbarth-nos gynt, ac ar hyd sbwriel bythol y lonydd cefn. O fewn waliau'r cwm diamser roedd eu cartre.

Heddiw, dirwynai llid y tad, a gwanc y fam, a syrffed annherfynol y bechgyn i fath o anterth wrth i Siân benderfynu newid ei bywyd rywfaint, ac wrth iddi sôn am ail le drwy logi fflat hwylus yng Nghaerdydd, a neilltuo'i hymweliadau â'r Cymoedd i achlysuron pytiog a gwyliau. Yn wir, dechreuai hi bacio. A hynny a benderfynai naws

eu perthynas nhw nawr am wythnosau ar ôl hyn.

3

Fis cwta wedyn, ar ôl iddi ddatgan ei phenderfyniad, roedd y ferch wedi ymadael. Mi aeth yn sydyn. Yn y diwedd, clodd ei chalon ar ei chartre. Mi weithredodd felly; gadael y cwbl diffaith. Caeodd hi'i chlustiau'n gŵyr i bob mân erfyniad gan ei mam. Cefnodd ar ei thad, ar bawb. Trefnodd fflat iddi'i hun yn y ddinas, yn agos i'w gwaith newydd. Yn ddisyfyd fel yna. A thaflodd y llwch oddi ar ei sgidiau. Syrthiodd Caerdydd drosti nawr fel eira a'i chladdu.

Cais Caerdydd bob amser yw ymddwyn fel pe bai'n ffroth ac yn ffrithiant i bawb: gyda modrwyau yn ei thrwyn a phorfforliw yn ei gwallt. Ei chais fel dinas yw bod mor adolewent ac arwynebol â hen sipsi ystrydebol o ifanc, yn ddelwedd i gyd, ynghyd â diffeithwch newydd a chwyrlligwgan. Ond er mawr embaras i'n prifddinas hefyd, yn y canol yr erys ei chastell ara. Yn waeth byth ar bwys hwnnw arafa gloywder atgofion yr afon ddyfal fythol anniddorol, a pharciau, a pheth tawelwch. Yma ac acw, ond nid mor fynych â chynt, ceir pocedi bach o bobl ara'r cymoedd wedi mewnfudo o leia er mwyn llwyddo, ond wedi methu â chefnu'n llwyr ar eu gwreiddiau lleol.

Un peth doedd hi ddim am ei weld ar ôl mynd i Gaerdydd: doedd hi ddim am gyfarfod â neb o Bontypridd. Doedd hi ddim am glywed enw Pontypridd nac arogl dim o ddwst Pontypridd chwaith. Efallai, ymhen blwyddyn ar ôl iddi ymwneud yn weddol â chynefindra di-Bontypridd yn ei fflat, fe âi hi allan a chwilio am hen gydnabod, fe glustfeiniau ar hen oslefau cyfarwydd a snwffian hen wynt. Ymwelai â'r cwm hyd yn oed dros y Sul. Ond am flwyddyn, dros dro, fe ymprydiai'n gymdeithasol. Osgôi gabanau coffi, ymataliai rhag aros yn emosiynol gyda'r hen adleisiau, a mynnai ymbellhau ac ymddieithrio ac ymoeri er mwyn dod o hyd o'r diwedd i anadl arall a chartre arall. Âi hi i ddim adre i Bonty am dipyn felly. Ar hyn o bryd, roedd hi am fwynhau'r cam newydd hwn yn ei bywyd i'r eitha ulw.

Derbyniodd felly sialens y Brifddinas. Ac roedd y gerddoriaeth honno gynt, a fuasai'n absennol iddi am ennyd, wedi cael math o adnewyddiad gwahanol ar lun ambell gyngerdd lle roedd hi'n anhysbys. Câi gyfle bellach i wrando'n amlach, i fod yn

oddefol fwyn yn y Brifddinas fawr.

Yn ystod y misoedd cynta yng Nghaerdydd, fe âi popeth yn ddiddig braf fel y dylai'i wneud. Gwaith beunyddiol, anghofio Pontypridd, cynyddu mewn hyder a gallu, gwaith, parch, rhyddid, llwyddiant gwaith, cyngerdd, perthynas ffurfiol fuddiol gyda'i chydweithwyr, annibyniaeth. Myfyrdod oedd hyn oll heb gynnwys yr un Bontypridd. Byw'n ddinesig. Cogiai'i bod am ymadfer. Cefnasai ar y tlodion a adeiladasai dreftadaeth y Cymoedd yno. Sbwriel oedd y rheini felly, ar ryw olwg. Eto, roedd yr etifeddiaeth honno wedi mynnu gosod ei hunaniaeth arni, yn nannedd pob awydd i ddianc. Mynnai hi'n benderfynol ysgarthu'r garwder cynt: anghofiasai'r teulu, anghofiasai'r piano hyd yn oed. Dichon i'r cyfleoedd achlysurol i ymweld â chyngherddau brinhau hefyd. Ond – dyma ar draws y rhythmau cudd a llesol hyn, – syndod y byd, – yn gwbl ddirybudd a dibaratoad, ddyn yn dod heibio, ryw ddiwrnod, i ychwanegu at y diddanwch oll. Dyn, – gwrywaidd.

Aled oedd hwn, o Drefynwy. Gweithiai mewn swyddfa gyfagos. 'Alun?' holodd hi pan gwrddon nhw â'i gilydd. 'Aled,' meddai fe'n falch. Gŵr tua'r un oed â hi, ond meddal a chrwn. Roedd ei ysgwyddau'n hongian amdano fel gŵn nos rhy fawr iddo. Taenwyd ychydig o flew ar draws paith o gorun fel chwe gwifren deleffon. Caed dwbl ên nobl ynghrog wrtho fel petasai digon o le i letya ymwelwyr. Roedd hithau'n galeddenau yn ei ochr ac ychydig yn dalach nag e. Gwnaethpwyd ei hwyneb hi o betalau meillion a phlastig pinc. Gwisgai hi i'r swyddfa beunydd ddillad tawel, braidd yn geidwadol-lwyd yn fath o thema reolaidd tan gydredeg ag ambell linell wen ar hyd ei gwisg. Ond tasgai'i llygaid o weld Aled, fel corcyn siampaen.

Ychydig yn lliwgar oedd ei lais a'i grys e, er mai llwyd golau oedd ei hosanau – fel pe bai e wedi'i adeiladu ar sylfeini sobr o ofalus. Ond nid un i wastraffu amser ar liwiau oedd Aled, mewn gwaith nac yn unman arall. Trwm oedd, ond trwm effeithiol. Doedd ganddo fe ddim menyw reolaidd i wastraffu'i amser chwaith. Un peth a fynnai menywod meddai fe: sylw. Lot fawr o sylw. A phres. Ac er gwaetha sbonc ei lygaid yntau, doedd gan Aled ddim o'r amser i sylwi ar ddim maldod felly.

A daethan nhw'n ffrindiau. Yn ffrindiau gweithredol ac ymarferol.

Sut 'yn ymarferol?' gellid ei ofyn. Wel, fe drefnwyd noson.

Y noson honno pryd y tybiodd e fod yna dân gwyllt i fod, yn ffigurol, wrth gwrs, oedd y noson pryd y cafodd Siân olwg newydd ar bobl.

Yn ei char hi y cychwynnen nhw trwy drefniant tua'r Bannau. Roedd hi'n gwisgo cymaint o bersawr fel y barnodd e y byddai'n well iddo fynd i mewn i'r car yn gynta neu byddai-fe'n methu â mynd i mewn. Cawsan nhw siwrnai felys fer.

Doedd fawr o sgwrs. Doedd fawr i wneud sylwadau arno fe, heblaw bod Siân rywfodd wedi dod â Chaerdydd gyda nhw. Ac yntau hefyd. Roedden nhw bellach wedi cyrraedd y gwesty yn Aberhonddu i'w pryd cynta gyda'i gilydd. Aberhonddu y bannau priddgoch. Ond yn ystod yr eiliadau coch cynta wrth y ford dechreuodd Siân deimlo gobaith y gallai pethau heno fod ychydig yn wahanol i'r disgwyl. Ac felly y buwyd am dair munud wedyn. Ond ar eu traws dywedodd Aled rywbeth mor eithriadol o anniddorol nes gyrru ysgryd i lawr asgwrn cefn Siân.

'Dw i'n gobeithio y byddwn ni'n ffrindiau,' murmurodd e.

'Byddwn, wrth gwrs,' ebychodd hi wedi'i drysu heb feddwl dim coegi. Roedd e fel pe bai eisiau gosod i lawr, ar drothwy'r berthynas bosibl hon, y synnwyr cyffredin a oedd i fod yn drefn i bopeth. Gŵr busnes oedd e yn gynta oll – fe ddaeth hi'n fuan i'w sylweddoli – , a chanddo ryw fath o barodrydd egwyddorol i odde diddanwch byr nad arweiniai'n rhy bell oddi wrth brif werthoedd busnes.

'Cyfeillgarwch. Pwysig. Mae hwnnw'n bwysig i fi, ac mae'n bwysig i fusnes.'

'I finau hefyd.'

'Mae yn y canol yn deg.'

'Gawn ni fwyta nawr.'

'Halen?'

'Diolch.'

A threiglodd tair munud arall o'u cwmpas ill dau, gan eu gorchuddio yn eu distawrwydd cyfeillgar cynnil. Roedd y ddau wedi blino cyn cychwyn ar eu taith fer i

gyrraedd y lle – heibio i Bontypridd – i Aberhonddu – ar ôl y gwaith yn eu swyddfeydd gwahanol ond tebyg, – ac yn falch i gyrraedd eu nod, heb fod fawr ar eu meddyliau ond busnes y diwrnod cynt. A chyfeillgarwch.

'A pharch hefyd,' meddai fe ymhellach. 'Cyfeillgarwch a pharch.'

'M!' meddai hi gan gnoi ei thafod yn fân fân, heb flas dim.

Roedd golwg Aled, yn arbennig, megis un a oedd wedi ymlâdd hyd yn oed cyn dechrau yfed ei gawl; ond wedi ymlâdd yn gyfeillgar. Fe'i hyfodd yn ara gan syllu'n bŵl ar draws y lliain ar ei gyfeilles newydd, y gyfeilles gymedrol o hawddgar, weddol ifanc, a pharch dros ei phrydwedd hi'n drwm. Gogleisiai'i drwyn ryw ychydig ger ei bron, fel cleren las gyfeillgar nid ar domen, ond gerllaw; eithr ceisiodd e beidio â'i grafu.

'Peidiwch â nghanmddeall i,' meddai fe.

'Sut?'

'Peidiwch â chredu mod i wedi blino.'

'Na. Gobeithio nad ych chi ddim.'

'Buon ni'n ffodus ar y daith.'

'Sut?'

'Y tywydd.'

'Sylwais i ddim.'

'Mi addawson nhw stormydd a phob math o annibendod. Tipyn o li. Heolydd dan ddŵr. Ond doedd dim byd.'

'Sylwais i ddim. Fysai dim wedi yn rhwystro i ta beth,' meddai hi'n wrol.

Edrychodd e arni ychydig yn chwilfrydig, yn betrus hyd yn oed. Ond chynigiodd hi ddim esboniad i'w gosodiad. Ofynnodd e ddim am un chwaith. Rhuglodd ei ymennydd o fewn ei benglog fel dis mewn cwpan. Gwenodd e wrth sylwi ar y sŵn. Aeth hi ymlaen i fwyta.

Oherwydd eu gwaith, doedd dim arall i siarad amdano, na dim awydd chwaith i



feithrin yr hyn a dybien nhw oedd Cyfeillgarwch. Teimlai hi ychydig o ddirmyg tuag ato.

Ei hyder benywaidd hi oedd hyn mae'n debyg. Roedd Aled wedi hen ymgyfarwyddo erbyn hyn â'r menywod gwrywaidd 'newydd'. A theimlai beth tosturi drostyn nhw, a'u hymgais nhw i fod mor debyg i wrywod ag y gallen nhw fod, a hwythau'n teimlo anghenraid i rollo'r oesoedd yn ôl, er mwyn pipian allan yn wrol ar annibyniaeth wrywaidd a hyder gwrywaidd. O! Gwynfyd gwryweidd-dra!

Ac er nad dyna oedd yn cyfri heno am ei hateb i hwn, roedd y gwirionedd a oedd ganddi bellach am fath o wryweidd-dra callach arall, gwahanol i eiddo Pontypridd, a welsai hi, yng Nghaerdydd, yn trympio camsyniad ei thad y llwyddasai i ymryddhau ohono. Yn ei fflat dinesig aethai hi'n fwyfwy o ffeminydd o'r herwydd. Ffeminydd rhonc oedd hi bellach, efallai – o leia felly y tybiai brodorion a brodyr Ponty yn ddiau pes gwyddent. A theimlai Aled drueni arbennig drosti nawr, nid oherwydd y symleiddio ynghylch gwrywod, nac ynghylch eu mantais gorfforol dybiedig ac annheg o gre a'u distrywgarwch, ac yn y blaen, ond yn syml oherwydd y ffordd anymwybodol y'i dibrisiai hi'i hun drwy efelychiad. Fe'i gwnaethpwyd hi rywfodd yn slogan ac yn gartŵn bas gwrywaidd o'r ffeminydd arferol. Roedd merched eraill a wnâ'n well na hyn, doedd bosib.

Holodd e hi'n gwrtais ynghylch 'Pontypridd', holi a stilio. Pa fath o beth a wnâi pobl mewn lle felly gyda'r nos? Faint o lewyrch a oedd bellach yn y sector diwydiannol? A oedd yna gyngherddau weithiau? Oedden-nhw'n gyfeillgar? Sut le oedd 'na? Beth am Gymreictod?

'Mae pobl yn naturiol Gymreig,' ebychai hi'n falch, 'yn naturiol yn falch o'u Cymreictod.'

'Rown i wedi clywed am y myth yna. Ond beth mae'n feddwl? On'd yw Cymreictod yn weddol gymhleth?'

'Maen nhw'n Gymry heb feddwl am y peth.' Oedd rhaid iddo fynd ar ôl hyn?

'Efallai'n bod ni oll yn genedl gynhenid o gennin; rywsut yn drewi, yn blasu'n rhyfedd fel cymysgedd o wymon a bresych,' meddai fe'n newyddiadurol (fe ddysgwyd

iddo ei athroniaeth am fywyd drwy'r *F.T.*), 'dim ond inni lynu wrth ein lle yng nghornel yr ardd, gallwn beidio â chodi pennau'n rhy uchel yn y golwg.'

'Cymreictod gwerin sy ym Mhonty. A finnau, dwi'n Gymraes o'r brig i'r bôn,' meddai hi gan ddangos ei bôn.

'A'r gwaith? Fan hyn? Dych chi'n hoffi'r gwaith yng Nghaerdydd?'

'Ddim wedi sylwi.'

'Sut?'

'Rhy brysur.'

'Dw i'n deall yn iawn. Dŷn ni'n cael ein treulio gan lafurwaith yma – fel castell Normanaidd gan wynt.' Roedd e braidd yn bles gyda'r gyffelybiaeth honno, er mor flinedig oedd.

'Dw i wedi methu â chael amser i feddwl ai buddiol i fi neu beidio oedd y symudiad o Bontypridd. “Llwyddiant” yw ein problem, wedi dod i Gaerdydd felly, mae'n debyg.'

'Peidiwch â defnyddio'r term yna.'

'Pa derm?'

'Byth “lwyddiant”, o leia â llais rhy uchel. Does neb yng Nghaerdydd yn hoffi clywed am lwyddiant neb arall mewn busnes yma. Lladd yw pob llwyddiant.'

Pensynnodd hi am foment, a gwydrodd ei llygaid. 'Roedd mam hefyd yn arfer bod yn amheus iawn o'r gorbwyslais ar lwyddiant swyddogol – uchelgais swydd.'

'O?'

“Yn ystod oriau hamdden y gwneir y gwaith glana,” meddai mam ymhellach. “Mae mwy o wastraff amser mewn gwaith nag mewn gwastraffu amser: dyna un o'i sloganau hi o hyd.”

'Mae'ch mam yn swnio'n fenyw gall.'

'Anghytwys o leia, diolch am hynny. Anghytwys o gall efallai. Dw i ddim yn gwybod.'

'Dych chi ddim yn gallu cytuno â hi?'

'I rai, os nad oes gynnoch chi amser i weithio, dych chi ddim yn gwybod beth yw amser,' meddai hi, fel pe bai'n crynhoi rhyw fath o gasgliad blinedig arall o eiddo'i mam.

'Wel, mae gwaith yn ein twyllo ni ein bod ni'n cadw angau draw,' meddai fe, gan chwerthin y mymryn lleia. 'Ond i fi, syniad chwithig o werth y corff yw cred felly.'

'Ie, efallai. A chithau. Beth amdanoch chi?' heriodd hi. Gostyngodd e'i lygaid wrth iddi ei stilio. 'Oes gynnoch chi amser?'

'Dim!' meddai fe.

'Beth ych chi'n feddwl – dim?'

'Dim ond dim.' Safai fe wrth groesffordd ei chwestiwn hi heb fod yn sicr am unman i fynd – fel cadair nas enillwyd gan neb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn sydyn roedd e wedi teimlo'i bod hi'n treiddio i mewn iddo. Gwyddai fe rywfodd iddo gael ei eni'n ganmlwydd oed, ac aeth e'n hŷn o flwyddyn i flwyddyn oddi ar hynny, yn groes i Parry-Williams. Fyddai fe byth serch hynny yn siarad amdano'i hun fel yna gan y gwyddai ym mêr ei esgyrn, ac yn gywir, nad oedd yna'r un pwnc llai cyffrous.

Wrth sgysio ychydig uwchben eu cinio, yn arbennig pan drowyd y sgwrs tua chyfeiriad Pontypridd, roedd y sefyllfa wedi peri i Siân deimlo fel pe bai wedi'i dinoethi gerbron y dyn soffistigedig hwn. Roedd arni gywilydd. Nid tre anghysbell oedd Pontypridd iddi mwyach, ond pwll glo hanesyddol wedi'i gau. Roedd amser yn llusgo yn ei flaen mor ara ym Mhontypridd fel y gallech dybied ei bod, a hithau'n dal yn Ddydd Iau, yn siŵr o fod yn Ddydd Llun erbyn hyn. Roedd meddwl fel hyn (ofnai) am Bonty – hyd yn oed am hanner munud – yn ei blingo. Da fu ffoi oddi wrthi. Malwoden o le oedd ar ôl 'na; a chwaraeodd ei myfyrdod yn rhy flinedig yn awr yn y cyfeiriad hwnnw.

Ffordd o gau drws fu ei ateb 'Dim' ar y pryd. Doedd dim o'i farn na'i safbwynt e bellach yn cyfri dim iddi hi yn y fan hon. Ond doedd ei theimladau hithau chwaith ddim yn cyfri dim. Traeniai'r poenau a gasglwyd yn y dydd i ffwrdd o'i chyhyrau. A brigodd breuddwydion i'r golwg ychydig, heb sylwi. Roedden nhw yn yr un gwesty, yn yr un ystafell fwyta, edrychen nhw allan drwy'r un ffenest ar y tywyllwch a'r glaw y tu allan, cysgodion o oleuni yn y pellter, – fferm neu gar o bosib. Parhâi'u hymddiddan heb i'r naill na'r llall sylwi. Dim. Treiglai'i phersawr hi'n ddiffwdan dros ei ddillad e, ond doedd dim teimlad o fath yn y byd ganddo fe yng nghanol yr aroglau. Safai'r lleuad aroglus yn ei dillad hithau hefyd uwchben fel hen fenyw â'i choesau mewn plaster. Ar wahân i guro'r glaw a chyfarth un ci bach pell iawn oddi wrthyn nhw, chlywen nhw ddim oll yno. Roedd y gwesty ei hun yn farw. Wel! Dyma le enbyd i dreulio hyd yn oed dwyawr. (Diolch am y ci.)

Wrth gyd-fwyta cinio gyferbyn â'i gilydd ynghynt, beth ddigwyddasai iddyn nhw. Peidiodd pob dim, mae'n bosib, nid yn unig yr achlysur hwn, ond pob dim arall hefyd. ... Do... Diberfeddwyd hynny o fywyd a oedd ganddynt. Neu ai cerdded i ddimensiwn gwahanol a wnaent? Tyfu'n hŷn? Neu'n iau, rywsut? Mynd yn ôl i Bontypridd ei phlentyndod cynnar cyn iddi 'nabod' meddwl na'i mam na'i thad na'i brodyr yn iawn, cyn sefydlu'i hunaniaeth, pan oedd perthynas yn gymharol iach ac addfwyn: dyma a wnâi hi heno, yn gwbl groes i'r graen, ac yn absennol i'r dyn hwn. Allai'r dyn hwn byth bythoedd ddychmygu dim mor ddeifiol o anniddorol â hynny. Llithrai'i feddwl yn ôl drwy'r amser at ei waith beunyddiol nawr. Rywsut, go brin y byddai'i feddwl e byth yn crwydro o gylch ei hen gartre. Iddo fe gweithdy cyfeillgar oedd 'cartre' yn Nhrefynwy i'r rhai sy heb ddim i'w wneud: nid lle i ymdroi ynddo o ddifri.

Daeth dros Siân yn sydyn awydd eithriadol a hollol amherthnasol i gael tonc ar bianco, pe buasai un yno ar y pryd yn y fan a'r lle. Ond bodlonodd hi ar saib eitha estynedig o dawelwch. Chwythodd seiniau piano yn dawel drwy'r awyr a'i hamgylchu hi yn syml i'w phryfocio.

Pendroni amdani hi yn awr ac eilwaith roedd Aled, sut bynnag, braidd yn

flinedig. Doedd e ddim wedi gallu pwysu hon yn eglur o gwbl. Beth oedd yn ei chorddi hi? Ai saib rhwng cromfachau gyrfa oedd y noson hon? Ai tân siafins? Roedd pethau fel hyn wedi digwydd iddo fe o'r blaen, ac roedd e'n gobeithio bellach ei fod yn aeddfedu tuag at geisio rhywbeth amgenach. Ond efallai nad hon oedd yr union un a'i cynorthwyai i ddod o hyd i berthynas ystyrllon felly. Roedd e ers tro, yn achlysurol, wedi pendroni am y broblem gymaint nes iddo ysbaddu'i reddfau. Wrth fod yn benderfynol i beidio â chael ei ynysu mewn unplygrwydd serch, ac er mwyn ceisio cyfoethocach perthynas, roedd e wedi'i amddifadu'i hun o'r angerdd digymell angenrheidiol ei hun.

Ond roedd y ddau ohonyn nhw wedi blino.

Pensynnai rhyngddo fe a fe'i hun ai dyma'r noson i garu heb 'ryw', wedi'r cwbl. Teimlai y dylai chwerthin ychydig am ei ben ei hun efallai. Oni allai geisio perthynas wâr lawnach, lai unochrog? Gwelsai gynifer o berthnasoedd rhwng mab a merch a sylfaenwyd ac a longdrylliwyd oherwydd y nwydd unig ynysig 'perthynas'. Ymdyngedai fe i lunio ambell berthynas hardd mewn bywyd bellach ar sail parch a chydweithrediad cyfeillgar. Byddai cariad drwyddo'n blethog o edmygedd a gwasanaeth ac o lawnder edafedd yr ysbryd. Dylyfai ên. Roedd e'n rhy flinedig o beth wmbredd.

Roedd yr hwyrnos hon yn siarad drosto fel rhestr siopa y tu ôl i'w dalcen. Ymddangosai hi'n ferch ddigon diddorol, ond roedd e wedi blino. Pe ceisiai, pe codai'r galw, gallai fe garu ychydig gyda hon... caru gyda'r meddwl fel ysbryd, ie, efallai gwir garu, ond ddim heno. Po fwya y pendronai ynghylch delfryd o serch gwâr rhwng dau, mwya y teimlai'i fod naill ai'n fath o wallgofi neu fod yna garu yn ôl fformiwla ganddo. Roedd gwres y meddwl yn troi'n chwil ddigyfeiriad rywfodd yn afonydd ei gorff. Ar ôl i'w feddwl, wedi pob damcaniaeth, gasglu'r holl barch a ffyddlondeb, gwasanaeth a dibyniaeth, at ei gilydd, yn ddisyfyd ffrwydrodd rhywbeth y tu mewn iddo fe fel pothell fach. Gobaith efallai. Roedd y cwbl yn nhrefn ei galon fel pe drylliasid yr hollfyd. Roedd rhywbeth bach ar goll heno rywsut.

Awydd i 'roi' oedd hynny. Rhoi bywyd; rhoi amser yn rhad ac am ddim. Onid 'gwneud' fysai caru go iawn, gwneud y pethau sy'n anghyfleus ac yn anhunanol? 'Diodde' fysai caru: plygu. Ac yn sgil pethau o'r fath y derbynai fe'r peth.

'Mae hyn oll yn gwbl arwynebol,' meddyliai fe wrtho'i hun. Beth a ddylai fod yn trechu'r holl bersonoliaeth onid naturioldeb angerdd? Mae'n bryd ifi, teimlai, ddod o hyd i'r trysor ei hun: rhoi a chyd-ddibynnu. Dim mwy o chwarae, ond y peth ei hun. Peth mawr yw hwnnw, ond gyda hon doedd yna ddim o'r fath i'w gael. Roedd yn dal i deimlo'n flinedig.

Yr unig hyfrydwch i'w gymharu â charu yn y pen draw yw cael dy garu. Ac roedd y ddau brofiad hynny'n gyfartal gyd-ddibynnol yn ei fryd e. Yn annatod. O dan y ffws a'r ffair yna, roedd yna batrwm cymhleth o angerddau o hyd yn ymestyn o un lle i'r llall, wedi'i gydadeiladu'n arswydus o gymen. Roedd hyn oll yn gymhleth.

'Ymdroi'n feddyliol' oedd hyn oll, fel pe bai'i ffansiön e wedi sleifio o gwmpas 'theori ymgaru' heb fforio ymhellach. Diau y gallen nhw gyda'i gilydd heno ddod (yn nwydus) o hyd i hynny, efallai, ac eto'n wâr. Ond rhaid oedd cydnabod bod y naill ohonyn nhw mor flinedig â'r llall. Roedd hithau hefyd yn reit siomedig. 'Methiant' oedd ei dyfarniad hi am y noson hon. Allai neb heno gyrchu i'r cyfeiriad hwn yn egnïol, ar ei ben ei hun mwyach, heb wahoddiad, heb gerbyd. (Dichon o leia mai dyna ei adduned yn awr rhyngddo fe a fe'i hun. Digwyddiad mawr y flwyddyn, os liciwch.) Chawsai fe erioed feddyliau fel hyn, cyn treulio peth amser gyda hon. Beth oedd yn ei chymeriad felly a'i hanesmwythai fe ar noson fel hon?

4

Deffrôdd Siân rywle arall. Yn sydyn sylweddolodd ble'r oedd. Roedd hi wedi gorgysgu. Roedd hi gartre. Roedd hi'n teimlo'n rhy hen bellach i gael bore pryd y codai mor hwyr â hyn bob dydd. Treiglasai'r diwrnodau drosti yn ei hen gartre dros y penwythnos. Roedd hi'n teimlo'n wahanol, a'i bywyd wedi ailgydio ynddo'i hunan.

Roedd hi'n ôl ym Mhonty, wedi dianc rhag y fflat yng Nghaerdydd a aethai'n rhy gul iddi ers tro, a dweud y gwir. Daethai'n ôl i'r lle y bu dechrau'r daith. Roedd hi wedi dod adre am ychydig o wyliau. Yna, sylwodd fod rhywbeth yn gollwng i mewn iddi.

Beth oedd hyn? Gwaed? Llais ei mam? Na: Pontypridd. Dihunodd hi mewn lle anghyfeffin o gyfarwydd. Roedd Pontypridd yn gollwng rhywbeth yn ôl i mewn i'w gwythiennau.

Doedd dim amheuaeth ganddi hi. Tywyllwch oedd arni o hyd, ond bore tywyll a bod yn deg, lle roedd amser wedi mabwysiadu tywyllwch. Roedd yna berthynas. Pobl. Roedd tywyllwch ei thad yno yn ei gadair yn graddol lifeirio ynghyd â thywyllwch ei mam tuag ati a throsti, ac i mewn i hynny o oleuni a oedd ganddi hi ar ôl yn ei chorff. Dyma'r croeso cynefin. Roedd bodolaeth ei rhieni'n dechrau codi yn y tŷ ac amgylchu'i gwegil a llithro drosti a chrwydro hefyd rhwng cig ei dannedd, a'i lordian hi yn ei thipyn ffroenau. Roedden nhw'n ei hatgoffa hi rywfodd am synnwyr cyffredin.

Blwyddyn a hanner. Deunaw mis o ryddid i ffwrdd, ac ambell ffling, a dyma hi'n ôl yn ei chynefin. Y cartre a'r tyndra deul rhwng ei rhieni ill dau oedd wedi sleifio i mewn iddi hi. Daethai i fyny o Gaerdydd y tro hwn o'r newydd i daro cis ym Mhonty, er mwyn ystyried gwerthu ei fflat yng Nghaerdydd, ac o bosib bwrcasu tŷ bellach, a newid ei bywyd yn fwy parhaol. A dechreuodd ystyried y cymhlethdodau nawr. Gallasai fod wedi cadw'r fflat fel noddfa fechan achlysurol – yn ystod prysurdeb y dydd i orffwys – neu mewn argyfwng i'w ddefnyddio drwy'r nos os oedd hi'n blino gormod a dod adre i'r Rhondda – ugain munud o daith oedd ganddi, ryw chwarter y ffordd o'i chartre i Aberhonddu, a buasai hi'n cyrraedd adre pe gallai ddewis amser heb ddiode cwrt o geir o'i blaen. Ond ar y llaw arall, o fynd oddi cartre, – mynd amdani, fel y gwnaeth hi gyda mwy o eglurder: ie, 'ymadael' fyddai'i harwyddair. Peidio ag ysgythru adre bob hwyrnos fel plentyn wedi'i ddifetha. Peidio â phicio yno dros y penwythnos yn unig. Ond gwneud rhywbeth mwy terfynol. Yn wir, doedd hi ddim wedi ymboeni fawr am ei chartre drwy gydol y deunaw mis, a hynny ar egwyddor, er na chyfaddefai hynny yn blwmp ac yn blaen felly, iddi'i hun. ... Roedd hi'n cael cyfle i ailystyried nawr ... 'Gormod o heyrn,' meddai hi. 'Mae eisiau *oedi*.'

Ac yn awr, dechreuodd hi arafu, ac ystyried o ddifri brynu tŷ sylweddol a drud, ac ymsefydlu, mewn cartre-oes; bod yn frodor o Gaerdydd, go iawn. Tua'r cyfeiriad yna y gogwyddai.

Ac allai neb wadu nad oedd hi wedi bod yn llwyddiannus. Roedd hi'n ennill dwywaith cymaint y flwyddyn â'i thad a'i brodyr oll gyda'i gilydd. Gwnaethai eisoes gamre breision yn eu blaen, a hynny heb symud ond deuddeng milltir.

Roedd hi hyd yn oed wedi dod o hyd i sboner... Well!... cydnabod.

Ac yn awr, daethai'n ôl am y tro i'r tŷ, i ddweud hyn wrth y teulu ym Mhonty fel brenhines yn ei Jag. Ar hyd y rhes lle'r oedden nhw'n byw, llenwid corneli'r ffenestri â llygaid cadnõesau. Roedd y tŷ gartre ei hun yn glaeaf am nad oedd ond yn ddiwrnod cymedrol ym mis Ebrill. Ond setlai hi'n ôl i mewn iddo fel pe bai'n mynd i oerni eglwys nenfwd-uchel, cyfarwydd ynghanol Ionawr. Dyma hi, gartre: cymdogaeth.

Treiddiai'r oerfel adeileddol o waliau'r tŷ yno i mewn i'r awyr a gylchali hydsgwyddau. Ac roedd hi'n teimlo wedi'i sythu, – od hefyd, – nid yn drosiadol yn unig ond yn llythrennol. Tasgai a thorsythai'i llwyddiant wrth gwrs i bob cyfeiriad, er gwaetha aroglau'r methiant a dreiddiai drwy'r dodrefn o hyd. Roedd y lle fel pe bai'n disgwyl iddi gredu yr un fath ag e: y ferch afradlon wedi dod adre. Oer braidd oedd y croeso, gan fod amherthynas bellach wedi ymyrryd â'r cartre. Roedd unrhyw ymlacio hamddenol a ddisgwyliai wrth ddod adre, yr ymledu ymryddhaol a erfyniai gan awyrgylch y tŷ, bellach wedi ymatal.

Eithr sylweddoli wnâi hi mai hi oedd achos rhyw gytundeb o ddieithrwech a deimlid yno yn y tŷ. Roedd hi wedi dod adre â'i gwyndra oer, bygythiol a llwyddiannus newydd. Ond roedd hi'n dal i aros ar wahân i bawb.

Cododd o'r gwely. Ymolchodd. Gwisgo'n araf. Gwyliau!

Am ychydig o eiliadau, daeth atgo am y gŵr ifanc blinedig hwnnw y bu hi gydag e ychydig o wythnosau ynghynt. Alun, neu rywbeth. Aeth i lawr i'r gegin lle'r oedd ei mam yn disgwyl: roedd ei thad a'i brodyr eisoes wedi mynd i'w gwaith.

Cusanodd ei mam. Roedd ei chusan heb wres fel deilen grin ar wal tŷ.

Dymunai'r fam holi am y fath anwes anghynnes â'r cusan yna: 'Allet ti ddim gwneud yn well na 'na?'; ond ymataliodd. Teimlai Siân, serch hynny, y feirniadaeth ddileferydd, a throdd ei hwyneb yn ôl yn agos at wefusau'i mam fel pe bai'n herio honno'n ddi-lais: 'Gwna dithau'n well te.' Cydiodd honno yn ei merch, a gwasgu'i gwefusau ar foch Siân gan aros yno mor debyg i wlithen ag y gallai am ychydig o eiliadau. Ond roedd hi fel pe bai'n golchi corff, tan ei baratoi ar gyfer yr arch yn yr ystafell ffrynt drwy'i dwtio a thywallt llond crwc o ddŵr dros Siân, a glanhau'r wyneb. Crynodd fymryn. Safodd yn ôl



wedyn er mwyn pwyso a mesur canlyniad y ddefod hon o gusan. A oedd y gelain bellach wedi'i pharatoi? A oedd hi'n ddigon glân? A oedd pob olion o'r byd yn loyw wedi'u carthu a'u symud ymaith? 'Dyna ti,' meddai hi'n isel fel llwydrew. 'Mae hynny'n well. Dŷn ni'n nabod ein gilydd eto nawr.'

Gwenodd Siân yn beiriannol. Roedd hi wedi dod yn ôl i'w chartre megis at gariadfab dadrithiedig nad oedd yn golygu dim iddi. 'Y maban bach hyfryd i. Y maban gwyn i,' meddai'r fam hithau'n ddideimlad, gan gilio gyda'i merch yn ôl i'r gegin.

Siân oedd yr ifanca o'r plant. Merch; dyna fu eisiau ar y tad erioed meddai fe, o'r cychwyn cynta, a byddai fe ddim yn rhoi'r ffidil yn y to, dyna'i derm od o gerddorol, nes iddo gael un. Bob tro y ganwyd mab iddyn nhw, hongiai'r gwyll dros y tŷ am ddiwrnodau. Ond daliasai'r ffidl yna i rygnu arni, nes iddi ddod maes o law. Hi yn y diwedd oedd cyw melyn ola'r teulu, y baban, hyd yn oed heddiw, yn awr dros ei deg ar hugain oed ac yn rholio mewn pres: tin y nyth. Ac wrth edrych arni erbyn hyn, allai'r fam ddim llai na chofio dros flynyddoedd ei hieuentid y croen llaethog llyfn a'r tlyzni blonegog babanaidd cynnar yn y crud. 'Y mechan wen,' meddai'r fam mewn tosturi, tan ei hanadl; ond roedd ei bron hi'n gweiddi: 'Ai dyna'r cwbl y galla-i'i ddweud wrth y merch i?' Rhyw wich o wynt. Ai dyna'r cwbl oedd y ferch aeddfed hon iddi o hyd, y fechan honno gynt, honno'n drysor mor addawol i'w hiraethau hi, ar wahân ac ar draws y gaeafau? Y fechan barablus honno ymhell iawn yn ôl, mewn oes arall, heb ddim rhyngddyn nhw a hi heddiw. Ai dyna'r cwbl?

Ond y tad oedd eisiau rheoli hon yn niwedd ei ganol oed. Roedd e wedi trachwantu am ei rheoli hi. Ond wedi i'r fam esgor arni, beth oedd e wedi'i wneud? Ceisio'i hallforio hi. Doedd e erioed wedi ceisio ymroi i'w magu. Roedd ei bodolaeth yn ddigon. Os mai hi oedd debyca yn y teulu i'w thad o ran uchelgais, doedd e erioed wedi ymestyn ati i fwynhau'i chwmnïaeth a threulio'i amser mewn cymdeithas ystyrllon gyda hi. Roedden nhw wedi aros ar wahân, yn galed, yn ddau. Roedd e mewn gwirionedd wedi'i *defnyddio* hi i geisio corffori'i awydd i ymadael â'r Cwm.

Hi, y fam, mewn gwirionedd, oedd wedi magu'r ferch benbwygilydd. Hi oedd wedi dysgu popeth iddi, ac yn anad dim hyhi oedd wedi cyflwyno'r ymwybod o

gelfyddyd mewn seiniau a phatrymau deallus ac emosiynol mewn rhythm a thraw ac ysbrydoliaeth anefnyddiol, mewn miwsig.

Ac eto, y tad oedd biau hi mewn ffordd danddaearol gyfun galed. Ei uchelgais e oedd y tu ôl iddi hi drwy'r amser, o ran ei beirniadaeth galed ar y cwm.

Gydag ôl-olwg nawr roedd hi'n ddigon hawdd i'r fam ddifaru nad oedd hi ddim wedi ceisio cael ei derbyn gan ei merch yn gyflawn. Gallasai ambell dro fod wedi ymostwng i'w merch i wrando ar ei barn a'i dyheadau. A buasai hynny, drwy'r metamorffosis sy'n digwydd i ymostyngiad, wedi troi'n berthynas, ac wedi esgor ar fynydd o gariad efallai. Ond daethai hynny oll yn rhy hwyr. Bu'r holl daith tuag at gytundeb cytbwys, mor garegog ac mor hir â hynny, yn ddigon hir i'w gwneud yn ofer bron. Doedd ei merch ddim yn sôn gartre am ei gwaith beunyddiol, a doedden nhw ddim wedi disgwyl hynny. Dichon fod y ffaith fod y rhieni heb allu cyd-ddod at y ferch fach, i'w chyd-garu'n gytgordus, yn atalfa i'r un o'r ddau riant ddod ati'n annibynnol. Cynnyrch i ddeuawd o rieni gyda'i gilydd yw cariad at blentyn, wedi'r cwbl. Dyna a ordeiniwyd. Dylai tad a mam ganu'r dôn gynganeddus gyda'i gilydd os yw'n bosibl o'r dechrau. All un offeryn ddim pyncio mewn un cyfeiriad a bodloni ar byncio i gyfeiriad y llall. Cytseinedd yw i fod, gyda'r nodau o serch a chyfuniad calonnau yn cyd-ateb mewn harmoni ystyrllon ac aeddfed.

Ac eto, roedd y tyndra tyner rywsut yn creu rhyw fath o ymateb fan yma. Cofiai'r fam fel y byddai'i merch gynt yn ei dyddiau cynnar, ambell waith liw nos, droeon liw nos, yn wir hyd yn oed ar ôl dechrau yn yr ysgol gynradd, ac yn rheolaidd hefyd, ryw ben bob mis, yn galw drwy'i chwsg, 'Mam! Mam!' Roedd y peth yn destun sbort i'w brodyr, yn sicr ymhellach ymlaen. 'Mam!' galwai, a hithau'n un ar bymtheg ac yn ddwy ar bymtheg oed, yn ddeunaw, ac yn cysgu drwy'r swae a godai. 'Gad iddi fod,' cynghorai'i gŵr, 'hunlle sy arni. Mae hi'n ddigon hen. Paid â'i thrin hi fel petai'n blentyn bach.' Ac aeth Morwen ddim ati o'r herwydd. Erbyn hyn roedd hi wedi difaru. Roedd hi heb ymateb i'w chri, heb ei chysuro. Hawdd oedd ymesgusodi mwyach. Ond doedd hyn ddim yn esgus dilys. Onid drwy'i hun yn unig roedd hi'n galw wedi'r cyfan?

Un tro, sut bynnag, yn ei dyddiau ifainc, pan gafodd Siân un o'r ffitiau

plentynnaidd hyn, cododd y fam. Aethai i eistedd ar erchwyn gwely Siân. Roedd yr un fach yn ochneidio'n ysgafn drwy'i chwsg. Daliodd y fam law ei merch. Disgwyl. Agorodd Siân ei hamrannau. Yn sydyn, roedd ei llygaid yn wirion fel pe bai wedi deffro o hunlle. 'Ti sy 'na mam?' Gwenai o sylweddoli presenoldeb llaw ei mam. 'Diolch,' meddai, 'diolch.' A chysgu'n ôl.

Ac nawr daethai yn ei hoed a'i hamser adre i Bontypridd o Gaerdydd, 'am wythnos' meddai hi; 'pythefnos efallai. Dw i wedi cyrraedd croesffordd. Naill ai dw i'n mynd i werthu'r fflat... a phrynu clamp o dŷ go iawn acw, neu...'

'Neu beth...'

Ac yna, gan adael ei mam a'r tŷ oll mewn arswyd, fe ddwedodd, 'Nos da,' a dringodd hi i'r llofft.

Deuai i lawr y grisiau yn y bore i gael brecwast. Teimlai ychydig o ddieithruch o hyd. Rhaid bod Llew, ei brawd, wedi ailbapuro'r waliau. Efô oedd yn arfer gwneud rhyw jobsys felly. O'r hyn lleia, nid dyma'r hen waliau gorflodeuog roedd hi'n gyfarwydd â nhw.

Daeth y fam i mewn ati, cynnig llaw, ymatebodd y ferch drwy gydio yn llaw ei mam, a'i dal yn oer am rai eiliadau. Ond yn gwbl ofer. Dieithryn mewn croen marw oedd y ferch; ac o'r herwydd, roedd y fam yn ddieithr. Bu dod adre â'i llwyddiant newydd i'r tŷ neithiwr hefyd yn brofiad gwahanol i Siân. Cofiai fel y deuai i mewn yn yr amseroedd gynt, gan hawlio'r cwbl fel un o'r crachach. Hi, Siân, oedd y perchen dilys ar y cartre o hyd ym Mhontypridd, fel petai ar draul y gweddill o'r teulu. Roedd hi'n gallu rhoi'i dwylo ar y waliau a'r dodrefn a gwybod hyd fêr ei hesgryn mai hi oedd biau'r cwbl, o'i chrud. Hi gynt oedd biau'r awyr solet hefyd ym mhob ystafell. Hyd yn oed y bobl, roedd ganddi hawliau anfeidrol dros y rheini yn yr un modd, yn fwy na hwythau arni hi, ac allen nhw ddim ei gwadu. 'Y nhŷ i. Y nhir i. Yn eiddo i': roedd rhyw fath o hunaniaeth gytûn rhyngddi a'r cwbl gynt, rhyngddi a phawb. Ond nawr, – am y tro cynta erioed mae'n debyg – wrth ddod yn ôl – ymwelydd o bell oedd hi, er mor llwyddiannus. Aroglai hi'r tŷ, a gwyddai fod y diffyg sawr ar ei dillad yno'n anghyfaddas ac yn ddigyswllt.

O'r diwedd, estron oedd hi. Yn yr un lle isel yn ei gadair arferol yr eisteddai'i thad. Ymddangosai nad oedd wedi symud fodfedd o'r gadair er pan ymadawsai hi. Roedd ei mam hithau wedi adleoli peth o'r dodrefn, hyd yn oed y piano. Ond am ei thad, roedd e'n aros yn ddisyflyd yn yr unfan. Hi oedd yr estron newydd, ond yr oedd bod yn estron yn elfen hanfodol, ac yn sylweddoliad i'r gweddill o'r teulu, o'i chreadigrwydd.

Cododd ei thad ei ben fel craen yn ara wrth iddi ddod i mewn. Daliodd e hi, y cwbl ohoni, yn sydyn yn ei lygaid, clymodd e'r cwbl yn ddiarddangos. Cadwodd hi'n ddiotal ond heb ffrostio am hynny, ac yna gostyngodd y craen drachefn i'r un safle. Doedd hi ddim yn perthyn mwyach iddo fe. Bodlonodd. Roedd e'n fygedig falch ohoni, ond doedd hi ddim yn eiddo i'w fyd methodig e mwyach. Unigolyn oedd hi o'r diwedd yn ymbellhau, un i'w gadael ar ymyl ei chartre.

'Wyt ti'n hoffi'r gwaith?' holai'r fam uwchben brechwast.

'Mae'n waith ... Dw i'n ennill y mara.'

'A'r bobl?'

'Pa bobl?'

'Dy gydweithwyr. Wyt ti'n hoffi'r rheina?'

'Ydw debyg. Maen nhw'n bobl, siŵr o fod, yr un fath â phobun arall. Ti a fi. Mae'n rhaid eu cael nhw.'

'Ydyn nhw'n un fath â *fi*? meddai'r fam yn syn.

'Wel fi te,' meddai Siân. 'Dŷn ni i gyd ... mae gan bawb ei le yn y patrwm.'

'Welaist ti unrhyw fachgen? Rhywun go lewyrchus?'

'Ddim bachgen na merch, na gwryw na benyw yr holl amser rown i 'na. Dyna'r math o le oedd e.'

'Y math o le oedd *e*?'

'Dyna'r math o fenyw own *i*.'

'Rwy't ti'n hapus felly? Yn dy berfedd?'

Atebodd Siân ddim. Doedd hi ddim wedi dewis meddwl pa mor hapus oedd hi tan y funud hon: 'Mi ges i fywyd newydd yng Nghaerdydd,' meddai. Roedd hi am ddweud mai yng Nghaerdydd roedd wedi cael un math o Fywyd am y tro cynta erioed efallai, ond roedd hi'n gwybod y byddai'i mam yn camddeall hynny.... neu'n ei ddeall yn ormodol. Ac o leia, roedd hi wedi dweud y gwir: doedd 'na ddim bachgen.

Teimlai serch hynny fod ei mam yn ceisio'i herio. Pesychodd yn nerfus. Hawdd cynnau tân dan hen annwyd. Ond tân ar ei chroen oedd y tân rhwng ei mam a hi. Roedd hi wedi brifo'i mam pan aeth oddi cartre. Roedd hi wedi caniatáu i werthoedd materol ei thad drechu pibau Pan. A hyd yn oed cyn iddi gyrraedd adre, gwyddai'r fam y byddai ansawdd pob dim yn wahanol. I'w mam, cynrychiolai hynny yr enciliad lliw o'i bywyd. A ffordd o gyfarfod â'r argyfwng hwnnw cyn iddi ddod yn ei hôl oedd bod y fam wedi atrefnu'r dodrefn, wedi dwstio'r piano, wedi perswadio Llew i ailbapuro ac i ailbaentio'r tŷ o'r brig i'r bôn, a'i bod hi wedyn er mwyn codi'r lliw yna wedi ailgynllunio holl fuchedd yr aelwyd. Nid hon felly oedd yr hen aelwyd ar gyfer ailgynnau tân. Ond am dân di-gynnau'r tad, dirgrynai Siân wrth feddwl amdano.

Pan ddaethai Siân felly i'r ystafell fyw y noson cynt, y peth cynta y sylwodd arno oedd bod ei mam wedi symud y piano i ffwrdd o oleuni'r ffenest, ond bod y clawr yn dal yn agored. Gosododd Siân ei ches ar y llawr, ac aeth ymlaen i siarad â'i rhieni heb ddweud dim am y piano. Tuchodd ei thad yn ddiystyr. Roedd yna fwelch yno, heb fechgyn. Yn anymwybodol ac yn anfwriadus roedd traed Siân wedi sleifio draw tua sedd yr offeryn. Estynnodd ei llaw chwith at bren yr hen gelficyn awdurdodol heb agoshau at yr allweddell ei hun, ac roedd (heb sylwi) wedi symud cleidr ei llaw feddal ar hyd yr wyneb fel gwllithen gan lofio graen y pren, a chan fwynhau adnewyddu'r berthynas honno. Ond wnaeth hi ddim unrhyw osgo i eistedd na tharo un nodyn. Digon am y tro oedd bod yn ymyl y piano; gormod efallai. Roedd cynhesrwydd y naill fel pe bai'n adnewyddu cynhesrwydd y llall. Ond am fentro ymhellach a rhoi bywyd llawn yn ysgyfaint ifori'r offeryn hwnnw, pherthynai hi ddim i geisio'r fath beth.

Yn ystod y deunaw mis yna pan oedd i ffwrdd roedd Idris wedi priodi'n sydyn, heb yn wybod i'r teulu, heb drafod y peth gyda neb, ac wedi symud i dŷ cyngor ryw chwarter milltir i ffwrdd, er ei fod yn dal i ymweld â'i hen gartre bob wythnos ryw ben.

Roedd Hywel hefyd wedi dyweddïo, a Llew wedi dechrau caru. Felly, gyda chynifer o'r lleill yn ceisio cartrefi newydd, Gwyn yn unig a arhosai'n ddigwlwm. A themlen nhw oll eu bod wedi cyrraedd cyfnod newydd yn hanes y teulu, cyfnod o atrefnu, cyfnod o ymestyn, ac o gyd-ymadael gan bwyll. Wrth i'r lleill ymgyplysu, teimlai Gwyn am y tro cynta yn ei oes ei fod e'n hen hanes amherthnasol yn y teulu.

Tuedd Gwyn nawr oedd mynd yn syth i'w ystafell ei hun ar y llofft, cyn gynted ag y cyrhaeddai'r tŷ.

Ei mam a'i thad, ill dau, yn eu hunigrwydd gwahân a thawel a oedd yn llenwi'r ystafelloedd lawr llawr bellach.

Hywel oedd yr hyna o'r brodyr, ac roedd e, heblaw datblygu'i garwriaeth, wedi troi at yfed whisgi chwap ar ôl i Siân ymadael. Caed poteli o'i eiddo yn nrôr ei ddesg yn y gwaith, dan sedd y car, rhwng matresi'i wely, ac – o leoedd y byd – o fewn sêr y piano. Llew y trydydd brawd (yr un yn fuan ar ôl Idris, o ran oedran) oedd yr un â throed glwb ganddo: roedd yntau hefyd wedi dechrau yfed yn drwm, ond snwcer oedd ei holl bethau. Ac ar ôl iddo orffen y gwaith o bapuro a phaentio yn y tŷ, welai'i fam mohono byth ond wrth y ford ginio. Gwyn oedd y pedwerydd felly: fe'i trawyd e gan y felan. Treuliai'r rhan fwya o bob hwyr yn ei ystafell ar ei ben ei hun gan ysgymygu dannedd ar bob un a fentrai at ei ddrws. Aeth cyn dewed â bwc, a chollai rai diwrnodau o'i waith oherwydd iselder ei ysbryd.

Dim ond rygbi oedd diddordeb Idris bellach. Tybiasai Siân mai fe Idris ac nid Hywel fuasai'r tebyca iddi yn y pen draw o safbwynt celfyddydol; ond hebddi hi, ar ôl i'w hysgogiad a'i phresenoldeb ddiflannu, doedd ganddo fe ddim i'w wneud (heblaw priodi pe deuai'r alwad) ond mynychu fel ffan bob sesiwn hyfforddi gan Bontypridd, a dilyn y tîm i'r gemau cyfredol ar y Sadwrn a'r gemau canol-wythnos, yn ogystal ag achub ar y cyfle i wylid pob gêm bosibl gan ieuenctid yr ardal. Rywsut ar ôl i Siân ymadael, roedden nhw oll o'r diwedd wedi cael rhyddid diymyrraeth i feithrin eu cyneddfau naturiol. Ac roedd hynny at ei gilydd yn golygu eu bod yn casáu'r gwaith beunyddiol, yn ddifater braidd am werthoedd dyniaethol, ac yn credu yn y bôn nad oedd dim ots am fawr o ddim.

Rhaid oedd disgwyl newidiadau, efallai. Peth felly yw'r drefn o fyw modern gyda'n gilydd. Ond fe ellid gwingo'n erbyn y symbylau, dybiai hi, neu eu derbyn. Beth bynnag, pan gyrhaeddodd Siân – y noson cynt, – roedd hi'n benderfynol o fod yn gadarnhaol. Derbyniai bopeth. Chwiliai am y budd hyd yn oed yn y fwy negyddol o agweddau ar y cartre. Gymaint oedd wedi newid... ar yr wyneb o leia, a rhaid oedd peidio â bod yn negyddol ynglŷn â dim.

'Dw i'n teimlo 'mod i wedi cael y ngeni o'r newydd wrth ddod adre,' cyhoeddodd hi, er mwyn tynnu sylw.

Cododd Gwilym ei glustiau yn ei gadair wrth glywed ei unig ferch yn honni peth mor hurt. 'Prin,' meddai fe dan ei anadl; ond heb symud ei lygaid swrth, a heb ddangos i neb iddo wrando ar yr hyn a ddywedasai hi.

'Dw i fel petawn i heb fynd o 'ma erioed... Ac eto, mae'n well. Mae rhywun yn teimlo gwerth pethau wrth eu colli nhw am ychydig.'

Roedd ei pharabl yn annifyr: rhyw fath o haenen esmwyth o barabl sgwrs, rhywbeth a ddysgodd yng Nghaerdydd mae'n siŵr, oherwydd iddi ddatod yr arfer o siarad yn blwmp ac yn blaen.

'Wyt ti eisiau bath,' gofynnodd y tad gan godi'i ben, am y tro cynta, ryw ychydig: 'mae gwres y dŵr ymlaen.'

'Mi ges i un cyn dod.'

'Dyna ni,' meddai'r fam. 'Ond roedden ni wedi meddwl am y peth cyn iti ddod – fe roeson ni'n gwres ymlaen – a thybied efallai y caret ti olchi'r ddinas i ffwrdd. Digon o ddŵr poeth.'

Y fath wiriondeb! meddyliond y ferch. Pontypridd yn dweud wrth Gaerdydd am fod yn lân! Y baw a'r llaca am olchi'r lliain wen. 'Dw i'n mynd ma's,' meddai hi wrth ei mam ar ôl brecwast y bore wedyn, 'i gael gweld a wela-i rai o'n ffrindiau i.'

'Mi weli rai newidiadau.'

'Prin.'

'Gwnei. Rhai o'r siopau wedi cau, ffenestri wedi'u byrddio. Ambell archfarchnad newydd. Mwy o bobl heb waith yn rhodianna o gwmpas y lle.'

Roedd hi'n bwrw glaw ar y pryd. Nid glaw peiriannol glân a chyson, ond glaw llwyd-ddu llugoer 'Pontyprudd' ym mhob man. Bombardai'r ffenestri, ond heb daro'r gwydr yn gas fetelaidd: tasgai'n feddal ar led, a'r ffrwydradau bychain yn bŵl beledol, fel eirin aeddfed yn chwalu wrth gyrraedd y llawr. Cynhaea dirdwf arferol o law oedd felly. A'r holl ddiferion mor debyg i'w gilydd. Roedd y strydoedd hefyd fel erioed mor debyg i'w gilydd yno fel mai – jôc yn y cwm oedd – yr *unig* fodd y gallai'r defaid achlysurol bythol a grwydrasai o'r bryniau ddod o hyd i leoliad ffordd wahanol oedd drwy lygadu'r sêr.

Welodd hi neb o'i hen gydnabod yn unman. Nid fel hyn y bu hi gynt. Roedd ei mam yn dweud y gwir gloyw, ar wahân i rodianwyr di-waith: roedd y lle'n dechrau newid... er gwaeth.

Doedd hi ddim am frysio'n ôl i'r tŷ, serch hynny, gan ei bod mor awyddus i gyfarfod â rhywun o blith ei hen ffrindau ysgol. Rhaid eu bod i gyd yn eu gwaith, neu wedi mynd i Gaerdydd, neu'n llercian yn eu cartrefi rhag iddyn nhw gyfarfod â rhywun. Rywsut y funud honno, roedd arni fwy o chwant cyfarfod â rhai o'r hen gyfeillion hynny, nag oedd i weld ei brodyr ei hunan. Doedd dim gwir serch rhyngddi a'i brodyr, fel nad oedd dim serch i bob golwg rhwng ei mam a'i thad. A chyda'r brodyr hynny y safai'i mam mwyach, ond gan estyn ei chalon fel llaw tuag at ei merch i'w thynnu, pe gellid, yn ôl ati i ymuno â'r teulu drachefn. Safai'i thad hi ddim gyda neb oll. Ymarhosai yn ei annibyniaeth haerllug ac unig, a chyfrifai Siân mai gyda'r unigrwydd hwnnw y byddai hithau'n dewis ymrestru mwyach. Unid hi a'i thad gan unigrwydd coledus wrth iddi ochri o'r newydd yn erbyn ei mam: clymid hwy ill dau gan eu hannibyniaeth drist.

Na; welai hi neb o'i ffrindiau y bore 'ma.

Doedd ganddi neb i'w garu allan yn y fan yna yn yr ardal ta beth; ac roedd hynny wedi'i gwneud hi rywfodd yn annynol, a bron yn faterol. Chwiliai'i meddwl ac ymholi, sut y bysai wedi bod pe bai wedi dod o hyd i gariad o'r Cwm. Cofiai'n sydyn sut roedd hi wedi teimlo, a hithau'n ferch ifanc bymtheg oed, unwaith yn y capel, pan glywodd,



am y tro cynta, fod serch dynol fel pe bai'n estyniad i'r cariad rhwng Crist a'i eglwys, ac yn dal i gynnwys elfennau o ras cyffredinol Duw neu faterion fel aberth a gostyngieiddrwydd a ffyddlondeb weithiau. Roedd hynny fel pe bai wedi urddasoli'r teimladau dieithr hyn a oedd yn ei chorddi fwyfwy yn ystod y ddwy flynedd diwetha nawr. Roedd mab a merch yn medru bod yn ddrych i gyplysiad tra aruchel, ac oherwydd yr estyniad rhyfedd hwnnw, canfyddai ddynoliaeth serch Solomon yn fwy o wefr, yn ddyfnach, yn fwy gogoneddus rywsut nag y'i meddylasai erioed. Ond ysywaeth, pharhaodd ddim o'r ymdeimlad hwnnw. Cawsai'i chyflwyno i wybodaeth am Gariad, heb ei hargyhoeddi.

'Car-iad!' murmurodd hi i'r awyr, ac roedd y gair cloff hwnnw yn gwynio ynddi. Gair clwyfus oedd. Doedd hi ddim am arddel y gair yn bersonol. Gwell ganddi ei wthio i ffwrdd. Ond fe ddô'i'n ôl o hyd: 'Cariad.' Ych! Fel yna. Teimlad heb wrthrych. Rhywbeth i'w gwneud hi'n anfodlon. Roedd hi'n hiraethu rywsut am beth ystyr.

Roedd chwant arni fynd i fyny i Gwm Rhondda Fach am dro newydd y diwrnod wedyn. Clywai ryw awydd o'r cyfeiriad hwnnw tra oedd ar wib hyd y lle ddechrau'r prynhawn 'ma.

Aeth allan am dro go hir; ond bu'r glaw yn disgwyl amdani.

Gwell oedd iddi newid ei meddwl a mynd adre nawr. Doedd hi ddim wedi gweld tywydd fel hyn er pan oedd yn Aberhonddu gyda'i chyfaill Aled. Ac roedd hi'n teimlo ychydig o chwant bwyd erbyn hyn. Câi bryd gyda'i mam. Fyddai'i thad na neb o'i brodyr ddim yn dychwelyd tan ddiwedd y prynhawn a dechrau'r hwyrnos. Câi rhywbeth ysgafn ar hyn o bryd, a saig sylweddol gyda'r hwyr pan ddô'i'r llwythau ynghyd. A sgwrs gyda'i mam.

Cyrhaeddodd hi yn ôl adre.

'Welaist ti neb?' meddai'i mam.

'Na.'

'Mae'n mynd yn fwy tebyg i Gaerdydd.'

'Ydy.'

Ond hedodd mymryn o wên fel sillaf bron yn ddamweiniol ar draws ei hwyneb.

Roedd ei mam eisoes yn eistedd yn ddisyflyd o lonydd yn ei chadair, pan gyrhaeddodd adre, ar ôl y tro, gan blethu'i dwylo a syllu'n syth ymlaen.

'Ac fe gest ti'r hyn roeddet ti'n chwilio amdano yng Nghaerdydd?'

'Do.'

'Ac rwyd ti'n brysur.'

'Yn brysur dros ben.'

'Heb fachgen?'

'Heb bopeth, 'run fath â gartre.'

'Fan yna byddi di mwyach. Yn brysur ac yn ennill cyflog ardderchog.'

'Cyflog dda dros ben. Rhy dda,' addefai'r ferch.

'Bob dydd. Ar hyd y dydd, nes dy fod yn ymddeol.'

'Bydda debyg.'

'A!... Ond... does dim "cariad" eto? Dyna ddwedaist ti?'

Beth oedd ar ei mam? Pam paldaruo am ymddeol? Beth oedd o'i le ar ennill cyflog ardderchog ar hyd y dydd? A bod heb bartner na gŵr? Oedd hi'n ceisio'i herlid neu rywbeth? Na: gwyddai beth oedd ar ei mam. Roedd hi wedi'i nabod hi. Ac roedd yn fwy neu lai yn llygad ei lle. Ellid ddim cyfadde hynny, wrth gwrs, wrth neb. Ond roedd ei mam wedi'i gweld hi. Esgorasai ar ferch a oedd yn benderfynol o fod yn annibynnol, ac yn chwithig o weithgar, ond ar goll.

'Mae yna fath o gyfaill,' broliodd hi'n atgofus, yn ffug o atgofus.

'A!' ebychai'i mam.

Aeth y ddwy ymlaen i fwyta mewn tawelwch anaddawol. Gwyddai Siân fod ei mam yn gywir: roedd hi, ei merch, yn fethiant fel merch ac fel menyw. Roedd ei greddfau cudd wedi methu. Doedd ganddi ddim ffrind go iawn, neb oll i rannu'i llawenydd gyda hi. Dim cariad. Dim gŵr na phlant. A heblaw hynny roedd ei hewyllys

wedi methu. Roedd hi wedi cael ei chornelu, wedi cael ei gyrru i gongl lle'r oedd ei huchelgais wedi'i thocio a'i chneifio fel person, a'i gadael fel sgerbwd bron. Dim ond gwaith cydwybodol a glân oedd ar ôl. Anghofiasai'r ardd. Doedd hi ddim wedi cael amser i weld honno o ddifri. Aethai'r llawnder o bersonoliaeth a fuasai'n ddelfryd gynt iddi, bellach yn noethlymun ac yn friw. A'i benyweidd-dra, hwnnw hefyd, wedi cloffi. Caerdydd fu'r *terminws* iddi hi ac i'r ardd ac i hyn oll, er mai porthladd o *derminws* ar y ffordd fu hi i'r hen longwyr gynt ar un adeg; ac i Siân ambell waith yn faes awyr arwyddocaol ac anturus am gyfnod; ddim felly iddi hi bellach.

Erbyn hyn roedd hi'n edrych ymlaen at siarad yn fwy hamddenol â'i brodyr. Fe ddô'r rhai priod i'w gweld hi hefyd. O leia fe lanwen nhw'r tŷ â'u chwerthin. Fe ddoen nhw â'u naturioldeb i ganol yr ymddiddan herciog. Ac edrychai hi ymlaen at eu defnyddio nhw i ymuno â hi mewn tôn lawen ar yr amser iawn.

Ond ei thad a gyrhaeddodd yn gynta. Daeth hwnnw i mewn yn ara deg, ac eistedd fel cysgod anhyblyg yn ei gadair yn ôl ei arfer heb ddweud bo. Meddiannodd yr ystafell fel gwyll.

'Gest ti ddiwrnod trwm, nhad?'

'Fi?'

'Ie.'

'Tebyg i arfer.'

'Wedi blino?'

'Blino?'

Atebodd e ddim. A bu ysбайд o dawelwch. 'Fi?' Yna, cododd ei ben yn hamddenol. Roedd cymaint o flinder arno nes ei fod yn dylyfu gên hanner ffordd drwy ddylyfu gên.

'A thi. Fyddi dithau'n blino?' gofynnodd e.

'Bydda.'

'A!'

Daeth y tawelwch hwnnw yn ôl drosti fel ochenaid. Edrychai hi arno yn ei gadair, yn fethiant, yn fwndel o ddiymadferthedd lluddedig. 'Ond diawch erioed, Siân,' meddai hi wrthi'i hun yn feddylol, 'mor aml roeddet tithau hefyd, pan oeddet ti'n byw fan hyn, wrth ymlwybro'n ôl o'th swydd, wedi cyrraedd y fflat yng Nghaerdydd, wedi cicio d'esgidiau i ffwrdd oddi ar dy draed, wedi suddo i'th gadair, yn debyg i hwn, wedi ymledu a chau dy lygaid yn debyg i hwn, heb egni i wneud dim na meddwl dim na theimlo dim, yn debyg i ... bawb. Roeddet ti, Siân, wedi blino y pryd hynny. O leia, rwyt ti wedi tocio ar hyd y teithio nawr wrth gael fflat acw.'

'Mae pawb yn blino, yng Nghaerdydd yn anad unlle,' meddai hi'n uchel.

'Ydyn nhw?'

'Ydyn, fel yr wyt ti fan hyn. Rown i'n amau taw i hyn y bysai hi'n dod nhad. Ond roedd yn rhaid mynd yno i weld. Dw i wedi colli'r frwydr.' Cyhoeddodd hi'r peth fel gweledigaeth a oedd newydd gydio ynddi.

'Nac wyt,' meddai fe'n sydyn.

'Ond dw i'n *ennill* mwy am *fethu*.' Chwarddodd, yn llai chwerw na'r disgwyl.

Chwarddai fe ddim. 'Sut gallet ti? Dy ddillad, edrych ar dy ddillad, chwilia dy bwrs, cer i syllu ar dy gar. Beth allai fod yn well?'

'Sonata.'

'Byth,' gwaeddodd e.

'Beth te? Beth sy'n well mewn swyddfa o fywyd? Targedau? Asesu?'

'Gwranda di, Siân. Dw i wedi yn angori fan yma. A methiant dw i.' Mor anostyngedig druan oedd e wrth arddangos ei ymostyngiad. Gwin y di-werth a'r ofnus oedd gostyngeddwydd iddo.

Gwrandawai'r fam o'r gegin.

'Rwyt ti'n gwneud yr holl bethau y methais i â'u gwneud,' meddai yntau mor unbenaethol.

'Dw i wedi *ennill* y rheini i gyd.'

'Rwyd ti wedi llwyddo.'

'Ydw. Llwyddo i fethu.'

'Dwli. Siarad sbwriel.'

'Gweld eisiau'r tipyn sonata efallai,' meddai Siân, bron â gwenu, 'yn lle'r "concertos" mawr.'

'Sentimentaliaeth goeg. Gallai unrhyw ffŵl o ferch yn nhai cyngor Pontypridd ffidlan freuddwydio am sonata o fywyd. Does neb ohonyn nhw'n berchen ar Jag.'

'Yn wir, dw i'n dipyn bach o lwyddiant modurol,' meddai hi gan wenu'n chwerw.

'Paid â siarad drwy dy *het*,' meddai'r tad yn wyllt.

'Ond mae'r het yn fwy *llipa* na'r disgwyl. Ac felly'r punnoedd ysbrydol dw i'n eu hennill. Yn ôl y raddfa o gyflawni'r hyn y *carwn* ei gyflawni – ambell fanylyn, sef priodas lawen, magu plant, achlesu rhieni, breuddwydio'n gall, sonata, ac yn bennaddod o hyd i gred a diben achubol mewn bywyd: – beth sy 'da fi heblaw Jag?'

'Popeth.'

'Dim.'

'Rwyd ti wedi cael y gwir gyfle, a chadd fawr o neb yn y stryd 'ma beth felly.'

'Ond cyfle i beth? Ble dw i'n mynd? Gwanc yw llwyddo.'

'Does dim eisiau i *ti* gowtowio i'th rieni fel y gwnes i. Does dim aberth yn mynd i ddwyd perfedd dy fywyd di oddi arnat *ti*.'

'Galla-i dy helpu di efallai yn ariannol. Ti a mam,' meddai Siân yn wir awyddus.

'Na.'

'Ond rwyd tithau ar fedr ymddeol,' meddai Siân. 'Mae mam yn heneiddio. Bydd eisiau... Dw i eisiau helpu.'

'Ond beth wna-i wrth ymddeol? Beth wna-i â'r holl amser cythreulig 'ma sy'n carlamu o gwmpas y lle 'ma fel crwban? Does arna-i ddim eisiau dy ofal di, na'th arian, na gofal neb. I beth? Llwyddo, dyna wnest ti, yn annibynnol, merch i. Cyflawni

uchelgais. Dyna rwyf ti'n wneud nawr. Dyna rwyf ti *wedi'i* wneud.'

5

Ond doedd e ddim heb wrando ar ei ferch. Doedd hithau chwaith ddim heb ddysgu rhywbeth newydd am ei thad. Byw roedd e mewn hud llewyn ffyliaid, druan: mewn Eldorado. Ond on'd oedd e'n sylweddoli, er bod rhai pethau'n aros yr un fath, fod pethau eraill yn anadferadwy?

'Ydyn, mae pethau'n newid am byth,' meddyliai hi, 'er o fewn trefn sefydlog.' Druan ohono. Syllai hi arno nawr mewn tosturi. Roedd e fel pe bai *wedi'i* gau'i hun o fewn rhyw uchelgais drosti hi ac yn methu â synied am holl rychwant dirdynnol y sonata.

Diau fod diweddau mewn bywyd mor debyg i'w gilydd.

A'i mam yn y gegin, roedd honno hefyd *wedi'i* chau i mewn yn y fan hon, yn byw a bod o fewn cyfyngiadau'r waliau hyn hithau, *wedi* colli'r sonata yn llythrennol i lawr y sinc ar ôl i'w merch ymadael. Wedyn bellach, câi hi'r cyrch siopa achlysurol i mewn i'r dre, yna'r coginio a'r glanhau, ac i beth? Y cwbl i beth? Y cwbl yn lân er mwyn bodoli mewn cadair ynghwsg, fel ei gŵr.

Gwyddai Siân fod y briodas rhyngddi a'i chartrefle ar ben. Doedd dim adfer na dod yn ôl. Cawsai ysgariad rhwng y ddau, rhyngddi hi a'r adeilad hwn. Dim ond clandro a wnâi pawb – beth a wnaen nhw â'r hyn a oedd ar ôl, a ble –? Crynodd hi yn yr unigrwydd. Doedden nhw ddim yn gymdeithion cymharus mwyach. Dim ond perthnasau, partneriaid heb ymrwymiad. Hyhi, yn ddeallus, yn fywiog y tu mewn, yn nwydwyllt hyd yn oed; neu *wedi* bod felly ar un adeg; a'i chartre yn wag; yn botensial gry, ond yn anymwybodol, heb feddwl mwyach am gyfleoedd gyrfa a swydd a chyfoeth; doedd hi erioed *wedi* meddwl ble'r oedd hi'n mynd. A doedd ei chartre erioed *wedi* dihuno i'r economi cyfoes. Ond roedd ei thrwyn hi *wedi'i* ddeffro gan freuddwyd arall rywle, *wedi* dyheu ac *wedi* llwyddo i ymestyn i gyrraedd amgenach partner, un glanach a mwy atebol i'r amseroedd, er nad oedd y peth *wedi* digwydd yn union fel y tybiasai. A gâi hi sibrwd hyn hefyd wrthyn hwythau, bawb gartre, yn ddiweddarach? Am hyn!

Beth oedd pwrpas y cyfan? Ble roedd y cyfan yn mynd? Heb atebion, seithug yw cwestiynau. Os yw'r atebion yn anghywir, mae'r meddwl agored yn ofer.

Ymgynullodd y brodyr o'r diwedd yn deulu mwy neu lai'n grwn o glywed am ei chyrhaeddiad. Cyrhaeddodd y bechgyn fel cwestiynau agored a sgeptig, fwy neu lai yr un pryd ddiwedd y prynhawn. Roedd hi'n falch. Idris oedd yr unig eithriad, wrth gwrs. Roedd y tri arall yn barod i'w bwyd. Ei dymuniad hi fyddai manteisio ar eu presenoldeb a throi at yr offeryn yn awr. Byddai hi wedi hoffi awgrymu tŷ arno cyn dechrau'r pryd; ond gwyddai fod y bywyd newydd yn eu galw nhw'n ddi-droi'n-ôl i gyfeiriad arall am yr tro. Roedden nhw'n llenwi'r ystafell fyw â'u haroglau gwaith, a'u lleisiau rygbi, a'u hawch dirfodol am fwyd, a'u siarad corfforol, a'r atrefniant modern – heb eu chwaer. Roedden nhw fel sgrym.

Nid newydd i gyd oedd y byd corfforol hwn, wrth gwrs. Cofiai hi fel y bydden nhw gynt, y pump ohonyn nhw, Gwyn a phawb, hi a nhw'n blant, yn hoffi chwarae ymaflyd codwm blith draphlith, gan ddibennu'n dwmpath o aelodau bendramwngwl, yn goesau breichiog ac yn freichiau coesog, a'u cydblethiad cyhyrog brasterog yn annioddefol o dynn, yn blant diniwed hapus, yn fwy neu lai fel heddiw, bron, yn gylch crwn. Ac ambell waith, yn blant gynt, pan drô'i'r chwarae'n chwerw ac y dechreuai rhywun deimlo rywle yn y gwaelodion ei fod yn tagu ac yn gorfod ergydio'r awyr er mwyn goroesi, rywfodd, byddai peth gwaed-crafad yn llifo gan staenio'r pump ohonyn nhw oll, heb fod neb yn gwbl siŵr pwy oedd biau'r staeniau hynny na sut y daethan nhw yno. Hyn o berthynas fu hwyl ddiniwed plentyndod. Felly y teimlai hi ychydig nawr wrth ymwasgu i'r gegin i bryd o fwyd. Llanwai'r tylwyth yr ystafell fechan â'u cyrff aeddfed.

Edrychai hi ar gwllwm tri o'i phedwar brawd yn awr yn bwyta'u cinio, pobun o'r tri wedi aros gartre yn y Cwm i bob pwrpas, neb yn meddu ar fymryn o gynhoredd, pawb yn llipa ddisymud, pobun yn llesg ddianturiaeth, a'r rhain oll yn gytûn yn eu ceidwadaeth flinderus radicalaidd, wedi'u plethu'n domen o anghyffro meddyliol a theimladol. Teimlai hi, a hithau'n llwyddiant, ei bod yno fronfron â wal mygfa galed. Yn lle bod wyneb yn wyneb â bydysawd eang, glas, roedd y brics wedi ymledu drosti, fel

trostyn nhw, brics ei chartre hyd ei gwadnau, yn ei herbyn, wedi syrthio o'r newydd amdani, ac yn tagu'r corff ohoni odanyn nhw. Gwisgai hi amlen o annatodedd llwyd.

Ysgydwai'i phen yn ara nawr mewn cydymdeimlad â'i brodyr.

Ac yna, daliwyd hi. Roedd rhywun arall ar yr ymylon yn dilyn ei golygon o hyd, hynny yw yn ymlynu wrthi yn y tŷ. Ei thad? Ie, o bosib. Roedd yntau yn teimlo baich dros y bechgyn, ond yn fwy beirniadol o'i ferch. Chwiliai llygaid ei thad am ei llygaid plwm hi. Llithrai llygaid y tad fel gwenci ar ôl ei golygon a'u gyrru i dwll, ond nid ymatebai hi ddim. I lawr y twll, ei thad a dwriai amdani o hyd. Roedd y tad yn meddwl yr un meddyliau diweddar am ei brodyr â hi, ac roedd ei lygaid yn dangos ei gytundeb canolog. Ceisiai hi beidio â chydabod y cytundeb hwnnw yn uniongyrchol. Roedd y teimladau yn ei llygaid yn cysgu, er ei bod hi ei hun ar ddihun; ac edrychen nhw ar y byd heb synhwyrau fel petaen nhw'n sgriwiau mewn ystyllen fetel. Ond fynnai hi ddim anghytuno chwaith â chyhuddiad dileferydd ei thad am ei brodyr.

A'r rheswm yw – nad hyhi oedd yr ateb... Rhaid bod yna ateb. Ond nid hi.

Mewn ychydig o funudau, gwyddai, serch hynny, yr ebychai rhywun o'u plith rywbeth amdani hi. A ddi gwir boen i'r ystafell. Coden nhw gwestiwn am ei llwyddiant. Yn goeg felly. Cyn hynny cerddai hi draw at y piano, a gobeithio y caen nhw oll ymuno mewn ychydig o hwyl hyfryd. Bydden nhw'n ôl gyda'i gilydd. Roedd Idris wedi cilio mae'n wir, ond roedd y tri hyn ar ôl, tri o epil y teulu ynghyd â'r fam, pedwar a hi; tyrfa. Caen nhw ddiddanwch ac ysbrydiaeth, yn deulu, yn wareiddiol gyda'i gilydd. Ac eto, byddai yna boen newydd sbon ar gerdded.

Er hynny, byddai hynny'n adnewyddiad llwyr hefyd. Roedd mwy o'i mam ynddi nag roedd yn barod i'w gyfadde. Hiraethai'i bysedd tenau hi o hyd am allweddell a gwynder y piano, fel ei mam. Ysai am gael tynnu llaeth gwyn yn llwyddiannus o'r tethau tynion ifori. Hiraethai am yr hufen a syrthiai weithiau o'r gwynderau pêr. Dymunai yfed ohonyn nhw, eu casglu i'w gwefusau, a sugno'r hylhi hir a chynnes, gadael i'r nodau hyn oll lithro i lawr ei llwnc yn ara iraid.

Ond beth oedd y diben i hyn oll?



Gwyddai fod y piano'n disgwyl amdani. Dyma'i thiriogaeth briodol, yr hen hen le ystrydebol.

Ar ôl i Siân ymadael â'r cartre i fynd i Gaerdydd, aethai neb oll at y piano yn ei lle. Ac yn fuan deuen nhw bawb o hyd i bethau eraill i'w gwneud y tu allan. Un diwrnod fel pe bai ar grwydr, digwyddodd i Gwyn ymlwybro heibio i sedd y piano ychydig ar ôl gorffen ei ginio, ac megis drwy ddamwain eisteddodd e ar y sedd yna ac estynnodd ei fysedd tew i daro ychydig o nodau. Clywodd ei fam e o'r gegin, a rhuthrodd hi i mewn. Doedd hi erioed wedi'i fwrw cyn hynny. Hyd yn oed pan oedd e'n blentyn go anhydrin a'i ddireidi'n gallu dwyn rhai canlyniadau go ddistrywiol o bryd i'w gilydd, doedd hi erioed wedi cyffwrdd ag e mewn dicter. Y tro hwn sut bynnag brysiodd hi i mewn yn ei llid a bonclustio'r gŵr ifanc â chynddaredd afresymol nes ei fod yn rybowndio.

'Rwy'ti'n gwybod pwy biau'r lle yna.' Syllodd pawb ar y ddau mewn syfrdandod dychrynus. 'Pam rwy'ti'n ceisio nirdynnu i? Pa hawl sy 'da ti i dresmasu ar ei libart hi? Beth wyt ti'n wneud?'

Trodd Gwyn ar ei sawdl, a heb ymateb nac ymesgusodi, ymneilltuodd i'w ystafell wely, ac âi e na neb arall byth ar gyfyl y piano ar ôl y diwrnod hwnnw, na Siân chwaith na'r fam na neb.

Mewn gwirionedd, pan aethai Siân o'r tŷ yn sicr y tro o'r blaen, roedd melodïau'r cartre hefyd wedi ymadael, gyda hi. Roedd yr holl dŷ weithiau'n annioddefol o dawel, ac wedi sgrechian tawelwch.

Yna, maes o law, llithro yn ei hôl i'r tŷ – er yn betrus – wnaeth Siân, – dyna'r cwbl – am ychydig o oriau, wrth gwrs, ond mewn distawrwydd. Ymwelydd a dieithryn fyddai hi bellach. Lletya yng ngofod y tŷ. Bwyta ambell bryd fel yn awr. Llenwi egwyl. Popeth yn ei dro. Roedd y pryd yn tynnu i ben, ond ychydig o sgwrs bytiog a gafwyd. Galwai rhyw fath o gysyllteiriau a chwestiynieriau disylw yn anesmwyth o fewn y sgwrsio hwnnw, 'Pam? Pam?'

'Dŷn ni ddim, wedi chwarae llawer o gerddoriaeth, ar ôl iti fynd,' cyffesai Llew yn herciog.

'Pam?'

'Dim chwant rywsut.'

'Beth am donc?' awgrymai Hywel yn euog, gan obeithio na byddai neb yn ei glywed. 'Ie. Nawr. Mae'r piano 'na: mae wedi aros drwy'r amser.'

'Ddim nawr,' meddai hi.

'Pam?'

'Dw i wedi rhydu.'

'Ti?'

'Dw i wedi colli pob ystwythder.'

'Doedd dim miwsig yng Nghaerdydd?'

'Ddim yn y mywyd i. Ddim yn weithredol. Seiniau'n dathlu amser yw cerddoriaeth. Mae'n rhaid rhoi stop ar bob dim arall. Mae'n meddiannu'r eiliadau. Fedri di ddim ymhel â phethau felly o ddifri a gwneud job o waith yr un pryd. Cefndir fyddai.'

Pam roedd hi wedi dweud hynny? Doedd hi ddim yn wir. Gallai fod wedi gwneud ymdrech. Roedd ers talwm wedi bod yn hiraethu lawer am donc. Roedd wedi ysu, a llwyddai i wasgu'r ysfâ i'r gwaddodion nes bron adfer y gân yn ei bywyd gyda'i brodyr. Yn awr, sut bynnag, pan ddaeth y gwahoddiad ar ei phen, roedd hi wedi ffoi.

Gwrandawai'r tad o hyd o'i sedd, ac yr oedd e'n dechrau deall yn well. 'Dw i'n deall nawr,' meddai fe.

'A fi. Wyddwn i ddim,' meddai hi. Synhwyrâi hi hyn ac roedd hi'n anfodlon. Tawelâi'r lle ar ôl ei geiriau chwerwdost. Enciliai'r brodyr a'r fam bob un yn ei dro. Erbyn hyn, dim ond hi a'i thad a arhosai yn yr ystafell. Cododd e'i ben yn sydyn gan ymwybod â thrydan ysgafn yn yr awyr. 'Nhad!' meddai hi. Synhwyrâi'i lygaid fod mwy o fywyd yn ei thafod hi nag arfer. 'Nhad!'

'Wel?'

'Wyt ti erioed wedi ystyried...'

'Wedi ystyried beth?'

'Hunanladdiad?'

Petrusai fe. Gwenodd e'n chwerw. Roedd y cwestiwn yn tarddu mewn iselder. A gwaedai'i gydymdeimlad e â hynny.

'Na.'

'Erioed? Pam?'

'Dw i'n blino gormod...,' meddai fe. 'Byddai'n drafferth i fi... byddai'n ormod o drafferth i bawb... Nid fel 'na mae pobl Pontypridd yn wneud. Ffermwyr sy'n gwneud pethau felly.'

'Beth maen nhw'n wneud fan hyn te? Pobl Ponty.'

'Dŷn ni'n arfer mynd i weld gêm o rygbi.'

'Pawb?'

'Mae'n ffordd o fyw, neu o farw.'

Beth oedd arni? Nid gwaith yn unig oedd y cwbl a gâi yng Nghaerdydd. Bu hithau mewn ambell gíg, do, chwerthin, dawnio a'r 'ffling' disylwedd yna yn Aberhonddu. Do. Ac un gêm o rygbi yn unig. Do, cafodd gyfle i golli'i sefydlogrwydd yno 'o ran hwyl' a thaflu'i hysgwyddau i'r entrychion, ddau neu dri neu bedwar tro. Mewn amgylchiadau gwahanol. Siaradodd hi erioed am hyn. Ond doedd hi ddim llawer. Dyna wedd arni nas arddelai. Ond gwyddai hi fwy a mwy fod yna gorddi am ystyr unol yn ennill tir arni, ac na ddylai redeg rhagddo am byth... Yng Nghaerdydd dechreuodd proses newydd yn ei hystafell, er mawr anesmwythyd a chyfyng gyngor iddi. Dechreuodd feddwl am weddi, o bethau'r byd: peth anghydweddol.

Âi hi i freuddwydio ar ddi-hun, a phensynnu ynnddi'i hun. Ac eisteddai weithiau heb ddim o gwbl yn ei meddwl. Ac yna, fe drôl hi i mewn i fyd fel yna a grëwyd yn wahanol. A doedd hyn ddim wedi ffitio'r ddinas fawr. O leia, felly y tybiai'n fynych.

Bu goleuadau trystfawr yn meddiannu'i gwedd, do, weithiau; a chwyrliai ambell wydraid o wirod hefyd ar hyd twneli'i hymennydd fel petai'r peth yn ei meddwl ar gefn beic gartre ac yn cyflymu i lawr rhiw – edrychwch, dim dwylo – ynghynt ac ynghynt

rownd cornel ac i mewn i'r clawdd ffigurol, a hithau'n chwerthin a dawnsio'n llwyddiannus braf o'r diwedd yn y ffos. Roedd hi'n ymwybod, am un noson hafaidd neu ddwy yn ei thŷ, wedi diod eto, am betalau llyfn ei breichiau yn ymagor yn rhoswyn; clywai frigerau'i gwallt melyn yn ymwithio ymlaen i gegau'r gwenyn; roedd yr heulwen lond ei chlustiau o hyd, hyd yn oed yno yng Nghaerdydd, a hithau i lawr yno mewn gig, a'r llawr yn llawn o gyrrff undonog, symudol, confensiynol; a'r drysau ynghau a'r waliau ynghau ac ystyr y cwbl oll rywfodd ynghau. Arhosai hyn oll yno yn gyfeiriad troellog synhwyrus iddi oddi wrth y cwmni arall hwnnw o'i chwmpas a brofai yn y swyddfa, ac yn y swyddfa gyfagos. Ambell waith. Buasai'n amhriodol sôn amdani nawr. Nid damwain na ffug oedd hyn. Teimlai ryw ddeffro ara yn ei chydwybod. Roedd yn bryd iddi fynd ymhellach na'i chefnidir materol hwn. Allai hi ddim dibynnu ar gyffro.

Ond lleihaodd y gigiau hyn rywfodd. Aethan nhw'n ango chwap. O fewn misoedd roedd hi wedi dod yn llawer rhy hen i bethau fel hyn. Cadwai hi hoffter at y ferch a fu hi yn y gerddoriaeth yna gynt, y ferch a ddihangodd rhag Pontypridd a'i chartre tyn, y ferch led lawen a lled afieithus a lled rydd, a fu'n disgwyl pethau. Merch ddiwylliedig oedd a fuasai'n gyfarwydd iddi gynt. Ond gan bwyll, colli'r lled adnabyddiaeth ohoni hyd yn oed, a wnaeth Siân, heb amser. Aeth hi ei hun yn dipyn bach o beirianwaith i droi rhywbeth arall, neu i gael ei throï... Ond gwyddai y dylai bywyd fod yn well na hyn.

Pe buasai rywfodd – A! – wedi ymglymu wrth rywun, efallai y byddai'r stori'n gwbl wahanol. Dichon, pe bai hi ei hun wedi gallu ymlacio am orig... dichon pe gallasai roi o'r neilltu ychydig o amser i'r dasg o ymhoffi... dichon, pe bai'r sêr yn ddiliau mêl a'r llawr yn eithin, dichon y byddai wedi cael cyfatebyn ar ei phwys, cwmpeini, bod bach difyr ar dafol arall y glorian, llygaid eraill yn y pâr a fwriadwyd i gyd-syllu ar fywyd, – cyfaill crwn cyfa hyd yn oed. Ond gohiriai bethau felly, oherwydd yr oriau sbâr blinedig ofnadwy o orffwys. Yn y busnes masnachol hwn o ddinas roedd yna gymaint o gyfle egnïol a phrysurdeb rywfodd wedi codi i lenwi pob wan jac o bedair awr ar hugain rhywun: dyma ganol yr 80au, wedi'r cwbl: roedd masnach yn ffynnu: roedd pethau'n galw am bobl a oedd yn barod i achub y cyfle am y tro – yn sydyn, yn gyson o sydyn, bob dydd yn sydyn ddiystyr, ac ymlaen ac ymlaen yr âi hi. Ac o'r herwydd roedd troi'i

nwydau greddfoll neu'i chyneddfau ysbrydol yn berthynas neu'n feddwl am amcanion dynoliaeth, rywsut, yn golygu gwastraffu'r sialens o wynebu bywyd fel menyw fusnes effeithiol a llewyrchus. Ond beth oedd diben hyn oll?

Doedd hi ddim ar ei phen ei hun. Gwlad o fenyw oedd hi. Roedd Cymru oll bellach wedi colli popeth a oedd yn uwch na hyn. Hyn oedd ei cholled hi gyda Chymru, mae'n debyg. Efallai ei bod hithau hefyd, o'i rhan hi, yn chwilio o'r newydd am werthoedd yn lle'r ansicrwydd diarhebol.

Teimlodd heddiw rywfodd mai math o fethiant wedi'r cwbl fu'r holl ymarferiad maith di-faeth hwn iddi hi a'r holl bobl a lanwai'r byd. Aethan nhw oll yn fwy cyntefig hunan-ganolog o ran ysbryd. Ond roedden nhw yn cael eu gyrru i gornel.

Drannoeth, ar yr ail ddiwrnod llawn iddi fod gartre, aeth ei mam yn sâl, a gofynnodd honno i Siân wneud y golch a'r smwddio.

'Fi! Y golch! Wrth gwrs. Cer di i'r gwely mam. Deua-i 'lan â dysglaid o de i ti.'

Aeth at y fasedd ddillad enfawr lle y gosodasid pilynnau'r meibion a'r tad. Wrth iddi godi caead y fasedd, cerddai sawr eu chwys a'u budreddi o'r sanau a'r trôns a'r crysau a'r festiau i'w ffroenau. Drewen nhw hyd y nenfwd. Roedd y dillad yn chwys-esticlyd ac ynghlwm wrth ei gilydd. Crynai croen Siân. Doedd hi ddim wedi disgwyl y byddai'n rhaid i'w bysedd gau am bethau fel hyn byth eto. Daliai'r dillad staeniog fesul un rhwng blaenau'i bysedd gwyn ymhell oddi wrthi a'u gollwng i'r golchwr.

Roedd hi ar y dechrau wedi teimlo'n rhamantaidd y byddai hi'n hoffi'r weithred hon o'u golchi. Doedd hi ddim yn fodlon amdani'i hun nad oedd yna'r un gronyn o ostyngeddwrwydd gwylaidd yn ei chalon. Dyna fywyd gweithwyr go iawn. Dylai fod yn barotach nag yr oedd i weini fel hyn, efallai. Dymunai wasanaethu'r bechgyn rywfodd o'r newydd, drueiniad bach. Ond dirmyg oedd ei theimlad cryfa atyn nhw ac ati'i hun. Teimlai'n rhy falch ohoni'i hun; roedd ei huwchraddoldeb caled wedi'i chynhyrfu.

Âi â'r dillad allan i'r ardd wedyn i'w rhoi ar y lein. Roedd yr ardd i gyd yn anialwch, nid yn unig ei hanner hi ohono, ond cyfran y bechgyn hefyd. Os oedd y bechgyn yn dal i wrteithio'u rhan nhw o'r ardd, yn ei golwg hi, tail gan geffyl pren oedd ganddyn nhw. Hiraethai hi am yr ardd bellach yn fwy nag erioed o'r blaen.

Hi hefyd heddiw oedd wedi addo paratoi cinio i'r teulu i gyd. Roedd hi am funud megis caethforwyn iddyn nhw, ac nid caethforwyn i fyddigions: caethforwyn i dlodion a cholledigion oedd hi. Gwthryfelai'n galed o'r golwg yn erbyn y fath ddarostyngiad, ond fe'i gwnaeth a'i wneud yn fath o benyd am ei balchder a'i methiant.

Heddiw, pan ffrwydrodd ei brodyr yn ôl eu moes a'u defod i mewn i'r tŷ, gwingodd hithau'n ôl, o reddf. Tynnai'i chyrn malwoden yn ôl. Caeai'i chragen amdani. Ond âi yn ei blaen rywsut â'i phenyd. Symudai Pontypridd ei bywyd hi benbwgilydd mewn sanau a thrôns a chrysau a festiau o gwmpas y lle yn gyflym ond yn esmwyth fel pawennod cathod. Perthynas arw pobl oedd y lle hwn, wedi'r cwbl. Roedd hefyd yn iachus i'r corff wedi anhawster maith gwaith swyddfa. Roedd ei haelodau'n ystwyth ac yn llyfn. Dyma'u cartre nhw, wrth gwrs. Nhw oedd â'r brif hawl i lunio'i gymeriad. Tonnai cyhyrau'r bechgyn yn ddisylw, wrth iddyn nhw symud o'r ystafell-fyw i'r ardd, neu gerdded o'r gegin i ddrws-y-ffrynt. Roedd y rhwyddineb hylï cartrefol hwn yn peri iddi deimlo'n fwy anystwyth byth o ran ysbryd, ond yn llai sicr ohoni'i hun. Uned oedden nhw nad oedd hi'n rhan ohoni. Bywhaen nhw'i gilydd drwy air byr diymhongar a chudd, drwy gyffyrddiadau damweiniol, drwy wenau anfwriadol. Roedd rhyw gyfathrach ryfedd rhwng eu gwryweidd-dra nhw, hyd yn oed pan nad oedden nhw'n edrych ar ei gilydd, a doedd yna ddim rhan na chyfran iddi hi yn y tîm hwennw. Ond fe'i dirmygai hi'i hun am ei diffyg serch a'i harwahanrwydd.

Yr hyn a oedd ar ôl yn y cartre oedd yr angen am fywyd ysbrydol ystyrlon. Ac ar ymylon hynny ystyfnigai hithau hefyd.

Ar ôl iddyn nhw orffen y bwyd, dihangon nhw drwy'r drws, bob un ar ôl ei ddiddordeb ei hun. Cefnon nhw ar y lle. Wedi'r porthiant, mynd, fel pe na bai'r cartre'n dda i ddim iddyn nhw mwyach ond i ail-lenwi'r bol ac i ddarparu man ddefnyddiol i gysgu ynddi. Drwy fod yn ddisylw, roedd y tŷ wedi diflannu a mynd yn rhan ohonyn nhw, yn gefndir heb ddim blaendir, yn wacter o fewn gwacter.

Daeth Hywel adre gyda Gwyn maes o law tua hanner awr wedi deg. Am y tro cynta ers misoedd, roedd Gwyn wedi methu ag aros yn y tŷ, a chyrrhodd allan gyda'r lleill. Arhosai Gwyn yn fwriadol sobr: fe oedd i fod i yrru'r car. Roedd Llew eisoes wedi

cyrraedd y dafarn o'u blaen. Ond roedd Hywel yn feddw gaib erbyn hynny. Roedd e a Gwyn wedi mynd allan gyda'i gilydd i ymuno â'u cydweithwyr mewn noson i'r tîm-rygbi yn Ynys-y-bŵl. A phan ymlwybrodd Hywel yn ôl, dow-dow, aeth yn llond y cartre i Siân o'i atgofion aroglus a'i sŵn a'i chwithdod gynt. Ciledrychodd y brodyr eraill i gyfeiriad Siân. Roedd y fam a'r tad eisoes wedi noswyllo, a Siân yn unig a gynrychiolai briodoldeb ymarweddiad oedolyn.

'Dw i'n diflannu,' meddai hi gan ogwyddo tuag at y drws.

'Wyt ti'n rhy *falch* i hwyl ieuentid?' heriai Hywel. Trodd, a throdd gryno-ddisg yn ei flaen. 'Beth am ddawns?'

Roedd Siân eisoes wedi profi ofn o'i balchder ei hun. 'Does a wnelo balchder ddim oll â'r peth.'

'Dwyt ti ddim yn barod i gael tipyn o hwyl y Cymoedd?'

'Dere Siân,' meddai Llew, yn llond ei fywyd o olion ffroth cwrw. 'Dyw Caerdydd ddim yn brifddinas i ddirwest.' Oherwydd ei hoffter o beth yfed, aethai wyneb Llew yn las fel un o byllau blodeuog Monet.

'Dw i'n mynd,' meddai hi eto, a gogwydd ei bryd tua'r gwely. Ond roedd Hywel wedi nesáu ati ac wedi cydio yn ei hysgwyddau. Yna, cofiai mai 'blino' oedd esgus ei thad ar achlysuron fel hyn. Ymsiglodd hi'n rhydd a suddodd hi'n ddiarwybod i'w gadair e, cadair arferol Hywel. 'Dw i wedi blino,' meddai.

Roedd rhyw olion od yn wyneb coch Hywel, a thaerineb na buasai ganddo pe bai'n hollol sobr. Synhwyr ai hi wefr ei ddifrifoldeb. Ond roedd y bechgyn eraill yn gyfarwydd ddigon â hyn, er yn teimlo presenoldeb Siân yn bigog ac yn estron.

'Dim ond hwyl, Siân fach,' haerai Llew. 'Paid ag eistedd yn y gadair yna: Hywel biau honno bellach.' Siglai Llew fys yn wyneb Siân: parodio'u mam roedd e. Ond doedd Siân ddim am chwarae heno, ddim â'r cwmni hwn, ddim yn y fan yma, ddim â neb.

'Mae'n rhaid imi wneud pŵs,' ebychodd Hywel.

Roedd aroglau ei ddiod yn mynd i ben Siân, a'r trydan ohono a siarsai'r awyr yn pefrio yn ei nerfau hi fel ofn. Doedd hi ddim yn arfer ofni dim yng nghanol y criw hwn.

Ei brodyr hi oedd y rhain. Roedd hi'n eu nabod nhw ers blynyddoedd-pys, ac eto roedden nhw'n fewnfudwyr i'w Chaerdydd hi, wedi glanio ar ei hymwybod o'i hynys wag, dawel, a honno'n codi stŵr, yn cynnau coelcerth, yn dawnsio'n wyllt drwy'i chalon, yn arw wyllt ac yn gweiddi. Heno roedden nhw oll fel petaen nhw wedi llifo'n llychlyd i lawr o'r Cymoedd megis ar hyd cwter i'w hymdeimlad o'i bae hi. Roedden nhw'n ei herio hi yn ei dihangfa, yn ei hawydd hi am fywyd uwch.

Bwriodd hi ddrws y gegin yn agored, a chiliodd hi rhagddyn nhw, brysio, llamu i fyny'r grisiau i'r llofft, cau'r drws i'w hystafell-wely'n glep ar ei hôl, a'i lluchio'i hun ar ei hyd ar ei gwely. Gorweddaï yno heb symud, wedi'i rhyddhau. Tynnai'r gobennydd tuag at ei cheg, rhoddaï beth ohono rhwng ei dannedd a'i gwefusau, naill ai i'w gusanu neu i'w sugno neu i'w gnoi; a phendroni.

Ceisiai feddwl yn ddihangus am Gaerdydd a'i gwaith. Ond ddôï yr un ddelwedd finiog a chroyw benodol ddim yn ei hôl. Ceisiai hi ddychmygu strydoedd Caerdydd a'r parciau a'r adeiladau a'u gwarineb. Dim. Dechreuai'r cwbl, o bob Caerdydd a fu yn ei cho ynghynt, niwlio.

Ble oedd hi arni mewn bywyd? Gwyddai nad cyfaddawdu ar bob cyfri oedd ei moesoldeb hi. Roedd ganddi hi ei delfrydau. Nid goddrychedd oedd ei deddf. Doedd dim o'i safonau mwya moesgar wedi'u colli, a'i llacio hi. Nid relativrwydd o ddiwylliant i ddiwylliant, o sefyllfa i sefyllfa, nid dyna'r llithro oedd ei gwir hi am fywyd. Roedd 'na fath beth yn bod â barn absoliwt a throsgynnol iddi, roedd yna safon iddi hi o fath ar gael rywle. Ymddangosai fod rhaid iddi gadw gafael ar y gwybod hwn oll os oedd hi byth yn mynd i gyrchu yn ei blaen mewn annibyniaeth yn oedolyn. Gwyddai hyn, yn nannedd pob cilio a dianc ac osgoi, ac wrth wasgu'i dwylo sigledig am ei chlustiau nawr i gadw'r sŵn allan.

Fore trannoeth, hi oedd y gyntaf i godi. Ac roedd y noson cynt wedi rhoi clo ar ei cham nesa. Ffurfiwyd ei phenderfyniad mewn marmor. Pan ddaeth ei thad a'i brodyr i lawr, 'Dw i'n mynd yn ôl,' cyhoeddodd hi. Roedd hi wedu cyrraedd y cam ola.



Doedd ei mam ddim mymryn yn well o ran iechyd. Yn wir, roedd hi heddiw'n gwbl ddi-hwyl. Synnai'r tad fod Siân yn ei gadael heddiw fel hyn, yn ddirybudd. 'Ond dy fam?'

'Does dim rhaid mynd yn ôl tan ddiwedd yr wythnos,' meddai Llew.

'Dw i'n mynd y bore 'ma, nawr.'

'Wyt ti'n licio'r lle?' holai'i thad, 'Caerdydd?'

'Dw i'n mynd yn ôl iddi,' gwaeddai hi drosodd a thro fel petai'n ailganu cytgan. 'Mae'n dwll o le, dw i'n gwybod. Ond dw i'n mynd i'w ffeindio hi. Dw i'n mynd â'r cartre hwn gyda fi y tro hwn. Ond dw i'n picio i ddod yn ôl 'ma'n amlach.'

Dyma ddatganiad iddyn nhw o ryw fath o barch neu o gydnabyddiaeth ar ei rhan hi. Roedd y fath deyrnged ar ei rhan hi'n anhygoel iddyn nhw. Ond gwyddai hi ei bod wedi methu'n lân ag ymgysylltu â'u garwder byw. Arhosai hi ar wahân heb fod yn rhan o'i chartre bellach, er dymuno ychydig bach o hynny. Ac felly doedd ganddi ddim cyfrifoldeb yno. 'Dw i'n mynd i brynu piano yno. Dw i'n mynd i chwilio am bwrpas yno.' Edrychai gyda phendrantrwydd i lygaid y bechgyn: 'dw i'n mynd.'

Ond gwelai hi olwg o bellhau yn eu llygaid a ddwedai wrthi: 'A dyna'r cwbl wyt ti, Siân, – absenoldeb ac ymwadu, gwaith a chwsg, prysurdeb annynol a safle; a pheiriant trafniadol sy'n dy gludo i beiriant-o-swyddfa lle'r wyt ti'n troi ac yn troi. A dyna'r cwbl wyt ti: balchder Caerdydd, peiriant pwysig, dy hun, o fewn peiriant pwysig.'

Sylweddolen nhw eu bod oll, er hynny, bob un, nhw a hi hefyd, yn fethiannau truenus: nhw mewn lleoliad arall mwy gwydn. Ond roedd ganddyn nhw'r cysur anghyffwrdd o fethu mewn lleoedd y tu hwnt i'w chyrraedd hi, o fyw a bod mewn cynefin methiannus sefydlog, o hen bori mewn strydoedd cyfarwydd anghofiedig, anghyfarwydd o fethiannus bellach iddi hi. Roedd ganddyn nhw deyrngarwch arall i fethwyr eraill hefyd, eu cymdogion. O leia, roedden nhw'n rhan gynnes real o gymdeithas fethiannus, ac roedd hynny'n gysur. Doedden nhw ddim wedi cilio.

Er ei gwaetha, hoffai hithau o hyd synied ei bod yn lled berthyn iddyn nhw yn ei methiant unig o bell, Caerdydd neu beidio. Gallai rhywun wneud rhywbeth am hyn oll mewn bywyd doedd bosib, o asio'r ddau le wrth ei gilydd, pe gellid cael gobaith rywsut.

Ond sylweddolai'r rhieni hwythau mai tipyn o siom fu eu merch a'u gobaith. Aeth hi i fyny i'r llofft yn awr at ei mam wanllyd i ffarwelio. Doedd honno ddim yn deall pam roedd hi'n mynd o gwbl, mor annisgwyl fel hyn. Teimlai'n bur wan heddiw. Ond rhoddai'r fam glamp o gusan wlithen ar foch Siân heb na dweud na dwrdio. 'Popeth yn iawn; fydda i'n iawn mewn dim o dro,' sibrydai'r fam. Roedd hithau'n teimlo'r methiant yn cyffwrdd â mêr ei hesgyrn fel pe bai yn lle Siân ei hun. Codai o'i gwely i'w hebrwng hi hyd at ddrws-y-ffrynt. 'Mae'n wir ddrwg gen i, cariad.'

Codai ei thad yntau o'i gadair i'w hebrwng at y drws. Tawedog oedd. Ddwedsai yntau ddim yn y fan yna. Ond roedd gweithred y tad o godi, ac o hebrwng, mor ddieithr fel y cofnodai pawb y peth ar eu meddyliau. Gwyddai yntau hefyd bellach ei bod hi'n fethiant, heb unman i fynd iddo. Teimlai Siân hynny, ac roedd arni gywilydd, gan ei ddeall e'r un pryd. Fe'i gwyddai'r bechgyn hwythau.

Roedd hi'n gaethforwyn fflangelledig i'w gwaith yng Nghaerdydd. Roedd hi wedi colli'i benyweidd-dra a'i phersonoliaeth rywsut. Roedd hi wedi colli'i miwsig a'i gardd. A cholli'r Cwm. Gwyddai'n burion ei bod yn dychwelyd i fethiant cadwynedig yn y ddinas, ac eto teimlai na allai gyfadde hynny yn agored yn blwmp ac yn blaen. Fynnai hi ddim troi'n ôl. Roedd hi wedi cyfeirio'i hymennydd mewn ffordd arbennig. Caerdydd. Allai hi ddim rhoi'r gorau iddi eto, ac efallai na ddibennai yn ei swydd acw byth nes ymddeol. Fe'i meddiannwyd hi yn anfodlon gan yr afael oedd gan ei gwaith arni, a chynnydd a phrysurdeb a chyfrifoldeb – a methiant. Roedd hi wedi'i cholli'i hun. Gwyddai hynny'n derfynol nawr, ac eto roedd yn benderfynol, er gwaetha caledrwydd fframwaith bywyd, y byddai hi rywfodd am newid.

'Mae'n wir ddrwg gen innau,' meddai hi o'r diwedd wrth ei mam. 'Ond dw i'n mynd yn ôl i chwilio am yr hyn sydd ar goll – yng Nghaerdydd, ym Mhontypridd, ym mhobman. Dw i'n gweddïo y byddi di'n deall maes o law.'

Ymlusgai hi dros y trothwy gan sylweddoli'i bod yn anfwriadol wedi ufuddhau y tro hwn drachefn, wedi dilyn anogaeth ddiyngan a gwrywaidd ei thad unwaith eto. Efô oedd yn ben arni hi o hyd, ac yn ben ar bawb. Efô yn ei fudandod arferol oedd yn llywyddu'i bywyd. Efô oedd wedi sicrhau'i dyrchafiad tybiedig hi i Gaerdydd. A hi

efallai oedd yr agosa a ddaeth, yn unig un o'r teulu, yn agosa i lwyddo yn ôl ei gyfarwyddyd e. Ei nerfwaith hynafol e oedd yn ei gewynnau hi ac yn ei chyflyru. Roedd hi'n byw'n unol â dymuniad ei thad. Ac edrychai fe nawr ar ôl ei ffigur denau goleuedig hi'n dringo i'w Jag fel pe bai e'n sbio mewn drych. Hon oedd ei gampwaith e.

Yno, yn ei Jag hi yr eisteddai ei dybiaethau materol a gwag e. Roedd y Jag yn gymeriad yn ei bywyd. Efô, yn ei chysgod hi, – oherwydd y tipyn car hwn, – oedd 'Llwyddiant y Cwm'.

Ond un gair arall, hollol wahanol, un gair moel yn unig a lanwai feddwl Siân wrth gychwyn ar hyd y ffordd, a cheisiai'i ddatrys a'i ddirnad yn hydeiml. Cripiodd hwnnw o gwmpas ei llygaid hi a'i hymennydd. Roedd fel pe bai wedi ymlusgo allan o'i theulu, allan o Bontypridd, ac o Gaerdydd, a'r byd i gyd. Adwaenai'r gair hwnnw: '*Dadwneud*.' Doedd hi ddim wedi bod yn chwilio am wir y gair hwnnw cyn hyn. Ond hyn a ddôl yn awr yn lle ateb iddi. Dyma'r hyn a ymwithiai allan o'r tywyllwch hwnnw y funud yma – ac ystyr '*dadwneud*' iddi oedd 'canfod' y *peth* yn gynta, a'i 'ddadansoddi' wedyn. A golygai hyn 'roi' wedyn nid 'derbyn', 'cynnig' nid 'cymryd.' Dadwneud problem. A'i dadwneud hi ei hun. A thynnu'n ôl.

Ond rhoddwyd gwên lydan a chariadus ar ei hwyneb hi nawr na allai byth fod wedi'i sylweddoli heb fod ei chalon yn deall y 'pethau' yno. Gwên oedd hon, a roddwyd drwy'r hyn a glywsai hen gymdeithas o'i hamgylch gynt, a ddiflanasai bellach, ond a adawodd fân weddillion ohoni'i hun fel atgo ysbrydol rhwng creigiau'r cwm. Gwên oedd a gâi hi gan ddimensiwn arall ac mewn lle cwbl newydd. Câl ddadwneud gan bwyll drwy'r wên hon bob rhwystr iddi.

Erbyn hyn, roedd y fam wedi codi, er gwanned oedd.

Ffarweliodd pawb â Siân.

'Mae'n rhai i ti, mam, ddod 'lawr i weld y fflat newydd – neu'r tŷ – p'un bynnag sy'n ennill, ar ôl i fi setlo 'lawr ynddo, ... a dad. Rhaid ichi i gyd weld y lle. Bydd yn ddiddorol i chi.'

Dechreuai'i meddwl fanylu ar hyn i ddatrys y dryswch oll yn awr wrth yrru i lawr y cwm. Ac roedd y cwestiwn wedi dod ati bellach yn fwyn ac yn ara allan o'r

ddaeur a geid dan ei thraed. Fe'i ceid yn benodol yn hen ysbryd y cwm, cyn i ormes y gyfundrefn gelwydd fynnu awdurdod drosti a thros bawb yn y byd mewn 'pethau'.

'Arna-i roedd y bai drwy'r amser,' meddai'i thad yn ei euogrwydd pan drodd e'n ôl tua'r tŷ. Gwyddai Siân am ei gydwybod flin e. Gwyddai am ei flinder. Ond credai hi yn ei deall newydd nad oedd pob dim yn gaeedig. Pan welid y broblem yn fanylach, yna gellid agor calon iddi'n barotach.

Yna dechreuodd y tad druan chwerthin ychydig rhyngddo a fe'i hun. Yn dawel i ddechrau, a cheisio'i guddio wrth ddiplannu yn y tŷ.

Gyrrai Siân yn ei blaen yn ara fyfyrion ar hyd y ffordd hir. Diflannodd pob cysgod o wên o'i hwyneb mwyach. Cefnasai ar fyd ei thad a chenedlaeth ei thad. Y tu ôl iddi cynyddodd miri poenus ei thad yn bwffian chwerthin, yn uchel ei gloch, yn fwrw'i fogail. Roedd rhialtwch chwerw'r sefyllfa wedi'i feddianu'n lân. Methai â'i reoli'i hun. Methu oedd ei *forte* fe o hyd yn hyn o beth, a'r byd i gyd. Chwarddai amdano'i hun gyda difrifwch mawr. Ni chafwyd erioed y fath chwerthin ym Mhontypridd ers sawl canrif.

Roedd ei chwerthin wedi rhedeg yn isymwybodol ar ôl Siân ac fel pe bai wedi cyrraedd y jag druan i lawr drwy'r cwm, yn eco gwag. Roedd y ferch yn synied bod y diagnosis yn sicr yn ei chalon. Gyrrai'r jag yn ei flaen o hyd o fethiant i fethiant i fethiant ar lawr ei cho. A dechreuodd hithau chwerthin.

Ond y *ffordd* i gracio'r methiant hwnnw, roedd hynny i'r tad yn ei hamlygu'i hun bellach gan bwyll. Gyda Siân yn y car: gyda'r teulu yn ôl yn y tŷ. Dychmygai'i thad o'r newydd am siwrnai ac ymadawiad ei ferch. Dychmygai'i mam. 'Ust Gwilym,' brathai'i wraig ar drothwy'u cartre. Ond allai fe ddim dod i ben â'r pwffian chwerthin. Teimlai'r ddau fel pe baen nhw gyda Siân wedi diflannu. Ac allai Siân ddim ymateb mwyach. Llithrasai'r car i ffwrdd ac i ffwrdd a'r cygod hir tywyll ar y llawr, y tu ôl i'r car, fel pe bai'n mynd yn arafach na'r car ei hun ac yn ei ddal yn ôl gyda nhw ac yn ei dynnu'n ôl wrth iddo fynd ar i waered ymlaen.

Roedd y tad o hyd yn tagu chwerthin ac yn chwerthin yn chwerw bellach dros y lle yn ddiymadferth. 'Ust Gwilym.' Dilynasai'r chwerthiniaid hwnnw ei ferch ar hyd yr

heol o hyd, yn isymwybodol ynghlwm wrth y teiars cefn yn gysgod hir i gyfeiriad y brifddinas. 'Dw i wedi llwyddo yn y fan 'na du chwith, y lle y mae hi'n ei gyrchu, o leia,' broliai'r tad yn drist ar ganol ffrwydrad hirymarhous ei chwarddiad. Ac allai fe ddim ymatal, er mor llaith oedd blew'i amrannau. 'Roedd hi wedi gwneud yn well na fi,' meddai. 'Roedd hi wedi trio. Ond rown i wedi aros gartre, heb wneud dim. O leia, roedd hi wedi llwyddo i fethu. Down i ddim wedi wedi gwneud hyd yn oed hynny.'

Dychwelai'r chwerthin fywhau o'r newydd, serch hynny, yn ara wrth symud i mewn i'r tŷ.

'Ust Gwilym. Ust. Does 'da ti ddim parch? Beth fydd Siân yn feddwl? Beth feddylith y cymdogion?' Ond roedd gan y cymdogion ddigon o drafferthion eu hunain.

Chwerthin, chwerthin a wnâi'r tad er ei waetha, heb ddeall ond wedi lled-weld y broblem yn gliriach.

'Ust Gwilym.'

'Wedi llwyddo y mae hi,' ebychai fe drwy chwŷs ei chwerthin, 'wedi llwyddo o leia i beri i fi chwerthin ychydig.' Ac fe'i llywodraethwyd e, a tharfwyd ar y stryd oll yn gyfan gwbl, gan ei chwerthin. Helpwyd e'n ôl i'r tŷ ac i'w gadair. 'Jest â marw', meddai fe heb ei ddeall. 'Llwyddiant,' udai'n ddiniwed drist yn ei galon, 'heb ei ddatrys.'

Syndod o drysor, serch hynny, mewn calon doredig, yw corffori a gwireddu problem.

## HANES CYDWYBOD NEDW DOLWAR FACH

Roeddwn i'n hepian ar y llawr. Ond yn y meddwl i, roedd yna atgofion a rhithiau syniadol yn cylch-hedfan uwch y mhen a esboniai sut y deuthum i'r fan honno. Rhithiau sarhaus oedden nhw, a rhithiau dyfal. 'Rwyt ti'n rhy shimpil, Nedw bach. Rhy ddiniwed i fod byth yn llofrudd taclus go-iawn.'

Meddylwch am farnwr parchus yn y Trallwng yn yngan y fath dalp o angharedigrwydd, yn syth fel 'na. Fel bwrw esgid dal-adar drwy we-pry-cop.

'Doet ti ddim yn deall digon. I fod yn llofrudd mae'n rhaid fod gen ti *ryw* glem.'

Deffrown yn ara yma mewn cell garchar tan gasglu'r dydd at ei gilydd. Gosod yn drwsgl y 'co' yn y fan yna, 'dealltwriaeth' fan draw. A theimlwn i'n synhwyrâu a'n syniadau i gan bwyll yn creulon ymuno â'i gilydd o dameityn i dameityn anesmwyth ar fore a oedd yn rhy ystyrllon i w'r sy'n dihuo o hunlle.

Pechadur dw i. Mae cywilydd arna i. Roedd hi fel pe bai'r barnwr yn y nghyhuddo i o fod yn rhy dwp i fod yn bechadur. Diau mod i'n rhy dwp i fod yn bechadur deche, mae hynny'n siŵr ei wala. Ond pechadur gwael dw i, fel pobun sy'n gwybod ei bethau. A phechadur dychrynlyd o fyrbwyll. Ond...

'Gwirionyn fuest ti erioed. Gwirionyn fyddi di byth, tra bo bedd ym mynwent Llan'hangel.'

Celwydd trist! Celwydd noethlymun borcyn! Be gebyst oedd ar y dyn? Mae'n wir fod rhai'n dweud mai diffyg gallu a'n rhwystrodd i rhag talu'r rhent. Doedd gen i, medden nhw, ddim digon o ddeunydd llwyd yn y nghopa i gynnal twlc heb sôn am dyddyn. Ond, on'd oedd y dirwasgiad wedi taro miloedd o bilcod tebyg? On'd oedd dyled yn ysigo ffermwr ar ôl ffermwr yn arbennig ym mlynnyddoedd tlawd 1816-1817, ysigo nes bod y landlordiaid bloneg-flinedig wedi cael eu gorfodi i ostwng rhenti ymhobman? Wrth gwrs, mod i'n ei ddeall yn rhy ddeche. Ac roedd arna i gwilydd, on'd oedd, nid am y twpdra ond am y defnydd o'r twpdra.

'Beth ddwedai dy Ann di te heddiw?' holai'r Barnwr yn galed wedyn, gyda'r llais ara, trwm, llwm ac anniddorol yna, y math o arafwch sy'n peri i fellten denau ymddangos fel tw derwen. Ymrithiai Ann o 'mlaen i'n ddisyfyd yno ar y pryd, yn gwmwl gwyn anferth o ddelwedd heb fymryn o storm yn agos ati yn un man; ac yna, diflannodd o'n meddwl i.

'Ateba, ddyn,' meddai fe ymhellach.

Ie, dyna Farnwr awdurdodol, dybiwch, oddi uchod yn y neffro i â'r fath gwestiwn. Ac yn sarhau rhywun annwyl i fi ar yr un pryd. Roedd pawb yn nabod Ann, hyd yn oed hwn. Ac mae hi'n cael ei thafllu i nannedd penwan i o hyd. Mae fel pe baen nhw eisiau defnyddio'r un a edmygwn i'n anad neb yn ffon i ddannod ifi. Roedd arna i... a sticiodd y gair yn y meddwl i fel hadau mwyar rhwng rhai o nannedd lleia pwdr... *gywilydd* diderfyn.

Does dim dwywaith iddi hi, Ann, ddwyn cyfran o'n ymennydd i gynt, a dyna pam rown i mor shimpil. Cyn i fi erioed ddod i'r fei roedd hi wedi bod yng nghroth mam ac wedi casglu'r holl ddoniau, y doniau a allai fod wedi'u rhannu gyda John, a Jane, ac Elizabeth; i'r teulu oll yn llon. Hi ar ryw olwg oedd biau'r teulu i gyd. Diau mai twp y ngwala own i felly oherwydd hynny. Twp wrth brynu hen denantiaeth denau Mary Oliver. Twp hefyd wrth drafod cynnyrch ac arian y fferm wedyn. A mwy anfeidrol dwp byth wrth dynnu blewyn o drwyn Dewi Davies. Hwnnw mewn gwirionedd oedd y praw.

Twp? Na. Nid twp yw'r gair. Balch, ie; cableddus, ie; di-ddisgyblaeth a byr y ngolwg, purion. Ond byth twp, na! Roedd hynny'n ormod o esgus. Roedd y meddwl i'n rhy ddynol o fyw.

'Twp wyt ti, Nedw. Nid troseddwr maleisus.'

Ond maleisus fues i hefyd. Do. Hen gweryl oedd hyn, a minnau wedi magu dig yn gwbl Anghristnogol. Hen gynnen bendew oedd y cweryl ynghylch gwartheg Dewi Davies yn torri i dir Wern Fawr ac yn mathru'r cae yd. Dylwn i fod yn drech na'r fath fabieidd-dra clytiau. Dyna'r praw moesol mewn ffrwythau pwdr yn dod ar y ngwartha, a finnau'n ei fethu. Onid own i wedi dweud lawer tro ac wedi meddwl hefyd – 'fel y maddeuwn ninnau i'n troseddwyr?' Ac os oedd gwartheg Halfen yn mynnu peth

porthiant prin gen i, ac yn croesi'r afon i nhir i, i ddeintio tipyn o'r cil, does bosib nad oedd modd gwareiddiedig ifi unioni'r fath gam ryw ffordd arall?

O'r gorau, twp own i hefyd, efallai. Ond dyw bod yn dwp ddim yn bechod marwol, er mai cynnyrch pechod dynoliaeth oll yw.

Ac eto, rown i'n methu â pheidio â chasáu Dewi Davies yn go iawn. Mae pawb yn ddynol, meddan nhw i mi, hyd yn oed llygod sgubor. Rown i wedi gwneud y ngorau glas i drechu'r ffeidd-dod annifyr tuag ato. Croes hollol i'n ewyllys i oedd yr adwaith a arhosai bellach. Ac eto'r un pryd, allwn i ddim ei ddiodde rywsut yn un man, ac roedd gwir fai arna i. Roedd gen i gwilydd tost. Rown i'n methu â gweld y byd budr yn un man ond oddi tan ei aelïau fe.

'Symlyn wyt ti, penffol a dwl bared, Nedw,' meddai'r Barnwr yno yn y ngho.

Fan yna roedd hwnnw'n dal ati, dal ati, oddi uchod ar ei gwmwl Barnwr, yng Nghwrt y Sasiwn Fawr, yn dal ati, dan ei beriwig slent, a'r diléit mewn dal ati. Roedd ei eiriau'n yn yn lladd i. Roedd arna-i gwilydd coch; oedd, a nhrwyn i'n goglais fel chwain mewn stabal. A'r hyn oedd yn fwya chwithig ar y pryd oedd yr union gyhuddiad o beth anallu. Nid gwaradwydd y llofruddio, yn gyhoeddus lle'r oedd y byd i gyd yn y ngweld i, ond yn hytrach y gwarth fod brawd Ann yn hurthgen harti o'r golwg yn y nghalon i... Gwridwn mewn cwilydd am y malchder cywilyddus yn hun ynghylch Ann.

'Dw i'n dy gondemnio di... '

Am funud byswn wedi hoffi bod yn llofrudd go barchus, – un blewog, cyhyrog, canol-y-ffordd, ystyrlon, yn hytrach na bod yn dwp, dwp, dwp. Mi hoffwn feddu ar yr urddas i gael y nghyfri'n lleiddiad call colledig, ond yn frawd priodol i Ann yr un pryd. Oherwydd fel arall, plentyn own i, does dim dau, brawd bach twp i Ann. Ac eto, mae arna i ofn ifi ddal i synied, mewn gwarth am un eiliad aliwn, er mai un peth pwyllog a chyfiawn wnes i erioed oedd e yn y tipyn buchedd 'ma – sef dileu Dewi Davies. Rhy gall own i o'r hanner. Rown i'n gwybod i'r botwm beth rown i'n wneud. Dyna'r drwg. Rown i'n sylweddoli pob ystum i'r dim lleia. Hyd yn oed yr holl ffordd yn ôl o Ferthyr i'r llys ymlaen llaw, roedd y meddwl i wedi aros 'na, yn yr afon, gydag e. Rown i ar hyd yr hewl yn ôl yn corddi yn ei gylch. Nid y gwartheg yno oedd y drwg. Peidiwch â



choelio'r cymdogion. Nid cenfigen chwaith oedd yn y maglu i am ei fod e wedi gallu fforddio prynu tenantiaeth Wern Fawr ar ôl i fi fethu. Ac nid yr ymryson chwaith ynghylch yn hawliau teg i fel hen denant ar gyfer rhannu'r cynhaea. Ond y cwbl o'i ddwylo blewdrwm e ym mhob man yn dwyn popeth oddi arna i. Ei lofruddio wnes i, yn sicir ddigon.

'Dy gondemnio di ... .'

Condemnio Dewi rown i wedi'i wneud. Bu bysedd Dewi ar Ann yn eiriol yn y co ar ôl iddi farw, a'i sbort am ei phen, ei phen gloyw a serennog hi, ei harddwch a'i glendid hi. Dyna a borthai yn llid i, bob amser. Roedd e'n edmygu'i thlynsni. Edliwiai fe yn y ngho i ei heithafiaeth sancteiddrwydd hi. Gwawdiai'i chanu glân pefriol. Goganai'i gallu grasol rhedegog hi. Buasai Dewi'n gwneud hyn oll hefyd o'r blaen ers talwm o ran sbort lawer tro yn ei sgwrs, ac yn fwy byth ar ôl ei marwolaeth, ar ôl iddi ddod yn adnabyddus y tu hwnt i blwyfi Llan'hangel a Llagynyw. Roedd hi'n eicon wrth gwrs yn y wlad i gyd.

Ann, ti, y nghyhuddreg i!

Ti hefyd, Ann, d'anrhydedd di, a ngyrrodd i, wrth iti gael dy sarhau, i gicio'n ôl. Hynny lofruddiodd Dewi Davies drosto-i mewn ffordd o siarad. Ti yn y mysedd i mewn amddiffyniad o'th lendid, a mhrociai i i ddiolch am hynny. Dw i'n penlinio wrth feddwl amdanat ti. Dw i'n penlinio wrth gofio'r modd cynnes y byddet ti'n sôn am dy Waredwr llewyrchaidd. O! Ann. Roedd y galon yna a oedd gen ti yn taflu'i het i'r awyr, a'r tangnefedd yna ar dy dalcen pan oedd Duw'n dynesu atat, roedd y rhain yn peri ifi ddiolch yn dipiau. Diolchwn beunydd i ti am gerdded yma yn ein plith ni. Roedden ni i gyd gartre wedi dod i nabod yr Arglwydd, mae'n wir; ond roeddet ti dros ben llestri wedi mynd i'w anwes E, ac yn gysurus yn Ei freichiau. Roeddet ti, Ann, fel daeargryn dan liain ford. A dw i'n diolch fod pawb ohonon ni yn y cartre rywfodd wedi cael ymdroi yn ymyl yr un ystafelloedd ac ymolchi yn yr un geiriau â thi... er mod i wedi haeru wrthot ti lawer tro o ran sbort, fod Feswfiws yn burion... ond nid yn yr un gegin â ni: rhyfeddwn a diolchwn beunydd yn awr dy fod di wedi bod yno ac olion dy lais o'n hamgylch ni.

'Dieuog o lofruddiaeth. Euog o ddynladdiad.'

Ann! Glywaist ti? Beth oedd ar y Barnwr? Fi! Dynladdiad! Roedd yn waeth na hynny. Rhyw *hanner* llofruddiaeth yw dynladdiad. O fel dw i'n difaru am y *ddau* hanner! Gyda'r lladd mewdol ar y llofrudd, dw i'n cwmpo ar y mai. Nid chwarae own i. Dw i'n methu deall. Cweryl sydyn oedd hi, Ann, o dan gythrudd. Mor wallgo â glawogydd y Berwyn yn yr Hydre. Ond doedd dim esgus. A dw i'n euog. Ac maen nhw'n y nghyfri'n euog, ac yn gwybod yn gywir felly; yn euog o sarhau Duw, yn euog o ddirfrio enw Cristion, ac yn euog o'th ddifenwi di Ann fach.

Mae arna i gywilydd. Pa beth yn y byd yw cywilydd ond gwedd ar falchder fel pob pechod, – gwedd ar ailymaflyd yn yr hunan balch?

'Ond dw i am ddatgan dedfryd drugarog i ti... .'

Beth yw hyn mae'n mynd i'w ddweud?

'Oherwydd mai'i amddiffyn ei hun roedd y troseddwr... .'

Fi'n yn amddiffyn yn hun!

'Oherwydd bod yr ymrafael wedi codi'n ddisymwth, oherwydd bod yna bryfocio cas wedi bod, oherwydd nad oedd yna fwriad ymlaen llaw, oherwydd bod yna'r fath record o ymddygiad da yn hanes y troseddwr, oherwydd..., oherwydd oherwydd... . Gwyliwn ei ymennydd atletig e'n casglu'r ymgordeddu. Chwilio am esgusodion roedd e, i ddod o hyd i rinwedd lle nad oedd 'na rinwedd, tyrchu osgoi'i ddyletswydd, rywffodd. Pe bai'n enwi un cymhelliad crwn yn blwmp, fe allwn i dderbyn ei fod e'n coelio'r peth. Ond rhedeg fel ci mewn ffair o gwmpas yr holl esgusodion hyn! Beth oedd ar y dyn? Os oedd ysbryd Ann yn y ngho i wrthi'n ymyrryd â fi, roedd hi fel petai hi'n rowndio hwn yma hefyd; ond allai hyn ddim bod.

'Oherwydd bod y lleiddiad hefyd yn WIRIONYN, a hynny'n benna... .'

Dyna fe eto. Gwirionyn, shimpil, twp bost. Bwyta maip a thatws rhost. Yn yn enllibio i er mwyn trugaredd, gan y nghyfri'n faw, a baw ydw i, fel rhywbeth y byddai Smot yn dod yn ôl ag e wrth chwarae hela pan fyddai'n methu â ffeindio ffesant. Dw i'n haeddu cael yn llusgo drwy laid y gymdogaeth oll gyda holl ffesantod y sir. Ffôl own i.

Gwirion ei wala. Dw i'n haeddu cael y nghyfri'n warth diwerth ymhlith y mhobl. Baw dan wadn. Bradychais i'r eglwys ei hun, a dw i ddim yn haeddu cael dangos yn wyneb byth eto ymhlith Cristnogion cadwedig ...

'Ac oherwydd ei fod e'n frawd i Ann...' A ddwedodd e hynny? Na, efallai. Dyna oedd yn ei feddwl e o'r cychwyn cynta er nas ynganodd hynny. Dyna roeddwn innau'n ei feddwl. Dywedodd: 'Oherwydd mai'i amddiffyn ei hun roedd e... Gan nad oes ganddo ddim eiddo yn yr ardal, allwn ni ddim atafaelu hynny... .'

O leia, dw i cyn dloted â lluen, cyn gyfoethoced â llygoden eglwys. Mae hynny'n rhywbeth o mhlaid i. O leia, dw i'n llwm ac yn garpiog, yn ddifoethau, yn noeth. Does gen i ddim i'w gynnig. Amddifad a gwaglaw, anghenus a diddim, ar lawr. Dim.

Roedd tywydd wyneb y barnwr wedi dechrau briwlan dros y lle i gyd. Casglai'i aelïau at ei gilydd i ddechrau, yn gymylau bychain streipiog digon diddrwg. Wedyn o'i glustiau ymgasglai'r gwynt. Ac ar draws ei gernau tywyll a'i fochau crac, taenai'r storm, tiwniai, tonnai, taniai. Doedd argoelion yr hin ddim wedi sôn dim am hyn; ond ffansiol yw'r rheina bob amser – rhywun yn syllu allan drwy ffenest y gegin, yn bwrw amcan, a dyna ni: haul canol Americia un funud ddoe, heddiw fel tornado Americia. Ond y fath dornado diddim oedd geni i fywyd yn y llys yna!

'Deuddeng mis o garchar. A swllt o ddirwy.'

Beth! Beth sy ar y dyn? Swllt, ddyn. Ond nid damwain oedd hi. Cariwyd fi o'r llys. Beth ddwedodd e? Hynny bach. Jôc.

Mewn cell dw i. Cell wag, heblaw am Ddewi Davies, ... Elizabeth y ngwraig, ein saith blentyn, ac Edward Johnes meddyg Garthmyl, a chrwner y cwest, ynghyd â'r deuddeg rheithiwr, a phen mynydd pellennig barnwr Cwrt y Sesiwn Fawr ac eira ar ei gopa... ac Ann,... yr holl fyd. Mae'r un sillaf ddedfryd hefyd yn gryndod i'n gwegil i ac i'n sgwyddau i yn y lle 'ma... Swllt! Ann! Swllt! Dirwy-o-fydysawd o swllt!

\* \* \*

Syllwn yn gyson ar y ferch ddisylwedd olau a oedd bellach wedi dychwelyd yn llechwraidd i dywyllwch y nghell, neu o leia i'n meddwl i.

Ydy Cristion go iawn yn gallu lladd byth? Holwn mor sobr ag y gallwn i ger ei bron hi. Ydy e'n gallu colli'i natur yn ddisyfyd i'r fath raddau ac mor ddidoreth nes ei fod e'n gallu fflawtio deddfau'r Cread?

'Ydy,' meddai'r ddrychiolaeth dosturiol wrth yn ochr i, a'r dôn yna ar ei lleferydd, yn ddychryn i ddiffyg sancteiddrwydd. 'Munud gwyllt. Munud o amddiffyn gwallgo. Munud o bechod i Gristion. Mae pawb yn gallu cwmpo.'

Ond Ann, fe ddaeth e ata-i â'i bâl am sawl munud. Roedd e'n chwifio'i bâl yn uwch na'i ben. Roedd e'n bygwth tragwyddoldeb ym mhob cornel ohono-i. Roedd am godi gwallt y mhen fel codi chwyn. Gwaeddwn i arno: 'Cer yn d'ôl Dewi Davies.'

'O nhir i, Nedw Tomos,' sgrechai yntau, 'y munud yma. Hel dy droed o nhir i, ddyn.'

'Be sy'n bod?'

'Chwynna dy hun.'

'Mae gen i hawl, Dewi.'

'Hawl?' ubai Dewi. 'Hawl! Does gen ti mo'r clem i fod â hawl dros ddim byd. Aeth Ann â thri chwarter d'ymennydd.'

Hyrddiai y nghlustiau ei sillafau'n ôl ato wrth ffoi tuag at yr ysgubor. Roedd ei sgidiau'n fuan wrth y nghwt. Daliai fe'r bâl yn arf o hyd. Gerllaw ar hoelen ar bared yr ysgubor, hongiai tamaid o gryman. A chipiais y cryman yn y nwrn i'n amddiffyn yn hun.

'Y nhir i yw hyn,' mynnai fe. 'A phob arf arno.'

'Ond.'

'Y nhir cysgredig cyfreithlon i, a phopeth sownd sy arno.'

'Mae yna reolau ynghylch rhannu'r yd,' gwaeddai'n llais llipa i.

'Mi wn i bopeth am bethau felly.'

'Mae 'na arfer gwlad, ynglŷn â'r hen denant sy wedi hau 'ma.'

'Mi wn i'r arferiad yn burion. A beth am yr arferiad ynghylch yr adeiladau,' dadleuai fe, 'ai'r hen denant sy wedi hau'r rheini?'

'Hawl yw hawl. Mae'n arferiad, Dewi.'

'A'r pontydd. A'r gwartheg sy wedi tewhau.'

'Dw i ddim yn gofyn am fwy na'n hawl i,' meddwn i.

'Beth am y tywydd? A'r awyr? A'r heulwen? ... Ai'r hen denant biau'r rheini uwch y Wern Fawr?' meddai fe, nid o falchder ond o bryder neu o wawd.

'Does gen i ddim awydd ond i rannu'r cynhaea.'

'A'r tir. Dyma yn hawl elfennol i.'

Gwelai fe nawr fod gen i gryman. Ond beth yw cryman pitw wrth ochr pâl gyda chyhyrau? Ysgydwai fe'r bâl fel gwaywffon, fel pladur. Gwaeddwn i am help. Dylai'r byd i gyd weld beth roedd e'n ceisio'i wneud. 'Dafydd Roger! Rhisiart Dafis!' gwaeddwn am help. Gwibiwn drwy'r ysgubor ac allan drwy'r cefn, gan daflu ystyllod y tu ôl i fi ar ei lwybr e i'w atal. 'Rho'r bâl yna i lawr,' gwaeddwn. Rhedwn i lawr tuag at yr afon. 'Siôn Edwart! Siôn Elis!' Gwaeddwn a gwaeddwn. Roedd e ar y nhrywydd yr holl ffordd, ac yn ubain ar yn ôl i, a finnau'n peri i ysgyfarnog ymddangos yn warthus hamddenol. 'Help!' gwaeddwn. 'Bydd yn rhesymol ddy!'

'Ble'r wyt ti wedi bod yn cadw dy reswm? Aros di'r cythraul barus.'

'Help! Rhisiart Wood! Jâms! Jâms Dafis! Rheswm!'

'Paid ag ymesgusodi,' sibrydai Ann yn y ngho i.

Fe ddilynai fe fi i'r afon a'i wg fel cwningen ar dân. 'Rho'r bâl yna i lawr,' gwaeddwn. Roedd y dŵr mewn lli, tan hwylio'n ôl ac ymlaen yn erbyn ac ar draws y glannau. A throis i'w wynebu. Drwy gil yn llygad gallwn weld Siôn Edwart yn rhedeg o bell tuag aton-ni. Roedd yntau'n gweiddi. Ond roedd e'n bell. 'Bydd yn bwylllog, Dewi...'  
Codwn yn llygaid i fel drylliau. Doedd gen i ddim hyder ynghylch yn nerth anianol. Corff dw i. Doedd dim o'i le ar yn ysgwyddau. Fe'u hadeiladwyd nhw i gynnal tŵr eglwys y plwy pe dechreuai'r seiliau ysigo. Fe noniwyd i hefyd â breichiau Gothig. Pe

bai cerflunydd yn chwenychu model ar gyfer Samson, a chymryd bod y cynhaea i gyd wedi'i hen ddwyn i'r ysguboriau, a finnau wedi egnio ar ôl gorffwys, byswn wedi gallu eistedd a darparu orig eitha defnyddiol iddo. Nid yn ddi-glem y tyfodd y ddihareb yn yr ardal am 'flew clustiau Ned Dolwar.' Ond cadarn o gorff: tyner o anian, dyna oedd hi yn achos i. Fe mhensaernïwyd i benbwygilydd ar gyfer paffio oni bai am un fantais anhwylyd, sef yn anianawd dof a chrin ac ymostyngol i a fuasai wedi rhoi cryn her i fwydyn a geisiai'r twll mwya diarffordd yn y modd mwya chwim i ymguddio rhag y glaw, ac anianawd llipa na wybu'i gracio ond unwaith yn y pedwar amser... Ond unwaith yn ormod. 'Dw i'n siŵr y gallwn i ddod i gytundeb,' meddwn i.

'Dw i am dy garthu di..., ' meddai fe.

'Gawn ni siarad...'

'O'r tir te, y cythraul twp. Ddim o'r fan hyn,' gwaeddai fe.

'Gawn ni siarad yn dawel te,' mynnwn i.

'Pwdrwn wyt ti. Rwyt ti wedi gadael dy ôl di yma.'

'Aros, ddyn. Paid â bod yn wyllt.'

'Gwenwyn wyt ti ar hyd y ddaear.'

Ciciwn i ddŵr Efyrynwy i'w wyneb, bron o ran sbort i ddechrau. Ciciwn i'n ysgafn, bron yn chwareus yn y nychryn, Ann. Y dŵr. A chamai fe'n ôl ychydig. Ac wrth geisio osgoi'r tasgion drwy gamu'n ôl, baglodd e. Dim ond dŵr, Ann. Baglai'n drwsogl. Neidiwn arno. Roedd y bâl yn ei law o hyd. Ceisiwn ei atal e â'n llaw rydd. Ceisiwn dynnu'r bâl.

'Na,' criai fe. Ac roedd ei lygaid fel llwynogod, – yn ôl ac i lawr, i fyny ac i lawr yr afon. 'Mi ladda-i di'r cythraul,' sgrechai fe. 'A dw i'n dweud y plaendra ... ta pwy oedd y butain chwaer 'na oedd gen ti...'

'Paid â hel esgusodion,' meddi di Ann yn y meddwl i heddiw... Torrai rhywbeth o'r tu mewn i fi. Digon oedd digon. Roedd yn ysgyfaint i'n gadarn. Gwelwn ei law, y llaw arw honno a oedd wedi ceisio ymyrryd â thi yn ddamweiniol un diwrnod, y llaw halog a hyll yna. A chodwn y nghryman o ngho. Cryman bychan. Gymaint a

ddigwyddodd yn yr eiliad yna! Gymaint oedd cynnwys llafn cryman! Roedd hi fel pe bai'r holl fyd yn cael ei ddistrywio yn ergyd y cryman hwnnw. Y lleuad honno o gryman a dorrodd drwy'r wybren ac a holltodd y byd i gyd ag un tro gwallgo. Lleuad o gryman fel noson goch. Dim ond y lleuad wallgo honno o gryman a lanwai y nhywyllwch mwyach. Padell o leuad welw a'i llond o waed oedd y nghryman i, Ann. Cofiwn air Twm o'r Nant yn od ddigon: 'A'r dyn tlawd, mewn gwawd a ch'ledi,/ Fel y lleuad yn llawn oerni.'

'Esgusodion, esgusodion,' meddai Ann.

'O haul, aros,' gwaeddai nghalon i'r bydysawd wrth i fi faglu a strancio. 'Aros yn Gibeon; a thithau, leuad, yn nyffryn Ajalon.' Aros. Roedd yna sgrech yn y nghalon. Roedd yna sgrech yn y mreichiau. Yn y pellter gwelwn Siôn Ewart o hyd yn rhedeg. A'r tu ôl iddo, yntau hefyd yn rhedeg nerth ei sodlau tuag aton-ni, Jâms Dafis. Ond bydden nhw'n rhy hwyr. Codwn y cryman yn uwch, Ann, yn ddall, a'i ergydio drwy'i wddwg. Un chwyrliad, bwriwn e. Daeth y cryman i lawr ar yn hanes i fel caead, Ann, a chlwyfo pibellau gwaed ei frest. Fe nghlwyfwyd innau, Ann, o'r tu mewn iddyn nhw. Ei asgwrn cefn, fe'i torrwyd, a gwythiennau'r thoracs. Fe roliodd yn y dŵr.

Roedd ei hwyliau fe wedi'u rhwygo'n yfflon. Ysigid yr ystyllod ar ei ddec. Twmblai'r broc o don i don. Doedd dim ohono a allai gyrraedd y bywydfad. Saethai rocedi o'i lygaid i'r awyr i alw ar unrhyw gwch a allai fod ar y gorwel i gyflymu. Ond heb symud o ganol yr afon roedd e wedi cyrraedd glan. Roedd yn ymennydd i'n rholio yn y dŵr fel pelen. Mi wnes i glwyf, do, Ann, bedair modfedd o hyd, dwy fodfedd o led, tair modfedd o ddyfnder. Mewn eiliad. Waeddodd e ddim. Ddim un smic. Furmurodd e ddim. Chlywais i erioed yn unman y fath ddistawrwydd brawychus. Suddodd a suddodd i'r dŵr â mwg toddadwy ei waed yn cymylu'r afon. Sefais i'n syn ac edrych ar ei weddillion, Ann. Roedd Fyrnwy wedi cau amdano ac wedi cau am y nghalon i yr un pryd, yn dynn, wedi cloi.

'Nedw!' codwyd llais cariad uwch y mhen. Hi eto. Hi o hyd ar y ngho. Ti, Ann. Troellai'r staeniau gwaed oll yn yr afon fel pysgod aur, yn ôl ac ymlaen, i fyny ac i lawr, yn hyll bert. Sylwais i nad oedd dim cyswllt o fath yn y byd rhwng y pysgod hyn a

realiti. Unig bwrpas y cymylau gwyn uwch eu pennau oedd tin-droi, hwythau, o amgylch y pysgod yn yr afon. Llanwyd y nghydwbybod i oll â chelwyddau fel yr oerodd yr holl sefyllfa.

'Be wnest ti, Nedw bach?' sibrydai Jâms Dafis.

'Be wnest ti, ngwas i?' meddai Siôn Edwart.

Allwn i ddim ateb. Roedd y dŵr yn gwasgu arna-i. Roedd y pysgod aur o waed yn nofio o gylch yn ymennydd. Roedd lladd wedi bod yn y nghalon, ond ymatal yn yn ewyllys i. Llwyddai marwolaeth i ddringo er hynny ar hyd llwybr arall. Fe oddiweddwyd celain Dewi gan yr un sy'n dilyn pawb. Roedd yna eraill wedi dod aton ni erbyn hyn. Roedd Dafydd Owen wedi dod o rywle. A Tomos Smith. Roedd yna rai plant wedi dod, a chŵn. A Ffransis Griffiths a'i wraig. A thithau Ann yr holl ffordd o'r bedd. Pawb ond neb a allai y ngollwng i. Neb. O! Dduw.

'Nedw bach, be di hyn?' meddai hi, a phawb.

Edrychwn o nghwmpas ar goll. Rown i wedi ewyllysio iddo fe fyw; allai neb wadu hynny. Doedd dim y gallai'r afon ei wneud i'w adferyd. Edrychwn yn wynebau brawychus pawb. Ceisiwn i fod yn fwy ar goll. Dyma fi ar drothwy'r deugain oed o ran corff, yn ŵr sad a pharchus o ran enw da, a chanddo deulu mawr cyfrifol, yn Gristion wedi yn aileni, yn gynheiliad ffaeledig ond ffyddlon i achos yn Arglwydd, yn weithiwr cydwybodol ym mhob peth, yn hunan-gyfiawn tost, yn bopeth gwir a gwiw a didramgwydd, ar funud byrbwyll wedi colli pob llywodraeth drosto-i yn hun, yn gwylltio'n gudyll, ac wedi ngholli i fi yn hun yr un pryd.

Beth wnes i?

Rown i yn casáu Dewi wedi'r cwbl – o'r bôn i'r brig – y munud yna. Ond dyw hynny does bosib ddim yn ddigon. Yn ddigon i beth? Na ladd? All hyn ddim bod yn ddiwedd ar fywyd dyn. Dyw'r elyniaeth fwya eithafol ddim yn ddigon o esgus dros gyflawni casineb mor gwbl anfad â hyn. Ac eto, allwn i ddim gwadu'r peth, er na allwn i gredu bellach fod yr hunlle 'na ar y ngho wedi digwydd, roedd y dystiolaeth yn gwbl glir, yn gelain gron o glir, o flaen yn amrannau.



Y tu mewn i fi yr un pryd, roedd yna farw lond y lle; yr oedd hunan-barch a gobaith a theulu wedi marw yr un pryd.

'Dewi Halfen!' ebychai Tomos Smith yn benbleth i gyd gan edrych ar ddieithrwch cochlyd dŵr yr afon. 'Nedw Dolwar!'

Ac roedd hynny'n crynhoi'n union y pylni a oedd yn ein meddiannu ni i gyd.

'Dere'n ôl. Dere lawr i'n tŷ ni,' meddai Dafydd Rhosier gan estyn ei law tuag ati.

Rown i'n gwbl bŵl. Gafaelodd Ffransis Griffiths a Jâms yn dyner yn yn ysgwyddau i a'n arwain i ymaith. Cerddwn i, yn wirionyn, drwy hud i fyny drwy'r caeau heb edrych ar neb, heb edrych yn ôl. Rown i wedi difodi Dewi Halfen, ac wedi nifrodi yn hun yn derfynol.

Difa dyn cyfan, Ann. Dyna flas i'r dannedd egr. A'r cwbl oll er dy fwyn di. Dyna gêm bur a gwirion a ffôl i'r adolewent. Chwifio cryman yn yr awyr a dod i lawr â hwnnw ar gymydog sarhaus i chwalu'i asgwrn-cefn, y fath chwarae – i hollti'i nerfau, ac i saethu'i waed dros yr afon, a gweiddi o'r tu fewn i fi yn hun: 'Digon.' Digon yw gormod. Digon i'th deulu. Digon i'th fferm. Digon, digon i'r pridd lle y cei di dy gladdu. Digon, digon. Digon o serch. Digon o chwarae hefyd, ac o wylo alaethus i'r diwedd eitha am byth mwyach, digon i'th wirionyn di o frawd, O! Ann Dolwar Fach, – frawd.

Ac yn awr, yn flinderus flin a llesg, mae traddodiad Dolwar Fach wedi cyfrannu peth i draddodiad parchus undeb y troseddwy'r mawr, a finnau wedi cymryd yn llw ochr-yn-ochr â'r môr-ladron a'r godinebwyr, yr imperialwyr a rheibwyr plant bach. Mae staen ara'r gwaed du blinderus llesg wedi ymlwybro i lawr y mreichiau, dros y nghluniau a mhenliniau i nghydwybod, fel pe bai'n parhau: 'Triwch gael gwared â fi nawr te.'

'Be ddaeth drosot ti, Nedw bach?' holodd Jâms Dafis.

'Cei dy grogi wst ti,' meddai Siôn Edwart.

Rhewodd pawb.

'Druan â Dewi ... Druan ohonot ti nghyfaill gwiw,' meddai Dafydd Rhosier.

Roedd pawb yn paratoi'u meddyliau i'n angladd i. Roedd eu hamrannau yn y ngladdu i yn y fan. Oedd yna ystyr i hyn oll? Wyt ti'n gallu'i ddeall, Ann? Oedd rhywun yn haeddu hyn? Efallai, meddylw'n, efallai fod lladd yn llai o beth os nad yw'r lleiddiad o unrhyw werth. Os nad oes ganddo na chyfoeth na safle, dyw hi ddim yr un fath. Os yw'n wirionyn twp fel fi, ac os yw'r sawl a leddir ganddo, yntau, yn amddifad o bob pwrpas a phwysigrwydd, efallai fod y ddau gyda'i gilydd yn peidio â chyfansoddi dim byd arwyddocaol. Heb fod yn ddigon pwysig i Farnwr. Ac yn dlawd, y ddau. Roedd Dewi'n ddigon cyffredin. On'd yw'r cyfoethog yn well ei fyd bob amser? Wedi'r cwbl, pwy oedd e? Dewi? Pwy oedd hwnnw? Y cwbl wnaeth y sawl lofruddiwyd a'r sawl lofruddiodd oedd bodoli. Ychwanegodd Dewi ddim doeth erioed at gynhysgaeth ddiwylliannol y gymdogaeth. A fi wedyn, ei lofrudd, beth wnes i erioed? Llai byth. Bodoli? Dim oll. Bod yn frawd i Ann? A'i chywilyddio. Dyna y mhechod gwaetha. Be wna-i byth, ond marw ryw ddiwrnod efallai, marw ryw ddiwrnod yn sicr? A dyna ben. Gadael gweddw ac igian plant.

Dw i wedi dod i'r casgliad ynghylch co gwlad amdanon ni: mai'r prif beth sy'n nodedig i hwnnw yn y diwedd, i'r llofruddiedig a'r llofrudd, yw eu rhan yn y llofruddiaeth hon. Hynny oedd yr unig beth a fydd yn mawrygu'n bywyd ni. Y cyswllt â hynny sy'n ein diffinio ni.

Y peth gwaetha y gallwn i fod wedi'i wneud erioed oedd gwneud yfflon o gawl o bopeth.

Cyrhaeddod ni'r tŷ.

'Be wnawn ni nawr fechgyn?' murmurodd Jâms Dafis.

'Gwell cloi Nedw rywle.'

'Ond ymhle?'

'Wnaiff y llofft y tro,' meddai Mr. Dafydd Rhosier.

A'r fan yna y'n rhoddwyd i.

Gallwn glywed y cynllwynio a'r murmur a'r sibrwd a'r ochain a'r dadlau ffyrnig ar gerdded drwy'r waliau i lawr yn y gegin. Roedd pawb yn chwys domen. Tagai'r

waliau fi. Edrychwn o nghwmpas yn bryderus. Roedd y nhrwyn yn goglais fel cacwn ym mysedd-y-cŵn. Es i at y ffenest. Tynnu'r bollt. A'i hagog. Roedd hi'n agored a'r meysydd yn ymagor o'm blaen. Roedd hi'n rhydd ac yn agored. A'r bryniau draw. A'r awyr iach. A Brycheiniog o'r golwg yn lân. Dringwn i drwy'r ffenest. Brysiwn i lawr. Wyddwn i ddim bod Cefncoedycymer yn bod. Ble? Ble mae honno? A Liz y ngwraig. (Cer, Liz, ar unwaith.) A'n plant ni. I ffwrdd â nhw!

'Gwirion wyt ti wedi'r cwbl, Nedw bach.' Dyna gasgliad y Barnwr erbyn heddiw.

Y pryd hynny, welwn i ddim ond bod y ffenest yn agored.

Llithrwn i lawr y wal y tu allan. Ac i ffwrdd â fi tua'r gorwel glas. 'Nedw bach,' murmurai Ann yn ara yn y nghydwyl i, 'paid â siarad cymaint amdanat dy hun.'

\* \* \*

Dihengais am y mywyd a'r teulu'n y nghanlyn, heb wastraffu amser.

Eisteddwn a mhen yn y nwylo, gan bwysu ymlaen at y tân, yn y tŷ bychan bach yn yr Heol Fawr ym mhentref Cefn Coed y Cymer. Wrth y nhraed bellach roedd y ngwraig Liz. Yn y cefndir, gan sefyll yn ôl, yn agos at y waliau, roedd y mhlant bach, ar wahân i'r bychan yn gorwedd ar y llawr a anwybyddai bawb.

'Mae'n rhaid ifi fynd yn yn ôl. Oes, Liz. Dw i'n cytuno. Does gen i ddim dewis. A mynd cyn iddyn nhw ddod. Gorau po leia o'u hamser hwythau a wastraffa-i mwyach. O Liz fach, mae'n ddrwg gen i. Mae'n ddrwg gen i mhlant annwyl i... A fi o bawb. Dyna'r peth ola wnaethwn i byth, ac a wnes.

Trois at y ngwraig a nhalcen yn gryndod.

'Liz, y nghariad brydferth i. Be wnei di nawr?'

Cofiwn hi'n dod, yn ferch ifanc landeg, yn forwyn i Ddolwar Fach ym 1798 i gynorthwyo Ann, a'i gwallt fel seren wib yn ffrwydro. Ac o'r diwrnod cynta hwnnw fe'i cerais hi. Rown i wedi ffoli arni. Dwedais y cwbl wrth yn chwaer Ann. Ar y pryd, pan gerddodd Liz drwy'r drws yn swildod i gyd fe'i carwn hi ac fe wyddwn na fyddai neb arall byth yn gallu gwneud hyn ifi.

'Hyn, wrth gwrs, yw rhagluniaeth,' meddai Ann. 'Hyn yw daioni gras cyffredinol. Hyn sy'n anrhydeddu dynion bach a dynion mawr. Cael rhyfeddu wrth greadur arall.'

Ond bellach, heddiw a phob heddiw arall, roeddwn wedi gwneud hyn i Liz, wedi dwyn gwarth ar y teulu oll. Allwn i byth faddau i fi yn hun.

'Sut digwyddodd y peth?' crygodd llais Liz fel hen wreigen. Roedd hi wedi heneiddio mewn diwrnod. Roedd ei gwddw'n dechrau adfeilio. Edrychwn ar ei thalcen. Roedd hwnnw'n hen. Ei llygaid. Ei bochau. Ymddatod roedd ei harddwch yn y ngho oll. Craffwn arni.

'Be wnes i iti?' crïwn innau. Roedd yn llais innau hefyd yn eiddo i rywun arall. Roedden ni'n ddieithriaid tost i'n gilydd eisoes.

\* \* \*

A dechreuai'r olwynion grensian yn esgyrn i, yn rheolaidd, yn ofalus, yn bwyllog drwm. Ar Awst 21, 1818 y lladdsw'n i Ddewi yn farw gelain. Drannoeth cynhaliwyd cwest yn nhŷ Dafydd Rhosier, a finnu'n absennol. Yng ngwanwyn 1819 cynhaliwyd yn achos i yng Nghwrt y Sasiwn Fawr yn y Trallwng, a finnu o'r diwedd yn yn ôl. Dychwelswn mewn pryd o Gefncoedycymer i'n ildio yn hun i'r awdurdodau.

Edward Johnes y Crwner, y meddyg o Arthmyl, roddodd dystiolaeth y Cwest yn y cwrt. Gydag e safai'r deuddeg rheithiwr fel petaen nhw wedi ymgynnull gydag awch, gyda Dafydd Rhosier yn flaenwr iddyn nhw i gyd. Roedd rhai ohonyn nhw wedi bod yn dystion i'r digwyddiad. Doedd dim dirgelwch wrth gwrs. A doeddwn i ddim am ddadlau â neb. Caen nhw ddweud a gwneud a fynnen nhw.

Gweiddi wnâi'r Crwner Edward Johnes, ac yntau mewn swydd a ddylai fod yn bur ffyddlon i ffeithioldeb dybiwn i. Roedd hi fel pe bai'n methu â chyflwyno'i dystiolaeth wrthrychol yn sobr fel dyn call. Gweiddi a gweiddi.

Beth oedd gen i i'w ddweud? Dim ond cyffesu. Ond pam ddyn? Cwypais ar y mai. Pledio'n euog. Allwn i ddim honni ei bod hi'n ddrwg gen i, er ifi wneud y cwbl yn amlwg, ac am ei bod hi'n wir ddrwg ofnadwy gen i. Roedd y fath eiriau'n wallgo, nid yn unig oherwydd eu bod nhw mor ddiniwed o annigonol, ond oherwydd, er y mod i wedi

bod mor orffwyll ar y pryd, fe wyddwn i y gallai'r peth ddigwydd i fi'n onest eto, fod y peth o fewn cwmpas y nhueddiadau gwirion i, mai fi wnaeth hyn, a neb arall. Neb... Mae'n wir flin gen i. Dw i ddim wedi cuddio. Bues i yno'n ei wneud i bawb i'w weld.

'Ond pam?' gwaeddai y meddwl i hefyd.

'Does dim esgus,' meddai Ann, hithau hefyd yn corddi y meddwl i.

Ar y diwedd fe'n gwthiwyd i allan o bob cymdeithas wâr. Sobrwyd y gwallgofrwydd oll, ac oddi yno mewn rhwymau fe'n cludwyd i i garchar Trefaldwyn. Mewn rhwymau cofiwch, ar ôl ifi farchogaeth yn rhydd ar gefn ceffyl benthg Siôn Ifan yr holl ffordd hir yn ôl o Gefncoedycymer. 'Bron yn ddamwain,' meddai'r Barnwr. A dwedodd ei fod am oedi cyn datgan ei ddedfryd. Mewn rhwymau y'n gadawyd i ar lawr y gell ar y mhen yn hun, rhag y byddwn i'n chwenychu heb sôn am allu dianc. 'Bron yn hunan-amddiffyniad,' meddai fe eto. Ydy dwli felly yn gyfraith gwlad?

Sugnwn ryw fath o fywyd o bell, y dafnau ola ohono yno, rhwng y nannedd, yn ara rhwng y nhaflod a nhaflod, ac yna'n denau i lawr yn llwnc i. Yna'n ddisyfyd, poerais i fe ar y ddaear. 'Bywyd,' meddwn i mor chwerw ag y gallai y mustl i'i fynegi, 'mae bywyd wedi'i orbrisio.' Ac yma rydw i yn y gell oer.

Ar y mhen yn hun yno oeddwn, dybiwn i. Ond celwydd fyddai bod bywyd bob amser i'w gael yn yn hanes i mwyach, wrth gwrs, hyd yn oed pan geisiwn fod yn effro ar y mhen yn hun yno bellach. Hyd yn oed pan nad oedd dim gwell y gallwn ei wneud yn y byd tlawd hwn na hiraethu am unigedd, roedd rhywrai tu hwnt i amser yn siŵr o ddod nawr, i'r tipyn ymennydd dwl fel yna sy gen i. Fe fynnen nhw ddod ata-i i rithio pobl a phethau – a digwyddiadau yn anad dim – ac yngan am fyw. Cha-i byth lonydd. Doedd dim ond godde'r orymdaith hudol hir o gyhuddwyr yn yr ymennydd bach hwn: y presenoldeb dychmygol cyson dyfal o'r gorffennol yn cerdded drwy'r gell.

Ac er mwyn gweld y rheini ar y nghydwbybod, dichon fod tywyllwch yn y ngoleuo i mewn ffordd. Dod wnaen nhw i gyd, fe wyddwn i hynny, linc-di-lonc i nghell feddyliol i ddweud y gwir. Y barnwyr niferus oll. Dewi Davies, yn sicr, a'i utgorn diarhebol. Mae e'n siŵr o fod yma'n fuan. Fe ddylai fe fod ymhlith y cynta, ar flaen y gad. Ac Edward Johnes gyda'r drymiau. 'Pam?' dyna y bydd e'n ei weiddi. Gweiddi a

gweiddi. Yn awr yn y fan hon y ca-i fynd dros yr Achos bob anadlyn bach mewn modd manylach nag ar y pryd. A Liz wrth gwrs? Ble? Hi a ddisgwyliwn yn y canol. Hi oedd yr atgno penna a phoenusa a ddisgwyliwn i. Chwiliwn i'n ddyfal am ei hwyneb hawddgar. Ble oedd hi? Dylai fod yma. Gwn beth ddywedai hi. Gwn sut y byddai hi'n closio ata-i, yr un ffyddlon yna y gwirionwn arni. A gwn y byddwn i'n cywilyddio o hyd, ac yn erfyn arni am faddeuant, ganddi hi o leia, heb fod eisiau erfyn arni o gwbl. A chyda hi y byddai'r plant a'n mab hyna cydnerth i, pedair ar bymtheg oed, yn dad newydd iddyn nhw i gyd. Roedd arna i gywilydd. Ble? Y rhain i gyd ar y ngho, yn cerdded drwy'r gell. Bydden nhw'n siŵr o ddod. Nhw â melyster diddanwech eu bywyd. Maen nhw'n llenwi corneli'r ystafell â normalrwydd eu chwerthin, a'u storïau'n cario'r meddwl ar y gwynt. Ond ymddangosodd neb oll mewn gwirionedd. Arhosodd y gell yn wag i gyd. Dim ond gwyll a baentiai'r waliau. Ar y mhen yn hun, pydrwn yno gyda'r math o bersawr dethol a geir gan hen sanau chwyslyd a adewid ymhlith afalau cleisiog dros fisoedd mewn bocs yn y sied. Roedd digon o arswyd yn y gell fel y gallech chi dorri'r persawr yn dalpau a'u gwerthu nhw i fwganod.

'Liz,' sibrydwn.

Ond ddôî hi ddim.

'Dewi Davies,' gwaeddwn wedyn. 'Edward Johnes.'

Syflai ddim un plufyn ym mlanced y tywyllwch a lapiwn yn gyflawn o'n hamgylch i ac o amgylch y nghydwibod ingol sâl.

'Oes rhywun acw?' holwn. Codais y nghlustiau fel cerrig beddau. Adleisien nhw'n ddiymadferth – 'Na.'

Holwn i'r tipyn twll o ffenest fechan yn uchel ar y wal allanol ymhell y tu hwnt i gyrraedd. Holwn y llawr. Holwn y drws du bitsh budr. Rown i'n cael y merwi ym mrwmstan diffyg croeso'r oriau ac oriau.

Doedd dim ateb heblaw un adlais enigmatig.

Siglodd rhywbeth, yn ysgafn fel papur sidan. Yn llipa fel pluen. Crychai. Roedd rhywbeth neu rywun yn llithro drwy'r nos. Ymddangosai crac tenau brau yng nghwr y tywyllwch. Roedd yna rywun ar bwys, yn anadlu'n ysgafn, yn symud.

'Yr Arglwydd?' holwn.

Ann oedd 'na yn symud o gylch y nghydwbybod. Hi eto. Ymddangosai hi o'r newydd yn y bore fel petalau. Taflai ffenestri'i henaid hi'n agored i'r awyr. Gwaeddai hi allan ar y bore, 'Henffych fore!' Rhedai hwnnw ati. Golchai hwnnw drosti a hedfan dros ei gwallt fel ton ar afon Fyrnwy yn fflapian adenydd.

Roeddwn i'n ôl gydag Ann eto. Roedden ni'n dau ar ein pennau'n hunain esgus yng nghegin Dolwar Fach, a newydd fod yn darllen Mathew'r bumed.

'Na ladd,' meddai Ann esgus, 'ac ystyr hynny yw derbyn heddwch y tu mewn – fe ddywed hwnnw *ie* wrth heddwch y drefn. Dywed *ie* wrth y gaea, ac *ie* wrth y glaw tawel. Dywed *ie* wrth farwolaeth pan ddaw. Caru yw “na ladd” i'r Cristion.'

'Ond mae yna elyn,' gwyddwn i.

'Caru dy elyn yw na ladd.'

'Mae'r Beibl yn y nghondemnio i. Nid fi sy'n barnu byth.'

'Ond triaist ti dy hun farnu yn Afon Fyrnwy fel petaet ti'n Feibl.'

'Dŷn ni i fod i wrthwynebu'r drwg.'

'Dim ond ar ffurf cariad. Gwranda Nedw, mychan i. Lladd yw “ei gondemnio yn y galon”. Lladd hefyd yw “ei ddileu o'r meddwl”. Chei di ddim gwneud hynny. Mae pechod yn beth anferth drwy'r cread. Chei di ddim ei wasgu i faint pitw dy feddwl di. Nid ti biau condemnio.'

'Fi biau *tystio ar y pryd*, os oes 'na anghyfiawnder yn y marn fach i.'

'Purion,' meddai hi.

'Fi biau *tystio am y gwir am yr anghyfiawnder bobman ar y pryd*.'

'Iawn. Ond ti hefyd biau cofleidio'r bobl yr un pryd, cofleidio'r un sy'n dy dramgwyddo di, a charu dy gymydog mewn angen.'

'Fi sy'n y nhrangwyddo i yn hun.'

'Ac nid ti yn unig,' meddai hi.

'Dewi Davies?'

'Hwnnw'n anad neb. Ei garu fe, Nedw, nes bod dy lygaid di'n popian.'

'Ond mae e'n dy gasáu *di*.' meddwn i.

'Yn ffansïo i y mae e, druan.'

'O Ann!'

'Dyna yw'r olwg gas sy arno. Mae yna rai bechgyn swil sy fel 'na.'

'Ond roeddet ti'n briod. Y gwawd amdanat ti, Ann, y gwatwar a'r genfigen.'

Chwarddodd hi'i chwarddiad petalau y funud yna, fel eira, y chwarddiad ffrydiog yna a adwaenai'r coed a'r gwartheg o'r hen ddyddiau yn Nolwar Fach.

'Beth wnaeth e?' gofynnais i, yn amau rhywbeth nas deallwn i. 'Beth wnaeth e i ti?'

Taflodd hi ei chwerthin eto.

'Tawn i'n meddwl...' meddwn i, 'tawn i'n gwybod...'

'Cyffwrdd,' meddai hi, yn swil ostyngedig.

'Cyffwrdd â thi?'

'Am chwarter eiliad. Yn hollol anfwriadol dw i'n siŵr. Doedd yna ddim sylw o fath yn y byd gen i, na chanddo fe.'

'Gallwn i...'

'Na ladd.'

'Mi allwn i ei ladd eto'r munud 'ma.'

Lluchiodd ei gwallt hi'n ôl dros ei gwegil. Roedd hi'n gwneud sbort am y mhen i, ac eto'n yn hoffi i. Eto'n bryderus amdana-i. Gallai cawod o'i gwallt foddi hanner Sir Drefaldwyn. Neu chwarter o leia.



'Nedw, rwyt ti'n rhy rwydd gyda'r lladd 'na.'

Weithiau, pan fyddai Ann yn ymddangos fel hyn yn y ngho i, neu hyd yn oed pan fyddai Duw ei hun yn closio ata-i adeg gweddi ac yn arwain y meddwl i ar hyd llwybrau gwledig dieithr wyddwn i ddim amdany'n nhw, mi allai rhywbeth onglog fudo y tu mewn i fi. Byddai'n y mhrocio i yno. Ffuglen oedd gweddi i fi, a oedd bron fel bywyd. Profwn i fath o ysgogiad corfforol mewn safle tua gwaelod yr asennau ar yr ochr chwith mewn man nad oedd e ddim yn ymwybodol arwyddocaol o gwbl fel arfer. Tybiwn i mai y nghydwbybod i oedd hyn. Ai yn y fan yna y mae'n byw? Dyna'r peth dieithr hwnnw a allai glician bron yn hyglyw weithiau. 'Fe' oedd yn enw i arno fe. Ond fentrwn i ddim yngan mai yn ysbryd i oedd 'na hefyd. Allai peth felly ddim bod mor gyhyrog. Ac eto, roedd yr ysbryd anneall hwnnw erioed – fel anwiredd – wedi bod yn fygythiad dirgel pur finiog i fi erioed. Fe chwaraeai tu mewn i fi nawr ar gefn gambo fel actor mewn anterliwt drasig, tan brocio a phrocio, gan chwilio'i go am ei linellau.

'Pwrpas na ladd,' meddai Ann, 'yw “casglu'r holl gariad cadarnhaol yna sy yn dy gyfansoddiad di at ei gilydd, a'i gyflwyno i arffed Dewi Davies druan”.'

'Ann, tawn i'n gwybod fod Dewi Davies mewn unrhyw ffordd yn ymyrryd â'i fys â thi, nid fi fyddwn i. Ond Satan ei hun.'

'Nedw! Taw. Paid... Cabledd. Dw i ddim am siarad â thi.'

'Ann!'

'Na. Clyw, Nedw Dolwar Fach. Dw i ddim am bara'r sgwrs hon, dw i ddim am dorri un sill eto, ddim sill arall gyda thi nes dy fod di'n suddo ar dy liniau, ar dy wyneb, ac yn ymddiheuro i Dduw. Siarad yn wirion fel 'na! Yn ei erbyn E y pechaist ti. Do. Ceisio'i ladd E wnest ti. Yn erbyn yr Anwylyd, yr Arglwydd, yr Un sy'n ymladd â thi yn afon Efyrynwy, yn ymaflyd codwm, yn rholio ar lawr yr afon nes dy fod di'n noeth. Fe, dirgelwch bywyd, yn erbyn Ei gariad E y buest ti'n brwydro, yn poeri, yn rhegi, yn erbyn un o'r rhai bychain hyn megis yn ei erbyn E. Cwmp nawr o'i flaen E, fachgen. Ar d'union.'

A threiglodd hi i ffwrdd. Tynnodd hi furiau'r carchar amdani'i hun fel blanced neu dywydd, ac yna ciliodd.

Cwmpais i ar yn wyneb fel y dwedodd hi.

A ga-i ddychmygu eto fodoli ambell fore gwyn pryd bydd dim o hyn oll wedi digwydd? A ga-i agor eto awyr las foreol sy'n dafnu gwllith, ac yn dileu popeth go iawn? Henffych fore felly ac i Ann gyda fe. Fues i'n rhy barod i leddfu edifeirwch â chymedroldeb. Ddaw dim bore gwyn o'r fath ar y nghyfyl heb adnabod y nos ddu ei hun. Y nos heno o'r fath fyddai gweld y gwir olau. Mae yna eiliad yn dod sy'n troi pob aur yn blwm. Mi ddefnyddia'r dagrau y trwyn i gynnull sgwd. Eiliad edifeirwch fydd hyn: mor chwerw ag atgo cyson, mor felys â chyfaill triw.

Cydwybod yw'r llygad i bob ffynnon lân, Ann, yn profi i'r hunan-bwysig fod yna bobl eraill ar gael. Mae'n perswadio'r llwfrgi nad oes dim tebyg i blygu. Ac mai cael gwared drwy garthu yw gwaith gwych Gwaredwr. O gydwybod yn afon y mywyd!

\*

\*

\*

Ann ei hun oedd yno, yn ddi-os. Hi oedd y tyst i fi. Ac fe ddaeth hi ata-i droeon drwy ddrws y nghydwylod i, nid o'i lle unig ym mynwent Llanfihangel ond o'i lle llawn yn y nefoedd. Cyn y prawf hirfaith hwnnw yng Nghwrt y Sasiwn Fawr y ddi hi'n fynych fynych. Ac wedi imi gael y nedfrydu i garchar, yn arbennig wedyn, daeth ata-i a siarad.

Dywedai yr un weddi bob tro ... “Diolch am wae Crist, am wae'r cariadlon.”

Chwe gwaith bob dydd y gweddïwn i gyda hi. Hi a weddïai weithiau. Fi weithiau eraill. Ceisiwn ffurfioli y niwrnod er mwyn cadw trefn ac ystyr ar y meddwl i. Gweddïwn yn syth ar ôl diuno. Yna ar ôl brecwast; yna'n syth ar ôl cinio; unwaith eto cyn swper; ac yn ola cyn noswyllo. Dyna drefn y mywyd. Dymunwn gyflwyno pob dydd gwyn i'r Arglwydd fel hyn. Efô oedd biau'r munudau glân. Ac roedd Ann gyda fi bob tro wedi dod â sancteiddrwydd Iesu'n ôl i'n meddwl i. Roedd Rhywun arall allan y fan yna felly, yn gwyllo'r sachaid yma o bechadur, yn gwyllo'r anneall a oedd yn rheoli drosto-i. Nid rhywun annelwig bellach oedd-e. Ond rhywun yn llawn o bob ystyr. Y dirgelwch hysbys. Yr Un sy'n ein lapio ni. Y cudd sy'n ein datguddio ni i ni'n hun.

Ac wrth i fi dderbyn hynny tyfai edifeirwch prydfferth. Tyfai'n ysgariad melys yno-i. Credu yn Nuw yw – Ei fod wedi dod o hyd i fi, a finnau'n cwato y tu ôl i gadair rwylllog mewn cornel, a mhen i lawr, mewn cell dywyll a'n anwesai i. Bwystfil twp,

dyna fuaswn i. Uffern ar goesau. Pentwr o brennau yn disgwyl matsien. Hunan-gyfiawnder du gwirion oeddwn fel maen melin am y ngwddwg yn afon Fyrnwy. Doedd dim esboniad arall yn bosib. Beth bynnag oedd Dewi Davies, beth bynnag a wnelai neb, roedd yna gyfraith gan Brydain Fawr, a phe bai dynion anghyfrifol i'r cyfryw fel fi, yn hyrddio'r gyfraith yna i'r domen, doedd dim gobaith i neb fwynhau bywyd gwareiddiedig. Doedd bosib y byddai Dewi Davies yn y nharo i mewn gwirionedd. Na. Nid yn amddiffyn yn hun wnes i chwaith, nid dyna nehongliad bellach o'r hyn a ddigwyddai. Beth bynnag oedd y rheswm, roeddwn i ar fai. Mi fues i'n euog, yn falch ac yn dwp. Ac roeddwn i am golli'r trysorau gwachul a hurt yna a ges i gartre i gyd yn yr afon dan li. Roeddwn i i fod i barchu'r Ddeddf yn weithredol.

Ond y fan yma heddiw dw i nawr yn oer ac yn elyn i fi yn hun rhwng pedwar mur cyfyng; wedi y nal gan gloeon mawr dur, – ar y mol, yn hiraethu am gael byw wrth ddisgwyl, beth bynnag fyddai.

'Be wna-i Ann? Ar ôl dod allan o'r lle yma? Mynd oddi 'ma? Alla-i ddim gorymdeithio'n ôl i'r Cefn eto. Bydd pawb yn gwybod. Fydd yna byth gyfle i aildechrau. Euog fydda i byth. Euog ydw i.'

'Beth arall?'

'Allwn i byth wynebu nghymdogion, na phobl dda y capel chwaith.'

'Balchder o hyd?'

'Ie, hen jôc yr angylion.'

'Beth oeddet ti'n meddwl ei wneud?'

'Ffoi efallai. Mynd â'r teulu i ryw dre fawr.'

'Lloegr?'

'Bryste efallai. Ie. Neu Lerpwl. A'i gadw Fe a chyfarfod ag E yn ddirgel yn y fan 'na. Edifarhau o'i flaen E.'

'Mae dychymyg y Cymro, pan fydd e'n marw, bob amser yn mynd i Loegr.'

'Wel, Mericia te.'

'Mae'r defaid i gyd,' meddai Ann, 'y naill ar ôl y llall, yn breffu am y lle bach glas tu hwnt i'r dŵr neu'r clawdd.'

'Ond aros i wynebu'r wlad hon! Sut? Na,' meddwn i.

'Ie.'

'Tyddyn ar ôl tyddyn a'r perchnogion wedi ymadael, ac ymfudo acw i Mericia. Ac ar ôl yn y fan yma yng Nghymru, adfeilion dros y lle i gyd, dyma'r lle rwy'ti eisiau ifi aros. Yma? Cymru lân? Ond ble mae honno? Llwfgrwŷn a dewrion ym Mericia yw Cymru. Na. Dyw hi ddim yn unman yn y ngolwg i.'

'Ie. Y lle 'ma yw hi i fod, Nedw: Cymru frwnt yw'r unig dwll i ti.'

'Wedi imi ladd y wlad hon fel hyn, gorwedd gyda hi? Gyda nghydwybod i?'

Dyna oedd ewyllys Ann. Gymaint y'i carwn i hon, mor ddel oedd ei gruddiau, fel na allwn wrth syllu arni y foment honno beidio â gweld y gwahaniad rhyngddo-i a hi. Yn ei phrydferthwch syllai wyneb hardd o'i marwolaeth arna-i. Ei hwyneb hollt-gymylau, dyna a nghyfeiriai i tuag at ieched. A finnau, doedd dim haeddiant gen i: doeddwn i'n ddim i neb, ond camlofnodiad yn y Beibl Teuluol.

'Rwy'ti yn llygad dy le,' meddwn i. 'Does gen i ddim digon o wmf i fynd i unman ar ôl mynd allan.'

'Wmf fydd eisiau arnat ti i aros.'

'Does dim digon o egni gen i, Ann, i fod yn ddiog hyd yn oed.'

'Nid egni i bethau felly sy eisiau arnat ti nawr ta beth. Ond egni i ddisgwyl, egni i aros ac i weddïo ac i weithio. Egni i adennill enw da. Ac yn y pen draw, egni i beidio â gwneud dim, ond gorfoleddu mewn edifeirwch dwfn ymrwygol.'

Roedd hi yn llygad ei lle. Roedd angen i fi ganolbwyntio ar un lle. Nid yn ysgafn i rywun fel fi, Nedw'r gwirionyn, y canolbwyntir y meddwl ar yr Arglwydd ac y crynhoir yr holl sylw ar un pwynt. Nid heb ymdrech yr ymddihetir rhag pob ymyrraeth a phob tarfiad. Ac nid heb chwys y llithrir i mewn i'w bresenoldeb glân, a gorffwys yno yn yr un pwynt, ymroi yn dawel yno, ac aros, crynhoi'r teimladau a'r meddyliau a'r

dyheadau fel defaid i mewn i gorlan un pwynt y tu ôl i nhalcen, ac aros, mewn ofn, mewn braw melys. A'r croen yn crychu. Cwrwydu o flaen y Gwardwr. Ac wynebu'r un sylwedd, cyn troi ac ailafael mewn un peth.

Codwn i'r entychion, pan ddeuai Ann serch hynny. A hyd yn oed yno, bues i'n edrych tuag i fyny ar un peth. Ac edrych wnes i gyda hi yr oriau yna fel dyn newynog yn chwilio am friwsionyn. Gyda hi y syllwn, fel y gwnaethwn lawer tro. A gwydden ni'n dau am bob twll chwys a phob crych o liw ar wyneb Iesu Grist, a'r goleuni a darfai o'i gwmpeini pur. Hyn oedd dicter carthiol Duw yn feunyddiol.

'Ann, Ann, pam na wnest ti adael peth ymennydd ar ôl i fi yn y groth?'

'Mae rhai pobl, Nedw, yn beio etifeddiaeth am ryw gamgymeriadau yn eu cymeriad. Ond yr hyn sy eisiau yw darganfod yr Edifeirwch hardd sy'n eu eu tynnu nhw o'na. Duw yn unig yw diwedd yr Edifeirwch sy eisiau arnat ti.'

Wedyn ciliodd Ann linc-di-lonc am ryw hanner munud, ac roeddwn wedi y ngollwng eto. Cripsiwn i lawr tua'r dyfnderoedd ar frys. Ymhlith y cysgodion isa y codwn y mhabell, a ngwrid yn y fan yna mor ddiflas â hen esgid a olchwyd i lan afon Fyrnwy ar noson ddi-sêr ar ôl brwydr go dost. Ac yn y fan yna y gweddiwn.

Ond roedd gen i ymwelydd arall yn y fan yna, ambell waith, un arall heblaw Ann. Roedd yna ddrychiolaeth ddu ar bwys, ac adwaenwn hon yn bur dda hefyd. Dyma gysgod pob cysgod. Y dŵch y tu ôl i'r dŵch. Presenoldeb ymosodol Angau ei hun yn yr holl edifeirwch, dyna oedd yn loetran o gylch ymylon a chorneli yn llygaid i. A dyna gan amla yn ei ddichell fydd ei arfer. Daeth Angau ata-i, law yn llaw â Dewi.

Ac yna fel mellten daeth y co am Ann yn ôl drachefn i yrru'r fath gysgodion i ffwrdd. Daeth hi'n ôl â mhentyndod i.

Dw i'n cofio'r syniad a goledwn i'n blentyn y byddai'r drefn honno'n newid rywbyrd, yn wyrthiol. Efallai y ddi Duw'n sydyn gyhoeddus â'i Farn, a rhoi pen ar yr holl fusnes marw hyd y lle, mewn pryd, cyn bod amser ifi fynd. Dadwneud pob dim daearol. Efallai y bydden ni'n deffro ac yn cael mai hunlle oedd y cwbl. Cysgod oedd yno, serch hynny. Ac i fi, yr un cysgod oedd pob cysgod, Un cysgod oedd pan ddôl hwn

– y cysgod diwahân, cyffredinol, da. Ond nid felly y gwelai Ann hi: 'Dwli,' meddai hi ar y pryd, 'dwli a thristwch dy ddychymyg hunanol.'

A dw i'n cofio meddwl ar y pryd: mae'n amhosibl gafaelyd byth yn y presennol bondigrybwyll. Bydd wedi mynd. Dim ond y gorffennol. Does dim dal ar y dyfodol chwaith. Dim ond y gorffennol, ac mae hwnnw wedi marw... Eto, hwnnw a fyn y co ...

'Mae marw'n arwain at well na bywyd.'

'Wel, wrth gwrs, Ann.'

'Roedd yr Arglwydd yn dweud y gwir gwyn, wyst ti.'

'Down i'n amau dim.'

'Mae'n rhaid i'r lle fod yn lân.'

'Oes.'

'Didoli... chwynnu.'

'Ti sy yn dy le, Ann. Amdana i, yr unig ffordd y bydda i'n meddwl ar hyn o bryd yw â nwylo.'

'Paid â meddwl gormod amdanat ti dy hun nac am dy ddwylo. Cynghorwyr sâl yw dwylo. Efô â'i ddwylo sy'n gogrwn.'

'Ann, wyt ti'n cofio, cyn iti ddod yn Gristion, pan oet ti'n dal i fynd i'r Eglwys, a finnau'n dair blynedd iau na thi ond yn dipyn o lanc wedi dod i'r bywyd, er nad own i'n deall ond ychydig, ac yn rhodianna draw i Bontrobert... Wyt ti'n y nghofio i un noswaith yn dweud wrthot ti – Mae E yno Ann ... Wyt ti'n cofio? Yno.'

'Ydw.'

'Ac wyt ti'n cofio beth ddwedest ti'n ôl?'

'Na.'

'Mi ddwedest ti: gobeithio'i fod e.'

'Clebran oedd peth felly.'

'Ond nawr rwyd ti'n sicr ohono heb siarad, yn sicrach na fi.'

'Debyn iawn. Mae tipyn bach o fantais gen i nawr.'

'Tsheto – cafflo – yw hwnna,' meddwn i'n wirion.

'Heb adnabod marw i'r pen draw, Nedw, does 'na neb yn cael gwir fyw fan hyn. Hyd yn oed yn ystod dy fywyd. Peth rhyfedd yw gwybod bod y peth, a allai fod yn dywyll cyn dod i fodolaeth, cyn digwydd, yn brigo'n olau eisoes i'r credadun unplyg.'

'A-i ddim i Loegr te, Ann.'

'Fe'i gwyddwn i. Nac i Mericia.'

'Na. Mi a-i'n ôl i'r Cefn: aros yng Nghymru a galarnadu gyda'r hil.'

'Dyna wrth gwrs dy le. A gorohian hefyd yn yr hen fröydd llwyd. Hen fröydd y felan, dyna'r lle i ti. Wyddost ti, Nedw: pe bai'r gwanwyn yn dod yfory, a throad y rhod yn sticio'r un pryd, a'r holl Saeson yn mynd adre at eu harian, a'r Cymry'n dechrau credu o ddifri, pe bai digon o ffrwyth yn codi o'r ddaear i'n cadw'n dew am byth, fe gaet ti, fe gâi'r Cymry rywsut, ryw dipyn o achlysur i farwnadu o hyd. Felly'r wyt ti. Mae dal angen i ti feddwl y gwir, a galaru am y wlad hon.'

'Ond Ann.'

'Mae yna afon. Mae ei dyfroedd hi'n golchi traed plant Israel fel croen gwyddau. Dere i lawr i ymolchi.'

Roeddwn i'n genfigennus ohoni. Roeddwn i'n anfodlon iddi ddangos o'r newydd mhechod yn erbyn Duw. Dechreuwn deimlo'n anfodlon ei bod hi'n ymweld â fi fel hyn. Dechreuwn ddigio wrthi. Roedd hi'n bryd cefnu arni eto. Ac wrth feddwl y fath beth, gwyddwn fod angen ifi aros o hyd ychydig ymhellach i dyfu mewn sancteiddhad a synnwyr cyffredin er clod i Iesu.

Roedd ei llygaid hi'n troi tuag i fyny am foment tua'i chartre. Roedd hi'n cau ei llygaid yn awr, a nofiai'i llais dan ferddwr y gell tuag i fyny. Cydiais i yn llafn y cryman a'i droi wyneb i waered gan afael yn gadarn bellach wedyn yn y goes. Teimlwn yr un gwallgofrwydd ag o'r blaen yn dychwelyd.

'Dere i lawr, Nedw Dolwar, a chicia dy draed yn y glendid fan yma.'

Crynwn wrth feddwl am ei gweddïau'n hedfan uwch y mhen, fel cydwybod ddygn oedd yn yn atgoffa i mewn cariad bythol. Ond wrth iddi godi'i phen euraid tuag ata-i, ac agor ei genau tirion, i yngan brawddeg fer arall, codwn i'r cryman. Fe'i chwyrliais uwch ei phen drachefn – do – tan anwesu'r awyr. Fe'i traw-wn i lawr ar ei gwallt prydfferth fel pe bawn i'n yn lladd yn hun.

'Pam Ann rwyd ti'n bod o hyd? Pam rwyd ti'n craffu arna i bob cynnig mor serchog? Does gen ti ddim bedd cysurus i fynd iddo? Gad fi'n llonydd.'

Syrthiai hi dan yn ergyd, y gyhuddreg. Symudwn innau'n ôl i ganiatáu'i chwymp. Agorai'i cheg waedlyd wrth ddisgyn.

'Dere i lawr i ganol yr afon gynnes,' murmurai hi drachefn. Ond roedd hi'n farw. Eto. Ann wedi cael ei difrodi'n lân yr eilwaith yn y mywyd i, a'i llygaid yn awr yn hyll o brydferth, a'i gwaed yn ymchwyddo'n donnau dros y llawr, fel cydwybod.

Sylweddolwn nawr mai hen Ann y ngho i fu hon ar hyd yr amser. Nid rhyw fwgan cyfoes. Nid un ddychweledig o'r bedd, wrth gwrs. Hen atgofion oedd wedi'i hadeiladu o gwmpas atgo am yr un ddaearol a wnaethai fwya o argraff arna-i yn ystod ei bywyd nag undyn arall. Hunllefau'r gwallgofddyn oedd hyn.

Gymaint o dyfu oedd ar ôl i fi o hyd oedd sylweddoli nad oedd 'na'r un farwolaeth nefol i Gristion.

Dodais y cryman i lawr wrth ei hochr yn ddestlus. Dw i'n cofio nawr mor ddestlus fues i. Roedd cyhyrau yn wyneb i'n gryn ac yn wyn o wae. Llyfwn y ngwefusau. Roedd y cwbl drosodd mewn tri munud, a mysedd a'n arddyrnau i'n llyn o gochni diog. A mron a nghylla'n ochneidio.

Roedd yr atgo am Ann ei hun yn farw gorn, y tu mewn i fi. Difodwyd hi yr eilwaith yn y nghydwbybod. Rown innau'n llofrudd o fath drachefn, ac wedi'i lladd a deall mod i'n lladd, yn lladd yn effro fyw. Allwn i ddim byw drwy fywyd Ann mwyach. Fe yn Ei fawredd sy 'na. A Fe yn unig. Y Byw i gyd. Does dim dealltwriaeth o Dduw heb wybod ein bod ni'n methu â'i ddeall yn llawn. Dyna yn y gwraidd yw difalchïo pob deall.



\*

\*

\*

Dirwynodd y flwyddyn gron honno tua'i therfyn. Aeth y meddwl am Ann o'r golwg yn y nghydwyl i, fel pe bai hi wedi mynd yn ôl i'r nefoedd at ei thadau hyd yn oed yn y mreuddwydion peniwaered i. Dychwelais innau i'r Cefn. Es i'n ôl i'r capel bach. Ailgydais yn y nhasgau arferol fel gwas mewn fferm gyfagos i'r Cefn. Closiodd y teulu o nghwmpas o'r herwydd. A llowciwn innau eu croeso fel mochyn anorecsig, fel mochyn dewr.

Roedd yr awyrgylch bron yn normal. Bron, ddwedais i. Gwlân a thintacs sy'n gwneud gwely gobaith cyffredin. A chawn rannu yno y mherthynas adferol â ngwraig a mhlant. Y fi, y llofrudd parchus amddifad; yn normal i'r botwm yn y niffyg deall.

Y distawrwydd eto yn ben! Berw'r ymatal a glywn i gan bawb yn y capel, yr ymatal cwrtais hir! 'Dyna'r peth na alla-i ddim o'i odde,' protestiwn i... 'Neb yn dweud botwm corn. Hyd yn oed y blaenoriaid. Pawb fel pe na bai dim wedi digwydd.'

Ond fe ddigwyddasai.

'Druan bach. Beth wyt ti'n ddisgwyl?' holai Liz y wraig, 'fod derbyn gan gyd-Gristnogion i'r gymdeithas yn digwydd eto ac eto ac eto o'r newydd bob dydd?'

'Un gair.'

'Mi weddiodd pawb. Mi weddiast ti.'

'Do... Cyfleus. Bu'n rhy gyfleus.'

'Fe gest ti dy gosb.'

'Nid gan yr eglwys. Swllt o gosb ges i gan y wlad.'

'Ond fe gest ti dy gosbi gan dy gydwybod. Rwyt ti wedi edifarhau. Tafla dy faich. Fe gest ti dy garchar, Ned. Rwyt ti wedi talu. Damwain bron, meddai'r Barnwr. Mae pawb yn gwybod yr hanes hen hwnnw wnest ti. Beth wyt ti'n ddisgwyl, fachgen? Mae pawb yn drist drosot ti, dros yr holl sefyllfa. Maen nhwythau'n bechaduriaid edifeiriol. Ond maen nhw'n bwrw ymlaen i sancteiddio, i fyw yng Nghrist.'

'Mi wnes i wanaloni'n gorfforol hefyd, a suddo i'r felan.'

'Mae 'na bethau gwaeth na lladd dyn,' meddai Liz a'i hwyneb cyn sobred â wal.

'Fel beth?'

'Peidio ag edifarhau hyd y diwedd,' meddai Liz yn ara.

'Ie?'

'Peidio â chredu yn ddiderfyn.'

'Dim ond imi ddifaru te, fe ga-i ladd faint fynna-i wedyn, felly.'

'Nedw bach, rwyf ti'n gwybod mai babïaidd yw'r ddadl yna.'

'Ond pam na wnân-nhw ddweud te? Dyna dw i'n ei haeddu. Gweiddi. Damnio.  
A nghasáu i.'

'Mae yna bethau eraill i'w gwneud. Pethau sy y tu hwnt i'n hamgyffred ni.'

'Fel beth?'

'Dy sancteiddio di. Ein carthu ni i gyd. Cyffwrdd â'r Mawrhydi. Caru.'

'Pam na wnân nhw ddod allan a blingo a dannod ar gyfer sancteiddio.'

'Rhy rwydd, Nedw.'

'Mae yna ryw adleisiau yn y cefndir o hyd, y gydwybod ddi-ango.'

'Chlywais i ddim,' meddai Liz.

'Wel, beth arall oedd gan Abram Williams echnos pan ddwedodd e: “ddylai neb fod yn flaenor gyda'r Hen Gorff os nad oedd e'n gynta wedi lladd rhywun ... o leia yn ei feddwl; ... a gwybod hynny”?’

'Sylwais i ddim arno'n dweud hynny. Trio'n hadeiladu ni roedd e, siŵr o fod, heb feddwl amdanat ti'n benodol.'

'Na. Distawrwydd sy amla obeutu'r lle 'ma. Distawrwydd yw'r ymosodwr geiriol mwya ffyddiog arna i.'

'Mwynha'r distawrwydd hwnnw te, ngŵr annwyl i. Croeso yw hwnnw. Ac mae 'na reswm i hynny.'

'Ond dw i'n meddwl o hyd.'

'Mor anghydwedus i wryw.'

'Dw i'n methu peidio.'

'Ma's â hi yw dy hen ddull patriarchaidd di.'

'Mi wnes i. Do. Un waith yn ormodol.'

'A chest ti dy gosbi. Dere yn dy flaen 'nawr. A difara i'r gwaelod bob dydd o'r newydd am ddrwg y diwrnod cynt. Mae yna ragor o ddrygau ar ôl. Ond mae sancteiddhad yn symud euogrwydd. Paid â thyrchu'n ôl wedyn. Rwy'ti wedi cael d'atgyfodi, ddyn.'

'Dyw'r gair "euog" yn y galon byth yn dweud celwydd.'

'Oni wyddon ni oll hynny?' meddai Liz yn ddwys.

'Ac mae'r distawrwydd yn taeru hynny bob dydd... â thafod annigonol huawdl atal-dweud.'

'Mae difaru'n golygu troi o'r gorffennol i'r presennol.'

'Dyna braf fyddai cael llyn o dawelwch cyfleus i nofio ynddo. Carthu pob drwg o'r system...'

'Paid byth â gwneud yn ysgafn o'r fraint honno, Nedw bach. Casâ dy hun. Fe gostiodd yn rhy ddrud i'r Un pur yn anad neb.'

Plygwn y mhen yn isel. Rown i'n dal i glegar pethau ar y nghyfer. Mor braf yn feunyddiol yr agorwn y ngwefusau, ac i ffwrdd â'r march heb awenau o fath yn y byd. Digwyddiad rhyfedd yw distawrwydd. Codwn i nawr drwyddo yn egwan mewn anneall.

'Pam na wnân nhw ddim siarad? Neb,' stiliwn o hyd.

'Does neb eisiau taflu'r garreg gynta. Pawb yn ei dŷ gwydr ei hun.'

'Mi allan nhw i gyd daflu'r un pryd o'n rhan i.'

'Maen nhwythau'n euog hefyd.'

'Mor euog â fi?'

'Wrth gwrs. Dyna'r drafferth gyda disgyblaeth eglwysig. Pwy sy heb falchder?' meddai Liz. 'Pwy sy heb gysgod o falais? Pwy sy heb esgeuluso addoli digon, a chanmol digon, a phlygu digon? Pwy sy heb lithro yn ei gredu, a pheidio â dibynnu digon? Pwy sy'n caru Duw yn llawn?'

'Nid eglwys yw eglwys heb ddisgyblaeth. Ffiniau sy'n rhoi ystyr,' meddwn i.

'Roedd yr hen Moses Tomos yn arfer dweud mai hunan-ddisgyblaeth yw asgwrn cefn pob disgyblaeth eglwysig. A hunan-amheuaeth yw gwreiddyn gwareiddiad. *Gofyn* am ddisgyblaeth gan Dduw, dyna yw ei anrhydeddu,... ac ar y bol. A hynny eto tu mewn i'r gorlan. Yna, allan â thi i ganol y byd. Y prawf ar hunan-ddisgyblaeth llwynog yw sut mae'n ymddwyn mewn cwt-ieir.'

'Ond dw i eisoes wedi gofyn amdani.'

'Dyna ystyr ei derbyn. Edifarhau yw disgyblaeth Cristion. Dyna roedd y brodyr yn ei ymofyn.'

'Ond mae'r pwlpudd does bosib yn gallu cyhoeddi disgyblaeth a threfn, yn wrthrychol felly, i bawb ei glywed.'

'Os bydd yr Ysbryd Glân ei hun yn saernïo'r pwlpudd hardda yn y byd, Nedw, mae'r Diafol yn siŵr o esgyn iddo. Pwrpas disgyblaeth yw dysgu am bechod, ac annog i bawb syrthio ar eu bai. Derbynia hi.'

'Ond mae'n rhaid ifi gael rhodd disgyblaeth-faddeuant. Dyna dw i eisiau o hyd.'

Atebodd Liz ddim. Roedd ei hwyneb hi mor dawel wrth syllu ar ddiymadferthedd ei gŵr. Digwyddiad od yw gwir ddistawrwydd. Mae'n gallu chwerthin. Ac eto, mae'n gyfeillgar ddifalais. Mor barod y rhuthra rhai i gondemnio'i gilydd ac i ddifenwi. Ac mor gynnes y lapia tawelwch Duw am yr enaid briw.

'Disgybla fi,' gwaeddwn i o hyd o nhu-mewn drachefn a thrachefn. Gwaeddwn, gwaeddwn i yn y nghalon.

Roedd popeth roedd angen ei ddweud wedi'i ddweud. Bellach roedd distawrwydd newydd yn cael rhwydd hynt rhyngo-i a Liz. 'Dw i'n mynd am dro, Liz.' Anneidiodd hi a'i phen arna-i, fel gwên. Gwenais innau'n ôl yn nwfyn yn ysgyfaint.

Rown i wedi ngeni'n ysbrydol mewn ffos ond yn byw bellach yn beryglus o agos i'r nefoedd. A cherddwn allan yn ofnus hyderus o'r fan yna i gyfeiriad y Bannau pell pell, a nghartre bach newydd yng Nghefncoedycymer.

'Mae yna un peth all neb ond ti dy hun ei wneud, Nedw,' meddai Liz, 'ac edifarhau yw hynny drwy gymorth yr Ysbryd.' Troi cefn yw edifarhau.

Ar y nhro heddiw ar hyd islwybrau'r nefoedd wen, ces rywbeth tebyg i oleuni tirion. Cyffyrddodd, siglodd yn erbyn y nghroen. Golau ysgafn, tyner, a gwyn oedd fel mellten dirion. Suddwn i lawr ar y ngliniau. Sylweddolwn fod yna ddau ddyn wedi'u lladd ym mhlwyf Llangynyw ar Awst yr 21 ain. Pwy oedd y rheini? Dewi Davies yn swyddogol dan y gyfraith, wrth gwrs. Ond i lawr yng nghyhyrau afon Fyrnwy, roedd yna gorff pitw arall yn gorwedd, yn bobian yn y dŵr, yn arnofio. Ai atgo am Ann oedd? Yr ail lofruddiaeth, y gyhuddreg? O! na. Gorweddai corff gwahanol, a naw rhan o'i falchder yn y dŵr, yn cael ei gario gan y ddegfed o'r tu allan. Nofiai hwnnw'n gegagored, a'i wyneb i fyny, yn syfrdan fud. Fi oedd hwn. Nofiwn innau heibio i Gapel Pontrobert tua'r môr heddychlon hir.

Yna, o'r newydd o gyfeiriad y Bannau y clywais i eco llais Ann drachefn yn y fan a'r lle yn groch fel cloch yr eglwys. Yno. Ac nid yn y pellter yn unig. Ann yno-i, y nghymdeithes bersawus i, yn eco anlladdadwy wedi llithro i lawr ata-i'n ôl,... ac yn cilio am y tro. Canu roedd hi o fan i fan:

*Yno y mae yn llond ei gyfraith*

*I'r troseddwr yn rhoi gwledd.*

Cilio roedd, ac yn cyfeirio. Cyfeirio roedd hi tuag i fyny. Ac am y tro cynta ers y llofruddiaeth hunllefus roeddwn i'n gwybod beth oedd caru Dewi Davies. Y fath wledd: y nghyfaill, yn anwylyd, Dewi, sylweddolwn angerdd difalais maddeugar yr arlwy hyfryd oddi wrthot ti – yn wledd ryfeddol, yn datws, yn nionod, yn foron, fel manna. Cerddai fe tuag ata-i â hambwrdd llawn, Dewi annwyl. A thrwy'i dawelwch e yr ymestynnai'r maeth i lawr drwy'r cymoedd i gyd ata-i, ac i mewn i loddest o drugaredd.

Dod i lawr wnaeth Un arall hefyd. I lawr o'r mynydd y daethai Hwnnw'n Gydymaith, i lawr. Nid fi a oedd wedi dringo i fyny ar hyd un o ystlysau'r mynydd, ac

nid o Lygad y Ffynnon ger y brig yn y Bannau. Nid fi oedd yn y canol. Roedd y chwedl ymesgusodol ddyn-ganolog honno am wahanol lwybrau i ddringo'r mynydd yn ddwli hunanol i gyd, yma yn y nghartre yng Nghefncoedycymer, ac yn syllu i'r cyfeiriad cyfeiliorn. Roedd y chwedl yn y meddwl i dros dro wedi y nhyngu i yn hytrach oddi wrth y Gwirionedd nas bwriadwyd i fod yn syml am mai Duw ei hun oedd, y Duw syml ofnadwy sydd y tu hwnt i amgyffrediad dynol. Oddi uchod y dôl E i lawr, ata i,... yn gadarn, yn addfwyn, yn unionsyth i lawr, yn Gariad.

I lawr roedd y Ffynnon wedi rhedeg drosto-i i gyd.

## RHAN Y RHIENI

Roedd Alwyn wedi'i ddrysu y tu hwnt i bob synnwyr. Roedd hyn yn sefyllfa gwbl afreal swrealiaidd.

'Dŷn ni wedi cyrraedd canrif,' meddai, 'pryd mae pobl yn gallu lladd pobl eraill yn greulon ffaidd heb fod ganddyn nhw reswm yn y byd. I rywrai ohonyn nhw, mae lladd bellach wedi dod yn ystyr i fywyd.'

Pan ddaeth yn fater o golli'i unig ferch, ymdrechai Alwyn i ystyried y diawlineb a wnaethpwyd yn ei herbyn hi yng nghyd-destun dyrys ei hamseroedd. Allai dim ond hynny esbonio'r drwg hwn.

Doedd e ddim yn medru mynegi'i sylwadaeth yn synhwyrol. Roedd math o flerwch yn dreth ar ei ymennydd, a'i wraig hefyd yr un mor ddiymadferth wrth ei ochr.

Doedd eu merch ddim wedi cael ei lladd, mae'n wir. Ond ger eu bron roedd hi yn ei gwely yn eithafol o heddychlon yn yr hyn a ymddangosai'n goma. Gwyn oedd y cynfas drosti fel cae o wenith sgleiniog dan yr haul, er nad oedd mymryn o haul ar gyfyl y lle y prynhawn hwnnw. Yn sicr, doedd dim acer o wenith chwaith mor dwt â'r acer yna o fewn ugain milltir i'r ysbyty. Gwyn oedd y cynfas fel gwallt sgleiniog hen wreigen-fonheddig. Rhyfedd hefyd. Roedd, yn wir, fel pe bai wedi heneiddio. Doedd y cynnwys llonydd lluniaidd dan y cynfas hwnnw, sut bynnag, byth yn debyg o gyrraedd yr oedran yna mwyach.

Gwag oedd y profiad o edrych arni: roedd yr ystyr wedi'i godro ohoni. A chyda'r ystyr yna, ystyr priodas Alwyn a Sioned hefyd rywsut, dau a oedd wedi ymserchu hyd wiriondeb yn eu hunig ferch.

'Mi all hi ddod. Mi all beidio.' Siarad marw oedd hyn gan y Nyrs. Beth gallai'i feddwl?

'Pwy sy'n gallu dibynnu ar siarad felly?' meddai Alwyn. Clustfeiniau Sioned ar yr ymddiddan anhygoel. Ciciodd goes y gwely. 'Dyna wedodd y meddyg ei hun?' gofynnai Alwyn i'r Nyrs.

'Toes wybod beth ddaw ohoni. Ddylach chi ddim bod yn besimistig..., nac yn optimistig chwaith.'

'Sut gwnawn ni rywbeth mor gymysglyd â hynny?' holai Alwyn.

'Ond mae rhyw ffurf o fyw arni nawr o leia,' ychwanegai'r Nyrs. Gormodieithu a wnâi. 'Toedd y dyn, pwy bynnag oedd-o, ddim yn gall.'

Gwrandawai Sioned yn fud ar ddadansoddiad ei gŵr a'r Nyrs o Wynedd. Teimlai'n gynddeiriog at y ddau. Clebran a pheidio â chlebran roedden nhw fel cythreuliaid yn clegar â'i gilydd ar ryw gornel wyntog ym maestrefi Uffern. Dychmygai ymennydd gwyn Del tan ei orchudd yn siglo ar bendiliau gwan yn awr o flaen ei dychmyg yn y lle y bu'r toriad yn y benglog. Troes Sioned ei chefn at bawb. 'Sothach!' meddai, yn ddigon uchel iddyn nhw'i chlywed.

'Pa mor ddwfn ... oedd y niwed fochaidd ... i'w hymennydd?' holodd Sioned o'r diwedd heb glywed ei llais ei hun o waelod y pwll.

'Pwy ŵyr?' meddai'r Nyrs. 'Cael a chael. Roedd hi fel sa hi wedi cael ei dal mewn peiriant.'

'Ei hasennau bach wedi'u malu'n yfflon,' meddai'r fam yn chwerw, gan hanner lapio'i hysgwyddau'i hun yn ei thywyllwch cynhenid ei hun: tywyllwch oedd a chwythai o'i chylch tan chwilio am rywle i fynd. Roedd y fam wedi bod mewn storm, ac awyddai nawr am gydio mewn tywel i'w sychu'i hun.

'Roedd 'na rym...' meddai Alwyn, gan ofni i'w feddwl ei hun ddelweddu'r peth.

'Grym rhyw gythraul,' ategai Sioned, a'i llais hithau bellach yn gollwng yn denau oer fel alcohol oddi fewn i'w hamrannau.

'A thrais myn coblyn i,' meddai'r Nyrs. 'Pwy bynnag oedd-o, roedd-o wedi colli arno'i hun. Wedi'i chodi hi gerfydd ei thraed, a'i bwrw'n erbyn wal.'

'Mae'n siŵr fod yr un fach wedi'i wrthod e'n blwmp,' meddai Alwyn wrth i'r Ymgynghorydd meddygol ymddangos. Cydiodd hwnnw yn y siart yng ngwaelod y gwely. A safodd yn ôl o'r neilltu i graffu ar y graff. Ymddangosai yntau hefyd mor



ddihidans fel pe bai'n sbio ar ddalen am nwyddau o Safeways yn chwythu o gwmpas y maes parcio. Beth oedd gwerth hyn?

Aeth y Nyrs ato. Buon nhw'n mwmlal gyda'i gilydd o bell. Allai nac Alwyn na Sioned ddim dyfalu dim o'r cyflafareddu. Yn y diwedd dynesodd y Meddyg at y rhieni ar flaenau'i draed, yn hwyrfrydig i dorri gair. Ymbalfalai am ystyr.

'Sut mae hi, ddoctor?' holodd Alwyn mor ddideimlad ag y gallai. Roedd ei wraig Sioned wedi cilio fel pe bai'n feddw, am gam neu ddau. Roedd hi'n synhwyro bod ei gŵr yn rhy glinigol ynglŷn â'r cwbl. Arhosai hi o'r neilltu gyda'i llygaid coch. Ffyrnigai dafnau mân yng nghorneli'i hamrannau.

'Llwyddiannus oedd y driniaeth,' atebodd y Meddyg. 'O leia, fe symudwyd darn o asgwrn oedd yn bygwth ei hymennydd.' Roedd hi'n amlwg ei fod yn dechnegol fodlon arno'i hun: cawsai hwyl ddestlus ar ei gelfyddyd. Ac yn ystod y driniaeth, daethai'n bur hoff ohono'i hun. Gwenai'n dawel fel pe bai'n ceisio gwerthu'r gwaith i ysbyty arall. 'Bydd hi'n byw.'

'Ond beth wedyn?'

'Oes 'na obaith, ddoctor?'

'A!'

Doedd e ddim yn aruthr hoff o'r math yna o gwestiwn digymrodedd. Ac eto, waeth iddo fod yn onest ddim o'r dechrau... Doedd e ddim yn gwybod. Allech chi ddim bod yn fwy gostyngedig na hynny. Tywyll oedd y prognosis. Anhysbys. Cyfartaledd bach o achosion fel hyn oedd yn dod drwyddi. Ond... 'Mae 'na ddigon o obaith, o fath.'

'... Ond dych chi'n gweld rhyw rimyn pinc ... ar y gorwel?' holai Alwyn fel pe bai'n galw am ei briodas yn ei hôl.

'Pinc?... Mae hi'n ifanc.'

'Mae hynny'n fantais?'

'Dyw hi ddim yn anfantais. Does dim arall y galla i...!' Tawai'n fud o gall. Gwrandawai Sioned yn fud ar ei fudandod. Ciciai hi goes y gwely drachefn. Doedd hi

ddim am berthyn i'r math yna o sgwrs. Doedd hi ddim am gydweithredu yn y ffars. Teimlai hi y dylai ddiolch i'r Meddyg am ei daclusrwydd huawdl. Ond tagai'r gair yn ei llwnc, ac yn briodol felly.

'Dere o 'ma, Alwyn. Mae'r lle 'ma'n wallgo.'

Murmurai'r Meddyg yn fyngus rywbeth am ryddid soffistigedig distrywiol yr oes ddreng... ein hetifeddiaeth ddi-foes gan y ganrif ddiwetha... a rhyw rethreg felly. Pethau ar orwelion dealltwriaeth. 'Rhaid talu am oddefgarwch,' meddai, 'os nad yw'r ffiniau'n glir.' Ond chlywai'r tad ddim o'r gwirebu annhebygol hwnnw. 'Mi wnaethon ni'n gorau.'

'Diolch, doctor,' meddai Alwyn, '... am y byd i gyd.'

A chiliodd y Meddyg, neu'r cigydd neu'r plymer, neu beth bynnag oedd y term mwyach yn y dyddiau gwerinol hyn. Daeth y Nyrs yn ei hôl at y ddau.

'Gawn ni aros gyda'n gilydd fama, Nyrs?' holai Alwyn fel pe bai'n tybied y gallai'r berthynas rhyngddo a'i wraig ymglymu ychydig, o'r newydd, wrth aros.

'Cewch, siŵr ddigon.'

'Os bydd rhyw rithyn o symudiad...'

'Fydd dim, dw i'n ofni.'

'Rhyw ochneidio?'

'Fel hyn y bydd hi am rai oriau dw i'n ddisgwyl. Mi ddaw,' celwyddai hi.

Syllai Sioned yn ddiobaith tuag at ddistyll mân y gwely. Hwyliai'r cynfasau yn urddasol ddi-iaith i ffwrdd tua'r machlud. Edrychai'r rhieni'n suddol ar ei gilydd ar eu hôl. Gallen nhw glywed ei gilydd yn anadlu fel llanw isel ar forfa unig. Ac yna'r graean mân dan eu traed yn anadlu'n gryg gyda'r cilio. 'Dw i'n mynd,' gwaeddodd hi o'r diwedd. Ond aeth hi ddim.

'Bach yw hi,' meddai'r Nyrs.

'A thlws,' meddai Alwyn.

Ymadawodd y Nyrs. Eisteddai'r ddau riant fel dieithriaid i'w gilydd wrth erchwyn gwely'u merch am ugain munud eto. Heb ddim i'w ddweud. Gwingai llygaid

Sioned fel chwyrligwgan yn trochioni'n foelfelyn gyda'r trai: clwyfwyd hi gan flynyddoedd coll o ymylu ar adnabod ei merch. 'Druan bach,' meddyliai Alwyn, gan ddelwi ar y fechan. 'Druan bach, bach. Mor addfwyn oedd hi: mor ddifywyd nawr.' Syniai fe bob amser, wrth edrych ar ei ferch lân, ei fod e'n fethiant mor dila, o'i gymharu â'r hyn y gobeithiai fe am fod. Syllai Alwyn ar ei wraig bellach gyda pheth ofn, wrth iddi soddi hyd ei chlustiau mewn un gwrthrych synhwyrol o'i blaen. A'i llygaid yn rhudd, fe'i clymwyd hi mewn hunlle yng ngharchar ei merch. Bob chwarter awr fe'i harweinid hi allan o'i chell-fyfyrdod i gael ei dienyddio yn gyhoeddus o flaen ei gŵr. Y pryd hynny gwaeddai fe'i feddwl 'euog' arni – ac arno'i hun – yn fwy croyw nag arfer. Suddai yntau hefyd yn ei ferch o hyd. Ond fe'i câi'i hun ambell waith yn pensynnu'n bur galed amherthnasol, dros gyfran o eiliad cwta yn unig – am ei waith, am y swyddfa, am broblemau'r staff, am y pwysau yno o du'r bôs, am rywbeth arall heblaw'i euogrwydd. Ac yn ddiymdroi, sgythrai'i feddyliau euog yn ôl nerth eu traed at weddillion ei wraig i gyd-deimlo. Wrth i'w merch gilio, roedd hon wedi cilio rhagddo hefyd. Sgythrai'i feddyliau fe ar ei hôl, ac yna at waddodion ei ferch, yn ôl ac ymlaen, a'i hunan-gosbi creulon fel ffieiddbeth wedi'i ddinoethi'n gorff o flaen miloedd o'i gyd-ddynion.

Yn y gyfran honno o eiliad euog, roedd ei feddwl wedi gadael ei wraig, wedi gadael ei ferch, wedi gadael y byd. Roedd arno gywilydd am na allasai amddiffyn neb.

Allai Sioned ddim o'i ddeall. Roedd y dyn fel pe bai'n byw ar blaned arall. 'Be sy'n bod arnat ti, Alwyn?'

'Wnaiff hi *gofio* dim o'r ddamwain,' meddai Alwyn o'r diwedd, fel pe bai hynny'n gysur.

'Na. Dw i'n mynd.'

'Dyw'r co ddim yn bopeth, cofia. Mae 'na gyneddfau eraill,' meddai fe gan ddal i gysuro.

'Ond y co sy'n ein gwneud ni,' meddai'i wraig yn ffyrnig.

'Yna, bydd yn rhaid ailadeiladu hwnnw... gydag amseroedd newydd.'

'Hawdd dweud. Wrth gael gwared â'i cho, mae'i bodolaeth hi rywsut wedi'i hamddifadu a'i charthu. Iaith, meddwl, popeth.' Roedd ei hysgyfaint ar ffrwydro.

'Bydd modd wedyn feithrin ymddygiad newydd.'

'Sothach! Ac rwyt ti'n gwybod hynny.'

'Fallai.'

Ond dŷn ni ddim eisiau iddi fodoli'n wahanol.'

'Na.'

'Dŷn-ni am iddi ddod yn ôl,' meddai Sioned, 'yn gwmws yr un fath. Replica dw i eisiau. Rhywbeth bach syml hollol debyg fel yna, Alwyn. Dim awgrym o newid. Ti a fi mewn merch.'

'Ond meddylia – allen ni ddim rheoli'n meddwl: *anghofio* pob creulondeb. Fe all fod yn dda ei bod *hi'n* cael blas am y tro ar anghofio,' meddai fe. 'Dw i'n meddwl weithiau y bysai'n well se mwy ohonon-ni'n dysgu anghofio.'

Fe syllen nhw yn ddiniwed ufudd ar ei diniweidrwydd yn gweiddi arnyn nhw'n ddi-sŵn o'r gwely. Y fath dalp o ddiniweidrwydd ufudd fu hi rhyngddyn nhw erioed. Mae rhai plant yn anufudd ddrygionus hyd yn oed cyn iddyn nhw wneud dim, ond nid Del. Ac eto roedd hi'n fyw fel bwrlwm dŵr o ffynnon. Roedd hi'n dal heb gyrraedd ymhellach na'r oedran gyffrous pryd nad oedd hi'n aros i gael ateb ar ôl gofyn cwestiwn.

Dychwelodd y Nyrs yn ddistaw. 'Dach chi'ch dau wedi ymlâdd dw i'n siŵr, ar ôl eich llusgo drwy'r llaid.'

'Ddim felly,' protestiodd Alwyn tan sibrawd. Atebai Sioned ddim.

'Ewch adra. Fydd dim oll yn digwydd heno 'ma.'

'Does dim ots, Nyrs: mae'n well bod yma,' meddai Alwyn. 'Dych chi'n deall... on'd dych chi?' Yma, roedd am lynu nid yn unig wrth ei ferch, ond wrth weddillion ei briodas hefyd. Ond welai Sioned ddim cysur yn unman, nac yno nac oddi yno. Roedd y cwbl yn wastraff. Arhosodd hi yno'n ddistaw ar egwyddor. Roedd pawb drwy ffenest y

coridór yn cripian heibio i'w digalondid gwlyb nhw ill dau ar flaenau'u traed. Ac roedd Sioned ei hun yn ffrwydro o'u herwydd.

Roedd y Nyrs yn dymuno dweud rhagor. Ddwedodd hi ddim.

Torraï mudandod pell eu merch fel cefnfor henaidd dros eu pennau o hyd. Y peth y mae rhieni i blentyn mud fel hyn yn ceisio'i wneud o hyd yw siarad ar ran y plentyn yn eu meddyliau, drwy orffurfio'r gwefusau i yngan yn ei lle, i'w helpu fel petai. A chafodd Alwyn ei fod yntau'n ceisio rywfodd – a'i feddwl yn crwydro ychydig – lunio brawddeg yn lle Del, yn lle'i wraig, yn lle'r Nyrs, yn lle methu. Roedden nhw ill tri'n ceisio byw ar ran ei gilydd.

'Y gwir yw,' ategodd y Nyrs o'r diwedd, 'tydy hi ddim yn debyg y bydd dim yn digwydd iddi hi am rai dyddiau. Ond dyna ni, mae croeso i chi aros.'

Syllai Alwyn ar ei ferch, a dal i syllu.

Ym meddwl anymarferol Sioned, ceisiai yn ei dychymyg fynd yn ôl yn awr dros y pethau a arweiniodd at drais Del. Roedd hi eisïau ail-fyw'r amgylchfyd a phob posibilrwydd. Gallai hi ail-weld Alwyn yn awr cyn y trais, ynghyd â Del, yn hollol ddifater, heb ofal yn y byd. Ceisiai ail-greu yn ei meddwl yr amgylchiadau a arweinïai at y trais. Ail-syllai drwy'i dychymyg ar y ferch yn cerddetian ar hyd stryd yn boenus o ddihidans. Casâi hi anghyfrifoldeb diniwed ei gŵr y funud yna, heb dychymyg. Roedd Del yn sgipio ychydig o'u blaen nhw. Ail-ymwelai'r fam â'r lle roedd sgïdiau bach Del yn hongian yn llaw ddihidans Alwyn ar y pryd. Daethan nhw at yr Eglwys Gatholig. Ail-safodd y tri y tu allan yn hollol hyderus. Edrychen nhw i fyny at y cerflun bychan uwchben y porth. Roedd hwnnw'n boen i gyd. Cymerodd Del y sgïdiau bach gan ei thad. Ffarwelio. Ail-gusanodd Sioned hi. Sgïpiodd y ferch fach ymaith yn wallt-afieithus ewyn-ysgafn yn annibynnol arnyn nhw am ychydig o funudau.

Roedd ei llygaid yno ar hyd y stryd yn odidog. Felly y daeth i gyffwrdd â dychymyg ei mam yn awr. Roedd y fam hithau'n bendramwnwgl o strydoedd prysur.

Ordeiniwyd y strydoedd hyn yn unswydd i Del, – i ddathlu ei hwyl hi: drylliau o siopau addurniedig, milltiroedd o ffenestri cacennog, ffrogiau gwynion fel ffrwydrad o hufen-iâ, a faniau'n nyddu drwy domennydd o frys fflachiog fel goleuadau'n prancio

ddawnsio tua phractis bale. Roedd y pelydrau haul a phelydrau'r palmentydd yn cyrchu rhwng miliynau o ferched bach cyrliog o wawn di-hid, trydanog o hafaidd tan chwythu tua'u gwers gwallgofrwydd anochel. Felly y dathlen nhw Del. Felly y nyddai'r fam hefyd yn awr drwy'i cho a'i chymysgedd o ystyr.

A Del fan yna, yn anymwybodol yn y gwely, ond yn well efallai nag y tybiai'r fam bryderus. Casâi Sioned bawb. Casâi ei gŵr ei hun yn fwy na neb. Casâi hi ei rhacsen o briodas. Allai hi ddim meddwl am ddim oll, ond ei thybiaeth a'r hyn a oedd wedi digwydd o bosib. Ceisiai bendroni'n wag ddigynnwys yn awr. A fuon nhw o bosib fel rhieni yn esgeulus? A fu rhywun yn eu gwyllo nhw drwy'r amser, gyferbyn â'r eglwys yn y cysgodion? A oedd yna ŵr croenddu ifanc o bosib yn y fan yna, a hwythau heb sylwi, neu ŵr hŷn tua hanner cant oed, tywyll, cryf ei olwg, a chraith faith ar hyd ei wyneb? Nac oedd. Ei dychymyg hiliol du hi ei hun oedd hyn, yn ceisio poblogi'r gorffennol â dynion duon lle nad oedd yna ddim ond ei halltudiaeth galed wen hi ei hun. A welai hi fe'n awr yn dilyn Del? Na, nid y funud yna. Doedd dim modd bellach ailwampio'r diflanedig.

Pasien nhw siopau lle y bu Del yn sgipian. Pasien nhw lyfrgell y dre. Aethen nhw dros hyn ddegau o weithiau yn ôl ac ymlaen yn eu meddyliau. Pasien nhw gapel gwag a modurdy llawn. Pasien nhw'r parc, ac adeiladwyr yn malurio hen siop fferyllydd i'r llawr.

Dyna'r lle y buasai Del yn sgipian o hyd, ar bwys y rheini. Y tu allan i'r siop lyfrau gyfagos gwelid y *Cymro* ar werth a'r penawdau'n lleisio'n bentyrrol ar ei draws – 'MERCHED BACH WEDI'U TREISIO: Mewn trefi glan-y-môr gwallgofddyn yn stelcian.' Inc tabloid du ar y cyfnas gwyn, yr inc a sgrifennai Sioned ar ei dychymyg.

Na, na, dychymyg eto: doedd dim o hyn yn wir. Roedd ei ffansi hi'n llungopïo'r cwbl mewn modd hiliol. Ac eto, gallai hyn oll fod yn ddilys. Roedd cofio o'r fath fel cydio mewn rhaff wrth foddi, a'r rhaff honno wedi'i braenu. Er siom pob gorffennol, – y gorffennol hwn nawr na fodlonai ar fynd heibio. Onid hynny a roddai iddyn nhw sylfeini i yfory? Hiraethen nhw am i'w merch lusgo – yn gysgod ar draws eu meddyliau

– fethiant byr ei buchedd a beiau'i threftadaeth ganddyn nhw. Felly y bydden nhw o hyn ymlaen yn anwylo o hyd eu tristwch.

Roedd hi ac Alwyn erbyn hyn yn ei cho wedi cyrraedd yr Eglwys Gatholig. Ymgroesen nhw wrth basio a gweddio'n fewnol. Mae'n rhaid bod Del bellach wedi sgipian yn ei blaen ar ôl hynny. Cyrhaeddai hi'r neuadd gymuned roedd yn cyrchu ati. Ond beth a wnâi'r gŵr du ifanc wedyn, hwnnw a oedd y gyfrifol yn eu dychymyg, neu'r gŵr canol oed tywyll, neu rywun yn y gornel? Ffarwelien nhw â hi yn y fan yna.

Roedd Del wedi newid ei dillad yng nghwmni'r merched eraill. Gwisgai sgidiau bale. Dychmygid hi gan ei rhieni nawr fel pe bai ymhell ar wahân iddyn nhw. Dechreuai hi ymarferion yn ôl y gerddoriaeth. Roedd popeth wedi digwydd yn rheolaidd hollol, – yn ôl ac ymlaen, i'r naill ochr a'r llall – a hynny gyda llawer o sbort pan wnâi rhywun gamgymeriad.

Ond beth ddigwyddodd wedyn? Cofiai Sioned gymaint, hyd yn oed y pethau nad oedd hi wedi'u gweld; ac eto, gyn lleied.

Beth ddigwyddodd i'w priodas nhw ill dau yr eiliad yna? Rhygnai'i cho arni.

Ymadawodd y rhieni'n dawel â'r neuadd gymuned (heb orffen eu dychymygion). Ymlwybron nhw'n boenus o hamddenol draw i'r siopau. Pwrcason nhw ychydig o nwyddau diangenrhaid cyn nôl Del: saws coginio coriander a choconýt, lasagne, wynwns wedi'u piclo. Doedd dim byd ar eu meddyliau ond siopa am bethau dibwys a welen nhw ar ddamwain, wrth din-droi i ddisgwyl eu merch.

Roedd Del a'i chyfeilles Mari wedi cyd-ymadael â'r Neuadd, mewn gwirionedd. Rhedai'r ddwy ferch ifanc allan law yn llaw. Ffarwelien nhw â'i gilydd. Sgipiai Del drwy'r parc, ymlaen ac ymlaen drwyddo, a sefyll am rai eiliadau i rythu'n fud ar yr elyrch, a hiraethai dychymyg ei rhieni am gael sgipian gyda hi ymlaen. A beth arall? Beth? Bara. Sudd oren, grawnwin coch, tomatos. Gorffennen nhwythau siopa. Roedd hi bron yn amser nawr i'r rhieni gwrdd â Del yn y parc.

Bwlch. Nid ysgariad o fath yn y byd a ddigwyddodd fan yma. Dim ond bwlch.

Wyddai Sioned ddim am gynnwys hyn. Roedd y Bwlch maith yno yn gorwedd a heb syllu arnyn nhw, a heb ddweud dim. Beth yn union a ddigwyddodd? Chlywsai Sioned ddim o'r ambiwlans. Mae'n rhaid ei fod wedi dod. Welsai hi mono'n fflachio golau. Welsai hi ddim o'r nyrsys yn rhuthro â stretsiar ar olwynion ar hyd coridór hyd at y theatr. Dim ond Bwlch rhwng Del a Sioned, a rhwng Sioned ac Alwyn. I Sioned mewn gwirionedd roedd cynnwys bywyd ei merch, ar ôl ffarwelio â hi y tu allan i'r eglwys, yn wactod. Roedd anwybodaeth euog ronc y fam yn un ag ango'r ferch.

Edrychai Sioned arni hi nawr yn y gwely, yno yn ei marwolaeth fyw, ei llygaid rhyfeddol bythol ynghau yno. Edrychai Sioned yn chwerw ar Alwyn. Rywsut, roedd hi'n teimlo bod ei pherfedd hi ei hun wedi'i dynnu allan a'i ledi yn y fan yna ar y llyeiniau merddwr o'i blaen gyda Del. Cyflwynai Del ei holl symlder i'w mam, ond wyddai honno ddim beth i'w wneud ag e – roedd yn rhy gymhleth iddi – ac allai'r fam ddim ond ei guddio yng nghist ei chrebwyll.

Wyddai hi ddim oll am y gŵr gwyn ifanc yn ymguddio yn y llwyni gerllaw ac mewn penbleth sâl, yntau yn euog, yn edifeiriol glaf ei feddwl. Chlywai hi ddim o'i feddwl chwaith yn gweiddi amheuon ei hun: 'Pam? Pam gwneud hyn i gyd? Pam?'

'Gwell inni'n dau fynd adre o'r ysbyty, nghariad i,' meddai Alwyn yn fwyn. A doedd dim o'r nerth ganddi hi nawr i'w wrthod. Ofer fuasai aros, wrth gwrs. Ond ofer oedd mynd adre hefyd pan nad oedd yno ddim cartre.

Cerdden nhw adre o'r ysbyty 'ma, fraich ym mraich yn euog o ara. Ddweden nhw ddim bo wrth ei gilydd. Doedd y naill ddim yn bod i'r llall. Roedd eu byd cyfun wedi'i ysigo i'r gwaelodion coch. Safen nhw felly am ychydig o eiliadau y tu allan i'r eglwys wag cyn bwrw ymlaen.

'Ei ewyllys E?' gofynnodd Sioned yn chwerwdost. 'Duw?'

'Dyn wnaeth hyn.'

'Ond gyda'i ganiatâd E, o fewn ei arfaeth E. Yn rhan o'r domen enfawr o ddiodefaint sy i fod yn y byd.' Roedd ei hysgwyddau'n ymostwng.



'Dyn, Sioned, wnaeth hyn. Dyn du pwdr,' mynnai Alwyn. Tyrchai'n boenus yn y domen honno a alwn yn unfed ganrif ar hugain. 'A doedden ni ddim yno. Ti a fi.'

'Ond pam mae Duw mor eithafol bob amser?'

'Oherwydd yr angen. Pe baen ni'n rhoi pob drwg at ei gilydd, pob llygredd er dyddiau Adda, a'u pentyrru nhw o'n blaen ac edrych arnyn nhw...'

'Paid â sôn.'

'Pe baen ni'n edrych, Sioned, ar eithafiaeth Hiroshima a Belsen...'

'Na.'

'Pe baen ni, mewn cryndod, yn sylweddoli'r eithafiaeth o fod ar wahân iddo Fe...'

'*Hi* yw yn Hiroshima i,' ochneidiai Sioned yn ddiamynedd.

'Ie, pe baen ni'n ei rhoi *hi* hefyd atyn nhw...'

'Sut gallet ti ddweud y fath beth?'

'Y cyfan gyda'i gilydd.'

'Na, Alwyn. Hi.'

'Ein dicter, a'n malais, a'n casineb, a'n hunan-gyfiawnder, a'n hunan-ganolrwydd... dŷn gwybod Ei fod E'n gallu gwaredu'r cwbl.'

'Alwyn, rwy'ti'n rhy iach.' Roedd ei chalon yn byw llosgfynydd y funud yna. Roedd y tywydd yno fel pe na bai'n bod. Cerddai pobl drwyddo heb ei weld. Ac yna, ar draws y gwres, dechreuai glaw mân. Drwy ddagrau'r glaw yna aethan nhw adre.

Sylwodd Sioned ar yr hen brofiad hwnnw o'r newydd yng nghyd-destun y drwg i gyd, fel nad edrychai ddim drwyddo nac allan, mwyach. Sioned ei hun oedd yno'n rhwystr cingroen, yn wir nid yn rhwystr yn unig, ond yn rhan ymosodol o'r amgylchfyd, yn un o'r cymeriadau llethol. Rhaid oedd dygymod â hi ei hun, dan felltith. Ni ellid ei chymryd ei hun yn 'athronyddol.' Teimlai hi drwy'i chorff ei bod hi'i hun yn unig yn gyfrifol.

Roedden nhw wedi cyrraedd y tŷ. Aethan nhw i mewn. Doedd eu priodas ddim yno. Aeth Sioned yn benderfynol i'r gegin fel pe gwyddai ble'r oedd hi am fynd i chwilio amdani. Eisteddai hi yno gan graffu ar y gofod o'i blaen, yn ddistaw, yn ffiائد ddistaw, gyda math o ddistawrwydd a oedd fel pe bai'n glythio'r tŷ. Sinach o ddistawrwydd creulon hir oedd hi yn sgrechian ym mhob cornel. Roedd llonyddwch disymud ei hysgwyddau a'i gruddiau a'i thraed yn adleisio'r distawrwydd gorthrymus surbwch a boerai hi dros bobman.

'Awn ni 'lan?' awgrymodd Alwyn. Ond nid sôn am eu hystafell wely nhw eu hunain roedd e, er mai chwilio am eu bywyd nhw'u hunain roedden nhw.

Symudodd hi ddim. Tawelwch a'u cysylltai â'i gilydd. Syrthiodd diymadferthedd drostyn nhw, nid fel mwg, ond fel cawod o lwch lafa trwchus a'u sugno i ryw fath o ddellni llwyd. Roedd hi am fynd i'r llofft i weld ystafell-wely'i merch. Yr un ffunud, roedd ei gŵr am gyrchu i'r unlle. Edrychen nhw drwy gil eu llygaid at y grisiau creulon. Ond symuden nhw ddim. Roedden nhw'n casáu'r grisiau. Rywfodd roedd y distawrwydd ar y gwaelod wedi'i rewi o'u cwmpas a'u dal, doedd dim smic yno, dim ffôn symudol, dim eiliad o deledu. I'r fan yna, mae'n rhaid, yng nghorneli'r ystafell, yr ymneilltuasai'r hyn a oedd yn weddill o lonydd prydferth y byd. Allen nhw ddim ei ddiode.

'Dere,' meddai fe, 'allan o hyn.'

Symuden nhw ddim.

Y tu ôl i'w thalcen, sut bynnag, roedd maes y gad. Y tu ôl i'w haeliau y tasgai'r clwyfau, clwyfau'u priodas. Roedd y gatrawd wedi torri ffosydd, a gosod y drylliau mewn lle. Eisoes gorweddai cyrff briw a gwaedlyd ar draws y weiren bigog. Clywai hi sielieu'n disgyn o bell, a llaid yn ffrwydro gerllaw. Ond llonydd oedd ei llygaid hyn yn eu corneli. Rhewid y maes a'r byd ffiائد i gyd. Ac yna, sylwodd hi arnyn nhw, y swyddogion gwrol hynny yn cerdded allan â'u drylliau bach, yn ara benderfynol tua'r drylliau peiriannol diddarfod ddau ganllath i ffwrdd. Yn ddewr wallgo, dyma hi, y tu ôl i'w thalcen, yn y Somme. Allai hi ddim ei hwynebu. Del oedd eu bywyd nhw, ac roedd hi wedi mynd.

Yna, heb dynnu'u cotiau a heb oedi i chwilio'r llythyrau yn y blwch nac i edrych yn yr ystafell fyw, dringon nhw ill dau y grisiau trwm gyda'i gilydd drwy'r gawod o fwledi. Aethan nhw i ystafell-wely Del. Yn y gwely ei hun roedd yna arth swci. Ar hyd silff wrth yr ochr, roedd dolïau'n ddestlus mewn rhes. Popeth yn eitha twt fel sêr hiraethus yn y nen. Ond pa nen? Bydd pob seren yn yr unfed ganrif ar hugain yn sefyll ar ddibyn affwys. Onid yw ecoleg y bydysawd wedi'i gwyro'n gyfan gwbl yn ôl natur y golled a gafwyd?

'Druan o'r un fach dirion,' meddai fe.

A disgynnodd ar ei liniau. Claddai'i ben yn y gwely. 'O Dduw!' Seiniai ei gylla mor anghyfaddas fel pe bai'n ddwbl-fas newydd ei diwnio. Teimlai'n wag wrth gadw sŵn. Safai Sioned yn oer ddi-adwaith o'r neilltu. Edrychai ar ei gŵr bach heb ddirmyg, ond yn dosturiol galed. Edrychai ar y waliau'n galetach. Ymhen pum munud cododd Alwyn yn bwylllog. Ymgrosodd, ond gan edrych yn ôl o hyd at y gwely gwastraff. Dyna wely'u cariad.

'All Duw ddim rhoi rhyddid i ddyn ar un llaw a pheidio â chaniatáu dioddefaint ar y llall,' meddai fe. 'Cyfiawnder a thrugaredd yw ei enw.'

Symudai'i wraig ddim. Beth oedd ei merch? Beth oedd hwn yn siarad amdano?'

'Beth mae plentyn bach fel hon yn ei gredu a'i ddeall?' gofynnodd e.

'Ddim llawer,' poerodd Sioned. 'Mae ei meddwl hi'n fwy clwyfedig na'i chorff.'

'Ond digon. Mae'n rhaid bod ganddi hi *gnewyllyn*.' Crwydrodd ei feddwl e am foment wedi iddo wneud y fath osodiad dirgel. Roedd e'n ôl yn nifaterwch-filltiroedd y Swyddfa.

'Beth oedd *cnewyllyn*?' gofynnai hi.

Edrychai fe mor euog. 'Cnewyllyn sy gan bawb ohonon ni. Roedd Del yn gallu sylweddoli'r goruwchnaturiol heb brofi'r rhwystrau dŷn ni'n eu llunio i ni'n hunain.'

'Na.'

'Ie, ei dderbyn,' taerai Alwyn yn uwch nag y'i bwriadai, a'i feddwl wedi rhuthro'n ôl at ei wraig â'i anadl yn ei ddwrn. 'Heb amddiffynfa ffals.' Roedd yr un fach a'i hymennydd fel pe bai'n gwingo ac yn rholio ar y llawr o flaen ei lygaid.

'Derbyn! Pa dderbyn?'

'Beth yn y byd yw dealltwriaeth sy'n dinoethi pawb – ond y derbyn gan blentyn? Efallai'i bod hi'n rhwyddach iddi hi,' meddai Alwyn.

'Oedd hi'n hidio am bethau felly?'

'Mae hi'n hidio amdanon ni. Wrth gwrs ei bod hi'n wneud. A doedd dim rhaid iddi ymdrechu i ddod at Dduw megis plentyn. '

'Yn awr? Ydy? Ydy hi? Ble?'

Mud oedd Alwyn.

'Ble? Ble?' gwaeddai'i wraig drachefn. Doedd ganddo fe ddim clem.

Bwlch.

Dechreuodd y fam lefain yn awr yn ysgafn i ddechrau gan boeri dagrau mân prin o'i llygaid fel petaen nhw allan o degell ar fflam nwy, yn tasgu hisian, a'i hwyneb yn poethi. Wedyn, cynyddai peth ager drwy'i hanadl rugl. Chwyddai'r fflamau. Y tu mewn i gymylau'i phen y funud yna roedd yna hen fwrw tyn a'i hwyneb yn tasgu dafnau mawr yr un pryd y tu hwnt i reswm, y tu tywyll i bob smotyn o esboniad, a'r tu draw i bob gobaith pur.

\*

\*

\*

Ond ar hyd yr oriau, symudai teimladau'r ddau tua thawelwch. Troeson nhw'n ôl i'r ysbyty yn reddfól, a cherdded draw. Roedd y gwanwyn hwn wedi hwylio i ffwrdd mewn hen long herciog dros y gorwel. Roedd y Gwanwyn heddiw wedi ffarwelio tan arddel cyn lleied o argyhoeddiad ag arfer. Edrychai'r tymor yn ei ôl ryw ychydig yn hiraethus efallai, fel y byddai un genhedlaeth yn isymwybodol yn syllu'n ôl tua chenhedlaeth arall ac yn tybied mai gwlad arall oedd, gwlad lle buon nhw unwaith, ond ddim mwyach. Gwlad ddychmygol oedd y Gwanwyn hwn i'r rhieni hyn, yno heddiw yn

yr ardd goch o gylch yr ysbyty. Ymddangosai yn awr o'u blaen fel mân ynisoedd bawdd. Gweddillion gwlad oedd hyn oll yr ymfudwyd ohoni ac y gwelon nhw'n burion eisiau'i haroglau a'i seiniau a'i hurddas. Gweddillion eu perthynas gynt oedd. Ond gwyddai'r grŵp bach cryno fan yna yn yr ysbyty o gylch gwely Del na phrofai'r ferch bach byth ddim tebyg iddyn nhw mwyach. Ac felly'n awr y ffarweliai'r tymor Gwanwyn hwn â phob tangnefedd y gellid ei gynilo. Melltithio'r tywydd wnaeth y tad dan ei anadl.

Buon nhw yn yr ysbyty bob dydd. Hyn, felly, iddyn nhw oedd perthyn. Gŵr a gwraig, yn fyddin ddiymadferth gyfun ac yn craffu'n wyllt ofnus ar faes y gad lle y gorwedda'i gweddillion plentyn a oedd wedi'u hanghofio nhw'n lân. Roedden nhw megis ymwelwyr â beddfaen heb wybod beth oedd o'i flaen.

Ac felly y byddai hi yn ei hadfeilion mwyach, yma lle y methai mudandod â gwrando ar fudandod arall.

Aeth yr amser yn ei flaen yn ddiog.

Bythefnos wedyn i'r diwrnod hwnnw, gwyddai'r rhieni fod gweddillion eu perthynas nhw ill dau yn ddrylliau, yn wasgaredig ar lawr y ward preifat hwnnw. Doedd dim oll wedi newid. Gwthiodd y Nyrs ei phen drwy gil y drws yn gyflym, ond heb aros fawr.

'Does dim newid, Mistar Dafis,' ebychodd hi, bron yn siriol, am nad oedd hi'n waeth.

'Dyw hi ddim yn waeth?' holodd Alwyn.

'Run fath druan,' meddai'r Nyrs.

Teimlai Alwyn, drwy gamgymeriad, foment gota hyll amhosibl o lawenydd am nad oedd yn waeth. Beth oedd yn od ar synnwyr o'r fath y funud yna? Teimlai fe'i fod bob amser yn sawl person yr un pryd, a hithau, Sioned, mor enbyd o unplyg. Roedd e bob amser bellach yn ddieithryn. Ai ei ffieiddio'i hun am ei fod hyd yn oed ar y munudau taera wedi gallu caniatáu i'w feddwl grwydro fel na phrofai'r anesmwythyd hwn drwy bob eiliad? Fe'i dirmygai'i hun yn fewnol am y gwenu gwawd hwn oedd yn ei

galon. Cilwenu'n ymguddiol am ben ei ddiymadferthedd hyll ei hun roedd, wrth gwrs, ac am fod y fath beth â pheidio â newid.

Rhan-amser oedd ei dadolaeth e, Alwyn: hithau, Sioned, mam i gyd oedd hi. Yn ei byd mewnlol hi doedd dim rhannu mewn amser. Roedd hi'n llawn o'r un peth yr un pryd. Allai hi ddim deall ei gŵr. Ar chwâl yn reddfól roedd e ar y foment. Pan godai'i lygaid yn awr oddi ar ei ferch, ymlwybrai'r Swyddfa a'r ffeiliau heibio iddo, druan. Ond hi, y fam wedi'i threulio gan ofid, wedi'i malu gan iselder, chwiliai'n unswydd unplyg yn yr un lle am dywyllwch fel daeargi. Roedd ei hymennydd bob amser yn gwisgo du. Roedd ysbytai a gwyll a hi yn treiddio i'w gilydd yn reddfól.

'Ddim yn well chwaith?' holodd Sioned. Ac yna, roedd arni gywilydd tost iddi siarad o gwbl. Beth oedd diben yr holl ddefnydd hwn ar eu cordiau lleisiol?

'Na,' meddai'r Nyrs, a diflannu o'r golwg. Closiodd y rhieni'n ôl yn ddiymdroi at ei gilydd ac at eu plentyn llonydd.

'Mae hi'n diodde,' meddai Sioned gyda sicrwydd anferth.

'Mae hi'n ymladd am ei hunaniath, dyna'r gwir,' meddai'r Nyrs.

'Ac yn diodde.'

'Chi sy'n diodde,' meddai'r Nyrs.

'Mae ei hing hi'n mynd ymlaen ac ymlaen. Am flynyddoedd,' meddai Sioned.

'Na. Ti sy'n cyfri'r peth yn fwy na hi,' murmurodd Alwyn. 'Ti sy'n cerdded drwy'r tywyllwch ... gyda hi. Dyna pam mae'n ymddangos mor hir 'ma.'

'Fi?'

'Ti, Sioned, sy wedi mynd allan i gwrdd â'r ing. Ti sy'n gwaedu. Aros yn unig y mae Del fan 'na yn ei hunfan ar wahân. Yn disgwyl. Ti sy'n ceisio rhoi'i hunaniaeth yn ôl at ei gilydd. Does dim gwybod beth mae hi'n wneud.'

Fel yna neu bron fel yna roedden nhw'n siarad i ladd amser ac i ladd y distawrwydd ac efallai i ladd y gwneud-ei-orau'n-welw haul dros eu pennau a dywynnai

mor ffaidd ddihidans drwy'r ffenest. Ac fel sen nhw am blagio'i gilydd a'u herlid eu hunain, fan yna roedden nhw'n sibrawd ugain y dwsin eu pryderon ac yn hel amheuon.

Yn ddisymwth, fel taran ddistaw o ddim byd syflodd croen amrannau'r ferch fach. Eu merch! Rhyw fath o syflad. Efallai. Cyfran o gentimedr.

Camgymeriad.

Cysgod o'r tu allan oedd a hedai drosti. Cysgod y cyd-atgofion a fu ganddyn-nhw ill dau unwaith ohoni. Agorodd o dan ei haeliau nhw wedyn affwys môr-lygadog gwyn. Do. Naddo. Dychwelai, fel y byddai atgo dihyder ambell dro yn ymwithio'n anobeithiol i'r golwg ar ymennydd rhywun. Oedd. Ond doedd yna ddim gwir atgofion yn yr achos disylw hwn. Yn ddisylw bron dyma gyhyrau wyneb Del, yn nerfol anfwriadus, yn agor yr amrannau yna ychydig bach bach, – o leia, hynny a dybion nhw eu bod yn ei weld – a gwyn ei llygaid yn syllu allan yn anghrediniol weddw i'r goleuni heb ddweud dim, heb ymglywed â dim. Hynny a dybion nhw eu bod yn ei weld. Eu merch!... Ond na... Y fan yna o'r golwg roedd enwogrwydd llygaid Del. Malurion gollasid dan y tywod, gweddillion y canrifoedd y chwythwyd y lluwchfeydd oddi arny-nhw am foment, wedi doddi'r golwg mewn syndod marw. Hi oedd y cwestiwn nad oedd dim ateb iddo. Fel yna roedd pob gwir gwestiwn dwfn yn y bôn. Corddai amheuon gan y rhieni ynghylch cryfder ei meddwl.

'Edrych Alwyn,' meddai Sioned yn syfrdan fel pe bai hi'n ofni yngan dim rhag ofn i Del ddianc yn ôl. 'Edrych.'

Bwlch. Sef y bwlch rhyngddyn nhw ill dau.

'Mae hi wedi deffro,' sibrydodd Alwyn yn anghrediniol.

'Deffro? Dyw hi ddim ar goll?'

'Galwa-i'r Nyrs.'

Gwasgodd Alwyn fotwm y gloch, ac yna aeth e at ddrws y ward ond ddim ymhellach, i hiraethu'n ymarferol am y Nyrs, ond yn ofer.

'Hylô cariad,' meddai Sioned wrth ei merch ddigyffro. 'Wyt ti'n teimlo'n well?'

Doedd dim rhithyn o ymateb. Rhoddodd y fam ei llaw ar y gwrthban.

Roedd hi'n ddifrawddeg, yn fud.

Heb enw. Heb gysylltair.

Doedd hi ddim yn gwybod eu bod nhw ill tri yno. Roedd gwendid Del wedi cael ei ddwyn i ryw fath o sefydlogrwydd agos cadarn. Roedd gwyn y llygaid yn agored, ond yn rhyw fath o agored farw, fel petai i'w dychryn nhw. Bllingwyd ei hiaith oll. Tywalltwyd y distawrwydd bylchog drosti drachefn. Aeth adnabod y gwahaniaeth rhwng peth a pheth mewn bywyd yn yfflon di-newid.

'Wyt ti'n gallu nghlywed i?' holodd Sioned drachefn. 'Sut wyt ti erbyn hyn?' Aeth y fam allan o'r ward wedi'i chyffroi i lusgo'r Nyrs i mewn. Teimlodd hon arddwrn Del, a symudodd amrant y ferch fach. Tywynnodd olau tenau clinigol i'r retina. Edrychai'r Nyrs ar y rhieni fel se-hi'n gofyn a ych chi eisiau i mi fynd i lawr ar y mol ac udo?

'Mae'n gam ymlaen efallai,' meddai'r Nyrs yn ddiuedd. 'Ond na: peidiwch â disgwyl gormod.'

'Ydy hi'n ddall?' holodd Sioned. Roedd hi'n grac wrth ei gŵr am ei fod e'n methu â chwalu'n deimladol. Arhosai mor gythreulig o ddisgybledig yn ei wae, fel pe bai'n gallu'i ddsbarthu a'i isddosbarthu rywsut, a'i neilltuo wedyn, er mwyn bwrw yn ei flaen â busnes syrffedus bob dydd naturiol ddifywyd yn ei bywyd.

'Nac dy, ond tydy hi ddim yn ymateb i ddim oll chwaith. Damwain gyhyrog oedd 'na o'u blaen nhw. "Nerfau wedi'u mygu", mewn termau annhechnegol, llawr gwlad. Dim byd mwy,' meddai'r Nyrs er mwyn rhoi rhyw fath o ateb.

'Mae ei llygaid hi'n agored ychydig o hyd,' meddai Alwyn yn drist obeithiol. Mor fynych ar ganol clebr gan yr hen Ddel, – y Ddel fechan fach cyn hyn, – y dymunasai iddi dewi am ychydig a gwrando. Yn awr, ysai am glywed un sillaf fechan o'r clychau yna a geid gynt gan y llygaid absennol hyn.

'Ond tydy hi'n gweld *neb*,' meddai'r Nyrs.

'Mae hi'n ein gweld *ni* efallai,' mynnodd Alwyn, 'ei rhieni?'



'Na. Dach chi ddim yma.'

Yn ddisymwth roedd dicter Alwyn yntau mor ffyrnig tuag at y Nyrs o glywed y sillaf honno – *Neb!* – fel yr ymosododd ei ddychymyg arni a'i dal yn ddidig yn erbyn y wal. Cydiodd ei feddwl yng ngwddf ymadrodd y fenyw druan. Ac roedd ei ddwylo'n dychmygu'i thagu. O'r braidd y gallai'i reswm na'r hyn a oedd yn ddisgybledig ynddo ymwahanu oddi wrth weddill ei chorff y foment honno. Sobrodd mor sydyn â chwys, wrth edrych arni'n aneglur, a lleddfu ei ddiffyg dychymyg.

'Fel cysgodion?' meddai'n annaturiol o dawel ddisgybledig wrthi. 'Oes 'na symudiadau yn bosibl ar y retina efallai?'

Roedd ei lygaid yntau druan yn taer chwilota am lygaid rhywun arall.

'Tydy'r ddelwedd ddim yn cyrradd yr ymennydd,' meddai'r Nyrs yn dechnegol wirion. 'Ym mharabl y lleygwr, mae 'na ddiffyg a gwendid yn rhediad y gwaed yn gallu achosi dellni dros dro, falla. Mae hi eisoes wedi colli ymwybod â bodolath fel y gwyddoch chi amdani.'

'Yr ymennydd,' adleisiodd Sioned mewn cors o anobaith. 'Peth rhyfedd. Wedi colli'i ffordd.'

'A cholli'r gorffennol. Y cysylltiada.'

Ond i Alwyn roedd anobaith y Nyrs yn amhosibl mwyach. Roedd Del wedi anfon math o neges bendant atyn nhw: 'Dw i ar y ffordd. Dw i'n dod yn ôl.' Un wennol oedd ar hyn o bryd heb Wanwyn. Ond fe ddô'r Gwanwyn yn llond ei chroen o adenydd rywdro. Fe ddô'r Ha wedyn, a hedfan. O! obaith.

'All yr un Meddyg,' ebychai'r Nyrs yn bwysig, 'byth rag-weld popeth sy'n mynd i ddigwydd, na byth wneud yn llawer gwell na'r traddodiad dysgedig a drosglwyddwyd iddo fo. Mae pob un salwch yn wahanol yn ei ffordd ei hun.'

Disgwyl, disgwyl o hyd. Ond ddô dim mwy heddiw. Fe gawsan nhw eu dogn priodol. Roedd hithau Del yn disgwyl hefyd, a'i pharabl wedi'i lethu am y tro yn y diffeithwch ar y llawr o'u blaen. Roedd hi mewn llonyddwch diduedd.

Arhosai hi yno ar lun egin ofnus yn disgwyl ynghudd i ryw storm eu dychrynu i'r golwg ryw fodfedd uwchben y pridd, a hynny er mwyn eu blingo. Cydiai'r Gwanwyn yn hy mewn un planhigyn eiddil o'i heiddo wrth ei gwddwg a'i dynnu i ffynnu'n ffyrnig.

Am y tro, mud oedd Del. Mud oedd eu cyflwr hwythau. A mud oedd yr ysbyty a'r dre a'r wlad, a'r byd oll.

O'i hamgylch hi a'i gwely roedd yr awyr glinigaidd gynnes hefyd yn disgwyl llithro'n fud i ryw wagle taglyd caled o'i deutu. Yr awyr hon a fu'n fath o breswylfa am y tro i'w henaid ifanc, a'i goleuadau'n drigfa i liw, roedd hi nawr yn hongian ei mudandod yn drwm amdanyn nhw. Pe na chaed ond un sill synhwyrol, un cyswllt bach o lewyrch, byddai'r llusern yna'n treiddio hyd eu clustiau ill tri yn awr. A bydden nhwythau'n driawd cyflawn drachefn. Priodas, Plentyn, Cartre: Pâr priod, Merch, Aelwyd.

Ond un sibrwd a ganiatawyd. A hynny a gafwyd eisoes.

'Un newydd-da'n unig sy i fod heddiw. Rhagor yfory efallai,' meddai Alwyn.

'Newydd-diystyr,' meddai Sioned. Gwyliodd hi ei merch mewn atgasedd cariadus. Parhâi ymyl fain amrannau Del i fod yn agored ychydig bach bach. Rhew-wyd nhw yn ei phen fel petaen nhw'n farw'n fyw. Ac felly y buon nhw ill tri yno am oriau. Craffai golygon gwrcath y rhieni ar lygaid gweigion y ferch fel gwylied twll llygoden. Craffen nhw ar y ferch a'i gweld o'r newydd. Yn eu llygaid rywle roedden nhw'n byw. Sêr miniog gyda'i gilydd dan gwmwl oedden nhw ill tri. Roedd hi fel pe bai sêr rhew wedi bod yng ngwydr y ffenest drwy'r Ha a'r Hydre, ond roedd angen oerfel eitha'r Gaea wedi dychwelyd i'w tynnu nhw i'r golwg nawr er mwyn eu gwerthfawrogi a rhoi cyd-destun priodol iddyn nhw. Ow! Ble'r oedd hi?

Crwydrai meddwl Alwyn yn euog gyson tua'i Swyddfa. Y ffŵl! Âi e yno o hyd! Ymdrybaeddai mewn cywilydd.

'Dere *gartre*,' erfyniai fe ar ei wraig.

'Gartre?'

'Ie, i'n tŷ ni.'

'Nid *cartre*. Tŷ yw e. Mae'r moeth arall hwnnw – *cartre* – yn fethdaliad clwc,' meddai Sioned.

'Ond tŷ ni yw e.'

'Cwpanau? Soseri? Pethau felly. Beth yw hynny? Maen nhw'n ddileferydd i gyd yna. Ac yn foeth. Mae'r dyddiau 'na drosodd, Alwyn. Wyt ti eisiau inni fyw'n foethus?'

'Fyddai hi ddim yn iawn inni geisio byw fan hyn,' meddai fe am yr ysbyty. Teimlai fe'n euog o'r newydd, fel pe bai'n colli priffordd tristwch difrifol drachefn. Cenfigennai wrth ei wraig am ei bod hi'n medru bod mor syfrdan o unplyg yn ei galar. Troeson nhw tuag adre'n drwm.

'Wrth dynnu un fricsen yn y canol, Alwyn, fe ysgydwyd y wal i gyd, a llithro.'

'Ond dim ond ... un wal.'

'Ac ar ôl i un wal fynd... a syrthio arni...'

'Ei hadeiladu eto. Dyna wnawn ni.'

'Mi syrthiodd y to.'

'Y to?'

'Do. Ac ar ôl y to, y waliau eraill.'

'Ond ein tŷ ni yw e, Sioned. Gweddillion ein *cartre* ni yw e o hyd.'

'Heb waliau? Heb do? Ar y llawr i gyd? Does dim tŷ. Does neb yn canu ynddo. Ble mae'i llygaid hi? Ble gallen-nhw fynd i ganu?'

'Dere *gartre*'n glau.' Teimlai fe'n anesmwyth chwerw am y gair.

Pob gwendid yng nghorff ei merch, roedd y fam yn ei ddiodde. Mam oedd hi bob munud. Ysigwyd hi gan fodolaeth y greadures fach. Os oedd yr un fechan mewn poen, roedd hithau'r fam yn gwingo o'i mewn, nid oherwydd perthyn nac o gyd-deimlo gorff yng nghorff, ond oherwydd euogrwydd gwaedlyd noeth. Allai hi ddim deall ei gŵr, yn sefyll ar wahân fel yna, mor anghysbell wahanedig. Iddi hi dilladwyd hi o'i hysgwyddau i'w hystlysau yng nghyhyrau a gewynnau a chroen ei merch ei hun. Ond seicoleg Del oedd ei chyfyng-gyngor.

Bryision nhw ar hyd y strydoedd tuag adre.

Ar bob stryd roedd y bobl yr aen nhw heibio iddyn nhw ar y ffordd adre, yno, yn ffurfiol allanol, yn ddigon tebyg i'r post brenhinol: post sbwriel oedd y rhan fwya, hysbysebion am rywbeth argyfyngus o bwysig. Roedden nhw yno fel pe baen nhw'n real, ond yn barod i'r bèn. Roedd yn rhaid i rywrai wrth y cyfryw ohebiaeth, mae'n bosib, ond roedd digon ar eu gweill nhw ill dau heb chwilio am oferedd felly heddiw. Cyfarchion ffurfiol wedyn gan rai unigolion, fel cerdiau post wedi bod ar eu gwyliau: 'Hoffwn petaech chi yma. Ond ddim heddiw.'

Yna, gwelen nhw drwynau'r wardeiniaid drafnidiaeth o ganllath i ganllath yn rhes hyd y stryd fel ffurflen treth incwm yn dod drwy'r twll llythyrau, eisiau cael arian nad oeddid wedi'i ennill am waith nad oeddid eisiau'i wneud, a bod yn gas wrth rywun nad oeddid yn ei nabod. Yn nes at ganol y dre, derbynion nhw geisiadau teg am bres gan gardotwyr cyfreithlon, megis llythyrau elusennau o wlad bell yn apelio ac yn cynhyrfu'u cydwybodau. Mewn manau eraill ac amseroedd eraill byddai'i wraig bron yn ddieithriad wedi ymateb yn gadarnhaol. Ond helai Alwyn esgusion-gohirio fesul tunnell, megis i'r un od dychmygol gan gyn-olygydd cylchgrawn y di-waith yn pledio ar bobl i beidio â rhoi, rhag cynnal a chadw cardotwyr yn hwylus ar y stryd lle na ddylen nhw fod. Yna, ar achlysur bron yn amhosibl arall, efallai, llythyr go iawn, llythyr normal, cyfaill o lythyr: 'dere i mewn i gael coffi, sgwrs go iawn, adnabyddiaeth, yr hen amseroedd, chwerthin, yn her eto gan ddychymyg.' Ond heddiw, doedd dim cyfaill o'r fath yn y post yn unman, ddim yfory chwaith.

Cyrhaeddon nhw'r breswylfa; ac aeth Alwyn ati i hwylio te, llenwi tegell â dŵr, a'i switsio ymlaen, gosod eu cwpanau a soseri beunyddiol ar hambwrdd gyda bisgedi, tra oedd ei wraig yn delwi yn ei chadair freichiau heb fod, i bob golwg, yn effro i ddim, a'i golygon yn gwbl bŵl. Teimlai'r ddau'n euog, wedi cefnu ar yr ysbyty a dod yn ôl i'r tŷ. Roedd y lle wedi'i dywyllu. Roedd mor ddistaw ym mhob man fel y gallen nhw glywed meddyliau'i gilydd yn ymdroi am sut roedd eu priodas wedi'i thynnu i ben.

'Heddwch i'w llwch,' meddyliai Alwyn gan ddilyn ystrydeb a oedd yn chwerw i gyd.

'Pe bai wedi byw... ' meddyliai Sioned, ac yna peidiai.

'Yn lle ein bradychu ni, wyt ti'n feddwl, wrth gefnu arnon ni,' meddyliai yntau ymhellach... a heb ddeall dim. 'Pe bai hi wedi dod adre'n syth. Ond doedd neb gartre, neb ond estroniaid lond pob ystafell, wedi meddiannu'n gwlad fach. Sut y gallwn ni'n dau byth ffitio i mewn i'r fan yma? Mae'r wlad a'r byd i gyd wedi newid.'

'Does dim byd nawr amdani ond bod ar goll 'ma ymhlith dieithriaid. Byd newydd gwag: mewnfudwyr dŷn ni.'

'Pam y digwyddodd hyn?' holai fe'i hunan. 'Dywed rywbeth. Nid rhagluniaeth y Greadigaeth. Ti, fi, pwy wnaeth hyn? Oedd 'na ddamwain eisoes wedi digwydd yn ymennydd y Bod Mawr ymlaen llaw? Heb y drwg, chawn ni ddim adnabod cariad Duw. Cariad sy gydag E, sy'n fodlon bodoli mewn byd hagr. Onid oedd yna eithafiaeth elyniaethus a ddrylliodd y drefn hardd, gan falchder dyn? A'i ryddid ewyllys ei hunan? Fel ninnau a phawb adeg ein geni? On'd oedd yna feddwl creulon eisoes gan bawb yn ein tre fach ni wedi bod yn gyrru ymlaen ar draws y corneli, ac yna, clec? Drosti hi? Croten fechan ddibwys wedi rhedeg allan o gysgod gobaith, allan o gornel y dyfodol efallai. A chlec. Drosti hi. Hanes y byd. Mae'r drwg bob amser yn annheg.

'Na,' meddai Sioned fel pe bai wedi clywed y cwbl roedd e'n ei feddwl.

'Ydyn ni i fod i synied amdani, te, wedi'i gorffen yn barod?

'Na.'

'Ei heinioes dw i'n feddwl.'

'NA.' Ond dweud Na yr oedd Sioned wrth ei thipyn priodas yr un pryd.

'Ydy hi wedi cael ei lluchio'n llances ifanc yma, ac yna doddi ar yr allor, maes o law, ei dillad bale pili-pala?'

'Na,' ail-waeddai Sioned.

'A'n lluchio ni'n dau wedyn. Lluchio cynhaea coll y fam cyn hel i'w hysguboriau breblan swigod y baban fu ganddi hi ynghynt? Lluchio'r cwbl, Sioned. Dy luchio di a fi. Claddu oes gyfan o aeddfedu ara i un fechan? Ydy'r cwbl yn mynd? Wedi mynd? A

gollith hi maes o law gadair gornel y fam-gu? A fydd hi'n methu â rhoi moethau i'r wyrion gan gladdu broc ei chofion trwm o flaen stormydd llwyd?... Dywed rywbeth rywbeth, Sioned, nawr.'

Ddyweden nhw ddim. Roedd distawrwydd Sioned yn ofnadwy. Ond yn ddisymwth, dyma'r fam ynddi yn ymystwyrion yng ngwaelod y môr.

'Glywaist ti?' gofynnodd hi gan ogwyddo'i chlust.

'Beth?'

'Dwyt ti ddim yn credu mewn bwganod?'

'Nac ydw. Pam?'

'Gwrandda.'

'Does dim bwgan yn y tŷ 'ma.'

'Mae 'na rywbeth. Clyw... Glywaist ti? Do?' Ond doedd e'n clywed dim, wrth gwrs. 'Glywaist ti?' holodd hi eto.

'Dim.'

'Dere.'

'Dim, Sioned! Dim!'

'Awn ni lan gyda'n gilydd 'te. Ti'n gynta.'

'Ond does dim. Mae hyn yn wirion.'

'Dere gyda fi. Alla i byth fynd yn hun.'

Brysiodd e gyda hi i'r llofft ac i ystafell Del. 'Does neb 'ma,' meddai fe. Roedd y dolïau'n rhes filwrol yn erbyn y wal fel petaen nhw'n disgwyl rhywun i daflu peli atyn nhw ac ennill coconyt, a'r arth yn gyfforddus, a'r gwely'n erfyn am ei berchennog. Roedd y ffigurau bach hyn yn cilchwerthin oll am ben y ddau, ond ddim yn uchel iawn.

'Llond y lle o ddim byd,' meddai Alwyn. 'Tawelwch.' Ac yn chwerw: 'dim ond yr unfed ganrif ar hugain sy 'na. Fu gan honno erioed ddim o werth moesol i'w ddweud

wrth y dyfodol. Dim ond yr etifeddiaeth rydd, oddefgar, ddiwerthoedd bondigrybwyll, ddigyfeiriad, negyddol.'

Bwlch.

'Ie,' meddai Sioned yn ddigalon. 'Mae'n ddrwg 'da fi. Does dim... Llond y lle o'i heisiau hi yn y gwely, dyna'r cwbl.'

'Rown i'n meddwl am funud... fod hyn oll yn alegori, a bod y byd oll yn y gwely hwn.'

'Dim ôl o'i dwylo hi ar y teganau. Dim. Adwy sŵn. A bwlch llwyd a llac yn yr awyr.' Beth oedd ar ôl?

Galar plwm oedd yr ystafell. Roedd yn llawn o bresenoldeb ei habsenoldeb, ac yn llawn o'u habsenoldeb nhw. Doedd neb gartre. Doedd dim byd ond ei gwacter hi yno. Gweai'i hatgofion drwy'i gilydd fel nadredd gwallgo. Agorasai'r fam y drws yn ddi-sŵn, ond ofnai hi ei gau ar ei hôl rhag na byddai'n gallu byth ei agor eto. Doedd dim modd edrych allan drwy'r ffenestri gorffwyll. Allai hi ddim gollwng yr ystafell yn rhydd. Teimlai – yn gwbl groes i bob synnwyr cyffredin – ei bod hi'n pistyllu lawio yno. Llifai'r dafnau dros ei thalcen a'i gwallt, llifen-nhw'n nentydd i lawr ar hyd y waliau, diferennhw'n chwerthinllyd o'r nenfwd. Edrychai'r ffenestri i mewn tua'r drychau gwag i gael gweld faint roedden nhw'n wylo dros y dolïau i gyd.

Roedden nhw i gyd yno. Swsi Sws yn wincio at bawb a basiai'r drws. Gogi Gog y goli gwyn o Wynedd. Ac yn drydydd, Hyll y Dryll yn creu tyllau yn y nenfwd. A chlebran ar draws ei gilydd a wnâi'r tri hynny bob un fel breuddwydion diog. 'Dw i wedi gwneud tŷ,' meddai Gogi. 'Tŷ! Ble gest ti'r caniatâd cynllunio?' holai Hyll. 'Gan Gai Fab Caeach, Arglwydd y caeau glas. Ond, ydy e'n fyw ac yn real yn dŷ byw i bobl eraill?' 'Mae'n bur agos.' 'Oes trenau rheolaidd yn mynd yna?' 'Byth! Diolch i'r drefn. Meddylia, petai dynion yn gallu'i gyrraedd-e mewn trê'n, rwy'ti'n gwybod beth wnelen nhw.' 'Gwni,' meddai Swsi Sws, 'dyna air od. Gwni.' Mae hyn i gyd yn gyfan gwbl wallgo, meddyliai'r ddau oedolyn mud.

Bwlch. Eto.

'Mae hi fel eglwys yma,' meddai'r tad heb anadlu.

'Ydy, mae fel eglwys ar ddiwrnod cynhebrwng i ni'n dau.'

'Awn ni'n ôl.'

'Na. Cer di.'

'Ond...'

'Cer: fe ddeua-i ar d'ôl di.'

Disgynnodd e o'r llofft: aeth ar ei ben ei hun. Ond prin iddo gyrraedd gwaelod y grisiau cyn iddo glywed taro a thorri gwyllt, gweiddi a bwrw. Clywai nadu dirdynol: 'Del! Del!' Rhuglai'r waedd ar goll o gwmpas y nenfwd. 'Y Nel fach i!' Ac yna, sgrech ddiystyr hir heb fynd i unman. 'De-e-el! Gwyddai fe na allai hyn fod yn fod dynol. Rhuthrodd i fyny'n ôl. Safodd yn syfrdan wrth y drws ynyfyd.

Roedd y dolïau i gyd yn yfflon ar y llawr, yr arth wedi'i rhwygo, a'r lliciniau'n bendramwnwgl. Roedd gwylltineb lorri o'r gofod wedi trybaeddu drwy'r lle. Anadlai Sioned yn gochlwyd ar ôl y ddamwain uwchben Sws Sws, ond roedd ei llygaid tân yn llawn ofn oherwydd yr hyn a wnaethai hi ei hun. Roedd wedi eistedd ar y llawr yng nghanol yr annibendod. Fe'i casglodd ei hun at ei gilydd – ei hysgwyddau crwn, ei chalon, cymaint o draed ag a oedd ar ôl ganddi – bob aelod ohoni'n gynulleidfa wyllt, a phob cymal yn frawddeg anorffen. Rhuthrodd Alwyn ati a rhoi ei ddwylo yn dynn yn ei dwylo hi. Arweiniodd e hi'n dyner i eistedd ar y gwely. Derbyniodd hi'i harwain yn ddigwestiwn. A chan bwyll ymdawelai hi drachefn tuag ato. Ymdawelai gan gloi'i llygaid poenus.

'Dw i wedi nhagu gan eithafion,' meddai Sioned wedi colli'i hanadl ac yn goch goch ei hwyneb. 'Rown i'n naw oed pan ymwelais i a galar â'n gilydd am y tro cynta. Rhyw bicio 'mewn am bum munud ... pan fuodd nhad farw. Ond preswylfa oes gododd y galar hwn sy'n yn rhoi i ar y ngwastadedd i bellach.'

'Roedd dolur dwfn eisoes y tu fewn iti,' sibrydodd Alwyn yn dirion, 'iti wneud hyn.'



Agorodd Sioned ei llygaid. 'Y nghariad i,' meddai fe wrthi'n dyner anwesol. Edrychai fe o'r naill ddoli i'r llall. Roedd ei wraig bron yn anymwybodol. 'Y nghariad hyfryd.' O'r diwedd, torrodd hi'i distawrwydd: 'Neb! Does neb wedi gwneud hyn. Does neb yn euog. Doedd neb yna...' A beth bynnag, doedd yr un o'r dolïau yn barod i ddadlau. Dim ond gwenu'n ôl, yn ddiderfyn. Doedd dim tor yn ei hymennydd hi. Pan geisiai hi godi'r dolïau, doedden nhw ddim yn dwym. 'Mi allwn i'u goddef nhw'n gwenu i gyd faint fynnen nhw, sen nhw'n dwym.'

'Yn anwylyd annwyl annwyl,' meddai fe.

Cylchodd Alwyn am ei hysgwyddau hi â'i fraich, a'i pherswadio gan bwyll i ddirwyn ei ffordd i lawr gydag e i gael paned. Nid y tŷ hwn oedd y lle i fod gyda phethau meirwon, i Sioned nac i neb aros i chwilio am gymdeithas. Atebodd Sioned ddim. Ond derbyniodd ei harwain i lawr drachefn i'r lolfa. Yna, eisteddodd, a'i boddi'i hun yn sbringiau'r gadair tra oedd Alwyn yn gorffen hwylio'r te.

\*

\*

\*

Beth bynnag am Alwyn, eu merch nhw a lanwai holl fryd Sioned yn ddi-baid. Doedd yr un ferch fach arall debyg iddi wedi profi pryd roedd 'hardd' yn gallu mynd yn rhy hardd. Fe'i teimlai'r fam ei hunan yn hyll: 'Does dim defnydd Cristion yno-i,' murmurai gyda phendantwydd hen-hen-hen-fam-gu. 'Dw i ddim...' A chilwenodd yn chwerw. Eto, oherwydd i'r traddodiad benywaidd wneud merched yn ostyngedig, teimlodd hithau yn anrigolog fel pe bai'n dechrau brolio am y peth: 'Nid oes rhagor rhwng...gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chi yng Nghrist Iesu.' Beth bynnag am Islâm, o'i chymharu ag Islâm, nid Cristnogaeth oedd y gred a fflangellai ferched am fod yn ferched. Roedd hi'n afresymol drist. Ymledai'r dagrau o'i chalon ar draws y dyffryn: y cae rasio ar y tir isel, y rheilffordd; gwlybaniaeth sgleiniog oedd yn golchi dros bopeth, gwlybaniaeth farus, oer; seleri'r swyddfeydd trafndiaeth; ofer oedd ceisio ymgysuro drwy nôl sachau tywod; suddai'r llysnafedd ysgafn rhwng ei chraciau oll, ac ymledai dros y carpedi a'r celfi gyda'r carthion bellach lond yr hyli afiach ffrwythlon. Roedd y gwasanaethau brys i gyd yno wrth gwrs – a diolch amdanyn nhw. Ond codi pais a wnaen nhw yn eu trueni: seithug ac ymylog oedd eu cynhorthwy nhw.

Allen nhw wneud dim oll i atal prif wth anffyddlon ei galar plwm. Roedd hi fel gwlad gyfan yn diodde. Ymledu fel llyn tawel ar hyd y carped wnâ'i thristwch. Roedd dwfn ofid yn cydio ynddi drwy'r rhagafonydd mân hyn o'i deutu, tan lepien i'r canol. Disgynnen nhw yno'n drwm gan oferu'n ddiymatal. Ond yn benderfynol ara yr ymgysylltai'i hatgofion hi â'i gilydd. Casglai hi'i nerth i geisio croesi'r afon a oedd yn blonegu dros y llawr i chwyddo'r llyn. 'Yn anwylyd i,' meddai fe gan geisio'i chysuro. Roedd siarad â hi fel se-fe'n cysuro carreg-gogfolofn i ryfel. Ond fe gynhesai fe ati.

'Dw i wedi methu yn y prawf cynta.'

'Nid arwres wyt ti i fod.'

'Ond y ngweithredoedd i: tom oedd y cwbl.'

'Nid ein gweithredoedd ni sy'n ennill dim o gwbl, does dim o'r rheina byth yn ddigon.'

'Dw i'n deall dim siarad fel 'ny,' addefai hi.

'Elli di ddim *ennill* tragwyddoldeb.'

'Allwn i ddim *ennill* dim oll. Dim oll, Alwyn.'

'Yn gwmws.'

'Yr unig beth y gallwn i'i wneud yw syrthio. Fan hyn. Syrthio yn yr union le rown i fod i sefyll mor stond. Ein priodas ni, Alwyn. Ti a fi. Syrthio.'

'Tr gwaelod. Oes 'na waelod te?' Syrthiai yntau ychydig gyda hi.

'Pa werth yw peth felly wedyn, Alwyn? Dim corcyn. Wyt ti'n coelio mai ar ei ddelw Fe y lluniwyd peth fel fi?'

'Dwyt ti ddim fel y byddi di... Derbyn y peth, Sioned, derbyn...'

'Alwyn, Alwyn, rwyt ti'n rhy iach.' A theimlai fe'n euog am nad oedd e'n teimlo'n ddigon euog.

\*

\*

\*

Weithiau, beth bynnag a ddywed y byd, mae'r heddlu'n cael peth llwyddiant, hyd yn oed mewn modd gonest. Ar ôl yr ymosodiad ar Del, buon nhw'n chwilio am wybodaeth gan lawer o drigolion y gymdogaeth, o dŷ i dŷ, o siop i siop. Yn raddol, ar sail tystiolaeth weddol fanwl gan saith o dystion gwahanol – un ohonyn nhw'n neilltuol wedi bod yn llygad-dyst o'r troseddwr ei hun yn rhedeg nerth ei sodlau o safle'r drosedd – roedd ganddyn nhw ddisgrifiad gweddol fanwl o'r sawl roedden nhw am ei restio. Roedden nhw wedi gwneud ffuglun ohono. Gŵr du tua hanner cant a saith oed, chwe throedfedd o daldra, yn gwisgo tei-bo, a chrys melyn. A jins. Roedd pob treisiwr yn y byd yn gwisgo jins. Fu'r heddlu fawr o dro chwaith cyn casglu nifer o enwau posibl, dynion a allai ffitio'r disgrifiad hwn i'r botwm. Fe wnaethan nhw bortread seicolegol ohono. Roedd hynny'n dipyn o hwyl. Roedden nhw wedi gosod swyddogion i wylid yn barhaol ddau dŷ yn yr ardal. O gam i gam roedd y gwirionedd yn ymblethu o'u blaen ac at ei gilydd yn fanwl. Yn y cyfamser roedd y gwir droseddwr ei hun, ac yntau'n sgitsoffrenig, yn wyn ac yn ddeg ar hugain oed, wedi bod yn diota'n feunyddiol ac yn drwm. Y diwrnod arbennig yma, heblaw gwirodydd, roedd y troseddwr wedi yfed chwe pheint o gwrw; ac roedd ei ymennydd yn corddi'n gad-gamlan. Roedd ei gyfarfyddiad â Del, a'r posibilrwydd y gallai fod wedi'i lladd hi, yn aros yn hunlle iddo fe'n barhaus. Baglodd i orsaf yr heddlu yn awr. Pwysodd yn droseddwr dros y cownter. Syllodd yn wydrog ar y gŵr y tu ôl, ac arllwysodd ei gwd o'i flaen. Fe, ie, fe oedd yr un roedden nhw wedi bod yn chwilio amdano. Gwenu wnaethan nhw'n glên arno. Bellach roedd e wedi dod ato'i hun. Fe oedd wedi hanner lladd Del. Gwenu wnaethan nhw o hyd. Roedd y dyn wedi meddwi, ac yn amlwg heb fod yn llawn llathen. Ond byddai Del yn gallu'i gofio a thystio amdano, meddai fe. Ble'r oedd e ar y dyddiad a'r dyddiad am yr amser a'r amser? Wel gartre, nage; yn y dafarn, nage; fan hyn, na; gyda Del, na.

'Rwy'ti wedi bod yn darllen gormod o bapurau newydd ddyn.'

Fe oedd ar fai, ac roedd e'n barod i gymryd ei gosb. Gwyrodd. Syrthiodd ar draws y cownter yn glep. Torrodd wynt. 'Credwch fi!' Galwodd y plismon am gymorth cydweithiwr. Gyda'i gilydd llusgon nhw'r meddwyn i gell gyfagos, cell a welsai lawer pererin llesg o'r fath o'r blaen, nes iddo ymsynhwyro yn y bore bach.

'Rwy'ti wedi cael llond dy gylla, y ffŵl gwirion.'

Ond doedd y fath stori hurt, – mor annhebygol, mor bell oddi wrth y dystiolaeth grai sicr, – ddim yn beth dieithr mewn swyddfa heddlu. A doedd meddwdod henffasiwn llond-ffansi, ysywaeth, ddim yn ffenomen gyfan-gwbl newydd chwaith i neb yn y parthau poblog hyn. Erbyn y bore roedd hi wedi dod yn bryd i ollwng y crwt i ymdopi drosto'i hun.

\*

\*

\*

Edrychai Alwyn allan drwy farrau'i ffenest gartre. Roedd ei ystafell ei hun fel cell. Roedd yr haul yn afresymol o hardd tu allan. Teimlai mai trueni fysai mynd allan y bore hwnnw, a sbwylio'r fath dywydd braf. 'Cyfod yn y bore gyda'r gwllith. Yna, os cei di dy glwyfo, bydd neb yn sylwi ond Duw.' Wrth ei ystlys, gorweddai'i wraig. Fel hyn y byddai hi mwyach. Roedd yna ddyfodol iddyn nhw ill dau riant ar ben, dyfodol na ddeuai byth, yn gysgod concrit cysáct rhwng clustiau. Ymhen ychydig, fe ddeffroai hi, a'r fan yna roedd corff ei gŵr a chorff eu priodas. Yr ochr arall eisteddai blwyddyn dduach nag y gallai neb normal byth ei dychmygu. Roedd Del yn eu carcharu nhw. Roedd hi fel Warder yn sbio arnyn nhw'n mynd i bobman, i'r gegin, i'r toiled, i'r ardd. Rholiai'r misoedd yn grwn, yn belen dawel dynn drosti, fel pelen wedi'i chicio'n jocôs i'r gwter, fel glôb a gollwyd. Un gic, a byddai dros y wal.

'Paid â chodi ma's y bore 'ma, Sioned.'

Roedd Sioned wedi ymorol bron, ond roedd hi mor wan â llin yn mygu fel o'r braidd y gallai hi ymryddhau o'i gwely'n gynta nac o'i chadair wedyn. Hongiai ei breichiau'n llesg wrth ei hochr. Roedd ei phen yn llipa flêr yn pwysu ymlaen, a'i chorff i gyd yn cwympto ar wahân.

'Na, bydda-i'n barod chwap. Aros: mewn amrantiad.'

Ond hawdd y gallai Alwyn ganfod nad oedd ganddi ronyn o egni heddiw. Heb gymorth go gry, allai hi byth syflyd o'r fan. Roedd y cwbl wedi bod yn ormod. Gorweddodd hi ar y llawr.

'All y briodas 'ma ddim mynd yn ei blaen. Does dim dyfodol i ni.'

'Rwyt ti wedi ymlâdd,' meddai fe. 'Aros. Gorffwysa di. Fydda-i'n ôl chwap. Does dim lles i tithau fynd yn sâl, cofia. Y meddyg sy'n galw i'w gweld hi y bore 'ma. Dyna'r cwbl. Ffurfioldeb. Aros di. Does dim eisiau iti ymorol.'

'Y meddyg! Rheswm arall pam mae'n rhaid i fi ddod te.' Ond o'r braidd ei bod hi'n gallu gweld drwy'i llygaid plwm.

'Fydd ganddo fe ddim yw dim. Does dim yn digwydd.'

'Dw i'n wir faban, Alwyn.'

'Wyt Sioned, wrth gwrs gariad, a finnau gyda thi.'

'Dw i ddim hyd yn oed wedi dechrau aeddfedu.'

'O! Wyt, ryw ychydig, ond ddim ond un cam ar y tro.'

'Ble? Does gen i ddim syniad am ei hyd.'

'Na'i led. Na finnau chwaith.'

'Na'r uchder.' Siarad roedd hi heb ei deall ei hun.

'Bydd hi'n siwrnai yfflon o droellog,' meddai Alwyn. 'A lorïau gwyllt ar hyd-ddi, a waliau uchel bob ochr. Bydd 'na ormod o drafndiaeth, yn ein cau ni i mewn.'

'All y briodas 'ma ddim mynd yn ei blaen.'

Ond bodlonodd hi y bore yma fod yn rhaid cael gorffwysfeydd ambell waith ar y daith, heb rwnach rhagor am gyngor Alwyn. Aeth hi'n ôl i'w gwely wedyn yn ei chywilydd. Rholiai'i chorff yn belen o gywilydd maes o law, tra cyrchai Alwyn ar ei ben ei hun i'r ysbyty. Bore Sadwrn oedd hi, ac roedd e'n rhydd o'i waith. O hyd. Doedd dim eisiau meddwl am y Swyddfa. Gallai anghofio'r staff a'r strès. O hyd. Dôl haul ar fryn.

Ond doedd rhyddid heb waith ddim heb ei wendidau.

Yn y dre, caed dau rythm i'r flwyddyn. Yn y gaea, ar eu dyddiau gwaith, roedd staff y Brifysgol gerllaw'n cerdded, bennau i lawr, wynebau'n wag, a'u traed yn eu twyllo'u hunain fod ganddyn nhw bwrpas rywle pe baen nhw'n gallu dod o hyd i ddigon o gymorth gweinyddol i'w rhyddhau ychydig. A chyda nhw, caed loetran endemig y myfyrwyr, yn eu hoedi cyson i ddarganfod ei gilydd. Hynny oedd y gaea, hyd nes y

diflannai'r dyrfa ddeublyg honno. Wedyn ddi ymwelwyr synfyfyriol yr ha â'u rhythm hurt hwythau. A thybiai'r rheini mai ymdroi oedd diben bywyd o hyd yn y lle bach hwn – astudio'r awyr a darllen y môr ac efrydu ychydig bach ar ei gilydd, heb bwrpas arall o fath yn y byd, – ond bod yn ddynol. Chaed dim undod rhwng dau ben y dyddiau, y dechrau a'r diwedd, yn agored – ond yr oedd yna undod yno, yn gudd fel cysgod sinistr drwy gydol y flwyddyn. Felly'r ganrif.

Ofnai Alwyn fod rhyddid rhag gweld y gwir derfynau i unrhyw waith mor ofer â'r gwaith ei hun: nis llanwyd gan ystyr. Ond daliai i feddwl yn nhermau alegori.

Ymlwybrai i'r ysbyty drwy law mân newydd-eni o rywle. Disgynnai hwn ar ei dalcen fel plu. 'Ac roeddwn innau wedi synied mai'r unig nod i law oedd ein boddi ni, pe gallai, nid ein treulio.' Cyrhaeddodd ben yr heol, lle y gwelai feddyg ymgynghorol dieithr ar ymweliad arbennig â'r ysbyty y diwrnod hwnnw am ryw reswm.

'Dim newid, Nyrs?' gofynnodd Alwyn pan gyrhaeddodd y ward.

'Nac oes. Ond roedd gan y Doctor un awgrym neithiwr. Syniad roedd o,' meddai'r Nyrs, 'y galla fod yn werth rhoi cynnig i arwan dwylo Del i gyffwrdd â rhyw degan cyfarwydd, neu glywad sŵn rhyw chwaraebath i'w hysgogi hi, rhywbath fyddai'n gallu cyffroi rhyw matab, rhyw ymosodiad bach ar yr ango, cymall rhyw ddiddordab 'wyrach... Unrhyw beth y tybiwch ei fod o'n bwysig iddi. Rhywbath i'w wneud...'

'Dŷn ni ddim yn gyfoethog. Ond dŷn ni'n barod i wario.'

'Does dim rhaid iddo fod yn ddrud 'lly. Gwell peidio â chael dim newydd – rhywbath gartra sy'n bwysig iddi neu sy'n gyfarwydd iddi, 'lly.'

Pan gyrhaeddodd yr Ymgynghorydd dieithr y bore 'ma, bu'n rhaid i Alwyn ymneilltuo o'r ystafell am ryw ychydig. Ond fe'i galwyd yn ei ôl ymhen tipyn. Daliai'r Ymgynghorydd i glebran â'r Brif Nyrs yn neilltuedig wrth droed y gwely. Aeth Alwyn i eistedd ar bwys Del. A'r funud yna, am y tro cynta drwy gydol y salwch, dyma sŵn yn echblygu o enau Del. Sŵn ysgafn, ysgafn, o'r oes neolithig, sŵn myngus, bloesg. Mor annelwig fel na chlywai na'r Brif Nyrs na'r Ymgynghorydd mohono. Atgo o sŵn oedd e

megis yng nghanol corwyntoedd o lwch cyntefig. Twyll addawol. Ond i Alwyn roedd yn ddigon pendant, hyd yn oed yn eglur. Yn wir, gallai dyngu bron iddi yngan 'Dad.' Po fwya y meddyliai amdano, sicra yn y byd oedd e. Trodd yn wyllt at y ddau wrth droed y gwely. 'Glywsoch chi hi?' gofynnodd allan o lond cert o amau.

'Beth?' gofynnodd yr Ymgynghorydd yn fwyn.

'Siaradodd hi.'

'Beth?' meddai'r Brif Nyrs yn syfrdan. 'Siarad! Beth ddwedodd hi?'

'Dad.'

'Dyna i gyd?' meddai'r Ymgynghorydd yn fwynach byth.

'I gyd!' ebychodd Alwyn yn syn. 'Dych chi'n disgwyl iddi glebran ar unwaith?'

'Ond, oedd y gair yn glir 'lly?' holodd y Brif Nyrs yn llai syfrdan. 'Ei hanadlu hi oedd o.'

'Nac oedd... Dyd efallai.' Trodd Alwyn yn ôl at ei ferch mewn anghysur. 'Dw i yma, Del. Fi, Dyd.' Darostyngog bur oedd ei unig famiaith ar y fath achlysur, ac fe'i llefarai'n rhugl. Edrychen nhw ill tri arni, Alwyn yn wyn befrnog o obeithiol, a'r ddau arall yn llwyd o sgeptig. Di-ddweud a di-liw hollol oedd y peth bach ei hunan, y plentyn, y diferyn o fodolyn rhyngddyn nhw, y peth mwya cyffredin ar wyneb daear: llwch bywyd. Mudandod.

'Ydych chi'n siŵr ei bod hi wedi ynganu gair go iawn?' gofynnodd yr Ymgynghorydd. Ond atebai Alwyn ddim mwyach. 'Ellwch chi fod gant y cant yn siŵr?'

'Chlywsoch chi moni?' holodd Alwyn yn anesmwyth.

'Naddo,' meddai'r Brif Nyrs. '*Isio*'i chlywed hi roeddach chi. Eich hirath chi oedd yn ei chlywad hi, 'lly.'

Arhoson nhw ymhellach am ychydig o funudau, y ddau swyddogol o staff meddygol. Eithr doedd yr un smig yn dod eto o gyfeiriad y claf. Cyn bo hir llithron nhw ill dau, y Nyrs a'r Meddyg, fel awelon anwybodus allan i'r coridór. Gadawon nhw Alwyn yn llygadrythu ar y bwndel llonydd gan fynd yn ôl yn ei go dros y posibiladau

yna o sŵn roedd wedi'i glywed mor bendant. A 'Dyd' oedd y gair, roedd e gant y cant yn sicr o hynny. Mwy neu lai... Bwlch.

'Does dim ots, Del. Dw i'n deall. Does dim eisiau dweud mwy heddiw. Dw i yma gyda thi. Fi. Dyd... a beth yn nhw, y bobl ddiarth, yr amheuwyr hyn? Cyfog, Del, cyfog.' Dieithryn yn sicr oedd y Brif Nyrs ei hun; dieithryn hefyd yr Ymgynghorydd.

A'r pryd hynny, yn ddiarwybod i'r un ohonyn nhw, roedd y gŵr ifanc dieithr sgitsoffrenig hwnnw, yr un a'i treisiai hi, yr un a glywsai leisiau yn gorchymyn iddo'i wneud, yntau hefyd yn corddi'n ddieithr mewn man arall heb fod yn bell, ond yn yr un adeilad o ofid anneallus. Dyna'r bygythiad mawr. Yr ymosodydd dryslyd ac unig.

Roedd atgofion yno wedi llamu arno yntau hefyd, a'i larpio. Er ei ddieithrwch, roedd yn awyddus i gael cipolwg o'r newydd heddiw ar Ddel. Y diniweidrwydd gwelw, y llygaid gloyw gwelw-gaeedig, y perffeithrwydd babanaidd. Ond ofnai y byddid yn amau'i gymhellion. Byddai rhywun yn siŵr o synied ei fod e am ymosod arni eto.

Beth bynnag, fe gyrhaeddodd e'r ysbyty. Ymbalfalai ar hyd y coridorau gan sbecian i'r llygaid yn yr is-wardiau, y naill ochr a'r llall. Arweiniai'r is-wardiau hynny allan o'r prif lwybr fel math o gyfeiliornadau mewn drysfa. Drosto yno, o'i ben i'w draed, diferau euogrwydd sgitsoffrenig ar goll.

Gwelwyd y dyn hwn, – a gerddai'n od ac a lygadai bob man, – gan Nyrs. Dyma hi'n mynd ato: 'Ga-i'ch *helpu* chi?' Ar y gair, arswydodd trem y gŵr. Roedd hon yn ei wahodd e ymlaen â'i berwyl. Doedd e ddim yn gallu byw yn y sgwrs hon, dim ond teimlo. Trodd ar ei sawdl yn ei ddryswch, a rhedeg nerth ei lygaid. Llygadai bopeth. 'Dw i wedi gwneud rhywbeth ofnadwy,' meddai'r gŵr wrth ei galon. Rhedodd fel pe bai drwy wal frics. Pystylai'i galon fel trafndiaeth naw y bore. Tywalltodd teiars ceir swnllyd dychmyglon ar hyd y coridorau a chryn dipyn o drafnidiaeth a adawsai y tu allan. Gwthiai, gwthiai. Roedd ei holl gelain e'n difaru wrth ddychmygu ceir.

Yn ddiweddar, yn yr ysbyty fe osodasid cyfundrefn larwm newydd a dyfeisiau diogelwch drudfawr yn arbennig o gwmpas ward y plant. Dim ond unwaith o'r blaen y'i defnyddiasid, a hynny ar gyfer practis. Fe'i gosodwyd yno oherwydd bod rhywun wedi lladrata baban newydd o'r ward esgor, yn ddiweddar. Dyma'r Nyrs yn gwasgu'r botwm



priodol gerllaw mewn penbleth byrbwyll. Un o'r effeithiau hyn oedd cloi drysau gwydr porth y fynedfa yn y pen draw. Gollyngwyd hefyd sŵn larwm ar hyd pob coridór. Pan gyrhaeddodd y gŵr hwn y porth, roedd y fynedfa wedi'i chloi arno, allai fe ddim mynd ffordd yna. Y ffordd acw? Na. Cydiodd e, ar amrantiad, mewn cadair ar bwys, a'i lluchio'n llachar drwy'r ffenest. Roedd fel se chwalu honno'n gyrbibion yn ffordd naturiol o ymadael ag ysbyty. Dihangodd y dyn dieithr drwy'r twll gan doddi'n hallt yn y glaw a'r sŵn a'r bobl a'r palmentydd. A'r eliffantog geir.

Digwyddodd y cwbl hwn ar blaned arall. Wyddai tad Del ddim amdano. Ar blaned arall eto byth yr ymadawodd Alwyn ag erchwyn gwely'r ferch, heb ddeall dim am y gŵr ifanc a'i giamocs. Ar blaned arall hefyd gadaw-wyd Del ar ei ôl yn teyrnasu mewn gŵn gwyn pell yn ei gwely oer. Arhosai pawb arwyddocaol-ymrwymedig mewn anwybodaeth. Wyddai'r rhan fwya o'r ysbyty odid ddim am hyn oll, heblaw sŵn y larwm.

Wedi i Alwyn yntau ymadael â'r ward, fe dyfodd y daith adre'n gynhyrriad newydd iddo. Sylweddolodd fod ganddo, gartre, un person fyddai'n dymuno credu pob tystiolaeth o'i eiddo. Credai honno fwy nag a ddwedai fe byth. Allai fe ddim aros heb ddweud wrthi am y datblygiad mawr newydd. Y darganfyddiad: y sŵn gan eu merch. Y wyrth fendigaid. Gwaeddodd bron cyn agor drws y tŷ: 'Sioned! Dw i wedi'i chlywed hi!'

Doedd hi ddim yno. 'Sioned!' gwaeddai fe, gan ruthro i'r llofft, i ystafell wely arferol ei ferch. Doedd hi ddim yno chwaith.

Roedd e wedi ofni hyn. Ym mhwill ei galon, roedd e wedi ofni y bysai Sioned yn ffoi. Ffoi rhagddo fe y byddai hi – pe gallai: beth bynnag, ffoi rhagddi hi'i hun yn sicr.

Disgyrchodd e i'r ardd. Fforiai'r sied, gan weiddi. Fforiai'r llwyni tew yng ngwaelod deheuol yr ardd gyda'r rhododendra. Doedd hi ddim yno. 'Sioned! Sioned!'

Roedd hi wedi peidio â bod ym mhob man. Hi, ei wraig, ei unig wraig. Hi. A'u priodas. Eu gwynfydus briodas. Gobeithio nad oedd hi ddim ... na bysai hi byth... ble roedd hi? .... Gwyddai fe rywfodd y byddai hi'n ceisio ... na... rhedai fe'n ôl ac ymlaen drwy'r un ystafelloedd drachefn rhag bod yna un cwpwrdd ... un cliw... un marc... un dilledyn absennol. A oedd hi wedi ymadael ag e?

Sioned! Sioned! Un peth doedd e ddim yn mynd i'w wneud oedd peidio, nac aros, doedd e ddim yn mynd i ddisgwyl dim na rhoi'r gorau iddi.... Allai fe ddim aros – heb fynnu cyrchu i'r eitha, heb ofni'r gwaetha, heb ymdrechu ac ymdrechu yn ddioghiriad, ar unwaith, i droi pob carreg, i ddefnyddio pob dull a modd, i'w hatal hi o leia rhag bod yn wirion wallgo o ffôl. Na, Sioned. Holai amdani gan Gylch Clebran y dysgwyr. Pobl yr eglwys. Cymdogion. Ble roedd ei wraig? Del! Sioned! Trodd yn ddiymdroi at yr heddlu. Doedd swyddfa'r heddlu ddim yn bell o'r tŷ. Rhedeg yno wnaeth. Tywalltai'i ofidiau a'i ofnau yn ddiatlnod gerbron y swyddog ar ddyletswydd wrth y ddesg. Casglai hwnnw – honno – drwy'r niwl bob manylyn perthnasol ac amherthnasol, gyda'i lofnod e. Ond allai Alwyn ddim mynd adre hyd yn oed wedyn. Ble gallai fod? Doedd yr heddlu ddim yn ddigon. Doedden nhw ddim yn ddigon ofnus na phryderus na gorffwyll. Roedd eisiau bod yn orffwyll: dyna oedd yn gall. Doedd hi ddim yn swyddogol ar goll am ddau ddiwrnod arall. Ble roedd hi? Ble âi hi ar achlysur fel hyn? 'Sioned!' gwaeddai. Trôi e i barc gerllaw a chribo pob lle a llwyn â'i lygaid.

Fe fuodd e wrthi am oriau. Daeth hi'n nos. Ond âi e yn ei flaen beth bynnag. Âi hi'n dywyllach dywyllach. Dechreuai hi lawio. Ond roddai fe ddim o'r gorau iddi. Sioned! Penderfynai mai casglu mintai o gyfeillion fyddai ddoetha, galw ar y lluoedd o gydnabod i'w helpu, ffonio hwn a'r llall, hel cynorthwywyr, gwneud rhyw beth. Mae'n siŵr ei bod hi'n llefain rywle. Ble gallai hi fod? Roedd hi'n glawio'n wyllt nawr ar ei stumog, ar ei benliniau. Dyw glaw byth yn dod pan fydd ei eisiau fe. Efallai'i bod hi wedi dod yn ôl i'r tŷ. Ymlwybrodd adre, cydiodd yn y ffôn, ble oedd hi, beth oedd hi'n ceisio'i wneud? Chafwyd dim ateb cadarnhaol na neb, na'r un achlust ohoni.

Cododd. Galwai drachefn o gylch y tŷ, yn ofer, yn uwch, uwch. Galwai o'i galon. Galwai â'i berfeddion. Gwaeddai fel baban yn y nos.

'Sioned! Sioned!'

Doedd dim un ateb. Dwedai pawb y ddi hi adre'n fuan. Ond doedd dim yn disgwyl dim. Efallai mai dyna oedd o'i flaen yn awr. Byd heb ateb. Bywyd heb Sioned. Anadlu heb na Sioned na Del. Gweiddi a gweiddi'n ofer am weddill ei oes mewn gwacter i gyd yn feunyddiol. Gorwelion seithug. Gweiddi ar absenoldeb ffôl a ffaidd a

ffals, Sioned y nghariad bythol i. Ymlwybrai eto i'r llofft ac wrth erchwyn gwely'i ferch suddai'n llipa'n glwtyn brwnt, musgrell, ara ar ei liniau i weddio. Y merch i! Yn unig ferch! A'm hunig wraig gyda hi! Claddai'i ben plwm yn y matras mud. A gweddïai i'r gwacter ofnadwy.

Ac yna, yn ddisyfyd efallai, fel utgorn pell ar fynydd pell, fel anifail yn gwingo bron yn anhyglyw ar waelod pydew, dyma sibrydiad egwan o ochenaid anobeithiol, y peth lleia, wedi gwichian, ychydig oddi tan y gwely fan yma ar y llofft. Yn ddi-sŵn bron. Fel gast fechan wedi'i chicio a'i cham-drin. Crynodd e, a rhewi. Hi? Ei wraig? Ai hyhi oedd yno? Roedd hi'n amhosibl. Roedd hi wedi cripien dan y gwely. Roedd hi yno. Gwelai fe hi. Mor agos at y ddaear ag y gallai fod. 'Dyd,' murmurai hi.

Gorweddaï hi yno ar ei hyd a'i hwyneb i lawr yn y carped, roedd ei wraig yno. Dyna lle roedd hi ar ei hyd yn y carped. Dyna lle roedd hi druan wedi dianc i gario'i briwiau. Dyna lle y mynasai ymguddio rhagddi'i hun, yn ofer, yn seithug, yn wag. Heb ei gŵr. Heb ei merch. Heb ddim yw dim.

'Sioned! Sioned fach yn anwylyd i, gwranda.' Atebai hi ddim er bod cysgod o ochenaid unig arall wedi dymuno ymadael â hi, ychydig, mor ychydig.

'Sioned, gwranda nghariad bach, dw i wedi'i chlywed hi.'

Doedd Sioned ddim wedi deall dim o'r fath ddatganiad. Hi: pwy oedd 'hi'?

'Clywed!'

'Mae hi wedi ll-llefaru,' meddai fe ymhellach, gyda pheth atal-dweud.

'Pwy? Del? Na.'

'Do. "Dad" ddwedodd hi. Fel 'na.'

'Dad?'

'D-dyd. Rhywbeth fel 'na, cred di fi. Mae b-bywyd yn llawnach o heulwen nag y gallwn ni fyth ei ddychmygu, Sioned. Heulwen a phobl dda, Sioned. Melys, melys o oleuni, nghariad i, a'r heolydd a'r tai. Dŷn ni wedi dod yn annisgwyl i mewn i fyd

caedig, Sioned, a ninnau wedi meddwl erioed mai tomennydd sbwriel oedd 'na a mynyddoedd o boen.'

'Nid ti oedd yn dychmygu? ... Nid dy du mewn di?'

'Dwyt ti ddim eisiau credu?'

'Dyw-hi ddim yn wir ... Wel ydw, ydw, wrth gwrs, dw i'n credu.'

'Fe ddwedodd hi "D-dad". Dere ati.'

'Nawr?'

'Gawn ni fynd i roi'n hysgwyddau dan y cymylau i gyd. A'n priodas ni, Sioned, ni'n dau. Eto. Yn ôl!'

Siglai Sioned ei chorun mewn anghrediniaeth ronc... 'Hoffwn i sen i'n ei chlywed hi'n hunan. Dw i'n dod yn ôl gyda thi nawr.'

Roedd y Nyrs yn rhwbio bochau Del pan gyrhaeddod nhw'n ôl yn yr ysbyty.

'Wnaeth hi ragor o sŵn, Nyrs?' holodd Alwyn.

'Dim. A dweud y gwir, does dim cystal hwyl arni heddiw.'

'Mae hi'r un fath,' addefai siom Sioned, wedi marw hyd yn oed i'w hiselder ei hun.

'Os gall hi ddweud *un* gair,' meddai Alwyn, 'gall hi ddweud dau. Cant!'

Bwlch.

'Dyw hi ddim yn wahanol,' meddai Sioned. 'Dyw hi'n dweud dim. Dyw hi'n gweld dim. Yn clywed dim. Does dim atgyfodiad. Rown i'n gwybod mai fel hyn y bysai hi. Mae hi wedi claddu'i holl eiriau yng ngwaelod y môr.'

'Ddim eto,' meddai Alwyn.

'Dw i'n credu, Mr Dafis, mai'r llwybr calla i'w ddilyn,' meddai'r Nyrs, 'yw'r un awgrymodd yr Ymgynghorydd. Pe baech chi'n gallu ysgogi'i hymennydd hi rywfodd drwy ddod â rhyw ddol – ia, dol – sy'n gwichian, neu ryw hoff chwaraebath sy'n cadw

rhyw fath o sŵn, yna, mi alla'r un gair 'na glywsoch chi, yr un dach chi'n sôn amdano fo, mi alla hwnnw ddod yn ei ôl eto. Falla.'

'Ond dod â beth er enghraifft?' ebychai Sioned mewn diymadferthedd. Ac edrychai yn ôl tuag at Del, gan wybod mai rhith hollol oedd y lleferydd yna glywodd Alwyn, twyll syml, dychymyg ffaidd. Doedd yna ddim lleferydd dolennog mewn ystyr.

'Rhywbath syml.'

Beth oedd 'dweud' un gair? Yr hyn a niweidiwyd yn ddyfna oll – hyd yn oed yn ddyfnach na geiriau – fysai'i gallu hi i gysylltu atgofion. Yr hyn a niweidiwyd ym mywyd Del oedd cyswllt. A'r iaith wedyn a allai'i hailadeiladu hi'n undod fel person. Eisiau cyswllt oedd arni. I gofio'r byd yn unol. I gofio'i rhieni. I'w rhoi nhw'n ôl at ei gilydd. I gofio'r dolennau brau rhwng y chwalfa a threfn. Rhoi pethau i gyd yn ôl at ei gilydd ar ôl y dryswch. Dau beth. Beth oedd rhieni a'r holl orffennol a phob dim arall heb fod pethau'n gallu perthyn i'w gilydd? Teimlai'r rheini yn eithafol o unig. Rhan o'r argollrwydd oedd pawb.

Cysgod mawr unig o ddigyswllt nawr, tal a gosgeiddig, oedd eu priodas, fel y dderwen ar y lawnt tu allan i'w tŷ lle y dringasai hi'n groten arni; coeden a allai fod yno oedd hi, coeden eu mymryn gobaith, – a choeden Del.

\*

\*

\*

Trwm oedden-nhw wrth gyrchu'n ôl o'r ysbyty tuag adre; trwm iawn. Sylwon-nhw ddim ar y gŵr ifanc a safai y tu allan i borth yr ysbyty. Sylwon nhw ddim chwaith ar ei ddwylo yn ei bocedi, a'i lygaid llygoden yn chwilio ffenestri'r ail a'r trydydd llawr a'r maes parcio a'r fynedfa. Dichon, pe baen-nhw wedi'i weld e, bydden-nhw wedi sylweddoli fod yna un arall yn y byd hwn roedd cyflwr Del mor dyngedfennol o ingol iddo ag roedd e iddyn nhw. Ond sylwon nhw ddim arno. Pason nhw'r parc mawr. Suddai'r haul yn ei ysblander y tu ôl i doi'r gorwel, ond nid cyn bwrw un cilolwg yn ôl. A chlywen-nhw ddim o'r haul yn sibrwd mor amherthnasol, 'Yn iach, a diolch ddaear.'

Uwchben eu cinio roedden-nhw pan safodd Alwyn ar ei draed. 'Ysbrydoliaeth!' meddai. Edrychodd Sioned arno'n syn.

'Dw i'n gwybod,' meddai fe'n fuddugoliaethus. 'Wyt ti'n gwybod beth fyddai'n ei phlesio? Wyt ti'n gwybod beth roddai wefr iddi? Ysigwyd chwilfrydedd Sioned. 'Ystyria, Sioned.'... Allai hi ddim ystyried. 'Meddylia am un peth, un person. Un tamaid o fywyd sy'n ei chyfareddu. Pe bai hi ar ddi-hun ac yn gallu dweud wrthon-ni – “dyna un y byddwn i'n hoffi'i gweld uwchlaw pobun? – pwy wyt ti'n meddwl fyddai ar ei gwefusau hi?'

'Pwy?' meddai Sioned wrth y wal.

'Gwn i. Yr un mae hi wedi sôn amdani gant a mil o weithiau fel arwres ei bywyd.'

'Miranda Luccini!' ebychai Sioned.

'Yn hollol.'

'Ond... beth?... pam?... Mae hynny'n amhosibl.'

'Mae'n ffitio. Dawnsraig bale enwoca Cymru.'

'Ond pam sôn amdani *hi*?'

'Ei harwres hi. Del ei hun sy'n dewis sôn amdani hi byth a hefyd: hi.'

'Beth yw'r pwynt? Rwyd ti'n mynd o un dychymyg i'r llall.'

'Yn ardal Abertawe mae hi drwy gydol yr wythnos hon, ac yn gorffen yn y Grand nos yfory. Petawn i'n mynd draw a dweud y stori wrth honno... Merch o Gwm-twrch isa yw hi, yn wreiddiol. Cymerodd hi ffugenw er mwyn ymaddasu i'r amgylchfyd bale. Os a-i i lawr...'

'Ac apelio at ei chydymdeimlad hi? Bydd yn realistig, Alwyn. Siarada fymryn o synnwyr. Mae hi'n fydenwog.'

'Ie, dweud y stori i gyd. Mae hi'n dod o Gwm-twrch isa. Mae hi i fod yn dipyn o ffeminist.'

'Ffeminist! Beth yw ffeministiaeth i rywun ariannog fel 'na? Sut gall ffeminist ymostwng i wasanaethu Del? Mae'n ormod o fenyw hyderus. Yr unig ffeminist hollol ddilys yw'r un sy eisiau bod yn wryw.'

'Os clywith honno am y Dyn wnaeth hyn...' Ac yn y fan yma torrodd lleferydd Alwyn. 'Y gwryw wnaeth hyn...' Peidiodd. 'Bysai dial ar wrywdod drwy iachâd rhyfeddol yn dipyn o hysbysrwydd yn y papurau.' Roedd cyfeirio at wryw yn awr yn galw'r holl ddigwyddiad a'i holl euogrwydd ei hun a'r holl fwch, yn ôl i'w ddychymyg.

'Y gwryw dreisiodd Del,' meddai Sioned. 'Ac rwy'ti eisiau i hwnnw fod yn rhan o'r iacháu. Dwed y peth yn agored, Alwyn. Y gwryw. Dwed e.'

'Gwryw. Angau ei hun. Dyna pwy oedd e.'

'Gwryw! Gwryw du. Roedd e'n wŕ go iawn,' meddai Siôn, fel pe bai'r dyn o flaen ei llygaid.

'Angau o ddyn oedd e. Fel y math o ddyn sy'n dienyddio â bwyell drwy'r gwddwg heb hidio botwm corn.'

'Ond mae e ym mhob man y dyddiau hyn, Alwyn. Mae'r peth mor gyffredin. Rhan o gyfoesedd yw hi. Edrych ar ein cymdeithas. Fe yw'r unfed ganrif ar hugain. Rwy'ti'n gwybod hynny. Neb yn ddilys. Dynion a merched, merched yn dynwared dynion, ffwrdd â hi, yn "rhydd", yn "oddefgar". Allai Miranda Luccini ddim rhedeg ar ôl pob un i amddiffyn merched wedi'u treisio. Mae hi'n fenyw rhy brysur o enwog. Byddai'n waith llawn-amser.'

'Ydy, mae'r broblem dreisiol ym mhob man.'

'Edrych ar y teuluoedd ysgafn penagored sy heb fod yn deuluoedd go iawn. Fe sy 'na. Edrych ar wanc y bobol sy'n rheoli gwleidyddiaeth. Y llygredd. Mae'n broblem ry fawr hyd yn oed i Miranda Luccini fod yn elusennol ym mhobman anghenus.'

'Ydy. Mae'n farwolaeth go iawn siŵr ei gwala,' cyffesodd Alwyn. 'Y trais ar fenywod, a phlant, y twyll, maen nhw'n weddau ar ein canrif ni. ... Ond fe allai stori Del, stori am ferch fach bert, a'i thrais ffaidd, stori bersonol a allai apelio at y cyhoedd, gynnig cyfle am gyhoeddusrwydd newydd i rywun fel Luccini. Rhywbeth gwahanol...  
SEREN BALE YN CYNNIG SWCWR I FERCH FACH DREISIEDIG.'

'Na!'

'Gallai. Paid ag ildio, Sioned. Gallai. Brwydr sy gynnon ni yn nannedd poenus y byd i gyd. Dw i'n mynd lawr i Abertawe y pnawn 'ma. Meddylia amdani'n mentro draw yfory at erchwyn gwely Del, er mwyn deffro'r dywysoges hardd sy'n cysgu'n anymwybodol. Dyna i ti stori.'

Ac felly yr aeth Alwyn at lygad y ffynnon. Ymwthiodd i mewn heibio i bob rhwystr. Ond ychydig o groeso gafodd e yn ystafell wisgo Miranda Luccini. Rwtîn prysurdeb gyda'r coluro oedd yn y fan yna. Dyna'i byd hi. Ar y silff gyda'r coluro dan y drych o'i blaen – ymhlith y minlliwiau, y powdr a'r paent, – nythai blycheidiau o fitaminau fel rhes o gerrig beddau: Fitamin D Plws, Glwcosamîn a Chondroitin yn gymhleth, Gopo, Olew Afu Penfras, Warffarin, Lercanidipin Hydrochlorid, ac eraill yn fyddin ddewr. Roedd gan y wraig fonheddig hon wallt hefyd a'i liw yn syth o'r botel; aelïau, dwy goes yn ôl yr arfer, sawl ceg. A! Ie. Bwrw golwg chwim ola ar ran o'r sgôr cerddorol roedd hi. Gair bach ola tyngedfennol. Roedd hi'n brysur. Wedi'r cyfan, Miranda Luccini oedd hi. Dyma'i bywyd.

Ymledai'i theyrnas ymhell o'i bord wisgo i Philadelphia, Efrog Newydd, Berlin, Hong Kong. Safai'i photeli hoff a brenhinol i sawl perwyl cosmetig mewn rhengoedd balch bob amser yn barod i'r cyrch nesa yn hen ryfel diddanwch. Y 'morynion gwarcheidiol' y'u galwai hi nhw â hoffter anghymedrol. 'Maen nhw'n annwyl iawn i fi,' ychwanegai gyda mymryn bach o frwdfrydedd.' Hebddyn nhw byddai ei hwyneb hi'n diflannu. Na: allai hi byth dros ei chrogi orymdeithio hyd a lled y wlad fel ffwl gwirion i weld cleifion, roedd arni ofn, roedd hi'n felltgedig o brysur.

Fe grynai fe mewn petruster o'i blaen. 'Ychydig o orïau,' meddai fe.

'Orïau! Na, myn diain i! Does gen i ddim eiliad.' Roedd ganddi awyren i'w dal yn Heathrow cyn gynted ag y byddai hi'n rhydd. Beth ddwedoeh chi? Mynd yn syth at Del, yno ar draws gwlad? Bum munud! Bobl bach, oedden nhw'n deall pwy oedd hi? Roedd hi'n brysur hyd at ei gweflau. Pe na bai hi'n colli'r awyren honno heddiw beth a ddigwyddai yn Philadelphia wedyn?

'Dim byd pwysicach na thranc merch fach,' meddai Alwyn. 'Ond fe allen ni dalu rhywfaint.' Roedd e mor barod i ymostwng i'r eitha iddi!



'Na. Allech chi ddim talu am gollu oed eithriadol o bwysig yn Philadelphia.'

'Fe allen ni godi morgais ar y tŷ.'

'O!' ochneidiai hi'n rhugl mewn pedair iaith... 'Allwch chi ddim gwneud iawn am ddistrywio gyrfa.'

'Dw i'n erfyn arnoch chi. Dyw hanes y ferch fach ddim yn cyffwrdd â chi?... Oes gynnoch *chi* ferch fach?'

'Fi. Na. Dyna'r peth ola dw i eisiau yn y mhroffesiwn i.'

Roedd y cysgodion yn cloi am Alwyn. Onid oedd rhywbeth y gallai fe'i wneud?

'Na. Mr Dafis bach, – da chi, – wnewch chi geisio deall y nhipyn safbwynt i? Mae gen innau fywyd. Dw i'n brysur fel lladd-dy. Mae miloedd o bobol yn dibynnu arna-i.'

'Ond *un* ferch fach.'

'Miloedd! ... Fyddwch chi mor *garedig* ag ymadael nawr?'

'Caredig?'

'Os gwelwch chi'n dda.... Mae gen i fywyd i beidio â'i daflu i ffwrdd. Gofod. Mae eisiau gofod arnon ni i gyd.'

A throdd Miranda i ffwrdd yn brysur i gymryd ei lle ymhlith Cymryesau enwog yr oesoedd – Buddug, Ann Griffiths, Kate Roberts, a'r Dywysoges Diana.

'Allwch chi ddim deall? Dw i'n erfyn. Erfyn!' murmurai Alwyn wrth ei gofod hi. 'Mae gynnon ni briodas, a pherthynas, a merch.' Gyrodd e'n ei ôl adre. Mor ddychrynlyd oedd meddu ar fedddwl fel Miranda Luccini. Cenfigennai wrth bobl oedd yn gallu anghofio dioddefaint y byd, er mwyn diddanwch. Na. Nid haint na ellir ei iacháu yw Bywyd, sibrydai Angau yn ei glust, ond llais aderyn croch i'w anghofio. Ymlusgodd drwy'r parc wedyn tua'r ysbyty. Na. Roedd Alwyn wedi colli pob gobaith.

Sylwodd e ddim ar y gŵr ifanc gwyn yn feddw gaib ar sedd gerllaw gyda photeli gweigion meth yn gylch dychmygedig fel milwyr meirwon o gwmpas ei draed ar y llwybr. Roedd yntau'n barod i'r Somme pe bai rhaid. Er bod y gŵr ifanc sgitsoffrenig yn

mwmial siarad, chlywai Alwyn ddim a ddwedai. Na. Hoffai pe gallai glywed llai o bethau yn yr hen fyd 'ma. Pes clywsai, diau na chymerai'r cwbl ond yn fynegiant cymysglyd gan rywun heb afael go iawn ar ei synnwyr. Yng nghanol ei gwrw euog, brwydrai'r gŵr ifanc hwn â'i nwydau. Roedd rhaid iddo dalu, rywbyrd, yn fuan, nawr. Wrth gwrs! Carchar? Yn sicr! Neu hunanladdiad? Debyg iawn. O! Roedd yn rhaid bod yna ffyrdd sicr i ymunioni. Pe bai e'n cyflawni rhyw drosedd gymharol ddiniwed ond agored, yn awr, dichon mai o'r herwydd y byddai'r ddeddf yn ei roi e o'r neilltu. Ond beth oedd o'r neilltu? "O'r neilltu" oedd ei ddodi fe y tu hwnt i gyrraedd pobl wâr. Geuddrych gwelw a ddiddanai'r gŵr ifanc. Dychmygai'r posibiladau ysgeler addawol.

Fe ddychmygai'r gŵr ifanc ei fod e'i hun gerllaw yn gudd mewn iard gyfagos, yn awr, yn sylwi ar blismon, ac yna o flaen siop emau, yn chwennyech, yn dychmygu chwennyech malu'r ffenest â bricsen, er mwyn tynnu sylw cyfreithiol, a dwyn rhai o'r nwyddau. Rhedai'r crwt, rhedai'n ymddangosiadol wyllt yn ei ddychymyg, ond heb wneud gwir ymdrech, ac yna fe'i delid e o'r diwedd, a'i roi mewn cell, a'i gosbi'n gyfiawn, O! Ei ddal mor haeddiannol, fe'i daliwyd e gan blismon yn ei ddychymyg, yr un plismon yn union ag a fu o'r blaen yng ngorsaf yr heddlu. 'Ti eto,' meddai hwnnw o oerni'i ddychymyg. A! Dychymyg; gwydraid bach bach o ddychymyg heb waelod. Delweddu mewn ffansiön tlawd carpiog cas.

Aros yn amyneddgar obeithiol am ei gŵr roedd Sioned ar y pryd yn y ward. Bu hi'n clebran sibrawd yn daer ddyfal â'i merch ddiymadferth fud drwy'r bore. Roedd hi fel petai'n lleisio weithiau ar draws y cwm. Wele'r iaith led-fyw fyddar yn ymddiddan â'r un iaith farw fud. Gobeithiai y tu hwnt i bob gobaith yr ymrithiai adlais yn ôl iddi, rywsut. Ond pwy a ddôi byth i siarad? Miranda Luccini oedd y gobaith sicr.

Yn yr ysbyty, gweithredai Sioned amynedd hirfaith, gydag ychydig llai o anobaith nag a fu ynghynt.

'Mi ddaw dy dad â Miranda Luccini yn ddi-ffael, mechan i. Cei di weld. Bydd hi'n dawnsio'r *fan yma*'n unswydd i ti, yn y ward, wrth erchwyn dy wely. I lawr drwy'r coridorau.'

Ar un adeg yn ystod y prynhawn pan ddaeth y Brif Nyrs i'w ward, yn wir pan oedd hi'n bresennol yn y fan a'r lle er ei bod ychydig o'r neilltu, dyma Sioned yn clywed o du Del beth mynegiant afreal, rhyw dorri cryg bach yn y llwnc, efallai, ac eto gallai hi dyngu ei fod yn fwy na hynny mewn gwirionedd, y gallai yn wir fod yn air crwn croyw neu'n atgo o air. Efallai. Doedd e ddim yn gyfan gwbl annhebyg i 'Dyd'. Dichon fod Del wedi cyffroi wrth glywed am Miranda.

'Glywoch chi?' trodd Sioned yn orffwyll chwilfrydig at y Brif Nyrs. 'Dyd?'

Roedd y Brif Nyrs wedi sylwi. Yn wir, roedd hi'n weddol siŵr fod cyhyrau llefaru, yn anfwriadus mae'n debyg, y ferch fechan wedi cynanu rhywbeth. 'Mae'n medru digwydd.'

'Rhywbeth call?' ebychai Sioned.

'Rhywbath!'

'Glywsoch chi?' stiliodd Sioned ymhellach.

'Wel naddo, 'wyrach,' meddai'r Brif Nyrs yn fwy pwylllog. Diflannodd o'r ystafell yn ddiymdroi.

Trodd Sioned yn ei hôl at ei phlentyn. 'Bydd di'n fyw, Del fach. Mae gen i ffydd, y bydd yr anrhydedd heno o gael Miranda Luccini yma yn goglais d'ymennydd di. Fe ddaw â dawns i'th fywyd di.'

Ond wrth barablu'r fath faldorrd, fe wyddai Sioned ei bod hi benbwygilydd yn wirion bost. Roedd pawb yn ei herbyn: roedd hi'n camgymryd pob sŵn. Cyhyrau llac y gwynt oeraidd o'r tu allan, rhywun yn y ward nesa, trê'n yn y pellter: popeth oedd y sŵn, a dim. Daeth y Nyrs yn ei hôl. Bellach, roedd honno'n pleidio yn erbyn ei gobaith, gyda'r Meddyg a'r Ymgynghorydd. A doedd hi ei hun ddim yn credu mewn gwirionedd y ddi Alwyn yn ei ôl byth â Miranda Luccini o dan ei gesail. Doedd y peth ddim yn bosib. Doedd Sioned ei hun hyd yn oed ddim yn barod bellach i gofio bod y ferch wedi ynganu sill gynnu. Er iddi glywed y gair, pob gair ... na, doedd y peth ddim yn wir, doedd yna ddim gwirionedd yn bod. Gau oedd y cwbl. Gau oedd yr ystafell. Gau y llawr, a'r drws. Roedd ei merch i bob pwrpas yn farw gorn a'r cysylltiad rhyngddi a'i

gorffennol yn chwalfa. Fan yna roedd hi ar ei gwely mewn byd arall. Roedd pawb o'i chwmpas yn siarad, ond doedden nhw ddim yn gallu siarad yr un gair â hi yn benodol. Ac yn wir, doedd hithau ddim yn dymuno torri gair â nhw chwaith.

Hyd yn oed Alwyn, Alwyn bach dwl a phenysgafn, a oedd yn byw a bod druan drwy'i ddychymyg pan gâi'r cyfle, hyd yn oed pan oedd e'n tybied ei bod hi'n ei ddeall e, ac yn siarad yn wir, beth oedd hwnnw oll iddi ond gwacter? Bwlch o fath oedd yntau ar y gorau. Fe'i llanwai â rhywbeth, rhyw fath o sothach. Ac eto doedd 'na ddim yno. Bwlch. Dyna'r gorau y gallai'r iaith ei wneud. Miloedd o genedlaethau o iaith wedi diflannu bellach, a honno, ei anwylyd o ferch, yn sefyll yn y fan yna yn ddel ar bentir drafftioog hanes. Diffyg perthynas oedd hi i gyd, ac eto doedd hi'n ddim byd. Dim oedd dim rhyngddyn-nhw a'r gorffennol. Dieithryn gorffwyll oedd pob wan jac ohonyn nhw heb gyfathrebu â'i gilydd. Un genhedlaeth heb allu dal pen rheswm â chenedlaeth arall. Pob un a bwlch rhyngddyn nhw fel gogor. Dim. Dyna gasgliad pendant Alwyn.

Fe daflwyd hon rywdro gyda grym yn erbyn y wal. Drwy'r wal y'i taflwyd hi. A'r fan yna, bu ei waed e mwyach gyda hi, a'i groen, a'i esgryn, a'i gnawd oll wedi'u plastro blith draphlith smotiau cydwybod dros y wal. Doedd dim rhaid i Alwyn, ar ôl cyrraedd, adrodd canlyniad ei gyrch seithug i Abertawe. Gwelai'i wraig drosti'i hun yn burion hyd at gefn ei lygaid beth oedd wedi digwydd. Wnaeth e ddim hyd yn oed gyfeirio at y peth. A dealloodd hi'n union pam: roedd eu priodas nhw ar ben.

'Alwyn, rwy'ti'n gwybod fel rwy'ti'n dweud weithiau fel y mae popeth yn y byd, – pob teulu, pob trefn dda, – yn perthyn i'w gilydd, ac yn syrthio gyda'i gilydd. Fel gwe gymhleth gydlynol.'

'Ydw i?'

'Dw i'n ofni bod popeth *llwgr* hefyd yn perthyn i'w gilydd ynddyn nhw. Yn un we glòs ddeniadol wrthun.'

'Del!' meddai fe'n isel fyfyrion wrth iddyn nhw gerdded wedyn tuag at y car drwy'r parc, fel pe bai e'n ymarfer â'r sillaf ddiystyr. 'Del!' drachefn.

'Del!' adleisiai Sioned. ... 'Doedd hi erioed wedi cael cyfle i'n nabod ni o ddifri.'

'Plentyn oedd hi.' Sylwodd e'n awr fel roedden nhw'n dechrau siarad amdani yn y gorffennol: 'Oedd, doedd hi ddim, roedd...Del.'

'Ond doedd ganddi hi erioed fawr o syniad pwy oeddwn i,' cwynai Sioned. 'Ac mae hi wedi colli'r medr i berthyn nawr.'

A dechreuodd hi ddychmygu eto, er mwyn cadw Del yn fyw. O'r tu allan i ffenest y ward, roedd yna wyneb gan rywun.

Fe ddaethan nhw nawr wyneb yn wyneb â'r gŵr ifanc anhysbys a dreisiodd Del. Roedd e 'na. Doedd neb ohonyn-nhw'n adnabod ei gilydd. Wyddai neb arall ddim. Doedd y dyn ddim yn ei nabod ei hunan. Doedd Sioned ddim yn nabod Alwyn. Doedd gan Alwyn ddim clem pwy oedd y gŵr. Doedd hwnnw ddim yno.

Ac eto, am ychydig o eiliadau euog, efallai, pasiodd pelydryn o oleuni dieithr cwta tawel drostyn nhw, a rhyngddyn nhw. Do. Caniataodd i'w argyhoeddiad o'r drwg ddeffro ychydig allan o fath o drymgwsg. Blasodd rithyn o euogrwydd, efallai. Roedd e 'na. Dechreuai'r crwt weld rhywbeth. Sut y gallai byth mwyach ddysgu edifeirwch? Ymhle'r oedd cariad? Dŷn ni i gyd yn gwybod am y pryder ysgafn hwn: y sicrwydd bod popeth yn tynnu i derfyn. Arhosen-nhw ill tri – Del fel pe bai mewn rhith, Sioned, ac Alwyn am ychydig o eiliadau o flaen y crwt; ac ymateben nhw i'w gilydd fel llygaid cathod-bach ar ganol heol yn rhythu ar y ceir yn pasio, fel pe teimlen nhw y dylen-nhw fiawan rhywfaint ar ei gilydd er eu bod nhw'n llythrennol ddidafod. Cymysgwyd nhw gan symudiad negyddol y tu mewn iddyn nhw. Doedd neb yn nabod ei gilydd, efallai. Roedd Alwyn yn cytuno â'i wraig, roedd y wraig yn cytuno â'r waliau, doedd Del ddim wedi gallu'u hadnabod nhw o gwbl mewn gwirionedd i gytuno â neb. Ond pa blant a adwaenai'u rhieni? Doedd e'i hun, y treisiwr, ddim wedi adnabod ei rieni'i hun nes iddyn-nhw farw. Roedd yn rhaid i bawb oll orffen magu plant a'u gweld hwythau'n magu plant; a byw wedyn, cyn dod allan dow-dow i amgyffred yr oes o'r blaen. Nid tan hynny roedd gwir adnabyddiaeth yn dechrau gwawrio, gan bwyll.

Beth oedden nhw wedi bod ill dau i Del, wedi'r cwbl? Llygaid cathod ar y ffordd i ddifancoll yr hen fyd. Bwndel o gamddeall. Rhyw fath o oedolion hynafol, math o gartŵn o rieni. Ac nid nhw eu hun, nid dyna a garai Del, eithr yr hyn roedd hi'n feddwl

oedden nhw. Felly y chwilien nhw am ei gilydd. A beth oedd hithau wedyn, Del? Roedden nhw'n rhyw fudr adnabod math o ferch fach, ddiniwed, bell, ddychmygol, ond cartŵn o ferch fach ry ifanc i fod yn bwylllog oedd hi drwy'r amser ara. Rhithyn o atgof angofiedig byddar. Roedden nhw wedi colli merch nad oedden nhw ddim yn ei nabod. Math o gôd oedd hunlle cofio. Byd heb ystyr. Onid oedden-nhwythau hefyd, holl rieni'r byd, yn ddieithriaid rhonc i'w gilydd, ac i'r gwirionedd?

Dychymyg fyddai'r unig wirionedd i neb ar ôl.

\*

\*

\*

Drannoeth rhoddodd y Meddyg y casgliad terfynol am gyflwr eu merch iddyn nhw. Fe allai Del fodoli rywsut a meddu ar ryw fath o ymateb. Byddai'i chorff yn cryfhau. Gallai hi oroesi hyd at gyfnod henoed hyd yn oed. Ond roedd ei hymennydd wedi'i chwalu'n ddiymadfer derfynol. Byddai hi byth yn gallu gwneud dim drosti'i hun. Byddai hi ddim yn gallu cerdded na'i phorthi'i hun na mynd i'r toiled na deall hyd yn oed y geiriau symla. Chwynnyn fyddai hi i bob pwrpas. Fe dybien nhw fod ei hangho hi'n rholio o'u blaen drwy'i gyrfa leuadaidd ddi-iaith ar y lawnt, – yn dawnsio bale gyda'i gilydd. Gwnâi hi seiniau efallai, ond cyhyrau llac fydden nhw, llac fel pelydrau haul. Symudai, ond nis bwriadai. Agorai lygaid godidog. Ond marw gorn fydden nhw mwyach i bob un. Hyn bellach fyddai'u teulu.

'Mae hi wedi darfod,' meddai Sioned wrth iddyn nhw gerdded yn ôl o'r ysbyty.

'Na,' meddai Alwyn. 'Byth. Gallwn ni'i hanwylo. Anifail anwes fydd hi.'

'Glywaist ti nhw? Bobl yr ysbyty?' brathodd hi.

'Do,' ebychodd ei gŵr.

'Peth fydd hi, nid merch... Bwlch.'

'Wel, fe gawn ni ddarparu'n weddus iddi,' meddai fe. 'Pe baen ni'n cadw anifail maeth, fe gaen ni bleser o hyd. Fe fyddai'r gofal drosti... yn fath o anrhydedd.'

'Peth! Alla i ddim caru peth. Ddim peth.'

'Gelli.'

'Ond ble mae *meddwl* Del? Ble mae hi?'

'Planhigyn! Gofalu am flodeuyn bach wnawn ni: gallwn, Sioned. Ein rhosyn ni ar ganol y ford. Pam lai? Beth arall?'

A gwaeddodd Sioned: 'Rwyf ti'n byw yng ngwlad hud, Alwyn. Dwyt ti byth yn gweld dim byd yn union.'

'Down ni drwy hyn eto. Fe fydd hi yno.'

'Alla-i ddim caru peth byth. A heddiw dw i ddim yn cael y rhwyddineb ddylwn i i garu Duw. Alla-i ddim godde dy dipyn ymddiriedaeth ynddo Fe... Gwell i ni'n dau ymwahanu. A'i rhoi hi mewn cartre gofalus proffesiynol.'

'Sioned. Trugarha wrthi hi... ac wrthot ti dy hun.'

'Dyw *E* ddim hyd yn oed yn *beth*. Does dim ymateb tu mewn i fi ond carreg oer.'

'Pobl dros dro yn ni i gyd. Peth dros amser yw amser ei hun.'

'Dw i'n methu ag edrych yn ei gyfeiriad *E*,' mynnai hi.

'Mymryn bach o edrych, yn unig, sy ar ôl inni bawb. Paid â gwthryfela'n Ei erbyn. Derbynia'r Cynllun mawr yn dy ddannedd.'

'Mae *E* 'na, a dw i ddim yn gallu edrych arno.'

'Fe gawn ni roi cartre cynnes i'n merch, a'i hamgylchu hi â chariad.'

'Dw i'n teimlo dim. Dim ond euogrwydd.'

'Ein braint ni fydd ymroi iddi. Aberthu'n hamser a'n gofod.' Gwenodd e'n dyner dila ar ei wraig. Roedd hithau wedi ceisio ildio i'r un grym gwreiddiol dynol ag a oedd wedi ysigo'i ferch. Teimlai fe'i fod yntau hefyd yn cael ei blygu, yn isel, yn llethedig. Y tro cynta oedd hyn erioed iddo arogli mymryn mawr o ostyngeddwydd pur meddiannol hollol. Nid gofyn mymryn, ond y cwbl oll. Ac ystyr arogli gostyngeddwydd, hyd yn oed gostyngeddwydd gwir gelwyddog, yw nid sylweddoli'i fod yn anghywir weithiau, ond gwybod ei fod bob amser yn ddiogel ac yn ddilys mewn angen.

'Dw i'n dechrau'i hanghofio hi eisoes,' meddai Sioned.

'Gad dy gelwydd,' meddai fe. 'Ust! Gwranda arna i... Gwranda, wyt ti'n ei chofio hi mor felys? Sioned, meddylia.' A dechreuai fe furmur megis drwy freuddwyd a thangnefedd ymddiriedaeth: 'Cymerer triphwys o heulwen; a dwy seren, un ar gyfer pob llygad; ychwaneger aer; pum llwyaid o siwgr; ynys balmwyddog yn llawn gwyddfïd; cawod fer wanwynol; côr o löynnod byw; un golomen; cymysger nhw blithdraphlith mewn llaeth a mêl a neidiau cwningen a llawer o ddwli plentyn; trowch yn dda a chaet ti gysgod bach, cysgod pitw bach iawn dw i'n ddweud, – o Del. On'd ydw i'n iawn?'

'Na. Paid â siarad yn ffôl.'

'Caet.'

'Dw i'n farw tu mewn,' murmurai hi. 'Yn farw farw. Fyddai *Fe'n* gallu caru'r fath gasineb â hynny? Does gen i ddim bwlch ar ôl i obaith. '

'Oes.'

'Ond mae yn holl deimpladau i'n glaf. Maen nhw'n drewi o gornwydydd. Ac yn galed. Gwell iti ngadael i.'

'Mae dy galon di'n dywyll, am y tro, dyna'r cyfan.'

'Ydy.'

'Ac yn gandryll.'

'Ydy.'

'Ond cei weld. Bydd E'n plygu i lawr, ac yn dechrau... eu doddi nhw wrth ei gilydd. Nid heddiw. Nid yfory efallai. Ond mi fydd.'

'Celwydd! Twyll anobeithiol yw gobaith. Mae optimistiaeth fel sy gen ti, Alwyn, yn rhy esmwyth o lawer. Rwyt ti'n rhy iach.' Sgriwiodd ei llygaid a sgrechain yn ysgeler, 'Iach!' Fe'i dwedodd fel condemniad. Fe'i gwaeddodd. Roedd hi fel pe bai am wirioni.

Roedden nhw wedi cyrraedd llidiart mynwent y dre, a cheisiai Sioned mewn pwl chwerw-chwareus o iselder morbid berswadio Alwyn i fynd i mewn gyda hi i ddewis y lle i gladdu Del yno'n ddychmygol. Doedd dim clymu'r cwlwm yn derfynol nes ei bod hi wedi'i chladdu. Roedd Del wedi darfod, ac roedd eisïau dewis y lle i'w



rhoi hi i orwedd yn barchus, heddiw, ar unwaith, nodi dyddiad yno, codi maen uwch ei phen, ac ymweld yn rheolaidd byth wedyn er mwyn cofio'n wallgo synhwyrol am y dyddiau a fu gynt. Peidio â mynd i'r ysbyty mwyach. Ildiodd Alwyn a chydio yn ei braich, a'i gwasgu hi ato wrth borth y fynwent. Roedd hi o ddifri, druan. Cyd-ymddygai Alwyn orau y gallai yn groes i'r graen, ac eto'n ffyrnig anfodlon, gan ei darbwylllo'n dynner mai mynd adre oedd orau i bawb. 'Nid nawr,' meddai hi. Rhaid bod ei wraig yn ymylu ar fath o orffwylledd. Llusgai hi fe drwy'r llidiart. 'Fan hyn y cladda-i hi,' meddai hi gan gyfeirio at fangre wirion neilltuedig dawel: 'Edrych, fan hyn,' meddai Sioned.

'Awn ni adre 'nghariad i...' Ond dilynasai e ei heuogrwydd hi i'r fynwent.

'Beth dw i i fod i'w wneud yno, dywed, mewn cartre?' holodd hi'n ddirmygus.

'Golchi llestri.'

'Eto!'

'A finnau'n sychu,' meddai fe. 'Gyda'n gilydd.'

'Un cythraul o ddiwrnod, ar ôl y llall.'

'Uwchben y sinc fe fydd yna fendith yn hofran.'

'Yn ewyn y sebon?'

'Fel pelydryn glân mewn hysbyseb ystrydebol. A finnau'n smwddo,' meddai fe, gan geisio gwenu'n dirion. 'Wedyn, awn ni allan i'r cefn: gwnawn yr ardd gyda'n gilydd. Gyda'n gilydd, dere, awn yn ôl i'r tŷ.'

Ymlusgodd hi gydag e allan o lawnder y fynwent. Ymlaen ill dau fel prennau heibio i'r parc.

'Na fydd,... dim bendith fel y meddyli di,' meddai hi. Fan yna roedd nifer o blant mewn iard chwarae ar y gornel yn sbortian ar lithren ac yn sgipio draw at y siglenni gerllaw. Pobloedd dros dro eraill yn eu gwylid nhw. Gyda'r plant.

'Pan oedd hi'n fyw,' murmurodd Alwyn yn ara, 'ni oedd ei rhieni hi. Nawr, hi sy'n rhieni i ni.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Nyni fu'n ei dysgu hi, on'd do?'

'Do.'

'Nyni ddysgodd iddi ystyr pethau, wyt ti'n cytuno, a'u siâp nhw, a'u pwrpas.'

'Do.'

'Wel, hi fydd yn gwneud hynny i gyd, nawr, ar ein cyfer ni. Bydd hi'n dysgu inni sut mae caru. Bydd hi'n dysgu inni sut mae gwasanaethu heb gyfri'r gost. Bydd hi'n ein tynnu'n ôl at ein gilydd mewn tosturi go iawn.' Gwyddai fe y byddai hi'n awr yn eu haddysgu nhw ynghylch llawer. Roedd y dagrau'n treiglo i lawr ei ruddiau i'w geg. 'Bydd hi'n sioc o addysg inni, megis Esmeralda i Quasimodo... Roedd y dyn wedi'i ddal a'i restio am ddwyn talp o fara. Ond cipiodd e'n wystl lances brydferth er mwyn helpu'r ddihangfa. Wrth iddo bwyllo a sylu arni, a sylweddoli'i diniweidrwydd disglair, dôl dagrau i'w lygaid. Pam roedd e'n llefain am y fath beth mewn edifeirwch tost? Wrth i'w feddwl edrych o'r newydd ar yr atgof o'i ferch yn fanwl fel petai am y tro cynta, fe welodd mor ofnadwy o hyll oedd ei hagrwrch ei hun. Roedd ei ên, a'i drwyn, a'i edrychiad yn fynydd o wrthuni a budreddi, yn fynydd o sbwriel, lle y bu pob math o dwrio gwancus ar dir ei olwg, lle y taflwyd gwenwyn gwastraff, ac o'r lle y rhedai afonydd o gyfog megis oddi ar Fynydd Adda ar draws y canrifoedd. Cafodd e argyhoeddiad o'i lygredd o ganfod prydfferthed y gwrthrych. Megis mewn drych tuag yn ôl yn ei hwyneb tlws hi, gwelodd yn llachar gamluniad a braw cymylog ei wyneb ei hun. Hyn a ddysgodd Emeralda iddo. Roedd yn gwbl siŵr bellach fod Del yn alegori.

'Un peth mae hi eisoes yn ei ara ddysgu i fi,' meddai Sioned yn amyneddgar o'r diwedd.

'Beth?'

'Bod yn ddim byd.'

'Ymostwng?'

'Mwy!' Edrychai'r gŵr ar ei wraig yn chwilfrydig dosturiol. 'Plygu?' Roedd Alwyn yn gwybod bod Sioned wedi ceisio erioed ddeall y tac dyrys yna, a chodi uwchlaw ystrydebedd ffeministaidd at ffeministiaeth uwch; ymward â hawliau,

ymostwng yn llwyr, marw iddi'i hun. Ac nid ar redeg y cwmpai ymaith lyffetheirau fel hynny i ffeminydd fel Sioned. Nid ar chwarae bach roedd y balchder hunan-gyfiawn yn gallu cael ei ddofi. Ac eto, iddi hi, doedd ymostwng mwyach byth yn ddigon.

'Na, mwy nag ymostwng. Peidio â *bod!*' meddai hi. Gwrthryfelai hi'n erbyn sŵn ymostwng. 'Darostwng yr hunan hyd at y dim!' meddai wrthi'i hun yn ddirmygus.

Deallai Alwyn hyn o bell, ond oherwydd ei wrywdod roedd llawn amgyffred y nerth mewn ymostwng yn straen ofnadwy.

Roedd y profiad benywaidd anarferol hwnnw yn ystod y munudau hyn yn mynd y tu hwnt i ffeministiaeth i fod yn yn oruwch-fenyweiddiaeth, tan grefu ar yr ysbryd llesg a gwag y tu mewn iddi i fod yn gyfannol uwch-ddynol. Roedd ei holl anian hi rywsut yn gwrthryfela am foment yn erbyn y drefn grefyddol o fod yn gyfartal, o fod bob un fel ei gilydd, o leia'n ysbrydol. Buasai'r oruwch-fenyweiddiaeth yn rhoi goruwch-ostyngeddwydd. Os oedd eisiau i fod dynol droi a phenydu, on'd oedd yn fwy priodol troi at fwy o urddas na diddymdra pechod, ac at lai o gripiant byw'n normal, ac at fwy o farwolaeth yn Nuw? Gorfawr felly yn yr Arglwydd. Caledu efallai: peidio â meddwl droso'n hunain o gwbl. Cau'i bodolaeth ei hun yn erbyn ffeidd-dra bywyd. Pam gythraul roedd yn rhaid iddi hi, a hithau'n fenyw, ildio i'r holl lol ystrydebol 'cyfartalwydd' yma? Pam lai na chystadlu yn wir fel arall mewn ymostwng ynghylch pwy a allai fod yn isa? Marw'n gorn i'r cwbl hwnnw oedd rhagori.

Teimlai Sioned yn ddwfn – ac roedd hyn yn rhan o'i gwrthryfel ystyfnig presennol a'i thrawma cyffredinol – fod y darostyngiad cnawdol yn ei hachos hi eisoes wedi gorfod bod yn eithriadol o chwyrn. Lliffai drosti. Mor anodd oedd hi o hyd i fod yn dirion y tu mewn ac yn reddfod haelfrydig y tu allan. Gwyddai hi fod ganddi ddelfryd, ond methu o hyd yr oedd ei thynged gerbron honno. Symudai'r darostyngiad gorchfygol drosti'n llethol. Daliai i fethu un diwrnod blinderus ar ôl y llall, ac felly y byddai hi'n para byth, a rhywsut yn ei huniaethu'i hun â phylni Del.

\*

\*

\*

Fore trannoeth, wrth y bwrdd brecwast a'i blateidiau o hiraeth yn drwm o hyd, fe gafodd Alwyn ysbrydoliaeth eto. Cododd ar ei sefyll yn ddisymwth. Trodd Sioned ei phen i syllu arno'n syfrdan.

'Awn ni i ffwrdd *am ddau ddiwrnod*,' meddai fe.

'Beth! Dau *beth*?'

'Cawn ysgwyd y dre oddi ar ein dillad, ymwared â'r ysbyty, cael gwared â rwtîn gormesol. Mae'n rhaid inni geisio ailafael mewn bywyd. Beth ddywedi di? Mis mêl arall. Fydd neb yn gweld ein heisiau ni.'

'Alwyn! Ei gadael *hi*? Rwyd ti'n hurt.'

'Egwyl. Mae'n air eitha rhesymol. Hoffet *ti* ddim cael newid o'r lle 'ma? Er mwyn ein priodas ni. Yr un fydd hi pan ddown ni'n ôl.' Feiddiai fe ddim sôn am ysgwyd gofal oddi ar ei ddillad am foment. 'Gwiriondeb yw marw cyn marw.'

'Ond *Del*.'

'Sylwith hi ddim. Ydyn ni'n ei meddiannu hi ormod?'

'Byth.'

'A hithau'n ein meddiannu ni.'

'Cariad oedd hynny, dyna i gyd.'

'Roedd ein dwylo ni'n rhy drwm arni.'

'Nid yn drwm. Mae hynny'n gelwydd, Alwyn.'

'Oedden, yn drwm. Yn wag ac yn drwm.'

'Daeth hi'n rhan anghenus ohonon ni.'

'Eiddo. Nwydd. Dyna oedd hi'n rhy aml, Sioned, yn eiddo i ni. Ni hefyd yn ei lladd hi, a hithau'n ein lladd ni. I'r cyfeiriad yna roedd ein haros ni'n symud. A'r ddau ohonon ni'n ddau a oedd yn lladd ein priodas ein hunain. Mae'n rhaid inni newid hynny i gyd. Am ddau ddiwrnod. Dau yn unig.'

'Na.'

'Dyw oferedd ddim yn deilwng o Ddel,' meddai Alwyn. Roedd pawb yn carcharu'i gilydd, wrth ddechrau'i chofio hi yn ei lle anghywir, 'Fe all hi o hyd ddod â chymaint o oleuni i fywyd cynifer o bobl. Hi fydd ein teyrnas ddaearol ni, Sioned, a ninnau'n unbenaethiaid rhadlon yn preswyllo ynnddi hi, ac yn ei meddiannu hi. Dyna sy'n briodol. Fel yna y bydd rhieni gwirion braf. Dyna'n dyletswydd iddi hi.'

Edrychai Sioned ar ei gŵr mewn tosturi ac anneall. Ei thro hi oedd hi bellach i ymuno ychydig â'i galon e. Ymdrechodd hi. Bob un yn ei dro. 'Ie: helpwn ein gilydd... Bydden ni'n llawer mwy unol na hynny, Alwyn, pe baen ni'n closio gyda'n gilydd.'

'Ond erbyn hyn mae pethau yn dechrau newid,' meddai fe. 'Mae hi'n haeddu'n well na hynny, hyd yn oed. Rhaid iddi gael ei rhyddid mewn undod sicr rhag ei rhieni. Ac y mae hynny, ei hoffi neu beidio, yn golygu fod eisiau i ninnau hefyd gael ein rhyddid i fod yn briod.' Roedd crybwyll 'rhyddid' yn bwrw Sioned yn ôl i'w phrudd-der sylfaenol. Methai â dal llawer o obaith am fwy nag ychydig o funudau. Suddodd hi'n ôl. Caeodd yn erbyn ei gŵr. 'Er ei mwyn hi,' meddai fe.

'Na. Dw i ddim yn gallu dod fel yna. Dim ond ni'n dau! Byth! Nid dyna pwy yn ni.'

'Egwyl. Dau ddiwrnod. Mae ganddi hi ei dull o fodoli. A rhaid i ninnau, o barch ati hi, fodoli. A dyna sy'n gall. Rhoi llonydd iddi: annibyniaeth.'

'Ac rwy'ti'n meddwl ei bod hi'n dymuno inni fynd oddi yma heddiw am ddau funud a'i "rhyddhau" hi.'

"Cer di i orffwys," mae hi'n ei ddweud.'

'*Na*: dyna dw i'n ddweud. Dwyt ti ddim yn glywed.' Roedd hi'n codi'i llais.

'Rwy'ti'n colli dy natur,' meddai fe.

Roedd Sioned yn bur anfodlon i gael ei llusgo i ffwrdd fel hyn. Dyma enghraifft arall o ramantiaeth Alwyn. Sut y gallai feiddio cefnu ar eu merch? 'Ti sy o hyd am adael i'th deimladau byrbwyll flodeuo,' meddai hi. 'Mis *mêl* wir! Beth wyt ti'n feddwl yn ni – gwenyn?'

Gwelai fe o bell ryw rithyn o hyfrydwch, ac os oedd yna ymyl o obaith iddo, yr oedd hynny'n greadigol iddo hefyd. Dewrder iddo fe oedd gafael yng ngodre'r nos hon, a chael bod 'na awgrym o wawl yno. Cododd ei ysbryd yn benderfynol yn nannedd y byd er mwyn pellhau rhag amgylchfyd rheolaidd, caeth.

'Dere,' meddai fe. 'Er mwyn Del. *Un* egwyl yn y dryswch i gyd.'

Protestiai hi gallineb – fod ganddi ormod o waith i'w wneud, roedd yn rhaid bod ar bwys ei merch, roedd yn rhaid paratoi ar gyfer yr amser, yn fuan yn awr, pryd y dychwelai corff Del adre o'r ysbyty, hyd yn oed os oedd hi'n ddiymadferth. Nid dyma'r adeg i gynlluniau anghybwys Alwyn, bysai chwarae gwyliau ar hyn o bryd yn gyfan gwbl anwedus, gwell cadw'r droed ar y ddaear yn stond, rhaid oedd prynu ambell gelficyn newydd i'w gymhwyso ar gyfer dychweliad eu hanwyllyn, byddai'n briodol hefyd bapuro o'r newydd ei hystafell wely, nid dyma'r pryd i galifantan ar hyd y bedlam ar ôl rhyw chwiw o dŵr ifori cwbl annealladwy. Chwythai hi'n huawdl amlgymalog o ebychlun, gyda rhai o'i chystrawennau mor hirfaith Almaenig fel na allai'r gwrandawr wneud odid ddim erbyn cyrraedd diwedd y frawddeg ond ymdroelli'n gylch lluddedig ar y llawr yn y gornel a marw'n dawel mewn berf ddiweithred.

'Egwyl!' dywedai fe, heb argyhoeddiad. 'Rhyw fath o egwyl te,' meddai hi'n syn.

Cytunwyd mewn gwendid corfforol i barhau unrhyw anghytundeb er mwyn tangnefedd. Caent gyd-egwyl. Os cyd-fyw, yna cyd-ymlacio oedd y dechneg. Roedd ei hewyllys hi wedi gwywo. Alwyn hurt a orfu, fe a'i synnwyr cyffredin a chlawstroffobia llychlyd. Am un diwrnod. *Un* dydd ac *un* noson. Dyma fyddai'r cyfle ola iddyn nhw am lawer mis. Cyn gynted ag y ddi Del adre, caeth fydden nhw. Rhaid oedd bod yn ymarferol felly nawr. Ond ar y diwrnod penodol pwysig unig hwn roedden nhw'n llawer rhy gynnar i'r trê. 'Chwarter awr yn rhy gynnar, dyna'r cwbl,' meddai Alwyn yn yr orsaf. 'Mae hynny'n gymedrol, i *fi*.'

'Mae hyn yn wallgo,' meddai Sioned yn ei gwendid. Sefyll roedden nhw y tu allan i'r stondin bapurau. Am ychydig o funudau fe'u gwacawyd nhw yno o bob awydd i ddianc. Daeth tawelwch fel afalans drostyn nhw. Oerwyd. Teimlen nhw fath o gydbwysedd gwaraidd digyffro. Ond roedd Del gyda nhw yn eu meddyliau o hyd.

Ceisai Sioned beidio â phendroni, er mwyn rhoi rhyw fymryn o sylw emosiynol i'w gŵr: fe haeddai fe hynny. Roedd Sioned wedi ufuddhau i Alwyn heddiw fel y gwnaethai gannoedd o weithiau o'r blaen, yn erbyn ei hewyllys, ond er mwyn ei gynnal a'i ganlyn druan. Doedd y gwrthryfel cudd a deimlai hi ddim yn werth y drafferth. Dysgasai'i bod hi'n gallu bod gydag e ac eto fod mewn lle arall yr un pryd. Doedd dim rhaid iddi ddod â'r cyfan ohoni gyda hi bob tro. Os oedd ei chorff gydag Alwyn, roedd ysbryd Sioned yn llechwyrus dawel wedi ymadael ac yn eistedd y funud yma yn sylwgar wrth erchwyn gwely Del. Roedd hi yno gyda nhw o hyd. Yno, syllai Sioned i mewn i amrannau merddwr rhyfeddol Del ac ar y bochau llonydd drwy'r dychymyg. Ble mewn gwirionedd oedd y wir Ddel erbyn hyn? A oedd yr 'hi' yna oedd yn arfer bod y tu mewn i Del yno – ac a fyddai'n sgipian ac yn dawnsio nawr ar wastadeddau poenus paradwys wedi gadael y burgyn hyll ac anhrugar yma ar ôl? A oedd y wir 'hi' honno yn annibynnol ulw ar y corff gwywedig? Neu ynteu ai'r diddim di-iaith yn unig a oedd yn siarad-heb-siarad â'i mam mewn llonyddwch o'r gwely gweili? Onid dŵch diderfyn e bargofiant oedd ei hunig gydymaith mwyach? 'Beth dŷn-ni'n wneud fan hyn?' sgrechai Sioned ynnddi'i hun. Allai hi ddim deall ei gŵr. Roedd popeth yn wallgo. 'Pam dŷn-ni'n gwneud hyn? Dŷn-ni'n gelain gegoer i'n gilydd, Alwyn.' Beth roedd e'n ei feddwl wrth ei llusgo hi i'r fan yma i orsaf trenau? 'Wyt ti wedi colli arni, dwed?' Allai hi ddim amgyffred sut na pham roedd hi wedi gadael iddi'i hun gael ei thynnu yma. Edrychai hi'n wyllt i wyneb crwt pymtheg oed a oedd yn pasio, ond heb ei weld. 'Ydy pawb o'u co'n lân?' holodd i. Yno, am foment, roedd pobl eraill wedi peidio â bodoli o'i deutu. Dim ond hi ac Alwyn oedd yno. Beth oedd yn bod ar ei gŵr yn y fan yna, yn ceisio chwarae rhyddid? Beth oedd yn bod ar y creadur gwallgo? Buasai sefyll ar wahân gydag e, megis yn awr heb ystyr, pan oedd yna drybini, fel pe bai dyn yn gweddio ar Dduw heb gredu'i fod E yno.

'Aros, Alwyn. Beth sy'n digwydd?'

'Hyn?'

'Ie, y drwg, y gosb, yr ymosodiad,' meddai hi. 'Pam?'

'Ond fel hyn y mae hi.'

'Ond dŷn ni'n rhy ddiniwed,' meddai Sioned. 'Dŷn ni ddim yn haeddu hyn. Yn sydyn mae bywyd wedi mynd i'w aped, mae rhywbeth o'r tu allan wedi dod, arnon ni, wedi disgyn, pam Alwyn? Dŷn ni fan hyn yng nghanol y dom, yn cymryd ein hegwl, fel ffyliaid.'

'Mae'n syndod dŷn ni ddim fan hyn yn amlach.'

'Ofer fu'r cwbl. Doedden ni ddim wedi gwneud dim byd. Doedden ni ddim yn bwysig. Ond dŷn ni fel petaen ni wedi cael ein defnyddio. Wyt ti'n gwybod beth sy'n digwydd?'

'Dere, Sioned,' meddai fe'n fyddar.

'Wyt ti'n cofio bywyd, Alwyn? Gynt. Cyn hyn, buon ni'n siarad bob dydd am Gymru. Roedd gynnon ni faich am ein gwlad. Ble mae hwnnw wedi heglu? Roedd yna batrwm yn ein bywyd, i wneud diwrnod o waith dros ein cymdeithas. Nawr mae hynny hefyd i gyd wedi canu arni.'

'Dyna pam mae eisiau egwyl.'

'Gyda Duw, ac mewn difrifoldeb,' meddai hi.

'Fe'i cei di mewn egwyl gyda'n gilydd.'

Ond yn dawel, arweiniodd e nawr hi allan o'r orsaf i'r glaw a'r gwynt. Yma y cafodd hi gyfle i oeri. Gwendid oedd e'n arwain gwendid.

'Alwyn, c'wilydd arnon ni. Mae'n wir fod angen inni gallio a pheidio â magu iselder. Ond fe ddylen ni weld y tu hwnt i'r galar 'ma, a gweld rhywbeth llawer mwy sobr yn y pen draw. Dw i ar ynys ddryslud o alar, ac alla i ddim hwylio i ffwrdd na chanfod dim byd ymhellach. Beth sy'n bod arna i? Hyd at y gorwel does dim ond sgwd o ddagrau. Nid ffydd yw peth felly. Dw i wedi methu. Dere gartre, Alwyn. Dŷn ni'n rhedeg i ffwrdd. Dŷn ni ddim wedi gweddïo gyda'n gilydd ers misoedd. Efallai mai dyna'r ateb eto. Dyna'r peth angenrheidiol.'

'Fel mynni di,' bodlonodd e, yn anfodlon i'w gynllun arfaethedig gael ei daflu.

'Ar unwaith. Ie, dere,' meddai hi. 'Er mwyn Del ac er clod i Dduw.'



Llusgodd Sioned ei gŵr i ffwrdd o'i euogrwydd, yn ôl i'r strydoedd marw a'u dihangfa. Roedd traed cloff y gŵr di-ewyllys yn euog ac yn isel eu sŵn. Daliwyd ei sylw hi er hynny gan ŵr ifanc, yr un gŵr ifanc o hyd, a fu'n sefyll wrth borth yr orsaf wrth iddi gyrraedd, ac yn eu gwylied nhw. Edrychai hi'n syth i'w wyneb wrth basio, a'i gyfarch yn betrus. Pwy oedd e? Dylai hi ei adnabod. Rhyw lun o berthyn? Gŵr ifanc, caredig ei olwg. 'Bore da,' meddai hi, ond atebai fe ddim.

Pwy oedd hwnnw? Cymydog? Hwnnw oedd y gŵr ifanc yn y stryd nesa gollodd ei fam? Neu ble arall roedd hi wedi'i weld e? Sut roedd hi'n ei nabod e?

Safon nhw y tu allan i'r eglwys gatholig am funud. Yno, uwchben y porth ar y wal ar groesbren flêr, hongiai cerflun di-chwaeth gor-gonfensiynol gor-rwydd o Grist. 'Roedd hwnnw rywsut wedi hel dioddefaint pawb,' murmurai Alwyn, yn euog o hyd. 'Roedd E wedi'i wacáu ei hun, ar gyfer y llenwi wedyn.'

'Fel yna mae'r Goruwchnaturiol,' meddai hi. 'Mae'n ormod i fi.'

Ac ymlaen â nhw i'r tŷ, mewn hiraeth caled.

Ar ôl iddyn nhw gyrraedd y tŷ, edrychodd Sioned allan drwy'r llenni a chanfod yr un gŵr ifanc yn sefyll ar y palmant gyferbyn. Roedd e fel pe bai e wedi'u dilyn nhw. Aeth Sioned i mewn i'r gegin at Alwyn.

'Y gŵr ifanc 'na welon ni, yn yr orsaf, – neu y tu allan i'r ysbyty – neu ble'r oedd e? – mae e ar y palmant gyferbyn. Mae'n hynaws iawn ei olwg. Efallai'i fod e ar goll. Ac eto mae'n hala'r ysgryd arna i. Cer ma's i ofyn iddo beth mae e eisiau.'

'Wyt ti'n meddwl y dylen ni?'

'Ydw; cer. Rhag ofn ei fod e eisiau help. Efallai fod ganddo fe neges.'

'Ond pwy yw e?'

'Dyna dw innau eisiau'i wybod.'

'Does gynnon ni ddim busnes.'

'Pam mae e'n sefyll fan yna te? Cer i ofyn.'

Protestiodd Alwyn drachefn; ond atebodd hi ddim. Ac ymlusgodd e allan i geisio holi'r gŵr ifanc. Ond roedd hwnnw wedi mynd.

'Wedi mynd,' meddai fe. 'Doedd e'n ddim byd. Doedd 'na ddim ystyr iddo fe.' Ychwanegodd rhwng ei ddannedd, 'mynd,' yn galed fel yna; yn galed fel carreg fedd.

'Wedi'i sgrialu hi,' adleisiodd hi. 'Fel 'na mae popeth y dyddiau hyn.' Ond meddwl roedd hi o hyd wrth reswm am un fechan na chafodd ddim cyfle i fodoli cyn mynd. Ceisiodd gasglu'i hatgofion am honno at ei gilydd.

Ceisien nhw gorddi atgofion o Del yn y fan yna yn y tŷ am sbel. Roedden nhw wedi cadw argraffiadau o fanion am ei hamgylchiadau mae'n wir: ei gwrthdaro hi â'r tywydd, â phobl, â'r strydoedd, y cwbl yn ceisio'i ffurfio hi, yn fath o gyd-atgof annelwig, a'i gwneud hi'n fath o fodolaeth newydd yn y byd hwn. Roedden nhw eisiau casglu cynifer o bethau. Ddaethan nhw ddim i fod yn ddim, ddim yn iawn. Arhosodd hi ddim yn ddigon hir gyda nhw i ofidio hyd yn oed. Chafodd hi ddim digon o ofid i'w 'gwneud' ei hunan yn newydd cyn iddi sgipian 'bant.

Ac eto... bu hi gyda nhw yn real am beth amser ... Do... yma... Fe gawsan nhw fraint annealladwy ... ac roedd yna rai oedolion eraill chawsan nhw erioed ddim plant. 'Gwyn dy fyd di, Sioned,' ebychai hi'n uchel wrthi'i hun ar ôl iddyn nhw gyrraedd eu cartre. A gadawodd hi Alwyn yn y fan a'r lle'n euog o hyd, a rhedeg i fyny'r grisiau i'r ystafell wely. Ffodd hi allan o'i bodolaeth briod ei hunan. Dilynodd e hi'n ara. Roedd hi'n wylo'n hidl wedi ymdaflu ar y gwely drachefn. Ynghrwm, roedd ei bodolaeth oll yno yn udo ac yn gwingo i'r gwely.

'Dyw Cristion sy'n methu â galaru ddim yn Gristion,' meddai Alwyn yn dawel i'w chysuro hi. Ond daliwyd e rywsut yn y frawddeg honno ynghylch bod yn rhy iach.

'Pan gafodd Del ei threisio, mi dreisiwyd y nghalon i,' meddai Sioned yn chwerw. 'Mi gollais i ngŵr hefyd. Roedd hi wedi dy ddisodli di. Roedd Del wedi tyfu mewn cyfeiriad a'n clymodd ni, yn ein bryd, yn undod teuluol newydd ynddi hi. Symudon ni'r teulu wnaethon ni ynghynt, i fod yn rhywbeth arall. Gyda'r trais, roedd hi fel pe bai hudlath negyddol wedi syflyd droston-ni mewn modd annirnad. ... Paid â dweud wrtho-i am obeithio heddiw, Alwyn. Paid â gofyn am ddim dros ben.'

'Na,' meddai fe. 'Dw i'n gwybod. Dw i'n gallu troi gobaith yn ffetus yn rhy aml.'

'Rwy'ti'n *defnyddio* gobaith weithiau, Alwyn, er mwyn peidio ag wylo. Ond mae wylo'n golchi'r llawr yn y galon.'

'Y cwbl ynganodd hi... cyn marw i synnwyr y byd hwn ... oedd "Dyd". Roedd hi fel gwich ola mewn gwyl.' Iddo fe, roedd hi bellach yn afon o wyll. Ond glynai o hyd wrth y "dyd" yna.

'Wyla te,' meddai hi.

'Alla-i ddim.'

'Rwy'ti wedi caledu er mwyn peidio â thorri. Bydd yn realistig, Alwyn. Torra. Sylweddola ein colled ni. Dŷn ni wedi colli pawb.'

Edrychai Alwyn yn awr i lawr ar ei wraig, a'i alar ofnus yr un pryd yn bygwth hollti'i llwnc; eithr ddô'i'r un deigr yn ddim. Ei dro fe oedd hi i chwilio'r iseldir nawr.

'Efallai fod gen i *ormod* o ffydd,' meddai fe wedyn. 'Rwy'ti yn dy le, Sioned. Ach a fi. Dw i'n rhy iach.' Byddai gwybod a deall y byd byth yn gyflawn. Cafwyd digon i ddygymod â bywyd; ond gadawyd cymaint heb ei wybod. Roedd eisiau sylweddoli'r bwch hwnnw, y bwch rhwng y ddaear hon a'r ddaear newydd, rhwng yr adnabyddiaeth bosibl a'r anfeidrol anghyraeddadwy. Dyma'r bwch nas llenwir ond gan Gariad anfesuradwy Duw. Gwyddai Alwyn mai plentyn oedd yntau ar y ddaear hon.

'Elli di ddim cael gormod o ffydd,' meddai Sioned.

Ffydd yn y pen oedd ei ddrwg e efallai, heb fod yn y galon, heb fod yn y gydwybod na'r dwylo chwaith. Ofnai'i feddwl ei ffydd lythrennol ar draul cariad. Cariad sy'n coleddu ffydd drwy aberthu. Nid ffydd oer, ffydd haniaethol heb y serchiadau'n gwaedu. 'Dw i'n mynd,' meddai fe. 'Dw i'n mynd allan i brynu celfi newydd iddi, pethau addas i blentyn yng nghyflwr Del. Brensiach y brain, bydd hi'n dod adre cyn bo hir.' Ond roedd e'n aros yn galed o hyd ac yn gwrthod symud.

Daeth ei thro i Sioned ei galonogi fe: 'Nid disodli ffydd wnai ff cariad, Alwyn. Mae'r un sy'n absennol i ddyn yn bresennol i Dduw.'

'Mae'n iawn torri calon, mae'n siŵr.'

'Mi dorrih y cwbl yn un. Mi wna-i weddïo y cei di help i gyd-dorri dy galon,' meddai hi. 'Does dim gweithred nes i gariad helpu ffydd. Wedyn mae cariad yn pwysu ar rywun i weithredu rhywbeth. Cariad mewn ffydd sy'n gwneud popeth derbyniol. Ac mae yna ddigon o hwnnw i bob credadun, a digon o waith ar ôl. Edrycha ar ein gardd ni. Un diwrnod, nid heddiw, ond un diwrnod, os gweithiwn ni, tocio'r perthi, ni'n dau gyda'n gilydd, plannu, chwynnu, ni'n dau wedi dod yn briod drachefn, fe fydd yr holl le yna yn tanio o gariad ar gyfer Del, ac er gogoniant i Dduw. Blodau. Adenydd y tonnau. Pelydrau meddwl yr haul. Mae gen i ffydd fod hynny'n wir. Caiff hi le braf, taw sut bydd ei hiechyd hi. Bydd hi'n gallu eistedd 'na, Alwyn, a ninnau fan hyn yn edrych arni hi. Allwn ni ddim ei gadael hi'n awr, a syllu ar ein poendod ein hunain. Bydd y llwybrau bach yn sgipian o'i chwmpas drwy'r glaswellt, a'r glaswellt dani yn llosgi o firi. A'r coed yn prancio bale, Alwyn. A'r cwbl: drwy Dduw iddi hi. Fe bwyswn arni, ar ei gwendid hi. Cei weld. Gwnawn, a phaentiwn y waliau o gylch yr ardd yn wyn newydd â chariad uwch, ar gyfer Del, cariad sy wedi dod aton ni o'r tu allan.'

Gwyrodd ei phen tua'r ddaear. Ai celwydda dall oedd hyn? A aethai'i gobaith yn wiriondeb post?

'Ond beth yw Del wedyn?' gofynnai Alwyn. 'Ai morwyn benodedig i ddysgu i ni? Ai dyna'i swydd?'

'Bydd hi'n hyfrydwch. Ein planhigyn pitw ni fan yna yn yr ardd. Meithrinwn hi'n ffrwydrad o betalau eto, Alwyn, rhai aeddfed cariadus melyn newydd. Cei di weld.'

'A realiti traed ar y ddaear yw peth felly?' holodd e'n ddiargyhoeddiad. 'Ai dyna yw bywyd call i blentyn o gorff sy wedi anghofio popeth, gan gynnwys iaith?'

Doedd e ddim wedi'i deall hi ynghynt, y Sioned a fuasai i lawr ac yntau i fyny. Yn awr, fel arall... Eto, daliai Alwyn i geisio brodio rhyw obaith dyfodol arall am Ddel – y deuai rhyw oruwch-feddyg i'r fei yn sydyn rywddydd – ac y byddai ymchwil ben bore fory'n fforio i'r eithafoedd yn y DNA yn y fath fodd fel y byddai modd osgoi galar yn gyfan gwbl – ac wedyn roedd yna iachâd corfforol, gobaith gwyn dyfodol, mewn tragwyddoldeb o iacháu cyfannol i bob wan jac ohonyn nhw: felly y mynnai Alwyn yn

gwbl wirion nad oedd am gofleidio'r presennol. A'r un pryd, yn llawer mwy ymarferol, roedd Sioned wedi dewis camu'n ddisymwth i ganol ymarferoldeb y cwbl, *yn awr*, y funud yma, heb orffennol, heb ddyfodol, nes bod ei chariad yn wydn ac yn llewys ei chrys. Hi ddisodlodd bopeth yn awr yno, a hynny a ddaeth yn gadernid oll i'w gofid.

Penliniodd y ddau, ac yn nhawelwch y ddaear dyma'u gobraith nhw'n gweddïo 'Gwnele'r Dy ewyllys.' Yn eu cymysgedd, estynnnon nhw'u dwylo fwyfwy at yr Un uwchlaw pawb. Ni wrthodwyd neb difri a fu mor eofn. Hyn oedd y wers a ddysgwyd.

Wrth geisio'i hamddiffyn ei hun yn erbyn pryderon Alwyn, daeth Sioned a'i theimladau'n wydn drachefn. Er gwaetha'r orig o nerth, ymgaledai hi'n fwy pendant at y sarhad a gafodd ymennydd ei merch. Gwydnwch perthynas oedd hyn. Roedd perygl o hyd i'r person yn awr droi'n dreth. Ei merch, a hi ei hun. Roedd hi wedi cael ei godro o'i dynoliaeth wrth iddi dyfu'n fwy dynol. Hyn o loes a ddigwyddodd i ffrwyth ei chroth. Hyn a ddigwyddodd hefyd iddi hi – y dychryn i'r deall, a'r darganfyddiad nas ceisiwyd. Rhaid oedd bodoli o fewn y cyd-destun hwnnw bellach. Ac ymgaledodd hi yn ei hymdrech i fod yn ddewr. Gwrthgiliai rhag presenoldeb ei Thad nefol; ond ymwrolai'n ôl: mynnai blygu iddo Fe, er Ei fod y tu hwnt i bopeth.

'Te, cer i brynu'r celfi, Alwyn. A chofia brynu dysgl inni'i bwydo hi ohono heb sarnu. Ac awenau i'w dala hi ynghlwm wrth y gadair pan fydd hi'n eistedd wrth y ford. Ac nid celfi'n unig, ond teganau, a chasetiau. Cofia'r caneuon, Alwyn. Pethau felly yw ffrwythau'r ysbryd.'

Roedd peth o'r realydd ynddi. Roedd hi'n gwrthod anobaith y byd materol. Roedd hi'n gwrthod posibiladau ymchwil 'mañana'. Roedd hi'n paratoi ar gyfer bywyd newydd presennol.

'Fe fynna-i arddio,' meddai hi, 'a bydd hi'n gwylid.' Cododd hi. Ymorol.

'Bydd hi'n tyfu hefyd,' meddai Alwyn.

Dyma nhw'n mynd i wneud pethau. Am ychydig o eiliadau yn awr teimlai Sioned ac Alwyn fod eu calonnau drwy ryw ryfedd dro anhymig yn gorfoleddu ganu, yn betrus isel, ond yn bendant gyda'i gilydd. Dechreuen nhw am foment fer edrych ar fywyd ymarferol fel peth anochel gytûn, gan gynnwys teimladau cadarnhaol at eu

gwaith. Ac felly roedd rhywbeth wedi digwydd iddyn-nhw ill dau ac wedi'u cynhesu rywsut mewn parch allblyg unol at ei gilydd hefyd. Fe welon nhw nawr fod yr obsesiwn a'u meddiannodd nhw ynghynt ynghylch diwedd Del wedi mynd yn rhy bell. Fe fuodd yn ormod o lawer iddyn nhw. Roedd nid yn unig wedi'u hatal nhw rhag troi at fyw'n weithredol adeiladol: roedd wedi creu gwrthglawdd yn erbyn y teimlad fod galwad i fyw yn bosibl, heb adael bwllch iddyn nhw ail-fwynhau'r weithred o gusanu. Y dyddiau hyn, roedd diflastod pobl wedi mynd mor bell nes eu bod yn troi'n chwerwedd i gyd. Aethen nhwythau'n yn chwerw ynghylch popeth, gan gynnwys bod yng nghwmni'i gilydd. Heddiw, sut bynnag, cododd y rheidrwydd i godi allan o hynny oll.

\*

\*

\*

Cyhoeddodd gweinyddiaeth yr ysbyty ddiwedd yr wythnos fod cam newydd yn mynd i ddigwydd yn hanes Del. Cynigid her iddyn nhw droedio rhagddyn nhw i gyfnod arall. Heddiw! Heddiw eisoes, medden nhw, daethai hi'n ddiwrnod mawr. Dywedwyd yn yr ysbyty fod eisiau gwely Del. Roedd ei chorff hi'n gwella'n gyflym. Y gwir oedd eu bod nhw'n brin o welyau, ac am gael gwared â'r cleifion hir-dymor cyn belled ag y gellid. Doedd dim byd i'r triawd i'w wneud yn awr, ond aros ac aros, ychydig o oriau. Heddiw a ddynodwyd yn ddiwrnod gollwng Del. Gollyngwyd y cyd-gyfrifoldeb felly rhyngddyn nhw a'r ysbyty. 'Ychydig o oriau. Paratowch ar unwaith.' Am hanner dydd. Hynny'n unig, roedd yn ddigon: dyma'r alwad i ddechrau ail-adeiladu cartre newydd yn ymarferol ar yr hen aelwyd.

Cafodd Alwyn gyfle felly i brynu ac ailstocio'r nwyddau angenrheidiol. 'Hi fydd ein hofffeiriad ni, Sioned: hi fydd yn gweinyddu'n priodas newydd.'

Aethan nhw ill dau draw i'r ysbyty i nôl Del. Peth oedd hi o hyd. Roedd hi fel carreg. Gosodwyd hi i eistedd ar erchwyn y gwely yn barod i fynd allan i ymuno â cherrig eraill, â'r coed prenaidd ac â rhai stympiau sigared. A'r planhigion. Cael y gadair olwynion statudol gan Swyddfa'r Ysbyty, a'u gobaith ill dau oedd dod i'u merch yn onglog gysurus ynddi, ei gwthio i lawr y gwaered o'r ward rhwng y waliau cerrig i'r stryd.

Symudwyd hi wedyn yn geometrig ar hyd y stryd. Dyma fyddai heddiw.

Ar eu pwys roedd yna siop emau.

'Ga-i fynd draw i'r siop emau, i brynu modrwy newydd iti, Sioned?' meddai Alwyn. Nid fe a Sioned oedd yr unig rai roedd Del wedi cyffwrdd yn awr â'u hymwybod. Roedd yna ddieithryn yn gymharol agos.

Safai treisiwr Del yn aflonydd y tu allan i'r siop emau gan ysu am 'gyffesu' i rywrai drwy gyflawni 'trosedd' amlwg arall, eto byth, er mwyn iddo dderbyn rhyw gosb. Haeddai hyn. Dymunai'r treisiwr brwnt dynnu sylw ato'i hun rywfodd yn drawiadol. Dymunai ledu'i euogrwydd fel offrwm ar y llawr o flaen ei ysbail, gan hiraethu am iawndal. Hiraethai am gosb, bawb â'i lach arno; ac yntau'n ddolurus wridog yn ei euogrwydd gerbron y byd, yn wag wyllt am gael ei ddarostwng. Hiraethai'r treisiwr am gael ei dreisio; a'r llwybr i'r fath drosedd symbolaidd oedd drwy gyflawni rhyw weithred wirion amlwg o'r newydd, tynnu sylw, megis dwyn yn sydyn o'r siop gyfagos a rhedeg. Gwyliai Alwyn ei ymennydd ar waith gyda pheth chwilfrydedd. Pwy oedd hwn?

Edrychai'r gŵr ifanc mewn dychryn at y triawd, y rhieni anghyfarwydd, a'r ferch fach gyfarwydd yn ei chadair olwynion. Edrychai'n ôl mewn dryswch hefyd at y siop.

Doedd y plismon a oedai wrth y groesffordd yn y pellter ddim yn ddigon agos. Ysai'r gŵr ifanc am gyflawni'i anfadwaith newydd yn ddi-rwystr weledig ac yng ngŵydd pawb gan gynnwys hwnnw. Ond pe torrai'r ffenest â'i ffon yn awr, fe foddid y sŵn rhag sylw'r plismon gan y drafnidiaeth. Cododd y gŵr ifanc ei ffon, ond fe'i gwelwyd gan Alwyn. 'Na!' gwaeddai Alwyn arno. Yna, rywsut, adnabu Sioned e. Do. Pam? Pwy oedd e? Roedden nhw ill tri wedi'i weld e o'r blaen.

Ond ar y foment honno pryd y tynnwyd sylw'r rhieni ill dau ato fe'n arbennig wrth iddyn nhw groesi'r heol, denwyd nhw rhag canolbwyntio ar ofal dros eu merch. Analluogwyd nhw'n ddiddeall rhag sylwi ar ruthr y traffig, a bws yn pasio car yn annisgwyl; a'r un pryd, deffrôdd Del o'i lled anymwybodolrwydd wrth ei weld e. Ac adnabu'r dyn. Aeth hi'n fyw i gyd drwyddi. Crynodd ei phen hi'n drawmatig. Deffrowyd ei llygaid mewn dychryn. Siglodd rhywbeth o'r tu mewn iddi. Hwn, hwn oedd yr un.

Safai'r gŵr ifanc fel bwgan brain o flaen y byd. Edrychai Alwyn yn chwilfrydig ar wyneb ei ferch. Cymydog oedd y crwt, mae'n rhaid. Gwelai'r ferch y gŵr ifanc yn

symud. 'Dad!' gwaeddai Del o'i chadair olwynion. 'Mam!' yn groyw fel y gog. Y ddau air. Syfrdanwyd y rhieni. Dychrynwyd eu merch gan fywyd. Edrychon nhw oll ar ei gilydd yn syn anghrediniol lawen. Taflodd y gŵr ifanc ei ffon i'r llawr heb ei defnyddio. 'Deffroa,' gwaeddai'i lygaid yntau ar Ddel yn anfwriadol heb ddweud dim. Ceisiai'i wrthddweud ei hun fel petai. Doedd ganddo ddim cyswllt â'i gwir orffennol cadarnhaol hi o gwbl. Sut? Sgrechai'i lygaid e arni drachefn, mewn diymadferthedd.

A'r un eiliad yna, gwelsai fe berygl y bws yn dod, ac esgeulustod y rhieni ar y pryd. Neidiodd e ar draws ei llwybr. Heibio i'r bws. Llamodd at gadair olwynion y ferch a'i gwthio'n wyllt o'r ffordd. Bwriwyd y gadair ar ei hochr, a Del i'r llawr yn ddi-anaf, ond ... achubwyd ei bywyd. Do. Cadwyd Del.

Do. Ar y pryd canolbwyntiwyd sylw'r rhieni'n amherthnasol ar y ffaith gwbl arall: y seiniau syml yn sioc hyfryd o enau'u merch. A hefyd, ar y symudiad amwys gan y crwt, y cyd-gyfarfyddiad o weithredoedd, heb sylwi ar ystyr lawn achub gan y bachgen dieithr. Digwyddodd y cyfan mewn ychydig o eiliadau mân.

Ond ynghanol yr annisgwyl gymysgfa honno, roedd ffaith annisgwyl llais Del ar y blaen yn benna bwysig i'r ddau riant.

Roedd Del wedi yngan rhywbeth, daethai hi'n ôl i fyd byw. Rhew-wyd y rhieni nawr. Torrwyd y rhwystr seicolegol. Hwn, y crwt hwn, rywfodd a oedd wedi lled ddeffro Del o'i thrymgwsg iaith (gwyddai Alwyn hyn i sicrwydd). Hwn – drwy'r ffenest – neu ble? – y crwt dieithr hwn hefyd a oedd wedi cael y fath effaith ysigol arni – gynt hefyd efallai – a hudo o'r blaen seiniau o'i llwnc. Llygaid gleision gloyw, caredig, godidog y crwt hwn. Hwn. Yr achubwr. Ei gorff lluniaidd tal cyfarwydd. Pwy bynnag oedd e, dihunasai fe Del ryw fymryn lleia rywsut. Roedd Del fechan wedi creu ebychiad. Sylwodd y fam. Canfyddai'r tad fod yna ryw gynhyrriad bychan newydd yn ei ferch. Iaith o fath efallai. Na, nid iaith. Y person. Roedd ei ferch yn deffro ychydig.

Y dieithryn fachgen a alwasai arni o'r pellteroedd, fel petai, dyna a fu. Gorlifodd ymdeimlad o ddiolch annealladwy drwy holl fodolaeth Alwyn. Hwn a ddaethai â'i ferch annwyl yn ôl i ryw raddau. Fe a'i hachubodd hi. Estynnai law tuag at y gŵr. Estynnai'r llaw yn ôl at ei wraig. Roedd y byd wedi'u cyd-gysylltu nhw eto'n – bedwarawd.



Pwy oedd e? Syniai Alwyn fod y dyn da hwn wedi cael ei anfon gan rywun atyn nhw, rhaid. Teimlai'r dieithryn hwnnw, ar y llaw arall, yn groes, a bod Alwyn am ei fwrw'n gorfforol. A bodlonai ar hynny. Dyna oedd yn haeddiannol. Ac yn anghredadwy yr un pryd. 'Siaradodd hi, Sioned, – ein Del ni,' murmurai Alwyn. Roedd hi wedi estyn iaith atyn nhw oll. Yna, dechreuodd y gŵr redeg yn chwil ulw gaib am gosb a darostyngiad i gyfeiriad breichiau'r plismon. Rhedasai Alwyn yntau gan chwerthin ar ei ôl. Dilynai golygon Sioned nhw bob modfedd o'r ffordd. Ryw ganllath ymhellach ymlaen roedd hi pan welwyd y gŵr o'r diwedd yng ngafael y plismon llonydd. Canfu hwnnw hefyd Alwyn yn ei ganlyn tan weiddi'n erfyniol.

'Cymerwch fi,' bloeddiodd y crwt ar y plismon, cyn suddo i'r llawr. 'Cymerwch y cwbl. Fi sy ar fai.'

'Mi welais i'r cyfan,' ddwedodd y plismon yn hyderus. Mae'n amlwg ei fod yn dyst awdurdodol. Y plismon oedd y tyst cynta.

I un neu ddau o'r dorf ar bwys y siop emau, sylwasen nhw ynghynt ar y ffon wedi'i chodi yn llaw'r bachgen, a'r gemau yn y ffenest yn wrthrych lladrata i'r crwt hwn o bosib: galwon nhw 'lleidr' arno, a chwifio dwylo gwyllt er mwyn ennill sylw'r plismon. Digwyddodd popeth mor sydyn. 'Lleidr!' ddyweden nhw, yn ail dyst.

Ond gweld yr 'achubiaeth' wedyn wnaeth y rhan fwya o'r dorf. Nhw oedd y trydydd tyst, yr ymestyn i wthio'r gadair-olwynion o'r neilltu. 'Na. Chwarae teg i'r crwt,' gwaedden nhwythau. 'Achubodd ei bywyd hi.' A churon nhw eu dwylo mewn diolchgarwch.

Ffurfiar'r rhieni bedwaredd garfan. Iddyn nhw roedd synnwyr Del yn bwysicach na'i bywyd. 'Fe sy wedi rhoi Del yn ôl i ni.'

Ond gyrrwr y lorri oedd y bumed farn. 'Arna-i roedd y bai. Codais i'n llygad oddi ar y ffordd.'

Y plismon a orfu. Ganddo fe roedd y chweched gwelediad, yr ola megis y cynta, gyda pheth newid *en route*. 'Mi welais i'r cwbl. Mi droes y gŵr ifanc hwn i groesi'r heol yn y fan anghywir. Mae eisiau'i geryddu fe. Oes. Ond diolch am hynny. Mae pethau fel

'na'n digwydd yn rhy aml, serch hynny.' A gwenodd e yn ei hunan-gywiriad. Hyn ategodd alegoriaeth y cwbl.

Diofal fu symudiadau'r gŵr ifanc hardd wrth geisio ffoi, mae'n wir, yn ddi-dyst, ac yn ddiymadferth mewn sioc. A'r fan yna y digwyddodd y peth hwnnw gan fws neu lorri neu fan a oedd yn teithio'n rhy gyflym. Cafodd y crwt ei glwyfo rywsut yn y cythrwbl. Ar ei arlais yn deg. Tywalltodd y teiars dros ei draed o bosib. Doedd e ddim yn sicr. Gorweddaï fe ar y llawr yn awr wrth draed y plismon gan waedu o'i ben. Brysiodd Alwyn ato i'w ymgeleddu, ac i ddiolch iddo. Er gwaetha'r gwaed, ac er ei fod wedi torri rhai asennau hefyd, roedd y gŵr ifanc yn ymwybodol o hyd, er y clwyf. Sylwodd Alwyn nad oedd y niweidiau, er cynddrwg oedden nhw, yn ddifrifol. Fe safodd yr heddwas yn y canol yn ei awdurdod i gyd. Plygodd dros y gŵr ifanc clwyfus distaw. Yna, ar ei ôl e, daeth gyrrwr y car: 'Arna i roedd y bai,' ochneidiai'r gyrrwr drachefn. 'Y fi laddodd e. Fi. Rown i'n mynd yn rhy gyflym. Down i ddim wedi yfed dropyn cofiwch.'

'Fe welais i'r peth yn digwydd,' tystiai Alwyn gan bwyso uwchben llun y gŵr ifanc, a chan gil-sbio ar yrrwr y car gyda chyhuddiad yn llond ei lygaid. 'Roedd y bachgen ifanc, druan, yn ddiniwed, yn hollol ddiniwed. Roedd e'n anfonedig. Symudodd e ychydig. Wnaeth e ddim byd. Y car oedd yn gyrru'n rhy gyflym o beth wmbredd.'

'Dim byd na all tipyn o siwrans ei setlo,' meddai'r plismon.

'Diolch,' murmurai Alwyn gan droi at y llanc clwyfus, 'diolch am ichi roi geiriau'n ôl iddi.' A chasglai tyrfa fach gynhyrfus o'u cwmpas, gyda phawb erbyn hyn yn taeru diniweidrwydd damweiniol amlwg yr arwr ifanc. Roedd y gŵr ifanc yntau'n cyffesu'n fud ei euogrwydd â'i lygaid rhyfeddol. Fe oedd arwr y dre. Ond roedd Alwyn yntau'n pledio, yn gorfoleddu'r un pryd. 'Geiriau gan Ddel!' meddai.

Roedd y plismon gerllaw yn galw am drefn. 'Trefn, trefn,' gwaeddaï, yntau fel arweinydd Steddfod. Yn sydyn, gwawriai ar Alwyn y dybiaeth, y posibilrwydd swrealidd bron, pwy yn union oedd y truan hwn: y chwalfa feddyliol hon o druenusyn. Hwn oedd achos yr holl helbul. Ond mynnai wrthdystio'r gorau y gallai o'i blaid ac ar ei

ran. 'Anfonedig yn sicr. Mae'r bachgen yma'n fachgen da, folon marw,' meddai mewn ansicrwydd pendant wrth bawb. Plygai i lawr a thafllu'i freichiau am wddw'r crwt. 'Dal di ati machgen i. Mae 'da ti ddawn am ddaioni.'

Gwenai'r arwr ryw ychydig fel gobraith llesg ar y llawr. Ond methasai â chyffesu wrth wrandawr. Aeth y plismon ymlaen â'r ffwddan. Roedd ganddo lyfr nodiadau, a dyletswydd bwysig i gadw cofnodion. Dodai'r byd yn ôl yn ei le. Dodai ychydig o iaith ar bapur. Ymwahanodd y dyrfa. Aeth pawb i'w ffordd eu hun. Toddodd y crwt yn lluosowgrwydd y dre. Adferwyd normaliaeth ddi-hid.

\* \* \*

Brin awr yn ddiweddarach, wedi iddyn nhw ill tri gyrraedd y tŷ, y ferch fud a'r rhieni hyn, ac wedi iddyn nhw osod eu merch yn ara, ofalus, daclus, ddididig yn ei chadair drachefn, a'i strapio yno, gofynnai'r fam, 'Tybed a wnaethon ni gamgymeriad?'

Roedden nhw gartre. Do, cyrhaeddwyd y tŷ; ac roedd popeth yn newydd, ac yn hen.

'Beth wyt ti'n feddwl?' meddai'r tad.

'Gyda'r bachgen 'na. Fe. Ti'n meddwl efallai?...' meddai Sioned.

'Na! Ddim o gwbl.'

'Y truan gwirion 'na. Beth se fe eisoes wedi gwneud rhywbeth sgeler, rhyw drosedd, i rywun, beth se rhywbeth rhyngddo fe a Del, a'i fod e'n rhedeg i ddianc?'

'Fe! Y bachgen!... Gan bwyll bach. Beth wyt ti'n feddwl, Sioned?'

'Oni allai rhywun fel 'na hefyd wneud rhywbeth o'i le? Ai fe oedd y dyn drwg wedi'r cwbl?'

'Pam dŷn ni mor barod i amau pawb, Sioned?' meddai Alwyn. Edrychai fe o gylch y cartre. Roedd y plismon yn ei le. Roedd y bachgen yn amlwg ddiniwed.

'Ie... Ond dwyt *ti* ddim yn teimlo trueni dros y crwt, does bosib?' holai Sioned.

'Does neb byth yn gwneud camgymeriad gyda maddau,' meddai'r tad.

'Ust! Alwyn, rwyd ti'n rhy iach.'

'Ond fe allen ninnau o bawb, Sioned, brofi ewyllys da at bawb, oni allwn ni, at Del, at ein gilydd, does bosib? At achubwr ei bywyd? Allen ni ddim? Pa golled yw hynny?' meddai fe.

'Ewyllys da, yn dy farn di, dyna'r "cwbl" iefe? Wyt ti'n wirion Alwyn? Rwyt ti'n gwybod bod hynny ddim yn wir. Gelli di fynd yn rhy bell. Cyfiawnder yw'n delfryd.'

'Dymuno'r gorau, dw i'n feddwl, – yn hwyr ulw glas, – a hynny o ddifri. Gyda'r hyn sy eisoes wedi digwydd, ac yn gydnabyddedig gan bawb. Gallen ni i gyd ei wneud e. Tosturi yw Cyfiawnder yr Arglwydd.'

'Gallen, efallai,' meddai hi'n fyngus annealladwy. 'Mae gofid yn werth rhywfaint o ewyllys da, mae'n siŵr. Ond hyn, Alwyn, camgymeriad o'r math hwn, Alwyn? Na. Dŷn ni'n byw mewn byd sy wedi dweud celwydd. Alla-i ddim: all-i ddim meddwl y gorau ohono; rwyt ti'n aros yn rhy iach. Dw i'n amau'r crwt. Dw i'n amheus o holl blant dynion. Dw i'n yn amau i yn hun yn anad neb. Does dim un na dw i wedi cael achos i'w amau. Efallai fod yna ryw greaduriaid newydd o'r math yna i'w cael yn y goedwig. Ond dw i erioed wedi dod ar eu traws.'

Gwenai Alwyn. 'Ond rwyt ti'n maddau. Rwyt ti'n maddau i *fi*?' Gwenai hithau. Edrychon nhw gyda'i gilydd ar Del. Closien nhw at ei gilydd. Hynny nawr oedd orau.

'Paid di â bod yn rhy hyderus', meddai Sioned gan wenu o'r newydd... A thodden nhw i'w gilydd ill dau, o'r diwedd, yn syml oherwydd fod Del yn ymddangos ychydig yn well, ac oherwydd mai hyn oedd y byd roedden nhw'n byw ynddo. Oherwydd maddau.

Estynnai Alwyn ei freichiau ati. Roedd popeth arall wedi mynd yn ddi-gyfri iddyn nhw ond yr awydd nawr i blygu i ollyngdod ac i glodfori Duw. Doedd dim yn weddus y funud yna ond diolch a moli. Cynhesodd e drwyddo. 'Mae'n braf. On'd yw hi?' Edrychen nhw drwy'r ffenest. Gwenodd e. Methodd y croesi cleddyfau â datblygu.

'Y tywydd hefyd? Y glaw!'

'Tywydd dawnsio wedwn i. Fel Dafydd o flaen yr allor.' Aeth Alwyn draw yn bwylllog i roi cryno-ddisg yn ei blaen. 'Na!' meddai Sioned. 'Na, ddim nawr!' meddai hi yn weddustra i gyd. 'Ddim miwsig!' Roedd y nodau'n rhy sbonclyd. 'Dŷn ni newydd

ddod adre.' Jig oedd 'na gan neb llai na Ioan Sebastian Bach. Teimlai Sioned fod yna amser i sobri, i ddiolch, i weddio'n dawel. Trodd Alwyn y sŵn yn uchel, a sefyll ar ganol y llawr, gan edrych ar Sioned, ac yna ar Del. Cynigiai ei law'n heriol tua Sioned. 'Na,' meddai'i wraig, a'i llond o ymddygiad gofalus a phropor. Roedd hi'n dynn ynddi'i hun. 'Mae hyn yn achlysur hapus; ond mae'n rhy ddifrifol i wneud dim gwirion.' Eithr rhedai iechyd corff Del dros Sioned a'i chymysgu. Mynnai Alwyn yntau godi ei freichiau yn dyner ymholgar tuag ati. 'Madam? Gawn ni orfoleddu a diolch.' Clywen nhw'r glaw ar y ffenest.

Oedodd hi'n anfoddog i symud oddi ar ei heistedd. Yna, nesaodd hi ato fe wedyn mewn cywilydd. Cydiodd hi yn ei ddwylo hyderus llipa. 'Clywch y glaw,' meddai hi. 'Tywydd maddau popeth, Alwyn?' Roedd y sŵn yn anweddu o uchel. Llifai'r miwsig a seiniau'r glaw drostyn nhw ill tri. A dechreuodd y ddau riant ddawnsio yn lled ara eu cyrff i ddechrau tan godi'u penliniau'n Wyddelig o uchel, megis yn hen atgofion Nadoligau'u teulu eu hun ynghyd. Ildiai Sioned i gofleidiad enfawr Alwyn. Disgynnodd gwylltineb cynnes dros ei choesau er ei gwaetha o'r diwedd. Cyflymen-nhw ychydig. Ymaflodd y ddawns yn y tŷ i gyd. Gyda'i gilydd yng nghanol eu gwylltineb dyma nhw'n closio at Del tan chwerthin drwy'i gilydd. Roedden nhw'n taflu'r misoedd a'r blynyddoedd i ffwrdd yn awr. Dyma nhw'n cyflwyno'u chwerthin oll i Del. Ac wedi ychydig o eiliadau, dyma'r fechan hithau, hi hefyd, allan o ryw bydew enbyd a oedd ganddi, yn ymateb gyda gwên drist yn gymysg ag ebychiad amwys. 'Dyd!' Roedd hynny'n hen ddigon.

'Wow!' gwaeddodd Alwyn yn ei ffolineb. Cydion nhw o'r newydd yn ei gilydd, a chodi eu coesau'n Wyddelig o uchel o hyd, a'u cefnau'n syth o'r wasg i fyny, a chwyrliō, y ddau riant newydd sbon danlli grai, a llamu, a siglo, a bloeddio eto. Piliodd y starts i ffwrdd o bersonoliaeth Sioned. Roedd mynwes y wraig o'r diwedd yn ysgafnhau. Oherwydd y symudiadau, cadwynai'i gwallt o gylch ei phen ac ymlaen yn gylch golau fel pe bai hi'n ferch newydd ifanc eto, tan glymu'i sgert hir yng ngwaelod lastig ei nics er mwyn ei rhyddhau'i hun rhag maglu. Yn sydyn, drwy'r awyr fel pili-pala ysgafn, ehedai ebychiad: 'mam'. Del a'i dwedodd. Derbyniai'r awyr y sain newydd yna fel ymwelydd hyfryd i'r tŷ, fel dychwelydd wedi dod adre. Dawnsiai mynwes Sioned, yn

awr ym miwsig llais Del, o gylch yr ystafell yn ifanc. Roedd ei hwyneb yno'n gynnes goch, gellid cynhesu'r bysedd yn llyfn ar ei hanadl, a'i llygaid yn byrlymu. Ac wedi cylchu'r ystafell am y deugeinfed tro, dyma hi'n lluchio llidiartau'r mynydd a ymffurfiasai yn y canol yn agored braf, a rhedodd hi i gopa'r mynydd yn ei chalon gyda'i gŵr a'i merch,... er mwyn chwerthin am brydferthwch, a phenlinio.

## YMSERCHU YN Y GOFOD

*Safai Hugh Mac Arthur gerbron y byd, gyda chryn falchder, nid fel rhyw werthwr beiros bach distadl, nac fel cyn-wŵr Gwen, na hyd yn oed fel tad Jon. Ef, yn anad neb yn Sir Gaerfyrddin, a gynrychiolai'r dyn ôl-fodern. Parod oedd o ran ei gymeriad a'i egwyddorion oll i fynegi, mewn modd ymarferol a gweithredol, ystyr y Cymro cyfoes.*

*Parotach oedd Gwen, ar y llaw arall, i gymryd yr hyn a elwir yn ffordd ganol. Ffordd dawel, ond ffordd yr un mor gynrychioliadol. O leia, roedd ei chynrychioliad hi yn 'gwybod ei bethau.' Roedd hi am fod ar ganol y byd, heb ei arddangos.*

*Fel arfer, pan oedd Gwen yn ifanc, doedd hi byth yn meddwl mewn llythrennau italaidd. Iddi hi, megis i bawb arall yn yr oes honno, roedd print cyffredin yn gwneud y tro. Ond ar Hugh – a'i gymheiriaid e – y bu'r bai, am annibendod yr amseroedd. O'u herwydd nhw, roedd ei gŵr, neu ei chyn-wŵr, Hugh, wedi ymosod ar ei thawelwch hi, a'i gorfodi i gydymffurfio â nhw.*

*Doedd hi ddim yn 'casáu'r' dyn. Allai hi ddim ei gasáu. Bobl bach, Hugh a'i ddwylo esgyrn-mân, Hugh a'i wyneb bychan gwelw fel pellen edafedd llwyd a adawyd allan yn y glaw, Hugh a'i dewder diadwaith! Pwy, dw i'n ofyn, allai gasáu'r fath anniddordeb â hwnnw wedi'r cwbl? Roedd e mor rhagweladwy bob dim â'i anadl ola.*

*Gwell felly yw dechrau lle y dechreuodd meddwl Gwen, cyn iddi daflu'i dwylo i'r awyr mewn llythrennau italaidd.*

Ym mryd rhai gwrywod, bwlch yw ffyddlondeb rhwng anffyddlondebau diddorol. I fenywod ar y llaw arall, bwlch yw anffyddlondeb yng nghanol ffyddlondeb trist. Wedi'r cyfan roedd hi'n unfed ganrif ar hugain ar y ddau ohonyn nhw, ac i bawb a oedd yn gwrando. Ac ni adawai i neb fod yn neilltuedig rhag ei amser ei hun.

Heddiw roedd Gwen – beth bynnag fyddai'r gost – am deimlo'n fwy gwrywaidd ac yn fwy arwrol ddiddorol. Heddiw doedd yna ddim un diferyn o dristwch anniddorol i fod i fentro ar ei chyfyl, bwlch neu beidio.

Pam y dylai hi? Pam yn y byd mawr y dylai erlid ei nerfau'i hun ynghylch dyn bach nad oedd ganddo mo'r sefydlogrwydd cymeriad na'r nwydau ewyllysgar i feithrin yr un berthynas hardd a hir-amser â neb? Oni wnaethpwyd dynion i gyd o'r defnydd annefnyddiol trofaus hwn? Ond buasai neb wedi synied y ddi Hugh ryw ddydd i fod yn wrthrych myfyrdod ac yn eicon i odineb yn y Cwm. Roedd ffyddlondeb ym mryd Hugh megis cerfio dŵr. Roedd Gwen yn benderfynol, o hyn ymlaen felly, (wedi'r profiad diflas gafodd hi gydag e), o fyw ei bywyd solet ei hun o dan ei threfn ei hun o hyn ymlaen.

Ymwrolai Gwen. Gallai hi bellach ynddi hi ei hun fod yn gyfan gwbl hunanddigonol. 'Dynion, wir.' Dywedai'n blwmp ac yn blaen wrthi'i hun, 'beth yn y byd, ferch, sy'n dy grafu di mor galed, wrth drin dy feddwl di fel yna? Mae'n ddiwrnod braf ei wala heddiw, on'd yw hi? Rwyt ti'n wareiddiedig hawddgar. Menyw ysgaredig lond dy groen wyt ti. Beth arall sydd eisiau? Gad inni fwynhau bywyd *heb* ddynion, *fel* dynion. Bachgen bychan, crwtyn mân anaeddfed trist oedd y spesimen hwn: doedd dim eisiau rhoi dim sylw difri i'r math yma o erthyl dwy a dimai y gallet ti'i roi yn dy boced. Wedyn, felly, anadlodd hi'n ddwfn o ollyngdod. 'Mae eisiau gofod. *A! Gofod!*' Onid oedd hi'n unfed ganrif ar hugain arni?

\*

\*

\*

Un peth a oedd yn gyffredin i Hugh ac i Gwen, sef Jon eu mab. Hwn oedd prif ddolen eu sgwrs. Ac ef a roddai i'r berthynas ei sefydlogrwydd nas haeddai yn ystod y blynyddoedd cynnar, ac, wedi'r ysgariad, y cyswllt a roddai ychydig o barhad yn gefndirol iddyn nhw wedyn.

I Hugh, yn gefndirol, cyn diwedd hynny o briodas a gafodd e gyda Gwen, yr unig ffordd i fwynhau'i wraig oedd dychmygu ei fod e'n godinebu gyda hi. Ac nid anodd oedd dychmygu peth felly. Bellach, yn ystod y deng mlynedd diwetha, fe'i hamgylchid e



ynghyd â Chymru gan y ganrif newydd hon, a chan odineb bythol a diddychymyg y farchnad Ewropeaidd fel pawb normal. Dim ond normal i bawb oedd cydymffurfio.

A dyma hwn, Hugh, heno, yn dod adre, felly'n llond ei groen; wel nid adre'n hollol, ond at ei gyn-wraig yn ei hen gartre, fel y byddai fe ers blynyddoedd mwyach yn ymlusgo draw i'w gweld hi bob nos Fercher. Cerddai fe i mewn yn urddasol wag gan hen ddisgwyl popeth i fod, a allai fod, yn debyg iawn i'r lleuad reolaidd yn y môr, fel pe na bai ond yn unig-swydd ganddo i adlewyrchu goleuni a oedd yn adlewyrchiad ohono fe, drwy hawl gynhenid a chyfreithlon iddo yn yr hen le hwnnw. Hynny yw, ymdreiglai yno fel cyn-ŵr statudol o fraint a bonedd. Dôi Hugh â'i gyfran arferol o glebr i'r cyfarfod, serch hynny, mor ddibynadwy lipa ei anwireddau, gyda'i absenoldeb arferol o sbonc, â phapurau Llundain. Dôi hefyd â chyfle iddyn nhw ill dau baldaruo am anturiaethau Jon. Ac yntau, wrth sleifio'n ôl ati, ie, at ei wraig gynta gynt, ymddygai fel petai wedi gallu gosod ei ail wraig yn y cyfnod diweddarach, yn dwt o'r neilltu mewn ango normal. Dychwelyd yn achlysurol, pe mynnai, 'adre' fel pe na bai dim trofaus wedi digwydd rhyngddo a'i gyn-wraig.

Dichon mai'r priod-ddull adnabyddus '*rown i eisiau mwy o ofod*' a gynrychiolai'r oes hon yn well na'r un dywediad arall yn achos Hugh. Fe grynhoi yn ei wactod y diffyg ystyr y gorfoleddai'r oes hon ynddo yn anad dim.

\*

\*

\*

Ar ôl ymadael â hi, un peth a gafodd e yn ei *ail* briodas oedd hyder profiadol. Roedd amlhau croesawadau benywaidd yn amlhad hyder ac yn ail-natur i ŵr fel Hugh.

A phwy oedd y wraig newydd honno o bobl y byd a barodd i Gwen gael ei hisraddoli i fod yn 'gyn-wraig' i Hugh? Ar bapur o leia, Meg ddibrotest oedd honno. Ond o'r braidd fod Gwen, ei wraig gynta, cyn belled ag y gwyddai hi, yn gwybod am hon, ...tan yn bur ddiweddar. Pe bai hi'n gweld Meg yn blwmp ar y stryd, draw fan yna, o'r braidd y byddai'n gwybod pwy oedd y bwmpen chwythedig, mewn sgyrt gonfensiynol frown – oni bai am y ffaith annifyr braidd fod y ddwy bellach, Gwen a Meg, mor enbyd o debyg i'w gilydd, hyd yn oed o ran taldra a phwysau. Doedden nhw ddim *wedi* bod yn debyg erioed. Ond tyfon nhw'n debyg gyda threigl triagl y lleuadau,

ac efallai, dan gysgod deniadol Jon y mab. Do, hyd yn oed yn eu hannifyrrwch felly. Onid oedden nhw bellach yr un ffunud â'i gilydd yn grwn, neu'n gymharol grwn?

Dirgrynai Gwen wrth synied y fath beth nawr. Ych â Meg! Pan feddyliai Gwen am gariadon Hugh, roedd hi'n falch fod bomiau atomig wedi'u dyfeisio.

Ond heddiw, fe godai'n annifyr ara o'r diwedd o'r gwely yn barod i rywbeth. Ac yn neilltuol barod i'r eiliad cryd-cymalog hwnnw a ystyrid yn fywyd, pan gyrhaeddai Hugh yma ar ei dro, fel y cyrhaeddai drwy gwmwl o ddylyfu gên bob tro.

Eto, os gallai hi gasáu rhywun bellach, efallai taw Meg ei hun oedd honno. Ych! Hi oedd y 'llall' bythol. Hi oedd y cymeriad syrffedus a oedd yn siŵr o frigo i'r golwg ym mhob sgwrs gyda Hugh. Efallai taw'r unig faban sgrechlyd y medr gwrywod esgor arno'n bersonol eu hunain, ac yr oedd ganddyn nhw'r gwroldeb digonol i'w genhedlu, oedd yr 'Anhoffter' rhwng gwragedd cyfnewidiedig â'i gilydd. Ond nid 'Anhoffter' y gwragedd oedd unig blentyn Hugh, wrth gwrs. Jon, meddai fe, oedd y llall yn anad neb, cyn belled ag y gwyddai hi. Hwnnw oedd popeth iddyn nhw ill dau.

Jon.

Eto, oherwydd perthynas anniddorol ac anwir ddiweddar Hugh a Meg, canfyddai Gwen yn graff ymhobman fodolaeth yr hen *efail* anniddorol arall hwnnw, yr hen faban cydymaith mewn cyfoesedd iddi hi – sef Anhoffter rhwng gwragedd. Iddi hi roedd hwnnw'n efail go sgrechlyd i Jon. A hwnnw, (a fuasai gynt yn achos i dynnu Hugh oddi wrthi hithau yn y diwedd), bellach a'u tynnai nhw'n ôl heddiw, Meg a Jon, i brofi rhyw awydd aruthr i ddial arno fe rywsut. Y gwacter hwn rhyngddyn nhw oedd ei hôl-foderniaeth hi.

Gwelai hi un twll yn arfogaeth Hugh a ganiatâi iddi hi dalu'r pwyth yn ôl. Y twll hanfodol yn ei amddiffynfa rywfodd oedd ei ymosodiad afradlon e ei hun. Oherwydd ei agwedd gafalr at ddiweirdeb, dichon fod modd i Gwen ei ddenu fe bellach i adael ei ail ddioddefydd, Meg, ambell dro, ac ymroi i anffyddlondeb ffyddiog i gael cipolwg o'r newydd yn achlysurol ar ei wraig hirddioddefus gynta o fewn cyd-destun yr amseroedd. Math o bleser oedd dial mewn fframwaith celfydd. Fe gaen nhw adnewyddu'r perthyn. Druan o Meg! Doedd honno eto ddim yn gwybod am y sbort a geid mewn gwacter.

Ond chwarae teg i Hugh, gallai fe gydymdeimlo â dirmyg Gwen. Roedd e'n giamster am fod yn onest ynghylch pob dim. Cyffesai fel ffynnon. Fe ei hun oedd y tipyn drwg yn y caws mae'n rhaid; nid merched byth. Ond drwg mor ddiiddrwg oedd iddo nes nad oedd yn werth codi stêm amdano. Pam, felly, os oedd yn gymaint o chwiler disymud dila mewn agen wal, pam – fel glöyn byw anochel llawn gudd, – roedd e'n mynnu o hyd yn awr fflapian heibio'n ôl llawn ffws i sbecian ar ei wraig gynta bob nos Fercher, gan fod yr ymwahanu ystyrllon a phenderfyniadol rhyngddyn nhw wedi hen ymsefydlu'n ddiiddig? Beth oedd yn ei ddenu i gerdded ar yr hen lwybrau a phalu yn yr hen ardd?

A pham?

Jon ei hun oedd y rheswm ar y dechrau, cewch fentro.

A gellid deall hynny. Ie, yr anfarwol anghymharol Jon. Sefydlwyd trefniant i Hugh gael cipolwg yn rheolaidd ar ei grwt yn ei hen gartre lle'r oedd Gwen yn byw. Dyna'r esgus a ganiatawyd gan Gwen yn gychwynnol am yr ymweliadau ffurfiol hyn ar nos Fercher, cyn i Jon ymadael â'r cartre i'r Coleg. Rhyw wibdeithiau melys anghyfrifol oedd rhai Hugh er mwyn iddo gadw cyswllt, meddai, â'r plentyn yn y blynyddoedd ar ôl i'r rhieni ymwahanu. Piciai'r tad a'r mab allan am dro weithiau gyda'i gilydd, a chael cyfle i feithrin perthynas rhiant-a-phlentyn. Cawsai 'gytundeb-llys' ffurfiol gofnodedig i hyn. Pwnc cyfreithiol oedd. Ond yn awr, yn enw pob afreswm, ers tair blynedd roedd Jon i ffwrdd yn y Brifysgol, yn wir yn ardal cartre'i dad a Meg. Ond daliai'r tad i ymweld a dod heibio mor undonog hoffus ag erioed â hen gartre Gwen a Jon, heb fod y crwt yno, oherwydd rhyw fath o sentimentaliaeth rhyngddyn nhw ganol yr wythnos, meddai fe, er mwyn sgysio *am* Jon gyda hi, weithiau gan roi'r newyddion diweddara am Jon os gwyddai Hugh rywbeth, ac yntau'n byw'n agos at Goleg Jon. Cyfarfydden nhw i siarad am Jon.

Sgysio, wir! Jon oedd ei ddelfryd eiconaidd o fab. Pam, nis gwyddai. Efallai oherwydd y tebygrwydd rhynddyn nhw ill dau, debygai Hugh. Nid tebygrwydd pryd a gwedd. Ond tebygrwydd yn eu hoffter aruthr o lysiau, ac yn arbennig o foron amrwd ... Hysbys y dengys yr asyn...

Roedd e a'i wraig gynta yn wreiddiol wedi bodloni ar 'gael' Jon, meddyliai fe, i raddau er mwyn cadw'r briodas ynghyd. Ac o'r herwydd llusgodd hi eu merthyrdod o berthynas ymlaen wedyn er mwyn diogelu bywyd gwastad i Jon. Bellach, newidiodd y sefyllfa: er mai ar y 'llall' roedd y bai, roedden nhw ill dau'n bryderus ynghylch y niwed a wnaethan nhw i'r crwt. Roedd cyfrifoldeb seicolegol Jon yn gyd-gyfrifoldeb yn eu cydwybod gyffredin, ... yng nghyfnod cyn-Golegol Jon. Cyfarfydden nhw i siarad am Jon. Unwaith yr wythnos y digwyddai'r ymweliad tadol hwn am gyfnod, ac un waith yn ormod, o'i rhan hi. Math o adlais, estyniad neu barhad ydoedd, yn barhad rheolaidd i'r ymweliadau wythnosol a wnâi e â Jon cyn iddo fynd i'r Brifysgol. Roedd Jon wedi ymadael bellach, sut bynnag, ac roedd yn lletya mewn neuadd breswyl ers tro mwyach. Pam y mynnai'i dad ei phoeni o hyd gyda'r hen ymweliadau ymddiddanol?

Nawr roedd gan Hugh fwy o amser dros ben. Onid ymddeolodd yntau'n gynnar oherwydd iddo gael tipyn o drawiad ar y galon? Rhyw dwmpath o drawiad oedd, mae'n wir. Rhyw Bumlumon yn hytrach na'r Wyddfa. Ac yn awr, er ei fod yn dal i alw bob Nos Fercher yn ôl yr amser penodedig, byddai ambell alwad achlysurol arall dros ben gyda Gwen ac ambell ddiwrnod ychwanegol 'os gwelwch yn dda' yn cael ei atodi.

Rywsut, daethai'n hoff o ymweld â'i wraig gynta er mwyn cael ei atgoffa nad oedd yn gorfod byw gyda hi. Ffrindiau heb fod yn gariadon go iawn oedd y ddau hyn o hyd: cyn-wr a chyn-wraig yn gyn-briod, yn cyn-gofio'i gilydd ac yn cyn-obeithio na byddai gwir serchiadau byth yn blodeuo rhyngddyn nhw eto. Ac eto, meddyliai hi mor ddwys, 'O! Na ddeuai'r Etna fygythiol honno ar wartha'i fynwes rywbyrd fel y gallwn ei ysgaru fe o'r newydd yn fwy penderfynol.'

Manteisio roedd e felly, mae'n siŵr, ar y ffaith ei bod hithau, am ychydig, yn byw ar ei phen ei hunan bach. Wel, nid yn llythrennol felly efallai, ond yn symbolaidd...

\*

\*

\*

Clywodd Hugh ryw achlust fod ei gyn-wraig Gwen wedi gadael i'w llygaid hithau hefyd grwydro mwyach. Roedd hi wedi meithrin uchelgais newydd ym myd 'perthynas.'

'Gofod!' meddyliai hi gan lapio'r gair o gylch ei dannedd. *'Gofod! Yr Anfarwol*

*Ofod! Y Ngofod i yn hun!*' Dyna ystrydeb-air ar gyfer hanfod pêr yr unigrwydd hwnnw a ffug-fodolai iddi mewn gwirionedd, mewn hunanoldeb gwag, gair a ddwedwyd yn bwysleisiol yn ei meddwl mewn llythrennau italaidd fwy nag unwaith yn y cyfnod hwn, ond heb ormod o arddeliad. Pasgodd y gofod yn ferddwr go chwerw rhwng Gwen a Hugh pryd bynnag y meddylfen nhw am y peth. Taflwyd ychydig o sboneri, mae'n debyg, i'r sbôcs neu'n hytrach i 'fwyn drobwynt' bywyd ac yn yr 'ail gyfnod' i'r naill a'r llall o'r ddeuddyn fel cynhyrchwyr amrywiaeth. Ond ciliodd yr ymyriadau hyn yn eu tro.

Y cynta i'r felin, bob amser yw'r gynddelw unplyg. Absenoldeb Jon, yn y Coleg, a oedd wedi ysgogi Hugh, dybiai fe, i amlhau ei grwydradau diddrwg-didda yntau drwy'i ofod. Ym mryd Hugh, os oedd Gwen o'r diwedd am ddyngarfed ei hen anffyddlondeb, gallai yntau yn ei dro hefyd ei 'gwneud' hi gystal bob dim gyda hi gan anghofio mai ei odineb e a agorasai'r briffordd iddi hithau yn y cychwyn cynta.

Ond yn ail, ym mryd Gwen hithau, doedd dim angen bod yn rhy ffwdanus ynghylch 'ffyddlondeb' mwyach: mae yna bob amser ryw 'Robin' yn twitian ei firi ar silff y ffenest. Hynny yw, ymhlith y cysuron a gawsai Gwen, cawsai hi gryn amrywiaeth diddanus. I Hugh hefyd, daeth bywyd yn syml. Robin fu'r esgus teg yn 'wreiddiol', mae'n wir. Hen ddigon o esgus i neb i gyfiawnhau bwrw'i blu. Robin y sboner a'i disodlodd e fel rhan o'r diddanwch gyda Gwen am gyfnod. Ond yn yr un cyfnod hwnnw, collasai Hugh yntau'i deyrngarwch i Gwen ar ffurf rhai arferion annheyrngar eraill. A dechreuodd ledu'i orwelion. Eto, gwyddai fe fod hyn yn peri dryswch, yn arbennig pan ymarferwyd e gan Gwen yr un pryd. Yn ei fryd e, bellach, math o fonopoli ryngwladol annheg preifat i bobl eraill oedd diweirdeb neu ffyddlondeb. Fe'i gwrthodai'n ddeallol am resymau hollol egwyddorol. Ac yntau'n Gymro, perchnogaeth gyhoeddus oedd ei bethau fe'n boliticaidd, nid y fentr gyfalafol breifat. Ond os oedd Meg yn diriogaeth newydd dros y gorwel, dysgodd nad rhaid cefnu ar hen diriogaeth Gwen yn llwyr wrth ymhel â manau pell.

Gallai Hugh glymu ei siarlot wrth ddwy gaseg.

'Pawb at y peth y bo,' meddyliai fe. Os oedd Gwen am gael ychydig o waith cartre o'r calibr yna, yr un pryd, yn ei gefn, i'w astudio yn ei gwâl ar adegau neilltuedig,

gyda'r *Woman's Own*, cyrri a Phobl y Cwm, yna pam na allai yntau hefyd chwilio am rywun i'w hefrydu, rhywun weddol ddidramgwydd – megis wrth gwrs Meg? Bodlonodd e. Roedd ei resymeg mor ysbrydoledig â'i swydd. Ac eto, rywsut, byddai fe (chwarae teg), wedi hoffi arafu'r cariad dipyn bach er mwyn iddo bara ychydig yn hwy pe gallai. Wrth heneiddio câi fod ei anadl yn prinhaus ar fryniau. Ond dyna ni! Mae pawb yn gwneud ei orau. Rhaid oedd dygymod â rhamant yn ôl y cerdiau a rannwyd iddo fe.

Fel y dywedais, wedi'r cyfan, marchnatwr beiros oedd e, yn ôl ei swydd a'i argyhoeddiadau a'i amser. Pwy erioed a glywodd am neb yn dod o hyd i'r tamaid lleia o ramant mewn beiro? Mae'n debyg fod yn rhaid i rywun yn yr hen fyd yma wneud y gwaith hwnnw; a'r rhan bwysica o swydd Hugh Roy Mac Arthur (o roi'i enw llawn iddo) ac yntau o darddiad Americanaidd Albanaidd ac yn ddisgynnydd pell i Robert y Brewys yn ôl pob sôn, oedd gwerthu beiros i siopau i'r gorllewin o linell heb fod yn rhy syth yn ymestyn o Wauncaegurwen i Gydweli. (Nid 'Mac Arthur' oedd ei enw genedigol teuluol, gyda llaw, ond dyna'i enw masnachol, y *nom de plume* addurniadol fel petai.)

Tipyn o epicwriad mewn beiros oedd e, bid siŵr. Yn ei fryd e, urddas dynol wedi'i ddyrchafu i wastad mynegiant oedd beiro. Teimlai mai hwnnw yn dawel bach oedd gwir ffynhonnell pob llenyddiaeth, y tarddiad na allai'r un dychymyg fyw hebddo.

Ac roedd ei gyn-wraig Gwen bellach, – yn yr hen Gymru stalwm – os gwelwch yn dda, fel pe bai wedi dod i ymddwyn fel un o'r siopau hynny ei hun iddo. Mangre oedd hi i eistedd ar bwys ei chownter, ac arhosai hi'n achlysur cyfleus i glebran er mwyn gwerthu'i nwydd. Fe feithrinasai fe'i gelfyddyd drwy sgwrs rwydd a chysurus wrth dreiglo o siopwr i siopwr, er na phreblai fawr am feiros. Ac yn y rhes o werthwyr y nwyddau, yn achos Gwen, roedd ganddo'r ddawn nid anghyffredin o oedi am awr, am ddwy awr, am dair, heb ddweud odid ddim, o bwys, – braidd yn ôl-fodernaidd.

Aeth y garwriaeth yn fath o 'ŵyl sgysiau' iddyn nhw. Roedd ganddyn nhw gyd-bwnc. Dechreuai, chwarae teg, bob amser drwy sôn am ei mab, Jon. Gorffennai drwy sôn am Jon. Eithr rhwng y ddau begwn yna, dyn a ŵyr i ble y byddai'u geiriau'n eu harwain. Dyna oedd un o briodoleddau rheidiol ôl-foderniaeth, na wyddid ble yr âi hi na pham. Byddai hyd yn oed ogo Tan-yr-ogof wedi dylyfu gên wrth wrando arni. Effaith

greadigol y beiros, efallai, sef y cyfrwng, meddai fe'n bendant. Ambell waith, âi dros yr hen amser cyn i Jon ddod i darfu ar eu marweidd-dra cael-sgwrs. Ond dyw eilunaddoli'u mab, Jon, heb fawr arall, ddim ond yn magu clawstroffobia, yn gynta i'r mab, wedyn i'r tad. Perygl oedd oedi'n rhy hir gyda'r un pwnc. Stôl mewn siop oedd Gwen iddo, iddo osod ei din i orffwys arni o hyd, tynnu'i bibell allan a phaldaruo, cloncan, lapan. Onid hi oedd y 'chair' i'r gangen leol o Sefydliad y Merched? Ond roedd hi'n ddolen teulu hefyd.

Distaw oedd hi'n bur fynych. Clust o fath oedd hi hefyd heb geg – ond siwrnai a siawns, ac yn anhygoel briodol felly, yn ei farn e, gallai fe sefyll ambell dro ar ganol ei barablu, er mwyn syllu gyda rhyfeddod ar ei distawrwydd hyfryd. Chlywsoch chi erioed ddistawrwydd mor groyw. Po fwy tawel y bo gwraig, mwya anghrediniol fydd y gŵr. Sgyrsiai fe'n fynych am eu carwriaeth gynnar, ac yna, yn amlach am enedigaeth Jon (wyt ti'n cofio?), sef am un tro yn eu cyd-hanes pryd y'i gyrrodd e hi drwy oleuadau traffig er mwyn cyrraedd yr ysbyty mewn pryd. Eu dyddiau 'heulog arhosol' oedd y rheina, meddai fe. Allai hi ddim cofio popeth, wrth reswm, (fel yr honnai yntau y gallai fe'i wneud yn ôl-swyddogol bellach, mae'n siŵr). Chofiai hi ddim bod nosau chwerw wedi dilyn dyddiau chwerw. Ond doedd neb yn potsian am bethau felly, roedd hynny oll yn ango bellach, a'r nosau i gyd mwyach wedi chwythu i ffwrdd o bant i bentan. Fel pe bai gwynt cryfach nag arfer wedi rhuo o gyfeiriad Llyn Lech Owain – roedd y gwaetha yn hen, hen hanes wyneb-yn-wyneb â rhyfeddod Jon. Dyna'r math o glebr di-stop a geid wrth ei chownter hi, felly. Ond phrynodd hi ddim un beiro eithr ar ambell fore mwy unig na'i gilydd. Fel y bydd rhai pobl yn edrych ar ffilmiau er mwyn mwynhau wylad braf, felly yr ymwelai Hugh â Gwen er mwyn ... wel, roedd hi'n stôl.

Weithiau, (a siarad rhwng gwŷr Pentyrch a'i gilydd), ymdreiglen nhw dow-dow i fyny i'r gwely am ddeng munud fach. [Mae'r ffilm yma fel holl ddiwylliant yr oes yn mynd i gynnwys 'deunydd i oedolion', ac fe wyddech wrth y rhybudd yna eich bod ar fedr godde plentyneiddiwch eithafol o berthynas ddiddim.] Cordeddu ddringo o gwmpas hen ofod ei gilydd fyddai'u hanes y pryd hynny. Ond roedd y gofod hwnnw yn eu gollwng cyn cyrraedd y brig. A dychwelai fe maes o law i amgenach a dyfnach gofod. Roedd gan y ddau wrth gwrs ormod o atgofion.

Pan fyddai fe sut bynnag yng nghwmni Gwen, doedd yna un arall byth yn ymadael â'u meddyliau nhw dan y cynfas. Y bwgan o Jon. Bob amser, yr oedd y bwgan anwel hwnnw'n gwranddo ac fel pe bai'n murmur amwysedd gan sicrhau'u bod yn peidio byth â darganfod unplygrwydd yn ei gilydd, a'u bod yn osgoi'r pethau eraill yn natur ei gilydd a allai arwain at gyswllt llawnach. Dyw'r oes hon ddim yn gwerthfawrogi uchel-aeliau perthynas go iawn. A charu'r dieithryn nid rhy ddieithr hwnnw fu'r gyfrinach iddyn nhw yn rhy aml. O'i herwydd, doedden nhw erioed wedi dod o hyd i hanfod ei gilydd. Methwyd ag ymuno yn rhythm dwfn diffyg gofod. Bob amser, ceid y trydydd dieithr. Jon fel arfer oedd od-ddyn y triogl hwn. Natur ddynol feidrol ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif oedd y wlad gefndirol oll yn y fan yna. Natur ddi-hydeimledd ei sgeptigrwydd a'i dadrithiad oedd. Gwag oedd y cywair ôl-fodern i bawb normal, wrth gwrs. Ymaflyd-codwm rhwng hunanoldeb a hunanoldeb oedd cymaint o gyfathrach ag a gaen nhw gan eu swrealaeth fethedig, gwanc a wingai am wanc. Gyda dau, ar eu pennau eu hunain fel hyn, unigedd gwahân oedd eu mawr ddarganfyddiad yn yr aceri o ofod. A gêm newydd bleth dros dro fyddai'r naill i'r llall mewn hen fethiant wrth fforio drwy'r gofod cyfun hwnnw.

Doedd hi ddim yn ei gasáu. Gair rhy gafalir fyddai 'casáu'. Beth oedd yna i'w gasáu beth bynnag mewn marchnatwr beiros? Ac wrth gwrs, gallen nhw hyd yn oed chwerthin gyda'i gilydd. Giglan o leia. Ambell waith, ailddywedai fe hanes eneiniedig eu cyfarfyddiad cynta gyda'i gilydd gynt. Hysbyseb annifyr oedd ei go fe bellach am y cyfarfyddiad cychwynnol hwnnw, – wyt ti'n cofio Gwen? – a hynny'n llythrennol bron. Oni chaed o hyd, yn wir, dipyn o wenu am yr hysbyseb ar draws hynny o wep a oedd ganddo? Hysbyseb gynnill oedd yn y *Cymro*:

*Beiro o wr bonheddig, hoff o sgrifennu 'Rwy'n dy garu' ar gerrig glan y môr, yn chwilio am gymdeithes 25-35 oed i sgrifellu ei serch drosti. Hynod am hwyl. Hoff o farchogaeth ar draws y Mynydd Du. Tybed a fyddai gwahoddiad felly yn ddigon coeg ond digonol i beidio â bod yn annirnad?*

Cofiai hi fe'n dweud wrthi un tro: 'Waeth gen i farw, os ca-i ddal i farchogaeth!'

Hen bagan hedonistaidd llawn-amseroedd oedd Hugh, fel y cesglwch, pan nad oedd e'n practisio i fod yn ôl-fodernydd. Glynai hen olion moderniaeth wrtho.



Sut bynnag, cyfarfyddiad araul ac amlochrog gawson-nhw y tro cynta wrth adnabod ei gilydd; ac mae'n bosib am wythnos neu ddwy, (am ddiwrnod neu ddau o leia), iddyn nhw fod yn hapus. Wel, nid yn hapus. Bodlon. Normal. Gallai hi'i fodloni fe, a gallai fe geisio'i bodloni hi. Ac yna, i ffwrdd, i ffwrdd â nhw ar draws y Mynydd Du, ac i lawr i Langadog. Beth arall a ddisgwylid mewn priodas yn yr unfed ganrif ar hugain?

\*

\*

\*

Gofod!

Ceisiai osgoi myfyrio am ryw ychydig am briodoleddau lleia gormesol gofod. Yn wir, Jon a geisid yn benna i lenwi'r gofod hwnnw, gan Hugh megis gan Gwen. Gwych a difrycheulyd oedd Jon. Buan felly yr enciliodd Gwen i'r cefndir gan Hugh. Jon bellach oedd ei holl sylw. Jon oedd ei feddwl a'i arian a'i amser a'i hwyl, [heblaw am ychydig o Meg rhwng bachau petryal]. *Jon, ym mhob oedran o'i dyfiant, o'i eni hyd lawnder llencyndod – oedd canolbwynt pob bodolaeth. Ef oedd paragón pob sgwrs.*

Jon hefyd oedd eu tir cyffredin, eu 'tir neb', yn y frwydr ddjarhebol rhyngddyn nhw a'r weiren bigog a allai fod rhyngddyn nhw yn eu rhyfel cartre.

Tybed, meddyliai Gwen heddiw rhyngddi a hi ei hun wrth ailalw'r dyddiau a fu, *sut oedd hi ar Meg erbyn hyn? A oedd hithau wedi'i dadrithio? A oedd hithau hefyd yn gorfod diodde? Ai hi (Gwen) a'i chwmpeni amheuthun oedd yr Amser y chwiliai fe Ofod rhagddi?*

*Yn aml*, roedd e'n ymrithio'n italaidd. O leia, gallai Gwen frolio'n hyderus mai ei mab hi oedd Jon. Doedd dim amheuaeth am hynny. Chafodd y naill na'r llall ohonyn nhw yr un mab arall. A phe bai Meg yn gorfod gwrando yn lle Gwen ar ganran o'r rwtsh bondigrybwyll am Jon, am hyd yn oed hanner awr yn unig bob dydd, rhaid y byddai wedi cael llond cylla ac afu ohono. Fuasai Gwen ddim wedi oedi am hanner amrantiad pe bai hi yn sgidiau ansicr Meg yn gorfod wynebu ambell sgwrs am ddoniau mab rhywun arall, neu am orchestion hwnnw a gyrfa anfeidrol ryfeddol hwnnw.

Ond o leia, gallai Gwen faddau rhywfaint i Hugh, maddau iddo ar gownt Jon o leia, a hyd yn oed ar gownt Meg. Cwningaidd yw bryd gwrywod. Wedi'r cyfan, mae

meddwl pob gŵr anfoddog yn yr oes hon yn byw yn nhŷ drws nesa. A doedd hi erioed – froliai, yn bur ddi-sail – wedi bod yn un am ddal dig ynghylch cymdogion.

Os oedd Hugh, mewn munud wan, wedi tybied ei bod hi Meg yn rhagori rywfodd neu'i gilydd arni hi, Gwen, wel, rhwng cwningod Pentyrch a'i gilydd. Ryw dair gwaith yn unig y gwelsai hi Meg, a doedd yr un o'r tair yna yn gofiadwy. A sut y gellwch ddigio byth wrth gyd-gwningen na allech o'r braidd osod magl iddi?

Doedd hi ddim yn dal dig tuag at Meg un mymryn, felly, na thuag at Hugh chwaith erbyn hyn, o ran hynny. Hugh bach, tila, diddim. Prin bod i'r gair 'dig' unrhyw ystyr yn achos Hugh. Fe'i denwyd e gynt ati i geisio bod yn ddiiddig ddigon. Wedi'r cwbl, ffigur go druenus oedd i hwnnw erbyn hyn.

Ond ar ôl ymddeol, a methu â dod o hyd i ddim call i lenwi'r amser (na'i ofod), ac yna ar ganol ei segurddod digyffro yn cael 'trawiad bach' ar y galon, roedd Hugh wedi dechrau colli peth pwysau. Y trawiad bach diwetha hwn a ddechreuai ddiffinio'i fywyd bellach. Ceisio colli ychydig yn y manau strategol roedd e, meddai fe. Hoffai fe fod yr un pwysau â Jon. Er bod Jon yn fyrrach, roedd e'n dal yn fwy cydnerth. Cyrraedd pwysau Jon oedd prif nod buchedd Hugh. Cyrraedd yr un siâp a'r un hanfodion unfrydol â Jon. Pe gallai golli rhyw ddwy stôn arall bydden nhw'n fwy tebyg i'w gilydd, a byddai fe'n iachach, fel Jon. Druan ohono, yn arbennig yn awr, ar ôl llwyddo i golli pwysau, (mwy o bwysau nag a erfyniai mewn gwirionedd), roedd yn edrych yn bur fregus ac yn ymddwyn yn fregusach byth. O bryd i'w gilydd brefai defaid gwynion henaint ar ei gorun, ac erbyn hyn ysywaeth penderfynon nhw'n ddiplomatig gael corlan mewn ymddeoliad – un wag. Nid diarth i blant dynion yw moeli wedi gwynnu.

*Ond bobl bach! Pa ots iddi hi?* Doedd Gwen yn hidio'r un botwm corn ynddo. Difaterwch oedd y disgrifiad cywira o'i theimladau mwyach. Nid cenfigen, ac nid dieter chwaith na gwrthuni. Difaterwch dihafal o absoliwt oedd y disgrifiad manyla o'i hymateb i bob dyn yn y bôn. Dichon nad preswyllo y bydd serch mewn unrhyw wraig ganol-oed: lletya y bydd. Os na chaiff serch rhwng deuddyn gwmpeini cyfeillgarwch ac aberth yng nghôr cariad, dyw e ddim yn mynd i ganu llawer yn unman. Dyna'r dychryn. Llywodraeth gwlad yw cariad go iawn lle na chafodd serch namyn swydd ddistadl

mewn un adran, a hynny nid fel gweinidog y goron ond fel is-ystrifennydd ar y gorau.

\*

\*

\*

Bu gan Hugh gryn le ym mywyd Gwen rai blynyddoedd yn ôl, rhaid cyfadde, ond nid yn unigolyddol. Roedd hi wedi ymhoffi ynddo'n ystyriol unwaith; ond daeth hi'n hoffach hoffach, rywfaint yn ysbeidiol, o dwysged o ddynion, yn arbennig ar ôl i anffyddlondeb cynta Hugh ddod i'r fei. Ond cyn hynny ... wedi'r cwbl, rhaid i bob gwraig, a chanddi w'r i bryderu amdano beidio ag ymserchu'n anghymedrol mewn Dyfal-barhad. Roedd ganddi lawer o alwadau priodol eraill ar y gweill.

Hynny yw, fe wybu ofod. (A dychwelai'r llythrennau italaidd i'r fei o'r newydd wrth iddi ailalw'r gofrestr o'i hen gwningod, a ddiffinia'r gofod hwnnw yn yr amser gynt, *Robin, Arwyn, Elfed, Twm, Eic, Les (neu Len), Ken... Jonathan!* 'Yma, Miss!' atebai holl fechgyn y dosbarth yn eu tro wrth glywed y gofrestr. Ond A! ymhlith y rheini oll, adwaenai hi Jonathan yn bur dda ers talwm iawn. Roedd hi wedi closio dipyn at hwnnw. Ac yr oedd rhagor yn dod i'w chof fel glöynnod byw yn awr wrth iddi ailalw'i ffrind Jonathan. Dechreuai'r rhestr ymestyn yn fwy poblog ymhellach drwy'i hatgofion. Anghofiai mor anghysurus o rwydd: tra bydd rhai menywod yn troi serch yn dwymyn, roedd Gwen wedi'i droi'n gyffyrddiad bach o ddementia chwaledig.) Gwell ganddi gerddorfa na chwarae ar un fflirt bach, meddai. Un wennol ni wna wanwyn. Ym maes rhyw, tybiai mai addasach oedd llywodraeth leol na llywodraeth ganol. Os nad achubwch y cyfle ar odineb yn y fan a'r lle, yna fe achubith godineb y cyfle arnoch chi.

Fe gafwyd rhai o'r rhestr ymhell *cyn* iddi gyfarfod â Hugh; ond twysged pur niferus – Robin, Arwyn, Elfed – *wedi* iddi ymadael ag e. Roedd ganddi fel pawb arall ryw fath o reddfau naturiol yn goglais ei ffroenau yn weddol gyson dros y blynyddoedd chwarae teg. A beth oedd pwrpas griddfan onid i'w defnyddio ryw fryd neu'i gilydd, a'u defnyddio gyda pheth arddeliad? Ac wrth gwrs, os oedd hi'n rhoi ychydig bach o raff i'w chynneddfau fel hyn, yna, oni ddylai hi roi caniatâd cyffelyb i Hugh? Ac yn wir, i Jonathan yntau yn ei dro o ran hynny maes o law?

A! Jonathan gynt, Jonathan pêr, Jonathan hirfelyn tesog. Do, mi gafwyd tymor arddelus gydag yntau.

Ond phriododd hi neb drachefn, er nad oedd yn brin o gynigion. Cofiai am ddisgwyl galwad ffôn gan y rhyfeddol Les un diwrnod. A daeth y cwestiwn anochel: 'Gwen, dŷn ni'n ni'n dwlu ar ein gilydd. Dŷn ni wedi cysgu gyda'n gilydd mor fynych nes bod rhannau ohono-i'n gwybod eu ffordd o'th gwmpas fel cleren las o gylch ffenest y gegin. Dwyt ti ddim yn meddwl ei bod hi'n hen bryd inni briodi?'

Y cwbl a ddwedodd hi oedd, 'Ai Eic sy'n siarad?'

Fel pob un a fethodd â phrofi gwir gariad, tybiai y gallai'i godi lle bynnag a phryd bynnag y mynnai. Roedd hi'n credu'i bod yn dipyn o hedonydd ar egwyddor a bod bywyd wedi cael ei wneud i fod yn gyfleus. Ond roedd bod yn hedonydd yn golygu byw celwydd a'i fwynhau, lladd llygoden a'i bwyta hi. Gorfodai arni hi ddychmygu parhad nas profai, a mygu sylweddoliad pigog o'i gwendidau'i hun.

O! na allai ddianc rhag hyn o ganrif: yr hen unfed ganrif ar hugain amhenderfyniadol relatifaidd, a oedd yn iawn mewn theori, ond yn ynfyty'n i'w hymarfer. Roedd gan Hugh yntau druan ei fuchedd anochel, wrth gwrs, o fenyw i fenyw ar hyd y wifren deligriff neu'r lein dillad, fel roedd ganddi hithau ei bywyd ei hun – er ei bod yn hŷn bellach, medden nhw, nag y bu, a'r llanciau heb alw mor aml. Ond dyna ni, '*trech celfyddyd nag ysbrydoliaeth mewn serch.*' Dyna grynoded cadarn o'i phrofiad. Dyna fu'i hargyhoeddiad di-sigl wrth gasglu diarhebion. Wrth golli mwyfwy o'i cho, roedd rhywun o Gymdeithas yr Iaith un noson wedi dringo i fyny ar ei thalcen a phaentio'r slogan Cymreig hwnnw mewn paent gwyrdd yn y fan a'r lle: 'I'r pant y rhed y paent.'

Er gwaetha cefnogaeth diarhebion o lawer math, eto hen ansicrwydd pur dila a lithrai i fywyd rhywun oherwydd godineb. Nid yn unig y gŵr yn ansicr am y wraig a'r wraig yn ansicr am y gŵr, ond yr orsaf leol yn ansicr am amser y trenau, a'r aelod seneddol yn ansicr beth a ddwedsai yn yr etholiad cyn yr un diwetha. Pawb eisiau gofod yn yr unfed ganrif ar hugain. Pawb eisiau ansicrwydd pêr: amhenderfyniadaeth. A beth arall oedd anghofio addewid? Doedd dim math o sicrwydd hyd yn oed a oedd yr ansicrwydd ei hun ynghylch bywyd mor gwbl sicr ag y dylai fod. Ac am y gweinidogion crefyddol lleol, wel, enwid y rheini'n ddiaarbhol i gyd, o ran polisi, yn ôl helfa'r

papurau.

\*

\*

\*

Nid teg, bid siŵr, yw neilltuo'r hanes am berthynas Hugh a Gwen mewn unrhyw adroddiad am briodas neu ddiffyg priodas y cyfnod. Ar ryw olwg, roedd hyn mor gynrychioliadol. Un o'r priodasau cwmwl-bluog, eisiau-gofod, awel-grwydrol fu ganddyn nhw, Gwen a Hugh, – priodas bwysau-gwair, flewiach-manblu, sidan-wyntog a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain: priodas ysgol-feithrin oedd, mewn gwirionedd, er gosod bwrdd carbord gyda'r gair 'Prifysgol' yn froliant uwchben y trothwy.

Doedd hi ddim chwaith wedi ynysu priodas â Hugh fel ffenomen symbolaidd ganolig i'r cyfnod. Credai'n syml mai iechyd oedd Amrywiaeth. Pam gorbwysleisio Hugh? Ac ar ôl y gwahanu, fe hoffai Gwen pe bai Hugh yn ymweld â hi'n llai aml, a phe bai'n siarad bellach yn llai aml am Jon, – fel pe na ellid siarad am ddim arall... Ond dyna ni: efallai y gallwn oll siarad gormod am anarchiaeth o gyplad.

'Ond beth am Meg?' heriai hi fe. 'Hi yw dy wraig ddiweddara.'

'Twt, twt,' mynte fe: Jon oedd y cwbl iddo fe. Eto, roedd e a Meg, awgrymai, yn hyfryd hapus gyda'i gilydd mwyach, yn orfoleddus hapus yn wir, er na chawsan nhw blant.

Os felly, pam roedd e'n picio mor aml yn ôl heibio iddi hi, Gwen, fel pe bai e'n dannod ei hanhapusrwydd hi ei hun iddi hithau?

Dim rheswm arbennig, meddai fe. A beth bynnag, erbyn hyn, meddai fe, roedd ei deulu newydd am symud bellach, ac ar symud yn wir o ddyffryn Aman, os gwelwch yn dda, fe a'i ail wraig, yn ôl i ardal Meg, ger Gwaelod-y-garth. Gan fod Meg yn rhoi'r gorau i'w swydd fel athrawes mewn ysgol feithrin erbyn hyn, ac yntau wedi ymddeol o'i feiros, roedden nhw'n fwy rhydd: yn rhydd o leia i symud yn nes at gymdogaeth ei mam hi.

A pham lai na phellhau ychydig oddi wrth ei wraig gynta hefyd? Disymud oedd honno, ym mhob ffordd bron. Onid Gwen oedd y math o wraig anghyfrifol a

arddangosai'n loyw na ddylsai gwagedd erioed fod wedi cael y bleidlais?

Oedd hynny'n golygu na fyddai'n dod heibio mor fynych?

Oedd. Fe a'i fargeiniau gyda'r beiros.

Hyd yn oed ar nos Fercher?

Oedd.

A Jon?

Wel, doedd e ddim yn gweld Jon yn fynych yn awr, ta beth, dim ond yn ystod y gwyliau. Ond byddai symudiad i ardal Gwaelod-y-garth yn golygu y bydden nhw'n nes at Brifysgol Jon, ac y caen nhw ei weld e'n amlach.

Ond y sgysio *am* Jon?

O! tipyn o faldod oedd hynny. Gallai fe sgysio am Jon rywle rywle. Dros y ffôn efallai. Rhyw fath o fis mêl newydd gyda hi drwy'r ffôn. Beth amdani?

Ond beth am y gwyliau? Sut y byddai hi arno ynglŷn â'i gyswllt â Jon, ac ymweld, pan fyddai Jon yn ymweld â hi, yn ystod y gwyliau? Roedd e wedi meddwl am hynny hefyd. (On'd oedd yn meddwl am bopeth?) A'i gynllun e oedd, os byddai hi mor garedig â chytuno, y gallai Jon ddod acw atyn nhw yng Ngwaelod-y-garth am hanner y gwyliau, a threulio'r hanner arall gyda hi yn nyffryn Aman.

'Alla-i byth ddeall y bobol sy'n byw yn yr ardaloedd cyn-lofaol hyn,' meddai Hugh gan fradychu'i wreiddiau, 'gyda'r tomennydd wedi'u symud, heb ddim ond anialwch gwyrdd yn eu lle, ar ffurf caeau, ac yn dal i frolio'r enw "cartre" arno.' Eilliwyd coed oddi ar y pridd er cyn co. Nhw a fu'n gyfrifol am amddifadu'r tir o'i etifeddiaeth naturiol. Torrwyd Coed Cwm Cynon yn wrth-ecolegol lenyddol tan dreisio'r wlad.

Oni chofiai fe hanes digri am gi wedi dod i'r ardal ffug wledig a choed-amddifadedig hon am wyliau? Fe gafodd y fath drafferth yn dod o hyd i foncyff pren nes ei fod yn falch i ddychwelyd i Gaerdydd i ymollwng yn erbyn y castell.

O! yn daclus iawn felly? Roedd e wedi meddwl am bopeth. A beth amdani hi?

Sut felly?

Beth oedd e'n disgwyl iddi hi wneud?

Wel, colli Jon am hanner y gwyliau, wrth gwrs.

Neb yn dod heibio nos Fercher chwaith!

Beth y gallai hi ei wneud? Beth am ei theimladau hi? Sut roedd e'n disgwyl iddi hi ymateb? Hi!

Wel dim o gwbl, debyg iawn, wrth gwrs. Doedd dim eisiau iddi hi ymateb o gwbl, un ffordd neu'r llall. Roedd Jon yntau'n ddigon cytûn. A sut bynnag, oni châi hi ragor o Ofod mwyach? Dim ymateb gan Hugh o gwbl!

Ie, dyna'i agwedd wrywaidd erioed. Doedd dim ots amdani hi. Canlyniad oedd hyn i'n hunfed ganrif ar hugain ni ac agwedd ddatblygedig pobl at ysgariad. Doedd ei theimladau hi, a'i gobeithion a'i hegwyddorion a'i phurdeb hi ddim yn cyfri'r un ffeuen. Ei defnyddio, dyna'r cwbl wnaethai fe erioed. Ei gyfleustra fe oedd hi, cyfleustra adeg eu carwriaeth, cyfleustra i dwtio'r tŷ ac iddo ddod ar un adeg ag ychydig o bres o'i swydd gyda'r beiros, cyfleustra wedyn i gymdeithasu ac i fwrw'r amser ar orig wag. Cyfleustra ymylog, rhywbeth i'w godi yn weithred o gymdeithasu dros y cownter. 'Gofod!' poerodd e o'i geg sych, yn hytrach nag anwylo'r gair normal hwnnw o gylch ei dafnod ac ar flaenau'i ddannedd fel y byddai hi'n ei wneud ers talwm. Ei boeri'n ddihidans a wnâi e. Ac yn awr roedd meilord Hugh yn hedfan bant fel dafn ar wifren wedi cael digon arni hi, ac eto am sicrhau ei fod yn cadw rhyw fath o gyswllt â Jon ac yn ei hamddifadu hithau o Jon yn ystod yr amser hwnnw.

*Gallai*, sylweddolai o'r diwedd y *gallai* hi ei gasáu. Pe bai e'n ddigon ystyrllon ac yn ddigon o ddyn, *gallai* hi ei gasáu hyd ei fêr wedi'r cwbl. Cyfleustra oedd pawb iddo fe. Cyfleustra fu hi. Roedd hi wedi'i ffansio rywbyrd... efallai ... Ond... Ac eto...

*Dim ond eisiau mwy o ofod daearyddol roedd e, meddai fe yntau mor italaidd ag y gallai.*

Rhywbeth tebyg iddi hi. Na. Doedd hi ddim *yn* ei gasáu, wedi'r cwbl. Faint bynnag o ofod oedd ganddo, allai hi ddim ei gasáu. Roedd e mor dila, mor ddychrynllyd

o anfeidrol ddibwys, mor anwedus o dragwyddol eiddil. Roedd yn rhaid cael sylwedd i gasáu rhywbeth neu rywun gydag unrhyw fath o gynddaredd teidi. Pan geid tameidyn o ofod pwdr mor anferthol fusingrell â Hugh, doedd dim amdani ond tosturio orau y gellid, a mynd ymlaen gyda hyn o fuchedd a'i gwneuthuriad priodol ei hun o ofod.

Doedd gofod yn ei hanfod ddim yn wrthrych i'w ddirmygu gyda gormod o arddeliad.

\*

\*

\*

Ond un diwrnod, (un o'r diwrnodau sy'n dangos ei wyneb erbyn amser cinio, ac mae'n amlwg ar unwaith fod eisiau golch go iawn arno), y tu ôl i ddrôr yn yr ystafell wely, wedi llithro yno drwy amryfusedd, ac wrth dacluso, daeth hi o hyd i hen lythyrau at Hugh oddi wrth hen hen hen gariadon, yn mynd yn ôl i gyfnod eu priodas. Ac yma ac acw sonien nhw amdani hi. Hi! Ddarllen'sai-hi erioed y fath watwareg felly. Roedd gwawd ambell lythyr mor eithafol fel na allai hi o'r braidd ymateb rhag cilwenu'i hun nes sylweddoli o'r newydd mai hi oedd y cocyn hitio i bawb. Dyna'r hyn a oedd ar gerdded y tu ôl i'w gefn. Cael sbort am ei phen hi a'i phrinderau eraill hi roedd yr hen gariadon oll, a dylai hi fod yn annherfynol grac tuag ato. Ond rywsut, glaswenai ar draul digio (heb ffrwydro a heb regi) laswenau creulon bron, yn greulon tuag ati'i hun ac yn greulon tuag ato fe, a bron yn benderfynol o ganu'r gân ola ... Gwastraff ar ofod oedd y llythyrau hynny benbwygilydd. Rhyw synfyfyrio felly y bu hi drwy gydol y dydd. Ac yna eu storio nhw'n ôl yn y drôr! A dyma fe heno, wel, yn hwyr yn y prynhawn, neu'n gynnar yn yr hwyr efallai, yn baglu i mewn i'w thŷ, yn ôl ei arfer, neu nid yn annhebyg, dros ei charpedi anhreuliedig, a'i fegin hyll yn tuchan, a'i wyneb yn sgarlad a'i lygaid fel pe baen nhw eisiau dod ma's i gwrdd â chi am sgwrs fach, fel goleuadau car yn y nos yn eich rhybuddio chi cyn cyrraedd y gornel eu bod hwythau ar eu ffordd tuag atoch o'r ochr arall. Cwyno roedd e ei fod wedi bod yn codi cesys ar ben y wardrob, ac yna wedi gorfod dringo i'r atig a chludo rhagor o ddodrefn-yn-ddidrefn i lawr o'r atig i'w harchwilio yn barod ar gyfer y mudo mawr i ardal Gwaelod-y-garth: Ow! roedd e wedi ymlâdd. Helpu Meg fu'r achos! Roedd e'n falch i eistedd ac anadlu. Doedd e ddim am symud dim na mudo byth mwy: bydden nhw'n ei gludo fe allan y tro nesa ar blancyn. Doedd y straen ar ei fryst ddim yn werth y bryst y'i sgrifennid e arno fe. Ych â gwaith



corfforol! Chwarddodd e'n gynnil yn ei lif blawd ei hun fel y bydd cyn-blancyn. 'Dyma fi, Gwen, eto, ond ar yn ymweliad swyddogol ola i. Rown i eisiau peidio â symud, serch hynny, i Waelod-y-garth, fwy neu lai'n barhaol, heb ddiolch i chi o'r galon neu o rywbeth, a heb gydnabod eich graslonrwydd dros y blynyddoedd. Meddwl rhoi anrheg roeddwn i, yn symbol o'n gwerthfawrogiad i.'

Edrychai Gwen arno ac ar ei anrheg gan ledwenu drwy'i llygaid lliw-llygaid-maharen, ac eto'n dosturiol ansicr fel petai'r llygaid yn dod o Gaerdydd.

'Mi ddylech fod wedi aros nes bod Jon yn dod adre 'ma y tro nesa.' 'Chi' oedd hi bob amser rhyngddyn nhw bellach.

'Byddai'n rhy hwyr.'

'Bydd e gartre ymhen deng niwrnod.'

'Rhy hwyr. Mae Meg eisiau popeth yn barod erbyn dydd Sadwrn.'

'Ydy hi'n wir?'

'Mae ei nai, – mab ei chwaer, hwnnw sy'n berchen ar wasanaeth-post preifat, un o'r ffyrniau 'na sy'n cludo parseli'n ddi-ffael i unrhyw ran o Brydain, erbyn trannoeth, – mae e wedi addo y mudith e ran helaeth o'r dodrefn yn ei fan fawr ar ei ddiwrnod rhydd cynta. Bydd hi'n braf dechrau symud, a dechrau ymsefydlu o'r newydd.'

'O!' meddai Gwen yn gwta fel pe bai'i dwrn hi wedi colli pob anadl a oedd ynddo.

'Does dim gormod o hwyl arna i serch hynny,' meddai fe'n ffwr-bwt, gan edrych o'i gwmpas, ychydig yn ansicr ar ba gyfandir y safai. Roedd eistedd yn ddigon i fodloni pob uchelgais ar y pryd. 'Does gynnoch chi ddim syniad mor galed mae Meg yn gallu bod.'

'Pacio?' holai Gwen.

'Bysai Jon wedi gallu gwneud y cw bowl mewn chwinciad chwannen,' cyfaddefodd e, gan ei led grafu'i hun.

'Bysai.'

'Mae Jon yn gyfarwydd â phethau fel hyn,' broliodd Hugh.

'Wel, ydy, wrth gwrs, dyw rhywun ddim yn chwarae rygbi bob Sadwrn heb fod ei gyhyrau'n cadw'n weddol barchus.'

'Nac ydy, hyd yn oed i ail dîm Gors-las!'

Ciledrychodd hi arno'n chwilfrydig. Na, doedd e ddim yn disgwyl yn iach o gwbl. Anadlu'n gyflym roedd e, ac o sylwi ar ei ddwylo esgyrn-mân yr oedd y rheina'n wyn welw fel pe bai'r gwaed wedi ymadael â nhw am y milfed tro. 'Pwyswch yn ôl i eistedd am funud,' meddai hi.

'Ac mae gen i llythyr oddi wrth Jon i chi'i ddarllen. Nid yn aml mae'r cythraul bach yn sgrifennu llythyrau. Mae'r ffôn yn rhy gyfleus; ond roedd eisiau imi roi ar bapur ychydig o enwau a chyfeiriadau pobl yn ardal Gwaelod-y-garth iddo fe, ar gyfer chwilio am fflat annibynnol, er mwyn gwybod am leoliad pobl â'u gwreiddiau yn yr hen ardal. Mae Jon yn synied fod yna ormodedd o fudo wedi bod o ardal Gorslas i Waelod-y-garth – datganoli'r economi – nes eu bod nhw'n sôn bellach am “efeillio'r” ddau le.'

'A! Jon fydd y cyswllt rhyngddyn nhw.'

'Ie, gwell ichi eistedd.'

Ond roedd e eisoes wedi hir eistedd. Roedd e mewn hwyliau breuddwydiol gwell na'i gilydd. Dechreuai hi hwylio pob o ddysgled o goffi iddyn nhw. Wrth iddi lithro allan tua'r gegin, fe wyliai fe hi'n cilio'n freuddwydiol neu'n cilio i freuddwyd.

Synfyfyriai fe amdani hi'n arallfydol: y fath gorff! Y fath ffigur luniaidd! Y fath goffi! A allai rhywun ddweud (yn yr achos arbennig hwn yn unig) fod yna fath o osgeidd-dra gan y coffi hwn hefyd, ac yntau'r yfwr ei hun mor ysbaddedig fregus?

Fe'i caeodd e ei hun, sut bynnag, yn ei ofod tawel gyda'i gyn-wraig. A! Yr hen gwmpeini! Doedd e ddim am siarad â neb am funud, ac roedd e'n falch i gael egwyl i ddarllen y llythyr.

Ar ôl ei ddarllen eisteddodd yn ôl, a syllu'n wag ar Gwen a eisteddai bellach o'i flaen yn dawedog. Roedd ei galon e'n curo'n wyllt, ond nid oherwydd Gwen. Ceisiai'i fynwes ganu mymryn o gân serch henffasiwn; ond roedd wedi anghofio'r geiriau. Megis

y dyfeisiwyd ysgarthu i ymwarded â'r bwyd a dderbyniwyd gan y genau, felly yr ymwardedir â'r cusanau, nas derbyniwyd, unwaith eto drwy ddychmygu caneuon serch: (unwaith eto, dyna un o goelion ôl-fodernaidd Llyn y Fan Fach).

'Dych chi'n edrych yn well erbyn hyn,' meddai hi er nad oedd e ddim. Ond roedd yn rhywbeth i'w ddweud, ac yn fwy diplomatig na dweud wrtho ei fod yn edrych yn waeth. *Allai hi ddim ei gasáu.*

Cododd ei ben, ac yna tynnu pecyn bach o'i boced.

'Ydy popeth yn iawn?' gofynnai hi drwy'i gwefusau gloyw fel lolipop.

'Godidog,' meddai fe. Roedd ei drwyn mor goch ar y pryd fel y gallech chi ferwi llaeth arno. Gwasgedd gwaed, siŵr o fod.

'Da iawn.'

'Dw-i wedi dod ag anrheg fach,' meddai fe'n fuddugoliaethus gan roi'r pecyn ar y bwrdd.

'Doedd dim eisiau.'

'Oedd, roedd rhaid. Dyw hi'n ddim byd. Dim ond arwydd i ddathlu'r ymadawiad tybiedig. Dych chi mor... Na!' Ac yna gwawriai arno. Wrth ddod allan o'r tŷ roedd e wedi codi'r pecyn anghywir. Dyma'i anrheg i Jon. 'Nage: mae'n wir ddrwg gen i. Dw-i wedi gwneud camgymeriad. Mi ddes i ag anrheg...'

'Jon?'

'Do; mae'n enbyd o ddrwg gen i.'

'Popeth yn iawn.'

'Mi a-i'n ôl.. Doedd dim esgus...'

'Peidiwch â sôn. Does dim galw.'

'Na, mi ddeua-i'n ôl eto. Diwrnod arall. Mi fydd yn gyfle newydd. Yn achlysur.'

'Does dim eisiau.'

*Doedd hi ddim yn ei gasáu.* Sut gallai deimlo'r un cas at y creadur pitw hwn? Difater oedd hi. Ond chwarae teg iddi, roedd yntau yn y bôn yn ddifater tuag ati hi hefyd fel arfer.

'Dych chi'n siŵr,' meddai fe.

Hyd yn oed gyda'r busnes godinebu 'ma, teimlo tipyn yn nawddogol a wnâi hi tuag at Hugh. Plentynnaidd oedd e. Roedd arno eisiau tegan newydd o hyd. Tipyn yn anaeddfed oedd e wyneb yn wyneb â byd oedolyn priodas gyflawn, heb gyrraedd ei lawn dwf.

Ac felly y byddai hi yn achos cynifer o gwningod. Un peth yn unig yn eu hymenyddau pidlach nhw oedd ystyr *aeddfed* perthynas: doedd dim ffyddlondeb, dim teyrngarwch, na dim cyfartaledd. Doedd Hugh druan, y gofotwr, erioed wedi dysgu beth oedd ymddiriedaeth lân, erioed wedi cyd-lawenhau mewn caredigrwydd. Sut gallai fe fod yn ŵr mewn oed?

'Dw innau ddim yn teimlo cant-y-cant heddiw chwaith,' meddai hi gan balu celwyddau.

'O?'

'Pwtsyn.'

'Pam, beth sy wedi digwydd?'

'Mynd at ei ateb y bore 'ma.'

'Cael ei ladd?'

'Marw. Ei galon, yn hen ac yn fusgrell, chi'n gwybod.'

'Gwn i.'

'Cwrdd â gast yng ngardd un o'r cymdogion.'

'Gwn i.'

'A chael ei ddychryn.'

'Mae'n flin gen i.'

'Dyna ni. Mae'n dod i ni i gyd. Maen nhw'n dweud am y glöyn byw fod cyplysu'n golygu tranc: bydd yn colli'i fywyd cyn gynted ag y bo'n ei gyflawni... neu'n peidio â'i gyflawni,' meddai Gwen bron yn ddagreuol.

Hyn a esboniai'r unfed ganrif ar hugain, neu'r ôl-ugeinfed-ganrif.

'Ond mae'n wir ddrwg gen i. Dw-i'n gwybod pa mor hoff roeddech chi ohono.'

'Oeddwn. Druan,' ac roedd ei llygaid wedi'u llenwi. 'Meddwl roeddwn i,' meddai hi ymhellach ond yn betrusgar gan graffu ar ei wyneb blinedig e, ... 'na ...'

'Beth?'

'Na, ...mae'n iawn,' meddai hi wrth gyfarch ei meddwl ei hun ar y ffordd yn ôl.

'Rown i'n meddwl bod gynnoch chi rywbeth arall i'w ddweud am Bwtsyn.'

'Siarad ar y nghyfer rown i.' (Hen galon hyfryd oedd ganddi hi, mae'n rhaid.) Rholiodd un deigr yn bach prydlon fel perl i lawr dros ei bochgern. Trawai hwnnw gipolwg tua'r ardd, yn fwynaid, yn wâr. Ac yna, gydag ochenaidd, diflannodd i'w cheg. Y funud yna, er nad oedd hi mor beryglus â'i phaent, gyda phob cerpyn o atgof o Hugh a lechai yno, roedd blas rhyfel byd mwy ystyrlon na'r rhai arferol yn ei cheg.

'Ond beth?'

'Dim byd... Na, does dim brys...'

'Beth? Oes rhywbeth galla-i wneud?'

'Nac oes. Dim.'

'Oes. Mae 'na rywbeth... Un peth bach.'

'Na. Mae'n iawn. Dim byd: anghofiwch. Mynd i ddweud, a dweud y gwir... na... wel, meddwl rown i tybed fysech chi'n gallu palu twll bach rywdro i Bwtsyn, twll bach bach cyfforddus yn yr ardd ifi gladdu'r twtyn bach yn fuan, ond does dim ots, does dim brys gwyllt, mi alla-i aros. Ddim heddiw. Dych chi ddim yn teimlo'n hwylus.'

Edrychai hi allan i'r ardd yn gariadus. Os y cartre brics yw'r cig eidion ymhlith lleoedd, yr ardd yw'r gwin coch. I'r fan yna mae'r trwyn yn cyrchu am ei amheuthun mwya. Lle bach hamddenol i oedi gyda rhythm-tyfu yw gardd. Mewn man felly gellir

hau prudd-der a medi areuledd, a'i charu heb brofi gwrthodiad. I Gwen erioed, cronfa foethus i lyncu melyster oedd gardd heb fynd yn dew, ac yn anad dim gorffwystra oedd.

'Dw i fel y boi erbyn hyn,' celwyddodd Hugh. Peryg yw ymffrost.

'Na. Rywdro arall.'

'Ydw. Edrychwch. Ar yn llaw i. Dw i fel y graig.' Ei ddangos ei hun roedd e. 'Dyw hi'n fawr o dasg. Ac wrth gwrs fod 'na elfen o frys. Pwtsyn, wedi'r cwbl: nid bob dydd y bydd Pwtsyn yn marw. Mi alla-i balu tamaid o dwll mewn hanner smic iddo. Allai Pwtsyn ddim haeddu llai nag ymdrech amgen, druan, cyn iddo ddechrau colli'i anrhydedd drwy ddrewi. Beth oedd ei oed?'

'Wyth.'

'Run oedran â fi ym myd y cŵn, dw i'n feddwl. Rown i wedi rhyw dybied ei fod-e wedi bod gyda chi ers rhai blynyddoedd. Gwelith Jon ei eisiau fe.'

'Gwnaiff.'

'Jon oedd ei ffefryn,' meddai fe'n freuddwydiol o hyd, a'i galon yn pystylad yn ddiwyd. Roedd y pridd yn y fan hon yn profi'n galetach ac yn fwy caregog na'r disgwyl.

'Does dim dwywaith.'

'Dych chi'n cofio fel y byddai fe'n anelu am gôl Jon cyn gynted ag yr eisteddai.'

'Ydw.'

'Ac yn nôl y bêl pan oedd Jon yn ei chicio i ben draw'r ardd.'

'Ydw, ydw,' meddai Gwen yn bendant.

'Dych chi ddim wedi'i ffonio?'

'Na, ddim eto. Dyna'r peth cynta y bydda-i'n ddweud wrtho'n nes ymlaen heno.'

'Wel, gallwch ychwanegu wrtho hefyd ein bod ni wedi claddu'n hen Bwtsyn bach yn barchus, a rhoi ychydig o gerrig addurniadol i nodi'r fan, a thorch o flodau gwyllt yr ardd os gallwn ffeindio rhai berfedd gaea fel hyn. Bydd hyn yn anrhydeddu'r ardd.'

'Does dim teilyngach achlysur,' meddai hi. 'Trueni hefyd. Mae gen i flodau mor chwaethus fel arfer yn yr ha. Nid rhai uchel eu cloch yn sgrechian dros y lle... Fan hyn yn y Cwm, mae yna wareiddiad o fath... '

'Oes,' meddai Hugh, 'hyd yn oed mewn blodau gwyllt. Ond gwell prynu rhai.'

A mynnodd Hugh dorchi'i lawes yn barod i ddwysáu'r gwaith.

'Gwna-i ddysgled arall ichi erbyn ichi gwpla.'

*'Na! Allai hi ddim ei gasáu erbyn hyn, ddim yn hollol, druan. Wrth ei wylled yn awr wrthi drwy'r ffenest yn ddiwyd ara yn palu'r twll, allai hi ddim llai na'i hoffi fe ryw fymryn bach.*

Roedd y pridd mor galed gleiog gul iddo yr amser yma o'r flwyddyn. *Ych â'r pridd.* Drueni am bridd.

'Na,' meddai hi gan wenu rhyngddi a hi'i hun, 'na,' fel pe bai am ei gollwng ei hun o bob euogrwydd, ac yn ei dal ei hun yn ôl rhag y mymryn lleia o emosiwn nad oedd yn gwbl weddus. Trodd hi i lafurio uwchben y tebot yn y gegin. Wedyn, dechreuodd lenwi'r golchwr llestri, tan gasglu'r pais a'r sanau a'r nics fel pe bai'n cyfansoddi cerdd. Y funud yna roedd arni'r math o olwg ymwybodol ysgafn, ond cyflym benderfynol o brysurdeb anymwybodol menyw, a ballai arafu wrth basio'r byd a'r blaned Mawrth ar draffordd bywyd, ond a gâi ryw fymryn o gipolwg brysiog arwynebol arnyn nhw yr un pryd.

Aeth Hugh ati yn egnïol hunanddangosol i balu twll i Bwtsyn. Un o fanteision cŵn rhagor gwragedd, meddyliai, oedd eu bod yn darfod ynghynt.

Yn sydyn, wrth wyllo Hugh ym mhen pella'r ardd o'r gegin, fe'i gwelodd Gwen e'n ymestyn ac yna'n disgyn yn ddiymadferth ara ar ei benliniau, oeddod fel yna am ychydig o eiliadau gweddus, ac yna syrthiodd ymhellach, suddodd, bridd i'r pridd, ymlaen ar ei wyneb, fe'i plannodd ei hun yn ddisyfl yn naear gardd hardd y ddaear. Roedd rhywbeth difrifol yn bod arno efallai.

Nid ymarfer roedd e.

Ei greddf gynta hi oedd rhedeg allan ato yn llawn llythrennau italaidd ac ebychnodau i'w plastro drosto; ond tin-drodd am dipyn. Ar y naill law roedd ei chorff yn ei galw hi ato'n ddisymwth ac yn ddiohiriad; ond na, roedd rhywbeth chwilfrydig amgen yn ei meddwl yr un pryd yn peri iddi oedi a phendroni. On'd oedd e erioed wedi dymuno cael mwy o ofod neu wahanol ofod? Tybed ai dyma'r ateb heddiw, ai dyma'r gofod gwrthddywedol terfynol i'w broblem e? Ai palu bedd a'i lladdai fe? Ai palu bedd a wnâi e'i hun iddo'i hun? Ai dyna fyddai iddo *fe*'r gofod gwahanol?

Syllu allan o'r gegin a wnâi hi fel hyn wedi'i dal yn syfrdan wrth ganfod o'r newydd ei gorff yn gorwedd wyneb-i-waered ar un ochr i'r lawnt. Roedd yr hen greadur wedi'i blastro druan, ac nid oherwydd dirwest paent. Ac yna, ailwenodd hi'n gwbl gywilyddus, gwenu'n ara, ac yn galed derfynol bron ar yr ochr anghywir i'r ffenest... Dialedd Pwtsyn oedd hyn. Ac atalnod llawn odiaeth i bob llythyren italaidd.

Wedyn, dechreuodd yn ei chegin ryw led chwerthiniad, chwerthiniad pitw bach ar y dechrau, gan dorri allan o gorneli'i cheg, ac yna gynyddu yn ei stumog, a chynyddu drwy'i thagell a'i hysgwyddau, yn ddiymadferth nes yn raddol i hyn lenwi'r gegin, heb fod yn groch uchel, ond yn dreiddgar. Dirgrynai'r sosbenni ychydig, ond ddim llawer, a hithau'n llawn, llawn, llawn llawenydd.

Pwrpas llamu mewn llawenydd adeg marwolaeth ym mryd ambell un yw dweud wrth ddisgyrchiant nad yr hen ddaear drom biau'r diwedd ulw.

O'r diwedd, fe'i casglodd hi ei hun at ei gilydd, a cherdded yn bwylllog allan o'r gegin fel offeiriad, i'r llwybr, ar hyd y llwybr, drwy'r bydysawd tywyll nes ei gyrraedd e druan ym mhen draw'r ardd. Roedd hi fel pe bai sachau'n cerdded. Cilwenai rhai o'r blagur ar y coed wrth iddi basio.

Gwenodd Hugh, a'i wyneb mewn lle go chwithig, drwy'i amrannau yntau hefyd ychydig bach uwch y pridd wrth ei chlywed y tu ôl i'w war. Sylweddolai fod ei chymorth wrth law. Gorweddai fe'n deg mewn tir bendigaidd a'i anadl yn diflannu yn ddiwyd yn y ddaear. Teimlai fe'n ffodus iddi ddod ato fel hyn: mae'n dda mai benywaidd oedd 'dynoliaeth'.



Plygodd hi'n ofalus drosto, a throi rhan ucha'i gorff nes gweld ei wyneb. Roedd ei hwyneb yn felyn ddi-wrid. Roedd yntau'n anadlu'n wanllyd o hyd. Ac eto, daliai'n fyw. Roedd ei ben ychydig ar y naill ochr. Druan bach!

'Ydych chi'n o lew, Hugh?' holodd hi fel y bydd merched, yn chwilfrydig felly.

Agorodd e'i lygaid ac edrych arni mewn braw. Ymddangosai iddo uwch ei ben wyneb ei gyn-wraig yn glyd ac yn gynnes fel gwely y gallai yntau nythu ynddo a thynnu'r blancedi dros ei ben.

'Ddim felly,' murmurai'i wegil.

'Dw i'n meddwl mod i wedi ...,' meddai fe; ac yna, roedd yn dawelach nag arfer.

Dechreuai hi friwlan ychydig – 'hi' – y tywydd dw-i'n feddwl; ac ymhen dim amser roedd y diferion yn stigran o gwmpas yr ardd fel malwod meddwon. Ciliodd hi – Gwen – rhag yr hen law 'hen-law' hwn! Doedd hi ddim eisiau gwlychu.

Glanhawyd yr ardd yn ysbeidiol ers rhai dyddiau gan y glaw, yn arbennig yn y lle y gorweddaï Hugh. Roedd hi fel pe bai rhywun wedi mynd ar ei liniau ymlaen llaw i gasglu-lanhau pob llwchyn ar gyfer ei orweddiad. Edrychai hi o'i chwmpas yn yr ardd. Hyd yn oed os na thynasid pob chwynnyn, yn sicr buasai rhywun wrthi'n ddiwyd am oriau o'r newydd yn eu trefnu'n rhesi dyfal ddisgybledig a geometrig. Yng ngwaelod deheuol yr ardd ceid twmpath o ddail gwineulwyd, bob un yn ei le, wedi'i adeiladu'n boenus o ddestlus. Gellid arogl'r llwch gwlyb yno'n ysgafn ac yn niwlog yn y ffroenau.

Ar wahân i hynny roedd yna awyrgylech trwyadl o antiseptig. Carthu fu arwyddair yr awyr yn y gornel honno'n ddiweddar. Cabolwyd y lleuad gan y nos. A chafodd y gŵr diymadferth hwn ei osod yng nghanol mangre lle y cliriwyd ei holl adfeilion ac yr ysgubwyd ei holl gymylau o'r neilltu nes bod y lawnt fel wybren heb adlewyrchiad o fudreddi arni yn unman mwyach. Fe'i diboblogwyd oll o bob sbwriel ond amdano fe.

Trueni sbwyllo'r lawnt hefyd.

Roedd Pwtsyn a Hugh bellach gyda'i gilydd, sut bynnag, yn cydorwedd yn yr ardd.

Roedd hyn yn peri ychydig o gyfyng gyngor.

Dechreuai Gwen bendroni. Tybed beth fyddai'r diwedd. Pe gadewid e yn y fan yma, deuai'r pabïod melyn Cymreig a'r meillion a'r dant-y-llew yn un eigion anystyriol, a rholio drosto toc mewn barn ar ei unfed ganrif ar hugain. Fe âi e'n rhan o ysbryd y lle, yn un gyda'r gwreiddiau. Llosgai'r blodau-menyn eu petalau rhwyfus yn ei glustiau yn gosb. Tyfai coesau llygaid-y-dydd drwy'i drwyn rywdro, neu (yn ei bydru cynyddol) ei drwyn drwy lygaid y dydd. Wrth i'r heulwen fflamio drwy'r ddaear maes o law yn y gwanwyn fe âi ei freichiau fe'n rhan ohoni a'i groen gwyn gweinyddol yn ufudd i'r gwyrddni colledig cras. Estynnai'i droed ei wyntyll o esgryn ar y llawr. Efallai y deuai'n ffosil. Bois bach! Meddylia! A'i gario wedyn i'r Amgueddfa Môr yn Abertawe. Gwenai hi braidd yn falch wrth ystyried ei bosibiliadau.

Aeth Gwen eto dro arall yn nes ymlaen i gael cipolwg arall arno: roedd yn bwysig cadw llygad arno. Doedd e ddim wedi ffarwelio eto.

'Dim ond palu,' sisialodd ei feddwl, fel dyn yn nyrsio'i benderfyniad a oedd yn ymyl cyfrinach.

'Peidiwch â siarad gormod,' rhybuddiai hi fe.

'Liciwn i petai Jon yma,' meddai fe, gan ddal i anadlu'n ara.

'Sut dych chi'n teimlo?'

'Poen.'

'Ble?'

'Yn y mryst.'

'A!' meddai hi.

Beth oedd yr A! yna? Roedd yn A! Hyfryd. Sut? A fwytasai hi hufen iâ? A aroglasai lud? 'Peidiwch â siarad gormod!' meddai hi drachefn.

'Meddyg!' murmurai fe. 'Meddyg,' eto. Roedd cyhyrau'i wyneb wedi anystwytho, fel pe bai amser yn gwneud ei orau glas i wneud cerflun er cof amdano. Syllodd hi

arno'n graff: roedd glas yn ei siwtio hi hefyd. Roedd ganddo'r math o drwyn a dyfir yn gariadus yn nhai gwydr Dyffryn Tywi. 'Popeth yn ei dro,' meddai hi'n fwyn.

'A ffoniwch Jon,' ychwanegodd e rhag iddi anghofio.

'A!' meddai hi drachefn, ond heb symud.

'Liciwn i petai Jon yma.' Allai'r dyn ddim meddwl am rywbeth arall? Hyd yn oed ar achlysur mor anghonfensiynol â hyn? Cododd e ddau amrant neu dri fel pe bai'n codi cornel o'i grys i ddangos y graith ar ôl tynnu'i bendics. Roedd e'n dechrau blino ar berfformio angau fel hyn. Roedd yn bryd gwneud rhywbeth, fel y dywedir yng nghefn gwlad Ceredigion.

'Jon! Jon! Jon o hyd!' ebychai hi'n ddirmygus.

'Dim ond palu twll wnes i.' Teimlai fwydyn ymwithiol yn goglais ei glust chwith.

'Dyna maen nhw i gyd yn ddweud.'

Edrychai'i lygaid e allan arni gyda golwg syn ac anneallus wrth weld y llawr, a'i galon fel llond lorri o dywod gwlyb, a'i ddwylo'n llawn o ddolur. Roedd ei gyn-wraig erbyn hyn mor erchyll o oer. *Roedd hi fel petai'n ei gasáu.* Ond allai hynny ddim bod. Allai neb gael dim i'w gasáu ynddo fe. Ble?

'Jon!' murmurodd e. Anadlai'r un peth hwn o hyd fel teiar lorri Volkswagen toredig yn diodde o ddarfodedigaeth.

'Jon! Jon!' ebychodd hi. 'Beth yw'r obsesiwn, ddyn? Dych chi ddim yn cofio *Jonathan?*'

'Pa Jonathan?' Anesmwythodd e. 'Beth dych chi'n feddwl?' Doedd hi ddim yn deg i'w fryst fod y ddaear yn symud fel hyn odano ychydig. 'Ydw, ond beth...?'

Tawodd. Straen oedd cysylltu'r ddau enw.

Ac yn awr roedd y sgwrs yn carlamu drwy'i feddwl o'r newydd Hei! Ho! yn ei blaen, ac yntau'n ei dal yn ei hól orau y gallai afael yn yr awenau. Ebychai Hugh ddim. Symudai ei ben ymhellach ar y naill ochr. *Jonathan!* Beth ddwedsai hi? *Jon.* A oedd hi'n awgrymu rhywbeth anwedus? Ceisiai fe lygadrythu ar Gwen yn hygoelus drwy gil

ei lygad. Na! Dyna y bydden nhw i gyd yn ei raffu. Roedd gwên fach anniddig ar ei hwyneb fel llechen a oedd wedi llithro ychydig o'i lle ar do. Dyna hi i'r dim, yn palu celwyddau fel cath. Dyna hi'n ceisio'i ddychryn, yn dod ag arswyd yn ddisymwth fel hyn i ganol ei argyfwng, a hithau'n pentyrru marwor celwyddog ar ei ben. *Jon*. Sothach. *Jonathan!* Twyll. Ymlaen ac ymlaen, fel erioed. 'Gad ifi godi.'

Ac eto, hi ei hen gariad gynt, ei gyn-wraig, edrychai hi mor neis yn y fan yna: dim ond rhoi ychydig o finegr arni, gallai ei llarpio gyda thamaid o bysgodyn... Wel, tipyn go lew o finegr efallai.

Mor heddychlon y curai adenydd y glöyn byw gwyn dychmygol gerllaw yn erbyn glesni meddwl yr wybren. 'Jonathan!' meddai fe'n fyngus ac yn llesg ymholgar, a chau'i lygaid; ac wrth iddo gau'i lygaid yn glap, llithrodd y sylweddoliad salw yn ysgafn dros ei dalcen. Fe drôï e'n flodyn bychan gwelw yn y man – n'ad fi'n ango o bosib. Ac yn ysgafn o gelfydd, yr union bryd hwnnw, glaniodd y glöyn byw dychmygol ar ei bwys. Ac oedi fel fflam ddibwysau gan ddisgwyl awel. Taniodd Jon ledled ei feddwl.

Dechreuwyd nofio i ffwrdd yn y mwg myglyd gwlyb.

Golchwyd meddwl Hugh i fyny y funud honno ar draeth palmwyddog Eden, ond dim ond am funud. Doedd dim ots fod ei lewysau ychydig yn rhacsog a gwlyb. Teimlai'n rhwyfus fel pe bai'r holl brofiad hwn ar ei gefn yn debyg i wylled ffilm ar sianel y gwrywod. Roedd yna goconyts a merched tywyll, a gwallt hir taeg-syth yno. Gwyddai erioed pe bai pobl eraill wedi gallu sylweddoli ynghynt mai Tarzan oedd e, y buasai'r fforestydd i gyd eisiau iddo ymweld â nhw. Daeth un o'r merched tywyll taeg hyn mewn ffrogiau cwta ato – Meg? – â chyfrifiadur côl, a dechrau teipio'i ewyllys. 'Hufen iâ?' gofynnodd un arall mewn ffrog yr un mor feiddgar, fel pe bai'n ei gynnig iddo fe mewn egwyl ffilm yn y sinema – ai Gwen? Roedden nhw'n dechrau gwneud egwyl ohono. Ei ofod rhwyfus e oedd eu breuddwyd nhw.

Swingiai'n Darzanaidd o gainc i gainc.

Clywodd Gwen y ffôn. Yr Heddlu? Tewch! Na! Ynteu ei chydwybod? Gadawodd hi Hugh ar fwy o frys nag y'i bwriadasai, tan adael i weddillion ei anadl

ymlwybro ar adenydd llewygus i'r gofod. 'Esgusoda fi, Hugh. Dw i'n clywed rhywbeth.'  
Aeth hithau i mewn i'r tŷ yn osgeiddig ddiarddangos a chodi'r derbynnydd.

'Fi sy 'ma,' meddai'r ffôn.

'A! Jon,' meddai Gwen, 'rown i'n dy ddisgwyl rywsut.'

Roedd Hugh erbyn hyn wedi hen ddechrau ar ei lwybr terfynol anwel, yn  
esiampyl i Gwen sut roedd llithro tua gofod pan welwch chi fe'n go iawn.

'Pam? Beth sy'n bod?' meddai Jon.

'Mae yna un peth,' meddai Gwen.

'Rown i'n amau.. Dy lais... yn od.'

'Dim ond tipyn o ddolur gwddwg... Beth amdanat ti?'

'Dim ond holi sut mae pawb,' meddai fe.

'Newyddion drwg.'

'Pwy ... nid... dim byd difrifol...?'

'Ie. Y gwaetha.'

'Pwtyn?'

'Ie.'

'Rown i'n amau wrth dy lais di.'

Edrychai hi allan drwy'r ffenest. Buon nhw'n sgyrsio, felly, am chwarter awr;  
ugain munud.

Siarad am yr unfed ganrif ar hugain roedden nhw, wrth gwrs, a'r gymdeithas a  
oedd ohoni, wedi iddi gael ei gorchuddio bellach gan sgeptigrwydd a difaterwch. A  
gofod. Bu tipyn go lew o dyt-tyt-tytian uwchben y sefyllfa, ac yn arbennig am dranc  
Pwtsyn.

Yna, ar ôl dihybyddu'r pwnc, ffarweliodd Gwen. Penderfynodd Gwen efallai  
mai pryd oedd hi i gael rhyw olwg eto ar ei chyn-ŵr draw tua gwaelod yr ardd. Doedd  
dim siâp rhy dda arno, druan. Ac yn wir collodd ei liw a chymaint o anadl ag a gofiai hi

erioed ganddo wrth iddi gyrraedd. Roedd e eisoes wedi colli tameidiau ohono'i hun rywle neu'i gilydd ynghynt, rhai darnau ers wythnosau, mymryn fan yma a mymryn fan draw megis yn yr ardd yn awr. Bellach, collodd y gweddilyn ola trist trystiog ar y glaswellt mwyn i mewn i'r gofod cynhwysfawr. Gorweddai fe mor eithriadol dawel yno druan bach fel y gallech glywed un pry cop yn sibrawd celwyddau wrth bry cop arall ynghylch amser yr angladd.

'Jon oedd yna. Fe'i dwedais wrtho,' meddai hi dros gorff Hugh, 'am Bwtsyn. Mae e wedi addo dod i orffen y gwaith.'

Atebodd ddim o Hugh. Gwell oedd ganddo gael llonydd, meddyliodd hi, iddo ddod ato'i hun, efallai.

Aeth hithau felly dow-dow'n synfyfyriol yn ôl i'r gegin i alaru uwchben y cwpaneidiau o goffi disgwylidig eto a oedd wedi sarnu llaeth ar draws plât y feicrodon yn ystod ei chwrs hi i'r ardd. Ac âi bywyd a'r atgofion melys hamddenol, heddychlon, hael, dow-dow yn ei flaen o'i deutu yn y gegin am weddill y prynhawn fel cyfres o ymweliadau serchog ers talwm, gan ddisgwyl Jon.

Ac acw roedd Hugh ar y lawnt yn syndod o wyn, yn herfeddiol ddi-chwaeth o wyn yn wir, wedi gwneud ei ddyletswydd arddwriaethol ola yn ôl pob golwg. Gorweddai ar ei drwyn neu ei drwynau yn annhymorol, ac oherwydd hynny'n gludydd oerfel. Dechreuai hi (sef yr hin) friwlan o'i gwmpas drachefn, yn atal-dweud o brostadaidd i ddechrau. Dafnai, yn hwylus helaeth, fel pe bai wedi cael tipyn o brofiad. Doedd neb yn gwybod o ble y deuai'r glaw y tro hwn, ond beth bynnag oedd y tarddiad, yr oedd yn benderfynol o ddod. Dŷn ni oll yn gyfarwydd â'r math o law sy'n dafnu i ddechrau ac yna sy'n pistyllu i mewn i ni yn sydyn nes i'r esgyrn oll gael eu trwytho a thoddi. Roedd y glaw hwn sut bynnag wedi amcanu gwneud mis ohoni y prynhawn 'ma.

Felly nawr y gwnaed hi gyda'r tai o'i ddeutu, a'u hesgyrn oll wedi'u mwydo, neu felly y tybiasai Hugh druan pe gallasai dybied unrhyw beth o gwbl mwyach. Dechreuai'r palmentydd a'r ffyrdd ymhellach draw doddi. Trôï meddyliau'r bobl yn y strydoedd yn afonydd rhugl a hygryw. Roedd yn bryd i'r swyddfeydd, a'r banciau, chwilio am eu rhwyfau. Wele, cyffyrddwyd â botwm anghywir ar y cyfrifiadur a diflannodd y ddaear

oll i mewn i lifogydd tryloyw o gyhyrau gwlyb. Wedyn, y glaw ymyrgar hwnnw, pan gyflawnasai ei orchwyl, – yr un glaw diamynedd yn gymwys, – a ddarfu.

Distyllodd ynddo'i hunan, yn drosiadol, gan oerfel y tymor.

Gwawriodd ar Gwen nad tymor yr ha a oedd yno o gwbl, ac nad glöyn-byw chwaith o fywyd. O'i chwmpas yn yr ardd honno roedd distawrwydd newydd sbon danlli grai wedi disgyn. Syrthiai o hyd mwyach fel eira o ysgafn, wedi bwrw ei blwc: fel plu mân tawel oer a bentyrriai o gylch coesau estynedig Hugh ac a lanwai'r bylchau rhwng bysedd ei law. Glynai ychydig hefyd yn ei wallt, lluwchfeydd o ddistawrwydd cannaid a fyddai'n sicr o fod yn rhwystr i gar Jon wrth ddod adre heno. Doedd dim syndod ei bod hi'n teimlo'n oer. Crynai'r tawelwch wrth setlo ar y gwair ac esgyn o ran uchder a llenwi'r gofod i gyd. Pe bai hi'n para fel hyn am awr arall, fyddai dim gobaith i Jon, ar ôl cyflawni'i gymwynas, gyrraedd adre am sbel efallai. Teimlai Gwen yn rhwystredig, a theimlai'n fwyfwy ansymudol rywfodd.

Beth yn enw pob amynedd oedd y dyn yn ceisio'i wneud fan acw ar y llawr? Twrio am fwydon? Pa hawl oedd 'dag e ym mherfedd gaea diweddar i orwedd ar ei lawnt hi fel yna'n jôcos fel pe na bai dim arall i'w wneud? *Roedd hi'n ei gasáu, yn ei gasáu â'i holl gyhyrau, â'i holl ymennydd, â'i holl ddychmygion.*

Hen bryd hefyd. Roedd e bron yn afreal. Wele! Roedd stormydd a chesair yn chwythu ar hyd a lled y byd gorllewinol, a doedd dim gwell gydag e i'w wneud yn y fan yna ond segura'n jôcos a gwrando ar y glöynnod pert o dawelwch yn dawnsio o gwmpas y lle fel criw o ferched ysgol wedi'u gwisgo ar gyfer priodas yn prancio law yn llaw o gylch polyn y pentre. Dynion! A'u hunfed ganrif ar hugain.

A Gwen, hi, ei gyn-wraig hardd hon, hithau hefyd, roedd hi nawr bron yn afreal iddi hi'i hun, ac eto roedd hi'n ffigur hir ac ystwyth a ymdeithiai bellach ar draws y lawnt ato. Plygai hi uwch ei ben yn annwyl. Safai yno, nid yn barchedig, ond am na wyddai beth oedd y peth nesa i'w wneud. Dôl fflyd o atgofion annifyr a hiraethus yn ôl yn awr drosti, o gyfnod cynnar iawn iawn yn gwbl ffansiol eu posibiliadau wrth gwrs,... amdano fe, yn lled olygus ifanc gynt yn preswyllo yn yr un palas â hi am y tro, am y gweision a'r morynion a rhai corachod dychmygus fel yn y dyddiau gynt mewn rhith-

ddelfrydau canoloesol, yn cario hambyrddau ac arnynt nicerbocergloriau a chrempogau. Atgofion a breuddwydion gwraig yng nghyflawnder ei hoes wedyn, wedi hen fwynhau'r berthynas briodasol cyn belled ag yr âi. Yntau, yn y rhith, ie, yn uchelwr go smart gerllaw; hithau'n uchelwraig. Y fath deyrnasiad a gawsen nhw yn yr hen amser gynt! Y fath lywodraethu gwyllt! Chwarae lotto drwy'r dydd, gyda thrugaredd a charedigrwydd ym mhob man, wrth gwrs, ond yn ddisgybledig hefyd ac yn wâr gynnes yn yr hen gynoesoedd rhamantus. Trôl'r atgofion pêr amdani a Hugh yn felyster chwithig, hwythau ar eu gorseddau, ac fel y buon nhw erioed, bellach mor weddaidd fonheddig. Yno rywsut y buon nhw am funud fach yn Eden heb ddim dwli, a heb amser iawn na gofod i ddim na neb oll, ond i'w gilydd glân. Bellach, roedd y cwbl hwnnw gynt wedi darfod amdani rywfodd. *Teimlai hi'i bod yn mynd ychydig bach yn deimladllyd. A chasâi hi gofio. Fe gasâi hi'r unigrwydd newydd, didrugaredd hefyd, heb Hugh. Berwai casineb ynddi tuag at yr amddifadrwydd a'u goddiwedddai ill dau mwyach, y terfynoldeb newydd hwn a oedd wedi disgyn ar wartha'u tipyn cyd-fyw achlysurol diystyr hirfelyn. Ysgarwyd y ddau yn y diwedd gan normaliaeth.*

Profedigaeth hirwyntog yw ysgariad efallai: i'r sawl sy ar ôl, y mae ei chynhebrwng yn ymestyn ar hyd y dyffrynnoedd a thros fynyddoedd am ganrifoedd lawer. Heb hynny, ffug yw pob cyswllt arall. Seithug o bosib yw dweud hyló wrth gorff.

'Beth amdanat ti a fi bach,' sibrydai hi'n synhwyrus wrth ei gorff e y funud yma nawr 'yn ceisio ailgynnau'r tân ar hen aelwyd. Tria di'n galed nghariad i.'

Ond braidd yn ddiddywedwst fu Hugh Mac Arthur. Hunanladdiad yw pob pydredd, hyd yn oed hwn, meddyliai hi, gan feddwl am y Gymru Gymraeg yn ei thewdra o'i chwmpas, a heb yr ewyllys gwirfoddol na'r unplygrwydd cydweithredol i adfywio'i hiaith. Roedd e wedi mynd druan; ac wedi mynd i gael tipyn o sioc, fe a'i unfed ganrif ar hugain. Ond roedden nhw'n deall ei gilydd.

Byddai hi'n gweld ei eisiau fe, mae'n debyg. Ac nid drwg fyddai hynny i gyd. Ymdawelai hi nawr mewn amgylchfyd cyson o gasineb cymedrol ffyddlon ato heb yr un llythyren italaidd i'w gweld yn unman oni bai mae'n debyg am yr un neu ddwy fach grwydr *efallai* a ysgubai hithau, hefyd yn fuan, i'r gofod cynnes gerllaw.



## YR YMHOLYDD DIDWYLL

*Dywedwyd iaith i ddechrau er mwyn dweud goleuni. Ond fe'i galwyd gan ddyn yn dywyllwch. Fe'i bwriadwyd i ddechrau er mwyn traethu'r gwirionedd croyw. A buwyd yn ddiwyd dros ganrifoedd yn chwit-chwatio ynghylch y bwriad hwn, hyd at yr ugeinfed ganrif.*

*Ac yna, daeth Ioan.*

*Tyfodd y stori ganlynol allan o'i argyfwng e. Sylwodd llawer o sylwedyddion fod yna sefyllfa newydd wedi datblygu yn ystod yr hanner can mlynedd diwetha. Fe'i labelwyd drwy sawl term disgrifiol. Fe'i galwyd yn weddol gyffredinol yn 'Ôl-foderniaeth' gan rywrai. Ond tybiwyd gan eraill fod hyn yn derm ychydig yn llwythog, ac yn 'ymhonni' fel pe bai'n fwy modern na Moderniaeth sefydliadol, – ac yn fwy direswm yn ddiâu. Bu 'Moderniaeth' yn gywir, cyn belled ag yr oedd yn ceisio dweud y gwir wrth bobl heddiw. Ond beth oedd natur y gwrthryfel Ôl-fodernaidd?*

*Ymgymhwysodd Ioan i ateb her y cwestiwn hwn. Un peth y sylwodd arno: yn amlwg, cynrychiolai symudiad gan y pendil. Cafwyd adwaith wedyn yn erbyn Ôl-foderniaeth: adwaith a oedd yn fwy adweithiol na hi, drwy ail-orseddu pwrpas. Ceisiwyd awgrymu, os oedd mudiad llenyddol Ôl-foderniaeth yn estyn neu'n adweithio'n erbyn Moderniaeth (a berthynai i gyfnod rhagarweiniol), yna fe ellid disgwyl mewn cyfnod canlynol fod yna adweithio i'w gael yn erbyn yr adweithiad hwnnw, a chael Ôl-ôl-Foderniaeth. Ac felly, ymlaen ad infinitum. Fe ellid hawlio fod hyn o gyfres yn fath o 'gêm' anaeddfed i feirniaid. Ond i'r gwylwyr difri rhag gelyn, doedd dim olion o nodweddion 'gêm'.*

*Math o gyfeiriad amseryddol fu'r term Moderniaeth, mae'n amlwg. A gellid o bosib ganfod math o drefn Hegelaidd ar waith, o osodiad i wrthosodiad i gyfosodiad, nes bod y cyfosodiad cwlwm yn darparu sylfaen o osodiad newydd ac ymlaen i'r un math o symudiad drachefn. Mewn gwirionedd, gellid tybied bod y fframwaith haniaethol hwn ei hun yn fwy na ffurf, ac yn troi'n sylwedd, hynny yw, yn ddeunydd diriaethol i'w gredu: yn batrwm ei hun sy'n gor-doi ystyr.*

*Gan fod Ôl-foderniaeth gynt yn cael ei diffinio weithiau o fewn cyd-destun rhagdybiau metaffisegol sgeptig a chwâl eu cynnwys, ac yn gwneud rhyw fath o adwaith yn erbyn yr ymoleuo (yn y ddeunawfed ganrif) yn ofynnol, neu'n gwadu anghenraid ac ystyr y moesol-ddirfodol a'r sicr yn yr ugeinfed ganrif, ac yn dogmateiddio'r amhenderfyniadol (yn yr unfed ganrif ar hugain), roedd hi'n anochel fod hyn wedi arwain at feirniadaeth lenyddol a ysbaddwyd. Collwyd gwerthoedd fel ffenomen a oedd yn sail i hanfod beirniadaeth ystyrion. Collwyd y rheidiau synnwyr. Collwyd Deddf.*

*Ar ganol y cyfwng dybryd hwn, wele, daeth i'r fei ddogfen gan Gymro diweddar a oedd yn datgelu cais i oresgyn yr anhawster hwnnw. A thybiwyd mai buddiol fyddai ei chyflwyno i'r cyhoedd Cymraeg.*

*Mae'r deipysgrif ganlynol wedi'i sgrifennu benbwygilydd mewn côd gan yr ymchwilydd didwyll, ac yn fath o hunan-ddadansoddiad.*

*Nid bod yn chwithig nac yn anystywallt y buwyd wrth ddefnyddio côd y tro hwn mewn **stori**. Nid rhan oedd o gynllwyn ysgeler chwaith. Roedd y ddyfais hon yn gwbl angenrheidiol yn yr amgylchfyd politicaidd cyfoes, yn wir yn fater o fywyd-a-marwolaeth. Defnyddiwyd y côd ar ôl methu'n gyndyn â'th gyrraedd di na neb gyda'r llythrennol. Doedd dim dewis amdani felly. Bellach, bu'n rhaid i'r ysgrifennwr ei hun ymatal yn yr achos hwn rhag hyd yn oed cofnodi dim penodol ddiriaethol yn y golwg mewn unrhyw ffordd, hyd yn oed mewn côd, rhag ofn y dad-godwyr gelyniaethus. Bu'n rhaid dysgu-a-chadw llawer ar y co mewn côd o'r golwg dan yr wyneb fel petai. Bydd pawb sy'n gyfarwydd â gweithredu cyfrinachedd mewn awyrgylch o ryfel yn medru cydymdeimlo â'r fath ofal. Ond gobeithir y dysg y sawl sy'n amyneddgar neu sy'n elfennol hyddysg yn y traddodiad Iddewig, ac yn sylweddoli cymhlethdod sefyllfa Israel ei hun, neu sy'n gariadus ei agwedd at Fywyd hyd yn oed, ddarllen yr adroddiad hwn yn rhugl ddiraffferth. Daw'r rheswm dros y côd yn eglurach-eglwyr wrth i'r stori ei hun ddadlennu'r cymeriadau.*

*Bu'r Ymholydd Didwyll ers tro byd yn taro rhai nodiadau ar bapur ac yn eu ffeilio rhag ofn y byddai fe'i hun yn anghofio'r manylion. Dylid nodi un mater personol.*

*Anfonwyd ychydig o nodiadau cymysg, ymddangosiadol amherthnasol weithiau ato (sef at yr Ymholydd) gan ei gariadferch, o bryd i'w gilydd, rhai ohonyn nhw ar ffurf negeseuon rhyngddyn nhw â'i gilydd ar y cyfrifiadur, gan gofnodi newyddion syml, eraill yn negeseuon (y distrywiwyd y gwreiddiol) ar ffurf cynghorion. Mae'r rhain yn lleoli'r Ymholydd. Ni chadwyd y rheini i gyd felly. Ond cadwyd rhai o'r nodiadau cymysg canlynol yn ddiogel mewn hen gist i'w defnyddio wrth lunio'r fersiwn terfynol. Adroddiad lled swyddogol yw am daith ddilys a ddigwyddodd yn ddiweddar. Rhoddwyd yr Adroddiad cyfansawdd at ei gilydd ar sail nifer o ffynonellau felly a defnyddiau crai amrywiol.*

*Hunan-gofiannol yw, o raid, Ac ymddiheurir oherwydd hynny.*

*Ond o leia, dilys yw'r gweddillion a gadwyd drwy ddamwain.*

*Mae yna ŵr. Gofodwr yw e o ran galwedigaeth. Ioan yw ei enw. Fe benderfyna fe fynd ar daith. Taith hir sy yn ei fryd. A thaith yw y mae llawer o rwystrau ar ei thraws. Fe benderfyna geisio nodi diwedd y daith nawr ar ffurf llythyr – cyn cychwyn – mor fuan ag y gall, rhag i'r rhwystrau brofi'n ormod iddo maes o law. Dyma'r llythyr.*

*Sensorwyd Rhan I gan ddarllenwyr y llywodraeth yn yr unfed ganrif ar hugain oherwydd iaith weddus, peth deunydd meddylgar, a disgrifiadau graffig o weithredoedd bonheddig, pethau tra amheus yn y ganrif honno. Dryll o ddogfen hwy yw.*

\*

\*

\*

## I. Y DDOGFEN STRAE

[Sensorwyd y darn rhagarweiniol] ... Eisoes gŵyr sbiwyd cudd Israel amdanat ti wrth gwrs drwy'r We. A gosodon nhw bob math o dramgwydd, ar lun cymwysterau gofynnol, ar dy lwybr rhag iti gyflawni dy nod. Gwell ifi beidio â nodi hynny'n benodol drwy enwi neb, er mwyn dy ddiogelwch gan fod Prifysgol Tel-Afif bellach wedi srfydlu cwrs gohebol yn y Gymraeg.) Cysgod o arwylio tystiol ydyn nhw y tu ôl i'r wal nesa o hyd.

'Ond dw i'n ymholydd.'

'Sdim ots.'

'Ac yn ddidwyll.'

'Ond os nad wyt ti'n morthwyllo ar y drws yn ddigon caled, byddan nhw'n meddwl dy fod di'n chwarae.'

'O'r gorau,' meddyli, 'fi sy'n gwneud. Ac mi wna-i gymaint ag y galla-i ar y mhen yn hun gyda help Duw.'

Mae dy gyfaill Moshe, sy'n Iddew uniongred ac eto'n parchu hawliau cyfartal Palesteina, yn haeru y bydd yn rhaid iti hedfan cyn cyrraedd Jerwsalem. Ond mae rhywbeth ynot ti sy'n ysu am gyflawni'r gamp drwy aros ar lefel y ddaear. Rwyt ti'n coelio bod y ddaear yn ddigonol fel man cychwyn i neb sy'n bwylllog. Rwyt ti hyd yn oed yn coleddu'r farn nid yn unig mai'r cysyniad o le a esgorodd ar amser, ond bod gofod – am ei fod yn llai – yn llai sefydlog, ac yn cyfrannu'n wylaidd at yr ymwybod o barhad. 'A! Gofod!' medd dy wefusau synhwyrus. 'Dw i eisiau mwy o Ofod,' fel y dywedai'r Ugeinfed Ganrif yn ôl-fodernaidd ac yn fynych gynt. Symudi ar daith hir heddiw – drwy'r gofod yn wir – er mwyn ffroeni'r ymwybod hwn o sefydlogrwydd... Ysgrifennaist ti ychydig o frawddegau o erthygl am hyn un waith, ond ei llosgi gan mwyaf cyn ei phostio, er mawr ryddhad i rywun... dyw hynyna ddim o ... [Sensor eto.]

\*

\*

\*

## II. Y LLYTHYR

Annwyl Ymholydd,

Mae rhywun yn ysol eisiau dy gamarwain. Rwyt ti newydd agor drws. Drws yw i mewn i lythyr dy gwledig. Does neb yno. Neb ond ti. Pygddu wyt ti y tu mewn fel y tu allan. Ac rwyt ti'n teimlo'r hwyrnos yn llaith. Dyma le i orffwys. Does dim dodrefn na dim golau. Dim lleisiau, dim aroglau ar wahân i becyn o bysgod-a-sglodion ar y llawr.

Mae'r rhywun hwn wrth dy ochr yn amlwg am greu cywair o annealltwriaeth er

mwyn iti beidio â dod o hyd i'r gwirionedd.

'Sawl tywyllwch sy gen ti ynghudd ym mhocedi mewnlol y gôt yna?' mae e'n ei ofyn.

'Y tu mewn i'r gôt yma, dw i'n dywyllwch i gyd.'

'Mae hwnnw'n fan cychwyn da. Bydd dawel dy ysbryd felly, rhag styrbio'r awyr.'

Cyn-lythyrdy yw hwn. Mae wedi ymddeol yn gynnar. Wŷr y sefydliad ei hun ddim serch hynny beth yw. Mae'n disgwyl i ti'i ddweud. Wedi'r cwbl, ti sy wedi'i ddarganfod. Ond hyd yn oed petaet ti'n dymuno cael dy bostio'n llythyr yma, buan y sylweddollet ei fod yn dawel bach yn chwerthin am dy ben. Cymhelliad o'r math yna sy'n treiddio drwy'r holl le. Mae tawelwch o'r fath mor uchel ei gloch â phapur newydd – o safbwynt newyddiadurol o leia – ac yn bur atgas a chelwyddgar ymhobman. Ond digon byth i bererin yw hyn o sialens i ti; ac os glyni di wrth ddiweirdeb, deui di drwyddi maes o law. Aralleg lenyddol wyt ti. (Alegori.)

Mae'r tywyllwch yma'n drwchus ac yn hongian o'th gwmpas fel grawnwin yn y fan yma, mor aeddfed drwm ambell ddiwrnod nes bod y sudd yn ymwasgu'n ludiog o'u croen. Aflednais yw hefyd, os nad wyt ti'n ofalus. Dwyt ti erioed wedi profi tywyllwch mor llachar synhwyrus ac unig â hyn. Ac oherwydd pwysau'r tywyllwch sydd bellach wedi meddiannu'r mewnlolion leoedd fel glud, fe fethi â dod o hyd i'r wal rywsut er mwyn dy gyfeirio dy hun yn daclus i'r cyfeiriad welaist ti ar y map ymlaen llaw. Chyrhaeddi di ddim o Jerwsalem byth heb gael cliriach arweiniad na hyn. Mae hynny'n dipyn bach o boendod iti, ond ddim llawer. Ond efallai y bydd ei ddodi air am air ar bapur yn help.

'Wel,' meddi di wrthot ti dy hun. 'Dw i wedi dod i'r lle iawn, ta beth. Tipyn o lythyr personol dw i. Mae llythyr o'r fath yn fwy eglur rywsut. A dyw'r post ddim wedi mynd eto.' Chwerddi wrth wneud y gymhariaeth, gan mai yn y Beibl y cest ti'r gyffelybiaeth honno'n wreiddiol: yr Un a sgrifennodd y Beibl a'th sgrifennodd di. Does dim ohonot ti heb fod yn llythyr. A disgwyli lythyr o gyfarwyddyd yn ôl i'th helpu di ar dy daith. Tynni gyllell gota ac effeithiol o'th boced er mwyn d'agor dy hun a datgan dy ddifrifwch bygythiol yn fwy symbolaidd. Mae honno'n gallu cyflawni'i bwriad. Efallai

yn y bôn fod pob llythyr go iawn yn hiraethu am gael ei agor fel hyn o ddifri. Felly tithau yn sicr. Bysset ti'n hoffi cyfarfod â rhywun di-abnormalrwydd bellach er mwyn hala ofn arno gyda'r neges. Ond ar hyn o bryd, prin yw'r cwsmeriaid addawol: ambell chwilen o eiddo Kafka, efallai.

Offeryn yw llythyr i gysylltu dau berson. O ris i ris yn y llythyr hwn y dringi o'r naill le at y llall. Y bwlch mawr hwn rhwng yr anfonydd a'r derbynydd yw'r man mwya unig mewn tŷ. Tiriogaeth i ddringo drosti heb loetran i ymddiddan yw grisiau fel arfer. Does yna fawr o atgofion yno wrth gyfarfod â phobl eraill. Ac y mae'r math o gynefindra â chwmpeni, sy'n normal ac yn gofiadwy ar y llofft neu yn y parlwr, yn y fan honno'n weddol amddifad. Tir neb yw, ac onglog ar y daith yw grisiau: tir tramgwydd.

Dyna pam y mae'n rhaid rhoi hanes dy daith di ar glawr nawr, ac esbonio dy gymhellion a'th bwrpas mor eglur ag y gelli cyn dringo ymhellach.

Yn fynych pan wyt ar dy ben dy hun mewn tŷ, rwyt ti am beidio â mynd i'r llofft nac aros ar y llawr oherwydd bod y fath ddewis yn golygu pendantsrwydd a chymryd ochr o ryw fath mewn byd sy'n cofleidio ansicrwydd. Wedyn, mae'r sawl, sy'n gallu pleidio'r grisiau, yn ymddangos yn amwys dderbyniol i'r tyst cynyddgar. Fan yna y bydd pobl yn tin-droi hanner-ffordd. Ond ar dir-neb rhewllyd y grisiau tueddi i glywed ias a thawelwch mannau nad oes neb i fod i ymsefydlu ynddyn nhw. [Rwyt ti'n cofio un cyfaill ym Mecsico yn dweud wrthot ti am y profiad o siwrneio ar draws parthau di-dŷ estynedig ar y gwastadedd anial rhwng tre a thre. Fe allet ar ymyl y ffordd sylwi ar ryw greadur clwyfedig yn gorwedd, wedi cael damwain. Gwylier y peryg amwys hwnnw mewn bywyd yn gyffredinol. Amheuer y tric. Bob amser, carier dryll mewn bwlch rhyng-breswylol. Does neb yn gallu ymddiried mewn neb o fewn amgylchiadau o'r fath. Mynych, yn y bylchau rhwng trefi, fe brofir annifyrrwch a pheryg.] Mewn modd tebyg, ar y grisiau hwythau, rhwng y top a'r gwaelod, mae yna dywyllwch anghall o'r un math yn llercian, heb fod i fyny, heb fod i lawr. Dyna hoff diriogaeth rhai cachgwn. Nid annhebyg yw i'r cyflychwyr yntau, a'r lled-olau rhwng dydd a nos. Gwawl yw na ellir ei ddiffinio'n union. Gwylier y methiant i benodoli beth yn union yw unrhyw olau. Ar y ddaear, ceir sawl athronydd a ddywed mai absenoldeb tywyllwch fydd goleuni. Ac ar y

llofft, honna athronwyr eraill mai absenoldeb goleuni yw tywyllwch. Ymddengys hyn oll yn groyw glir i rywrai. Ond yn y bwlch hwnnw rhyngddyn nhw ceir math o droi heriol. Ar y ffin, y mae'r gwyddonydd yn gweithio: mae hynny'n wir am bob bardd. Yn y troi hwnnw y mae'r brad. Fe geir ambell un sy'n gallu gwneud goleuni allan o ychydig o dywyllwch. Hynny yw creu. Pan fo byd, sut bynnag, yn ceisio gwneud dogma a chosb i'r sawl sy'n cwestiyna hanner gwyll, tan orfodi ymrwymiad i'r gwrthryfelwr o blaid golau clir, dyna'r pryd y ceir relatifwyr eithafol yr unfed ganrif ar hugain. Gelwir hyn ganddyn nhw yn Ôl-foderniaeth. Hyn yw'r hen drefn sefydliadol y mynnir inni ffoi rhagddi.

Ôl-fodernwyr yw'r rhagdybwyr confensiynol mewn cadwyni. Fe'u galwan nhw ei gilydd yn 'ffasiynol' neu'n 'drendi'. Maen nhw'n derbyn yr annerbyniol. Ond celwyddwyr ydyn nhw am eu bod wedi bodloni aros yn y Bwlch. Saethan nhw'r mentrwyr i diriogaeth ansicrwydd. A'u nod sylfaenol yw peidio â mynd i unman.

Cariad,

Ioan.

O.N. Myn di gario cynnwys y llythyr hwn ar frys yn dy flaen, ac yn gwbl ddigrwydro, o'r llofft i'r llawr ac o'r llawr i'r llofft. Fe gei di lawer o rwystrau ar dy ffordd (ar ffurf cymwysterau gofynnol y swydd). Ond yn y bôn, yn fendith sy y tu hwnt i ddeall, ceir rheswm sy y tu hwnt i bob rheswm.

Paid â chael dy faglu gan gyferbyniadau iaith yn ddeallol rwydd, megis du a gwyn, anfod a bod. Paid chwaith â synied bod bywyd mor gymhleth nes dileu pob cyferbyniad dilys a chyffredinol wir, megis byw a marw, gwir a chelwydd. Ar y llawr gwaelod, mae'r ymwybod o bwrpas yn aros o hyd oherwydd bod y ddeuoliaeth yn wir. Ar y llawr gwaelod, sut bynnag, y mae gras amheuaeth yn diogelu'r baban rhag gwrthio'i law yn y tân.

Os wyt ti'n mynd i letya yma am ychydig ar y llawr diogel dychmygus hwn, paid ag ymadael ag amheuron rhydd y gostyngedig, sef amau dogma amheuaeth. Paradocs

wyt ti i fod. Dyna fwriadwyd yn y gwraidd. A'r gostyngedig yw'r sawl a gydnebydd ffiniau gwybod, a fe yw'r un hefyd a blyg i'r gwir a roddir. Dechreua di gyda'r Achosydd, a phaid byth â neidio dros y Dim. Gwylier propaganda Dyn, yn enwedig pan eilw ei hun yn wyddonydd. Ceisio bod yn well na'i gilydd, y mae hwnnw bob tro. Ond nid dyna'r ffordd i fod yn well. Trafferth gwyddonwyr yw eu bod heb ddeall rhagdybiau.

### III.Y PEDWAR CYMHWYSTER

Er mwyn i ti fod yn llythyr go iawn, neu'n llythyrydd go iawn, rhaid i ti basio arholiad. Rhaid iti feddu ar bedwar cymhwyster priodol i'r swydd hon.

Yr un cymwysterau sydd i fod gennyt ti, Ymholydd, ag sydd gan y sawl sy wedi cyfansoddi'r llythyr. *Rhaid bod y cyfrwng cyfathrebol gen ti'n gynta.* Rhaid bod y gallu gen ti i ddarllen y cyfrwng, yn ail. Rhaid bod y deunydd cyd-weadwy'n ddealladwy, yn drydydd. A rhaid bod y cymhelliad gen ti i droi deunydd y llythyr yn weithred, yn bedwerydd.

Hyn sy'n caniatáu i lythyr fod yn 'Gyfarwydd Taith' go iawn, hynny yw yn Dyst.

Agoraist ti'r llythyr hwn gynnau; does dim pwynt iti dy gysgodi dy hun mwyach. Darllena yn ofalus. Llythyr dynol yw. Rwyt ti wedi dod ato gyda gwelliannau yn barod, mi wn. Un peth am lythyrau: dŷn nhw byth, pan anfonir nhw gan ddynion, yn anffaeledig. Eto, does dim eisiau ond defnyddio'r ddawn feirniadol leia, ac yn fuan fe elli eu symleiddio a'u gwneud nhw'n ymarferol.

Wedi sicrhau mai ti yw'r gwas, rwyt ti'n gallu troi at y *cymhwyster cynta* i ateb yn ddigonol feistrolgar unrhyw lythyr a deflir atat. Medr i gwmpasu iaith er enghraifft. Mae'r iaith ddynol yn dy ddwrn yn dynn: dyma ffenomen arall sy'n d'osod di ar y blaen i'r anifeiliaid eraill: gramadeg.

Dyna'r dy *cymhwyster dynol cynta*: iaith; ac mae'n trefnu meddwl. Iaith sy'n doddi ffiniau ac yn diffinio. Hi sy'n dosbarthu ar raddfa eang ac yn esbonio. Hi sy'n



cysylltu syniadau â'i gilydd. Undod mawr gramadegol yw sy'n gallu dweud popeth. Y Gair yw. Does dim o'i osgoi gan gredadun gwan.

Efallai mai dyna'r peth pwysica y gelli'i gyffesu ar hyn o ddalen yn ddawn i ddynolrwydd yn gyffredinol: cyffesu iaith. Sef troi cornel ar dy daith a darganfod mai cyfrwng yw iaith i gorffori'r gweledig: sef gras cyffredinol. Mae'n ddigon hawdd drysu wrth ei defnyddio, gan fod yr anweledig yn ymyrryd o hyd hefyd ar ffurf deddfau a threfn ysbrydol. Ond mae'n bwysig cofio'r unplyg allanol.

Ar hyd y llwybr garw gwybed-hapus gynt drwy gorsydd Iwerddon hyd at y fan yma, roedd tyfiant chwyn a mieri a glaswellt wedi goresgyn pob rhwyddineb cerdded. Mae pawb, sy'n ceisio glendid, yn mynd i ddechrau yn y fan hon ar siwrnai, gyda charthu anochel a rhwygol lanhaol o'r math hwn. Tywyll oedd y fan acw beth bynnag. Plentyn oet ti yno am y tro. Roet ti hefyd wedi etifeddu tywyllwch bras ar y dechrau gan dy dadau. *Gwybod bodolaeth oedd dy rwystr cynta* i ddod o hyd i drefn. A threuliaist weddill dy oes yn ei fwydo'n feunyddiol. Rhodd oedd hynny. Roet ti wedi baglu droeon arno byth wedyn, ac wrth iti ddisgyn ar dy hynt tuag adre yn ansyber ar dy hyd bob rhyw ganllath, clywaist gwningod a draenogiaid sgyrtiog yn sgrialu i ffwrdd yn gyfrinachol, rhai ohonyn nhw'n glaschwerthin yn o anghwrtais ddwedwn i mewn rhai corneli yn dy enaid lle roedd yna wynt traed y meirw bob amser yn hercian chwythu. Wyddet ti ddim y gallai draenog wneud mwy na chripian yn ara yn ystod y dydd. Yn y cyflychwyr, sut bynnag, os gwyli rai o'i fath e'n rhedeg fel sinderela direiliau a'u ffrogiau'n uchel uwch y penliniau, eu nod oll yn ddiflewyn ar dafod, bob amser, yw gwrthddweud ei gilydd. [Wyt ti'n cofio Iwerddon?]

Hyn, gyfaill, oedd yr amgylchfyd anochel. Yn hynt llythyr o ddifri sy'n cyrchu i'r Dwyrain yn ein dyddiau goleuedig ni, mae'n rhaid ystyried amheuan o'r fath bellach. Mae ambell un yn gorfod croesi'r môr ynghanol pob math o nwyddau amheus i'w wireddu; [drylliau, rhai ohonyn nhw, er mwyn rhyfela].

'Ga-i dy helpu di, syr,' medd dy gysgod.

'Fi sy'n ceisio, chwilio, curo,' meddi di'n falch. 'Fi. Dyna a fyynnir gynnon ni. "Ceisiwch." A dyna dw i'n wneud, a hynny drwy iaith ddynol weddol hollalluog. Ar y

mhen yn hun, fi sy'n gwneud hyn. A dw i'n fodlon ddigon ar y geiriau pan fyddan nhw'n tywys tuag at y Gair. Rhan o ddiffiniad llythyr yw ceisio.

Collaist ti dy esgid wrth ffoi o'r lle, sut bynnag, fel Sinderela, ac mae dy draed yn gwaedu. Mae hynny'n arwydd da. (Ceisia fwynhau dy ddiodefaint, dyna y mae Twm yn ei ddweud.) Hwyliaist ti heibio i Graig Ochneidion i lawr i lawr at y trobwl.

Ond dyw hynny'n ddim byd. Rhwygaist dy grys ar y mieri cyn hynny, o frawddeg i frawddeg, ac aeth y drain i'th gefn ac i'th fysedd, a rholiai torthau o waed i lawr hyd at dy figynau. Dioddefaist ychydig hefyd. Casglu yw teithio o'r fath: mae'n casglu profiad: pobl a lleoedd; mae'n casglu amser ei hun. Ond nid dyna oedd yn waetha, eithr casglu'r arswyd, ofn y bwystfilod annisgwyl efallai, y sŵn cytseinio digynghanedd efallai, a'r angau sicr: buasai cynghanedd y cyd-fwydon benbwygilydd hefyd yn y clai. O leia, roedd yna lond gwlad o dywyllwch fan yna i gysuro neb pwy bynnag a oedd eisiau casglu'r stwff. A thithau ynot dy hun dechreui gymysgu ychydig efallai o sŵn a seiniau.

Rhaid i ti hefyd fedru “darllen”. Dyna *ail gymhwyster*. Rhaid i'th gorff dreulio'r gwaith ysgrifenedig: disgrifio ac adeiladu byd a datguddio hunan. Rwy'ti dy hun yn cael dy fesur yn ôl dy fedr i'th ddeall dy hun: troedfedd, modfedd efallai wrth dy gorffori dy hun yn yr iaith, ac yn ôl fel y darlleni'r cerdd, a'u mynegi.

Mae llenyddia o'i fath yn greadigaeth mewn adnabod. Disgwylir darllen.

Ti dy hun yw'r mesurydd wedyn, wrth reswm: math o fesurydd ymddangosiadol, o leia. Dyna'r man cychwyn angenrheidiol. Beth y gall dyn ei wneud ond gweithio o fewn ei wybod?

Drwy lwc, meddi'n ymffrostiol, does dim – medd e – na all y meddwl dynol ei goncro, na dim nas deallir na ellir ei fynegi mewn llenyddiaeth. Hunan-dwyll yw hynny, sut bynnag. Yn y dasg o gracio côd, rwy'ti'n cael blaenoriaeth ar bob creadur arall, mae'n wir. Ond mae'n anodd mynd y tu hwnt i'th botensial di dy hun. Edrych arnat dy hun heddiw. Dyna dy ffiniau. Y ffiniau yw un wedd ar ostyngeddwydd llenyddia.

Ymholydd bach, rwy'ti'n falch dy fod wedi dod â'th lun dy hun ar y pasbort, er mwyn cofio pwy wyt ti. Dyma un i'w ddilyn 'drwy'r byd a'i fetws', os cei di'i roi'n

idiomatig fel yna. O flaen y llen yna rwyt ti wedi cael dy dynghedu i blygu. Felly, – dim ond felly – y bydd pethau'n dod yn gliriach gliriach.

Er gwaetha'r myth cywir am annigonolrwydd y 'fi', cyn gynted ag y bo olwynion y brawddegau hyn yn petrus rollo – a dyma nhw wedi'i wneud – mae amser ei hun fel pe bai'n plicio ac yn plicio un dilledyn ar ôl y llall, un ar ôl y llall, oddi ar dy gefn crwm marmor. Yna wele – ar ôl yn waddod fel petai – dy het Jim-Cro ddiarhebol edifeiriol di, dy frigyn o drwyn, y blew ar dy fryst, oll yn sefyll yn borcyn didrugaredd hwyliog ar ffurf llythyr perthnasol personol o ateb ar lawr y llythyrdy hwn, wele – mae grym amser wedi dy ddatgelu'n gwbl ddiostur yn fwgan-brain noethlymun o ateb sy'n disgwyl disgwyl am ryw frain gwynion na ddôn nhw i wrando arnat ti byth. Ym mhob llenyddiaeth, rwyt ti'n dy ddadlennu dy hun. Onid dyna'r llun ddylai fod ar y pasbort? Gobeithio bod hyn oll er hynny wedi'i gofnodi gen ti yn yr ateb i'r llythyr rhag iti'i anghofio.

Edrychi ar y pasbort yn ofalus. Ydy y mae e yno'n barod gyda'r llythyr. Ac mae'n datgan peth o'r gwir amdanat tii. Mae'n ymddatgelu – o leia yn ceisio sibrawd – ryw faint. Hoffet dewi, hoffet, er mwyn gwranddo ar y mwsogl yn agor ei flagur dros dy lwybr. Ar hyn o bryd, efallai, fe hoffet yr ateb hefyd, ond mae'r ffeithiau'n dechrau clebran eisoes (edrycha), a rhaid i hyd yn oed lythyr ddod allan cyn bo hir i'r canol yn deg a chwedleua gyda nhw. Hoffet lechu'n ôl o ran gwedduster, ac ymneilltuo i'r tawelwch hwnnw a chwenychir sy'n gyffredin ac sy'n falch i fod yn gyffredin. Ond fe'i gwaherddir.

Fu gen ti erioed chwant bragaldian na chwerthin nac wylo yng ngolwg neb. Nid un felly fuost ti. Ond heddiw'r dydd mae hyn o eiriau eisoes wedi ymaflyd ynot, a'th wthio ymlaen – yn dy gyffredinedd gwyrdd, sef dy bendro fawrhydig a gostyngedig – i ganol y llwyfan ac i mewn i Swyddfa Bost Wyddelig efallai o leoedd y byd, gan beri iti sefyll yn anniddig fan yna ac yn unig dwp ac yn ddiau hurt o annheg. Dyma ti! Does dim troi'n ôl nawr. Cyfrifoldeb yw hi. Trwm. Arnat ti.

Lwmpyn o betruster gwylaidd Celtaidd fuost ti erioed, ateb o llythyr moel atal-dweud ymhlith Celtiaid darfodedig eraill oeddet. Pa ymholi didwyll, gymdeithydd cynnes, yw peth fel hyn i ti ac i'r gweddill o'r byd?

Symbol o negydd ymerodraeth yw. Gwanc a hunanoldeb yw, yn ffurfio'r byd.

Cei di ei fwynhau os yw'r gwynt y tu ôl i ti. Hiraetha dy ateb am weld y llythyr at yr ymholydd yn llithro yn dy ateb i lawr o'th geg i'th fynwes i'th draed yn yr anial hwn, fel teigr yr haul yn estyn ei dafod i'r pwll. Fel yna hefyd y bydd rhai geiriau'n hoffi ymddwyn, debygwn i. Ac maen nhw'n bodloni ar hynny. Maen nhw'n anghofio, am y tro, nad yn nhw ddim am anfon llythyrau at ei gilydd rownd-y-ril na thraethu'u cwyn nac adrodd hanes ar ucha'r llais, na dim byd o'r fath. Dim ond yn y tywyllwch y bydd yr anfon yn digwydd mwyach.

Hawdd felly i'r llythyr fynd ar gyfeiliorn.

'Anundod' yw enw'u gêm gyfarwydd nhw oll yn ddiamau. Darnau yw'r holl ddefnyddiau welan nhw, heb weld y cyswllt. A'r fan yna y byddan nhw rownd-y-ril yn trwyno i berfedd dy fusnes, ac yn gwybod popeth, heb wybod dim, gan beidio â gadael i'r un rhecsyn tila dy ddilladu di'n iawn, oni bai am ymyrraeth uwchfydol. Yng ngofod cwmpasol yr awyr mae yna awyrgylch rhwystredig sy'n creu cyd-destun i'r ôl-fodern.

*Dyna'r ail rwystr: 'anundod.'*

Dy chwalu di maen nhw, serch hynny. Maen nhw'n tynnu'r tuniau allan o gwprdd dy ben ac yn dymchwelyd y papurach a'r cibau a'r plisgion ar draws y llawr i gyd bendramwnwgl rownd-y-ril ar ddiwedd y dydd, nes bod cynffon y machlud fel gwiwer goch yr awyr yn ffoi mewn dychryn at ei fam, y nos. O hyn allan bydd dy gyffredinedd cudd a normal yn ymadfer yn gyffredinolrwydd anniben sy'n cael ei ddatgelu'n eglur i bawb yn y wlad bell hon. A'r goleuni mwya a weli efallai fydd y tywyllwch cyndyn hwn yn y llythyrdy coll, yn agos i'r grisiau ... Ond dim ond amlinellu'r pegynau y mae ar gyfer teithio. Hyn sy'n dy angori di mewn llenyddiaeth onest: y moddion sy'n ecolegol briodol yn Swyddfa'r Post. Rhyddid penagored yw dawn llenyddiaeth i ddelweddu'r byd ac ystyr bywyd. Ei gwaith yw palu pethau â'r corff. A'i nod yw cynnwys y byd oll dan dy ddwrn, fel mawl. Hyn a gyfathrebi. Drwy drosi yr

arhosi yn yr unlle, a chyflawni dy nod, sef cwmpasu popeth o fewn dy deyrnas, o leia popeth a weli. Cymhwyster arloesol fu iaith erioed i gyrraedd darllen.

Os llenyddiaeth yw'r cyfrwng i ddweud popeth yn y golwg ac o'r golwg, y *trydydd cymhwyster* i lunio ateb dynol i'r llythyr dirgel yw medru ymgodymu, cyn mynegi, â'r deunydd mater a'r anfaterol sydd i'w gynnwys. Heb y ddeuoliaeth honno o wybod gwrthdrawiad yr ystyr fe gollir anadl yr awen.

Yn y cyferbyniad neu'r ddeuoliaeth honno, nid yn frysio y concrir y rhwystr o wahaniaethu rhwng yr allanol amseryddol a'r diamser, rhwng y Crëwr a'r greadigaeth: sef y *trydydd rhwystr*, neu'r *Bwmp*. Y ffordd gall yw ei anwybyddu. Hoffter yr ymholydd 'cytbwys' yw wfftio a bwrw honiadau ysbrydol dan droed o'r neilltu. Mae'n ei wahardd ei hun rhag derbyn y rhodd fwya.

Eto, ar ôl i ti sefydlu'n gwbl resymol mai'r gweledig yw gwrthrych cyfreithiol iaith, fe allet droi oddi wrth yr ymyrraeth gan bosibilrwydd yr Anweledig. Un ffordd o roi hynny yn ei 'le' yw clymu dy ateb wrth 'ddehongli', a'i hawlio'n fraint. Gall bron pob hanesydd (hunanol ei anian), sy'n ceisio di-ystyried posibilrwydd y Goruwchnaturiol, wadu'i fod yn rhagdybied heb brawf. Mae'n osgoi tarddiad *bodolaeth*, wrth gwrs. Ac ni wŷr o ble y daeth *gwerth byw*, nac arwyddocâd gras cyffredinol iddo fe'i hun. Hanesydd bylchog yw. Mae'r ymholydd 'cytbwys' yn bodloni ar fawrygu'r traddodiad melys am iaith fel 'cyfrwng cyfathrebu'. Eto, mae e'n awgrymu'i bod yn uwch o lawer na sŵn. Myn ei bod hi'n ddadansodiad deall ac yn ganfodiad o drefn wrthrychol-oddrychol; ond yn raddol, er ei waetha, cyn 'rhoi' drwyddi, rhaid 'derbyn' drwyddi. A'r hyn a dderbynnir yw ei deddfau a'u sythwelediad: craidd trefn iaith. Yr hyn a orfodir yw bodolaeth uwchreswm: yr Anweledig sy'n dod yn Weledig. Ond ni roddi gyfle i'r Gwirionedd.

Tyrchi'n gyson, oherwydd dy natur, am y materol. Ac ni raid mynd yn bell. Cyn dy fod yn llythyr, rwy'ti'n bod ac yn fod. Cest ti ryw fath o gyfarwyddyd, neu esgus garedig, sef mynd i nôl y ffisig ar ran dy wraig. Doedd hynny ddim yn eithriadol anodd, nac oedd. Mynd i Rif 7, y Stryd Union, Jerwsalem fydd raid. Ac fe ei, bellach, heb lol, heibio i siop losin, a'r siop sy'n gwerthu cerdiau Nadolig a dim arall, siop fferyllydd,

swyddfa cwmni yswiriant. Fydd neb yn gwadu dy ymroddiad. Byddi di'n ddefnyddiol barod i chwilio ym mhobman am y bendigaid ffisig. (Wel, bron pobman.)

Hynny yw, mae yna Werth ym mhopeth: wedi'r cwbl, mae yna derfyn i bosibiliadau Ochneidion hyd yn oed mewn clwy. Ffisig gwyn fydd y moddion. Mae 'gwyn', fel y dywed pawb, yn lliw anlwcus yn yr unfed ganrif ar hugain, a phob hyn a hyn ar dy siwrnai, yn arbennig tua'r diwedd yn yr awyren, byddi'n taro wrth flwch gwyn – blwch y wybodaeth am daith yr awyren. Does dim angen sylwi ar beth felly, wrth reswm. Ond mae e yno o hyd yn sarn dan draed, ac rwy'ti'n benderfynol na wnei di ddim chwibanu'n uchel oherwydd ofn. Ddim yn y fan yma. Bobman arall, pobman lwcus – iawn. Ar siawns efallai. Ond ... yma wel ... Siawns amdani heddiw, beth bynnag, rhag ofn i ragluniaeth dy ddal.

Rwy'ti'n falch odiaeth i gyrraedd un adeilad a tho drosto. Peth yw to. Ond mae'r ystyllod dan draed yn ansad iawn ac rwy'ti'n sicr braidd fod yna rai tyllau seicolegol o leia – rhai mawr ac enbydus hefyd – yn y llawr pe baet ti'n chwilio amdany'n nhw. Mae'r adeilad mor wag a bwganus ag Athro Diwinyddiaeth sy'n cyflwyno Gwaelod Bod. Ym mhen draw'r cyntedd ceir rhyw lun ar ddrws; ond elli di ddim amgyffred a yw'n agored neu beidio. Eithr cyn iti ddod yn ddigon agos i fod yn gwbl bendant (a'n gwaredo), yn ddisymwth daw rhywbeth tebyg i ddyn tal a glân allan a gofyn iti: 'Pwy wyt ti?' Fel yna. Mae yntau'n cario blwch gwyn.... 'Pwy?' Dyna gwestiwn rhagorol i'w ofyn ar ôl unrhyw ddrws, ddwedwn i. Yn wir, mae'n gwestiwn treiddgar i ddyn ofyn iddo fe'i hun.

Dyna gwestiwn sy'n dy estyn di, ac yn estyn dy daith gryn dipyn.

Cest ti ddychryn yn y fan a'r lle oherwydd y Gyllell ynghudd yn y Cwestiwn.

Cwestiwn chwilgar. Fe fynnet wybod yr ateb. Ond cwestiwn naturiol ddigon mewn tŷ diarth, ddwedwn i wedyn. Dyw e ddim yn meddwl bod yn athronyddol nac yn od. Eisiau ateb plwmp a phlaen sy arno. Ac eto, elli di yngan dim, ac arhosi'n fud fel petaet ti'n cuddio rhywbeth ar egwyddor. A pham lai? Pam y dylet geisio'i egluro iddo? Pa fath o ateb syml roedd yn ei ddisgwyl, beth bynnag? Ac yn wir, sut y gallet tithau ateb cwestiwn o'r fath yn gwbl foddhaol i ti dy hun, wedi profi'r mawn a'r corsydd? Nid llythyr cwbl arferol yw hwn felly, gobeithio; ac rwy'ti'n dechrau sylweddoli hynny.

'Beth wyt ti'n wneud fan yma?'

'Ceisio mynd allan.'

'Dim problem. Ond i ble? Wyt ti'n perthyn i rywun yn y parthau hyn? Oes gen ti gydnabod yn yr ardal?'

'Nac oes.'

'Ga-i weld dy drwydded?'

'Does dim...'

'Beth wyt ti'n wneud felly?'

'Chwilio. Dehongli. Ymofynnydd dw i.'

'A! Un o'r yms. Rown i'n ymau.'

'Pam lai? Beth wnei di yn lle dehongli?'

'Derbyn datguddiad uwchnaturiol a phrofiad uwchnaturiol a dwyn ffrwythau'r Ysbryd yw'r unig ddehongliad sy'n fwy unplyg na'r un dehongliad.'

Y funud hon, sut bynnag, hoffet yn bendant fod mewn rhywle arall: dyna dy glefyd o hyd, clefyd dianc rhag y Goruwchnaturiol... Mae'n rhaid teithio. Ffoi. Os na theithiwn, dŷn ni ddim yn mynd i unman. Teithio'n gorfforol (yn dy fryd di o hyd) yw'r unig ffordd sy gan y cnawd o gystadlu â'r meddwl. Ond nid yn y fan yma rwy'ti i fod. Fel y ceir y lle mwya gogleddol yn ddaearyddol yn Iwerddon, (sef Donegal, *Dún na nGall*), yn wleidyddol yn y De, felly y mae dy galon heddiw yn Wlster ond *heb* fod yng Ngogledd Iwerddon.

Yna, ychwanegi iddo'n fwynaid: 'Mae hwnna'n ateb rhy rwydd gyfail.'

'Mae'n wirionedd, serch hynny, ac yn sail i ryfel acw.'

'Ble dechreuaist ti chwilio?'

'Dw i ddim yn gwybod.'

'Ond dyna'r cwestiwn *mawr*. Y cam cynta sy'n cyflyru'r cam ola.'

'Mawr? Mawr neu beidio, mae'n gwestiwn i ymofynnydd rheitiach na fi: ble dw i'n mynd? ... Pam? Yr unig beth sy gan deithio i'w gynnig i fi yw pellter...'

'Ie? Ond ble mae'r daith yn dechrau? Cer yn ôl at y cam cynta.' Rwyd ti wedi gofyn hynny hefyd mor aml o'r blaen, ac eto, mae e mor bwysig, ac yn aros gyda thi. Ffrwydrodd ei amynedd wrth dy glywed fel pe bai e eisiau i bawb yn y gymdogaeth wybod am y rhwystredigaeth sy mewn twpdra. Ac nid heb reswm.'

'Y nghariad annwyl, chwilio am beth rwyd ti?'

Gwaetha'r modd, rwyd ti'n dal heb ateb y cwestiwn am fodolaeth, yn nechrau'r unfed ganrif ar hugain, a hynny'n gwestiwn mor frawychus o naif. Pe baet ti'n gwybod yr ateb yn y rhagdyb, fyddai dim angen poeni am y cwestiwn. Hen gwestiwn babiaidd yw, beth bynnag... 'Pàs,' meddi di, wrth fynd o'r naill gwestiwn i'r llall.

Dyna efallai'r ateb tyngedfennol wedi'r cwbl; ond mae hynny yn ateb rhy ffug o esoterig erbyn hyn. Rwyd ti'n mentro synied mai 'moddion i'r wraig' fyddai'r ateb cywir syml, ond mae hynny'n agor pob math o gwestiynau eraill dwyt ti ddim eisiau'u hateb.

Hyn sy'n esgor ar y *pedwerydd cymhwyster*.

Sef y Ffurf ar y llythyr, fel cyfanwaith.

Yn sydyn rwyd ti'n cael cipolwg drwy'r ffenest ar goed llonydd ffiniedig, gwifrau trydan hollol lonydd, awyr las las heb yr un cwmwl yn symud, a'r lliwiau drwyddyn nhw'n gyfoethog fel cân sy'n ennill cysur i faban. Mae *golwg* yno'n ymgyfuno â'r 'o'r golwg' i fod yn ddynol. Dyna un peth – y pecyn fel petai – y mae credinwyr ifainc mor aml y dyddiau hyn yn hawlio sy'n rhan o'r cynnwys, a'r arddull ynghlwm wrth y dull. Does dim dianc gan yr allanol rhag y mewnol. Yn syml, ffurf y ddaear yw ffurf y llythyr.

Hynny yw, er pwysiced y Deunydd, a'r rheidrwydd i fyw gyda Deunydd, does dim Deunydd heb Ffurf.

Gwybod y ffurf wir i'r da, meddi mor gyflym ag y gelli, yw'r pedwerydd cymhwyster.



Rwyt ti'n syllu o'th gwmpas yn wyllt, ac y mae'r goeden acw drwy'r ffenest gyda'r hwyaid bawlawen yn swynol o debyg i un a welaist ti unwaith ar bwys llyn bach mewn cae, ar ôl tresiad o law, yn Llanddewi Brefi. Ond byddai hynny'n gwbl amhosib, diolch i'r drefn. Ble'r wyt ti, felly? Ai gyda'r amhosib mewn eglwys, neu ysgubor, neu rywle cyffredin ar gerdyn post i dwristiaid?

Cyflyrir y ffurf yma gan y ddaear acw. Ceir ffurf gan bopeth a welir.

'Gwranda, gyfaill. Wyt ti'n gwybod pwy dw i? Hwnnw oedd y cwestiwn mwya. Nid beth? Cofia. Nid ble? Nid sut? Nid pa bryd? Ond *pwy?*' O hyd.

'Nac dw,' meddi di.

'Dyna'r gair cynhwysfawr. Ffurf dda yw'r pwy. Gair clwc yn yr oes ôl-fodern. Gair an-wyn. Mae Rhagluniaeth yn gwau pam drwy sut er mwyn ei ddweud.'

Drych hefyd yw'r ffurf o'r cynnwys.

A bod yn dryloyw onest, roet ti am ofyn hynny iddo gynnu beth bynnag. Ac eto, os oedd e'n haeru fel hyn dy fod di'n holi a stilio rhy ychydig, dewisach fyddai peidio â gorwneud y rhy ychydig. Buost ti'n hiraethu am dorri gair â rhywun call neu beidio mewn ffurf er mwyn peidio â chael d'adael yn ysbail i'th feddyliau dy hun. Pan fyddi'n cael llonydd fel yna y mae'r coed drwy'r ffenest yn dy feddiannu i'r fath raddau ac yn ymaflyd ynot ti ac yn gwasgu arnat ti gymaint nes dy fod yn teimlo peth cywilydd ohonot dy hun, ie hynny ynghyd ag euogrwydd eu darfodedigrwydd. Mae'r coed yn cymryd, arnyn nhw eu hunain, ffurf y greadigaeth harddach. Edifeirwch henffasiwn amdani felly. Tybiaist yn dy gwmp ac ar dy liniau fod y pecyn ei hun, ym mlwch prydfarth natur yn ddigon i sicrhau safon y cynnwys. Hoffaist ti olwg y blwch. Ai hyn yw'r cliw i'r côd i'th arwain di i Israel, yn bedwerydd cymhwyster? Y ffurf hefyd sy'n 'sut' i bawb! Y symlder poblogaidd i gyd yw'r pwysau er mwyn cymell darfod.

Yr hyn sy'n llywodraethu'r 'sut' mewn amgylchiadau celwyddog i ti o'r fath fu'r poblogeiddio: y ffordd rwydd; a symliaith yw, ond does dim syml heb drechu anawsterau. I'r poblogeiddgwn, does dim eisiau meddwl na chwaeth, nac ymdeimlad â thrwch dychymyg. Fe sicrhaodd Ôl-foderniaeth Eden hyn un waith nad oes 'na ddim gwerthoedd na safonau. Maint stŵr yr arweiniad cnawdol sy'n gwneud y blwch.

Collwyd y mawl a'i graidd, sef yr ymdrech i ddisodli cnawd y fi gan ddaioni'r Fe, a hynny yn Ei Ras Cyffredinol yn ogystal â'r Arbennig.

Gwneuthuredig yw casgliad Ffurf, meddi: Cynnwys yw'r peth cyn ei wneud. Ond does dim Cynnwys heb Ffurf. Nid mater o oedran nac olyniaeth yw Ffurf a Chynnwys trefn y Cadw. Gwrandewch ar y gwynt yn y coed, er mwyn popeth. Mae'r coed yn dal ati i adlewyrchu'r atgo o Ras Ataliol.

Ond ffurf a golwg ac allanolion a pherfformiad a'r arwyneb yw'r sut hefyd.

Beth, syr, yw'r busnes 'ma o foderneiddio addoliad allanol? Adwaith yw yn erbyn blinder cnawdol mewn profiad dilys. Ymgais yw i gyfaddawdu â'r gwacter ystyr drwy ddi-ddanwch cysurlon. Mae credinwyr mewn oed, mae'n wir – oni fynnen nhw dorri cýt ymhlith y llanciau – yn tueddu i fod yn feirniadol o gorysau, cyrn, rhythm y gorllewin, tabyrddau, codi dwylo, technegau carismatig gitarau, a chymelliadu seicolegol o bob math sy'n ceisio 'creu adfywiad'. Ac wrth gwrs, mae sôn am yr efengyl yn y cyfryw gwmni'n fath o gabledd. *Dyna yw'r rhwystr nesaf, y pedwerydd.* Ac atebith y llanciau, 'Does neb byw yn rhy hen i fyw.'

Gadewaist yn dy gyfnod gwan i allanolion propor arddull oes Fictoria fod yn ddelfryd ffasiynol i lanciau mewn sut. Gadewaist ti'r celfyddydau i'r diafol, a thybied fod pregethu gras arbennig yn ddigon heb ras cyffredinol, mewn byd credig sy'n ymarferol ar gyfer ffrwythau 'gwaith bob-dydd' yr Ysbryd, ac yn mynnu y dylid ceisio deall a pharchu hawl ei gilydd. Triaist ti gladdu pob gras cyffredinol.

Ta waeth, meddyli, dyw marwolaeth ddim yn cael gwisgo blodyn yn nhwll botwm ei amdo heb ddim rheswm (os cei siarad mewn damhegion am y tro). Cilsylli ar y blwch rhag iddo ffrwydro. Ac mae'r olwg hon, sy ar y Creu, yn cynhyrfu chwant am Fywyd arnat. Ond nid ffrwydro a wna, ond loetran yn y fan honno o hyd gan wenu arnat fel crwban, neu fel bom crwbanog.

Mae arnat ti hiraeth am i'r ysbryd lunio'r corff. *Sut y gwneir hynny?*

'Nid anodd,' yw geiriau cyntaf ateb y Deddfwyr Gwyddelig wrth ateb ymholiadau'u llyfrau cyfraith.

Rwyt ti'n sylweddoli o'r diwedd fod arnat ti newyn. Mae hynny'n rhywbeth, ac ysi am ffurf y cynnwys adfywiol. Chwili am y gegin. Rwyt wedi blino. Rwyt wedi suddo'n rhy barod i gornel yr ystafell i orffwys rhag defnyddio gormod o egni, wedi suddo ar dy gefn, gymaint o gefn ag sy 'da ti. Ac mae'r newyn yn cnoi. Heddiw, yn ffwrn dy ddig, fe allset ti losgi bara. Ti yw hen arglwydd y mefus cochion, pencampwr meinwe bara lawr. Daw'r dyn cyffredin yn ei ôl drachefn i'th gell er hynny, a thaflu asgwrn i mewn atat, ac arno ychydig o gig pwdr. Gwawdio'n garedig y mae. Gafaeli di yn y peth yn ddifeddwl ac yn annynol, a'i gnoi'n ffyrnig, fel sagrafen. Gwledd.

Does dim llawer o ystyr i ddefodau er mwyn defodau. Rwyt wedi syrffedu ar ganu arwrgerddi marw mewn iaith farw. Amser gonestrwydd a ddaeth bellach; ac mae gan onestrwydd ddigon o amser os nad oes ganddo lawer o gwmni. Ar ôl iddo daflu'r asgwrn, dyw'r dyn ddim wedi ymadael. Sbia arnat ti'n oeraidd ac yn fyfyrion fel pe na'th welsai o'r blaen – asgwrn Dafydd! Mae'r dyn cyffredin am ganu dy farwnad. Welodd e ddim tebyg ar glawr daear erioed o'r blaen; ac mewn un llaw o hyd wele'r gyllell a ddefnyddiasai i dorri'r cig cynhenid. Dy gyllell di yw hi. Rhaid ei fod wedi'i dwyn, neu ei chael ar fenthyg y tro o'r blaen. Pwrpas y gyllell yw dangos pam y mae ffilmiau am lofruddiaeth yn goglais y chwaeth poblogaidd mewn modd mor flasus. Chwifia e'r gyllell yn gelfydd ddifeddwl yn erbyn gwyll yr ystafell fel pe bai'n ceisio'i sgleisio. Ei wylion'n ofnus wnei dithau, gan ysu'r drylliach o gig pryfetog yr un pryd. Chwili di dy wregys wedyn lle y buasai'r gyllell ynghynt, ond mae wedi mynd. Hon yw'r gyllell onest sy'n datgan difrifwch. A difrifwch sy'n cynnau anurddas gydag ystyr, sut bynnag y mae'n ymddangos i'r cyhoedd. Dwyt ti erioed wedi synied yn rhy aruchel am yr urddas bondigrybwyll yna a arddelir gan y Sefydliad. Dyna pam mae'r gyllell mor boblogaidd.

'Fi, fi sy'n wneud,' gweiddi'n feirniadol.

Ac eto, yn yr unigolion gwasgaredig ac ymroddedig hyn y cei di hadau'r dyn cyffredin ar raddfa helaethlon.

Bid a fo am hynny, ffolineb a thwpra snobyddiaeth fyddai bychanu'r cyffredin. Bywyd i gyd, nid pregeth neilltuedig (na gwerau dysgu'r Gymraeg yn unig, ac yn

arbenigol mewn cornel), yw meddiannu cyffredinedd ym mhob gwedd ar fywyd. Heb i bawb o'r saint ymuno yn y lleol, fydd y bywyd neilltuedig hwnnw ddim yn bod.

Does dim haenau yng nghalon mawl: dim ond yr haenen ucha.

Ym mhen draw'r ystafell y mae yna bianco, sut bynnag, sy'n briwsioni'n fwyn feunyddiol i mewn i'r llwch. Cana. Gorfoledda. Darnio, fachgen, fu rhyddid gogoneddus a gorfoleddus y piano hwn er cyn co. Ar y chwith iddo, ie ar y dde hefyd – ceir ystafell wag ddifiwsig. Hynny yw, does neb ynnddi. Na dim sŵn potensial ymddangosiadol chwaith. Ond mae'n llawn o bethau potensial ddi-seiniau beth bynnag yw'r cyflog. Ceisi donc ar yr offeryn yno; a chredi ar y pryd nad oes dim smic ar y piano, ac nad oes neb yn gwrando. Ond Duw sy'n gwrando, ac mae'r ffaith honno'n rhan ganolog o'r côd: yr un pryd, mae'n amgylchol.

Mewn cornel arall ceir archfarchnad o domen, eglwys gadeiriol o dwmpath bob esgid: ymestynna'r gornel-honno-o-annibendod nes llenwi tri chwarter yr ystafell. Ceir tri llond bocs o duniau yno hefyd. Pur amrywiol yw cynnwys y tuniau. Maen nhw i gyd yn agored. Piclys sy yn yr un ucha. Mae'n rhaid dy fod di ym Mhontcanna. Yn nesa ato, pentyrrau o bwddin siwed. Eirin gwlanog sy yn y rhan fwya. Ond ni raid chwilio'n bell i gael amrywiaeth. Tatws stwns. Bricyll. Ond rhydd a rhad yw llawer o'r bwyd hwn. Asbaragus, picau burum, crwst choux, corbys, bara lawr, gwyniad y môr. Bu'r cwbl yno ers misoedd. Chwaraele i lygod ffrengig yw hyn. Llithran nhw i lawr ochrau'r pyramid tan chwerthin yn ddi-sŵn er mwyn bod yn gyson. Taflan nhw bys gleision at ei gilydd. Ai diwinyddiaeth ryddhad yw'r ymarferion hyn? Na, na: bydd yn deg. Y sbwriel iselfryd tawel hwn yw'r unig beth a geidw'r lle rhag bod yn ddifancoll.

'Wyt ti'n ffoi rhag rhywbeth?' medd e wrthot ti o'r diwedd, 'wrth geisio hedfan mewn ysbryd agored i Israel? Oes rhywun ar dy ôl di?'

Dwyt ti ddim am ateb yn fyrbwyll. Ac mae e'n amyneddgar iawn.

'Oes, yn ddiau.' Fe sy'n ateb drosot ti'n dawel ara. Ac mae e yn llygad ei le, a'i llygad hefyd yn ei le. O'r hyn lleia, sylweddola mai ceisio chwilio am rywbeth arall ystyrllon rwyd ti. 'Does dim angen iti ofni dim fan hyn.'

'Dw i byth yn ofni dim,' poeri'n gelwyddog.

Pam wyt ti'n brolio'r fath beth yn y fath le? Wedi'r cwbl, y mae peth ofn y blwch gwyn arnat ti yn brofiad teg ddigon. I ti, amlen yw bywyd yn arferol; ac ynddo (cyn ei agor) un llythyr hirfaith dirgel; a dioddefaint yw'r llythyr hwnnw: ofn yw'r stamp, ofn difater. O na baet ti'n gallu rywfodd rwbio'r llythrennau noeth ac allanol yn y cyfeiriad i ffwrdd am un tro angerddol yn dy fywyd, a'u credu. Mae dy dafod, pryd bynnag y caiff y mymryn lleia o ryddid, yn rhy barod i fynegi'i falchder ynot ti fel hyn. Pa ots pwy sy'n dy weld? O na ellid ymguddio rywfodd, heb fod mor aruthr o groendenau ynghylch beirniadaeth a heb ymdrechu i'th amddiffyn dy hun o hyd fel pe baet ti'n llestr tseini. Ac eto, mor awchus y chwenychi yr un pryd ymateb gan rywun sy'n dy ddeall! A phan gei hynny wedyn, – pe na baet ond yn gweiddi drwy'r ogo rywfodd gyda chwilfydedd 'O'? – O! O! O! fel y byddet ti'n hiraethu am noethni felly drachefn, gwir noethni glân croyw sy'n ymddihatru rhag pawb a phopeth arall, a chael dy olchi mewn unigrwydd gloyw gwlyb dealladwy ar fore Llun gyda'r golch cyffredin. Dyna'r golchi gwych dilys sy'n colli gwleidyddiaeth yn gyfan gwbl mewn cred.

Cyfrifoldeb oedolyn yw'r ymgolli hwn. Cyfrifoldeb yw pob euogrwydd o'r fath wrth gwrs. Rhaid bod yna ryw gythraul bach yn y guddfan yna yn drech na thi dy hun – neu ynteu ai hunan-gyfiawnder yw hi? Pryd bynnag y cei gwmmi eraill, ta beth, cyfyd trachwant brysiog am ymneilltuo'n llwyr; ac eto ar dy ben dy hun, o'r golwg, er bod y chwithdod yn llai o lawer, y mae rhyw gosi, rhyw fân awch o hyd am ymrwbio ag eraill eto, am gael chwerthin fymryn gyda nhw a chael ymorffwys ym miwsig y llais dynol agored. Celwyddgi yw cwmni pobl eraill, wrth gwrs, y bôn. Yn ystod ein dod mwya a'n mynd mwya, ochenaid yn ddiâu yw'r unig gwmmi call ac ystyriol. Ble y doi di o hyd i ti dy hun mewn byd fel hyn? Dyna yw'r cwestiwn allweddol os cryno ar y ffurflen. Ai yn Stryd Union Jerwsalem y mae'r ateb wedi'r cwbl?

Holi a stilio a wnei, nes bod dy waed yn rholio. Ac fe'th holir felly o ddifri ym mhwill dyfna'r euogrwydd a brofaist erioed: 'Nawr, machgen glân i, mae'r gŵr hwn yn eistedd ar y blwch gwyn ac yn syllu arnat ti. Beth sy'n dy boeni di gyfaill?' Dyw ei lais bellach ddim yn garedig nac yn angharedig chwaith, 'gyfaill' neu beidio. Gallai'r ymholiad hwn fod yn gonsŷrn digon didwyll, eithr gallai fod yn fusneslyd hefyd. 'Os wyt ti'n ffoi, efallai y galla-i dy helpu di ynghylch y lle rwy'ti'n ffoi iddo.'

'Gêm fyddai hynny.' Dyna ti'n ei chyfadde ar ei phen. 'Gêm: dw i wedi bod yn chwarae tipyn o gêm drwy'r amser.'

'Chwarae!'

'Ie. Chwarae. Erioed.' (Mae gan hwn ei draed ar y ddaear, ta beth a feddyliai Wittgenstein am arwyddocâd gêm.)

'Pa gêm?'

'Oes ots pa gêm?' meddi di'n chwyrn ddiamynedd anhunan-feirniadol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y dyfarnwr wedi erlid ar yn ôl i o'r herwydd.'

'Wyt ti'n meddwl y daw e o hyd i ti yma?'

'Gwnaiff. Mae hyn o fewn ffiniau'r maes chwarae. Y ddaear i gyd yw'r maes chwarae, a'r lled i'r mwynhad yw pob gwedd ar y greadigaeth. Mae'r symudiadau'n afrifed. A rhan amryliw ymhlith y rheina yw Llenyddiaeth neu Gelfyddyd ei hun. Roeddet ti wedi synied eisoes y ddi honno i'r golwg erbyn hyn. Ond mae'r rheolau'n mynnu er gwaetha'r awdurdodau dy fod yn *cydnabod pob llyfr yn arwyddocaol*.' Strwythur y gêm yw'r gwir, i'r werin, i'r ysgolhaig, ac i'r plant. Dyna'i ffurf. Duw oedd y tarddiad. Esgeuluso'r rheolau dioddefus i'r ffurf yw'r *pedwerydd rhwystr*.

\*

\*

\*

Er gwaetha pob llefain, ymadewaist ti â Swyddfa'r Post bellach, mae hynny'n amlwg. Cesglaist bob profiad a oedd ar gael yn y fan yna. Bellach, llythyr noeth newydd wyt ti allan yn y gofod yn barod i hedfan ar y daith. Cest ti ryw fath o esboniad o ystyr y paratoi. Ond yn awr mae'r difrifoli'n dechrau. Mewn coridór o'r math hwn, hyn rwy'ti'n ei wybod yn sicr: mae dy chwarae gwamal di wedi gorffen. Chwydd-wydr yw ofn mewn tŷ sydd o ddifri. Drwy'r wythïen hir hon y mae e wedi d'erlyn di i fyny yma, yn gudd drwy'r cenedlaethau, ac yn awr wedi dy gornelu di y tu mewn i'r celloedd gwaed cwbl annhebygol hyn. Nawr rwy'ti wedi croesawu'r sefyllfa, heb ddeall pam dy hunan, oherwydd bryntni pwerus gwenwynllyd, oherwydd y bryntni a ffrwythlonodd mewn tywyllwch difeddwl. Hwnna sy'n dy weddnewid er dy waetha. Teithiodd dy feddwl o'r

herwydd o gorff i gorff ac o oes i oes gan wisgo crys gwahanol i bob oes. Ond beth bynnag am y crys, yr un yw'r capan.

Dwyt ti ddim yn gallu dy reoli dy hun yn gyfan gwbl sut bynnag ar ôl y fath lifeiriant o wyll llysnafeddus. Wyddet ti ddim chwaith fod y nwydau caddugol hyn ynot ti ar gael o gwbl. Gynnau yn yr agosrwydd dwfn a phersonol a sgeptig hwnnw yn y sgrym, ar ganol y gêm, roet ti wedi bod yn gartrefol am ychydig o funudau fel rhywun tywyll arall. Roet ti wedi ymadael â rheolau gwir a ffurfiol y stadiwm dinesig ac wedi gwisgo melltith dy hil a gwybod hynny. Doedd neb wedi cicio cic gosb yn dy le di, mae'n wir, ond dyna pam y mae dy feddwl wrthi yn gweithio ac yn gweithio fel hyn. Mae'r caddug ei hun yn angenrheidiol er mwyn canfod y goleuni. Dyna un o egwyddorion cysonaf a mwyaf cyson Ôl-ôl-foderniaeth. Sgrym yw, fel pelen o edafedd.

Pe na bai'n fater ond o chwarae brwnt, serch hynny, byddai hynny'n ddiwedd syml ar y gêm. A phe baet ti heb orffen y peth, byddai rhywun arall wedi'i wneud. Byddai Twm wedi gorffen, am un – neu wedi cael ei orffen yn y fan a'r lle y tu ôl i ti, yn lân ac yn gwta yng nghornel y cae; a byddai'r rhan nesa – y rhan rydd – o'th gêm yn parhau'n naturiol ac yn ysgafnach nag o'r blaen, wedi ymwarded â hwnnw. Roedd Twm (y bachwr, hen gasglwr dros elusennau tramor) wedi mynd, er hynny, ond roedd rhywbeth neu rywun arall wedi aros: y gweithredoedd mewn sancteiddhad. Dyna a ddywedai holl hanfod dy fywyd wrthot ti, dy fod wedi chwarae'r gêm hon erioed o dan lygaid dyfarnwr cyfiawn dieithr sy'n ochri gyda'r crysau gwynion *a'r* crysau cochion, dyfarnwr na fyddet ti'n sylwi ar ei bresenoldeb nac ar ei effaith namyn ar rai achlysuron. Ond roedd *e'n* sylwi, yn ddiflewyn ar dafod, ar bob manylyn.

Dyna pam nad oedd lladd rhywun ddim yn ddiwedd arnat ti; na'r un twyllo arall. Roedd gan dywyllwch, fel ci anwes, gof rhy dda, sut bynnag. Nid brwnt yn unig oedd y bryntni felly, ac nid gweithred yn erbyn Twm yn unig. Roedd hi'n is o lawer na'r gydwybod. Roedd yn ddyfnach nag edifeirwch. Perthynas drist oedd hi rhyngot ti a dyfarnwr profiadol y gêm, perthynas fall, perthynas ffiائد falch, ar ryw olwg. Ac ar ganol yr euogrwydd eang hwnnw oll, anodd oedd bod yn gydymdeimladus.

Wedi'r cwbl, cyfiawn a diffiniol o gyfiawn fydd pob crediniwr erbyn y diwedd.

'Fi sy'n gwneud hynny,' taeri di drachefn, ond gyda llai o argyhoeddiad.

Lle rhyfedd i chwarae rygbi fu Swyddfa'r Post ta beth, yn arbennig mor gynnar yn y bore â hyn.

Edrychi'n ôl, sut bynnag, ar y dieithryn ddyfarnwr, yn graff. Rwyt ti'n dechrau dod yn hoff ohono, yn dawel bach, yn rhy hoff meddan nhw, yn wir yn ei garu'n angerddol, yn dwlu arno, yn ffoli arno. Haleliwia! Mae'n bryd mynd. A mynd ato: y mynd ato o'r diwedd yw arddull y sut. Diau mai dyna ateb y Daith hefyd. Hynyna y nghyfeillion yw'r undod.

\* \* \*

### RHAN III. TAITH LLYTHYR Y PERERIN

Ym mhen draw'r coridôr gelli weld y drws o hyd. Drws y gegin mae'n siŵr, a honno hefyd yn llawn o lythyrau hirfaith dioddefus, ôl-fodernaidd o hyd. Mae'r drws hwnnw iddynt yn ymylu ar wneud synnwyr, ond yn methu.

A phenderfyni'n sydyn, heb ymdroi, ie heb ffarwelio â'r blodau menyn mor euraid yn dangos eu dannedd ar hyd y cloddiau y tu allan, ei heglu hi am y fynedfa.

Cydi di yn y bag llythyrau cyfagos, er nad oes yna'r un llythyr ynddo fel y gwyddost ti, a dihengi tuag allan. Heb ei sylweddoli'n gyfan gwbl, dest ti yma, ychydig ynghynt, i gasglu'r post. Yn awr gwibi, ar hyd y coridôr. Ac allan drwy'r drws, o leia y drws i'r gegin dybiedig. Wrth iti ymadael rwyt ti'n rhoi cic i'r blwch gwyn a adawodd y dyn ar ei ôl. Nid cegin oedd 'na, dim ots, rwyt ti wedi dod yn syth allan i'r awyr iach, tydi dy hun yw'r post.

A! Rwyt ti'n llai na diffuant bellach.

A! Enaid Cymru! Enaid annealladwy Cymru! O'r diwedd! Hyn y byddi'n ei ffroeni mor ffyrnig yn dy anadl ola, hyn a fu'n aros amdanat ar hyd yr amser. Ac rwyt ti'n nabod y lle yn burion. O'r diwedd mae 'na rai nodweddion sy'n gyfarwydd. Mae hyn yn gall ar hyn o bryd, efallai. Rwyt ti mewn rhywle tebyg i'th gynefin, ond mae dy gynefin wrth gwrs yn well... Edrychi draw ffordd yna. Ie! Bro Morgannwg lle bu yna grachach lotri o Brifddinas ar un adeg. A! dacw'r Blaenau yn y pellter – bryniau bach



plorynnog yn cerdded (yn baglu ar frys, yn wir) ar y gorwel tua'r wybren hwnt ac yma, yn disgwyl i gael eu gwasgu, a dim ond hwnt ac yma'n gadael ôl-traed efallai. A'r gwartheg eu hunain fel blodau brown a melyn yn chwerthin (am dy ben yn garedig) am ei bod hi'n anodd peidio, wrth fod bywyd oll yn ddiwrnod mor braf.

Nhw oll, gyfaill, yw'r Traddodiad. Nhw yw'r amgylchfyd a'th fagodd. Ar dy gefn, mewn bag plastig du, rwyd ti'n cario'r 'Gorffennol'. Rwyd ti'n nabod hwnnw. Hen wŵr smyg yw e. Mae'n gyrru'n gysurus i mewn fan yma. Mae'n gwybod y cwbl, o leia fel 'na mae'n honni. Yn wahanol i'r Presennol a'r Dyfodol, dyw e ddim yn ofni'r gornel nesa gan ei fod yn hollol hunanfodlon ac wedi bod yno o'r blaen. Ceidwadwr yw e hyd at ei aeliau, ac yn gynnes yn ei gwrcwd. Mae'n gyfan-gwbl sefydlog, does dim ysgwyd na newid arno byth. Synnwyr cyffredin yw, a dim lol. 'Fan yma dw i, a'r fan yma dw i'n mynd i fod.' Trwm yw, serch hynny, anferth o drwm, a dwyt ti byth yn dod yn gyfarwydd ag e. Mae ei floneg fel pe bai'n gyfarwydd iti, mae yna ychwaneg o blygion bras sydd eisoes yn gyfarwydd iti yn dod i'r golwg byth a hefyd. Ac wrth i bob hanesydd seciwlar sôn amdano fe, mae'n dewis yr arwyddocaol yn ôl ei chwaeth. Does dim math o ymddiried beth y bydd e'n ei ddweud yfory, ac mae'n gwadu nad oes yna werthoedd absoliwt ond heddiw, yn ôl ei ragdyb e.

Ond nawr y mae cyfnod newydd sbon danlli grai yn dy fywyd yn dechrau.

O'i gyferbynnu ag e, gŵr bach nerfus canol-oed yw'r Presennol. Canol-oed yw e yn llythrennol, os ca-i ddweud, rhwng Gorffennol a Dyfodol, gan fod ychydig bach rhagor o Ddyfodol a Gorffennol ganddo bob eiliad. Ond er gwaetha peth ansicrwydd, dyw hynny o Ddyfodol sydd mewn golwg, yn gam neu'n gymwys, ddim fel arfer yn codi fawr o ofn arno. Rhyw fachgen dauwynebog sy'n troi yn ei unfan yw e beth bynnag, – bob amser 'gyda ni' (fel y Gorffennol ei hun yn ôl pob golwg, ond yn fwy ymwthgar eofn, rywsut, o safbwynt blaen ei drwyn). Ond mae'n barod i newid, ac i gyfadde ei fod yn newid, yn ôl ofn y bachgen, i'r dyfodol.

Llanc plorynnog go anobeithiol yw'r Dyfodol. A dw i ddim eisiau'i gofio fe rywsut. Ac all e ddim dy gofio di. Ambell waith o bryd i'w gilydd, mae'n cael peth arswyd ac nid heb reswm, wrth sylweddoli'i fod wedi bod yma o'r blaen. Ond fel arfer,

rhith yw: mae bron yn real, ond erthyl real yw. Does dim llawer i'w ddweud amdano. Gwell peidio, yn erthyl neu beidio. Ond mae'n fwy penderfynol nag y dylai fod.

Does dim syndod dy fod wedi cyrraedd y diwedd wrth eu gweld nhw, neu ddechrau'r diwedd.

'Fi sy'n chwilio,' meddi er mwyn adeiladu dy hyder. 'Wedi'r pam, a chyda'r sut, fe ellir troi awydd, yn y lle saffaf, yn wneud.'

Yn awr, wedi dod o hyd i'r lleoliad taclus hwn, mae gen ti fan-cychwyn ystyrllon i fynd i rywle. Ie! Rhws! O'r diwedd! Dyma Faes Awyr Caerdydd, diolch! Dacw aelodau o gyfres rhaglenni teithio S4C: maen nhw bob amser 'ma, wrth gwrs. Dacw ddwy wylan, dwy a fwriadwyd i ddrysu injin yr awyren, y naill a'r llall, yma ac acw, yn groengwyddau i gyd oherwydd ofn dan eu plu, fel y bydd gwylanod. Rwyd ti'n cerdded yn bwyllog yn ôl ar draws y llain lanio, ac i mewn i'r adeilad gwyn lle mae'r ffurflenni. Maen nhw wedi dy weld di. Mae pethau'n dechrau symud yma yn awr.

Wrth gownter yn y pen draw, mewn unwisg wen, werdd a choch, mae yna swyddoges ddestlus. Mae hi'n dy lygadu'n amheus ond yn gwrtais. A does dim bai arni. Hen fyfyrwraig i ti yw hi. Does dim syndod ei bod hi'n ceisio bod yn wyn. Maen nhw ym mhob man.

Rwyd ti'n mynd ati. Mae hi'n eistedd yn ofalus ar glawr blwch gwyn. Mae'r awyrgylch sy o'i chwmpas yn glir ac yn lân. Un o ragoriaethau'r meirwon yw nad yn nhw ddim yn smygu.

Mae gan hyd yn oed galon waliau. Mae gan hyd yn oed waliau galon. Efallai fod hon... ond ust ... mae'n peri iti feddwl. Roedd adfeilion coed y tu allan yn yfed y dŵr o'r tir fel pe baen nhw'n drachtio waliau tai. Mae hon hefyd yn edrych yn sychedig. On'd yn ni oll? Ac eto, does dim eisiau dŵr crai arnon ni, ond dŵr y bywyd.

'Ai dyma estyniad i'r Swyddfa Bost?' gofynni.

'Ie, a phwy wyt ti?'

'Fi,' meddi'n hyderus.

'Rown i'n amau... Os taw llythyr ydych chi'ch hun, syr, croeso i Gymru,' medd hi'n jocôs braf fel pe bai mymryn o hiwmor yn gweddu yn y tywydd poeth yma. Hi yw eirlys d'eiliadau di ac yn argoel o le gwynnach!'

'Heb stamp?' gofynni tan wenu'n ôl ar ei phetalau er mwyn dangos bod gen tithau dy hiwmor hefyd.

'Yn bendant. Heb lun y frenhines na neb. Traddodiad sy, ond nid hynny yn ei noethni.'

Ac fe weli di (er na chrybwylli'r peth) y bag llythyrau gwag ar y llawr. O'r diwedd. Rhoddi di'r tudalen gwag iddi hi hefyd, a theimli'n ysgafnach. Rwyt ti'n ei ledi gerbron ei ffroenau llydain fel anifail yn cael ei aberthu. Roedd eisiau tudalen gwag. Ac yna cyfyd ei phen euraid hir a helaeth a lluniaidd ac edrych arnat ti'n bwylllog ac yn felys. Mae hi'n syfrdanol o hardd a lluniaidd, bron yn ormod felly. Elli di ddim ymgyfarwyddo â'r miliwn o weithiau y try ei llygaid i gerdded ar dy ysbryd. Ac mae ei llygaid yn ceisio iodlan yn dawel: 'Gee, ceffyl bach, yn cario ni'n dau': o leia, rhyw groes yw hi rhwng ceisio iodlan alto a soprano. Ond yr aur yna sy waetha ar ei thalcen, digon efallai, pe gollyngid e, i fwrw holl farchnadoedd y byd o rythm eu marchnata arferol am sbel. Gwyllyr y Ffwtsi. Dyma, y twpsyn, yw rhwystr y dyfodol rhag mynd.

'Gadael hynny sy orau,' medd hi'n dirion druan. (Ydy, mae hi'n neis ei gwala, a chwrtais, gallai hi fod yn casglu tocynnau yn yr Eisteddfod Genedlaethol.)

'Mae'n wag,' meddi gan estyn dy freichiau i gwmpasu'r arhosfan i gyd. 'Gwag, gwag, gwag.' Rwyt ti'n ei herio hi: 'On'd wyt ti'n meddwl hefyd weithiau ei bod hi'n bryd bellach, dichon, i ddiffyg ystyr gael pensiwn?'

'Ydy,' medd hi, gan ddylyfu gên. 'Wrth gwrs. Gorau i gyd.' (Afalau enwog ei llais, orenau gorohian ei gwallt.) Diolch am dipyn o synnwyr o'r diwedd.

'Mae'n ddrwg gen i am awgrymu'r fath beth mor ffwr-bwt.' Ond diwydiant gwledig yw'r meirwon yn eu hatgenedlu'u hunain erbyn hyn, ac mae pawb call yn dechrau cael llond bol o nihilwyr, fel petaen hwythau ysywaeth heb gael digon ohonyn nhw'u hunain. Wrth gwrs, mae'r cyfan yn relatifaidd megis relatifrwydd ei hunan. Ond o leia, maen nhw'n rhoi gwrth-gyfeiriad i fywyd mewn ambell ardal fel hon sy efallai'n

llai poblogaidd nag eraill gyda'r twristiaid ac sy'n gorfod dibynnu ar arian 'Dim Amcan' Ewrob.

Dyw hi ddim yn rhoi ateb o gwbl i'r ymddiheurad hwn, er iddi ei glywed yn sicr. Mae'n sefyll yn hir heb edrych ond ar y cownter rhyngoch. Yna, o'r diwedd mae'n codi'i phen cyrliog lled-sunsur drachefn. A hi yw hi.

'Twm!' Gwaedda hi. Ac yna 'Tw-w-m, gwrandawa,' dyma'r sibrwd mwya dynol a glywaist ti erioed yn dy fyw. Geilw hi dan ei hanadl, geilw hi ar draws y llynnoedd a'r corbyllau, yn uchel ac yn dawel, bob yn ail. Rwyd ti'n dechrau deall pethau bellach. Fe gryni. Dim ond un gair yn unig: un sy'n drwm, ac un sy'n llwm. Ond mae'n ddigon. *Twm!* Eithr nid â llais merch rywsut mewn gwirionedd y mae hi'n llefaru. Mae ei llais hi'n rhy ddwfn ar y pryd ac yn anghysurus o debyg i lais y dyn tywyll hwnnw a welast ti yn Swyddfa'r Post gynnu; eto, nid llais gwrywaidd oedd ganddo yntau chwaith. Llais draenllwyn wedi ymddeol oedd efallai, meddyli tan chwerthin. Chwardd hithau. Mae pawb yn hoffi jôc. Ond mae un Gair ym mhob gair, hyd yn oed yn y rhai a fu mor enfawr o ddifater â'r rhai ôl-fodernaidd hyn.

Enilli ychydig o hyder o'r herwydd. Ceisi edrych mor debyg i Dwm ag y gelli. Ymchwyddi ychydig. Felly y bydd hi gyda'r coed tala.

Rhaid oedd bod yn onest.

'Ond wnes i ddim byd oll ei wala. Nid Twm yw'n enw i.'

'Rwyd ti'n ddiogel felly, syr,' medd hi'n gysurlon brydferth wrth syllu ar dy drwyn. Siecio y mae hi. 'Ble rwyd ti'n mynd?' 'Ti,' o hyd: nid 'chi'. Sylwa fel y mae hi fel pe bai hi'n ceisio dadorchuddio'n barchus set o ddannedd newydd. Ac nid er mwyn eu dofi dros rywun arall neu rywbeth arall.

'Bois bach, mae rhai merched yn gallu'u gofyn nhw.

'Chwilio amdana i dw-i, ' meddi di. 'Fi,' meddi di drachefn, 'ond ydy hynny'n ateb? Ydy "fi" yn yn ateb lle?'

'Does neb yn cyrraedd fan yna ar eu pennau'u hunain.' Gyda glaw'r llythrennau hyn yn syrthio ar dy ben, yn sydyn y mae'r wawr yn gwawrio arnat ti.

'Dw i ddim mor siŵr ag y dylwn ei bod hi ar gael. Jerwsalem rown i'n feddwl. Rhywle canolog i gael ateb i'r cyfan yw'r lle. Ond y nhrosedd i yw'r broblem,' atebi. 'Mae'n y nrysu. A'r cythraul yw mod i heb geisio'i datrys ynghynt; fi biau'r cam cynta tuag ati ar ôl wynebu'r pedwar rhwystr neu'r pedwar cymhwyster. Pedwar yw pedwar,' meddi'n feiddgar mwyach, ar ôl arolygu bywyd yn gyfundrefnol.

Nid y llamwr arall o'r ochr arall sy'n ei amlygu'i hun yn y daith, ac nid yr ymaflwr o'r ochr hon chwaith, ond y ddau yn un. Undod yw'r datrysiad. Rwy'ti'n boenus o ddiwyll heddiw felly ac am fod yn fanwl-gywir wrth ddadansoddi'r bai: yr undod a fu am y lluosog yn y gell yw'r undod i'r gell wedi datrys yr amrywiaeth.

'Dwed hynny wrth y dyfarnwr, syr. Mae'r neges eitha bob amser yn syml er pan luniodd Wiliam Llŷn ei farwnad fawr seml yntau. Marwnad oedd y peth gorau wnaeth Gruffudd ab yr Ynad Coch hefyd erioed, ond yn rhy epigaidd i feddyliau mân. Efallai y talai i tithau sgrifennu ambell farwnad.'

'Alla-i ddim, ferch. Alla-i mo'i hwynebu,' rwy'ti'n dechrau taranu.

'Ble rwy'ti'n mynd te? ... Cei di dy dwyllo dy hun. Ond chei di ddim o'th dderbyn i mewn i'r dderbynfa groeso drwy unrhyw eiriau esgusodol.'

Rwy'ti'n dechrau mynd yn ddiamynedd ynghylch y math hwn o faldorrdi. Pwy sy eisiau croeso – er mor swyddogol y gall fod?... 'Cha-i ddim chwaith roi'r gorau i'r gêm felly? Ddim hyd yn oed am ryw bum munud?'

'Na chei, syr. Mae'r gêm o aros yn aros o'th ddeutu o hyd. Dyma ganlyniad y Bwmp. Rwy'ti'n deall honno, on'd wyt ti?'

'Tician undonog y dyddiau ar y calendr?'

'Yn gwmws, y Bwmp a ddifethodd y calendr: y gêm o fod yn gêm, o ddad-ddifrifoli, nes gofyn yn y cwlwm ble rwy'ti'n mynd.'

'O! Ddim unman tan ddydd Sul, dim ond i nôl y moddion.'

'Moddion i'th wraig?'

'I bawb, ac i fi yn hun erbyn hyn yn anad neb. Moddion moli.'

'Mae'n anodd credu'r stori 'na, yn sicr.'

'Mae'n anodd derbyn pob stori a phob llên. Ond dw i'n ddidwyll.'

'Dw i wedi dweud wrthot ti ddigon am y dwli “didwyll” yna, syr.'

'Ond mae cefnogwyr ein tîm yn coelio yn stori. Mi fyddan nhw'n cymeradwyo.'

'Byddan, yn bloeddio'n braf, debyg iawn.'

'Fe gredith y Wasg.'

'Mae'n nhw'n credu popeth – os credu hefyd.'

'Fe gredith perthnasau Twm.'

'Tybed?'

'Fe gredith y nheulu yn hun.'

'Ond dyw'r dyfarnwr ei hun ddim yn dy gredu di.'

'A! Pam? Beth sy o le?'

[Syrth glaw'r cwestiynau ar dy ben di nawr. Neidiodd y wawr o'r calendr.]

'Mae'n rhaid i'th stori gynnwys pob peth. Ac mae popeth yn cynnwys marwolaeth. Ac oni bai am fywyd, fyddai 'na ddim marwolaeth. Oni bai am weld, does dim delwedd.'

'O! Mae pwynt 'da ti fan 'na,' meddi, fel crwt o 4 Ec.

'Ac rwy'ti'n sylweddoli: does neb yn dy goelio di, neb o bwys yn dy gymryd di o ddifri, ddim y fenyw sy'n gwerthu tocynnau yn yr Eisteddfod, ddim y werin sy'n absennol, ddim y plant sy wedi colli'u chwaeth gan yr hysbysebion. Ddim neb.' Ac ar Dwm yr oedd y bai. Pallodd feddwl. Dechreuodd geisio tadogi'r bai arno fe'i hun yn unig drachefn.

'Stori yw; ac mae pob llenyddda'n stori: mae'n gallu bod yn wir yn ôl anian llenyddda.'

Wrth ymbalfalu ar draws y mynyddoedd mawreddog yna i gyd heddiw ers cynifer o oriau, roeddet ti'n hollol argyhoeddedig y bydden nhw'n credu dy eiriau

ysgrifenedig erbyn cyraedd y maes awyr hwn. O leia, pe bai Twm yn gallu cadw'n dawel am un funud (hanfod cofio), efallai y'i gwelai. Ond o leia, all neb ddweud nad wyt ti'n chwilio, er dy fod di'n chwilio dan y ddaear, ac yn esgeuluso beth sy eisoes ar yr wyneb.

Gan fod dŵr-môr fel dylif o amheuaeth yn codi'n feunyddiol fan yma megis ledled y glôb, a Chaerdydd bellach ar fynd i'w haped, ac Abertawe (bob man ond yr Uplands) ar roi'r ffidl yn y to, efallai y byddai hynyna yn y diwedd yn cael gwared ag e, – y bai ar y bae: penderfyni gyrchu brig y mynyddoedd. Wedi'r cyfan, banciau fydd y cynta i fynd dan y dŵr, a'r cwmnioedd siwrans. Nhw sy biau'r lefel isa. Wedyn yr heddlu. Wedyn y llyfrau. Bydd yn bryd iti'i gloywi hi cyn i'r llyfrgelloedd golli'r cwbl i'r we.

Doedd Twm wedi bod yn ddim ond cyfaill i ti erioed. Ond allai neb ddyfalu dim am y genfigen a'r falais yn ei galon oherwydd y Bwmp. Wyddet ti ddim dy hun ddim am brofi eu nerth tan yr eiliad honno, a byddai Twm byth wedi dychmygu amdany'n nhw. Ond un ateb oedd. Dim ond un peth a oedd yn bosibl. Hwn oedd yr Undod y buost ti'n sgrechian a sgrechian amdano.

Yr ateb i hynny oedd cymryd Twm yn dy afael. Gosod dy droed i mewn i'w arleisiau, a throi a throi, mor ddeheuig ddienaidd ac mor annisgwyl fel nad oedd yr un gair o obaith i Twm ei achub ei hun byth, druan. Gwaetha'r modd, rhaid i bawb wneud ei orau i ennill y gêm, doed a ddelo, beth bynnag a wnaiff, fel arfer drwy roi'r bai gyda chilwg yn ôl ar rywun arall. Gwaedd hir a hir heddiw, ac roedd e wedi'i ddileu neu ymddangos fel pe bai wedi'i ddileu. Ymneilltuodd rhag y goleuni swil yr unpryd heb betruso am eiliad. Collodd y storm beth o'i gwynt, a'i thipyn dannedd i gyd drachefn. Rhyfedd fel y mae'r rheina o hyd yn achosi trafferth. Y gamp yw chwerthin oherwydd difrifwch prydfferth a rhydd y gêm hon.

\*

\*

\*

Y tu ôl i ben aur y swyddoges ddestlus ddihafal-angylaidd fe gaed ar y wal boster anferth yn hysbysebu Israel. Chwysaist ti'n sydyn. Ac yna, fe'i cofiaist o'r diwedd.

'O! Ie. I Israel,' meddi'n hyderus. Dyna'r cyfeiriad. O'r diwedd 'Israel!'

'Israel?'

'Ie.' Fe gofiaist ti. 'Oes anhawster?'

'Ond, dwyt ti ddim yn teimlo'i bod yn lle braidd yn ddiniwed gyntefig yn yr oes hon?'

'Dyna dw i eisiau.'

'On'd yw Israel bob amser mewn cawdel?' medd hi.

'Dyna pam mae'n cynrychioli pawb. Mae pawb yn byw 'na, yr Hen Israel a'r Israel Newydd, Israel y Ddeddf ac Israel yr Ysbryd,' meddi di. 'Rhaid i ti wybod y gwahaniaeth drwy dapio'r Beibl.'

'O'r gorau, ti yw'r cwsmer. Ti yn dy noethni. Dyna'r fantais o fod yn law.'

'Dyw'r cwsmer ddim bob amser yn gywir. A dw i'n siŵr am hynny.'

'Mae gen ti ffordd bell i fynd o hyd te, syr,' medd y swyddoges braidd yn rhy hy.

'Ond pa fath o daith fydd hon?' meddi di.

'Un faith, mae arna-i ofn, ar y dechrau. Maen nhw'n mynd yn llai wrth fynd yn hŷn. Lleihau a wnawn ni, yn llai-lai nes nad oes ar ôl ond credoau a phrofiad a gweithredu'r peth dan dy drwyn. Byddi di'n edrych yn denau iawn erbyn y diwedd.'

'Ond dw i'n dal yn ifanc o hyd. Dw i'n barod i gerdded.' Pam lai? Rwyd ti'n gwybod mwyach ble'r wyt ti'n mynd. Nac wyt. Wyt.

'Dwyt ti ddim yn sylweddoli o ddifri pa fath o daith yw hon.' Mae hon, y swyddoges, yn wrth-Iddewig, mae'n rhaid, gwrth-semitig hyd yn oed, ac y mae hynny'n cynnwys yr ochr arall, eu gelynion. Fel Israel ei hun yn anad yr un. Yr Iddew sy'n elyn i'r Iddew.

'Ond beth am yr holl ymdrechion? Yr holl ymchwil trwm? Y gonestrwydd?'

'Osgoi'r daith oedd pwrpas "pethach" felly. Dy roi dy hun wnest ti a'th dipyn pryderon dy hun yn lle'r daith. Nithio'r sefyllfa. Dyna'r galw.'

'Ond roeddwn i'n ddiwyll onest yn gwneud y ngorau i gyrraedd yr ateb. Dyna pam cerddais i yn hytrach na dod ar y bws.'



'Didwyll?' ac yna 'didwyll!' sgrechodd hi drachefn, wedi clywed digon o ryw rwtsh felly. 'DI-DWYLL!' udodd hi o'r newydd, mewn dirmyg diamynedd mwyach.

'Rhyw fath o ddidwyll, naif o ddidwyll.'

'Dŷn ni wedi trafod hyn. Call sy eisiau, machgen i, nid didwyll. Doedd dy orau didwyll di'n werth dim. Fuost ti'n rhoi'r bai ar Dwm o hyd. Esgusodion. Codi bob math o rwystr i osgoi'r diwedd. Yn awr, mae'r rheina wedi mynd. Fe fethaist ti ag ateb y cwestiwn hwn wedyn.'

'Pa gwestiwn?' Tyrchaist i lawr i'th stumog.

'Y cwestiwn cynta.' Edrychai hi arnat ti i fyny ac i lawr gyda'r math o fanylder sy'n peri i ddyn siecio botymau'i gopis. Ydy'r ferch hon yn dy ddeall yn well na neb arall, tybed? Doedd yr un ohonyn nhw wedi sôn am *gwestiwn* hyd yn hyn; a chwestiynu yw dy *forte* di. Yn wir, mor amherthnasol oedd ei hymddiddan hyd yma nes dy fod yn dechrau amau a oedd hi'n amau bodolaeth y Gymraeg.

'Pa gwestiwn?' gofynni eto.

'Y cwestiwn cychwynnol. Y rhagdyb.'

'Pa un?'

'Yr un symla oll. Yr un dwyieithog. Cwestiwn taith y pererin. Yr un a ofynnais i gynnau yn Swyddfa'r Post... Pwy wyt ti? ... '

'Ydy hynny'n cyfri?'

'Beth yw dy enw bedydd di?'

'*Oesots?*' fel yna.

'Mae'n dweud popeth amdanat ti.'

'Paots am hynny?'

'Fel yna y byddi di'n gwybod beth dwyt ti ddim eisiau.'

'Beth yw amcan enw felly?'

'Oesots. Dyna d'enw, yn syml felly, yn ddiamcan neu beidio. Carreg sylfaen yw. Mae'n swnio'n addas, i'm bryd i.'

A! meddyl'i'n ara ara deg ond yn gyrhaeddbell o ddihidans, – y corff hardd hwn yn y dillad hardd hyn – yn gofyn pethau brawychus o hyll mewn modd cynefin. Oesots amdani, dyna pwy wyt ti. Neb arall. A thithau'n saith mlynedd ar hugain a hanner yn hŷn na hi, dyma ti dan anno domini wedi mynd yn ddi-âm wrth heneiddio, yn awr fel pe baet ti wedi derbyn cawod o law diamcan. Doeddet ti ddim yn werth taten i neb. Doedd dim pwynt.

'Ydy hynny'n help?' gofynni.

'Fe all fod. Pe bawn yn gwybod dy enw, syr, a dod o hyd iddo ar y we efallai y cawn i drywydd i fi'i ddilyn wedyn. Efallai y byddwn i'n gwybod o ble rwyd ti'n dod. A pham.' (Mae'n amlwg nad yw hi'n dy gofio di o gwbl, na'th ddarlithiau na'th arholiadau. Pwy sy'n ei beio hi, druan?)

Pwylli ychydig. A! Rwyd ti i mewn yn y cyfrifiadur felly. A fydd hi'n cael gwybod mwy amdanat ti yno? Sylli arni, yn hir fel afon. A wyt ti wedi syrthio mewn cariad â hi o bosib? Rwyd ti eisoes yn gogwyddo ychydig o'i mewn fel cennin Pedr mewn awel. Teimli hefyd dy dlodi ysbrydol i'r byw. Ddychmygaist ti erioed fod yna gymaint ohono i'w gael? 'Dw i wedi anghofio yn enw, a'n llyfr cofnodion, a mhopeth. Dyna'r gwir. Ond dw i'n gwybod mod i am fynd i Israel.'

'Gwrthod cofio rwyd ti. Dw innau'n gallu anghofio'n naturiol braf. Dyw hi ddim yn esgus.'

'Pam y byddwn i'n gwrthod cofio fel 'na, dwed?' Wedi'r cwbl, ceisio troi ystyfnigrwydd yn ddyfal-barhad rwyd ti.

'Am dy fod di'n ofni bod.' Ond 'bod' yr wyt ti druan, yn sicr ei wala mewn co; bod sy'n swmp, yn blwmp ac yn blaen, yn Gymro glanwedd galonnog, ac yn fwy o Gymro byth am fod dy wlad yn mynd yn llai o Gymru.

'O'r gorau. Dwed "syr" wrtho-i o ran hwyl – yn ddamcaniaethol fel petai – er mai Ymholydd yw yn enw iawn i. Teithiwr i Israel ydw-i o ran swydd. Fi sy'n ceisio, yn

curo. Ydy hynny'n help? Dyma fi wedi dweud yn enw i nawr. Rhyw fath o enw, "Syr." A dweud ble dw i'n mynd. Nawr te, mhishyn bach i, beth amdanat ti? Ble rwy't tithau'n mynd?' Gyda winc. Yn joli-hoetlyd fel llencyn eisiau creu delwedd: trueni nad oeddet ti wedi lliwio dy wallt yn felyn. A gwisgo ambell datw. 'A dywed di dy enw dy hun.'

'Unlle, Syr,' medd hi gan edrych ychydig ar goll, fel y bydd rhai o'r clercod 'na, (neu fel pe bai hi eisoes wedi cyrraedd, a chael nad oedd y lle ddim yno wedi'r cwbl.)

'Chei di ddim peidio. Mae pob lle yn rhywle.'

'Na, na, na. Fi sy wrth y ddesg. Dyw hyn ddim yn unman.'

Rwyt ti'n sefyll yn falch odiaeth am foment wrth ei dala hi mor dwt ddiurddas fel yna. 'Ond, Syr,' medd ei genau cyfareddol, 'os nad wyt ti'n gallu cofio d'enw go iawn, beth yw dy waith?'

'Gwleidydd!' meddi ar ei ben. Mae hynny'n bendant benderfynol.

'Penderfynol?'

'*Math* o wleidydd te,' dywedi, ychydig yn llai penodol er mwyn bod yn ffasiynol, a pheidio â gofyn am y treuliau gwir.

'Pe bai pob teithiwr neu adeiladwr neu ffarmwr neu fanciwr neu fasnachwr sy'n dweud ei fod felly yn wleidydd mewn gwirionedd,' medd hi gan wenu'n syber, 'byddai'r un ohonyn nhw byth yn gallu dod i ddigon o benderfyniad democrataidd i olchi'r llestri.'

'A beth ddigwyddai i sicrwydd diflas y tywydd wedyn?' meddi'n anghyfrifol. 'Rhagor o gynhesu global democrataidd? Neu beth?'

Ond digon o gwestiynau am y tro felly, dybiet ti. Dechreuwyd gan bwyll ymson yn lled athronyddol rhyngot a thi dy hun; ac ailgynheuwyd yr holi bron yn ddiarwybod. (Tybed a ddylwn geisio gofyn am funud neu ddwy o dawelwch i'n hunaniaethu yn hun â'r oes? A ddylwn i arbrofi er mwyn blasu ychydig o'r gwyll sydd i fod yn gynefin i fi mwyach? Sylwer er enghraifft na dw i ddim wedi llenwi'r un ffurflen ers tro. Rown i'n gweld ei eisiau. Rown i wedi gobeithio [meddi] – cyn belled ag y gellid sôn amdana-i

yn hun, ac ar yr un anadl ag yr own i'n sôn am yn statws a'n safbwynt i, ac yn medru dod o hyd i 'ffaith' o fath yn y byd, neu mai damwain mewn gwirionedd yw'r ffaith honno yr own i'n cael yn rhyddhau rhagddi neu drwyddi, ac nad oedd hyn ddim yn relatifaidd gywir o safbwynt diwylliant arall [megis mewn amgylchfyd yn y dwyrain pell] na allwn i ddim llai na chredu rhywbeth yn y pen draw hollol, gant-y-cant uniongred, beth bynnag a ddywed *traddodiad* – a rhyw hen lol felly.)

'Digon o'r cwrs athronyddu, merch i, am y tro,' meddi tan wgu. 'Hanesydd dw-i. Mae'n bryd agor y ffenest.' Rwy'ti'n poeri ar y llawr heb flewyn ar dy dafod o hyd wrth gynanu'r gair 'traddodiad' a 'ffeminyddol' a 'hiliol' a 'xenoffobia' a 'dirfodol' ac 'athroniaeth'; ac mae peth o'r poer yn tasgu dros y blwch gwyn wrth iti yngan y fath beth; 'a does neb yn ei ddymuno'n fwy na mi,' meddi ymhellach yn llai pwylllog o hyd.

Penderfyni o'r diwedd y byddai'n neis pe baet ti'n gallu cael matras yng nghornel y maes awyr, a gorwedd yn orffwyslon yno am ychydig heb yr holl fusnes ymholi difrifol o ddidwyll yma. 'Llefaru wyneb yn wyneb sy raid, fel y dywedir, neu drwyn yn nhrwyn, gyfeilles fwyn, heddiw, yn gyfoes ddinonsens, gan ddilyn 'moes yr oes', a chymryd popeth at ei gilydd – dyna roeddwn i, a finnau fel y dywedais i – wedi gobeithio. GOBEITHIO.' Pwysleisi di'r gair yn awr nid yn unig fel pe bai'n ateb dyfodol, ond fel pe bai'n esbonio popeth gorffennol erioed.

Ond dechreuaist ymddifrifoli gyda'r ferch. A thâl hynny ddim heb fynd i berfedd pethau a heb orffen y busnes wrth law 'ma. 'Beth?' medd hi. 'Iaith oedd y cam cynta; honno oedd y drwg, onid e?'

Doedd ganddi hi ddim clem. Un peth y cofi ynglŷn ag iaith sy'n ei gwneud yn iaith: sef cynnwys. (Roedd hi'n llenwi'r ffurflen ym mhob iaith wrth iti siarad.) Dyna'r ffurflen honno mewn iaith Geltaidd yn yr amlen. Llanwyd y ffurflen yn llawnach-lawnach a nodi dy holl gynnwys ieithyddol di mewn dyblygrwydd. Ac o'r herwydd, siaredi gyda'r didwylledd mwya pryderus yn awr fel pe baet ti'n siarad â stamp post newydd.

A! y nidwylledd melyn a hirlfelyn tesog! Onid dyna hefyd gyhaeddiad esthetig? Onid wyt ti'n dal i fod yn werth rhywbeth? Onid benyw yw dy enw bedydd di? Ac onid glendid dy gyfenw?

Chwarae i ti a chwarae teg (nid peth hawdd, cofier, yn nawdegau'r ganrif ddiwetha o bob canrif, sef yr ugeinfed, neu beth bynnag oedd yn ei lordian hi ar y pryd), oedd bod yn Athro mewn Coleg Diwinyddol o unrhyw liw. Dŷn nhw ddim yn bod bellach ond mewn gwleidyddiaeth. Dwyt ti chwaith ddim yn siŵr y tu ôl i'r cownter pa fath o beth yw credu na pha fath o beth yw beth. Mae'r Cyn-Athro Diwinyddol yn ymddeol bob tro mae'n clywed y gair 'pechod.' Rhagdyb dyn-ganolog yw dogma pob ffydd seciwlar mwyach. Tenau anaele yw nifer y myfyrwyr a fu gen ti hyd yn oed wrth alw Diwinyddiaeth yn Efrydiau Marchogaeth, a chaniatáu i geffylau, rhai ceffylau, eu gwair. Ac mae holl awyrgylch yr eglwysi'n ymosodol o farwaidd o'r herwydd: 'Allwn ni yn yr oes oleuedig hon ddim credu'r un fath â'r emynwyr a fu.' Yr her yn gyfoes yw aralleirio 'dim byd' mewn termau crefyddol derbyniol – ond newydd. A pherthnasol a chytûn! Hollol ddyngarol gytûn. Cael saith ffordd wahanol, ar y gitâr, o ganu credo heb gredu dim, a heb ddefnyddio'r geiriau ag ystyr. 'Gyda'n gilydd, "Dim byd"!'

Ac mewn tŷn ychydig yn ffres, gyda chytgan ogoneddus, 'Dim byd!' gweiddi yn gwbl eciwmenaid a ffres fel 'na. Gallen nhw gynnwys peth felly (gobeithio) yn un o'r emynau ffasiynol yn yr argraffiad nesa o'r gyfrol Emynau: *Caneuon Diffyg Ffydd*.

Unwaith eto, frodyr annwyl! Gyda'n gilydd yn lluosaid, yn annogmatig, yn ysbrydolaidd! Pwy all anghytuno â pheth felly? 'Dim byd!' Corws amdani! Dyma galon y peth, ond yn y lle anghywir:

Moto imiêca leo,  
moto nicatsi ia Iesw,  
moto imiêca leo.  
tw imbe Halelwia:  
moto imiêca,  
tw imbe Halelwia:

moto imiêca

yn lle'r hen Bant bach, – Bach? Gyrru, gyrru, hen Bant bach –

Dyn dieithir ydwyf yma:

Draw mae 'ngenedigol wlad.'

Ambell waith ar achlysur, cred di fi, y mae'n braf dianc rhag y dystiolaeth sefydliadol fodern i rywle gwastad dieithr a du megis Maes Awyr Rhws fan hyn, lle y gellir ymadael. 'Gonestrwydd' seciwlar a gei di ym mhob man yn y fan yma. Effeithiolrwydd ffres y symud. Sglein y cownteri ffres. Y dodrefn diweddar. Byrgars ffres. Does dim gwirionedd yn bosibl mewn lle fel hyn, mae'n wir, diolch i'r drefn. Na dim byd arall chwaith; ond math o grynodedd yw o wacter marw cyn cychwyn allan yn ei ddannedd i'r byd wedi'n harfogi â'r gwirionedd am y dyn sefydliadol di-oruwchnaturiol. Drwy ffenest yr Arhosfa mae'r awyren yn cyrraedd yn ei thro, ac y mae ei siâp yn hyfryd fel morforwyn o'r dyfnderoedd a'i pheiriannau Rolls Royce yn canu baritôn gloyw. Ond y blwch gwyn yn graddol gael ei wthio i'r naill ochr: cofnod yw. Hyn o'r herwydd yw Ôl-foderniaeth.

'Ble gest ti d'eni, Ymholydd?' Fe bery'r ffurflen i holi. Cwestiwn allweddol agoriadol. Hi, y swyddoges – wrth Reswm – sy'n busnesa o hyd, ychydig bach yn rhy agosatoch. Mae hi'n mynnu pydru arni. Rwyt ti dipyn bach yn anesmwyth ei bod hi yno. Yn wir, roeddet ti wedi dechrau'i hanghofio hi, wedi dechrau ceisio'i hanghofio hi o leia.

Ond mae gan bawb ei 'ffurflen' i'w llenwi. (Bydd hon yn siŵr o gadw ei swydd am ganrifoedd, hyd yn oed os bydd hi'n gynnyrch peiriant.)

Rhedodd ysgryd fel lafa i lawr gleiniau d'asgwrn cefn. Cryni fel daeargryn a oedd wedi ymadael â graddfa Richter.

'Ydy hyn yn angenrheidiol?' rwyd ti'n ei ofyn.

'Fe all fod, am a wn i, o'r persbectif yma. Er mwyn enwi'r man cyrraedd.'

'Dw i'n deall.'

'Dweud hyn rwyd ti, syr, heb ei gredu. Mae'n rhaid iti gredu rhywbeth i ddechrau, yn ddidwyll, er mwyn dod o hyd i unrhyw beth arall. Oes, – hyd yn oed wrth ddod o hyd i ansicrwydd ôl-fodernaidd. Mae'n rhaid gwybod i ddeall, ie er mwyn deall anwybodaeth.'

Cryni drachefn, teimli d'organau i gyd wrthi'n dirgrynu fel peli amryliw wrth chwarae 'roulette' mewn casino: 'sut galla-i wybod heb weld? Ble mae ansicrwydd yn mynd yn y gaea?'

Wrth ei hateb, rwyd ti yn gwybod yn burion fod dy gwestiwn yn bur dila; ond rwyd ti'n teimlo'i bod hi'n fwriadol wedi ceisio dy faglu. Rhyw fath o ffling ola gan y byd. Hi yw'r math o wraig, pan wahodda gyfeillion i swper, a ymhyfryda yn yr orchest o baratoi bwyd cymharol anarferol yn y Gymru sydd ohoni – megis artisiogau – er mwyn gosod yr ymwelwyr ar brawf i ganfod a wyddan nhw neu beidio sut mae eu bwyta nhw.

Yna, fe gofi di'r llythyr. Fe'i cynigi iddi, fe'th gynigi dy hun yn wir i'r fenyw fain. Mae hi'n ei dderbyn ac yn ei ddarllen yn ddiymdroi yn uchel, fel hyn: *Derbyniwch y dyn hwn heddiw'n ddigwestiwn. Mae e'n waglaw. Dyw e ddim yn dod yn ei enw'i hun mwyach. Mae e'n dod yn dy enw di, fel gwirionedd a ddisgynnodd mewn porfeydd gwelltog.* Mae hi'n codi ei phen yn gyfareddol wrth ddarllen hyn, ac mae ei llygaid i bob pwrpas yn llyncu lleuadau fel y dôl'r dagrau i'w llygaid.

\*

\*

\*

#### RHAN IV. CYRRAEDD ISRAEL

Wrth ei hateb â dogfen swyddogol yn dy lwnc fel hyn, Syr, mae dy lais dy hun yn lleihau'n gynffonnog wan gan fod dy lygaid wedi'u parlysu am y tro gan y peilot sy newydd ddod drwy'r drws. Rargian, rwyd ti'n ei nabod. Hen fyfyrwr arall. Un a fydd yn dy gofio. O'r diwedd, rhywun rwyd ti'n ei nabod go iawn, rhywun cwbl allweddol a dibynnol. Un a ddysgodd y cwbl am dy wendidau yn ei gwrs. Mewn lle diffaith a dieithr, gwerddon yw canfod cydnabod cu. Heb hynny, gallai fod yn eithafol o unig drwy'r dydd, yn orffwyll o unig drwy'r wythnos yn wir, (yn arbennig os nad oes neb yn barod i wrando arnat), ac yn ysbrydol o unig drwy'r ganrif. Yn lle dy fod di'n ymhonni i'w ddysgu fe, fe fydd e'n dy ddysgu di am y daith union.

Mae hi'r swyddoges o hyd yn gwenu'n ysgubol o agosatoch yr un pryd: 'Cymerer, medd hi, 'hyn yn gyffelybiaeth...Dŷn nhw ddim yn dweud bod rhaid ichi briodi'r un dych chi'n garu, ond bod rhaid ichi garu'r un dych chi'n briodi.' Cryni ychydig, o ddeall y fath gyfrifoldeb wrth gymhwyso'r gyffelybiaeth hon, a thybi ei bod yn dechrau llenwi ffurflenni o'r newydd, eithr yn awr ag egwyddorion tra serchiadol. Gwybodaeth a phrofiad. Ond toddi y mae hi, niwlio o flaen dy drwyn, ceisio diflannu orau y gall hi i mewn i'r ddesg. Ceisio bod yn glyfar ac yn wrth-ôl-fodern am y tro ola, rwyt ti'n hen obeithio.

Ond eisiau mynd i'r toiled y mae hi, druan. Dyna'r straen sy ar ei hwyneb. A'r fan yna y mae'r peilot yn wincio arnat ti. Beth sy arno fe? Beth mae'r dyn yn ei feddwl? 'Ai Ymholydd yw'ch enw? Siopa dych chi?'

'Dim ond ffisig i'r wraig rown i'i eisiau.' Doedd hynny ddim yn gyffes fawr, nac oedd, nac yn gyfan gwbl onest chwaith. Doedd hi ddim chwaith fel pe bawn i'n gorfod wynebu'r holl broblemau ysbrydol sy mewn bywyd er mwyn gwneud rhywbeth bach syml fel yna. Neu oedd hi? 'Dyna'r unig reswm y des i ma's,' taeri.

Yna, mae'r dilyw'n gwawrio arnat ti'n ddisymwth. Meddylia, dwedodd e o leia ei fod wedi mwynhau dy gwrs: roedd o leia wedi bod yn ddigon call i newid gyrfa wedyn ar ganol y ffordd. Wedi gwrando arnat ti, yn lle mynd i'r weinidogaeth roedd e wedi camu drosodd i fyd technolegol newydd sbon druan er mwyn derbyn yr her, ac wedi dringo o fewn ei swydd mor uchel ac mor gyflym ag y gallai. 'Ond y dechnoleg fwya effeithiol a luniaist tithau erioed,' meddyli i ti dy hun, 'oedd yr emyn gyfansoddaist ti yn dy gyfnod cynta.'

'Phil! Phil Jones! Ydych chi'n y nghofio i, dywedwch?'

Saif e ar y ddaear am ychydig o eiliadau fel pe bai'n ailgyfeirio'i enaid hiraethus atat. Yng ngwisg baun hiraeth mae brân y gorffennol yn cuddio rywle; a cheisir ei hudo allan o'i siercyn. Ar ei gapan, gwisga fathodyn y Groes Olwyn, y Groes Geltaidd fel y'i ceid ym Meifod yn y nawfed ganrif, eicon dwbl yw sy'n cyfuno Gras Arbennig yr iawn aberthol ar y Groes ynghyd â Gras Cyffredinol y cylch tragwyddol ym mhlethwaith didor y rhod.



'Cofio! Ydw, debyg iawn, Chi oedd yn hen athro i, syr, onid e? Chi yw'r un oedd bob amser yn chwarae cerdiau â'ch credoau yn eich ieuenctid.' O'r diwedd, ar y gair, y mae pob man a ddaeth wedyn yn syrthio i'w le, pob man a barodd i chi newid ... Efrog Newydd, Tocio, Llanfihangel y Creuddyn. Roedden nhw'n gliriach na cherdiau mewn casino. 'Ond chi yw'r un a addefodd yn gyson eich bod chi'n colli.'

'Phil! Beth wyt ti'n wneud fan hyn?'

'Hedfan.'

'Ble wyt ti'n mynd?'

'I Israel. Fyddwch chi, Syr, am hedfan gyda fi,' medd e gyda pheth balchder: 'a'r plant yn arwain y tadau.' Mae'r her hon nawr yn ormodol, yn uniongyrchol i neb pwy bynnag.

Cyhuddiad yw, a chrymi ychydig o'r herwydd. Dyma'r arwydd cynta difri o'th ostyngeddwydd newyddeni. Lledi d'amrannau petalog yng ngwres ei anadl. 'Debyg iawn, dw i'n teithio i Israel; Israel yn bendifaddau,' meddi di gyda gormodedd o sicrwydd. Bachgen rhagorol yw hwn. Y deallusa gest ti erioed. Meddwl gwych. Ymennydd effro. Catholig ei chwaeth. Cwbl ddibynnol. Llais baritôn ysgafn ganddo yntau hefyd fel peiriant Rolls Royce yn disgwyl ar y tarmac, hoff o bicaeu ar y maen a barddoniaeth R.W. Parry, ac unwaith bob mis yn fewnwr deheuig. Hynny yw, cacen gyfan.

'Does dim ond chwarter awr,' medd e.

'Sut awyren sy gen ti?' gofynni,

'Y siort orau. Maen nhw'n ei llenwi hyd ei sgidiau nawr â'r petrol gorau, ac yn rhoi'i hadenydd yn nannedd y mell. Dyma'ch taith gynta i Israel, Syr?' hola'r peilot.

'Ie, rhyfedd hefyd. Dw i'n gwybod popeth am y wlad, ond dw i erioed wedi bod 'na.' Roedd hyn yn wir am dy gyd-athrawon hefyd, o leia cyn i'r rheini arbenigo mewn Efrydiau Marchogaeth a thithau mewn Meddyginiaeth, cyfuniad sy'n tynnu pawb at ei gilydd, o safbwynt ffioedd.

'Wel, brysiwch. Mae yna le i chwarae hefyd yng nghefn y cabin. Jyst y peth i chi, gan nad yw popeth yn y gwirionedd yn wep-hir.' Ond cryni, o'th wallt i'r gwellt.

'Gwell i minnau fynd i'r toiled yn gynta. Mae'r blynyddoedd yn gwasgu,' meddi.

Roedd rhywun, sut bynnag, wedi gadael y meicroffôn ymlaen. Clywodd pawb. Dyna rwyd ti'n ei gyhoeddi i'r byd a'r betws ar y corn siarad. Ac mae pawb yn y dderbynfa'n gwenu ac yn edrych ar y tafleisydd yn chwilfrydig. Beth yw'r ffwdan am rywbeth mor naturiol? Mae rhai o'r plant yn chwerthin yn uchel a'u rhieni'n eu shyshio nhw. Ond dwyt ti ddim yn symud cam. Does dim awyrennau'n symud chwaith. Maen nhw'n swil efallai rhag y bydd pawb yn amau pwy oedd yn llefaru.

Eithr tawel yw'r Fro i gyd fel y bydd merched cefn gwlad. Tawel yw'r toiled hyd yn oed, ar y dechrau. Hyd y Blaenau oll mae'r diffyg sŵn. A mwyn yw diffyg sŵn, gyfeillion, er mor ddirugaredd.

Ond rwyd ti'n gwybod ymhle'r wyt ti'n sefyll bellach, ar yr adain dde ar bwys dechrau'r wybren. Nid dy fai di yw hi fod swyddogion maes awyr wedi anghofio sut mae gwneud cremogau, fel pe na bai maeth digonol i'r teithwyr gynyddu yn eu pwysau cyn hedfan. Dim ond mynd i'r toiled wnest ti oherwydd bod y fenyw y tu ôl i'r cownter wedi'i awgrymu. Math o gyffes oedd, ac un o'r ymarferion beunyddiol nad yw'n gwneud drwg i neb.

'Phil Jones! Dyma dy enw bedydd a'th gyfenw di o'r diwedd. Meddylia,' meddi. A gofynni, 'Wel, hyd yn oed os nad wyt ti'n cofio y narlithiau i, a wyt ti'n cofio'n enw i?'

Mewn un llaw mae e'n cario blwch gwastad gwyrdd sy'n dweud popeth am daith yr awyren a ddisgynnodd o'r duwch gwyn. Ond dychryni ychydig oherwydd bod yr ochr ucha eisoes wedi'i phaentio'n wyn, fel pe bai Cymdeithas y Distawrwydd wedi mabwysiadu'r lliw hwnnw yn sialens yn lle paent gwyrdd Cymdeithas yr Iaith.

'Beth sy yn y bocs?' holi. (Mae'r dychryn bellach yn mynd yn arferiad.)

Dyw e ddim yn ateb. Mae'n cuddio rhywbeth. Ymddistewi dithau ymhellach.

'Map?'

'Ie, map o'r daith,' medd e, yntau hefyd yn ddistaw. 'I Israel, ac felly i gyrraedd y nod, i ddweud y gwir, ac i ddatod y Babel oll.'

'Sut map yw felly?' (Dyfnha'r distawrwydd yn fwy byth.)

'Hyn oedd gyda fi o'r dechrau. O, maen nhw, sef y gweithwyr gwarcheidiol, yn gwneud mapiau arbennig i fi. Rhyw bedwar dimensiwn,' medd e'n ddistaw o hyd. Ac egyr y clawr, mor ddiraffferth fel pe na bai ynghau yn y lle cynta. Dwyt ti ddim yn disgwyl iddo'i agor fel hyn ond mae'n ei agor. Fel 'na. Y tu mewn does dim ond tywyllwch eithafol braidd. Rhed ychydig bach o lygod Ffrengig ar hyd y palmentydd. Ac rwyd ti'n cael tipyn bach o ysgytwad o'r herwydd. Mae hyn yn d'atgoffa o rywbeth y tu mewn i ti dy hun, sef llygaid sy'n dy ddilyn di i bobman. Maen nhw'n dweud y gwir o leia, rhaid cyfadde. Mae hyn eto yn fath o lythyrdy, wedi'i symud fricsen wrth fricsen o Langeitho er mwyn ei ailarddangos yn Sain Ffagan. Sylli'n graffach. A gweli botel werdd mewn un cornel. Dyna un peth does dim eisiau ymwneud ag e ar ddiwrnod dryslyd fel hyn: ffisig.

'Roeddech chi wedi disgwyl rhywbeth arall, Syr?' medd y peilot.

'Oeddwn. Rown i wedi disgwyl caeau a ffyrdd a bryniau brialluog yn mynd ymlaen i gynrychioli ffrwythlonder y ddaear fel llais menyw yn oes oesoedd. Ac rown i wedi erfyn milltiroedd o hagrwrch mecanyddol hefyd.'

'*Hyd*, felly; dyna roeddech chi'n chwilio amdano – *Hyd*.'

'Oeddwn, a Maint.'

'Dowch i sefyll fan yma,' medd y peilot.

'Mae hi'n ddwfn, on'd yw hi?'

'Nid *hyd* yw e'n unig, ac nid dyna sy'n bwysig, nage?' medd y Phil Jones annisgwyl hwn.

'Na... Beth sy i lawr fan yna dwed yn y blwch? Dyna sy'n bwysig. Yng nghanol y tywyllwch ei hun.'

'Tywyllwch, wrth gwrs! Dyfnder ei hun. Ond tywyllwch goleuni yw-e, yn ddiamwys braf, a meddu ar feddwl diwro. Ond dim byd relatifaidd. Na: wyddoch chi – y perygl mwya i ryddid bob amser yw goddefgarwch heb werthoedd. Welwch chi'r goleuni bach yn y gwaelod?' hola'r peilot.

'Gwela. Hwnnw sy'n dweud “Na” wrth y tywyllwch, ac yn galw “Twm” ar ei ffrind.'

'Dw i ddim yn amau,' medd y peilot.

'Dim ond Twm, a phob Twm arall sy wedi cael ei olchi.'

Ac wrth iddo ddweud Twm, mae pob Dic a Harri yn sefyll yn ôl mewn dychryn newydd sbon. Rwyt ti'n cnryu braidd, yn curyn, yn unyrc, yn ncuyr, yn ccccrynu ... crynu, ie, fel rhyg mewn potel. Dioddefaint, meddyli am yr athro hynafol hwnnw, a wŷr sut mae cosbi, ond na wŷr paham. Ac mae Twm ei hun, erbyn cyrraedd yr oedran fawr hon, wedi tynnu'r un casgliad. Sefwch oll yn ôl yn syn.

'Neb arall?' meddi.

'A thi dy hun hefyd wrth gwrs.'

Rwyt ti'n edrych ar yr awyrennwr mewn ing dirdynnol, ac yn erfyn arno a dagrau'n llond dy sanau, wedi colli tipyn o'th urddas efallai: 'Beth yw yn enw i, wyt ti'n cofio?'

'Gofynnwch i'r dyfarnwr,' medd e.

'Sut galla i?' holi di.

'Fe sy'n gofalu am ddiwedd y chwarae a'r adroddiad i'r Wasg.'

'Ond dw i ddim yn ei nabod yn ddigon da.'

'Eich bai chi yw hynny. Gwaedddech i lawr ato fe, te. Ar unwaith.' Dyna gyngor brys y peilot.

'Dw i ddim yn gwybod ei enw.'

'Ond dych chi'n gwybod ei fod e.'

Rwyt ti'n edrych i lawr i'r diddim agos. Wyt, rwyt ti'n ei wybod e, wrth reswm, – ac yn gwybod nad dyn yw dy drafferth mwyach erbyn cyrraedd fan hyn, ac nad dyn chwaith sy'n gwybod, ohono'i hun. Efô, y Duw-ddyn, ei hun yw holl wybod y gwaelod erbyn hyn. Dim arall. Plygi dy ben mewn braw.

'Wrth gwrs ei fod e,' dywedi di.

'Gofynnwch iddo felly. Dowch yn nes at yr ymyl, a gwaeddych.'

'Beth 'waedda-i?'

'Dywedwch hylô, neu rywbeth.'

'Ond dw i erioed wedi siarad ag e,' cyfaddefi.

'Dwedwch eich bod yn difaru am eich bod wedi chwarae erioed. Didwylledd wedi'r cwbl yw cydnabod posibilrwydd y terfyn pan geir adnabyddiaeth o'r cynnwys. Roedd yr hen ymdroi, a ffug chwilota, a'r anonest ragdybio, i gyd yn wastraff. Didwylledd yw cydnabod ei amodau pan ofynnir am dlodi ysbryd, ymwacáu o'r balchder, a galaru hyd flaenau'ch amrannau. Brysiwch ddyn. Mewn ychydig o funudau bydd yr awyren yn cyrraedd y wlad. A bydd rhaid i rywrai ddadlwytho'n ddi-betruso.

'Dw i erioed wedi cydnabod yn agored mai fe yw'r dyfarnwr. Esgusodion oedd y cwbl. Rown i'n cymryd arna-i yn hun mai fi oedd yn llunio'r rheolau, mai fi oedd y prif chwaraewr, a fi oedd yn sgorio'r cwbl, mai fi oedd y gynulleidfa oedd yn ymadael ar ddiwedd y chwarae ac yn gofyn am yr arian yn ôl.'

'Wel, dych chi i gyd yn gorfod dod i'r maes awyr nawr. Corff, enaid, a'ch trwyn yn gwaedu oherwydd yr uchder. Weithiau mewn gêm, un cyfle a gewch chi yn ystod eich bywyd. Ond maen nhw i gyd yn cael un.'

'I ddod i dorri drwodd fel hyn?'

'Ie, yn “rhydd”. I'r fan yma. Rhyddid! Cadwyni Rhyddid! Didwylledd caethiwed, Syr!' Chwarddodd fel awyr las dawel. 'Mae'r gwahoddiad i bawb.'

'Ond glanhäwr ffenestri yw Rhyddid, yn sefyll ar reng ucha ysgol, a hwnnw'n un sy'n torri'r ffenestri wrth eu golchi.'

'Nac ofner... Heddiw. Gwaeddwch nawr.'

'Mae'n well gen i beidio.'

'Peidiwch â bod yn ffôl. Gwaeddwch o'r galon ddyn.'

'Ond ofn.'

'Gwaeddwch ddyn. Does dim ffordd arall.'

'Mae arna-i fraw a dychryn. Mae'n rhaid ifi gael ffordd arall bob amser. Synhwyrau. Rheswm. Bwyd. Bacwn. Wy. Rhywbeth heblaw'r hyn sy ar y fwydlen.'

'Dim ond ofn sy ar y fwydlen bellach, a hwnnw'n ofn parchedig, cariad o ofn.'

'Nwydd rhy gyfarwydd, ar ymyl y plât. Rhy rwydd,' meddi'n daer.

'Y cynhaea heddiw sy'n ofni'r glaw a'r egin y sychder, ond holl adar y maes a ofna lythrau'r diben. Gwaeddwch Syr.'

'Dwr dio, dwr dio, dwr dio. Dwr dio yw dy ffugenw di. O'r amynedd, mi wna-i de. Gymri di de? Neu goffi? Siwgwr?'

'Nawr! Ar unwaith y gwirionyn, gwaeddwch.'

'Iawn. O'r gorau ... o'r gorau ... *Ti-i-i* ...'

Ond druan ohonot ti, dwyt ti ddim yn ei weiddi'n iawn, onid efallai yn dy feddwl, – heb galon doredig. Tegi ychydig yn dy stumog. Yn ddidwyll. 'T-t-t.' Ddaw dim un smicyn, ddim diferyn nawr. Dim ond cytsain. Maen nhw wedi distrywio d'ymennydd. 'Ble mae yn llafariaid i?' Dechreui feddwl am yr hen amseroedd pan oedd digon o lafariaid (ac am y cyrsiau llafar yn y Coleg) i ddysgu llefaru'r gwir yn groyw. Roedd gormod o lafariaid y pryd hynny. Un ar bob cornel. A thri yn y canol. Ond dim geiriau llawn. Dechreui ebychu am ddiflastod bydeang y teithio undonog modern drwy'r awyr, yn chwilio am leoliad gorsaf betrol, ond heb gyrraedd y terfyn cywir byth.

Gwaeddwch. 'Ti-i-i.' Dim arall.

Hyfrydwch gan Phil yw rhannu gyda thi fel hyn dy lifeiriant meddyliau. Prin bod neb ers blynyddoedd wedi eistedd yn hamddenol gyda thi fel hyn a'th barchu'n ddigon didwyll i barablu'n hyderus hyd y oed yn anhyglyw am bethau amgenach na gêm

rygbi neu newyddion am giamocs rhyw gyfreithiwr anghyfiawn. Dyw e ddim yn gyfarwydd chwaith ag ymddiddanion coeth o'r fath yn cynnwys termau mor arallfydol â 'gwaelod bod' neu 'yr oes oleuedig hon'. Dim ond peilot yw e: peilot bach cyffredin sy'n hoffi tlodion. Ddymuni di ddim ond gwyllo dy wefusau'n gwau ac yn nyddu eu ffordd drwy'r awyr hyli ar gyfer y rhai a anwyd yn fyddar. Mae yn siŵr mai llesol yn syml yw eistedd fel hyn y fan yma – gan adael i'r ffrwd hon o sillafau dealladwy nofio drosot ti fel morlo.

Eto, na: gwell peidio â gadael i hyn fynd yn ei flaen yn ormodol.

'Mae'r awyren yn disgwyl,' medd e'n fygythiol o'r diwedd wedi bod yn glên cyhyd. Mae'n dechrau colli'i natur. 'Gwaeddych yn gyflym.'

Ymhen hir a hwyr, dyma'r ateb.

'Fe hoffwn ddod,' meddi'n swil naturiol garpiog heb weiddi. 'Ond mae'r arian yn brin.' Chwili dy bocedi heb ddod o hyd i senten. 'Ail ddosbarth tybed?' awgrymi.

'Does dim cost i'r teithiwr, heb arian a heb dâl ddynol. Dim ond dosbarth cynta sy i'w gael. Y derbynnydd sy'n talu'r post.'

Edrychi ar y bag gwag yn dy ymyl. Edrychi ar y blwch du a gwyn. Os yw pethau'n mynd i fod fel hyn, does dim disgwyl iti hedfan byth. Edrychi di ar y paent gwyn ar gyfer y daith, i newid hanfod y blwch cyn y diwedd.

'Mae'n ddrwg gen i am hyn,' meddi.

'Popeth yn iawn. Fel yna y mae i fod.'

'Yn wag?'

'Ie wrth gwrs. Yn ymddangosiadol wag. Chi eich hun yw'r llythyr er hynny. Dowch rhag blaen.'

Dyweddodd y peth mor syml â chawod arall o law. Yn awr yn syfrdanol anghymhleth, saethodd y geiriau – “Dowch rhag blaen”; glanion nhw yn dy lygaid; allet ti ddim gwneud dim oll bellach ond ufuddhau: dod rhag blaen.

'Mi wnaiff hynny yn lle tocyn,' medd e.

Plygi dy ben. Mae eisiau saethu hwn.

'Dyma'ch cyfle ola i weiddi,' medd e. 'Gwaeddwch eto.'

Ac yn sydyn, gweiddi: 'Israel.' Paradocs o air os bu un ar gael erioed. Faint o air yw Israel? Fel yna, heb golli dy ddannedd doddi y tro hwn (practis oedd eisiau), 'Israel!' Ac roedd rhywun wedi gadael swits yr uchel-seinydd ymlaen y tro hwn eto, diolch i'r drefn.

Cafwyd ateb, o bob cyfeiriad; o'r ddaear, o'r awyr, o'r ffurfafen oruwch yr awyr dros yr uchel-seinydd. Atebodd y tu hwnt i'r bydysawd.

Felly, o'r diwedd, do, ar dy ben dy hun ynghanol myrdd o dystion, dyma ti ar dy ffordd i Israel! Neu o leia ar y ffordd i'r awyren i Israel. A hynny am y tro cynta yn dy oes, er mai Israel fu prif bwnc dy fywyd yn ddiarwybod. Ac yn sydyn rwyd yn llefain o'r llawr, yn ubain lefain. Mae holl alar y canrifoedd gwag yn llifo drwy d'ysgyfaint ac i fyny i'th dalcen ac o'r tu allan i'th glustiau. Llosgfynyddoedd meddal o alar caled. Gafaeli â'th ddwylo yn d'ystlysau er mwyn cynhyrchu'r stwff yn iawn a rheoli'r llifeiriant. Pwy fysai'n credu hyn? Peidiaist â chwarae. Rwyd ti'n hiraethu am gydio yn y blwch. Mae'n rhy hwyr i sgrechain. O bell clywi di'r hen fyfyrwr annwyl hwn yn dy rybuddio dros yr uchelseinydd mai gwell fyddai ymorol am dy le yn yr awyren ar unwaith gan ei bod bron yn amser ymadael. Ond rwyd ti'n methu â symud am ychydig oherwydd y mynyddoedd o dagrau triagl sy'n mynnu nyddu drwy dy dalcen.

Symudi un ohonyn nhw ryw fodfedd. Ond y mae yna filiynau o fynyddoedd dagrau cyffelyb ar ôl, y tu mewn i ti. Ac o fewn y blwch du-a-gwyn hefyd, maen nhw'n goferu i mewn iti wrth i ti oferu i mewn iddo fe.

Weli di'r un teithiwr arall yn unman. Edrychi i lawr at y bag, ac fe'i codi yn ofalus. Mae'n wag.

'Dim ond fi?' meddi.

'Ie,' medd Phil. 'Fesul un.'

'Hwn hefyd?' gan amneidio tua'r blwch gwag o weithredoedd rwyd ti'n rhinweddol gyfrifol amdanyn nhw.



'Iawn,' medd e. 'Mae'n bwysig dod â hwnnw. Bydd e'n dy atgoffa di am frataiu budron.'

Mae e'n codi'r blwch wedyn. 'Allwn ni ddim mynd heb ei baentio'n wyn, na allwn,' meddi. A gofynni fel rhyw fath o ddihangfa funud-ola: 'Pam y caniaatodd Duw bechod a salwch a marwolaeth?'

Ond doedd dim amser i chwarae.

'Allwn ni ddim mynd heb hwn.'

Sigli dy law yn yr awyr. Mae'n rhydd. Ai hyn felly yw'r hyn y buon-nhw'n sôn amdano fel ewyllys rydd ers talwm cyn darganfod yr Hunan? Hynny yw, yr hunan diddeddf ar wahân i ddisgyrchiant, ar wahân i'th fagwraeth sy'n penderfynu i raddau sut berson wyt ti, ac ar wahân i'r amgylchiadau lle y cei di dy hun bob dydd. Dyna'r rhyddid di-iawn ar wahân i'r ffaith dy fod di'n atebol dros dy weithredoedd, ar wahân i'r llwyr anallu i beidio â phechu, a'th fod yn methu â pheidio â bod yn farwol. Ie, a chyfri'r ychydig amodau rhyddid ar wahân i hynny, bob amser rwyt ti'n gyfan gwbl rydd. Ar wahân i deimlo gwerth a threfn a phwrpas, yn dy ddannedd, dych chi'n rhydd ei wala i godi'r bag gwag â'th ewyllys. Rhydd! Rhydd! Dyna ryddid – bargaen gyffrous yr wythnos yn wir. Cynifer am bris un. Heb fod yn blentyn siawns, ond yn un cyfreithiol i'r Gair. A heb dywydd felly chwaith. A heb fethu â pheidio â bod, rwyt ti heddiw, Syr, ar wahân. 'Paid â gwastraffu'r cyfle.'

Gwe gywrain wlybyrog yw rhyddid glân, mae arna-i ofn, y lle a ddeil glêr, un ar y tro. Gwae'r unigrwydd tost hwnnw i'r sawl sy'n ei wynebu.

Beth bynnag am hynny, a beth bynnag am y rhagolygon, y peilot ei hun sy'n cario'r blwch du-a-gwyn heddiw. Roeddet ti wedi sylweddoli fod 'mynd' i ti yn amhosibl mewn carfan dros y tir o Gymru. Ac roeddet ti'n dal i feddwl fod eisiau awyren i fynd i Israel.

\*

\*

\*

## RHAN V. DIWEDD Y DAITH

Mae mwyfwy o atgofion yn dod yn ôl i ti amdano, serch hynny. Disgynnydd yw Phil i ddyn adnabyddus yn y parthau hyn a oedd yn wallgo ynghylch rhyw, dyn ffrwythlon ei lwynau o'r enw Jones. (O! Un o'r rheini 'to, meddi mewn syrffed ond mor gwrtais ag y gelli), enw poblogaidd ddigon yn yr ugeinfed ganrif meddan nhw cyn ei oresgyn gan rai bach hunanddisgybledig fel Ioan, Iwan, Siôn, ac yn y blaen. Pwy a all dreisio orau? Fe fyn dy feddwl fynd ar gefn pob math o gamelod er mwyn rhoi'r bai ar Jones.

Casglai bechodau mewn pryd, pan oeddet ti'n gosod gwaith cartre, i'w doddi mewn bun sbwriel yn ystod torheulo'r ha, erbyn newyn y gaea. 'Gwiwer' oedd ei lasenw. Un crwn bychan oedd. Roedd ganddo aeliau cochion llawnion; ac ar dor ei fochgernau lle nad oedd ei ellyn wedi'i gyrraedd, eginai blew bach cochlyd gwasgarog drosto, ar hyd ei gefn, ac i lawr dros grothau'i goesau. Cochyn oedd o'i gorun, felly. Ar gefn ei ddwylo roedd yna orchudd trwchus a phigog, a bron y gellid canfod llwyn o gynffon yn cyrlïo i fyny y tu ôl i'w ben yn barasolaidd gynhwysfawr yn erbyn y pelydrau. Gellid cwato'n gynnes yn y gynffon honno. Ond byddai hynny'n hurt efallai.

Rywsut er hynny, roedd y ffugenw'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain, ac yn gweddu i Gymro gyda'i atgofion melys hirfelyn tesog a dwysaidd. Doedd dim un myfyriwr tebyg iddo y pryd hynny.

'Rhaid imi lamu ymlaen,' medd e'n sydyn wedi cyrraedd y tarmac, gan lygadu'r awyr oll gyda gwên yn ei dalcen. 'Beth amdani? Wyt ti'n dod?' Ond doedd e ddim mor daer yn awr. A chraffodd y Wiwer arnat ti fel pe bai am dy fachu'n gneuen i'w storfa, a'th goleddu mewn awyren antiseptig dros aea. Ond mesen seml, wryfol, hollol ysgafn, ysgafn fel y baw ar wyneb glân, yw llawenydd y trysor a dyfir ar gainc ry wan i'th ddal. Ac fe sylli'n benderfynol o bell yn awr ar y blew coch yn cilio o lam i lam ar draws y tarmac, llam eto, ac i mewn – whiw – i'r awyren werdd. 'Mewn ychydig o eiliadau fe fydda-i 'na.'

Dymuni ymdrechu i ddilyn y blew acw. Mynni i hwn dy ennill heddiw o bob dydd. Eto, ai tydi dy hun, yr un sy'n gohirio, wedi'r cwbl sy'n dringo'r mynydd? Neu ddringo'r awyr?

'Bydda-i ar dy ôl di chwap,' gweiddi'n obeithiol ar ôl yr anifail. Yn annibynnol ac yn rhydd. Ond gan dy fod yn byw yn yr oes hon, feiddiet ti ddim symud, wrth gwrs. Hysbys y dengys y tarmac. 'Dw i wedi methu. Mae'n ddrwg gen i. Dw i'n anobeithiol. Gohiriais yr eiliad ola, mor nodweddiadol ôl-fodernaidd.'

Suddi.

Rwyd ti'n wirioneddol ar dy ben dy hun bellach ac yn ddiymadferth.

A dacw'r awyren wedi ymadael, hebot, yn ffoi yn wir; ymedy hi hebot, gyda'r gorwelion gleision sicr fel cadair siglo o'i hamgylch, a'r pelydrau'n sgrechian wrth i'r ddaear eu tynnu nhw gerfydd eu gwreiddiau allan o war yr haul, dacw hi wedi ymadael. Mae hi wedi diflannu. Wele, cyn belled ag y medri weld, mae machlud pendant ei hadenydd yn drachtio'r chwys o groen y maes a'r mes, ac yn mynd yn llawen i chwilio'r uchel leoedd. Ond acw mewn cornel arall o'r tarmac, ychydig ymhellach draw na'r union fan y cychwynnodd yr awyren er mwyn ymadael, dyma hofrennydd bach, bach, fel ploryn dibwys ei olwg bron, yn dod i mewn i lanio. Ac rwyd ti'n ôl yn y llythyrdy dilys hwnnw drachefn mewn ofn a dychryn. Roeddet ti wedi disgwyl hyn. Yn dawel bach, dyna'r is-ymwybod yn y bag yn bur wag. Rwyd ti'n ôl ar ddechrau'r ymchwil i gyd yn barod am y cam cynta oll. Ond rwyd ti'n wahanol mwyach wrth iti weld yr hofrennydd hwn yn awr yn disgyn gerllaw. I lawr. I lawr. Does dim adenydd. Fel ti.

Dyw'r gwagle mewnol, wrth gwrs, os gweli'r hofrennydd rywbyrd â llygaid cnawd, ddim o anghenraid yn ddigynnwys. Mae'n amgáu ffeithiau clir am y gwirionedd, megis geiriau lle na bu meddwl ond yn weithred bragmatig erioed. Fe dybiet fod yna raffau o we pry cop yn hongian ar ei draws. Fe elli aroglu carthion llygod Ffrengig a chobynnau pwr diamheuol, a'r aroglau hynny oll hwythau'n rhaffau ar draws y tywyllwch. Maen nhw i gyd yn llefaru yr un pryd ynghylch y canrifoedd. Ond y distawrwydd ei hun sy fwy cymhleth, – clywch – y diffyg sillafau; ac mae sillafau clir, fel y gwyddon ni oll, yn gallu bod yn bethau bach mor annwyl weithiau, ac mor rhyfedd

o amyneddgar weithiau eraill, wrth draethu'r gwir glân gonest am dy allu gwag dy hun. Maen nhw'n gallu bod yn binnau miniog yn dy ben ôl hefyd.

'Methiant dw i,' meddi di. Cest ti wybod. Methaist ti hyd yn oed â dod i Israel ar dy awyren dy hun. Cest ti bob math o gyfarwyddyd, ac anwybyddaist dy freintiau.

Mae'r manion hyn oll yn cael eu taenu yno ger dy fron yn y llythyr dy am un rheswm, ac un rheswm yn unig, sef er mwyn iti sylwi fwyfwy ar drymder y gwyll sy'n amgylchfyd iddyn nhw. Gelli brofi'r trymder hwnnw ar dy dalcen. Pe baet ti'n wynebu'r ffeithiau i gyd, bydden nhw'n adde'u bod nhw'n pwyso fel drws derw yn erbyn dy arlais. A does dim un lle ar ôl i anadlu byth. Bydd unrhyw anadlu o'r fath rhwng un a phedwar y bore, a thri a phump yn y prynhawn, i rai dan ddeg-a-thrigain yn gwbl waharddedig; ond gydag atodiadau. Fe gest ti'r cyfarwyddiadau hyd yn oed ar ôl amser cau.

Cest anadlu allan, o bosib, am funud neu ddwy, ond o'r dechrau cynta, doedd dim math o ganiatâd gen ti i anadlu i mewn.

Efallai mai dyna'r thema sylfaenol sicr o'r dechreuad. Dyna sy'n achosi dy ddiffyg sillafog. Sef dy wir hiraeth. Ac mae'r trymder lwydlas lledlwys yn y fan yma heddiw yn gwasgu, yn tasgu o hyd ar hynny o sillafau a allai fod y tu ôl ynot, ym manau anghysbell Cymru, nid er mwyn eu cywasgu nhw allan yn syml elfennaidd ond er mwyn eu cadw yn yr un lle yn ddiogel, yn llai lai o hyd nes eu bod nhw'n troi'n galed fel cerrig mân mwyn main a fu o dan fynyddoedd ers aeonau yn disgwyl i ryw archaeolegydd ddod heibio â'i garbon i fesur eu hoed (ond nad yw e byth yn dod, nid yn ôl yr union ffordd y dymunwn ni, beth bynnag).

Wedyn, fe glywi di – ust! – o bell rywun hollol anweledig ond hollol sylweddol ac agos yr un pryd yn sibrdw o'r tu allan. 'Does dim rhaid cael awyren. Dere fel rwyt ti, heb adenydd.' Un bach a mawr oedd yn llefaru.

'Ond beth wna-i ynglŷn â'm methiant i hedfan?'

'Rhai felly dw i'n chwilio amdany'n nhw. I'r rheini y des i.'

'Chyrhaedda-i byth dan yn stêm yn hun.'

'Fe'i sylwaist ti felly o'r diwedd.'

Yna, dros y bryniau, wele acw, y mae'n dod atat heddiw – Archaeolegydd y Fron, yn ei ddillad nofio – Achubwr yr Eigion. Mae e'n dod. Dyna fe. Mae ei lais yn dod fel hofrennydd ar darmac dy ymennydd. Dw i wedi dod o hyd rywsut i'r coridór iawn yn Swyddfa'r Post sy'n arwain i'r blwch gwyn, ' medd e fel bedd prydfferth.

Gan bwyll, daw'n amlycach iti. Roeddet ti wedi anwesu ac wedi hen syrffedu ar y chwalfa ar hyd pob llinell o'r llythyr ynghylch d'ainioes. Yn awr, ddymuni di ddim cyrchu ond i un lle. Atyniad diangen oedd pob man arall: dy iechyd dy hun, dy ddiddanwch, hyd yn oed y gorffwystra yn y pen draw, a'r aceri ac aceri o ddiddanwch o ddidwylledd. Dim. Doedd yr un o'r rheini yn ddigon. Methiant oedd uno pob un ohonyn nhw. Roedd yna un lle, a dyna'r union le y buost ti'n ei gyrchu drwy'r amser er gwaetha pob cyfeiliornad a gogordroi. Un.

'Ble? Ble? Mor an-ôl-fodernaidd!

'Dilyna fi.'

Ac yna, mae E'i hun yn suddo ar ei liniau, ac yn cydio yn y clai clo wrth ei draed. Roedd y Goleuni aruthr yn plygu.

'Dim awyren?' holi.

'Na. Dilyna. Y Ffordd hyn.'

'Dim cymhlethdod chwaith?'

'Dim.'

'Dim maldod?'

'Dim.'

'Asgetig? Neu esthetig?... Pwy?'

'Ddim un, ond yn isel ac yn dlawd.'

Rwyt ti'n ei ddilyn o'r diwedd. Mae rhywbeth ynglŷn â'r dyn hwn. Dyma'r un y bu dy waed yn crefu weiddi amdano. Ac rwyt ti yn ei adnabod. Fe yw'r tlawd anferth sy wedi mapio'r cwbl. Brenin y Tlodion.

Amhosibl! Neb arall. Fe a ddyfeisiodd y clai a'r edifarhau ar dy gyfer yn y cam cynta oll wrth blygu i'th fowldio di o'r llwch. Fe hefyd a ddyfeisiodd y dryswch cywrain cyflawn maith y tu hwnt i bob deall er mwyn egluro croywder bychan. Fe ei hun oedd y tloedi ei hun ledled golud y ddaear. Fe oedd y llythyr ei hun yn ogystal â'r llythyrdy. Est ti ddim i Israel felly o gwbl yn y diwedd, ac fe'i sylweddoli'n burion pam. Doedd dim angen dringo. Er cymaint oedd Israel, mi ddaeth hi'n ddigon bach ei hunan i ffitio i mewn i hofrennydd ei hun. A hithau a ddaeth i lawr, yr holl genedl na ellir byth ei chyfri, dyma hi, yr un sy gyda thi. Rhodd yw. Cyfoda dy ddwylo ati, a chynhesa'n gyflym, mae hi'n disgyn i lawr, i lawr.

Israel, a gogoniant y gogoniant, ar ei gliniau, a ddaeth atat ti.

Gyda Chariad,

Dy frawd, Ioan

## STORÏAU'R YCHWANEGIAD (2016)

### CYNNWYS

Fe fu'r storïau canlynol yn galw am gael eu hychwanegu yn 2016.

ISAAC	2	<i>(Y Dyn Na Ddaeth Adref)</i>	1966
YR ANTERLIWT	9	"	
ANGHENION GUIDO	14	"	
ER COF	21	"	
DIWEDD Y BYD	29	<i>(Daw'r Pasg i Bawb)</i>	1969
TU HWNT I'R GORS	47	"	
'FEL Y DAW Y LLEIDIR DIFIOG'	55	"	
CAMPWAITH	60	<i>(Traed Prydfferth)</i>	1973
CUSANAU FFARWEL	68	"	
PWY LADDODD MISS WALES	78	<i>(Pwy Laddodd Miss Wales)</i>	1977
TORRI'R PLISGYN	131	"	
CYMRO AR WASGAR	179	"	
DARGANFOD HEN WLAD	188	<i>(Rhy Iach)</i>	2004

(Diolchaf i'm cyfaill, Dafydd Ifans, am gymwynas fawr. Gwnaeth oriau o waith trwm i'm helpu, gan farbed rhag cannoedd o gambrintiadau, neu o eiriau coll, neu o gamosod ymadroddion. Yr wyf yn ddyledus dros ben iddo, megis troeon o'r blaen, am gynhorthwy caredig. Arnaf i y mae'r bai am bob amryfusedd a erys. Bu hefyd yn gymorth mawr wrth hysbysebu.)

## ISAAC

'On'd yw bywyd yn hardd, John?'

Roedd Leisa wedi dweud hynny gynifer o weithiau yn ystod y ddau fis diwethaf nes bod yr amheuon a deimlasai fe o hyd wrth groesi'r Iwerydd wedi llwyr ddiflannu. *Fe* oedd yn gyfrifol am ei hargyhoeddi fod rhaid iddyn nhw fynd, er nad oedd Isaac yn ddim ond dwy, a bod rhaid iddyn nhw fentro'r daith er ei fwyn e ac ymsefydlu yn y wlad newydd. Fe hefyd oedd wedi peintio'r problemau gartre yn dywyllach hyd yn oed nag oedden nhw mewn gwirionedd, ac wedi crisialu'r breuddwydion am y wlad bell mewn brawddegau deniadol, hwyrnos ar ôl hwyrnos wedi iddyn nhw orffen gwaith y dydd a chael cyfle am hoe fach gyda'i gilydd.

Nawr roedd hi'n llefaru'r geiriau eto wrth wyllo'i baban yn chwarae ym mhen draw'r agorfa yn y coed. Roedd y peth bach mor ddeallus ac mor ddireidus yn dynwared y dynion yn torri coed, a ffon yn ei law fechan yn lle bwyell.

'On'd yw bywyd yn hardd, John?'

'Ydy Leisa. Dyma'r peth calla wnaethon ni erioed.'

'Call, John? Roedd e'n beth hardd.'

Roedd eraill o'r fintai a deithiasai gyda'i gilydd o'r arfordir hyd y fan hon yn gwyllo'r baban. Trigain ohonyn nhw oedd yno i gyd pan oedden nhw gyda'i gilydd, a'r rhan fwya ohonyn nhw yn Gymry. Roedd plant eraill yn eu plith heblaw Isaac, ond fe oedd yr ieuanga o dipyn, a'r ffefryn. Roedd dwy o'r mamau ifainc eraill yn feichiog hefyd.

Llwyddodd Isaac i ddod o hyd i dipyn o bren crin. Â'r ffon yn ei law, plygodd i'w godi gan ddychwelyd yn simsan tuag at ei rieni, a phawb yn chwerthin am ei ben: 'Hwde Mami. Coed tân. Coed tân. Coed tân.'

Oedd, yr oedd bywyd yn hardd.

Roedd hi wedi dweud y geiriau neithiwr wrth ei gŵr pan oedden nhw'n mynd am dro gyda'i gilydd ar lan llyn yn y cyffiniau. Ac roedd e, wrth syllu o'u cwmpas ar y drysi bochiog a oedd yn fwy toreithiog ar lannau'r dŵr, ac wrth glywed sgrechfeydd yr adar dieithr a'r seiniau rhyfedd a lanwai'r fforest bob amser, wedi ychwanegu: 'Ac yn beryglus, Leisa.'

Roedd wedi difaru yn union ar ôl ei ddweud. Roedd ganddi hi ddigon o ofidiau heb iddo fe ychwanegu ei bryderon gwirion e atyn nhw. Dyn oedd John am fod yn gysurus ac yn gyfoethog; ond ofnai na châi ef fod y naill na'r llall.

Ac wedi'r tro bach hwn gyda'i gilydd roedden nhw wedi dychwelyd i'w pabell i edrych ar Isaac yn cysgu'n ddiymadferth yn ei grud. Disgynnodd y ddau ar eu gliniau i ddiolch i'r Creawdwr am wneud bywyd mor hardd ac am gyfannu'u haelwyd nhw mor gywrain. Roedden nhw'n ifanc, a'u



cwpanau'n gorlifo o obeithion, a'r ddolen hon rhyngddyn nhw'n trawsffurfio'u deuoliaeth yn greadigaeth huawdl ffrwythlon.

Fe ddaeth Sul newydd eto, a'r ymsefydlwyr yn ôl eu harfer yn rhoi pob gwaith arall o'r neilltu. A gwisgon nhw'u dillad diwetydd er mwyn diolch gyda'i gilydd am gynhaliaeth yr wythnos. Roedd diwrnod cyfan fel hyn yn ddigon o ddefod i'w sicrhau o'r newydd nad oedden nhw'n llithro i fod yn unol â'r gwylltineb anwar a'u cwmpasai, a bod ganddyn nhw wareiddiad Cristnogol hen ac egwyddorion traddodiadol y tu ôl iddyn nhw o hyd. Er nad oedden nhw wedi cael dim trafferth hyd yn hyn gan y cwmnïoedd bach o Indiaid Cochion a welen nhw o bell, o dro i dro yn ystod y daith, roedd y rhybuddion aml a glywsen nhw gan eraill yn ddigon o ernes iddyn nhw gofio'u bod yn symud drwy wlad lle'r oedd y gwerthoedd, roedden nhw'n gyfarwydd â nhw, yn gwbl ddieithr.

Roedd y trigain wedi ymgynnull yn dangnefeddus yn eu dillad gorau, a'r hen Ben Hamer o Landinam, wedi agor eu gwasanaeth â gair o weddi. Yna, roedden nhw wedi canu emyn gyda'i gilydd, a'r hen Ben eto wedi codi i ddarllen pennod o'r Ysgrythur Lân. Yn sydyn, dyma sŵn saethu sawl ergyd i'w glywed, o bellter chwarter milltir efallai, i'r gorllewin iddyn nhw. Edrychodd y cwmni ar ei gilydd yn alaethus gan mor rhyfedd oedd clywed y fath beth ar y Sul, a dyma ragor o saethu, a chrïo fel dynion yn gweddïo ar uchaf eu llais.

Roedd un gair yn llosgi ar eu gwefusau i gyd, er nad oedd rhaid i neb ei fynegi: 'Indiaid.'

'Gwell i ni i gyd fynd y tu ôl i'r gwrthglawdd,' meddai Ben Hamer, gan gyfeirio tua'r amddiffynfa fach a godid ganddyn nhw bob tro ym mhob arhosfa. Rhoddwyd y menywod a'r plant yn ddiogel yn y lle pella, er bod rhai o'r menywod yn aros i helpu, o leia gyda llwytho'r drylliau; ac ymbaratôdd y dynion i wynebu'r ymosodiad.

Doedd dim rhaid aros yn hir. Daeth yr Indiaid, rhyw saith ugain nhw ohonyn nhw ar gefn eu ceffylau, gan weiddi a saethu â'u bwâu, a lluchio fflaglau o dân i blith y pebyll. Ond roedd y gwrthwynebiad Cymreig yn gadarn a lladdwyd tua deunaw o'r gelyn, mae'n siŵr. Daethon nhw'n ôl dro ar ôl tro, a llwyddon nhw i ladd rhyw hanner dwsin o'r fintai o ymsefydlwyr a chlwyfo dau o'r lleill ac un fenyw.

Cyn iddyn nhw ddychwelyd am y tro ola, cafwyd ysbaid o dawelwch anghysurus am bum munud cyn iddyn nhw ymddangos yn ddisyfyd o'r goedwig, Ac yna fe ddaeth yr Indiaid fel petaen nhw'n dod yn unswydd i gasglu cyrff eu cymheiriaid oddi ar faes y gad, heb saethu dim mwyach, er bod digon o weiddi o hyd. Roedden nhw'n casglu cyrff eu dewrion, a'r fintai o Gymru hefyd wedi ymatal bellach, o barch ac anrhydedd at wrhydri pawb. Roedd Isaac bach wedi ymryddhau o ofal ei fam, a fuasai'n gwylïo'i gŵr hyd yma gan dybied bod y plentyn yn ddiogel ei wala wrth ymyl ei gwisg, a hwnnw wedi rhedeg yn gyflym allan o gysgod y gwrthglawdd ac ar draws yr agorfa i gyfeiriad yr Indiaid. Doedd y rheini ddim wedi sylwi arno ychwaith nes i'w rieni ac i rai o'r Cymry

eraill ddechrau bloeddio ar ei ôl. Yna, cododd tri neu bedwar, ei dad a'i fam a rhai eraill, o'r amddiffynfa a rhedeg allan ar ei ôl i'w achub. Cylchwyd yr agorfa yn frysiog drachefn gan geffylau'r Indiaid, ac wrth garlamu, yn ddiarwybod ddamweiniol fe fwriwyd y plentyn i'r llawr a charlamwyd dros ei gorff nes bod ei wyneb wedi'i anffurfio i gyd a'i asennau a'i fynwes wedi'u torri'n yfflon.

Doedd dim tynnu ei fam oddi wrth ei gorff am oriau. Roedd ei galar hi y tu hwnt i eiriau. Collwyd y ne a'r ddaear yr un pryd.

Claddwyd y bychan yn y fan a'r lle y bore wedyn. Ofnid y byddai'r fam yn mynd o'i cho yn ei gwae dwys ar ôl ei mab. Doedd dim cysur iddi ar gael, na lleihau dim ar ei hwylo diymatal. Roedd ei chalon yn rhacs. Roedd olion carnau'r ceffylau wedi suddo i mewn i'w hymennydd a'i theimladau, ac arhosen nhw yno bellach am byth. Roedd hi wedi uniaethu ei llawenydd gymaint ag asbri'r un bach, nes bod diflannu'r asbri hwnnw'n golygu diflaniad ei holl lawenydd hi. Roedd holl ystyr byw wedi ei wŷrdroi.

Maes o law, fe giliodd pawb i'w pebyll. Ond clywai Leisa'i lais e o hyd, ei barablu pert, o hyd ac o hyd, ac yna bystylad y meirch yn ei atalnodi. Allai hi ddim cysgu: na chael llonydd yn unman. Roedd y goleuni wedi cilio o'i byd. Tywyllwch, llyn o wermod oedd pawb a phopeth a arhosai o'i hamgylch.

Ddau ddiwrnod wedyn ailgychwynon nhw ar eu siwrnai. Doedd dim rheswm dros oedi mwy mewn man oedd â chysylltiadau mor chwerw o bruddglwyfus.

Roedd John yntau wedi'i drwytho mewn gofid, ac wedi mynd yn gwbl ddirmygol o bob dim, er ei fod e'n llwyddo i fynd yn ei flaen er mwyn amddiffyn ac achlesu'i wraig a oedd yn bwl ei hadweithiau at bopeth. Gwyddai fe y deuai hi'n ddigon cryf eto mewn wythnos neu ddwy i ailgydio yn ei thasgau, er na byddai hi byth eto yn gallu trechu'r boen a gerfiwyd yn sylfeini ei meddwl.

Ac yn wir, er gwaetha torcalon a hiraeth, fe ddaeth Leisa i wneud ei chyfran drachefn o'r gwaith trwm a oedd ganddyn nhw bob un i'w wneud, er eu gwaetha, wrth deithio ymhellach, bellach i'r gorllewin. Nawr, roedden nhw'n fwy effro byth i'r peryglon ac yn fwy amheus o'r posibiladau o ymosodiadau sydyn gan yr Indiaid unrhyw bryd. Dichon, hyd yn oed, y byddai'r llwyth a ymosodai ynghynt yn dyfod ar eu gwartha drachefn.

Am fis neu ddau fe barhâi bywyd i Leisa ac i John yn ddigon undonog. Roedd y gweddill o'r fintai wedi hen ymadfer ar ôl yr ymosodiad, ac er bod y perygl o du'r Indiaid yn cynyddu beunydd, roedden nhw'n gallu ymddwyn yn ddigon difater a hyd yn oed yn hwyliog. Ond dal i fyw, yn unig, a wnâi Leisa a John.

Eto, ymhen rhyw saith wythnos ar ôl colli eu mab, dyma Leisa'n dechrau crybwyll ei enw eto, nid er mwyn sôn am ei gofid ei hun, ond mewn ebychiadau swta, megis 'Dyna un annwyl oedd

Isaac,' neu 'O, roedd e'n dlws, John.' Rhyfeddai fe fel roedd hi'n gallu gwneud hyn heb gynyddu ei phoen ac agor y clwy drachefn; ond iddi hi roedd hyn yn ollyngdod.

Ymhellach ymlaen, ymhen wythnos neu ddwy drachefn, fe ddechreuodd hi siarad â John am rai o'r troeon bach ysmala, rhai o'r digwyddiadau rhyfeddol hynny yn hanes Isaac a wnaethai eu bywyd ill tri mor gyfareddol. Câi hwyl ar adrodd yr un stori drosodd a throsodd. Yna, gallodd fentro allan ac ymgomio gydag eraill ar yr un testun. Siaradai hi am ddim arall; doedd dim oll arall a ryngai'i bodd – fel byddai rhai Piwritaniaid yn ystyried materion nad oedden nhw er adeiladaeth yn bethau i'w hosgoi wrth sgysio.

Dechreuodd y storïau hyn dyfu, a sylwodd John ei bod hi'n ychwanegu rhai darnau newydd atyn nhw o dro i dro gan wneud personoliaeth ei mab bach yn fwy lliwgar nag ydoedd mewn gwirionedd. Gallai hi chwerthin nawr, unwaith eto, wrth drafod ei gampau. Yn raddol, roedd e'n dechrau dod yn gymeriad chwedlonol iddi. Teimlai John efallai y gallai fentro sôn am ailddechrau teulu newydd, ond roedd ei bryd hi wedi'i grynhoi gymaint o gwmpas yr un man nes iddo ailbwysu'r mater, a phenderfynu nad oedd yr amser yn aeddfed eto.

Wrth i'r misoedd lithro yn eu blaen, roedd ei hiraeth hi am ei hun bach yn dal yn irad ac yn fyw, ond yr hanesion amdano yn anhygoel o flodeuog. Yn wir, roedd rhai ohonyn nhw'n gelwyddau llwyr, gwyddai John, heb ddim sail wirioneddol o gwbl. Nid ychwanegiadau na chymwysiadau ond dychmygion cyfain oedden nhw; feiddiai John ddim cywiro sill na cheryddu'i wraig, na gofyn iddi ddim amdany'n nhw, gan y gwyddai sut y byddai hi'n adweithio. Nid yn unig y creai hi chwedlau newydd sbon fel hyn amdano, ond wrth wneud hynny roedd hi'n amlwg fod y gwir Isaac o gig a gwaed yn ymchwalu, a rhyw greadur 'gwneud' yn cymryd ei le. Aeth gwau'r chwedlau hyn yn ddiddanwch iddi nawr, a châi fwynhad yn y gelfyddyd o adeiladu stori hwyliog amdano bob dydd bron, drwy agor mewn dull a gyneuai chwilfrydedd y gwrandawyr, ac yna arwain ymlaen o gam i gam gan ddatblygu ei gymeriad bach a dyfnhau'r stori nes iddi gloi'r cwbl yn grefftus gyda rhyw dro neu uchafbwynt neu gwlmw anochel a boddhaol.

Tyrrai'r merched i wrando arni ar yr achlysuron hynny, a daethpwyd i'w hadnabod hi fel 'mam Isaac'. Hyd yn oed ar ôl ymuno â mintai arall o ymsefydlwyr dieithr ymhellach ymlaen, roedd Isaac yn aros yn ddiddordeb pendant iddyn nhw i gyd, bron fel pe bai'n fasnog i'r llwyth.

Pan oedd ar ei ben ei hun, fe fyddai hyn oll yn destun tristwch dirdynnol i John, a cheisiai glirio'i feddwl a synfyfyrion o'r newydd am y gwir Isaac, gan iddo gael ei fod, o dan ddylanwad crebwyll hedegog ei wraig, yn colli gafael ar y realiti, fod yr Isaac bach a adnabuasai, nid yn unig yn cilio i ango yn ebrwydd, ond y gweddillion co amdano'n datod ac yn cael eu gwenwyno gan greadigaethau anghyfarwydd ei wraig.

Roedd yn poeni hefyd am Leisa ei hun; collasai ei holl ysgafnder a'i hafiaith naturiol, bid

siŵr, y dydd y lladdwyd Isaac, ond roedd y math o bersonoliaeth roedd hi'n ei datblygu'n awr, yn lle hynny, yn afiach o anghytwys ym mryd John. Doedd dim mewn bywyd o ddiddordeb iddi hi, ond y storïau gwirion hyn. Roedd hi fel pe bai wedi meddwi ar eu gwau. Brysiai uwchben ei gwaith er mwyn cael mynd at rai o'r menywod eraill fel y gallai eu hadrodd wrthyn nhw. Ambell waith deuai'n ôl yn hwyr y nos; a hyd yn oed ar ôl cyrraedd, wedi blino'n siwps, a John yn hwylio cwpanaid o de iddi, daliai hi i adrodd rhai o helyntion dychmygol Isaac fel pe bai am lenwi pob munud â nhw.

Clywai fe hi'n galw 'Isaac' weithiau drwy'i chwsg, ac ambell dro wedyn yn codi ar ei heistedd yn y gwely ynghwsg neu ar ddi-hun ac aros felly am hanner awr neu well gan sisial â hi ei hun. Ac eto, er na wyddai sut roedd datrys y sefyllfa, feiddiai John ddim sôn wrthi am gael plentyn arall yn ei le. Closiai ati yn y gwely, gan fod ei newyn e amdani fel gwraig wedi ei finiogi gan yr hir ymryd; a rhoddai ei ddwylo am ei gwasg dwym, a'i thynnu'n nes ato. Ond rhyw ymsythu a thynnu'n ôl a synhwyr ai ef ganddi hi, er nad oedd modd sylwi ond o'r braidd ar hynny, rhyw ystyfnigo gwargaled, rhyw beidio ag ymollwng, ac yn sicr doedd John ddim am geisio ystwytho'i hewyllys hi ddim mwy drwy rym ei chwantau'i hun.

Beth yn hollol a âi drwy'i meddwl hi ar yr adegau hyn? A oedd hi'n bosib ei bod hi'n gweld parhad i fywyd Isaac, a bod y mabinogi a adroddai yn wirioneddol ddiriaethol iddi hi ac yn digwydd o leia o flaen ei llygaid?

'Wyt ti'n cofio'r tro hwnnw ar y llong, John?'

'Pa dro, y nghariad i?'

'Wel, y tro hwnnw roedd Isaac yn taflu afalau dros yr ymyl i'r môr.'

'Do?'

'Ac roedd Wilff – wyt ti'n cofio Wilff? – yn dal brws ac yn ei wyllo fe ac yn gweiddi, “Bachgen da wyt ti Isaac, yn helpu'r hen Wilff”.'

Ond doedd yna ddim Wilff. Roedd y personau hyn a boblogai ei hymennydd i gyd yn afreal.

'Ac roedd yr afalau i gyd yn dda, John, ond *un* ohonyn nhw a oedd yn felyn bur.'

Roedd ei llygaid yn hurt fel pe bai'n edrych o'i blaen i weld a oedd unrhyw un o'r afalau eraill yn felyn hefyd.

'Trueni i'r llong ddod i ben ei thaith, John.'

Fe ddwedodd hyn a'i phen yn isel, heb ei esbonio o gwbl, dim ond yn adwaith emosiynol i'r llong a oedd yn arafu wrth nesáu at y cei, hen long a oedd bron ag ymddatod wrth gyrraedd pen ei siwrnai.

Weithiau fe'i câi hi'n chwarae gyda rhyw Isaac ansylweddol ar y llawr o gylch eu wagen.

Dyna'r lle byddai hi'n cwato ac yn gweiddi, yn taflu pêl ddychmygol, ac ambell dro'n gorfod eistedd i lawr i chwerthin ei hochrau am ben rhyw smaldod y tybiai hi iddo'i wneud; ac yna o'r diwedd yn agor ei breichiau er mwyn ei dderbyn e i gofleidiad gwyllt, angerddol, mamol. Er hyn i gyd, ymhob dim arall, roedd hi'n gwbl synhwyrol.

Roedd y fintai wedi ymadael â'r rhanbarth coediog bellach, ac wrth dreiddio ymhellach i'r gorllewin roedden nhw yn dod allan i'r paith agored. Cyfarfuon nhw â mintai arall fwy niferus o ymsefydlwyr a oedd yn teithio i'r un cyfeiriad, ac ymunodd y naill â'r llall er mwyn atgyfnerthu ei gilydd, gan fod y rhandiroedd llydain, agored hyn yn rhoi mwy o gyfle i Indiaid eu gweld ac ymosod arnyn nhw'n drwm.

Ar ôl goddef rhai ymosodiadau cyflym o'r math hwn, fe benderfynodd rhai o'r dynion ifainc ymhlith yr ymsefydlwyr mai gwiw fyddai pe bai cwmni bach ohonyn nhw yn mynd allan liw nos i ymosod ar wersyll yr Indiaid yn lle'u bod nhw'n bodloni o hyd ar eu hamddiffyn eu hunain yn unig. All dyn ddim bod yn fodlon tynnu'i draed allan o'r llaid heb fod rhaid i'w gymydog suddo. I'r dyn rhinweddol, dyw daioni dyn ddim yn ddigon. Rhaid iddo fod yn well na phawb. Teimlai John yn anesmwyth wneud y fath beth. Aeth John at Leisa i ddweud wrthi ei fod e am ymuno â nhw. Derbyniodd hi'r newydd yn ddigon didaro; ac er ei fod yn falch ei fod yn cael mynd heb ddwrddio a heb hir ddadlau. Eto, roedd braidd yn siomedig hefyd ei bod hi mor ddifraw, a hwythau ill dau'n llawn sylweddoli mor beryglus oedd cyrch o'r math hwn mewn tiriogaeth anghynefin liw nos.

Cusanon nhw ei gilydd a chanu'n iach, a rhuthrodd y cwmni bach o ddynion ifainc ar gefnau'u meirch nerth eu carnau i fyny i'r mynyddoedd tua'r lle roedd gwerysll yr Indiaid. Wedi cyrraedd o fewn hanner milltir i'r man tybiedig, dyma'r dynion ifainc yn disgyn o'u cyfrwyau gan arwain y ceffylau ymlaen gerfydd eu ffrwynau'n ddistaw. Cyrhaeddon nhw ben y trum ac aros gan edrych i lawr ar wersyll yr Indiaid.

Roedd yn llai nag y tybion nhw. Doedd yna ddim mwy nag ugain o bebyll i gyd. Rhaid bod y rhan fwy o'r llwyth wedi symud ymlaen i fan arall.

Dringodd pob un ond tri o fintai John i'w gyfrwy. Roedd y gwaith a oedd yn eu disgwyl yn hawlio distawrwydd o hyd. Llithrodd y tri i lawr drwy'r prysgwydd ar eu pedwar i ddiarfogi'r gwyliwr neu'r gwylwyr. Arhosodd y lleill nes derbyn arwydd ganddyn nhw.

Cyflawnwyd y gwaith hwnnw o fewn llai nag wyth munud. Yna, cyneuon nhw eu fflaglau a rhuthro i lawr tua'r pebyll.

Roedd y peth yn gwbl annisgwyl. Un Indiad yn unig a lwyddodd i ddianc. Lladdwyd y lleill i gyd naill ai drwy eu llosgi yn eu pebyll neu drwy'u saethu, – bob un, yn ddynion, yn fenywod, ac yn blant.

Wedi'r gyflafan, dyma'r ymsefydlwyr yn dod at ei gilydd ar ganol y gwerysll, yn reit

siomedig fod pethau wedi bod mor rhwydd, ac eto roedd arnyn nhw ddigon o gywilydd iddyn nhw ladd cynifer mewn gwaed oer heb ddim ond y peth lleia o wrthwynebiad. A'r un pryd gan gofio natur yr Indiaid, roedden nhw'n falch eu bod nhw'u hunain yn dal yn fyw. Safon nhw yno, ym mangre eu buddugoliaeth, yn dawel i gyd am foment, fel petaen nhw'n ceisio sylweddoli'n iawn beth oedd wedi digwydd.

Yna, torrodd llefain baban bach ar eu clyw. Yno, ar y llawr yn ymyl un o'r pebyll, mewn siôl, roedd baban yn gorwedd yng nghanol yr adfeilion llosg tan grio, wedi colli mam a thad, brodyr a chwiorydd, a chartref, baban bach o Indiaid coch tua blwydd oed, ar ôl yno ar ei ben ei hun.

Edrychodd yr ymsefydlwyr i gyd i'r un cyfeiriad, tuag at John, fel petaen nhw i gyd o'r un feddwl. Disgynnodd yntau oddi ar ei geffyl, gan grychu ei aeliau a chan ddarlyncu ei hiraeth. Aeth at y baban a phlygu wrth ei ochr. Yna, cododd ef yn ei freichiau a syllu ar yr wyneb annwyl.

Fe stopiodd lefain; a chododd John e at ei wefusau a'i gusanu'n ara. Yna, cariodd e'n dyner yn ôl at y ceffyl, a'i godi'n ofalus i flaen ei gyfrwy.

Er nad oedd wedi gallu ennill yr hyder i ofyn yn ddiweddar i Leisa am ailddechrau magu teulu, nawr roedd rhagluniaeth fel pe bai wedi anfon teulu annisgwyl iddyn nhw dderbyn esgor ar un yn ddiiofyn.

Wedi iddyn nhw gyrraedd yn ôl i wersyll yr ymsefydlwyr, dyma rai o'r bechgyn yn disgyn ar frys oddi ar eu ceffylau ac yn rhedeg o flaen John i dynnu Leisa allan i'w cyfarfod, heb ddatgelu chwaith beth oedd y gyfrinach. Gwelodd hi John yn dod â bwndel anhysbys yn ei freichiau, ac aeth i gwrdd ag e. Edrychodd i mewn i'r bwndel, a gwelodd yr Indiaid bach annwyl yn cicio'i goesau i'r awyr. Gwelwodd ar unwaith.

Dechreuodd ei llygaid wau yn ei phen, a symudodd ei gwddf yn annaturiol o'r naill ochr i'r llall. Roedd rhyw hwmian annynol yn ei mynwes, fel sgrech wedi ei thagu, wrth weld y bychan real hwn yn gorwedd o'i blaen. Cwmpodd i'r llawr a chrafu'r pridd, a rhyw ubain fel creadur wedi cael ei fflangellu, yn rhuglo yn ei llwnc. Plygodd John, ac ar ei gwrcwd, estynnodd e ei ddwylo ati. Roedd ei golwg yn fwganus o welw. Roedd y gwelwder wedi disgyn fel eira'n dod i dagu'r tir. 'Paid dithau â marw, Leisa.' Gwelodd John fel roedd hi. Aethai'i wraig o'i cho yn llwyr y tro hwn, y tu hwnt i bob adfer.

(Allan o'r gyfrol *Y Dyn Na Ddaeth Adref*)

## YR ANTERLIWT

Dim ond un peth sy'n gwybod sut mae rhedeg dros greigiau. Afon yw hwnnw.

Roedd Dyfrdwy a'i thafod dros bobman yn ymwasgu, yn cofleidio, yn anadlu dros y creigiau ryw ddau ganllath yn uwch na phont Llangollen. Ac ar yr ochr ogleddol roedd coed yn curo'u dail o bleser wrth weld y brithyllod yn torri'r wyneb ac yn gwasgu'u cylchoedd fel corongylchoedd angylion. Ar y llethrau ar bob ochr roedd y caeau wedi'u cneifio o'u gwair gan orwedd yn noeth gysurus dan heulwen Gorffennaf. Ond, uwch eu pennau, fel penglog yn rhybuddio am y pry sy'n tyllu, safai Castell Dinas Brân, ac yn ei geg y dannedd i gyd wedi pydru, yn ceisio llyncu'r awyr. Eto, wnâi'r ddrychiolaeth honno ddim ond pwysleisio o'r newydd y llawenydd a serennai islaw.

Ar ochr ddeheuol yr afon, ar ddarn o dir agored, roedd rhai ugeiniau o ferched a bechgyn wedi ymgynnull, gweision a morynion gan mwya, ambell ffermwr, offeiriad, amryw byd o blant a chŵn. Roedd sŵn a swae ffair lond yr awyr, chwerthin a chanu, pryfocio a dawnsio, ac elfen o ddisgwyl. Disgwyl i'r anterliwt ddechrau.

Yng nghanol y dyrfa symudol, roedd wagen hir a llydan wedi ei pharatoi'n llwyfan, ac odani mewn un gornel roedd y tri chwaraewr yn gwisgo, ac yn rhoi eu mygydau a'u gwisgoedd amryfal at ei gilydd i gyd mewn trefn. Ond roedden nhwythau hefyd yn disgwyl, disgwyl i'r sgweiar gyrraedd. Roedd y perfformiad heddiw yn rhyw fath o gyfarfod croeso i'w dderbyn e'n ôl o Lundain.

O ymylon y dyrfa dyma floeddio. Roedden nhw wedi ei weld. A phoblogaidd neu beidio (ac roedd hwn yn boblogaidd ddigon ac yn glên wrth bawb), roedd y sgweiar yn ariannog ac yn bwysig, ac yn ei ardal ei hun yn frenin, roedd pawb yn ei barchu'n etifeddol ddigwestiwn. Wrth iddo gerdded drwy'r dorf roedd rhai yn curo'i gefn, eraill yn ceisio siglo ei law, pob un yn sirioli ac yn llonni, ac yntau'n eu cyfarch wrth eu henwau ac yn gweiddi rhyw smaldod yn ôl wrth hwn a'r llall.

Ar ôl iddo ymsefydlu yn y canol ar flaen, roedd hi'n bryd i'r anterliwtwyr fwrw arni. Daeth y ffŵl ymlaen i adrodd ei brolog gyda phennill ychwanegol arbennig yn cyfeirio at y sgweiar, ac yna roedd y chwarae ar gerdded.

Er mai anterliwt go newydd oedd hi, yr un hen themâu oedd ynddi, y gwrthdaro rhwng y ffŵl a'r cybydd, y priodi a'r cyfeiriadau bras, ambell gic at yr eglwys a nifer at y Methodistiaid. Ond roedd ynddi gelfyddyd hyfryd. Roedd y mydrau wedi'u caboli'n gain a'r cynganeddion yn tyfu arnyn nhw fel grawnwin. Roedd yr actio'n flacus hefyd, yn egniol ac wedi ei amseru'n effeithiol. Roedd yn dipyn o sbort. Mor gywrain oedd yr ymadroddi prydyddol nes bod y dorf wedi ymgolli, nid yn unig yn y plot a'i ddigrifwch a'i droadau chwerthinllyd, ond hefyd yn nhlynsi'r ffurf, ym mhertrwydd y dialog.

Dyma benllanw eu diwylliant nhw. Fe deimlen nhw ryw falchder ynglŷn ag e. Yn wir, roedd

amryw wedi gwisgo'n arbennig ar gyfer yr achlysur mewn crysau meinion a choleri melfed ar eu cotiau, hosanau wrstyd, a chapiau a chnotyn neu ynteu hetiau siag. Ac nid y merched yn unig, roedd y bechgyn hwythau wedi ymbincio'n barod â byclau yng ngliniau eu closau a chrysau Holand, ac ambell un hyd yn oed yn gwisgo periwig. Fe ddathlen nhw am eu bod yn gweld ei gilydd, ac roedd hwn yn achlysur nodedig. Wedi'r fath baratoad ffwdanus, doedd yr anterliwt ei hun ddim yn siom o gwbl. Roedd cyfoeth dysg y werin wedi ei blethu ynddi, eu ffraethineb craff, a'u sylwadaeth ddychanus. Mynegwyd drwyddi eu safonau a'u dawn. A'u henaint hefyd, yn rhyfedd iawn: roedd y blynyddoedd, a fu, yn parhau yn y chwarae traddodiadol, cymdeithasol hwn. Ar yr wyneb roedd anghyfrifoldeb hap a sbri rhai ar wyl, yn dianc rhag trymder eu gwaith bob dydd. Ar y llaw arall roedd rhywbeth anochel ynglŷn â'r cyfan, fel seremoni o'r Oesoedd Canol a fynnai'u teyrngarwch bob un. Godidowgrwydd a grewyd gan fwy nag un dyn ac a adeiladwyd nes ffitio gofynion y gymdeithas gan genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o'u hynafiaid. Dyna oedd yr ystumiau cyfrwys a'r rhythmau gwerthfawr, y cyffyrddiadau geiriol ysgafn a melys o'r gorffennol, ac mewn modd cuddiedig, y boneddigeiddrwydd hefyd, y syberwyd gwerinol a ymestynnai fel haen o aur o dan y cwbl.

Wrth i'r anterliwt ddirwyn ymlaen, – pum munud, deng munud, chwarter awr, – roedd un gŵr ifanc yn y dyrfa yn anesmwytho'n awr fwyfwy. Dieithryn o lanc tuag ugain mlwydd oedd hwnnw, mwy trwsiadus ei wisg na'r rhelyw, a thipyn o ôl coethder yn ei wyneb. Gŵr estron yn yr ardal, wedi stopio i orffwys am ychydig oriau ar ei ffordd i Gaergybi, lle'r oedd am gael ei gludo mewn llong i Iwerddon. Clywsai'r gweiddi i lawr wrth yr afon, a daethai i lawr i ddarganfod achos y sŵn. Arhosodd i weld yr anterliwt gan na welsai un erioed yn ei ardal ei hun yn Sir Frycheiniog er iddo glywed am y fath gampio lawer gwaith.

Ymgodymai â'i gydwybod ei hun e'i hun am chwarter awr a'i wyneb yn nyddu o boen oherwydd y rhegfeydd. Roedd ei galon yn gwrthryfela o'i fewn a gwres ei waed yn twymo. A oedd e wedi dod i ardal anwar yn ystod ei daith? Chwarddai pawb arall yn galonnog tra oedd ei olwg e'n angheuol o bryderus. Roedd eu cyrff yn plygu dan straen y ffraethineb ambell dro, ac yntau'n sefyll yn syth fel polyn yn eu canol, yn ddi-wên, yn llym, yn fygythiol fel Dinas Brân. Ac eto, sylwai odid neb arno, doedden nhw ddim wedi sylweddoli fod un gwrthynebus yn eu plith heb ymuno â nhw yn eu hapusrwydd diniwed a'u rhialtwch gwirion, er bod ambell un cyn dechrau'r chwarae, wedi gweld bod yno ŵr dieithr. Sylwai neb mwyach fod hwn yn gwgu tra oedd y byd oll yn siglo o loniant.

Roedd e wedi colli pob diddordeb yn y chwarae ers tro, ac edrychai o gwmpas ar wynebau'r gynulleidfa gyda braw anniddig yn chwyddo drwy ei lygaid. Gwibiai ei ben o'r naill ochr i'r llall i chwilio a oedd rhywun arall yn gweld rhywbeth o'i le. Roedd pob un wedi ei rwymo gorff ac enaid wrth geinder ac ysgafnder y ddrama. Roedden nhw'n cyd-deimlo'n llwyr wrth ymroi i fwynhau'r



hwyl a'r sbri ar y dydd gŵyl hwn. Allai fe ddim ymatal yn hwy. Waeth ganddo frwynen am neb. Roedd yn rhaid ymyrryd. Ar ei ben ei hun neu beidio, ellid ddim goddef hyn mwyach. Gwaeddodd ar draws y cyfan: 'Ond mae Iesu Grist yn achub pechaduriaid.'

Rhewodd y chwaraewyr am eiliad, petruso ac edrych tua ffynhonnell yr ymyrraeth. 'Pwy gebyst... ?' Cododd murmur bach yn y dyrfa, ond aeth y chwaraewyr ymlaen gan ailgydio yn eu llinellau ac anwybyddu'r sŵn.

'Rhedwch at Grist cyn i Uffern eich llosgi chi'n ulw. Fe yw'r noddfa. Mae'r dydd ar ddod pan fydd meibion y Diafol yn cael eu llosgi i ddamnedigaeth. Fy nghyfeillion annwyl, rhedwch i gredu yn Nuw, beth bynnag a ddywed y clerigwyr wrthyich.' Y perygl ysbrydol i'r dorf oedd nad oedd neb yno'n gallu dweud y drefn wrth neb. Doedden nhw ddim yn gwybod beth oedd y drefn.

Roedd y rhai a oedd yn tyrru o'i gwmpas yn edrych arno'n hurt, heb weld dim ystyr o gwbl i'w eiriau, a rhyw ymofyniad o anhygoledd wedi ei argraffu ar eu hwynebaw.

'Dych chi'n weision i'r gwacter mawr, yn sathru'r amser perlog a gyflwynodd i chi, yn troi Ei harddwch yn grechwen ac yn sŵn. Pleserau'r cnawd sy fel moch yn deintio yma ac acw yn y byd. A dyna i chi yw'ch llawenydd. Dych chi'n mwynhau pechod. Ond yr unig wir fwynhad yw'r gras a roir i ymatal. O! Wyddoch chi ddim, ffyliaid, am y llawenydd sy'n ddyfnach nag ymrwbio gair wrth air a chorff wrth gorff. Wyddoch chi ddim am y mwynhad sy mewn bywyd cyfan. Dych chi'n dyrchafu'r darnau a'u galw'n berffaith, yn addoli'r rhannau a'u cyfri nhw'n oleuni. Ond mae'r Farn yn dod, gyfeillion. Y Farn sy'n caniatáu byw a marw.'

Cynyddodd y murmur, fel afon, yn y dyrfa. Roedd rhai yn dal i edrych yn synhwyrol ymofyngar arno o hyd a hwythau ar goll oherwydd ei ddieithrwch arallfydol. Ond roedd llawer wedi digio, a dwylo ambell un yn cydio yn ei goler ac yn ei ddillad o'r tu ôl, rhai'n gweiddi cerydd a rhybuddion arno, ac eto heb neb yn beiddio gwneud dim byd pendant. Fe daflen nhw olwg petrusgar tuag at y sgweiar yn y rhes flaen gan ddisgwyl rhyw arweiniad ganddo fe. Roedd hwnnw a'i wyneb yn gwbl wag wedi'i syfrdanu gan yr ymyrraeth ddi-alw-amdani, ac edrychai ar y gŵr dieithr ifanc a'i olwg yn gymysg o syndod, braw a llid.

Roedd y llanc wedi distewi rywfaint erbyn hyn er ei fod yn dal i lefaru, yn llai hygryw ond yn etholedig ac yn sicr.

'Helpa fi, Arglwydd, i beidio â llwfrhau, i beidio â gwro'r ffordd hyn a'r ffordd arall, ond i wynebu'n gadarn yr unig ffordd sy'n briodol i bawb ohonon ni, sef y ffordd sy'n arwain atat Ti.'

Yna, cododd ei lais eto, yn un sgrech hir. 'Gnafiaid, elynion Duw. Rhedwch tra bo gobaith gyda chi. Rhedwch i'r noddfa. Mae'ch llwnc chi'n galw am ragor o anfoesoldeb, ond tagu wnewch chi'n fuan oherwydd bola tost.'

Cranc hollol annealladwy oedd e'n byw gweledigaeth anymarferol ynghanol yr hyfrydwch

normal, yn gras ac yn drwsogl, fel cath yn neidio i blith llestri brecwast a difetha'r cyfan. Disgynnodd fel bollt o blaned arall, a'i neges yn dwyn ystyriaethau cwbl ddiwerth heb ateb dim o'r naws a adwaenen nhw, heb gydio mewn dim cyffredin a allai ymateb ychwaith. Ar donfedd arall, allen nhw ddim ei glywed e pe gwrandawen nhw; na'i weld, roedd e'n fath o liw uwch lliw i'r llygaid. Er mai Cymraeg Sir Frycheiniog oedd ei iaith, rhaffai eiriau wrth ei gilydd mewn ffordd nad oedden nhw'n gynefin â hi. Plu oedd ei belenni tân yn glanio'n ysgafn ar eu gwallt. Doedd ei ddiellonrwydd anaele ond colled yn ymwasgaru yn eigion enfawr eu diffwrwythdra.

Erbyn hyn, roedd yr anterliwt ar stop a'r chwaraewyr, fel pawb arall, yn edrych tua'r gwaeddwr. Roedd dau was ffarm go gyhyrog a thal yn sefyll ar ei bwys, a doedden nhwythau hyd yma ddim wedi ymuno yn y protestio yn ei erbyn, dim ond sefyll ar eu gwng a'u llygaid yn gwibio o'r llanc tuag at y sgweiar ac o'r sgweiar tuag at y llanc. Yna, dyma'r sgweiar ei hun yn crymu'i ben ryw ychydig yn arwydd i'r ddau was ffarm hyn. Fodfedd, ddim mwy. Y ddeddf oedd hyn er hynny. Daeth y ddau was am ben hanner-panrwydd ceidwad yr efengyl megis dau gwmwl yn lapio am gopa Dinas Brân, a chydio ynddo a'i godi gorff ac enaid i'r awyr. Bloeddiodd y dyrfa ei chymeradwyaeth, a bu chwerthin calonnog ym mhobman. Tynnodd rhai yn ei grys, a dygwyd ei sgidiau. Roedd y ddau gawr yn ei gario fe o'r neilltu.

'I'r afon. I'r afon,' meddai rhai.

Roedd e wedi colli'i ddillad i gyd erbyn hyn, ac roedd yn cael ei gario'n uchel yn yr awyr gan y ddau gawr, a'r llanciau a'r llancesi yn y dyrfa yn ceisio estyn clatsien i'w ffolennau gwyn a oedd yn hofran uwch eu pennau fel adenydd colomen. Llifai dagrau i lawr wynebaw'r hen bobl o ddiymadferthedd eu sbri. Anaml y byddai rhywbeth mor ddoniol â hyn yn digwydd yn Llangollen.

Yn ôl ar y wagen roedd yr anterliwt wedi ailddechrau neu ryw led ailddechrau, yn ddigon difywyd. Ond doedd neb ond un gath fach ddu a gwyn yn para i syllu arni, yn ddisyfl o'i nyth cynnes yn y borfa. Dawnsiai a chanai a llefai'r dyrfa o firi'r difyrrwch newydd arall. Carien nhw'r dieithryn yn nes-nes i'r afon, ac yntau'n ymdrechu ac yn gwingo bellach wrth geisio ymryddhau. Roedd ei frwydro ofer e yn ychwanegu mymryn at y digrifwch. Doedd fawr o hwyl wrth ymladd yn erbyn corpws diadwaith hwn. O'r diwedd, cyrhaeddwyd y lan.

Gwaeddai'r dyrfa gyda'i gilydd reit ffwr-bwt: 'Un, dau, tri.' A lluchiwyd e ryw bum llath allan i ddifancoll yr afon. Am foment diflannodd o dan y dŵr, a gallen nhw weld ei wyndra noeth yn ysgwyd wrth geisio cyrraedd yr wyneb.

Nofiodd e i'r ochr arall i'r afon, ac fe'i gwylwyd e gan y dyrfa heb fod neb yn ceisio rhedeg i lawr i groesi'r bont a'i erlid e'n fwy. Ymlusgodd e i'r lan yng ngwynder ei gywilydd, a llechian i ffwrdd drwy'r coed gan anadlu'n drwm, ond gan fagu rhyw gil-deimlad o falchder iddo ddistrywio perfformiad yr anterliwt hefyd ar gyn lleied o gost.

Hwythau'r bobl oll, ymwasgaron nhw dan dawelwch y mynyddoedd. Gydag oerni'r nen yn cnoi eu perthynas ar hyd yr afon mewn mân grwpiau i sgwrsio'n ddihidans â'i gilydd, roedden fel rhyw ŵr na ddiodefasai cyn hynny yr un boen ddirdynnol, ond wedi'i phrofi, sy'n teimlo O! Mor ddiolchgar pan fydd hi'n peidio, ac sy'n gallu mwynhau iechyd o'r newydd gyda blas ac ymollyngdod – a chwerthin braidd yn nerfus er yn galonnog enbydus, ac edrych ambell waith yn ddistaw i mewn i'r afon fythol redegog.

(Allan o'r gyfrol *Y Dyn Na Ddaeth Adref*)

## ANGHENION GUIDO

Anghenion syml oedd rhai Guido Palazzeschi. Cerddoriaeth glasurol a whisgi. Ar ôl cau'r caffè yn yr hwyr, allai fe byth noswyllo heb gael awr o ddiddanwch felly yng nghwmni ei ffrind, Riccardo Gaspari, yn y llofft uwchben.

Deuai Riccardo draw o ben arall y dre wedi cau ei siop sglodion-a-physgod am hanner awr wedi deg, ac erbyn cyrraedd caffè Guido roedd hi'n un ar ddeg, ac yn bryd i hwnnw gau. Ac yna ar eu pennau eu hun, fe aen nhw'n grefyddllyd i'r llofft gyda'u poteli, heb dorri braidd yr un gair â'i gilydd, ac eistedd bob un yn ei gadair freichiau o boptu'r radiogram i wrando ar Verdi, Rossini, Puccini ac eraill. Dim byd uchelgeisiol.

Ei waith yn y caffè oedd unig angen arall Guido. Wrth ganfod ei ffrâm gamellog yn plygu fel perllan ar draws y cownter, a'r wên fwstasiog fras yn torri'n deulu o chwerthin neu'n sgwd o frawddegau cellweirus, fe wyddai unrhyw gwsmer a ddeuai i mewn fel roedd Guido wrth ei fodd yn ei swydd. Roedd yn mwynhau prysurdeb y symud o'r naill at y llall, gan sugno blas o'r gymdeithas gyfnewidiol barhaol, ac yn wyn ei fyd wrth sbortian gyda'r bobl ifainc reolaidd a ddeuai tua hanner awr wedi naw bob nos.

Alldröedig. Gregaraidd. Ie, gŵr cymdeithasgar, uchel ei gloch, ar ben ei ddigon yn lolian gyda'r llanciau a'r llancesi, ac yn hoffi bod yn ganolbwynt sylw, yn hoffi bod y rhain, ei gwsmeriaid, yn ei licio ac yn synio amdano fel real boi. Go brin y buasai'r un ohonyn nhw'n tybied mai cael orig dawel o gerddoriaeth glasurol ganol-ael oedd ei hoffter mwya wedi cau'r caffè gyda'r nos.

Roedd ganddo dair menyw yn y caffè yn ei helpu. Tair Cymraes o'r ardal yn gweithio mewn sifftiau. Buasai Riccardo yntau yn gweithio gydag e am gyfnod ar y dechrau. Nhw ill dau oedd yr unig Eidalwyr yn y gymdogaeth. Ond ar ôl i'r busnes ddangos tipyn o lewyrch, fe benderfynodd Riccardo agor lle iddo'i hun o deip gwahanol, reit barchus – ym mhen arall y dre. Ymadawodd. Ac yn ei le, oherwydd y prysurdeb cynyddol, fe gafodd Guido ddwy fenyw i'w gynorthwyo. Ond yn fuan, oherwydd poblogrwydd cyson caffè Guido, roedd yn rhaid cael un arall atyn nhw. Ac fe roddodd Guido hysbysiad yn y papur lleol.

Dyna sut y daeth Luned yno. Hi oedd yr unig un gynigiodd am y swydd. Roedd hi'n ifanc ac yn lân, yn ddymunol ei golwg, ac wedi gwneud yn ddigon boddhaol yn ei gwaith ysgol i fedru rhoi'r newid cywir i'r cwsmeriaid. Er ei bod hi'n iau o ugain mlynedd na Meri Evans ac yn iau o ddeuddeng mlynedd ar hugain na Madeline Hughes, doedd dim argoel y byddai hi'n debyg o beidio â chyd-dynnu â nhw: un fach ddistaw, swil, sensitif oedd hi, a'i hwyneb heb ei greithio gan yr un myfyrdod.

Os oedd rhywun o blith ei chydweithwyr yno y byddai hi'n debyg o'i ffeindio'n anghymharus

ac yn anodd dygymod ag ef, y perchen Guido Palazzeschi ei hun oedd hwnnw. Bob hyn a hyn byddai hwnnw yn ei allblygrwydd yn gollwng bloedd sydyn o groeso i ryw ddieithryn nas gwelsai ers dau ddiwrnod, nes bod dannedd y gwydrau ar hyd y silffoedd yn crensiar; neu ambell dro, fe fyddai taran allblyg fel teirant yn seinio'r rhybudd drwy'i wddwg: '*Meri Evans! Y Llaeth!*' wrth fod hwnnw'n codi i'r berw ac yn bygwth sarnu dros wyneb yr holl ddaear. Am ychydig roedd hyn oll yn ddychryn i Luned; ond fe ddaeth hithau'n gynefin ag e gan bwyll bach.

Bythefnos ar ôl iddi ddechrau gyda Guido, ar nos Sadwrn, roedd y caffe wedi cau yn ôl ei arfer am un ar ddeg o'r nos, y merched oll wedi mynd, Riccardo wedi cyrraedd o ben arall y dre, fel yr oedd yr hen arfer, er bod Riccardo yn gorfod cerdded ychydig ar ddiwedd y dydd; a'r ddau ohonyn nhw, Guido a Riccardo, wedi eistedd gyda'i gilydd o boptu'r radiogram i wrando ar y gerddoriaeth. Roedden nhw wedi dymuno iechyd i'w gilydd mor aml nes bod afiechyd yn rhemp dros y lle. Dyma gnoc o fath i'w chlywed ar ddrws y caffe islaw, cnoc megis rhwbiad ysgafn a phetrus gan fwydyn.

'Y Santes Fair! Polís yr amser yma o'r nos! Beth sy wedi digwydd dwed?'

Trodd Guido holl olau'r caffe ymlaen ac ymbalfalu'n sarrug regfawr i lawr y grisiau. Yno'n rhyndllyd wrth y drws ac yn llygaid i gyd, safai Luned fel llygoden fach.

Doedd Guido ddim yn gwybod beth yfflon i'w ddweud am foment: roedd ei orlif arferol o eiriau ar drai. Mud oedd hithau hefyd. Safen nhw y naill yn tremu ar y llall. Hi oedd y cynta i yngan dim.

'Fe gollais i'r bws ola. Mae'n ddrwg 'da fi. Fe fues i'n chwilio ar hyd y dre am ryw ... darsi, i fynd â fi'n ôl i Bont Ystwyth, ond rown i'n ffaelu gweld neb.'

'Dere mewn.'

Dilynodd hi fe yn ôl drwy'r caffe ac i fyny'r grisiau. Cyn iddyn nhw gyrraedd y top, dyma lais Riccardo: 'Beth oedd arnyn nhw'i eisiau, Guido?' Ac yna, wrth iddi ddod i mewn i'r ystafell: '*Dio mio!*'

Safodd ar ei draed. Doedd e erioed wedi ei gweld hi am iddi ddod ar ôl ei amser e; ond am ei bod hi yno yr amser yna o'r nos, yn rhagflaenu Guido i mewn i'r ystafell ciliodd Riccardo o'i blaen yno braidd yn ddiarwybod.

'Colli'r bws,' meddai Guido fel bachgen sy'n cyrraedd yn hwyr yn yr ysgol, yn anobeithiol ac yn euog.

'Pwy yw hi, Guido?'

'Does dim eisiau iti ofni dim fachgen. Dyma Luned. Mae hi'n gweithio gyda ni.'

'Fe gollais i'r bws,' meddai Luned drachefn, 'ac wyddwn i ddim beth i'w wneud. Mae'n ddrwg 'da fi.'

Er bod yr hen Guido o'r diwedd yn ceisio adennill hyder i chwalu petruster parlysedig Riccardo, roedd yntau hefyd yn crynu gryn dipyn.

'Eistedd. Eistedd fan yna,' sibrydodd e wrthi.

Tynnodd wydr newydd o'r cwpwrdd.

'Na. Dim i fi, diolch Mr. Palazzeschi.'

'Hm!' rhochiodd e, ac eistedd yn ymyl y ford. 'Dŷn ni'n dau'n gwrandu ar dipyn o gerddoriaeth. Fydd dim gwahaniaeth gyda thi os awn ni ymlaen?'

'Na fydd. Na fydd, wrth gwrs. Bydd hi'n neis iawn, dwi'n siŵr.'

Roedd hithau'n eistedd yn eiddil ac yn dawel yn ôl yn ei chadair, gan roi ei holl sylw i'r gerddoriaeth. Ciledrychodd Riccardo ar Guido, yna gadawodd i'w galon ufuddhau i fydrau prudd, trymlwythog y miwsig, hyd nes y daeth y record i ben.

'Hyfryd! Hyfryd!' meddai Luned yn werthfawrogol.

'A wel, Guido'r hen ffrind. Mae'n bryd i mi ei throi hi.'

'Na! Na! Riccardo. Un arall. Tipyn o Figaro, ie, i orffen y noson.'

'O'r gorau. Ond mae hi wedi hanner nos.'

'Nos Sadwrn, Riccardo. Mae'n rhaid cael eithriad nos Sadwrn.'

'Fydd yr offeren yn yr Eglwys ddim hwyrach nag arfer bore fory Guido.'

'Dim ond un.'

'Un te.'

Setlwyd ar hynny, ac fe eisteddon nhw'n fyfyrgar eto i wrando ar Figaro. Ceisiai Guido sbio'n ymholgar heibio i Luned ar ei ffrind Riccardo, ond roedd hwnnw, roedd hi'n amlwg, yn ceisio osgoi ei olwg.

Doedd braidd dim benywaidd ynglŷn â Luned o gwbl: merch fer, a'i morddwydydd yn gul fachgennaidd ac anorffenedig, a'i bronnau yn wastad, yn wir roedd ei mynwes bron fel pe bai'n suddo i mewn, a hithau'n eistedd yn y fan yna a'i choesau ar led fel gwas ffarm, ond bod ei hwyneb yn dlws, a golwg merch flynyddoedd yn iau arni. Ac eto, i Guido, roedd rhywbeth... O'r argian!

Daeth y record yma i ben eto.

'Un arall, Riccardo.'

'Na, dim.'

'U-u-n-n. Dim ond... '

'Mae'n rhaid mynd.'

Fe roddodd Riccardo fath o ffarwél i Luned, ac ymgrymu ei ben tuag at Guido. A sylweddolodd Guido fod yr ystafell hon yn ei gnoi'n ara ac yn ei lynu a'i dreulio. Gobeithiai Guido fod yr ystafell rywsut yn troi'n ddiffyg traul.

'Paid dod lawr was. Dwi'n gallu ffeindio fy ffordd fy hun.'

Ond mynnodd Guido fynd gyda Riccardo.

Bu'r ddau yno ar drothwy'r drws am bum munud, Guido'n erfyn ar Riccardo am ryw fath o help neu gyngor, ond allai Riccardo gynnig dim. Yn wir, roedd yn lled amau ei gyfaill, Guido, ar goll yn lân. Angladdol oedd camre hwnnw wedyn yn ôl wedyn i'r llofft.

Rhuthrodd gwallt diddorol Luned i'w lygaid pan ddaeth e i mewn. 'Mae'n ddrwg 'da fi Mr. Palazzeschi,' addefai. 'Wyddwn i ddim beth i'w wneud ar ôl colli'r bws. Dw i'n nabod neb yn y dre.'

'Popeth yn iawn, merch i.'

'Ydych chi'n fodlon i fi aros yma heno?'

'Wel, does dim arall amdani.'

'Fe alla i gysgu ar lawr yn y caffe yn burion. Neu eistedd ar stôl a rhoi y mhen i lawr ar un o'r bordydd.'

'Na, na, merch i. Fe gysga i ar y llawr fan hyn heno. Ac fe gei di gysgu yn y ngwely i.'

'O! Mae'n ddrwg gen i Mr. Palazzeschi os yw hyn i gyd yn drafferth i chi. Dw i'n difaru nawr...'

'Paid sôn. Dim byd. Dim byd.'

Aeth e i mewn i'r ystafell wely i dacluso ryw ychydig ac i nôl rhai pethau, a dechreuodd hi gribo'i gwallt. Taenodd e'r gwely'n ofalus iddi gyda llieiniau newydd am y tro cynta ers talwm. Chwythodd y llwch ucha oddi ar y dodrefn. A phan ddaeth e allan i'r awyr, roedd ffrydiau o'i gwallt melyn hi hyd ei gwegil a'i hysgwyddau o leia yn anesmwytho'i deimpladau. Fe'i dryswyd e gan hyn am eiliad. Llyncodd ei boer. Roedd e am lamu allan o'r lle gyda chyflymder hydd.

'Dyna ni. Mae e'n barod,' meddai fe.

'O diolch i chi Mr. Palazzeschi. Dych chi'n ofnadwy o garedig.'

'Dwyt ti ddim yn meddwl y bydd dy fam a dy dad yn poeni yn dy gylch?'

'Maen nhw wedi marw. Aros mewn rhan o dŷ gyda'n chwaer ym Mhont Ystwyth dw i. A fydd *hi* byth yn sylwi mod i heb ddod adref.'

Wrth iddo ei phasio ar y ffordd allan o'r ystafell wely, cyffyrddodd ei phenelin yn ysgafn ac yn gwbl ddamweiniol ag ymyl ei fraich, ac roedd hi fel pe bai'r môr Arctig wedi disgyn am ei ysgwyddau.

'Nos da, Mr. Palazzeschi, syr.'

'Nos da, Luned.'

Caeodd hi'r drws, a dechreuodd e edrych o gwmpas yr ystafell am rywle lle y gallai fe ymestyn.

Safodd yn stond am ychydig, yn gawr blonegog a blewog ar ganol yr ystafell, heb ddim yn

ei feddwl ond llifeiriant o deimlad y tu ôl i'w lygaid ac yn ei dalcen.

Anadlodd e i mewn yn sydyn drwy'i ffroenau. Rhegodd yn gymedrol. Llithrodd ychydig ar ei draed.

'Hen wŕ!' meddai fe gan luchio un o'r clustogau ar y llawr.

Dododd y llall yn ei ymyl, a gorwedd a'i ben ar un ohonyn nhw. 'Dere'n ôl Riccardo, wir,' meddai fe wrth yr awyr.

Cododd eto, wynebu crog yn un o gorneli'r ystafell ac adrodd ei bader wrthi ar ffrwst.

Gorweddodd eto, gan roi ei ddwylo y tu ôl i'w war i gynnal pwysau'i ben. Roedd ei dafod yn dew yn ei geg fel lwmp o ledr, fel bag cyfan, a buasai'n dda ganddo pe gallasai ei boeri allan.

Anadlodd yn sydyn. Allan nawr. Drwy'i dyllau chwys. Fel protest.

Bwriodd gilolwg tua drws yr ystafell wely, a snwffian eto.

'*Santo Dio*. Rwy'ti fel hen gi yn prowlan tu allan i dŷ'r ast, fachgen.'

Caeodd ei lygaid a cheisio gweld ar sgrîn ei amrannau ei hun rywrai eraill heblaw Luned. Cydiodd un llaw yn ei law arall, ac roedd y symudiad hwnnw'n ddigon i gynnu hiraeth drwyddo i gyd: roedd un bys yn rhwbio yn ôl ac ymlaen ar ei arddwrn wedyn yn cael ei amgylchu'n llwyr gan y llaw. Agorodd ei lygaid a'u cau nhw eto. Roedd y nos yn cloi o'i ddeutu, heb ddim ond cymylau o farwolaeth yn chwythu amdano.

'Nos da. Y burgyn dienwaededig,' meddai wrtho'i hun yn obeithiol; ac yna, codi'n grwn y funud nesaf fel roced, a mynd i lawr hyd y grisiau i'r caffe. Os oedd unlle ar glawr daear a allai adfer ei synnwyr a'i hyder, hwn ydoedd. Safodd yn ei le arferol y tu ôl i'r cownter a'i ddwylo ar ei wasg, gan edrych yn fawreddog o gwmpas holl gylch y caffe; ac yna i fyny o'i ymysgaroedd, yn lled ddistaw y tro cynta daeth: 'Figaro!' Ac yna'n uwch, 'Figaro!' O'r fforest.

'A!' o foddhad wedyn.

Roedd e'n teimlo'n well. Dringodd yn ôl i fyny'r grisiau. Diffoddodd golau'r caffe.

Pan ddaeth i mewn i'r ystafell fyw ar y llofft, roedd drws yr ystafell wely gyfagos wedi'i agor, a ffurf anaeddfed Luned yn sefyll yno ar goll yn ei byjamas e.

'Beth oedd y sŵn, Mr. Palazzeschi?'

'Dim, merch i. Fe fues i o gwmpas i sicrhau fod y lle i gyd wedi ei gloi, a dechrau canu. Dyna i gyd.'

'O!' meddai hi'n gynnil, a throdd ei phen yn ôl, ac roedd dychymyg Guido'n gweld ei gwegil yn gwneud math o symudiad fel pe bai am ymosod arno. Ciliai hi. Dywedai ei galon ef yn araf, 'Paid â throi'n ôl. Paid byth â throi'n ôl,' a chaeodd hi'r drws drachefn.

Rhoddodd e'i law ar ei dalcen, a chamu'n ôl ac ymlaen hyd yr ystafell tu allan i'r drws. Fe fu



e'n cerdded felly ar hyd yr ystafell, tu allan i'r drws, am awr a chwarter, fel llew mewn caets, neu bryf copyn. Allai fe ddim ond gweld ei gwegil. 'Paid â throi,' meddai fe. Wnaeth hi ddim. Anadlodd Guido eto. Gwnaeth de. A dechrau cerdded eto.

Doedd e ddim yn ei ddeall ei hun. Doedd dim fel hyn erioed wedi digwydd yn ei hanes o'r blaen. Ef, Guido Palazzeschi. Roedd e'n meddwl ei fod e wedi dod yn hen gyfarwydd â phob ystum o'i fywyd arwynebol cynefin: y coffe, y bobol, y gerddoriaeth, Riccardo, whisgi, yr eglwys, Meri Evans, ei blentyndod yn yr Eidal, Madeline Hughes, y fyddin yn ystod y rhyfel, Luned. Luned? Luned! Beth oedd hyn? Ymyrryd â'i hormonau canol-oed. Dihuno hen chwantau anhyfforddedig. Y llencyn cudd. Gallai glywed yr Hydref yn udo y tu allan ar hyd y strydoedd, ac yn nesáu at y coffe, gan gario lluoedd i chwerthin am ei ben e.

Trodd at y botel whisgi ac yfed yn syth ohoni, un llwnc hir cofiadwy.

'Wna i ddim cael y ngorthrymu. Wnaiff merch ddim sathru ar Guido Palazzeschi.'

Curodd â'i ddwylo ar ei fol fel ab ar ynys gyntefig bell.

'Ellwch chi ddim yn chwythu i i ffwrdd.'

Roedd tynerwch ei llun adoesent yn chwarae o flaen ei lygaid yn awr, a thrôï hi ei phen dychmygol mor ddieuog yn y drych hwnnw. Roedd ei chroen yno. Cododd Guido ei law fel pe bai i'w amddiffyn ei hun rhag yr olygfa, ac yna wrth sylweddoli hurtrwydd y symudiad fe'i trodd i swmpau ei fwstas a'i droi'n anwesgar hyd ei fochau. Cofiai'i lencyndod ei hun, ac aroglau daear yr Eidal a llaeth agerog y geifr. Roedd ei law yn dirgrynu nawr, a lymphiau bach o chwys, ysywaeth, fel clai neu gawlau defaid yn hongian am ei dalcen a'i arleisiau: roedd ei geseiliau fel dau glwtyn gwlyb, a'i ffroenau wedi ymledu fel cegau cywion bach mewn nyth.

Gorweddodd eto ar y llawr yn yr ystafell fyw, a throi o'r newydd, a throsi am oriau. Teimlai'i fod yn cerdded am filltiroedd, milltiroedd o waed cynnes. Fflamiai'i galon drwy'r ffenestri oll o'i ddeutu.

Bob nawr ac eilwaith, edrychai tua'r drws, fel pe bai'n disgwyl i anifail gwyllt ruthro allan i syrcais ei fywyd. Clown oedd e. Curai'i galon fel cymeradwyaeth fyddarol.

Yn bendifaddau, roedd yna anifail yn rhuo rywle. Neu beth oedd y chwythu gwyllt annuwiol fel storm ar y gors oedd yn crwydro drwy ei bibellau mewnol e nawr ac yn gwasgu drwy'i wythiennau? Gwynt rhuadwy wedi llithro-wasgu dan y drws a'i ddal mewn carchar yn erbyn y wal, mewn ogo, ac yn rhuthro o gwmpas i bob cornel gan fynnu torri allan yn rhydd.

Ac yna'n ddisymwth, fel gwawr yn cracio'n ddisyfyd, dyma elfen o ddistawrwydd, roedd e'n rhyfeddu, yn oedi i ryfeddu yn ei feddwl at felyster pethau, melyster cerddoriaeth Mozart, melyster plant bach, melyster... ie, melyster eneiiniol iachaol y dydd newydd. Gwnâi nos ei gorau glas i lasu'r

ystafell iddo. Ond roedd y wawr yn dechrau awgrymu bod dydd newydd eisoes ar y gorwel, ac fe gododd e i fynd allan am dro yn yr awyr iach. Allan o'r tŷ i lawcian yr awyr. Llyncwr mawr yw amser, ond ysywaeth, fe all sticio yn y llwnc.

Wrth rodio ar hyd y Stryd Fawr, deffrôdd gi mawr a oedd yn gorwedd ar drothwy drws un o'r siopau a'i gynffon yn hongian allan mor anghyfleus ar draws y palmant. Aeth y ci'n wyllt iawn ac yn wenwynllyd o gas wrth i Guido roi ei droed ar ei gwt. Neidiodd i fyny at wddf Guido, ac oherwydd sydynrwydd annisgwyl y cyrch, safodd Guido'n ôl wedi ei syfrdanu. Daeth y ci'n ôl ato drachefn, gan lamu'n ffyrnig eilwaith tuag at ei wddf. Ond roedd y dyn y barod iddo'r tro hwn: bwriodd y ci yn ei wyneb â holl nerth ei ddwrn de, nes bod yn creadur yn ymgreinio wrth ddisgyn, ac yn cynffonna ei ffordd ar hyd y gwter ar gil. Chwiliai llygaid Guido am ychydig o gysgodion y wawr i'w taflu at y creadur. Ond yn ofer. Ond doedd Guido ddim wedi gorffen. Sialensiwyd ei ddewrder e rywsut o flaen cynulleidfa o rai o foregodwyr y gymdogaeth. Rhedodd fel byddin, felly, ar ôl y ci, gan regi a chrochlefain a chan geisio estyn cic iddo. A dechreuodd hwnnw ffoi'n gyflymach wrth glywed esgidiau trymion Guido'n pystylad yn nes ato o hyd.

Stopiodd Guido gan anadlu'n drwm (ond roedd e'n teimlo'n well), a gwylio'r hen greadur llwfr yn simsanu'n ddwl i ffwrdd, a'i gynffon rhwng ei aflau ac yn sbio heibio i'w glustiau'n ôl ato fe wrth sleifio ymhellach i mewn i'r diogelwch nefol oedd ym mhobman, ... ond ddim o fewn cyrraedd Guido.

'Euh! Dyn bach bach wyt ti Guido Palazzeschi,' ebychai, 'er gwaetha dy fola i gyd. Does gen ti ddim llond gwniadur o ddewrder.'

Ond daethai'r dydd o'r diwedd, y dydd hwn ar ôl y nos o hunlle, y dydd naturiol glân a'i nen yn agored, y dydd y gallai fe anadlu eto.

Y dydd y collodd Luned ei job.

(Allan o'r gyfrol *Y Dyn Na Ddaeth Adref*)

## ER COF

Ar ôl marwolaeth y nhad ym 1958 fe benderfynais mai dychwelyd i Bontseli oedd orau. Doeddwn i ddim wedi bod yn y nhre enedigol er 1942, a cho neu angho merch fach bum mlwydd oed oedd gen i ohoni. Ond allwn i ddim teimlo'n gysurus yn Abertawe mwyach wedi colli'r un anwyla o bawb; ac roedd chwerwedd gwyllt yn y mynwes hefyd am ddial ar yr un ffiadd hwnnw a oedd yn gyfrifol yn anad neb am dorri ei iechyd e a'i yrru'n gynamserol i'w fedd.

Y pura yn y byd oedd y nhad. Fe ges ei nabod e am un mlynedd ar hugain, ac ar hyd yr amser yna, welais i ddim ohono'n gweithredu ond caredigrwydd at bawb. Doedd ganddo ddim drwg deimlad at neb ychwaith, er iddo gael digon o achosion i hynny. Hyd yn oed tuag at Bart Williams, chronnai fe ddim un dig na chasineb. Siom a gloes ddyfnach na bywyd a goleddai tuag at hwnnw.

Cristion oedd y nhad. Ac nid label confensiynol mo hwnnw yn ei achos e. Roedd e'n Gristion angerddol. Pan own i'n iau, byddwn i'n rhyfygu meddwl yn wirion am y nhad mai Cristion o ran ymddygiad fuasai fe hyd yn oed pe na ddaethai'r Iesu i'r byd. Wrth ei ochr fe deimlwn innau'n bagan satanaidd, oherwydd *does* dim a *doedd* dim gen i'r un math o ddisgyblaeth ar y nheimpladau na'm meddyliau: fe gyneuai atgasedd parod yno i at bawb a wnâi gam ag e; doedd dim tosturi na thrugaredd i'w cael byth yn yn hanes i.

Ei Gristnogaeth oedd y rheswm dros ei holl anhapusrwydd e, fel y bu y mhaganiaeth i'n rheswm dros yn anhapusrwydd innau.

Yn y Rhyfel Byd Cynta fe fu e'n wrthwynebydd cydwybodol. Roed e'n heddychwyr o'r hardda. Pan godai'r cwestiwn o ymaflyd mewn dryll, yr unig beth a ymholai fe oedd, 'Fyddai'r Iesu'n cydio yn y dryll 'ma ac yn lladd?' Mor syml â hynny. Teimlai fod yr Arglwydd wedi anfon y Rhyfel i'w brofi. Ac wedyn, nid eistedd yn ôl wedi'i fodloni ei hun wnâi e; ond ymosod a fflangellu â'i dafod, nid mewn casineb negyddol a bustlaidd ond mewn cariad heintus. Propagandeiddiai o ddrws i ddrws yn Abertawe ac ar gorneli'r strydoedd. Hyd yn oed ar ôl y Rhyfel, yn yr ugeiniau a'r tridegau, dal i bregethu heddwch wnâi e a rhybuddio dynion am ganlyniadau anochel eu gweithredoedd a'u paratodau.

Ac yna, fe ddaeth yr ergyd fawr gynta. Fe'm ganwyd i. Diau mai fel arall y dylwn i ddweud pethau mewn trefn wahanol – mai marw wnaeth y mam. Ond roedd y naill beth gymaint ynghlwm wrth y llall; roedden nhw'n gyd-ddibynnol, wedi'u hasio fel petai, fel na alla i bellach drafod y ngenedigaeth yn hun a marwolaeth mam ond fel un digwyddiad sengl. Un oedd ei mynediad hi a nyfodiad i. Ei disodli hi wnes i.

Er na siglwyd mo ffydd y nhad, fe'i hysgydiwyd e o ran corff a meddwl tu hwnt i ddychymyg. Roedd rhyw organ neu aelod ohono'i hun wedi'i dynnu i ffwrdd.

Rhoddodd y gorau dros dro i fynd allan â'i genadwri heddychol hyd y strydoedd, – am un rheswm oherwydd fod galw arno mwyach i'm magu i a'm hymgeleddu i. Ond heblaw hynny, doedd e ddim cyn gryfed â chynt. Collasai'i sbonc a'i nerth, ac roedd y gwaith ymgyrchol cynt dros ben ei waith arferol yn y siop ar hyd y dydd yn ormod o'r hanner o straen arno. Roedd mam wedi'i adael e.

Ond roedd un dyn yn falch i weld tristwch y nhad a'i amddifadiad. Mi wna i esbonio.

Flwyddyn ar ôl i mi gael y ngeni, hynny yw ym 1938, fe ymadawodd y nhad ag Abertawe lle y buasai'n byw ers blynyddoedd bellach, a dychwelodd i'w henfro, yn nhre fechan Pontseli. Gwerthodd ei siop, a chyda'r cyfala hwnnw fe brynodd siop wag ym Mhontseli, a dechrau bob yn dipyn adeiladu busnes newydd yn y fan 'na.

Daeth dechrau'r Ail Ryfel Byd yn ail ergyd iddo, yn enwedig gan ei fod e'n teimlo i'r byw ei ddiymadferthedd ei hun wyneb yn wyneb ag e. Roedd e fel petai heb allu codi bys. Ceisiodd ymorol am y dynion ifainc i gael siarad â nhw yma ym Mhontseli; a phan ddeuai cyfle yn y siop i gyflwyno'i ddadl, phetrusai fe ddim rhag gwneud, taw faint o effaith a gâi hynny ar ei fusnes. Ond gwyddai'i fod yn ceisio cario Eryri ar ei gefn.

Yna y dechreuodd y gyfres o ymosodiadau personol a arweiniodd at dorri iechyd y nhad yn derfynol. Roedd gŵr ifanc yn byw yn y dre o'r enw Bart Williams. Ac er na bu rhaid i hwnnw fynd i'r fyddin am fod rhyw gysylltiad rhyngddo ac amaethyddiaeth, roedd ei frawd wedi gwirfoddoli ar y dechrau; a'r brawd hwnnw, Bil, oedd y cynta o dre fach Pontseli i gael ei ladd, yn 1940.

Fe ddechreuodd Bart Williams ledu llysnafedd am y nhad drwy'r dre. Ac yna, fe gynhaliodd rai cyfarfodydd awyr agored ar y sgwâr i ladd ar heddychiaeth, gan honni bod honno yn gwanychu gwrthwynebiad y wlad i Hitler drwy sgyrsio'n ffafriol am heddwch. Yn y pen draw golygai hynny fod byddin Prydain yn cael colledion heb eisiau o'r herwydd. Pan areithiai, fe gyfeiriai'n aml at y nhad wrth ei enw fel enghraifft o'r rhai a oedd yn bradychu'r wlad o'r tu mewn, a cheisiai adeiladu rhagfarn ddielflig yn ei erbyn, gan ddweud mai dyletswydd pob Prydeiniwr a phob Cristion cywir oedd osgoi prynu yn ei siop e.

O dipyn i beth, ciliodd llawer o'r cwsmeriaid, ac roedd y nhad wedi'i frifo i'r byw. Un noson cynhaliodd Bart Williams gyfarfod arbennig y tu allan i ddrws y siop, gan sefyll ar y fainc a oedd yno. Rhaid y mod i yn y gwely ar y pryd, gan nad own i'n fwy na phedair blwydd oed. Gwrandawai y nhad o'r ystafell ffrynt ar y llofft ar y gweiddi a'r gwawdio, a phenderfynodd chwap yr âi allan i siarad â nhw ac ateb rhai o'r dadleuon: roedd ei awydd i siarad yn glwy i gyd o'i herwydd. Chwiliodd ei ffordd i lawr y grisiau, a'i ddwylo a'i goesau'n crynu o dor-calon. Ryw hanner ffordd i lawr fe lithrodd. Mae'n rhaid ei fod yn rhy wannaidd i'r ymdrech, a bwriodd ei iad yn erbyn y pared wrth gwmpo. Er nad oedd e'n anymwybodol, doedd ganddo mo'r nerth i godi am awr neu fwy. Yno y gorweddaid yn y tywyllwch, yn sypyn afluniaidd penisel ar y llawr ynghanol bocsys bisgedi, a'r

dagrau'n llosgi'n hidl hyd ei fochau wrth wrando ar y celwyddau brwnt a saethid ato o'r tu allan.

Lawer gwaith yn y blynyddoedd wedyn y disgrifiodd e'r olygfa honno i mi, nid o hunandosturi nac o ddieter, ond fel esboniad i mi pam y penderfynodd e na allai fynd yn ei flaen. Roedd ei gwsmeriaid bron i gyd wedi cefnu arno, a'r elyniaeth agored hon yn gorfod sefyll yn ddiateb oherwydd ei fod e'n rhy fregus i gyfarfod â hi.

Ymadawodd â Phontseli'n fuan wedyn. Ac o hynny ymlaen gwanhau'n raddol, raddol oedd ei hanes. Gŵr canol oed wedi'i chwilfriwio cyn ei amser oedd y nhad. Dychwelodd i Abertawe lle roedd ganddo lawer iawn o gyfeillion, fel sy'n digwydd gyda chefnogwyr lleiafrifol, a chafodd waith nos fel gwyliwr mewn siop fawr o eiddo Crynwr darbodus a oedd yn ffrind iddo. Ac fel yna dw i'n ei gofio hyd nes y mod i'n bedair ar ddeg oed, yn glynu gerfydd ei ddannedd wrth y job yna, ac yn gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn. Ychydig a ddywedai, a braidd byth ar gŵyn; ond fe ges i wybod fesul tamaid beth oedd holl achos ei ddistryw fe, ac fe ellid ei grynhoi'n grwn mewn dau air. Bart Williams.

Wrth weini ar y nhad, yn ystod ei flynyddoedd ola pan oedd yn dechrau colli peth ar ei bwyll, fe losgai yn y mynwes i ffieidd-dra at y gŵr hwn oedd wedi ei ymlid mor ddieisiau i'r cyflwr hwnnw. Ar ôl i mi ymadael â'r ysgol yn bymtheng mlwydd oed, y nhad oedd y mywyd, a gofal amdano fe a lanwai bob awr rydd, heblaw gweithio mewn siop ddillad gyfagos. Efallai fod y myd i'n gul i bob golwg allanol, gan nad ymestynnai fawr ymhellach na phedair wal ei ystafell. Ond doedd hi ddim mor gyfyng ag y mae hynny'n ei awgrymu, oherwydd am rai blynyddoedd, tra oedd e'n gallu llefaru'n gall ac yn synhwyrol o hyd, roedd y nhad yn gallu cyfoethogi'r byd hwnnw ym mhob math o ffyrdd. Roedd e wedi nabod amryw bobl ddiddorol. Er nad oedd e'n ŵr cymdeithasol yn yr ystyr arferol, yn ŵr a hoffai bwyllgor neu barti mawr a lot o sŵn a swae, roedd e'n hoff iawn, iawn o gwmmi dau neu dri. Mewn cymdeithas helaeth fe fyddai'n cael diffyg traul. Ond roedd dau neu dri'n wledd. Roedd e'n gallu deall a chymathu dau neu dri; ac roedd wrth ei fodd yn cyd-deimlo â'u personoliaethau ac yn treiddio iddyn nhw. Cawsai'r fraint, yn ei waith heddychol, o nabod amryw bobl dra galluog a breiniol, ac o'u cyfri nhw'n gyfeillion iddo. O ganlyniad roedd ei brofiad e am y byd a'r meddwl dynol wedi ymehangu'n ddirfawr.

Roedd e'n ddarllenwr mawr. Ac nid darllen yn gul yn ôl llwybr cyfyngedig ei syniadau cysefin ei hun. Lledwyd a dyfnhawyd y syniadau hynny drwy ddarllen ym mhob math o feysydd a safbwyntiau – teithio'r byd, hanes chwaraeon, diwinyddiaeth, a diwylliant Cymru. Pe cawsai nhad amgenach cyfle yn ystod ei ieuencid, dw i'n argyhoeddedig y byddai wedi dod yn gryn ysgolhaig.

Na, nid bywyd tlawd a chaeth oedd y mywyd i gyda nhad, o safbwynt meddyliol, beth bynnag. Roedd e'n well na phrifysgol i mi. Cyneuodd bob math o ddiddordebau yn y meddwl. Ond yn deimladol – ac yn gorfforol, wrth gwrs, – roedd y bywyd yn eithafol o gul. Heblaw cariad

angerddol at y nhad, un prif emosiwn oedd yn bodoli yn y nghalon, sef cas angerddol ac Anghristnogol at Bart Williams. Er na byddwn i ddim yn nabod y dyn o gwbl petawn i'n ei weld e, teimlwn y mod i wedi plymio i waelodion ei gymeriad dirmygus. Credwn y mod i'n ei nabod e fel yr edwyn anifail beryg wrth ffroeni'r awyr. Roedd y nghorff a'm meddwl i benbwygilydd yn synhwyro ystyr Bart Williams, yn ymdeimlo â'i hanfod; a nghasgliad ar y diwedd oedd mai hwn oedd y creadur mwya dienaidd ar glawr daear.

Dichon fod y casineb wedi tyfu'n ffofia yno i erbyn marwolaeth nhad, ond wedi hynny, a phan ymadewais ag Abertawe, roedd y mryd i ar Bontseli a dialedd llwyr. Doedd gen i ddim syniad yn y byd sut y gellid cyflawni'r uchelgais hwnnw. Ond pan welais i'r dyn a gweld ei fod wedi newid ei waith bellach a'i fod yn berchen ar dair siop mewn rhes ym mhrif stryd Pontseli, ac un ohonyn nhw yn ôl pob tebyg lle y buasai siop y nhad, gwyddwn ar ôl mynd i mewn i'r siop honno ei fod e'n ffitio y narlun o Barth Williams i'r dim, a'i fod yn ateb ym mhob manylyn y rhagsyniad a ffurfiaswn i ohono. Doedd dim syndod i mi mai gŵr caredig canolig ei daltra a'i wyneb wedi'i eillio'n lân, oedd e, braidd yn fenywaidd yn ei gerddediad, a dwylo gwyn, hir, merchedaidd wedi'u trin yn ofalus, gwallt tonnog a seimllyd a phob blewyn yn ei le. Gŵr a roddai gryn sylw i'w olwg allanol. Ond am ei lygaid: roedd y rheini'n yn yn atgoffa i am lygaid y nhad, yn siâp yr aelïau a'r amrannau hefyd efallai. Gallaswn hoffi'i lygaid.

Nid hir y buais i cyn cael swydd mewn un o'r tair siop.

Erbyn hyn, roedd e yn un a deugain mlwydd oed, yn Gynghorwr Sir ac yn ddiakon ym Methania, ac yn ddibriod er bod lluo o ferched, medden nhw, yn heidio ar ei ôl. Es i mewn fwy nag unwaith i un o'r siopau i brynu rhyw fân betheuach er mwyn bwrw golwg arno, a byddai fe wrthi'n plygu uwchben ei ddesg yng nghefn y siop a'i gefn tuag ata i. Es i i Fethania ar y Sul i'w weld e yn y Sêr Fawr, – i edrych arno'n hir. Yno y safai fel lwmp o iâ. Wnâi ei sylweddoli'n ddiriaethol wrth ei ganfod e yn y cnawd, – ac yntau hyd yma wedi bod yn fath o gymeriad mytholegol i mi, – namyn cryfhau a chyflymu'n hiraeth ffanatig i am ei niweidio'n effeithiol rywsut neu'i gilydd.

Ond sut? Roedd troi'r broblem yn wrthrychol fel hyn yn dangos mor anodd oedd trawsffurfio'r nudden wlanog o emosiynrwydd yn weithred galed ymarferol. Sut y gallai menyw lwyddo'n effeithiol, yn gyfreithlon neu beidio, i gyflawni dialedd sylweddol ar hwn – lleiddiad isymwybodol y nhad?

Hyn oedd canolbwynt y meddwl i ar hyd y dydd a chraidd y myfyrdod i bob nos.

Ac yna, ryw wythnos ar ôl i ngolwg ddechrau pendroni am ateb i'r broblem hon, un ateb yn unig y gallwn i ei ffeindio ar y pryd; a hyd yn oed yn awr, wrth feddwl dros y peth mewn gwaed oer, mae'n anodd gen i synied fod unrhyw ddull arall yn ddichonadwy. Roedd y cynllun yn eithafol, bid siŵr (er nad oedd gan fenyw yr un arf arall); a dichon y byddai rhywrai'n honni ei fod yn

hunanaberthol hefyd er na theimlwn i ddim affliw o aberth. Ond i mi, y pryd hynny, gyda nymuniad penboeth am ddial ar Barth Williams, a'm hymdeimlad seithug o ddiymadferth wrth weld mor amhosibl oedd gwneud dim o bwys, wedi'r cyfan, fe fethwn i ag amgyffred yr un ffordd arall amdani na'r hyn a ddilynais. Roeddwn i'n un ar hugain, ac mi wn, yn dlws. Cymerwn ar ôl mam, wedi etifeddu'i dalatrwydd. Pe gallwn, drwy ddefnyddio swynau naturiol, gallwn ei rwydo fe a'i ddal yn y we. Byddai gen i gyfle purion wedyn i'w drin e yn ôl y mympwyon. Doeddwn i erioed wedi ymddiddori y peth lleia mewn bechgyn; y nhad oedd yr unig fachgen yn y mywyd i. A doedd yno i o ran anianawd fawr o chwant am gwmni a chymdeithas wrywaidd, am gyfathrach rywiol a phriodi a chodi teulu; ac eto, roedd gen i ddigon o wybodaeth ac o hen ddychymyg i sylweddoli beth oedd y cyfle gorau a oedd gen i yn yr achos yma a'r modd i'w ddefnyddio.

Tybiais i mi gynllunio'r garwriaeth yn garcus. Fe es i ato drwy gyfrwng y capel – y mae crefydd yn gallu gwneud rhyw ddaioni o hyd. A chyn hir, roedd e'n yn hebrwng i'n hwyliol adre i'n llety i, ac yn y ngwadd i am dro, ac yn y blaen. Ar y dechrau teimlaswn fel llygoden ofnus yn cerdded i enau llew; ond enillais i hyder a phenderfyniad gydag amser. Gwyddwn fod angen imi bwyllo, a gweithio ar y nghynllun yn ystyriol.

Cyn bo hir, es i ato, a gofyn a gawn i fentro ymgynghori ag e yn ei swydd fel diacon doeth a phrofiadol, ac ymholi ynglŷn a phroblem bersonol iawn. Fe fuais i ers tro, meddwn, yn teimlo awydd i ddod i nabod gŵr ifanc tua'n oedran i, ond roedd swildod yn yn atal i rywfodd. 'Ymlacio,' meddai fe, 'ymarfer â bod mewn cwmni gwrywaidd yn fynych, ond cyfarfod yn aml.'

Roedd y sgwrs hon a'r datblygiad newydd hwn, er mor arswydus oedd e ar lawer ystyr, ac yn erbyn y mwriadau i, hefyd yn cadarnhau yn sefyllfa i'n enfawr, ac yn ei ddwyn e'n gaethach i nghrafangau pert i. A chan nad oedd e'n wrthun ei olwg, rywffordd, a chan ei fod mor gwbl oeraidd yn rhywiol ei hunan, nid anodd oedd i mi ei gadw'n bell hefyd, a gwrthod ei nesáu bach eiddil pryd bynnag y digwyddai. Doedd gen i ond un diben mewn bywyd, ac roedd priodas anochel yn gwneud y diben hwnnw'n fwy cyraeddadwy nag erioed. I mi, felly, fe ymddangosai i Bart yntau'i hun y gallai datblygiad o'r fath ddwyn llawenydd i'w gartre mewn llawer cyfeiriad ac ennill cymdeithas dra atyniadol. I mi, roedd yn gynllun clinigol.

Yn rhyfeddol o fuan yn ein hanes ni'n dau, dilynodd priodas arddangosol yn o fuan. Bu'n achlysur pwysfawr i'r gymdogaeth.

O ran gwaith drwy gydol y dydd wedyn, chefais i erioed bethau mor rhwydd. Trefnodd Bart i Gwladys, un o'r merched o'r siop, ddod i'r tŷ yn y bore i lanhau ac i baratoi cinio. A doedd gen i fawr o ddim i'w wneud heblaw hwylio ychydig o de ysgafn yn y prynhawn. Fe ges i nghadw mewn cysur mwy nag a adnabuaswn erioed. Roedd Bart yn anghyffredin o garedig, rhaid cyfadde. Ac am hyn i gyd, yn y gwely doedd dim rhaid talu dim.

Nawr, gallwn i ddechrau rhoi y nialedd ar waith. Rywsut roedd y cwbl wedi bod yn rhy syml. Teimlwn i fel pryf copyn yn sbortian gyda chleren. Byddai'n rhaid i'r rhan nesa o'r cynllun hefyd gael ei gweithredu yr un mor effeithiol a phwylllog, fel y byddai'r ad-daliad yn llawn ac yn eglur.

Roeddwn i wedi dod yn gyfeillgar â dwy o fenywod y Capel yn yr Ysgol Sul, dwy roedd eu gwŷr yn gweithio mewn swyddfa yn y dre ac mewn safleoedd parchus. Byddwn i'n eu gwahodd nhw i gael coffi am un ar ddeg ambell fore, ac yn cyrchu i'w tai nhw i gymryd coffi yno yn y nhro. Ambell waith, fe fyddai un fenyw arall gyda ni, ond ni'n tair oedd y cyfeillion agosa, ffyddloniaid yr achos yma beth bynnag.

Wrthyn nhw y dechreuais adrodd storïau am y ngŵr, druan, gan ddyfeisio hanesion am y gwyrddroadau rhywiol a oedd ganddo, am y campau afiach y gorfyddai i mi eu cyflawni yn yr ystafell wely, am ei ymddygiad anifeilaidd a chreulon nes peri y mod i'n gorfforol ac yn ysbrydol wedi y ngwanychu'n lân. Dywedwn wrthyn nhw fel yr ofnwn i weld pob nos yn dod. Wrth iddyn nhw nesu'n nes ata i a gwranddo arna i'n llawn cydymdeimlad, fe dechreuwn i fanylu, a disgrifio'n wylofus, holl erchylltra budr y driniaeth a gawn i a'i ffordd annormal a brawychus o drafod y nghorff i a'i gorff ei hun. Roedd adnoddau pŵerus gan y ddwy i ledu y nychmygion yn ffrwythlon effeithiol drwy'r cymdogaethau hyd ffiniau'r Gymanfa.

Roedd yr had wedi eu hau, sut bynnag, ond deliais i'w hau nhw o hyd am y tri mis wedyn, yma ac acw mewn lleoedd allweddol ac addawol. Roedd yn rhaid bod yn gynilach weithiau, wrth reswm. Ond gallwn ddibynnu ar y clebrwagedd canolog i chwyddo'r danteithion a'u cludo'n boeth ac yn agerog at gegau eu gwŷr ac eraill. Byddar oedd Bart. Ond teimlwn fod cwlwm y cynllun yn nesáu. Fe allwn ei ddistrywio fe'n awr.

Pan gerddwn gyda Bart i'r capel, teimlwn arwyddocâd newydd yn y ffordd y byddai pawb yn edrych tuag aton ni. Synhwyrwn i ym mhob man wrth gwrdd â chyfeillion ar y stryd eu bod nhw oll yn ymddiddan yn oerach â Bart ac yn dynerach neu'n fwy serchog â mi, fel petaen nhw am fynegi eu hadwaith cudd.

Yn ei waith yn y siop ac yn ei gymdeithas â gwŷr y Cyngor Sir fe glywai Bart yn awr ryw gyfeiriadau dieithr llawn sbort os achlysurol at wely a merched ac ebolion a mannau gwan a mannau cry. Os oedd rhyw achos rhywiol yn cael sylw poblogaidd yn y papurau, roedd Bart yn siŵr o dderbyn rhyw brociadau rhithiol ynglŷn ag e. Ym mhen hir a hwyr, fe sylweddolodd fod pawb oll yn clebran amdano fe, y merched a'r bechgyn yn y siop ac ar yr heol, y diaconiaid yn y capel, y cynghorwyr yn y Cyngor Sir, ei gwsmeriaid, y byd i gyd, yn glaschwerthin ac yn cael hwyl fawr amhriodol am ei ben e. A *rhyw* oedd ei wendid. Rhyw! Meddylwch. Ef o bawb, a fuasai mor lân a pharticiwlar yn ei fuchedd, a oedd, er ei fod yn briod, yn wry i bob pwrpas ymarferol o hyd.



Chwarae teg. Allwn i ddim ond edmygu'r ffordd agored wrywaidd yr adweithiodd e i hyn i gyd. Fe fyswn i, yn yr un safle, wedi tueddu i gronni'r cwbl mewn cywilydd ac i osgoi dynion er mwyn peidio ag wynebu'r annhegwch hwn yn herfeiddiol. Ond dig oedd e am yr helynt, ac yn benderfynol o sialenso'r drwg pe câi gyfle a dod o hyd i ffynhonnell yr ymgyrch. Anonestrwydd y sïon a'u dirgelwch amherthnasol, fe gynhyrfai hynny ei natur, bron cymaint â'u cynnwys.

Sut y dechreuodd y fath gelwydda? Sut y gallai fe gael gafael ar ffynhonnell y drwg? Rhaid ei fod yntau'n ddychrynlyd o dwp neu y mod i'n enbyd o gyfrwys, oherwydd galla i dyngu na lwyddodd i'n hamau i o gwbl. Rhoddodd y bai, yn ei feddwl ei hun, ar gystadleuwyr busnes neu wleidyddiaeth leol, neu laslanciau y ffair, a gwnaeth lw pe gallai ymaflyd mewn un person a ledaenai storïau o'r math yn ei glyw e, ac yntau'n gallu sicrhau fod euogrwydd yn bendant ac yn ddiamheuol, y byddai fe'n erlyn ac yn mynd â'r mater i lys barn.

Y ngobaith i oedd mai felly'n union y byddai pethau ac y cawn gyfle cyhoeddus i'w ddamnio fel llwgryn rhywiol, er y mod i'n teimlo peth edifeirwch weithiau i mi fod mor drwyadl o ffaidd tuag ato. Erbyn hyn, dw i'n methu'n lân â dirnad sut y gallai y nychymyg i fod wedi hel at ei gilydd y fath stôr o fudreddi a hyd yn oed blasu danteithion y dweud. Mor rhyfedd yn ein bywyd yw'r modd y mae moch yn medru sangu'n ddiarwybod i ganol carpedi syberwyd, ac fel y mae peunod yn gallu cyffwrdd â pherfeddion hagrwech, a sut y mae dagrau crocodeil yn gallu ymglynu'n emog wrth odreon llawenydd. Rywle rhwng y gorllewin a'r dwyrain dŷn ni i gyd yn byw. Roedd y mywyd beunyddiol gydag e yn dal yn dawel ac yn ddigyffro. Roedd e'n gwbl garedig wrtho i bob amser. Deuai ag anrhegion bach a mawr i mi, ac roedd yn ystyriol iawn o'm holl anghenion. Fyddai dim rhaid i mi ond awgrymu fod eisiau rhywbeth arna i, a byddai yno yn unionsyth. Ac wnâi ddim ond y gorau y tro. Wn i ddim beth oedd ystyr y modolaeth i iddo fe, ai dodrefnyn hardd ynte creadur anwes swci i fodloni ei chwiwiau drud fel rhoi cyw iâr i bwll. Addurn, yn ddi-os.

Roedd y peth mor ddigri, rywfodd. Gyda'r nos, wrth ein bod ni'n tynnu ein dillad i fynd i'r gwely, byddwn i'n edrych ar ei goesau di-flew, pwl-pog â'i gorff fel pren yn yn ymyl; ac yn wir, allwn ni ddim llai nag ysgwyd hyd y ngwreiddiau o chwerthin ambell waith. Ac yntau, â'i lais alto'n gofyn, 'Be sy'n bod yn anwylyd i?' Finau'n meddwl am y darlun o ebol llamsachus trachwantus a goleddai'r ardal amdano. Yntau â'i wir nwydau rhywiol mor anaemig â neidiadau pry genwair wedi'i ddisbaddu.

Yna byddwn i'n troi drosodd yn y ngwely fel pe bawn i'n clywed llais y nhad, a theimlwn yn llai na mi yn hun. Ac o ganlyniad, llechai yn y nghalon gildeimlad o hoffter chwithig at y gelyn bonheddig hwn y tu ôl i mi a erlidiwn o wirfodd ewyllys. Ond siglwn i'r gwendid hwnnw ymaith, a chysgu, a chodi'r bore trannoeth gyda mhenderfyniad wedi'i adnewyddu i'w erlyn hyd y diwedd.

Unffurf oedd bywyd. Roeddwn yn dal i fynd at yn ffrindiau i gael coffi ambell fore.

Un bore roeddwn wedi mynd yn ôl yn arfer at un ohonyn nhw, wedi curo ar y drws; ac fe'i hatebwyd gan berthynas i'n ffrind i a ddywedodd fod honno wedi cael ei niweidio beth gan gar ar yr heol ynghynt yn y bore pan oedd hi'n picio draw i nôl siwgr, a'i bod wedi cael ei rhuthro i'r ysbyty ar unwaith. Dychwelais adre gan ofidio o'i phlegid a braidd yn siomedig o golli'r clecs.

Pan es i mewn i'r tŷ, allwn i ddim gweld Gwladys (y forwyn) yn unman er bod ei chôt yn hongian yn y cyntedd. Ond elwais i ddim amdani ar y pryd: tybiais ei bod hi'n curo matiau yn yr ardd neu rywbeth felly. Ac felly, es i'r llofft i newid.

Wn i ddim pam, ond wrth ddringo'r grisiau, roedd rhyw ymdeimlad rhithiol yn y ngwythiennau fod rhywbeth ar fedr digwydd. Roedd drws yr ystafell wely led y pen yn agored. Ar y llawr y tu mewn roedd trowsus Bart. A heb fynd i mewn, gwyddwn i'r botwm beth a welwn. Gallwn glywed eu hanadlu trwm a pheth chwerthin plentynnaidd ganddi hi.

Trois i'n ôl heb fynd ymhellach, cerdded i lawr y grisiau ac allan o'r tŷ. Wn i ddim a glywsan nhw'r drws yn clepian ar yn ôl; a doedd dim ots. Chlepiais hi ddim o'r drws yn fwy swnllyd nag arfer, nac yn llai.

O edrych yn ôl dw i'n synnu nad oedd y nheimladau'n fwy cymysglyd. Gellid tybied y byddwn i'n teimlo balchder briwedig a syndod fod y fath greadur â ngŵr yn gallu dod o hyd i serch o'r math hwnnw mewn unrhyw le, neu siom oherwydd fod ganddo fe, er gwaetha yn ymgyrch i gyd, un cysur ac un difyrrwech y tu hwnt i nghyrraedd i. Ond ar y pryd, ddaeth dim o hynny i'm meddwl o gwbl. Un peth a'n llanwodd i gyd. Sylweddoli o'r diwedd, neu y nhwylo yn hun, y mod i yn y bôn, yn danddaearol fel petai, yn ei hoffi, ie yn ei garu'n ddirdynol gyda holl gymhlethdod a symlder cariad. Mewn cenfigen hefyd. Er gwaetha'i wrthuni i gyd, fe'i carwn i fe y tu hwnt i bob synnwyr a dehongliad, nid o ffynhonnell rywiol yn unig, bid siŵr, ond syndod y byd, fel person, fel gŵr. Teimlo'i fod yn annwyl gen i ac yn angenrheidiol. Tosturio wrtho fe. Ei garu, yn llygaid ac yn goesau pwl-pog, ac yn anfodlon ac yn anobeithiol. Ymhoffi'n aruthr yn ei ddwylo. Roedd e wedi meddiannu y mryd benywaidd am byth. A thaflaswn innau'r cariad hwnnw a'r caredigrwydd a'r gostyngeddwrwydd hwnnw y tu hwnt i bob edfryd. Doedd dim modd aildechrau ddim. Roedd y cyfan wedi'i ddryllio gan Gwladys.

Cerddais i'n ara nawr ar hyd y llwybr rhwng lawntiau ein gardd ni at yr iet, ac allan i'r palmant. Ar y berth roedd mwyalchen yn y ngwyllo a'i phen ar un ochr. Yn llawn chwilfrydedd.

(Allan o'r gyfrol *Y Dyn Na Ddaeth Adref*)

## DIWEDD Y BYD

Dyma'r flwyddyn 2000. Bu'r amseroedd yn dra amyneddgar. Dim ond Cariad anferth a fyddai wedi goddef mor hir.

Ond roedd yr haul wedi hen flino ar y daith; ac er na ddeallai'r hyn a ddwedai, erfyniai hwnnw am gael tynnu i derfyn.

'Yr holl fomiau atomig yma, dyna sy'n ei gwneud hi,' meddai Jo mewn tafarn yn Mhen-y-maen.

Fe oedd yr unig un yno a oedd yn gwybod popeth; a holai gwas Pentyddyn e, 'Sut felly, Jo?'

'Wel, wyt ti'n gweld ... I fyny fan yna,' meddai yn ei ffordd gymedrol, heb symud ei ben, ond â'i feddwl yn pwyntio at y cymylau, 'fan yna lle y mae yna ryw fath o gerrynt trydan, a gwyntoedd difesur felly, fan yna, mae'r bomiau wedi drysu pethau. Wyddoch chi. Mae'r drefn wedi'i chwalu uwchben. Mae'n hunlle benbwygilydd.'

'Pwy drefn, Jo?'

'Wel, y drefn dechnegol sy'n arfer bod yno. Mae'r Americanaid a'r Rwsiaid a'r Tsheineaid a'r bois 'na sy'n gillwng eu bomiau ymhobman, maen nhw wedi malu'r peiriant fel petai. Ddaw hi fyth yr un fath eto. Stormydd a glawogydd annormal, dyna sy o'n blaenau ni, ffrindiau. Clapiodd ei wefusau. Does neb sy'n gwybod sut y bydd hi arnon ni ymhen wythnos.'

Glaswenodd rhai ymwelwyr draw wrth y cownter fel pe baen nhw yn y gyfrinach. Y tu allan i'r dafarn roedd y glaw wedi bod wrthi ers dau ddiwrnod yn ddiymatal, ond peth diogel ei wala yw glaw; tywydd fel popeth arall; hen elyn cyfarwydd y gwyddon ni sut y mae'i drafod e... Onid hindda sy mewn peryg?

\*

\*

\*

Yn nes i lawr y stryd y tu ôl i'r llenni gwlan coch yn Rhif 9, ryw ganllath o'r dafarn, fe ellid gweld bob amser ben canol oed a oedd yn gwyllo, gwyllo o'r gadair. Pys oedd yno! Ac ar bwys

Pys, roedd mab Pys, yn llygaid hyd at ei glustiau. Doedd neb a gâi basio ar hyd y stryd hon nas saethwyd mohono gan lygaid diniwed mab Pys. Gyda hwnnw e roedd ei ferch: creadures denau a brau a disymud, llysiuyn o ferch, a'i hirwallt yn streipiau gwinau ar draws ei bochau; ond fentrai hi ddim hyd yn oed at y llenni. Gwylfa arbennig mab Pys oedd y rheini. Rydys yn hen gyfarwydd â menywod busneslyd neu ymchwilgar, rhai na allan nhw fyth ymatal rhag yr archwaeth o ymholi ynghylch pob enaid byw sy'n pasio; ond Pys oedd y gŵr cynta a lanwyd gan yr unrhyw hiraeth â hynny, mae'n bosib, a cheisiwch ddyfalu pa gymhelliad a lechai yn ei fynwes e ac a'i hysgogai i eisteddian, awr ar ôl awr wrth y ffenest oer, tra oedd gwendid ei wyres yn eistedd mewn cadair freichiau gerllaw ac yn gwau'r oriau hynny'n flancedi. Roedd Pys a'i wyres o hyd yn disgwyl i'r awyr glirio ac i'r ddaear lasu drachefn odani.

Fe fyddai sylwedydd craff iawn wedi nodi na wnâi gwylidwriaeth chwilfrydig y gŵr canol oed claf hwn danio'r un mymryn wrth weld na phlant na phobl mewn oed yn prysuro heibio; eithr dihunai'i lygaid a fflachiai'i gyneddfau pryd bynnag y gwelai adar. Chwilio'r oedd e am adenydd gwyn; a nychai fe mewn tristwch ar ôl i un aderyn dof, a fuasai gyda nhw, ddianc ryw ddiwrnod. Colomen o fath, flynyddoedd yn ôl, oedd, a ffurf rhybudd. 'Amo' oedd enw'r creadures, ac yn isel ynghymysg â'i hanadl torrai'r ddeusill o'i gwddwg bob hyn a hyn yn erbyn y ffenest mewn hiraeth, yr hiraeth a grinai'r gŵr canol oed yn feunyddiol pan welodd y peth peryg yn dod.

Fe oedd y cynta i weld y llif yn codi ac yn rowndio pen ucha'r stryd. Dylifai i lawr megis neidr neolithig, a'i chorff hyblyg yn ymestyn o'r naill balmant i'r llall. Ai ar gyfer hyn, mewn gwirionedd, roedd y dyn gwanlyd hwn wedi bod yn aros? Byddai angen mwy nag adenydd gwyn arno o hyn ymlaen.

Roedd hi'n benllaw i lawr yn yr harbwr, a'r glaw mawr yn nes i fyny'r dyffryn wedi chwyddo maint yr afon a'i ffrydiau ffradach o'r mynyddoedd nes bod môr a mynydd yn cenlifo at ei gilydd yn gynulliad erchyll – yn ddeufor gyfarfod. Welsai Aber erioed ddim, na Sir Aber, ei hun, ddim o'r fath lifeiriant yn codi heb wahoddiad. Roedd hi'n fath o ryferthwy annaeol annifyr. Hawdd y

gellid dychmygu bod Jo yn gywir, a bod peirianwaith y drefn, lle bynnag yr oedd hwnnw, wedi mynd o chwith. Roedd y gronfa ddŵr wedi torri'r argae ychydig o filltiroedd i fyny'r dyffryn ac arllwysodd ei chynnwys yn ddidrugaredd i lawr tuag atyn nhw. Dyma fe'n dod yn awr yn fâs amhersonol, yn fateroliaeth afluniaidd, fel pe bai'n brysio'n ôl i feddiannu'i le, megis gwir ysbryd y byd.

Adeg llifogydd y mae pob math o anifeiliaid yn dod i'r golwg, – llygod Ffrengig na ddychmygai neb eu bod yn ymguddio ar bwys, chwilod roedd angen eu hanghofio, pethau seirff-debyg a malwod nas dosbarthwyd, mwydon llysnafeddog a phryfetach dienw. A symuden nhw ar draws gloywder wyneb y dŵr dienw hwn nawr, megis darnau llysieuyn mewn lobscows, ynghymysg â phethau llawer mwy dymunol a derbyniol.

\* \* \*

Spastig oedd Emrys yn Rhif 11, wedi'i neilltuo rhag pawb, ac wedi'i guddio'i hun rhag golwg y byd normal, ystwyth. Pan ddwedid wrtho fod rhywbeth yn amhosibl, roedd hynny'n ddieithrad yn gywir. Pan ddwedid iddo eto fod rhywbeth yn bosibl, ceisiai gordeddu hynny i beidio â bod yn gwbl anghywir. Byw yn ei feddwl roedd ef.

Iddo fe'i hun roedd e'n dameityn o felltith, yn destun dagrau wythnosol; ac ymledai ei hunangasineb yn genfigen beunydd a'i genfigen yn hunangasineb.

Iddo fe, doedd ei gorff hwn ddim wedi'i fwriadu i fod ond yn declyn cam. Peth trasig oedd y gomedi hon. Erioed allai fe ddim cofio pryd nad oedd yn dirmygu'i gorff, y peth hwn a siomai bob un o'i obeithion a'i drachwantau. Os oedd ei goesau a'i freichiau'n anffurfiedig, roedd ei nwydau mor ffres â'r blodyn gwanwyol pura. Run oedd uchelgais ei aelodau â'r iacha a'r ystwytha'i fyd, ond ni chaniatawyd erioed iddo fod yn ddim ond chwerthinbeth iddo'i hun. Gwrthodedig oedd e gan holl drefn gorfforol y gymdeithas, gan fod drysau a cheir a chadeiriau a phopeth wedi cael eu llunio ar gyfer ei erlid e. Edrychai Emrys yn awr yn bryderus o'i lofft ar bawb.

Ychydig o lathenni i ffwrdd, ym man parcio preifat y tŷ, nofiai bwndel o gorff baban fel

bocs gwag gan fwrw'n erbyn y waliau i lawr y stryd yn llif y dŵr. Peth a adawyd oedd. Ymddangosai'r baban fel pe na bai o iws i neb. Onid oedd rhywun a chanddo ddiddordeb rywle yn y bychan hwn? Siglai o'r naill ochr i'r llall heibio, yn sypyn o sorod meddal, ynghanol annibendod lawer. Ac yna'n ddisymwth, gwich: gwich o blith y bwndel, gwich doli neu lygoden neu gath wedi dala pawen yn y drws, gwich ddiystyr. Ond i Emrys, yr ystyr ganolog oedd yr atyniad iddo yntau yn awr roi ei gorff ei hun; dylai gyflwyno'r diwerthdra hwn i'r dyfroedd hyn, a thynnu'r tameityn bychan hwn yn waredig i lan.

Brysiodd yn drwsgl araf i lawr y grisiau. Cloff-nofiodd allan i'r llif tuag at y pecyn bywyd, ac wrth iddo fentro'r tonnau nawr cripiodd o'i goesau i'w ysgwyddau sylweddoliad newydd a chryfach mor wan oedd ei gwbl, mor ffaidd oedd ei esgryn hunllefgar hyn, mor union atgas ei gnawd. Allai fe ddim hyd yn oed marw'n daclus. Ymdreiglodd allan tuag at y baban, a thrwy ryw wyrth ragluniaethol, llwyddodd ei fysedd cam i ymafael ynddo. Tynnodd e tuag ato'n goleddus, ac edrych i mewn i'r wyneb hardd.

Rhaid mai peth fel hyn oedd ieuencid y ddaear. Anwesodd y bychan, a baglu'n ôl at y tŷ, ond roedd y llanw yn lluchio'r ddau bellach y tu hwnt i gyrraedd y drws. Damia'r pydredd hwn yn ei gymalau. Ble'r oedd ei draed, tybed? Beth oedd ei goesau'n ceisio'i wneud yn erbyn gwth y dyfnderoedd? Pownsiai o don i don fel sgrapyn o bapur, a'r perl o fychan yn ei freichiau o hyd. Codwyd e ar bwys ffenest, a llwyddodd yn ddisyfyd i hwpo'r plentyn i ddiogelwch ei sil, a'i ddodi'n sownd yn ei gornel, cyn iddo fe'i hun gael ei gipio'n derfynol gan y llanw. Nofiodd ei farwolaeth yn gorffyn hagr melltigaid i lawr y stryd.

Gorlifai'r dyfroedd ymlaen fel anifeiliaid tew dirifedi wedi'u rhyddhau gyda'i gilydd, dros ei gilydd, yn ei gilydd, yn bentyrrau o gnawd llaith wedi'u rhyddhau gan ryw Ddydd Braw hunllefus i rollo i lawr dan lygaid y bobl yn gwypm o saim a braster di-liw. Doedd dim dal yn ôl. Beth oedd Duw yn meddwl am hyn oll? Ellid ddim ond gorwedd a gadael i'r cwbl sathru drostyn nhw bellach, heb atal, heb rwystro, heb wrthod; a chael ei ffordd ei hun, dros gogyddion, bancwyr, gwerthwyr

pysgod, plismyn, postmyn, a chwech neu saith o ffermwyr o'r bryniau. Treiddiai'r llif i bob man mewn ewinedd tenau a chyrhaeddbell fwyn, i mewn rhwng bylchau yn y dannedd, rhwng blew'r gwallt, rhwng pwythau'r dillad, i'r tyllau chwys, ac i mewn ymhellach bellach i'r gwythiennau hwythau a rhuthro ar hyd-ddyn nhw oll hyd y galon.

\* \* \*

Ymhell i ffwrdd, mewn sychder diogel, a hithau'n ei diddanu'i hun y clywodd Diana, i fyny yn y dre, am y drychineb. Daethpwyd â neges iddi hi fod Joan, ei merch bum mlwydd oed, wedi'i dal gan y llif ac nad oedd un modd ei chyrraedd. Chwarae *bridge* roedd Diana wedi noson drom o ddawnsio ysgafn, a pheth yfed. Ychydig o ddi-ddordeb oedd ganddi yn ei chartre a phethau felly. Yma yng Nghlwb y Dorlan y deuai hi bellach bron bob nos i lawenhau-ailalw sbri ei hieuenctid (ymdroi cymdeithasol oedd y term uchel-ael). Yn sicr, roedd hi'n ugeinfed ganrif arni hi o hyd bob modfedd, a gallai'r hen Arthur yn burion gartre yn Rhif 27 warchod y byd yn ddynol drosto'i hun.

Craciodd rhywbeth y tu mewn iddi, sut bynnag, pan fwriwyd y newydd yn filain arni am y byd y tu allan. Mor giaidd, mor ddibaratoad, a hithau heb orffen y gêm.

'Mi ddof gyda thi,' cynigiodd Leslie. 'Mi ddof innau nghariad i,' galwodd John. Ond roedd hi'n magu byddardod yn ei phen wrth brysuro rhagddyn nhw.

Eto, wrth iddi ddisgyn tua'r harbwr, fe'i hataliwyd hi gan yr heddlu: 'Allwch chi ddim mynd rhagoch, Miss. Does dim byd yn eich blaen ond dŵr.'

'Ond mae'n rhaid i mi. Mae y merch fach i ... Joan...'

'Chi biau'r ferch fach?'

'Ie. Fi.'

'Does dim byd y gellid ei wneud Miss. Mae'r llif yn rhedeg yn rhy gry dros y cei.'

'Ond mae'n rhaid i mi. Joan yw y nghyfan i.'

'Mae'n rhy hwyr, Miss.'

'Rhy hwyr?'

'Ydy, yn rhy hwyr.'

'Rhy hwyr. Ond mae'n rhaid.'

'Rhy hwyr, Miss. Rhy hwyr.'

Ceisiodd fynd heibio i'r plismyn, a'i chalon yn ei llwnc, a bu rhaid i ddau afaelyd ynddi er mwyn ei dal yn ôl. Ciciodd hi nhw. Ysgydwodd yn rhydd a rasio i lawr at y dŵr, i afael ynddo, ond fe'i hataliwyd hi mewn pryd, a doedd dim byd ar ôl ond ei hing i droedio i'r dyfnder.

'Dŷn ni eisoes wedi treial, Miss. Mae popeth sy'n ddynol bosibl wedi cael ei wneud.'

'Dynol ddiawl! Triwch yr annynol!'

'All hi ddim bod yn fyw erbyn hyn.'

'Ond mae'n rhaid i mi... Joan!' gwaeddodd.

'Mae'n rhy hwyr.'

'Rhy hwyr?' Yn y rhy hwyr roedd hi'n dechrau byw erbyn hyn.

'Dowch nawr, Miss. Ddaw dim byd o gicio'n erbyn y drefn. Mae pethau'n gryfach na ni.' Roedd gwranddo ar y llais anniddorol hwnnw'n ystrydebu gwirebau fel hyn yn ddychryn iddi. Pethau. Mae pethau'n gryfach na ni,' meddai hwnnw. Beth oedd Duw'n ei feddwl am y fath osodiad?

Llaciodd yr anobaith yn ei breichiau, a chaniatáu iddyn nhw ei llywio hi'n ôl i gysgod un o'r tai cyfagos. Llerciodd Diana o fewn oerni y cysgod hwnnw. Mor dlawd mewn gwirionedd oedd ei chnawd. Ac roedd y cnawd pwysig hwnnw y funud honno yn hiraethu am fod yn ddall. Ceisiai anghofio gwirionedd Hanes. Y peth coronog hwn a ddathlai hi mor fuddugoliaethus aml: mor fasw oedd y cwbl, mor fregus. Suddodd i mewn iddi'i hun. Crynhodd ei chorff trist a'i hysbryd at ei gilydd mewn cytgorf clôs na wyddai hi erioed o'r blaen amdano; roedd yna ryw gyplysu newydd rhwng oerni'r corff ac oerni'r ysbryd, megis partneriaid mewn dawns a gyfansoddwyd yn arbennig ar ei chyfer hi. Roedden nhw yn un crwn cryno yno yn eu gwendid. O'r fath dwyll!

Ac felly y bu hi am awr. Ond dod i ben a wna awr hefyd. Neges anghywir oedd yr un a dderbyniasai yng Nghlwb y Dorlan. Plentyn i un o'r cymdogion oedd yr un a foddwyd, ac roedd



Arthur wedi llwyddo i ddod â dirgryndod glân eu plentyn eu hunain i ddiogelwch cyn i ymchwydd y llif fynd yn drech. Fe gawson nhw wlychfa gymedrol, heb ddim mwy. Dim. Nid pawb, bid siŵr a gafodd y fath fendith annheg.

\* \* \*

Ym mhen draw'r stryd roedd y fflatiau, dau floc yn union gyferbyn â'i gilydd. Yn Rhif 53 roedd Mari Tomos yn preswyllo; ac ar yr un llawr yn wynebu'r stryd yn union gogyfer â hi roedd fflat Ifan Hall. Ceisiai'r dilyw doddi'r fflatiau hyn a'r heolydd ynghyd yng nghyflawnder ei drwyth llydan. Roedd fel petai am gau amdanyn nhw, a'u dal yn sad yn ei ddwrn hylif. Ymegniai'r gwacter gwlyb, y talp o ddiffyg ystyr, at eu drysau a'u ffenestri megis corff o wynt yn taro, neu bobl bendramwnwgl, torf wasgedig ohonyn nhw, yn wallgo.

Truan o Fari! Roedd hi wedi fflyrtian a bloedd-chwerthin am ben Ifan Hall cyhyd, a'i chwerthin hi wedi cael ei gefnogi gan ei rwydded e, nes bod ei weld e fel arfer yn llawn ddigon i dwymo gwên ar draws ei gruddiau. Crwt o'r wlad oedd e, yn ddiâu, a'i emosiynau'n nofio i gyd bôb-bôb ar yr wyneb. Popeth yn y golwg – balchder siom y teimladau hynny– heb ddim cynildeb na hunanddisgyblaeth. Mor enbyd o naïf. Ef, i Mari, oedd yr un a feddai ar y tro mwya anwleidyddol anghywir yn ei lygad chwith a welsai hi yr ochr hon i Aber-carn.

Roedd hi wedi chwerthin lawer tro pan geisiodd e'i chyfarch, a'i chyfarch mor drwsogl. Dim ond chwerthin: roedd y chwerthin hwnnw'n godro'r diferion olaf o'i gwddwg yn symbol o ogan ac o urddas ei serch. Chwerthin wnaeth hi mor enbyd o hyderus, gan wybod hyd a lled ei gafael hi rywsut ar Ifan Hall a'i rhyddid cyfatebol rhagddo. Dyna fraint y feistres, arddywedyd rhythm y gwrthod, llywio'r gêm, trin y clwyfau; a chwerthin.

Mwyach, sut bynnag, allai hi ddim chwerthin wrth iddo ymdrechu i dramwyo'n erbyn y dymestl drosti, a thuag ati. Cododd e i'w chario hi. Y gwarchodwr gwyn a thawel, a hithau'n becyn ar ei ben. Allai hi ddim ond erfyn a gobeithio, a syllu ar ei arwriaeth annisgwyl. Ac roedd ei holl ymdrech e'n sarhad ar ei haruchelder hi.

Doedd yntau ddim yn siŵr bellach a oedd yn ei charu hi wedi'r cwbl gan mor drwm oedd ei ysgwyddau yn erbyn y ffrydlif. Yr unig beth a wyddai oedd ei fod e'n dwlu ar fyw, a bod ei falchder ffugarwrol y tro hwn wedi mynd yn rhy bell. Gallai fe'i gweld hi'n sbio'n ofnus i lawr tuag ato wrth i dunelli o ddŵr ysgubo a chodi o'i amgylch; a dychryn hyll a llwyr ar draws ei gwep hi. Suddodd hi dan amdo'r dŵr.

Allai fe byth droi'n ôl. Yr un pryd, roedd ei hiraeth yn hiraethu amdano'i hunan.

Y cwbl a ddymunai'i wybod bellach oedd ei gariad elfennol at fywyd, ei addoliad syml o'r profiad o fyw.

Roedd am gydio yn y cymylau â'i ddwylo y funud yna, am eu cnoi nhw'n dynn dynn rhwng ei gilddannedd. Roedd e am afaelyd yn ffresni'r awyr a'i gwasgu yn erbyn ei fynwes. Roedd y cwbl i fod yno'n her o fewn ei gofleidiad e, o fewn cwmpas ei anwes meddiannol. O'r herwydd roedd hyn oll o fewn ei gyrraedd yr eiliad yma ac yn anadlu afiaith, er bod yna dyllau gwyfyn ar ymylon cymylau, tyllau megis dagrau o hunandosturi, fel pe na bai croen neb arall yn crychu asgwrn cefn na neb arall yn lluddedu yn yr holl fydysawd. Ac a oedd neb a allai wynebu'r dychryn hwn heb y fath anobaith? – Doedd neb arall mor fyw yn cael ei dyllu gan dynged byth. Neb. Roedd tynged ei hunan yn flasus iddo heddiw. Sêr tynged y funud honno oedd y tyllau pry yn y nefoedd wen.

Mor afresymol ddygn oedd Ifan Hall wrth geisio'i harbed hi rhag troi'n un o'r gwehilion.

Cynhesai fe o'r tu mewn i flancedi y dŵr wrth iddo synied am y dasg. Rhaid oedd cadw'i lygaid yn agored.

Wrth ddihuno dan lyfiad y wawr, oni fyddai ei ymennydd bob bore yn llamu allan o'i gwsg, fel anifail gwyllt o'i gawell? Casâi e'r rheidrwydd o flaen ei gorff o gysgu. Hynny felly, – y peidio â gwybod, y difreuddwyd, y diffyg adnabod pawb a phopeth, y colli llwyr, – hyn felly oedd marwolaeth; a hyn a ddeuai i'w ran e'n anochel nawr os nad oedd yn ofalus. Drwy rai ffenestri cyfagos roedd rhai o fechgyn y fflatiau'n taflu hetiau i'r awyr. Anogwyd e ymlaen gan eu tipyn lleisiau. Doedd dim tric y gellid chwarae yn arbennig ar eu cyfer nhw nawr. Doedd dim dyfais na

dim moddion rhyfeddol y gellid ei ddarganfod mewn pryd fel y byddai iddo fe osgoi'r dynged dywyll hon. Hwn oedd ei dwnnel e. Hwn oedd y twll. Ai i mewn i hyn y tywelltid ei lwch nawr neu maes o law? Ac wedyn, oni chaeid y clawr yn dynn ac yn derfynol ar ei fygfa ddu, ddibwrpas, wag e? Dyma'r diwedd iddo.

Pe na ddeuai hynny yn awr yn y dyfroedd tywyll hyn, fe ddeuai rywbyrd wedyn, canys diwedd yw diwedd, a dyw gohiriad byr ddim yn esgus drosto. A pha wahaniaeth yw'r canlyniad? I'r un diben y deawn.

Yna, heb weled dim mwy, cysgodd Ifan yn fuan mewn llieiniau o ddŵr. Gorffennodd droedio'r glôb ar gylchwaith gwirion ei echel heb ffarwelio.

\* \* \*

Erbyn hyn yn nenlofft y Red Cow roedd Jo a'i gyfeillion oll wedi ymgynnull i arolygu'r sefyllfa dymhestlog yn gyffredinol a dod i gasgliad.

'Ti oedd yn iawn, Jo,' meddai gwas Pentyddyn yn edmygus. 'Glaw sy i fod heddiw.'

'Wrth gwrs y mod i'n iawn. Ac mi ddweda i rywbeth arall hefyd; mi wnaiiff y politicians gymaint o steics ryw ddiwrnod nes y bydd y byd i gyd o dan y glaw.'

'Tewch. Ni sy'n pleidleisio drostyn nhw. Ni sy ar fai.'

Ategwyd nerth proffwydoliaeth newydd Jo gan ddiweddar gyflawniad ei argoelion blaenorol nes bod ei awdurdod mwyach yn ei lordian hi dros y cwmni oll. Doedd neb yn amau bygythiad Jo.

'Edrychwch, Jo,' chwarddodd gwas Plas Hendri, 'ar y pethach yna ar yr wyneb.'

Roedden nhw i gyd yn awr am gyflwyno'r dilyw i Jo. Am ei fod wedi gwybod y cwbl amdano, fe oedd biau fe mewn ffordd o siarad; ac roedden nhw'n falch, mewn gwirionedd, iddo gael ei wireddu, a bod yna ryw synnwyr cyffredin yn eu plith o hyd.

Lledodd Jo ei gorff wrth y ffenest a syllu i lawr ar ei deyrnas wlyb. 'Dacw hi, mae'r cyfan yn mynd. Tŷ Williams y Post. Tameitiach o gwtsh yr heddlu. Simnai Ffatri'r Stalwyn. Dacw nhw, ffrindiau. Does ar neb eu heisiau nhw. Llenni nymbar nein. Gwely nymbar lefn.'

'Tameidiau o'r ysgol ar y ffordd, Jo,' cyhoeddodd gwas Plas Hendri yn falch.

Chwarddon nhw ollyngdod wrth ganfod bwrdd-du Jones sgwlyn yn llamsachu ar y tonnau.

Yna, disgynnodd cawod o oerfel hen ffasiwn hyd eu hysgwyddau bob un wrth weld y groes a safai fel arfer y tu allan i dragwyddoldeb Capel Bethlehem yn sboncio i lawr rhwng yr ysgubo gwyn hwn i gyd.

'Beth dych chi'n feddwl dŷn *ni* wedi'i wneud, Jo?' gofynnodd gwas Pentyddyn. 'Gwae y rhai sy'n beichiogi yn y dyddiau hynny. Gwae'r rhieni sy'n planta.'

\* \* \*

Y tu ôl i Glwb y Dorlan fe gaed carchar y dre, carchar preifat Pen-y-maen.

Dyma ben draw taith Tom a Rwth, yn y bws. Pan glywodd Thomas si fod yr heddlu yn archwilio'i euogrwydd arbennig e, fe ffodd i Gymbria. Gyrru o dan ddylanwad! Plentyn bach wedi'i ladd! Wyddai Thomas ddim beth oedd euogrwydd. A dihangodd yn hwylus i ddiogelwch y ffaith mai dyn mewn bws oedd e mwyach nad oedd byth yn gwneud dim. Roedd yn ddiniwed ac yn ddiuog. Roedd ei wraig wedi bod yn cega gydag e ar y pryd wrth iddo yrru'r car gynt dan ddylanwad. Roedd hi'n gweryl i gyd. Roedd hi eisiau plentyn. Merch. Ac roedd hi'n benderfynol o gael ei ffordd. 'Fydd dim angen i ti wneud dim wedyn... Oes rhywbeth sy'n brydferthach?... ' heriai Rwth; 'mae hyn mor naturiol i fenyw. Mae'n rhan o'i chorff hi. Mae fel petai 'na hedyn o hiraeth nad oes dim o'i gyflawni nes dal plentyn yn dwym yn erbyn y fynwes... Fydd neb yn dy boeni di wedyn... Lle agored yw'r byd. Cei di fynd allan i'r clwb criced yn ôl dy arfer...' Ceisiai ddarlunio i'w gŵr y darlun o fywyd normal o hyd.

Ond ar ôl dianc i Gymbria, gwyddai fod rhaid dod yn ôl i Ben-y maen. A dyma hwy ill dau yn teithio'n ôl mewn bws gyda'i gilydd.

Roedd hi fel pe bai'n dygyfor ers oriau yn awr yn erbyn ei wyneb a'i wddf a'i glustiau, yr holl ffordd i lawr mewn bws o Gymbria bron yn ddi-stop. A oedd yr obsesiwn wedi datod rhyw gydiad allweddol yn adeiladwaith ei meddwl hi? 'Mi wna i ofalu y byddan nhw'n dawl,' meddai hi,

'ac fe gân nhw fynd i'r gwely erbyn y doi di adre o'r gwaith. Fydd dim rhwystr. Fe fydd popeth fel petaen nhw ddim ar gael.'

'Fyddan nhw ddim ar gael.'

'Ond Tom.' Distawodd hi. Un frawddeg fel yna ganddo fe'n gwta ddigon bob yn awr ac eilwaith i gael llonydd am ysbaid. Ac yna wedi i'r tywydd oeri, fe dwymai hi gan bwyll bach o'r newydd nes codi'n anochel i'r berw.

'Fe fyddwn ni'n gallu cymryd gwyliau fel hyn maes o law, yn gwbl rydd. Does dim angen i blant ddrysu trefn ein bywyd. Rwyt ti'n meddwl y bydd plant yn symud canolbwynt disgyrchiant tŷ ni.'

'Ond fe alla i brofi... '

'Profi?' ebychodd Rwth.

'Chaiff y plentyn ddim magwraeth gen i.'

'Ond Tom.'

Ac yna, egwyl arall o lonydd, llonydd sur a gelyniaethus.

Bob nos roedd hi wedi breuddwydio am y plentyn coll, a gweld ei wên bur a chanu i'w groen gwyn. Daliai hi fe i fyny i'r haul fel aberth, y creedig i'r Creawdwr, yn oenig hyfryd heb neb yn debyg iddo. Roedd e'n ateb ei holl obeithion, yn rhyw fath o Fab Darogan wedi cyflawni gorchestion di-rif ei bywyd hi.

Ailddechreuodd Rwth ar y cyhuddo a'r ceintachan cyn bo hir gyda'r dyfalwch prenaidd yna sy gan fenywod; ac oherwydd anystwythder undonog taith y bws, erbyn cyrraedd tua maesdrefi Pen-y-maen, lle oedd damwain wedi digwydd, mi ymysgydwodd e ryw ychydig, a dechreuodd ateb yn ôl. Ateb, ateb. Poerodd ei atebion ati, yn ddiarbed.

Roedd hi wedi ymosod ar ei ddynoliaeth e a lledawgrymu ei fod e'n hunanol.

Gwibiodd heibio i'r ffatrioedd, a'i simneiau'n atalnodi ei bendantrwydd e; dros y pontydd a phob pont yn mynd ag e ymhellach oddi wrth freuddwydion ei wraig, ac yn nes at y man lle y bu'r

ddamwain.

Yno, ar yr hewl ar ganol y cweryl, trawyd y plentyn. Gwibiodd Tom yn euogrwydd ei gar yn ei flaen mewn ofn a dychryn. Ceisiai euogrwydd Tom yrru ymlaen a chwilio am esgus. Ceisiai ddianc rhagddo fe'i hun. Ond roedd pobl wedi gweld rhif ei gar. Ac yn awr fe'i gwyswyd e i orsaf yr heddlu ym Mhen-y-maen. Heb ei gar. I union ardal Llys yr Ynadon lle y bu'r ddamwain.

Ac yna, fe ddaeth eu sgwrs i gyffiniau'r Dilyw. A dechreuai'r llifogydd dasgu olwynion y bws bob ochr. Roedd y Dilyw wedi dod yn agos i gydwybod ei frest, ac yn cau am ei glustiau a'i wddwg. Anesmwythai gyrrwr y bws oherwydd bod dau o'i gwsmeriaid yn codi'u lleisiau, ac yn aflonyddu ar y cyd-deithwyr.

Dihunodd Tom o'r lled breblan gyda hi. Gan mor undonog fu cecran ei wraig, undonog fu cwsg ymwybod ei gŵr. 'Dw i mor brysur,' meddai fe.

Gwelai'r pontydd o'r newydd y prynhawn yma yn y bws, yn ymddangos mor wahanol yn y dŵr, a syllai ei ffyrnigrwydd at ei wraig.

'Ond Tom! Ffeindaist ti ddigon o amser i fynd i Gymbria. Rwy'ti'n ffeindo amser heddiw i ateb yr heddlu. Os oes yna rywbeth dibwys o bwysig fel amheuon yr heddlu ynghylch bod dan ddylanwad, yn hytrach nag ychwanegiad yn y teulu, rwy'ti'n ffeindo hen ddigon o amser.' A oedd hi mewn gwirionedd yn coelio cyhuddiadau celwyddog, carlamus yr heddlu yn ei erbyn e heddiw?

'Amser i beth? I Gymbria?' meddai fe. 'Dim ond mynd i ymgynghori â mrawd wnes i. Dim ond.'

'Pam hel rhagor o berthnasau cythreulig?' meddai hi. 'Rwy'ti'n gwybod bod gynnon ni lond gwlad o berthnasau eisoes, ar ôl y tad-cu Fictoriaidd yna a ledodd ei had hyd y ddaear. Ac rwy'ti'n gwybod am eu dwrdio nhw – “Pryd dych chi'n dod i'n gweld ni, Tom?” – Pethau sy am feddiannu pobol yw perthnasau. Mae bysedd hir ganddyn nhw i gyd. Maen nhw fel perfformwyr mewn Sŵ, eisiau i chi fynd i'w gweld nhw o hyd. Ac ar ôl eu gweld nhw, maen nhw mor ddychrynlyd o gyffredin. Ond does dim ots: mae gen ti amser iddyn nhw. Wel, beth wyt ti'n wneud ond awgrymu

rhagor o berthnasau? Ond dyfeisio perthnasau newydd! Esgor ar gadwyni! Gofyn am drwbwl! Ych!

Roedd y bws yn gyrru fel cath i gythraul erbyn hyn. Roedden nhw wedi ymadael â'r wlad ac yn dod i blith adeiladau diwydiannol. Ymddangosai'r holl ffatrïoedd fel pethau noeth, heb ddim meddalwch i'w cuddio nhw rhag y dilyw. Yn gywilyddus o noeth safai'r ffatrïoedd newydd a'r tai o'u blaen yn sydyn. A gellid meddwl fod rhyw noethni digywilydd corfforol ac euogrwydd wedi digwydd fel hyn, gynt ymhlith tai Eden; nid yn unig i'r noethni a ymddangosai yn y meddwl, ond rhaid bod rhyw fân orchudd o flew twym wedi syrthio i ffwrdd oddi wrth gyrff popeth yn Eden, gan adael y gwynder oer a syth ar ôl, neu fod bod oll yn ddiddillad yno yn symbol o ddiweirdeb. Gwyn a llwyd oedd y waliau megis wedi bod ymhell o olwg yr haul, o dan y ddaear fe ddichon, yn golofnau iâ a chaled yn y gwynt. A gellid clywed fel roedd pelydrau'r haul yn taro'u hochrau yn galed a hwythau'n atseinio'n ôl fel hen duniau. Berwai'r berthynas rhwng y ddau.

'Fe fyddan nhw'n clymu arnon ni fel llygaid maharen. Byddan nhw'n disgyn ar bawb. Y plant, dw i'n feddwl!' meddai fe.

'A mwy na'r plant!' meddai hi.

Fflachiai siopau a swyddfeydd heibio i gornel ei sbectol e, fel cathod neu o leia bennau cathod yn ymryson ras i'w hatgoffa eu bod yng Nghymru erbyn hyn.

'Fe fyddan nhw'n sugno 'y ngwaed i fel byddan nhw'n sugno dy laeth di. Sugnwyr blynyddoedd fyddan nhw,' meddai Tom.

Rhyfedd bod ei sugno hi wedi gorffen ers cyhyd o amser. Dechreuon nhw eu gwelya ynghyd fel pâr priod yn ddigon cafalr. 'Enjoio' oedd ei air e amdano. Ond byddai hi'n achwyn am ei fod e mor ofalus; ac ambell waith yn lle'r parodrwydd awtomatig iddo, fe fyddai hi'n anesmwyth ac yn gyndyn, a'i haelodau'n tynhau er ei bod yn dal i'w dderbyn e o hyd mewn rhyw ffordd mewn math o sgarmes efallai.

'Rargian, Rwth. Beth yw plentyn? Dyw e ddim yn werth taten y dyddiau hyn... Tyfiant anghysurus yw e yn y corff, baich i'w daflu i ffwrdd, sbwriel... Ac eto does dim torri i ffwrdd... nid

tomen ar gyfyl y dre yw... gwas yn esgor ar feistr... tawelwch yn meithrin sŵn i gael ei ddistrywio ganddo...'

'Blodau Tom! Blodau a'u haroglau fel llaeth.'

'Lladron yn dwyn blynyddoedd... gofidiau hir mewn trowsus byr.'

'Ŵyn!'

'Yng ngwaelod sach y mywyd fe fydd 'na blwm, rhag imi nofio'n ôl i'r wyneb... clymu o gylch y ngwddwg.'

'Breichiau, Tom. Tameidiau o aelodau.'

'Gwrthryfelwyr yn erbyn yn awdurdod i. Dyna fydden nhw. Herwyr y nheyrnas... Cau amdana i ... llithro dan y grât... chwythu eu tywod dan ymylon ffenest a thrwy gil y drws ... colli'n llais, y nghnawd... , y nhebygrwydd yn hun... Mae gen i lot fawr o gydymdeimlad â chynllunio teuluol Tsheineaid.'

Trodd e ar un ochr a gwelai o'r bws ysgrifeniadau a adawyd yno ar wal un o'r tai a wibiai heibio. Gwibiai'r bws ambell waith drwy dwnelau o strydoedd cul, unffurf, diwydiannol.

'Wel, er y mwyn i, Tom.'

'Taw, wnei di. Gad fi'n llonydd. Mae annibyniaeth yn beth pwysig i mi. Mae'n gas gen i bob ymgais i'm meddiannu i.'

Yng nghabledd ei drosedd, roedd balchder y duw unig yn ffynnu ynddo, – yr Undod ac nid y Drindod. Codai'i lais i sgrech aflafar. Ac roedd ei galon yn ei lais, yn gwaedu ar hyd y sillafau ac yn pwmpio drwy bob goslef.

Oherwydd bod eu sgwrs dlawd yn tynnu sylw clust y gyrrwr, trodd hwnnw'i ben druan am un eiliad. Un eiliad.

'Gwylia.'

'Gwylia?'

'Gwylia!'



Plentyn bach oedd yno o'i flaen. Ar y ffordd. Dan y ffordd. Bychan. Diymadferth. A thrawiad y bws yn erbyn ei gorff hereticaidd yn cael ei deimlo ymhell y tu ôl i arwyneb caled y metel ei hun. A fe, Jo, a'i hachosodd eto. 'Tynnu sylw'r gyrrwr!'

Egwyl fu hyn o atalfa. Ymlaen at y carchar, yn awr, ac o gylch ei glustiau – cyhuddiad ei gyd-deithwyr.

Hebryngasai Rwth Tom hyd at gofrestrfa'r carchar yn Swyddfa'r Heddlu. Ac yna, ffarwelio â'i gilydd am ddwyawr.

Edrychon nhw'n farw ar ei gilydd o dan wyliadwriaeth fusneslyd y gwarchodwr wrth ffarwelio, a'r naill fel y llall ohonyn nhw'n sôn am y ddamwain newydd, ac yn beio'r gyrrwr.

Edrychai Tom o gwmpas y waliau, a'r lloriau, a'r diffyg ffenestri.

Bowlen gron o gawl oer yw cariad o wydr tenau addurnol, a honno'n dal amryliw enfysau yn ei gwallt melyn. Hawdd ei dryllio'n fyrddiwn o fân ysgyrion. Ymddetyd os bygythir, fel ei gorff e nawr.

Cwlwm sy yno hefyd, tu mewn i'r bowlen gariad. Gwydnwch a dur yw'r cordyn.

Ond cedwir y bowlen ei hun ar flaen myniawyd fel y gall yr awel leia ei bwrw drosodd a'i gwasgaru, a'i chwalu. Does dim diogelwch, dim cysur, dim sefydlogrwydd.

Tu mewn i'r bowlen mae'r belen: ei galon.

Ond os collir, os torrir y bowlen, llithra'r belen ar draws y llawr ac i mewn i'r gornel, neu fe'i sethrir dan draed.

Cwlwm yw'r belen bellach heb gartre.

Dynladdiad! Plentynladdiad! Ac arna i roedd y bai.

'37733! Mae 'na ymwelydd i'ch gweld chi.'

'Rwth.'

'Tom!'

Un gair, un gair o awch greddfoll. Enw! Ac yna'r elyniaeth ddofn, gynhenid; y tawelwch a'r

gofod sy'n gwahanu rhwng corff a chorff a rhwng ysbryd ac ysbryd mewn cell.

Teimlodd law ei wraig yn cydio yn ei law ac yn tynhau.

'Does dim caniatâd i gyffwrdd â'r carcharorion,' ebychodd y gwarchodwr.

Roedd Tom fel blodyn mewn sioe neu enghreifftyn mewn amgueddfa, a gallai ymwelydd syllu arno o chwilfrydedd am ei fod wedi gwneud y fath beth, ond byth ni ellid ei dderbyn e yn ôl i fywyd naturiol y gymdeithas. Roedd e'n falch i gael ei gosbi nawr. Fe fyddai'n dda pe bai'r holl fyd yn codi i'w fflangellu fe.

Edrychai ei wraig arno, serch hynny, fel un nad oedd dim yn real iddi yn y byd ond tosturi a hiraeth sanctaidd. Byrlymai cariad drwy'i llygaid, ac roedd hyn hefyd yn greulon iddo fe.

'Does dim angen plant. Dim ond i ti ddod 'nôl,' meddai Rwth. 'Mae hyn yn ddiwedd y byd.'

Iddi hi roedd 'plentyn' yn golygu rhywbeth hollol wahanol i'r hyn a wnâi iddo fe. Iddi hi roedd ymatal rhag planta yn fath o ympryd neu benyd, yn rhan o hunanboenedigaeth y bywyd hwn lle y mae pob un ohonon ni wedi'n cyfyngu gan fôr o dywyllwch, a rhaid i ni ymlwybro ymlaen ar y penrhyn cul gan gilio i mewn bob yn awr ac eilwaith rhag gafaelion bygythiol y caddug hwnnw. Ildio gerbron yr anochel sy mewn bywyd marwol, dyna oedd bod heb blentyn iddi hi. 'Dim angen plant.' Gallai hi ddal i fyw a dioddef a bod yn hapus yn ei gŵr, gan roi diofryd i'r moeth ychwanegol hwnnw. Mynegai'i dychymyg anwiredd er mwyn cysuro'i gŵr yn nannedd y bygythion a'u dilladai.

Trosedd sy'n lladd yw pob trosedd, hynny a dreiglai drwy'i feddwl.

Ond beth oedd plant iddo fe? Codai'r gwaed i'w lygaid am foment, wrth iddo ymholi o hyd, onid pethau i'w distrywio oedden nhw, pethau i gael gwared â nhw? 'Dim angen plant. Lleddwch y diawliaid mewn argyfwng. Cliriwch y stecs o'r ffordd. I lawr â nhw. I ffwrdd â'r cwbl. Allai fe ddim goddef eu presenoldeb. Certhwch y byd, glanhewch yr hewl: glanhewch, glanhewch – ond ddaw glendid fyth yn ôl drachefn, fyth eto i'r hewl hon. A hyn yw diwedd y byd. Dim ond cyplau heb ddim plant.'

'Fe fydda i'n ffyddlon i ti, Tom, nes y deui di ma's.' Doedd hi ddim yn siarad ag e, ond â'r

hwn a oedd ar ôl ac yn ei hwynebu hi nawr. Roedd e wedi'i barlysu ac yn derbyn ei seiniau hi i'w glustiau heb eu treulio nhw o gwbl.

Aeth hi ymlaen i lefaru o'i flaen, ond fedrai fe ddim gwranddo mwyach, hyd yn oed ar ei feddyliau fe ei hun, gan mor bŵl oedd y byd. Ond roedd e wedi ewyllysio'i golli'i hun.

Dirwynodd yr hanner awr i ben ac ymadawodd Rwth eto gan droi allan i strydoedd oer Rhagfyr, o fyllni mud y carchar cynnes. Y tu mewn roedd hi wedi bod yn llethol o drymaidd, a phe buasai felly y tu allan byddid yn tybied fod storm arall yn yr arfaeth, mor gnawdol o dew oedd yr awyr yn ei genau, rhwng ei chılddannedd poenus fel lymphiau yn ei bochau, a'r gwyniau yn gwasgu ar ei thalcen. Yn awr, fe estynnai ac agorai'i dwylo i'r wybren.

Heb wên a heb agor ei lygaid braidd fe gloffodd Tom yn ôl i'w gell; ond wrth iddo fynd fe hedai o gwmpas ei wallt ddarnau o ymadroddion, drylliau o frawddegau... ffyddlon i ti... dim angen plant... deui di ma's... angen... ffyddlon. A thra gorweddaï fe ar faine yn y gell, stiwiאי cariad ei wraig yn ara yn ei berfeddion nes dod yn ara deg i'r berw.

Ei chariad hi oedd ei edifeirwch e nawr. Ac roedd e wedi bod mor fwystfilaidd yn difetha'i phlentyn hi yn ei feddwl, fel rhywbeth gwyllt yn y nos wedi bod yn herwela drwy waelodion dulas fforest. Ond treiddiai goleuni ei chariad tuag ato drwy'r cwbl...

Am bump yn union roedd y caplan yn cynnal gwasanaeth arbennig noswyl Nadolig, a rhoddaï hyn gyfle iddyn nhw oll gael peth dihangfa, am hanner awr o leia, rhag undonedd eu celloedd. Eisteddaï Tom yng nghanol y rhesi o garcharorion yn yr iard, a sefyll yn llwyd gyda nhw i ollwng carol o'u hysgyfeiniau caeth euog. Roedden nhw'n cael gwasanaeth Nadolig dan ofal y caplan. Allai Tom ddim namyn edmygu gwir gariad ei wraig, a sylweddoli'r grym a oedd yn ei chroth, y bydysawd cudd, y gwelediad a oedd yn adleisio rhyw reidrwydd drwyddi hi ac ynddo fe gan lunio patrwm cyfannol mawr.

'Fe fydda i'n ffyddlon, Tom.'

Wrth gwrs. Câi, fe gâi hi ei phlentyn. Allan o'r bedd hwn o wraig a oedd yn fedd o enaid yn

awr, rhaid fyddai codi plentyn newydd, a byd newydd, ryw ddiwrnod.

Canai fe emyn o glod iddi mwyach, a chynhesai ei gorff i gyd yn y weithred. Cynhesai ei forddwydydd a'i wefusau benbwygilydd. Toddai ei ddwylo a'i fynwes. Dechreuai'r iâ gracio'n edifeiriol.

Safai'r carchar yng nghanol y môr ola.

Cododd y caplan, a chan fwrw golwg garedig o ddifater ar y rhesi o'i flaen, dechreuodd ddarllen yn bwyllog. A gwrandawai'r carcharorion i gyd arno mewn syndod, ar y llais hollol gymedrol yn parhau brawddegau hen, hen:

'Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd e... '

Weli di y nwylo, Tomos?

(allan o'r gyfrol *Daw'r Pasg i Bawb*)

## TU HWNT I'R GORS

'Mil o eiriau: digonedd o sgwrsio: reit ysgafn,' meddai'r golygydd parablog wrth imi gydio yn y nghetyn ac ymadael â'r swyddfa yng Nghaerdydd. Dyw 'gwirionedd' trafferthus ddim i fod i ymyrryd â newyddiaduraeth: dŷn ni i gyd yn y diwydiant diddanu. Mae gan y Gol. (pan lithra 'ffeithiau' dros y gorwel) ymddygiad cafalîr yn ei swydd – fel math o iwniform ar barêd.

'O, a rhyw bwt bach am y teulu, rhyw sgandal os gellwch chi,' bloeddiodd drachefn cyn imi glapio'r drws.

'Ioan Siencyn y storîwr' oedd y cynta yn y gyfres o 'bortreadau', ac roedd y Gol. (sill annioddefol, ond felly y bydden ninnau'r gohebyddion mwya llencynnaidd yn ei alw) am i bob cyw gohebydd gychwyn pob erthygl fel roced, drwy gydio yn sylw'r darllenydd gerfydd ei drwyn.

'Gair bach am yr amgylchfyd rhamantus hefyd,' nodais yn y meddwl yn hun wrth ymdreiglo ar draws Cors Caron, wedi tybied fod y fro lom honno yn yngan yr ing â phlu'r gweunydd, sy'n gryndod wrth ddychmygu'i ofn pluog yn ymysgwyd mor ddychlamus drwy gydol storîau'r awdur hwn. Brawddeg neu ddwy efallai i daro cis ar yr awyrgylch, felly, heb fynd yn rhy drwm.

Fe fwriodd hi law arna i yr holl ffordd i Geredigion. Ac yna, goleuni.

'Dim byd trwm,' gwaeddai drws ystafell y Gol. yn y nghlustiau o hyd; ac allan â mi i'r gors. Arwyddair y Gol.? Yr un â sgrechair Alfred Northcliffe, sylfaenydd y *Daily Mail* a'r *Daily Mirror*: 'Cofiwch: dim ond deg oed ydyn nhw.'

Roedd gen i eisoes ymdeimlad hefyd, ar y nhaith, o bresenoldeb llygaid ymysg y brwyn, a synhwyrrwn fod yna wyliwr cudd o fath. Roedd hyn o ymwybod fel pe bai'n bygythiol gofnodi yn ymweliad i â'r fro mewn llaw-fer. Gwyddwn o ddifri, felly, fy mod ar drywydd Ioan Siencyn yn ei gynefin. Syllwn ar ddiferion bach o oleuni yn hongian ar frigau'r brwyn. Caed cipolwg o rywun acw, ond heb ei awgrymu pwy oedd e ei hun yn llawn. Roedd wedi'i wisgo mewn cuddliw. Dyna iwniform milwrol addas i'r parthau diffaith hyn. A oedd e, – yn llanc ifanc o bosib, – yn llechu ar yn ôl i y funud yna, i sbio rhwng y brwyn prin ar yr ymwelydd estron hwn? Dylai'r Gol. fod wedi dod yna ac archwilio'r tir yn arloesol ymlaen llaw wrth farnu addaster y gwrthrych neu beidio ar gyfer cyfres gyfrifol.

\* \* \*

Cwmwl o wraig gyhyrog a breichiog a lanwodd y drws yng nghartre Siencyn, yn anghroesawgar pan gurais.

'Eisiau gweld Ioan sy arnoch chi!' meddai hi'n amheus. 'I beth?'

Ceisiais esbonio amcan y nhaith, ond roedd yn amlwg ei bod hi'n anghredu'r cyfan ac yn disgwyl ymateb gwahanol.

'Beth mae e wedi'i wneud? Gallwch ddod i mewn i aros amdano os mynnwch chi.'

Ond adawodd hi ddim gronyn rownd ei hymylon ei hun fel y gallai dim ohono i ymwthio i'r tŷ. 'Awr, efallai,' atebodd hi pan ymholais faint o amser a oedd cyn iddo ddod yn ei ôl. Ond ches i ddim y ngoleuo ymhle yn y byd y gallai fod ar y pryd.

'Tai Charles yma, fe allai fe fynd â chi. Ond wiw ichi ei mentro hi ar eich pen eich hun.'

'Charles yw'r ...?' meiddiais i'n ymholgar gan feddwl y byddai hi'n gorffen y frawddeg â'r gair 'mab' neu 'was' neu rywbeth felly; ond roedd hi'n hapus anwybodus ynghylch yn chwilfydedd i.

'Mae Charles y ngŵr hefyd allan ar fanwfers, a ddaw e ddim yn ôl nes bydd hi'n dywyll ym mhen pum munud.'

Synhwyrais iddi wneud rhyw dameityn o ochenaid athrist ar ôl y datganiad ola hwn.

'Croeso i chi aros,' meddai hi heb syflyd, 'ond allan mae Charles ac Ioan. A does gen *i* mo'r amser byth i glebran.'

'Allan te,' meddwn i wrtho i yn hun a thremu yn ôl dros y caeau moelion gan ddyfalu hydeimledd rhyfedd y mab, sef y storïwr arfaethedig ac enwog yn llercian o'r golwg ymysg y rheini gan hel profiadau newydd o lymder i'w enaid brau. Stwff diddim rhamantiaeth i'r darllenwyr.

'Mae hi'n sych,' meddwn i wrthi hi, gan siglo fy llaw tuag at y gwynt a'r cymylau a'r mynydd.

'Ydy, gwaetha'r modd.'

'Mi wna i stelcian o gylch y caeau ryw ychydig nes iddo ddychwelyd,' meddwn i, 'i gasglu awyrgylch.'

Caeodd hi'r drws yn ddiogel heb dorri ychwaneg o eiriau, a throis i'n ôl i gynilo amser ac i gynnull awyrgylch – ychydig o frawddegau efallai, heb fynd yn rhy hir.

Unwaith eto roeddwn i'n ymwybodol o'r llygaid crwydrol cudd, ond y mod i bellach yn medru hongian dewis label wrthyn nhw: Charles y tad neu Ioan y mab. Y rhain, yn ddiau, oedd eu manwfers. A gwyddwn, yn awr, sut y byddai'r mewnfudwyr truaïn yn ei deimlo pan ddaethon nhw'n gynta i'r ardaloedd hyn cyn i'r brodorion ymwthio allan o'r perthi a'r ogofeydd i lyfu'u traed; a rhyw argraff hefyd o fygythiad cyfrwys ac ansicr gan y Saeson ynghymysg â'r syniad y gallen fod yn y bôn yn peri ofn i'r trigolion ansylweddol hwythau.

Deliais i gerdded gan fod yr haul yn hwyliog a'r awel yn denau, gan bigo fy ffordd i, yn garcus rhwng y creigiau i fyny'r llechwedd, ymhellach bellach i'r rhamant.

Ymhen tri chwarter awr, gwelais ffigur crwm, bychan mewn cae heb fod nepell oddi wrtho i yn ymyl clwyd, ac wedi nesáu ato canfyddwn i fod ei wyneb yn cyfateb i'r lluniau a welswn o'r blaen o Ioan Siencyn. Chododd e ddim i edrych arna i pan ddeuthum ar ei bwys, eithr cadwodd ei

ben yn isel uwchben y glwyd yr oedd yn ceisio'i chyweirio.

'Mae'n hyfryd gweld yr awdur yn ei gynefin, mewn osgo ymarferol fel hyn, mewn gwaith corfforol,' meddai, 'Ha!'

Roedd yr hyn y gallwn i ei weld o'i wyneb yn gwbl ddifynegiant. Ond hwn a glywai dawelwch y mynyddoedd yno.

'Dyma'r math o lun y byddai'r darllenwyr yn licio'i gael,' meddwn i. 'Yr awdur yn trwsio clwyd yn llewys ei gryd.'

Rhegi dan ei anadl roedd e wrth geisio cael gan y glwyd ffitio'r adwy'n ddechrau. 'Tir yw tir, does dim ots ble,' meddai.

'Ga i eich helpu chi,' cynigiais gan frasgamu ymlaen. Ac yna, cododd Ioan Siencyn ei ben a rhythu arna i gyda'r fath wyneb yn llawn dioddefaint ac ing nes imi dynnu'n ôl mewn dychryn. Llygadodd e'i glwyd drachefn, ac roedd hi'n amlwg iddo'i gweithio hi'n rhy fach o lawer ac y byddai angen rhywbeth arall nawr, i lenwi'r bwlch, er nad oedd e'n fodlon derbyn y ffaith honno, a daliai i geisio cyflenwi'r diffyg rywfodd arall.

'Ydy'r math hwn o broblem ... ' dechreuais, ac yna stopiais a bwrw cipdrem o amgylch y gweunydd, 'ydy'r wlad yma i gyd yn ei hamgylchfyd yn rhoi maeth esthetig i chi ar gyfer y storïau?'

Atebodd e ddim; roedd wedi troi'r glwyd y ffordd arall yn awr, fel pe bai siawns y byddai ei chefn hi'n lletach na'i ffrynt.

'Dych chi ddim yn teimlo bod cyweirio clwyd,' dwedais i'n sydyn, 'yn weithred wareiddiedig, yn fath o weithgaredd hynafol ac adeiladol sy'n rhan o ddyfnder y cefndir Cymreig?'

Chododd e ddim o'i ben, ac welais i ddim hyd yn oed ei ddioddefaint. Gadawodd y glwyd, ac aeth i dwrian mewn cornel yng nghlais clawdd cyfagos, a daeth yn ôl â morthwyl, llif, a dyrnaid o hoelion. Gallwn i ffansio y byddai'r offer hyn yn bwrpasol ddigon pe bai e am docio hyd y glwyd a'i gwneud hi'n llai, ond allwn i dim dyfalu sut y gallen nhw fod yn ddefnyddiol ar gyfer y dasg bresennol. Eithr dechreuodd e'n systematig dynnu'r glwyd ar wahân, gan ddatod y cwbl yn ofalus, ac yna ei hailadeiladu â llai o ystyllod traws, ond y rhai a ddefnyddiai yn rhai dwbl, ac felly'n debyg o wneud clwyd, ddwywaith hyd yr un flaenorol. Bûm ar fedr awgrymu y gallai'r rhai dwbl hyn gael eu doddi at ei gilydd ar letraws fel y byddai'r glwyd yn gymwys i'r adwy, ond feiddiwn i ddim yn y myw dorri ar y straen emosiynol a oedd yn gwasgodi dros yr awdur ac yn ysigo'i holl amynedd erbyn hyn. Roedd yr awdur yn ŵr a oedd yn teimlo pethau. A hyn oedd ei wareiddiad.

Ymhen ychydig, cododd ei ben a'i ysgwyddau i orffwys ac i ochneidio'n ysgafn, ac anadlodd allan ryw ryddhad anferth; yna, llygadrythodd arna i gyda'r unrhyw ddioddefaint ag o'r blaen ond â rhyw garedigrwydd dieithr wedi'i ychwanegu.

'Dowch 'ma imi gael eich gweld chi,' meddwn. Ond roedd edrych ar ei wyneb, a'i wallt hir,

yn debyg i sbio drwy we pry cop. Math o sgerbwd anaemig oedd e. A pho mwya y straenech chi'ch llygaid i graffu ar ei fanylion, mwya annelwig yr edrychai'i esgyrn ef yn ei ôl.

'Chi felly yw'r crwt o'r *Ceidwad Cymreig*,' meddai wrthyf.

Cyfaddefais y mod, yn wir, yn cynrychioli'r papur hwnnw, a chyflwynais yn gryno amlinelliad o bwrpas y nhaith.

'Dowch i lawr i'r tŷ,' meddai gan adael y glwyd, 'ac fe gawn sgwrs am y byd a'i bethau.'

Ufuddheais.

'Beth dych chi'n feddwl am wallt Charles y ngŵr?' gofynnodd ei wraig pan oeddwn wedi ymsefydlu ar y setl o flaen y tân.

'Ffasiynol,' meddwn innau'n hynaws.

'Dw i'n ceisio peidio â chweryla,' meddai hi.

'Dyna chi,' meddwn innau'n anrwyddig.

'Mae 'na bethau pwysicach, on'd oes?'

'Oes, yn ddi-os.'

'Gymrwch chi gawl? Tamaid o gawl Cymreig gyda Ioan.'

'Dych chi'n garedig iawn.'

'Gwallt Charles!' meddai hi drachefn, fel pe bai'r atodiad hwnnw wedi'i rhwydo hi. 'Mae lladd yn bwysicach na gwallt, ond yw e?' meddai hi'n athronyddol. Roedd y gosodiad hwn wedi nharo i braidd yn chwithig, yn fygythiol hyd yn oed. Ond roedd Charles ei hun bellach yn eistedd yn y cysgod, wrth y drws i'r beudy ger drws y gweision, ac allwn ni ddim gweld ei wyneb na llawer o'i wallt, na dim mwy na mymryn o'i ddillad, ond digon i amgyffred efallai ei fod yn gwisgo'n debyg i lanciau Byddin Rhyddid Cymru yn gwneud manwfers.

'Heddychreg dw i,' meddai hi gan wenu'n feddal, y wên gynta i greithio'i hwyneb cerfiedig er pan welais i hi. 'Does gen i ddim ffydd mewn deinameit a phethau felly.'

Ceisiais ogwyddo'r ymddiddan i gyfeiriad mwy pwrpasol; ond sylwais i fod hon o hyd yn ceisio sefyll rhyngtho i a'i gŵr, yn gorfforol ac yn ysbrydol, a heb adael iddo fe, hyd yn oed pe bai'n ei ddymuno, ymuno yn yr ymddiddan. Arllwysodd hi bowlaid o gawl i mi, ac roedd e'n gymysgedd milain o lysiau a darnau cig na ellid byth eu hadnabod. Yn hytrach na'i lowcio fel y dylwn i, roeddwn i'n tueddu i wthio'r cig yn ôl ac ymlaen, a'i ddowcio, tan chwarae â'r llyisiau hwythau'n ddiymwybod.

'Ble, dych chi'n feddwl, Mrs. Siencyn, mae eich mab yn dod o hyd i'w ysbrydoliaeth?'

'Ysbrydoliaeth!' ebychodd hi'n watwarus. 'Glywaist ti honna, Charles?' gan fwrw'r ford a throi tuag at y cysgodlun milwrol. Ddaeth dim un murmur o ateb o'i gyfeiriad e. Ond roedd hi'n chwerthin yn wawdus, ei gwaelod hi fel buwch newydd ddianc drwy'r glwyd. 'Dyma'i



ysbrydoliaeth,' meddai hi, gan droi'r cawl yn fuddugoliaethus a'i godi i'w gynnig i mi. 'Tewch. Dych chi ddim wedi gorffen eich dysglaid cynta eto.'

'Ond beth yw'r dylanwadau arno? Beth yw'r elfennau sy wedi helpu creu ei feddwl?' holais i'n rhamantus.

Chwarddodd y wraig yn groch drachefn, a chlywais siffrwd o chwerthin cefnogol glas gan Charles. Eithr trwy gydol y gweithrediadau sobr hyn roedd tad gwrthrych yr ymholiad ynghrwm dros ei gawl, yn union fel y buasai'r mab ynghynt uwchben y glwyd. A theimplais rywsut fod ei druenusrwydd yntau yn dwyn ynghyd lawer o'r tosturi distaw gan y mab hwnnw a fyddai'n cyfareddu cynifer o'i ddarllenwyr. Roedd e fel cnepyn o glai, fel twmpath mewn cae a safodd yno drwy bob tywydd gan wynebu melltith hir y cenedlaethau: nofelydd gwerinol y gorllewin. Roedd awyr y gegin yn drwm gan ryw surni aroglau, aroglau chwys a chawl, neu chwys cawl, ynghyd â baw, a hynny'n plethu drwy'r cysgodion brown a mherswadiai i y mod i bellach ar fedr dod o hyd i'r gwir graidd – y craidd hwnnw, fel y mynnai'r Gol. ei ddweud, a barai i Ioan Siencyn 'dician'.

'Mae'n rhaid fod yna ryw bethau, rhyw bobl, rhyw syniadau sy wedi ei brocio fe, a'i yrru fe i'w fynegi ei hun,' meddwn i. Stopiais am foment i balfalu am gynnig, ac roedd y mrwdfrydedd wedi peri i'n llais i grynu; ac yna melltenodd y peth arna i'n ddisymwth a gofynnais: 'Beth am grefydd?'

Stopiodd y byd.

Gadawodd y wraig ei gwaith a dod yn nes i sbio o ddifri arna i gyda syfrdandod, heb gredu'i chlustiau. Roeddwn i'n meddwl ei bod hi am y nharo i. Doedd hi ddim yn siŵr ai ceisio ei gwawdio hi roeddwn neu beidio; ond syllais yn herfeiddiol yn ôl i'w hwyneb. Trodd hi tuag at gysgod ei mab wrth fwrdd y gweision, a dechreuodd nant fân o chwerthin ddiferu i fyny o'i mynwes gydag isffrydiau'n llifo i mewn o'i dwy fraich a chwyddo'r llanw wrth iddo ymwithio drwy'i gwddwg, ac yna tasgodd a thonodd a llifeiriodd yn gefnfor ewynnog o amgylch ei cheg ac allan dros yr ystafell fel pe bai'n crio am gymorth.

'Crefydd wir. Ioan Siencyn – crefydd!'

Crymodd ei gŵr yn nes dros y bwrdd i guddio'i ymateb. Crinodd. Gwywai yng ngwynt anadl ei wraig. Pe bai mwy neu lai o ddewrder ganddo fe, buasai fe wedi criplan odano.

'Wel, ie, Mrs. Siencyn, y themâu ysbrydol hynny, wyddoch chi. Ydy e, efallai, wedi dod o dan ddylanwad Kafka neu Kierkegaard neu rywun?'

Dw i'n siŵr fod pryfyn y tu mewn iddo fe y funud honno'n ymnyddu ac yn trowingo drwy'i gylla a'i fryst gan fwhwman o'r naill i'r llall. Roedd holl dywyllwch yr ystafell wedi ymgrynhoi i hofran uwch brwydr ei dalcen, ac ni allai ymaros mwy. Cododd ac ymlwybrodd tua'r drws.

'Ioan,' sgrechodd hi ar ei ôl er mwyn ei enwi, a'i hoelio fel petai o fewn gofod ac amser.

'Clwyd', meddai Ioan, a rhuthro allan drwy'r drws.

Diolchais innau i Mrs Siencyn am y cawl, yn ogystal ag am yr help arall, a lled amneidiais gyfarchiad tuag at Charles a oedd fel gard gwylidwrus o hyd yn y cefndir, a chychwynnais ar ôl Ioan Siencyn. Erbyn i mi adael y clos o flaen y tŷ, roedd e, yntau, wedi ymadael â'r cae cynta ac wedi rhodio hanner ffordd i fyny drwy'r cae nesa; ac fe fues i'n cloffi rhwng dau feddwl a gerddwn ar ei ôl neu beidio, ac yn wir a ddeuai unrhyw fudd o ddal ati felly fwy. Penderfynais, sut bynnag, i'w ddilyn; a bryisiais ar ei ôl. Roedd e, serch hynny, yn ystwythach ac yn gryfach ar ei draed na mi yn ei gynefin, ac yn hen gyfarwydd â llamu fel gafr hyd y llethrau hyn, ac roedd wedi cyrraedd ac ymsefydlu wrth y glwyd ac yn gweithio o'r newydd wrthi'n bur ddygn erbyn i'n hysgyfaint i ddyheu eu ffordd hyd ato, a'i atal.

'Fyddwch chi'n mynd i'r capel o gwbl, Ioan Siencyn?' meddwn ar ôl llwyddo i'w ddal.

'Dim capel i'w gael bellach,' meddai hwnnw gan arwyddo'r gorwel gwag.

'Anghrediniwr dych chi, efallai? Mae eich llyfrau chi'n awgrymu rhyw fath o dynged drom sy'n rheoli'r bydysawd ac sy bob amser yn erbyn dynoliaeth. Ydw i'n iawn wrth gasglu fod gynnoch chi ryw waddol o ffydd gyntefig mewn tynged?'

'Na.'

Yn awr, dw i ddim yn gwbl sicr ai ata i y taflwyd y gair swta ola yna, ynte a oedd wedi cael ei ddweud ynghylch rhyw symudiad arall o'i eiddo ei hun ynglŷn â'r glwyd. Neu am bopeth oedd yn bod. Dichon mai siarad ag e'i hun yr oedd ac yn methu â phenderfynu beth i'w wneud nesa. O'r hyn lleia, roeddwn yn gwbl argyhoeddedig bellach nad oedd ganddo fe ddim diddordeb yn y nhipyn cwestiynau i. Ac roeddwn i'n teimlo'n bur euog na allwn i ddim cynnig i Ngolygydd well canlyniadau o'n ymweliad, yn arbennig wrth ein bod ni am geisio agor cyfres newydd. Rhais gynnig amyneddgar ola arni gyda Ioan Siencyn gan hyderu y deuai rhywbeth i'r rhwyd: 'Ond dwedwch. Sut byddwch chi'n cychwyn arni? Ydych chi'n cael gafael ar ryw thema neu ryw gymeriad? Neu ddigwyddiad? Oes rhyw gymhelliad tanddaearol yn y natur ddaearol – gwanc, uchelgais, cenfigen, cariad anghyfreithlon, ofn – oes rhywbeth felly'n cosi mewn mil o symudiadau am ychydig cyn esgor ar stori? Sut byddwch chi'n mynd ati hi, dwedwch?'

Goleddfodd ei wyneb ata i drachefn. Roedd yr un olwg ddirdynnol o ddiodefaint ar ei ên ag a welais y tro cynta o'r blaen wrth y glwyd. Sefais i'n ôl wedi'n hurto. Siglodd ei ben wrth y glwyd. Siglodd ei ben o'r chwith i'r dde'n ara, yn ôl ac ymlaen yn negyddol, yn ôl ac ymlaen yn ddigalon, ac yn erfyniol drist. Roedd ei lygaid e'n ferddwr a'i galon yn crychu rhigolau yn ei dalcen. Roedd-e fel pe bai'n datgan wrtha i fod y cwbl yn seithug ac yn ddiflas ac yn isel, o'r gors niwlog, ac nad oedd yna ddim i'w wneud. Fel yna roedd pethau. Roedd e wedi cyrraedd pen ei dennyn.

Ciliais wysg y nghefn oddi wrtho fe am ryw hanner canllath, ac yna craffu yn ôl tuag at y

creadur llipa hwn a oedd yn gwyro o'r newydd uwch ei glwyd.

Yna, cemais i lawr y llechwedd, heb fynd yn rhy agos at y tŷ. Roedd yr hwyr wedi disgyn erbyn hyn, a doedd dim ar ôl ond darnau o'r adeilad yn y gwawl amherffaith fel pe bai peth eisoes wedi soddi'n llwyr i mewn i'r nos, heb adael ond tameidiau megis yr unig falurion gweladwy a nofiai ar wyneb y tir, adfeilion danheddog, ystyfnig, hyll yn erbyn y waun, diddymdra'n chwydu'n ddifater dros y waliau. Llithrais heibio iddyn nhw gan edrych yn lladradaidd yn ôl tuag at eu llonyddwch anhapus. Ond doedd yr un smic na'r un ysgogiad i'w weld na'i glywed o'i gwmpas yn unman. Y tu ôl iddo, ac o'i amgylch, roedd yna dragwyddoldeb distaw hir a diberson hefyd. Heb obaith a heb wres. Roedd y dŵch erbyn hyn yn fawr; ac wrth frysio'n benderfynol rhagddo, teimlais fod peth ohono i eisoes wedi cael ei sugno i mewn i'w orffwys anhysbys.

Efallai fod y nghalon i wedi cael gafael arno yn sgil y cwbl. A dyna fyddai craidd y portread.

Ar waelod y rhiw, clywais sibrwd yn enw i, neu o leia enw y mhapur i – *Y Ceidwad Cymreig*; ac o dan un o'r cloddiau tebygais fod yna fymryn o wyll amorffaidd a oedd yn wahanol i'r gweddill yno. Closiais beth ato, a pharhaodd ei leferydd: 'Ydych chi am wybod am storïau y mab, mewn gwirionedd?' Y tad oedd yno, er nad oedd ei amlinell yn amlwg yn y gwyll.

Arwyddais y mod i o ddifri ac yn wirioneddol chwilfrydig.

'Addewch chi mai chi'ch hun yn unig gaiff wybod y gyfrinach.' Charles ei hun oedd 'na, roedd hynny'n amlwg. Roedd hyn yn hollol annisgwyl ac yn wir yn annerbyniol, ac wyddwn i ddim sut yn hollol y dylwn i'i gymryd. Wyddai fe ddim am ffug wir newyddiaduraeth: 'Mewn gwirionedd?'

'Addewch chi. Addewch chi,' meddai Charles.

'Beth?'

Tybiais i fod tinc edifeirwch a phetruster yn ei ffofia bellach, fel pe bai'n amheus a ddylwn i fod wedi meiddio dod ato o gwbl.

'Addewch chi,' meddai'r gŵr yn ofnus, fel brwynen yn plygu, a syllai i bob cyfeiriad o'i gylch.

'G...gwna.'

'Wel... ', ac roedd ei lais bron wedi diflannu i mewn i ddyfnder y clawdd ac yn ymdebygu mwyach i rithyn o wynt, '*fi* sy'n eu gwneud nhw.'

Disgwyliwn am foment fel pe bai e'n disgwyl imi ebychu 'Chi!'

Roeddwn i wedi amau hyn eisoes. Ond dangos ei genfigen tuag at fedr ac enwogrwydd ei fab a fynnai'r tad fel hyn am ryw reswm. Digon i fwrw amheuaeth dros yr awduraeth rywsut.

Poerodd y peth allan fel blas annymunol, fel cyffes o wenwyn, yn gyflym, a'r holl frawddeg yn rhedeg yn un gair. Allwn ni ddim llai na synnu.

Wn i ddim pam y dywedodd hyn, a oedd e am greu argraff arna i, ynte am ennill, maes o law, ychydig o gyhoeddusrwydd arwynebol, pitw, neu a oedd e efallai am wneud cam â'i fab (a gallwn ddychmygu'n burion y byddai fe bob amser yn ochri gyda'i fam yn erbyn hwnnw pan ddigwyddai'r achlysur), ynte a oedd e – a'n gwaredo – yn dweud y gwir, wedi'r cwbl. Edrychais yn bendew ar ei ôl wrth i'w iwniform wargrymu i ffwrdd ar ei fanwfers o dan gysgod ansicr y clawdd, yn un o Fyddin Cymru Heddychlon, heb ddim ond ambell frigyn o dan ei draed yn aflonyddu ar y caddug dwfn.

Yn y car, wrth fynd adre, fe bendronwch chithau ynghylch y berthynas rhwng y tri hyn. Pan oeddech chi'n edrych ar y crwt wrth y glwyd, roedd e'n eich atgoffa am yr union gysgod oeddech chi, pan oeddech chi'n eistedd wrth y bwrdd yn grwt ysgol gynt ac yn sgrifennu. Ac wrth ichi ailalw i'ch co y crwt Ioan yn yr hwyrnos, dyma'r hen wŷr yn crwydro draw ac yn mynd i mewn i'w groen, fel y bydd tywyllwch y cyflychwyr yn symud fwyfwy i mewn i oleuni'r dydd. Roedd bysedd esmwyth, brau'r crwt, felly'n raddol wedi cael eu disodli gan fysedd esgrymlog garw'r henwr.

'Roeddwn i'n arfer bod yn groen ac yn esgryn,' meddai fe'n ddiniwed frolgar. Y funud yna, roeddech chi am gydio ynddo fe druan, ei gofleidio, a'i gusanu.

(o'r gyfrol *Daw'r Pasg i Bawb*)

## 'FEL Y DAW Y LLEIDIR DIFIOG'

Safai'r wŷr bach wrth y ffenest; ac yn ddisymwth, fe waeddai 'tractor... tractor mawr coch ... dyn ar y tractor yn ysgwyd ei law.'

Ac yn siŵr ddigon fe glywai'r hen wŷr seiniau cyfarwydd tractor yn ymlwybro heibio i'w ffenest, wrth i'w wŷr barablu'r sylwebaeth.

'Car llwyd... lorri... neb yn y lorri, taid... dwy fenyw'n cerdded ... ' Panorama'r dydd.

A'r amlinelliad bras a rhestrol hwn yn awr oedd bywyd oll i'r hen wŷr, yn lle ei sylwgarwch synhwyrus gynt. Mor fanwl y byddai'i lygaid yn y dyddiau gynt yn casglu profiadau o arwyneb y ffordd ac o ansawdd cerrig mewn adeiladau. Pob manylder. Roedd eu ffurf nhw, eu garwder a'u hesmwythdra wedi llifo fel llaeth i mewn iddo a throsto. Ac mor graff yr ymaflai ei glustiau a'i drwyn ym mhob awgrym o olau a llun a'u gwau'n gynganeddus at ei gilydd. Roedd llawnder sain a lliw ac arogl wedi bod yn gynhesrwydd iddo gynt ac wedi'i lapio fe mewn byd cyfoethog a berw. Eithr yn awr, O! yn awr dim ond y penawdau a arhosai, fflachiadau seiniol gwibiog fel petai o beiriant radio a oedd wedi torri ac na roddai iddo druan ond sillafau clytiog pell, fel yr egwyl hysbysebion yn torri ar draws ffilm heb fod yna unrhyw ffilm, fel gwthiadau anadl allan o gof clwc.

'Dau fachgen gyda'i gilydd ar feic, taid... car yn mynd yn glau, glau...' Ymlaen ac ymlaen.

'Darllen i mi, Llŷr.'

'Ty-a-rw-my-awr-cy-och-oedd-yr-och-yr-a-yr-all-ir-cy-lawdd-a-hy-wnn-wn-ed-ry-ich-ar-Sh-i-enc-y-in-..'

Oedd, roedd y peiriant wedi torri, hyd yn oed y geiriau wedi'u cleisio, a'u datod, a'u rhwygo, a'u lladrata, ie, eu lladrata, nes nad oedd ond sillafau ar ôl. Geiriau'r iaith ei hun wedi llithro'n ôl fel petai drwy affasia nes cael eu bylchu a'u bwyta gan afreswm ac anghysylltrwydd. Does bosib nad oedd dulliau modern o ddysgu darllen fesul gair cyfan, neu frawddeg, wedi cyrraedd ysgol Llŷr. Ond dyna'r lle'r oedd y llais ifanc yn awr fel broc llongddrylliad yn taflu darnau i fyny ato, ac yntau'n hepian yn bytiog yn ei gadair ac yn derbyn drosto'i hun y rhacs yma o weddillion ystyr.

'Mrs. Hughes taid... a Mrs. Williams... yn mynd â blodau... a Mrs. Williams... yn mynd â blodau... A Mrs. Jones, taid... '

Blodau, blodau, y fath aberthged oedd blodau... Byd cyfan.

Arferiad diweddar unigryw a ddatblygasai ym mynwent Aberllieni oedd i weddwon yr ardal ymgynnull yno i eistedd ar y beddau a thrafod ffaeleddau un o'r gwŷr ymadawedig. Dechreuodd y traddodiad hwn un diwrnod pan oedd tair neu bedair wedi cyrchu yno ar y cyd yn y prynhawn i adnewyddu'r blodau a thwtio ryw ychydig; a chafodd y rheini y fath flas ar y glonc nes iddyn nhw gyd-drefnu i ailgyfarfod ymhen deuddydd i adnewyddu'r blodau drachefn a thwtio ychwaneg eto ar

y gwŷr. Ac felly y tyfodd y proses yn sefydliad nes bod cryn ddwsin a hanner bob dydd yn eistedd hwnt ac yma ymhlith y beddau gan sbio o'r naill garreg fedd i'r llall er mwyn ceisio ysgogiad ar gyfer y cyfarfod nesa. Rhyfeddol bellach oedd adnewyddiad y blodau.

'Mrs. Smith, taid, wedi dod 'na gyda blodau i fedd ei gwŷr. Mae'i symudiad bach hi wedi dychryn gwiwer lwyd yn y ceinciau uwchben y llwybr. Ac mae'r wiwer yn fraw i gyd yn dilyn y peryglon ar hyd y ceinciau tenau. Mae'n deffro brân. Fysai neb yn gwybod bod honno 'na oni bai am fraw'r wiwer. Roedd y braw wedi tynnu sylw at ei bodolaeth, a phe bai Mrs. Smith eisiau lladd y wiwer, byddai'n saffach pe bai honno ddim wedi cynhyrfu o gwbl ond llechu o'r golwg yn llonydd. Gyda dychryn y wiwer, mae hi wedi cynhyrfu pump o golomennod cêl, ac maen nhwythau'n ffrwydrad o adenydd sydyn yn yr awyr, heb fod neb yn gwybod ynghynt eu bod nhw ynghudd yno. Mae'n syn fel y mae creaduriaid sy'n ddiogel ynghudd i gyd hefyd yn tynnu sylw at eu diogelwch rhibi-di-res, ac yn ei droi'n beryg bywyd ar hyd a lled y byd.'

Trodd Llŷr yn ôl i edrych ar ragor o fenywod yn cyrraedd gyda'u blodau a'u clecs. Cynhyrfai'r bychan wrth eu gweld yn dod islaw'r ffenest mewn gorymdaith betalog.

Ganddo fe, bellach, yr oedd y cyfrifoldeb o gadw cofnod o'r arferiad lleol hwn.

Llŷr a'i fam oedd yr unig fodau dynol a ddeuai i'r tŷ i weld taid bellach, – nhw a hanes eu bywydau; ac roedd taid yn hynod o falch i'w croesawu bob diwedd bore Mawrth, Iau, a Sadwrn, a chinio wedyn; hithau i dwtio ychydig – 'rhoi sgwt' oedd ei therm hi, a'r crwt i glebran ac i ymdroi a chadw sŵn ond i fod yn hynod o annwyl. Deuen nhw ac aen nhw. Dros faint yr arhosen nhw? Awr, mae'n bosib. Roedd ganddi hi ddigon i'w wneud yn ei chartre ei hun, druan, ac allai hi ddim fforddio aros a thin-droi heb bwrpas gydag e. Hen bobl yn unig a allai fforddio'r amser i ymdroi heb bwrpas.

Bid siŵr, ddi Mrs. Davies – y 'cymorth cartre' fel y'i gelwid hi, yn achlysurol. Ond rhyw ddod heb sylwi oedd ei dod hi. Dim clebran. Roedd ganddi waith i'w wneud, wrth gwrs, ac arian i'w ennill. A doedd hwn yma ddim ond un ar restr o ofal taledig ganddi hi.

Mor braf oedd ganddo fe weld ei wŷr a'i ferch. Weithiau, hyd yn oed pan na châi fwy o gwmni na hyn, ddwedai fe ddim sill heblaw 'Y!'

Ddiwedd y boreau y deuai'r rhain bob amser, – doen nhw â rhyw amheuthun bwytdawy, blasus efallai – gwahanol i'r pryd ar glud – a gwag iawn oedd y prynhawnau, gwag a hir, heb hyfrydwch ffwdan a stŵr glanhawr trydan gan neb, na symud cadeiriau a'r crwt bach yn gweiddi ei adroddiad am ffug ddiwyddiadau'r stryd a'r fynwent draw.

Ambell brynhawn, unwaith bob tri mis efallai, byddai'r gweinidog yn galw, i siarad am bêl-droed neu rywbeth felly. Pam roedd gweinidogion bob amser yn clegar am bêl-droed? A oedden nhw yn cael eu cyfarwyddo i fod yn fugeiliol gymdeithasgar 'yn y byd', mewn dull mor naif, yn

ystod eu dyddiau coleg?

Ond gyda'r hwyr ddeuai neb yno i'w weld e. Eisteddai yn ei gadair drwy'r oriau meithion heb fod yr un enaid byw yn dod ar ei gyfyl. Ailadrodd oedd pwrpas oriau. Yr unig ymwelydd rheolaidd a dibynadwy arall oedd Marwolaeth, a byddai honno'n picio i mewn ato bob gyda'r nos i eistedd gyferbyn. Roedd hi yno, yn syllu arno, a'i llygaid sâl yn nofio drosto. Dôl hithau hefyd ambell waith i barablu am y rhai oedd wedi pasio heibio yn y dydd, ac am y rhai a eisteddai ar y beddau. Daethai'r hen wŵr i nabod Marwolaeth yn dda. Byddai'n edrych yn fanwl arni, ar ei choban amryliw, ar ei gwallt blêr, ac ar ei hewinedd brwnt. Astudiai ei gwddf di-gig a'r cydau melyn o dan ei llygaid, a cheisiai feddwl beth oedd ar waith yn ei meddyliau hi.

Byddai'r ferch yn ei holi fe weithiau am ei hachau, ond dderbyniai fe ddim o'r dwli yna, ac fe ddeuai'n ôl bob tro â'i hymddiddan cwbl dawedog, yn ôl i sgwrsio'n ddi-ddweud amdano fe'i hunan. Rhyw lais isel undonog oedd ganddi, y math o lais sy'n medru dwrdio'n ddi-baid heb flino, ac eto nid llais y gallai fe ei dewi byth. Roedd hi'n denu ei glustiau ac yn chwarae am ei galon heb ymatal. Efallai am fod yna rychau arbennig ar ei chyfer o gylch ei galon, yr hen wŵr unig, hynny yw, am fod ei llais yn ffitio'r achlysur mewn patrwm o rigolau a oedd eisoes wedi eu hargraffu yn ei groen ac am fynd yn ddyfnach, roedd yr hen dôn mor atyniadol, mor ddiosgoi. Cawsen nhw eu llunio ar gyfer ei gilydd, yn ddiau, ac roedd e'n ymateb yn fud, yn adleisio'r cywair a godai o'i hysgyfaint hi.

Ar ôl i Farwolaeth alw, sylwai fod rhyw addurn neu gelficyn ar goll. A! byddai'n rhaid cadw llygaid ar hon. A phenderfynodd e ddiogelu pethau rhagddi.

O leia, roedd Marwolaeth yn ffyddlon. A chaniatâi hi ddim llonydd iddo na'r un noson rydd. Hyd yn oed pan ddeuai dieithryn cwbl annisgwyl arall heibio, fe fyddai hithau beunos rywsut yn llithro i mewn i'r cwmni i ffurfio triawd, gyda'r ferch a hi. Ond ar ei hôl hi, byddai taid bob amser yn sylwi bod yna rywbeth ar goll – cwpan, cloc, crib, llun o un o'r teulu, drych. Ai marwolaeth oedd yn mynd â'i bethau fe?

Ar y dechrau, tueddai Marwolaeth i'w ddigalonni fe; a phob tro fe'i gadawai hi fe'n drist ac yn ddi-hwyl, wedi colli blas ar bopeth. Ond wedi dod i nabod ei gilydd yn dda, doedd e ddim yn teimlo mor gas tuag ati. Gallai edrych arni, yn hollol ddideimlad, a hyd yn oed gyda pheth cyfeillgarwch.

Un dawel oedd Marwolaeth, un agos, un gyson. Byddai hi hyd yn oed yn dod i'r gwely ato, a gorwedd wrth ei ochr yn gwbl dawel a llonydd ond yn glòs, gan rwbio'i gwallt yn ei ruddiau ac o gylch ei ffroenau a chan nythu yn ei geseiliau.

Yr un testun oedd ganddi hi o hyd – dyfnded oedd cyffredinedd y co a dued y nos. A hoffai hi ei bryfocio drwy ddangos iddo'i dannedd a thlysed oedd y ddaear hon. Fflachiai'r gwyn i'r du

weithiau, ac o'r du i'r gwyn yn ôl, yn ddisymwth, fel pe bai hi am ei wawdio a phwysleisio'r gwahaniaeth. Tyfai'r hoffter a'r ymddiriedaeth ynddi beunydd beunos. Eto, byddai fe'n gweddïo, yn erfyn (yn wir) mai ffug a lledrith fyddai'r ymwelydd du ac y ceid golwg newydd ar rywbeth arall yn ei le. Ond beth bynnag y gellid ei ddweud am Farwolaeth, roedd yn rhaid cydnabod ei bod hi'n onest, ac yn agored, ac yn ffyddlon. Doedd dim byd dan-din ynglŷn â hi, syniai'n garedig. Er ei bod hi'n llithro i mewn yn ddi-stŵr, o'i flaen e y deuai hi, o'i flaen a cher ei fron yn gyson. Doedd arni ddim cywilydd ohoni ei hun, er mor aflednais oedd hi o ran golwg.

Ond rywfodd fe gollodd e rywbeth sylweddol iawn o'r silff ar un diwrnod pryd nad oedd Marwolaeth wedi galw. Disgynnodd cryndod drwyddo.

Nid Marwolaeth felly oedd yn dwyn y pethau mwyach; ac nid ei ferch Sara. Fe wyddai honno mai iddi hi y gadewid y cwbl, beth bynnag, ar ôl ei ddyddiau fe. A digon prin oedd y dyddiau hynny oedd ar ôl. Na, nid ei ferch na'r ŵyr bach, yn sicr.

Mrs. Davies oedd yr unig un y gellid ei amau'n iawn. Peth diflas fyddai ei riportio hi. Byddai'n rhaid iddo gael sgwrs gyda Sara am y peth.

Ond roedd yn gwbl siŵr fod yna gloc bach ar sil ffenest y gegin, y cloc larwm roedd e wedi'i dderbyn yn rhydd ac yn rhodd gan y tîm bowls. Pwy heblaw Mrs. Davies fysai wedi dwyn hwnna?

Yn fuan wedyn y canwyllbrennau arian a oedd ganddo yn yr ystafell wely. Pwy arall a fysai'n lladrata'r rheini? Roedd cysylltiadau personol gan y rhai yna'n awr. ... Onid oedden nhw wedi eu prynu ganddo fe i'w wraig yn ...? Ble oedd y lle? Beth bynnag roedd e wedi'u hoffi nhw, wedi hoffi eu gweld nhw bob amser yn eu lle, bron yn rhan hanfodol o'r cefndir, eu gweld nhw heb eu gweld nhw fel petai, yn sefyll uwchben yr hen le tân.

Roedd rhywun neu'i gilydd wedi mynd â'i wasgod orau hefyd. Allai fe ddim dod o hyd iddi yn unman. A gofynnodd i Sara godi'r mater gyda Mrs. Davies neu fynd i mewn i swyddfa'r heddlu i roi adroddiad am y lladrad.

Ond petrusodd Sara am wythnos neu ddwy, er bod yr hen ŵr erbyn hyn yn dalp o bryder, ac wedi dechrau cuddio'i bethau yn fwy diwyd – ar ben cypyrddau, mewn drorau, yn y cwtsh dan stâr, rhag ofn eu colli nhw, gan anghofio'n fuan ble y dodwyd y pethau di-ri. Fe guddiai nhw mewn ystafell wahanol-i-arfer er mwyn drysu pwy bynnag a chwiliai amdanyn nhw. Ond parhâi'r dwyn bwriadus dyfal a'i blinai.

Tua'r adeg yna pryd yr aeth Mrs. Davies yn sâl, honnodd yr hen ŵr mai cast oedd hyn er mwyn cadw'r enillion, hynny yw er mwyn iddi ymbellhau a dianc maes o law. Gofynnodd i Sara fynd i holi amdani, ond ymesgusododd ei ferch gan awgrymu y gellid aros ryw ychydig cyn rhoi'r mater yn nwylo pwyllgor neuadd y dre.

Syndod y byd, roedd pethau'n dal i ddiflannu – o'r golwg ac o'i go. Er nad oedd Mrs. Davies



yn dod ar gyfyl y tŷ mwyach, rywsut roedd ei eiddo'n dal i chwalu. Ac yntau mor ddiwyd ag erioed yn cuddio'i feddiannau rhag y lladrata, fe ddeuai lleidr, neu ladron efallai, bob dydd, a phob nos yn ddiau, i'w dŷ ac i'w feddwl, gan mor ddyfal oedden nhw, i gipio'r cyfan. Gofynnodd i'w ferch drefnu i John y saer ffitio cloeon ar y ffenestri, ond fe ddwedodd hi mai aros tan y gaea oedd orau. Roedd pobl yn ceisio manteisio arno, dybiai, ac yntau'n colli'u trywydd.

Rhaid mai'i ferch oedd wrthi, ei ferch e'i hun, Sara. Dyma frad yn wir, ac wyddai fe ddim beth i'w wneud, na sut y gallai fe anfon neges i'r byd mawr tu allan at rywun cyfeillgar heb yn wybod iddi. Dylai fe ailsgrifennu'i ewylllys. Ond pam? Ofni y byddai, y gallai pob dim wasgaru dan ei ddwylo – eisoes roedd hi wedi cipio'r trysorau mwya i gyd. Fyddai 'na ddim – na chadair na bwrdd ar ôl.

Eithr deuai hithau – Marwolaeth – ar ei rhawd arferol drachefn, ac yn amlach, a chododd e'r cwestiwn am y dwyn eto gyda'i ferch benben. Nac oedd, cyfaddefodd, doedd e ddim wedi *gweld* ei ferch yn dwyn dim. Ac mae'n wir, na allai fe ddim bod yn gyfan gwbl siŵr mai hi a gyflawnai'r trosedd. Ond pwy arall a allai fod wrthi?

Oedd, roedd yn cyfadde ei fod eisoes wedi gwneud un camgymeriad gyda Mrs Davies. Gwir, doedd honno ddim yn gyfrifol, roedd yn cydnabod hynny'n awr. Ond mater cael gwared â'r amheuan yna oedd hynny; roedd y maes bellach wedi'i gyfyngu.

Lladrata rheolaidd oedd y broblem. A doedd neb oll yn awr a ddeuai i ymweld ag e, heblaw Sara a'i mab Llŷr.

'Neb!' ebychai hithau Marwolaeth hefyd, gan wenu'n dirion arno. 'Neb?'

A châi hi wenu. Y bore wedyn, pan agorodd Sara'r drws, roedd ei thad yn llonydd yn ei gadair gysurus; a'r lleidr wedi bod ar ei herw am y tro ola. Roedd ei geg yn agored led y pen, mewn cysgod o syndod y tu hwnt i syndod.

Buon nhw wrthi wedyn am wythnosau yn dod o hyd i'r holl betheuach mân a redasai i ffwrdd, a cholli'u hanadl wrth redeg. Daethpwyd o hyd i bopeth maes o law, gan bwyll bach, – peth yn y garej, peth yn yr atic, peth yn sied gwaelod yr ardd, fel gwarged hir o'i anadl. Bu'r cwbl yn ddiogel, wedi'r cyfan. Yr unig beth na ddaethpwyd o hyd iddo erbyn hyn oedd taid.

Cymro da oedd taid.

(O'r gyfrol *Daw'r Pasg i Bawb*)

## CAMPWAITH

Does dim llawer o ddychymyg gan Nwncwl Jos. Er hynny, fe fyddwn i'n hoffi mynd ato am sgwrs bob hyn a hyn. Ar wahân i'w ardd, fe arferwn dybied nad oedd ganddo'r un diddanwch arall.

Hen lanc oedd e; a phrin byth y byddai fe'n mynd i lawr i'r dre gan fod y lle hwnnw'n llawn dop o ymwelwyr yn yr ha ac o fyfyrwyr yn y gaea. Gwell ganddo i mi fynd i fyny ac i fyny i'r Fan Fawr i alw heibio iddo fe. Yn yr uchderau y credai fe mai dyna'r fangre ddelfrydol ar gyfer breuddwydio. Roedd e wedi neilltuo'i fyw beunyddiol go iawn i atig y ddaear: i neilltuedd.

Syndod i mi, felly, un diwrnod ar ganol sgwrs fwy personol nag arfer, oedd iddo y ngwahodd i bicio i fyny gydag e i daflod y tŷ.

Roedd e wedi colli'i hen ddeheurwydd.

Roedden ni wedi bod yn siarad am ei gryd-cymalau, ac yntau'n esbonio i mi sut roedd e'n gorfod dethol a chynllunio'i ardd mwyach o fewn disgyblaeth gyfyngedig ei gymalau anffurfiedig. Dangosai i mi sut y byddai'n cydio yn y rhaw dan y drefn newydd, a'r modd y gallai fe ddefnyddio'i fys bach a'i fawd gyda'i gilydd i chwynnu. Roedd e wedi colli'i hen ddeheurwydd. Ac yna'n ffrwt, ar draws y cwbl: 'Dere gyda fi i'r daflod.'

Sachau oedd yn y lle hwnnw ym mhobman, pentyrrau ohonyn nhw dros y llawr ac ar draws bocsys di-rif; ac am ben y sachau hynny, llwch a gwe pry-cop. Roedd aroglau cwsg yno.

Dechreuodd Nwncwl Jos yn garcus dynnu'r sachau hyn yn ôl, fesul un, ac o danynt fe ddatguddiwyd fod yna gynfasau paentiedig cyfrinachol. Cynfasau!

'Beth yw'r rhain, Nwncwl? Mae hi fel petai oriel darluniau wedi cael ei chuddio yma yn ystod y rhyfel er diogelwch.'

'A'r pynciau neu'r perchnogion wedi brigo'n ôl i nychmygion a'm hatgofion wedyn,' meddai fe wedyn, gan gil-chwerthin ychydig. 'Weli di'r hyn sy'n gyffredin iddyn nhw i gyd?'

'Ddim yn syth. Mae eu testunau nhw'n ddigon amrywiol – badau, fferm, cronfa nwy, coed ar gopa mynydd, llestri mewn sinc, cath wedi'i dal ei hun ynghanol gwifren bigog... Rhyw gymysgedd rhyfedd,' meddwn i. 'Yr hen ffordd Gymreig o fyw, ddwedwn i.'

'Ond y peth sy'n gyffredin iddyn nhw?'

'Iefe'r llif o oleuni sy drostyn nhw i gyd ac sy'n gwneud nhw'n arbennig? ... Ydy, yn wir, mae fel afon yn ymsymud o'r naill i'r llall, goleuni melyn tew fel plethyn o wallt. Ydy hynny'n fwriadol?'

'Weli di ddim arall?'

'Ddylwn i sbotio rhywbeth?' holwn i wedi 'nal am foment eto.

'Yr un artist a'u gwnaeth nhw.'

'A'u paentio nhw yn yr un cyfnod debyg gen i.... Dw i'n eu licio nhw. Oedd e'n artist o fri,

nwnawl?'

'Bri, wir! Does dim llawer o ddychymyg yna, fachgen.'

'Dw i'n eu licio nhw po fwya dw i'n edrych arnyn nhw,' meddwn i. 'Maen nhw'n ddiymhongar, ond yn ddwfn rywsut...'

'Dwfn! Twt.'

'Ydyn. Maen nhw'n defnyddio'r traddodiad peintio fel bwyd i'r ysbryd, nid i ddynewared, ond...'

'Mae pawb yn teimlo'n ddwfn yn eu llencyndod. Y pryd hynny mae hunan-ymwybyddiaeth yn ffynnu.'

'Ond gyda llawer un,' meddwn i, 'mae cythrwbl y teimladau'n chwalu'r drefn sy mewn celfyddyd. Mae'r artist wnaeth y rhain...'

'Nid artist oedd e.'

'Ond...'

'Chwarae oedd hyn.'

'Roedd e'n ddyn diddorol, mae'n rhaid.'

'Lol botes maip.'

'Nwnawl Jos, nid ti?'

'Pwy arall? Pam lai?'

Edrychais arno'n ara, ar ei wyneb rhyddieithol anarbennig ac yna eilchwyl ar y llu hwn o ddarluniau llachar dirgel. Doedden nhw, mae'n wir, ddim yn aruthr o wreiddiol nac yn agor meysydd newydd mewn lliw a llun, efallai, ac eto roedden nhw'n dangos hydeimledd cynnes; ac anodd eu cysylltu – er pob parch – â'r Nwnawl Jos hwn a adwaenwn i. Y rhain felly fu ei fyw beunyddiol e ar ryw adeg ar ei fywyd. Roedd e wedi gwneud y pethau prydfferth hyn, mewn un cyfnod yn ei orffennol. Ac wedyn, dim. Eu cuddio rhag pawb, gan ei gynnwys rhagddo fe ei hun.

'*Chi* yw'r artist.'

Gwenodd e. 'Fi *oedd* yr artist. Dyna'r cwbl rown i'n ei wybod ar un adeg yn y mywyd.'

Gwefusau caled tenau sy gan Nwnawl Jos, a gwyddwn mai gwefusau llawnfeddal a byw a sugnodd y cynnwrf a gawd yn y darluniau hyn. Bysedd corniog y garddwr profiadol a'r rheini wedi'u gwyrddroi gan gryd-cymalau, dyna'r hyn a ddaliai'r cynfas hwnnw yn awr; ond rhaid mai bysedd hirfain a pherswadiol a ddenodd y lliwiau golau gynt i ymlunio'n ffurfiau mor synhwyrus.

'Fe ddaeth y cryd-cymalau, a bu rhaid i chi roi'r gorau iddi.'

'Na, na: y peintio a orffennwyd yn gynta. Dyna pam y daeth y cryd-cymalau. Y rhain wedyn,' meddai gan ysgwyd ei ddwylo yn yr awyr wag.

'Newid arferion?'

'Cosb,' meddai gan wenu.

'Nwnawl Jos!'

Pwysodd e'n ôl yn hamddenol.

'Dyma'r tro cynta ers deng mlynedd ar hugain i mi ddringo lan i'w gweld nhw. A dw i'n licio coelio, efallai, erbyn hyn mai'r cryd-cymalau sy wedi'n stopio i rhag peintio.'

'Ond nid felly y mae hi?'

'Nage.' Bron yn rhy bendant.

'Pam rhoesoch chi'r gorau iddi?'

'Cwestiwn anodd – personol, mewn gwirionedd. Liciwn i ddim siarad am y peth â neb, fwy nag y liciai hen hen lanc' (a phetrusodd yn chwithig) 'drafod pam na phriododd e.'

'Debyg iawn,' meddwn i ar frys – a minnau'n fwy ymwybodol awyddus nag e, – i gladdu ei *faux pas*, fel petai.

'Fe allwn i roi *rhyw esboniad*. A phan fydd pobol yn siarad am eu bywyd nhw eu hun, fel arfer mae ganddyn nhw bob math o esboniadau i ddehongli straeon y rhod. Ond gan amla, ymguddio y tu ôl i'r rheina y mae'r *gwir* beth. Mae'r rheina'n cael eu dyfeisio'n fynych rhag i'r person ei weld ei hunan yn rhy eglur.'

'Ond roedd gennych chi *ddawn neilltuol*.'

'Twt, twt! Nac oedd. Roedd gen i ychydig o *dalent*, ychydig bach o grefft. Dyna'r cwbl. Cymer di hwnna yn lle esboniad dros roi'r gorau iddi. Ar ôl cyrraedd oedran cyfrifol, dyma fi'n sefyll yn ôl i mhwyso a'm mesur yn hun ... a nghael yn hun yn brin. Ie, dyna iti esboniad.'

'Ond sut teimlwch chi nawr wrth eu gweld nhw o'r newydd?'

'Trist, ond dw i bob amser yn drist.'

'Am eu bod nhw'n hen ffrindiau? Neu am fod y bwlech rhyngoch chi a nhw yn euogrydd?'

'Ie. Am y mod i'n euog, yn sicr. Ddylwn i ddim bod wedi'u gadael nhw'n amddifad. Euog. Ie, euogrydd: dyna'r teimlad sy gen i nawr. Dyna pam na wnes i erioed ddod i fyny yma o'r newydd tan yn ddiweddar. Trosedd oedd bradychu ysgafnder ieuencid, ti'n gwybod. Trosedd oedd gwadu'r holl oleuni yna, talent neu beidio, taw pa mor dila'r oedd... '

'Mae'n rhaid inni i gyd adael ein hieuenctid rywdro. Oes.'

'Y ffŵl yw'r un sy'n ceisio gwrthoedranna a'i bowdro'i hun er mwyn ei dwyllo'i hun nad oes yna ddim ymadawiad. Ond does dim angen ymrwygo i ffwrdd oddi wrth amser, fel y gwnes i ei wthio o'r neilltu, fel petai, a rhedeg rhagddo.'

'Wnaethoch chi mo hynny,' meddwn i.

'Do. Dyna sy'n gwneud y nhrstwch i'n fwy egr. Y trysor hwn welwch chi fan yma ynghudd yn yr ogo hon, nid fi biau fe erbyn hyn. Dieithryn yw ieuencid. Does gen i ddim hawl

arnyn nhw. Dw i fel lleidr mawr, fel amser, yn cadw'r ysbail dan glo. Rhywun arall biau nhw. Rhywun marw gorn.'

'Gawn ni gario rhai ohonyn nhw i lawr.'

'Na,' meddai'n llym braidd. Dechreuodd e gerdded o'r naill i'r llall gan eu hanwylo'n ysgafn wrth basio. 'Dyma'u lle nhw. Dyma'u cartre nhw nawr. O'r golwg. Fe fyddai llawn olau dydd yn ormod iddyn nhw.'

'Nwncwl Jos.'

'Beth?'

'Ga i ofyn un cwestiwn arall?'

'Mi gei ofyn, taw faint o ateb gei di.'

'Oeddech chi'n ofni'u gweld nhw?'

'Roeddwn i'n betrus ynghylch y dieithrwch.'

'Ddim ofn?'

'Rywsut, roeddwn i'n ofni iddyn nhw y ngweld i.' Dyna pam y des i â thi lan hefyd. Daliodd ei ddwylo anffurfiedig i fyny. 'Y rhain. Roedd arna i gywilydd.'

'P'un yw eich ffefryn chi ohonyn nhw i gyd?'

'Rhywbeth yn debyg ydyn nhw bob un.'

'Ond oes gennych chi un ffefryn rych chi'n teimlo amdano mai dyna'ch campwaith? Efallai na dŷn nhw ddim i gyd yma. Roeddech chi'n gwerthu rhai, mae'n debyg.'

'Oeddwn, wrth lwc. I ryw bobol geidwadol eu chwaeth. Pobl brin iawn. Efallai eu bod nhw'n licio cael peintiad olew gwreiddiol heb dalu'n rhy ddrud amdano... Ond roedd yna un.'

'Eich campwaith?'

'Roedd yn un. Doedd e ddim yn gampwaith o gwbl. Ond hwnna yw'r un dw i'n teimlo... Na, doedd e ddim yn wahanol i'r lleill.'

'P'un yw hwnnw, Nwncwl Jos?'

'Mae ar gael nawr mewn oriel ddarluniau yn Llundain bellach ers blynyddoedd, os yw e yno o hyd, yn y Tŷ Siorsaidd, Stryd Abercrombie.'

'Gwn i am y lle.'

'Y Ferch Felen oedd teitl y llun. Roedd e'n perthyn i'r un cyfnod â'r rhain i gyd.'

'Eich cyfnod melyn?'

'Dyna'r unig *gyfnod* ges i, machgen i. Mae hi, y testun, wedi heneiddio erbyn hyn, mae'n siŵr. Rhyfedd hefyd. Mae arna i fwy o ofn y llun yna na'r rhain i gyd gyda'i gilydd.'

Gosododd y sachau'n ôl dros y peintiadau'n dyner fel pe bai'n eu claddu nhw. Symudai'n ddistaw o'r naill i'r llall a'i wefusau'n symud ryw fymryn bach bob yn awr ac eilwaith fel pe bai e'n

gweddïo. Aethon ni i lawr wedyn i'r gegin, i lawr ac i lawr; ac roeddwn i'n synnu cynifer o risiau a oedd yno.

\* \* \*

Dri mis ar ôl hyn roeddwn i'n pwyllgora yn Llundain ac fe achubais i'r cyfle i alw yn Stryd Abercrombie.

Chwiliais am y darlun gan Nwncwl Jos roedd wedi'i grybwyll, ac wele – roedd e mewn cornel dywyll, braidd yn ddiarffordd. Pan ddes i o hyd iddo, roedd hen wreigan yn sefyll o'i flaen ac yn syllu arno'n graff. Hen wreigan fechan sbectolog a'i dillad braidd yn dreuliedig. Safai hi'n fud ac yn agos iawn at y darlun fel prin y gallwn weld dim ohono; ac arhosais i'n amyneddgar iddi hi fynd i'r neilltu. Ar ôl rhyw dair munud, dyma hi'n sylwi arna i ac yn ymddiheuro.

'O! mae'n ddrwg gen i, wŕ ifanc. Sylwais i ddim eich bod chi yno. Dych chi am weld y darlun? Dowch chi, dowch chi.'

Symudodd yn ôl a gadael i mi ei weld, ond heb gilio fwy nag ychydig o gamre mân.

Edrychais ar y llun. Oedd, roedd yn amlwg yn perthyn i'r lleill a welwn yn nhaflod Nwncwl Jos, ond yn bendifaddau roedd yn rhagori o dipyn. Daliasai Nwncwl ryw felyndra hynod egnïol yn wyneb a ffrog y ferch a ddarluniasai; rhyw oleuni, rywsut; roedd ei phen hirwallt hi fel petalau gwyllt blodyn haul yn plygu'n ôl wedi ymagor yn fuddugoliaethus tua'r awyr, a'r corff a ymestynnai i lawr o dan y blodyn yn ystwyth ac yn heini ac yn rhyfeddus ac eto'n tyfu mor naturiol o'r ddaear mewn trobwll o dangnefedd.

'Mae'n odidog, ond yw hi?' meddwn i.

'Dych chi'n ei hoffi?' Yn swil i gyd.

'Mae'n gwbl ysblennydd. Yn y gornel dywyll hon o'r oriel mae fel ffenest a'r golau'n ffrydio'n ddilyffethair drwyddi.'

'Ffenomen Gymreig iawn yw'r diddordeb hwn mewn lliwiau,' meddai hi. 'Dych wedi sylwi ar arlunwyr Cymru?'

'Dych chi'n gwybod am yr artist, tybed?' gofynnais i'r cwestiwn yn reddfol.

'Wel ... ,' mi betrusodd. 'Yr artist?'

Daeth hi'n ôl a sefyll o flaen ehedfaen y darlun drachefn. Sylwais wedyn ar ei thristwch. Roedd ei llygaid hi, er eu bod nhw'n yfed, yn wir yn lloccio'r llun yn gwbl wancus, hefyd yn brudd. Roedden nhw'n cynnwys y llun ac yn newid ei loywder penysgafn yn rhywbeth arall, yn brofiad lledalarus. 'Fe fydd hyn yn eich synnu chi, wŕ ifanc. Mae'n anodd ei gredu, mae'n siŵr gen i. Mae'n amhosib ei gredu. Ond wyddoch chi, llun ohono i yw hwn.'

*'Chi yw'r Ferch Felen!'*

'Fi fy hun, bob modfedd ohono i. Fi *oedd* hon.'

'Ond... ' A theimlwn na ddylwn i ddatguddio'r gyfrinach a feddwn i, a'i dadrithio hi; fod y ferch brydferth hon wedi marw, os oedd hi wedi bodoli o gwbl.

Gwenodd hi. Nythaid o dafodieithoedd oedd ei gwên. 'Prin bod angen dweud y mod i wedi newid ychydig oddi ar hynny,' meddai hi. 'Dw i'n licio dod yma i'w weld e er mwyn cofio.'

'Mae'n werth cofio, dw i'n sicr,' meddwn i.

'Ar y ffordd i'r siopau weithiau,' meddai hi. 'Picio i mewn. Mae'n helpu goleuo pethau.'

'Fyddwch chi'n dod yn rheolaidd?'

Trodd ei phen yn ôl i edrych ar y llun, ond swil oedd hi o hyd. Yn sydyn, ymddangosai'n ddiymadferth; yn hen wrth gwrs, ac yn unig efallai, ac yn ddigyfeiriad. Gostyngodd ei phen.

'Mae gwyrddlesni dwfn yr awyr y tu ôl iddi,' meddwn innau'n dwp ac yn gyfangwbl ar goll, .. 'yn pwysleiso'n drawiadol ... ffigur ymosodol y melyndra.' Ac yna, fe fûm i'n fud.

'Dw i'n dod ar ddiwrnod cynta bob mis,' meddai hi. 'Mae'n ddigon naturiol: mae'n rhan ohono i rywsut.'

'Dw i'n siŵr pe bawn i yn eich lle chi y byddai'r darlun yn help i gadw'r ysbryd yn hoenus.'

'Ydy, a'r corff yn heini... Dw-i byth yn colli.'

'Mae pethau ... mae pethau'n gallu dod yn ffrindiau, ond ydyn nhw?' meddwn i.

'Dw-i'n teimlo, petawn i'n colli tro wrth ymweld, y byddwn i'n cael anhawster wedyn i aildechrau efallai. Efallai y byddwn i'n llwfr, yn ofni dychwelyd; a dyna pam dw i'n dal i ddod yn gyson.'

'Ydych chi'n cofio ... ydych chi'n cofio'r artist?' holwn i drachefn.

'Ydw, debyg iawn. Dyna'r profiad mwya ges i erioed yn y mywyd. Y pryd hynny, a minnau'n rhoces bymtheng mlwydd oed, rown i'n dwlu arno fe. Fyntau'n llanc mawr a chwerthinog hŷn na mi, yn pryfocio, ac yn smalio'n hyderus am bopeth. Wrth gwrs y mod i'n ei gofio. Mae'n siŵr mai fe oedd y nghariad mawr cynta i – cariad y meddwl i, bid siŵr, delfryd y mreuddwydion. Wyddoch chi sut mae merched ifainc yn breuddwydio'n garlamus? Roedd e'n parablu'n ddi-stop: chwrrdais i erioed â'r fath ddilyw ffriwyllt o ddi-reidi o enau gwryw. Dw i'n gallu cofio nawr glychau'n seinio yn ei wddwg wrth iddo daro lliw ar y cynfas, drawiad ar ôl trawiad. Ceisio y nifyrru i roedd e, mae'n debyg, er mwyn imi beidio â blino a chrymu'n llesg.'

Crymodd hi wrth ddweud. Ac edrychais i yn ôl ar y darlun, ac wrth graffu o'r newydd arno, fe allwn ddychmygu'n rhwydd y sesiynau hapus pryd roedd Nwncwl Jos yn gorfoleddu wrth ddal ysblander nwyfus y Ferch Felen ar flaen ei frws, ei frws mwyn. Roedd ei greadigaeth e ar y pryd wedi bod yn fwy na disgrifiad ohoni. Roedd e'i hun yn ymrwymedig ynddi.

Rown innau mwyach o flaen y darlun wedi dechrau breuddwydio, a phrin y sylwais i'r hen fenyw fach gilio ryw ychydig, ymneilltuo bron.

'Ond dyna fe, ŵr ifanc,' meddai hi, 'dw i'n eich blino chi. Blino. Dydd da.'

Pellhaodd hi yn ei chrwman trist allan o'r adeilad, a ngadael i'n rhythu o hyd ar y darlun hwnnw, ac ar lygaid y ferch ifanc ryfedd a befriai'n ddi-baid.

\*

\*

\*

Yn y trêen ar y ffordd yn ôl roedd pob math o ddychmygion ffôl a chwestiynau yn chwyrlio drwy y nghysgadrwydd i. Chwarddwn yn dawel i mi fy hun. Fe welwn i yn fy ffansi ferch ifanc osgeiddig ar hyd traeth a llewys hirion yn chwifio yn yr awel a'i hirwallt golau hardd yn wawn o'i hôl. Ysgafn y troediai hi ar draws y grug: ar ei mynyddoedd teimlad roedd hi'n ddewines hudol; a hi'n ysbrydiaeth swil i beintiwr diarffordd.

Fûm i erioed yn ffansio y gwnawn gynllwyniwr priodasau answyddogol i neb; does gen i mo'r gallu i gynnal celwydd heb wenu, nac i fod o ddifri ynghylch peth sy mor hanfodol ddigri â serch pobl eraill. Ond rhaid imi gyfadde, wrth imi deithio'n ôl tua Chymru, fod rhyw awydd wedi mudlosgi yno i a fynasai geisio dwyn y ddeuddyn hen hyn at ei gilydd rywfodd drachefn, pe gallwn.

Dau unig.

Beth ddwedwn i wrth Nwncwl Jos? Ai gwell fyddai peidio â dweud dim?

Fynnwn i ddim bod yn hy. Gan mor chwithig y gallai fod, tybiais mai'r peth calla imi ei wneud oedd anghofio am yr hen fenyw fach honno yn Stryd Abercrombie a pheidio â thorri gair amdani wrth Nwncwl Jos. Roedd Nwncwl yn hapus ddiddig, ac roedd hithau'n ddigon bodlon. Ond aeth yn chwilfrydedd i, neu yn ymyrraeth i, yn drech na mhenderfyniadau da; ac un prynhawn yn fuan wedyn, fe godais fater ei luniau unwaith eto gyda'n hewyrth.

'Fe gofiwch ichi sôn am y Ferch Felen.'

'Y beth?'

'Y Ferch Felen.'

'Soniais i amdani hi?' meddai fe gyda syndod, bron â pheth cywilydd, ond gyda chwerthiniad bach ysgyfala.

'Do, tad. Fe'i gwelais hi wedyn yn Stryd Abercrombie.'

'Fe est ti i'r Tŷ Siorsaidd?'

'Do. Dw i'n ymweld â'r lle, pryd bynnag y bydda i'n pwyllgora yn Llundain. Roedd hi yno.'

'Maen nhw'n dal i'w dangos hi te! Dw i'n falch. Efallai ei bod hi'n dal holl nwyd yn ieuenctid.' Doedd e ddim yn swnio'n argyhoeddiadol.

'Nwncwl Jos, dych chi'n cofio'r ferch wreiddiol? Hynny yw, y fodel fach ifanc gawsoch chi i sefyll ar gyfer y llun?'

'Y fodel? Pa fodel? I'r llun yna! Byth! Doedd yna ddim model, fachgen. Roedd hi'n ddychymyg i gyd.'



'Ond mae'n rhaid fod gennych chi rywun.'

'Mae'n *rhaid* hyn a *rhaid* y llall. Lol, fachgen. Does dim *rhaid* dim byd. Yn arbennig i artist.'

'Ond does bosib. Roedd rhywun wedi sefyll.'

'Neb, dw i'n dweud wrthat ti. Sut gellid cael model? Dychymyg y peth... yw'r gyfrinach.'

'Ond Nwnawl.'

'Dychymyg!'

A oedd e'n dweud y gwir? Neu a oedd yna ferch wirioneddol a fu farw'n symbolaidd iddo fe, wedi peidio â bod iddo fe, ac a laddwyd gan swildod eu cyfarfyddiad. Roedd arna i flys dweud wrtho am yr hen fenyw yn Stryd Abercrombie... , ac eto rown i'n teimlo'n fwy cymysglyd nag erioed. Yr un pryd roedd yn chwilfrydedd i'n fwy byth hefyd. 'Y rheswm rown i'n gofyn oedd hyn... ' Yna, mi wnes i beth ffôl iawn, ac anghwrtais. Adroddais i'n faglog ond yn fanwl yn hanes personol i yn y Tŷ Siorsaidd.

'Wel! Ardderchog. Fod y llun yn cael y fath effaith!'

'Wyt ti'n nabod hi te yn ewyrth i?'

'Nabod hi! Ar yn llw, nac dw, siŵr. Pam y dylwn i? Dyw hi ddim yn bod. Model yn wir!'

'Ond roedd gennych chi fodolau ambell waith.'

'Oedd siŵr.' Ond nid ar gyfer y darlun yna. Byth, dyna holl bwynt y... Rown i'n anelu at brofiad a fu'n wir am lawer iawn o bobl gyffredin... ac un a oedd ynghudd yn y nghalon.'

'Ydych chi'n sicr?'

'Gwranda. Dyw hi ddim yn bod. Hynny yw, ffug, breuddwyd, esgus, celwydd, cogio yw hi. Cogio oedd hi.'

'Ond roedd hi yno.'

'Na, wna i ddim credu'r peth. Yn Llundain! Mae Llundain yn gwybod yn well. Dinas yw hi a luniwyd gan fydolrwydd. Dw i'n hoffi wynebu ffeithiau. Heddiw yw heddiw. A bwlch yw bwlch.' Pwysleisiodd y peth gan siglo'i ddwylo anffurfiedig. Roedd e bron yn digio. 'A'r rhain yw'r rhain.' Arafodd gan edrych arno fe'i hun. 'Heddiw.'

'Ond chi beintiodd y darlun ei hunan ... dw i'n siŵr... unwaith.'

'Dw i'n amau hynny hefyd weithiau. Paid â sôn am y peth. Dere allan i'r ardd i mi ddangos y moron i ti. A! Y moron. Yn awr, dyna i ti ffantastig. Y moron. A!' Cododd yn styfnig.

A llwybreiddiason ni'n dau i lawr – i lawr rhwng y rychau clai.

(Allan o'r gyfrol *Traed Prydfarth*)

## CUSANAU FFARWÉL

Does dim mwy diniwed na mynd am wyliau. Dim mwy diddrwg didda. Dych chi byth yn teimlo mor ddidramgwydd â phan fyddwch yn ymwadu â phrif fwriadau'ch bywyd ac yn ymneilltuo i'r Ynys Afallon ferfaidd honno lle dych chi i fod i ymorffwys ac ymroi, ie ymroi, i hamddena.

Beth a allai fod yn fwy diberyg?

Beth sy'n llai chwyldroadol ac yn fwy wrth fodd yr awdurdodau hynny sy'n coelio bod peidio-â-siglo'r-bad a chonfensiynoldeb yn brifddinas i fynwenta?

Y Gorffennaf hwnnw, doeddech chi'n ddim namyn gyrrwr car. Fyddai neb, neb oll, yn amheus ynghylch na'ch cenedlaetholdeb na'ch ysfa i lenyddu na hyd yn oed eich Calfiniaeth. Roeddech chi'n deithiwr talog hollol ganol-y-ffordd, ac un felly o filiynau. Pwy a'ch cyfrifai chwaith yn ddigon pwysig i'ch dilyn nac i'ch gwylid? Chi o bawb! Ar ganol y ffordd! Lle peryg.

Ac eto, roedd yna rywun yno, yn dilyn.

Roeddech chi wedi nesáu at y ffin rhwng Lloegr a Chymru ychydig yn ddiweddarach nag a fwriadasoeh, ond heb ruthro a heb freuddwydio'ch bod yn gwneud dim oll o'i le. Roedd yr hin yn ddigwmwl, a doedd dim oll yn bygwth.

Pan gyrhaedoch chi'r ffin, bu rhaid stopio'r car i'r plant daflu i fyny. Dyna'r union le ichi sylwi bod yna rywun yn eich gwylid chi: y tro cynta i chi sylwi ar y ffigur cyfrin. Dyw plant ddim yn siwrneiwyr da. Er mai yn y meddwl mae'r salwch yn ei fynegi'i hun yn ddigon diriaethol unigolyddol, roedd y naill blentyn a'r llall y tro hwn drwy ryw gydymdeimlad cyfrin yn cyfogi o fewn deg eiliad i'w gilydd. Yna, wedi sefydlu'r pwynt, – eu bod nhw'n casáu teithio a phob amser mai nhw oedd yn gorfod diodde, – buon nhw'n siriol iach am weddill y daith y diwrnod hwnnw, tan ganu'r rhan fwya o'r ffordd.

Roeddech chi wedi pennu'r ffin honno rhwng Lloegr a Chymru yn fan addas ar gyfer eich pryd cynta yn ystod y dydd. Gan ichi frecwesta'n gynnar, a chymryd mwy o amser nag a ddisgwyliwyd ar gyfer pacio'r car, roeddech chi'r oedolion yn hen barod ar gyfer bwyd. A pha le mwy priodol ar gyfer bwyta na'r man hwn lle y bu'ch cyndeidiau'n gwarchod eu tiroedd a'u bywoliaeth derfynol? Ond arall oedd ymagwedd reddfol y plantos, mae'n rhaid. Nid lle i wledda yw ffin.

A chithau wedi'ch atal dros dro rhag y pryd arfaethedig, fe gododd archwaeth amoch fwyfwy, ac anodd oedd myfyrio am undim arall.

Wedi cyfogi, a tharo cis ar y ffin, roedd y plant hefyd wedi adfer eu dawn o barablu'n ddi-baid.

Does gan ddyn ddim organau neilltuedig ar gyfer gwahaniaethu rhwng llefaru a chusanu.

Gweithgareddau isradd yw'r rheini i'r gwaith mwy cynhwysfawr o fwyta. Llefaru a chusanu yw'r cynnwys, a bwyta y cynhwysydd. Fe welsoch chi lawer o gariadon, yn ddiau, o dro i dro, a hynny ar draethau yn yr haf, a hefyd mewn ffilmiau, yn benagored, a chwenychai gusanu fel pe baen nhw wedi ymprydio ers mis, a newydd gael eu gosod o flaen saig o gyw twrci dethol wedi'i goginio i'r dim, ac am ei ysu oll mewn eiliad, gan lowcio'r cwbl yn undarn diddim, cyfanedig. Yn wir, dichon i chithau fod bron yn euog ar dro.

A gwelsoch chi hefyd eraill – modrbedd efallai, rhai cusangar, er na wyddoch chi'n union pam dych chi'n cyfeirio at y rheini o hyd, ac a oes yna rai o'ch llwyth chi sy'n tueddu fel yna? – a barablai'n fân ac yn fuan, gan glebran yn ysol amleiriog, fel petaen nhw'n deintio'n newynog yn yr awyr a anadlen nhw y bore 'ma gyfres o gacennau bach blasus, cusanadwy. Bwyta a siarad, bwyta-siarad. Cusanu a siarad, a chusanu-siarad; ac ymateb: hawdd synfyfyrion am y posibilïadau modrbaidd awgrymog, a hyd yn oed mynd yn ddagreuol sentimental, a thybio'ch bod yn gwrando ar gystadleuaeth adrodd mewn un o'r hen eisteddfodau gwledig yna a roddai'r lle blaenllaw i blant, neu ar araith boliticaidd i'r 'gweithiwr' ers talwm.

A'ch iaith chi mor fregus ei sefyllfa, dych chi fel pe baech chi wedi'ch gwahodd i wledd eiriol, ac mor nerfus eich cylla nes eich bod chi'n ofni profi pob dim, ac yn eistedd wrth eich platiau gan ffidlan â'ch cyllell a fforc a chan gil-sbio ar eich cyd-giniawyr siaradus sy wrthi'n mwynhau'r rhialtwch yn foliog hyderus. Cafodd un gŵr wrth fwrdd cyndogol mewn caffè yn ystod y daith y fath loddest o siarad ar ei blataid ei hun heddiw, nes ei fod e mwyach nid yn unig wedi cydio yn eich plataid chi a thraflyncu'r cyfan, ond yn awr y mae wedi dechrau cnoi eich llaw Gymreig, wedi cau'i ddannedd yn y darn tyner o'ch braich a, bellach, wedi blasu'ch gwddw hir a rhwygo'ch cig ymaith o'ch ysgwyddau, a hynny i gyd, yn wir ei wala, tan dybied ei fod wrthi o hyd yn ceisio dibennu ei ran gyfiawn a phriodol ei hunan.

Nid bwyta-gusanu mo hynny.

Ambell waith, fe ymddengys yr wyneb dynol fel petai wedi'i adeiladu'n sâl drybeilig ar gyfer cusanu. I'r rheini, yn arbennig, sy wedi'u donio â thrwynau gwir weladwy, mae'r cyfarpar blodeuog hwnnw'n tragwyddol fynnu'r blaen ac ymhob ysgarmes garwriaethol yn awyddus i ymyrryd â nhw. Ond felly yr ymddengys weithiau wrth fwyta hefyd, yn neilltuol pan fôn nhw ymhell oddi wrth offer gwareiddiad, ac yn gorfod ymgodymu â melwn neu â choes ffowlyn rhost yn ddi-gyllell ac yn ddi-fforc; nid bob amser y sylweddolan nhw ymhle y dylid doddi'r trwyn. Y pryd hwnnw, dylid doddi'r trwyn yn y canol. Y pryd hwnnw, yn anad unpryd, y canfyddan nhw gyfraniad ceginol anochel y trwyn ac i ba raddau y mae blas yn cael ei baratoi a'i gadarnhau'n gynnill ac yn ddychmyglon ganddo. Wedyn, o weld cydweithrediad wrth fwyta rhwng yr aroglï a'r blasu, cân nhw ddwysach darganfyddiad o'r lle sydd i drwyn hyd yn oed mewn cusanu. Mae'r weithred ddewinol

honno yn gallu ymagor drwy amryfal sianelau i'r synhwyrac ac yn meddiannu nid yn unig y gwefusau a'r tafod, – a'r glust gwarchod pawb – , eithr hefyd y ffroenau hyd nes dwyn dagrau boddhad i'r llygaid.

Wrth gyrraedd Llanllieni, yn wir pryd bynnag y clywch yr enw cotymog hwnnw, fe ddaw i'ch cof yr hen rigwm lol –

*How many miles, how many*

*From Leominster to Llanllieni?*

Roedd yr hen ddigrifwas a'i bathodd gynt yn eitha siŵr y byddai pawb oll, y pryd hwnnw, yn ymateb i'r ergyd yn union; ond mae'n amheus a oes mwy na dau neu dri o drigolion y dreflan honno a'i deallai erbyn heddiw.

Rhaid symud y ffin ymhellach o lawer draw i'r arfordir i holi yn awr, mor ysgafn –

*How many miles, how many*

*From Cardigan to Aberteifi?*

Ac yna, wrth ymofyn felly yn hiraethus am yr amser gynt y dwthwn hwn, fe amheuwch tybed a oedd y bathwr cyntaf hwnnw gynt hyd yn oed yn bras amgyffred arwyddocâd gwirioneddol y fath gwestiwn arswydus fel y byddai maes o law. Gwelwyd yn ein dyddiau ni nid yn unig fod y pellter rhwng Cardigan ac Aberteifi yn ormod i'w deithio mewn blwyddyn a hyd yn oed mewn deng mlynedd, ond eu bod nhw ar blanedau eraill, – y naill ar Gymru'u dimensiwn nhw a'r llall ar Gymru eich dimensiwn chi. Ac os yw hyn yn wir am Gymru a seisnigeiddiwyd ac a daeogwyd i'r fath raddau bellach, gymaint mwy o gamp i'r Saeson isymwybodol, imperialaidd fyddai dechrau cael y clem lleia un am y pellter rhwng Leominster a Llanllieni.

Yn Llanllieni eto y sylwoch ar y dyn. Dyma'r dyn oedd yn eich dilyn chi.

Dyn tywyll, nad oedd yn edrych arnoch chi. Ond yr un dyn – ffermwr oedd e efallai – a oedd yn sefyll yn eich ymyl wrth y ffin pan arhoswyd i'r plant fod yn sâl. Ac wrth ei weld yr ail waith, fe sylwoch. Y tro cynta, gweld heb sylwi. Y tro hwn, sylweddoli, a nodi, a theimlo, mewn modd digon arwynebol, ychydig yn anesmwyth.

Ond ymlaen â chi ar eich gwyliau. I ffwrdd i freichiau dihangfa hyfryd, a chyfiawnhaeddiannol hefyd – os caf ddweud – wedi straen gryno'r flwyddyn.

Dianc? Fe ddwedir weithiau – a ddwedsoch chi'n ddiau – mai dianc a wnâi T. Gwynn Jones a Gruffydd a'r rhamantwyr eraill wrth lunio gwlad ddychmyglon ac afreal a'ch hudo chi yno gynt. Ond os yw hynny'n wir, dyw hi ddim ond yn wirionedd o bwys, a methoch chi ag wynebu canol y gwir, y gwir sy'n cyfri; oherwydd yn eu bryd nhw estyniad mewnol fu eu gwlad bell hwythau. Estyniad fu yn yr ymennydd i'r realiti annigonol a brofir, ac estyniad sy'n eich atgoffa nad yw na'r gadair freichiau, na'r ardd, na'r plant, na'ch gwaith beunyddiol yn amgáu pob pen-llad ac

arwyddocâd. Nid ffoi a wnaen nhw mewn gwirionedd, eithr chwilio am ddatblygiad, hyd yn oed am estyniad nad yw'n bod, ac felly y mae eu ffoi nhw'n arwain i rywle'n glir ac yn benderfynol o leia yn y meddwl.

O ble y daeth y Rhamantiaeth hon i'r beirdd? Ar grwydr goleddf y bu eich dychymyg drachefn.

Dych chi wedi blino arnoch chi'ch hun – dyna a ddywedai'r call – chi, Ewropeaid dechrau'r ugeinfed ganrif. Wedi ichi ddewis peidio â chredu, wedi ceisio gwrthod pob gwirionedd, er mwyn peidio ag ymrwymo mewn dim ond ynoch eich hunain, wedi ceisio'ch gwneud eich hun yn agored i bob dim, ac wedi darganfod y gwacter sy yn eich unigoliaeth eich hunain, dych chi wedi dod allan i ryw ddyffryn hirfaith hyll o negyddiaeth. Ac y mae hyn – a dyma'u gosodiad cadarnhaol a phenodol – mae hyn yn gelwydd afiach. Os oes rhaid dewis celwydd, yna dewiswch un iach: dyna gyngor barddonol go iawn.

Ymlaen â chi, felly, i Stratford.

Roeddech chi wedi dewis dod y ffordd hon yn benodol, er mwyn peidio â brysio ar hyd y ffordd arferol, fel y gallech beidio â throi'r siwrnai'n ddim ond taith unionsyth o fan A i fan B yn yr amser lleia posib. Câl'r plant, felly, gipolwg ar leoedd nas gwelson nhw o'r blaen, a chaech chithau'r ymdeimlad nad oeddech chi am hyrddio-gyrraedd y fan draw o hyd. Felly y bydd iaith ambell waith. Yn lle mynd ymlaen yn union o ffaith i ffaith, mae'n mynd ar slent, ac yn ddisymwth mae'r geiriau'n goleuo, ac mae'r ddaear a'i ffrwythau'n disgleirio, ac mae'r iaith ei hun yn ymwisgo'n drosiadau gwir ac ysblennydd. Dowch, felly, blant, ar y llwybrau slent.

A hynny a wnaethpwyd – yn addysgiadol – er mawr amhleser i'r plant.

Erbyn hyn, maen nhw wedi tawelu. Ddwedodd neb ddim yn y car am rai milltiroedd. A dyma chi'n sylweddoli mai'r distawrwydd hwn oedd yr union beth y buoch chi'n chwilio amdano. Roedd y clustiau'n ei yfed yn ara.

Ond yno, hyd yn oed, yn yr anunion fan yna, yno yn Stratford, yr oedd e; y dyn dw i'n feddwl. Hwnnw a welsoch chi ddwywaith o'r blaen. Gallech chi dyngu mai fe oedd yno; neu gysgod ohono. Roedd crwm diog neu flinedig ei ysgwyddau yn ddigon i'ch argyhoeddi mai'r un dyn ydoedd, er na chawsoch chi olwg llawn arno yn Llanllieni am fod ei gefn wedi'i led-droi atoch chi. Dechreuoch chi sylweddoli nad eich dilyn chi roedd e. Yn hytrach, chi oedd yn ei ddilyn neu'n ei arwain e, i weld y golygfeydd. Fe oedd yr arweinydd twristaidd, yn eich tywys chi heb godi ffi. Roedd e'n eich cymryd chi ar wibdaith yn rhad ac am ddim o gwmpas oferedd eich bywyd, i ddangos yr harddwch achlysurol ac i frolio am y panorama rhad. Oferedd seithug eich bywyd! Hamlet o ddyn!

Dych chi am bledio'n ddieuog. Dych chi am honni bod amgylchiadau'n gallu'ch esgusodi am

yr hyn ydych chi. Dych chi ddim chwaith am ymrithio'n ŵr canol-oed sy'n haeddu llongyddwch ac na wnaeth yr un drwg i neb. Mae'r trywydd wedi'i wasgaru drosto gan gelanedd gweithredoedd angharedig; ac os bu dyn erioed a haeddodd ei erlid, chi yw hwnnw. Ond y gwir yw, fel arfer, dynion fel chi sy'n cael y llongydd, am eich bod chi'n pechu'n gymedrol mor daeogaidd debyg ag sy'n bosibl i bawb arall, fel pe baech chi'n gyffredin gudd. Dych chi'n claddu'ch pen mewn arferoldeb; gwŷr normal, sentimental, digon 'parchus' fel pobl eraill – os caniateir peth elastigrwydd i'r gair concrit hwnnw. Ond termau cymharol yw'r rhain oll; fel pe baech chi'n eu defnyddio drwy dynnu pobl eraill i mewn, ac ymguddio mewn tyrfa, fel pe baech chi'n ceisio boddio a boddi'ch euogrwydd eich hun yn euogrwydd dynoliaeth oll; gweithred gachgiaidd nodweddiadol.

Dych chi'n euog o bopeth. Yn euog o fod yn Gymro, yn euog o beidio â bod yn Gymro. Yn ddysgwr dauwynebog.

Felly'r Gymraeg fwyfwy bellach, hyd yn oed yn yr ardaoedd Cymreiciaf. Pe mudai un dros y ffin, pa hyd y cofiech chi am gymuned Gymreig yn diogelu'r diwylliant pe rhoddech gyfle i olwynion y blynyddoedd o falu awyr iddi yn y fan yma yn Lloegr? Mae yna fath beth â chuddio mewn blynyddoedd. Fel y mae'ch gwythiennau'n caledu a'ch croen yn sychu ac yn crychu, ac fel y mae'r esmwythder gwyn yn cael ei ddisodli gan frownder gwydn a chrin, felly mae'r co hyd yn oed yn ei fannau tynera'n pallu ac yn gwyro, a'i gynnwys melysa yn gwasgaru yn y gwynt.

Mae hyd yn oed yr hiraeth dwysaf yn gallu dadhiraethu.

Dych chi'n cofio colli'ch tad; yn union wedyn roedd ei siwt ddrillad, a'r llwybrau a hoffid ganddo, yn ddigon i'ch bwrw i byliau o hiraeth diwrthdro. Pan gaech eich llygaid i gysgu'r nos, efô yn ddi-ffael a ddeuai atoch i'ch cusanu. Ac eto, mwyach, pan ddaw e i bwyso ar silff ffenest eich ymwybod, a syllu i mewn, dych chi'n gorfod plygu'ch pen ac edrych rywffordd arall, allan tua'r ardd rhag i'w lygaid e ddal eich euogrwydd a sylwi ar ddyfnder eich ango'. Ac felly hefyd pan fu farw'ch mam-gu, fe dybiech ar y pryd nad oedd dim na neb a'ch rhyddhâi rhag eich trymder hiraethus gan y byddai hi'n dod, nid yn achlysurol, ond yn brydlon addfwyn ar y munudau terfysglyd hynny pryd y byddai mwya o'i hangen hi; ond heddiw dych chi'n gorfod ymdrechu i gofio'i gwên; a hyd yn oed oslef ei llais, pan atgynhyrchwch hynny yn eich meddwl, dych chi'n amau weithiau pa mor fanwl gywir yw ac ai dychymyg yw ei dri chwarter. Os digwyddodd hyn i'ch perthnasau, pa obaith felly sy i Gymru?

Yn Southampton roedd y dyn wedi cyrraedd y gwesty o'ch blaen chi. Hynny yw, nid eich dilyn chi roedd e gan ei fod e eisoes yn gyfarwydd â'ch symudiadau. Nid eich dilyn chi; eithr dod gyda chi. Roedd e yn lolfa'r gwesty yn tremu ar y teledu, a chododd e ddim o'i ben pan ddaethoch i mewn. Doedd e'n hidio dim am eich gwylid chi, fel petai hynny mor amherthnasol o sicr fel nad oedd angen trafferthu i'ch cadw chi yn ei olwg yn barhaus. A chan nad oeddech yn awyddus i aros

yn y lolfa, doedd e ddim yn malio botwm corn. Arhosodd yno'n gyfforddus, erbyn hyn, fel petai'n gwybod yn burion y byddech chi'n ddiogel ac yn brydlon yn yr ystafell fwyta gerllaw fore trannoeth am wyth.

Ar y bad eto i Normandi roeddech chi'n gwbl ddibwys iddo drachefn. Gallech grwydro fel y mynnech o fewn ffiniau. Carchar tra chyfyngedig yw bad, a bodlonai ef ar aros draw yn ei unfan yn y pen pellaf iddo, fel pe na baech chi'n bod.

Carchar sigledig yw bad gyda'r môr yn waliau; ynys symudol yw. Gellir eistedd yn ôl, yn dra chyfyngedig mae'n wir; ac angori. Mae'n gwbl ddifaldod; neu fe all e lithro danoch chi, yn angharcharaidd allan o'ch gafael, i ffwrdd ar sglefrau.

Ac eto, oherwydd yr ansicrwydd sigledig, mae yna fath beth â braw sy'n creu anwyldeb. Mae'r eiddil yn gwreiddio ychydig ynoch chi. Mae'r ansicr rywsut yn gwywo, yn y pethau sy'n darfod ac yn diflannu o'ch gafael, yn y gwannaidd. Ond dych chi'n ymhoffi yn yr ansicr hwnnw; hunan-amddiffyn yw a beryglir gan bendantrwydd mewn ymrwymiad i berson neu le. Yng Nghymru, mae yna ansicrwydd annwyl nad yw'n medru ymladd yn erbyn grymsterau amser a phŵer. Ai Cymru wedi'i ffugwisgo'n wrywaidd yw'r dyn yna sy'n eich dilyn chi? Na... Ie! Fel y mae tad yn closio at y lleia dawnus o'i blant ac yn ymdeimlo â'r awydd i'w goleddu, felly y mae'r hagr a'r anffodus, y tlawd a'r trist, yn eich denu chi. Ac oherwydd eich bod yn gwybod bod y llawr sad hwn o dan eich traed yn nofio ar fôr o dân hylif, yna y mae mân grychu yn y berw fel deilen hardd yn yr hydre darfodedig.

Byw, beth yw hwnnw ond marw gan bwyll bach?

Ie; yno; roedd e yn St Benoît o'ch blaen chi, fel roeddech chi'n ei ddisgwyl; sef yn y pentre lle'r oeddech i fod i dreulio peth o'ch gwyliau; ar y traeth o flaen y bwthyn. Roedd y dyn yn eistedd yn jocôs fel pe bai e yno ers mis.

Gadewch iddo fod. Allech chi ddim gweithredu amynedd fwy. Roedd angen rhoi'ch meddwl o ddifri ar wyliau. Cael 'amser moethus' gyda'r plant oedd y prif gymhelliad y tu ôl i ymdeithio oddi cartre am wyliau, does bosib. Dianc rhag yr ysfa am weithio gartre, ymhell oddi wrth feistr 'Gwaith' a'i chwip hir, dyna'r bwriad. Ond ar y daith hon, mae'r cymeriad dirgel du hwn wedi ymwthio fwyfwy i mewn i'r cwmni, a hwp'o'r plant o'r neilltu. Mae'n herwgipio'ch oriau, ac am ichi beidio ag anghofio..

Gadawsoch y wraig, gadawsoch y plant am foment, a rhedeg i lawr ato i'w gyfarch, yn Gymraeg i ddechrau; roeddech chi'n siŵr mai Cymro oedd. Yna yn Saesneg; ond fe'ch atebai o hyd mewn iaith friw gwbl ddiarth fel petai'n estron hyd yn oed yn yr iaith anhysbys honno.

'Pwy yw e?' meddech chi wrth eich gwraig ar ôl mynd yn ôl.

'Neb.'

'Ond beth dych chi'n feddwl? Sut mae neb yn neb? Beth fu ystyr hyn oll?' Chwarddodd eich gwraig yn garedig. 'Rwyt ti am ei ddehongli fe? Dyna'r Drwg,' meddai hi wrthoch chi. 'Dyn yw e. Dyna'r cyfan.' Chwarddodd hi'n bryfoclyd am eich bod chi mor awyddus i esbonio popeth.

Drannoeth y bore, fore o wanwyn ynghanol haf llethol, fe ddeffroesoch yn gynnar, ac roedd eich pen yn teimlo'n anghyffredin o glir, fel clychau'r gog, fel petai Rheidol wedi rhedeg drwy'r dyn a throsto, a'i gaboli'n loyw yn sŵn a swae y ffair-bleser gerllaw, nes nad oes i'w raeon yng ngwely'r afon yr un ystyr ac na fynnai ond brifo'r tawelwch. Eto, roedd hyd yn oed hwnnw wedi methu â'ch cadw chi ar ddi-hun er ei fod fel cur-yn-y-pen-o-gwmpas-eich-pen, ac yn amgylchfyd di-dor o drwst gwallgo; ac os methodd hwnnw, rhaid nad oedd yna ddim ond y sŵn mewdol, a ddaw'n rhy fynych, ac nad oes ynddo ddim sy'n canu, ac a fedrai bellach eich atal rhag cysgu. Dŵr ymwithiol dros y graean. Nawr roedd y ffair wedi tewi. Wrth iddi gilio a symud o'r awyr, i mewn i'r bwlch a adawyd ar ei hôl hi fe fyrlymodd y fath lif o ddistawrwydd glân, nes eich bod yn teimlo'ch bod yn nofio drwy ryw lesni rhwng ynysoedd, a'r heulwen yn dirion am eich gwallt. Roedd rhywun wedi'ch golchi chi. Adawyd ddim o'r ddaear heb fod tyst yn atgoffa nad ŷn ni ddim heb gydymaith. Does dim bwlch yng ngofodau'r byd heb fod rhyw ystyr yn ei lenwi.

Yn ystod y gwyliau, mae'r amserlen yn syml.

Dych chi ddim yn gwarafun i'r prynhawn gael moethau'r haul, os cewch chi'ch bore i ysgrifennu. Wyddoch chi ddim yn hollol pam, ond dych chi'n bureiddiach eich anadl ac yn loywach eich croen yn y prynhawn, wedi cael y bore i ymdroi gyda darllen barddoniaeth, a gwneud ambell nodyn, a dal ambell rythm rhyngoch chi a'r golau, a chael clustfeinio ar grwth ambell gystrawen. Mae'r gwareiddio i chi yn y bore yn eich gwneud yn addasach ar gyfer coedwig pelydrau'r prynhawn; ac yn y prynhawn mi gewch esgus i dorheulo gyda'r lliaws ar y traethau naturiol, gan ddarllen a synfyfyrio ar bwys y wraig, cyn darllen a synfyfyrio yn yr hwyr. Ond yn y boreau – A! – dyna'r pryd y mae'r gwyliau'n digwydd o ddifri: dyna'r prif gyfle i weithio. A'ch gwaith? Atgoffa'r tir o dan eich traed am ei hen swyddogaeth drefnus o baradwys.

A bolaheulo wedyn efallai.

Mae bolaheulo'n eich gorfodi bob amser i ymbleidio a chymryd ochr. Mae'r deallol ynoch yn ei gyfiawnhau'n burion ac yn sgwario'n rhamantaidd wrth fynnu lle yn y fuchedd hon i'r oriau pêr ac afradlon, hwyliog. A pham na ddylid caniatáu i'r corff sipian yr haul heb hidio'n ddifrifol am ddwystr cynnil byw, a pham na chewch chi daflu'ch aelodau'n ddi-falio i'w trwytho'n sychedig mewn anifaileiddiwch diniwed ambell dro?

Ond mae'ch greddf Biwritanaidd yn eich perswadio mai tipyn o fursendod gwneud yw'r bolaheulo hwn, ac mai dyfais fenywaidd yw gan mwya i wastraffu amser; ac yn enw rhyw fath o iechyd – sy'n gwbl ddi-sail – ac yn enw rhyw fath o ymbincio ac ymogoneddu dychmyglon a



ffuantus ar y croen, ceisir dehongli diogi fel petai'n ymarferiad cafalr y gall person a chanddo ymennydd ymddigrifo ynddo'n ddiymatal, a hyd yn oed yn gall.

Dyma chi'n methu'n lân â chael gwyliau heb beth gwaith diniwed, na gwneud segura yn rhinwedd.

Ond arhoser. Mae'n anghywir synied am ddiogi mewn modd negyddol. Nid dyna ydyw.

Am y ddefod barchedig o ymdrochi, wyddoch chi ddim beth i'w ddywedyd. Nid fel hyn y bu hi bob amser. Roedd yna gyfnod – neu felly yr hoffech feddwl – cyn dyfod ar eich gwar o'r dyddiau blin, pan fydech yn rhuthro ar lawn garlam i ymdaflu mewn dyfroedd mor ddihidans â bilidowcar, heb gyfri'r gost; neu efallai mai rhamantu wnewch chi eto, megis Breuddwyd Rhonabwy, am y cawr mawr fuoch chi gynt. Beth bynnag, yn awr, pe baech chi'n mentro – a does dim namyn tair blynedd neu bedair er pan fuoch chi mor ffôl – yn mentro fel kannwyll wen a chaled a thenau ei chŵyr i mewn i'r môr, gwyddoch chi'n burion mai diffodd wnaech chi ar eich union. Oherwydd, nid kannwyll ydych chi mewn gwirionedd, eithr fflam wen gyfan o'ch corun i'ch cyrn, a phan gyffyrddir â'ch ymylon gan y diferyn lleia o dd ŵr oer, un o ddau beth a all ddigwydd, naill ai fe ddiennyddir y fflam benbwygilydd neu fe dry'r dŵr yn ager chwibanog toc. Ond yn achos y dŵr, rhaid ildio.

Yr un dyn oedd yno yn Sain Malo. Ond roedd mewn stôl-olwyn wedi'i pharcio y tu allan i siop fferyllydd a cholwyn anwes yn ei gôl. Doedd dim ond un goes ganddo mwyach. Roedd y llall wedi'i dwyn ymaith, neu wedi treulio. Ond dacw fe: yr un dyn oedd e, yn siŵr; gallech chi dyngu i hynny. Yr un gwallt du, yr un llygaid duon, a'r un – beth ydoedd? – ai'r braw a ymgodai yn eich bochgernau?

Na. Nid braw yw chwaith.

Eich canlyn chi y mae e, er mwyn casglu'r oriau dych chi'n eu gollwng a'u gwasgaru ar y llawr ar eich ôl, yr oriau a wastreffwch ar hamdden. Mae'n eu cadw nhw fel sbwriel, ac yn eu lluchio nhw i sach.

Mae'n dda nad ych chi ddim yn ceisio dim yma, er mor felys yw. Mae'r ing o *fyw* mewn gwlad arall, – nid o *fod* yma am ychydig o ddyddiau, nid o dorheulo, nid o ymweld ag eglwysi, nac o glebran gyda hwn a'r llall, cyn tuthio'n ôl – ond o *fyw* yma fel pe baech chi'n rhan ohoni am wythnosau ac yn ymwarded â phob gwreiddiau eraill yn rhy debyg i farw i'ch plesio chi, sef marw i mewn i fywyd newydd y tu hwnt i'r wal ddiadlam gan wybod nad oes ond un cyfeiriad i'r iaith benderfynol hon. Ond y mae *bod* yma yn fwy o orchest ac yn caniatáu ichi fod yn ansicr a ydych chi yma mewn gwirionedd; a chewch y pleser o ymholi pa bryd y byddwch chi'n ymgysylltu drachefn â'r llinyn yna a adawsoch dros dro acw y tu ôl i'r gorwel, ac rych chi'n pasio drwy freuddwyd hollol unigol am un noswaith ffôl sy'n digwydd dod heibio ar ganol rhes o ddiwrnodau defodol, a chithau mewn gwirionedd wedi gadael eich hunan yn ôl yn yr henwlad.

Yna, yn annisgwyl, fe welwch goeden neu fryncyn neu gi neu hyd yn oed domen sbwriel, tomen sbwriel yn anad dim efallai, ac fe dybiwch am eiliad nad ych chi ddim yma o gwbl, wedi'r cyfan, a bod y rhain yn eiddo i chi eisoes ac erioed. Gwelwch gysgodion y coed yn ymglosio at ei gilydd yn y pellter, ac fe ddwedwch – fel hyn ac fel hyn, onid e, normal yw'r byd; normal yw'r tir; does dim ar y ddaear ond Cymru, druan, yn eich dilyn, gyda phoen yn dirgrynu pan bigir chi, a gwaed yn dychlamu dan gyllell pan glwyfir chi.

Roedd yna un fenyw yn y pentre diwetha lle buoch chi, a fynnai ystyried eich bod chi'n dod o Bortiwgal. Dych chi ddim yn meddwl fod eich ynganiad chi mor drychinebus â hynny, ond pallai hi â chredu fod y fath le â'r *Pays de galles* i'w gael gan nad oedd wedi clywed amdano. Dichon mai diwinydd oedd. Pan geisiech esbonio iddi ei bod yn wlad agos i Loegr – yn wir yn rhan o Loegr – edrychai hi arnoch yn anghrediniol. A bodlonodd ar eich trin fel Portiwgaliaid.

Dichon ar ôl hyn a hyn o folaheulo, y byddwch chi yn wir yn edrych yn Bortiwgaliaid.

Rywfodd, nid briwsion, ac nid oriau, y buoch chi'n eu gwasgaru ar y llawr ar eich ôl. Clwyfau oedden nhw. Dyna a luchiwyd i'r sach.

Oni ddylai fod rhyw fath o fathodyn ar gyfer gwisg y Cymry, fel roedd ar gyfer yr Iddewon yn yr Almaen ar un adeg, yn nod o'u cywilydd? Bydden nhw'n ffaelu cuddio wedyn. Ac eto, pe caech rywbeth felly, byddai'n ormod o ymholiad, fel petaech chi'n chwenychu diogelwch hunaniaeth go iawn, am fynnu'ch bodolaeth y tu hwnt i'r ymddatodiad balchder, y tu hwnt i'r ymddatodiad ewyllys ac urddas sy'n hanfod ynoch.

Pan welsoch chi'r dyn drachefn, roedd e mewn stôl-olwyn o hyd. Ond doedd ganddo'r un goes erbyn hyn. Corff byw oedd e wedi'i strapio yn y gadair. A chodai'r cwestiwn yn awr a oeddech chi wedi gweld ei *un* goes e ymhlith y sbwriel yn *bendifaddau* y tro cynt.

Ond roeddech chi yn hollol siŵr o'r peth. Yr un dyn oedd hwn, ond roedd ganddo un goes yn llai, neu'n hytrach, – ar ôl syllu, – doedd ganddo'r un goes o gwbl mwyach.

Wyddech chi ddim pam, – oherwydd fe ddylech chi deimlo'n fwy rhydd bellach; os oedd hwn yn erlynydd, yna roedd yn weddol analluog i'ch dilyn chi mwy: – eto, teimlo'i fygythiad e yn fwyfwy a wnaech, fel petai ei afluniad a'i ddiffyg yn ei wneud e'n gymeriad mwy ysgeler ac ystrywgar, fel pe bai e yn fod o ryw ddimensiwn arall.

Dowch yn ôl i dorheulo'n fyw yn eich llyfr.

Dych chi'n hoffi'r traeth fel y mae'n teimlo ar ôl wythnosau o heulwen nes bod y rhannau ucha ohono, lle na chyrraedd y llanw, yn grimp o sych. Mae'n eich atgoffa chi eto o Gymru. Yr anialwch yw lle y crwydra dyn mor sychedig, mor hir, fel camel.

Ni mewn anialwch o draeth? Fel camel? Prin. Pan fo camel mewn anialwch, fe ellir cymryd ei gig e i'w fwyta, ei groen i'ch cysgodi, hyd yn oed ei drwyth fel eneniad, a'i ysgarthion yn

danwydd i'r nos. Ond mewn sŵ o wlad yma, pa werth yw camel? O! Fe all ddiddanu ymwelwyr a chario ychydig ohonyn nhw? Ond pwy a fyn ei gymryd o ddifri? Oni cholodd ei urddas? Ac onid yw'n drewi? Onid yw ei geglau'n ddiflastod dan draed? Pe baech chi mewn anialwch o Gymru, mae arna i ofn y teimlech dagfa'r syched, a byddai'r gwres yn rhoi'r dincod ichi. Ond sŵ yw hwn. Am y fynedfa iddo, faliodd yr un ymwelydd ddim digon hyd yn oed i dalu i fynd drwyddi.

Eto, mae crwydro mewn gwlad dramor yn eich atgoffa mor fyw am Gymru o hyd. Nid oherwydd anhawster y cyfathrebu arwynebol â thafod, er bod y swildod cynhenid yn ymswilio fwyfwy mewn cynefin dieithr, ond oherwydd yr anhawster i gyfathrebu â'r ddaear ei hun. Wedi'ch dal yma mewn traddodiad chwâl lle nad ych chi'n perthyn, dych chi'n unig frawychus, wedi'ch maglu a'ch carcharu mewn uffern breifat ymenyddol. Wrth edrych ar y pridd dan draed, yn ddieithryn i ddynoliaeth, yma yr ewch chi gan bicio'ch ffordd yn y strydoedd cefn rhwng blycheidiau o ffrwythau a dynion yn hysbysebu'u crempogau, a'r buniau sbwriel y gellid twrian ynddynt. Ym Marks a Spencers yn unig y gall y Cymro mwyach fod yn gartrefol.

Ond wrth neidio felly y tu allan i Gymru a Lloegr, neidiwch hefyd y tu allan i'r ystrydebau teimladol a geiriol sy'n cuddio ystyr gwledydd eraill, y tameitiach newyddion beunyddiol sy'n udo ac yn sgrechian eu hysgyrion byw, a'u difrifoldeb llethol ynghylch dim byd, a'r celwydd seicolegol a gwleidyddol sy wedi'ch llyncu chi yng Nghymru yn grwn nes y gorwedddech yn ei fol tywyll a moel a llipa gan fethu ag anadlu. Beth sy wedi digwydd yn wleidyddol neu'n ddiwylliannol yn yr hen wlad pan fuoch chi i ffwrdd? Beth sy wedi digwydd yn wleidyddol neu'n ddiwylliannol yn yr hen wlad pan fuoch chi i ffwrdd?

Ymhen y tair wythnos benodedig o wyliau, sut bynnag, fe ddaeth yn bryd ichi droi tuag yn ôl ati hi. Roedd dychwelyd adre yn fwy cyflym ac yn fwy real. Un waith arall – fel y disgwyliwyd – y gwelsoch chi'r dyn hwn, ond o bell iawn y tro hwnnw, wrth i'r bad ymadael â'r cei yn Cherbourg; yno roedd e ar bwys sied y cwstwm yn smotyn mân yn eistedd yn ei stôl-olwyn, mor fân fel na allech chi weld a oedd ganddo un goes neu ddwy, neu'n wir a oedd ganddo freichiau o ran hynny erbyn hyn, a pham. A oedd ganddo gorff? A oedd ei wendid, tybed, yn ei wneud yn annwyl?

Welsoch chi ddim ohono o gwbl drachefn, fel pe bai e'n hollol fodlon am eich bod bellach yn ymadael â'i diriogaeth briodol. Roedd e wedi dod er mwyn sicrhau eich bod chi'n mynd adre oddi yma. Dyn neis oedd e wedi'r cwbl. Unwaith neu ddwy yn Lloegr, roeddech chi, – na, doeddech chi ddim, – roeddech chi'n amau ambell un o hyd, po agosa y deuech chi at Gymru; ond nid efô oedd yno ar achlysur arall, gallech fod yn siŵr, rywsut.

Eto, cododd ei law wrth ffarwelio.

(Allan o'r gyfrol *Traed Prydferth*)

## PWY LADDODD MISS WALES?

### I

Mewn gŷg y cyfarfu'r Parchedig Wyn Wynne â Miss Wales yn gyntaf. Gweinidog oedd Wyn a oedd eisiau bod 'with it'. Sylfaenodd ei weinidogaeth oll ar y dyfodol. Pe na bai'n gallu apelio at y bobl ifainc ar unwaith, cyfrifai'i fod wedi colli'r rhyfel cyn ei ddechrau. Hynny a gyfrifai am y tatwod ar ei freichiau, ac am y gwallt hir hyd at ei ysgwyddau wedi'i liwio'n oren, ac am y trowsus byrion a wisgai wrth iddo fynd i'r sêd fawr lle yr âi i gyflwyno'i 'sgyrsiau' i'r gynulleidfa denau, yn lle mynd i'r pwlpudd defodol.

Gellid holi'n naturiol sut y gallodd y Parchedig hwn ymbartneru â Miss Wales, – mor bell, gellid ei synied, o'i swyddogaeth barchedigol. Ond rheitiach fuasai holi sut y gallodd hi erioed ymserchu ynddo ef. 'Delwedd' oedd pob dim yn ei fywyd ef. Nid edmygedd cnawdol hyd yn oed a'i denai ef ati. Roedd ef ychydig yn ddi-ffrwt yn y cyfeiriad hwnnw. Na, creu argraff ar y genhedlaeth ifanc oedd ei raglen seml ef. Ond o'i thu hi, roedd yr atyniad yn fwy naturiol ac iach. Roedd e'n olygus, yn lluniaidd braf a'i wyneb yn disgleirio yn ei bryd hi. A hefyd, roedd yna achos arall, un hollol annisgwyl. Roedd y crwt yn rhyfedd iawn, ac yn hollol escentrig rywsut iddi hi, yn gallu cynrychioli'r hen Gymru. Roedd Gwen ers tro byd wedi syrffedu ar fywyd arwynebol soniarus a goroleuog Llundain. Bu hi'n hiraethu ers rhai blynyddoedd am ddod yn ôl i Gymru, yn ddoeth ac yn ddealladwy, tra oedd Wyn yn ôl yr hen draddodiad Cymreig yn hiraethu'n dost am fyw yn Llundain. Rywfodd, cyfarfod 'wnaethan nhw er eu gwaethaf yn y canol seicolegol, yn y Cwm.

Syrthio rhwng dwy stôl 'wnaeth Gwen. Roedd y ddeuddyn yn anghymarus doedd dim amheuaeth. Tynnu ymlaen yr oedd hi erbyn hyn, a'r goleuadau mewnol wedi dofi. Dros y blynyddoedd roedd hi wedi casglu gwendidau, megis blino ar annaturioldeb y cwbl. Ond plannai'r rheini yn ddwfn yn ei chymeriad arferion newydd, na allai ymwarded â nhw, megis ymneilltuo i fod ar ei phen ei hun am ysbeidiau: arferiad peryglus iawn i unrhyw un a mymryn o ddychymyg hydeiml ganddi.

### II

Ymblannodd y ddau mewn cymdogaeth lle yr oedd y byd diwydiannol yn cyfarfod pen cwm glofaol a ymagorai tua Bannau Brycheiniog.

Un diwrnod sylwodd Gwen ar ffaith newydd. Wrth i olwynion ei char droi bron yn erbyn eu hewyllys i mewn i'r cwm, fe welai hi dai'r cwm hwn, o leia yn y brif stryd, yn dda-ei-fyd. Roedd hi wedi arfer tybied mai tlodaidd a llwyd oedd e; ond heddiw roedd paent glân o gwmpas llawer o'r ffenestri a sglein egni ar gerrig y drysau.

Chwedl gwrach oedd y sôn am dai tlawd yn y Cwm. Ac roedd hyn o welliant fel pe bai'n dadramantu garwder yr hen fyd, ac wedi troi'r hen ddelwedd honno'n symbol amhriodol o oes aur.

Yr unig adeiladau adfeiliol oedd y capeli blêr, diffenest, a digri. Safai'r rheini y tu ôl i'w reilins bob rhyw ddau ganllath ar ganol ambell deras fel tyllau rhacsog, anweddu braidd. Ac eto o feddwl amdanyn nhw yn y siwt urddasol a fu, roedden nhw fel petaen nhw'n gynrychiolwyr ffyddlon i hen wareiddiad a anghofiwyd bron. Roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi cau.

Rhaid mai datblygiad diweddar oedd yr ymadferiad hwn ymhlith y tai hefyd. Suddasen nhw, ychydig yn ôl, ynghyd â'r capeli, i'r llwch a'r anobaith; ond bellach, roedden nhw wedi siglo'n rhydd ychydig, wedi ymbincio gyda chynnydd dros dro yn yr economi, a darganfod rhyw safonau eraill, ac wedi codi'n fyw ar adenydd cnawd ffres allan o'r lludw a'r anhrefn a'u cadwasai ar lawr.

Roedd Bethania'n fwy taclus na'r capeli eraill yn y pentre. Bethania oedd y capel cynta welech chi ac ynddo gyfanrwydd o ffenestri fel yr oedd gan y tai paentiedig, er nad oedd fawr ddim arall i ddynodi fod ynddo fywyd. Stopiodd Gwen y tu allan iddo; ac wedi cymryd un gegaid o whisgi cyn ymadael â'i char, ymlusgodd yn drymaidd i fyny'r grisiau at y Mans drws nesa. Yma roedd ei blinder corff yn cyfarfod â segurdd meddwl. Roedd hi gartre.

Fel cynifer o fenywod rhydd, roedd Gwen, yn ei throwsus a'i gwallt cwta a syth, yn angerddol o onglog, yn argraffiad caboledig a charegog o wrywdod cymalog. Wrth i'w hysbryd ymwithio i mewn drwy'r drws megis i dwll, taflodd gipolwg chwithig yn ôl, i fyny at y bryniau a'r tipiau draddodiadol a ballai ddod i mewn gyda hi; ac anfonodd ochenaid iraidd o serch atyn nhw cyn ymoeri i mewn i'r tŷ. I fyny yno, dros eu pennau oll, bwriai gipolwg yn ôl atyn nhw'n ddigalon ac yna at yr wybren agored acw, tra oedd y Mans i lawr yma yn wahanol i'r tai eraill yn dal yn dywyll megis pwll glo, ac yn ddistaw fel pren.

'Mae Morgans wedi marw,' meddai'i gŵr, y gweinidog Wyn Wynne, wedi ymsefydlu o flaen y tân; yntau'n drist ac yn ddiymadferth. Meddyliodd hi ar unwaith am Arthur, mab Morgans, a'i mab yng nghyfraith hi, yn briod i'w merch hi; a daliodd hi ei hanadl. Ond cuddiodd yr igian anochel ar ei hanadl.

'Dw i ddim yn dod,' meddai hi'n bendant, gan weld y tu ôl i'w ddatganiad syml e'r rhagymadrodd angenrheidiol i gynllwyn i'w thynnu hi i wasanaeth claddu o fewn muriau'r capel hwnnw.

Doedd e ddim am ddadlau â hi. Yn wir, roedd y newydd o golli'i ben-blaenor, hen fachgen diwylliedig ac addfwyn, wedi plannu gwreiddyn gwenwynllyd o siom yn ei dalcen; ac nid dal pen rheswm gyda'r wraig anynad, a oedd yn bla ffyddlon i'w enaid, oedd yn mynd â'i fryd y munudau yna. Ceisiai hi anghofio, am y tro, mai tad i'w Arthur hi oedd yr hen Morgans; Arthur ei sboner cudd.

Siociwyd hi gan y newydd, a'r cysylltiadau.

Ond nid mor rhwydd y rhoddai'i gŵr hi daw arni *hi*. Siaradai hi'n anhyglyw bron, fel isgerrynt drwy fôr ei fyfyrion, gan ei symud hi at ysgythrau'i chreigiau. Ceisiai hi fod yn gydwytbod i'w gŵr. 'Ti, wrthrych trueni,' meddai hi, 'a phawb drwy'r cwm yn tosturio wrthot ti, y gweinidog glanwedd wedi priodi anghredadun caled fel fi... "Druan o'i galon, y peth bach, yn gorfod diodde... dim ond oherwydd edmygu pâr o goesau..." Does neb yn sylweddoli dy lwc, Wyn, dw i'n ofni, fod gen ti rywun i ddweud y gwir glân clae'r wrthot ti bellach. Fi! Beth ddwedi di yn angladd Morgans, tybed? A elli di ymatal rywffordd rhag rhaffu'r ystrydebau mwyn triaglog? Onid taenu dy gyfriniaeth niwlog wnei di'n denau dros bennau pawb? Beth ddwedi di, Wyn? Beth wnei di â'r ddiwinyddiaeth golegol yna nad yw hi ddim ond ffug anghrediniaeth wedi mabwysiadu hen dermau clasurol? Gwacter wedi'i wisgo yn iaith gyfforddus Tillich. Label Gristnogol ddauwynebog ar ddiddymdra.'

Roedd e wedi hen glywed hyn oll o'r blaen, a chiliodd e'n syrffedus os yn glwyfedig i'w gell, i baratoi'i deyrnged i Forgans, tra oedd min y golled yn ffres ar ei synhwyrâu... 'Dyn oedd Morgans, gyfeillion. Gŵr ar gyfer eraill. Creadur cynnes. Doedd yr hen Forgans ddim wedi bod yn oer yn ei ymwneud â neb. Na. Nid un oedd Morgans ...' Ac yna'n ddisymwth fe wenodd yn chwerw wrth sylweddoli ei fod yn paratoi gwrthwasanaeth claddu i'w wraig. Roedd e'n gweld ym Morgans ei habsenoldeb hirddisgwylidig hi oddi wrtho fe'i hun. Ei gwrthodiad hi i ddarfod amdani yn ei fywyd – ei pharhad hi – oedd y drych tuag-yn-ôl i gywir weld marwolaeth Morgans: dyma'r sylweddoliad dyrys a ddechreuai donni amdano nawr mewn cyfnod dreng. Nododd yn dwt ar ei bapur y frawddeg: 'Gwaelod y byd yw Cariad,' ac ochneidiodd am ei briodas glwc. 'Undod!'

Syllodd allan o'r ffenest at y domen sbwriel uwchben y pentre ac at weddillion un o'r gweithiau glo yn dylyfu gên arno o flinder y gorffennol, y tipiau a'r bryniau a garai gymaint, ond a oedd hefyd yn arwyddion gwleidyddiaeth atgas o ormesol iddo fe: cyfalafiaeth ffyrnig.

Eto, roedd y gwaith glo wedi pwngad ar un adeg, wedi pwngad o deimladau ac o syniadau yn ogystal ag o bres. Mor anneallus oedd y bobl heddiw, wrth bensynnu am wleidyddion radicalaidd cyfoes, materol, a dybiai mai felly y buon nhw erioed, yn bragmataidd uchelgeisiol, yn grafangus, ac yn sinigaidd. Mor anghywir hefyd oedd y ddelwedd a greai'r undebau cyfoes gyda'u trachwant am bŵer a'u diddordeb unplyg mewn arian, wrth gofio'u cyfraniad unplyg ac anferth yn ariannol i les ei gilydd yn y blynyddoedd cynt. Ond roedd y peiriannau i gyd wedi stopio bellach, y berw i gyd yn llonydd, a phawb drosto'i hun... Arwyr oedd gweddill y glowyr ar ôl a amddifadwyd gan gyfalafwyr neu welen nhw mo'u gweithwyr ond yn rhifau.

Byddai'n rhaid talu teyrnged fawrhydig a hir i'r hen Forgans. Ond wrth wneud hynny, oni fyddai'n talu teyrnged i'r gymdeithas hithau?

A dyma fe'n atgofiannu bywyd fel cartŵn o wladwr Cymreig ailblanedig, sy'n barod i alw gerbron, yn ddiau, yr hen fyd o wreiddiau – rhialtwch y llofft stabal, y taswr a'r töwr, y tyrchwr a'r cwningwr, y Gannwyll Gorff, cyngaw a llin y mynydd, hendre a hafod, oen swci a Welsh Not, yn ôl yr arferiad anrhydeddus. Onid dyna Gymru go iawn, y twll yn ein calon? Onid dyna fyd genedigol Morgans?

Nage! Roedd Morgans wedi wynebu'n llariaidd broblemau'r gymuned isel-gyflog, y di-waith, y fateroliaeth orfodol, a dryswch afiechyd yr amgylchfyd i'r plant, a godineb eu rhieni.

Onid oedd dim gwaed ar ôl yng nghorff y gweinidog i brofi'r beirniadol hefyd?

Oedd, yn sicr. Ond gwell peidio â mynd i'r cyfeiriad hwnnw. Nododd ddyfyniad o waith Waldo ar yr ail linell yn ei lyfr nodiadau: rhywbeth am y 'rhai bychain', a'i ddilyn gyda chyfeiriad at Adnabod. Roedd wedi ymgolli nawr, a chlywodd e ddim o'i wraig y tro cynta pan alwodd o'r gegin i ddweud bod cinio'n barod.

Roedd hithau'n ei ffieiddio fe, yn dirmygu'i driciau diwinyddol a'i anonestrwydd ysbrydol. Carasai hi'n burion boeri arno yn y fan a'r lle, a ffoi allan i'r tip. Ond eisteddodd gan graffu arno wrth iddo, yn dawel iddo'i hun, ofyn bendith o flaen y pryd, a hynny i'r Gwaelod Bod hwnnw nad oedd ganddo ddim clem beth oedd Ei natur na'i weithredoedd.

Allai hi ddim bwyta dim ar ôl ei weld heddiw. Roedd Wyn wedi troi'i chylla; ac roedd profedigaeth mab yng nghyfraith Morgans, y newydd-farw – sef ei Arthur hi, – rywsut, wedi'i chlwyfo a'i suro.

'Wyddost ti, Wyn. Dŷn ni'n dau'n rhy debyg i'n gilydd,' meddai hi.

'Tebyg! Ni'n dau!'

'Dw-i'n gwybod bod ein safbwyntiau'n wahanol. Mae pawb yn coelio dy fod di'n gredwr mawr a dwyt ti'n credu dim oll. Ac mae pawb yr un pryd yn barnu nad oes gen i ddim cred o gwbl a'r gwir yw y mod i'n berwi o hygoledd a breuddwydion. Ond yr un pryd, dŷn ni'n debyg yn ein diffyg stwffin.'

'Mae 'na bethau eraill heblaw credu,' meddai Wyn. 'Estyn llaw cymorth.'

'Does yn yr un ohonon ni owns o edifeirwch. Dŷn ni'n gwybod dim oll am y peth. Rwyt ti'n meddwi ar y ffansiön dyngarol gynt, a finnau'n gwirioni ar gyffuriau. Beth yw'r gwahaniaeth?... I'r un twll dŷn ni'n brysio.'

Bwytaodd e'i datws heb droi blewyn. Roedd yn gyfogyld o gyfarwydd â'i hareithio hi. Hyhi oedd y pregethwr o fewn muriau'r tŷ hwn, bid a fo amdano fe y tu allan. Hyhi oedd yr hiraethwr hefyd, yr hiraethwr am fywyd naturiol a chymorth. Nid delfrydu gwrthun yn dylyfu gên a elai drwy'i meddwl hi wrth sbio allan ar falurion y gwaith glo; ac eto, roedd ôl cnawd a chwys rhamantus ar y tomennydd hyn o hyd iddi hi, a lleisiau plant rhacsog gwir a chaneuon glowyr

pesychlyd yn dal i roi gwefr drwy'r strydoedd hagr tan godi'n *crescendo* hyd y bryniau... Ei Chymru hi!

'Pam dŷn ni'n dal i fyw gyda'n gilydd?' gofynnodd e o ganol ei fresych. 'Fi, wrth gwrs, oherwydd cartŵn o barchusrwydd ac ofn sgandal, ac ati. Ond beth amdanat ti, yr un ddiwair gymdeithasol gafalîr?' meddai tan ddadansoddi'i hymennydd. 'Wel, dŷn ni mor debyg, oherwydd dy ddatganiadau elusennol, a'r dybiaeth dy fod di, debyg iawn, wedi claddu'r hunan. Gymaint gwell wyt ti, ddwedet ti, na'r Parchedig Rhagrith!'

Roedd e'n ei chasáu hi o eigion tost ei fodolaeth.

'Na ladd,' meddai'r efengyl wrtho fe, gan gynnwys y lladd bach yna ar waith yn ei feddwl nawr; ond gwyddai'i fod wedi'i llofruddio hi o'i brig i'w bôn dro ar tro yn y gorffennol yn niogelwch ei ymennydd clyd.

'Gymaint glanach wyt ti, mae'n debyg, yn un wen i,' poerodd e eto ati. 'Mae yna ddawn uwch-Gristnogol gen ti, Gwen, – yr anghredadun sy'n rhagori ar fethiannau'r crefyddwyr llipa. Sant Anghonfensiwn. Dyna pam rwyd ti'n dal i fyw gyda mi. Hunanaberth. Hynny yw, yr un peth dŷn ni'n dau yn y diwedd yn un gyd-ragrith fawr – dau dalp o garedigrwydd balch, yn rhagrith i gyd.'

Wedi rhannu'r gwirioneddau pwysfawr hyn a gorffen cinio, aethan nhw'n ôl – fe i'w gell o lyfrgell i glymu'i anerchiad angladdol, a Gwen i'w chell o gegin fach i sugno un llymaid o whisgi eto ac i olchi llestri ac i grio'n oer i mewn i'r sinc bob yn ail â hiraethu'n brudd drwy'r ffenest fach ac allan tua'r tip. I'r naill a'r llall ohonyn nhw, math o feudwyaeth oedd priodas – ysgogiad o'r gorffennol i ymaflyd o ddifri yng ngyrfa unigrwydd.

Dichon, meddyliai Gwen, mai dyna pam roedd hi wedi mynd yn fwyfwy anghrediniol – nid oherwydd ei bod hi'n casáu diffyg gwaed ffuganghrediniol ei gŵr, ond er mwyn iddi gilio ac ymgadw'n ddiogel rhagddo. Cyfrwng i helpu hynny fu Arthur yntau; a'i breuddwydion rhamantaidd hi oedd y modd i lacio gafaél ei gŵr arni, dyna'r cwbl.

Daeth cnoc ar ddrws y ffrynt, ac aeth Gwen ar frys i'w ateb, braidd yn sychlyd.

'Emrys!'

Emrys Morgans oedd yno, ail fab yr hen Forgans a oedd wedi marw; brawd Arthur. Safai o'i blaen hi yn ei swildod trwsogl, gyda phersawr cryf y cwm yn sych ar ei ddillad. Safai fe gerbron enaid anesthetig Gwen, fel oen llygadlawn yn crynu yng ngheg caets y deigres, oen a grwydrasai i lawr yn ddiniwed o'r bryniau i'r strydoedd ac a ddaliwyd yn deg yn slotian yn rhai o'r buniau sbwriel a'i gipio ar gyfer syrcas ei bywyd hi. Codai hithau i fyny ger ei fron, yn gysgod teigres yn y drws.

Wyddai hi ddim chwaith beth i'w ddweud wrtho wedi yngan ei enw. Mud a wynebai fud.

Safai mab yr hen Forgans yno'n oer.



'Eisiau gweld y gweinidog am funud fach. Fydda i ddim yn ei gadw.'

A wnaeth e ddim chwaith.

Ymhen deng munud roedd e'n ymadael.

Gallai Gwen glywed ei gŵr yn mynd ag e at ddrws y ffrynt, a chymerodd hi lwnc arall o whisgi i'w sadio'i hun.

'Dowch draw i'n gweld ni'r wythnos nesa,' meddai llais Wyn. 'Da chi. Chi a'ch gwraig. Pan fydd yr helbulon yn dechrau tawelu.'

Eisiau sicrhau rhai o'r trefniadau ola am yr angladd oedd arno, yn ddiau, meddyliai Gwen.

Yna, daeth Wyn yn ôl drachefn. Cerddodd yn drwm hyd y cyntedd, ac yn ôl i'w lyfrgell dywyll, unig. Fel yng nghalon Wyn y funud yna, doedd dim llawer o le yn y llyfrgell i oleuni afieithu. Gwrandawodd Gwen o bell nes iddo gilio i'w le. Ac yna, rhedodd hi allan, ac ar ôl Emrys Morgans.

'Mae'n ddrwg gen i glywed, Emrys,' meddai hi.

'Dyna ni. Doedd hi ddim yn annisgwyl,' meddai Emrys.

'Fe welwn ni i gyd ei eisiau fe. Cofiwch ddod draw 'co ryw gyda'r nos ar ôl yr angladd... Beth am wythnos i nos Fawrth? I swper. Chi a Megan... Fe fyddwn ni'n eich disgwyl chi. A... '

'Beth?' meddai fe.

'... Does dim ots... Cofiwch fi at Arthur. Fe ga i gyfle eto i gydymdeimlo.'

'Arthur?'

'Ie. At Arthur a Grace.'

Rhedodd hi'n ôl drachefn fel pe bai arni ofn aros yng ngŵydd marwolaeth, yn ôl i'r gegin. Ac yn fuan dyma'i gŵr, Wyn, yr union eiliad yna, yn lled ymlusgo i'r golwg. Roedd ei wyneb yn welw a'i wefusau'n dirgrynu.

'Doedd e, Morgans, ddim am imi ei gladdu,' meddai Wyn.

'Beth! Beth wyt ti'n feddwl?'

'Mae'r teulu wedi rhoi deg punt ar hugain,' ac roedd y papurau hynny fel dail gwenwynllyd rhwng ei fys a'i fawd yn awr, 'tuag at gyweirio'r capel; ond dŷn nhw..., doedd e, yr hen Forgans ei hun – ddim am imi arwain y gwasanaeth. Cha i wneud dim ond darllen. Dim gweddi, dim anerchiad. Dim.'

Roedd Gwen yn gwybod am chwerwedd rhai o weinidogion sefydliadol yr Hen Gorff o'r Coleg Diwinyddol yn cael eu talu gan rai capeli efengylaidd am *beidio* â dod i bregethu ynddyn nhw yn ôl y drefn osodedig gan y Cyfundeb ei hun, a'r gweinidogion hynny'n cael eu talu yn ôl y dosraniad gan y Cyfundeb. Roedd y gweinidogion hynny felly'n cael Suliau rhydd, a'u talu â'r dirwyon priodol gan y capeli hynny yn syml am *beidio* â gadael iddyn nhw roi eu 'neges-na-neges.'

Ond doedd yna ddim efengylaidd o'r fath yn yr hen Forgans. Un o'r gwrandawyr tawel yn y Sêr Fawr oedd e, dybiasai Wyn. Tipyn yn hen ffasiwn; ond nid yn efengylaidd. A fe wedi mynegi hyn cyn marw. Câl ei weinidog ei hun, Wyn, ddarllen yr Ysgrythur. Ond *heb* roi teyrnged na phregethu neges. Gwahoddwyd rhywun arall i wneud hynny.

Roedd Wyn druan wedi'i bylu, ei ymennydd wedi'i fygu. Eisteddodd yn hurt, a'r hen Forgans marw wedi torri twll yng ngwaelod ei fad nes bod dyfroedd gwawd ei gynulleidfa'n dylifo i mewn ac yn ei dynnu i'r gwaelod. Byddai pawb oll yn clywed hyn. Beth ddwedai pobl y cwm amdano nawr? Cudd fy meiau. O! Pam? Pam?

'Pam, Wyn?'

'Doedd e ddim yn barod i ddweud.'

'Oedd “monopoli o'r gwirionedd” gan Forgans?' meddai hi'n chwerw. Roedd hi'n ei wawdio'n nawr, yn ei lorio â'i sylwadau ystrydebol ei hun am y bobl gonfensiynol unionged.

'Na, nid “nhw”. Fi oedd ar fai y tro yma. Fi.' Crymodd e'i ben yn egwan ac yn ostyngedig... wrth ei yngan, 'Fi.'

'Dianrhydeddu Duw, wyt ti'n feddwl?' meddai hi. 'Cabledd? Meddwl dy fod di'n cael chwarae hyd at ryw fan arbennig, ond ddim ymhellach?'

'Efallai,' sibrydodd e o'r gwaelodion.

'Efallai, efallai, efallai!'

Roedd y gweinidog yn fwndel o 'siaced' a 'throwsus' ac efallai yn ei gadair. Roedd hi bron yn teimlo drosto, yn tosturio. Roedd yr wybodaeth o'i anwybodaeth ddirgel alaethus wag ei hun – nid o'i ddiddymdra, ond o'i weithredoedd ffrom o anwybodaeth – yn igian llefain o'i fewn ac yn ymladd yn dost â'i hunangyfiawnder. Roedd e wedi cael ei ddal yng nghynffon can mlynedd o ymchwyddo rhyddfrydol ac o ymlacio dyneiddiol, yn froc môr, ar wasgar hyd y traethau.

Y wraig a enillodd y frwydr honno. Hi a drechai bob cynnig ganddo fe i ddianc. 'Gawn ni fynd am dro,' awgrymodd hi. Roedd hyn yn wahoddiad chwithig. Ond os oedd hi'n meddu ar lwyaid o edifeirwch, nid fe oedd yr un i atal y llif. Gallai yntau werthfawrogi'r gwâr yn awr.

Cysyniodd e heb ddweud dim.

Wrth iddyn nhw ddod allan o'r tŷ ac wynebu'i bryniau hi, tarddodd y glowyr i fyny o'r unig bwll a oedd ar ôl yn y cwm, a byrlymu i lawr heibio dros y palmentydd yn eu botasau trymion gyda'u lleisiau uchel, gan ddod ag agosrwydd y dyfnderau gyda nhw i'r wyneb yn agored, a chan olchi'n hwyliog ar hyd a lled yr heolydd sychedig a disgwylgar. Deuai'r glowyr i argraffu cymrodoriaeth y ffas ar draws y strydoedd a'r tai uwchben. Culni eu twneli tanddaearol oedd gan y strydoedd hefyd. Y cynhesrwydd yma rhwng dyn a dyn mewn perygl ac yn y dŵch, hynny hefyd oedd rhwng gwraig a gwraig ar bennau'r drysau a thros furiau'r gerddi. Wnaeth y clybiau a'r sgwâr,

a'r mân gynullïadau a oedd tu allan i'r capeli ar ôl oedfaon, a'r cyfarfodydd politicaidd a'r corau a'r bandiau pres ddim ond adlewyrchu'r un cyffyrddïadau corfforol a'r gyd-ddibynïaeth dwym a geid wrth ymlafurio gyda'i gilydd o'r golwg yng nghroth y ddaear, yn y culni disgwylgar. Hynyna oedd gwaed y cymoedd. Ei Gymru ef! Hyn oedd eu cyd-etifeddiaeth. Roedd y fflam o gyfeillgarwch a berthynai i berfeddion y glo wedi cael ei chario o haen i haen, gan gydio o'r naill i'r llall, nes cyrraedd yr awyr lle'r enynnwyd hi'n dân cyson a chyffredinol o oleuni. Ond o'r tu mewn i'r tai acw, hefyd, roedd presenoldeb aelodau'r capel ymhlith y gwrywod wedi'u treiddio gan gulni'r aroglau cymdeithasol roedden nhw newydd fod yn rhan ohono tan y ddaear.

Dyma oedd ar goll yn y Mans, meddylïai hithau hefyd yn rhamantus. Roedd hi'n ddadansoddol o ramantus, ac eto gyda'r cyfuniad bach yna o oerni gwyddonol ac anghyfrifoldeb hedegog a oedd ganddi'n ffurfiol o hyd. Roedd y Mans yn llawn marwolaeth.

Aeth y ddau allan am dro gyda'i gilydd mewn tawelwch unig.

Cerddetïai'r ddau gyda'i gilydd yn reddfól i un cyfeiriad heb fwriadu'r un diben. Dringodd y Parchedig Wyn Wynne a'i wraig Gwen gyda'i gilydd i fyny ochr Tomen Chwech a orsyllai i lawr ar y cwm, gan bwysleisio'i ffurf nadreddog a'i fychander teganaidd. Roedd dyfnder cul y cwm islaw fel beddrod agored, a'u clyfrwch llafarog diffryth nhw ill dau megis dim o'i flaen. Pwy oedd yn ddigonol ar gyfer lle fel hyn? Fe ddylai Gwen brofi rhyw ias o oruchafiaeth yn awr, a'i holl broffwydoliaethau am ei phriod wedi'u gwireddu. Ymestynnai'r Cwm o'u deutu. Ond arhoser. Sut y gallai hi ddefnyddio'r foment hon i ymddiheuro iddo? A fyddai hynny'n fuddugoliaeth drosto? Wedi'r cwbl, hi oedd y rheswm i Morgans wrthod i Wyn ei gladdu, does bosib, nid rhyddfrydiaeth arwynebol ei bregethu. Hi, sef cyn-Miss-Wales gynt, gwraig warthus gweinidog Morgans. A gwahaniad priodasol go amlwg a go gyhoeddus y ddau, yn uchel-ei-gloch, yn warth o flaen y capel, a'i hymddygiad a'i dywediadau hi, a'i chysylltiad sibrydedig hi, ie hi, ag Arthur, mab hyna Morgans, dyna fuasai'n dramgwydd penna i'w gŵr. Syniai hi hynny.

Roedden nhw'n sefyll ar ddibyn y funud honno ac yn tremu ar draws y gwacter uwchben yr ardal, ac roedd ei draed bach e yn pendroni ar yr ymyl. On'd oedd y Cwm yn braf? Sylwedolodd hi nad oedd eisïau ond awel o wynt yn awr o'r tu ôl iddo, neu'r mymryn lleia o bendro, neu fân syflad gan y llwch-glo hwn dan ei esgidïau, ac mi gâi hon wrth ei hochr ei hyrddio i'w ateb. Edrychai mewn lled-lesmair ar yr olygfa las hon yn awr heb feddwl dim am ei haflonyddwch cas hi y tu cefn iddo.

'On'd yw hi'n heddychlon? Lle anfarwol i gael eich claddu,' meddai fe'n dawel uwchben y dibyn.

'Mae hi'n dawel yn y fan yma, beth bynnag.'

'Mae ochr arall y cwm mor agos.'

'Ai rhyw fath o ffos anferth yw'r cwm i gyd?' meddai hi.

'Allwn ni ddim clywed smic o'r fan hon, gwranda. Ust!'

Dringasant ymhellach; ac roedd y llwybr ei hun ar ymyl y bryn yn frau ac yn gul, o'r braidd yn lletach na throed menyw, ac yn ddigalon friwsionllyd dan eu sgidiau.

Stopiodd Wyn, a oedd ar y blaen, gan ebychu'i anadl yn ddyheus: 'Dw i ddim yn gyfarwydd â'r math yma o beth.' Cydiodd e yn llaw Gwen i'w diogelu. 'Mae hyn yn fusnes dierth,' meddai fe'n nerfus. Roedd hi'n amlwg fod arno bendro, neu fod ei galon yn tynnu, neu ei edifeirwch, neu rywbeth.

'Tyrd,' meddai'r Cwm odanyn nhw; ac roedd Wyn fel pe bai'n barod i ymateb.

Edrychodd hi arno'n oer ond heb gydymdeimlad. Roedden nhw'n rhy anghymarus. Roedd e'n ddirmygus o ddi-urddas. Y funud honno, anghredadun oedd hi tuag ato fe hefyd. Ac eto, roedd e'n ymddangos mor fregus, mor hen, mor ddi-bwynt – mor hyll druan. Adfail o sefydliad oedd e, wedi'r cwbl, – broc y dirywiad enwadol, a chefn ei gorun yn teneuo fel ei gredo.

Chwythodd yr awel dywyll yn ochneidiol drwy gyfyngdra'r Cwm.

Yna, sylweddolodd e – efô, – doedd hi eto ddim wedi deall dim o'r peth – sylweddolodd e beth oedd oerni'r awel hon. Roedden nhw, ill dau, wrth ddod at ei gilydd mewn awel yn y fan yna ar y mynydd, ar yr amser diflas hwn, fel petaen nhw wedi ffurfio aloi oer dros foment fer – a'u cyduniad yn galetach, yn wytnach, yn ysgafnach, ac yn rhwyddach i'w ystwytho yn eu bywyd gyda'i gilydd yn siapiau amryfal a chymhleth. Doedd y naill na'r llall y funud honno, meddyliodd e'n felys, am ddial ar ei gilydd. Ddim y diwrnod hwnnw. Ddim yr wythnos hon. Doedd dim blys i ddarostwng ei wraig yn denu dim arno mwy heddiw, a synhwyrai rywfodd i fyny fan yma mai felly roedd hi i fod yn ei hachos hi. Roedd hi fel y bu hi gynt. Roedd peth ohono'n dal i'w charu hi. Roedden nhw am fod yn dawel, dyna i gyd. Roedd hi'n gwybod pethau y tu hwnt i'w amgyffred e, roedd hi'n nabod rhywrai, rhyw un; ond doedd e ddim am dwrian ar eu hôl nhw yn awr a'u tynnu'n fuddugoliaethus i'r golwg; a doedd Gwen, fe synhwyrai, ddim yn sychedu chwaith am ei berfeddion e nac am sugno'i ymysgaroedd allan ohono fel diferion dŵr o bŵll glo. Roedden nhw ill dau wedi'u rhyddhau am foment euraid. Fe anadlen nhw'n dawel, i mewn ac allan, a'u hanadlau'n ymuno âi gilydd. Safen nhw'n llonydd, ond yn gynnes, fel pe baen nhw wedi'u dinoethi mewn afon dwym.

Trodd e ati hi'n ara, ond heb ddim i'w ddweud; ac yna, fe lwyddodd i'w ddweud 'Godidog' – am y greadigaeth honno o'u cwmpas. Ebychodd e'n friwedig: 'Wnei di ddod ata i?'

Roedd e wedi yngan y peth gyda'r diniweidrdd hwnnw, y didwylledd plentyn, a gâi e weithiau, ac a ddeuai iddo'n annisgwyl rywsut fel awen, hyd yn oed ar ganol pregeth. Allai fe ddim bod yn ei charu hi? Ond doedd hi byth yn gwybod sut roedd ymateb iddo y pryd hwnnw – roedd e'n ei dal hi'n ddibaratoad. Chwarddodd hi, ychydig bach yn hyll ac yn ara, heb wybod pam –

oherwydd ei bod hi'n nerfus efallai – wyddai fe ddim yn iawn – efallai ryw ychydig bach yn raslon. Wedi cyrraedd y brig, roedd y copa'n wastad, er eu bod yn gallu gweld olion gwaith mewn rhai manau. Bu ffrindiau'n torri siafftau acw. Bu eraill yn gwastatau ffordd i fyny'r ochr bella ar gyfer lorïau neu dractorau.

Dechreuodd e redeg â chamre mân oherwydd gras y bodlonrwydd a oedd wedi codi o'r tu mewn iddo nawr; a galwodd hi ar ei ôl e: 'Bydd yn ofalus. Paid â bod yn wyllt.' Cofiai hi am ei galon wan. Rhyfedd oedd ei gofal hi y funud honno. 'Dw i am gael cwmni i *gerdded*,' meddai hi. 'Dyna i gyd. Dere'n ôl.'

Ond ymlaen y prysurai fe ychydig yn ddihidans, a dechreuodd hi chwerthin yn uchel ei chloch a phrysurai ar ei ôl. Daliodd e, a chydio yn ei law a'i arafu; ac yna cerdded gyda'i gilydd dow-dow a'u trwynau'n codi ryw fymryn i'r awyr i anadlu'r glesni a'r rhyddid newydd i mewn i lwydni'u cyrff. Roedd anadl y glesni yn ei meddwi hi ychydig. Roedd yr amgylchfyd wedi ymaflyd ynddyn nhw ill dau.

'Awn ni adre i lawr y ffordd hon,' meddai fe. A sarhad yr hen Forgan yn loes o hyd.

'Na. Dere'n ôl. Mae'r llwybr yma'n rhy gul ac yn rhy fregus.' Dweud hynny wnaeth hi mewn math o lesmair anghofus hapus, a thosturi tuag ato yn ei siom.

Ond roedd mentr y cydgerdded wedi procio'i galon e hefyd, a mynnodd e beidio â gwrando arni. Ymryddhaodd o'i llaw, a dechreuodd bicio brysio i lawr ar hyd y llwybr afreolaidd yn awr. Daeth hi ar ei ôl gan weiddi a chan geisio peidio â dwrdio. Roedd hi'n llawn nawr o ddifeddyldra melys! 'Cymer bwyll, bachan. Aros i fi. Cato'n pawb, mae 'na ddigon o amser. Paid â bod yn anghyfrifol, Wyn.' Rywsut, roedd hi ac ef wedi gweddnewid agen y sefyllfa, ac wedi closio.

Roedd hi'n gwylid o'r tu ôl bob cam o'i eiddo ac yn hofran uwch ei ben, ryw ddecllath y tu ôl iddo, fel barcutan papur heb feddwl amdani hi ei hun. Ac yna, teimlai'i bod hi ei hun yn cwmpo. Roedd ei meddwl hi wedi bod yn crwydro. Ddylai hi ddim bod wedi syrthio ymhell, meddyliai'n sydyn fel pe bai'n diuno; ond ar ôl disgyn ychydig o droedfeddi (yn ei meddwl) collodd ei hunanreolaeth real a cheisio'n ffyrnig ddringo'n ôl yn sydyn tuag at y llwybr ato fe gan symud i fyny heb sylwi'n bwylllog beth oedd dan ei thraed. Briwsionodd y tir llychlyd drachefn, a thaflyd hi hanner can troedfedd i lawr eto gan ei meddwl. Hanner can troedfedd o chwrligwgan hurt oedd i ffars amser. Dyna'i meddwl hi, beth bynnag, ar y pryd, am eiliad. Dychymyg i gyd. Hyd yn oed wedyn fe allasai fod yn fyw, oni bai i'w phen daro prop haearn, dryll o reilen o'r lofa gynt a oedd yn sticio allan o'r ymyl: na-ie-na. Dychmygodd hi iddi farw mewn môr o waed diofal.

Dychymyg oedd y cwbl, wrth gwrs – doedd hi ddim wedi marw. Buodd hi yn anymwybodol... Roedden nhw'n ôl yn y byd oer ymarferol...

\* \* \*

Cafodd e – Morgans – un o'r angladdau mwya parchus a fu erioed yn y gymdogaeth. Cyrchai cyd-weinidogion y Parch. Wyn Wynne, nid yn unig o'i henaduriaeth ei hun a'r henaduriaethau cyndogol, eithr ambell un o sir Benfro ac o sir Fôn. Dychymyg oedd hyn hefyd, ond yn ddigon agos i'r gwir. Roedd hi fel jamborî o weinidogion. Brawd Wyn, a oedd yn weinidog yn ardal Llanelli, a arweiniodd y gwasanaeth yn ddefosiynol iawn; ac ymdeimlai pawb â dwyster yr achlysur. Rhoddodd e deyrnged hyfryd a doeth ac ysbrydol iawn ym mryd Gwen.

'Un a oedd yn bodoli ar gyfer eraill oedd Morgans, gyfeillion...' meddai yn nhraddodiad ei frawd.

Ac ynghanol y gynulleidfa roedd Arthur, ei harth hi, yn wylo'n ddi-dwyll, yr unig ddryll o ddi-dwyllledd yn y sioe i gyd. Pe bai hi'n gallu wylo yn awr, rhaid mai dagrau o whisgi a ddylifai i lawr o'i gruddiau hi y tro hwn.

O leia, felly y dychmygai wrth ddod i lawr yn realiaidd o'r mynydd yn ôl y munudau hynny gyda Wyn, yn awr, dow-dow. Ac roedd ei chrebwyll yn dychwelyd gan bwyll, o'i hunllefau hurt i realiti'r cwm a'r capeli a'r terasau tai a Wyn. Rhyfedd fel na allai orig o anrhydedd od fel hyn gael llonydd gan ryw ffansiön chwithig fel y rhain. Roedd Wyn yn llawer mwy rhyddieithol o lawer: 'Wel, bydd dim eisiau anerchiad o leia.' A sibrydodd hithau o'r herwydd, 'Mi wnaiff awyr y mynydd dipyn o les i ni'n dau, dw i'n siŵr.'

### III

Aeth y cynhebrwng heibio drwy'r cwm. A dechreuodd normaliaeth Gwen ara ymadfer.

Daeth Megan ac Emrys heibio yn ôl y trefniant. Roedd y ddau ymwelydd mor amlwg – yn ôl yr hen ymadrodd – 'mewn cariad iawn â'i gilydd'. Dichon, mae'n wir, na wnaethon nhw ddim cyffwrdd â'i gilydd yr holl amser y buon nhw yn y tŷ; ond roedd eu golygon yn pownsio'n erbyn ei gilydd, yn ysgafn, ac yna'n dychwelyd yn sionc, fel ping-pong mewn gwerysll ieuencid ar ddiwrnod glawog.

Sylwodd Gwen.

Roedd hi, Gwen, yn mwynhau'u sgwrs. Roedd eu gweld nhw a syllu arnyn nhw, fel siampaen i dafod a flinwyd gan whisgi, yn gwreichioni ac yn dod â pheth hurtrwydd i'r ymennydd. Ond i Wyn ei gŵr, er ei fod e'n medru ymddwyn yn gwrtais niwtral ar y pryd, roedd eu presenoldeb nhw'n ei ddigalonni drwy'i gyhuddo. A phrin eu bod nhw wedi dweud dim byd. Eto, roedd eu hymddiddan yn un gân gron o chwerthin gwreichionog gwag, ymddangosiadol ddigynnwys.

Trodd y sgwrs yn atgofus wrth iddyn nhw sôn am gywirdeb yr hen Forgans. Hynny a ddôi drwodd, yn sicr, er bod pawb yn clebran blithdraplith.

Hyd yn oed wrth gyfeirio at ddefosiwn ei dad, roedd atgofion Emrys Morgans am ei dad yn heulog ac yn ysgafn. 'Fe yw'r unig un glywais i erioed' meddai fe am yr hen foi, 'yn *chwerthin* wrth weddi'o'n gyhoeddus... Dw i'n ei gofio mewn un cwrdd noson waith....Roedd ei weddi'n hollol o ddifri wrth gwrs...'

'Dw innau'n ei gofio – yn yr un Cwrdd Gweddi efallai,' meddai Megan. 'Bobol bach, roedd e'n hala dyn i chwysu. Doedd e ddim yn sôn am ddim byd ysgafn ar y pryd.'

'Na, beth oedd gydag e hefyd?'

'Diolch roedd e mai Iesu oedd y nod; a Fe oedd y ffordd; a Fe hefyd a ddôi i'n harwain ni ar hyd y ffordd honno. Ac yna chwarddodd yn ddilywodraeth fel buddugoliaeth. Diolch, diolch, meddai fe.'

'Do. Bron rown i'n meddwl y byddai fe'n ffael stopo,' meddai'r gŵr. Bu bron i'r naill o'r cariadon hyn, Megan ac Emrys, gydio yn dynn ond yn ddiymwybod yn llaw'r llall wrth iddyn nhw ailddweud yr hanes gyda'i gilydd.

Megan Morgans a dynnai sylw Gwen fwy, pan gyrhaeddodd y ddau. Nid am ei bod hi wedi'i chynhyrfu ar yr achlysur ac yn siarad gymaint ac yn ymddangos fel petai'n dymuno sylw, ond bron y gellid dweud bod ei llygaid hi'n clebran yn gynhenid. Roedden nhw bob amser yn symud, neu o leia roedd golau'n symud ynddyn nhw – i fyny ac i lawr, i dde ac i aswy – gwibien nhw yn ddi-daw fel gwefusau fflachiog chwil gan droi o'r naill bwnc i'r llall.

Cymeriad tlws o afieithus oedd hi.

Roedd hi'n siarad gymaint er mwyn cuddio rhywbeth, roedd hi'n siŵr. Siarad am bob un dim fel pe bai'n eu hanwesu nhw. Galar oedd yn ei hysgogi. Siarad er mwyn peidio â dweud dim byd. Craffai Gwen arni hi heb wneud dim sylw. 'Dyma gadair ddiddorol,' meddai'i llygaid crwydrol llawn-bywyd wrth goleddu pob peth, 'gyda'r cefn a'r sedd fel dau asgwrn gên yn agor er mwyn llyncu'r sawl a ddôi i eistedd rhyngddyn nhw. W!' mewn rhyw ffug ddychryn wedyn. 'Genau rhyfedd, dŷn nhw byth yn cau, maen nhw'n dala'r ysbail fel hyn,' a dynwardai hi'r cnoad, 'ac yn ei gadw i ddisgwyl cael ei draflyncu, ond dyw hi byth yn digwydd,' meddai'r llygaid, 'ac eto, ddyweden nhw ddim go iawn. Dyna gadair arall eto. 'Mae honno fel cwch,' medden nhw, ac i ffwrdd â nhw, – yn ei llygaid bid siŵr, – i sôn am deithiau hud ar draws moroedd heulog yn y gadair yr edrychen nhw arni ar y pryd. Roedden nhw'n preblan ac yn trydar mor bert; gallai Gwen wrando arnyn nhw am oriau, yn tiwnio o gywair i gywair heb ddweud dim byd o gwbl neu ddim o bwys, ond bod eu hymddiddan nhw'n swynol ac yn esmwytháu pawb a wrandawai arnyn nhw. Yna, stopien nhw efallai, a sbio o gwmpas, fel petaen nhw'n holi efallai, 'Beth siaradwn ni amdano nesa?' Ymguddiai hi y tu ôl i'w llygaid.

Roedd Gwen yn genfigennus.

'Oedd eich tad wrth ei fodd, Emrys, ar Gyngor y fwrdeistref?' gofynnodd y gweinidog i fab Morgans (er mwyn ailsianelu cyfeiriad yr ymddiddan).

'Nac oedd, y capel oedd ei bethau. Y capel oedd y cwbl. Yr unig beth, a'r unig fuddugoliaeth roedd e'n falch ohoni ar y Cyngor oedd cychwyn y gwaith i glirio Tomen Chwech. Roedd e'n casáu honno, achos ei bod hi'n peryglu'r capel.'

'Dw i'n ei hystyried y domen yn gofgolofn ddigon nobl at ei gilydd fan lle mae hi,' meddai Gwen. 'Mae Tomen Chwech yn ddigon mawr i'n hatgoffa ni am y bywydau gwyn roddwyd droston ni oll.'

'Sentimental wyt ti, Gwen. 'Roedd yr hen Forgans yn llygad ei le. Cofgolofn hyll yw hi. Does dim ond ffeidd-dra mewn peth felly.'

'I mi,' meddai Gwen, 'byddai'r domen yn cynrychioli arwriaeth. Roedd yn ffordd o fyw. Nobl. A byddai'r oesoedd a ddaw, dros Gymru i gyd, wedi moesyngrymu – wrth gofio'n tadau – o'i gweld hi.'

'Ffordd wasaidd isradd i'n caethiwo ni, ddwedwn i,' ebychai ei gŵr. 'Roedd y peth yn rhan o'n dad-ddynoli, ac o fateroli'r gymuned yn danddaearol. Gwrywod yn gweithio gyda'i gilydd, islaw dynolrwydd fel roedd y merched yn adeiladu cartrefi, uwchlaw ar wyneb y ddaear, mewn cymdeithas gynnes. Pyramid o falchder isddynol dyn, dyna yw'r tip i mi,' meddai fe, gan godi stêm.

'Roedd nhad, beth bynnag,' meddai Emrys, 'yn credu hefyd mai Pechod oedd wedi adeiladu pob un tip. Ac rown i'n falch iawn, Mrs Wynne, ei fod e wedi cael byw i weld y peirianwyr yn cyrraedd gyda'u tractorau a'u craeniau a'r rhawiau peirianyddol a'u lorïau ac ati, ac yn dechrau tyllu ar y top ac adeiladu ffyrdd i fyny er mwyn clirio'r hen beth gan bwyll o'r cwm.'

Ar ôl iddyn nhw ymadael, eisteddodd Wyn yn ei gadair yn dawedog gleisiog, a chydiodd Gwen gydag awch yn ei photel whisgi. Roedd y tŷ'n wag.

'Mae yna rywbeth o'i le arnon *ni*,' meddai hi ymhen hir a hwyr. Edrychodd ei gŵr arni'n syn, ac aros iddi ddatblygu'i chŵyn. 'Dŷn ni wedi plygu gormod i'n gilydd,' meddai hi ymhellach. 'Does dim cic ynon ni. Mi allai'r ddau briod ifanc yna gasáu'i gilydd ambell waith o hyd dw i'n siŵr, ac eto fod yn gariadon llond y tŷ.'

'Ond dyw hynny ddim yn ddymunol, Gwen, does bosib.'

'Roedd y ddau yna'n rhydd o hyd, yn annibynnol ar ei gilydd, ac yn medru ysgytio'n erbyn ei gilydd fel dau gudyll yn brwydro yn yr awyr. Doedden nhw ddim yn garcharorion.'

'Fe ddôn nhwythau i ymdawelu ymhen amser, i fodloni ar gytundeb ara a solet fath â ni, i aeddfedu.' Roedd e'n ei gwawdio hi.

'Druan ohonyn nhw, te,' meddai hi.

'Gwen!' oedd yr eironi pwdlyd ganddo fe nawr.



'Pen draw tranc bywyd yw'r arafwch yma, pryd y mae dyn wedi'i drechu gan llwch go iawn,' meddai hi o ddifri, 'y llwch sy mewn amser, a'r llwch sy rhwng dannedd y gymdeithas a'r defodau sy'n ei amgylchu ac mewn ambell briodas. Llwch y Cwm.'

'Wel, os wyt ti'n meddwl y gwnâi ychydig mwy o gweryla les i'n perthynas briodasol ni, dwi'n siŵr y gallwn gymwynasa,' chwarddodd Wyn. 'Ond byddai'n anodd.'

'Doeddet ti ddim yn synhwyro'u gwallgofrwydd nhw?' meddai Gwen. 'Dyna'r hyn gollson ni – y gwallgofrwydd. Dw i – rwyt ti – mae'r peth yma sy rhyngon ni pan dŷn ni'n diuno yn y bore, ac wrth y bwrdd cinio – mae'n rhy wag.'

'Dere, Gwen. Dere i gael paned o de. Mi fyddi di'n iawn wedyn. Rhaid i ti gael rhyw danwydd heblaw whisgi i yrru olwynion dy weledigaeth newydd. Beth sy'n well na the?' Gwenodd e'n ddeallgar arni. Roedd e'n ceisio'i phryfocio.

Dyna'r drwg, meddyliai hi, roedd hi a'i gŵr yn deall ei gilydd ... heb ddeall. Roedden nhw ill dau yn cydgerdded mewn dieithrwch cynefin. Caen nhw de yn awr; ymhellach ymlaen aen nhw i'w gwelyau; roedd eu dodrefn nhw'n daclus-gysurus, eu car yn fawr ac yn newydd er gwaetha'r cyflog gweinidog; roedd yr ardd a'r tŷ yn helaeth lawn, a'u gwyliau cynhadledd bob haf yn amrywiol ac yn ddiddan ac yn bell, ar lan y môr. Roedden nhw wedi concro'r ddaear a'i chaledi. Roedden nhw wedi concro'i gilydd, ac yn ogystal wedi concro'r grefft anos o beidio â chyd-fyw.

'Dŷn ni'n Gymreig iawn,' meddai hi ymhellach, 'yn tybied yn gyfforddus mai ni yw'r gorchfygwyr am ein bod ni'n medru gwylid ambell gêm o rygbi, tra bo'n hiaith a'n serch a'n bywyd i gyd wedi cael eu hisraddoli. Brenhines ar hynny i gyd dw i.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'O! Ddeallet ti fyth.'

'Fel hyn y mae priodas ymhob man, Gwen. Dyw hi ddim yn deg llusgo Cymru i mewn.'

'Mae'n rhaid iti garu o fewn rhyw amgylchfyd. Mae popeth yn dechrau rywle. Enwi Cymru wnes i achos mod i wedi'n henwi ninnau,' meddai hi.

'Twt... serch mewn papurau newydd...'

'Dŷn ni yn y tŷ 'ma wedi colli'n rhuddin. Dŷn ni'n meddwl gormod. Dyna'r cwbl dw i'n ddweud,' meddai hi. 'Academaidd y cythraul! Mae'r halen wedi diflasu, on'd yw e? Rwyd ti'n troi serch yn bwnc clinigol. Fan yma yr wyt ti ar gefn dy gythraul yn haniaethu am briodas fel pe bai modd iti lunio polisi ar ei chyfer. Nid fel yna y mae pethau. Camgymeriad ecentrig oedd priodi. Rown i am gadw ngafael ar y peth crisial hwnnw oedd gan y ddau ifanc 'na gynt. Y min.'

'Y ffolineb sentimental,' meddai fe.

'Ie. Fan hyn, yn ein castell ni.'

'Bobl annwyl, Gwen, mae'r llonyddwch yna rhyngon ni, y diffyg cyffro rwyd ti'n taranu yn ei

erbyn, yn rhan o lonyddwch canol oed: dyna'r cwbl.'

'Canol-oed ysbrydol a thragwyddol erioed.'

'Mae udo'n erbyn henaint yn burion i adolesent. Ond mae'r wraig aeddfed yn symud i mewn i broses oedrannu fel tanc i ryfel,' meddai fe. 'Mae'n sylweddoli'r *angen* i drechu amser. Hedonist materol wyt ti.'

'Doedd dim angen inni golli'n hannibyniaeth. Doedd dim angen cyd-farw.'

'Os wyt ti am imi dy gasáu di'n amlach...'

'Ydw!'

'... a thaflu ambell sen ac ati, dw i'n siŵr y gallwn i dy fodloni.'

'Fe *ddylet* ti eiddigeddu pan weli di serch ifanc fel y ddau yna. Mae yna rywbeth ar goll ynon ni.'

'Sut galla i eiddigeddu wrthyn *nhw*? Fel blodyn yr haul yn ei lawnder agored yn cenfigennu wrth yr hedyn bychan sych?'

'Na: mae'n rhaid iti dyfu, ddyn, a derbyn dy dyfiant ar gam.' Ffrwydrodd ei gwefusau'n ateb iddo, ac yna claddodd Gwen ei phen o'r golwg mewn hiraeth. Fe'i cododd hi maes o law a llenwi ei gwddwg yn ddiolchgar â whisgi.

'A beth wna i i newid pethau?' gofynnodd e wedyn. 'Sut gallwn ni fod yn wahanol, ac ychwanegu cufydd at ein maintioli?'

'Yn un peth, drwy gydnabod y diffyg... Mae gwneud y diagnosis yn mynd dri chwarter y ffordd i wneud iawn.'

'On'd yw'r holl ddiagnosis ar gael yn ein diffyg sboncrwydd *ni*? Pam ni? Oedran yw e.'

'Na, debyg iawn. Mae'n lletach o lawer na hynny, fel octopws. Mae Cwm, mae'r wlad i gyd wedi colli'i sbonc,' meddai Gwen.

'On'd dŷn ni'n rhan o'r gymdeithas?'

'Mae hi ymhob man. Mae'r glowyr bach sy'n godro'u nwydau mewn clybiau noethlymuno, mae'r gwagedd sy'n lladd eu nerfau mewn sesiynau bingo, mae'r partïon sieri i glercod mân ar fore Sul yng Nghaerdydd, a'r oriau diddarfod o deledu, oll yn caledu unigolyddiaeth, oll yn gwagio, yn llwyr wagio'r synhwyrau. Dyna ehangder y peth.'

'Beth wnawn ni te? Beth wnaiff dau fach yn erbyn y mawredd anffodus hwn?'

'Ei weld e! Rhoi'n bysedd arno fe, ddyn, i ddechrau. Dyma Gymru i gyd. Dyma'r byd benbalad.'

Symudodd e'n ddamweiniol ara ychydig yn nes ati, ac roedd y cyffro anfwriadol hwnnw'n ddychryn iddi. Ond diflannodd bron ar unwaith. Roedd hi wedi hen golli'i gŵr cyn dechrau. Roedd hi wedi mynd i'r wal bellach. Fe welai hi mai i hyn y ganwyd hi, a bod hyn oll hefyd wedi'i eni

ynddi hi. Cenhedlwyd hi gan llwch, a llwch oedd yr awyr a anadlodd yn ei chrud. Ffuglen oedd gobaith am Afallon annibynnol yn awr, pan oedd popeth yn llwch. Chwythai'r llwch hwnnw i mewn o'r tip drwy ffenestri'i ieuencid gynt, a llosgi corneli'i llygaid, a chrasu'i gwefusau, a sticio rhwng ei dannedd cryf. Wrth iddi glywed curiad mecanyddol amser ar y silff-ben-tân yn poeri'r eiliadau ar y carped, fe'u gwelai nhw'n smotiau llwch yn pentyrru, y naill ar ôl y llall, yn dip yn y canol a orlifai nes llenwi'i hochrau hi a'i gŵr a phob mab a merch odano'n gaeth ac yn gytbwys ac yn 'aeddfe'd'. Pwy a allai ddal hynyna'n ôl?

\* \* \*

Yna, rhoddwyd oerni caled gwybod arni oddi arno fe.

'Dw i'n gwybod am Arthur,' meddai Wyn yn sydyn ar ei thraws. Methodd â dal y cyhuddiad creulon yn ôl.

Rhewodd hi. Adleisiodd y gair. Arthur!

Sythodd ei gruddiau a'i llygaid. Ymataliodd llif ei meddyliau. Ceulodd ei lleferydd. Rhewodd hi o lan i lan, a doedd hi'n ddim ond caledwch hyd ei gwaelod. Faint oedd e'n ei wybod? Sut? Mewn cwm fel hwn, mae pawb eisoes yn gwybod am bob godineb, mae'n debyg, cyn iddo ddigwydd. Arhosodd hi'n hir; arhosodd yntau hefyd, heb ddweud dim, heb syflyd, heb edifarhau. Roedd e wedi ymosod arni, mewn sydynrwydd hagr, wedi'i chlwyfo hi fel roedd hi'n ei haeddu'n burion, wedi'i lladd hi unwaith eto yn ei galon gudd.

'Beth wyt ti'n feddwl – “Dw-i'n gwybod am Arthur?”,' gofynnodd hi wedi gwrido o'r diwedd, ond gan ddynwared ei gywair babiaidd.

'Popeth.'

'Rown i'n amau,' meddai hi. 'Rwyt ti'n siarad am ffyddlondeb priodasol fel pe na bai'r ganrif hon a'i sgeptigiaeth heb gael ei dyfeisio erioed.'

'Dim ond mod i'n gwybod y cwbl. On'd yw hynny'n ddigon? Gwybod dy fod di wedi bradychu dy lw. Dim ond rhyw fân fisdimmers fel 'na.'

'Dwyt ti'n gwybod dim.'

'Dw i'n ofni na elli di ddim ymguddio, Gwen.'

'Elli di ddim gwybod heb ddeall. Sut y gallet ti ddeall? Ti!'

'Tria di wingo allan o'r gwirionedd yna... Wnaiff hynna ddim o'r tro. Dw i'n *gwybod*.'

'Ac mae gwybod yn afael, yn grafanc amdana i,' meddai Gwen.

'Nac ydy. Ond mae'n dadwneud celwyddau.'

'Celwydd yw dy fywyd *di* o'r bron,' meddai hi.

'Dw i'n *gwybod*,' meddai fe, 'ac mae hynny'n dy gythruddo di. Tra oeddet ti'n ei guddio, doeddwn i ddim yn bod. Doeddwn i a'n priodas ni'n dau ddim yn cyfri. Ond nawr...'

'Nawr rwyd ti'n *gwybod*, meddi di. Mae gen ti wybodaeth oer, ffeithiol, meddi di. Oes, ond a gest ti wybodaeth gynnes gwir briodas, ar aelwyd erioed? A gest ti wybodaeth o'r tu fewn yn gynta?'

'Dw i'n gwybod,' meddai fe drachefn. 'Ac oherwydd hynny rwyd ti'n chwerwi.'

'Os yw gwybodaeth yn gysur i ti, machgen i, cymer ddigonedd ohoni. Os wyt ti'n cael rhyw ddi-ddanwch o'r peth, dichon y galla i roi chwaneg i ti.' Ond ddwedodd hi ddim mwy. 'Dw i'n mynd allan i feddwi mewn tawelwch,' meddai hi, gan deimlo'n fudr. Atebodd e ddim. Y fath ddatrysiad anaeddfed! Y fath enciliad anneallus! Ebychiad o rwystredigaeth, dyna'r cwbl. Doedd ganddi hi ddim o'r ewyllys, yr ewyllys a oedd ganddo yntau yn ei ên ymwithiol sefydlog. Roedd ei meddwl hi'n chwalu mor rhwydd â llywethau benywaidd mewn corwynt.

Fe aeth hi allan.

Diflannodd hi am oriau i ffwrdd o'i ddaear. Ymddangosai'n oriau ac oriau. Am un o'r gloch y bore, cododd Wyn o'i wely, a chraffu'n ddu drwy ffenest yr ystafell ffrynt i chwilio amdani. Roedd yr eira y tu allan wedi peidio, ond fe orweddai'r gwyndra'n llawen falch ar y llawr ac eto'n feddal ac yn fyddarol o dawel ac yn absennol iddo fe ar y stryd dan y ffenest. Ac yno, ar y llawr chwythai megyn ei habsenoldeb hi ar farwydos ei atgofion amdani dan y ffenest ac i mewn i'r ystafell oer. Roedd y byd y tu allan yn rhy enfawr i'w chwilio. 'Ble oedd hi?' gofynnai iddo'i hun.

Wedi sefyll yn yr wylfa am chwarter awr, trodd i ddychwelyd i'w wely pan sylwodd ar ffurf y tu allan, o'r tu mewn i'r iet, ar waelod y llwybr at y stepiau yn arwain i'r tŷ, ffurf wen ynghrwm ar y llawr, yn ddisyfl ddisylw. Gwen!

Rhuthrodd i lawr y grisiau ac allan o'r tŷ yn ei ddillad a'i sliperi. Roedd hi'n fyw ac yn feddw gaib, ond roedd hi wedi rhewi'n gorn. 'Beth sy arnat ti? Dere,' meddai fe. A dechreuodd e ei chyfarwyddo; gwna hyn, gwna'r llall. Roedd e yn ei meistroli hi drachefn, a hithau'n bodloni am nad oedd yna ddim i'w wneud yn ei llesgedd llipa a gwan. Plygodd hi i'w drefniadaeth e. Roedd e'n dyner, wrth gwrs, yn ei hanwesu ac yn ei pherswadio; ond mynnai o hyd estyn ei deyrnas drosti hi. 'Dyna ti. Dysglaid o de, a thân, ac mi fyddi di'n burion.'

'Dere â'n whisgi i. Mae yn syched i'n yn rhydu i'n gyflym.' Eisteddodd hi yn y gegin fel merch a oedd wedi dianc o'r ysgol am un prynhawn gogoneddus o nwyd chwareus, ond a dducwyd yn ôl yn ddof i'w desg gan ei hathro. Teimlai mor unig yn hyn o ddsbarth nawr. Edrychai o gwmpas y desgiau eraill fel mynydd llosg. Roedd arni hi ychydig o awydd cychwyn daeargryn.

'Dim *te*,' meddai hi gan wthio'r cwpan oddi wrthi. 'Mae'n anfoesol.'

'Mae'n rhaid iti gael rhywbeth twym,' meddai fe.

'Dim *te*,' meddai hi. 'Lle bynnag byddi *di*, mae *te*'n rhedeg yr economi.'

'Coffi?' meddai fe.

'Na,' meddai hi.

'Sudd lemon yn dwym?' meddai fe.

'Dim byd,' meddai hi, 'neu fe fydda i'n esgor ar ddilyw.'

Daeth ei chwerwedd e'n ôl yn gry ac yn sych o weld ei styfnigrwydd twp. Roedd e'n newynu am ei meddiannu, ac roedd hi'n ei thynnu'i hun yn ôl. 'Fe ei di'n sâl,' meddai fe.

'Dw i'n sâl eisoes,' meddai hi.

'Bydd yn rhesymol,' meddai fe'n dosturiol.

'Gad i fi gysgu,' meddai hi; 'fe fydda i'n wraig i weinidog eto ar ôl noson o gysgu.'

Roedd arno eisiau gwybod ble'r oedd hi wedi bod, pwy roedd hi wedi'i weld, beth roedden nhw wedi'i ddweud. Oedd hi wedi cwrdd â rhai o'i aelodau? Ond allai hi byth ddweud wrtho, oherwydd roedd ei syniad e am leoedd yn wahanol i'w syniad hi, a'i adnabyddiaeth e o bobl mor gwbl ddiarth i'r ffordd y syniai amdany'n nhw bellach, a byddai ei geiriau hi'n golygu pethau estron iddo fe. Eto, allai fe byth nawr lawenhau yn y ffaith hon o adnabod estronrwydd. Estronrwydd annibynnol ei wraig. Ac felly, allai fe ddim ei hadnabod hi – yn iawn – byth. 'Dere i'r gwely te.'

Yn y fan yna o leia fe fydden nhw gyda'i gilydd, yn un, yn eu gwelyau gwahân. Fe fyddai hi yn ei lle yn y bore. Fe ddihunai hi'n dawel a mynd o gwmpas ei phethau, golchi llestri, paratoi uwd, dwstio'r cypyrddau; a ddwedai fe ddim na bw na be am y noson cynt. Ac aen nhw ymlaen i gyd-fyw.

Wnâi e byth wahodd deuddyn ifanc fel yna i ginio eto.

Ta waeth. Byddai'i hamddiffynfeydd hi i gyd yn dymchwelyd gyda gwawr y rwtîn cyfarwydd yfory, wrth i drefn arferoldeb gydio ynddi o'r newydd a'i gyrru o'r gegin i'r llofft ar drywydd ei gorchwylion, a'i harwain eto drwy'i dyletswyddau beunyddiol, a'i thynnu'n ôl yn gyffredinolrwydd i'r bwrdd cinio beunyddiol.

Maes o law, felly, byddai fe'n berswâd diwaelod, wrthi'n ei llusgo hi i'r gwely yn ei diod; a byddai'i lygaid e'n llosgi beth o'i fuddugoliaeth drosti, yn groyw ac yn olau ddistaw, fel pe bai'r wawr eisoes yn bresennol iddo fe ynddyn nhw.

Erbyn bore trannoeth sut bynnag roedd Gwen wedi anghofio'r syrffed oll. Parablodd hi am bopeth ond y prif beth yn ei bydysawd. Ymddiddanodd yn gymharol ddifyr am yr helynt uwch ei brechwast yn Iwerddon, ac am y dryswch yn y Dwyrain Canol, ac yna ymlaen â hi yn frysio yn nhawelwch addawol y bore i wneud y golch. O leia, dyna'r peth call diwetha y bu iddi'i wneud. Roedd y bydysawd oll ar sgiw.

Wedyn, sut bynnag y digwyddodd rhywbeth arall: y rhes o ddigwyddiadau a arweiniodd at y trychineb a newidiodd bopeth, ac a wthiodd angladd Morgans hyd yn oed i gefn y llwyfan.

#### IV

Dau ddiwrnod ar ôl ymweliad Emrys a Megan, roedd Gwen ei hun wedi diflannu. Doedd hi ddim 'na. Roedd Wyn yn wallgo. Aethai bywyd yn ei flaen. Dechreuai pobl anghofio'r angladd erbyn hyn. Hynny oedd i fod. Dechreuai'r berthynas rhwng pobl fod yn gysurus normal eto.

O'r braidd y gallai Arthur chwaith anadlu yn y fath gynhesrwydd ag a fuasai yn yr angladd. Bu ers dau ddiwrnod yn cymdeithasu'n anghysurus â llu o'i deulu. Roedd criw o berthnasau ac o ffrindiau wedi ymwasgu i mewn i un ystafell fach, dros dro, rhai cymharol newydd roedd Arthur heb eu nabod nhw, rhai oedd yn ymweld â'r Cwm am y tro cynta. Ac roedd fel pe bai'r mwyafri o'i berthnasau yn bobl a fethodd â cholli pwysau; fe lanwen nhw'r seddau oll â'u hafradlonedd cnawdol. Wrth ymadael â'r capel ar ddiwedd y gwasanaeth, roedd y byd benbaladr wedi ffrwydro'n gleber. Ac roedd y gwres o berthyn o fewn y fath gyfyngder yn mygu pawb.

Ond erbyn hyn, roedd y prif gymeriad *amheus* yn eu bywyd wedi diflannu. I ddau neu dri, yn wir i lawer yn eu ffordd eu hunain, roedd absenoldeb Gwen yn llenwi'r gofod yn fwy na neb. Allai Arthur ddim osgoi'r tameidiau brawddegol a glywai'n nofio'n gilwgus o gylch y corneli.

Yr un fath gyda gŵr Gwen, y gweinidog ei hun, y Parchedig Wyn Wynne, wrth gwrs. Ond roedd e'n fwy pigog, ac ar goll ei hun, – yn hunan-geryddol, ond yn ceisio bod yn groendew ddihidans am fywyd. Ac roedd y darganfyddiad nesa'n drychineb. Trychineb oedd nad oedd neb yn ei ddeall. O ble'r oedd wedi dod? Roedd yn gwbl ddibaratoad. Allai neb fod wedi'i ragweld.

Fe'i cafwyd hi... yn farw, heb rybudd... yn gorff oer a dieithr a hagr.

Cafwyd Gwen yn gelain ar waelod y Domen. Gwen, ei wraig. Fel pob damwain, doedd dim sibrdw ymlaen llaw, na dim disgwyl. Lladdwyd hi, mae'n rhaid, gan y botel. Ac yn ei chorff hi teimlai Wyn fod yr anochedd wedi cymryd ei gwrs: ddi'r hanes oll i'r fei, bellach. Câl rhai siaradwyr nodedig ŵyl ysblennydd o siaradach a datguddio i'r holl bapurau warth ei fywyd o gywilydd. Câl pawb glywed am ei wendid. Sibrydai'i gymdogion yn garedig.

'Mae'n wir ddrwg drosoch chi, Wyn.'

'Wel, efallai.'

'Oedd hi wedi meddwi?'

'Nac oedd. Anaml y byddai hi'n meddwi.'

'Ond doedd hi ddim yn glir ei meddwl.'

'Dyna chi. Ambell waith, fe fyddai hi'n mynd yn dawel iawn o'r neilltu.'

'Pam?'

'Yn peidio â siarad?'

'Yn peidio â meddwl. Ie, ac yn mynd i'w phlu. Ac weithiau'n picio allan am dro yn slei bach.'

'Fel y tro hwn. I'r awyr iach, er mwyn clirio'r pen.'

'Roedd hi'n hoff o ddringo'r domen.'

'Oedd ei cherddediad hi'n ansicr?'

'Wnes i ddim sylwi.'

'Pryd gwnaethoch chi sylwi'i bod hi ar goll.'

'Ar goll?'

'Faint o'r gloch oedd hi pan ddaeth hi'n ôl wedyn?' Pwy oedd yn ei holi mwyach? Ai'r heddlu?

'Weithiau mae hi'n gallu bod yn reit hir. Fe aeth hi allan tua thri o'r gloch yn y pwnn.'

'A phryd sylwoch chi ei bod hi'n anarferol o hir?'

'Tua saith. Chwarter wedi saith efallai.'

'Beth wnaethoch chi?'

'Mynd i chwilio amdani. Rown i'n synhwyro mai i ddringo'r domen roedd hi wedi mynd. Roedd hi, roedden ni'n dau'n eithriadol o hoff o'r olygfa o ben y domen.'

Pa fusnes oedd gan y bobl i holi a stilio fel hyn? A'r heddlu hwythau'n amau pawb.

'Aethoch chi i fyny i'r pen ar ei hôl hi, felly, ar ôl iddi ymadfer wedi cwympo yn yr eira ynghynt?'

'Do.'

'Heb weld dim am dipyn?' holai pawb. Roedd pawb wedi troi'n heddlu amaturaidd iddo.

'Na. Dim. Doedd neb o fewn golwg. Roeddwn i'n gyfarwydd â'r llwybr y byddai hi'n ei ddilyn. Ond doedd neb i'w weld.'

'A daethoch chi'n ôl?'

'A phicio i mewn i orsaf y heddlu. Dim byd penderfynol chi'n gwybod. Mae'r orsaf yn ddigon agos i'n tŷ ni. A gelwais i mewn i ofyn. Dyna'r cwbl'

'Ie, ie.'

'Oedd rhywun wedi'i gweld hi?'

'Neb,' taranodd Wyn.

'Roedd hynny braidd yn eithafol, Mr Wynne, on'd oedd? Dim ond holi'n gyfeillgar.'

Roedd pawb mor amheus amdano fe ac am yr achlysur. Roedd e wedi bod braidd yn ysgafn ynghylch ei diflaniad... 'dim ond cyfeillgar!'

'Ie, dyna ni, roedd ganddi hi ddigon o gyfeillion.'

'Felly nid eu hysbysu nhw'n swyddogol roeddech chi.'

'Na... Ie. Dyna ni. Rown i'n bryderus wrth reswm. Feddyliais i erioed fod peth fel hyn wedi digwydd.'

'Pryd y dechreuwyd chwilio o ddifri gan yr heddlu?'

'Wedyn.'

'A ie, wedyn.'

'Ond roedd yr heddlu wedi cymryd hyn oll o ddifri o'r dechrau, gobeithio; roeddech chi'n synnu'u bod nhw wedi dod o hyd iddi ar waelod un o'r siafftau newydd ar waelod y Domen?'

'Oeddwn.'

'Pam? Beth ddweden nhw?'

'Dim. Beth? Ie, beth?'

Yna, rholiodd y cyfarfyddiad â'r heddlu'n ôl drosto drachefn. Fe geisiai feddwl am angladd Morgans. Roedd hynny'n amherthnasol erbyn hyn. Roedd e ei hun yn ymdroi gyda chorff Gwen.

Yr holi a'r stilio. 'Roedd Gwen, y ngwraig, yn nabod pen y Domen yn dda. Fe fyddai hi'n hoffi mynd 'na.'

'Hyd yn oed y gwaith newydd sy ar gerdded yno, y clirio ac ati?'

Roedd pawb o'r bobl yn heddlu rywsut o'i gwmpas bellach, yno'n holi'i berfedd yn ddirugaredd, fel pe bai ganddyn nhw hawl.

'Oedd. Mae'n rhaid i chi gofio, roedd hi'n hoffi dringo yna ryw ben bob dydd bron.'

'Diolch, Mr Wynne. Un peth bach arall. Mi wnewch chi'n hesgusodi ni am stilio fel hyn. Oedd Mrs. Wynne wedi bod yn anhapus yn ddiweddar? Hynny yw, doedd dim byd wedi codi i'w digalonni hi, oedd?'

'Nac oedd, ddim mwy nag arfer.'

'Ond y ddioid.'

'Wel, oedd. Roedd hi'n becsan tipyn fod yr alcohol wedi cydio ynddi i'r fath raddau. Ond rown i'n rhyw dybied ei bod hi'n yfed ychydig bach yn llai yn ddiweddar. Roedd arni hi gywilydd.'

'Roeddech chi'n gobeithio y gallai hi ryw ddiwrnod efallai, drechu'r gwendid?'

'Wel, nid hynny. Yn gyhoeddus felly, efallai.'

'Roedd eich gwraig, Mr. Wynne, wedi bod mewn swydd arall cyn priodi, wedi cael gyrfa braidd yn lliwgar ar gyfer gwraig i weinidog, on'd oedd? – ac wedi cael – os cawn ni ddweud – gryn enwogrwydd.'

'Oedd, cyn priodi.'

'Beth yn union oedd ei gwaith? Sut roedd hi'n ennill *bywoliaeth* cyn ichi briodi? Dŷn ni'n deall ei bod wedi cael tipyn o *wobrau*. Ond dyw gwobrau ddim yn cadw dyn am byth.'

'Canu oedd ei gwaith hi, cyn priodi.'

'Mewn clybiau felly?'

'Ie. Clybiau digon bach i ddechrau, hyd nes iddi ennill y teitl Miss Wales. Ac yna, pan ddaeth hi'n fwy enwog byth, drwy ennill y teitl Miss United Kingdom, roedd clybiau da – Boston,



Shanghai – ledled y byd yn agor eu drysau iddi, gan ei bod hi hefyd yn medru canu.'

'Peth anarferol, fe fyddwch yn cyfadde, i wraig gweinidog.'

'Roedd hynny cyn priodi.'

'Wrth gwrs.'

'Roeddwn i'n falch iawn ohoni. Roedd yn syniad i am y weinidogaeth yn “ddeinamig”. Dwi'n credu fod eisiau dod â chanu pop a'r gitâr ac ati i'n capeli. Wnaiff hi ddim o'r tro inni aros yn oes Fictoria. Rown i'n awyddus i newid y ddelwedd. A buodd hi'n help.'

'Yn help!' holodd un, neu efallai llawer un, mewn syndod cynulleifaol fel petai. Mewn amheuaeth.

'Popeth yn iawn, Mr Wynne. Dŷn i gyd yn gytûn ar y pen yna, dwi'n siŵr. Ac uno, yntefe? Dyna hi. Ond y peth sy'n ein diddori yw hyn: gafodd Mrs Wynne ryw anhawster i ymaddasu? Oedd hi'n hapus? Dych chi'n deall beth sy gynnon ni. Dŷn ni'n cydsynied bod eich gweinidogaeth chi yn hollol fodern ac yn y blaen. Ond ... gawn i ei roi e fel hyn? Mae'r cwm yn cofio am Mrs Wynne yn ôl yr enw Miss Wales. Dyna oedd hi yn y diwedd. Oedd hi – oeddech chi – yn teimlo rhyw chwithdod ei bod hi wedi gorfod ymadael ag un alwedigaeth yng ngoleuni'r cyfryngau er mwyn ymgymryd â sefyllfa ychydig yn wahanol gyda chi wrth briodi?'

'Nac oeddwn, ddim o gwbl. Ellwch chi ddim bod yn Miss Wales am byth.'

'Roedd hi'n brydferth iawn yn ei hieuenctid, Mr Wynne. Wrth gwrs, roedd hi'n dal yn eithriadol o brydferth yn ddiweddarach, ond mewn ffordd wahanol. Roedd hi siŵr o fod yn teimlo'n chwithig – fod gorchestion ei hieuenctid ar ben, unwaith ac am byth?'

'Roedd hi bron wedi anghofio iddi erioed fod yn Miss Wales.'

'Wedi anghofio, Mr Wynne?'

'Wel na, doedd hi byth yn sôn am y peth. Dyna dw i'n ei feddwl.'

'Ond yn yr isymwybod, efallai ... Dyna ni, fe adawn ni hynny yn y fan yna. Diolch Mr Wynne. Mae'n ddrwg gen i imi orfod eich poeni chi fel hyn ar adeg mor dyner. A dw i'n siŵr y mod i'n lleisio calon pawb ein bod ni i gyd yn cydymdeimlo'n ddwys â chi yn eich profedigaeth.'

Troes yr holi a'r stilio yn dawelwch amheus.

Erbyn hyn, roedd ei feddwl yn ôl yn nhrefniant gwasanaeth ei hangladd. Roedd yna fwy nag un angladd yn ei fywyd e bellach. Roedd ei fywyd e'n troi'n angladdau i gyd. Ffawd gweinidog yn y ganrif hon.

Ond roedd ei statws a'i safle a'r agwedd ato, gan bobl y capel, wedi newid.

Daeth y Parchedig Wynne yn ôl i'w sedd i eistedd yn union o flaen Arthur, a gellid clywed aroglau'i chwys yn codi fel cymylau o wylanod uwchben tomen y dre. Iddo fe roedd rhywbeth terfynol ofnadwy mewn rhes o'i eiriau ola e'i hun – 'byth yn sôn am y peth' – fel pe bai yntau o'r

diwedd yn ceisio terfynu rhywfaint ar ei feddwl hefyd. Cerddodd yn ôl i'w le ym mryd y gynulleidfa fel corff heb enaid mwyach ... 'byth'.

Weithiau yr ydys yn cymharu marwolaeth â rhywbeth arall – â nos neu â gaea, â diwedd taith neu helfa, ac yn y blaen, er mwyn dal y peth rywsut, a'i ddofi ac ymaflyd ynddo. Ond does yr un o'r cymariaethau hyn yn tycio, am eu bod nhw i gyd yn digwydd o fewn amgyffrediad ein bywyd beunyddiol. Does yr un ohonyn nhw yn gosod ei derfynbwynt y tu hwnt i amser, efallai.

Mae gynnon ni gudd syniad o hyd fod yna wawr yn dilyn nos, a haf yn dilyn gaea, a siwrnai arall ar ôl yr un ddiwetha. Cysur o fath yw hynny. Ychydig yn ein dyddiau ni sy'n medru dygymod â'r ymwybod o absoliwt, er bod yna ddigon o gyfle o hyd, oes, hyd yn oed o fewn y bywyd hwn. Absoliwt – o fewn y bywyd hwn – yw priodas ei hun, o'i hiawnddeall hi, ac o'i hiawnbrofi hi, – ac felly mae hynny hefyd yn fath o farwolaeth. O'i phrofi'n llawn a'i derbyn yn gyfan, er hynny, does dim byth yn dilyn priodas, er gwaetha celwyddau'r oes. Os yw gwraig neu ŵr priod wedi cyrraedd eithafbwynt cymdeithasu priodasol, allan nhw byth ddychmygu math tebyg o berthynas arall yn digwydd iddyn nhw; absoliwt yw'r profiad go iawn terfynol. Mae'n orffenedig; yn farwolaeth i wahaniad. Absoliwt hefyd, wrth gwrs yw'r profiad o Dduw. A hynny yn y pen draw, er ein gwaetha, hynny'n unig sy'n gwneud priodas a'r perthnasoedd daearol eraill, megis ymlyniad glân wrth wlad, neu deyrngarwch pur i gyd-ddyn, yn wir absoliwt posibl o bob math hefyd. Un waith yw e, am byth. Un peth yw. Ydy, un ymroddiad i'r galon yn oes oesoedd.

Ond roedd y sefyllfa'n datblygu.

Dechreuodd amryw yn y gymdogaeth sibrawd braidd yn rhy uchel pan alwyd ar *Emrys Morgans* i gael ei holi gan yr heddlu.

Roedd yntau'n bell ar y pryd o'r lle y digwyddodd, meddai fe... Roedd wedi cael ei holi hefyd. Roedd ei ymweliad diwetha â Gwen Wynne yn arwyddocaol o ran amseriad. Drysai'i deimladau am yr achlysur. Doedd e ddim wedi gallu canolbwyntio nawr ar gladdedigaeth arall ar ôl cladeddigaeth ei dad, fel y dylai. Oni fuon nhw draw i ginio gyda'r Parchedig a Mrs Wynne?

'Do. Chi, dwi'n ofni, Mr Morgans, chi a'ch gwraig oedd ymhlith yr ola i weld Mrs Wynne.

'Do. Gwelais i Mrs Wynne wedyn. Ar y ffordd.'

'Wnaethoch chi siarad â hi?'

'Do. Rhyw gyfarch, beth bynnag.'

'A dweud beth?'

'Fe ddwedodd Mrs Wynne, gan chwerthin, ei bod hi'n mynd i weld lle'r oedd y fandaliaid wedi bod yn tynnu'r domen yn rhacs.'

'Beth oedd hi'n feddwl?'

'Cyfeirio'r oedd hi at yr ymddiddan fu rhyngthon ni bron wythnos yn ôl. Doedd hi ddim yn

bleidiol i glirio'r domen. Roedd hi ychydig yn rhamantus am y lle; roedd yn cynrychioli Cymru. Roedd yn symbol o'r hen fywyd caled.'

'Eich diweddar dad chi, yr hen Mr Morgans, oedd yr un berswadiodd y Cyngor am penderfyniad i glirio'r domen?'

'Ie, syr. Ond doedd Mrs Wynne ei hun ddim wedi cytuno â'r syniad o ddileu'r domen, er ei bod hi'n ffenomen allai beryglu adeilad y capel. Rhamantydd oedd hi: briwsion diramant oedd y nhad. Doedd dim teimladau drwg rhyngddi a nhad, wrth gwrs. Dwi ddim yn credu bod ei hargyhoeddiadau'n gry iawn am y peth... er... Dim byd eithriadol o ddifrifol.'

'Beth?'

'Fe ddaeth hi draw i'r tŷ un tro lawer o fisoedd yn ôl i geisio perswadio nhad i beidio â mynd ymlaen â'r ymgyrch. *Heb* deimladau cas, cofiwch.'

'Oedd Mrs Wynne yn ansad ar ei thraed pan welsoch chi hi'r tro diwetha?'

'Oedd, syr, ryw gymedrol felly. A'i llygaid hi'n wydrog.'

'Roedd hi'n feddw, efallai?'

'Na, dwn i ddim. Dwi ddim yn siŵr pryd mae dyn yn croesi'r ffin.'

'Roedd hi'n amlwg fod olion diod arni.'

'Oedd. Debyg iawn. Ond doedd hynny – os ca i ddweud syr, ac mae'n ddrwg gen i Mr Wynne – doedd hynny ddim yn anarferol. Doedd hi ddim yn anghyffredin o feddw, oedd? Roedd hi'n siarad yn iawn?'

'Oedd,' meddai Emrys.

'Ac yn cerdded yn gymharol sicr?'

'Oedd.'

'Doedd hi ddim yn beryglus iddi ddringo'r domen ei hun?'

'Nac oedd. Wel, oedd. Mae'n rhaid ei bod hi.'

'Ond doeddech chi ddim yn ystyried ar y pryd ei bod hi'n anghyfrifol ac yn annisgwyl fod Mr Wynne wedi gadael iddi fynd allan yn y cyflwr yna i ddringo'r domen?'

'Nac oeddwn. Yn bendant.'

'Diolch, Mr Morgans.'

Cafwyd tystiolaeth gan y meddyg fod hylltod o alcohol yn ei gwaed; a dywedodd un o'r heddweision, yr un a oedd wedi dod o hyd iddi, iddo gael potel whisgi wag ar ben y siafft lle y cwmpasai hi, ac yr oedd yn amlwg, felly, iddi yfed ychwaneg o'r ddiod y funud ola, ar ôl iddi gyrraedd pen y domen a phen ei thennyn.

'Rhaid ei bod hi'n feddw gaib, ac wedi syrthio i'w hangau mewn dallineb hurt, yn ddjarwybod.'

Damwain oedd tybiaeth yr heddlu. Dedfryd anochel, syniai Arthur o neilltuedd ei sedd e. Eithr fe garasai pe baen nhw wedi cael rhywun nad oedd yn aelod yng nghapel Wyn Wynne i gynnal ymchwiliad y post mortem. Wedi'r cwbl roedd y dystiolaeth ychydig yn denau; doedd neb wedi bod yn llygad-dyst i'r cwmp, na natur y cwmp. Doedd dim llygad-dyst. Roedd ganddi hi ddigon o elynion.

Ymadawodd Arthur â'r ystafell gynnes ac â'r strydoedd o dai; a dringodd ochr y domen er mwyn dianc rhag pawb, ymwahanu, ac oeri, a syllu oddi uchod ar yr hen fywyd clòs yn y cwm. Eisteddodd am foment a phendroni'n bruddglwyfus. Cododd ymhen tipyn, a cherdded draw i edrych ar y siafft ei hun lle y cwmpasai hi. Safodd yn stond uwch ei phen a sbio'n betrus i mewn i'r twll cyfyng, dwfn. Yna sylwodd ar y pridd a oedd yn cwmpasu pen y siafft. Ar yr wyneb roedd yna olion fel pe bai rhywun arall wedi bod yn chwalu'r llwch yno. Roedd rhywun wedi bod yno oddi ar ei ymweliad diwetha fe cyn yr ymholiadau. Roedd e'n siŵr nad fel hyn roedd y tir wedi bod... Roedd e wedi sylwi'n fanwl ar wyneb y ddaear gyda'r twmpathau bach o eira ysgafn yn aros hwnt ac yma, a'r ychydig olion traed ynddyn-nhw. Roedd rhywun wedi bod yn ymyrryd, yn ceisio cuddio rhywbeth.

'Dychymyg. Yr eira sy'n dadmer. Yr heddlu'n chwilio ac yn chwalu. Mae digon o bobol wedi dod heibio i'r fan yma'n ddiweddar. Dychymyg yn gofyn am drwbwl.'

Claddodd ei feddwl bob ansicrwydd.

Erbyn cyrraedd y brif stryd roedd y papurau nos wedi cyrraedd, ac ar y sgwâr sylwodd ar y penawdau ar y tudalen blaen:

FORMER MISS WALES – VERDICT  
WHISKY KILLS MINISTER'S WIFE

Prynodd un. Roedd ei llun yno fel roedd hi pan enillodd y teitl Miss Wales; ac roedd dyfyniadau a gafwyd ar y pryd – gynt – yn canmol ei phrydferthwch. Erbyn yr wythnos nesa, diau y ceid ambell gân o farwnad iddi yn y papurau Cymraeg, hyd yn oed yng ngholofn farddol y *Goleuad*. Bydden nhw wedi galaru ynghylch y trais i harddwch. Bydden nhw wedi canmol ei champau. A dyweden nhw rywbeth, yn ddiau, am gysegredigrwydd y prydfferth.

Tynasai angladd ei dad i ben, ac ymddangos yn hen orffenedig fel pe bai'n gallu tynnu i ben yn ddiniwed; ond dô'r farwolaeth newydd am ei ben, ac yntau rywsut heb ddygymod â'r farwolaeth gynta.

Ac yna, o ran eu swyddogaeth o draethu'r newyddion byddai'r rhyfeddod yna drosodd. Mae angau yn gwneud ei waith yn broffesiynol.

Ond ddim yn glou, ta pa mor glou mae'n taro.

Doedd neb yn nabod Gwen fel y'i cafwyd yn y papurau. Neb ohonyn nhw, na'i gŵr nac

Arthur ei hunan, na'r heddlu, na neb.

Ac eto, ni fu'i hatgof farw.

Ble oedd ei gŵr wedi bod drwy gydol y pedair awr rhwng tri o'r gloch a saith pryd roedd e'n cyfadde iddo fynd allan i chwilio amdani?

Doedd e ddim wedi syflyd o'i dŷ.

Allai fe fod wedi dilyn ei wraig? Na.

Roedd e'n gwybod ble'r oedd hi wedi mynd. Fe oedd un o'r ychydig rai a wyddai'n union beth oedd ei chyflwr a beth roedd hi'n debyg o'i wneud. Pwy, wedyn, a oedd wedi ailymweld â mangre'r cwmp, ac wedi gwneud rhyw ymgais i ddileu pob cliw?

Roedd holl amheuron Arthur yn wirion, a byddai neb yn barod i rannu ei ddrwgdybiaeth. Roedd e'i hun yn barod i gyfadde nad oedd ganddo fe ddim sail. Ac eto, fe godai'r cwbl yn dryblith i'w ben am ei fod e'n amharod i Gwen orwedd lle'r oedd hi. Châi hi ddim trengi mewn trychineb alcoholaidd diystyr heb iddo fe geisio dod o hyd i ryw llyn yn i'r domen drwy ganol y tryblith. Nid damwain oedd y farwolaeth, roedd e'n siŵr.

Cyrhaeddodd Arthur ei dŷ. Symudodd Grace ddim o'i llygaid o'r teledydd pan ddaeth e i'r lolfa, a chiliodd e, o flaen bygythiad y llonyddwch, i'r ardd am waredigaeth. Safodd yno gan edrych i fyny tuag at y domen lle y buasai ychydig o funudau ynghynt. Collodd ei ymwybod o realedd ac o hunaniaeth glir wrth i'w feddwl grwydro.

Cofiai fe Gwen yn sôn droeon gynt fel roedd ei gŵr wedi'i bygwth hi; hyd yn oed ar ddau achlysur wedi cydio'n giadd ynddi a cheisio'i churo. Y tro diwetha oedd ryw dair wythnos yn ôl. Chwerthin a wnaethai Gwen. Ond adroddasai hi ychydig am y gwrthdaro. 'Dwyt ti ddim yn haeddu byw,' dyna a ddywedsai fe wrth ei wraig. Ac roedd hi wedi cellwair yn ôl, wedi cael ei phryfocio'n nwyfus. 'A phwy sy'n haeddu byw, liciwn i wybod?' roedd hi wedi gofyn. 'A dwyt ti ddim yn *gallu* byw.'

Pendronai Arthur nawr am y cwest ac am atebion chwithig y Parchedig Wynne yno. Pensiynai. Pam roedd e wedi trafferthu galw yng ngorsaf yr heddlu – hithau heb fod allan ond am bedair awr? Pa ateb oedd e wedi'i ddisgwyl, fe a Gwen? Ai dull oedd hyn o holi (ym mryd Arthur) i geisio gwybod mwy am eu perthynas hwythau ill dau? A oedd ei gŵr hi wedi ceisio pwyntio'r heddlu i gyfeiriad y sboner? A ddisgwylasai, efallai, y byddai'r rhingyll yn ateb: 'Peidiwch â phryderu, Mr Wynne.' Amhosibl! 'Fe'u gwelwyd nhw ryw ychydig o amser yn ôl.' Mwy amhosibl byth! Do. Hi a Mr Arthur Morgans gyda'i gilydd. 'Roedden nhw'n cerdded i fyny Tomen Chwech.' Ai dyna'r math o gleber oedd yn dechrau yn y Cwm?

Ond cyffesodd y Parchedig Wynne na fuon nhw'n bâr delfrydol o gwbl. Eithr pwy sy?

Dyna fe'n gwadu'i hapusrwydd hi felly, yng ngŵydd pawb... Lol botes. O'nd oedd pawb yn

gwybod ei bod hi'n diodde o ddigalondid? On'd oedd pawb yn gyfarwydd â'i chwerylon hi a'i gŵr? Onid gwybodaeth gyhoeddus oedd ei phyliau hi o'r falen a'r rheini'n arwain yn ôl i ddiogelwch y botel? Roedd Wynne yn cuddio rhywbeth.

\* \* \*

'Arthur!'

Grace a oedd yn ei alw i swper. Ffa ar dost.

Ddywedon nhw ddim gair wrth ei gilydd drwy gydol y pryd er bod Arthur yn medru synhwyro drwy gil ei lygaid fod ei wraig yn gynhyrfus. Eisiau agor ei glwy a'i arddangos iddo'n fuddugoliaethus roedd hi. Eisiau melltithio'r garwriaeth odinebus, gudd.

Sibrydodd Grace rywbeth hollol anhyglyw.

Ddwedodd e ddim.

Arhosodd hi ychydig, ac yna sibrydodd hi drachefn rywbeth yr un mor anhyglyw.

'Beth ddwedaist ti?' meddai fe.

Cododd hi'i phen a'i llais, a thaflu'r geiriau fel bom llaw ar draws y bwrdd: 'Doedd hi ddim yn haeddu byw.'

## V

Syllai Arthur i'r tân.

Roedd ei wraig Grace wedi mynd i'r gwely a'i adael e i daflu'i atgofion i'r marwydos.

Trawodd hanner nos; a cheisiai ddodi trefn ar y teimladau afreolus a hyrddiai o gwmpas ei du mewn. Doedd dim golau yn ei ben heblaw llewyrch o'r gweddillion yn y grât.

Daeth cnoc ysgafn ar ddrws y ffrynt.

Camodd Arthur yn ddistaw ar hyd y cyntedd i'w agor.

Ei frawd Emrys oedd yno.

'Dere mewn bachan. Beth sy'n bod yr awr yma ar y greadigaeth? Sut mae Megan?'

'Mae'n rhaid imi siarad â thi.'

'Dere i'r gegin. Gad imi switsio'r golau ymlaen. Beth sy'n dy boeni? Bachan, rwy'ti'n wael.'

Eisteddodd Emrys; ond wyddai fe ddim sut yn hollol roedd dechrau arni.

'Ddwedais i ddim o'r gwir.'

'Pryd? Ble?' holai Arthur.

'Heddiw. Ddwedais i ddim o'r cwbl. Roedd yr hyn ddwedais i'n weddol gywir. Ond fe guddiais i rai pethau.'

'Anghofiaist ti roi peth tystiolaeth, mae'n bosib.'

'Na. Nid anghofio. Rown i'n cofio'n burion. Ymatal wnes i, yn fwriadol. Fe guddiais i un neu

ddau o bethau.'

'Paid â hidio, fachgen. Mae'r peth drosodd nawr.'

'Er lles pawb rown i'n feddwl.'

'Wnest ti ddim byd o'i le, dw i'n siŵr.'

'Rown i'n meddwl ei bod hi'n ddiangen. Mae yna rai pethau y mae'n well pe baen nhw'n dal heb eu dweud.'

'Amdani hi? Rhywbeth ddwedodd hi?'

'Ie. Down i ddim yn credu y byddai hi er lles i bawb. Mae hi wedi darfod... A dyna hi. Gwell iddi aros mewn llonyddwch.'

'Ddwedodd hi rywbeth arall, felly, pan welaist ti hi y tro diwetha?'

'Do. Roedd hi mewn tymer feddwol gynhyrfus. Roedd hi wedi bod yn yfed. Doedd hi ddim yn siarad yn bwyllog.'

'Beth ddwedodd hi?'

'Wel, y gwir yw, Arthur,' meddai Emrys, 'dw i ddim yn credu mai damwain oedd ei marwolaeth hi.'

'Sut? Beth ddwedodd hi?' holai Arthur mewn panig.

'Roedd hi'n llefain. Roedd gwaed ar hyd un o'i bochgernau hi. Mae'n amlwg fod ei gŵr wedi'i bwrw hi.'

'Wyn!'

'Roedden nhw wedi bod yn cweryla.'

'Cweryla gyda Wyn!' meddai Arthur. 'Ddwedodd hi hynny wrthot ti?'

'Do. Fe ddwedodd hi hefyd mai amdanat ti roedd y sgwrs.'

'Ddwedodd hi beth oedd wedi cael ei ddweud?'

'Naddo. Dim ond bod ei gŵr wedi neidio arni fel anifail,' meddai Emrys. "'Alla i ddim byw gydag e mwy,'" meddai hi.'

'Dyna'r cwbl?' meddai Arthur.

'Na. Fe dorrodd hi i wylo wedyn. Ac roedd hynny fel pe bai'n ei sobri hi ryw ychydig. Ac yna, fe gododd ei phen. Ac edrychodd hi i fyw yn llygaid i. Wedyn fe drodd hi at Megan, a chydio yn ei llaw hi. "Peidiwch â chredu... dim", meddai hi.'

'Dyna'r cwbl?'

'Ie, a dyna ddigon,' meddai Emrys.

'Ddim yn hollol. A ddwedodd hi ei bod hi *am* farw?'

'Ddim yn y geiriau 'na.'

'Pam wyt ti'n amau, felly? Pam rwy'ti'n meddwl nad oedd hi ddim yn *ddamwain*. Dwed,

fachgen.'

'Fe welais i hi,' meddai Emrys. 'Roedd golwg un a oedd am ei lladd ei hun arni'n fwriadol.'

'Lol botes. Sut olwg yw peth felly? On'd yw pawb yn gwylltu weithiau? Pryd gwelaist ti o'r blaen rywun yn mynd i'w ladd ei hun?'

'Alla i byth fod yn siŵr, wrth gwrs,' meddai Emrys. 'Ond welais i neb – neb oll – a'r golwg yna yn ei hwyneb – fel un – fel un a oedd yn edrych eisoes ar ei chorff ei hun. Roedd hi'n gwybod beth oedd hi'n mynd i'w wneud.'

'Mae'n dda na ddwedaist ti ddim o hynny yn y cwest.'

'Fysai hi ddim wedi gwneud dim lles i neb. Ond alla i ddim ei hanghofio hi. Alla i ddim clirio'r golwg o'm meddwl.'

'Beth mae Megan yn ddweud?' holodd Arthur.

'Yr un fath. Roedd hi wedi'i sobri'n ofnadwy. "Cer draw i siarad ag Arthur", meddai.'

'Menyw ryfedd... roedd rhywbeth *anodd* ynndi,' meddai Arthur.

'Roedd hi'n enbyd o anhapus. Roedd hi'n casáu bywyd: damwain oedd byw, damwain oedd y cwbl. Iddi hi doedd dim pwrpas yn unman. Mae'n ddrwg gen i ddweud hyn oll wrthot ti, Arthur,' addefai Emrys.

'Roedd yn rhaid i ti.'

'Roedd rhaid imi rannu gyda rhywun.'

'Cer nôl at Megan, a dwed wrthi hi am anghofio'r cyfan.'

'Gwna i. Mae'n ddrwg gen i dy boeni di.'

'Popeth yn iawn.'

'Mi ga i dy weld yn yr angladd yfory.'

Trannoeth roedd angladd Gwen, wrth gwrs.

Roedd llu o weinidogion wedi ymgynnull o'r newydd wedi cyrchu i'r cwm o bob parth. Diau fod yna elfen o chwilfrydedd yn ogystal ag o deyrngarwch i'w cyd-weinidog wedi'u tynnu nhw i'r lle.

Brawd y Parchedig Wynne a benodwyd i arwain y gwasanaeth, yr un person ag a gladdasai'r hen Forgans, gŵr ifanc addawol a oedd yn weinidog yn Llanelli; ond anfonodd e deilegram i ymddiheuro oherwydd fod llid yr ysgyfaint wedi cydio ynndo. Yn ei le fe arweiniwyd y moddion gan gyd-weinidog i Wyn o'r un pentre, bugail gyda'r Annibynwyr, sef y Parch. Huw ap Dafydd, gŵr defosiynol iawn; ond cynorthwywyd e ymhob math o ffyrdd – pawb â'i emyn neu â'i weddi – gan ryw bedwar o weinidogion eraill. Ymdeimlai'r holl gynulleidfa â dwyster yr achlysur. Fu dim yn y Cwm mor ddefosiynol erioed.

Fe ddwedodd Mr ap Dafydd air byr, pwrpasol iawn am y cyfraniad a oedd gan Brydfert hwch



i les dynoliaeth gan ddangos fel yr oedd yr Ysgrythurau, ac yn enwedig y Salmau, yn pwysleisio Estheteg ysbrydol. Rhoddodd e deyrnged cyfaill a chymydog i Gwen: 'Un oedd hi a oedd yn byw rywsut ar gyfer eraill...'

Anesmwythodd Arthur yn ei sedd. Os oedd yna dyrfa wedi ymwasgu i'r cwest, roedd y capel yn awr yn llawnach fyth i un o enwogion y fro. Ac ar y fath achlysur, anodd oedd iddo ddodi'i fryd ar y geiriau a leferid nac ymroi'n briodol i ddifrifoldeb y brofedigaeth. Allai fe rywfodd ddim galaru fel y dylai, ac âi ei feddwl ar ôl y dychymyg sut roedd Gwen wedi darfod. Beth yn union a ddigwyddasai?

A hithau yn y fath gyflwr, oni allasai'i gŵr hi fod wedi'i dilyn o bell gan wyllo'i gyfle? Oni fuasai mor rhwydd, bron yn ddiymdrech iddo, gydio ynddi pan oedd ar bwys y siafft? Doedd dim angen iddi fod lle yr oedd yn pwysu uwchben diffwys hyd yn oed. A hithau'n gymharol ddiymadferth, gallai gŵr o'i faint e ymaflyd ynddi, a'i llusgo'n gyflym a'i thaflu drosodd. Fuasai hi byth yn ymladd yn ôl. Fuasai hi ddim hyd yn oed yn sgrechian. A phe bai wedi gweiddi, pwy glywai hi yn y fan yna? Doedd dim byd rhwyddach i'r dychymyg heddiw na dilyn trywydd y llofruddiaeth.

'... a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda chwi bob amser. Amen.'

Rhiannon, cyfnither i Gwen, a oedd ar bwys Arthur; eithr wrth iddo ymadael â'r capel, dywedodd hi wrtho, 'Dwi'n gwybod am eich perthynas chi a Gwen... Na, na, dwi ddim am farnu... Nid moesoldeb y peth sy'n y mhoeni i ... Ond rown i am ddweud nad oedd yr hyn a ddigwyddodd i Gwen ddim yn syndod imi. Roedd hi'n barod i farw, yn aeddfed i'r peth.'

'Wyddoch chi,' meddai Arthur, 'roedd hi'n hollol oer yn ei hagwedd ati hi ei hun, yn fiolegol bron yn y ffordd roedd hi'n synied am ei chorff... Sylfaen sâl ar gyfer digalondid.'

'Dych chi'n credu'i bod hi'n digalonni *dipyn*?' meddai Rhiannon.

'Doedd hynny ddim yn gyfrinach,' atebodd yntau.

'Ond mae pawb ohonon ni rywbyrd neu'i gilydd yn cael pwl o'r falen. Nid pyllau felly a gâi Gwen. Mi fyddai hi'n sgrifennu ata i bob wythnos. Mae gen i bentyrrau o lythyrau. Llythyrau cyffes ydyn nhw. Llythyrau sy'n dangos môr o ddigalondid.'

'Dych chi'n credu'i bod hi wedi'i lladd ei hunan?'

'Na... Ond mae'r peth yn bosib. Mae'n fwy na phosib.'

'Pam?'

'Roedd bywyd wedi mynd yn ddiert. Doedd hi ddim yn caru Wyn.'

'Mae hynny'n amlwg.'

'Ond allai hi ddim caru neb arall chwaith.'

'Neb?' meddai Arthur yn chwilfrydig drist.

'Mae'n rhaid eich bod chi wedi sylwi... Roedd hi'n hoff ohonoch chi, dw i'n gwybod. Mae'n bosib y gallai hi fod wedi byw gyda chi'n ddiiddig. Ond allai hi ddim ymroi i chi. Allai hi ddim ymroi i neb.'

Roedd Wyn wedi difa'i chyfle,' meddai Arthur. 'Eisiau bywyd newydd oedd arni. Ac ar wahân i bob hen gysylltiad.'

'Doedd hi ddim am gael unrhyw fath o fywyd ar y ddaear hon. Dyna'i thrychineb.'

'Roedd hi'n dweud ei bod hi'n y ngharu i,' meddai Arthur.

'Mae'n ffordd o siarad. Dyna'r math o beth y bydd pobl yn ei ddweud. Yn yr amgylchfyd iawn. Ar yr achlysur iawn. Dyna'r ystrydeb arferol.'

'Roedd hi'n cael pyliau gloyw o hapusrwydd hefyd,' meddai yntau.

'Hapusrwydd? Wrth reswm, roedd y whisgi'n help,' meddai Rhiannon.

'Sylw sinigaidd braidd.'

'Roedd yn casáu'r whisgi. Dyna ran o'r casineb ati hi ei hun. Roedd y whisgi'n fodd i ddileu pob ystyr.'

'Fe allai fod wedi wynebu bywyd gyda mi,' meddai Arthur. 'A symud oddi yma.'

'Peidiwch â siarad yn wirion.'

'Ei lladd ei hun, felly. Dyna'ch theori chi?'

'Dyna oedd y canlyniad rhesymegol. Yn fwriadus. Doedd hi ddim yn gweld dim cynnwys i fywyd – dim undod, dim trefn. “Sbwriel dw i,” meddai hi yn ei llythyr diwetha ata i, “yn barod ar gyfer y domen”. “Naid i'r tywyllwch,” meddai hi mewn llythyr arall, “dyna'r cwbl yw ffydd”.'

'Roedd hi'n dipyn o gyfrinydd,' meddai fe ychydig yn amwys.

'On'd ydyn ni i gyd, fachgen, yn y dyddiau hunanlywodraethol hyn?' meddai Rhiannon.

Ar ôl iddi ymadael ag Arthur a chefnu ar y fynwent, cyfeiriodd yntau'i gamre tuag i fyny ystlys Tomen Chwech. Cofiai fe'r troeon lawer roedd e wedi llwybreiddio'r ffordd hon gyda Gwen. Cofiai'r modd y byddai hi'n personoli'r cwm. Edrychodd e i lawr tua'r pentre yn awr. Sut y gallai hi ramantu am y fath dwll o le?

Roedd ganddi ryw syniadau rhyfedd dros ben. Gallai Arthur glywed ei llais hi nawr yn parablu ymlaen yn ddiddiwedd. A dyma'r don gynta o wir hiraeth anhunanol yn cipio drosto. Roedd yr hiraeth fel pe bai'n bywhau'r atgo ac yn adnewyddu'r gorffennol... Gwen! Dyna nhw ill dau, y tro diwetha, wedi dringo i fyny Tomen Chwech – gallai'i gweld hi nawr – wedi dringo fel pe baen nhw wedi codi allan o'r pwll; ac edrychai hi'n ôl ar ei gwlad. Cofiai'r achlysur yn fyw.

'Meistres angenrheidiol oedd y lofa i Gymru', meddai hi. 'Putain enfawr.' Bob dydd a phob nos byddai'r dynion yn mynd i lawr i mewn iddi, fel yr elai'i gŵr hi ei hun i'w stydi, i chwilio o'i mewn, ac i geisio rhwygo allan ohoni awch eu bywyd. Ac yno roedd hi, yno roedd y lofa'n aros, ar

ôl, yn ddiangerdd ac yn ddefnyddiol, yn gorff disgwylgar ac ariangar, heb yr un diddordeb yn y gwrywod yma a biciai i mewn gyda'i gilydd ac eithrio yn eu rhoddion cyson o waed rhad. Ddeuen nhwythau ddim chwaith i'w haddoli hi'n gorff ac ysbryd, gyda'r ymroddiad llwyr hwnnw a oedd yn bosibl iddyn nhw yn eu gwir gynefin; eithr iddyn nhw, *peth* oedd hi, rheidrydd peiriannol a chudd ac achlysurol yn pesgi ar yr hyn a oedd yn ddibris ynddyn nhw, ac eto na roddai iddyn nhw am foment ddim un rhyddid. Deuen nhw ati dro, yn gyfrinachol, fel yr elai'i gŵr hi at ei ddiwinyddiaeth; ac yna, fe aen nhw adre, wedi'u gwenwyno ychydig bach mwy.

Stopiodd Arthur am foment isel. Am faint y byddai'r cwestiynau hyn yn para?

Ymestynnai'r terasau tai fel rhesi o ddannedd ar ddwy ochr y cwm yn awr, gan gau o gwmpas tywyllwch y llwnc rhyngddyn nhw, y pwll, yr un pwll glo hwnnw, a oedd ar ôl o hyd.

Roedd rhai o'r adeiladau yn y strydoedd cefn fel dannedd melyn pydredig mewn ceg frwnt, a'r geg honno'n rhegi weithiau, neu'n amlach yn methu â mynegi'r diffyg siarad. Ac roedd hi, Gwen, wedi byw yn y geg honno, y geg na lefarai ddim; crwydrasai rhwng malurion y dannedd drewllyd, gan rannu'r mudandod. Brodor yno oedd hi.

Roedd Arthur wedi cyrraedd pen y domen bellach, a brysiodd draw at y siafft lle'r oedd y ddamwain wedi digwydd. Damwain, yn wir! Sut?

Gallai Arthur ddychmygu'r olygfa ddiflas yn awr yn union fel roedd hi.

Gwen yn rholio cerdded tuag at ei diwedd, yn maglu, yn syrthio, ac yn ubain yno 'Dim! Dim!' i mewn i'r awyr.

Wyn, ei gŵr, wedyn, ... ryw ganllath y tu ôl iddi, mae'n siŵr, yn cripiant yn nes, ac yn disgwyl am yr eiliad fwya cyfleus.

Neb arall yno.

Y gorwel yn wag.

'Dim! Dim!' gwaeddai Gwen fel gwahanglwyf gynt yn rhybuddio pawb i gadw draw.

A Wyn yn nesáu o hyd ati, yn nychymyg Arthur.

'Dim! Dim!'

Y fath udo newynog. Allai clustiau Arthur ddim diodde ei llef hi ddim mwy.

'Dim!'

Rhaid bod Wyn wedi ei heglu hi oddi yno. Druan o Gwen. Heb neb i'w chysuro yn yr eiliadau ola. Na neb i ymateb iddi. Yr oernadu i mewn i'r twll, yn bloeddio i'w thywyllwch, yn dolefain ei meddwdod, heb yr un enaid byw i wrando arni.

Brysiodd Wyn oddi yno, mae'n rhaid. Crychlamodd i lawr yr ochr gan faglu bron ambell dro, yn nychymyg Arthur. Rhedodd hyd y llathenni ola i mewn i'r pentre. Ac yna, wedi cyrraedd y pentre, arafu, er mwyn mwynhau normaliaeth y lle. Er mwyn gwisgo'i arferoldeb. Er mwyn

ymgynefino â'i sigl a'i symud, a gweld pobl eraill yn mynd, bob un ar ei berwyl ei hun, bob un yn camu i ryw gyfeiriad ac yn llawn o'i amcan e'i hun. Gwelodd ei chwaer yng nghyfraith yn dod i'w gyfeiriad e.

Ceisiai Arthur yn ei ddychymyg yn awr olrhain pob cam a oedd yn bosib yn nihangfa Wyn. Ac yna, gwelodd Megan e, a'i dynnu'n ôl i realiti.

Croesodd Megan, gwraig Emrys, y ffordd i siarad ag Arthur. 'Siopa dw i. Mae'r cwpwrdd wedi mynd yn gwbl wag. Mae'r wythnos ddiwetha...'

'Gwn i.'

'Dŷn ni wedi bwyta heb wybod beth dŷn ni'n ei wneud. Ac yn sicr heb feddwl am roi dim yn ei le. Fel yna dw i'n dal i fwyta, dwi'n ofni. 'Fe ddaw haul ar fryn yn y man,' meddai Megan. 'Fe fues i fyny ar y domen yn chwilio amdanoch chi gynnu.'

'Does dim amdani bellach. Gweithredu amynedd,' meddai Arthur.

'Mae'n debyg.'

'Arthur... Fe ddwedodd Emrys ei fod e wedi siarad â chi. Am hen sgwrs gyda Gwen.'

'Do.'

'Mae yna fwy na hynny, wyddoch. Roedd Gwen – wel, dych chi'n gwybod hyn – roedd hi'n hoffi dod acw am glonc ambell fore. I goffi. Neu i goffi a whisgi yn ei hachos hi. Un bore, ryw bythefnos yn ôl, roedd pethau wedi mynd yn weddol bethma rhyngddi hi a Wyn, debygwn i. Beth bynnag, ynghynt nag arfer, tua hanner wedi deg, dyma hi'n rhedeg draw yn weddol wyllt. Roedd Wyn wedi codi cyllell arni.'

'Cyllell!'

'Ie.'

'Pa fath o gyllell?'

'Cyllell fara, mae'n debyg. Na. Ddwedodd hi ddim eithafol. Dim ond dweud ei fod e wedi gafaelyd yn ei hysgwydd, ac roedd cyllell eisoes yn ei law. Roedd e'n gweiddi fel ffŵl. Roedd hi wedi'i fradychu,' meddai fe.

'Siŵr o fod.'

'Roedd hi wedi'i gwlychu'i hunan mewn ofn.'

'Druan fach.'

'Oni bai mod i wedi'i gweld hi, fyswn i byth wedi credu,' meddai Megan.

'Mi alla i gredu'n iawn.'

'Ond fe!... Fe. Y gweinidog! Mae e'n greadur mor fwynaidd rywsut. Mor ddiddrwg ddidda.'

'Ydy. Difwyd yw'r ansoddair rhyddfrydol. Ond mae'n medru fflamio. Yr hunan. Ambell waith. Wrth glwyfo'i falchder.'

'Pallodd hi fynd yn ôl i ginio. Arhosodd hi gyda ni drwy'r dydd. Ac wedyn, pan ddaeth y nos, a phan oedd hi'n teimlo rhyw fath o reidrwydd i ddychwelyd, roedd hi'n crynu gymaint nes inni ei pherswadio hi i fwrw'r noson gyda ni.'

'Y greadures.'

'Dw i ddim yn cytuno ag Emrys.'

'Ynglŷn â beth?'

'Ei bod hi wedi'i lladd e hun. Dw i'n gallu deall menyw'n well.'

'Sut?'

'Mae yna amheuron eraill yn y mhoeni i. Wrth gwrs, allwn i ddim bod yn siŵr. A byswn i ddim yn dweud wrth neb arall. Ond dw i'n credu – dw i'n ofni, Arthur, – y gallai rhywbeth arall, rhywbeth llawer gwaeth, fod wedi digwydd.'

'Peidiwch â dweud hyn wrth neb.'

'Wnawn i ddim.'

'Byddwch yn ofalus, Megan. Pe bai'r heddlu... pe bai Wyn... bobol, mae hyn yn helbul uffernol. Trîwch anghofio amdani hi, da chi.'

Ond cofio, cofio wnaeth Arthur yr holl ffordd adre. Cofio wrth gerdded i'r tŷ. Cofio yn wyneb ei wraig. Cofio wrth ffoi allan i'r ardd yn y cefn, er mwyn peidio â dal pen rheswm gyda hi. A cheisio cofio yno y posibilrwydd sicr o hunanladdiad ymosodol wrth gogio edrych i blith yr annibendod yn y pen draw ar bwys y wal. . . Beth ddigwyddodd?

Daeth Grace, ei wraig, allan ar ei ôl.

'Wel, mae hi wedi'i chladdu nawr.'

Atebodd e ddim.

'Fe gymraist ti ddigon o amser i'w rhoi hi yn ei bedd,' meddai hi.

Dim ateb.

'Ond mae hi yno nawr, yn ddwfn,' meddai Grace.

Edrychodd e ati. Druan ohoni hi hefyd.

'Efallai y gallwn ni feddwl am aildechrau nawr,' meddai hi, yn galed, fel pe bai'n sôn am raglen teledu ar ôl ymyrraeth yr hysbysebion.

Wyneb llym a oedd gan hon, a llais a ddrylliai'n ddarnau mân wrth gwrdd â gwres yr awyr. Beth bynnag a ddywedai Arthur yn ateb, fe fyddai'n dân ar ei chroen hi. Pe bai'n addfwyn, fe bryfociai hynny hi; a phe bai'n heriol, wnâi hynny ddim ond ei chynddeiriogi'n fwy.

'Hyd yn oed nawr mae nghalon i'n berwi,' meddai hi. 'Does dim cywilydd gen i ddweud.'

'Marw yw marw.'

'Diolch byth,' poerau hi.

'Arafa, Grace fach.'

'Anghofia i byth. Faddeua i byth.'

'Dere'n ôl i'r tŷ.'

'Fe fydda i'n clywed ei gwaedd hi hyd y medd, ac fe fydd yn fiwsig i nghlustiau.'

'Dwi'n mynd yn ôl.'

'Sgrech llygoden ffrengig mewn magl. Sgrech car yn methu brecio mewn pryd... Digon hyfryd.'

Roedd Arthur wedi'i chythru hi ar ôl Grace a'i gadael hi'n galw-ddwrddio ar ei ôl e. Llanwai'i melltithion yr awyr, ac allai fe ddim aros o fewn cyrraedd y cabledd a'r ceryddu.

Aeth allan o'i golwg am dro unwaith eto. Ac wrth basio'r siop bapurau, sylwodd e fod *Y Goleuad* wedi cyrraedd. Ac yn wir, ar ganol y tudalen blaen, roedd yna gerdd farwnadol er cof am Mrs Gwen Wynne, gan weinidog o orllewin Morgannwg. Canmolai'r gân gampau ei phrydferthwch, a soniai am ei chyfraniad hi i'w heglwys ac i bob achos diwylliadol yn y gymdogaeth. Pynciai'n gynnwl am ei doniau yn arwain y Gymdeithas-Ddadlau yn y cwm, a nodai'i ei bod wedi dod â delwedd newydd i'r enwad yn yr ardal. Profodd Arthur ias o fodlonrwydd ac o gysur wrth weld y fath deyrnged loyw i'w enwad yn yr ardal, ac roedd yn llawer parotach i gyrchu'n ôl i wynebu'i gartre e'i hun.

## VI

'Gwell i chi roi taw ar gleber y wraig 'na sy gynnoch chi, Arthur Morgans,' gwaeddodd cymdoges, wrth iddo fe gyrchu i'r swyddfa fore trannoeth. 'Neu bydd hi'n weddol goch arnoch chi.'

'Beth yw'r pregethu 'na sy gynnoch chi y bore 'ma, Daisy Watcyn?'

'Dim ond bod Mair Llywarch wedi gweld Gwen yn cerdded lan ochr y domen y noson y bu Mrs Wynne farw.'

Oeddod e ddim i frygawthan gyda'r fath falais amlwg. Roedd amgenach pethau yn hawlio'i sylw ben bore fel hyn. Rhyfedd hefyd mai'r cyhuddiad hwn, serch hynny, a fynnai ei sylw llawn e drwy gydol y dydd, ac na allai roi'i fryd ar ei waith ei hun, o gwbl.

Diferai delweddau o Gwen gerbron cynulleidfaedd ei euogrwydd.

Cofiai'r tro cynta y bu iddo gwrdd â Gwen. Ei wraig Grace, mewn gwirionedd, a oedd yn gyfrifol am iddyn nhw daro wrth ei gilydd, oherwydd nid un oedd e'n hoffi mynychu clybiau nos a gwyllo *cabaret*. Caru preifat oedd ei *forte* fe. Yn fuan ar ôl iddyn nhw briodi – diwedd y flwyddyn ariannol oedd hi yn y swyddfa, a phawb wedi bod yn gweithio am oriau ychwanegol blinedig, heb fod neb yno'n aruthr amyneddgar tuag at ei gilydd – awgrymodd Grace y dylen nhw ymweld ar y diwedd â John ac Eleri yn Abertawe, a bwrw gyda'r nos yn eu cwmni yng Nghlwb y Granada.

Gwen a oedd yn canu yno, druan, roedd hi eisoes wedi ennill ei dau deitl – Miss Wales a Miss United Kingdom mewn blynyddoedd olynol. Rhyw flwyddyn a hanner oedd hi cyn iddi hi briodi, ac roedd hi ar ucha ei bri. Doedd Arthur erioed wedi gweld dim byd tebyg iddi, ac ar ddiwedd ei heitem ola rhoddodd e ryw esgus i Grace, ac aeth e y tu ôl i dorri gair cynnil gyda'r rhyfeddod luniaidd hon. Er mor gyfarwydd oedd hi â'r math hwn o ffwdan, gwelodd hi'r gwirioni croyw ac iraidd a oedd yn llond ei lygaid e yn rhywbeth newydd, rywsut. Synhwyrodd hi hefyd ei addoliad unplyg ohoni. Ei onestrwydd haerllug oedd y dychryn. Ac ymatebodd hi'n reddfodol deimladol i'w edmygedd bachgennaidd anghyfrifol.

'Ddowch chi i ffwrdd gyda mi?' gofynnodd Gwen yn ysgafn ffwr-bwt iddo, a chwerthin. Roedd hi'n wreiddiolach personoliaeth o lawer nag e, yn fwy annibynnol, ac yn medru amgyffred y cyfle anghonfensiynol mewn bywyd.

Cyffyrddodd yr her annifrifol yma â blaen ei deimladyddion malwen e megis gordd.

Gwingodd e'n ôl mewn dychryn. Chwarae roedd hi, ond chwarae'n rhydd.

Eithr doedd dim lle i'r fath gwestiwn hurt yn y tipyn ymserchu diniwed ysgafn a oedd wedi dod i'w ran e y noson honno. Rhoddai'r fath fygythiad ddimensiwn diarth a pheryglus i'w ramantu bach. Roedd e hefyd, wrth gwrs, yn llwfr. Lwyddodd e erioed i'w wynebu'i hun. Ac yn sicr, doedd e erioed wedi palfalu i lawr ymhlith y nwydau a gorddai yn ei waelodion. Ciliodd e'n gyflym rhag y fath anturiaeth wyllt.

Roedd e'n llwfr erioed; a hithau Gwen yn siomedig ynddo, mewn ffordd ddigri. Siom afreal ydoedd, serch hynny, wedi'i lleddfu gan realaeth. Cwestiwn sydyn a difeddwl a ofynasai hi iddo fe, ond cwestiwn naturiol ac unplyg hefyd iddi hi am eiliad ffôl. Eto, am yr eiliad yna breuddwydiasai fe y bysai hon wedi lled-dybied, efallai, y gallai fe gipio'r siawns gyda hi, a ffoi gyda'i gilydd. A byddai hi'n barod ddigon i daflu'r cwbl, ei theitlau, ei thipyn gyrfa, a'i chysuron: popeth, er mwyn cael perthynas iach ac ymddiriedus a gonest am gyfnod rhyngddi hi ac un person. Un person a gredai ynddi.

Meddiannu un berthynas glòs, dyma fu ei hiraeth hi erioed. Ond yn sicr, doedd Arthur ddim yn atebol i'r fath uchelgais hedegog. Doedd e erioed wedi llwyddo i ddod o hyd i ddull mwy dof o setlo'i broblemau. Drwy weithredu ychydig amynedd, ac o ddisgwyl dros ychydig amser, fe ddeuai pob cyfleustra yn ei bryd i gynnig ei atyniadau'i hun am y tro. Pryd bynnag y codai'r annisgwyl a'r brawychus, roedd e wedi sylwi, ond iddo aros yn amyneddgar, y câi e'i ffordd ei hun yn dirion yn y diwedd. Felly y digwyddodd y tro hwn. Pwy byth a feddyliai ar y pryd – y deuai'r Gwen hon – y llun anghymharol yma – yn wraig i'r gweinidog ym Methania, y capel lle y mynychai ei dad e mor selog? A oedd unrhyw beth mwy annhebygol nag y byddai i ffawd drefnu mor fflons iddyn nhw ill dau adnewyddu'r hedyn o gyfeillgarwch twp hwn, hwnnw a syrthiodd ar fin y ffordd mewn modd

mor annhymig yn Abertawe ryw ddeunaw mis ynghynt?

Yn fuan ar ôl iddi ddod i'r Cwm ac ymsefydlu yn y Mans, roedd Arthur wedi gwahodd Gwen a'i gŵr, y gweinidog, i swpera un noson. Doedd dim byd afrywiog ynglŷn â'r fath wahoddiad, gan fod llawer o'r aelodau amlyca, onid pob un yn eu tro, yn gwneud yn gyffelyb. Disgwyliai y caen nhw noson ddifyr dros ben o bryd gyda'r ddau, ac y câi e gyfle gloyw i synhwyro'i theimpladau cudd hi tuag ato fe o'r newydd.

Eithr nid felly y bu.

Dyma'r trydydd tro, er pan briododd hi Arthur, i'w wraig Grace gadw reiat a dangos arwyddion o goll arni'i hun yn feddyliol. Chafodd y noson ddim amser i gychwyn hyd yn oed, a'i thraed dani; ond cyn gynted ag y daeth Grace wyneb yn wyneb â Gwen fe aeth i'w chragen yn reddfol. Am ryw ddeng munud daliodd i fynd o gwmpas ei phethau, a hofran ar ymylon yr ymddiddan eithr heb yngan sill. Ac wedyn, eisteddodd hi ar gadair gan syllu'n union o'i blaen drwy lygaid delw a synhwyrau mud. Roedd wyneb Grace yn welw ac yn garegog. Roedd ei breichiau'n llipa ddideimlad, a'i gwar yn syth. Gwyddai hi fod yna gynneddf beryglus ynddi hi ei hun.

'Dyw Mrs Morgans ddim yn dda iawn,' meddai Wyn gyda'i graffter cyfarwydd yn achos gwragedd dynion eraill. 'Mae rhywbeth yn bod. Nid hon yw hi.'

'Mi *ddaw* hi yn y man,' meddai Arthur. 'Mae hi wedi cael un neu ddau o byliau fel hyn o'r blaen. Peidiwch â sylwi arni. Mae'r peth yn disgyn arni'n ddisymwth, ond fydd hi fawr o dro. Cilio y mae hi.'

'Ga i weithio paned iddi?' gofynnodd Gwen.

'Efallai y byddai hynny'n help.'

'Mi ffeindia i'r llestri.'

'Ga i ddod gyda chi?'

'Na, na. Mae'n ddigon rhwydd.'

'Ga i ddangos... '

'Na. Arhoswch chi gyda Mrs Morgans.'

'Dw i'n ofni ein bod ni wedi dod ar noson pryd nad yw Mrs Morgans ddim yn hwylus iawn,' meddai Wyn.

'Alla i ddim deall. Dyw hi ddim yn arfer bod... ond fel rown i'n ddweud, unwaith neu ddwy...' meddai Arthur yn arafaidd ac yn gariadus.

'Gwn i, gwn i.'

'Mae'n anodd gwybod beth i'w wneud.'

A doedd dim oll y gallai neb ei wneud. Wedi aros am ryw dri-chwarter awr, barnodd Wyn Wynne y byddai'n ddoethach efallai iddyn nhw ymadael am y tro, ac efallai rywdro arall y byddai



hwyliau Mrs Morgans yn well.

'Fe ddaw hi chwap.'

'Na. Gwell inni fynd yn awr.'

'Chi sy'n gwybod.'

'Gyda thawelwch, heb ormod o ffwdan o'i chwmpas, dw i'n siŵr y bydd hi'n sionci.'

Nid sionci oedd y gair. Arhosodd hi fel delw am ryw hanner awr wedi iddyn nhw ymadael â'i chartre, ac yna dechreuodd strancio'n gwbl aflywodraethus. Wnaeth hi ddim niwed i Arthur. Yn wir, ei anwybyddu fe a wnaeth hi ar ryw olwg, a'i hyrddio'i hun oddi amgylch yn ddiamcan fel pe na bai e yno o gwbl. Ond daliai hi i weiddi ac i chwifio'i breichiau'n orffwyll.

Agorodd hi ffenest y llofft i glirio'r awyr ar ôl i'r gweinidog a'i wraig ymadael, ac roedd Arthur yn amau'i bod hi am ei thafllu'i hun allan; ond nadu oedd y nod, crochlefain yn aflafar i'r stryd. Roedd ei hofn hi ar Arthur am funud. Hyd yn oed ar ôl i'r cythrwfl chwithig hwnnw dawelu, roedd ofn yn dal arno. Ofn bellach i'r anghydbwysedd yma ddod yn ôl, yn ddiarwybod, rywle, rywle, ar eu gwartha a bwrw cywilydd arnyn nhw'n gyhoeddus, ofn iddi wneud niwed iddi'i hun, ofn iddi o bosib wneud drwg iddo fe hefyd.

Eithr cilio wnaeth y terfysgu. Eithriad fu'r storm honno. Ddaeth dim tebyg am gyfnod hir iawn, am ddeunaw mis o leia. Yn y cyfamser ddaeth odid ddim arwydd fod emosiwn cry hyd yn oed yn bosib y tu ôl i gasin dur personoliaeth ei wraig.

Ond dod wnaeth yr argyfwng mawr nesaf yn y diwedd. A phan ddaeth, roedd yn mynd i dorri mewn ffyrnigrwydd o'r mwya cyffrous. Wrth gofio'r tro hwnnw, bellach, roedd Arthur yn ymsynied nawr, tybed, a fyddai'i wraig – o bawb – yn gallu mynd i'r eitha hwn o lofruddio rhywun? Prociai'r cof. A allai'r ynfyrdrwydd hwnnw ddisgyn arni eto a pheri iddi gyflawni trosedd na fyddai hi ar ryw olwg yn gyfrifol amdano? A ellid ei gyrru hi i'r fath gynddaredd filain nes na byddai hi'n gwybod beth a wnâi na phwy a ddioddefai?

Mynd am dro diniwed a thawel a chwbl ddamweiniol gyda Gwen roedd Arthur y diwrnod hwn, tua hanner awr wedi chwech yn yr hwyr. A dringo roedden nhw hyd ystlys Tomen Chwech. Cyn iddyn nhw gyrraedd y copa, di-wynt, a'r mwg yn codi'n syth o simneiau'r tai lle'r oedd tanau o hyd ar gael. Tawelai'r ddau o flaen panorama'r Cwm.

'Weli di'r patrwm?' gofynnodd hi wrth edrych i lawr tua'r panorama.

'Mae'n dawel. Does dim yn symud.'

'Weli di'r drefn? Y sgwarau bach acw. Yna'r ffordd yn cylchu i lawr ar hyd y gwaelod.'

'Mae popeth yn smotiau llwyd yn y gwyll.'

'Mae popeth yn ffitio i'w gilydd.'

'Oes. Mae yna batrwm.'

'Yn y tai hefyd, ac o'r tu mewn i'r cartrefi, mae yna batrwm.'

'Siŵr o fod.'

'Pobl yn perthyn i'w gilydd.'

'Oes. Mae yna ddigon o berthnasau... A'n helpo ni.'

'Mae eu meddyliau nhw'n perthyn hefyd, a'u hanadl nhw.'

'Ychydig o'r hen gymdeithas sy'n aros.'

'Ond mae yna beth ... ymhlith y glowyr.'

'O! Y glowyr.'

Fe wyddai hi fod yna fwy o lawer na rhamantiaeth yn y fath gyfathrachu hwyliog iach a gwleidyddol hwnnw rhwng y glowyr. Ac roedd eu cyd-ddibynnu digywilydd, cytbwys tan y ddaear yn heintus, ac roedd y cyd-ddibynnu hwnnw'n cael ei gario'n ôl gyda nhw pan ddeuen nhw adre, hyd yn oed i olau dydd creulon. Wedi cael eu sugno i fyny o fewnolion y tir, wedi'u datguddio'n noeth a cholli gorchudd y pridd dro, eto yr oedd gwreiddiau'r pwll a hadau cêl eu gweithgareddau ymrwbiol caredig yn ceisio rhyw fath o dyfiant o hyd yng ngheginau'u cartrefi, nid mewn gwaedd rywiol anifeilaidd ac unig, ond yng nghymdeithas ddiwyd y teulu, megis y buon nhw ynghlwm yn y gwreiddiau dan wyneb y pridd, wedi'u dilladu yng nghymhlethdod eu cymdeithion. Roedd wyneb y tir a'r hyn a oedd dani wedi dod yn un.

'Mae'r ymadael diweddar â gwaith llaw, a dyfodiad mwy o beiriannau yn cracio'r patrwm,' meddai fe.

'Efallai.'

'Os ych chi am gadw'ch breuddwydion ynghylch perthyn...'

'Dw i'n gwybod beth dych chi'n mynd i'w ddweud,' meddai hi.

'Beth?'

'Mae'n rhaid bod yn fodlon i aberthu ceir a rhewgelloedd a theledu ac ati.'

'Peth cyntefig, dybiwn i, yw'r math o berthyn dych chi'n hiraethu amdano.'

'Na. Dim ond patrwm fel yna,' meddai hi gan bwyntio i lawr tua'r cwm. 'Dyw hwnna ddim yn hynod o gyntefig.'

Roedd hi'n hiraethu am weld patrwm rywle, am fod ei thu mewn hi ei hun mor ddi-drefn.

Stopion nhw, a chydedrych yn synhwyrus tuag at brydferthwch Cwm cymhleth.

Y foment honno, fel creadures o blaned arall, dyma ffigur enbyd arall fel gwrach yn ymddangos y tu ôl iddyn nhw ar y copa. Disgynnodd i ganol eu harolwg yn ddisyfyd. Ei wraig. Hi oedd yno. Roedd Grace yno wedi bod yn disgwyl am ei gŵr.

'Grace!' ebychai Arthur.

Rhaid ei bod hi wedi aros amdany'n nhw, wedi llercian ddisgwyl o'r golwg, gan eu cilwyllo

nhw efallai wrth iddyn nhw ddringo i fyny hanner awr ynghynt. Roedd llygaid Grace yn fflachio fel tameitiach metel. Roedd ei dyrnau hi ynghau, ac roedd hi'n bloeddio'n annealladwy. Rhuthrodd hi i lawr at Gwen, a'i breichiau'n fflangellu'r awyr. Neidiodd Gwen ac Arthur o'r ffordd nes bod yna fwch rhyngddyn nhw.

Fe ddylsai yntau fod wedi sefyll i amddiffyn Gwen, ond am eiliad roedd gormod o ofn arno fe am ei ddiogelwch ei hun.

'Llofrudd! Llofrudd!' llefodd Grace.

'Gan bwyll, gan bwyll, Grace fach.'

'Llofrudd!'

'Gad i fi esbonio.'

'Llofrudd! Dyna ydych chi.'

Doedd hi ddim yn eglur ai ato fe ynte at Gwen, ynte atyn nhw ill dau, roedd hi'n cyfeirio. 'Yn lladd cartrefi. Yn difa teuluoedd.'

'Aros funud, Grace fach,' meddai fe.

'Pam nad oes gen i ddim plant?' meddai hi wrth ei gŵr.

'Gawn ni siarad yn dawel.'

'Pam nad wyt ti'n fodlon inni godi teulu? Mae'r rheswm yn sefyll fan 'na.'

'Dyw hynny ddim yn deg.'

'Dŷn ni'n perthyn i'n gilydd, on'd ydyn ni? Dŷn ni'n ŵr ac yn wraig. Yn perthyn. Y fi, Grace, ac Arthur?'

'Ydyn, siŵr iawn.'

'Nac ydyn... Mae hon wedi lladd ein perthynas ni.'

Rhuthrodd hi eto at Gwen, a llwyddodd honno i'w gwthio hi'n ôl. Hyrddiodd yn wyllt drachefn. A syrthiodd Gwen yn welw wen ar ei chefn. Roedd Grace yn cydio yng ngwallt Gwen nawr, ac yn tynnu, tynnu.

'Aros Grace,' gwaeddodd Arthur, 'saf yn ôl, fe wnei di ddrwg. Arafu nghariad i. Dere'n ôl gyda fi i'r tŷ. Fe siaradwn ni am y cwbl. Dyw pethau ddim cynddrwg ag maen nhw'n ymddangos. Mi alla i esbonio'r cwbl.' Gwthiodd e hi'n ôl.

'Gad i fi gael gafael arni,' meddai Grace.

'Galla i esbonio.'

'Dyna'r cwbl rwyt ti'n ei wneud byth yw esbonio.'

'Grace!' gwaeddodd e'n siarp.

'Ffordd hwylus o ymwardd â realiti yw esbonio,' meddai'i wraig.

'Rho gyfle i mi ddweud rhywbeth.'

'Na. Gad i fi gydio ynnddi... Fe ladda i hi.'

'Bydd dawel Grace.'

'Dyw pethau ddim fel maen nhw'n ymddangos, Mrs Morgans,' meddai Gwen.

'A chithau'n wraig i weinidog. Dych chi'n gywilydd i'ch safle. Dych chi'n bradychu'ch urddas... Miss Wales, wir. Miss Godinebu!'

'Gweithreda dosturi, Grace. Bydd yn amyneddgar am funud.'

'Gweithredu *cyfiawnder* sy eisiau.'

'Wel, gwranda ar yr achos te... yn gyfiawn.'

'Yn wir, Mrs Morgans, yn wir... wir, dyw pethau... '

'Gadewch ni'n llonydd.'

'Os dymunwch, mi a-i o'ma ichi gael siarad yn rhydd,' meddai Gwen.

'Â *chi* dw i'n siarad. Does gen i ddim i'w ddweud wrth hwn, – dim ond distawrwydd. Ond chi ... Miss Wales, y corff dienaidd yn fflyrtian.'

'Dyw pethau... '

Roedd Gwen am ddweud yn syml nad oedd yr hyn a oedd yn y golwg, er hacred oedd, ddim yn adlewyrchu'r rhyddid diniwed a'r cyfathrachu hollol ddifalais a oedd yn y cudd. Ysai Gwen am beidio â siomi neb. Doedd hi ddim wedi bod yn deg wrth Arthur, roedd hynny'n wir. Dylai hi fod wedi aberthu'i chariad a pheidio â'i weld mor aml, cyfaddefai hynny bellach.

Roedd gan Gwen yr hunanddisgyblaeth nas meddai ef. Na; wnâi Gwen ddim ei ddenu fe mwyfwy oddi wrth y ferch wyllt ifanc honno, hon, Grace, a ddygasai'i serch e yn ei wraidd; a doedd ei serch e ati hi, Gwen, bellach ddim ond yn chwiw arwynebol. Roedd rhaid i rywun ennill. Yn ara fe'i gollyngai fe Gwen, gwnâi, a cheisio adfer y gwir gariad sy'n mynnu'r anhunanoldeb clwyfus a arhosai ac a oedd yn bosibl iddo, efallai, gyda'i wraig Grace. Doedd Gwen ddim yn ofni'r dolur. Yn wir, y dolur hwnnw fyddai'i chariad hi. Doedd hi ddim yn gwarafun yr hiraeth a'r gwanc a ddeuai ar ei gwartha yng ngeafau'i gwely. Yr oerfel yna yn wir fyddai ei rhodd o groeso hi i'w hanwylyd. Edrychai Arthur yn dyner ar Gwen.

Roedd ei gwisg yn wen, ac o gwmpas ei gwddw hongiai aroglau lelog a lafant.

Ond dyma Grace yn troi'n ddiamynedd oddi wrth y ddau ac yn rhedeg i ffwrdd oddi wrthyn nhw heb aros i faldorrdi mwy. Rhedeg, a rhedeg mewn siom enfawr. Gadawodd hi Arthur a Gwen yn syfrdan. Edrychon nhw ar ei gilydd yn boenus a methu â chael geiriau o gwbl i fynegi na'u dryswch na'u haflonyddwch. A sylweddolai Arthur fod corff Grace yn cynnwys ysbryd peryglus.

## VII

Roedd yr achosion posibl i farwolaeth Gwen bellach yn afrifed. Eithr roedd y tebygrwydd

mai damwain go iawn oedd hi wedi lleihau bob dydd. Diau fod Cyfraith Gwlad a'r crwner wedi setlo'r peth yn y modd doetha a mwya gwleidyddol ar y pryd drwy osgoi wynebu'r gwirioneddau a oedd yn ymlusgo'n ddigon talog oddi amgylch, o dan y garreg, a gohirio'r datgan o gasgliad ar unwaith. Roedd rhaid i'r heddlu gasglu mwy o dystiolaeth. Gwleidyddiaeth oedd pob cyfraith, dybiai Arthur, wedi'r cwbl.

Ac roedd y tebygrwydd ei bod hi wedi'i lladd ei hun yn dal yn gry. Ond po fwya y pendronai uwch y broblem, amla y trôï atgofion a myfyrdodau Arthur yn ôl tuag at Grace, a'i chenfigen a'i gwylltineb aflednais, anghybwys.

Cofiai yntau yn ei gŵydd fel yr oedd Gwen ei hun wedi teimlo gwiriondeb cyffelyb amdano droeon. Unwaith, (cofiar ar ben y domen) roedd hi, Gwen, wedi troi ato a thafliu'i dwylo am ei wddw'n sydyn. Roedd hi fel pe bai rhyw gysgod wedi symud drosti'n annisgwyl.

'Beth sy, yn anwylyd i?' holodd Arthur. 'Aros, aros am funud.'

'Ond beth ddigwyddodd i ni?' holai Gwen.

'Dim llawer. Ond aros. Does dim byd... '

'Oes! Grace sy!' meddai hi, yn ungair esboniol o'r diwedd, ac ysgryd arni. Mae hi'n ein hamau ni.'

'Grace? Wnaiff honno ddim oll amdani. Does dim eisau'i hofni hi.'

'Fe ddaeth hi dros y meddwl i nawr fel awel o wynt.'

Gafaelai Gwen yn dynn ym mraich Arthur. Syllen nhw gyda'i gilydd i lawr ar y Cwm llonydd, ar y sgwarau a'r llinellau patrymog a'r clytiau lliw a oedd wedi'i chyfareddu hi mor fynych. Gwelai gynllun o hyd. Gwelai ryw fân glytiau gorloyw o'r gorffennol yma ac acw, – fel pethau byw, – fel pe byddid wedi tywallt cannoedd o luniau yn ddamweiniol o'r amser gynt ar y borfa yng ngwaelod y Cwm o'i blaen hi, yn gysylltiad, a'r tai yn daclus amseryddol mewn terasau Cymreig i dystio fod yna ystyr i lawr y Cwm rywle fel cerrynt o flynyddoedd colledig ar ei hwyneb, fel meddyliau gwasgaredig drwy'i llewys hi ac i fyny ar draws ei mynwes, heb ei hoeri hi'n hollol, ond yn drwm arnyn nhw ill dau.

'Grace!' protestiodd e'n ddirmygus, 'paid â phoeni. Welodd hi ddim ohonon ni.'

'Dere'n ôl i gynhesrwydd y Cwm.'

'Dyw'r awel ddim yn oer.'

'Nac ydy, efallai. Ond mae'n codi'n wynt main.'

'Fe fu'r argoelion tywydd ar y teledu yn sôn am heulwen.'

'Maen nhw bob amser yn anghywir.'

'Dere'n ôl te,' anogodd e hi'n gwtia ac yn groes i'w ewyllys. 'Wnaethon ni ddim.'

'Mae hi'n gwybod y cwbl amdanon ni,' sibrydai Gwen wrth rodio tuag i lawr, fel pe bai

ymledu o'r wybodaeth honno'n farnedigaeth arnyn nhw ill dau. Nid dyna'r unig dro i reddfau Grace ffrwydro fel yna, er nad oedd dim mwy pendant ynglŷn â'r ymwybod o berygl nag ymdeimlad niwlog.

\* \* \*

Rhyw bythefnos oedd hyn cyn i Gwen farw; ac roedd hi fel pe bai'r cysgodion clòs yn ymgynnull yn broffwydol am ei sibrydoedd hi.

Roedd ei gŵr hi wedi bod yn arbennig o giaidd tuag ati yn ystod y dydd.

Awgrymodd Arthur y gallen nhw fwrw orig ym Merthyr lle'r oedd cyngerdd ysblennydd yn cael ei gynnal i ddathlu estyniad helaeth newydd ar ffatri Hoover. Ac felly y gwnaethan nhw.

Roedd wyneb Gwen o hyd yn adnabyddus, wrth gwrs, hyd yn oed ym Merthyr. A gwnaeth arweinydd y noson lygad bach ar Arthur wrth iddyn nhw ddod i mewn. Ond doedd y fath arwydd amwys ddim yn golygu dim oll, bid siŵr.

Aeth y cyngerdd yn ei flaen yn hwyliog ddigon. Yr uchafbwynt i fod oedd coroni brenhines y peiriannau golchi.

Dyma'r arweinydd yn codi'n ara ar ei draed.

'Wel, foneddigion, mae hon yn noson go arbennig. Dw i'n teimlo fel pe baen ni'n ymweld â gwlad y tylwyth teg. Mae yna freninesau ym mhob man 'ma heno. Prin y galla i edrych i un cyfeiriad heb weld brenhines. Chredwch chi ddim ohono i, ffrindiau. Ond o fewn cylch o ugain llath i'r lle dw i'n sefyll nawr, mae yna bedair brenhines. A chyn diwedd y noson fe fydd yna bump. Gwlad y breninesau gwynion yw hon. Lle fel hyn fydd y nefoedd, siŵr o fod.'

Chwarddodd pawb.

'Gadewch i ni eu cyfri nhw. Yn gynta oll, dyma Frenhines y Peiriannau Golchi llynedd. Rhowch groeso iddi hi, gyfeillion... Mae hi wedi dod i gyflwyno'i choron i'r frenhines eleni... Wedyn, y mae Miss Wales eleni wedi dod i'r cyfarfod i'n hanrhydeddu i, sef Miss Dorothy Smith o Abertawe.'

Curwyd dwylo'n fyddarol.

'Ond yn rhyfedd iawn, mae yna ddwy arall yma hefyd. Mae ein hen gyfeilles Mrs Gwen Wynne, a fu'n frenhines mor gywir arnon ni oll ychydig o flynyddoedd yn ôl – wna i ddim dweud faint.'

Chwarddodd pawb yn fyddarol, a churo dwylo.

'Ac mae gen i gyfrinach. Am y tro cynta yn yr ardal hon... wedi dod am wyliau *i'r lle* yma, meddyliwch... '

Chwerthin mawr.

'Wedi dod am dair wythnos dawel... '

Chwerthin eto.

'Mae gynnon ni'r frenhines a fu'n Miss England yn yr un flwyddyn yn union ag y bu Mrs Wynne yn Miss Wales, sef Mrs Dawn Whithers.'

Curo dwylo mawr iawn.

'Rhowch groeso i'w gŵr hi hefyd, Mr Whithers.'

Cymeradwyaeth fwy byth iddo fe. A chwerthin diystyr. A chwiban.

Ar ddiwedd y cyngerdd cafodd Gwen gyfle i fynd draw at Dawn Whithers i ysgwyd llaw ac i godi ambell atgof am y flwyddyn fawr gynt. Ond roedd hi'n dawedog ar y ffordd adre.

'Doedd hi ddim yn ferch ddymunol,' meddai Arthur. 'Saesnes, mae'n debyg.'

'Na, nid dyna oedd y rheswm. Mae gen i berthnasau sy wedi priodi Saeson. Pobl hyfryd. Ond roedd hon yn fwy haniaethol,' meddai Gwen.

'Haniaethol? Sut?'

'Roedd hi am gynrychioli *Prydain*. Dyna'i hawl. Dyna oedd yn naturiol i Miss England. Roedd hi'n galed o genfigennus. Roedd hi'n crynhoi ynddi hi ei hun y nodweddion gwaetha.'

'Haerllugrwydd?'

'Ie. A thraheustra,' meddai Gwen. 'Faddeuodd hi byth imi 'mod i wedi ennill Miss United Kingdom. Fe fysai'n gwneud unrhyw beth er mwyn cael gwared â fi oddi ar y ddaear.'

'Mae'n debyg yn y maes hwnnw fod teimladau'n codi mewn chwinciad.'

'Maes y gad. Maes y gwaed, hefyd, debyg gen i.'

'Oedd yn wir, ambell waith pan oedd yr ewinedd yn chwipio ar ddiwedd y noson!'

'Dwyt ti byth wedi'i gweld hi oddi ar hynny?'

'Nac ydw. Down i ddim am wneud chwaith. "I'll get you", oedd ei geiriau dwetha i mi. Ac roedd hi'n meddwl 'ny hefyd. Ar y pryd o leia.'

'Unrhyw dric. Maen nhw'n dweud pethau plentynnaidd fel yna weithiau,' meddai Arthur.

'Efallai ... Doedd hi ddim mor bert ag roedd hi'n arfer bod,' meddai Gwen.

'Yr hen flynyddoedd crablyd 'na.'

'Ie... ? Ond dyna fe. Mae'n siŵr ein bod ni i gyd yn newid.'

Ddau ddiwrnod ar ôl marwolaeth Gwen, ac ar ôl y *post mortem*, fe yrrodd Arthur yn ei gar draw i Ferthyr i ymholi ynghylch hynt Dawn Whithers. Os oedd hi wedi bwriadu aros yno, fel y dwedodd hi, am dair wythnos, rhaid ei bod hi yn y gymdogaeth pan fu farw Gwen.

Nid cyd-ddigwyddiad oedd peth felly.

Sais o Sheffield, mewnfudwr, *entrepreneur*, oedd yn cadw'r gwesty lle'r oedd hi wedi bod yn aros. Roedd e'n tystio na fuodd hi allan o'i hystafell yr holl amser y buodd hi 'na.

'Aeth hi adre ddoe wedyn.'

'Ynghynt na'r disgwyl, felly,' meddai Arthur wrth berchen y gwesty.

'Ie; ond dra oedd hi yma arhosodd hi yn ei hystafell oherwydd anhwylder.'

'Rhyw salwch sydyn? Trueni. Mae'n ddrwg gen i glywed,' meddai Arthur yn goeg. 'Trueni mod i wedi'i cholli. Hen ffrind, wyddoch.'

"Rhywbeth ar y stumog," meddai perchen y gwesty. Aros yn ei stafell wnaeth hi drwy gydol y tair wythnos. Pallu bwyta dim.'

'Felly, aeth hi ddim allan o gwbl... '

'Naddo. Roedd hi yn ei stafell, rwy'n dweud. Ac mae hi wedi mynd adre.'

Fe ddwedodd e'r ddwy frawddeg ola honno braidd yn rhy blwmp. Fel pe bai e am lunio alibi i rywun.

Ond roedd drwgdybiaeth Arthur wedi'i chynhyrfu'n ddigonol. Teimlai fod ganddo fe ddigon o garn dros gludo'i gymysgedd amheus at yr heddlu. Roedd y ddedfryd o farwolaeth ddamweiniol wedi bod yn llawer rhy slic: wnâi hynny ddim o'r tro. Beth ystyr ymweliad Brenhines 'Miss Byd' â'r Cwm. Os nad oedd a wnelo Dawn Whithers â'r farwolaeth, fe allasai Wyn... fe allasai'i wraig ei hun, Grace ... Fe allai ... Doedd dim digon o amau wedi bod.

Aeth Arthur, er hynny, draw at Swyddfa'r Heddlu.

'Na, na, Mr Morgans. Dych chi'n dychmygu gormod.'

'Dim ond darlunio'r sefyllfa debygol dw i'n wneud.'

'Yn aml iawn,' meddai Heddwes, 'ar ôl i ryw anffawd o'r math yma ein goddiweddyd, fe fydd caredigion i'r sawl sy wedi marw... '

'Ceisio ailchwilio'r ffeithiau dw i,' meddai Arthur.

'Wel, wrth gwrs, dŷn ni bob amser yn barod i hel ffeithiau.'

'Felly, fe allech chi ailagor yr archwiliad.'

'Na, na, dŷn ni ddim yn dweud hynny.'

'Wel, beth wnewch chi?'

'Dŷn ni bob amser yn barod i gasglu tystiolaeth, bob amser yn barod i wrando. Tystiolaeth yw'n bara menyn ni, wyddoch.'

'Ond a ewch chi ati i chwilio am y ffeithiau anamlwg, drosoch eich hun... ?'

'Allwn ni ddim gwneud hynny.'

'Beth sy'n eich stopio chi?'

'Dim... Prysurdeb... Does yna ddim byd o'i le mewn parhau *diniwed*. Ffeilio'r wybodaeth wrth iddi ddod i mewn, a disgwyl, a gweld a oes yna obaith o ragor o ddatblygiad. Cawn ni weld yn ddigon buan, Mr Morgans.'

'Dyw hynna ddim yn werth taten.'



'Dowch, Mr Morgans.'

'Ffiloreg. Gwastraffu amser. Cau'ch llygaid ar y wir dystiolaeth, sy o dan eich trwynau.'

'Nid tystiolaeth, Mr Morgans.'

'Cystal tystiolaeth bob dim â...'

'*Tybiaeth* dyna'r cwbl. Welodd neb ddim.'

'Nid damwain oedd hi, dwi'n siŵr. Dwi'n credu dim o'r ddihangfa 'na.'

'Wrth gwrs, fe allai hi fod wedi'i lladd ei hun. Ond hoffech chi ddim inni ddilyn y trywydd yna chwaith.'

'Dydd da, arolygydd.'

Torsythodd Arthur Morgans allan o'r orsaf.

Roedd arno chwant mynd at Wyn Wynne i'w herio fe, i osod yr achos a'r cyhuddiadau oll ynghyd â'r damcaniaethau posibl ger ei fron. Gwir iddyn nhw fod yn elynion; ond roedden nhw ill dau'n debyg yn eu hymnglymiad emosiynol yn yr helbul. Bydden nhw'n medru cyfathrebu â'i gilydd rywfodd mewn modd a oedd yn amhosibl gyda'r heddlu. Roedd arno awydd disgyn o flaen y gweinidog, a thaflu'r holl bosibiliadau atgas yn ei ddannedd. Ond daliwyd cil ei olwg gan bennawd papur newydd wrth iddo ddod allan o'i gar yn y brif stryd. Mewn cornel o'r papur roedd yna hanes newydd am gyn-Miss England yn yr ardal yn ddiweddar. Dawn Whithers oedd hi yn wir. Roedd morwyn ifanc wedi dod o hyd iddi'n farw gelain yn ei gwely y noswaith cynt mewn gwesty tlawd ar bwys Paddington, ar ei phen ei hun. A photelaid wag o dabledi wrth ei hymyl. Doedd dim drwgdybiaeth fod neb arall yn gysylltiedig â'r trychineb. Roedd hyn yn fwy na chyd-ddigwyddiad. O fewn ychydig o ddiwrnodau i'w gilydd, roedd dwy frenhines gystadleuol wedi marw, wedi cydfarw. Rhaid bod eglurhad ar hyn; Miss England a Miss Wales. Allai ddim llai na bod perthynas rhwng y ddau ddigwyddiad a'r ddwy wlad. Allai neb ond cydnabod rhyw ddolen gydiol yn cadwyno ac yn caethiwo'r holl amgylchiadau rhyfedd hyn wrth ei gilydd. Buon nhw'n wenwyn i'w gilydd.

Crwydrodd Arthur bron mewn llewyg anhygoelus tuag at y fynwent. Cerddodd yn dalog ar draws y beddau i gyfeiriad yr un newydd lle'r oedd Gwen yn gorwedd o dan dwmpath gwlyb o bridd. Twmpath destlus bychan. Twmpath a oedd megis model bach hylaw o Domen Chwech. Ar waelod y bedd gwelai yno un torch o flodau: 'Oddi wrth dy unig gariad, Wyn.' Ond ar y pen arall roedd rhywun gwrthnysig wedi doddi rhywbeth arall. Rhywbeth hollol fochaid. Roedd diffyg chwaeth enbyd wedi bod ar waith. Dyna oedd yno – potel. Potel wag. Potel whisgi wag, yn sefyll yn ffalig falch. Cydiodd Arthur yn ffyrnig ynddi, a'i lluchio'n flin ac yn ddolurus at garreg bedd gyfagos nes iddi chwalu'n ddeilchion.

Rai misoedd cyn hyn, roedd deintydd newydd wedi cyrraedd y cwm, gyda gwraig newydd danlli a fyddai'n gaffaeliad i unrhyw glwb nos. Nid hir y bu Arthur cyn iddo fagu'r ddannodd, ac fe'i cafodd ei hun a'i geg led y pen, yn syllu i olau crwn sbectol y deintydd. Roedd gwraig ddiddorol y deintydd yn gweithredu'n gynorthwywraig iddo. Er cymaint o anfantais oedd ceisio torri gair cyfeillgar yn hwyliog a'i safn yn wagle o agored fel hyn, teimlai Arthur iddo gael rhyw arddeliad rhyfedd ar sgwrsio'n jolijoclyd gyda'r ddau.

Curai'r glaw yn wallgo ar y ffenest o'i flaen wrth i'r deintydd balfalu ynddo.

'Natur yn cydymdeimlo,' meddai Arthur, wrth agor ei geg.

Sylwodd y deintydd ddim ar ei osodiad, ond aeth yn ei flaen yn ddiwyd. Eithr chwarddodd y wraig yn ffrydiog at y jôc sâl, ac ymatebodd Arthur yn gadarnhaol i'r fath werthfawrogiad. Allai fe ddim namyn syllu o hyd drwy gil ei lygaid ar y gwallt blêr o gynhyrfus a fownsiai y tu ôl i ysgwyddau clinigol ei gŵr. Âi hwnnw yn ei flaen, gan anadlu braidd yn sur i ffroenau Arthur. Cloddiai ym mherfeddion gofod Arthur, gan lafarganu bob hyn a hyn: 'Bron â gorffen... bron â gorffen... bron â gorffen...'

Roedd rhywbeth wedi ymysgwyd yn Arthur: ei synhwyrâu fel ceg wleb lafoeriog wedi ymagor er mwyn sugno rhagor o'r sudd cyfrin anhysbys. Llygaid hyfryd heulog oedd ganddi hi, wedi'u gwneud ar gyfer tywynnu. Clywai Arthur ei ysgwyddau'i hun yn fwy nerthol o'r herwydd a'i freichiau'n sythu a'i holl fodolaeth yn deffro i ymaflyd yn yr awch gogleisiol a gyrhaeddai hyd ei goluddion, wrth i'r deintydd ddilyn ei dasg ddybryd.

Eto, ymdeimlai Arthur ddim yn fwy amhriodol nag y dylai. Theimlai ddim bod yr atyniad newydd hwn yn ormod o wyrdroad ar ei deimladaeth.

Ar un cyfnod ychydig ynghynt, roedd e wedi ymateb, dybiai, yn ddilys gysurus i'w wraig Grace. Y pryd hwnnw, roedd Gwen hithau wedi agor rhyw adnabyddiaeth ddieithr yng ngwaelod ei natur. Ond fe ddaeth y pen rhyfedd newydd hwn yn awr, heddiw – A! – o wallt gwinau a siglai yn ei drwyn a waltsio yn ei lygaid. Roedd yntau hefyd yn fath o ramantydd hefyd. Roedd ffenest a bwystfil a thir a thai a cheir pendramwnwgl oll wedi cael eu chwythu i lawr ffyrdd ei ddyheadau at hon nawr mewn cyflafan goch a gwaedlyd yn erbyn y waliau ac ar eu pen i mewn i'r pyllau. Roedd hi wedi gosod ei baner yn ei wallt e'i hun felly fel pe bai ar fynydd concredig. A! Ond roedd hyn yn gwbl naturiol. 'Bron â gorffen.'

Chwythodd y deintydd bibell o wynt sydyn at gornel ei geg. Gwynt tenau.

'Dyna hwrdd sy ganddo,' meddai Arthur wrth i'r deintydd bwysu'n ôl am eiliad.

'Gan bwy?' gofynnodd y gynorthwyraig bownsgar gan wenu.

'Gwynt.'

'Wedi gorffen. Golchwch eich ceg,' meddai'r deintydd.

Cododd Arthur allan o'i eisteddfa anghysurus.

Roedd pedwar mis wedi mynd heibio er marwolaeth Gwen, ac wrth iddo wibio rhwng y diferion glaw ar y ffordd groes i'r ffordd adre, roedd Arthur yn argyhoeddedig ei fod e wedi gwneud ei orau glas yn y cyfamser i archwilio'r dirgelwch a'i cylchodd hi. Allasai neb fod wedi ymroi'n fwy cydwybodol nag e i ddod o hyd i lofrudd ei feistres, os oedd yna lofrudd mewn gwirionedd.

Dyma fydd stori dditectif heb dditectif, meddai fe wrtho'i hun, ac felly, yn lle dirwyn yn dwt i gwllwm boddhaol, roedd y dirgelwch dwbl yn aros yn benagored, a'r llinyn yn ddigwllwm. Neb yn euog. Neb ychwaith yn ddiniwed. Efallai mai dyna'r ddedfryd gywir, wedi'r cwbl, yn y byd a'r bywyd hwn.

Pe bai e wedi hurio ditectif preifat go iawn, dichon y byddai hwnnw wedi gallu datrys y problemau'n ddeheuig. Ond dichon hefyd na fyddai fe ddim modfedd nes i'r lan chwaith. A phwy yn ei iawn bwyll – ail Arthur yn sicr – a gyflogai dditectif ar gyn lleied o dystiolaeth, a heb fawr o fudd yn y diwedd hyd yn oed pe bai e wedi llwyddo i ddangos mai'r Parch. Wyn Wynne o bobl y byd a oedd yn ôl pob tebyg wedi cyflawni'r trosedd? Beth, wedi'r cyfan, yw pob gwir onid cymysgedd?

'Damwain oedd hi, mae'n rhaid,' meddai pawb erbyn hyn.

'Damwain,' meddai Arthur yntau yn uchel, a bron bwrw i mewn i Emrys a Megan a oedd yn ymlwybro a'u pennau i lawr yn erbyn y gwynt o'r cyfeiriad arall. Damwain arall.

'Bachgen. Welais i monot ti,' meddai Emrys.

'Roeddech chi'n cerdded mewn llewyg,' meddai Megan wrth Arthur.

'Wedi bod gyda'r deintydd.'

'Yr un newydd?'

'Ie.'

'Rown i'n deall ei fod e'n un medrus iawn.'

'Athrylith,' cytunodd Arthur.

'Dere i borth y siop yma am eiliad,' meddai Emrys. 'Mae gynnon ni gyfaddefiad i'w wneud.'

Llechon nhw o gyrraedd y gwlybaniaeth ym mhorth Lewis y Cigydd.

'Cyfaddefiad?' gofynnodd Arthur.

'Dywed di Megan.'

'Dŷn ni am ymadael â'r cwm,' meddai Emrys, 'o ychydig filltiroedd.'

'Mynd o'ma?' ebychodd Arthur.

'Ie,' meddai Megan.

'Na!' ebychai Arthur. 'Peidiwch. Nid o'r cwm. Mae mynd allan o'r cwm fel petaech chi'n mynd allan o'r fuchedd hon.'

'Dyna'n penderfyniad,' meddai Emrys.

'Na! Pam? Be sy' bod ar yr hen le? Na,' meddai Arthur.

Allai fe ddim coelio'r peth. Heb wraig iawn gartre, a Gwen wedi'i lladd ei hun, – wedi cael damwain angheuol – heb neb arall braidd y gallai fe siarad â nhw heblaw'r deintydd a'i wraig, wedyn, dyma'r ddau bach hyn, dau roedd wedi synied eu bod nhw'n rhan o fframwaith bywyd, yn sôn am wacáu'r cwm rhagor.

'Mae pawb yn mynd mor sydyn,' meddai fe wedi'i ysigo.

'Ydyn. Dyna ran o'r rheswm,' meddai Emrys.

'I lawr mae'r hen gwm yn llithro.' Doedd dim wedi ymddangos, i Arthur, mor derfynol ei ddedfryd ar y gwendid ysigol yn y gymdogaeth â'r penderfyniad hwn yn awr gan ddau a oedd mor nodweddiadol ac mor normal yn y cyd-destun cyfarwydd hwn. 'Ond ble dych chi'n mynd?' holai.

'I Gaerdydd.'

'O!'

'Pam “O”?’

'Ond Caerdydd, fachgen. I Gaerdydd y mae pawb yn cyrchu. Mae fel petaech chi'n mynd i Loegr.'

Doedd gan Emrys a Megan ddim mwy roedden nhw am ei ddweud am y cwm. Dim ansoddeiriau. Dim melltithion. Dim ond ymadael. Ac roedd y cefnu hwn ynndo'i hun yn dweud y cwbl.

Arhosodd Arthur yn y porth am ychydig ar ôl i'r ddau frysio yn eu blaenau, a'i fyfyrdod yn ymledu.

Roedd marwolaeth yn dodwy ŵy; ac o'r ŵy, yn fynych fe ddeorid cwcw i'n gwatwar ac adleisio rhwng brigau'n meddwl, ac i daflu allan o'r nyth gywion eraill a phob trydar am wanwyn amgen. Yn ôl y cyfarwydd gynt, meddan nhw, 'ble, ble' oedd ystyr 'cw, cw,' – y gog yn yr hen ganu hiraethus Cymraeg. 'Ble, ble' yn sicr oedd cân brudd ac undonog y gog hon heddiw.

Byddai neb ganddo mwyach y gallai fe ymddiried ynddyn nhw a chlosio atyn nhw. Doedd yr un tŷ i droi i mewn iddo pan oedd e ar ben ei dennyn.

Ac mewn embaras, allai'i feddwl e ddim llai na chwarae'n bryfoclyd o hyd o amgylch hirwallt gwraig y deintydd y tu ôl i ysgwyddau sbectolog ei gŵr. Safodd a breuddwydio ychydig ar y ffordd adre gan graffu'n ddi-weld ar y talpau bach o gig noeth wedi'u gosod ar y planc y tu ôl i'r gwydr yn siop y cigydd. Cig coch clwyfedig. Allai fe ddim aros yn y fan hon am byth i freuddwydio am ddarnau o gig. Yr hen ddychymyg milain!

Roedd hi wedi hen droi amser te; ac eto, doedd dim chwant arno fynd i wynebu Grace, yn arbennig ar ôl profi chwerthiniad iachus gwraig y deintydd.

Yna, gwnaeth e rywbeth nas gwnaethai erioed o'r blaen. Wrth weld ychydig o bobl ar y

palmant y tu allan i gapel Bethania a'r rheini ar y pryd ar droi mewn i esgyn y grisiau i mewn i'r adeilad, dilynodd Arthur nhw ac eistedd yn weddol agos at y drws. Roedd Wyn Wynne ei hun wedi ymsefydlu wrth y drws, a siglodd Arthur law ag e wrth iddo fynd i mewn.

'Ga i air bach ar y diwedd,' meddai Wyn Wynne. 'Mae ar y didostur angen ei gilydd.'

Y Gymanfa oedd yn cyfarfod heddiw. Dyna pam roedd y capel yn agored ar un o'r dyddiau gwaith. Gellid clywed ambell flaenor o ardaloedd eraill, wedi ymgynnull yno, yn lleisio gair o gydymdeimlad â'r Parch. Wynne wrth iddyn nhw gyrraedd. Ond roedd eraill yn ceisio'i osgoi e. (Nid Arthur oedd yr unig un i amau anfadwaith, felly.)

Roedd marwolaeth Gwen Wynne – yn wir, buasai'i bywyd hi hefyd yn chwithdod i'r Cwm, ac wedi gadael ei ôl ar ymwybod pawb. Ni ellid hyd yn oed gynnig cydymdeimlad yn ddidwyll. Roedd yr holl helbul wedi niweidio tawelwch iach y gymdogaeth. Roedden nhw'n teimlo fod rhyw lygredd amheus wedi cydio yn y lle.

Siencyn, y pen blaenor ar ôl i'r hen Forgans farw, oedd yn rhoi adroddiad am hynt yr achos. Ac wedi mynegi'u cydymdeimlad nhw i gyd â'r gweinidog yn ei brofedigaeth, ac wedi sôn mor annymunol iddo fe ei hun oedd gweithredu yn y swydd o ben blaenor yr henaduriaeth a lanwesid gynt mor anrhydeddus gan yr hen Forgans, dechreuodd adrodd hanes yr eglwys yn ystod y cyfnod diweddar.

Ychydig a oedd yn gwrando arno. Blith draphlith â'i syniadau fe'i hun, hedai drylliau o frawddegau mewn sibrydion anhysbys o amgylch y capel ac o amgylch talcen Arthur.

'*Nid yr ystadegau sy'n bwysig,*' meddai Siencyn. Roedd realiti'n un o seiliau cadarn yr enwad.

'Roedd hi'n bisyn lluniaidd yn ei dydd.'

'Druan o Mr Wynne, maen nhw'n dweud ei fod e wedi cael byd caled gyda hi.'

'*Dŷn ni i gyd yn rhodio drwy ddyddiau caled.*'

'Ond mae hi wedi marw nawr, beth bynnag.'

'Do. Marw.'

'*Lleihau y mae'r aelodaeth, wrth gwrs, os ca i fod yn ystrydebol. O un i un.*'

'Rhyw wraig ddigon cwla oedd hi, medden nhw.'

'*Lleihau efallai mae gwres yr ysbryd. Yr ysbryd sy'n ymadael â'r aelodau. Troi cefn.*'

'Maen nhw'n dweud bod Gwen wedi canlyn dipyn ar Arthur Morgans,' meddai un o'r dynion drwy gil ei geg.

'*Ond mae'r gweddill ffyddlon yn dal i gadw'r drysau'n agored. Uno sy'n bwysig.*'

'Anffyddlon.'

'Morgans.'

'Agored.'

Dawnsiai hetiau'r chwiorydd yn gynnwl wrth droi i dremu ar ei gilydd.

*'Dau neu dri wedi ymgynnull ynghyd, yma yn y Cwm.'*

Ochneidiai ambell frawd hŷn ocheneidiau a rowndiai gorneli'r capel oherwydd meithder defosiynol y cyfarfod.

*'Gideon a'i gwmni bach, ffrindiau.'*

'Fyswn i ddim wedi licio byw gyda hi, y gath.'

*'Gwlad y diwygiadau.'*

'Cath fach boeth ei gwala.'

*'Mae yna emyn gan ein cyfeillion, yr Annibynwyr, "I bob un sy'n ffyddlon.'*

'Arthur Morgans.'

'Pisyn profiadol.'

*'Ac mae gyda ni ein llyfr emynau. Emynau'n ferw o brofiadau'r saint. Mae'r ysgol gân, bid siŵr, yn dal yn ei bri, dw i'n falch i'w ddweud. Efallai mai dyma'r agwedd iacha ar ein gweithgarwch. Ond fe fydda i'n dal – os gellwch ganu'n iawn, – does dim llawer o le i achwyn. Cenwch im yr hen ganiadau.'*

Teimlai Arthur yn gwbl ddiymadferth.

Châi e, Arthur, byth wybod gwaelod y dirgelwch hwnnw ynghylch marwolaeth Gwen. Stori dditectif heb dditectif oedd hi. Roedd y gwasanaeth hwn, yn wir, megis oedfa angladdol eto, i'w ymdrechion ofer i ddatrys y dirgelwch. Byddai'n rhaid iddo geisio dechrau bywyd newydd. Ddeuai dim lles o geisio cadw'r gorffennol yn iraidd friw. Byddai'n rhaid chwilio am ddiddordebau newydd a ffydd newydd.

Efallai fod Emrys a Megan yn gywir, mai dadwreiddio a chychwyn o'r gwaelod yn niffeithwch Caerdydd fyddai orau. Yn ddigon pell, heb fod yn rhy bell. Mynd o 'ma. Gadael Merthyr a'r Cwm i gyd, i gyd. Ond allai fe ddim meddwl am y fath chwyldro; ac efallai fod a wnelo gwraig y deintydd ... twt, twt, y fath wamalwch adolescent... neu'r atgofion a oedd ganddo fe am Gwen... A! Gwen, y clymiadau rhyfedd yma... yma...

'Dowch i'r Mans gyda mi. Mae gen i rywbeth i'w roi i chi,' meddai Wyn Wynne wrth Arthur gan wenu'n wawdus wrth y drws. A cherddon nhw gyda'i gilydd i fyny'r grisiau i'r tŷ drws nesa. 'Fe ddes i o hyd i hwn bore heddiw. Wrth dacluso a chwilio rhai o'i phethau.'

Llythyr ydoedd yn llawysgrifen Gwen, wedi'i gyfeirio ato fe, Arthur, syllai ar yr enw 'Arthur Morgans' bron heb ei adnabod.

Doedd e ddim am ei agor o flaen Wyn Wynne, er bod eisoes o bosib olion gwaith agor ar ei amlen gan fod rhywun yn ôl pob golwg wedi'i hagog cyn ei hailselio.

Ryw ganllath o'r Mans swatiodd i mewn i borth un o'r siopau, – siop Lewis y Cig, – ger cig y buchod, a darllen y llythyr yn arafaid:

*Annwyl Arthur,*

*Tebyg bydd rhywun wedi dod o hyd i'm corff erbyn yr amser y cei di'r llythyr hwn. A rhag imi ddiflannu oddi ar wyneb y ddaear hon yn ddiesboniad, carwn ddweud pwy sy wedi fy nhaflu dros ganol Tomen Chwech. Pwy sy'n gyfrifol? Pwy a'm gorfododd i? Pwy a afaelodd ynof a'm lluchio i'r domen?*

*Ti, Arthur. Neb Arall. Tydi fy nghalon odinebus i.*

*A wyt ti'n cofio am ein sgwrs y bore 'ma? A wyt ti'n cofio fy nghynnig gwyllt i inni ffoi oddi yma gyda'n gilydd? I ni fod ar wahân i bob cyhoeddusrwydd. I ni adeiladu byd newydd ar sylfaen o ymddiriedaeth lân? I ni fod yn onest.*

*Ond gwrthodaist. Ddest ti ddim. Lluchiaist fy nghynnig yn ôl at fy ngheg.*

*Ti, Arthur oedd fy unig obaith. Ti yw fy absoliwt. Ti, felly, fydd fy llofrudd.*

*Allwn i byth berthyn i Wyn, fel rwyd ti'n gwybod. Doedd ynddo fe ddim o'r teimladyddion cysylltiol i ymaflyd amdana i. Ti oedd yr unig un erioed y teimlais i fod gen i ddolen rhyngof i ac ef.*

*A wnest ti ddim ond newid y pwnc. Chwerthin a dechrau sôn am fynd gyda'n gilydd i weld y gêm rygbi rhwng Cymru a Lloegr. Chwarae. Gweiddi. Canu Sosban Fach. A minnau'n gwaedu o hiraeth amdanat ti, mewn angen dybryd am dy feddiannu di, ac am iti weithredu, am iti fy nghymryd i o ddifri. Gwneud rhywbeth er mwyn tragwyddoli'n perthynas.*

*Does gen ti ddim syniad. Does gen ti ddim amgyffred o'm heisiau i, ac allwn i byth ddweud wrthot ti, am fod iaith yn pallu. Chwerddaist ti am y mhen i.*

*Y chwerthiniaid yna oedd y llaw a arwyddodd fy nedfryd o farwolaeth. Y diffyg difrifoldeb.*

*Ymdrecha i feddwl nawr ystyr hyn – beth arall sy gen i i'w wneud? Yr wyt ti yn dy lwfrdra wedi fy nedfrydu i i beidio â bod. Fe allaf dy esgusodi di, wrth gwrs, oherwydd does dim byd mwy dynol na llwfrdra. Ac os buost ti'n rhywbeth Arthur, fe fuost ti'n enbyd o ddynol. Fe allaf faddau iti, wrth reswm. Ond allaf i ddim newid y ffeithiau, mai ti sy'n gyfrifol. Ti biau'r fraint. Ti a'm harweiniodd i i'r crocbren: ti a symudodd yr ystyllen oddi tan fy nhraed. Ti biau fy nghelain.*

*Ffarwel, fy llofrudd serchog, f'anwylyd byth.*

*GWEN*

'Hunanladdiad oedd hi, roeddwn i'n gwybod.'

Mor nodweddiadol ohoni i geisio symud y bai hyd yn oed am hunanladdiad amlwg oddi wrthi hi ei hun ar ysgwyddau rhywun arall cwbl ddiniwed. Y meddwyn ffaidd ohoni. Doedd ganddi hi ddim cydwybod, hyd yn oed yn ei hawr olaf. Y gythreules niwrotig a hunanol. Wedi'i mygu

mewn cynefin anghymarus, ac wedi rhedeg gyrfa dipyn yn wahanol i alwedigaeth ei gŵr, roedd hi wedi troi'n fewnblyg ac yn fyrbwyll. Roedd y botel wedi cau amdani, a'r corcyn wedi'i wasgu i mewn am ei phen. A'i mygu. A'm beio i. A nawr roedd hi wedi ceisio dial ar yr unig un a oedd wedi ceisio agor y botel iddi, yn iawn, a'i chyrraedd, a'i hyfed hi. Yr unig un.

Syllai ei hatgof hi arno yn awr, druan, fel mwmi wedi'i rewi o'r tu ôl i'r gwydr. Roedd hi ei hun wedi ymwithio i'w galon fel i rewgell. Nid gorffen bywyd corfforol yw marwolaeth pan fo'r farwolaeth honno'n eiddo i rywun agos. Na, nid diweddu; eithr gwednewid atgof, ei drowasgu, ei wyro; yr atgof pêr i fod yn friw, yr atgof gwael i fod yn gornwyd, tocio darn sylweddol o'r cnawd. Gynt pan oedd hi ar dir y byw roedd modd newid ac ymosod ar y ddelwedd a oedd ganddo o Gwen, ond yn awr roedd ei delwedd hi wedi'i chrisialu'n galed, wedi'i fradychu a deuai'n ôl yn yr un ffurf drosodd a thro. Rhewai'r atgof hwnnw, bid siŵr; ac yna heb i'r atgof symud o gwbl na newid mewn gwirionedd, deuai rhywbeth i gracio wyneb y ddelwedd, i finiogi'r ymylon, i'w ddolurio fe a'i drywanu o'r newydd. Yr atgof yn troi ac yn troi yn ei gnawd.

Roedd e wedi amau pawb yn y cwm ond yr *un* a fu'n wirioneddol gyfrifol, fe ei hun.

Torrodd Arthur y llythyr hwnnw'n llu o dameitiach mân nawr wrth iddo brysuero tuag adre i lawr y stryd, a'u gwasgaru nhw bob hyn a hyn yn y gwter.

Safodd ar y ffordd am foment y tu allan i dŷ'r deintydd, gan redeg ei dafod ar hyd blaen ei ddannedd, ac edrych tua'r llofft, a gwenu'n amwys.

Yna, brysiodd yn ei flaen i chwilio am bryd o fwyd.

( O'r gyfrol *Pwy laddodd Miss Wales?* )



## TORRI'R PLISGYN

### *Prolog*

Disgynnodd pluen eira fel gwallt gwyn ar fymryn o'r ddaear, fel colomen wedi colli'i ffordd.

Perthnasau agos yw henaint a'n llafur beunyddiol. Canlyniad yw'r naill megis y llall. Mae popeth yn dolennu yn ei gilydd.

A dyma fi sut bynnag yn eistedd heno wedi ymlâdd ar y mhen yn hun, ar ôl llafurio diflas y dydd, gan ddisgwyl Tomos a'i wraig a nau wŷr bach; ac wn i ddim ai yn henaint i ynte undonedd diystyr y ngwaith sy'n cyfri bod y nheimpladau'n sych a'n wyneb i'n ddifynegiant.

Cyn bo hir fe ddaw'r plant gan lenwi'r tŷ a'n llenwi i hefyd â'u lleisiau. Bydd y fyddin wedi disgyn. Bydd yna'r un cornel yn unman heb fod eu sŵn nhw'n pwngan ac yn byrlymu yno. Bydd ystafelloedd sy bellach yn wag ac yn felancolaidd ac yn ddifywyd yn cael eu ffurfio a'u lliwio gan eu presenoldeb.

Ond prudd-der fydd eu llawenydd oll yn y bôn. Oherwydd dro ar ôl tro, fe fydd eu sŵn nhw rywsut yn diflannu cyn bo hir, a sŵn unigryw atgof y ngwraig yn ailgynhesu'r awyr. Hi fydd yn ymgorffori yma, yn ifanc ac yn heini, am ychydig o funudau efallai, munudau celwyddog melys, cyn i'r distarwdd diriaethol adfeddiannu'r lle.

Cyfyngau yw popeth. A chyfrwng rhyfedd yw'r ymweliad hwn i ddarganfod Tomos o'r newydd, ac yn ei lun i adfer hen deulu diflanedig.

Mae'n amhosibl dweud yn gywir, hyd yn oed pe bawn i'n hoelio yn llygaid yn fanwl ar y pren acw ym mhen draw'r ardd, fod hedyn bach yn troi'n goeden, oherwydd nid cyflawn wir mo hynny. Man cyfarfod yw'r hedyn, cyfrwng i rymusterau ddod at ei gilydd er mwyn sianelu bywyd. Felly'r hedyn bach o faban hefyd, y lleiaf o'r ddau. Daw haul a daear, y bwyd a'r iaith, yn gyfrwng i rymusterau ddod at ei gilydd er mwyn sianelu bywyd. Fe ddaw e'r bychan yn gyfrwng iddyn nhw ymuno â'i gilydd yn ddiben fel na bydd yn gyfrwng mwy. Yna, ychydig o ddail cochlwyd, briwsionllyd, yn siarad â ni dros y blynyddoedd.

Dw i'n diolch am gyswllt pob peth.

Perthnasau agos yw diben oes a'i gyfrwng, perthnasau peryglus o agos at ei gilydd. Neu felly y bydda-i'n tybied rywsut wrth syllu ar y goeden.

Dweud roeddwn i gynnau, os iawn y galla-i gofio, y byddai'r plant a'u chwerthin a'u haeriadau cyn bo hir yn llanw'r holl le. Ond roeddwn yn rhy gymedrol o lawer, oherwydd eisoes y maen nhw'n ei wneud: cyn iddyn nhw gyrraedd, mae meddwl amdanyn nhw wedi dod â nhw i'r fan yma, mae eu disgwyl nhw wedi'u galw; a bydd dim pall arnyn nhw nawr nes imi wrando ar hwn, a chwarae gyda'r llall. Mae tad-cu bob amser i fod yn barod i ymateb, wrth gwrs, a gorau oll os yw e

ychedig yn anwybodus ac yn ddiniwed ac wedi dysgu derbyn gyda diolch beth bynnag a ddêl ar ei wartha.

Perthnasau agos yw diwedd oes a'i dechrau; a'r atgof am ieuencid yw'r peth agosa ar ddaear dyn i ieuencid glân ei hunan.

#### (i) DIALEDD A MUL

Dau ddiwrnod cyn beicio am y tro cynta gyda'i dad i fyny Dyffryn Rheidol, fe aeth Tomos a'i ffrind penna Hywel draw i Gae'r Offeiriad, a dringo'r allt y tu ôl. O'r fan honno gallen nhw syllu i lawr o'r dwyrain i'r de, ac arolygu'u teyrnas oll. Nhw oedd biau bob cae, y cloddiau a'r cymylau, yr awyr iach a'r brynau pell.

Hen ffrind gan Hywel, nad oedd e erioed wedi ymholi ynglŷn â hi, oedd ei fod yn cael marchogaeth Alecsander pryd y mynnai. Rhyw gota filltir oedd hi i'r ficerdy, ond crebachodd yr amser a'r pellter wrth i'r gwyliau nesáu, a chynhesodd ei awydd i weld Alecsander drachefn. Roedd y mul ei hun yntau'n anesmwytho'n seicolegol yr un pryd. Arhosai'n aflonydd, a gwyr'ai'i ben blewog i groesawu Hywel a chyffrôdd ei galon mul. Er mai gan Hywel roedd yr hawl draddodiadol i'w farchogaeth, roedd e bob amser yn barod iawn i Tomos yntau gael ei dro; ac roedd Tomos wedi dod i ymhoffi gymaint â'i ffrind yn y bwndel annwyl hwn o serchogrwydd esmwyth a'r ddau lygad gloywddu pefriog.

Eithr y bore hwn doedd dim pen cynnes yn hongian ar draws ystyllen ucha'r llidiart. Doedd dim trwyn tyner yn disgwyl am eu hanwes. Tuthio i fyny'r rhiw ym mhen pella'r cae roedd Alecsandra a dieithryn bychan hollol anhysbys ar ei gefn a hwnnw'n gweiddi, 'Ymlaen, y mul! Ymlaen!' gan ei guro ar ei gefn cryf, peth na wnâi Hywel na Tomos fyth mohono. Wrth i'r ddau ymddangos ar bwys y llidiart, trodd y mul ei ben helaeth a'i lygaid crisial tua'u cyfeiriad, gan anadlu allan drwy'i ffoenau fel pe bai'n eu cyhuddo nhw rywsut; ac yna daeth bref eglur a hir fel poen afiach drwy awyr y bore.

Carlamodd y mul yn ei ôl i lawr at y llidiart er bod y crwt ar ei gefn yn ceisio'n amlwg ei rwystro a'i droi y ffordd arall. Daeth Alecsander i sefyll gyferbyn â nhw, a syllon nhw arno drwy'r ystyllod, syllu heb wybod beth i'w ddweud.

'Yn ôl, y mul,' gwaeddai'r crwt diarth. 'Yn ôl.' Ond doedd dim syflyd ar Alecsander. Safai'n ddifurmur y tu ôl i'r llidiart fel pe bai'n disgwyl i Hywel ddatrys y broblem newydd hon yn derfynol.

'Pwy wyt ti?' gofynnodd Hywel i'r crwt.

'Gronw.'

'Gronw?'

'Ie. Dw i yma'n bwrw'r gwyliau efo'm hewyrth. Fo ydy'r ficar.'

'O!' meddai Hywel, fel pe bai hyn yn ateb pob cwestiwn, 'rwy'ti am gael tro ar gefn Alecsander, felly. Iawn.'

'Alecsander? O, y mul! Fi biau'r mul. Mae newyrth wedi dweud. Fe ga i fynd ble fynna i arno fo. Ei ful o yw mul i.'

Edrychodd Hywel ar Tomos yn syfrdan.

'Ond Alecsander yw'n ffrind ni. Mi gawn ni rannu.'

'Na, does dim rhannu. Fi biau hwn.'

'Byth.'

'Ie, ie, ewch chi o'ma. Dw i eisio chwara.'

Edrychodd Tomos ar Hywel yn ddigalon.

'Gwell i ni fynd,' awgrymodd Tomos.

'Na, na, dw i ddim am fynd. Fi biau Alecsander, nid hwn. Ac mae Alecsander yn gwybod hynny. Alecsander!'

Eithr wnâi'r mul hwn ddim namyn syllu'n ddiymadferth yn ôl ar ei ffrindiau fel pe bai'n dweud – Wel, ffrindiau, y mae trafodion dynol siŵr o fod yn hynod ddifyr, ond maen nhw'n rhy ddyrys i mi, diolch am hynny. Eich gorchwyl chi bellach yw datrys dirgelion yr helbul hwn.

'Gawn ni i gyd fod yn gyfeillion,' meddai Hywel.

Ond doedd Gronw ddim am gael ei ddenu fel hynyna. 'Mae gen i ddigon o ffrindia.' A gwaeddai ar y mul: 'Yn ôl y mul. Yn ôl.'

A chiciodd ystlysau gwylaidd y mul yn ddiamynedd.

Cerddodd Tomos a Hywel i ffwrdd yn benisel.

'Be wnawn ni Tomos?'

Atebodd Tomos ddim.

'Row'n i wedi meddwl erioed mai y mul i oedd Alecsander,' meddai Hywel. 'Fydd e byth yn hapus gyda neb arall. On'd oedd e'n edrych yn dost? A dyna wyliau cyfan ar eu hyd hebdo. Byth i'w weld e eto. Be wnawn ni Tomos?'

Tawedog oedd Tomos.

'Row'n innau'n reit barod i rannu, on'd own i?'

'Paid â hidio. Fe gawn ni rywbeth arall i'w wneud.'

'Ond dw i ddim eisiau dim byd arall. Alecsander roeddwn i eisiau.'

'Awn ni i lawr i'r traeth y pnawn yma i ddringo clogwyni.'

'Na.'

'Dere i chwarae pêl-droed te.'

'Na. Dw i ddim eisiau dim ond Alecsander. A dw i'n gwybod ei fod e'n ein disgwyl ni. Fe welaist ti mor ddiflas oedd e, y bore 'ma. Roedd e'n sâl dw i'n gwybod. Mae'n casáu'r Gronw yna, dw i'n sicr.'

A mynd adre a wnaeth Hywel heb ddweud prin yr un gair arall. Eisteddodd Tomos o flaen y drws i'w dŷ gan fwyta brechdanau. Ar ôl cinio, fe aeth yn ôl i geisio'i ffrind drachefn; ond dywedodd y fam mai yn ei wely roedd Hywel, a doedd e ddim am godi. Felly hefyd ar ôl te. Doedd e ddim am dorri gair â neb.

Aeth Tomos ar ei ben ei hun draw i Gae'r Offeiriad i chwilio am Alecsander. Yn y fan honno, roedd Gronw yn ei fwydo yn y pen pella. Ac wnaeth Alecsander ddim namyn sythu ei war am ychydig o eiliadau, a sbio'n wag ond yn hynod iach tua chyfeiriad y llidiart cyn troi'n ôl i ailymafael yn y porthiant.

Bore trannoeth aeth Tomos i chwilio am Hywel, a chafodd ganiatâd ei fam i fynd i'r llofft. Doedd e ddim yn gwybod beth oedd yn bod, ond doedd dim hwyl o gwbl ar Hywel. Ac yno y bu'r ddau gyfaill yn sgwrsio am hydion; a cheisiodd Tomos esbonio iddo y byddai'r gwyliau'n tynnu i ben rywdro, ac y byddai'r crwt dierth yna'n ymadael, a hwythau ill dau'n cael adfeddiannu'u hawliau cynefin. Ond doedd dim perswâd ar Hywel – ddi'r crwt dieithr yna'n ôl, ddi yma bob gwyliau yn ddiau, ac roedd wedi sefydlu'i hawl mwyach. Pa obaith oedd ganddyn nhw? Byddai Alecsander yn colli adnabyddiaeth arnyn nhw. Ble'r oedd yr hwyl nawr te? Yn bendifaddau, nid yn ystafell-wely Hywel. Yno yr eisteddai yn ei wely, yn llawn dop o hunandosturi a digalondid, heb le i droi a heb ful yn un man. Ac felly y bu'n duo'r awyr drwy'r dydd hwnnw drachefn.

Aeth Tomos ddim i weld ei ffrind y diwrnod wedyn. Ond y bore trannoeth daeth yn ei ôl, a gofyn iddo: 'Wyt ti wedi dweud wrth dy dad?'

'Beth yw'r pwrpas?'

'Fe ddylet ddweud.'

'Chwerthin wnâi e. Dyna i gyd, a dweud mai dim ond mul yw e. Beth yw mul?'

'Dwed wrtho.'

'Na.'

Gallai Hywel yntau fod yn ful, yn sicr ddigon. A doedd dim symud arno o'i ddiflastod, ymgladdai yn y gwely, fel pe bai am ymsefydlu y tu ôl i'w gaer o anobaith, a gwrthwynebu pob smicyn o oleuni a geisiai ymosod ar y prudd-der drwy'i flancedi.

Diau hefyd fod Tomos yntau'n ddigalon. Cerddodd i fyny at Gae'r Offeiriad drachefn, ond roedd y crwt dierth eisoes wedi codi allan, ac yno roedd e ar gefn Alecsander yn tuthio'n ôl, a'i ben yntau'n llac, a'i olwg yn crafu'r llawr.

Rywsut roedd Tomos wedi colli dau gyfaill. A gwewyr i'w galon oedd gwybod fod Hywel

mor siomedig, oherwydd gwyddai'n burion pa serch aruthr oedd ym mynwes Hywel tuag at yr hen ful annwyl. Penderfynodd Tomos ddial ar y dieithryn. O ddifri, eithr yn ofalus.

Ond sut? Roedd y fantais i gyd ar ochr y crwt dierth, a doedd dim y gallai Tomos ei wneud naill ai heb wneud niwed i Alecsaander neu heb ddial rywsut ar y Ficar ei hun.

Ond pam lai na gwneud ychydig bach o niwed i Alecsaander? Fel tocio'i rawn. Nid llawer o niwed, wrth gwrs, eithr y peth lleia, digon i fod yn boendod i'r Gronw yna, digon i fod yn ofid ac i darfu ar ei bleserau. Eithr na, gallai wneud rhywbeth llai amlwg.

Roedd gan dad Tomos, yn y cwt yn yr ardd, focsaid o wenwyn llygod. Fe allai Tomos fynd i fyny y noson honno, gyda chyfran fechan, fechan, fechan o hyn, a'i bwydo i Alecsaander, heb roi llawer, heb ddim ond digon i'w wneud yn dost ac yn ddi-hwyl am ryw ychydig, digon i sbwylio ychydig ar ddiddanwech Gronw, a byddai hyn – bid a fo am y tipyn anghysur bola tost i Alecsaander ei hun – yn fodd i ddial am y cam a gawsai Hywel.

Pan ddaeth tad Hywel yn ôl o'i waith amser cinio, sut bynnag, fe ddwedodd Hywel ei gŵyn wrtho.

'Ond mae'n rhaid bod yna gamddeall. Gresyn garw.'

'Sut?'

'Ydy'r Ficar yn gwybod beth sy ar gerdded?'

'Ydy, am wn i.'

'Tybed. Na, na, machgen i. Mae yna gamddeall. Hen ewyrth i mi, Wncwl Jos, adawodd y mul i'r Ficar. Roedd e'n synied y byddai plant y plwy'n cael pleser wrth ei farchogaeth ar ddydd garddwest yr eglwys ac ar achlysuron cyffelyb. Wyt ti'n ei gofio fe? ... Na, prin... Tamaid oeddet ti pan fuodd e farw; ond roedd e'n meddwl y byd ohonot ti. "Mi gaiff Hywel hwyl ar gefn Alecsaander pan fydd y traed bach yna'n gallu cyrraedd y gwartholion." Dyna fyddai fe'n ei ddweud. A dyna pam y mae'r Ficar mor barod iti bicio i Gae'r Offeiriad mor aml, a marchogaeth Alecsaander faint fyd fynni di. Mae'n rhaid bod yna ryw gamgymeriad. Dyw e'n gwybod dim oll am yr helynt yma dw i'n siŵr. Mi a i ar y ffôn gydag e nawr. Cei di fynd at dy Alecsaander y pnawn yma.'

Ond doedd y Ficer ddim gartre pan ffoniodd e, ac ni fyddai'n dychwelyd o Gaerdydd tan heno. A wnâi ffonio eto y pryd hwnnw?

'Dwed wrtho, nhad, mod i'n eitha parod i Gronw rannu'r mul gyda fi. Fe fydd croeso mawr iddo fe, fel sy i Tomos.'

Yr hwyrnos honno, sut bynnag, heb wybod dim am hyn oll, aeth Tomos i fyny'r cae yn benderfynol â'i wenwyn llygod. Fe'i cymysgodd ag ychydig o borfa, a daeth Alecsaander ato'n serchog i fwyta dros y llidiart.

Fore trannoeth daeth Hywel i geisio Tomos, ac i ddweud bod ei dad wedi setlo'r cwbl ar y

ffôn y noson cynt a bod saga Alecsander drosodd. Caen nhw fynd i'w weld e ar unwaith. Roedd e wedi siarad â Gronw hefyd ei hun ar y ffôn, ac roedd Gronw wedi ymddiheuro'n rhyfedd o glên ac wedi esbonio'i fod e wedi tybied mai bechgyn diert h oedden nhw ac nad oedd e ddim am ganiatáu i rywun-rywun dresmasu ar eiddo'i ewyrth, ond byddai fe'n hapus dros ben i gael chwarae gyda Hywel a Tomos, ac roedd hi'n wir ddrwg ganddo fe.

Eithr pan gyraeddon nhw'r cae roedd gwrthrych yr holl ffrae, Alecsander, ar ei hyd yn gorwedd wrth y clawdd yn gwbl ddi-ffrwt, ond yn anadlu. Dringodd Hywel dros y llidiart a rhedeg ato, ac roedd yn amlwg fod y mul bach yn wirioneddol glaf.

'Beth pe bai'n marw?' meddylodd Tomos. 'Sut y gallsai fe fod wedi ymddwyn mor greulon? Mor ffôl roedd e wedi bod, mor ddifeddwl, mor hunanol, mor wyllt. Dyma'r peth mwya anghyfrifol a wnaethai erioed yn ei fyw.' Gafaelodd Tomos am wddw Alecsander a chrio i mewn i'w rawn.

'Paid â marw, Alecsander. Dere'n ôl yr hen ful bach.'

Edrychodd Tomos mewn ofn a dychryn ar Hywel, ond roedd e hefyd yn crio, ac yn holi, 'Beth sy wedi digwydd?' Allai Tomos ddim dweud wrtho. Roedd ei euogrwydd yn ei dagu. Roedd yn siŵr fod y mul yn mynd i drigo, ac roedd gwir edifeirwch yn cnoi'i goluddion.

'Gawn ni weddio, Hywel.'

Penliniodd ar bwys corff llonydd Alecsander.

'Ond beth ddwedwn ni?' gofynnodd Hywel.

'Gofyn am faddeuant.'

'Maddeuant?'

'Ie, Dŷn ni bob amser i fod i ofyn am faddeuant.'

'Rwy'ti'n cofio adar-y-to, Arglwydd,' meddai Tomos gan godi'i ddwylo i'r awyr. 'Cofia fulod hefyd, maen nhw'n llawer mwy o faint.'

'Beth am sôn am yr asyn yna y buodd e ar ei gefn e yn Jerwsalem? A dweud mai Cae'r Offeiriad yw hyn? Ac am y preseb yna?' awgrymodd Hywel.

'Na, maddau i ni, Arglwydd, maddau i ni... ein hunanold-' Ac yna llefodd Tomos yn dost i mewn i'r mul, heb wrando mwy ar Hywel nac ar ddim.

Buon nhw'n penlinio neu'n sefyll ar bwys y mul am ddwy awr, ac yna cerddon nhw i fyny i'r Ficerdy yn ara i ddweud yr hanes.

'Mi ddo i lawr rŵan i weld beth sy'n bod arno. Tyrd di Gronw hefo mi,' meddai'r Ficer. Ond erbyn iddyn nhw gyrraedd y cae yr oedd Alecsander yn sefyll ar ei draed, – heb symud – a'i ben yn hongian yn brudd; ond yn bendant ar ei draed yr un fath.

'Mae o ar ei draed, beth bynnag,' meddai'r Ficer wrth Tomos.

'Ydy, mae e'n well,' meddai Hywel. 'Edrych.'

'Nac ydy, mae e'n dost o hyd,' meddai Tomos, 'dw i'n gallu gweld.'

'Gawn ni weld a gymerith e ychydig o haidd,' meddai'r ficer. Ond ei wrthod a wnaeth Alecsander.

'Dyw e ddim yn well o gwbl,' meddai Tomos.

'Gawn ni weld y pnawn yma,' meddai'r Ficer.

Ac erbyn y pnawn, yn sicr ddigon, roedd clustiau Alecsander yn dawnsio o gwmpas y cae drachefn a'i garnau'n cicio'r tywyrch mor afieithus ag erioed fel pe baen nhw am ddweud wrth y byd a'r betws mai mulod yw brehinoedd pob afiechyd.

\*

\*

\*

Roedd y byd ar ben ei ddigon.

Rhedodd Tomos i'r gegin o'r ardd o'r newydd heb sychu'i draed, ac yno roedd ei fam yn eistedd wrth y ford a'i phen yn pwyso ar ei breichiau gan wylo'n chwerw. Chwalwyd ei frwdfrydedd e'n ddiymdroi. Peth cas a dierth oedd gweld ei fam yn llefain fel hyn. Doedd e ddim yn cofio gweld hynny ers blynyddoedd lawer. Roedd rhywbeth newydd o'i le ar ei chalon.

'Beth sy'n bod, mam?'

'Dim, y mychan i. Cer di i ddarllen neu rywbeth. Fe fydda i'n iawn ymhen dim.'

'Ond pam, mam? Pam?'

Dyma'n union fuasai ei chwestiwn hithau iddi ei hun ers oriau lawer, y cwestiwn roedd hi wedi bod yn gofyn yn daer i'r ford ac i'r waliau ac i'r llawr ac i'r nenfwd. 'Pam?'

Ymhen deng munud arall cyrhaeddodd y tad.

'Does dim newydd?' gofynnodd e.

'Nac oes... y disgwyl bellach a'r amau a'r gwybod, y gwybod.'

'Beth sy'n bod nhad?'

Roedd rhywbeth o'i le ar y byd. 'Rhyw feddwl dŷn ni, Tomos, fod mam yn sâl. Dŷn ni'n gwybod. Ac mae'r canlyniad yn dod cyn bo hir. Ond mae mam yn pryderu. Cer di i ddarllen. Dw i'n credu y bydd *popeth* yn burion.' Ceisiodd y tad bwysleisio awdurdod ei farn bersonol a therfynol e'i hun ar y mater; ond prin bod hynny'n tycio. Ymlusgodd Tomos yn gymysglyd ei feddwl i'w ystafell ei hun, ac yno, yn nrych ei ddychymyg, fe welai Alecsander, a'i glustiau'n ffradach, yn wael o hyd o hyd, ac yn gwingo, yn rholio gwingo ar y glaswellt. Sut ddaear fyddai hon heb mam?

## (ii) TRO AR Y BEIC

Un ffordd ar daith bywyd sy gynnon ni i fynd yn bell ac edrych yn agos yr un pryd, a hynny yw teithio gyda rhywun annwyl.

'Ga i ddod gyda thi, Meg?' meddwn i'n bryderus.

'Ond dw i am i ti aros gartre gyda Tomos,' meddai ngwraig.

'Ond dw i'n pryderu, Meg.'

'Dw i'n gwybod.'

'Fe garwn i gael dy ganlyniad ar unwaith,' meddwn i, 'a bod gyda thi ar y pryd.'

'Arhosa di i fod yn gwmni gyda'r crwt lleia. Mae'r hyna yn mynd oddi cartre am y tro cynta heddiw. Fe garwn i'w frawd bach beidio â phryderu'n ddiangen. Fydd yna ddim gwybodaeth ar unwaith.'

'Falle.'

'Gad iddo fe fynd yn ei flaen heb ofid yn y byd. Fallai nad oes 'na ddim angen becsan,' meddai hi gan gydio yn ei beic, a'i osod ar bwys y tŷ.

'Falle.'

Ond roedd yna ofid eisoes, yn ei lygaid e ac yn ei chryndod hi. Roedd y gofid ar waith yn y posibilrwydd. Roedd ansicrwydd ei hun yn lwmp o wacter yng ngwaelod eu perfeddion ill dau; y gwagle du ym mhen draw'r llwybr nad oedd yna ben draw iddo o gwbl.

A rhithyn o hiraeth y rhieni eu hun oedd yr ymgais i amddiffyn eu meibion, a rhithyn am iddyn nhwythau eu hunain hefyd, y rhieni, gael eu hamddiffyn eu hunain yr un modd.

'Fydd dim byd o'i le, cei di weld,' meddai hi gan dynnu'i chot yn bleth amdani rhag y mymryn awel.

'Na fydd, mae'n siŵr.'

'Paid â gadael i'r un bach synhwyro dim beth bynnag wnei di.'

'Na wna ... nghariad i.'

'Cer ag e am dro.'

'Cofia ffonio o'r ysbyty.'

Roedd y ddau fachgen yn ddewr. Doedd yna ddim arwydd o ddeigr yn dod i'r golwg yn unman. Doedden nhw ddim yn arbennig o wyllt yn eu hanwes i'r fam wrth ffarwelio ychwaith.

'Beth am bicnic?' meddai'r tad.

O'r llofft, o'r pellterau, deallid bod cytundeb Tomos ag awgrym y tad wedi'i dderbyn. 'Iawn!' Cytunwyd yn rhugl sydyn gan fod y tad a'r mab ill dau mor barod i gytuno ar bopeth y diwrnod hwnnw. Fe gymeron nhw bob un ei feic a dechrau ymlwybro'n bwyllog ond yn heulog i fyny'r dyffryn. Cofiodd y tad mai arferiad ffyddlon plant a elai i bicnica oedd ymwarded â'r danteithion oll o fewn yr hanner awr cynta, ac felly, ar ôl seiclo am ryw ddwy filltir a hanner, dyma atgoffa'r mab am y bwyd.

'Wel, ie, pam lai?'

Roedd y tad yn synhwyro mai braidd yn nawddogol rywsut oedd ymateb Tomos, fel pe



buasai hwnnw'n atebol ddigon i deithio am ddwy neu dair awr eto, ond os oedd yr hen ŵr druan yn llwgu eisoes, yna doedd yr ifanc ddim am ei rwystro fe rhag cael ei ddigoni. Eisteddodd y ddau yn ofalus ar lan afon Rheidol i gael hoe ac i fwyta'r brechdanau. Yn y fan yna roedd y llif wedi bod yn bwyta'r glannau ac yn bygwth eu chwalu, ac roedd y ffermwr wedi trefnu'r cerrig ar ffurf wal lac a'i dal hi at ei gilydd yn daclus â gwifrau mewn plastig. Eisteddodd y ddau gan wyllo'r gwartheg yn rhydio'r afon, a chan nodi pa mor uchel ar eu hesgeiriau a'u cadeiriau y codai'r dŵr.

\* \* \*

'Wyt ti'n gweld yr ysgall a'r mieri'n tyfu ar y ddôl gyferbyn?' meddai Tomos. 'Mae yna ddigon o dir yn y fan yna ar gyfer cae gwenith arall. Pam mae'r ffermwr yn gadael i'r ddaear afradu'i thyfiant mor wyllt, wyt ti'n feddwl?'

'Does gen i ddim syniad. Does gen i ddim syniad. Nid fi sy'n cynllunio.'

'Rhywun arall felly wedi dylanwadu?'

'Graean.'

'Ie; graean yr afon,' meddai Tomos, 'wrth iddi droi ar draws y dyffryn gan gyfeirio tuag yma, dyna sy wedi ffurfio'r ddôl acw, a does dim dyfnder pridd o gwbl. Dim ond ysgall sy'n gallu gwreiddio.'

Teimlodd y tad yn fodlon ar sylwadaeth ymarferol ei fab, fel pe bai'r ymarferiad addysgol cynt hwn yn ddigonol; ac ymdawelodd yn awr i fwynhau gwyrddlesni'r dyffryn. Yn y brwyn ar lan yr afon hedai tameitiach o darth fel dagrau awyrol ronyn uwchlaw lefel y dŵr. Ar ôl cydarolygu'r fan yna ychydig funudau, aeth y ddau yn ôl at eu beiciau, ac ailgychwyn ar eu taith.

Yna'n sydyn, sylwodd y tad ar y cloddiau'n pwngan o gnau.

'Aros,' meddai fe, 'edrych.'

Buon nhw'n hel ac yn cracio cnau am ychydig o funudau, a darganfod mes ac aeron a phob ffrwyth gwyllt; bob yn ychydig, gwyddai'r tad fod y naws artiffisial a oedd amdanyn nhw ar y dechrau yn llithro ymaith a bod yna berthynas newydd yn datblygu, nid rhyngddo fe a'i fab yn unig, ond rhyngddyn nhw, ill dau ynghyd ar y naill ochr, a'r ddaear brydferth hon yr ochr arall. Ac felly y dylai hi fod. Roedden nhw'n uned, nid yn unig am eu bod wedi dod at ei gilydd, ond am eu bod gyferbyn â phopeth arall ar daith.

Ymlaen yr aethan nhw ar eu taith, gan stopio yn awr ac eilwaith i wylid y ffermwyr yn eu caeau yn cynaeafu'r yd. Bwytasant weddill y bwyd yn ddigon hamddenol ymhen tair milltir wedyn. Ac yna dychwelyd adref. A cheisiai'r tad ddyfalu'n fewnol ym mha ffordd roedd yn adnabod ei fab yn well bellach. A oedd e wedi treiddio y tu ôl i'r plisgyn – sef oedran – at ryw ruddin diniwed a serchog cyffredin? A ddarganfuasai o fewn yr anaeddfedrwydd bachgennaidd ryw weledigaeth gynnar o'i symlder e'i hun, rhyw loywder teimladol, yn ymestyn yn orbarod at aeddfedrwydd y

dadolaeth?

Nac oedd. Doedd e ddim yn gwybod dim oll amdano fel yna, nac yn deall chwaith ddim mwy am ei natur; ond roedd yn ddiamau wedi hoffi bod gyda'i fab, a thawel orfoleddai fod y crwt wedi hoffi bod gydag yntau. Rywsut, iddo fe bellach, dyna oedd adnabod. Roedd hynny'n ddigon iddyn nhw ill dau. Dyma, wedi'r cyfan, deulu. Doedden nhw ddim wedi anghofio mam, wrth gwrs, ond er eu gwaetha roedden nhw wedi llithro i feddwl am bethau eraill.

Clywyd ymyrraeth y ffôn. 'Dim canlyniad,' meddai Meg. 'Doedd dim disgwyl dim eto. Fe rôn nhw wybod i Dr Morus.'

'Wel, wrth gwrs... Ond petai'r peth yn amlwg, yn ddifrifol felly, fe fysen nhw wedi gweld ar unwaith.'

'Rhyw bedwar diwrnod fyddan nhw i gael ateb i'r profion.'

'Da iawn.'

'Gest ti hwyl heddiw? Sut oedd Tomos?'

'Fe gawson ni filoedd o hwyliau. Mae'n rhaid inni wneud hyn yn amlach.'

'Dwyt ti ddim yn ei nabod e, mewn gwirionedd.'

'Pwy sy? ... Crwt sy ar ei brifant yw e.'

'Ond dwyt ti ddim wedi cael cyfle.'

'Ddim wedi *mynnu* cyfle. Roedd hi'n braf, Meg, eistedd yn nhawelwch glan yr afon, a chlebran dwli gyda'r mab.'

'Mae e'n greadur annwyl. Cymryd ar ôl ei fam, siŵr o fod,' gwenodd hi.

'Dydd Gwener y clywi di'r newyddion, felly.'

'Ie.'

'Ie?'

'Mae eisiau inni i gyd ddod yn nes at ein gilydd.'

'Maen nhw'n dweud,' meddai fe gan geisio gwenu,' fod pob math o isgynhyrchion daionus yn deillio o ryfel hyd yn oed.'

'Ymostwng yw'r rhinwedd sy'n dod o salwch, sbo.'

\*

\*

\*

Nid syn, felly, o fewn tri diwrnod fod y tad wedi darbwylllo'r mab i ailsiwrneio ar hyd yr un ffordd yn union, er mwyn adennill fel petai beth o'r pŵerau cyfrin a flasodd y ddau y diwrnod hwnnw.

'Gawn ni hel llond cwdyn o gnau i mam,' meddai'r crwt.

Ond siomedig oedd dechrau'r daith. Roedd hi wedi datblygu'n ras traws gwlad, o leia ar ran y crwt; a'i unig ddiddordeb oedd cyrraedd y pen draw cyn gynted ag y gellid. Yna, wedi cyrraedd

yr afon roedd e wedi mynd ati ar unwaith i gasglu cnau i'r cwdyn; ac yn wir roedd yna hen ddigon ohonyn nhw ar bob llaw. Aethan nhw i lawr y bencyn at yr afon i fwyta'r brechdanau ar ôl a'r afalau a'r pice ar y maen roedd mam wedi'u pacio ar eu cyfer; a'u bwyta nhw gydag awch mewn mudandod... heb siarad. Yna, peidiwyd â bwyta. A digwyddodd yr un teimlad eto. Roedd rhyw olwg ryfedd ar wyneb Tomos, fel un wedi'i syfrdanu. Edrychodd i fyny'r dyffryn. Roedd y mynyddoedd yn llwyd-borffor yn y tes, a'r coed amrywiol, gydag ambell graith o binwydd, yn eu dilladu'n weddus. Edrychodd e i'r de. Roedd y bryniau a ystlysai'r afon yn y fan honno eto mor wahanol i flaenau'r dyffryn, eithr yn dwyn yr un graddau o harddwch cytbwys a chyflawn. Synnai fod yna gynifer o liwiau i'w cael. Edrychodd i lawr tua'r gorllewin lle'r oedd yr afon wedi agor gwastadeddau mwy, ac eto wedi methu â symud rhai gelltydd hyfryd a dyfnddwys. Edrychodd drachefn i'r gogledd. Yn y fan honno hefyd, roedd y prydfferthwch mor amrywiol a brenhinol, ac eto mor gyson, allai Tomos ddim ond sylu'n arswydlon ar y cwbl.

'Nhad,' meddai. 'Edrych.'

Safodd y tad gydag e, a'i law yn llaw ei fab, yn ddifri ac yn fflonsh yr un pryd, gan wybod eu bod wedi cyrraedd moment arbennig ac yn brawychu rhag iddo fe, yn drwsgl drwy ryw sylw annheilwng a rhad, friwio'r profiad i'r crwt mewn unrhyw fodd. Doedd yr un ohonyn nhw am syflyd. Roedd yn ffrainc iddyn nhw aros yn llonydd yn y wlad. Ffawd hapus fu iddyn nhw ymdroi o hyd yng ngŵydd yr ysblenderau hyn a ffurfiai fywyd, heb brofi'n ymhonnus o'r aeddfedrwydd meddwl i'w cysylltu â'i gilydd ac â'u tynged eu hun. Teimlen nhw'r angen i beidio â bod yn gwbl ymwybodol o ddyfnder eu gogoniant ar hyn o bryd, eithr yn syml ymateb iddyn nhw – yn braf bid siŵr ac yn dlws – ychydig fel y bydd miliwnydd o fwyalchen bigfelen, ar fore heulog o Orffennaf, yn afradu'i harian mân ar yr awyr desgog. Doedd dim angen synfyfyrion ormodol amdanyn nhw rhag eu troi nhw'n haniaethol ac yn scolastig.

Cerddodd y tad a'r mab at eu beiciau'n ôl heb yngan gair â'i gilydd a seiclo adre yn ara fel petasen nhw wedi bod mewn angladd.

Roedden nhw ill tri yn eistedd yn y lolfa y noson honno, y fam yn darllen *Traed mewn Cyffion*, y tad rhwng cwsg ac effro yn diog droi tudalennau *Barn*, a'r mab yn tynnu'i lygaid drwy bentwr o gylchgronau. Roedd pobman yn ddifrifol o ddistaw. Yn y wal roedd y tân trydan, yn ôl ffasiwn y cyfnod, wedi'i gynnau'n arlliw chwareus; ac ar y carped roedd cysgodion y tri ffigur wedi taflu cysgodion glasddu symudol a digri ddichwaeth. Drwy gil ei lygad sylwodd y tad fod Tomos nawr wedi codi a mynd at ei fam ac wrthi'n dangos iddi ar un o dudalennau'r *Radio Times* nodyn am raglen, ffilm o gêm rhwng Manchester United ac Arsenal y prynhawn hwnnw, gêm roedd wedi'i cholli hi wrth fynd am daith ar gefn ei feic. Ddwedodd y mab ddim yn uchel. Ddywedodd y fam ddim chwaith. Aeth y crwt yntau yn ei bwd yn ôl i'w le. Ond gallai'r tad synhwyro'r siom i'r crwt

golli'r fath gyfle i wyllo'r gêm, ei chwerw siom, ei amyneddgar siom.

(iii) TOMOS Y CENHADWR

Doedd Tomos ddim yn hoff o aros gyda Modryb Mari, yn arbennig oherwydd ei diffyg glanweithdra. Fe ellid meddwl yn ôl cyflwr cyson ei esgidiau a'i goesau mai llaid a llaca oedd cynefin cyn-hanesyddol Tomos ei hun, ond pan ddeuai i aros gyda Modryb Mari fe sylwai ar unwaith fod yna safonau eraill rywsut wedi suddo'n rhan o'i isymwybod. Roedd e'n sylwi'n fanwl fel y byddai hi'n sychu ei thrwyn â chefn ei llaw. Doedd hi ddim yn rhyw barticiwlar iawn chwaith wrth iddi drafod bwyd wedi iddi fod yn y toiled ac wrth fynd ati i olchi llestri. Doedd dim graen chwaith ar ei llieiniau. Ac un tro, pan ddaeth e i fwrw gwyliau gyda hi, roedd e wedi mynd i'r gwely a sylwi fod yna hances boced aflan o laith o dan ei obennydd yn dyst i'r ffaith nad oedd hi ddim wedi newid y dillad gwely cyn iddo fe gyrraedd.

Byddai neb wedi tybied fod Tomos bach yn ddelfryd o ddillynder na gweddustra; ond rywsut pan âi e at ei Fodryb Mari, tyfai a deuai'n batrwm o gyweirdeb yn y fan.

Roedd yn gas ganddo fynd yno.

Un hoffus oedd modryb Mari. Roedd hi'n hynod addfwyn a thirion a serchog wrtho, a byddai hi, a hithau'n hen ferch unig a phrudd, yn gorfoleddu wrth weld ei nai bach yn dod i aros gyda hi. Ond plediai Tomos yn daer ar ei dad am gael peidio â mynd yno.

'Dim ond nes bod mam yn dod adre o'r ysbyty.'

'Pryd bydd hynny?'

'Mae'n rhaid i ti.'

'Ond pam, nhad, pam?'

'Mae Modryb Mari'n dy ddisgwyl; mae hi'n ymhyfrydu wrth dy gael di yno.'

'Ond dyw hi ddim yn lân.'

'Ond Tomos, cywilydd!'

'Ond dyw hi ddim. Dyna'r gwir. Ac alla i ddim diodde bwyta pryd o fwyd yno, a meddwl am y ffordd y mae hi'n byw.'

'Dyw hynny ddim yn ddigon o esgus.'

'Pam y dylwn i fynd 'na?'

'O dosturi.'

'O dosturi, wir.'

'Ie. Meddylia di am y cenhadon yn mynd i bob math o beryglon afiach oherwydd eu cariad at eu cyd-ddyn. Fe ddylet ti brofi fod gen ti barch at dy gyd-ddyn. Fe ddylet ti brofi fod gen ti barch at rai llai ffodus na thi, Tomos.'

'Ond Modryb Mari.'

'Mae hi'n dawel, Tomos, ac yn annwyl. Wnaiff hi ddim cam â neb. Dyw hi byth am wneud niwed na dweud dim byd yn sarrug.'

'Ond mae hi'n fudr ac yn afiach ei ffordd.'

'Dyna'r lleia o'r drygau.'

'Ac mae hi'n rhy hen i newid ac i ddysgu dim yn wahanol.'

'Ydy, mae hynna'n wir.'

'Paid â ngorfodi i fynd yno, nhad!'

'Ond rwyt ti'n dipyn bach o snob, Tomos. Rwyt ti'n amharod i ymostwng. Mae 'na ryw fath o falchder ynot ti nawr sy'n peri iti wrthod hyd yn oed dy fodryb.'

'Nid balchder yw e.'

'Ie, balchder. Fe wnâi les i ti gael dy orfodi i ymwneud ag amgylchiadau sy'n groes i'r graen.'

'Fel y cenhadon rwyt ti'n sôn amdany'n nhw byth a hefyd.'

'Wel ie, pam lai? Roedd hynny'n rhan o'u haberth nhw. Mae'n hollol wir. Mae'n dda weithiau i'n harferion mwya cymen gael eu herio gan yr angen i fod yn garedig at rywun. Dyma'r sialens i ti.'

'Bod yn garedig at Fodryb Mari?'

'All neb fod mor garedig â thi, ac all neb fod mor angharedig chwaith wrth ymateb i'w gwahoddiad hi i fynd i aros gyda hi tra bydd mam yn sâl.'

'Ond mi alla i ddod o hyd i ryw esgus.'

'Mi allet ti ddweud celwydd am hynny'n wir.'

'Fyddai hynny ddim yn angharedig?'

'Mi wnâi niwed i ti, Tomos.'

'Mae'n rhaid i mi fynd?'

'Oes Tomos. Mae 'na reidrwydd mewnol i ti fynd.'

\*

\*

\*

Roedd yr arhosiad yn tynnu i ben yr hwyrnos honno, diolch i'r drefn, a'i dad yn dod i'w nôl e yn y car. Drwy'r noson cynt roedd storm wedi melltithio pob coeden yn Nyfed ac wedi dyrnio pob perth a llwyn, a'i gwynt yn ei dwrn.

Leihaodd y gyflafan ddim tan amser brechwast, a dyna'r ddau, Modryb Mari a Tomos gyda'i gilydd, yn dod allan i'r ardd i wylled cynffon y storm wyllt fel cwmwl o ddrudwys bywyd yn lleihau i fyny tua'r mynyddoedd.

'Beth sy'n bod ar y tywydd?' gofynnodd Tomos gan edrych i fyny at yr awyr.

'Fel yna y bydd hi, ngwas i, ar ôl helbul, wedi'i fflangellu,' meddai Modryb Mari, 'a'i llygaid hi'n bwl ac yn dost. Ond mae wedi chwythu'i phlwc, ac mae'n mynd adre nawr.'

'A'r rhwygiadau afiach yna rhwng y cymylau?'

'Crawn Tomos. Mae arna i ofn. Bryntni. Math o ddrwg yn y tywydd.'

'Gadewch i ni fynd i lawr i weld yr afon, modryb. Mae'n siŵr gen i ei bod hi'n trochioni'n ddigon o ryfeddod y fan yna.'

Ond llifo'r oedd hi gan ysgwyddo'n nerthol ddiwedd y cythrwfl i lawr rhwng y glannau, ac ar draws y glannau mewn ambell le. Roedd rhai colfenni wedi dymchwel, ac roedd y llif yn ffusto'n eu herbyn yn sarhaus. Bwriai'r dyfroedd yn ddidrugaredd hefyd yn erbyn rhai torlannau a gorlifo dros rai eraill.

'Mae'n werth ei gweld, modryb.'

'Aros di'n ôl machgen i, heb fynd yn rhy agos i ddannedd y llif.'

'Dw i'n fachgen mawr, cofia.'

'Efallai. Ond dyna ni. Gwylia dy drwyn, machgen annwyl i.' Modryb ... a'i thrwyn tragwyddol. 'Gwylia Tomos.' Ond doedd e ddim yn gwyllo, ac yntau wedi cyrraedd yr oedran pryd roedd e'n gwybod popeth ac yn frenin ar bawb ond fe'i hunan. 'Gwylia.'

Llithrodd e ychydig wrth nesáu at yr afon.

'Dw i'n iawn, modryb.'

'Nac wyt. Rwyt ti'n llawer rhy fentrus.'

Ac yna breuodd y dorlan o dan ei droed, a llithrodd e hyd at ei glun yn yr afon.

'Dyna ti,' meddai hi, gan frysio orau y gallai i afael ynddo.

'Ond dw i'n iawn, modryb.' Mor ffôl fuodd e, yn ceisio'i ddangos ei hun wrth fentro'n nes at y llif.

'Nac wyt. Ow!' a dyna hi, druan, yn baglu dros foncyff ac ar ei phen i'r afon chwyddedig. Ei dro fe oedd yn awr i geisio'i hachub: nid bod y dŵr yn rhy ddwfn, ond roedd ei fodryb wedi baglu'n drwstan, ac roedd hi ar ei hyd ac yn ymdrechu i godi tra oedd gwth y dŵr yn fwrlwm, dros ei phen.

'Help Tomos,' sgrechodd hi.

Bracsodd e i'r dwfn yn ddi-ofn a chydio ynddi. 'Peidiwch â becsan, modryb. Does dim peryg. Peidiwch â gwylltu. Peidiwch â chynhyrfu.' Glynodd hi wrtho gan grynu mewn ofn, a'i holl gyfansoddiad wedi'i siocio i'w wraidd; ac ymlusgodd y ddau gyda'i gilydd allan o'r dŵr. Roedden nhw ill dau'n ysgryd o'r oerfel, a hithau'n neilltuol.

'Dere, Tomos, mae'n rhaid inni newid ar unwaith.'

Ac yn ôl i'r tŷ â nhw.

Pan ddaeth ei dad i nôl Tomos, roedd y fodryb yn y gwely o hyd a'r sioc wedi'i llethu hi braidd. Roedd Tomos wedi ffonio'r meddyg, a hwnnw wedi cynghori iddi yfed te biff poeth a chymryd pethau gan bwyll bach am ddiwrnod neu ddau.

'Dw i am aros gyda hi am wythnos arall nhad, i fod yn siŵr ei bod hi wedi gwella'n llwyr.'

'Wyt ti'n siŵr, Tomos?'

'Ydw nhad.'

'Dy ddewis di yw hyn, cofia. Ond dim rhagor o ymolchi yn yr afon.'

'Paid â phoeni nhad. Mae aros gydag Anti Mari wedi bod yn un molchad hir.' Ac ymfalchïai Tomos yn ei ostyngeddwydd.

#### (iv) SANT TOMOS

Doedd dim rhaid mynd yn bell i ddod o hyd i rinweddau rhyfedd Tomos. Un o hoff weithgareddau Tomos yn ystod y gwyliau, pan gâi e 'wyliau normal', oedd curo ar ddrysau hen bobl er mwyn ymddiddan â nhw yn rhai o ffermydd yr ardal. Gwyddai fod y ffermwyr hyna, ac yn arbennig y gweddwon, y rhai a oedd yn gyfyngedig i'w cadeiriau, yn awyddus i sgwrsio er mwyn lladd amser. Roedd gan Tomos y ddawn i godi ymddiddan ac i sgwrsio ar drywydd pob math o destun heblaw'r tywydd a chlecs am gymdogion, – ond sut roedd gwella'r byd hefyd, ble bydden nhw'n mynd am wyliau dros y môr pe bai ganddyn nhw'r arian, a phe bai'u hiechyd yn atebol i bellter teithio, beth oedd y peth mwya cyffrous wnaethon nhw yn ystod eu hieuenctid?

'Bobol bach! Tomos, sut wyt ti? Dere i mewn.'

'Neges sy gen i, Mrs Rolant.'

'Wel, dere i mewn machgen annwyl. Pryd welais i ti ddiwetha?'

'Ydy'r gwynegon wedi cilio Mrs Rolant?'

'Mae'n well yn yr ha, ti'n gwybod.'

Ac yna, fe aen nhw ymlaen i siarad am ei hanhwylder, ac fe arweinïai hynny ati'n cwyno am yr ardd a'r holl drafferth o chwynnu; ac efallai y cynigïai Tomos, yn henaidd, wneud chwarter awr fach gan ei fod yn digwydd bod yn rhydd. Yna, fe'i dilynai hi fe allan i'r ardd am hanner awr o chwynnu lle y parhâi i siarad erbyn hyn am ei mab, Trefor, ac am ei hwyres fach newydd Gwenddolen. Âi hi'n ôl i'r tŷ am funud yn awr i gyrchu llun o'r ferch fach. Ac felly y byddai hi arnyn nhw hyd nes yr awgrymai hi gwpanaid o de.

'Pop dw i'n lico, Mrs Rolant.'

'Dyna ni, te. Dere inni eistedd i gael sgwrs fach. Dw i ddim wedi dy weld di ers hydion. Sut hwyl sy ar y tîm pêl-droed?'

Wedyn, siaradai fe ychydig am lwyddiannau'r tîm, ac am yr wythnos gafodd e yn Llangrannog. Cyn ffarwelio, weithiau, fe gofïai hi ofyn beth oedd y neges. Os felly, fe ddyfeisiai fe esgus yn ddigon rhwydd, megis, 'Roedd Mrs Tomos Maes-glas yn holi a oedd gyda chi funud i alw heibio i'w gweld hi ryw ben.'

'Wel, wrth gwrs, Twmi bach; fe wna i yn llawen. Pryd welais i Mrs Tomos ddiwetha?' Rhyw fath o bost brenhinol preifat i oedolion methodig oedd Tomos. Roedd yr hen bobl bob amser yn falch odiaeth i arllwys eu cwd fel hyn ac i ymwrando â'i gwmnïaeth ac i ddryllio'u hundonedd drwyddo fe. Dwy adain un corff yw unigrwydd ac unigrwydd. Gwyddai Tomos hyn, ac roedd ganddo'i ddawn i bicio i mewn yn ddi-ffws a heb i neb amau mai ei brif gymhelliad oedd estyn cymorth drwy ymddiddan neu drwy wneud rhyw fân gymwynas yn y tŷ. A charai ymdroi gyda'r hen bensynwyr fel hyn a gwrando ar eu hanesion diddorol – yn arbennig ar y dynion. Roedd y rhan fwya o'r dynion wedi bod mewn rhyw ryfel neu'i gilydd dros Loegr, llawer un heb gael chwarter o ysgol uwchradd erioed, a llawer un wedi teithio mewn gwledydd pellennig. Hoffen nhw adrodd am eu hanturiaethau real a dychmygol, ac roedd Tomos yn gynulleidfa frwd a gwerthfawrogol i'w porthi nhw.

Dyna un o'i brif ddiddanion. Credai'n ddidwyll – ac roedd yn ddigon agos i'w le – ei fod fel hyn yn cyflawni lles arbennig ac yn gwneud cryn ddaioni ymhlith rhai a oedd bellach wedi mynd braidd yn ddiymadferth ac, yn sicr, yn unig odiaeth. Tyfodd ychydig o falchder dirgel yn ei fynwes ei fod e, mae'n rhaid, yn fachgen bach go nodedig, gan ei fod e mor wasanaethgar a charedig i eraill. Mewn gwirionedd, aethai'n rhy falch ohono'i hun.

Darganfyddiad iddo fe oedd Winston Street yn y pentre, stryd roedd yn rhaid disgyn i'w chyrraedd ar hyd rhestr o fân risiau o'r tu ôl i Lôn Llywelyn. Tai a chanddyn nhw ffenestri bychain bach, dwy ystafell ar y llawr a dwy ar y llofft, heb yr un ardd ar gyfer yr un tŷ yn y stryd i gyd. Er bod llenni y tu ôl i'r rhan fwya o'r ffenestri yn y ffrynt, doedd neb wedi barnu bod angen mynd i'r eithafion o'u golchi na'u trwsio er pan roddwyd nhw yno, a hongian roedden nhw fel môr-ladron yn cael eu crogi, a'u hwynebau ar eu gwg a'u haelodau'n mynegi'u hing oesol. Ym mhob cegin flêr fe geid sinc yn llawn o annibendod a fwriadwyd ar gyfer eplesu drewdod; a'r drewdod hwnnw a ehedai ar adenydd llwch i groesawu pob ymwelydd a fentraï mewn ffolineb i guro wrth y drws.

Doedd yr un gloch na chnocer ar ddrysau'r stryd benbwygilydd. Âi cymdogion i dai'i gilydd yn gartrefol iawn. Eithr gymaint oedd chwilfrydedd Tomos ar ôl iddo ddod o hyd i'r diriogaeth ddieithr hon nes iddo guro gyda chryn hyder ar bren y drws cynta.

'Be ti isio?'

Gwraig fynwesaidd a agorodd y drws, a'i chyhyrau'n chwyddo nes holhti hynny o lewys a feddai'i blows. Y mae gan dlodi ei floneg ei hun. Atebodd Tomos gyda'i wên geriwbaidd a'i fformiwlâu diniwed arferol; eithr syflwyd dim oll ar y wraig gan y dieithryn hwn.

Yna, awgrymodd Tomos yn sigledig, 'Chwilio am rywun hen roeddwn i.'

'O! Mrs Dafis ti'n feddwl? Fan na. Nymbar Sefn.' A chlapiwyd y drws yn ddiamynedd.

Cafodd fwy o groeso gan Mrs Dafis, a'i wahodd i'r tŷ, a chyfle i nôl ychydig o negesau.



Cadwai hi'r llenni wedi'u tynnu'n dynn ar draws ei ffenestri, a sleifiai rhithyn o oleuni i'r ystafell lle y bu ambell wyfyn cymwynasgar yn chwilio am ryddhad. Roedd pob dodrefnyn wedi'i orchuddio gan haen denau o lithrigrwydd llychlyd, a hwnnw'n darparu sawr llwyd a sur ynghymysg â chlêr a phryfetach anhysbys. Gallai Tomos glywed llygod yn crafu cefn y grât, lle nad oedd tywyn o dân; a phob hyn a hyn carlamen nhw i rywle fel pe bai ganddyn nhw redegfa helaeth gudd ac yn cael y sbort ryfedda arni. Teimlai, wrth ymweld â Mrs. Dafis (a fforio fel hyn i berfeddion ei thrigfan), ei fod yn cyflawni gorchest na welwyd ei hafal er dyddiau Pantycelyn.

Hobi? Balchder? Roedd angen amlhau mwy o'r balchderau hyn.

Wrth i'r teimlad hwn o foddhad dyfu, fe ddyblodd ei weithgarwch, a daeth ambell un yn y dreflan – Mr Williams, Cae'r Fedwen, er enghraifft, – i dybied bod y crwt bach hwn yn galw heibio ac yn busnesa ar y mwya. Fe ddysgai fe i'r bychan beidio â phoeni pobl archolledig, nes iddo gael llond bol.

'Wyt ti wedi ymweld erioed â Chartre'r Hen Bobl?'

'Yr Allt? Y tŷ mawr i fyny acw yn y coed?'

'Ie.'

'Na.'

'Dw i'n siŵr y byddai llawer iawn o'r bobl yn y fan yna yn falch iawn i gael cwrdd â thi, ac i sgwrsio. Dylet ti fynd acw os oes gen ti awr i'w sbario.'

Ond os syrffed a diflastod oedd erfyn Mr Williams ar gyfer dal Tomos, fel y tybiasai, fe'i daliwyd yntau yn ei rwyd ei hun. Trodd ei negyddiaeth yn gadarnhad chwap. Roedd y bobl hen yng Nghartre'r Hen Bobl yn caru llais ifanc ac wyneb ifanc. Roedden nhw'n newid eu cywair ac yn sionci'n rhyfeddol gydag e. Dyna oedd effaith Tomos y prynhawn hwnnw. Crwydrodd i fyny drwy'r coridorau linc-di-lonc gan gyfarch pawb yn eu tro. Y tu allan wedyn roedd nifer o hen fenywod ac un hen ddyn yn eistedd ar feinciau. Roedd y dyn yn syllu i mewn i'r llawr wrth ei draed. Syflodd e ddim pan ddaeth Tomos i eistedd yn ei ymyl. 'Mae'n syndod o braf, on'd yw hi?' meddai Tomos. Nid atebodd y dyn. Treiddiai ei lygaid i mewn i'r lawnt.

'Mae rhywun wedi bod yn brysur yn lladd gwair,' meddai Tomos, sant yr henoed. 'Mae'n dda gen i taw ddim fi sy'n gorfod ei wneud... Mae'n anferth, on'd yw hi? ... Mae garddwr i'w gael, debyg.'

Ymatebodd y dyn ddim eto.

'Roedd hi'n syniad da gosod meinciau tu allan fel hyn ... Ellwch chi ddim cerdded yn bell, mae'n siŵr, oherwydd y rhiwiau...!' Dim ateb. 'Mae'n werth cael y seddau er gwaetha llawer iawn o law yn y parthau hyn...!' Trodd Tomos i edrych o'i gwmpas.... 'mae 'na olygfa braf, on'd oes, oddi yma ar draws y môr. Dych chi'n siŵr o fod yn gallu gweld Ynys Enlli a'r Eifl ar ddiwrnod clir.

Roedd rhywun yn gwybod am le braf pan gododd e'r plasty yn y fan hon.' ... Dim ateb. Ond siaradai. 'Mae'r ffermwyr siŵr o fod yn falch o'r tywydd hwn... Ond fel arall y byddan nhw cyn bo hir, eisiau ychydig o law... Mae'n burion i ni fel hyn yn sych... wrth gwrs... bob amser.' Siarad er mwyn siarad roedd e. Ffenomen gymhleth, ond daionus.

Tawelwch oedd cyfraniad yr hen ŵr yn ôl; a daeth y tawelwch yna yn awr yn gawell am y ddau ohonyn nhw, gan eu caethiwo a'u cadw gyda'i gilydd. Dal i rythu i mewn i'r llawr a wnâi'r hen ŵr, a doedd e ddim wedi dyrchafu'i lygaid i syllu ar Tomos un waith. Ymhen rhyw hanner awr o ddistawrwydd trwm, dechreuodd lefaru bron yn anhyglyw; ac o'r braidd y gallai Tomos glywed dim o'r hyn a ddywedai. Ac eto, hyn oedd ystyr perthyn.

Cwynfan a ddeuai'n anhyglyw o'i enau mewn lli hynod o undonog. Plygai at y llawr. Dechreuai barablu yn un sribyn di-baid. Parablai heb hidio am gynulleidfa. 'Mae rhai o eglwysi'r dre wedi casglu arian a phrynu bws i ni; a bydd rhai o'r gweinidogion yn ei yrru fel y cawn fynd allan am dro ynddo weithiau er mwyn newid awyrgylch a mwynhau golwg ar yr ardal. Mae hyn yn rhoi pleser mawr i amryw ohonon ni, sbo. Ond erbyn hyn, ychydig a sylweddolai'r gweinidogion hynny nad dyna'n hangen penna ni. Bid siŵr, mae'n darparu orig ysgafn i rai; ond i ambell un meddylgar yn y Cartref – i mi, nid unigrwydd yw'r brif broblem, nac undonedd chwaith, nid anwybyddiaeth, na chyfyngder; ond diffyg pwrpas, diffyg dyfodol, diffyg ffydd. Ac 'ŵyr gweinidogion y dwthwn hwn fawr am y broblem honno. 'Ŵyr neb.' Crynai a chrynai. 'Pan gyrhaedddech ein hoedran ni, fe all digalondid a diflastod y bywyd di-bwynt fynd yn drech na'r holl ddiddanwch arwynebol; fe all fod yn dagfa, fel mynydd o lwch yn disgyn am eich pen, mynydd sbwriel y ddaear hon; dim ystyr, dim pen draw glân, dim gobaith; ac ychydig a ŵyr gweinidogion yr oes hon am y gwirionedd hwnnw chwaith... Heddiw am ddau o'r gloch,' meddai'r henwr cwyfannus, 'tro Agape fydd i yrru'r bws (y myfyrwyr yn y Coleg Diwinyddol ddododd y ffugenw hwnnw arno. Does neb am fynd i'w fws pan fydd e'n mynd ag e o gwmpas. Buodd e'n pregethu iddyn nhw, "Cariad i bawb o bobl y byd", un diwrnod. Ond roedd diffyg pwrpas wedi'u bwyta nhw'n rhy bell, wedi ysu'u coluddion. Roedden nhw'n gweiddi, "Dowch o'na ddyn. Dwedwch y gwir. Credwch y gwrthrych. Yr Un sy tu ôl i bwrpas a deddf a bywyd a threfn a thragwyddoldeb byw. Y person hwnnw".'

Cwynai'r henwr. A gwrandawai Tomos arno fe, heb fedru cerdded cam drwy'r dryswch.

Ac yna torrodd yr henwr grwgnachlyd i lawr. Roedd wedi teimlo rhyw ysfa i ebychu hyn o hen, hen aflonyddwch a fuasai'n berwi o'r tu mewn iddo ers tro. A chaeodd yr holl olygfa a'i cwmpasai o'i ddeutu amdano fe'n dynn.

'Dim ond deuddeg oed ydw i,' meddai Tomos, a'i lygaid yn syn. 'Plentyn.'

Ac yna, torrodd y merched yn y rhes i chwerthin yn garedig. 'Dyna ti fachgen... Cystal â dim

... Dwed y gwir wrtho fe. Plentyn wyt ti. Dyna dy gamp. Mae'r tipyn gwir 'na'n dragwyddol. ... Dyna sy'n ffresáu ffeithiau. Ie. "Plentyn" wyt ti. Dere di aton ni fel 'na. Dyna'r ateb iddo fe.'

(v) ELYRCH AM BYTH

Oherwydd y disgwyl hir ymlaen llaw, mae'r delweddau amryliw o'r gwyliau, sy'n sicr o lithro i mewn ar ddiwedd diwrnod o waith, bob amser yn pentyrru'n ddisgwyliad ansicr. Fe fu'r gobeithion amdanyn nhw'n ymddatod cyn iddyn nhw gyrraedd. Ac eto, mae'r amlhau ar bosibiliadau braf sy'n twyllo rhywun, ers tro yn profi'n well na'r disgwyl. Ac yna, bydd ffactor y 'rhieni' bob amser o'r tu ôl i'r dyfodol, yn dod a hawlio ychwanegu drwy ddweud bod ganddyn nhwythau eu llais yn y cynlluniau. Mae 'rhieni' a 'pherthnasau' yn mynnu'u lle yn ein byd cul.

Y tro hwn, tan ymguddio y tu ôl i'r breuddwydion amryfal hynny, roedd yna ffactor penodol yn y cynlluniau nas disgwyliwyd ... sef modragedd. Rhyw wyliau hir o ymweld â modragedd fyddai hyn eleni ar eu hyd. Roedden nhw wedi ymgasglu nes eu bod nhw wedi lled feddiannu'r olygfa. Ac felly y dofwyd yr holl ddaear dan gefn Tomos.

Roedd yna ffactor arall yn benodol. Roedd tad Tomos am i'w fab ymweld ag un fodryb, yn byw ar bwys Parc y Rhath.

Un ddigyffro, ddi-stŵr, byth yn codi'i llais, gysglyd braidd, hynod addfwyn a charedig, un felly oedd Modryb Siân, Caerdydd, mor wahanol i Fodryb Mari. Roedd Modryb Siân, ynghyd ag Ewyrth Ned, yn trigo mewn ardal ddigyffro a chysurus, heb fod ymhell o Lyn y Rhath. Treiglodd Tomos draw atyn nhw felly – ac at y llyn. Roedd fel pe bai llonyddwch tawel a pharchus y llyn hwnnw wedi gorlifo dros yr ardal i gyd, a'r elyrch gosgeiddig wedi nofio'n urddasol i mewn, ymhell i mewn i'r tai ac i eneidiau'r bobl eu hunain. Roedd Tomos wedi bod yn bwrw gwyliau gyda Modryb Siân bellach ers chwe diwrnod hir. Roedd e wedi dihysbyddu holl atyniadau amlyca a garwa Parc y Rhath, wedi goresgyn pob coeden ddringadwy, wedi ymaflyd codwm â holl hogiau mwya anhydrin y gymdogaeth. Bellach, roedd y tangnefedd hufendew hwnnw a feddiannai bobman, a phawb o'i gwmpas, wedi dechrau'i gorddi, a'i anesmwytho hefyd, yn enbyd.

Ei dad a fynnodd iddo ddod yno.

Anesmwythai nid yn gymaint am ddychwelyd adre ag am fymryn bach o wylltineb yn y fan hon, neu o leia am wylltineb newydd. Dringai goed am y canfed tro. Ymarferai â bwa a saeth. Chwaraeai soccer ar ei ben ei hun. Ond rywsut roedd gwarineb Caerdydd a'i hadeiladau esmwyth wedi codi rhwystr rhyngddo fe a'r byd naturiol acw gartre yr hiraethai amdano, ac a gynigiai, o bell, i'w gof anturiaeth a rhyddid, hwyl gyntefig ac iechyd i'w ysgyfaint ac i'w aelodau oll. Disgynnodd prudd-der arno un diwrnod wrth iddo eistedd ar foncyn a oruwchedrychai dros rai o'r lawntiau hynny sy fel petaen nhw wedi'u serio'n ddwfn yng nghalon Parc y Rhath. Yn fwy na phrudd-der

gwastraffu amser, llithrodd ysgryd drwy'i waed fel pe bai e newydd sylweddoli bod y byd hwn i gyd wedi marw.

A'r foment honno, clywodd ddwy law front chwyslyd yn estyn o'r tu ôl iddo ac yn cau am ei lygaid. Siglodd ei hun yn rhydd, a phwy oedd yno ond Angus, hogyn o'r ffordd nesa at stryd ei fodryb. Bu'r ddau grwt yn ymgodymu â'i gilydd blith draphlith ar y llawr am ychydig nes iddyn nhw flino; ac yna, eisteddon nhw i fwrw'u llesgedd, a thorrodd Angus y newydd i Tomos ei fod e'n gorfod mynd i ffwrdd gyda'i rieni am wythnos i Lundain. Taith addysgiadol a diwylliannol, o bethau'r byd, er mwyn iddo ymgynabod â bodolaeth Tŷ'r Cyffredin, y trenau tanddaearol, a'r amgueddfeydd, a phererindota'n ddefosiynol hyd at reilins Palas Buckingham.

Dyma waelod pob trychineb. Fyddai neb felly ar ôl i chwarae gyda Tomos. Neb. A hwythau newydd gyfarfod â'i gilydd. Roedd y gwacter digyffro wedi'i ddyblu ag un ergyd, a suddodd Tomos yn ôl i'w brudd-der diffaith.

Beth wnelai fe heb Angus? Mae dyn yn blino ar elyrch.

'Och! Rhieni! A Pherthnasau! A theithio addysgiadol!'

Gorwedden nhw ill dau ochr yn ochr ar ben y bencyn yn eu dwyster, a'r haul a'r awyr heulog yn gwasgu ar eu hamrannau caeedig. Cytunen nhw fod rhieni a modragedd wedi cael eu gwneud yn unswydd er mwyn bwrw cysgodion dros wyliau.

'Wyt ti,' gofynnodd Angus heb agor ei lygaid, 'wyt ti erioed wedi bod mewn ogo?'

'Ogo?'

'Ie. Un iawn. Nid un y mae eisiau talu i fynd iddi, ond un guddiedig, un wyllt, gyfrinachol, lle nad oes neb yn mynd, lle mae'n rhaid dod â rhaff a thors i fynd drwyddi.'

'Ogo?'

'Ie, un lle'r wyt ti'n gorfod mynd ar dy fol er mwyn sleifio drwy'i thwnelau.'

'Un iawn?'

'Ie.'

'Na... Ble mae un iawn fel 'na? Wyt ti'n gwybod am un?'

'Ydw.'

'Allwn ni fynd yno nawr? Y funud hon?'

'Na, mae'n rhy hwyr erbyn hyn ac yn rhy bell. Mae'n rhaid cyrchu yn y bore, a chymryd diwrnod ar ei hyd i'w chwilio hi. Ond bydda i wedi mynd erbyn yfory.'

'Ble mae hi?'

'Bydd rhaid iti gymryd bws i ddechrau. Bws Gwaelod-y-garth neu fws Tongwynlais. Ond ar ochr Gwaelod-y-garth i'r afon, y mae'r ogo mewn coed ar lechwedd allt. Dyw hi ddim yn rhwydd dod o hyd iddi. Pot-holio maen nhw'n galw'r peth. Gwell i mi lunio map i ti.'

'Elli di ddim dod gyda fi?'

'Yfory dw i'n gorfod mynd gyda'n rhieni.'

'Wyt ti'n meddwl y ffeindia i'r ogo?'

'Wel, mae'n rhaid iti ddechrau dringo'r rhiw yn y lle cywir, a pheidio â mynd yn rhy bell. Dyw mynedfa'r ogo yn ddim ond troedfedd a hanner o uchder, twll cymharol fach a disylw; ond mae'n agor yn lletach y tu mewn. Fel palas. Ew! Mae'n lle braf.'

'Beth sy 'na?'

'Popeth. Mae yna ddibyn bach cul y mae'n rhaid disgyn drosto ar ben rhaff. Mae yna stalactidau digon o ryfeddod, a nant fach danddaearol hefyd, ac esgym.'

'Esgym! Bobl bach!'

'Wel, nid esgym. Ond dw i'n eu galw nhw'n esgym. Cerrig ar siâp esgym ydyn nhw, neu hen ganghennau wedi'u gwynnu, neu rywbeth wedi'i esmwytho gan y dŵr rhedegog. Ac mae 'na eco.'

'Eco? Pan wyt ti'n gweiddi?'

'Oes. Ac mae'n hir, yr ogo. Fe ryfeddi di. Mae yna lwybrau gwahanol ynddi.'

'Ew!'

'Rhai ohonyn nhw'n cau'n fuan, ond rhai eraill yn ymestyn am filltiroedd?'

'Milltiroedd!'

'Wel, am bellter ffordd beth bynnag. Canllath, dau ganllath neu rywbeth. Mae hi'n ogo iawn, a does neb yn gwybod amdani. Cofia di fynd â thors.'

Roedd hyn oll rywsut wedi adnewyddu diddordeb Tomos mewn bywyd. Roedd y ffaith fod y fath dirgelwch o fewn cyrraedd taith chwarter awr o Gaerdydd, rywfodd, wedi dwyn yn ôl i'r ddinas orgymhleth honno rai o 'ragorfreintiau prifddinas' yn y Gymru hon roedd hi fel petai mor ddibris ohoni.

Allodd Tomos ddim cyrchu'r ogo drannoeth yn ôl ei fwriad, oherwydd roedd modryb Siân am siopa – siopa, meddyliwch – ac am brynu dillad iddo, dillad taclus, meddyliwch. Esgus oedd hynny, wrth gwrs, i gael ganddo fe fynd gyda hi i'r dre, ac i fod o dan ei harolygiaeth bersonol hi am y prynhawn. Roedd e'n deall yr esgusodion hyn yn burion; ond wyddai fe ddim rywsut sut y gallai ddianc rhagddi.

Daeth dydd Sadwrn, sut bynnag. A dyblodd ei hiraeth am anturiaeth ddifodryb. Ac yntau gyda'i raff, a'i dors, ei frechdanau a'i bop, un afal, a bar o siocled – digon o borthiant i bara am oriau o leia, pe bai'r ogo'n digwydd syrthio tra oedd e y tu mewn fel sy'n gyffredin weithiau ar y newyddion, ac yntau'n gorfod byw am gyfnod maith tra byddai hofrennydd, glowyr a chrên a tharw-dur, a'r injin dân a phlismyn a dynion y teledu yn tyrchu amdano. Yr unig anhawster oedd na wyddai neb ble'r oedd e wedi mynd, nac ychwaith – yn ôl dirgelwch anhysbysrwydd Angus – fod y

fath le ar glawr daear ag ogo gyfrinachol y Garth. Beth petai damwain go iawn yn digwydd? Neu ddaeargryn. Ond tae waeth am hynny; ar y newyddion yn unig y byddai pethau felly'n bod.

Cyrraedd Tongwynlais. Croesi'r bont. Troi i'r dde. Ac yna, chwilio. Llwyddodd yn rhyfeddol i ddod o hyd i bob adeilad a llwybr a nododd Angus ar y map. Roedd pob un dim yn ei le, pob tro, pob clwstwr o goed, pob peth, ond yr ogo. A oedd e wedi dringo'r rhiw yn rhy bell, tybed? Ac a oedd e o bosib yn chwilio'n rhy bell i'r chwith? Neu a oedd Angus, efallai, wedi bod yn ei bryfocio ac yn chwarae cil-bwt?

Nawr dechreuodd fynd yn ôl dros yr un diriogaeth, gan dremu ar yr un creigiau a chan sbio y tu ôl i'r un llwyn; roedd yr holl le'n gyfarwydd iddo ac yn ddiflas anniddorol. Roedd e wedi blino ar weld y lle. Aeth am dro yn ôl i'r lôn. Rhag ofn bod yna fangre gyffelyb o ran patrwm i hyn ymhellach ymlaen, ac felly'n debyg i'r cynllun a oedd ganddo fe ar y map, brasgamodd yn ôl ac ymlaen, i fyny ac i lawr. Roedd y prynhawn yn dwym ac yn hirfaith, ac roedd y brechdanau'n sticio yn ei ddwylo am fod y menyn wedi dechrau rhedeg drwy'r papur. Dringodd i fyny i'r allt i'w bwyta ac i orffwys ac i syllu'n brudd ar draws y cwm i gyfeiriad Castell Coch. Islaw roedd y rheilffordd; a gallai weld tuswau o fwg yn codi bob hyn a hyn o'r cyfeiriad hwnnw. Yn y distawrwydd fe glywai chwiban unig ambell waith yn cyhoeddi fod rhyw injin neu'i gilydd yn mynnu sylw gan rywun.

Gorweddodd yn siomedig ar y bryn, a chau'i lygaid ifainc. Roedd e wedi cael y teimlad hwn o rwystredigaeth lawer tro o'r blaen, lawer tro – pan oedd e'n methu â ffeindio'i sgidiau pêl-droed ac roedd y tîm yn disgwyl iddo ymadael â'r tŷ ar unwaith – neu pan oedd y bêl wedi'i chicio i fyny i'r cafn ar y to, ac yntau'n methu â'i chipio'n ôl am oriau; neu un pnawn Sadwrn ar ei hyd pan oedd ei gyfeillion wedi cyrchu allan o'i flaen ac yntau wedi addo'u gweld nhw ymhellach ymlaen ac yn methu â dod o hyd iddyn nhw yn unman. Ddaeth neb arall yn y byd am hanner awr i unioni'i unigrwydd. Hepiodd ychydig yn y gwres yn awr, a throdd y rhwystredigaeth ymarferol yn siomedigaethau breuddwydiol cas. Roedd e'n fynych wedi gallu magu adenydd hud drwy'i gwsg unig, ac wedi medru hedfan; ond y diwrnod hwn, ysywaeth, roedd e ar y funud ola wedi methu'n lân â chodi oddi ar y llawr. A'r diwrnod hwn eto, roedd yna Indiaid yn ymosod arno drwy freuddwyd, cenedlgarwyr glew o'r gorllewin gwyllt, ac yntau'n gowboi imperialaidd yn eu hwynebu nhw, ac wedi sylweddoli'n rhy hwyr nad oedd dim bwledi ar ôl yn ei ddryll, dim oll. Syrffedodd.

Cododd ar ei eistedd er mwyn ymwardd â dychmygion ffôl ac er mwyn craffu ar y byd o realiti o'i ddeutu. Hiraethai am Angus. Hiraethai am ogofeydd. Gwyliodd drên yn dringo acw i fyny'r cwm, ambell waith yn diflannu o'r golwg y tu ôl i'r coed ar ymyl y rheilffordd, ond yn dal serch hynny i bwffian yn drymaidd ddigalon a'i olion o fwg amyneddgar yn dangos i'r hollfyd ei fod yn dal ati i ymwithio ymlaen hyd yn oed pan oedd yn cilio o'r golwg. Yn wir, gwaedda'i chwiban rhyw drên bob rhyw chwarter awr fel petai'n dod allan o ogo neu'n mynd i mewn i ogo, neu fel

bachgen yn sgrechian wrth syrthio'n ddamweiniol dros ddibyn o'r tu mewn i'r ogo. Gwyliai Tomos ei drywydd yn ofalus, ac yn fyfyrgar, ac ymgollai'i feddwl yn araf yn ymdrechion y trê. Pwff, pwff, pwff, meddai hwnnw...

Roedd hwnnw yn union islaw iddo pan ddigwyddodd y peth. Clywodd sgrech haearnaidd, hir, sydyn ynghyd â thrwst fel ffrwydrad yn atseinio rhwng clogwyni'r cwm; yna rhes o ergydion afreolaidd, a lleisiau, lleisiau dynol yn bloeddio o bell. Y trê! Damwain! Ac yna tawelwch ofnadwy, hirfaith. Roedd y trê wedi tewi; yn wir, rhaid ei fod wedi cael damwain, wedi baglu oddi ar y rheiliau efallai.

Safodd Tomos ar ei union yn reddf. Beth oedd wedi digwydd?

Dyma anturiaeth ar ei wartha o'r diwedd, heb ei gwahodd, ac yn ddigymell naturiol. O'r diwedd roedd e ynghanol helbul aruthrol. O'r diwedd roedd e'n medru estyn cymorth i bobl mewn perygl. Rhedodd i lawr yr allt. Roedd e wedi pasio twll bach dan lewyn wrth frysio heibio. Doedd dim amser i hynny. Rhedodd â'i wynt yn ei ddwrn, fel gwiwer, heb braidd gyffwrdd â'r llawr; ac ynghyd â'r cyffro a'r mymryn lleia o ofn, roedd ganddo foddhad bachgennaidd, drwg, fel petai'n cael y cyfle parod i fod yn arwr o'r diwedd. Doedd hi ddim yn rhyw bell iawn at y rheilffordd, a Tomos oedd un o'r rhai cynta i gyrraedd man y ddamwain; roedd ychydig o gerbydau wedi rhoio i lawr y dorlan ac yn gorwedd ar eu hochr a'u safnau'n agored, a gwelai bedwar neu bump o bobl yn ceisio cynorthwyo; ymunodd Tomos yn y gwaith, a'i galon yn canu oherwydd iddo gael y fath siawns i fod yn wron.

Ac yna, sylwodd ar y gwaed. Braich waedlyd hyll yn ymestyn allan oddi tan un o'r cerbydau. A gwaed. Beth a wnâi? Ac yna... ar bwys... a'r pren wedi'i rwygo hyd at .... asgwrn, a'r gwydr yn ysigo i mewn i'r ymennydd... gwraig... Allodd Tomos ddim ymatal... Hen wraig yn hongian fel darn o sgrech allan drwy'r ffenest... Ysgytiodd ei gylla ... wedi marw... ; a thaflodd Tomos yr afal a'r brechdanau a'r pop i fyny yn un chwydfa sgarlad.

Wedi cyfogi ychydig o'i ddychryn a'i sioc i fyny fel hyn, aeth ati'n ddistawach i helpu hwn a'r llall. Mewn gwirionedd, tri yn unig oedd wedi marw; ac roedd Tomos wedi bod yn ddigon anlwcus i weld dau ohonyn nhw o fewn awr ar ôl ymadael â thŷ ei fodryb ar bwys Parc y Rhath. (Cer ma's o'r ffordd, fachgen. Paid â bod dan draed.) Doedd dim chwant arno adrodd dim o'i helbulon wrthi hi. Rhyfedd fel roedd yn meddwl am ei fodryb Siân ar ganol helbul o'r fath. Fynnai fe ddim brolio chwaith am ei ran ei hun yn y gwaith o achlesu'r dioddefwyr yn y ddamwain. Er ei fod wedi blino, blino, doedd arno'r un dymuniad i hwylio i'r gwely, oherwydd gwyddai na ddeuai cwsg fyth ar ei gyfyl yn y fan yna.

A'r noson honno, yn wir, chysgod e ddim chwinciad. Ceisiai helpu nes bod blinder trwm wedi'i lethu.

Drannoeth ar ôl codi a brecwesta, aeth i lawr i'r parc, heb ei bêl, i sefyll ar lan y llyn a gwyllo'r elyrch. Pendronai mewn distawrwydd stond. Troi'n urddasol roedd yr elyrch ynghanol y llyn fel lleuadau oer yn cylchynu'r byd. Symudent ar draws y dŵr gwydr, yn ddistaw, ddistaw, symud fel elyrch heb ddangos eu bod yn symud o gwbl. Symudai'u traed o'r golwg; ac ni symudai'r cyrff yn y golwg, yn ddigon tebyg i ddawnsywyr gwerin Gwyddelig. Eisteddodd e wedyn yn flinedig uwchben y lawntiau, yn ddistaw ac yn fodlon, i'w gwylid. Gorweddodd, a throdd ar un ochr, i syllu ar rai o'r coed a ymlai'r lawnt agosa; ond doedd arno ddim chwant dringo'r un ohonyn nhw nawr.

\*

\*

\*

Canu, canu roedd y gegin pan gyrhaeddodd Tomos yn ôl yn Llan-grug. Gwenodd Tomos: roedd ganddo stori mor gynhyrfus i'w dweud. Ond chafodd e ddim cyfle oherwydd ei dad. Ei dad a orfoleddai. 'Pan ddwedodd y meddyg y tro o'r blaen "wyth-deg y cant yn llwyddiant",' gwaeddai fe mewn ofn a dychryn, 'rown i'n meddwl – dim ond "wyth-deg"! Ond dylwn i fod wedi diolch am yr addewid yn yr ugain arall yna. Diolch, diolch.' Rhywbeth felly a floeddai'i dad fel pe bai e mewn breuddwyd, a honno'n freuddwyd feddw.

Beth yn y byd oedd ystyr hyn? meddyliai Tomos.

Roedd y tŷ yn furum o orfoledd, a'i dad yn chwerthin fel ynfyty ac yn adrodd tameidiau o brydyddiaeth ramantaidd, a'i fam yno'n hwylio'n dawel o gwmpas yn wenau tawel i gyd gan arlwyo'r ford yn ddiddiwedd fel petai hithau'n gwch hwyliu pleser yn cylchu'n ôl ac ymlaen yn ddibwrpas ar ddyfroedd y bae. Roedd yr heddwch ar ôl y storm yn dew yn ei ffroenau hi. Mor loyw oedd y drefn; mor iach oedd waliau'r cartre i gyd. Llithrodd peth o ganu'r waliau yn hapus i mewn i enau Tomos nawr. Roedd ei dad yn chwifio dalen o bapur yn ei fysedd fel trysor.

'Beth sy wedi digwydd?'

'Dim ond llythyr bach o'r ysbyty,' chwarddodd ei dad gan siglo'r darn pitw o bapur gwlyb a chan ei daro'n chwareus ar ben Tomos fel haleliwia. 'Dim ond canlyniad braf y prawf, Tomos!' Hoffodd Tomos yr haleliwia yna. 'Dim ond papur!' Ebychai arno'n syn. Roedd arno chwant ei gadw fe pe bai modd ei gario gydag e i'r llofft, a'i geseilio'n ofalus, a chysgu am oriau.

#### (vi) EI FFRIND WILIAM

Doedd dim pawb mor anniddorol â Modryb Siân. Scitsoffrenig oedd Wiliam. Hen lanc ecentrig oedd e, ac yn byw ar ei ben ei hun. Er nad oedd dim gwella arno, roedd yn medru'i gadw ei hun yn union ac yn ddi-fai drwy gymryd cyffuriau dethol yn rheolaidd. A doedd e ddim yn dwp o bell ffordd.

Ond roedd e'n ofnus, bob amser yn ofnus. Yr hyn a gollasai fwya oedd ei hyder gyda phobl eraill; ac roedd eraill wedi colli'u hyder gydag e.



Ymneilltuai'n llwyr bron rhag y gymdeithas. Ei frawd, neu ei hanner-brawd yn hytrach, yn Awstralia, a'i cynhaliai. Efô dalai'r biliau i gyd, – roedd ganddo ryw drefniant gyda'r banc, – ond ddô'r hanner-brawd hwnnw ddim i'r golwg byth, a chlywai Wiliam ddim ganddo heblaw cerdyn pen-blwydd a cherdyn Nadolig.

Ac felly y câi Wiliam fyw – drwy gerdded i'r dre i siopa, drwy dwtio yn yr ardd a chymhennu'r tŷ, golchi ychydig o ddillad, cymryd pils yn rheolaidd, a pharatoi prydau – a thrwy ofni pawb a phopeth hefyd, ofni'r tân trydan, ofni gorwedd mewn baddon (gwell oedd ganddo'i olchi'i hun fesul tamaid – roedd yn rhaid iddo gadw'n lanwedd), ofni masnachwyr crwydrol wrth y drws, ofni gweld ffurflen ddieithr a swyddogol yn disgyn drwy'i dwll llythyrau; ac ofni cofio. Mewn ffordd roedd e'n byw heb neb.

Deuai'r meddyg heibio iddo unwaith bob mis i sgwrsio, i arolygu, ac i sicrhau bod pob dim yn tycio; ond ar wahân i hwnnw, doedd yna neb a'i trafferthai bellach. Un tro roedd criw bach o sipsiwn wedi curo wrth ei ddrws ac wedi'i ddarganfod e, ac roedd e wedi'i ddychryn o'u herwydd. Ofnai Wiliam nhw. Roedden nhw wedi gofyn iddo fe a oedd ganddo ryw annibendod y carai'i glirio, unrhyw hen ddodrefn neu fatiau neu ddillad neu grochanau; ac roedden nhw wedi canfod ei fod yn ddihyder ac yn betrusgar, neu wedi tybied nad oedd ei synhwyrâu oll yn gyfan; beth bynnag, buan y dechreuon nhw gau amdano a'i holi – a galw'n rheolaidd – a oedd ganddo fwy o bethau yn y tŷ – beth am hen bapurau punt treuliedig? – O! Na, doedd dim o'r rheiny – allai fe ddim rhoi ychwaneg heddiw – oni allen nhw fynd yn awr? – ond beth am hen ddodrefn ar y llofft? – na, na, roedd e am iddyn nhw fynd – roedden nhw'n barod i gynnig pris uwch am garped – na, na, roedd rhaid iddyn nhw fynd oddi yno ar unwaith, nawr, heddiw allai fe ddim breuddwydio am gynnig dim mwy iddyn nhw. Nawr. Trô'i ei lygaid yn wyllt yn ei ben. Doedd e ddim yn licio'r holi a stilio afiach yna.

Yna, y foment honno, drwy drugaredd, galwodd Dr Owen, a cheryddu'r sipsiwn a bygwth yr heddlu arnyn nhw pe deuen nhw'n agos i'r lle eto; a ffoesent yn ddiymdroi. Roedd yr un argyfwng mawr hwnnw ym muchedd Wiliam drosodd.

Mor ddibynnol oedd e ar Dr Owen. Efô oedd ei gymdeithas a'i wareiddiad, y cyswllt cysurlon â dirgelion bywyd normal a gwyrthiol y dorf lethol honno o wynebaw diddiwedd a'u cylchynai draw yn y dre. Efô oedd y bont drosodd i'r pellterau cudd. Efô oedd pawb. Roedd e'n deulu diriaethol, a llywodraeth diriaethol rywsut. Pan ddeuai Dr Owen, fe ddeuai rhyw bersawr ansicr o normalrwydd cyfarwydd a distaw drosto. Deuai gosteg.

Roedd Dr Owen yn medru chwerthin. Peth od yw chwerthin – ei achosion, ffurf ei fynegiant, a'i effaith ar y corff, hynny yw ar gorff y gwrandawr, fel pe bai'n cerfio'r peth ac yn mowldio'r sawl y byddai'n holli drostynt, ond ei effaith ar yr un sy'n ei gynhyrchu yn un â'r un sy'n ei dderbyn. Anodd oedd deall ei bwrpas; ac eto, roedd y fath sŵn â hyn yn gallu rhoi taw ar Wiliam, fel pe bai'n

ei arwain oddi wrth y sŵn arall hwnnw, yr un cudd, a gâi'r fath gyfle weithiau i gynyddu ac i wasgu pan oedd e'n dawel, fel petai, ac ar ei ben ei hun. Hoffai dawelwch.

Yr unig un arall ym mryd Wiliam a chwarrddai fyth oedd y bachgen ifanc a oedd yn byw ugain llath i ffwrdd – sef Tomos bach. Ond doedd hwnnw'n ddim ond yn blentyn. Fe ddeuai ar siawns i'r ardd i nôl y bêl, ac efallai y stopiai weithiau i glebran ryw ychydig. Ond doedd e wrth gwrs ddim yn bwysig nac yn oedolyn deallus fel Dr Owen. Doedd dim modd ymddiddan ag e am y dre nac am broblemau cadw tŷ, ac yn sicr ddim am baratoi pecyn o ddillad gwely i'r londri, a phethau oedolyn felly. Ond roedd yn barod i chwerthin gydag e, – o'r galon.

Tomos bach oedd yr unig fod dynol, mewn gwirionedd, heblaw Dr Owen, y byddai Wiliam yn torri mwy na hanner dwsin o eiriau mân ag e – hynny yw, yr unig un heblaw'r achlysuron pan roddai rai archebion cryno a ffurfiol ac amhersonol, bob wythnos yr un fath, mewn siopau yn y dre – a doedd e rywsut ddim yn cyfri Tomos. Ond roedd Tomos yn ei gyfri fe.

'Yn ffrind i,' oedd Wiliam ym mryd Tomos, neu felly y cyfeiriai ato fe bob amser. Ond roedd ganddo fe un 'ffrind' arall hefyd, un llai normal efallai. Roedd y crwban yn 'ffrind' hefyd, yn ffrind diddrwg-didda nad oedd nac yn digio nac yn pryfocio byth. Ac fel roedd rhai ffrindiau dychmygol o'r fath yn hynod ddiddig yn gwrando'n ddi-gŵyn ar bob math o ddwli, ac yn ymateb yn llonydd heb gweryla, felly hefyd y byddai Tomos yn tindroi am chwarter awr i ymgomio gyda Wiliam. Roedd hwnnw rywsut mor rhesymol ddidramgwydd: y crwban dw i'n feddwl, wrth gwrs. Ond dyw cael crwban yn ffrind ddim yn mynd yn bell ar ambell achlysur argyfyngus. Mae yna wahaniaeth rhwng cymeriad crwban a chi.

Rhyw dair wythnos ar ôl helynt y sipsiwn, roedd Wiliam druan wedi mentro i gwt yr ardd i dacluso: i archwilio'n gynta, ac yna i dacluso wedi'r helbul. Ac wrth iddo blygu yng nghornel y cwt, mewn hanner tywyllwch, a'i gefn at y byd, a'i ymennydd yn ymgrynhoi ar ychydig o racs a oedd yn bentwr yn y gwyll, yn ddisymwth dyma'r drws yn clepian y tu ôl iddo ohono'i hun, yn cau arno, ac yn cloi'n dynn, o'r tu allan. Doedd dim amdani: roedd e ynghau yn y cwt, yng ngharchar, wedi'i ddal.

Eisteddodd Wiliam am funud, yn wir am ddeng munud, mewn sioc, gan led dybied yn wirion (ac eto gan wybod fel arall) fod y sipsiwn wedi llechwraidd ddychwelyd, wedi dod yn ôl i'w warchae, ei newynu yn y fan hon nes ei fod yn gorff ac yn sgerbwd y tu hwnt i bob clyw a'r tu hwnt i bob gwaredigaeth. Wedi sobri rhywfaint, neu o leia wedi dadebru'n gynnes a dod yn fyw drachefn, fe gododd ar ei sefyll a cheisio cyrraedd y ffenest. Curodd ar y drws; ac yna, yn wannaidd ac yn wichlyd, fe ddechreuodd led-weiddi; ac felly y bu yn dyrnu'r waliau a'r drws ac yn gweiddi am yn ail nes dyfod yr hwyr.

Roedd hi'n fendith bod Tomos bob amser yn colli'i bêl. Efô a ddaeth dros y clawdd yno y

diwrnod hwn maes o law i dwrian yn yr ardd, a chlywodd y gri anwel gan Wiliam. Agorodd y drws yn fusneslyd; ac o'r tu mewn safai Wiliam yn ddi-air stond gan edrych allan ar oleuni rhyfedd y cyfnos.

'Beth wyt ti'n wneud Wiliam?' gofynnodd Tomos. 'Beth sy'n bod?'

'Tacluso.'

'O!'

Safodd y ddau yn fud gan edrych ar ei gilydd.

Ac yna, cerddodd Wiliam allan yn ara, ac aeth Tomos yn ôl at fôn y clawdd i chwilio am ei bêl. Dilynodd Wiliam e. Symudodd Tomos draw'n nes at y tŷ i chwilio eto am y bêl, a dilynodd Wiliam e drachefn. A'i ddilyn, ei ddilyn, i bobman.

'Dyw hi ddim yma, ta beth,' meddai Tomos.

\* \* \*

Bachgen pryfoclyd oedd Tomos, ac yn aros ei gyfle.

Fe ddaeth hwnnw ar ei dro eto wrth ymweld â Wiliam. Roedd Tomos yn y cyfamser wedi ymweld sawl gwaith â gardd Wiliam. Gan mor wamal yw anian pêl, nid syn iddo'i dilyn hi ar ei chrwydradau ffôl i mewn i'r ardd gymdogol gryn ugain o weithiau mewn wythnos. Ond y diwrnod hwn arhosodd yn yr ardd; ac roedd Wiliam druan yn ôl ei arfer newydd, yn ei ddilyn e o'i chwmpas i bobman. Agorodd Tomos, maes o law, ddrws y cwt drachefn, ac aeth i mewn. Dilynodd Wiliam e yn deyrngar.

Chwap roedd Tomos wedi gwibio allan, a chau drws y cwt ar ei ôl, o ran hwyl a thwpra.

Arhosodd yno wedyn y tu allan yn y distawrwydd, gan ddisgwyl a disgwyl y bloeddiadau brawychus o ing, a'r curo gwyllt. Disgwyl a disgwyl. Ble roedd y gri anwel? Ac yna, o berfeddion y cwt fe gododd seiniau pur anghyffredin. A Wiliam, oedd yn eu gwneud, fel rhywun wedi deall jôc. O'r tu ôl i ddrws a waliau'r cwt dyma sŵn hollol ddieithr, sŵn chwerthin iach, chwerthin uchel a llawen Wiliam, chwerthin rhydd a gorfoleddus, Wiliam yno'n bwrw'i fogail o chwerthin. Gallesid ei glywed e o'r hewl.

#### (vii) YR HA OERA

Rhaid mynd yn ôl, gryn wythnosau, cyn dechrau gwyliau'r ha nesa er mwyn dod o hyd i'r dirgelwch nesa ym mywyd y crwt. Dirgelwch oedd o fewn dirgelwch.

Heb fod nepell o gartre Tomos mae yna ffau gyfrinachol. Fe'i ceir mewn lle a enwyd ganddo fe a Hywel yn Gopa'r-eryr, nid oherwydd fod yna eryr wedi trigiannu yno, bid siŵr, nac erioed hyd yn oed wedi ymweld â'r lle chwaith, ond oherwydd mai dyma fyddai'r lle mwyaf addas ar gyfer eryrod, pe baen nhw byth yn darganfod yr ardal. Doedd yr un enw call arall, yn wir, y gellid ei

dadogi'n onest arno a ddaliai awyrgylch bygythiol eryrog yr ymguddfan uchel a neilltuedig hon mor gymwys. Wyddai neb oll ond nhw ill dau, y mae'n rhaid, am y gilfach ddirgel. Roedd hi mor anodd dringo iddi, ac mor ddibwrpas rywsut hefyd heb adenydd, gan fod cynifer o uchelfannau llawer mwy prydweiddol yn y gymdogaeth a oedd yn fwy hygyrch ac yn cynnig golygfeydd mwy helaeth i'r eryr talog.

Tomos a Hywel yn unig, – fel cyfrinach ymguddio rhag rhyfel niwclear, fel seremonïaeth y seiri rhyddion, – a wyddai fod y fath le'n bodoli ar y ddaear. Roedd yn gwbl, gwbl anhysbys. Yn ogystal â methiant yr eryr dychmygol i ymddangos.

Tua chanol Mai y flwyddyn honno, roedd un blodyn sut bynnag wedi dod o hyd i'r lle ac ymledu. Roedd pob troedfedd o'r lle, mewn gwirionedd, yn morio'n odidog gyda chlychau'r gog. Ac ar ddiwrnod felly, pryd roedd yr awyr hefyd yn las, profiad rhyfedd oedd dringo i Gopa'r-eryr, a rholio oddi yno'n bendramwnwg i lawr y llechwedd a'r llygaid yn agored led y pen, a gweld yr wybren yn sydyn yn diflannu i mewn i'r wybren, a chithau fel petaech yn deifio'n ddyfnach i ganol y cefnfor ei hun. A gwyddech nad oedd neb arall ar glawr daear a wyddai ymhle'r oeddech chi, i fyny yna ar Gopa'r-eryr, yn fawrhydig las, a gallech orwedd ymhlith uchder clychau'r gog yno fel pe baech chi mewn twnnel tanddaearol, ar eich cefn.

Y diwrnod arbennig hwn roedd Hywel yn gorfod picio i'r dre i brynu esgidiau newydd gyda'i fam. Roedd Tomos wedi dod yno ar ei ben ei hun, heb ddweud wrth neb. Sylwodd yn ddiymdroi fod rhywbeth o'i le. Wedi dechrau dringo'r llethr, canfu fod nifer o glychau'r gog bob rhyw ddecllath wedi'u clymu yn ei gilydd, fel pe bai eu gyddfau wedi'u dirdroi a'u rhwymo ynghyd fel caethweision. Arweiniai'r trywydd hwn i le o fewn pymtheg llath i gopa'r graig, – eu lle nhw, – ac yna darfod. Eithr roedd yna un darn o dir, ar bwys, lle roedd llawer o'r blodau glas a'r borfa wedi'u sathru, fel pe bai rhywun arall wedi gorwedd yno. Roedd rhyw fod dynol heblaw nhw wedi darganfod y ffau gyfrinachol hon. Rhoddodd Tomos y newydd annaturiol hwn i Hywel ar ôl iddo ddychwelyd ar ôl te er mwyn archwilio'r digwyddiad hwnnw yn fanylach.

'Mae'r gyfrinach wedi dianc o'r sach,' meddai Tomos. 'Mae rhywun wedi ceisio dwyn Copa'r-eryr.'

Wedi cyrraedd y clwm ola o glychau'r gog, sylwodd Hywel ar dŷn gerllaw. Y tu mewn iddo ar ddarn o bapur roedd y geiriau, '*Mai 28, £15 miliwn. Dim trugaredd. Gwyllyr Ifan.*'

Roedd yna bron bythefnos ar ôl o hyd cyn y dyddiad crybwyllledig hwn, a doedd y naill na'r llall ohonyn nhw'n medru dirnad dim o'r geiriau eraill ar y papur, pwy bynnag oedd yr awdur anhrugarog, a phwy bynnag oedd Ifan druan. Ond roedd hi'n amlwg eu bod nhw wedi dod o hyd i ddirgelwch a haeddai sylw, a phrin y gallen nhw oedi am bythefnos arall heb wneud dim i ddirwyn eu harchwiliad yn ei flaen. Penderfynwyd mai dod yn ôl drannoeth a wnaen nhw, yn union ar ôl yr

ysgol, i brocio ym mhob cwr o Gopa'r-eryr, i weld a oedd unrhyw olion annealladwy eraill neu nodiadau a allai ddweud wrthyn nhw pwy oedd y dieithryn a oedd wedi sengi ar eu tiriogaeth nhw yn eu habsen, ac a adawsai'r fath awgrymiadau anghynnes ar ei ôl.

Dychwelon nhw drannoeth i'r un lle i gychwyn – sef y clwm ucha o glychau'r gog. Ond cyn cyrraedd y fan honno, roedd hi'n amlwg fod y dieithryn eisoes wedi dychwelyd ei hun, wedi bod yno o'u blaenau y diwrnod hwnnw yn wir: roedd yna rai clymiadau newydd o glychau'r gog gerllaw ychydig i'r chwith o'r rhes a gafwyd y tro cynt; ac o fewn y clwm ucha roedd yna dŷn ac ynddo nodyn wedi'i wthio, darn o bapur ac arno'r pennill canlynol:

*'O dan y môr a'i donnau  
Mae llawer cwlwm coed,  
A than y clymau hynny,  
Y lladrad mwya erioed.'*

'Beth yw ystyr hyn?' gofynnodd Hywel. 'Mae rhywun yn tynnu coes.'

'Rhywbeth am lan y môr, efallai,' meddai Tomos.

'Nage. "Dan y môr," mae'n ddweud.'

'Efallai mai môr o glychau'r gog yw'r ystyr.'

'Wrth gwrs. Ond beth yw cwlwm coed?'

'Planhigyn. Mae'n dringo, rwy't ti'n gwybod, ar hyd bonau planhigion eraill ac yn plethu o'u cwmpas. Fel mae paladr y bryoni du yn plethu tua'r chwith, felly y mae paladr y cwlwm coed yn plethu tua'r dde. Roedd hyn oll ar Gopa'r-eryr yn ffurfio awyrgylch goruwch y cyffredin yng nghanol y glesni.

'Ie, ond beth mae e'n feddwl yn y fan yma?'

'Mae'n rhaid i ni chwilio ar unwaith am gwlwm coed, i weld a oes yna bentwr ynghudd rywle a rhywbeth anhysbys wedi'i roi odano.'

Roedd dyfaliad Tomos yn gywir! Fuon nhw fawr o dro cyn dod o hyd i bentwr o gwlwm coed ar y llawr ynghanol clychau'r gog; ac o dan y clymau cordeddog hynny roedd yna amlen. Rhwygodd Tomos yr amlen yn agored, ac oddi mewn cafodd nodyn arall –

*'Mae Ifan yn gwybod bellach. Lladdwch e.'*

'Allwn ni ddim cadw hyn yn gyfrinach mwyach,' meddai Hywel. 'Pwy yw Ifan?'

'Na wir,' meddai Tomos. 'Gwell ei heglu hi adre ar unwaith, a dweud wrth nhad. Mi fydd e'n gallu esbonio i'r heddlu.'

Ond wrth iddyn nhw ruthro i lawr y llechwedd, pwy a welen nhw'n ymlusgo i fyny ond tad Hywel ei hun, a llythyr yn ei law. Edrychodd e braidd yn syn pan welodd y bechgyn. Ai fe oedd yr un a ddarparodd eu cyfrinach? Mae'n rhaid ei fod wedi darganfod eu hymguddfan.

'Dych chi yma'n gynnar,' meddai fe.

'Fe ddaethon ni'n syth o'r ysgol.'

'Beth yw'r llythyr nhad?'

'Newydd gael hwn dw i yn nes i lawr. Does dim enw ar yr amlen.'

'Edrych tu fewn.'

Rhwygodd e'r amlen yn agored; ac arno'n ysgrifenedig roedd – '*Gwell newid y dyddiad. Y diwrnod cynta 70 gradd farh.*'

'Beth yw ystyr hyn fechgyn? Wyddoch chi?'

Adroddodd Hywel yr hanes i gyd, ac wrth iddo'i ddweud, ymddangosai'n fwyfwy annaturiol neu ffug; ac awgrymodd y dylid mynd at yr heddlu ar unwaith i'w ddadlennu.

'Does dim *rhaid* ichi,' meddai'r tad braidd yn swta.

'Ond mae'n sôn am “ladd”.'

'Efallai'i fod e, pwy bynnag yw e, efallai'i fod e'n gwybod amdanon ni yma heddiw. Yn ein gwyllo ni o bosib. A byddai rhoi cyfarwyddyd i'r heddlu – gynnon ni – yn gallu dwyn dial unionsyth arnon ni. Gwell ceisio datrys hyn ein hunain – yn dawel.'

Roedd hyn yn beth rhyfedd ac annisgwyl iddo fe'i ddweud yng ngŵydd y ddau fachgen, ac yntau'n ŵr cyfrifol mewn oed; ond ei dderbyn a wnaethan nhw braidd yn chwithig; a mynd yn ôl adre.

Dychwelodd y ddau drachefn; eithr cyn cychwyn fe gymeron nhw gipolwg ar y thermometr; roedd hwnnw ymhell o gyrraedd 70 gradd farh. Doedd dim ystyr. Cwbl ddidigwydd a diramant oedd eu cyrch i Gopa'r-eryr y diwrnod hwn felly, ac felly y diwrnod wedyn, a'r diwrnod ar ôl hynny.

'A wyt ti'n meddwl,' meddai Hywel, 'y gall fod rhywun yn chware'r ffon ddwybig arnon ni?'  
Roedd e wedi ymwared â'i amheumon o'r diwedd.

'Ond pwy? A pham?'

'Y nhad i, efallai,' meddai Hywel.

'Dy dad di?'

'Yn ceisio'n pryfocio ni.'

'Ond sut? Dy dad!'

'Welaist ti ddim mor chwithig, mor euog roedd e'n edrych pan ddaethon ni wyneb yn wyneb ag e wrth ddringo i fynd yma y dydd o'r blaen?'

'Ond sut cawn ni wybod?'

'Drwy aros.'

'Aros?'

Daeth Mehefin yn ei ysblander, a Gorffennaf ar ei ôl e. Doedd dim llawr o gynhesu ar y tywydd, serch hynny; yn wir, dyna'r ha oera ers chwarter canrif. Fel pe bai rhywun yn chwarae Ffŵl Ebrill arnyn nhw; a rhan o'r tric ysywaeth oedd nad oedd hi ddim yn Ebrill. Chawsan nhw ddim rhagor o nodiadau ar Gopa'r-eryr, er iddyn nhw ymweld â'r lle yn rheolaidd ac archwilio'n ddiwyd.

Roddodd tad Tomos ddim gwir achos iddyn nhw'i amau *fe* o gwbl. Roedd ei ddiffyg euogrwydd fel yr awyr las ei hun.

Daeth diwedd Medi, a ha bach Mihangel eitha dymunol. A phenderfynon nhw wneud un cais arall i gribor holl fangre a gweld a oedd ychwaneg o dystiolaeth i'w tywys ymhellach yn y dirgelwch. Ac yn wir, bron yn yr un lle yn union ag y cawsan nhw y trywydd cynta oll, daethant o hyd i dŷn bychan bach arall yn awr, ac ynddo, nodyn arall:

*'Datgylmir clychau'r gog,  
Daw cwlwm coed i drefn;  
Ond 'fallai na ddaw'r rôg  
Yn ôl i'w goed drachefn.'*

'Y nhad oedd e, siŵr ddigon,' meddai Hywel. 'Neu dy dad di a nhad i,' meddai Tomos, 'gyda'i gilydd. Maen nhw'n chware gêm arnon ni, dw i'n *siŵr*... Mor blentynnaidd.'

Yn *siŵr*? Ond siŵr! – a dweud am “ladd”! Ddylen nhw byth ddweud y fath beth anghyfrifol, hyd yn oed mewn sbort. Ond efallai'u bod nhw'n ein gweld ni mor blentynnaidd, yn cymryd yr hwyl ar Gopa'r-eryr gymaint o ddifri, yn ymgolli. Peth mawr yw ein colli'n hunain yng nghlychau'r gog.... Beth arall?'

'Fyddwn ni byth yn gwybod.'

A wnaethon nhw ddim chwaith. Oherwydd ar ôl hyn y daeth y gaea arnyn nhw i gyd. Gyda hunanfeirniadaeth.

#### (viii) TOMOS Y CHWECHED

Roedd y wers iaith drosodd.

Rhuthrodd Tomos gyda'i ffrind Hywel allan i'r cae cyfagos, y cae sy'n cael ei ddefnyddio dros dro yn lle iard chwarae tra bo'r gweithwyr yn aildario'r iard ei hun.

Ciciodd Hywel y bêl i'r awyr.

'A!' meddai Tomos, 'y fath aroglau sy i'r lledr.'

Edrychodd Hywel arno gyda syndod chwilfrydig – “lledr!” Eithr carlamodd e ar ôl y bêl gan weiddi, 'Dowch Arsenal! A llafarganodd, 'AR-SEN-AL! AR-SEN-AL!'

Ond tawedog oedd Tomos, a disymud mewn gwirionedd. 'Dere,' meddai Hywel, tra na wnâi Tomos ddim ond sefyll yn stond a'i wyllo. 'Beth sy'n bod?' gofynnodd Hywel wedyn.

'Does dim eisiau *chwarae* pêl-droed,' meddai Tomos. 'nid dyna'r hwyl.'

'Beth wyt ti'n feddwl?'

'Gwranda ar glec y bêl, yn gras ac yn ffres yn yr awyr wrth iti ei chicio hi.'

'Paid â chaboli. Dere,' ac wrth geisio lled-edrych ar Tomos a rhoi pennad i'r bêl yr un pryd, dymchwelodd Hywel ar y llawr yn bentwr.

'A chyffyrddiad gwydn-feddal y llaid dan dy ddwylo wrth gwympo,' ychwanegodd Tomos. Yna, gloywodd geiriau Tomos ym meddwl Hywel, a chanfu e mai cyfeirio'n ôl yn wawdus roedd ei gyfaill at y wers lenyddiaeth ynghynt a'r paldaruo gan yr athro iaith (hen fyfyrwr i John Gwilym Jones) am '*synwyrusrwydd*' ac ati. Chwarddodd e'n uchel wrth godi. 'Eitha reit,' meddai gan wenu. 'nid pêl-droed yw'r sbort... ond arogl'r cymysgedd o awyr ffres a phorfa a llaid sy'n cael ei gicio. O! Mae'n braf.'

'Y pum synnwyr am byth,' gwaeddodd Tomos.

'Y pum synnwyr!' Bloeddien nhw ynghyd, a rhuthro gyda'i gilydd at y bêl.

Wedyn, anghofien nhw bob dim am y wers lenyddiaeth wrth ymroi'n egnïol i daclo. Rhuthren nhw hyd y cae ben bwygilydd. Chlywsai Tomos (a'i synhwyrâu) ddim gwell mwyach. Roedd ei arogl i' flas academaidd bellach ar stop. Pan chwaraeai, fe ganolbwyntiai'i holl rymusterau'n syml ar y bêl; ymroddai i'r gwaith o daclo ac o gicio fel pe bai achub y byd yn dibynnu ar ei unplygrwydd llwyr. Doedd dim arall yn bod. Roedd ei feddwl, a symudiad y bêl, yn un. Roedd pêl-droed yn dasg o ddifri. A'r pryd hynny, wrth gwrs, roedd yn gallu sgorio.

Yn sydyn, sut bynnag, wrth gicio, rhaid bod troed Tomos wedi taro'r ddaear yn lletchwith drwsgla heb gwrdd â'r bêl o gwbl. Ond roedd pelen ei ben-glin wedi'i gwyrddroi allan o'i lle, a'i goes yn poeni'n dost. Syrthiodd i'r ddaear mewn gwewyr, a'i holl synnwyr am y tro yn jibidêrs.

Eisteddodd mewn poen yn awr a'r gêm wedi 'penderfynu' drosto fel y dywedodd, heb ddiben yn y byd ond aros, a heb wybod pa beth i'w wneud. Roedd Hywel druan yn bryder i gyd amdano, ac yn ffwdanu fel ci o gwmpas ei feistr, a'r ddau fachgen yn syllu'n hurt ar y pen-glin, a'r bêl benarglwyddiaethol wedi'i hanghofio'n lân mewn brwydr ac yn gorwedd mewn cywilydd ryw bum llath i ffwrdd.

Eistedd ac aros a wnâi Tomos, heb wybod chwaith pa beth yn hollol yr arhosai fe mwyach amdano, – nes iddo sylweddoli fod yna rywbeth melyn yn nofio ar ymylon ei ymwybod ei hun. Ffrog felen, nid annhebyg i liw ambell iâr-fach-yr-ha afresymol o nefolaidd yn fflapian ei hadenydd. Doedd Tomos erioed wedi sylwi arni o'r blaen. Roedd e'n gwybod amdani hi yn y dosbarth, yn eistedd mewn desg ryw ddwy res oddi wrtho, ac wrth gwrs fe wyddai'i henw, ac roedd yn cydnabod ei bod hi'n ferch fach ddel. Ond doedd e ddim wedi 'sylwi' arni.

Siân!



Safodd hi, heb fentro'n nes, o fewn golwg i'r pen-glin gwyrddoedig. A'i hwyneb hi fel y galchen.

'Wyt ti'n nyrs?' galwodd Hywel arni.

Atebodd hi ddim. Rhyw fath o wraig yn disgwyl yr arwr yn ôl o'r rhyfel oedd hi. Neu Olwen, wrth wylled Culhwch yn cyrchu drwy helyntion fyrdd er mwyn ei chyrraedd hi, newydd ei weld e'n cael ei drechu gan un o'r lleia o'r dreigiau yng Nghymru.

'Wyt ti'n gwybod rhywbeth am dorri coesau i ffwrdd?' holodd Tomos. Roedd am ei phryfocio hi er mwyn dianc oddi wrth ei hunan a'i bum synnwyr.

Ond gwneud ei gwaith yn dawel a bod yn bert, dyna'r unig ddau gymhwyster anefnyddiol a oedd gan Siân, efallai. Addurn oedd hi mewn argyfwng o'r math hwn.

Tua'r amser hwn bob dydd hefyd, byddai ci Hywel yn ymweld â'r cae ar bwys yr ysgol er mwyn cael cipolwg ar ei feistr bach yn ystod yr egwyl chwarae. A dyma hwnnw yn awr, Smot, yn llamu ar draws y cae, ac yn rholio ar wastad ei gefn ar y glaswellt, a'i goesau'n anwylo'r awyr. Nid oherwydd ei fod am ymarfer, nac ychwaith er mwy crafu'i gefn a lladd rhyw gosi a oedd yno, ond yn syml oherwydd bod bywyd mor gyffrous ac oherwydd ei fod yn gwbl gyfforddus ar ei gefn, ond roedd ganddo foddhad llwyr, yn y safle blaenorol cynnes hwnnw gymaint, nes bod rhaid iddo rollo drosodd i'w golli'i hun a'i fynegi o'r newydd fel hyn yn ei synhwyrau noeth i gyd.

'Cŵn!' ebychodd Hywel yn ddirmygus.

Roedd yr 'addurn', sut bynnag, wedi closio erbyn hyn; a syllai hi i lawr ar Tomos drwy ei dau lyn glas, a'i chymylau o wallt gwinau hir yn hofran am ymylon y llynnoedd hynny fel niwl Hydref.

Closiodd hi wedyn. Ac yna, cydiodd yng nghoes Tomos heb ddweud odid ddim. Symudodd a thynnodd y goes honno ychydig.

'Ai *fi* yw dy gariad *cynta* di?' pryfociai Tomos o'r llawr. Ond allai fe ddim meddwl am ddim ond ei ben-glin, mewn gwirionedd.

'Nage.'

'Yr ail?'

'Na.'

'Y trydydd?'

'Na.'

'Y pedwerydd?'

'Na.'

'Y pumed?'

Siglodd Siân ei phen yn eithafol o negyddol, o dde i aswy, o aswy i dde, ac yna rhedodd i

ffwrdd.

'Cywilydd arna i,' meddai Tomos.

"Ydy hi'n poeni nawr?" gofynnodd Hywel. 'Dy goes.'

'Ydy, ond mae hi beth yn well.'

'Elli di godi?'

'Gofyn i Siân ein helpu ni 'to.'

'Doeddwn i ddim o ddifri, fachgen,' meddai Tomos, ond roedd hi'n rhy hwyr bellach, ac roedd Siân wedi gwibio'n ôl atyn nhw, yn ei melynder gogoneddus i ailymuno â'r ddau.

Ceisiodd Tomos, gyda help y bachgen a'r ferch, ymgodi ar ei draed, ac wrth iddo symud ei goes gwingodd mewn poen newydd; ond yr un pryd, oherwydd iddo ddefnyddio rhai o'r cyhyrau a symud mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, trodd y pen-glin drachefn a chliciodd y belen yn ôl i'w lle.

'Dyna well,' meddai Tomos.

'Ydy hi'n gwbl iawn?' gofynnodd Hywel. 'Ydy hi wedi mynd yn ôl yn sownd?'

'Ydy, greda i,' heb fod eisiau colli'r holl gydymdeimlad yr un pryd.

'Sut mae'n teimlo'n awr?'

'Yn od. Ond O! Yn well. Yn braf.'

'Dw i mor falch,' meddai Siân.

'Wel! Diolch iti, Siân,' meddai Tomos. A gwenodd hi yn fodlon ac yn afieithus; ac yna, heb aros i'r hud chwalu ac i'r pryfoc ailddechrau a distrywio popeth, trodd ei melynder a hedfan i ffwrdd draw'n ôl at yr ysgol.

'Rwy'ti wedi'i gwneud hi nawr, Tomos.'

'Efallai'n wir.'

'Nid pawb sy'n diodde gymaint er mwyn cael cariad.'

'Beth oedd y rhif hefyd? Nid fi oedd y pumed cariad, dyna ddwedodd hi ynte?'

'Ond roedd hi wedi dianc cyn iti holi am y chweched, fel pe bai hi'n ofni'r chweched.'

'Mae yna obaith, felly.'

Canodd cloch diwedd chwarae, a heidiodd y plant yn braidd fesul dau, drwy'r lliidiart.

Cerddai Tomos yn ofalus, ac yn nerfus, ar ei ddwy goes yn ôl tua'r ysgol, fel pe bai'n disgwyl i un ohonyn nhw ymddatod unrhyw bryd eto.

\*

\*

\*

Roedd Mr Davies, eu hathro iaith nhw, wrth y drws pan ddaethan nhw yn ôl i mewn i'r adeilad.

'Gêm dda, fechgyn?'

'Go dda oedd y gêm, syr. Ond y synhwyro oedd brafia,' meddai Tomos.

'Beth dach chi'n feddwl?'

'Y pum synnwyr – blasu ac ati,' meddai Tomos drachefn.

'O! Ie, siŵr o fod,' meddai Mr Davies gan chwerthin yn galonnog. 'Efallai ei bod hi'n well chwarae heb y rheina ambell waith y tro nesa, fechgyn. Ond da chi, peidiwch â mynd heb y chweched.'

'Y *chweched* synnwyr?' gofynnodd Tomos....

'Yr un *cyffredin*.'

'Dim ond y peth bach tila lleia yw hwnnw, syr, gyda ni, dwi'n ofni.'

#### (ix) ARWYDDBOST TOREDIG

Ymhlith coed Aber-ffrwd roedd yr un goeden yma'n sefyll fel arwyddbost du toredig, a'r breichiau briw yn cyfeirio i rywle rywle, ond heb ddweud yn union ble. Nid henaint yn unig a'i troesai fel hyn, ond mellten mae'n debyg; ac wrth i'r ddau gyfaill nesáu'n barchedig ymchwilar ati, sylwon nhw ar y chwilod a'r cynrhon a'r pryfetach hirgoes a oedd yn berwi drwyddi. Wele'r tad-cu, a'i ŵyr Tomos yng ngŵydd cwestiwn o bren.

'Mae e fel dyn,' meddai'r tad-cu.

Roedd Tomos wedi'i syfrdanu, a chydiodd yn dynnach yn llaw ei dad-cu.

'Mae e fel bwgan, yn sefyll i'n dychrynu ni. Wyt ti, dad-cu, yn coelio fod yna fwganod?'

'Mae hwn yn eitha bwgan, ta beth.'

'Cerflun yw e. Model. Ddim *bwgan* iawn,' meddai'r crwt gan glosio'n fwy ewn bellach. Ond a ddwedet ti fod yna fwganod go iawn i'w cael?'

'Yma yn Aber-ffrwd?'

'Rywle.'

'Pa fath o fwganod?'

'Rhai bach cyffredin. Sy'n sefyll yn y cysgod i hala ofn arnon ni. Ti'n gwybod.'

'Wel, edrych ar hwn. I'n llygaid ni, does dim byd fan hyn ond coeden wedi pydru. I'n meddwl gwyddonol i,' meddai'r hen ŵr, 'fe allet ti esbonio'r golwg a'r cyflwr i gyd. Purion. Ond dwi'n credu... '

Ac yna, stopiodd – naill ai am fod y cyfan roedd e'n ei gredu'n rhy anodd i'w esbonio i'r bychan hwn, neu oherwydd ei fod e newydd sylwi ar ryw elfen riniol yn y goeden a oedd yn cadarnhau'i gred.

'Ie, dad-cu?'

'Dim ots.'

'Wel, dad-cu?'

'Dwi'n credu fod gan bethau fel hyn, yn wir gan bopeth, ystyr sy heb fod yn faterol. Mae yna ddimensiwn arall. Does dim rhaid deall pethau er mwyn rhyfeddu... Ond dyna fe: ddeelli di ddim o *hynny* ar hyn o bryd; ac mae yna rai pobol na ddeallan nhw fyth.'

'Meddwl wyt ti fod gan y goeden yna ysbryd.'

'Wel, mi ddwedai rhai pobol bethau felly ers talwm.'

'Dyna rwyt *ti'n* ei ddweud?'

'Na, o leia, nid fel yna'n hollol.'

'Wel, dad-cu.'

'Cred di fi, Tomos, mae yna ysbryd ar waith yn y byd oll, oes, sy'n peri bod planhigion ac anifeiliaid, a thi a fi, Tomos, yr holl fydysawd, yn darfod, yn madru ac yn llygru. Mae yna bydredd yn y canol. Edrych ar y mhen moel i; ddim yn annhebyg iawn i'r goeden yma. 'Run ysbryd sy wrthi. Mae e ym mhobman.'

'Ydy. Ond dyw hwnnw ddim yn berson.'

'Paid di â bod yn rhy siŵr.'

'Mae e'n greadur gweithgar iawn pwy bynnag yw e.'

'Hen fysedd hir a threiddgar sy gydag e Tomos.'

'Ond oes na ysbrydion *da* hefyd?'

Roedd Tomos am newid y pwnc, oherwydd roedd oedi yn rhy hir ac yn ddifri gyda'r coelio arallfydol yma'n tueddu i hala ysgryd arno. A synhwyrai ei dad-cu hynny. Er mai gwiw yw i ni oll weithiau beidio â chael ein tynnu'n ôl yn gyfleus allan o ddychrynfeydd ymosodol y twll canol yn ein bodolaeth, roedd y tad-cu'n gwybod y câi Tomos ei ddychwelyd i'r perwyl hwnnw'n hen ddigon buan.

'Dere lawr i weld yr afon,' meddai Tomos.

'Oes: mae yna ysbryd braf yno hefyd.'

'Edrych, mae ei hwyneb hi'n mynd ymlaen ac ymlaen.'

'Gwranda, Tomos. Ust! Wyt ti'n gallu clywed y distawrwydd yn golchi drosot ti?'

Arhosodd y crwt yn ei frwdfrydedd disgwylgar a phwysu'i glust ar yr awyr.

'Ydw;' ond doedd e ddim, ddim yn iawn, ddim yn llwyr uniawn, beth bynnag.

'Ar y mhen yn hun dw i'n dod yma fel arfer, Tomos... ' meddai'i dad-cu. 'A'r pryd hwnnw dw i'n gallu ymglywed yn ddyfnach â phethau. Mae rhai pobol yn leicio dal bod yr ysbrydion y buon ni'n sgwrsio amdany'n nhw gynnau yn amheronol; fel pethau; ond paid â'u credu nhw. Nid pethau ydyn nhw. Os defnyddi di ddyfnderoedd dy ysbryd dy hun – yn syml ac yn lân – chei di ddim gormod o anhawster i amgyffred sut maen nhw fel pobol.'

'Wyt ti'n gallu nabod yr hen goeden yna hefyd, honna gynnau?'

'Wel, ydw, mae honno'n gyfarwydd hefyd, gwaetha'r modd.'

'Achos dy fod di'n hen?'

'Efallai. Mae'n yn nilyn i, rywfodd. Erbyn hyn, yn arbennig os bydda i oddi cartre, mae'r hen foi sy wrthi'n trigo yn y goeden yna yn hoff iawn o glosio ata i. Yn wir, mae e'n meddwl mai fi yw'r goeden ac mae e'n crwydro mewn a ma's ohono i fel cartre iddo'i hun. O leia dŷn ni'n gryn gymdogion.'

'Ych-a-fi,' meddai Tomos. Doedd e ddim yn credu bod ei dad-cu o ddifri; ond efallai ei fod e.

'Ie, ond edrych ar yr afon 'na.'

'Mae hi'n dlws.'

'Yr ysbryd sy'n gwneud hynny hefyd, wyddost ti. Nid damwain yw syfrdandod.'

'Mae gan hon hefyd ystyr dad-cu.'

'Oes Tomos: rwyt ti wedi'i gweld hi.'

'All y buchod draw fan 'na ddim deall hynny.'

'Na. Na'r defaid na'r clêr uwchben y dŵr, na'r adar hyd yn oed. Dim ond ni. Maen nhw'n gallu ymateb. Ond dim ond ni all ddeall ychydig; ac yn wir, mae yna rai ohonon ni sy'n ceisio peidio â deall.'

'Dw i'n mwynhau hon,' meddai Tomos, yn cyfeirio at yr afon.

'A minnau.'

'Edrych ar y crychau mân. Nid ar y dŵr i gyd. Ond ar y manion bach o ddŵr. Closia.'

'Rwyt ti wedi'i gweld hi, Tomos.'

'O! Na, tipyn bach efallai, dad-cu. Bach, bach.'

\* \* \*

Mae'n rhyfedd mai dyna hefyd a gofiai Tomos yn awr wrth aros ar ei ben ei hun am ei drên yng ngwacter mawr gorsaf Montparnasse ym Mharis. Roedd yr ymddiddan wedi digwydd ddau fis ynghynt, ac roedd y cwbl mor ddibwys, rywfodd, fel na feddyliai byth y byddai'r tro bach hwnnw gyda'i dad-cu yn Aber-ffrwd yn mynnu procio'i gof yn awr wrth iddo oedi yn yr ystafell aros gan ddisgwyl y trên i'r gorllewin.

Gweld arwyddbost toredig tal wrth ddod i mewn i orsaf Montparnasse a gynyrfasai'r atgofion yn ddiau i ddechrau. A theimlo unigrwydd. A dilyn hwnnw.

Roedd ei rieni wedi trefnu iddo ddod drosodd i Le Mans i fwrw ychydig o wyliau Nadolig ac i ddysgu peth Llydaweg gyda'i 'ewythr' Yan, ffrind ei dad-cu; ac oherwydd fod ei fam yn mynd i'r ysbyty gartre yng Nghymru. Eisoës roedd yn ddychrynlyd o unig. Eisoës roedd y munudau, fel slasiadau cyllell i mewn i'w arleisiau, yn gwasgu ar ei gernau, ac yn pwyso y tu ôl i'w lygaid. Doedd

dim llawer o flas ar y brechdanau.

Cofiai lygaid ei fam wrth iddi ffarwelio ag e ar ei ffordd yn ôl i'r ysbyty.

'Wedi gwaethygu ychydig,' meddai Dr Morus.

'Os,' meddai'i dad gyda chymaint o bendantwydd ag sy'n bosibl i 'os', 'os bu llwyddiant unwaith, fe allwn ni ddisgwyl llwyddiant eto.'

Ond ddywedai llygaid ei fam ddim byd ond ffarwél.

Roedd Tomos mewn gwirionedd yn rhy ifanc i ddod ar daith fel hon. Pan gafodd y gwahoddiad gan ei ewythr Yan, roedd e wedi llawenhau. Doedd dim angen iddi geintachan am gael mynd. Ac yn awr, roedd holl ffolineb yr uchelgais i deithio – ar ei ben ei hun – dros y môr i Ffrainc wedi dial arno.

'Paid di â phryderu am mam, Tomos,' meddai'i dad wrtho wrth ei hebrwng e i'r orsaf ar gyfer y daith dramor. 'Peth hollol anymarferol yw becsan. Ddaw dim lles ohono o gwbl. Wnaiff fawr o fudd i dy fam. Ddaw dim lles ohono o gwbl. Cwrs arall o gyffuriau, ac mi fydd hi'n ôl gyda ni'n sioncach nag erioed.'

O na bai ei dad-cu gydag e nawr i bicio o fan i fan yn yr orsaf, i archwilio'r Métro gerllaw, yr ystafelloedd bwyd, yr ystafelloedd aros, i ladd amser gydag e. Ond allai'i dad-cu ddim lladd amser; bwystfil byw llethol oedd hwnnw a oedd yn ei ladd e. Neu'n hytrach yn ei fwrw fe i'r llawr â'i bawen, ac yn ei oglais, a'i anadl twym yn drewi yn ei ffroenau, yn barod i'w fwyta.

Oni bai iddo weld yr arwyddbost toredig wrth ddod i mewn i'r orsaf, fynnai fe ddim cofio dim am ei dad-cu, a byddai'i chwilfrydedd ynghylch newydd-deb yr orsaf, gwedd ac iaith y bobl, y preblian a'r baldorddi, yr hysbysebion astrus ym mhobman, yr her o ymweld â gwlad estron, byddai'r cwbl hyn wedi mygu pob mymryn o unigrwydd cyn iddo egino, a buasai Aber-ffrwd wedi sengi i mewn i ystafell aros freuddwydiol Montparnasse.

Ond roedd e hefyd wedi blino'n lân ar yr anturiaeth fawr hon.

Rhaid oedd iddo ymdrechu i beidio â chysgu. Pe bai'n hepiant am eiliad, rhwydd y gallai fe gollu pob ymwybod, a hwylio i ffwrdd o Montparnasse a phob cyfrifoldeb arall, a cholli trê. Hunllef iawn a phendro efallai oedd aros ar ddi-hun; ond llwyddo a wnaeth, ac aeth yr oriau heibio drwy iddo ddychmygu hanes hwn a'r llall a eisteddai gyferbyn ag e yn yr ystafell aros.

Doedd yno neb eithriadol o ddiddorol i'w weld. Eithr câi ei lygad-dynnu bob hyn a hyn gan fachgen ifanc y tu allan i'r ystafell-aros, draw ar bwys yr arwyddbost toredig, bachgen diniwed ei olwg ychydig yn iau nag e, a oedd yn wylo, mygu'i wylo. Blinai'r crwt hwnnw bob yn awr ac eilwaith, neu fe sychai'i ffrydlif am ei fod yn methu â dal ati. Ac roedd yntau hefyd yn aros am rywbeth, neu ar goll efallai.

Gwyddai Tomos, pe bai'n mynd ato i dorri gair, mai ofer fyddai'r cais, gan mai Ffrangeg oedd iaith hwnnw yn ôl pob tebyg; a fedrai Tomos ddim mwy nag ychydig o eiriau o'r iaith honno. Roedden nhw'n ddau grwt a gydiwyd wrth ei gilydd gan bont o anhapusrwydd, ond rywsut roedd yr afon o unigrwydd a lifai odani hi wedi codi ac wedi ewynnu gymaint yn erbyn ystyllod y bont honno fel na allai undyn byw ei chroesi mwyach y dydd hwnnw.

Ychydig funudau cyn cyrraedd o'i drên, penderfynodd Tomos yr âi e draw yn awr at y crwt hwn, o leia er mwyn dweud '*Bon jour, ça va.*' A phlygodd i godi'i gês a'i gwodyn; ond yn ystod yr eiliad honno o blygu i hel ei bethau at ei gilydd, roedd rhywbeth wedi digwydd. Doedd y crwt ddim i'w weld yn unman. Sbiodd Tomos hwnt ac yma i bob cyfeiriad, ond rhaid bod y crwt wedi rhedeg i ffwrdd i mewn i'r dyrfa, wedi gweld y person yr arhosai amdano, ac wedi diflannu'n ddisyfyd, a bwriad da Tomos wedi colli gydag e. *Rhaid* mai rhedeg i ffwrdd a wnaethai'r crwt – nid diflannu'n arallfydol oruwchnaturiol...

Dyna'n union nawr sut y cofiodd Tomos am y goeden yn Aber-ffrwd, ac am eiriau ei dad-cu ynghylch ysbrydion.

Gyferbyn â Tomos yn yr ystafell aros ar yr orsaf roedd yna hen wŵr yn eistedd ac yn ymddangos yn ei ffordd ei hun yn hynod sinistr. Dechreuai Tomos bendroni amdano. Roedd e wedi'i wisgo'n gyfan gwbl mewn du. Roedd ganddo farf ddudew ac roedd cudynnau hirion o wallt tywyll, i lawr hyd at ei ysgwyddau, fel y fagddu. Roedd ei ben yn wynebu i gyfeiriad Tomos; ond nid ar Tomos yr edrychai'r hen wŵr, eithr drwyddo at fachgen dieithr – fel pe na bai Tomos yno – fel pe bai'n syllu drwyddo at y wal y tu ôl.

Cofiai Tomos nawr. 'Mae yna ysbryd ar waith yn y byd, Tomos, sy'n peri bod planhigion ac anifeiliaid, a thi a fi, yr holl fydysawd, yn darfod, yn madru ac yn llygru. Ac yn diflannu.' ... Geiriau'i dad-cu, am bawb felly.

Dyma'r hen wŵr hwn yn awr yn yr orsaf yn tanio'i getyn yn jocôs. A meddyliodd Tomos, rhaid nad oedd e mor erchyll ag y tybiasai ynghynt. Dwys efallai, ond nid maleisus. Allsai dyn a daniai'i getyn fel 'na ddim bod yn erchyll, oherwydd bod yr osgo hamddenol angenrheidiol a'r agwedd gartrefol ar gyfer tanio cetyn yn siŵr o'i arafu a'i wareiddio rywffordd.

Gobeithio.

\* \* \*

Yn ei gerbyd bu Tomos yn ddigon ffodus i gael sedd gornel gyferbyn â gŵr busnes tenau sbectolog a ymroddodd i hepian yn fuan ar ôl iddo ymsefydlu yn ei le. Roedd Tomos yntau'n flinedig ac yn gysglyd nawr. Ond roedd hefyd yng nghanol môr o newydd-deb. Doedd yr hyn a oedd yn chwithdod rhyfedd iddo fe ddim yn chwithdod i bawb.

Teimlai Tomos bellach ei fod mewn byd arall. Doedd dim un lle ar ôl yn y cerbyd yn wag; a

chyn i'r trê'n gychwyn cafodd Tomos gyfle i lygadu ryw ychydig ar bob un o'r teithwyr eraill. Gweithiwr ffatri cyffredin a chanddo ddwylo gwastad fel rhawiau a oedd yn nesa ato ar y chwith, a chyferbyn â hwnnw gwraig ifanc gyffredin orfronnog a'i ffrog hi'n anghyfforddus o fyr. Yn nesa ati roedd mam ganol oed a'i merch tuag un ar bymtheg; a chyferbyn â nhw, ar yr un ochr â Tomos, fel na allsai sbio arnyn nhw'n hwylus iawn, roedd yna hen wŕ a'i wraig a'u croen yn frown a'u dillad yn frown a'u dau drwyn mor agos at ei gilydd fel petaen nhw am ddarparu sianel i frownderau priddlyd y cerbyd i gyd redeg fel cerrynt yn ôl ac ymlaen i'w gilydd... Nhw. A'r gŵr busnes cysglyd.

Cychwynnodd y trê'n; ac am yr hanner awr cynta cafodd Tomos hen ddigon o ddi-ddanwch wrth syllu allan drwy'r ffenest ar yr adeiladau a'r strydoedd dieithr, ac yna ar y wlad, yn gaeau, yn ffermydd ac yn bentre. Doedd e ddim wedi blino, neu o leia ddim yn ei aelodau bellach, ond roedd ei lygaid wedi blino ar y symud rheolaidd ac undonog o'u blaen nes eu mesmereiddio nhw bron.

Ac eto, rhaid ei fod wedi blino mewn ffordd arall ychydig, rhaid ei fod. Trodd ei ben i edrych yn ôl ar ei gyd-deithwyr, ac roedd y rheini am eiliad fel petaen nhw'n parhau ar ddi-hun yn symudiad rhithiol y pethau anhysbys y tu allan i'r ffenest, a oedd yn gwibio heibio iddo fe o'r dde i'r chwith ac yna'n parhau y tu ôl i'w gefn, mewn esgus breuddwyd, oll yn gwibio heibio fel rowndabowt tragywydd. Roedden nhw oll wedi ymladd â phob cwsg. Roedd y gŵr busnes wedi ildio i gysgu, yn wir wedi ymgladdu ymhellach i mewn i'r gors honno nes ei fod fel pe bai'n graddol dynnu'r sedd a'r parwydydd hefyd, a hyd yn oed ei gyd-deithwyr, gydag e yn ddyfnach o hyd i'r gors honno. Bellach, cripiar gŵr brown a'r wraig frown drwy gil llygaid Tomos, a Tomos gan bwyll yn ildio i hepian ac wedi ymuno'n llwyr â'i gilydd, a rhawiau'r gweithiwr yn palu ynddyn nhw gan daflu talpau o dir ar draws y wraig ifanc orfronnog nes bod honno'n breuddwydiol sgrechian fel injan dân ambell dro, a gwenai'r wraig ganol oed a'i merch tuag ato fe'n orfelys ac yn gyson heb ddweud dim, fel pe baen nhw am ei foddi fe yn nyfnder eu gwenu. Doedd dim syndod fod Tomos yn cael ei fesmereiddio. Cododd y gŵr brown un fraich wrth iddo ddweud rhywbeth pwysicach na'i gilydd, ac roedd y fraich honno wedi pydru i gyd fel cangen, yn frown ac yn plisgo fel rhisglen. Siglar'r fraich yn y gwynt, a disgwyliar Tomos weld tylluanod neu frain yn hedfan i ffwrdd oddi wrthi. Symudai boncyff yr hen wŕ yn ôl ac ymlaen, ac yn awr sylwodd Tomos fod yna hollt i lawr ar hyd ei myl fel pe bai e wedi cael ei daro gan fellten; ac yn yr hollt roedd chwilod mawrion a chynrhon a phryfetach hirgoes yn ymlusgo, a rhai ohonyn nhw'n dianc rhagddo ac yn cripiar ar draws y llawr, dros esgidiau'r gweithiwr ffatri yn ôl i gyfeiriad Tomos. Ceisiodd Tomos ladd rhai ohonyn nhw â'i droed; ond deuai ychwaneg ar eu hól fel pe bai cronfa ddi-hysbydd ohonyn nhw yn ystlys y gŵr brown. Gwenai'r wraig ganol oed a'i merch fel blychau o awyr las rhwng canghennau'r goedwig. Roedd eu croen nhw'n las ac yn glir heb gwmwl arnyn nhw yn un man. A gallai Tomos rythu arnyn nhw fel hyn am byth i fwynhau'u gloywder. Ysgydwai'r gŵr brown ei fysedd hir a



threiddgar, mor wahanol i rawiau'r gweithiwr ffatri. Oddi ar y silff weog uwchben y sedd, roedd yna gês bach, a gwmpodd yn ddisymwth heb ei ddisgwyl ar gôl y wraig orfronnog. A dihunodd pawb. Roedd gwraig ifanc dlos wedi bod wrthi'n ceisio codi'i chês bach i ffitio wrth ei hochr, a syrthiodd.

Gyda chwmp y cês bach, dihunodd pawb yn y cerbyd. Ac edrych ar ei gilydd yn sydyn. A chwerthin gyda'i gilydd fel petaen nhw wedi cyd-sylweddoli beth a ddigwyddasai.

'Ga i'ch helpu chi?' cynigiodd y gweithiwr ffatri i'r wraig ifanc.

Ond y mae ymostyngiad ambell un yn sarhad i hydeimledd merch. Fe'i gwneir fel pe bai'n gwro tuag at blentyn bach, a'i gynnig gan ragdybied uwchraddoldeb sylfaenol.

Fflamiodd yr anesmwyth yna a brofai hi'n wastad yng ngŵydd gwrywod yn fflagl dân i'w gruddiau er mwyn goleuo'r sen a fwriai fe arni hi. Llyfai'n gochni cyfoethog, ffeministaidd hyd fôn ei gwallt. Atebodd hi ddim. Ac yna, suddodd y tân yn ôl i'r cerbyd fel tomen o lwch distaw rhyngddyn nhw nes bod geiriau'r gweithiwr ffatri yn claddu yn awyrgylch y cerbyd gan gael eu byddaru yn nhrwch y fflwcs meirw.

'*Mademoiselle* annwyl,' meddai fe'n driagl ffres i gyd. 'Ydych chi'n teimlo'n anhwylyd?'

Yn ddisymwth daeth anhwylder anochel heibio iddi – y diflastod yna a gorddai yn llwnc ei gwddf wrth iddi glywed ei nawddogolrwydd uwchraddol e'n nesáu ati yn y cerbyd mwll drwy beswch sur o ddiflastod yn codi o'i brest. Ebychodd hi ryw eiriau llesg annealladwy fel pe bai hi am ennyn diddordeb rhyw angyles waredol.

Ceisiodd pawb yn y cerbyd eu hanwybyddu.

Ond suddo'n ddyfnach, ddyfnach, yn ôl i'w gragen heb glywed dim a wnâi'r gŵr busnes yr ochr arall i'r cerbyd, ac roedd Tomos yn barnu mai fe oedd ddoetha. Fe drôl gwenau'r wraig a'r ferch yn awr yn gylch crwn parhaol o flaen ei lygaid e, gan dynnu ei lygaid ar eu hôl, fel pe baen nhw'n anfodlon iddo syllu o hyd tuag at y gŵr brown yn cyfeirio â'i fraich i rywle. A dechreuai Tomos bendroni o'r newydd. Tua ble'r oedd y gŵr brown yn arwyddo tybed? Beth oedd e'n ceisio'i ddangos?

Disgynnodd llygaid Tomos i gyfeiriad y bys estynedig allan drwy'r ffenest yr ochr arall i'r cerbyd lle'r oedd trên arall yn rhedeg yn gyfochrog â hi. Yn y cerbyd acw'n pasio roedd yna fachgen bach yn crwydro ar goll ac yn wylo, wylo. Blinai'r crwt hwnnw bob yn awr ac eilwaith, neu fe sychai'i ffrydlif am ei fod e'n methu â dal ati am dro. A chrymai'i ben wrth rodio yn ei flaen ar hyd y llwybr, wrth gerdded linc-di-lonc wedi ffarwelio â'i fam.

Roedd hyn oll yn hunllef wedi'i gwneud gan wlad estron.

Teimlai Tomos ei fod e wedi gweld y crwt yn mynd am dro yn Aber-ffrwd a'i law'n cydio yn llaw ei dad-cu ac yn siarad ag e am y coed, ac yna'n mynd i lawr i weld yr afon, ie yr afon Gymreig, yr afon yna lle'r oedd yna bysgod a llyg-y-dŵr a... a distawrwydd yn golchi drostyn nhw, dros bob

cainc, dros bob trychfilyn, nes caniatáu iddyn nhw bob un ymglywed yn ddyfnach â phethau?...

Gwenodd Tomos wrth gofio'i dro gyda'i dad-cu.

'Wyt. Dyna ti. Rwy'ti wedi'i gweld hi, Tomos. Rwy'ti'n dechrau deall.'

(x) ANGEL PASG

Cafodd y Gwanwyn ei organmol gan y beirdd. Doedd y pethau hanfodol ddim yn digwydd yn y tymor hwn, hyd yn oed yn ystod Gwanwyn heulog a theg fel a gaed eleni. Mae ambell Wanwyn yn fwy aneffeithiol na'i gilydd. Roedd ei dad yn cerdded gyda Tomos bach ar hyd llwybr tarw drwy'r fynwent ar eu ffordd i'r dre, y bychan i'r ysgol a'i dad i'r swyddfa, drwy'r tywydd ffres, ac yn sylwi ar aneffeithiolrwydd y gwres hyfryd i wneud fawr o ddim sylweddol eleni i olwg y coed. Roedd y borfa'n lasach ac yn fwy graenus, efallai. Roedd yr adar yn llonnach ac roedd yr hin yn gynhesach – am y tro, rywfaint. Ond doedd y coed ddim yn cymryd y Gwanwyn o ddiifri; roedd arnyn nhw eisiau gweld mis Mai. Roedd hi'n wir eu bod nhw'n mentro gwthio ychydig o flagur i'r golwg, ond prin eu bod nhw'n agor dim. Doedd dim sicrwydd o gwbl fod y Gaeaf wedi ymadael yn bendant, ac nad oedd yn mynd i droi'n ôl yn llechwraidd filain, i gnoi rhagor o leia hyd nes bod y mis Mai addawedig wedi cyrraedd yn ddiogel.

Adeg y Pasg, fel arfer, fe ddaw llif o ymwelwyr i'r fynwent er mwyn ei bywiocáu â'u blodau. Safodd Tomos o flaen un o'r angylion marmor di-chwaeth yna y mae rhai'n mynnu'u gosod ar feddau'u hanwyliaid, fel tylwyth teg ar gacen pen blwydd; a gofynnodd iddo neu iddo ef ei hun, 'Pam mae'r Pasg mor hwyr eleni?'

Roedd hi'n hwyr iawn, yn bendifaddau. Eisoedd roedd yn Ebrill y nawfed, a byddai'n rhaid aros ychydig cyn dyfod Sul y Pasg. Roedd y tymor yn yr ysgol wedi bod yn hir dros ben i'r plant – ac yn hwy byth i'r athrawon, – a phawb wedi hen flino ar arferoldeb llethol y gwaith beunyddiol.

'Sut maen nhw'n clandro'r Pasg?'

Edrychodd y tad ar lygaid gwag a hollwyn yr angel wrth glywed cwestiwn Tomos. Nid dyma'r math o wybodaeth y byddai'n hoff o'i chynnull, rywsut.

'Mae'n ymwneud rywbeth â'r lleuad. Y Sul cynta ar ôl y lleuad lawn sy'n dod ar 21 Mawrth neu'n fuan wedyn. Mae'n gallu disgyn felly ar 22 Mawrth; ond fe all fod mor ddiweddar â 25 Ebrill. Mi fuon nhw ar un adeg yn y Senedd yn ceisio rhoi stop ar symud y dyddiad, a chytuno ar Basg sefydlog, ond ddaeth dim byd ohoni.'

'Fydda i byth yn sylwi pryd mae'r lleuad yn llawn.'

'Fe ddylet ti fod yn fwy sylwgar te.'

'Dyw angylion ddim yn sylwi chwaith, am wn i.'

Wel, dyna un ffordd o feddwl am y peth, yn ddiâu.

Ffarweliodd y tad â'r crwt ac ymlaen ag e i'r swyddfa. Aeth y bychan yn ei flaen i'r ysgol, ac i'r gwasanaeth boreol. Yno, ar ôl ledio emyn, dechreuodd yr hen Jinks (y prifathro), siarad â'r plant am y Croeshoeliad; ac roedd fel pe bai'n eu siarsio nhw'n annaturiol o ddwys, anarferol felly, mewn gwirionedd, i gofio bod y Pasg yn bwysicach na'r Nadolig.

'Cofiwch. Nid dod i'r byd yma er mwyn bod yn ddyn da wnaeth Iesu Grist. Nid dod i roi rhyw athrawiaeth neu i roi cynghorion ynghylch bod yn garedig. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos Ei fod wedi dod i wneud un peth yn unig neu'n benna, sef i farw – a marw dan felltith greulon ar y groes. Ei farwolaeth Ef yn y fan yna yw *calon* y ffydd Gristnogol. Dim byd arall. Nid y Nadolig. Mae'r masnachwyr yn gwneud môr a mynydd o'r Nadolig; ac roedd yr Ymgawdoliad yn rhyfeddol, wrth gwrs. Ond y marw dirgel a rhyfedd yma ar y groes dros bechodau dynion, y gosb ddieithr hon, at hyn mae'n rhaid inni ddod 'mhlant i, os ydyn ni'n mynd i wybod rhywbeth o bwys am Dduw.'

Yna, fe ddarluniodd y prifathro yntau y felltith ar y Groes yn fyw iawn, ac roedd amryw o'r athrawon yn teimlo'n bur anesmwyth, a rhai o'r plant ieuenga wedi'u dychrynu.

'Di-chwaeth,' sibrydodd Miss Treherne wrth gerdded allan o'r neuadd ar y diwedd. 'Hollol ddi-alw-amdano.' Cyrhaeddodd yr athrawon eu hystafell; ac yno yr ymollyngodd hi. 'Gwarthus hollol warthus. A dw i'n mynd i ddweud wrtho. A pheth arall, doedd ganddo ddim busnes i wthio'i argyhoeddiadau personol arnyn nhw.'

'Wel, na,' meddai Morgans gan wenu. 'Arferiad yw gwasanaeth. Beth sy'n bod ar y dyn?'

'Dw i'n cytuno â Miss Treherne,' meddai Mrs Hughes yn amddiffynol, fel pe bai'n synhwyro fod yna fymryn o ysgafnder yn nhinc llais Morgans. 'Mae'n rhaid i'r plant ddod o hyd i'w syniadau crefyddol eu hunain, heb fod neb yn gwthio dim arnyn nhw.'

'Dw i erioed wedi teimlo mor anghysurus,' ategodd Miss Treherne.

'Felly,' meddai Morgans,' dych chi'n meddwl bod gwthio'ch difaterwch chi a'ch absenoldeb credu chi yn llai peryglus? Ydy peidio â dweud rhywbeth tyngedfennol o bwysig, pan fo angen ei ddweud, yn gywirach na'i ddweud e yn onest o'r galon? Fe all gwladwriaeth seciwlar fel Rwsia fod yn ormeswr creulon.' A bragamodd allan o'r ystafell yn drist.

Roedd anerchiad y prifathro wedi creu cryn argraff ar Tomos, oherwydd roedd e wedi bod yn hoff iawn o Jinks erioed, a hwnnw'n wŷr cydnaws ac addfwyn. Ciledrychai arno yn awr ambell waith amser cinio rhwng pyliau o gicio pêl, yno lle y safai ar ben y grisiau a arweiniai i fyny at ddrws mawr yr ysgol. Roedd ei bresenoldeb yn ddaionus.

Safai'n llonydd, a'i wallt yn wyn, gan arolygu'r iard ben bwygilydd fel angel gwarcheidiol. Doedd y bechgyn byth mor arw, na'r merched mor sbeityld, pan wydden nhw fod Jinks ar eu pwys ac o fewn eu clyw, er na byddai byth yn ymyrryd na byth yn bloeddio arnyn nhw.

Yn ddisymwth, a bron heb yn wybod i neb, syrthiodd Jinks i lawr y grisiau. Doedd e ddim

wedi symud o gwbl ynghynt i wneud y fath beth. Cwmpo oddi ar ei sefyll a wnaeth e, wedi cael pwl dirybudd ar ei galon. Brawychwyd y plant: sgrechodd rhai o'r merched, a rhedodd dau fachgen ato lle y gorweddaï ar y llawr. Roedd yn anadlu'n wyllt ac yn dynn fel drwy gwilsyn.

Rhedodd Tomos i nôl Mr Morgans o'r ysgol; ond erbyn iddyn nhw gyrraedd yn ôl yr oedd yr anadlu gwyllt wedi pallu, a Mr Jenkins yn gwbl ddigyffro. Teimlodd Morgans guriad ei waed drwy'i arddwrn a chlustfeinio ar ei galon. 'Mae yna rywbeth yna o hyd.' Ond lled pen yn agored roedd llygaid Jinks, a digon difywyd ym mryd Tomos, gwag megis llygaid yr angel yn y fynwent y bore heulog hwnnw. Cydiodd Morgans yn y prifathro, a'i godi'n ddiymdrech; ac yna, fe'i cariodd i mewn i'r ysgol fel dafad yn cael ei chario i siop y cigydd. Wrth fynd, gofynnodd i Tomos warchod y drws, a gofalu na fyddai dim plant yn dod i mewn i'r ysgol. Ychydig o funudau'n ddiweddarach, fe glywson nhw seiren yr ambiwlans wrth iddo gyrraedd y drws yr ochr arall i'r ysgol.

Casglai'r plant o amgylch y lle safai Tomos, ac edrychai fe dros eu pennau i'r pellter, fel pe bai'n filwr yn amddiffyn castell. Teimlai bwysigrwydd ei fod e wedi cael y swydd hon ar achlysur mor rhyfedd, ac eto roedd y tipyn balchder hwn yn gymysg â phryder trwm ynglŷn â beth a oedd yn digwydd i'r prifathro.

'Beth sy'n bod arno Tomos?' gofynnodd un o'r merched tlysa yn ei ddosbarth.

Ond cadw ei dawelwch wnaeth Tomos. Yn wir, roedd e'n ofni pe bai'n dechrau siarad a meddwl yn uchel am y peth, y byddai'n torri i grio o flaen pobun.

'Fydden nhw'n anfon am ambiwlans os yw e wedi marw?' gofynnodd un o'r merched tlws eraill.

Atebodd Tomos ddim.

Roedd yn meddwl hefyd ... am yr adar yn canu yn y fynwent ac am yr heulwen groyw ar y glaswellt wrth iddo gerdded i'r ysgol yn y bore. Y pryd hwnnw roedd y prifathro'n fyw ac yn ddyn o awdurdod, yn barchus yn y dre, yn siarad â hwn a'r llall, ac yn symud yn eu plith.

'Dyna sydyn y cwmpodd e,' meddai un o'r bechgyn.

Ond ddwedodd Tomos ddim; a sbiodd o gwmpas yr iard yn hiraethus gan ymdeimlo bod marwolaeth wedi dod mor agos atyn nhw i gyd – fod y peth pell oer hwnnw, mewn gwirionedd, yno yn ddistaw ar eu pwys.

Miss Treherne a ddaeth allan o'r ysgol, yn bwlkog ei llygaid ac yn staeniog ei gruddiau; i ddweud wrthyn nhw nad oedd y prifathro ddim wedi marw wedi'r cwbl. A thorrodd amryw o'r plant i lefain, yn fechgyn ac yn ferched. Chriodd Tomos ddim; dim ond siglo'i ben yn ôl ac ymlaen, yn ôl ac ymlaen.

Dyna braf, dyna dawel o braf oedd bywyd i gyd, weithiau. Bum diwrnod arall, serch hynny, a byddai'n rhaid iddo fe glywed newydd arall, newydd mwy trychinebus, am ei fam ei hun.

(xi) BOD YN FAWR

Criodd Tomos nes i bob nerf yn ei gorff fwrw'i hiraeth.

Roedd ei dad wedi mynnu'n briodol iawn iddo ddod i angladd ei fam.

'Byddi di'n cofio hyn, ac yn falch dy fod wedi bod yma. Bydd di'n fachgen mawr, Tomos.'

Roedd e wedi eistedd drwy'r gwasanaeth yn gymharol ddideimlad. Roedd e wedi'i dilyn hi i lan y bedd. Roedd wedi taflu tusw o flodau i lawr ar ei harch. Hynny a ddisgwylid, yn ddiau. Ond yn awr wedi'r oriau hir, y cur yn y pen, yr wynebaw cymdeimladus, y ceir du, y beddfeini dirifedi unffurf, a geiriau yr un mor unffurf, yn awr fe fynnodd e fod ar ei ben ei hun yn ei ystafell wely. Yma, roedd e wedi llefain o'i galon, heb ei dad, heb Hywel, heb neb yn y byd i gyd. Heb ei fam. Criodd am awr ar ôl awr nes iddo gysgu'n ddiymadferth. Ac o gysgu, breuddwydio. Mwy na breuddwydio, hunllef. Mwy na hunllef, hunllef ar goll.

Mor wahanol oedd hyn i'r byd normal. 'Beth yw'r byd normal, nhad?' A ddeuai hwnnw byth yn ôl? Roedd e mor bell, fel gwlad arall. Ond roedd e am beidio â bod yn blentynnaidd. 'Sut, Hywel?' gofynnai i'w ffrind drwy'i hun. 'Sut mae'r byd yn normal?' Hongiai'i alar o gylch ei war.

'Bod yn hen, fel dy dad di a nhad i,' meddai Hywel yn ôl, yntau wedi huno am oriau hefyd, 'siŵr o fod.'

'Ond sut mae aros yn normal?' holai Tomos.

Ac wedi distawrwydd am bum munud, llusgodd Hywel yr ateb i'r fei. 'Chwarae mynd i'r gwaith, er enghraifft! Dyna mae hen bobol yn ei wneud.'

'Tr swyddfa?' meddai Tomos, drwy'i gwsg, ac mewn breuddwyd.

'Ie, llenwi ffurflenni. Cario un ffeil. Symud un peth o un drôr i ddrôr arall,' meddai Hywel drwy ryw fath o hunllef hefyd. 'Dyna beth mae nhad i'n ei wneud. Bob dydd.'

'O'r gorau, Hywel. Ond – dim ond symud ffeiliau fachgen! Does dim llawer o hwyl ynglŷn â hynny.'

'Ie; ond nid gwneud y gwaith ei hun y byddwn ni, ni nawr yn ifanc. Dim ond chwarae gweithio a chwarae byw dŷn ni'n ei wneud. Mae nhad i'n gorfod ei neud e o ddifri. Dim ond chwarae gwneud,' meddai Hywel yn ddiymadferth o anhangnefeddus. 'Er mwyn peidio â sylwi.'

'Beth wyt ti'n feddwl? Fyddwn ni ddim ond yn gwneud y gwaith am ychydig funudau, ac wedyn rhywbeth arall sy'n fwy diddorol?'

'Na. Nid dyna'r pwynt. Os na fyddwn ni'n dal ati am oriau, fyddwn ni ddim yn chwarae'n deg,' meddai Hywel.

'Oriau? O symud ffeiliau? Dw i ddim am symud ffeiliau, nid bywyd yw oriau o beth fel 'ny.'

'Bod yn hen. Ond byddwn i fel 'sen i mewn byd arall... Yr un peth yw oriau, beth bynnag. Allwn ni ddim cogio'r oriau; maen nhw'n digwydd. Wrth gwrs, byddwn ni'n cogio bod yn rhywun arall, ac yn peidio â chrio,' awgrymai Hywel..

'Ond does neb yn chwarae clerod fel 'na.'

'Y nhad i. A dy dad di,' meddai Hywel yn ddigalon.

'Na, na, nid chwarae maen nhw'n wneud. Nhw *yw'r* clerod. Dyna sut maen nhw i fod,' meddai Tomos. 'Dwyt ti ddim yn credu y gallai gwaith fel yna ein caledu ni, a'n gwneud ni'n ddewr fel pobl mewn oed, heb grio? Yn trechu pob rhwystr i ddod o hyd i'r ffeil, ac yna ruthro'n ôl i'w gosod wrth droed y rheolwr?' ... A pheidio â sylwi.

'Lol botes. Nid fel yna y mae pethau mewn gwirionedd, gwir bethau bywyd,' meddai Hywel.

'Rwyt ti am i mi gogio fod bywyd i gyd yn farw, heb anturiaeth, fel clerod, heb sbonc. Fyddwn ni'n cydymdeimlo â'r meirwon, ac yn peidio â llefain, mewn bywyd bob dydd? Bod yn rhywun pwysig mewn swyddfa. Tomos y boldew!' breuddwydiai Tomos.

'Dw *i* am fod yn ddyn dibwys, yn glerc isel, hollol ddiramant,' meddai Hywel. 'Cer di i nôl ffeil NY 333 i fi te, wnei di... os gweli di'n dda.'

Sut? Dw i'n methu â'i ffeindio.'

'Paid â hidio. Dim ond clerc arall wedi'i roi'n ôl yn y drôr arall,' meddai Hywel yn sobor.

'A beth dw *i* fod i'w wneud?'

'Aros. Oherwydd y mae'n rhaid i fi gael NY 333 ar unwaith. Alla i ddim mynd ymlaen hebdo.'

'Rwyt ti'n dechrau mynd yn grac... Dw i'n dechrau blino ar y gêm,' meddai Tomos yn drist o'r diwedd. 'Does dim dianc. Mae'n rhaid ifi aros. Claddu gofidiau. Dyna'r holl bwynt. Holl ofidiau byw.'

'A beth wyt *ti'n* wneud felly?'

'Dw i wedi treulio'r bore i chwilio am y ffeil,' meddai Tomos, yntau'n dal i gysgu'n hunllefus.

'Wyt ti wedi dod o hyd iddo?'

'Na. Ond yn y diwedd dw i'n dod â ffeil NY 334 sy'n weddol debyg.'

'Wnaiff hyn fyth mo'r tro,' meddai Hywel, wedi colli pob amynedd, ond gan wybod mai Mam roedd arno'i heisiau. 'Ble mae hi?'

'Mae 'na ddiwedd yn siŵr o ddod i'r fei, rywbyrd.'

'Byth!' ebychodd Hywel.

'Oes, rywbyrd.'

'Does dim ots, efallai y bydd rhyw oruchwyliwr bach yn ei ladd ei hunan neu rywbeth, ac

yna ymlaen â ni fel o'r blaen ac anghofio'r cwbl.'

'Ei ladd ei hunan am ffeil?' meddai Tomos. 'Go brin.'

'Pam lai? Ffeil hardd. Dyma un o'r ffeiliau hyfryta yn y swyddfa. Dyma oedd yr un llecyn golau yn ein byd ni yn y cwmni hwn o ran aroglau a maint.'

'Hunan-dwyll fyddai hynny. Dim ond hiraeth sy ar ôl,' meddai Tomos. 'Hi oedd y galon, hi oedd calon y cwbl. Doedden ni ddim wedi'i gwerthfawrogi hi. Fan yna roedd hi yn y drôr, heb neb yn sylwi arni braidd. Mam fach ddiniwed. Ond nawr mae hi wedi mynd.' A chriodd Tomos yn ysgafn ond yn ddolurus drwy'i hun. Doedd yna neb yn awr a ddeuai i'w gysuro yng nghanol ei hunllef. 'Roedd gan y ffeil yna gymeriad,' meddai fe.

'Mwy o gymeriad na ni rywsut,' addefai Hywel.

'Mwy na neb sy'n gweithio yn y cwmni.'

'Ac mae hi wedi marw,' meddai Hywel.

'Na, dyw hi ddim wedi marw. Ar goll.'

'Mae hynny'n waeth. Allwn ni ddim hyd yn oed farwnadu ar ei hôl. Cawn ni feddwl efallai amdani ar ambell hwyrnos loergan pan fydd crwth yn taflu seiniau tesog ar yr awyr fêl; ac eto allwn ni fyth fod yn siŵr amdani.'

'Ond efallai mai yn yr ansicrwydd yma y mae'r gobaith.'

'Hi, Tomos, oedd y gwirionedd, yr holl wirionedd a oedd yng nghanol y cwmni hwn.'

'Celwydd yw popeth nawr.'

'Popeth sy ar ôl.'

'Fi,' meddai Tomos.

'Ie, a finnau,' meddai Hywel. Pan fydd y canol yn mynd, y mae popeth ar yr ymylon yn ddiwerth. Weithiau mae 'na ryw egwyddor, rhyw gred, rhyw sylfaen yn dal yn y canol, ond pan fydd hynny'n mynd... dim, dim.'

'Gawn ni gogio inni'i ffeindio hi eto,' meddai Tomos.

'Na, byddai hynny'n gelwydd, yn ffordd ry rwydd i ddatrys ein problemau. Mae hi wedi mynd. Mae'r gêm drosodd, felly.'

'Dw i'n ofni ei bod hi. Roedd honna'n gêm drist,' meddai Tomos gan feddwl am y troeon y byddai'n ymweld â'i fam i'w gweld ar ei chefn yn yr ysbyty.

'Oedd. Ac mae dy dad di a nhad i yn ei chwarae hi bob dydd.'

'Yn union fel yna?' meddai Tomos.

'Ie. Mwy neu lai, mae'n debyg.'

'Mae hi'n caledu amdany'n nhw... fel plisgyn?' meddai Tomos.

'Nes ei bod hi'n torri drwodd .... fel drwy blisgyn.'

'Ac yn anos torri allan,' meddai Tomos.

'Druan ohonyn nhw, Tomos. Fel 'na mae'n mynd yn angof.'

'Druan, druan. Mam druan,' ochneidiodd Tomos drwy'i hun, 'wedi mynd yn freuddwyd.'

(O'r gyfrol *Pwy laddodd Miss Wales?*)



## CYMRO AR WASGAR

Canwyd cloch y drws, ac fe atebaist ti'r alwad braidd yn gysglyd, yn ôl dy duedd yn ystod gwyliau'r haf. Fe'th wynebwyd gan wŷr tal, cydnerth a hynod fonheddig, a chyda'r geiriau annhymorol, 'Dw i'n Gymro.'

'Cymro dw i,' meddai fe eto, wedyn, fel pe bai e braidd yn ansicr ei hun ymhle'r oedd y pwyslais i fod.

Gan dy fod yn trigo yng Nghaerfyrddin, ac nid pawb yn y dreflan honno sy'n addef y fath deyrngarwch penboeth, fe'i gwahoddaist yn gynnes i'r tŷ; ac nid camp oedd dyfalu'n ebrwydd mai un o'th gydwladwyr hoff sy'n preswyllo yn y Byd Newydd oedd y gŵr a ddisgynasai mor Gymreigaidd ar drothwy dy ddrws.

Oedd, roedd e wedi dysgu'r Gymraeg. Oedd, fel pob Americanwr a oedd yn werth ei halen, roedd e'n hel achau. Roedd eisoes wedi darganfod, drwy achres yn *Cerddi Cerngoch*, nid yn unig ei fod yn ddisgynnydd anuniongyrchol i'r bardd gwlad hwnnw drwy un o blant Griffith fab Jenkin Griffith o Flaen-plwyf, ond bod y teulu felly'n ymgysylltu hefyd â Daniel Jenkins, Llan-y-crwys a hyd yn oed â'r hyglod David Davis, Castellhywel. Eithr ei brif nod ar hyn o bryd, yn wir y penna cymhelliad wrth ddod drosodd ar yr achlysur hwn (ei ymweliad cynta a'r cyfle cynhara ers iddo ymddeol o fod yn Arolygwr yn Heddlu De Manhattan), oedd sicrhau a oedd yna le cyfforddus iddo ymfudo ac ymsefydlu yng Nghymru.

A thithau'n dipyn o gerflunydd, roedd e wedi taro wrth d'enw di mewn catalog i arddangosfa o grefftau Celtaidd a oedd ar gylchdaith acw ar y pryd yn y Taleithiau dwyreiniol, a chan nad adwaenai neb, ac na wyddai am neb a ymddiddorai yn y Pethe yng Nghymru, (er mor annhebygol y swniai hynny i ti) roedd e wedi tybied y gallai ddechrau'i siwrnai drwy alw yn dy dŷ di. Diau mai fel yna y bydd Americanaid yn gwneud pethau.

Roedd dy ddwylo'n blastr o glai, a gofynnaist iddo dy ddilyn i'th weithdy.

Doedd dim byd uchel ei gloch ynglŷn â'i wisg. Roedd y llwyd braidd yn dywyll, heb fod yn ornewydd, ond yn daclus hen ffasiwn. Eto, roedd gwawr o dristwch, nid annhebyg iawn i'r clai ar dy balfau di, yn llechu yn ei holl ddiwyg.

Gweithio ar ben Williams Parry roedd dy fysedd di ar y pryd, ac yn ceisio gwasgu y tu ôl i anniddordeb ei fwgwd, yr ymguddio ofnus hwnnw a welid bob amser yn wynepryd y bardd hwnnw. Llwyddaset yn burion i gyfleu ei ddestlusrwydd clercaidd, yr esmwythder petryal hwnnw wedi'i goroni gan sbectol; ond roedd gwefr ei fföedigaeth sylfaenol yn llercian y tu hwnt i'th fysedd o hyd. Bu pob pen a gerfiaset ynghynt yn anghyffredin o drawiadol, yn arw hagr neu'n anghybwys ddeniadol; ond dyma'r tro cynta iti geisio ymaflyd mewn ffug arferoldeb, ac roedd y profiad yn

hynod anniddig i ti, ac yn peri iti amau llawer o bethau eraill o'th amgylch. Ynganodd y Cyn-Arolygwr o Dde Manhatten ychydig o frawddegau clodfawr o gwrtais, ac yna dechreuodd holi am ddiwylliant gwledig Cymru, ac am y celfyddydau yn Nyfed yn neilltuol. Amcanu roedd e at ei dylwyth ei hun. Fe ellaist ddadlennu iddo ymhellach mai un o'i gyndadau mwya annwyl oedd John Evans, Abermeurig; a dangosaist y llyfryddiaeth roedd Glyn Lewis Jones wedi'i chasglu iddo. Gwnaeth hyn gryn argraff arno.

Ac yna, trodd e'n fodlon ac yn sifalriaidd i drafod cerflunio, ac i ganmol tameitiach a oedd gen ti hwnt ac yma o amgylch yr ystafell.

Roedd e newydd fod yn Llandysul, ac yn delynegol ei fawl i'r Gymraeg y clywai blant yn ei siarad ar y bws. Rhyw safle rhwng Castell Newydd Emlyn a Llandysul oedd y fangre fwya ysbrydoledig yn ei farn e iddo'i hun, ac wnâi dim y tro ond clebran wedyn orau y gallet am fywyd diwylliannol y bobl yn yr ardaloedd hynny fel y mae, diolch i'r drefn o hyd, y dwthwn hwn, os chwilir yn ddigon manwl.

Roedd e wedi dod yma i fwydo ar Gymru. Fel un a grwydrasai'n rhy hir ar dir anial, roedd e wedi dod i'w lonydd hi i fwyara ar hyd y cloddiau a hel cnau aeddfed ei gorffennol hi i'w gwodyn. Ond roedd hi'n fwy na hynny iddo hefyd. Roedd e'n anfodlon ar aros gyda'r ffrwythau'n unig, a charai ymchwilio i lawr dan y pridd i weld pam a sut ac ers pryd roedd hyn oll wedi bod yn bosib.

Yr ail noson roedd e'n aros gyda thi, fe ddihunaist ti ym mherfedd y nos gan synhwyro seiniau anghyfarwydd y tu allan i'th ystafell wely, a deffroaist yn fyw i'r wybodaeth fod yna ryw grwydryn (neu rywun) yn ymsymud islaw yn y llyfrgell. Yr Arolygwr oedd yno bid siŵr wedi codi i dwrian ymysg y llyfrau. A gofynnaist iddo beth oedd yn bod.

'Chwilio am air roeddwn i.'

'Yma?'

'Ie. Roeddwn i wedi clywed y gair sawl gwaith yn ystod y dydd. Ac fe wyddoch chi sut y mae hi. Doeddwn i'n cael dim llonydd gan y meddwl, roeddwn i'n methu'n lân â chael cysgu, nes imi ddirwyn yr ystyr i ben. Roedd e'n air mor syml. Roedd hi bron yn anhygoel y mod i rywfodd wedi anghofio'i ergyd. Eisiau geiriadur oedd arna i.'

'Beth oedd y gair?'

'Gwag.'

Roedd hi'n hwyr, wrth gwrs. Ac efallai nad oeddet ti, ac yn sicr nad oedd e chwaith, ddim yn llawn ei bethau.

'O!' meddet. Rhyw fath o "O" ddiddorol, heb fod yn syn nac yn wawdus, ond yn orffwyslawn ac yn gysurlon. Doedd ei esboniad ddim yn argyhoeddi; ond doeddet ti ychwaith ddim yn anesmwyth rywsut; ac yn bendifaddau yr amser yna ar y nos nad oeddet ti ddim am brocio

unrhyw amheuon a allai ymsionci yng ngwaelodion dy go dy hun na cheisio aflonyddu o gwbl ar dy nerfau i byncio galargan weddus ym mhwl y tywyllwch, o flaen hwn.

'Gwas?' holaist ti.

'Na!' meddai fe.

'Doeddech chi ddim wedi clywed dim sŵn eich hun?' gofynnaist wrth ichi ddringo'r grisiau.

Atebodd e ddim yn union.

'Doedd dim oll wedi peri ichi godi, dim smic arall dw i'n feddwl; doeddech chi ddim yn drwgdybio, doedd yna neb... ?'

'Na, na,' atebodd e maes o law, gyda'r amhendrantrwydd bodlon hwnnw a'r amharodrwydd anfodlon i fod yn sicr ohono'i hun sy'n dod pan ydys braidd yn gysglyd ac mewn gwlad ddieithr.

Bid a fo am hynny, hoffaist ti'r dyn.

Ac fe aethoch chi eich dau allan bob dydd gyda'ch gilydd ar ôl hynny ... 'i lyncu Cymru' fel y dywedai fe.

'On'd yw'r glaw yma'n rhyfeddol?' ebychai'n sydyn ambell dro, weithiau pan fyddech o fewn clyw i res hir o fenywod busneslyd yr un mor rhyfeddol ar bennau'u trothwyau yn rhai o'r pentrefi gwledig. Neu ynte pan welech y tomennydd glo neu'r pentyrrau sbwriel llechi, fe ddeuai'r O! farddonol bersawrus honno eto nes lledu gwawl Hollywoodaidd yn bybyr dros bopeth. Bron y teimlet ti y dylet ymddiheuro oherwydd mai haul bach cyffredin a oedd yn codi yn y boreau; eithr iddo fe, nid eu haul bach gwir gyffredin ac Americanaidd a oedd yn codi yn y boreau, nid eu haul doleraidd oedd yr haul cegrwth hwn. Ond enaid Cymru arw.

Roedd gwres ei sêl e'n peri i'th sinigrwydd di tuag ato flodeuo'n ymosodol näif. Dyma chi ynghanol yr ardaloedd mwya ystrydebol a blêr, ac allai hwn ddim namyn gwasgaru carlamus ansoddeiriau yn y radd eitha, yn uchel ei gloch (fel Saesneg) ac yn frwd i bob cyfeiriad.

Roedd peth awgrym o wefr seremoni ym mhob taith gydag e o hynny ymlaen. Cerdd, datguddiad, proffwydoliaeth oedd tro bach yn y dre hyd yn oed, yn syml am eich bod chi'n medru cyfarch hwn a'r llall ar ben hewl, a pharcio yn rhai o'r prif strydoedd, a cherdded rhwng y drafnidiaeth, a siarad Cymraeg yn y siopau. A chymdeithasu fel Cymry uniaith.

Arhosodd e'n swrealiaidd un tro ar sgwâr Nott. 'Ni'r Americanaid yw'r badau diangor ym mhorthladd y byd,' meddai'n sydyn, a gallet dyngu nad ti oedd yr unig un a wrandawai arno. 'Mae'r afon yn llifo i mewn i'n gwythiennau a heibio inni nes ein gwthio allan i'r môr barbaraidd, a does gynnw ni ddim arhosfa. Mae yna ryw berthynas rhyngon ni a'r ewyn gwyllt. O'r arswyd! Ai hyn yw ein tynged? Ydyn ni i fod i droi a throsi, heb y cyswllt hwnnw â'r dyfnderoedd eu hun, yn llawn o argyfyngau'r funud, yn rhuthro i ddatrys y problemau newydd o hyd, ac yn mwynhau'r cyffroadau hyn nad oes iddyn nhw ddim o dawelwch y galon sy wedi dod o hyd i'w cartre parhaol? Wyddoch

chi, dw i'n synied weithiau, mai darganfod America dw i wedi'i wneud wrth ddod yma yn ogystal â darganfod Cymru. Mewnfudwr ydw i ym mhobman.'

A'n gwaredo. Cyffredinoli'n gafalriaidd roedd e am hynt gwareiddiad y gorllewin. Chwarae teg iddo bob cynnig, fe âi ymhellach na hynny, roedd hi fel pe bai'n ymaflyd mewn delfrydiaeth, ac fel pe baet ti'n cael dy fwrw'n ôl ganddo i'r oes arwrol Gymreig, ac yn cael dy orfodi'n rhamantaidd i synied am dy wlad dy hun fel pe buasai Arthur a Glyndŵr ac ati erioed yn bosib. Roedd hwn yn gallu codi, yng ngloywder disinigiaeth ei lygaid, – uwchben dy wawd, – yn fewnol fawreddog.

'Dw i ddim yn meddwl imi erioed fod yn hapus cyn imi ddod yma,' meddai fe y noson honno wrth i chi'ch dau ymlusgo am y filfed waith i fyny cyffredinedd rhyfeddol Allt-y-cnap.

Suddodd ar ei liniau, a gafaelyd mewn dwy garreg yn ei ddwy law – yn y chwith – 'fy mhridd, America!' meddai fe wrth y naill. Ac yna, 'fy mhridd, Gymru,' meddai wrth y llall. 'Erbyn hyn dw i wedi darganfod fy nwy ochr. Dyma fi.'

Bu bron iti ffrwydro. Daliaist dy chwerthin yng nghnewyllyn dy gylla. Roeddet ti'n gyndyn rywsut i adael iddo fe yn ei ddiniweidrwydd ddadrithio dy watwaredd arwynebol di. Sut y gallai gorloywder llygadog Efrog Newydd gerbron Caerfyrddin ddysgu i ti ymhle doeddet ti ddim yn byw? Dyma fe'n meddwl y byddet ti gan bwyll yn dadrithio'r Byd Newydd uwchraddol, ac y byddai hwnnw'n dadrithio drwy dy Hen Fydrwydd anwar di yr un pryd, nes esgor ar y byd newydd-hen. Onid oedd America a Chymru'n efeilliaid Siamaidd i hwn? Ond doedd dau gamgymeriad mewn gobaith ddim yn gwneud un cymeriad cywir.

Y gwirionedd yw nad oedd modd gwneud gwell cymwynas iddo fe na'i ddadrithio, a'i gyflwyno i realiti bywyd, a dadlennu i hwn y gwir am Gymru. Roeddet ti'n tybied ei bod hi'n hen bryd bod yn ddi-dwyll. Rywsut roedd yn ddyletswydd arnat ddweud y gwir.

Eto, dechreuaist edifarhau oherwydd yr angharedigrwydd sylfaenol oedd ynot ti, oherwydd rhaid iti gyfadde, roeddet ti'n dechrau ei hoffi fe. Doedd dim byd o'i le ar weledigrwydd pellgyrhaeddol byrolwg wedi'r cwbl. Allet ti ddim llai nag edmygu ei frwdfrydedd bachgennaidd, a'r parodrwydd hwnnw i ymagor yn groyw-groesawgar i bob carreg a nant yn dy fröydd di. Roedd e mor llancaidd lethol o gadarnhaol. Ond onid oedd wedi gwneud math o drosglwyddiad drosodd o ddarganfyddiad Cymreig a chydio dwy wlad ddelfrydus yn ei gilydd, ac felly wedi'i arwain ei hun i ymestyn o fewn dau gamgymeriad yn lle un yn unig? Roedd ei ddaioni mwyach wedi tywynnu'n feddiannus ar bawb a ddeuai o fewn ei glyw. Ond dichon mai'r uwchraddoldeb aflednais yna sy'n eiddo i gynifer o Ewropeaid, sy'n peri, yn ddiamau, ein bod yn cael cryn anhawster i ddifrifoli ynghylch Americanaid cyffredin a'u lobi ddrylliau a'u gwleidyddiaeth arianedig a'u rhagfarnau hiliol.

Fe est ti ag e felly ar daith gwmpasog i ymweld â rhai o gronfeydd dŵr Lerpwl a

Birmingham dan rith dangos rhai o olygfeydd prydfertha'r genedl.

Bob hyn a hyn, wrth rodio ar hyd llwybr yn ymyl llyn Efyrynwy gan gicio'r dail, fe gest ti'r argraff ei fod e'n 'gwrando' ar bethau na chlywaist ti. Weithiau fe fyddai'n stopio a chymryd arno ei fod yn clymu'i gareiau; ond allet ti ddim llai nag amau mai clusfeinio roedd e, ac wedi tybied iddo glywed cawod o gamre ysgafn yn y fan yna odano fe, fel israddoldeb.

Un tro, fe gydiodd yn llawes dy gôt.

'Beth oedd hwnna?'

'Beth?' gofynnaist ti.

Ac arhosodd e eto; ac yna cilchwerthin, ac awgrymu gwiwer neu ddail yn y gwynt, neu ddŵr yn defnyddu o'r ceinciau; ond fe wyddet ti'n burion nad oedd e'n credu dim o'i ymresymu'i hun erbyn hyn.

Dro arall pan oeddech chi'n cerdded yn ysgubol o ddiniwed drwy rai o'r coed sy yng ngwaelod isa dyffryn Clywedog, fe safodd yn stond, a gofyn i ti: 'Fyddwch chi'n gweld lleisiau weithiau?'

'Lleisiau! Pa fath o leisiau?'

'O! Nid rhai cas. Ambell un yn gwenu. Ond hen leisiau, neu o leia, rhai a allai fod yn hen.'

'Ond ble? Ble dw i fod i'w gweld nhw?'

'Yma,' meddai fe. 'Dan draed. Rywle liciwch chi.'

'Yn y tân gartre? Mewn clai wrth gerflunio?'

'Na. Yma. Does dim ots.'

'Ydych chi wedi gweld rhai o'r lleisiau hyn heddiw?'

'Peidiwch â nychryn i, da chi.'

'Dych chi wedi gweld un!'

'Dwn i ddim...' Roedd e'n olygus ac yn garedig. Doedd dim ond goleuni o'i gwmpas.

'Peidiwch â malu,' meddet ti.

'Doedd e'n ddim byd. Arhosodd e ddim ond ychydig o eiliadau. Roedd e'n murmur "Gwag".'

Mewn treflan heb fod nepell o gronfa ddŵr Clywedog, gofynnodd yr Arolygwr i un o'r trigolion, 'Oes tŷ-bach cyhoeddus gynnoch chi yn y pentre 'ma?'

'Mae'r cloddiau hyn, y gwastadeddau, mae'r genedl i gyd yn dŷ bach, syr,' meddai hwnnw yn wylaidd. Gwladwr oedd e, yn gyfarwydd â chaeau. Ac ellid byth ddisgwyl i Americanwr ddeall y sefyllfa hyfryd honno.

Fe âi'r Arolygwr o Dde Manhattan yn dawedog odiaeth pryd bynnag y dychwelech o'r teithiau hyn, ac roeddet ti'n dehongli hynny fel prudd-der ynghylch gwir ystyr y peth a welai. Ond a oedd yna ryw ddadrithiad endemig wedi dechrau llithro drwy'i gyhyrau? Siom efallai?

Yr hyn a oedd gen ti mewn golwg oedd ceisio dangos iddo fod y wlad hon ei hun – cyn dechrau ei thrafod yn gelfyddydol – fod y traethau a'r bryniau, ac yn sicr yr arwyddion cyhoeddus dwyieithog a'r llynnoedd, – yn eironig, yn gwbl danseiliol eironig i bawb call, gan ddweud un peth a chan feddwl y gwrthwyneb, hyd yn oed yn sibwrdd wrthoch chi yng ngŵydd y brodorion rai awgrymiadau amdany'n nhw eu hunain sy fel petaen nhw'n gudd ac yn anhysbys. Roedd hi'n wlad gymhleth hynafol, dyna'r cwbl. A dyna'r gwirionedd.

Penderfynaist mai'r ffordd i'w addysgu fyddai'i gyflwyno i amwysedd hen yd y wlad.

Roedd hyd yn oed boneddigeiddrwydd y bryniau'n ffenomen amwys. Roedd hi fel pe bai pob bryn yn dweud wrthoch chi'n onest: 'Ydyn, syr, dŷn ni'n fyddigions. Neu mae'r cwbl dŷn ni'n ei ddymuno o fewn cyrraedd byddigions. Dyw hynny ddim yn erfyn llawer. Dŷn ni'n sylweddoli mai gweini fydd raid bellach. Ond wyddoch chi, ein boneddigeiddrwydd yw'r unig beth sy ar ôl. Mae'r rheina oedd yn llafurwyr ac yn fasnachwyr gynt, wel, fydden nhw ddim yn canfod y golled. Ac maen nhw, syr, – os cawn ni ddweud heb ymddangos yn eiddigus, – wedi dod ymlaen ac enmill safle, hyd yn oed os nad yd nhw'n fonheddig; mae'r safle a'r pres gyda nhw. Ond beth wnewch chi, syr, gyda'n boneddigeiddrwydd ni o ran masnach?' Fel yna y bydd bryniau'n siarad, yn gwbl ddiog.

Doedd y wlad, roeddet ti'n argyhoeddedig bellach, ddim eitha mor ddiwair ym mryd dy gyfaill tramor ag roedd e wedi mynnu iddi fod gynt. A dyw'r diffygion sy'n gwythiennu drwy'r bröydd hyn yn ddim ond estyniad o'r cymeriad gwag roedd yn siŵr o'i synhwyro ymhlith ei bobl eu hun hefyd. Roedd e'n haeddu wynebu'r gwir cyffredinol.

Ac efallai y câi e archwaeth dadlennol, helpfawr pe gellid dod o hyd i'r union bwynt hwnnw sy'n diffinio hunaniaeth.

Yna, gwawriodd arnat. Cadwaladr! Dyna'r ateb.

Mae'n ddilys fod gen ti dipyn o chwilfrydedd, wedi codi, ynghylch pa fath o adwaith a geid wrth arwain yr Arolygwr i dŷ Cadwaladr a'i wraig. Gwyddet ti'n burion na allai'i naifder deniadol Americanaidd lai na phownsio fel pêl plentyn yn erbyn wal eu hymagwedd nhw; ond ceisiet ddyfalu pa mor wydn yr arhosai ei hwyliâu fe drwy'r cwbl. Wyddet ti ddim a oeddet ti'n hideo'n union, fel y dylet ti, a fyddai'r breuddwydion cynnes hynny o'i eiddo yn gwasgaru'n hir yn oerni cyfrwys anadl hen y pâr hwnnw.

Perthyn y ddau, Cadwaladr a'i wraig, i fyd a ddarfu bellach. 'Dyma'r siampl dilys, yr hen ffordd Gymreig o feddwl,' meddet ti wrth yr Americanwr.

Hen grwt iawn yw Cadwaladr ar ei orau. Tipyn o sinig; ond yn y bôn mae llawer o ddiriedid ynddo, ac un digon caredig yw e. Daeth y trobwynt yn ei fuchedd pan gafodd ei siomi yn ei gais am swydd un tro. Roedd rhywun, mymryn o genedlaetholwr yn ôl y sôn, wedi ymbaratoi am

ddyrchafiad; ac yntau (yn ôl y sôn), wedi cael ei basio am y dyrchafiad hwnnw – ei anwybyddu, a'i isbrisio; a byth ar ôl hynny, bu Cadwaladr yn gyson wrth-Gymreig. Charet ti ddim gorbwysleisio'r nodwedd honno yn Sir Gaerfyrddin. Fe allai llawer un gyfarfod ag e, a threulio oriau, yn wir wythnosau yn ei gwmmni, heb ddod yn ymwybodol ohoni. Gwraig Cadwaladr oedd waetha, wrth gwrs, fel y bydd y gwragedd yma. Ac y mae hi, nid yn unig wedi ymuno â phlaid neilltuol, eithr hefyd wedi dod yn ysgrifenyddes i'r gangen leol. Eu hymgyrch ddiwetha oedd yn erbyn agor ysgol uwchradd Gymraeg yn yr ardal. Ac fe fernaist ti, gan fod yr helynt yn dal i berarogli yn yr awyr, mai priodol o beth fyddai i'r Arolygwr flasu ychydig o'r helltni dan y croen. Nid bod yr helltni yma'n sobr o amlwg ar aelwyd Cadwaladr; yn wir, mae'n berygl, gyda hyd yn oed ei wraig, i ormodieithu ynghylch y gwrth-Gymreictod ar draul y llu o rinweddau a oedd, yn bendant, yn llenwi'i mynwes helaeth.

Ar y ffordd draw i gartref Cadwaladr, fe ddwedodd yr Arolygwr yn fwynaidd – a hawdd cofio'i eiriau gan mai dyma'r tro ola iddo lefaru mor negyddol am y Taleithiau Unedig: 'Fe ges i ngeni yn y wlad anghywir. Mae e'n deimlad bwganus braidd, fel pe bawn i'n gwybod erioed y mod i'n tyfu'n rhyw atodiad i'r ffurf ohono, ac yn perthyn i amgylchfyd hollol wahanol; a bod y corff oedd gen i acw ym Manhattan yn amhriodol, heb ffitio'n gywir, yn eiddo o bosib i rywun arall, er y mod i rywsut wedi'i fabwysiadu. Fe fydda i'n meddwl bod olion hir y nghyndadau'n aros nid yn unig yn ein corff, ond yn siâp ein meddyliau.'

Mae'n amlwg ei fod yn cael anhawster i esbonio'r cyflwr.

Mi greda i na allai fe ddim bod yn anfonheddig hyd yn oed pe ceisiai hynny.

Fel roeddet ti wedi amau, ddwedwyd dim eithriadol o daeogaidd yn ystod yr ymweliad ag aelwyd Cadwaladr, dim aruthrol o negyddol; ond wrth ichi ddychwelyd tua thre, roedd llygaid yr Arolygwr ynghlwm wrth y ddaear ac yn ddiostur o goeg. Mi ddylai hynny fod wedi gweithredu'n rhybudd i ti. Roedd y baetio hwn yn ymarferiad babanaidd ar dy ran ac yn fath o gynnig hurt i beidio â meddwl, ac felly'n ffitio'n gymwys iawn i'r amgylchfyd eironig. O leia, dyna dy hunanamddiffyniad a'th esgus ar y pryd.

Fe fu ef ei hun yn fwy tawedog wrth ddychwelyd oddi yno, ond bellach roedd yn fwy goleuedig.

Un arall y gwyddet y byddai hi'n gallu darparu erwau o adweithioldeb diddychymyg oedd ein cymdoges Mrs Rhin Bowen-Williams. Does ganddi hi ddim ond y cymwysterau Cymreicia i'w helw bid siŵr. Mae'n awdures ar lyfr natur i blant chwech oed, a deil o hyd yn drysorydd i'r gangen leol o Ferched y Wawr; ond oherwydd i'r Wasg Gymraeg ymosod ar ynadon y mae hi wedi cilio'n ddiweddar i fenig gwynion ei hunangyfawnder syber ei hun; a deddf yw deddf, anarchwyr yw'r

gweddill oll y tu allan iddi, a mater o radd yw'r llwybr i uffern. Eithafiaeth beryglus yw cyfiawnder. Dyw hi ddim mor frwd ag y bu hi ynghylch torri Cymraeg yn ddilyffethair o gyhoeddus rhag iddi gael ei chyfri ymhlith y criw anwaraidd; ac y mae yna reswm ym mhopeth.

Doedd dim angen iti fynd â'r Arolygwr yn unswydd i ymweled â hi gan ei bod hi'n anochel iti gwrdd â hi'n ddamweiniol unrhyw fore pe na wnelet ond trefnu ichi'ch dau gerdded allan o'r tŷ yn union am hanner awr wedi deg, gan mai dyna'r eiliad y cyrchai hi tua chaffe Ap Williams bob bore o'r wythnos. Wyddai fe ddim, fwy na hi, am drefniadaeth y cydgyfarfod siawns hwnnw. Efallai mai gorsymleiddio masochistig yw honni fel hyn mai math o gast (roeddet ti'n ei chwarae) oedd yr ymweliadau â'r hyn y gellir ei hystyried yn ochr realistig ar ein treftadaeth, megis y Cymreigrwydd llai Cymreig y byddai'r Bwrdd Croeso'n ei gymeradwyo. Roeddet ti hefyd, yn ddigon sobr, yn awyddus iddo gael darlun cytbwys a digelwydd o Gymru. Priodol i bobun yw cydnabod yr ochr dywyll.

Mewn ffordd o siarad, er mor ddiymwybod oedd hynny, hi oedd gwaelod y sach. Y gair olaf.

Wnaeth yr Americanwr ddim sylw am y ddau ymweliad bach yna pan aethoch yn ôl i'r tŷ. Ond roedd rhyw fath o gysgod wedi arnofio dros ymyl ei lygad. Eisteddodd yn fud yn ei gadair.

Doedd dim yn bod rhyngoch chi ar y pryd ond diffeithwch amser.

Roedd e'n dy amau di.

Roedd gen ti deimlad anesmwyth dy fod wedi gwneud mwy na'i frifo; roeddet ti wedi'i sarhau, ei ddianrhydeddu. Roeddet ti wedi'i drafod e fel peth chwarae heb gyfri'i ddyndod, heb gydnabod fod gan Americanaid hwythau eu hystyr.

Wedi stiwio'n ddiiddweud felly am funudau, trodd e atat ti yn anghymedrol ac yn ffyrnig anghwrtais: 'Os y rhain yw'r Cymry cadarnhaol, dw i'n mynd i ymadael. A dw i byth am ddod yn ôl. Dw i'n mynd i anghofio 'Nghymraeg. Mi wthia i'r peth o'm hymwybod; hyd yn oed os oes rhaid iddi lechu yn nraeniau'n isymwybod i fel llygoden ffrengig, chaiff hi fyth le ar yr wyneb, eto. *Never!* Dw i'n mynd yn ôl i gofleidio swae Efrog Newydd, i loddesta ar ei chrafwyr-wybren, i ymrolio yn ei thrais a'i fwlgariaeth arwynebol, a'i chowbois. A'i gwacter godidog modern. A'i miloedd o grefyddau ac anghrefyddau. A byth, ddeua i fyth ar gyfyl y lle yma eto.'

Fethais i â deall y dyn.

Roedd y cwbl yn hollol ddireswm. Ac yn anaeddfed. Roedd e wedi ffrwydro mor anwedus nes dy fod yn coelio fod ei Americanaeth wedi'i adfeddiannu'n llwyr fel yr hen lobi ddrylliau, y carai ef ei defnyddio o'r newydd, fel y bydd ambell Gymro cefn-gwlad wrth findlysu Saesneg dosbarth canol, pan fydd wedi blino, yn llithro'n esmwyth oddi wrth ei ddeuseiniaid at ei lafariaid crwn. Doedd dim angen i ti edifarhau felly, dim eisiau iti deimlo mewn gwirionedd iti wneud cam ag e: doeddet ti ddim ond wedi dadlennu'r gwir beth a oedd dan yr wyneb – ac ychydig iawn o



hynny – a chaniatáu iddo sicrhau ei berthynas sylfaenol mewn pryd.

'Rhowch gyfle i Gymru,' fe blediaist.

'Fe'i cawsoch,' meddai fe.

Y gair bach 'gwag' o'r diwedd oedd y diffyg a wnaeth dwll yn ystyllod ei fad.

Yna ysgrifennaist ti'r stori hon. Wedyn, ei thaflu i'r tân. Fel y dylet fod wedi'i wneud cyn dechrau.

Nid dialedd oedd yn ei lais; yn wir, fe siaradai'n chwithig braidd, ac yn enbyd o gyfrifol, fel pe na bai am siarad o gwbl. Ond fe'th ddarostyngwyd di i'r sylweddoliad doeth hwnnw dy fod wedi bod yn canu piano ag un bys, ond bod yr henwr ifanc hwn, beth bynnag am naifder ei sêl a gloywder ei orweledigaethau, yn fwy cyfarwydd â'r arfer iach, ac yn sicr yn fwy parod i'r hwyl, o daflu'i holl fysedd at gordiau llawna'r ddaear hon, ac yn canu beth oedd beth.

Plygodd ei ben yn ddarostyngedig. 'Mae Cymru wedi yn newid i,' wylodd.

Roedd e'n crio, ac America oll yn crio ynddo a chydag e.

Trodd i ffwrdd yn dawel, a chilchwerthin am ei ben ei hun yn anfwriadol. Nid am ddim y codwyd e'n Arolygwr yn Ne Manhattan. Dychwelodd i America; ond wythnos wedyn bu farw. Eithr yn ôl dymuniad ei eiriau ola, gwasgarwyd ei lwch yng Nghaerfyrddin.

(O'r gyfrol *Pwy Laddodd Miss Wales*)

## DARGANFOD HEN WLAD

'Dw i'n mynd i wneud rhywbeth ynglŷn â Bron Amant. Mae wedi gorwedd ar y nghydwylbod i fel pysgodyn marw yn rhy hir. Dyw breuddwydio am yr hen beth ddim yn ddigon. Mae'n bryd gweithredu. A byddai mam o leia yn falch.'

Creadures braidd yn fytholegol fu ei fam. Roedd e wedi'i cholli yn wyth mis oed; a'i dad wedi'i fagu rywsut ynghyd â'i ddau frawd hŷn ar dyddyn Bron Amant. Yna, bu farw'r ddau frawd hwythau mewn damwain car ar yr M3; a gadawodd ei dad Fron Amant, yn dreftadaeth fythol iddo fe, gan obeithio, (er bod Dr Tomos Edwards bellach yn feddyg llewyrchus ar gyfer gowtwyr Kensinborg ac yn hen lanc go sefydledig heb amser i ddwli teuluol), y byddai'i fab yn falch i gadw'r tŷ yn fangre i'w wyliau achlysurol. Hyn oedd y ddolen yn y gadwyn Gymreig mwyach, er mor fregus oedd y cyswllt hwnnw. Byddai hyn yn dŷ ha iddo fe. Felly y dylasai fod yn ddiamau, yn ddi-blant neu beidio. Roedd mân betheuach meddygol yn dwyn ei fryd yn rhy aml ar hyn o bryd. Ar ymylon ei fywyd, roedd yr atgo pwysig am Fron Amant. Ciliaasai'r genhinen ar ei blât y tu ôl i'r tatws, bid siŵr, y tu ôl i'r moron a'r mynydd o saws, mewn modd o siarad; unrhyw esgus rhag hansh; ond bid siŵr, nid anghofio'n gyfan gwbl a wnaeth. Fe lithrai ambell sleisen o gig moch Cymru ato ar bob plât brechwast, er na chymerai ddim o'i genhinrwydd yn gyfan gwbl ddihalen.

Ar ôl iddo glywed bod cwmni o Gymry lleol o ardal Breiddyno, y pentre yn agos i'w gartre wedi bod yn palu tai gwag i'w pocedi ar hyd y blynyddoedd er mwyn datblygu'r pentre yn uned gyfan maes o law (gwladgarwyr tra mad, yn ddi-os), penderfynasai Tomos werthu Bron Amant, ei hen gartre, iddyn nhw. Rhaid i bawb fyw. Yma, yn Lloegr y mae pob grŵp o Gymry gartre yn ymddangos o bell fel petaen nhw'n mynd i wneud rhywbeth dros ddiwylliant eu pur hoff bau. Prin y gellid disgwyl iddo sylweddoli y pryd hwnnw y gallai fod gan rai Cynghorwyr lleol bach, gartre yn ei hen gyngor sirol Prinwel draed sad ar y ddaear bengaled hon. Tybiai'r rheini y gallen nhw, drwy weddnewid pentre bach Breiddyno eu hunain yn hen dreflan Gymreig gyflawn (fel petai) o'r ddeunawfed ganrif, ynghyd ag ambell fasnachwr neu fasnachwraig yn nillad y cyfnod, fe allen nhw adfywio'r economi drwy ddenu'r math mireinia o ymwelydd haf i dreulio ychydig o wythnosau chwedlonol mewn un o'r hen dai garw a adeilesid o gerrig y fro. Gellid trefnu cynhyrchu, yng nghlyw corn lleisiol ar bostyn lamp, fod yna wylofain caneuon gwerin chwaethus o sgwâr y pentre o wyth y bore tan wyth y nos. Onid 'gwyliau thematig' oedd yr hwyl i bawb bellach?

Ac felly, gan bwyll fe werthodd preswylwyr diarffordd y fro bron y cwbl o'u tir i dwristiaid, a mynd i fyw mewn tai cyngor ym Mhrinwel. Disodli'r hen gymuned gyfoes a throsglwyddo'r cyfan yn obeithiol i'r oes o'r blaen er mwyn llenwi dwylo gofalus Elw ac er mwyn peidio â bod yn hiliol. Ragwelon nhw ddim erioed y gallai fod gan ambell ysgolfeistr anymarferol ac ambell weinidog

efengyl gymdeithasol ar y cyngor lleol fonopoli o awdurdod ynghylch cynllunio'r ardal i wrthod mewnfudwyr estron a ffeindio twll biwrocraidaidd yn y cytundeb i ganslo'r weithred... Ac i'r gwellt yr aeth eu harofun.

Roedd hwnnw i gyd drosodd. 'Dw i'n cyrchu adre,' meddai Dr Tomos Edwards.

Cafodd Tomos ail gyfle. Sylweddolodd yn awr fod gan Fron Amant arwyddocâd dwfn iddo, i gael gwyliau rhatach. Ac nid math o ddifaru diog oedd atgo fel hyn. Er mai gwell peidio ag ailadrodd y sôn am elw personol nas adroddwyd yn iawn y tro cynta, ac er tyrru ei flynyddoedd hiraethus mewn banc, dechreuai'r hen atgofion droi o gwmpas ei fyfyrddod hamdden ar fainc yn y parc. Gallai brynu'r hen gartre'n ôl, ac ailystyried ei ddyfodol.

\* \* \*

Roedd Tomos wedi derbyn llythyr annisgwyl gan y cyngor lleol yn ei ardal enedigol yng Nghymru. Roedden nhwythau wedi ailystyried acw ganiatâd ynghylch y datblygiad i'r cartre a etifeddodd gan ei dad. A chodwyd penbleth yn ei fola.

Trodd Tomos o'r heol a fuasai'n arwain ymlaen at ei feddygfa foreol ynghanol Kensinborg. Roedd e am fygu'i deimladau. Cafodd sedd ym Mharc y Frenhines er mwyn i'r fainc odano bendroni'n herfeiddiol ennyd eto. Roedd y cyngor wedi caniatáu, drwy'r newid barn hwn, iddo gael ail gnoad ar y genhinen. Ond allai fe ddim tawelu'i feddwl yn ddigonol am y fath hansh dirybudd. Oherwydd y cyfrifoldeb diddisgwyliaid, a digon o ddyletswyddau ar y gweill, am foment lwyd yn ei feddwl, – gwell fuasai ganddo, yn lle rhamantu hiraethus am fwrw gwyliau mewn tŷ ha yn ei henfro, ddod i benderfyniad ychwanegol a chadw'r tŷ fel tŷ haf iddo'i hun ac ar gyfer ymddeol. Hanner Cymro oedd e mwyach oherwydd prysurdeb; wel, chwarter efallai.

Roedd Bron Amant ar werth unwaith eto, felly. Cyflymodd ei galon o'r herwydd. Dyna'r cwbl heddiw oedd yn cyfri iddo fe am foment. Ac roedd hyn yn rhoi ail gyfle, os oedd angen ail gyfle. Gallai fe wneud iawn am y *faux pas* cynta a wnaeth yn ei gais rai misoedd yn ôl.

'Mae hynny'n rhoi ail gyfle ar ymyl y plât,' meddai fe.

Roedd e'n flinedig, ac yn grac ei fod mor flinedig.

Ail fywyd yw ail gyfle. Ysbyty yw'r cof lle y bydd y cleifion o'r hen amser yn siarad yn sentimental â meddygon y dwthwn hwn. Na, doedd e ddim yn siŵr a ddylai fe fynd neu beidio, a oedd e gant y cant yn sicr a oedd e eisiau tyrchu yn y plataid lleol yn unig ar ei ben ei hun. Câi weld.

Petrusai'n hir. Roedd ansicrwydd diflas wedi'i feddiannu.

Roedd e newydd ffonio swyddfa'r consortiwm ym Mhrinwel. Holai beth oedd ystyr yr hysbyseb yn yr *Amseroedd* y bore hwnnw. Gwenodd ynghanol ei ferw amheuthun ei hun. Yr esboniad clinigol a gawsai oedd bod y cyngor lleol drwy fin rasel o fwyafrif wedi gwrthod y

datblygiad (ffiaidd) a arfaethwyd gan gonsortiw *Cymru'r Haf*. Allai neb bellach gonsurio pentre Breiddyno i fod yn wersyll gwyliau ffasiwn newydd, diolch am hynny. Byddai Bron Amant naturiol felly ar gael drachefn, i unigolion brodorol, yn ddiogel, ddilys, hynafol, flêr ac yn naturiol ar ganol y plât, yn dŷ ha. Gallai ailgydio yn ystyr ei fywyd a'r gwarineb araf, tawel, gynt, os oedd ots am hynny.

Efallai.

'Dyma un gollyngdod bach o leiaf,' meddai fe wrth y faine ddiateg odano. Roedd Tomos yn falch. Roedd bywyd yn ddigon dyrys eisoes heb gweryla â neb, gan ei gynnwys ef ei hunan.

Ond arhosai amryw anawsterau o hyd. Roedd y crocbrisoedd a ofynnid yn awr yn yr ocsiwn newydd wrth geisio ailwerthu tai Breiddyno, a geiriad anghoeg yr hysbyseb ei hun, mor arallfydol fel na chaniateid i neb ond haen ucha'r dosbarth canol Seisnig efallai bwrcasu'r tai ar gyfer eu gorchwyl blinderus o fwrw gwyliau haf. Doedd dim sôn, serch hynny, am union bris newydd Bron Amant ei hun, ei hen gartref, ar ymyl plât deheuol y pentref. Llai na'r lleill efallai? Nid dyma'r lle i fyfyrion am y posibiladau. O leia, fe gafodd ryddid pêr i edifarhau.

Ocsiwn oedd i fod, yn ddiau.

Y tebyg yw, yn lle gweryll gwyliau hen-ffasiwn, yr hyn a gaen nhw maes o law fyddai pentref bwganaidd, naturiol, dilys, ffasiwn newydd, heb gwafers, llawn am drimis perlewygus yr haf a gwag am realaeth gweddill y flwyddyn.

Eto, yn ôl i'r fath le y gelwid e gan y penderfyniad gogleisiol hwn. Galwai'r pridd Cymreig. Ond roedd hynny'n annigonol; ddarparai gwreiddiau'r pridd fawr ond egin. Ond roedd rhyw orffennol cyfrin ganddo fe yn rhuo, ac yn gwawdio am yn ail yn ei glust, am ddeilio'n llawn yn y gwynt. Hwnnw a fuasai mor ddistaw ynghynt, – Cymreictod, mae'n debyg, ac yntau'n gorwedd yn glyd yn y gornel hon o Loegr, fel pe bai wedi'i droelli o fewn ei goesau a'i gynffon ei hun dros y cwsg-gaeaf, a'i ben wedi'i wthio'n rhan ddofn o'r cylch abred, blinedig i mewn i'w fynwes, – hwnnw yn ddisyfyd a ymwasgarodd yn uniongyrchol, ddiymatal, effro, seiniau syn ei febyd i'w glustiau nawr. Roedd e fel pe bai wedi cael ail gyfle i bwysu a mesur ei wallau coll.

Neidiasai'r hen bethau yna rywsut o'r cysgodion ar ei ben, a lapio'n annioddefol o gylch ei wddwg tost. Fe – un o Gymry Llundain. Hyd yn hyn, dim ond ei bresennol a fuasai'n llefaru wrtho yn y fath fodd mewn sillafau dof o ymwithiol. A bu hwnnw ers tro yn dawel odiaeth ei ru, ac yn ymddangosiadol fodlon yn ei alltudiaeth foethus. Rhuthrwyd nawr arno, sut bynnag, o bob cyfeiriad yr un pryd, yn fedlam anghymedrol, yn yfory, yn ddoe, yn drennydd, â'i heddiw anniddig. Oedd yn rhaid i hyn ddigwydd? Roedd e'n benderfynol o fod yn atebol i'r sefyllfa ta pa ffordd y byddai'r awdurdodau'n neidio.

\* \* \*

Daliodd Dr Tomos Edwards y trêrn 14.20 y prynhawn hwnnw. Fe'i cafodd ei hun yn gwbl anfwriadol mewn cerbyd gyferbyn â menyw dra gwaraidd, ganol-oed, a edrychai arno fel yr edrycha llygad maharen ar garreg. Ond theimlodd e erioed yn llai caregog. Yn feddal ei galon, penderfynasai adael y gorchwyl o edrych arni er mwyn syllu ar bobl eraill yn y cerbyd. Beth wydden nhw am Freiddyno? Syllai hefyd oddi wrthi hi at y ffatrïoedd a'r swyddfeydd a ymddanadlai ar bob ochr i'r rheilffordd wrth iddyn nhw ymadael â Kensinborg ddinesig, bro felys ei gleifion cymwynasgar. Teimlai mor encilgar â'i wallt y bore 'ma. Doedd e ddim yn hollol siŵr a oedd e'n hoff iawn o'r byd real a phrysur y tu allan. Ac eto, math o ŵr dinas oedd yntau bellach. Ac onid dinas o'r fath oedd uchafbwynt gwarineb? Oni ddwedodd Plato rywbeth i'r perwyl hwnnw? Neu Dante?

Parry-Williams, mae'n siŵr.

Am Joan Powell gyferbyn, y rhamantydd unplyg, edrychai hi'n flodeuog drwy'r ffenest ar wrthuni hyll maestrefi Llundain wrth iddyn nhw gilio dan olwynion y trêrn. Roedd hi'n crynu'n syrffedus o'i thu mewn wrth ffarwelio â hagrwech yr adeiladau undonog. Gwnaethpwyd rhai menywod ar gyfer dynion; gwnaethpwyd eraill i edrych allan drwy ffenestri trenau. Am Joan Powell, ai aros amdani hi wnâi'r 'mynyddoedd mawr'. 'Y Wlad!' gwaeddai hi'n fewnol. 'Joan D'Arc!'

Ac yna. 'Mae'n glaf, on'd yw hi?' meddai hi'n uchel wrth y dyn gyferbyn.

'Hi?' meddai fe. 'Pwy?'

'Llundain wrth gwrs! Pentwr o esgyrn.' Roedd ei haeliau'n cyrlïo'n gyfareddol syrffedlon. 'Y maestrefi o leia.' Saesnes oedd Ms Powell, er bod ei hen dad-cu yn Gymro. Fe ddysgasai hi'r Gymraeg am resymau rhamantaidd.

'Hwnna?' meddai fe, bron heb ddweud dim. Ond wrth iddo wneud diagnosis, neu brognosis, dechreuai amgylchoedd gwledig Kensinborg ymwthio fwyfwy i'r fei.

'Ie. Y fath loddest...' meddai hi'n goeg.

'Gloddest?'

'O ddiffyg bywyd.'

Doedd Tomos ddim am ladd ar y Ddinas drwy gyffredinoli mor syml â hynny. Ac yn sicr, doedd e ddim am ei gael ei hun mewn cytgorod â'r greadures hon, y Saesnes ramantus gyferbyn ag e. Dwli oedd y gwrthgyferbynnu eithafol.

Rholiodd y sillafau Kensinborg o gylch ei dosiliau, Nid 'Kensington'. Swniai hynny'n rhy feddal; ond 'Kensinborg' – mor gadarn, mor wrywaidd.

'Dyw'r ddinas ei hunan ddim cynddrwg,' meddai fe'n goegfalch wrth i'r trêrn ymwthio allan i ganol rhai caeau gwastad Seisnig, a rhesi twt o boplys soffistigedig ar hyd y cloddiau fel milwyr sy'n chwarae milwyr wrth sefyll y tu allan i Balas Buckingham. Codai'r fenyw gyferbyn ei haeliau

yn lle fwlgariaeth gofyn pam. 'Hyn,' meddai fe gyda'r pendantrwydd hwnnw na ddaw ond drwy fyw â'r llygaid ynghau, 'yr ardaloedd ffug wledig hyn rhwng y wlad a'r dre, dyna sy'n ddiflas. Y gwareidd-dra llydan, diberson... a ffugfaw. Mewn tre yn y canol, mae yna faw dynol o leia. Yn y wlad, mae yna wacter gwareiddiedig glân.'

Crynodd ef, yn anfwriadol.

Llaciodd hi hynny o dalcen a oedd ganddi. Doedd ei haeliau ddim mor ifanc o ryw ugain mlynedd â lliw ei gwallt. 'Dych chi'n teimlo'n gartrefol mewn baw felly?' gwenai hi'n uwchraddol. Diferodd ei gwên i lawr ychydig ar draws ei sgyrt. Doedd gwrywod druain yn ddim ond gwrywod wedi'r cwbl; ond roedd dynoliaeth gall oll fel y cyfryw yn dal yn enw benywaidd. 'Ein cyrff gramadegol ni,' murmurai hi tan ei hanadl tan wthio ymlaen yn falch ei bronnau hysb.

'Mae'r ddinas ei hun yn darparu brwydr hamddenol, eiriol beth bynnag,' atebai fe. 'Ond fan hyn, ar yr ymylon, rhyw fath o barêd yw hi a'r cadfridog (cwsg yr haf) wedi dod i weld a yw'r botymau'n sgleinio.'

'Mae gynnoch chi ddant at frwydr?' gwenai hi, oddi uchod, mor anfilwrol ag y gallai yn y dyddiau goleuedig hyn.

'Oes,' meddai fe'n briodol oddi isod. 'Mae'n cadw'r adrenalín ar ddi-hun.'

Beth bynnag amdani hi, doedd Dr Tomos Edwards ddim yn ei argyhoeddi'i hun. A doedd e ddim am fod yn ferthyr i hon ar ganol siwrnai trê, ddim dros ei grogi.

Gyrrai'r cerbydau yn eu blaen yn amyneddgar, yma rhwng y dre a'r wlad.

'Y wlad? Yr anturiaeth? Mewn brwydr o'r fath. Dyna'ch dant chi hefyd?' Dygnai hithau ymlaen. Roedd hi'n gwenu fel octopws am ei ben. Câi ef gyfle o'r herwydd i ddatrys ei dannedd. Syllai arnyn nhw. Ymholai pa rai oedd ei rhai hi ei hun, a pha rai'n ddannedd doddi. Cynhyrchid dodedigion annaturiol o naturiol y dyddiau hyn: ychydig bach yn afreolaidd hyd yn oed, ac yn sobr o an-wyn.

'Na. Yr adrenalín. Dyna'r cwbl,' atebodd e. Doedd e ddim cant-y-cant yn siŵr beth oedd yr union frwydr fu, o'r tu mewn iddi, yn y 'dre'. Ai brwydr oedd i geisio adfeddiannu ychydig o awyr iach drachefn? Ynteu ffordd arall o godi pris y tai? Roedd ei bronnau grawnffrwythog, gwledig, gyferbyn fel petaen nhw'n wincio arno, a beiddiodd edrych heibio allan o'r newydd oddi wrth y rheina at y gweirgloddiau di-winc a di-ddannedd.

'A chyfrinach y Gymru fodern yw hyn, ar ôl bod yn ddim byd, iddi godi ar ei thraed, dwstio'i dillad, cribo'i gwallt, golchi'i hwyneb, rhoi goleuadau llachar yn ei llygaid, ac yna actio fel pe bai'n dipyn o wlad drachefn,' meddai hi o ddyfnder ei rhamant. Gwyddai Joan Powell bopeth am Gymru, roedd yn amlwg. 'Diolch am y wlad,' meddai wrthi'i hun, gan obeithio y byddai Cytundeb yn dod â llonydd.

'Yn wir,' meddai fe yn gelwydd i gyd. 'Y sgarmes, felly, am byth!' Codai ddwrn chwareus i'r awyr. Ei gwawdio hi'n dyner yr oedd e. On'd oedd hi wedi gofyn amdani? Gwyddai'i nerfau Cymreig e fod y parciau gwâr yn y ddinas wedi gwella dipyn go lew ar y cerrig gwasgar anochel, darfodedig, a fu gynt yn bla ar Waun-tŷ-coch gartre. Gŵr dinas oedd e bellach. Gŵr Kensinborg. Sythwyd llwybrau cefn gwlad yn ei wythiennau gan frys y ddinas – y llwybrau a igam-ogamwyd gynt yn yr oesoedd a fu gan oes lai goleuedig o ddefaid ar draws y mynydd. Yn Kensinborg unionwyd nhw bellach i fod yn gymen. Gymaint mwy cysurus oedd y coed bob ugain llath yn llinell ddysgedig fan yna ar hyd y goedlan na'r ambell bren sraglyd yng Nghymru a ddifwynai, hwnt ac yma, borfa nad oedd hi'n werth ei llysenwi'n borfa, a rhodfeydd gwareiddiedig nas dofwyd erioed gan dorrwr lawnt. Ganwyd y greadigaeth oll i fod yn drefnus. Ai Cymru fyddai hanner ei gynefin drachefn ymhen ychydig o wythnosau?

Sylwasai Dr Edwards nawr fod ei hwyneb hi o gylch y dannedd yn welwach na'r cyffredin, fel pe bai newydd ymddangos o flwch. 'Awyr iach a geid mewn theori a bleidiai hi', meddyliai. 'Cawsai'r blwch hwnnw'i guddio efallai o dan silff mewn seler dros y gaea, dros gant o aeafau. Doedd na gwynt na heulwen erioed wedi cynhyrfu'r dafn mana o waed i gwrso drwy'i bochau hi, a doedd dim clóroffyl ychwaith wedi cyffwrdd â'i bysedd mân a'i gwddf canol oed. Doedd dim syndod ei bod hi'n chwilio am fyth.'

\* \* \*

'I fi,' meddai Joan Powell yn uchel, 'mae natur oll yn sanctaidd.' Bu e bron â chyfogi. 'Pobl fach ddiymhongar biau'r wlad.'

'A chi a fi yw'r dre ddrwg, debyg?' meddai fe gan gilwenu.

'Yn gwmws.' Llenores nodweddiadol oedd hon yn ddiau; roedd ei phin yn meddwl drosti. Hwnnw yn wir a daflai'r syniadau o'r papur i fyny i'w chorun, fel dyn yn lluchio papurach a thuniau a gweddillion ciniawau i'w lori herciog.

Tewi oedd saffaf. Sylwodd Tomos ar ychydig o inc a adawsid ar ei bysedd, yn fwriadol.

Y dull esmwyth o sgrifennu, dyna a'i meddiannai hi. Roedd unrhyw gystwyo ar yr iaith yn ddychryn. Iddi hi cyfrinach y cyfan oedd clustymwrando ar lif y gwynt. Roedd hi, mewn gair yn boblogaidd.

'Fyddwch chi'n sgrifennu felly?' gofynnodd Tomos.

'Nofelau.'

'Am beth wedyn?'

'Y nheimladau. *Bywyd*. Perthyn. Serch. Gwreiddiau. Maen nhw'n gwerthu wrth gwrs. Fel papurau newydd.'

Wyddai hi ddim oll, go iawn, am bethau felly. Rhedai ar ôl ei breuddwydion nes i ambell un

droi'n ddisymwth a chyfarth arni. A honno yn anad yr un a gofnodai.

'Bywyd! Wel, dyna destun bach gogleisiol, annisgwyl,' crynodd Tomos mewn llesgedd. Hon oedd y math o berson di-dda a oedd yn dân ar groen dinosawr. 'Ond pa ran o fywyd?' gofynnodd y meddyg a oedd ynddo.

'Y rhan sy tu mewn i fi.... Y cwbl gyda'i gilydd. Dw i ddim yn credu mewn rhannu dim.' Gwenai hi mewn gostyngeddwrwydd brwd cyfannol llenorol. (Llysieuwraig efallai.) 'Y gwir yw mai rhamantau dw i'n eu sgrifennu. Ond maen nhw ychydig yn wahanol oherwydd yr ymwybod â gwreiddiau.'

'Gwreiddiau?' Crynodd ef. Roedd yn dechrau'i chasáu hi.

'Ie. Y pridd, wyddoch. Tafodiaith ac ati. Mae darllenwyr Saesneg, mae pawb yn Llundain, am wn i, yn wirion bost am wreiddiau.'

Roedd hi'n hoffi gosod cymeriadau'i nofelau yn y Wlad. 'Mae hynny'n rhoi dimensiwn arall iddyn nhw.'

'Tueddai'i geiriau i fynd ar wibdaith Ysgol Sul cyn dod yn ôl i arhosfan yng nghlustiau Tomos.

Gwenai hi drachefn, yn fwy gostyngedig byth.

'O! Yn Saesneg dych chi'n sgrifennu.'

Crynodd hi'n anaele wrth y fath sylw gan ddieithryn, gan gollu ei gostyngeddwrwydd oll dros y llawr. Agorodd ei haeliau fel ogof gyfrin. Doedd hi ddim yn siŵr a wnâi e ŵr hollol addas iddi wedi'r cwbl.

Roedd gan Joan Powell y ddawn siriol o ysgogi cur yn ein phen ei hun pryd bynnag y mynnai. Doedd dim angen iddi na dal ei hanadl yn ei gwddwg na gwasgu'i gwaed ar ei chwarennau, na rholio'i llygaid yn ei phen yn chwyrlligwgaid, na cheisio cwmpeini anghynnill cerddoriaeth fodern na dim imperialaidd felly. Doedd dim rhaid iddi ond penderfynu'n sydyn dawl ei bod am gael pen tost. Ac wele'r pen hwnnw bendramwnwgl ganddi yn ffres ddiffwdan ar blât. Fel y mae ambell leidr mwy deheuig na'i gilydd yn medru galw ar esgobion neu gyfreithwyr, neu hyd yn oed ar glercod treth incwm i fod yn dystion gloyw i'r ffaith na fuasai erioed yn y fan a'r fan yn lladrata, ac yntau wedi bod yno wrth gwrs, felly gallai Joan hithau dynnu cur i'w phen yn barchus pryd bynnag roedd arni ei angen, a gwybod bod y byd yn dyst.

Ar achlysuron felly byddai ei chwaer, a gawsai fflat uwch ei phen ynghyd â'i dau fab, yn toddi'n hufen iâ hollol hafaidd o gydymdeimlad llifeiriog. Byddai'i neiaint hwythau yn cripiant o gwmpas y tŷ wedi'u sobri'n ddisymwth yn eu gwrthryfel adolesent. Disgynnai difrifoldeb arholiadol a phwyllgorol braidd ar draws dodrefn a llenni a darluniau'r holl gartre, a phob ymwelydd yn llwynogaidd sibwrdd ei neges, cyn ei heglu hi oddi yno mor fuan ag y gallai dwyster ei wyneb



ganiatáu, tra llenyddai hi yn hapus brudd.

Fe deimlai hi ei bod yn bodoli mewn distawrwydd penderfyniadol. Âi'r trêen odanynt yn ei flaen yn wrol er ei waetha fe. Ymlaen ac ymlaen, a hithau o ran delwedd mewn llonyddwch syber. Roedd ganddi, yn ei barn wylaidd hi, flew amrannau y byddai'n werth marw drostyn nhw; sylwodd ar hynny fel pe bai newydd brynu hufen-iâ.

Felly, rhaid bod rhyw fath o berthynas yn datblygu rhyngddyn nhw, a âi'n Gymreiciach bob milltir o'r daith. Ac efallai, ar ôl eu hymddiddan chwyldroadol ynghylch nodweddion cystadleuol Gwlad a Thre, wele rinweddau distawrwydd llethol yn cymryd ail gam – a cham penderfynol – yn natblygiad eu cyfathreb.

Hen ferch oedd hi. Hen gaer wedi'i chau i mewn. Ac yntau hefyd yn gastell caeëdig mewn hen lencyndod. Y naill yn ymylu ar sylw'r llall gan hiraethu am ymosodiad na ddeuai byth. Hynny yn y diwedd a roddai breifatrwydd iddyn nhw.

Cafodd Tomos felly gyfle o'r diwedd i bendroni am y sefyllfa a'i harhosai ym Mhrinwel. Doedd e erioed wedi dod i'r bwcwl â'r broblem o ddweud rhywbeth terfynol yn glân â'i etifeddiaeth; rhy brysur fuodd e i ddod i gasgliad. Roedd ei feddwl yn agored. A dadleuai'i deimladau a'i etifeddiaeth â'i gilydd yn awr.

\* \* \*

Braidd yn chwedlonol oedd oedran Joan Powell er hynny, yn ôl unrhyw fath o ddyddio carbon. Roedd hi'n barod iawn i gyffesu i rywun ddeugain prin o'i blynyddoedd gorau. Roedd hynny'n ddigon am y tro. Cadwai'r wyth arall ynghudd yn ei bag llaw fel trosedd hawdd ei maddau.

Synnai Tomos yntau mor amddifaid oedden nhw yn y cerbyd. Dau oedden nhw, dau yn unig, ac o'u deutu aceri o unigrwydd mawr. Roedd peidio â byw mewn un o faestrefi Llundain am orig yn rhoi cryn ollyngdod i Tomos. Dim llygod marw yn gorwedd hyd yn oed dan y pontydd. Dim hen wragedd yn rhuthro heibio mewn bysys rhydlyd. Dim cleifion yn llond y feddygfa. Pob milwr wedi'i roi'n ôl yn ei gwpwrdd. Pob cerdyn yn ôl yn y drôr. Dim Kensinborg am y tro, felly. Oer, oer oedd y ffenestri, fel clociau unig yn troi eu bysedd hen, anesthetig yn y gwacter a'u gadael wedi'u fflangellu gan dywyddau, yn gryn, yn rhewllyd, yn fore, a heb amser na gwyliau ar eu cyfyl yn un man.

Dyma'r trêen mwya unig y bu ynddo erioed. Twannel o drêen ydoedd. Neb braidd arno.

Ymladdai llygaid Tomos i aros yn iraidd. Teimlai y byddai cysgu o flaen hon yn ansyber.

Penderfynodd y prynai fe ddryll yn yr orsaf nesaf efallai.

Ar ei sedd dechreuodd e farw i raddau, fwy neu lai felly, wrth led gau un llygad.

'Peidiwch â lladd neb cyn cyrraedd Prinwel,' meddai'i gydwybod wrtho, gan ddal halwynau arogl wrth ei ffroenau. Ond dihunodd fel pe bai newydd eistedd ar ddraenog. Syllai arni nawr ar

oleddf felly drwy flew'i amrannau ar draws y gagendor diderfyn rhwng eu seddau. Cyfansoddai'i aelïau femo bach ati yng nghornel ei dalcen er mwyn cadw ar ddi-hun:

*Annwyl Ms Ann Hysbys,*

*Dw i ddim yn deall anhysbysrwydd benywaidd. Ac felly, dw i'n mawrhau y moroedd difenyw a fu rhyngom ni hyd heddiw. Dw i'n mawrhau coedwigoedd difenyw pryd bynnag y byddon nhw o fewn cyrraedd. Ond os daethoch chi yma'n unswydd felly heddiw i ymyrryd â'm chwarennau lleia hysbys, gwell ichi fynd yn ôl i'ch swyddfa chwap. Mae iechyd yn gofalu am y rhai chwyrn eu chwarennau. Gwell ichi aros lle'r ydych chi, yr ochr draw i drachwant. Mae yna gadwyn fechan acw heddiw yn agos i'r nenfwd. Os daliwch i giledrych ar f'egidiau mewn modd mor newynog, bydda i'n teimlo'n rhwymedig i'w tynnu.*

*Yr eiddoch yn Farcsaidd,*

*E. Llwyd*

Doedd e erioed wedi hoffi'r enw Tomos Edwards, rywsut. Roedd e bob amser wedi hoffi defnyddio ffugenwau; ac am ryw reswm wedi hoffi'r enw 'Emrys'. 'E' felly... Ond pam Llwyd? Ai ar ôl Mari? Neu Siani? Lleucu, mae'n siŵr? Ffurf-fferetai am yr ateb, heb frysio.

\* \* \*

Âi'r trê'n hirgyflym yn ei flaen am oriau sigledig, ond heb siglo dim ar y tawelwch tew-welw a'u hunai ill dau bellach yn oeraidd gysurus. Pwysodd e'n dalog yn erbyn y ffenest.

Tynnai Tomos yn ôl ambell waith am mai dyna oedd yr ochr lle roedd ganddo 'ysgwydd rewedig'. Y rhew yna a barai fath o ddistawrwydd o'r pegynnau ar draws yr erwau moel. Gwelai darw yn pipian dros fryncyn yn y gornel acw. Roedd distawrwydd ar ôl y llefaru yn wahanol i'r distawrwydd cyn llefaru. Roedd yn fwy aeddfed rywsut. Mae'n anodd i'w esbonio. Nid 'tarw'!

Roedd cerbyd gwag neu led-wag y trê'n eisoes yn cysgu'n drwm o'i ddeutu, buasai hynny'n rhywfaint o help. Chwythai awel drwy'r ffenest. O'i mewn, clywai aroglau hen gantorion. Er gwaetha'i goegi, fe'i llenwid gan yr awel hon â math o sicrwydd patrwm fod y trê'n yn canu grwndi i'r cyfeiriad iawn. Llonyddwch fyddai'i *forte* heddiw.

Rholiai hiraeth o fath distaw a hyfryd braidd dros wallt Tomos Edwards, ac i lawr y tu ôl i'w glustiau hyd ei wegil. Fe o bosib fyddai'r dyn hiraethus cynta a adferai Freiddyno mewn llonyddwch gwreiddiol newydd. Y Mab Darogan hwn felly a'i tynnai hi i mewn i'r unfed ganrif ar hugain wâr. Gallai ddatblygu'r dreflan o bosib, yn unol â'i hunaniaeth a'i hangen cyfoes. Tybed a fyddai'r llysieuwraig hon yn hoffi'i helpu? Trueni ei fod wedi blino gymaint.

O'r diwedd cyrhaeddon nhw Brinwel lle y disgynnodd e er mwyn chwilio am ffyrm llogi

ceir fel y gallai yrru i fyny tua Breiddyno ar ôl ymolchi mewn gwesty lleol. Roedd hi'n bwrw glaw. Roedd yn gas ganddo dywydd ar egwyddor: un o nodweddion cefn gwlad mae'n debyg. Roedd hynny'n elfen a oedd bob amser yn difa sgwrs oherwydd ailadroddwydd. Aeth hithau Joan Powell, ymlaen yn y trê. Aeth hi yn ei blaen bron heb sylwi arno. Roedd ei flinder e wedi'i gario fe allan o'r ffordd.

Dyma gyfle felly iddi yn ei cherbyd i anadlu. Ond cyfle byr.

\* \* \*

Wedi disgyn ar blatfform yr orsaf, sylwodd Tomos ei fod rywsut wedi colli'i docyn. Edrychai'n graff ar ei law dde. Doedd e ddim yn y fan 'na. Edrychai'n graffach eto ar ei law dde. Doedd e ddim yno, eto, chwaith. Wedyn, wrth godi'i lygaid, llithrodd ei gipolwg yn anfwriadus dros ei law chwith. Fan yna roedd y tocyn drwy'r amser. Y gwirionyn! 'Mae gen i ddwy (neu dair)!' broliai gyda balchder breuddwydiol. 'Doedd honno ddim yno y tro diwetha yr edrychais i.' Siglodd y llaw yn wylaidd ramantus. 'On'd ydw i'n gyfoethog? On'd yw esblygiad yn wyddor glyfar? Dyma fi – allan o ddim byd y bore 'ma (twll du efallai) – yn esgor ar beirianwaith mor gywrain â llaw chwith.'

Wrth gyrraedd y drefflan lwydaidd sylwasai bellach yn anesmwyth fod pawb yno'n sibrawd. Un o afiechydon y Cymry. Hyd yn oed pan siaradan nhw Saesneg, cyn iddyn nhw gyrraedd y fenter fasnachol gywrain o bwrcasu tocynnau trê, y mae yna atgo'n aros o'r amser pryd y torren nhw Gymraeg gyda'i gilydd, gynt yn iseldra'u heuogrwydd a'u cywilydd, ac mai gwell ganddyn nhw ddwyn eu hymddiddan i ben o hyd fel arfer mewn ffos ddistaw ychydig islaw lefel y glust. Diau eu bod wedi'u parlysu ar ôl i bob protest i bobl eraill fethu.

Dylai fe fod wedi arbenigo mewn Seiciatreg. Ond gallai unrhyw un dynnu coes.

\* \* \*

Ciliodd i mewn i ystafell ei westy er mwyn ymaflyd yn y ffaith ei fod wedi dychwelyd i'w gynefin. Prinwel! Llonydd! Roedd enw'r drefflan yn ddigon i dreiddio hyd at fêr unrhyw gi colledig.

Un o'r doniau lleol oedd e wedi dychwelyd, wedi egino o'r tywyllwch i achub y lle. Un o'r talentau ffyddlon lleol. Arwr oedd i bawb o bobl Breiddyno. Fe, efallai, oedd y math o berson a allai anadlu einioes yn ôl i ryw dipyn o furgyn llwyd. Dô i â thrydan meddygol ei enau a bwrlwm ei lafar i ysgogi'r werin ffraeth o'r newydd i dynnu bys ma's a gwneud rhywbeth drostyn nhw eu hunain. Wrth iddo orffwys yn ei gadair y foment hon cwmpodd oddi ar ei wyneb y naill wên deg ar ôl y llall, y gwahanol gymeriadau y buasai'n eu chwarae yn ystod y dydd, disgynnen nhw'n dyrrau di-lun o gwmpas ei draed – ei ddiacter a'i gwrteisi, ei ofal a'i hyder, ei dawelwch a hyd yn oed ei swildod, syrthien nhw mewn cywilydd o'i adael yn hollol gymdeithasol borcyn, gyda'r awel ysgafn hon a lithrai o dan y drws yn chwythu'n fain Gymreig ar groen cynnes ei gorff.

Rhaid cyfadde. Cafodd gyntun bach cudd yn y fan a'r lle. Hamddena roedd e, mae'n rhaid, heb wybod hynny, heb sylweddoli mai dyna oedd ei angen. A breuddwydiai'n awr, yn gwbl ddiwylydd am hen wlad ei dad. Onid oedd breuddwydio yn caniatáu iddo ddweud celwyddau am Gymru bob cynnig? Gan bwyll y dihunai fe'n ôl i'w famwlad yn y cwmni hwn. Dihunai'n wrthrychol ara heb emosiwn camarweiniol. Roedd yn unig. Ar ôl byw yn Kensinborg roedd wedi gallu dod yn ôl i Gymru fel gwlad estron â ffresni dieithryn i gofleidio'r newydd-deb ara.

Safodd a bwrw'i fol â'i ddyrnau: 'Y Wlad! Y Wlad!' gwaeddai. Ac yna, gwenu fel llo er mwyn ymuno â'r amgylchfyd.

Prinwel, y dre farchnad; Breiddyno, y pentre yn ymyl ei gartre; a Bron Amant, ei deyrnas fechan uchelwrol ei hun. Roedden nhw'n ôl gyda'r hen ddadl dwp: dinas ynte dinod.

\* \* \*

Clywodd ym Mhrinwel y cynhelid arwerthiant o ryw hanner dwsin o dai Breiddyno, sef y pentre bach a oedd megis mini-faestre i Brinwel, gan gynnwys Bron Amant ar Fai yr unfed ar bymtheg, ar ôl cinio. Yn sydyn, gwawriodd arno megis mellten y byddai prynu tŷ yn fath o gyfrifoldeb ymosodol iddo mwyach, yn arbennig un a fuasai yn y teulu er y Dilyw. Buasai'r weithred o aros yma mewn cyd-destun mor ymarferol yn ei orfodi i fynd ymhellach na chŵyn a phrotest. Allai fe ddim beio eraill. Byddai rywfodd yn mentro i mewn i diroedd dyfal dinasyddiaeth gyfrifol o'r newydd yn y wlad. A bodoli yno mewn uniongyrchedd presenoldeb. Byddai'n rhaid bod yn gadarnhaol hyd yn oed.

Fe, wedi'r cwbl, oedd yr achubwr. Drwy ocsiwn!

Ymbluai ychydig efallai mewn balchder. Fe, Tomos, o bawb, ei hun fyddai'n gweithredu'n adeiladol. Roedd hi'n awr yn 'Galan-mai', diwrnod Llywelyn Fawr a Siwan a Gwilym Brewys. Felly (yn ôl yr hen ddull o gyfrif Calan Mai) roedd ganddo ddau ddiwrnod i ddweud y gwir wrth y mynyddoedd hyn pam roedd e'n teimlo'n gartrefol yno o'r newydd yn eu mysg neu beidio. Doedd dim chwant tindroi ar y pryd yn y gwesty hwn tan yr ocsiwn. Ac eto, doedd e ddim am fynd ymhell iawn serch hynny. Gan bwyll, Tomos. Gallasai dau ddiwrnod crwn fel hyn ganiatáu iddo grwydro i bellafoedd y fro, ei hadnabod a'i hanadlu. Ond roedd e am oedi o fewn cyrraedd hawdd, rhag ofn y digwyddai rhywbeth i'r tai ar werth ac y gallai fe glywed eu cri nhw am gymorth.

Roedd yna un rheswm arall dros ddychwelyd i Freiddyno. Rheswm oedd nad oedd Tomos yn barod i'w gyfadde, hyd yn oed, iddo fe ei hun. Rhyw hanner can mlynedd ynghynt, roedd parti dawns o hanner dwsin – ffres fel wyau – o ferched ugain oed wedi ymweld â'r neuadd bentre. Nhw oedd y merched perta, hyfryta, ysgafna erioed a ymwelodd â Breiddyno. Syfrdanwyd pawb ar y pryd gan yr harddwch a sbloetsawrai dros y lle. Mawloleuasan nhw galonnau. Ysyaeth, neu drwy drugaredd, ar y pryd fe gaed ledled y sir un o'r pyliau rheolaidd o anwydwst Asia a ddaw ar sgawt ar

ei dro. Daliwyd y chwech yng nghrafanc y pwl a'i neilltuolrwydd: Winni McTavish, Meg Likens, Ginger Lindley, Mary Lee Mahoney, Joan smith (gyda llythyren fach) a Phyllis Sharman. Ysgythrwyd eu henwau yn frith fel rhododendra ar y fro byth wedyn. Claddwyd eu seicoleg yn sydyn ym mhridd gloyw a disglair gwrywaidd diango'r mynyddoedd. Y canlyniad o fod yn ddisymud oedd, maes o law, i'r chwech gyfarfod â bechgyn, ymhyfrydu yn yr ardal, oedi, ac esgor ar lwyth disymud o ddisgynyddion benywaidd – y perta, pereiddia, ac ysgafna o ferched bach heglog, disymud a welwyd erioed yn y sir. Dôi disgynyddion Breiddyno o'r herwydd yn enwog am eu parti dawnsio ar dap drwy'r wlad ac yn achos eiddigedd i lawer pentre arall. I lanc ifanc roedden nhw'n amhosibilrwydd tlws tra derbyniol. A'r rhain bellach, y merchetos godidog hyn a welw-welai yntau drwy'i hun, ynghudd yn isymwybod Tomos. Nhw oedd yr hyn a'i hatynnai'n ôl efallai heb yn wybod iddo'i hun, yn ôl i'w hen gynefin cneifedig... O chwilfrydedd, bid siŵr. Nhw a'u plantos pert fyddai prif olygfa'r ardal – er mai arall oedd y rhesymiad swyddogol wrth gwrs gan y Bwrdd Croeso.

Ond buasai Tomos ar grwydr yn rhy hir fel na allai ddisgwyl dilyn y trywydd cywrain hwnnw y tro hwn. Yr hyn a drawai Tomos oedd yr all-lifiad. Heb i Freiddyno sylwi, roedd hi'n ddisylw wedi colli llawer iawn o'i phoblogaeth – yn reddfól, y dawnsywyr a'r cwbl, er bod ambell jibinc yn dal i ddawnsio yno. Ymfudodd yr asgwrn cefn o'r ardal. Ymgyfnewidiwyd â mewnfudwyr.

I'r llygad unig hydeiml, a syllai ar elltydd y fro, doedd dim mor wag â'r olygfa a gollodd ei choetiach praffa. Tebyg oedd yr olygfa ddi-goed hon i gôr a gollodd ei leisiau oherwydd afiechyd llwnc. Roedd hyn yn rheswm arall dros ailamddiffyn y fro. Gadawodd ei gar hurriedig yn iard ysgol Breiddyno, yr hen ysgol ddiddan – honno wedi'i chau ers blynyddoedd. Roedd honno'n cael ei defnyddio bellach yn ganolfan gan ddringwyr. I Tomos, roedd yr hen le, rywsut, yn ei atynnu'n ddiymadferth oherwydd atgofion bobman. Ond petrusai'n swil ac yn hydeiml, a cherdddai nawr mewn cylchoedd cynyddol ar hyd y gweunydd llwyd o gylch yr ysgol gan gadw'i muriau hi o fewn gafael ei drem o hyd.

Aethai cerdded yn ymarfer tipyn yn esoterig iddo bellach er pan gyraeddasai. Cillasai Kensinborg fwyfwy o'i ymwybod. Doedd Kensinborg yn fawr o hyrwyddfan ar gyfer dim heblaw hercian a gwaith. Aethai'i gorff braidd yn galed, a braidd yn wrthryfelgar oedd Tomos i farbareiddiwch cerdded rhy reolaidd. Bellach roedd ganddo'r math o gorff trwsogl ond hydeiml a deflir at ei gilydd gan fechgyn ysgol gynradd, ac a aethai'n debyg i hen bostyn y buwyd yn lluchio clai ato drwy gydol y prynhawn. Câl o'r herwydd chwyddiadau corfforol dirgel yn y manau mwya anwar. Y tameidiau a sticiai yng nghorneli'i lygaid oedd waetha. Ei drwyn anathletig ar y llaw arall a fendithiwyd fwya. A'i glustiau.Ymbalfalai yn ei gerddediad ar drywydd ei drwyn gyda phenderfyniad mul. Ond fe ddôi i ben.

Edrychai o'i ddeutu. Fysai dim byd yn hwylusach heddiw nag achub lle fel hwn.

Rhyfedd heddiw, wrth gerdded mewn cylch fel hyn, fel y daethai hen ysgol Breiddyno drachefn yn ganolbwynt i'w fywyd. Hen ysgol ei deulu. Hen fangre odidog y blynyddoedd gwyn.

Hen atgofion melys am dablau a sialc a gwialen. Hen hiraeth cywir am hel brogaod a gwersi gwridog am ryw. 'Hawyr bach!' meddai wrtho'i hun, 'yn y dyddiau gynt roedd athrawon bioleg yn dysgu i blant sut roedden nhw'n cael eu geni. Nawr maen nhw'n dysgu iddyn nhw sut y gallan nhw beidio â chael eu geni.' Hen hiraeth.

Cymru yw cartre'r enaid. Mi ddwedwn i hefyd mai'r wybren yw cartre'r ddaear. Ond twll yw twll. ... Dyw hyn ddim yn deg. Roeddech chi ychydig o ddyddiau'n ôl wedi difaru mynd o Loegr. Ond roeddech chi wedi cefnu ar eich gwaith beunyddiol, a ffoi yn ôl tua'r wlad bell yng Nghymru, ac roedd yr wybren fel pe bai hi ar adenydd yn cyrraedd bob amser o'ch blaen chi. Nawr roedd hi'n agos. Cydiwch yn ei choler: 'Beth dych chi eisiau'i ddweud?'

Wyddoch chi nhad. Dwi'n credu fod angen y daith hon wedi bod arna-i yr adeg hon yn y mywyd. Rown i'n dechrau llwydo ychydig. Roedd angen gwynt yn y ngwallt... Drysai ef fymryn am fod y wlad yn dechrau mynd â gormod o'i fryd, ac yntau wedi bod mor braf o annelwig ei benderfyniad.

Buasai'n allfudiedig yn rhy hir. Lle bwganus yw dinas Llundain bellach y gellwch gerdded drwyddi heb sylwi'n benodol ar ddim. Menyw droellog yw'r wlad sy'n mynnu ichi sylwi o'r tu allan ar bob un o'i rhagoriaethau yn eiddgar o eiddigus.

Dechreuai'i galon delynega. Canlyniad yw'r amgylchfyd dinesig i adeiladu go sydyn byrdymor; ond arafwch pwylllog adeiladu harddwch yw'r wlad ym meddwl y preswlydd oesol. Hyd yn oed yn y manau a gyfrifir yn wag, mae natur yn sylfaenol amhrisiadwy. Heblaw sylwi ar amrywiaeth hollol amlwg natur, mor rhyfeddol yno yw sylwi ar ei hundod. Englynion yw planhigion, er mai awdlau hunanarddangosol yw coed. Ac fe'u hunir oll mewn cynghanedd groes o gyswllt. Yn y ddinas ar y llaw arall, y llygredd a wrteithia: yn y wlad, yr awyr gras a fyn achlesu pob ysgyfaint.

Dyna, wrth gwrs, pam y gelwir y naill yn ddinas, a'r llall yn wlad.

'Weithiau, byddaf yn llithro i ffwrdd fel enaid  
i fyny drwy'r creigiau heb fod neb yn gwybod,  
heibio i lwyni a'u rhyfeddu yn dirion amdanaf,  
heb neb ond y dydd yn gydymaith i mi.'

\* \* \*

Y diwrnod cynta, roedd e'n ymdeimlo â hadau dant y llew yn glynu gerfydd eu blew wrth ei

ddillad, ac yn ei ddilyn. Roedd hi fel pe bai bwgan confensiynol yn closio ato, yn arbennig pryd bynnag yr elai ar gyfyl Bron Amant. Doedd 'na neb yno, wrth reswm. Roedd hi'n bwrw glaw confensiynol, dyna'r cwbl. Bysai'r gweunydd yn gallu bod yn aruthrol o wag heb eu glaw. Beth wnelai'r cymylau heb y gweunydd? Ond roedden nhw hefyd yn noddfa gynnes i fyfyrion corfforol ac yn llwyfannu pob math o gysgodion symudol, siffrydol, na chaen nhw byth le yn ystrydoedd sythion Kensinborg (o'u cyferbynnu â Kensington). Edrychai i fyny at rithyn o'r haul a oedd newydd sbio'n ffaeledig o'r tu ôl i gwmwl. 'Mae'n dda bod dyn yn methu â chael ei ddwylo arnat ti eto ta beth ... ' meddyliai.

Teimlai Tomos fod ei isymwybod rywsut yn arolygu'r wlad yn awr fel dafad. Allai dim llawer fod yn fwy dryslyd. Heddiw, safai yno'n ddi-os dros y dinod.

Rhyddid ddylai fod yn gyswynair iddo mewn lle fel hyn heddiw. Roedd y bore wedi dod a'i lyncu. Câl'r prynhawn wedyn ei lyncu dro a thrachefn. Fe'i cymethid gan y coleddu yna a'r treulio acw. Ac yna, maes o law câi'i gyfogi gan ddüwch y nos dros y wlad. Roedd hyn oll yn ei anesmwytho.

Hyn felly oedd Pendroni fab Pensynnu. Er gwaetha'r oerfel, sleifiodd i mewn drwy ddrws yr ysgol; eisteddodd yn un o'r desgiau gwag yn yr ysgol; a chysgu.

Drannoeth y bore, trodd yn sydyn wrth ddringo allan o iard yr ysgol. Tebygodd iddo weld ei gyd-deithreg sylweddol gynt, Joan Powell, yng ngwaelod y pentre yn ei fwgan wyllo o bell. Allai fe ddim bod yn gwbl sicr o gwbl; ac yn wir, gallasai fod yn hen wreigen, neu'n hen wŷr hyd yn oed (tebyg i'w dad, hwyrach, pe bai'r fath beth yn bosibl) neu'n blentyn, neu'n ddau blentyn yn chwarae. Beth bynnag, roedd pob un ohonyn nhw wedi mynd, bellach.

Aeth *hi* i fwrw glaw, ychydig yn waeth. Hi o bawb. Cymru felly ar blât.

Bwriodd ei galon beth glaw, ychydig dros ei arleisiau wrth iddo synied yn ffansiol ei fod fel pe bai wedi sgrifennu llythyr arall ati:

*Annwyl Ms Powel,*

*Gwell imi dywallt yn holl gardiau ar y bwrdd. (Priod-ddull Saesneg, mae'n debyg, wedi bod yn Kensinborg mor hir.) Mae'n siŵr eich bod bellach wedi darllen rhwng y llinellau nad oes gen i fawr o amynedd gyda llysieuwyr na menywod sy'n gwisgo barfau ffug yn yr oes drefol hon. Pob un o'r cardiau. Maen nhw'n debyg i'r Marcsiaid llenyddol sy'n credu bod gwirionedd yn drech na harddwch, a ffatrioedd yn drech nag amaethyddiaeth. Llenyddiaeth afrealistig mewn potel dw i'n galw peth felly, rhywbeth tebyg i'r llongau hwyliâu enfawr sy'n gorfod cwtshio mewn poteli gwyrdd ar ben silff. Bydda i'n hoffi bydolgwg ychydig yn fwy dynol – simneiau addurnedig Twrci, anialwch y Calahari, gweithio mewn ffatri losin yn yr Ariannin, dwy frân yn*

*clebran â'i gilydd ar gefn carreg yn Kensinborg, gwely llydan yn Nenmarc, gorffen llenwi ffurflen treth incwm yn y tŷ, Eglwys Gadeiriol Tyddewi, tacsï araf ar hyd glannau Tafwys, sgwrs uwchben peint gyda thrempyn o Swydd Efrog, rhoi pigad i fabi yn erbyn y dwymyn doben, awdlau mawl i Arsenal. Bywyd cyfan. 'Realiaidd' yw'ch gair chi yng nghefn gwlad. Dyna ngweledigaeth lenyddol hefyd, hyd yn oed am nofelau serch a'u catholigrwydd amlochrog. Gweledigaeth Kensinborg yw hi yn y bôn.*

*Gyda hynyna i gyd yn y mhen yr eiliad yma, dyna pam dw i am ichi yn esgusodi i am aros yma mor dawel gerbron nofelydd rhamantaidd, heb ddod i'ch gweld chi fel y dylwn.*

*Yr eiddoch yn gynnes,*

*Emrys*

Anfonodd e ddim o hyn chwaith.

Efallai'i fod yn teimlo'n fwy serchog erbyn hyn. Yn y prynhawn teimlai'n sicrach braidd iddo ei gweld hi eto o bell, megis cae mewn ysbryd neu ysbryd mewn cae, ryw hanner milltir y tu ucha i'r pentre yn cyrchu tua'r mynydd. Disgwyliai iddi godi fel barcud, a hofran, nofio'n ôl dros y pentre, ac yna drosto yn ei hanferthedd, ond nis gwnâi e hefyd. Od nas gwnâi. Trueni nad oedd e wedi mentro ar fwy o sgwrs gyda hi pan oedden nhw gyda'i gilydd yn y trê.

\* \* \*

Eisteddai felly am foment ar y borfa. Daeth drosto'r angen Cymreig i ddifrifoli yno ar y waun. Bu e'n hir odiaeth, yn chwarae â Chymru. Teimlai ryw fath o oleuni cymhleth, llawn, yn pasio drosto nawr fan hyn. Eisteddai a gadael i'w feddwl gerdded. Ai ymwared â mwgwd ei ddihangfa oedd ystyr difrifoli? Drwy fod yn greulon, gallai blisgo'r crwyn yn garcus â blaen ei fysedd oddi ar y tir er mwyn dinoethi'r wlad a oedd ynddo.

'Wel, nhad, dyna fi wedi methu â ffeindio'r un gwreiddyn crwn cryno yn eu plith hyd yn hyn. Ble maen nhw, dwed? Diffeithwch sy 'ma. Ond *pobl* sy'n ffrwytho, ddwedwn i, bob amser. Nhw a'u tlodi sy'n cario'r canrifoedd oll heb sylwi.' Chwilennai o fewn y cwbl o'i flaen yn awr am ei synnwyr o hunaniaeth ffuglennol. Dyna a geisiai wrth lygadu cyrrau'r rhosydd. Nid copi o'r gorffennol, ond y llif ysbrydol oedd yn fyw. Dyna a'i denai fe. Ac nid yn y tir y caed peth felly, beth bynnag a ddwedai'r beirdd. Y bobl eu hunain oedd yr hunaniaeth, yn unigolion ac yn gymdeithas. Gwleidydd *manqué* oedd e. Deffrôï o'r herwydd i leoliad ei wlad ym mosëig effro'r cyfandiroedd oll.

Syllai'r olygfa'n ôl ar ei lygaid gleision. Fe deimlai bellach fod yr amgylchfyd ei hun yn craffu arno, ac yn ei ddadansoddi. Yn nrych ei lygaid ymestynnai sgwrs fyd-eang nawr rhyngddo a'r borfa a'r pentrefi gwlyb llwyd, y trefi byrlymus y tu draw, yr hwyl a'r difrifwch cynnes y tu mewn, o flaen y cefndir amrywiol o rosydd a chlogwyni. Ond dim ond ffrâm oedd hyn oll i ddarlun mwy



dirgel o lawer. Pobol oedd yn cyfri. Ymddiddanai'i lygaid a'i ddychymyg â'r gerddi o flaen y tyddynnod, heb fod yn orfflachgar. Y gwanwynau miniog mwyn, myfyrion y bobl oll o fewn eu cloddiau cymen, *noblesse oblige* y werin ddiwydiannol a gwledig yn glebr yn eu tafarnau lledwag, onglau'r llechi clawdd yn y caeau prin fel waliau carchar. Hyn oll sy'n darparu gwir olygfa i lygaid gleision. Chwerthin y steddod leol a rhythm synhwyrus ei rhaglen flinedig flin. Drama'r hen fywyd Cymreig – Comedi. Ymataliodd ef am funud. Allai fe ddim gweld dim o'r waun blwm ar y pryd gan gymaint oedd y delweddu amryfal hyn oll. Synhwyras rywffodd eu bod nhw'n ceisio chwarae ag e. 'Nid dyma mhethau i,' meddai gyda phendantwydd anarferol a dadrithiedig hen lanc. Perthynai i Kensinborg. Dymunai drechu pob rhamantiaeth ac ymbalfalu drwodd at batrymwaith modern y difreuddwyd. Rywffodd, doedd epil oer ceirydd mynyddog oes yr haearn ddim wedi darfod.

Y bobl na fuont, fe allent fod yma o hyd. Cânt fod yn wyliau-haf.

'Wel nhad annwyl i,' breuddwydiai rhyngddo a fe'i hun. 'Fan acw mae Lloegr a nghartre priodol presennol hen lanc ... Ac odani, yn estyniad i'r lleuad honno, yn y cysgod, wedi'i threulio, mae arwyneb gorffenedig nhipyn gwlad anghysurus yn hun Bron Amant fel amlinell o dŷ. Mae'r tŷ unig hwn wedi'i dreulio hefyd. Beth yw e? Dwy ystafell; y gegin a'r ystafell wedyn. Mae'n rhaid mod i wedi cysgu rywfaint ynddo. Ac eto, ... nid diwedd bywyd yw cysgu. Deuliaeth ydw i, yn rhanedig rhwng gwledydd a rhwng cyfnodau.'

Dwy debyg oedden nhw, rhaid cyfadde, y lleuad a'r wlad yma – er na chyfaddefai fe mo hynny: dwy y rhwydwyd ei serchiadau fe gan eu hatyniadau cyferbyniol: yr ola'n ceisio mor galed fod yn rhywun arall yr un pryd, ac eto o'r braidd yn llwyddo i fod yn hi ei hun, yn wirion bost fel yntau. Y meddyg a'r awdures.

Beth yw'r pwynt?

Gweithio bwganod y bu e erioed, yn ddiaw, ar gefn stamp post. Ofn dirfawr oedd yr ysgogiad efallai. Ym mhob man ym mhentre gwag Breiddyno, roedd yna ymwybod o bresenoldeb chwithig yn cyniwair ... Wrth gwrs, peth felly oedd 'pentre' gwag i fod. Pob bwgan yn byw ar bob bwgan arall. Roedd yn deall yn awr pam nad oedd e wedi dod yn ôl i'w hen ardal ynghynt, pam roedd e wedi esgeuluso ymweld â'r hen gartre cyhyd ... Ei dad oedd y rheswm. Ar hwnnw roedd y bai. Deuai hwnnw'n ôl i fyw o fewn ei ben e. Roedd hen ŵr ei dad wedi ei gadw oddi yno am sbel. Ond hwnnw a fu'n ei ddilyn. Hwn a'i gydwybod ei hun. Yn y caeau roedd yn gweld rhith o'i dad drachefn yn gwenu arno ac yn estyn cynnyrch y tir iddo fynd yn ôl gydag e i Lundain. Dyma fe, ei dad, eto ar y llethrau yn rhoi'i amser, a'i arian, a'i bryderon, er mwyn ei gynorthwyo drwy'i addysg, ac yn ei yrru ef i rodres y ddinas. 'Dw i'n mynd o'ma,' meddai'r mab. O gwmpas y tŷ roedd yn clywed diwydrwydd ei dad, a hwnnw'n wffio gwrando bob amser ar unrhyw ddiolch.

Maldod dieisiau oedd pob gwerthfawrogiad, gan y mab. Doedd dim eisiau tynnu sylw at y fath gymwynasgarwch hollol naturiol. Beth oedd rhyw dipyn gofal adeg salwch? Beth oedd y brys caredig i'w helpu pan oedd arno fe ei angen? Rhan o'r busnes anweledig o fod yn dad? Y rhoddion cyson caswir? Y wylidwriaeth anymwithgar? Doedden nhw ddim ond yn rhan anochel a chyfrin o'r swydd anweledig ddefodol o riant.

'Aros yn dy ddyletswydd,' meddai'i dad wrtho gynt.

Dyna pam heddiw roedd y llawenydd o ail-weld yr hen gynefin llwydlas hwn wedi'i lethu fe â thristwch. Allai fe ddim dioddef ymosodiad y gwacter cymwynasgar hwn, yr absenoldeb ymwithiol yn pwngan o adleisiau coll. Roedd y darfodedig yn rhy groyw yma. Roedd y bywyd hwn, roedd yn rhaid ei fyw o ddydd i ddydd, yn ymddangos fel pe bai'n mynd yn ei flaen yng ngenau bedd: y bywyd deuol a anwyd yno, a luniwyd gan ei dad, a'r lle (neu'r lleoedd) y gyrrwyd ef iddynt.

Allai fe ddim goddef aros yn rhy hir bellach o fewn cyrraedd rhwydd i'w hen gartre oherwydd y pelydrau chwithig o boen.

Cododd ei galon oddi ar ei heistedd.

\* \* \*

Na! Doedd e ddim yn ffitio ym Mreiddyno wedi'r cwbl, ddim yn yr un ffordd ag a wnâi pan oedd yn grwt. Tybed a oedd e wedi dod yn ei ôl i'r lle iawn?

Roedd e yno yn syml fel ymwelydd nawr. A dichon mai golwg twristaidd a gâi ar bethau. Llai trafferthus oedd byw felly. Mwy unplyg. Mwy unionsyth a gonest rywsut. Roedd yn well felly.

Penderfynodd hurio car a theithio ysbaid allan o'r pentre ar y trydydd dydd, yn y bore, rhag ofn mai Joan Powell ydoedd y rhith yna a fu'n hofran uwch y pentre mewn gwirionedd; ac ystyriai ef mai gorymdrech nerfol fyddai adnewyddu'i adnabyddiaeth ohoni hi mwyach. Symlder y gweunydd anial oedd y lle dewisol y câi cymhlethdod ffoi er mwyn teimlo'n ddealedig. Yr hyn a geisiai'i lygaid nawr oedd bryniau a oedd yn odli â'i gilydd.

Yna, stopiodd.

Doedd e ddim wedi teithio yn ei gar hùr am fwy na phymtheng milltir ar hyd un o'r lonydd cul, troellog yna ... a phorfa'n tyfu yn y canol... ac amryw gerrig rhydd wedi treiglo ar draws y llwybr bob hyn a hyn... pan gafodd dwll mewn teiar. Rhegodd yn synfyfyriol. Yna, sylweddolodd ei wir sefyllfa. Oherwydd ei ysgwydd rewedig, allai fe ddim rhyddhau olwyn y car a'i chyfnewid am olwyn sbâr. Trodd ei wyneb i fyny yn erfyniol tuag at y cymylau llwyd a murmur ychydig o sillafau Indo-ewropeaidd serenog. Pe na ddeuai neb am awr ar hyd y lôn fach hon, fe fethai â mynd yn agos i'r arwerthiant ym Mhrinwel mewn pryd. Fe fyddai'n methu heddiw felly ag ennill yr hen gartre yn ei ôl. Gerllaw roedd ychydig o frain yn rhwygo'r wybren yn ddyrneidiau o ddarnau mân; ond doedd hynny'n fawr o help.

Ddaeth neb yno. Yn wir, welodd e neb byw bedyddiol (namyn fel y bydd pobl y trefi, ddarnau o gig oen yn pori), am dair awr ar gefn y mynydd. Dylsai fe felly fod yn gwbl ynfyd grac. Fe ddylsai fod mewn pwll melyn o falen. Mae'n rhaid bod ei holl gynlluniau'n gyrbibion mân a phob gobaith am adennill y dreftadaeth deuluol wedi hen fynd i'r gwellt. Roedd amser wedi lladrata'i freuddwyd yn ddiflwyn-ar-dafod oddi arno.

Ac eto, nid felly y teimlai. Nid dyna'r hyn oedd wedi digwydd. Melys o falen oedd hyn. Nid ffoi 'wnaeth amser... Roedd pob munud yn codi nawr ar ei haden ac yn hedeg i'w lle penodedig yn y ceinciau. Ambell dro hwyliai i'r gangen ucha un ymhell o gyrraedd trwst y tyrru islaw: ambell waith clwydai'n funud nesa ger munud arall oedd yno'n barod, er nad yn fynych yr ymsefydlai'n nesa at yr un a fu yn union o'i blaen hi. Ond doedd hi byth yn ymadael. Nid peth darfodedig felly oedd yna. Roedd pob munud yn dod o hyd i'w diogelwch priod ei hun, ac yn gwyllo yno, yn aros ac yn cydeistedd am dair awr, nes bod y goeden, yn ôl y nifer o ganghennau a arfaethwyd iddi o'r cychwyn cynta ac yn ôl ei thaldra a'i chryfder ceinciog cynhenid, yn gwbl gyflawn. Ni ellir ymwared â'r un funud gydwybodol a fu.

Ble a beth felly oedd y wir Gymru? Y wlad Gymreig sy'n disgleirio orau yw honno efallai sy'n dweud y celwyddau mwya lliwgar – Beddgelert, Portmeirion, Llanfairpwllgwyngyll, Llancarfan, y cerrig coffa ar furiau Castell Gwrych ... Y Cynulliad Cenedlaethol. Lleoedd nad oedden nhw yno, yn y bôn. Roedd rhywbeth yn ei bersonoliaeth ei hun a geisiai hunaniaeth wneud o'r fath.

Coed yma ac acw ar bob llaw. Coed; porfa denau fel breuddwydion, a choed. Rhai coed yn chwyrnu'n chwyrn ddifreuddwyd. Ond Cymru hithau oedd y rheina hefyd yn wreiddiol. Doedd dim o hyn yn para, doedd bosib; ac eto, roedd y cwbl yn ei ailadrodd ei hun, nid unwaith ond canwaith. 'Wel! Mae hyn yn *rheolaidd*, mae'n debyg,' meddyliai Tomos heb fod yn siŵr pa mor bell yr ymestynnai'r gair bach anesmwyth hwnnw. Welodd e erioed gymaint o reoleidd-dra mewn glaswellt, cerrig, coed, cymylau yn cogio bod yn afreolaidd. A rhyngddyn nhw o hyd, ambell ddafad stwmpyn neu sglodyn o aderyn afreolaidd yn cogio bod mor rheolaidd ag y medrai. Meddylwyr mân oedd y planhigion efallai: gweithredwyr afreolaidd oedd y creaduriaid hwythau. Mangre oedd hon iddo gyfathrebu â fe'i hun ynddi, yn sicr, ac â'r meddylwyr hynny oll a lefarai wrtho am orffennol coll, gan esgor ar syndod.

Mae gwirioneddau eraill o'r fath y cofiai ef amdanynt yn awr am Gymru a allai ddwyn yr afrealidd iddo mor realaidd:—

*Ar 9 Chwefror, 1859, syrthiodd pysgod byw o'r awyr yn Aberpennar yn ystod storm wyllt; ar feddfaen mewn eglwys yng Nghonwy nodir enw Nicholas Hookes, a fu farw ym Mawrth 1637, fel 41ain plentyn ei fam, Alice Hookes; yn Hydref 1909, prynodd John Evans o Lanidloes ebol gan*

*William Thomas o Lanelli, ychydig o ddiwrnodau wedyn, fe'i cafwyd yn stryd ei gyn-berchen yn Llanelli, wedi cerdded bron 80 o filltiroedd adre; ym Mai 1805 fe ddaliwyd brithyll a chanddo ddau ben yn Afon Cleddau, sir Benfro... Hyn oedd ei fyd anhygoel ef.*

Byd o ryfeddodau yw'n byd ni; a'r hyn sy'n eu gwneud yn rhyfeddodau yw genedigaeth afreolaidd yn rheolaidd o genhedlaeth i genhedlaeth, o le i le.

Ddaeth odid neb yno i darfu ar reoleidd-dra gwag Tomos. Ymhen tair awr a hanner sut bynnag, gwibiodd bugail ifanc yn afreolaidd ar gefn moto-beic dros y gorwel ac aros o fewn chwarter troedfedd i gefn y car.

'Rhywbeth yn bod?' holai.

Felly y bydd pobl y wlad, yn dyfal ddyfalu, wyddoch chi, yn tynnu ymholiadau o'r gwaelodion mwyaf cyfrin. Cyfeillgar.

'Y car wedi stopio i edmygu'r defaid,' meddai Tomos.

'Hen wŷn braf, on'd oes?'

Ac yna, heb holi dim mwy, tynnodd hwnnw ei gôt a newid yr olwyn fel pe bai'n gwybod yn burion mai dyna'r hyn y buwyd yn disgwyl amdano erioed. Gŵr synfyfyriol prudd oedd y bugail anhysbys, er gwaetha'i ymarferoldeb, aelod er anrhydedd o Ferched y Wlad, prydydd gwlad a hoffai lunio topicaliaid am dai haf a phethau felly ar gyfer nosweithau aflawen. Swildod diwylliedig, gwerinol yw edrych i mewn am na haeddwch edrych allan: y bugail di-enw.

'Dyna gall yw car yn stopio fan hyn i edrych ar y rhain... Pe bai gen i dair awr,' meddai'r bugail wrtho'i hun, 'a finnau'n gar, dw i'n meddwl y byddwn i'n chwilio am gerrig miniog rywle ffordd hyn i rwbio y nheiar i'n ei herbyn... tamaid o borfa gyfforddus reolaidd i eistedd arni o flaen yr olygfa... Rhyfedd, ynte fe, sut y mae Cymru – am wlad fach – wedi casglu cynifer o olygfeydd. A glaw heb olygfeydd. Efallai'u bod nhw'n perthyn drwy ysgariad.' Un busnesgar oedd y crwt.

Daliai i fwrw glaw mân. Canai'r llanc y traddodiad yn dawel uwchben y teiar.

'Hen law,' murmurai Tomos Edwards mewn edmygedd. Dylyfai'r moto-beiciwr ei ên. Roedd yn amlwg fod y dyn diymadferth hwn heb werthfawrogi swynion a lles y dŵr glaw. 'Hen ddŵr.'

'Y bywyd llawn mewn byd llwm,' meddai'r llanc, gan gynganeddu'n naturiol bost fel y bydd y werin. Ond ddeallai Tomos ddim ohono, er ei fod yn mwynhau'r diwylliant fel arfer. Gobeithiai fod yna bobol gyffelyb eraill ar gael, meddyliai, y tu ôl i'r golygfeydd llym o'i ddeutu a oedd wedi dysgu digon o Hen Gelteg.

\* \* \*

Ym mhlyg y cwm, sylwodd Tomos yn awr ar nant fach, dechreuad afon, diwedd pob glaw. Chwaer ufudd i fynydd oedd afon fel hon. Ceisiai'r werinwraig fechan hon ymuniaethu rywsut felly. Roedd hon, heddiw, yn ceisio bod yn afon fechan well na'i gilydd, a bron yn llwyddo.

Daliai hi (yr *hi* arall ramadegol y tro hwn) i fwrw glaw mân confensiynol. Y fan yma, unigrwydd glwyb o fath oedd diwylliant yr ardal. Rhan o fosëig anfodolaeth hen bridd.

Llifai'i feddyliau ar grwydr yn anghyfrifol gyda'r defaid. Cofion prudd oedden nhw mewn gwisgoedd ffansi a ymdroellai o'u cwmpas ar flaenau'u traed nawr. Newydd ddeffro roedd rhai o'r breuddwydion byw, gymaint ag roedd deffro'n bosib i wŷr o Kensinborg. Sylwodd e ddim mwyach ar y moto-beiciwr cymwynasgar yn ymadael. Hynyna o anwybyddiad gwledig yn ôl athroniaeth gymdeithasol Kensinborg.

'Does gen i ddim ond pum munud yn y mhoced, ac mae un o'r rheina wedi'i rhydu,' meddai Tomos.

Erbyn iddo gyrraedd arwerthfa Prinwel, felly, roedd hi'n hwyr; ac wele Joan Powell yn clatsian ei gwefusau yn erbyn ei gilydd wrth iddi ddod allan drwy'r drws, gan ditw-tomasu'n wawdus hapus tuag ato.

'Dr Llwyd,' yn wên i gyd, meddai hi.

'Wel, Miss Powell bach.'

'Yr union le i ramant,' meddai hi. '*Dw i wedi'i chael hi*. Bron Amant dw i'n feddwl. Ar blât. Bydda i'n gallu meddwl am serch nawr, a sgrifennu serch, troi serch yn llyfrau di-ri yn y cynefin go iawn. Bydda i'n gallu ymneilltuo mewn tangnefedd serchog a'm traed a'm gwreiddiau yng Nghymru.'

Roedd hi'n fuddugoliaethus. Roedd hi eisoes yn breuddwydio am ysbrydoedd addawol Bron Amant.

Os cafwyd rhwng Tomos a Joan gystadleuaeth mewn rhamant, Joan a enillodd y gystadleuaeth honno yn ddidrafferth. Sgarmes a gawsent rhwng rhamantiaeth y brodor a rhamantiaeth yr estron. Doedd dim siawns o'r cychwyn mewn gwirionedd.

'Llongyfarchiadau,' meddai ef gan geisio peidio â meddwl am erchylltra'r rhamantu diferol.

'Dw i wedi cael yr union amgylchfyd,' canai hi drachefn, 'am yr union bris. Llenyddda i mi fydd Cymru mwyach.'

Na: doedd hi ddim am ei fwyta fe ar hyn o bryd, a hithau newydd orffen prynu'i dŷ, preswylfa'i ysbryd. Roedd y wedd honno drosodd. Ond sylodd hi'n dirion arno a phensynnu tybed a ddylai hi bwrcasu'r gŵr gwrywaidd o ddiwerth hwn hefyd cyn bo hir, i'w storio yn y rhewgell erbyn llymder gaea ac ambell swper rhamantus. Os nad oedd yn llednais, o leia roedd e'n lled neis.

'Sut ych chi'n teimlo, felly, Miss Powell?' (Sylwer: nid Ms Powell bellach.) Ymgrymai o ychydig fel pe bai eisoes yn agor drws ei gartre iddi.

'Balch, Doctor. Tawel falch. Dw i wedi bod yn holi, ... achau, chi'n gwybod, a dwi'n deall ein bod ni'n perthyn.' Teimlai ef, yn wir, ei fod wedi cael ei eni i fod yn ginio i rywun.

'Byth. Perthyn?' Crynodd e.

'Dwi'n ofni'n bod ni.'

'Rown i'n amau braidd. Nid chi yw fy merch hirgolledig?'

Lleng oedd gwawd ei lais. Roedd eu carwriaeth fel dau feddwyn wedi syrthio i gysgu ar fainc ym Mharc y Frenhines cyn cyrraedd adre.

'Prin Dr Llwyd. Eich mam-gu efallai... Ond na ... Gor-orwres i chwaer eich hen-hen-henfam-gu dw i yn ôl cofnodion y plwy.'

'Felly. Mae'n rhaid bod gwaed brenhinol yn eich gwythiennau.'

'Wel, mae'r fath berthynas, Dr Llwyd, yn peri i nghefn sythu y mymryn lleia, rhaid imi gyfadde.'

Roedd hi'n un o'r hen ferched cyhyrog yna sy'n meithrin rhyw gryfder yn eu cymalau wrth gerdded gweunydd a hel grug mewn sweteri uchel er gwaethau'u pwysau. Pownsiodd hi'n egnïol ramantus fel pe bai'n llygadu'i botensial e. Gallai, fe allai hi ddibennu hwn mewn cegaid a hanner, ond i swper nid i frecwast. Rholiodd hi ei hun yn nes-nes ato. Hiraethai yntau hefyd am y math o fenyw dych chi ddim i fod i edrych arni ond i'w bwyta'n ara oddi ar lwy.

Felly, – ymsyniai yntau, yn athronyddol ddigon fel y dywedir, – roedden nhw ill dau'n ffurfio pryd o fwyd, – roedd hi wedi prynu'i dŷ e a'i amddifadu o'r cyfle i unioni'i gam â'i gyndadau, – roedd e wedi methu yn hyn o beth drachefn; ac eto, nid wedi methu'n gyfan gwbl. Er bod breuddwydion taeg *Cymru'r Haf* hwythau wedi malu'n yfflon jibidêrs, o leia, fe gâi Bron Amant fod yn gyrchfan gwyliau am drimis y flwyddyn i Gymraes o Loegr yn hytrach nag i Saesnes ddi-dân-ym-mol o'r un wlad. Fe ddô'i'n ffynnon i storïau byrion.

'A! Llenyddiaeth. Thema a phlot yn barod! Y bau!' ebychai hi. Codai'i llais wrth ynganu ystrydeb nes iddo flodeuo fel meddwl gwreiddiol.

'Y bae?' myntai yntau, gyda mymryn amhosibl o newid ar ddeusain; ond sylwodd hi ddim ar y jôc, am hen ardal ddeuol yng Nghaerdydd – un rhan yng Nghaerdydd a'r llall yn Llundain. Ac yna: 'hyn, yn hytrach, yw amddiffyn y ffin,' meddai fe wrtho'i hun yn Fadogaidd ddewr ei fron. 'A beth fu yn swyddogaeth i yn hyn o fuddugoliaeth?' holodd e. Catalyst mae'n debyg. Chwarae teg i Ms Powell sy wedi cyflawni cymaint o bwrpas ag a oedd gen i yn gudd ar gyfer hyn o dreftadaeth. Cynffon bach di-sigl. Mae ganddi hi bwrpas hollol unplyg yn y bôn, yr un pwrpas â mi. Yn union. Bron. Mae hi wedi prynu'r tŷ yn weddol ystyrlon dan y nhrwyn ystyriol i.' Gallai fe deimlo'n arwr iddi hi bellach.

Treiglai'i fyfyrion diog e amdani hi o'r newydd fel hyn. Doedd e ddim yn grac. Sylwodd e bellach: roedd ei dipyn crynu cêl, ie a'r ofn, ynghylch wynebu hen fywyd newydd wedi blino. Roedd blinder wedi blino. Ac wedi blino efallai am fod hon wedi'i drechu, a'i drechu'n ystyrlon.

Roedd e wedi adennill ei flinder cyfarwydd. Cyflawnwyd y genhadaeth; gwyddai'r diwedd; ond treuliasai oes hir yn ceisio dod o hyd i'r dechrau.

Efallai mai'r wers i'w ddyheadau gwibiog-ramantaidd oedd ei fod fel arfer yn ymgyrraedd at y gwirionedd pryd bynnag y sylweddolai o ddifri ei fod bob amser yn anghywir.

*Annwyl Joan,*

*Wel, dyna ni. Ffarwél amdani, mae'n debyg. Dyna'n tipyn carwriaeth ni drosodd am y tro, wedi pob ymdrech. Dichon y cawn ailgynnau'r goelcerth rywbyrd mewn rhyw gaffe cornel yn Kensinborg, uwchben pobo gagen Chelsea. Pwy a wŷr? Yn llawnder y gwanwyn, pryd y mae hyd yn oed blodau papur yn y fynwent yn ceisio edrych yn well na'i gilydd, dichon y caiff y serchiadau rhyfedd hyn a wybuasom yn encilion Cymru ymlusgo allan drachefn, ymagor yn drwsogl, ac estyn eu hadenydd blinedig.... am funud neu ddwy.*

*Llawer o gariad,*

*Em*

\* \* \*

'Fydech chi'n barod Dr Llwyd imi deithio gyda chi yn y car i lawr i orsaf Prinwel.'

'Wrth gwrs. I hynny y'm ganwyd.'

'Fe fyddwch chi'n troi tuag yn ôl i Kensinborg bellach.'

Roedd e'n teimlo'i bod hi'n ei snwffian e, ac yn lled benderfynu'n hamddenol pa delpyn fyddai'r lleia di-flas iddi ddechrau arno cyn iddo fynd adref. Mater o amser oedd hi i ystyried pryd y dylai hi estyn ei phawen a rhoi'r cnoc tyngedfennol iddo ar ei iad. Gallai, fe allai hi gwblhau'r gorchwyl yn reit handi mewn awr ac ugain munud, ynghyd â thri chwarter awr arall ar gyfer yr esgyrn ... Roedd hwn oll ar blât.

'Ond na; ddim eto,' meddai fe'n ddibetrus. 'Mae yna fynyddoedd.'

'Beth?' gofynnodd hi'n syn â'i chlustiau'n llawn o siom ynghylch eu cwyr.

'A theiars,' meddai fe.

'Beth dych chi'n feddwl?'

'Mae gen i deiar sy'n crefu eisiau twll.' Ysgydodd ei freichiau'n ddiymadferth yn yr awel yna a gyrchai tua'r llechweddau uwchben Breiddyno. 'Twill yn y cof'. Edrychodd hi'n syfrdan arno. Gallai hithau ysgwyd ei breichiau'n ddiymadferth amwys hefyd.

'Twill?' gofynnodd ei goslef hi mewn syndod naif. (Meddwl yr oedd e am y teiar.) 'Pa dwll?'

'Tw-w-wll achubol!' meddai fe – a'i oslef fel eiddo plentyn wyneb yn wyneb â'r anwybod, hyd yn oed wyneb yn wyneb o ddifri ag un o'r tyllau du cyflawn a bythol-bresennol yn y bydysawd.

Gwyddai hi, yn wir roedd hi'n sicr lawen y câi hi fwy o ysbrydoliaeth nag erioed, wrth geisio

amgylchfyd priodol i lunio'i rhamantau Saesneg.

'Ie. I fyny ffordd 'na, twll du yn y tywyllwch,' meddai fe gan wenu'n hyderus, neu'n weddol hyderus, gan ei fod yn amau rywsut ei bod hi wedi ennill y blaen arno. 'Y rheina biau f'ansicrwydd i... a'r glaw.' (Y mynyddoedd roedd e'n synied amdany'n nhw, tra oedd hi'n synied mai'r breuddwydion a oedd mewn golwg o'r tu ôl).

'A!' meddyliai hi, 'dyma fi wedi ennill brwydr fach arall yn y ngyrfa. Mae pob brwydr yn cyfri. O bosib. A brwydr dros wareiddiad a rhamant oedd hon. Rhyfedd yw buddugoliaethau gwir serch... yn yr ystyr lenyddol yn unig wrth gwrs; yn foesol ac yn hen ffasiwn solet. A pham lai na bod yn hen ffasiwn mewn byd sy wedi'i argraffu cyn iddo gael ei gysodi? Roedd y Modernwyr, pwy bynnag oedden nhw, wedi tybied pe baen nhw'n rhedeg ynghynt ac ynghynt, yn y man y bydden nhw'n dechrau hedfan a goddiweddyd Ôl-fodernwyr. Ond y cwbl a ddigwyddodd oedd eu bod nhw wedi dechrau blino... Iddi hi, yr hyn oedd o'i blaen hi oedd siwrnai ar wib yn ôl i Lundain i drefnu'r mudo ac yna'i gwib yn ôl i Walia.

Roedd Tomos yn sicr wedi blino a hiraethu. Roedd yn amau mai hi a syniai ei bod wedi ennill. Ond bodlonai fe'n reit fodlon ar fod yn ara deg. Croeso iddi... Ara deg oedd y ffordd i orffen pob stori. Roedd y ddau wedi troi eu gwyliau'n waith.

Na, âi e ddim yn ôl yn yr un trê'n â hi. Diramant fyddai cymaint o ddyfodol ag a chwenychasai fe. Penderfynai oedi am ddiwrnod neu ddau eto. Dyn a wŷr pa bryd y câi gyfle i ddychwelyd ffordd yma drachefn. Arhosai am wythnos arall, efallai; neu fis.

'Pob hwyl i chi gyda'ch serch, Miss Powell, pan ddowch chi'n ôl 'ma.' Ac ychwanegodd gyda'r math o wên nad yw'n dda i ddim ar gyfer cadw Cymru'n daclus: 'Ar bapur dw i'n feddwl.'

'Na! Ms Powell, Dr Llwyd,' saethodd hi ato i'w gywiro.

'Dr *Edwards*, saethodd e'n ôl; y saeth sytha ers diwrnodau. Teimlai fe fymryn o fuddugoliaeth bersonol. Ond un o fanteision bod yn hen lanc yw na chewch byth fod yn Ms.

'Ms!' saethodd hi drachefn. Trengodd e bron.

'Edwards,' gwichiodd e drachefn fel pry genwair wedi'i ddal tan blygu'r un pryd. 'Nid Llwyd. Llwyd yw'r enw barddol,' esboniai fe'n gloff. Ac eto, yn arwr o fath.

Gyda'r addysg adeiladol honno yn ei phwrs, y ffarweliodd ef â hi. Nid un o weithredwyr cyffredin y byd hwn oedd ef. Synfyfyriwr ydoedd yn y bôn. Synfyfyriai hyd yn oed cyn cinio. Synfyfyriai wedi cael practis hwylus.

'Gwranda Tomos las, 'nhitw i,' meddai fe wrtho'i hun. 'Rhyw ddiwrnod byddi di'n siŵr am bethau. Efallai iti wamalu dipyn bach heddiw. Ond ryw fore bach, fe ddeffroi di'n sicr. Fe ddeffroi di; a chei weithredu yn sicr, ddibrotest, gadarnhaol. Gelli di gogio fan hyn am ryw dipyn. Ond mae sicrwydd draw fan yna ar y ffordd adre yn realiti iti. Bydd hwnnw'n ceisio dy oleuo di. Paid â'th



gladdu dy hun nawr mewn esgus fel ffug fodernydd o ôl-fodernydd o ôl-drefedigaethwr. Rhyw fore glas, byddi di'n dihuo a bydd ansicrwydd Cymreig wrth erchwyn dy wely yn crino ac yn glaswenu am y tro ola, a bydd yn gwawdio dadrithiad yn ei gylch e'i hun. Ha! ha! Jôc fuais i yn y diwedd. Mwgwd oedd y cwbl. Sicr fel niwl mynydd, ansicr fel angau glas, – dyna own i drwy gydol canrifoedd dy wlad. Ond dw i'n ildio heddiw. Bellach, dw i'n bodloni ar fod *yn awr*.'

Efallai nad oedd wedi *byw* yn gwbl gadarnhaol yn unman. Nid fel hyn y byddai hi am byth. Teimlai ddagrau melys yn cynhesu y tu mewn i'w dalcen. 'Cer yn ôl i Kensinborg, fachgen. Heddiw. Cura ar y drws. Dy ddrws dy hun yw heddiw. Does dim ots beth yw'r ateb. Cura, y ffŵl. Rhaid i ddyn go iawn fyw rywle. Y Wlad neu'r Dre. Yn y diwedd, pan fydd perfedd rhywun yn llefain, rhaid i'r dagrau fynd i ryw ofod, ac arwain. Gallan nhw lithro i lawer man. Maen nhwythau'n mynnu rhyw fath o ffynhonnell hefyd. Cer yn ôl i Loegr. Byddi di'n ôl yn dy gynefin-Cymry-Llundain. Wedi'r cwbl, mae'n rhaid cael tarddiad i ddagrau. Yn y diwedd, yn yr afon hon y maen nhw'n gorffen bob yr un, cred di fi.

'Wel, y nhad,' meddai Tomos gan syllu o'i ddeutu a chrafu'r gorwelion oll, 'rwy'ti ti nhad yn y nabod i nawr. Diog o ysbryd. Mae'r corff yn iawn... Ond...

Methodd â gwneud dim oll yn yr hen ardal, wedi'r cwbl; hyd yn oed cau'r dyfynodau ar ôl yngan brawddeg. Nid yn gymaint ar ei ddadrithiad y bu'r bai, ond ar ei ddiogi Cymreig, adfeilion llychlyd ei egni brodorol. Llithrodd yn ei ôl i'r gelfyddyd ara o fyw a ddyfeisiwyd gan werthoedd brys. Afluniwyd yr hen beth gan lonydd. 'Mwyach, galla-i fod yn well Cymro...

Ac yna. Ar y llawr, heb yr un brotest ar ôl, na'r un weithred adferol chwaith, heb fod yn rhy bell o Fron Amant, bu e farw'n ffigurol, a bron yn derfynol. Y dyfynnod a'r gobeithion a'r cwbl dw i'n feddwl.

Allai neb ddweud nad oedd e wedi gwneud ei orau, sut bynnag. Agorodd y llifddorau. Os oedd Cymru a thynged yn mynnu pobl o galibr Ms Powell a'i rhamantau, rhad arnyn nhw. Doedd yr henwlad ddim yn haeddu cael ei meddyginiaethu gan synnwyr cyffredin, dyna'i thrafferth. Teimlai mor seithug rywsut, fel postyn lamp roedd ci rhwystredig wedi'i ddarganfod ac wedi tybied mai pwrpas yr hen lamp oedd goleuo'r hewl. A throdd Tomos gyda'i synnwyr cyffredin yn ei ôl am dro cwta gyda phenderfyniad arwr i chwilio am weld y mynydd. Doedd honno o leia ddim yn yr ocsiwn.

'Arhosa-i ychydig dw i'n meddwl heb yr un ddyletswydd.' Gallasai sylwedydd arwynebol synied wrth edrych ar ei ysgwyddau trwm a'i gamre llwm mai methiant seithug, crwm oedd wrth iddo gerddetian tua'i gar. Eto, nid fel yna, yn hollol, y teimlai yntau. Cymro oedd hwn, anturiaethwr, fel Madog – os bu Madog erioed – math o fod dynol, wedi'r cwbl, gŵr ffaeledig blewog dewr-ei-fron oedd wrth natur. Roedd wedi gweld ei henwlad eto, ac fel Madog wedi dweud 'Na.'

Aros i fynd roedd e.

Roedd e wedi arogl'r hyn a llynasai wrth sgidiau'i dad, ac wedi codi'i esgidiau'i hun yn ôl tua Kensinborg. Roedd wedi ymwneud ag ymylon hen wae. Arhosodd ym Mreiddyno.

Penderfynodd Joan Powell yn y diwedd fynd adre i bacio er mwyn dod yn ei hôl.

Ond roedd un o'r pincod gerllaw yn mynnu pwyo mân dyllau yn y distawrwydd.

*Ac ysbrydoliaeth cân yr union bincen ddinod honno sy'n cyfri ddeng mlynedd yn ddiweddarach pam y bu i Dr Tomos Edwards sefyll gartre yng Nghymru yn ward Breiddyno mewn etholiad fel cynghorydd lleol dros UKIP, ac y bu i Joan Powell ddychwelyd i Lundain sefyll gartre yn gyngorydd lleol yn Llundain dros Blaid Cymru a'r SNP yn Kensinborg. Dichon fod Joan Powell wedi datblygu (yn rhamantus) yn fwy o gynrychiolydd i syniadaeth Gymreig ramantaidd na'r un Sais arall ar y pryd. Methodd hi yn yr etholiad cynta hwnnw; ond ar ôl iddi ollwng ei hymlyniad wrth Blaid Cymru yr ail dro a sefyll yn unplyg dros yr SNP, enillodd ei sedd yn ôl. Aeth Dr Edwards ar y llaw arall i mewn ar ei ben i'r cyngor plwy, ac yntau'n teimlo'n fwy o Sais Undebol na'r un Cymro arall ar glawr daear. Nid bob blwyddyn y mae pethau felly'n digwydd mor gytbwys.*

Oherwydd y diweddglo hwnnw y bydd beirniaid llenyddol henffasiwn y Brifysgol leol ym Mhrinwel, sy'n sôn am 'ddylanwadau' o hyd, yn preblan gymaint am 'ddylanwad athrawiaeth dadadeiladu' Tomos Edwards ar nofelau diweddaraf Joan Powell. Ond felly y bydd beirniad llenyddol, fel papur litmws, yn barod bob amser i sugno'u gwefusau eu hun i'r ddadl mor syml â chusanu gwynt.

(o'r gyfrol *Rhy Iach*)